Gough Adds Wales 4° 40.
8° 142.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# CYMRU:

## YN HANESYDDOL, PARTHEDEGOL,

## A BYWGRAPHYDDOL.

Digitized by Google

Digitized by Google



Drawn by F. Jones. Engraved by A. M. [illegible]

MONMOUTH,

FROM THE EAST.

BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH

# CYMRU:

## YN HANESYDDOL, PARTHEDEGOL, A BYWGRAPHYDDOL.

DAN OLYGIAD Y

## PARCH. OWEN JONES.

YN ADDURNEDIG Â MAPIAU, A THIR-DDARLUNIAU.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

CYFLYFR II.

LLUNDAIN:
BLACKIE A'I FAB, PATERNOSTER BUILDINGS, E.C.;
GLASGOW AC EDINBURGH.
1875.

Digitized by Google

GLASGOW:
W. G. BLACKIE AND CO., PRINTERS,
VILLAFIELD.

Digitized by Google

# GEIRIADUR CENEDLAETHOL CYMRU:

## HANESYDDOL, PARTHEDEGOL, A BYWGRAPHYDDOL.

---

**LACHARN** (LAUGHARNE), sydd blwyf, bwrdeisdref henafol, tref farchnadol, ac arforol, yn nghantref DERLLYS, sir GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, o fewn esgobaeth Ty Ddewi. Hen enw Cymreig y lle, oedd Aber Coran, a gelwid y lle wedi hynny, Tal Llacharn; ac oddi ar amser y maeslywydd W. Laugharne, gelwir y lle wrth ei enw ef gan y Saeson, a Lacharn yn Gymraeg.

Saif y dref ar lan orllewinol afon Taf, yn agos i'r fan yr abera hono yn Bay Caerfyrddin. Yn fuan ar ol ymsefydliad y Normaniaid a'r Flemings yn Neheudir Cymru, cymmerasant feddiant o'r parth hwn o'r wlad; ac mor fore a'r flwyddyn 1100, codwyd yma gastell cadarn, ar fin y mor, yn ddyogelfa i'r estroniaid.

Yn y flwyddyn 1215, ymosododd y Tywysog Llewelyn ab Iorwerth ar y castell, a bu mor llwyddiannus a'i ddinystrio i raddau pell, a llwyr orchfygu yr amddiffynwyr. Yn fuan ar ol ei ddinystriad y pryd hwnw, ail adeiladwyd ef, yn nheyrnasiad Harri III., gan Syr Guido de Brian, yr hwn oedd gyfoethog ac urddasol iawn yn mhlith y Normaniaid.

Bu Castell Lacharn yn le o gryn bwys yn amser y Rhyfel Cartrefol, rhwng pleidwyr Charles I., a phleidwyr Oliver Cromwell. Yn 1644, cymmerwyd meddiant o'r Castell gan y maeslywydd Wm. Laugharne; a dywedir i fyddin Cromwell warchae arno am dair wythnos yn aflwyddiannus; ond iddynt ei ddinystrio yn y diwedd. Preswylir rhanau helaeth o'r Castell hwn yn bresenol: ac y mae y gerddi paradwysaidd sydd o'i gylch, yn cynnwys pob math o ffrwythau a blodau a werthfawrogir gan arddwyr. Mae ffigysbren yn tyfu ger un o'r pyrth, yr hwn sydd yn destun syndod i bawb a'i gwelant, o herwydd ei faint, a'i brydferthwch.

Mae yr hen eglwys yn un eang a phrydferth iawn, ac yn cael ei chadw yn lân a chysegredig. Yn misoedd yr haf, y mae llawer o ymwelwyr a glanau y môr yn ardal Llanstyffan, yn talu ymweliad â Lacharn, er mwyn gweled mantell Guido de Brian, yr hon a gedwir yn barchus yn yr Eglwys, trwy yr oesau. Mantell o borphor ac aur wedi eu cyd-wau ydyw, o wneuthuriad ardderchog: ac er ei bod dros chwechant o flwyddi o oedran, y mae mewn cadwraeth weddol yn barhaus. Bu yr ysgrifenydd yn ei gwisgo unwaith o gywreinrwydd. Rhoddodd perchenog cyntaf y fantell hon, lawer o gyfoeth tirol i'r gorpholaeth, yr hyn sydd wedi bod yn elw i'r dref trwy yr oesoedd.

Mae yr eglwys wedi chyssegru i Sant Martin, a'r fywoliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, wedi bod am oesau yn rhodd deon a glwysgor Winchester. Yn ol hen freinlen y dref, y mae i gael ei llywodraethu gan Bortref, cofnodydd, henadur, dau gyfreithiwr, pedwar cwnstabl, a 76 o fwrdeisiaid. Cynnelir y marchnadoedd bob dydd Gwener, y rhai a ddiwellir yn dda, ac yn hynod rad. Cynnelir ffair yn y dref, Mai 6, a Thach. 11.

Mae *Traeth Lacharn* yn enwog iawn am ei gyflawnder o gregyn prydferth ac amrywiog, y rhai a gesglir, ac a brisir yn uchel gan ymwelwyr.

Er nad yw y dref ond bechan o ran maint, etto parhaodd am oesoedd fel dwy dref, am y preswylid un hanner iddi gan y Flemings, a'r hanner arall gan y Cymry.

Mae yn ddiarebol trwy y blyneddau am ei rhadlonrwydd, yr hyn sydd yn peri iddi gael ei phreswylio gan mwyaf, gan ddynion wedi ymneillduo oddi wrth fasnach, gyda swyddogion gwobr-daledig (*Pensioners*), &c., ac heb fod eu derbyniadau yn fawrion. Yn y dref hon y ganwyd Dr. Josiah Tucker, Deon Caerloyw, yr hwn a fu farw yn 1799, yn 87 mlwydd oed (gwel TUCKER). Maint y plwyf yw 6000 erw; yr hwn a amaethir yn dda.

Y mae yn y plwyf hwn addoldai perthynol i'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd.

Y mae teulu *Laugharne*, wedi ymsefydlu yn foreu iawn yn y plwyf hwn, sef er pan brïododd Owen Laugharne â merch Syr Guido de Brian, Arglwydd Uchel Lyngesydd Lloegr. O'r teulu hwn, mae yn debyg, yr hanodd y Maeslywydd Laugharne, yr hwn yn gyntaf a ymenwogodd fel swyddog yn myddin y Senedd; ond wedi hyny a drodd o blaid y Brenin, ac o'r diwedd, a orchfygwyd, ac a gymerwyd yn garcharor yn nghastell Penfro.

Gadawodd un Elizabeth Foster, gymmunrodd o 150*p*. at addysgu plant tlodion y plwyf hwn: a Mary Griffiths, a Jane Morgan, a roddasant 52*p*. bob un at yr un amcan. Miss Theodosia Laugharne, chwaer yr Islyngesydd Laugharne, a gymmun-roddodd 1800*p*. yn y *three per cent.*, oddiwrth log y rhai yr oedd 30*p*. yn y flwyddyn i'w talu yn gyflog i Organydd; blwydd-dal o 20*p*. yn y flwyddyn i'w llaw-forwyn dros ei



Digitized by Google

hoes; ac i fyned wedi hyny at gynnal ysgol yn mhlwyf Llangunawg; a'r gweddill i'w rhanu yn elusen i dlodion y plwyf hwn. Zachariah Thomas a gymmun-roddodd 4*p.* yn y flwyddyn, o ardreth tyddyn o'r enw Norwaddin, yn y plwyf hwn, at gynnorthwyo y tlodion; a Mrs. Letitia Cornwallis a gymmun-roddodd gan punt i'r un perwyl.

**LAFAN** (Traeth y), y traeth a adawir yn sych ar y trai, rhwng Aber a Beaumaris, yr hwn sydd tua 4 milldir o led. Meddylir mai llygriad yw yr enw o "Traeth y wylofain." Gwel yn erthygl ar Dwygyfylchi.

**LAFAR** (Is), adran o blwyf Llansantffraid Glyn Ceiriog, Cantref y Waun, Swydd Dinbach; 4½ milldir i'r Dehau o Langollen; a elwir felly am fod ei sefyllfa yn y rhan isaf o Lyn Ceiriog.

**LAFAR** (Uwch), adran yn mhlwyf Llansantffraid Glyn Ceiriog, Cantref y Waun, Swydd Dinbach; 3 milldir i'r De Ddc Orllewin o Langollen.

**LALESTON**—Trelalys, neu Llangewydd, sydd blwyf yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Penybont, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, a deoniaeth Gro Nedd Uchaf, yn swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Saif y pentref a'r Llan, yn ymyl y brif ffordd rhwng Aberafan a Phenybont, tua 4½ milldir o'r blaenaf, a dwy o'r olaf. Perchenogion y plwyf ydynt C. R. M. Talbot, Ysw.; A.S. a Iarll Dunraven. Enw cyntefig y plwyf, oedd Llangewydd; a sylfaenwyd y Llan hono gan Caw, arglwydd Cwm Cowlyd. Yr oedd yr hen eglwys hono tua milldir i'r gogledd o'r fan y saif yr eglwys bresenol. Cafodd yr Eglwys a'r pentref yr enw presenol oddi wrth Lales, adeiladydd Mynachlog Nedd, ac Abbatty Margam; yr hwn ar ol adeiladu y crefydd-dai hyn, a gafodd diroedd yn y plwyf hwn, gan Robert Iarll Caerloyw; ac wedi iddo adeiladu preswylfa iddo ei hun yn y fan y saif y pentref yn awr, tynodd yr hen Eglwys i lawr, a symmudodd y defnyddiau, i adeiladu yr Eglwys bresenol: a galwodd y lle ar ei enw ei hun—Tre Lales. Saif yr Eglwys yn nghanol y pentref, ac iddi gorph, canghell, a thwr, ac ynddo bedair cloch. Dyddiad y clychau yw 1647. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn unol ag eiddo Castell Newydd, Penybont, Bettws, a Llandudwg; yn nawddogaeth yr arglwydd Gangellydd, yn werth 250*p.* y flwyddyn. Yn 1830, adeiladodd y Trefnyddion Calfinaidd gapel bychan yma, yr hwn a ail adeiladwyd yn 1852: ac y mae capel gan y Bedyddwyr yn y lle, er y flwyddyn 1848.

**LAMBSTON**, plwyf yn Nghantref Rhos, Swydd Benfro; 3 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Y mae y plwyf hwn, yr hwn sydd yn gorwedd yn y parth Gorllewinol o'r Sir, yn cynwys 1761 erw o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1321*p.* Poblogaeth y plwyf yn 1861, oedd 216. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi; gwerth 164*p.* yn nawddogaeth Coleg Penfro, Rhydychain.

**LAMFA**, neu Llamfa, treflan yn mhlwyf Llansantffraid Fwyaf, Cantref Ogmore, swydd Forganwg; ar yr afon Ewenni; 2 filldir i'r De Dde Ddwyrain o Ben y bont. Poblogaeth, 135. Tai annedd, 27.

**LAMPHEY**, neu Llanffydd, plwyf yn Nghantref Castell Martin, Swydd Benfro; 2 filldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o dref Penfro; gerllaw rheilffordd Penfro, a Dinbych y Pysg. Cynnwysa 1976 erw o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1248*p.* Poblogaeth yn 1861, 365. Tai, 67. Yr oedd y lle hwn, yr hwn sydd wedi cael yr enw oddiwrth yr amgylchiad o gyssegriad ei eglwys i St. Ffydd, yn mysg y llannerchau cyntaf a feddiannwyd gan y Normaniaid. Dywaid *Buck*, medd *Grose*, ei bod yn ben un o arglwyddiaethau y Cyffin-diroedd; ac mewn adeg foreuol, cynnwysai un o anneddau tywysogaidd esgobion Ty Ddewi, o'r hwn y mae cryn weddillion yn aros. Nid ydys yn sicr pa bryd y daeth y lle yn feddiant eglwys archesgobol Ty Ddewi yn gyntaf, a'r eglwys esgobol wedi hyny; ond y mae gweithred, wedi ei dyddio yn Lamphey, yn nghanol y drydedd ganrif ar ddeg, gan yr esgob Carew, ar gael eto; ac yn ol Giraldus Cambrensis, ymddengys ei bod yn drigfa esgobol yn amser Arnulph de Montgomery, yr hwn a gymerodd feddiant o'r rhan yma o'r dywysogaeth, yn amser teyrnasiad Harri I. O leiaf, cafodd rhan fawr o'r llys esgobol, (yr oll o hono yn ol rhai Haneswyr), ei adeiladu gan yr esgob Gower, yn y flwyddyn 1335; ond, y mae yr amryfal arddulliau adeiladaeth a ganfyddir yn yr adfeilion, yn dangos yn amlwg ei fod yn waith cyfnodau olynol, ac na's cyrhaeddodd yr ysblander, am yr hyn y bu mor nodedig, ond trwy ychwanegiadau a gwelliannau ei berchenogion olynol; ac y mae yn dra thebyg, mai yr esgob Gower a adeiladodd y neuadd fawr, a'r twr petrual, yr hwn oedd mor hardd-wych. Trosglwyddwyd y rhan yma o feddiannau esgobaeth Ty Ddewi i'r goron, gan yr esgob Barlow, yn nheyrnasiad Harri VIII., gan yr hwn y rhoddwyd Lamphey, i Devereux, Is-iarll Henffordd, tad yr anffodus Iarll Essex, yr hwn a dreuliodd lawer o flyneddoedd ei ieuenctyd yn y palas hwn. Gwedi cwymp Iarll Essex, yn nheyrnasiad Elizabeth, prynwyd yr ettifeddiaeth hon gan Syr Hugh Owen o Orielton; ac un o hiliogaeth y gwr hwnw, y diweddar Syr John Owen, Barwnig, a'i gwerthodd i Charles Mathias, Ysw., yr hwn a adeiladodd y palas newydd hardd, a elwir *Lamphey Court*, ag iddo bendist ardderchog, o bedair colofn Ionaidd, ac o fewn ei ardd, yn ngwaelod dyffryn cysgodol, y mae adfeilion yr hen lys esgobol. Y mae amryw balasdai heirdd eraill, yn cael eu cyfanneddu gan deuluoedd cyfoethog, yn y plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 97*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi.

**LANDORE**; neu, yn hytrach Landwr, pentref yn mharth Gorllewinol swydd Forganwg; ar yr afon Tawe, a rheilffordd Deheudir Cymru; milldir a haner i'r Gogledd wrth Ddwyrain o Abertawe. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa dan Abertawe. Y mae y rheilffordd yn croesi y Tawe yma ar ffordd-bont goed, 1797 o droedfeddi o hyd, a 37 o dranialau.

**LANTWIT** juxta Neath, neu Llanilltyd Isaf, plwyf yn cynnwys trefgorddau Clyne, Llanilltyd, a *Resolvend*, yn nghantref Nedd, swydd Forganwg; ar lan yr afon Nedd, a cherllaw rheilffordd Deheubarth Cymru; milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Gastell Nedd. Mesura 10,990 o erwau o dir, a chyfrifir ei werth ardrethol yn 8311*p.*; o ba rai y mae 2549*p.* mewn mwngloddiau; 100*p.* mewn cloddfeydd; a 12*p.* yn y ddyfr-ffos. Poblogaeth yn 1851, 1992; yn 1861, 2232. Tai annedd, 426. Y mae y rhan fwyaf o'r trigolion ar waith yn y glofeydd, ac yn masnach Castell nedd. Y fywioliaeth eglwysig sydd yn is-berigloriaeth wastadol, mewn cyssylltiad â pherigloriaeth Castell nedd, yn esgobaeth Llandaf. Y mae yr eglwys yn henafol, gerllaw

Digitized by Google

yr afon a'r ddyfr-ffos, a thŵr o ymddangosiad hynod yn perthyn iddi; ac y mae wedi ei chyssegru i goffadwriaeth Illtyd Sant. Yr oedd yn y plwyf hwn gapel o'r enw yr Ynys Fach, dalm o amser yn ol; ond nid ymddengys iddo gael ei gyssegru erioed, ac fe'i gollyngwyd i adfeilion er's llawer o flyneddoedd.

Yn y flwyddyn 1692, cymmun-roddodd un Morgan Jenkins, ychydig o dir at wasanaeth tlodion y plwyf hwn.

**LANTWIT VAIRDRE.** Gwel LLANILLTYD Y FAERDREF.

**LAUGHARNE,** Caerfyrddin. Gwel LACHARN.

**LAUGHARNE,** ROWLAND, swyddog milwraidd enwog, yn adeg y rhyfel cartrefol, oedd frodor o Swydd Benfro. Efe a aeth i wasanaeth Iarll Essex, fel ei ysginog (*page*), pan yn ieuanc, a thrwy nawddogaeth y pendefig hwnw, cafodd ddyrchafiad cyflym yn myddin y Senedd. Wedi cyrhaedd y radd o filwriad, ac Is-gadfridog, efe a orchfygodd y byddinoedd breninol amryw weithiau, yn Sir Benfro, a'r Siroedd cymmydogol; ac fel cydnabyddiaeth am ei wasanaeth gwerthfawr, penderfynwyd gan y Senedd, yn y flwyddyn 1645, bod ettifeddiaeth Slebech, yn Swydd Benfro, i gael ei gwneyd drosodd iddo ef, ac i'w ettifeddion. Yn gynar yn y flwyddyn 1648, darfu i'r Is-gadfridog Laugharne ymuno â'r breninolwyr, yn yr ymgais diweddaf a wnaed yn ystod y rhyfel cartrefol, i amddiffyn hawlion y penteyrn; a'r brenin a ymddiriedodd lywyddiaeth ei fyddinoedd iddo, ac ar yr 8fed o Fai, a chanddo wyth mil o wŷr dano, efe a ymladdodd frwydr â byddin y Senedd dan y Milwriad Horton, yn agos i St. Ffagan, yn Swydd Forganwg; ac wedi ymdrechfa galed, fe'i llwyr orchfygwyd, a chafodd rhan fawr o'i fyddin eu lladd, neu eu carcharu. Laugharne ei hunan a ddiangodd i gastell Penfro, lle y gwarchaewyd arno yn ebrwydd, gan Cromwell yn bersonol. Efe a gadwodd feddiant o'r castell hyd yr 11eg o Orphenaf, ac yn y cyfamser gwnaeth y gwarchlu lawer ymdrech ofnadwy i dori trwy y gwarchaewyr; ac yn y cyfryw ruthriadau, ni chymerid carcharorion, ond pawb yn lladd eu gilydd yn ddiarbed: ond o'r diwedd, daeth mor gyfyng ar y gwarchaëedig am ymborth i'w meirch, fel y ceisient eu cadw yn fyw â gwellt tô eu tai; ac o ganlyniad, bu raid i Laugharne, a'r milwriaid Powell, a Poyer, eu rhoddi eu hunain i fynu yn ddi ammodol; a chaniattawyd i'r swyddogion eraill ymddeol dros y moroedd. Y tri charcharor crybwylledig uchod, a garcharwyd yn nghastell Windsor am oddeutu blwyddyn, ac ar y 10fed o Ebrill, 1640, fe'u dygwyd i brawf o flaen llys milwraidd yn Llundain, a dyfarnwyd y tri i gael eu dienyddio. Pa fodd bynag, caniattawyd iddynt dynu cwtws, a'r cwtws a ddisgynodd ar Poyer, yr hwn a saethwyd yn *Covent Garden*, ar y pumed ar hugain o'r mis hwnw; ond yr oedd llawer yn meddwl fod y cytysau wedi eu trefnu felly yn fwriadol, oddiar ystyriaeth o'r gwasanaeth pwysig a wnelsai Laugharne a Powel o'r blaen i'r Senedd. Ond er hyny difuddiwyd ef o ettifeddiaeth Slebech, trwy benderfyniad y Senedd, dyddiedig Hydref 18, 1649.

**LAVERNOCK**—*Llywernog*, neu Llan Wernog; sydd blwyf bychan yn nghantref Dinas Powys, yn Undeb, a Dosparth Llys Sirol Caerdydd, Deoniaeth, Archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, yn swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU: a'i safle ar lan Mor Hafren, saith milldir i'r De Dde-orllewin o Gaerdydd. Mesura y plwyf 1014 erw o arwyneb; 612 o'r cyfryw sydd dir amaethyddol. Ardalydd Bute yw arglwydd y faenor, a Barwnes Windsor ac yntau, yw perchenogion yr holl blwyf. Mae yr Eglwys wedi ei chyssegru i St. Lawrence, a hi yw yr unig le addoliad yn y plwyf. Rectoriaeth yw y fywioliaeth yn unol a Phenarth; a'r ddwy yn werth 200*p*. y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Barwnes Windsor. Mae y Llywodraeth wedi prynu darn o'r plwyf hwn i'r dyben o adeiladu amddiffynfa arno. Poblogaeth y plwyf yn 1871 oedd 109.

**LAWRENCE** (ST.), plwyf, yn nghymmydogaeth HWLFFORDD, Swydd BENFRO; ar lan yr afon Cleddau, 7 milldir i'r Gogledd Orllewin o orsaf *Clarbeston Road*, ac 8 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o Hwlffordd. Llythyrfa, *Wolf's Castle*, dan Hwlffordd. Erwau, 1751. Gwerth ardrethol, 904*p*. Poblogaeth, 205. Tai annedd, 41. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Tyddewi. Gwerth 80*p*. Noddwr, yr arglwydd Ganghellydd. Y mae y plwyf hwn yn gorwedd yn y parth gogledd orllewinol o'r Sir, a'i arwyneb yn fryniog gan mwyaf.

**LAWRENNY,** plwyf yn nghantref NARBERTH, swydd BENFRO, 5 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o orsaf rheilffordd Penfro. Erwau, 2672; o ba rai y mae 310 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1692*p*. Poblogaeth, 339. Tai annedd, 74. Y mae helaethrwydd o geryg calch yn cael eu cyfodi yn y plwyf hwn; ac y mae ei gloddio, a'i losgi, yn rhoddi gwaith i lawer o'r trigolion; llawer o ba rai hefyd a fyddant ar waith yn y gauaf yn treill-rwydo llymeirch, o ba rai yr anfonir llawer i wahanol farchnadoedd yn Lloegr. Y mae y tir yn eiddo G. Lort Phillips, Ysw., o Blas Lawrenny. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 168*p*. Noddwr, George Lort Phillips, Ysw. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i St. Caradog, hen feudwy a hanai o deulu cyfrifol yn swydd Frycheiniog. Y mae yr eglwys yn adeilad hardd, a da; ac y mae tua haner cant o bunnau at law y swyddogion plwyfol, i'w rhanu yn flyneddol mewn elusenau.

**LEADBROOK** (FWYAF a LLEIAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Llaneurgain, swydd FFLINT; 2 filldir i'r Dehau o Fflint. Poblogaeth, 106 a 49. Tai annedd, 21 a 7.

**LECKWITH,** neu LLANFIHANGEL LEGWYDD, sydd blwyf, o fewn dwy filldir i Gaerdydd, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Gan fod ei sefyllfa mor agos i dref fawr fasnachol, mae yn naturiol iddo gyfranogi i raddau o bwysigrwydd y dref hono. Rhed afon Elai trwy ran o'r plwyf hwn, ac abera yn ngodre y plwyf: ac y mae cangen Gledrffordd Penarth hefyd yn rhedeg trwyddo. Gan fod masnach helaeth yn cael ei dwyn yn mlaen ar y gledrffordd hon, y mae wedi dwyn y plwyf hwn i fwy o werth yn y blyneddau diweddaf. Y prif weithfeydd a ddygir yn mlaen yn y plwyf, ydynt Waith Rhaffau, gwaith calch, a gwaith Goleunwy (*Gas-works*) Caerdydd. Yr Eglwys yw yr unig addol-dy yn y plwyf; bywioliaeth yr hon sydd rectoriaeth yn unol a Llandoche a'r Cogan, yn nawddogaeth Ardalydd Bute; yr hwn yw perchen y plwyf, ac arglwydd y faenor. Poblogaeth y plwyf yn 1871, oedd 169.

**LEIGHTON,** capeloriaeth trefgorddawl yn mhlwyf Worthen, yr hwn sydd yn y rhan-barth isaf o gantref CAWRSE, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r De Ddwyrain wrth Ddehau o'r Trallwm; gerllaw Clawdd Offa, a'r afon Hafren, ac yn agos i reil-ffordd Caerlleon a Llanidloes, islaw y Mynydd Hir, yn agos

Digitized by Google

i derfyn sir Amwythig. Llythyrfa, y Trallwm. Erwau, 1870. Gwerth ardrethol, 4199*p*. Poblogaeth yn 1851, 297; yn 1861, 431. Tai, 83. Yr achos o gynnydd y boblogaeth, oedd presenoldeb nifer o weithwyr dros amser, ar ettifeddiaeth boneddwr yn y gymmydogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, mewn cyssylltiad a Ficeriaeth Trelystan, neu Wolston Mynd, yn esgobaeth Henffordd.

**LETTERSTON**, neu LETTARDSTON, plwyf yn nghantref TIR DEWI (*Dewi's Land*), Swydd BENFRO, ar gangen o'r afon Cleddau; 7 milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Ogledd o orsaf *Clarbestone Road;* a 9 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o dref Hwlffordd; ac yn meddu Llythyrfa dan Hwlffordd. Y mae y plwyf yn cynnwys 2216 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1440*p*. Poblogaeth, 511. Tai annedd, 120. Y mae y plwyf hwn wedi cael ei enw oddi wrth hen deulu y Lettards, i'r rhai y perthynai yn yr amser gynt, a'r rhai a roddasant nawddogaeth y fywioliaeth, yn nghyda Chapel Llanfair, i addysgdy Marchogion St. Ioan o Jerusalem, yr hwn a sefydlasid yn Slebech, yn y sir hon. Y mae y plwyf yn gorwedd mewn llannerch hyfryd, yn y rhan ogledd orllewinol o'r wlad; ac fe'i trawsir gan y briffordd o Hwlffordd i Abergwaun. Y mae y fywioliaeth Eglwysig yn berigloriaeth, unedig ag is-beriglor-iaeth wastadol Llanfair Nant y Gof, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 387*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Giles.

**LEWIS** AB EDNYFED, bardd oedd yn ei flodau, rhwng 1540, a 1570.

**LEWIS** AB EDWARD, bardd a flodeuai rhwng 1600, a 1630. Y mae amryw o'i Gyfansoddiadau ar gael mewn hen ysgrif-lyfrau.

**LEWIS** AB HYWEL, bardd a flodeuai rhwng 1560, a 1600. Y mae rhai o'i Gyfansoddiadau yntau ar gael mewn ysgrifen.

**LEWIS** AB IFAN AB SIANCYN, difeinydd a bardd o Fôn, yr hwn a flodeuai tua 1570, i 1600.

**LEWIS**, DAVID, D.C.L., a gymerodd ei raddau yn ngholeg yr Holl Saint, Rhydychain. Bu wedi hyny yn bennaeth Coleg yr Iesu, yn farnwr yr Uchel Lyngeslys, yn Arlywydd Ysbytty St. Catharine, gerllaw tŵr Llundain, ac yn un o feistri y Cangell-lys, a Deisyf-lys ei Mawrhydi. Efe a fu farw Ebrill 27, 1584, yn y Rheith-goleg (*Doctors' Commons*), a chludwyd ei gorph i'r Fenni, lle ei claddwyd ar y 24 o'r mis Mai canlynol, yn nghangell ogleddol yr eglwys yno, o fewn cyntedd bychan a elwir Capel Lewis, lle y mae cofadail hynod, wedi ei ffurfio o un maen, yr hwn a barottoisai y Dr. Lewis yn ei fywyd.

**LEWIS**, GEORGE, D.D., Llanuwchllyn, ydoedd weinidog enwog gyda'r Annibynwyr, ac un o brif ddynion ei oes. Ganwyd ef mewn tyddyn a elwid Y Coed, ger tref Caerfyrddin, yn 1763. Yr oedd ei fam yn ddynes pur grefyddol, ac yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, yn egwyddorion pa un y gwnaeth ei goreu i ddwyn ei mab i fyny. Cafodd addysg elfenol dda o'i ieuenctyd, a gellir dyweyd ei fod er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lan. Pan oedd tuag 16eg oed, daeth pregethwr poblogaidd perthynol i'r Annibynwyr trwy y wlad, gan dynu tyrfaoedd ar ei ol; aeth yntau yn mhlith y lluaws i'w wrandaw i gapel Trelech, a bu y bregeth yn argyhoeddiadol iddo. Wedi boddloni ei hun wrth ddarllen y Testament Newydd, a Holwyddoreg yr Ymneillduwyr, am ysgrythyroldeb y drefn eglwysig Annibynol, efe a ymunodd ar eglwys yn nghapel y Graig, yr hon oedd ar y pryd o dan weinidogaeth Owen Davies. Cymerodd hyn le tua'r flwyddyn 1780. Dechreuodd bregethu yn fuan, ac i'r dyben o'i gymwyso i fyned i'r athrofa, aeth i Thilic o dan addysg yr ysgolfeistr enwog, Davies Castell Howel, lle yr arosodd am tua blwyddyn a haner, ac y daeth yn alluog i ddarllen y Roeg a'r Lladin. Yna aeth i athrofa Caerfyrddin, ond ni bu yno ond rhyw dair blynedd, gan i'r athrofa gael ei symud i Abertawe.

Yr oedd hen eglwys Pencader wedi rhoi ei meddwl arno er ys talm, ac yn meddwl am ei gael yn weinidog ar ol iddo orphen ei athrofa, ac yr oedd yntau yn gogwyddo yn gryf at dderbyn ei galwad; ond, pa fodd bynag, ar gais yr "Hen Brophwyd o Bontypool" aeth ar daith i'r Gogledd, ac yn neillduol i Gaerynarfon, lle y rhoddwyd iddo alwad; yntau, gan ei fod wedi rhoddi ei feddwl ar Bencader, ac wedi addaw wrth y frawdoliaeth hono na dderbyniai efe un alwad nes y clywai oddiwrthynt, a betrusai am gyfnod ei derbyn. Ond wedi hir ddysgwyl yn ofer am glywed o Bencader, efe a dderbyniodd alwad Caerynarfon, ac urddwyd ef tua diwedd 1784. Ond gyda ei fod wedi cael ei urddo, dyma alwad Pencader i law, wedi bod haner blwyddyn ar ei thaith o'r naill fan i'r llall—yr Iwerddon, ac Ysgotland, a manau eraill. Ond yr oedd bellach yn rhy ddiweddar; yr oedd y coelbren wedi disgyn ar George Lewis i fyw a marw yn y Gogledd. Er nad oedd efe ar y pryd ond gwr ieuanc, a chanddo holl elyniaeth a rhagfarn y wlad at Ymneillduaeth i ymladd yn eu herbyn, eto efe a weithiodd ei ffordd yn rhagorol; adeiladodd gapel yn Nghaerynarfon, a sefydlodd achosion newyddion yn Bethel, Bethesda, Bangor, a'r cymydogaethau. Tra yn Nghaerynarfon, efe a briododd ag ail ferch Thomas Jones, Ysw., Bodermid, o'r hon y cafodd dri o blant—dau fab, ac un ferch. George, yr hynaf, oedd feddyg yn Ngwrecsam; a William yn feddyg cyfrifol yn Llundain; a Sarah yn briod ag Edward Jones, M.A., athraw clasurol athrofa Aberhonddu.

Yn yr adeg hon yr oedd ymfudo mawr i America; a chan fod George Lewis yn weriniaethydd selog, ac yn dyoddef llawer yn barhaus o herwydd hyny, efe a benderfynodd i hwylio i wlad y rhyddid. Ond tra yr oedd yn parotoi i'r fordaith, daeth i feddwl yr haelfrydig Jones o Gaerlleon, i sefydlu chwech o ysgolion cylchdeithiol yn Ngogledd Cymru, a thrwy gyfarwyddyd Dr. Williams o Groesoswallt, wedi hyny o Rotherham, pennodwyd ar George Lewis i'w harolygu; ac felly fu. Barnai ef a'i gyfeillion bod cael gafael yn y fath gyfleustra rhagorol i lesoli ei gydwladwyr, yn ddigon o reswm dros iddo roddi i fyny ei fwriad o fyned i America, a phenderfynu aros gartref. Gwnaeth ei benderfyniad yn hysbys mewn cyfarfod mawr yn y Bala, Mai 1794, er llawenydd mawr i'r eglwysi. Yn fuan ar ol hyn, derbyniodd alwad hen eglwys Llanuwchllyn, a symudodd yno yn nghorph yr haf. Bu arddeliad neillduol ar ei lafur yn Llanuwchllyn; pan aeth ef yno, nid oedd nifer yr eglwys ond prin bedwar ugain, ond cyn pen deunaw mlynedd, yr oedd yn rhifo dros ddau cant a haner. Yr oedd ei barch a'i ddylanwad yn yr ardal, braidd yn annghredadwy, fel y dywedai Dr. Ellis Evans, Cefnmawr, yr hwn oedd frodor o'r lle, ac yn byw yno ar y pryd, bod yr Arglwydd wedi

Digitized by Google

gwneyd yn dda ei symud oddiyno i Wrecsam, rhag i'r bobl fyned i'w addoli! Yr hyn a brawf mai dyn anarferol oedd George Lewis.

Pan yn anterth ei lwyddiant yn Llanuwchllyn, trefnodd Rhagluniaeth iddo gael ei symud i gymeryd gofal athrofa yr Annibynwyr yn Wrecsam. Yma, gwaelodd ei iechyd yn fawr, o ba herwydd, barnwyd yn ddoeth i symud yr athrofa i Lanfyllin, yn 1816, a thrachefn i'r Drefnewydd, swydd Drefaldwyn, yn 1821; ond er pob peth, parhau i waelu yr oedd ei iechyd, a bu farw yn dawel yn yr Arglwydd, Mehefin 5, 1822, yn 59 oed.

O ran ei gorph, yr oedd yn agos i ddwy lath o daldra, ac yn crymu ychydig yn ei ysgwyddau. Yr oedd ganddo dalcen uchel a llawn, llygaid dwysgraff, o dan amddiffyniad eiliau duon, cydnerth; y rhai a roddent ystyr ac argraff i'w holl wynebpryd. Yr oedd penderfyniad, yni, a dyfal barhad, yn brif elfenau yn ei gymeriad, y rhai, wedi eu sancteiddio gan ras, ac ymddadblygu mewn duwioldeb dwfn a sylweddol, a'i gwnelent ef yn ddyn tra gwerthfawr yn ei oes, ac a enillent iddo barch dauddyblyg. Gadawodd i'w genedl ddau waith tra gwerthfawr, sef "Corph o Dduwinyddiaeth," yr hwn a gyhoeddodd efe yn 1797, yn un gyfrol wythplyg; ac Esboniad ar y Testament Newydd, yn saith gyfrol wythblyg; yn nghydag amryw o fan draethodau. Fel cydnabyddiaeth o'i deilyngdod, anrhegwyd ef a D.D. gan un o brif-ysgolion America, yn y flwyddyn 1810.

**LEWIS,** Syr George Cornwall, ydoedd fab i Syr Thomas Frankland Lewis o Harpton Court, swydd Faesyfed, o'i wraig Harriet, ferch Syr George Amyand Cornwall o Mocas Court, swydd Henffordd. Ganwyd ef Hydref, 1806. Wedi derbyn elfenau ei addysg yn ngholeg Eton, aeth i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1824. Cymerodd ei B.A. yn 1828. Dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr yn y Deml Ganol, a galwyd ef i'r Llys Dadleuol, yn 1831. Yn 1844, efe a briododd Lady Mena Theresa Villiers, chwaer i arglwydd Clarendon. Yn 1847, etholwyd ef yn A.S. dros swydd Henffordd, pan y gwnawd ef yn ysgrifenydd y *Board of Control.* Yn 1848, daeth yn is-ysgrifenydd Cartrefol; ac yn 1850, yn ysgrifenydd y Trysorlys. Yn yr etholiad cyffredinol yn 1852, bu yn aflwyddianus yn erbyn yr ymgeisydd Derbyaidd dros swydd Henffordd; ac yn fuan ar ol hyny, methodd am aelodaeth dros Peterborough; felly, enciliodd am dymor o faes gwleidyddiaeth. Yn Rhagfyr, 1852, pennodwyd ef yn olygydd yr *Edinburgh Review;* a pharhaodd yn y swydd hono hyd ddechreu 1855, pryd yr olynodd ei dad yn y farwniaeth, ac hefyd yn nghynnrychiolaeth bwrdeisdref Maesyfed, a chafodd ei bennodi yn ganghellydd y trysorlys yn ngweinyddiaeth arglwydd Palmerston. Aeth allan gyda y Whigiaid yn Chwefror, 1858; ond pan ffurfiodd Palmerston ei ail weinyddiaeth yn Mehefin, 1859, galwyd Gladstone i'r swydd o ganghellydd, a derbyniodd Syr George C. Lewis seliau y swyddfa artrefol. Ar farwolaeth arglwydd Herbert, pennodwyd ef yn ysgrifenydd y swyddfa rhyfel. Bu farw yn ei balas, yn Harpton Court, Ebrill 13, 1863, yn 57 oed.

Er ei holl lafur gwleidyddol, hebgorodd lawer o'i amser at lenyddiaeth, a gadawodd y gweithiau canlynol ar ei ol, yn brofion o'i alluoedd a'i ddiwydrwydd:—"History and Antiquities of the Doric Race," "Criticism on German Criticism," "Inquiry into the Credibility of Early Roman History," "The Origin and Foundation of the Roman Languages," "On the Influence of Authority in Matters of Opinion," "On the Use and Abuse of Political Terms," "On Local Disturbances and the Irish Church Question," "On the Government of Dependencies," "On the Method of Observation, and Reasoning in Politics," "On the Astronomy of the Ancients," a "Dialogue on the Best Form of Government." Cyfieithodd hefyd "Chwedlau Babrius" i'r Saesneg.

**LEWIS,** Lang, neu Lewis Gig Eidion, ydoedd fardd ffraeth a digrifol, rhwng 1580 a 1620. Dywedir bod llawer o'i waith yn nghadw mewn ysgrifiyfrau.

**LEWIS,** Thomas, o'r Llechau, plwyf Llanharan, Morganwg, ydoedd fardd rhagorol, rhwng 1590 a 1620. Mae llawer o'i waith wedi ei ddefnyddio i egluro Mesurau Cerdd Dafod, yn *Nghyfrinach y Beirdd.* Difynwn un penill:—

"Fal Hydd am afonydd 'rwyf fi
Yn galed yn dy' mofyn Geli;
Iesu pur o'th dosturi
Erglyw tost lefain fy ochain i,
Bydd borth a chymhorth gwych imi;
Tro Ion dy was o'r trueni;
Fy Nuw wyd, rhaid yt fy nodi,
Ag eilchwyl rhaid yw'm golchi,
Yn y gwaed, paid Ion ag oedi,
A ddaeth o'th fron dirion di."

**LEWIS GLYN COTHI.** Gelwid yr Hanesfardd ffraethbert hwn, yn Lewis y Glyn, a Llewelyn Glyn Cothi, yn ogystal a Lewis Glyn Cothi. Bu fyw dan deyrnasiad pedwar o frenhinoedd Lloegr, sef Harri VI., Edward IV., Richard III., a Harri VII. Mae Hanesiaeth wedi bod yn hynod esgeulus gyda golwg ar gofnodi manylion hanes y bardd gwych a galluog hwn, ac felly nid oes genym ddim i'w wneyd, ond ceisio gosod yn nghyd yr ychydig sydd ar gael o'i hanes, rhag ei lwyr golli.

Fel y dengys ei len-enw, yr oedd yn frodor o Lyn Cothi, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru. Dywed traddodiad, mai yn y lle a elwir Pwllcynbyd y magwyd ef, a'i fod yn hanu o deulu anrhydeddus a chyfoethog; a bod ganddo yntau lawer o eiddo yn ardal Abergwili. Yn ol coflyfr Eglwys Llanfihangel-rhos-y-corn, ceir i un Ellinor Lewis o Bwllcynbyd gael ei chladdu yno yn 1771; a barna rhai fod achau Lewis wedi trigo yn y tŷ hwnw, o amser y bardd hyd y flwyddyn a nodwyd. Pa fodd bynag, ymddengys iddo ef dreulio y rhan fwyaf o'i fywyd, yn neillduol rhanau cyntaf ac olaf ei oes, ger glanau afon Cothi,—ardal sydd yn llawn o ddelweddau barddonol, y rhai a gawsant argraff ddwfn ar ei feddwl awenyddol. Yn ei amser ef y torodd allan Ryfel y Rhosynau yn y wlad, rhwng teuluoedd York a Lancaster: ac y mae y ffaith iddo ef gymmeryd rhan flaenllaw iawn yn nygiad y rhyfel hono yn mlaen, yn brawf anwadadwy, ei fod yn ddyn o safle uchel, a dylanwad mawr yn y wlad. Gan ei fod mor hyddysg yn achyddiaeth prif deuluoedd y deyrnas, ac felly yn meddu mantais i farnu pa un o'r ddau deulu mewn dadl, a feddai fwyaf o hawl i'r goron, ni phetrusodd ymrestru o blaid Tŷ Lancaster, o dan Jasper Tudur, Iarll Penfro, ac yr oedd yn un o'r prif swyddogion yn ei fyddin.

Pan ddaeth Edward IV. i'r orsedd, yn 1472, gorfu ar yr Iarll o Benfro ffoi o'r wlad rhag dialedd y

Digitized by Google

brenin; a gwnaeth Ffraingc yn ddinas noddfa. Yn gymmaint a bod Lewis Glyn Cothi yn swyddog mor uchel yn myddin Jasper Tudur, a bod yr Iarll wedi gorfod ffoi am ei einioes, nid ystyriai y bardd fod ei fywyd yntau yn ddiberygl, tra yr oedd un o deulu York ar yr orsedd: ac felly efe a newidiodd ei wisg filwrol am wisg boneddwr cyffredin; ac a aeth i fyw i Gaerlleon Gawr, lle nad oedd neb yn ei adwaen. Bu yn nghudd yn y ddinas hono am gryn amser; ac a briododd weddw un o'r dinaswyr. Tra yr oedd ef yn trigo yn Nghaerlleon yn ddirgelaidd, yr oedd yr awdurdodau Yorkïaidd, yn dra awyddus i wybod yn mha le yr ymguddiai; a chwilient am dano braidd yn mhob cwr o'r wlad. O'r diwedd daeth ei drigfan yn hyspys; a rhoddwyd gorchymyn i Faer, a swyddogion ereill Caerlleon Gawr, i'w ddal, a'i gymmeryd yn garcharor. Yn unol a'r gorchymyn, ymosodwyd ar ei dŷ, attafaelwyd ei ddodrefn, ac o'r braidd y diangodd yntau heb ei ddal. Ffodd pa fodd bynag at Reinallt ab Griffith, ab Bleddyn; yr hwn oedd yn byw ar y pryd, yn *Y Twr*, yn sir Fflint. Derbyniodd ac amddiffynodd hwnw ef yn ddewr: ac er i lawer cais gael eu gwneyd i'w ddal ef a'i noddydd, trodd yr holl geisiadau allan yn aflwyddiannus.

Tra yn aros yn *Y Twr*, cyfansoddodd amryw Gywyddau gorchestol, y rhai a gyfeiriant at yspeiliad ei feddiannau, &c., gan Faer Caerlleon a'i gymdeithion: a dynoetha eu gormes mewn iaith gref, a senol. Mae ei gyfansoddiadau barddonol gan mwyaf yn dal cyssylltiad ag helyntion terfysglyd y wlad yn ei amser ef; a chynnwysant gyfeiriadau hanesyddol gwir werthfawr, y rhai sydd yn rhoi llawer o oleuni ar hanes Prydain yn y 15fed ganrif.

Wedi i deulu Lancaster adfeddiannu gorsedd Lloegr, yn mherson Harri VII., adferwyd y bardd o Lyn Cothi i'w ryddid, a'i barch cynhenid: a threuliodd y rhan olaf o'i oes yn ardal ei febyd, mewn amgylchiadau gwir gysurus. Nid yw dyddiad ei farwolaeth ar gael, ond bernir oddi wrth amseriad ei gyfansoddiad olaf, sef 1486, iddo orphen ei yrfa yn fuan ar ol hyn, ac iddo gael ei gladdu yn Abergwili. Yn y flwyddyn 1837, darfu i Gymrodorion Llundain ddwyn allan argraffiad gwych o'i waith, gyda Rhagdraith cynnwysfawr gan y diweddar Barch. J. Jones (*Tegid*), a nodiadau eglurhaol i'r cyfansoddiadau, gan y diweddar enwog hynafiaethydd, y Parch. W. Davies, (Gwallter Mechain).

Cynnwysa y gyfrol 513 o dudalenau; ac y mae y gwaith wedi ei ranu yn wyth dosparth, gyda threfnusrwydd deheuig: a thrueni yw, na ddygid allan ail argraffiad o hono, fel y byddai yn feddiant mwy cyffredinol i'r genedl.

**LEYSHON**, Dafydd Griffith, LL.D. o Briordy Caerfyrddin, a raddiwyd yn ngholeg Neuadd St. Edmund, Rhydychain, Ionawr 24, 1532. Yr oedd wedi gwadu y ffydd Brotestanaidd, ac yn Babydd penboeth, ac erlidgar. Bu ganddo law yn merthyrdod Stephen Gardener, esgob Caerwynt; a'r esgob Farrar, yr hwn a ferthyrwyd yn Nghaerfyrddin, dros ba un yr oedd efe ar y pryd yn sirydd. Bu farw yn druenus yn 1557.

**LEYSHON**, Thomas, abad mynachlog St. Mair, Castellnedd, a gafodd ei raddio yn B.C.L. yn Rhydychain, yn 1510; ac yn 1512, yn B.D., o goleg St. Bernard. Ysgrifenwyd Cân o glod iddo gan Lewys Morganwg, yn 1520. Bu farw rywbryd rhwng 1520 a 1535, ac olynwyd ef gan Lewis ab Dafydd, yr hwn oedd mewn meddiant yn amser dadymchweliad y mynachdai gan Harri VIII.

**LEYSHON**, Thomas, ydoedd frodor o Gastellnedd, Morganwg. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Caerwynt, ac yn 1569, gwnawd ef yn gymrawd o'r Coleg Newydd, Rhydychain. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, efrydodd physygwriaeth; ac yn 1583, dewiswyd ef yn brwyadur y brifysgol. Yn fuan ar ol hyny graddiwyd ef mewn physygwriaeth, ac ymsefydlodd yn Nghaerbaddon, lle y daeth yn enwog yn ei gelfyddyd. Yr oedd yn Ysgolor Lladin rhagorol; ac ysgrifenodd yn yr iaith hono Gân ddysgrifiadol o Gastell Donat, Morganwg, yr hon a gyfieithwyd i'r Gymraeg, gan Dr. John Dafydd Rhys. Bu farw yn Nghaerbaddon rywbryd ar ol 1607, a chladdwyd ef yn eglwys St. James, yn y dref hono.

**LORTE**, Roger, bardd Seisnig o gryn enwogrwydd, ydoedd fab ac etifedd Henry Lorte, o Stackpoole, swydd Benfro, lle y ganwyd ef yn 1608. Graddiwyd ef yn ngholeg Wadham, Rhydychain, yn 1627, a gwnawd ef yn farwnig yn 1662. Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth Seisnig yn 1647. Ni wyddis pa bryd y bu farw. Yr oedd un arall o'r teulu, o'r enw William Lorte, yn amser Iago I., a ystyrid yn fardd da.

**LOUGHER**, Robert, D.C.L., y gwladreithiwr enwog, a anwyd yn Dinbych y Pysgod, swydd Benfro, a chafodd ei raddio a'i uchelfreinio yn ngholeg All Souls', Rhydychain, yn 1564-5. Yr oedd ar y pryd yn brif-athraw coleg New Inn, ac yn fuan ar ol hyny gwnawd ef yn broffeswr y Frenhines o'r Gyfraith Wladol, ac yn ganghellydd Exeter. Yn Mai, 1577, crewyd ef yn swyddog eglwyslys archesgob Caerefrog, ac yn brif ficer iddo, tra yr oedd hefyd yn swyddog yn y *Court of Arches*. Bu farw yn ei dref enedigol, Mehefin, 1583.

**LOVE**, Christopher, yr anffodus, a anwyd yn Nghaerdydd yn 1618. Dychwelwyd ef i'r ffydd gan William Erbury, yr hwn hefyd a'i cynorthwyodd i fyned trwy goleg New Inn, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn rheolaidd yn B.A. ac M.A. Derbyniodd ordeiniad Presbyteraidd, a daeth yn fuan yn hynod o herwydd ei omeddiad cyhoeddus i lawnodi ei gydsyniad â'r canonau, yn ol gorchymyn yr archesgob Laud; ac efe a gollodd, o herwydd hyny, rai o'i freiniau fel ysgolhaig. Yna aeth i Lundain, lle, o herwydd ei wrthwynebiad ffyrnig i egwyddorion breninoliaeth, y pennodwyd ef yn bregethwr i'r gwarchlu yn nghastell Windsor, ar y pryd tan lywyddiaeth y milwriad Venn.

Pan gyfarfu dirprwywyr y brenin a'r Senedd yn Uxbridge, Christopher Love wrth bregethu ger eu bron, a draddododd syniadau mor chwerwon am y brenin, fel y darfu i'r dirprwywyr ddwyn cwyn yn ei erbyn ger bron y Senedd yn Westminster. Pa fodd bynag, cafodd wedi hyny ei wneyd yn weinidog eglwys St. Ann, ger Aldersgate; a thrachefn, o eglwys St. Lawrence, yn Jewry, Llundain.

Yr oedd yn un o'r gweinidogion hyny a lawnodasant yn erbyn rhoddi y brenin i farwolaeth; ac ar ol hyny, cymerodd ran flaenllaw yn y frad Bresbyteraidd i osod Charles II. ar yr orsedd, am yr hyn y condemniwyd ef o deyrnfradwriaeth, ac y torwyd ei ben ar *Tower Hill*, Awst, 1651. Cyhoeddodd amryw lyfrau gwleidyddol a chrefyddol, rhestr o ba rai a welir yn Wood's *Athen. Oxon.* Gwel hefyd Hume's *Hist. of Eng.* vii. 202.

Digitized by Google

**LUCAS**, Richard, D.D., a anwyd yn Presteigne, swydd Faeshyfed, yn 1648. Graddiwyd ef yn Rhydychain yn B.A. yn 1668, ac yn M.A. yn 1672. Bu am beth amser yn athraw ysgol rydd yn y Fenni, wedi hyny cafodd ficeriaeth St. Stephan, Llundain, a'r swydd o ddarlithydd yn St. Olave, Southwark, lle yr ystyrid ef yn bregethwr rhagorol. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1691; a daeth yn brepend Westminster yn 1696. Collodd ei olwg yn gynar yn ei fywyd, ond er hyny daeth yn awdwr amryw lyfrau rhagorol, y penaf o ba rai, yw ei *Enquiry after Happiness*. Bu farw yn 1715, yn nghylch 67 oed. Edmygid ef yn fawr oblegyd ei ddysg a'i dduwioldeb.

**LUNTLEY**, John, un o'r "ddwy fil," a drowyd allan o Lanstadwell a Nolton, swydd Benfro. Wedi ei ddiswyddiad, ymroddodd gyda derbyniad mawr i gynorthwyo Peregrine Phillips yn nghymydogaeth Hwlffordd. Bu farw tua 1672.

# LL.

**LLAN**, gair Cymraeg, a ddefnyddir wrtho ei hun, ac fel rhagddodiad mewn enwau lleoedd. Y mae yn arwyddo yn gyntaf, llanerch, neu ddarn o dir i ddodi rhywbeth ynddo, cadlas, neu gae bychan, neu gyfarfyddle; ac fe'i defnyddir hefyd i ddynodi lle yr eglwys, neu y pentref, ac yn draws enwol, eglwys y plwyf. Yn fynych iawn fe'i defnyddir yn yr ystyr olaf yma mewn enwau parthofyddawl, mewn cyssylltiad ag enw y nawdd-sant, megys Llanafan, neu eglwys Sant Afan, &c.

**LLAN**, treflan yn mhlwyf Llanfihangel Aberbythych, swydd Gaerfyrddin; 4½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Landeilo Fawr. Poblogaeth yn nghyda Chil-y-gernant, 215.

**LLAN**, treflan yn mhlwyf Llangyndeyrn, swydd Gaerfyrddin, yn agos i'r afon Gwendraeth; 4½ milldir i'r De Ddwyrain o Gaerfyrddin. Poblogaeth, yn nghyd a'r Blaenau, 634.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Bryn Eglwys, swydd Ddinbach; 5½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Langollen.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon, swydd Ddinbach; 5½ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 231.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanelian, swydd Ddinbach; 4½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Abergele. Poblogaeth, 125.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanelidan, swydd Ddinbach; 5½ milldir i'r Dehau o Ruthin. Poblogaeth, 90.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llangwm, swydd Ddinbach; 7½ milldir i'r Gorllewin o Gorwen. Poblogaeth, 174.

**LLAN**, trefgordd yn Llanrhaiadr yn Nghimmeirch, swydd Ddinbach; 3½ milldir i'r De Ddwyrain o Ddinbach. Poblogaeth, 343. Y mae y faenoriaeth yn perthyn i Esgob Bangor.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd Ddinbach; 2 filldir i'r De Ddwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 419.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Dymeirchion, swydd Fflint; 3½ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Lanelwy. Poblogaeth, 198.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Gwaunysgor, swydd Fflint; 4½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ruddlan. Poblogaeth, 199.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Nannerch, swydd Fflint; 3½ milldir i'r De Dde Orllewin o Dreffynnon. Poblogaeth, 118.

**LLAN**, a elwir hefyd Tre llan, trefgordd yn mhlwyf Cilcain, swydd Fflint; 4½ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o'r Wyddgrug. Y mae yn cynnwys pentref Cilcain. Poblogaeth, 334. Tai annedd, 74.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfawr, swydd Feirionydd; milldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Bala. Poblogaeth, 244.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Cegidog, swydd Drefaldwyn; 3½ milldir i'r Gogledd o'r Trallwm. Cynnwysa bentref Cegidog, (*Guilsfield*). Poblogaeth, 239.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Hirnant, swydd Drefaldwyn; 6½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 115.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llandrinio, swydd Drefaldwyn; 8½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Trallwm. Poblogaeth, 538.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Lanfyllin. Poblogaeth, 421.

**LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanwddyn, swydd Drefaldwyn; 11 milldir i'r Gorllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 171.

**LLANABER**. Saif y plwyf hwn yn nghantref Uwch Artro, yn nghwmwd neu arglwyddiaeth Ardudwy, Meirionydd. Rhed yr afon Maw drwy y plwyf, a cheir golwg tarawiadol ar fay Ceredigion. Cynnwys y plwyf dref gynnyddol yr Abermaw, lle y mae llythyrdy, a gorsaf gyfleus berthynol i Gwmni y "Cambrian;" ynghyda phentrefi Ismynydd, ac Uwchmynydd. A chyfrif y 760 o erwau sydd dan ddwfr, mesura y plwyf 12,679 o erwau, a gwerth yr eiddo tirol (*real property*) pan wnaed y cyfrif diweddaf, ydoedd 6354*p*. Y boblogaeth yn 1861 ydoedd 1600, a nifer y tai 382. Er y pryd hwnw, y mae cryn gynnydd wedi cymmeryd lle yn y boblogaeth, yr hyn sydd i'w briodoli i agoriad y rheilffordd, a phoblogrwydd cynnyddol yr Abermaw, fel ymdrochle a chyrchfan i ymwelwyr o Loegr. Y mae arwynebedd y plwyf yn anwastad, a cheir mŵnau plwm a chopr yn y creigiau, y rhai, pe gweithid hwynt yn briodol, a allent droi allan yn ennillgar. Saif eglwys y plwyf, filldir a thri chwarter i'r gogledd o'r Abermaw; arddull Seisnig boreuol sydd iddi, ac nid oes dim yn neillduol yn ei haddurniadau allanol. Bu am flyneddoedd mor ddirywiedig ei chyflwr, fel ag i fod yn anghymmwys i gynnal gwasanaeth dwyfol ynddi, eithr cafodd ei hadnewyddu yn drwyadl, yn unol â chynlluniau prydferth o eiddo Boyce; y canlyniad ydyw, fod ei threfniadau tumewnol yn bresennol yn hynod gyfleus, a chwaethus, ac y mae y porth deheuol yn nodedig o hardd. Cedwir yma hyd heddyw

Digitized by Google

hên gist, i'r hon y bwrid hedd-offrymau yn oesoedd tywyll y Babaeth. Rectoriaeth ydyw y fywioliaeth, ynglyn â chapeliaeth yr Abermaw; ei gwerth blynyddol ydyw 213*p.*, a'i noddwr yw Tywysog Cymru. Bu yma grefydd-dy i'r mynachod yn yr hen amser, o'r enw Egryn, ond ffermdy ydyw yn bresennol. Y mae yn nhref Abermaw hefyd Eglwys, ac amryw addoldai Ymneillduol, ynghyda gwerth 5*p.* yn y flwyddyn o elusenau yn perthyn i'r plwyf. Bernir mai yn y gymmydogaeth hon y preswyliai y Phylipiaid, beirdd enwog yn yr eilfed ganrif ar bymtheg.

**LLANAELHAIARN**, neu LLANHAIARN, sydd blwyf a phentref yn nosparth Pwllheli, yn swydd Gaernarfon, y mae yn Lleyn, 5½ milltir o orsaf rheilffordd Chwilog, a 6 milltir yn ddwyrain ogleddol o Bwllheli. Y mae Llythyrfa i'r lle dan Bwllheli. Erwau 6698, o'r hyn y mae 220 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 2885*p.*, o'r hyn y mae 250*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 616; yn 1861, 736. Tai, 151. Cododd y cynnydd yn y gymydogaeth drwy agoriad cloddfeydd newyddion. Nid yw y tiroedd yn cael eu rhannu ond rhwng ychydig nifer. Yma y mae yr Eifl, neu, "y Geifl," fel yr ysgrifenai Lewis Morris yr enw; ac y mae Nant, a bwlch Gwrtheyrn ger glan y mor yma. Y mae y clogwyni hyn yn codi yn sythion iawn, i'r uchder o 1868 o droedfeddi; ac ymddangosant o gychwyniad y bwlch, gerllaw y pentref, yn gilwgus iawn. Ar y mynyddau hyn yr oedd yr hen amddiffynfa Brydeinig, a elwid "Tre'r Ceiri," neu "Cawri," ac er nad oes ond ychydig o'i hanes ar ysgrifen, eto bernir ei bod yn un o'r cynlluniad goreu sydd ar gael yn awr, o'r adeiladau hyny, o fewn y deyrnas. Y mae yn cynwys amryw gysylltiadau o gytiau crynion, yn cael eu cylchynu gan fur, ag sydd yn cau i fewn, tua phum erw o ofod, yr hyn sydd dros dri chan llath, o ddwyrain i orllewin. Y mae y mur mewnol, yr hwn sydd yn dra pherffaith, mewn amryw fanau, yn bymtheg troedfedd o uchder, a thuag un ar bymtheg o drwch; ac y mae rhodfa arno. Y mae yma naw o gysylltiadau o gytiau, o wahanol ffurfiadau; rhai yn grynion, ac eraill yn hirgrwn, ac ereill yn bedeirongl, ac amryw ystafelloedd, o wahanol agweddion, yn arwain i un cyntedd. Y mae yma rai gwythienau o efydd, a *manganese*. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth, 225*p.*; ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y mae yr eglwys yn sefyll ar y llethr uwchlaw bay Caernarfon. Y mae yma addoldy perthynol i'r Annibynwyr. Y mae gwaddol perthynol i'r plwyf o werth 7*p.* yn flyneddol.

**LLANAERON**, sydd le o fewn dwy filltir, gogledd ddwyrain o Aberaeron yn swydd Aberteifi.

**LLANAFAN**, plwyf yn nghantref Ilar, swydd Aberteifi, a saif yn ymyl plygiad rhamantus o eiddo yr afon Ystwyth, rhwng gorsafoedd ffordd haiarn Ystradfflur a Thrawscoed, wyth milldir i'r gogledd o Dregaron, a naw milldir i'r de-ddwyrain o Aberystwyth. Cynnwys lythyrdy Trawsycoed, neu Crosswood, cangen o swyddfa Aberystwyth, a'r gwrthddrych mwyaf dyddorol yn y plwyf ydyw yr hen Eglwys, yr hon a dderbynia ei henw oddiwrth Sant Afan, Buallt, mab Cedig ab Ceredig, esgob Llanbadarn ond odid. Y mae llwybr yn arwain o borth y fynwent i'r ystlys (*transept*) ddeheuol, lle y mae eisteddleoedd a beddgell teulu Trawscoed. Cedwir yn yr eglwys ran o ysgrîn henafol, ac hefyd ddysgl arian gywrain, yr hon a anrhegwyd fel cwppan gymmun gan un o Ieirll Lisburne. Preswylia y teulu urddasol hwn yn Mharc Trawscoed, yr hwn sydd yn amgylchynedig gan erddi a choedwigoedd prydferth. Ond ceir rhan arall o'r plwyf yn wyllt ac anniwylliedig. Ficeriaeth gwerth 88*p.* yn y flwyddyn yw y fywioliaeth, yn esgobaeth Tyddewi, a Syr A. P. Chichester yn noddwr iddi. Mesura y plwyf 2588 o erwau, a'i werth ardrethol ydyw 1241*p.* Y mae y gweithydd plwm cyfagos wedi peri cynnydd dirfawr yn y boblogaeth, yr hon yn 1861 a rifai 567, gyda 114 o dai, tra nad oedd ond 419 yn 1851.

**LLANAFAN FAWR** sydd blwyf yn rhandir Buallt, Brycheiniog. Saif ar yr afon Wy, chwe milldir i'r gogledd-orllewin o dref a gorsaf rheilffordd Buallt. Rhenir ef i dri dosbarth, sef y cyntaf, yr ail, a'r trydydd; a pherthyn iddo, yn ychwanegol at y rhai hyn, bentref Llys-dinam. Gwna y tri dosbarth 7971 o erwau; a phentref Llysdinam, 2476. Gwerth ardrethol y dosbarth cyntaf, 1066*p.*; yr ail ddosbarth, 796*p.*; y trydydd dosbarth, 1303*p.*; pentref Llysdinam, 1116*p.* Poblogaeth y cyfan yn 1861 oedd 936; nifer y tai, 174; poblogaeth Llysdinam, 242; tai, 39. Arwynebedd anwastad sydd i'r plwyf, a rhan fawr o hono yn cael ei ddefnyddio fel porfa. Gwerth y ficeriaeth, rhwng curadiaethau Llanafanfechan a Llanfihangel-Bryn-Pabuan, y rhai sydd yn unedig â hi, yw 273*p.*, a pherthyna i Esgobaeth Tyddewi, ynghyd â'i nawddogaeth. Y mae gan y plwyf hawl i ran o elusenau Powel, yn Aberhonddu. Ceir yn yr eglwys faen, er cof am yr Esgob Afan, ac y mae yn y plwyf, eglwys Bresbyteraidd a sefydlwyd yn 1670.

**LLANAFAN FECHAN.** Llanfechan y gelwir y plwyf hwn weithiau, a saif ar yr afon Irfon, bum milldir i'r de-orllewin o Buallt. Erwau, 2783; eiddo tirol, 927*p.*; poblogaeth, 163; tai, 25.

**LLANALLGO**, plwyf bychan yn nghantref Cemaes, Mon. Saif ar lan bay Moelfre, neu Moelfro, chwe milldir i'r gogledd-ddwyrain o dref marchnad, a gorsaf rheilffordd, Llanerchymedd. Curadiaeth barhaol (*perpetual curacy*) ydyw y fywioliaeth, yn gyssylltiedig â rectoriaeth Llaneugrad, yn esgobaeth Bangor. Yma y preswylia yr offeiriad, gan fod Eglwys Llaneugrad, (yn ymyl yr hon y gorwedd gweddillion marwol Phillips o Fangor,) ers blynyddoedd lawer mewn sefyllfa adfeiliedig iawn. Nawddsant y plwyf ydoedd Gallgo, un o feibion Caw Cawlyd, neu Caw o Brydain, a brawd Eugrad. Yr eglwys, yr hon a adeiladwyd mor fore a'r seithfed canrif, sydd ar ffurf croes, ac adgyweiriwyd hi yn drwyadl ychydig flyneddoedd yn ol. Ceir yn y plwyf, fynor rhagorol at adeiladu, ond arhosasai y gymmydogaeth hon mewn dinodedd, oni buasai am y trychineb alaethus a gymmerodd le yn y mor gerllaw, yn mis Hydref, 1859, pan y suddodd yr agerlong "Royal Charter," gydag uwchlaw 400 o eneidiau ar ei bwrdd, a hithau bron ar derfyn ei mordaith o Awstralia. Yn mynwent Llanallgo, ceir cofadail o fynor, wedi ei dori o'r graig yn erbyn yr hon y tarawodd y "Royal Charter;" colofn bedair-ongl ydyw, ac ar y pedwar wyneb, ceir yr argraffiadau a ganlyn yn Saesneg,—"Y Royal Charter, cofrestredig i gario 2719 o dunnelli, a hwyliodd o Melbourne, Awstralia, Awst 26, 1859, yn rhwym am Lerpwl, gyda 324 o fordeithwyr, a chriw o 103"—"Y gofgolofn hon a godwyd gan y cyhoedd, er cof am y rhai a drengasant yn llongddrylliad y Royal Charter, gerllaw Moelfre, ar Ynys Mon, Hydref 26, 1859"—

Digitized by Google

"Yma y gorwedd gweddillion 140 o'r dioddefwyr, a 45 yn mynwent Penrhos-lligwy"—"Y mae gweddillion amryw o'r trancedigion yn gorwedd gerllaw yr eglwysi a ganlyn," ac yna rhoddir enwau naw o eglwysi yn y parth hwn o Fon. Ymddygodd periglor Llanallgo, a thrigolion yr ardaloedd cylchynol, yn dra chanmoladwy ar yr achlysur bythgofiadwy; ac y mae eu dyngarwch Cristionogol wedi ei anfarwoli gan Arch-nofelydd y Saeson, y diweddar Charles Dickens, yn ei "*Uncommercial Traveller.*" Parheir i ddarganfod trysorau colledig y llestr anffodus hyd y glanau cyfagos, ac yn ngwanwyn y flwyddyn 1866, llwyddodd y suddwyr (*divers*) i godi 140 o benaduriaid, y rhai oeddynt mor ddysglaer a theg yr olwg, a phe buasent newydd eu bathu.

659 o erwau sydd yn y plwyf, a'i werth ardrethol yw 752*p*. Y boblogaeth yn ol cyfrifiad 1861 oedd 430, a nifer y tai, yn 98. Gyda golwg ar weddillion henafiaethol, ceir yn ymyl Moelfre, gromlech fawr, yn gorwedd ar saith o golofnau. Yn ymyl yr eglwys, y mae ffynnon, yr hon mewn amseroedd ofergoelus, a ystyrid yn dra rhinweddol.

**LLANAMMWLCH.** Gwel LLANHAMLECH.

**LLANANDRAS**, neu PRESTEIGNE, sydd dref yn swydd FAESYFED, a phlwyf, ac is-ddosparth, a dosparth, mewn rhan yn sir Henffordd, ond oll yn ol y cofnodau swyddol yn sir Faesyfed. Y mae y dref yn sefyll ar geulan yr afon Lug, yn nherfyn dyffryn Lug, 6¼ milltir i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Faesyfed Newydd; ac yn cael ei huno â sir Henffordd gan bont o dri bwa dros y Lug; ac fe'i hadwaenir gan y Cymry wrth yr enw Llan-andras. Y mae yn fwrdais drwy drefniant llywodraethol; ac i bob dyben ymarferol, y mae yn brif-ddinas sir Faesyfed; ac yn uno â Radnor Newydd, Knighton, Rhaiadr, Cnwc-glas, a Cefnllys, yn anfoniad aelod i'r senedd; ac y mae yn lle penodedig i gynal y llysoedd gwladol, a'r llys sirol, ac yn etholfa. Yr oedd yma gastell gynt, ar le amlwg, a elwid y "Warden." Y mae yn cynwys dwy heol dda, gyd ag amgylchoedd prydferth; ac y mae yn brif lythyrfa, a elwir "Presteigne, swydd Faesyfed," ariandy, gwestdy, treflys, marchnadfa er 1866, a threflys er 1829, carchar gwladol, eglwys, a dau gapel ymneillduol, ysgol Ramadegol, a gwaddolion elusenol, 174*p*. Y mae y rheilffordd yn rhedeg i un canolbarth Cymru, yn Llangynllo, a wnaed yn sefydlog yn 1865, ac y mae yn 10¾ milltir o hyd. Y mae y Warden, lle y safai y castell gynt, wedi ei drefnu yn rhodfeydd hyfryd. Adeiladwyd carchar y wlad, yn 1820, gyda lle i 24 o wyr fyddo droseddwyr, a 5 o ferched, yn garcharorion. Y mae yr eglwys ar y cynllun Seisnig diweddar, ac o adeiladaeth eang a dymunol, gyda thŵr, ac addurniadau priodol. Sefydlwyd yr ysgol Ramadegol yma yn amser Elizabeth, ac y mae iddi waddolion o 139*p*. y flwyddyn. Y mae yma farchnad wythnosol ar y Sadwrn; a ffeiriau, ar y Sadwrn o flaen Chwefror 13eg, Mai 9, Mehefin 20, a Hydref 12 a 13eg, a'r prif drafnidiaeth ydyw brag a choed. Y mae y dref yn ddwy ran, yn cynnwys yn nghyd, 2831 o erwau; ond y mae y fwrdais hefyd, yn cynnwys trefgordd Discoed yn Maesyfed, a rhan o drefgordd Stapleton yn sir Henffordd. Gwerth ardrethol y dref, 6704*p*. Poblogaeth, 1603. Tai, 349. Poblogaeth y fwrdais, 1743. Tai, 378. Y mae y plwyf yn cynwys tref Llanandras, trefgordd Discoed, a rhan o drefgorddau Litton a Cascob, yn sir Faesyfed, a threfgorddau Stapleton, Willey, Comb, Lower Kinsham, a Rod, Nash, a Little Brampton, yn sir Henffordd. Erwau, 11,126. Poblogaeth yn 1851, 2207; yn 1861, 2383. Tai, 511. Y mae y faenor yn perthyn i Iarll Rhydychain, ond y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng lluaws. Bowltibrook ydyw enw palas Syr H. Brydges, Barg., ac Evenjobb, ydyw preswyfa y teulu Harley. Y mae Nash Scar yn graig uchel, o galchen uwchaf y Siluria, wedi ei chyfnewid gan wres i wahanol ffurfiadau. Darganfyddwyd ogof ynddi yn 1833. Y mae Clawdd Offa yn croesi y gorllewin; a bryn Wapley, lle ffurfiwyd gwersyllfa gan y Rhufeiniaid, ac a feddianwyd gan Caradog, yn y de-ddwyrain. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â chapeloriaeth Discoed, yn esgobaeth Henffordd, gwerth 1380; ac yn nawddogaeth Arglwyddes Langdale. Yr oedd Lucas y duwinydd, yn enedigol oddi yma. Y mae yr is-ddosparth hefyd yn cynnwys plwyfau Pilleth, Whitton, Norton, a rhan o Cascob yn Maesyfed, a phlwyfau Upper Kinsham, Byton, a Lingen, yn swydd Henffordd. Erwau, 25,543. Tai, 777. Y mae y dosparth hefyd yn cynnwys isddosparth Brilley, a phlwyfi Newchurch a Michael Church-on-Arrow, yn Maesyfed, a phlwyfi Brilley, Huntington, Eardisley, Willerston, a Winforton, yn Henffordd; is-ddosparth Kington, Lyonshall, Pembridge, Stanton-upon-Arrow, a Titley, oll yn Henffordd; gyd ag is-ddosparth Maesyfed, yn cynnwys plwyfi Glascomb, Colva, Gladestry, Llanfihangel-nant-Mellan, Llandegley, Maesyfed Newydd, oll, oddigerth un drefgordd, o fewn yr olaf, yn Maesyfed. Erwau, 104,963. Treth tlodion yn 1863, 8476*p*. Poblogaeth yn 1851, 15,149; yn 1861, 15,671. Tai, 3211. Priodasau yn 1863, 127; genedigaethau 523, o ba rai yr oedd 36 yn anghyfreithlon; marwolaethau 357, o'r rhai yr oedd 117, dan bum mlwydd oed, a 18 dros bump a phedwar-ugain. Priodasau yn y deng mlynedd, 1851 i 1860, 1091; genedigaethau 4576, marwolaethau 2917. Lleoedd addoliad yn 1851, 33 Eglwys Loegr, gyda 6894 o eisteddleoedd; 4 Annibynol, gyda 642; 5 Bedyddwyr, gyda 1357; 2 Crynwyr, gydâg 20; 8 Wesleyaid, gyda 1090; 14 Methodistiaid Cyntefig, gyda 1045; a 7 Methodistiaid Calfinaidd, gyda 848. Yr ysgolion ydoedd 20, o rai cyhoeddus dyddiol, gyda 865 o ysgolorion; 24 o rai neillduol, gyda 411; 26 o ysgolion Sabbathol, gyda 1205; ag un ysgol brydnhawnol i rai mewn oedran, gyda 9 o ysgolorion. Y mae y Gweithdy, neu, y Tlod-dy yn Kington. Ymddengys y bu y lle hwn heb nemawr o sylw arno hyd tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg, pan y daeth i sylw mwy adnabyddus, yn ysdod bywyd esgobol Dafydd Martin, esgob Ty Ddewi yn 1293. Efe a gafodd freintiau marchnad i'r lle yn wythnosol, yr hyn a'i dug yn enwog am werthiant yd, ac a fynychid gan drigolion Maelienydd. Nid oes unrhyw drychineb rhyfelgar yn cael ei gofnodi yn y lle, dros holl ysdod ymrysonau y dywysogaeth. Yn ysdod rhyfel y senedd, yn amser Cromwell, tra yr oedd yn nghymydogaeth Henffordd, y mae cofnodiad mewn hen lyfr plwyfol, i'r brenhin Siarl II., dreulio dwy noswaith yn nhy Nicolas Taylor, Ysw., yn y plwyf hwn, yn y man a elwir Lower Heath, yn agos i'r lle a elwir yn awr, "The King's Turning," oddiwrth yr amgylchiad, fel y bernir, o fod i'r brenhin, droi oddi yno, dros y bryniau, i'r Dref-newydd, yn sir Drefaldwyn, a myned rhagddo hyd i Gaerlleon. Y mae llys y dref yn adeilad a godwyd yn 1829, drwy y draul, gan y sir, o 5000*p*., yn cynnwys cyntedd, a dwy aden, gyd ag



Digitized by Google

ystafelloedd priodol i groesawu y gwahanol swyddwyr perthynol i'r llys barnol; ond y mae y trefniadau diweddar yn nygiad yn mlaen amcanion y llywodraeth, wedi gwneud yr angen am danynt yn y lle hwn, yn llawer llai nag yr ydoedd gynt. Y mae yn yr eglwys amryw gofadeiliau enwog am y teuluoedd Owen, Price, a Davies. Y mae amryw waddolion, o wahanol symau yn perthyn i'r lle hwn. Ganwyd Dr. Richard Lucas, y cyfeiriwyd ato yn barod, athraw yr ysgol Ramadegol rydd yn Abergafeni, ac a fu wedi hyny yn ficar St. Stephan, Coleman Street, Llundain, a darlithydd yn St. Olave, Southwark, yn y lle hwn.

**LLANANNERCH**, sydd bentref yn mhlwyf Aberporth, sir Aberteifi, chwe milltir a haner, gogledd ddwyrain o Aberteifi. Poblogaeth, 166.

**LLANANNO**, plwyf yn rhandir Knighton, neu Tref-y-clawdd, swydd Faesyfed. Bychan yw y lle,—4400 o erwau, a'i werth ardrethol yn 1590*p.*, y boblogaeth yn 358, a nifer y tai yn 60. Deillia yr enw o *Llan* a *Wonno*, canys Wonno ydoedd nawddsant yr Eglwys. Mae y ficeriaeth (gwerth 150*p.*) yn unedig â ficeriaeth Llanbadarn-Fynydd, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawddogaeth Canghellydd Eglwys Golegawl Aberhonddu. Canfyddir hyd heddyw ychydig olion o Gastell Dynbod, yr amddiffynfa gref a ddinystriwyd gan Llewelyn ab Gruffydd. Y mae yn y gymmydogaeth hon ffynnon yn meddu rhinweddau meddygol diammheuol.

**LLANARMON.** Ceir amryw blwyfydd yn Nghymru yn arddel yr enw hwn, a thybir iddynt oll gael eu galw felly ar ol Sant Garmon, neu Germanus, arwr buddugoliaeth fawr yr "Haleliwia" yn y bummed ganrif. Ceir un plwyf o'r enw yn Eifionydd, sir Gaernarfon, gerllaw gorsaf reilffordd Chwilog, a phum milldir o dref Pwllheli. Rectoriaeth ydyw, cyssylltiedig â rectoriaeth Llangybi, yn esgobaeth Bangor, ac adgyweiriwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1863. Yn y plwyf hwn y saif Broom Hall, preswylfod Owen Evans, Ysw., ac yn ychwanegol at eglwys y plwyf, amryw addoldai ymneillduol. Yn y flwyddyn 1862, gwnaed ymchwiliad lled lwyddiannus am fŵn glo yn Bryn y Bachau, ger Afonwen. Erwau, 3753. Gwerth ardrethol, 2831*p.* Poblogaeth, 556. Tai, 109.

**LLANARMON-yn-Ial** sydd blwyf ac is-randir yn rhandir Rhuthin, swydd Dinbych. Gorwedd y plwyf ar lan yr afon Alun, bum milldir i'r deddwyrain o orsaf rheilffordd Rhuthin; perthyn iddo gangen o lythyrdy yr Wyddgrug, a ffeiriau ar y 30ain o Orphenaf a'r 19eg o Hydref; a chynnwysa dreflanau Llan, Alltgymbyd, Banhadlen, Bodidris, Bodidris-Truam, Bodigre'r Abbot, Bodigre'r Iarll, Creigiog-is-Glan, Creigiog-uwch-Glan, Chwyleiriog, Cyfnant, Erryrys, Gelligynnan, a Gwaenyffynon. Erwau, 11,241. Gwerth ardrethol, 7941. Poblogaeth, 2019. Tai, 423. Arwynebedd creigiog ac anwastad sydd i'r plwyf, ac heb fod yn neppell y mae Cyrn-y-brain yn codi i'r uchder o 1857 o droedfeddi. Y mae yn Erryrys weithfeydd plwm. Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, yw y fywioliaeth, gwerth 350*p.*, ac Esgob Llanelwy yw y noddwr. Bywioliaeth ar ei phen ei hun ydyw rectoriaeth Erryrys. Y mae yma ysgol waddoledig gyda 33*p.* y flwyddyn, ac elusenau ereill, gwerth 21*p.* Mae yr israndir yn cynnwys hefyd ddau blwyf arall. Erwau, 18,385. Poblogaeth, 3196. Tai, 678.

Y mae y plwyf hwn yn gyfoethog o olion henafiaethol. Bodidris sydd yn hen balas a berthynai gynt i Fychaniaid Corsygedol. Cymmer ei enw oddiwrth Idris, mab Llewelyn Aurdorchog, arglwydd Iâl. Saif mewn dwy sir, ac y mae un pen i'r bwrdd yn y neuadd, ebai un awdwr, yn sefyll yn sir Fflint, a'r pen arall yn sir Ddinbych. Hanai y Fychaniaid hyn o Llewelyn ap Ynyr ap Hywel ap Moriddig ap Sandde Hardd, yr hwn o herwydd ei wroldeb neillduol, a gafodd gan ei dywysog Gruffydd ab Madog, arglwydd Dinas Brân, hawl i wisgo addurniadau anrhydeddus yn ei bais-arfau. Tra yr oedd efe yn ymddiddan â'r tywysog ar ol brwydr, â'i law aswy yn orchuddiedig â gwaed, efe a'i tynodd yn ddamweiniol ar draws ei gleddyf, ac a adawodd arno ol ei bedwar bys. Gwelodd y tywysog hyn, a gorchymynodd iddo, o'r dydd hwnw allan, ddwyn arwydd y pedwar bys ar ei darian; ar yr un pryd, neillduodd iddo drefoliaeth Gelligynan, yn y gymmydogaeth hon, fel arwydd mwy sylweddol o'i ffafr.

Ceir lliaws o ddelwau henafol yn eglwys y plwyf, a thybir fod un yn cynnrychioli Garmon, y nawddsant; o leiaf, byddai torfeydd o bererinion yn cyrchu i'r lle yn yr oesoedd tywyll, gan ddwyn gyda hwynt offrymau gwerthfawr, ar sail y dyb hono. Mewn rhan arall o'r eglwys, y mae bedd mab i'r rhyfelwr llaw-ruddiog a grybwyllir uchod, yn dwyn ar ei darian y pais-arfau a ennillwyd gan ei dad, ac arnynt yn argraffedig, *Hic jacet Gruffudd ap Llewelyn ap Ynyr.* Gorwedda ei wrth ei draed, yn cnoi swp o ymysgaroedd. Y traddodiad ar lafar gwlad ydyw, ei fod wedi anturio ar groesgad (*crusade*), yn yr hon y collodd ei fywyd, trwy gael ei glwyfo yn ei fol; i'w ymysgaroedd syrthio allan, a'u llarpio gan gi, fel y gosodir allan yn y ddelw gerfiedig. Mae yn yr eglwys hefyd, gofadeiladau o'r Llwydiaid, a hen ganwyllbren, a ddygpwyd o Fynachlog Glyn Egwest.

Ceir yn y plwyf hwn gryn lawer o garneddau hefyd. "Bum yn bresennol ar agoriad un o honynt," ebe Mr. Pennant, "yr hon oedd yn gynnwysedig o geryg rhyddion, a phridd, yn orchuddiedig gan haen o dir, oddeutu dwy droedfedd o drwch, a thros hyny orchudd o dyweirch gleision. Yn ystod ein hymchwiliad, darganfyddwyd oddeutu canol y garnedd, amryw grochanau (*urns*) o glai, wedi ei grasu yn yr haul, y tu allan o liw coch, y tufewn yn ddu, ac wedi eu staenio gan y lludw a gynnwysent. Yr oedd pob un wedi ei osod a'i enau tua'r llawr, ar gareg wastad; uwchben pob un yr oedd careg arall, i'w gadw rhag cael ei ddryllio gan y pwysau oddiarno. Yn gymmysgedig â'r ceryg rhyddion, yr oedd lliaws o ddarnau esgyrn, megis rhanau o esgyrn y forddwyd, esgyrn y fraich, a hyd yn nod benglog. Diangasai y rhai hyn rhag effeithiau dinystriol y coelcerth angladdol, a gosodwyd hwynt oddeutu y crochanau, y rhai a gynnwysent weddill y corph oedd wedi ei wneuthur yn llwch pur." Ar fin yr afon, gerllaw Llanarmon, y mae bryncyn mawr celfyddydol, o'r enw Tomen-y-Faerdre, lle bu unwaith gastell bychan, gweddillion yr hwn sydd ar gael mewn sylfaen pedwar-onglog. Rhed afon ar hyd un ochr i'r bryn, a ffos ddofn ar yr ochr arall. Heb fod yn neppell, y mae ogof naturiol eang, o uchder mawr, am gryn bellder, ac yna disgyna, ac ymestyn i bellder anhysbys. Nis gallwn lai na son gair hefyd am y Bwlch sydd yn gorwedd rhwng Moel Eithinen a Moel Fenlli, yr hwn a elwir Bwlch Agricola. Tybir iddo gael yr enw hwnw o herwydd i Agricola fyned drwyddo, ar ei ymdaith i oresgyn

Digitized by Google

Mon. Gellir yn hawdd gredu i'r Rhufeiniaid fod yn aros yn y parthau hyn, canys darganfyddwyd lliaws mawr o'u bathodau (*coins*), o bryd i bryd yn y gymmydogaeth, yn enwedig yn mhlwyf Llanferres.

**LLANARMON DYFFRYN CEIRIOG**, sydd bentref a phlwyf yn rhandir Corwen, a swydd DINBYCH, yn cynnwys treflanau Llowran, a Llowarch, yn gwneud o gwbl 6557 o erwau. Poblogaeth y plwyf ydyw 315 (gyda 60 o dai), a'r eiddo tirol yn werth 2801*p*. Saif y pentref ar lan yr afon Ceiriog, wyth milldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd Llangollen. Perthyn iddo gangen o lythyrdy Llangollen, a chynnelir ffair ar y 13eg o Awst bob blwyddyn. Ficeriaeth, gwerth 250*p*. yw y fywioliaeth, a than nawddogaeth Esgob Llandaf, er ei bod yn sefyll yn Esgobaeth Llanelwy. Ceir yn y gymmydogaeth olion gwersyll yn amgylchynedig gan ddwy ffos. Y mae lle i gasglu mai dyna lle y gwersyllai Owain Gwynedd, pan yn gwylio ar symmudiadau Harri yr Ail, i ddyrysu ei amcanion, ar ei gais i oresgyn Gogledd Cymru.

**LLANARMON MYNYDD MAWR.** Plwyf yn rhandir Llanfyllin ac yn swydd DINBYCH. Saif ar gyffiniau Maldwyn, dair milldir a hanner i'r de-orllewin o Lanarmon Dyffryn Ceiriog, a chwe milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy yw y fywioliaeth, gwerth 64*p*., ac yn nawddogaeth Esgob Llanelwy. Erwau, 2590. Eiddo tirol, gyda Banhadle-cha a'r Henfachau, 2471*p*. Eiddo trethedig Llanarmon ei hunan, 844*p*. Poblogaeth, 140. Tai, 25.

**LLANARTH**, plwyf yn swydd FYNWY; 3¼ milldir i'r Dwyrain o orsaf rheilffordd Penpergwm, a 5¼ milldir i'r De Ddwyrain o'r Fenni, yn meddu llythyrfa dan dre Fynwy, ac yn cynnwys treflan y Clytha. Erwau, 3793; o ba rai y mae 1841 yn Clytha. Gwerth ardrethol, 6073*p*.; o'r rhai y mae 2993*p*. yn Clytha. Yr oedd Llys Llanarth yn perthyn i ystafellydd Harri I., a disgynodd i'r Herbertiaid. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig a churadiaeth wastadol y Bettws Newydd, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 288*p*. Noddwyr, Deon, a Glwysgor Llandâf.

**LLANARTH**, plwyf yn Nghwmmwd Mab-Wynion, Cantref y CASTELL (a elwir hefyd Cantref y Moeddyn), sir ABERTEIFI. Y mae y plwyf yn un tra eang, ac i ddybenion llywodraethol, rhenir ef yn ddwy ddosran, pa rai a elwir yn Rhanbarth Gogleddol, a Rhanbarth Deheuol, a chynnwysa chwech o faesdrefi henafol. Mor foreu a'r flwyddyn 1803, cyfodid yma 366*p*. 16*s*. 8*c*. o drethi, at wahanol achosion, a rhenid y swm yn gyfartal rhwng y ddau ddosbarth. Yn y flwyddyn a nodwyd, rhifai y boblogaeth 1719. Erbyn cyfrifiad 1851 cynnyddodd y trigolion i 2337; ond cawn fod peth lleihad wedi cymeryd lle yn ystod y deng mlynedd dilynol, canys y rhifedi, yn ol cyfrifiad 1861, ydoedd 2216. Y mae cangen swyddfa y llythyrdy yma, yn ddarostyngedig i swyddfa ganol-barthol Caerfyrddin. Cynnelir y ffeiriau er gwerthu ychain, defaid, &c., ar Ionawr 12, Mawrth 12, Mehefin 12, Medi 22, ac ar ddydd Mercher cyntaf wedi y 12ed o Ragfyr. Allan o'r 15,044 o erwau sydd yn y plwyf, y mae 25 erw yn orchuddiedig gan ddwfr. Rhed yr afonig Llethi, trwy y plwyf, gan ymarllwys i fas-for Ceredigion yn Llanina. Saif pentref Llanarth oddeutu pedair milldir a haner i'r de-orllewin o Aberaeron, a thair-milldir-ar-ddeg a haner i'r gogledd-orllewin o Lanbedr. Y mae yma gryn lawer o olion henafiaethol; ond ychydig o hanesion diwyrni sydd ar gof a chadw, am hen gaerfeydd Castell Moyddyn, a Phen-y-gaer. Ceir lluaws o draddodiadau rhamantus yn eu cylch; ac er nad erys namyn adfeilion o'r hyn a fuont, eto, y mae yn amlwg oddiwrth eu maintioli, fod yma gadgyrchoedd mawrion wedi bod yn yr oesau gynt, rhwng yr hen Gymry, a'u gormeswyr lluosog. Cyfarfyddodd Castell Mabwynion â gwell ffawd, canys meddwn hanes dilys ddarfod i'r Tywysog Llywelyn ab Iorwerth, yn ei adraniad o diroedd y Deheubarth, wneyd y cadarnle hwnw yn anrheg i Rhys ab Gruffydd. Bu hyny yn foddion i sefydlu y Gruffyddiaid fel pennaethiaid y fro am oesoedd a chanrifoedd; ond y mae eu llinach hwythau, weithian, wedi ei thori, a'u hetifeddiaeth deg, sef Neuadd Llanarth, yn perthyn i Arglwydd Kensington. Os ydyw hanes Castell Mabwynion wedi ei gadw yn well na'r eiddo Pen-y-gaer, a Chastell Moyddyn, bu ei dynged ef ei hun yn llawer gwaeth, canys nid oes bellach sicrwydd dilys, hyd yn nod o'r man y safai. Man enwog arall oedd y Wern Newydd. Yma y preswyliai Einion ab Dafydd Llwyd, yr hwn a roddodd letygarwch i Harri Tudur, Iarll Rismwnt, yr ail noson wedi ei laniad yn Aberdaugleddyf, pan ar ei daith i gyfarfod Rhisiard Gefn Grwcca, ar Faes Bosworth, i roddi terfyn ar Ryfeloedd y Rhosynau, ac i adfer Unbenaeth Prydain i'r Brython. Yn y Wern Newydd y gwersyllodd holl fyddin Harri ar y noson a nodwyd, a diau iddo dderbyn yma lawer o adgyfnerthion o blith bechgyn dewr Ceredigion. Perthyna i'r plwyf gyttir cyffredin lled eang, ar ba un y mae carnedd fawreddog y Grug Goch. Y mae arwynebedd y plwyf yn brydferth a rhamantus. Cynnwysa lawer o lethrau difyrus, a nentydd aberog. Ceir oddiar y bryniau olygfeydd dymunol ar fasfor Aberteifi, a chulfor Sant Sior. Rhed y dollfordd o Aberystwyth i Aberteifi, trwy ganol y plwyf; ac wrth fyned ar hyd-ddi, ceir profion lluosog fod y tiroedd yn y parthau hyn o dan amaethiad da. Medda y Methodistiaid Calfinaidd, yr Annibynwyr, y Wesleyaid, a'r Bedyddwyr, addoldai cyfleus, ac Ysgolion Sabbothol blodeuog yn y lle. Y mae yr Eglwys blwyfol yn adeilad henafol, cysegredig i St. Vylltig. Yr oedd hi yn ddiweddar mewn sefyllfa gandryll ac adfeiliedig. Yn "Llyfr y Breninoedd," cyfrifid y ficeriaeth, gyda'r hon y mae curadiaeth barhaus Llanina wedi ei chysylltu, yn werth 4*p*. 18*s*. 1¼*c*., ond y mae y degwm, erbyn hyn yr werth 303*p*. a delir i'r noddwr, sef Esgob Ty Ddewi; 151*p*. 14*s*. a delir i'r ficer, a 4*p*. 17*s*. 6*c*. a delir i berson lleygol y plwyf. Perthyna i'r Eglwys fynedfa a changell, yn nghyda phinacl lled-uchel, a saif ar lechwedd esgynedig a phrydferth. Ceir yn y fynwent gof-feini lled henafol, yn nghlyn âg un o ba rai, sef careg bedair troedfedd a haner o uchder, a dwy droedfedd a deg modfedd o drawsfesur, y mae chwedlau a thraddodiadau gwylltion ac oferbwyll. Y mae ar y cof-faen yma groes wedi ei cherfio mewn modd trwstan, yn nghydag argraff o ryw fath sydd wedi ei wisgo gan y tywydd, a'i ddryllio gan ddwylaw anystyriol dynion a phlant i'r fath raddau, fel nas gellir dyfalu ei ystyr.

**LLANARTHNEY**, neu LLANARTHNEU, plwyf a phentref yn Nghwmmwd Is-Cenin, cantref y FFINIOG (a elwir hefyd cantref IS-CENIN), sir GAERFYRDDIN. Y mae hwn yn blwyf mawr, cyfoethog, a phrydferth. Mesura oddeutu un mil-ar-ddeg o

Digitized by Google

erwau, ac y mae agos yr oll o'r tir wedi ei amgau, yn cynnwys oddeutu dwy ran o dair o'r Mynydd Mawr, a thua dwy-fil-a haner o erwau o goed-dir. Y mae y tir, yn enwedig yr iseldir, o'r math mwyaf ffrwythlon. Tyfa y derw yma i faintioli, ac mewn cyflawnder mawr; ond ychydig o goed o rywogaethau ereill a welir yn y fro. Yn ol cyfrifiad 1851, rhifai y boblogaeth 2171, ond erbyn 1861, yr oedd y nifer wedi gostwng i 2001. Heblaw pentref Llanarthney, cynnwysa y plwyf dregyrdd Llanllyau, Myhathan, Trefrwynan, Trecastell, Trechgwynion, Mïawst, Treclas, a Myddfai. Cynnelir ffeiriau Llanarthney ar y pummed o Fehefin, dydd Llun y Sulgwyn, a'r dydd Llun cyntaf wedi y deuddegfed o Orphenaf. Bydd yma hefyd ffair i werthu moch, ar y chweched o Fehefin. Y mae gwerth trethol y plwyf yn chwe' mil a haner o bunnau, a chyfrifir fod yma oddeutu pedwar cant a haner o anedd-dai. Y mae yr Eglwys wedi ei chysegru i Ddewi Sant, a'r ficeriaeth, o dan nawddogaeth Esgob Ty Ddewi, yn werth 340*p*. Adeilad cyffredin a di addurn ydyw yr Eglwys, gyda chlochdy petrual. Croes Sacsonaidd a gafwyd yn y fynwent, ac sydd yn awr wedi ei gosod i ffurfio rhan o'r fynedfa i'r Eglwys, ydyw y crair mwyaf henafol a dyddorol yn nghlyn â'r adeilad. Mynega traddodiad, fod hen eglwys gyntefig y plwyf, yn sefyll oddeutu pedwar can'llath i'r gogledd oddiwrth safle yr adail bresennol, ond iddi gael ei llwyr ddinystrio trwy orlifiad yr Afon Tywi. Gelwir y man lle y tybir fod safle yr hen eglwys hyd heddyw, yn "Henllan." Yr oedd yn y plwyf hefyd unwaith, ddau gapel eglwysig. Y mae un o'r cyfryw gapelydd wedi syrthio i adfeilion; ond cyfarfyddodd y llall â gwell ffawd, trwy i'r Methodistiaid ei bwrcasu, ac heblaw, eu haddoliadau cyffredin, hwy a gynnaliant ynddo, yn achlysurol, wasanaeth yn ol ffurf a defodau Eglwys Loegr. Medda y Methodistiaid ddau gapel arall yn y plwyf, ac y mae gan y Bedyddwyr hefyd addoldy yma; a rhwng ymdrechion y naill a'r llall, y mae angenrheidiau crefyddol y boblogaeth yn cael eu cyflenwi yn effeithiol. Yn yr oesoedd gynt, perthynai prebenduriaeth gyfoethog i Lanarthney; ond y mae yr anrhydedd clerigol hwnw, wedi ei ddiddymu bellach.

Saif pentref Llanarthney ar y dollffordd fawr a arwain o Gaerfyrddin i Landeilo-fawr; ac amgylchynir ef gan y golygfeydd mwyaf amrywiol a godidog. Rhed yr afon Tywi heibio iddo; ar y deau y cyfyd talfryniau coediog etifeddiaeth Myddleton; ac ar y gogledd, gwelir y gelltydd penuchel a ffurfiant un ochr i Ddyffryn Cothi, rhwng esgeiriau pa rai y rhed ffrwd a roddodd ei enw i'r Dyffryn hwnw, gan frysio i ymuno â'r Dywi. Ond heblaw fod golygfeydd naturiol y fro yn ysblenydd, dirfawr gyfoethogir hwy gan y gweddillion henafol lluosog sydd wedi eu gadael megys agoriadau o hanes helyntion y dyddiau gynt, ac yn dystion o fedr ac antur pobl y cynoesoedd. Ar yr ael-graig serth, a gyfyd mor herfeiddiol uwchlaw y dyffryn, dyna furddyn dyddorus hen gastell y Dryslwyn; ac ychydig yn mhellach i'r gorllewin drachefn, ceir Gallt y Grongar, pa un sydd wedi ei hanfarwoli gan awen y bardd Dyer. Ceir yma olion caerfa gadarn a thra eang. Ond diau, mai y murddyn mwyaf dyddorol yn y broydd, ydyw hen Gastell Dinefwr. Dyma hen adail a brofodd bob math o dynged. Bu am oesoedd yn bencadlys y Tywysogion Cymreig, a chafodd ei chwalu a'i adeiladu yn fynychach nag odid unrhyw gaerfa yn Ngwynedd na'r Deheubarth. Erbyn hyn, nid ydyw ond carnedd o falurion, a'r iwrwg bythwyrdd sydd megys wedi cymeryd trugaredd arno, trwy guddio yr hyn sydd weddill o'i furiau, a'u cysgodi rhag cynddaredd yr ystormydd. Nid oes yma nemawr ddim o'r adeilad yn ei ffurff gynhenid, ond yn unig un tŵr petrual, ac un crwn. Y mae Arglwydd Dinefwr wedi adeiladu iddo ei hun balas ardderchog yn lle yr hen gastell, ac y mae y palas newydd hwnw, sef Dinefwr Park, yn addurn i'r fro. Cadwodd teulu Dinefwr eu hurddau tywysogol hyd ddiwedd y cyfnod Edwardaidd, a chawn mai hwynt-hwy a adeiladasant Gastell y Dryslwyn, yn amser Iorwerth y Cyntaf. Oddifewn i'r plwyf hwn hefyd, y mae y palas ardderchog a elwir Myddleton Hall, pa un a adeiladwyd ar y cyntaf gan Dafydd, brawd y clodfawr Syr Hugh Myddleton. Oddeutu diwedd y ddeunawfed ganrif, daeth y palas a'r etifeddiaeth i feddiant Syr W. Paxton, yr hwn a chwalodd hen drigle y Myddletoniaid, ac a adeiladodd, yn yr arddull Roegaidd, un o'r palasau harddaf ac eangaf o fewn y Dywysogaeth. Ar ben un o'r bryniau gerllaw, gwelir hefyd gofadail ardderchog i'r Llyngesydd Nelson, a adeiladwyd gan Syr W. Paxton. Y mae hwn yn adeilad trionglog, ac oddiarno cyfyd tri o dyrau crynion uchel, oddiar ba rai y ceir golygfa dra eang dros y wlad oddiamgylch. Oddifewn i barc Myddleton Hall, darganfyddodd Syr W. Paxton ddyfroedd mwnawl tra gwerthfawr; a dododd y Doctoriaid Saunders a Bebington ar waith i'w dadansoddi. Cafwyd eu bod yn rhinweddol iawn at wella gwahanol fathau o anhwylderau, yr hyn a dueddodd Syr William i adeiladu baddonau poethion, ac oerion, ar y lle, at wasanaeth cleifion a gyrchant yma i ymofyn iechyd. Cyfrifir y dwfr o'r un ansawdd feddygol a dyfroedd adnabyddus Tunbridge-Wells. Gall Llanarthney a Dyffryn Tywi, edmygu enw Syr William Paxton, fel un o'u cymwynaswyr goreu. Anneddle dywysogol arall o fewn y plwyf yn yr amser gynt, oedd Capel Dewi; a gellid casglu oddiwrth yr enw hefyd, fod yma grefydd-dy o ryw fath ar un adeg. Sut bynag, nid ydyw Capel Ddewi erbyn hyn, ond amaethdy cyffredin. Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, fe welir mai prin y gallai yr ymdeithydd trwy Ddeheudir Cymru, os yn meddu chwaeth at brydferthwch naturiol, a dyddorion henafiaethol, dario am wythnos mewn lle mwy manteisiol na Llanarthney.

**LLANASA**, neu Llanasaph, plwyf poblog yn Nghwmmwd Prestatyn, Cantref Tegeingl (a elwir yn bresennol Cantref Prestatyn), sir Callestr. Saif chwe' milldir a haner i'r gogledd orllewin o Dreffynnon, rhwng gorsafau Mostyn a Phrestatyn, ar gledrffordd Caer a Chaergybi. Cynnwysa y plwyf drefgyrdd Axton, Gronant, Gwespyr, Kelston, Picton, Trelogan, a Threwaelod. Cyffyrdda gyffin clawdd Offa, a golchir ei odreuon gan ddyfroedd y Ddyfrdwy ar eu harllwysiad i'r môr. Mesura y plwyf 10,609 o erwau, 4959 o ba rai sydd orchuddiedig gan ddwfr. Cyfrifir y gwerth trethol yn 9199*p*., 920*p*. o ba swm a ddeillia o chwarelau, a 24*p*. o fwngloddiau. Y mae yma oddeutu chwe'chant o dai; ac yn ol cyfrif 1851, rhifai y trigolion 2732, ond yn ystod y deng mlynedd dilynol, cynnyddasant i 2882. Perchenogir holl dir y plwyf gan ddau neu dri o foneddigion, y penaf o ba rai ydyw Syr Pyrs Mostyn, Neuadd Talacre. Y mae etifeddiaeth y Gyrn, lle y mae palas hardd o'r arddull castellog, wedi ei phrynu

Digitized by Google

er ys peth amser gan E. Bates, Ysw., A.S., a pherchenogir y Golden Grove, gan y Milwriad Morgan. Ychydig a wyddys am hanes y plwyf hwn yn flaenorol i esgyniad y Brenin Harri VI. i orsedd Prydain. Cawn ddarfod i'r teyrn hwnw wneyd Llanasa, yn gystal a'r gyfran helaethaf o diroedd goreu Sir Fflint, yn anrheg i'w fam weddw, Cattrin o Ffrainc; ond nid oes brawf ddarfod i'r benadures waddolog hono erioed drigiannu diwrnod ar ei hetifeddiaeth Gymreig. Iorwerth VI. a roddodd drefgyrdd Picton ac Axton yn anrheg i Dudley, Iarll Warwick, ac yntau drachefn a'u rhoddodd i Pyrs ab Howell, un o henafiaid y Syr Pyrs Mostyn presennol. Gwelir fod yr adran hon o'r Mostyniaid yn meddu cysylltiad henafol iawn â phlwyf Llanasa. Ffurfia y plwyf eithaf-bwynt gogleddol sir Fflint. Fel y sylwyd, glanau y Ddyfrdwy a ffurfiant ei derfynau deorllewinol; i'r gorllewin, amgylchir ef gan blwyfydd Newmarket, a Gwaenysgor; gan blwyf Meliden ar y gogledd, a phlwyf Rhydwen ar y deau. Y mae arwynebedd y ddaear yn amrywiol. I gyfeiriad y deau, cyfyd gelltydd a bryniau tlysion, yn cael eu haddurno gan goed derw, bedw, a sycamorwydd. Yr uchaf o'r bryniau hyn ydyw y Gorseddau, pa un sydd 779 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y mor. Yr iseldir sydd dra ffrwythlon, fel cynnyrchle grawn a phorfa; ac y mae yma waen-dir gwerthfawr, a fesura oddeutu dwy fil o erwau. Yn y flwyddyn 1812, gwariodd y tirfeddiannwyr oddeutu pedair mil o bunnau, i adeiladu morglawdd mawr, trwy yr hyn y llwyddwyd i enill llain eang o dir gwerthfawr oddiar y mor. Wrth adeiladu goleudy Pwynt Air, yr hwn a deifl ei oleuni ddeuddeng milldir o ffordd, i rybuddio y morwyr yn oriau y tywyllwch, o beryglon y glanau, enillwyd deuddeg can' erw ychwaneg o dir nodedig o gnydfawr. Tŷf yma rawn rhagorol, yn enwedig gwenith. Y mae y tir a enillwyd fel hyn wedi ei ffurfio yn drefgordd newydd; a gelwir hi Trewaelod. Yn y flwyddyn 1814, gwnaed yma ymgais anturiaethus i dyfu y llysieuyn a elwir hocus (*hollyhocks*). Gosodwyd 147 o erwau o'r tir goreu i'w dyfu, ac adeiladwyd gweithdai, ac ystordai mawrion, er ceisio perffeithio y gelfyddyd, a sefydlu masnach helaeth yn nghynnyrch y llysieuyn: ond wedi amryw flwyddau o brawf, gorfodwyd yr anturiaethwyr i roddi eu bwriad i fyny, ac ail osod y tir o dan amaethyddiaeth gyffredin y wlad.

Saif y pentref mewn dyffryn prydferth, yn cael ei amgylchu gan luaws o balasdai heirdd. Mewn mangre hyfryd, ar lan y môr, o fewn trefgordd Gwespyr, ar safle o ba un y ceir golygfeydd ysblenydd ar faesfor Llanddulas, a Mor y Werddon, y mae palas Talacre, sef trigfod Syr Pyrs Mostyn, Barwnig. Adeiladwyd yma balas gwych yn nheyrnasiad Iago y I. pa un a gafodd ei eangu a'i adgyweirio mewn modd costfawr oddeutu y flwyddyn 1710. Chwalwyd y cwbl yn 1825, a dechreuwyd adeilad helaethach ac ardderchocach, ar sylfaeni yr hen; ond yn y flwyddyn 1827, cyn i'r palasdy newydd gael ei orphen, fe'i dinystriwyd gan dân. Wedi hyn, cyfodwyd y palas presennol, yr hwn sydd hafal i unrhyw un yn y Dywysogaeth o ran prydferthwch ei gynllun, a dymunoldeb y golygfeydd a'i hamgylchyna. Perthyna iddo hynodrwydd neillduol, ar gyfrif y ffaith fod yr holl ddefnyddiau, oddigerth y llechi, wedi eu cael ar yr etifeddiaeth. Gwnaed addurniadau y tân-leoedd, &c., â cherig rhuddgoch prydferth y fro; ac y mae y coedwaith, o dderw cysefin Llanasa. Palas y Gyrn sydd adeilad gwŷch, o'r nodwedd gastellaidd Seisnig. Saif ar uchelfan amlwg, a cheir o hono olygfeydd eang ar yr afon Mersey, Mor y Werddon, Ynysoedd Hillbre, &c. Yr oedd yma unwaith gasgliad ardderchog o ddarluniau, ond gwerthwyd y cwbl yn ddiweddar, am ddwy fil a haner o bunnau. Y Golden Grove sydd balas gwŷch, ar gynllun adeiladwaith cyfnod Elizabeth. Saif mewn mangre gysgodol, rhwng y gelltydd gwylltion, yn cael ei amgylchu gan goed a phlanigfeydd amrywiol a phrydferth. Ceir oddiyma olygfeydd rhagorol ar fynyddoedd Eryri, a lleoedd dyddorol ereill.

Y mae degwm y plwyf, yn werth oddeutu naw cant a haner o bunnau, o ba swm y derbyniai Esgob Llanelwy, 651*p.* a'r ficer 300*p.*, yn nghyda'r persondy, a phedair-erw-ar-ddeg o dir Eglwysig. Yn ol "Cronicl y Breninoedd," cyfrifid y ficeriaeth yn yr hen amser, yn werth 9*p.* 11*s.* 5½*c.* gyda degymau rectoraidd trefgyrdd Axton, (oddigerth degwm y gwair,) a Threlogan, a saith ran o bymtheg o fan ddegymau yr holl blwyf. Y mae yr Eglwys wedi ei chysegru i Sant Cyndeyrn, a Sant Asaph, ac yn adeilad hardd, ac eang. Adeiladwyd yr Eglwys bresennol, yn y flwyddyn 1737, a mesura 240 o droedfeddi o hyd, wrth 42 troedfedd o led. Addurnir y gangell â ffenestr liwiedig, a ddygwyd yma o Fonachlog Basingwerk, gan Harri ab Harri, brodor o'r plwyf, yr hwn a brynodd y ffenestr ar adeg chwaliad yr Abbatai a'r Lleiandai, trwy orchymyn Harri yr Wythfed. Caniatawyd nawddogaeth, a dwy ran o dair o ddegwm plwyf Llanasaph, i Lawrence Child, esgob Llanelwy, yn y flwyddyn 1385, i dalu traul goleuo yr Eglwys Gadeiriol, ac adgyweirio y difrod a wnelsid arni trwy ryfeloedd mynych yr oes hono. Y mae o fewn y plwyf addoldai cyfleus gan yr Annibynwyr, y Wesleyaid, a'r Methodistiaid; ac y mae Syr P. Mostyn wedi cyfodi capel i'r Pabyddion yn mhentref Talacre. Y mae Syr Pyrs, a'r Arglwyddes hefyd, wedi adeiladu ysgoldy er cyfranu addysgddyddiol i blant, yn mhentref Talacre. Wrth gwrs, rheolaeth Babaidd sydd yma hefyd; ond y mae yr ysgol yn agored i blant Protestaniaid, a ddewisant fyned yno. Cynnalia yr Ymneillduwyr bump neu chwech o ysgolion Sabbathol o fewn y plwyf; a thrwy bregethu a chenadu, hwy a wnant ymdrechion egniol i attal llithiad y bobl yn ol at y'Babaeth, yr hon sydd yn meddu y fath nawddogaeth haelionus o fewn y lle. Y mae yma hefyd ysgol ddyddiol, gysylltiedig â'r Eglwys Sefydledig. Cafwyd gwaddol tuag at adeiladu yr ysgoldy yma, trwy lythyr cymun Thomas ab Hugh, yr hwn, yn y flwyddyn 1671, a adawodd ddeg-punt-ar-hugain at ddybenion addysg yn y plwyf. Gadawodd yr un Thomas ab Hugh hefyd haner cant o bunnau tuag at brynu bara i'r tlodion; a rhoddodd Edward Owen, yn y flwyddyn 1672, ugain punt at yr un amcan. Perthyna i'r plwyf amryw waddoliadau ereill, megys chwe' phunt a adawyd gan John Conwy, yn y flwyddyn 1697; dwy-bunt-ar-hugain a adawyd gan Edward Roberts, yn 1702; a haner cant a roddodd Roger Mostyn, yn 1731. Defnyddiwyd agos yr oll o'r arian hyn i brynu tyddyn yn Llandrillo-yn-Rhos, oddiwrth ba un y derbynir ardreth blyneddol o bymtheg punt, y rhai a ddefnyddir i brynu y bara i'w ranu i'r tlodion bob dydd Sul.

Yn flaenorol i'r Diwygiad Protestanaidd, yr oedd o fewn trefgordd Gwespyr, gapel-dy (*chapel of ease*) cysegredig i Sant Beuno; ond gollyngwyd ef i adfeilion wedi toriad gwawr y Diwygiad, ac nid oes

Digitized by Google

bellach namyn dernyn bychan o un o'i furiau wedi ei adael, i ddynodi ei safle.

Cyfoeth mwnol y plwyf hwn sydd dra gwerthfawr. Bu cloddfa blwm Trelogan yn cael ei weithio ar raddfa eang am gant a haner o flyneddau; ac y mae yma wythienau eang o lô, a cherig-chwarelau gwerthfawr, pa rai a weithir gydag egni mawr, ac anfonir eu cynnyrchion i bob parth o Brydain, a llawer i America. Yma y dechreu gwelyau glo mawrion sir Fflint; a cheir pyllau y nwydd gwerthfawr hwn, yn gystal a'r mwnuron ereill, o fewn agosrwydd cyfleus i lan y mor. Ymwelwyr â'r lle a deimlant gryn ddyddordeb yn ngoleudy Pwynt Air, ar enau yr afon Dyfrdwy. Y mae yr adeilad oll wedi ei wneyd o haiarn, ac yn sefyll ar naw o golofnau cedyrn, a'r lampau wedi eu cyfodi bymtheg troedfedd a deugain uwchlaw arwynebedd y mor. Teifl oleuni gwyn i fyny y Dyfrdwy, tua Chaerlleon; a goleuni cyffelyb i gyfeiriad Ynys Mon, tra y mae goleuni coch nerthol, yn pelydru o hono i gyfeiriad traethau Hoyle.

Gellid casglu fod yma lawer ysgarmes flin wedi cymeryd lle rhwng y Cymry a'r Saeson yn yr hen amseroedd, gan fod Clawdd Offa yn dilyn godreu y plwyf, am oddeutu pedair milldir. Yn Llanasa y rhed pen yr hen wahanfur dyddorol i'r mor, ac y mae mewn cyflwr o gyfanrwydd gwell yma, nag odid yn un man o Gallestr i Fynwy. Gwasanaetha fel terfyn rhwng y plwyf hwn a phlwyfi Whitford, a Newmarket; ond mewn un man ceir ef yn gyfan o fewn plwyf Llanasa, lle y gwahana drefgyrdd Golden Grove, a Kelston.

**LLANBABO**, plwyf yn Nghwmmwd Talybolion, Cantref Cemaes, (a elwir yn awr hefyd, Cantref Talybolion), sir Fon. Saif oddeutu pedair milldir a haner i'r gogledd-orllewin o Lanerchymedd, a'r un pellder i'r de-ddwyrain o for-lan Llanbadrig. Plwyf hollol amaethyddol ydyw; ac y mae y tir yma o'r math ffrwythlonaf yn Ynys Mon. Oddigerth yr hen ysgubor ddegwm, a'r maes bychan a berthyn i'r periglor, Syr Richard Bulkeley, Barwnig, Baron Hill, yw perchenog yr holl blwyf. Cyfrifir fod gwerth trethol y tir, yn 1314*p*. Nid oes yma ond oddeutu ugain o anedd-dai o fewn y plwyf; ac y mae nifer y tai, yr un modd a nifer y boblogaeth, yn lleihau yn feunyddiol. Yn y flwyddyn 1801, rhifai trigolion Llanbabo 165; yr oeddynt wedi gostwng i 155 erbyn cyfrifiad 1851; erbyn cyfrifiad 1861, i 138; ac i 113 erbyn cyfrifiad 1871. Yr achos o hyn, ydyw, fod y tirfeddiannydd wedi dilyn yr arferiad niweidiol o uno y tyddynod â'r ffermydd mawrion. Gwyddom am dair fferm a unwyd yn y plwyf hwn yn ddiweddar, ac ni chedwir nemawr fwy o lafurwyr ar y fferm unedig, nag a wneid gynt ar un o honynt, gan fod llawer o'r gwaith, a wnelid gynt â llafur dwylaw, bellach yn cael ei wneyd gyda grym peiriannau. Ond y modd y mae y dull yma o uno ffermydd yn effeithio yn niweidiol, ydyw trwy gyfyngu yr hyn oedd gynt yn foddion bywioliaeth i dri theulu, i un person, neu deulu. Bu yma gynt deuluoedd lluosog yn cael eu magu yn y Cae Mawr, a Phenrhos; ond y mae y tai hyny bellach yn anghyfanedd, a'r tiroedd perthynol iddynt wedi eu huno â'r Fferam Gŷd. Nid oes o fewn y plwyf hwn gapel Ymneillduol, shop, na thafarndy. Bu yma gynt efail gof; ond credwn fod y sefydliad hwnw hefyd yn gauedig er ys llawer dydd. Pa fodd bynag, gall Llanbabo hawlio yr anrhydedd o fod yn gryd Methodistiaeth flodeuog y Gareglefn, a rhanbarth deheuol plwyf Llanbadrig, canys yma, ar gwr corsdir Llanol, yr oedd hen gapel Pant-y-Coli, lle y bu gorfoleddu brwd, a diwygiadau grymus, fwy na thriugain mlynedd yn ol, o dan arweiniad yr hen William Dafydd yr Hald, Mr. Owen Lewis Fferam Isaf, ac ereill. Cymerodd Methodistiaeth y fath feddiant llwyr o'r plwyf y pryd hwnnw, fel y gellir dyweyd mai i'r Cyfundeb a nodwyd, y perthyn yr holl boblogaeth hyd y dydd hwn. Chwalwyd yr hen Bant-y-Coli, ac adeiladwyd capel helaethach Bethlehem, yn mhentref y Gareglefn, sylfaen pa un a osodwyd gan yr enwog John Elias, yr hwn a drigiannai ar y pryd yn Llanfechell. "Gwŷr Pabo," fel y gelwir amaethwyr parchus a chyfrifol y plwyf, a barhant hyd heddyw yn brif golofnau yr achos yn y Gareglefn. Yma y mae y Fferam Isaf, lle bu Mr. John Owen, y blaenor enwog, yn treulio ei oes. Olynir ef gan ei fab, fel amaethwr cyfrifol, a diacon eglwysig tra gwasanaethgar. Bu yr hen efengylwr melus, y diweddar Barch. Wm. Jones, Rhuddlan, pan yn llaslangc gwyllt, yn gwasanaethu yn y Fferam Isaf; ac yn Llwyn-yr-arth gerllaw, y ganwyd yr Ysgrythyrwr cadarn, y diweddar Barch. Cadwaladr Williams, Pen Caint. Fel y sylwyd eisoes, y mae y tir yma yn dra ffrwythlawn, ac yn cynnwys cyfran helaeth o Gors-y-bol, trwy ba un y rhed yr afon Alaw. Y mae degwm y plwyf, yn werth dau gant a phump o bunnau yn flyneddol, a thelir y swm yma i beriglor Llanddausant, yr hwn yw curad parhaus Llanbabo. Derbynia yr offeiriad hefyd ardreth oddiwrth y pum' erw o dir Eglwysig sydd yn nghlyn â'r Ysgubor ddegwm. Hyd farwolaeth y diweddar Hybarch Ganghellydd James Williams, yr oedd y ddwy fywioliaeth gyfoethog hyn, sef Llanddausant a Llanbabo, yn gysylltiedig â pherigloriaeth Llanfairynnghornwy. Cymer y plwyf ei enw oddiwrth nawddsant a sylfaenydd yr Eglwys, sef y Tywysog, Pabo Post Prydain, gwrthwynebydd dewrwych y Pictiaid, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod Ffichtaidd. Wedi ymladd yn ddewr dros ei wlad, ymneillduodd Pabo i derfynu ei oes, trwy arwedd bywyd tra chrefyddol, o dan amddiffyniad Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, a Brochwel Ysgythrog, yn Ynys Mon. Bernir iddo adeiladu Eglwys yn Llanbabo, tua'r flwyddyn 460, ac felly chwech ugain a chwech o flyneddoedd cyn i Awstin Fynach ddyfod i Brydain i gyhoeddi cyfeiliorniadau Rhufain. Yr oedd efe yn fab i Arthwys ab Mor ab Morvydd ab Ceneu ab Coel Godhebog, taid yr Ymherawdwr Cystenyn Fawr. Priododd Pabo gyda Gwenaseth, ferch Rhufon Rhufoniog; ac y mae y ffaith iddo ef gael ei seintio gan yr hen Eglwys Frytanaidd, yn profi nad oedd Eglwys Gristionogol gyntefig y wlad hon, yn dilyn ofergoel Eglwys Rhufain, trwy wahardd i'r offeiriaid briodi. Hysbysir fod Eglwys bresennol Llanbabo, ar yr un orsaf a'r adeilad a gyfodwyd gan Pabo; ond y tebygrwydd yw, ei bod ychydig latheni yn agosach i'r dwyrain, canys oddeutu canol yr eilfed ganrif-ar-bymtheg, darganfyddwyd cofaen Pabo yn y fynwent, ar ochr orllewinol yr Eglwys. Diau i'r maen yma gael ei osod oddifewn i'r deml gyntefig, a'i adael yn mhlith ei malurion pan adeiladwyd yr un bresennol. Y mae y crair dyddorol wedi ei osod yn awr mewn cadwraeth barchus oddifewn i'r llan. Cynnwysa gerflun o Pabo, yn nghyda'r argraff canlynol:—*Hic Jacet Pabo Prud Corpus . . . Te . . . Prima.*

**LLANBADARNFAWR**, plwyf tra eang yn nghantrefi ILAR a GENAU'R GLYN, sir ABERTEIFI. Cyn-

Digitized by Google

nwysa fwrdeisdref, a phorthladd, ac ymdrochle boblogaidd Aberystwyth; a rhifai holl boblogaeth y plwyf 13,724 yn y flwyddyn 1861, 5641 o ba rai oeddynt o fewn bwrdeisdref Aberystwyth. Cynnwysa hefyd faesdrefi poblogaidd Ucha yn dre, Isa yn dre, y Faenor Uchaf, y Faenor Isaf, Broncastellan, Clarach, Elerch, Llanbadarn-isa-yn-y-Creuddyn, Cwmrheidiol, Melindwr, Parsel Canol, a Threfeirig. Mynegir i Padarn, neu Paternus, adeiladu Eglwys yma yn y flwyddyn 516, ac iddo lwyddo i'w gwneyd yn Eglwys Gadeiriol ac Esgobol, a sefydlu yma hefyd golegdy mynachaidd. Cysyllta y "Trioedd" enw y Padarn hwn gyda Theilo, a Dewi, fel "tri bendigaid ymwelwyr Ynys Prydain." Tybir mai brodor o Lydaw ydoedd Padarn, ac iddo ddyfod oddiyno i'r dyben o dderbyn addysg o dan Illtyd, yn Athrofa enwog Llanilltyd fawr. Wedi gorphen ei efrydiau yr aeth i Lanbadarn i sefydlu ei Eglwys Gadeiriol, ac efe a gysegrwyd i fod ei hesgob cyntaf, ac hefyd yn brelad ddirprwy i Archesgob Ty Ddewi. Parhaodd Padarn i lywyddu o fewn ei esgobaeth gydag yni a deheurwydd am ysbaid un mlynedd-ar-hugain; a sefydlodd fynachdai lluosog ar hyd a lled Ceredigion, gan eu cyflenwi â phrif fynachod o'i Golegdy yn Llanbadarn. Ar derfyn yr unfed flwydd-ar-hugain o'i breladiaeth, efe a wahoddwyd yn ol i Lydaw, lle cafodd ei bennodi yn Esgob Vannes. Olynwyd ef yn Llanbadarn gan Cynog, a pharhaodd yr esgobaeth i flodeuo am agos i ganrif, canys cawn gofnod fod Esgob Llanbadarn yn un o'r rhai a gymerent ran mewn cynnadleddau a gynnaliwyd yn sir Gaerwrangon o fewn y flwyddyn 601. Pa fodd bynag, ymddengys i Lanbadarn gael ei hamddifadu o'i breintiau dinasol yn ebrwydd ar ol y flwyddyn olaf a enwyd, mewn canlyniad i'r trigolion ymgodi mewn math o wrthryfel eglwysig, a lladd eu hesgob. Nid oes sicrwydd dilys pwy oedd y prelad anffodus a syrthiodd yn aberth i gynddaredd ei ddeiliaid, ond tybia Humphrey Llwyd, mai Idnerth ydoedd. Ceir cof-faen cerfiedig am dano ef yn Eglwys blwyfol Llanddewibrefi. Esgob Llanbadarn, oedd un o'r ddirprwyaeth a bennodwyd gan yr hen Eglwys Frythonaidd, i gyfarfod Awstin Fynach, a gwrthwynebu lledaeniad y cyfeiliornadau Pabaidd, ar laniad cyntaf y Cenadwr galluog ac ystrywgar hwnw o eiddo y Pab, yn yr ynysoedd Prydeinig. Dangosodd y preladiaid Cymreig ar y pryd, ddewder a phenderfyniad teilwng o ysbryd pybyr a diofn ein cenedl, trwy wrthod ymostwng i draha ysbrydol Esgob Rhufain. Megys ag y gwrthwynebodd Casivellannus, a phendragoniaid Brytanaidd ereill, ruthriadau y Caisariaid a'u llengoedd, felly hefyd y gwrthsafodd y duwinyddion Brythonaidd, ledaeniad heresiau dinystriol a gorthrymus Awstin a'i ganlynwyr, hyd nes y daeth cleddyfau y Sacsoniaid i gyfryngu ar ran Rhufain, trwy ladd blaenoriaid Cristionogol cyntefig ein gwlad, gwasgar eu praidd, ac attalfaelu eu heiddo. Wedi diosg urddas esgobol Llanbadarnfawr, ystyriwyd y plwyf a'i holl waddoliadau, a'i sefydliadau mynachaid, yn ddarostyngedig i awdurdod Esgobaeth Ty Ddewi. Pa fodd bynag, parha y plwyf a'r amrywiol drefgyrdd o'i fewn, i wisgo enw y nawddsant Llydawaidd, Padarn, hyd heddyw. Galwyd y Llan hwn yn Llanbadarnfawr, er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth y mân lanau, ac yn arbenig Aberystwyth, pa un a elwid gynt yn Llanbadarn-y-gareg.

Daeth i ran Eglwys henafol Llanbadarnfawr, lawer tynged gyfnewidiol, a phrofodd yn ehelaeth o chwyldroadau ffawd ac anffortun. Yn y flwyddyn 987, hi a syrthiodd yn aberth i gynddaredd y Daniaid, pa rai a'i chwalasant hyd ei sylfaeni. Cymaint oedd y difrod a wnaed gan lengoedd haner barbariaidd y Daniaid, yn y parthau hyn o'r Dywysogaeth y pryd hwnw, fel y tybiodd Meredydd, Tywysog y Deheubarth, mai doethach oedd iddo, er mwyn diogelwch ei diriogaethau, ac eiddo ei ddeiliaid, gyfammodi i dalu teyrnged o geiniog dros bob dyn o fewn ei derfynau, i'r gormeswyr. Y Cymry a alwent y doll hon, yn "deyrnged y fyddin ddu," ac ni buont foddlawn na thawel nes ei llwyr ysgwyd ymaith. Yn y flwyddyn 1038, mwynhai y Cymry heddwch lled dda oddiwrth y gormeswyr estronol; ond, fel yr oedd gwaethaf y ffawd, nis gallai ein henafiaid un amser ymattal rhag cweryla â'u gilydd yn absenoldeb gelyn cyffredin. Yn unol â'r tueddfryd dinystriol yma, cawn ddarfod i Gruffydd ab Llewelyn ab Sitsyllt, o fewn y flwyddyn a nodwyd, ymfyddino yn erbyn Howel ab Edwin, gan ei orchfygu, a chymeryd broydd teg Llanbadarn yn anrheithiedig oddiarno. Parhaodd y lle yn chwareufa y naill anrheithydd ar ol y llall am ganrifoedd. Yn y flwyddyn 1106, cawn ddarfod i amryw o filwyr Owain ab Madog, ffoi i ymofyn lloches yn Eglwys Llanbadarn. Erlynwyd hwy i'r gysegrfa ei hun gan filwyr Harri I., gyda'r hwn yr oedd Ithel a Madog wedi ffurfio cyngrair. Cafodd Eglwys Llanbadarn ei dinystrio y waith hon eto, a'r oll o'r ymguddwyr truain, eu gosod i farwolaeth. Pa fodd bynag, fe ymddengys fod trigolion Llanbadarn, a Llanddewibrefi, wedi cyfarfod â gwell ffawd y waith hon, nag a ddaeth i ran preswylwyr parthau ereill o sir Aberteifi, canys fe'n hysbysir, ddarfod i Harri a'i gyngreiriaid ymarfer ysgelerder neillduol i anrheithio pob man ond y lleoedd a nodwyd. Dichon mai yr achos i raddau o dynerwch gael ei arddangos tuag at Landdewi a Llanbadarn ydoedd, fod y trigolion yn coleddu teimladau ffafriol i'r Brenin, a gwrthwynebol i Owain ab Madog. Yn y flwyddyn 1109, dechreuodd Gilbert Strongbow adeiladu castell Aberystwyth, trwy yr hyn y daeth efe rywfodd i gael rheolaeth ar ddegymau a gwaddoliadau eglwysig plwyf Llanbadarn, y rhai, yn y flwyddyn 1111, a drosglwyddwyd ganddo i Fonachlog St. Pedr, Caerwrangon. Ond er bod yr esgobaeth wedi ei diddymu ganrifau yn flaenorol, ymddengys na lwyddodd y cysegrysbeiliad hwn o eiddo Gilbert Strongbow, i lethu y Coleg a sefydlasid gan Padarn; canys yn y flwyddyn 1136, cofnodir marwolaeth Ioan, prif-fynach Llanbadarn; ac yn y flwyddyn 1143, cofnodir marwolaeth "Sulien ab Rhyddmarch, gwr o uchel-ddysgeidiaeth yn athrofa Fynachol Llanbadarn." Yn nechreu y deuddegfed canrif, llwyddodd y Normaniaid i gymeryd meddiant pur lwyr o hen Dywysogaeth Ceredigion. Yn y flwyddyn 1116, daeth Gruffydd ab Rhys, Tywysog y Deheubarth, i aflonyddu ar y concwerwyr, a gwnaeth ymosodiad penderfynol, ond aflwyddiannus, ar Gastell Aberystwyth. Yn ystod yr ymgyrch yma, gwersyllai y Tywysog Gruffydd yn Glasgrug, Llanbadarn; a phriodolodd mynachod y lle, ei aflwyddiant i'w waith yn attalfaelu ychain ac anifeiliaid ereill, o diroedd cyssegredig yr Eglwys a'r Fynachlog, at wasanaeth ei filwyr. Cofnoda Giraldus Cambrensis, iddo ymweled â'r lle hwn yn nghwmni yr Archesgob Baldwin, i bregethu Rhyfeloedd y Groes, oddeutu y flwyddyn 1188, a chwyna yn eiddigeddus oherwydd fod cyllid y Fynachlog oll

Digitized by Google

wedi disgyn i ddwylaw un teulu y pryd hwnw, a'r sefydliad wedi ei ollwng i gyflwr cywilyddus ac adfeiliedig. Wedi sefydliad Mynachlog y Vale Royal, sir Gaerlleon, gan Iorwerth y Cyntaf, ymddengys i holl waddol Llanbadarn gael ei drosglwyddo i'r sefydliad Seisnig hwnw, ac ni bu yma mwyach na choleg na mynachlog. Yn ystod gwrthryfel Rhys ab Meredydd, oddeutu y flwyddyn 1287, Llanbadarnfawr ydoedd pencadlys y byddinoedd Seisnig yn Neheudir Cymru.

Perthyna i Lanbadarnfawr anrhydedd arbenig yn hanesiaeth lenyddol Cymru, canys yn Mro. Gynin, o fewn y plwyf hwn, y ganwyd yr enwocaf o'r clasurfeirdd Cymreig, sef Dafydd ab Gwilym. Barna y Dr. W. O. Puw a haneswyr craff ereill, iddo gael ei eni yn nechreu y drydedd ganrif-ar-ddeg; a diau fod y ddamcaniaeth yn gywir, canys yr oedd y bardd awenber yn ei flodau oddeutu canol y ganrif a nodwyd. Y mae traddodiad, ddarfod i Taliesin Ben Beirdd, pan ar ymweliad â'r lle hwn saith gan mlynedd yn flaenorol, brophwydo am enedigaeth Dafydd. Cyfeiria un o olynwyr Dafydd at y brophwydoliaeth dybiedig yn y geiriau hyn:—

"Am Dafydd, gelfydd, goelfin,—praff awdwr
Prophwydodd Taliesin,
Y genid yn mro Gynin
Brydydd a'i gywydd fal gwin."

Gellid crybwyll am lawer o enwogion llenorol ereill, a fuont, o bryd i bryd, yn dal cysylltiad â Llanbadarn; a theilwng yw nodi mai y fynwent yma ydyw mangre beddrod yr haelfryd a'r clodfawr Llewelyn Ddu o Fon.

Dywedasom eisoes fod poblogaeth y plwyf enwog hwn a'i amrywiol drefgyrdd, yn rhifo agos i bedair-mil-ar-ddeg. Dengys hyn gynnydd rhyfeddol er y flwyddyn 1801, gan nad oedd nifer yr holl bobl o fewn terfynau Llanbadarnfawr y pryd hwnw, yn rhifo namyn 3852. Dylid priodoli y cynnydd rhyfeddol hwn, yn benaf, i ddadblygiad lluaws mwngloddiau cyfoethog y fro. Yr enwog Syr Hugh Myddleton oedd y cyntaf i ddechreu gweithio y cloddfeydd plwm, yn Nghwmsymlog a Chwmrheidiol; ac y mae yn ddiweddar amryw o gwmniau anturiaethus wedi eu ffurfio i ymofyn trysorau mynwes y ddaear. Cwynir fod y gofer a red o'r gwahanol fwn-weithiau yn gwenwyno yr Ystwyth ac afonydd ereill y fro, nes lladd y pysgod, a pheryglu bywydau anifeiliaid a yfant o'r dyfroedd; a mynych y bu yr amaethwyr a'r cwmniau mwnurol, yn bygwth ymgyfreithio. Wrth gloddio am blwm yn y lle, daeth Syr Hugh Myddleton ar draws gwythienau cyfoethog o fwn arian, ac yma y casglodd y cyfoeth aruthrol a wariwyd ganddo yn amser Iago y Cyntaf, i gyflenwi dinas Llundain â dwfr. Disgynodd perchenogaeth y mwn-weithiau drachefn i Mr. Bushel, yr hwn a'u cariodd yn mlaen gyda llwyddiant mawr dros amryw flyneddau. Erbyn hyn, y mae nifer y gweithfeydd a'r gweithwyr wedi cynnyddu yn ddirfawr, ac edrychir ar y mwnuron fel prif sylfaen cyfoeth a symbylydd diwydrwydd y broydd. Mor bell yn ol a'r flwyddyn 1847, cynnyrchai cloddfa y Goginan, gynnifer a 1446 o dunelli; a gweithiau y Gogerddan, y Gors, a'r Darren, oddeutu 194 o dunelli. Yn ychwanegol at gyfleusderau lluosog porthladdoedd morlan Aberteifi, y mae y gledrffordd hefyd bellach yn hyrwyddo trosglwyddiad y mwnau hyn i farchnadoedd Lloegr a'r Cyfandir.

Rhedai y ffordd Rufeinig a elwid Sarn Helen, trwy y plwyf hwn, a gwelir rhan o honi yn amlwg hyd heddyw ar dir amaethdy a elwir Llwyn Rhingyll. Ceir y fro yn gyfoethog mewn olion a gweddillion henafiaethol ereill, megys hen wersyllfaoedd Prydeinig, caerfeydd, &c. Pen-y-Ddinas, ger Aberystwyth, oedd orsaf bwysig iawn, canys ceir ar yr uchelfan yma olion amlwg dau wersyllfa eang—un yn betrual a'r llall yn gylchog; ac oddi tanynt, ar ochr yr allt, y mae caergylchoedd pridd mawrion yn ganfyddadwy. Diau i lawer gornest waedlyd gael ei hymladd yma yn yr hen amser. Uwchben yr Eglwys blwyfol, y mae hafan neu ddaear agorfa dra hynod, ar gyfrif yr effaith a ga y toriad ar gludiad swn. Er ei fod gerllaw i'r Eglwys, dywed yr hanesydd Carlisle wrthym, nas gellir clywed caniad y gloch, os sefir mewn man arbenig o'r hafan, ond wedi symud ychydig fodfeddi i unrhyw ochr, clywir clul-iad y gloch yn gwbl eglur.

Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae y plwyf yn un tra eang—yn bymtheng milldir o hyd, ac ar gyfartaledd, yn chwech o led. Rhed yr afonydd Ystwyth a Rheidiol trwyddo, a'r ffyrdd o Aberystwyth i Fachynlleth, a'r Drefnewydd. Cyfrifir fod ei holl arwynebedd yn 44,800 o erwau, o ba rai y mae oddeutu dwy fil o erwau yn forfa. Yr oedd yma gynt uwchlaw dwy-fil-ar-hugain o erwau yn fynydd-dir agored; ond weithian y mae llawer o hwnw wedi ei amgau. Ceir yma oddeutu tair mil o erwau yn blanigfeydd; ac heblaw llawer o borfeldir amrywiaethog—peth gwŷch, a pheth salw—tyfir yn y gweddill gynnyrchion cyffredin y wlad, mewn grawn, gwyrddlysiau, ffa, pys, &c. Y mae yr arwynebedd mewn rhai manau yn nodedig fryniog, ac ar brydiau yn fynydd-dir gwyllt, lle na chynnyrchir dim ond porfa brin i'r diadelloedd defaid. Y mae yr iseldir yn gyffredin o dan amaethiad rhagorol, yr hyn a brawf fod yma wŷr diwyd a deallus am driniad daear. Gall Llanbadarn fawr ymffrostio mewn cyfoethogrwydd golygfeydd. Oddiar y bryniau, boddheir y llygad mwyaf awchus, gan olygfeydd godidog beisfor Aberteifi; ac oddiar yr uchel-fan a elwir y Graig-lâs, neu y "Graig-lais," ger Aberystwyth, gwelir agos holl arweddau natur—yn fôr a mynydd—ar unwaith. Gwisgir y bryniau gan y derw, y ffynidwydd, a'r frwydd tlysion; ac y mae llawer o'r bronydd uchel, wedi eu diwyllio gan yr amaethwyr diwyd, nes yr edrychant yn nodedig brydferth. Pentref Llanbadarn a saif ar uchelfan iachus, uwchben yr Afon Rheidiol. Ei heolydd sydd hirion, ceimion, a lled annosbarthus. O fewn y plwyf y mae lluaws o balasau perthynol i hen fonedd Cymru. Yma y mae y Gogerddan, cartrefle y Prysiaid henafol; a'r Nant Eos, preswylfod y Powelliaid, y rhai ydynt hefyd o waedoliaeth Cymroaidd diledryw. Glan Rheidiol, Cwm Cynfelyn, Pen-y-glais, &c., ydynt balasau heirdd, a'u henwau, i raddau mwy neu lai, yn gymhlethedig â hanesiaeth y dyddiau gynt.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at dynged gyfnewidiol, a dinystr terfynol, Eglwys Gadeiriol, a Choleg Mynachaidd, St. Padarn. Saif yr eglwys bresennol, pa un sydd hefyd yn gysegredig i Padarn, ar ganol y pentref. Adeiladwyd hi ar ffurf croes, yn nullwedd boreuaf adeiladaeth Seisnig. Oddiar ei chanol, cyfyd tŵr, neu glochdy petrual mawreddog, yr hwn a gynnelir ar bedair o golofnau nerthol. Y mae drws addurnedig ar yr ochr ddeheuol, a'r ffenestri ydynt ar ffurf fwâog, ac o ymddangosiad henafol a

Digitized by Google

chadarn. Yn y gangell y ceir cof-feini costfawr i deuluoedd Gogerddan, Nant Eos, Lewis Morrus, ac ereill o hen fawrion y fro; ond y prydferthaf o'r cwbl, ydyw cof-faen o farmor gwyn, o waith y cerflunydd enwog Flaxman, er cof am Harriet, merch Is-iarll Ashbrook, a phriod Pryse Pryse, Ysw., Gogerddan. Y mae yn y fynwent ddwy groes Frytanaidd tra henafol; ond nid oes air o gerfiad i fynegi eu pwrpas. Y mae y ficeriaeth yn rhodd Esgob Ty Ddewi; a phrisid hi yn werth ugain punt y flwyddyn yn Llyfrau y Breninoedd. Cyflog presennol y ficer, ydyw 135*p.*, gyda'r Ficerdy, &c. Ffaith hynod yw, na bu ceffylau a chnydau gwair y plwyf hwn erioed yn ddarostyngedig i ddegwm, (*gwel Carlisle's Topo. Dictionary of Wales*). Perthyna i'r ficeriaeth, waddol annibynol, sef llôg 450*p.*, a adawyd megys cymun-roddion gan wahanol garedigion yr Eglwys. Perchenogir y degwm gan deulu Chichester, y rhai a ddaethant i feddiant o hono oesau yn ol. Y mae ficeriaethau Aberystwyth; Yspytty Cynfyn, yn nhrefgordd Llanbadarn-uchaf-y-Creuddyn; a Llangorwen, yn nhrefgordd Clarach, yn annibynol ar ficeriaeth Llanbadarn. Medda y gwahanol enwadau Ymneillduol, wyth neu ddeg ar hugain o addoldai cyfleus o fewn y plwyf; a chynnaliant luaws o ysgolion dyddiol a Sabbothol. Y mae yma amryw ysgolion, yn meddu gwaddoliadau gwerthfawr. Yn y flwyddyn 1752, cymun-roddodd Roderig Richards, 104*p.*; Jacob Evans, o Benlanolew, a roddodd 40*p.* yn y flwyddyn 1760; ac yn y flwyddyn 1788, gadawodd un John Jones, 50*p.* at addysgu plant tlodion. Yn y flwyddyn 1808, testamentodd Lewis Jones, Caeau Bach, 200*p.* tuag at addysgu plant pedair maesdref. Yn y flwyddyn 1810, rhoddodd Richard Lewis, Abercwmdale, 150*p.* at addysgu plant treflan y Parsel Canol; ac yn 1833 gadawodd John Jones, 200*p.* i gynnorthwyo ysgol elusengar pentref Llanbadarn. Perthyna i'r plwyf hefyd amryw fân gymun-roddion ereill, a gynnyrchant oddeutu 7*p.* 10*s.* yn flyneddol, pa rai a werir am flawd ceirch, i'w rannu i'r tlodion ar ddydd Nadolig. Dichon y carai gwarcheidwaid Aberystwyth yn y dyddiau presennol o ddiwygiadau trethol, wybod i ba swm y trethid plwyf Llanbadarn-fawr, ddeng mlynedd a thriugain yn ol. Yn y flwyddyn 1801, holl swm y trethi a gyfodid yma, ydoedd 959*p.* 9*s.* 9½*c.* Rhenid y cyfanswm yma fel y canlyn:—

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar Drefgordd | Clarach....... | £114 | 15 | 0, | yn ol | 12*s.* | yn y bunt. |
| " " | Cwm Rheidiol.. | 102 | 0 | 0, | yn ol | 12*s.* | " |
| " " | Y Faenor Isaf.. | 39 | 15 | 0, | yn ol | 6*s.* | " |
| " " | Y Faenor Uchaf | 60 | 2 | 9, | yn ol | 8*s.* 6*c.* | " |
| " " | Elerch......... | 39 | 8 | 0, | yn ol | 8*s.* | " |
| " " | Melin Ddwr.... | 81 | 6 | 9, | yn ol | 6*s.* | " |
| " " | Llanbadarn-y-Creuddyn Isaf | 165 | 12 | 9, | yn ol | 6*s.* | " |
| " " | Eto y Creuddyn Uchaf....... | 108 | 18 | 0, | yn ol | 8*s.* | " |
| " " | y Parsel Canol. | 85 | 7 | 9, | yn ol | 9*s.* | " |
| " " | Parsel Isaf yn y Dref........ | 54 | 3 | 4, | yn ol | 8*s.* | " |
| " " | Parsel Uchaf yn y Dref...... | 24 | 10 | 8½, | yn ol | 7*s.* | " |
| " " | Tref Feirig.... | 83 | 10 | 0, | yn ol | 8*s.* | " |
| | Cyfanswm...... | £959 | 9 | 9½ | | | |

Gwelir mor nodedig o anwastad oedd trethiad gwahanol ardaloedd o fewn yr un plwyf, un mlynedd ar ddeg a thriugain yn ol. Erbyn hyn, y mae gwerth trethol plwyf Llanbadarn-fawr, oddeutu 38,460*p.*—cryn gynnydd, onide, er 1801? Ceir o fewn y plwyf, ddyfroedd mwnurol o'r un nodwedd feddygol a dyfroedd Tunbridge Wells.

Wrth derfynu, dylem grybwyll mai gwasanaethu fel arolygydd dros y Goron, ar y mwnweithiau y soniwyd am danynt, yr oedd ein cydwladwr enwog Lewis Morrus, pan y bu efe marw yn Llanbadarn. Claddwyd ef yn mynwent y plwyf; ond o herwydd difaterwch anesgusodol yr awdurdodau, y mae eisoes amheuaeth o berthynas i'w feddrod. Nis gall neb ddyweyd gyda sicrwydd pa un yw ei orweddfa; ond y mae yn ddilys mai yma ei claddwyd. Nid oes ond milldir, o orsaf Aberystwyth i fynwent Llanbadarn, ac y mae yn werth i bob Cymro-garwr, ac edmygydd llên a Barddas ei wlad, a ddelo i Aberystwyth, dalu ymweliad â'r fynwent a gafodd yr anrhydedd o warchod llwch un o enwogion penaf cenedl y Cymry.

"Mae beddrod Lewis Morus yn mynwent Padarn Fawr,
Yn galw arnom deithio'n ol, hyd risiau'r oes i lawr,
I'r dyddiau pan oedd G'ronwy yn Môn yn hogyn bach,
Yn nyddu cerdd, yn naddu cân, wrth reol awen iach."

**LLANBADARN-FAWR,** plwyf yn Nghwmmwd Is-Mynydd, Cantref Elfel, neu Gefn y Llŷs, ac Undeb Rhaiadr Wy, sir FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU. Nifer poblogaeth y plwyf hwn yn 1801 oedd 313; ond cynnyddasant i 475 yn ystod y deugain mlynedd dilynol. Y mae rectoriaeth y plwyf o dan nawdd Esgob Ty Ddewi; a phrisid hi ar Lyfrau y Brenin yn werth 7*p.* 12*s.* 6*c.* Yn y flwyddyn 1803, swm yr holl arian a gyfodid at ddybenion plwyfol oedd 150*p.* 11*s.* 8*c.*; ac i wneyd y swm hwnw, yr oedd yn ofynol cael treth o 4*s.* 6*c.* y bunt. Erbyn hyn, y mae eiddo trethol y plwyf, yn werth 2708*p.*; a'r rectoriaeth yn werth 268*p.* y flwyddyn. Rhed yr Afon Ithon, yn gystal a'r ffordd fawr o Lanfairmuallt i'r Drefnewydd, trwy y plwyf. Rhenir y Llanbadarn yma i ddwy drefgordd, sef Brynhyfedd a Chellws. Cynnwys bentref Pen-y-bont, lle y mae nifer o dai trefnus, yn nghyda gwesty cyfleus, a adeiladwyd oddeutu y flwyddyn 1840. Yma y cynnalia ynadon Cantref Cefn-y-llys eu brawdle. Fel yr awgryma yr enw, y mae yr eglwys yn gysegredig i Sant Padarn; a saif oddeutu milldir a haner o bentref Pen-y-bont. Cynnwysa fynedfa, a changell, ac ymddengys yn adeilad o henafiaeth mawr. Yn ychwanegol at y degwm, perthyna i'r eglwys hon 37 erw o dir, gwerth o ddeugain i haner can' punt y flwyddyn. Yn nheyrnasiad Siarl y Cyntaf, cymun-roddodd un George Moor ugain swllt yn flyneddol, allan o ardreth fferm Gwaen-y-Cloddiau, i dlodion y plwyf hwn a Llanddewi Ystradenni. Bridget Clarke a roddodd y swm o ddeg punt at yr un amcan; ac o dan destament Eleanor Hall, a wnaed yn 1732, deillia swm cyffelyb hefyd i'r un amcan, allan o ardreth fferm y Ty Mawr. Rhenir cynnyrch y cymun-roddion hyn ar bob Dydd Calan. Y mae arwynebedd y tir yma yn lled anwastad, a phridd y dyffrynoedd o ansawdd gleiog. Prif balasadai y fro ydynt Pen-y-bont Hall, a Phen-y-bont Court, pa rai sydd adeiladau heirdd a chostus. Ceir yma ddyfroedd mwnwrol a gynwysant gryn rinweddau meddygol, ond gan fod y fath gyflawnder o ddyfroedd felly yn ngwahanol ardaloedd y Deheudir, ni wneir namyn ychydig ddefnydd o'r ffrydiau hyn. Poblogaeth y plwyf, yn ol cyfrifiad 1861, oedd 475.

Digitized by Google

Medda yr enwadau Ymneillduol, addoldai cyfleus o fewn y plwyf.

**LLANBADARN-FYNYDD**, plwyf yn Nghwmmwd Uwch Mynydd, Cantref EFEL, a elwir hefyd Cantref Knighton, sir FAESYFED. Yn y flwyddyn 1801, rhifai poblogaeth y plwyf hwn 433; ond erbyn 1861 yr oeddynt wedi cynnyddu i 609. Ffurfia Llanbadarn-fynydd gyfran o'r llinell derfyn rhwng siroedd Maesyfed a Threfaldwyn. Y mae yma bentref prydferth, yn cynnwys gwesty cyfleus, gerllaw pont y Camnant, ar yr afon Ithon. Naw milldir ydyw y pellder oddiyma i orsaf y gledrffordd yn y Drefnewydd; a deng milldir, i'r gogledd-ddwyrain, y mae Rhaiadr-gwy. Mesura arwynebedd y tir, ar wahan i'r cyttir cyffredin, 6226 o erwau. Er yn meddu agweddiad gwyllt a rhamantus, eto lled unrhywiol ydyw golygfeydd y fro. Ymddengys y bryniau yn uchel a llymion; ond er hyny hwy a gynnyrchant borfa diadelloedd lluosog o ddefaid. Rhed y dollborth rhwng Llanfairmuallt a'r Drefnewydd, drwy y pentref. Eglwys fechan a di addurn sydd yma, ac nid oes yn nglyn â hi unrhyw hynodrwydd na dyddordeb hanesyddol. Cysylltir ei pherigloriaeth â churadiaeth barhaus Llanana, a'r noddwr yw Esgob Ty Ddewi. Yn yr wythfed-flwydd-yn-ar-hugain o deyrnasiad y Frenines Elizabeth, gadawodd offeiriad o'r enw Robert Barlow, gymunrodd i dlodion y plwyf, yr hyn a gynnyrcha y swm o ddeg swllt yn flyneddol. Gadawodd un Margared Lloyd hefyd, swm cyffelyb, ond o herwydd diofalwch yr awdurdodau, y mae yr elusen hwnw wedi ei gyfrgolli. Yn y flwyddyn 1803, cyfodid yma 277*p.* 13*s.* 7*c.* at ddybenion plwyfol, trwy osod treth o bum' swllt a thair ceiniog y bunt. O fewn y plwyf hwn y mae "Ffynnon Dafydd," yr hon a gynnwys ddwfr mwnurol ag y dywedir ei fod yn effeithiol i wella rhyw fath o anhwylderau.

**LLANBADARN-ISA-YN-NGHREUDDYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanbadarn fawr, undeb Aberystwyth, cantref ILAR, sir ABERTEIFI. Saif oddeutu pedair milldir i'r de-ddwyrain o Aberystwyth, a chynnwysa oddeutu mil o boblogaeth. Ymestyna y drefgordd fawr yma, o lan ddeheuol y Rheidiol, i lan ogleddol yr afon Ystwyth; a brithir y fro gan balasdai heirdd, a choedwydd prydferth. Yma y mae Nant Eos, trigfan y Milwriad Powell, cynaelod Seneddol dros Geredigion. Gweler yr erthygl ar LANBADARN-UCHAF.

**LLANBADARN ODWYN**, plwyf yn undeb Tregaron, cwmmwd Penarth, cantref CANOL, sir ABERTEIFI. Saif oddeutu naw milldir i'r gogledd-ddwyrain o Lanbedr, a thair milldir i'r gorllewin-ogledd o orsaf cledrffordd Tregaron. Yn y flwyddyn 1801, ni rifai y boblogaeth namyn 312; ond yn ystod y deugain mlynedd dilynol, cynnyddasant i 527. Cymer y lle ei enw oddiwrth Padarn, neu Paternus, yr hwn a sefydlodd ac a waddolodd eglwys golegawl Llanbadarn-fawr, ddechreu y chweched ganrif. Iddo ef y cysegrwyd eglwys Llanbadarn-Odwyn, yr hon a saif ar fryncyn noethlwm uwchlaw yr afon Aeron, ac sydd yn adeilad seml a di addurn. Ceir o'r fynwent a amgylchyna yr Eglwys, olygfeydd swynol ar ddyffryn prydferth Aeron, a hen bentref dyddorol Llangeithio. Perthynai i'r eglwys hon gynt, brebenduriaeth yn eglwys golegol Llanddewi-brefi, a sefydlwyd gan Thomas Beck, Esgob Ty Ddewi, oddeutu y flwyddyn 1187. Yn ol llyfrau y Breninoedd, yr oedd gwerth y brebenduriaeth yn chwe' phunt y flwyddyn. Curadiaeth barhaus ydyw y fywioliaeth, a pherchenogion y degwm ydyw Iarll Lisburne, ac R. Price, Ysw. Medda y Methodistiaid Calfinaidd un o'r capelydd mwyaf yn y Dywysogaeth yn Llanbadarn-Odwyn; a chynnalia yr un cyfundeb parchus, ddwy ysgol Sabbothol yn y lle.

**LLANBADARN-TREF-EGLWYS**, neu LANBADARN-FACH, plwyf yn Nghantref ILAR, ac Undeb Aberaeron, sir ABERTEIFI, un milldir-ar-ddeg i'r gogledd orllewin o Lanbedr. Rhed yr afon Arth a'r ffordd fawr o Aberystwyth i Lanbedr, trwy y plwyf, ac amgylchynir ef ar y dde gan blwyf Cilcennin; ar y gogledd, gan Lansantffraid; ar y dwyrain, gan Nantcwnlle; ac ar y gorllewin, gan Landdewi-Aberarth. Mesura oddeutu 6283 o erwau, a chyrhaedda ardrethoedd y tir i 2488*p.* yn flyneddol. Yn y flwyddyn 1851, rhifai y boblogaeth 1045; ond erbyn 1861 yr oeddynt wedi gostwng i 948. Y mae arwynebedd y ddaear yn greithiog, ac anwastad; a chyfrifir mai lled ddiffrwyth a digynnyrch yw y tir. Yma a thraw, cuddir noethni, a phrydferthir y lle, i raddau gan dyfiad llwyni o goed derw a bedwŷdd. Yn yr hen oesoedd, ffurfiai y plwyf un o brebenduriaethau Eglwys Golegol Llanddewi brefi; a chyfrifir y fywioliaeth gan Gronicl y Breninoedd, yn werth deuddeg punt. Derbyniodd y plwyf ddeuddeg can' punt o waddol seneddol, ac y mae llog y swm hwnw, a'r degwm, yn cyrhaedd dau gant a phum' punt a deugain yn flyneddol. Allan o'r swm yna, Telir 175*p.* i'r noddwr, sef Esgob Ty Ddewi, a 70*p.* i'r ficer. Y mae yr Eglwys yn adeilad henafol, a nodedig o syml a di-addurn. Ei nawddsant yw Padarn. Cynnwysa eisteddleoedd i oddeutu 130 o bobl. Fel yn y mwyafrif o ardaloedd sir Aberteifi, y Methodistiaid Calfinaidd ydyw yr enwad crefyddol lluosocaf yma, ac y mae ganddynt dri chapel o fewn y plwyf,

**LLANBADARN-UCHAF-YN-Y-CREUDDYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanbadarn-fawr, yn rhanbarth uchaf Cantref ILAR, ac o fewn Undeb Aberystwyth, sir ABERTEIFI. Saif y drefgordd ddeuddeng milldir a haner i'r dwyrain o Aberystwyth, a chynnwysa oddeutu naw cant o drigolion. Y mae yr ardal yn fryniog a rhamantus odiaeth. Rhed yr afon Rheidiol drwy y lle, gyda gwylltineb brawychus, gan fod ei gwely yn garegog, a'r disgyniad yn syth a sydyn-gyrch, rhwng erchwynion addurnedig â brigwydd tlysion. Ychydig islaw y lle a nodwyd, ymuna y Rheidiol â'r Fynach; ac o hyny allan, rhed y ddwy yn un afon gref i'r môr. Yma y mae capel Yspytty Cynfyn, cysegredig i Sant Ioan Fedyddiwr. Cafodd ei ail adeiladu yn 1827. Gweinyddir yma gan gurad parhaus, yr hwn a dderbynia gyflog o 104*p.* y flwyddyn. Deillia y swm allan o lôg mil o bunnau, a gafwyd fel rhodd Freninol, a chwe' chant o waddol Seneddol, yn nghyda math o ardrethiad o chwe' cheiniog y bunt, a gyfodir yn unol â hen ddeddf leol, oddiar dir-feddiannwyr y rhan barth o'r plwyf uwchlaw Nant Llymystaw. Yn y fynwent y mae tri o Feini Hirion, y mwyaf o ba rai a fesura un-droedfedd-ar-ddeg o hyd, a phedair troedfedd o led. Tybir eu bod yn olion hen deml Dderwyddol. Rhed llwybr y fynwent at "Bont y Person," sef math o gamfa goed seml, a groesa y Rheidiol, mewn man ag mae y llifeiriant yn nodedig o orwyllt, a'i fwrlwm trochionog yn ddigon i

"Synu, pensyfrdanu dyn."

Digitized by Google

**LLANBADARN-Y-GARREG**, plwyf yn Nghwmmwd Llêch Ddyfnog, Cantref ELFEL (a elwir yn awr Cantref Colwyn), undeb Llanfairmuallt, sir FAESYFED. Plwyf bychan ydyw hwn. Nid oes o'i fewn fwy na deuddeg neu bymtheg o dai anedd; ac yn y flwyddyn 1861, nid oedd rhif y trigolion namyn 59. Rhifent 77 yn y flwyddyn 1801; ac fe welir fod yma, fel yn mhob dosbarth hollol amaethyddol, leihad cyson a sicr yn cymeryd lle. Rhed yr afon Edwy trwy y plwyf, ac y mae tref Llanfairmuallt o fewn pum' milldir o bellder, ac yn gwasanaethu fel tref farchnad i'r trigolion. Cyfrifir fod arwynebedd y plwyf oddeutu naw cant o erwau, yn cynnwys cryn fesur o fynydd-dir noethlwm. Yr eglwys sydd adeilad cyffredin a diaddurn, ond digon trefnus a gweddaidd, ac yn ddigon eang i gyfateb i angenion y plwyf. Cysegredig ydyw i Sant Padarn; a'r fywioliaeth sydd is-berigloriaeth barhaus, ac wedi ei chysylltu â rectoriaeth gyfagos Carregrina. Y mae capel Ymneillduol o fewn y plwyf, yn mha un y cynnelir Ysgol Sul lewyrchus a blodeuog. Yn y flwyddyn 1633, cymun-roddodd un Lewis Llwyd, ddeuddeg punt o ardreth fferm o'r enw Tron Oleu, i'w rhanu yn flyneddol rhwng tlodion Aberedw, Llanfareth, a Llanbadarn-y-Garreg; a gadawodd rhyw gymwynaswr ag y mae ei enw yn anhysbys, ddeg punt i'r un perwyl. Cynnyrcha y deg punt hyny ddeg swllt o log blynyddol, a pharheir i'w rhanu yn ol ammodau y gymunrodd. Nid ymddengys unrhyw arwyddion y bydd i chwyldroadau amser a masnach, wneyd nemawr er cyffroi tawelwch arferol y fro amaethyddol hon.

**LLANBADOC**, neu, yn fwy cywir, LLANFADOG, plwyf a phentref, yn rhanbarth Pont y pool, swydd FYNWY; ar yr afon Wysg, filldir i'r Dehau o dref Brynbyga. Llythyrfa, Brynbyga, dan y Cas newydd, swydd Fynwy. Cynnwysa o dir, 3465 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 3747*p.*; o'r hyn y mae 91*p.* mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 452. Tai annedd, 104. Y mae y brif-ffordd o Brynbyga i Gaerlleon ar Wysg, yn myned ar draws y plwyf hwn; ac am ryw bellder, rhwng glan yr afon Wysg a serth-allt goediog. Y mae olion hen ffordd Rufeinaidd yn y gymmydogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 72*p.* Noddwr, y Parch. T. A. Williams. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Sant Madoc.

**LLANBADRIG**, plwyf yn nghwmwd Talybolion, cantref Cemmaes, a elwir yn awr hefyd cantref TALYBOLION, Ynys MON. Perthyna i undeb plwyfol Mon, gwarcheidwaid pa un a gynnaliant eu Cyfarfodydd pythefnosol yn Llanerchymedd. Plwyf hir, cul ydyw Llanbadrig, yn cyrhaedd o bwynt gogleddol yr Ynys, ar forlan Cemaes a Llanlliana, i gyfeiriad ei chanolbarth de-orllewinol, mor belled a Chors y Bol, a Llanbabo. Rhenir ef i ddwy drefgordd, sef Llanbadrig Clygyrog, a Llanbadrig Cemaes. Trefgordd Clygyrog a gyrhaedda o'r Morowydd a Chyttir y Tai Hen a'r Llifad, hyd Ben Padrig, ger Llanbabo; a threfgordd Llanbadrig Cemaes, a ymgyrhaedd ar hyd y forlan, o Lanlliana hyd bwynt neu drwyn y Wylfa, ger Cemlyn. Erbyn hyn, y mae y syniad o drefgordd Clygyrog wedi ymgolli o gof y trigolion, a gelwir pen uchaf y plwyf yn rhandir y Garreg-lefn, mewn canlyniad i dyfiant y pentref adnabyddys wrth yr enw hwnw. Saif yr hen Eglwys blwyfol, mewn uchelfan annghysbell, ar ddibyn serth, uwch y mor, rhwng pentref Cemaes a Llanlliana. Creda y Gwyddelod, mai eu nawddsant hwy a sefydlodd yr eglwys gyntaf yma, pan ar ei daith genadol i'r Iwerddon, oddeutu y flwyddyn 440; ond casgliad yr haneswyr Cymreig craffaf ydyw, mai Padrig ab Aelfryd ab Goronwy, y Sant Cymreig o Waredog, a seflydlodd ac a waddolodd yr Eglwys hon. Sut bynnag, y mae profion digonol mai Cymro oedd Padrig y Gwyddelod hefyd, ac mai ei anfon a gafodd efe i'r Iwerddon, gan y Pab Celestine. Dichon fod gwirionedd yn y chwedl ddarfod i'r cenadwr hwn orfod aros yn Mon am beth amser, i ddysgwyl tywydd a chyfleusdra diogel, er ei alluogi i groesi i'r Ynys Werdd, ac mai oddiar Ynys Badrig yr hwyliodd efe. Y mae yr eglwys bresenol yn adeilad o arddull seml a henafol; ac fel y sylwyd eisoes, agosed ydyw ei safle i'r mor, fel y bydd ystormydd nerthol o'r gogledd yn lluchio y tonau dros fur ei mynwent, a dadwrdd y dymhestl a fu lawer tro, yn effeithiol i attal cynaliad gwasanaeth dwyfol o fewn y deml. Diweddar ficer y plwyf, y Parch. William Johnson, yn awr o Laniestyn, Canon mygedol Eglwys Gadeiriol Bangor, a chaplan yr Esgob Campbell, a ystyriodd yr anghyfleusdra cysylltiedig â safle annghysbell yr hen Eglwys, ac a adeiladodd deml newydd brydferth, yn mhentref Cemaes. Mewn canlyniad i hyn, ni ddefnyddir Eglwys Padrig mwyach, ond i gynnal gwasanaeth achlysurol, a chyflawni defodau angladdol, &c. Ysgrifenydd rhamant a ymddangosodd yn un o'r cyhoeddiadau Cymreig, dro yn ôl, a osododd hynodrwydd arbenig ar fynwent ramantus Llanbadrig, trwy ei chymeryd yn ganolbwynt dyrysglwm a chyfrinach ei chwedl. Mabwysiadodd un o hen ficeriaid hynod y plwyf hefyd, fel prif gymeriad y rhamant, a chyffelyb iawn yw y darluniad o'r cymeriad ffugiol, i un ag y mae lluaws o draddodiadau digrifol am dano yn fyw ar gof y trigolion hyd y dydd heddyw. Parha lluaws o weddillion dullweddau cyntefig iawn o addoli, i gael eu harddangos yn yr eglwys hon, ac yn eu plith ceir yr efail gŵn. Oddeutu ugain mlynedd yn ol, clywsom un o'r trigolion ysmala yn dywedyd iddo ef, pan yn fachgen, fod o dan oruchwyliaeth yr offeryn hwn, o herwydd rhyw drwstaneiddiwch a gyflawnodd yn ystod y gwasanaeth. Noddydd y ficeriaeth, ydyw yr Arglwydd Ganghellydd. Prisid cyflog y ficeriaeth yn Llyfrau y Brenin yn 7*p.* 8*s.* 1½*c.* Perchenog degymau mawrion y plwyf, ydyw Hugh Davies Griffith, Ysw., Caerhun, ger Conwy. Gwerth blyneddol y degymau hyn, ydyw 380*p.*; a gwerth presenol cyfran y Ficer o'r degwm, ydyw 180*p.*, yn nghyda haner erw o dir, gwerth oddeutu dwy bunt a deg swllt. Medda y Methodistiaid dri o gapelydd o fewn y plwyf; sef un yn mhentref Gardwr, ger Llanlliana; Capel Bethesda, Cemaes; a Chapel Bethlehem, yn mhentref y Garreg-lefn. Y mae y ddau olaf yn adeiladau eang a heirdd, a chynulleidfaoedd lluosog yn ymgynull i addoli ynddynt. Medda yr Annibynwyr ddau gapel cyfleus, sef un yn Nghemaes, a'r llall yn ardal boblogaidd y Cen, gerllaw llyn yr Hafodol. Gweinidogaethir i'r ddau hyn, yn ogystal ag i gynulleidfa Annibynol Llanfechell, gan y Parchedig Hugh Jones. Y tri chapel yma oedd maes cyntaf gweinidogaeth y Parch. David Roberts; Caernarfon, (yn awr o Wrecsam). Medda y Bedyddwyr gapel yn Nghemaes, ac y mae eu hachos hwythau o dan ofal gweinidog sefydlog. Teilwng yw sylwi, mai cymaint yw gofal trigolion Llanbadrig am achos crefydd, fel y mae yr oll o'r capelydd a nodwyd wedi

Digitized by Google

eu hail adeiladu, neu eu hadgweirio yn ddiweddar. Nid ydym yn gwybod ddarfod i'r Wesleyaid erioed ymgais at sefydlu achos o fewn y plwyf hwn, er fod yn ardal Cemaes, amryw deuluoedd yn proffesu egwyddorion y Cyfundeb hwnw. Cerddant hwy i addoli gyda'r ddiadell Wesleyaidd yn Nhregele, o fewn plwyf Llanfechell. Dichon fod addysg wedi cael gwell gofal a meithriniad yn Llanbadrig, nag a gafodd mewn unrhyw blwyf gwledig arall o fewn terfynau Ynys Mon. Diau fod hyn i'w briodoli yn benaf, i haelioni Mr. Richard Gwynne, o'r Rhydcroes, yr hwn, yn y flwyddyn 1723, a wnaeth ddarpariaeth haelionus gogyfer âg addysg holl blant y plwyf. Yn y flwyddyn a nodwyd, efe a drosglwyddodd ardreth fferm o'r enw Nantglyn, ger Amlwch, i fod dros byth yn waddol tuag at roddi addysg rhad i bob plentyn ganedig yn mhlwyf Padrig. Gan fod y plwyf mor hir a chul, canfyddodd Mr. Gwynne mai pentref Llanfechell fuasai y man mwyaf canolog a chyfleus i'r holl blant, o Gemaes i'r Garreglefn, ymgynull yn nghyd i dderbyn dysg. O herwydd hyn, efe a drefnodd i'r Ysgol gael ei chynal yn Eglwys Llanfechell, a bod i nifer penodol o blant y plwyf hwnw, dderbyn addysg rhad, fel cynabyddiaeth i'r periglor a'r plwyfolion, am fenthyg yr Eglwys. Yn ymddiriedolwyr y gwaddol haelionus hwn, penododd Mr. Gwynne etifeddion y Rhydcroes, a'r Brynddu, yn nghyda ficer Llanbadrig. Erbyn hyn, y mae etifeddiaethau y Rhydcroes, a'r Brynddu, wedi eu huno, a'r naill fel y llall yn feddiant i Mr. William Bulkeley Hughes, A.S. Y canlyniad yw, fod gan y boneddwr hwn ddwy bleidlais; ac o ganlyniad, efe, i bob dyben ymarferol, ydyw unig a chwbl lywodraethwr yr elusen, gan nad all un bleidlais Ficer Llanbadrig, wneyd dim yn ei erbyn. Teilwng yw crybwyll, ddarfod i Mr. Bulkeley Hughes adeiladu Ysgoldy cyfleus yn Llanfechell, yn mha un y bu athraw nodedig o alluog, sef Mr. John Owen, yn awr o Ysgoldy Gwladwriaethol Amlwch, yn brif ddysgawdwr am flyneddau lawer. O dan ei ofal ef, daeth ysgol waddoledig Llanbadrig, i fod yn enwog yn mhlith ysgolion Mon. Cyrchai iddi blant o bob parth i dderbyn dysgeidiaeth, ac y mae yn awr yn fyw, lu o ddynion enwog, a gychwynwyd ar ffordd gwybodaeth a llwyddiant, gan Mr. Owen. Yn mhlith ereill, gallem enwi Mr. Thos. Palestina Lewis, Bangor; Andreas o Fon; y Lewisiaid a'r Hughesiaid Cyfoethog o Lerpwl, &c. Sut bynag, galarus yw cofnodi, fod y sefydliad, o herwydd mynych symudiad yr Ysgolfeistriaid, wedi colli ei enwogrwydd er ys blyneddau lawer. Y mae yr ysgol hefyd wedi myned yn gwbl ddifudd i blwyf Llanbadrig, gan fod ysgolion Brytanaidd wedi eu sefydlu yn Nghemaes, a'r Garreglefn. O dan gymhelliad teimlad rhydd, a barn oleuedig, cynygiodd diweddar ficer y blwyf, sef y Parch. W. Johnson, fod i'r gwaddol gael ei ranu rhwng yr ysgolion hyn, ond gwrthododd ei gydymddiriedolwr gydsynio. Teg fyddai i drigolion Llanbadrig fynu mwynhau y gwaddol a destamentwyd iddynt hwy; a dichon, yn ngwyneb helaethrwydd y darpariadau presenol, gogyfer âg addysg elfenol, mai cario allan y cynllun a awgrymwyd yn ddiweddar fyddai oreu, sef cyflwyno ardreth Nantglyn, tuag at ffurfio ysgoloriaethau i blant Llanbadrig, mewn sefydliad gramadegol, neu yn y Brif Athrofa Gymreig. Perthyna i'r plwyf amryw elusenau ereill. Gadawodd Mr. Gwynne swm blyneddol tuag at roddi dillad i'r tlodion bob Nadolig. Un o'r enw Owen Williams a adawodd swm o arian, yn y flwyddyn 1657, tuag at roddi bara yn wythnosol, i nifer o hen ferched di briod tlottaf y plwyf. Yr ydym yn cofio gweled nifer o'r hen chwiorydd a nodwyd, yn derbyn eu helusen yn Nghemaes, a'r Garreg lefn, ugain mlynedd yn ol; ond nis gwyddom a ydynt yn parhau i'w gael. Yn y flwyddyn 1801, rhifai trigolion y plwyf 957. Erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynyddu i 1295; ond y mae y rhifedi yn graddol leihau byth er hyny. Yn y flwyddyn 1861, yr oeddynt wedi gostwng i 1157; ac erbyn y cyfrifiad flwyddyn yn ol, i 1113. Diau mai achosion y fath leihad, ydyw cyfuniad annoeth amryw ffermydd, enciliad y fasnach forawl o borthladd Cemaes, a methiant amryw fwngloddiau, a gychwynwyd unwaith yn y fro. Yn Ynys Badrig y terfyna y llinell galchgraig werthfawr, a rêd yn un maen gyda glan y mor, yr holl ffordd o Sir Fflint. Ceir yma fŵn copr mewn amryw fanau, ond nid mewn cyflawnder digonol i dalu am ei godi. Mewn cilfach a elwir Porth Padrig, y mae cyflawnder o glai gwyn, nodedig o werthfawr, a elwir gan y Saeson yn Crinolia. Y mae yma hefyd raian gwyn, prydferth a defnyddiol iawn. Gerllaw Neuadd Cemaes y mae digonedd o baent, o wahanol liwiau, symiau mawr o ba un a godir, ac a anfonir ymaith i wahanol barthau, mewn llongau o borthladd Cemaes. Perthyna y rhan fwyaf o'r tir i Mr. Bulkeley Hughes, A.S. Efe hefyd ydyw Arglwydd y Faenor. Bu ymgyfreithio costfawr rhyngddo ef a'r Goron, dro yn ol, am yr anrhydedd a'r awdurdod olaf. Collodd Mr. Hughes y cynghaws yn mrawdlys Caerlleon, ac apeliodd yn erbyn y ddedfryd hono i Lys Mainc y Frenhines, lle y dymchwelwyd rheithfarn Caer, ac y cadarnhawyd hawliau Mr. Hughes. Saif y cynghaws hwn yn hynod mewn hanesiaeth, ar gyfrif iddo fod yn foddion i sefydlu grym cyfreithiau Hywel Dda yn yr oes hon. Ar sail y deddfau Cymreig hyny, y dadleuai Mr. Morgan Lloyd hawl Mr. B. Hughes i arglwyddiaeth y Faenor; a chan nad oedd yn llyfrau y Cofnodau, ddim yn datgan fod Cymru wedi ei gorchfygu; ac o ganlyniad fod raid mai ei huno â Lloegr trwy gytundeb o'r ddwy ochr a wnaed, rheithiodd yr Arglwydd Brif Ynad Cockburn, fod holl gyfreithiau tirol y Dywysogaeth eto mewn grym, gan na chyfrifir diddymiad ar ddeddfau gwlad, heb ei gorchfygu.

Holl swm y trethi a gyfodwyd ar y plwyf hwn, yn y flwyddyn 1801 oedd 143*p.* 14*s.* 4*c.* Dosbarthid y swm yma fel y canlyn:—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trefgordd Cemaes, | £100 | 16 | 8 | yn ol pum' swllt y bunt. |
| Trefgordd Clygyrog, | 42 | 14 | 4 | eto. |

Erbyn hyn, y mae gwerth trethol Llanbadrig yn 1460*p.* Mesura yr holl blwyf 4097 o erwau, yn cynwys llawer o fryniau creigiog, yn nghyda Llyn yr Hafodol, a'r afon a red o hono i forlan Cemaes, yr hon a dry ddwy felin, a dau bandy, ar ei ffordd.

Y mae y plwyf yn gyfoethog mewn olion henafiaethol; ond yr hynotaf o'r cwbl ydyw Dinas Badrig, yr hon a saif ar lan y mor, yn agos i Lanlliana. Bernir mai hon oedd y gaerfa gadarnaf o fewn holl Ynys Mon yn yr hen amser. Y tebygolrwydd yw, mai yr hen Frytaniaid a'i ffurfiodd, i'r dyben o amddiffyn eu hunain rhag arfau dyeithr y Rhufeiniaid. Golygydd y gwaith hwn oedd y cyntaf i alw sylw at Gaerfa Dinas Badrig; ond esgeulusodd awdwr traethodyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar,

Digitized by Google

gydnabod y ffaith hon. O bob tu Dyffryn y Llifad, sef ar diroedd Clygyrog Blâs, a Phentreheilin, ceir olion gwersylloedd Prydeinig eang a chedyrn. Y mae yr un ar ochr y Morawydd, sef tir Clygyrog Blas, wedi ei gadael, mewn rhan, heb ei chwalu; ond gorchymynodd y tir-berchenog, neu, o leiaf, goddefodd i'r tenant, gau yr un gyferbyniol, ar dir Pentreheilin. Tybiodd llawer mai amddiffynfeydd Brytanaidd neu Saesonaidd oedd y rhai hyn, ond y mae ffurf y gweithiau yn gwrthbrofi y fath dybiaeth, gan eu bod yn ysgwar neu betrual; a hysbys yw i'r cyfarwydd, mai y Rhufeiniaid yn unig a ffurfient eu gwersylloedd yn y dull hwn. Gerllaw Rhydyfelin, a'r ffordd a arwain o orsaf Rhosgoch i Lanfechell, y mae Cromlech fawr, yn amryw latheni o gylchfesur, wedi ei gosod yn ddiogel ar dri maen llai. Gelwir hi "Maen y Goges," neu "Farclodaid y Gawres;" a'r traddodiad poblogaidd yw, iddi gael ei chario yma gan gogyddes gawraidd, yn ei barclod, o'r Traeth Coch! Ni chlywsom pa beth oedd ei hamcan wrth gludo y fath goflaid drom, dros y fath bellder; ond y mae traddodiadau cyffelyb yn nglyn â chromlechau ereill yn yr Ynys ddyddorol hon. Gwyddom am "Farclodiad y Gawres" gerllaw Aberffraw; a phe gellid casglu yr holl draddodiadau, diau fod llawer o chwedlau cyffelyb, yma a thraw trwy Gymru oll. Tebygol yw, mai y gwirionedd syml yn nghylch "Maen y Goges," ydyw ei bod yn weddill o hen deml Dderwyddol, neu yn gof-faen am ryw wron neu benaeth a gladdwyd yn y lle. Gerllaw Clygyrog uchaf, y mae yn aros hyd heddyw, sylfaeni hen Fynachlog Anhunedd ap Bran. Oes yn ol, yr oedd muriau yr hen deml athrofaol hon yn lled gyfain; a defnyddid hwy fel ty anedd, gan dad Gweirydd ap Rhys; a dyma fan genedigaeth y llenor adnabyddus hwnw. Gallasai yr ysgrifenydd nodi llawer o hen olion dyddorol ereill o fewn y plwyf hwn; ond yr ydym eisioes wedi llamu dros derfynau gosodedig ein gofod.

**LLANBEBLIG**, plwyf yn Nghwmmwd Is-Gwyrfai, Cantref Arfon (a elwir hefyd Cantref Is-Gorfai mewn croniclau diweddar). Y mae y manylion pwysicaf a mwyaf dyddorol yn nghylch y plwyf hwn wedi eu cofnodi eisoes yn yr erthygl ar dref Caernarfon, ac o herwydd hyn ni bydd ini yma, namyn crybwyll ychydig ffeithiau yn nghylch y rhandir o'r tu allan i'r fwrdeisdref. Amser cyfrifiad 1801, holl boblogaeth plwyf Llanbeblig, yn cynnwys tref Caernarfon, oedd 3626. Erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynnyddu i 9883; yn 1861, rhifent 9937; ac yn 1871, 10,960. Dengys hyn uwchlaw mil o gynnydd yn ystod y deng mlynedd rhwng y ddau gyfrifiad diweddaf. Nid o fewn y fwrdeisdref yn unig y cymerodd y cynnydd hwn le, ond dengys poblogaeth y parth gwledig, gynnydd graddol a pharhaus. Yn y flwyddyn 1851, rhifedi trigolion Llanbeblig, (o'r tu allan i dref Caernarfon,) oedd 1209; erbyn 1861, cynnyddasant i 1425; ac yn 1871, yr oeddynt yn cyrhaedd 1590. Diau mai yr achos o'r cynnydd hwn, ydyw lluosogiad y llech-chwarelau, a'r mwngloddiau o fewn y plwyf. Cartrefa lluaws o chwarelwyr a weithiant yn Llanberis o fewn pentref poblogaidd y Waenfawr, yn mhen de-ddwyreiniol y plwyf hwn; ac arwydda rhagolygon dysglaer presennol y cloddfeydd haiarn ar ochr Moel Aeliau, mai parhau i gynnyddu wna trefgordd flodeuog a phrydferth y Waen. Y mae yma, (sef yn y Waenfawr), gapelydd eang a heirdd, gan y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Annibynwyr. Adeiladwyd y naill a'r llall o newydd ychydig flyneddau yn ol. Rhifa yr aelodau eglwysig gyda'r Methodistiaid, amryw gannoedd; a pherthyna i'w heglwys, weinidog sefydlog, sef y Parch. Daniel Evans, gynt o Ffos-y-ffin, Deheudir Cymru. Y mae yr Annibynwyr heb fugail ar hyn o bryd. Y diweddar brif-fardd Caledfryn, pan yn gweinidogaethu i Eglwys, Annibynol Pendref, Caernarfon, a fu dyner iawn wrth y ddiadell fechan yn y Waenfawr. Cerddodd yma yn gyson, trwy gydol y blyneddau, i bregethu unwaith neu ddwy bob mis, ac hefyd i fynych gynnal cyfarfodydd eglwysig, &c., heb dâl na chydnabyddiaeth arianol o un math. Cynnelir gwasanaeth crefyddol yn ol ffurf a defion yr Eglwys Sefydledig ddwy waith bob Sul, ac hefyd ar rai o nosweithiau yr wythnos, yn Ysgoldy Gwladwriaethol y Waenfawr; a chedwir yma gurad sefydlog, yr hwn sydd ddarostyngedig i awdurdod a rheolaeth Ficer Llanbeblig a Chaernarfon. Telir cyflog y curad hwn gan y Dirprwywyr Eglwysig, y rhai, oddeutu y flwyddyn 1871, a ddaethant i feddiant o "ddegymau mawrion" *(great tithes)* y plwyf. Y Brenin Rhisiart yr Ail, a roddodd y degymau hyn, sef oddeutu dwy ran o dair o holl gyllid degymol Llanbeblig, i Leianod Sant Mair, Caerlleon; ac o amser dadwaddoliad y Lleiandai gan Harri yr Wythfed, hyd 1871, Esgobion Caerlleon fuont dderbynwyr y degymau hyn. Parha Esgob Caerlleon i feddu yr hawl i bennodi ficer plwyf Llanbeblig. Lluosog a digrifol ydyw yr anhawsderau plwyfol a ddygwyddant, o dro i dro, o herwydd gadael nawddogaeth plwyf mor Gymreig, yn nwylaw preladiaid Seisnig Caerlleon. Er esiampl, oddeutu deugain mlynedd yn ol, pennodwyd y diweddar Barchedig J. W. Trevor, canghellydd Esgobaeth Bangor, yn ficer Llanbeblig. Ar y pryd, ni fedrai y boneddwr parchedig air o Gymraeg; ac o ganlyniad, nid oedd efe amgen na "barbariad" i genadu yn mhlith y bobl. Dygwyddai wardeiniaid y plwyf fod yn hen Gymry lled benderfynol ac anhyblyg, a chauasant ddrws yr Eglwys, fel na chaffai y Ficer gynnyg gwasanaethu o'i mewn, hyd nes y dysgai Gymraeg. Gan fod y gyfraith o blaid y wardeniaid, bu raid i Mr. Trevor ymostwng, a myned ymaith am chwe' mis o dan addysg rhyw Gymro, hyd nes y daeth i allu siarad rhyw fath o Gymraeg. Nid yw hyn, a lluaws o ddygwyddiadau cyffelyb allem enwi, amgen nag a ddysgwylid i ddeilliaw yn naturiol, fel ffrwyth trefniant nawddogol mor nodedig o anghyfaddas.

Eglwys Llanbeblig sydd adeilad eang, henafol, a golygus. Saif ar lethr hyfryd, oddeutu haner milldir i'r de-ddwyrain o ganol tref Caernarfon, ar y ffordd a arweinia i Feddgelert. Cyrhaeddai terfynau hen dref Rufeinig Segontium o fewn canllath i fur presennol y fynwent. Y mae yr Eglwys wedi ei hadeiladu ar ffurf croes, ac, fel yr awgryma yr enw, wedi ei chysegru i Sant Peblig, neu Publicus, mab Macsen Wledig, o'i wraig Helen, merch Eudaf, Duc Cernyw. Yn y fynedfa ogleddol oddiwrth fwrdd y cymun, y mae beddfaen allorawl nodedig o hardd, ac arno y cerfiad canlynol:—"Yma y gorwedd corff William Griffith, Ysw., mab Syr William Griffith, Marchog, yr hwn a fu farw Tach. 28, 1587. Hefyd Margaret ei wraig, merch John Wynne ap Meredydd, Ysw., yr hon a adeiladodd y beddfaen hwn." Y mae yma hefyd gerfluniau alabaster prydferth, o'r gwr a'r wraig urddasol a nodwyd. Gwelir fod y William Griffith hwn, o ochr ei dad, yn un o hen

Digitized by Google

wehelyth Cymroaidd enwog y Penrhyn, a Chochwillan, tra yr oedd o ochr ei fam, yn ddisgynydd o'r Pulestoniaid a ddaethant i Gaerynarfon gydag Edward y Cyntaf, amser adeiladu y Castell. Crogwyd un o'r enw Pilston, neu Puleston, gan y Cymry, uwchben drws ei dy ei hun, sef Plas Pilston, am geisio gorfodi y bwrdeisiaid i dalu y dreth er dwyn yn mlaen y rhyfel Ffrengig. Hyd o fewn tair neu bedair blynedd yn ol, safai yr hen balasdy uwchben drws pa un y crogwyd ei feddiannydd, fel y nodwyd, yn aberth i eiddigedd y Cymry tu ag at eu gorthrymwyr, ac adnabyddid ef wrth yr enw Red Lion. Parha yr heol lle y safai, i gael ei galw wrth yr enw Heol y Palas, neu Stryd y Red Lion. Y William Griffith, Ysw., a goffeir mor anrhydeddus yn Eglwys Llanbeblig, a chroniclau tref Caernarfon, oedd perchenog palas ac etifeddiaeth Trefarthin, yn Mon. Margaret, yr hon oedd wyres iddo ef, a destamentodd yr eiddo i Griffith Jones, Castellmarch, Lleyn. Merch i'r Griffith Jones hwnw drachefn, a briododd Syr William Williams, Barwnig, o'r Faenol; ac felly daeth etifeddiaeth Trefarthin i gael ei chysylltu â'r eiddo y Faenol, a pharha felly hyd heddyw. Ceir o fewn Eglwys Llanbeblig luaws o goflechau dyddorol, am deuluoedd anrhydeddus yr ardal, yn enwedig am hen deulu elusengar Tyddyn Elen. Y mae yn y plwyf fferm o'r enw "Cae Bold," a llawer fu y dyfalu o berthynas i darddiad enw mor ddyeithr ac an-Nghymreig. Ceir eglurhad ar y dyryswch yn mynwent Llanbeblig. Yno y mae carreg a gynnwys yr argraff ganlynol:—"Yma y gorwedd corff Ellin Bold, merch William Bold, Ysw., a gwraig i John Ransheraf, o Lydaw, boneddwr, yr hon a fu farw Ebrill 1af, 1663." Ymddengys oddiwrth hyn, i deulu o'r enw Bold, feddu safle uchel o fewn y plwyf unwaith; a diau mai oddiwrthynt hwy y galwyd y tyddyndy a nodwyd, ar yr enw dyeithr, "Cae Bold." Rhy faith fyddai i ni fyned yn mlaen i olrhain y cerfiadau a geir yn Eglwys a mynwent Peblig, er cof am y Smythiaid, y Foxwistiaid, &c. Dengys yr enwau hyn, ddarfod i Iorwerth y Cyntaf, osod cynnifer a allai o estroniaid i feddiannu cyfoeth a safleoedd uchel yn Nghaernarfon, er mwyn cadw y Cymry o dan warogaeth ddigon isel, a'u gorfodi i dalu ufudddod digon trylwyr i'w gorchfygwyr a'u gorthrymwyr. Ar ael y llwybr a arweinia oddiwrth yr Eglwys at borth Gorllewinol y fonwent, y mae bedd y cadeirfardd clodfawr, Gwyndaf Eryri, ac arno gofaen hardd, yn cynnwys lluaws o englynion o waith goreufeirdd yr oes, megys Eben Fardd, Clwydfardd, &c.; ond yr un canlynol, o eiddo yr hen batriarch llenyddol Owain Williams, o'r Waenfawr, ydyw y mwyaf tarawiadol o'r cwbl:—

"Diameu i'n dyma annedd—ein Gwyndaf
Oedd geindwr cynghanedd
Yn wir, fe garwn orwedd,
Er ei fwyn, yn nghwr ei fedd."

Anhawdd fuasai datgan mwy o hiraeth a serch mewn pedair llinell, a da fyddai gweled awdwyr beddergryff yn cymeryd yr englyn uchod yn esiampl.

Er fod y Dirprwywyr Eglwysig yn hawlio "degymau mawrion" plwyf Llanbeblig, eto y mae cyfran, o oddeutu pedwar cant o bunnau y flwyddyn, gyda thŷ, ac ychydig erwau o dir ffrwythlon, yn disgyn i ran y Ficer. Y Ficer presennol ydyw y Parchedig Henry T. Edwards, A.B., yr hwn sydd ddadleuydd eofn dros ragoroldeb Esgobyddiaeth fel trefn eglwysig.

Heblaw bwrdeisdref Caernarfon, a threfgordd y Waenfawr, cynnwysa plwyf Llanbeblig hefyd, drefgyrdd y Bontnewydd, Castellmai, a Threflan. Nid ydyw y tai yn mhentref y Bontnewydd, a safant yr ochr ddeheuol i'r afon Gwyrfai, o fewn y plwyf hwn, gan mai i Lanwyndaf y perthyn yr ochr hono. Tuag at gynnal y tlodion, cyd-drethir yr holl blwyf, o'r tu fewn a thu faes i'r fwrdeisdref; ond i ddybenion ereill, megys adgyweirio y ffyrdd, &c., cedwir y cyfrifon ar wahan. Y gorfforaeth a dretha y fwrdeisdref i'r dybenion hyn, a'r festri ydyw yr awdurdod yn y plwyf o'r tu allan i'r dref. Perthyna Llanbeblig i Undeb Caernarfon, a chynnrychiolir y plwyf ar y bwrdd undebol, gan saith o warcheidwaid. Medda y naill a'r llall fwrdd ysgol gwahanol. Etholir aelodau bwrdd ysgol y dref, gan y bwrdeisiaid yn unig; ac aelodau bwrdd y rhan wledig, sef pump mewn nifer, gan drethdalwyr o'r tu allan i gylch y fwrdeisdref. Cynnalia aelodau y bwrdd hwn eu cyfarfodydd swyddogol yn y Waenfawr, ac y mae Ysgol Frytanaidd y lle hwnw, wedi ei gosod o dan eu gofal a'u hawdurdod. Nid ydyw ysgolion Gwladwriaethol y Waenfawr a'r Bontnewydd wedi eu trosglwyddo i'r bwrdd, a pharhant o dan reolaeth Ficer Caernarfon.

Perthyna i'r plwyf amryw elusenau. Yn y flwyddyn 1694, testamentodd Ellen Griffith y swm o bedair punt yn flyneddol, ardreth tir yn Aberffraw, Mon, tuag at bwrcasu rhoddion o fara i dlodion Llanbeblig. Cafwyd 55*p.* mewn mân symiau, trwy haelioni amrywiol bersonau, at yr un amcan. Arferid rhanu llôg y swm olaf, sef dwy bunt a phymtheg swllt y flwyddyn yn rheolaidd amser yn ol; ond defnyddiwyd cyfan gorff yr arian amser yn ol, i adeiladu ty gerllaw y fynwent, i'r torwr beddau, ac nis gwyddom a ydyw yr anedd-dy hwnw o dan ardreth i'r tlodion. Y mae tiroedd yn mhlwyf Llanrug, pa rai a gynnyrchant oddeutu triugain punt o ardreth flyneddol, wedi eu testamentu tuag at ddysgu rhyw law-gelfyddyd i fechgyn tlodion o fwrdeisdref Caernarfon, a phlwyf Llanrug. Parha yr elusen yma o dan reolaeth ymddiriedolwyr cyfiawn a doeth, y rhai a gyflawnant eu swydd yn effeithiol. Rhoddodd rhyw foneddwr hael ag y mae ei enw yn anadnabyddus, ddeg punt yn flyneddol tuag at dalu am draddodi chwech o ddarlithiau neu bregethau arbenig yn yr Eglwys; ond ni chlywsom pa bryd na chan bwy y traddodir y pregethau hyn. Y mae un elusen o ugain swllt y flwyddyn, wedi ei gyfrgolli, ac nis gŵyr neb pwy a'i llogellodd.

Rhed yr afonydd Gwyrfai, a Seiont, trwy y plwyf; ac y mae y naill a'r llall o honynt yn enwog ar gyfrif y cyflawnder o leisiaid a brithylliaid a heigiant ynddynt. Y Wyrfai sydd yn cyflenwi naw mil a haner trigolion tref Caerynarfon â dwfr nodedig o iachus a pheraidd. Ar y Seiont y mae melinau mawrion, wedi eu hadeiladu gan Mr. Roger Evans, a chwmni anturiaethus a gynnrychiolir gan Mr. John Edmunds. Gresyn na wnelid defnydd ychwanegol o'r ffrydiau cyfleus hyn. Gellid adeiladu yma weithdai sebon, siwgr, esgidiau, &c., yn mha rai y rhoddid gwaith i gannoedd o bobl, ac y gallai y Cymry gynnyrchu nwyddau ag y talant mor uchel am danynt yr bresennol i'r Saeson llygad-graff. Dylai afonydd ein gwlad gael eu defnyddio i gynnyrchu llafur ac

Digitized by Google

elw yn Nghymru, fel na pharhao ein masnach i gael ei hysgleifio gan estroniaid.

**LLANBEDR**, capeloriaeth yn mhlwyf Langstone, swydd FYNWY; 5¾ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o'r Cas newydd. Yr oedd eglwys y lle yn gyssegredig i Sant Pedr; ond y mae yn adfeiliedig er ys talm.

**LLANBEDR**, sydd blwyf yn nghantref ARDUDWY, a phentref yn nosparth Ffestiniog, swydd FEIRIONYDD. Y mae y pentref yn sefyll ar geulan yr afon Artro, yn agos i draethellau Aberdyfi, Abermaw, a Harlech; a rheilffordd sir Gaernarfon, o fewn dwy filltir ar y de ddwyreiniol o Harlech; ac yn lle o brydferthwch mawr, yn cael ei gysgodi gan goed; ac y mae i'r lle lythyrfa, dan Gaernarfon. Y mae yr afon Artro yn cael ei chychwyniad gerllaw y Cwm Bychan, yr hwn sydd barth tra nodedig am ei olygfa ramantus, a'i glogwyni cribuchel, a'r creigiau daneddog sydd yn ei gylchynu. Wrth enau yr afon hon, yn ol rhai hanesion, y dywedir fod cored gynt, a roddwyd gan Gwyddno Garanhir, tywysog Cantre'r Gwaelod, i'w fab Elphin, yr hwn a ddarganfyddodd Taliesin ieuangc, yr hwn wedi hyny a ddaeth yn fardd enwog, ar bawl y cored, a osodid yno yn fuan wedi ei eni. Cymerodd Elphin drugaredd ar y plentyn, ac a'i dygodd i fynu yn dyner, gan roddi iddo addysgiaeth briodol. Yn mysg cyfansoddiadau y bardd, y mae cân darawiadol i'w ymgeleddwr. Y mae y fynedfa i'r Cwm Bychan, drwy nant goediog, yn cael ei dyfrhau gan yr afon Artro, ac wedi myned drwy y coed, ac esgyn i Ddinas Porchellyn, gwelir fod yr olygfa yn ymeangu, a'r llethroedd yn cael eu haddurno â hen dderw, yn mesur wyth neu naw troedfedd o amgylchedd; a melin fechan, o luniad henafol, gyda phont o'r naill graig i'r llall, dros yr afon, sydd yn cael ei thywyllu gan gysgodion y coed. Wedi esgyn gyd âg ochrau creigiog mynyddau y Cwm Bychan, deuir i olwg annedd neillduedig y Llwydiaid, y rhai a feddianent y lle, er ys oesau yn ol, mor gynar a'r flwyddyn 1100. Yr oedd un o honynt, sef Dafydd Llwyd, milwr enwog, a phleidiwr gwrol i Iarll Rismwnd, yn bresenol yn mrwydr Maes Bosworth, ac efe a ymenwogodd yn fawr yno. Yr gyfagos yno, y mae yr amddiffynfa a elwir "Drws Ardudwy," a feddienid, yn ol pob tebygrwydd, gan feibion Cadwgan, yn amser eu hymrysonau â meibion Uchtryd ab Edwyn, y rhai y llwyddasant i'w hymlid o'r wlad. Ar un o'r clogwyni yn y lle hwn, y mae Careg y Saeth, gyda maen hir, a charnedd. Y mae y plwyf yn eang, ac yn cynwys saith milltir o hyd, a phedair o led. Cafwyd gweithred Seneddol yn 1810; i gau i mewn y tir cyffredin yn y plwyf. Darganfyddwyd amryw fathodion Rhufeinig yma. Dywedir mai yma y mae yr afonydd mwyaf toreithiog o bysg yn y wlad, oddigerth Tal y llyn. Y mae yma weddillion dwy o gromlechau yn aros. Ceir yma amryw waddolion i'r tlodion. Y mae y plwyf yn cynwys pentref Gwynfryn; ac yn mesur 7102 o erwau o dir, a 210 sydd dan ddwfr. Gwerth meddianol, 1659*p*. Poblogaeth, 370. Tai, 79. Y mae y fywioliaeth yn guradiaeth barhaol, gysylltedig â Llandanwg, yn esgobaeth Bangor.

**LLANBEDR**, sydd dref, plwyf, ac is-ddosparth, yn gystal a dosparth, yn swydd ABERTEIFI. Y mae y dref yn sefyll ar geulan yr afon Teifi, gerllaw rheilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau, ar derfyn sir Gaerfyrddin, mewn dyffryn prydferth, yn cael ei addurno â bryniau coediog, 26 milltir, gogledd ddwyrain o Aberteifi. Y mae hanesion yn dynodi y fan yn lle boreuol; y mae olion yn dangos y bu y dref yn eangach gynt, gyda chastell, ag sydd erbyn hyn wedi ei lwyr golli. Yr oedd y ffordd a elwid "Sarn Helen," yn rhedeg gerllaw; ac y mae gweddillion gorsaf Rufeinig ar y ffordd, yn agos i Olwen; a gwersyllfa Rufeinig arall yn yr Allt-goch; a chylch Derwyddol gerllaw. Bu yr Archesgob Baldwin, gyda ei gyd-deithiwr, yr hanesydd Giraldus, yn pregethu dros Ryfeloedd y Groes yma, yn 1188. Cafwyd yma eirch plwm, mewn hen gladdfa berthynol i eglwys foreuol iawn; bernid fod yma briordy ryw amser a fu, a phont dros yr afon Teifi, tua haner milltir yn ddeheuol i'r dref, a adeiladwyd gan y Brenhin Stephan. Gelwir y dref, Llanbedr, o blegid cyflwyniad yr eglwys i St. Pedr. Y mae "Gwyr Llanbedr," yn tori ffugr cyhoeddus iawn yn yr hanesion Cymreig. Y mae y dref yn cael ei ffurfio, gan mwyaf, o un heol, hirfaith; ac y mae wedi myned dan welliannau pwysig yn ddiweddar, drwy yr hyn y mae yn arddangos golygfa brydferth a threfnus, ar hyn o bryd. Y mae yma lythyrfa dan Gaerfyrddin, a gorsaf rheilffordd, gwest-dy da, llysdy eang, ffynon yfed, colegdy, ac eglwys, tri o gapeli ymneillduol, ac ysgol gyhoeddus. Y mae y lle yn etholfa, a llys gwladol; ac mewn undeb âg Aberteifi, Adpar, ac Aberystwyth, yn anfon aelod i'r senedd. Adeiladwyd y Colegdy eglwysig yn 1822, yn ol cynlluniau gan Cockerell, ar y draul o 30,000*p*.; ar y lle yr oedd y castell gynt, ac yn cynwys lle i 70 o efrydwyr, gan mwyaf o'r Cymry; ac wedi ei gorphori drwy weithred Sior IV.; a chafodd freintiau pellach yn 1852, ac 1856, i gyflwyno y gradd-urddau o B.D., a B.A. Y mae yn meddu trysor o 900*p*. yn y flwyddyn, gyda 400*p*. o'r llywodraeth; ac ychwanegiad o 1500*p*. drwy orchymyn y cyngor yn 1863. Y mae yr eglwys o gynlluniad diweddar, ar godiad tir, ar y man lle y buasai yr hen adail gynt. Y mae yn cynwys cofadeiliau o deuluoedd Lloyd a Millfield; ac y mae yn aros yma ffynonig henafol. Y mae y farchnad ar y Sadwrn; a ffeiriau ar Ionawr 11, Mercher Sulgwyn, Gorph. 10, Awst 27, Medi 26, a Hyd. 13. Poblogaeth y fwrdeisdref yn 1851, 907; ac yn 1861, 989. Tai, 233. Y mae y plwyf yn cynwys pentref Tref y coed, a'r enw gwreiddiol ydyw Llanbedr Pont Stephan. Erwau, 6204. Gwerth ardrethol, 4149*p*. Poblogaeth, 1542. Tai, 339. Y mae y facnoriaeth yn perthyn i J.S. Harford, Ysw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae yr is-ddosparth hefyd yn cynwys plwyfi Betws Bledrws, Llangyby, Trefilan, a Silian. Y mae y dosparth yn cynwys hefyd is-ddosparth Llanwenog, a Llanwnen; is-ddosparth Pencareg, yn cynwys plwyfi Cellan, Llanfair-Clydogau, Pencareg, a Llan y crwys—y ddau olaf yn sir Gaerfyrddin; ac is-ddosparth Llan y bydder, Llanllwny, a Llanfihangel Rhos y corn, oll yn sir Gaerfyrddin.

**LLANBEDR**, neu LLANBEDR YSTRADWY, sydd blwyf yn nosparth Cryghywel, sir FRYCHEINIOG, gerllaw yr afon Grwny, dan y Bryn-torth-suwgr, ar derfyn Mynwy, dwy filldir gogledd ogledd ddwyrain o Gryghywel, a chwech gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Abergafeni. Y mae yn cynwys rhandiroedd Bysych a Greigwen, a'r llythyrfa yw Crughywel. Erwau, 3831. Gwerth ardrethol, 2095*p*. Poblogaeth, 280. Tai, 62. Y prif balas yw Parc y Morfa: y mae y rhodfa oddiyno gyda y Grwny, hyd eglwys Llan-

Digitized by Google

genny, yn arddangos amrywiaeth tarawiadol o nentydd a llethrau, a choed a bryniau. Y mae mŵn haiarn mewn cyflawnder yma. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadiaeth barhaol Partrishow, neu y Pentre isaf, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 285*p.*; yn nawddogaeth Dug Beaufort. Y mae yr eglwys yn henafol, a'r tŵr yn henach fyth. Y mae gwaddol o 28*p.* yn perthyn i'r plwyf.

**LLANBEDR DYFFRYN CLWYD,** sydd blwyf yn nosparth Rhuthin, sir DDINBYCH, ar geulan yr afon Clwyd, dan fynydd Moel-famau, dwy filltir gogledd ddwyrain o orsaf Rheilffordd Rhuthin. Y mae yn cynwys trefgorddau Bodelgar, Llwynedd, Rhiwis, a Threganol. Y llythyrfa yw Rhuthin. Erwau, 2900. Gwerth ardrethol, 3175*p.* Poblogaeth, 431. Tai, 90. Y mae meddiant y lle yn cael ei ranu rhwng ychydig nifer. Y prif balasau ydynt Llanbedr Hall, a'r Berth. Y mae y Foelfamau yn codi i uchder o 1845 o droedfeddi; ac y mae gwersyllfa Moel Fenlli yn 1722. Darfu i foneddion y ddwy sir, Dinbych a Fflint, godi adail goffadwriaethol ardderchog, ar ben y Foel famau, am yr haner-canfed blwyddyn o deyrnasiad Sior III., yn cynwys Tŵr pedeirongl, chwe-llathen o led ar bob ongl, a phedair troedfedd ar bymtheg ar hugain o uchder, a phig-dwr o un ar bymtheg ar hugain o droedfeddi ar hwnw; ac yr oedd yn wrthddrych eglur, o lawer o amgylchoedd, drwy y siroedd ar y terfynau, tra y safai. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 415*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Adeiladwyd yr eglwys yn 1863. Gwaddolion 15*p.*

**LLANBEDR-FELFRAI,** sydd blwyf yn nosparth Narberth, sir BENFRO, 3 milltir, dwyreiniol o Narberth, a 3¼, o orsaf rheilffordd Whitland, Llythyrfa dan Narberth. Erwau, 5067. Gwerth meddianol, 5535*p.*, o'r hyn y mae 20*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 951. Tai, 193. Y mae cangen o ysbytty a berthynai i Whitland, yn Nhyddyn Blaengwyddno. Cafwyd lluaws o faeniadau yn nghloddfa Robeston. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 409*p.*, yn nawddogaeth yr arglwydd Gangellydd. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da; cynhwysa gofadeiliau am y teulu Phillips o Lampeter House.

**LLANBEDR GOCH,** sydd gapeloriaeth plwyfol, yn nosparth ac yn sir FON, ar derfyn y Traeth Coch, 6½ milltir gorllewin ogledd orllewin o Biwmares, a 6½ m. o orsaf rheilffordd Pont Menai. Mewn hen gofnodau, enwid y lle hwn, Llanbedr Mathafarn-Gwion Goch. Y mae yn debygol mai offeiriad enwog a haelfrydig oedd Gwion Goch, y sylfaenydd; ac y mae yn debygol mai ysbytty oedd yr ystyr gwreiddiol a roddid i'r gair "Tafarn" yma. Os felly, Maeth Dafarn, neu Ysbytty maethol, ydyw y meddwl cynwynol. Y mae y gymydogaeth hon yn hynod am ei cherig calch. Trwy weithred seneddol yn amser Sior III., lluniwyd cledrffordd o'r gymydogaeth i'r Traeth coch, er trosglwyddo y cerig at allforiad. Y mae yma farmor du a llwyd, sydd yn cymeryd caboliad prydferth iawn. Hynodir y lle hefyd am ei gerig grud, y rhai a weithir yn feini melinau rhagorol. Y mae y fywioliaeth yn guradiaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llanddyfnan, yn esgobaeth Bangor. Y mae yma gapeli perthynol i'r Annibynwyr a'r Trefnyddion Calfinaidd. Ceir yma hefyd ysgol genedlaethol, a godwyd trwy gydroddion, yn yr hon y mae deg a thriugain o blant yn derbyn addysg, o blwyfi Llanbedr-goch, Llanddyfnan, Llanfair Mathafarn-eithaf, a Phentraeth.

**LLANBEDR PAINS-CASTLE,** sydd bentref a phlwyf yn nosparth y Gelli, swydd FAESYFED. Y mae y pentref yn sefyll ar geulan yr afon Bachwy, yr hon sydd yn rhedeg i'r Wy, 6½ milltir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd y Gelli. Y mae yn lle bychan yn awr, a fuasai unwaith yn dref marchnad; ac y mae yno ffeiriau eto, ar Mai 12, Medi 22, a Rhagfyr 15; ac y mae y lle yn etholfa. Y mae y plwyf yn cynwys 3877 o erwau. Y llythyrfa yw y Gelli, dan Henffordd. Gwerth ardrethol, 2164*p.* Poblogaeth, 306. Tai, 6C. Bernir fod y lle hwn yn cael yr enw, oddiwrth gastell a adeiladwyd yma gan Farwn Normanaidd or enw De Paine, yr hwn a gafodd feddiant o gantref Elfael-isaf, tu a'r amser y goresgynodd Bernard Newmarch dywysogaeth Brycheiniog, pan y gorchfygwyd ac y lladdwyd Bleddyn ab Maenarch. Yr oedd y castell yn sefyll ar fryn, ar yr hwn y buasai gan y Cymry amddiffynfa gadarn yn flaenorol, a elwid Caer yn Elfael; a newidiwyd yr enw i Pain's Castle. Codwyd pentref hefyd gan De Paine, wrth droed y bryn lle y safai y castell, lle y preswyliai gweision a dibynwyr y barwn, yr hwn a gododd yn raddol i gryn bwysigrwydd, ac a dderbyniodd freintiau marchnadol. Ar farwolaeth De Paine, aeth y castell yn feddiant William de Breos. Tua diwedd y ddeuddegfed ganrif, cymerwyd y castell hwn oddiar y barwn Normanaidd galluog, gan Rhys ab Gryffydd, yn fuan wedi iddo enill castell Maesyfed. Nid oes ond ychydig o olion y castell ar gael yn awr, heblaw y ffos. Y mae yma lyn o gryn faintioli, tua milltir o amgylchedd, a elwir Pwll Bawlyn. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 68*p.*, yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi.

**LLANBEDR Y CENNIN,** sydd drefgordd a phlwyf, yn nosparth Conwy, sir GAERNARFON. Y mae yn sefyll ar ochr orllewinol afon Gynwy, yn ymyl gorsaf rheilffordd Conwy a Bettws y coed, yn Tal y cafn; 4½ milltir deheuol o Gonwy. Cynnwysa bentrefi Tal y bont, ac Ardda, ac y mae yno ffair merlynod a cheffylau, Hydref 3. Poblogaeth, 355. Tai, 76. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys trefgordd Dolgarog. Llythyrfa, Llanrwst, yn sir Ddinbych. Erwau, 4909. Gwerth meddianol, 2358*p.* Poblogaeth, 489. Tai, 103. Y mae hen wersyllfa Frytanaidd gadarn ar Ben y Gaer yr hon a elwir Caer Belin, a chan y werin, Pen caer Elen. Y mae hon yn cael ei diogelu gan resi o gerig, wedi eu gosod fel nad ellai y gwyr meirch dori trwyddynt. Y mae porthfa ac ysgraph yn Tal y cafn, yr hon oedd o wasanaeth mawr i'r wlad cyn codi pont gadwynol Conwy. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr. Y mae murdomen uchel yma, yn ymyl y borthfa, ar yr hon debygid, yr oedd castell coed ar un adeg, i amddiffyn y borthfa, fe ddichon, neu yn fath o rag orsaf i Gaer Rhun. Y mae yr adeiladau yn cynnyddu yn gyflym yn y gymydogaeth. Nid yw ystyr yr enw "Cennin," yn eglur, er ei fod yn air cyffredin.

**LLANBEDROG,** a ysgrifenir weithiau *Llanbadrig*, sydd blwyf yn nosparth Pwllheli, sir GAERNARFON, ar y mordraeth dwyreiniol o drwyn Lleyn, yn agos i bay St. Tudwal, 4½ milltir, de orllewin o orsaf Rheilffordd Pwllheli, a 7½ o Nefyn. Llythyrfa, Pwllheli. Erwau, 2548, o'r hyn y mae 387 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2642*p.* Poblogaeth, 469.

Digitized by Google

Tai, 108. Y prif balas yma ydyw y Wern Fawr. Y mae llawer o'r tir yn greigiog a diffrwyth. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadiaethau parhaol Llanfihangel Bachellaeth, a Llangian, yn esgobaeth Bangor; gwerth 385*p.*, yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Pedrog, mab Clement, tywysog Cernyw, gan yr hwn y bernir iddi gael ei sylfaenu yn y seithfed ganrif. Y mae yma addoldai gan y Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd, a'r Annibynwyr.

**LLANBERIS**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth a swydd CAERNARFON. Y mae cynnydd a rhagolygon presenol y lle yn gyfryw, fel y byddai yn briodol ei alw yn "dref" erbyn hyn. Saif ar geulan yr afon "Saint," neu Seiont, yn nghanol mynyddau Eryri; tua 10 milltir yn dde-ddwyreiniol o Gaernarfon, man sydd yn derfyn i'r rheilffordd; yn nghychwyniad y grib hirfaith sydd yn arwain hyd goryn uchel y Wyddfa, o'r lle y ceir yr olygfa fwyaf mawreddog yn y dywysogaeth. Y mae y lle hwn yn cymeryd ei enw oddiwrth St. Peris, i'r hwn y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno. Dywed Wright ei fod yn blodeuo yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac mai Rhufeiniad ydoedd, ond y mae yn debycach mai y Dr. Puw sydd nesaf i'w le, yr hwn a fynega, mai sant Brytanaidd oedd; mab i Helig ab Glanawg, ac yn byw yn y chweched ganrif. Ymddengys fod Padarn yn gydweithiwr âg ef. Dewisodd St. Peris ei breswylfa yn y dolydd gerllaw y Llyn uchaf, a Padarn y dyffryn, gerllaw y Llyn isaf, yr hwn a ddynodir wrth ei enw hyd y dydd hwn. Dichon ei fod o dylwyth Padarn Beisrudd, mab Idwal, yr hwn a gododd gastell Dolbadarn, yr hwn ydoedd y brif amddiffynfa yn y parth hwn, ar fwlch Eryri. Ymddengys y defnyddid y castell hwn weithiau fel carchar gwleidyddol. Bu Owain Goch, brawd y "Llyw olaf," yr hwn a gyngreiriodd gyda'i frawd Dafydd i ddiorseddu Llewelyn, yn gloedig yma am dair blynedd ar hugain. Barna rhai mai hon oedd yr amddiffynfa a elwid "Castell y Bera," neu "Aberau," yr hon a gynlluniai Dafydd, wedi cwymp ei frawd Llewelyn, er ymddiogelu rhag galluoedd Iorwerth I., a arweinid ganddo ef ei hun, yn bersonol; i'r hon y dywedir nad oedd ond un fynedfa drwy lwybr cul, rhwng y clogwyni geirwon; ond a roddwyd i fynu yn fuan i ddwylaw y gorchfygwr. Y mae y plwyf yn eang, ac yn cynwys rhai o'r mynyddau uchaf, a'r golygfeydd mwyaf rhamantus a fedd "Gwyllt Walia;" yn mhlith y rhai y gellir enwi yr Elidyr; y Gluder; Moel Eilio; Carnedd Igyn; ac yn teyrnasu uwchlaw y cyfan, ceir y Wyddfa enwog, tua haner yr hon sydd o fewn y terfyn hwn. Y mae Moel Eilio yn ddwy fil, tri chant, a dwy ar bymtheg a thriugain o droedfeddi o uchder; Carnedd Igyn, ar goppa yr hon y mae carnedd o gerig rhyddion, a gludid yno gan un o'r enw hwnw, yn codi ei phen i ddwy fil, naw cant, a phymtheg a thriugain o droeddfeddi uwchlaw arwynebedd y mor; ac y mae uchder eithaf y Wyddfa yn dair mil, pum cant, ac un ar ddeg a thriugain o droedfeddi i'r nen. Y mae y pentref, fel y crybwyllwyd, yn ymgodi yn gyflym i bwysigrwydd tref. Wedi agor y rheilffordd hyd yma, y mae yr anneddau yn lluosogi; ac y mae yma bob darpariaeth angenrheidiol i groesawi dieithriaid yn misoedd yr haf. Y mae y nifer o ymwelwyr, o Landudno a manau eraill, ag sydd yn dyfod i esgyn i grib Eryri, bob dydd gwaith, ag y byddo yr hin yn caniatau, yn anhygoel. Y mae y gwrthddrychau o hynodrwydd naturiaethol a hanesyddol, yn lluosog iawn yn y gymydogaeth hon. Y Wyddfa ydyw y prif wrthddrych deniadol i'r lle, ac y mae wedi dyfod i'r fath gyhoeddusrwydd, fel mai prin y gellir dywedyd fod yr un teithiwr wedi gweled y wlad, heb esgyn yno. Y mae y mynyddau yn un gadwyn, o'r braidd yn ddi-dor, o Gonwy i Leyn, am tua phymtheg milltir ar hugain. Y mae amryw lwybrau i esgyn i'r Wyddfa; o Beddgelert, gyda Llyn Cwellyn, ar ffordd Caernarfon; o Gapel Curig, a Pen y gwryd; ac o Lanberis. Tu ag at rwyddhau y ffordd o Beddgelert, y mae arweinwyr yn barod gerllaw, ar odreu pob llwybr. Anfynych y cymerir y llwybr o Ben y gwryd, er ei fod y mwyaf aruthrol, o blegid ei fod gan sythed. Cychwynir o'r brifffordd wrth Lyn Teyrn, gyda Chwm Dyli; a chyd ag ymylon Llyn Llydaw. Wrth odreu y mynydd, y mae y Gareg-ateb hynotaf yn Nghymru, yr hon a rydd yr ateb dair neu bedair gwaith olynol, rhwng dannedd y creigiau. Yna gan adael clogwyn y Lliwedd ar y chwith, deuir i'r llwybr igam-ogam sydd yn arwain hyd y grib. Y ffordd gyffredin, a'r hawsaf ei thramwy, ydyw o Lanberis, ac uwchlaw rhaiadr y Ceunant Mawr, a Chwm Brwynog, ac yn mlaen gyda y grib, uwchlaw y dyffryn, nes dyfod i olwg craig serth, a elwir Clogwyn Du'r Arddu, gyda Llyn bychan wrth y godreu. Wedi tynu yn mlaen tua chwarter milltir, ar y dde, y mae esgynfa arall a elwir Llechwedd y Rhu, deuir i olwg y grib, tua milltir yn mlaen; ac y mae y gweddill, er ei fod yn syth, yn hawdd ei esgyn. Y mae ffynon yn ymyl y coryn, o ddwfr oer anghyffredin, ond yn berffaith bur. Cylchynir y grib â mur bychan, a charnedd yn coroni y cyfan. Y mae gwestdai bychain, a chyffredin, yn mhen y lle, y rhai ydynt yn gyfleus iawn i deithwyr. Y mae y pellder o Westdy y Victoria i'r pen uchaf, tua phum milltir. Y mae merlynod, ac asynod, yn cludo teithwyr hyd eithaf yr uchder. Y mae y Cwm glas, o fewn tua thair milltir yn ddeheuol o Lanberis, o'r hwn yr esgyna lluaws, dros Grib y Ddysgl, a'r Grib Goch, ond nid yw hyn ond er mwyn cywreingarwch peryglus, drwy yr hwn ni ddylai dieithriaid anturio yn eu rhyfyg. Y mae golygfa ar godiad yr haul yno, yn werth ei chael, o leiaf, unwaith am oes. Ymddengys o faintioli olwyn men, yn olwyth o dan; teifl gysgod y mynydd ar wyneb y mor fel darlun ar len eang; rhydd olygfa amrywiaethol iawn yn mhob cyfeiriad, can belled a Lloegr, Gwerddon, yr Alban, ac Ynys Manaw, yn brydferth dros ben; yr afon Menai fel llinell arian, rhwng gwyrddleni y tir, a chysgodion y coed; a Mon, fel gwlad o erddi, mewn parthlen ger bron; gwelir y llynau fel drychau toddedig, yn arddangos eu gloewder amrywiaethol, a'u tegwch; gyda swynion diball. Y mae cymeriad daearegol a llysieuol y Wyddfa yn ychwanegu at ei hynodrwydd; cloddir efydd, a darganfyddir llysiau anhysbys yn fynych yn ei mynwes, ac ar ei gwyneb. Bu unwaith yn goedwig gysgodol, ond yn awr yn arddangos wyneb diffrwyth, eto yn orlawn o wrthddrychau o werthfawredd, pa un bynag a'i ei hadnoddau mewnol, ai clydwch ei gwisg allanol a olyger. Y mae y Llynau hefyd yn enill sylw pob ymwelydd a'r lle. Y mae yr uchaf, sef Llyn Peris, dros filltir o hyd; a'r isaf, sef Llyn Padarn, tua dwy filltir. Y mae amryw Lynau eraill fel wedi eu gosod yn nghesciliau gwahanol estyll, ar y llechweddi. Y mae llynau Gwynant, a'r Ddinas, Llyn y Cwm, Llyn Cwm-

Dwythwch, Llyn du, a'r Ffynon, yn hynod am eu pysg rhagorol. Y mae y Ceunant Mawr o fewn tua milltir o bellder oddiwrth y Castell, ac yn hawdd esgyn i'w derfynau. Y mae lluaws o ffrydiau yn cyfoethogi y rhaiadr, o'r Wyddfa, a Moel Eilio; ac y mae y disgyniad dros driugain troedfedd, ac yn ei godwm yn peri trwst taranol, gan ferwi y dwfr cronedig yn ofnadwy. Y mae cloddfeydd y Llechi yn perthyn i deulu y Faenol, ar lechwedd yr Allt Ddu, ar ochr ogledd ddwyreiniol y llynau, ac yn rhoddi gorchwylion i ddwy neu dair mil o weithwyr. Y mae y Bwlch, neu y fynedfa rhwng cribau gogleddol y Wyddfa ag ochr ddeheuol y Glyder-fawr, yn un o'r golygfeydd mwyaf aruthrol yn y dywysogaeth oll. Y mae rhai teithwyr wedi ei chymharu â Glencoe yn yr Alban, ac eraill a Honister Crag, Cumberland; ond rhoddir y rhagoroldeb o du Llanberis. Y mae ffordd dda i gerbydau drwy ganol y manau a'r arwylltedd mwyaf; ac y mae "Ynys Hettws," a'i hanesion hynod, neu yn hytrach "Maes y Gromlech," yn sicr o fod yn destyn ymholiad ac ymddiddan, tra y symudir y camrau yn raddol drwy y lle; a bydd yn ddifyrus cyrhaedd y ddôl a elwir "Gorphwysfa," wedi blinder y daith. Y mae y plwyf yn cynwys 10,431 o erwau. Gwerth ardrethol, 14,319*p.*, o'r hyn y mae 12,793*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, yn 1821, 472; yn 1841, 1024; yn 1861, 1364. Tai, 275. Y mae cloddfeydd y Glyn, yn perthyn i Arglwydd Newborough; a rhai Dinorwig, i Assheton Smith, Ysw., Castell Bryn-Bras yw y prif balas. Cloddir tua 1,200,000 o dunelli o Lechi yma yn flyneddol. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 182*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yma nifer o gapeli Ymneillduol, o'r fath oreu; rhai o honynt o adeiladaeth ddiweddar. Y mae yma West-dai o'r dosparth cyntaf, ac y mae rhagolygon y lle yn obeithiol iawn. Y mae y Wyddfa, er ys amser boreuol wedi bod yn *Parnasus* y beirdd Cymreig. Y mae hanes ramantus Margred ach Evan, yn swynol iawn, fel helwraig, am lwynogod, am bysg; am godymu, am bedoli meirch, am wneud telynau a'u chwareu, a'r cyffelyb orchestion, yn ddiderfyn; yr un modd y gellir cyfeirio at Ffowc Jones o'r Ty Du, a'i wrhydri, mewn llawer modd; ac y mae yr hanesion gwirioneddol, a dychymygol, yn nghymydogaeth y Cwm Glas, yn agor ger bron, henafiaethau a gorchestion, nad oes dim llai na chyfrol eang a allai eu cynwys. Y mae ysgolion, dyddiol, a Sabbathol, yn ffurfio dylanwad effeithiol yn ygymydogaeth gynnyddol hon.

**LLANBETHERY**, treflan yn mhlwyf Llancarfan, swydd FORGANWG, 3¼ milldir i'r De Ddwyrain o Bontfôn.

**LLANBEULAN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd FON; dwy filltir, gogledd ddwyreiniol, o orsaf rheilffordd Bodorgan; a chwech yn orllewinol o Langefni. Llythyrfa dan Gaergybi. Erwau, 2934. Gwir werth meddianol, 2590*p.* Poblogaeth, 315. Tai, 48. Y mae y tir yn cael ei rannu rhwng wyth o bersonau. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â chapeloriaethau Llanfaelog, Ceirchiog, a Llechylched; gwerth 900*p.*, yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys yn henafol, ac yn sefyll ar fan lle y buasai un a godwyd yno yn y flwyddyn 630, ac wedi ei chysegru i St. Peulan. Y mae curadiaeth barhaol Tal y llyn, ar wahan. Y mae yma un o'r Cremlych prydferthaf yn Mon, gerllaw y brif-ffordd o Fryngwran i'r Bryn du.

**LLANBISTER**, sydd bentref, plwyf, ac is-ddosparth yn Knighton, sir FAESYFED. Y mae y pentref yn sefyll ar geulan yr afon Ithow, gerllaw gorsaf rheilffordd *Llanbister-road;* 10½ milltir gorllewinol o Dref y Clawdd; wedi ei hadeiladu yn brydferth. Y mae y plwyf wedi ei rannu yn Llanbister uchaf, ac isaf; ac yn cynwys trefgorddau Bronllys-Carogan, Church, Cwmllechwedd, a Cwmgaist. Y llythyrdy yw Pen-y-bont, Maesyfed. Erwau, 14,837. Gwir werth meddianau, 4530*p.* Poblogaeth, 1045. Tai, 181. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Y mae palas Llynwent, o amser Elizabeth, ond wedi myned dan lawer o gyfnewidiadau. Y mae yma nifer o ffynonau dwfr mwnyddol. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yma gapeli perthynol i'r Bedyddwyr, a'r Wesleyaid, ac ysgol waddoledig; a rhoddion i dlodion y plwyf. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys chwech o blwyfi eraill, a chyfran o un arall. Poblogaeth, 4370. Anneddau, 733.

**LLAN-BLAEN-YNYS**, sydd bentref yn mhlwyf Llangathen, swydd GAERFYRDDIN; tair milltir a haner gorllewinol o Landilo-fawr.

**LLANBLEIDDIAN**, neu LLANFLEIDDIAN FAWR, sydd blwyf yn nghantref y Bontfaen, swydd FORGANWG, Deheudir Cymru.

Saif y pentref ar lan afon Dawen, tua milldir i'r De o dref y Bontfaen, ac y mae yn bentref prydferth a swynol. Mae yr Eglwys wedi ei hadeiladu ar fryn uchel, a elwir Llanbleiddian Hill, oddi ar yr hwn y ceir golygfeydd hyfrydol ar ranau helaeth o Fro Morganwg. Ar y bryn hwn, ac yn y mwynhad o'r golygfeydd cylchynol, y cyfansoddwyd y gân boblogaidd hono, a elwir "The Garden of Wales." Mae yr Eglwys wedi ei chyssegru i Ioan Fedyddiwr; a chynnwysa gorph, cangell, a thŵr, ac ynddo wyth cloch. Dyddia ei choflyfr o'r flwyddyn 1660; ond y mae yr adeilad yn llawer henach na hyny, oblegyd perthyna hon i'r dosparth henaf o eglwysi, a bu Eglwys y Bontfaen yn gapel perthynol iddi.

Yma y claddwyd Jenkin ac Elizabeth Llewelyn, rhieni yr enwog Syr Leoline Jenkins, yr ysgrifenydd Cartrefol yn amser Charles II.

Ar gopa bryn uchel arall, ychydig yn ddwyreiniol i'r bryn y saif yr Eglwys arno, y mae gweddillion Castell Normanaidd, a elwir *St. Quintine's Castle.* Adeiladwyd ef yn 1091 gan Robert de St. Quintine, i'r hwn y rhoddwyd Maenor Llanfleiddian ar ol y Goresgyniad Normanaidd. Ymosododd y Cymry ddwywaith ar y Castell hwn, yn fuan wedi iddo gael ei adeiladu, am nad ymddygai ei breswylydd at y rhai a gollasant eu tiroedd, fel y gwnelai rhai o'i gyd Farchogion; sef dychwelyd iddynt eu tiroedd yn ddi ardreth. Parhaodd y Castell yn meddiant y teulu a nodwyd, hyd amser Harri III., pryd yr aeth trwy briodas, i deulu arall: ac ymddengys iddo fyned wedi hyny yn eiddo Ardalyddion Northampton. Nid oes ond y Porth Dwyreiniol, ac ychydig o'r muriau, yn aros. Mae lled y porth hwn yn 12 troedfedd, a drws arno, i attal plant ac ereill rhag myned i mewn i niweidio y lle.

Mae lluaws o balasau teg yn y pentref, y rhai a breswylir gan gyfoethogion urddasol. Yn y Ty Mawr yn y lle hwn, y magwyd J. Bruce Pryse, Ysw.; tad yr Anrhydeddus H. A. Bruce, A. S., Ysgrifenydd Cartrefol Prydain. Adeiladwyd y Ty Mawr gyntaf, yn amser y Frenines Elizabeth: a thua'r flwyddyn 1860, parodd J. Bruce Pryse iddo gael ei dyny i

Digitized by Google

lawr, a'i ail adeiladu yn hollol yn yr un arddull ag o'r blaen. O flaen y ty hwn y mae y gamfa lle bu Iolo Morganwg yn ymryson â'r yspryd, (meddai ef), yr hwn a'i rhwystrodd i fyned drosodd, gan ei orfodi i fyned ffordd arall.

Ger Palas Bryn Awel, yn ymyl yr Eglwys, y mae bôn Croes yn sefyll, nad oes neb a wyr er pa adeg. Arwynebedd y plwyf yw 3148 erw; ardrethiad 5515*p.*; prisiad 5083*p.* Poblogaeth yn 1861, oedd 753.

**LLANBOIDY**, sydd bentref, plwyf, ac is-ddosparth, yn nosparth Narberth, yn swydd CAERFYRDDIN. Y mae y pentref yn sefyll ar rediant o'r afon Taf, 5 milltir gogledd-ogledd-ddwyrain o reilffordd Whitland, a 9 gogledd ddwyrain o Narberth. Llythyrdy dan St. Clears; a ffair yn cael ei chynal Medi 18. Y mae ffordd *Julian* yn croesi y plwyf, yr hwn sydd yn cael ei rannu i uchaf, ac isaf; ac yn cynwys pentref Rigwm, a phentref Whitland. Darganfyddwyd bathodion Rhufeinig arian yma, yn amser Camden, yn Cilmaenllwyd. Y mae cylch Derwyddol, 60 troedfedd o drawsfesur; a chromlech yn Dol-Wilym. Erwau, 10,666. Eiddo trethadwy, 5045*p.* Poblogaeth, 1744. Anneddau, 373. Maes-Gwyn ydyw enw palas y teulu Powell. Y mae mwn haiarn yma, ond nid yw yn cael ei weithio. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 136*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys yn henafol. Y mae curadiaeth barhaol Ty Ddewi ar wahan; gwerth 66*p.*, yn nawddogaeth F. Bladworth, Ysw. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd, blwyf arall, a rhan o ddau eraill yn sir Gaerfyrddin, un yn Mhenfro, ac un mewn rhan rhwng Caerfyrddin a Phenfro. Erwau, 26,655. Poblogaeth, 3635. Tai, 796.

**LLANBORTH**, sydd balas gerllaw Penbryn, yn swydd Aberteifi. Yr oedd yn meddiant y teulu Lloyd, ond aeth i ddwylaw y teulu Davies yn ddiweddar. Y mae lle i gredu mai yn y gymmydogaeth hon yr oedd y "Llongborth" a grybwyllir gan Llywarch Hen, yn Marwnad Geraint ab Erbin; yn agos i'r lle y mae "Aber y Porth" yn gorwedd; ac heb fod yn mhell o Llanborth, y mae crugyn a elwir "Perth Geraint," ac a elwid, mewn adeg foreuach, "Bedd Geraint." Ac fel cadarnhad o'r un dybiaeth, y mae traddodiadau lleol yn dywedyd fod y brenin Arthur wedi ymladd brwydr waedlyd yn y gymmydogaeth hon.

**LLANBRYNMAIR**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Machynllaith, swydd DREFALDWYN. Y mae y pentref yn sefyll ar adlif yr afon Dyfi, milltir a haner gogledd orllewinol o Wynstay Arms, a rheilffordd Drefnewydd a Machynllaith; 10 milltir dwyreiniol o Machynllaith; ac y mae yma orsaf rheilffordd; prif lythyrfa dan enw Llanbrynmair, sir Drefaldwyn, a ffeiriau ar y Llun olaf yn Mawrth, Mai 31, Medi 16, a Tachwedd 5. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Dolgadfan, Pennant, Rhiwsaeson, Tir Mynach, a Tafolwern. Erwau, 19,006. Eiddo trethedig, 5674*p.* Poblogaeth, 2061. Tai, 388. Y mae y tiroedd yma gan mwyaf yn meddiant y teuluoedd Conroy, a Wynn. Y mae Castell Tafolwern, hen breswylfod y Tywysog Cymreig Owain Cyfeiliog, yn awr yn adfeiliau. Y mae y Wynstay Arms, gyda gorsaf rheilffordd Llanbrynmair, yn lle deniadol iawn i enweirwyr, o blegid cyflawnder y pysg yno, gyda y golygfeydd ardderchog sydd yn cylchynu y gymydogaeth. Y mae rhaiadrau golygus ar yr afon Twymyn; y mae disgyniad yr uchaf o honynt, a elwir y Ffrwd-fawr yn 130 o droedfeddi. Y mae amryw wythienau plwm o fewn y plwyf, ar fryniau noethion, ar ogledd ddwyrain llinell y Plymlumon. Y mae cylchau Derwyddol, o 27, 72, ac 81 o droedfeddi o drawsfesur, yn Newydd Mynyddog. Gadawodd Morgan Lloyd, Ysw. yn 1702, dyddyn yn mhlwyf Trefeglwys, mewn ymddiried i ficar a pharcatwyr y plwyf, a'i gynyrch blyneddol mewn ardreth, at wasanaeth plwyf Llanbrynmair, yn ol eu cyfarwyddyd hwy. Y mae y fywioliaeth yn beriglorìaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 333*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mair; ac adeiladwyd eglwys St. Ioan, yn 1868. Y mae yma ddwy ysgol waddoledig. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr, leoedd addoli yn y plwyf hwn. Yma y bu yr enwog John Roberts, yn llafurio gyda'r enwad olaf: cododd nifer o addoldai mewn gwahanol fanau yn y gymydogaeth. Y mae yr eglwys Annibynol yma, o ddyddiad boreuol iawn; ac y mae claddfa eang yn perthyn i'r "Hen Gapel."

**LLANCADWALADR**, sydd blwyf yn nosparth Llanfyllin yn swydd DDINBYCH, yn gyfagos i'r afon Ceiriog, gerllaw terfynau Amwythig, 7 milltir gogledd orllewinol o Groes-oswallt, lle y mae gorsaf rheilffordd. Erwau, 2792. Poblogaeth, 223. Tai, 41. Y mae yr arwynebedd yn fynyddog a bryniog. Y mae yma amryw waddolion wedi eu gadael i'r tlodion. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 55*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Capeloriaeth oedd y lle hwn gynt, yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant; ond fe'i hysgarwyd oddiwrtho drwy ddeddf Seneddol, ac a'i gwnaed yn blwyf ar wahan.

**LLANCAIACH**, neu GLANCAIACH, sydd le bychan, yn cynnwys ychydig dai, gyda gwaith glo, a Gorsaf ar Reilffordd y *Great Western*, yn ngodre plwyf Gelligaer, ac o fewn ychydig i Fynwent y Crynwyr, yn swydd Forganwg. (Gwel GELLIGAER.)

**LLANCARFAN**, sydd blwyf yn nghantref Dinas Powys, esgobaeth Llandaf, undeb Caerdydd, sir FORGANWG. Saif mewn ardal ffrwythlon a dymunol, tuag wyth milldir i'r De-orllewin o dref Caerdydd. Yn y flwyddyn 427, sefydlwyd yma Ysgol Gristionogol gan Garmon Sant, yr hwn a osododd Dyfrig Beneurog yn ben-athraw ar y sefydliad. Pan ddyrchafwyd Dyfrig yn esgob Llandaf, yn y flwyddyn 436, pennodwyd Cattwg mab Gwynllyw brenin Gwentllwg, neu Glywysig, yn ben athraw yr athrofa yn ei le. Gelwid y lle gynt wrth wahanol enwau, megys Cor Garmon, Cor Cattwg, Bangor Cattwg, Llanfeithin, &c. Dywedir yn Monedd y Saint, fod Carfan yn un o Saint Ynys Prydain, ac iddo ef y mae yr eglwys wedi ei chyssegru: a bernir mai oddi wrtho ef y cafodd y lle yr enw; tra y ceisia ereill ddweyd, mai Llan Garfon (Garmon) yw yr enw priodol; ond y mae athroniaeth yr iaith Gymraeg yn gwarafun hyn. Dywedir yn y Iolo MSS., i'r lle gael ei adeiladu mor fore a'r flwyddyn 422, ac mai yma y gwnaed y *Fynachlog* gyntaf yn Ynys Prydain. Pa fodd bynag am hyn, mae yn amlwg mai dan ofal Cattwg Ddoeth y daeth yr athrofa i'w bri uchaf. Cyduna haneswyr, i Cattwg wrthod y freniniaeth a berthynai iddo ar ol ei dad, a dewis cyssegru ei oes i efrydu a dysgu ereill, ac yn y fan hon y treuliodd ei oes, nes cyrhaedd yr oed annghyffredin o 120

Digitized by Google

mlwydd: ac yma y cyfansoddodd ei ddiarebion, ei draethebau, &c.

Adeiladwyd Eglwys Llancarfan ar draul Walter De Mapes, archddiacon Rhydychain, a Chaplan Harri I. Yr oedd Walter yn fab i Blondel de Mapes, yr hwn a ddaeth i Gymru gyda Robert Fitzhamon, Goresgynwr Morganwg; a phan rhanwyd y sir, Cafodd Blondel diroedd yn mhlwyf Llancarfan, ac hefyd yn Corboil, Ffraingc, am ei wasanaeth yn y fyddin Normanaidd. Priododd Blondel de Mapes â merch Gweirydd ab Seisyllt; a ganwyd iddynt y Walter dan sylw. Gan mai Cymraes oedd ei fam, yr oedd yn naturiol i Walter ddysgu Cymraeg; a daeth hefyd yn un o brif ysgolheigion y deyrnas, ac yn awdwr galluog. Efe a gyfieithodd *Frut y Breninoedd* o'r Gymraeg i'r Lladin; ac a'i cyfieithodd drachefn o'r Lladin i'r Gymraeg yn ei henaint. Y cyfieithiad olaf a gymmerwyd gan Sieffrey o Fynwy, yr hwn a ychwanegodd lawer o chwedlau atto.

Ysgrifenodd Walter de Mapes, Draethawd ar Amaethyddiaeth yn yr iaith Gymraeg, yn nghyda llawer o weithiau ereill. Yr oedd ganddo balas gwych yn y plwyf hwn, lle y preswyliai lawer o'i amser. Ar ei draul ef yr adeiladwyd y pentref sydd ar ei enw, sef Waltertown. Gwr enwog arall a anwyd yn y plwyf hwn, oedd Caradog, yr Hanesydd, awdwr Brut y Tywysogion, yn cynnwys hanes Cymru o'r flwyddyn 686, hyd y flwyddyn 1157. Mynach dysgedig oedd Caradog o Lancarfan; ac iddo ef yr ydym yn ddyledus fel cenedl, am hanes ein gwlad yn y cyfnod a nodwyd.

Lleoedd addoliad y plwyf yn bresenol, ydynt yr Eglwys Wladol, Carmel (A.), Soar (T. C.), Capel y Bedyddwyr, a Chapel y Wesleyaid. Mae Ysgol Elusenol hefyd yn y pentref. Maint y plwyf yw 4500 erw; pobl yn 1861, oedd 668; yn 1871, 568.

**LLANCASTLE**, treflan yn mhlwyf Llancarfan, swydd FORGANWG.

**LLANCIWG**, sydd blwyf eang yn nghantref LLANGYFELACH, Undeb Castell Nedd, swydd FORGANWG, deoniaeth Gwyr Orllewinol, Archddeoniaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi. Mae arwyneb y plwyf dros 12,000 o erwi, ond y mae llawer o hono yn fynyddig ac anffrwythlon: er hyny y mae ei fynwes yn dra chyfoethog o fwn haiarn, a glo, yr hwn a elwir Glo Carreg. Mae llawer o'r plwyf yn gorwedd yn Nyffryn Tawy; a'r cwr isaf o hono o fewn saith milldir i dref Abertawy. Saif Hen Eglwys y plwyf ar ben mynydd uchel; ac iddi gorph, cangell, a thŵr, a dwy gloch. Ail adeiladwyd hi yn 1812, yn yr arddull Normanaidd. Ficeriaeth yw'r fywioliaeth eglwysig, gwerth 300*p.*, yn rhodd Esgob Ty Ddewi. Cynnelir y Gwasanaeth yn Gymraeg ynddi ar brydnawn Sabbathau.

Duc Beaufort yw arglwydd y faenor: a phrif dirfeddiannwyr y plwyf, ydynt R. D. Gough, Ysw.; Y. H. Ynyscedwyn House; Herbert Lloyd, Ysw.; Cilbebyll; a J. G. Jeffries, Ysw. Cynnwysa y plwyf amryw bentrefi poblog, gyda gweithfeydd mawrion, megys Bryn Aman, Gwaun Caegurwen, Pontardawe, Rhydyfro, ac Ystalyfera; hanes y rhai a roddir dan eu henwau priodol.

Yn mynwent Eglwys y plwyf, y mae colofn hardd wedi ei chodi ar draul gweithwyr Glofa Penrhose, yn goffadwriaeth am Lewis Morgan, Ysw., o Dan-yrallt, mab henaf John Morgan, Ysw., Gelligron; yr hwn a anwyd Tach. 4, 1830; bu farw Hyd. 19, 1864. Rhed Camlas a Chledrffordd Dyffryn Tawy trwy ranau o'r plwyf hwn, tuag ardal Pontardawy, &c. Prisiad y plwyf yw 17,000*p.* Pobl yn 1861, 7983.

**LLANCYNFELYN**, sydd blwyf yn nosparth Aberystwyth, swydd Aberteifi, yn agos i enau yr afon Dyfi, ar derfynau rheilffordd Aberystwyth a glanau Mor Cymru, gerllaw gorsaf rheilffordd Ynys Las, 7 milltir gogledd ddwyrain o Aberystwyth. Y mae yn cynwys pentref Tre-Taliesin; yn llythyrfa Aberystwyth. Erwau, 6556, o'r hyn y mae 1535 dan ddwfr. Gwir werth meddianol, 2432*p.* Poblogaeth, 967. Tai, 216. Y mae olion yn aros yma o Gastell Gwyddno, yr hwn a berthynai i Gwyddno Garan-hir, yr hwn y dywedir iddo golli darn helaeth o dir yma, drwy orlifiad y mor. Barna rhai mai yn Nhre-Taliesin, y claddwyd y bardd enwog o'r enw hwnw; ac y mae carnedd ar y lle, sydd ar godiad y tir, tua 130 troedfedd o amgylchedd, a chistfaen yn ei chanol. Y mae glo, cerig calch, marmor, mwn haiarn, a phlwm, yn cael eu codi a'u gweithio yn y gymydogaeth. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 90*p.*, ac yn nawddogaeth J. P. B. Chichester, Ysw. Y mae yr eglwys yn adeilad da; yn sefyll ar y man ag y buasai un a godid yn y chweched ganrif; ac y mae wedi cael ei chysegru i St. Cynfelyn.

**LLANDAF**. Dinas a phlwyf yn nghantref CIBWR, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; a'i sefyllfa ar lan ddeheuol afon Taf, tua dwy filldir i'r gorllewin o dref Caerdydd. Cyduna haneswyr yr oesoedd, mai Llandaf yw yr esgobaeth henaf yn y deyrnas. Dywed y Cofnodion Cymreig, ac â'r rhai y cyduna yr hanesydd Bede, ac ereill, i eglwys gael ei sefydlu yma mor fore a'r flwyddyn 173, gan Lleurwg (*Lucias*), yr hwn a elwid Lleufer Mawr, brenin Gwent a Morganwg. Ymddengys fod Cristionogaeth wedi dyfod i'r parthau hyn o'r wlad cyn hyny, ond gan bwy sydd anhawdd ei benderfynu. Barna rhai o'n beirniaid hanesiol goreu, mai y milwyr Rhufeinig a ddygasant grefydd Crist gyntaf yma; a chan nad oedd y rhai hyny wedi eu neillduo yn esgobion neu ddiaconiaid, a hawl i fedyddio ereill, ac nad oedd Lleurwg yn deall y grefydd a broffesent mor drwyadl ag y dymunai, efe a anfonodd genhadon i Rufain, at yr esgob Elidir (*Eleutherius*) yr hwn oedd 12fed esgob y ddinas ymherodrol, i ddeisyf arno anfon dynion cymhwys i'r wlad hon, i bregethu y grefydd Gristionogol, ac i'w ddysgu ef a'i ddeiliaid yn fanylach yn y ffydd hono.

Yn unol a'r cais hwn, anfonodd esgob Rhufain dri pherson yma, wedi eu neillduo ganddo yn esgobion, y rhai oeddynt Dochwy, Dyfan, a Ffagan. Darfu i'r rhai hyn, ar ol egluro egwyddorion Cristionogaeth i Lleurwg, ei fedyddio ef a'i deulu, yn nghydag amryw o'i ddeiliaid; a'r canlyniad fu, iddynt adeiladu eglwys fechan yn Llandaf, yn lle cysurus i gyd addoli.

Ymddengys nad oedd y personau a enwyd, yn esgobion yn yr un ystyr ag y cyfrifir esgobion yn ein hoes ni; etto yr oeddynt felly yn ol rheol y Testament Newydd. Dyfan oedd yr hwn a bennodwyd gyntaf i ofalu am yr eglwys yn Llandaf, tra y darfu i Ffagan blanu eglwys yn y lle a elwir St. Ffagan, tua dwy filldir oddiwrth yr eglwys esgobaethol. Dochwy yntau a sefydlodd Athrofa, neu Fangor, yn agos i Benarth, i'r deau o Gaerdydd, lle y bu yn dysgu egwyddorion crefydd i'r rhai a dderbynient ei addysg. Medwy, un o'r Cenadon a anfonwyd gan Lleurwg i Rufain, ac a urddwyd yno,

Digitized by Google

a blanodd eglwys ar lan afon Rhymni, yr hon a elwid Llanfedwy, yr hon a ddinystriwyd yn amser Iestyn ab Gwrgan, ac ni chodwyd hi drachefn.

Mae yr haneswyr mwyaf selog dros henafiaeth y lle, yn honi ei bod yn *esgobaeth* oddi ar amser Lleurwg; sef er y flwyddyn 173: tra y mae ereill o'r farn, na wnaed Llandaf yn esgobaeth cyn y flwyddyn 470, pan urddwyd Dyfrig Beneurog yn esgob gan Garmon Sant. Gwr dysgedig a duwiol o sir Benfro oedd Dyfrig, yr hwn o herwydd ei sel dros wir grefydd, a'i ymdrechion yn erbyn cyfeiliornadau Morgan yr Heretic, a ddyrchafwyd yn esgob fel y nodwyd; ac yn y flwyddyn 490, a wnaed yn Archesgob Caerlleon ar Wysg. Ymddengys iddo gadw esgobaeth Llandaf yn ei feddiant, yn ogystal a'r archesgobaeth, hyd y flwyddyn 512, pryd y cafodd Teilo ei urddo yn esgob. Hen ddysgybl i Dyfrig oedd Teilo, ac wedi ei ddyrchafiad yn esgob, efe a sefydlodd Gôr, sef math o athrofa, yn Llandaf, ac ef ei hun yn ben athraw. Dywedir mewn llyfr a elwir *A Sketch of Llandaf Cathedral*, i Teilo sefydlu marchnad yn y lle, yn nghyda bathdy, i fathu arian, a ffurfio Llys Esgob, yr hwn a gyfrifid mor bwysig a Llys y brenin. Gellir casglu hefyd oddi wrth gofnodion yn Llyfr Llandaf, (*Liber Llandavensis*), fod awdurdod Llys yr Esgob yn fwy nag eiddo y brenin, oblegyd cofnodir am amryw fân frenhinoedd, a thywysogion, yn cael eu gwŷsio i Lys yr esgob i sefyll eu prawf, ac yn cael eu hysgymuno o'r eglwys, am y troseddau a gyflawnent, a'u derbyn yn ol drachefn, wrth roddi iawn i'r esgob, trwy anrhegu yr eglwys â darn o dir, &c. Tra yr oedd Teilo yn esgob, rhoddodd Dyfrig, Archesgobaeth Caerlleon ar Wysg i fyny i Dewi Sant, yn y flwyddyn 519; ac ymneillduodd i fyw i Ynys Enlli, lle y bu farw yn 522. Yna, trwy ganiatâd y brenin Arthur, symmudodd Dewi Sant yr Archesgobaeth, o Gaerlleon i Fynwy sef Tŷ Ddewi, yr hyn a barodd i Teilo, ac offeiriaid ei esgobaeth anfoddloni yn aruthr, a gwrth-dystiasant yn erbyn y weithred, ac ni ymostyngent i Archesgobaeth Tŷ Ddewi, am fod Llandaf yn henach: a bu Llandaf mewn canlyniad, am beth amser, yn Archesgobaeth ei hun.

Torodd pla dinystriol allan yn Nghymru yr amser hwnw, a elwid *Y Fad Felen*, a ffodd Teilo i Ffrainc rhag y pla, a bu yn aros yn Llydaw am beth amser. Pan ddychwelodd, dyrchafwyd ef i Archesgobaeth Ty Ddewi, wedi marwolaeth Dewi Sant, yn y flwyddyn 544. Hyrwyddodd hyn y ffordd iddo roddi y flaenoriaeth i Landaf, trwy symmud yr orsedd archesgobol o Dŷ Ddewi yno, a nodi gwr o'r enw Ismael yn Rhaglaw Esgob, (*Suffragan Bishop*), yn Nhy Ddewi. Bu Teilo farw mewn gwth o oedran yn Llandeilo Fawr, yn y flwyddyn 566, a phennodwyd Eudaf (*Oudoceous*) ei nai, yn esgob Llandaf yn ei le. Yr oedd hwn yn gydoesydd â Morgan Mwynfawr, a chafodd yr eglwys ei hanrhegu a lluaws o roddion tirol yn ei amser ef; fel y daeth yn bur gyfoethog. Trwy ei ymdrechion ef, a Morgan, yr adeiladwyd eglwys Margam, lle yr adeiladwyd Abbaty wedi hyny.

Berthgwyn oedd enw yr esgob a'i canlynodd ef, yr hwn a gymmerodd gryn awdurdod yn ei law, gan ddefnyddio ei Lys yn aml, a gwŷsio pendefigion a phenaethiaid iddo, ac am y trosedd lleiaf, ysgymunai hwy o'r eglwys, er mwyn iddynt roddi offrwm tirol am gael dychwelyd iddi; a'r amcan mawr mewn golwg, oedd cael cyfoeth i'r esgobaeth.

Canlynwyd ef gan Trychan, yn y flwyddyn 620, yr hwn a ymdrechai wella sefyllfa feddyliol y bobl, ac adeiladu eglwysi newyddion yn yr esgobaeth. Yn ei amser ef yr adeiladwyd Eglwys St. Nicholas, yn Mro Morganwg. Wedi marwolaeth Trychan, canlynwyd ef i'r esgobaeth gan *Eddfyw*, ond nid oes hanes am ei waith. Ufelwyn mab Cennydd oedd yr esgob nesaf, yr hwn a fu yn offeryn i adeiladu Eglwys St. George's, ar lan afon Elai. Dilynwyd ef gan *Grecielis*, ond ni choffeir ond ei enw yn unig.

Aidan oedd olynydd Grecielis yn y flwyddyn 720. Ymosododd llu o'r Sacsoniaid ar y lle yn ei amser ef, a chafodd yntau, ac amryw o'i offeiriaid eu llofruddio ganddynt. Yr enw nesaf yn rhes yr esgobion yw Erwystl, neu *Eglistil*, ond dywed rhai awdwyr nad oedd hwn ond Rhaglaw Esgob. Arwystl, a Lunapeius ydynt yr enwau nesaf, ond nid oes son am eu gweithredoedd, nac am ansawdd yr eglwys yn eu hamser.

*Comygern*, ydoedd gyd oesydd ag Ynyr, brenin Gwent, yr hwn a roddodd i'r esgobaeth diroedd yn Llanarth, Llandeilo porth halog, a Llandeilo Cresceni; yn offrwm am fuddugoliaeth a gafodd ef a'i fyddin ar y Sacsoniaid. Wedi marwolaeth Comygern, urddwyd Gwrgan, neu Gwrwan yn esgob, yr hwn a gafodd Lanfihangel Tref-gerawg yn rhodd i'r eglwys, gan Tudur, Tywysog Dyfed, yn iawn am lofruddiaeth a gyflawnodd.

Yn canlyn Gwrwan, ceir enwau amryw esgobion yn olynol, a dim ond eu henwau, megys:—Gwyddlon, Elwog (B.A. 763), Cerenhir, Nudd, Nywys, a Chadwared.

Yn 872, urddwyd Cyfeiliawg yn esgob yma gan Ethelred, Archesgob Caergaint. Cymmerwyd yr esgob hwn yn garcharor gan y Daniaid; ond trwy ddylanwad Iorwerth yr Henaf, brenin Lloegr, rhyddhawyd ef yn y flwyddyn 915; a bu farw yn y fl. 927.

Libian a'i canlynodd ef i'r esgobaeth, yr hwn oedd yn cydoesi ag Hywel Dda. Ni fu yn esgob ond am tua dwy flynedd, oblegyd bu farw yn 929. Gulfrid (*Gulfridus*) a ddilynodd Libian, ond ni sonir ond am ei enw yn mhlith yr esgobion.

Marchlwys, a gyssegrwyd yn esgob yn y flwyddyn 929, yr hyn a brawf na fu Gulfrid yn esgob ond am ychydig fisoedd; oblegyd urddwyd Marchlwys yn yr un flwyddyn ag y bu farw Libian.

Yr oedd Marchlwys yn un o gymdeithion Hywel Dda, ar ei daith i Rufain, i archwilio Cyfreithiau y ddinas hono, er mwyn corffoli Cyfreithiau Cymru yn ol yr un cynllun.

Wedi marw Marchlwys, cyssegrwyd Padarn, (nid sylfaenydd Llanbadarn Fawr), yn esgob Llandaf, yn y flwyddyn 943, a bu farw yn 961.

Ar farwolaeth Padarn, cyssegrwyd Rhodri mab Morgan Hen, brenin Morganwg, yn esgob, a hyny o anfodd y Pab: a thrwy fradwriaeth babyddol cafodd Rhodri ei wenwyno i farwolaeth; a gadewir ei enw allan gan y rhan fwyaf o'n haneswyr, o blith yr esgobion, a hyny mae'n debyg, am mai pabyddion oeddynt y cofiaduriaid fuont yn trefnu y rhes gyntaf. Tua yr amser hwn bu cryn ymryson rhwng awdurdodau esgobaeth Llandaf a'r Pab yn nghylch priodi. Yr oedd y Pab yn gwahardd i'r esgob a'r offeiriaid briodi unrhyw rai heb ei ganiatâd ef. Yr oedd yr esgob o'r tu arall, yn nghydag holl offeiriaid yr esgobaeth, yn honi hawl i briodi y sawl a fynent, ac nad oedd hawl hyd yn nod gan y Pab i ymyraeth!

Digitized by Google

Ar ol cryn ymryson a dadleu, gorfu ar ei sancteiddrwydd, y Pab, roddi ffordd, a chaniatau i esgobaeth Llandaf yr hyn a honai! Gwgan, a gyssegrwyd yn esgob yn y fl. 982, gan Archesgob Caergaint; a bu farw yn 992. Bledri Ddoeth, (*Bledis*) a urddwyd yn esgob yn y flwyddyn 993. Yr achos iddo gael ei enwi Bledri Ddoeth, oedd ei wybodaeth eang, a'i ymdrechion egniol i ledaenu gwybodaeth ac addysg yn mhlith y werin. Rhoddodd orchymyn i'r holl offeiriaid o fewn yr esgobaeth, i gyfranu addysg i'r bobl yn rhad, ac ymdrechu i'w dyrchafu mewn moesau a rhinwedd. Bu farw yn y flwyddyn 1022.

Joseph oedd enw ei ganlynydd, yr hwn a gyssegrwyd i'r swydd, Hydref 1, 1022, gan Aelnod, Archesgob Caergaint. Dewiswyd ef yn esgob, gan Rydderch ab Iestyn, brenin y Deheubarth, a Hywel ab Ithel, llywodraethwr Morganwg, a chymmeradwywyd ef gan Canute, brenin Lloegr. Yn gymmaint ag i Rydderch gael ei foddloni yn y dewisiad hwn, darfu iddo roddi 38 o blwyfi esgobaeth Ty Ddewi, i esgobaeth Llandaf.

Yn amser yr esgob hwn yr esgynodd Iestyn ab Gwrgan i orsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1043. Bu yr esgob rhagorol hwn farw yn Rhufain, yn y flwyddyn 1050.

Herwald, (*Hirwallt*), a gyssegrwyd yn esgob yn y flwyddyn 1056, gan yr Archesgob Cynisis, yn mhresenoldeb Edward III., brenin yr *Anglo-Saxon*. Cymro oedd Hirwallt, a wnaed yn offeiriad gan yr esgob Joseph: a dewiswyd ef yn esgob gan Gruffyth ab Llewelyn, brenin Cymru, a chefnogwyd y dewisiad gan y gwahanol esgobion, a phenaethiaid y wlad. Efe oedd yn esgob pan syrthiodd sir Forganwg yn ysglyfaeth i'r Normaniaid, pryd y dygwyd oddi ar yr esgobaeth, fwy na hanner ei thiroedd. Bu ef farw yn y flwyddyn 1104, yn fwy na chan' mlwydd oed.

Gwrfan, (*Urban*), oedd yr esgob cyntaf a gyssegrwyd yn Llandaf wedi y Goresgyniad Normanaidd. Urddwyd ef i'r swydd, gan Anselm Archesgob Caergaint, yn y flwyddyn 1107, sef yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Harri I. Cafodd ef yr esgobaeth wedi ei hyspeilio o'i meddiannau gan y Normaniaid, ac amryw o'r eglwysi wedi eu dinystrio, a'u tori ganddynt. Er cymmaint bri ac awdurdod a berthynai i Landaf dan yr esgobion blaenorol i hwn, amlwg yw, nad oedd yr un o honynt wedi talu sylw dyladwy i'r adeilad, nac wedi gwneyd unrhyw ymdrech tra yr oedd digon o gyfoeth ganddynt, i godi Eglwys yma, yn deilwng o'r urddas a berthynai i'r esgobaeth. Nid oedd yma ond eglwys fechan, ddi addurn pan gyssegrwyd ef; yn mesur 28 troedfedd o hyd, 15 o led, ac 20 o uchder: gyda dwy rodfa (*aisles*), a phorth 12 troedfedd o hyd, a 12 o led, heb glochdy na chloch! Yn ychwanegol at hyn, yr oedd yn adfeiliedig iawn, gan fod y Normaniaid wedi tori llawer arni. I wneyd sefyllfa pethau yn waeth, darfu i Bernard esgob Ty Ddewi, yr hwn a gyssegrwyd yn 1112 trwy orchymyn y brenin, yn erbyn ewyllys y Cymry, gymmeryd meddiant o'r 38 plwyfi a roddasid i esgobaeth Llandaf, gan Rydderch ab Iestyn; ac hawliodd esgob Henffordd, barthau dwyreiniol yr esgobaeth, fel y bu gyfyng iawn ar Urban, a bu mewn cyfraith a'r esgobion hyn am amser, heb nemawr lwyddiant. Yr oedd yr esgobaeth hon fel pob esgobaeth arall yn y wlad y pryd hwnw, dan awdurdod y Pab. Yn y flwyddyn 1119, galwodd y Pab Calixtus, Gymanfa yn Rheims, yn yr hon yr oedd yn bresenol Louis VI., brenin Ffraingc, a 500 o ffyn bugeiliol Archesgobion, Esgobion, ac Abbadau; ac Urban esgob Llandaf yn eu plith, yn gosod achos ei esgobaeth o flaen y Gymanfa.

Y canlyniad fu, i'r Pab roddi breinlen iddo, i'w awdurdodi i adferu yr eglwys i'w bri cynhenid. Ysgrifenodd y Pab ddau *Bull* hefyd, un at y personau oedd wedi lladrata eiddo yr eglwys, sef Robert de Chanders, Pain de John, Jeffrey de Broi, Bernard de Newmarch, Gambold de Ludlow, Roger de Berkley, ac ereill, yn gorchymyn iddynt roddi y meddiannau yn ol i'r eglwys. Dyddiwyd y *Bull* hwn yn Rheims, Hyd. 16, 1119. Cyfeiriwyd y *Bull* arall at Harri I., brenin Lloegr, dyddiedig, Rheims, Hyd. 22, 1119. Cynnwys y *Bull* hwn, ydoedd ceisio gan y brenin i arfer ei ddylanwad, er cynorthwyo Urban i gario allan y gwaith o adferu yr esgobaeth i'w hurddas cyntefig.

Mewn canlyniad i hyn, anfonodd Ralph, Archesgob Caergaint, anerchiad at yr holl eglwysi o fewn yr archesgobaeth, yn taer gymhell pawb, yn Ffrangcod, Saeson, Cymry, a phob cenedl arall, i gyfranu arian at adeiladu Eglwys Llandaf. Bu hyn yn foddion i gael swm helaeth o arian, ac aeth Urban yn mlaen a'r gwaith yn galonog: ac erbyn mis Mai, 1120, yr oedd yr adeilad mewn cyflwr mor orphenol, fel y gellid cydgynull ynddo i addoli. Nid oedd yr eglwys a orphenwyd y pryd hwnw, ond un fechan, etto hardd iawn. Ar ei hagoriad, parodd Urban i esgyrn Dyfrig, a gladdesid yn Ynys Enlli yn y flwyddyn 522, gael eu codi, a'u cludo gyda rhwysg a bri, i'w claddu yn Llandaf, ar y 23 in o Fai, 1120. Nid ymfoddlonodd Urban ar hyn, ond dechreuodd adeilad yn y lle, y buwyd dros 100 mlynedd yn ei ddwyn i orpheniad. Efe hefyd a adeiladodd Balas yr Esgob, yr hwn y buwyd amryw flynyddau cyn ei gwblhau. Bu Urban farw ar ei bedwaredd ymweliad â Rhufain, yn y flwyddyn 1133.

Yn 1139, cyssegrwyd Uchtryd, archddiacon Llandaf, yn olynydd i Urban, gan Theobald, Archesgob Caergaint. Bu Harri II. ar giniaw yn y Palas Esgobol gyda'r esgob hwn, yn y fl. 1148; a bu Uchtryd farw yn mhen ychydig amser ar ol hyny.

Yn y flwyddyn 1152, cyssegrwyd Gruffydd ab Arthur, nai Uchtryd, yn esgob yn ei le. Yr enw, wrth yr hwn yr adnabyddid yr esgob hwn yn gyffredin, oedd Sieffrey o Fynwy. Derbyniodd ei addysg mewn mynachlog ger Tre Fynwy; ac urddwyd ef yn archddeon Mynwy, ac yn offeiriad teulu (*chaplain*) i William, Iarll Caerloyw. Bu yn cadw ysgol enwog am flyneddau yn Llandaf: ac yr oedd yn un o ddysgawdwyr penaf ei oes. Wedi ei gyssegru yn esgob, bu farw cyn ymgymeryd a'r swydd, a chladdwyd ef yn yr eglwys.

Yn 1153, urddwyd Nicholas ab Gwrgan yn esgob, yr hwn wedi marw Bernard, esgob Ty Ddewi, a ymdrechodd lawer er ceisio cael y parthau a gymmerwyd oddi ar Landaf gan hwnw, yn ol drachefn, ond ni fu llawer o lwydd ar ei lafur. Bu hwn farw yn 1183.

Yn 1185, cafodd William de Salso-marisco, llywydd Priordy St. Augustine, Caerodor, ei urddo yn esgob; a rhoes y swydd i fyny yn y flwyddyn 1192.

Yn 1193, cyssegrwyd Henry o Abergafenni yn esgob. Yr oedd hwn yn bresenol ar goroniad y brenin John. Bu farw yn y flwyddyn 1218.

Y flwyddyn ganlynol, sef 1219, cafodd William de Goldcliffe ei ddyrchafu i'r orsedd esgobol; a bu ei ymdrech egnïol ef yn foddion i ddychwelyd i'r

Digitized by Google

esgobaeth beth o'r tiroedd a gollasai gynt. Bu farw yn 1229.

Olynwyd ef gan Elias de Radnor, trysorydd Henffordd, yn 1230; yr hwn a fu farw yn 1240. Yn y flwyddyn y bu ef farw, cyssegrwyd William de Christchurch yn ei le, yr hwn a fu yn esgob am tua thair blynedd.

Yn 1244, cyssegrwyd Wm. de Burgh. Gwysiwyd hwn gan y Pab i Gymanfa Lyons; ond ychydig cyn adeg ei gychwyniad tuag yno, yspeiliwyd ef o'i feddiannau, fel y methodd fyned: ond esgusodwyd ef am ei absenoldeb yn ngwyneb yr amgylchiadau a'i cyfarfuasant. Bu farw yn 1252.

Yn 1253, cyssegrwyd John de la Warre, Abbad Margam, yn esgob; yr hwn a fu farw yn gynar yn y flwyddyn 1256, ac a gladdwyd o fewn yr eglwys esgobol. Canlynwyd ef gan William de Radnor, yr hwn a lanwodd y swydd, o'r flwyddyn 1256, hyd ei farwolaeth, yn 1265.

Yn 1265, cyssegrwyd William de Brews i'r swydd. Yr oedd hwn yn cydoesi a Iorwerth I., brenin Lloegr, a "Llywelyn ein Llyw olaf." Darfu i Ieirll Henffordd a Chaerloyw, yspeilio esgobaeth Llandaf yn amser yr esgob hwn, o lawer iawn o'r tiroedd a berthynent iddi; a gwerthent y dyrchafiadau eglwysig i'r sawl y gwelent yn dda, gan fyned ag awdurdod yr esgob oddi arno. Dywed ein prif haneswyr, y buasai Llandaf yr esgobaeth gyfoethocaf yn y deyrnas yn bresenol, oni buasai yr yspeiliadau a wnaed gan y ddau Iarll a enwyd. Bu farw yr esgob De Brews yn 1287. Phillip de Saunton a'i canlynodd, ond ni chofnodwyd blwyddiad ei gyssegriad, na'i farwolaeth.

Yn 1296, etholwyd John de Monmouth, Cangellydd Rhydychain, yn esgob, yr hwn trwy ymdrech, a lwyddodd i gael ychydig o'r hyn a gymmerwyd oddi ar yr esgobaeth, gan Iarll Henffordd, yn ol i feddiant Llandaf. Bu yr esgob hwn farw Chwef. 8, 1323: a chladdwyd ef yn Nghapel Mair, Llandaf, lle y gosodwyd maen mynor yn goffadwriaeth iddo, ac arno yr argraff—

"Johannes Monumethenus"

John de Eglescliffe, esgob Connor, Iwerddon, a ddyrchafwyd i esgobaeth Llandaf yn y flwyddyn 1323, trwy orchymyn y Pab. Bu hwn farw yn ei balas yn Llangadwaladr, (*Bishopton, Mynwy*), Ion. 2, 1346.

Yr oedd Iorwerth III., ac esgobion Cymru, yn nghydag offeiriaid esgobaeth Llandaf, wedi anfoddloni yn fawr wrth y Pab am ethol hwn, am eu bod hwy wedi pennodi un arall: ac ar ei farwolaeth ef, etholwyd John Coventry yn esgob rheolaidd gan y Glwysgor yn Llandaf; ond gwrthododd y Pab ei gydnabod yn esgob o gwbl. Felly ni fu yn gweinyddu y swydd ond ychydig fisoedd: pan y cyssegrwyd John Pascall yn 1347. Yr oedd hwn yn gyfaill mawr i Ifor Hael, ac yr oeddynt yn gymmydogion hefyd, gan fod yr esgob yn preswylio yn Llangadwaladr. Yn y flwyddyn 1360, torodd pla allan yn y wlad, a elwid "Y Chwaren," a chymmerwyd yr esgob yn glaf o'r haint. Aeth Ifor Hael, a'i wraig Nest, i ymweled a'r esgob yn ei gystudd, lle y cymmerwyd hwythau yn glaf o'r un haint, a bu y tri feirw yn mhalas yr esgob, yn 1361.

Ar farwolaeth Pascall, urddwyd Roger Cradock, is-esgob Waterton, trwy orchymyn y Pab, 21 Iorwerth III. Bu hwn farw yn 1382.

Yn 1382, urddwyd Thomas Rushbrooke yn esgob gan y Pab; ac yn y flwyddyn ganlynol, dyrchafwyd ef i esgobaeth *Chichester*, a bu Llandaf heb esgob am tua thair blynedd.

Yn 1386, pennodwyd William de Rottesham, esgob Bethlehem mewn enw, i lanw y swydd yn Llandaf; ac yn mhen tair blynedd, dyrchafwyd ef i esgobaeth Rochester.

Edmund Brumfield, a gyssegrwyd yn esgob yn 1389, 13 Richard II. Mynach oedd hwn o Fynachlog St. Edmundsbury, a gwnaed ef yn Abbad hefyd. Yr oedd y brenin, ac awdurdodau eglwysig y wlad hon yn ffyrnig yn ei erbyn, ond mynodd y Pab arfer ei hawl yn ei etholiad, er eu gwaethaf: a pharhaodd yn y swydd hyd ei farwolaeth, yn y flwyddyn 1390.

Yn 1391, cyssegrwyd Tydeman de Wynchecombe, gan y Glwysgor, gyda sêl y brenin, a hyny heb ganiatad y Pab! Cafodd ei symmud wedi hyny i esgobaeth Caerwrangon, (*Worcester*,) lle y bu farw yn 1401.

Pan symmudwyd ef o Landaf, cyssegrwyd Andrew Barret, LL.D. yn ei le, yn 1395; a bu Barret farw y flwyddyn ganlynol.

John Burghill, Cyffeswr Richard II., a urddwyd yn esgob, Mehefin 15, 1396; ac yn mis Medi, 1398, symmudwyd ef i Lichfield.

Ar yr 16eg o fis Tachwedd, 1398, 21 Ric. II., cyssegrwyd Thomas Peverell yn esgob i'r esgobaeth hon. Pan oedd hwn yn esgob yr ymwelodd yr enwog Owen Glyndwr â Llandaf, ac a ddinystriodd y Palas Esgobol yn chwilfriw: ac nid yw wedi ei adgyweirio oddi ar hyny hyd yn awr. Mae ychydig o'r muriau, gydag un porth mawr, a chadarn, i'w gweled yma yn awr. Cafodd Peverell ei symmud i esgobaeth Worcester, Gor. 4, 1407.

John de la Zouche, S.P.T., a gyssegrwyd yn esgob Llandaf yn ei le, Mehefin 7, 1408. Prif waith hwn oedd adeiladu Palas esgobol yn Mathern, yn lle yr un a dorwyd gan Owen Glyndwr. Bu yr esgob hwn farw ddechreu mis Ebrill, 1423; ac ar yr 28 o'r un mis, cafodd y Glwysgor lleol drwydded (*congé d'élire*) i ddewis esgob yn ei le: ac ar yr 2il o Fai, dewiswyd John Fulford, yr hyn a gymmeradwywyd gan y brenin: ond amlwg yw, fod y Pab yn anfoddlon i'r dewisiad, ac nid ystyriai ef yn esgob, am nad urddwyd ef gan ei Sancteiddrwydd.

Yn 1425, cyssegrwyd John Wells yn olynydd Fulford: yr hwn ar y 15fed o Ionawr, 1426, a ymostyngodd trwy broffes gyhoeddus i Archesgob Caergaint. Cyn hyny, nid ystyrid Llandaf yn israddol i'r archesgobaeth hono: ond wedi hyny, cyfrifir Llandaf yn esgobaeth o fewn tiriogaeth Caergaint.

Nicholas Assheby, olynydd Wells, a urddwyd trwy awdurdod *Bull* y Pab, dyddiedig Chwef. 18, 1441; cymmerodd feddiant o'r swydd, Ebrill 15, yr un flwyddyn; a bu yn ei gweinyddu hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 1458.

John Hunden, a gyssegrwyd Awst 25, 1458; 37 Harri VI.

John Smith, 1476-1478.

John Marshall, Canon Windsor, a gyssegrwyd yn esgob Llandaf yn 1478; 18 Iorwerth IV. Yn ystod swyddogaeth hwn, gwnaed llawer iawn o gyfnewidiadau yn yr adeilad, gan ychwanegu at yr un gwreiddiol, fel y daeth y lle yn fwy gwych a phwysig yr olwg arno. Efe a fu yn offeryn i gael allor newydd o feini nâdd, wedi ei phrydferthu â lliwiau coch, ac hyacinth, y rhai a wnaed er anrhydedd i'r brenin.

Digitized by Google

Yn amser yr esgob hwn hefyd yr adeiladwyd y Tŵr Gogleddol, ar draul Jasper Tudur, arlwydd Morganwg, ac ewythr Harri VII. Bu yr esgob da hwn farw yn 1496: ac efe a gladdwyd yn ymyl yr orsedd esgobol, o fewn yr eglwys. Dilynwyd ef gan un John Ingleby, yr hwn oedd yn llywydd priordy Shene, swydd Surrey. Urddwyd ef yn esgob yn 1496, bu farw yn 1499.

Miles Salley, Abbad Evesham, a urddwyd yn esgob, Mai 12, 1500; ac a fu farw yn 1516. Claddwyd ei gorph yn Bristol, ei galon yn Mathern, a'i feitr yn Llandâf.

Yn 1517, urddwyd George de Athequa yn esgob, yr hwn oedd Yspaenwr, ac a ddaeth i'r wlad hon gyda Catherine o Arragon, gwraig gyntaf Harri VIII. Bu farw yr esgob hwn yn 1537.

Robert Holgate, o swydd Gaerefrog, ymlynydd wrth, a chyfaill mawr i'r brenin Harri VIII., a urddwyd yn esgob yn 1537; 28 o deyrnasiad y brenin hwnw. Yn amser hwn y cyhoeddwyd Cyfieithiad William Tyndal o'r Beibl, a phenodwyd yr esgob Holgate, yn un o adolygwyr y cyfieithiad. Yn y flwyddyn 1544, dyrchafwyd ef yn Archesgob Caerefrog, a bu yn ei swydd hyd orseddiad y frenhines Mary, yr hon a'i diswyddodd, ac a'i carcharodd yn 1554; a bu yntau farw yn 1555.

Anthony Kitchen, a gyssegrwyd yn esgob Llandâf ar gais Holgate, pan wnaed ef yn archesgob. Kitchen oedd y rhyfeddaf o'r holl esgobion: ac amlwg yw, mai elw a safle fydol oedd yn ei lywodraethu, ac nid egwyddorion. Tra y bu dan Harri VIII., a Iorwerth VI., yr oedd yn Brotestant selog. Yn amser Mary Waedlyd, yr oedd Kitchen yn Babydd penboeth, yn cymmeryd rhan flaenllaw yn yr erlidigaethau. Pan esgynodd Elizabeth i'r orsedd, troes Anthony Kitchen yn Brotestant drachefn: a phan wnaed ffurf-weddiau Protestanaidd i'r clerigwyr, a bod yn rhaid iddynt wneyd llw i gydnabod y frenhines yn ben yr Eglwys, &c., yr unig *esgob* yn y deyrnas a ymostyngodd i wneyd y llw, oedd Dr. Kitchen, esgob Llandâf. Bu yn esgob 18 mlynedd; a bu farw yn 1563, yn 90 mlwydd oed.

Hugh Jones, ei olynydd, a urddwyd yn esgob yn 1567. Hwn oedd yr unig Gymro a urddwyd yn esgob yma am fwy na 300 mlynedd! Bu farw Tach. 15, 1574.

William Bleddyn (Cymro), archddiacon Aberhonddu, a Chorberiglor Llandâf, a urddwyd yn esgob, Ebrill 16, 1575; bu farw 1590.

Gervase Balington, 1591; 34 Elizabeth. William Morgan, D.D., yr hwn oedd un o ddysgedigion blaenaf ei oes, ac i'r hwn y mae y genedl Gymreig yn ddyledus am Gyfieithiad rhagorol o'r Beibl i'n hiaith. Urddwyd ef yn esgob trwy orchymyn pendant y frenhines Elizabeth, yn 1595; symmudwyd ef i Lanelwy yn 1601, lle y bu farw yr un flwyddyn. Dilynwyd Dr. Morgan i'r esgobaeth hon, gan Francis Godwin yn 1601. Yr oedd yr Eglwys mewn sefyllfa adfeiliedig iawn pan ddaeth ef i'r esgobaeth, a bu yn offeryn i adgyweirio llawer arni. Yr oedd hwn yn awdwr enwog, ac yn mhlith pethau ereill a wnaeth, ysgrifenodd hanes pur gryno o'r Eglwys a'r esgobaeth. Yn 1617, symmudwyd ef i esgobaeth Henffordd; ac urddwyd George Charlton yn ei le yn esgob Llandâf. Anfonwyd hwn yn genad i Gymanfa Dort yn 1618, gan Iago I., i roi ei bleidlais yn ffafr y Ffydd Uniongred: ac yn yr un flwyddyn, cafodd ei symud i Chichester.

Yn 1619, cyssegrwyd Theophilus Field yn esgob Llandâf yn ei le: a dilynwyd yntau gan William Murray yn 1627.

Yn amser hwn y dechreuodd Ymneillduaeth yn Nghymru, trwy i Mr. Wroth, Llanfaches; Mr. Erbury, Caerdydd; a'i Gurad, Walter Cradock, omedd darllen y *Book of Sports* yn eu heglwysi, ar orchymyn y brenin, a'r esgob. Yn 1639, cyssegrwyd Morgan Owen, brodor o Myddfai, yn esgob, trwy ddylanwad Dr. Laud, esgob Tŷ Ddewi. Gorfu ar hwn adael yr esgobaeth gan bleidwyr Oliver Cromwell, am ei fod yn ymlynydd ffyddlon wrth Charles I. Bu yr esgobaeth yn wag heb esgob trwy ystod amser llywodraethiad O. Cromwell.

Hugh Lloyd, a gyssegrwyd gyntaf ar ol adferiad Charles II. Urddwyd ef yn 1660; bu farw yn 1667.

Francis Davies, 1667–1674.

William Lloyd, Caplan Charles II., a urddwyd yn esgob yma yn 1675. Gomeddodd hwn wneyd y llw arferol i William a Mary, ar eu hesgyniad i'r orsedd, ac felly collodd ei swydd fel esgob, yn 1689. Dilynwyd ef i'r esgobaeth gan William Bean, yr hwn a fu farw yn 1705.

Yn 1706, urddwyd John Tyler yn esgob. Yn amser hwn, 1722, syrthiodd rhan fawr o'r Eglwys, gyda'r Tŵr De-orllewinol, fel yr aeth yr adeilad i sefyllfa druenus. Bu farw yn 1724, pryd yr urddwyd Robert Clavering yn ei le. Yn 1728, dyrchafwyd ef i esgobaeth Peterborough.

Yn 1729, cyssegrwyd John Harries, Cor-beriglor Caergaint, yn esgob; yr hwn a gasglodd 7000*p.* tuag at adgyweirio yr adeilad. Rhoddwyd y gwaith i un Mr. Wood, yr hwn yn lle adgyweirio, a dynodd agos haner yr hen adeilad gwŷch i lawr, gan adeiladu yn ei lle, eglwys fechan o arddull Eidalaidd. Bu Harries farw yn 1738.

Mathew Mawson a urddwyd yn ei le, yr hwn a symmudwyd i Chichester yn 1740; pryd yr urddwyd John Gilbert yn ei le ef yn Llandâf. Yn 1748, dyrchafwyd ef i esgobaeth Salisbury; ac yn y flwyddyn ganlynol, cyssegrwyd Edward Cresset yn olynydd iddo i'r esgobaeth hon. Bu farw yn 1755; pryd yr urddwyd Richard Newcombe yn ei le. Symudwyd hwn i Lanelwy yn 1761, pan yr urddwyd John Ewer, Canon Windsor, yn esgob yma yn ei le. Yn 1768, symudwyd Ewer i esgobaeth Bangor; ac yn 1769, cafodd Jonathan Shipley, Deon Westminster, ei wneyd yn esgob Llandâf; ac yn yr un flwyddyn aeth i esgobaeth Llanelwy.

Yn 1769, cyssegrwyd yr Anrhydeddus Shute Barrington, Canon St. Paul, yn esgob yma, ac efe a ddyrchafwyd i Salisbury, yn 1782; pryd y pennodwyd Richard Watson, archddeon Ely, yn olynydd iddo. Yr oedd hwn yn awdwr galluog a phoblogaidd: ac yn amddiffynydd dewr i'r Beibl, yn erbyn ymosodiadau T. Pain, &c. Bu Watson farw yn 1816.

Herbert Marsh, Proffeswr Duwinyddiaeth yn Nghaergrawnt, a urddwyd yn esgob yma yn 1816, ac a ddyrchafwyd i Peterborough yn 1819.

William Van Wilbert, Proffeswr Duwinyddiaeth yn Rhydychain, a ganlynodd Marsh yn 1819; ac yn 1826, symudwyd ef i Durham. Charles Rubard Sumner, periglor Caergaint, Llyfrgellydd a Chofiadur y brenin, &c., a urddwyd yn esgob yn 1826, a dyrchafwyd ef i Gaerwynt yn 1827; pryd y cafodd Edward Copleston, Deon St. Paul, Llundain, ei wneyd yn esgob Llandâf. Yn amser hwn y dechreuwyd ar y gwaith mawr a orphenwyd yn

Digitized by Google

ddiweddar, sef adferu yr adeilad, a'i wneyd yn deilwng o Eglwys Gadeiriol.

Cychwynwyd y gwaith yn 1839, gan y Canon Douglas; yr hwn a adgyweiriodd un ffenestr i Gapel Mair; a gorphenwyd adgyweirio y Capel hwnw yn 1842, gan y Cangellydd Bruce Knight.

Yn 1843, pennodwyd y diweddar Bruce Knight yn Ddeon Llandâf. Nid oedd Deon wedi bod yma o'i flaen ef, er amser yr esgob Urban, 1120!

Wrth gyflwyno tysteb i'r Deon newydd, darfu i'r Parch. George Thomas, mewn anerchiad hyawdl, gyfeirio at y gwaith ag oedd wedi ei gyflawni, sef adgyweirio Capel y Forwyn, ac yn ei farn ef, mai priodol iawn fuasai myned yn mlaen ag adgyweirio yr holl adeilad. Cymerodd yr awgrymiad yn dda, —dechreuwyd tanysgrifio at y gwaith,—pennodwyd un Mr. Prichard yn arch-adeiladydd (*architect*) ac un Mr. Williams yn adeiladydd; ac aeth y Deon Bruce Knight a'r gwaith yn mlaen, hyd ei farwolaeth yn 1845.

Canlynwyd ef i'r swydd gan y Deon Conybeare, yr hwn oedd yn deall adeiladwaith yn dda; ac aeth ef a'r gwaith yn mlaen yn hwylus.

Yn 1849, bu farw yr esgob Copleston, ac urddwyd Alfred Olivant, yr esgob presenol (1872) yn ei le. Aeth y gwaith o adgyweirio yn mlaen yn fywiog iawn ar ol urddiad Dr. Olivant, dan ofal manwl y Deon Conybeare, hyd y flwyddyn 1857, pryd yr oedd 9000*p.* wedi eu treulio ar yr adferiad.

Bu esgob Rhydychain yn pregethu yn yr Eglwys y flwyddyn hono, ac yn rhoi anogaeth am fyned a'r gwaith yn mlaen i'w orpheniad. Yn fuan ar ol hyn, bu farw y Deon Conybeare, ac etholwyd y Parch. Thomas Williams, yn Ddeon yn ei le; yr hwn a gariodd y gwaith yn mlaen yn ddiorphwys, nes ei orphen yn anrhydeddus; ar y draul o dros 30,000*p.*

Mesuriadau yr eglwys bresenol sydd fel y canlyn: —hyd, 270 troedfedd; lled 65; lled y Cor a'i rodfeydd 65 troedfedd, heb y rhodfeydd 35; a maint y Capel dwyreiniol yn 50 troedfedd wrth 25: ac uchder y Tŵr yn 195 troedfedd.

Cofier mai wedi ei adgyweirio y mae yr adeilad, ac nid ei ail godi, oblegyd y mae rhanau helaeth o'r hen adeilad a godwyd yn 1120, yn aros yn bresenol. Rhifedi y swyddogion eglwysig, ydynt Esgob, Deon, dau Archddiacon, Cangellydd, Trysorydd, Canoniaid, Blaengeiniad, a naw Cor-beriglor, y rhai a ffurfiant y Glwysgor. Mae y gwasanaeth dyddiol wedi ei adferu yn yr Eglwys hon oddi ar pan orphenwyd yr adgyweiriad, fel ag y gwneir mewn Eglwysi Cadeiriol ereill.

Mae yr ymdrech clodus sydd wedi ei wneyd tuag at adferu yr Eglwys, wedi bod yn foddion i lawer o dai gwŷchion ereill gael eu hadeiladu yn y ddinas yn ddiweddar, megys Palas yr esgob, Deondy, Canondy, dau Is-ganondai, Ysgoldy Cenedlaethol; ac adeilad Ysgol Elusengar Howell, a Sefydliad er adferu merched dirywiedig, &c.

Yn mhlwyf Llandâf y mae Canton,—rhan o Gaerdydd; ac o'r braidd nad yw Caerdydd a Llandâf yn un bellach, o herwydd, y mae y tai sydd wedi eu hadeiladu yn ddiweddar agos ag uno y ddau le. Maint y plwyf yw 4352 erw; pobl yn 1871 oedd 11,922. Gwerth trethedig, 34,203*p.*

**LLANDAIN-FACH**, sydd bentref yn mhlwyf Nantcwnlle, swydd ABERTEIFI; saith milltir a haner, gogledd o Lanbedr.

**LLANDANWG**, sydd blwyf, yn nosparth Ffestiniog, sir FEIRIONYDD, ar fin y traeth, wrth enau yr afon Artro, a cherllaw rheilffordd Abermaw a Chaernarfon, dwy filltir deheuol o Harlech. Y mae yn cynwys Harlech, i'r hon y mae llythyrfa dan Gaernarfon; ac y mae yn uno rheilffordd Abermaw a Chaernarfon, yr hon a agorwyd yn 1866. Erwau 4964, o'r hyn y mae 1354 dan ddwfr. Y mae y tir, gan mwyaf yn fryniog, cerygog, a diffrwyth. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadiaeth barhaol Llanbedr, yn esgobaeth Bangor; gwerth 194*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Tanwg, ac yn sefyll gerllaw glan y môr, ac yn cynwys rhai gwrthddrychau o hynodrwydd. Y mae yma ysgol wedi cael ei gwaddoli â 13*p.* yn flyneddol.

**LLANDAWC**, neu LLANDAWKE, sydd blwyf yn nosparth a swydd CAERFYRDDIN, yn gyfagos i enau yr afon Tâf, milltir a haner, gogledd orllewin o Lacharn, a phedair a haner o orsaf rheilffordd St. Clears. Y llythyrfa yw Llacharn, dan St. Clears. Erwau, 613. Gwerth ardrethol, 549*p.* Poblogaeth, 38. Tai, 6. Y mae y meddianau mewn un etifeddiaeth. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â pherigloriaeth Pendine, yn esgobaeth Ty Ddewi; ni hysbysir ei gwerth; y mae yn nawddogaeth W. Powell, Ysw.

**LLANDEBIE**, neu LLANDYBIE, pentref a phlwyf yn undeb LLANDEILO-FAWR, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, bum milldir a hanner i'r de o Landeilo-fawr, ar y ffordd i Abertawe. Saif y pentref ar yr afon Morlais, yn ymyl rheilffordd Llanelli a Dyffryn Tawe, odditan y Mynydd Du. Mae y plwyf, yr hwn sydd wedi cael ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Tibieu Sant, agos yn chwe milldir o hyd, ac oddeutu pedair milldir o led. Cynnwysa dreflanau Derwydd, Pistyll, Garn, Ferenfawr, Glyntay, Blayne, Piode, a Ty Rosser. Erwau, 10,710. Gwerth trethadwy, 5305*p.* Poblogaeth, 2821. Tai, 591. Ceir golygfeydd nodedig o brydferth yn y gymmydogaeth hon, yn enwedig o'r ffordd rhwng Llandybie a Llandeilo-fawr,—yr afon Llychwr yn ymdroelli drwy y dyffryn, a'r bryniau coediog yn ymgodi ar bob llaw. Mae y tir yn ffrwythlon, ac yn cael ei ammaethu yn dda, er fod y rhan sydd yn sefyll ar y Mynydd Mawr yn anniwylliedig. Ceir yn y gymmydogaeth liaws o balasau heirdd, yn y rhai y preswylia boneddigion o gyfoeth mawr. Un o'r rhai hyn ydyw y Dyffryn, gyda'r gerddi perthynol iddo, wedi cael eu cynllunio a'u gosod allan gyda chwaeth ragorol. Blayne sydd hen blas urddasol yr olwg, ac yn Glynhir, preswylfod W. Du Buisson, Ysw., y mae gerddi tlysion, a rhaiadr, yn yr hwn y cwympa y dwfr 30 troedfedd. Derwydd ydoedd preswylfod teuluoedd Vaughan a Stepney, a cheir ynddo ddodrefn, fel y tybir, o amser Harri yr Wythfed. Yn y rhanau mynyddig o'r plwyf, ceir cyflawnder o lô, a cheryg calch, y rhai sydd yn dwyn moddion cynnhaliaeth i liaws mawr o'r trigolion tlottaf. Cynhelir ffeiriau yma y Mercher ar ol y Sulgwyn, a'r Mercher ar ol y Nadolig. Ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 180*p.*, yw y fywioliaeth, Noddwr Esgob Tyddewi. Eglwys y plwyf sydd adeilad seml mewn cyflwr da, gyda thŵr uchel ysgwâr, ac oddimewn, ceir cofadail i Syr Henry Vaughan, yr hwn oedd yn myddin Siarl I. Mae yn y plwyf hefyd addoldai i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Wesleyaid, a lliaws o ysgolion dyddiol a Sabbothol.

Digitized by Google

**LLANDECWYN**, pentref a phlwyf yn undeb Ffestiniog, cantref ARDUDWY, swydd MEIRIONYDD, 4½ milldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Harlech. Derbynia ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Sant Tecwyn, a thu mewn i derfynau y plwyf, ceir Llynoedd Tecwyn Ucha, Tecwyn Isa, Eiddew Bach, Llyn Du, a Llyn y Dywarchen. Rhwng mynyddoedd a llynoedd, anhawdd yw cael golygfeydd mwy tarawiadol, y rhai a wneir yn fwy felly gan agwedd ddiwylliedig y dyffrynoedd. Heigia pysgod yn y llynoedd, ond cwynir yn ddiweddar, fod cryn ddifrod yn cael ei wneud arnynt mewn ffordd anghyfreithlawn. Codir llechi, a mŵn plwm o'r mynyddoedd. Maes y Neuadd sydd hen blas perthynol i deulu Nanney. Mae y plwyf yn gynnwysedig o un drefgordd gyfan, a rhan o un arall, y gweddill o'r hon sydd yn mhlwyf Llanfihangel y Traethau. Erwau, 6915,—180 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 1586*p.*, o'r hyn y mae 20*p.* mewn mŵnau. Poblogaeth, 436. Tai, 91. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, wedi ei huno â ficeriaeth Llanfihangel y Traethau, ac yn esgobaeth Bangor. Hen adail ydyw yr eglwys, yn ol yr arddull Seisnig foreuol, a saif mewn lle hyfryd, ar godiad tir. Yn 1719 y Parch. John Jones, D.D., a adawodd gymmunrodd o 50*p.*, er mwyn i'r llog gael ei ddefnyddio i roddi moddion addysg i ddeg o blant y plwyf hwn, a phlwyf cyssylltiol Llanfihangel y Traethau. Yn 1764 gadawodd Mr. Richard Edwards 40*p.*, ac yn 1769 gadawodd Mr. Henry Poole 5*p.*, gan orchymyn i logau yr arian gael eu rhanu yn flyneddol rhwng tlodion y plwyf hwn.

**LLANDEFAELOG FACH**, treflan a phlwyf yn nghantref MERTHYR CYNOG, undeb a swydd BRYCHEINIOG. Saif y dreflan ar yr afon Honddu, ger ffordd Sarn Helen, ddwy filldir a hanner i'r gogledd-wrth-ogledd-orllewin o orsaf rheilffordd, a thref Aberhonddu. Gwneir y plwyf i fyny o'r Rhan Uchaf a'r Rhan Isaf; a'r Rhan Uchaf sydd yn gwneud i fyny gapeliaeth Llanfihangel-fechan. Rhwng y gapeliaeth, y mae y plwyf yn cynnwys 4211 o erwau, gwerth ardrethol o 2678*p.*, poblogaeth o 400, a 80 o dai. Saif y plwyf mewn lle hyfryd, ar y ffordd fawr o Aberhonddu i Buallt, y tir, gan mwyaf yn fryniog, a choediog, a'r golygfeydd yn arddunol dros ben. Y pentref sydd fychan, ond tlws, yn gorwedd ar lan gorllewinol yr afon Honddu, yr hon sydd yn golchi mur dwyreiniol y fynwent, yn ei thaith drwy y plwyf, i ymuno â'r Wy, yn Brycheiniog.

Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i Tyfaelog, a arferai fod yn adeilad laith, dywell, ac adfeiliedig, ond hi a dynwyd i lawr, ac a ail-adeiladwyd yn y flwyddyn 1831. Nodweddir yr adeilad yn awr gan ddestlusrwydd a symledd arddull, a thrwy fod y periglor yn rhoddi y ceryg, ni chostiodd nemawr dros 200*p.*, a godwyd trwy danysgrifiad, ynghyda rhodd o 60*p.* gan y Gymdeithas Gorfforedig er helaethu eglwysydd a chapelydd, ar yr ammod fod i driugain namyn pump o'r eisteddleoedd gael eu cyhoeddi yn rhyddion a di ardreth. Gwnaed adgyweiriadau pellach yn 1857, ond y mae yr hen dŵr, yr hwn sydd adeilad trymaidd a di addurn, ac o ddyddiad diweddarach na'r eglwys henafol, wedi ei adael yn ei sefyllfa gyssefin; ac y mae y rhan fwyaf o'r hen gofadeiladau wedi diangc rhag dim aflonyddwch. Yn y ganghell, y mae amryw gofadeiladau angladdol o'r eilfed ganrif ar bymtheg, er cof am y Poweliaid o Gastell Madoc; ar y mur gogleddol y mae tarian, yn cynnwys arfbeisiau teulu Prydderch, sydd erbyn hyn wedi darfod; ac ar y mur gorllewinol y mae cofiech hardd o farmor gwyn, wedi ei cherfio yn odidog, er cof am y diweddar Pennoyre Watkins, Ysw. Mae y fynwent, trwy ei bod yn sefyll ar fin yr afon, a bod ynddi amryw goed yw oedranus ac urddasol, yn taraw llygaid yr edrychydd mewn ffordd hynod ddymunol. Ceir ynddi gladdfa eang, yn amgylchynedig â mur uchel, perthynol i deulu y Watkinsiaid o Pennoyre, yn yr hon y mae yr eirch wedi eu gosod oll ar ystyllenod heiyrn uwchben y llawr. Ar ochr orllewinol mur y gladdfa, gerllaw y fynedfa, y mae hen gareg gerfiedig, oddeutu dwy lath o uchder, ac yn amrywio, o hanner llath i droedfedd o lêd. Y mae wedi ei rhanu yn bedwar,—yr uchaf yn cynnwys croes ddiaddurn, yn cael ei hamgylchynu gan scroliau; yr ail, ffigiwr cerfiedig plaen, o ddyn gyda bwyell ryfel yn ei law ddehau, a dagr yn y llaw aswy; y trydydd, argraff sydd etto heb ei ddeongli; a'r gwaelod, yn addurnedig â scroliau (*scrolls*) fel yn y rhan gyntaf. Bernir gan lawer mai er cof am Brochwel Ysgythrog y codwyd y maen hwn, eithr tybia Mr. Jones, diweddar hanesydd y sir, iddo gael ei godi er cof am Rhain, mab cyfreithlon hynaf Brychan, tywysog Brycheiniog, yr hwn a fu farw rywbryd yn y bummed ganrif, ac a gladdwyd yn y lle hwn, a hwyrach i'r garnedd a nodwyd gael ei chodi uwchben ei weddillion. Bu maen arall, o wneuthuriad Rhufeinig ond odid, yn dwyn yr argraff CATVC, a'r hwn a gafodd sylw pob henafiaethydd er dyddiau Camden, yn nghadw yma hyd adgyweiriad yr eglwys yn 1831, pan y dinystriwyd ef yn ddamweiniol.

Ceir yn y gymmydogaeth hon liaws o blasau heirdd, a'r penaf yn y plwyf yw Glan Honddu, yr hwn a saif ar lechwedd bryn, copa yr hwn sydd wedi ei goroni â choed talfrig, ac odditanodd ddyffryn ffrwythlon a phrydferth yr Honddu. Ychydig bellder o Glan Honddu, i'r gogledd, ac yn ymyl yr eglwys, y mae Llandefaelog House, plasdy yn sefyll yn nghanol gerddi, a rhodfeydd dymunol, a'r tu cefn iddo y mae carnedd fawr, hollol wastad ar ei chopa. Y tebygolrwydd ydyw, fod y garnedd hon yn nodi man bedd un o'r hen dywysogion Brytanaidd, neu ei bod gynt yn gylchynedig gan warchglawdd milwrol, i attal croesiad yr Honddu, dros yr hon ar y llanerch hon y mae pont gareg gref, o un bwa. Y mae un o'r golygfeydd mwyaf hyfryd yn Nyffryn Honddu, i'w chael wrth ddynesu at eglwys Llandefaelog. Gyferbyn â'r bryniau coediog sydd yn ymyl Glan Honddu, y mae amryw ddolydd deiliog yn gwyro at fin yr afon, yr hon sydd i'w gweled yn ymddolenu allan o'r llwyn cauadfrig sydd yma megis am ei chofleidio; tŵr yr hen eglwys, yn ymddyrchu yn hyf uwchben brigau tywyll yr yw sydd yn ymgrymu iddo, a draw yn y pellder, trumau parhaus o fynyddoedd, megis mur yn amgylchynu gardd.

Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, berthynol i esgobaeth Tyddewi, gwerth 368*p.*, ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae is-beriglor-iaeth barhaol Llanfihangel-fechan, yn fywioliaeth ar ei phen ei hun, a saif y capel oddeutu tair milldir i'r gogledd o'r eglwys, ar y ffordd i Buallt. Ceir yn y plwyf, addoldai perthynol i'r gwahanol enwadau Ymneillduol, ac ysgolion dyddiol, Brytanaidd a Gwladwriaethol. Miss Sarah Prydderch, yr hon a fu farw yn 1793, a orchymynodd fod i'w hetifeddiaeth, Peytin Glas, dalu y swm o 10*p.* yn flyneddol

Digitized by Google

er budd tlodion y plwyf. Tybir fod ffordd yn arwain o'r orsaf Rufeinig gerllaw Aberhonddu, i Loventium, yn Nyffryn Teifi, ac a elwid Sarn Helen, neu Sarn Lleon, yn dyfod i mewn i'r plwyf hwn yn ymyl pentref y Sarnau, oddeutu chwarter milldir mewn cyfeiriad gorllewinol oddiwrth yr eglwys.

**LLANDEFAELOG TRE'R GRAIG**, plwyf yn nghantref PENCELLI, undeb a swydd BRYCHEINIOG. Saif ar yr afon Llynvi, un o'r ffrydiau sydd yn rhedeg i'r Wy, gerllaw gorsaf Talyllyn Junction, ar reilffordd Henffordd ac Aberhonddu, bum milldir i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Aberhonddu. Plwyf bychan ydyw, yn cynnwys dim ond 540 o erwau, 38 o boblogaeth, a 4 o dai. Y fywioliaeth eglwysig sydd isberigloriaeth, ynglyn â pherigloriaeth Llanfillo, yn esgobaeth Tyddewi. Yr eglwys sydd yn gyssegredig i Sant Tyvaelog, ac a adeiladwyd yn 1710, ar draul y Parch. Gregory Parry, M.A., yr hwn a drigai y pryd hwnw yn y plas cyfagos.

**LLANDEFALLEY**, sydd blwyf, yn cynnwys pentref, yn nghantref TALGARTH, undeb a swydd BRYCHEINIOG, bum milldir i'r gogledd-ddwyrain o Aberhonddu, yn ymyl rheilffordd Llanidloes, Buallt, a Thalyllyn. Mae y plwyf wedi ei dori yn ddwy ran, yr Uchaf, a'r Isaf, ac yn cynnwys darn ffrwythlawn o'r wlad, tiroedd gwrteithiedig yn benaf, hynod o doreithiog. Y pentref sydd yn sefyll mewn lle dymunol, oddeutu milldir i'r gogledd-orllewin o'r brif-ffordd sydd yn arwain o Lundain drwy Aberhonddu i'r Gelli. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn gyssylltiedig â ficeriaeth Crickadarn, yn esgobaeth Tyddewi. Yr eglwys sydd wedi ei chyssegru, yn ol rhai ysgrifenwyr, i Sant Teilaw, ac yn ol ereill, i Sant Matthew. Hen adeilad ydyw, gyda thŵr yn y pen gorllewinol, yn cynnwys pump o glychau, ac yr oedd gynt yn un o'r rhai harddaf yn y wlad; corph yr adeilad sydd gynnwysedig o *nave*, agos yn ddeg troedfedd a thriugain o hyd, gydag *aisle* gul yn y de, a changell, oddeutu pum troedfedd ar hugain o hyd; yr *aisle* a wahenir oddiwrth gorph yr eglwys gan bedwar o fwäau pigfain, yn gorwedd ar golofnau wyth-onglog; y mae y nenbren hefyd yn fwaog, ac wedi ei wneuthur yn hardd o dderw. Y ffenestri ydynt yn ol dull adeiladwaith Seisnig diweddar, y ffenestr ddwyreiniol yn cynnwys gwydr lliwiedig, yn llawn o luniau, ac yn un o'r ffenestri ar yr ochr dde y mae dau ffigiwr hanner maintioli o esgobion, gyda'u meitrau, a'u bugeilffyn; un o honynt yn cael ei osod allan yn y weithred o gyhoeddi y fendith. Yn yr *aisle* dde y mae ffenestr baentiedig hardd, yn arddangos y Croeshoeliad, ac y mae ffenestr arall yn gosod allan y Tad, a'r Iachawdwr, ac yn argraffedig uwch eu pen y ddwy frawddeg gyntaf o Gredo yr Apostolion. Ynglyn â'r fynwent y mae persondy, a godwyd yn 1718, ac oddeutu hanner cant o erwau o dir eglwysig yn perthyn iddo.

Y mae gan yr Annibynwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd addoldai yma, a chan yr enwad blaenaf, waddol o 100*p.* dan ewyllys y diweddar Mr. William Parry, Llyswen, yr hwn a orchymynodd fod i'r llog gael ei roddi yn flyneddol at gynnhaliaeth gweinidog. Gadawodd y Parch. David Williams hefyd gymmunrodd o ddeugain swllt yn y flwyddyn, i'w rhanu rhwng siopwyr tlotaf, llafurwyr, a gweddwon Llandefalley, un hanner ar Ddydd Gwyl Domas, a'r hanner arall ddydd Gwener y Groglith; gyda darpariaeth fod i'r swm gael ei ddyblu, os na wneid hyn ar y dyddiau a nodwyd. Yn y flwyddyn 1740 darfu i Mr. William Lewis, Caer Gitto, yn y plwyf hwn, roddi y swm o 16*p.*, gan orchymyn fod i'r llog gael ei ranu bob Nadolig rhwng y tlodion. Yn 1748, gadawodd Mrs. Elizabeth Williams, Llandeilo-Graban, gymmunrodd o ddeg swllt y flwyddyn, am bregeth i'w thraddodi gan y gweinidog ar ddydd Gwener y Groglith, a 5*p.* y flwyddyn i'w rhanu yr un diwrnod, yn union ar ol y gwasanaeth, mewn hanner coronau, rhwng deugain o'r plwyfolion tlodion. Gwelir fod cymmwynaswyr y plwyf hwn yn arfer cyssylltu mympwy â'u helusengarwch.

Ar fferm Pwllcwrw, yr hon a saif ar fryncyn yn y plwyf, canfyddir olion gwersyllfa Brydeinig fechan; ac mewn ffordd yn y pen gogleddol i'r plwyf, o'r enw Heol Einion, neu Pen Heol Einion, y mae maen, oddeutu pedair troedfedd o uchder, a chredir ei fod yn nodi bedd rhyw un enwog yn ei ddydd. Trebarried a adeiladwyd gan William ab Harri Vaughan, oddeutu canol yr eilfed ganrif ar bymtheg, mewn rhan gyda defnyddiau palas henach, ond y mae y teulu wedi ei adael er's llawer dydd, ac yn bresennol nid yw ond amaethdy. Preswyliai yn y plwyf gynt, deulu o waedoliaeth Normanaidd, o'r enw Bois, ac yr oedd ganddynt balas castellog, o'r enw Trebois, o'r hwn nid oes dim wedi ei adael, ond y ddyfrffos a'i hamgylchynai. I'r teulu hwn y perthynai David Bois, blaenor y mynachod Carmelaidd yn Nghaerloyw, ac awdwr amryw weithiau Lladin, ar byngciau crefyddol ac eglwysig.

Ceir yn y plwyf hwn ffynnon fwnawl, a'i hansoddau yn gyffelyb i eiddo ffynnon ddu Llanwrtyd; y mae y dwfr yn dew o *sulphur*, gydag ychydig o halen y mor, ac y mae yn dra effeithiol i symmud afiechyd yn y croen. Erwau, 8509. Gwerth ardrethol, 4412*p.* Poblogaeth, 687. Annedd-dai, 142.

**LLANDEFAND**, capeloriaeth, yn mhlwyf Llanmartin, swydd FYNWY; 3 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanwern, a 4 milldir i'r Dwyrain o Gaerlleon ar Wŷsg. Llythyrfa, Cas Newydd, swydd Fynwy. Rhoddir yr ystadegau gyd a'r plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglor-iaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 40*p.* Noddwr, Esgob Llandâf.

**LLANDEFEILIOG**, pentref a phlwyf yn nghantref CYDWELI, undeb a swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref rhwng afonydd Gwendraethfach a Thywi, yn ymyl rheilffordd Deheudir Cymru, dair milldir i'r gogledd-ddwyrain o orsaf *Ferryside*, a phum milldir i'r de o Gaerfyrddin. Cangen o swyddfa Cydweli yw y llythyrdy. Perthyna i etifeddiaeth Plas Gwyn, hen ored (*weir*), i ddal eogiaid a physgod ereill. Y mae amryw balasau da yn nghylch terfynau y plwyf, ond y mae y rhan fwyaf o honynt wedi eu gadael gan eu perchennogion, a'u troi yn ffermdai. Tybir am hên ffermdy gerllaw yr eglwys, iddo fod yn fynachlog, a Nant Llan yw ei enw hyd heddyw. Ar dir o'r enw Pistyll, yn arglwyddiaeth Cloigin, y mae ffynnon o ddwfr rhedegog, yr hon oedd gynt mewn bri mawr, fel moddion i wella pob math o ddolur llygaid; ac yn yr un arglwyddiaeth, yr oedd gynt gapel plwyfol, yn yr hwn ni chynnelid un math o wasanaeth heblaw gweinyddu priodasau, eithr nid oes gareg yn aros o hono yn awr, ond y sylfaeni.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawddogaeth Miss Bull. Ei gwerth yw 68*p.* Y mae addoldai yn y plwyf gan yr

Digitized by Google

Annibynwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, y Wesleyaid, a'r Undodiaid. Ymgyferfydd y Methodistiaid Calfinaidd mewn adeilad henafol, yr hwn a fu gynt yn gapel anwes i'r fam-eglwys, ond ar ol tymmor hir o adfeiliad, cafodd ei adgyweirio at wasanaeth y Methodistiaid. Mae y plwyf yn cynnwys treflanau Cilmarch, Ishcoed, Cloigin, Cydplwydd, Iddole, Moelfre; a Sgubor-fawr, yn cynnwys pentref Llandefeiliog. Erwau, 7320. Eiddo trethadwy, 5263*p.* Poblogaeth, 1247. Annedd-dai, 240.

**LLANDEFENNY**, treflan yn mhlwyf Llansantffraid Is Gwent, swydd FYNWY; ar reilffordd Deheudir Cymru, 6½ milldir i'r Dwyrain wrth Ddehau o'r Casnewydd. Mesura o erwau, 252. Cyfrifir ei werth ardrethol yn 518*p.* Poblogaeth, 42. Tai annedd, 9.

**LLANDEGAI**, pentref, a phlwyf yn nghantref ARLLECHWEDD UCHAF, swydd GAERYNARFON, ar lan yr afon Ogwen, ac yn agos i'r rheilffordd o Gaerlleon i Gaergybi; 1½ i'r Dwyrain wrth Ddehau o Fangor. Cymer y lle ei enw oddiwrth St. Tegai, yr hwn a ddaeth drosodd o Lydaw tua diwedd y bummed ganrif, ac a sylfaenodd eglwys yma, yr hon a gyssegrwyd i'w goffadwriaeth. Y mae y plwyf hwn yn bymtheng milldir o hyd, ac yn cyrhaedd o lan afon Menai, hyd ganol mynyddoedd Eryri. Cynnwysa y plwyf ynddo hefyd dreflanau Porth Penrhyn, Coed y Parc, a Thre'r Garth. Ei lythyrfa yw Bangor, swydd Gaerynarfon. Mesura o erwau, 16,100, o ba rai y mae 623 yn orchuddiedig gan ddwfr. Gwerth ardrethol 74,378*p.*; o ba rai y mae 70,000*p.*, mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1801, 1280; yn 1851, 3398; ac yn 1861, 3381. Achosid cynnydd mawr y boblogaeth cyn 1851, gan ffyniant prysur y llechgloddfeydd. Y mae yr holl dir o'r bron yn perthyn i arglwydd Penrhyn, preswylydd pendefigaidd Castell y Penrhyn, a pherchenog goludog y llechgloddfa fawr sydd yn y plwyf hwn. Y mae arwyneb y plwyf yn fynyddig; ac ynddo y mae Cwm Idwal, a Llyn Idwal, mynyddoedd y Glyder Fawr, a'r Elidir, a bannau uchel eraill o fewn Eryri; ac y mae y creigiau yn meddu holl ddyddordeb y rhanau hynottaf o fynyddoedd Eryri, yn enwedig yn eu llechfeini; ac y maent yn cynnwys efydd, plwm, sinc, manganys, corn-faen, a mŵn haiarn, yn nghyd ag amryw fwneion cywrain a defnyddiol eraill.

Y mae pentref Llandegai yn un o'r rhai harddaf yn y Dywysogaeth; yr adeiladau yn dda, ac yn rheolaidd, ac yn cael eu cylchynu â gerddi hynod o brydferth. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 114*p.* Noddwr, Esgob Bangor. Yr eglwys sydd groes-adail, o amser Edward y Trydydd; ac a ail adeiladwyd gan y Milwriad Pennant, (Arglwydd Penrhyn); y mae yn sefyll ar ychydig o godiad tir, ac yn gylchynedig gan goed, a'r fynedfa iddi trwy wyddrodfa o goed yw cauadfrig. Y mae drychfa y gymmydogaeth hon yn ardderchog dros ben, gan gynnwys ar un ochr, ragfur dyrchafedig o fynyddau uchel-grib, ac ar yr ochr arall, olygfa deg ar gulfor Menai, y Beaumaris, a glanau Môn. Yma y mae Castell y Penrhyn, a adeiladwyd gan y diweddar G. H. Dawkins Pennant, Ysw., ac a gyfanneddir yn awr gan ei fab yn nghyfraith, Arglwydd Penrhyn; y mae y palas hwn yn un o'r rhai godidoccaf o fewn y Dywysogaeth, ac yn gorwedd rhwng yr afonydd Cegin, ac Ogwen; a mwynheir y golygfeydd prydferthaf o'i dyrau. Adeiladwyd llys breninol yn y llanerch ddifyrus yma ar y cyntaf, a bu yn anneddle i Rhodri Molwynog, yr hwn a ddechreuai deyrnasu tu a'r flwyddyn 720: a thrachefn, bu yn drigfa i Llewelyn ab Iorwerth, ac eraill o dywysogion Gwynedd, wedi cael ei ddinystrio unwaith gan Meredydd ab Owain, yn y flwyddyn 987, yr hwn a oresgynodd Wynedd yn y flwyddyn hono, ac a laddodd y tywysog llywodraethol, Cadwallawn ab Iefaf. Gall mab henaf, ac ettifedd Arglwydd Penrhyn, olrhain ei achau, drwy ei fam, gwraig gyntaf ei arglwyddiaeth, o Ednyfed Fychan, prif gynghorwr, a maes-lywydd enwog Llewelyn Fawr, ac oddiyno i Marchudd ab Cynan, pen un o bymtheg llwyth pendefigaidd Gwynedd, yn amser Rhodri fawr, tu a'r flwyddyn 850; ac y mae yr ettifeddiaeth hon wedi bod yn meddiant y teulu anrhydeddus yma bron yn ddi dor, er amser y tywysogion Cymreig. Yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth yr oedd yr enwog Pierce Gruffydd, yn arglwydd y Penrhyn; a phan fygythid y deyrnas hon gan yr Arf-lynges Hisbaenaidd, yr hon a gyhoeddasid yn "Anorchfygol" gan y Pab, y gwladgarwr enwog o'r Penrhyn, a barottodd gadlong ar ei draul ei hun, a chan hwylio o'r Beaumaris, ar yr 20fed o Ebrill, 1588, efe a gyrhaeddodd Plymouth ar y 4ydd o Fai canlynol; ac ar ei gyrhaeddiad yno, Syr Henry Cavendish a anfonodd wahoddiad iddo i giniawa ar fwrdd cadlong Syr Francis Drake, lle yr anrhydeddid ef yn fawr, ac y canmolid ei deyrngarwch a'i ysbryd cyhoeddus. Efe a ganlynodd y llyngeswyr uchod, hyd oni chwalwyd yr Arflynges, (*Armada*); ac wedi hyny, efe a aeth gyda Drake, a Raleigh, i wibhwylio ar ororau Hispaen; ac wrth enau Culfor Magellan, efe a ymadawodd a Drake, gan fod Syr Francis wedi cael ei roddi ar waith i wneyd archwiliadau. Yn amser y brenin Iago, dygwyd cwynion trymion yn ei erbyn o flaen y Weinyddiaeth, gan y Count Gondamor, llys-genhadydd Hispaen, yr hwn oedd yn meddu dylanwad mawr yn llys Prydain y pryd hyny; a haerid ei fod wedi parhau yn ei forladradaeth wedi cyhoeddiad heddwch rhwng y ddwy wlad; ac erlynid ef yn gymaint ar y cyfrif hwnw, fel y bu raid iddo werthu ei ettifeddiaeth er enill maddeuant. Yn mhen ychydig flyneddau ar ol hyn, prynwyd ettifeddiaethau Cochwillan a'r Penrhyn, gan Dr. John Williams, Esgob Lincoln, ac Arglwydd Geidwad y Sel Fawr, yr hwn oedd yn hanu o'r ddau deulu; ac felly adferwyd ettifeddiaeth y Penrhyn i'r hen deulu, yn meddiant y rhai yr erys hyd heddyw.

Y mae yn yr eglwys allor-feddrod o alabaster ysblenydd, yr hwn, meddir, a ddygwyd yno o briordy Llanfaes; a chofadail murawl hardd i'r Archesgob Williams, o amser y brenin Iago II.; a chofadail ysblenydd, gan Westmacott, i Arglwydd ac Arglwyddes Penrhyn. Y mae Is-berigloriaeth barhaol St. Anne, a Ficeriaeth Capel Curig, o fewn y plwyf hwn; ond y maent yn fywioliaethau gwahanol. Ffurfiwyd Capeloriaeth St. Anne yn y flwyddyn 1845; ac yn Neiliadeb 1861, meddai boblogaeth o 1745; ac y mae yn nawddogaeth Arglwydd Penrhyn. Adeiladwyd eglwys bresenol St. Anne, yn 1865, ar draul Arglwydd Penrhyn, yn yr arddull Seis'nig addurniadol; ac y mae iddi dŵr o 110 troedfedd o uchder.

Yn y flwyddyn 1648, ymladdwyd brwydr waedlyd yn agos i bentref Llandegai, rhwng pleidwyr y brenin, dan lywyddiaeth Syr John Owen o'r Clenenney, a byddin y Senedd, dan arweiniad y Milwriad Mytton; ar y cyntaf, ymddangosai y fuddugol-

Digitized by Google

faeth yn debyg i droi o du Syr John Owen, a'i wŷr; ond yn fuan, derbyniodd y Milwriad Mytton adgyfnerthiad i'w fyddin, yr hyn a drodd y fantol yn erbyn Syr John, gan i'w elynion ymgau am dano; ac mewn ymdrech law-law a'r Cadben Taylor, efe a lusgwyd oddiar ei farch, ac a gymerwyd yn garcharor. Cyfrifid y fuddugoliaeth hon mor bwysig gan y Senedd, fel pan ddychwelodd y Cadben Taylor i roddi adroddiad o honi i'r Senedd, y dyroddwyd iddo wobr o ddau cant o bunnau, allan o ettifeddiaeth Syr John ei hun.

Yr oedd amryw hen gaerfeydd milwraidd yn y plwyf hwn, fel yn yr holl blwyfi ar lethrau yr Eryri yn yr oesoedd gynt; ac y mae gweddillion amryw o honynt yn aros eto. Un o'r rhai mwyaf nodedig o honynt yn y plwyf hwn, yw PEN DINAS, yn agos i Dre'r Garth, yr hon yn ddiameu oedd yn lle o gadernid mawr ar un adeg. Safai ar fryn, ar ystlys orllewinol yr afon Ogwen. Y mae ei ffurf agos yn driongl, a mesura yn nghylch 207 o gamrau un ffordd. ac oddeutu 87 ffordd arall, yn ei man llettaf. Amddiffynid y lle gan natur, a gorphenwyd ei gadarnhau drwy gelfyddyd. Yr oedd ei mur-glawdd yn y llewin ogledd, yn chwe llath o led; ac o'r tu dwyrain iddi y mae diphwys serth, o gant a haner i ddau cant o latheni, yn ymlithro i'r Ogwen; a'r ddau ben arall a amddiffynid â magwyr geryg gadarn, o bump i chwe llath o drwch. Wrth arloesi y llanerch, canfuwyd llochesau o haiarn, ond mewn cyflwr mor ddadansoddawl, fel na's gellid gwybod pa un a'i gweddillion hen arfau rhyfel oeddynt, neu beidio; gwelwyd hefyd amryw gnewyllod ceryg haiarn, a golosgion, oddiwrth yr hyn y casglir fod yma ymgais i doddi haiarn wedi bod mewn rhyw gyfnod tra boreu. Cafwyd yma hefyd fath o fodrwyau, neu dyrch melynion, tebyg i dyrch a wisgid am arddyrnau; yn nghyda gwrnau, o grasiad lled wael, yn cynnwys esgyrn golosgedig, a lludw; yr hyn debygid, sydd yn profi fod rhyw rai o fri wedi eu claddu yma. Yr oedd ty mawr a elwid "Y Castell," yn ei chanol gynt; ond y mae ceryg ei furiau a'i sylfeini, wedi eu cludo oddi yno, a'u defnyddio i wneyd ysgubor, beudy, a thŷ, gerllaw, yr hwn a elwir ar ei enw.

Ychydig yn uwch yn y nant, y safai "Y TWR," ar glogwyn o graig, rhwng y fan lle y saif masnachdy Mr. D. Thomas, a'r lle a elwir "Ty'n twr," a dywedir fod ychydig o hono yn sefyll tua chan mlynedd yn ol. Pa bryd y cyfodwyd y twr hwn, a chan bwy, nid yw yn hysbys; ond y mae yn debyg mai y prif amcan o'i gyfodiad, oedd er cadw y bwlch hwn trwy fynyddoedd Eryri. Y mae ei enw yn cael ei gadw i fynu hyd heddyw, yn "Ty'n tŵr," "Pont y tŵr," &c.

Ychydig oddiar bont y tŵr, y mae "Bryn Llŷs," am yr hwn y gwneir cofnodiad fel y canlyn, mewn llyfr achau o gasgliad Simwnt Fychan;—"Meirig Llwyd o Nannau a ddechreuodd adeiladu Bryn Llys, ond rhoes y gwaith heibio, ac adeiladodd Ty'n Tŵr. Y Meirig hwn oedd yr un a Meirig Hen o Nannau, a thad Llewelyn Goch, a Hywel Sele. Ei wraig gyntaf oedd ferch i Gruffydd Derwas, o Gochwillan; ac efe a'i cafodd hi yn wobrwy am drywanu dyn â saeth oddiar fwa, oddeutu milldir oddi wrtho." Syr Gruffydd Llwyd oedd bīau llawer o'r tiroedd ar ochr Llandegai i'r Ogwen; ond pan gymerwyd ef i ddalfa am flaenori gwrthryfel yn erbyn brenin Lloegr, attafaelwyd ei diroedd gan y llywodraeth; eithr pan ymbrīododd Gwilym ab Gwilym o'r Penrhyn, ei ferch Agnes, efe a brynodd y tiroedd hyn gan y llywodraeth. Y Gwilym hwn sydd a'i lun ef, ac Agnes, ferch Gruffydd Llwyd, o'r tu ol i'r drws, yn eglwys Llandegai.—Gwel "*Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid,* gan Mr. Hugh Derfel Hughes," t.d. 37.

Am Fryn y Llys, y mae yr Awdwr uchod yn dywedyd;—"Y mae yn sefyll rhwng afon Ogwen a Choed y Parc, a chredir ei fod yn lle o gryn henafiaeth. Wrth dori sylfeini tai yn y lle, o fewn côf gŵr, fe gloddiwyd i fynu lawer o geryg nâdd, y rhai oeddynt dywod-faen; ac ymddangosent fel pe y buasent wedi bod yn ffurfio bwaau uwchben y drysau, neu, uwchben cloerau yn y mur; a chan mai llech-faen yw y creig-lawr, bernir iddynt gael eu cludo yno mewn rhyw oes, o Ynys Fôn, neu o gymmydogaeth y Faenol."

Ond y prif wrthddrych sylw yn y plwyf hwn, ydyw llech-gloddfa ardderchog Cae braich y cafn; y flaenaf yn y deyrnas hon, os nad yn y byd, o ran maint, a threfn; ond ni oddef ein gofod yn y Gwaith hwn, i ni gynnyg rhoddi ei hanes, na darluniad o honi.

Tua dwy filldir yn uwch i'r Nant y mae Maes Caradog, a gall y craff ganfod olion hen ffordd, yn cyfeirio trwy "Fwlch Annelu" ar draws y maes. Efallai fod Caradog ab Bran wedi bod yn ymladd un o'i frwydrau â'r Rhufeiniaid yn y llanerch hon; ond ni's meddwn un sicrwydd am hyny.

Ychydig filldiroedd yn uwch drachefn, mae "Cwm Idwal," a "Llyn Idwal." Adroddir y chwedl ganlynol yn nglyn ag enw y Cwm hwn;—"Nefydd Hardd ydoedd bendefig o Nanconwy yn swydd Gaer yn arfon; ac yr oedd efe yn ei flodau pan oedd Owain Gwynedd yn ei rwysg, ac yn uchel yn ffafr y tywysog clodwiw hwnw, yr hwn a roddes ei fab Idwal iddo ar faeth, a braint maethu y tywysog arno dros byth. Eithr Dunawd ab Nefydd a laddodd y tywysog Idwal, drwy arch ei dad Nefydd, yn y lle a elwir Cwm Idwal yn yr Yri, lle yr oeddynt yn heboca, achos i Idwal daraw Dunawd, am ddwyn a laddasai ei hebog. Ac am y gyflafan hon, y doded llwgr ar yr epil dros fyth, ac o foneddigion eu gwneuthur yn gaethion. A Rhun ab Dunawd, yn iawn am y gyflafan, ac yn werth y llwgr, a roddes dir a chyfoeth i eglwys Llanrwst." Y mae yn anhawdd cael profion diamheuol o wirionedd y chwedl uchod; ond y mae yn ymddangos yn ol Syr John Wynne o Wydir, ac eraill, fod gan Owain Gwynedd fab o'r enw Idwal, o ordderch, efallai.

Yn agos i'r Cwm uchod, yn ochr y mynydd, y mae y "Twll Du," neu "Gegin y Cythraul," math o agendor ofnadwy, tua chant a haner o latheni o hyd, ac oddeutu cant o ddyfnder; ac heb fod oddiar o chwech i wyth lath o led yn ei gwaelod; fel y mae yr olwg arno yn aruthrol.

Ar ymweliad yr Awdwr a'r lle tu ag ugain mlynedd yn ol, canodd un o'i Gymdeithion y ddau Englyn canlynol i'r agendor;—

"Ddanneddog safn ddi nodded,—fan hellaf
  Yn hollol agored;
  Cegin syw, gwir yw y gred,
  Is wybr i hen-was Abred.

Hen ogof ddu anhygar,—a'i hochrau
  Yn echrys ddi gymhar;
  Pa le y mae ar y ddaear,
  Agen well i gnaf an wâr?"

Digitized by Google

Dywedir fod Einion ab Gwalchmai wedi bod yn llechu yma, pan ar ffo rhag dialedd Dafydd ab Owain Gwynedd, am bleidio ei frawd Howel; a Rhys Goch Eryri, pan ar ffô am bleidio Owain Glyndwr.

**LLANDEGFAN**, plwyf yn nghwmwd Dindaethwy, cantref Rhosyr, YNYS MON. Ffurfia y plwyf hwn un o'r rhanau prydferthaf o Ynys Mon, gan ei fod yn sefyll ar

"Fin dwr y Fenai deg;"

ac yn ffurfio erchwyn orllewinol a gogleddol yr afon hono, o derfyn plwyf Llandyssilio, hyd Beaumaris. Saif y pentref ar lanerch brydferth a ffrwythlon, oddeutu tair milldir i'r de-orllewin o Beaumaris, a chyffelyb bellder i'r gogledd-ddwyrain o orsaf Porthaethwy, ar gledrffordd Caer a Chaergybi. Y mae cyfran o fwrdeisdref Beaumaris o fewn terfynau y plwyf; ond ni chyfrifir poblogaeth y gyfran hono gyda'r eiddo Llandegfan. Rhifedi trigolion Llandegfan yn 1801 oedd 484. Erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynnyddu i 812; yn 1861, rhifent 900; ac ni chymerodd unrhyw gynnydd na lleihad le yn eu nifer trwy gydol y deng mlynedd dilynol, canys cawn mai 900 oeddynt hefyd adeg cyfrifiad 1871. Mesura y plwyf oddeutu 2232 o erwau o dir; ac y mae yma hefyd 528 o erwau o dan ddwfr. Gwerth ardrethol yr holl dir, ydyw 3564*p.*, a rhifedi yr anedd-dai ydyw 205. Y mae y fywioliaeth, â'r hon y mae curadiaeth barhaus Beaumaris wedi ei chysylltu, yn nawddogaeth Syr Richard Williams Bulkeley, Baron Hill. Cymer y plwyf ei enw oddiwrth ei nawddsant, sef Tegfan, yr hwn, fel y tybir, a sefydlodd yma eglwys, oddeutu y flwyddyn 450. Gwerth presennol y fywioliaeth, ydyw 366*p.* y flwyddyn. Y mae corff yr Eglwys o adeiladwaith henafol iawn, a'r gangell yn arddull y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg. Ychwanegwyd dwy aden at yr adeilad ar ol hyny, fel yr ymddengys yn awr ar ffurf croes. Gwnaed adgyweiriad trwyadl ar yr holl deml yn y flwyddyn 1811, gan y diweddar Is-iarll Bulkeley, yr hwn hefyd a adeiladodd dŵr petrual hardd ar y talcen gorllewinol. Ceir yma gawg bedydd o saerniaeth y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg, yr hwn a ddefnyddir hyd heddyw, i ddal dwfr y bedydd. Medda y Methodistiaid Calfinaidd, yr Annibynwyr, a'r Wesleyaid, addoldai cyfleus o fewn y plwyf.

Crybwyllasom eisoes, fod plwyf Llandegfan ar safle brydferth. Ymddyrcha y tir yn llethr lled serth o lan y Fenai, ac yna ymffurfia yn wastadedd dymunol, cyffelyb o ran dull a ffrwythlonrwydd i lanerchau cyffredin canolbarth Ynys Mon. Ceir oddiyma y golygfeydd mwyaf mawreddog ar drumoedd uchel-gribog Eryri, o'r Penmaenmawr hyd yr Eifl. Gwelir hefyd ddyffrynoedd a doldiroedd prydferth Llanfair-fechan, a Bethesda, yn nghyda Chastell y Penrhyn, Dinas Bangor, a phontydd enwog *Telford*, a *Stevenson*. Yn wir, anhawdd fyddai chwenych golygfa fwy dymunol i'r llygaid, na'r un a geir oddiar uchelfanau Llandegfan, ar glir-ddydd o haf. Trwy y llethr goediog ar ael yr afon, y rhed y brif-ffordd o Borthaethwy i Beaumaris, yr hon sydd un o'r tramwyfeydd mwyaf rhamantus yn Ngwynedd. O Gadnant hyd Bwynt Beaumaris, amgylchir y ffordd gan goed a phrysglwyni prydferth a phersawrus, mewn llanerchau cysgodol, yn nghanol pa rai y mae palasdai gwychion Craig-y-don, Rhianfa, a Glyn y Garth wedi eu hadeiladu. Preswylid y cyntaf gan yr hen Gymro gwladgar ac anrhydeddus, y Milwriad Williams, yr hwn a fu am agos haner can' mlynedd yn aelod Seneddol dros *Great Marlow*. Y diweddar Syr John Hay Williams a adeiladodd y Rhianfa, ac y mae ei bendefiges yn preswylio yno hyd heddyw. Boneddiges Switsaidd, o'r enw Mrs. Schwabey, a berchenoga balas gorwych Glyn-y-Garth. Y mae Mrs. Schwabey yn fendith i'r ardal, ar gyfrif ei haelioni a'i dyngarwch. Hi a fu o ddirfawr nawdd i'r Gwron Garibaldi, mewn llawer cyfyngder, a thrallod. Bu Riciotti, sef yr enwocaf o feibion y Gwron Eidalaidd, ar ymweliad â Glyn y Garth am gryn amser, oddeutu tair blynedd yn ol; a thala Mrs. Schwabey ymweliadau mynych âg Ynys Caprera. Yn ngwaelod plwyf Llandegfan y mae bâd-borthfa y Garth, sef un o'r prif dramwyfeydd dros y Fenai. Ceir yma gychod ysplenydd, yn rhedeg gyda rheoleidd-dra nodedig, o Fon i Arfon, bob dydd o'r flwyddyn, oddigerth ar ystormydd gerwin odiaeth; a chymaint yw medrusrwydd y porthweision, a'r gofal dibaid a ymarfer Mr. Thomas Morgan, perchenog y borthfa; fel na ddygwyddodd damwain o bwys i'r un teithiwr yn nghof neb sydd fyw. Yn y flwyddyn 1648, croeswyd porthfa y Garth gan y Cadfridog Mytton, a chatrodau y Senedd, ar eu ffordd i ddarostwng castell Beaumaris; a thyna yr ymgyrch milwrol diweddaf a fu dros y Fenai. Yr oedd raid i'r Cadfridog Mytton a'i filwyr, dramwyo ffordd anhygyrch y pryd hwnw, o'r Garth i Beaumaris; canys ni wnawd y ffordd hylaw bresennol, trwy odreu Llandegfan, hyd y flwyddyn 1805. Yr oedd yr hen dramwyfa gryn lawer yn uwch i fyny, ar y llethr goediog; a chymaint oedd y blinder a deimlai y diweddar Arglwydd Bulkeley, o orfod teithio ar hyd-ddi, fel y dygodd efe yr holl draul o wneyd y ffordd odidog bresennol. Darfu i'w Arglwyddiaeth, yn nghyda'r diweddar Owain Williams, Yswain, Craig-y-Don, hefyd dalu holl dreuliau adgyweirio y ffordd, trwy ystod eu bywyd; ond wedi eu marwolaeth hwy, bu raid rhoddi tollborth arni.

Perthyna i blwyf Llandegfan amryw waddoliadau elusenol gwerthfawr. Dengys adroddiad diweddaf Dirprwywyr Elusenau, ddarfod i un Thomas Davies, ar y dydd cyntaf o fis Medi, yn y drydedd flwyddyn-ar-ddeg o deyrnasiad Siarl y Cyntaf, wneyd cytundeb cyfreithiol er trosglwyddo i William, Esgob Bangor, ac ereill, y swm o ddwy bunt ac un swllt-ar-bymtheg yn flyneddol, allan o ardrethoedd Tyddyn Geraint a'r Dryll Eithin, yn nhrefgyrdd Porthaethwy, a Bodfeiliog, gan drefnu fod i'r dywededig Esgob, a'i gyd-ymddiriedolwyr, yn nghyda'u holynwyr a'u hetifeddion dros byth, ofalu am ranu gwerth yr arian o fara, i ddeuddeg o drigolion tlotaf plwyf Llandegfan. Mewn gweithred, a arwyddwyd y pummed dydd o Orphenaf, 1799, trosglwyddwyd ymddiriedaeth yr elusen yma, i Holland Griffith, yswain, a Hampton Jones, yswain; a'u holynwyr hwy sydd yn awr yn derbyn yn ardrethoedd, ac yn eu talu drachefn i wardeniaid Llandegfan. Gorchymynir fod i'r wardeniaid fod yn mhorth Eglwys Llandegfan ar bedwar diwrnod arbenig, sef y dydd cyntaf o Awst, y cyntaf o Dachwedd, y cyntaf o Chwefror, a'r cyntaf o Fai, i'r dyben o dderbyn yr arian a nodwyd, a'r wardeniaid a dderbyniant bedwar swllt yn flyneddol am eu trafferth. Ar y degfed dydd o Fawrth, 1719, y Parchedig John Jones, D.D., deon Bangor, a destamentodd y swm o 50*p.* i beriglor Llandegfan, gan orchymyn i'w cynnyrch blyneddol gael eu defnyddio er talu i

Digitized by Google

athraw am addysgu deg o blant tlodion y plwyf i "ddarllen y Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin mewn Cymraeg eglur, a'u hyfforddi yn egwyddorion y grefydd Gristionogol." Ni chedwir y gorchymyn olaf hwn er ys amser maith, canys cawn mai i dalu i ysgolfeistres, am ddysgu i nifer o enethod ddarllen Saesoneg, a gwnio, y defnyddir yr arian. O leiaf, felly y dywed adroddiad Dirprwywyr yr Elusenau. Y mae yr arian wedi eu rhoddi yn fenthyg i Ddirprwywyr tollborth Porthaethwy a Chaergybi; a thala y dirprwywyr ddeg swllt a deugain o lôg blyneddol i beriglor Llandegfan. Dengys yr adroddiad Seneddol, a wnaed yn y flwyddyn 1786, i ryw gymunroddwr anhysbys, destamentu pum swllt yn flyneddol, i'r ddynes dlawd henaf yn mhlwyf Llandegfan. Parheir i dderbyn y swm yma yn rheolaidd oddiwrth berchenogion etifeddiaeth y Plas Gwyn, ger Pentraeth; a'r traddodiad ydyw, mai un Mrs. Martha Jones, o'r Plas Gwyn, ond a breswyliai ryw adeg yn Mhlas Llandegfan, a wnaeth y rhodd wreiddiol. Sut bynag, nid oes sicrwydd ar y pen hwn, er fod yn amlwg mai rhai o aerod, neu aeresau y Plas Gwyn, a wnaeth y rhodd, gan na cheisiodd neb o berchenogion yr etifeddiaeth hono ymwrthod a thalu y swm blyneddol. Y prif waddol elusengar a berthyn i'r plwyf, ydyw llôg mil o bunnau, a destamentwyd gan y Wir Anrhydeddus Elizabeth Harriet, Iarlles Warren Bulkeley, yn y flwyddyn 1826, er budd tlodion Llandegfan. Rhoddodd yr Arglwyddes hael y swm mewn ymddiried i Archddiacon Bangor, a pheriglor Llandegfan; gan orchymyn iddynt hwy osod yr arian yn un o gronfaau y Llywodraeth, a defnyddio y llôg fel y barnent oreu, er lles y tlodion. Yr Esgob Henry William Majendie, a ddaliai y swydd o Archddiacon Bangor ar y pryd, a'r Dr. Richard Howard oedd periglor Llandegfan. Prynasant hwy werth y mil punnau o *consols* y Llywodraeth, a derbynir hyd heddyw, y swm blyneddol o 38*p*. 1*s*. 0*c*. fel llôg. Defnyddir yr arian i dalu am addysg nifer o blant a etholir gan beriglor y plwyf. Dengys adroddiad y Llywodraeth am 1786, fod y swm o saith bunt, a roddwyd gan rywun anadnabyddus yn y plwyf hwn, wedi myned ar gyfrgoll. Yr un modd, y mae deg punt, a roddwyd gan Humphrey Williams; punt a roddwyd gan John Pritchard, a Grace ei wraig; a dwy bunt a roddodd Humphrey Pritchard i'r plwyf hefyd, wedi eu colli. Perthyna i Landegfan amryw fesuriadau o dir Eglwysig yn nhrefgyrdd Cawell, Bodfyddon, Bodfelog, a Threlias. Gofod a wahardda i ni nodi enwau a safleoedd yr oll o'r tiroedd hyny; ond gellir gweled yr holl fanylion perthynol iddynt yn Adroddiad diweddaf Dirprwywyr yr Elusenau. Holl swm ardrethoedd y tiroedd Eglwysig, ydyw 13*p*. 19*s*., yr hyn a dderbynir yn rheolaidd gan y wardeniaid, ac a ddefnyddir ganddynt hwy i gadw yr Eglwys mewn sefyllfa briodol o adgyweiriad.

**LLANDEGFETH**, plwyf yn rhanbarth Pont y pool, swydd FYNWY, ar gainc, neu atlif o'r afon Wysg; 3½ milldir i'r Gogledd o Gaerlleon ar Wysg; a 3½ milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o orsaf rheilffordd Cwm brân. Llythyrfa, Caerlleon, dan y Casnewydd, swydd Fynwy. Erwau, 789. Gwerth ardrethol, 1050*p*. Poblogaeth, 116. Tai annedd, 19. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llandâf; gwerth 164*p*. Noddwr, W. A. Williams, Ysw. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i St. Thomas.

**LLANDEGLA**, plwyf yn nghwmwd Ial, cantref y Rhiw, sir DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU. Esgob Llanelwy ydyw noddydd y fywioliaeth, yr hon a brisid yn Llyfrau y Brenin, fel gwerth 8*p*. 12*s*. 3½*c*. Gwerth presennol y degwm ydyw 95*p*. Y mae yma Eglwys fechan a diaddurn, yr hon sydd gysegredig i Sant Tegla. Ceir yn yr ardal, draddodiadau rhamantus am y nawddsant hwn. Dywedir ddarfod iddo fendithio dwfr ffynnon gerllaw yr Eglwys, nes ei wneyd yn effeithiol i iachau gwahanol glefydau; ond y clefyd ag yr oedd y dwfr yn meddu mwyaf o reolaeth arno, ydoedd yr un a elwid "Clwyf Tegla." Personau a flinid gan yr anhwyldeb hwn, a elent at y ffynnon fin yr hwyr; ac wedi aros yno, o dan gyfarwyddyd y mynachod, nes i gysgodau y tywyllwch ymlid ymaith holl olion goleuni, er mwyn gosod ychwaneg o ddwysder synfawr ar y seremoni, gorchymynid i'r cleifion ymolchi yn y dyfroedd, a thalu offrwm o bedair ceiniog. Wedi hyn, dodid hwy i gysgu yn nghangell yr Eglwys hyd gyfodiad haul; ac yna gelwid arnynt i offrymu pedair ceiniog yn ychwaneg, a gollyngid hwy ymaith. Caffai y seremoni o ymolchi mewn tywyllwch na byddai dim ond goleuni gwanaidd y ser i rwyllo ychydig arno, a chysgu drachefn yn nhrymder cyfareddol cangell yr Eglwys, effaith hynod ar feddyliau y cleifion ofergoelus; ac elai llawer o honynt i'w cartrefi dan y grediniaeth fod ysbryd y Sant wedi symud ymaith eu holl boenau! Saif pentref Llandegla ar lan yr Afon Alun, mewn llanerch gysgodol, yn ystlys mynydd Cyrn-y-Brain, saith milldir i'r de-ddwyrain o orsaf Rhuthyn. Cynnwysa y plwyf hefyd drefgyrdd Tre'r-llan, a Threfydd Bychain; ac y mae poblogaeth y cyfan yn nghyd, oddeutu 450. Cynnyddodd trigolion Llandegla agos i ddau gant mewn rhif, yn ystod y triugain mlynedd diweddaf, canys nid oedd yno namyn 267 o eneidiau adeg cyfrifiad 1801. Holl swm trethi y plwyf y pryd hwnnw, ydoedd 48*p*. yn ol pedwar swllt y bunt. Mesura y tir 3390 o erwau, ar ba un y mae 99 o anedd-dai. Ni fynega yr adroddiadau swyddogol diweddaf, pa beth ydyw gwerth ardrethol y plwyf. Cynnelir ffeiriau i werthu anifeiliaid yn mhentref Llandegla, ar y degfed o Fawrth, Mai 6ed; Mehefin 23ain; Awst 4ydd; a Hydref 5ed. Y mae yma ysgol ddyddiol Eglwysig, yn derbyn rhan o waddol ysgol Llanarmon, trwy drefniad ewyllys Mrs. Margaret Vaughan, Bodidris; a wnaed yn y flwyddyn 1774. Deillia swm i'r un perwyl hefyd o ewyllys Mr. Robert Jones, *Field Lane*, Llundain. Y mae amryw waddoliadau elusenol a berthynent i'r tlodion, wedi myned ar goll. Dengys cerfiad ar gof-faen sydd yn yr Eglwys, ddarfod i un Mrs. Alice Lloyd, roddi 6*p*. i'r tlodion; Mr. Euble Thelwall, 5*p*.; a pherson anhysbys, 10*p*. i'r un amcan. Collwyd yr oll o'r cymmunroddion hyn, meddir, trwy i'r personau a bennodasid yn ymddiriedolwyr, syrthio i dlodi, a marw, heb adael dim i dalu yr hyn yr oeddynt gyfrifol am dano. Fel yn mhob ardal o fewn sir Ddinbych, y mae y gwahanol enwadau Ymneillduol, wedi gofalu am gyfodi addoldai cyfleus yn Llandegla.

**LLANDEGLEY**, plwyf yn rhandir PRESTEIGNE, swydd MAESYFED; ar fraich o'r afon Ithon, gerllaw coedwig Maesyfed, dair milldir i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Penybont, a saith milldir i'r gorll. wrth og. orll. o Faesyfed Newydd. Cynnwysa drefgorddau Swydd, Graig, a Thynlan, a rhan o drefgordd Llanfihangel Nantmelan. Erwau, ac eithr-

Digitized by Google

iadu rhan Llanfihangel, 3729. Poblogaeth, 382. Annedd-dai, 70. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 122*p.*, ac yn nawdd yr Esgob. Yr eglwys sydd hen adeilad, yn cynnwys corph a changell, gyda thŵr isel. Y mae plant tlodion y plwyf yn cael hyfforddiant rhad, mewn darllen ac ysgrifenu, yn yr ysgol blwyfol, yr hon a waddolwyd gan gymmwynaswr anhysbys âg ardreth fferm yn y plwyf hwn, o'r enw Portys y Gerthi, yr hon sydd yn bresennol yn cynnyrchu 22*p.* yn y flwyddyn. Ann Griffiths, drwy ewyllys yn 1721, a adawodd 120*p.*, ac Evan Griffiths a adawodd 40*p.* trwy weithred yn yr un flwyddyn, y ddau swm i'w rhoi at brynu fferm fechan, o'r enw Ty'nywaen, yn y plwyf, a'r ardreth i'w ranu yn flyneddol, yn symiau cyfartal, rhwng tlodion plwyfydd Colva, Llandegley, a Llanfihangel Nantmelan. Y mae yma ffynnon feddygol glodus, a defnyddir ei dyfroedd rhinweddol yn fewnol ac allanol, gan ddieithriaid yn yr haf. Adeiladwyd yno westty cyfleus rai blyneddoedd yn ol. Gerllaw y fynwent y mae rhes o greigiau, y rhai sydd yn cynnwys digonedd o'r crisial goreu.

**LLANDEGWNNING**, plwyf yn rhanbarth Pwllheli, swydd Gaer yn arfon, yn mhentir Lleyn; 7½ milldir i'r De Orllewin wrth Orllewin o orsaf rheilffordd Pwllheli, a 7 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Aberdaron. Llythyrfa, Pwllheli. Erwau 1488, o ba rai y mae 120 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1003*p.* Poblogaeth, 142. Tai annedd, 20. Isberigloriaeth wastadol ydyw y fywioliaeth eglwysig, wedi ei chydio a pheriglorinaeth Llaniestyn, yn esgobaeth Bangor. Y mae y tir yma ar y cyfan yn ffrwythlawn, a than ammaethiad da.

Y mae deg swllt a deugain yn y flwyddyn, llog arian a roddwyd allan ar dollbyrth swydd Gaer yn arfon, wedi eu gadael i dlodion y plwyf hwn, gan ryw gymmwynaswr anadnabyddus; ac y mae ychydig o elusenau eraill yn perthyn i'r plwyf, y rhai a renir i'r tlodion tua Gwyliau y Nadolig.

**LLANDEILO FAWR**, tref fechan, a phlwyf, yn swydd Gaerfyrddin. Y mae y dref ar yr afon Towy, a rheilffordd Glyn Towy, wrth gydiad y llinellau i Gaerfyrddin, Llanelli, a Llanymddyfri; 14 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Gaerfyrddin: y mae yn gorwedd yn benaf ar lechwedd bryn sydd yn ymddyrchafu ar lan ddeheuol yr afon Towy, dros yr hon y mae pont ysblenydd, o un bwa maen, 144 troedfedd, 9 modfedd o led; yr hon a adeiladwyd yn y flwyddyn 1848, ar y draul o 22,000*p.* Yr adeiladydd oedd Mr. Morgan Morgan o Gwmamman; a'r Archadeiladydd ydoedd Mr. William Williams o'r dref hon. Yn yr un flwyddyn hefyd yr ail adeiladwyd yr eglwys; ond y tŵr, yr hwn a berthynai i'r hen eglwys, ag sydd yn ugain llath o uchder, a adawyd i sefyll; ac nid yw yn cyfatteb yn addas iawn i adeilwaith sylweddol yr eglwys newydd. Yr ystafell uchaf o'r tŵr a ddefnyddir fel clochdy, ac y mae ynddo bump o glychau, ond bod un o honynt wedi tori. Y mae gweddillion henafiaid rhai o brif deuluoedd y gymmydogaeth, wedi eu claddu yn y gangell: ac ar yr ystlys ddeheuol y mae coflech farmor hardd, er cof am yr hybarch Arch-ddiacon Beynon, periglor Penboyr yn y swydd hon, yr hwn a fu farw, Hydref 1, 1833, yn yr 88 mlwydd o'i oed. Yr oedd efe yn ysgolor Cymraeg dâ, a beirniad craff; ac yn noddwr haelionus i Gymdeithasau Cymreigyddol ei oes. Y mae y ddau Englyn canlynol iddo, a gyfansoddodd y Bardd enwog *Daniel Ddû*, yr hwn a feithrinwyd dan ei nodded, yn deilwng o le yn y Gwaith hwn;—

"I'r Eglwys bu'n lwys lawn-lad—ei chynnydd
Gan chwenych yn wastad;
Gwrol ei serch a'i gariad,
I'w fawl teg, at hon fel tad.

"Noddodd yn hael Awenyddion—ei wlad
Drwy lydain wobrwyon;
Dîen saif am danaw son
Tra Gwalia'n dal trigolion."

Yn ystlys Ogleddol y gangell, ar gyfer yr un uchod, y mae llech-faen i goffadwriaeth Walter Owain, Ficer yr Eglwys hon, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1779.

Cafodd y lle yma ei enw oddiwrth gyssegriad y Llan i goffadwriaeth Teilo, sant enwog o'r bummed ganrif, yr hwn, medd traddodiad, a gladdwyd yma. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 512*p.* Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

Y mae y dref yn gynnwysedig yn benaf o un heol hir; ac wedi ei hadeiladu yn lled afreolaidd; ond yn cynnwys amryw o dai dâ, y rhai a adeiladwyd y blyneddau diweddaf hyn. Cynhelir y brawdlysoedd tri-misol, a'r llysoedd Sirol yma; ac y mae yn meddu llythyrfa, dan Gaerfyrddin, gorsaf rheilffordd, ariandy, tri phrif westty, pedwar o addoldai Ymneillduol, llysdy trefol, &c. Cynhelir marchnad wythnosol ar ddydd Sadwrn, a marchnad wythnosol arall ar ddydd Mawrth, at werthu defaid, gwlan, &c.; a chynelir ffeiriau yma, ar yr 20fed o Chwefror; y dydd Llun o flaen y Pasg; Mai 5ed, a'r 12fed; Mehefin 21ain; Awst 23ain; Medi 28ain; Tachwedd 12fed, a'r 22ain; a'r dydd Llun o flaen y Nadolig. Y mae yma Weithfeydd Gwlân hefyd yn cael eu dwyn yn mlaen ar raddfa lled helaeth. Nid yw y boblogaeth yn llawn dwy fil.

Cynnwysa y plwyf hwn hefyd gapeloriaeth Taliaris, a threflanau Pentre cwm, Rhiwlas, Tachlleian, Tir esgob, Rhosmaen, Cwm cawlwyd, Maenor deilo Isaf, Maenor deilo Uchaf, Tregib, Tre castell, Maenor Fabon, Bryn y Beirdd, a Glynamman. Mesura yn y cyfan, 25,628 o erwau. Cyfrifir gwerth ardrethol tref Llandeilo, yn 4205*p.*; Taliaris, 1112*p.*; Pentre cwm, 1508*p.*; y Rhiwlas, 662*p.*; Tachlleian, 1028*p.*; Tir esgob, 3621*p.*; Cwm cawlwyd, neu Cwm-garwlwyd, 1192*p.*; Maenor deilo Isaf, 2187*p.*; Maenor deilo Uchaf, 1767*p.*; Tregib, 1274*p.*; Tre castell, 1153*p.*; Maenor Fabon, 2038*p.*; Bryn y Beirdd, 921*p.*; Glynamman, 522*p.* Poblogaeth y cyfan yn 1851, 5758; yn 1861, 5440. Tai annedd, 1210. Perthyna y Faenor i esgob Ty Ddewi. Y prif breswylfeydd, yw Castell Dinefwr, Palas Arglwydd Dinefwr; a'r Gelli Aur, Palas Iarll Cawdor; a Thaliaris yw Palas W. Peel, Ysw.

Y mae hen adfeilion dyddorol Castell Carreg Cennen, o fewn tua 3½ milldir i'r De Ddwyrain o'r dref; ac o'r ffordd sydd yn arwain iddo o Bont y dref, cair golygfa brydferth iawn ar Ddyffryn Towy, a Pharc Dynefwr. Yr amddiffynfa hon a adeiladwyd ar ben calch-graig, agos i gan llath o uchder darbenawl, gan ryw dywysog o'r enw Goronwy, hwyrach mai Goronwy, mab y Tywysog Rhys ab Tewdwr, yr hwn a laddwyd gyd a'i dad, yn mrwydr Hirwaun Wrgant, neu, a gymerwyd yn garcharor gan y Normaniaid. Ond, y mae yn fwy tebyg fod rhywbeth a fyno Cynan, mab Rhys ab Tewdwr, a'r lle, gan mai

Digitized by Google

amddiffynfa berthynol i dywysogion Dinefwr ydoedd. Ystyrir fod yr adeilwaith o oes Harri y Cyntaf; ac yr oedd Cynan yn byw yn agos i ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg. Efe a foddwyd mewn llyn o'r enw "Cremlyn," yn agos i Abertawe, fel yr oedd efe yn ceisio ffoi o ffordd ei ymlidwyr, ar ol brwydr Hirwaun Wrgant: ac awgrymai Gwilym Teilo, mai "Caerau Cynan" oedd y gwir enw; ac fel cadarnhad i'r dybiaeth uchod, gellir chwanegu, fod ammaethdy o'r tu isaf i'r Castell, yn myned dan yr enw "Caerau" hyd heddyw. Y mae enwau nodedig ar leoedd eraill yn nghymmydogaeth y castell hwn, sydd yn arwyddo fod yma frwydro caled wedi bod yn yr oesoedd terfysglyd a aethant heibio, megys *Llwyn Einion*, *Rhandir yr Ymgeintach*, *Rhandir yr Ymryson*, &c. Ac ar y bryn sydd yn gwynebu y castell, y mae ammaethdy a elwir *Cwrt y Beirdd*.

Pa fodd bynag, y mae seiliau i gredu fod hen amddiffynfa filwraidd ar ben y graig hon cyn amser meibion Rhys ab Tewdwr, er y dichon eu bod hwy, neu ryw rai eraill, wedi adeiladu amddiffynfa gadarnach, a mwy rheolaidd yma, mewn amseroedd diweddarach; canys fe ddarganfuwyd bathodion Rhufeinaidd, o deyrnasiad Domitian, a Chystenyn, yn mysg adfeilion yr hen gastell hwn, yr hyn sydd yn rhoddi lle i gasglu iddo fod yn orsaf filwraidd gan y Rhufeiniaid ar un adeg. Canfuwyd bwyall garreg yma hefyd dro yn ol, yr hyn sydd yn rhoddi lle i ni i feddwl ei bod yn amddiffynfa filwraidd gan y Cymry, cyn eu bod yn hysbys ar y gelfyddyd o wneuthur arfau rhyfel o haiarn.

Ychydig o'r tu De Ddwyreiniol i'r castell hwn, y mae tarddellau yr afonydd Cennen a Llwchwr; ac yn agos i darddell yr afon Llwchwr, y mae ogof naturiol fawr, yr hon y tybir ei bod unwaith yn drigle i'r cyn-frodorion; neu, o leiaf, y defnyddid hi ganddynt fel lloches ar amryfal achlysuron cythryblus.

Oddiwrth agosrwydd y dref hon i gastell Dinefwr, (neu Dinas Fawr,) y derbyniodd ei phwysigrwydd boreuol. Adeiladwyd castell Dinefwr ar y dechreu, fel llŷs breninol, gan Rhodri Fawr, penteyrn Cymru oll. Ar farwolaeth Rhodri yn y flwyddyn 877, rhanwyd ei diriogaethau rhwng ei dri mab, ac er diogelwch ychwanegol, symudwyd eisteddle llywodraeth y Deheudir, o Gaerfyrddin i Ddinefwr, yr hon oedd wedi ei hamddiffyn yn gadarn gan natur a chelfyddyd. Dyma y castell, yn yr hwn y rhoddwyd adysgrif o Gyfreithiau enwog Hywel Dda, yn y ddegfed ganrif, i'w cadw; a pharhaodd y lle yn breswylfa llywodraethwyr y Deheudir, hyd oni ddymchwelwyd eu harglwyddiaeth gan ormes y Normaniaid. Yn y flwyddyn 1142, darfu i Cadell, mab Gruffydd ab Rhys, tywysog y Deheubarth, osod gwarchae ar y castell hwn, yr hwn a ddelid y pryd hyny gan drawsfeddianwyr Normanaidd y wlad gylchynol; ac efe a gymerodd feddiant o hono. Yn y flwyddyn 1150, ei frodyr Rhys, a Meredydd, wedi dychwelyd i'w tiriogaethau eu hunain, o gadgyrchiad llwyddianus a wnaethent i diroedd y Saeson, a ail adeiladsant y castell hwn, a fuasai yn hen balas eu henafiaid, ac a'i gwnaethant yn gryfach nag y buasai erioed o'r blaen. Ar ymheddychiad Rhys â Harri yr Ail, cydsyniodd y pennadur hwnw iddo gael cadw meddiant o'r Cantref Mawr, yn yr hwn yr oedd Castell Dinefwr yn gorwedd, ac o amryw arglwyddiaethau eraill hefyd, y rhai oeddynt y pryd hyny yn meddiant y Saeson. Ond, gan na roddid y tiriogaethau hyn i fynu yn ol y cyfammod, cymerodd Rhys feddiant o honynt trwy rym arfau yn fuan, ac yn nghyd a hyny, adfeddiannodd ettifeddiaethau eraill, a berthynent gynt i'w henafiaid ef: ac wedi parhau dros beth amser i wasgaru anrhaith trwy diriogaethau y Saeson, yn Ngheredigion a Dyfed, efe a ddychwelodd i Ddinefwr, yn gyfoethog o yspail ac anrhydedd.

O'r pryd hwn hyd farwolaeth Harri yr Ail, parhaodd Rhys yn y meddiant heddychol o gastell Dinefwr, lle yr ymddengys iddo fyw mewn ymneillduaeth a heddwch trwyadl, oddieithr ar un achlysur, pan y gwnaeth efe ymosodiad grymus ar y Cyffindiroedd, wedi esgyniad Richard y Cyntaf. Yn y flwyddyn 1204, gwnaeth ei ŵyr, Rhys ab Gruffydd, ymdrech egnïol a llwyddianus, i adfeddiannu yr amddiffynfa hon, yr hon a drawsfeddiannasid gan ei ewythr Maelgwyn; ond y pendefig hwnw, trwy gynnorthwy ei frawd, Rhys Fychan, a'i hadenillodd drachefn, ac heblaw hyny, efe a draws-feddianodd agos holl feddiannau eraill Rhys ab Gruffydd, a'i frawd Owain. Dan yr amgylchiadau hyny, ceisiodd y pendefigion hyn gynnorthwy y brenin Seis'nig John, yr hwn a barodd i'r Arglwydd Foulke erchi i Rys Fychan roddi castell Llanymddyfri, a'r diriogaeth berthynol iddo, i fynu at gynhaliaeth y brodyr, Rhys, ac Owain. Gan i'r cais yma gael ei omedd, darfu i'r maes-lywydd hwnw, yn cael ei gynnorthwyo gan y pennaethiaid hyn, a chynifer o wŷr ar a allent gynnull yn y gymmydogaeth, ymfyddino i ymosod ar Ddinefwr; ac wedi cyfarfod ar eu cad-gyrchiad â byddin Rhys Fychan, cymerodd brwydr le, yn yr hon y gorchfygwyd y tywysog hwnw, fel y bu raid iddo encilio ar Dinefwr, gwarchlu yr hwn le a adgyfnerthodd efe, ac wedi llosgi Llandeilo Fawr hyd lawr, efe a enciliodd i barthau mwyaf anhygyrch y wlad gymmydogaethol. Yn y fan, gosododd Foulke a'r pennaethiaid brodorawl, warchae ar y castell, ac ymosodasant arno mor bybyr, fel y rhoddodd y gwarchlu y lle i fynu dranoeth, ar yr ammod iddynt gael myned ymaith heb roddi eu harfau i fynu. Yn fuan ar ol hyn, darfu i Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd, mewn cyngrheiriaeth âg amryw o dywysogion y Deheubarth, ddifeddiannu llawer o'r Saeson, o'r tiriogaethau a drawsfeddiannasent yn y parth yma o'r dywysogaeth, ac yn y trefniad o honynt, efe a roddodd gastell Dinefwr, ac agos yr oll o'r Cantref Mawr, i Rhys Fychan, yr hwn wedi hyny a fu farw yn Llandeilo Fawr, yn y flwyddyn 1233. Ei fab Rhŷs, wedi ei amddifadu o'i diroedd yn 1254, gan Llewelyn ab Gruffydd, tywysog Gwynedd, yr hwn a'u rhanodd rhwng eraill o bendefigion y Deheubarth, a anfonodd at Harri y Trydydd i erfyn am gynnorthwy; a'r pennadur hwnw a ganiattaodd fyddin gref i'w gynnorthwyo i adenill cymaint o honynt ag a ddelid gan ei frawd Meredydd. Daeth Rhys gyd a'r cynnorthwywyr hyn ar hyd y môr i Gaerfyrddin, ac a aeth oddiyno rhyngddo a chastell Dinefwr, ar yr hwn y gosododd warchaead yn ddioed; ond Meredydd ab Owain, a Meredydd ab Rhys, wedi derbyn adgyfnerthion mawrion oddiwrth Llewelyn ab Gruffydd, a ymladdasant â'r Saeson, ac wedi un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd a ymladdwyd erioed yn y parth hwn o'r dywysogaeth, hwy a'u gorchfygasant, wedi lladd mwy na dwy fil o honynt. Yn fuan ar ol esgyniad Edward y Cyntaf i orsedd Lloegr, darfu i Payne de Chaworth, maeslywydd lluoedd y brenin yn y Deheubarth, ymosod ar

diriogaethau amryw o'r tywysogion brodorawl, a'u hanrheithio; y rhai yn anobeithio cael cynnorthwy oddiwrth Llewelyn, Tywysog Gwynedd, a wnaethant eu hymostyngiad i'r Brenin Seis'nig, ac a roddasant gastell Dinefwr i ddwylaw ei raglaw. Ac oddeutu adeg ei oresgyniad diweddaf ar Wynedd, anfonodd Edward y Cyntaf, fyddin i'r Deheubarth hefyd, dan lywyddiaeth Iarll Caerloyw, a Syr Edward Mortimer, y rhai a gyfarfuant a'r fyddin Gymreig a gyfodasid i'w gwrthladd, yn agos i Landeilo Fawr, ac wedi brwydr galed, yn yr hon y collodd y Saeson bedwar o farchogion, yn nghyda William de Valence, cefnder y brenin Edward, gorchfygwyd y fyddin Gymreig. Yn y flwyddyn 1287, darfu i Rhys ab Meredydd, yr hwn a gyfodasai wrthryfel eang yn y Deheudir, osod gwarchae disymwth ar gastell Dinefwr, a'i gymeryd; ond fe'i hadgymerwyd yn fuan drachefn, gan Iarll Cernyw, ac yn y canlyniad, fe'i torwyd i lawr. Yn nheyrnasiad Harri y Seithfed, yr oedd castell Dinefwr yn rhan o ettifeddiaeth Syr Rhys ab Thomas; ond ar ddyfarniad annghyfiawn ei ŵyr, Rhys ab Gruffydd, yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, dychwelodd i'r goron. Yn y teyrnasiad canlynol, adferodd y frenines Mary, gyfran fechan o'r ettifeddiaethau i'w fab, Gruffydd ab Rhys; a'r brenin Charles y Cyntaf, a adferodd yr holl ettifeddiaethau teuluaidd oeddynt yn aros yn meddiant y goron, i Syr Henry Rice; a gwnaed George Rice, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1782, yn Arglwydd Dinefwr, yn hiliogaeth yr hwn y mae yr ettifeddiaethau a'r teitl yn aros hyd y dydd hwn. Dylasem ddywedyd, mai o fewn plwyf Llandefeysant y mae castell Dinefwr; ond gan fod ei hanes mo'r gyssylltiol a thref Llandeilo, barnasom yn gymhwys dodi y manylion uchod yn y lle hwn.

**LLANDEILO FERWALLT**, a adwaenir yn oreu dan yr enw Bishopston, plwyf yn nghantref Abertawe, swydd Forganwg, 6 milldir i'r De Orllewin wrth Orllewin o dref Abertawe. Y mae yn cynnwys pentref Cil le, ac yn meddu llythyrfa dan Abertawe. Mesura 2387 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 2101*p*. Poblogaeth, 418. Tai annedd, 99. Perthynai y faenoriaeth i esgobion Llandâf, yr hyn a barai i'r plwyf gael yr enw Seis'nig, *Bishopston*. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Ty Ddewi. Noddwr, Esgob Llandâf. Yr oedd yma Gapel anwes yn y plwyf gynt; ond y mae wedi syrthio i adfeilion er's llawer blwyddyn. Bu y Parch. Edward Davies, Awdwr llafurus a dysgedig y *Celtic Researches*, a'r *Mythology of the Ancient Britons*, yn beriglor y plwyf hwn am flyneddoedd lawer; ac yma y bu farw, ac y claddwyd ef, yn mis Ionawr, 1831.

**LLANDEILO TALYBONT.** Plwyf yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Abertawy, swydd Forganwg; deoniaeth Gwyr Uchaf, Archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Saif ar lan afon Llychwr, saith milldir o Lanelli, 12 o Abertawy, a 228 o Lundain. Bernir mai Teilo, esgob Llandaf, a sylfaenodd eglwys yma gyntaf, yn y 6fed canrif. Tua'r flwyddyn 1850, wrth weled sefyllfa adfeiliedig yr hen eglwys, penderfynwyd codi un newydd yn ei lle; yr hon a gyssegrwyd yn 1851. Mae yr eglwys newydd yn un brydferth iawn, yn yr arddull Gothig; yn cynnwys corph, cangell, a thwr uchel, gydag un gloch. Dyddia coflyfr yr hen eglwys o'r fl. 1662. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 195*p*., yn nawdd a rhodd Howell Gwyn, Ysw.; cynnelir gwasanaeth yn achlysurol yn yr hen eglwys, a pharheir i gladdu yn y fynwent, er fod yr un newydd wedi ei chodi.

Trwy y plwyf hwn y rhed yr hen brif-ffordd rhwng Abertawy a Chaerfyrddin, dros yr hon y rhedai y Llythyr-gerbyd, cyn gwneuthur Pont Cas'lwchwr.

Mae pentref Pontarddulais yn y plwyf hwn, wedi cynnyddu yn fawr yn y blyneddau diweddaf; trwy agoriad Cledrffordd Abertawy a Llanddyfri trwy y lle; ac y mae gorsaf yn perthyn i'r gledrffordd yn y pentref. Mae amryw weithfeydd glo wedi eu hagor yma yn ddiweddar; gyda gwaith Fferyllol; a Gwaith Alcan eang yn ymyl, yn mhlwyf Llanedi.

Mae yma gapeli gan y Methodistiaid, Annibynwyr, Bedyddwyr, a Wesleyaid: ac ysgoldy Cenedlaethol hardd.

Mae y cynnydd cyflym sydd wedi cymmeryd lle yma yn ddiweddar, ac agosrwydd y lle i Abertawy, a Llanelli, gyda manteision trafnidol y cledrffyrdd, yn arwyddo y bydd i'r lle hwn ddyfod yn fawr a phwysig yn mhen ychydig flyneddau.

Mae gweddillion hen Gastell Normanaidd enwog yn y plwyf hwn, a elwir y Castell Du. Gwel Glyn Llwchwr.

**LLANDELOY**, pentref a phlwyf yn undeb Hwlffordd, cantref Dewisland, swydd Benfro. Saif y pentref gerllaw yr afon Solva, wyth milldir i'r gorllewin o Dy Ddewi, a deg i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Cynnhelir ffeiriau yma, Mai 1, Mehefin 25, a Thachwedd 1. Erwau, 1843. Gwerth ardrethol, 1269*p*. Poblogaeth, 208. Annedd-dai, 40. Ficeriaeth wedi ei chydio â ficeriaeth Llanhowel yw y fywioliaeth. Perthyna i esgobaeth Tyddewi, a'i gwerth yw 140*p*. Y noddwyr ydynt Ddeon a Glwysgor Tyddewi. Nid oes dim yn neillduol yn eglwys y plwyf, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Teilaw Sant.

**LLANDEWI.** Plwyf yn Mro Gwyr, cantref Abertawy, Undeb Penmaen, deoniaeth Gwyr, Archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, tua 15 milldir i'r gorllewin o Abertawy. Saif y plwyf ar du de-orllewinol mynydd Cefn-y-bryn; yn y rhan hono o Fro Gwyr, a breswylir gan y Fflandrwys, sef hiliogaeth yr estroniaid hyny a sefydlasant yn y parth hwn o'n gwlad yn amser Harri I. Mae preswylwyr y parth hwn o Fro Gwyr, wedi cadw eu hunain ar wahan oddi wrth y Cymry trwy yr oesau, heb ymgymysgu trwy briodasau, fel y gellir dweyd yn briodol fod dwy genedl wahanol, yn byw ar yr un llecyn, am tua saith cant o flyneddau, heb ymgymysgu. Yr iaith Seisnig a siaredir gan y trigolion; ac amaethwyr ydynt gan mwyaf. Maint y plwyf yw 1853 erw: gwerth trethadwy, 1065*p*.; poblogaeth yn 1871, oedd 140.

**LLANDILO**, plwyf yn undeb Narberth, cantref Cemmes, swydd Benfro. Saif ar ran uchaf yr afon Cleddau, dan fynydd Precelly, bum milldir a hanner i'r gogledd-ogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Narberth-road, ac wyth milldir i'r gogledd wrth orll. o Narberth. Derbynia ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Teilo Sant, un o'r seintiau enwocaf yn hanes Prydain, yr hwn a flodeuai tua diwedd y bummed, a dechreu y chweched ganrif. Ceir yn y plwyf ddigonedd o lechi da at doi, a rhydd y chwarelau waith i liaws o bobl. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, mewn cyssylltiad â ficeriaeth Llangolman, yn esgobaeth Tyddewi. Erwau, 1132. Gwerth ardrethol, 310*p*. Poblogaeth, 126. Annedd-dai, 25.

Digitized by Google

**LLANDILO ABERCOWYN.** Plwyf yw hwn sydd yn gorwedd wrth uniad yr afon Cowyn â'r Teifi; bedair milldir o orsaf St. Clear's; wyth o Gaerfyrddin; yn nghantref DERLLYS, swydd GAERFYRDDIN. Cyssegriad yr eglwys i Teilo sydd wedi rhoddi enw i'r plwyf yma etto, yr hwn sydd yn cynnwys 922 o erwau (40 yn ddwfr), gwerth ardrethol o 690*p.*, 77 o drigolion, ac 16 o annedd-dai. Nid oes dim yn neillduol yn adeiladwaith yr eglwys; yn wir, gwnaed adroddiad yn 1859 nad oedd mewn sefyllfa dda o ran adgyweiriad, ond saif ar lanerch hyfryd, ar lan dwyreiniol yr afon Cowyn. Ynglyn â'r fynwent, yr oedd gynt glafdy, a elwid Ty y Pererinion, ond nid oes manylion am ei sylfaeniad na'i hanes, ac y mae weithian ers llawer dydd, yn cael ei ddefnyddio i ddybenion ereill. Ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 70*p.*, yw y fywioliaeth, yr hon sydd yn nawddogaeth J. G. Hughes, Ysw.

**LLANDILO ARFAN**, neu LLANDILO VANE, plwyf gyda phentref, yn nghantref MERTHYR-CYNOG, undeb, a swydd BRYCHEINIOG. Gorwedda ar ucheldir uwchlaw Dyffryn yr Wysg, un milldir ar ddeg o Aberhonddu, a rhed drwyddo dair o ffrydiau, nid amgen y Fawen, yr Ethrym, a'r Ciliene, a'r ddwy flaenaf ar ol ymuno gerllaw yr eglwys a rêdant oddeutu milldir yn is i lawr i'r Ciliene, yr hon sydd yn cadw ei henw hyd nes yr ymarllwysa i'r Wysg yn Mhont Maes. Yn y dyddiau gynt, Tir yr Abad y gelwid pen gogledd-orllewinol y plwyf, a ffurfiai ran o feddiannau abbatty Ystrad Fflur, Ceredigion. Y pentref a saif o fewn tair milldir i'r brif-ffordd rhwng Brycheiniog a gwlad Myrddin. Yr eglwys hon etto sydd wedi ei chyssegru i Teilo, ond yr oedd allan o drefn rai blyneddoedd yn ol. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 83*p.*, ac yn nawddogaeth cyd etifeddion W. Jeffries, Ysw.

**LLANDINAM**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref LLANIDLOES, swydd DREFALDWYN. Y mae y pentref ar lan yr afon Hafren, a cherllaw rheilffordd Croesoswallt, y Trallwm, a Llanidloes; 5¾ milldir i'r Gogledd Ddwyrain wrth Ogledd o Lanidloes. Y mae mewn sefyllfa ramantus, ar gwr bryn a groga uwch ben yr afon, ac wrth droed mynyddau Llandinam. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, a elwir Llandinam, swydd Drefaldwyn. Cynnwysa y plwyf hefyd drefgyrdd Carnedd, Dethynydd, Esgair maen, Gwernerin, Hengynwydd, Maes mawr, Rhyd faes, a Threwythan. Mesura o erwau, 18,064; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 8885*p*. Poblogaeth, 1574. Tai annedd, 289. Y mae mynyddoedd Llandinam yn ffurfio trum, a ymddyrcha i'r uchder o 1895 troedfedd; ac o'i grib cair golygfa ehang a harddwych dros ben ar y wlad o amgylch. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn arch-ddiaconiaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor, ac wedi ei chyssylltu âg is-berigloriaeth wastadol Banhaglog. Gwerth 500*p.* yn y flwyddyn. Y noddwr yw Esgob Bangor. Y berigloriaeth, yr hon oedd ddwy ran, a roddwyd trwy weithred Seneddol, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad y brenin Iago yr Ail, i Ddeon a Glwysgor Bangor, mewn ymddiriedolaeth, er neillduo y drydedd ran at waddoliad y ficeriaethau o fewn y cyfranau dywededig, a'r gweddill at adgyweiriad yr eglwys gadeiriol, a chynnaliad ei chôr. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Llonio, sant o'r chweched ganrif, ac y mae yn hen adeilad, yn yr arddull foreuol o adeilyddiaeth Seis'nig, ac yr oedd iddi dŵr gwalciog, a chlochdy coed cywrain. Dywedir ei bod wedi ei hadeiladu mewn rhan, o ddefnyddiau a gludwyd yma o adfeilion hen amddiffynfeydd milwraidd Caersws. Yr oedd hen gapel anwes i'r fam eglwys, yn Mhen Halwg, yn nhrefgordd Hengynwydd, yr hwn a ail-adeiladwyd yn y flwyddyn 1826, ar orsaf yr adeilad flaenorol, ac y mae chwe milldir rhyngddo ag eglwys y plwyf; y mae wedi ei gyfaddasu i gynnwys tri chant o wrandawyr. Y mae hen wersyll milwraidd, tua chwe chant a haner o latheni o hyd, a 250 o led, ar Cefn Carnedd. Y mae yn amlwg fod yma amddiffynfa gref, os nad tref, mewn amseroedd tra boreuol; tu a'r cyfnod Rhufeinaidd, tebygid. Fe'i hamddiffynid gan bedair neu bump o ffosydd, a gwerthyrau, ar yr ystlys ogledd-orllewinol: ond gan fod yn anhaws esgyn yr ystlys gyferbyniol, nid oedd cymaint o foddion celfyddydol wedi ei ddefnyddio i amddiffyn hono. Yr ydoedd yn hir-gron, ac yn rhanedig i ddwy amddiffynfa wahanol, gan fagwyr gref, a ffos ddofn; yr un ddeheuol lawer yn llai na'r llall; wedi ei bwriadu efallai, fel yr amddiffynfa olaf i wrthsefyll ymosodiad; ac ar gydiad y ddwy ran yma, debygid, yr oedd y prif borth i'r ddinas, trwy ba un, gellid meddwl y buasai yn dra anhawdd i'r ymosodydd ymladd ei ffordd. Y mae lle cryf i gredu, mai hen amddiffynfa Brydeinaidd ydoedd hon. Yn wir y mae amryw Henafiaethwyr craffus, wedi dwyn amryw resymau cryfion yn mlaen, er ceisio profi mai dyma lle yr ymladdodd y dewr-wych Caradog, ei frwydr olaf â'r Rhufeiniaid.

O fewn tua milldir i'r De Ddwyrain o hen orsaf Rufeinaidd Caersws, yr hon sydd yn mhlwyf Llanwnog, y mae gorsaf filwraidd arall, a elwir "Y Moat," llanerch betryal, yn cynnwys tua thair erw o dir, wedi ei hamddiffyn gan werthyr gref, a ffos ddofn. Y mae ffurf yr amddiffynfa hon, a'i sefyllfa, yn ein tueddu i farnu, mai rhag-orsaf Rufeinaidd ydoedd, mewn cyssylltiad â gorsaf Caersws.

Y Gaer Fechan, yr hon a elwir felly, efallai, mewn cyferbyniad i'r Gaer fwy, ar Gefn Carnedd, sydd ar gopa esgair uchel, ar y lan aswy i'r Hafren, filldir a chwarter i'r dehau o Gefn Carnedd, ac oddeutu tri chwarter milldir i'r De Orllewin o orsaf rheilffordd Llandinam. Amddiffynfa bum-onglog gref iawn ydoedd, yr hon a ddysgrifiai *Pennant*, fel gorsaf Brydeinaidd, yn gylchynedig gan nifer o gloddiau, o un i bump, yn ol cadernid, neu wendid y gwahanol ranau. Yn y flwyddyn 1863, cyfodwyd ammaethdy, a'r beudai perthynol iddo, ar orsaf yr hen amddiffynfa; ond gellir olrhain rhai o'r gwrthgloddiau, a'r ffosydd eto, o'r tu ol ac o'r tu blaen i'r tŷ. Y mae yr olygfa fwyaf dymunol ar ddyffryn yr Hafren, a mynyddoedd Llandinam, i'w chael oddiar y bryn hwn. Pa un a oedd *Pennant* yn gywir yn ei dybiaeth, mai gorsaf filwraidd Brydeinaidd ydoedd hon, sydd yn anhawdd ei benderfynu erbyn hyn. Y mae ei sefyllfa yn ffafro y dyb hon; ac mai nid un ydoedd o'r gyfres o amddiffynfeydd milwraidd a gyfodid gan y peirianwyr Rhufeinaidd, ar yr ucheldir rhwng yr Hafren a'r Taranon, er amddiffyn eu cymmundeb o'r naill orsaf i'r llall ar hyd y ffordd oedd yn myned trwy ddyffryn Trefeglwys, ac er gwasanaethu fel gwŷlfeydd hefyd. Y mae gweddillion dau o'r cyfryw amddiffynfeydd yn aros hyd heddyw. Y cyntaf sydd mewn cae, perthynol i dyddyn o'r enw "Clos y banc," tua milldir i'r de orllewin o Gefn Carnedd, ac oddeutu milldir a haner i'r gogledd orllewin o'r Gaer Fechan. Y mae digon

Digitized by Google

o olion yn aros i brofi mai amddiffynfa gyfonglog fechan ydoedd ar y dechreu; ond ei bod yn un hynod o gadarn, gan nad oedd nemawr o gynnorthwy celfyddydol yn ofynol i'w gwneyd felly; o herwydd bod y mynedfeydd iddi yn dra serth ar bob ystlys, oddieithr yr orllewinol, yr hon a gadarnheid â ffos ddofn, a gwerthyr gref. Y mae y gwersyll hwn yn mesur tua 90 llath o hyd, wrth 45 o led.

Yr ail amddiffynfa, sydd o fewn tua milldir a chwarter i'r de orllewin o'r un flaenorol, ac oddeutu tair milldir o dref Llanidloes, ar dyddyn Pen y castell Bach, ar ben un o'r bryniau, o'r lle y ceir golwg ddymunol ar Lyn Ebyr. Math o domen gron yw hon, oddeutu 28 o latheni o drawsfesur; ac yn cael ei gylchynu gan ffôs, o 10 troedfedd i 16 troedfedd o ddyfn: ac heb fod yn mhell oddiwrtho, y mae lle a elwir Rhos y beddau. Ac o'r tu ol i'r domen uchod, gellir olrhain amlinelliad gwersyll, neu amddiffynfa gyfonglog, debyg i'r un ar Clos y banc, oddeutu 110 o latheni o hyd, wrth 90 o led.

Y mae yr holl olion hyn yn dangos fod y gymmydogaeth hon yn un dra phwysig mewn adeg hynod o foreu, yn enwedig pan oedd gan y Rhufeiniaid orsaf yn Nghaersws. Erbyn hyn, o drugaredd, y mae y gorsafau milwraidd hyn yn hollol afreidiol, a chelfyddydau heddwch yn cyfoethogi ac yn prydferthu y gymmydogaeth, yr hon erbyn hyn a dryfrithir gan balasau harddwych, boneddigion anturiaethus.

**LLANDINGAD**, plwyf yn undeb Llanymddyfri, swydd Gaerfyrddin; ar yr afonydd Bran a Thywi, yn amgylchynu tref a gorsaf rheilffordd Llanymddyfri. Cynnwysa fwrdeisdref Llanymddyfri, a threflanau Telych, Forest, ac Ystrad. Erwau, 8107. Gwerth ardrethol. 10,177*p*. Poblogaeth yn 1851, 2542; yn 1861, 2389. Annedd-dai, 480. Y plwyf a dderbynia ei enw oddiwrth Dingad, nawddsant yr eglwys; ei arwynebedd ar y cyfan sydd anwastad, ac oddeithr penau rhai o'r bryniau, mae y tiroedd wedi eu hamgau a'u diwyllio yn dda. Prydferthir yr olygfa gan amryw balasdai, megis Llwyn Brân, a'r Felindre. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, berthynol i esgobaeth Tyddewi, ac yn gydiol â ficeriaeth Llanfair-ar-y-bryn. Ei gwerth yw 254*p*., ac Esgob Tyddewi yn noddwr. Saif yr eglwys yn Llanymddyfri; hen adeilad ydyw, gyda thwr, ac ni buasai unrhyw ddyddordeb yn perthyn iddi, oni bai mai ynddi y claddwyd Rees Pritchard, yr Hen Ficer, ac awdwr anfarwol "Canwyll y Cymry." Ganwyd ef yn 1579, pennodwyd ef i fywioliaeth Llandingad yn 1602, gwnaed ef yn ganghellydd Tyddewi yn 1626, a bu farw yn Llandingad, ei blwyf genedigol, yn 1644. Yn yr eglwys hon hefyd y gorwedd ei briod, a'i ferch. Gwel dan y penau "Llandovery" a "Rees Pritchard." Dinystriwyd yr eglwys unwaith gan oresgynwyr Normanaidd y parth hwn o Gymru. Yn y plwyf hwn hefyd y saif eglwys Llanfair-ar-y-bryn, oddeutu chwarter milldir o Lanymddyfri, ar lanerch a fu gynt, fel y barna rhai, yn orsaf Rufeinig, a thybia Syr R. Colt Hoare, oddiwrth nifer y ffyrdd Rhufeinig sydd yn terfynu yma, ei bod yn orsaf bwysig. Mae yr amddiffynfeydd yn bresennol, pa fodd bynag, yn anamlwg iawn, ond cafwyd o fewn y cylch, fathodau a phriddfeini Rhufeinig, a lampau henafol. Yn ol traddodiad y gymmydogaeth, Tre-Goch y gelwid yr orsaf hon, ac efallai iddi dderbyn yr enw o herwydd mai o briddfaen yr adeiladwyd hi.

**LLANDINIR**, trefgordd yn mhlwyf y Berriew, neu Aber-rhiw, swydd Drefaldwyn. Saif 4¼ milldir i'r gogledd-orllewin o Drefaldwyn.

**LLAN DINORWIG**, treflan bwysig ac aml ei phobl, yn mhlwyf Llanddeiniolen, cwmwd Is-Gwyrfai, cantref Arfon, sir Gaernarfon, Gogledd Cymru. Yma y cartrefa y mwyafrif o'r bobl ddiwyd, ddeallus, a pharchus, a weithiant yn chwarelau mawrion Llanberis. Gweithia uwchlaw dwy fil a haner o'r cyfryw yn chwarel Assheton-Smith, Yswain, o'r Faenol, yn unig, ac o dan oruchwyliaeth fedrus Mr. Robert Parry, Blue Peris, a'i fab galluog, Mr. Owen Parry, Bron Elidir. Yn y flwyddyn 1801, nid oedd poblogaeth holl blwyf Llanddeiniolen namyn 1039, ond erbyn hyn y mae poblogaeth trefgordd Llandinorwig ei hun, oddeutu pedair mil, a rhifedi y tai, oddeutu wyth gant. Gelwir Llandinorwig hefyd, yn "Ebenezer," ond enw diweddar iawn ydyw hwn, gan mai oddiwrth y capel Annibynol a adeiladwyd yma y'i cymerwyd. Hysbysir yn yr *Imperial Gazetteer*, fod Llandinorwig yn sefyll bum' milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Gaernarfon; ond nid ydyw hyn amgen nag engraifft o anghywirdeb cyffredin y Saeson, pan yn ysgrifenu am Gymru, a phethau Cymreig, canys dwyreiniol hollol ydyw cyfeiriad y lle hwn o Gaernarfon. Y mae safle Llandinorwig yn rhamantus odiaeth, megys yn ystlys yr Elidir, a chalon yr Eryri. Yn yr hen amser, yr oedd y lle sydd weithian wedi ei osod yn sail i gynnifer o heolydd poblog, yn orchuddiedig gan goedwigoedd anhydraidd, yn mha rai y llywodraethai y blaidd, ac y cartrefai lluaws o fwystfilod rheibus. Ar lethrau y bryniau cylchynol, y bu Margaret uch Ifan yn cyflawni ei champau gwrolfrydys, yn codymu cewri Deiniolen, yn hela y cadno a'r geinach, yn chwareu y crwth a'r delyn, a phob campwri godidog arall a hynodai ei hoes a'i dyddiau. Yn "Llys Dinorwig" y bu ein "Llyw olaf" (Llewelyn ap Gruffydd) yn treulio cryn lawer o'i oes arwraidd a helbulus. Y brenin Iorwerth I. a attafaelodd Lŷs a Maenor Dinorwig, oddiar gyfathrach ein Llyw Olaf, ac a'u rhoddodd yn anrheg i Syr Gryffydd Llwyd, o Dregarnedd, pryd yr aeth yr hen Gymro urddasol, ond syml hwnw, i Gastell Rhuddlan, i hysbysu y teyrn cyfrwysgall am esgoriad ei Frenhines ar fab ac etifedd, yn Nghastell Caernarfon.

Fel y gwelir oddiwrth rif y boblogaeth, y mae Llandinorwig yn ffurfio y dref fewndirol bwysicaf yn Arfon, oddigerth Bethesda. Y mae cyfleusderau crefyddol y lle yn nodedig o gyflawn. Medda y Methodistiaid Calfinaidd amryw gapelydd eang a gwychion yn y fro; ac y mae gan yr Annibynwyr eu Hebenezer, a'r Bedyddwyr a'r Wesleyaid eu temlau cyfleus. Adeiladwyd a gwaddolwyd yma Eglwys Esgobol, a Ficerdy hardd, gan y diweddar Mr. Smith, lle y mae yr offeiriad talentog Mr. Grey Edwards yn gweinidogaethu. Cyllid blyneddol y ficer ydyw dau gant o bunnau. Y mae yn y pentref hefyd ysgoldy Gwladwriaethol, ac ysgoldy Brytanaidd, er cyfranu addysg i'r plant. Llywyddir yn y naill a'r llall gan athrawon ac athrawesau medrus; a llafara arolygwyr y Llywodraeth yn uchel bob amser am effeithiolrwydd y sefydliadau. Nid oes un o'r ysgolion hyn eto wedi eu dodi o dan reolaeth Bwrdd Ysgol Llanddeiniolen. Ystyrir trigolion Llandinorwig, a'u lluaws cyd chwarelwyr a breswyliant yr ardaloedd cylchynol, yn mhlith gwerin fwyaf deallus Prydain. Darllenant yr oll o'r llyfrau goreu a

Digitized by Google

gyhoeddir yn Gymraeg, a gofalant am ddeall holl helyntion yr amseroedd, trwy fanwl chwilio y newyddiaduron. Cymaint oedd y dyddordeb a deimlent yn hanes y rhyfel ddiweddar rhwng Ffrainc a Germania, fel y cyhoeddid papyryn at eu gwasanaeth yn ddyddiol, gan argraffydd o'r lle, yn cynnwys adroddiadau byrion o brif ddygwyddiadau yr ymdrechfa waedlyd. Credwn fod pobl Llandinorwig a'r cylchoedd, yn rhagori ar drigolion llawer o ardaloedd y chwarelau mewn un peth yn arbenig, sef trwy ochel yr arferiad niweidiol a gwaradwyddus o gynnyrchu dyledion. Anfynych y clywir am bobl y fro hon yn tynu sylw barnwr a cheisbyliad llys y mânddyledion.

**LLANDOCHE** (Llandough), sydd blwyf yn nghantref y Bontfaen, Undeb Penybont-ar-Ogwy; deoniaeth Gro-nedd, Archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Saif yr eglwys tua dwy filldir i'r dê, o dref y Bontfaen. Rectoriaeth yw y fywoliaeth eglwysig, wedi ei chyssylltu a Llanfair y Beauprè, a'r ddwy yn nghyd, yn werth 325*p.* y flwyddyn; yn nawdd a rhodd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., yr hwn yw perchen y plwyf, ac arglwydd y faenor. Bu y Parch. John Walters, awdwr y Geiriadur, yn offeiriad yma am flyneddau lawer.

Yn ymyl yr eglwys, y mae palas gwych, a elwir Castell Llandoche; a Llandough Cottage, preswylfa ettifedd C. R. M. Talbot, Ysw. Mae y plwyf yn sefyll yn nghanol Bro Morganwg. ac yn un ffrwythlon iawn. Mesura 685 erw, wedi ei brisio yn 900*p.*; a rhif ei drigolion yn 1861, yn 119.

**LLANDOCHE PENARTH** (Llandough-juxta-Penarth), neu Landochwy Fach, sydd blwyf bychan, yn nghantref Dinas Powys, Undeb Caerdydd, esgobaeth Llandaf, 4 milldir i'r Gorllewin o Gaerdydd, swydd Forganwg.

Perchenog y plwyf, ac arglwydd y faenor, yw Ardalydd Bute; ac yn ei nawdd a'i rodd ef y mae y fywioliaeth eglwysig, yr hon sydd rectoriaeth, wedi ei huno ag eiddo Llanfihangel y Pwll, Leckwith, a'r Cogan; ac yn werth 182*p.* y flwyddyn. Saif y plwyf ar lan afon Elai; yr hon a'i dyfrhâ yn haelionus, ac a ylch ei ystlys.

Nid yw ond plwyf bychan, yn mesur 689 erw, wedi ei brisio yn werth 1327*p.* y flwyddyn. Ammaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn y plwyf gan mwyaf; a rhifai y boblogaeth 198, yn 1871.

**LLANDOGO**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth a swydd Fynwy. Y mae y pentref yn sefyll ar geulan yr afon Wy, ar y terfyn i swydd Gaerloew, gyferbyn a Bigswear, ac o dan Fannau Brycheiniog, saith milltir, de wrth ddwyrain, o dref a rheilffordd Mynwy. Y mae yn lle prydferth, yn cael ei gylchynu gan fynyddoedd, yn cynwys bwthynod, yn codi y naill uwchlaw y llall, wedi eu haddurno â gerddi â pherllanoedd, a choed yn eu harddu o'r cefn. Y mae llythyrfa yn perthyn i'r lle dan Coleford. Y mae rhaiadr bychan, a elwir Cleiddon, yn rhedeg dros y bryn, gerllaw y pentref, ond nid yw yn arddangos ei hun, oddigerth ar dywydd gwlawog, gyda nemawr o hynodrwydd. Y mae y plwyf yn cynwys 1843 o erwau. Gwerth ardrethol, 2673*p.* Poblogaeth, 648. Tai, 148. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â chapeloriaeth Whitebrooke, yn esgobaeth Llandâf; gwerth 112*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llandâf. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i Sant Odoceus.

**LLANDOVERY**, neu Llanymddyfri, sydd dref, trefgordd, a dosparth, yn swydd Gaerfyrddin. Saif y dref yn mhlwyf Llandingad, gerllaw yr afon Bran, tua milltir uwchlaw ei llifeiriad i'r afon Towy, ac yn gyfagos i gysylltiad rheilffyrdd unedig Llanelli a Dyffryn Towy, gyda'r llinellau sydd yn cyfeirio at Aberhonddu a Knighton, yn nghyd a dilyniad oddiyno i Henffordd a'r Amwythig; ac y mae yn agos i'r hen orsaf Rufeinig, ar ffordd Sarn Helen, yn Llanfair-ar-y-bryn, chwe milltir ar hugain, gogledd ddwyreiniol, o Gaerfyrddin. Y mae mewn sefyllfa dra difyrus, mewn dyffryn yn cael ei ddyfrhau yn dda; ac yn cael ei chylchynu â bryniau, wedi eu gorchuddio â choed. Yr enw gwreiddiol ydoedd Llan-ym-Ddyfri, neu "Yr eglwys rhwng y dyfroedd," mewn cyfeiriad at yr amrywiol afonydd sydd yn rhedeg drwy y gymydogaeth. Mewn amryw o'r hen gofnodau Cymreig, y mae wedi cael ei lygru i "Llanymtheferi" weithiau, ac wedi hyny i "Landoferi." Y mae yr afonydd Towy, Gwydderig, neu Gwy-dderwig, a Bran, yn ffurfio y prif afonydd yn yr ardal hon. Barna rhai ysgrifenwyr, i'r dref gael ei ffurfio ar y cyntaf yn sefydliad gorsaf Rufeinig, o fewn tua chwarter milltir i'r lle y saif; yr hyn a gadarnheid drwy y darganfyddiad a wnaed yma o briddfeini, llestri, a batholion Rhufeinig; ond y mae yn debycach, ei bod, fel llawer o drefydd eraill yn Neheubarth Cymru, wedi cael ei dechreuad, trwy adeiladaeth castell yno, cyn dyfodiad y Rhufeiniaid i'r wlad, gan yr hen Frythoniaid, er eu diogelwch rhag y rhuthriadau mynych ac annysgwyliadwy, oedd yn dyfod arnynt. Y mae eraill o'r farn, i'r lle gael ei sylfaeniad drwy waith rhai o'r Normaniaid a ddaethent i'r fro, yn cyfodi eu hymddiffynfa yma. Y mae yr hanes awdurol henaf sydd mewn ysgrifen am y fan, yn mynegi, yn amser teyrnasiad Harri I., tu a'r flwyddyn 1113, ei fod wedi ei feddianu gan un Richard de Pons; ac yn 1116, ei fod wedi cael ymosod arno gan Gryffydd ab Rhys, yr hwn a osododd y cyffiniau ar dân, ac a laddodd nifer o'r gwersyllwyr; ond efe a ddioddefodd y fath golledion yn yr ymgyrch hwnw, fel y bu raid iddo roddi yr amcan o feddianu y lle i fynu, ac encilio oddiyno. Yn 1158, ymosododd Meredydd ab Rhys, un o benaethiaid mwyaf galluog y Deheubarth, ar y castell, ac a gymerodd feddiant o hono; ac ar farwolaeth Meredydd ab Rhys, yn 1201, ymosodwyd arno gan ei frawd, Gryffydd ab Rhys; ac ar ei farwolaeth yntau drachefn, yn y flwyddyn ganlynol, syrthiodd i feddiant ei frawd Maelgwn. Yn 1204, ymosododd Rhys, mab Gryffydd ab Rhys, ar y castell, er ei gymeryd oddiar ei ewythr Maelgwn, a llwyddodd i gael meddiant o hono; ond ni pharhaodd yn hir; canys cymerodd Maelgwn, drwy gynnorthwy Gwenwynwyn, Tywysog Powys, adfeddiant o hono; eto, llwyddodd Rhys, wedi hyny, i gael meddiant o hono drachefn. Yn 1208, cododd Rhys Fychan, brawd Maelgwn, wrthryfel yn erbyn ei neiaint Rhys, ac Owain, a thrwy gael byddin o wyr meirch gan Frenhin Lloegr, efe a ymosododd ar y castell, a rhoddodd y gwersyllwyr y lle i fynu iddo, ar yr amod iddynt gael myned ymaith gyda'u harfogaeth, mewn heddwch, yn gystal a'u holl feddiannau eraill. Wedi hyny, gwnaeth Rhys, ac Owain, achwyniad i'r brenhin John, am y gweithrediadau hyn o eiddo eu hewyrthredd, ac anfonodd y penadur hwnw genhadaeth i hawlio castell Llanddyfri, a'r tiriogaethau perthynol iddo, er cynnaliaeth y pendefigion ieuaingc, ond drwy i Rhys Fychan wrthod cydsynio

Digitized by Google

a'r gorchymyn hwn, darfu i Rhys ab Gryffydd, gyda chymorth milwyr o Loegr, adfeddianu y lle, drwy ymosodiad yn 1214. Ymddengys, er hyn oll, iddo gael ei gymeryd drachefn gan Rhys Fychan; oblegid yn 1226, rhoddwyd y lle i fynu ganddo i'w fab, gan yr hwn yr oedd efe wedi cael ei gymeryd yn garcharor, fel iawn am ei ryddhad o gaethiwed. Wedi darostyngiad y dywysogaeth yn gyffredinol gan Iorwerth I., daeth castell Llanymddyfri yn feddiant i'r goron, ac efe a wersyllwyd gan y brenhin; ond tra yr oedd y brenhin hwn yn absenol, yn Ffraingc, codwyd gwrthryfel cyffrous yn Neheubarth Cymru, gan Rhys ab Meredydd, yr hwn, o blegid ei offerynoldeb yn narostyngiad y wlad, oedd wedi cael ei wneud yn farwnig gan Iorwerth, ag a oedd wedi bod mor llwyddianus yn cymeryd meddiant o amryw amddiffynfaoedd heblaw y castell hwn. Nid oes ond ychydig o hanes y lle hwn wedi cael ei gofnodi, o'r amser y cyfeiriwyd ato yn barod, hyd amser y rhyfel seneddol dan Cromwell, pan y tybir i'r hen adail gael ei darostwng i'r cyflwr y mae ynddo yn awr.

Y mae llawer o hynodrwydd yn perthyn i'r dref hon a'i hamgylchiadau, mewn cyfnod diweddarach. Y mae ei sefyllfa yn dra dymunol yn mhen uwchaf Dyffryn Towy, ar geulanau yr afon Bran; y mae yn cael ei ffurfio, gan mwyaf, o ddwy brif heolydd. Y mae Leland yn ei darlunio, yn amser Harri VIII., fel tref o adeiladaeth gyffredin, gyda thai tô gwellt; ond wedi yr amser hwnw, y mae wedi bod dan welliannau parhaus, fel y mae erbyn hyn, yn un o'r manau prydferthaf yn yr holl wlad. Y mae y ddaear yn raianaidd a llaith. Adeiledir y tai cyffredin, â cherig o waelod yr afon Towy, wedi eu gwynebu a chymrwd calch, a'u lliwio yn dda. Dechreuwyd goleuo y dref a lanternau olew, yn 1831. Yn mhen uwchaf y dref, y mae pont, o adeiladaeth yr enwog William Edwards, o Bont-y-pridd, o un bwa maen, tair troedfedd a phedwar ugain o led, ar ffordd Myddfai; ac o fewn tua milltir, yr ochr isaf i'r dref, y mae pont haiarn, gadwyn grogedig, o brydferthwch mawr, yn croesi y Towy, ar ffordd Llandilo Fawr, yr hon a gyfodwyd drwy gydroddion. Gosodwyd careg sylfaen y gwaith, gan y Mil. Gwynne, Ebrill 18, 1832. Y mae y brif-ffordd tuag Aberhonddu, trwy Llywel, Tref castell, &c., yn dra swynol i deimlad pob teithiwr, gan brydferthwch y golygfeydd ar bob llaw; lle yr arddengys y Mynydd Du ei glogwyni yn fanteisiol iawn, gyda'r gwahanol balasau sydd yn addurno yr iseldir ar hyd y ffordd. Cyn agor y rheilffordd, yr oedd llawer o fasnach wastadol y dref yn codi oddiar amlder y teithio oedd drwy y fan, gyda chertwyni, yn cludo enllyn, o sir Aberteifi, a gwaelod Caerfyrddin, tua Merthyr, a'r Gweithiau Haiarn. Y mae y farchnadfa yn gyfleus yn nghanol y dref, lle y ceir cyflawnder o ŷd ac eiddo amaethyddol ar y marchnadoedd, y Mercher a'r Sadwrn. Y mae y ffeiriau ar y Mercher cyntaf wedi 17eg o Ionawr; 19 o Fawrth; Mercher wedi'r Pasg; Mawrth Sulgwyn, 31 o Gorphenaf; Mercher wedi 10 o Hydref; a 26 Tachwedd, at werthiant ceffylau, gwartheg, defaid, a moch yn arbenig. Gwnaed y dref yn fwrdais rydd, am y waith gyntaf gan Richard I., yr hyn a gadarnhawyd yn amser Harri VIII., pan y gwnaed y lle yn gynorthwyol i Gaerfyrddin, yn nychweliad aelod i'r Senedd; ond yr hyn a syrthiodd yn ddifudd yn amser Elisabeth drachefn. Y mae y dref yn cael ei llywodraethu, yn ol y weithred seneddol, gan faer, cofnodydd, bwrdeisiaid, yn cael eu cynorthwyo gan ddau lywydd, a phedwar o hedd-geidwaid, y rhai a etholir yn flynyddol. Y mae y lle yn etholfa, yn ol darpariadau y Weithred Ddiwygiadol; ac y mae sefyllfa ganolbarthol y dref, mewn cymydogaeth boblogaidd, yn rhoddi iddi sefyllfa bwysig yn y wlad. Y mae dyddordeb hanesyddol yn perthyn i'r lle hwn, fel man genedigol y Parch. Rees Pritchard, a adwaenir gan y cyhoedd yn well, wrth yr enw "Ficer Llanymddyfri." Y mae wedi ei enwogi ei hun, am ei waith prydyddol dan yr enw, "Canwyll y Cymry," neu yn ol yr enw cyffredin, "Llyfr y Ficer," yr hwn sydd gyfansoddiad dysyml a di-addurn, yn cynwys nifer mawr o ganiadau, ar destynau ymarferol a phrofiadol, yn union o'r fath ag yr oedd y wlad yn sefyll mewn angen am dano ar y pryd. Y mae yn gydymaith y Cymro yn mhob bwth a phalas drwy y dywysogaeth. Bu yn ddigaregydd gwerthfawr i eraill a ddaeth ar ei ol, efallai yn rhagori o ran gwisg, ond nid o ran yspryd a defnyddioldeb. Sylwa Cyhoeddwr diweddar ei waith, sef y Parch. R. Rees, B.D., o Goleg Dewi Sant, Llanbedr, "Wedi agos i ddau can' mlynedd o ddarlleniad cysson a chyffredinol ar 'Lyfr y Ficer,' fod ei gynnwysiad mor adnabyddus, a bod ei glod wedi ei sefydlu i'r fath raddau, fel nad oes achos yn awr i ddywedyd dim mewn ffordd o gymeradwyaeth a chanmoliaeth iddo;" ac y mae hyny yn ddigon gwir. Dangosodd ei serch at ei genedl, a'i awyddfryd am ei derchafiad gwladol a moesol, pan yr adgofir iddo godi adeilad i fod yn ysgoldy i'r cyhoedd, a gwaddoli yr ysgol âg 20*p*. yn y flwyddyn, tu ag at sicrhau gwasanaeth athraw, ond fel y cafodd yr amcan ei atal, mewn rhyw ffordd nad yw yn briodol ceisio ei olrhain yma. Ganwyd ef yn 1575, a bu farw yn 1644. Cyfodwyd ysgol golegawl yma yn 1849, trwy offerynoldeb T. Phillips, Ysw., o Brunswick Square, Llundain, lle y darperir addysg briodol i fechgyn o Gymry, ar egwyddor rydd, heb fod yn gyfyngedig i blaid na chredo. Y mae yn adeilad gorwych. Yr athraw cyntaf a fu yma, ydoedd yr Hybarch Archddeon Williams, o Aberteifi, yr hwn ydoedd ysgolhaig o enwogrwydd adnabyddus dros holl Ewrob. Prin yr addefa y cyhoedd hyd heddyw, fod yr hen wron anrhydeddus wedi cael y parch na'r derchafiad a deilyngai ei dalentau dysglaer, a'i lafur diorphwys. Cododd y sefydliad i fri mawr yn y wlad. Yr oedd yn rhy rydd a gonest, ond odid, i weithio ei hun yn ddigon i sylw y bendefigaeth, ac felly y gadawyd ef ar enw o dderchafiad, heb y ddarpariaeth ofynol, yn y gyfryw sefyllfa ag a lanwai, gyda theulu lluosog. Yn agos i'r dref hon y cyfaneddai Brutus, yr ysgrifenydd Cymreig galluog: gadawyd yntau i ymguro yn erbyn anhawsderau, yn ei sefyllfa o ddinodedd, o ran pethau y bywyd hwn, nes gorphen ei dymor. Dylid mynegi yn mhellach, mai yma y mae yr Argraphwasg fwyaf dillyn, a'r gwaith mwyaf chwaethus, yn Nghymru oll, fel y gwelir yn Nghyfrolau gwerthfawr Cymdeithas y Llaw-ysgrifau Cymreig, y rhai a safant yn y dosparth uwchaf mewn Argraphyddiaeth. Y mae yma leoedd o addoliad perthynol i'r pedwar enwad ymneillduol, oll yn adeiladau eang a hardd, gyda chynulleidfaoedd, ac ysgolion Sabbathol lluosog. Y mae terfynau y drefgordd yn gydblethedig â mannau eraill gerllaw. Gwerth ardrethol, 5440*p*. Poblogaeth yn 1851, 1927; yn 1861, 1855. Yma y mae Gweithdy neu Dlod-dy y gymydogaeth, yn yr hwn yr oedd 44 yn cael eu

Digitized by Google

hymgeleddu yn 1861. Y mae y dosparth yn cynnwys is-ddosparth Llandingad, yn gyd-derfynol â phlwyf Llandingad, is-ddosparth Llanfair-ar-y-bryn, mewn cyd-derfyniad a'r plwyf; is-ddosparth Myddfai, mewn cyd-derfyniad a'r plwyf, is-ddosparth Llansadwrn, yn cynnwys plwyfi Llansadwrn, a Llanwnda; is-ddosparth Llangadog, mewn cyd-derfyniad a'r plwyf; is-ddosparth Llanddeusaint, mewn cyd-derfyniad a'r plwyf; is-ddosparth Cil y cwm, mewn cyd-derfyniad a'r plwyf; is-ddosparth Conwil-Caio, mewn cyd-derfyniad a'r plwyf; is-ddosparth Llanwrtyd, yn Mrycheiniog, o ran cysylltiad etholiadol, yn cynnwys plwyfi Llanwrtyd, a Llandulasyn-Ty'r Abad. Erwau, 154,572. Trethi y tlodion yn 1863, 6793*p*. Poblogaeth yn 1851, 15,055; yn 1861, 14,755. Tai, 2985. Priodasau yn 1863, 101. Genedigaethau 481, o ba rai yr oedd 31 yn anghyfreithlon. Marwolaethau 280, o ba rai yr oedd 86 dan 5 mlwydd oed, a 18 dros 85. Lleoedd o addoliad yn 1851, Eglwys Loegr 15, gydag eisteddleoedd i 4069. Annibynwyr 15, gydag eisteddleoedd i 4686. Bedyddwyr 8, eisteddleoedd 1595. Trefnyddion Calfinaidd 12, eisteddleoedd 3474. Wesleyaid 2, eisteddleoedd 275. Ysgolion dyddiol 16, gyda 1091 ysgolorion. Pump o ysgolion neillduol; 164 o ysgolorion. Ysgolion Sabbathol 53, gyda 5102 o ysgolorion. Y prif balasau yn y gymydogaeth ydynt Felindre, Ton, Llwyn-brain, Llwyn-y-wermod, Glan Bran, Blaen Nos, yn nghyd a hen balas, gerllaw pont uchaf y dref, lle genedigol yr hen Ficar Pritchard, yr hwn sydd yn awr mewn cyflwr adfeiliedig. Y mae yr ysgoldai Gwladwriaethol a Brytanaidd, yn adeiladau cang, prydferth, a theilwng o'r dref. Oddiyma y codwyd yr Esgob Huws, i Lanelwy.

**LLANDOW**, neu Llandwr, sydd blwyf yn nosparth Pont-faen, sir Forganwg, 3½ milltir, gogledd wrth dde, o Bont-faen, lle y mae gorsaf rheilffordd. Llythyrfa y lle yw Pont-faen. Erwau, 1086. Gwerth ardrethol, 1235*p*. Poblogaeth, 133. Tai, 24. Y mae y meddiant tirol yn rhanedig rhwng pump. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth yn esgobaeth Llandaf; gwerth, 266*p*.; ac yn nawddogaeth Ysgol yr Iesu, yn Rhydychain. Y mae yr eglwys yn henafol, ond heb fod mewn cyflwr da ar hyn o bryd.

**LLANDRE**, treflan yn mhlwyf Llangwnnor, swydd Gaerfyrddin; gerllaw tref Caerfyrddin.

**LLANDRILLO**, pentref a phlwyf yn undeb Corwen, cantref Edeyrnion, swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; 5 milldir o Gorwen. Mae y plwyf, yr hwn sydd yn cynnwys trefgorddau Cilan, Dinam, Faerdref, Garthiaen, Pennant, a Syrior, yn sefyll ar lanau prydferth yr afon Dyfrdwy, ac yn ymyl yr afonig Ceidio, yr hon ar wlawogydd trymion, a chwydda yn llifeiriant nerthol. Ymestyna am dros bedair milldir o hyd, a thair a hanner o led, trwy ddyffryn ffrwythlawn Edeyrnion, a'i ffiniau deheuol ydynt fynyddoedd cribog y Berwyn, yr uchaf o ba rai, sef Cadair Berwyn, sydd o fewn terfynau y plwyf. Y mae y rhan fwyaf o'r tir wedi ei gau i mewn, ac yn cael ei ddiwyllio yn effeithiol. Codir swm mawr o fawn i wasanaethu fel tanwydd, ac y mae cloddfa ragorol o lechi, yn cael ei gweithio ar ochr y Berwyn. Erwau, 28,200. Gwerth ardrethol, 4578*p*. Poblogaeth, 776. Tai, 177. Y pentref hefyd a saif ar lanerch ramantus, yn ymyl Bwlch Milltir Gerig, neu Yerig, gerllaw rheilffordd Corwen a'r Bala. Y mae yn orsaf rheilffordd, a chynnelir ffeiriau ar y 25ain o Chwefror, y 3ydd o Fai, 29ain o Fehefin, ar yr 28ain o Awst, a'r 14eg o Dachwedd. Y golygfeydd o'r gymmydogaeth hon ydynt yn dra amrywiaethol, ac yn gymmysg o'r tlws a'r mawreddog. Oddiar Gadair Berwyn, canfyddir dyffrynoedd prydferth Edeyrnion, a Phenllyn, a'u holl amrywiaeth golygfeydd; ac yn y pellder, gwelir y prif fynyddoedd yn Ngogledd Cymru, a siroedd gorllewinol Lloegr.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, a'r Esgob ydyw y noddwr. Ei gwerth ydyw 329*p*. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Trillo, sydd adeilad fechan henafol, mewn sefyllfa dda, yn yr arddull Seisnig boreuol, gyda thwr ysgwar yn y pen gorllewinol. Mae gan yr Ymneillduwyr hefyd liaws o addoldai yn y plwyf, a cheir digonedd o foddion addysg ar gyfer plant yr Eglwyswyr, a'r Ymneillduwyr. Yn 1738, gadawodd un Hugh Jones, gymmunrodd o 75*p*., a rhenir y llog rhwng y tlodion, yn ol ewyllys y testamentwr.

Bwlch y Maen Gwynedd, yn mynyddoedd y Berwyn, ydyw y lle a bennodwyd gan Rhodri Fawr, yn fan cyfarfod Tywysogion Gwynedd a Phowys, er mwyn gwastadhau ymrafaelion, a phenderfynu ymrysonau a allai gyfodi rhyngddynt; ac yn yr un gadwaen o fynyddoedd, a thufewn i derfynau y plwyf hwn, y mae careg fawr wastad, darn o gromlech yn ol pob tebyg, yr hon a elwir Bwrdd Arthur. Mewn maes o'r enw Cae'r Bont, y mae gweddillion ammddiffynfa gron, yn cael ei chylchynu gan ffos, a'i hamddiffyn gan ragfuriau o gryn nerth; ac ar gopa bryn, yn union uwchben, y mae cylch o geryg, deuddeg llath o drawsfesur, yn yr hwn yr oedd gynt gell gron, chwe troedfedd o drawsfesur. O fewn can llath o bellder, y mae gweddillion carnedd fawr, deunaw llath o drawsfesur, a gweddillion dwy garnedd lai, ryw ugain llath oddiwrthynt. Ceir olion amddiffynfa arall, ar fryn ychydig o'r pentref; ac yn wir, y mae bron yr holl fryniau yn y plwyf, yn dwyn olion cyffelyb o amddiffynfeydd yr Hen Gymry. Gerllaw y pentref, y mae Ffynnon Trillo, i ddyfroedd yr hon y priodolid gynt rinweddau meddyginiaethol, ac y maent etto yn cael eu defnyddio er llesad amlwg mewn llawer o achosion.

**LLANDRILLO-YN-RHOS**, plwyf perthynol i undeb Conwy, mewn rhan yn nghantref y Creuddyn, swydd Gaernarfon, ond yn benaf yn nghantref Isdulas, swydd Dinbych. Saif y plwyf ar lan y mor, 3¼ milldir i'r gogledd-ddwyrain wrth ddwyrain o Gonwy, a rhed rheilffordd Caer a Chaergybi drwyddo. Cynnwysa drefgordd Eirias, yn swydd Gaernarfon, a threfgorddau Cilgwyn, Dinerth, Llwydcoed, Mochdre, Rhiw, a Cholwyn. Erwau rhan sir Gaernarfon o'r plwyf, 941, o ba rai y mae 110 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1245*p*. Poblogaeth, 295. Tai, 65. Erwau rhan sir Ddinbych, 5140, o ba rai y mae 545 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 5229*p*.; o'r swm hwn y mae 151*p*. mewn chwarelau, a 15*p*. mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 1026. Tai, 219. Sylwer fod y cyfrifon hyn yn ol Deiliadeb 1861. Er y pryd hwnw, pa fodd bynag, y mae y lle wedi cyfnewid yn ddirfawr. Mewn canlyniad i ymdrechion y Parch. W. Venables Williams, gwnaed codiad mawr yn mhrisiad y rheilffordd yn Llandrillo a'r plwyfydd ereill yn undeb Conwy, yr hyn a bair fod y gwerth ardrethol yn llawer uwch nag a nodir uchod. Gwerthwyd hefyd etifeddiaeth Pwllycrochon, ac y mae y perchennog presennol, Mr. John Pender, A.S., wedi rhoddi ei fryd ar wneuthur Colwyn, yn y plwyf hwn, yn ymdrochle i ddeithriaid. I'r perwyl hwn,

Digitized by Google

heblaw troi plas Pwllycrochon yn westty, y mae wedi codi gwestty newydd, un o'r rhai eangaf a harddaf yn y wlad, yn ymyl glan y mor, sef y *Colwyn Bay Hotel*, ac yn ychwanegol at hyny, wedi tori y tir i fyny yn fân leiniau cyfleus at adeiladu tai i lettya dieithriaid yn yr haf. Y mae yn naturiol credu gan hyny, y bydd y gymmydogaeth hon cyn pen ychydig flyneddoedd, yn un o'r ymdrochleoedd mwyaf poblogaidd yn y wlad, ac yn gyrchfan cannoedd o ddieithriaid yn yr haf.

Ar lan y mor y mae pedair gored, lle y delir nifer aruthrol o bysgod, yn enwedig mecryll ac eogiaid, ac y mae yn deilwng o sylw, fod y dalfeydd mawrion hyn, i'w priodoli mewn rhan i wasanaeth cŵn! Un o'r rhai hyn yn unig, sef yr un a berthynai gynt i fynachod Conwy, sydd yn talu degwm; rhenir y ddalfa bob degfed *tide* rhwng yr esgob (fel rheithor) a'r ficer, tair rhan o bedair i'r blaenaf, a'r bedwaredd ran i'r olaf. Anfonir cryn lawer o geryg calch oddiyma i Lerpwl, a manau ereill. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, a nawddogaeth yr Esgob, gwerth 343*p*. Eglwys y plwyf, yr hon sydd gyssegredig i goffadwriaeth Sant Trillo, a saif ar godiad tir; adeilad olygus ydyw, yn yr arddull Seisnig diweddar, gyda dwy aden, perthyna iddi dŵr uchel ysgwar, a mân dyrau rhyfelawg, ac o'i mewn fedyddfaen Normanaidd. Ceir ynddi hefyd ddelw o ben Marchudd, sylfaenydd un o bymtheg llwyth Gwynedd, ac uwch ei ben arfbeisiau Ednyfed Fychan, Cynghorydd a Phenllywydd byddinoedd Llewelyn Fawr, ac un o'r rhyfelwyr mwyaf llwyddiannus yn erbyn y Saeson; yr oedd yma hefyd ddarluniau ereill, yn cynnrychioli llwythau Cymru. Cafodd Ednyfed Fychan drwydded gan y Pab i adeiladu capel ynglyn â'r eglwys hon; nid oes yn aros o'r capel hwn yn awr, ond yn unig rhan o ddau hen fwa, yn y mur gogleddol. Ar lan y mor, oddeutu milldir i'r gogledd-ddwyrain oddiwrth yr eglwys, saif capel hynod o fychan, gyda nenfwd bwaog, wedi ei adeiladu uwchben ffynnon. Ei enw ydyw Capel Trillo, a'i ymddangosiad sydd yn hynod, canys y mae ar ffurf hir-ysgwar, gyda ffenestr bob ochr, ac yn y pen, a'r mynediad i mewn trwy ddrws bychan. Chwarter milldir i'r de o'r eglwys, y mae bryn wedi ei amddiffyn yn gadarn, o'r enw Bryn Euryn, ac wrth ei droed, weddillion adeilad mawr, o'r enw Llys Bryn Euryn, a godwyd gan Ednyfed Fychan, fel preswylfod iddo ef a'i hiliogaeth, ac efe a gafodd drwydded gan y Pab i godi capel yn ei ymyl, gyda chaniattad i roddi yr holl offrymau i'r caplan gweinyddol. Llosgwyd ef i lawr, yn 1409, gan Owain Glyndwr; ond adgyweiriwyd y gweddillion, a chyfanneddwyd yn y lle gan rai aelodau benywaidd o'r teulu hwnw, o'r enw Conway, (disgynyddion Tudur ab Ednyfed, yr hwn oedd un o'r dirprwywyr yn yr ymdrafodaeth heddwch rhwng Iorwerth y Cyntaf, a Llewelyn; a phreswylient yma mor ddiweddar a theyrnasiad Siarl II.), y rhai a gyfranent yn haelionus tuagat y draul o godi twr i'r eglwys. Yn nhrefgordd Eirias, y mae Ffynnon Eilian, â'r hon, hyd ddechreu y ganrif bresennol, yr ymwelid gan gannoedd o bobl yn flyneddol, i'r dyben o dynu melldithion ar benau eu gelynion. Cyflawnid y ddefod, trwy i'r ymofynydd sefyll ar lecyn neillduol yn ymyl y ffynnon, tra y darllenai yr "offeiriad," neu y perchennog, ychydig ranau o'r Ysgrythyr Lân, ac yna, gan gymmeryd dogn bychan o'r dwfr, ei roddi i'r blaenaf i'w yfed, efe a daflai y gweddill dros ei ben. Gwneid hyn deirgwaith yn olynol, a pharhai yr ymofynydd penwan i gyhoeddi ei felldithion yn y fath eiriau ag y dewisai ei ddialgarwch eu harfer. Erbyn hyn, pa fodd bynag, "Ichabod" sydd yn ysgrifenedig uwchben y Ffynnon hon, ac y mae ei rhiniau dychymygol, fel ei defodau ofergoelus, wedi diflanu o flaen goleuni gwareiddiad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Perthyn i'r plwyf liaws o elusenau, a adawyd mewn cymmunroddion.

**LLANDRINDOD**, plwyf yn undeb Buallt, swydd Maesyfed, Deheudir Cymru; ar reilffordd Knighton, a Chanolbarth Cymru, gerllaw yr afon Ithon, saith milldir i'r gogledd-wrth-ddwyrain o Buallt. Derbynia y lle ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i'r Drindod Sanctaidd, ond yr hen enw ydoedd Ffynnon Llwyn y Gog. Saif ar gyttir gwyllt, oddeutu 700 troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr. Hyd yn ddiweddar, yr oedd y cyttir hwn yn eiddo y trigolion, y rhai a borent eu gwartheg a'u defaid arno; ond o dan yr *Enclosure Act*, cafodd ei ranu rhwng tirfeddiannwyr y gymmydogaeth, ac y mae yn bresennol yn meddiant Mr. R. D. Green Price, Mr. E. Myddleton Evans, ac Arglwydd y Cyttir. Ymddengys fod y dyfroedd mwnawl sydd yn gosod y fath bwysigrwydd ar y lle hwn, yn cael eu defnyddio er cyn cof gan drigolion yr ardal; ond ni wnaed eu heffeithiolrwydd yn hysbys i'r byd, hyd ddiwedd yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg, pan y cyhoeddwyd eu rhinweddau yn bell ac agos, ac y daethant gyntaf yn gyrchfan dieithriaid. Y mae genym hanes fod teulu parchus o swydd Henffordd, o'r enw Vaughan, yn defnyddio y ffynnon halenaidd mor fore a'r flwyddyn 1696; ac yn y flwyddyn 1736, cawn i Mrs. Jenkins, yr hon a breswyliai yn y gymmydogaeth, ail-ddarganfod y ffynnon halenaidd, ac ar yr un pryd ddarganfod y ffynnon sulphuraidd. Gelwir ffynnon arall yn Ffynnon-cwm-y-gof, o herwydd i ôf gael gwellhad i'w lygaid, trwy eu golchi â'r dyfroedd. Bu cynnydd y lle braidd yn araf hyd y flwyddyn 1749, pan y cymmerodd Mr. William Grosvenor, boneddwr o'r Amwythig, brydlesi amryw dai yn y plwyf, gyda llain eang o dir. Efe a drodd y tai yn westty eang, digon mawr i gynnwys amryw gannoedd o ymwelwyr yn gysurus. Adeiladodd gyfres o ystafelloedd tuag at gynnal cyngherddau, dawnsfeydd, a chwareuyddiaethau. Cododd fasnachdai helaeth, i gyflenwi ymwelwyr â phob math o nwyddau, nes peri fod y lle yn gyffelyb i farchnadfa. Y tir a addurnodd efe yn y modd mwyaf gorwych; efe a'i gosododd allan yn bleserfeydd, planigfeydd, rhodfeydd, a gerddi, yr oll wedi eu trefnu gyda chwaeth ragorol. Yma a thraw yn eu mysg, efe a osododd bysgodlynoedd, ac efe a neillduodd ran o'r tir at redegfeydd ceffylau. Yr oedd y trefniadau hyn yn meddu swyn neillduol i'r dosbarth mwyaf llygredig o gymdeithas, a buan y daeth y lle yn gyrchfan oferwyr, ac afradloniaid, o bob parth o'r deyrnas. Yn y dull pechadurus hwn y ffynodd am yn agos i hanner canrif, er i'r rhyfeloedd Americanaidd, a Ffrengig, beri peth niwed iddo. Yn y flwyddyn 1787 daeth yr eiddo i feddiant boneddiges grefyddol, yr hon wrth weled llygredigaeth y lle, a orchymynodd ei dynu i lawr, yr hyn a wnaed mor effeithiol, fel nad oes cymmaint ag olion o hono i'w gweled yn bresennol. Pa fodd bynag, gwyddis am sefyllfaoedd y pysgodlynoedd, ac y mae amaethdy wedi ei godi ar y llanerch lle y safai ystafell-giniaw "Llandrindod Hall."

Ond er i "Ichabod" gael ei ysgrifenu uwchben

Digitized by Google

pyrth a rhagfuriau yr ben westty enwog, ni chrogodd y cwmmwl uwchben Llandrindod ond megis am enyd; canys adnewyddodd poblogrwydd y lle, ac yn ystod y blynyddoedd diweddaf y mae wedi mwynhau graddau o lwyddiant ac enwogrwydd na's disgynodd erioed i'w ran o'r blaen. Y canlyniad ydyw fod galw anghyffredin am lettyau yn y gymmydogaeth, a thai newyddion yn codi ymhob cyfeiriad. Ym-ffrostia y pentref yn bresennol mewn gorsaf reil-ffordd gyfleus, eglwys, a dau gapel hardd, pedwar o westtai, marchnadfa, ac amryw fasnachdai golygus. Y gwestty henaf ydyw y "Pump House," a pherthyn iddo amryw reolau a threfniadau tra hynod, y rhai sydd wedi eu trosglwyddo yn etifeddiaeth o'r oes o'r blaen. Ceir dwy daflen o brisiau, a dau fwrdd. Rhenir y llettywyr i "Dy yr Arglwyddi," a "Thy y Cyffredin;" a gwaherddir i aelodau y Ty Uchaf gymdeithasu âg aelodau y Ty Isaf! Dechreuwyd codi tâl am ddyfroedd y Pump House, gan Mr. Owen, yr hwn a fu yn cadw y gwestty rai ugeiniau o flyneddoedd yn ol, ac a ddygodd welliannau pwysig i'r lle. Aed ymlaen gyda'r gwelliannau hyn gan ei olynydd, Mr. Kane, yr hwn a gododd bris y dwfr, o dair, i chwecheiniog y dydd: dilynwyd cwrs diwygiad gan y naill berchennog ar ol y llall, nes y mae y lle yn bresennol, o dan arolygiaeth effeithiol Mr. D. D. Morgan, yn gynllun o ddestlusrwydd a phrydferth-wch. Gwestty arall, nodedig o ddymunol a phobl-ogaidd, ydyw y Rock Hotel, yr hwn sydd yn sefyll ar yr ochr arall i'r cyttir, bron gyferbyn â'r Pump House, ar lanau hyfryd yr Ithon. Y mae y rhod-feydd a'r gerddi sydd o amgylch y gwestty yn nod-edig o brydferth. Y gwesttai ereill ydynt y "Llan-erch," a'r "Coleman," y rhai sydd yn feddiannol ar bob cysuron a chyfleusderau ar gyfer dieithriaid. Heblaw yn y gwesttai hyn, gellir cael lletty cysurus mewn amryw amaethdai parchus yn y gymmydog-aeth, megis Trefonen, Bach-y-graig, Rhyd-lyn-du, a Cae-bach. Saif eglwys y plwyf ar fryncyn, a cheir oddiar y llanerch, olygfeydd amrywiol a swynol dros ben. Y mae yn y fynwent amryw feddar-graffiadau gwerth aros i sylwi ar eu hynodrwydd. Gellir casglu oddiwrth ei harddull, i'r eglwys gael ei hadeiladu yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Adeilad llawer iawn harddach na hi ydyw Eglwys Crist, yr hon a saif ar y cyttir, yn mhlwyf Cefn Llys, oddeutu hanner y ffordd rhwng y Pump House a'r Rock House. Adeiladwyd hi yn y flwyddyn 1871, a chostiodd 3445*p*. Edrycha braidd yn foel oddiallan, am nad oes iddi dŵr; ond y mae yn drylawn o addurniadau oddimewn. Adeilad Gothaidd, gyda thŵr uchel, ydyw capel yr Annibynwyr, yn yr hwn y mae y Parch. J. R. Kilsby Jones yn weinidog. Adeilad bychan destlus, ydyw capel y Trefnyddion Calfinaidd, yn yr hwn yn achlysurol y ceir pregeth Gymraeg. Maintioli y plwyf, ydyw 2689 o erwau. Eiddo ardrethol, 1568*p*. Poblogaeth, 243. Tai, 40.

Y mae y Ffynnonau yn cynnwys tri math o ddwfr, sef y dwfr sulphuraidd (*sulphuretted springs*), y dwfr halenaidd (*saline springs*), a'r creig-ddwfr (*chalybeate*). Y mae dwy o ffynnonau sulphuraidd, un yn sefyll yn y Parc, yr hon sydd a'i dwfr yn glir a dysglaer, ac yn meddu tymmeredd o 47 gradd F. Dadansoddwyd y dwfr hwn yn y flwyddyn 1867 gan y Proffeswr Herapath, y fferyllydd enwog, a chafwyd fod un galwyn o hono yn cynnwys pedair modfedd dryfesur o nwy *hydrogen* sulphuraidd, gyda matter halenaidd. Cyffelyb ydyw ei gyfansoddiad i ddwfr sulphuraidd tyner Harrogate, yr enwocaf yn y deyrnas, a gellir dyweyd fod y naill a'r llall yn gyf-unrhyw. Wele y dadansoddiad, ac yr ydym yn ei ddodi yn Saesneg am ein bod yn tybied ei fod yn fwy dealladwy na phe cyfieithid ef i Gymraeg anar-feredig. Cofier fod cynnwys yr alwyn yn cael ei roddi yn ol y gronynau a'r degfedau (*grains and deci-mals*):—

| | |
|---|---|
| Sulphuretted Hydrogen Gas,........4 cubic inches. | |
| Chloride of Magnesium,.......................... | 23·72 |
| Chloride of Calcium, .............................. | 4·12 |
| Nitrate of Lime,.... .................................. | a trace. |
| Chloride of Sodium,................................ | 61·14 |
| Sulphate of Magnesia, ........................... | 6·70 |
| Carbonate of Lime, ................................ | 15·92 |
| Carbonate of Magnesia,......................... | 2·00 |
| Sulphate of Lime,................................... | 4·80 |
| Sulphate of Iron,.................................... | a trace. |
| Total grains,.......... | 118·60 |

Gwelir oddiwrth yr uchod fod y dwfr yn halenaidd o ran ei natur, ac o ran ei effeithiau y mae yn sym-bylu, yn rhyddhau, ac yn cryfhau. Ceir ei fod o wasanaeth dirfawr mewn anhwylderau yn y croen, mewn cryd cymmalau a'r gymmalwst, mewn achosion o ddiffyg anadl, diffyg treuliad, afu afiach, a gwendid cyffredinol, pa un bynag ai gormod eistedd, ai gormod diotta, fyddo wedi ei achosi. Dylid ei ddefnyddio yn fewnol, ac yn allanol fel baddon, a dylid ei gymmeryd yn ddognau heb fod yn fwy na llonaid gwydryn cyffredin, (*tumblerful*) tair, pedair, neu bum gwaith y dydd. Cymmerer dau ddogn cyn brecwest, gydag ychydig o seibiant rhyngddynt; dogn arall am unarddeg neu ddeuddeg o'r gloch, a glasiad neu ddau yn y prydnawn. O'i gymmeryd felly, caiff y dwfr, ond odid, effaith rhyddhaol tyner. Y bore yw yr amser goreu i'w ddefnyddio fel baddon. Gwnaed dadansoddiad hefyd ar y dwfr halenaidd yn 1869, gan yr enwog A. Voelcker, a chafwyd fod un galwyn o hono yn cynnwys y sylweddau a gan-lyn:—

| | Grains. |
|---|---|
| Organic and volatile matter and water of combination,...................................... | 9·15 |
| Chloride of Sodium,.................................... | 177·39 |
| Chloride of Magnesium,.............................. | 18·53 |
| Chloride of Calcium,.................................. | 36·88 |
| Oxide of Iron and Alumina,........................ | ·70 |
| Sulphate of Potash, .................................... | 2·30 |
| Nitrate of Potash,........................................ | ·26 |
| Iodine of Potassium,.................................. | ·35 |
| (Containing ·27 of a grain of Iodine). | |
| Carbonate of Potash,.................................. | 1·04 |
| Carbonate of Lime,..................................... | 9·31 |
| Soluble Silica,.............................................. | 1·01 |
| Sulphuretted Hydrogen,.............................. | traces. |
| Total saline and solid matters per gallon, | 256·92 |

Ychwanegai yr un gwr, "Mae y dwfr hwn yn meddu rhinweddau meddygol gwerthfawr, ac os gellir ei gael mewn cyflawnder, ceir ei fod yn dra llesol i ymdrochi ynddo. Ffynnon halenaidd, a chynnwysa swm canfyddadwy o *iodine*." Y mae y dwfr hwn yn llesol mewn anhwylderau o eiddo yr afu a'r *kidneys*, a phan fyddo y corff yn rhwym. Y mae o werth mawr hefyd ynghyd â'r creig-ddwfr mewn lliaws o anhwylderau, ac effeithia i buro y gwaed. Dylid

Digitized by Google

cymmeryd dau lasiad o hono cyn brecwest, ac un arall ysgatfydd yn y bore, ond nid yn hwyrach yn y dydd. Dylai pob dogn gael ei ddilyn gan ymarferiad corfforol. Yn achlysurol, pan y dymunir cael gweithrediad rhyddhaol uniongyrchol, bydd cymmeryd dau wydraid y peth olaf y nos, a dogn arall yn y bore, yn debyg i brofi yn dra effeithiol. Dywed rhai fod y dwfr, o'i gynnesu dipyn, yn gorwedd yn esmwythach ar y cylla. Mae y Creig-ddwfr (*chalybeate*) hefyd i'w gael yn y Parc, fel y lleill, ond yn anffodus y mae y ffrwd yn lled fechan. Yn ol dadansoddiad a wnaed gan Voelcker yn 1871, y mae un galwyn o'r dwfr hwn yn cynnwys y sylweddau a ganlyn :—

| | Grains. |
|---|---|
| Chloride of Sodium,.............................. | 294·31 |
| Chloride of Potassium,.......................... | 3·29 |
| Chloride of Calcium,............................. | 64·40 |
| Chloride of Magnesium,......................... | 11·95 |
| Carbonate of Lime,............................... | 4·34 |
| Sulphate of Lime,................................. | 0·87 |
| Carbonate of Iron,................................ | 1·24 |
| Iodide of Potassium,............................. | 0·01 |
| Soluble Silica,...................................... | 2·20 |
| Water in combination and a little organic matter,............................................ | 10·54 |
| Total grains,............... | 393·15 |

Y mae y dwfr tyner hwn yn dra gwasanaethgar mewn lliaws o anhwylderau, yn enwedig i blant, a merched gweiniaid. Y sylwedd mwyaf pwysig ynddo, ydyw yr halen haiarnaidd. Gall y darllenydd dybied pa mor bwysig ydyw i iechyd, pan ddealla fod haiarn yn ffurfio rhan hanfodol o'r gwaed, canys y mae y sylwedd sydd yn lliwio y gwaed yn cynnwys o chwech i saith y cant o haiarn. Pan balla hwn, cynnyrchir *anæmia*, aiff y dioddefydd yn llwyd ac afiach ei wedd, i deimlo yn wan ac annedwydd, ac i golli archwaeth at fwyd, i ddioddef oddiwrth gur yn y pen, poen yn y cefn a'r aelodau, ac yn aml oddiwrth guriad y galon, ac yn achlysurol rhyw duedd i fyned i lewyg. I adferu y cyfansoddiad i'w gyflwr cyssefin, ac i godi y gwaed i safon o iechyd, nid oes dim i'w gymmaru i haiarn yn ddognau bychain a mynych, gyda digon o ymarferiad corfforol yn yr awyr puraf ellir gael, megis awyr Llandrindod. Ond er fod y dwfr yn dra llesol mewn lliaws o achosion, y mae yn waeth na diwerth mewn achosion ereill. Dylid yfed y Creig-ddwfr yn ddognau graddol gynnyddol, dair neu bedair gwaith yn y dydd, gan ddechreu cyn brecwest, a'r dogn cyntaf rhwng chwech a saith o'r gloch y bore. Yna cerdder yn brysur am ugain munyd, neu ragor; yna dychweler a chymmerer dogn arall, neu hwyrach ddau, cyn brecwest, canys gellir cymmeryd y dwfr hwn yn nes i adeg bwyd na'r dyfroedd sulphuraidd a halenaidd. Gellir cymmeryd dogn arall oddeutu 11 neu 12, ac un arall yn ystod y prydnawn. Dywed ysgrifenydd yn y "Cambrian Series," i'r hwn yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o'r ffeithiau yn yr erthygl hon :—"Yn y dechreu, dylai y dogn fod yn un ran o dair, o hyny i hanner llon'd gwydryn bwrdd cyffredin, (o dair i bum wns), ac i gynnyddu yn raddol i lon'd gwydryn; ond dylid gosod i lawr fel rheol bob amser i'w chofio, na ddylid yfed unrhyw ddwfr mwnawl yn ddognau mwy nag un glasiad, (dyweder o wyth i ddeg wns), heb seibiant o ugain munyd rhyngddynt o leiaf, fel ag i un dogn gael amser i dreulio cyn cymmeryd un arall. Y ffordd oreu i lenwi y seibiant hwn, ydyw cerdded yn lled galed. Bai mawr y rhai sydd yn defnyddio dyfroedd mwnawl Llandrindod, ydyw yfed symiau mor aruthrol. Y maent fel pe baent yn meddwl, os gwna tri glasiad gymmaint o les, y derbyniant ddwbl leshad wrth yfed chwe glasiad, ac felly ymlaen; nes y llwyddant i ennill iddynt eu hunain gur yn y pen, a phoen yn y cylla, am y rhai y beiant y dyfroedd, pryd mewn gwirionedd mai hwynthwy eu hunain sydd i'w beio, am fod mor anghymmedrol. Gormod o ddim nid yw dda." Dylid bod yn dra gofalus hefyd pa beth a fwytteir ac a yfir gan y rhai fyddo yn defnyddio y dyfroedd; nis gellir dysgwyl lleshad heb dalu sylw i ymborth, baddonau, ymarferiad yn yr awyr agored, arferion rheolaidd gyda byw, codi a myned i gwsg, ac o gymmeryd y prydau bwyd. Er nas gellir rhoddi yr un rheol i bawb, etto dylai pawb ofalu na orlwythont eu cylla. Tra dan driniaeth Llandrindod, ni ddylai y cylla gael ei orweithio trwy gymmeryd ymborth rhy drwm, neu yn rhy aml. Yn gyffredin y mae tri phryd yn y dydd yn llawn ddigon, ond os bydd yr ymwelydd wedi hen arfer cymmeryd pedwerydd, ac yn teimlo nas gall wneud hebddo, gellir ei gymmeryd, ond yn ddilys ddiammeu, ni ddylai fod ar ffurf swpper trwm. Dylai fod o'r nodwedd fwyaf ysgafn, a'i gymmeryd o leiaf ddwy awr neu dair cyn myned i'r gwely. Ni ddylid cymmeryd dim ar ffurf bwyd neu ddiod, oddieithr dyfroedd y ffynnonau, rhwng y prydau. Yr unig eithriad i hyn ydyw, y gellir yfed glasiad o laeth newydd cyn troi allan, y cyntaf peth yn y bore. Dylai ymwelwyr â'r ffynnonau fyned i'w gwelyau bob nos cyn deg o'r gloch, a bod ar eu traed chwech o'r gloch yn y bore.

Y mae yn y plwyf rai pethau o ddyddordeb i ymwelydd fyddo a'i duedd at henafiaethau. Ar y cyttir, ychydig islaw yr hen eglwys, y mae olion amddiffynfa bedair-onglog, agos yn gan llath o amgylchedd, gyda mur o'i chwmpas. Ar eithafbwynt dwyreiniol y cyttir, uwchlaw pentref Howey, ceir olion lled berffaith o wersyllfa, bron yn ffurfio cylch, yn cau i mewn oddeutu hanner can llath o drawsfesur, gyda rhagfur o'i chwmpas, a phyrth yn y dwyrain a'r gorllewin yn unig; saif ar lechwedd, ac oddiwrth ei hagosrwydd at olion Rhufeinig ereill, tybir mai gweddillion cylch-chwareufa i gynnal campau ydyw. Flyneddoedd yn ol, gellid gweled yn ymyl, olion gwersyllfa arall, bron yn ysgwar o ran ffurf. *"Campi Æstivi"* y gelwir y gweddillion hyn yn un o gyfrolau Cymdeithas yr Henafiaethwyr, a safant gerllaw olion hen ffordd balmant, yr hon, fel y tybir, oedd yn arwain o wersyllfa ar lanau yr Ithon, yn mhlwyf Llanfihangel-Helygen. Yn ystod y blyneddoedd diweddaf, y mae y tir wedi ei dori a'i aredig gymmaint, fel nad yw yn hawdd dod o hyd i'r gweddillion hyn, ac y mae rhai pobl yn myned mor bell ag i ammeu eu bodolaeth. Pa fodd bynag, cafwyd ar y cyttir rai blyneddoedd yn ol, weddillion saith o grugiau, (*barrows*), pump yn ymyl eu gilydd, a'r ddwy ereill ychydig bellder oddiwrth eu gilydd; pan agorwyd hwynt, cafwyd ynddynt grochanau, gyda gweddillion llosgedig esgyrn dynol. Ceir gweddillion cylch Derwyddol hefyd yn ymyl Eglwys Crist; agorwyd tomenau, neu garneddau, yn ymyl y cylch hwn yn y flwyddyn 1710, a chafwyd ynddynt hwythau esgyrn dynol, a darnau o goed llosgedig. Y mae yn ymyl

Digitized by Google

yr eglwys hen fwnglawdd plwm, yr hwn, fe ddywedir, a weithiwyd gyntaf gan y Rhufeiniaid, ond nid yw o ddim gwerth yn bresennol. Darganfyddwyd, sylfaeni hen gapel, o'r enw Capel Faelon, mewn cae ŷd yn y plwyf, ond nis gwyr neb ddim o'i hanes. Cafwyd hefyd yn y ddaear, arian bathol, o amser Elizabeth, Iago I., a'r Siarliaid.

**LLANDRINIO**, plwyf yn undeb LLANFYLLIN, swydd DREFALDWYN; ar Glawdd Offa, Camlas swydd Drefaldwyn, a'r afon Hafren, mewn congl yn mhen dwyreiniol y sir, gerllaw ymuniad yr Hafren a'r Fyrnwy, heb fod neppell o swydd Amwythig, a cherllaw gorsaf reilffordd Four Crosses, naw milldir i'r de o Groesoswallt. Y mae pont hardd, gyda thri bwa, yn croesi yr Hafren gerllaw yr eglwys, a sonir am dani gan Mr. Pennant. Cynnwysa drefgorddau Llan, a Threderwen; ac ystyrir y plwyf yn un o'r rhai ffrwythlonaf yn y Dywysogaeth, yr hyn sydd i'w briodoli i ddyfrhad y tiroedd gan y ddwy afon. Cafodd y cyttir ei gau i mewn trwy ddeddf seneddol a basiwyd yn 1787, ac y mae yn bresennol mewn sefyllfa ragorol o ddiwylliad. Erwau, 3832. Gwerth ardrethol, 4671*p*. Poblogaeth, 910. Tai, 157. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 580*p*., ac yn nawddogaeth yr Esgob. Trinio yw nawddsant yr eglwys, yr hon sydd hên adeilad yn yr arddull Seisnig boreuol, a chafodd ei hadgyweirio yn drwyadl yn 1829, ac 1858. Y mae yn y plwyf addoldai perthynol i'r Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Cyntefig, a 15*p*. o elusenau blynyddol. Arferai Llandrinio Hall, a Phenrhos, fod y prif balasdai yn y gymmydogaeth, ond tenantiaid sydd yn byw ynddynt yn bresennol. Ar gopa y mwyaf gogleddol o fryniau Breidden, yn y gymmydogaeth hon, y mae colofn Rodney.

**LLANDRYGARN**, plwyf yn nghwmmwd LLIFON, cantref ABERFFRAW, undeb a swydd MON, yn sefyll bedair milldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd Llanerchymedd, a chwe milldir i'r gogledd-orllewin o Langefni. Cynnwysa y plwyf, rhwng capeliaeth Gwyndy, 2430 o aceri, gwerth 2464*p*. o eiddo ardrethol, 359 o boblogaeth, a 77 o dai. Prif hynodrwydd y plwyf, ydyw iddo fod yn fangre preswylfod Rhys ab Llewelyn ab Hwlcyn, yr hwn am ei wasanaeth yn mrwydr Maes Bosworth, a gafodd ganiattad gan Harri VII. i fabwysiadu y cyfenw Bodychan, sef enw preswylfod y teulu, ac efe a bennodwyd yn sirydd cyntaf Mon, yr hon swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Gwyndy, a elwir felly oddiwrth westty a safai hanner y ffordd rhwng Bangor a Chaergybi, yr hwn a aeth yn ddi angenrhaid pan godwyd Pont Menai, ac y trowyd y ffordd fawr i gyfeiriad arall. Bu cyssegrfa eglwysig yn y fan lle y saif y Gwyndy yn bresennol, a chedwir yno etto, gyda gofal mawr, liaws o bethau er coffadwriaeth am yr hen leiandy. Cafwyd yn y gymmydogaeth, ers blyneddoedd lawer yn ol, forthwylion mawrion, wedi eu gwneud mewn dull rhwydd, allan o graig drap, a llaw-felinau o wahanol faintioli, rhai wedi eu gwneuthur yn gelfyddgar, ac ereill yn ddi lun. Mewn lle o'r enw Rhyd-y-Saint, yn y plwyf hwn, yr arferai yr hen Fynachod gynt wersyllu, a chynnelid yno gynnadleddau o bryd i bryd, ar fatterion eglwysig a chrefyddol. Dywed ysgrifenydd ar "Hanes ac Ystyr Enwau Lleoedd yn Mon," am leoedd yn y plwyf hwn:—

"*Rhyd Caradog, a Rhyd-y-Saint*.—Y mae cyssylltiad neillduol rhwng y ddau le yma â'u gilydd. Yn Rhyd-y-Saint yr arferai yr hen fynachod wersyllu; ac yno yr ymgynnullid ar wahanol adegau o'r flwyddyn, i ymdrin â matterion eglwysig a chrefyddol. Pan fyddai y rhyw deg yn cyflwyno eu hunain i'r Gwyndy, deuent ar eu taith i'r Rhyd, a'u ceraint a'u cyfeillion gyda hwynt. Treulient ychydig amser yma, i ymddiddan a chynghori eu gilydd; ac yna cychwynid gyda hwynt, yn araf, dan ymgomio, tua'r gyssegrfa, hyd nes y deuent at Rhyd Caradog. Brwd a chymmysglyd fyddai teimlad eu mynwesau, pan gyrhaeddent y Rhyd hwnw, o herwydd ni oddefid i gâr na chyfaill fyned gam ymhellach; ac felly, ffarwelient yn nghanol cri a dagrau, a dywedir mai gwir ystyr y gair ydyw 'Rhyd Criadog.' Codwyd maen mawr dros yr afon sydd yn rhedeg drwy y lle hwn, yn amser John Bodychen, a Rhys Bold, Treddol. Dywedir fod oddeutu dau gant yn ciniawa ar yr achlysur yn Bodychen.

"*Pentre Bwaau*.—Yn amser y mynych ymosodiadau fu ar blant Gomer, bu y fan yma yn lle pwysig, oblegid aml y cyrchid i'r lle gan finteioedd gwrthryfelgar, am mai yma y cedwid y bwäau saethau. Y mae careg gerllaw yr eglwys, ar ba un y dywedir y byddent yn arfer minio blaenau eu saethau. Y mae wedi ei rhychu yn ddofn, ac yn ol pob tebyg bu traul fawr arni. Y mae amryw bethau yn aros, ac i'w gweled hyd heddyw yn y pentref hwn, megis 'Tarian y Saethau,' &c. Dywedir fod ogof yn rhywle gerllaw y fan hon, ymha un yr arferid ymguddio, ond nid oes un arwydd o honi yn awr i'w weled.

"*Cae'r Coll*.—Dywedir i'r lle hwn dderbyn yr enw yna fel y canlyn:—Yr oedd unwaith ddwy fyddin yn cydgyfarfod—un oddiwrth Lanerchymedd, a'r llall oddiwrth Cefnithgraen. Daethant i gyfarfyddiad sydyn, oblegid fod bryn rhyngddynt; cyrhaeddodd un fyddin ben y bryn yn gyntaf, a chafodd y llall ei gyru yn ol, a chollodd y frwydr; ac yna galwyd yr ucheldir yn 'Bryn y byddin,' a'r maes yr enciliwyd iddo yn "Gae'r goll'—y rhai sydd yn enwau arnynt hyd heddyw.

"*Tyddyn Bleddyn*.—Gelwid ef oddiwrth Bleddyn ab Adda; a thybir fod lle arall, yn mhlwyf Llanwenllwyfo, wedi ei enwi oddiwrth yr un person, sef Nant-y-Bleddyn."

Bu y plwyf hwn gynt, yn rhan o blwyf Caergybi. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, ynglyn â ficeriaeth Bodwrog, yn esgobaeth Bangor. Ei gwerth yw 228*p*., ac y mae yn nawddogaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain. Yr eglwys sydd hên adeilad, wedi ei chyssegru i Drygarn Sant, ac y mae mewn cyflwr da. Perthyna i'r eglwys ysgol ddyddiol, yn yr hon y cyfrenir addysg i blant y plwyf hwn, a Bodwrog, y plwyf nesaf.

**LLANDUDNO**, tref fechan, a phlwyf, yn Undeb Conwy, swydd GAER-YN-ARFON. Y mae y dref yn gorwedd ar lan y môr, rhwng Pen Gwygarth, a phen craig Rhiw-leden, ar derfyniad cangen fer o reilffordd Caerlleon ar Ddyfrdwy, a Chaergybi; 3½ milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o Gonwy; ac mor ddiweddar a'r flwyddyn 1840, nid oedd namyn pentref bychan, a gyfanneddid gan fŵngloddwyr, a physgodwyr, yn nghyda dau neu dri o ammaethdai lled fychain: ond erbyn hyn y mae yn ymdrochle dra phrydferth, i'r hon y cyrcha miloedd o fonedd y Deyrnas Gyfunol, i dreulio misoedd yr Haf; ac fel ymdrochle, y mae ei bri yn myned ar gynnydd yn barhaus, gan ei bod yn hynod am lanweithdra ei

Digitized by Google

heolydd, ac iachusrwydd ei hawyr; a'r cyfleusderau manteisiol i ymdrochi ar unrhyw dywydd o'r bron a gair yma. Y mae y tai wedi eu hadeiladu yn hardd, a chyfleus, at lettya yr Ymwelwyr, ac y mae yma amryw westtai rhagorol, yn mysg y blaenaf o ba rai y cyfrifir y *St. George*, y *Queen*, a'r *Adelphi Hotels.*

Adeilad fechan ydoedd eglwys y plwyf hwn, wedi ei chyfodi ar lechwedd gogleddol Pen Gwygarth. Dywaid traddodiad, i addoldy gael ei gyfodi yn y fan hon ar y cyntaf, yn y chweched ganrif, gan Tudno, un o feibion Seithenyn o Faes Gwyddno, tiriogaethau yr hwn ar ymylau Ceredigion, a orlifwyd gan y mor. Y mae yn debyg i adeilad fwy, gael ei chyfodi ar yr un lanerch, tu a'r unfed ganrif a'r ddeg; ac i hono gael ei helaethu drachefn, efallai, yn y bymthegfed ganrif. Fel hyn y dywaid y diweddar Barch. H. Longueville Jones, yr hwn oedd yn dra chyfarwydd ar hen adeilyddiaeth eglwysig;—"Y mae yn amlwg fod gweddillion o adeilad yr unfed ganrif ar ddeg yn y mur gogleddol, lle y mae rhesi o geryg bychain, bob yn ail a rhesi o rai mawrion, megys y gwelir yn gyffredin mewn adeiladau tra boreuol. Y mae y dull yma o adeiladaeth, yn cyrhaedd tua haner y ffordd o'r pen gorllewinol tu a'r pen dwyreiniol. Ac y mae gwahaniaeth yn arddull y maen-waith o'r fan hono, yn dangos fod yr eglwys wedi ei gwneyd yn ddwywaith ei hyd blaenorol, trwy yr ychwanegiad o ganghell, yr hon sydd o'r cyfnod darbenol. Gan hyny, y mae yr adeilad, fel y saif yn bresenol, yn arddangos nodau o ddau gyfnod gwahanol; y cyntaf, efallai, o'r unfed ganrif ar ddeg, neu y ddeuddegfed ganrif, a'r olaf yn cynnwys holl arweddau adeilyddol y bymthegfed ganrif." Yr oedd llawer o egni i adeiladu eglwysi trwy Gymru yn y bymthegfed ganrif; ac er y gall fod peth anhawsder i benderfynu yn fanwl amseriad yr amryfal ranau o'r adeilad, y mae arwyddion digon eglur o gyfnewidiadau olynol yn weledig yn y maen-waith, i gyfiawnhau casgliadau henafiaethwyr craffus. Y mae mynedfa fwaog isel i'r eglwys yn y pen gorllewinol; a phorth ar y tu gogleddol yn nghyd ag agen i un golau, ffenestr ysgwâr i dri golau yn y pen dwyreiniol, ac un arall gyffelyb, o ddau oleu, yn yr ochr dde-ddwyreiniol, a ffenestr ben-gron sengl, yn agos i'r porth, ar y tu gogleddol. Mesurau tufewnol yr adeilad hon yw 67 troedfedd o hyd, wrth 16½ troedfedd o led; ac yr oedd ysgariad y gangell yn cael ei nodi ar y dechreu gan gysgodlen gerfiedig, a llofft y grog, ar y rhai y gellid barnu oddiwrth yr ychydig friwion a gadwyd, yr oedd gwaith tra chelfydd wedi ei wneyd. Yr oedd coed nen y gangell hefyd, wedi eu haddurno yn gelfydd yn yr hen adeilad. Yr ydoedd prif attegion y tô hefyd, wedi eu haddurno yn wŷch âg arwyddluniau eglwysig, yn nghyda phentablech cerfiedig, yr hwn a redai ar hyd y muriau. Yr oedd cloer, a llech-gredfa ynddi, gerllaw y ffenestr ddwyreiniol. Y gweddill o'r trawstiau, a choed y nen, oeddynt ddi addurn, wedi eu bras-naddu a bwyall, a'u cydio â choed-hoelion annghelfydd. O'r diwedd, aeth yr eglwys ar y mynydd yn annghyfanneddol o'r bron, a goddefid iddi fyned yn dra adfeiliedig; ac yn mis Ionawr, 1839, ymdorodd ystorm aruthrol ar y mynydd, yr hwn a ysgubodd ymaith dô yr eglwys, ac a wnaeth y fath anrhaith ar yr adeilad, fel na wnaed unrhyw ymdrech effeithiol i adgyweirio yr anrhaith a wnelsid arni gan yr ystorm; a chan fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn preswylio ar y lleindir gorls y mynydd, yn mhell oddiwrth yr hen eglwys, penderfynwyd adeiladu eglwys newydd, mewn man mwy cyfleus i'r boblogaeth. Ac yn y canlyniad, adeiladwyd hono, a rhoddwyd i fynu gynnal gwasanaeth yn hen eglwys Sant Tudno, oddieithr gwasanaeth claddedigaeth, ac fe adawyd yr hen eglwys yn agored i anrheithiadau dynion, a'r hin dymhestlog. Cwynai llawer am fod yr hen gyssegrfa, lle y moliannai ein tadau yr Arglwydd, a'r llanerch lle y gorweddai llwch cenedlaethau o drigolion y plwyf hwn, yn cael ei gadael mor esgeulusedig a di ymgeledd; a gwnaed cynnygiadau fwy nag unwaith, i gasglu arian at ei hadgyweirio; ond nid oedd dim yn cael ei wneyd yn effeithiol hyd oddeutu y flwyddyn 1855, pan ddarfu i foneddwr o'r enw William Henry Reece, Ysw., ymgymeryd a'r draul o'i hadgyweirio, o dan arolygiaeth F. W. Fiddian, Archadeiladydd. Mewn cloer ar ganol mur gogleddol yr eglwys, y mae coflech farmor hardd, yn dwyn arni yr hysbysiad canlynol, yn y Gymraeg, y Saes'neg, a'r Lladinaeg:—

O.C. MDCCCLV.

YR EGLWYS HENAFOL HON, ST. TUDNO, YR HON A FUASAI MEWN CYFLWR ADFEILIEDIG LAWER O FLYNEDDOEDD, A ADFERWYD ER ANRHYDEDD I'R HOLLALLUOG DDUW, AC FEL ARWYDD O DDIOLCHGARWCH AM ADFERIAD IECHYD EI UNIG FERCH YN Y LLE HWN, GAN WILLIAM HENRY REECE, YSW., AR EI DRAUL EI HUN YN UNIG.

"GOGONIANT YN Y GORUCHAF I DDUW; AR Y DDAEAR TANGNEFEDD, I DDYNION EWYLLYS DA."

Yn y blynedddoedd hyn y mae gwasanaeth Dwyfol yn cael ei gynnal yn rheolaidd ar y Sabbathau yn misoedd yr hâf, yn hen eglwys Sant Tudno, lle yr ymgynnulla torfeydd mawrion o'r Ymwelwyr dyeithriol a fynychant y dref. Ac heblaw y ddwy eglwys a grybwyllwyd eisoes, y mae un arall, fawr a hardd iawn, yn cael ei hadeiladu yn ngwaelod Heol Mostyn, yn yr hon y cynhelir gwasanaeth Seis'nig yn rheolaidd.

Y mae yma addoldai Seis'nig mawrion a chyfleus gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Wesleyaidd; a chynhelir gwasanaeth Seis'nig bob Sabbath yn misoedd yr hâf, yn *St. George's Hall*, gan Eglwys Rydd Lloegr. Y mae yma addoldai Cymreig hefyd, gan y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd, yn y rhai y cynhelir gwasanaeth crefyddol yn rheolaidd; ac y mae Ysgolion Sabbathawl blodeuog yn gyssylltiedig a'r holl addoldai Cymreig.

Oddifewn i eglwys Sant Tudno, ar y mynydd, y mae dau gauad arch, wedi cerfio llun y groes yn dra chywrain arnynt; y mwyaf o honynt, sydd yn chwe throedfedd o hŷd, wrth ddwy droedfedd o led yn y pen uchaf, a throedfedd a chwe modfedd o led yn y pen isaf: y llall a fesura bum troedfedd a chwe modfedd o hyd, wrth ugain modfedd o led yn y pen uchaf, a deuddeng modfedd o led yn y gwaelod. Fe'u cafwyd yn gladdedig o dan allor yr hen eglwys, pan yr ydoedd yn ei chyflwr adfeiliedig; ond ni chaed eirch yn perthyn iddynt, yr hyn a barodd i rai farnu mai eu dwyn yno a wnaed, o hen Fonachlog Gwygarth, ar ddadgorfforiad y crefydd-dai Pabaidd. Bernir oddiwrth eu cerfiad, eu bod o'r ddeuddegfed, neu y drydedd ganrif-ar-ddeg; a'u bod unwaith yn gorchuddio gweddillion trancedig rhyw rai pendefigaidd.

Digitized by Google

Ar yr ochr ogleddol i Ben Gwygarth, bron islaw y Goleudy, y mae math o ogof, a elwir gan y brodorion, "Ogof Llech," yr hon sydd yn haner wythongl o ran ei ffurf, ac ar y mynediad i fewn iddi, y mae dwy golofn o geryg nâdd, un o bob tu i'r fynedfa, a chefn yr ogof, a'i meinciau, wedi ei gwneyd o'r un defnydd. Rai blyneddau yn ol, yr oedd bwrdd o garreg nâdd yn ei chanol; ond nid oes namyn y bonsang, neu droed y bwrdd, wedi ei adael. Yn ochr y fynedfa hefyd, yr oedd gynt gafn carreg i ddal dwfr, yr hwn a gyflenwid yn barhaus a'r dwfr croyw pereiddiaf, yr hwn a drosglwyddid iddo ar hyd rhigol celfyddydol, wedi ei naddu yn y graig; a'r un dwfr a leinw faddon celfyddydol, sydd wedi ei gafnio yn y graig, goris yr ogof. Mesura yr ogof, neu "y gell" hon, tua chwe throedfedd a chwe modfedd ar ei thraws bob ffordd, a deg troedfedd o uchder; a mesurai y cafn dwfr a grybwyllir uchod, un fodfedd ar bymtheg ar ei draws oddi fewn, a dwy ar hugain oddi allan; ac wyth, neu naw modfedd o ddyfn; ond, y mae hwn hefyd, wedi ei ddwyn oddi yma er's amryw flyneddoedd. Barna rhai mai hon ydoedd hen gell gyntefig Sant Tudno, lle yr ymneillduai efe i ymofyn am gymmundeb â Duw mewn unigrwydd tawel, cyn adeiladu y Llan ar y mynydd, yn dŷ gweddi i'r bobl; ond y mae eraill a farnant mai math o bleserdy ydoedd, a wnaed gan rai o henafiaid teulu Mostyn, y rhai a droent yma i gymeryd lluniaeth, pan ar eu taith helwriaethol ar y mynydd hwn. Efallai fod y ddwy dystiolaeth uchod yn gywir; mai dyma lle yr ydoedd cuddigl Sant Tudno ar y dechreu, a bod y cyssegredigaeth a gyfrifid yn yr oesoedd tywyll yn nglyn a'r fath leoedd, wedi cadw bri ar y fan, fel ag y bu yn gyrchfa hen feudwyod dyhewydus am oesoedd wedi ei amser ef; ond i rai o hen fonedd Gloddaeth mewn amseroedd diweddarach, ei wneyd yn fath o haf-dy, lle y cyrchent yn achlysurol. Wrth sylwi yn fanol ar wyneb y graig uwchlaw "Ogof Llech," gwelir darlun o Ddallhuan, o Alarch, ac o Wyneb dŷn, wedi eu cerfio o'r graig; ond y mae curiadau parhaus y tonau ar y graig, pan yn cael eu gyru o flaen y dymhestl, wedi eu gwneyd yn aneglur weithian. Yr oedd llwybr dyogel yn arwain i waered o'r mynydd i'r Ogof, dro yn ol; ond y mae ei ymylon wedi eu bwytta gan yr ystormydd erbyn hyn, fel y mae yn rhy beryglus anturio y ffordd hono bellach; a'r rhai a chwenychant weled yr hen gell henafol, a logant gwch, i'w cymeryd yno o Landudno.

O fewn ychydig latheni i "Ogof Llech," y mae cilfach arall, yn nannedd creigiau Gwygarth, a elwir "Ogof Hornby," yn y blyneddoedd hyn. Yr achlysur o roddi y cyfryw enw iddi, oedd llong-ddrylliad galaethus y friglong *Hornby*, rhwym o Lynlleifiad i Ddeheudir America, gyda llwyth a gyfrifid yn werth uwchlaw tri ugain mil o bunnau. Yn fuan wedi gadael o honi borthladd Liverpool, ymosodwyd arni gan ystorm fawr, yr hon a'i lluchiodd tua chanol nos yn erbyn creigiau ysgythrog Gwy-garth, gyd a'r fath nerth, fel y suddodd yn ddioed. Yr oedd un o'r morwyr yn dygwydd bod ar yr osg-hwyliar ar y fynyd ofnadwy hono, a chan rym y tarawiad, efe a daflwyd ar ddernyn cul o'r graig, lle y bu yn gorwedd dros ryw yspaid, mewn math o lewyg; ond wedi ymddadebru i ryw fesur, efe a ymdrechodd am ei fywyd; ac er yr ymddengys o'r bron yn anhygoel i bawb a edrycho ar y creigiau ofnadwy, efe a lwyddodd i ddringo i ben y clogwyn arswydus, ac a ymlusgodd i efail gôf oedd heb fod yn neppell, lle ei canfuwyd tua phump o'r gloch y boreu, gan ychydig weithwyr oeddynt yno, y rhai a berthynent i'r mwnglawdd efydd oedd gerllaw. Efe a adroddai ei chwedl alarus iddynt; ond y dynion a chwarddent am ben y fath chwedl anhygoel; canys ni's gallai y truan ddweyd dim, ond ei fod wedi dringo i fynu y serth-graig ofnadwy, ar yr hon y drylliasid y llestr; pa fodd, ni's gwyddai; ac ymddangosai y fath beth yn anmhossibl i'r dynion, y rhai oeddynt gydnabyddus a'r lle. Ond, erbyn goleuo o'r dydd, gwelid darnau o'r llong ddrylliedig yn agos i'r lle; ac yn fuan wedi hyny, cafwyd profion digonol o wirionedd chwedl y morwr. Ni achubwyd neb arall o'r rhai oeddynt ar fwrdd yr *Hornby*, na dim o'i llwyth gwerthfawr. Cymerodd y llong-ddrylliad galarus uchod le, Ionawr 1af, 1824.

Dywedir y byddai nwydd-redwyr yn arfer ymlochesu yn nghilfachau creigiau Gwygarth yn yr amser gynt; er eglurhad o'r hyn, adroddir yr Hanesyn canlynol gan Bennett, yn ei *Pedestrian Tour through North Wales* (1838):—"Dygwyddodd i mi, yn ffodus, neu yn hytrach yn anffodus," medd fy nghydymaith, "gymeryd fy lletty mewn bwthyn pysgodwr yn y pentref, yr hwn oedd yn wr gweddw, a chanddo un plentyn, geneth hawddgar, tuag un flwydd ar bymtheg oed. Hi a gyflawnai holl ddyledswyddau teuluyddes i'w thad, yn hynod drefnus a siriol, ac yn yr hwyr edrychid arni gan ieuenctyd y gymmydogaeth, fel yr eneth fwyaf siriol a phrydferth a ddawnsiai ar y traeth, gyda pheroriaeth y telynor dall, oedd yn byw yn y gymmydogaeth. Llawer gwaith, pan yn sefyll, ac yn edrych ar ei hysgafn draed yn symmud yn y ddawns, y dywedais ynof fy hun, Gresyn fyddai i droed mor ysgafn fyth gario calon drom. Druan oedd Jane! hi ydoedd y blodeuyn gwyllt pereiddiaf ar y bryn;—wedi ei maethu yn y dymhestl, eto yn ei symlrwydd naturiol, yn fwy ennillgar i galon a llygad na'r un anghynwynol gwychaf a allai moethau ei gynnyrchu. Cymerwn ddyddordeb hyfryd ynddi, a phenderfynwn wellau ei haddysg hyd y gallwn. Cawswn lawer cyfleusdra i sylwi ei bod yn meddu hoffder cryf at wr ieuanc, a dra rhagorai ar ei gymdeithion, mewn ansoddau corfforol a meddyliol; ond ydoedd yn hynod o wyllt ac anturiaethus. Wedi aros gyda hwynt yn agos i dri mis, yn ystod pa rai y gwenieithiwn i mi fy hun, fy mod wedi gwneyd y goreu o'm hamser i wellau moesau, ac ychwanegu at wybodaeth merch y pysgodwr, myfi a'u gadewais, gan addaw talu ymweliad iddynt drachefn yn mhen oddeutu mis, cyn dychwelyd o honof i Loegr. Yr oedd y dagrau yn sefyll yn llygaid Jane druan, fel yr oeddwn yn gadael y bwthyn, a'r hen bysgodwr a wasgai fy llaw yn garedig ar fy ymadawiad. Ei chariad, Marc, a safai a'i gefn llydan ar fur gwyn-galchog y bwthyn, gan chwibanu yn ddi daro. Wedi mis o wibrodiad, dychwelais yn ol i'r fan hon ar ddiwrnod ystormus a chymmylog yn Hydref; prydnhawn hynod o gaddugawl, ar yr hwn yr oedd y gwlaw yn disgyn yn llifeiriaint, a thrwst athrist y tonau yn curo yn erbyn y creigiau, yn disgyn ar fy nghlustiau, fel y dyneswn at fwthyn fy llettywr diweddar, pan yn ddisymwth, ar ddyrchafiad fy llygaid, y canfyddwn nifer o bobl yn cerdded mewn gorymdaith araf, fel pe buasent yn dyfod o gladdedigaeth, a deuai crynfa oer droswyf, pan adnabum dad Jane; ei gern-flew gwynion yn cael eu curo gan y gwlaw, ei ben yn

Digitized by Google

crymu tu a'r llawr, a'i ddwylaw yn mhleth ar ei fynwes, yn ddarlun byw o ing enaid. Gan ofni y buasai fy ymweliad yn anamserol, aethum rhagof i dafarn-dy bychan, a thra yn sychu fy nillad wrth y tân, fe'm hysbysid gan wr y tŷ, mai claddedigaeth Jane Morgan oedd newydd gymeryd lle. Syndod a thrallod a attaliai fy lleferydd dros beth amser; ac ni allaf byth annghofio y teimladau a'm meddiannai wrth wrando yr hysbysiad galarus; . . . eisteddais yn fud yn y gadair, ac ymdorais i wylo. Ei hanwylyd, Marc Bratts, yr hwn a fuasai yn 'cadw cwmpeini' a Jane druan er's mwy na deuddeng mis, a gawsai gydsynied ei thad i ymuno a hi mewn priodas, can gynted ag y byddai efe wedi casglu digon i ddechreu byw yn ddi brofedigaeth. Ond nid oedd galwedigaeth ansicr pysgodwr yn ymddangos i Marc yn debyg i ddwyn digon i fewn i'w alluogi i gael, nac i gynnal gwraig: ac efe a benderfynai gyrhaedd ei amcan mor fuan ag y byddai modd, mewn rhyw ffordd arall. Gwybyddid fod dyn o'r enw Simpson, nwyddredwr, (*smuggler,*) nodedig yn y gymmydogaeth, wedi casglu llawer o eiddo, a phenderfynai Marc ei gynnyg ei hun yn un o'r *criw* ar fwrdd ei lusghwylen, (*lugger,*) gan obeithio y gallai mewn mordaith neu ddwy, enill digon i roddi hawl iddo o'i brïod addawedig. Fe'i derbyniwyd i fwrdd y llong, a'r dydd canlynol, lledai y llestr bach ei hwyliau i'r awel, a chychwynai am Holland. Yr oedd gan Marc ychydig o arian, y rhai y penderfynai eu rhoddi allan am eu gwerth o wirod, gan obeithio y buasai yn enill digon i'w osod mewn sefyllfa foddhaol i fyned i'r ystad brïodasol. Ar un diwrnod ystormus, cyffroid preswylwyr Llandudno, trwy glywed trwst ergydion o gyfeiriad y môr, a'r gwynt yn chwythu yn gryf, yn union i'r lan. Yr ydoedd tu a'r amser y dysgwylid y nwyddredlong adref; a'r rhai a deimlent ddyddordeb yn ei dychweliad dïogel, a redent ar frys tua Phen Gwygarth, i edrych a oedd hi yn y golwg, neu mewn perygl, gan y gwyddent fod ysgafn-long y brenin yn gwibhwylio ar y gororau. Yr oedd y wawr ar dori, y môr yn ymgodi fel mynyddau; ac o fewn dwy neu dair milldir i'r creigiau, gwelent ddwy lestr yn hwylio o fewn tua haner milldir y naill i'r llall. Y gyntaf ydoedd *lugger* fechan, yn cario cymaint o hwyliau, fel ei gyrid trwy y tonnau, tra y cyfeiriai yn gymhwys tu a'r Pentir creigiog, a'i hwyl-brenau yn plygu fel cyrs dan bwysau y dymhestl. Fel yr ydoedd yn dynesu at ben y tir, gwelid y dwylaw oeddynt ar fwrdd y *lugger*, yn bwrw dwsingau o farilau bychain dros ei hystlys i'r môr. Pan oeddynt o fewn tua milldir i'r lan, y *cutter*, gan droi ei phen i'r gwynt, a daniodd ystlys lawn ar y *lugger*, gan annelu mor dda, fel y gwelid amryw yn cwympo yn ngwahanol ranau y nwydd-redlong. Er hyny parhaent i gario eu holl hwyliau, gan wybod fod digon o ddwfr i'w llong ysgafn hwy i groesi y traeth, wedi eu myned heibio i'r Pen, ac y byddai y llall yn sicr o daro ar y traeth os y beiddiai eu dilyn haner milldir yn mhellach, am ei bod yn llawer trymach na'r eiddynt hwy. Heblaw hyny, yr ydoedd eisoes mewn perygl, trwy anturio mor agos i'r lan, a'r awel yn chwythu yn gref o'r gogledd ddwyrain. Yr oedd y nwyddredlong yn fuan gerllaw y Pen, a'r clogwyni yn orchuddiedig gan bobl yn edrych yn graff ar y llestr fechan oddi tanynt, pan ergydid tid-belen o'r *cutter*, yr hon a dorodd ei phrif hwylbren, fel y disgynai dros ei hystlys. Torid ymaith y rhaffau mewn mynyd, er cael yr ysgyrion yn rhydd oddiwrthi; ac ysgubai y nwydd-redlong fel aderyn môr heibio i Ben Gwygarth, i feis-for Conwy; ond nid cyn i'w hymlidwyr anfon ergyd eto i'w hystlys, fel yr oeddynt yn cilio oddiwrth y lan. Fel yr oedd y *Typhon*, (yr hyn oedd enw llong y brenin) yn troi yn ol o'r ymlidiad, rhoddai yr herwyr beiddgar floedd gorfoledd, yr hon a attebid gan y degau oeddynt ar lethrau y creigiau; ac wedi cyffyrddiad ysgafn â'r draethell, nofiai y *lugger* yn ddïogel yn afon Conwy.

"Ond, pa le yr oedd Jane? Yn mlaenaf o'r lluaws a ymgynnullasent ar y creigiau, pan glywid y tanio gyntaf, gwelid y wyryf ysgafn-droed, fel pe buasai yn ehedeg i ymofyn ei hanwylyd; a safai ar y dibyn aruthrol, yn anystyriol o bob peth ond ei berygl ef, yr hwn a hoffai ei henaid; a'i llygaid yn sefydlog ar y llestri, fel pe y buasent ar neidio o'u tyllau, wrth geisio darganfod ei hanwyl Marc; ac fel yr oedd y llestr fechan yn ymlithro islaw y Trwyn, hi a grymai uwchlaw y dibyn, gan syllu ar y meirwon a'r clwyfedigion ar ei bwrdd; ond ni's gallai ei ganfod ef. O'r diwedd, pan y gwelai yr hwyliau yn cael eu plygu at yr hwylbrenau, a'r angor yn cael ei ollwng allan, hi a neidiodd i gwch, ac a'i rhwyfodd ei hunan at ystlys y llong; ac mewn mynyd yr ydoedd ar ei bwrdd, yn llefain yn wyllt am ei Marc hoff; ond nid oedd neb yn ei hatteb. A'i gwallt yn chwyfio yn y gwynt, a'i llygaid fel peleni o dân yn ei phen, tröai bob corph marw a'i wyneb i fynu: ac o'r diwedd deuai at gorph dyn heb ei ben: ond yr oedd cudyn o wallt melyn, wedi ei liwio â gwaed y *smuggler*, yn glynu wrth frest ei grŷs, ac amryw ranau o'i ddillad a adwaenid ganddi, yn ddigon i fflächio argyhoeddiad i'w meddwl, mai corph tranc-edig ei hanwylyd ydoedd. Ysgrêch orphwyllog, yr hon a lanwai galonau y criw beiddgar â braw, a dystiai ei bod wedi tori ei chalon; a chan gwympo ar ei gorph gwaedlyd, hi a drengodd yn y fan."

Pa faint o wirionedd sydd yn yr hanes uchod, ni's gellir cael allan erbyn hyn; yr hyn sydd debyg yw, bod rhyw ffaith wirioneddol yn sail iddi; ond bod dychymyg wedi gwisgo llawer o'r manylion am dani, wrth ei thraddodi o un oes i'r llall.

Y mae y plwyf hwn yn lled gyfoethog mewn olion henafiaethol: yn mysg pa rai y gellir crybwyll yr hyn a eilw rhai yn gromlech; ond, y mae yn fwy tebyg mai cell meudwy ydoedd, neu deml Ceridwen, duwies llawnder, yr hon a gynnrychiolid drwy y lloer, yn ffug-chwedlonaeth yr hen Gymry. Gelwir y lle, "Lletty y Filiast;" ac yr oedd y *Filiast* yn arwyddlun o'r lloer, neu Ceridwen, fel y dengys y *Parch. Edward Davies*, yn ei "*Mythology and Rites of the British Druids.*" Y mae yn dra thebyg fod y ffurf yma o grefydd, yr hon a ddysgai i ddynion addoli llu y nef, wedi cael ei dwyn i fysg cynfrodorion y wlad hon, gan hen drigolion Tyrus a Sidon, y rhai a drafnidient i'r wlad hon am fettel-oedd, bedair neu bum canrif cyn Cred: ac efallai i'r bobl hyny fod can belled a'r gymmydogaeth hon; o leiaf, gallwn enwi dwy ffaith, a dueddant i gefnogi y cyfryw dybiaeth;—Y gyntaf yw, bod amryw forthwylion o geryg, o wahanol faintioli, o un pwys, i haner cant o bwysi, yn yr hen fwngloddiau efydd yn y mynydd hwn, ac esgyrn o wahanol faintioli, y rhai a ddefnyddid yn lle cynion, i gael yr efydd allan o agenau y graig; yr hyn sydd yn profi y cloddid mŵn o ymysgaroedd y mynydd hwn, cyn dyfodiad

Digitized by Google

y Rhufeiniaid i'r wlad hon. Nid oedd yr hen weithiau hyn oddiar ddeunaw llath o ddyfnder.

Yr ail ffaith yw, darganfyddiad bathodyn lled annghelfydd, gerllaw Lletty y Filiast, yn y flwyddyn 1866, ar un wyneb i'r hwn yr oedd llun y lleuad, yr haul, a thair o sêr; ac ar y wyneb arall, ddelw Apollo; ac y mae y rhai mwyaf hyddysg mewn bathofyddiaeth, o'r farn iddo gael ei fathu yn Charan, yn Mesopotamia; ac mai bathodyn a ddefnyddid gan y Phenisiaid, addolwyr llu y nef, ydoedd.

Oddiar y dref, y mae hen amddiffynfa Brydeinaidd, a elwir gan y brodorion yn gyffredin, Pen dinas. Y mae dwy ran o dair o'i hamgylchedd yn serth-allt greigiog, i fynu yr hon ni's gallasai gelyn ddyfod, a'r gweddill sydd wedi ei chadarnhau a dau wrthglawdd cryf, a ffos ddofn o'r tu fewn i'r isaf: a chyd a'r amgaer uchaf, o'r tu fewn, y mae olion lluestai crynion y gwarchlu, o bump i chwech llath o drawsfesur; ac o'r tu fewn i'r rhai hyny, gwelir sylfeini lluestai y swyddogion, y rhai oeddynt yn fwy eu traws-fesur, a thebygid oddiwrth yr olion, eu bod o adeilwaith cryfach na'r eiddo y milwyr cyffredin. Ar yr ochr sydd yn wynebu tu a'r dwyrain y mae olion adeilad lawer mwy, a chrefach nag un o'r lleill, lle y gellir casglu fod lluesty y pennaeth. Yn y pen gorllewinol i'r hen amddiffynfa, y mae hen faen chwyf, yr hwn oedd o ddefnydd mawr pan oedd Derwyddiaeth yn ei bri.—Meddwn seiliau cryfion i gredu mai hen enw boreuol yr amddiffynfa hon oedd "Y Creuddin," neu, y Ddinas waedlyd, ac oddiwrthi y gelwir y Cwmmwd. Yr hyn sydd yn debyg yw, fod Agricola, yn y canlyniad i'r brwydrau ofnadwy a ymladdwyd rhyngddo a'r Gordofigwys, yn nghymmydogaethau Ysceifiog, Caerwys, a New Market, neu Dreflawnyd, wedi arwain ei fyddinoedd buddugoliaethus heibio Bodfari, ac Abergeley, i'r gymmydogaeth hon, gan gymeryd meddiant o holl amddiffynfeydd y brodorion yn ei ffordd, fel na byddai iddynt fantais i ymfyddino o'i ôl ef. Ymddengys i swyddog milwraidd enwog gwympo pan yn ymosod ar Bryn Euryn, gerllaw Llandrillo yn Rhos, a gelwir nant sydd wrth droed y bryn ar yr hwn y safai yr amddiffynfa hono, yn "Nant Symper," oddiwrth yr hyn y cesglir mai *Sempronius* oedd enw y Swyddog. Oddiyno, cyfeiriai y fyddin Rufeinaidd debygid, heibio y lle a elwir y Penrhyn, yn y Creuddin, drwy y bwlch a elwir "Pant yr Ellyll;" ac y mae yn debyg fod y Prydeiniaid wedi cyfleu eu Saethyddion ar fryncyn yn nghanol y Bwlch dywededig, i geisio attal y fyddin fuddugoliaethus; yr hwn fryn a elwir "Bryn y bwaau" hyd heddyw; ac fel prawf o fod yr ymdrechfa wedi bod yn galed iawn yn y lle hwn, y mae yno lanerch wrth odreu Bryn y bwaau, a elwir yr "Adwy Rudd," neu, yr Adwy Waedlyd, ac o fewn ychydig latheni i'r Adwy Rudd, y mae cof faen am ryw Swyddog Rhufeinaidd a gwympwyd yno; ond y mae yr argraff arno bron yn annarllenadwy erbyn hyn. Efallai fod y Prydeiniaid wedi cynnull byddin i'r gwastadedd sydd rhwng Llandudno a Dyganwy, ac iddynt gael eu baeddu yn ofnadwy yno, fel y gelwir y lle hyd heddyw, yn iaith y brodorion, "Y Maes Du." Wedi y gurfa hono, enciliodd lluaws o honynt i'w hamddiffynfa ar Ben dinas, tra y gwersyllai y fyddin Rufeinaidd tu a'r fan lle y mae Heol Madog, lle a elwid "Y Gorseddau," hyd oni adeiladwyd y dref ddiweddar arno; ac oddiyno anfonent ddau farchog, i wŷsio y gwarchlu i roddi yr amddiffynfa i fynu; ac y mae yn debyg i ddau farchog gael eu hanfon o'r amddiffynfa, i gyflafareddu a hwynt; a hyd yr oes hon, yr oedd llanerch goris yr amddiffynfa, ac o fewn tuag ergyd bwa iddi, yn cael ei alw "Clwt y pedwar Marchog;" ond fel yr adeiledid heolydd y dref dros y cyfryw lanerchau, collid yr hen enwau hanesyddol gwerthfawr hyn.

Y mae llanerch ar y mynydd, yn agos i Letty y Filiast, a grybwyllwyd uchod, a elwir gan y werin yn bresenol, "Maes Macrell," a'i tybed nad llygriad yw yr enw o Maes Marchell, (*Marcellus's Field?*) Ar un ochr gerllaw iddo, y mae lle a elwir "Bryniau Poethion;" ac ar yr ochr arall, yn gymhwys o'r tu ol i Letty y Filiast, y mae Carnedd, yr hon a agorwyd rai blynyddoedd yn ol, a chafwyd amryw wrnau ynddi, yn llawn o ludw, ac esgyrn dynol golosgedig. Y casgliadau y gellir eu gwneyd yn naturiol oddiwrth y ffeithiau blaenorol ydyw, bod y Rhufeiniaid wedi i gyflafareddiad y "pedwar marchog" droi allan yn aflwyddianus i gael gan y Prydeiniaid roddi eu hamddiffynfa i fynu, wedi arwain rhan o'u byddin, o leiaf, dan arweiniad un Marcellus, i fynu i'r mynydd, er mwyn cael mantais i ymosod ar yr amddiffynfa o'r tu cefn, lle y buasai yn hawsaf ei chymeryd, a gwersyllu tu a'r fan hon, gyd a'r bwriad o wneyd rhuthr-gyrch arni yn y nos; ond, bod nifer o lewion yr amddiffynfa wedi rhagflaenu eu bwriad, gan roddi eu gwersyll ar dân, ac ymosod arnynt yn bybyr, fel y lladdwyd llawer o honynt yn y derfysg, ac yn eu mysg, fe ddichon, amryw o'u swyddogion, cyrph y rhai a losgwyd, a'u lludw a gladdwyd yn y gwrnau, o dan y garnedd yn nghwr Maes Marchell. Yn y canlyniad i hyn, gellir meddwl y buasai y Rhufeiniaid yn cymeryd yr amddiffynfa trwy ruthr-gyrch, gan roddi yr holl warchodlu, a'r rhai oeddynt o'i mewn, i farwolaeth yn ddi arbed, yr hyn a barai i'r trigolion ei galw yn y canlyniad yn "Creuddin," neu, "Y ddinas waedlyd."

Ychydig bellder i'r Gogledd Orllewin o hen eglwys y plwyf, y mae adfeilion hen adeilad fawr i'w canfod, a adwaenir dan yr enw, "Lletty Fadog," ac yn lled agos iddo, y mae gweddillion hen fagwyrydd drylliedig, a elwir "Gwylfa y Ceirw." Y mae amryw o'r Ysgrifenwyr Seis'nig yn gyfeiliornus, debygid, yn haeru mai gweddillion hen lŷs y Tywysog Madog ydyw y Lletty Fadog uchod; ond, y mae yn fwy tebyg mai adfeilion hen balas a berthynai i Madog o Loddaeth ydynt, neu, ei dad, Madog ab Iorwerth Goch o'r Creuddyn, yr hwn oedd yn ei flodau yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac i'r hwn yr oedd Gogarth yn borfeldir ceirw.

Ar leindir isel, yr ochr dde orllewinol i Gogarth, y mae adfeilion hen adeilad fawr, a elwir gan rai, "Mynachlog Gogarth!" Bernir mai lle ydoedd a berthynai ar y dechreu i Fonachlog Aberconwy; lle ond odid yr anfonid brodyr llesg i gael adgyfnerthiad; ac mewn adeg ddiweddarach, fe'i rhoddwyd yn hafbalas i esgobion Bangor. Y mae y môr wedi bwytta y tir oedd dan lawer o'r adeilad erbyn hyn, fel y mae yn dra anhawdd cael unrhyw feddyl-ddrych cywir ac eglur, am faintioli a ffurf yr adeilad pan oedd yn ei gogoniant; yn unig gellir barnu ei bod yn adeilad fawr iawn ar un adeg.

**LLANDUDNO JUNCTION,** gorsaf ar reilffordd Caer a Chaergybi, o'r hon y mae cangen o reilffordd i Landudno ar un llaw, ac un arall i Bettws y Coed ar y llaw arall. Y mae yr orsaf hon o fewn tua chwarter milldir i dref henafol Aberconwy, yr ochr nesaf i Gaerlleon, i Bont Conwy.

Digitized by Google

**LLANDUDOCH**, LLANDYDOCH, neu SANT DOGMELLS, swydd blwyf a rhandir yn nosparth Aberteifi, yn swydd BENFRO. Saif y terfyniad ar geulan yr afon Teifi, yn cael ei wahanu, yn unig gan yr afon hon, oddiwrth dref Aberteifi. Gelwir y lle, Pen y bont, ond cynnwysa y pentref a elwir St. Dogmells. Y mae i'r lle lythyrfa dan Aberteifi. Y mae y plwyf yn cynnwys hefyd is-bentrefi, Cipyn, Pant-y-groes, a'r Abbey, neu Y Fonachlog, gyda Gweithdy Aberteifi. Erwau 6220, o'r hyn y mae 235 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 5642*p*. Poblogaeth, 2438. Tai, 641. Yr oedd gan yr hen Dywysogion Cymreig balas yma; a darfu i Rhys ab Tewdwr ymlid meibion Cadifor ab Collwyn oddi yma. Yr oedd yma Abaddy enwog wedi ei sefydlu, yn y lle a elwir yn awr Abbey-barn, gan Martin de Tours; ac y mae rhai o olion yr eglwys, a rhai o'r adeiladau oedd ar yr ochr ddwyreiniol, gyda rhai hynodion henafiaethol eto yn y lle. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â ficeriaethau Llantyd, a Monington, yn esgobaeth Ty Ddewi; ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys yn adeilad brydferth, wedi ei chodi ar derfyn yr hen abaddy; ac yn cynwys cofadail o Bradshaw, yr hwn a gafodd yr abaddy yn amser y dadgorphoriad. Y mae yma ddau addoldy perthynol i'r Ymneillduwyr.

**LLANDUDWEN**. Plwyf yn undeb PWLLHELI, cantref DINLLAEN, yn rhanbarth LLEYN o swydd GAERNARFON, 7 milldir i'r gorllewin-wrth-ogledd o orsaf rheilffordd Pwllheli, a 4¾ milldir i'r de-orllewin o Nefyn. Erwau, 1331. Gwerth ardrethol, 1123*p*. Poblogaeth, 94. Annedd-dai, 14. Mae y rhan fwyaf o'r tir yn glaiog, er fod peth yn fawnog, a graianog, ond ar y cyfan, y mae y tir mwyaf ffrwythlawn a diwylliedig yn y parth hwn o'r Dywysogaeth. Y golygfeydd oddiamgylch ydynt yn dra mawreddog, ond y gwrthddrych mwyaf amlwg ydyw Carn Fadryn, wrth waelod yr hon y saif palasdy Madryn, preswylfod Love Jones Parry, Ysw., yr aelod seneddol dros sir Gaernarfon. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, ynglyn â ficeriaeth Rhiw, yn esgobaeth Bangor. Eglwys y plwyf sydd wedi ei chyssegru i Sant Tudwen, ac y mae addoldai gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr yma.

**LLANDURY**, capeliaeth, yn mhlwyf PEMBREY, cantref CYDWELI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, ddwy filldir a hanner o Gydweli; cynnwysir y boblogaeth yn y cyfrif am y plwyf.

**LLANDWROG**, plwyf, yn undeb, a swydd GAER YN ARFON. Y mae y plwyf yn gorwedd ar lan beis-for Caer yn arfon, ar ffordd Sarn Helen, ac ar reil-ffordd swydd Gaer yn arfon, 5 milldir i'r Dehau wrth Orllewin o Gaer yn arfon. Y mae yma bentref o'r un enw, a llythyrfa dan Gaer yn arfon; fe'i rhenir yn ddau ddosbarth, yr isaf, a'r uchaf; ac yn cynnwys pentrefi Bethesda, a Thy'n llôn. Erwau, 9516, o ba rai y mae 200 dan ddwfr. Gwerth ardrethol y dosbarth isaf, 3444*p*.; y dosbarth uchaf, 7158*p*.—o'r hyn y mae 3280*p*. mewn cloddfeydd; a 450*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth y cyfan, 2825. Tai annedd, 614. Y mae y rhan fwyaf o'r plwyf yn perthyn i Arglwydd Newborough, Glyn llifon. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn arch-ddiaconiaeth, ac esgobaeth Bangor. Darfu i Mrs. Ellen Glynn gyfodi elusendai yma i ddeuddeg o hen ferched di briod, gan eu gwaddoli âg ardreth y Plas Newydd, yn mhlwyf Llangoed, yn Môn; ac y mae amryw elusenau eraill yn perthyn i'r plwyf. Y mae cloddfeydd llechi llwyddiannus yn Pen y Bryn, Tal y Sarn, a'r Cilgwyn; a mwngloddiau efydd yn Nrws y Coed, ger troed y Wyddfa. Yn ngwaelod y plwyf hwn, ar lan y môr, y mae yr hen amddiffynfa gref a elwir "Dinas Dinlle," yr hon a amgylchai oddeutu ugain erw o dir. Gellir barnu mai hen amddiffynfa Brydeinaidd ydoedd ar y cyntaf; ond bod y Rhufeiniaid wedi gwneyd defnydd o honi mewn cyssylltiad a Chaer Seiont, pan ymsefydlasant yn y wlad hon. Y mae yr amddiffynfa eang hon yn gynnwysedig o amgaerau uchel a llydain, o bridd a cheryg, y rhai a amgylchir mewn rhan gan ffos ddofn. Y mae y ffurf yn hir-grwn, a mesura o'r dwyrain i'r gorllewin 480 o droedfeddi; ac o ogledd i ddehau, 385 o droedfeddi. Yr oedd y Ddinas hon yn bwynt, lle y cyfarfyddai dwy gadwyn amddiffynol, amryw o ba rai sydd yn weledig o ben y Dinlle. I'r dehau y mae Caer Cyngar, Craig y Dinas, Moel Glan yr afon, Carn y Gewach, Carn Madryn, Carn Moel Bentyrch, Castell Gwgan, Caer Cricerth, (cyn y castell,) Pen y Gaer, (gerllaw Tremadoc), Caer Collwyn, hyd arfordir Ardudwy. Ar y llinell hon y mae Tre'r Caerau, ar ben un o drumau uchel yr Eifl, yr hon yw y gadarnaf, a'r oreu o ran cadwraeth, o un dref na chaer Brydeinig yn Ngwynedd. I'r gogledd hefyd, wele Ddinas Dinoethwy, Dinas Dinorwig, Bryn y castrelau, Caer Careg y fran, (ger Cwm y Clo), Pen Dinas, (yn Llandegai,) Caer Maes y Gaer, (ger Aber), Braich y Dinas, (ar y Penmaen Mawr), Caer Hywel, (ger Bwlch Sychnant), Caer Belyn, (uwch Llanbedr y Cenin), Caer Llion, (ar Fynydd y Dref, uwch Conwy), Caer Deganwy, &c. Perthynai i'r orsaf hon ar y Dinlle, amryw Wylfeydd, megys Dinas Dunodig, Hen Gastell ar afon Carog, Dinas Ffranog, Dinas y Prif, yr hon a wasanaethai fel hafdy i'r prif lywodraethwr, Caer Ffridd, Bwlan, Bryn y Gorseddau, lle hefyd y mae olion Derwyddol. Y lleoedd hyn ydynt oll ar bwys y Dinlle, ac oeddynt yn ddiau mewn cymmundeb â'r brif wersyllfa. Yr oedd ffordd Rufeinig i Ddinas Dinlle o Gaer Seiont, a elwid Sarn Helen; a'r lle y mae y ffordd hon yn croesi afon y Foryd, a elwir yn "Rhyd yr equestri," a lle arall gerllaw, a elwir "Rhyd y pedestri;" sef Rhyd y gwyr meirch, a Rhyd y gwyr traed. Cafwyd hefyd amryw fatholion o gylch y lle hwn, yn dwyn nodau yr Amherawdwyr Rhufeinig canlynol, nid amgen Gallienus, Tetricus (*senior*), Tetricus Caesar, Carausius, ac Alectus; ac yn ddiweddarach fyth, cafwyd batholion Trajan, a Domitian, ar dir Bryn Gwydion, heb fod yn mhell oddiyma.

Ar ortrai, yn neillduol ar hin hafaidd, gwelir mur-glawdd, ychydig i'r gorllewin o Ddinas Dinlle, yn y môr, yr hwn meddir yw gweddillion hen dref a elwid "Caer Arianrod." Arianrod ydoedd ferch Gwydion ab Don, yr hwn y mae ei fedd ar Forfa Dinlle, gerllaw. Gellir casglu oddiwrth yr enw, mai yn y lle hwn, sydd yn awr yn orchuddiedig gan y môr, yr oedd tref, neu ettifeddiaeth Arianrod; ac fel y sylwa Pennant, y mae "Caer" yn nglŷn a'r enw, yn rhoddi sail i gasglu fod yno amddiffynfa, neu gaer filwraidd. Amheuai y Parch. J. Jones, periglor Llanllyfni, y traddodiad hwn yn gyfan gwbl, gan dybied ei fod wedi ei seilio ar gam gymeriad am Dref yr anrheg, ar lan y Wyrfai: ond gellir bod yn dra phenderfynol fod yn y lle ryw fur, neu glawdd celfyddydol, gan fod rhai a ymwelsant mewn badau a'r lle ar ortrai, yn sicrhau y gellir plymio amryw

Digitized by Google

wrhydau i lawr yn syth gyd ag ochr y mur; ac y mae yn meddiant yr Ysgrifenydd, gareg a dynwyd o'r mur, ar un o'r cyfryw ymweliadau, ac a ddygwyd i'r lan, gan Mr. Jones, Bodfan; ac y mae llawer o debygrwydd mai darn o hen ddelw ydoedd. Y mae yn debyg i'r lle hwn gael ei orlifo yr un pryd a Chantref y Gwaelod, y Morfa Rhianedd, a'r Meusyn Glasog, ettifeddiaeth Helig ab Glanawg.

Y mae rhanau helaeth o hen amddiffynfa Dinlle, wedi eu bwytta trwy guriadau parhaus tonau y weilgi arni; ac yn ol pob tebyg, fe'i lleiheir yn barhaus gan yr un achos.

Bodfan sydd hen balas prydferth, o fewn trefgordd Dinlle, a pherthyna, medd *Mr. Ambrose*, i hiliogaeth Phylip, brawd i Ednowen a Morgeneu, o'r Dinlle; neu Morgenau Ynad, yr wythfed o ddisgynyddion Cilmyn Droed-ddu. Yr oedd William Llwyd, sirydd dros swydd Gaer yn arfon, yn y flwyddyn 1668, yn fab i Dafydd Llwyd o'r Bodfan, ab William, ab Hywel, ab Robert, ab Dafydd, ab Llewelyn Llwyd, ab Llewelyn, ab Bleddyn, ab Phylip. Chwaer i William Llwyd, a brïododd John Bodfel o'r Carnguwch, ac felly daeth Bodfan yn eiddo i'w fab, Peter Bodfel, yr hwn a roddodd gyfran o'i dir i'w fab, Llwyd Bodfel, tad William Bodfel, o Fadryn; a'r gyfran arall i'w ferch, yr hon a brïododd Hugh Hughes, o'r Penprys, Lleyn; a'i fab yntau, sef Peter Hughes, oedd tad Hugh Hughes, y sirydd am 1762, a gor-hendaid i Dafydd Jones, Ysw., Cefn y Coed. Yr oedd Dafydd Jones yn fab ieuangaf i Dafydd Jones, Cefn y Coed, a fu farw Ionawr 16, 1791, o'i wraig, Margaret, merch Peter Hughes, o'r Penprys, yr hon a fu farw Hydref 18, 1828. Y mae gweddw y diweddar Dafydd Jones, Ysw., yn byw yn Cefn y Coed, a'r foneddiges hono sydd yn perchenogi Bodfan yn bresenol.

Y prif balas yn yr ardal hon, ydyw Glyn llifon, lle y mae yr Anrhydeddus Arglwydd Newborrough yn cyfanneddu.—Tua diwedd yr wythfed ganrif, diangodd gwr oddiar ffordd ymgyrch y Sacsoniaid yn y Gogledd, i chwilio am ddïogelfa yn Arfon; ac efe a adeiladodd ei dŷ mewn dyffryn llawn o ddyrysgoed, o fewn tref-gordd Dinlle, ac o dan nawdd tywysogion Gwynedd. Gelwir y gwr hwn, Cilmyn Droed-ddu. Yr oedd ef yn gefnder i Rhodri Fawr, brenin Cymru oll, ac yn nai i Merfyn Frŷch. Y brenin a'i gwnaeth ef yn arglwydd Uwch Gwyrfai; a dywedir fod ei diroedd yn cyrhaedd o'r Eifl hyd Gaer yn arfon. Dyrchafwyd ef hefyd i fod yn brif ynad Gwynedd, rhagor-fraint a arhosodd yn ettifeddol yn ei deulu. Yr oedd Cilmyn yn hanu o lwythau Gwynedd, gan ei fod yn fab i Cadrod, ab Elidr, ab Sandde, ab Alser, ab Tegid, ab Gwyar, ab Dwywg, ab Llywarch Hen, arglwydd Penllyn, ab Elidr Lydanwyn, ab Meirchion, ab Gorwst Ledlwm, ab Cenau, ab Coel Godebog, Brenin Ynys Prydain. Ei arf-bais oedd "Eryr deuben du, a'i adenydd ar led yn y maes gwyn; yn ail, pedwar cnapstaff cnycciog, tanllyd, cochion, yn y maes gwyn; y 3ydd fel yr ail; a'r 4ydd fel y cyntaf; a thros y cwbl, ar yr arfaes wen, coes, a throed du." Gwelir sylfaeni ei annedd yn agos i Ffynnon Gilmyn, ar dir y Plas Newydd, o fewn dyffryn y Llifon, a cherllaw y fan lle y saif palas ardderchog presenol y Glynllifon.

Cyrhaeddodd amryw o hiliogaeth Cilmyn, enwogrwydd nid bychan mewn dysgeidiaeth, a sefyllfeydd uchel yn y wlad, a'r eglwys; y rhai a ddefnyddiasant y manteision hyny i ymgyfoethogi yn ddirfawr, fel y dangosir yn ol llaw. Yr wythfed o ddisgynyddion Cilmyn, a elwid "Morgeneu Ynad, o dref Dinlle;" yr hwn oedd yn dra enwog fel cyfreithiwr; ac ymddengys ei fod ef, yn nghyd a'i fab Cyfnerth, yn mysg y deuddeg henuriaid a etholwyd gan Howel Dda, i adolygu a threfnu Cyfreithiau y Deyrnas; a chyfansoddodd Cyfnerth lyfr galluog ar y Cyfreithiau, yr hwn a ellir ei weled hyd heddyw mewn rhai hen lyfrgelloedd, yn ysgrifenedig ar femrwn. Gellir enwi Morgeneu ab Madog, Ynad; Morgan ab Meurig, Ynad; a Madog Goch, Ynad, yn mhlith disgynyddion Cilmyn, y rhai a ragorent yn eu galluoedd fel cyfreithwyr.

Daeth amryw o'r teulu yma i enwogrwydd am eu dysgeidiaeth mewn oesoedd diweddarach hefyd; megys Maurice Glyn, mab henaf Robert ab Meredydd, ab Hwlcyn Llwyd, o'r Glynllifon, a Nantlle. Cafodd y gwr hwn ei ddwyn i fynu yn Rhydychain, lle y cafodd ei anrhydeddu a'r radd o LL.D., ar gyfrif ei ddawn i egluro Deddfau Eglwysig, neu Ganonaidd. Efe a ddyrchafwyd yn ieuanc i Archddeoniaeth Bangor, a than gysgod y swydd hon, daeth i feddiant o ddegymmau Llanor, a Denio, yn Lleyn; a Llandegai, a chyfran o Gaerhun, ger afon Gonwy. Heblaw hyn, dylifodd i'w drysorau, ddegymmau saith o blwyfau Môn, sef Llansadwrn, Llanddeusant, Llanfair yn Nghornwy, Llanrhwydrus, Llanfflewyn, Llanbabo, a Llangadwaladr; ac ychwanegwyd attynt, Bodferin, Llandegwning, Penllech, a Llaniestyn yn Lleyn. Ychwanegwyd at hyn oll, segur-swydd yn dwyn elw mawr iddo, mewn cyssylltiad âg Eglwys Golegawl Caergybi, ac un arall, o fewn Esgobaeth, ac Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi, lle y terfynodd ei oes, yn y flwyddyn 1525, megis y tystia ei fedd-faen yn y gafell ogleddol o'r Eglwys odidog hono. Llwyddiant cyffelyb a ddylynodd ei frawd William Glyn, LL.D. yr hwn a ddyrchafwyd i archddeoniaeth Meirionydd, gyda degymau Llandudno yn nglyn wrthi; ond gan y bernid fod ei chynnysgaeth yn lled ysgafn, ychwanegwyd eglwys Llanllyfni atti. Ac ar ei ymadawiad o'r eglwysi hyn yn y flwyddyn 1522, efe a ddyrchafwyd i Archddeoniaeth Mon, ac yn nglyn a'r swydd hono, efe a gafodd feddiant o ddegymau Amlwch, Llanwenllwyfo, Cerrig-ceinwen, a Llangristiolus. Yn yr un amser, efe a bennodwyd yn beriglor Llandwrog, a Llanengan yn Lleyn, ac a gafodd haner plwyf Llandinam, heblaw Clynog Fawr, yn Arfon, a Chlynog Fechan, sef Llangeinwen, a Llangaffo, yn nghwmmwd Menai. Bu farw yn y flwyddyn 1537, pan oedd yr holl fywioliaethau uchod yn ei feddiant.

Y brodyr uchod oeddynt y rhai cyntaf i gymeryd enw eu preswylfod i fod yn gyfenw teuluaidd, a than yr enw Glyn, Glynn, neu Glynne, nyni a ganfyddwn gangenau lawer o'r teulu urddasol yma, wedi eu trosblanu i diroedd breision y deyrnas hon.—Gwel "Golud yr Oes," cyf. i. t.d. 221.

Ar dir y Plas Newydd, gerllaw Glyn llifon, mewn lle a elwir "Cae'r Maen Llwyd," y mae maen hir, am yr hwn y tybia rhai, mai bedd Gwaewyn Gurgoffri, un o arwyr y Gododin, a nodid ganddo; tra y dadleua ereill, mai bedd-faen Gwydion ab Don ydyw, am yr hwn y dywedir yn Englynion y Beddau, fod ei fedd yn "Morfa Dinlle, o dan fain dafeillion." Ychydig o'r neilldu i bentref Llandwrog, dangosir bedd Gwenen, yn agos i ammaethdy o'r un enw.

Ymdrechwn dan y pennawd Nantlle, roddi ychwaneg o hanes pen uchaf y plwyf hwn.



Digitized by Google

**LLANDYFEISANT**, sydd blwyf yn nosparth Llandeilo-fawr, swydd Gaerfyrddin; ar lan yr afon Towy, un filltir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Llandeilo-fawr. Y llythyrfa yw Llandeilo-fawr, dan Gaerfyrddin. Erwau, 1551. Gwerth ardrethol, 1947*p*. Poblogaeth, 258. Tai, 51. Y mae yr rhan fwyaf o arwynebedd y tir yn perthyn i etifeddiaeth teulu Dynevor Park. Y mae yma ffynhonell, a elwir Nant y rheibus, yr hon sydd yn llanw ac yn treio ddwy waith yn y dydd. Darganfyddwyd batholion Rhufeinig yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth yn esgobaeth Ty Ddewi, yn nawddogaeth Iarll Cawdor. Dywedir fod yr eglwys yn sefyll ar y man lle bu teml Rufeinig unwaith.

**LLANDYFODWG**, sydd blwyf eang, yn nghantref Glyn Ogwr, Undeb Penybont-ar-Ogwr, deoniaeth Gronedd, esgobaeth Llandaf, swydd Forganwg, Deheudir Cymru: tuag wyth milldir i'r gogledd o Benybont-ar-Ogwr, ar lan afon Ogwr Fechan. Saif yr eglwys mewn ardal fynyddig a diffrwyth; a bernir iddi gael ei sylfaenu gyntaf yn y 6fed canrif, gan Tyfodwg, un o ddysgyblion Illtyd Sant. Ficeriaeth yw'r fywioliaeth eglwysig, gwerth 89*p*. y flwyddyn.

Mae amryw garneddau ar benau mynyddau y plwyf hwn, a bernir mai beddau gwroniaid Cymreig ydynt, y rhai a syrthiasant wrth amddiffyn eu gwlad. Mae cyfoeth helaeth o lo yn y plwyf; ac nid oes ond tua deng mlynedd er pan y mae wedi dechreu cael ei weithio. Yn 1863, y corpholwyd Cwmni Cledrffordd Glyn Ogwr, yr hon sydd yn rhedeg o dref Penybont-ar-Ogwr, i fyny hyd at lofeydd y plwyf hwn. Mae cangen o gledrffordd newydd ar waith yn bresenol trwy y plwyf, o Felin Ifan Ddu, i Lyn Elai, er uno y ddwy gledrffordd a'u gilydd, sef Cledrffordd Glyn Ogwr, a Chledrffordd Glyn Elai, er cael cymundeb rhwng glofeydd y plwyf hwn a Chaerdydd. Pan orphenir y gangen hon, bydd yn sicr o greu diwygiad masnachol mawr yn y plwyf, a gellir dysgwyl y daw yn lle pwysig iawn yn ei gyssylltiad a glofeydd, yn mhen ychydig amser.

**LLANDYFRIOG**, sydd blwyf yn nosparth Castell-newydd Emlyn, swydd Aberteifi; ar lan yr afon Teifi, dwy filltir i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Castell-newydd Emlyn. Y mae yn cynnwys trefgordd Adpar, a phentrefi Aber, a Penddol. Y llythyrfa yw Castell-newydd Emlyn, dan Gaerfyrddin. Erwau, 2867. Gwerth ardrethol, 2647*p*. Poblogaeth yn 1851, 957; ac yn 1861, 807. Tai, 202. Priodolir y lleihad yn y boblogaeth, mewn rhan i gauad i fynu ysgol-fyrddiol oedd yno. Y mae meddiant y tiroedd yn rhanedig rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â pherigloriaeth Llanfair-Trelygen, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 147*p*.; ac yn nawddogaeth Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Tyfriog, ac mewn cyflwr da.

**LLANDYFRYDOG**, sydd blwyf ac is-ddosparth yn nosparth a swydd Fon. Y mae y plwyf ar derfyn afon Dulas, milltir a haner gogledd-ddwyrain o Lanerchymedd, lle y mae gorsaf rheilffordd; yn Llanerchymedd y mae y llythyrfa. Erwau, 3819. Gwerth ardrethol, 3687*p*. Poblogaeth, 706. Tai, 156. Y mae meddiant y tiroedd yn rhanedig. Y mae rhai o'r trigolion yn cael eu gwaith yn Mynydd Paris, yn y mwngloddiau efydd. Y mae llawer o draddodiadau, a chof-adeiliau o fewn cylch y plwyf hwn, yn aros hyd y dydd heddyw. Y mae Giraldus Cambrensis, yn ei "Ymdeithiau" yn cyfeirio at y lle. Dywed, "Y mae yn yr ynys hon eglwys i "*St. Tefredaucus*," i'r hon y gyrodd Huw, iarll Amwythig (wedi ymwthio i Fon trwy orthrech), gŵn, ar noswaith benodol, y rhai a ganfyddwyd yn gynddeiriog erbyn y bore dranoeth, a bu efe ei hun farw yn mhen mis o amser." Y mae gerllaw i amaethdy Clorach, ar y ffordd fawr o Lanerchymedd i Biwmares, ddwy ffynon, a elwir Ffynon Gybi, a Ffynon Seiriol; wedi eu henwi felly oddiwrth St. Cybi, a St. Seiriol, y rhai oeddynt yn arfer ymgyfarfod yma, i ymgynghori yn nghylch achosion crefyddol; ac wrth fod gweinidog Caergybi, yn teithio y bore tu ag yma, a'i wyneb at yr haul, a'r un modd wrth ddychwelyd adref y prydnhawn, gelwid ef "Cybi Felyn;" ac fel yr oedd Seiriol wrth ddyfod a dychwel, yn teithio a'i gefn at yr haul, gelwid ef "Seiriol Wyn." Yr oedd cryn dybiau yn y wlad gynt, am effeithiau iachusol y ffynonau hyn. Y mae Maen-hir, o gryn hynodrwydd, ar faes perthynol i Glorach, wrth y brif-ffordd sydd yn cyfeirio oddiyno at Ros-y-bol, Gelwir ef Lleidr Tyfrydog, ac y mae o ran ei agwedd, yn debyg i ddyn â baich ar ei gefn; a'r chwedl yw, mai wedi ysbeilio llyfrau a llestri cymundeb yr eglwys yr oedd, a phan yr oedd ar gymeryd ei naid dros y clawdd, iddo gael ei daro â barn. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llanfihangel-Tre'r-Beirdd, yn esgobaeth Bangor: gwerth 475*p*., ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Tyfrydog, mab i Arwystli Gloff, a disgynydd o Cunedda Wledig. Y mae yr eglwys wedi ei hadeiladu ar y man lle yr oedd un seiliedig yn y bumed ganrif. Genedigol o'r plwyf hwn ydoedd Nicholas Owen, awdwr y *British Remains*. Y mae yma addoldy perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac un arall i'r Annibynwyr. Y mae yma rai gwaddolion wedi eu gadael er budd tlodion y gymydogaeth.

**LLANDYGWYDD**, sydd blwyf ac is-ddosparth yn nosparth a swydd Aberteifi. Y mae yn sefyll ar lan yr afon Teifi, ar derfyn siroedd Penfro, a Chaerfyrddin, gerllaw rheilffordd Castell-newydd Emlyn ac Aberteifi, 4 milltir de-ddwyrain o Aberteifi. Y llythyrfa yw Llechryd, dan Gaerfyrddin. Erwau, 5595. Gwerth ardrethol 4453*p*., o'r hyn y mae 15*p*. yn y bysgodfa. Poblogaeth, 1028. Tai, 230. Rhenir y tiroedd rhwng ychydig nifer. Yr oedd y faenoriaeth yn perthyn i esgobion Ty Ddewi gynt, gan y rhai yr oedd palas yma, ond aeth yn feddiant i deulu o'r enw Griffiths. Y mae Llwyndyrus, palas y teulu crybwylledig, ar y man lle y buasai annedd yr esgobion; a phalasau eraill yma, a elwir *Stradmore Vale*, Neuadd-Trefawr, Pen y lan, a Blaen y pant. Y mae lle i ddal eogiaid ar yr afon Teifi yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 130*p*.; ac yn nawddogaeth Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Dygwydd, ac yn adeilad hardd, mewn cyflwr da. Y mae yr is-ddosparth yn cynnwys hefyd, bedwar plwyf yn sir Aberteifi, a dau yr sir Benfro. Erwau, 19,860. Poblogaeth, 4133. Tai, 970.

**LLANDYNAN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandysilio, sir Ddinbych. Saif gerllaw yr afon Dyfrdwy, dwy filltir i'r gogledd-orllewin o Langollen. Gwerth ardrethol, 2208*p*., o'r hyn y mae 254*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 83.

**LLANDYRNOG**, sydd bentref, a phlwyf, ac is-

Digitized by Google

ddosparth, yn nosparth Rhuthin, sir DDINBYCH. Y mae y pentref yn sefyll tua milltir oddiwrth yr afon Clwyd, dan Fryn-y-Cloddiau, 3¼ mill. yn ddwyreiniol o orsaf rheilffordd Dinbych; y llythyrfa sydd dan Ddinbych. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgorddau, Ystrad, Bancer, Caerfedwin, Cwm-dylluan, Llan-rhiw-bebyll, ag Yspeddyd. Erwau, 3223. Gwerth ardrethol, 4289*p*. Poblogaeth, 655. Tai, 140. Y mae y tiroedd yn cael eu rhanu rhwng ychydig nifer. Glan-y-wern ydyw palas *y Rhag-filwriad Madocks*. Yr oedd y Fron Yw yn perthyn i'r teulu Madocks, ond y mae yn awr yn amaethdy. Y mae hen wersyllfa Frydeinig ar Bryn-y-Cloddiau. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 666*p*.; y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Tyrnog, ac mewn cyflwr da. Y mae yma waddol o werth 15*p*. yn y flwyddyn. Y mae yr is-ddosparth yn cynnwys hefyd, ddau o blwyfi eraill, a rhan o un arall. Erwau, 10,068. Poblogaeth, 1826. Tai, 406.

**LLANDYSSILIO**, neu LLANTYSSILIO, sydd blwyf yn nosparth Corwen, a swydd DDINBYCH; ar geulan yr afon Dyfrdwy, dwy filltir i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Llangollen. Y mae yn cynnwys tref-gorddau Coedwig, Cymmo, Llandynan, a Maes-yr-ychain; a'r llythyrfa yw Llangollen. Erwau, 7919. Gwerth ardrethol, 5013*p*. Poblogaeth yn 1851, 1019; yn 1861, 1129. Tai, 223. Y prif balas yma ydyw Llandyssilio Hall. Yma y mae gweddillion prydferth y Vale-Crucis-Abbey. Codir cerig calch a llechi yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llan-elwy; gwerth 115*p*., yn nawddogaeth Syr Watkin Williams Wyn, o Wynstay.

**LLANDYSSILIO**, plwyf yn nghwmwd DIN-DAETHWY, Cantref RHOSYR, Ynys MÔN. Nis gall un man yn Ngwynedd ymffrostio mewn golygfeydd mwy dymunol a rhamantus nag a geir yn, ac oddiamgylch y plwyf dyddorol hwn; ac nid rhyfedd fod cynnifer o ddyeithriaid cyfoethog, o wahanol barthau, yn cael eu swyno i adeiladu palasdai, ac i ymgartrefu ar uchelfanau Porthaethwy. Oddiar "Graig Iago," gerllaw pen uchaf Llandyssilio, un clir-ddydd teg o Wanwyn, y cawsom yr olygfa odidocaf a gawsom erioed, ar gadwyn enfawr mynyddoedd Eryri, o'r Eifl i Benmaenmawr. Trwy gymhorth ysbiadur cryf, gallem weled y gweithwyr yn ebillio, ac yn morth-wylio, yn agenau chwarel Bethesda, a gwrthddrychau mor fychain a phell, a'r crug cerrig rhyddion, ar ben y Wyddfa. Megys wrth ein traed drachefn yr oedd y Fenai glir, i'w gweled yn ymestyn o Borth Wygyr i Abermenai, a'r glanau gloewon yn cael eu hadd-urno a'r bob ochr, gan goedwigoedd tlysion, a phal-asdai beirdd. Penaf yn mhlith y palasdai a welem ar ochr Arfon, oedd y Penrhyn, a'r Faenol; ac ar ochr Môn, tywysog y preswylfeydd ydoedd y Plas Newydd, lle y bu y Frenines (y Dywysoges Victoria y pryd hwnw) a'i mam urddasol, Duges Caint—yn trigo am gyfran lled faith o'r flwyddyn 1832. Oddiar "Graig Iago" y dywedir ddarfod i'r Archesgob Baldwin bregethu Rhyfeloedd y Groes i drigolion y parthau hyn. Canlynid yr Archesgob gan y Cymro dysgedig, Giraldus de Barri, neu Giraldus Cambrensis, enw cyffredin yr hwn, meddir, ydoedd Iago Parri. Cofnodir, ddarfod i'r Archesgob a Giraldus lettya noson mewn lle a elwir Cilyfegle. Mangre o bwys-igrwydd a dyddordeb henafiaethol mawr ydyw Dinas y Nant, yr hon a saif ar fryn uchaf Llan-dyssilio. Ceir yma olion caerfa neu wersyllfa gadarn, yn mesur oddeutu dwy erw o dir. Gwnaeth Huw Lupus, Iarll Caerlleon, ei bencadlys ar Ddinas y Nant, yn ystod ei ruthrgyrchoedd ysgeler yn erbyn y Cymry, oddeutu y flwyddyn 1096. Condemnia hyd yn nod yr haneswyr Seisnig cryfaf eu rhagfarn tuag at ein cenedl ni, greulonderau Huw Lupus, mewn ymadroddion diamwys. Islaw yr hen wersyllfa a nodwyd, yr ymestyn dyffryn coediog Cadnant, trwy ba un y rhed afonig o'r un enw, i gulfor y Fenai. Ceir yma, yn arllwysfa y Gadnant, hafan neu borthladd bychan tra chysgodol. Porthladd Cadnant oedd y pwysicaf o holl orsafoedd y Fenai, ar ochr Mon, yn yr hen amser, gan mai dyma ydoedd pwynt y brif dramwyfa dros y Fenai. Cyn amser Iorwerth y Cyntaf, yr oedd porthfa Cadnant yn cynnyrchu swm da o gyllid i'r Trysorlys, a'r teyrn a nodwyd, a roddodd y cyllid hyny yn waddol i Einion, Esgob Bangor. Einion a weinyddasai y ddefod o fedydd ar y Tywysog Iorwerth o Gaernarfon, a diau mai fel cydnabyddiaeth am weinyddiad y seremoni hono, y rhoddodd y Brenin gyllid porthfa Cadnant i'r Esgob. Dywed amryw haneswyr, mai yn Nghadnant y glaniodd y Cadfridog Mytton ei fyddin, pan ar ei ymgyrch i ddarostwng Castell Beaumaris, yn y flwyddyn 1648, ac mai ar Orsedd Migyn, y gwersyll-odd efe y noson cyn ymosod ar y Castell. Haneswyr ereill a ddywedant, mai yn y Garth y glaniodd y Cadfridog; ond gan fod y ddau le mor agos i'w gilydd, y tebygolrwydd yw, ddarfod i'r Cadfridog Mytton, er mwyn hwylusdod a diogelwch, gyfar-wyddo cyfran o'i luoedd i lanio yn y naill fan, a'r llall. Bellach, y mae Cadnant wedi peidio a bod yn fôr-dramwyfa, ac nid oes argoel y bydd i Ddinas y Nant gael ei gwneyd mwyach yn lluestfa; ond er hyny, parha y lle i feddu hynodrwydd llen-yddol, a masnachol. Yma y preswylia y gwladwr goleuedig, a'r dadleuwr medrus, Mr. John Morgan, a'r afon Cadnant sydd yn troi peiriannau drudfawr ei wlan-weithfa (*factory*) enwog. Nis gallai y llenor neu yr hanesydd a ymdeithio i'r fro, wneyd yn ddoethach na galw gyda Mr. Morgan, er cael ymgom am gofion a thraddodiadau y gymydogaeth.

Dywed yr *Imperial Gazetteer*, fod arwynebedd plwyf Llandyssilio yn 827 o erwau o dir, a 90 erw o ddwfr; ond sicrhawyd ni gan foneddwr cyfarwydd o'r lle, mai 700 erw ydyw y mesuriad cywir. Hyd ddechreu y ganrif bresennol, yr oedd llawn haner y plwyf yn dir cyffredin; ond yn y flwyddyn 1807, gwnaed deddf Seneddol, i'w ranu a'i amgau. Trwy ofal a dyhewyd y diweddar Barch. J. Williams, tad John Williams, Yswain, Treffos, gadawyd pum' erw yn feddiant i'r cyhoedd, tuagat gadw ffeiriau, &c., arno. Trwy ryw wall yn y ddeddf, neu esgeulusdra ar ran y trigolion, y mae y rhan fwyaf o'r 5 erw hyny hefyd weithian, wedi eu hamgau, ac ar y ffyrdd a'r heolydd y cynnelir y ffeiriau. Gwerth ardrethol holl dir y plwyf, ydyw 3155*p*., a gwerth blyneddol y degymau ydyw 108*p*. Y fywioliaeth sydd guradiaeth barhaus, yn nglyn â pheriglorïaeth Llanfairpwll-gwyngyll; ac yn ychwanegol at y degwm, y mae yma 2 erw a 15*p*. o dir Eglwysig. Adail fechan, seml, a diaddurn ydyw hen Eglwys y plwyf, yr hon a saif ar yr Ynys Ben-las, ar lan Pwll Cerris. Elir i'r ynys ar hyd sarn o gerrig; ond pan fydd y llanw yn uchel, llwyr orchuddir y sarn gan y dyfroedd, fel y bydd yn gwbl anmhosibl myned i'r eglwys na'r fynwent. Yr oedd Tyssilio, sef nawddsant y plwyf, yn un o dadau crefyddol enwog y chweched ganrif; ond camgymer-iad ydyw tybio ddarfod i'r Eglwys hon gael ei

Digitized by Google

hadeiladu o fewn y cyfnod boreu hwnw; canys yn null y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg y mae hi wedi ei gwneyd. O herwydd fod Eglwys newydd wedi ei hadeiladu yn mhentref cynnyddol Porthaethwy, y mae yr hen deml wedi ei gollwng i gyflwr lled adfeiliedig er ys blyneddau, ond dodwyd eisteddleoedd newyddion ynddi, a gwnaed rhai adgyweiriadau ar y to a'r muriau, dro yn ol, er ei chyfaddasu tuagat gynnal defodau angladdol, a gwasanaeth achlysurol. Cofnodir i gysegr-ysbeiliad lled hynod gael ei gyflawni yma ar yr adeg yr adeiladid *Pont Britannia.* Pan aeth y clochydd i waered i'r deml un boreu, dychrynwyd ef gan y darganfyddiad, fod y gloch wedi ei lladratta; ac er i holl egnïon y cwnstabliaid gael eu dodi ar waith, eto ni ddaliwyd y lleidr, ac ni ddarganfyddwyd y gloch hyd y dydd hwn. Ni thrugarhaodd neb ychwaith wrth y deml yspeiliedig, canys amddifad ydyw hi o gloch hyd yn awr. Y mae mynwent Llandyssilio yn un nodedig o brydferth a rhamantus, a chan mai yma y daearwyd gweddillion y diweddar Barchedig Henry Rees, diau y bydd y fynwent neillduedig hon, yn ganolbwynt dyddordeb i lawer am amser maith. Medda y Methodistiaid Calfinaidd gapel eang a gwych yn y plwyf; capel yr Annibynwyr sydd adeilad newydd, a hardd odiaeth; ac y mae gan y Wesleyaid achos blodeuog, ac addoldy cyfleus yma. Yn ychwanegol at yr ysgol Sabbothol, a'r gwasanaeth Cymreig rheolaidd yn y capel, cynnalia y Methodistiaid hefyd wasanaeth Seisnig bob Sabboth trwy gydol yr haf, mewn adeilad a elwir y *New Hall.*

Yn y flwyddyn 1811, rhifedi holl drigolion Llandyssilio oedd 300. Erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynnyddu i 1243. Yn 1861, rhifent, 1359; ac yn 1871, yn oeddynt o fewn ychydig i 1600. Gwelir fod yma gynnydd cyflym iawn yn cymeryd lle. Diau mai yr achosion penaf o'r cynnydd rhyfeddol hwn, ydyw iachusrwydd nodedig y lle, yn nghyda sefydliadau masnachol eang y Meistri Davies, Evans, Edwards, &c. Gall pobl lled ieuainc gofio pentref Porthaethwy yn lle dinod iawn; ond yn awr ymddengys pob peth yma, fel yn meddu ar bwysigrwydd tref fywiog. Y Saeson a alwant y pentref ar enw y bont odidog a adeiladwyd dros y Fenai (yn ol cynlluniau y peiriannydd enwog Telford), ond syn a fydd genym glywed rhai Cymry yn galw y lle felly, canys Porthaethwy (Porth-y-caeth-wy, neu Borth-y-dwr-cul) ydyw yr iawn enw. Cyfuniad Seneddau Lloegr a'r Iwerddon, yn y flwyddyn 1801, a wnaeth adeiladiad Pont Menai yn angenrheidiol, mewn trefn i hyrwyddo teithiau y Seneddwyr Gwyddelig i Lundain. Gosodwyd amryw gynlluniau ger bron y Senedd; ond ni sylfaenwyd y bont hyd 1809; ac ni chwblhawyd hi hyd y 30ain o Ionawr, 1826. Costiodd i'r Llywodraeth 126,000*p.*; a thalwyd 26,394*p.* i deulu Pwllerochan, sef meddiannwyr ysgraffau Porthaethwy. Gan y ceir erthyglau desgrifiadol o bontydd godidog y Fenai, o dan eu henwau priodol, diangen yw manylu ar y naill na'r llall yn yr erthygl hon; a'n hamcan wrth grybwyll am gampwaith rhyfeddol Telford yn y fan yma, oedd dangos dylanwad adeiladiad y bont ar gynnydd poblogaeth, a dadblygiad masnach, pentref Porthaethwy, a phlwyf Llandyssilio.

Ychydig ydyw nifer y gwaddoliadau elusenol yn mhlwyf Llandyssilio. Un Mrs. Jones a roddodd bum' punt i'r tlodion, a defnyddiwyd y swm hwnw, yn nghydag arian ereill perthynol i'r plwyf, i adeiladu chwech o fwthynod rhad, i gynnifer o deuluoedd tlodion. Rhenir wyth swllt yn mhlith y tlodion bob dydd Gŵyl Domos, allan o swm deilliedig o rodd y Parch. Henry Rowlands, Plasgwyn.

Yn mhlith cofion henafiaethol y plwyf, dylasem grybwyll am forthwyl carreg mawr, a ddarganfyddwyd ar dir amaethdy cyfagos, oddeutu deugain mlynedd yn ol. Arweiniodd darganfyddiad y morthwyl hwnw, i ymchwiliad am y graig o ba un y gwnaethid ef a hen forthwylion cyntefig ereill, a gawsid o dro i dro, yn gladdedig mewn gwahanol fanau o fewn yr Ynys. Yr oedd y garreg o ba un y gwnaethid y morthwylion mor nodedig o galed, fel y methid a chanfod dim cyffelyb yn nghreigiau cyffredin y wlad: ond wedi cloddio ac ymchwil, cafwyd haen trwchus o honi, yn rhedeg ar draws plwyf Llandyssilio. Dengys hyn yr arferai yr henafiaid gloddio yn ddwfn, a dyfal ymchwil am ddefnyddau eu harfau. Yr oedd y morthwyl a nodwyd, yn cael ei gadw hyd yn ddiweddar yn Mhalas Cadnant.

**LLANDYSSILIO**, plwyf a phentref yn undeb Narberth, mewn rhan yn nghantref y Derllys, swydd GAERFYRDDIN, ac mewn rhan yn nghantref Dungleddau, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Saif 6 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Narberth, ar y ffordd i Aberteifi. Y mae y pentref wedi ei adeiladu ar lan yr afon Cleddau, lle y mae terfyn y ddwy sir. Cynnwysa y plwyf 4719 o erwau yn sir Gaerfyrddin, a 1748 yn sir Benfro, yr oll yn cynnal poblogaeth o 1100. Amgylchir y plwyf ar y dwyrain gan Gil y maenllwyd; ar y gorllewin gan Lanycefn; ar y gogledd gan Mynachlog ddu, a Llangolman; ac ar y gogledd gan Egermont a Chastell y Danyran. Y mae y tir yn dra amrywiaethol ei natur a'i arwynebedd: ond ychydig o hono sydd ffrwythlawn a chynnyrchfawr. Ni cheir unrhyw gynnyrch, namyn ychydig borfa i ddefaid, ar y parthau bryniog a mynyddig; ond tyfa grawn canolig ar y dyffryndir. Y mae yma oddeutu dau can' erw yn orchuddiedig gan goed prydferth; ac ar y cyfan, y mae y golygfeydd yn nodedig ddymunol i'r llygaid. Tyfa y derw, y bedw, a'r sycamorwydd yma, mewn cyflawnder mawr. Y mae yma ddwy chwarel llechi wedi eu hagor er ys amser maith; ond cwynir mai llechi o nodwedd ailraddol iawn a geir ynddynt.

Y mae y Llandyssilio yma hefyd yn gyfoethog o weddillion hanesyddol. Yn y flwyddyn 1827, cloddiodd y ficer ddwy gareg, o ffurfiau henafol iawn, i fyny yn y fynwent, ar un o ba rai y mae yn gerfiedig, mewn llythyrenau anghelfydd, yr hyn a ganlyn:— LVTORICI. FIL. PAVLINI. MARINI. LATIO. Y mae y cerrig hyn wedi eu gosod yn mur deheuol yr Eglwys. Ar dir fferm o'r enw Casgwyn, yn y rhan o'r plwyf a saif o fewn sir Benfro, y mae hen wersyllfa hanereron fawreddog. Y mae ei thrawsfesur yn 240 llath, a'r fynedfa iddi yn bymtheg llath o led. Gwyneba ei chyfeiriad tua'r gorllewin; ac o'i blaen y mae tiriogaeth eang, i amddiffyn pa un, yn ddiau, y bwriadwyd y gaerfa. Ymddengys i frwydrau gael eu hymladd ar y llanerch yma mewn amser cymharol ddiweddar; canys darganfyddodd yr aradrwyr belenau magnelau wrth droi y ddaear. Ceir caerfa gyffelyb, yr hon a ymddengys fel wedi ei bwriadu i warchod yr un dyffryn, yn y rhan o'r plwyf a saif o fewn sir Gaerfyrddin, ar dir amaethdy o'r enw Portispark. Y mae y gaerfa hon ar fryncyn uchel a chyfleus, a'i hyd ydyw 130 o latheni. Ar dir fferm o'r enw Llwyn-yr-ebol, ceir gwersyllfa gylchog, yn ddeg llath

Digitized by Google

ar hugain o drawsfesur, yn cael ei hamgylchu â rhagfuriau, tair troedfedd o uchder. Yn y canol, y mae dwy garreg yn sefyll ar led-ogwydd. Yr oedd yma unwaith ugain o'r cyfryw gerrig, mewn cyffelyb sefyllfaoedd, ond yn gwahaniaethu mewn maintioli. Methasom gael unrhyw wybodaeth sicr am ddyben gosodiad y cerrig hyn, na pha beth a arwyddent. O fewn dau gant o latheni i'r gogledd orllewin o'r gaerfa, y mae cylch bychan, o fewn pa un y mae dau faen hir yn sefyll yn syth. Bernir fod yma unwaith drydydd maen yn ffurfio allor. Ceir yma feini yn dynodi dwy hen ffordd at y cylch crwn. Pan yn tori y ffordd newydd o Narberth i Aberteifi, heibio yr hen olion Prydeinig dyddorol hyn, deuwyd ar draws llestr pridd, o wneuthuriad anghelfydd, ond yn amlwg o henafiaeth mawr. Diameu fod yma deml bwysig, yn gystal a chaerfeydd cedyrn, wedi bod.

Perthyna i'r plwyf hwn amryw fân waddoliadau elusenol. Y mae tyddyn bychan yn eiddo i gynulleidfa y Bedyddwyr. Gadawodd John Matthias, o Cilfawr, ddau gini yn flyneddol tuag at dalu am addysgu blant cymunwyr yr Eglwys i ddarllen ac ysgrifenu, a dau gini i'w rhanu rhwng y cymunwyr eu hunain, yn nghyda gini ychwanegol yn dâl i'r ficer am draddodi un bregeth yn flyneddol ar "fyrdra ac ansicrwydd y bywyd dynol." Ychwanegodd chwaer Mr. Matthias, sef Mrs. Cicely Morris, ddau gini at hyn, i'r dyben o dalu am brentisiad y plant a addysgir ar draul rhoddion ei brawd. Un Morris Jones, o sir Ddinbych, a adawodd ddwy bunt yn flyneddol tuag at dalu am dorthau gwynion, i'w rhanu i drigolion rhan sir Benfro o'r plwyf. Rhaid i'r tlodion a chwenychant gyfran o'r torthau hyn, ofalu am fynychu yr Eglwys, canys dyna ydyw amod derbyniad yr Elusen. Deillia rhodd flyneddol Mr. Jones o ardreth fferm a elwir Cae Helig, yn mhlwyf Gwrecsam, sir Ddinbych; a'r elusenau ereill, ydynt wedi eu diogelu ar ardreth tir yn mhlwyf Llandyssilio.

Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth, yn nawdd Esgob Ty Ddewi. Prisid hi yn Llyfrau y Brenin fel gwerth saith bunt, at yr hyn yr ychwanegwyd llôg pedwar can'punt o waddol Breninol. Gwerth presennol y degwm ydyw 385*p.*, o ba swm y telir 132*p.* 10*s.* i'r Ficer. Adeilad nodedig o ddiaddurn ydyw yr eglwys bresennol. Ni pherthyn iddi ond ychydig o nodweddion cyffredin addoldy esgobyddol. Adeiladwyd hi yn y flwyddyn 1838, ar draul treth fechan, tanysgrifiadau gwirfoddol, a rhodd o 60*p.* o drysorfa y Gymdeithas er Adeiladu Eglwysi. Cynwysa eisteddleoedd i 250 o bersonau. Medda y gwahanol enwadau Ymneillduol hefyd, addoldai cyfleus yma, fel nad oes diffyg moddion crefyddol i'r trigolion.

**LLANDYSSILIO**, adran eang o ddosbarth Aberaeron, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU. Mesura 33,736 o erwau, a chynnwysa boblogaeth o 6459. Nifer y tai, 1518. Gwel LLANDYSSILIO-GOGO.

**LLANDYSSILIO-GOGO**, neu GOGOFAU, plwyf yn nghwmwd Mabwynion, cantref y Castell (a elwir hefyd cantref y Moeddyn), swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU. Saif y pentref ddeunaw milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Lanbedr, a 7½ milltir o Aberaeron, ac ymyla y plwyf ar lanau prydferth beisfor Aberteifi. Cymer ei enw oddiwrth ei nawddsant, sef Tyssilio, yr hwn a sefydlodd lawer o grefydddai a ddygant ei enw hyd heddyw, yn Ngwynedd a Deheubarth. Gwahaniaethir y Llandyssilio hon oddiwrth y Llanau ereill a arddelwant enw yr un sant, gan yr ol-ddod "Gogo" neu "Gogofau," o herwydd y nifer lluosog o ogofäau sydd o fewn y plwyf. Cynnwysa Llandyssilio-gogo drefgyrdd Blaen Gloewon Fach, a'r Cil Uchaf; a nifer poblogaeth y cyfan yn 1801 oedd 512; ond erbyn hyn y mae yno fil a haner o drigolion, y mwyafrif o ba rai a breswyliant bentref prydferth Penybont, o fewn rhandir y Cil Uchaf. Yn y flwyddyn 1803, holl swm trethi y plwyf, yn ol pymtheg swllt y bunt, oedd 224*p.* 11*s.* 5¼*c.* Rhenid y swm yma fel y canlyn:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trefgordd Blaenau Gloewon Fach, | £106 | 5 | 8¼ |
| „ Cil Uchaf, . . . . . | 118 | 5 | 9¼ |

Erbyn hyn, y mae gwerth ardrethol Llandyssilio yn 3581*p.*, a'r degwm yn 313*p.* Noddydd y fywioliaeth ydyw Esgob Tyddewi; a pheriglor presennol y plwyf, ydyw y Parchedig John Jones (Idrisyn), yr hwn sydd lenor enwog, ysgolhaig gwych, a beirniad Ysgrythyrol galluog a phoblogaidd. Efe a gafodd yr anrhydedd o gyfieithu llyfr ein Grasusol Frenines ar hanes ei "Bywyd yn Ucheldiroedd Ysgotland" i'r Gymraeg. Y mae yr Eglwys yn adeilad henafol, o adeiladaeth lled gywrain, ac yn cynnwys bedyddgawg o gelfyddydwaith nodedig o wych ac addurnol. Bu yr holl adeilad o dan adgyweiriad manwl yn ddiweddar. Medda yr Ymneillduwyr addoldai cyfleus yn y plwyf.

Ceir yn y plwyf hwn luaws o olion henafiaethol, o ddyddordeb mawr; ond metha yr henafiaethwyr goreu a chytuno o berthynas i'r amcan cynhenid i ba un yr adeiladwyd, neu y ffurfiwyd y rhai mwyaf a phwysicaf o'r creiriau hyn. Oddiwrth yr enw a roddir ar un o honynt yn y dyddiau presennol, gellid casglu mai amddiffynfa oedd yma. Gelwir ef Castell Llwyn Dafydd; ac y mae yn gynnwysedig o gylch crwn, oddeutu dau gan' troedfedd o drawsfesur, yn cael ei amgylchu gan ffosydd dyfnion, a rhagfuriau nerthol. Cred gyffredin dysgedigion ydyw, mai yma yr oedd Castell Mabwynion, pa un y coffeir i Rhys ap Gruffydd ei feddiannu trwy orthrech yn y flwyddyn 1164. Pa fodd bynag, y Garn Wen yw y lle hynotaf o fewn y plwyf. Y mae y garnedd yn gynnwysedig o gerrig rhyddion, ac wedi ei ffurfio megys tri chyntedd, yr oll yn 68 llath o drawsfesur, ac yn amgylchedig â rhagfur isel, yr hwn hefyd sydd wedi ei ffurfio o gerrig rhyddion. Ychydig i'r de-orllewin oddiwrth y Garn Wen, y mae dernyn o dir, oddeutu 3 erw, wedi ei amgylchu â rhagfur o bridd, a cheir arwyddion eglur fod y cylch hwn yn dal cyssylltiad â'r Garn Wen. Y mae yn ddiau fod y lle yn orsaf gadarn yn yr hen amser; ond bernir ei bod o fesuriad rhy gyfyng i ffurfio amddiffynfa filwrol. Barnai yr ysgolhaig trylen, Gwallter Mechain, mai uchel-lys cyfiawnder oedd yma, gan ei fod yn gyffelyb o ran ffurf a llun i *Grith hail* yr Ysgotiaid, a *Parle*, neu *Parling Hill* y Gwyddelod. Cadarnheir tybiaeth Gwallter i raddau helaeth, gan y ffaith mai "Gwern y Cwrt" y gelwir bryncyn gerllaw hyd y dydd heddyw. Y mae y ffosydd yn nodedig o ddyfnion, a'r crugiau neu y tomenau yn gyfartal uchel. Y mae hen balasdy pendefigaidd Cwm Cynon wedi ei droi yn amaethdy cyffredin er ys llawer dydd. Yn Nghwm Tudur y mae olion a sylfaen hen balas gwych, ag y dywedir iddo fod unwaith yn breswylfod y Tuduriaid Breninol. Dafydd ab Ifan a feddai balas godidog ar y llanerch a elwir Llwyn Ifan; ond y mae y fangre hono weithian yn safle pentref cyffredin. Yn nhy Dafydd ab

Digitized by Google

Ifan y lletyodd Harri Tudur, (Iarll Rismwnt) ac y gwersyllodd ei filwyr un noswaith tra yn ymdaith o Aberdaugleddyf i gyfarfod Rhisiard Gefngrwcca ar Faes Bosworth. Y mae traddodiad ddarfod i Harri ffurfio cyfathrach anghyfreithlon â merch ei lettywr. Amgylchynir y traddodiad anffodus hwn gan amgylchiadau a osodant arno debygrwydd cryf i wirionedd, canys galwyd disgynyddion Dafydd ab Ifan o hyny allan yn ab Harri.

Y mae yn Nghwm Tudur borthladd bychan, lle y glania mân-longau i gludo ymaith gynnyrchion allforawl y fro, ac i ddadlwytho nwyddau at gyflenwi angenrheidiau y trigolion.

**LLANDYSSUL**, sydd blwyf yn nosparth a swydd DREFALDWYN; gerllaw yr afon Hafren; dwy filltir i'r de-orllewin o dref a gorsaf rheilffordd Trefaldwyn. Y mae y llythyrfa dan Drefaldwyn; ac y mae yn cynnwys trefgorddau, Rhandir-Bronwydd, Bryntalch, a Bolbro. Erwau, 4071. Gwerth ardrethol, 5167*p.* Poblogaeth, 790. Tai, 169. Y mae y tiroedd rhwng amryw feddianwyr. Y mae gwaith gwlân yn cael ei ddwyn yn mlaen yma. Y mae hen Wersylloedd Prydeinig ar fryn Coron ddu, a manau eraill. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 373*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llandaf. Y mae yr eglwys mewn cyflwr canolig. Y mae yma waddolion o werth 10*p.* yn y flwyddyn.

**LLANDYSSUL**, sydd bentref, plwyf, ac isddosparth, yn nosparth Castell-newydd Emlyn, swydd ABERTEIFI. Y mae y pentref yn sefyll ar lan afon Teifi, ar derfynau sir Gaerfyrddin, a rheilffordd Caerfyrddin ac Aberteifi, 8½ milltir dwyreiniol o Gastell-newydd-Emlyn; ac y mae pont, gorsaf rheilffordd, a llythyrfa dan Gaerfyrddin, yn perthyn i'r lle. Y mae yma farchnad wythnosol ar ddydd Iau; a marchnad fisol, ar y trydydd Mawrth o'r mis; a ffeiriau ar Ionawr 2, Chwefror 11; Iau o flaen Sul y blodau; trydydd Iau wedi y dydd hwnw; Medi 19; Hydref 31; a Tachwedd 11. Y mae y plwyf yn cael ei rannu i Llandyssul Is-Cerdyn, sydd yn cynnwys is-bentref Llanfernau; a Llandyssul Uwch-Cerdyn, sydd yn cynnwys is-bentrefi, Borthyn, Capel Dewi, Faerdref, Glandysulfed, a Llanfair. Erwau, 17,556. Gwerth ardrethol, Llandyssul Is-cerdyn, 3167*p.*; Uwch Cerdyn, 4913*p.* Poblogaeth y cyfan yn 1851, 2930; yn 1861, 2788. Tai, 682. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng amryw berchenogion. Gallt-yr-Odyn, Waen-Ifor, Gilfachwen, a Llanfair, ydynt y prif balasau. Y mae Castell Hywel, yr hwn a fuasai unwaith yn balas ardderchog, yn awr yn amaethdy. Yr oedd Castell Gwynionydd yn agos i'r eglwys; safai Castell Maelgwn ar Cil-y-graig; ac yr oedd Castell Hwmphrai yn agos i'r afonig Cletwr. Y mae yma amryw o fur-domenau. Y mae y fywioliaeth yn ddyblyg, sef ficeriaeth unedig â chapeloriaeth Capel Dewi; ac yn berigloriaeth ychwanegol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth y ficeriaeth yw 220*p.*; a'r berigloriaeth 400*p.*; ac y mae y flaenaf yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi, a'r olaf dan nawdd ysgol yr Iesu yn Rhydychain. Y mae yr eglwys yn adeilad henafol, heb fod mewn cywair da. Y mae yma dair o eglwysi cangenol; ac y mae yma addoldai perthynol i'r Annibynwyr, Bedyddwyr, Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyol, a'r Undodiaid. Y mae yr is-ddosparth yn cynnwys hefyd bedwar plwyf arall yn swydd Aberteifi, ac un yn Nghaerfyrddin. Erwau, 40,722. Poblogaeth, 5934. Tai, 1396.

**LLANDDANIEL FAB**, plwyf yn Undeb Bangor a Beaumaris, cantref MENAI, sir FON; yn cynnwys poblogaeth o 442, 97 o dai, a 1679 o erwau. Gwerth ardrethol y plwyf ydyw 1814*p.*, ac y mae y tir mewn sefyllfa uchel o ammaethiad. Saif ar ffordd Caergybi, 2¾ milldir o orsaf rheilffordd Porthaethwy, a saith milldir o Beaumaris a Bangor. Curadiaeth barhaol (*perpetual curacy*) yw y fywioliaeth, mewn cyssylltiad â ficeriaeth Llanidan, yn esgobaeth Bangor. Sefydlwyd yr eglwys blwyfol yn y flwyddyn 616, gan Daniel neu Deiniol, mab esgob cyntaf Bangor, a'i enw ef sydd arni. Cafodd yr adeilad ei adnewyddu yn drwyadl ychydig flyneddoedd yn ol, a gwnaed hyny heb ammharu dim ar ei harddull henafol. Gerllaw Bodlew, yn y plwyf hwn, y mae darn o dir wedi ei amgau, yn dair llath a deugain o hyd, a saith ar hugain o lêd ar draws ei ganol, gyda mynedfa yn y pen cul. Oddeutu canol y tir amgauedig hwn y mae gweddillion hen adeilad fechan, a elwid Capel Cadwaladr. Bernir i'r capel hwn gael ei godi gan Cadwaladr Fendigaid, brenin olaf Prydain, fel lle o addoliad achlysurol. Ond y mae y tir amgauedig wedi ei dori i fyny a chloddio iddo, ac nis gwyddis yn bresenol paham y gwnaed hyny, am nad ydyw ei hanes ar gael, nac un math o le cyffelyb yn y deyrnas. "llen Fonwent" yw yr enw a roddir arno gan rai ysgrifenwyr, a thybir mai dyma y gladdfa Gristionogol henaf, a sefydlwyd yn Ynys Mon. Gellir casglu fod yr ardal hon yn meddu ar gryn bwysigrwydd yn y cynoesoedd, canys er fod cynnydd amaethyddiaeth wedi ysgubo ymaith y rhan fwyaf o olion henafiaethol y plwyf, ceir etto weddillion carneddau mawrion yn Bryn Celi, neu Fryn Duw, lle y mae dwy o geryg mawrion yn sefyll ar eu penau, ac ychydig o geryg ereill yn wasgaredig o'u cwmpas; mewn maesydd cyfagos hefyd, y mae meini mawrion ar eu penau, gweddillion cromlechau, yn ol pob tebyg. Ond pa arbenigrwydd bynag a berthynai i'r plwyf yn yr hen amseroedd, nid oes ynddo nemawr ddim yn galw am sylw yn bresenol, oddieithr fod yn perthyn iddo waddol blyneddol i'w ranu mewn elusenau i'r tlodion.

**LLANDDAROG.** Plwyf yn undeb a sir GAERFYRDDIN, yn feddiannol ar 212 o dai, 4501 o erwau, poblogaeth o 970, a gwerth trethiadol o 3320*p.* Saif ar afon Gwendraeth-Fawr, chwe milldir a haner i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Caerfyrddin. Yn y plwyf hwn y mae treflanau Cillay, Cynnullfawr, Llwynswch, Gellydy, a Thregarn, ac er fod pentref Llanddarog yn sefyll ar fan agored a noethlwm, ar y ffordd fawr rhwng Nedd a Chaerfyrddin, ceir oddiyno olygfeydd eang a swynol, ac i'r gogledd, gwelir Middleton Hall, a Nelson's Tower, tra nad yw Llether-Llestry, hen gartref y Puxleys, ddim yn mhell. Y mae yn y plwyf weithfeydd glo tra eang, a digonedd o geryg calch, y rhai a losgir i wneud gwrtaith at wasanaeth y gymmydogaeth. Medd Llanddarog yr anrhydedd o fod yn brebendiaeth yn eglwys golegawl Aberhonddu, yn nawddogaeth Esgob Tyddewi. Ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 81*p.*, yw y fywioliaeth. Adeilad fechan, dan nawdd Twrog Sant, yw yr eglwys, a'i threfniadau mewnol yn hynod gyfleus a chysurus i'r plwyfolion. Bu unwaith yn y plwyf, ddau gapel anwes, olion y rhai sydd etto i'w gweled; y mae un o honynt, a elwir St. Bernard's, yn furddyn adfeiliedig er's dwy ganrif. Ond nid yw moddion addoliad

Digitized by Google

yn brin yn y plwyf yn bresennol, canys yn ychwanegol at wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, y mae gan yr Ymneillduwyr amryw gapelydd cyfleus. Cynnelir ffeiriau yma ar y dydd Llun ar ol Mai 20, ac ar y 27ain o Fedi.

**LLANDDAUSAINT**, neu LANDDEUSANT, plwyf yn sir FON, yn Undeb Bangor a Beaumaris, chwe milldir i'r gogledd-orllewin o Lanerchymedd. Saif y pentref ar lan yr afon Alaw, a chynnwys hefyd bentref Treffynnon; yn y Gwyndy y mae y llythyrdy, a changen ydyw o swyddfa Llangefni. Rectoriaeth, mewn cyssylltiad â churadiaethau parhaol Llanbabo a Llanfairynghornwy, yw y fywioliaeth, yn perthyn i Esgobaeth Bangor, a'i gwerth yn 615*p.* Y noddwr yw Esgob Bangor. Arddull Seisnig boreuol sydd i'r Eglwys, yr hon sydd mewn cyflwr da, ac yn gyflwynedig i nawdd Sant Marcellus a Marcellinus. Y mae gan yr Ymneillduwyr hefyd amryw addoldai yn y plwyf. Gofalodd Dafydd Hughes am y plwyf hwn yn ei ewyllys, a darparodd fod i ddau o'r trigolion tlodion, gael hawl i fyned i'r clusendy a sefydlwyd ganddo yn Beaumaris, yn y flwyddyn 1609; ac y mae cynnyrch amryw fân roddion elusenol, a chymmunroddion mewn tiroedd, ac arian, yn cael ei ranu yn flyneddol ymysg tlodion y plwyf, yn unol âg ewyllys y rhoddwyr. Gwerth ardrethol y plwyf, ydyw 2153*p.*; erwau, 2011; poblogaeth, 565; tai, 133.

**LLANDDAUSAINT**, plwyf yn rhandir Llanymddyfri, sir GAERFYRDDIN; saif ar yr afonydd Wy, a Sawdde, gerllaw eu tarddiad, chwe milldir o orsaf rheilffordd Llangadog. Cynnwysa bentrefydd Blaensawdde, Gwydre, Chwarter Mawr, a Maesffynon, a chynnelir y ffair flyneddol ar y 10fed o Hydref. Saif y plwyf yn brydferth yn y rhan de-ddwyreiniol o'r sir, ar dueddau Brycheiniog, a bryniau y Mynydd Du, y rhai a ymestynant i'r plwyf ei hun, gan ei wahanu oddiwrth y sir hono. Wrth droed yr uchaf o'r bryniau hyn, sef y Fan, neu Ban-sir-Gaer, y mae llyn eang o ddwfr gloew pur, oddeutu milldir o hyd, ac un gwrhyd ar bymtheg o ddyfnder. Y mae arucheledd y creigiau ysgythrog sydd yn crogi dros y llyn, a nodwedd wyllt yr olygfa oddiamgylch, yn rhoddi gwedd hynod ramantus ar y lle, a hollol wrthgyferbyniol i'r golygfeydd ar yr iseldir gerllaw. Tardda yr afon Sawdde yn y llyn hwn, ac ar ol rhedeg trwy y plwyf, ymarllwysa i'r afon Tawe, gerllaw Llangadog. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, mewn cyssylltiad â ficeriaeth Llangadog, yn esgobaeth Tyddewi. Nid oes dim yn galw am sylw yn yr eglwys, heblaw ei bod dan nawdd Sant Simon, a Sant Judas, ac am hyny y gelwir y plwyf yn Llanddausaint. Erwau, 10,307; gwerth ardrethol, 3611*p.*; poblogaeth, 848; tai, 163.

**LLANDDEINIOL.** Plwyf yn undeb Aberystwyth, yn y pen isaf i gantref Ilar, CEREDIGION, chwe milldir i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberystwyth. Derbynia ei enw oddiwrth y ffaith fod yr eglwys yn gyflwynedig i Deiniol Sant, ond Carog oedd enw cyntefig y lle, a gelwid ef felly, oddiwrth aber fechan sydd yn rhedeg i'r afon Gwyre gerllaw. Saif yr eglwys ar ael bryn; hen adeilad ydyw, ond mewn sefyllfa dda, ac o'i mewn fedyddfaen wythonglog. Ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi ydyw, gwerth 66*p.* Noddwyr, R. Price, Ysw., a Capten Vaughan. Aceri, 2077,—80 o honynt yn ddwfr. Gwerth ardrethol, 1442*p.* Poblogaeth, 260. Tai, 46.

**LLANDDEINIOLEN.** Plwyf yn sir GAERNARFON, ac yn perthyn i Undeb CAERNARFON. Saif yn nghantref Is-gwyrfai, bum milldir o Gaernarfon, ac oddeutu yr un pellder o Fangor. Y mae y plwyf yn un o'r rhai mwyaf yn y sir, a rhwng y pen uchaf a'r pen isaf, yn saith milldir o hyd, ac oddeutu tair milldir o led. Cynnwysa bentrefydd Ebenezer, Penisa'rwaen, a Chlwtybont, a cheir ynddo dri o lythyrdai, o dan swyddfa Caernarfon, yn cael eu hadnabod wrth yr enwau Llanddeiniolen, Ebenezer, a Phenisa'rwaen. Erwau, 9024. Gwerth ardrethol, 30,875*p.*, o'r hwn swm y mae 25,587*p.* mewn chwarelau. Poblogaeth—yn 1801, 1039; yn 1831, 2610; yn 1851, 4894; yn 1861, 5747. Tai, 1236. Gwelir fod cynnydd anghyffredin wedi cymmeryd lle yn mhoblogaeth y plwyf, a diau fod y nifer yn ol cyfrifiad 1871, yn dangos ychwanegiad mawr yn mhellach. Yr achos o'r cynnydd rhyfeddol hwn, ydyw dadblygiad y chwarelau yn mhen uchaf y plwyf, gan G. W. D. Assheton-Smith, Ysw. Y mae y chwarelau hyn, yn nesaf o ran pwysigrwydd i Chwarel y Penrhyn; agorwyd hwynt yn y flwyddyn 1787, a'r pryd hwnw nid oedd ond triugain o ddynion yn gweithio ynddynt, tra y mae yn bresennol dros ddwy fil o bobl yn ennill eu bara beunyddiol ynddynt. Bydd hir goffa am enw y diweddar brif-oruchwyliwr, Mr. Griffith Ellis, o herwydd ei fedr a'i ymdrech i ddwyn i'r golwg adnoddau Chwarelau Dinorwig; ac y mae y gwaith yn cael ei ddwyn ymlaen yn hynod fedrus a deheuig, gan y prif-oruchwylwyr presennol, y Meistri Robert, ac Owen Parry. Cludir miloedd o Dunelli o geryg yn feunyddiol i Borthdinorwig, ar hyd ffordd haiarn, saith milldir o hyd, yr hon a osodwyd i lawr gan deulu y Faenol, yn 1824. Rectoriaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 305*p.*, yw y fywioliaeth, a'r noddwr yw yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys dan nawdd Deiniol Sant, mab, fel y tybir, i'r Deiniol a sefydlodd Goleg yn Mangor, yr hwn a flodeuai yn nechreu y seithfed ganrif. Y mae yn hen adeilad eang, ac yn cael ei chadw mewn trefn a chyflwr da; y mae yn y fynwent amryw goed yw, ac un o honynt yn mesur wyth troedfedd ar hugain mewn amgylchedd. Bywioliaeth ar ei phen ei hun yw curadiaeth barhaol Llandinorwig. Heblaw eglwysydd Llanddeiniolen, a Llandinorwig,—yr olaf yn meddu ar bigdwr godidog, nis gall yr ymwelydd lai na sylwi ar amledd a gwychder yr addoldai Ymneillduol yn y plwyf hwn, yn enwedig eiddo y Methodistiaid, y rhai ydynt yn well eu hymddangosiad yma, nag mewn odid ardal yn Nghymru. Y mae cyfleusderau addysgol y gymmydogaeth yn dra helaeth, yn cynnwys ysgolion Gwladwriaethol, a Brytanaidd; ac yr oedd hwn yn un o'r plwyfydd cyntaf yn y Dywysogaeth, a fabwysiadodd Fwrdd Ysgol, yr hwn sydd wedi bod hyd yma yn dra ymdrechgar i ddarparu moddion addysg effeithiol i blant yr ardalwyr.

Fel y gallesid disgwyl oddiwrth ei agosrwydd i'r Wyddfa, a Chaernarfon, y mae y plwyf hwn yn gyfoethog o olion a thraddodiadau henafiaethol. Hawdd yw canfod fod y Rhufeiniaid yn gwybod am y lle, canys oddeutu haner milldir oddiwrth yr eglwys, mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol, y mae olion gwersyll eang, a gellir olrhain o hono, ffordd Rufeinig yn arwain i'r hen Segontium, un arall yn nghyfeiriad Bangor, a'r drydedd yn arwain i'r mynyddoedd. Y dyb ydyw, mai rhag-wylfa berthynol i amddiffynfa Segontium ydoedd; cuddia lain mawr o dir, ar gopa bryn uchel, yn cael ei hamddiffyn gan werthyr o fân geryg, a mur cryfach oddimewn, ynghyda dwy

Digitized by Google

ffos lydan, a dofn. Dinas Dinorwig oedd enw y lle gynt, ond Pen Dinas y gelwir ef yn bresennol. Yn y canol, ceir cylch o geryg, a dyma, y mae'n debyg, y pencadlys, neu y man lle y safai y penaeth. Y mae yn y gymmydogaeth, weddillion amryw wersylloedd ac amddiffynfeydd Prydeinig. Heb fod yn mhell, y mae gwylfeydd Pen y Gaer, a Bryn y Costrelau, yr olaf ag un mur o'i hamgylch; ac ar fryn y tu hwnt i Bont Rhyddallt, y mae Caer Careg-y-Fran, o'r hon yr oedd palmant yn arwain i Lys Dinorwig. Yn Llys Dinorwig y preswyliai Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf Gwynedd. Rhoddodd Iorwerth I., pa fodd bynag, y plas i Syr Gruffydd Llwyd, o Dregarnedd, yr hwn oedd y cyntaf i ddwyn iddo y newydd am enedigaeth Iorwerth II. yn Nghastell Caernarfon. Ni chafodd Syr Gruffydd fwynhau gwenau Iorwerth yn hir; canys wedi gwrthryfela o hono yn erbyn y brenin, efe a ddaliwyd mewn ymosodiad aflwyddiannus ar gastell yr Wyddgrug, ac a ddienyddiwyd. Ar ol hyn, daeth y plas i feddiant Syr William Williams, Barwnig, o'r Faenol, yr hwn a'i trosglwyddodd yn ei ewyllys i Syr Bourcher Wrey am ei oes, a'r gweddill i'r Brenin Gwilym y Trydydd. Y brenin a'i cyflwynodd i un o gyn-dadau Mr. Assheton-Smith, y perchenog diweddar. Erbyn hyn, pa wedd bynag, nid oes namyn yr adfeilion yn aros, ond flyneddoedd yn ol, cafwyd careg gerllaw, ac arni yr argraff canlynol: "IMP. Q. DECIO." Yn ymyl y Faenol, y mae Nant-y-Garth, trwy yr hon yr ymdeithiai yr Archesgob Baldwin, a Giraldus Cambrensis, yn y flwyddyn 1118.

Y brif afon yn y plwyf, yw afon Cegin, yr hon ar ol dyfrhau plwyfydd Llanddeiniolen, a Llandegai, a ymarllwysa i'r Fenai yn Mhorth y Penrhyn, Bangor. Tardda o ffynnon fwnawl, o'r enw Ffynnon Cegin Arthur, i'r hon ar gyfrif ei rhinweddau meddygol, y cyrchai miloedd o bobl ychydig flyneddoedd yn ol. Ysgrifenodd y diweddar Dr. O. O. Roberts, Bangor, lyfryn ar ansoddau y dwfr, ac nid oes dadl na pherthyn iddo rinweddau neillduol; ond y blyneddoedd diweddaf, nid oes cymmaint o gyrchu yno ag y bu. Ceir ffynnon rinweddol hefyd yn Rhydfawr, ryw filldir oddiwrth yr eglwys. Ffynnon Deiniolen y gelwir hon, a bu gynt mewn bri mawr, fel moddion effeithiol i wella y crydcymalau, ac anhwylderau cyffelyb.

Gerllaw Penllyn, yn y plwyf hwn, y preswyliai Marged uch Ifan, neu "Marged fwyn uch Ifan," chwedl yr hen bennillion. "Brenhines y Llynoedd" y gelwid hi gan Mr. Pennant, ac ni bu neb erioed yn fwy teilwng o'r enw. Anfynych y clybuwyd am ddynes yn gyffelyb iddi; ac nid yw ryfedd yn y byd fod pobl yn arfer myned o bellder ffordd i gael golwg arni. Hi a fu byw i gyrhaedd yr oedran teg o ddeng mlwydd a phedwar ugain, eithr nid oedd yn yr holl wlad, na gwryw na benyw a elai y tu hwnt iddi mewn hela, saethu, a physgotta. Cadwai o leiaf ddwsin o gŵn, o bob lliw, rhywogaeth, a maintioli, a'r oll yn meddu rhyw ragoriaeth. Gallai ymffrostio ei bod yn grydd, gôf, cwch-adeiladydd, a gwneuthurydd telynau. Hi a laddodd fwy o lwynogod mewn un flwyddyn, nag a laddai holl helwyr cedyrn y cymmydogaethau cyfagos gyda'u gilydd, mewn deng mlynedd. Gallai droi ei llaw hefyd at orchwylion defnyddiol a gwasanaethgar; canys yr oedd ganddi gwch ar y llynoedd, a'i gwaith rheolaidd oedd cludo y mŵn copr o'r cloddfeydd cyfagos. Pedolai ei cheffylau ei hun, gwniai ei hesgidiau ei hun, ac adeiladai ei chychod ei hun, tra yr ydoedd yn dilyn yr alwedigaeth hon. Yr oedd yn saer rhagorol hefyd, a phan ydoedd yn ddeng mlwydd a thriugain oed, hi ydoedd yr enwocaf yn ei hoes am nerth breichiau, ac nid oedd wr ieuangc yn yr holl wlad, a anturiai ymaflyd codwm â hi. Ac nid nerth ac ystwythder corphorol oedd yr unig ragoriaeth a berthynai iddi, ond yr oedd yn alluog i chwareu ar offerynau cerdd, ac yn ymhyfrydu yn nghyfaredd y crwth a'r delyn. Y canlyniad ydoedd, fod yr holl wlad yn gwybod am ei gorchestion, a thra fu byw, ni pheidiodd y beirdd a dwyn eu hoffrymau awenyddol at ei hallor. Ond rhoddodd hithau ei harfau i lawr i *Cupid*, a phriododd y mwyaf eiddil a merchedaidd o'i holl edmygwyr. Trechwyd hithau gan swyn serch, a gwirionwyd y fenyw gadarn gan gariad; ond paham y dewisodd iddi ei hun wr o fysg y gweiniaid sydd ddirgelwch, oddeithr ei bod, fel y sylwa un awdwr, yn benderfynol o gadw i fyny y rhagoriaeth a'r uwchafiaeth a osodasai natur arni, hyd yn nod yn nghaethiwed y rhwymyn priodasol.

**LLANDDERFEL.** Plwyf yn undeb y Bala, rhan yn nghantref Penllyn, a rhan yn nghantref Edeyrnion, MEIRIONYDD. Saif ar yr afon Dyfrdwy, yn ymyl rheilffordd Bala a Chorwen, dair milldir a chwarter o'r Bala, a pherthyna iddo orsaf fechan ei hun, a llythyrdy o dan swyddfa Corwen. Cynnhelir ffeiriau yma Awst 17, a Hydref 16. Mae y plwyf hefyd yn cynnwys trefgorddau Caergeiliog, Crogen, Cynlas, Doldrewyn, Llaithgwm, Nantfrayer, a Selwrn. Erwau, 7794. Gwerth trethadwy, 3869*p.* Poblogaeth, 968. Tai, 199. Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 260*p.*, yw y fywioliaeth; a'r noddwr yw Esgob Llandaf. Yr eglwys, yr hon a saif ar fryncyn ar yr ochr ogleddol i'r Ddyfrdwy, sydd adeilad yn ol arddull amser Harri VIII., ac yn gyflwynedig i nawdd Derfel Gadarn, yr hwn a flodeuai tua diwedd y chweched ganrif, ac oedd yn un o abadau mynachlog fawr Ynys Enlli. Ceir yn yr eglwys ysgrin ragorol, ac uwchben hon yr oedd gynt ddelw o'r nawddsant Derfel, yn gerfiedig mewn coed, ond hi a symmudwyd i Lundain yn 1538, ac a ddefnyddiwyd yn gynnud tân, yn llosgiad cyhoeddus mynach a wadai uwchafiaeth y brenin. Gadawyd ar ol ddarlun cerfiedig o garw coch, er cof am ddelw y sant, a dywedir ei fod yn rhan o'r ddelw hono. Dangosir hefyd ffon, a osodir allan fel yn eiddo y nawddsant, a cheffyl pren, a elwir yn Geffyl Sant Derfel. Yn 1746, gadawodd Mr. John Williams gymmun-rodd o 60*p.* er budd tlodion Llandderfel. Yn y plwyf hwn y ganwyd Edward Jones, "Bardd y Brenin," y telynor a'r cyfansoddwr enwog.

Ceir gweddillion amryw gylchoedd Derwyddol yn mhentref Dol-drewin, ac y mae swn rhyfel yn "Dol-y-gadfa," enw ffermdy yn y dyffryn ar lan y Ddyfrdwy. Yn ymyl mynydd Mynyllod, gellir canfod adeiladau Prydeinig, o'r enw Pen y Garth, yn cynnwys amryw gelloedd cerig. Ar dir Pale canfyddir olion allor Dderwyddol, a chistfaen; ac ar fryn Cefn Caereuni, yn y plwyf hwn, y mae amddiffynfa filwrol gref, sef "Y Gaer." Gellir crybwyll fod llyn eang, yn cynnwys digonedd o lysywenod, a mathau ereill o bysgod, ar ben bryn Cefn Caereuni. Yn Rhiwaedog yr ymladdodd Llywarch Hen frwydr waedlyd â'r Sacsoniaid, ac y collodd efe Cynddelw, yr olaf o'i feibion. Tybir mai ar lecyn cyfagos, a elwir hyd heddyw Pabell Llywarch Hen, y gorphwysodd efe y noson ar ol y frwydr, ac y gorphenodd

Digitized by Google

efe ei alarnad doddedig, o herwydd colli o hono ei holl feibion. Cawn ef yn annerch, ei fab, fel pe etto yn fyw, ac yn ei orchymyn, doed a ddel, i beidio encilio o'r bryn—

"Cynddelw, cadw dithau y Rhiw
Ar a ddêl yma heddiw;
Cudeb am un mab nid gwiw."

Gyferbyn a'r eglwys, y mae Pont Llandderfel, ac iddi bedwar bwa. Y mae golygfeydd natur yn yr ardal yn nodedig o darawiadol, ac yn cael eu gwneud i fyny o raiadr Calettwr, llwyni coediog y dyffryn, a gwylltineb rhamantus mynyddoedd yr Arenig, y Berwyn, Aran, a Chader Idris.

**LLANDDETTY**, neu Llanthetty, sydd blwyf yn nosparth a sir Frycheiniog; ar geulan yr afon Wysg, camlas Aberhonddu, a'r Ffordd "Julia Montana," saith milltir de ddwyreiniol o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Y mae yn cynnwys is-bentrefi Dyffryn, a'r Fro; ac y mae y llythyrfa yn Aberhonddu. Erwau, 5980. Gwerth ardrethol, 3732*p*. Poblogaeth yn 1851, 549; yn 1861, 631. Tai, 116. Llanthetty Hall, ydyw palasdy y teulu Overton. Yr oedd y Maes mawr yn perthyn i'r Milwriad Jones, aelod adnabyddus o'r Senedd Hir, ond y mae yn awr yn meddiant y teulu Lewis. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 344*p*., ac yn nawddogaeth P. G. Holford, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Detta. Y mae curadaeth barhaol Taf fechan, ar wahan oddiwrth y lle hwn yn awr.

**LLANDDEW**, neu Llanthew, sydd blwyf yn nosparth a swydd Frycheiniog, gerllaw yr afon Honddu, milltir a haner gogledd ddwyreiniol o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Llythyrfa yn Aberhonddu. Erwau, 2695. Gwerth ardrethol, 1352*p*. Poblogaeth, 292. Tai, 68. Y mae y faenoriaeth yn perthynu i Esgob Ty Ddewi. Yr oedd hen balas perthynol i'r esgobion yn sefyll yma, â'r hwn yr ymwelwyd yn 1188, gan Archesgob Baldwin, a Giraldus Cambrensis; ac fe roddwyd gorchymyn, drwy weithred yn 1342, ar fod iddo gael ei gynal i barhau yn breswylfod i'r esgobion, ond nid oes yn aros o hono hyd yn awr, ddim ond porthfa a adeiladwyd gan yr Esgob Gower. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 89*p*., ac yn nawddogaeth archddeon Brycheiniog. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Dewi; ac yn adeilad enwog.

**LLANDDEWI-ABERARTH**, pentref a phlwyf yn rhanbarth Aberaeron, yn swydd Aberteifi. Y mae y pentref yn sefyll ar lan y môr, wrth enau, neu *aber* yr afon Arth, 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o Aberaeron; a 13 milldir i'r Gogledd Orllewin o orsaf rheilffordd Llanbedr. Y mae ffeiriau yn cael eu cynnal yma, Gorph. 5, a Rhag. 11. Cynnwysa y plwyf hwn hefyd ran o dref Aberaeron, yn yr hon y mae llythyrfa dan Gaerfyrddin. Mesura o erwau, 3595; o ba rai y mae 75 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2244*p*. Poblogaeth yn 1851, 1284; yn 1861, 1463. Tai annedd, 353. Y mae gweddillion hen amddiffynfa filwraidd, a elwir Castell Cadwgan, yn agos i lan y mor. Yma y mae tlotty Aberaeron, a deg oedd y nifer oedd o'i fewn pan wnaed Deiliadeb 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 310*p*. Noddwr, esgob Tyddewi.

**LLANDDEWI ABERGWESYN**, plwyf yn nghantref Buallt, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, ar arllwysiad yr afon Gwesyn i'r Irfon; 14 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o orsaf y rheilffordd yn Llanfair yn Muallt. Llythyrfa, Llanymddyfri, dan Gaerfyrddin. Mesura 10,511 o erwau o dir, a chyfrifir ei werth ardrethol yn 652*p*. Poblogaeth, 111. Tai annedd, 20. Y mae arwynebedd y plwyf gan mwyaf yn fynyddig, gwyllt, a diffaith. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorïaeth, gydiedig â Ficeriaeth Llanfihangel Abergwesyn, yn esgobaeth Ty Ddewi.

**LLANDDEWI BREFI**, pentref a phlwyf yn rhanbarth Tregaron, swydd Aberteifi, neu Geredigion. Y mae y pentref yn gorwedd ar lethr ogleddol Craig Twrch, yn agos i'r afon Teifi, ffordd Sarn Helen, a rheilffordd Llanbedr, Tregaron, a Llanidloes, yr hon a agorwyd yn Hydref 1867; 3¼ milldir i'r Dehau wrth Orllewin o Dregaron; ac y mae yma lythyrfa dan Gaerfyrddin. Y mae y lle yn hen, a bu unwaith yn bwysig, er nad yw yn awr ond bychan; canys cynhaliwyd Cymmanfa yma yn y flwyddyn 519, er gwrthsefyll Morganiaeth; ac yn y Gymmanfa hono y rhoddes Dyfrig yr Archesgob ei swydd i fynu, ac yr etholwyd Dewi Sant yn ei le ef. Y mae yma adfeilion hen sefydliad colegawl, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1187, gan yr esgob Bec; a thros amser, coleddwyd y bwriad o adeiladu coleg Dr. Burgess yma, yr hwn wedi hyny a adeiladwyd yn Llanbedr Pont Stephan. Y mae y plwyf yn cynnwys Capeloriaethau Garthely, a Blaen penal, a threfgyrdd Gwynfil, Llanio, Gogoian, y Garth, ac Ystrad, Prisc, a Charfan, Gorwydd, Dothie-Camddwr, a Dothie-pysgotwr. Mesura 36,252 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 6487*p*. Poblogaeth, 2574. Tai annedd, 532. Y mae llawer o'r tir yn fryniawg, a mynyddig. Y mae llwybr hynod o ramantus i dramwywyr ar draed, o'r pentref i fynu Glyn Brenig. Yr oedd yr hen orsaf Rufeinaidd a elwid *Loventium*, ar Sarn Helen, yn y fan lle y saif ammaethdy Llanio yn bresenol; a chafwyd tair carreg yma, yn dwyn arnynt arysgrifau Rhufeinaidd, un o ba rai a ddefnyddir fel eisteddle wrth ddrws yr ammaethdy: cafwyd batholion, llestri pridd, a chreiriau Rhufeinaidd eraill yma hefyd, o bryd i bryd; a darganfuwyd sylfeini hen adeilad a elwir "Y Gaer," neu "Y Castell," mewn cae cyfagos. Ymladdwyd brwydr yn y plwyf hwn yn y flwyddyn 1072, pan orchfygwyd tywysogion Powys, gan Rhŷs ab Owen, a Rhydderch ab Caradog.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gyssylltiedig âg is-beriglorïaeth Llanbadarn Odwyn, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 146*p*. Noddwyr, Iarll Lisburne, ac R. Price, Ysw. Yr eglwys, yr hon sydd yn yr arddull Seisnig ddiweddar, a seiliwyd yn y flwyddyn 1187, gan yr esgob Bec; ac y mae rhai cof feini henafol ynddi. Y mae yma faen-golofn hefyd, saith droedfedd o uchder, yr hon a elwir "Ffon Dewi Sant." Y mae yma ysgol wedi ei gwaddoli â deg punt y flwyddyn.

**LLANDDEWI FACH**, plwyf yn rhandir y Gelli, swydd Faesyfed. Saif ar yr afonig Bachwy, yr hon sydd yn rhedeg i'r afon Wy, bum milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd y Gelli. Erwau, 2297. Gwerth ardrethol, 1185*p*. Poblogaeth, 115. Tai, 22. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, cyssylltiedig â ficeriaeth Llowes, yn esgobaeth Tyddewi.

Digitized by Google

**LLANDDEWI-FELFFREY**, treflan a phlwyf yn undeb NARBERTH, cantrefi NARBERTH a DUNGLEDDY, swydd BENFRO. Y dreflan sydd yn gorwedd ddwy filldir a hanner i'r gogledd-ddwyrain o Narberth, a thair milldir a hanner i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Narberth. Mae y plwyf, yr hwn sydd yn cynnwys hefyd dreflan Henllan, yn gorwedd mewn dyffryn toreithiog a ffrwythlon, yr hwn a ddyfrheir gan yr afon Tâf, yr hon sydd yn gwahanu y plwyf hwn oddiwrth blwyf Llangan, yn swydd Gaerfyrddin. Mae y tiroedd oll wedi eu cau i mewn, yn cael eu hammaethu yn dda, ac yn ffrwythlon iawn. Mae y gymmydogaeth, heblaw fod y golygfeydd yn hyfryd a dyddorol, yn cael ei harddu gan liaws o balasau, a'r rhai penaf ydynt Trewern, a Henllan. Mae y fywioliaeth yn un ddwbl, yn ficeriaeth ac yn rectoriaeth, ac yn perthyn i esgobaeth Tyddewi. Gwerth y ficeriaeth yw 260*p.*; gwerth y rectoriaeth yw 200*p.*, ac nid oes dyledswyddau yn perthyn iddi. Yr arglwydd Ganghellydd piau nawddogaeth y ficeriaeth, ac y mae y rectoriaeth yn nawddogaeth Coleg Dewi Sant, Llanbedr. St. Dewi yw nawddsant eglwys y plwyf, yr hon nid ydoedd mewn cyflwr da iawn yn 1859, er ei bod yn dwyn arwyddion o henafiaeth mawr. Erwau, 4022. Gwerth ardrethol, 5278*p.* Poblogaeth, 790. Annedd-dai, 176.

**LLANDDEWI 'R CWM**, plwyf yn nghantref Buallt, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, ar lan yr afon Dihonw, 2 filldir i'r Dehau wrth Orllewin o orsaf rheilffordd Buallt. Y llythyrfa yw Llanfair yn Muallt, swydd Frycheiniog. Erwau, 3101. Gwerth ardrethol, 1889*p.* Poblogaeth, 215. Tai annedd, 40. Y fywioliaeth eglwysig sydd isbeirgloriaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 81*p.* yn y flwyddyn. Noddwyr ar yn ail, R. Price, Ysw., a V. Pocock, Ysw.

**LLANDDEWI RHYDDERCH**, plwyf yn rhandir y Fenni, swydd FYNWY; ar gangen o'r afon Trothy, 3 milldir i'r Dwyrain Ddc Ddwyrain o orsaf rheilffordd Abergafenni. Erwau, 2187. Gwerth ardrethol, 2626*p.* Poblogaeth, 339. Tai annedd, 81. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 215*p.* Noddwr, Esgob Llandaf. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Dewi Sant.

**LLANDDEWI SGYRRYD**, plwyf yn rhandir y Fenni, swydd FYNWY; islaw bryn Sgyrryd Fawr; 2½ milldir i'r De Ddwyrain o orsaf rheilffordd Lanfihangel; a 3½ i'r Gogledd Ddwyrain o'r Fenni. Llythyrfa, Abergafenni. Erwau, 1060. Gwerth ardrethol, 1136*p.* Poblogaeth, 88. Tai annedd, 24. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig berchenogion. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglоriaeth yn esgobaeth Llandâf, gwerth 187*p.* Noddwr, y Parch. M. H. Jones.

**LLANDDEWI - YSTRADENNI**, pentref a phlwyf yn undeb KNIGHTON, neu TREFYCLAWDD, swydd MAESYFED. Saif y pentref ar yr afon Ithon, yn nghesail y mynyddoedd, dair milldir a hanner i'r gog. wrth orll. o orsaf rheilffordd Penybont, a 12 milldir i'r gorll. ddc orll. o Knighton. Y plwyf a gynnwys drefgorddau Church, a Mystyr-rhoesllowdy, a rhan o drefgordd Llanfihangel Rhydithon. Erwau, 8075. Gwerth ardrethol, 1772*p.* Poblogaeth, 669. Annedd-dai, 109. Torir ar draws y plwyf gan y brif-ffordd sydd yn arwain o Buallt i'r Drefnewydd. Arwynebedd y plwyf sydd yn fryniog, ac anwastad; ond y mae y rhan fwyaf o'r tir wedi ei amgau a'i ddiwyllio yn dda, ac yn dra ffrwythlon. Yr olygfa yn y gymmydogaeth hon sydd yn fawreddog i'r eithaf, yn enwedig o ymyl y persondy. Gwelir y mynyddoedd draw yn wahanol drumau, y naill yn ymddyrchafu uwchben y llall, a'r oll yn ffurfio gwrthgyferbyniad rhamantus i gainder meillioneg y dyffryn wrth eu traed. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn gydiol â ficeriaeth Llanfihangel Rhydithon, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 145*p.* Noddwr, Canghellydd Aberhonddu.

Ar gopa mynydd yn ymyl y pentref, canfyddwyd olion amddiffynfa gref, a elwid y Gaer, a thybir ei bod yn un o'r safleoedd a feddiennid yn olynol, yn y ddeuddegfed ganrif, gan Cadwallon, a Mortimer, yn ystod yr ymladdfeydd dibaid a gymmerai le rhyngddynt. Hawdd yw canfod ei fod yn wersyll o faintioli mawr; ei ffurf sydd hirgrwn, yn annichonadwy myned iddo ar yr ochr sydd yn wynebu y dyffryn, ac yn cael ei amddiffyn ar bob ochr arall gan ddau ragfur cyfochrog. Ar fryn cyferbyniol, y mae Tomen fawr o bridd, yn amgylchynedig gan ffos, ac yn cael ei galw Tomen Bedd Ygre. Tybir iddi gael ei chodi er cof am ryw hen benaeth Prydeinig, yr hwn a gwympodd yn y cyffiniau, ac a gladdwyd yma. Nid yw yn annhebyg i domen Caersws. Oddeutu dwy filldir o'r lle hwn, fe safai gynt, hen amddiffynfa, o'r enw Castell Cymaron, ar gopa bryn. Tybir iddi gael ei hadeiladu gan y Normaniaid, i amddiffyn y tiroedd a drawsfeddiannwyd ganddynt yn y parth hwn o Gymru, ond ymhen amser, dinystriwyd hi gan y Cymry, yn eu hymdrechion dewr i yru yn ol y goresgynwyr, ac i adfeddiannu eu tiriogaethau. Ail-adeiladwyd hi ar ol hyny gan Hugh, Iarll Caer, yr hwn yn 1142 a gafodd feddiant o holl randir Maeliennydd, sef y parth a fuasai yn asgwrn y gynnen yn barhaus rhwng y Normaniaid a'r Cymry, mewn canlyniad i drachwant y rhai blaenaf i helaethu eu terfynau, ac i ymdrechion canmoladwy y rhai olaf i'w gyru yn ol. Syrthiodd y castell o'r diwedd i ddwylaw teulu Mortimer, oddeutu y flwyddyn 1360, ac yn meddiant eu disgynyddion yr arhosodd am oesoedd lawer. Hawdd yw olrhain etto ei safle, a'r ffos oedd o'i gwmpas; eithr nid oes gareg ar gareg yn aros o'r adeilad ei hunan.

**LLANDDOGED**, plwyf yn nghantref Is DULAS, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, yn gorwedd yn agos i lan Ddwyreiniol yr afon Conwy, a rheilffordd Llanrwst, 2 filldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Lanrwst. Llythyrfa, Llanrwst, swydd Ddinbach. Erwau, 758. Gwerth ardrethol, 1252*p.* Poblogaeth, 276. Tai annedd, 62. Yr oedd y faenor yn perthyn yn yr amser gynt i Esgobion Llanelwy. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglоriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 187*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Doged, a elwir hefyd "Doged Frenin;" brawd Afan, a mab Cedig ab Ceredig ab Cunedda. Efe a flodeuai yn y chweched ganrif. Y mae yr eglwys hon yn adeilad fawr, cynnwysedig o gorph, cangell, ac asgellfa, yr hon a ymddengys o wneuthuriad diweddarach na'r gweddill o'r adeilad, a dywedir iddi gael ei hadeiladu wedi y Diwygiad Protestanaidd, gan un o berchenogion y faenoriaeth gyfagos, Maenan. Y mae yma gofadail hardd i Syr Thomas Kyffin, Cyfreithiwr Cyffredinol yn nheyrnasiad y Frenines Anne, a'r Breninoedd George y Cyntaf, a'r Ail, yr hwn a fu farw ar yr 20fed o Fehefin, 1745; ac ar lawr yr eglwys y mae llech-feini i goffadwriaeth

Digitized by Google

amryw aelodau o deulu Wynne, o fonachlog Maenan.

**LLANDDONA**, plwyf yn nghantref TINDAETHWY, swydd FON, GOGLEDD CYMRU, oddiar y Traeth Coch, tua 3½ milldir i'r Gogledd Orllewin o dref Beaumaris; a 7¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o orsaf rheilffordd Pont Menai. Llythyrfa, Beaumaris. Mesura 2387 o erwau; o ba rai y mae 470 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1644*p*. Poblogaeth, 567. Tai annedd, 134. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, yn esgobaeth Bangor, gwerth 87*p*. Noddwr, Arglwydd Boston. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Dona; ac ar yr un lannerch ag un a adeiladwyd yn y flwyddyn 610, ac a gyssegrwyd fel y dywedir uchod i goffadwriaeth Dona ab Selyf ab Cynan ab Garwyn ab Brochwel Ysgythrog, yr hwn ar y cyntaf a adeiladasai gell yma, ar lan y môr.

Mewn rhai hen ysgriflyfrau, fe elwid y plwyf, neu y gymmydogaeth hon, "Dena y Crafgoed yn Môn." Y mae arwyneb y plwyf hwn yn dra anwastad, fel y cyfrifir nad oes yma nemawr dros 1500 erw o dir âr; ac y mae yma yn agos i gan erw o gyttir creigiog a diwerth, yr hwn sydd yn cadw ei hen enw, "Mynydd y Craf-goed." Bernir fod y Daniaid tu a'r wythfed ganrif, wedi glanio tua'r parth hwn o Ynys Fôn, a chan gymeryd mantais ar hen amddiffynfa gref Dinsylwy, yn y plwyf nesaf, wedi gwneyd eu pen cadlys yno, tra yr adeiladent amddiffynfa fechan yn agos i eglwys y plwyf hwn, er amddiffyn eu llongau, &c. Yr ydoedd mewn oes dra boreuol, gastell, yn mharth De Orllewinol y plwyf; ond nid oes dim o'i olion ar gael yn bresenol; ond y mae ammaethdy o'r enw "Bryncastell" ar y llanerch lle y safai. Efallai mai rhag-orsaf ydoedd i amddiffynfa fawr Dinsylwy, pan oedd y pencadlys Rhufeinaidd yn yr amddiffynfa gref hono. Y mae ysgrifenydd yr Erthygl hon yn cofio yn dda, fod lluaws o draddodiadau yn cael eu hadrodd gan hen bobl y plwyf hwn, tua haner can mlynedd yn ol, am frwydrau tra gwaedlyd wedi eu hymladd o gyfeiriad Bryncastell, ar draws Mynydd y Wern, ac oddiyno yn nghyfeiriad yr eglwys. Yn adeg y rhyfel cartrefol, yr oedd boneddwr yn byw yn y Wern, o'r enw Howel, yr hwn fel y rhan fwyaf o foneddwyr Môn, oedd yn bleidiwr gwresog i'r brenin; ac yr oedd ef yn mrwydr yr Allt Goch, ger Beaumaris, lle y gorchfygwyd y breninolwyr; ond pan enciliodd pleidwyr y brenin i'r castell, ac y gosodid gwarchae arnynt gan wŷr y Senedd, aeth Howel i lan yr afon, ac wedi rhoddi dau gwch, wyneb ar wyneb, efe a aeth rhyngddynt i ymguddio, hyd oni chafodd gyfleusdra i ddianc gyda glan yr afon Menai, hyd at ben ffordd Llanfaes, lle yr oedd ei was yn aros am dano, gyd a'i farch; ac oddiyno efe a farchogodd rhyngddo a'i gartref, mor gyflym ag y gallai; ond erbyn cyrhaedd o hono i Fynydd y Wern, gwelai fod mintai o feirch-filwyr y Senedd wedi ei amgylchynu, ac yn hytrach na syrthio yn garcharor i'w dwylaw, efe a yrodd ei farch dros graig ddiphwys, fel y bu ef a'i anifail farw gan y codwm; a chladdwyd y march a'i farchog yn yr un bedd, wrth droed y graig, yr hon, er cof am y tro, a elwir hyd heddyw, "Craig Howel;" ac hyd mor ddiweddar a dechreu y ganrif hon, arferai rhai o hiliogaeth yr Howel uchod, ddyfod ar amserau, i wyngalchu ei fedd.

**LLANDDOWROR**, sydd blwyf yn nosparth a swydd GAERFYRDDIN, yn gyfagos i afon Taf, 3 milltir, de orllewin o orsaf rheilffordd St. Clears, a 3¼, gogledd ogledd orllewin o Lacharn. Llythyrfa dan St. Clears. Erwau, 1783. Gwerth ardrethol, 1264*p*. Poblogaeth yn 1851, 403; yn 1861, 339. Tai, 75. Y mae y tiroedd oll yn perthyn i un ettifeddiaeth. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 132*p*., ac yn nawddogaeth Arglwydd Milford. Y mae o fewn y plwyf hwn, un o'r cloddfeydd cerig at adeiladu tai, o'r fath oreu yn y sir. Gwnaed gwelliannau gwerthfawr yn y brif-ffordd, yn nherfynau y gymydogaeth hon, ychydig amser yn ol. Dechreuwyd yr ysgolion Rhad Cymreig, drwy offerynoldeb y Parch. Gryffydd Jones, yr hwn a fu beriglor y plwyf hwn am tua phum mlynedd a deugain: bu ef farw yn 1761, yn ddeunaw a thriugain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn yr eglwys hon, lle y mae cofadail iddo, a godwyd gan Mrs. Bridget Bevan, o Lacharn, yr hon a wrandawai dan ei weinidogaeth, ac a fu farw yn 1779, wedi gadael ar ei hol, gymunrodd o Ddeng mil o bunau, tu ag at gynal yr ysgolion hyn, yr hwn swm a gynnyddodd, yn ysdod amser o ymgyfreithio yn eu cylch, i 30,000*p*. Y mae nifer o honynt ar gael hyd yn awr, ac yn cael eu trefnu ar ddull symudol. Bu yr ysgolion hyn o wasanaeth mawr i'r dywysogaeth, pan yr oedd moddion addysg yn brin yn y wlad.

**LLANDDULAS**, pentref a phlwyf yn undeb LLANELWY, cantref ISDULAS, swydd DINBYCH. Saif y pentref ar lan y mor, gerllaw rheilffordd Caer a Chaergybi, yn ymyl yr afon Dulas, dros yr hon y mae pont gareg dda. Yma, sef rhyw ddwy filldir a hanner i'r gorllewin wrth ogledd o Abergele, y bradychwyd Risiard II., brenin Lloegr, gan Percy, i Bolingbroke. Bychan yw arwynebedd y plwyf (606 o erwau o dir, a 110 o ddwfr) ond y mae yn ddilys yn un o'r rhai prydferthaf yn Nghymru, oherwydd yr amrywiaeth a arddengys anian ynddo. Ei iachusrwydd sydd nodedig, a'r canlyniad ydyw, fod y lle yn dyfod i sylw cynnyddol fel cyrchfan i ymwelwyr yn yr haf. Y mae yn meisfor Llanddulas, noddfa glyd i longau ar bob math o dywydd. Ychwanegwyd at ei ddiogelwch a'i gyfleusderau yn 1822 trwy godi mor-rodfa (*pier*) uchel, yn rhedeg gryn bellder i'r mor. Y mae, er yn fychan, yn lle bywiog iawn, o herwydd y gweithfeydd calch sydd yn y gymmydogaeth, y rhai sydd yn rhoddi gwaith i tua thri chant o bobl. Perthyna yr holl dir bron i Gastell Gwrych. Gwerth ardrethol y plwyf ydyw 1661*p*.; o'r hyn y mae 17*p*. mewn chwarelau. Y boblogaeth yn 1851 oedd 575; yn 1861, 619; ac yn 1871, oddeutu 700. Annedd-dai, 139. Prif balasdai y gymmydogaeth ydynt, Gastell Gwrych, Bryndulas, Bronywendon, Plasdulas, Moranedd, a Thanyrallt. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 160*p*., a'r esgob yw y noddwr. Cynnwysa y plwyf un eglwys, a phedwar o addoldai Ymneillduol. Yr eglwys sydd yn hên adeilad, cyssegredig i St. Ceinbryd, ond cafodd ei hail-adeiladu yn 1859 am draul o rhwng 5000*p*. a 6000*p*. Bendithir yr ardal â thair o ysgolion dyddiol rhagorol. Yr hyn sydd wedi gwneud enw y plwyf hwn yn hysbys i'r holl fyd, ydyw y trychineb alaethus a gymmerodd le yma yn 1868.

Cymmerodd y trychineb hwnw le ar Reilffordd Caer a Chaergybi, islaw Castell Gwrych, a rhyw filldir a hanner o Abergele. Dydd Iau, yr 20fed o Awst, 1868, cychwynodd y llythyr-gerbydres Wyddelig (*Irish limited mail*) o Lundain, am chwarter i

Digitized by Google

saith o'r gloch y bore, ac o Gaer am Gaergybi gyda'i phrydlondeb arferol. Pasiodd drwy orsaf Pensarn, Abergele, oddeutu un ar gloch y prydnawn, ac nid oedd dim y pryd hwnw allan o'i le. Yr oedd cerbydres nwyddau wedi myned trwy yr orsaf oddeutu hanner awr yn flaenorol i hyny, a thybid ei bod wedi myned yn glir allan o ffordd y gerbydres wyllt, cyn i'r olaf ddyfod i fyny. Ond ymddengys i ran o'r gerbydres nwyddau ddadfachu ychydig y tu hwnt i Landdulas, a thrwy i'r anffawd hon ddigwydd ar *incline*, rhedodd yr ôl-wageni i lawr gyda chyflymdra ofnadwy, yn nerth eu pwysau eu hunain. Y foment hon gwnaeth y llythyr-gerbydres ei hymddangosiad, yn teithio yn ol cyflymdra o ddeugain milldir yr awr. Yr oedd yn gynnwysedig o'r agerbeiriant, a'r *tender*, dau gerbyd y gwarchodwyr, dau gerbyd y swyddfa lythyrau, a phedair o gerbydau cyffredin teithwyr. Bernid fod 77 o deithwyr yn y gerbydres, yn cynnwys Arglwydd Farnham, Duges Abercorn a'r teulu, Arglwydd G. Hamilton, Arglwydd Castlerosse a'r teulu, a Mr. a'r Arglwyddes Selwin-Ibbetson, a'r teulu, yn gwneud rhwng y gyriedydd, y tânwr, gwarchodwyr, a swyddogion y llythyrfa, oddeutu 85 o bersonau. Cymmerodd y gwrthdarawiad le heb fynyd o rybudd, canys yr oedd troad neu wyriad yn y llinell, yn peri fod y gerbydres wedi dyfod i ymyl y tryciau nwyddau, cyn eu gweled. Gyriedydd cerbydres y teithwyr, sef Arthur Thompson o Stafford, a welodd ar amrantiad fod gwrthdarawiad yn anocheladwy, a thrwy neidio oddiar y peiriant, efe a ddiangodd heb ond ychydig niwed. Y tânwr, Joseph Holmes, a arhosodd yn ei unfan, a lladdwyd ef yn ddiattreg.

Gwaith eiliad oedd y trychineb a ddilynodd. Yr oedd y gwrthdarawiad mor ddisymmwth a chwyrn, fel y maluriwyd yr agerbeiriant a'r *tender*, ac y taflwyd hwynt ar draws y rheiliau, nes llwyr gau i fyny y ddwy linell; cafodd cerbyd y gwarchodwyr nesaf i'r agerbeiriant, a cherbydau y teithwyr hefyd, eu malu yn ysgyrion, a lliaws mawr o'r teithwyr anffodus a wasgwyd, ac a lethwyd rhwng y malurion. Ac nid dyna oedd y gwaethaf, canys ychwanegwyd at ddychrynfeydd y foment, gan drychineb arall. Wrth gefn y gerbydres nwyddau, yr oedd dwy wagen yn llwythog o olew craig (*parafine oil*). Pan gymmerodd y gwrthdarawiad le, ond ni wyddis pa un ai o herwydd y gwrthdarawiad, ai ynte trwy i wreichion o'r agerbeiriant syrthio iddo, ffrwydrodd yr olew, lluchiwyd ef gan rym yr ergyd ar y cerbydau drylliedig, y rhai a aethant yn wenfflam mewn ychydig eiliadau. Yn wir, dywedai llygad-dyst, fod goddeithiad y gerbydres mor sydyn a fflachiad mellten. Llwyddodd rhai o'r teithwyr i fyned allan o'r gerbydres, amryw yn cael eu tynu drwy y ffenestri, gydag ond ychydig, os dim niwed; ereill a niweidiwyd yn dost; o chollodd o leiaf 34 o bersonau eu bywydau mewn modd ofnadwy. O'r rhai hyn, y mwyaf ffodus oeddynt y rhai a farwolaethwyd yn ddisyfyd yn y fan, gan y gwrthdarawiad, canys tynged y lleill oedd cael eu poenydio allan o fodolaeth gan angerdd y fflamau erch. Soniasom am yriedydd y peiriant, iddo ef gael ei arbed, tra y lladdwyd ei gydymaith. A'r un modd, lladdwyd gwarchodwr y gwarchgerbyd (*guard's van*) nesaf i'r peiriant, sef William Smith, ond diangodd y gwarchodwr arall, Thomas Hinton, gyda dim ond toriad yn ei ysgwydd, a chlais ar ei ben. Cafodd lliaws mawr o'r teithwyr a lwyddasant i ddyfod o'r cerbydau yn ddiangol, archollion difrifol i'w penau, a rhanau ereill o'r corph. Cafodd dannedd un eu curo allan. Adnabyddwyd un o'r lladdedigion fel corph Arglwydd Farnham, oddiwrth y ffaith fod oriadur ei arglwyddiaeth ar ei berson. Ychydig niwed a dderbyniodd Duges Abercorn, (priod Arglwydd Raglaw yr Iwerddon), a'r teulu, Arglwydd George Hamilton, Arglwyddes Castlerosse a'r teulu, Mr. ac Arglwyddes Selwin-Ibbetson, &c. Ymysg y lladdedigion, cafwyd Mr. W. H. Owen, mab ein cydwladwr enwog Mr. John Owen (Owain Alaw.) Yr ydoedd efe yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i oedran, ac yr oedd newydd gael ei bennodi yn organydd i eglwys yn Dublin. Yr ydoedd wedi bod yn treulio ei wyliau gartref, ac yn dychwelyd i'r Iwerddon, pan gymmerodd y trychineb hwn le. Yr ydoedd efe yn wr ieuanc o dalent neillduol, ac nid oedd amser maith er pan orphenasai ei addysg gerddorol yn yr Athrofa Frenhinol. Cafodd y tad gydymdeimlad dwysaf yr holl Dywysogaeth yn ei brofedigaeth chwerw, a diau fod marwolaeth gynamserol Mr. W. H. Owen, yn golled i Gymru, ac i gerddoriaeth. Pendefig a berchid yn gyffredinol oedd Arglwydd Farnham, canys yr oedd yn wr o ddysgeidiaeth a chwaeth lenyddol, heblaw ei fod fel aelod o Dy yr Arglwyddi, ac yn ei gyssylltiadau cymdeithasol, yn noddwr calonog i bob symmudiad Cristionogol a Phrotestanaidd.

Bu y rhai oedd yn y fan a'r lle am gryn amser cyn gallu ffurfio syniad am faintioli y trychineb echrydus. Nis gallent wneuthur dim i dynu allan gyrph y rhai a laddesid, nac ychwaith i estyn ymwared i'r sawl oeddynt yn agored i farwolaeth ddirboenol, er eu bod etto yn fyw, yn y cerbydau oedd ar dân. Yr oedd gwifrau y pellebyr wedi tori, ond mor fuan ag ydoedd ddichonadwy, anfonwyd am gymmorth i Fangor, Caerlleon, a'r prif leoedd ereill ar y llinell; ac mewn byr amser yr oedd Mr. Lee, o Fangor, a Mr. Binger, o Gaer, yn y lle i gyfarwyddo yr ychydig ddynion oedd ar gael, i ymdrechu estyn ymwared. Gwaith torcalonus i'r eithaf oedd symud yr adfeilion, a chasglu y cyrph at eu gilydd, canys yr oedd y cyrph wedi llosgi cymmaint, fel yr oedd yn annichon eu hadnabod, gan fod cnawd y rhan fwyaf o honynt wedi ei lwyr ddifa. Llwyddwyd i dynu allan weddillion wyth ar hugain o'r teithwyr, a gosodwyd hwynt ochr-yn-ochr ar y bryncyn gerllaw, yn cael eu gorchuddio gyda *tarpaulin*. Symmudwyd hwynt wedyn i orsaf Pensarn, a dodwyd hwynt mewn eirch. Yn ystod yr hwyr-ddydd aed a hwynt i Abergele, a dodwyd hwynt yn yr eglwys, i aros y trengholiad.

Llwyddwyd i achub y llythyrgodau, ond gydag anhawsder dirfawr. Mor fuan ag oedd ddichonadwy, trodd y swyddogion eu sylw a'u hymdrechion i glirio y llinell, ac adfer y ffordd, er mwyn ail-gychwyn y drafnidiaeth. Cafwyd y rheiliau wedi eu tori a'u plygu, a gellir ffurfio rhyw fath o ddrychfeddwl am rym y gwrthdarawiad, oddiwrth y ffaith, fod rhai o'r barilau olew wedi eu cael bellder o latheni lawer, ar hyd y llinell. Cafodd yr agerbeiriant, y *tender*, a'r tri cherbyd cyntaf, oll o'r dosbarth goreu, eu malu ynghyd yn llythyrenol. Nid oedd dim ol nac arwydd o'r cerbydau wedi ei adael, a difawyd hyd yn nod y malurion gan y fflamau. Llwyddwyd i glirio y llinell, ac i'w hadgyweirio i ryw raddau, erbyn chwech o'r gloch yn yr hwyr, ac yn fuan ar ol hyny, adnewyddwyd y drafnidiaeth. Cyrhaeddodd y llythyr-

Digitized by Google

godau i Fangor oddeutu hanner awr wedi saith, ac i Kingstown ychydig wedi hanner nos.

Yn ol pob adroddiad, yr oedd cerbydau blaenaf y trên ar dân, mewn ychydig iawn o eiliadau ar ol y gwrthdarawiad; a buan yr enhuddwyd hwynt gan fôr o dân. Un o'r teithwyr, yr hwn a ddiangodd o un o'r ol-gerbydau, a roddai y desgrifiad canlynol o'r olygfa:—"Am awr, parhaodd y tân i gynneu heb un arwydd o liniariad. Yr oedd y cerbydau yn llythyrenol yn un corph o dân, ac yr oedd yr hylif eirias, wrth ffrydio dros wyneb y tir, yn llosgi ac yn duo pob peth a ddelai i gyffyrddiad âg ef. Ymhen enyd, ochrau y cerbydau llosgedig a gwympasant allan, a thrwy fod y gwynt weithian yn codi, gyrid y fflamau a'r mwg i'r tu hwnt i'r llinell. Yn nghwmni boneddwr arall, aethum ymlaen, a syllais i mewn i'r cerbydau dinystriedig. Am eiliad aethum yn gwbl fud gan ddychryn, a meddiannwyd fi gan iasau oerion o fraw, pan fflachiodd y gwirionedd erchyll ar draws fy meddwl, ac ymhaldiais yn hanner anymwybyddol yn erbyn fy nghyfaill. 'A ydych chwi yn llesmeirio?' efe a ofynodd yn bryderus. Cyfeiriais at y cerbydau, a phan ddisgynodd ei olygon arnynt, efe a lefodd 'Y nefoedd anwyl! beth ellir ei wneud?' Meddienais fy hun, a cheisiais sylweddoli manylion yr olygfa galon-rwygol. Yn y fan yna, yn golsyn du, gwelwn ffurfiau bodau dynol, nad oedd ddichonadwy eu hadnabod. Aeth dirgryniad o fraw trwy y dorf pan ddaeth y gwirionedd yn hysbys, ac arddangoswyd y teimlad mwyaf drylliog ac angerddol. Pan ddaethom attom ein hunain ar ol yr ysgytiad, fel ag i allu gwneud ymchwiliad manwl, canfuasom ddeuddeg neu bedwar-ar-ddeg o gyrph. Yr oedd golwg arswydus ar gorph Arglwydd Farnham; nis gallesid dychymygu am ddim yn fwy ofnadwy. Yr oedd rhan o'r wyneb wedi ei losgi ymaith, a'r rhan arall wedi ei droi i fyny, megis gan *convulsions* poenydfawr. Yr oedd ei ochr dde yn golsyn, a'r galon a'r ymysgaroedd wedi ymwthio allan."

Pan diffoddodd y tân, ac y llwyddwyd i nesu at y corph o fatter hylosg, y peth cyntaf i'w adnabod oedd corph y gwarchodwr, William Smith, neu yr hyn oedd yn aros o hono, sef pentwr du annelwig, ac yna codwyd lliaws o bentyrau duon cyffelyb i gydau, a dodwyd hwynt o'r neilldu. Adnabyddwyd corph Smith oddiwrth y safle yn yr hon y cafwyd ef, ac oddiwrth agosrwydd ei oriadur, ei chwibanogl, amryw o fotymau ei gôb, a'i gadwen. Yr oedd amgylchiad Smith yn un hynod iawn o dor-calonus. Bu yn ngwasanaeth Cwmni y rheilffordd am oddeutu ugain mlynedd, ac yr oedd yn dra adnabyddus i'r teithwyr gyda'r llythyr-gerbydres Wyddelig, â'r hon yr oedd efe mewn cyssylltiad er pan sefydlwyd hi, yn 1860. Wyth diwrnod yn flaenorol i'r trychineb, rhoddodd ei briod enedigaeth i'w degfed plentyn, ac nid oedd ond ychydig, os dim darpariaeth wedi ei adael ar gyfer y teulu mawr hwn, canys nid oedd ganddynt hawl i iawn arianol gan y Cwmni. Adnabyddwyd hefyd gorph Holmes, y tânwr, oddiwrth ei safle dan olwynion y *tender*. Pan gyffyrddwyd â'r darnau oedd ar y top, hwy a gympasant i lawr, ac a chwythwyd ymaith gan yr awel. Rhoddwyd cymmaint ag a ellid gasglu o honynt mewn cwd. Cafodd swm aruthrol o eiddo gwerthfawr, yn cynnwys gemau yr Arglwyddes Farnham, ei godi i fyny yn y toriad. Cafwyd symiau mawrion o aur ac arian mewn sefyllfa dawdd, ac ymysg yr amrywiol bethau a syrthiodd i ddwylaw yr heddgeidwaid i'w cadw, yr oedd 21 o oriaduron, dau ddryll o wneuthuriad diweddar, gweddillion gwlawleni, wyth pâr o sisyrnau, gweddillion Llyfr Gweddi, a Llyfr Hymnau, &c. Cafwyd morwyn a gwas Arglwydd Farnham, wedi ymgofleidio yn dŷn, fel pe baent ar funyd y gwrthdarawiad wedi rhuthro i freichiau eu gilydd, ac yn y dull hwnw gyfarfod â'u marwolaeth.

Agorwyd y trengholiad ddydd Llun, y 24ain o Awst, o flaen Dr. Evan Pierce, Trengholydd swydd Dinbych, yr hwn a gynnorthwyid yn ei ddyledswydd anhawdd a difrifol, gan Mr. Ellis Eyton, cyfreithiwr, Rhyl. Taflwyd llawer o anhawsderau diangenrhaid ar ffordd y Trengholydd, gan ymddygiadau afreolaidd perthynasau a chyfeillion y trancedigion, ynghyda'u cyfreithwyr. Yr oedd yn hawdd maddeu gorofal a gor-bryder y teuluoedd trallodedig, ond dylasai y cyfreithwyr wybod gwell pethau, yn hytrach na gwneuthur yr hyn oedd yn eu gallu i rwystro a llesteirio yr ymchwiliad. Ond er eu holl ymdrechion i sarhau a goruwch-reoli y Trengholydd, efe a lynodd yn ddiysgog ar lwybr ei ddyledswydd, gan ddiystyru ystrywiau ei ddifenwyr, nes o'r diwedd yr ennillodd efe air da, a chymmeradwyaeth y wasg Seisnig a Chymreig; ac addefodd hyd yn nod y grwgnachwyr eu hunain, fod ei weinyddiad o gyfiawnder, yn ddiwyrni a chydwybodol. Parhaodd y trengholiad am wyth niwrnod, a therfynodd gyda rheithfarn o "Ddyn-laddiad" yn erbyn Richard Williams, a Robert Jones, *breaksmen* y gerbydres nwyddau; ar y tir mai eu hesgeulusdra hwynt oedd yr achos i ran o'r gerbydres nwyddau redeg i lawr y goriwaered. Ar y cyhuddiad hwn, hwy a draddodwyd i sefyll eu prawf yn mrawdlys swydd Dinbych, ac yno, hwy a ollyngwyd yn rhydd, canys cafwyd allan fod olwyn y *brake* mewn cyflwr drwg. Ni chafodd y gorsaf-feistr, Mr. Eyton, ei draddodi i sefyll ei brawf, er fod cyhuddiad wedi ei ddwyn yn ei erbyn o flaen yr ynadon.

Cymmerodd y seremoni ddifrifol o gladdu gweddillion y trangcedigion, le yn Abergele, bore ddydd Mawrth, y 25ain o Awst, 1868. Dewiswyd y bedd yn neillduol i'r amgylchiad, ac yr oedd yn mesur 57 troedfedd o hyd, wrth naw troedfedd o led. Safai ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol i Eglwys St. Michael, ac ychydig o godiad tir, bron yn ngolwg llanerch y trychineb. Yr oedd yr orymdaith yn un fawr a phruddaidd dros ben, ac yn gael ei gwneud i fyny o berthynasau y lladdedigion, a thrigolion yr ardaloedd cylchynol. Wedi i'r orymdaith alarus gyrhaedd yr eglwys, darllenwyd y gwasanaeth gan y Parch. James Meredith, a'r Parch. James Taylor. Yn ystod gwasanaeth y claddedigaeth, teyrnasai y dystawrwydd mwyaf difrifol,—dystawrwydd yn wir, ag oedd yn rhwym o gyffwrdd â chalonnau pawb oedd yn bresennol. Yr oedd y parhad o'r gwasanaeth ar fin y bedd, yn orlawn o'r un dwysder effeithiol. Dyna lle yr oedd holl berthynasau y meirw, yn sefyll o amgylch y twll diolwg, yn yr hwn yr oedd y gweddillion, rhai o honynt y tu hwnt i adnabyddiaeth, i gael eu dodi. Gwrandewid ar lais yr offeiriad gydag astudrwydd oedd bron yn boenus, tra y darllenai eiriau difrifol a hynod briodol y Llyfr Gweddi. Meddiannwyd y gwyddfodolion gan ing a chydymdeimlad annesgrifiadwy, pan ddaethpwyd at y geiriau rhyfedd hyny "pridd i'r pridd," a "lludw i'r lludw." Yn wir, prin y gall y rhai oeddynt yn absennol, ddychymygu am yr effeithiau a'u dilynent. Cynnhaliodd y

Digitized by Google

galarwyr gyfarfod yn y Bee Hotel, Abergele, ar ol y ddamwain, a phenderfynasant godi cofadail ar "ddiallu weddillion" eu perthynasau, yr hon sydd i'w gweled, gyda beddargraff teimladwy, yn mynwent Abergele.

**LLANDDULAS-TIR-YR-ABBAD**, plwyf yn undeb LLANYMDDYFRI, cantref BUALLT, swydd BRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU; bum milldir o orsaf rheilffordd Llanwrtyd, naw o Lanymddyfri, a thair-ar-ddeg o Buallt. Erwau, 3220. Gwerth ardrethol, 365*p*. Poblogaeth, 124. Tai, 19. Rhoddwyd yr oll o'r plwyf hwn gan Rhys ab Gruffydd, Tywysog y Deheubarth, i fynachlog Ystrad Fflur, yr hon a sylfaenesid ganddo yn 1164. Mewn canlyniad i'r weithred hon y galwyd y plwyf wrth yr enw Tir yr Abbad, a gelwir ef yn bresennol "Newchurch" ar ol eglwys a godwyd yma yn y flwyddyn 1716. Ymddengys i'r enw Llanddulas, yr hwn yn ol rhai sydd lygriad o Glan Dulas, darddu o'r ffaith fod y plwyf yn gorwedd ar lan yr afonig Dulas, ac am hyn y gelwid ef weithiau yn Aberdulas. Yn y plwyf hwn y mae bryniau Eppynt, a anfarwolwyd gan ysgrifell "Brutus," ac y mae arwynebedd cyffredin y tir, yn fryniog ac anwastad. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 43*p*., ac yn nawddogaeth y Milwriad Gwynne. Adeiladwyd yr eglwys yn 1716, ar draul bersonol Sackville Gwynne, Ysw., Glanbrân. Yr oedd gynt ffordd Rufeinig, cangen o'r *Via Helena*, a elwid gan y Cymry Sarn Helen, yn pasio drwy y plwyf, dros y cyttir a elwir Llwydlo Fach, a cheir olion o honi etto mewn rhai lleoedd. Mewn lle o'r enw Pyllau-Da-Probert, yn y plwyf hwn, y mae ffynnon sulphuraidd, cyffelyb yn ei hansoddau i ffynnon Llanwrtyd.

**LLANDDWYN**, neu LLANDDWYNWEN, plwyf mawr, a gorynys, oedd yn yr amser gynt yn gorwedd ar y tu De Orllewin i dref Niwbwrch, yn MON; 4½ milldir i'r De Dde Orllewin o orsaf rheilffordd Bodorgan; ac 8 milldir i'r Gorllewin o Gaer yn arfon. Dywaid *Rowlands*, fod agos yr holl orynys wedi ei gorchuddio â chorff trwchus o dywod, a gludid gan y gwyntoedd cryfion, o draethellau cyferbyniol Arfon, ac a gyfodid gan y tymestloedd geirwon ar y penrhyn hwn, nes ei lwyr orchuddio, a chladdu yr eglwys, a'r adeiladau eraill oeddynt arno. Dywedir fod hen eglwys Llanddwyn, o'r hon nid oes prin ddim yn weledig yn bresenol, yn adeilad hardd iawn, ac wedi ei chyssegru i Dwynwen, nawdd-sant cariadon, tu a'r flwyddyn 465; ac yr oedd y drysorfa a gynnyrchid trwy offrymau y lluaws cariadon a gyrchent yma am nawdd a ffafr y santes, yn fawr iawn; ac o'r diwedd daeth yr eglwys yn fonachlog, i frodyr o'r urdd Benedictaidd, y rhai a dderbynient gyllid mawr oddiwrth gyrchiad lluaws o ddyeithriaid yno i ymofyn i'w tynged ddyfodol, yr hon a ragfynegid iddynt, trwy grychnaid pysgodyn, ac ymddangosiad dwfr ffynon, yr hon a elwir "Ffynon Fair" hyd heddyw. Yn amser Harri y Pedwerydd, yr oedd cyllid y crefydd-dy hwn yn fwy na'r eiddo un crefydd-dy arall yn Ngogledd Cymru, ac yn y cyfarchwyliad a wnaed trwy orchymyn Harri yr Wythfed, yr ydoedd y brebenduriaeth gyfoethocaf yn y dywysogaeth; ond erbyn hyn, nid oes dim o olion y fonachlog ardderchog hon ar gael, a phrin y gwybyddir i sicrwydd, pa le y gorweddai. Periglor diweddaf plwyf Llanddwyn oedd Richard Kyffin, yr hwn a fu wedi hyny yn Ddeon Bangor; ac a adwaenid dan yr enw, "Y Deon Du." Yr oedd y gwr hwn yn bleidiwr gwresog i deulu Lancaster, a thrwy gydweithrediad â Syr R. Herbert, efe a barhaodd i anfon gohebiaethau oddiwrth gefnogwyr y Dug o Richmond, at y Dug, i Lydaw, mewn cychod pysgotta, a llestri bychain eraill, nes parottoi y ffordd i'r tywysog hwnw i lanio yn Neheudir Cymru, lle yr ymunwyd ag ef gan Syr Rhys ab Thomas, yn blaenori byddin gref; a'r canlyniad fu, dymchweliad y gormes-deyrn Richard y Trydydd, a choroniad y Dug yn frenin yn ei le, dan yr enw Harri y Seithfed. Dywedir fod y cilfachau tywodlyd rhwng y creigiau yn y plwyf hwn, yn nodedig rai canrifoedd yn ol, fel llochesau nwydd-redwyr (*smugglers*); ond y mae trefniadau manol y llywodraeth, wedi rhoddi llwyr attalfa ar y cyfryw orchwylion annghyfreithlawn erbyn hyn. Y mae goleudy Carnarfon yn sefyll ar drwyn Llanddwyn, yn agos i safn beisfor Malltraeth.

**LLANDDWYWAU**, neu LLANDDWYWE, plwyf yn nghantref ARDUDWY, swydd FEIRIONYDD, ar lan y môr, wrth enau yr afonig Ysgethin, a cher rheilffordd Abermaw a Chaer yn arfon, yr hon a orphenwyd tua diwedd y flwyddyn 1866; 4½ milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o'r Abermaw. Y mae yn cynnwys pentref bychan Tal y bont, a threfgorddau Is Craig, ac Uwch Craig; a'i lythyrfa yw yr Abermaw, swydd Feirionydd. Cynnelir ffeiriau yn y pentref ar y 12fed o Fai, a'r 9fed o Dachwedd. Mesura y plwyf 9348 o erwau, o ba rai y mae 340 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2084*p*. Poblogaeth, 368. Tai annedd, 68. Y mae y tir yn rhanedig rhwng ychydig berchenogion. Cors y gedol, a fu unwaith yn gartrefle y Fychaniaid, ac a aeth wedi hyny yn eiddo Syr Roger Mostyn, sydd yn awr yn meddiant E. F. Coulson, Ysw., yr hwn a adgyweiriodd yr hen balas yn drwyadl, yn y blyneddoedd 1866–7. Y mae yn gorwedd ar orsaf uchel, o'r lle y ceir golygfa ysplenydd ar feis-for Ceredigion. Y borthfa, trwy yr hon yr eir iddo, a gynlluniwyd gan Inigo Jones. Y mae cromlech, a elwir "Coetan Arthur," yn gorwedd gerllaw y porthordy; a dywaid ffugchwedl y gymmydogaeth, iddi gael ei thaflu gan Arthur, o ben Moelfre, i'r fan lle y gorwedda yn bresenol. Y mae y mynyddoedd yn y gymmydogaeth hon, o nodwedd ysgythrog, a serth-alltaidd, ac felly yn ffurfio diffyngławdd naturiol i'r rhan hon o'r wlad, i'r hon y mae y fynedfa trwy fwlch cyfyng, anhawdd esgyn iddo, yr hwn y gallai mintai fechan o wŷr penderfynol, ei gadw yn erbyn byddin luosog o elynion, a geisient weithio eu ffordd drwyddo. Y rhan gyfyngaf o'r bwlch creigiog hwn, a elwir "Drws Ardudwy," ac y mae y ffordd drwyddo wedi ei gwneyd mewn rhan o risiau lluosog, wedi eu tori yn y graig, fel y mae yr esgynfa yn anhawdd, ac mewn manau, yn beryglus, a'r golygfeydd, o bob tu, yn frawychus. Oddiwrth y gweddillion lawer o wersyllfeydd, ac amddiffynfeydd milwraidd, a ganfyddir mewn amryw fanau yn y mynyddoedd cymmydogawl, y mae yn amlwg fod y bwlch hwn yn cael ei gyfrif ar un adeg, yn un o'r gorsafau pwysicaf yn y parth hwn o'r dywysogaeth; ac oddiwrth y nifer fawr o dommenydd, carneddau, a chist-feini, a'r cyffelyb gof-adeiladau o ryfelwyr tranceedig, y mae yn fwy na thebyg fod y mynyddau hyn wedi bod yn faesydd brwydrau pwysig, yn oesoedd boreuaf hanesyddiaeth yr Ynys hon. Y mae tri o lynau yn y plwyf hwn, sef Llyn Urddin, Llyn Dulyn, a Llyn Bodlyn; ac ar lan Orllewinol Llyn Urddin, y mae gweddillion hen dref Brydeinaidd; ac y mae carneddau, meini hirion, a chylch-

Digitized by Google

oedd Derwyddol. mewn manau yn y gymmydogaeth, megys y Ffridd eithinog, a Bryn Cornyn Iau, &c.

Y fywioliaeth eglwysig yma sydd is-berigloriaeth barhaol, gydiedig â pheirigloriaeth Llanenddwyn, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys, yr hon a adeiladwyd yn yr arddull Seis'nig boreuol, mewn cywair dâ, ac y mae meini cóf am y Fychaniaid, a'r Mostyniaid, ynddi. Y mae y Llan hon yn gyssegr-edig i goffadwriaeth St. Dwywau, fab Hywel ab Emyr Llydaw, a brawd Derfel Gadarn, yr hwn oedd yn ei flodau tu a'r chweched ganrif. Yr oedd y Fychaniaid o Gors y Gedol, yn olrhain eu hachau o Osborn Fitzgerald, a elwir gan yr Haneswyr Cymreig, "Osbwrn Wyddel," yr hwn a ddaeth i Gymru yn amser Llewelyn Fawr.

**LLANDDYFNAN**, plwyf, a phentref yn swydd Fon; yn agos i afon Cefni, ac yn ymestyn yn nghyfeiriad y Traeth Coch; 2 filldir i'r Gorllewin o Bentraeth, 6½ milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Beaumaris, a 6½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o orsaf rheilffordd Pont Menai. Llythyrfa, Pentraeth, dan Bont Menai, Môn. Erwau 3506, o ba rai y mae 25 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2664. Poblogaeth, 720. Tai annedd, 168. Y mae y tir yn rhanedig rhwng ychydig berchenogion. Y brif annedd yw Plas Llanddyfnan, yr hwn sydd yn adeilad hardd ac eang, ac mewn sefyllfa hynod o ddifyrus, ac yn cael ei amgylchynu gan goedwigoedd mawrion. Y mae helaethrwydd o galch-graig ragorol yn y plwyf, o'r hwn y cyfodir llawer. Y fywioliaeth eglwysig sydd Berigloriaeth, unedig âg Is-beriglor-iaeth barhaol Llanfair Mathafarn eithaf, yn esgob-aeth Bangor. Gwerth 280*p*. Noddwr, esgob Bangor. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Dyfnan, yr hwn a ddaeth o Rufain tu a'r flwyddyn 180, er cynnorthwyo i ddychwelyd y Brythoniaid i ffydd Crist; a bernir fod yr eglwys hon wedi ei hadeiladu gyntaf, tu a'r flwyddyn 590. Meddylir fod eglwys Llanddyfnan yn llawer mwy adeilad tu a'r canol-oesoedd nag ydyw yn bresenol, canys wrth gloddio yn y fynwent, yr ydys yn dyfod ar draws sylfeini hen adeiladau, yn lled bell oddiwrth yr eglwys bresenol. Cafodd eglwys y plwyf hwn ei hail adeiladu yn y flwyddyn 1847.

Gwelir olion hen ffordd Rufeinaidd yn y plwyf, yn bedair troedfedd ar ddeg o led, yn cyfeirio i'r Gorllewin Ogledd Orllewin, tua Chaergybi: meddylir yn lled gyffredin, mai parhad ydyw o'r ffordd sydd yn cyfeirio o lan y môr yn mhlwyf Penmon, a'r hon y gellir ei holrhain yma a thraw, ar draws y plwyf hwn, a thrachefn, yn agos i Blas Tregaian, yn y plwyf nesaf.

**LLANEDEYRN**, neu Llanedarn, plwyf yn nghantref Cibwr, Undeb Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, sir Forganwg, Deheudir Cymru. Saif ar lan afon Rhymni, 5 milldir o Gaerdydd, mewn ardal iachus a hyfryd. Adeilad bychan yw yr eglwys blwyfol, gyda thwr, a phum cloch. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, wedi ei chysylltu ag eiddo St. Melons, yn rhodd esgob, a Glwysgor Llandaf, bob yn ail; a'r ddwy yn werth 160*p*. y flwyddyn, gyda phersondy, a darn helaeth o dir eglwys. Amaethyddiaeth a ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf hwn, ac y mae yn un tra chynnyrchiol. Mesura y plwyf 2636 erw. Gwerth trethadwy, 2225*p*. Poblogaeth yn 1871, 318.

**LLANEDI**, sydd blwyf yn nosparth Llanelli, sir Gaerfyrddin; ar lan afon Llwchwr, ar derfyn Morganwg, ac yn agos i reilffordd Llanelli a Dyffryn Towy, yr ochr ogleddol i orsaf rheilffordd Pont-ardulais, 9½ milltir i'r gogledd orllewin wrth ogledd o Lanelli. Y mae yma ffeiriau ar Mehefin 18, a Tachwedd 8fed; a llythyrfa dan Lanelli. Erwau, 5632. Gwerth ardrethol, 4136*p*. Poblogaeth, 1086. Tai, 219. Y mae y tiroedd yr rhanedig rhwng amryw feddianwyr. Y mae glo yn y gymydogaeth. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 330*p*., ac yn nawddogaeth y Parch. D. Williams. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Edith; a wedi cael ei hail-adeiladu yn 1861, gyda thwr, cangell, a chorph-eglwys. Y mae yma addoldai gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd Walters, awdwr y Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg, yn enedigol o'r plwyf hwn.

**LLANEDWEN**, sydd blwyf yn nosparth Bangor, ac yn swydd Fon; gerllaw afon Menai, yn agos i borthfa Porthamel, 3½ milltir de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanfair, a 6½ de orllewin o Biwmares; dan lythyrfa Caernarfon. Erwau 1939, 340 o ba rai sydd dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3046*p*., o'r hyn y mae 230*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 327; yn 1861, 273. Tai, 65. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig nifer o feddianwyr. Yma y mae y Plas-newydd, annedd ardderchog Ardalydd Mon, yr hwn sydd o adeiladaeth ddiweddar, ac yn awr yn cael ei breswylio gan yr Arglwyddes Willoughby de Broke. Ymwelodd Sior IV. a'r lle am ychydig ddyddiau, gwedi glanio yn Nghaergybi, ar ei fordaith i Iwerddon. Bu y Frenhines, pan yr ydoedd yn Dywysoges Victoria, a'i mam, Duges Caint, yn aros yma yn haf 1832. Y mae dwy Gromlech, o'r rhai mwyaf mawreddog yn y dywysogaeth, o fewn y Parc: mesura un o honynt ddeuddeg troedfedd o hyd, wrth ddeg o led. Y mae y Plas-gwyn hefyd yn gyfagos, lle genedigaeth y Parch. Henry Rowlands, awdwr y "*Mona Antiqua;*" ond a elwir yn awr Plas Llwynon, lle y preswylia A. C. Prettyman, Ysw. Y mae y Plas-coch hefyd gerllaw, a adeiladwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, gan y Cyfreithiwr Cyffredinol, Huw Huws, un o hynafiaid W. Bulkeley Huws, Ysw., yr Aelod Seneddol dros fwrdeisdrefi Arfon. Darfu i'r Cadflaenor Rhufeinig Suetonius Paulinus, groesi afon Menai, ar bont o fadau, yn ymyl Porthamel, pan y gwrthwynebwyd ef yn ddewr, ond yn aflwyddianus, gan y Derwyddon, y rhai yr oedd ganddynt eu prif deml yma, yn y frwydr fyth gofiadwy, yn ymyl Porth-yr-ysgraffau, ar Faes-hirgad, ac a derfynwyd ar Gaer-oerwaed, gerllaw Bryn y beddau. Darfu i Agricola hefyd groesi yma; yr hyn a goffeir gan Tacitus. Y mae yn y gymydogaeth hon y coed derw gwychaf yn yr holl froydd, a thybir eu bod yn disgyn o hadau y llwyni enwog oedd yma yn amser y Derwyddon, ac wedi parhau yn eu nerth hyd y dydd hwn.

"Llwyni hardd sy'n llanw hon,
Oedd wreiddiau'r hen Dderwyddon."

Cafodd rhan o fyddin Iorwerth Iaf, wrth groesi yma, ger porthfa Moel-y-don. Ei dinystrio gan y Cymry, o fewn plwyf Llanedwen, wrth Tan-ben-y-cefn, lle y mae ychydig o olion eu gwersyllfa yn aros. Y mae hynodrwydd hanesyddol y lle yma yn cael cyfeirio ato mewn mannau eraill o'r gwaith hwn. Y mae y fywioliaeth, yn guradiaeth barhaol, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llanidan, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr

Digitized by Google

eglwys yn sefyll ar lethr bryn, ar lan yr afon Menai, ac yn cynwys cofadail am y dywededig Barchedig Henry Rowlands, yr Henafieithydd enwog.

**LLANEGRYN**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Dolgellau, swydd Feirionydd. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Dysynwy, 2¼ milltir oddiwrth y traeth, 3½ gogledd wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Tywyn, a 12 de orllewin o Ddolgellau, gyda llythyrfa dan Fachynllaith, swydd Drefaldwyn. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgorddau Peniarth, a Rhyd-y-rhiw. Erwau, 6819. Gwerth ardrethol, 2653*p*. Poblogaeth, 652. Tai, 149. Y mae y tiroedd yn cael eu dosparthu rhwng ychydig nifer o feddianwyr. Peniarth ydyw palas W. W. E. Wynne, Ysw. Y mae yr arwynebedd yn fryniog, ac y mae rhai lleoedd yma yn rhoddi golygfa darawiadol iawn ar Gadair Idris. Y mae llechi yn cael eu cloddio yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 82*p*., ac yn nawddogaeth E. Titley, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Egryn. Y mae yma gofadail i deulu yr Oweniaid o Beniarth. Y mae yma waddolion at ysgol, ac elusenau o 105*p*. Y mae gan yr Annibynwyr addoldy helaeth yn y lle hwn. Bernir fod Tal y Bont yn y plwyf hwn, wedi bod yn hen annedd Tywysogion Gwynedd, yn gymmaint a bod y Tywysog Llewelyn wedi dyddio un o'i Freinleni oddiyma. Y mae bryncyn celfyddydol mawr ar dyddyn perthynol i'r ettifeddiaeth hon, ar yr hwn y dywaid llen gwerin fod gwyl-dŵr yn sefyll gynt; ac y mae gorsaf gyffelyb ar yr ochr arall i'r afon, yn mhlwyf y Towyn. Y mae ffynnon o ddwfr duraidd, (*chalybeate*) wrth droed bryn a elwir "Cwm Ych;" a ffynnon arall, a elwir "Ffynnon y Fron," dwfr yr hon sydd mewn bri mawr, am ei effeithiolrwydd i wellau y gymalwst.

**LLANEGWAD**, sydd blwyf yn nosparth Llandeilo-fawr, swydd Gaerfyrddin; saif ar lan yr afon Towy, gerllaw ymarllwysiad y Cothi, yn agos i orsaf rheilffordd Llanarthney, ar linell Llandeilo a Chaerfyrddin, 8 milltir i'r gogledd wrth dde o Landeilo-fawr. Y mae yn cynnwys is-bentrefi Egwad, Hernin, Llechfraith, Llechgron, Llethergele, Miros, Monachty, ac Ystrad. Y llythyrfa yw Llandeilo-fawr, dan Gaerfyrddin. Erwau, 12,330. Gwerth ardrethol, 5342*p*. Poblogaeth, 1920. Tai, 421. Y mae y tiroedd yn cael eu dosparthu rhwng amryw feddianwyr. Y mae llawer o'r tir wedi cael ei gau i mewn o bryd i bryd. Y mae mŵn efydd yn cael ei gloddio yma. Y fywioliaeth eglwysig sydd yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 259*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Egwad. Medda y Trefnyddion Calfinaidd addoldy yn y lle. Y mae gwaddolion o werth 100*p*. yn perthyn i'r plwyf.

**LLANEILIAN**, neu Llanelian, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth a swydd Fon. Y mae y pentref yn sefyll yn gyfagos i lan y mor, tri chwarter milltir i'r de orllewin o Bwynt y Leinws, a dwy filltir yn ddwyreiniol o orsaf rheilffordd Amlwch. Nid yw y cyffredin yn cwbl gytuno am ystyr wreiddiol "Pwynt y Leinwys," neu "Leinws." Myn rhai mai Elian, enw y sant i'r hwn y mae eglwys y plwyf wedi ei chysegru, wedi ei Latineiddio ydyw, sef Pwynt Ælianus, myn eraill mai Pwynt Goleunos ydyw, oddiwrth y tân a oleuid yno fel arweiniad morwrol, tebyg i Gopa'r-g'leini yn sir Fflint ydyw. Y mae y plwyf yn cynnwys 2398 o erwau; ac y mae y llythyrfa dan Amlwch. Gwerth ardrethol, 2033*p*. Poblogaeth yn 1851, 1295; yn 1861, 1282. Tai, 318. Y mae meddiant y tiroedd rhwng amryw berchenogion. Y mae llawer o'r trigolion yn cael eu cynnaliaeth yn ngwaith Efydd Mynydd Paris. Y mae i'r plwyf hwn hanesiaeth foreuol. Yr oedd gan Caswallon Law Hir, Tywysog Gwynedd, balas yma, yn nechreuad y bumed ganrif, a gelwir y man y safai, "Llys Caswallon," hyd y dydd hwn; er nad oedd yno, ar fynydd Elian, ond bwthyn bychan, erbyn yr oes hon. Sylfaenodd St. Elian eglwys yma yn 450, yr hon a waddolwyd gan Caswallon. Yr oedd ef wedi codi capel bychan hefyd, gerllaw y palas, ac yr oedd yr adeiladau hyn, gyda'r lleoedd o addoliad boreuaf yn y dywysogaeth. Yr oedd St. Elian, neu Hilary, yn wr o gryn enwogrwydd; yn esgob Lindisfarne, o fuchedd ddichlynaidd; ac yr oedd lluaws o bob parth o Frydain, yn dyfod ato ar bererindodau, i dderbyn ei addysg, ei ffafrau, a'i nawdd; ac i gyflwyno eu hoffrymau iddo. Yr oedd y rhoddion hyn yn cyrhaedd i swm mawr, ac yn cael eu cadw mewn cist yn yr eglwys, a elwid "Cyff Eilian," ac o'r trysor hwn y cafwyd modd i adeiladu Eglwys Elian, a Chapel Caswallon, ac i brynu dau dyddyn, ardrethion y rhai a ddefnyddid i'w cadw mewn adgyweiriad, hyd yn ddiweddar. Yr oedd yn arferiad gan y pererinion, ymweled â "Ffynon Elian," sydd mewn llanerch ddinod o'r plwyf, i yfed o'i dwfr, ac i gyflawni llawer o ddefodau, ar ddydd gwyl y sant. Yr oedd rhinweddau meddygol hefyd yn cael eu priodoli i'r hen ffynon. Y mae y plwyf hwn ar lan mor y Werydd, lle y mae lloches i'r llongau oedd at wasanaeth allforiad yr efydd o Fynydd Paris. Cafwyd mŵn copr yn Rhos Myneich yn y plwyf hwn. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, mewn cysylltiad â churadaethau parhaol Coed-anna, a Rhos-peirio. Y mae yr eglwys yn archddeoniaeth Mon, ac esgobaeth Bangor; ac yn nawddogaeth esgob Bangor; gwerth, 400*p*. Y mae yn adeilad gwych, gyda thŵr uchel. Y mae addurniadau o gerfiad teg ragorol yn y lle, ac amryw luniau yn y gwaith: At y cerfiadau hyn y cyfeiria Lewis Morris, pan y crybwylla yn ei Gywydd at y Dr. Edward Wynne o Fodewryd, am "Lun yr Angau ar bared Eglwys Elian:"—

> "Crafangau'r gwag Angau gwan,
> Llun ail i un Llanelian,
> A'i gorph fel dyn heb orphen, .
> Ni ddeil, prin ddwys, bwys ei ben," &c.

Yr oedd dydd gwyl St. Elian ar y Gwener cyntaf yn Awst. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd le addoliad yma; ac y mae gwaddol o ugain punt yn y flwyddyn yn perthyn eto i'r plwyf.

**LLANELIAN**, sydd blwyf yn nosparth Conwy, a swydd Ddinbych, yn agos i lan y môr, ac ar reilffordd Caerlleon a Chaergybi, gerllaw gorsaf Colwyn, 5¼ milltir i'r dwyrain o Gonwy. Y mae yn cynnwys trefgorddau Llan, Llaithfaen, a Twnan; ac y mae y ffeiriau yma, ar y Llun cyntaf wedi wythnos y Pasg; Gorphenaf 26; Hydref 5; a Rhagfyr 8fed. Y mae y llythyrfa dan Gonwy. Erwau, 3382. Gwerth ardrethol, 2970*p*. Poblogaeth, 548. Tai, 117. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 249*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yma addoldai gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Bedyddwyr. Y mae gwaddol o 8*p*. yn perthyn i'r plwyf. Y mae yma eto "Ffynon Elian," a fu mewn bri mawr; o blegid y swyn-gyfaredd a dybid oedd yn effeithiol ynddi; ac fel y mae yn

Digitized by Google

alarus dywedyd, prin y mae yr ofergoeledd wedi darfod eto.

**LLANELIDAN**, sydd blwyf, ac is-ddosparth, yn nosparth Rhuthin, yn swydd DDINBYCH. Y mae y plwyf yn sefyll ar derfyn Dyffryn Clwyd, yn agos i ymylon Meirionydd, ac ar reilffordd Dinbych a Chorwen, ac yn cylchynu gorsaf Nantclwyd, 5 milltir i'r de orllewin o Ruthin. Y mae yn cynnwys trefgorddau Llan, Nantclwyd, Bryncymau, Garth-ynneufedd, a Trewyn-Bodlywydd; ac y mae y llythyrfa dan Ruthin. Erwau, 4900. Eiddo trethol, 5120*p.* Poblogaeth yn 1851, 953; yn 1861, 848. Tai, 185. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 300*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Elidan. Y mae yma gofadeiliau i deuluoedd Thelwall, a Kenrick. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Bedyddwyr, y Wesleyaid, a'r Trefnyddion Calfinaidd. Gwaddolion, 32*p.* Y mae yr is-ddosparth yn cynnwys hefyd ddau blwyf arall. Erwau, 13,840. Poblogaeth, 2684. Tai, 589.

**LLANELIEU**, sydd blwyf yn nosparth y Gelli, yn sir FRYCHEINIOG, o dan y mynydd Cradle, 3¼ milltir de ddwyreiniol o orsaf Glasbury, ar y rheilffordd, 5¼ de-dde-orllewin o'r Gelli. Y mae y llythyrfa yn y Gelli, dan Henffordd. Erwau, 5539. Gwerth ardrethol, 884*p.* Poblogaeth yn 1851, 111; yn 1861, 93. Tai, 16. Y mae y rhan fwyaf o'r tir yn fynyddig a diffrwyth. Y mae amryw o'r hen balasau oedd yma, wedi eu troi yn ammaethdai. Cafwyd rhai gweddillion henafiaethol yma; yn enwedig, un pen gwaewffon o gallestr, saith modfedd o hyd, a hen gelwrn o gryn hynodrwydd. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 90*p.*, ac yn nawddogaeth Iarll Ashburnham. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Ellyw. Y mae rhan o waddol Boughrood, yn Aberhonddu, yn perthyn i'r plwyf hwn.

**LLANELWEDD**, sydd blwyf yn nosparth Buallt, a sir FAESYFED; ar lan yr afon Wy, ar y terfyn rhwng yno â sir Frycheiniog, haner milltir gogledd ddwyreiniol o dref a gorsedd rheilffordd Buallt, sir Frycheiniog. Erwau, 2020. Gwerth ardrethol, 1345*p.*, o'r hyn y mae 10*p.* mewn pysgodfaau. Poblogaeth, 227. Tai, 37. Llythyrfa dan Buallt. Yr oedd *Llanelwedd Hall* yn balas a berthynai i deulu Gwynne. Y mae *Wellfield* yn balas o eiddo E. D. Thomas, Ysw., gyda pharc prydferth, ar ucheldir yn edrych dros yr Wy, ac yn rhoddi golygfa ardderchog iawn. Y mae Pen y cerig yn balas arall, perthynol i'r teulu diweddaf, lle y mae pysgodlyn prydferth. Y mae y Mynydd Du yn sefyll yn ddwyreiniol oddi yma, gyda'i lethrau geirwon; a thu a'r gorllewin y mae mynyddoedd Tregarn, a'r Garn wen, a'u penau yn uchel yn y nen; yn nesaf mewn uchder i Fannau Brycheiniog. Y mae o fewn y plwyf hwn amryw o olion gwersyllfaau henafiaethol. Y fywioliaeth eglwysig sydd yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 100*p.*, ac yn nawddogaeth E. D. Thomas, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Matthew; ac y mae mewn sefyllfa brydferth, uwchlaw yr afon Wy. Y mae yma ysgol waddoledig â 17*p.* yn flyneddol, ac y mae y plwyf mewn hawl i ran o waddolion Boughrood yn Aberhonddu. Ar ben yr ucheldir yn agos i Blas Wellfield, y mae ychydig weddillion hen orsaf filwraidd; ac ar ffiniau y plwyf hwn a phlwyf Disserth, lle y tybir yr ymladdwyd y frwydr galed rhwng Rhys ab Tewdwr a thri meib Bleddyn ab Cynfyn, y gellir gweled o'r ucheldir yma, amglawdd betryal Cwrt Llechryd, a elwid felly fe ddichon oddiwrth gof-adail a gyfodwyd yno i goffadwriaeth Rhiryd ab Bleddyn, yr hwn a laddwyd yn y frwydr hono. Heb fod yn neppell, y mae tomen-fryn, a elwir Castell, hen wylfa filwraidd, fe ddichon; ond nid oes genym ddim hysbysiaeth hanesyddol am dano.

**LLANELWY**, dinas a phlwyf, mewn rhan yn nghantrefi ISDULAS, a IAL, swydd DDINBACH; ond yn benaf yn rhanbarth Rhuddlan, o gantref RHUDDLAN, swydd FFLINT. Y mae y ddinas o fewn y plwyf, yn gorwedd ar esgair o dir lled uchel, rhwng yr afonydd Clwyd, ac Elwy, gerllaw rheilffordd Dyffryn Clwyd, 5¼ i'r Gogledd wrth Orllewin o Ddinbach; a 5¾ milldir i'r De Dde Ddwyrain o'r Rhyl. Fe'i gelwir *Llanelwy* gan y Cymry, oddiwrth ei sefyllfa ar lan yr afon Elwy; a'r Saeson a'i galwant *St. Asaph*, oddiwrth yr ail o'i hesgobion; a'r ucheldir, ar yr hwn y gorwedda, a elwir "Bryn Paulin," am fod Paulinus, y maes-lywydd Rhufeinaidd wedi bod yn gwersyllu yma ar ei gad-gyrchiad i Ynys Fôn, neu ei ddychweliad oddiyno. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a llythyrfa dan y Rhyl; ac y mae yn dref farchnad, a bwrdeisdref, er nad yw ond bechan, yn gynnwysedig bron yn gwbl o un heol. Y mae yma bont faen o bum bwa, yn croesi yr Elwy; ac o'r ochr arall, y mae pont dda, yn croesi y Clwyd. Y mae y llys esgobol yn gorwedd ychydig i'r Gorllewin o'r eglwys gadeiriol, oddiar yr afon Elwy; ac y mae yn adeilad fawr, a lled newydd, gan mai yr Esgob Carey a barodd ei adeiladu. Y mae palas y Deon o fewn tu a'r bedwaredd ran o filldir; ac y mae hwn hefyd yn adeilad ddiweddar dda, a gyfodwyd gan y Deon Luxmore. Y mae eglwys y plwyf wrth droed y bryn; ac nid yw namyn adeilad lled anolygus, o amser Harri VIII., heb yr un tŵr iddi. Y mae llawer o feddrodau henafol yn y fynwent; ac y mae yma gladdfa newydd, yr hon a agorwyd yn y flwyddyn 1849. Yr eglwys gadeiriol, yr hon a saif ar y bryn, sydd groes-adail, a thŵr canllawiog petrual, isel, yn y canol: fe'i hadeiladwyd yn benaf yn 1490, ac mewn rhan yn 1783; ond y mae wedi cael ei hadgyweirio yn hynod o drwyadl yn y blyneddoedd diweddaf hyn; mesura 179 troedfedd, o'r Dwyrain i'r Gorllewin; ac o'i mewn ceir cof feini am yr esgobion Owen, Gryffydd, Barrow, a Luxmore; y Deon Shipley, Mrs. Hemans, &c. Cair drychfa ardderchog o ben ei thŵr, ar Ddyffryn Clwyd, ac ar lan y môr, dros bellder mawr. Y mae yma bedwar o addoldai ymneillduol, ysgol ramadegol, elusendy, gweithdy tlodion, a phedwar prif westy. Y mae 57*p.* yn y flwyddyn o waddol yn perthyn i'r Ysgol Ramadegol; 31*p.* i'r Elusendy, a 58*p.* i elusenau eraill. Cynnelir y farchnad ar ddydd Sadwrn, a'r ffeiriau ar yr ail o Fawrth, dydd Mawrth y Sulgwyn, Gorph. 15, Awst 19, Hyd. 16, Tach. 2, a Rhag. 15. Y mae y fwrdeisdref mewn undeb a Fflint, a chwech o drefydd eraill, yn anfon aelod i'r Senedd. Poblogaeth, 2063. Tai annedd, 458. Y mae y dref yn rhoddi y teitl o Is-iarll i'r Iarll Ashburnham.

Cynnwysa y plwyf drefgyrdd Bodeugan, Bodlewyddan, Brynpolyn, Cil Owen, Cyrchynen, y Faenol, Gwernglefryd, Gwerneigron, Pengwern, Rhyllon, a Thalar, yn swydd Fflint; a threfgyrdd Meiriadog, a'r Wigfair, yn swydd Ddinbach. Mesura o erwau, 10,825. Gwerth trethadwy, 24,577*p.* Poblogaeth, 3592. Tai annedd, 759. Y fywioliaeth



Digitized by Google

eglwysig sydd ficeriaeth o bedair rhan, dwy o ba rai ydynt Gapeloriaethau Bodlewyddan, a'r Cefn. Gwerth bob un, 179*p*. Noddwr, yr Esgob. Y mae y dosbarth yn cynnwys adrandir Dinbach, o fewn yr hon y mae plwyfau Dinbach, Llannefydd, Henllan, a Llansannan, oll yn swydd Ddinbach; adrandir Abergeley, o fewn yr hon y mae plwyfau Abergeley, Llansant-Sior, Llanddulas, Llanfair-talhaiarn, a'r Bettws yn Rhos, neu Bettws Abergeley, oll yn swydd Dinbach; ac adrandir Llanelwy, yn yr hon y cynnwysir plwyfau Llanelwy, Rhuddlan, Meliden, Dyserth, Cwm, a Dymeirchion, a rhan o blwyf Bodfari; oll yn swydd Fflint. Erwau, 93,934. Trethi y tlodion, 13,396*p*. Poblogaeth yn 1841, 23,547; yn 1861, 27,518. Tai annedd, 5963. Prïodasau, 186. Genedigaethau, 785—o ba rai yr oedd 58 yn annghyfreithlawn; marwolaethau, 547—o ba rai yr oedd 130 dan 5 mlwydd oed, a 30 dros 85 mlwydd oed. Prïodasau yn y deng mlynedd, 1851 i 1860, 1731; genedigaethau, 7379; marwolaethau, 5559. Y lleoedd addoliad yn 1851, oeddynt 19 yn perthyn i Eglwys Loegr, yn cynnwys 7704 o eisteddleoedd; 13 yn perthyn i'r Annibynwyr, a chanddynt 2807 o eisteddleoedd; 10 yn perthyn i'r Bedyddwyr, a chanddynt 1466; 25 i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac ynddynt 8776; 15 i'r Trefnyddion Wesleyaidd, ac ynddynt 3535 o eisteddleoedd; 2 i Saint y Dyddiau Diweddaf, ac ynddynt 360 o eisteddleoedd; ac 1 i'r Pabyddion, yn cynnwys 40 o eisteddleoedd.

Y mae yr esgobaeth yn cynnwys holl swydd Fflint, holl swydd Ddinbach, tua haner swydd Feirionydd, y rhan fwyaf o swydd Drefaldwyn, tri phlwyf yn swydd Gaerynarfon; deg o swydd Amwythig, a rhan o un o Swydd Gaerlleon. Mesura o erwau, 1,067,583; a chynnwysa boblogaeth o 246,337. Tai annedd, 52,242. Sefydlwyd yr esgobaeth hon gan Cyndeyrn Garthwys, a elwid hefyd Cyndeyrn Mwyngu ab Owain, ab Urien Rheged, ab Cynfarch, ab Meirchion Gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebog, o gylch B.A. 543. Fel esgob Penrhyn Rhionydd sef Glasgow, y ceir yr hanes gyntaf am Cyndeyrn yn y Trïoedd, lle y dywedir, "Arthur yn benteyrnedd yn Mhenrhyn Rhionydd, yn y gogledd, a Chyndeyrn Garthwys yn benescub, a Gwrthmwl Wledig yn benhynaif." Dywaid John o Teignmouth iddo gael ei eni yn y Gogledd, a'i roddi dan addysg Serfan, sant Gwyddelig; a dywedir iddo trwy ei ledneisrwydd, enill serch a pharch ei athraw yn gymaint, fel y rhoddai y cyfenw "Mwyngu" iddo, yr hwn a lygrwyd gan ysgrifenwyr diweddar, i *Sant Mungo.* Wedi iddo gyrhaedd aeddfedrwydd oedran, efe a sylfaenodd esgobaeth Glasgow, y lle a elwir gan yr hen ysgrifenwyr Cymreig, Penrhyn Rhïonydd; ond wedi peth amser, ymrysonau ei gydwladwyr a'i gorfuasant i encilio i Gymru, lle ei derbyniwyd yn garedig gan Dewi Sant; "ac wedi aros o hono dros beth amser gyd a'r gwr da hwnw," medd un hen ysgrif, "efe a gafodd fan gyfleus gan Caswallon, neu yn hytrach ei fab, Maelgwyn Gwynedd, tywysog Cymru, i sefydlu mynachlog ynddo, ar lan yr afon Elwy, ac yno efe a sylfaenodd esgobaeth, ac a gasglodd i'w fynachlog 965 o frodyr, y rhai a ymroddent i fyw dan ddysgyblaeth fynachaidd, ac i wasanaethu Duw gyda llawer o hunan-ymwadiad. O'r nifer hwnw, efe a osododd dri chant, y rhai oeddynt yn anllythyrenog, i drin y tir, ac edrych ar ol dïoedd y fynachlog; a thri chant eraill a osodwyd i ddarparu ymborth, a chyflawni gorchwylion angenrheidiol eraill o fewn y fynachlog; a'r tri chant a phump a thriugain, y rhai oeddynt ddysgedig, a bennodwyd i gyflawni gwasanaeth Dwyfol yn feunyddiol, gan eu dosbarthu yn y fath fodd, fel pan fyddai un fintai yn terfynu ei gwasanaeth, y byddai un arall yn dechreu yn y fan, fel yr oedd gwasanaeth parhaus a di dor yn yr eglwys."

Adeiladwyd ei eglwys o goed ar y cyntaf, ac wedi hyny, o feini. Yn mysg y chwedlau mynachaidd, dywedir fod Maelgwyn Gwynedd wedi bod yn wrthwynebwr iddo ar y cyntaf; ond iddo ymheddychu ag ef wedi hyny, a rhoddi llawer o diroedd at gynnal ei Sefydliad.

Yn yr un hen ysgrif a grybwyllwyd uchod, dywedir;—"Yr oedd yr Esgobaeth hon yn dlawd yn wastadol; eto yr oedd gan ei hesgobion bump o balasau gwahanol, hyd oni ddarfu i'r Esgob Parfew, yn nheyrnasiad Edward VI., wneyd i ffordd a'r tai hyny, a throsglwyddo tiroedd yr Esgobaeth oddiwrthi, gan ddifrodi pob peth a berthynai iddi. Llosgwyd yr eglwys yn fynych, yn ystod y rhyfeloedd parhaus oedd rhwng y Cymry a'r Saeson."

Wedi i Cyndeyrn fod yn llafurio yn y lle hwn dros amryw flyneddoedd, efe a alwyd i ddychwelyd i'w wlad enedigol, gan Rhydderch Hael, tywysog Prydeiniaid Ystrad Clwyd; a chan roddi esgobaeth Llanelwy i fynu i Asaf, un o'i ddysgyblion, efe a ymgymerodd drachefn âg Esgobaeth Glasgow, lle y bu farw mewn oedran teg; 185 mlwydd, medd rhai Haneswyr; ond, y mae hyn yn anhygoel.

Olynwyd ef gan Asaf, tu a'r flwyddyn 560. Yr oedd hwn yn wr tra rhinweddol; ac yn enwog iawn am ei ddysgeidiaeth a'i dduwioldeb, fel y galwyd yr Esgobaeth ar ei enw gan yr Haneswyr Lladinaidd. Efe a fu farw ddechreu haf y flwyddyn 596. Nid yw enwau olynwyr Asaf am yn agos i bum can mlynedd, ar gof a chadw; ac nid yw Huntingdon, yr hwn a ysgrifenai yn y flwyddyn 1150, yn crybwyll namyn tair esgobaeth yn Nghymru, sef Ty Ddewi, Bangor, a Llandâf: ond yn y Rhaglith i gyfreithiau Hywel Dda, dywedir fod Chebur, esgob St. Asaph, yn un o'r dysgedigion a aethant gyd a'r tywysog hwnw i Rufain, i geisio cymeradwyaeth y Pab i'w gyfreithiau; ond, y diweddar Barch. Peter Roberts a ddadleuai na bu rhwng Hywel fath yn y byd o gyssylltiad a Rhufain; ond mai ffug-chwanegiad yn Mrut Caradog o Lancarfan yn unig, sydd yn haeru iddo fyned yno, er mwyn cyflawni amcanion yr offeiriaid Pabaidd. A chan nad oes ddim o hanes Chebur ar gael, y mae amryw o'r Haneswyr manylaf yn ammeu, a fu y fath un yn esgob Llanelwy ar unrhyw bryd; felly y cyntaf ar ol Asaf a gawn ni yn rhestr esgobion Llanelwy, yw Gilbert, yr hwn medd Wharton, a gyssegrwyd gan Theobald, Archesgob Caergaint, yn y flwyddyn 1143. Efe ydoedd esgob cyntaf Llanelwy a gyssegrwyd gan Archesgob Caergaint.

Yn y flwyddyn 1150, cyssegrwyd Sieffrey ab Arthur, a elwir gan rai, "Sieffrey o Fynwy," yn esgob y lle hwn, gan Archesgob Caergaint. Efe a ysgrifenodd yn Lladin, hanes y Cymry, o Brutus. Efe a fu farw yn mhen dwy flynedd, ac olynwyd ef gan Richard, yr hwn a gyssegrwyd gan yr un Archesgob, yn y flwyddyn 1154; a bu yntau farw yn 1155.

Y mae y gwr uchod wedi ei gyfleu yn rhestr Esgobion Llanelwy, ar awdurdod y dysgedig Wharton; yr hwn yn nesaf, a enwa un Godffrey; ond, y mae Godwin, a rhai Haneswyr Eglwysig craffus

Digitized by Google

eraill, yn dadleu mai yr un oedd Sieffrey, neu "Geffrey" fel ei hysgrifenir gan yr hen Awdwyr, â Godffrey; a phrofant fod Geffrey, neu Sieffrey, yn fyw yn y flwyddyn 1165, ac yn rhoddi gollyngdod i Richard de Luci, ac eraill oeddynt dan ysgymundod Thomas a Becket, Archesgob Caergaint, trwy orchymyn y ddau Gardinal, J. Nepolitanus, a William Papiensis; ac efallai nad oedd Richard namyn esgob cynnorthwyol iddo, a bennodid am fod yr esgob ei hun yn byw allan o'i esgobaeth, fel y gwnelid yn fynych mewn cyssylltiad a'r Mynachlogydd mawrion yn yr amseroedd hyny; yr hyn a arweiniodd rai awduron enwog, i gamgymeryd y cyfryw am y gwir Abbadau.

Ganwyd Sieffrey yn Mynwy, ac o fod yn fynach Benedictaidd, efe a ddyrchafwyd i fod yn Esgob Llanelwy, yn y flwyddyn 1151, yn ol adroddiad Isaacson, a hyny fe ddichon trwy ddylanwad William, Iarll Caerloyw, mab ei noddwr, Robert, Iarll Caerloyw, ewythr y Brenin Harri yr Ail. Fe'i gelwir gan *Fuller*, "Yr Herodotus Cymreig." Yr ydoedd yn llyswr mawr drwy ei oes, ac yn barod i gyflawni pob amnaid o ewyllys y Brenin, gan ddilyn ei ffawd ef, a'r eiddo ei fam, yr Amherodres Maud, cyn ei ddyfodiad ef i'r orsedd. Trwy yr unrhyw ddylanwad efallai, efe a ddyrchafwyd i fod yn Abbad Abingdon, Hydref 31, 1165; a thrwy fraint-ysgrif, efe a ddaliai y swydd hono, yn nghyd a'i Esgobaeth yn Llanelwy, hyd Gorph. 11, 1175. Efe a ddifuddiwyd o'i Abbadaeth yn fuan wedi marwolaeth ei noddwr, yr Iarll William, yn nghyd ag o'i Esgobaeth. Efallai mai yr achos o hyn, ydoedd ei waith yn ei wneyd ei hun yn brysur yn mhlaid y Brenin, yn erbyn Thomas a Becket, pan ffynodd dylanwad y gwr hwnw yn erbyn y Brenin.

Pa bryd y bu Sieffrey farw, a pha beth a ddaeth o hono, wedi ei ddifuddio o'r swyddau anrhydeddus uchod, nid oes neb o'n Haneswyr yn ein hysbysu: ond gellir casglu iddo ymneillduo i Lundain, ac iddo farw yn y Llys, yno.

Pan roddes Sieffrey yr esgobaeth i fynu, efe a olynwyd gan Adda, neu *Adam*, yr hwn oedd Gymro. Cyssegrwyd ef Hydref 13, 1175, yn y Fynachlog Orllewinol. Yr oedd efe yn bresenol yn Nghyngorfa Westminster, yn 1177, ac yn Nghymmanfa y Lateran, 1179. Bu mewn dadl fawr mewn perthynas i eglwys Ceri, yn swydd Drefaldwyn; yr hon y mynai efe ei thynu oddiwrth esgobaeth Ty Ddewi, a'i chynnwys yn ei esgobaeth ei hun. Dywedir ei fod wedi marw yn Mynachlog Osney, yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1181, ac iddo gael ei gladdu yno.

Ymddengys fod yr esgobaeth wedi bod yn wag am tua dwy flynedd wedi ei farwolaeth ef, sef hyd 1183, pan ei llanwyd gan John, yr hwn a gyssegrwyd yn Caen, Normandi, Mehefin 25, 1183, ac a fu farw yn 1186. Y mae Brown Willis, gan ddyfynu geiriau Radolphus, yn dal allan fod un o'r enw William wedi bod yn esgob yma am ddwy flynedd wedi marwolaeth John. Yn ol Godwin, ac Isaacson, cyssegrwyd Reyner yn y flwyddyn 1188, gan Baldwin, Archesgob Caergaint. A phan ymwelodd Baldwin a Chymru ryw bryd o fewn y flwyddyn hono,—"Efe a ddaeth hyd at sedd dlodaidd Llanelwy," medd Giraldus, "ac aeth yr esgob gydag ef, ar fedr perswadio llawer i gymeryd y groes arnynt yn erbyn y Saraceniaid, ac efe a lettyodd un noson yn nghastell Rhuddlan, ar ymweliad gydag Emma, chwaer Harri yr Ail, yr hon oedd yn wraig i Dafydd, tywysog Gwynedd."

Yr oedd gan Reyner dŷ yn agos i Groesoswallt, lle y cyfanneddai ran fawr o'i amser; efallai mai Cell berthynol i Fynachlog yr Amwythig, oedd y fan lle y trigai. Efe a roddes holl ddegwm gwair ac ŷd Mynachlog Blanche a'i Chapeloriaethau, i fyneich yr Amwythig. A c efe hefyd a roddodd haner degymau Gwrecsham, i Fynachlog Llanegwest, Glyn y Groes, yr hon a seiliasid yn y flwyddyn 1100, gan Madog ab Gruffydd, o Bromfield. Yr esgob hwn a fu farw yn 1224, ac a olynwyd gan Abraham, yr hwn a gyssegrwyd yn y flwyddyn 1225. Efe a gadarnhaodd rodd ei ragflaenor, o haner degymau Gwrecsham i Fynachlog Llanegwest, ac yn y flwyddyn 1227, efe a roddodd yr haner arall iddi. Bu farw yn 1234.

Hugh oedd y nesaf a gyssegrwyd yn Esgob Llanelwy. Efe a gyssegrwyd, yn nghyda Robert Grotshead, Esgob Lincoln, yn Mynachlog Reading, gan Edmund, Archesgob Caergaint, yn cael ei gynnorthwyo gan Jocelin de Bath a Wells, Richard de Wendover, o Sarum, Roger Niger o Lundain, Hugh Norwold, Esgob Ely, a Ralph de Maydenstune, o Henffordd, fel y gwelir oddiar awdurdodau diamheuol yn *Wharton*. Efe a neillduodd Langollen i Fynachlog Llanegwest, yn y flwyddyn 1236; ac yn y flwyddyn 1239, efe a roddes ddegymau Llanfair Caereinion, i Leianod Llanllugan, swydd Drefaldwyn; ac yn yr un flwyddyn, efe a neillduodd Lanasa tuag at adgyweirio yr eglwys gadeiriol. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1240.

Howel ab Ednyfed a olynodd Hugh. Yr oedd hwn yn un o brif foneddion Cymru, gan ei fod yn fab i Ednyfed Fychan, prif gynghorwr, a maes-lywydd Llewelyn ab Iorwerth. Efe a gyssegrwyd yn Mynachlog Boxgrave, yn Sussex, gan Edmund, Archesgob Caergaint, yn Awst, neu Fedi, am gyssegru yr hwn, yn nghyda Hugh, mewn lleoedd eraill, amgen na Chaergaint, y mae Edmund yn gwneyd esgusawd i Lwysgor Caergaint. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1247, yn Rhydychain; a chladdwyd ef yn mynachlog St. Mary, Osney, yn y fan hono, lle yr ymneillduasai ychydig cyn ei farwolaeth, ar gyfrif y rhyfeloedd oeddynt yn ei wlad ef ei hun. Y mae Prynn yn rhoddi y desgrifiad canlynol o gyflwr y wlad tu a'r adeg hon;—"Fel yr oedd y Brenin Harri y Trydydd wedi gorchfygu holl Gymru, tu a'r flwyddyn 1247, a darostwng y Cymry dan gyfreithiau Lloegr, yr Esgobion Cymreig a bleidient eu cyd wladwyr yn erbyn y Brenin; am ba achos yr yspeilid eu Hesgobaethau, ac y dinystrid eu Heglwysi, fel eu gorfodid i gardotta eu bara, a byw ar elusen rhai eraill."—*Coll.* v. ii. pp. 726, 727. Ac y mae Matthew Paris, wrth adrodd am dlodi yr Esgobion Cymreig, yn ein hysbysu yn neillduol, "Fod Esgobion Llanelwy, a Bangor, yn gymaint a bod eu hesgobaethau wedi eu hanrheithio a'r tân, ac â'r cleddyf, wedi eu gorfodi i fyw ar elusen rhai eraill; a bod Esgob Bangor, a lluaws o'i glerigwyr, wedi dyfod i Fynachlog St. Alban, a byw gyd a'r Arglwydd Abbad yno, hyd oni adferid rhyw gymaint o'i gyllidau a'i frawdwriaeth iddo."

Wedi bod yr esgobaeth yn wag am ddwy flynedd, cyssegrwyd Anian, neu Einion yn esgob, yn Nhachwedd y flwyddyn 1249. Yn y flwyddyn 1263, yr esgob hwn a neillduolodd Lanllwch-haiarn i Leianod Llanllugan; ac yn 1265, Aber-rhiw i Fynachlog y Trallwm; a chadarnhaodd rai o roddion ei ragflaenoriaid Howel, ac Abraham, i Fynachlog Llanegwest, neu Glyn y Groes: ac yn y flwyddyn 1250,

Digitized by Google

caniattaodd faddeueb (*indulgence*), am dri diwrnod ar ddeg, i'r sawl a weddïent, neu a offryment yn nghapel Bruere. Fe'n hysbysir ddarfod i Anian roddi pen ar ddadl fawr a fuasai rhwng Richard, Esgob Bangor, a Llewelyn ab Gruffydd, Tywysog Cymru. Y mae y cyttundeb hwnw wedi ei ddyddio yn Rhyd yr Arw, yn y flwyddyn 1261. Bu Anian farw yn Ngwyl Mihangel, 1266; ac olynwyd ef gan John yr Ail, yr hwn a gyssegrwyd (yn ol tystiolaeth Wharton,) yn y flwyddyn 1267, gan Boniface, Archesgob Caergaint, yn cael ei gynnorthwyo gan Hugh Balsam, Esgob Ely, a William de Breuse, Esgob Llandaf, yn Nghaergaint. Ni chadwodd ef yr orsedd esgobawl namyn am oddeutu blwyddyn, pan y rhoddes fford i Anian, a elwid hefyd, "Y brawd du o Nannau," Cyffeswr i'r Brenin Edward y Cyntaf, yr hwn a ddylynodd efe ar ei fordaith i'r Tir Sanctaidd. Efe a gyssegrwyd i'r esgobaeth, Hydref 21, 1268; ac yn y flwyddyn ganlynol, efe a gafodd amryw ragorfreintiau gwerthfawr gan Llewelyn, Tywysog Cymru. Yn y flwyddyn 1276, efe a gafodd gan Iorwerth y Cyntaf gadarnhad o holl iawnderau a breintiau ei eglwys; ac yn y flwyddyn 1271, efe a gawsai gan John Fitzallen, iarll Arundel, ac arglwydd Croesoswallt a Chlune, rodd o dros gan erw o dir, ger St. Martin, i'w Eglwys, ar yr ammod iddo dalu yn flyneddol, un pâr o ysparduniau goreurog, ac na byddai iddo byth ei neillduo oddiwrth yr Esgobaeth. Cadarnhawyd y rhodd uchod drachefn gan Richard, mab y dywededig John Fitzallen, yr hwn hefyd a roddodd bedair erw a deugain yn ychwaneg, yn nghyd a'r Maenordy perthynol iddo. Yn y flwyddyn 1278, cafodd gan Gruffydd Fychan ab Gruffydd Madog, arglwydd Iâl, sefydlu Maenor Llandegle, iddo ef a'i olynwyr. Bu dadl rhyngddo ef a Mynachlog Llanegwest, yn nghylch nawddogaeth ebrwyadaethau Llangollen, Gwrecsham, Rhiwabon, y Waun, Llansantffraid, a Llandegle; yr hon a benderfynwyd o ochr yr esgob a'i olynwyr. Efe a roddodd ddwy ran o dair o ddegwm Bryn Eglwys i Lanegwest.

Yn y flwyddyn 1282 llosgwyd yr eglwys gadeiriol, a thai y Canonwyr, gan y Saeson, yn eu rhyfeloedd yn erbyn y Cymru. Mynai Anian anfon ei geryddon allan yn eu herbyn, ond attaliwyd ef gan yr Archesgob Peckham. Ond, pa fodd bynag, darluniwyd pethau yn y fath fodd i'r Brenin Edward, fel y difuddiwyd Anian o'i esgobaeth. Cymerodd y Brenin afael ar y meddiannau, a thraddodwyd y gorchwyl o drefnu yr esgobaeth i Robert Burnel, esgob Wells. Ond cyn hir, adferwyd Anian ar gais Peckham, ar yr ammod i'r esgob roddi degwm arberigloriaeth Eglwys Fach, i Fynachlog Aberconwy, tra y rhoddai y Brenin yr hawl i bennodi i Ruddlan, i Anian, a'i olynwyr dros byth.

Ar losgiad yr eglwys gadeiriol, teimlai Anian ddymuniad am gael symmud yr Esgobawd i Ruddlan, am mai pentref gwledig ydoedd Llanelwy, lle na's gallai y Canonwyr fyw yn ddiogel, o herwydd y rhyfeloedd parhaus. Addawodd y Brenin dir i adeiladu eglwys arno, a mil o farciau tuag at ei hadeiladu; ond rywfodd neu gilydd, ni ddygwyd y cynllun byth i ben. Bu farw Anian, Chwef. 5, 1292.

Y nesaf a ddyrchafwyd i'r gadair esgobawl yma, oedd Leoline de Bromfield, neu "Llewelyn o Bromfield," un o'r Canonwyr. Yn y flwyddyn 1295, drwy orchymyn yr Archesgob, efe a ysgymunodd Madoc, mab Llewelyn, tywysog Cymru, am wrthwynebu brenin Lloegr; a gwnaeth yr un peth drachefn yn y flwyddyn 1305. Yn y flwyddyn 1310, efe a roddodd bedair rhan o ddegwm Llanelwy, i'r pedwar Ficar Corawl; a phrïodolodd berigloriaethau Llansilin, a Rhuddlan i'w Ganonwyr. Ychydig cyn ei farwolaeth efe a gafodd iddo ei hun a'i olynwyr, nawddogaeth perigloriaeth Dinbach, gan Phylip, iarll March. Gan fod y meddiannau a berthynent i'r esgobion Cymreig, yn myned yn ol y gyfraith, yn eiddo y goron ar eu marwolaeth, efe a geisiodd ganiattad y Brenin i wneyd ei ewyllys; ac ynddo, efe a gymmunroddodd lawer o nwyddau, ac addurniadau, i'w Eglwys, ei Ganonwyr, a'i Gaplaniaid; yn gystal ag i'w gyfeillion eraill, a'i weinidogion. Bu farw tua diwedd y flwyddyn 1313, neu ddechreu 1314; ac efe a olynwyd yn yr Esgobaeth gan Dafydd ab Bleddyn, canon Llanelwy, yr hwn a gyssegrwyd Ionawr 12fed, 1315, yn ol *Wharton* a *Le Neve;* ond y mae Godwin ac Isaacson yn dadleu na chyssegrwyd ef hyd y flwyddyn 1319. Yn ei amser ef y gwnaed y "Llyfr Coch Llanelwy," y cyfeirir atto mor fynych gan Henafiaethwyr. Efe a gafodd awdurdodiad i gynnal ffair yn Llanelwy, ar y dydd cyntaf o Fai, sef dydd gwyl Sant Asaph; a llwyddodd i gael rhodd o diroedd yn Nyserth, gwerth ugain punt yn y flwyddyn, i gael ei sicrhau arno ei hun a'i olynwyr yn yr Esgobaeth: hefyd, efe a gafodd gadarnhad neillduoliad eglwys Nantglyn, i'r Ficeriaid Corawl. Ni wyddys yn sicr pa bryd y bu efe farw; ond y mae yn sicr ei fod ef yn fyw yn 1346; ac y mae yn dra thebyg iddo ddal yr esgobaeth dros flyneddoedd rai wedi hyny, sef hyd etholiad John Trefor, Canon Llanelwy, a Bangor. Ymddengys iddo ef gael ei gyssegru yn Rhufain, lle yr ydoedd gyd a'r Pab, debygid, yr hwn yn y flwyddyn 1344, a'i henwasai ef i gael y Brebenduriaeth, neu y Ganoniaeth gyntaf a elai yn wag yn Llanelwy, neu Fangor. Ond, ar ei ddychweliad i'r Deyrnas hon, bu raid iddo wneyd proffeso ymostyngiad i Archesgob Caergaint, yn eglwys gadeiriol Caergaint, Mawrth 24, 1352. Ymddengys yn fwyaf tebyg, ei fod ef wedi marw hefyd o fewn corph yr un flwyddyn.

Yr esgob nesaf ydoedd Leoline, neu, Llewelyn ab Madog ab Ellis, deon Llanelwy. Tra fu ef yn llywyddu yr esgobaeth, derbyniodd gan Iorwerth tywysog Cymru, rodd i'w Eglwys, o lawer o diroedd yn mhlwyf Llanasa, y rhai a orweddent yn Ngronant Is y Môr, ac a gafodd brïodoli Llan y Blodwell, yr hyn a gadarnhawyd yn amser ei olynydd. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1375; ac olynwyd ef yn yr esgobaeth gan William de Spridlington, deon yr Eglwys. Efe a gafodd gadarnhad i rodd ei ragflaenor, sef neillduoliad Llan y Blodwell; ac yn 1380, neillduolwyd perigloriaeth Llanrhaiadr, tuag at gynnaliaeth y Ficeriaid. Efe a drefnodd fod i eglwysi a chapeli y Trallwm, a Chegidfa, i gael eu huno â'r fam eglwys Meifod, a'u dal dan ymddiriedolaeth, yn nghyd a'r esgobaeth, am ei bod mor dlawd. Yn ei amser ef hefyd y pennodwyd ardreth y "Garreg Goch," yn lle y gwaith a ofynid oddiar law y Tenantiaid o'r blaen. Efe a fu farw Ebrill 9fed, 1382, ac a gladdwyd yn yr eglwys gadeiriol.

Lawrence Child, LL.B., mynach o Fynachlog Battel, swydd Sussex, a etholwyd yn nesaf i'r gadair esgobol. Cadarnhawyd neillduoliad Llanasa iddo, at y draul o oleuo ei eglwys, yn y flwyddyn 1385; ac efe a fu farw yn niwedd y flwyddyn 1389.

Olynwyd ef gan Alexander Bache, yr hwn oedd yn

Digitized by Google

Frawd Pregethwrol, a Chyffeswr y Brenin. Bu yntau farw Awst, 1394.

Yn y flwyddyn ganlynol, 1395, daeth John Trefor yr Ail, i feddiant o'r esgobaeth. Yn 1397, cafodd gan y Brenin ostwng ardreth Gronant is y Môr, yn ol swllt yr erw, am bob erw a ddinystrid gan y Môr; yn nghyda chymmwynasau eraill. Ond er hyn oll, anniolchgar a fu ef i'r Brenin Rhisiard yr Ail; canys yn y flwyddyn 1399, pan oedd y teyrn anffodus hwnw yn garcharor yn yr esgobaeth hon, sef yn nghastell Fflint, wedi ei fradychu i ddwylaw Harri Bolingbroke, Dug Henffordd, dylanwadwyd ar yr Esgob hwn, i gael ganddo gyhoeddi dedryd o ddiorseddiad yn erbyn y dywededig frenin Rhisiard, yn ffafr y Traws-feddiannwr: ac y mae Walsingham yn dweyd ei fod ef wedi cael ei anfon yn Llys-genhadwr i'r Hispaen, i gyfiawnhau gweithrediadau Harri y Pedwerydd, ger bron y llŷs hwnw. Ond ar ei ddychweliad, yn y flwyddyn 1402, wrth ganfod y Cymry yn llwyddiannus yn ngwrthryfel Owain, Arglwydd Glyn dyfrdwy, yr hwn o herwydd zel yr Esgob hwn dros Harri, debygid, a losgasai yr Eglwys Gadeiriol, Palas yr Esgob, a thai y Canonwyr hyd lawr, efe a aeth drosodd at y blaid hono; o herwydd paham, gyrwyd ef allan o'r Esgobaeth. Bernir i'r esgob Trefor farw yn Paris, lle yr aethai yn gennad dros Owain Glyn dyfrdwy, i ofyn cymhorth gan Frenin Ffrainc. Y mae y Treforiaid, o Blas Trefor, yn mhlwyf Llangollen, o fewn yr esgobaeth hon, o achau yr esgob hwn, yr hwn meddir, a aeth i'r draul i adeiladu Pont Llangollen.

Dywedir i Dafydd ei ddilyn ar y sedd esgobawl, ac eistedd arni hyd y flwyddyn 1411; ond y mae ei hanes ef, a chyflwr yr esgobaeth yn yr adeg yma, yn dra aneglur; fel y dadleuir yn gryf, mai Robert de Lancaster ydoedd olynwr John Trefor, fel esgob Llanelwy. Cyssegrwyd y gwr hwn yn Lincoln, gan Archesgob Caergaint, Mehefin 28ain, 1411. Yn y flwyddyn 1414, efe a gafodd ei ryddhau o dalu ardreth Gronant is y Môr, fel y gallai ail adeiladu yr eglwys gadeiriol, a losgasid yn amser ei ragflaenor. Ond, nid yw yn ymddangos iddo ymgymeryd a'r gorchwyl hwnw, na neb o'i olynwyr chwaith hyd amser yr Esgob Redman. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1433; ond ni's gwyddys pa le ei claddwyd.

Olynwyd ef gan John Lowe, S.T.P., yn yr un flwyddyn; ac efe a gyssegrwyd Tachwedd 1af, gan yr Archesgob Chicheley, sefydd teilwng Coleg yr Holl Saint, yn Rhydychain. Wedi llywyddu o hono yr Esgobaeth hon dros oddeutu un mlynedd ar ddeg, efe a ddyrchafwyd i Esgobaeth Rochester, yn y flwyddyn 1443, lle y bu farw, yn y flwyddyn 1467. Yr oedd y gwr hwn yn dra dysgedig, ysgrifenodd rai llyfrau da, a bu yn dra diwyd yn casglu llyfrau da a phrinion, fel y bernir y buasai rhai o Weithiau gwerthfawr yr hen dadau wedi eu llwyr golli, oni buasai ei ymdrechion canmoladwy ef.

Y nesaf ydoedd Reginald Peacock, S.T.P., brodor o Lacharn, yn swydd Gaerfyrddin, yr hwn a addysgwyd yn Ngholeg Oriel, Rhydychain, ac a ddaeth yn Gymmrawd o'r Gymdeithas hono, lle yr urddraddiwyd ef yn D.D. Efe a gyssegrwyd yn Croydon, Mehefin 14, 1444; ac efe a symmudwyd i Chichester yn y flwyddyn 1449: ond, efe a ddifuddiwyd o'r Esgobaeth hono yn y flwyddyn 1457, am ryw olygiadau a gollfarnid fel yn hereticaidd yn yr oes hono. Efe a ysgrifenodd amryw lyfrau, ac a gyfieithodd amryw ranau o'r Ysgrythyrau i'r Saes'neg. Y pedwar golygiad canlynol o'i eiddo, oedd y rhai a gollfarnid, ac ei gorfodwyd i'w galw yn ol wrth Groes St. Paul, lle y llosgid ei lyfrau ger ei fron;—

1. Nad ydyw yn angenrheidiol er iachawdwriaeth i gredu fod Crist wedi disgyn i uffern.

2. Neu, i gredu yn Nghymmun y Saint.

3. Y gall yr Eglwys Gyffredinol gyfeiliorni mewn pynciau o Ffydd.

4. Nad yw credu a chymeradwyo pob peth a gadarnheir ac a benderfynir gan Gynghorfa Gyffredinol, yn hanfodol i iachawdwriaeth. Ar yr hyn y mae Fox yn gwneyd y sylw canlynol,—"Arferiad ystrywgar yr Esgobion, pan ddarostyngont unrhyw ddyn, ydyw llunio ei eiriau iddo, fel pe byddai *parrot*, gan drefnu yn mlaen llaw pa beth a lefaro efe wrth y bobl, nid yn ol ei ewyllys ei hun, ond yn ol eu Trachwant a'u Dychymyg hwy."

Yn y canlyniad i hyn, efe a gauwyd i fynu fel carcharor yn Mynachlog Thorney, yn swydd Caergrawnt, yn y Corsleoedd, (*Fens,*) lle y bu farw o fewn cylch blwyddyn, neu lai,—trwy ddyfarniad Thomas Bouchier, Archesgob Caergaint, cyfarwyddiadau yr hwn i Abbad y Fynachlog ddywededig, yn mherthynas i'r modd y trinai yr Esgob dysgedig hwn, a ddodir i fewn yma, er dangos mor beryglus ydoedd i neb ddweyd dim yn erbyn y Golygiadau a ffynent am awdurdod y Pab, a Daliadau yr Eglwys Wladwriaethol y pryd hyny.—"Hyfforddiadau a roddid gan Thomas, Archesgob Caergaint, gyda Chyngor Brodyr y Tir hwn, i Abbad Thorney, am y modd y mae efe i ymddwyn tuag at Reginald Peacock, yr hwn a anfonasom atto ef, yn y Fynachlog ddywededig. Yn gyntaf, Bernir yn gymhwys i'r dywededig Reginald gael Cell ddirgel gauedig, yn meddu Simddeu, a Thy o Gyfleusdra, o fewn y Fynachlog ragddywededig, lle y gallo efe gael golwg ar ryw Allor, i glywed yr Offeren, ac nad elo allan o'r Ystafell ddywededig.—Hefyd, na byddo i'r Reginald crybwylledig gael ond un person, a'r cyfryw yn un o ymddiried, i gyweiriaw ei wely, a gwneyd tân iddo, fel y byddo yn ofynol. Hefyd, na chaffo y dywededig Reginald, un Llyfr i edrych arno, ond yn unig Porthor, a Llyfr yr Offeren, Sallwyr, neu Lith-lyfr, a Beibl. Hefyd, na byddo iddo gael dim i ysgrifenu ag ef, nac unrhyw ddefnydd i ysgrifenu arno. Hefyd, Bod i'r cyfryw Reginald gael yr hyn a fyddo yn weddus i'w oedran a'i angenrheidiau, o danwydd. Hefyd, bod i'r dywededig Reginald, gael ei arlwyo a bwyd a diod, megys y gweinyddir i ryw Frawd arall o'r unrhyw Fynachlog, a rhywbeth gwell yn achlysurol, os y barna yr Abbad yn gymhwys. Y mae deugain punt wedi ei neillduo i'r Abbad dywededig, am ei gynhaliaeth." Dyma y modd yr ymddygai Eglwys Rhufain yn y Deyrnas hon, at Esgob a feiddiai farnu drosto ei hun, bedwar can mlynedd yn ol!

Ar ol Reginald Peacock, dyrchafwyd un Thomas Knight i gadair yr Esgobaeth hon, yn y flwyddyn 1450. Yr oedd efe yn bleidiwr gwresog i dŷ Lancaster, ac yn wrthwynebwr penderfynol i Harri y Pedwerydd, yr hwn, wedi ennill yr orsedd, a'i dododd ef o'r neilldu, neu, o leiaf, a gymerodd y meddiannau i'w ddwylaw ei hun.

Yr esgob nesaf, oedd Richard Redman, S.T.P., yr hwn oedd yn gefnogwr gwresog i Dŷ Caerefrog. Efe a gafodd drwydded ei gyssegriad Hyd. 13, 1471. Efe a ail adeiladodd yr eglwys gadeiriol, wedi iddi fod yn adfeiliedig dros bedwar ugain mlynedd. Yr oedd efe yn wr dysgedig a chall iawn, a hynod am

Digitized by Google

ei fedrusrwydd yn trefnu materion gwladol; ac am hyny, efe a ddewiswyd gan Edward IV., a Richard III., fel cennad at lysoedd eraill. Ar ddyfodiad Harri VII. i'r orsedd, o herwydd fod y tywysog hwnw yn wrthwynebol i Dŷ Caerefrog, syrthiodd yr esgob hwn dan ei anfoddlonrwydd; yr hyn a barodd iddo yntau ymuno i'w erbyn, a chydag esgobion yr Iwerddon, geisio gosod i fynu y ffug Ddug Caerefrog, Lambert Simnel. Dygodd hyn ef dan gerydd y Pab, a buasai yn colli ei esgobaeth, oni buasai iddo ymostwng; ac felly derbyniwyd ef i ffafr y brenin, yr hwn yn y flwyddyn 1493, a'i hanfonodd yn gennad i'r Ysgotland, ac yn mhen dwy flynedd yn mhellach, efe a symmudwyd i esgobaeth Exeter, ac oddiyno drachefn i esgobaeth Ely, lle y bu efe farw, ac yno ei claddwyd, dan wyddfa fawr-wych.

Yn y flwyddyn 1495, daeth Michael Diacon, Cyffeswr y Brenin, i gadair esgobawl Llanelwy. Efe a fu farw, fel y tybir, yn mhen tua phum mlynedd, a chladdwyd ef yn nghapel St. Paul, yn mynachlog Westminster.

Ei olynwr oedd Dafydd ab Iorwerth, Abbad Llanegwest, yr hwn a gyssegrwyd Ebrill 26, 1500, a bernir iddo gyfanneddu yn y Fynachlog, am fod palas esgobol Llanelwy wedi ei ddystrywio gan Owain Glyn-dyfrdwy, yn amser Harri IV., a hyny a barai fod esgobion Llanelwy, ac esgobion Bangor, fel y sylwa Godwin, yn byw gan mwyaf allan o'u Hesgobaethau. Bu yr Esgob hwn farw yn ei Fynachlog fel y bernir, tua'r flwyddyn 1503; ac y mae yn debyg mai yno ei claddwyd.

Yr esgob nesaf, oedd Dafydd ab Owain, neu Ieuan, yr hwn oedd yn Gymro. Efe a fuasai yn Abbad Ystrad Farchell, neu Lanegwest, ac wedi hyny yn Abbad Mynachlog Maenan. Efe a bennodwyd i'r esgobaeth hon, Rhagfyr 18, 1503; a dechreuodd ail adeiladu y palas, wedi ei fod yn adfeiliedig dros gan mlynedd. Cafodd y gair o fod yn wr haelionus iawn; ac yn mysg cymmwynasau ereill o'r eiddo, dywedir iddo adeiladu pont goed dros afon Clwyd, tua chwarter milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Lanelwy, yr hon a adwaenir hyd heddyw dan yr enw "Pont Dafydd, Esgob," a'r hon, gan ei bod mewn cyflwr peryglus o adfeiliedig, a ail adeiladwyd ar draul y Sir, yn y flwyddyn 1630. Efe a fu farw Chwefror 12, 1512, ac a gladdwyd o du y gogledd i'r allor, yn eglwys gadeiriol Llanelwy.

Ei olynydd ydoedd Edmund Birkhead, S.T.P., yr hwn a bennodwyd yn 1513. Efe a fu o gymhorth mawr yn nygiad yn mlaen adeiladiad eglwys Gwrecsham, lle y barna amryw iddo gael ei gladdu yn 1518.

Y nesaf oedd Henry Standish, S.T.P., yr hwn a gyssegrwyd Gorphenaf 11, 1518. Yn y flwyddyn 1523, anfonwyd ef, a Syr J. Barker, yn llys-genhadon i Denmarc; ac yn y flwyddyn 1530, yr oedd efe yn un o'r esgobion a gynnorthwyent ac a gyfarwyddent Catharine, yn y cynghaws o barth ei hysgariaeth â Harri VIII. Efe a gyfrifid yn wr dysgedig yn ei oes, ac yn gefnogwr mwyaf aiddgar i'r Grefydd Babaidd. Efe a fu farw Gorphenaf 9fed, 1535.

Ar ei ol ef y daeth William Barlow, S.T.P., yr hwn a gyssegrwyd i'r esgobaeth hon yr 22in o Chwefror, 1535, yn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri VIII. Tua diwedd y flwyddyn hono, efe a anfonwyd gyd ag un Holcroft, i Ysgotland, yn achos rhyw Bynciau Crefyddol yn erbyn y Pab. Ac yn fuan wedi hyny, efe a anfonwyd gyda William, Arglwydd Howard, i'r un wlad, er cael cyfymweliad a Brenin Ysgotland. Ebrill 10, 1536, efe a symmudwyd i Esgobaeth Ty Ddewi.

Robert Wharton, neu Parfew, a bennodwyd yn esgob yma yn 1536. Ei brif breswylfeydd oeddynt Ddinbach, a Gwrecsham; ac ni thrigai braidd un amser yn Llanelwy. Symmudwyd ef yn 1554 i esgobawd Caerffawydd.

Daeth Thomas Goldwell, S.T.P., i feddiant o'r esgobaeth hon yn 1555. Efe a ddarbwyllodd y Pab i adnewyddu y Maddeuebau a ganiattasid cyn hyn i'r sawl a elent ar bererindod i ffynnon Gwenfrewi, yn Nhreffynnon. Yn fuan wedi hyny, arfaethwyd ei drosglwyddo i esgobaeth Rhydychain; ond cyn i hyny gymeryd lle, bu farw y Frenines Mari, ac ar esgyniad Elizabeth i'r orsedd, gorfu arno roddi y cwbl i fynu, a ffoi dros y môr. Yr ydoedd yn bresenol yn Nghymmanfa Trent, yn 1562; ac wedi hyny pennodwyd ef gan y Pab yn Rhufain, i fedyddio Iuddewon yno; ac i urddo y Saeson a adawent eu gwlad o achos eu crefydd.

Thomas Wood, S.T.P., a bennodwyd yn 1558. Yr oedd ef yn Gapelwr i'r Frenines Mari, yn Rheithor Ongar Uchaf, swydd Essex, a Harlington, swydd Middlesex, a Phrebendur Caergaint. Ond, gan i'r Frenines farw yn fuan ar ol ei bennodiad i'r esgobaeth, efe a roddwyd o'r neilldu ar esgyniad Elizabeth, ac a ddifuddiwyd o'i ddyrchafiadau eraill hefyd. Ymddengys fod yr Esgob Wood yn fyw yn y flwyddyn 1579, yn bedwar ugain mlwydd oed, a'r pryd hyny yn garcharor yn y *Marshalsea*, yn Southwark, fel y gwelir yn Hanes y Diwygiad, gan Strype, cyf. ii. t.d. 132.

Y Frenines Elizabeth a enwodd Richard Davies, yn Esgob Llanelwy yn ei le ef. Yr oedd y gwr hwn yn fab i Dafydd ab Gronw, is-beriglor y Gyffin, gerllaw Conwy, lle y ganwyd ef, mewn lle a elwir Plas y Person, yn y flwyddyn 1501, a derbyniodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain. Efe a gyssegrwyd yn Esgob Llanelwy, Ionawr 31, 1560; ac ar yr 21ain o Fai, y flwyddyn ganlynol, efe a symudwyd i Esgobaeth Ty Ddewi. Yr oedd yr Esgob Davies yn un o'r dysgedigion enwocaf yn ei oes; ac y mae ei goffadwriaeth yn deilwng o barch, ar gyfrif ei ymdrechiadau gwladgarol i gael cyfieithiad o'r Ysgrythyrau i iaith ei gyd-genedl. Gwnaed ef yn D.D. yn 1566.

Ar ei drosglwyddiad, daeth Thomas Davies, D.D., yn Esgob Llanelwy yn ei le ef. Mab oedd y gwr hwn i Dafydd ab Robert ab Llewelyn, Ysw., o'r Caerhun, yn agos i Gonwy, lle ei ganwyd tua'r flwyddyn 1515. Efe a gafodd ei ddysg athrofaol yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, a'i ddyrchafiadau eglwysig cyntaf, oedd i beriglorîaeth Llanbedr y Cenin, a ficeriaeth Caerhun. Efe a gyssegrwyd yn Esgob, Mai 26, 1561; a bu farw tua Gwyl Mihangel, 1573, ac a gladdwyd yn ol ei Ewyllys, dyddiedig Ebrill 19, 1570, naill ai yn Abergeleu, neu Lanbedr y Cenin, y lle olaf yn fwyaf tebyg, er nad oes unrhyw goffech iddo ar gael.

Ei olynydd oedd William Hughes, S.T.P. Mab oedd hwn i Huw ab Cynric, o Gwenllian, ferch John Fychan ab John ab Gruffydd ab Owen Pigot; ac efe a anwyd yn swydd Gaer yn arfon. Yn 1570, efe a gymerodd ei urdd-radd yn D.D., yn mhrif ysgol Caergrawnt, ac yn 1573, efe a gyssegrwyd yn Esgob Llanelwy. Efe a fu farw yn yr Hydref, 1600, a chladdwyd ef yn Nghor-gafell Llanelwy. Ei ferch a'i ettifeddes Anne, a brïododd â Thomas, mab

Digitized by Google

ieuangaf Syr Thomas Mostyn; ac o'r briodas hon yr hanai Mostyniaid y Rhŷd.

Y nesaf ydoedd William Morgan, S.T.P., brodor o Ewybr-nant, yn mhlwyf Penmachno, swydd Gaer yn arfon. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt. Yr oedd efe yn Ficar y Trallwm, swydd Drefaldwyn, Awst 8, 1575, yn Ficar Llanrhaiadr yn Mochnant, Hydref 1, 1578, a Pheriglor Llanfyllin, a Phennant Melangell, Gorph. 10, 1588, a pheriglor annghurog Dinbach, yn 1594.—Pan oedd yr Esgob Morgan yn Ficar Llanrhaiadr, mewn canlyniad i ryw ddadl a gyfodasai rhynddo a'i blwyfolion, bu raid iddo ymddangos o flaen yr Archesgob Whitgift yn Lambeth; ac yn ystod yr ymddiddan a fu rhyngddynt, argyhoeddwyd yr Archesgob o alluoedd annghyffredin y Ficar Cymreig, fel y pennododd ef yn Gaplan iddo ei hun, ac y cymhellodd ef yn daer i fyned rhagddo gyd a'r gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg, ar yr hyn y dechreuasai yn barod. Tu a'r flwyddyn 1587, efe a aeth i Lundain, gyd a'r bwriad o ddwyn y Gwaith pwysig hwn drwy y wasg; a thros y flwyddyn y bu yno yn arolygu y wasg, efe a arhosai gyd a'r Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster. Y Frenines Elizabeth a wobrwyodd y Dr. Morgan, trwy ei bennodi yn Esgob Llandâf, i'r hon ei cyssegrwyd yn y flwyddyn 1595; ac efe a symudwyd i esgobaeth Llanelwy, yn y flwyddyn 1601; a bu farw yno, Medi 10fed, 1604, ac a gladdwyd dranoeth, yn Nghor yr Eglwys Gadeiriol yno, heb unrhyw ysgrif-lech goffadwriaethol am dano. Yr oedd Dr. Morgan yn ysgolhaig gwŷch, ac yn rhagori yn ei hyddysgrwydd o'r Groeg a'r Hebraeg. Bydd coffadwriaeth Dr. Morgan yn beraroglaidd yn Nghymru, tra fyddo y Beibl Cymraeg mewn bri gan y genedl.

Dilynwyd ef gan Rhisiard Parry, S.T.P., mab ac ettifedd John Parry, Ysw., o Bwllhalog. Efe a anwyd yn Rhuthin, swydd Dinbach, yn y flwyddyn 1560. Efe a addysgwyd yn Ysgol Westminster, dros ryw yspaid, dan yr enwog Camden, o'r lle yr etholwyd ef yn ysgolor o *Christchurch*, Rhydychain, yn 1579. Yr oedd yn Ganghellwr Bangor, yn 1592; yn Ficar Gresford, a Deon Bangor, yn 1599. Ar esgyniad Iago y Cyntaf i orsedd Lloegr, gan fod ganddo y parch mwyaf i ddysgeidiaeth Dr. Parry, efe a'i pennododd i Esgobaeth Llanelwy, i'r hon ei cyssegrwyd, Rhagfyr 30ain, 1604. Efe a adolygodd, ac a ddiwygiodd gyfieithiad Dr. Morgan o'r Beibl; yr hwn orchwyl llafurfawr a gymerodd efe arno ei hun yn wirfoddol, er lles ei gydwladwyr. Bu yr Esgob Parry farw yn y ty a feddiannai efe yn y Ddiserth, fel Archddiacon, ar y 26ain o Fedi, 1623, ac efe a gladdwyd yn ei eglwys gadeiriol ei hun, ond nid oes yno unrhyw gofadail am dano.

Olynwyd ef yn yr esgobawd, gan John Hanmer, S.T.P., yr hwn a gyssegrwyd Chwefror 15, 1623. Bu y gwr hwn farw yn ei anneddle, Pentre Pant, plwyf Selattyn, Mehefin 23, 1629. Yr oedd y gwr hwn yn hanu o deulu henafol yr Hanmeriaid, yn mhlwyf Hanmer, swydd Fflint.

Ei olynydd ef oedd John Owen, S.T.P., yr hwn oedd yn Gymmrawd o Goleg yr Iesu, Caergrawnt, yn 1599. Efe a anwyd yn Burton Latimers, swydd Northampton, ac a fedyddiwyd yno, Tachwedd 13, 1580. Yr oedd efe yn fab i Owen Owens, trydydd brawd o deulu Bodsilin, swydd Gaer yn arfon, yr hwn oedd yn beriglor y plwyf uchod. Dyrchafwyd ef i fod yn Esgob Llanelwy, gan Siarl I., i'r hwn y buasai yn Gaplan, pan oedd efe yn Dywysog Cymru. Ar ei ddyfodiad i Lanelwy, efe a sefydlodd bregethu Cymraeg yn eglwys y plwyf, ac mewn amryw fanau eraill yn ei esgobaeth, debygid: gwnaeth lawer o adgyweiriadau o'r tu fewn i'w eglwys, cyfododd adeilad newydd yn nglyn a'i balas, ar yr ystlys ddwyreiniol; gosododd organ newydd yn yr eglwys gadeiriol, palmantodd y ffordd rhwng yr eglwys gadeiriol âg eglwys y plwyf; adgyweiriodd y clochdy, yn nghyd ag amryw bethau eraill. Cyhoeddodd lyfr a elwid "Herod a Phontius Pilat wedi ymgymmodi." Efe a fu farw yn Aberkinsey, Hydref 16, 1651; a chladdwyd ef dan y sedd esgobol yn yr eglwys gadeiriol, yr hon a halogid yn fawr tu a'r dyddiau hyny, gan un Milles, yr hwn a gadwai y Llythyrfa, ac a gyfaneddai yn mhalas yr esgob, gan werthu gwin, a gwirodydd eraill yno; a chadwai ei geffylau a'i ychain yn nghorph yr Eglwys, gan rwymo, a phorthi ei loi yn ngorsedd yr Esgob, a rhanau eraill o'r Corgafell; ac efe a symudodd y bedydd-faen i'w fuarth, gan ei ddefnyddio yn gafn môch; ac yn y cyflwr dirmygedig a gwarthus yma y bu hen Eglwys gadeiriol Llanelwy, hyd adferiad yr Eglwys a'r freniniaeth, yn y flwyddyn 1660.

Wedi bod yr Esgobawd yma yn wag am naw mlynedd, pennodwyd George Gruffydd, S.T.P., o deulu y Penrhyn, gerllaw Bangor, i lywyddu yr esgobaeth hon, Medi 30, 1661. Efe a ysgrifenodd Draethawd ar Swper yr Arglwydd yn 1684. Cymerodd arno y gwaith o gyfieithu y *Llyfr Gweddi Cyffredin* newydd i'r Gymraeg; ond ni wyddys pa un a orphenodd efe hwnw a'i peidio. Mewn Cymmanfa o Eglwyswyr yn 1662, cyd-weithredodd i gyfansoddi Deddf yr Unffurfiad, ac i wneyd rhai cyfnewidiadau yn y *Llyfr Gweddi*, a bernir mai ei waith ef ydyw y Ffurf arferol wrth fedyddio rhai mewn oedran aeddfed. Efe a ddylynodd gamrau ei ragflaenor yn y gwaith o drefnu ei esgobaeth, a sefydlu pregethu Cymraeg yn eglwys y plwyf. Bu farw, Tach. 28, 1666, a chladdwyd ef yn Nghôr yr eglwys gadeiriol.

Cyssegrwyd Henry Glenham, Deon Caerodor, yn Esgob Llanelwy, Hyd. 13, 1667, a bu farw Ionawr 17eg, 1669.

Ei olynydd ydoedd Isaac Barrow, S.T.P., Esgob Manaw; yr hwn a bennodwyd i Lanelwy, Mawrth 21ain, 1669. Efe a adgyweiriodd amryw ranau o'r eglwys gadeiriol, a gwariodd lawer o'i arian yn adeiladu, ac yn adgyweirio ei balas yn Llanelwy, a'r felin berthynol iddo. Yn 1678, efe a adeiladodd Elusendy yn Llanelwy, i wyth o wragedd gweddwon, ac a'i gwaddolodd a 12*p.* yn y flwyddyn: a gadawodd yn ei ewyllys 200*p.* tuag at Ysgol Rad yn yr un lle. Yn wir, dywedir iddo neillduo ei holl eiddo at amcanion elusenawl. Bu farw, er galar cyffredinol, yn yr Amwythig, Meh. 24, 1680; a chludwyd ei gorph oddiyno, i'w breswylfa, a elwid Plas yr Argoed, yn mhlwyf y Wyddgrug, Meh. 30; ac oddiyno i Lanelwy, Gorph. 1af, lle ei claddwyd yn ol ei gyfarwyddiadau ei hun yn y fynwent, yn agos i ddrws gorllewinol yr eglwys gadeiriol, gan y Deon, Dr. Nicholas Stratford, yn nghyd a'r arysgrif ganlynol, a dynwyd allan gan yr Esgob ei hunan, ar ei fedd. —*Exuviæ Isaaci Asaphensis Episcopi, in manum Domini depositæ in spem laetae Resurrectionis per sola Christi merita. O vos transeuntes in Domum Domini, Domum Orationis, orate pro conservo vestro, ut inveniat misericordiam in Die Domini.*"

Digitized by Google

Ar ei ol ef, daeth William Llwyd, D.D., wyr D. Llwyd, Ysw., o'r Henblas, swydd Fôn. Efe a gyssegrwyd yn Esgob Llanelwy, Hydref 3, 1680.

Ar yr 8fed o Fehefin, 1688, yr oedd efe yn un o'r chwech Esgobion, yn nghyd a'r Archesgob Sancroft, a draddodwyd i'r Tŵr, am law-nodi, a chyflwyno Deiseb i'r Brenin Iago yr Ail, yn yr hon yr amlygent eu gwrthwynebiad i ddosbarthu a chyhoeddi yn eu heglwysi, Gyhoeddiad ei Fawrhydi o barth rhyddid cydwybod; am yr hyn y cyhoeddai y Llys hwynt yn euog o gabldraith wrthryfelgar yn erbyn y Brenin a'r Llywodraeth: ond, cawsant eu rhyddau ar y 30ain o'r un mis. Tua diwedd 1688, cydsyniodd yr Esgob Llwyd yn galonog â'r Chwyldroad, a gwnaed ef yn Arglwydd Elusenior i'w Fawrhydi y Brenin William; ac ar yr 20fed o Hydref, 1692, trosglwyddwyd ef i esgobaeth Lichfield a Coventry. Cyhoeddodd lawer o lyfrau ar amrywiol destunau; ac y mae clod mawr iddo o herwydd helaethrwydd ei ddysgeidiaeth, a chywirdeb ei farn a'i grebwyll.

Wedi symudiad yr Esgob Llwyd, gwnaed Edward Jones, D.D., o Lwynriryd, gerllaw Trefaldwyn, yn Esgob ar Lanelwy, Rhag. 13, 1692; ac efe a fu farw Mai 10fed, 1703, yn ei Anneddle, gerllaw y Fonachlog Orllewinol, Llundain.

Yn nesaf, enwyd George Hooper, D.D., yn Esgob ar Lanelwy, gan y Frenines Anne, a derbyniodd yntau y swydd, er yn groes i'w ewyllys. Yn mhen hanner blwyddyn wedi hyny, pennodwyd ef i Bath a Wells; ond efe a erfyniodd ar i'r gorchymyn gael ei alw yn ôl, ac i'r esgobaeth gael ei hadferu i'w gyfaill, yr esgob Ken,—â'r hyn y cydsyniwyd; ond ni fynai Ken mo honi: ac ar daer ddymuniad hwnw, derbyniwyd hi gan Hooper. Yr oedd yr Esgob Hooper yn enwog am ei ddysg a'i ddawn, a'i gywirdeb yn trefnu ei esgobaeth.

Ar drosglwyddiad Hooper i Bath a Wells, gwnaethpwyd William Beveridge, D.D., yn esgob Llanelwy. Yr oedd efe mor hyddysg yn yr ieithoedd dysgedig, fel yr ysgrifenodd efe draethawd pan nad oedd ond deunaw mlwydd oed, ar ardderchawgrwydd a defnyddioldeb yr Ieithoedd Dwyreiniol, yn enwedig yr Hebraeg, y Caldaeg, y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Samaritanaeg. Yr oedd efe hefyd, er yn ieuanc, yn hynod am ei dduwioldeb, a difrifoldeb ei feddwl. Wedi dyfod i'w esgobawd, i'r hon ei cyssegrid Gorphenaf 16, 1704, ysgrifenodd lythyr serchog at ei Offeiriaid, i'w hannog i holwyddori, a dysgu y bobl yn egwyddorion Cristionogaeth, a chyfansoddodd er gwasanaeth ei esgobaeth, Esboniad syml a rhwydd ar Gatechism yr Eglwys. Ni fwynhaodd y gwr duwiol hwn ei urddas esgobawl onid am ychydig gyda thair blynedd a haner; canys efe a fu farw Mawrth y 5ed, 1707–8.

Ar ol Beveridge daeth William Fleetwood, D.D. Dyn doeth, difalch, a llafurus, ac o ymarweddiad diargyhoedd, oedd efe. Yr oedd yn dra awyddus am lenwi eglwysi ei esgobaeth âg offeiriaid duwiol a theilwng; a hoffai yn fawr eu gweled yn gofalu yn gydwybodol am les eu plwyfolion. Cyssegrwyd y gwr da hwn yn esgob Llanelwy, Mehefin 6, 1708. Ar farwolaeth y Frenines Anne, ac esgyniad Teulu Hanofer, efe a ddyrchafwyd i esgobaeth Ely, Rhag. 18, 1714.

John Wynne, D.D., a olynodd yr Esgob Fleetwood yn 1714. Ganesid y gwr hwn yn Maes y Coed, yn mhlwyf Caerwys, swydd Fflint, a thros amser, bu dan addysg yn Llaneurgain, ac wedi hyny yn Ysgol Ramadegol Rhuthin. Cafodd ei addysg athrofaol yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, ac efe a ddaeth yn gymmrawd o'r Coleg hwnw. Efe a gyssegrwyd i'r esgobaeth hon, Chwef. 6, 1714. Efe a fu yn gymmwynaswr mawr i'w eglwys gadeiriol, a'r palas esgobol; gan wario ar y flaenaf 600 o bunnau, yn fuan wedi ei ddyfod i'r esgobaeth, er adgyweirio y niwed a wnelsid arni gan ystorm aruthrol a gymerth le, Chwefror yr 2il, 1714. Ar farwolaeth yr esgob Hooper yn 1727, trosglwyddwyd yr esgob Wynne i Bath a Wells, a bu farw Gorphenaf 15, 1743. Efe a gladdwyd yn Nghangell eglwys Llaneurgain.

Ar drosglwyddiad Dr. Wynne, rhoddwyd yr esgobaeth i Francis Hare, D.D., mab i farsiandwr o Lundain, yr hwn a ddyoddefasai golledion dwys oddiwrth y tân mawr a fu yn y ddinas. Yr oedd hwn yn wr tra dysgedig, ac yn sefyll yn uchel yn ffafr y Frenines. Yn y flwyddyn 1731, efe a symudwyd o Lanelwy i Chichester; ac efe a gafodd Ddeoniaeth St. Paul hefyd amryw flyneddoedd cyn ei farwolaeth. Efe a fu farw ar y 26ain o Ebrill, 1740, yn y ddegfed flwydd a thriugain o'i oed.

Ar drosglwyddiad Dr. Hare i Chichester, pennodwyd Thomas Tanner, D.D.; ond nid hir y mwynhaodd y gwr hwnw ei urddas, oblegid bu farw Rhagfyr 14, 1735. Efe ydoedd awdwr y *Notitia Monastica.*

Dylynwyd ef gan Isaac Madox, D.D., yn y flwyddyn 1736, a bu yma hyd 1743, pan y symudwyd ef i Gaerwrangon; a bu farw o'r darfodedigaeth, Medi 27, 1759.

Ar symudiad Dr. Madox i Gaerwrangon, pennodwyd John Thomas, D.D., i esgobaeth Llanelwy. Gwr difyrus yn ei gymdeithas, a llawn o arabedd, oedd Dr. Thomas; ond yn anffodus, yr oedd yn lled drwm ei glyw. Etholwyd ef yn esgob Llanelwy, yn y flwyddyn 1743; ond cyn ei gyssegriad i'r swydd, efe a symudwyd i esgobaeth Lincoln, ar farwolaeth Dr. Reynolds, a chyssegrwyd ef i'r esgobaeth hono, Ebrill 1, 1744. Brodor o Ddolgelleu, yn swydd Feirionydd, oedd efe; ac yn y dref hono ei ganwyd, yn y flwyddyn 1681. Ymddengys mai o deulu isel yr hanai; canys fe'n hysbysir mai cludydd, (*porter*) i Ddarllawydd yn y brif ddinas, oedd ei dad ef; ac mai ar draul meistr ei dad y cafodd ef ei addysg. Wedi derbyn urddau eglwysig, efe a aeth yn Gaplan i'r Drosfasnachfa Seis'nig yn Hamburg, lle yr arhosodd am lawer o flyneddoedd, ac y daeth yn dra chyfarwydd ar yr Ellmynaeg; a thrwy hyny daeth i sylw y Brenin, Sior yr Ail, trwy ffafrau yr hwn y cafodd ei ddyrchafiadau eglwysig.

Yr esgob nesaf yn Llanelwy, ydoedd Samuel Lisle, D.D., yr hwn a ddyrchafwyd i'r gadair esgobol yma yn y flwyddyn 1743–4. Ond yn 1748, efe a symudwyd i Gaercynan (Norwich), a bu farw Hydref 3, 1749.

Ar ei ol ef, daeth yr Anrhydeddus Robert Hay Drummond, D.D., yn esgob Llanelwy, a chafodd ei gyssegru i'r esgobaeth hon yn y flwyddyn 1748; a'i drosglwyddo i Gaercaradawc (*Salisbury*), Mai 3, 1761. Yr oedd y gwr hwn yn ail fab i George Henry, seithfed Iarll Kinnoull, &c.

Dylynwyd ef gan Richard Newcome, D.D., yr hwn a drosglwyddwyd yma o Landâf, yn mis Awst, 1761; ac a fu farw yn Nghaerbaddon, Meh. 4, 1769.

Ei olynydd ef ydoedd Jonathan Shipley, D.D., yr hwn a wnaed yn esgob Llandâf, yn Ionawr, 1769,

Digitized by Google

ac o fewn corph yr un flwyddyn, a drosglwyddwyd i esgobaeth Llanelwy. Yn ei amser ef, cafodd Cor Llanelwy ei ail adeiladu bron yn gyfan-gwbl; ac efe hefyd a gyssegrodd Gapel Trefor, yn mhlwyf Llangollen. Am yr esgob hwn, dywedwyd gyda llawer o briodoldeb, "ei fod yn feddiannol ar ddysg heb goeg-rodres; gwladgarwch, heb ymbleidiaeth; a moesgarwch heb fursendod." Bu farw, Rhagfyr, 1787.

Ar ei farwolaeth ef, cafodd Samuel Halifax, LL.D., a D.D., ei drosglwyddo o esgobaeth Ely i'r esgobaeth hon. Dywedir ei fod yn wr o fedrusrwydd a gwybodaeth eang. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1790.

Dylynwyd ef yn yr esgobaeth hon, gan Lewis Bagot, LL.D., yr hwn a drosglwyddwyd yma o Gaercynan, Ebrill 6, 1790. Yr oedd efe yn frawd i'r arglwydd Bagot, y cyntaf o'r teitl. Efe a fu farw, Mehefin 4, 1802. Yr oedd efe yn awdwr cyfrol o Bregethau ar y Prophwydoliaethau, &c.

Samuel Horsley, LL.D., F.R.S., F.A.S., a symudwyd i'r esgobaeth hon, o Rochester, ar farwolaeth yr esgob Bagot, ac efe a fu farw, Hydref 4, 1806. Efe a anwyd yn Llundain, yn y flwyddyn 1733, ac a addysgwyd yn ysgol y Fonachlog Orllewinol, ac wedi hyny yn Ngh† oleg y Drindod, Caergrawnt; a daliai amryw fywiolaethau eglwysig olynol hyd oni chyrhaeddodd yr urddas esgobol. Ond tra yr oedd efe yn ymddyrchafu yn gyflym yn yr eglwys, ac yn gwrthwynebu Dr. Priestly, arwr mawr Undodiaeth, trwy ei gyfansoddiadau Duwinyddol, nid oedd yn esgeulus o wyddonaeth. Yn y flwyddyn 1775, efe a gyhoeddodd argraffiad o weithiau Newton, yn 5 cyfrol 4 plyg; ac o'r flwyddyn 1773 hyd etholiad Syr Joseph Banks, efe a fu yn ysgrifenydd y Gymdeithas Freninol; ond y pryd hyny, gan ei fod yn golygu bod urddas y gymdeithas wedi ei leihau trwy ddewisiad gwr oedd yn annghyfarwydd ar y gwyddonau uchaf i'w llywyddu, efe a roddodd ei swydd i fynu. Yr oedd efe yn dra enwog am ei ddysgeidiaeth, ac yn boblogaidd fel pregethwr hyawdl. Yr oedd ei ysgrifeniadau yn dra lluosog a phwysig, mewn dwyfyddiaeth, mewn gwyddonaeth, ac mewn llenyddiaeth glasurol.

William Cleaver, D.D., a'i holynodd yn yr esgobaeth, Hydref 15, 1806; ac a fu farw Mai 15, 1815. Yr oedd Dr. Cleaver yn wr tra dysgedig, ac yn awdwr amryw lyfrau.

Ar ei farwolaeth, trosglwyddwyd Dr. Luxmore yma, o esgobaeth Henffordd, ar y 23ain o Fai, 1815; ac efe a fu farw yn y flwyddyn 1830.

Efe a olynwyd gan Dr. William Carey, yr hwn a drosglwyddwyd yma o Exeter, ar farwolaeth Dr. Luxmore; ac a fu farw yn y flwyddyn 1846. Ac ar ei farwolaeth ef, trosglwyddwyd Thomas Vowler Short yma, o esgobaeth Manaw. Y gwr hwn ydoedd fab i'r hybarch William Short, Archddiacon Cernyw. Efe a ymneillduodd ar gyfrif henaint yn y flwyddyn 1870, pan gyssegrwyd y Parch. Josuah Hughes i'r esgobaeth. Rhoddodd pennodiad y Cristion gloyw, a'r Pregethwr galluog yma, i'r gadair esgobyddol, foddlonrwydd cyffredinol i'r rhai mwyaf crefyddol yn mysg Eglwyswyr ac Ymneillduwyr; a dymuna miloedd iddo gael iechyd a hir oes, i gyflawni dyledswyddau pwysig ei sefyllfa urddasol, yn ofn yr Arglwydd.

Fel y crybwyllwyd yn barod, y mae hanes yr esgobaeth hon, ac o ganlyniad, hanes pob amgylchiad o bwys yn hanes y ddinas, a'r plwyf hwn, yn gladdedig mewn tywyllwch dudew, am gyfnod lled faith; yr hyn a achosid trwy ei sefyllfa agos i'r cyffindiroedd, yr hyn a'i gwnelai yn gemmaes ymrysonau mynych tywysogion Gwynedd a Phowys, â'r Saesoniaid. O herwydd yr achosion hyn, y mae coflyfrau olynwyr Asaf am yn agos i bum can mlynedd, wedi eu llwyr golli; ac yn ystod y cyfnod maith, o farwolaeth Asaf hyd y Goresgyniad Normanaidd, yr unig hysbysiad a gawn ni trwy y Brutiau Cymreig, ac ar awdurdod Spelman, ydyw, bod esgob Llanelwy yn mysg esgobion cynnorthwyol Ty Ddewi, y rhai yn y flwyddyn 601, oeddynt wyddfodol yn y cyfarfod ag Awstin â'i gymdeithion. Er y dichon fod y gadair esgobawl yn wag yn achlysurol yn ystod yr amseroedd terfysglyd hyn, y mae Wharton yn dadleu yn gryf, fod esgobion yn cael eu pennodi yn rheolaidd, er nad yw eu henwau ar gof a chadw. Parhaodd y fonachlog i flodeuo hyd yn agos i ddechreu y nawfed ganrif, pan wasgarwyd y myneich; ond eu tiroedd a'u meddiannau a barhasant mewn cyssylltiad a'r esgobaeth, yr hon, er y mynych ymosodiadau a wnaed arni, a gadwodd feddiant o'i rhagorfreintiau a'i gwaddoliadau; ac yn y flwyddyn 1016, ail adeiladwyd yr eglwys gadeiriol, o feini, yn benaf trwy haelioni y Brenin Ethelred, ac Archesgob Caergaint; ac fe'i gorphenwyd gan Canute, yn fuan wedi esgyn o hono i orsedd Lloegr. Er fod yn amlwg mai amcan y cymmwynasau hyn, oedd ennill serchiadau y Cymry, buant yn hollol aflwyddianus i hyny, canys y Cymry a ymlidiasant yr holl eglwysogion Saesonaidd oddi yma, gan gyhoeddi rhyfel agored yn eu herbyn.

Yn agos i'r afon Elwy, yn nhrefgordd Wigfair, y mae "Ffynon Fair," mewn glyn coediog. Y mae y ffynon hon, yr hon sydd yn amgauedig mewn dyfr-gist aml-onglog o geryg nâdd, wedi ei gerfio yn gain-wych, yn bwrw i fynu tua chan galwyn o ddwfr bob mynyd; y mae llawer iawn o galch yn y dwfr, a byddai llawer o gyrchu iddi gynt i ymdrochi. Yn agos i'r ffynon y mae adfeilion hen gapel croesadeilawg, yr hwn, cyn y Diwygiad Protestanaidd, oedd yn gapel anwes i Lanelwy, yn yr arddull ddiweddar o adeilwaith Seis'nig.

Y mae lluaws o balasau gwychion yn y plwyf, yn mysg y rhai y gellid enwi, castell Bodelwydden, preswylfa Syr Hugh Williams, Barwnig; Pengwern, hen balas perthynol i Arglwydd Mostyn, yr hwn a adeiladwyd tua dechreu y ddeunawfed ganrif; y Cefn, lle y preswyliai y diweddar Edward Lloyd, Ysw.; Bron y Wylfa, lle y preswyliai y diweddar Rag-filwriad Syr Henry Browne, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1660, ac a helaethwyd yn y flwyddyn 1816. Y mae yn y palas hwn amryw gad-fuddiannau (*trophies*) gwerthfawr, a gymerwyd yn ystod y rhyfel diweddar, rhwng y deyrnas hon â Ffraine.—Yn eu mysg, y mae taith-dudlen Napoleon Buonaparte, a llyfrau ffyrdd amherodraeth Ffraine, mewn cloriau o ledr Morocco ysblenydd; wedi eu haddurno a'r arfebion amherodrol, a'u cymeryd o lyfr-gell yr Amherawdr yn Fontainbleau, gan Syr Henry, yn y flwyddyn 1815; a berllysg maes-lywydd Ffrengig, dwy droedfedd a thair modfedd o hyd, wedi ei gorchuddio â melfed porfforaidd, yn addurnedig â gwenyn euraidd, ac ar ei phen, goron amherodrol, a gymerwyd yn Silesia, yn y flwyddyn 1812, gan adran o fyddin Blucher. Un o'r teulu hwn oedd y Farddones athrylithgar a swynol, Felicia Dorothea Hemans. Y mae rhai ogofâau mawrwych yn nhref-

Digitized by Google

gordd Cefn Meiriadog, yn ymestyn i'r galch-graig am gryn bellder; ac mewn rhyw ranau o honynt, y mae y nen uwchlaw deugain troedfedd o uchder; ac yn agos i'r afon Elwy, y mae godrau y graig wedi ei thrydyllu a bwa naturiol, un llath ar hugain o hyd, ac un droedfedd ar bymtheg ar hugain o uchder, trwy yr hon y mae ffordd, y gellid myned a phedrolfen lwythog o wair ar hyd-ddi. Cafwyd amryw weddillion ffossylaidd yn yr ogofäau hyn, yn mysg y rhai yr oedd asgwrn penglog rhyw filyn nodedig o fawr, a dannedd, cyfattebol mewn maintioli, wedi eu calcheiddio yn berffaith; a thafod rhyw filyn, gymaint a thafod hydd, o'r hwn y mae y ffurf, a'r graen yn berffaith, er fod y crair ei hunan wedi ei faeneiddio yn drylwyr.

**LLANELLEN**, plwyf, a phentref, yn rhan-barth uchaf cantref y FENNI, swydd FYNWY, ar lan yr afon Wŷsg, a dyfr-ffos Aberhonddu, a cherllaw rheilffordd Henffordd a'r Casnewydd; 2¼ milldir i'r Dehau o Abergafenni. Llythyrfa, Abergafenni. Erwau, 2536. Gwerth ardrethol, 2529*p.* Poblogaeth, 373. Tai annedd, 79. Y mae y tir yn rhanedig rhwng ychydig o berchenogion. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 105*p.* Noddwr, T. Swinnerton, Ysw. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Sant Helen.

**LLANELLI**, sydd blwyf ac is-ddosparth, yn nosparth Crughywel, Sir FRYCHEINIOG. Y mae y plwyf yn sefyll ar geulanau yr afonydd Clydach, a'r Wŷsg, gerllaw camlas Aberhonddu a'r Casnewydd, a rheilffordd Merthyr-Tydfil, o gylch gorsaf Clydach, heb fod yn neppell o sir Fynwy, tair milltir de dde ddwyrain o Grughywel; yn cynnwys rhandiroedd Aberbaiden, a Maesgwarthaf; ac yn cynnwys rhanau o Brynmawr, a Clydach; ac y mae gan yr olaf lythyrfa dan Abergafenni. Erwau, 5183. Gwerth ardrethol, 23,853*p.*, o'r hyn y mae 237*p.* mewn cloddfeydd; 55*p.* mewn mŵnau; 5023*p.* mewn gwaith haiarn, a 1399*p.* yn y camlas. Poblogaeth yn 1801, 937; yn 1831, 4041; yn 1851, 9644; ac yn 1861, 9603. Tai, 2043. Cyfododd cynnydd y boblogaeth yn flaenorol i 1851, drwy gyflwr llwyddianus gwaith haiarn Clydach. Y mae arwynebedd y tir yn fryniog, ac yn arddangos golygfeydd tarawiadol, gyd a'i dau raiadr. Y mae rhanau o'r ucheldir yn ymgodi 1200 troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr; ac er mor anghysbell ac unigaidd ydoedd gynt, y mae yn awr yn cynnwys poblogaeth lluosog iawn. Y mae dyffryn y Clydach yn lled gauedig, ac yn cael ei ymylu â chreigiau cerig calch, tua 500 troedfedd o uchder, a'r gwaelod yn arddangos ffrwythlonder, rhwng adeiladau, ac ager-beirianau, a'u mwg yn esgyn yn wastadol, ac yn peri golygfeydd amrywiaethol iawn. Y mae y Pistyll Mawr wedi ei ostwng i raddau drwy agoriad pyllau glo, ond y mae Pwll Crochan, a Phwll y Cwn, a'u disgyniad o uchder mawr, yn aros i ddyfrhau y dyffryn. Y mae y gweithydd is-law y brif-ffordd yn gweini golygfa hynod i'r teithiwr, ac ochain y peirianau yn cyd uno â thrwst ergydiau y morthwylion, yn gwneud yr adsain yn dra rhyfeddol. Y mae camlas Aberhonddu ac Abergafenni, wedi teithio pellder o un filltir ar bymtheg o dref Aberhonddu, gyda chodwm o wyth droedfedd a thriugain, mewn chwech o adgloion, yn cael ei drosglwyddo dros afon a dyffryn Clydach, mewn dyfrffordd o uchder o ychydig llai na chan troedfedd. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawddogaeth Dug Beauford. Y mae yr eglwys wedi cael ei chysegru i St. Ellyw. Y mae yn y fynwent amryw goed Yw, o hynafiaeth mawr yma, ac yn addurn arbenig i'r lle. Y mae gan y pedwar enwad Ymneillduol leoedd o addoliad yma, ac y mae yma ysgolion plwyfol, er rhoddi addysg i blant tlodion, yn cael eu cynal trwy gydroddion gwirfoddol. Gadawodd Edward Lewis, Ysw., o Aberclydach, yn 1713, ardreth tir o 3*p.* yn y flwyddyn, i dalu am draddodiad chwech o bregethau yn flyneddol, gan offeiriaid heblaw gweinidog y plwyf, yn eglwys Llanelli, tra y parhao Eglwys Loegr yn y wlad hon. Y mae ar fryn a elwir "Y Gaer," uwchlaw dyffryn Clydach, weddillion hen wersyllfa, o gynlluniad Brytanaidd; ac y mae ar graig gyferbyniol, hen amddiffynfa filwrol, a elwir Dinas. Gwnaeth Mr. Edward Llwyd yr hynafieithydd, rai darganfyddiadau hynod yn y lle hwn.

**LLANELLI**, sydd blwyf, a thref farchnadol, undebol, borthladdol, a bwrdais seneddol, yn nghantref Carnwallon, deoniaeth Cydweli, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, yn sir GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Ei phellder o Lundain yw 225 milldir; o Gaerdydd, 55; o Ferthyr Tydfil, 40; o Abertawy, 11; ac o Gaerfyrddin, 19, gyda'r gledrffordd. Mae y plwyf wedi ei ranu yn bedair maenor; y rhai a elwir Hengoed, Glyn, Westfa, a Berwick; heblaw tir y Fwrdeisdref.

Mae hanes boreuol y lle hwn fel llawer lle arall, yn cael ei orchuddio gan niwl a thywyllwch. Nid oes wybodaeth sier pa bryd yr adeiladwyd yr Eglwys blwyfol, na chan bwy; er y barna rhai ei bod yn hen iawn, gan ei bod wedi ei chyssegru i *Ellyw,* wyres Brychan Brycheiniog, yr hon oedd yn byw yn y 5ed ganrif. Pa fodd bynag am hynyna, mae yn amlwg fod y lle hwn yn bwysig mewn ystyr grefyddol cyn y Diwygiad Protestanaidd. Dywed traddodiad i St. Piero adeiladu Mynachlog cang ar ynys fechan ger y lle, a elwir hyd yn awr wrth yr enw Machynys, neu Ynys y Mynach; ond nid ynys ydyw bellach, gan ei bod yn un a'r tir er ys tua 70 mlynedd. Yr oedd capel pabyddol hefyd yn perthyn i bob un o'r maenorau, gweddillion y rhai sydd i'w gweled yn bresenol. Capel Ifan y gelwir capel Maenor y Glyn; yr hwn sydd yn sefyll. Capel Gwenllo y gelwid un Maenor Westfa. Capel Dewi a berthynai i Faenor Berwig, yr hwn sydd ger Llwyn hendy; a gelwid capel Maenor Hengoed wrth yr enw Capel Sylen. Ymddengys na pharhawyd cynnal gwasanaeth yn y capeli hyn, oddieithr capel Ifan, wedi y chwyldroad a gymmerodd le yn y crefydd-dai trwy orchymyn Harri VIII.: a thebygol yw, mai dyna yr amser y torwyd i fyny y Mynachdy ar Fachynys; gan gyfyngu y gwasanaeth yn fwy neillduol i eglwys y Fwrdeisdref, sef Eglwys y plwyf. Mae cwpan cymun yr Eglwys yn dwyn y dyddiad 1574, sef o amser y Frenhines Elizabeth; ac y mae mewn cadwraeth dda yn awr.

Diamheu fod Llanelli yn un o'r lleoedd boreuaf yn Nghymru i weithio a masnachu mewn glo: oblegyd cawn fod *Leland* mor fore a'r flwyddyn 1540 yn gwneyd sylw neillduol o hyn fel y canlyn:—

"At Llanethli, a village of Kidwelli Lordship, six miles from Kidwelli, the inhabitants dig coles, els scant in Kidwelli land—there be ii maner of these coles; ring coles for smith be blowed and watered; stone coles be sometimes watered, but never blowed, for blowing extinguisheth them—So that Vendraeth Vawr coles be stone coles, Llanethli coles ring coles."

Prawf y nodiad hwn o eiddo John Leland, yr hwn

Digitized by Google

**a bennodwyd gan Harri VIII., i wneyd desgrifiad o'r deyrnas, fod trigolion y lle hwn yn cloddio glo o'r ddaiar y pryd hwnw: ond amlwg yw, mai ar raddfa fechan iawn y gweithient ef, am rai oesoedd ar ol hyny; fel y cawn sylwi yn fuan.**

**Rhoddwyd ei Breinlen gyntaf i'r Fwrdeisdref yn** 1310, yn nheyrnasiad Iorwerth II., yr hyn a ddengys **yn amlwg fod rhai o'r arglwyddi Normanaidd yn meddu awdurdod a meddiant yn y lle,** oblegyd nid **oedd y teyrn hwnw yn dangos ffafrau i neb ond Normaniaid. Mae yr enwau Pencastell, a Hen** Gastell hefyd, ar leoedd yn Llanelli, yn lled awgrymu fod gan y Normaniaid amddiffynfeydd yma; ac i'r dref trwy eu dylanwad hwy gael ei chorphori yn Fwrdeisdref fel y nodwyd. Er hyny, nid oedd ond bychan a gwael am ganrifoedd wedi ei chorpholiad, a'i thai isel wedi eu toi â brwyn. Y ty gwychaf yn y lle oedd Palas teulu Stepney, y rhai oeddynt Normaniaid, ac yn ddisgynyddion o arglwydd Ralph Stepney, Aldenham, swydd Hertford. Daeth y teulu hyn yn berchen ar ddwy etifeddiaeth eang yn Neheudir Cymru, un yn sir Benfro, a'r llall yn ardal Llanelli. Un o'r teulu hwn oedd Syr John Stepney, a grewyd yn farchog yn 1586, gan Iago I. Nid oedd eu palas yma yn wych iawn, cyn y flwyddyn 1714, er mai efe oedd y goreu yn y lle. Yn y flwyddyn a nodwyd, darfu i Syr Thomas Stepney, ei adeiladu yn fawr a gwych, dan yr enw *Llanelly House.*

Dau ddosparth o ddynion a breswylient y dref **rhwng** 1600 a 1700, sef Pysgodwyr, a glowyr: a'r rhai **hyny** yn ychydig nifer.

Yn 1653, torodd pla allan yn mhlith y trigolion, fel yr ofnai amaethwyr y wlad ddyfod a'u nwyddau i'r dref, ac ni chai pobl iach y dref fyned allan i'r wlad, rhag lledaenu y pla, fel y bu agos i'r trigolion oddef newyn trwm. Yn y cyfyngder hwn, mabwysiadwyd y cynllun canlynol: fod i'r amaethwyr ddyfod a'u nwyddau i gae neillduol a elwir *Cae Watch*, a'u gadael yno, a myned ymaith. Yna deuai rhai o bobl y dref i'w cymmeryd, gan adael eu gwerth mewn cawg careg yn llawn dwfr: rhag i'r pla ledaenu o'r dref. Yr oedd gwylwyr wrth y Cae a nodwyd, yn atal pobl y dref fyned i'r wlad, a phobl y wlad rhag myned i'r dref; ac felly galwyd ef Cae Watch.

**Yr hyn sydd wedi codi y dref a'r ardal i sylw a maint, yw trysorau cuddiedig y gymydogaeth, ac** ysbryd anturiaethus cyfoethogion, i ddwyn y trysorau **hyny allan o'u cuddfanau at wasanaeth y byd.** Fel **yr awgrymwyd, y mae ardal Llanelli yn gyfoethog o lo; a hwnw yn adnabyddus er yn fore iawn.** Dosperthir y glo yn gyffredin i dri math, sef Glo Rhwym (*Bituminous Coal*), Glo Ager (*Steam Coal*), a Glo Careg (*Anthracite Coal*), ac y mae y tri math i'w **cael yn yr ardal hon. Dull digon aflerw ac annghelfydd oedd ganddynt i'w gloddio, ei gludo i'r porthladd, a'i lwytho gynt; ac araf iawn y dygid masnach yn mlaen. Gweithid y glo yn agos i'r arwyneb, dygid ef mewn cydau ar gefnau mulod a cheffylau i lan y traeth, yna cariai dyn y cwd ar ei gefn i'r llong, a byddent yn aml tua mis yn llwytho tuag ugain tunnell!**

**Tua'r flwyddyn 1754, cychwynwyd cyfnod newydd gyda golwg ar weithio glo yn yr ardal, trwy i un John Allen, Ysw.; agor amryw byllau bychain, mewn lleoedd a elwir Y Wern, a'r Caeau Gleision; ond ar raddfa fechan iawn y gweithid hwy.**

**Yn 1766, suddwyd pwll glo ar Waunhallt, yr hwn a weithid gyda dyrwynlath** (*windlass*) a cheffyl yn ei throi. Wrth godi dwfr o'r pwll hwn un Sul, deallwyd fod y gwaith wedi ei lanw gan ddwfr, o hen bwll oedd gerllaw, ac wedi darfod gweithio ynddo cyn cof gan bawb byw y pryd hwnw. Yn 1794, darfu i ddau foneddwr, o'r enwau Bowen, a Roderick, gymmeryd at weithfeydd Mr. Allen, ac a wnacthant Gamlas bychan oddi wrth y pyllau i lan y mor, yr hyn oedd beth newydd yn y lle, ac yn tueddu i ddwyn pethau yn mlaen ar raddfa helaethach nag o'r blaen. Yr oedd gan y rhai hyn amryw byllau, a chodid y dwfr o honynt gan beiriannau yn cael eu gweithio â rhodau dwfr. Yr oedd gan Mrs. Mansell hefyd ychydig waith glo yn y lle y pryd hwnw.

Yn 1796, darfu i Syr E. J. S. Mansell, roddi prydles i un Mr. Gwyn, i weithio yr holl lo, o afon y Stradey hyd afon Llwchwr; ac un o'r amodau oedd, ei fod i gadw pump glowr ar waith gyda chysondeb. Methodd Mr. Gwyn yn ei fasnach yn fuan, a rhoddodd i fyny ei hawl i'r glo ar du gogleddol afon Lliedi; yr hwn a bryd-lêswyd gan Alexander Rabby, Ysw. Yn fuan ar ol hyn, rhoddodd Mr. Gwyn y rhan arall o'i hawl i fyny i un Mr. Townsend, yr hwn a'i gwerthodd i Mr. Smith; a gwerthodd Smith ef yn mhen ychydig i Mr. Rabby; yr hwn oedd prif anturiaethwr y lle. Adeiladwyd ffwrnes fechan yma tua'r flwyddyn 1791, gan Meistri Givers ac Ingman, y rhai a'i gwerthasant i Mr. Rabby yn 1796; ac yn 1800, adeiladodd ef un arall. Caed y glo at y ffwrnesi o byllau yr ardal; a dygid y mŵn o Gwm Gwendraeth ar gefnau ceffylau, gydag ychydig dros y môr o swydd Lancaster. Yn 1802, cafodd Mr. Rabby Weithred Seneddol, yn rhoi hawl iddo i wneyd ffordd haiarn, (*tramway*) o *Flatts* Llanelli, ar lan y môr, i fyny hyd blwyf Llanfihangel Aberbythych, i le a elwir Castell y Graig, er cael ceryg calch. Hyd y gledrffordd oedd 13½ milldir, yr hon a wnaed yn hollol ar draul Mr. Rabby. Yr un flwyddyn ag y gwnaed y gledrffordd, adeiladodd y boneddwr Forthwylfa, ger y man y saif tai'r *Forge* yn awr; er mwyn cwblhau yr haiarn yn fwy parod i'r farchnad. Yn 1807 chwythwyd y Ffwrnesi allan: ac aeth eiddo ereill Mr. Rabby i feddiant y Cadfridog Warde; ac yn 1819, aeth y cwbl i feddiant Meistri Sims, Willyams, Nevill & Co.; ac yn meddiant yr un Cwmni y mae yn parhau. Dywedir yn aml mai George Washington yw tad yr Unol Dalaethau, a chyda'r un priodoldeb y gellir dweyd, mai Alexander Rabby oedd tad llwyddiant Llanelli.

Yn 1804, codwyd cangen arall o fasnach yn y lle, trwy adeiladu Gwaith Copr Penrhos, gan Meistri Daniels, Seville, Guest, a Nevill. Dechreuodd weithio yn 1805: ac aeth yn mhen blynyddau i feddiant Meistri Sims, Willyams, Nevill, Druce & Co.; y rhai sydd wedi ei helaethu o bryd i bryd, gan ychwanegu gwaith Arian, a phlwm atto, nes yw yn bresenol yn un o'r gweithfeydd copr cangaf yn y wlad. Yn 1840, adeiladwyd ffumer i gario mwg y gwaith copr ymaith i'r uchder o 272 o droedfeddi: ac yn ddiweddarach codwyd yma y ffumer dalaf yn Nghymru, neu Loegr, yr hon sydd yn 322 troedfedd o uchder, 33 troedfedd tryfesur yn y bôn, a 12 yn y top; a defnyddiwyd 1,000,000 o briddfeini i'w chodi, sef wyth can' mil o rai cochion, a dau can' mil o rai gwynion, a chostiodd 2250*p*.

Mae tua 4000 o ddynion yn gweithio i berchenogion y gwaith hwn yn awr. Yn 1828, ffurfiwyd cwmni yn y lle, er gwneyd Doc newydd, a chledrffordd tua 2 filldir o hyd, er cyssylltu y llongborth â glofeydd

Digitized by Google

Llangenech; ac yn y flwyddyn ganlynol, cafwyd Gweithred Seneddol yn caniatau hyn. Cyn agor y ffordd hon, dygid glo Llangenech i'r môr, mewn cychod bychain ar afon Llwchwr. Yn 1830, dechreuwyd y *Cambrian Copper Works*, gan Meistri George, a Thomas Glascots; ond ni fu yn hir ar waith ganddynt. Yn 1838, ail gychwynwyd ef gan yr *English Copper Company;* a bu ar waith hyd 1841. Wedi hyn daeth i feddiant Meistri Sims, Willyams, Nevill & Co. y rhai a'i defnyddiant yn waith Arian, a Phlwm.

Yn 1835, cafodd Cwmni Doc a Chledrffordd Llanelli, hawl Seneddol i estyn y Gledrffordd o Lanelli i Landeilo, gyda gwneyd cangenau i Gwmaman, Brynaman, Spith, a'r Mynydd Mawr; er cyssylltu ardaloedd y Glo Careg, â Llongborth Llanelli; a thuag at ddwyn y draul, cafodd y Cwmni ganiatâd y Llywodraeth i godi 250,000*p.* ar lôg. Gwnaed hi yn barod hyd Cross Inn a Chwmaman yn 1841, ar y draul o 248,621*p.* Bu am amryw flyneddau yn cludo glo yn unig; ond y mae yn awr yn orphenedig hyd Landeilo, lle y mae yn cael ei chyssylltu a Chledrffordd Dyffryn Tywi, ac yn cludo teithwyr, gyda phob math o nwyddau.

Yn 1840, adeiladwyd y *South Wales Pottery* yn y lle, yr hwn a ddygwyd yn mlaen yn llwyddiannus gan W. Chambers, Ysw.; hyd 1855. Dygir ef yn mlaen yn awr gan Meistri Holland, a Guest; a gwneir ynddo bob math o lestri pridd, gleision, a gwynion.

Yn 1847, adeiladwyd Gwaith Alcan Dafen, tua milldir a hanner o'r dref, gan Meistri Motley a Winkworth. Dechreuodd weithio yn 1848; a daeth yn mhen ychydig i feddiant Meistri Phillips, Smith a'u Cyf.; a dygir ef yn mlaen yn bresenol gan Phillips, Nunes & Co., ar raddfa eang a llwyddiannus. Gwneir tua 1000 o gisteidiau o'r *tin* goreu yn y gwaith hwn yn wythnosol.

Yn 1852, adeiladwyd Gwaith Alcan y Morfa, rhan isaf y dref, gan Meistri Tregoning a'i Gyf.; a dygir ef yn mlaen ar raddfa eang.

Yn 1853, agorwyd Gwaith Haiarn yn ymyl yr heol, o Orsaf Cledrffordd y Great Western i'r dref, gan Meistri Nevill a'i Gyf.; lle y gweithir pob math o lafnau berwedyddion, llafnau llongau, bariau, &c. Mae y lle yn awr yn mherchenogaeth Mr. Nevill a'i frodyr.

Yn 1864, ffurfiwyd cwmni Toddwyr Burry Port, agorwyd y gwaith yn Chwefror, 1865, sef gwaith Arian a Phlwm.

Yn ychwanegol at y gweithfeydd a enwyd, gellir nodi, *The Marshfield Iron Works*, eiddo Meistri Richard Nevill a'i Gyf.: lle y gweithir yr hyn a elwir *terne*, neu lafnau duon. Mae peiriannau rholio y gwaith hwn wedi eu gosod mor gelfydd, fel y gellir rholio llafnau haiarn rhyngddynt, mor deneu ag $\frac{1}{4000}$ o fodfedd: neu mewn geiriau ereill, rhaid cael pedair mil o'r llafnau hyn ar eu gilydd er gwneyd modfedd o drwch.

Mae yma weithfeydd berwedyddion ac offerynau hefyd, (*boiler and tool manufactory*) sef gwaith y Wern, eiddo R. Nevill, Ysw.; Gwaith Tin yr Hen Gastell; Gwaith Fferyllol; Gwaith Priddfeini, &c. Mae yr holl weithfeydd a nodwyd, gydag ychydig o rai ereill ag sydd yn y dref, a'r tu allan iddi ar lan y môr, yn cadw elfenau bywyd y dref ar eu heithaf.

*Y Porthladd.* Awgrymwyd eisioes mai lle gwael oedd yma gynt i lwytho a dadlwytho llongau. Cyn y flwyddyn 1795, nid oedd yma un math o Doc o gwbl; ond angorau y llongau mwyaf ger y *London Tier*, neu *Flatts* Llanelli, fel eu gelwir yn awr, ac yno eu llwythid, ac eu dadlwythid goreu gellid: tra y deuai y llongau lleiaf i fyny hyd bont y dref. Pa fodd bynag, yn y flwyddyn a nodwyd, darfu i Meistri Bowen a Roderick, wneyd Doc fechan, lle y saif y Doc ganol presenol, yn gyssylltiol a'r Camlas a wnaethant y flwyddyn flaenorol. Y llong gyntaf a ddaeth i mewn i'r doc hono, oedd un o'r enw *Castell Maldwyn.* Yn 1799, dechreuwyd y *Carmarthenshire Dock*, gan Alexander Rabby, Ysw.; yr hwn a'i gwnaeth ar ei draul ei hun: ond ni orphenwyd hi hyd 1813, pan ffurfiwyd y *Ballast-bank* yn yr ochr orllewinol iddi. Yn 1804, gwnaed Doc y Gwaith Copr, gan berchenogion y gwaith; ond y mae wedi ei gwella, a'i helaethu droion oddi ar hyny. Ei harwynebedd yw tuag erw a thri chwarter, a lled ei dôr yn 31 troedfedd; ac yn alluog i dderbyn llongau yn cymmeryd 17 troedfedd o ddyfnder o ddwfr. Medda ar bob math o gyfleusderau llwytho a dadlwytho.

Yn 1828, caed gweithred Seneddol i wneyd Doc Llanelli, a elwir y Doc Newydd. Saif ar derfyn Cledrffordd Llanelli; yn dair erw o arwyneb; lled y dôr yn 32 troedfedd a 6 modfedd; ac ynddi le i tua 300 o longau. Cafodd y ddwfr-ffos o'r *basin* allan, ei helaethu yn 1840, ac yn 1850.

Doc Pemberton hefyd, sef Doc y Gwaith plwm, sydd le cyfleus; fel y mae y porthladd bellach wedi ei drefnu yn dra manteisiol i gario allan fasnach y lle. Llywyddir yr *Harbour* gan bwyllgor o ddirprwywyr, y rhai sydd yn gweithredu yn unol a'r hawl a roddir iddynt gan y Senedd o bryd i bryd. Yn 1864, pasiwyd Act yn rhoddi i'r *commissioners* hawl i wneyd Nawfle eang, gyda *locks* cyfatebol.

Dengys a ganlyn gynnydd masnachol y Porthladd yn y blyneddau a aethant heibio. Yn 1800, nifer y llongau gliriodd allan o'r porthladd oedd 331, ond ychwanegodd yn fawr mewn blyneddau dilynol, fel y dengys y daflen hon:—

| Blwydd. | Llongau | Tunnelli. | Blwydd. | Llongau | Tunnelli. |
|---|---|---|---|---|---|
| 1831 | 816 | 53,844 | 1847 | 1764 | 122,650 |
| 1832 | 967 | 64,864 | 1848 | 2052 | 145,777 |
| 1833 | 782 | 55,858 | 1849 | 1870 | 125,808 |
| 1834 | 875 | 63,245 | Creeks | 974 | 41,926 |
| 1835 | 976 | 69,887 | 1850 | 1742 | 125,832 |
| 1836 | 1068 | 80,931 | Creeks | 1011 | 48,665 |
| 1837 | 1224 | 89,495 | 1851 | 1701 | 122,630 |
| 1838 | 1305 | 91,612 | Creeks | 1000 | 54,894 |
| 1839 | 1348 | 95,705 | 1852 | 1594 | 115,054 |
| 1840 | 1592 | 115,712 | Creeks | 1012 | 55,724 |
| 1841 | 1360 | 108,917 | 1853 | 1811 | 129,431 |
| 1842 | 1770 | 114,964 | Creeks | 999 | 59,897 |
| 1843 | 1821 | 124,893 | 1854 | 1833 | 138,915 |
| 1844 | 2056 | 143,479 | Creeks | 970 | 64,810 |
| 1845 | 2061 | 149,909 | 1855 | 1877 | 148,353 |
| 1846 | 2170 | 166,890 | Creeks | 1023 | 68,550 |

Yn 1863, anfonwyd o'r porthladd hwn 335,229 o dunnelli o lo: ac yn 1864, allborthwyd oddi yma 111,294 o dunnelli o lo carreg yn unig. Yn 1869, anfonwyd oddi yma i wahanol borthladdoedd y deyrnas, 151,396 o dunnelli; a 115,952 i wledydd tramor: y cwbl yn 267,348 o dunnelli. Yn 1870, allborthwyd oddi yma 292,992 o dunnelli o lo; sef 169,872 o lo ager, a 4775 o lo carreg, i wahanol ranau y deyrnas hon; a 102,695 o lo ager, a 15,650 o lo

Digitized by Google

carreg i wledydd tramor. Dengys yr uchod fod yma fasnach eang yn cael ei chario yn mlaen, mewn glo yn unig.

Y mae wedi ei brofi fod arwynebedd y rhan hono o faes Glo Deheudir Cymru, ag sydd yn dwyn cyssylltiad a Llanelli, yn 100 milldir ysgwâr; a bod yma ddigon i barhau 1790 o flyneddau, pe gweithid 5000 o dunnelli o hono bob dydd am y tymhor hwnw; o ganlyniad, nid yw y dref a'r porthladd hwn ond yn eu mabandod etto.

Bu y dref yn cael ei llywodraethu yn hir gan Bôrtref, a nifer anmhenodol o fwrdeisiaid, yn rhinwedd Breinlen 1310: ond aeth y freinlen i golli, trwy i ryw Ffrangcwr ag oedd yn byw yn Nghas'llwchwr, ar doriad y rhyfel allan rhwng Lloegr a Ffraingc, ffoi o'r wlad hon, a'r freinlen gydag ef. Bernir mai myned a'r ysgrif i'r Ffrangcwr a wnaed, er mwyn iddo egluro rhai o'r termau oedd ynddi; ac iddo yntau orfod ffoi, cyn rhoddi yr eglurhad.

Yn 1807 (47 George III.) pasiwyd Gweithred Seneddol, a elwid "*An Act for Inclosing Lands in Llanelly, in the county of Carmarthen, and for leasing part of the said Lands, and applying the rents thereof in improving the Town and Port of Llanelly.*"

Yn ol y Ddeddf hon, yr oedd llywodraeth y dref yn llaw 13 o ymddiriedolwyr, a 156 o fwrdeisiaid. Ychydig a wnaeth y rhai hyn tuag at wella y dref a'r porthladd, heblaw gwneyd gwrthglawdd i gadw y mor allan: ac adeiladu Llysdy i'r Ynadon, yn 1821.

Yn 1849, rhoddodd yr Ymddiriedolwyr eu hawl i fyny i'r Bwrdd Iechyd; ac oddi ar hyny, llywodraethir y dref gan y Bwrdd hwn; ac y mae wedi gwneyd llawer iawn o welliannau yn y dref: ac nid y lleiaf oedd gwneyd Dwfr Weithfa eang, i ddiwallu trigolion y dref â dwfr iachus. Costiodd 40,000*p.* Er ei bod yn dref farchnadol er ei chorffoliad yn fwrdeisdref, nid oedd ynddi dŷ marchnad hyd 1828, pan yr adeiladwyd dau dŷ marchnad, y rhai a elwid y Farchnad Uchaf, ac Isaf. Parhaodd y rhai hyn i wasanaethu prynwyr a gwerthwyr, hyd 1865, pryd yr adeiladodd y Bwrdd Llywodraethol Dy Marchnad ardderchog, yr hwn a saif ar dair erw o dir, a chostiodd ei adeiladu tua 10,000*p.*

Yn 1836, adeiladwyd Tlotty Undeb Llanelli, ar ochr heol Abertawy; a pherthyn i'r Undeb, blwyfi Llanelli, Cydweli, Llanedi, Llangenech, Llanon, Cas'llwchwr, a Phenbre. Gwerth ardrethol yr Undeb yw 113,588*p.*

Mae darn o dir wedi ei brynu gan y Bwrdd Iechyd, 15 erw, am 3000*p.* er mwyn gwneyd Parc Cyhoeddus, yr hyn a fydd yn gryn fendith i'r lle.

Yn 1835, corphorwyd Cwmni, a chaed Deddf Seneddol i'w awdurdodi i oleuo y dref â Nwy: a dechreuwyd goleuo y masnachdai yn 1836; a'r heolydd yn 1839.

Prif adeilad cyhoeddus y dref yw yr *Athenæum*, yr hwn sydd adeilad gwych, yn nghanol y dref, yr hwn a adeiladwyd trwy dansgrifiadau yn 1857; at yr hwn yr ychwanegwyd ystafell, gwerth 1000*p.* er cof am Richard J. Nevill, Ysw. Defnyddir rhan o'r adeilad gan y *Mechanics' Institute*, a sefydlwyd yn y dref yn 1847, lle y mae llyfrgell, a darllenfa ragorol. Mae Ysgol Gelfyddydol dda yn nglyn a'r sefydliad hwn: gydag Amgueddfa ragorol. Rhan arall o'r Athenæum a ddefnyddir gan y *Chamber of Commerce*, yn nglyn a'r cyfryw y mae Llyfrgell a darllenfa dda arall. Mae y brif ystafell yn 60 troedfedd wrth 30; yn yr hon y cynnelir cyfarfodydd cyhoeddus, darlithiau, cyngherddau, &c.; ac y mae y Bwrdd Iechyd wedi ychwanegu ystafell at yr adeilad, yn yr hon y cynnelir cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae yn y dref Faddonau cyfleus hefyd, yn heol y Farchnad, y rhai a fwynheir am ychydig dâl; a gwneir cryn ddefnydd o honynt.

Mae agwedd grefyddol y dref yn bur flodeuog. Yn perthyn i'r Sefydliad Gwladol, y mae Eglwys y plwyf, yr hon sydd hen adeilad yn yr arddull Seisnig Boreuol, yn cynnwys corph, cangell, a thwr ysgwar, yn yr hwn y mae 6 cloch, ac awrlais, gwyneb yr hwn a oleuir yn y nos gan nwy. Dyddia ei choflyfr o'r flwyddyn 1682. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 300 y flwyddyn, gyda thy anedd, yn rhodd Esgob Ty Ddewi.

Eglwys St. Paul, sydd eglwys ddosparthol, wedi ei chodi yn 1849; yn yr arddull Gothig; ac iddi gorph, cangell, capel a phorth. Ficeriaeth yw y fywioliaeth hon hefyd, gwerth 300*p.* y flwyddyn, gydag anedd-dy, yn rhodd y Goron, a'r Esgob bob yn ail. Eglwys St. Peter, sydd Gapel Anwes yn perthyn i St. Paul; wedi ei hadeiladu yn yr arddull Gothig, gyda chorph, cangell, a dwy rodfa. Cynnelir y gwasanaeth yn yr iaith Saesneg yn hon. Cynnelir Gwasanaeth eglwysig yn yr Ysgoldy Cenedlaethol hefyd bob Sabbath. Mae Eglwysi hefyd yn y Felin Foel, a Phontyberem, y rhai ydynt gapeli anwes dan yr Eglwys blwyfol. Mae ymneillduaeth yn gryf iawn yma, fel pob man arall yn Nghymru. Dechreuodd yr Ymneillduwyr bregethu yma mor fore a'r flwyddyn 1650; a chawsant lonydd am ddeng mlynedd, pryd y cawsant eu gwasgaru gan erlidigaeth dan Charles II. Y capel ymneillduol cyntaf a adeiladwyd yma, oedd eiddo y *Bedyddwyr*, yr hwn a godwyd yn mhen isaf y dref, yn 1773. Yn 1822, darfu i'r aelodau roddi y capel a'r tir dano yn gyfnewid am ddarn arall o dir, ar yr hwn y codasant Gapel Seion yr un flwyddyn: ac ail adeiladwyd ef yn 1838. Mae y capel hwn yn awr yn ddigon eang i ddal 1150 o bersonau. Yn 1840, adeiladwyd Bethel, Glanymor, yr hwn a ail adeiladwyd yn 1850. Capeli ereill o eiddo y Bedyddwyr yn y dref, ydynt Bethania (Glan y mor) a chapel Seisnig *Greenfields.* Yr *Annibynwyr*, a adeiladasant Gapel Als y tro cyntaf yn 1780; yr hwn a helaethwyd yn 1827, ac yn 1830; ac a ail adeiladwyd yn 1852, ar y draul o 1800*p.* Mae yn 70 troedfedd wrth 50 y tu fewn i'r muriau, gydag oriel o'i gylch, a deil 1100 o wrandawyr.

Yn 1839, darfu i ychydig o aelodau Capel Als ffurfio eglwys Seisnig Heol y parc, lle y daeth achos blodeuog. Mae capel presenol yr eglwys hon yn un o'r rhai harddaf yn y deyrnas. Mae wedi ei godi yn yr arddull Gothig, ar y draul o tua 2000*p.*

Yn 1841, adeiladwyd Siloa, Glan y mor, yr hwn a ail adeiladwyd yn 1856, ac y mae ynddo achos llewyrchus iawn. Capeli ereill yr Annibynwyr yn y lle, ydynt Capel y Doc, a chapel Heol y gwynt, y rhai ydynt newyddion.

Yn 1809, adeiladodd y *Trefnyddion Calfinaidd* gapel bychan yn y dref, yr hwn a adgyweiriwyd yn 1821: ac yn 1840, adeiladwyd ef o'r newydd ar raddfa eangach o lawer. Yn 1856, adeiladodd yr enwad hwn gapel hardd arall a elwir Trinity, ac y mae y ddwy eglwys yn lluosog iawn eu haelodau.

Y Wesleyaid Seisnig a ddechreuasant achos yma yn 1793, ac y mae wedi bod yn hynod lwyddiannus. Yn 1856, agorasant Gapel Newydd gwych, gwerth

Digitized by Google

1500; a phrynodd y Wesleyaid Cymreig hen gapel y Saeson; ac erbyn hyn y mae yma eglwys luosog. Mae capel gan y Pabyddion yn y lle hefyd.

Mae yma Ysgoldy Cenedlaethol, Ysgoldy Brytanaidd, Ysgoldy Babanod, Ysgoldy y Gwaith Copr, ac Ysgoldy Pabyddol. Rhenir y dref megys yn ddwy ran gan Gledrffordd y *Great Western*, cangen Deheudir Cymru; ac y mae iddi gymundeb a holl barthau y deyrnas ar y gledrffordd hono, a Chledrffordd Llanelli, yr hon sydd yn uno a'r *Central Wales Railway*. Maint arwynebol y plwyf, yw 18,075 erw; gwerth ardrethol, 67,350*p*. Poblogaeth y plwyf yn ol Deiliadeb y Llywodraeth sydd fel y canlyn—

| Blwydd. | 1801 | 1831 | 1841 | 1851 | 1861 | 1871 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl. | 2072 | 7646 | 11,155 | 13,516 | 17,039 | 18,529 |

**LLANELLTYD**, neu Llanilltyd, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth Dolgellau, swydd Feirionydd. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw yr afon Maw, yn agos i ymarllwysiad yr Wnion, yn nghanol golygfa darawiadol, yn cael ei chysgodi gan Gadair Idris, milltir a haner gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Dolgellau. Y mae y llythyrfa dan Gorwen. Dywedir am yr olygfa a geir o'r lle hwn, fod y prydferthion mor amrywiaethol, fel y maent, mewn gwirionedd uwchlaw darluniad; ar un llaw, porfeydd o ffrwythlondeb digyffelyb; ar y llaw arall, coedwigoedd yn codi mewn gwyrddlesni mawreddog; y briffordd yn ymdroelli, mewn cyfnewidiau di ddiwedd; —mewn ambell fan yn arwain i gysgodle mor dywyll, nes codi ofnau am fodd i ddilyn y ffordd, ac yn ymyl hyny, agoriadau annysgwyliadwy mewn llewyrch yn arddangos yr eigion llydan fel llen ddysglaer ger bron. Yna llethrau y mynyddoedd wedi eu gwisgo â phrydferthwch; a'r anifeiliaid yn eu haddurno ar bob llaw, ac eilwaith, y creigiau ysgythrol yn dangos eu hestyll danneddog, mewn gwir arucheledd; a rhyngddynt, ar bob cyfeiriad, y dyffrynoedd a'r dolydd, yr afonydd a'r llynau, oll yn gwneyd eu cyfran i swyno llygad a theimlad y teithiwr, gyda y Gadair ardderchog, o'r tu cefn, yn codi ei choryn i'r cymylau, fel y mae yn anhawdd gwybod, pa olygfa i'w hedmygu fwyaf. Y mae yr afon Eden yn ymollwng i'r Mawddach, tua thair milltir uwchlaw y pentref. Y mae llawer o hen adeiladau o enwogrwydd mawr yn y gymydogaeth hon. Y mae abaddy henafol y Cymer, agos gyferbyn a'r eglwys, yr ochr arall i'r afon. O fewn tua thair milltir i'r pentref, yn agos i ffordd Trawsfynydd, y mae y Rhaiadr Du, yn Nol-y-Melynllyn, yn cymeryd ei godwm. Y prif balas yn yr ardal, ydyw yr Hengwrt, hen anneddle Syr R. W. Vaughan. Yn gyfagos, y mae Dol-uwch-Eogryd, yr hwn a adeiladwyd gan un o deulu Nannau; ac ar fryn gerllaw, yn ngolwg y dyffryn, y mae yr ystafell-wledda, a elwir *Apollo*, ac ar y mur, mewn cysylltiad a'r tŷ, y darlleniad canlynol "*Non Domus Dominum, sed Dominus Domum,*" a symudwyd o'r ty i'w sefyllfa bresenol. Y mae mŵn efydd yn y dyffryn hwn, yn gyfagos i'r Cain Mawr. Y mae yr afon Mawddach yn fordwyol o'r Abermaw hyd at y bont yn y lle hwn, y man lle y terfyna y llanw o'r mor. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 62*p*., ac yn nawddogaeth teulu Nannau. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Illtyd. Y mae yma addoldy gan yr Annibynwyr. Sefydlwyd "yr hen Fonachlog," fel ei gelwir, neu Abaddy y Cymer, yn 1198, gan Meredydd, a'i frawd Gryffydd, meibion Cynan ab Owain Gwynedd, i fonachod o urdd y "Cisterciaid," ac a gyflwynwyd i St. Mair. Helaethwyd breintiau a chyfoeth y lle gan Llewelyn ab Iorwerth, yr hwn a gyflwynodd i'r abad Esau, freinlen yn cadarnhau y rhoddion blaenorol. Parhaodd y lle y codwyd y fonachlog arno yn eiddo y goron, hyd amser Elisabeth, yr hon a'i cyflwynodd yn eiddo i Robert, Iarll Leicester. Nid oes yn aros o'r hen adeilad gorwych ond ychydig o olion adfeiliedig, fel arwyddion o'i gogoniant yn yr amser a fu.

**LLANENDDWYN**, sydd blwyf yn nosparth Dolgellau, yn sir Feirionydd, gerllaw y môr, ac ar reilffordd Abermaw a Chaernarfon, 5 milltir gogledd wrth orllewin o Abermaw; gyda Llythyrfa o'r enw Dyffryn, dan Gaernarfon. Erwau 7777, o'r hyn y mae 660 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3745*p*. Poblogaeth yn 1851, 981; yn 1861, 891. Tai, 222. Y mae meddiant y tiroedd rhwng amryw. Y mae *Manganese* wedi ei ddarganfod yma. Y mae amryw hen demlau Derwyddol ar y bryniau yn y plwyf hwn. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llanddwywe, yn esgobaeth Bangor. Yr eglwys sydd wedi ei chyflwyno i St. Enddwyn, ac y mae o adeiladaeth henafol, ond wedi bod dan adgyweiriad yn ddiweddar. Y mae claddfa Jones o Nanteos, a'r teulu, yr hwn ydoedd un o brif ynadon Siarl I. yma. Y mae yma addoldai gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyol; ysgol Frytanaidd; ac un Genedlaethol, gyda gwaddol 8*p*. yn y flwyddyn, a rhoddion elusenol, gwerth 11*p*. Cafwyd Gweithred Seneddol yn 1810, i gau i mewn ddwy fil a thri chant a saith o erwau o dir cyffredin, ac y mae llawer o hono wedi cael ei ddwyn, mewn canlyniad, dan ammaethiad priodol. Bu yr enwog Archddiacon Prys yn gweinyddu yma; ac yr oedd y llafurus genedlgarwr Ab Ithel, wedi ei benodi i'r lle, ychydig cyn ei farwolaeth.

**LLANENGAN**, sydd blwyf yn nosparth Pwllheli, yn nherfyn de ddwyreiniol Lleyn, yn y trwyn eithaf, rhwng beisfor St. Tudwal, a Porth uffern, 7 milltir de orllewinol o Bwllheli, a 10 dwyreiniol o Aberdaron. Y mae yn cynnwys pentrefi Llanengan, ac Abersoch, ac y mae Llythyrfa yn perthyn i bob un o honynt, dan Bwllheli. Erwau 4354, o'r hyn y mae 633 dan ddwfr. Poblogaeth, 1021. Tai, 236. Y mae Trwyn Cilan, rhwng y ddau feis-for, yn arddangos golygfa fawreddig, ac y mae rhai parthau eraill yn dra hynod. Y mae y traeth yn cael ei ysgubo gan y corwyntoedd weithiau, a arswydir yn fawr gan y morwyr; ac y mae yr ochr ddeheuol i Borth uffern wedi bod yn lle drylliad y llong "Transit," yn 1839. Y mae mŵn plwm yn y Penrhyn Mawr. Y mae tri o olion gwersyllfaoedd henafiaethol o fewn y plwyf hwn, ac y mae yma amryw olion boreuol eraill. Y mae dwy ynys fechan, a elwir *St. Tudwal* ar y dwyrain i'r traeth, ac y mae olion hen gapel boreuol iawn ar un o honynt. Y fywioliaeth sydd yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor, ac y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Einion, ar y lle yr oedd un wedi ei hadeiladu yn y chweched ganrif, ac y mae yn adeilad teilwng, mewn cywair da. Dywedir fod y clochau sydd yma, wedi eu dwyn o Ynys Enlli. Y mae yma waddolion o chwe phunt yn y flwyddyn.

Yn ol hen argraff ar y mur allanol, sydd yn awr bron yn annarllenadwy gan effeithiau yr hin, fe ymddengys i'r Llan hon gael ei hadeiladu gyntaf gan Einion, yr hwn oedd yn frenin Lleyn, ac yn ei

Digitized by Google

fiodau yn nechreu y chweched ganrif; ac i'r hwn y priodolir sefydlu coleg yn Mhenmon, yr hwn a roddes efe dan arolygaeth ei nai, Sciriol, ac i'r lle y dywedir y byddai y Scandinafiaid a gyfanneddent y gwledydd cylchynol yn cyrchu i dderbyn addysg. Saif y persondy mewn llanerch a elwir "Maes y Prior."

**LLANERCH AERON,** plwyf yn rhandir ABERAERON, swydd ABERTEIFI. Saif ar yr afon Aeron, ddwy filldir i'r de-ddwyrain o Aberaeron, ac 11 milldir i'r gogledd-orllewin o orsaf reilffordd Llanbedr. Erwau, 1606; gwerth ardrethol, 988*p.*; poblogaeth, 228; annedd-dai, 50. Mae y plwyf yn rhanedig i chwech o dreflanau. Saif yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i Dewi Sant, ar ben bryn uchel, yr ochr orllewinol i'r afon, yr hon sydd yn ymarllwys i'r mor yn Llan Ina. Y mae yn adeilad da, yn meddu ar dŵr uchel, a lliaws o gof-feini oddi mewn. Cyfrifir fod y fywioliaeth eglwysig yn werth 73*p.*, a ficeriaeth berthynol i esgobaeth Tyddewi ydyw, a'r nawddogaeth yn nwylaw Iarll Lisburne, a theulu y Lewisiaid o Blas Llanerch. Darganfyddwyd hen gareg ar yr ochr ddeheuol i'r eglwys; yr oedd arni groes, ac argraff bron wedi ei gwbl ddileu, ond gellid adnabod y llythyrenau—NRI—C. Mesurai 4 troed. 6 mod. uwchlaw y ddaear, a 2 droed. 10 mod. o led. Ceir yn y plwyf hwn olion amddiffynfa ysgwar, o'r enw Castell Moeddyn, ac y mae un arall, o'r enw Penygaer, ar fferm Penyfoel.

**LLANERCH DERWEN.** Gwel dan y penawd DERWEN-LLANERCH.

**LLANERCH FYDDA,** trefgordd yn mhlwyf Llanymawddwy, MEIRIONYDD; 4¼ milldir i'r gogledd-ddwyrain o Ddinas Mawddwy. Gwerth ardrethol, 646*p.* Poblogaeth, 174. Ysgrifenai Glasynys fel y canlyn i'r *Brython*, ar ystyr enw y dre ddegwm hon:—"Llanerch-fyda:—Bydâu, yn ol Dr. Puw, ydyw heidiau o wenyn gwylltion; felly Llanerch-fyda a arwydda le i feithrin gwenyn, yr hyn sydd yn dra phriodol i sefyllfa y rhandir hon, er i un o'r beirdd ddywedyd ryw bryd, 'Ni chair mêdd yn ochr Mawddwy.'"

**LLANERCH GOEDIOG,** trefgordd yn mhlwyfydd Towyn a Thalyllyn, MEIRIONYDD; gerllaw Towyn. Gwerth ardrethol, 518*p.* Poblogaeth, 64.

**LLANERCH ILA,** trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, cantref DEYTHUR, swydd DREFALDWYN; bedair milldir a chwarter i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Lanfyllin. Rhif y boblogaeth yn 1861 oedd 94.

**LLANERCH LLWYDDOG,** neu LLANYCHLWYDDOG, plwyf yn rhandir ABERTEIFI, cantref CEMMES, swydd BENFRO. Saif ar yr afon Gwaen, bedair milldir i'r de-ddwyrain o Abergwaun, a 10 milldir i'r gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd *Clarbeston-road*. Deillia yr enw o Clydawg, un o dywysogion y wlad, a sylfaenydd eglwys y plwyf, yr hwn tra yn hela yn yr ardal, a lofruddiwyd; ac y mae dwy gareg yn y fynwent, yn nodi man ei fedd. I Dewi Sant, pa fodd bynag, y mae yr Eglwys wedi ei chyssegru. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn gysylltiedig ag isberigloriaeth Llanllawer, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 155*p.*, a T. Lloyd, Ysw., yw y noddwr. Y mae safle y plwyf yn hardd a dymunol, a'r tir dan ammaethiad da. Erwau, 2283. Gwerth ardrethol, 1118*p.* Poblogaeth, 206. Tai, 42.

**LLANERCH ROCHWEL,** trefgordd yn mhlwyf GUILSFIELD, TREFALDWYN; tufewn i fwrdeisdref y Trallwm. Gwerth ardrethol, 1971*p.* Poblogaeth, 215.

**LLANERCHRUGOG,** lle yn y parth gogledd-ddwyreiniol o swydd DINBACH; ddwy filldir i'r gog. og. orll. o Riwabon.

**LLANERCHYDOL,** trefgordd yn mhlwyf y Trallwm, swydd TREFALDWYN; filldir a chwarter i'r gorllewin o Drallwm. Y boblogaeth yw 232.

**LLANERCHYMEDD,** yn ffurfio terfyn tri phlwyf, tri chwmmwd, a thair etifeddiaeth. Y plwyfi ydynt Llanerchymedd (fel rhan o Lanbeulan), Llechgynfarwy, ac Amlwch; y tri chwmmwd ydynt, Llifon, Menai, a Thwrcelyn; a'r tair etifeddiaeth ydynt, Bodorgan, Bryn-y-barwn, a Llwydiarth. Y mae tair careg ar y brif-ffordd ddeheuol i'r dref, o fewn llai na chwarter milltir i'r Porth-uchaf, o fewn tua chwe llath gilydd, fel tri throed trybedd, sydd yn aros i'w gweled yno hyd y dydd hwn; yr oedd traddodiad yn y gymydogaeth, pe buasai i droseddwr ffoi i'r tir rhyngddynt, na allesid mo'i ddal, am na ellid profi i ba blwyf, na pha gwmmwd y perthynai y lle. Y prif balasau yma oeddynt, Llwydiarth, Llwydiarth Esgob, a Phendref. Teuluoedd Bodorgan, y Baron Hill, a Llwydiarth Fawr, ydoedd y prif dir-feddianwyr yn y lle; ond wedi gwerthiant Llwydiarth, aeth y meddiant rhwng nifer mawr, sef y rhai a brynasant eu hanneddau, a'u tyddynod eu hunain. Yr oedd y chwedl, yn y gymydogaeth hon, yn dywedyd y gallai Mr. Meurig, deithio pob cam o Fodorgan i Lanerchymedd, ar ei dir ei hun, ac y mae hyn yn wirionedd, o leiaf, gydag eithriad bychan. Y mae cyfnewidiad wedi cymeryd lle yn ddiweddar ar etifeddiaethau Llwydiarth, a Phendref, fel y mae yr hen enwau wedi colli, oedd arnynt gynt. Y mae llawer o draddodiadau yn aros yn y lle, y rhai y gellid eu cymeryd am eu gwerth, a dim yn ychwaneg, yn werth eu cadw allan o derfynau difancoll. Y mae y lle wedi enill rhyw fath o gymeriad llenyddol, er yn gynar iawn, ac heb ei lwyr golli eto. Yr oedd genedigaeth "Tri Bardd Mon," o fewn cylch marchnad y lle, yn rheswm dros hyn. Goronwy Owain o fewn pum milltir, Lewis Morris o fewn tair, a Huw Huws, y Bardd Coch, o fewn un; ac yma, i dŷ Dr. Evans, yr hwn oedd yn llenor gwych, ac yn fardd da, yr ymgynhullent i gynal eu cyfeillachau. Y mae Cân Llewelyn i Gath y Doctor, yn dangos pa mor gyfeillgar a'u gilydd oeddynt. Dywedir eu bod unwaith yn cyd-helu a'u gilydd, ar eu meirch, dan Ben-y-foel, yn agos i Gail-Eti; ac yn y rhedegfa ar ol yr ysgyfarnog, gwaeddai y Meddyg:—

"Hwre' i Gi Harri y Gof,"

ac yn y cyffro, wrth groesi ffos ddofn, tripiodd march Llewelyn, a bu agos iddo ef a'i geffyl syrthio i'r clawdd, pan y gwaeddai yntau,

"Hwre agos i'r ogof!"

Y mae Llythyr Mari Benwen o Annwn, yn dangos eu cyfeillgarwch. Yn Llandyfrydog yr oedd Mari yn cyfaneddu, a "meddyges-dail," ydoedd wrth ei galwedigaeth; ond byddai yn fynych yn cael ei thamaid wrth gasglu dail i Dr. Evans. Pa fodd bynag, collodd Mari allan o fodolaeth, megis mewn un dydd ac un nos, a drwg dybiai y wlad, fod rhyw beth a wnelai meddygon Llanerchymedd a'r amgylchiad; a phrif ddyben ysgrifenu y Llythyr ydoedd, i symud yr argraph hwnw oddiar feddwl y cyhoedd, a dywedir iddo ateb y dyben. Drwg genym orfod

Digitized by Google

addef yma, nad yw cymeriad y llythyr, yn deilwng o'r wasg: ac oni bai hyny, dodasid ef yma, fel cynllun hynod o ddawn arabol yr awdwr. Yr oedd Richard Parry, ysgolydd, yn gydymaith serchus gan y frawdoliaeth hon: nodir ef fel aelod o Gymdeithas Cymrodorion Llundain, yn eu cofrestr am 1762. Y mae cerfiad ar ei feddfaen yn y fynwent, gyferbyn a'r allor, yr ochr ddeheuol, wrth y mur allanol. Yr oeddynt yn hoff o gyfarfod yn nhy Robert Owen, Tyn y llan, mewn cyfeiriad at yr hwn y dywedai Llewelyn, yn ei ddull chwareus; mewn "gwawdlitani:"—

"Rhag peintiau bychain Tyn y llan,
A Robin wan y Teiliwr."—Gwared ni, &c.,

yr oeddynt yn hoff iawn hefyd o dy Ellin Prŷs, y Ty Main, a dywedai yn gyffelyb, mewn cyfeiriad ati hithau,

"Rhag peintiau bychain Ellin Prys,
A chastiau Rhys y crythor,"—Gwared ni, &c.

Dywed Angharad Llwyd, yn ei Thraethawd ar Fôn, yr arferai Mr. Llwyd o Gaerwys, fynegu hanesyn a glywsai gan ei nain, fod ei rhieni wedi diogelu eu ty yn Llanerchymedd, rhag cael ei ysbeilio gan blaid o ddynion Oliver Cromwell, ar eu dychweliad o Bodidris, drwy agor eu gwelyau plŷf, a'u gwasgar hyd yr heol, ac i'r ddichell hon ateb y dyben, o blegid clybuwyd y dynion yn dywedyd wrth eu gilydd, wrth weled yr olygfa hon, "Y mae yn ofer i ni alw yma; y mae yma rywrai wedi bod o'n blaen ni." Y mae Bedd-argraph i Dr. Evans, wedi ei gerfio yn fân, ar lechen, sydd yn awr, bron a chael ei chuddio allan o olwg ar ei fedd, yr ochr ogleddol i'r eglwys, o waith Goronwy Owain. Yr oedd y meddyg wedi dangos medrusrwydd anarferol, pan yr oedd y cryd yn blino yr holl wlad o'r bron. Nid ydym yn sicr ai yr un amgylchiad ydoedd a'r amser y cyfeirir at "ladd yr angau," yn y Cywydd adnabyddus, a'i peidio: pa fodd bynag y mae y llinellau yn werth eu diogelu ar gof a chadw:—

"Duw a yrodd yn dirion,
Rhag diffyg feddyg i Fon;
O'i dy oeraidd daearol
I nef, fe'i galwyd yn ol!"

Dechreuodd Ymneillduaeth yn gynar yn y dref hon. Cododd y Trefnyddion Calfinaidd, yr addoldy mwyaf, a harddaf yn y sir yma, tua chanrif yn ol; yr oedd o fewn tua milltir i'r dref, ar ffordd Caergybi; y man agosaf ag y gallesid cael tir i'r perwyl, y pryd hwnw; ac yr oedd yr eglwys a'r gynulleidfa yn cynwys pigion gwŷr y dref, a'r holl gymydogaeth. Codwyd addoldy newydd, eang, ac ardderchog yn 1818, yn nghanol y dref; adgyweiriwyd yr adeilad yn ddiweddar. Codwyd er hyny hyd yn awr, tua deuddeg o bregethwyr perthynol i'r enwad, y rhai a neillduwyd agos oll i'r Weinidogaeth. Yma y dechreuodd yr enwog Mr. Roberts, o Amlwch, bregethu. Ar y cyntaf, esbonio penod a ddarllenai mewn cyfarfod gweddi, pan na byddai pregethwr i'w gael, y byddai. Yn fuan, byddid heb bregethwr, o fwriad yn lled fynych, fel y byddai le iddo ef arfer ei ddawn; a buan y dadblygwyd ei alluoedd nerthol; ac ar hyny, symudodd o'r gymydogaeth. Dilynwyd ef gan luaws yn yr un ffordd. Cododd yr Annibynwyr addoldy, a elwir "Penuel," yn y Ty Hen, o fewn tua milltir i'r dref. Adeiladwyd Capel drachefn yn y dref, ar ran o etifeddiaeth Pendref. Codwyd yno chwech o bregethwyr. Dechreuodd y Bedyddwyr bregethu mewn ystafell gerllaw y man y mae y mynedfa yn awr i addoldy yr Annibynwyr. Adeiladasant Gapel, yn nghanol y dref; ac un arall yn y cwr dwyreiniol, gyferbyn a'r Porth uchaf; yr hwn a roddwyd i fynu yn fuan, i gynal ysgol Genedlaethol. Codwyd ganddynt bump o Bregethwyr. Codwyd dau o Bregethwyr yma yn perthyn i'r Wesleyaid, er na bu gan yr enwad hwn achos cyhoeddus yn y lle. Y mae y traddodiad canlynol yn aros yn y dref hyd heddyw. Yr oedd careg fawr adnabyddus yno, gyferbyn a'r lle y mae swyddfa yr Hedd-geidwaid yn awr. Yr oedd tua thair llath o hyd, a thua dwy o uchder, yn hirgron. Bu yr enwog John Wesley yn pregethu oddiarni; erlidiwyd ef, a gorfu arno ffoi, a dywed y chwedl, iddo sychu y llwch oddiwrth ei draed, wrth adael y lle; ac ni chodwyd yno achos byth mwy, er fod rhai o'i syniadau yn cyfaneddu yn y lle. Codwyd tri, a neillduwyd i'r offeiriadaeth yn Eglwys Loegr yma. Nid yn fynych y codwyd cynnifer o Weinidogion yn un lle ag yma. Yma y neillduwyd Caledfryn i'r swydd Weinidogaethol. Y mae y lle wedi gwneud ei ran yn lled gyhoeddus yn magwraeth dynion ar gyfer yr areithfa. Y mae amryw o feirdd wedi cael eu codi yma, o bob gradd, a dosparth, a hyny o'r mwyaf cyffredin, i fynu hyd at y gadair. Codwyd nifer mawr o lenorion, a ymenwogasant, yn y lle. Yma y treuliodd William Williams, Llandegai, awdwr y *Caernarvonshire Mountains*, ei amser yn nghrefft Cyfrwywr. Brodor oddiyma, ydoedd John Llwyd, Pwllygyna. Cafodd Addysg y gefnogaeth oreu yma. Bu llafur y Parch. J. Richards, M.A., o werth anmhrisiadwy, nid yn unig i'r dref, ond i'r holl wlad o amgylch; ei ysgol ef oedd athrofa Môn, am dymor maith. Dilynwyd ef gan Evan Thomas, llaw ysgrifen yr hwn ydoedd hafal i efydd-lafn. Codwyd ysgoldy Brytanaidd eang a hardd yma, er ys rhai blyneddau bellach, ag sydd o ddirfawr les i'r dref a'r amgylchoedd. Cynnaliwyd cyfres o Eisteddfodau yma, ag a fuant yn llwyddianus iawn. Y mae cynnyrchion rhai o honynt wedi eu cyhoeddi mewn llyfrau cymeradwy, ag sydd yn cael derbyniad gan bob gradd. Cyfeirir at amryw alwedigaethau yma, ag sydd wedi bod yn tynu sylw y cyhoedd, megis gwneuthuriad Trewlwch, &c. Y mae y plwyfi cysylltiedig a'r dref, mewn hawl i freintiau elusendy Dafydd Huws, yn y Biwmares; ac yma y bwriadai y Cymun-roddwr i'r adeilad fod, fel y gwelir yn ei ewyllys ddiweddaf, yr hon sydd wedi ei chofnodi yn y Gwaith hwn. Y mae y Maensigl, a elwir Coeten Arthur, gerllaw Llwydiarth, yn wrthddrych o gryn hynodrwydd. Y mae yn debygol fod un o demlau yr hen Dderwyddon yma gynt; ond y mae y maen hwn wedi llithro oddiar ei begynau ysgogawl er cyn cof. Y mae y parth hwn yn ffordd y Twr-celyn, neu Twr-cyhelyn, fel y myn rhai ei ysgrifenu. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â chapeloriaethau Gwaredog a Rhodogeidio, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mair, ac mewn cywair rhagorol mewn canlyniad i'r adgyweiriad a fu ar y lle yn ddiweddar. Y mae y fynwent yn eang, a'r cofadeiliau yn lluosog. Y mae y traddodiad yn dywedyd hyd heddyw, mai yma y claddwyd Pabo, mewn penill tra adnabyddus yn y wlad:—

"Yn Llanerch'medd yn Môn-do,
Y claddwyd Brenhin Pabo;

Digitized by Google

A'r frenhines deg ei gwedd,
Yn Llanerch'medd mae hono."

Y mae yn debygol iddynt gael eu symud drachefn oddi yma i Lanbabo, fel y gellir casglu oddiwrth ddarganfyddiad eu beddfaen yno. Nid oes odid fan yn holl Ynys Môn, a chynnifer o draddodiadau henafiaethol yn perthyn iddo, ar lafar gwlad, neu len gwerin, a'r dref a'r gymydogaeth hon.

Wedi adolygu ychydig ar a fu, y mae yn llawenydd edrych ar y rhagolygon presenol am a ddaw. Y mae yn arwydd er daioni, weled trigolion a masnachwyr y lle, yn dechreu ymgodi mewn ysbryd anturiaethus, fel nad ydynt yn foddlawn i gael eu taflu i'r cysgod gan eu cymydogion o Langefni. Y maent newydd godi awrlais cyhoeddus i'r dref, yn nghanol y farchnadfa, fel arwydd o'u bod yn penderfynu gwylio ar ysgogiadau yr amseroedd rhagllaw. Y mae yr adeiladau cyhoeddus yn ymwychu, ac yn lluosogi. Y mae y Tlod-dy, gerllaw y Bryn-llwyd, wrth ffordd Amlwch, yn adeilad helaeth a chyfleus; gellid cyfeirio hefyd at yr ysgoldy Brytanaidd, yr hwn sydd yn gryn addurn i'r lle; y mae gorsaf yr Heddgeidwaid; a llys yr ynadon, y rhai a gyfarfyddant yn rheolaidd yn eu brawdwriaethau yma, yn rhoddi cryn ddyddordeb i'r lle; fel y mae agoriad y rheilffordd yn hyrwyddo masnach a theithio. Y mae argraphaeth wedi codi ei phen yma eto unwaith, ar ol nos o ddistawrwydd; a dywedir y bydd y lle wedi ei gyfoethogi ag Ariandy, a'i oleuo â nwy, cyn y byddo hir. Y mae natur wedi gwasgaru ei doniau yma yn ehelaeth, ac y mae celfyddyd fel pe byddai wedi penderfynu na bydd yn ol o gyflawni ei rhan. Y mae yma bob seiliau gofynol am gynydd; y mae yma ysgolion da, a thalentau disglaer, ac adnoddau dihysbydd; a chyda'r ymadferth priodol, byddai y lle hwn yn sicr o adenill ei enwogrwydd gynt, a dyfod eto yn brif gynullfan gwladol, llenyddol, crefyddol, addysgol, celfyddydol, masnachol, a thrafnidiol Ynys y Cedyrn!

Llanerchymedd sydd dref farchnad, a chapeloriaeth, yn nosparth a swydd Fon; saif ar derfyn llinell rheilffordd canolbarth Mon, yr hon a red drwy-doriad yn Mryn-Gwalciau. Cynnwysa, mewn rhan, blwyfi Llanbeulan, Llechgynfarwy, Gwaredog, a Rhodogeidio; ac yn benaf oll, plwyf Amlwch. Y mae ei sefyllfa 14 milltir gorllewin ogledd orllewin o Biwmares, gerllaw afon Alaw, yr hon a gychwyna o Lyn Rhos Goch, ac a red dan bont drwy y dref, tu a'r gogledd, ac yna yn mlaen hyd y Pwll coch, lle y try ar dde orllewin, i Gors y Bol. Y mae afon Dulas, yn cychwyn o derfynau yr Ynys-gnud, o fewn tua milltir a haner i'r dref, ac yn mlaen heibio i Glorach, am y mor. Y mae yma orsaf rheilffordd, a Llythyrfa, dan Fangor. Cynhelir y farchnad ar ddydd Mercher; a'r ffeiriau ar Ionawr 17; Mawrth 10; Ebrill 4; Mai 6; Mehefin 23; y tri Mercher cyn y 7fed o Awst; Awst 14; Hydref 2; Tachwedd 13, a'r tri Mercher canlynol; ac ychwanegwyd at y rhestr hon yn ddiweddar, Chwefror 27; a Medi 13. Ffurfir y dref mewn dwy brif heol, yn croesi eu gilydd; yr hwyaf yn rhedeg o'r Porth-uchaf i Ben-y-graig, gan ymgangenu yno tu a'r Goedwig; ac un groes-heol, yn rhedeg o Dwrcelyn hyd at derfynau y fynwent; gyda changen ar yr ochr ogleddol, a heol groes arall. Nid yw pentref y plwyf, ond bychan, yr hwn a saif yn nghanol y dref, ar yr ochr ddeheuol. Yr oedd y boblogaeth yma yn 1861, yn 67; a 14 o dai. Y gyfran sydd yn mhlwyf Amlwch ydyw y fwyaf o lawer. Y mae y gapeloriaeth yn cynnwys rhanau o blwyfi Amlwch, Gwaredog, Llechgynfarwy, a Rhodogeidio. Y boblogaeth yma oll yn 1861 ydoedd 1164; tai, 289. Poblogaeth cyfran Amlwch, 734; Gwaredog, 11; Llechgynfarwy, 150; a Rhodogeidio, 202. Y mae cysylltiadau plwyfol, cymmydol, ac etifeddiaethol y lle hwn, yn gystal a'i hynodrwydd hanesol a henafiaethol, yn galw am raddau o fanylder, cyn y gellir gwneud y desgrifiad gofynol o hono. Y mae enw y lle yn destyn cryn ymofyniad. Y mae traddodiad yn aros hyd heddyw, ac a gofnodwyd gan Lewis Morris, fod Tegerin o Lwydiarth, yn darparu beddrod teuluol, yn y man lle y saif yr hen eglwys, a thra yr oedd yn adeiladu y gistfaen, i ryw un ddyfod ato a gofyn, "Pa beth ydych yn ei godi yn y llanerch hon?" ac iddo yntau ateb, "Llanerch fy medd." Dichon mai dyna oedd yn ngolwg Robert Huws, Caint bach, pan y cyfansoddai yr englyn coffadwriaethol canlynol am Michael Evans, yr hwn a gerfid ar gareg o fewn yr eglwys:—

"Corph Michael yn wael ei wedd,—wr dawnus,
Roed danaf i orwedd;
Trist weithian, wel'd ei annedd,—yn oer-ddu,
Lloniwrch a fu, a '*Llanerch ei Fedd.*'"

Barna eraill, mai oddiwrth "Dafarn Medd," oedd yn foreuol iawn yn y fan, y roddwyd yr enw i'r dref. Yr oedd trafnidiaeth y lle yn yr amser gynt yn helaeth iawn; yma yr oedd prif farchnad y sir, o blegid manteision canolbarthol y lle, cyn bod son am Langefni, yr hon sydd wedi ei thaflu i raddau, i'r cysgod erbyn hyn. Yr oedd wedi ymgodi i bwysigrwydd masnachol yn mhell cyn amser yr ymrysonau Seneddol. Beaumaris oedd ei chydymgeisydd am flaenoriaeth y farchnad, ond yma yr oedd cynulliad y bobl, ac yr oedd nifer y trigolion yn cynnyddu beunydd. Yn amser Cromwell, anfonodd y dref erfyniad i'r Senedd, am gael awdurdodiad rheolaidd i'r farchnad yma, yr hyn a ganiatawyd yn 1657, ac a gadarnhawyd drachefn gan Siarl II., yn 1665. Parhaodd newidwriaeth a gwerthiant eiddo o bob math i gynnyddu yma, hyd y flwyddyn 1785, pan y caniatawyd marchnad i Langefni. Yr oedd prif-ffyrdd y wlad yn cyfeirio yn fanteisiol yma, o Gaergybi, Amlwch, a Beaumaris. Yr oedd prif gelfyddydwaith y dref mewn trin lledr; yr oedd crwyn anifeiliaid yr holl wlad o'r bron yn cael eu hanfon yma i'w barcio, a'u cyweirio; i wneud esgidiau, a chelfi ceffylau, yn enwedig at deithio, a phob math o orchwylion amaethyddol. Cyfeiriwyd yma yn barod at derfynau y lle.

**LLANERCHYMRIS**, trefgordd yn mhlwyf Llansaintffraid, Trefaldwyn, chwe milldir a hanner i'r dwyrain o Lanfyllin, gyda phoblogaeth o 128.

**LLANERFYL**, pentref a phlwyf yn rhandir Llanfyllin, cantref Mathrafal, swydd Drefaldwyn; 5 milldir i'r gogl. orll. wrth orll. o Lanfair, a 10 milldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Cynnwysa drefgorddau Cefnllys-isaf, Cefnllys-uchaf, Crane, Llŷsyn, Coedtalog, a Chynniwyll. Erwau, 16,225. Gwerth ardrethol, 5291*p*. Poblogaeth, 885. Tai, 183. Rectoriaeth, yn esgobaeth, ac archddiaconiaeth Llanelwy, yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 435*p*., ac Esgob Tyddewi yw y noddwr. Mae yr



Digitized by Google

eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Sant Erfyl, yn adeilad henafol, yn yr arddull Seisnig boreuol, ac y mae yn bresennol mewn cyflwr lled dda. Yn y fynwent y mae hen gareg, er cof am y nawddsant, fel y tybir yn gyffredin, ond nid yw y naddiad aneglur sydd arni, mor bell ag y gellir ei ddeongli, yn cadarnhau y syniad. Yn ymyl yr eglwys y mae ffynnon hefyd, wedi ei chyssegru i'r nawddsant, dwfr yr hon oedd gynt mewn bri mawr fel meddyginiaeth anffaeledig i amrywiol anhwylderau. Yr oedd ers talm hen gapel yn Dôlwen, yn nhrefgordd Cefnllys-uchaf. Cawn hanes i Mrs. Priscilla Forster, un o ddisgynyddion teulu yr Herbertiaid o Llysyn, adael cymmunrodd o 300*p.* at addysg plant tlodion y plwyf; prynwyd fferm gyda'r arian, a rhenir y cynnyrch blyneddol yn ol trefniadau yr ewyllys.

Ymddengys fod y plwyf hwn yn lle o gryn bwysigrwydd mewn cyfnod bore iawn, a cheir ynddo fwy na mwy o olion Prydeinig, a Rhufeinig. Ymestyna am yn agos i wyth milldir o hyd, a thair o led, a saif yn ddymunol yn nyffryn yr afon Banwy, yr hwn sydd oll, ynghyda'r bryniau a'i cylchynant, yn gynnwysedig yn y plwyf hwn, a'r plwyfydd cyfagos, Llangadfan, a Garthbeibio. Ucheldir llwm yw llawer o arwynebedd y plwyf; nid oes ond peth o'r tir wedi ei amgau a'i ddiwyllio, ac nid oes yn y rhanau bryniog, ond porfa i ddefaid a gwartheg yn yr haf yn unig. Mae tir y rhanau isel yn fwy ffrwythlawn. Y mae tri o lynoedd ar y Drum, un o'r rhai a elwir yn "Llyn y Grinwydden," yr hwn a saif ar fryn creigiog, a dywedir nas gellir plymio i'w waelod: y mae oddeutu deg llath a thriugain o hyd, ac nid oes ynddo unrhyw bysgod, namyn y llyswen a'r carp. "Llyn Hir" sydd oddeutu tri chan llath o hyd, a chant a hanner o latheni o lêd; y mae y rhan uchaf o hono wedi ei grestenu mor dew gan y llaid a gludir i lawr gan y llifogydd o'r mawndir uwchben, fel y gall defaid, a dynion, gerdded ar ei wyneb; ond yn y pen arall, y mae y dyfroedd yn gryfion a garw o herwydd gweithrediad y gwynt. Mae yn y llyn hwn frithylliaid rhagorol, ond pan ddigwyddo yr haf fod yn hynod boeth, sychir ef i fyny bron. Ar yr ochr ogleddol, y mae careg yn dwyn yr argraff MET. ii. 1430; y mae yn bresennol saith troedfedd rhyngddi a'r geulan, a thybir fod y llain hwn wedi ei ennill trwy enciliad y mor er y pryd hwnw. Mae yn "Llyn y Bugail" gyflawnder o lyswenod, ond ni pherthyn iddo unrhyw nodweddion neillduol. Y tu fewn i'r plwyf hwn, ac ar dueddau plwyf Llanbrynmair, y mae llyn o'r enw Llyn Gwyddior, neu Cadifor, nodedig am ei ddwfr clir, yr hwn oedd gynt yn meddu cyflawnder o frithylliaid, y rhai sydd erbyn hyn wedi eu difa gan y pysg cornbig (*pike*). Garw yn gyffredin yw y gwlan a gynnyrchir yma, yn enwedig ar y bryniau uchaf, lle y megir y defaid mwyaf celyd yn Nghymru; y mae y bryniau hyn wedi eu gorchuddio gan gruglwyni, ac yn eu mysg fawndiroedd eang, digon i gyflenwi angenrheidiau yr ardaloedd cylchynol. Yn 1797 gwnaeth cwmni o anturiaethwyr ymdrech i ddarganfod glo yn Cyfylchau, yn y plwyf hwn, ond aeth yr ymdrech yn ofer. Tua'r un adeg, cafwyd mŵn copr yn nhref-gordd Coed-talog, ond ni sefydlwyd gweithfeydd rheolaidd.

Ar ben bryn o'r enw Moelddolwen, yn nhrefgordd Cefnllys Uchaf, y mae olion gwersyll cadarn, yn cynnwys llain pedwarochrog, oddeutu can llath o hyd, ac yn cael ei amddiffyn yn ochr y gorllewin, yr hon sydd yn cynnwys y porth, gan rag-amddiffynfa oddeutu ugain llath o drawsfesur; amddiffynir y gwersyll, ar yr ochrau mwyaf hygyrch, gan ffosydd dyfnach, a math o bridd-furiau. Yn yr un drefgordd, y mae bryn o'r enw Gardden, neu, y Gaerddin, gyda mur crwn, yn amgau arwynebedd, deg llath a thriugain o drawsfesur. Adeiladwaith Prydeinig henafol sydd i'r rhai hyn, ac y mae eu pyrth ar yr ochrau mwyaf hygyrch i'r bryn, ac yn ymddangos oddiwrth eu lled, fel pe baent wedi eu llunio i dderbyn cerbydau wedi eu harfogi â phladuriau, y rhai oeddynt mewn arferiad ymysg y Cymry. Y mae ffos, a mur, cyfartal o ran maint â Chlawdd Offa, i'w canfod etto yn croesi dyffryn y Fanwy gerllaw Rhos y goll. Mae ffordd Rufeinig, o Gaersws i Gaerlleon Gawr, neu o Gaerlleon-ar-Wysg i'r un ddinas, yn dod i'r plwyf hwn ar fryniau y Drûm, yn pasio trwy gors a elwir Corsyfisog, yr hon sydd weithian yn anhygyrch o herwydd crynhoad llaid o fawndir y bryniau; ac ar ol croesi y rhosydd mewn llinell union at Fwlch y Drûm, disgyna oddiyno drwy Cynniwyll, croesa y Fanyw islaw Neuadd-wen, yna dros Graig y Go, ac â i mewn i blwyf Llanfihangel, yn Rhyd Pont y Styllod. Er fod y glaswellt hir yn ei chuddio yn mawndiroedd corsiog y Drum, y mae y ffordd hon i'w gweled yn hawdd o bell, ac y mae olion mwngloddiau Rhufeinig i'w canfod ar gyttir Craig y Go. Wrth droed y bryn, ar yr hwn y saif y cyttir, y mae Ogof Dolanog, genau yr hon sydd mor gyfyng, fel nad oes dichon i neb dreiddio ymhell i mewn iddi. Y mae yn y plwyf ddwy gromlech fawr, ac amryw garneddau, eithr nid oes gof na chyfrif am eu hanes. Un o'r lleoedd mwyaf dyddorol yn yr ardal, yw y ffermdy Neuadd-wen, yr hwn a fu gynt yn balas i Meredydd ab Cynan ab Owain Gwynedd, ac oddiwrth olion a ddarganfyddwyd o'r hen adeilad, tybir iddo gael ei godi un ai yn yr unfed-ar-ddeg, neu y ddeuddegfed ganrif. Enw y plas y pryd hwnw, oedd Llys Wgan, ac y mae etto amaethdy yn ymyl, o'r enw Llyssyn, a thybir oddiwrth yr enw, fod rhyw berthynas rhyngddo â'r hen balas. Yn Llyssyn y ganwyd y Parch. Joseph Thomas, yr hwn a briododd ferch Parkhurst, y geirdarddwr Hebreaidd a Groegaidd, a bu o gymmorth mawr i'r ysgolhaig enwog yn ei lafur llenyddol.

**LLANEUGRAD**, neu LLANEIGRAD, sydd blwyf a phentref, yn nosparth, a swydd FON, yn gyfagos i'r Traeth Coch; 5¼ milltir dwyreiniol o orsaf rheilffordd Llanerchymedd. Y Llythyrfa yw Pentraeth, dan Fangor. Erwau, 2695. Gwerth ardrethol, 1095*p.* Poblogaeth, 276. Tai, 65. Y mae y meddianau yma rhwng dau deulu. Ymddengys fod y lle hwn, mewn amser a fu, yn meddu mwy o hynodrwydd na dim sydd yno yn awr. Y mae ar dir y Parciau yma, olion adeiladau, yn dangos fod yno bentref o gryn eangder gynt. Ymladdwyd brwydr o gryn bwysigrwydd yma, yn y flwyddyn 873, yn y Bryngoleu, ar y terfyn yno, yn erbyn y Daniaid, neu y Paganiaid duon, fel eu gelwid yn gyffredin yn y wlad, y rhai a diriasant yr y glenydd droiau o'r blaen, am ysbail, ac anrhaith, gan Rodri Mawr, yr hwn a gafodd hollol oruchafiaeth arnynt, ac a'u hymlidiodd i'w llongau yn ol. Y mae yma nifer o olion adeiladau henafiaethol, nad ydynt wedi eu holrhain yn briodol i'w pwysigrwydd hyd y dydd hwn. Y mae yma gloddfeydd cerig calch eang a rhagorol iawn; y mae y marmor du, a llwyd, a gloddir yma, mor odidog, fel y mae yn cael ei allforio i bob gwlad, ac felly yn

Digitized by Google

rhoddi gorchwylion i nifer mawr o drigolion y lle. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, unedig â churadiaeth barhaol Llanallgo, yn esgobaeth Bangor; gwerth 216p. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Eugrad, mab Caw o Frydain, a brawd i St. Gallgof. Adeiladwyd yr eglwys yn 605. Y mae olion Capel Llugwy, i'w gweled yno, ar amaethfa o'r enw hwnw. Y mae yma ychydig o waddolion, gwerth 3p., i'r tlodion.

**LLANFABON**, sydd blwyf yn nghantref Caerffili, Undeb Pontypridd, esgobaeth Llandaf, sir Forganwg, Deheudir Cymru. Gorwedd y plwyf rhwng afon Rhymni, ac afon Taf; a saif yr eglwys blwyfol tua thair milldir i'r gogledd-ddwyrain o Bontypridd. Mae yr eglwys wedi ei chyssegru i Mabon Sant, brawd Teilo; a bernir mai efe a'i sylfaenodd. Ail adeiladwyd hi gan Macnerch ab Milffryd, yn nheyrnasiad Meurig ab Ithel, brenin Morganwg: ac adeiladwyd hi y tro diweddaf tuag ugain mlynedd yn ol. Periglorïaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn rhodd esgob Llandaf, ac y mae degwm y plwyf tua 400p.

Rhenir y plwyf yn ddwy ran, (*hamlets*) y rhai a elwir Gafael y Garth, a Gafael Glyn Rhymni: y blaenaf yn cynnwys parth gorllewinol y plwyf, a'r olaf y parth dwyreiniol. Mae gwaelod y plwyf hwn yn gyfoethog o lo; er nad oes ond ychydig o hono yn cael ei weithio yn y plwyf. Y swm o lo a gyfodwyd yn y plwyf yn 1870, oedd 16,804 o dunnelli.

Yn y plwyf hwn y mae pentrefi poblog Mynwent y Crynwyr, a'r Nelson; gydag ardal hyfryd Ystrad Mynach, lle y mae Eglwys eang a hardd.

Mae chwech capel ymneillduol yn y plwyf, heblaw yr eglwysi sefydledig; sef Capel Ystrad Mynach (T. C.); Gomer (T. C.); Soar (A.); Libanus (A.); Horeb (W.); Capel y Berthlwyd (B.)

Mae cryn lawer o'r plwyf yn fynyddig; ond y mae ynddo hefyd dir amaethyddol da. Poblogaeth yn 1871, oedd 2262.

**LLANFACHES**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref Caldicott, swydd Fynwy, yn agos i Goed Gwent, 3½ milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o orsaf rheilffordd Magor; a 6½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Gasgwent. Llythyrfa, Casnewydd. Erwau, 2108. Gwerth ardrethol, 2035p. Poblogaeth, yn 1851, 291; yn 1861, 239. Tai annedd, 60. Yr oedd yma gastell yn yr hen amseroedd, ond y mae wedi llwyr ddifianu er ys talm. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 194p. Noddwr, Arglwydd Tredegar. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i goffadwriaeth Sant Dyfrig.

Cafodd yr enwog William Wroth ei bennodi yn beriglor y plwyf hwn rywbryd cyn y flwyddyn 1600, gan Syr E. Lewis, o'r Fan, gerllaw Caerphili, yr hwn oedd Noddwr y plwyf y pryd hyny. Ymddengys fod Mr. Wroth yn dra anystyriol yn nechreuad ei weinidogaeth, ac yn dwyn arwyddion amlwg o ddyn heb brofi cyfnewidiad calon: ond cymerodd amgylchiadau hynod le, yr hyn a effeithiodd gyfnewidiad mawr ynddo, gan ei ddwyn i ystyriaeth ddifrifol o'i ddiwedd. Yr oedd gan wr bonheddig o gâr i Mr. Wroth, yn nhy yr hwn y llettyai yr offeiriad ieuanc, achos cyfreithiol pwysig i gael ei brofi yn Llundain, ac yr oedd y gymydogaeth yn teimlo dyddordeb mawr ynddo, a phryder ryfeddol am ei lwyddiant; ac yn ffodus, ennillodd y boneddwr y cynghaws, a danfonodd yn ddïoed i hysbysu ei deulu, ac i orchymyn iddynt wahodd eu cyfeillion a'u cymmydogion i gyfarfod yn ei dŷ ef ar ddiwrnod neillduol, pan y dysgwyliai efe gyrhaedd adref, i gyd lawenhau a hwy ar y fuddugoliaeth. Prynodd Mr. Wroth offeryn cerdd newydd, gan benderfynu gwneyd ei ran tuag at ddifyrwch yr amgylchiad. Ond, yn nghanol eu llawenydd, tra yr oeddynt yn dysgwyl y boneddwr adref, daeth y newydd annysgwyliadwy i fewn, ei fod ef wedi syrthio yn farw ar y ffordd. Difrifolodd hyn feddyliau yr holl wahoddedigion, a throdd eu crechwen yn alar, eu llawenydd yn dristwch, a'u caniadau soniarus yn ocheneidiau cwynfanus. Ac yn enwedig, disgynodd y newydd gyda dwysder aruthrol ar feddwl Mr. Wroth, yr hwn a daflodd yr offeryn cerdd o'i law, ac a gwympodd ar ei liniau, gan gyfaddef ei bechodau ger bron Duw, a gweddïo am fendith ar yr amgylchiad pruddaidd, er ei ddychweliad hollol ef a'i holl gyfeillion at Dduw.

Bu yr amgylchiad yma yn fywyd o feirw iddo ef, ac o hyny allan, dygodd arwyddion amlwg o greadur newydd, ac ymroddodd yn egnïol a difrifol i gyflawniad gwasanaeth cyssegredig ei swydd; a'r canlyniad fu, i luaws mawr gael eu dwyn trwy ei weinidogaeth i wybodaeth o'r gwirionedd, ac yn mysg eraill, yr hyglod Walter Cradoc.

Yn ystod teyrnasiad y brenin Iago, cafodd Mr. Wroth lonyddwch i ddylyn ei ddyledswyddau, heb ymyriad yr awdurdodau gwladol âg ef; efallai fod sefyllfa neillduedig ei blwyf, mewn congl annghyoedd, yn ffafrol iddo i gael mwynhau y cyfryw dawelwch. Ond nid hir y bu heb ddisgyn yn nôd i erlidigaeth; canys wedi marwolaeth y brenin Iago, ac esgyniad ei fab, Siarl y Cyntaf, i'r orsedd, cyfnewidiodd agwedd pethau, gan fod cyssylltiad prïodasol Siarl â merch Harri y Pedwerydd, o Ffrainc, yr hon oedd yn Babyddes orselog, yn gefnogaeth i ddyrchafiad dynion ffafrawl i Babyddiaeth i'r swyddau uchaf, mewn gwlad ac eglwys. Felly dyrchafwyd William Laud i archesgobaeth Caergaint, yr hwn, er ei fod yn Brotestant mewn enw, oedd yn Babydd mewn egwyddor, ac yn elyn creulawn i'r ychydig weinidogion efengylaidd oeddynt yn Eglwys Loegr; ac am hyny, efe a wnelai ei oreu i lethu gwir grefydd yn y tir. Rhoddwyd gwŷs i Mr. Wroth i ymddangos yn Llundain, i'w amddiffyn ei hun yn wyneb cyhuddiadau a roddid i'w erbyn, y penaf o ba rai oedd, ei fod yn gwrthod darllen "Llyfr y Chwareuon." O'r diwedd, cafodd ef, ac Erbury Caerdydd, a'i is beriglor Walter Cradoc, eu bwrw o'u bywiolaethau, am wrthod darllen "Llyfr y Chwareuon;" ac yn y canlyniad, hwy a adawsant yr Eglwys Sefydledig, a chyssegrasant eu bywyd i wasanaethu eu gwlad, eu crefydd, a'u Duw, ar faes ymneillduaeth. Nid ymadawodd Mr. Wroth a'i hen gymmydogaeth, a phan y trowyd ef allan o'r eglwys, trodd lluaws o'i bobl allan gyd ag ef. Efe a ymroddodd yn ddiflino i bregethu Crist pa le bynag y caffai gyfleustra; ac nid oedd yn diffygio yn gwneuthur daioni. Efe a gorpholodd eglwys Annibynol yn Llanfaches, yn mis Tachwedd, 1639. Yr oedd Mr. Henry Jessey o Lundain, a Mr. Walter Cradoc, ac eraill yn bresenol gyda Mr. Wroth, yn ffurfiad yr eglwys hon. Fe ddichon mai hon oedd yr eglwys ymneillduol gyntaf yn Nghymru; ac er fod eraill yn hawlio yr anrhydedd, nid yw y profion a ddygir dros eu haeriad yn foddhaol. Llanfaches yn amser Mr. Wroth, oedd Jeru-

Digitized by Google

salem Deheudir Cymru, a'r siroedd cyfnesol yn Lloegr. Y mae sicrwydd diamheuol am ffurfiad eglwys Llanfaches y pryd hyny; ac nid oes sicrwydd am un arall cyn hyny. Yr oedd aelodau yr eglwys yn wasgaredig trwy sir Fynwy, a'r siroedd cylchynol, ond nid oedd eu sefyllfa wasgaredig yn eu rhwystro i ymgynnull yn nghyd. Dywedai Walter Cradoc, mewn pregeth a draddodwyd ganddo o flaen y Senedd, fod ganddo ar un adeg, gynnifer ag wyth gant o bobl bryderus am eu cyflwr, dan ei ofal.

**LLANFACHRETH**, pentref, a phlwyf yn swydd Fôn. Y mae y pentref yn sefyll ger afon Alaw, yn agos i feis-for Caergybi, 4 milldir i'r Dwyrain o dref Caergybi; ac yn meddu llythyrfa dan Gaergybi. Cynnwysa y plwyf 1497 erw o dir, a 390 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 1825*p.* Poblogaeth, 532. Tai, 118. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, unedig âg is-berigloriaethau gwastadol Llanynnghenedl a Llanfugail, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 638*p.* Noddwr, Esgob Bangor.

**LLANFACHRETH**, pentref a phlwyf yn undeb Dolgellau, swydd Meirionydd. Saif y pentref ar yr afon Mawddach, wrth odreu gogleddol Moel Orthrwm, neu Offrwm, dair milldir a hanner i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Dolgellau. Cynnwysa y plwyf drefgorddau Nannau Isafon, a Nannau-uwchafon. Erwau, 10,000. Gwerth ardrethol, 5333*p.*, o'r hwn y mae 272*p.* mewn mwnau. Cynnhelir ffeiriau yn y pentref, Ebrill 22, Mehefin 30, Awst 15, a Hydref 23. Poblogaeth y plwyf a'r pentref yn 1871, oedd 862, a nifer y tai 180. Ceir golygfa arddunol, tebyg i'r olygfa oddiar Gadair Idris, o ben y Foel, ac y mae ar ei chopa hen amddiffynfa gadarn, yn cael ei hamgylchynu gan fur ceryg, gyda dau borth, a rhagfuriau, ac yn cynnwys olion cyttiau. Bryn arall yw Moel Cynwch; a megir pysgod yn Llyn Cynwch. Cyfrifir y llwybr o Foel Gynwch i'r Fawddach, yn un o'r rhodfeydd mwyaf dymunol yn y wlad. Ucheldir diffrwyth, a phorfa fynyddig, yw llawer o'r tir yn y plwyf. Buwyd o bryd i bryd yn codi mŵn copr yma. Y fywioliaeth eglwysig, gwerth 92*p.*, sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor, ac yn nawddogaeth John Vaughan, Ysw. Cafodd eglwys y plwyf ei hadferu yn 1820, a gosodir hi allan fel mewn cyflwr da. Y fynwent sydd ddyddorol ar gyfrif ei bod yn cynnwys gweddillion casglydd "Gorchestion Beirdd Cymru," sef Rhys Jones o'r Blaenau, yr hwn a gladdwyd ynddi yn mis Chwefror, 1801, ac efe wedi cyrhaedd yr oedran aeddfed, o wyth mlwydd a phedwar ugain. Mae yn y plwyf ddau gapel perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, a gwerth 9*p.* o elusenau. Prif balas yr ardal yw y Nannau, preswylfod John Vaughan, Ysw. Adeiladwyd y palasdy presennol gan y diweddar Syr Robert Vaughan, Barwnig, ar lanerch lle safai gynt breswylfod Hywel Sele, cefnder, a gelyn Owain Glyndwr. Amgylchynir ef gan barc eang, yn ymestyn amryw filldiroedd ar ffordd y Bala, a hyd at waelod Moel Orthrwm. Ar lanerch tufewn i'r parc, lle y mae yn bresennol ddeial, y safai derwen henafol, 27 troedfedd o'i chwmpas, ond dinystriwyd hi gan fellten yn y flwyddyn 1813. "Ceubren yr Ellyll" y gelwid hi, ac yr oedd ein teidiau yn arfer edrych arni fel cyrchfa bwganod ac ysbrydion. Yn y ceubren hwn y cuddiwyd Hywel Sele, ar ol ei ladd gan Owain Glyndwr, ac nis daethpwyd o hyd i'w gorph am ysbaid deugain mlynedd. Rhoddodd yr helynt anacle hwnw destyn i awen lliaws o'r beirdd Cymreig, a gwnaed yr amgylchiadau yn destyn y rhamant odidog "Arthur," gan Arglwydd Lytton, yr hwn a ddywed:—

> "Of evil fame was Nannau's antique tree,
> Yet styled the hollow oak of demonrie."

Ysgrifenodd Glasynys y traddodiad, fel y mae i'w gael ar lên gwerin yn yr ardal, i'r *Brython* flynyddoedd yn ol, a chan ei bod mor ddyddorol, ac wedi ei hysgrifenu mor goeth ac ystwyth, nid oes angen ymddiheurad am ei chodi yn ei chrynswth:—

"Yn nghwr isaf gardd Nannau, yn Meirion, safai gynt dderwen fawr, a elwid gan unllais unllef traddodiad ar yr enw uchod, [Ceubren yr Ellyll.] Yr achos paham y galwyd y pren cafniog felly, sy fel y canlyn: Pan oedd y pedwerydd cant ar ddeg yn tynu at ei derfyn, a Chymru benbaladr fel crochan berwedig o herwydd rhyfeloedd glewion y dewrwych Owain Glyndwr, yr oedd yn byw ar y pryd hwnw gâr agos iddo, o'r enw Hywel Sele, yn Llys Nannau. Ryw ffordd, nid oedd Hywel ar y telerau goreu ag ef o Owain, a chyhuddid ef o fod yn tueddu i gefnogi y Saeson, ac yn gohebu yn ddirgel â hwynt. Ond trwy ddyfal ddiwydrwydd, Abbad y Faner a fedrodd wneyd heddwch rhyngddynt; a'r canlyniad fu, i Owain gael gwahoddiad cynnes i ddyfod i ymweled â'i gâr, er mwyn cynllunio pa fodd yr ymosodent ar elynion eu gwlad. Daeth Owain i Nannau, a'i yswain Madog gydag ef. Un diwrnod, aethant allan eill dau, sef Hywel ac Owain, i'r goedwig gyfagos, i chwilio am garw, gan ddysgwyl cael difyrwch efo'r bwa a'r saeth, yn annelu at wyllt drigiannydd y coed. Heb fyned neppell oddiwrth y Llys, canfyddent nôd, ac annerchai Owain ei gâr fel hyn: 'Hywel, dyna i ti nôd; yn awr cynnyg arno, a dangos i mi mai gwir ydyw y glod a roddir iti ymysg dy gydnabod.' Hywel yn y fan a dynai ei fwa, gan gymeryd arno barottoi ei saeth ar ol carw melyngoch, ond pan yr oedd yn gollwng y llinyn, rhoes dro ar ei sawdl, a phlanai y saeth yn mynwes Owain Glyndwr. Ond gan fod llurig o ddur am Owain ar y pryd, ni fenodd yr arf angeuol ar y gwron hoenus. Pan welodd Owain ysbryd bradwrus Hywel Sele, gafaelodd ynddo, a chan dynu ei gleddyf o'i wain, brathodd ei gâr drwy ei galon, ac ebrwydd y diangai ei enaid halogedig allan drwy yr archoll. Gan fod gerllaw iddo hen geubren rhwyll-gafniog, cymmerth y corph, a bwriodd ef i'w grombil. Ac o'r awr hono allan ni welwyd mwy mo Hywel Sele, Arglwydd Nannau. Dychwelodd Glyndwr at ei bobl i'r amddiffynfa, ac nis medrai neb ddewinio pa beth a ddarfu i'r meldafodog uchelwr o Nannau. Wylai ei wraig, a galarai ei weision, ond nid oedd dim o'i helynt yn wybyddus. Cluliai clychau'r Fynachlog yn lleddf oernadus, ond nid oeddys yn nes i gael gwybod pa beth oedd tynged y prydweddol Farwn. Yr oedd syndod cyffredin o'r plegid, ac arswyd ymhob calon. Ond yr oedd un peth nodedig iawn arall wedi dygwydd: un noson dduoer ddryghinog, pan oedd y gwynt yn udo yn y goedwig, a'r gwlaw yn disgyn yn bistylloedd llifeiriawg, gwelid tân rhyfedd yn y ceunant islaw y Llys, a chlywid dolef alarus megis o eigion dyfnder, yn diaspedain yn nghreigiau twmpathog ochrau Moel Offrwm. Dychrynai pawb, ac ymguddient rhag ofn y fath swn enbyd, oblegid coelient oll nad allai dim ond *ysbryd*, oernadu mor gyffrous. Yr oedd peth arall hefyd ag oedd yn synu pawb o ddeutu. Yr oeddys amryw droion, wedi

Digitized by Google

gweled math o dân gwyrddlas gwreichionllyd yn chedfan o lechwedd Cader Idris, ac yn disgyn yn nghanol coedwigfa urddasol Nannau. A phob tro y cymerai hyny le, byddai tymmestl hyrddiog aruthrol yn sicr o fod wrth law, ac yna dylenwid yr holl fan o gwmpas y Llys, âg ysgrechfeydd erchyll a dolefiadau arswydus. Yr oedd pawb yn gynnefin erbyn hyn â swn ansoniarus *ysbrydion*. Ymhen tua deugain mlynedd wedi i Hywel Sele fyned ar goll, gwelwyd dyn lled oedranus, yn gyru march ffroen-agored i fyny tua Nannau, a chan gynted ag y gallodd, ymholai am weddw Hywel Sele. Ar ol cael clywed ei bod yn byw mewn parhaus weddwdod, dywedai fod ganddo hanes ei hanffodus ŵr, a chan gyfeirio ei gamrau i'r ceunant islaw, ac un o fynachod y Faner yn ei ddilyn, dangosodd arch ac amdo, bedd a phobpeth Hywel Sele, a'r cyfan oedd Ceubren yr Ellyll. Agorwyd drws yn ystlys y ceubren, a chaed Hywel yno, a'i gleddyf rhydlyd yn ei law ddeheu, a'i fwa a'i saethau braenllyd weithian wedi cael eu hysu fel y corff a wisgai wrid. Cymerwyd y gweddillion marwol ymaith, a chladdwyd y cyfryw yn y Fynachlog gyfagos.

"Ond er i Hywel gael ei symud i gysgodion tawel y Fynachlog, ni pheidiai ei *ysbryd* a thalu ymweliad â'r hen fangre beunydd; a mynych y bu yr hen bobl mewn trybini gwyllt ar nosweithiau tywyllion hirnos gauaf, yn cael eu dychrynu gan ysgrechiadau dychrynllyd o'r ceubren. Weithiau, gwelid olwynion o dân gwelwlas yn sidellu o gylch y coed, a myrdd a mwy o ganwyllau bach gwyrddion yn goleuo; bryd arall, crygleisiai yn groch echrydus, nes y byddai ei dwrf annaturiol yn dylenwi pob mynwes âg ofn! Ond anaml y gwelid dim. Unwaith, gwelwyd llurgyn o anifail cethin, a chollodd y dynion a'i gwelsant eu hiechyd am eu hoes, a bu rhai o honynt feirw yn fuan, mewn ingoedd a gloesion dybryd. Dro arall, cipiodd ddau ddyn ag oedd yn myned drwy Goed y Moch, ar noson newydd loer, ac ymaith â hwynt i ymyl Rhaiadr Tyddyn Gwladys, a dyna lle eu gadawyd ar frig pren criafolen, wedi hanner marw. Bryd arall, cymmerth dri o wyr glewion o dan ei gesail, a dygibodd efo hwynt, a thros Aran Fawddwy, ac yn muches Tydecho y cafwyd hwy bore dranoeth, yn sal a lluddedig. Ond yn y flwyddyn 1813 cwympodd y ceubren. Yr oedd y dymmhestl yn ofnadwy. Melltenai, fflachiai y lluchedenau, a dyruai'r taranau yn groch graslyd, ysgydwai sylfaeni y mynyddoedd, a siglai Moel Offrwm fel aethnen dan bwys corwynt, ac erbyn y bore, yr oedd Ceubren yr Ellyll wedi cwympo, a'i falurio yn gandryll. O'rawr hono allan, ni chlybuwyd oerlefain anamserol yn Nghoed y Moch, ac nid mynych y blinir neb wrth dramwy wedi nos drwy y ffordd gerllaw i'r fan y safai y goeden gafniog; ond er bod weithian ychwaneg na deugain mlynedd er pan syrthiodd y pren ar y noson fawr ystormllyd hono, ac er bod yr hen bren wedi cael ei gyflunio yn gant ac un o fân bethau—ac ymysg pethau ereill yn ffrâm o gylch arlun yr hyglod William Pitt, a'r frawddeg a ganlyn yn gerfiedig arni, 'Y gwr fal y dderwen a wynebodd y dymmhestl;' etto, ar hirnos gauaf, wrth danllwyth mawn, ar aelwyd gynnes yn Meirion, fe adroddir y chwedl, a choelir hi yn ddilys gan yr hen bobl, fel gwirionedd i'w gredu yn hygoel, ac nid i'w amgyffred yn hybwyll; a dyma fel y chywais i hanes hynod Ceubren yr Ellyll."

**LLANFAELOG**, plwyf yn nghwmwd Llifon, Cantref yr Aberffraw (a elwir, weithian, cantref Llifon), Ynys Mon. Y fywioliaeth sydd guradiaeth, neu gapeloriaeth, gyssylltiedig â pherigloriaeth Llanbeulan, a dau blwyf arall cyfagos. Y mae holl gyllid yr offeiriad oddeutu mil o bunnau yn flyneddol; a bernir mai dyma y fywioliaeth gyfoethocaf yn Esgobaeth Bangor. Adeiladwyd yma Eglwys, yr hon a gysegrwyd i Sant Maelog, oddeutu y flwyddyn 605. Wedi bod yn nôd i ymosodiadau olynol ystormydd canrifau, a chael ei hagru a'i phrydferthu bob yn ail, trwy adgyweiriadau cydweddol â "dawn adeilyddol" (ys dywedai Eben Vardd) y gwahanol gyfnodau, chwalwyd yr adail henafol hyd y sylfaeni yn y flwyddyn 1847, er gwneyd lle i'r Eglwys newydd hardd, yr hon a gynlluniwyd gan Mr. H. Kennedy, o Fangor. Cynnwysai yr hen Eglwys eisteddleoedd i oddeutu cant a haner o addolwyr, ond y mae y deml bresennol yn llawer helaethach. Y mae yma hefyd un o'r periglordai eangaf a harddaf yn Nghymru. Yr ydym yn meddwl, ond nid yn gwbl sicr, mai y diweddar beriglor, sef y Parch. J. W. Trevor, A. C., Canghellydd Esgobaeth Bangor, boneddwr dysgedig mewn iaith a chyfraith, yn o gystal ag yn nefion ei Eglwys, a fu offerynol i adeiladu y naill a'r llall. Y periglor presennol ydyw y Parch. Robert Williams, cyn-Ficer Clynnog Fawr yn Arfon, ac un o gyfeillion mwyaf mynwesol y prif-fardd Eben. Y mae Mr. Williams hefyd yn foneddwr talentog, a gwir ddysgedig. Yn y flwyddyn 1801, holl nifer poblogaeth y plwyf hwn ydoedd 441; ond rhifant yn awr rhwng saith ac wyth gant. Mesura y plwyf, oddeutu 2732 o erwau, o ba rai y mae 430 yn orchuddiedig gan ddwfr. Gwerth ardrethol y tir a'r tai, ydyw 1889*p*. Saif pentref Llanfaelog yn agos i'r morlan creigiog a pheryglus, lle yr aeth llawer llong yn ddrylliau, ac y collwyd llawer bywyd gwerthfawr. Gerllaw i'r pentref hwn y mae gorsaf y Tycroes, ar gledrffordd Caer a Chaergybi; ac y mae hen dref freninol yr Aberffraw, o fewn tair milltir a haner i'r gogledd-ogledd-orllewin. O fewn plwyf Llanfaelog hefyd y mae pentref poblogaidd Pencarnisiog. Yma y mae llyn tra enwog o herwydd y cyflawnder o frithyll ac eogiaid a heigiant ynddo; ac ar dywydd teg a hafaidd, gwelir y rhwydwyr a'r genwairwyr yn cyfeirio eu camrau at y llyn hwn o bob parth o'r Ynys. Ceir cyflawnder o bysgod y môr hefyd, gyda'r glanau creigiog; a physgota y rhai hyny ydyw galwedigaeth reolaidd llawer o drigolion y plwyf. Ceir yma olygfeydd hyfryd ar y môr pan fyddo y tywydd yn dawel a thymherus; ond pan chwytha y gwynt nerthol o'r deau, neu o'r gorllewin, ymddengys agwedd pethau yn dra gwahanol. O herwydd y nifer mawr o fywydau a gollid yma trwy longddrylliadau, apeliodd y periglor, a phwyllgor parchus o'r trigolion, am fywyd-fad i'r lle; ac yn ddiweddar, fe gydsyniodd y Gymdeithas Genedlaethol â'u cais. Tywodlyd ac ysgafn ydyw nodwedd gyffredin y tir yn y plwyf; a haidd, ceirch, pytatws, ac ychydig wyrdd-lysiau ydynt yr unig gynnyrchion a dyfir gan yr amaethwyr. Dengys hen gofnodau sydd yn awr ger ein bron, fod yma unwaith waddoliadau wedi eu rhoddi at ddybenion elusenol; ond y maent, er ys amser maith bellach, wedi eu defnyddio i amcanion plwyfol. Ar dir fferm o'r enw Ty Newydd, y mae cromlech fawr, gynnwysedig o amryw gerrig, wedi eu dodi ar eu penau i gynnal y prif, neu y gwastadfaen. Y mae y garreg uchaf hon oddeutu deuddeg troedfedd o hyd, naw o led, a'i thryfesur

Digitized by Google

sydd rhwng dwy a thair troedfedd. Gerllaw y Gromlech yma, y mae olion un llawer mwy, prif-faen pa un a welir hyd heddyw; a mesura gyflawn bymtheg troedfedd o hyd. Medda yr enwadau Ymneillduol gapelydd cyfleus o fewn y plwyf.

**LLANFAELRHYS**, plwyf yn nghwmwd Cymytmaen, cantref Lleyn, swydd Gaernarfon. Saif Llanfaelrhys oddeutu deuddeng milltir i'r de-orllewin o Bwllheli, ar lan Cul-for Sant Sior, ac yn cael ei amgylchynu ar y gogledd, gan blwyf Bryncroes; ar y gogledd-ddwyrain gan blwyf y Rhiw; ac ar y gorllewin gan Aberdaron. Mesura arwynebedd y plwyf ddwy fil o erwau; ac y mae y tir, ar y cyfan, o ansawdd ffrwythlawn a chynnyrchiol—y pridd yn felynddu, ar waelod o glai llwyd-felyn. Gwerth ardrethol, 1945p. Ceir yma olygfeydd dymunol ar faesfor Aberteifi, ar un llaw, a mynyddoedd yr Eryri, a gwlad farddonol Eifionydd, ar y llaw arall. Dylifa yr afonig Daron trwy y plwyf, gan ymddolenu yn brydferth oddiamgylch godreuon y mân fryniau a wasanaethant mor effeithiol er amrywiaethu yr arwynebedd. Yma y mae hen balasdy Meillionydd, trigle y Prysiaid caredig, a fuont am oesau yn achleswyr llên a Barddas, a chlodydd y rhai a ganwyd yn effeithiol gan Ieuan Lleyn ac awenyddion ereill. Ceir fod poblogaeth y plwyf yn lleihau yn raddol, fel yr eiddo y parthau gwledig yn gyffredinol. Yn y flwyddyn 1801, rhifai y trigolion 224, ond y maent weithian islaw 200.

Adail fechan a lled ddiaddurn ydyw yr Eglwys, yr hon sydd gysegredig i Sant Moelcrw neu Maelrhys. Y fywioliaeth sydd guradiaeth barhaus, wedi ei chysylltu â ficeriaeth Aberdaron. Gwerth y degwm ydyw 128p.; a rhenir ef fel y canlyn:—47p. i Charles Wynne Finch, Ysw.: 47p. i beriglor annhrigiannol Aberdaron, sef offeiriad a dderbynia ei gyflog heb fod o dan rwymau i gyflawni unrhyw wasanaeth i'r plwyf; 18p. i Ficer Aberdaron am gyflawni y gwasanaeth Sabbothol; a 5p. i glochydd Llanfaelrhys. Perthyna i'r plwyf werth oddeutu 14p. yn flyneddol, o elusenau. Bu amser pryd y defnyddid yr arian hyn i gynnal math o ysgol symudol. Cynnelid yr ysgol hono yn Llanfaelrhys am un flwyddyn allan o bob pedair, sef bob yn ail â phlwyfydd Aberdaron, Bryncroes, a'r Rhiw. Bellach y mae dwy ysgol sefydlog wedi eu hagor ar gyfer y pedwar plwyf, sef un yn Aberdaron, ar gyfer y plwyf hwnw, a Llanfaelrhys; a'r llall yn Mryncroes, ar gyfer y plwyf hwnw, a'r Rhiw. Rhenir y gwaddol rhwng athrawon yr ysgolion hyn. Y mae ychydig gyda 17 erw o dir wedi ei gymunroddi gan rai o addolwyr haelionus y dyddiau gynt, tuag at adgyweirio yr Eglwys; a chynnyrcha y tir hwnw y swm o 9p. 11s. 6c. yn flyneddol.

**LLANFAES**, plwyf yn nghwmwd Dindaethwy, cantref Rhosyr, Ynys Mon. Saif Eglwys Llanfaes oddeutu milltir i gyfeiriad y gogledd o Beaumaris, a chwe' milltir a haner i'r gogledd-ddwyrain o orsaf y gledrffordd yn Mhorthaethwy. Fel yr eiddo Llandegfan, y mae cyfran o boblogaeth y plwyf hwn yn cyrhaedd o fewn terfynau bwrdeisdref Beaumaris. Rhifa poblogaeth y gyfran hono oddeutu 192, tra y mae poblogaeth y gyfran wledig, o gylch 250. Dengys hyn gynnydd lled fawr er y flwyddyn 1801, pryd nad oedd holl boblogaeth y plwyf namyn 198. Mesura arwynebedd y tir, oddeutu 2297 o erwau, o ba nifer y mae 1057 yn orchuddiedig gan ddwfr. Y mae y tir yma yn nodedig o ffrwythlon a chynnyrchiol; a chan mwyaf o hono yn eiddo i Syr Richard Williams Bulkeley, Barwnig, o'r Baron Hill; yr hwn hefyd ydyw noddydd y fywioliaeth. Ficeriaeth ydyw bywioliaeth Llanfaes, â'r hon y mae curadiaeth barhaus plwyf Penmon wedi ei chysylltu. Cyllid yr offeiriad ydyw 180p. Gwneir y swm hwn i fyny gan gyfran o'r degwm, ardreth tir-waddol, llog 400p. o gymunrodd rhyw hen Gristion ag y mae ei enw yn anhysbys, 800p. o rodd Freninol, a 600p. o waddol Seneddol. Ystyrir Llanfaes yn un o'r lleoedd prydferthaf oddi fewn i Ynys Môn; ac oddiyma y ceir golygfeydd nad oes eu godidocach yn holl Wynedd. Saif ar fin y dŵr, lle y mae y Fenai yn ymgolli i fôr yr Iwerddon. O flaen gwyneb yr edrychydd, i gyfeiriadau y dwyrain, a'r deau, ymgyfyd mynyddoedd talfrigog yr Eryri. Megys ar un sylldrem, gwelir yr Ogarth yn cofleidio Llandudno i'w chesail, tref gaerog a henafol Conwy mewn ymguddfan glyd tuhwnt i'r Penmaenmawr; ac o ollwng y llygaid i wibio ychydig i'r Deau, efe a red megys mewn ciliad, ar hyd yr holl linell fawreddog, yn cynnwys Carneddau, Dafydd, a Llewelyn, y Gludair, yr Elidir, &c., hyd y Wyddfa. Prydferth odiaeth ydyw godreuon llethrog a choediog y mynyddoedd hyn, a'r miloedd anneddau a frithant y gwastadeddau, rhyngddynt ag ael yr afon. Nid rhyfedd oedd i Mr. Pennant dori allan mewn math o hyawdledd dyeithr iddo ef, wrth ddesgrifio yr olygfa a gafodd efe o fynwent Llanfaes. Palas godidog y Baron Hill ydyw y gwychaf o adeiladau yr ardal hon. Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1618, gan Syr Richard Bulkeley, boneddwr enwog a lanwodd lawer o swyddi, ac a gyflawnodd luaws o weithredoedd rhagorol yn ei ddydd. Yr Arglwydd Warren Bulkeley a ail adeiladodd y palas, o dan gyfarwyddyd a chynghor yr archadeiladydd clodfawr Samuel Wyatt. Yn flaenorol i 1618, trigiannai teulu urddasol y Bwlcleiaid mewn hen balas o'r enw Cwrt Mawr, a thrachefn mewn tŷ a elwid yr Hen Blas, o fewn tref Beaumaris. Ar fryncyn coediog uwchlaw eglwys Llanfaes, y saif hen balas yn Henllys, preswylfod yr Hamptoniaid, a'r Lewisiaid pendefigaidd. Y mae yn y palas hwn hyd heddyw, wely a berthynai i Owain Tudur, sylfaenydd llinach Frenhinol enwocaf Prydain Fawr. Bu y Tuduriaid yn perchenogi plasdy Tre'rcastell, ar derfyn y plwyf hwn, fel un o'u prif breswylfeydd am oesoedd; ac yn seler y palas yma y cedwid "Metheglyn Penmon," sef math o ddiodlyn ag oedd mewn bri mawr gan y Frenhines Elizabeth.

Hawlia Llanfaes safle bwysig mewn hanesiaeth hen a diweddar. Yma yr ymladdwyd brwydr waedlŷd yn nechreu y nawfed ganrif, rhwng Egbert, Brenin Sacsonaid y gorllewin, a'r Cymry. Llwyddodd Egbert i lanio yn agos i safle tref bresennol Beaumaris; a chyfarfyddwyd ef yn Llanfaes gan luoedd llidiog yr hen Gymry. Wedi lladdfa ofnadwy, Egbert a orfu, gan fod ei filwyr yn lluosocach a mwy dysgybledig; ac mewn canlyniad, efe a feddiannodd yr oll o Ynys Mon am yspaid lled faith. Y teyrn hwn oedd y cyntaf i ddodi ar yr Ynys yr enw *Anglesey*, yr hyn, medd rhai deonglwyr ieithyddol, a olyga "Ynys yr Angliaid," neu "Ynys y Saeson." Sut bynag, er i Egbert gadw meddiant o'r Ynys am beth amser, fe ddaeth dydd ei ofwy yntau, canys Merfyn Frych, Brenin Gogledd Cymru, a gasglodd fyddin luosog, ac a ymosododd ar yr estron, gan ei lwyr orchfygu, a'i orfodi i encilio i Loegr.

Digitized by Google

Yn y flwyddyn 1237, bu farw Joan, gwraig Llywelyn ap Iorwerth, a merch i Ioan, Brenin Lloegr. Yn unol â'i dymuniad arbenig hi ei hun, hi a gladdwyd gerllaw glan y môr, yn nhir Llanfaes. Naill ai o barch i'w choffadwriaeth hi, neu ynte er mwyn rhyngu bodd ei thad, sef y Brenin Seisnig, adeiladodd Llywelyn Briordy eang ar fedd ei wraig. Os gwir yr adroddiad, ddarfod i Llywelyn grogi William de Breos, yn y Wern Grogedig, Abergwyngregin, oddiar amheuaeth fod cysylltiadau anniwair yn bodoli rhwng y William hwnw â'r Dywysoges, y tebygrwydd yw, mai i foddio y Penadur Seisnig y cyfododd Llywelyn y crefydd-dy ar ei bedd. Cysegrwyd y Prior-dy at wasanaeth urdd Fynachaidd St. Francis, gan Hywel, Esgob Bangor. Rhaid fod yr adeilad wedi ei gwblhau felly yn ystod y tair blynedd cyntaf wedi marwolaeth Joan, canys bu yr Esgob Hywel, yn ogystal a Llewelyn Fawr ei hun, farw yn y flwyddyn 1240. Cyrhaeddodd Priordy Llanfaes enwogrwydd crefyddol mawr ar fyrder, yr hyn a arwyddoca ddarfod i Llywelyn, neu rywun arall, roddi iddo waddol cyfoethog, canys ni choleddai y mynachod Pabaidd nemawr gariad at unrhyw sefydliad, oni byddai brasder cyfoeth yn nglyn âg ef. Llawer o benaethiaid Cymreig a syrthiasant yn mrwydrau eu gwlad, a gludwyd yma i'w claddu. Yn ystod y gwrthryfel Cymreig o dan Madog, yn nheyrnasiad Iorwerth y Cyntaf, llosgwyd y Priordy hyd ei sylfaeni, gan y milwyr Cymreig; a pharhaodd yn adfail hyd nes ei hadgyweiriwyd gan Iorwerth yr Ail. Yr Iorwerth hwn, oddiar ystyriaeth o'r anffodion a ddaethai i ran y Mynachod, a ddiddymodd y deyrnged o 2*p.* 10*s.* a dalid yn flynyddol i'r Goron dros y sefydliad yn flaenorol i gadymgyrch Madog. Argoela y ffaith ddarfod i'r Cymry losgi y Priordy, fod Mynachod Llanfaes ar y pryd, yn arfer eu dylanwad o blaid goresgynwyr eu gwlad. Y mynachod a gyfaneddent y lle yn amser Owain Glyndwr, a ymddygasant yn wahanol, trwy arfer eu holl ddylanwad er annog y bobl i ymladd dros adferiad eu hannibyniaeth cenedlaethol. O herwydd yr ymddygiad naturiol a chenedlgarol hwn, hwy a gawsant oddef holl gynddaredd llid Harri y Pedwerydd; canys pan lwyddodd y Teyrn hwnw i gyrhaedd hyd yn Llanfaes, efe a yspeiliodd y Priordy o'i holl feddiannau; gan roddi y mwyafrif o'r Mynachod i ddinystr y clêdd, a chario y gweddill ymaith yn garcharorion rhyfel. Yn mhen rhai blynyddoedd, adferwyd eu rhyddid i'r Mynachod hyn, a dychwelwyd yr eiddo yspeiliedig i'r Priordy. Ond er i'r Teyrn Seisnig roddi ei freiniau cynhenid i'r Sefydliad, eto efe a ofalodd am ei lanw gyda Mynachod Seisnig, i fwynhau yr eiddo a'r breintiau adferedig. Ymddengys ddarfod i'r Priordy gyfarfod â ffawd groes wedi hyn, oblegyd cawn ddarfod i Harri V. orchymyn ei adgyweirio, trwy freinlen arbenig. Yr un freinlen a ordeiniai hefyd, mai wyth o Fynachod oedd i drigo yma; ac nad oedd namyn dau o'r wyth i fod yn frodorion o Gymru. O'r adeg yma, parhaodd y sefydliad i flodeuo hyd ddadgysylltiad a dadwaddoliad cyffredinol y cyfryw sefydliadau, gan Harri VIII., pryd yr oedd cyllid blyneddol y Priordy yn 96*p.* 13*s.* 2*c.*

Yn y 32ain flwyddyn o'i deyrnasiad, rhoddodd Harri VIII. safle hen Briordy Llanfaes, yn anrheg i foneddwr o'r enw Nicholas Brownlow, yr hwn, neu un o'i ddisgynyddion, a werthodd y lle drachefn, i deulu urddasol o'r enw White. Y teulu hyn a adeiladasant yma balas gwŷch, pa un a safai hyd yn ddiweddar, ac a adnabyddid wrth yr enw Friars. Yr oedd y Whites, neu y Wynniaid a nodwyd, yn ddisgynyddion o Collwyn ab Tango, Arglwydd Eifionydd ac Ardudwy, a phen cenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Yr oedd arfbeisiau Collwyn yn gerfiedig ar bared un o ystafelloedd y palas, gyda'r dyddiad 1623 wedi ei lythyrenu odditanynt. Dichon mai dyna y pryd yr adeiladwyd y palas yn ei ffurf a'i faint diweddar gan y Wynniaid. O leiaf, y mae yn ddiddadl fod y cerfiad yn cyfeirio at ryw adgyweiriad, neu ad-drefniad pwysig. Ymddengys ddarfod i'r olaf o deulu y Wynniaid farw oddeutu dechreu y ddeunawfed ganrif, canys daeth y palas a'r etifeddiaeth i feddiant teulu urddasol y Williamsiaid, o Blas y Nant, yn Arfon. Yn y Friars y preswyliai Syr Robert Williams, A. S. dros Arfon, a thad y Syr Richard Bulkeley Williams Bulkeley presennol. Nid oes bellach ond rhanau bychain o furiau capel y Priordy yn aros: ac y mae y rhanau hyny yn ffurfio muriau adeilad a ddefnyddir fel ysgubor. Wedi dadgorphoriad y Mynachdai gan Harri VIII., taflwyd yr arch carreg, yn mha un y claddasid y Dywysoges Joan, at ffrwd fechan ar y fferm; a defnyddiwyd hi megys cafn i ddiodi anifeiliaid, am fwy na dwy ganrif. Y diweddar Arglwydd Warren Bulkeley a gyfododd yr arch o'r fath ddiystyrwch, ac a'i cludodd i le parchus, o dan un o'r bwäau yn mharc Baron Hill.

Cyfeiriasom eisoes at balasdy o'r enw Tre'r Castell. Saif hwn heb fod yn mhell oddiwrth adfeilion Castell Aber-Llienawg, a adeiladwyd gan Hugh, Iarll Caerlleon, a Hugh Goch, Iarll yr Amwythig, yn y flwyddyn 1098. Yr oedd y castell yma o ffurf betrual, a thŵr crwn ger pob congl iddo. Amgylchid y cwbl gan ffôs ddofn, a chysylltid yr amddiffynfa â'r môr gan fynedfa dan-ddaearol, ar ben pa un, yn y traeth, yr oedd tomen, neu grug anferth, wedi ei chyfodi i amddiffyn y cysylltiad â'r môr, a galluogi y gwarchodlu i lanio eu hadgyflenwadau. Gwarchodid y castell mor ddiweddar ag amser Siarl y Cyntaf, pryd y cedwid ef dros y Senedd gan Thomas Cheadle. Gorchfygwyd Cheadle gan y Milwriad Robinson, yn y flwyddyn 1645, neu 1646; ac wedi dyddiau Cromwell, gollyngwyd Castell Aber-Llienawg i adfail, a darfu ei holl fri a'i bwysigrwydd milwrol.

Ond yr hyn a esyd y pwysigrwydd mwyaf ar Lanfaes, yn nghyfrif yr oes bresennol a'r oesodd a ddeuant, ydyw y ffaith mai mynwent dawel y plwyf prydferth hwnw, ydyw mangre beddrod John Elias. Yma y claddwyd yr areithiwr efengylaidd dihafal, yn mis Mehefin, 1841, ac efe ar adeg ei farwolaeth yn 67 mlwydd oed. Golygfa na welwyd ei chyffelyb erioed o fewn terfynau Ynys Mon, a gafwyd y diwrnod hwnw, pryd y prudd-lwybrai gorymdaith angladdol, filltir a haner o hyd, yr holl ffordd o Langefni i fynwent Llanfaes. Ar wahan i ddyddordeb henafiaethol y lle, bydd cael gweled bedd John Elias, yn demtasiwn a hudoliaeth ddigonol i bawb a deithiant hyd gyffiniau Beaumaris, fyny talu ymweliad â Llanfaes.

Y mae yr Eglwys wedi ei chysegru i Sant Catherine, ac yn adeilad eang a henafol, wedi ei gwneyd yn null adeiladaeth Seisnig foreuol. Perthyna iddi dŵr petrual a phinaglog, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1811, ar draul yr Arglwydd Bulkeley. Y mae yn y plwyf elusendai, er nawdd i hen ddynion tlodion a methiantus. Adeiladwyd y rhai hyn gydag arian

Digitized by Google

a gymmunroddodd yr hael galon Dafydd Huws i'r perwyl hwnw, oddeutu y flwyddyn 1610. Perthyna i'r plwyf hefyd elusenau cyfoethog ereill. Yn y flwyddyn 1823, rhoddodd yr Arglwyddes Bulkeley fil o bunnau, mewn ymddiried i Archddiacon Bangor, ac offeiriad Llanfaes, gan orchymyn fod i lôg ei rhodd haelionus, gael ei ranu bob haner blwyddyn, rhwng tlodion y plwyf. Y mae llog blyneddol y mil punnau yn 38*p.*, a rhenir y swm yma, yn ol ewyllys y bendefiges. Yn ol eu hangen a'u sefyllfa, derbynia y tlodion o haner coron i bymtheg swllt bob un, ddwywaith yn y flwyddyn. Rhoddodd Mr. White, 12*p.*; Mary Parry, 16*p.*; ac ereill fân symiau, yn cyrhaedd rhyngddynt i 33*p.*, i'r un perwyl; ond o herwydd cael eu rhoddi allan ar ymddiriedaeth ansicr, y mae oddeutu haner y symiau olaf hyn wedi eu cyfrgolli.

**LLANFAES**, trefgordd yn Ficeriaeth Tyddewi, Brycheiniog.

**LLANFAETHLU**, plwyf yn nghwmwd Talyblion, cantref CEMMAES, YNYS MON. Y mae y plwyf hwn yn un tra eang, ei safle yn hyfryd, a'i dir yn ffrwythlon. Ymgyfyd ar raddeg naturiol uwchlaw y ffordd fawr a arweinia o Gemmaes, Cemlyn, a'r Cefncoch, i Gaergybi; a rhed ei derfynau gorllewinol a gogleddol i Fôr yr Iwerddon. Y mae y morlanau, gan mwyaf, yn uchel a chreigiog; ond y mae y golygfeydd oddiar y bannau hyn yn odidog ac amrywiaethol iawn. Ar dywydd clir-oleu, gall yr edrychydd oddiar fryniau Maethlu, weled rhai o fynyddoedd yr Iwerddon, yn nghyda bryniau gwyrddleision Ynys Manaw. Ar draws y culfor tlws, i gyfeiriad y de-orllewin, gwelir tref Caergybi, a'i phorthladd mawreddog; a Mynydd y Twr a arddengys ei fron agored, megys i awgrymu mai efe a gyfranodd y defnyddiau, er gwneyd y nawdd-le clyd i'r morwyr rhag cynddaredd ystormydd Môr y Werydd. Os troir y llygaid i'r deau, a'r dwyrain drachefn, gwelir y rhan eangaf o holl Ynys Mon, a mynyddoedd Arfon. Y pellder o Lanfaethlu i Gaergybi, dros y dŵr, ydyw pum milltir. Ceir cychod yn croesi y culfor, gan gludo teithwyr a nwyddau, yn lled reolaidd. Yn agos i'r lle hwn y mae Bryn Rhwyf, mangre genedigaeth y Jonesiaid, sef tylwyth o ddynion anghyffredin ar gyfrif eu nerth corfforol, a'u medrusrwydd fel porthweision. Yma y ganwyd ac y magwyd yr hen "Lewis y Barras," o Lanidan, a Chaernarfon. Edrydd hen drigolion gorllewinbarth Mon, luaws o chwedlau hynod am hen gychwyr Bryn Rhwyf, a Dull y Gro. Rhwng y flwyddyn 1801 ac 1851, cynnyddodd poblogaeth Llanfaethlu o 333 i 483, ond erbyn cyfrifiad 1861, yr oeddynt wedi lleihau i 426. Rhifedi y tai annedd, 83. Mesura arwynebedd y plwyf 2629 o erwau, o ba rai y mae 230 yn orchuddiedig gan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2294*p.* Rhifedi yr annedd-dai, 100. Rectoriaeth ydyw y fywioliaeth, ac y mae curadiaeth barhaus Llanfwrog wedi ei chysylltu â hi. Y mae cyllid blyneddol yr offeiriad yn 636*p.*, yn nghyda thy a thir, gwerth o leiaf driugain punt y flwyddyn. Y mae yr Eglwys, yr hon a ail-adeiladwyd yn ystod tymmor gweinidogaeth y diweddar Barch. W. Johnson, yn un o'r rhai harddaf yn Mon, a'i safle yn odidog a dymunol dros ben. Cysegrwyd hi i Sant Maethlu. Yn y fynwent, ar ochr ddeheuol yr Eglwys, y mae claddfa teulu urddasol y Gruffyddiaid, o'r Garreg Lwyd; ac ar eu beddau hwy y gwelir cistfeini tra phrydferth. Medda y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Bedyddwyr, addoldai yn y plwyf. Rhyw foneddwr neu foneddiges elusengar, ond anhysbys, a roddodd 38*p.* er budd tlodion Llanfaethlu; ac y mae yma amryw fân roddion ereill i'r un perwyl, yn nghyda saith bunt a dderbynir yn flyneddol, fel ardreth fferm a ddaeth yn feddiant i'r plwyf oddeutu cant a haner o flyneddau yn ol.

Crybwyllasom eisoes, mai yn mynwent Llanfaethlu y mae claddfa y Gruffyddiaid. Heb fod yn neppell oddiwrth yr Eglwys hefyd, mewn man nodedig o brydferth, y saif eu palas godidog a henafol, sef y Garreg Lwyd, lle y maent wedi bod yn trigiannu er ys canrifoedd. Y mae y Gruffyddiaid yn ddisgynyddion mewn llinach ddidor o Ednyfed Fychan, a pharhant i ddwyn ei arfbais ef hyd y dydd heddyw. Heblaw eu gwaedoliaeth uchelryw, bu amryw o'r teulu hefyd yn enwog mewn dysgeidiaeth, ac yn cyflenwi swyddi urddasol mewn Eglwys a Gwladwriaeth. Cawn gofnodion am William Griffith, o'r Garreg Lwyd, LL.D., yn Ganghellydd Bangor, a Llanelwy, ac hefyd yn un o Feistriaid Uchel Ganghell-lys y Deyrnas. George Griffith, brawd ieuengaf y William Griffith hwn, a fu yn Esgob Llanelwy. Bu William, yr hwn oedd wedi priodi merch yr Esgob John Owen, o Lanelwy, farw yn y flwyddyn 1648. Disgynydd, yn y llinach etifeddol o hono ef oedd y diweddar Trygarn Griffith, Yswain, tad Miss Conway Griffith, perchenoges bresennol y palas a'r etifeddiaeth, yn nghyda g etifeddiaeth Plas Berw, ger Llangefni. Ond y dyn hynotaf a fu yn dal cysylltiad â Llanfaethlu, oedd mab a anwyd i glochydd y plwyf, oddeutu dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg. Y dyn hwn oedd y Doctor John Dafydd Rhys, awdwr y grammadeg Cymreig, a gyhoeddwyd yn Llundain, o fewn y flwyddyn 1590, ac amryw weithiau pwysig ereill mewn dysgeidiaeth Geltaidd. Cyfododd yn Llanfaethlu hefyd fardd ieuangc lled enwog yn yr oes hon, sef Mr. J. M. Jones, (Ioan Maethlu), awdwr amryw ganeuon tyner a thoddedig iawn. Bu ef farw yn y flwyddyn 1866, yn yr oedran cynnar o 27ain o flwyddi.

Ar fryn y Cefn Du, gerllaw Llanfaethlu, yr oedd arsyllfa bwysig, berthynol i ymddiriedolwyr Porthladd Liverpool. Gwasanaethai fel arwyddfa ganol rhwng Caergybi a Llaneilian, er trosglwyddo i Liverpool wybodaeth am hynt y llongau, fel y deuent i olwg Ynys Mon. Y mae dyfeisiad llinellau y gwefrebydd wedi gwneyd yr arsyllfa hon yn ddiangenrhaid. Bernir ddarfod i'r Rhufeiniaid adeiladu ffwrnais yn Llanfaethlu, i doddi yr efydd a gyfodid ganddynt yn Mynydd Parys. Cadarnhawyd y dybiaeth i raddau helaeth yn y flwyddyn 1757, pryd y darganfyddwyd yma grawen o gopr toddedig, yn pwyso 54 pwys, a'r llythyren Rufeinig L. yn gerfiedig arni. Tuedda y swm mawr o olosg copr, a ddarganfyddir yn fynych wrth aredig y tir hefyd, i brofi fod yma dawdd-dy pwysig wedi bod ar ryw adeg bell yn ol. Ceir yn y plwyf hefyd gyflawnder o galchgraig, o ansawdd uwchraddol, a gwerthfawr.

**LLANFAGLAN**, plwyf yn nghwmwd Is-gwyrfai, cantref Arfon (a elwir yn awr hefyd cantref Is-gwyrfai), swydd GAERNARFON. Saif y plwyf hwn oddeutu dwy filldir i'r gorllewin wrth dde-orllewin o Gaerynarfon. Yr eglwys sydd gysegredig i Baglan ap Dingad, sant Cymreig, ac nid i Mair Magdalen, fel y tybir yn gyffredin. Curadiaeth barhaus ydyw y fywioliaeth, ac wedi ei chysylltu â ficeriaeth Llanwyndaf. Y periglor presennol, ydyw y Parch. D. L. Williams, gorwyr i'r enwog Peter Williams, yr

Digitized by Google

esponiwr. Saif hen Eglwys Baglan ar ganol maes agored, godreuon pa un a olchir gan ddyfroedd y Fenai. Ymddengys na bu erioed ffordd agored a rheolaidd i fyned at yr eglwys hon; dim ond troedlwybrau cyffredin ar draws y maesydd. Y mae yr adail wedi ei gollwng i gyflwr adfeiliedig, ac ni ddefnyddir hi i ddim mwyach, ond i wasanaeth angladdol, pan y cludir rhai o deuluoedd y plwyf i gyd orphwys â'u henafiad yn y fynwent dawel ac unigol. Ar fur dwyreiniol yr Eglwys, gwelir croes henafol, ac o gerfwaith nodedig o gywrain ac addurnol. Gwerth blyneddol y degwm, ydyw 123*p.*, o ba swm y telir 113*p.* i bennaeth a chymmrodorion Coleg Iesu, Rhydychain, a'r gweddill i'r offeiriad. Yn y flwyddyn 1870, adeiladwyd eglwysdy newydd, nodedig o brydferth, mewn man cyfleus a chanolog o'r plwyf. Nid ydyw rhif y trigolion wedi cynnyddu na lleihau nemawr er ys llawer o amser. Yn nghyfrifiad 1861, eu nifer oedd 253, ac nid oedd y gwahaniaeth namyn saith erbyn cyfrifiad 1871. Mesura y plwyf 1884 o erwau, o ba rai y mae 612 yn orchuddiedig gan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1231*p.* Y prif balas o fewn y plwyf, ydyw Tanycoed, lle y mae hen deulu Cymreig urddasol a haelionus yn trigiannu er ys oesau. Y mae arwynebedd y tir yn dra amrywiaethol—mewn mannau yn ffrwythlon a chynnyrchfawr, ac mewn lleoedd ereill yn fryniog ac eithinog. Y mae yma glai cyfaddas i wneyd priddfaeni; a ffurfiwyd cwmni i'w weithio rai blyneddoedd yn ol, ond ychydig o lewyrch a fu ar yr anturiaeth hyd yma. Amgylchir y plwyf ar y dwyrain, a'r gogledd, gan derfynau Llanbeblig, ar y de gan Lanwyndaf, ac ar y gorllewin gan y Fenai, ac ymylau morgilfach Caernarfon.

**LLANFAIR**, sydd enw mynych, ar wahanol eglwysi yn Nghymru, yn golygu, Llan, neu Eglwys, wedi ei chysegru i St. Mair.

**LLANFAIR**, sydd enw ar orsaf Rheilffordd yn MON, yn agos i bentref Llanfair-pwll-gwyngyll, rhwng Pont Britannia, a Chyswllt Gaerwen.

**LLANFAIR**, sydd is-ddosparth, yn nosparth Llanfyllin, sir DREFALDWYN; yn cynwys plwyf Llanfair-Caereinion, a phump o blwyfi eraill. Erwau, 71,059. Poblogaeth, 6375. Tai, 1289.

**LLANFAIR**, sydd blwyf yn nosparth Ffestiniog, sir FEIRIONYDD, gerllaw beisfor Abermaw, a rheilffordd Abermaw a Chaernarfon; un filltir deheuol o Harlech. Llythyrfa yn Harlech, dan Gaernarfon. Erwau, 5196. Gwerth ardrethol, 1943*p.* Poblogaeth, 426. Tai, 83. Y mae y meddianau yma yn cael eu rhanu rhwng amryw. Y mae y golygfeydd tua glanau y moroedd oddiyma, yn fawreddog, a thua Harlech, yn un o'r rhai prydferthaf yn Nghymru. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 200*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Bu yr Archesgob Baldwin, a Giraldus Cambrensis, yn lletya yma yn 1188. Yr oedd yr enwog Archddiacon Prys yn frodor o'r lle hwn; a bu Ellis Wyn, awdwr y "Bardd Cwsg," yn beriglor y plwyf.

**LLANFAIR**, neu LLANVAIR, sydd is-bentref yn mhlwyf Llandyssil, sir ABERTEIFI, chwe milltir a haner, dwyreiniol o Gastell-newydd-Emlyn. Poblogaeth, 227.

**LLANFAIR-AR-Y-BRYN**, sydd blwyf ac isddosparth, yn nosparth Llanymddyfri, sir GAERFYRDDIN. Y mae sefyllfa y plwyf ar Ffordd Sarn Helen, gerllaw rheilffordd Llanddyfri a Knighton, ar lannau yr afonydd Brân, a Towy, ar y terfyn deheuol i Goedwig Cilcwm, un filltir ogleddol o Landdyfri. Y mae yma Lythyrfa, dan yr enw Llanfair, dan Gaerfyrddin; ac y mae yn cynwys isbentrefi Rhandir-Abbad; Rhandir-Isaf; Rhandir-Canol; a Rhandir-Uchaf. Erwau, 23,457. Gwerth ardrethol, 9405*p.*, o'r hyn y mae 2500*p.* mewn mŵnau. Poblogaeth yn 1851, 1705; ac yn 1861, 1559. Tai, 303. Y mae y tir feddianau yma rhwng ychydig o bersonau. Y mae y mŵnau plwm yn perthynu i Iarll Cawdor; gwelir olion gwersyllfa Rufeinig, ar fryn, gerllaw yr eglwys. Darganfyddwyd nifer o fathodion, priddfeini, a henafion Rhufeinig eraill o fewn y terfynau yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad â Llandingad, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae nifer o gofadeiliau o fewn yr eglwys, perthynol i deulu Glan Bran. O fewn i'r fynwent hon, y gorphwys gweddillion marwol, peraidd ganiedydd anfarwol Cymru, sef William Williams, o Bant-y-celyn. Y mae Beddfaen a cherfiad di-addurn yn dynodi y fan, ac yn denu ymweliad oddiwrth lawer pererin, a gafodd aml adgyfnerthiad ar y daith, drwy gyfrwng ei gynnyrchion awenyddol. Y mae cysylltiad agos rhwng y lle â Llanddyfri, o blegid agosrwydd eu lleoldeb.

**LLANFAIR-CAEREINION**, sydd dref, a phlwyf, yn nosparth Llanfyllin, swydd DREFALDWYN. Saif y dref ar ymyl afon Einion, 8½ milltir gorllewinddc-orllewin o orsaf rheilffordd Trallwng, ag 11 milltir gogledd-orllewin o Drefaldwyn. Y mae yn cymeryd y rhan olaf o'r enw, oddiwrth hen wersyllfa Frydeinig, sydd o fewn tair milltir, ar yr ochr ddwyreiniol; ac y mae wedi ei hadeiladu yn drefnus. Y mae yma fanteision neillduol i bysgotta, yn y Banw, yr Einion, a'r Fyrnwy. Y mae yma lys barnol lleol; ac etholfa; ac y mae Llythyrfa berthynol i'r lle, dan y Trallwng. Y mae yn y dref ddau westdy eang, llys-dy, eglwys, a phump o gapeli Ymneillduol. Y mae y farchnad wythnosol ar y Sadwrn, a'r ffeiriau yn cael eu cynal ar Mawrthynyd; Sadwrn cyn Sul y Blodau; Mai 18; Gorphenaf 3; Tachwedd 1; a'r Gwener o flaen y Nadolig. Y mae y plwyf yn cynwys Trefgorddau, Bryn-Elen, Bryn-glas, Dolgaead, Gelligasson, Gwaenynog, Heniarth, Cylyrych, Llanlodian-Isaf, Llanlodian-Uchaf, Penarth, Pentyrch, Rhiwhiriaeth, a Rhosaflo. Erwau, 16,157. Gwerth ardrethol, 10,052*p.* Poblogaeth yn 1851, 2727; yn 1861, 2584. Tai, 543. Y mae y tiroedd yn cael eu perchenogi gan amryw bersonau. Y mae arwynebedd y tir yn anwastad, ac yn cyfodi yn fryniau lled uchel tua'r dehau. Yr oedd ffordd Rufeinig yr croesi y plwyf gynt; a darganfyddwyd amryw fathodion, a gweddillion Rhufeinig eraill yma yn 1740. Y mae yma ddwy o weithfaoedd gwlaneni. Y fywioliaeth sydd yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 358*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Mair, fel yr awgryma enw y lle. Y mae yma un gofadail o gryn hynodrwydd, sef delw farmor, o farwnig yn ei arfogaeth, o dan ffenestr ar yr ochr ddeheuol. Y mae yma ysgol rad, mewn rhan, drwy hawl o ddwy bunt yn flyneddol, ar amaethfa y Dderw deg, yn mhentref Rhiw-Hiriaeth; ac y mae yma amryw waddolion er budd y tlodion.

**LLANFAIR CILGIDIN**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref ABERGAFENNI, swydd FYNWY; ar lan yr afon Wysg, 2½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain wrth Ogledd o orsaf rheilffordd Nant y deri, a 5½ milldir

Digitized by Google

i'r De Ddwyrain o Abergafenni. Llythyrfa, Abergafenni. Erwau, 1801. Gwerth ardrethol, 2824*p.* Poblogaeth, 296. Tai annedd, 59. Y mae y tir yn rhanedig rhwng ychydig berchenogion. Y mae yma bont grogedig dros y Wŷsg, i dramwywyr ar draed. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 395*p.* Noddwr, Arglwydd Tredegar.

**LLANFAIR-CLYDOGAU**, sydd blwyf yn nosparth Llanbedr, swydd Aberteifi, gerllaw afon Teifi, 3 milltir gogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanbedr. Llythyrfa, yn Llanbedr, dan Gaerfyrddin. Erwau, 4815. Gwerth ardrethol, 1586*p.* Poblogaeth, 614. Tai, 128. Y mae meddiant y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig nifer. Y mae y manorau yn perthyn i Iarll Lisburne, ag Arglwydd Carrington; y mae y mwnau plwm, y rhai sydd yn cynnyrchu cryn swm o arian, yn perthyn i Arglwydd Carrington. Darganfuwyd mŵn efydd yn y lle, o'r hwn y cyfodwyd cryn swm o bryd i bryd. Cyfodwyd pont er croesi y Teifi yma. Y mae nifer o feini hirion, carneddi, ac olion gwersylloedd henafol, i'w canfod yn y plwyf hwn; ac yn mhlwyf Cellan, sydd gerllaw iddo. Y mae yn aros hefyd, olion y cysylltiad â'r ffordd Rufeinig, Sarn Helen, hyd yn awr. Y mae y fywioliaeth yn fiecriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 65*p.*, ac yn nawddogaeth Iarll Lisburne, ac Arglwydd Carrington, bob yn ail. Yr oedd palas perthynol i deulu Lloyd, yn agos i'r lle y mae y mwnau; un o honynt a gynnrychiolai y sir yn y Senedd, yn amser Siarl I., ond efe a ymddiswyddodd, ar gollfarniad yr annedwydd Strafford; a dywed un hanesydd am dano, "ei fod yn foneddwr cwbl deilwng i gymeryd rhan yn llywodraethiad y deyrnas." Yr oedd rhanau o'r hen balas ardderchog hwn, yn dwyn argraph, o ddyddiad mor foreu a 1080; ond y mae erbyn hyn wedi ei ollwng i adfeiliau. Y mae yma addoldai Ymneillduol, perthynol i'r gwahanol enwadau, gyd âg ysgolion Sabbathol.

**LLANFAIR DISCOED**, trefgordd, a phlwyf yn rhanbarth uchaf cantref Caldicott, swydd Fynwy; 5½ milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o Casgwent. Y mae y drefgordd yn gorwedd yn agos i goed Gwent, 4 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o orsaf rheilffordd Magor. Mesura o erwau, 1316; a chyfrifir ei gwerth ardrethol yn 907*p.* Poblogaeth, 150. Tai annedd, 32. Y mae y plwyf yn cynnwys treflan Dinham hefyd; a'i lythyrfa yw Casgwent. Mesura y plwyf mewn erwau, 1986; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1533*p.* Poblogaeth, 187. Tai annedd, 39. Ychydig ydyw nifer perchenogion y tir. Yr oedd Castell Llanfair yn perthyn i deulu o'r cyfenw Pagan, yn y flwyddyn 1270; ond y mae yn garnedd adfeiliedig y dyddiau hyn, gan gynnwys yn unig dŵr petryal, a dau dŵr crwn, yn gydiol ag ammaethdy. Ac nid oes yn aros o Gastell Dinham yn bresenol, namyn ychydig adfeilion wedi eu gorchuddio â choed. Darganfuwyd amryw greiriau Rhufeinaidd, megys bathodion, gwrnau, &c., o bryd i bryd yn y plwyf hwn.

**LLANFAIR-DYFFRYN-CLWYD**, sydd blwyf yn nosparth Rhuthin, swydd Ddinbych; ar geulan y rhan uchaf o afon Clwyd, yn gyfagos i Ddinbych, Rhuthin, a gorsaf rheilffordd Corwen, dwy filltir, de-ddwyreiniol o Ruthin. Y mae yma Lythyrfa dan Ruthin; ac y mae yn cynwys trefgorddau, Derwen, Llannerch, Euarth, Faenol, a Garthgynan. Erwau, 4208. Gwerth ardrethol, 7426*p.* Poblogaeth, 1263. Tai, 272. Y mae y faenor yn perthyn i esgob Bangor. Y mae yma hen wersyllfa, a elwir "Y Caerau," yn ymledu dros saith erw. Y fywioliaeth sydd yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 300*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae rhai cof-adeiliau yn yr eglwys, yr hon, fel yr awgryma yr enw, sydd wedi ei chyflwyno i St. Mair. Y mae rhai o'r ffenestri, mewn gwydr lliwiedig, o hynodrwydd. Y mae yma adail er adgof am Dafydd ab Madog, gyda'r ysgrifen ganlynol, *Hic jacet David, filius Madoc: requiescat in pace*, mewn llythyrenau Sacsonaidd. Y mae yn nhrefgordd Euarth, Gapel bychan, a adeiladwyd yn 1619, gan Mr. Rice Williams; gyd ag ysgol blwyfol. Y mae yma addoldai gan y Methodistiaid, a'r Wesleyaid. Y mae nifer o waddolion, o wahanol symau, wedi eu gadael gan wahanol bersonau, er budd y tlodion.

**LLANFAIR FECHAN**, sydd dref, a phlwyf, yn nosparth Bangor, swydd Gaernarfon. Y mae y dref yn sefyll ar lan y môr, ar yr ochr orllewinol i'r Pen-maen-mawr, gerllaw rheilffordd Caerlleon a Chaergybi; 6½ milltir dwyrain-ogledd o Fangor; ac y mae gorsaf ar y rheilffordd, yn perthyn i'r lle, a Llythyrfa dan Fangor. Y mae y plwyf yn cynwys 4255 o erwau o dir, a 2266 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2822*p.* Poblogaeth yn 1851, 809; yn 1861, 1199. Tai, 234. Y mae y lle hwn ar gynnydd mawr, ac y mae y rhagolygon yn obeithiol iawn. Y mae y boblogaeth wedi cynnyddu, drwy adfywiad mawr yn ddiweddar, yn ngwaith cloddfeydd cerig palmantu, ac adeiladu, yn y Penmaenmawr, yr hwn sydd gerllaw y dref; a thrwy y gwelliannau eang a gwblhawyd gan J. Platt, Ysw., yr hwn oedd meddianydd etifeddiaeth Bryn-y-neuadd. Ond y mae yn eglur, mai y prif achos o'r cynnydd ydyw, y nifer mawr o ymwelwyr, sydd yn yr haf yn cyrchu i'r fan fel ymdrochle. Cryn orchest ydoedd cynllunio y rheilffordd yn y gymydogaeth hon, o blegid fod godreu y Penmaen yn rhedeg yn lled bell i'r mor. Y mae yr adeiladau yma o'r fath oreu. Y mae rhai pethau o gryn hynodrwydd hanesyddol mewn cysylltiad a'r lle. Ar goryn y mynydd, yr oedd hen amddiffynfa Braich-y-Ddinas, yn yr hon, y dywedir fod gan Llewelyn unwaith, ugain mil o wyr dan arfau. Yr oedd muriau rhai o'r cytiau tua deuddeg troedfedd o drwch: nid oedd cymrwd wedi ei ddefnyddio yn eu hadeiladaeth. Y mae Pennant wedi cofnodi yr hanesyn canlynol, mewn cysylltiad a hanes y lle hwn; a rhydd ei resymau dros ei dderbyn fel cofnodiad wedi ei sylfaenu ar ffeithiau diymwad. "Tua chanrif yn ol, (tua dau cant, bellach,) yr oedd un Sion Hwmphrai o'r plwyf hwn, yn talu ei anerchion i Anne Thomas, o'r Creuddin, sydd ar derfyn yr ochr arall i afon Gonwy. Yr oeddynt wedi cytuno i gyfarfod yn Nghonwy, ar ddiwrnod y "Ffair Fêl." Pa fodd bynag, collodd Sion ei droed, ar y llwybr garw ar ochr y Penmaenmawr, yn agos i Glipyn Seiriol, a syrthiodd rhwng y cerig rhyddion, a threiglodd i waered tua chan llath, gan lithro yn barhaus ar lethr y mynydd, fel yr oedd wedi cael ei anafu yn fawr. Cychwynodd Mari ei thaith o'r ochr arall; ond wrth groesi afon Gonwy, gan faint yr ystorm, trodd y cwch, a boddwyd y cyfan oedd ynddo, sef tua phedwar ugain o bersonau, oddigerth Mari Thomas yn unig, yr hon a arbedwyd, i gyfarfod gwrthddrych ei serch yn Nghonwy, i adrodd hanes eu tywydd a'u gwaredigaeth i'w gilydd. Priodasant, a buant fyw gyda'u gilydd yn Llanfair. Bu hi farw,

Digitized by Google

Ebrill 11, 1744, yn 116 oed. Bu ef fyw bum mlynedd ar ei hol, a chladdwyd ef, Rhagfyr 10, 1749. Claddwyd y ddau wrth ochrau eu gilydd yn mynwent y plwyf. Nid ydym yn gwybod fod yno yr un arwydd i ddynodi y fan. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth, 430*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yma eglwys wedi ei chodi gan Mr. Platt; ac y mae yma ysgol Genedlaethol eang. Y mae gan y Methodistiaid, yr Annibynwyr, a'r Wesleyaid, leoedd o addoliad yma; ac y mae y lle yn ddeniadol iawn yn mhob modd.

**LLANFAIR-IS-GAER**, sydd blwyf yn nosparth, a swydd Gaernarfon, ar lan afon Menai, gerllaw rheilffordd Caernarfon; 2¼ milltir gogledd-ddwyrain wrth ogledd o dref Caernarfon. Y mae yn cynwys pentref Bryn-y-ffynon, a phentref porthfaol Dinorwig, lle y mae Llythyrfa, dan Gaernarfon. Erwau 2474, o'r hyn y mae 565 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2312*p.* Poblogaeth yn 1851, 687; yn 1861, 1060. Tai, 201. Cynnyddodd y boblogaeth, drwy gynnydd yn ngwaith y cloddfeydd llechi; ac yr oedd 120 yn 1861 yn cael eu gorchwylion ar fyrddau y llongau. Y mae y tiroedd yn meddiant ychydig o nifer. Plas Llanfair ydyw y prif balas. Y mae Porth Dinorwig yn angorfa, lle y llwythir y llongau â'r llechi, o fynyddau Arfon, y rhai a gludir drwy y plwyf ar reilffordd berthynol i'r perchenog. Y mae olion hen wersyllfa Rufeinig, ychydig uwchlaw yr eglwys; yr hyn a roddai yr enw i'r lle, "Llan-Fair-is-y-Gaer." Dywedir fod Agricola a'i fyddin wedi croesi y Fenai, o'r plwyf hwn, i Lanidan yn Mon, gad-gyrchiad i ddarostwng yr ynys, ac y mae rhai o olion eu llwybrau yn aros hyd y dydd hwn. Y mae y golygfeydd oddiar y bryniau yma yn darawiadol iawn. Y mae Porth Dinorwig yn bentref cynnyddol; ac yn meddu nifer o adeiladau o'r fath oreu, gyda masnach o gryn bwysigrwydd. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1865. Y mae yma ddau addoldy gan yr Annibynwyr, 2 gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac un gan y Wesleyaid, ac un gan y Bedyddwyr. Y mae yma waddolion o gryn symau er lles y tlodion. Saif y lle yn agos i haner y ffordd rhwng Bangor a Chaernarfon.

**LLANFAIR-MATHAFARN-EITHAF**, sydd blwyf a phentref yn nosparth a swydd Fon, gerllaw y Traeth coch, 5 milltir dwyreiniol o Lanerchymedd, a 7m. gorllewin-ogledd-orllewin o Beaumaris. Llythyrfa, dan Beaumaris. Erwau 1949, o'r hyn y mae 35 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 1577*p.*, o'r hyn y mae 25*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 757. Tai, 182. Y mae y meddianau yn cael eu rhanu rhwng amryw. Y mae marmor lliwiedig, a meini melinau, yn cael eu cloddio yma. Y mae y fywioliaeth yn isberigloriaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llanddyfnan, yn esgobaeth Bangor. Y mae yn y fynwent, weddillion croes henafol iawn. Yma y ganwyd y bardd a'r ieithydd rhagorol, Goronwy Owain; mewn bwthyn bychan, Ionawr 1, 1722. Efe a gafodd elfenau cyntaf ei ddysgeidiaeth yn ysgol rad Bangor, a'i addysg athrofaol yn Ngoleg yr Iesu, Rhydychain; ac efe a benodwyd i'r guradaeth yn ei blwyf ei hun, gan esgob Bangor, ac wedi hyny, symudodd i Groesoswallt, ac i Walton, yn swydd Lancaster, ac wedi hyny i Northolt, yn Middlesex; ac o'r diwedd, o ddiffyg modd i gynal ei deulu, i Williamsburgh, yn Virginia, America; lle y bu farw yn 1769. Barna rhai fod enw y lle yn tarddu oddiwrth ysbytty, a fuasai gynt yno, ac mai ei enw oedd, "Llanfair medd dafarn eithaf;" tra y gelwid Llanbedr goch, yn "Llanbedr medd dafarn Gwion Goch;" a bod ystyr gyntaf y gair "tafarn," yn golygu, "lle o ymgeledd." Mewn rhai hen gofnodau, cysylltir y lle hwn â Llan-bedr-goch, lle y bu Gwion Goch, fel meddyg a gwladgarwr, o gryn ddefnyddioldeb yn ei ddydd.

**LLANFAIR-NANT-GWYN**, sydd blwyf yn nosparth Aberteifi, ac yn swydd Benfro, gerllaw afon Nefern, dan fynydd Preselley, 6 milltir deheuol o orsaf rheilffordd Aberteifi. Llythyrfa, dan Aberteifi. Erwau, 1688. Gwerth ardrethol, 1008*p.* Poblogaeth, 189. Tai, 38. Y mae y tir-feddianau rhwng ychydig nifer. Y mae cyflawnder o graig-yspar yn y gymydogaeth, yr hyn a fu yn achlysur o alw y dyffryn yn "Nant-gwyn." Y fywioliaeth eglwysig sydd yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 70*p.*, ac yn nawddogaeth T. Bowen, Ysw.

**LLANFAIR-NANT-Y-GOF**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd Benfro; gerllaw afon Gwayre, 3 milltir de wrth ddwyrain o Abergwaen, a deng milltir gogledd-orllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Clarbeston. Y mae y llythyrfa yn Abergwaen, dan Hwlffordd. Erwau, 2597. Gwerth ardrethol, 1457*p.* Poblogaeth, 245. Tai, 47. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Letterston, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Mair.

**LLANFAIR-ORLLWYN**, sydd blwyf yn nosparth Castell-newydd-Emlyn, swydd Aberteifi; gerllaw yr afon Teifi, ar derfyn swydd Gaerfyrddin, 4 milltir dwyrain wrth ogledd o orsaf rheilffordd Castell-newydd-Emlyn. Y llythyrfa yw Castell-newydd-Emlyn, dan Gaerfyrddin. Erwau, 1744. Gwerth ardrethol, 1168*p.* Poblogaeth, 427. Tai, 93. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig o feddianwyr. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 155*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi.

**LLANFAIR-PWLL-GWYNGYLL**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Bangor, ac yn swydd Fon. Saif y pentref gerllaw rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, ar lan afon Menai, 5 milltir de-orllewin o Beaumaris. Barna rhai fod y lle yn cymeryd ei enw oddiwrth y tro-byllau nerthol, gwylltion, sydd yn rhedeg rhwng y creigiau cyferbyniol, yn afon Menai, ac sydd wedi eu gwisgo a'u treulio i bob agweddiad, peryglus i'r morwr, wrth hwylio heibio iddynt, ag a elwir yn "Bwll Ceris," gan y cyffredin. Barna eraill fod y geulan gyferbyniol a'r "pwll" hwn, wedi cael ei haddurno gynt â choedwig o'r "Gollen-wen." Y mae gorsaf o'r enw Llanfair, ar y rheilffordd; ac y mae yma lythyrfa o'r enw Llanfair-Pwllgwyngyll, dan Bangor. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd, y borthfa fechan, a elwir "Pwll-ffanog." Y mae y golygfeydd yn y gymydogaeth hon yn amrywiaethol a tharawiadol iawn. Ar yr afon, pan y del y llanw i'w uchder penaf, gwelir wyneb y dwfr mewn perffaith lyfnder a thawelwch, ond cyn pen ychydig fynydau, yn ferw crychwyn cynddeiriog drwyddo. Ar y tir, gwelir cyferbyniad o grugau geirwon, a llethrau gwyrddleision prydferth. Ar grib uchel craig Pen-dinas, ar yr ochr ogleddol, saif cof-golofn Ardalydd Mon; a delw o'r arwr enwog yn benawg iddi, megis yn edrych ar ysgogiadau pawb a elont heibio. Erwau 952, o'r hyn

Digitized by Google

y mae 100 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1403*p*. Poblogaeth yn 1851, 758; yn 1861, 695. Tai, 170. Y mae y tiroedd yma yn cael eu meddianu gan ychydig nifer. Plas Llanfair ydyw annedd Arglwydd Clarence Paget. Y mae y Plas-newydd, preswylfa Ardalydd Mon, yn mhlwyf Llanedwen. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llandysilio, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 250*p*., ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Ar y maes gerllaw Ty Mawr, y mae gweddillion Cromlech o gryn faintioli, wedi llithro oddiar ei phegynau. Y mae yma gloddfeydd meini at adeiladu, o werth mawr.

**LLANFAIR-TALHAIARN**, a ysgrifenir weithiau DOLA-HAIARN, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Llanelwy, swydd DDINBYCH. Y mae y pentref yn sefyll wrth ymyl yr afon Elwy, gyferbyn a pharc coediog Garthewin, yn nghanol golygfeydd prydferth; 6 milltir de-ddc-orllewin o orsaf rheilffordd Abergele, ac 8½ gorll.-og.-orllewin o Ddinbych. Y mae yma lythyrfa dan Abergele, a gwesty cyfleus. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Barog, Botreal, Bryscoed, Brodrochwyn, Bont, Cornwall, Drebach, Melai, Pysllygoed, Tal-haiarn, Trebarog, Ciliau, Cynnant, a Garthewin. Erwau, 11,114. Gwerth ardrethol, 5766*p*. Poblogaeth yn 1851, 1386; yn 1861, 1309. Ychydig yw nifer meddianwyr y tiroedd. Garthewin ydyw palas B. W. Wynne, Ysw. Y mae y lle hwn yn cymeryd ei enw oddiwrth Talhaiarn, yr hwn ydoedd fardd a sant enwog, o oesau boreuaf Cristionogaeth yn Mrydain; ac a fu yn gapelydd teuluol i Emrys Wledig. Wedi i'r tywysog hwnw gael ei ladd, adeiladwyd eglwys yma, ar y lle y saif yr eglwys bresenol, yr hon a gysegrwyd i Talhaiarn, lle y gorphenodd efe ei dymor mewn neillduaeth, tua dechreu y chweched ganrif. Efe a gyfansoddodd weddi yr orsedd, a ddefnyddid gan feirdd Morganwg:—

"Duw, rho nerth;
Ag o nerth, pwyll;
Ag o bwyll, gwybod;
Ag o wybod, y cyfiawn;
Ag o'r cyfiawn, ei garu;
Ag o garu, caru pob peth;
Ag yngharu pob peth, caru Duw."

Y mae y lle hwn yn cael ei hynodi hefyd, fel preswylfa Hedd Molwynog, disgynydd o Rodri Mawr, tywysog Cymru oll, a phenaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd; efe a unodd â Dafydd ab Owain Gwynedd, i ymlid y Saeson ymaith o'i derfynau. Nid oes ond ychydig o olion ei balas ar gael, y rhai a ellir eu holrhain o fewn tua milltir a haner i'r pentref. Y mae y pentref mewn nant brydferth, trwy yr hon y llifeiria yr Elwy i'r Aled, tua milltir yn is i lawr. Gadawwyd yma amryw waddolion er budd tlodion y plwyf. Genedigol oddiyma oedd y diweddar fardd, ac arch-adeilydd, Talhaiarn, yr hwn a gyhoeddodd ei waith barddonol a rhyddieithol mewn tair cyfrol. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 326*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae o fewn yr eglwys amryw gofadeiliau, perthynol i deuluoedd Wynne o'r Garthewin.

**LLANFAIR-TREF-HELYGEN**, sydd blwyf yn nosparth Castell-Newydd-Emlyn, swydd ABERTEIFI; yn agos i'r afon Teifi, ar derfynau swydd GAERFYRDDIN; 5 milltir gogledd-ddwyrain wrth ogledd o orsaf rheilffordd Castell-Newydd-Emlyn. Y llythyrfa ydyw Castell-Newydd-Emlyn, dan Gaerfyrddin. Erwau, 648. Gwerth ardrethol, 375*p*. Poblogaeth, 81. Tai, 19. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llandyfriog, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys yn adfeiliedig.

**LLANFAIR YN MUALLT**, sydd dref, plwyf, is-ddosparth, dosparth, a chantref yn MRYCHEINIOG. Y mae y dref yn sefyll ar geulan yr Wy, a cherllaw rheilffordd Llanidloes ac Aberhonddu, 12 milltir de orllewin o Faesyfed Newydd. Gelwir y dref weithiau wrth yr enw BUALLT, neu BUILLT. Saif ar yr hen orsaf Rufeinig, a elwid *Bullæum;* yr oedd yma gastell yn yr unfed canrif ar ddeg, a adeiladwyd, fel y dywedir, gan Bernard Newmarch; ac yr oedd yn breswylfa hoff'us, a lle enciliad diweddaf "Llewelyn y Llyw olaf." Bradychwyd y tywysog hwnw gan y trigolion, y rhai a warthruddir hyd heddyw, gyda'r edliwiad o "Fradwyr Aberedwy." Llofruddiwyd ef mewn nant, tua thair milltir ar y gogledd, a elwir "Cwm-Llewelyn," hyd heddyw. Y mae y dref yn cael ei chynnwys, yn benaf, mewn dwy heol gyfochrog, sydd yn ffurfio ter-resi, anwastad, uwchlaw llethr serth. Dinystriwyd y castell, a'r rhan fwyaf o'r dref, gan dân, yn 1690. Y mae sylfaeni y carchar, yr mesur 150 o droedfeddi o amgylch, yn weledig hyd yn awr. Y mae pont o chwech o fwaau meini, yn croesi yr afon Wy, ac yn cysylltu y dref â sir Faesyfed. Y mae yr eglwys blwyfol yn adail brydferth, o gynlluniad diweddar, gyda hen dŵr. Y mae yma gofadail i un Lloyd, o ddyddiad henafol, wedi ei ddwyn yma, o adeilad blaenorol. Y mae yn y dref bedwar o Gapeli Ymneillduol; ac y mae yma ysgol i'r tlodion. Y mae Ffynonau y Parc, sef tair o ffrydiau mwnyddol, halenol, calchaidd, a blorawl, o fewn tua milltir a thri chwarter i'r dref, ar yr ochr ogledd orllewinol, ac yn denu ymwelwyr o bell mewn nifer mawr i'w defnyddio, tra yn lletya yn y dref. Y mae y golygfeydd o amgylch y dref yn brydferth, yr hinsawdd yn iachus, a'r cyfleusderau i ymbleseru mewn genweirio, yn lluosog. Y mae y dref yn meddu pob mantais i ohebiaeth a chyfathrach â holl barthau Cymru a Lloegr, drwy gysylltiadau llinellau rheilffordd o Lanidloes i Aberhonddu, ac o Dref y Clawdd i Landdyfri; ac y mae yr orsaf gerllaw y Cyswllt, a gorsaf arall gerllaw y Ffynonau. Y mae yma brif lythyrfa, ac y mae yma westdai eang a chyfleus. Y mae y farchnad wythnosol ar ddydd Llun; a'r ffeiriau ar y trydydd Llun o Chwefror; Gwener cyn 12fed o Fai; 27 o Mehefin; 2 o Hydref; a'r 6ed o Ragfyr. Y mae yr is-lys gwladol yn cael ei gynal yma. Cynnwysa y plwyf, y dref, a'r terfynau oll, 712 o erwau. Gwerth ardrethol, 2906*p*. Poblogaeth, 1110. Tai, 226. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 204*p*., ac yn nawddogaeth T. Thomas, Ysw. Y mae yr is-ddosparth yn cynnwys, plwyfi Buallt, Llanganten, Llanynys, Maes-Mynis, Llanddoewe-rwym, Alltmawr, Llangynog, a Cerig-cadarn; y rhan fwyaf o Gwenddwr; a rhanau o Lanafan-Fawr, a Llanfihangel-Bryn-Pabuan; yn nghyd a phlwyf Llanelwedd, yr hwn sydd yn etholiadol yn sir Faesyfed. Erwau, 31,789. Poblogaeth, 3444. Tai, 641. Y mae y dosparth yn cynwys hefyd is-ddosparth Colwyn, yn cynwys plwyfi Dyserth, Llandrindod, Llansantffraid yn Elfel, Cregina, ac Aberedwy, a chapeloriaethau plwyfol Betws-Dyserth, Rhylen, Llanfareth,

Digitized by Google

a Llanbadarn-y-Garreg, oll yn etholiadol yn sir Faesyfed; yn nghyd ag is-ddosparth Abergwessyn, Llanfihangel Abergwessyn, Llangamarch, Llanlleonfel, Llanafan-Fechan, a rhanau o blwyfi Llanafan-Fawr a Llanfihangel-Bryn-Pabuan. Yr oedd trethi tlodion yn 1866 yn 5528*p*. Poblogaeth yn 1861, 8305. Tai, 1533. Yr oedd y lleoedd o addoliad yn 1851, fel y canlyn; Eglwys Loegr, 26; gyda 3050 o eisteddleoedd. Annibynwyr 12, gyda 1101 o eisteddleoedd. Trefnyddion Calfinaidd 5; Bedyddwyr 5; Methodistiaid Gwreiddiol 1. Y mae yma nifer o ysgolion dyddiol, a Sabbathol. Y mae y cantref yn cynwys ugain o blwyfi. Erwau, 97,607. Poblogaeth, 6492. Tai, 1208.

**LLANFAIR-YN-NEUBWLL**, sydd blwyf yn nosparth, a swydd FON, yn agos i'r Fael-lif, gerllaw gorsaf y Fael-lif, neu y *Valley*, ar reilffordd Caerlleon a Chaergybi, 5 milltir de-ddwyreiniol o Gaergybi. Y llythyrfa yw Caergybi. Erwau 1279, o'r hyn y mae 220 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 857*p*. Poblogaeth, 357. Tai, 79. Y mae y tiroedd yn cael eu rhanu rhwng amryw. Y mae y lle yn cael ei enw oddiwrth ddau lyn, neu byllau, gerllaw yr eglwys, yr hon sydd yn gysegredig i St. Mair. Y mae y golygfeydd yn y gymydogaeth hon yn darawiadol iawn. Y fywioliaeth eglwysig sydd yn is-beriglor-iaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Rhoscolyn, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys yn adeilad dda, a rhai darnau o honi, yn ymddangos yn henafol.

**LLANFAIR-YN-NGHORNWY**, sydd blwyf yn nosparth, a swydd FON; yn agos i feisfor Cemlyn, 7¼ milltir gogledd-orllewinol o orsaf rheilffordd Llanerchymedd, a 7¼ gogledd-ddwyrain wrth ogledd o Gaergybi. Llythyrfa dan Gaergybi. Erwau, 2135. Gwerth ardrethol, 1718*p*. Poblogaeth, 293. Tai, 58. Y mae y plwyf hwn yn eang, ar ochr ogledd orllewinol yr ynys, gyferbyn a'r Ysgeris. Tybir iddo gymeryd yr enw oddiwrth agweddiad celfachog glan y môr sydd yn derfyn iddo. Llan-Sant-Mair, yn "nghorwel-wy;" neu yr wy-cornelog. Y mae yma gloddfa o faen marmor lliwiedig o'r fath brydferthaf, ac yn cymeryd ei gaboli yn ddysglaer iawn; ac y mae haenau llinynol o "asbestos" sidanaidd, mewn rhai manau rhwng y marmorau. Ystyrir eu bod yn rhagori ar oreuon yr Eidal. Y mae y Monachdy yn hen balas o gryn enwogrwydd: bu yma fonachlog, fel y bernir, a godid gan Llewelyn ab Gryffydd, yr hon a gyflwynai ef, fel rhan o'r gwaddol perthynol i abad-dy Abercynwy; yr hyn a awgrymir yn enw y lle, ac a gadarnheir oddiwrth y ffaith o fod y lle yn rhydd oddiwrth ddegwm. Y mae Castell Ronyn neu Bodronyn, o fewn hen wersyllfa Frytanaidd, a feddienid unwaith gan Daniaid. Y mae o fewn y terfynau dri o feini hirion, neu "Feini y Cawri," o fewn tua chwe chan llath, yn driongl oddiwrth eu gilydd; ac yn gyfagos iddynt y mae olion y "Castell Crwn," yn cael ei gylchynu gan ffos-werthyrfa. Y mae yr eglwys yn adeilad henafol, gyda thŵr cadarn. Y mae yma gofadeiliau am deuluoedd Williams, o'r Friars, meddianwyr y Caerau. Yma, yn y fynwent, y gorphwys gweddillion Evan Thomas o'r Maes, yr hen feddyg esgyrn, hunan ddysgedig dieilfydd. Yma y gorphenodd y Cymro gwladgarol, y Canon Williams, ei yrfa, wedi bod yn beriglor y plwyf am dymor maith. Y mae y fywioliaeth, yn is-berigloriaeth barhaol, mewn cysylltiad a pherigloriaeth Llanddeusant. Gwnaed rhai cyfnewidiadau yn nhrefniant y plwyfydd hyn, ar farwolaeth y periglor diweddaf.

**LLANFAIR-YN-Y-CWMMWD**, sydd blwyf yn nosparth Caernarfon, yn swydd FON; gerllaw afon Braint, 2 filltir gogledd-ddwyrain wrth ogledd o Niwbwrch, neu Rhos Fair, a 3¼ de-orllewin o orsaf rheilffordd Cysswllt y Gaerwen. Llythyrfa, Niwbwrch dan Fangor. Erwau, 166. Poblogaeth, 57. Tai, 8. Y mae y fywioliaeth yn is-berigloriaeth barhaol, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llanidan, yn esgobaeth Bangor.

**LLANFALLTEG**, sydd blwyf yn nosparth Narberth, yn siroedd PENFRO a CHAERFYRDDIN; ar yr afon Taf, ac ar reilffordd y Deheubarth, yn agos i orsaf rheilffordd Narberth, 4 milltir gogledd-ddwyrain wrth ogledd o Narberth. Erwau yn nghyfran Penfro 418, yn Nghaerfyrddin 1448. Gwerth ardrethol y cyfan, 1775. Poblogaeth y cyntaf 66, yr olaf 287. Tai, 12, a 70. Amrywiol feddianwyr tiroedd. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 205*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mallteg, ac yn adeilad da.

**LLANFANOS**, a elwir hefyd, LLANFAENOR, capeloriaeth yn mhlwyf Llangattwg Feibion Afel, swydd FYNWY; 6¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o orsaf rheilffordd Mynwy. Is-berigloriaeth wastadol yw y fywioliaeth eglwysig, mewn cysylltiad â Ficeriaeth Llangattwg Feibion Afel, yn esgobaeth Llandâf.

**LLANFAPLEY**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref ABERGAFENNI, swydd FYNWY, ar lan yr afon Trothy, 4 milldir i'r dwyrain o orsaf rheilffordd Abergafenni. Llythyrfa, Abergafenni. Mesura 819 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1345*p*. Poblogaeth, 156. Tai annedd, 31. Y mae y tir yn adranedig rhwng llaweroedd. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 231*p*. Noddwr, Iarll Abergafenni. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Sant Mapley.

**LLANFARETH**, neu LLANFAREDD, plwyf yn undeb BUALLT, cantref COLWYN, swydd MAESYFED; ar fin yr afonydd Fareth, ac Wysg, ddwy filldir i'r dwyrain o orsaf rheilffordd Buallt. Derbyniodd y plwyf ei enw oddiwrth agosrwydd yr eglwys i'r afonig Fareth, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Wysg ychydig bellder oddiwrth yr adeilad. Yr afon Wysg sydd yn gwahanu y plwyf oddiwrth swydd Frycheiniog. Y mae yn blwyf lled fawr, canys cynnwysa 2245 o erwau; gwerth ardrethol, 1104*p*.; poblogaeth, 155; tai, 25. Mae y tir yn fryniog, a rhai o'r bryniau yn lled uchel a serth. Ceir porfa ragorol i ddefaid ar y tiroedd uchel hyn, ac y mae rhai o'r diadellau wedi magu rhywogaethau campus. Mae y tir yn y parthau isel yn dra ffrwythlawn, ac amaethwyr yw y nifer fwyaf o'r trigolion. Croesir y rhan ogleddol o'r plwyf gan y brif-ffordd o Fuallt i Faesyfed Newydd. Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn gysylltiedig â rectoriaeth Aberedw, ac yn perthyn i esgobaeth Tyddewi. Adeilad fechan, mewn sefyllfa wael, yw eglwys y plwyf, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Mair. Y mae tlodion y plwyf hwn yn gydgyfranog â thlodion Aberedw, a Llanbadarn y Gareg, mewn ardreth o 12*p*. oddiar fferm a adawyd mewn cymmunrodd gan Mrs. Gwynne.

**LLANFAWR**, neu LLANFOR, pentref, a phlwyf yn undeb y BALA, cwmmwd Is TRYWERYN, cantref PENLLYN, MEIRIONYDD. Saif y pentref ar yr afon

Digitized by Google

Dyfrdwy, gerllaw ei hymarllwysiad o Lyn Tegid, ac nid neppell oddiwrth reilffordd Corwen, Bala, a Dolgellau; un filldir i'r gogledd-ddwyrain o'r Bala. Cynhelir ffeiriau yn mhentref Llanfor ar y 14eg o Awst, a'r 20fed o Fedi. Mae y plwyf, yr hwn sydd wyth filldir o hyd, ac oddeutu yr un faint o lêd, yn cynnwys trefgorddau Bettws, Cil talgarth, Garn, Llan, Nant lleidiog, Penmaen, Rhiwaedog-Is afon, Rhiwaedog-Uwch afon, ac Ucheldre. Erwau, 20,030. Gwerth ardrethol, 8235*p*. Y boblogaeth yn 1851 oedd 1719; erbyn 1861 yr oedd wedi lleihau i 1531. Tai, 308. Perthyna y rhan fwyaf o'r tir i deulu y Rhiwlas. Hen adeilad urddasol yw y palasdy hwn, a saif yn nghanol rhodfeydd dymunol, y rhai a ddyfrheir gan ffrwd furmurol cornant y Tryweryn, yr hon a lifeiria i'r Ddyfrdwy. Bu teulu urddasol y Rhiwlas yn dda wrth dlodion y plwyf hwn erioed, ac y mae i'r hen wehelyth, gynnrychiolydd teilwng yn mherson y perchennog presennol, R. J. Lloyd Price, Ysw. Yn y flwyddyn 1774, yr ydym yn cael ddarfod i William Price, Ysw., adael cymmunrodd o 800*p*. at gynnaliaeth tri henafgwr, a thair henafwraig yn y plwyf, 200*p*. at ddilladu y tlodion, a 100*p*. i brynu bara, ac y mae llog y symiau hyn yn cael ei ddefnyddio yn ol ewyllys y testamentwr. Mrs. Margaret Price hefyd, aelod arall o'r un teulu cymmwynasgar, a adawodd 100*p*. i ddilladu y tlodion, y rhai hefyd a fwynhânt ffrwythau cymmunroddion llai, mewn arian a thiroedd, fel, mewn gwirionedd, na ddylai fod llawer iawn o galedi yn eu mysg. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Ei gwerth yw 306*p*., ac Esgob Llanelwy yw y noddwr. Mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Deiniol Sant, yn adeilad henafol, yn yr arddull Seisnig boreuol; cafodd y gangell ogleddol, yn ol argraff sydd ar y mur, ei chodi yn 1599, ar draul R. Price, Ysw., Rhiwlas; a chynnwysa amryw gof-feini i'r teulu. Oddiar Foel Llan, uwchben y pentref, ceir golwg hardd ar ddyffryn Penllyn, y Ddyfrdwy yn ymdroelli drwyddo, a Llyn Tegid yn huno yn ddiogel yn nghysgodion yr Aran a'r Arenig. Ar y llaw aswy, canfyddir Rhiw-waedog, lle yr ymladdwyd brwydr rhwng Llywarch Hen a'r Saesoniaid, yn yr hon y collodd y penaeth enwog, yr olaf o'i feibion, sef Cynddelw. Dywedir fod Mor, sant gwarcheidiol y plwyf, yn frawd i Gwrwst Ledlwm, hen-daid Llywarch Hen. Pa fodd bynag am hyny, gellir casglu fod y bardd a'r milwr enwog, yn meddu rhyw gyssylltiad agos â'r plwyf, canys y mae yno hyd heddyw, lanerch a elwir "Pabell Llywarch Hen," lle y bu efe, yn ol pob tebyg, yn trigo am ryw ysbaid ar ol y frwydr drychinebus, ac y cyfansoddodd efe ei alarnad deimladwy ar ol ei bedwar mab ar hugain. Nodir y fan gan gylch o geryg. Bu farw yr hen wron, oddeutu y flwyddyn 646, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 150 mlwydd, ac yn eglwys Llanfor y claddwyd ef.

**LLANFECHAN**, pentref a phlwyf yn undeb LLANFYLLIN, swydd DREFALDWYN, a elwir weithiau yn LLAN-YN-MECHAIN. Saif y pentref ar yr afon Cain, gerllaw rheilffordd Llanfyllin, a thair milldir a hanner o dref Llanfyllin; a pherthyna iddo orsaf fechan ar y rheilffordd hon. Saif y plwyf yn nghanol dyffryn prydferth, yn y pen gogledd-ddwyreiniol i'r sir, a chynnwysa drefgorddau Bodyfol, Tre'rllan-isaf, Tre'rllan-uchaf, Tre-lys, ac Ystumgynnon. Erwau, 4462; bron yr holl dir wedi ei gau i mewn dan ddarpariadau deddf seneddol a gaed yn 1789, ac wedi ei amaethu yn rhagorol. Gwerth trethadwy, 4392*p*. Y boblogaeth, 649. Tai, 141. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Ei gwerth yw 530*p*., ac esgob Llandaf yw y noddwr. Y mae gan Eglwys Loegr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Wesleyaid, leoedd i addoli ynddynt. Mwynha tlodion y plwyf log bychan, oddiwrth gymmunroddion a adawyd er eu budd, mewn blyneddoedd a aethant heibio. Sefydlwyd yma ysgol rad yn y flwyddyn 1832, gan y Parch. Thomas Griffith, is-beriglor y plwyf, a diau i sefydliad o'r fath wneuthur llawer iawn o ddaioni. Heb fod yn neppell oddiwrth yr eglwys, ac yn ymyl y ffordd fawr, y mae olion hen wersyll Prydeinig, a cheir olion un arall uwchben y Bryngwyn, ond nid oes ar glawr hanesiaeth unrhyw grybwylliad am y naill na'r llall. Mae yn y gymmydogaeth amryw wersylloedd Prydeinig ereill, a thybiai Edward Llwyd, oddiwrth enw un o honynt, Moel Dinam, mai yr un ydoedd a Mediolanum y Rhufeiniaid. Eithr nid oes gwell sail i hyn na dychymyg yr henafiaethydd hyglod. Mae yn y plwyf amryw hen balasdai, y rhai a fuont gynt yn drigias teuluoedd o urddas. Ond yr hyn sydd wedi gosod anfarwoldeb ar y plwyf, ydyw mai ynddo y ganwyd y prif-feirniad, y Parch. Walter Davies, M.A. (Gwallter Mechain), yr hwn ar gyfrif ei ddysgeidiaeth, ei dalentau, a'i wybodaeth, a wnaeth iddo ei hun enw a bery, tra "Cymro, Cymru, a Chymraeg."

**LLANFECHAN**, trefgordd yn mhlwyf TREGYNON, MALDWYN, bedair milldir a chwarter i'r gogledd o'r Drefnewydd. Gwerth ardrethol, 2880*p*. Poblogaeth, 237.

**LLANFECHAN**, trefgordd yn mhlwyf LLANWRIN, MALDWYN. Saif yn nyffryn Dyfi, dair milldir a chwarter i'r gogledd-ddwyrain o Fachynlleth. Gwerth ardrethol, 1016*p*.

**LLANFECHAN**, Brycheiniog. Gwel LLANAFAN FECHAN.

**LLANFECHELL**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth a swydd FON. Y mae y pentref yn sefyll, heb fod yn neppell oddiwrth y môr, 5 milltir gorllewin-dde-orllewin o orsaf rheilffordd Amlwch, a 5½ gogledd-orllewin wrth ogledd o Lanerchymedd. Bu y lle unwaith yn dref marchnad. Y mae yma yn awr lythyrfa, dan Fangor; a ffeiriau ar Iau Dderchafael; 5 a 25 o Dachwedd; a 26n o Ragfyr. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd bentref Tregele. Erwau, 3637. Gwerth ardrethol, 1730*p*. Poblogaeth yn 1851, 1085; yn 1861, 958. Tai, 243. Y mae y plwyf yn sefyll ar derfyn yr afon fechan a ymarllwysa i feisfor Cemaes. Y mae tua thair milltir o hyd, a dwy o led, ac y mae yn ymranu yn ddwy gyfran, sef Llanfechell Caerdegog, a Llanfechell llawr y Llan. Y mae y golygfeydd yn amrywiaethol a tharawiadol iawn yma. Y mae tri o feini hirion, tua milltir yn orllewinol o'r eglwys, ag sydd yn hywel iawn: tua deg troedfedd o uchder, ac oddeutu deuddeg oddiwrth eu gilydd; bernir yn gyffredin, mai pileran cromlech fawr oeddynt ar y cyntaf, ond i honno gwympo, a chael ei dryllio. Gelwir yr amaethfa, ar dir pa un y mae y pilerau, "Cromlech," hyd heddyw, yr hyn sydd yn cadarnhau y dyb. Y mae ar amaethfa y Maes mawr, farmor, o'r fath oreu, o ran caledwch, prydferthwch, a gloewder. Yr oedd Llanddugwel yn blwyf, gynt ar wahan, ond mewn cysylltiad a'r plwyf hwn; erbyn hyn, y mae yr adeilad, sef yr hen eglwys wedi ei cholli, a'r meini, yn gystal a phridd y fynwent, wedi eu defnyddio at ddybenion amaeth-

Digitized by Google

yddol yn y gymydogaeth. Y mae nifer o waddolion yn perthyn i'r plwyf, er budd i'r tlodion. Sefydlwyd yma ysgol blwyfol yn 1723, gan Richard Wynne, Ysw., yr hwn a'i gwaddolodd âg ardreth Nantglyn, yn mhlwyf Amlwch, ac y mae y breintiau yn perthyn i'r plwyf hwn, a Llanbadrig, fel y mae yr addysg yn rhad. Y mae ffynhonell fwnyddol yn gyfagos i'r Cefn-coch, yn y plwyf hwn, ag sydd o rinweddau iachusol. Cafodd yr eglwys ei chysegru i Sant Mechell. Y mae ychydig o anghysondeb yn rhai o'r cofnodau am y sant hwn, yn gymaint a bod merch i Brychan Brycheiniog, yr hon oedd yn blodeuo yn y bumed ganrif, yn gwisgo yr un enw. Yr oedd y sant hwn yn byw yn y seithfed ganrif. Ysgrifenid ei enw weithiau yn Mechydd, bryd arall Machudd. Efe ydoedd fab i Echwydd, mab Gwyn Gohoew. Sylfaenodd yr eglwys hon, ag yr oedd yma ar y cyntaf, goleg i gant o saint. Claddwyd ef yn mynwent Penrhos Llugwy, ac yr oedd yno feddfaen, hyd yn ddiweddar, a'r argraph canlynol arno, "Hic jacet Macerg Ecceti." Cynhelid ei ddydd gwyl ef Tachwedd 15fed. Y mae y fywioliaeth yn beriglor-iaeth, yn esgobaeth Bangor. Y mae yma amryw addoldai ymneillduol; ac y mae mynwent helaeth mewn cysylltiad âg addoldy yr Annibynwyr. Y mae i'r Methodistiaid un capel yn y pentref, mewn lle cyfleus; ac un arall ar ganol Mynydd Mechell.

**LLANFEDW**, treflan yn mhlwyf *Michaelstone Fedw*, swydd FYNWY; 6 milldir i'r De Orllewin o'r Casnewydd. Gwerth ardrethol, 1962*p*. Poblogaeth, 293. Y mae yma ddau hen balas a berthynent i hen deuluoedd urddasol gynt; sef Ruperrah, a Chefn Mabli; y cyntaf sydd adeilad petrual o feini; ac yn perthyn i Arglwydd Tredegar. Adeiladwyd y tŷ hwn yn ol cynlluniau yr arch-adeiladydd enwog Inigo Jones. Cefn Mabli a berthynai i hen deulu Kemeys Tynte. Yn adeg y Rhyfel Cartrefol, cyfododd Syr Nicholas Kemeys, un o'r teulu yma, fil o wŷr yn Morganwg, ac a ymunodd â'r Breninolwyr; ond fe'u gorchfygwyd gan wŷr Cromwell, yn mrwydr St. Ffagan, yn y flwyddyn 1648. Yna efe a enciliodd i gastell Gwent, (*Chepstow*), yr hwn a amddiffynodd gyda dewrder mawr dros dair wythnos, hyd oni thorwyd adwy yn y mur, gan gyflegrau mawrion y Milwriad Pride; yr hwn a enillodd yr amddiffynfa drwy y moddion hwnw; a dywedir fod Syr Nicholas wedi ei roddi i farwolaeth mewn modd tra chreulawn gan wŷr y Senedd.

**LLANFEDDIGED**, trefgordd yn mhlwyf LLANGELYNIN, MEIRIONYDD; bedair milldir a chwarter i'r gogledd o Dowyn. Poblogaeth, 98.

**LLANFERES**, pentref, a phlwyf, yn undeb RHUTHYN, cantref IAL, swydd DINBACH; ar yr afon Alun, bedair milldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd yr Wyddgrug, a phum milldir a hanner i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Ruthyn. Erwau, 3754. Gwerth ardrethol, 5466*p*., o'r hyn y mae 3000*p*. mewn mŵnau. Poblogaeth, 754. Tai, 156. Cafodd y lle ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Sant Berres, dysgybl enwog, ac olynydd Sant Martin yr Hungariad, esgob Tours, oddeutu diwedd y bedwaredd ganrif. Llifa yr afon Alun drwy y plwyf, ac ychwanega yn ddirfawr at ei brydferthwch; ceir golwg darawiadol ar dref Rhuthyn, a dyffryn yr Alun, oddiar drum o fryniau i'r dehau o'r pentref. Cafodd mil ac wyth cant o erwau anniwylliedig yn y plwyf, eu cau i mewn dan ddeddf seneddol, a basiwyd yn 1793. Mae yn y plwyf lawer o drysorau mwnawl, yn enwedig gweithfeydd plwm eang, y rhai a ddarganfyddwyd yn fore iawn. Buont am hir amser yn cael eu hesgeuluso, neu o leiaf eu gweithio yn hynod ddiyni; ond dechreuwyd eu gweithio ar gynllun tra eang yn 1762, a pharhasant felly, gan dalu eu ffordd yn dda, hyd y flwyddyn 1790, pan y rhoddwyd hwynt i fyny drachefn. Gadawyd hwynt yn y cyflwr isel hwn hyd y flwyddyn 1828, pryd y cymmerodd cwmni newydd y gwaith mewn llaw, gan yru lefelydd newyddion i'r mynydd, cloddio pydewau, a chodi peiriannau newyddion, i ddwyn ymlaen y gwaith yn effeithiol. Gwobrwywyd yr ysbryd anturiaethus hwn a gradd helaeth o lwyddiant, a buan y daeth y gwaith i ddwyn elw aruthrol i'w berchennogion. Rectoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, ond yn nawddogaeth Esgob Llandaf, yw y fywioliaeth eglwysig, a'i gwerth yw 313*p*. Perthyna gwerth oddeutu 20*p*. o elusenau blyneddol i'r plwyf. Brodor o'r plwyf hwn oedd y Parch. John Davies, D.D., neu y Dr. Dafis o Fallwyd, awdwr y Grammadeg Cymraeg, a'r Geiriadur Lladin a Chymraeg, a gyhoeddwyd yn 1632. Bu ef farw yn 1644, gan adael enw a bery, fel ysgolhaig, a duwinydd o'r radd flaenaf.

**LLANFETHERIN**, plwyf yn undeb ABERGAFENNI, swydd FYNWY; ar yr afon Trothy, 3¾ milldir i'r de-ddwyrain wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanfihangel, a 4½ milldir i'r gogl.-ddwyr. wrth ddwyrain o Abergafenni. Erwau, 2153. Gwerth ardrethol, 2575*p*. Poblogaeth, 222. Tai, 43. Rectoriaeth, yn esgobaeth Llandâf yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 260*p*., ac yn nawddogaeth Iarll Abergafenni.

**LLANFEUGAN**, neu LLANFIGAN, plwyf yn undeb ABERHONDDU, cantref PENCELLI, swydd BRYCHEINIOG. Saif ar gamlas Aberhonddu, gerllaw yr afon Wysg, ddwy filldir i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Talybont, a phedair milldir i'r de-ddwyrain o Aberhonddu. Cynnwysa dreflanau Pencelli a Glyn Collwyn. Safai hen gastell Pencelli yn y pentref, oddeutu chwarter milldir i'r dwyrain o'r eglwys, eithr nid oes gareg ar gareg o hono yn sefyll yn bresennol. Nid yw yn hysbys pa bryd, na chan bwy, yr adeiladwyd ef gyntaf, ond yn yr wythfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Iorwerth y Cyntaf, perthynai i Roger Mortimer, yr hwn yn y flwyddyn hono a wysiwyd i'r Senedd dan y teitl o Farwn Mortimer o Gastell Pencelli. Sonir am dano hefyd gan Leland, yr hwn a ddywed ei fod yn ei amser ef yn meddiant Herbertiaid, rhwng y rhai a Duc Buckingham, yr oedd arglwyddiaeth Pencelli yn rhanedig. Yr oedd hen balasdy yr Herbertiaid, yn sefyll ar lanerch y castell; y mae yr adeilad wedi cael ei adgyweirio mor fynych, fel mai prin y gellir dyweyd mai yr un adeilad yw yr un presennol a'r hen balasdy. Amaethwyr yw y rhan fwyaf o'r trigolion, ond y mae rhai o honynt yn fŵnwyr. Perthyna gwerth 42*p*. o elusenau i'r plwyf, yr hwn a dderbynia ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Sant Meugan, yr hwn, os oes coel ar Iolo Morganwg, oedd yn athraw i Myrddin Emrys, ac yn enwog ei hun fel bardd. Ceir yn y fynwent y coed yw goreu yn y Deheudir; y mae un ywen, yn mesur 29 troedfedd o'i hamgylch. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, mewn cyssylltiad â chapeliaeth y Glyn, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 580*p*., a'r Parch. John Price yw y noddwr. Erwau, 12,642. Gwerth ardrethol, 4664*p*. Poblogaeth, 674. Tai, 146.

**LLANFIHANGEL**, gair Cymraeg, yn arwyddo "eglwys St. Michael," ac yn cael ei gymhwyso at

Digitized by Google

leoedd y mae, neu yr oedd eglwys wedi ei chyssegru i Michael, yr arch angel.

**LLANFIHANGEL**, treflan yn mhlwyf LLANFIHANGEL-BRYN-PABUAN, BRYCHEINIOG; ar yr afon Wye, bum milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o Buallt. Erwau, 3395. Poblogaeth, 246. Tai, 54.

**LLANFIHANGEL**, treflan yn mhlwyf TALLEY, swydd GAERFYRDDIN, bum milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o Langadoc. Poblogaeth, a chyfrif Cilwi, 253.

**LLANFIHANGEL**, gorsaf rheilffordd yn swydd MYNWY; ar reilffordd Henffordd ac Abergafenni, un filldir i'r de-dde-orllewin o Llanfihangel-Crucorney, a phedair milldir i'r gogledd-wrth-ddwyrain o Abergafenni.

**LLANFIHANGEL**, gorsaf rheilffordd yn swydd ABERTEIFI; ar reilffordd Aberystwyth ac Arfordir Cymru, yn mhlwyf Llanfihangel-geneu'r-glyn, bedair milldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Aberystwyth.

**LLANFIHANGEL-ABERBYTHYCH**, plwyf yn nghantref ISCENNEN, undeb LLANDEILO FAWR, swydd GAERFYRDDIN; ar yr afon Tywi, gerllaw ymarllwysiad y Fythie, ac ar reilffordd Caerfyrddin a Llandeilo Fawr, dair milldir i'r de-orllewin wrth orllewin o Landeilo Fawr. Cynnwys dreflanau Llan, Berach, Bryngwyne, Callifer, Cathargoed, Cathilas, Cilygernant, a'r Glyn. Erwau, 6036. Gwerth ardrethol, 4226*p*. Poblogaeth, 824. Tai, 192. Perthyna y plwyf i arglwyddiaeth Cydweli, a ffurfia ran o Ddugiaeth Lancaster. Ceir digonedd o galchfaen yn y gymmydogaeth, yr hwn a gludir gan y rheilffordd fel gwrtaith i bob rhan o'r wlad. Y lleoedd mwyaf dyddorol yn yr ardal, ydynt Golden Grove, Castell y Dryslwyn, a Chastell Dynefwr. Yn Golden Grove y preswyliai y Fychaniaid, Iarllod Carberry, ond eiddo Iarll Cawdor ydyw yn bresennol. Pan oedd Oliver Cromwell ar ei daith i warchae Castell Penfro, efe a groesodd y wlad yn ddirybudd, ac a ddaeth i Golden Grove gyda mintai o feirchfilwyr, gan feddwl dod ar warthaf Risiard Iarll Carberry, pleidiwr pybyr i'r brenin, ac yntau yn ammharod, a thrwy hyny ei gymmeryd yn garcharor. Ond clywodd yr iarll am ei ddynesiad, ac aeth mewn brys i ymguddio mewn amaethdy neillduedig rhwng y bryniau. O herwydd ei leisteirio yn ei amcan, celodd Cromwell ei fwriadau, ac wedi ciniawa o hono gydâ'r iarlles, efe a adnewyddodd ei ymdaith tua Phenfro. Tynwyd yr hen balasdy i lawr gan Iarll Cawdor, yr hwn a gododd adeilad harddach a helaethach yn ei le. O'r palasdy hwn ceir golwg ysblenydd ar y dyffryn hardd, o Gaerfyrddin i Lanymddyfri. Ychydig yn y pellder gwelir Bryn y Grongar, yr hwn sydd wedi ei anfarwoli gan awen swynol y bardd Seisnig John Dyer, un o'r llanerchau hyny sydd fel wedi eu bwriadu gan y Creawdwr i ogleisio awen, ac i ysbrydoli beirdd. Boddheir y llygaid hefyd â golwg ar adfeilion urddasol Castell Dinefwr, hen gartref Tywysogion y Deheubarth, yr hwn a fu am oesau megis ymgorfforiad o holl urddas ac anhyblygrwydd dewrwych y genedl Gymroaidd. Nid yw yn syndod fod neillduedd tawel y fro brydferth, wedi bod yn noddfa gydnaws â'u hanianawd i liaws o blant athrylith. Yn ystod uwchafiaeth Cromwell, bu yr anfarwol Jeremy Taylor, D.D., caplan Siarl y Cyntaf, ac wedi hyny, Esgob Down a Connor yn yr Iwerddon, yn treulio amryw flyneddoedd yn Golden Grove, dan nawdd ac amddiffyn y teyrngarol Iarll Carberry, i'r hwn y cyflwynodd efe liaws o'i weithydd. Mae yn y plwyf weddillion hen wersyll Prydeinig, mewn sefyllfa lled dda, ac yn y graig galch y mae ogof, yn yr hon y darganfyddwyd esgyrn dynol. Y mae amryw garneddau hefyd yn tystiolaethu am wersylliad yr Hen Gymry yn y gymmydogaeth. Nid oes dim yn galw am sylw yn eglwys y plwyf, heblaw careg yn mynegi iddi gael ei hadeiladu yn 1617 gan Syr John Vaughan, Marchog, Dystain y Llys i Siarl y Cyntaf, ac adgyweiriwyd hi yn 1753 gan ei ddisgynydd, yr Anrhydeddus John Vaughan, cynnrychiolydd swydd Gaerfyrddin yn y Senedd. Is-berigloriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, yw y fywioliaeth, gwerth 72*p*., ac yn nawddogaeth Iarll Cawdor.

**LLANFIHANGEL-ABERCOWIN**, pentref a phlwyf yn y pen uchaf i gantref DERLLYS, undeb a swydd CAERFYRDDIN. Saif y pentref ar yr afon Taf, gerllaw ymarllwysiad yr afon Cowyn, neu Cywyn, ddwy filldir i'r gogledd o Lacharn, a thair i'r de-dde-ddwyrain o orsaf rheilffordd St. Clear's. Y mae yn bentref o gryn faint, ac yn cynnal ffeiriau ar y 12fed o Fai, a'r 10fed o Hydref. Y mae yn y plwyf dreflan arall, o'r enw Pentre. Erwau, 5180. Gwerth ardrethol 6555*p*., o'r hyn y mae 110*p*. mewn chwarelau. Poblogaeth, 893. Tai, 187. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorlaeth, yn gydiol â ficeriaeth Mydrim, yn esgobaeth Tyddewi. Perthyna i'r plwyf werth 10*p*. o elusenau blynyddol.

**LLANFIHANGEL-ABERGWESYN**, plwyf, yn cynnwys pentref bychan, yn nghantref BUALLT, BRYCHEINIOG; ar yr afon Irfon, gerllaw ymarllwysiad yr afonig Gwesyn, dan fynydd Drugarn, ddeuddeng milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Buallt. Erwau, 6836. Gwerth ardrethol, 652*p*. Poblogaeth, 355. Tai, 56. Prif balasdy y gymmydogaeth, yw Llwyn Madog. Corsdir, a mynydd-dir yw y rhan fwyaf o'r plwyf. Y penaf o'r mynyddoedd yw y Drugarn, uchder yr hwn sydd yn 2071 o droedfeddi. Codir llechi a mŵn plwm yma. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, yn gyssylltiedig â Llanddewi-Abergwesyn, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 189*p*., ac Esgob Tyddewi yw y noddwr. Adeiladwyd eglwys newydd yn Llwyn Madog, yn 1867. Elusenau, 13*p*.

**LLANFIHANGEL-AR-ARTH**, neu IEROTH, pentref a phlwyf yn nghantref CATHINOG, undeb CASTELLNEWYDD EMLYN, swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref ar yr afon Teifi, ar dueddau Ceredigion, gerllaw gorsaf rheilffordd Pencader, 12 milldir i'r dwyrain o Gastellnewydd. Cynhelir ffeiriau yn y pentref hwn ar y 12fed o Fai, a'r 10fed o Hydref. Mae y plwyf hefyd yn cynnwys treflanau y Blaenau, Cwm-marles, Gwyddil, Gwyddgrug, Pencader, a'r Frô. Erwau, 15,993. Gwerth ardrethol, 6507*p*. Poblogaeth yn 1851, 1886; yn 1861, 1795. Tai, 419. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 150*p*., ac yn nawddogaeth Meistri T. Elliott, W. P. Lewis, a W. O. Brigstoke. Saif yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Sant Michael, ar fryn uwchben y Teifi, ac yn y fynwent y mae coffaen Rhufeinig, yn dwyn yr argraff, *"Hic jacet Ulcacinus Filius Senomacili."* Sonia Giraldus Cambrensis am frwydr galed a gymmerodd le yn y plwyf hwn, rhwng Hywel a Gruffydd ab Llewelyn, yn 1039, pan y dygodd Hywel ei wraig i'r maes, i fod yn llygad-dyst o'r oruchafiaeth a ddysgwyliai. Pa fodd bynag, ei orchfygu a gafodd Hywel, a'i orfodi i ddiange, ond buan y goddiweddwyd ef gan y gorchfygwr, a chymerwyd ef a'i briod yn garcharorion. Dywed yr un hanesydd, ddarfod i Rhys ab Gruffydd

Digitized by Google

ymweled a Harri yr Ail yn yr un lle, yn 1162, pan yr ymostyngodd efe yn ffurfiol i awdurdod teyrn Lloegr. Gerllaw y pentref, y mae olion hen wersyll, yr hwn, yn ol pob tebyg, a ffurfiwyd gan Hywel, yn ei ymladdfa â Gruffydd yn 1039. Ar lanau y Teifi, ar derfynau plwyf Llanllwni, y mae arglawdd uchel, ond nid oes dim o'i hanes ar gael.

**LLANFIHANGEL-BACHELLAETH**, plwyf yn nghantref GAFLOGION, undeb PWLLHELI, LLEYN, swydd GAERYNARFON. Saif y plwyf hwn yn y pen de-orllewinol i'r sir, bron yn nghanol Lleyn, bum milldir i'r gorllewin wrth ddc o orsaf rheilffordd Pwllheli, a phedair milldir i'r de wrth ddwyrain o Nefyn. Erwau, 2915. Gwerth ardrethol, 1881*p*. Poblogaeth, 312. Tai, 63. Yr arwynebedd sydd dra anwastad, ond y mae y rhan fwyaf o'r tir wedi ei gau i mewn, ac yn cael ei drin a'i amaethu yn dda. Y gwrthddrych mwyaf nodedig yn y plwyf hwn yw y dalgraig enwog, Carn Fadryn, yr hon sydd dros ddeuddeg can troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr. Yr oedd Carn Fadryn yn un o amddiffynfeydd cadarnaf Rhodri, a Maelgwyn, meibion Owain Gwynedd; ac iddynt hwy y perthynai y parth yma o'r wlad. Ar lethrau y mynydd, ac oddeutu ei droed, y mae sylfaeni amryw adeiladau hirgul, hirgrwn, a chylchog, yn amrywio mewn maintioli, rhwng 18 ac 36 troedfedd o drawsfesur. Bernir mai y rhai hyn oedd annedddai y brodorion pan yrid hwynt yno, hwynt hwy a'u diadelloedd, mewn canlyniad i ryw amgylchiad disymwth, canys yr oedd Carn Fadryn yn fath o ddinas noddfa i'r cwr yma o'r wlad. Ar gopa y mynydd, yr hwn a amgylchid gan wrthglawdd cadarn, ag sydd mewn rhan yn aros etto, y gwersyllai y penaethiaid a'u lluoedd, i wylio symudiadau y gelyn, ac i ddefnyddio pob cyfle i dori eu cymundeb, a'u blino ymhob rhyw fodd. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth, yn gydiol â pherigloriaeth Llanbedrog, yn esgobaeth Bangor.

**LLANFIHANGEL-BRYNBUGA**, plwyf yn undeb Abergafenni, swydd FYNWY; ar yr afon Wysg, ddwy filldir a hanner i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Nant y deri, a phedair milldir a hanner i'r de-ddwyrain o Abergafenni. Erwau, 385. Gwerth ardrethol, 721*p*. Poblogaeth, 112. Tai, 24. Y fywioliaeth sydd berigloriaeth, gwerth 123*p*., yn esgobaeth Llandaf, ac yn nawdd Syr S. Fludyer, Bar.

**LLANFIHANGEL-BRYN-PABUAN**, neu PAB IOAN, plwyf, yn cynnwys treflanau Llanfihangel, a Rhosfeirig, yn undeb a chantref BUALLT, swydd FRYCHEINIOG; ar reilffordd Llanidloes a Buallt, bum milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o Fuallt. Saif y plwyf mewn rhandir fryniog, yn eithaf gogleddorllewin y sir; terfynir ef ar y gogledd gan yr afon Wy, ac ar y dehau gan yr afon Whefri. Mae y Whefri, yr hon sydd yn tarddu gerllaw Llyn Farhyn, ar fin plwyf Llanwrthwl, ac yn ymarllwys i'r Irfon, yn cynnwys cyflawnder o frithylliaid, y rhai a dra rhagorant ar bysgod yr afonydd cyfagos. Yn ystod y rhyfeloedd seneddol dan deyrnasiad Siarl y Cyntaf, dioddefodd y plwyf hwn yn ddirfawr oddiwrth aflywodraeth y pleidiau gelynol; trowyd yr eglwys yn ystabl, a symudwyd y bedyddfaen i amaethdy, lle y defnyddiwyd ef yn gafn moch; taflwyd y person o'i fywioliaeth, a bu am flyneddoedd yn aros mewn neillduaeth yn mhlwyf Llanafan-fawr; ond yn mhen talm o amser, adferwyd ef iddi. Mae y rhan fwyaf o'r tir wedi ei gau i mewn, a than ddiwylliad rhagorol. Erwau, 4715. Gwerth ardrethol, 917*p*. Poblogaeth, 341. Y fywioliaeth sydd is-berigloriaeth, mewn cyssylltiad â ficeriaeth Llanafan-fawr, yn esgobaeth Tyddewi. Ar dir Parc-ar-Irfon, hen breswylfod y Llwydiaid, y mae tair o ffynnonau mwnawl, ac un o honynt, yn ffynnon halenaidd, ac yn cael ei hystyried gan feddygon gyda'r fwyaf rhinweddol yn y deyrnas, ond nid yw y ffynnon sulphuraidd mor gref a dyfroedd Llanwrtyd. Y mae ystafelloedd cyfleus wedi eu codi uwchben y ffynnonau.

**LLANFIHANGEL-BUGEILDY.** Gwel BEGUILDY.

**LLANFIHANGEL-CASTELL-GWALLTER**, neu LLANFIHANGEL-GENEU'R-GLYN, pentref, mewn rhan yn undeb MACHYNLLETH, ond yn benaf yn undeb ABERYSTWYTH, swydd ABERTEIFI; ar lan y môr, rhwng yr afonydd Dyfi, a Leri, gyferbyn a Sarn-Gwallog, ac ar ffordd Sarn-Helen, a rheilffordd Aberystwyth ac Arfordir Cymru, gerllaw gorsaf Llanfihangel, chwe milldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Aberystwyth. Cynnwysa bentref lled fawr o'r un enw a'r plwyf, ac hefyd drefgorddau Ceulan, a Maesmawr, Cyfoeth y Brenin, Henllys, Cynnullmawr, Tirymynach, a Sgubor y Coed. Erwau 32,825, o ba rai y mae 2680 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 11,673*p*. Poblogaeth yn 1851, 3926; yn 1861, 3979. Tai, 862. Ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 221*p*., ac yn nawddogaeth yr esgob. Bywioliaeth ar ei phen ei hun yw ficeriaeth Eglwys fach. Dyfrheir y plwyf eang hwn gan yr afonydd Leri, Ceulan, Maesmawr, Llyfnant, a Dyfi. Cofnodir i Walter l'Espec, un o'r goresgynwyr Normanaidd, yr hwn oedd wedi dyfod i feddiant o diroedd yn y parth hwn o Gymru, godi castell, gyda'r amcan o ddiogelu ei feddiannau, ar gopa bryn uchel gerllaw yr eglwys; enw yr amddiffynfa hon oedd Castell Gwallter, ac oddiwrthi hi y derbyniodd y plwyf ran o'i enw. Yn y flwyddyn 1135, dinystriwyd y castell, gan Cadwaladr, ac Owain Gwynedd, meibion Gruffydd ab Cynan, y rhai hefyd a ennillasant Gastell Aberystwyth. Yr un gwr oedd Walter l'Espec a Gwallter Hirgledd, sylfaenydd abatty Kirkham. Y mae lle cryf i gasglu mai yn y plwyf hwn y claddwyd Taliesin Ben Beirdd, a'r dybiaeth ydyw, i'w weddillion gael eu dodi mewn cistfaen, ar ben mynydd Pen Sarn Ddu, yr hwn fyth wedyn, a alwyd "Gwely Taliesin." Y traddodiad sydd ar lafar gwlad ynghylch y "Gwely" hwn ydyw, pe cysgai rhywun ynddo am noswaith, yr elai efe un ai yn fardd neu yn lloerig, ac ond odid nad ychwanegai rhai o gellweirwyr rhyfygus y dyddiau gynt, mai yr un fyddai y canlyniadau, fel nad yw o nemawr bwys pa un ai yn fardd, neu yn lloerig y deffroai, mor lleied yw y gwahaniaeth rhyngddynt. Pa fodd bynag, os teimla rhywun ei ddyhewyd barddonol, neu ynte ei chwilfrydedd naturiol, yn ddigon cryf i'w gymmell i roddi prawf gweithredol ar draddodiad y tadau, nid oes genym ond gobeithio y dewisa efe adeg dymmhoraidd i hyny, rhag dygwydd o hono, yn hytrach na chodi i anfarwoldeb awenydd, etifeddu anwyd a pheswch i angeu! Y mae y "Gwely" yn gynnwysedig o chwe careg, pump o honynt wedi eu cyfleu yn y fath fodd fel ag i ffurfio cist hirgul, ac y mae y chweched, y gareg gauad, yr hon oedd dros chwe troedfedd o hyd, a thair a hanner o led, wedi ei symmud, a'i gosod o'r neilldu; saif yn nghanol cylch o geryg, saith troedfedd ar hugain o drawsfesur, yr hwn a gauir i mewn gan gylch arall, 31 troedfedd

o drawsfesur. Bernir mai oddeutu y flwyddyn 570 y bu farw Taliesin, ond y mae yn amlwg fod y gweddillion hyn yn perthyn i gyfnod boreuach, a'r tebygolrwydd ydyw, eu bod o darddiad Derwyddol, fel llawer o olion ereill yn y gymmydogaeth. Y mae traethell nodedig, a elwir Sarn Gynfelyn, neu Gwallog, yn ymestyn o arfordir y plwyf hwn, mewn cyfeiriad de-orllewinol am amryw filldiroedd, i feisfor Aberteifi, ac ar drai, ni bydd ond o un i ddau gwrhyd o ddwfr yn ei gorchuddio, er fod pob man cyfagos yn plymio o dri i saith gwrhyd. Codir mŵn plwm yn y gymydogaeth. Perthyna cryn drafnidiaeth i'r lle, yn enwedig i bentref Carreg, wrth enau y Dyfi, gan fod llongau abl i gludo tri chan tunnell, yn gallu mordwyo yr afon hyd atto. Yn y plwyf hwn y mae Talybont, pentref ar y ffordd rhwng Aberystwyth a Machynlleth, lle yr ymuna dyfroedd y Leri a'r Geulan. Y mae olion darn o hen ffordd Rufeinig, Sarn Helen, yn arwain o'r naill fwnglawdd i'r llall, yn ogystal a gweddillion gorsafoedd a gwersylloedd Rhufeinig, i'w gweled ar amryw o fryniau y plwyf.

**LLANFIHANGEL-CILFARGEN**, plwyf yn y rhan isaf o Gantref Cathinog, undeb Llandeilo-fawr, swydd Gaerfyrddin. Saif ar yr afon Dulas, un o'r ffrydiau sydd yn rhedeg i'r afon Tywi, bum milldir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Llandeilo-fawr.

Hwn a ystyrir y plwyf lleiaf ei faintioli yn y sir, ac nid yw yn cynnwys ond 516 o erwau, a deg o dai. 69 oedd nifer y boblogaeth yn 1831, ac erbyn y flwyddyn 1861 yr oedd wedi lleihau i 58. Gwerth ardrethol y plwyf ydyw 411*p*. Gwerth y rectoriaeth, yr hon sydd yn nawdd Iarll Cawdor, ac yn perthyn i esgobaeth Tyddewi, yw 113*p*.

**LLANFIHANGEL CRUG CORNEU**, plwyf, pentref, ac is-ddosbarth, yn nosbarth Abergafenni, swydd Mynwy. Saif y pentref ar yr afon Monnow, yn ymyl rheilffordd Abergafenni a Henffordd, ar gyffiniau Henffordd, a than fynydd y Skyrrid-fawr, un filldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanfihangel, a 4½ milldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Abergafenni, ac yn meddu llythyrdy dan Abergafenni. Mae y plwyf, yn yr hwn hefyd y mae treflan Penbiddle, yn cynnwys 3264 o erwau, y rhai sydd yn cynnal poblogaeth o 479. Gwerth ardrethol y plwyf, a chynnwys y 215*p*. a osodir ar y rheilffordd, yw 3579*p*. Nifer y tai yw 103. Ficeriaeth yn esgobaeth Llandaf, gwerth 281*p*., yw y fywioliaeth eglwysig, a Thywysog Cymru piau'r nawddogaeth. Perthyna i'r plwyf hwn werth pedair punt o elusenau. Mae yr is-ddosbarth yn cynnwys chwech o blwyfydd ereill hefyd. Erwau, 20,510. Poblogaeth, 1860. Tai, 402. Mae Llanfihangel-Crucorney, trwy ei bod yn sefyll ar ben y nant rhwng y Skyrrid a'r Mynyddoedd Duon, yn ganol-bwynt nodedig o fanteisiol i ymweled â'r wlad oddiamgylch. Ddwy filldir o Lanfihangel, ar ymyl ffordd Henffordd, y mae hen balasdy, a berthynai gynt i deulu yr Arnolds, ond a werthwyd, yn ystod teyrnasiad y Frenhines Anne, i'r Archwilydd Harley, a'i berchennog presennol ydyw yr Anrhydeddus W. Rodney. Mae y llwyni derw a ffawydd sydd o amgylch y ty, yn gosod arno ymddangosiad urddasol, ac y mae y llwyni cauadfrig hyn eu hunain, yn werth myned bellder o ffordd i'w gweled. Dywedir i'r Brenin Siarl y Cyntaf fod yn treulio noswaith yn y palasdy hwn. Ychydig bellder oddiwrtho y mae mynydd Skyrrid-fawr, ar ei ben ei hun, a'i gopa 1498 o droedfeddi yn yr entrych. Ar yr ochr wrthgyferbyniol i'r ffordd fawr, y mae hen wersyllfa, un Rufeinig yn ol pob tebyg; nis gellir sicrhau dim o'r pethau hyn, canys nid yw henafiaethwyr yn cydweled o barth i'r brawf-reol gyda golwg ar adnabod a gwahaniaethu amddiffynfeydd. Desgrifir hwynt fel rhai Prydeinig, Rhufeinig, Saesonaidd, Danaidd, neu Normanaidd, yn ol mympwy neu dueddfryd yr ysgrifenydd. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn wirionedd am y cwbl, canys y mae rhai hen weddillion yn dwyn ar eu hwyneb, neu o'u hamgylch, dystiolaethau digonol parth eu dechreuad; ond y mae yn rhy wir, ysywaeth, am y mwyafrif. Tybia rhai henafiaethwyr, os deuir o hyd i fathodau Rhufeinig mewn, neu o amgylch hen gaerfa, fod hyny ynddo ei hun yn ddigon o brawf mai i'r Rhufeiniaid y perthynai. Dylent ystyried fod bathodau Rhufeinig yn cael eu defnyddio a'u treiglo yn y wlad hon, am gyfnod maith wedi ymadawiad y Rhufeiniaid â'n glanau, a chuddiwyd llawer o honynt gan y Brytaniaid, yn ddiammeu, yn ystod y cynnhyrfiadau blinion a ddilynodd hyny. Heblaw hyny, safleoedd Prydeinig a feddiennid yn gyffredin gan y Rhufeiniaid, ac yr oedd yn naturiol iddynt guddio eu trysorau ynddynt. Ac ystyried pob peth, dichon mai y brawf-reol oreu i farnu henafiaeth gweddillion milwraidd, yw dull eu hadeiladwaith; er engraifft, nis gellir dysgwyl fod gwersylloedd y Prydeiniaid mor fanwl a chywrain ag eiddo lluoedd dysgybledig y Cesariaid. Tybia Harris, oddiwrth ddarganfyddiad bathodau Rhufeinig ar y ffordd rhwng Llangua a Campston yn y gymmydogaeth hon, mai gan y Rhufeiniaid y gwnaethpwyd y ffordd. Prin y gallwn ni ystyried hyny yn rheswm digonol.

**LLANFIHANGEL CWM DU**, plwyf yn Nghantref ac undeb Crughywel, swydd Frycheiniog. Saif ar fraich o'r afon Wysg, dan y Mynyddoedd Duon, 4½ milldir i'r gogledd-orllewin wrth ogledd o Crughywel, a 7½ i'r de-wrth-ddwyrain o orsaf rheilffordd Talgarth. Gwneir y plwyf i fyny o randiroedd Blayney, neu Blaenau, Cenol, Cilwych, a Thretower, ynghyda phentref Cwm du. Erwau, 10,068. Gwerth ardrethol, 5987*p*. Poblogaeth, 1057. Tai, 240. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawddogaeth Duc Bedford. Ei gwerth yw 40*p*. Cymmer y plwyf y rhan gyntaf o'i enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Sant Mihangel. Gyda golwg ar y gweddill o'r enw, dywed rhai, mai yr esboniad arno ydyw, fod y plwyf yn sefyll mewn dyffryn, wrth droed y Mynyddoedd Duon, ac a elwir oblegid hyny yn "Gwm Du." Ereill a faentumiant mai llygriad ydyw o "Cwm Dê," ac yn sicr ddigon y mae cryn briodoldeb yn yr esboniad hwn yn ei berthynas â'r rhan ddeheuol o'r plwyf, ac y mae yn hollol ddesgrifiadol, can belled a bod y plwyf gynt yn ffurfio y rhan ddeheuol o arglwyddiaeth Ystradwy, Cantref Crughywel yn bresennol, tra yr oedd y parth a elwir yn awr wrth yr enw cantref Talgarth, yn ffurfio y rhan ogleddol o'r arglwyddiaeth hono. Gwyddys mai yr enw a roddid ar y plwyf yn y nawfed canrif, oedd "Llanfihangel-tref-caerau," mewn cyfeiriad, ond odid, at y lliaws gweddillion o amddiffynfeydd milwraidd sydd yn ganfyddadwy hyd heddyw tu fewn i'w derfynau. Dyfrheir y dyffryn gan yr afon Rhyangoll, yr hon a groesir gan amryw bontydd; ac y mae y plwyf, yr hwn a groesir gan y ffordd fawr o Lundain i Aberdaugleddyf, yn ymestyn am bum milldir o hyd, a bron yr un faint o lêd. Cynnwysa

Digitized by Google

diroedd breision a diwylliedig; tir porfa, a thir aredig. Mae ei arwynebedd yn amrywiaethu yn brydferth, a gellir mwynhau gwahanol fathau o olygfeydd. Penmyarth ydoedd hen breswylfod y Fychaniaid, ond y mae weithian, ers llawer dydd, wedi myned yn feddiant i ereill. Derbynia ei enw oddiwrth ei safle ar lechwedd hyfryd Bryn Myarth, bryncyn sydd yn sefyll ar ei ben ei hun, yn nghanol Dyffryn tlws Crughywel. Mae y lawn sydd o flaen y ty yn codi yn raddol tua'r dwyrain oddiwrth lan yr Wysg, a chysgodir y palas rhag gwres haul yr haf, gan fryn uchel sydd yn codi i'r dwyrain iddo. Mae yr olygfa o'r ty yn hynod darawiadol, gan ei bod yn cynnwys pob rhyw amrywiaeth; ac nid oes yn yr holl wlad hafal mewn prydferthwch, i'r olygfa a geir oddiar gopa y bryn.

Cafodd y plwyf hwn yr anrhydedd o fod dan fugeiliaeth yr hanesydd Cymreig dihafal, "Carnhuanawc," yr hwn a bennodwyd i ficeriaeth Cwmdu, a'r berigloriaeth gyssylltiol, Tretower, yn y flwyddyn 1825, a'r cyflog a ddeilliai oddiwrth y ddwy fywioliaeth, oedd 200*p.* yn y flwyddyn—swm llawer iawn rhy fychan, i wr o alluoedd a dysgeidiaeth y Parch. Thomas Price. Trwy ei gyssylltiad ef â'r plwyf, a llafur Theophilus Jones, y mae henafiaethau y fro hon yn fwy hysbys nag eiddo y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru. Ymddengys i'r eglwys gael ei sylfaenu gyntaf yn nechreu yr unfed canrif ar ddeg, canys mewn cofrestr henafol yn Llandaf, dywedir fod eglwys, ar enw Sant Mihangel, yn arglwyddiaeth Ystradwy, wedi ei chyssegru gan yr hybarch Herewald, Esgob Llandaf, a'r hwn ar ol llywodraethu yr esgobaeth am 48 mlynedd, a fu farw yn 1103, dros gan mlwydd oed. Gan nad oes unrhyw eglwys arall yn y gymmydogaeth yn atteb i'r desgrifiad, cesglir yn naturiol mai eglwys y plwyf hwn ydoedd. Ymddengys i'r hen adeilad, oddiwrth yr amrywiaeth yn y dullweddau, gael ei godi mewn gwahanol gyfnodau; yr ydoedd yn adeilad helaeth a hardd, yn cynnwys corph-eglwys, gyda dwy ystlys, a changell, gyda thwr ysgwar canllawiog, yr hwn ond odid oedd y rhan henaf, os nad yr unig ran, o'r adeilad wreiddiol. Yr oedd yr eglwys wedi myned mor adfeiliedig yn y flwyddyn 1830, fel y penderfynwyd mai doeth oedd ei thynu i lawr, gyda'r eithriad yn unig o'r hen dwr; a'r flwyddyn ddilynol, ail-adeiladwyd hi yn ol yr arddull Seisnig diweddar. Gwnaed hyn gyda doethineb mawr, canys rhoddwyd lle yn yr adeilad newydd, i'r pethau mwyaf dyddorol a gwerthfawr a berthynent i'r hen eglwys. Rhaid diolch am hyn, i ragofal goleuedig y ficer dysgedig, Carnhuanawc. Efe a ofalodd osod yn un o'r attegion ar ochr ddeheuol yr eglwys, er mwyn iawn gadwraeth, gareg henafol, a symmudwyd yn 1830 o'i safle gyntefig mewn maes o'r enw Tir Gwenlli, gerllaw y gwersyll Rhufeinig, yn Pentregaer, ac a roddwyd i'r dyben hwnw, gan y Parch. T. Lewis. Gosodwyd hefyd ar yr atteg-fur lafn o bres, ac arno adargraff o'r llythyrenau oedd ar y gareg, nid amgen:—"CATACUS HIC JACIT FILIUS TEGERNACUS." Yn y fynwent, y mae careg henafol, oddeutu tair troedfedd o hyd, ac un fodfedd ar bymtheg o led; gynt hi a ffurfiai riniog ffenestr y gangell, yn yr hen eglwys, ac y mae yn amlwg ei bod yn ddarn o gareg fwy. Ar un ochr iddi, y mae naddiad anghelfydd o'r groes, o ran ymddangosiad yn perthyn i'r chweched, y seithfed, neu'r wythfed canrif, ynghyda chof-argraff llurguniedig. Ar gareg arall a berthynai i'r hen eglwys, ond yr hon a osodwyd yn mur deheuol yr adeilad newydd, y mae croes gammined o fewn cylch, a dwy darian bais-arfog. Yn nhreflan Tretower, y mae capel Sant Ioan yr Efengylydd, yr hwn oedd gynt yn gapel anwes i'r fam-eglwys. "Tref-y-twr," neu Tretower, a alwyd felly oddiwrth y castell oedd yn y lle. Nis gwyr neb yn sicr gan bwy, na pha bryd y sylfaenwyd y castell hwn; ond tybia rhai iddo fod unwaith yn breswylfod un o arglwyddi brodorol Brycheiniog. Y mae yn dra thebyg iddo gael ei adeiladu gan Pycard, marchog Normanaidd, i'r hwn y rhoddwyd y faenor gan Bernard Newmarch, i'w dal trwy wasanaeth marchog, fel yn perthyn i uwch-arglwyddiaeth Blaenllyfni. Oddiwrth y Pycardiaid, disgynodd y faenor a'r castell, drwy briodas, i'r Bloetiaid o Gastell Raglan, Mynwy. Yn eu meddiant hwy yr arhosodd hyd deyrnasiad Risiard yr Ail, pan, trwy briodas Isabel, neu Elisabeth, unig ferch ac etifeddes Syr John Bloet, daeth yn eiddo i Syr James Berkeley, ail fab Arglwydd Berkeley, o Gastell Berkeley, swydd Gaerloyw. Yn 1403, gorchymynodd Harri'r Pedwerydd i Syr James Berkeley amddiffyn Castell Tretower yn erbyn Owain Glyndwr, ond llwyddodd yr arwr Cymreig, er hyny, i'w ddinystrio mewn rhan, ac ni ail-adeiladwyd ef hyd y dydd hwn. Y faenor, a gweddillion y castell, a roddwyd gan Iorwerth y Pedwerydd, i deulu yr Herbertiaid, ac oddiwrthynt hwy, daeth yr eiddo yn etifeddiaeth i Ddue Beaufort, ac yn meddiant y teulu hwn y mae darlun o'r castell, fel yr ymddangosai yn amser y Frenhines Elisabeth. Y cwbl sydd yn aros yn bresennol o'r hen gastell, yw twr crwn, a nifer o furiau yn orchuddiedig âg eiddew. Safai ar lanerch isel a llaith, ar lan y Rhiangoll, i'r de-orllewin o'r pentref. Ynglyn â thiroedd y castell y mae y man a eilw Leland yn *"fair place of Henry Vehan, Esq.,"* yr hwn erbyn hyn, nid yw namyn amaethdy. Yn mysg disgynyddion y teulu hwn, llawer o ba rai a fuont yn cynnrychioli y sir yn y Senedd, ac yn uchel-siryddion iddi, gellir nodi y dewr Syr Roger Fychan, yr hwn, ac efe yn mhangfeydd marwolaeth, a dderbyniodd urdd marchog ar faes gwaedlyd Agincourt, ynghyda Syr Dafydd Gam, am iddynt achub bywyd y brenin, trwy aberthu yr eiddynt eu hunain; Thomas Fychan, yr hwn, dan deyrnasiad Harri y Pedwerydd, a ddiraddiwyd o herwydd ei ymlyniad wrth linach Caerefrog; Syr Roger Fychan, yr hwn, wrth ymladd dros yr un achos, a laddwyd yn mrwydr fawr Danesmoor, gerllaw Banbury; a Syr Thomas Fychan (neu *Vaughan*), ystafellydd y brenin ieuanc Iorwerth y Pummed, yr hwn, ynghydag Arglwyddi Grey, a Rivers, y torwyd ei ben yn Pontefract, gan Risiard y Trydydd.

Nid yw yn anhawdd penderfynu i'r Rhufeiniaid fod yn gwersyllu yn y plwyf hwn; canys y mae eu holion i'w gweled etto, ac olion mwy sylweddol nag ychydig ddarniach o arian neu bres. Yn Mhentrefgaer ceir olion amlwg gwersyllfa Rufeinig, a sicrha traddodiadau y fro, fod gynt dref o gryn faintioli, yn ymestyn o'r llanerch hono, i fan a elwir hyd heddyw "Tre'r-graig." Y mae yn dra sicr fod y llain tir hwn wedi bod yn orchuddiedig gan adeiladau, rywbryd; canys darganfyddwyd ynddo sylfaeni muriau, ac aradrwyd i'r wyneb, gerig wedi eu naddu, darnau o briddfaen, glygymrwd, a phriddlestri. Arferai y Rhufeiniaid yn fynych iawn wneuthur eu gwersyllfaoedd yn union-onglog (*rectangular*); weithiau, hwy a'u gwnelent yn ysgwar; weithiau yn hirgul, a'r conglau yn gyffredin wedi eu gwneuthur yn grwn;

Digitized by Google

ac yr oedd y nodwedd hon yn perthyn i'w muriau cerig, yn ogystal ag i'w pridd-gloddiau. Ni ddylid fyth chwilio am orsafoedd Rhufeinig ar fynyddoedd uchel, eithr ar godiadau graddol, oddiar ba rai y galluogid hwynt i weled symmudiadau eu gelynion yn y pellder. Mae gwersyllfa Pentregaer yn dyfod i fyny â'r gofynion hyn. Y mae yn sefyll ar ddarn o dir yn gostwng yn raddol tua'r de, gyda gogwydd ysgafn tua'r gorllewin, ac wrth ei odreu, ffrwd fechan o'r enw Ewyn; petrual hirgul oedd ei ffurf, ac y mae yr ochr ddwyreiniol, a'r pen gogleddol, yn olrheiniadwy etto wrth sylfaeni y muriau. Cafwyd o bryd i bryd fathodau Rhufeinig, ac mewn gardd berthynol i'r fferm ar yr hon y saif y wersyllfa, daethpwyd ar draws ystafell fwäog, chwe troedfedd o hyd, tair troedfedd o lêd, a thair troedfedd o uchder, braidd yn llawn o weddillion esgyrn dynol; ac mewn maes cyfagos, torodd gweithwyr, wrth glirio tir, i mewn i ffordd nen-fwäog, nid annhebyg i ddyfrffos. Yr oedd y ffordd Rufeinig a arweiniai o *Gobannium* (Abergafenni) i fyny Dyffryn yr Wysg, yn myned heibio yr orsaf hon; a dywedai amaethwr cyfrifol wrth yr Archddiacon Payne, iddo ef gymmeryd rhan yn y gwaith o dori i fyny y darn o'r ffordd a orweddai ar y tu dwyrain i'r gwersyll; a chofiai fod cymmydog iddo yn cyflawni gorchwyl cyffelyb ar yr ochr wrthgyferbyniol i'r gwersyll. Efe a'i desgrifiai fel math o sarn lydan a sylweddol, cyfansoddedig o fân gerig wedi ymsuddo yn y graian; ac mor galed, fel mai prin yr oedd yn ddichonadwy eu gwahanu hyd yn nod â phigau, a bariau heiyrn. Mewn maes oddeutu chwarter milldir i'r de-ddwyrain o'r gwersyll, yr oedd y gareg sydd yn awr, fel y sylwyd uchod, wedi ei gosod yn un o atteg-furiau yr eglwys. Gadawodd yr amgylchiadau hyn y fath argraff ar feddwl yr Archddiacon Payne, fel y llogodd efe fesurydd tir o'r gymmydogaeth, yn 1803, i wneud cynllun, neu ddarlun o'r llanerch, ac efe a'i hanfonodd i'r enwog Theophilus Jones, yr hwn oedd ar y pryd gyda'r gwaith o ysgrifenu Hanes Brycheiniog. Y mae copi o'r darlun i'w weled yn y llyfr gwerthfawr hwnw. Ni choleddai yr archddiacon dysgedig un math o ammheuaeth nad oedd cyfres o orsafoedd Rhufeinig yn rhedeg o *Isca* (Caerlleon-ar-Wysg), a *Maridunum* (Caerfyrddin), drwy ganolbarth y sir, yn ogystal ag ar hyd glan y mor; ac amlyga ei syndod nad yw yn cael cyfeirio atti gan Antoninus, ac nad yw wedi myned dan ymchwiliad yr un awdwr diweddar, oddieithr Syr Richard Colt Hoare, yr hwn a'i geilw yn "*Via Julia Romana.*" Cyd olyga Syr Richard â'r Archddiacon, fod hon yn un o'r gorsafoedd oedd ar y llinell hono, ac y mae yn sefyll yn union lle y gallesid dysgwyl i orsaf o'r fath fod. Ar y bryn a elwir Pentir, uwchben eglwys y plwyf, y mae olion gorsaf filwraidd arall, lled gadarn. Perthynai hon, y mae yn amlwg, i'r Rhufeiniaid; a'r tebygolrwydd ydyw, ei bod yn dwyn rhyw gyssylltiad â'r amddiffynfa arall, yr hon ydoedd y brif orsaf; y mae yn amgau llain o dir, cant a deugain llath o hyd, a chant a phum llath o lêd, yn cael ei gwarchod gan ragfuriau uchel, a'i diogelu ar yr ochr isaf, gan ffos ddofn. Odditanodd y mae llwyn o goed, yr hwn o herwydd ei agosrwydd i'r amddiffynfa, sydd wedi derbyn yr enw, "Coed y Gaer." Ar fryncyn y Myarth hefyd, y mae olion hen amddiffynfa gref, yr hon y tybir ei bod yn perthyn i'r hen Frytaniaid, ond nid oes hanes credadwy o honi ar gof a chadw. Cyfeiria Dugdale, yn ei "Monasticon," at ddarn helaeth o dir, a nodid gan derfynau ag sydd i'w holrhain etto, yn ymestyn o'r afon Rhyangoll, yr hon a rêd trwy ganol y plwyf, hyd at Ffynnon Sant Ceyna, a Glangrwyney, yn mhlwyf Llangenney. Y tir hwn a roddwyd i eglwys Llandaf gan Tudur ab Rhain, rhaglaw tywysogaeth Brycheiniog, fel iawn am bechod a gyflawnodd efe yn erbyn yr eglwys.

**LLANFIHANGEL-ESGEIFIOG,** neu, yn fwy priodol, LLANFIHANGEL YSGEIFIOG, a elwir hefyd LLANFIHANGEL-PENTRE-BERW, plwyf yn nghantref Menai, undeb Bangor a Beaumaris, swydd MON; ar yr afon Cefni, ddwy filldir i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Llangefni, ac wyth filldir i'r gorllewin-wrth-ogledd o Fangor. Tardda yr enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Sant Michael neu Mihangel, ac Ysgeifiog o "Ysgaw," cyflawnder o'r rhai a dyfent yn y gymmydogaeth yn yr hen amser. Mae yn blwyf o gryn faintioli, yn cynnwys 2889 o erwau. Gwerth ardrethol, 3176*p*. Er fod agoriad y rheilffyrdd, o Gaer i Gaergybi, ac o'r Gaerwen i Amlwch, wedi gwneud lles dirfawr i'r plwyf, lleihau yn hytrach na chynnyddu y mae y boblogaeth; a hon yw y rheol yn y rhan fwyaf o blwyfydd gwledig Mon. Y boblogaeth yn 1851 oedd 1161, ac erbyn 1861 yr oedd wedi lleihau i 1026. Nifer y tai yn y flwyddyn olaf a enwyd, oedd 251. Mae arwynebedd y tir yn amrywio cryn lawer, ac y mae cyfran helaeth o hono yn llaith o chorsiog. Yn y plwyf hwn, y mae yr unig wely glô sydd yn yr Ynys, ond o bryd i bryd cafwyd llawer o helbul i'w weithio, o herwydd fod dwfr y gors yn llenwi y pyllau. Cafodd ffordd haiarn ei gwneud o waith glo Penrhyn Mawr, yn y plwyf hwn, i Draeth Coch, pellder o saith milldir, dan ddarpariadau deddf seneddol a gafwyd yn 1812. Y mae pentref y Gaerwen, yn y plwyf hwn, yn debyg o ddyfod yn lle lled pwysig ymhen amser, fel canolbwynt y rheilffyrdd, ac y mae Cwmni Llundain a'r Gogledd-orllewin, wedi adeiladu yno orsaf newydd helaeth a chyfleus yn ddiweddar, yr oreu o'r holl fân orsafau rhwng Bangor a Chaergybi. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, mewn undeb âg is-beriglorïaeth Llanffinan, yn esgobaeth Bangor. Ei gwerth yw 120*p*., ac esgob Bangor yw y noddwr. Y mae yr eglwys yn bur hen, ac ar yr ochr ogleddol iddi y mae adeilad bychan o'r enw Capel Berw, yn meddu cymmundeb â'r gweddill, ond wedi ei godi yn ddiweddarach, y mae yn amlwg, na'r rhan arall o'r adeilad. Yn y flwyddyn 1719 gadawodd y Parch. Dr. John Jones, Deon Bangor, gymmunrodd o 100*p*. tuag at dalu i athraw am ddysgu deuddeg o blant tlodion y plwyf hwn, a Llanffinnan, i ddysgu darllen. Adeiladwyd ysgol blwyfol yn 1828, trwy danysgrifiadau, ac y mae llog y 100*p*. yn rhoddi hawl i chwech o blant Llanffinnan gael addysg rad ynddi. Gadawyd i'r plwyf amryw fân gymmunroddion ereill, llogau pa rai a renir yn flyneddol, mewn dillad, ac arian, yn mysg y tlodion yn y gauaf.

**LLANFIHANGEL-FACH.** Gwel LLANFIHANGEL-HELYGEN.

**LLANFIHANGEL-FECHAN,** capeliaeth yn mhlwyf Llandefaelog-fach, swydd FRYCHEINIOG; ar yr afon Honddu, bum milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Erwau, 2211. Gwerth ardrethol, 1258*p*. Poblogaeth, 178. Tai, 33. Ceir golygfeydd prydferth o Gastell Madog, yr hwn a berthynai gynt i'r Powelliaid, ond a drosglwyddwyd i'r Prysiaid. Ceir olion hen wersyll Prydeinig yn Alltarnog. Y fywioliaeth sydd is-beriglorïaeth bar-

Digitized by Google

haol, yn esgobaeth Tyddewi; 65*p*. yw ei gwerth, a rheithor Llandefaelog-fach yw ei noddwr. Y mae yr eglwys yn cynnwys cof-feini am y Powelliaid.

**LLANFIHANGEL-GENEU'R-GLYN**, plwyf yn undebau Aberystwyth a Machynlleth, ac yn swydd ABERTEIFI; chwe milldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Aberystwyth. Yr un plwyf yw hwn a LLANFIHANGEL-CASTELL-GWALLTER, a chaiff y darllenydd y prif fanylion dan y pen hwnw. Ar fryn Cwmswmlog y mae olion capel a adeiladwyd gan Syr Huw Myddleton, yn ystod teyrnasiad Iago y Cyntaf, at wasanaeth ei fwnwyr. Mae yn y plwyf liaws o weddillion Derwyddol. Y mwyaf nodedig yw yr un a elwir Bedd Taliesin, yr hwn sydd yn sefyll ar Ben-y-Sarn, rhwng y Ceulan a Clettwr. Blodeuai Taliesin oddeutu y flwyddyn 540; ond gan ei fod yn Gristion defosiynol, dadleua rhai awdwyr y buasai arwydd y groes yn sicr o fod ar ei fedd, ac oblegid hyny, mai nid hwn yw bedd Taliesin, yr hwn a dreuliodd y rhan olaf o'i oes yn Ngwynedd, ac yn ol pob tebyg a gladdwyd yno. Yn y bedd hwn, fe gafwyd penglog dynol flynyddoedd yn ol, ond nis gwyr neb pa un ai pen gwr a aberthasid, ai ynte gweddillion archdderwydd ydoedd. Ar faes o'r enw Lletty-Angharad-fach, y mae dwy gareg, y rhai a ddefnyddid gan y Derwyddon yn eu hoffrymau. Y mae cistfeini ar Benbryn-pellau a Banc-y-Winllan, a charnedd ar Foel-y-Llyn. Yn Llwynglas yr oedd yn nghadw flynyddoedd yn ôl, enghraifft ryfedd o'r hen Gyllill Hirion. Yr oedd y gyllell yn 14 modfedd o hyd; corn wedi ei addurno â phres oedd y carn, a'r llafn wedi ei addurno âg aur. Arferid arfau o fath hwn yn amser Gwrtheyrn, Brenin Prydain, gan y Saeson; ac â'r cyfryw y cyflawnwyd Brâd y Cyllill Hirion. Ar y ffordd sydd yn arwain o Lanfihangel i Fachynlleth y mae Glan-fred, man genedigaeth yr henafiaethydd hyglod Edward Llwyd.

**LLANFIHANGEL-GER-ROGET**, neu ROGGIETT, plwyf yn undeb Caswent, swydd FYNWY; ar reilffordd Deheubarth Cymru, milldir a thri chwarter i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Magor, a chwe milldir a hanner i'r de-orllewin-wrth-orllewin o Gas Gwent. Erwau, 557. Eiddo trethadwy, 755*p*. Poblogaeth, 36. Tai, 7. Periglor-iaeth yw y fywioliaeth, yn gyssylltiedig â rectoriaeth Roget, neu Roggiett, yn esgobaeth Llandaf.

**LLANFIHANGEL-GLYN-MYFYR**, plwyf yn undeb Corwen, mewn rhan yn nghantref Isaled, swydd DINBACH, ac mewn rhan yn nghantref Edeyrnion, swydd FEIRIONYDD; ar yr afon Alwen, chwe milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Corwen. Mae rhan sir Feirionydd yn cynnwys y pentref, ynghyda threfgordd Cefnpost; a rhan sir Ddinbach a gynnwys drefgyrdd Gysylog, Llysan, a Maesyrodyn. Erwau rhan Meirionydd, 3538; erwau rhan swydd Dinbach, 664. Gwerth trethadwy y cyfan, 1920*p*. Poblogaeth rhan Meirionydd, 70; rhan Dinbach, 394. Nifer y tai, 16 yn Meirionydd, a 67 yn swydd Dinbach. Bryniog ac anwastad yw arwynebedd y plwyf gan mwyaf, ond ceir porfeydd rhagorol i wartheg Cymreig, ar lanau yr Alwen, yr afon sydd yn dyfrhau y tir, ac yn yr hon y ceir brithylliaid rhagorol. Cyfyd yr afon yn Llyn Alwen, yn y mynyddoedd, oddeutu pum milldir i'r gogledd-orllewin o'r pentref. Y mae yn ddarostyngedig weithiau i lif-ddyfroedd mawrion; yn 1781 hi a orlifodd ei cheulanau, ac a gododd tufewn i'r eglwys, uchder o wyth neu naw troedfedd, a choffheir am yr amgylchiad trwy nod ar y mur. Ar lan yr afon, yn y pen uchaf i'r plwyf, y mae olion amddiffynfa gron henafol iawn, o'r enw "Caer-Ddunod," ar dipyn o fryn; a bron gyferbyn a Cherrig-y-Druidion, rhyw dair milldir o'r plwyf hwn, y mae gweddillion un arall, o'r enw "Pen-y-Gaer." Ar Dyddyn Tudur, yn y plwyf hwn, y ganwyd Owen Jones (Owain Myfyr), casglydd enwog y "Myfyrian Archæology of Wales," a brodor o'r un plwyf, oedd John Jones, Glanygors.

**LLANFIHANGEL-HELYGEN**, neu LLANFIHANGEL-FACH, plwyf, yn undeb a chantref Rhayader, neu Rhaiadr, swydd FAESYFED; ar yr afonydd Ithon, a Dulais, bedair milldir i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Penybont, a phum milldir a hanner i'r de-ddwyrain wrth ddc o Raiadr. Erwau, 1459. Gwerth ardrethol, 664*p*. Poblogaeth, 110. Tai, 18. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, cyssylltiedig â ficeriaeth Llanyre, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawddogaeth Esgob Tyddewi, a ficer Nantmel, bob yn ail. Hwn ydoedd plwyf genedigol yr anfarwol "Carnhuanawc."

**LLANFIHANGEL-LLANTARNAM**, neu LLANTORFAEN, plwyf yn undeb Casnewydd, MYNWY; ar yr afon Llwyd, cangen o'r Wysg, gerllaw rheilffordd yr *Eastern Valleys*, dair milldir a hanner i'r gogledd o Gasnewydd. Erwau, 4092. Gwerth ardrethol 6100*p*., o'r hyn y mae 1000*p*. mewn gweithfeydd haiarn, a 13*p*. ar y rheilffordd. Poblogaeth yn 1851, 1228; yn 1861, 1301. Bu yma gynt Abatty o eiddo y mynachod gwynion. Cyllid blyneddol y sefydliad yn adeg y dadgorphoriad mawr, a drethid yn 71*p*. 3*s*. 2*c*. Rhoddwyd y llanerch yn yr 31ain flwyddyn o deyrnasiad Harri yr Wythfed, i John Parker, ac yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Mari, i John Carpenter, a William Savage. Yn ystod teyrnasiad Elisabeth, daeth yr Abbatty i feddiant y Morganiaid, y rhai a breswylient yn Cilsant, sef y Pentre bach presennol, ddwy filldir o Lantarnam. Yr unig weddillion sydd yn aros o'r hen adeilad, ydynt ddwy gell faen wedi eu troi yn ystablau, muriau yr ardd, a phorth Gothaidd hardd, yr hwn ydoedd y brif fynedfa, ac a elwir hyd heddyw "Magna Porta." Y palasdy a elwir Llantarnam, a adeiladwyd o ddefnyddiau yr abbatty, ac y mae wedi ei adeiladu yn ol arddull y cyfnod Tuduraidd. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf, gwerth 108*p*., ac yn nawddogaeth E. Blewitt, Ysw.

**LLANFIHANGEL-LLEDROD**, neu LLANFIHANGEL-LLETHR-Y-TROED, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Ilar, undeb Tregaron, swydd ABERTEIFI; ar yr afon Ystwyth, ddwy filldir a hanner i'r de-orllewin o orsaf Trawscoed, ar ffordd haiarn Pencader, Llanbedr, Tregaron, ac Aberystwyth, a saith milldir i'r gogledd-ogledd-orllewin o Dregaron. Cynnwysa bentref o'r un enw, a threfgyrdd Lledrod Uchaf, a Lledrod Isaf. Y mae y plwyf agos yn saith milldir o hyd, a thair milldir o lêd, ac yn ffurfio rhan o arglwyddiaeth Myfenydd, yr hon a berthyn i'r goron. Erwau, 8692. Gwerth ardrethol, 3486*p*. Poblogaeth, 1125. Tai, 239. Mae y rhan fwyaf o'r tir wedi ei gau i mewn; y mae ar y bryniau borfa i ddefaid, ac ar benau y mynyddoedd, y mae amryw garneddau. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 112*p*., ac yn nawdd yr Esgob. Yn mynwent y plwyf hwn y gorwedd gweddillion yr anfarwol Ieuan Brydydd Hir, yr hwn, ar ol dioddef

Digitized by Google

esgeulusdra anfaddeuol ei gyfoeswyr, a adewir gan ei ol-oeswyr heb gymmaint a chofgolofn i nodi man fechan ei fedd. Sylfaenwyd ysgol rydd gan y Parch. Thomas Oliver, brodor o'r plwyf hwn, ac efe a'i gwaddolodd â thir oedd flyneddoedd yn ol yn cynnyrchu dros 120*p.* y flwyddyn, tuagat roddi addysg rad i fechgyn y plwyf. Mae yr ysgol hon yn bresennol yn gyssylltiedig âg ysgol enwog Ystrad Meurig.

**LLANFIHANGEL-NANT-BRAN,** plwyf yn cynnwys pentref bychan, yn nghantref Merthyr-Cynog, Undeb a swydd BRYCHEINIOG; ar yr afon Brân, cangen o'r Wysg, wyth filldir i'r gogledd-orllewin-wrth-orllewin o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Erwau, 9161. Gwerth ardrethol, 2516*p.* Poblogaeth, 453. Tai, 96. Mae y plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosbarth, yr Uchaf, a'r Isaf. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 66*p.*, ac yn nawddogaeth cyd-etifeddion y diweddar W. Jeffreys, Ysw. Yr oedd yr eglwys gynt yn gapel anwes i Ferthyr-Cynog, ac yn amser Cromwell, cafodd ei gwaddoli â 40*p.* y flwyddyn allan o ddegymau rheithoraidd y plwyf hwnw, bywioliaeth yr hwn a attafaelwyd gan y Senedd; ond ar yr Adferiad, dychwelwyd yr eiddo i'w gyfiawn berchennog, ac attaliwyd gwaddol y capel hwn. Hen adeilad di addurn ydyw yr eglwys. Pwll y llacca, tyddyn yn y plwyf hwn, a ffurfia ran o waddol Coleg yr Iesu, Rhydychain, a roddwyd gan y Dr. Hugh Price, sylfaenydd y sefydliad hwnw. Bola Maen, tyddyn arall yn y plwyf hwn, a roddwyd gan gymmwynaswr anadnabyddus, yr hwn a ordeiniodd yr ardreth yn dâl i weinidog y gynnulleidfa Babaidd yn Aberhonddu.

**LLANFIHANGEL-NANT-MELLAN,** trefgordd a phlwyf yn undeb Presteigne, swydd MAESYFED. Saif y drefgordd dair milldir a chwarter i'r deorllewin o Faesyfed Newydd, a naw milldir i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Kington, ac mewn rhan y tufewn i derfynau plwyf Llandegley. Gwerth ardrethol, 2138*p.* Poblogaeth, 258. Tai, 43. Poblogaeth y rhan sydd yn nherfynau Llandegley, 43. Tai, 5. Mae y plwyf yn cynnwys trefgordd Trewern, a Gwythla, a rhan o drefgordd *Upper Harpton.* Erwau y cyfan, oddieithr y rhan o drefgordd Upper Harpton, 8150. Gwerth ardrethol, 3122*p.* Poblogaeth y plwyf yn 1851, 396; yn 1861, 348. Tai, 62. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gwerth 142*p.*, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawdd yr Arglwydd Ganghellydd. Cedwir yr eglwys, yr hon a saif ar lechwedd bryn, mewn cyflwr da o ran adgyweiriad; cafodd ei hail-adeiladu yn yr arddull Normanaidd ychydig flyneddoedd yn ol, ac y mae hen goed yw yn ei hamgylchynu. Gadawodd yr Arglwyddes Joan Hartshorne, dy, ac oddeutu pum erw ar hugain o dir, tuag at roddi addysg rad i blant tlodion y plwyf hwn, a phlwyfydd Hen Faesyfed, a Gladestry. Mae gan y plwyf hawl i'r drydedd ran o gynnyrch fferm yn mhlwyf Llandegley, a brynwyd â chymmunroddion Evan, ac Ann Griffiths, a adawyd yn 1721, tuag at gynnorthwyo y tlodion; ac y mae hefyd bunt o ardreth ar fferm arall o'r enw Llaniago, a roddwyd gan gymmwynaswr anhysbys i'r un pwrpas. Mae yn y plwyf ddwy garnedd fawr, ac un o faintioli llai, eithr nid oes manylion hanesyddol yn eu cylch ar gael. Y tu fewn i derfynau hwn hefyd y mae Llyn Llanillyn, a'r rhaiadr a adnabyddir wrth yr enw rhyfedd, "Dwfr tori gwddf." Saif y rhaiadr mewn glyn cul, yn nghanol bryniau coedwig Maesyfed; cwympa y dwfr ddyfnder o 70 troedfedd, ond nid fel "uchelgadr raiadr dwr ewyn," eithr yn fân ffrydiau diniwed hyd y graig, fel nad yw yn rhoddi i'r edrychydd unrhyw ymsyniad o'r gwyllt a'r mawreddog.

**LLANFIHANGEL-PENBEDW,** plwyf yn nghantref Cilgerran, undeb Aberteifi, swydd BENFRO; gerllaw tarddle yr afon Nefern, bedair milldir a chwarter i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberteifi. Erwau, 2410. Eiddo trethadwy, 1232*p.* Poblogaeth, 287. Tai, 228. Rectoriaeth yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 89*p.*, yw y fywioliaeth, a'r Arglwydd Ganghellydd yn noddwr. Perthyna Cilrhue, palasdy yn y plwyf hwn, i Syr Thomas Davies Lloyd, Barwnig, A.S., Bronwydd.

**LLANFIHANGEL-PONT-Y-MOEL,** plwyf yn undeb Pontypool, swydd FYNWY; ar gamlas Aberhonddu, gerllaw rheilffordd Abergafenni a Phontypool, un filldir i'r dwyrain o Bontypool. Erwau, 1651. Gwerth ardrethol, 1598*p.* Poblogaeth yn 1851, 205; yn 1861, 300. Tai, 53. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf, gwerth 87*p.*, ac yn nawdd C. H. Leigh, Ysw.

**LLANFIHANGEL-RHOSYCORN,** plwyf yn nghantref CATHINOG, undeb LLANBEDR, swydd GAERFYRDDIN; ar fraich o'r afon Cothi, ddeng milldir i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Llandilo-fawr. Erwau, 9012. Gwerth ardrethol, 2201. Poblogaeth, 634. Tai, 146. Isberigloriaeth barhaol, yn gyssylltiedig â ficeriaeth Llanllwni, yw y fywioliaeth. Perthyna i esgobaeth Tyddewi. Yn y plwyf hwn y mae *Forest,* hen breswylfod yr Arglwyddes Rudd; amaethdy ydyw yn bresennol.

**LLANFIHANGEL-RHYDITHON,** plwyf a threfgordd yn undeb Tref-y-Clawdd, swydd FAESYFED. Gorwedda y plwyf rhwng yr afonydd Aran ac Ithon, yn gyfredol â rheilffordd Tref-y-Clawdd, a Chanolbarth Cymru, dair milldir i'r gogledd-ddwyrain o Benybont, a chwe milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o Faesyfed Newydd. Erwau, 3207. Gwerth ardrethol, 2266*p.* Poblogaeth, 378. Tai, 65. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn gydiol â ficeriaeth Llanddewi-Ystradenny, yn esgobaeth Tyddewi. Mae y drefgordd yn cynnwys holl blwyf Llanfihangel-Rhydithon, a rhan o blwyf Llandewi-Ystradenny. Poblogaeth, 404. Tai, 68. Rhoddai adroddiad y Dirprwywyr Elusenol am y flwyddyn 1831 y rhestr ganlynol o gymmunroddion, a adawyd er budd tlodion y plwyf hwn:—Elusen Barlow, 10*s.* y flwyddyn; elusen Davies, 10*s.* y flwyddyn; elusen Edwards, 10*s.* y flwyddyn; elusen Clarke, 10*s.* y flwyddyn. Rhenir yr amrywiol symiau hyn bob hanner blwyddyn, dan arolygiaeth y gwarcheidwaid eglwysig, a'r *overseers,* rhwng y dosbarth mwyaf anghenus o'r tlodion. Yr elusen a elwir uchod yn "elusen Clarke" a osodwyd yn mis Rhagfyr, 1837, ynghyda *llog* can' punt a adawyd i'r un amcan mewn cymmunrodd gan Mrs. Anne Moore, Old Hall, fel ardreth-dal dros fyth ar etifeddiaeth Treforgan.

**LLANFIHANGEL-TALYLLYN,** plwyf yn nghantref Talgarth, undeb a swydd FRYCHEINIOG; ar reilffordd Henffordd ac Aberhonddu, bum milldir i'r dwyrain o Aberhonddu. Erwau, 1233. Gwerth ardrethol, 1305*p.* Poblogaeth, 149. Tai, 36. Prif hynodrwydd y plwyf ydyw Llyn Safaddan, yr hwn sydd oddeutu dwy filldir o hyd, a milldir o led, ac yn cynnwys digonedd o bysgod rhagorol. Y mae lliaws o hen chwedlau am y Llyn hwn ar lafar gwlad,

Digitized by Google

ac un o honynt yw a ganlyn, yr hon a adysgrifenwyd o rai o bapyrau yr Amgueddfa Brydeinig, ac a gyhoeddwyd yn y *Brython*, flyneddoedd yn ol:—

"Y pwll mawr a elwir Llyn Safaddan, sydd yn gorwedd mewn dyffryn prydferth a hardd, yn amgylchynedig o bob ochr gan fryniau tra uchel, ac y mae oddeutu dwy filldir o hyd, ac ychydig fwy nag un filldir o led; a rhwng pump a chwe milldir o amgylchedd. Hefyd y mae yn ddwfn iawn, ac yn llawn o bysgod. Yr oedd (medd Giraldus Cambrensis) lawer o dai a pherllanau ar ei lanau yn ei amser ef. Y mae yn draddodiad cyffredin gan bobl yr ardal, fod unwaith bendefiges hardd, yr hon ydoedd etifeddes o'r holl dir ag sydd yn awr wedi ei orchuddio gan y dwfr hwn; at yr hon yr oedd mab ieuanc heb ddim, neu onid ychydig o waddol, wedi cwympo mewn cariad; ac heb aur, yr hwn sydd yn disglaerio cymmaint yn llygaid y rhai gweinion, nid oedd yn bossibl iddo i'w chael hi. Yr anhappus gariad-fab, yn gwybod na wnaethai dim ond aur y tro, ac yn serchu mwy am dani hi nag am ei enaid ei hun, ni ofalai ddim pa ffordd a gymmerai er cyrhaedd ei ffafr. Y bendefiges, o'r ochr arall, fel llawer o'i bath, a ddywedai, 'Gadewch iddo ddyfod fel yr ewyllysio; nid oedd gwahaniaeth ond iddo ei gael.' Nid oedd hi yn malio dim beth oedd, na pheth yw y dyn, ond fod ganddo ddigon i foddloni ei chwant, a'i balchder. Ar ryw ddiwrnod, y llanc yn ei anobaith a gyfarfu â chludwr gyda llawer o arian, mewn lle nid neppell oddiwrth y llyn; yr hwn nid yn unig a yspeiliodd, ond hefyd a lofruddiodd efe, ac a'i claddodd mewn lle rhag datguddiad. Wedi hyny aeth at ei anwylyd, i ddywedyd wrthi fod ganddo ddigon o aur. Y bendefiges, yn anghredu iniol, ac yn gwrthod ei briodi hyd nes cael gwybod pa fodd y daeth yn feddiannol arnynt; er ei boddloni, ac etto mewn ofn, efe a ddatguddiodd iddi, ac a ddangosodd y gyllell â pha un y cyflawnodd y weithred ofnadwy! Erbyn hyn, yr oedd son fod ysbryd yn aflonyddu y lle y claddwyd y dyn llofruddiedig. Synai y bendefiges at hyn, a phenderfynodd beidio ei briodi hyd nes yr aethai at y bedd yn y nos, i ostegu yr ysbryd, ac i wrando beth oedd ganddo i'w ddywedyd. Nid oedd cariad yn ofni dim perygl, ac yntau, â chydwybod wedi ei serio, a chan ddued âg uffern ei hun, ar ol ei weithred gyntaf, i foddloni ei anwyl feistres, efe a gymmerodd y gorchwyl diweddaf hwn. Pan yr oedd wrth y bedd, yn nghanol y nos, efe a glywai lais yn llefain â llef uchel, 'A oes dim dial am waed gwirion?' A llais arall yn atteb, 'Nac oes, hyd y nawfed genedlaeth.' Ar hyn, yn anturio ar drugaredd ac amynedd yr Hollalluog, ac yn meddwl ei hun yn rhydd oddiwrth ei ddialedd pwysig, nid oedd yn cyffroi dim, nac yn ofni y lleiaf o'r ddedfryd hon, ac heb ddwysbigiad o'r gydwybod, yn bwriadu canlyn ei anfad serch. Felly, myned a wnaeth at y bendefiges, gan ddywedyd wrthi y farn ofnadwy a gyhoeddwyd uwch ei ben. Hithau, o'r ochr arall, yn meddwl dim am y gosbedigaeth dragywyddol, ond iddynt ddianc y cywilydd amserol, (yr hyn oedd yn eu taraw yn llawer mwy) a ddywedai, 'Cyn yr amser hyny, nyni a fyddwn wedi pydru yn ein beddau; gan hyny, ni a fwynhawn ein hunain mal y gallom.' Yn ganlynol, hwy a gymmerasant eu digonedd o bleserau y byd hwn. Ond wele y trueiniaid tlawd hyn yn ymdreiglo yn y llwch, ac yn mhleserau y byd hwn—yn anghofio eu Creawdwr, ac yn rhyfygu y nefoedd ei hun, yn twyllo eu hunain yn eu gobeithion rhyfygus! Priodi a wnaethant,—amlhau a chynnyddu,—eu plant yn priodi ac yn cymmysgu â phobl y ddinas; a'u plant hwythau yn priodi yn mhlith eu gilydd, mal rhyw Sodom arall, nes y byddai yr holl bobl o un genedl, ac yn gruglwyth ar eu gilydd—yn llawn o gyfoeth bydol, (dialedd drom y nefoedd), nes i'r cwpl annedwydd weled y nawfed genedlaeth o'u heiddo. Yna hwy a ddywedent, 'Nyni sydd fawr, cyfoethog, a galluog, a'n hiliogaeth sydd yn lliosog iawn, ac eto heb weled y dialedd a fygythiwyd ar ein nawfed cenedlaeth; oni bydd i ni, yn awr, yn ystod ein hamser a'n hoedran mawr, canys ni allwn feddwl byw yn hir; am hyny, mal ag yr ydym wedi byw wrth fodd ein calonau, ac wedi mwynhau holl bleserau natur, bydded i ni, unwaith cyn ein marwolaeth, wahodd ein holl bobl—ein plant, ein hwyrion, a phlant eu plant, a gwneud iddynt wledd ardderchog, a bod yn llawen gyda hwy am y tro diweddaf.' Fel hyn, yn orlawn o bleserau glwth y bywyd hwn, hwy a gyfarfuasant â'u gilydd. Ond wele, gyda dychryn mawr, cosb ofnadwy Duw yn eu cymmeryd, yn uwchder eu llawenydd, eu heilunaddoliaeth, a'u meddwdod, gyda daeargryn mwyaf dychrynllyd, nes yr agorodd y ddaear ei safn ddidrugaredd, ac a'u llyncodd hwynt oll i fyny yn fyw, heb i gymmaint ag un enaid gael ei arbed, a hwy a orchuddiwyd yn ddisymwth gan y dwfr diluw hwn!"

Llyna draddodiad y fro, coelied a'i coelio, ond y mae yr addysg yn amlwg ac yn gymmwys i bawb. Perthynai maenoriaeth Llanfihangel ar y dechreu, i Bernard Newmarch, ond aeth i feddiant olynol y teuluoedd Walwyn, Winter, a Phillips, a pherthyna yn bresennol i'r Boldiaid o Hamlin Hall. Y Parch. Hugh Bold yw noddydd y fywioliaeth eglwysig, yr hon sydd yn rectoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn werth 158*p*.

**LLANFIHANGEL TYN SYLWY,** neu, yn fwy priodol, LLANFIHANGEL DINSYLWY, plwyf, yn nghantref TINDAETHWY, swydd FON, ar lan y môr; 4 milldir Gogledd wrth Orllewin o'r Beaumaris, ac 8¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanfair. Cynnwysa ran o'r wlad sydd o fewn bwrdeisiaeth Beaumaris. Llythyrfa, Beaumaris, Môn. Erwau, 833. Gwerth ardrethol, 472*p*. Poblogaeth, 54. Tai annedd, 8. Poblogaeth y rhan sydd o fewn bwrdeisiaeth Beaumaris, 6. Y mae y plwyf yn cael ei enw oddiwrth gyssegriad ei eglwys i Sant Mihangel, neu, yr archangel Michael; a'i gyfenw "Dinsylwy" oddiwrth hen amddiffynfa gref, ychydig oddi ar yr eglwys; a barna rhai ei bod wedi ei galw felly, am ei bod yn fath o arsyllfa, oddiar ba un y cedwid sylw manol, a pharhaus ar y môr, rhag dynesâd llynges elynol tu a'r ynys, o'r gogledd; ond mwy tebyg yw, fod gan y Rhufeiniaid deml i'r haul yma, yn ystod eu harosiad yn y wlad, a bod yr enw, mewn rhan yn Gymraeg, ac mewn rhan yn Lladinaeg, sef *Din Sol*,—Dinas yr Haul; ac fel cadarnhad i'r dyb uchod, gellir crybwyll mai Din-sol ei gelwir yn un o'r hen rammantau Cymreig a elwir "Y Mabinogion;" sef yn "Chwedl Cilhwch ac Olwen." Y mae y gaer hon oddeutu pum llath o drwch, wedi ei gwneyd o gerryg mawrion o fewn, ac oddiallan, a'r canol rhyngddynt wedi ei lenwi â cherryg llai; ac y mae y graig oddi tani, wedi ei thorri am rai llatheni o uchder, er mwyn ei gwneyd yn fwy anhygyrch: ei chylch-fesur sydd tua deuddeg can llath. Y mae lle i gredu mai hen amddiffynfa Brydeinaidd ydoedd; ond pan ymosododd Suetonius

Digitized by Google

Paulinus ar Ynys Fôn, wedi cyflafan y Derwyddon gerllaw Llanidan, efe a ofalai yn gyntaf oll, am gymeryd amddiffynfeydd y brodorion; ac yn gyntaf oll, ymosodai ar yr hen amddiffynfa oedd ar Graig y Ddinas, uwchlaw y Menai, lle y saif cof-golofn ardderchog Ardalydd Mon yn bresenol; a bod yno gryn laddfa wedi bod mewn rhyw adeg foreuol, a gadarnheir trwy y ffaith o fod llanerch gerllaw yn cael ei alw "Bryn y Cyrph;" oddiyma arweiniai ei fyddin yn naturiol i ymosod ar amddiffynfa gref arall, oedd uwchlaw Cadnant; ac heb fod yn mhell oddiyno, y mae Maen hir, a gyfodwyd, ond odid, ar y fan y gorwedda rhyw hen wron a gwympodd yn yr ymgyrch; ac yn yr un gymmydogaeth, y mae y Castellior, a'r Gadlys, megys ol traed y buddugoliaethwyr Rhufeinaidd. Ychydig filldiroedd oddi yno, ac oddeutu haner y ffordd i Dinsylwy, y mae lle a elwir "Pentre Paulin," lle y gallem feddwl i Paulinus ymwersyllu, tra yn parottoi i wneyd ei ymosodiad ar yr amddiffynfa gref hon. Ac y mae yn dra thebyg na adawodd y Maes-lywydd Rhufeinaidd yr Ynys, heb adael gwarchodlu cr$\hat{y}$f yn yr amddiffynfa gadarn hon. Y mae lle cryf i gasglu fod y Rhufeiniaid wedi bod yn aros yn yr amddiffynfa hon dros hir amser; canys fe gafwyd canoedd o fatholion Rhufeinaidd ynddi o fewn yr oes hon; ac oddeutu y flwyddyn 1831, cafwyd delw yno, dros droedfedd o h$\hat{y}$d, o ryw ddefnydd melyn-dywyll, a'i dau lygad yn dysglaerio yn ei phen, er ei bod wedi bod yn gladdedig yn y ddaiar, yn ol pob tebyg, dros bymtheg can mlynedd. Bernir mai delw ydoedd yn cynnrychioli yr haul; ac nid yw yn annhebyg ei bod wedi bod yn wrthddrych addoliad yn yr amddiffynfa hon am oesoedd. Y mae yn ddrwg genym orfod ychwanegu, i'r crair dyddorawl hwn fyned ar goll yn mhen ychydig ddyddiau wedi ei ddarganfyddiad; canys rhyw estron o Sais, wedi clywed am dano, a ddaeth i'r gymmydogaeth, ac a ofynodd i wraig yr ammaethwr a'i cawsai, am gael ei weled; yna gofynai a wnelai hi ei gwerthu, yr hyn a wnaeth, am ddim ond swllt yr un, i dri o'i phlant a safent gerllaw; a'r hyn sydd yn fwyaf tebyg yw, i'r hen ddelw gael ei bwrw i'r tawddlestr, fel llawer crair gwerthfawr arall, a ddarganfuwyd yn ngwahanol ranau y Dywysogaeth o bryd i bryd.

Y mae y fynedfa i'r amddiffynfa hon o'r ochr ddeheuol, ar hyd llwybr llydan, a'r esgynfa heb fod yn serth. O fewn y caerau, y mae y croen wedi ei dori yn dywyrch i'w llosgi, gan ammaethwyr y gymmydogaeth drwy yr oesoedd, ac wrth wneyd hyny o bryd i bryd, y caed yr hen arfau pres Cymreig, y batholion Rhufeinaidd, a'r hen ddelw grybwylledig. Gellir olrhain seiliau amryw adeiladau crynion, a hirgrwn o fewn yr amddiffynfa; y rhai a amrywiant mewn maintioli; ac odditan y gaer, ar yr ystlys ogleddol, y mae ffynnon o ddwfr rhagorol yn tarddu. Gelwir yr amddiffynfa hon, gan drigolion Mon yn gyffredin, "Bwrdd Arthur."

Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth, gyssylltiedig a Ficeriaeth Llangoed, yn esgobaeth Bangor.

**LLANFIHANGEL-TOR-Y-MYNYDD,** plwyf yn undeb Caswent, swydd Fynwy; dair milldir a hanner i'r dwyrain-ddc-ddwyrain o orsaf rheilffordd Llandenny, a phum milldir a thri chwarter i'r dwyrain wrth ogledd o Brynbuga. Erwau, 1031. Gwerth ardrethol, 1056*p*. Poblogaeth, 197. Tai, 45. Rheithoriaeth yn esgobaeth Llandaf, gwerth 89*p*., ac yn nawdd Archddiacon Llandaf, yw y fywioliaeth eglwysig.

**LLANFIHANGEL-TRE'R-BEIRDD,** sydd bentref a phlwyf, yn nosparth a swydd Fon; saif y pentref o fewn dwy filltir dwyreiniol o Lanerchymedd, ar y ffordd i Beaumaris. Y mae y rhan olaf o'r enw, yn awgrymu fod yma orsaf Dderwyddol; a Choleg Barddol, yn yr amser gynt. Y mae hyn yn cael ei gadarnhau hefyd, wrth feddwl am y nifer o allorau, a meini-gwyr, sydd yn aros eto yn y lle. Y mae ar fynydd Bodafon, Gromlech, a'r maen-arch yn mesur deg troedfedd o hyd, wrth 8 o led. Y mae un lai hefyd, mewn cyflwr adfeiliedig yn Barras. Yma y mae y Maen-Addwyn, neu y Maen-cysegredig, yr hwn sydd biler unionsyth, o gryn uchder, ar ymyl y brif-ffordd. Y mae y traddodiad canlynol am dano. Yr oedd Robyn Ddu yn bwyta ei foreu-fwyd gyda boneddwr Llwydiarth-Fawr; ac ar ganol y pryd bwyd, wrth y ford, torodd y daroganwr ar y gosteg, a dywedodd yn sydyn, "Dyd, dyd, dyna y Maen-Addwyn wedi syrthio!" Er cael prawf o wirionedd y dywediad, anfonodd gwr y ty ei was, gyda'i farch cyflymaf i'r lle, i weled pa fodd y bu; a dychwelodd gyda y dystiolaeth iddo gwympo, ar y mynud a fynegwyd gan Robyn! Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mihangel, ac y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llandyfrydog, yn esgobaeth Bangor. Y mae croes henafol o fewn y fynwent. Y mae yma gofadeiliau i deulu Lewis. Yma y ganwyd tâd Syr William Jones, sef William Sion Siors; a bu yr enwog Llewelyn Ddu, yn cyfaneddu yma am beth amser, yn ei ieuengetid.

**LLANFIHANGEL-UWCHGWILI,** capeloriaeth yn mhlwyf Abergwili, swydd Gaerfyrddin, bum milldir a hanner i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Caerfyrddin. Isberigloriaeth barhaol yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawdd periglor Abergwili, yw y fywioliaeth eglwysig, yr hon sydd yn werth 75*p*.

**LLANFIHANGEL-Y-CREUDDIN,** pentref, dwy drefgordd, a phlwyf, yn y rhan uchaf o gantref Ilar, dosbarth Aberystwyth, swydd Aberteifi. Saif y pentref ar fraich o'r afon Ystwyth, dair milldir i'r gogledd-ddwyrain o orsaf Llanilar, ar reilffordd Pencader, Llanbedr, Tregaron, ac Aberystwyth; a saith milldir a hanner i'r de-ddwyrain-wrth-ddwyrain o Aberystwyth; y mae yn bentref o gryn faintioli, ac wedi ei adeiladu yn ddestlus. Y trefgyrdd ydynt Llanfihangel-Uchaf a Llanfihangel-Isaf. Erwau Llanfihangel-Isaf, 6592. Gwerth ardrethol, 3330*p*. Poblogaeth yn 1851, 931; yn 1861, 978. Tai, 195. Erwau Llanfihangel-Uchaf, 15,961. Gwerth ardrethol, 6326*p*., ac o'r swm hwn y mae 4103*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 1388; yn 1861, 1796. Tai, 342. Helaethiad y gweithfeydd plwm a achosodd y cynnydd hwn yn y boblogaeth. Heblaw y ddwy drefgordd, cynnwysa y plwyf hwn gapeloriaeth Eglwys Newydd. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 184*p*., ac Esgob Tyddewi yw ei noddwr. Ceir golygfeydd arddunol yn y plwyf hwn, yn enwedig ar y Fynach, a'r Rheidiol, yn ymddolenu trwy y dyffryn. Dros y flaenaf a enwyd y mae Pont-ar-Fynach, neu "Bont y Gwr Drwg," â'r hon yr ymwelir gan gannoedd o ddieithriaid o Aberystwyth yn yr haf. Rhuthra y Fynach yn y lle hwn trwy aphwys anoddyn, gyda chyflymdra syfrdanol, a

Digitized by Google

thywyllir ei dyfroedd gan gysgod y creigiau serth o'i deutu, yn nghyda'r coedydd a'r prysglwyni sydd yn tyfu o'r creigiau. Taflwyd pont uchel drosti mewn cyfnod bore, gan fynachod Ystrad Fflur, a phont arall uwchben hono yn 1753, er mwyn hwylysu y dramwyfa i brif-ffordd Aberystwyth. Oddeutu hanner can llath oddiwrth y bont, cwympa yr afon yn ddisymmwth dros graig ugain troedfedd o uchder, i geubwll du odditanodd, ac yn union drachefn, rhuthra dros ddibyn o driugain troedfedd, i geubwll arall; ac yna, ar ol cwympo yn bendramwnwgl dros dalgraig arall o ugain troedfedd, disgyna yn llif didor o dros gan troedfedd o uchder.

**LLANFIHANGEL-YN-NGWYNFA**, plwyf yn rhan isaf cantref LLANFYLLIN, ac undeb LLANFYLLIN, MALDWYN; ar hen ffordd Rufeinig Caersws a Chaerlleon, bum milldir i'r de-orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Mae yn y plwyf bentref o'r un enw, yr hwn enw sydd yn tarddu o gyssegriad yr eglwys i Sant Mihangel neu Michael, a'i fod yn rhan o Wynfa, rhan o Bowys yn yr hen amser, ond "Llanfihangel y Gwynt" y gelwir y lle yn fwyaf cyffredin, o herwydd ei fod mor ddi gysgod ac agored i'r ddryghin. Rhenir y plwyf yn ddau ddosbarth, yr uchaf, a'r isaf; a chynnwys drefgorddau Cefncleisiog, Cydwnfa, Dolwar, Fachwen, Farchwell, Ffynnon Arthur, Garthucha, Halfen, Llaeth Bwlch, Llwydiarth, Nant Candy, a Rhiwlas. Erwau, 10,005. Gwerth ardrethol, 5002*p*. Poblogaeth, 950. Tai, 171. Mae y tiroedd isel yn ddiwylliedig a chynnyrchiol; ochrau y bryniau yn cynnwys porfeydd i ddefaid a gwartheg, a cheir digonedd o fawn, yr hwn yw prif danwydd yr ardalwyr. Ychwanegir at brydferthwch naturiol y golygfeydd gan liaws o breswylfeydd boneddigion, y penaf o ba rai ydyw Llwydiarth, gyda'i barc eang a choediog. Y fywioliaeth sydd rectoriaeth yn esgobaeth Llanelwy. Ei gwerth yw 401*p*., a'r Arglwydd Ganghellydd yw y noddwr. Bywioliaeth ar wahan yw ficeriaeth Pont Dolanog. Mae yn y plwyf ysgol waddoledig, gyda 18*p*. y flwyddyn, elusen o 10*p*. y flwyddyn tuagat brentisio bechgyn tlodion, ac 8*p*. o elusenau ereill.

**LLANFIHANGEL-YN-NHOWYN**, plwyf yn nghantref Llifon, dosbarth a swydd MON, gerllaw gorsaf y *Valley*, ar reilffordd Caer a Chaergybi, bum milldir a chwarter i'r de-ddwyrain o Gaergybi. Derbynia ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Fihangel Sant, a'i sefyllfa ar dywyn chang, neu gyttir maith, gerllaw y mor. Rhwng y 330 sydd dan ddwfr, y mae y plwyf yn cynnwys 1404 o erwau, a rhan fawr o hono wedi ei amgau a'i ddiwyllio; y cyttir eang a derfynir ar y dde gan forgilfach Cymmerau, ac ar y gorllewin gan y culfor sydd yn gwahanu Mon o Ynys Cybi. Gwerth ardrethol y plwyf yn 1861 oedd 624*p*.; yr oedd y boblogaeth yn 222, a nifer y tai yn 41. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, yn gydiol â rheithoriaeth Rhoscolyn, yn esgobaeth Bangor. Y mae ffordd newydd Caergybi yn rhedeg heibio eglwys y plwyf, yr hon sydd adeilad henafol, wedi ei hadeiladu ar fryn, ac yn weledig i'r holl wlad gylchynol am filldiroedd. Ceir yn y plwyf hwn olion "Cyttiau'r Gwyddelod" y sonir am danynt yn "*Mona Antiqua*" Rowlands. Byddai gwylmabsantau y plwyf hwn yn cael eu dathlu yn yr hen amser gyda bri a thrybestod neillduol, ond erbyn hyn y mae hyd yn nod eu coffadwriaeth bron wedi ei ddileu, ac nis gwyddom fod neb yn cwyno o'r herwydd.

**LLANFIHANGEL-Y-PENNANT**, plwyf, yn cynnwys pentref, yn nghwmwd Eifionydd, swydd GAERNARFON, ond yn nosbarth Ffestiniog, MEIRIONYDD. Saif wrth droed Moel Hebog, yn ymyl rheilffordd swydd Gaernarfon, bedair milldir i'r gogledd-orllewin wrth ogledd o Dremadog. Cynnwysa dreflan Cenin, a derbynia y plwyf y rhan olaf o'i enw oddiwrth yr afon Pennant, yr hon sydd yn dyfrhau dyffryn prydferth yn nghanol mynyddoedd. Nodweddir y golygfeydd amgylchynol gan gymmhlethiad swynol o'r tyner a'r rhamantus; a ffurfia y dyffryn meillionog wrthgyferbyniad tarawiadol, i ysgythredd gwyllt y Graig Goch, a Moel Hebog, y rhai a ddyrchant eu pénau moelion i'r ffurfafen yn union y tu cefn i'r hen eglwys, canys cyfrifir fod copa y Foel 2584 o droedfeddi goruwch gwastadedd y mor. Cynnwys y plwyf 8844 o erwau. Gwerth ardrethol 1736*p*., ac o'r swm hwn y mae 100*p*. ar chwarelau. Nifer y boblogaeth yn 1851 oedd 665, ond yr oedd wedi cynnyddu i 753 erbyn 1861. Annedd-dai, 141. Brynkir yw prif balasdy y plwyf. Rectoriaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 127*p*., ac yn nawdd yr Esgob, yw y fywioliaeth eglwysig. Perthyna i'r plwyf elusen blynyddol o 3*p*., i'w ranu rhwng y tlodion.

**LLANFIHANGEL-Y-PENNANT**, plwyf yn arglwyddiaeth Estymaner, dosbarth Dolgellau, cantref a swydd MEIRIONYDD. Saif ar lan yr afon Ddysyni, chwe milldir i'r dwyrain o orsaf rheilffordd Llwyngwril, ac wyth filldir i'r de-orllewin o Ddolgellau. Cynnwysa drefgyrdd Llanllwydan, Maestrefnant, ac Uwchygareg, a rhan o Cedris. Erwau, 8321. Eiddo trethadwy, 1900*p*. Poblogaeth, 368. Tai, 88. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; ac yn y flwyddyn 1868 cyssylltwyd hi â ficeriaeth Talyllyn. Mae y plwyf oddeutu pedair milldir o hyd, a thair o led, a'r gwrthddrych mwyaf nodedig o'i fewn ydyw Cadair Idris, yr uchaf o fynyddoedd Meirionydd. Bychan yw y pentref, a saif ar lanau prydferth y Ddysyni, yr hon a ymarllwys i'r mor yn Aber Dysyni. Ar lan yr afonig Llaethnant, yn y plwyf hwn, y safai Castell y Biri. Oddiwrth ei olion, y rhai sydd i'w gweled etto ar frig bryncyn uchel, y mae yn amlwg fod y castell yn lle hynod gadarn. Bernir mai un ai Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, neu Hugh Fleiddyn, Iarll Caerlleon, a'i hadeiladodd. I ddwylaw yr Hugh Fleiddyn hwn y bradychwyd y tywysog Cymreig gan Meirion Goch, amddiffynydd y lle. Adeiladodd yr Iarll liaws o gestyll yn y Gogledd, ac yr oedd ganddo un yn Meirionydd. Tybiai Mr. Pennant mai hwn ydoedd Castell Bere, amddiffynfa olaf "Llewelyn ein llyw olaf," yr hwn, ychydig cyn llwyr ddarostyngiad Cymru, a gymmerwyd gan William de Valence, Iarll Penfro; ac os felly, yr un castell, yn ol pob tebyg, ag a roddodd Iorwerth I. i Robert Fitz-Walter, yr hwn a gafodd yr hawl i hela pob math o anifeiliaid gwylltion yn Nghymru. Yn Tyny bryn, yn y plwyf hwn, y ganwyd Dr. W. O. Pughe, ar y 7fed o Awst, 1759.

Ar waelod dyffryn Llanfihangel, y saif y graig hynod a elwir "Craig y Deryn;" yr hon a gafodd ei henw mae yn debyg, oddiwrth y lluaws mawr o forfrain, hebogiaid, cyhyrod, ac adar ysglyfaethus eraill a'i mynychant. Ymgyfyd y graig yn serth i'r uchder o dri chan troedfedd uwchlaw y llethr, yr hwn sydd yn orchuddiedig gan gerryg anferth. Y mae iddi ddau wyneb nodedig, y rhai a elwir yn y gymmydog-

Digitized by Google

aeth, "Y Palis Fawr," a'r "Palis Bach." Ymddyrcha y "Palis Bach" tua dau gan troedfedd o uchder o'r ffordd sydd wrth ei godrau, a chan mor ogwyddedig yw ei ffurf, bydd llawer teithydd yn cyflymu heibio iddi â chalon grynedig, gan ofni cael ei lethu trwy ei chwymp arno. Y mae wyneb y "Palis Mawr" tua chan llath o led, a 400 troedfedd o uchder, ac yn gogwyddo tua 60 troedfedd dros droed y graig. Y mae yn hon ugeiniau o ystafelloedd, neu gilfachau, yn y rhai y bydd yr adar yn dodwy, ac yn magu eu cywion. Yn misoedd Ebrill a Mai, gwelir cannoedd o for-adar yn chwareu oddeutu y cilfachau hyn, a bydd llawer o foneddwyr yn ymweled â'r lle, er mwyn y difyrwch o'u saethu. Y mae olion dau hen dŵr ar ben y graig hon, a elwir "Tyrau y Gwylwyr;" a dywaid traddodiad eu bod yn perthyn gynt i Gastell y Bere; ac y byddai y Gwylwyr, pan ganfyddent y gelynion yn nesau o gyfeiriad y Towyn, neu Lanegryn, yn rhoddi arwydd i'r castell, trwy gyfodi baner goch ar un o'r tyrau. Canodd y Parch. Evan Evans, (Ieuan Brydydd Hir) fel y canlyn i "Graig y Deryn:"—

"Bryn yr Aderyn ar diroedd,—uchel
Iachaf man dan nefoedd;
Caer gynt yn y creigiau oedd,
I filwyr mewn rhyfeloedd.

Mae'r fran, a'r aran ar oror—y graig
Yn groyw'n eu tymhor;
Unan' yn y gân un gor,
Peraidd yw llais pob paror.

Miwsig sydd ddiddig i ddyn—naturiol
Yw cantorion telyn;
Melusach, rhwyddach er hyn,
Yw d'araeth, Craig'r Aderyn."

**LLANFIHANGEL - YSTERN - LLEWERN,** plwyf yn nosbarth a swydd MYNWY; ar yr afon Trothy, 3¾ milldir o orsaf rheilffordd *Raglan Footpath*, a 5 milldir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Fynwy. Erwau, 1864. Gwerth ardrethol, 1810*p*. Poblogaeth, 183. Tai, 29. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Llandaf, gwerth 211*p*., ac yn nawddogaeth Iarll Abergafenni.

**LLANFIHANGEL-YSTRAD,** pentref a phlwyf yn nosbarth Aberafon, swydd ABERTEIFI. Saif y pentref gerllaw yr afon Aeron, chwe milldir a hanner i'r de-ddwyrain o Aberaeron, a chwe milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Llanbedr. Cynnwys y plwyf hefyd bentref Capel. Erwau, 7467. Gwerth ardrethol, 4287*p*. Poblogaeth, 1162. Tai, 264. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 96*p*., ac Esgob Tyddewi yw y noddwr. Yn y pen deheuol i'r plwyf, y mae olion hen wersyll milwraidd, o'r enw Cribyn Clottas, eithr nid oes dim o'i hanes ar gael; ac mewn cae o'r enw Maes Mynach y mae hen gareg, gydag addurniadau Runic, ond heb unrhyw argraff arno.

**LLANFIHANGEL-Y-TRAETHAU,** plwyf ac is-ddosbarth yn nosbarth Ffestiniog, yn nghantref Is-Artro, cwmmwd Ardudwy, swydd FEIRIONYDD. Saif y plwyf ar reilffordd Arfordir Cymru (yr hon a gwblhawyd oddeutu diwedd 1866), dair milldir a chwarter i'r gogledd-wrth-ddwyrain o Harlech. Cynnwys drefgyrdd Llanfihangel a'r Ynys, a rhan o drefgordd y Penrhyn, yr hon sydd a'i gweddill yn mhlwyf Llandecwyn. Enw y plwyf a ddeillia o gyssegriad yr eglwys i Sant Mihangel, a'i sefyllfa ar lanau deheuol y Traeth Bach, sef lleiniau eang o dywod wrth enau llydan yr afon Dwyryd, yr hon sydd yma yn ymddylifo i forgilfach Aberteifi. Mae arwynebedd y tir yn nghymmydogaeth yr afon yn gorsawg, ond y canolbarth sydd fryniog. Ceir cryn amrywiaeth yn ansawdd y tir; gwneir ef i fyny yn y manau uchaf o sylwedd coch tywyll, ac yn yr iseldiroedd o glai, tywod, a mawn. Cafwyd deddf seneddol yn y flwyddyn 1806 i amgau y cyttiroedd anial yn y plwyf hwn, a phlwyf cyssylltiol Llandanwg. Dan ddarpariadau y ddeddf hono, neillduwyd 1365 o erwau i blwyf Llanfihangel, yr hwn a gynnwys o gwbl 7567 o erwau. Y boblogaeth yn 1851 oedd 1587, ac yn 1861 yr oedd yn 1687, ar gyfer y rhai y mae 385 o dai. Gwerth ardrethol y plwyf yw 5107*p*. Yn y flwyddyn 1073, mewn lle o'r enw Bron yr Erw, llain o dir rhwng Traeth Mawr a Traeth Bach, yn y plwyf hwn, ymladdwyd brwydr waedlyd rhwng Trahaearn ab Caradog, Tywysog Gwynedd, a Gruffydd ab Cynan, yr hwn a ddaethai trosodd o'r Iwerddon i'w ddisodli. Ei orchfygu, pa fodd bynag, a gafodd Gruffydd, a'i ymlid yn ei ol i Ynys Fon. Yn y rhan o'r plwyf a elwir Penrhyn Deudraeth, yr oedd gynt, medd traddodiad, gastell yn perthyn i un o feibion Owain Gwynedd. Am sylw ar Gastell Deudraeth, palas gorwych y diweddar Mr. Dafydd Williams, A.S., gwel dan y penawd "PENRHYN DEUDRAETH." Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn gydiol â ficeriaeth Llandecwyn, yn esgobaeth Bangor. Ei gwerth yw 210*p*., ac Esgob Bangor yw y noddwr. Saif yr eglwys ar lanerch tra hyfryd, lle y safai gynt eglwys a sefydlwyd yn amser Edgar Frenin Lloegr, gan W. Dermac de Deler, ac yn y fynwent y mae cof-faen chwe troedfedd o uchder yn dwyn yr argraff canlynol: "*Hoc est sepulchrum Will. Dermae de Deler, qui primus ædificavit hanc Ecclesiam, in tempore Ewini Regis.*" Mae y ffordd o Harlech dros y tywod i Dremadoc yn pasio heibio i'r pentref, a chroesir y plwyf gan ffordd Tanybwlch. Gall llongau bychain fordwyo yr afon can belled a Ty Gwyn y Gamlas, o fewn ychydig gannoedd o latheni i'r eglwys. Y Parch. John Jones, D.D., yn y flwyddyn 1719, a adawodd gymmunrodd o 50*p*., gyda gorchymyn fod i'r llog fyned i dalu am addysg deg o blant tlodion y plwyf hwn, a'r plwyf cyfagos, Llandecwyn. Humphrey Humphreys, D.D., yr hwn a fu yn esgob yn Mangor yn gyntaf, ac wedi hyny yn Henffordd, a anwyd yn Hendref Isaf, yn y plwyf hwn, ar y 24ain o Dachwedd, 1648; efe a fu farw yn Henffordd ar yr 20fed o Dachwedd, 1712, ac a gladdwyd gerllaw yr allor, yn eglwys gadeiriol y ddinas hono. Yn y plwyf hwn y mae tlotty undeb Ffestiniog; pan wnaed y cyfrif yn 1861 yr oedd yn cyfaneddu ynddo 32 o dlodion.—Mae yr is-ddosbarth hefyd yn cynnwys pedwar o blwyfydd ereill. Erwau, 31,954. Poblogaeth, 3658. Tai, 813. Mae yn y plwyf amryw fân lynoedd.

**LLANFILLO,** plwyf yn nghantref Pencelli, dosbarth a swydd BRYCHEINIOG; ar aber o'r afon Wy, dair milldir i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Talgarth, a phum milldir a chwarter i'r gogledd-ddwyrain o Aberhonddu. Erwau, 3305. Gwerth ardrethol, 1819*p*. Poblogaeth, 263. Tai, 61. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn gydiol âg isbeiglorïaeth barhaol Llandefailog-tre'r-graig, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 324*p*., a T. Watkins, Ysw.,

Digitized by Google

yw y noddwr. Derbynia y plwyf ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Milburg, neu Fillo, santes enwog yn y seithfed ganrif. Merch ydoedd i Merwald, Brenin Mercia, ac abades Wenlock, yn swydd yr Amwythig. Bu yn llywodraethu y lleiandy hwn hyd ddydd ei marwolaeth, a chladdwyd hi yn yr abatty, lle y cafwyd ei gweddillion yn amser Harri y Cyntaf. Ar fryn uchel ar fferm Alltfillo, y mae olion hen wersyll Prydeinig o gryn faintioli, yn mesur 624 o droedfeddi ar ei draws un ffordd, a 138 o droedfeddi ar ei draws y ffordd feraf; ymddengys ei fod yn cael ei amddiffyn amgylch ogylch gan ffos ddofn, yr hon sydd yn aros mewn rhan etto. Ceir golygfeydd swynol oddiar uchelfanau y plwyf.

**LLANFITHEN**, neu LLANOETHIN, cymmydogaeth anmhlwyfol yn nosbarth Caerdydd, swydd FORGANWG; bedair milldir a chwarter i'r dwyrain-ddc-ddwyrain o orsaf rheilffordd Ponfôn. Erwau, 466. Poblogaeth, 28. Tai, 4.

**LLANFOIST**, sydd blwyf a phentref bychan, 1½ milldir i'r de-orllewin o Abergafenni, yn nghantref, undeb, dosparth llys sirol, a deoniaeth ABERGAFENNI; archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf. Saif ar lan afon Wysg, yr hon sydd yn terfynu y plwyf yn ogleddol. Rhed Camlas Aberhonddu ac Abergafenni, gyda phrif-ffordd Merthyr ac Abergafenni, trwy y plwyf hwn. Un fechan henafol yw yr eglwys, yn cynnwys corph, canghell, porth, a chlochdy gyda 2 gloch. Rectoriaeth yw y fywioliaeth, yn werth 280p. y flwyddyn. Mesura arwyneb y plwyf 3288 erw. Gwerth ardrethol, 10,713p.; ac o'r swm yma y mae 2000p. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 1472. Tai annedd, 263. Iarll Abergafenni yw arglwydd y faenor; ac yn ei rodd ef y mae y fywioliaeth eglwysig. Mae cyfoeth o lô, mwn haiarn, a cheryg calch yn y plwyf hwn, heblaw chwareli eang o geryg adeiladu. Rhed Mynydd Blorenge, yr hwn sydd yn 1720 troedfedd o uchder trwy ganol y plwyf. Y prif gynnyrchion amaethyddol ydynt wenith a cheirch.

**LLANFORDA**, trefgordd yn mhlwyf Croesoswallt, swydd AMWYTHIG; gerllaw Clawdd Offa, ddwy filldir i'r de-orllewin o Groesoswallt. Gwerth ardrethol 23,333p., yn cynnwys 500p. ar fwngloddiau. Poblogaeth, 304.

**LLANFRECHFA**, plwyf yn cynnwys dwy ran, yr uchaf, a'r isaf, yn nosbarth Pontypool, swydd FYNWY; ar fraich o'r afon Wysg, un filldir a thri chwarter i'r gogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Llantarnam, a dwy filldir a hanner i'r gogledd-ogledd-orllewin o Gaerlleon ar Wysg. Erwau, 4320. Gwerth ardrethol y rhan isaf, 3700p. Poblogaeth yn 1851, 985; yn 1861, 933. Tai, 207. Gwerth ardrethol y rhan uchaf, 4678p., yn cynnwys 1000p. ar fwngloddiau, 62p. ar chwarelau, a 250p. ar reilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 1517; yn 1861, 1621. Tai, 296. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gyssylltiedig â chapeloriaeth Cumbrane, neu Cwmbrân, yn esgobaeth Llandaf. Ei gwerth yw 85p. y flwyddyn, a thy, a'i noddwyr yw Deon, a Glwysgor Llandaf. Adeiladwyd ysgol ddyddiol berthynol i'r eglwys, yn y flwyddyn 1862. Elusenau blyneddol y plwyf, 5p. Prif foddion cynnaliaeth y trigolion ydynt y mwngloddiau, a'r gweithfeydd gwlân.

**LLANFRENE**, treflan yn mhlwyf Llandyssul, ABERTEIFI; saith milldir a hanner i'r dwyrain o Gastellnewydd Emlyn, gyda phoblogaeth o 589.

**LLANFROTHEN**, pentref a phlwyf yn nghantref Is-artro, arglwyddiaeth Ardudwy, dosbarth Ffestiniog, swydd FEIRIONYDD; tair milldir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Dan y Bwlch, yn cynnwys 7355 o erwau o dir, a 127 o ddwfr. Gwerth ardrethol 2846p., yn cynnwys 20p. ar chwarelau. Poblogaeth, 830. Tai, 156. Derbynia y plwyf ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Brothen, sant Prydeinig enwog, yr hwn a flodeuai oddeutu diwedd y chweched ganrif. Yn y plwyf hwn y saif y rhan fwyaf o'r tir a ennillwyd oddiar y mor, yn y flwyddyn 1810, gan Mr. Madocks, Tanyrallt. Saif y pentref ar fin y Traeth Mawr, gerllaw rheilffordd swydd Gaernarfon, chwe milldir a hanner i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Harlech. Rhed amryw ffrydiau i'r afon Glaslyn, neu y Traeth Mawr, ac yn y plwyf hwn y mae Llyn Elidyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 115p. yn flyneddol, gyda phersondy, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Darganfyddwyd olion Rhufeinig ar Ynys y Gwyddel, ychydig flyneddoedd yn ol. Cymmun-roddodd Evan Thomas, yn 1732, 20p.; William Lewis Anwyl a adawodd 10p., a John Carreg 20p.; Gwen Prichard, yn 1715, a destamentodd ddernyn bychan o dir; a Mrs. Lloyd, yn 1784, ardreth blyneddol o ddeg swllt,—y cyfan er budd tlodion y plwyf hwn; heblaw y rhai hyn, gadawodd rhyw gymmwynaswr anadnabyddus, ewyllysrodd o 1p. 15s. y flwyddyn tuag at addysg y plant tlodion. Yn Ramoth, yn y plwyf hwn, y preswyliai y Parch. John R. Jones, yr hwn a sylfaenodd enwad o Fedyddwyr yn Nghymru, ac a ennillodd enwogrwydd mawr fel duwinydd, cerddor, a bardd. Gosodwyd arbenigrwydd hefyd ar y Wern, yn yr un plwyf, am mai yno y cyfanneddai y Parch. Richard Jones, un o brif golofnau y Trefnyddion Calfinaidd.

**LLANFRYNACH**, plwyf yn nghantref Penygelli, dosbarth, a swydd FRYCHEINIOG; ar yr afon Wysg, a chamlas Aberhonddu, gerllaw y *Via Julia Montana*, a rheilffordd Henffordd ac Aberhonddu, dair milldir a chwarter i'r de-ddwyrain o Aberhonddu. Erwau, 7127. Gwerth ardrethol, 2840p. Poblogaeth, 352. Tai, 79. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi. Gwerth, 305p. a phersondy; a pherthyn y nawddogaeth i ymddiriedolwyr y diweddar J. P. de Winton, Ysw. Derbynia y plwyf ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys (adeilad tra henafol) i Brynach, sant Gwyddelig enwog, yr hwn a ddaeth gyda Brychan Brycheiniog drosodd i Brydain, yn y bummed ganrif, ac a lywodraethodd ar amryw o'r mynachdai a sefydlwyd gan y tywysog hwnw. Ymddengys i'r lle ddyfod i feddiant y Rhufeiniaid yn fore iawn, olion y rhai sydd yn ganfyddadwy etto yn nghymmydogaethau mwnawl Bryn Oer, neu, "Bryn Aur." Olrheiniwyd ffordd Rufeinig o Gaerdydd, neu Gaerphili, yn arwain yn uniongyrchol, trwy Fryn Oer, i'r lle hwn. Hawdd yw canfod fod yr ardal wedi ei gweithio mewn rhyw gyfnod bore, oddiwrth olion hen weithfeydd tawdd, yn enwedig mewn maes yn dwyn yr enw arwyddocaol, "Clos y Gefeilion;" ond ni chafwyd sicrwydd pendant mai i'r Rhufeiniaid y perthynent, hyd y flwyddyn 1775, pan y darganfyddwyd gweddillion baddon Rhufeinig, yn yr hwn y cafwyd darn o haiarn morthwyliedig, yn mesur pedair troedfedd o hyd, a chwe modfedd o led. Terfynir y plwyf ar y de-ddwyrain gan yr afonig Mehascin, ac ar y gorllewin gan y Cynrig; ymarllwysa y ddwy i'r afon Wysg, yr hon sydd yn ffinio y plwyf am yn agos i ddwy filldir ar y gogledd-

Digitized by Google

ddwyrain, a thros yr hon y codwyd pont faen dda yn 1773. Ty Mawr, eiddo W. de Winton, Ysw., a adeiladwyd gyntaf, fel y tybir, yn ystod teyrnasiad Iorwerth II. gan Hywel Gam, mab henaf Gruffydd ab Meredydd, un o ddisgynyddion Brychan Brycheiniog. Gyda golwg ar y gweddillion Rhufeinaidd a grybwyllwyd; mewn maes o'r enw Caer-maenbach, gerllaw y pentref, y darganfyddwyd hwynt; ond dinystriwyd hwynt gan berchennog y tir, er mwyn osgoi y blinder a achosid iddo gan y dyddordeb cyhoeddus angerddol a greasant, a'r hwn nid oedd ddichonadwy ei gadw o fewn terfynau: ond y mae gan Theophilus Jones, yn ei lyfr rhagorol ar Hanes sir Frycheiniog, ddarlun a dynwyd o'r baddon yn union wedi ei ddarganfyddiad. Ymddengys ei fod yn cynnwys un baddon cynnes, a dau oer; yr oedd y lloriau wedi eu haddurno yn chwaethus. Cafwyd hefyd o bryd i bryd, amryw fathodau Rhufeinig, yn dwyn argraff Cystenyn, a Valentinian, a lliaws o hen weddillion ereill. Nis gellir olrhain unrhyw olion o amddiffynfeydd milwraidd, ond y mae enw dau le yn y plwyf, sef Tregaer, a Caerau, yn lled awgrymu bodolaeth sefydliadau o'r fath mewn rhyw gyfnod bore. Mewn maes o'r enw Cae Gwyn, yn y plwyf hwn, yr oedd pentwr mawr o geryg rhyddion, dan y rhai, pan y symmudwyd hwynt yn 1808, y darganfyddwyd cistfaen, wedi ei ffurfio o bedwar maen wedi eu dodi ar eu penau, ac yn cynnal pummed maen ar ei wastad. Cafwyd esgyrn dynol y tufewn, ac ar glawr y cistfaen, yr hwn yn ddiau sydd yn gyfoed â dyfodiad y Rhufeiniaid i Brydain, os nad yn henach.

Tybir mai yn y plwyf hwn y cyfaneddai Brychan Brycheiniog, yr hwn a lywodraethai y parth yma o'r Dywysogaeth ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid. Efe a roddodd ei enw i'r sir, a thybir mai efe a sefydlodd yr eglwys blwyfol, tu fewn i furiau yr hon y dywedir fod ei lwch yn gorwedd. Cododd yn y plwyf hwn amryw wŷr fu yn enwog yn eu dydd, o ran eu cyrhaeddiadau llenyddol, neu o herwydd y swyddi a lanwent mewn byd ac eglwys. Nid y lleiaf enwog o honynt, oedd Dr. William Aubrey, o Goleg All Souls, Rhydychain, Prifathraw un o'r colegau, professwr brenhinol yn y gyfraith wladol, dadleuydd yn Llys yr Archau, aelod o Gyngor Cyffindir Cymru, meistr yn y Canghell-lys, canghellydd Archesgob Whitgift, &c., bu farw yn 1595, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol St. Paul, Llundain. William Aubrey a fu yn ganghellydd esgobaeth Tyddewi yn 1514, a Thomas Aubrey, o'r un teulu, a brodor arall o'r plwyf hwn, a fu yn dal yr un swydd ar ol hyny; a John Aubrey o Easton Percy, yn swydd Wilts, disgynydd o'r un teulu, a fu yn cynnorthwyo Dugdale i gasglu y "Monasticon;" efe ydoedd un o aelodau cyntaf y Gymdeithas Frenhinol, a chyhoeddodd amryw lyfrau; bu farw yn 1700. John Jones, cyfaill mynwesol yr Archesgob Laud, a anwyd yn y plwyf hwn yn 1575; ar ol derbyn y rhan gyntaf o'i addysg mewn ysgol yn Llundain, aeth i Rydychain, a gwnaed ef yn gymmrawd o Goleg Merton; ar ol ymuno â'r Eglwys Babaidd, aeth i Spaen, derbyniwyd ef yn frawd o fynachdy Benedictaidd Compostella, ac yno efe a fabwysiadodd yr enw Leander de Sancto Martino. Ar ol cymmeryd y gradd o Ddoethawr Duwinyddiaeth, efe a aeth i Douay, lle y bu am flyneddoedd lawer yn athraw Hebreig yn nghapel Vedrastus; ac ar ol hyny efe a wnaed yn benaeth Coleg Benedictaidd Gregori Sant, yn y lle hwnw. Pennodwyd ef hefyd yn ficer cyffredinol y Benedictiaid Seisnig yn Spaen, ddwywaith yn benaeth y Benedictiaid yn Lloegr, ac i'r swydd-deitl o brior yr Eglwys Babaidd, yn nhalaeth Caergaint. Ar wahoddiad yr Archesgob Laud, efe a ddychwelodd i Loegr, lle y bu efe farw yn 1636.

**LLANFUGAIL**, sydd blwyf a dosparth yn swydd Fon, gerllaw afon Alaw, 3½ milltir gogledd-ddwyrain wrth ogledd o orsaf rheilffordd y Faelwy, 5½ dwyreiniol o Gaergybi. Llythyrdy dan Gaergybi. Erwau, 404. Gwerth ardrethol, 723*p*. Poblogaeth, 121. Tai, 27. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llanfachraeth, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys yn cymeryd ei henw oddiwrth "Fugail," anadnabyddus, ac y mae yn awr yn adfeiliau. Yn y terfynaeth a wnaed yn amser Iorwerth III., y mae y lle hwn yn cael ei ddynodi fel trefgordd, yn perthyn i feibion Gryffydd ab Dafydd, a Madog Ddu ab Dafydd; ac yn talu am y lle, chwe swllt a chwe cheiniog bob Pasg a Gwyl-Mihangel.

**LLANFWROG**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Fon, gerllaw Beis-for Caergybi; 3½ milltir dwyrain-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Caergybi. Llythyrfa yn Nghaergybi. Erwau 2017, o'r hyn y mae 395 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1560*p*. Poblogaeth, 246. Tai, 49. Y mae y meddiant rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llanfaethlu, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mwrog. Y mae yma rai cerfiadau henafol, a gweddillion treuliedig o argraph annarllenadwy. Y mae traddodiad yn y gymydogaeth, fod capel bychan gynt, ar amaethfa y Cefn-Glas, a elwid "Mynwent-Mwrog," ond nid oes dim o olion yr adeilad ar gael erbyn hyn.

**LLANFWROG**, plwyf yn Undeb Rhuthin, swydd Dinbach, ar yr afon Clwyd, ac ar reilffordd Dinbach, Ruthin, a Chorwen; yn cynnwys rhan o fwrdeisdref Rhuthin, ac yn cynnwys trefgyrdd Pen y Coed, Cil y Groeslwyd, Bod Angharad Isaf, Bod Angharad Uchaf, a Gallt-tegfa. Llythyrfa, Ruthin, swydd Ddinbach. Mesura yn erwau, 3068. Gwerth trethadwy, 4455*p*. Poblogaeth, 1425. Tai, 355. Poblogaeth y rhan sydd yn mwrdeisiaeth Rhuthin, 1151. Tai annedd, 293. *Pool Park*, palas Arglwydd Bagot, a ail adeiladwyd yn y flwyddyn 1828, yn yr arddull Duduraidd. Palasau da eraill yn y plwyf ydynt *Woodlands*, a'r Plas Newydd.

Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 456*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae yma addoldy perthynol i'r Bedyddwyr, ac un arall yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd. Y mae yma elusendai i bedwar o feibion, a chwech o ferched tlodion, a sefydlwyd yn nghanol yr ail ganrif ar bymtheg, gan y Foneddiges Jane Bagot, o Blithfield yn swydd Stafford, ac a waddolwyd ganddi a 60*p*. yn y flwyddyn.

**LLANFYLLIN**, tref fechan, plwyf, ac undeb, yn swydd Drefaldwyn. Y mae y dref yn sefyll ar yr afon Cain, ar derfyn cangen o'r rheilffordd o Groesoswallt i Lanidloes, 9 milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o gydiad y gangen hono â'r brif reilffordd yn Llan y mynach; a 15 milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Ogledd o Drefaldwyn. Y mae yn dref fechan hardd, a difyr; a'r brif heol yn cyfeirio o'r Dwyrain i'r Gorllewin. Y mae yn gorwedd mewn

Digitized by Google

dyffryn tra ffrwythlawn, yn gylchynedig gan fynyddoedd, a llethrau gwyrdd-goediog. Y mae rhai adeiladau godidog ynddi, sef masnachdai helaeth, addoldai ysplenydd, ysgoldai heirdd, a thy marchnad cyfleus. Cafodd y lle freinlen ar y cyntaf gan Llewelyn ab Gruffydd ab Gwenwynwyn, yn nheyrnasiad Edward I., yr hon a gadarnhawyd gan Edward de Charleton, Arglwydd Powys, yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Harri V., a thrwy y freinlen hon, awdurdodid y swyddogion bwrdeisiol i ddal, profi, a charcharu lladron, a drwg-weithredwyr eraill, ac os cynnygient ddianc, i'w hymlid mewn unrhyw gyfeiriad, hyd y pellder o dair milldir o'r dref, a gallai unrhyw estron a drigai o'i mewn, gan dalu treth a dofraeth am flwyddyn, hawlio ei ryddfreiniad. Helaethwyd a chadarnhawyd y frein-len hon gan y brenin Charles yr Ail, yn y bummed flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad, pan gyflewyd llywodraethiad y fwrdeisdref mewn dau faenorydd, (*bailiffs*,) arddystain, (*high steward*,) cofiadur, a phedwar ar ddeg o brif fwrdeiswyr, yn cael eu cynnorthwyo gan drefysgrifydd, (*town clerk*,) dau frysgyllwr, (*serjeants-at-mace*,) a swyddogion eraill. Dewisir y maenorwyr yn flyneddol, un gan arglwydd y faenor, a'r llall gan y bwrdeisiaid yn gyffredinol; ac y mae y ddau yn hedd-ynadon o fewn y fwrdeis-dref, brawdwriaeth yr hon sydd yn gymmesur a'r plwyf: dewisir swyddogion eraill y gorphoraeth gan y maenoriaid. Yn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri yr Wythfed, rhoddwyd yr hawl-fraint etholiadol i'r fwrdeisdref, mewn cyssylltiad a bwrdeisdrefi Llanidloes, Machynlleth, a'r Trallwm, yn nychweliad aelod Seneddol dros Drefaldwyn, pen tref y Sir. Cadarnhawyd y rhagorfraint hon drwy benderfyniad Tŷ y Cyffredin, yn y flwyddyn 1680; ond fe'i galwyd yn ol drachefn, trwy benderfyniad o eiddo y Tŷ hwnw, yn y flwyddyn 1728, yr hwn a ddifreiniai y bwrdeisdrefi hyn, mewn canlyniad i waith y preswylwyr yn gomedd talu treuliadau yr aelod, sef tri swllt ar ddeg a grôt am bob bwrdeisdref; a chyfyngid yr hawl bleidebol i fwrdeisiaid Trefaldwyn yn unig. Ond, pa fodd bynag, gan fod y penderfyniadau hyn yn wrthwynebol y naill i'r llall, awdurdodwyd y bwrdeisiaid, dan weithred a gadarnhawyd yr wythfed ar hugain o deyrnasiad Sior y Trydydd, i honi eu hawl i bleidebu am aelod dros Drefaldwyn, o flaen Pwyllgor arall o Dŷ y Cyffredin, ac o appelio o fewn deuddeng mis yn erbyn unrhyw benderfyniad dyfodol. Trwy Weithred y Diwygiad Seneddol, adferwyd yr ethol-fraint i Lanfyllin, yr hon mewn cyssylltiad â Llanidloes, Machynlleth, Trefaldwyn, y Dref Newydd, a'r Trallwm, ydynt yn unedig yn anfoniad un aelod i'r Senedd. Cynhelir y gofrawdlys yma, a'r llysoedd Sirol; ac y mae yma Lythyrfa, dan Groesoswallt, gorsaf rheilffordd, ariandy, gwesty da, pont dros yr afon Cain, neuadd drefawl, eglwys, pedwar o addoldai ymneillduol, ysgolion gwladwriaethol, a Brutanaidd, ysgol waddoledig, i'r hon y mae gwaddol o 133*p.* yn y flwyddyn, tlotty, ac elusenau o 25*p.* yn y flwyddyn. Y mae y neuadd drefawl yn adeilad hardd o briddfeini, a marchnadfa oddi tani. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Myllin, a ail adeiladwyd yn y flwyddyn 1706, ac y mae yn perthyn iddi wyth o glychau mor beraidd a swynol a dim clychau yn Ngogledd Cymru. Cynhelir marchnad wythnosol yma ar ddydd Iau; a'r ffeiriau, ar y dydd Mercher o flaen y Pasg, Mai 24; Mehefin 28; Awst 10; Hydref 5; a Rhagfyr 8. Y mae cryn lawer o fragu, a darllaw yn y dref: ac y mae cryfder y cwrw a ddarllawir yma, wedi achlysuro math o ddïareb lëol,—"Hen gwrw, a wna weddwon ieuainc, yn Llanfyllin."

Poblogaeth y dref yn 1861, oedd 1068; a nifer y tai annedd, 261. Cynnwysa y plwyf, drefgyrdd Bachie, Bodfach, Bodran, Bodyddon, Brynelltyn, Camen, Garthgell, Globwll, Greenhall, Nant halen, Rhiwnachor, a Rhyseog. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 650*p.*; ac yn nawddogaeth Esgob Llanelwy. Y mae y rhandir, yr hwn a wneir i fynu o adrandir Llansantffraid, yn yr hwn y cynnwysir plwyfi Llanfyllin, Llansantffraid, Llanfechan, Meifod, Llandrinio, Llandysilio, Cegidfa, a threfgordd Carreghwfa yn mhlwyf Llan y Mynach;—ac adrandir Llanfair, yn cynnwys plwyfi Llanfair Caereinion, Llangyniew, Llanerfyl, Llangadfan, Garthbeibio, a Llanfihangel; —ac adrandir Llanrhaiadr, yn cynnwys plwyfi Hirnant, Llanwddyn, Pennant, Llangynog, Llanrhaiadr yn Mochnant, Llanarmon Mynydd mawr, Llancadwaladr, a Llangedwyn,—y pummed mewn rhan, a'r tri olaf yn gyfan gwbl o fewn swydd Ddinbych etholiadol. Mesura 187,870 o erwau. Yr oedd treth tlodion y rhandir hon am y flwyddyn 1863, yn 10,526*p.* Poblogaeth yn 1851, 21,935; yn 1861, 21,699. Tai, 4403. Priodasau yn 1863, 136. Genedigaethau 605, o ba rai yr oedd 93 yn anghyfreithlawn. Marwolaethau 443, o ba rai yr oedd 120 dan bum mlwydd oed, ac 21 uwchlaw 85 oed. Priodasau yn y deng mlynedd 1851–60, 1296; genedigaethau, 5513; marwolaethau, 3895.—Nifer y lleoedd addoliad yn 1851, oeddynt 20 yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig, yn cynnwys 5822 o eisteddleoedd; 25 yn perthyn i'r Annibynwyr, yn cynnwys 4005 o eisteddleoedd; 29 yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd, yn cynnwys 3509 o eisteddleoedd; 36 yn perthyn i'r Trefnyddion Wesleyaidd, yn cynnwys 5455 o eisteddleoedd; 5 yn perthyn i'r Bedyddwyr, yn cynnwys 555 o eisteddleoedd; 1 yn perthyn i'r Trefnyddion Cyntefig, yn cynnwys 70 o eisteddleoedd; ac 1 na's dywedir i ba enwad y perthynai, yn cynnwys 100 o eisteddleoedd. Yr ysgolion oeddynt 19 o ysgolion dyddiol cyhoeddus, gyda 1299 o ysgolorion; 9 o ysgolion dyddiol annghyoedd, yn cynnwys 260 o ysgolorion; a 93 o ysgolion Sabbathawl, i'r rhai y perthynai 5865 o ysgolorion. Cynnwysa y cantref saith o blwyfi, a rhan o un arall; a mesura yn erwau, 62,955. Poblogaeth yn 1851, 7858; yn 1861, 7545. Tai annedd, 1537.

Y mae y plwyf hwn tua 7 milldir o hyd, a 3 o led; a chynnwysa dir tra chynnyrchiol, dan ammaethiad da; ac yn cael ei ddyfrhau gan yr afonydd Cain, ac Abel. Amrywir ei arwynebedd gan gymmoedd, bryniau, llwyni, a nentydd prydferth, a brithir ei lethrau â phalasau teg, ac ammaethdai da.

Cafodd y plwyf ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i St. Myllin, yr hwn oedd yn ei flodau o 660 i 700 o.c. Nid oes nemawr o'i hanes ar gael; ond dywaid traddodiad lleawl, mai efe oedd y Bedyddiwr trwy drochiad, cyntaf yn Mrydain; a dywaid yr un traddodiad, fod ei drigfan gerllaw y ffynnon sydd yn dwyn ei enw hyd heddyw, ac iddo gael ei gladdu o dan yr allor, yn yr eglwys a gyssegrwyd i'w goffadwriaeth. Gellir meddwl ei fod yn sant o gryn fri yn yr oesoedd Pabaidd, fel yr arferai y Cymry dyngu i'w enw, fel y prawf y llinellau canlynol o'r eiddo Dafydd ab Gwilym;—

Digitized by Google

"I waered yn grwn gwmpas
I fynu yn glochdy glas;
O danyn' eiddun oddef,
Meillion aur, myn Myllin nef."

Y mae llawer o Henafiaethwyr enwog wedi bod yn dadleu, mai yma yr oedd yr orsaf Rufeinaidd *Mediolanum;* a grybwyllid yn ysgrifenadau *Antonine*, a *Ptolemy;* ond pa un bynag am hyny, y mae yr enwau sydd ar amryw leoedd yn y gymmydogaeth, yn profi fod yr ardal yn un bwysig, ar adeg foreuol iawn, megys "Cae y Porth," "Gwaun y Llys," "Cefn y Gaer," "Cefn y Gelyn," "Nant y Gadnant," &c.; ac y mae traddodiadau ar lafar gwlad, yn cadarnhau yr un peth, yr hyn a achlysurodd i'r diweddar Fardd "Myllin," gyfansoddi yr Englynion canlynol:—

"Drwy ddidwyll draddodiadau—yr henwyr
Rhai honant i gaerau
O'th amgylch fod wrth nodau,
Llyna wiw glod i'n Llan glau.

Cae'r Porth yn rhwydd arwydda,—ei bod
I'r byd fe a dystia;
A Chefn y Gaer, rhai haera,
Gwaun y Llys ddengys yn dda."

Y mae yr Henafiaethydd enwog Thomas Price, yn dadleu yn gryf yn erbyn y dŷb uchod o eiddo *Camden*, a Henafiaethwyr eraill, mewn Llythyr a gyhoeddwyd yn y *Cambrian Register*, gan ymresymu yn dra chadarn, er profi mai yn nghymmydogaeth Meifod yr oedd yr hen *Mediolanum:* ond, y mae yn lled sicr fod y Rhufeiniaid yn ddigon cydnabyddus o'r ardal hon; o herwydd yr oedd ganddynt hen Weithfa, mewn lle a elwir "Dol y felin blwm," ychydig islaw y Dref, lle y cafwyd mewn oesoedd diweddarach, lawer o dunnelli o blwm: ond gan nad oes dim olion Gweithfeydd mwn-gloddiawl yn y plwyf, fe fernir yn gyffredin, mai ei gludo a wnelid o Langynog yma, i'w lanhau, a'i doddi. Y mae olion hen ffordd Rufeinaidd yn ganfyddadwy, yn cyfeirio oddi gerllaw y dref, heibio i "Bodfach," lle y mae hen wersyllfa Frutanaidd gadarn: drwy "Goed yr allt," lle y mae hen domen aruthrol o faintioli, a ffos ddofn yn ei hamgylchu, at "Goed y clawdd," trwy "Gwm nant Fyllin," ac oddiyno, allan i ddyffryn prydferth Tanad. Fe ddywedir i frwydr galed gael ei hymladd yn "Nghwm nantfyllin," yn agos i le a elwir "Moel froches," a bod un fyddin yn gwersyllu yn yr amddiffynfa, olion yr hon sydd i'w gweled yn bresenol; ac i'r fyddin arall ddyfod ar ei gwarthaf yn annysgwyliadwy yn y nos, a gwneuthur galanastra erchyll arnynt; ac yn y canlyniad, galwyd y lle, "Moel frawychus," yr hyn a lygrwyd yn "Moel froches:" ac y mae dôl islaw y lle, a elwir "Dol wylofain," neu, "wylofus." Efallai mai hon ydoedd "Brwydr Mechain," y sonia ein hen frutiau am dani, yr hon a ymladdwyd rhwng Meredydd, ac Ithel, meibion Gruffydd Llewelyn, â Bleddyn, a Rhiwallon, am dalaeth Powys, a Gwynedd. Dywedir yn yr hen Groniclau, i Meredydd orfod ffoi, o achos twyll a brad; ac i Bleddyn ei ymlid yn galed, gan ei yru i'r mynyddoedd anialaf yn Nghymru, lle y bu efe farw, o newyn ac anwyd.

Bu y brenin Charles y Cyntaf, ac adran o'i fyddin, yn gwersyllu noswaith yn Llanfyllin, sef Medi 21, 1645,) ar ei ffordd drwy Fochnant i Gastell y Waun, a dywedir i'r Brenin gysgu y noswaith hono yn y "Plas uchaf," ac iddo giniawa drannoeth yn Nghlynnog, ger Llanrhaiadr. Cafwyd cauad padell, rai blynyddoedd yn ol, wrth geibio yn y Brithdir, ar yr hwn yr oedd enw, a phais arfau y brenin Charles i'w canfod yn eglur.

Cafodd y Plas uchaf ei adeiladu yn y flwyddyn 1599; ac yr oedd yn hen adeilad fawr iawn; ond wedi ei wneyd gan mwyaf o goed; ond cafodd yr hen balas ei dynu i lawr, ac adeilad newydd, hardd, ei gyfodi yn ei le yn ddiweddar, gan foneddwr o'r enw Mr. Bibby. Dywedir fod Arglwydd Castlemain, y llys-genadwr oddiwrth Iago yr Ail at y Pab, wedi bod yn llechu yma dros beth amser wedi y Chwyldroad, gyda theulu y Prysiaid, at y rhai y ffoisai am nawdd. Yr oedd hen Gapel Pabaidd yn perthyn i'r ty hwn, ac y mae yr allor a berthynai iddo, a darlun o Mair, a Joseph, a'r Mab bychan, wedi eu cerfio yn gywrain arni, i'w gweled yn bresenol yn y Bryn aber. Yr oedd ystafell dywell yn yr hen balas, ac y mae traddodiad yn yr ardal, mai yno y byddai yr Iarll yn treulio y rhan fwyaf o'i amser, a thaenid chwedlau ar led, yr arferai ei ysbryd flino yr hen ystafell, hyd oni thynwyd hi i lawr. Yr ydoedd llwybr wedi ei balmantu â cheryg gwynion, yn cyfeirio o'r hen balas, trwy y gerddi, ac allan i'r ffordd gerllaw y fynwent, yr hwn a elwid "Llwybr y Pabyddion." Un o'r Prysiaid yma, ydoedd yr Henafiaethydd enwog "Thomas Prys," neu "Price," yr hwn y dywedir iddo gasglu cyfrolau lawer o ysgriflyfrau Cymreig, henafol, a gwerthfawr, a'u hanfon i lyfr-gell y *Vatican*, yn Rhufain. Nid ydys yn gwybod y flwyddyn y bu farw, nac, ysywaeth, y llanerch ei claddwyd.

Adeiladwyd yr eglwys bresenol, trwy gyfroddion boneddwyr haelfrydig, yn y flwyddyn 1706. Y mae darlun o'r *hen* eglwys yn meddiant y periglor, oddiwrth yr hwn y gallwn farnu mai adeilad gron ydoedd, ac felly yn gwirio dysgrifiad Dafydd ab Gwilym, yn y llinellau a ddyfynwyd uchod. Gelwir yr adeilad bresenol, "Yr eglwys goch yn Mhowys," am ei bod wedi ei hadeiladu o briddfeini rhagorol, a wnaed yn y "Cae Cul," yn agos i Bodfach, ac fe'i cyssegrwyd gan y duwiol a'r anfarwol *Beveridge.*

Y mae traddodiad i eglwys arall fod yn y plwyf, mewn lle a elwir "Llanfyglo," o gylch milldir uwchlaw y dref, a bod yr offeiriad yn byw yn y lle a elwir "Bodhyddon." Y mae llai o ddegwm yn cael ei dalu yn Nhref ddegwm Bodfach nag un dref ddegwm arall yn y plwyf; a gellir tybio yn gryf oddiwrth hyny, ei fod yn myned yn yr hen amser at Lanfyglo. Dywedir hefyd, bod hyddod yn dra lluosog yn yr ardal yn yr hen amseroedd, a'u bod dan reolaeth, neu yn meddiant yr offeiriaid; ac nid yw yn annhebyg mai oddiwrth hyny y cafodd Bodhyddon ei enw. Yr oedd Bodhyddon yn enwog yn amser Huw Morus, y bardd o Bont y Meibion, pan yr oedd uchelwr, o'r enw Gruffydd Byner, a hanai o hen gyff boneddigaidd Lloran, o Lansilin, yn byw yn y lle hwn.

Y teulu a allent honi yr anrhydedd uchaf yn y plwyf ar gyfrif eu hen waedoliaeth uchel-fri, oeddynt deulu Bodfach, y rhai a hanent o Einion Efell, mab o ordderch i Madoc ab Meredydd, Tywysog Powys. Yr oedd Einion yn byw yn y flwyddyn 1182; ac efe a briododd Arddun, ferch Madoc Fychan ab Madoc, yr hwn a hanai o Edeyrn ab Gronw, arglwydd Tegeingl. Bu iddynt fab, Rhun ab Einion, yr hwn

Digitized by Google

a briododd Elizabeth, ferch John, Arglwydd Strange, o'r Cnwceyn. Eu mab, Cyhelyn ab Rhun, a briododd Efa, ferch, ac Aeres i Goronwy ab Cadwgan, arglwydd Hen Fachau, yn Llanrhaiadr yn Mochnant. Eu mab, Iefa ab Cyhelyn, a briododd Efa, ferch Aedd ab Aur o'r Trefor. Eu mab Madoc Goch, a briododd Lleucu, ferch Hywel ab Meredydd Fychan. Eu mab, Madoc Kyffin, a briododd Tangwystl, ferch Ifan Foel ab Iorwerth Fychan ab Madoc. Eu mab, Ifan Gethin, a briododd Arddun, ferch Ifan Madoc ab Gwenwys. Eu mab Iolyn ab Ifan a briododd . . . ferch Ifan ab Ednowain ab Iorwerth Foel. Eu mab Meredydd, a briododd Gwyryl, ferch Gruffydd ab Meredydd ab Ednyfed Gam, o Faelor. Eu mab William, a briododd Gwyryl, ferch Thomas ab Dafydd Fychan, ab Einion, ab Heylin, ab Cyfnerth, ab Eiddin Galed, ab Trahaiarn, ab Iorwerth Helfawr. Eu mab Dafydd ab William, a briododd Lowri, aeres i John ab Jenkin, o'r Celynion. Eu mab Lewis, a briododd Catharine, ferch Edward ab Roger Eyton, o Bodyllyn, ab John ab Ellis Eyton. Eu mab, Gruffydd Lloyd, a briododd Margaret, ferch William Penrhyn, Ysw.; a'u mab, William Kyffin, Ysw., a briododd Gwen ferch Gawen Fychan o'r Glan y llyn, o'r hon y bu iddo fab, o'r enw John Kyffin; ac i John Kyffin, bu fab o'r enw Watcyn Kyffin, merch yr hwn a briododd âg Adam Price, Ysw., o Glan Miheli, y Dref newydd. Mab i Adam Price ydoedd John Price, Ysw.; a merch i hwnw a briodwyd â Bell Lloyd, Ysw., o'r Bont ruffydd. Bu farw y boneddwr hwn yn Llundain, a chladdwyd ei weddillion marwol yn Llanfyllin. Mab i Bell Lloyd, Ysw., ydoedd y diweddar Arglwydd Mostyn, tad yr Arglwydd Mostyn presenol, y rhai a anwyd yn Modfach; ond y mae yr ettifeddiaeth wedi myned oddiwrth y teulu henafol yma, trwy gael ei gwerthu er's blyneddau bellach.

Yr ydoedd llawer o diroedd yn perthyn i'r fwrdeisdref hon rai oesoedd yn ol, megys y "Llan," y "Fawnog," y "Garth," &c., y rhai a werthwyd dan awdurdod Seneddol yn y flwyddyn 1775, a chyfodwyd y farchnadfa brydferth sydd yn y dref yn bresenol, â'r arian, yn 1787, ar y draul o 1500*p*. Dywedir fod yr hen farchnadfa flaenorol, wedi ei hadeiladu gan mwyaf o goed; a chan ei bod wedi myned yn dra adfeiliedig, ddarfod i'r trigolion ei thynu i lawr, a'i defnyddio yn gynnud tân, ar y noswaith y daeth un o arglwyddi Powys i'w oed. Mewn ystafell uwchben yr hen Farchnadfa grybwylledig, y bu yr Esgob William Lloyd, o Lanelwy, yn y flwyddyn 1681, yn cynnal dadl am ddau ddiwrnod olynol, gyda Thomas, a Charles Lloyd o Dolobran, Crynwyr; a dywedir i'r ddadl grybwylledig gael ei dwyn yn mlaen gyda boneddigeiddrwydd tra chanmoladwy o bob ochr.

Cynhelid brawdlysoedd y Sîr yn yr hen farchnadfa yn achlysurol, a dywedir fod rhyw ddyhirod yn brysur wrth y gorchwyl o dynu i lawr addoldy yr Annibynwyr, pan oedd un o'r Barnwyr yn myned yn ei gerbyd o'r dref, ac i'w arglwyddiaeth beri i'w gerbydwr aros ar gyfer y lle, er mwyn cael ymofyn i'r achos; ac wedi iddo gael ei hysbysu o'u hamcan, efe a orchymynodd iddynt ymadael yn y fan, ar yr hyn yr aeth pawb ymaith mewn dychryn, gan ei chyfrif yn fraint iddynt gael dianc yn ddi gosb; ac ni chafodd Ymneillduwyr y gymmydogaeth eu blino drachefn am hir amser.

Yr oedd llawer o hen arferion digrifol yn perthyn i Lanfyllin a'r ardaloedd cylchynol, y rhai o'u crybwyll yma, a allant roddi peth goleuni ar gyflwr cymdeithasol ein henafiaid yn y dyddiau gynt.—"Y ceffyl pren," fel ei gelwid, ydoedd mewn bri mawr yn yr ardal hon.—Os y byddai gwr a gwraig yn euog o ymgeintach, ac ymladd â'u gilydd, cyfodai yr hen bobl allan yn dorfeydd, i ganlyn y ceffyl pren, yr hwn a farchogid gan un dyn, a byddai pedwar eraill yn gyffredin yn ei ddwyn i'r lle; yna, adroddid rhyw rigwm, mewn dull o holi ac ateb ar yr achlysur; a rhoddid helaethrwydd o gwrw iddynt o'r tafarnau. Adroddwyd y rhigwm canlynol unwaith wrth ddilyn y ceffyl pren, am fod merch, a gwraig ty tafarn o'r enw "Bermo," yn y dref, wedi curo y gwr;—

"Am bwy'r y'ch chwi'n marchogaeth?
Am ddeu-ddyn o'r gym'dogaeth.
Pwy yw y rhei'ny Gymro?
Wil, ac Alsi 'r Bermo.
Ydyw Alsi'n curo'n arw?
Mae hi bron a'i ladd yn farw.
Rhwng y ferch a hithau,
Mae'r gwr yn las o gleisiau;
They pinched him, and scratched him,
And threw the tongs at him,
And afterwards called him a Cuckold."

Fe ddywedir fod y driniaeth yma, er chwerwed ydoedd, wedi bod yn effeithiol i sefydlu heddwch rhyngddynt.

Hen arferiad arall, led gyffredin yn y dref, oedd yr hyn a elwid "Curo y Bwlciau." Nid oedd dim gwydr ar ffenestri y masnachdai hyd o fewn llai na chan mlynedd yn ol; ac os byddai rhywbeth hynod, neu ddigrifol, yn dygwydd dyfod i'r dref, megys dyn yn marchogaeth wrth ysgil dynes; neu, ymladdfa ar un o'r heolydd, byddai y dyn cyntaf a ganfyddai y cyfryw beth, yn taro y "Bwlc," ac felly o'r naill i'r llall, nes y byddai yr holl dref wedi codi allan; ac efallai mai hyny a roddodd achlysur i'r llinellau canlynol;—

"Mae pobl Llanfyllin a'i bro,
Yn wastad fel caccwn yn heidio;
Hwy ddeuant yn dorf ar fyr dro,
I'r heol i weled pob cyffro."

Yr oedd baeddu teirw hefyd yn arferiad gyffredin yn Llanfyllin yn yr oesoedd gynt, yr hyn a ddygid yn mlaen fel y canlyn;—pan fyddai tarw i gael ei ladd, elai dau ddyn o amgylch y tai i gasglu arian i'w berchenog, am adael i'r anifail gael ei faeddu gan gŵn y dref; a chyn dechreu ar y gorchwyl creulawn, elai y "Criwr" o amgylch, i rybuddio pawb i aros yn eu tai, a chau y dorau; yna, tywysid yr anifail at y gadwaen oedd yn arferol bod ar gyfer y *Wynnstay Arms*, pryd y gollyngid y cŵn i'w boenydio. Torai y tarw yn rhydd weithiau, a mawr fyddai y braw yn mhlith y trigolion, gan ofn iddo eu hanafu, neu ruthro i fewn i'w tai, yn ei gynddaredd. Ni chaniatteid gwerthu cig anifail wedi ei drin felly, ond wrth oleuni canwyll.

Yn ystod y Gwylmabsant, yr hwn a gynhelid ar yr 17eg o Fehefin, arferid luchio at geiliog, yr hwn a ddodid mewn ystên, a lliain drosti. Rhwymid yr ysten wrth râff, yr hon a gyrhaeddai o ystafell y *Wynnstay Arms*, i ystafell y *Boar*, yr ochr arall i'r brif heol; yna, elai nifer penodol o ddynion i luchio darnau o goed at yr ystên, a phwy bynag a'i torai,

Digitized by Google

fel ag i alluogi yr aderyn i ddianc, efe a dderbyniai y ceiliog yn wobrwy am ei wrhydri! Cynhelid rhedegfeydd meirch hefyd ar "Gefn y Braen," yn ystod wythnos y Gwylmabsant, yn yr hen amser; ac yr oedd yn ddefod gan yr Ammaethwyr roddi digon o laeth am ddim i'r holl drigolion, i wneyd pwdin erbyn Sul y Gwylmabsant. Yn y flwyddyn 1783, yr oedd y farchnad yn uchel iawn yn Llanfyllin, fel pob Llan arall trwy Gymru, fel yr oedd yn anhawdd i'r tlodion gael lluniaeth, yr hyn a achlysurodd i'r diweddar Gwallter Mechain, gyfansoddi yr Englynion canlynol, yn y rhai y mae efe yn cyfeirio at y cyfryw ddefod;—

"Caled i'r gweiniaid bu'r Gwanwyn—a'i auaf
Hir hefyd drwy'r flwyddyn;
Moliant am hindda melyn,
Ewyllys Duw, er lles dyn.

Ond chwith, bu'r gwenith o'i go,—'r hyn fyddai
Rhyfeddod i'w gofio;
Pum swllt, neu chwech, trech fu'r tro,
Ar hugain, oedd yn rhwygo.

Peidiwyd a gwneuthur pwdin—o'r goreu
Ar geryg Llanfyllin;
'R oedd yr haidd, braidd yn brin,
Y sala 'n bymtheg *shillin'*.

Am enllyn, fenyn yn fynych—cynyg
Naw ceiniog yn daer-wych;
'*No! no!*' dan swnio'n sych,
Chwaneg 'r oedd rhai yn chwenych.

Arglwydd Ion, purion Ddarparwr,—da oll
Deallodd ein cyflwr;
Daeth lluniaeth helaeth hwyliwr,
Drwy Iesu, a'i Dad, dros y dwr."

Arferai Ammaethwyr ar ol y cynhauaf wneyd rhyw fath o gyfarfod gloddestgar, a alwent "Cwrw cyfeddach;" ar gyfer yr hwn y byddent yn gyffredin yn darllaw cwrw hynod o gryf; ac yr oedd Llanfyllin yn cael ei ystyried yn y cyffredin yn un o'r lleoedd blaenaf yn y Deyrnas am "gwrw dâ," os *dâ* hefyd. Ar yr achlysuron crybwylledig, gwahoddent eu ceraint a'u cyfeillion i'w tai, a byddai y delyn swynol yn eu mysg, gyd a'r hon y datgenid hen bennillion, er mawr ddifyrwch i'r gwyddfodolion. Arferai rhyw fardd, neu grach-fardd llëol, gyfansoddi rhigymau digrifol erbyn y cyfryw achlysur; a dodwn yma un engghraifft o'r cyfryw, fel ei hadroddid gan hen wraig o'r ardal, lawer blwyddyn yn ol;—

"Pe byddai'r byd ei gyd yn gaws
Fe fyddai'n haws cael enllyn;
A Twn Pen'r oerfa'n fara gwyn,
A Thon y Glyn yn fenyn:
A Dafydd Morys ddyrus ddig
Yn ddarn o gig i'r gegin;
A Lewis Dafydd mewn smoc ffrog
Yn eithaf cog o bwdin," &c.

Arferiad arall mewn bri uchel gan yr hen bobl tua chan mlynedd yn ol, oedd y "Twmpath Chwareu," yr hwn a gynhelid tua Gwyl Ifan yn yr Hâf. Ymgynnullai y trigolion yn wythnosol, yn lluoedd llawen, oddeutu deg o'r gloch y nôs, a chrythor i'w canlyn, i le a elwid "Pen y llwyn," tua milldir o'r dref, ar fin y llwybr i "Gefn y braen;" ac yno y byddent yn canu ac yn dawnsio yn orfoleddus, hyd doriad y wawr-ddydd; a rhoddai boneddion Bodfach farilaid o gwrw iddynt yn lled fynych.

Yr oedd arferion ffol a llygredig o'r fath yn ffynu bron yn mhob ardal o Gymru hyd oddeutu diwedd y ddeunawfed ganrif; ond, y mae y goleuni a ledaenwyd trwy y wlad, trwy luosogiad yr Ysgrythyrau, sefydliad yr Ysgolion Sabbathol, a llafur cariad yr Ymneillduwyr, wedi eu hymlid yn llwyr o'r Dywysogaeth.

Bu amryw ddynion dysgedig a thalentog yn cyfanneddu yn Llanfyllin o bryd i bryd.—Yma y ganwyd William Ffoulkes, yr hwn a gyfieithodd bregethau yr Esgob Gruffydd i'r Omeraeg, yn y flwyddyn 1685.—Cawsai ei dad, y Parch. John Ffoulkes, ei droi o fywioliaeth Llanfyllin, pan oedd Cromwell yn llywodraethu; ac ar adferiad y Brenin Charles, cafodd ei fab, William Ffoulkes, ei wneyd yn beriglor Llanfyllin. Efe a gladdwyd wrth ddrws pellaf yr eglwys, lle yr oedd cof-lech hyd yn ddiweddar uwch ben ei fedd.

Bu y Parch. John Morgan, M.A., yn is-beriglor yma am lawer o flyneddoedd; a symmudodd oddiyma i Matchin, yn Essex, lle y cyhoeddodd efe lyfryn yn 1714, dan yr enw "Myfyrdod ar y pedwar peth diweddaf," yr hwn a gyflwynodd efe i drigolion Llanfyllin, fel arwydd o'i barch iddynt.

Yn y flwyddyn 1718, cafodd y tra dysgedig Thomas Richards, ei wneyd yn beriglor Llanfyllin, gan yr Esgob Wynne. Yr oedd Mr. Richards yn hanu o deulu Caerynwch; ac efe a gyhoeddodd Gyflyfr unplyg o farddoniaeth Lladinaidd, ar farwolaeth Caroline, prïod Sior y Cyntaf. Dywedai Dr. Trapp, Cadeirdraw Barddoniaeth yn mhrif ysgol Rhydychain, mai Richards ydoedd y Lladin-fardd goreu er dyddiau Firgil. Dywedir ei fod yn ysgolhaig rhagorol, ac yn feddiannol ar athrylith gref, ac fel prawf o hyny, fe'n hysbysir fod yr enwog Dr. Sacheverell, wedi cael gan y Prydydd Holdsworth, gyfansoddi duchan-gerdd i'r Cymry, yr hyn a roddodd enedigaeth i'r "*Muscipula;*" ac ar ol ei hargraffu, rhoddodd Sacheverell eiliad o honi i'r Henafiaethydd Edward Llwyd, gan ddywedyd, "Dyna i chwi, Mr. Llwyd, Gân, sydd yn darostwng eich cenedl; a herfeiddiaf eich cydwladwyr i allu ei hatteb."—Teimlodd Mr. Llwyd yn ddwys oddiwrth yr herfeiddiad gwaradwyddus uchod, a thaer erfyniodd ar Mr. Richards i ddyfod i'r maes yn erbyn Mr. Holdsworth; ac mewn wythnos o amser, cyfansoddodd ein harwr ei "*Hoglandia,*" teilyngdod yr hwn a gydnabyddir yn uchel gan bob gwir Ysgolhaig. Claddwyd y gwr dysgedig uchod yn mynwent Llanfyllin; ond nid oes na maen, na dim arall, i nodi y llanerch lle yr huna ei weddillion.

Yn Llanfyllin hefyd y ganwyd y diweddar John Bryan, gwr bychan o gorpholaeth, ond meddiannol ar ysbryd cofn a thanbaid, ac athrylith gref a naturiol. Efe a fu yn gweinidogaethu yn Nghyfundeb y Trefnyddion Wesleyaidd am lawer o flyneddoedd, ac yr oedd dylanwad tra grymus yn dylyn ei weinidogaeth. Yr ydoedd yn feddiannol ar awen farddonol ystwyth, a chyfansoddodd amryw o'r Emynau melusaf sydd yn Nghasgliad y Wesleyaid Cymreig; ac efe a gyfansoddodd ac a gyfieithodd amryw lyfrau. Efe a fu farw yn Nghaer yn arfon, Mai 28, 1856, yn 87 mlwydd oed.

**LLANFYNYDD**, pentref, plwyf, ac is-ddosbarth, yn nosbarth Llandeilo-fawr, swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref ar fraich o'r afon Tywi, chwe milldir

Digitized by Google

i'r gogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Llandeilo-fawr, ac y mae yn meddu ffeiriau ar y 5ed o Orphenaf, y 13eg o Awst, a'r 11eg o Dachwedd. Cynnwys y plwyf hefyd dreflanau Brisken, Cathilas, Clynynos, Crachyty, Esgairsave, Esgairefan, Cilangwr, Esgair-garn, Gothylon, Pantarfon, Cornaeron, Penrhos, a Chwmban. Erwau, 10,744. Gwerth ardrethol, 4017*p*. Poblogaeth yn 1851, 1376; yn 1861, 1230. Tai annedd, 253. Y rheswm a roddir am y lleihad yn y boblogaeth, ydyw fod y llafurwyr amaethyddol yn ymfudo i ardaloedd mwnawl a gweithfaol. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Tyddewi, gwerth 150*p*., ac yn nawdd yr Esgob. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i Egwad Sant, ac adgyweiriwyd hi yn 1861. Perthyna i'r plwyf ysgol waddoledig, gyda 37*p*. y flwyddyn, a gwerth 23*p*. o elusenau ereill. Cafwyd yma weddillion hen wersyll, ond ni wyddis i bwy y perthynai.—Mae yr is-ddosbarth yn cynnwys dau blwyf arall hefyd. Erwau, 11,790. Poblogaeth, 1410. Tai annedd, 289.

Ar ucheldir yn Nghoed henog, yn agos i lan yr afon Cothi, y mae gweddillion yr hen amddiffynfa a grybwyllwyd uchod, yr hon oedd yn dra ehang, ac ar ffurf hir-grwn: ac y mae amryw garneddau, a chof-feini yn wasgaredig drwy y plwyf.

**LLANFYNYDD**, capeloriaeth yn mhlwyf Estyn, neu Hope, swydd Callestr, gerllaw gorsaf rheilffordd Caergwrle. Yn y flwyddyn 1845 y cyfansoddwyd hi yn gapeloriaeth. Yr oedd y boblogaeth yn ol cyfrif 1861 yn 1133, a nifer yr annedd-dai yn 137. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, a'i gwerth blynyddol yw 300*p*. gyda phersondy. Y noddwr yw Rheithor Hope, ac yn y Parch. T. R. Lloyd (Estyn) gall Llanfynydd ymffrostio mewn offeiriad, sydd ar gyfrif ei wladgarwch, ei ddysg, a'i dalentau, yn addurn i'w wlad, ac yn anrhydedd i'w Eglwys.

**LLANFYRNACH**, neu Llanfernach, pentref a phlwyf yn nghantref Cemmes, dosbarth Castell-newydd Emlyn, swydd Benfro. Y pentref a saif ar yr afon Taf, gerllaw y llinell derfyn rhwng y swydd hon a swydd Gaerfyrddin, dan fryniau Llanfyrnach, gerllaw mynydd Precelli, naw milldir a hanner o orsaf rheilffordd Castellnewydd Emlyn; ac y mae yn lle o gryn faintioli. Y plwyf a gynnwys 6328 o erwau, a'i werth ardrethol, rhwng y 200*p*. a osodir ar y mwngloddiau, yw 3770*p*. Y boblogaeth yw 934, a 212 yw nifer y tai. Y fywioliaeth sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 176*p*. a thy, ac yn nawdd yr Arglwydd Ganghellydd. Y mŵn a gloddir yma yw y plwm, ac y mae yn y gymmydogaeth amryw ffynnonau mwnawl. Ar y cyttir uwchlaw yr eglwys, y mae pedwar maen uchel, y rhai sydd yn weledig o bellder ffordd. Y traddodiad ydyw, eu bod yn nodi beddau dau benaeth a laddwyd mewn brwydr waedlyd a gymmerodd le, nas gwyr neb pa bryd, yn rhywle tua'r llanerch hono. Gerllaw yr eglwys y mae hefyd domen fawr, ar yr hon fel y tybir, y safai gynt gastell, neu gaerfa, i amddiffyn y nant.

**LLANFFINNAN**, sydd blwyf yn nosparth Bangor, ac yn swydd Fon; 2¼ milltir dwyrain-de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Llangefni. Llythyrfa yn Llangefni, Mon. Erwau, 1267. Gwerth ardrethol, 1041*p*. Poblogaeth, 138. Tai, 26. Y mae meddiant y tiroedd rhwng dau. Y mae Plas-Penmynydd, palas o'r 14eg ganrif, lle genedigol Owain Tydur, yr hwn a briododd Catherine o Ffraingc, gweddw Harri V., o fewn y plwyf hwn. Y mae yma gloddfeydd cerig-calch eang. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llanfihangel-Ysgeifiog, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Ffinnan; ac yn sefyll mewn lle o olygfa darawiadol iawn, ac yn adeiladaeth ddiweddar. Y mae yma nifer o gofadeiliau am deuluoedd y Llwyd-iaid. Y mae chwech o blant tlodion oddiyma, mewn hawl i fanteision addysg, yn ysgol blwyfol Llanfihangel Ysgeifiog, yn ol darpariadau ewyllys Dr. John Jones, Deon Bangor; â breintiau ereill oddiwrth ddau blwyf cymydogaethol ereill.

**LLANFFLEWYN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Fon; 6 milltir gogledd-orllewin o Lanerchymedd, ac 8 milltir gogledd-ddwyrain o Gaergybi. Llythyrfa yn Gwyndy, dan Langefni, Mon. Erwau, 1265. Gwerth ardrethol, 1094*p*. Poblogaeth, 128. Tai, 20. Darganfyddwyd rhai henafiaethau Rhufeinig yma; ac erys eto rai olion gwersyllfaoedd yn y gymydogaeth. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llanrhyddlad, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys yn henafol, ac wedi ei chysegru i St. Fflewyn.

**LLANGADFAN**, trefgordd a phlwyf yn y rhan uchaf o gantref Mathrafael, dosbarth Llanfyllin, swydd Maldwyn. Y drefgordd a orwedd ar yr afon Fyrnwy, chwe milldir a hanner i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Lanfair, a deuddeng milldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Y plwyf a gynnwys hefyd drefgyrdd Blowty, Bryngwaeddan, Cowny, Cyffin, Maesllymysten, a Moelfeliarth; ymestyna tuhwnt i'r afon Banwy, a dyfrheir cryn lawer o hono gan yr afonig a elwir Nant-yr-Eira. Erwau cynnwysedig yn yr holl blwyf, 16,929. Gwerth ardrethol, 4234*p*. Poblogaeth, 1028. Tai, 208. Y fywioliaeth eglwysig, gwerth 300*p*. yn y flwyddyn a thy, sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn nawdd yr Esgob. Fel yr awgryma enw y plwyf, Cadfan yw nawddsant yr eglwys, yr hon sydd hen adeilad, yn ol yr arddull Seisnig boreuol. Bernir fod capelau eglwysig yn perthyn gynt i drefgyrdd Cyffin, Cowny, a Maesllymysten, yn y rhai y gweinyddid gan fynachod o'r hen grefydd-dy yn y Gyffin; ac y mae bychander yr adeilad yn tueddu i gadarnhau y traddodiad, nad oedd gan drigolion y parthau hyny eisteddleoedd yn eglwys y plwyf. Bu terfysg blin yn y plwyf hwn yn 1645, a difawyd y persondy gan dân, pan anfonwyd Vavasor Powell gan y Senedd, i attafaelu bywioliaethau yr offeiriaid yn Maldwyn. Cangen o fynachdy enwog Ystrad Fflur, oedd crefydd-dy y Gyffin; ymysg ei waddol, yr oedd treflan Cefnllys Uchaf, yn mhlwyf Llanerfyl, a threflan Tir y Mynach, yn mhlwyf Llanbrynmair, yr hon, yn adeg y dadgorfforiad a aeth i feddiant y Fychaniaid o Lwydiarth. Nid oes gweddillion o'r adeilad ar gael, ond y llanerch lle y safai, a elwir eto yn Gae'r Mynach, a gherllaw iddi y mae sarn dros yr afon Wddyn yn dwyn yr enw rhyfedd, Rhyd-y-byde, yr hwn a esbonir fel llygriad o Rhyd Abbadau gan rai, ac o Ryd y Badau, neu gychod, gan ereill.

Ceir lliaws o olion henafiaethol lled bwysig yn y gymmydogaeth hon. Yn Cann Office y mae olion gwersyll Prydeinig, a gerllaw Pont y llogell, yn nhrefgordd Cyffin, ac ar fin yr afon Fyrnwy, y mae dwy garnedd,—y fwyaf agos yn driugain llath o amgylchedd, a'i chylch allanol yn ffurfiedig o feini sythion, bedair troedfedd o uchder, a'r tufewn yn

bentwr, yn cyrhaedd i bum troedfedd o uchder yn y canol. Wrth symmud y ceryg tuag at adeiladu mur Parc Llwydiarth, cafwyd yn y canol, arch careg, yn cynnwys dau ysgerbwd (*skeleton*) dynol, pen un wrth draed y llall, ynghydag wrn, yn cynnwys esgyrn llosgedig, a lludw. Y mae lliaws mawr o garneddau yn y plwyf hwn, ac yn mhlwyfydd Garthbeibio, a Llanerfyl, yn amrywio yn eu trwch, o ddeg i ugain llath, a llawer iawn o rai llai.

Yn nghanol pob un o'r rhai hyn, pan agorir hwynt, ceir cistfaen, uwchben yr hon y mae y garnedd bob amser yn fwy dyrchafedig; y cylch allanol, fel yn yr un fawr a nodir uchod, a ffurfir yn gyffredin o feini sythion uchel, a'r rhai mewnol wedi eu rhydd-bentyru yn gylchoedd oddeutu y bedd, a'r rhyllau wedi eu llenwi i fyny â mân geryg. Gellir casglu yn lled sicr mai beddau y penaethiaid Prydeinig yw y rhai hyn. Ar y bryniau cyfagos, yn enwedig yn Pen Coed, y mae nifer mawr o domenydd, y rhai a nodant feddau eu dilynwyr, sef y milwyr cyffredin; dygant oll arwyddion amlwg o dân, ac mewn rhai amgylchiadau yr oedd y gwres mor angerddol, fel ag i wneud y ceryg yn gyffelyb i wydr. Yn nhrefgordd Moelfeliarth y mae olion amddiffynfa fechan, gyda gwerthyr; ac ar gopa bryncyn serth, yn Maesllymysten, y mae gwersyll bychan,—yn cael ei amddiffyn gan ffos ddofn ar yr unig ochr sydd yn hygyrch iddo. Ar gopa bryn cyferbyniol, o'r enw Mopart, ac yn rhedeg yn union ar ei draws, y mae ffos cymaint a Chlawdd Offa, i'r dyben, debygid, o wrthsefyll ymosodiadau o'r mynyddoedd. Daethpwyd ar draws dau faen melin henafol, wrth godi mawn yn nhrefgordd Cyffin, yn 1828, ddyfnder o yn agos i ddwy droedfedd islaw y wyneb. Yr oedd Ffynnon Gadfan mewn bri mawr gynt, o herwydd y rhinweddau nodedig a briodolid i'w dyfroedd, a gorchuddid hi gan adeilad eang. Hwn oedd plwyf genedigol William Jones, bardd a beirniad galluog, cofiant yr hwn a ysgrifenwyd yn y "*Cambrian Register*" gan Gwallter Mechain.

**LLANGADOG**, tref, plwyf, ac is-ddosbarth, yn nosbarth Llanymddyfri, swydd Gaerfyrddin, ac yn cynnwys treflanau Uwch-Sawdde, Dyffryn Cedrych, a Gwynfe. Y dref a saif rhwng yr afonydd Brân a Sawdde, gerllaw y Via Julia Montana, a rheilffordd Llanelli a Dyffryn Tawe, bum milldir a hanner i'r de-orllewin o Lanymddyfri. Y farchnad a gynelir bob dydd Iau, a'r ffeiriau ar yr 16eg o Ionawr, Mawrth 12, y dydd Iau olaf o Fai, Gorphenaf 9, y dydd Iau ar ol Medi 11, yr ail ddydd Iau ar ol Hydref 1, a Rhagfyr 11. Yr oedd y dref yn lle o gryn bwysigrwydd yn yr hen amser, a cheir mynych gyfeiriad at y castell yn yr hen groniclau Cymreig. Nid yw yn hysbys pa bryd, na chan bwy, yr adeiladwyd yr amddiffynfa ar y cyntaf; ond yn yr amryfal ryfeloedd rhwng tywysogion y Deheubarth, a'r cynhenau parhaus a achosid gan eu hawydd i eangu eu meddianau, yr oedd y pwysigrwydd mwyaf yn cael ei osod ar Gastell Llangadog, a mawr fyddai yr ymdrech i'w feddianu. Yn 1204, cadarnhawyd ef gan Rhys ab Gruffydd, ond ni thyciodd hyny i'w gadw yn ei afael, canys ennillwyd ef oddiarno cyn nemawr o amser, gan ei ewythr Maelgwyn, gyda chynnorthwy Gwenwynwyn, Tywysog Powys; eithr ni ddaliasant hwythau eu gafael ynddo yn hir, canys adenillwyd ef trwy orthrech gan Rhys, yr hwn a barhaodd i'w ddal am dalm o amser. Oddeutu y flwyddyn 1208, yr ydym yn cael i Rhys Fychan, neu Rhys Grug, oherwydd syrthio allan â'i neiaint, Rhys, ac Owain, godi arfau yn eu herbyn, a'u difeddianu o'r castell, yn yr hwn y dododd efe warchodlu cryf; ond pan wybu Rhys ac Owain am yr helynt, hwy a ruthrasant ar y castell, â'u holl luoedd, ac ar ol dial ar y gwarchodlu â'r cleddyf, a'i gwnaethant yn gydwastad â'r llawr. Nid y brodorion oedd yr unig fflangell ar y dref hon, eithr dioddefodd oddiwrth anrheithiadau y Saeson. Wedi i'r "Llyw Olaf" dalu gwarogaeth i Iorwerth I., ymgysurai y trigolion, na flinid hwy drachefn gan anrheithiadau y Saeson oedd wedi ymsefydlu yn y parth hwn o'r Dywysogaeth; ond yn fuan ar ol esgyniad y teyrn hwnw i'r orsedd, aeth traha ei swyddogion yn Aberystwyth mor annioddefol, fel y gyrwyd y trigolion mewn anobaith unwaith yn rhagor i wrthryfela yn gyhoeddus, a gorfu ar Lewelyn ddewr drachefn ddadweinio cledd rhyddid. Ceisiodd archesgob Caergaint, y swyddog mwyaf ei ddylanwad yn y wlad y pryd hwnw, wastadhau yr ymrafael rhwng y Cymry a'r Saeson, ac wrth y prelad urddasol hwn y cwynodd Rhys Fychan, fod y Saeson, ymysg anfad weithredoedd ereill, wedi ymosod ar, ac ysbeilio eglwys Llangadog, gan anafu yr offeiriad, yr hwn a adawsant yn trengu gerbron yr uchel allor, ac ar ol troi yr eglwys yn ystabl i'w ceffylau, orphen eu herchylldra, trwy roddi tai y dref ar dân. Ar ol i Iorwerth lwyr ddarostwng Cymru, a gwasgar teulu Dinefwr, i'r hwn y perthynai castell Llangadog, y tebygolrwydd ydyw i'r gaerfa gael ei hesgeuluso, a buan y syrthiodd i adfeiliad, fel nad oes gymaint ag olion o honi i'w gweled yn bresenol. Er hyny, nid yw yr hen dref wedi llwyr ymwadu â'r hen ddefion cyntefig, nac wedi cwbl fwrw ymaith ei rhagorfreintiau henafol, canys ymddirieda ei hamgylchiadau trefol, nid i fyrddau o gread y senedd, neu swyddogaethau hanedig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond i *portreeve* neu faer, a saith o fwrdeisiaid. Ar lan yr afon Sawdde, encyd o ffordd i'r dwyrain o'r dref, y safai yr hen gastell, ar gopa craig, yr hon a fuasai cyn hyny, yn ol damcaniaeth rhai awduron, yn cynnal twr gwyliadwriaethol o eiddo y Rhufeiniaid. Yr oedd y ffordd Rufeinig enwog, y Via Julia Montana, yn rhedeg drwy y plwyf hwn, neu yn gyfagos iddo, a bernir fod yma orsaf Rufeinig, er nas gellir olrhain ei gweddillion yn bresenol. Sicr yw fod yr hen Gymry wedi bod yn gwersyllu yma, oddiwrth y tair carnedd fawr, a elwir y Tri Chrug, y rhai, o herwydd eu safle amlwg ar ben bryn, a dynant sylw pob ymdeithydd. Yn wir, gerllaw y bryn hwn, gellir gweled olion gwersyll Prydeinig, o'r enw Garn Goch, yn amgau darn eang o dir, yr hwn a warchodir gan ragfur o geryg rhyddion, mewn ambell i fan yn ddeg troedfedd o uchder. Yn y dref a'r cylchoedd y mae adfeilion amryw balasdai uwchraddol o ran maint ac arddull, y rhai a ddygant dystiolaeth eglur i wychder cysefin y lle, ac a roddant sail lled gryf i'r traddodiad fod yma gynt breswylfod i Brychan Brycheiniog, yn dwyn yr enw "Llys Brychan." Y mae y lle yn nodedig hyd heddyw am amlder a gwychder ei balasdai, ymysg y rhai gellir nodi yn arbenig, Glasnefin a Thanyrallt.

Rhed ffordd fawr Llandeilo a Llanymddyfri drwy y plwyf, ac yn y flwyddyn 1819 cwblhawyd pont hardd, o bum bwa, dros yr afon Tywi,—y draul, sef 2300*p.*, yn cael ei dwyn rhwng plwyfydd Llangadog, Llandeilo, Llansadwrn, Llanddausaint, a Myddfai. Codir glo a cheryg calch, a chafwyd arwyddion o

Digitized by Google

fŵn haiarn a phlwm yn y plwyf, yr hwn sydd yn gallu ymffrostio mewn llythyrdy (cangen o swyddfa Caerfyrddin), swyddfa archebion arianol, banc cynilo, gorsaf ffordd haiarn, pellebyr, eglwys, tri o addoldai ymneillduol, ac ysgol Frytanaidd. Adeilad henafol iawn, wedi ei chyssegru i Cadog Sant, yw yr eglwys. Yn 1283 bwriadodd Dr. Thomas Beck, Esgob Tyddewi, iddi fod yn eglwys golegawl, er anrhydedd i Sant Thomas Ferthyr, a Sant Maurice, a'i gymdeithion. Trefnodd Flaengeiniad, ac un-ar-hugain o ganoniaid, o ba rai yr oedd saith i fod yn offeiriaid, saith yn ddiaconiaid, a saith yn is-ddiaconiaid, ynghyda phump o glochyddion, ond erthylodd y bwriad, ar farwolaeth y prelad. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn gyssylltiedig â ficeriaeth Llanddausaint, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 267*p*. yn y flwyddyn, gyda phersondy, ac Esgob Tyddewi yw y noddwr. Y mae isberigloriaeth barhaol Gwynfe, lle y mae capel eglwysig gwaddoledig, yn fywioliaeth wahanol. Gwerth ardrethol yr holl blwyf yw 10,302*p*., a nifer yr erwau yw 15,642. Rhifa y tai 590, ar gyfer poblogaeth o 2789.

**LLANGADWALADR**, neu Eglwys-Ael, sydd blwyf, gyda phentref, yn nosparth a swydd Fon, ¾ milltir o orsaf rheilffordd Bodorgan, a 2½ dwyrain-ogledd-ddwyrain o Aberffraw. Llythyrfa, yn Aberffraw, dan Fangor. Erwau 4718, o'r hyn y mae 1230 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2017*p*. Poblogaeth, 526. Tai, 119. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng amryw. Yr oedd Bodowen gynt yn balas perthynol i'r teulu Owen. Bodorgan ydyw palas F. O. Meyrick, Ysw., ac a hynodir am ei erddi tra rhagorol. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 245*p*., ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cadwaladr, ac wedi ei chodi ar y man ag y safai yr adeiladau yno yn 650; y mae yn cynwys corffilan a changell. Yn gyfochrog a'r eglwys hon, y mae Capel Bodeon, ar y dde, wedi ei adeiladu yn brydferth, o gerig nadd. Y mae yn y ffenestr ddwyreiniol, mewn gwydr lliwiedig, ddarlun o Siarl I., ac arfbeisiau Syr Arthur Owen, Barg., a'r tylwyth; ac o danodd, yr argraph ganlynol, "Cyfarwyddwyd ar fod i'r Capel hwn gael ei adeiladu gan Huw Owen, mab ac etifedd William Owen, Ysw., o Fodowen, ac a adeiladwyd gan ei anwyl wraig, Ann Owen, unig ferch ac etifeddes Richard Williams o Lys dulas, Ysw., Ebrill 20, 1661." Y mae y darlun yn y ffenestr ddeheuol, yn cyfateb i'r un yn y ffenestr ddwyreiniol. Y mae yma nifer o ddarluniau, a chynlluniau, yn mhob ongl o'r adeilad. Y mae yr argraph ganlynol ar un osail o'r bwrdd marmor, "Yma y gorwedd corph Col. Huw Owen, o Fodowen, Ysw., yr hwn a fu farw, Hydref 21, 1659," gyda y llinellau Saesoneg canlynol:—

"Religion, Learning, Friends, and Poor have lost
A noble Patron, who maintain'd 'em at his cost;
His Country's Patriot, most firm to Monarchy,
And for being Loyall suffered Infinetly.
With foes would not cologue, nor his Prince betray,
But lived his faithful Subject to his Dyeing Day."

Y mae o fewn yr adeilad nifer o adgofion gwelygordd y llinach hwn. Ar gapan drws deheuol yr eglwys, y mae cerfiad, a ddarllenir fel hyn:—Catamanvs Rex Sapientissimvs Omnivm Regvm. Barna rhai mai Catamanus ydoedd daid Cadwaladr, ac iddo gael ei gladdu yn Ynys Enlli. Tua thri chwarter milltir oddiyma, ar y dehau, y mae gweddillion eglwys Llanfeirian, a fu unwaith yn eglwys blwyfol, ond sydd wedi syrthio i adfeiliau er 1775. Y mae yma ysgol genedlaethol at wasanaeth y gymydogaeth, wedi ei chodi er y flwyddyn 1828, lle y mae y plant yn cael manteision addysg râd.

**LLANGAFFO**, sydd blwyf yn nosparth Caernarfon, ac yn swydd Fon, gerllaw rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, 2 filltir gorllewin-dde-orllewin o Gyswllt gorsaf y rheilffordd, yn y Gaerwen; a 4½ de wrth orllewin o Langefni. Llythyrfa, Gaerwen, dan Fangor. Erwau, 1590. Gwerth ardrethol 2032*p*., o'r hyn y mae 600*p*. mewn mwnau. Poblogaeth, 122. Tai, 18. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig nifer. Yr oedd Bodowyr yn balas o'r 16eg ganrif, ond nid oes ond ychydig o'i olion yn aros hyd yn awr. Yn 1790, cafwyd gweithred seneddol, er argau Cors y ddeu-gae a Malldraeth, yn fwy effeithiol; a thrwy hyny, enillwyd tua dau cant a deg-ar-hugain o erwau o dir, i feddianwyr tiroedd y plwyf hwn. Darganfyddwyd dau fathodyn aur, perthynol i'r Ymerawdwr Cystenyn, mewn cadwraeth dda, yn agos i'r eglwys, yn 1829, ac amryw o rai efydd, a rhai arian, gerllaw. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llangeinwen, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Caffo; yr hwn a flodeuai tua chanol y chweched ganrif. Y mae yn y fynwent, groes, o gryn henafiaeth. Y mae ychydig o waddolion, er lles y tlodion, yn perthyn i'r plwyf hwn.

**LLANGAIN**, sydd blwyf, a phentref, yn nosparth a swydd Gaerfyrddin; gerllaw afon Towy, 3½ milltir de wrth orllewin o orsaf rheilffordd Caerfyrddin. Llythyrfa yn Nghaerfyrddin. Erwau, 2660. Gwerth ardrethol, 2288*p*. Poblogaeth, 393. Tai, 84. Y mae meddiant y tiroedd rhwng ychydig. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 85*p*.; ac yn nawddogaeth F. Bludworth, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Synin, ac yn gorwedd ar ucheldir oddiar Ddyffryn Towy, o'r lle y ceir golygfeydd ehang a thra amrywiol, ar y wlad gylchynol, a beisfor Caerfyrddin. Y mae *Leland* wrth ddarlunio adfeilion Castell Green, yn dywedyd,—"Pedair milldir o Lanstephan, ar yr un esgair, y mae lle a elwir Castell Green, lle yr arferai llongau angori;" at yr hyn yr ychwanega *Camden*, "Fe'i gelwir hefyd Castell Mole, a thybir mai yr un ydyw a Chastell Wmphre, Dr. Powel, a adeiladwyd gan Uchtryd, Tywysog Meirionydd, yn y flwyddyn 1138."

**LLANGAMMARCH**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Buallt, yn swydd Frycheiniog. Saif y pentref gerllaw ymuniad yr afonydd Gammarch, ac Irfon, yn agos i reilffordd Craven-Arms, Knighton, Llandilo, ac Abertawy; ac o dan fynydd Epynt, 7½ milltir gorllewin-dde-orllewin o Buallt. Llythyrfa dan Buallt, sir Frycheiniog, ac y mae gorsaf rheilffordd yma. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Treflys a Phenbuallt, ac yn mesur 11,748 o erwau. Gwerth ardrethol, 3585*p*. Poblogaeth, 1078. Tai, 209. Y mae y meddianau yn cael eu dosparthu rhwng ychydig nifer. Y mae y parthau deheuol a gorllewinol yn fynyddig, a'r tir yn gorsaidd, eto ar y terfynau hyn, yn ffrwythlawn a chynnyrchiol. Wrth ddisgyn i ddyffryn Llangammarch o fynyddau Epynt, ceir golygfa darawiadol ar yr Irfon, o Lancam-ddwr, hyd ymarllwysiad afon Dulas, yr hon a

Digitized by Google

red rhwng llechweddi coediog prydferth. Y mae Llwynmadoc, palas H. Thomas, Ysw., yn sefyll ar lan yr afon Gammarch. Caerau ydoedd anneddle y teulu Lloyd; a Llancadwgan ydoedd breswylfod y teulu Cadogan. Y mae ffynhonell fwnyddol o gryn fri yn y gymydogaeth. Y mae hen wersyllfa Frytanaidd, dau cant a deugain o droedfeddi o amgylchedd, yn agos i'r Caerau. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd ddau addoldy yma; ac un o honynt wedi ei waddoli, âg ardreth tyddyn a elwir Pen-llech-fach, o bryniad y gynulleidfa. Genedigol o'r plwyf hwn ydoedd James Howel, awdwr amryw lyfrau cyhoeddedig, yn mhlith y rhai y gellid enwi, "Epistolæ Hoelianæ," "Lexicon Tretraglotton," "Londinopolis," "Dodona's Grove," a Gweithiau eraill. Yma hefyd yn Cefn-Bryn, y ganwyd ei frawd henaf, Dr. Thomas Howel, esgob Caerodor. Yr oedd eu tad yn gurad Llangammarch o 1576 hyd 1631. Yma hefyd, y cyfaneddai Theophilus Evans, fel ficar y plwyf, am amryw flyneddau. Y mae ei enw yn adnabyddus fel awdwr amryw lyfrau Cymraeg, sef "Pwyll y Pader," yn 1739; Esboniad ar Weddi yr Arglwydd, yn ei Bregethau, ac yn arbenig, "Drych y Prifoesoedd," yn cynwys hanes yr hen Frytaniaid; ar yr hwn y bu darlleniad mawr, drwy holl Gymru. Yn 1752, cyhoeddodd yn Saesoneg, ei *History of Modern Enthusiasm.* Yr oedd ganddo gryn fedr a gwybodaeth yn elfenau cyffredin meddyginiaeth; ac yr oedd efe yn un o'r rhai cyntaf i ddarganfod rhinweddau meddygol dyfroedd Llanwrtyd. Rhoddodd ei ficeriaeth i fynu yn 1763, yr hon a gyflwynwyd i'w fab yn nghyfraith; tad Theophilus Jones, Ysw., hanesydd enwog Brycheiniog. Bu farw yn Aberhonddu, a chladdwyd ef yn Llangammarch. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llanwrtyd, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 209*p*. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Gammarch. Y mae yma waddolion er budd tlodion y plwyf.

**LLANGAN**, sydd blwyf yn nosparth Narberth, ac yn siroedd PENFRO, a CHAERFYRDDIN; yn ymyl yr afon Taf, gerllaw rheilffordd y Deheudir, 2½ milltir gorllewin-ogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Whitland; a 5½ gogledd-ddwyrain wrth ddwyrain o Narberth. Y mae yn cynwys pentref Camfelin; a'r llythyrfa ydyw Whitland, dan Narberth. Erwau yn nosparth Penfro 194, ac yn Nghaerfyrddin 4758. Gwerth ardrethol y cyfan, 3256*p*. Poblogaeth cyfran Penfro 37, rhan Caerfyrddin 604. Tai, 6 a 129. Y mae y tiroedd yn cael eu meddianu gan ychydig nifer. Ar lannau y Taf, yn y plwyf hwn, y safai gynt, hen adail enwog y "Ty Gwyn ar Dâf," preswylfa achlysurol Hywel Dda, Llywydd Cymru oll; yr hwn yn y flwyddyn 940, a gynhullodd yma Gyngor cenedlaethol eang, i'r dyben o gyfansoddi, a threfnu gweinyddiad y cyfreithiau a roddasant y fath enwogrwydd ar ei deyrnasiad, y rhai a adnabyddir hyd heddyw, wrth yr enw "Cyfreithiau Hywel Dda." I'r dyben o roddi pwysigrwydd a dyddordeb ar y cynnulliad hwn, arosodd y brenhin yma gyda y Cynghor, dros ddyddiau y grawys, mewn gweddiau ac ymgynghorion, er cwblhau yr amcan yn briodol. Yn fuan wedi dinystr monachlog Bangor Is-coed, yn Ngwynedd, a llofruddiad a gwasgariad y frawdoliaeth enwog honno, gan Sacsoniaid Northumbria, ffurfiwyd cymdeithas grefyddol yn y lle hwn, dan nawdd Paulinus, mab Urien Rheged, a dysgybl i St. Garmon, yr hon a fu yn sylfaen ac offerynoldeb ffurfiad hen abaddy enwog y "Ty Gwyn ar Daf." Yn ol rhai hanesion, dywedir fod y sefydliad hwn wedi ei fwriadu i frodyr o urdd y "Cistercian," ac wedi ei sefydlu gan Rhys ab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth, yn nheyrnasiad William y Gorchfygwr; ond dywed esgob Tanner, gyda mwy o debygolrwydd, mai Bernard, esgob Ty-Ddewi, yr hwn a lywyddai ar yr esgobaeth o 1115 hyd 1147, ydoedd sylfaenydd y llwyddiant a fu ar y lle. Mynegir, yn yr hanesion Cymreig, fod Cadwaladr, brawd Owain Gwynedd, Tywysog Gogledd Cymru, yn ysdod y dadleuon a gododd rhyngddo ef a'i neiaint, meibion Owain, wedi cyflwyno gofal y castell oedd ef newydd ei godi yn Cynfael, i Abad y Ty Gwyn ar Daf, yr hwn a'i hamddiffynodd yn wrol, yn erbyn ymosodiad y tywysogion ieuaingc; ond yn y diwedd, bu raid iddo ffoi ymaith; yr hyn a wnaeth drwy gymorth un o'r wrthblaid, ac wedi hyny, ymgiliodd i'w fonachlog. Y mae palas yr Anrhydeddus H. Yelberton, wedi ei godi ar y lle yr oedd yr hen fonachlog. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 86*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Canna.

**LLANGAN**, neu LLANGANNA, sydd blwyf yn nosparth Pen-y-Bont, swydd FORGANWG, gerllaw yr afonydd Canna ac Ewenni, neu Ewenwy, 3¼ milltir dwyrain de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Pen-y-Bont. Y mae yn cynwys pentref Trefes. Llythyrfa yn Mhen-y-Bont. Erwau, 1175. Gwerth ardrethol, 1510*p*. Poblogaeth, 232. Tai, 50. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng amryw. Y mae yma gloddfeydd cerig calch; ac ychydig o fwn plwm. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 224*p*., ac yn nawddogaeth Arglwyddes Dunraven. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1861. Y mae yn y fynwent ddwy o groesau, un yn henafol, a'r llall yn ddiweddar. Y mae yma ychydig o waddol er budd y tlodion.

**LLANGANTEN**, sydd blwyf yn nosparth Buallt, swydd FRYCHEINIOG, gerllaw yr afon Chwefri, sydd yn rhedeg i'r Irfon, 2¼ milltir gorllewin wrth ogledd o dref a gorsaf rheilffordd Buallt. Llythyrfa yn Buallt. Erwau, 2258. Gwerth ardrethol, 1085*p*. Poblogaeth, 159. Tai, 27. Y mae y lle hwn wedi cael ei hynodi, o blegid yr amgylchiad galarus o gwymp yr enwog "Llewelyn, y Llyw olaf" yma; yr hwn, wedi ei fuddygoliaeth fythgofiadwy tua y Menai, a aeth i'w gastell yn Aberedwy, ger Buallt, i gynal cynnadledd â phenaethiaid y gymydogaeth honno. Tra yr oedd ef yno, yn dysgwyl am y pendefigion i'w gyfarfod, ymosodwyd arno ef a'i wŷr, yn annysgwyliadwy, gan fyddin o Saeson, dan arweiniad Syr Edmwnd Mortimer, a John Giffard. Wedi methu cael lle o ddiogelwch, nac amser i drefnu ei fyddin, croesodd yr afon, ychydig yn is i lawr na'r eglwys, dros "Bont y coed." Wedi croesi yr afon, gosododd yr ychydig wŷr oedd yn ei ganlyn, ar ochr ogleddol y bont, er ei gwylio yn erbyn y lluaws, ac i'w hatal i groesi yno. Cafodd ei siomi yma yn ei ddysgwyliad am adgyfnerthiad o Sir Frycheiniog, ac wedi i Syr Elias Walwyn, ddarganfod lle arall i groesi yr afon, ymgiliodd yntau i le y gallai gael golwg ar ysgogiadau y milwyr; ac mewn nant fechan, o fewn tua dau can llath i faes y frwydr, brathwyd ef â gwaewffon, gan Adam de Francton, pan yr oedd ef yn ddiamddiffyn; a hwnw heb ei adnabod ar y pryd, ond yn deall wrth ei ymddangosiad, ei fod yn rhywun o bwysigrwydd;

Digitized by Google

ac wedi dychwelyd ato, efe a gafodd allan, drwy ysgrifau oedd yn ei logell, mai Tywysog Cymru ydoedd; yna wedi gwahanu ei ben oddiwrth ei gorph, efe a'i dygodd yn anrheg i Iorwerth I., yr hwn oedd ar y pryd, yn cynal gwledd Nadolig yn Aberconwy. Ceir y manylion o'r hanes mewn man arall yn y gwaith hwn. Gelwir y nant lle y cwympodd y Tywysog, hyd heddyw, "Cwm Llewelyn," a'r man lle y claddwyd ef, yn "Cefn y Bedd." Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 64*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Canten, neu Catherine. Y mae yma ychydig o waddol i'r tlodion, ac ysgol er addysgu plant y gymydogaeth. Darganfyddwyd ffynhonell fwnol yma yn 1831, ar geulan yr afon Chwefrwy, sydd yn llesol iawn.

**LLANGAR**, neu LLANGAER, sydd drefgordd a phlwyf, yn nosparth Corwen, swydd FEIRIONYDD. Saif y drefgordd yn ymyl yr afon Dyfrdwy, ac ymarllwysiad yr Alwen, 1½ milltir o orsaf rheilffordd Corwen. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys trefgorddau Bryn, Cymer, a Gwynodl. Y llythyrfa yw Corwen. Erwau, 3578. Gwerth ardrethol, 1908*p.* Poblogaeth, 211. Tai, 43. Y mae llawer o'r tir yn ddiffrwyth. Y mae olion hen amddiffynfa gerllaw yr eglwys, a elwir "Caer-Wern." Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, unedig â chapeloriaeth Cynwyd, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 160*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae cyfran o elusenau Corwen yn perthyn i'r plwyf hwn. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i'r Holl Saint.

**LLANGARREN**, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth Ross, HENFFORDD. Saif y pentref gerllaw yr afonig Garren, yr hon a red i'r Wy, 5½ milltir gorllewin-dde-orllewin o orsaf rheilffordd Ross. Llythyrfa dan Ross. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Kilreague, Llangunog, Tredoughan, Tretilla, Treciliau, a Langstone, gyda Tre-Efan. Erwau, 5605. Gwerth ardrethol, 8054*p.* Poblogaeth, 1215. Tai, 255. Y prif balasau ydynt Llangarren Court, a Langstone Court. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol St. Weonard, yn esgobaeth Henffordd; ac yn nawddogaeth Deon a Phenodydd Henffordd. Y mae amryw gofadeiliau yn yr eglwys, am deuluoedd o'r gymydogaeth. Y mae yma addoldai perthynol i'r Annibynwyr, a'r Wesleyaid. Y mae ysgol genedlaethol yn y plwyf, yr hwn sydd mewn hawl i ran o elusenau Mrs. F. Scudamore.

**LLANGASTY-TAL-Y-LLYN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd FRYCHEINIOG, gerllaw llyn hynod Llangors, o dan Fannau Brycheiniog, 5½ milltir de-ddwyrain wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Llythyrfa dan Aberhonddu. Erwau, 2119. Gwerth ardrethol, 1833. Poblogaeth, 200. Tai, 34. Y mae y faenoriaeth yn perthyn i deulu Crepigny. Y mae hen wersyllfa yn Ngallt-yr-Esgair, o'r lle y ceir golygfa ardderchog ar y gymydogaeth. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 207*p.*, ac yn nawddogaeth yr Anrh. R. W. P. Davis. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gastyn, ac yn adeilad hardd, gyda chlych seingar.

**LLANGATHEN**, sydd bentref a phlwyf, ac isddosparth, yn nosparth Llandilo-fawr, swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref gerllaw yr afon Towy, yn agos i reilffordd Caerfyrddin a Llandilo; yn ymyl Bryn y Grongaer, 3 milltir gorllewin o Landilo-fawr. Y mae yma ffeiriau ar Ebrill 16, a Medi 22. Y mae y plwyf yn cynwys is-bentrefi Berthlwyd, Brynhafod, Dryslwyn, Alltygaer, Tregynin, Llan-Blaenynys, Cwm-ysgifarawg, Ysgwyn, a Mynydd. Llythyrfa yn Llandilo, dan Gaerfyrddin. Erwau, 5513. Gwerth ardrethol, 5992. Poblogaeth, 977. Tai, 206. Y mae y tiroedd yn meddiant ychydig nifer. Y prif balasau ydynt Aberglasney, a Cwrt-Henry. Yr oedd castell Dryslwyn yn gaer amddiffynol, a adeiladwyd yn amser Iorwerth I., gan un o'r tywysogion o dylwyth Dynefor; ac yn sefyll ar gopa bryn mawr, uwchlaw dyffryn Towy; ond nid oes ond ychydig furiau, gorchuddiedig gan eiddew, a daearwaith, a thwr, yn aros o hono. Y mae Bryn y Grongaer wedi ei hynodi trwy Gân darawiadol Dyer. Y mae y Ddraenen-ddu, dan gysgod yr hon y dywedir i'r bardd gyfansoddi ei linellau, ar gael eto. Y mae yr olygfa oddiyma, ar y pentrefi a'r coedwigoedd, yn swynol dros ben. Y mae y lle prydferth hwn, yn cynwys dwy amaethfa, o eiddo Walter Phillips, Ysw., o Aberglasency, lle y mae un o'r palasau henaf yn y dywysogaeth; ag a hynodir fel preswylfod foreuol, os nid lle genedigol y bardd enwog; yr hwn a gyfeiriai at y lle yn ei "*Country Walk*," fel man dymunol dan Fryn y Grongaer. O fewn y plwyf hwn y mae Cwrt Henry, a elwir felly, yn ol tystiolaeth rhai ysgrifenwyr, o blegid iddo fod, ar ryw bryd, yn breswylfod Harri VII., yr hwn, tra yr ydoedd yn Iarll Rismwnd, a gynnaliai ei lys yma. Barna eraill i'r lle gael ei enw oddiwrth Henry ab Gwilym, merch yr hwn a briododd Syr Rhys ab Thomas. Y mae cerig calch, a mwn plwm, mewn cyflawnder yn y gymydogaeth hon. Y mae gweddillion o "Capel-pen-Arw," i'w gweled eto yn agos i'r eglwys; ac y mae ffrwd o ddwfr gerllaw, sydd yn rhinweddol rhag y gymalwst, a dolur y llygaid. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cathen, ac y mae yma gofadail am esgob Rudd, a'i foneddiges, y rhai sydd wedi eu cerfio yn dra medrus. Y mae yma rai gwaddolion yn perthyn i'r plwyf. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd, blwyf Llanegwad. Erwau, 17,834. Poblogaeth, 2897. Tai, 627.

**LLANGATTWG**, sydd blwyf ac is-ddosparth, yn nosparth Crughywel, swydd FRYCHEINIOG. Saif y plwyf gerllaw yr afon Wysg, gyferbyn a Chrughywel, 4½ milltir gogledd-orllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Clydach; ac y mae yn cael ei gysylltu, gan bont â Chrughywel, a'i wahanu, drwy gamlas Brycheiniog. Y mae yn cynwys rhandir Penallt, ac adranau Prisc, a Ciliau; ac yn cynwys rhan o gapeloriaeth Beaufort. Llythyrfa, dan Grughywel. Erwau, 9597. Gwerth ardrethol, 14,666*p.*, o'r hyn y mae 2780*p.* mewn gwaith haiarn, a 400*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 5415; yn 1861, 5759. Tai, 1254. Poblogaeth capeloriaeth Beaufort yn 1861, 2992. Tai, 693. Y mae y meddianau rhwng amryw. Y mae y golygfeydd yn y gymydogaeth, yn amrywiaethol a phrydferth iawn, yn ymagor dros ddyffryn Wysg, ac yn arddangos nifer o balasau, ac adeiladau teg. Parc Llangadog, Parc-Glanwysg, Glanusk Villa, a Tany-parc, ydynt y prif balasau. Y mae cerig calch, a mwn haiarn, a glo, mewn cyflawnder yma. Darganfyddwyd cistfaen ar Fryn-Carno; ymladdwyd brwydr drychinebus yma, yn 728, rhwng y Cymry dan Rhodri Molwynog, a'r Brenhin Ethelbald, o Mercia. Y mae yn nghilfach Mynydd y Darren, ogof o gryn

Digitized by Google

faintioli, a elwir "Eglwys Faen." Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llangenni, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 905*p.*, ac yn nawddogaeth Dug Beaufort. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Catwg. Yma y mae Tloddy Crughywel; ac yn ol cyfrifiad 1861, yr oedd 119 yn y lle. Bu yr esgobion Lloyd a Davies yn beriglorion yma. Y mae yr is-ddosparth yn gyd-derfynol a'r plwyf hwn. Y mae nifer o gymunroddion wedi eu gadael er lles y plwyfolion, ac i gefnogi addysg yr ieuaingc.

**LLANGATTWG**, sydd drefgordd a phlwyf, yn nosparth Casnewydd, swydd Fynwy. Saif y drefgordd gerllaw yr afon Wysg, yn agos i Gaerlleon, 2 filltir gogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Cas'newydd. Gwerth ardrethol, 2816*p.* Poblogaeth, 276. Tai, 54. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys trefgordd Caerlleon, i'r hon dref y mae llythyrfa dan Gasnewydd, Mynwy. Erwau y plwyf, 2937. Gwerth ardrethol 6605*p.*, o'r hyn y mae 10*p.* mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 1544. Tai, 308. Y mae y meddianau yn cael eu rhanu rhwng lluaws. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf: gwerth 300*p.*, ac yn nawddogaeth Deon a Phenodydd Llandaf. Saif yr eglwys yn Nghaerlleon; y mae yn adeilad henafol, wedi ei hadgyweirio yn 1867, drwy y draul o 2500*p.* Adeiladwyd persondy newydd yma yn 1863; ac ysgolion rhad yn 1864, gyda gwaddoliad o tua 1000*p.* yn flyneddol, ac yn rhoddi addysg rad i tua 200 o blant, a dillad ac addysg i tua chant yn ychwanegol.

**LLANGATTWG-LLINGOED**, sydd blwyf yn nosparth Abergafenni, sir Fynwy; gerllaw afon Trothwy, 2¾ milltir de-ddwyrain wrth dde o orsaf rheilffordd Pandy; a 5¼ gogledd-ddwyrain o Abergafenni. Llythyrfa yn Abergafenni. Erwau, 1926. Gwerth ardrethol, 1644*p.* Poblogaeth, 206. Tai, 47. Rhenir y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 144*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llandaf. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cattwg, ac mewn cyflwr da. Y mae yma ychydig o waddolion.

**LLANGATTWG-FEIBION-AFEL**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Fynwy, 1¾ milltir gogleddol o afon Mownow, ar y terfyn â swydd Henffordd, a 4¼ gogledd orllewinol o orsaf rheilffordd Mynwy. Erwau, 4914. Gwerth ardrethol, 4100*p.* Poblogaeth, 497. Tai, 106. Rhenir y tiroedd rhwng ychydig. Yr Hendre ydyw palas J. E. W. Rolls, Ysw. Cloddir cerig calch yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llanfanos, ac â ficeriaeth St. Maughans, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 365*p.*, ac yn nawddogaeth J. E. W. Rolls, Ysw.

**LLANGATTWG-GER-WYSG**, sydd blwyf yn nosparth Abergafenni, swydd Fynwy; gerllaw yr afon Wysg, ac yn ymyl rheilffordd yr Henffordd, Abergafenni a'r Cas'newydd, 3¼ milltir de-ddeddwyreiniol o Abergafenni. Erwau, 1613. Gwerth ardrethol, 2229*p.* Poblogaeth yn 1851, 178; yn 1861, 252. Tai, 44. Y mae y tir yn meddiant amryw berchenogion. Y prif balas ydyw *Llangattock House.* Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 274*p.*, ac yn nawddogaeth Iarll Abergafenni. Y mae adeiladaeth yr eglwys o gynllun henafol, ac mewn cyflwr da; ac yn cynwys cofadeiliau am deulu Evans.

**LLANGEDWYN**, trefgordd a phlwyf yn undeb Llanfyllin, ac yn swydd Dinbych. Saif y drefgordd ar yr afon Tanat, ar derfyn Maldwyn, dair milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Llanfechan, a phedair milldir a chwarter i'r gogledd-ddwyrain o Lanfyllin. Rhwng trefgordd Scrwgan, cynnwysa y plwyf 1627 o erwau. Eiddo trethadwy, 2146*p.* Poblogaeth, 297. Tai, 58. Plas Llangedwyn a berthyn i Syr W. W. Wynn, Bar., A.S., yr hwn a breswylia ynddo yn achlysurol. Codir llechi yn y gymmydogaeth. Gwerth blyneddol y ficeriaeth, yr hon a berthyn i esgobaeth Llanelwy, ac i nawddogaeth Syr W. W. Wynn, yw 130*p.* Perthyna i dlodion y plwyf werth 13*p.* yn y flwyddyn o elusenau, a adawyd yn benaf gan y Wynniaid.

**LLANGEFNI**, tref fechan, a phlwyf, yn swydd Fon. Y mae y dref yn sefyll ar yr afon Cefni, neu Cefnwy, ar y Ffordd Rufeinaidd i Gaergybi, ac ar gledr-ffordd Canol-barth Môn, mewn dyffryn prydferth, 4¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Gyssyllt-ffordd y Gaerwen, a 9 milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o'r Beaumaris. Nid oedd hon namyn treflan fechan yn niwedd y ganrif flaenorol; ond y mae wedi cyfodi erbyn hyn yn dref led flodeuog, a hyny yn benaf ar gyfrif ei sefyllfa fanteisiol fel marchnadle ganol-barthol. Trwy Ysgrif y Diwygiad Seneddol, fe'i cyfodwyd i radd bwrdeisdref, mewn undeb a Beaumaris, Caergybi, ac Amlwch, yn anfoniad aelod i'r Senedd. Y mae yma Lythyr-swyddfa, gorsaf rheilffordd, ariandai, gwestdai da, a thŷ marchnad. Cynnelir y farchnad yma bob dydd Iau, a'r ffeiriau a gynnelir, Mawrth 14, Ebrill 17, Mehefin 10, Awst 17, Medi 15, Hydref 23; a'r chwe dydd marchnad o flaen y Nadolig. Poblogaeth yn 1851, 1362; yn 1861, 1317. Tai annedd, 321. Cynnwysa y plwyf 2426 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 4838*p.* Poblogaeth y plwyf yn 1851, 1799; ac yn 1861, 1696. Tai annedd, 416. Y mae Tregarnedd, hen balas a adeiladwyd yn amser Harri y Seithfed, yn lle hen lys a gyfodasid yno o'r blaen yn y drydedd ganrif ar ddeg, ag sydd yn ammaethdy yn bresenol, o fewn tua milldir i'r dref. Yr oedd Tregarnedd yn un o lysoedd Ednyfed Fychan, prif weinidog Llewelyn ab Iorwerth, oddiwrth yr hwn yr hanodd y Tuduriaid; a'i ŵyr, Syr Gruffydd Llwyd, yr hwn a wnaed yn Farchog gan Edward y Cyntaf, yn nghastell Rhuddlan, a anwyd yn Nhregarnedd. Efe a ddygodd y newydd i Edward, am enedigaeth mab iddo yn nghastell Caer yn arfon; ac yn y canlyniad, pentyrodd y penteyrn hwnw, roddion ac anrhydedd arno. Ond, yn y flwyddyn 1317, efe a amcanodd ffurfio cyngrhair âg Edward Bruce, brawd i Robert Bruce, brenin Ysgotland, yr hwn a oresgynasai yr Iwerddon, er cael cynnorthwy i ysgwyd iau Lloegr oddiar y Cymry, y rhai oeddynt yn gruddfan dan orthrymder a thrais y swyddogion Syr Rossier Mortimer, arglwydd y Waun, a phrif ynad Gwynedd. Gan iddo fod yn aflwyddianus yn hyn, efe a gynnullodd gynifer o wŷr ar a allai, ac a ddechreuodd ar ryfel-gyrch boethlyd, gan gymeryd meddiant o amryw gestyll ac amddiffynfeydd trwy Wynedd, ac yn y Cyffindiroedd. Ond yn fuan, daeth byddin gref o Saeson i'w erbyn, yr hon a'i gorchfygodd, gan adael llawer o'i wŷr yn lladdedig ar y maes; ond efe ei hun a giliodd, gyd ag ychydig ganlynwyr, i'w amddiffynfa yn Nhregarnedd, lle yr oedd ganddo warchodlu yn barod; ac heblaw hyny, efe a gadarnhasai amddiffynfa arall, a elwir "Ynys Cefni," yn y Gors, ychydig bellder oddiwrth ei annedd, gan ei hamgylchynu â dyfr-ffos ledan a dofn. Efallai mai

Digitized by Google

yma y cuddiasai efe ei aur a'i brif drysorau; canys y mae yn gofus gan yr Ysgrifenydd, fod y gair yn gyffredin yn nghymydogaeth Llangefni tua thriugain mlynedd yn ôl, fod ammaethwr cyffredin o'r gymydogaeth, wedi cael trysor cuddiedig yn hen Ynys Gefni, a adawodd ei argraff yn lled amlwg ar ei amgylchiadau ef, a'i deulu ar ei ôl. Yr hen wron Cymreig a'i hamddiffynodd ei hun yn ddewr dros yspaid yn Nhregarnedd; ond o'r diwedd, efe a gymerwyd yn garcharor, ac a ddygwyd i gastell Rhuddlan, lle y bu yn garcharor dros hir amser; a dywaid y rhan fwyaf o Haneswyr iddo gael ei roddi i farwolaeth yno, drwy dori ei ben o'r diwedd. Adeiladau ammaethyddol sydd yn awr ar y fan lle y safai hen lŷs Tregarnedd; ond, y mae yn hawdd olrhain yr hen warchgloddiau a'i hamgylchynent, trwy yr hyn y gwelir fod yr hen amddiffynfa yn cymeryd i fynu lanerch o yn agos i bum erw o dir; ac yr oedd rhan o'r ddyfr-ffos, ar yr ochr ogleddorllewinol, mewn cyflwr tra pherffaith yn ddiweddar. Cafodd y garnedd gyfagos, yr hon oedd yn gyfansoddedig o dwrr anferth o geryg, yn gylchynedig gan feini hirion, ac ydoedd tua phedwar ugain a chwe llath o drawsfesur, ei symud yn llwyr yn y flwyddyn 1822, i'r perwyl o adeiladu magwyr i ranu y maes. Nid oes nemawr o olion yr hen amddiffynfa ar Ynys Cefni yn aros bellach, gan fod gorlifiadau parhaus yr afon, wedi golchi ymaith bob olion o'r hen adeilad. Yr oedd o fewn oes yn ôl, o fewn tua milldir i'r dref, lawer o weddillion hen ffordd balmantedig yn weledig, fel y gellid ei dylyn am oddeutu dwy filldir, ac ymddangosai mewn cyflwr tra pherffaith mewn rhai manau; a barna henafiaethwyr craffus, mai ffordd Rufeinaidd ydoedd, yn cyfeirio o Gastellior i Bodior, ar draws yr Ynys.

Pan oeddid yn tynu yr hen eglwys i lawr, yn y flwyddyn 1824, darganfuwyd careg fawr oddi tan y sylfeini, ar yr hon yr oedd arysgrifen hynod, mewn llythyrenau Rhufeinaidd, yn aros; ond gan draul amser, nid oes namyn rhan o'r arysgrifen yn ddarllenadwy, sef CVLIDORI. IACIT. SECVND. . . . Y mae y maen hwn yn awr wedi ei ddodi i sefyll yn syth yn y fynwent, ar y llanerch lle ei canfuwyd. Y mae Henafiaethwyr diweddar yn darllen y gair cyntaf yn CULIDORI, ac yn meddwl eu bod yn gweled enw gwr arall, sef MULIER, yn y bedwaredd linell ar y maen. Y mae lle yn y plwyf o'r enw "Cludro," yr hwn, efallai, a ddygai ryw berthynas a'r enw cyntaf "Culidori."

Yn y flwyddyn 1829, wrth symud hen glawdd ar dir Glan Hwfa, yn y plwyf hwn, darganfuwyd deugain o esgyrnegau dynol, y rhai y gallasid casglu oddiwrth y sefyllfa yn mha un y gorweddent, eu bod wedi eu claddu ar frŷs; ac yn y maes cyfagos, cafwyd llawer o esgyrn dynol, yn wasgaredig yn mhob cyfeiriad. Bernid am y rhai hyn, mai gweddillion y gwŷr a gwympasant yn ystod gwarchaead Ynys Cefni oeddynt.

Y mae eglwys y plwyf hwn yn gyssegredig i Sant Cyngar, fab i Geraint ab Erbin, yr hwn a flodeuai yn y chweched ganrif. Cynnelid yr wylmabsant, Tachwedd y Seithfed.

Y mae rhai hen weithredoedd dyddorawl am diroedd yn y plwyf hwn, yn teilyngu eu cofnodi yma:—

"Nyni Dafydd ab Diews ab Ifan ab Bleddyn, a Gwenllian, ferch Diews ab Madoc Anwyl, rhydd ddeiliaid trefgordd St. Cyngar, Llangefni, yn Nghwmmwd Menai, a swydd Fôn, &c., a ganiattasom, ac a gadarnhasom i William ap Gruffydd, Ysw., rhydd-ddeiliad o'r drefgordd ddywededig, un coetgae (*virgate*) o'n tiriogaeth, yn agos i'r felin ddwfr yn y drefgordd ddywededig, &c., i'w dal a'i meddu gan y dywededig William, a'i ettifeddion, &c. Rhoddwyd yn Llangefni, ar y dydd Gwener nesaf wedi Dydd Gwyl St. Thomas y Merthyr, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward y Pedwerydd."

"Myfi Dafydd ap Diews ap Ifan ap Bleddyn, rhydd-ddeiliad o drefgordd St. Cyngar, Llangefni, yn nghwmmwd Menai, a swydd Fon, a ddyroddais, &c., i William ap Gryffydd ap Gwilym, Ysw., tirddeiliad o'r drefgordd ddywededig, haner un coetgae (*virgate*), yn nghyd ag un daflod, a'i pherthynasau, yn agos i Bont Faen, &c., y rhai a berthynant i mi yn y drefgordd ddywededig, i'w cael a'u dal, &c., i'r cyfryw William, &c., dros byth. Rhoddwyd yn Llangefni, ar y dydd Gwener nesaf wedi Dydd gwyl Sant Thomas y Merthyr, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward y Pedwerydd.

"Myfi Morfydd, ferch Engan Goch, &c., o drefgordd St. Cyngar, &c.

"Gwybydder fy mod i, y ddywededig Morfydd, droswyf fy hun, &c., wedi rhoddi, a thrwy y gweithredoedd hyn yn caniattau, i William ap Gryffydd, Yswain, ryddid, ac awdurdod gyflawn, i wneuthur ffos yn ol ei ddymuniad ei hun, yn, a thros fy nhir, yn y drefgordd ddywededig, er trosglwyddo dwfr at y felin yn y drefgordd uchod, dros byth, heb attalfa na gwrthddadl o'm tu i, na'm hettifeddion, i gael, &c. Rhoddwyd yn Llangefni ar yr ugeinfed dydd o Fedi, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward y Pedwerydd."

"Myfi Gwenllian, ferch Ifan ap Cynric Gethin, o St. Cyngar, is cwmmwd Menai, yn swydd Fon, &c., a ganiatteais, &c., i William Gryffydd, Yswain, yr holl dai a thaflodau, &c., a'u holl berthynasau yn y drefgordd grybwylledig, &c., i'w cael a'u meddiannu, &c., gan y William uchod, a'i ettifeddion dros byth, &c. Rhoddedig yn Llangefni, ar y dydd Llun nesaf o flaen gwyl yr Holl Saint, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad y Brenin Edward y Pedwerydd."

"Myfi Margaret, ferch Ieuan Dew, &c., o drefgordd St. Cyngar Llangefni, yn nghwmmwd Menai, &c., mewn gweddwdod pur, &c., a ddyroddais i William Gryffydd, Yŝwain, rhydd-ddeiliad o'r drefgordd uchod, ryddid i wneuthur, &c., un ffos yn nhref-gordd Llangefni,&c. Rhoddedig yn Llangefni, ar y dydd Gwener nesaf o flaen gwyl symudiad St. Thomas, Ferthyr, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad y Brenin Edward y Pedwerydd."

Yn agos i bedwar can mlynedd yn ol, yr oedd gan William Bulkeley, fab Rowland Bulkeley, o'r Beaumaris, rai tiroedd yn mhlwyf Llangefni. Ac wedi prïodi o honaw Helen, ferch, ac aeres Thomas Meredydd, o Borthamel, efe a gydiodd y tiroedd hyny âg ettifeddiaeth Porthamel, ac a adeiladodd dŷ yn agos i'r eglwys, yr hwn a adwaenir hyd heddyw dan yr enw "Plas Llangefni," lle y cyfanneddai yn y modd mwyaf helaeth-wych. Y William Bulkeley uchod, oedd fab i Syr Richard Bulkeley, Marchog, o Ellen, ferch William ap Gryffydd o'r Penrhyn; a bu iddo fab, o'r enw Rowland Bulkeley, yr hwn a brïododd Als, ferch i John, Aer y Conwy, o Fodrhyddan, Ysw. Y boneddwr hwn a symudodd ei breswylfa i Borthamel; a bu iddynt fab, Richard Rowland, a gyfenwid "Bulkeley Glos Crwn." Bu

Digitized by Google

hwn yn brïod gyntaf, â Margared, ferch William Lewis, o Bresaddfed, o'r hon y bu iddo amryw blant, sef Rowland, William, Richard, Hugh, Margared a brïododd Owen ab John ab Rees ab Ifan, o Dre feibion Meurig; Elsbeth, a brïododd Thomas Williams, o Gaer yn arfon; Elin, Mari, ac Anne. Richard Bulkeley a gymerodd yn ail wraig, Elsbeth, ferch Rhys ab Sion, o Fodychan, yr hon a fuasai yn brïod o'r blaen â Rolant Bulkeley, o'r Crymlyn, Yswain, o'r hwn y buasai iddi ferch, ac ettifeddes, o'r enw Jane. Rowland, mab henaf Richard Bulkeley, o Borthamel, a brïododd ei gares, y Jane uchod, ac aethant i fyw i Blas Llangefni. Ei ŵyr, Rowland Bulkeley, a symudodd oddiyma i Borthamel, lle y bu efe farw; a'i weddw, Mrs. Mary Bulkeley, yr hon a hanai o hen deulu urddasol Penmynydd, a symudodd yn ol i Blas Llangefni, lle y treuliodd weddill ei dyddiau, gyd a'i mab, Mr. Francis Bulkeley, wedi hyny Syr Francis Bulkeley, yn dda ei gair am ei hynawsedd, a'i helusengarwch.

Tua dechreu y ganrif hon, ymbriodai mab i amaethwr, oedd yn preswylio yn "Nghoed Howell," a merch i amaethwr arall, oedd yn cyfaneddu yn y "Capel," Llangristiolus. Nid oedd yn hawdd cael amaethfa i bob un o'r plant mewn teulu lluosog yn Mon y pryd hwnw; a thueddwyd y par dedwydd y cyfeirir atynt yma, i ymgymeryd â masnach yn nhref gynnyddol Llangefni. Yr oedd y ddau o'r un elfen ddarbodus, gynil, weithgar, a phenderfynol, a'u gilydd. Dechreuasant ar raddfa briodol i'w hamgylchiadau, a'u moddion. "Coflaid fechan, a'i gwasgu yn dyn," yn ol ffraethair pobl yr ynys. Torodd Rhisiard Dafydd ar unwaith i dir hollol newydd mewn masnach yn y wlad, mewn "un pris, a dim coel; gwerthu ar y pris isaf, am arian parod." Gwenodd Rhagluniaeth arno yn fuan, ac eangodd gylch ei fasnach yn raddol. Cododd faelfa yn y Borthaethwy, ac un arall, wedi hyny, yn y Traeth-coch. Ymagorodd hyn ar yr amcan o drafnidiaeth dramor; ac anfonai longau dros y mor, gyda nwyddau priodol at gyfnewidwriaeth am eiddo tramorol; fel yr aeth y bychan yn fil yn fuan. Cadwai ei olwg yn barhaus ar yr awgrymiad ysgrythyrol, "Llaw y diwyd a gyfoethoga, ac enaid y diwyd a wneir yn fras." Felly yr aeth y masnachwr gwledig, yn farsiandwr tywysogaidd. Yr oedd llawer o linellau yn ei gymeriad, ag sydd eto yn addysgiadol i'r byd. Gwnaeth fwy tu ag at godi yspryd diwydrwydd ac anturiaeth yn ei fro, na nemawr un yn ei ddydd. Yr oedd ei uniondeb anhyblyg yn ddiarhebol. Ymddygai tu ag at y cyhoedd, cyfoethog a thlawd, boneddig a gwreg, yn berffaith yr un fath. Yr oedd gwas i foneddwr o'r gymydogaeth, unwaith, yn galw yn ei faelfa am Lythyrau i'w feistr, canys dan ofal Mr. Davies yr oedd y llythyrfa. Wedi derbyn y sypyn i'w law, dywedai y gwas, "Geilw fy meistr yma rywbryd i dalu i chwi am y llythyrau." Na, ebe yntau, gadewch y Llythyrau yma, hyd nes y delo ef ei hun yma i'w cyrchu, ac i dalu am danynt. Daeth pedrol-fen o'r wlad ato, rywbryd, i geisio coed at adeiladu. Wedi dethol y coed, a llwytho y fen, dywedai y gwas, pan yr oedd ar gychwyn, y galwai ei feistr yno ryw amser i dalu. "Na, ebe yntau, nid felly y mae trefn ein masnach ni yma; nid ydym ni yn cadw llyfr coffadwriaeth; a bu raid dadlwytho y coed, a'u cadw hyd nes y daeth y prynwr yno i dalu am yr eiddo. Fel hyn y sefydlodd iddo ei hun enw fel masnachwr, a ledaenwyd yn fuan dros y wlad, yr hyn a wnelai y masnachwr a threfn ei fasnach yn hyspys yn mhob man. I arddangos fod ei reol mor fanwl a'r clorian aur yn yr ariandy, mewn pwysau, a'i fesur yn ei lathen at drwch y blewyn, ni's gallwn gyfeirio at ymadroddion mwy darluniadol, na'r llinellau hapus canlynol gan Llanerchydd, yn ei Farwnad ddiweddar am dano:—

"Pob ceiniog, a'r llog, dim llai,
Yn fanwl a ofynai;
A'r llog, ar bob ceiniog ga'i,
Yn deilwng ef a dalai."

Ymddygai yn wastadol yn mhob achos, fel pe buasai wedi gwneud yr hen foeswers adnabyddus hono yn arwyddair iddo ei hun, "Gonestrwydd yw y galldrefn oreu." Fel dinesydd, gwladwr, moesolydd, a chrefyddwr, ni cheir neb mewn hanes, a ragorai arno, mewn amryw ystyrion. Os elai gwraig dlawd ato, i ofyn coel am ryw eiddo gofynol at angenrheidiau y teulu, yr atebiad fyddai, "Na chei;" ond dyma iti rodd at helpu y teulu mawr acw; a digon tebyg y byddai hono yn dychwelyd adref yn llawen, dan ganmol, a chanu yn ddystaw—"Dwfr a ofynais; llaeth a roddodd!" Ni allai oddef segurwyr, nac afradloniaid. Gwnaeth fwy, mewn aberth personol, tu ag at gadw trefn ar foesau dynion yn ei dref ei hunan, ac yn enwedig yn nghadwraeth y sabbath, nac a wnaethai yr holl swyddogion gwladol yn nghyd. Yr oedd ganddo dalent neillduol tu ag at heddychu pleidiau yn ei gymydogaeth, a fyddai mewn ymrafael a'u gilydd, drwy ymresymiad teg yn ngwydd y ddwy ochr, nes eu toddi i lawr i dangnefedd; ac felly yn fynych y gelwid ef yn "gauwr yr adwy." Y mae ar gof lluaws heddyw, argraphiadau o dynerwch ei deimladau crefyddol, yn nghanol nifer o ymadroddion geirwon, miniog, a duchanol, ar gymeriadau annheilwng, y rhai a ddarluniai fel baich ar gymdeithas yn gyffredinol. Ni's gallwn derfynu hyn o sylw yn well, na thrwy goffa gair y Salmydd; "Dy feibion fydd yn lle dy dadau, y rhai a wnai yn dywysogion yn yr holl dir."

Yr Englynion canlynol a ddarllenwyd gan "Hwfa Môn" yn Eisteddfod Llangefni, Nadolig, 1872, i gyfarch Richard Davies, Ysw., yr Aelod Seneddol dros Sir Fôn, a'r hwn ydoedd yn un o Lywyddion yr Eisteddfod.

"Risiad Dafydd[1] a roes dewfon—derwen
I gadeiriau 'i feibion;
Brysgiawl ganghenau breisgion
O wreiddyn mawr rhiddyn Môn.

Drwy eang barch dringo bu—y diwyd
Ioan[2] heb ormesu;
Un dewr faidd: Marsiandwr fu,
A'r eigion i'w fawrygu.

Tyfai ei frawd Robert Dafydd—o'i gryd
Yn ddoeth graff Drafnidydd;
Ac hwn ddaeth ar fainc cain ddydd
Ei oes aur, yn Ben Sirydd.[3]

Risiard er pob ymryson—drwy ei foes
Gaed ar fainc Seneddion;
Y Dyngarwr dan goron,
A'i allu mawr, yw llyw Môn.

[1] "*Risiad Dafydd*" ei gelwid ar hyd ei oes gan ei gymmydogion dysyml, hyd yn nod y rhai a'i parchent fwyaf.

[2] Mr. John Davies, mab henaf Mr. Richard Davies, yr hwn trwy ei ymroddiad anturiaethus, a'i fedrusrwydd dihafal, a osododd sail cyfoeth dirfawr y teulu.

[3] Bu y gwr boneddig hwn yn Siryf Môn.

Digitized by Google

Daw Risiard âg aur drysor,—i lengoedd,
Try longau i'r cefnfor;
Marchogant, maelant drwy'r môr,
Tremiant am wledydd tramor.

Y gwr glew agora gloion—durawl
Y dyfnderau meithion;
A moriawl nwyddau mawrion,
Trwy fyd bentyra i Fôn.

Beirdd Môn, ebrwydd ymunant—i'w groesaw;
A gwresog cyd bynciant;
Y barddol drydanol dant,
Hyd yr Ynys daranant.

Cawr-feirdd ar feinciau Arfon—gyweiriant
Eu gorwych alawon;
Ac ar eu creigiau oerion
Y tyr eu mawl i feistr Môn.

Llifeiriawg fawl Allforion—i'w enw,
Daenir dros y grychdon;
Ac erddygau gwyrdd eigion,
Red o'u mawl i Risiard Môn.

Y grog Forwyllt graig fwrir—o'i seiliau,
A'i throsolion felir;
Callestr a dawdd cyn collir
Enw teg Risiard o'n tir.

Prïodferch y gwr ardderchog—hanodd
O freiniau Hiraethog;
Daeth allan yn ei glân glôg
O linach Hedd Molwynog.

Cawri breninol eu coron:—cadau
Cedyrn o'u boncyffion,
A fager tra twrf eigion
Yn curo mur caerau Môn."

**LLANGEFYW**, sydd blwyf yn nosparth Pont-y-pwl, swydd Fynwy, gerllaw un o ffrydiau yr afon Wysg, yn agos i reilffordd Mynwy a Phont-y-pwl, 1¼ m. dwyreiniol o orsaf rheilffordd Wysg. Llythyrfa yn Wysg, dan Casnewydd, Mynwy. Erwau, 1454. Gwerth ardrethol, 1720*p*. Poblogaeth, 159. Tai, 40. Y mae y meddiant yn rhanedig rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 81*p*., ac yn nawddogaeth y Parch. J. Blower. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Dewi. Y mae y plwyf mewn hawl i freintiau oddiwrth elusenau Roger Edwards, yn Wysg.

**LLANGEINOR**, neu LLANGEINWYR, plwyf yn rhandir Pen y bont, swydd FORGANWG; ar yr afonydd Ogmore a Garw, 5 milldir i'r gogledd-wrth-ddwyrain o orsaf rheilffordd Pen y bont. Cynnwysa bentrefi Aber-garw, *New Mill*, a *Rough Mill;* a'i lythyrfa yw Pen y bont. Erwau, 6710. Gwerth ardrethol, 1395*p*. Poblogaeth, 363. Tai, 75. Y mae yma helaethrwydd o lô, haiarn, a chalch-graig. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf, gwerth 71*p*. Noddwr, C. R. M. Talbot, Ysw. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i St. Gwinear. Y mae tua deuddeg punt yn y flwyddyn o elusenau yn perthyn i'r plwyf.

**LLANGEINWEN**, sydd blwyf yn nosparth Caernarfon, a swydd FON, gerllaw afon Braint, yn gyfagos i afon Menai, heb fod yn neppell o borthfa Tal y Foel, 3 milltir gorllewin ogledd orllewin o Gaernarfon, a 4¾ m. o Gyswllt gorsaf rheilffordd Gaerwen. Llythyrfa yn Nghaernarfon. Erwau 5388, o'r hyn y mae 900 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4261*p*. Poblogaeth, 913. Tai, 221. Y mae meddiant y tiroedd yn rhanedig rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llangaffo, yn esgobaeth Bangor; gwerth 664*p*., ac yn nawddogaeth y Parch. W. Williams. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Ceinwen, yr hon a flodeuai yn y chweched ganrif. Y mae cyflawnder o gerig calch yn cael eu codi yn y plwyf hwn, yn nghloddfeydd y Cwyrt, Gelliniog-wen, Rhuddgaer, a Phenrhyn-bach. Y mae yn y Cwyrt, weddillion hen Gapel, ag a ddefnyddid gynt, dros lawer o flynyddoedd fel ystabl, ond sydd yn awr wedi ei droi yn llaethdy. Y mae gerllaw i derfyn y plwyf hwn, biler unionsyth, gyda y cerfiad canlynol FILIVS. VLRICI. EREXIT. HVNC. LAPIDEM, yr hwn a dybir ei fod yn feddfaen i benaeth o enwogrwydd. Ceir nifer o esgyrn dynol yn nghloddfeydd Gelliniog, y rhai a dybir ydoedd weddillion y brodorion a gwympasant yn yr ymdrech yn erbyn y Daniaid, a oresgynasant y wlad. Y mae yma addoldai perthynol i'r Annibynwyr, a'r Methodistiaid.

**LLANGEITHO**, plwyf a phentref yn rhandir isaf cantref Penarth, swydd ABERTEIFI, a saif dair milldir a haner i'r gorllewin-wrth-ddehau o orsaf rheilffordd Tregaron, ac wyth milldir a haner i'r gogledd-wrth-ddwyrain o Lanbedr. Y mae yn meddu Llythyrfa o dan Gaerfyrddin. Cynwysa y plwyf dreflan Boteyne, a mesura 2150 o erwau. Gwerth ardrethol, 1397*p*. Poblogaeth, 453. Tai annedd, 97. Saif y pentref ar lan afon Aëron, ac amgylchir ef gan feusydd breision, a bryniau coediog. Mae y trigfanau henafol, Glyn Aëron, a'r Cwrt Mawr, y rhai a breswylid gynt gan deuluoedd urddasol, yn awr yn annedd-dai amaethwyr. Y mae y fywioliaeth, yr hon sydd berigloriaeth, yn archddeaconiaeth Aberteifi, ac esgobaeth Ty Ddewi, yn cael ei phrisio yn werth 6*p*., a'i gwaddoli â 200*p*. o haelioni breninol, ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Mae yr eglwys, fel yr arwydda ei henw, wedi ei chysegru i St. Ceitho ab Cynyr Farfdrwch ab Gwron ab Cunedda Wledig. Ail adailadwyd hi yn 1821; eithr nid yw ond adeilad perffaith syml, heb ddim ynddo yn tynu sylw. Eto dyma y plwyf, a thyma yr eglwys, a gawsant yr anrhydedd o roi bodolaeth i Fethodistiaid Cymru. Yn 1735, y penodwyd Daniel Rowlands yn gurad i'w frawd John, yr hwn oedd wedi olynu ei dad yn mherigloriaeth Llangeitho, Nantcwnlle, a Llanddewibrefi. Yma y profodd efe ras Duw ar ei galon ei hun, ac y dechreuodd bregethu gyda'r fath nerth a dylanwad, nes y daeth Llangeitho yn gyrchfa pobloedd lawer, ac y torodd allan un o'r diwygiadau mwyaf cyffroüs a chyffredinol a brofwyd yn unrhyw wlad erioed. Wedi iddo lafurio felly mewn cysylltiad ag Eglwys Loegr, am wyth mlynedd ar hugain, gyda llwyddiant anarferol, ar foreu Sabbath yn 1763, pan oedd newydd ddarllen y gwasanaeth arweiniol yn Llanddewibrefi, ac ar fyned i'r pwlpud i bregethu, daeth dieithr-ddyn yn mlaen, a gwasanaethodd ef a rhybydd oddiwrth esgob Ty Ddewi, yn galw yn ôl ei drwydded offeiriadol. Darllenodd Daniel Rowlands y rhybydd, yn nghlyw y gynulleidfa synedig a chyffroüs, ac aeth ef a hwythau allan o'r eglwys dan wylo, a therfynwyd yr addoliad o'r tu allan i'r porth! Pan drowyd Rowlands allan o'r eglwys, aeth y bobl allan gydag ef, ac adeiladwyd "Capel" eang yn Llangeitho. Dyma osodiad i lawr sylfaen Methodistaeth Gymreig, yr hon yn fuan a helaethodd le ei phabell, ac a estynodd gortynau ei phreswylfeydd

Digitized by Google

dros holl Gymru. Am y rheswm uchod, y mae Llangeitho wedi dyfod yn enwog yn hanes crefydd, ac mae yr enw yn gysegredig gan filoedd o galonau.

**LLANGELER**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Castell-newydd-Emlyn, a swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref gerllaw yr afon Teifi, ar derfyn Aberteifi, yn agos i reilffordd Castell-newydd-Emlyn a Llanbedr, o dan fryniau Pen-boyr, 5 milltir dwyrain-wrth-dde o Gastell-newydd-Emlyn. Llythyrfa dan Gaerfyrddin. Y mae y plwyf hwn wedi ei rannu yn ddau ddosparth; uchaf, ac isaf; ac yn cynwys 7999 o erwau. Gwerth ardrethol, 5128*p*. Poblogaeth yn 1851, 1681; yn 1861, 1573. Tai, 366. Y mae y meddiant yn rhanedig rhwng amryw. Yr oedd palas y Llys-Newydd yn perthyn gynt i deuluoedd Lloyd, ond y mae yn awr yn eiddo W. Lewis, Ysw. Dolhaidd fach ydyw palas Cadben Elliot. Y mae y fywioliaeth yn ddyblyg, sef ficeriaeth, a pherigloriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth y ficeriaeth 136*p*., a'r perigloriaeth 224*p*. Y mae y gyntaf yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi; a'r olaf yn nawdd Coleg St. Dewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Celert; ac wedi ei hail-adeiladu yn 1860. Y mae hen Gapel oedd yma, a elwid "St. Mair," yn adfeiliau cwbl oll yn awr. Y mae yma faen coffadwriaethol, a cherfiad aneglur arno; a dybir ei fod yn yr iaith Gymraeg, yn aros hyd heddyw. Y mae yn agos i'r eglwys ffynon a elwir ar enw St. Celert, o rinweddau meddygol gwerthfawr iawn, ag ydoedd mewn sylw mawr, amser a fu.

**LLANGELYNIN**, plwyf yn nghantref ARLLECHWEDD ISAF, swydd GAER YN ARFON, o'r tu isaf i'r Penmaen bach, yn nghyfeiriad afon Gonwy; 2½ milldir i'r De Dde Orllewin o orsaf rheilffordd Conwy. Cynnwysa drefgyrdd y Glyn, Pen yr allt, a Chae'r Gorlan. Mesura yn erwau, 2017, o ba rai y mae 185 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1797*p*. Poblogaeth, 234. Tai annedd, 41. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 225*p*. Ymladdwyd brwydr fyth-gofus gerllaw y Cymryd, (neu, "y Cam-ryd," fel y myn rhai ei enwi,) o fewn y plwyf hwn, yn y flwyddyn 880, rhwng Anarawd, tywysog Gwynedd, âg Edred, Iarll Mersia, yr hwn a geisiai oresgyn Gogledd Cymru. Ennillodd Anarawd fuddugoliaeth drwyadl yn y frwydr hon, gan yru y Mersiaid i ffoi o'r maes, a pharhau i'w hymlid, nes eu deol yn llwyr o'r Dywysogaeth o'r diwedd. Galwyd y fuddugoliaeth hon gan Haneswyr Cymreig, "Dïal Rhodri," am fod Anarawd drwyddi, wedi cael cyfle i ddial lladdedigaeth ei dad Rhodri gan y Sacsoniaid, yn eu cadgyrchiad i Ynys Fon, ychydig cyn hyn. Y mae arwynebedd y plwyf yn fryniawg ac anwastad; ac y mae yma lawer o garneddau, tommen-fryniau, a henafiaethau eraill ar y bryniau. Elusenau, i'r tlodion, tua 5*p*.

**LLANGELYNIN**, plwyf yn rhandir Dolgelley, swydd FEIRIONYDD; ar yr arfordir, a cher rheilffordd Aberystwyth a Glan Mor Cymru, 4¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o'r Tywyn. Cynnwysa drefgyrdd Bodgadfan, Crogen-nant, Morfa, Llanfeddiged, a Llwyn gwril, i'r olaf o ba rai y mae gorsaf rheilffordd, a llythyrfa dan Gorwen. Mesura o erwau 11,004, o ba rai y mae 2445 dan ddwfr. Gwerth ardrethol y plwyf, 3588*p*. Poblogaeth, 891. Tai annedd, 197. Yr oedd llŷs i Ednowain ab Bradwen, pen un o bymtheg llwyth Gwynedd, yn y lle a elwir Crogennant. Y mae yma ogof a elwir "Ogof Owain," am fod Owain Glyndyfrdwy wedi bod yn llechu ynddi ar ryw adeg gyfyng arno, meddir. Yn nheyrnasiad Harri y Pedwerydd, dywedir fod Ednyfed ab Aron wedi derbyn Owain Glyndwr, a'i achlesu, pan ydoedd ar ffô rhag pleidwyr y penteyrn hwnw. Dywedir fod brwydr bwysig wedi cael ei hymladd ar ryw adeg foreuol, gerllaw "y Castell," yn agos i "Rôs y llefain," ond ni's meddir unrhyw hysbysiaeth fanol am dani: ac yn agos i bentref Llwyn-gwril, yn y plwyf hwn, y mae gweddillion hen amddiffynfa Brydeinaidd, ac ychydig oddiar hyny, mewn lle a elwir "Gwastad Meirionydd," y mae lluaws o hen olion Derwyddol. Ceir golygfeydd tra ëang ar y wlad o amgylch oddiar y gwastadedd hwn. Yn y flwyddyn 1826, cafwyd gwrn o efydd, 18 modfedd o ddyfnder, a phedair modfedd ar ddeg a hanner o drawsfesur yn y pen uchaf, ac un ar ddeg a hanner yn y gwaelod, mewn mawnog ar dir Ty'n y Coed, ar gyfer yr Abermaw. Yn y Tyddyn Bach, yn y plwyf hwn, yr oedd Mary Thomas yn cartrefu, yr hon a fu byw dros amryw flyneddoedd heb gymeryd dim ymborth sylweddol, na nemawr ddim yn cynnwys maeth. Yn y plwyf hwn hefyd y ganwyd y Ser-ddewin hynod a elwid, Arise Evans, yr hwn a enillodd fesur helaeth o enwogrwydd, fel twyllwr cyfrwys, yn nheyrnasiad Elizabeth, ac Iago y Cyntaf.

Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 400*p*. Noddwr, R. H. J. Parry, Ysw. Y mae yr eglwys bresenol yn sefyll yn Llwyn gwril, ac fe'i hadeiladwyd yn y flwyddyn 1846. Saif yr hen eglwys tua dwy filldir i'r Dehau, ac fe'i hadferwyd yn y flwyddyn 1867. Y mae yr elusenau perthynol i'r plwyf, yn cyrhaedd i ugain punt yn y flwyddyn.

**LLANGENNECH**, sydd blwyf yn nosparth Llanelli, swydd GAERFYRDDIN; gerllaw afon Llwchwr, yn ymyl rheilffordd Llanelli a Towy, 4½ milltir gogledd ddwyrain wrth ogledd o Lanelli. Y mae gorsaf yn perthyn i'r lle, ar y rheilffordd; a'r llythyrfa yw Llanelli. Erwau 2394, o'r hyn y mae 50 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2463*p*. Poblogaeth, 923. Tai, 182. Nid oes ond ychydig o feddianwyr yma. Y mae palas Llangennech Parc wedi bod yn perthyn i deulu Stepney; aeth eilwaith i Tunnos, ond y mae yn awr yn eiddo W. H. Nevill, Ysw. Y mae yr afon Llychwr yn fordwyol ar lanw uchel. Y mae glo rhagorol yn cael ei allforio oddiyma. Cynhelir y ffair flyneddol ar Hydref 23, yn y pentref. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 82*p*., ac yn nawddogaeth E. R. Tunno, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gwynog.

**LLANGENNY**, neu LLAN GENAU, sydd blwyf yn nghantref Crughywel, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, yn sefyll rhwng Crughywel ac Abergafenni, ac o fewn 1¼ milldir i'r blaenaf. Cafodd y lle yr enw oddi wrth Cenau, merch Brychan Brycheiniog, ac i'r hon y mae yr eglwys wedi ei chyssegru. Dywed yr hanesydd Cressey, fod lluaws o fawrion y wlad yn y 6ed ganrif, yn awyddus am gael Cenau yn wraig; ond iddi wrthod pob un o honynt, gan benderfynu cyssegru ei hoes i weddio, &c.; ac i'r dyben hyn, iddi adael tŷ ei thad, a chwilio am fan cyfleus i dreulio math o fywyd meudwyaidd. Gadawodd Frycheiniog,—aeth dros Hafren, ac wedi cael coedlan gyfleus, hi a ofynodd i'r tywysog a berchenogai y lle, os boddlonai iddi wasanaethu

Digitized by Google

Duw yn y lle coediog hwnw. Rhoddodd ganiatad iddi, gan ei hysbysu fod y lle yn llawn o nadrodd gwenwynllyd, fel na allai dyn nac anifail fyw yn y fath le. Dywedodd hithau, y buasai yr Arglwydd yn dinystrio yr ymlusgiaid gwenwynig. Dywedir hefyd i Cenau weddio am hyn, ac i'r holl nadrodd gael eu troi yn geryg. Dywed *Camden* mai Keynsham, rhwng Bristol a Bath, oedd y fan, ac mai dyna yr achos fod cymmaint o'r *fossil* a elwir *cornu ammonis* yn y lle. Cymmerer y traddodiad am ei werth.

Amryw flyneddau yn ol, cafwyd cloch fechan yn y ddaiar ger y lle, ar dir Pen-y-daren, a bernir mai yno y safai Capel Cenau gynt, ac y defnyddid y gloch i alw y cymmydogion i weddi. Gerllaw hefyd, y mae Ffynnon Cenau, i'r hon gynt y priodolid llawer o rinweddau meddygol; ac yn neillduol mewn cyssylltiad a phriodasau. Dywed traddodiad, mai y cyntaf o'r pâr priodasol a yfai ddwfr o'r ffynon, a gawsai lywodraeth y teulu am ei oes: ac y mae stori ddigrif yn nglyn a hyn yn mhlith y bobl.

Dywedir fod mab a merch yn cael eu huno mewn glân briodas; ac mor fuan ag y cyflawnwyd y ddefod yn yr Eglwys, rhedodd y priodfab mor gyflym ag y gallai tuag at y ffynon, ac yfodd yn llawen, gan benderfynu bellach, mai efe oedd i fod yn ben. Yna aeth yn ol tua'r Eglwys, lle y cafodd y briodferch yn llawen gyda'i chyfeillion. Pan hyspysodd ef lle y bu, dywedodd y briodferch gyda gwên fuddugol, ei fod wedi aros yn rhy hir cyn yfed,—iddi hi ofalu yn mlaenllaw, a dyfod a llonaid potel o'r dwfr yn ei llogell i'r Eglwys, ac iddi ei yfed cyn ei fod ef hanner y ffordd at y ffynon; ac felly iddi hi y daeth yr hawl i fod yn ben yn y teulu.

Mae cyfoeth lawer o'r galchfaen fynyddig yn y gymmydogaeth, yr hon a weithir at wahanol ddybenion, gan y trigolion.

**LLANGENYDD**, plwyf yn Mro Gŵyr, cantref Abertawy, undeb Gŵyr, yn sir Forganwg, Deheudir Cymru, ac o fewn esgobaeth Ty Ddewi. Saif tua 16 milldir i'r gorllewin o Abertawy. Derbyniodd y plwyf ei enw oddi wrth Cenydd Sant, yr hwn yn y 6fed ganrif a sefydlodd Fangor yn y lle: ac adeiladwyd yma Eglwys wedi hyny, yr hon a gyssegrwyd i'r sant a sylfaenodd y Fangor yma yn flaenorol. Wedi goresgyniad Browyr gan y Normaniaid, yn y flwyddyn 1099; darfu i Robert de Bellemonte, fyned i'r draul o adeiladu yn y lle Fynachlog eang; yr hon mewn oesau dilynol a ddaeth i fri a phwysigrwydd mawr fel sefydliad crefyddol. Yn y flwyddyn 1441, rhoddwyd y Fynachlog i Goleg *All Souls*, Rhydychain; a pharhaodd mewn eryn ogoniant am tua chan' mlynedd drachefn. Erbyn heddyw, mae gordd amser wedi malurio yr adeilad, fel nad oes ond ychydig o'r adfeilion yn weledig. Eglwys Llangenydd yw yr un eangaf yn Mrowyr yn awr; i'r hon y mae Twr uchel; â'r muriau yn cynnwys llawer o addurnwaith gwych. Mesura y plwyf 3479 erw, a chynnwysai 360 o drigolion yn 1871. Perchenogion y plwyf ydynt Iarll Dunraven, C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., a Thomas Penrice, Ysw. Viceriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 65*p*. y flwyddyn.

**LLANGERNYW**, neu Llangerniw, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Llanrwst, swydd Ddinbych. Y mae y pentref yn sefyll yn ymyl afon Elwy, 6½ milldir i'r dwyrain o orsaf rheilffordd Tal-y-Cafn, a 7 milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst. Llythyrfa dan Lanrwst, sir Ddinbych; ac y mae y ffeiriau yn cael eu cynal ar Mawrth 29, Mai 16, Mehefin 20, Medi 29, a Tachwedd 29. Y mae y plwyf yn cael ei rannu yn ddau ddosparth, uchaf, ac isaf; ac yn cynwys trefgorddau Bodgynwch, Bodrach, Dwy-afon, Hafodunos, Marchalad, Braner, Nanerth, Pant-y-manus, Pentrewern, a Rhandir. Erwau, 7753. Gwerth ardrethol, 4159*p*. Poblogaeth, 1245. Tai, 265. Ychydig yw nifer y tir-feddianwyr. Hafodunos ydyw palas y teulu Sandbach. Y mae y tir yn fryniog; ac y mae yma ychydig o fwn plwm, ac efydd. Y mae hen balas o'r enw Pennant hefyd o fewn y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 300*p*., ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Digain; ac yn cynwys cofadeiliau am deulu Llwydiaid, o hil Hedd Molwynog. Dosperthir yr elusenau yma ar ddydd Gwyl St. Thomas.

**LLANGIAN**, sydd blwyf yn nosparth Pwllheli, swydd Gaernarfon, yn nherfyn deheuol pellaf Lleyn, rhwng St. Tudwal a Phorth-uffern, 6½ milltir de orllewin o orsaf rheilffordd Pwllheli, a 2 filltir gogleddol o Lanengan. Llythyrfa yn Llanengan, dan Bwllheli. Erwau 4835, o'r hyn y mae 330 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3464*p*. Poblogaeth yn 1851, 1161; yn 1861, 1038. Tai, 251. Nid oes ond ychydig yn meddianu y tiroedd. Nanhoron ydyw y prif balas. Y mae y trigolion yn cael y rhan fwyaf o'u gorchwylion mewn pysgota. Y mae y fywioliaeth, yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Llanbedrog, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cian. Y mae yma addoldai gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr. Cafwyd gweithred Seneddol i gau allan Fynydd-Mynytho yma, yn y flwyddyn 1808. Y mae golygfa ardderchog i'w chael oddi ar y bryniau uwchaf yma, dros feisfor Aberteifi tu a'r dehau, a'r dwyrain.

**LLANGIWG**, neu Llangiwc, sydd blwyf yn nosparth Nedd, swydd Forganwg, gerllaw afon Tawe, camlas Abertawe, a rheilffordd dyffryn Tawe; 5½ milltir gogledd orllewin wrth ogledd o Nedd. Y mae yn cynwys is-bentrefi Alltgraig, Blaenegel, Caergwrwain, a Mawr. Y llythyrfa ydyw Nedd. Erwau, 12,550. Gwerth ardrethol 13,991*p*., o'r hyn y mae 4437*p*. mewn mwnau, 2000*p*. mewn gwaith haiarn, a 66*p*. mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 4229; yn 1861, 7983. Tai, 1530. Cododd y cynnydd yn y boblogaeth drwy helaethiad yn ngwaith y glo, a'r haiarn. Y mae y tiroedd wedi eu rhannu yn rhan feddianau. Y mae glo, cwlm, *anthracite*, a cherig haiarn, mewn cyflawnder yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, gyda chapelorion Ystalyfera, a Phont-ar-Dawe, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 300*p*., ac yn nawddogaeth F. E. Lloyd, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Ciwg. Y mae rhan o gapeloriaeth Cwm Amman, gyda phoblogaeth o 1645, o fewn y plwyf hwn.

**LLANGLYDWEN**, sydd blwyf yn nosparth Narberth, yn swydd Gaerfyrddin; gerllaw yr afon Taf, ac yn ymyl y terfyn â Phenfro, 6 milltir gogledd ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Narberth, a 9 milldir gogledd ogledd ddwyrain o Narberth. Llythyrfa yn St. Clears. Erwau, 1834. Gwerth ardrethol, 933*p*. Poblogaeth, 286. Tai, 68. Dol-wilym ydyw y prif balas yma; y mae mewn dyffryn prydferth, trwy yr hwn y rhed yr afon Taf, ac sydd yn ffurfio y terfynau rhwng plwyfi Llanglydwen, Llanboidy, a Cil-maenllwyd. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 96*p*.,

Digitized by Google

ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cledwin.

**LLANGOED**, neu fel yr ysgrifenir weithiau, LLANGAWRDAF, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Bangor, a swydd FON. Saif y pentref yn agos i lan y môr, 2½ milltir gogledd wrth ddwyrain o Beaumaris, a 5½ milldir gyda'r môr i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Aber. Llythyrfa dan Beaumaris. Y mae y plwyf yn cynwys 1343 o erwau. Gwerth ardrethol, 1705*p*. Poblogaeth, 618. Tai, 144. Y mae meddiant y tiroedd wedi ei rannu rhwng amryw. Plas-yn-Llangoed ydyw y prif balas yn y plwyf, yr hwn sydd mewn sefyllfa ddymunol, ac yn arddangos golygfeydd tarawiadol iawn. Y mae ger glan y mor gloddfeydd o farmor du, a llwyd, gwerthfawr, gyda chyflawnder o gerrig calch, y rhai a allforir i Lerpwl, ac i'r Iwerddon. Y mae amaethfa eang, a elwir Plas-newydd yma, a adawyd yn ol ewyllys sylfaenydd elusendai Llandwrog yn Arfon, tu ag at eu cynhaliaeth. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig a churadaethau parhaol Llaniestyn, a Llanfihangel-Din-Sylwy, yn esgobaeth Bangor; gwerth 130*p*., ac yn nawddogaeth R. J. Hughes, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cawrdaf. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Wesleyaidd, addoldai yma. Perthyna gwaddolion o werth 10*p*. i'r plwyf hwn. Y mae eglwys y plwyf hwn mewn cyflwr tra adfeiliedig, fel mai prin y mae yn gymhwys i gynnal gwasanaeth crefyddol ynddi.

**LLANGOEDMOR**, neu LLANGOEDMAWR, sydd blwyf yn nosparth a swydd ABERTEIFI; ar lan yr afon Teifi, gerllaw rheilffordd Aberteifi, ac ar derfyn Penfro, 1 filltir dwyrain wrth dde o Aberteifi. Llythyrfa yn Aberteifi. Erwau, 4946. Gwerth ardrethol, gyda Llechryd, 5050*p*. Eiddo trethedig Llangoedmor ar wahan, 3775*p*. Poblogaeth yn 1851, 990; yn 1861, 902. Tai, 217. Y mae y meddianau tirol yn cael eu rhanu rhwng ychydig nifer. Yr oedd y faenoriaeth yn perthyn i deulu Langley, ac a drosglwyddwyd i Mortimer; wedi hyny i Lewis, ond yn awr mae yn perthyn i Lloyd. Y mae Coedmor mewn sefyllfa hawddgar, agos gyferbyn a Chastell Cilgeran, ac yn breswylfod T. E. Lloyd, Ysw.; a Llangoedmor yw annedd Mrs. Millingchamp. Y mae Treforgan hefyd yn un o'r prif balasau yma. Cloddir Llechi o fewn y plwyf. Y mae ffynon, ac ogof, a elwir wrth enw St. Cynllo, yn agos i'r eglwys; ac y mae yma rai gweddillion o allorau Derwyddol. Yn fuan wedi marwolaeth Harri I., ymladdwyd brwydr dychinebus yn agos i'r Crug-Mawr, yr hwn sydd fryn uchel yn y plwyf hwn, rhwng y Cymry, dan Gryffydd ab Rhys, a'r Saeson, y rhai a lwyr ddifrodwyd gan y brodorion. Rhoddwyd yr anrhydedd o farwniaeth Coed-Mawr, gan Iorwerth III., i Syr Robert Langley, ceidwad Castell Aberystwyth. Y mae y fywioliaeth yn beriglioriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 440*p*., ac yn nawddogaeth R. D. Jenkins, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cynllo; ac wedi ei hadgyweirio yn 1859.

**LLANGOFEN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd FYNWY, 2¼ milltir de wrth ddwyrain o lwybr-troed gorsaf rheilffordd Rhaglan, a 5⅞ milldir de orllewin o Fynwy. Llythyrfa yn Mynwy. Erwau, 1889. Gwerth ardrethol, 1654*p*. Poblogaeth, 137. Tai, 24. Y mae meddiant y tiroedd rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â ficeriaeth Pen y Clawdd, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 120*p*., ac yn nawddogaeth Deon a Glwysgor Llandaf. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cofen.

**LLANGOLMAN**, neu CAPEL-GOLMAN, sydd blwyf yn nosparth Narberth, swydd BENFRO; gerllaw yr afon Cleddau, dan fynydd Preselli, 5 milltir gogledd o orsaf rheilffordd Narberth, ac 8 gogleddol o Narberth. Llythyrfa yn Narberth. Erwau, 2912. Gwerth ardrethol, 1218*p*. Poblogaeth, 282. Tai, 58. Y mae y meddianau rhwng lluaws. Y mae Llechi o fewn y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â ficeriaeth Llandilo, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 97*p*., ac yn nawddogaeth H. W. Bowen, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Colman.

**LLANGOLLEN**, sydd dref, dyffryn, a phlwyf, yn nosparth Corwen, yn swydd DDINBYCH. Saif y dref ar yr afon Dyfrdwy, gerllaw cangen o gamlas Ellesmere, ac ar reilffordd Llangollen, 2 filltir dwyreiniol o'r terfyn â Meirionydd, 6 gogledd orllewin o'r Waun, a 26 gogledd orllewin o Amwythig. Y mae mewn llanerch ddifyr, yn nganol nifer o olygfeydd swynol; yn arddangos trefniant glanwaith, cyson, a llwyddianus. Y mae yn cael ei mynychu gan deithwyr o bob gwlad, oblegid rhagoriaethau a chyfleusderau y lle; ac fel man cyfleus i gyfeirio at bob rhan o Ogledd Cymru. Y mae y lle yn cael ei enw, oddiwrth gysegriad yr eglwys i Sant Brytanaidd boreuol, o'r enw Collen. Y mae y dref fel pe byddai yn cael ei gwarchod ar bob llaw gan fynyddau crib-uchel, ac yn cael ei dyfrhau gan y Ddyfrdwy enwog. Y mae Castell Dinas Bran, ar goryn mynydd cribog gerllaw, megis yn bygwth pob ymosodwr a feiddio aflonyddu y lle. Bernir iddo gael ei adeiladu gan rai o dywysogion brodorol Iâl, y rhai a'i gwnaent yn brif breswylfa dros amryw ganrifoedd gynt. Madog ab Gryffydd Maelor, yn y flwyddyn 1200, a adeiladodd, mewn nant gerllaw, yr hen abad-dy enwog, *Valle Crucis*. Bu orfod ar ei fab, a'i olynydd, Gryffydd, yn amser Harri III., wedi cymeryd plaid y Saeson yn erbyn ei genedl ei hun, ymddiogelu yn Nghastell Dinas Bran, rhag dialedd ei wladwyr. Wedi marwolaeth Gryffydd ab Madoc; rhoddodd Iorwerth I., warchodaeth ei ddau fab, i John, Iarll Warren, a Roger Mortimer, y rhai, wedi gorchymyn eu llofruddio, a dderbyniasant gyflwyniad ganddo o'u meddianau. Darfu i'r Penadur hwn, yn 1284, gyflwyno hawl o faenoriaeth Llangollen, i Roger Mortimer, gyda'r hawl o farchnad wythnosol ar y Sabbath; a dwy ffair, bob un i barhau am dri diwrnod. Yn 1390, preswyliai benyw o degwch anarferol yn Nghastell Dinas Bran, yn hon a ddisgynai o dylwyth Tudur Trefor, ac a enwogwyd mewn Cân serchiadol, gan ei hoff'wr, Einion Llygliw. Bu meddiant o'r Castell hwn, yn achos o ymrysonau mynych yn amser Harri IV., rhwng Owain Glyndwr, a gweision y brenin. Ni wyddir i sicrwydd, pa bryd y difrodwyd yr hen gastell, ond dywed Leland ei fod yn ei adfeiliau yn amser Harri VIII. Y mae pont dros yr afon Dyfrdwy yn nghanol y dref, o bump o fwäau meini, wedi ei chodi yn 1345, gan John Trefor, esgob Llanelwy, ac a ystyrid gynt yn un o brif ryfeddodau Gogledd Cymru. Y mae amryw adeiladau eraill o hynodrwydd o fewn y terfynau. Y mae y Plas-newydd, preswylfod y ddiweddar Arglwyddes Eleanor Butler, a'r Anrhydeddus Miss Ponsonby, ar gynllun henafiaethol, a hynod o gywrain, ac yn cael ei gylchynu gan goed brig-uchel. Daeth y ddwy foneddiges hyn i'r gymydogaeth yn

Digitized by Google

1778, a thrwy hoffi y lle, enciliasant o derfynau gwychder Lloegr, i neillduedd tawel y Dywysogaeth. Bu y gyntaf farw, Mehefin 2, 1829, yn 90 mlwydd oed; a'r olaf, Rhagfyr 9, 1831, yn 76 mlwydd oed. Mewn dyffryn prydferth heb fod yn neppell o'r Plasnewydd, y mae Plas-Pengwern, yr hwn a fu unwaith yn breswylfod Tudur Trefor, arglwydd Bromfield, tua 924. Perthyna y lle i deulu y Mostyniaid, er ys tua naw can mlynedd, ac y mae amryw rannau o'r hen adeilad gwreiddiol, yn aros yno hyd y dydd hwn. Y mae Llys Pen-y-Bryn, o eiddo J. G. E. Lockett, Ysw., yn agos. Y mae y *Valle Crucis Abbey*, neu Llan-Egwest, yn hen adfail eglwysig, o hynodrwydd mawr, yn sefyll mewn dôl, wrth odreu Bryn uchel, a elwir Bron-fawr, dwy filltir gogledd orllewin o Langollen. *Cistercian* ydoedd, wedi ei chysegru i'r Forwyn Fair, seiliedig, fel y crybwyllwyd, tua 1200, gan Madoc ab Gryffydd Maelor, wyr i Owain Gwynedd, Tywysog Cymru. Y mae Piler Eliseg yn gyfagos, mewn lle a elwir wrth yr enw Llwyn-y-Groes, hyd heddyw; y mae yn agos i'r ail gareg-filltir o Langollen, ar ffordd Rhuthin. Y mae yn golofn gron, gerfiedig, yn sefyll ar osail betrual. Dywedir i'r piler gael ei godi, er coffadwriaeth am Eliseg, tad Brochmael, tywysog Powys, gan Consen, neu Congen, ei orwyr. Nid oes ond rhan o'r adail yn sefyll yn awr. Y mae tref Llangollen yn cael ei hystyried yn fan pwysig o'r wlad; y mae yn meddu Llys Gwladol, ac Etholfa. Y mae yma Brif-lythyrfa, gorsaf rheilffordd, gwestai eang, llys-dy, marchnadfa; dwy eglwys, a chwech o gapeli Ymneillduol, amryw ysgolion, a rhai gwaddolion. Y mae y dyffryn yn ymestyn 8 milltir dwyrain a gorllewin, o Ddyffryn Eglwyseg hyd Wynstay, palas ardderchog Syr Watkin W. Wynn, Barg. a Glyndwrdwy. Dau wrthddrych o hynodrwydd yma, ydyw y Ddyfr-ffordd, 2600 o droedfeddi o hyd, a 126 o uchder; wedi ei chynllunio gan Telford, gyda'r draul o 47,018*p.*; a rheilffordd golofnog o 1531 o droedfeddi o hyd; heblaw y Twr a godwyd i adgofio buddugoliaeth brwydr Waterloo. Y mae y Brif-ffordd, oddiyma i Gorwen, yn cael ei hystyried gan deithwyr, yn talu yn dda am ymweliad. Y mae y plwyf yn cael ei rannu yn ddosparthau, Traian Llangollen, a Thraian y Glyn. Y mae y cyntaf yn cynwys trefgorddau Llangollen Abad, Llangollen-Fawr, Llangollen Fechan, Bachau, Cysylltau, Dinbren, Eglynys, Pengwern, Rhysog, Trefor-isaf, Trefor-uchaf, a'r Feifod; a'r olaf yn cynwys Cil-cochwyn, Crogen-Iddon, Crogen Ledus, Erwallo, Hafod-gynfawr, Nant-y-gwryd, a Talgarth. Erwau, 20,176. Gwerth ardrethol 19,876*p.*, o'r hyn y mae 2041*p.* mewn cloddfeydd, 285*p.* mewn rheilffyrdd, a 50*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 5260; yn 1861, 5799. Tai, 1296. Y mae y meddianau tirol rhwng amryw. Y mae Sycharth, hen balas Owain Glyndwr, o fewn y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 350*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae capeloriaethau Pontfadog, a Threfor, ar wahan. Y mae yr oll o'r gymydogaeth hon yn cael ei hynodi am ei hafonydd llawn o bysgod, ac yn ddeniadol iawn i'r genweirwyr; ac felly y mae yn tynu sylw, ac yn enill serch teithwyr o bell, o bob cyfeiriad.

**LLANGORSE**, neu Llangors, sydd blwyf, ac isddosparth, yn nosparth, a swydd Frycheiniog. Saif y plwyf gerllaw Llyn Llangors, neu Lyn-Safaddan, ac ar yr afon Llynfi, 3½ milltir deheuol o gyswllt gorsaf rheilffordd Tal-y-llyn, a 6½ dwyrain de ddwyrain o Aberhonddu. Llythyrfa, dan Henffordd. Erwau, 2806. Gwerth ardrethol, 2214*p.* Poblogaeth, 414. Tai, 85. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng amryw. Yr oedd Cwrt-y-Prior, yn perthyn i briordy Aberhonddu. Y mae Llyn Llangorse yn mesur 5 milltir o amgylchedd; ac yn arddangos golygfeydd, amrywiaethol, o ddysgleirdeb a thywyllwch. Y mae yn gyrchfa y pysgotwr, a'r saethydd adar gwylltion; yr oedd mynachod Brycheiniog yn arfer pysgotta yma bob dydd yn y Grawys, a thri diwrnod yn yr wythnos dros weddill y flwyddyn; dan yr ammod nad oeddid i arfer dim ond un cwch ar y pryd. Y mae traddodiad yn dywedyd, fod y llyn yn gorchuddio adfeilion dinas a fuasai yn enwog yma gynt. Y fywioliaeth sydd yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 160*p.*, ac yn nawddogaeth Deon a Chapelorion Windsor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Paulinus, ac mewn cyflwr da. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd, ddeg o blwyfi eraill, a rhan o un arall. Erwau, 28,322. Poblogaeth, 2900. Tai, 594. Y mae nifer o waddolion yn perthyn i'r plwyf hwn.

**LLANGORWEN**, sydd gapeloriaeth, yn mhlwyf Llanbadarn-Fawr, swydd Aberteifi, gerllaw gorsaf rheilffordd Aberystwyth. Cafodd y lle ei sefydlu yn 1864. Y llythyrfa yw Aberystwyth. Poblogaeth, 1205. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 93*p.*, ac yn nawddogaeth yr Ymddiriedolwyr.

**LLANGOWER**, sydd blwyf yn cynwys trefgorddau Llangower-Is afon, a Llangower Uwch-afon, yn nosparth y Bala, swydd Feirionydd; ar yr ochr ddwyreiniol i Lyn y Bala, dan fynyddau y Berwyn, 2½ milltir de-wrth-orllewin o orsaf rheilffordd Bala. Llythyrfa yn y Bala, dan Gorwen. Erwau, 5600. Gwerth ardrethol, 881*p.* Poblogaeth, 345. Tai, 72. Y mae llawer o arwyneb y tir yn uchder noethlwm. Nid yw y tirfeddiannau ond rhwng ychydig nifer. Y mae olion gwersyllfa Rufeinig ar Caer-Gai; a darganfyddwyd pridd-feini Rhufeinaidd yn y lle. Y mae ar derfyn gogledd-ddwyreiniol y Llyn, ddau o bridd-dyrau, a elwir Castell Grono Befr o Benllyn, oddiwrth breswyliad y pennaeth hwnw yno, tuag amser Maelgwn Gwynedd, yn y chweched ganrif. Yn agos i'r lle hwn, y mae Ffynon Gwŷr, i'r hon y priodolid rhinweddau effeithiol gynt, drwy ddylanwad y sant hwnw. Bu y Parch. Edward Llwyd, A.M., am ddeugain mlynedd yn Weinidog y plwyf hwn. Adwaenir ef fel awdwr traethawd ar Feddyginiaeth, yn Gymraeg; a chyfieithiad o draethodyn, gan yr esgob Patrick ar y Sacrament: bu farw yn 1685.

**LLANGRANOG**, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth Castell-Newydd-Emlyn, swydd Aberteifi. Saif y pentref ger glan y mor, 9 milltir gogleddol o orsaf rheilffordd Castell-Newydd-Emlyn. Y mae y lle yn ymdrochle yn yr haf, man y cyrcha dyeithriaid. Llythyrfa, dan Gaerfyrddin. Y mae y plwyf yn cynwys 4838 o erwau o dir, o'r hyn y mae 45 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2237*p.* Poblogaeth, 880. Tai, 227. Y prif balasau ydyw Rhyd-y-Golomen, a'r Persondy. Y mae yma graig ag ynddi doriad tebyg i gadair, a elwir Yr-Eisteddfa; ac y mae mur-domen a elwir Pen moel Badell, o fewn y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 240*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi. Cafodd yr eglwys ei chysegru i St. Caranog, ac y mae yn sefyll dan graig uchel, mewn nant, tua chwarter milltir oddiwrth y môr. Y mae yma ysgol blwyfol. Y mae golygfeydd tarawiadol iawn o'r bryniau yma.

Digitized by Google

Y mae pysgota yn gymorth mawr tu ag at gynnaliaeth y trigolion. Barna rhai oddiwrth yr enw "Eisteddfa Cranwg," fod yma le cynnulliad y beirdd yn yr amserau boreuol. Y mae yma addoldai i'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr.

**LLANGREDIFEL,** neu PENMYNYDD, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Bangor, a swydd FON. Saif y pentref yn agos i lan afon Dyffryn Braint, 2½ milltir gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanfair, a 4½ m. dwyreiniol o Langefni. Llythyrfa dan Langefni; a ffair ar Llun y Pasg. Y mae y plwyf yn cynwys 3513 o erwau. Gwerth ardrethol, 3090*p*. Poblogaeth yn 1851, 566; yn 1861, 446. Tai, 108. Y mae meddiant y tiroedd rhwng ychydig nifer. Y mae enw sathredig y lle yn ddarluniadol o'i sefyllfa, fel ucheldir. Yr oedd yr arglwyddiaeth yma, yn perthyn ar y cyntaf, i henafiaid Owain ab Meredydd ab Tydur, priod Catherine o Ffraingc, Gweddw Frenhinol Harri V., a thaid Harri VII.,—yr hwn a anwyd yma yn 1385. Y mae yr hen balas, a elwir Plas Penmynydd, yn awr yn cael ei ddefnyddio fel amaethdy, ac y mae ychydig o olion ei wychder gynt yn aros yno hyd y dydd hwn. Y mae yma ran o'r hen fynedfa; mantell simfa; arfbeisiau y teulu; gyd âg amryw amseriadau am adgyweiriad ar y lle. Y disgynydd diweddaf o'r tylwyth hwn, o'r hwn y tardda llinell freiniol y Tyduriaid, ydoedd Richard, yr hwn ydoedd yn siryf y wlad yn 1657; ar farwolaeth yr hwn y trosglwyddwyd y faenoriaeth i Margaret, yr unig etifeddes, yr hon a'i trosglwyddodd trwy briodas, i Coningsby Williams, o Glan-y-Gors, yn y swydd hon; yr hwn a'i meddianodd dros ei oes. Gwerthwyd yr etifeddiaeth wedi hyny i Arglwydd Bwlclai, ac y mae yn meddiant teulu Bryn y Barwn hyd heddyw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 86*p.*, ac yn nawddogaeth Prebendur Penmynydd. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gredifael, yr hwn ydoedd sant a flodeuai tua diwedd y bumed ganrif; ac a fu unwaith yn Llywydd Coleg y Ty-Gwyn. Y mae rhan o'r adeilad yn henafol iawn; wedi ei chodi er tua y flwyddyn 630. Cynnwysir yma gofadail o alabaster gwyn, heb gerfiad, nac arfebau; a bernir iddo gael ei symud yma o Lanfaes, yn amser y dadgorfforiad; er coffadwriaeth am un o dylwythau y Tyduriaid. Y mae yn y plwyf chwech o elusendai, wedi eu sefydlu yn foreu, a'u gwaddoli drachefn yn 1623, gan Lewis Owen, Ysw., o Twickenham, yn swydd Middlesex, â degymau plwyf Eglwys-Rhos yn Arfon. Y mae y degymau hyn dan lywodraeth teulu Mostyn, y rhai a dalant 60*p.* yn flyneddol at y sefydliad. Y mae yma addoldai perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyol, a'r Annibynwyr.

**LLANGRISTIOLUS**, sydd blwyf yn nosparth a swydd FON, gerllaw Rheilffordd Canolbarth Mon, 1½ milldir deheuol o Langefni. Llythyrfa, dan Langefni. Erwau, 3936. Gwerth ardrethol, 4003*p*. Poblogaeth, 881. Tai, 212. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Yn 1788 a 1790, cafwyd gweithredoedd seneddol, i gau y môr allan o derfynau yr iselder yma, tua thair mil o erwau; gorphenwyd y gwaith hwn rhwng 1815 ac 1819. Y mae glo, a cherig-nadd o fewn y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn beriglorìaeth, unedig â ficeriaeth Cerig-Ceinwen, yn esgobaeth Bangor; ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cristiolus, ac wedi ei hadeiladu ar y lle y codwyd yr un wreiddiol yn 610. Y mae amryw waddolion wedi eu gadael, er budd y plwyfolion. Yr oedd Dr. Henry Maurice, Proffeswr Duwinyddiaeth, yn mhrif athrofa yr Iesu, Rhydychain, yn enedigol o'r plwyf hwn. Bu yn dilyn ei noddydd, Syr Leoline Jenkins, i Cologne, lle yr anfonwyd ef fel llys-genhadwr, ac enwogodd ei hun fel awdwr, mewn gweithiau tra rhagorol. Y mae yma ysgol blwyfol, ac addoldai perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr.

**LLANGSTONE**, sydd blwyf yn cynnwys 1314 erw; yn nghantref Caldicott, Undeb a dosparth llys sirol Casnewydd, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, yn swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU. Saif yn ymyl y brif ffordd rhwng Casnewydd a Chasgwent, o fewn 4½ milldir i'r blaenaf. Mae yr Eglwys yn adeilad henafol iawn, yn cynnwys corph a changell, gyda chlochle, a dwy gloch. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1763. Perigloriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 135*p.* y flwyddyn, gyda thŷ anedd, a 40 erw o dir Eglwys. Amaethyddiaeth yn benaf ddygir yn mlaen yn y plwyf, ac y mae y tir yn dra chynyrchiol. Rhif y boblogaeth yw 212. Pris ardrethol y plwyf, yw 1287*p*.

**LLANGUA,** sydd blwyf bychan yn nghantref Scenfreth, Undeb Dore, dosparth llys sirol Henffordd, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU. Saif y plwyf hwn yn nghwr gogleddol swydd Fynwy, ac yn ffinio a swydd Henffordd. Pellder yr Eglwys blwyfol o Lundain, yw 157 milldir i'r gogledd-orllewin, 10 m. i'r gogledd-ddwyrain o Abergafenni, 14 m. i'r de-orllewin o Henffordd, a 2 m. i'r de-orllewin o orsaf Pontrilas, ar Gledrffordd y *Great Western*, yr hon a red trwy y plwyf. Mae yr Eglwys yn gyssegredig i St. Iago; ac iddi gorph, cangell, a chlochle, gyda 2 gloch. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 120*p.* y flwyddyn. Preswylia y periglor yn Kentchurch, swydd Henffordd. Maint y plwyf yw 870 erw; pris ardrethol, 807*p.*; pobl. yn 1861 oedd 114.

**LLANGUNLLO,** plwyf yn nghwmwd Gwynionydd, cantref Syrwen (a elwir hefyd cantref Troedyr-Aur, ac undeb Castell-Newydd-Emlyn, swydd ABERTEIFI. Erwau, 3650. Gwerth ardrethol, 2075*p*. Poblogaeth yn 1810, 446; yn 1861, 587. Gwerth y degwm, yn ol Llyfrau y Brenin, 6*p.* 13*s.* 4*c.* Gwerth presennol, 148*p.* Y fywioliaeth sydd bersonoliaeth, neu rectoriaeth, ac yn nawdd a rhodd rhydd-ddeiliaid, neu dirfeddiannwyr y plwyf; a'r periglor sydd ddarostyngedig i awdurdod Esgob Tyddewi. Perthyna i'r fywioliaeth hefyd dir Eglwysig o werth mawr. Mesura y tir hwn 120 o erwau. Fel yr awgryma enw y plwyf, y mae yr Eglwys yn gysegredig i Cunllo, un o seintiau y bummed ganrif, yr hwn oedd nodedig ar gyfrif sancteiddrwydd ei fuchedd, a choethusrwydd ei foesau. Mesura yr Eglwys 35 troedfedd o hyd, ac 16 troedfedd o led; a chynnwysa gangell, a mynedfa brydferth. Ail-adeiladwyd hi yn y flwyddyn 1810, ar draul y tir-feddiannwyr. Yn y flwyddyn 1779, cymmunroddodd un William Hugh, ugain punt at wasanaeth tlodion y plwyf, ond y mae y gwaddol wedi ei golli trwy i'r ymddiriedolwr fyned yn fethdalwr.

Y mae safle y plwyf yn dra dymunol, a'r doll-ffordd o Aberteifi i Lanbedr yn rhedeg trwy y lle. Yr arwynebedd sydd weithiau yn fynyddig, a phryd arall yn wastad-dir teg, a dyffrynoedd prydferth; ac y mae oddeutu 500 erw o'r tir yn orchuddiedig gan goedwigoedd. Er fod ambell lanerch yn

Digitized by Google

garregog, eto cyfrifir y ddaear yma, ar y cyfan, yn ffrwythlon a chynnyrch-fawr. Nid oes yr un afon yn rhedeg trwy y plwyf, ond ceir yma ddwy o ffrydiau gloewon yn gwasanaethu angenrheidiau dyn ac anifail, a phrydferthir glanau yr aberoedd hyny yn fynych, gan lwyni o ffynidwydd talfrigog. Yma, ar fronell wisgedig â choed addurnol, y saif palas Bronwydd, cartrefle y Llwydiaid urddasol, a chenedlgarol. Cynnrychiolydd presennol y Llwydiaid ydyw Syr Thomas Davies Lloyd, Barwnig, aelod Seneddol dros fwrdeisdrefi Ceredigion. Coledda Syr Thomas gariad diffuant at ei genedl, a chara iaith a defion ei wlad gyda brwdfrydedd. Yr oedd efe yn un o lywyddion Eisteddfod fawreddog Aberystwyth, yn y flwyddyn 1865, pryd y traddododd araeth a dynodd sylw mawr ar gyfrif yr ysbryd gwladgarol, a'r ddysgeidiaeth Geltaidd a chlasurol a'i nodweddai. Y mae efe hefyd yn un o gefnogwyr mwyaf selog y Brifysgol Gymreig, yn mha un y mae wedi sefydlu a gwaddoli tair ysgoloriaeth, gwerth 25*p.* yr un yn flyneddol, am ystod ei oes. Bu y barwnig anrhydeddus yn seneddwr dros sir Aberteifi o 1865 hyd 1868; ond efe a ddewisodd ddilyn y Milwriad Pryse, fel aelod dros y bwrdeisdrefi, yn hytrach na myned trwy bair a thrybestod brwydr etholiadol am y sir. Un o'i henafiad ef oedd yr enwog Filwriad Lloyd, Llywydd catrawd ddihafal "Gwirfoddolwyr Glan Teifi," am yr hwn y ceir cofnod mewn erthygl arall. Yn Llangunllo hefyd y mae y Gernos, hen balas y Lewisiaid, yr hwn hefyd sydd ar safle brydferth a dymunol. Amgylchynir Llangunllo ar y gogledd, gan blwyf Troed-yr-Aur; ar y deau, gan blwyfydd Henllan, a Llanfair-Orllwyn; ar y gorllewin, gan Bronwyn; ac ar y de-ddwyrain gan Landyssul.

**LLANGUNLLO**, plwyf yn nghwmwd Is-Mynydd, cantref Elfel (a elwir yn awr cantref Cefn y Llŷs), swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU. Rhenir y plwyf hwn i ddwy adran, a gelwir hwy y Dosbarth Uchaf, a'r Dosbarth Isaf. Nifer y boblogaeth gyfan yn 1801 oedd 367; ond erbyn 1861, yr oeddynt wedi cynnyddu i 599. Saif pentref Llangunllo ar yr afon Lûg, ac y mae yma orsaf berthynol i Gledrffordd Canolbarth Cymru. Cyfrifir fod y plwyf oddeutu pum' milldir o hyd, ac o dair i bedair milldir o led. Gwerth ardrethol y tir, 1460*p.* mewn un ranbarth, a 2017*p.* yn y rhan arall. Mewn hen lawysgrifau Lladinaidd, gelwir y plwyf hwn yn "*Llangunllo-cum-Capellis*," o herwydd fod plwyf cyfagos Pilleth yn gyssylltiedig â'r fywioliaeth yn yr oesau gynt. Cyfeiria rhai haneswyr at amser pryd nad oedd Pilleth yn ddim ond capeloriaeth ddarostyngedig i offeiriaid Llangunllo; ac y mae Ficer Llangunllo hyd heddyw, yn parhau i ddal y swydd o gurad parhaus plwyf Pilleth. Yn Llyfrau y Brenin, prisid gwerth cyfansawdd y fywioliaeth, yn 5*p.* 1*s.* ½*c.* Gwaddolwyd ficeriaeth Llangunllo â 200*p.* o rôdd Freninol, o drysorfa y Frenines Ann, a chyfoethogwyd curadiaeth barhaus Pilleth gydag 800*p.* o'r un drysorfa. Y mae y degwm yn werth 400*p.* y flwyddyn; a thelir 300*p.* o'r swm hwnw i berchenog lleygol, a'r 100*p.* arall i'r Ficer. Perthyna i'r offeiriad hefyd, heblaw y ficerdy, werth 5*p.* y flwyddyn o dir Eglwysig. Yr Eglwys sydd adeilad henafol, yn cynnwys mynedfa, a changell; ac eisteddleoedd i ddau gant o wrandawyr. Mesura 80 troedfedd o hyd, wrth 30 troedfedd o led. Fel yr arwydda yr enw, y mae hi yn gyssegredig i Sant Cunllo. Yn yr hen amser, perthynai i'r plwyf hwn brebenduriaeth yn Eglwys Golegawl Brycheiniog; ac yn Llyfrau y Brenin, prisid cyllid Prebendur Llangunllo i 13*p.*, sef tair rhan o bedair o holl ddegwm y plwyf hwn a'r eiddo Pilleth. Noddydd y fywioliaeth, ydyw Esgob Tyddewi.

Megys agos yn mhob parth o sir Faesyfed, y mae trigolion Llangunllo wedi troi yn Saeson o ran iaith, er fod eu preswylfeydd yn cadw eu henwau Cymreig cysefin. Ond y mae Seisnigiad y trigolion yn argoeli dirywiad enwau eu trigleoedd hefyd; a thebygol yw, y bydd ieithwyr a geirdarddwyr oesau dyfodol, mewn penbleth o berthynas i ystyr gynwynol llawer enw a raddol fastarddir yn nhreigliad amser. Y mae safle y plwyf, yn rhanbarth ogledd-ddwyreiniol sir Faesyfed; ac amgylchynir ef gan blwyfydd Bugeil-dy, Cwm-Heiop, y Blethfa, Tre'r Clawdd, a Llanbister. Rhed y ffordd fawr o Dre'r Clawdd i Ben-y-Bont trwy Langunllo; a chaiff y teithiwr ar hyd y ffordd hon, fwynhau golygfeydd godidog ac amrywiol. Y mae y tir yn fynyddig mewn manau; ac yn nghyfeiriad Tre'r Clawdd, ceir prydferthwch mirain yn delweddu y fro; ond diau mai Dyffryn Cwm-Heiop ydyw prif addurn y cymydogaethau. Tŷf y deri a'r ynn yma mewn cyflawnder; ac y mae llethrau y bryniau a'r moelydd yn sychion, ac yn cynnyrchu porfa faethlon i'r diadelloedd lluosog o ddefaid a welir yn sionc-lamu ar hyd-ddynt. Yr isel-dir hefyd sydd yn gyffredin o nodwedd dra ffrwythlon, a mwynha amaethwyr y lle, o flwyddyn i flwyddyn, gnydau rhagorol o wenith, haidd, ceirch, a'r gwraidd-lysiau amaethyddol cyffredin.

Perthyna i'r plwyf hwn amryw waddoliadau elusenol lled gyfoethog. Yn y flwyddyn 1766, cymmun-roddodd Thomas Holland 40*p.*, tuagat gynnal ysgol ddyddiol; a gwaddolwyd yr un ysgol gyda thŷ annedd i'r athraw, a phedair erw o dir, gan ryw berson haelionus ag y mae ei enw yn anhysbys. Yn unol âg ewyllys y cymmun-roddwyr, y mae yr ysgol o dan reolaeth offeiriad y plwyf. Yn y flwyddyn 1795, gadawodd John Blackfield, 30*p.* tuag at ddilladu y tlodion fyddont heb dderbyn cymhorth plwyfol. Gadawyd i lôg y swm yma groni am ddwy neu dair o flyneddoedd; ond rhenir y cynnyrch yn rheolaidd y blyneddau hyn, yn unol â gorchymyn y cymmunroddwr. Yn y flwyddyn 1829, rhoddodd William Bryan 40*p.* tuag at ddilladu hên bobl uwchlaw pedwar-ugain mlwydd oed. Y mae yr ôll o'r elusenau uchod yn parhau i gynnyrchu llôg blyneddol, a defnyddir y llôg hwnw yn unol â dymuniadau y rhoddwyr haelionus. Ond perthynai i Langunllo ddwy gymmun-rodd, sydd weithian wedi eu colli, sef 2*p.* (rhan o ardreth fferm) a roddwyd gan Andrew Clarke, yn 1752, a 1*p.* 10*s.* (rhan o ardreth fferm arall) a adawyd gan Thomas Meyrick, yn 1764. Yr oedd y naill a'r llall o'r symiau hyn wedi eu bwriadu i gael eu rhanu rhwng y tlodion, ond collwyd hwynt trwy rhyw anghydffurfiad â darpariadau Cyfraith Mortmain.

**LLANGUNNOR**, plwyf yn nghwmwd Cydweli, cantref Eginog (a elwir yn awr hefyd cantref Cydweli), swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Yn y flwyddyn 1801, holl nifer poblogaeth y plwyf hwn oedd 824; ond erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynnyddu i 1157, ac erbyn 1861 i 1250. Saif y lle, filltir i'r dwyrain o dref Caerfyrddin, ar lan yr afon Tywi, a chynnwysa y plwyf, drefgyrdd Coedcain, Llanydre, Melinydre, Pen y ddau-lwyn, a Phengwm. Erwau, 5795. Gwerth ardrethol, 6677*p.* Cynnyrchir dwy fil o'r swm yma gan fŵn-weithiau cyfoethog y lle.

Digitized by Google

Trwy gyfeirio at gofnodion plwyfol 1803, ceir prawf fod cyfoeth Llangunnor wedi cynnyddu yn ddirfawr er y pryd hwnw. Yn y flwyddyn a nodwyd, nid oedd holl gynnyrch trethi y plwyf, yn ddim ond 267*p.* 3*s.* ½*c.*, a hyny yn ol 7*s.* 3*c.* y bunt. Yr afon Tywi sydd yn gwahanu rhwng Llangunnor a therfynau bwrdeisdref Caerfyrddin; a rhed y brif-ffordd o Gaerfyrddin a Llanelli, i Landeilo-fawr, trwy y plwyf. Amgylchir Llangunnor ar y gogledd, gan blwyf Abergwili; ar y dê, gan Langain; ar y dwyrain, gan blwyfydd Llanddarog, a Llanarthni, ac ar y gorllewin, gan Gaerfyrddin. Mesura arwynebedd y tir oddeutu 5770 o erwau, o ba rai y mae 1400 yn cynnyrchu ŷd, a gwair, 4200 yn borfeldir, a 170 yn goed-dir. Ceir yma ffynidwydd, derw, sycamorwydd, &c., mewn cyflawnder, cyfyd y tir yn llethr brydferth oddiwrth lan yr afon, ar ba un y saif Eglwys y Plwyf; ac oddiwrth safle y Llan, ceir rhai o'r golygfeydd godidocaf yn Nghymru. Gwelir oddiyma megis ar un dremiad, agos yr oll o Ddyffryn prydferth Tywi; ar y chwith i'r edrychydd, dyna Allt Merlin, gyda'i rhestr o ddyddorion henafol; ac ar y dde, wele y *Myddleton Hall* gyda'i dŵr addurnol yn ymddyrchafu o ganol y goedwig. Cyfodwyd y tŵr hwn er coffadwriaeth am y Llyngesydd Nelson, gan foneddwr y cyfeiriwyd ato mewn erthygl arall. Ar ein cyfer eto, mae Gallt y Grongar, ac adfeilion hen Gastell hanesyddol y Dryslwyn. Ond wedi sylwi ar y rhai hyn oll, nis gall yr edrychydd ystyriol feddwl am ganiatau i'w lygaid orphwys, heb daflu golwg ar dyrau mawreddog Castell Dinefwr, y rhai a gyfodant eu penau uwchlaw y derw talgryfion a amgylchynant safle yr hen amddiffynfa, a chwareuodd ran bwysig yn helyntion Cymru o fewn yr oesoedd cythryblus gynt. Heb fod yn neppell oddiyma, y saif pentref tlws Abergwili, a cherllaw i hwnw, y ceir palasdy gwŷch Esgob Tŷddewi. Hawdd a fyddai ysgrifenu cyfrol drwchus ar y golygfeydd amrywiol, a'r lleoedd dyddorol, a welir oddiar uchel fanau Llangunnor. Bu awen y beirdd, a medrusrwydd celfyddydol yr arlunwyr, yn ymryson desgrifio ceinder Dyffryn Tywi. Cyfrifa rhai y wlad oddeutu glanau yr afon, oddiyma i'r tuhwnt i Landilo, ac hyd odreuon y Mynyddoedd Duon draw, fel yn ddi hafal mewn prydferthwch. Diau mai gormodiaeth barddonol ydyw desgrifiad felly; ond rhaid addef, mai anfynych y gwelwyd cymydogaeth mor gyfoethog mewn golygfeydd naturiol, a lleoedd o ddyddordeb hanesyddol hefyd. Erbyn hyn, y mae y Tŷ Gwyn wedi colli ei fri a'i bwysigrwydd, a chael ei ddarostwng i safon amaethdy cyffredin. Ond, wedi y cwbl, nid ydyw y Tŷ Gwyn amddifad o ddyddordeb a phwysigrwydd, canys yma y cyfansoddodd Syr Richard Steele ei chwedl enwog a phoblogaidd, a elwir "*Constant Lover*;" a chyda rhian a fagwyd yn y Tŷ Gwyn, yr ymunodd yr awdwr athrylithgar ac urddasol hwnw mewn glan briodas. Y mae yn yr Eglwys gof-faen addurnol i Syr Richard, yr hon a osodwyd yno trwy haelioni teulu ei wraig, ac edmygwyr ei ddoniau llenyddol.

Prisid degwm y plwyf, yn Llyfrau y Brenin, fel gwerth 3*p.* y flwyddyn. Cyfoethogwyd y fywioliaeth trwy roddion o eiddo boneddigion haelionus, yn nghyda 200*p.* o'r Drysorfa Freninol. Cyllid blyneddol y ficer ydyw 225*p.*; ond perthyna cyfran ehelaeth o'r degwm, i deulu Syr E. W. Williams, Barwnig. Yr Eglwys sydd gysegredig i Cynyr Sant. Ni pherthyn i'r adeilad nemawr odidowgrwydd, ond y mae ei sefyllfa ramantus yn ei gwneyd yn gyrchfa llawer o ymwelwyr. Ail-adeiladwyd hi yn y flwyddyn 1806, a chynnwysa eisteddleoedd i 312 o wrandawyr. Medda y gwahanol enwadau Ymneillduol addoldai cyfleus o fewn y plwyf.

**LLANGURIG**, plwyf yn y rhanbarth uchaf o gantref LLANIDLOES, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 5 milldir i'r de orllewin o Lanidloes, ar y ffordd i Aberystwyth, ac 8½ milldir i'r de ddwyrain o ben Pumlimmon. Y mae y pentref yn gorwedd yn nyffryn yr afon Wy, o fewn 2¼ milldir i ffin swydd Faesyfed; ac fe'i cylchynir gan y golygfeydd mwyaf swynol, yr hyn a bâr ei fod yn gyrchfa lluaws o ddyeithriaid; ac y mae yma Lythyrfa, dan Lanidloes. Y mae y plwyf yn cynnwys haner can mil o erwau o dir, ac yn ddosbarthedig i chwech o drefgyrdd, sef Llan y waered, Llan y fynu, Cefn yr Hafodau, Glyn Gynwydd, Glyn Brochan, a Glyn Hafren. Y mae yn gorwedd yn hen gwmmwd Uwch-coed, yn arglwyddiaeth Arwystli. Yn yr amserau gynt, yr oedd yr arglwyddiaeth hon yn ffurfio rhan o dalaeth Meirion, ac fe'i rhenid yn dri chwmmwd, Uwch Coed, Is Coed, a Gwrtheyrnion, oddiwrth ei hen arglwydd, Gwrtheyrn: ond, pan ddarfu i Harri yr Wythfed, ar awgrymiad Rowland Leigh, Arglwydd Raglaw Cyffindiroedd Cymru, ranu Cymru yn Siroedd, efe a roddes Uwch Coed, ac Is Coed, i'w Sîr newydd, Trefaldwyn; a Gwrtheyrnion i Sîr Faesyfed.

Seiliwyd eglwys y plwyf hwn gan Curig Lwyd, (sef, y bendigaid), esgob Llanbadarn Fawr, yn Ngheredigion, tua dechreu y seithfed ganrif. Mewn rhai ach-draethodau y sant, dywedir ei fod yn fab i Urien Rheged, tywysog Prydeiniaid Gogleddol Moray, yr hwn a yrwyd o'i diriogaethau, gan y Brithwyr a'r Ysgotiaid; ac a gafodd nawdd a thiriogaeth yn Morganwg. Cerid a pherchid St. Curig yn fawr, ar gyfrif ei fuchedd sanctaidd, a'i ddysgeidiaeth ddofn. Y mae dau le arall yn y plwyf hwn yn dwyn ei enw hyd heddyw,—sef "Eisteddfa Gurig," yr hon sydd yn mwlch y mynydd, lle y mae swyddi Trefaldwyn a Cheredigion yn ffinio ar eu gilydd; yn agos i ffynnonell yr afon Taranog; a'r lle yr arferai yr esgob duwiol orphwyso ar ei deithiau o Lanbadarn i Langurig, ac yn ol. Y lle arall yw "Moel Gurig," enw ar fryn uchel, ac Ammaethfa, ar etifeddiaeth y Clochfaen. Cynhelir cofwyl Curig, ar Mehefin 16. Mynydd-dir uchel ydyw llawer iawn o arwynebedd y plwyf hwn. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 310*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Gwerth trethadwy y plwyf, ydyw 4178*p.* Poblogaeth yn 1851, 1802; yn 1861, 1641. Tai annedd, 285. Y mae y meddiant tirawl yn rhanedig rhwng llawer.

**LLANGWM**, plwyf yn nghwmwd Dinmael, cantref y Barwn (a elwir weithiau hefyd, cantref Is-Aled), swydd DINBYCH, GOGLEDD CYMRU. Y mae hwn yn blwyf tra eang, canys dengys y mesuriad swyddogol diweddaf, ei fod yn cynnwys 10,578 o erwau. Ni bu nemawr gyfnewidiad ar nifer y boblogaeth yn ystod y triugain mlynedd diweddaf, canys cawn eu bod yn 850 adeg y cyfrifiad cyntaf, yn 1801, ac yn 1861 nid oeddynt ond 986. Cynnelir yma ffeiriau mawrion, yn misoedd Mawrth, Ebrill, ac Awst. Y mae ffair mis Awst, yn nodedig er ys oesoedd, ar gyfrif y fasnach eang a wneir ynddi mewn anifeiliaid corniog. Saif pentref Llangwm 7½ milldir i'r gogledd-orllewin o Gorwen; a chynnwysa y

Digitized by Google

plwyf, drefgyrdd Cefn-Cymer, Disgarth, Llan, Llysdinmel, Moelfre, Nant Hanley, Penyfoel, a Rhos-y-Manbrych. Gwerth ardrethol, 4215*p*. Y mae y fywioliaeth o dan nawdd Esgob Llanelwy, ac yn werth 350*p*. y flwyddyn. Yr Eglwys sydd adeilad lled brydferth, cysegredig i Sant Hierom, ac yn cynnwys eisteddleoedd i 250. Rhwng yr Eglwys a'r gwahanol enwadau Ymneillduol, diogelir i'r preswylwyr gyflawnder o foddion crefyddol. Yr oedd yma gynt lawer o waddoliadau elusenol; ond y mae y mwyafrif o honynt wedi cyfarfod â'r un dynged ag a ddaeth i ran lluaws o gymmunroddion haelionus ein henafiaid i dlodion plwyfydd ereill. Cyfrgollwyd y naill ar ol y llall, fel nad oedd namyn tair cymmunrodd yn aros i dlodion Llangwm i'w mwynhau, ar adeg yr ymchwiliad diweddaf o eiddo dirprwywyr y Llywodraeth, i ansawdd elusenau cyhoeddus. Y rhai y methodd bonglerwch diarebol ymddiriedolwyr a'u cyfrgolli, ydyw rhoddion John Wynne, Ellis Wynne, a David Williams. Y mae cynnyrch blyneddol rhoddion y rhai hyn yn 6*p*. 5*s*. 3*c*. y flwyddyn: a rhenir yr arian hyn, neu eu gwerth, rhwng y tlodion mwyaf angenus, bob Nadolig.

Rhed yr afon Geirw, a ffrydiau gloewon ereill trwy blwyf Llangwm, ac y mae yr oll o honynt yn nodedig ar gyfrif y cyflawnder o frithilliaid rhagorol a geir ynddynt, yr hyn a wna yr ardal yn gyrchfa nifer lluosog o enweirwyr o bell ac agos. Ar un o forfeydd eang y plwyf hwn, yr ymladdwyd brwydr waedlyd rhwng Meredydd ab Owain ab Hywel Dda, ac Idwal ab Meirig, yn y ddegfed ganrif. Meredydd ydoedd Tywysog llywodraethol y Deheubarth; a llywodraethai mewn enw hefyd, ar Wynedd a Phowys. Y gogleddwyr a wrthryfelasant yn erbyn ei awdurdod, ac Idwal a'u harweiniodd i gâd, er bwrw ymaith ei iau oddiarnynt. Pan gyfarfyddodd y lluoedd yn Llangwm, llwyr orchfygwyd Meredydd, a lladdwyd ef, a'i nai, Tewdwr Mawr, ar faes y gwaed. Cofnodir y frwydr hon fel un o'r rhai ffyrnicaf a ymladdwyd yn y cyfnod cythryblus a ddilynodd lywodraethiad doeth a llwyddiannus Hywel Dda. Y mae yma ffynon, a elwir "Ffynnon Carreg udfa," lle y tybir fod y gwragedd a'r plant yn wylo wrth weled galanastra y rhyfel; ac fe geir esgyrn dynol yn aml yn y ddaear, yn agos i'r Ystrad Fawr. Yn y plwyf hwn y mae adfeilion Llys Dinmael. Cofnoda traddodiad am Dinmael, fel Tywysog a arferai gryn awdurdod yn ei ddydd, ar ranau o siroedd Dinbych a Meirion, oddeutu glanau y Ddyfrdwy. Parheir i gydnabod Arglwyddiaeth Dinmael hyd y dydd hwn, a chedwir math o lŷs perthynol i'r arglwyddiaeth, bob blwyddyn. Y mae ansawdd y tir, yn ogystal a nodwedd golygfeydd plwyf Llangwm, yn dra amrywiaethol. Ceir yma agos i 4000 o erwau o frasdir, cyfaddas i gynnyrchu grawn o wahanol fathau; oddeutu 2000 o fawndir, a phorfeldir; a 500 erw yn orchuddiedig gan goed, yn cynnwys ffynidwydd, derw, &c. Cyfyd yma amryw fryniau uchel-gribog; ac anfynych y gwelir llanerch fwy rhamantus na'r Glyn Diphwys, lle y mae rhaiadr gwyllt, yn disgyn gyda mawreddusrwydd cyffrous. Llawer arlunydd a roddodd holl fedr ei bwyntel ar waith, i bortreadu y bont gerllaw y rhaiadr hwn. Y mae bywyd gwledig yn uchelder ei fri yn Llangwm. Y llafurwr amaethyddol, a'r bugail, ydyw breninoedd y fro; a'r gwragedd a'r llancesau diwyd, a welir yn brysur gyda'r gwiaill a'r edafedd, agos bob dydd o'r flwyddyn, oddigerth y Suliau, ydyw y breninesau yma. Yn fyr, y mae Llangwm yn un o'r ychydig leoedd hyny, y gellir gweled ynddynt ddiwydrwydd, tawelwch, caredigrwydd, a sirioldeb gwledig, hen drigolion "Cymru Fu" heb eu llychwino gan rodres a thrybestod ffasiwnol cymdeithas mân drefydd, a llanau, y dyddiau presennol.

**LLANGWM**, plwyf yn nghwmwd Is-y-Garn, cantref y Rhos, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Yr Eglwys yma, fel un Llangwm, swydd Dinbych, sydd gysegredig i Sant Jerome, neu Hierom. Yn Llyfrau y Brenin, prisid y degwm fel gwerth 7*p*. 12*s*. 11*c*. Y mae gwerth presennol y fywioliaeth yn 190*p*., yn nghyda thir Eglwysig o werth 36*p*. y flwyddyn. Noddwyr, Syr Hugh Owen, Barwnig, a Mrs. Barlow, gweddw y diweddar Owen Barlow, Yswain, y rhai a bennodant y clerigwyr bob yn ail. Yr Eglwys sydd adeilad eang, o ymddangosiad hybarch, ac wedi ei gwneyd yn ol dull yr adeiladaeth Seisnig fwyaf henafol. Cair o'i mewn goffeini i amryw o hen deuluoedd Castell Roch. Oddeutu deugain mlynedd yn ol, cafodd yr Eglwys ei hadgyweirio yn dra phrydferth. Yn y flwyddyn 1807, gadawodd Thomas Roch, Yswain, gymmunrodd o bunt y flwyddyn, tuag at addysgu plant tlodion; ond ni pherthyn i'r plwyf unrhyw elusenau ereill. Mesura arwynebedd y tir, 2434 o erwau, o ba rai y mae 410 yn orchuddiedig gan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3020*p*.; a chynnyrchir 913*p*. o'r swm yma, gan amrywiol fwngloddiau y fro.

Saif Llangwm, oddeutu pum' milldir i'r de-ddwyrain-wrth-ddwyrain o Hwlffordd, a thua'r un pellder o dref Penfro, ar ochr orllewinol morgilfach fawreddog Aberdaugleddyf. Gwelir yma adfeilion hen balasdy yr Oweniaid, lle a fu am oesoedd yn enwog ar gyfrif haelioni ei berchenogion. Y mae pentref Llangwm ar lan y môr, a cheir badau yn croesi yr Aber yn rheolaidd, oddiyma i Goedcynlais. Rhifa y boblogaeth oddeutu 950; ac y maent wedi cynnyddu oddeutu 200 er y flwyddyn 1851, ac agos wedi dyblu er y cyfrifiad cyntaf yn 1801, pryd nad oeddynt namyn 568. Heblaw gweithio yn y mwngloddiau, prif alwedigaeth y trigolion ydyw pysgota wystrys, y rhai a geir mewn cyflawnder yn y gwelyau ar lan y môr. Dywedir fod cynnyrch pysgodfa wystrys Llangwm, rhwng taira phedair mil o bunnau y flwyddyn. Masnachwyr o barthau Caint, Chatham, a Rochester, a ddeuant i'w cludo oddiyma i gyflenwi marchnad Llundain. Syr Hugh Owen ydyw prif berchenog y mwngloddiau, a chyfodir yma lô a chwlm mewn cyflawnder dibrin.

**LLANGWM**, plwyf gwledig, yn nosbarth Brynybigau (*Chepstow*), swydd FYNWY. Saif ar lan un o freichiau yr afon Wysg, oddeutu 3½ milltir i'r dwyrain o dref Caerwysg. Rhenir y plwyf yn ddau ddosbarth, sef Uchaf, ac Isaf. Erwau, 3159. Gwerth ardrethol yr eiddo yn y Dosbarth Isaf, 731*p*.; yn y Dosbarth Uchaf, 2309*p*. Rhif y boblogaeth, oddeutu 400. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn nawdd a rhodd Esgob Llandaf. Yn y flwyddyn 1183, adeiladwyd yma fynachlog fechan, berthynol i urdd Mynachod Abatty Lira, yn Normandy. Y mae yr Eglwys yn adeilad nodedig o hardd, a'i maint yn profi i'r lle fod yn orsaf grefyddol bwysig, yn yr hen amser. Cynnwysa fynedfa eang, a changell addurnedig â'r cerfiadau cywreiniaf. Ar ochr ogleddol y gangell, ymgyfyd tŵr o adeiladwaith tra dyddorol. Adgyweiriwyd y tŵr hwn, yn nghyda rhanau adfeiliedig ereill o'r Eglwys, yn y flwyddyn 1860.



Digitized by Google

**LLANGWNADL**, neu LLANGWYNODL, plwyf yn nghwmwd Cymytmaen, cantref Lleyn, swydd GAERNARFON, GOGLEDD CYMRU. Saif y plwyf hwn mewn bro iachus, a hyfryd, ar lan môr-gilfach Caernarfon, yn Mhenryn Lleyn, 12 milltir i'r de-orllewin o dref Pwllheli, a rhêd y brif-ffordd o Nefyn i Aberdaron trwyddo. Yn y flwyddyn 1801, rhifai y boblogaeth 255. Erbyn 1851, cynnyddasant i 309; ond adeg cyfrifiad 1861, yr oeddynt, fel yn y mwyafrif o'r plwyfydd gwledig, wedi lleihau, gan na chyfrifent, ar yr adeg olaf a nodwyd, namyn 272. Erwau, 1243. Gwerth ardrethol, 994*p*. Yn 1803, holl gynnyrch y trethi, yn ol 4*s*. y bunt, oedd 47*p*. 6*s*. 5½*c*. Y fywioliaeth sydd guradiaeth barhaus, yn nawdd a rhoddiad y Parch. G. A. Salusbury, fel etifedd y diweddar Syr J. S. Piozzi Salusbury, Marchog. Gwaddolwyd y guradiaeth gyda 1200*p*. o rôdd Freninol, ac y mae gwerth blyneddol y degwm, yn 117*p*. 8*s*. 6*c*., o ba rai y telir 102*p*. 8*s*. 6*c*. i'r noddwr, a 15*p*. i'r offeiriad. Yr Eglwys sydd gysegredig i Sant Gwynodl, yr hwn a fucheddai oddeutu canol y chweched ganrif. Cyfrifir safle yr Eglwys yn nodedig darawiadol a rhamantus. Nid ydyw neppell o'r brif-ffordd rhwng Nefyn ac Aberdaron, ac elir ati o'r ffordd hono, gyda glan afonig fechan, a reda yn droellog trwy nant gul a lled ddofn. Cynnwysa yr adail dair cafell o gyffelyb faintioli; ond ymddengys yr un ddeheuol o wneuthuriad cryn lawer yn ddiweddarach na'r ddwy ereill. Yn ffenestr ddwyreiniol y gafell ganol, ceir darnau o wydr lliwiedig, ac arno arwyddluniau hynod gywrain. Y mae y bedydd-gawg hefyd o wneuthuriad henafol, a thra chywrain. Medda y Methodistiaid Calfinaidd hefyd addoldy yn y plwyf. Yn y flwyddyn 1788, testamentodd Richard Griffith, Pen yr Orsedd, 40*p*. tuagat addysgu plant Llangwnadl. Gyda'r swm hwnw, prynwyd dau dyddyn bychan, ac y mae ardreth y rhai hyny, yn nghyda'r gyfran a berthyn i'r plwyf hwn o elusen Griffith Hughes, Bryncroes, yn cynnyrchu 6*p*. 11*s*. yn flyneddol, yr hyn a delir i athraw yr Ysgol ddyddiol Eglwysig. Defnyddiwyd mân-roddion elusenol ereill, i adeiladu dau fwthyn ar y tir cyffredin, a gosodir y bwthynod hyny am ardreth o chwe' cheiniog y flwyddyn, i ddau o deuluoedd tlottaf y plwyf. Prif alwedigaeth y trigolion ydyw amaethu y tir; ond ar adegau arbenig o'r flwyddyn, ceir llawer o honynt yn ddyfal wrth y gwaith o rwydo penwaig, a cheir y pysgod hyny mewn cyflawnder ar for-lanau y lle.

**LLANGWYFAN**, plwyf yn nghwmwd Malltraeth, cantref Aberffraw (a elwir yn awr hefyd cantref Malltraeth), Ynys MÔN. Erwau 1828, o ba rai yr oedd, hyd yn ddiweddar, 125 erw yn dir cyffredin heb ei amgau. Y mae y boblogaeth agos yr un nifer er dechreu y ganrif bresennol, canys cawn mai 210 oeddynt yn 1801, ac yn 1861 eu rhifedi oedd 200. Yn 1803, holl werth trethi y plwyf, yn ol 10*s*. y bunt, oedd 83*p*. 5*s*. 10½*c*. Gwerth ardrethol y tir ar hyn o bryd, ydyw 1155*p*. Y mae safle Llangwyfan, ar lan morgilfach Cymmerau, wyth milltir i'r de-ddwyrain wrth dde o Gaergybi, naw milltir i'r de-orllewin wrth orllewin o Langefni, milltir i'r gorllewin o Aberffraw, a thair milltir a thri chwarter i'r gorllewin dde orllewin o orsaf Bodorgan. Y mae y tir yn frâs a ffrwythlon, a chynnyrcha yn flyneddol gnydau trymion o yd, gwair, &c. Y fywioliaeth sydd guradiaeth barhaus, wedi ei chyssylltu â rectoriaeth Trefdraeth. Gwerth y degwm ydyw 242*p*. y flwyddyn, yn nghyda thair erw o dir Eglwysig. Fel yr arwydda enw y plwyf, cysegrwyd yr Eglwys i Sant Cwyfan, yr hwn a fucheddai oddeutu diwedd y seithfed ganrif. Perthyna hynodrwydd i safleoedd llawer o Eglwysydd Ynys Môn; ond gellir dyweyd mai yr eiddo Eglwys Cwyfan ydyw yr hynotaf o'r cwbl. Adeiladwyd hi ar ynysig fechan yn y môr, ac nis gellir myned ati, ond ar hyd sarn afierw o gerrig mawrion. Llwyr orchuddir y sarn hono yn fynych gan y llanw; ac o herwydd hyny gwelwyd yn angenrheidiol cyssegru ystafell yn Mhalas Cwyfan, modd y gellid cynnal y gwasanaeth crefyddol yno, pan fyddai y môr yn gwahanu yr addoldy a'r addolwyr oddiwrth eu gilydd. Dengys dull yr adeiladaeth, mai oddeutu diwedd y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg y cyfodwyd yr Eglwys hon. Nid ydyw ond bechan, ac isel—48 troedfedd o hyd o'r tu allan i'r muriau, a 12 troedfedd o uchder. Dywed yr hanesydd Terrier, fod yr offeiriad yn meddu hawl i gael gwair i'w geffyl, yn nghyda dau ŵy, torth geiniog, a haner peint o ddiod fain, fel boreufwyd iddo ei hunan, bob tro y deuai i gynnal gwasanaeth yn Llangwyfan. Perchenog Plas Cwyfan oedd i ddarparu y pethau hyn, yn gyfnewid am i'r awdurdodau Eglwysig adael ei wair heb ei ddegymu. Y mae yr Ynys fechan ar ba un y saif yr hen Eglwys, a'r hon hefyd sydd wedi gwasanaethu er ys canrifoedd fel claddfa i'r plwyfolion, yn debyg o gael ei hysu yn gyfangwbl mewn amser, gan ruthriadau gerwin y môr. Y mae ansawdd tir yr Ynys mor feddal, fel y cymerir darnau mawrion o honi ymaith ar unwaith mewn ambell i ystorm. O herwydd hyn, y mae Eglwys newydd wedi ei hadeiladu, mewn lle mwy diogel a chyfleus, ac ni wneir nemawr ddefnydd o'r hen Eglwys mwyach. Perthyna i'r plwyf hwn elusenau lled gyfoethog, Margaret Wynn, o Gefn Bychan, plwyf Niwbwrch, a adawodd ddeng-erw-ar-hugain o dir, gan drefnu i'w ardreth gael ei ranu rhwng dwy ddynes oedranus, un i fod o blwyf Llangwyfan, a'r llall o blwyf Llanbedr-goch. Y mae y ddynes a fyddo i dderbyn yr elusen haelionus o'r plwyf hwn, i gael ei dewis gan berchenog Rhos y Môr. Gosodid y 30 erw tir a nodwyd hyd yn ddiweddar, am y swm bychan o naw punt y flwyddyn, ond credwn fod yr ymddiriedolwyr weithian, wedi mynu ardreth fwy cymesur, canys cofus genym weled cofnod yn rhywle, fod yr elusen bellach yn cyrhaedd 25*p*. y flwyddyn. Trwy drefniad yn ewyllys un o hen deuluoedd Porthamel, telir deg swllt y flwyddyn hefyd o ardreth y Cae Gwyn, Llanfaelog, i dlodion Llangwyfan. Cofnodir am 2*p*. 3*s*. 6*c*. o elusenau blyneddol a berthynent gynt i'r plwyf hwn, ond sydd yn awr wedi myned ar gyfrgoll. Perthyna Plas Llangwyfan, yn ogystal ac agos yr oll o dir y plwyf, i Owen J. Fuller Meyrick, Yswain, o Fodorgan, yr hwn hefyd ydyw Arglwydd y Faenor. Ceir yn y lle, chwarelau o feini mynor tra gwerthfawr.

**LLANGWYFAN**, plwyf yn nghwmwd Llanerch, cantref Dyffryn Clwyd (a elwir hefyd, weithiau, cantref Rhuthin), swydd DINBYCH, GOGLEDD CYMRU. Saif y plwyf hwn ar un o gangenau yr afon Clwyd, o dan odreuon Moel Arthur, 5 milltir deddwyrain o Ddinbych. Cynnwysa drefgyrdd Llan, Cefn-y-Gwrdy, Coediog, a Galles. Holl boblogaeth y plwyf yn 1801 oedd 171, ond yn 1861 yr oeddynt yn 246. Y fywioliaeth sydd beriglorIaeth, yn Esgobaeth Llanelwy, ond yn rhoddiad a nawddogaeth Esgob Llandaf, gwerth 209*p*. y flwyddyn. Dywed un cyfrif a welsom, fod holl werth y degwm yn 256*p*.

Digitized by Google

y flwyddyn, ac y mae yma dir Eglwysig, gwerth 20*p.*, yn nghyda pheriglordy cysurus. Adail fechan a threfnus ydyw yr Eglwys; ond ni pherthyn iddi unrhyw addurniadau, na gwychder teilwng o sylw. Medda yr Ymneillduwyr, addoldai cyfleus yn yr ardal. Ymgyfyd Moel Arthur i uchder o 1491 o droedfeddi; a cheir oddiyma, yn ogystal ag oddiar rai bryncynau llai yn mhlwyf Llangwyfan, olygfeydd ysblenydd ar Ddyffryn cyfoethog Clwyd, a chadwyn bryniau mawreddog Eryri, yn y pellder draw. Yn y flwyddyn 1725, gadawodd Ioan ap Rhisiart 3*p.* i dlodion y plwyf; a thestamentodd un Mrs. Lloyd, ar ddyddiad anhysbys, swm cyffelyb i'r un perwyl. Hyd y flwyddyn 1815, gadawyd y symiau hyn allan ar lôg; ond yn y flwyddyn a nodwyd, defnyddiwyd hwy i osod eisteddleoedd newyddion yn yr Eglwys; ac o hyny allan, telir chwe' swllt bob Nadolig, allan o drethi y plwyf, i'w rhanu rhwng derbynwyr yr elusen.

**LLANGWYLLOG,** plwyf, mewn rhan yn nghymydau Menai, Twr Celyn, a Malldraeth, a chantrefi Rhosyr, Talybolion, a'r Aberffraw, Ynys Môn. Gan fod gwahanol gymydau a chantrefi yr Ynys yn cydgyfarfod yma, ystyrir mai y plwyf hwn a ffurfia ganolbarth Môn, yn ol y rhaniadau swyddogol. Saif 3¼ milltir i'r gogledd-orllewin o Langefni, a 3¼ i'r de-dde-ddwyrain o Lanerchymedd. Erwau, 2301. Gwerth ardrethol, 2127*p.* Poblogaeth yn 1801, 203; yn 1851, 261; ac yn 1861, 207. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor, ond o dan nawdd Syr Richard Williams Bulkeley, Barwnig, Barwn Hill, ac yn werth 185*p.* y flwyddyn. Cyfoethogwyd y fywioliaeth hon gyda 400*p.* o roddion gan gyfeillion yr achos Eglwysig, 600*p.* o Drysorfa y Frenines Ann, ac 800*p.* o waddol seneddol. Saif yr Eglwys yn y rhan o'r plwyf sydd oddifewn i gwmwd Malldraeth. Tybir i Eglwys gael ei hadeiladu yma, ar y cyntaf, oddeutu y flwyddyn 605, gan y Santes Cwyllog, i'r hon y cysegrwyd y Llan, ac ar enw pa un y gelwir y plwyf hyd heddyw. Y mae yr adail bresennol yn un hardd a threfnus, ac mewn cyflwr nodedig o dda. Yn wir, gellir dyweyd ei bod yn un o'r eglwysi gwledig harddaf yn y wlad, ac ymgynnulla iddi gynnulleidfa luosocach nag a welir yn addoli mewn odid unrhyw addoldy Esgobyddol o fewn Ynys Môn. Y periglor presennol ydyw y Parchedig Mr. Ellis, yr hwn sydd foneddwr tirion, a phregethwr hyawdl ac efengylaidd. Oddeutu dwy flynedd yn ol, ar farwolaeth y Parchedig J. Owen, cyn-beriglor Llanelian, Coedana, a Rhosbeirio, cysylltwyd curadiaeth barhaus Coedana gyda ficeriaeth Llangwyllog, yr hyn a ychwanega 140*p.* y flwyddyn at y fywioliaeth, ac a ddyry hawl i Esgob Bangor i bennodi y periglor bob yn ail â Syr Richard Bulkeley. Y mae capel bychan, o henafiaeth mawr, gerllaw i dalcen gorllewinol Eglwys Llangwyllog. Medda y Methodistiaid Calfinaidd gapel eang, rhwng gorsaf y gledrffordd a'r brif-ffordd o Langefni i Lanerchymedd, ac ymgasgl iddo gynnulleidfa luosog a pharchus i addoli.

Y mae arwynebedd y ddaear yma yn nodedig o wastad, a'r tir yn frâs a ffrwythlon. Ceir fod yr un teuluoedd yn preswylio y ffermydd mawrion o fewn y plwyf er ys oesau. Dilynir y tâd gan y mab, a'r fam gan y ferch; a cheir golwg foddlawn a digonol ar bawb yn y lle. A barnu oddiwrth ymddangosiad pethau, gallem dybio, mai anfynych y gelwir sylw swyddogion a chyfranwyr cynnorthwy yr Undeb, at unrhyw angenoctyd yn mhlwyf Llangwyllog. Parha darbodaeth y gweithwyr, a haelioni yr amaethwyr pan syrthio rhai o'u gwasanaethwyr i gyfyngder amserol, i wneyd darpariadau Deddf y Tlodion bron yn afreidiol o fewn y plwyf hwn. Yma hefyd y mae Treyscawen, preswylfod Henry Pritchard, Yswain, yr hwn sydd foneddwr urddasol, a pharod bob amser i ystyried cŵynion y tlawd. Amgylchynir Llangwyllog, ar y gogledd, gan blwyf Coedana; ar y dwyrain, gan Dregaian; ac ar y gorllewin, gan Fodwrog. Yn y plwyf hwn y mae "Maes Rhos Rhyfel," ar ba un, yn y flwyddyn 1143, yr ymladdwyd un o frwydrau ffyrnicaf yr oesau, rhwng y Pendragon dihafal Owain Gwynedd, a llengoedd unedig y Gwyddelod, y Manawiaid, a'r Llychlynwyr. Glaniodd y rhai hyn, mewn nifer lluosog o longau, yn morgilfach Dulas, a dechreuasant anrheithio yr Ynys i bob cyfeiriad. Casglodd Owain ei luoedd ar frys mawr, a chyfarfyddodd hwy yn Llangwyllog; ac wedi ymladdfa faith a gwaedlyd, enillodd y Tywysog Cymreig fuddugoliaeth lŵyr. Y cyngreiriaid a enciliasant mewn ffrwst ac annhrefn mawr, at Draeth Dulas, gan ddysgwyl gallu myned i'w llongau; ond erbyn cyrhaedd o honynt yno, yr oedd Owain wedi anfon holl allu morawl ei wlad ar warthaf llongau y goresgynwyr, a llwyddodd i'w gorchfygu mor drwyadl ar y dŵr ag ar y tir. Cymerodd y Cymry feddiant o bob hwylbren perthynol i'r estroniaid; a chyfyngder mawr a fu rhan yr ychydig elynion a adawyd heb eu lladd. Yn ei farwnad i Owain Gwynedd, gwna y bardd *Gray* gyfeiriadau arbenig at ei wrhydri yn y frwydr bwysig hon; ond ychydig a ddywedir am dani gan yr haneswyr Cymreig yn gyffredin. Gerllaw Maes Rhos y Rhyfel, y mae lle o'r enw "Castell;" ond y mae ystyr a hanes y "Castell" hwn yn anhysbys. Dichon mai gorsaf Rufeinig ydoedd, canys darganfyddwyd yma arian Rhufeinig, yn dwyn delwau Nero, Vespasian, a Chystenyn. Yn y flwyddyn 1829, cafwyd yma ddernyn o aur, ac arno ddelw ac argraff Vespasian yn dra eglur, ac heb ei niweidio mewn un modd.

**LLANGWYRYFON,** plwyf yn undeb Aberystwyth, swydd Aberteifi, Deheudir Cymru; 7¼ milldir i'r dé wrth ddwyrain o orsaf Aberystwyth. Llythyrfa, Aberystwyth. Erwau o dir, 3846. Gwerth ardrethol, 2073*p.* Poblogaeth, 557. Tai annedd, 131. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 176*p.* Noddwr, Syr A. P. Chichester, Barwnig. Y mae hen gaerfa filwraidd, grom-linellawl o fewn y plwyf; ond ni's gwyddom ar ba achlysur ei ffurfiwyd, na dim o'i hanes canlynol. Y mae hen golofn-groes addurniadol iawn yn y fynwent, yr hon a fu yn bost llidiard yn hir. Medda y Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd, addoldai cyfleus o fewn y plwyf.

Cafodd y plwyf hwn ei enw oddiwrth gyssegriad ei eglwys i "*Ursula*, a'r un cant ar ddeg gwyryfon bendigaid." Y traddodiad ydyw, ddarfod i'r "un cant ar ddeg gwyryfon bendigaid," ffoi o Lydaw, gyda St. Padarn, rhag erlidigaeth flin oedd yno yn y chweched ganrif. Ymsefydlasant yn y plwyf hwn, a chymaint oedd dylanwad y bendithion a ddylynai eu buchedd sanctaidd, fel y bu eu presenoldeb yn Ngheredigion, yn foddion i waredu y wlad oddiwrth y lluaws bleiddiaid a'i hanrheithiai yn flaenorol i hyny. Ymddengys fod eu dylanwad hwy ar y bleiddiaid, yn debyg i ddylanwad Sant Padrig ar nadrodd yr Iwerddon! A chredai llawer yn swydd Aberteifi

Digitized by Google

hyd yr oesoedd diweddaf hyn, mai i'r "Gwyryfon Bendigaid" yr oeddynt yn ddyledus am ymwared oddiwrth bla y Bleiddiaid.

**LLANGYBI**, plwyf yn nghwmwd Eifionydd, cantref Dunodig (a elwir yn awr hefyd cantref Eifionydd), swydd GAERNARFON, GOGLEDD CYMRU. Y mae y plwyf hwn mewn safle ddymunol, yn rhanbarth de-orllewinol swydd Gaernarfon, mewn agosrwydd cyfleus i orsaf Afon Wen, ar gledrffyrdd Arfon, a Glanau Cymru, ac nid oes namyn pum' milltir oddiyma i dref farchnadol Pwllheli. Cyfrifir Llangybi, fel yn ffurfio canol-dir y Penrhyn a wahana faesfor Aberteifi, neu Gantre'r Gwaelod, oddiwrth fôr-gilfach Caernarfon. Arwynebedd y tir sydd, ar y cyfan, yn lled wastad, a'r pridd yn ffrwythlon a chynnyrchiol. Erwau, 4519. Gwerth ardrethol, 3162*p.* Adeg cyfrifiad 1801, rhifedi y boblogaeth ydoedd 635. Erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynnyddu i 726; ond o'r cyfrifiad hwnw hyd yn bresennol, y maent wedi graddol leihau. Yn 1861, nid oeddynt namyn 622, a thybir eu bod weithian, islaw 600. Yn Llyfrau y Brenin, cyfrifid gwerth degymau Llangybi, a Llanarmon, yn 15*p.* 3*s.* 4*c.*; ond erbyn hyn, y mae gwerth degwm Llangybi ei hun, yn 250*p.*; a chyfanwerth ebrwyadaeth (*rectory*) y ddau blwyf, yn 500*p.* Y noddwr ydyw Esgob Bangor, a'r periglor er ys blyneddau lawer ydyw y Parch. St. George Armstrong Williams, mab i'r diweddar Barchedig Armstrong Williams, un o gyfeillion a noddwyr penaf y bardd helbulus ac anffodus Ieuan Brydydd Hir. Fel yr arwydda yr enw, y mae yr Eglwys yn gysegredig i Cybi, y sant Prydeinig enwog o'r chweched ganrif, a chyfoeswr â Seiriol Wyn. Yr Eglwys sydd adeilad eang a chyfleus, ac er ys blyneddau bellach, y mae hi wedi cael ei hadgyweirio yn ddestlus. Cynnwysa fynedfa, cangell, a chafell ogleddol, a mesura 59 troedfedd o hyd, a 17½ troedfedd o led. Mewn lloft gysylltiedig â'r Eglwys hon, y cynnelid ysgol ddyddiol er ys mwy na haner canrif yn ol; ac er na bu y gyfryw ysgol erioed o dan ofal unrhyw athraw o enwogrwydd arbenig, eto parha hanesiaeth am oesau dyfodol i gysylltu pwysigrwydd â'r ysgol ei hun, gan mai ynddi hi y derbyniodd Eben Brif-Fardd, hyfforddiant syml yn elfenau cyntaf dysg. Bu Eben ei hun hefyd, yn flaenorol i'w symudiad i Glynnog Fawr, yn athraw hen ysgol y plwyf hwn; ac yn ei Gywydd "Ymweliad â Llangybi," gwna y prif-fardd clodfawr gyfeiriadau tyner a thoddedig, at helyntion boreu ei oes, fel dysgybl ac athraw. Cyfeiria at y llythyrenau trwstan a gerfiasid ganddo ef a phlant direidus ereill ar feinciau "lloft y Llan," a rhydd dro pruddglwyfus trwy y fynwent, i ymweled â beddau ei hen gyfoedion, ac ereill. Dengys arwyddion o hiraeth arbenig am ei hen athraw, Isaac Morris, o Bentyrch; ond uwch bedd Dewi Wyn, y cawn ei ysbryd megys yn ymddryllio o dan faich adgofion galarus, a'i awen ddihafal a fynega ing ei enaid, yn yr englyn godidog a ganlyn:—

"Dyma fedd Dewi Wyn a fu—ben bardd,
Heb neb uwch yn Nghymru;
Ond, p'le mae adsain cain, cu
Tinc enaid Dewi'n canu!"

Llawer o fawrygwyr yr awen Gymreig a bererindodant i'r fynwent dawel hon, i gael golwg ar orphwysle llwch hen awenydd iselfryd, ond clodfawr, y Gaerwen. Cyfrifir ei feddargraff, o gyfansoddiad Ioan Madog, yn un o'r toddeidiau goreu yn yr iaith, a barnwn ei fod yn werth ei ddodi yma yn nglyn â hyn o grybwylliad am fynwent Llangybi. Fel hyn y dylasai fod wedi ei gerfio; ond drwg genym fynegi ddarfod i'r cerfiwr, yn ogystal a golygwyr gweithiau cyhoeddedig Dewi Wyn, andwyo synwyr y llinellau trwy eu cam-attalnodi:—

"O! ddaer isel, prif fardd yr oesoedd,
Gyrhaeddai nwyfawl gerddi y nefoedd,—
Sain ei gain odlau synai genedloedd—
Hir fydd llewyrch ei ryfedd alluoedd!
Oeswr a phen-seraph oedd—pencampwr,
Ac Ymherawdwr beirdd Cymru ydoedd."

Cwynir yn gyffredin, mai cwmwd llwm yr olwg arno ydyw Eifionydd, gan na welir ond ychydig o goed o'r Gest i'r Eifl, nac o Gwmystradllyn i Abererch. Coedwigoedd y Gwynfryn, a'r Plas hen, ydyw yr eithriadau pwysicaf a mwyaf dymunol i'r llwmni cyffredin hwn; ond ceir llwyni coediog yn gorchuddio oddeutu deng erw ar hugain o ddaear Llangybi, a thrwy hyny yn gwneyd y plwyf y prydferthaf o fewn y cwmwd. Amrywiaethir y golygfeydd hefyd gan agosrwydd y mynyddoedd, megys y Garn bentyrch, y Garn guwch, &c., yn ogystal a chan rediad amryw fân afonydd trwy y fro. Yma hefyd y saif hen balasdai y Trallwm, a'r Glasfryn, yn yr olaf o ba rai y preswylia y clerigwr urddasol, a Rhyddfrydig, y Parch. J. W. Ellis, periglor Llanaelhaiarn. Rhed y dollffordd o Gaernarfon i Bwllheli hefyd trwy y plwyf; ond y mae gwasanaethgarwch a phwysigrwydd y ffordd hono wedi ei leihau, gan gyfundrefn gyflymach a hwylusach y cledrffyrdd. Yn y flwyddyn 1760, William Price, Yswain, o'r Rhiwlas, yn Meirionydd, a adeiladodd elusendai i chwech o bersonau tlodion yn Llangybi, ac a'u gwaddolodd â chyfran o ardreth Pentyrch Uchaf. Trefnodd i bob un o'r chwech a freintid â'r elusen, dderbyn ugain swllt y chwarter, yn nghyda digonedd o dânwydd. I. Rice Thomas, Yswain, Caerynarfon, a'i olynwyr, yr ymddiriedwyd y gorchwyl o bennodi derbynwyr yr elusen. Yn ddiweddar, nid ydoedd y tlodion pennodedig yn trigiannu yn y tai, ond gosodent hwy i swyddogion y plwyf, am ardreth o 25*s.* yr un. Yn y flwyddyn 1824, cymmun-roddodd y Parch. Evan Griffith, 100*p.*, gan orchymyn i'r cynnyrch blyneddol gael ei ranu rhwng tlodion plwyfydd Llangybi, a Llanarmon. Yn agos i'r Eglwys, y mae "Ffynnon Cybi," dyfroedd yr hon a ystyrid fel yn meddu rhinweddau meddygol tra chyfareddol yn yr amser gynt. Nid ydyw y traddodiadau cysylltiedig â hi agos mor gyflawn o ofergoel, ag ydyw chwedlau Ffynnon Eilian, Ffynnon Tegle, neu Ffynnon Gwenfrewi; ond er hyny, fe gasglodd hithau o'i hamgylch gyfran dda o oferbwyll rhamantus yr oesoedd tywyllion. Ar wahan i bob ffugiaeth, tystia meddygon yr oes bresennol, fod rhinweddau meddygyniaethol pwysig yn nyfroedd Ffynnon Cybi, a chafodd llawer wellhad gwirioneddol, o anhwylderau poenus, trwy yfed o honynt. Pwynt dyddorol iawn hefyd ydyw Pen Carn Bentyrch, lle y mae gweddillion hen wersyll Prydeinig tra eang. Ffaith hynod ydyw, fod y wersyllfa hon wedi ei gadael mewn ystâd o berffeithrwydd, rhagorach nag odid un o gaerfeydd ein henafiaid. Medda yr Ymneillduwyr addoldai eang a chyfleus o fewn y plwyf.

**LLANGYBI**, plwyf yn nghwmwd Caerwedros, cantref y Castell (a elwir yn awr hefyd cantref y

Digitized by Google

Moeddyn), swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU. Erwau, 1809. Poblogaeth yn 1801, 197; yn 1861, 292. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Noddwyr, Iarll Lisburn, ac Arglwydd Carrington, y rhai a bennodant y ficer bob yn ail. Perthynai i'r plwyf hwn brebenduriaeth yn hen Eglwys Golegawl Llanddewi-brefi, a phrisid ei gwerth blynyddol, yn Llyfrau y Brenin, fel 1*p.* 6*s.* 8*c.* Derbynia y meddiannwyr lleygol 90*p.* oddiwrth y degwm yn awr, ac y mae y gweddill o'r degwm, yn nghyda chynnyrch 800*p.* o rôdd Freninol a dderbyniwyd o Drysorfa y Frenines Ann, yn gwneyd cyllid o 60*p.* y flwyddyn i'r offeiriaid. Medda y Methodistiaid Calfinaidd, yr Annibynwyr, a'r Undodiaid, addoldai yn y plwyf. Bernir mai yma y ffurfiwyd y gynnulleidfa Ymneillduol gyntaf yn Nghymru, canys cofnodir am fath o Eglwys Bresbyteraidd yn Llangybi, Ceredigion, mor foreu a'r flwyddyn 1663. Adeilad seml a diaddurn, cynnwysedig yn unig o fynedfa a changhell, ydyw Eglwys y plwyf, ac y mae hi yn gysegredig i Sant Cybi. Safle y plwyf hwn ydyw 4 milldir i'r gogleddorllewin-ogledd o Lanbedr; ac amgylchir ef gan blwyfydd Llanddewi-brefi, Bettws-Bledrws, Llanfair-Clydogau, a'r Garthelli. Rhed y dollffordd o Lanbedr i Dregaron, trwy y plwyf, a dyfrheir ef gan yr afon Ddulas. Ansawdd y tir sydd weddol gynnyrchiol, a thŷf yma haidd, a cheirch da. Ar y bryn gerllaw, ac uwchben yr afon Teifi, y mae hen wersyllfa, a elwir Castell y Goedtref—lle o bwysigrwydd a chadernid mawr yn yr oesoedd ymladdgar a chythryblus a aethant heibio.

**LLANGYFELACH**, neu LLANGAFELACH, sydd bentref, a phlwyf, ac is-ddosparth, a chantref, yn swydd FORGANWG. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw yr afon Tawy, camlas Abertawe, a rheilffordd dyffryn Nedd, 4 milltir gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llansamlet, a 3¼ o Abertawe, yn ogleddol. Y mae yma ffair ar Mawrth 1af. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd bentref Treforris, i'r hwn y mae llythyrfa, dan Abertawe; ac y mae yn cynwys is-bentrefi Clas, Penderri Mawr, a Rhyng-dwy Clydach. Erwau, 27,305. Gwerth ardrethol, 31,751*p.*, o'r hyn y mae 6470*p.* mewn mwnau, a 3074*p.* yn y camlas. Poblogaeth yn 1851, 10,895; yn 1861, 13,269. Y mae y meddianau yn rhanedig iawn. Yr oedd y faenor gynt yn perthyn i goleg Aberhonddu. Y mae llawer o'r tir yn ddiffrwyth. Y mae y gweithiau efydd, a glo, yn rhoddi gorchwylion i nifer o'r trigolion; ac y mae y rhai hyn yn anurddo golwg y gymydogaeth. Y mae y nwyau sydd yn codi oddiwrth y gwaith efydd, yr lladd yr hydyfiant; y mae y pentyrau o losgion sydd yma, yn annymunol yr olwg arnynt; ac y mae colofnau y mwg sydd yn esgyn yn wastadol, yn duo yr awyrgylch. Y mae nifer mawr o'r gweithwyr yn preswylio yn Nhreforris. Ymladdwyd brwydr galed yma yn 990, rhwng Hywel, Tywysog y Deheubarth, a'i nai Edwin; ac wedi goresgyn tiroedd Ithel, Tywysog Morganwg, a'u hanrheithio yn ddidrugaredd, cyfarfuwyd hwy ar eu dychweliad, mewn lle a elwir "Cors Einion," yn y plwyf hwn, gan Hywel, brawd Ithel, yr hwn oedd wedi codi y wlad mewn arfau, o'r tu cefn; a'r rhai hyny wedi ymgynull mewn nifer mawr, gyda'r arfogaeth oreu a allent gael; ac felly efe a ymlidiodd ei elynion ymaith, gyda lladdfa fawr, ac a adfeddianodd yr ysbail oedd y lleill wedi ei ddwyn gyda hwy. Y mae y plwyf hwn tua deng milltir o hyd, a chwech o led; yn orlawn o adnoddau cyfoeth, mewn mwnau. Y mae Clasemount, un o'r prif balasau, wedi ei ail-adeiladu yn ddiweddar. O fewn y plwyf hwn, y mae Penllergaer, preswylfod L. W. Dillwyn, Ysw. Y mae y llys gwladol yn cael ei gynal yma; ac esgob Ty Ddewi, fel Deon coleg Eglwys Crist, Aberhonddu, ydyw arglwydd y faenor; ac y mae yn cynal ei lys maenorol yma ddwywaith yn y flwyddyn. Darganfyddwyd rhai henafion Rhufeinig yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol Gorseinion, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cyfelach; y mae yma nifer o gofadeiliau am deulu Llewelyn, o Penlergareg. Y mae capeloriaethau Treforris a Clydach ar wahan. Y mae yma addoldai i'r Annibynwyr, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid. Nid yw yr is-ddosparth yn cynwys ond yn unig is-bentref Clas o'r plwyf, yn cynwys pentref Treforris; ond y mae yn cynwys hefyd blwyf St. John, ger Abertawe, a'r rhan uchaf o blwyf Abertawe; ac y mae o fewn dosparth Abertawe. Poblogaeth yn 1851, 9812; yn 1861, 14,553. Tai, 2990. Y mae y cantref yn cynwys plwyfi Llangyfelach, Llansamlet, a Llangiwc. Erwau, 48,690. Poblogaeth yn 1851, 11,829; yn 1861, 17,923. Tai, 3611. Y mae nifer y boblogaeth, ac eangder y gweithydd a ddygir yn mlaen yn yr ardal hon, yn rhoddi pwysigrwydd neillduol ar yr holl gymmydogaeth.

**LLANGYNDEYRN**, pentref, a phlwyf, yn swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref ar lan yr afonig Gwendraeth Fach, 5 milldir i'r de ddwyrain o orsaf Caerfyrddin. Medda y pentref hwn Lythyrfa, dan Gydweli; a ffeiriau ar y 5ed a'r 6ed o Awst, a Thachwedd 1. Mae y plwyf yn cynnwys treflanau y Blaenau, Cil Garw, Glyn, Gwempa, Terra coed, a'r Felin-dre. Mesura o erwau, 11,810. Gwerth ardrethol, 9733*p.*; o'r hyn y mae 200*p.* mewn mwngloddiau, a 96*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1841, 2624; yn 1861, 2355. Tai anedd, 540. Ceir glô, mwn haiarn, calch, a marmor da, o fewn y plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, â'r hon y mae capeloriaeth Pont yates wedi ei huno, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 88*p.* Noddwr, R. G. Thomas, Ysw. Ysgol ddyddiol wedi ei gwaddoli â 22*p.* yn y flwyddyn. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i St. Cyndeyrn, sydd eang, a di addurn: ac y mae y gladdfa yn un o'r rhai goreu yn yr holl wlad. Mae gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion, amryw addoldai yn y plwyf.

Bernir fod y lle hwn wedi bod yn drigle rhai o hen dywysogion brodorawl y Deheudir, neu ryw bennaeth galluog, mewn adeg foreuol ar hanes ein cenedl; a gellir meddwl fod adfeilion hen adeilad eang, a elwir "Yr Hen Blas," yn cadarnhau y cyfryw dŷb. Meddylir fod ty o'r enw "Glyn Abbey" yn y plwyf hwn, ar lanerch lle y gorweddai crefydddy Pabaidd yn yr oesoedd gynt; ond nid oes dim o'r hen fonachlog heblaw yr enw, yn aros yn gôf am dani. Yr oedd amryw balasau yn y plwyf gynt, yn y rhai y cyfanneddai dim llai na saith o heddynadon; ond y maent wedi eu gadael oll gan eu perchenogion, a'r rhan fwyaf o honynt wedi eu troi yn ammaethdai erbyn hyn.

**LLANGYNHAFAL**, neu LLANGANHAFAL, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth Rhuthin, swydd DDINBYCH. Saif y pentref dan fynydd Moel-Fammau, 1¾ milltir dwyreiniol o afon Clwyd, a 3¼ gogledd wrth ddwyrain, o orsaf rheilffordd Rhuthin. Llythyrfa

Digitized by Google

dan Ruthin, sir Ddinbych. Y mae y plwyf wedi ei ddosparthu yn drefgorddau y Rhos, Hendre-Wydd, a Nant y Nef. Erwau, 2363. Gwerth ardrethol, 2556*p*. Poblogaeth, 497. Tai, 115. Y mae arwynebedd y tir yn fryniog. Y mae Moel-Fammau yn 1845, o droedfeddi o uchder. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 407*p*.; ac yn nawddogaeth esgob Llandaf. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cynhafal, yr hwn a flodeuai tua dechreu y seithfed ganrif. Y mae yr olygfa gylchynol, o'r bryniau yma, yn darawiadol iawn. Y mae yma rai gwaddolion i'r tlodion. Y mae cofadail wedi ei chodi ar ben y Foel-Fammau, o goffadwriaeth am gyrhaeddiad yr haner-canrif o deyrnasiad Sior III., yr hwn sydd yn weledig o bellder mawr o ffordd; ond fe ddymchwelwyd y rhan fwyaf o hono gan ystorm yn ddiweddar.

**LLANGYNIDR**, plwyf yn nghantref CRUGHYWEL, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU; 4½ milldir i'r gorllewin wrth ogledd o dref Crughywel; a 6 milldir i'r gogledd o orsaf Nant y Glo. Y mae y plwyf hwn yn cael ei enw oddiwrth gyssegriad ei eglwys i St. Cynydr, yr hwn a arweiniai fywyd meudwyaidd yn Morganwg, yn y chweched ganrif; a chofwyl yr hwn a gynhelid yn y plwyf hwn yn flyneddol, Awst 1. Fe'i gelwir yn fynych mewn hen gof-lyfrau, "Llan Gynyd Eglwys Yail," oddiwrth "Yail," afonig fechan, sydd yn llifeirio heibio i'r Eglwys; a "Llan Gynyd Eglwys Fesey," oddiwrth Gapel henafol, gweddillion yr hwn oedd yn weledig gynt, ar lan y Crawnant, tua dwy filldir o'r pentref. Mesura y plwyf 13,908 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 9244*p*.; o ba rai, y mae 1356*p*. mewn cloddfeydd, a 122*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 3246; yn 1861, 3594. Tai annedd, 761. Cyfodir llawer o geryg calch, a glô, yn y plwyf; ac y mae llawer o'r preswylwyr yn cael eu bywioliaeth yn ngweithydd haiarn cymmydogawl y Clydach. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 418*p*. Noddwr, Dug Beaufort. Cynnelir ffeiriau yn flyneddol yn y pentref, ar Ebrill 20; Hydref 7; Rhagfyr 1; a'r dydd Mercher o flaen y Nadolig. Y mae amryw addoldai perthynol i'r amryfal Enwadau ymneillduol o fewn y plwyf.

Credir bod cangen-ffordd Rufeinaidd, o Gaerphili i Bedwellty, yn myned ar hyd trum mynydd y Trifel ddu, yn y plwyf hwn; ac yr oedd olion o honi yn weledig ar gyttir Bedwellty, yn cyfeirio trwy fwngloddiau Bryn Oer, i Lanfrynach. Y mae rhŷd yn agos i darddell yr afon Romney, a elwir "Rhyd y milwyr;" ond y mae yn hollol anhyspys oddiwrth ba amgylchiad y cafodd y cyfryw enw. Ar fynydd y Trifel Glas, y mae ogof naturiol, a elwir "Y Stabl Fawr;" oddiar yr hon y mae carnedd o geryg, a gyfodwyd i fod yn wylfa, fe ddichon; canys pan wnaed ymchwiliad iddo, ni chafwyd dim olion claddfa dano. Noda llên gwerin orsaf hen gastell, yn agos i'r brif-ffordd o'r lle hwn i Aberhonddu; ond nid oes dim o'i hanes ar gael; ac efallai nad oedd e yn ddim amgen na lluestfa i goedwigwr dan arglwyddi castell Tre'r Tŵr. Y mae ychydig elusenau yn perthyn i'r plwyf, y rhai a renir i'r tlodion yn flyneddol.

**LLANGYNNING**, neu LLANGYNNIN, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref DERLLYS, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU; ar lan yr afon Cynin, yn agos i'r afon Taf; ac ar reilffordd Deheudir Cymru; 2½ milldir i'r gorllewin o orsaf St. Clears, ac 11 m. i'r gorllewin wrth ddehau o Gaerfyrddin. Llythyrfa, St. Clears. Erwau, 3270. Gwerth ardrethol, 2556*p*. Poblogaeth, 378. Tai annedd, 79. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 80*p*. Noddwr, C. G. Philipps, Ysw. Y mae y plwyf yn cael ei enw oddiwrth gyssegriad y llan i St. Cynin, neu oddiwrth ei sefyllfa ar lan yr afon Cynin, gan yr hon ei terfynir ar yr ochr ddwyreiniol. Cynhelir ffair yma ar Ionawr 18.

**LLANGYNOG**, plwyf yn nghantref BUALLT, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, goris mynyddoedd Eppynt; 3½ milldir i'r dehau wrth ddwyrain o orsaf Buallt. Llythyrfa, Buallt, swydd Frycheiniog. Erwau, 1429. Gwerth ardrethol, 363*p*. Poblogaeth, 51. Tai annedd, 11. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 69*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth Cynog Sant.

**LLANGYNOG**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref LLANFYLLIN, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw uniad yr afonydd Tanat a'r Euarth, mewn llanerch ddifyrus, goris bryniau uchel-grib; 7½ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf Llanfyllin; a medda Lythyrfa dan Groesoswallt, a ffeiriau ar Mai 6, Awst 9, a Medi 3. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgyrdd Tre'r Llan, a Thre Rhiwarth. Erwau, 3223. Gwerth ardrethol, 1244*p*.; o'r hyn y mae 300*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 601. Tai annedd, 125. Y brif annedd yn y plwyf, yw Llechwedd-garth. Y mae Craig Rhiwarth yn ymddyrchafu megis mur oddiar ystlys ogleddol y pentref; ac y mae mynydd-res uchel, er nad mor serth, yn ei chysgodi ar yr ystlys ddeheuol. Agorwyd mwnglawdd plwm yn Nghraig y Mwyn, yn y flwyddyn 1692, yr hwn a berthynai i deulu Powys; a buwyd yn ei weithio am flyneddoedd lawer, gan elwa oddiwrtho tuag ugain mil o bunnau yn y flwyddyn: ond torrodd dwfr i fewn iddo, yr hyn a roddodd attalfa ar y gwaith dros yspaid: ond yn mhen amser, ffurfiwyd cwmni i'w ail weithio, ac er y pryd hyny y mae yn cael ei ddwyn ymlaen, gyda llwyddiant mwy neu lai. Y mae yma fwngloddiau eraill hefyd, a llech-gloddfa. Buwyd unwaith yn amcanu parhau llinell rheilffordd Llanfyllin, yn mlaen hyd Langynog. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 126*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Yr eglwys sydd gyssegredig i goffadwriaeth St. Cynog.

**LLANGYNWYD**, plwyf yn nghantref y Castell Newydd, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, ar y rhan uchaf o afon Llynfi, ac ar reilffordd Llynfi, ar yr hon y mae iddo orsaf, 6 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Ben y Bont. Y mae yn cynnwys treflan Llangynwyd Uchaf, yn rhandir Nedd, a threflanau Llangynwyd Ganol, Llangynwyd Isaf, a Chwm du, yn rhandir Pen y Bont; a chynnwysa bentrefi y Maesteg, a'r *Spelter Works*, i bob un o ba rai y perthyn Llythyrfa, dan Ben y Bont. Mesura Llangynwyd Uchaf 6544 o erwau. Poblogaeth yn 1851, 1496; yn 1861, 2187. Tai annedd, 409. Yr achos o'r cynnydd yn y boblogaeth, oedd ehangiad y fasnach mewn glô, a haiarn. Mesura Llangynwyd Ganol, 3076 erw. Poblogaeth yn 1851, 329; yn 1861, 324. Tai annedd, 60. Llangynwyd Isaf a fesura 2027 erw. Poblogaeth yn 1851, 304; yn 1861, 337. Tai annedd, 68. Y Cwm du a fesura, 3813 erw. Poblogaeth yn 1851, 3350; yn 1861, 4154. Tai

Digitized by Google

annedd, 797. Yr achlysur o gynnydd y boblogaeth, oedd ehangiad y gwaith haiarn. Gwerth ardrethol y plwyf, 20,921*p.*; o'r hyn y mae 7270*p.* mewn mwngloddiau, ac 8903*p.* mewn gweithfeydd haiarn. Y mae arwynebedd y plwyf yn dra bryniawg. Cefn Udfa sydd hen balas, perthynol i'r *Mackworths.* Y mae yma adfeilion hen gastell, a gweddillion amryw hen wersyllfeydd. Y plwyf hwn a fu yn encilfa i Edward yr Ail, yn ei aflwyddiant. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig a Chapeloriaethau Baidan, Maesteg, a'r *Spelter Works*, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 300*p.* Noddwr, Esgob Llandaf. Y mae eglwys y plwyf wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Cynwyd; ac y mae Capel Anwes yn y Maesteg, amryw addoldai Ymneillduol, a helaethrwydd o fanteision addysg i'r plant. Y mae hen Gapel adfeiliedig yn Baidan hefyd.

Yr ydoedd Cromlech gynt, yn agos i bentref Llangynwyd, yr hon a alwai y werin, "Yr Hen Eglwys."

**LLANGYNYW**, neu LLANGYNIEW, trefgordd, a phlwyf yn nosparth Llanfyllin, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU. Y mae y drefgordd yn gorwedd ar lan yr afon Einion, ychydig o'r tu uchaf i'w hymuniad â'r Fyrnwy, 2½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Lanfair, a 7 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o orsaf y Trallwm. Y mae y plwyf yn cynnwys hefyd drefgyrdd Cynhinfa, Gwaenynog Isaf, a Mathrafal; a'i Lythyrfa ydyw Llanfair Caereinion, dan y Trallwm. Mesura o erwau 4513; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 5991*p.* Poblogaeth, 602. Tai annedd, 119. Y mae y plwyf wedi cael ei enw oddiwrth gyssegriad ei eglwys i goffadwriaeth St. Cynyw, yr hwn oedd yn ei flodau yn y chweched ganrif, ag oedd yn fab i Gwynlliw, a brawd i Cattwg Ddoeth. Bod pwysigrwydd yn nglyn a'r ardal hon yn dra boreu, sydd yn cael ei brofi yn amlwg drwy y lluaws gwersyllfeydd Prydeinaidd, o'r arddull boreuaf, debygid, ydynt yn wasgaredig ar y bryniau, mewn amryfal barthau o'r plwyf: ac y mae amryw ysgrifenwyr wedi datgan eu barn, fod y Rhufeiniaid yn adnabyddus o'r llanerch hon, os na buant yn cyfaneddu yn sefydlog yma. Un peth a ymddengys fel cadarnhad i'r dyb uchod, ydyw sefyllfa, a ffurf betrual, gwersyll yn nhreflan Mathrafal, lle wedi hyny y bu hen lŷs tywysogion Powys. Y mae rhai henafiaethwyr wedi dadleu mai yr orsaf hon, yr hon a orweddai ar lan y Banwy, heb fod yn mhell oddiwrth ei huniad â'r gangen arall o'r Fyrnwy, ar derfyn gorllewinol dyffryn Meifod, oedd yr hen *Mediolanum* a grybwyllir yn y Teithlyfrau Rhufeinaidd, ond y mae cymaint o chwilio am dani wedi bod yn ofer. Y rhesymau ar ba rai y seiliant eu damcaniaeth, ydyw y farn gyffredinol a goleddir gan yr holl haneswyr, bod y pellderau a nodir yn Nheith-lyfrau Antoninus, a Richard o Cirencester, yn ein gosod dan rwymau i edrych am yr orsaf hono, naill ai yn Nyffryn Meifod, neu yn Nyffryn y Tanat: mai y rhan orllewinol o Ddyffryn Meifod, raid fod y man lle y croesai yr hen Stryt Watling, a'r *Via Devana* eu gilydd, os eu dygid yn mlaen yn lled union-syth;—nad oes unrhyw weddillion Rhufeinaidd eraill yn agos i'r lle hwn, a gyfattebant mewn un modd â'r pellderau a nodir yn y Teith-lyfrau; ac yn olaf, yr arferiad a ffynai yn mysg tywysogion Prydain, Sacsonaidd, a Chymreig, yn yr oesoedd boreuol, i adeiladu eu llysoedd ar hen orsafau lle y buasai y Rhufeiniaid o'r blaen. Y mae gwersyllfa filwraidd gron, ar yr ochr gyferbyniol i'r afon, mewn coedwig a elwir "Y Wern Ddu;" ac mewn maes o'r tu hwnt i hyny, y mae bryncyn crwn; a barnai *Pennant* am y ddau le, eu bod yn dwyn perthynas a'r brif orsaf yn Mathrafal, yr hon, yn ol ei farn ef oedd *Mediolanum* y Rhufeiniaid. Tua diwedd yr wythfed ganrif, darfu i Dywysogion Powys, er gwarchod rhag mynych ruthriadau Offa, brenin y Mersiaid, i'r rhan ddwyreiniol o'u tiriogaethau, symmud eisteddle eu llywodraeth, o "Bengwern Powys," a elwir yn awr "Yr Amwythig," lle ei sefydlasid o'r blaen, i Mathrafal, yn y plwyf hwn, lle yr adeiladasant lŷs, neu y darfu iddynt helaethu un a adeiladasid yma o'r blaen, yr hwn a barhaodd i fod eu prif drigias hyd oddeutu terfyn y ddeuddegfed ganrif, pan y cymerodd Gwenwynwyn, mab Owain Cyfeiliog, y Castell Coch yn Mhowys, ac y symmudodd orsaf y llywodraeth i'r fan hono. Cynnelid yr Eisteddfodau, neu Gynnulliadau teir-blwyddol y Beirdd a'r Cerddorion, yn rheolaidd yn Mathrafal, gyda llawer o rwysg: ac Owain Cyfeiliog, yr hwn fel Tywysog Powys, a gyfanneddai yma, a Chynddelw Brydydd Mawr, ei fardd llŷs, yr hwn a gyfaneddai yn y Llechwedd Isaf, yn agos i lan y Fyrnwy, eill dau yn feirdd o'r enwogrwydd uchaf, yn mysg y beirdd galluog a flodeuent tua chanol y ddeuddegfed ganrif, a gyfansoddasant rai o'u Cywyddau goreu ar yr achlysuron hyny, o ba rai y mae amryw ar gael yn y "Myfyrian Archaiology." Wedi symmudiad eisteddle y llywodraeth i Gastell Powys, disgynodd hen lŷs Mathrafal, yr hwn a adawsid gan dywysogion Powys, i feddiant Robert Vipont, Barwnig galluog, oedd mewn ffafr fawr gyda John, Brenin Lloegr, yr hwn a ail adeiladodd, neu o leiaf, a adgyweiriodd, ac a gadarnhaodd yr hen gastell.

Yn y flwyddyn 1212, gwnaeth Llewelyn ab Iorwerth Tywysog Gwynedd, gadgyrchiad i wlad Powys, ac a warchaeodd ar gastell y lle hwn, yr hwn gan ei fod wedi ei gadarnhau yn ddiweddar gan Vipont, oedd yn ddigon cadarn i wrth sefyll yr ymosodiadau a wnelid arno, hyd oni ddaeth y brenin John o Loegr, yn nghyda byddin gref, i gyfodi y gwarchae, gan orfodi Llewelyn a'i gyngrheirwyr, i gilio oddiwrtho; ac er attal y cyfryw gais mwyach oddiwrth y tywysog hwnw, efe a barodd losgi y castell hyd lawr; ac adfeiliedig ydyw byth er hyny.

Y mae arwyneb y plwyf hwn yn cael ei fritho â bryniau, y rhai ydynt wedi eu gorchuddio â choedwigoedd tewfrig, hardd yr olwg arnynt, neu wedi eu hammaethu hyd eu cribau; ac y mae golygfeydd di gyffelyb i'w cael o benau rhai o honynt, ar y wlad o amgylch; yn enwedig o grib Pen y borth, yn nhreflan Cynhinfa, ceir golygfa ddiderfyn o'r bron, a digyffelyb mewn mawrwychder. Tua'r dwyrain, gwelir gwastadeddau meithion Sir Amwythig, hyd at uchelderoedd swyddi Stafford, a Chaerlleon, yn nghyd a'r Wrekin, y Breiddin, a mynydd-res swydd Faesyfed: ac ar y gorllewin, gwelir banau uchel Plumlumon, Cadair Idris, y ddwy Aran, a'r ddwy Arenig, a'r Berwyn, a lluaws mawr o fryniau eraill Cymru, yn mysg pa rai, canfyddir un o bigyrnau yr Wyddfa yn amlwg.

Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth pum can punt. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellwr. Yr eglwys sydd wedi ei hadeiladu yn yr arddull Seis'nig foreuol, ac ynddi hen wasgodfa gerfiedig, a bedyddfaen tra henafol. Y mae lleoedd addoliad perthynol i'r Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd yn y plwyf.

Digitized by Google

Yr unig weddillion o hen gastell Mathrafal sydd yn aros, ydynt ranau o'r hen wrthglawdd, o geryg, a phridd; yn nghyda ffos ddofn ar dair ystlys o'r llanerch betrual ei hadeiladasid arni; diffynid y bedwaredd ystlys gan y serth-allt, a grogai oddiar yr afon. Yr oedd y llanerch amgauedig, tua dwy erw o dir, gan fod pob ystlys oddeutu chwech ugain llath o hyd; ac yn y gongl ogledd-ddwyreiniol iddo, oddiar yr afon, y mae bryncyn, lle yr oedd twr gwylwyr efallai, o'r hwn y gellid cael llawn olwg ar y dyffryn, i fynu ac i waered. Cloddiwyd amryw greiriau henafiaethol yn mysg yr adfeilion yn agos i'r lle hwn o bryd i bryd, priddfeini hynod, dysglau arian, hen gleddyf, rhai batholion arian, &c.

**LLANGYSTENYN**, plwyf yn nghwmwd y Creuddyn, cantref y Rhos (a elwir yn awr hefyd cantref y Creuddyn), ac undeb Conwy, swydd Gaernarfon. Ffurfia ran o wddf-dir neu benrhyn y Rhos, ac y mae ei safle o ddwy i dair milltir i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Gonwy. Nifer y boblogaeth, yn 1801, 387; yn 1851, 599; ac yn 1861, 674. Dichon mai agosrwydd y fro at dref gynnyddol Llandudno ydyw un o achosion cynnydd gwastadol poblogaeth y plwyf hwn; canys lleihau y mae nifer trigolion plwyfydd gwledig yn gyffredin trwy yr holl wlad. Yn yr hen amser, dosranid y plwyf yn ddwy o dref-gyrdd, sef Tre' Iorwerth, a Llanwyddan; ond o herwydd rhesymau cysylltiedig â'r degwm, fe'u hunwyd, ac erbyn hyn y mae yn anhawdd nodi allan gyda chywirdeb, derfynau y trefgyrdd henafol. Yn y flwyddyn 1803, codwyd yma 167*p.* 17*s.* 4*c.* o drethi, yn ol 7*s.* 10*c.* y bunt. Y gwerth ardrethol presennol ydyw 1787*p.* Erwau 1314, o ba rai y mae 64 yn orchuddiedig gan ddwfr. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Llanelwy, a'r Esgob ydyw y noddydd, yn ogystal a derbynydd cyfran o'r degwm. Y mae holl werth blyneddol y degwm yn 282*p.*; o hyn telir 145*p.* i'r Ficer, a'r gweddill i'r Esgob. Perthyna i'r fywioliaeth hefyd saith erw a chwarter o dir. Dichon mai nid hollol gywir ydyw dyweyd fod y degwm ei hun yn werth y swm a nodwyd, canys cyfoethogwyd y plwyf gyda 200*p.* o rodd Freninol, a 1000*p.* o waddol Seneddol. Saif yr Eglwys mewn dyffryn prydferth, ar yr ochr ddwyreiniol i fryniau y Creuddyn, a cherllaw i'r llinell derfyn rhwng sir-oedd Arfon a Dinbych. Cysylltir pwysigrwydd hanesyddol mawr â'r Eglwys hon, canys dywedir iddi gael ei hadeiladu ar safle Eglwys a seiliwyd yma gan Cystenyn Fendigaid. Ceisia rhai haneswyr wahaniaethu Cystenyn Fendigaid, a Chystenyn Gorneu; ond wedi gwneyd ymchwiliad lled ddyfal i ansawdd y gwahanol ddamcaniaethau, tueddir ni i gredu gyda Charnhuanawc, mai yr un a'r unrhyw berson oeddynt. Gordoir y traddodiad am sylfaeniad Eglwys yn y lle gan Cystenyn, gyda'r ansicrwydd tywyllaf. Noda amryw haneswyr y flwyddyn 330, fel adeg sylfaeniad yr Eglwys; ond ceir sicrwydd mai yn mhen agos i gan' mlynedd wedi hyny, yr anfonodd Aldwr, ei frawd Cystenyn Gorneu o Lydaw, i gynnorthwyo y Brytaniaid yn erbyn rhuthriadau mynych y Brithwyr. Y peth tebycaf o lawer ydyw, mai oddeutu y chweched ganrif yr adeiladwyd Eglwys gyntaf yn y lle hwn, yr un modd ag yn y mwyafrif o lanau ereill Cymru, ac i'r adeiladwyr defosiynol, ei chysegru i Gystenyn Fawr, fel arwydd o'u diolchgarwch am y gwasanaeth y cyfrifent ei fod wedi ei gyflawni i Gristionogaeth. Pa fodd bynag, y mae yn debyg ddarfod i ebrwywyr Llangystenyn, trwy gydol yr oesoedd tywyllion, lwyddo i wneyd cynhauaf toreithiog ar draul y traddodiad am sefydliad eu heglwys gan Cystenyn; canys gorchwyl hawdd oedd denu y boblach ofergoelus, i wneyd pererindodau i'r lle, ac i offrymu eu harian a'u da ar allor teml mor gysegredig. Bu yr Eglwys Rufeinig ddiwyd gyda'r ymgais i wireddu y traddodiad a nodwyd, canys mor ddiweddar ag amser Harri III. cawn y Pab yn nodi Llangystenyn, fel y lle mwyaf cyfaddas i'r teyrn hwnw ddyfod i ddwyn ei benyd, o herwydd rhyw drosedd a gyflawnasai yn erbyn ei Sancteiddrwydd. Ond ni ddaeth Harri ar bererindod penydiol i'r Creuddyn; canys efe a ganfyddodd lwybr hwylus i gael ymwared o'r gollfarn, trwy dalu i'r Pab ddirwy o 500 o ddarnau arian. Adgyweiriwyd yr Eglwys yn ddestlus, ddeg-ar-hugain, neu ddeugain mlynedd yn ol, pryd y tanysgrifiodd Esgob Llanelwy, a Chymdeithas Eglwysig yr Esgobaeth, gan' punt bob un, a'r Arglwyddes Mostyn Champneys, a'r Gymdeithas Gorphoriaethol 50*p.* yr un, tuagat yr achos. Ar y 4ydd o Fedi, 1623, testamentodd Lewis Owen, Yswain, fod i ddegymau ebrwyadol (*rectorial tithes*) plwyf Conwy, gael o hyny allan, eu rhanu yn gyfartal rhwng tlodion plwyfydd Llangystenyn, Conwy, Eglwys-y-Rhos, a Llandudno. Cyfran flyneddol Llangystenyn ar hyn o bryd, ydyw 14*p.*, a rhenir y swm yma, mewn arian a dillad, i'r tlodion bob Dydd Gwyl Domas. Medda tlodion y plwyf hwn hefyd hawl i gyfran o'r cig, yr haidd, a'r dillad, ag y mae perchenogion etifeddiaeth y Gloddaeth o dan rwymau ammod henafol i'w rhanu yn flyneddol yn mhlwyf Eglwys-y-Rhôs; ac yn ychwanegol at hyn eto, y mae iddynt ran o'r bara, y trefnodd yr un Lewis Owen, i'w olynwyr fel perchenogion Penrhos, Mon, ei ranu ar adegau arbenig.

Awgrymwyd eisoes fod sefyllfa y plwyf hwn yn un wir ddymunol. Llangystenyn sydd yn ffurfio yr agorfa i Ddyffryn clodfawr Conwy, a chyrhaedda at lanau dwyreiniol yr afon, megys i wylio ei harllwysiad i'r môr. Amgylchir ef ar y dwyrain, gan Landrillo-yn-Rhos, ar y de, gan Lansantffraid-Glan-Conwy; ar y gorllewin, gan Gonwy; ac ar y gogledd, gan Eglwys-y-Rhos. Oddiar uchelfanau y plwyf, ceir golygfeydd gwir addurnol. Ceir y gelltydd uchel, y maesydd ffrwythlon, a'r coedwigoedd aml-liwiog, wedi eu cydwau â'u gilydd, ac yn ffurfio amrywiaeth hynod darawiadol, mewn cylch nodedig o fychan, tra y gellir gweled rhediad dysglaer yr afon Gonwy, mor belled ag y dichon grym y llygaid weled yn effeithiol. Y mae mynyddau uchel Arfon, megys yn ymyl, a digon o wrthddrychau dyddorol ereill anian gyfoethog, i foddio y llygaid, i ba gyfeiriad bynag y dewisa yr edrychydd droi ei olygon. Ar ddiwrnod clir, sicrheir y gellir gweled cyfran o ddeuddeg o siroedd ar unwaith, oddiar ben Mynydd Pabo, ac y mae y lleoedd pellenig a welir felly, yn cynnwys Ynys Manaw, a gororau Cumberland. Ond nid traddodiadau henafol ei Eglwys, na chyfoethogrwydd amrywiol ei olygfeydd, ydyw unig gyfoeth plwyf Llangystenyn. Na, y mae yma gyfoeth o nodwedd fwy sylweddol, megys y calchgreigiau defnyddiol, ac yn mhlygion y rhai hyny drachefn, y mae plwm, efydd, &c. Gwneir defnydd ehelaeth o'r calchfeini eisoes; ond nid ydyw y mwnuron ereill erioed wedi cael eu dadblygu yn briodol, gan nad ymaflwyd ynddynt, hyd yma, gan neb ond anturiaethwyr cydmarol dlodion. Sicrha daearegwyr deallus, fod yma gyfoeth mwnurol tra gwerthfawr;

Digitized by Google

a gresyn na cheid modd i'w gloddio allan, er mwyn hyrwyddo bywiogrwydd masnachol y fro.

**LLANHAMLACH**, neu Llanammwlch, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth, a swydd Frycheiniog. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw yr afon Wysg, camlas Aberhonddu, a'r Ffordd "Julia Montana," o dan Fannau Brycheiniog, ac yn gyfagos i Reilffordd Henffordd a Brycheiniog, tair milltir a chwarter de-ddwyreiniol o Aberhonddu; ac y mae yn lle cynhaliad llys gwladol. Y mae y plwyf yn cynnwys hefyd is-bentref Llechfaen; ac y mae i'r lle lythyrfa, dan Aberhonddu. Erwau, 1867. Tiroedd, 1972*p*. Poblogaeth, 304. Tai, 68. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig nifer. Aeth y faenoriaeth a berthynai i Bernard Newmarch, i'r Wallbcoffees, ac yn awr y mae yn eiddo y teulu Powell. Peterstone ydyw palasdy C. Myers, Ysw. Y mae gweddillion cromlech, a elwid Ty Illtyd, yn Llys Manest. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawddogaeth y Parch. T. Powell. Ail adeiladwyd yr eglwys yn 1802, lle y mae yr hen dŵr yn aros, a berthynai i adeilad blaenorol, ac a gysgodir gan ywenau cauadfrig heirdd.

**LLANHARAN**, sydd blwyf yn nosparth Pen-y-bont, swydd Forganwg, gerllaw yr afon Ewenni, ar reilffordd y Deheubarth, 3 milltir gorllewin-ogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Llantrisant, a 7¼ gogledd-ddwyrain wrth ogledd o Ben-y-bont. Llythyrfa, yn Pont-y-Fon. Erwau, 3050. Gwerth ardrethol, 1835*p*. Poblogaeth, 299. Tai, 57. Nid yw y meddiant yn cael ei rannu ond rhwng ychydig nifer. Y prif balas yn y gymydogaeth yw *Llanharan House*. Saif y plwyf hwn dan lethr ddeheuol cadwyn o fryniau; ac y mae yn llawn o adnoddau mŵnyddol. Y mae glo, cerig calch, haiarn, a phlwm, yn cael eu cloddio yma. Y mae yn *Llanharan House*, gynnulliad o ysgrifau Cymreig, mewn llyfrgell, a ffurfid gan Llewelyn Sion, yr hwn ydoedd fardd enwog o Forganwg, yn y rhai y ceir nodiadau helaeth, yn egluro y trefniant barddol, a berthynai i Orsedd Morganwg, i'r hon yr oedd efe yn Llywydd yn 1580. Y mae y fywioliaeth, yn guradaeth barhaol mewn cysylltiad â pheriglorìaeth Llanilid, yn esgobaeth Llandaf. Y mae yr eglwys wedi ei hail-adeiladu yn 1860, ar gynllun cymeradwy, gyda thŵr. Y mae yma rai gwaddolion wedi eu gadael, er budd y trigolion.

**LLANHARRY**, plwyf yn nghantref y Bontfaen, Undeb Penybont-ar-Ogwy, esgobaeth Llandaf, swydd Forganwg, Deheudir Cymru; 4 milldir i'r gogledd o dref y Bontfaen, a 4 i'r de-orllewin o Lantrisaint. Ymddengys i'r lle hwn fod yn hynod goediog yr oesau aethant heibio, gan fod enwau amryw o Ammaethdai y plwyf yn awgrymu hyny, megys y Fforest, Coed Cynllwyn, Coed y fuwch, &c. Ammaethyddiaeth oedd prif orchwyl y trigolion am oesoedd lawer; ac y mae yn parhau felly etto i raddau; ond y mae yma lawer o ychwanegiad at hyny yn bresenol, gan fod anturiaethwyr wedi dyfod o hyd i haenau o fŵn haiarn, a glo rhagorol yn y plwyf. Mae y rhai hyny yn cael eu gweithio yn awr ar raddfa eang, yr hyn sydd wedi rhoi bywyd newydd yn y plwyf. Rhed dwy Reilffordd hefyd trwy ranau o'r plwyf hwn, sef Reilffordd Deheudir Cymru, ac eiddo Llantrisant a'r Bontfaen. Mae y plwyf yn 1300 erw o arwynebedd pris ardrethol 1382*p*.; poblogaeth yn 1861 oedd 275. Rectoriaeth yw y fywioliaeth Eglwysig, gwerth 120*p*. y flwyddyn. Mae capel gan yr Annibynwyr yn y plwyf, ac ysgol ddyddiol dda. Prif berchenogion tirol y plwyf, ydynt Iarll Dunraven, C. R. M. Talbot, A.S., arglwydd Dynevor; a J. S. Gibbon, Ysw., yr hwn yw arglwydd y faenor.

**LLANHENOG**, sydd blwyf ar lan afon Wysg, yn nghantref Brynbiga, undeb Casnewydd, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd Fynwy, Deheudir Cymru; 1¾ milldir i'r gogledd-ddwyrain o Gaerlleon-ar-Wysg, 5 o'r Casnewydd, 144 o Lundain. Saif mewn llanerch ddymunol, ar y ffordd rhwng Trefynwy a'r Casnewydd. Mae yr Eglwys blwyfol wedi ei chyssegru i Sant Pedr. Ail adeiladwyd hi yn y flwyddyn 1863; ac y mae iddi gorff, cangell, rhodfa ogleddol, a thwr, yn yr hwn y mae dwy gloch. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 70*p*. y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Llandaf. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1695. Mae dwy ysgol dda yn y plwyf, ar yr egwyddorion Cenedlaethol. Prif balas y lle yw *Glan Wysg House*, lle y preswylia Samuel Homphrey, Ysw., Y.H. Mesura y plwyf 1506 erw; pris ardrethol 1782*p*. Poblogaeth yn 1861 oedd 228.

**LLANHIDDEL** (Seisneg, Llanhilleth), sydd blwyf, yn nghantref Abergafenni, undeb, a dosparth llys sirol Pontypool, deoniaeth Abergafenni, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, tiriogaeth Caergaint, yn sir Fynwy, Deheudir Cymru. Saif hen Eglwys y plwyf tua 1½ milldir o orsaf cledrffordd Aber big, 5 i'r gogledd o Bontypool, a 173 o Lundain. Rhed Camlas a Chledrffordd sir Fynwy, a Chledrffordd y *Great Western*, trwy y plwyf hwn.

Mae yr Eglwys wedi ei chyssegru i Illtyd Sant, ac wedi ei hadeiladu ar fryn uchel, yn yr arddull Gothig, yn cynnwys corff, cangell, a thwr ysgwâr, ac ynddo ddwy gloch. Mae yn adeilad henafol, ac amryw goed yw hen iawn, yn addurno y fynwent. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1716. Rectoriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 140*p*. y flwyddyn, gyda phersondy, yn nawdd a rhodd Iarll Abergafenni.

*Aberbig* sydd bentref bychan yn y plwyf hwn, ac yn y pentref y mae gorsaf ar Gledrffordd y *Western Valleys*, lle yr una cangenau Glyn Ebbw, a'r Blaenau a'u gilydd, 4½ milldir i'r dê o'r Blaenau, 2¾ i'r gogledd o Crymlun, ac 8 i'r gogledd-orllewin o Bontypool. Mae amryw lofeydd yn y plwyf hwn, gyda *Foundry* haiarn, darllawdy eang, a melin ŷd fawr yn Aberbig.

*Crymlun*, sydd bentref arall yn rhanol yn y plwyf hwn, ac yn rhanol yn mhlwyf Mynydd Islwyn. Barna rhai haneswyr fod yr enw yn tarddu o'r gair Cromlech; ond mwy tebyg yw, i'r lle gael ei enw oddi wrth ffurf rhan o'r afon ger y fan.

Cyn gwneuthuriad cledrffyrdd, ychydig o son oedd am y lle hwn; ond bellach y mae wedi dyfod i gryn sylw, a miloedd lawer wedi ymweled a'r ardal o bob parth o'r byd, i edrych a'r un o brif ryfeddodau celfyddydol yr oes. Saif y lle hwn 12 milldir i'r gogledd o'r Casnewydd, 2¼ o Abercarn, 5 i'r gog.-orllewin o Bontypool, 10 i'r gogledd-ddwyrain o Gaerffili, a 171 o Lundain. Pan wnaed Cledrffordd rhwng Pontypool a Mynwent y Crynwyr, a elwid y *loop line* y pryd hwnw, (G.W.R. yn awr), gorfodwyd y cwmni i wneyd pont yn groes i gwm Ebbw, gan gydio dau fryn a'u gilydd. Buwyd dair blynedd a hanner yn ei hadeiladu. Pont haiarn ydyw, yn mesur 1658 troedfedd o hyd, ac iddi ddeg agoriad. Mae ei huchder yn 208 troedfedd. Defnyddiwyd

Digitized by Google

2500 o dunnelli o haiarn i'w gwneyd, a chostiodd 62,000*p*. Rhed afon Ebbw, a chledr-ffordd Glyn Ebbw, dan y bont ardderchog hon, a rhed llinell y *Great Western* drosti. Er pan adeiladwyd y bont, y mae y pentref wedi cynnyddu yn fawr, ac un gwaith pwysig wedi ei godi yn y lle, yr hwn a elwir *The Viaduct Works*. Cododd Mr. T. W. Kennard, adeiladydd y bont, balas gwych yn ei hymyl, a elwir *Crumlin Hall*, yr hwn a breswylir yn awr gan H. M. Kennard, Ysw., Y. H. Mae yma ddwy orsaf cledrffyrdd, un ar y *Great Western*, a'r llall ar y *Western Valleys*.

Mesura plwyf Llanhiddel 2013 erw, wedi ei ardrethu yn 6941*p*., a'r boblogaeth yn 1861 oedd 1020.

**LLANHOWEL**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd BENFRO, 4½ milltir gogledd ddwyrain wrth ddwyrain, o Dy-Ddewi, a 12 gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Erwau, 1381. Gwerth ardrethol, 1016*p*. Poblog. 184. Tai, 37. Llythyrfa yn Llandeloy. Y mae y meddianau rhwng amryw. Y mae sefyllfa y plwyf mewn lle hyfryd, yn nghanol y trwyn sydd yn ymestyn i *St. George's Channel*, a elwir Pen-Dewi. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llandeloy, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Howel, ac y mae mewn cyflwr da.

**LLANIDAN**, LLANAIDAN, neu LLAN-NIDAN, sydd blwyf ac is-ddosparth, yn nosparth Caernarfon, a swydd FON. Saif y plwyf ar derfyn culfor Menai, 4 milltir gogledd ogledd ddwyrain o Gaernarfon, a 4 milltir de dde orllewin o orsaf rheilffordd Llanfair. Cynnwysa bentref Brynsiencyn. Llythyrfa dan Fangor. Erwau 4645, o'r hyn y mae 384 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, gyda Llanfair-y-Cwmwd, 5187*p*. Poblogaeth, 1323. Tai, 319. Y mae meddiant y tiroedd yn rhanedig rhwng ychydig nifer. Plas Llanidan, preswylfod yr Arglwydd Boston, ydyw y prif balas yn y gymydogaeth. Y mae hynodion hanesyddol y plwyf hwn, yn ei wneyd, ar y cyfrif hwnw, y man pwysicaf yn yr ynys. Yma yr oedd un o brif-orsafoedd y Derwyddon, os nid y benaf oll. Yma y preswyliai yr arch-dderwydd, yr is-dderwyddon, beirdd, ofyddion, ac offeiriaid cyffredin yr urdd. Oddiwrth y sefydliad hwn y cafodd amryw fanau yn y lle, yr enwau a gedwir arnynt hyd y dydd hwn, megis Tre'r-Beirdd; Bodowyr, neu Bod-ofwyr; a Bod-drudau, neu Derwyddon; ac felly yn cynnwys preswylfa y tair gradd, sef y Beirdd, yr Ofyddion, a'r Derwyddon. Dywedir i Swetan, neu Suetonius, ddinystrio awdurdod y Derwyddon yn Mrydain, pan y glaniodd ef a'i fyddin yn Mhorthamel, yn agos i'r lle a elwir hyd y dydd hwn, yn Bont-yr-Ysgraffau, sef badau beision eu gwaelodau. O herwydd y gwrthryfel a godwyd dan Buddug, ni allodd y cadfridog Rhufeinig aros yma yn hir, ond gorfu arno ymadael, i gyfarfod y gwrthryfel hwnw, ac ni adawodd ond ychydig o olion o'i ymweliad yma ar ei ol; dim ond ychydig o fathodion, a ddarganfyddir, yn awr ac eilwaith, yn y gymydogaeth. Cloddir cerig calch mewn cyflawnder yma. Cedwir ffeiriau yn Mryn-siencyn Mawrth 11, Ebrill 14, Medi 13, Hydref 12, a Tachwedd 12. Y mae yma rai Cromlechau yn aros; un yn y Perthi-duon, 9 troedfedd o hyd, wrth 7 o led. Y mae ùn lai, mewn cadwraeth dda yn Bodowyr. Y mae cylchau agored fel ffôs, yn Gwydryn, a Chastell Idris. Y mae olion eang yn hen orsaf enwog Caerleb yn aros, a ffordd Rufeinig yn rhedeg heibio yno hyd y Fenai. Y mae Maen Morddwyd yn wrthddrych o hynodrwydd mawr; ac er ys amser maith, priodolir llawer o wyrthiau, a swynion iddo. Crybwyllir am dano gan Giraldus Cambrensis, yn ei Amdeithiau. Glaniodd Agricola, neu Grigyll, yma ar ol Swetan, ac a wnaeth ddifrod mawr ar y Derwyddon. Gan y manylir ar yr amgylchiadau mewn rhanau eraill o'r gwaith hwn, ni chaniata gofod ond cyfeiriad atynt yn unig yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaethau parhaol Llanedwen, Llanddeiniol-Fab, a Llanfair-y-Cwmwd, yn esgobaeth Bangor; gwerth 292*p*., ac yn nawddogaeth Arglwydd Boston. Saif yr eglwys yn agos i Frynsiencyn; ac oedd yr hen un wreiddiol, a gysegrwyd i St. Aidan, neu St. Nidan, yn sefyll yn agos i Blas-Llanidan. Yr oedd yn perthyn i Briordy Beddgelert; ac a ollyngwyd yn adfeiliau, fel nad oedd modd ei hadgyweirio. Yr oedd yr enwog Rowlands, yr Henafiaethydd, awdwr y Mona Antiqua, yn ei ddydd, yn ficar y plwyf hwn. Yma y preswyliai Williams, goruchwyliwr mwnau Mynydd Paris, yn ei amser. Cynnwysa yr is-ddosparth hefyd, bedwar plwyf arall. Erwau, 19,199. Poblogaeth, 3313. Tai, 807.

**LLANIDLOES**, sydd dref, plwyf, dau is-ddosparth, a chantref, yn swydd DREFALDWYN. Saif y dref ar yr afon Hafren, ar ymarllwysiad y Glywedog, a cherllaw rheilffordd Canolbarth Cymru, yn nghysswllt y llinellau sydd yn cyfeirio tua Buallt, a Llanbedr, yn nghanol nifer o fryniau ar bob llaw, 11 milltir dwyreiniol o Blumlumon, a 19 de orllewin o Drefaldwyn. Cynnwysa ddwy brif heolydd yn croesi eu gilydd, ac amryw is-heolydd. Yr oedd y tai gynt, gan mwyaf, wedi eu cysylltu o goed, ond y maent wedi eu hadgyweirio, a'u hadeiladu â defnyddiau parhaol, er yn ddiweddar. Arddengys y lle yn awr olygfa hardd a llwyddianus. Y mae y lle yn gyrchfa teithwyr ac ymwelwyr yn yr haf, o blegid yr afonydd sydd gerllaw, a'r cyfleusderau sydd yma er esgyn i grib Plumlumon. Y mae yma Brif-lythyrfa; gorsaf rheilffordd, gyda phellebyr; tair o uchel-westdai, dwy bont dros yr Hafren, llys-dy, eglwys, a phedwar o gapeli Ymneillduol, ac ysgol wladwriaethol; a gwaddolion o 53*p*. yn flyneddol. Y mae un o'r pontydd dros yr Hafren yn adeilad gadarn, gyda thri bwa-maen ac wedi ei chodi ar draul o dros 3000*p*. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Idloes; ac a ail-adeiladwyd tu a'r flwyddyn 1600; bernir fod y twr yn perthyn i adeilad blaenorol; y mae yn un o'r adeiladau prydferthaf yn y dywysogaeth. Tybir fod amryw o'r addurniadau, wedi cael eu dwyn yma o adfeiliau hen fonachlog Abad-dy-Cwm-Hir. Y mae yma farchnad wythnosol, yn cael ei chynal ar y Sadwrn; a chynnelir ffair yma ar y Sadwrn blaenorol i'r dydd Mawrth diweddaf yn mhob mis. Y mae gwaith gwlan, yn cael ei ddwyn yn mlaen yma, ar raddfa lled helaeth. Y mae cloddfeydd meini adeiladu, a llechi yn y gymydogaeth. Cafodd y dref ei chofrestru yn amser Iorwerth III., gan arglwyddi Powys; derbyniodd freinlen wedi hyny oddiwrth Harri VIII.; ac y mae yn cael ei llywodraethu yn awr, dan y weithred newydd, gan faer, pedwar henuriad, a deuddeg o gynghorwyr. Y mae y lle yn uno gyda Threfaldwyn, Machynllaith, Llanfyllin, Drefnewydd, a Thrallwng, yn anfoniad aelod i'r senedd. Y mae yma lysoedd gwladol, ac etholfa. Poblogaeth yn 1851, 3045; yn 1861, 3127. Tai, 732. Y mae yma olygfeydd prydferth drwy yr holl gymydogaeth, ac yn enwedig, ar ffordd Aberystwyth.

Digitized by Google

Y mae yr olygfa o Ddol-Llys yn hynod o swynol. Y mae Llyn-Ebyr, o fewn tua dwy filltir i'r dref, ger y ffordd at Dref-eglwys, yn gorchuddio dros gan erw, ac yn llawn o'r pysgod mwyaf dewisol. Yn y gymydogaeth hon, y mae un o fynyddoedd uwchaf y dywysogaeth, a elwir Plum-lumon, neu yn hytrach, Pum-lumon, oddiwrth y pum pegwn sydd yn codi oddiar ei goppa. Y mae yn derbyn ei brif enwogrwydd, oddiwrth y ffaith, mai oddiar ei lechweddi y cychwyna yr afonydd mawrion, yr Hafren, yr Wy, y Rheidiol, a'r Llyfnant. Y mae y plwyf yn cael ei ranu i ddau ddosparth, sef yr uwchaf a'r isaf; ac y mae rhan o'r naill a'r llall, o fewn terfynau y fwrdeisdref; ac y mae yn cynwys trefgorddau, Brithdir, Croes-lwybr, Glynhafren, Hengynwythfach, Manleth, Treflyn, Ystradynod, a Chilmachallt. Erwau, 15,790. Gwerth ardrethol 12,262*p.*, o'r hyn y mae 343*p.* mewn mwnau; 2000*p.* mewn rheilffyrdd, a 50*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 4604; yn 1861, 3987. Tai, 867. Poblogaeth y dosparth isaf yn 1861, 1965; a'r dosparth uwchaf, 2022. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 220*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Bangor.

**LLANIESTYN**, sydd blwyf yn nosparth Bangor, a swydd FON, yn agos i'r Traeth-coch, 3 milltir gogledd orllewin o Biwmares, a 7 milldir gogledd ddwyrain wrth ogledd o orsaf rheilffordd Llanfair. Llythyrfa, dan Biwmares. Erwau, 1663. Gwerth ardrethol, 1363*p.* Poblogaeth, 212. Tai, 42. Y mae meddiant y tiroedd rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llangoed, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Iestyn; ac y mae wedi ei chodi ar y lle y buasai un flaenorol, a berthynai i briordy Llanfaes; ar y cynllun Seisnig boreuol. Y mae yma fedyddfaen o'r deuddegfed canrif; a llech gerfiedig o'r bedwaredd ar ddeg; a dybir ei bod yn goffadwriaethol am St. Iestyn; mewn gwisg offeiriadol, gyda ffon-fugeiliol yn ei law ddehau, a llen agored yn yr aswy; a gwregys am ei lwynau, o ddull urdd St. Francis. Ar y llen y mae cerfiad aneglur, yr hwn a farnai yr Anr. Daines Barrington, am yr hyn y cydolygai Pennant, mai fel y canlyn yr oedd, HIC JACET SANTTUS YESTINUS, CUI GWENLLIAN, FILIA MADOC ET GRYFFYT AP GWILYM, OPTULIT IN OBLACOEM ISTAM IMAGINEM P. SALUTE ANIMARUM S. Y mae yr argraph, erbyn hyn, yn annarllenadwy, gydag ychydig eithrad. Y mae yma ychydig o waddolion er budd y tlodion.

**LLANIESTYN**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Pwllheli, swydd GAERNARFON. Saif y pentref yn nherfyn Lleyn, dan Garn Fadryn, 7½ milltir gorllewin wrth dde o orsaf rheilffordd Pwllheli, a 6 de-dde-orllewin o Nefyn. Llythyrfa, dan Bwllheli. Cynnwysa y plwyf eang hwn, 4256 o erwau. Gwerth ardrethol, 3896*p.* Poblogaeth, 1012. Tai, 242. Y mae y meddianau rhwng ychydig o bersonau. Y mae Carn Fadryn yn fynydd o 1200 o droedfeddi o uchder, ar goryn yr hwn y mae gweddillion hen wersyllfa, yr hon a berthynai i Rodri, a Maelgwn, meibion Owain Gwynedd, i'r rhai yr oedd y parthau hyn yn feddiant. Cefn-amlwch ydyw y prif balas yn y plwyf hwn. Y mae mwn plwm o fewn y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llandegwning, yn esgobaeth Bangor; ac yr oedd yn unedig â Phenllech, hyd 1868. Gwerth 595*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Bangor.

**LLANIGON**, sydd is-bentref, a phlwyf yn nosparth y Gelli, swydd FRYCHEINIOG. Saif y pentref yn agos i'r afon Wy, a rheilffordd Henffordd ac Aberhonddu, ar derfyn swydd Henffordd, a'r Mynyddau duon, 2 filltir de-dde-orllewin o'r Gelli. Gwerth ardrethol, 3459*p.* Poblogaeth, 429. Tai, 91. Y mae y meddianau yn cael eu rhanu rhwng lluaws. Yr oedd Llanigon House, neu Llan-Thomas, yn perthyn i Iarll Ferres gynt, ond yn awr i deulu Gwynne. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys is-bentref Glynfach, gyda llythyrfa yn y Gelli, dan Henffordd. Erwau, 9256. Gwerth ardrethol, 3810*p.* Poblogaeth, 484. Tai, 104. Y mae Penarlywydd yn awr yn amaethdy; y lle a adeiladwyd ar y cyntaf yn 1651, gan William Watkins, pleidiwr gwresog, a swyddwr yn myddin Siarl I. Bu yn offerynol i ledaenu yr efengyl mewn amryw barthau o'r Deheudir. Yr oedd ganddo gynnulliad o lurugau yn ei balas, y rhai a gadwyd yno hyd tua chanol y ganrif ddiweddaf. Y mae y golygfeydd a geir o'r gymydogaeth hon ar y terfynau, yn ardderchog iawn. Cloddir mwn plwm o fewn y plwyf. Y mae y gledrffordd o Aberhonddu i'r Gelli, yn rhedeg o fewn tua milltir i'r pentref. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 202*p.*, ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i St. Eigon. Y mae yma elusenau gwaddol i'r tlodion, o ddeg punt yn y flwyddyn, ac y mae y plwyf mewn hawl o ran o elusenau Powel, yn Aberhonddu.

**LLANILAR**, sydd blwyf yn nosparth Aberystwyth, swydd ABERTEIFI; gerllaw yr afon Ystwyth, yn agos i reilffordd Aberystwyth, Tregaron, Llanbedr, a Chaerfyrddin, 5½ milltir de ddwyrain o Aberystwyth. Y mae yn cynnwys dwy drefgordd, Llanilar-Uchaf, a Llanilar-Isaf; ac y mae gorsaf yn perthyn i'r lle ar y rheilffordd. Llythyrfa, dan Aberystwyth. Erwau, 6403. Gwerth ardrethol, 3834*p.* Poblogaeth, 947. Tai, 189. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. *Birch-Grove*, palas Arglwydd Vaughan, a *Castle Hill*, preswylfod y teulu Williams, ydyw y prif anneddau yn y gymydogaeth. Cynnelir ffeiriau yma, Mawrth 14; Mai 13; Gorphenaf 8; a Thachwedd 14. Gadawodd Richard Jones, o St. Clement Danes, Llundain, 300*p.*, tu ag at gynal chwech o fechgyn, a chwech o enethod, mewn ysgol Seisonig, yn y plwyf hwn. Y mae yma rai gwaddolion er budd i dlodion y gymydogaeth. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 95*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Hilary. Y mae yma addoldy tra chyfleus gan y Trefnyddion Calfinaidd.

**LLANILID**, sydd blwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont-ar-Ogwy, dosparth llys sirol Penybont, a'r Bontfaen, swydd FORGANWG, deoniaeth Gronedd, esgobaeth Llandaf; 5 milldir i'r gogledd o'r Bontfaen, 1 o orsaf cledrffordd Pencoed, G. W. R. Ychydig ffordd oddi wrth yr Eglwys, y mae man a elwir Y Gaer, a bernir iddi fod unwaith yn orsaf filwrol; ond nid oes hanes am ei hadeiladiad, na'i phreswyliad. Mae yr eglwys wedi ei chysegru i goffadwriaeth Ilid Sant; ac y mae yr olwg arni yn dra henafol. Perigloriaeth yw y fywioliaeth Eglwysig, wedi ei huno a Churadiaeth Llanharan, yn gydwerth a 253*p.* y flwyddyn. Rhif y trigolion yn 1861 oedd 150, y rhai ydynt amaethwyr gan mwyaf. Mae tir y plwyf yn dra ffrwythlawn, fel eiddo Bro Morganwg yn gyffredinol.

Digitized by Google

**LLANILLTEYRNE**, sydd Gapeliaeth Eglwysig, perthynol i St. Ffagan, yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, esgobaeth Llandaf, ar y brif ffordd rhwng Caerdydd a Llantrisaint, swydd FORGANWG. Mesura y Gapeliaeth 1062 erw, pris ardrethol 981*p*. Poblogaeth yn 1861 oedd 150. Amaethyddiaeth yw y prif orchwyl a ddygir yn mlaen yn y rhan hon o'r plwyf, fel yn y rhan arall, ac y mae y tir yn dra ffrwythlon a chynnyrchiol; a cheir yn y gapeliaeth, olygfeydd tra swynol, ar Fro Morganwg, wrth edrych i gyfeiriad deheuol.

**LLANILLTYD.** Gwel ILSTON.

**LLANILLTYD FAERDREF**, plwyf yn nghantref Meisgyn, undeb a dosparth llys sirol Pontypridd, esgobaeth Llandaf, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, tua thair milldir i'r De o Bontypridd. Cynnwysa y plwyf 5311 erw o arwynebedd, yn yr hwn y mae cyflawnder o lô rhagorol; ac a weithir ar raddfa helaeth, mewn gwahanol ranau o'r plwyf. Mae y plwyf yn sefyll ar du gorllewinol afon Taf, ac yn cynnwys amrywiol weithfeydd haiarn, Tin, &c., y rhai a ddygir yn mlaen gyda chryn fywiogrwydd yn Nhrefforest, ger Pontypridd. Poblogaeth yn 1861 oedd 4415; ac yn 1871, yn 5024.

**LLANILLTYD FAWR.** Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, esgobaeth Llandaf, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; 5 milldir i'r De o'r Bontfaen. Mae hwn yn lle henafol iawn, a'i hanes yn bwysig a dyddorol mewn cyssylltiad ag addysg a chrefydd yn ein gwlad. Saif y pentref tua milldir oddi wrth for Hafren, yn Mro Morganwg. Dywed rhai haneswyr, i Eurgain merch Caradog ab Bran, sefydlu Cor yma i 24 o saint yn y canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol: a bod y rhai hyny yn myned i bregethu yr Efengyl i'r Cymry, i bob cyfeiriad; ac i lawer o'r genedl gael eu troi i'r ffydd trwy offerynoliaeth Saint Cor Eurgain. Dywedir hefyd i Lles ab Coel, sef y brenin Lleurwg, roddi llawer o gyfoeth at gynnal Saint y Cor hwn, (gwel *Ecc. Ant.* p. 211). Er fod rhai haneswyr yn ammeu yr uchod, cydunant ddarfod i Athrofa Grefyddol gael ei sefydlu yma mor fore a'r flwyddyn 388, neu o hyny i'r flwyddyn 395 B.A. sef o'r amser y cafodd Maximus ei ladd, i'r pryd y bu farw Theodosius. Sylfaenydd y Fangor hono oedd yr Ymherawdwr Theodosius, yr hwn a enwid gan y Cymry yn Dewdws; a'r sefydliad a alwent Cor Tewdws. Enw y lle cyn hyny oedd Caerworgorn. Arolygydd ac athraw Cor Tewdws, oedd Balerus, yr hwn oedd wr dysgedig o Rufain. Canlynwyd ef gan Padrig ab Mawon; yr hwn yn ol rhai, oedd enedigol o ardal Casllwchwr. Tra yr oedd Padrig yn athraw y sefydliad, ymosodwyd ar y lle yn ffyrnig, gan fintai o yspeilwyr Gwyddelig; y rhai a ddinystriasant y lle, yspeiliasant yr eiddo, a chymmerasant Padrig yn garcharor i'r Iwerddon.

Bu y lle yn adfeilion am tua chan mlynedd ar ol y dinystr a wnaed arno gan y Gwyddelod: ond wedi i Garmon ddyfod drosodd o Lydaw i'r wlad hon, i ostegu cyfeiliornadau y Morganiaid, efe a adgyweiriodd y lle, tua'r flwyddyn 450. Wedi cael adeilad cyfleus i gadw athrofa yn y lle, cyssegrwyd Illtyd, nai Garmon, yn ben athraw, gan Dyfrig esgob Llandaf, a Garmon Sant: ac oddi wrth enw Illtyd, cafodd y lle ei enwi yn Gôr Illtyd, Bangor Illtyd, a Llan Illtyd Fawr. Gwr o Lydaw yn Ffrainge oedd Illtyd, a dywed haneswyr iddo fod yn athraw yn mhrif ysgol Llanilltyd am fwy nag hanner can' mlynedd. Tra y bu ef byw, daeth y sefydliad ar gynnydd mewn bri a phwysigrwydd, fel yr ystyrid y lle yn brif athrofa Prydain, os nad oedd yn brif athrofa Ewrob. Gellir ffurfio rhyw feddylddrych am faint ac urddas y lle yn amser Illtyd, pan ystyrir fod nifer yr efrydwyr yn Ddwy Fil o rif, yn preswylio mewn 400 o anneddau, a saith Neuadd. Enwau y Neuaddau oeddynt yr hyn a ganlyn:—1. Neuadd Eurgain; 2. Neuadd Arthur; 3. Tair Neuadd Illtyd; 4. Neuadd Gildas; 5. Neuadd Dyfrig.

Yr oedd gwasanaeth crefyddol yn cael ei gynnal yn yr Eglwys yn ddidor ddydd a nos, yr amser gynt; a dywed hanesiaeth fod cant o'r efrydwyr yn gwasanaethu ar eu tro, ac yn newid eu gilydd bob awr; yr hyn a wna eu nifer yn 2400. Dywed Llyfr Syr Edward Stradling, o Gastell St. Donatts, fod ar yr un adeg yn yr Athrofa hon, feibion i saith o frenhinoedd Prydain, yn derbyn addysg. Nid oedd yr addysg a gyfrenid yma yn gyfyngedig i dduwinyddiaeth, ond dysgid Gwladlywiaeth, Amaethyddiaeth, a Chelfyddyd, yma hefyd.

Dywed Llyfr Llandâf, tudalen 298, fod Abbadau Llanilltyd Fawr, mewn cymmaint bri yn Rhufain, fel y caniateid iddynt eistedd yn Nghadair Pedr. Er fod y Fangor mewn enw yn israddol i Landaf, a bod esgob Llandaf yn talu ymweliad achlysurol a'r lle, i edrych ansawdd yr efrydwyr, &c.; y mae yn amlwg fod prif Abbad Llanilltyd yn meddu agos, os nad llawn cymmaint o awdurdod eglwysig a'r esgob ei hun. Yn y flwyddyn 560, cynnaliwyd cymmanfa yn Llanilltyd, er ffurfio amodau heddwch rhwng Morgan Mwynfawr, a'i ewythr Triog. Yr oedd yn bresenol yn y cynghor hwnw, Eudaf esgob Llandaf; Congen, Abbad Llancarfan; Sulgen, Abbad Docunnus; a Chatgan, Abbad Llanilltyd; yr hwn oedd y prif weithredydd. Efe hefyd oedd y cofnodydd yn Nghymmanfa Llandaf, pan urddwyd Eudaf (*Odoceus*) yn esgob. Yr oedd palas gan frenhinoedd Morganwg yn Boverton, yn agos i Lanilltyd, ac yr oeddynt y naill ar ol y llall, yn noddwyr ffyddlon i'r athrofa, hyd amser Iestyn ab Gwrgan; yr hwn oedd yn preswylio yn y palas a nodwyd yn y flwyddyn 1080.

Dyma enwau rhai o Abbadau Llanilltyd, yn ol *Horæ Britannicæ* (vol. ii. p. 355):—1. Illtyd; 2. Prio; 3. Ifan; 4. Cennydd; 5. Samson; 6. Gwrthafer; 7. Congers; 8. Elfod; 9. Tomre; 10. Gwrhafel; 11. Nudd; 12. Elifer; 13. Segin; 14. Camelawg; 15. Bledri: a lluaws ereill na ellid darllen eu henwau yn yr hen ysgrif lle y cafwyd y rhai hyn. Rhoddwn yma etto enwau ychydig o'r prif ddynion a dderbyniasant eu haddysg yn yr athrofa hyglodus hon:—1. Gildas yr hanesydd; 2. Dewi Sant; 3. Pawl Hen (*Paulinus*); 4. Samson, wedi hyny esgob Dôle yn Ffrainge; 5. Talhaiarn; 6. Taliesin Ben beirdd; 7. Madog Morfryn, yr hwn oedd athraw; 8, 9. Caf, a Nudd, dan fab i dywysog gogleddol; 10. Padarn; 11. Amwn Ddu ab Emyr Llydaw; 12. Gwyndaf Hen; 13. Brawd Gwyndaf Hen: yr hwn a wnaed yn offeiriad teulu; 14. Lleuddad; 15. Llonio Lawhir; 16. a Llynfab, meibion Alan; 17. Gigrad; 18. Selyf; 19. Cyngar; 20. Iestyn; 21. a Cado; tri mab Geraint ab Erbin; 22. Elfin ab Gwyddno; 23. Teon; 24. a'i fab Tagonwy; 25, 26. Samson a Dathan, meibion Amwn Dau; 27. Maglorius, nai Amwn Ddu, a chanlynydd Samson i esgobaeth Dole yn Llydaw; 28. Paulus, yr hwn a bennodwyd yn esgob Leon; 29. Isan; 30. Meugan ab Gwyndaf Hen; 31. Cawrdaf ab Caradog

Digitized by Google

Freichfras; 32. Usteg ab Geraint ab Grannog, yr hwn oedd Ddeon yn yr Athrofa; 33. Eldad, brawd Usteg; 34. ac Eldad ab Arth.

Cyn y Gorchfygiad Normanaidd, hon oedd Prif Athrofa Ynys Prydain, fel ag y mae Rhydychain yn bresenol; a pharhaodd yn ei bri am tua 600 mlynedd. Wedi i Robert Fitzhamon orchfygu Morganwg yn 1091, cafodd y rhoddion a arferid eu cyflwyno at gynnal yr Athrofa hon, eu trosglwyddo at wasanaeth Mynachlog Tewkesbury; ac er i'r ysgol gael ei chario yn mlaen am beth amser ar ol hyny, ni fu nemawr lewyrch ar y lle byth mwy. Pan yspeiliodd y brenin Harri VIII. y Crefydd-dai, tua'r flwyddyn 1541, goddefodd Llanilltyd ei rhan fel lleoedd ereill: a throsglwyddwyd yr ychydig gyllid a feddai, at wasanaeth Eglwys Gadeiriol Caerloyw. (*Hor. Brit.* vol. ii. p. 225.)

Mae llawer iawn o weddillion yr hen adeiladau i'w gweled yma yn bresenol; yn nghyda lluaws o gofgolofnau, a beddfeini hynod iawn. Y tu cefn i'r fynwent, y mae gweddillion hen adeiladau yr Athrofa, i'w gweled yn amlwg; ac mewn cae gerllaw, y mae y Neuadd Ddegwm, a adeiladwyd gan Gilbert De Clare, yn fuan ar ol y Gorchfygiad Normanaidd. Yr Hen Eglwys hefyd sydd adeilad adfeiliedig, yn mesur 69 troedfedd o hyd; a Chapel y Forwyn, yr hwn sydd 40 troedfedd o hyd. Ail adeiladwyd yr Eglwys a elwir Eglwys Illtyd, gan Richard Nevill, Iarll Warwick, ac arglwydd Morganwg, yn nheyrnasiad Harri VI. Mesuriad yr Eglwys hon, yw 98 troedfedd o hyd, a 53 o led; yn cynnwys corph, cangell, rhodfeydd, a thŵr, yn yr hwn y mae chwech cloch bersain.

Mae amryw gofgolofnau henafol iawn yn yr Eglwys hon; ac yn y fynwent, y mae rhai o'r beddfeini henaf yn y deyrnas. Y tu cefn i'r Eglwys, y mae "Croes Illtyd," ac arni yn gerfiedig:—"CRUX ILLTUTI, SAMSON REDIS, SAMUEL EQUISOR: SAMSON POSUIT HANC CRUCEM PRO ANIMA EJUS." Hyny yw, Croes Illtyd, yr hon a godwyd gan Samson, ac a gerfiwyd gan Samuel. Mae y Groes hon yma er y chweched ganrif. Ei huchder o wyneb y ddaiar, yw 6 troedfedd a thair modfedd: a'i lled yn y bôn, yn ddwy droedfedd a chwe' modfedd; ac yn culhau tuag i fyny, nes yw ond 22 modfedd o led yn y pen uchaf.

Yn ymyl porth yr eglwys, ac yn pwyso yn erbyn y mur, y mae *Croes Samson*, yr hon sydd yn 9 troedfedd o uchder, 2 droedfedd a 4 modfedd o led yn y bôn, a 19 modfedd yn y pen uchaf; a 4½ modfedd o drwch. Bu hon yn gladdedig yn y ddaiar am amser maith; ac y mae hanes ei darganfyddiad fel y canlyn:—Tua'r flwyddyn 1758, pan oedd Iolo Morganwg tua 14 oed, darfu i hen wr o'r enw Richard Punter, o Lanfaes, yr hwn oedd tua 80 oed, nodi man yn y fynwent, gan ddweyd wrth Iolo, ei fod wedi clywed traddodiad, fod careg yn y ddaiar y fan hono, yn cynnwys coffadwriaeth am ddau frenin. Y traddodiad oedd, fod dyn ieuanc yn byw yn y gymydogaeth cyn cof gan neb oedd yn fyw y pryd hwnw (1758), a elwid *Wil y Cawr*, a'i fod yn saith troedfedd o daldra pan yn 17 oed. Pan ar ei wely angeu, dymunodd am gael ei gladdu yn ymyl y Groes ger y Porth. Pan aed i'w gladdu, gan fod ei arch mor fawr, gorfu iddynt wrth agor ei fedd, dynu y pridd dan rai o'r beddfeini cyfagos; ac wrth roi yr arch yn y bedd, llithrodd y ddaiar dan y Groes a nodwyd, a llithrodd hithau i'r bedd ar ol yr arch: ac yn hytrach na myned i'r drafferth o'i chodi, claddwyd hi yn y fan. Yr oedd yr hyn a glywodd Iolo am y gareg hon yn gwibio i'w feddwl yn aml: ac un diwrnod, yn y flwyddyn 1789, tra yr oedd trigolion yr ardal yn brysur gyda'r cynhauaf Medi, aeth i gloddio y fan, i chwilio am y trysor cuddiedig, ac er ei fawr lawenydd, daeth o hyd i'r gareg. Wedi cael cymmorth, codwyd hi i fyny, a bu yn gorwedd yn y fynwent hyd Awst 28, 1793; pryd y cafodd Iolo gymmorth drachefn i'w gosod yn y man ei gwelir yn bresenol. Mae darlun cerfiedig o'r Groes hon yn yr Iolo MSS. Y cerfiad sydd ar y groes sydd mewn hen Ladin fel y canlyn:—"*In nomine di summi incipit crux salvatoris quae preparuit Samsoni Apati pro anima sua et pro anima Iuthahelo rex et Artmali tecani.*" Cyfieithad o'r hyn yn ol Taliesin ab Iolo, yw:—"Yn enw'r Duw Goruchaf, yma dechreua Croes y Gwaredwr, yr hon a gododd Samson Abbad dros ei enaid ei hun, ac eneidiau Ithael Frenin, ac Arthfael y Deon."

Ymddengys fod y gareg hynod hon wedi ei chladdu cyn amser Camden, (1580), oblegyd y mae yr argraff sydd ar y prif feini ereill yn y lle, megys Croes Rhys, Croes Illtyd, &c., wedi eu cyfodi i'w lyfr ef; tra nad oes yno son am Groes Samson.

Mae meini o gryn ddyddordeb yn y fynwent hon heb law y croesau a nodwyd; o'r cyfryw, nodwn ychydig. Ar un y cawn goffadwriaeth am Mathew Voss, yr hwn a gladdwyd yma yn y flwyddyn 1584, yn 129 oed. Maen arall sydd ar ffurf arch, a thwll yn y pen uchaf iddo, yn cynnwys rhai cerfiadau o arddull Rhufeinig; ac ar y maen y mae yn gerfiedig:—"*Ne patra calcetur que sub-jacit istatuctur.*" Ar faen arall, mae delw dyn yn ei faint, fel pe yn y weithred o addoli: ac ar bob tu i'r cerflun, y mae yr argraff canlynol:—"*Willm. Rhchllo gyt ici Deu de sa alme cyt merci.*" O fewn cangell yr Eglwys y mae maen mawr wedi ei gerfio, fel ag i ffurfio 12 twll ceuol o'i fewn; yn y rhai, medd traddodiad, y cedwid deuddeg delw, yn cynrychioli y deuddeg Apostol, yn yr oesoedd gynt; a dywedir i'r delwau gael eu claddu yn Nghapel y Forwyn, er mwyn eu dyogelu yn yr 17 ganrif: ac y mae llawer wedi bod yn chwilio am danynt yn aflwyddiannus. Yn y *vestry* y mae delw gawraidd o'r Tywysog Richard Hopkin, yn null-wisg amser Harri VIII.; yn nghydag amryw feini ereill gwerth sylw.

Ym mhlwyf Llanilltyd y saif pentref Boverton; yr hwn yn ddiamheu oedd yr orsaf Rufeinig a elwid *Bovium* gan Antoninus. Mae llawer o arian bathol Rhufeinig wedi ei darganfod yma o bryd i bryd, wrth aredig, cloddio, &c.; yr hyn sydd brawf fod gorsaf Rufeinig wedi bod yma: ac y mae yr hen Heol Rufeinig, *Julia Strata* yn myned heibio y lle, ac o fewn ychydig iddo.

Mae yn y pentref addoldai gan yr Annibynwyr, Bedyddwyr, Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaid.

Oddi ar pan agorwyd y Gledrffordd o Lantrisaint i'r Bontfaen, yn 1865, a thrwy hyny roddi cyfleustra i drigolion y gweithfeydd i fynychu i'r lle, y mae llawer iawn o ymwelwyr yn y pentref bob haf, am fod ymdrochle da o fewn ychydig iddo.

**LLANILLTYD NEDD** (*Lantwit-juxta-Neath*), sydd blwyf gwasgaredig, yn nghantref ac undeb Castell Nedd, esgobaeth Llandaf, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Saif Eglwys y plwyf yn Nyffryn Nedd, tua milldir o dref Castellnedd. Mae wedi ei hadeiladu yn yr arddull Seisnig henafol, yn cynnwys corph, cangell, porth, a thwr petryal, yn yr hwn y

Digitized by Google

mae dwy gloch. Mae mynwent eang iawn yn perthyn i'r Eglwys, lle y mae cannoedd o drigolion Castell-nedd wedi eu claddu; ac addurnir eu beddau a meini prydferth. Mae yr Eglwys hon yn perthyn i'r dosparth henaf; a bernir iddi gael ei sylfaenu gan Illtyd Sant, athraw Coleg Llanilltyd Fawr, yn y 6fed ganrif. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, wedi ei chyssylltu ag eiddo Castellnedd; yn rhodd Ardalydd Bute, ac yn cael ei dal yn bresenol gan y Parch. John Griffith, A.C. Cynnelir y gwasanaeth yn Gymraeg yn yr Eglwys hon. Trefgordd yn y plwyf hwn yw Resolven, lle y mae pentref poblogaidd, a Gorsaf ar Gledrffordd Cwm Nedd. Mae yn y pentref hwn Eglwys hefyd, wedi ei hadeiladu o bridd-feini, yn yr arddull Gothig, yn cynnwys corph, cangell, porth, a chlochle, gyda dwy gloch. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, yn rhodd Ardalydd Bute; ac yn cael ei dal gan y Parch. D. Griffiths, A.C., yr hwn sydd yn ficer Eglwys Glyn Corrwg hefyd.

Mesura y plwyf 7060 o erwi, o'r rhai y mae 4560 yn mharsel Resolfen. Poblogaeth Resolfen yn 1861, oedd 762; amcan gyfrif yr ardreth, 4268*p.*; gwerth trethadwy, 3864*p.*

**LLANINA**, sydd is-bentref a phlwyf, yn nosparth Aberaeron, swydd ABERTEIFI. Y mae yr is-bentref yn sefyll gerllaw beisfor y Cei-newydd, 4¼ milltir de orllewin o Aberaeron, a 14 gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanbedr. Poblogaeth, 259. Tai, 58. Y mae y plwyf yn cynnwys hefyd, gyfran o Cydplwyf; ac y mae y llythyrfa yn Llanarth, dan Gaerfyrddin. Erwau 1998, o'r hyn y mae 133 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1057*p.* Poblogaeth, 498. Tai, 118. Ychydig yw nifer y meddianwyr. Y mae y faenoriaeth yn perthyn i deulu Gwynn o Moel-Ifor. *Llanina House* ydyw y prif balas. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llanarth, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Ina, yr hwn ydoedd frenhin y Sacsoniaid gorllewinol, ond a roddodd ei deyrnas i fynu i'w garenydd Ethelred, ac a drodd at fywyd crefyddol, ac a aeth ar bererindod i Rufain. Treuliodd ei fywyd mewn neillduedd hyd ei ddiwedd, a chanonwyd ef wedi ei farwolaeth.

**LLANIO**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanddewi-Brefi, swydd ABERTEIFI, gerllaw afon Teifi, a Sarn Helen, 2 filltir de orllewin o Dregaron. Erwau, 1228. Poblogaeth, 122. Tai, 19. Dywed yr henafiaethwyr fod y *Loventium*, rhwng ceulan ddeheuol y Teifi, a'r ffordd, mewn lle a elwir Caer-Castell, lle y mae amryw olion yn aros o'r *Via Occidentalis*, Rufeinig, neu Sarn Helen, fel ei gelwir yn gyffredin. Y mae tair o gerrig, gyda cherfiadau arnynt, wedi eu cadw yma. Y mae dwy o honynt yn muriau dau o dai bychain; a'r drydedd, ar yr hon y mae y geiriau canlynol, *Cohors Secunda Augustæ Fecit Quinque Passus*, yn cael ei defnyddio fel mainge yn y fynedfa i un o honynt. Y mae un o'r lleill, wedi ei gosod yn mantell y simfa, ac y mae y cerfiad canlynol arni, OVERIONI; ac y mae ar y llall, sydd wedi ei gosod yn y mur, yn agos i'r drws, yn yr ail fwthyn, y geiriau canlynol yn ddarllenadwy, *Caii Artii manibus Ennius Primus*. Y mae amryw olion yn aros oddiwrth y bobl hyn, ag a ddarganfyddir yma yn fynych, mewn bathodion, llestri pridd, priddfeini, &c. Y mae yn y terfynau sciliau hen adeilad, 150 o droedfeddi o hyd, wrth 72 o led, yn ddarganfyddedig mewn maes a elwir Caer-Castell.

**LLANISHEN**, sydd blwyf yn nghantref Cibwr, undeb Caerdydd, esgobaeth Llandaf, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Saif 4 milldir i'r gogledd o Gaerdydd. "Isan Sant o Gor Illtyd a wnaeth Eglwys yn y plwyf hwn gyntaf;" ac iddo ef y mae wedi ei chyssegru. Yr Eglwys yw yr unig le o addoliad yn y plwyf; bywioliaeth yr hon sydd Guradiaeth barhaol gwerth 46*p.* y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Iarll Plymouth. Prif berchenogion y plwyf ydynt Ardalydd Bute, Arlwydd Tredegar, y Milwriad Charles Kemeys Kemeys Tynt; a Wyndham William Lewis. Yn 1865–6, gwnaed cledrffordd trwy ran o'r plwyf hwn, er uno Caerdydd a Chaerffili. Amaethyddiaeth yw prif orchwyl y trigolion, y rhai a rifent 515 yn 1871.

**LLANISHEN**, sydd blwyf, 8 milldir i'r deorllewin o Drefynwy, yn nghantref Raglan, undeb Trefynwy, dosparth llys sirol Brynbiga, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU. Yr oedd yr Eglwys gynt yn gyssegredig i Isan Sant; ond yr eglwys bresenol, yr hon a ail adeiladwyd yn ddiweddar, sydd gyssegredig i Sant Denis. Medda gorph, cangell, a thwr pigfain, gydag un gloch. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 87*p.* y flwyddyn oddi wrth dir a brynwyd â rhoddion y Frenhines Anne (*Queen Anne's bounty*), gyda 7*p.* a roddir gan Duc Beaufort. Mae yn y plwyf ysgol Genedlaethol dda. Rhenir 20*p.* y flwyddyn rhwng tlodion y plwyf. Mesura y plwyf 1742 erw; pris ardrethol 1425*p.*; poblogaeth yn 1861 oedd 320. Tir cleilyd yw y gwaelod, a'r prif gnydau a godir yma, yw gwenith, haidd, a cheirch.

**LLANITHEON**, sydd drefgordd yn mhlwyf Bettws, swydd DREFALDWYN, 4¼ milltir gogleddol o'r Drefnewydd. Poblogaeth, 181.

**LLANITHOG**, sydd ddosparth plwyfol ychwanegol, yn nosparth a swydd HENFFORDD, yn agos i Ross. Erwau, 40. Poblogaeth, 17.

**LLANLODIAN** (ISAF, ac UCHAF), sydd ddwy drefgordd, yn mhlwyf Llanfair-Caereinion, swydd DREFALDWYN; yn agos i Lanfair. Gwerth ardrethol, 2104*p.* Poblogaeth, 144 a 60.

**LLANLLAWDDOG**, plwyf yn y rhanbarth isaf o gantref ELFED, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, ar gainc o'r afon Gwili, 6¼ milldir i'r dwyrain wrth ogledd o orsaf Cynwil, a 7¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Gaerfyrddin. Cynnwysa bentref Rhyd ar gaeau; a'i Lythyrfa yw Caerfyrddin. Mesura o erwau, 7013. Gwerth ardrethol, 2808*p.* Poblogaeth, 696. Tai annedd, 152. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig â ficeriaeth Llanpumsaint, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 150*p.* Noddwr, Ficer Abergwili. Y mae y plwyf wedi cael ei enw oddiwrth gyssegriad ei Lan i goffadwriaeth Llawddog, hen sant Prydeinig enwog, yr hwn oedd yn ei flodau yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif.

**LLANLLAWER**, neu LLANLLAWERN, plwyf yn nghantref CEMMES, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU; ar yr afon Gwaun, 2 filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Abergwaun, a 12 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf *Clarbeston Road*. Llythyrfa, Abergwaun, dan Hwlffordd. Erwau, 1202. Gwerth ardrethol, 687*p.* Poblogaeth, 117. Tai annedd, 21. Y *Court House* yw y brif annedd yn y plwyf, ac y mae yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyrus. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, gydiedig â pheriglorïaeth Llanerchlwydog, yn esgobaeth Ty Ddewi. Ar ystlys mynydd Llanllawer, yr hwn sydd yn terfynu mewn pwynt creigiog, ac a elwir o'r

Digitized by Google

herwydd, "Bron y Forwyn," y mae lluaws o hen weddillion Derwyddol, meini hirion, a charneddi, yr hyn a brawf fod y lle yn gyfanneddol ar adeg foreuol iawn. Ac yn agos i'r fynwent, y mae ffynnon o ddwfr mwnawl, hynod o enwog am ei rinweddau meddygol. Priodolid ei rhinwedd i ryw ddylanwad gwyrthiol yn yr oesoedd tywyll, a mawr fyddai y cyrchu atti: ond fe fernir bod ei dwfr wedi colli llawer o'i rinwedd erbyn hyn. Dywedir i'r eglwys gael ei seilio gan Clydawc, tywysog o'r wlad hon, yr hwn fel yr oedd yn dylyn yr helwriaeth, a lofruddiwyd, meddir, yn y gymmydogaeth hon: a myn traddodiad, fod dau faen, ydynt yn weledig eto yn y fynwent, yn nodi man ei fedd ef.

**LLANLLECHID**, pentref a phlwyf, yn undeb Bangor, swydd GAER-YN-ARFON, GOGLEDD CYMRU. Y mae y pentref yn sefyll yn agos i'r afon Ogwen, oddeutu 4 milldir i'r De Orllewin wrth Ddehau o orsaf rheilffordd Aber, a thua'r un bellder o Fangor; ac y mae iddo Lythyrfa dan Fangor, a ffair ar y 29ain o Hydref. Y mae y plwyf hefyd yn cynnwys pentrefi Tal y Bont, a Bethesda; a threflanau y Braich melyn, Cae llwyngrydd, Carneddi, Llidiard y Gwaunydd, a Phant y ffrydlas. Mesura yn erwau, 18,111. Gwerth ardrethol 9960*p.*, o ba rai y mae 850*p.* mewn cloddfeydd, a 60*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 5948; yn 1861, 7346. Tai annedd, 1561. Achlysurwyd y cynnydd yn y boblogaeth gan ehangiad y llech-gloddfeydd. Meddiennir y tir gan ychydig nifer o berchenogion. O fewn y plwyf hwn y mae y mynyddoedd uchel a elwir "Carnedd Llewelyn," a "Charnedd Dafydd;" y naill yn 3469 o droedfeddi o uchder; a'r llall yn 3427 troedfedd. Y mae y llech-gloddfeydd yn gyffelyb o ran ansawdd y ceryg i lech-gloddfa fawr y Penrhyn. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglor-iaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 465*p.* Y noddwr yw Esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i goffadwriaeth Llechid, ferch Ithel Hael, chwaer Tegai, nawdd-sant y plwyf cyfnesawl; ac fe'i hail adeiladwyd yn y flwyddyn 1845. Y mae ficeriaeth Glan Ogwen yn fywioliaeth ar wahan o fewn y plwyf hwn, yr hon a ffurfiwyd yn y flwyddyn 1858. —Heblaw hyny, y mae yn y plwyf hwn 13 o Addoldai Ymneillduol, 2 Ysgol Wladwriaethol, a 2 Ysgol Frutanaidd; ac elusenau, tuag 20 punt. Y mae llawer o chwedlau a thraddodiadau difyrus mewn cyssylltiad a'r plwyf hwn, i'w canfod yn Nhraethawd ein cyfaill llafurus, Mr. Hugh Derfel Hughes, a elwir "Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid." (Argraffedig gan R. Jones, Bethesda, 1866.)—Yn t. d. 76, cawn y cofnodiad canlynol am un o isberiglorìaid y plwyf hwn;—"Y Parch. Syr Rhys Parry a gladdwyd Awst 8, 1708. *Syr* oedd deitl a roddid i rai oeddynt wedi derbyn graddau colegawl; ond tybir mai i'r gwrthwyneb yr oedd gyda y Parch. Rhys Parry. Y mae traddodiad yn yr ardal, ddarfod i Gruffydd Williams, Esgob Ossory, pan oedd efe wedi ffoi o'r Iwerddon rhag ei ladd, fod yn ymguddio mewn rhyw gongl o Blas Offa, a bod yno wylnos, ac i'r Esgob wrth glywed Rhys yn darllen, gael lle i farnu ei fod yn *wr duwiol*, a dyfod i'r penderfyniad i'w wneyd yn is-beriglor Llanllechid, yr hyn a wnaed ar ol dychweliad yr esgob i'r Iwerddon, (a'i adferiad i'w fuddiannau eglwysig), efe a anfonodd am Rŷs ato i Ossory, a gwnaeth ef yn Is-beriglor, fel yr amcanasai, i ddarllen y Gwasanaeth a'r Homiliau, &c., yn Llanllechid. Dywedir ddarfod i'r Arglwydd lwyddo llafur y dyn dysyml hwn, i droi aml un i'r iawn; ac y byddai ef ar ol hyny, ac ychydig eraill, naw mewn nifer, yn cael eu herlid, ac y byddent hwythau yn ymneillduo y nos i fynydd Llanllechid i weddio. . . . Gelwid ef weithiau, 'Rhys y Wern,' a 'Rhys Thomas;' ac y mae Mr. Enoch Thomas, Clochydd presenol y lle, yn bedwaredd cenedlaeth o hono. Hen gartref y teulu oedd Y Wern."

Yn yr un llyfr, t.d. 116–18, cawn yr adroddiad dyddorol a ganlyn, am y Tair blynedd o brinder, sef 1798, 1799, ac 1800.—"Yn 1798, bu sychder mawr yma yn gystal a thrwy yr holl deyrnas, fel nad oedd nemawr o wair na phorfa; a llosgai y ddaear yn lloerenau cochion. . . . Dyoddefai yr anifeiliaid eisiau dwfr mewn manau, ac er eu gyru amryw filldiroedd i'w ymofyn, dywedir y byddent agos mor sychedig eilwaith, erbyn y dychwelent; ac effeithiodd hyn brinder ar ymborth anifeiliaid: yna trodd yn wlyb iawn am ddau fis olaf y flwyddyn.

"Yn y flwyddyn 1799, yn union ar ol y Calan, dechreuodd fwrw eira, yr hwn a barhaodd yn hir ar y ddaear, nes y bu llawer o ddefaid feirw. . . . . Collwyd lluaws mawr dan luchfäau, y rhai a barhasant, yn nghyda phlymenau o rew ar y ddaear, trwy Mawrth, Ebrill, a Mai: yn y ddau fis olaf, fe rynai yr hadyd yn y ddaear, ac yr oedd yr egin yn cochi, ac yn crino yn nechreu Mehefin. . . . Yr oedd barug ar y borfa, a rhew ar y pyllau mawn, ar y 25ain o Mehefin. . . .

"Yn mis Gorphenaf, gwnaeth lif mawr yn Ogwen, tra yr oedd peth gwair wedi ei dori, a'r llall ar ei draed. Cipiodd y llif y cyntaf ymaith, a llanwodd yr olaf â llaid, ac â graian. Yr oedd y ddaear wedi ei hamwydo mor fawr gan y gwlawogydd blaenorol, onid oedd wedi myned yn llymrig; a dyma y pryd y llithrodd y Cwm Coch i Nant Ffrancon, ac y ffodd Pyrs Powell ganol nos o'r Braich Ty Du, o ffordd daiar-dor, gan ddwyn gyd ag ef rai o'r plant ar ei gefn, un o ba rai sydd fyw heddyw, ac yn hen wr, sef John Pyrs, Tyddyn Isaf.[1] Daeth y ty i lawr y noson hono, ac y mae ei furddyn i'w weled eto, ond yn nes i Lyn Ogwen na'r un presenol, yr hwn sydd yn llechu yn nghysgod bryn bychan.

"Hefyd, dyma y pryd y di groeniwyd yr Elen, ac yr holltodd afon Gaseg iddi ei hunan wely newydd, gan ymffurfio yn fforch, a llunio *Delta*, cyn cyrhaedd yr Ogwen. Dyma yr unig lifeiriant y gwyddys am dano a guddiodd y Maen Mawr yn Ogwen, goris yr hen Dollborth. Boreu dranoeth canfyddid gwair, cribyniau, pladuriau, a choediach, ar frigau y gwrychoedd gyda glan yr afon, a rhai defaid wedi eu cludo i waered o Gwm Penllafar, i Ddol fawr Ty'n y Clwt. Ysgubodd y cenllif hwn y Bont uchaf, Pont Ogwen, Pont y Gaseg, a Phont Coed y parc; ac ni wyddys am ei gyffelyb, na chynt, nac wedi hyny. . . . Daeth 1800 i mewn fel ei chwaer flaenorol, gyda rhew ac eira; ac ar y cyntaf o Ionawr, bwriodd od-wlaw, fel na allai dyn nag anifail sefyll ar eu traed; ac yn y mis hwn, dechreuodd drudaniaeth, nes yr oedd ystoraid o haidd yn costio guni, yr hyn yw 5*s.* 3*c.*, y cibyn. . . . Cododd yr haidd yn mis Chwefror i 26*s.* yr ystoraid, ac yn Mawrth, i 30*s.*; ac erbyn diwedd y tymhor hau, i 34*s.*; neu 6*p.* 16*s.*, y pêg."

Prif balasau y plwyf hwn ychydig oesoedd yn ôl,

1 Er pan ysgrifenwyd yr uchod, y mae efe wedi marw, mewn oedran teg, a'i goffadwriaeth yn barchus gan bawb a'i hadwaenai.

Digitized by Google

oedd y Cochwillan, a Choetmor. Yr oedd teulu Cochwillan yn hanu ar un ochr o Ednyfed Fychan, Pen Cyngorwr, a Maeslywydd enwog Llewelyn ab Iorwerth; ac ar y llaw arall, o Madog ab Iarddur, arglwydd Arllechwedd Uchaf, fel y gwelir oddiwrth yr achau canlynol;—Gruffydd ab Heilyn ab Syr Tudur, fab henaf Ednyfed Fychan, o Tangwystl, ferch Llowarch ab Bran, a brïododd Efa, ferch, ac ettifeddes Gruffydd ab Tudur ab Madog ab Iarddur, arglwydd Arllechwedd Uchaf; a chyda hi, efe a gafodd Gochwillan, ac ettifeddiaethau helaeth eraill, os nad y Penrhyn ei hunan. Mab i'r Gruffydd uchod oedd Gwilym, yr hwn a olynodd ei dad, ac a brïododd Gwenhwyfar, ferch Ieuan ab Gruffydd, ab Madoc Ddu, ab Rhiryd, ab Llewelyn, ab Owen, (yr hwn trwy nerth arfau a gadwodd feddiant o holl Degeingl dros ddwy flynedd, yn erbyn holl allu Brenin Lloegr ar y pryd,) ab Aeldyd, ab Owain, ab Edwin, arglwydd Tegeingl, ab Gronw, ab Owain, ab Howel Dda, tywysog y Deheubarth, ab Cadell, ab Rhodri Fawr, brenin Cymru oll. Y Gwilym uchod a gyfanneddai yn y Penrhyn; a'i fab henaf Gruffydd, a brïododd Generus Fechan, ferch, ac ettifeddes Madoc o'r Penrhyn, fel y tybia rhai, fab Gronw Fychan, ail fab Gronw, fab Ednyfed Fychan. Bu i'r Gruffydd hwn dri o feibion, a dwy o ferched;—(1.) *Gwilym*, yr hwn a ettifeddodd y Penrhyn, ac a brïododd Morfydd, ferch, ac ettifeddes Gronw Fychan o Benmynydd.—(2.) *Robyn* yr hwn a ettifeddodd Gochwillan. (3.) *Rhys*, yr hwn a ettifeddodd y Nant, yn swydd Fflint. Y merched oeddynt (1.) *Jonet*, a brïodwyd â Rhys ab Ieuan Llwyd o Lanfair Fechan, un o henafiaid y Roberts o Fryn y Neuadd, y Wyniaid o'r Gorddinog, ac o du eu mam, y Davies o Gaerhun.—(2.) *Elen*, a briodwyd âg Ithel ab Grono, ab Owain, ab Trahaiarn, yr hwn a adeiladodd ran o eglwys Gresford, ac a gladdwyd yno; ab Ithel o Gresford, ab Heilyn, yr hwn a feddiannai saith trefgordd yn Nyffryn Clwyd; ab Eunydd, ab Gwerngwy, pen un o bymtheg llwyth Gwynedd.

*Robyn*, ail fab Gruffydd ab Gwilym o'r Penrhyn, a gyfenwir "*Robyn o Gochwillan*," a brïododd Angharad, ferch ac ettifeddes Rhys ab Gruffydd, ab Grono, ab Howel, ab Cynric, ab Iorwerth, ab Iarddur, Arglwydd Arllechwedd Uchaf; ac o honi bu iddo ddau fab, Gruffydd, a Howel. O'i ail wraig, Lowri, ferch Grono ab Ifan, ab Einion, efe a gafodd fab, a alwyd Thomas, yr hwn y torwyd ei ben yn Nghonwy, am ddylyn Edmwnd, Iarll Richmond i Ffrainc, trwy orchymyn Iarll Penfro, yn y flwyddyn 1466.

*Gruffydd ab Robyn* o Gochwillan, a brïododd yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Harri y Chweched, â Mallt, ferch Gruffydd Derwas ab Meurig Llwyd o Nanney, hanedig o Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Powys. O'r brïodas hon, bu iddynt ferch, o'r enw *Angharad*, yr hon a brïodwyd a Madoc ab Llewelyn Fychan, o Bodnithoedd yn Lleyn; ac un mab,—*William ab Gruffydd ab Robyn*, o Gochwillan, Ysw., yr hwn a fu yn Siryf swydd Gaer yn arfon trwy fraint-ysgrif am ei oes. Efe a ddug fintai o feirchfilwyr fel ei osgordd personol i faes Bosworth, Awst 22, 1485. Ei wraig oedd Angharad, ferch Dafydd ab Ifan, ab Einion, cwnstabl castell Harlech, dros Harri y Chweched; o'r hon y ganwyd iddo bump o feibion, a phump o ferched, sef, (1) William Williams; (2) Thomas Gethin, LL.D.; (3) Dafydd; (4) Robert Williams o Gonwy, hynafiad Edward Williams o'r Wig, Siryf swydd Gaer yn arfon yn 1655, a chwaer yr hwn, Grâs, a brïododd Owen Wynn o Wydir, Barwnig; (5) Morgan; (6) Mallt, a brïododd Reginald Conwy, o'r Bryn Euryn, Ysw.; (7) Mari, a brïododd yn gyntaf âg Wmphre Cynaston, o Hordley, Ysw.; ac yn ail, â Meredydd ab Ifan, o Gwm Bwy; (8) Agnes, a brïododd yn gyntaf â Foulk Salisbury o Lanrwst, Ysw.; ac yn ail, âg Edmwnd Llwyd o Lynllifon, Ysw.; (9) Jane a brïododd Rhydderch ab Dafydd ab Iwan, o'r Myfyrion, Ysw.; (10) Gwenllian, gwraig Dafydd ab Meredydd, ab Tudur.

*William Williams* o Gochwillan, Ysw., a brïododd Lowri, ferch Henry Salisbury, Ysw., o'r hon y bu iddo chwech o feibion, a phedair o ferched, sef, yn gyntaf, William, ei ettifedd; (2) Robert Williams, yr hwn a fu farw y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward VI.; (3) Thomas Williams o'r Faenol, ger Bangor, Ysw., o'r hwn yr hanai Syr William Williams o'r Faenol, Barwnig; (4) Edward Williams o Faes y Castell, Ysw.; (5) Henri Williams, a elwid hefyd, Henri Wynn o Benmon; (6) John o Fodlew; (7) Grâs, a brïododd John ab Rhys, ab Llewelyn, ab Hwlcyn, o Bodychain, Ysw., Siryf Mon yn y flwyddyn 1556; (8) Elin, a brïododd Robert Puleston o'r Bersham, Ysw.; (9) Margaret, gwraig John Broughton o'r Marchwiail, Ysw.; (10) Ann, gwraig William Eyton, o Riwabon, Ysw.

*William Williams*, Ysw., a briododd Dorothy, ferch Syr William Gruffydd, o'r Penrhyn, Marchog, o'r hon y bu iddo blant, sef, William Williams, ei ettifedd; (2) Rowland, yr hwn a fu farw yn ddi blant, yn y flwyddyn 1583. (3) John; (4) Rhys; (5) Edmwnd; (6) Richard Williams; (7) Arthur Williams, A.C. o Feillionydd; (8) Thomas Williams; (9) Jane, a brïododd William Coetmor, o Goetmor, Ysw.; (10) Catharine, gwraig John ab Wmphrey Meredydd, o'r Gessail Gyfarch; (11) Margaret, a brïododd John Llwyd o Rosindale.

William Williams, y trydydd o'r enw, a ddylynodd ei dad yn yr ettifeddiaeth; a fu yn Siryf swydd Gaer yn arfon yn 1592. Efe a brïododd Agnes, ferch John Wynne ab Meredydd, o Wydir, Ysw., o'r hon y bu iddo un mab, Owen Williams, ac un ferch, Elin, yr hon a ymbrïododd a William Williams o'r Faenol, Ysw., a wnaed wedi hyny yn Farwniad, Mehefin 15, 1622. Efe a gymerth yn ail wraig, Barbara, chwaer i Arglwydd Lumley, o'r hon y ganed iddo, (1) Henri; (2) Blanche, gwraig Richard Prys o Eglwyseg; (3) Mari, a brïododd William Bulkeley, o Coedan; (4) Barbara, a brïododd Richard Herbert, o'r Parc, Ysw. Difeddiannwyd ei fab henaf o'i wraig gyntaf; ac aeth ettifeddiaeth Cochwillan i'r mab henaf o'r ail wraig, sef *Henri Williams*, yr hwn a brïododd Jane, ferch, ac ettifeddes Thomas Salisbury, trydydd mab Syr John Salisbury, Marchog; o'r hon y bu iddo fab, Lumley Williams, yr hwn a brïododd Dorothy, ferch, ac ettifeddes Rhys Thomas, Ystumcolwyn, Ysw. Yr Henri Williams hwn a werthodd ettifeddiaeth Cochwillan, i Iarll Penfro, yr hwn a'i gwerthodd drachefn i'r Dr. John Williams, Arglwydd Geidwad y Sel Fawr, yn y flwyddyn 1620, am ddeng mil o bunnau. Yr oedd y Dr. John Williams yn fab i Edmwnd Williams o Gonwy, Ysw., yr hwn oedd yn bumed mab i'r ail William Williams o Gochwillan, o Dorothy, ferch Syr William Gruffydd o'r Penrhyn.

Oddiwrth yr adroddiad uchod, gwelir fod hen fonedd Cochwillan, yn y plwyf hwn, yn deulu henafol, a thra urddasol; ac y mae ychydig o olion ei

Digitized by Google

fawredd gynt, ar y darnau o'r hen balas sydd yn aros; er nad yw ond ammaethdy cyffredin er's oesoedd bellach.

Hen balas anrhydeddus arall yn y plwyf hwn, oedd Coetmor, neu "Coed mawr." Dywaid traddodiad yr ardal, mai Ednyfed Fychan, Pen Cyngorwr Llewelyn ab Iorwerth, a'i hadeiladodd gyntaf; tra y mae Henafiaethwyr yn tystio fod teulu Coetmor yn hanu o Iarddur, arglwydd Arllechwedd Uchaf; ac y mae yn ffaith fod Gruffydd ab Heilyn, ab Syr Tudur, ab Ednyfed Fychan, wedi prïodi Efa, ferch, ac aeres Gruffydd ab Tudur, ab Madoc, ab Iarddur. Ac yn ngwaith *Lewis Dwnn*, cawn Wehelyth William Coetmor, o blwyf Llanllechid, fel y canlyn;—"William Coetmor, fab, ac aer Pyrs Coetmor Fychan, ab Rhys, ab Robert, ab Ieuan, ab Madoc, ab Howel, ab Gruffydd, ab Dafydd, ab Tudur, ab Madoc, ab Iarddur. Ymddengys fod Gutto'r Glyn, yr hwn a flodeuai rhwng 1430 a 1460, yn cadarnhau yr un golygiad, mewn Cywydd a wnaeth efe dros Sieffrey Cyffin, i ofyn cŵn dwr, gan Robert ab Ieuan Fychan o Goetmor, yr hwn a ddechreua fel hyn;—

"Robert uwch rhiwiau Aber[1]
Rhoi ban[2] ac aur glan i gler,
Ap Ifan Fychan dda 'i fêdd,[3]
A'i dda win i ddwy Wynedd;
Llin Ieuan Llwyd, llawn win llu
Llwyth Iarddur o'r llath hirddu;[4]
Gemmau oedd dy deidiau di,
A chreiriau uwch Eryri;
Gwraidd a brig pendefigion,
Gwinwydd mawr Gwynedd a Môn;
Eifionydd a ofynir—
Nant Conwy, Ardudwy dir, &c."

Fe fu yr Henafiaethydd John Leland drwy y wlad hon yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed; ac y mae ef yn crybwyll mai William Coetmor oedd yn byw yn Nghoetmor y pryd hyny; ac yn cyfrif derw Coetmor gyd a'r rhai mwyaf yn y parthau hyn o Wynedd. Yr oedd y Palas yma yn un tra gwych, a nifer mawr o ffenestri arno, ac ar un o honynt yn ei dal-wyneb, yr oedd pais-arfau y teulu, mewn gwydr amryliw, ac o fewn hefyd, ar ei nen-fwd. Y mae *Pennant* yn ei adgofion o'i Daith trwy Ogledd Cymru, yn y flwyddyn 1773, yn dweyd fel y canlyn am y fan hon;—"Ar fy nychweliad, gelwais yn y Coetmor, neu yn fwy prïodol, *Coed Mawr*, yr hwn sydd yn sefyll yn nghanol coed uchel-frig, yn y rhai y mae agorfeydd yn awr ac eilwaith, i gael golwg ar y mynydd-oedd dyrchafedig, a'r clogwyni a gylchynir gan y niwl. Y mae y lle yma wedi bod er ystalm yn drigle teulu o'r un enw; ond yn ddiweddar, trwy briodas yr ettifeddes, daeth yn eiddo i'r *Pughs* o'r Penrhyn."—Ymbrïododd Anne, aeres Coetmor, âg Edward Phylip Pugh, o'r Penrhyn, yn y Creuddyn, a bu ganddynt dri o blant; sef Bridget, Anne, a James. Y ferch henaf, Bridget a ddaeth yn wraig i'r Isfilwriad Glynn, o'r Glynllifon, yr hwn oedd yn aelod Seneddol dros swydd Gaer yn arfon. Yr ail ferch, Ann, a ddaeth yn wraig i Cornelius Hughes, a fu yn dal y Penrhyn dan ardreth i Huw Warburton, ond aeth yn ymrafael rhyngddo a'i Feistr tir; ac ar ol cyfraith faith a chwerw, efe a ymadawodd, i dreulio gweddill ei oes yn y Beaumaris.

Yr oedd Edward Phylip Pugh, mewn canlyniad i'w brïodas ag Aeres Coetmor, yn cael ei gyfrif yn un o'r boneddigion penaf yn Ngogledd Cymru, gan ei fod yn berchen ar *bump* o ettifeddiaethau, un yn y Creuddyn, un yn Nwygyfylchi, un yn Lleyn, ac un yn swydd Drefaldwyn, heblaw ettifeddiaeth Coetmor. Ond afradlonedd y teulu yma a'u darostyngodd i dlodi, fel yr aethant i fethu talu eu ffordd, ac y suddwyd eu hettifeddiaeth dan ddyled; a chyn marw Edward Phylip Pugh, a'i wraig, yr ydoedd, meddir, yn y Cangell-lys.

Y mae chwedl neu ddwy ar lafar gwlad, am Madam Pugh, y rhai nid ydynt yn annheilwng eu coffau yma. Unwaith dygwyddodd i afon Ogwen fyned yn hyfach na'i chroesaw, gan ddwyn pren derw mawr oddiar dir Cil-geraint, a'i adael ar dir Coetmor. Ar ol i'r llifeiriant gilio, aeth yn ddadl frwd rhwng gweision Coetmor, a gweision Cil-geraint, i bwy erbyn hyn yr oedd hawl i'r pren; ac fe aeth y cweryl mor bell, fel y bu raid cael Madam Pugh yno i derfynu yr ymrafael: ond erbyn dyfod i'w olwg, ni fynai yr hen foneddiges wneyd dim ag ef, nes galw am Grâs ych Huw, yr hon oedd oedranus iawn, i lawr o Gilgeraint, i gyd roddi barn ar destun y ddadl: a'r ddwy hen Gymraes synhwyrol a benderfynasant, i Grâs ych Huw, ar dir yr hon y tyfasai y pren, gael ei fôn; ac i Madam Pugh, ar dir yr hon y gadawsai yr afon ef, gael y brig.

Yr oedd Madam Pugh, fel llawer o hen fonedd Cymru yn yr oesoedd gynt, yn dra elusengar, a chyfranai yn haelionus, ymborth a dillad i lawer o wragedd a phlant tlodion y gymmydogaeth, a hoffai ymweled â hwy yn eu hanneddau gwaelion. Un tro, aeth i Dan y Garth, a phan welodd y plant hi yn dyfod, rhedasant allan oll; ac fe ddywedir eu bod yn naw, neu ddeg, o nifer. Ar ol dyfod i'r ty, ac eistedd ychydig, gofynai y foneddiges paham y rhedai y plant allan ar ei dynesad hi at y ty? i'r hyn yr attebodd y fam, mai cywilydd oedd arnynt, am fod eu dillad mor garpiog. "Gelwch hwynt i fewn," meddai hithau, "i gael i mi eu gweled;" a'r canlyniad a fu, iddi geisio dillad newydd iddynt oll. Yr oedd y foneddiges hon yn hynod o dosturiol wrth y tlawd; a dywedir fod ganddi fwy o barch i grefydd na neb arall yn y teulu; ac y byddai yn mynychu eglwys y plwyf yn gyson. Pan fu farw, cwynai y tlodion ar ei hol, a dylynid ei hangladd gan dorf fawr, yn cyrhaedd o Goetmor i Lanllechid.

Dylynwyd yr hen foneddiges yn yr ettifeddiaeth gan ei mab, yr hwn oedd o'r un duedd annuwiol, ac afradlon a'i dad; ac efe a aeth yn ddyfnach i ddyled wrth ganlyn oferwyr, fel na feiddiai fyned allan o'i dy heb ddyn i'w ganlyn, fel ei warcheidwad, wedi ei arfogi â ffon gref. Dywedir bod y boneddwr hwn mor ddi barch i addoliad Duw, fel y rhoddai guni yn y flwyddyn i felinydd o'r gymmydogaeth, am adael i'w farf dyfu yn llaes, a myned i mewn ar y Sabbath i eglwys Llanllechid, pan y byddai yr offeiriad yn cymeryd ei destun, er cynhyrfu y gynnulleidfa i chwerthin, a'i ddyrysu yntau yn ei bregeth!

O'r diwedd daeth terfyn ar yr amser iddo i fyw yn Nghoetmor, canys yn Ionawr, 1797, bu ystorm fawr, trwy yr hon y di dowyd hen balas Coetmor, a thai yr anifeiliaid a berthynent iddo; ac yn y canlyniad i hyn, ffodd Mr. Pugh i'r Beaumaris, at ei chwaer, lle y bu, mewn rhan dan gêl a chudd, hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1800; a dygwyd ei gorph mewn cwch dros

[1] Sef Abergwyngregyn.
[2] Brethyn at wneyd dillad.
[3] Metheglyn.
[4] Asdell o dderw du, ar yr hon y torai y Penteulu enwau ei henafiaid, er cadw ei achau.



Digitized by Google

yr afon Menai, ac yna ar olwynion i Lanllechid, lle ei claddwyd, meddir, yn lladradaidd, cyn saith o'r gloch foreu Sabbath. Dywaid rhai o hen bobl yr ardal, iddo gael ei gladdu yn mhen dwyreiniol yr eglwys, ac i garreg o galch-faen du gael ei rhoddi ar ei gorph; ond na thorwyd cymaint a llythyren arni, er cof am dano, ac felly y mae hyd heddyw, ac ni wyr neb am fedd ei dad, na'i fam, na dim yn mhellach am dano yntau.

Erbyn hyn y mae hen balas Coetmor wedi ei chwalu, ac ammaethdy trefnus wedi ei gyfodi ar ei adfeilion, a phob olion o'i fawrwychder gynt wedi diflanu.

Yn ngodreu y plwyf hwn, y mae llanerch a elwid gynt, "Y Dalar Hir," lle yr ymladdwyd brwydr rhwng gwŷr y Brenin, dan lywyddiaeth Syr John Owen o'r Clenennau, â gwŷr y Senedd, dan lywyddiaeth y Milwriad Mytton, yn yr hon y cymerwyd yr hen wron o'r Clenennau yn garcharor, y lladdwyd y Cadben Bulkeley, ac amryw o'r milwyr cyffredin, ac y cymerwyd oddeutu cant o blaid y Brenin yn garcharorion.

**LLANLLEON FEL,** neu LLANLLEON FOEL, treflan, a phlwyf yn nosparth BUALLT, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, gerllaw yr afonydd Irfon, a Dulas; 6½ milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o orsaf Buallt. Erwau yn y dreflan, 2834. Gwerth ardrethol, 980*p*. Poblogaeth, 188. Tai annedd, 33. Y mae hen ffordd Rufeinaidd, a elwir "Sarn Helen," ac a elwid gynt, "Sarn Lleon," neu "Sarn y Lleng," yn trawsu y plwyf; ac y mae yn debyg mai i'r ffaith hono y mae y plwyf yn ddyledus am ran o'i enw. Y mae y plwyf yn cynnwys 2900 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1327*p*. Poblogaeth, 250. Tai annedd, 43. Llythyrfa, Buallt, swydd Frycheiniog. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 60*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae y Faenoriaeth, o fewn yr hon y cynnwysir y plwyf, yn gymmesur a'r cantref; ac y mae yn hynod ar gyfrif ffyniant amryw ddefodau dyeithr ynddo, tarddiad y rhai sydd yn dra anhawdd eu holrhain; ac y mae yma ryw daliadau dyeithriol yn cael eu hawlio i arglwydd y faenor, y penaf o ba rai a elwir "Tâl di estyn,"—"Y Cymmortha,"—"Y Fuwch Larder,"—"Porthiant Herwyr,"—"Y Macewyn,"—a'r "Mab-ryddiaeth." Y mae rhyw rai o breswylwyr y cantref yn rhydd oddiwrth y talion crybwylledig.

Y mae ffynnon fwnawl mewn cae o'r tu isaf i'r eglwys, ac heb fod yn mhell oddiwrth yr afon Dulas, yn tebygu mewn blas, ac arogledd, i ddyfroedd Llanwrtyd; ond heb fod mor gryf a hwnw.

**LLANLLIBIO,** sydd blwyf yn nosparth a swydd FON; yn agos i reilffordd Caerlleon a Chaergybi, 3 milltir de ddwyreiniol o Gaergybi. Llythyrfa yn Nghaergybi. Erwau, 826. Gwerth ardrethol, 500*p*. Poblogaeth, 59. Tai, 11. Y mae y meddiant mewn un etifeddiaeth. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pheriglorìaeth Llantrisaint, yn esgobaeth Bangor. Yr oedd yr eglwys, yr hon sydd yn awr wedi ei cholli o fodolaeth, wedi ei chysegru i St. Llibio. Y mae y plwyfolion yn awr yn myned, at ddybenion eglwysig, i Fodedeyrn, tua milltir a haner o'r lle.

**LLANLLOWEL,** sydd blwyf, yn nosparth uchaf cantref Brynbiga, undeb Pontypool, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU. Saif yn y pellder o 140 milldir o Lundain, 1½ o Brynbiga, yn ymyl yr hen heol o Brynbiga i'r Casnewydd, a Chasgwent. Mae Eglwys y plwyf yn hen iawn yr olwg arni, ac yn lled adfeiliedig. Ei rhanau henaf ydynt yn yr arddull Normanaidd; a chynnwysa gorff, cangell, porth, a thwr, gyda dwy gloch. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1662. Rectoriaeth ywy fywioliaeth eglwysig, yn werth 109*p*. y flwyddyn, gyda darn o dir-eglwys, ardreth yr hwn sydd yn 61*p*. y flwyddyn. Amaethyddiaeth a ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf, a'r prif gynnyrch ydyw Gwenith, a haidd. Y prif balas, yn y plwyf yw *Glen Court*, preswylfa Alexander Waddington, Ysw. Arwynebedd y plwyf yw 796 erw, ardrethiad 901*p*.; poblogaeth yn 1861 oedd 87.

**LLANLLUGAN,** sydd blwyf yn nosparth y Drefnewydd, swydd DREFALDWYN, gerllaw yr afon Rhiw; 4 milltir de orllewin o Lanfair, a 7½ gogledd orllewin o orsaf rheilffordd y Drefnewydd. Llythyrfa yn Llanfair-Caereinion, dan y Trallwng. Erwau, 3945. Gwerth ardrethol, 1530*p*. Poblogaeth, 304. Tai, 57. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Ffurfiwyd Lleiandy *Cistertian* yma yn 1239; ac a gyflwynwyd yn amser y datodiad i deulu D'Arcy, ond nid oes dim o'i olion ar gael yn awr. Y mae rhan helaeth o'r plwyf yn ucheldir. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 60*p*., ac yn nawddogaeth Arglwydd y Faenor.

**LLANLLWCH,** capeloriaeth yn mhlwyf St. Pedr, CAERFYRDDIN, swydd GAERFYRDDIN; 2 filldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Caerfyrddin. Fe'i cyfansoddwyd yn gapeloriaeth yn y flwyddyn 1843, a'i Lythyrfa ydyw Caerfyrddin. Poblogaeth, 896. Tai, 196. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 120*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

**LLANLLWCHAIARN,** plwyf yn Undeb Aberaeron, swydd ABERTEIFI; ar lan y môr, gerllaw beisfor y Cei Newydd, 5½ milldir i'r de orllewin o Aberaeron; a 15 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o orsaf Castell newydd yn Emlyn. Y mae yn cynnwys pentref porthladdol y Cei Newydd, yn yr hwn y mae Llythyrfa, dan Gaerfyrddin. Erwau, 3249; o ba rai y mae 68 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2818*p*. Poblogaeth yn 1851, 1738; yn 1861, 1976. Tai annedd, 471. Ychydig ydyw nifer y tir-feddianwyr. Y mae amryw o'r preswylwyr yn forwyr, ac yn bysgotwyr. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 256*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Llwchaiarn, fab Hygarfael ab Cyndrwyn, sant oedd yn ei flodau yn y chweched ganrif, a ail adeiladwyd yn y flwyddyn 1865. Y mae ychydig o olion hen amddiffynfa filwraidd, a elwir Pen y Castell, yn y plwyf hwn; ond ni wyddys nemawr o'i hanes.

**LLANLLWCHAIARN,** plwyf yn undeb y Dref Newydd, swydd DREFALDWYN; 1½ milldir i'r gogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd y Dref Newydd. Y mae yn cynnwys trefgyrdd Aber bechan, Cil cowen, Gwestydd, a Hendidle; ac y mae y ddwy ddiweddaf o fewn ffiniau bwrdeisiol y Dref Newydd. Llythyrfa, y Dref Newydd. Erwau, 4426. Gwerth trethol, 7372*p*. Poblogaeth yn 1851, 2775; yn 1861, 2394. Tai annedd, 576. Yr achos o'r lleihad yn y boblogaeth mewn rhan, ydoedd ymfudiad y cychwyr ar y gamlas, mewn canlyniad i agoriad y rheilffordd. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Llanelwy; a'i gwerth, sydd tua 355*p*. Noddwr,

Digitized by Google

Esgob Llanelwy. Cafodd yr eglwys ei hail adeiladu yn y flwyddyn 1816, ar y draul o 1200*p*.

**LLANLLWNI**, neu LLANLLAWNWY, plwyf, a phentref, yn rhanbarth uchaf cantref CATHINOG, swydd GAERFYRDDIN, 9 milldir i'r de orllewin o Lanbedr. Llythyrfa, Caerfyrddin. Mesura yn erwau, 6624. Gwerth ardrethol, 2583*p*. Poblogaeth, 776. Tai annedd, 181. Y mae y tir feddiant yn rhanedig rhwng llaweroedd. Y prif anneddau ydynt "Maes y Crugiau," a "Pherth y berllan." Dywedir fod Lleiandy yn yr oesoedd gynt ar dir tyddyn a elwir "Maes Nonny," ond ni wyddys dim am ei seiliad, na'i hanes erbyn hyn. Y mae tommen, a elwir "Y Castell," yn aros eto ar y tyddyn hwn; ac yn agos iddi, y mae "Ffynnon Nonny," neu "Ffynnon y Lleianod." Gerllaw yr eglwys y mae adfeilion henafol, a elwir gan y cymmydogion, "Yr Hen Briordy;" am yr hwn y dywedir ei fod gynt yn gell berthynol i hen Fynachlog fawr Ystrad Fflwr; ond ni chrybwyllir y Lleiandy, na'r Priordy, yn "*Tanner's Notitia Monastica*," yr hyn, debygid, a rydd ar ddeall i ni eu bod wedi eu gollwng i gyflwr o adfeiliad cyn adeg Dadgorphoriad y Crefydd-dai Pabaidd.

Bywioliaeth eglwysig y plwyf hwn sydd Ficeriaeth, mewn undeb âg is-berigloriaeth Llanfihangel Rhos y corn, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 103*p*.; ac yn nawddogaeth Esgob Ty Ddewi. Y mae yr Eglwys wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Llonio, gwr a berthynai i gôr, neu gynnulleidfa Illtyd Sant, ag ydoedd yn bregethwr enwog yn y bummed ganrif. Y mae y plwyf hwn mewn sefyllfa ddifyr, ar lan ddeheuol yr afon Teifi, gan yr hon ei hysgerir oddi wrth swydd Aberteifi; ac y mae y brif-ffordd, o Gaerfyrddin i Lanbedr, yn croesi y plwyf. Mae y tir mewn cyflwr o ammaethiad da, a'r gweryd ar y cyfan, o ansawdd fras. Y mae yr eglwys mewn sefyllfa ramantus, ar greig-fryn, oddiar yr afon Teifi; ac oddiwrthi cair golygfa ehang, ar wlad ragorol o hardd.

**LLANLLWYDAN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel-y-Pennant, swydd FEIRIONYDD, 7½ milltir de orllewin o Ddolgellau. Poblogaeth, 37.

**LLANLLYAN**, neu LLANLLYWYN, trefgordd yn mhlwyf Llanarthney, cantref ISCENNEN, swydd GAERFYRDDIN. Y mae yn gorwedd yn agos i lechwedd ogleddol y Mynydd Mawr; 7½ milldir i'r gorllewin o Landeilo Fawr. Poblogaeth, 677. Cymer y lle ei enw oddiwrth hen gapel o'r enw, a safai yma yn yr oesoedd gynt, yn gyssegredig, fe ddichon, i Llywan, neu Llywyn, un o gymdeithion Cadfan Sant.

**LLANLLYFNI**, pentref a phlwyf, yn rhandir, a swydd GAER YN ARFON. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Llyfni, gerllaw rheilffordd Caer yn arfon a'r Afon Wen; o fewn tua haner milldir i'r Dehau o orsaf Pen y Groes, goris y Llwyd Mawr; 7 milldir i'r Dehau o Gaer yn arfon. Y mae y plwyf yn cynnwys 7521 o erwau o dir. Llythyrfa dan Gaer yn arfon. Gwerth ardrethol, 4201*p*.; o ba rai y mae 186*p*. mewn Cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 2010; yn 1861, 2362. Tai annedd, 523. Ychydig ydyw nifer y Tir feddianwyr. Y mae yr arwyneb yn cynnwys ucheldirau de orllewinol Eryri. Yr afon Llyfni sydd yn dyfod allan o Lyn Nantlle, ac yn llifeirio tua 5 milldir mewn cyfeiriad gorllewin ogledd orllewin, i feis-for Caer yn arfon. Cloddir llechi o fewn y plwyf, a darganfuwyd mwnau efydd a *manganese* yma. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglor-iaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 240*p*. Nodawr, Esgob Bangor. Y mae yr eglwys, yr hon sydd yn groes-adail henafol gref, wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Rhedyw, beddrod yr hwn, meddir, oedd o'i mewn, ond a ddinystriwyd tua diwedd y ganrif o'r blaen; a gelwir y plwyf ar enw yr afon a lifeiria drwyddo; ond y mae enw y nawdd-sant yn cael ei gadw ar gof yn enw y ffynnon, a elwir "Ffynnon Rhedyw," ac mewn enw maen, a elwir "Eisteddfa Rhedyw." Bernir fod yr eglwys wedi ei helaethu i'w ffurf bresenol, tu a'r flwyddyn 1032, yr hwn amseriad a ddarganfuwyd uwch ben ffenestr ddwyreiniol y gangell, tra yn gwneyd rhyw adgyweiriadau oddeutu dechreu y ganrif bresenol. Ac uwch ben ffenestr Capel Eithinog yn yr eglwys hon, yr oedd delw Sant Rhedyw, yr hon oedd mewn bri mawr yn yr oesoedd gynt; ond y mae curfeydd ystormydd oesoedd wedi ei threulio, nes ei gwneyd yn dra aneglur. Gyferbyn a'r ddelw yr oedd camfa, y ffordd y deuid i'r fynwent; ac ar ben y gamfa hon yr oedd carreg, wedi ei chafnio gan ol gliniau yr addolwyr a ddeuent i'r gwasanaeth, medd traddodiad, oblegyd yr ymgrymai pob un a'i lin ar y gareg hon, o flaen delw y sant, cyn myned i mewn i'w eglwys i addoli. Gellir gweled y gareg hon yn aros yn magwyr y fynwent, a llech uwch ei phen, ar yr hon y mae yr ymadrodd canlynol yn gerfiedig;—"Y garreg a lefa o'r mur."

Heblaw eglwys y plwyf, y mae amryw addoldai ymneillduol cyfleus a hardd yn y plwyf, Ysgolion Sabbathawl blodeuog, ac Ysgolion dyddiol gwerthfawr.

Y mae olion caer fawr, a thra henafol, ar y llaw aswy i'r brif-ffordd a arweinia o Gaer yn arfon i Dremadog, rhwng Pen y Groes a phentref Llanllyfni, ac megys yn ngenau Nant Nantlle. Enw y lle ydyw "Bryn hen gaer," neu "Caer bryn hen gaer." Y mae olion y gwarch-gloddiau yn ymddangos yn amlwg ar y tu dwyreiniol, y rhai y mae yn dra thebyg, oeddynt unwaith yn amgylchynu y bryn; a cherllaw y bryn, y mae ammaethdy yn dwyn yr enw "Bryn y Castell," yr hyn sydd yn ein tueddu i dybied fod yn y lle hwn orsaf filwraidd yn perthyn i'r Rhufeiniaid mewn oesoedd boreuol; ac yn ddiau yr oedd ei sefyllfa yn dra manteisiol i wylio y dyffryn, a'r llethrau o'i ddeutu.

Y mae amddiffynfa gref arall, o'r enw "Craig y ddinas," ychydig islaw pentref Llanllyfni, bron ar gyfer Lleuar, ar dir perthynol i'r Eithinog Wen. Y mae hon mewn cadwraeth dda, y ffosydd yn ddyfnion, a'r amgaerau, o bridd, ac o geryg, yn uchel a mawrion, fel y mae yn hawdd gweled ei bod gynt yn lle o gadernid mawr. Y mae ei ffurf yn hir-grwn, ar yr ochr ddeheuol y mae serth-allt i gwm dwfn, trwy yr hwn y llifeiria yr afon Llyfni, neu Llyfnwy, gyd a'i godreu. Ar y tu arall i'r afon, ar ben Moel Glan yr afon, y mae olion hen amddiffynfa hirgron arall, yr hon mae yn dra thebyg a gyfodasid gan y Prydeiniaid, ar le tra uchel a manteisiol i wylio ysgogiadau y byddinoedd gelynol, ar hyd a lled y gwastad-dir, o amgylch ogylch. Y mae olion presenol yr amddiffynfa hon yn gynnwysedig o amgaerau priddlyd, yn mesur o ogledd i ddehau, 304 o droedfeddi; ac o ddwyrain i orllewin, 258 o droedfeddi.

O fewn tua chwarter milldir i Graig y Dinas, y mae Caer Gynghor, neu Caer Gynfor, yr hon oedd ryw fath o orsaf filwraidd, rhag-orsaf efallai i Graig

Digitized by Google

y Dinas, gan y Rhufeiniaid; ac heb fod yn mhell oddiyma, yn nghyfeiriad Dinas Dinlle, y mae Bryn Gwydion, lle debygid yr oedd Llys gan Gwydion ab Don, pan y llywodraethai y rhan hon o Ogledd Cymru; canys mewn hen adfeilion yn y lle darganfuwyd amryw freuanau, yr hyn a brawf fod yma boblogaeth luosog i arlwy ymborth iddynt ar ryw adeg foreuol.

Y mae pont henafol dros yr afon, ar yr hen brif-ffordd o Gaer yn arfon i Bwllheli, a elwir "Pont y Cim:" ac ar ei mur-ganllaw y mae hysbysiad wedi ei dori yn y gareg, fod un Catrin Bulkeley wedi rhoddi ugain punt tuag at ei gwneuthur, yn y flwyddyn 1612. Y traddodiad sydd ar lafar gwlad yn nglyn a'r bont hon ydyw, fod boneddiges yn byw yn yr Eithinog Wen, o'r enw Catherine Bulkeley, a bod boneddwr a gartrefai yn Elernion, yn ei charu; ac iddo, ar hynt garwriaethol unwaith, pan yn ceisio croesi yr afon, gael ei gipio gan y llifeiriant cryf, fel y boddodd;- a bod y foneddiges yn y canlyniad, wedi rhoddi ugain punt at adeiladu pont yn y lle, ac aros yn ddi briod weddill ei hoes, a chymmunroddi yr Eithinog Wen at gynnal Elusendai. Yr ydym yn cael fod un *Catherine*, ferch Wmphre ab Meredydd o Glynog, wedi priodi un Robert *Bulkeley* o Gronant. Ai tybed mai y Catharine Bulkeley hono oedd yr un a grybwyllir yn y traddodiad uchod

Brodor o Lanllyfni, oedd Michael Prisiart, Bardd athrylithgar, yr hwn a anwyd yn y flwyddyn 1710. Enw ei dad oedd Risiart Prisiart o Lanllyfni. Gwehydd oedd Michael wrth ei alwedigaeth; ac yr oedd yn ddysgybl barddonol i Owen Gruffydd o Lanystumdwy, ar ol yr hwn hefyd y cyfansoddodd efe Gywydd Marwnad rhagorol, yr hwn a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, yn y "Gwladgarwr." Dygwyddodd i'r bardd ieuanc ar ryw achlysur, fod mewn Swyddfa Cyfreithiwr yn y Beaumaris, ac yno cyfarfyddodd a'i hen gymmydog Ffowc Jones, yr Udganwr, yr hwn a annerchodd Michael fel hyn,—

"Michael pa le mae'r meichie?"
"Y mae wrth law, draw'n y dre,"

ebai Michael yn ddi ymaros. Pwy a ddygwyddodd fod yn clywed yr atteb parod, ond William Bulkeley, Ysw., o'r Brynddu, yr hwn oedd yn achleswr beirdd a barddoniaeth; a chan ei fod yn foneddwr cyfoethog a haelfrydig, efe a gymerodd Michael ato i'r Brynddu, i gynnorthwyo yn ei ardd. Ond yn fuan ar ol iddo symmud yno, daeth angau, yr hwn nid eiriach na bardd na garddwr, ac a dorodd y planigyn tyner hwn i lawr, a bu Michael Prisiart farw yn y flwyddyn 1731, cyn ei fod yn llawn ddwy flwydd ar hugain oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llanfechell, lle nad oes ond y dywarchen las yn unig, yn gorchuddio ei fedd.

Bu y Parch. John Jones, A.C., yn rheithor y plwyf hwn am yr yspaid maith o dair blynedd a deugain. Efe a gyhoeddodd saith o bregethau yn mlyneddoedd cyntaf ei weinidogaeth; ond hoff gangen ei efrydiaeth oedd Henafiaethau; ac yn y gangen hon o lenyddiaeth Gymreig, rhagorai ar ei gyfoeswyr. Ymddangosodd amryw ysgrifau galluog o'i eiddo yn yr *Archaeologia Cambrensis*, y "Cymro," yr "Amserau," &c., a gadawodd swm mawr o ysgrifau gwerthfawr ar ei ol. Efe a fu farw yn mis Chwefror, 1863, yn 77 mlwydd oed.

Ychydig gyda chan mlynedd yn ol, yr oedd yn byw mewn bwthyn dystadl ar Fynydd Llanllyfni, wraig, a elwid yn gyffredin "Martha y Mynydd," yr hon a wnaeth lawer o son am dani dros amser. Yr oedd y wraig hon wedi llwyddo i gael gan luaws o ddynionach ofer-goelus y dyddiau hyny, i gredu ei bod hi yn derbyn ymweliadau yn ei thy oddiwrth ryw fodau dyeithr, a alwai "yr Anweledigion." Hi a haerai fod yr Anweledigion yn dylwyth cyfoethog iawn, ac yn ymgymmysgu a phobl eraill yn y marchnadoedd, y ffeiriau, a'r lleoedd cyhoeddus; ond eu bod bob amser yn anweledig i bawb ond y rhai a ymroddent i fod yn ddeiliaid o'u cymdeithas. Yr oedd Martha, gan ei bod yn fenyw ymadroddus, wedi hudo lluaws i gredu fod boneddwr cyfoethog, o Gyfundeb yr "Anweledigion" yn byw ar y mynydd gyd a'i ferch, yn lled agos i dŷ Martha; enwau y rhai hyn oedd Mr. a Miss Ingram. Ymgasglai nifer mawr o bobl, o bell ffordd gan mwyaf, i dŷ Martha, i gadw math o gyfarfodydd yn y nos, wrth dân mawn, (canys ni allai yr "Anweledigion" oddef goleuni cryf); a byddai y gwr boneddig yn dyfod ac yn pregethu iddynt. Weithiau hefyd, deuai Miss Ingram, wedi ymwisgo â gwisg wen hyd ei thraed, i bregethu iddynt; a dywedir fod rhyw ammaethwr o Fôn, wedi ei lygad-dynu i'r fath raddau gan y grefydd newydd hon, a chan obeithio hefyd, trwy gyfrwngwriaeth Martha, y rhoddid Miss Ingram yn wraig iddo, fel y cludodd ei holl eiddo o'r bron i Martha, i fynydd Llanllyfni. Yr oedd yn arfer mynychu y cyfarfodydd hyn, walch cyfrwys-ddrwg, a adwaenid wrth y llys-enw "Gutto wir-gast," yr hwn oedd wedi ammeu mai twyll oedd y cwbl a honai Martha, ac yn benderfynol i wylio ei gyfleusdra i wneyd prawf o hyny. Efe a ddeallodd rywbryd fod Martha wedi llosgi ei throed; ac un noswaith, yn lled fuan ar ol i'r anffawd hyny ddygwydd, yr oedd Miss Ingram yn pregethu; a chafodd "Gutto" gyfleusdra i sengi ar y troed dolurus, yr hyn a barodd i Martha ysgrechain gan boen. Ar hyny gwaeddai Gutto,—"Bobol anwyl, ein twyllo yn hollol ydym yn ei gael; mi wnaf lw mai Martha ydyw hon!" Ond cymaint oedd cred y gwyddfodolion yn y grefydd newydd, fel y bwriasant Gutto allan o'r lle, fel terfysgwr ar y gwasanaeth! Yn fuan ar ol y darganfyddiad yma, modd bynag, fe aeth y grefydd newydd i warth, a'i dysgyblion a wasgarwyd; ac y mae yn dda genym ychwanegu, i Martha ar ol hyn edifarhau, a chyfaddef ei holl dwyll, a therfynodd ei hoes yn aelod eglwysig gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd yn Llanllyfni.

Y mae yr hanesyn uchod yn rhoddi gradd o oleuni ar gyflwr tywyll ac ofer-goelus y werin yn y Dywysogaeth, o fewn y ganrif ddiweddaf, cyn sefydliad yr Ysgolion Sabbathawl yn y wlad, a thoriad allan y Diwygiad Methodistaidd.

Y mae tyddyn o'r enw "Rhos y Rhymiau" yn agos i bentref Llanllyfni; a bernir i'r lle gael ei alw felly oblegyd i'r Brythoniaid godi gwrth gloddiau ar y Rhos ar ryw achlysur, mewn adeg tra boreu, olion y rhai nid ydynt wedi eu cwbl ddileu eto. Yr oedd y lle hwn yn dra manteisiol i'r perwyl hwnw, am fod nant fechan, yn cyrhaedd o'r fan hon i le a elwir "Cwm Cyrch," o'r lle y gellid anfon adgyfnerthion i'r fyddin, heb i'r gelyn eu darganfod; neu, drwy yr hon y gallent encilio i'r mynyddoedd, heb gael gwaethaf eu gelynion. Y mae chwedl nodedig am y lle yn cael ei hadrodd ar lafar gwlad. Dywedir

Digitized by Google

fod bugail, ar godiad haul, un boreu teg o wanwyn, yn troi allan o Gwm Dulyn, i edrych am ei braidd; ac er ei fraw, canfyddai fintai fawr o Wyddelod wedi gwersyllu ar lan y Llyn uchaf, gan fwriadu anrheithio y wlad oddiamgylch, ac ysbeilio y trigolion. Y bugail cyffrous, a brysurodd i hysbysu yr awdurdodau; ac anfonwyd brys-negeswyr i Leyn a Chricerth am filwyr, y rhai pan ddaethant, a gloddiasant ffosydd ar y Rhos hon, yn y rhai yr ymguddiasant; a phan ddynesodd y fintai yspeilgar, hwy a ruthrasant arnynt o'r ffosydd, gan ladd llawer o honynt, a gyru y gweddill ar ffo, fel y gwaredid y wlad oddiwrth yr ormes yn effeithiol.

Y mae amryw leoedd eraill yn y plwyf hwn, a phlwyf Llandwrog, yn teilyngu sylw, y rhai a ddeuant yn fwy priodol i fewn, dan yr enw Nantlle.

**LLANLLYR**, sydd breswyl yn nghau Aberteifi, ar yr afon Aeron, 6¼ milltir de orllewin o Lanbedr. Yr oedd sefydliad monachaidd, ydoedd yn gell berthynol i abad-dy Ystrad Fflwr, unwaith yn sefyll yma, yr hwn a roddwyd i deulu Sackville, yn amser y dadgorfforiad.

**LLANMADOG**, plwyf yn nghantref Abertawe, swydd Forganwg, ar arfordir gorynys Browyr, wrth enau yr afon Burry; 9½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o orsaf Llwchwr; a 14 m. i'r gorllewin o Abertawe. Llythyrfa, Abertawe. Erwau, 6727; o'r hyn y mae 5335 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 711*p.* Poblogaeth, 225. Tai annedd, 60. Ychydig nifer ydyw perchenogion y tiroedd. Y gwrthddrych mwyaf hynod yn arwynebedd y plwyf, ydyw Bryn Llanmadoc, yr hwn a gyfrifir yn gyffredin y pwynt uchaf yn Ngorynys Browyr; yr olygfa oddiar yr hwn sydd dra ehang a mawreddog, gan gynnwys holl orynys Browyr, a rhawd yr afon Llwchwr, neu Burry, o Bont ar ddulas, hyd at ei genau, coedwigoedd mawrion Castell Penrice, y clogwyni a'r serth-elltydd a ffurfiant ystlys ddwyreiniol beisfor Oxwich, yn nghyd a'r mor mawr llydan tu hwnt, bryniau Dyfneint a Chernyw yn y pellder, ac arfordiroedd Penfro a Chaerfyrddin. Y mae y pentref yn ymestyn tua haner milldir gyda godreu y bryn; ac ar ben y bryn, y mae olion hen amddiffynfa, neu wersyllfa filwraidd, yn cynnwys llanerch, agos yn gylchawg, o tua phedair erw o fesur, a thri gwrthfur iddo.

Yr eglwys sydd yn gyssegredig i St. Madoc, fab i Gildas, sant yn Mrowyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn archddiaconiaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 112*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

**LLANMAES**, plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont-ar-ogwy, esgobaeth Llandaf, sir Forganwg, Deheudir Cymru; 4 milldir i'r dê o'r Bontfaen, a 9 i'r de-ddwyrain o Benybont, yn agos i Lanilltyd Fawr, ar lan Mor Hafren. Mesura y plwyf 1055 o erwi, a rhifai y trigolion 164 yn 1861. Ardalydd Bute yw arlwydd y faenor, a phrif berchenog y tir. Yr Eglwys yw yr unig le addoliad yn y plwyf, bywioliaeth yr hon sydd yn werth 294*p.* y flwyddyn, yn rhodd Ardalydd Bute. Mae yn y plwyf Ysgoldy Cenedlaethol, lle yr addysgir bechgyn a genethod. Mae y plwyf hwn yn ddiarebol am ei iachusrwydd, a hirhoedledd y trigolion: ac y mae cymmedroldeb y trigolion mewn bwydydd a diodydd, yn sicr o fod yn dylanwadu yn llesol yn hyn o beth, yn ogystal a chlirder yr awyr, &c. Poblogaeth yn 1861, oedd 164.

**LLANMARTIN**, sydd blwyf yn swydd Fynwy, Deheudir Cymru, cantref Caldicott, undeb a dosparth llys sirol Casnewydd, Archddeconiaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf: ac yn sefyll 142 milldir i'r gorllewin o Lundain, 3¾ dwyr.-de-ddwyr. o Gaerlleon-ar-Wysg, a 6½ o Casnewydd. Ail adeiladwyd Eglwys St. Martin yn 1858; ac y mae yn awr yn adeilad hardd, yn cynnwys corff, cangell, a chlochle, gydag un gloch. Mewn math o gell agored yn mur gogleddol y gangell, y mae hen ddelw gerfiedig; a bernir ei bod yno er dyddiau Harri VII. Bernir mai delw Syr Thomas Morgan y cyntaf, o Gastell Pencoed, ydyw; ond nis gellir bod yn sicr ar hyn. Barna haneswyr yn gyffredin, fod Castell Pencoed yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll, a adeiladwyd gan y Normaniaid yn Ngwent. Dengys yr adeiladwaith i'r castell fyned dan gyfnewidiadau pwysig tuag amser y Frenhines Elizabeth, gan fod rhanau o hono yn perthyn i arddull yr oes hono, tra y mae rhanau ereill o hono o arddull llawer henach. Pa fodd bynag, y mae wedi colli ei ogoniant a'i fri, fel llawer castell arall yn Nghymru. Preswylid y castell hwn yn amser Elizabeth, gan Syr Thomas Morgan, K.G., arlwydd Llantarnam, a Chaerlleon. Am oesoedd bellach, y mae y castell wedi bod yn Amaethdy: ac yn ddiweddar, y mae rhanau o hono wedi ei droi yn dai gweithwyr. Perigloriaeth yw y fywioliaeth Eglwysig yn unol ag eiddo Willcrick, yn werth 112*p.* y flwyddyn, gyda thŷ anedd, a 30 erw o dir Eglwys. Maint y plwyf yw 941 erw, pris ardrethol 1089*p.*; poblogaeth, 181.

**LLANMEREWIG**, neu Llanmarewic, sydd blwyf yn nosparth, a swydd Drefaldwyn, gerllaw rheilffordd Croesoswallt a'r Drefnewydd, yn gyfagos i'r afon Hafren, a chamlas Trefaldwyn, 3½ milltir gogledd ddwyrain wrth ddwyrain o'r Drefnewydd. Llythyrfa, yn y Drefnewydd. Erwau, 978. Gwerth ardrethol, 1340*p.* Poblogaeth, 148. Tai, 28. Y mae y meddianau yn cael eu dosparthu rhwng pedwar. Y mae hen wersyllfa Rufeinig yn Mryn y Cawri; ac y mae olion hen ffordd Rufeinig yn aros yma eto. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 133*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llandaf.

**LLANMIHANGEL**, neu St. Michael, sydd blwyf bychan yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont-ar-Ogwy, esgobaeth Llandaf, swydd Forganwg. Saif tua dwy filldir i'r dê o dref y Bontfaen, yn un o ardaloedd prydferthaf Bro Morganwg. Ychydig dai sydd yn y plwyf; a'r prif un yw Amaethdy Llanmihangel, yr hwn sydd adeilad eang a henafol. Yr unig le o addoliad yn y plwyf, yw yr Eglwys; bywioliaeth yr hon, sydd berigloriaeth, gwerth 142*p.* y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Iarll Dunraven. Poblogaeth y plwyf yn 1861, oedd 29.

**LLANMIHANGEL RHOS Y CORN.** Gwel Llanfihangel Rhos y Corn.

**LLANNEFYDD**, pentref, a phlwyf, yn Undeb Llanelwy, swydd Dinbach, Gogledd Cymru. Cafodd y plwyf hwn ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i goffadwriaeth Nefydd, un o ferched Brychan Brycheiniog, yr hon oedd yn ei blodeu tua chanol y bummed ganrif. Y mae yn gorwedd mewn llanerch ddifyrus, yn agos i'r afonydd Aled, ac Elwy; bum milldir i'r gorllewin o orsaf Trefnant, a 5¼ milldir i'r gogledd orllewin o Ddinbach; ac y mae yn y pentref lythyrfa, dan y Rhyl. Mesura y plwyf 7444 o erwau. Gwerth trethadwy, 4270*p.* Poblogaeth,

Digitized by Google

1136. Tai, 246. Ychydig ydyw nifer y tir-feddianwyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 280*p*. Noddwr, esgob Llanelwy. Cynhelir ffeiriau yma ar Mawrth 18; Mai 12; Awst 14; a Thachwedd 20. Y mae olion hen gaerfa filwraidd led gref, ar fryn uchel yn y plwyf hwn, o'r enw Carwed Fynydd. Brodor o'r plwyf hwn, debygid, oedd yr hen Fardd enwog, Iolo Goch; ac yma hefyd y cyfanneddai yr arwres "Catrin o'r Beren," yr hon oedd yn orwyres i Harri y Seithfed, gan ei bod yn ferch i Tudyr ab Robert o'r Berain, yr hwn a briodasai unig ferch, ac aeres Syr Roland Veilleville, Llywydd Castell Beaumaris, a mab o ordderch i Harri y Seithfed.

**LLANNON**, plwyf yn nghantref Carnwallon, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru. Y mae y plwyf hwn yn gorwedd goris y Mynydd Mawr, 4½ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf Pont ar dulais, a 6 milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanelli, ac yn cynnwys treflanau y Blaenau, y Glyn, y Goetre, ac Is morlais; a medda Lythyrfa, dan Gaerfyrddin; a ffeiriau ar Gorphenaf 6, a Rhagfyr 12. Erwau, 11,446. Gwerth ardrethol, 6658*p*.; o'r hyn y mae 235*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 1056. Tai annedd, 323. Y mae y faenoriaeth yn perthyn i R. G. Thomas, Ysw. Uchder y Mynydd Mawr, yw 912 troedfedd. Cloddir glô, a mŵn haiarn, yn nghyd a cheryg adeiladu, yn y plwyf; ac y mae rheilffordd i'w cludo, wedi ei gwneyd oddi yma i Lanelli. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 120*p*. Noddwr, R. G. Thomas, Ysw. Cafodd y plwyf ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i St. Non, ferch Gynyr, yr hon a fu yn briod â Sandde, fab Ceredig ab Cunedda; o'r hwn y ganed mab iddi, sef Dewi Sant. Ymddengys ei bod yn fenyw dra rhinweddol, am ba achos ei gelwir "Non Fendigaid," ac y mae amryw lanau wedi eu cyssegru i'w choffadwriaeth.

**LLANNON**, treflan yn mhlwyf Llansantffraid, swydd Aberteifi, yn agos i lan y môr, 5¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Aberaeron.

**LLANNOR**, sydd blwyf, gyda phentref, yn nosparth Pwllheli, swydd Gaernarfon, yn nherfyn deheuol Lleyn, 3 milltir gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Pwllheli, a 4 milldir dwyrain dde ddwyrain o Nefyn. Llythyrfa yn Mhwllheli. Erwau, 5553. Gwerth ardrethol, 5197*p*. Poblogaeth yn 1851, 1117; yn 1861, 1023. Tai, 233. Yr oedd palas Bodegroes yn perthyn i deulu Glynne, ond cyflwynwyd ef i deulu Gryffydd. Y mae yma rai meini cerfiedig, o'r chweched ganrif. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol Denïo, neu Bwllheli, yn esgobaeth Bangor; gwerth 195*p*., ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys yn henafol, ac wedi ei chysegru i'r Groes Sanctaidd. Cynhelir ffeiriau yn y pentref, Ebrill 12fed, a Hydref 18d, a'r 29n. Y mae yma addoldai perthynol i'r Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd. Mewn lle a elwir Maen Hir, yn agos i Benymynydd, darganfyddwyd bedd hynod yma: yr oedd y corph a'i draed at y gogledd, ar y graian; a llechfaen bob ochr iddo, chwe troedfedd o hyd, gyda cherfiadau Rhufeinig arnynt; a chareg yn orchudd dros y cyfan. Y mae yma rai gwaddolion er budd i'r tlodion.

**LLANOFER**, Llanover, sydd blwyf yn cynnwys tref Blaenafon, yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Abergafenni; deoniaeth Abergafenni, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd Fynwy, Deheudir Cymru. Saif bedair milldir i'r dê o Abergafenni, 1 filldir i'r dê-ddwyrain o orsaf Penpergwm, a 2 filldir i'r gogledd o orsaf Nantyderry; ac ar ochr y brif-ffordd rhwng Abergafenni a Phontypool. Terfynir y plwyf ar y gogledd-ddwyrain, gan yr afon Wysg, a rhed Camlas Aberhonddu a sir Fynwy trwyddo, o'r dê i'r gogledd. Mae parth gorllewinol y plwyf yn hynod fynyddig. Mae Eglwys y plwyf wedi ei chyssegru i Sant Bartholomeus; ac y mae yn adeilad henafol, yn yr arddull Gothig, a chynnwysa gorff, cangell, a thŵr, gyda 5 cloch. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1616. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, yn werth 250*p*. gyda Ficerdy, yn rhodd Deon a Glwysgor Llandaf. Yn mynwent yr Eglwys y mae Croes henafol, gyda Chofadail ardderchog, er coffadwriaeth am yr enwog Arglwydd Llanofer, yr hwn oedd yn fwy adnabyddus fe allai wrth yr enw Syr Benjamin Hall. Mae enw Arglwyddes Llanofer, yn dra adnabyddus trwy ein gwlad, fel noddydd Llenyddiaeth Gymreig, yr Eisteddfodau, ac yn neillduol yr iaith. Mae yn hynod haelionus hefyd gyda phob achos da, o bob natur. Mae yn y plwyf hwn Ysgoldy Cenedlaethol gwych, wedi ei adeiladu ar draul ei Harglwyddiaeth, a hi sydd yn cynnal yr athraw, &c.

"Tra bryn, a dyffryn, a dol,—a thelyn
A thalent farddonol;
Pery mad siarad siriol,
Y wlad hon am Lady Hall."
—*Ieuan Gwynedd.*

*Llanofer Court* yw palas ardderchog yr Arglwyddes: ac y mae yn addurn i'r holl ardal. Hi yw arglwyddes y faenor, a pherchen llawer o'r plwyf. Prif gynnyrch amaethyddol y plwyf yw gwenith, haidd, a cheirch.

Fel yr awgrymwyd, y mae tref a gwaith Blaenafon yn y plwyf hwn, yr hon dref sydd 172 milldir o Lundain, 6 i'r gogledd o Bontypool, 6 i'r de-orllewin o Abergafenni, 5¼ i'r gorllewin o Lanofer.

Mae yn Blaenafon, orsaf derfynol ar linell cledrffordd yr Eastern Valleys, yr hon linell a red oddi yma i'r Casnewydd. Mae cledrffordd Abergafenni a Merthyr, yn gorsafu yma hefyd. Yn y flwyddyn 1860, darfu i'r awdurdodau Eglwysig ffurfio math o blwyf, neu ddosparth eglwysig yn y lle, dan yr enw Blaenafon-Cwm-capel-Newydd, trwy gymmeryd rhanau o blwyfi ereill i'w ffurfio fel y canlyn:—Llanofer tua 1632 erw; Llanffwyst 1003 erwi; o Lanwenarth 96, a Threfethin 631: y cwbl yn 3362 o erwi. Mae poblogaeth y dosparth newydd hwn tuag 8000.

Adeiladwyd Eglwys Blaenafon yn 1804, ar draul Samuel Hopkins, a Thomas Hill, Ysweiniaid; perchenogion cyntaf gwaith Haiarn y lle. Cyssegrwyd yr eglwys, Mehefin, 1805; a bu y Parch. James Jenkins yn gwasanaethu yma am 36 o flyneddau.

Cafodd yr Eglwys hon ei hadgyweirio yn 1850; a chynnwysa gorff, cangell, a thwr pigfain, gyda chwech cloch. Mae y fywioliaeth hon yn Ficeriaeth yn bresenol, yn werth 300*p*. y flwyddyn, yn rhodd Cwmpeini Gwaith Haiarn a Dur Blaenafon.

Yn y flwyddyn 1815, adeiladwyd Ysgoldy gwych yma, ar draul Mrs. Hopkins, ac agorwyd yr ysgol Ebrill 15, 1816. Yn y flwyddyn 1848, adeiladwyd ysgoldy rhai bychain (*infants*), trwy danysgrifiadau, ac agorwyd yr ysgol Chwef. 12, 1849: a chynnelir hi gan berchenogion y gwaith. Yn 1869, adeiladwyd Neuadd y dref, ar draul Mr. John Griffith Williams. Mesura yr adeilad, 64 troedfedd o hyd, 44 o led, a 25

Digitized by Google

o uchder. Costiodd dros 1000*p.*; a deil tua 1000 o bersonau.

Cynnwysa y gwaith 10 ffwrnes dawdd, 70 ffwrnes puddling, 4 melin rolio, ac y mae arwynebedd y glofeydd, &c., yn 11,000 o erwi. Cynnelir marchnad yma bob Sadwrn, a'r ffeiriau Ebrill 16, a Medi 17. Mae yn y dref, Eglwys Babyddol, 3 chapel gan y Bedyddwyr, 2 gan yr Annibynwyr, 2 gan y Wesleyaid, 1 gan y Trefnyddion Calfinaidd, 1 gan y Trefnyddion Henafol, ac 1 gan y *Bible Christians.* Llywodraethir y dref gan Fwrdd Iechyd. Mesura plwyf Llanofer briodol, 4742 erw, gwerth ardrethol, 13,617*p.*; poblogaeth yn 1861, yn 4290.

**LLANPENNAL**, neu BLAENPENNAL, sydd gapeloriaeth, yn mhlwyf Llanddewi-Brefi, yn swydd ABERTEIFI; ar yr afon Aeron, 4 milltir gogledd ddwyreiniol o orsaf rheilffordd Tregaron, a 26 de orllewin o Lanidloes. Llythyrfa yn Tregaron, dan Gaerfyrddin. Erwau, 4105. Gwerth ardrethol, 1115*p.* Poblogaeth, 522. Tai, 107. Y mae meddiant y tiroedd wedi ei ddosparthu rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 84*p.* Nawddogion, Iarll Lisburne, ac R. Price, Ysw. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**LLANPUMSAINT**, plwyf, yn Undeb, a swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU; ar fin rheilffordd Caerfyrddin ac Aberteifi; 6¼ milldir i'r Gogledd o Gaerfyrddin. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a'i Llythyrfa yw Caerfyrddin. Erwau, 4079. Gwerth ardrethol, 2464*p.* Poblogaeth, 543. Tai annedd, 120. Y mae y meddiant tiriogaethol yn rhanedig rhwng llaweroedd. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gydiedig â ficeriaeth Llanllawddog, yn esgobaeth Ty Ddewi. Cyssegrwyd yr eglwys i goffadwriaeth rhyw bum o saint; ac yr ydoedd mewn cyflwr tra adfeiliedig yn ddiweddar. Y mae ychydig elusenau wedi eu gadael i'w rhanu rhwng tlodion y plwyf hwn.

**LLANRHAIADR**, sydd orsaf rheilffordd, ac isddosparth, yn nosparth Rhuthin, swydd DDINBYCH. Y mae yn orsaf rheilffordd, ar reilffordd Dinbych, Rhuthin, a Chorwen, o fewn plwyf Llanrhaiadr yn Nghinmeirch, yn agos i'r afon Clwyd, 3¼ milltir de ddwyreiniol o Ddinbych. Y mae yr is-ddosparth yn cynnwys plwyf Llanrhaiadr yn Nghinmeirch, pedwar o blwyfi eraill, a rhan o un arall. Erwau, 21,897. Poblogaeth, 2611. Tai, 562.

**LLANRHAIADR**, sydd is-ddosparth yn nosparth Llanfyllin, swydd DREFALDWYN, tri phlwyf etholiadol yn Sir Ddinbych, a phlwyf Llanrhaiadr-Mochnant; mewn rhan yn Nhrefaldwyn, ac mewn rhan yn Ninbych. Erwau, 62,716. Poblogaeth, 5101. Tai, 1069.

**LLANRHAIADR-YN-MOCHNANT**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Llanfyllin, a swyddi TREFALDWYN, a DINBYCH. Saif y pentref ar ochr Sir Ddinbych i afonig Llanrhaiadr, ar y terfyn rhwng y siroedd, 4 milltir gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Y mae mewn sefyllfa ddengar. Llythyrfa dan Groesoswallt. Y mae yma west-dy da, a ffeiriau yn cael eu cynal, y Gwener cyntaf o Fawrth, Mai 5, Gorphenaf 24, Medi 28, a Tachwedd 8fed. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd drefgorddau Abermarchnant, Brithdir, Castellmoch, Cefn-coch, Glanafon-fach, Glanafon-fawr, a Nantfyllon, yn sir Drefaldwyn; a threfgorddau Llanrhaiadr, Banhadlaf-isaf, Banhadlaf-uchaf, Garth-eryr-Henfache, Homlet, Trebrys-fach, Trebrys-fawr, Trefeilw, a Trewern yn sir Ddinbych. Erwau, 23,294. Gwerth ardrethol, 11,217*p.* Poblogaeth cyfran Trefaldwyn yn 1851, 989; yn 1861, 772. Tai, 181. Bu y lleihad, yn benaf, o blegid symudiad mwnwyr o'r gymydogaeth. Poblogaeth cyfran Dinbych yn 1851, 1539; yn 1861, 1532. Tai, 325. Y mae meddiant y tiroedd yn cael ei ranu rhwng lluaws. Y mae arwynebedd y tir, gan mwyaf, yn fryniog; ac yn cynwys rhai golygfeydd ardderchog, ac yn ymgodi, ar y terfyn â Meirionydd, i'r uchder o 2562 o droedfeddi, ar goppa Cader-Berwyn. Y mae y Rhaiadr yn cael ei gychwyniad o Lyn-Caws, mewn cwm isel dan odreu Cader-Berwyn, ac yn rhedeg trwy nant arw tua chymydogaeth y pentref, ac yn cymeryd ei godwm yn fuan wedi hyny, i afon Tanat; ac yna yn cyfeirio ei ffordd am tua chwe milltir yn dde-ddwyreiniol. Y mae codwm hynod arall, a elwir Pistyll-Rhaiadr, tu a milltir a haner oddiwrth ei darddiad, yn cael ei ymylu â chreigiau serth, a mynyddoedd uchel ar bob ochr; ac y mae yn llithro dros wyneb craig noeth, am tua 160 o droedfeddi, ac yna yn ymdorri yn rhaiadr nerthol, o tua 80 troedfedd o godwm, trwy fwa-maen naturiol, a cheunant cyfyng. Cyfrifir y ffordd fawr drwy ddyffryn Tanat, yn un wasanaethgar iawn. O fewn terfynau y plwyf hwn, y mae yr afon Twrch yn ymuno a'r Tanat. Gerllaw Pistyll-Rhaiadr, y mae cloddfa Llechi, o gryn eangder; ac y mae glo wedi ei ddarganfod yn y Cefn-coch, yr hon sydd drefgordd o'r plwyf yma. Y mae yma ffeiriau yn cael eu cynal ar y Gwener cyntaf o Fawrth; Mai 5; Gorphenaf 24; Medi 28, a Tachwedd 8fed. Y mae yma amryw waddolion wedi eu gadael er budd y trigolion. Bu y Dr. Morgan, cyfieithydd y Bibl i'r Gymraeg, yr hwn a godwyd gan y Frenhines Elizabeth i esgobaeth Llandaf, ac wedi hyny i Lanelwy yn 1601, ar un pryd, yn ficer y plwyf hwn. Bu Dr. Lloyd, wedi hyny esgob Bangor; Dr. Langford, archddiacon Meirionydd; Dr. Powell, Deon Llanelwy; Dr. Worthington, prebendari Caerefrog, a Llanelwy; Dr. Williams, prebendari Llanelwy, a chapelydd i Esgob Shipley o Lanelwy, ac amryw dduwinyddion enwog eraill, yn eu hamser, yn ficeriaid y plwyf, a bu yr enwog Gwallter Mechain yn olynydd iddynt yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 520*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yma addoldai gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd; ac ysgol waddoledig.

**LLANRHAIADR-YN-NGHYNMEIRCH**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Rhuthin, swydd DDINBYCH. Saif y pentref yn gyfagos i orsaf rheilffordd Llanrhaiadr, 3¼ milltir de ddwyrain o Ddinbych. Llythyrfa, dan Rhyl. Cynhelir ffair yma Hydref 17. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau, Llan, Cader, Trefydd Bychain, Llewesog, Llech, Llwyn, Clicudeg, Prion, a Segrwyd. *Llanrhaidr Hall*, annedd teulu Price, ydyw un o'r prif balasau. Y mae y bryn, a elwir Cadair Gwladus, yn arddangos golygfa ardderchog. Y mae yma raiadr, yr hwn a rydd yr enw i'r lle. Y mae yma gloddfeydd cerig calch, *agates*, a rhai gwythienau o efydd. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 600*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn adeilad teg; rhan o ba un sydd yn henafol, a rhan yn ddiweddar; ac yn cynwys cofadail am Maurice Jones, Ysw. Y mae ficeriaeth Prion yn fywioliaeth ar wahan. Y mae yma dri o gapeli

Digitized by Google

perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd. Y mae yn y lle hefyd elusendy, yn yr hwn y mae wyth o bersonau yn cael eu cynnaliaeth. Yn y fynwent y mae cofadeiliau, y Cadbeniaid Wynne a Salusbury, y rhai a laddwyd yn amser gwarchaead castell Dinbych, yn 1646. Y mae Ffynon Dyfnog, yn agos i'r eglwys, wedi bod mewn bri mawr yn yr amser gynt, o blegid y rhinweddau tybiol a berthynai iddi.

**LLANRHIAN**, plwyf yn Undeb Hwlffordd, swydd Benfro; ar yr arfordir; 6½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Dŷ Ddewi, a 14 milldir i'r gogledd orllewin o orsaf Hwlffordd. Y mae yn cynnwys pentref Trefin, yn yr hwn y mae Llythyrfa, dan Hwlffordd. Erwau, 3683. Gwerth ardrethol 4165*p.*, o ba rai y mae 69*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 1178; yn 1861, 1017. Tai annedd, 249. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 105*p.* Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Yr oedd yma balas i Esgobion Ty Ddewi yn yr oesoedd gynt, ac y mae ei fyd-gell (*vault*) yn aros eto. Y mae cromlech, yn cynnwys bwrdd-faen, 16 troedfedd o hyd, yn gorwedd ar attegion, 5½ troedfedd o uchder, ar dir ammaethfa o'r enw *Longhouse*, yn y plwyf hwn.

**LLANRHIDIAN**, sydd blwyf yn nghantref Abertawy, undeb Gwyr, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, tua naw milldir i'r de-orllewin o Abertawy, sir Forganwg, Deheudir Cymru. Mae y plwyf wedi ei ranu yn randiroedd fel y canlyn: Llanrhidian Uchaf, yn cynnwys Cilibion, a Walterstone; a Llanrhidian Isaf, yn cynnwys dosparth Penclawdd. Mesura yr holl blwyf 22,064 erw; a pherchenogir ef gan C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., arlwydd y faenor; Duc Beaufort; H. H. Vivian, Ysw., A.S.; T. Penrice, Ysw.; ac A. V. D. Barrington, Ysw. Yn ymyl Eglwys y plwyf y mae Croes henafol iawn, yr hon yn ol pob tebyg, a wnaed yn y 6fed ganrif. Ficeriaeth yw y fywioliaeth Eglwysig, yn unol a Churadaeth Penclawdd, yn werth 99*p.* y flwyddyn. Mae capeli yn y plwyf hefyd gan yr Annibynwyr, Bedyddwyr, a Threfnyddion Calfinaidd: ac hefyd ysgolion Cenedlaethol, a Brytanaidd. Tua dechreu y ganrif bresenol, dechreuwyd gwaith glo ac efydd yn y plwyf hwn; yr hwn yn mhen ychydig flyneddau a droes allan yn fethiant. Ail gychwynwyd ef drachefn; ac am lawer o flyneddau dygid masnach y plwyf yn mlaen ar y camlas. Rhai blyneddau yn ol pa fodd bynag, gwnaed cangen o reilffordd o *Gower Road*, i Benclawdd, yn y plwyf hwn; lle y dygir yn mlaen fasnach helaeth mewn efydd, arian, plwm, &c. Poblogaeth y plwyf hwn yn 1861 oedd 1993; a phris ardrethol y plwyf, yn 4791*p.*

**LLANRHIDIAN**, neu Llanrhithan, plwyf yn Undeb Hwlffordd, swydd Benfro; ar yr afon Solfach; 7½ milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ddwyrain o Dy Ddewi; ac 11 milldir i'r gogledd orllewin o orsaf Hwlffordd. Llythyrfa, Solfach, dan Hwlffordd. Erwau, 1719. Gwerth ardrethol, 1307*p.* Poblogaeth, 188. Tai annedd, 36. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 86*p.* Noddwyr, Corbrwyadau Ty Ddewi.

**LLANRHIW-BEBYLL**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandyrnog, swydd Ddinbych, 4½ milltir dwyreiniol o Ddinbych.

**LLANRHOTHELL**, neu Llanfrother, plwyf yn rhandir Mynwy, swydd Henffordd, ar lan yr afon Monnow, ger ffin swydd Fynwy; 5 milldir i'r gogledd orllewin wrth ogledd o orsaf Trefynwy. Llythyrfa, Trefynwy. Erwau, 1630. Gwerth ardrethol, 1715*p.* Poblogaeth, 107. Tai annedd, 23. Seiliwyd coleg yma gan Sant Dyfrig, yn y chweched ganrif, o'r hwn y mae rhai olion yn aros. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Henffordd. Gwerth, 206*p.* Noddwr, J. Price, Ysw.

**LLANRHUDD**, sydd blwyf yn nosparth Rhuddin, neu Rhuthin, yn swydd Ddinbych, 1½ milltir gogledd wrth dde o orsaf rheilffordd Rhuthin. Y mae yn cynwys rhan o fwrdeisdref Rhuthin, yn nghyda thlod-dy Rhuthin. Llythyrdy yn Rhuthin. Erwau, gyda phlwyf Rhuthin, 1989. Gwerth ardrethol Llanrhudd Uchaf, 1520*p.* Poblogaeth yr holl blwyf, 965. Tai, 209. Poblogaeth y rhan sydd o fewn bwrdeisdref Rhuthin, 886. Tai, 191. Y mae y meddianau rhwng nifer. Plas Llanrhudd ydyw annedd G. Johnson, Ysw. Y mae ffynhonell fwnyddol yma. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, unedig â pheriglorïaeth Rhuthin, yn esgobaeth Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi cael ei hadgyweirio yn ddiweddar, ac yn cynwys cofadail i deulu Thelwall.

**LLANRHUDDLAD**, sydd blwyf, gyda phentref pysgotta, yn nosparth a swydd Fon, ar feisfor Caergybi, 5½ milltir, gyda y dwfr, gogledd-ddwyrain o Gaergybi, a 7½ gogleddol o orsaf rheilffordd y Fael-lif. Llythyrfa yn Nghaergybi. Erwau, 2679. Gwerth ardrethol, 2301*p.* Poblogaeth, 790. Tai, 181. Saif y pentref wrth droed Moel-Rhuddlad, yr hon sydd un o'r bryniau uchaf yn Mon, ac o blegid hyny y dewiswyd y lle yn un o'r prif orsafoedd, wrth wneuthur yr arfesuriad ar Ogledd Cymru, gan y Milwriad Mudge. Y mae efydd, a manganese, o fewn y terfynau. Yn y plwyf hwn y ganwyd Syr William Williams, Llefarydd Ty y Cyffredin yn amser Siarl II. sylfaenydd teuluoedd Wynnstay, Bodelwyddan, a Pen-bedw, pan yr oedd ei dad Dr. Huw Williams yn beriglor yma, o 1633, hyd 1670. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, unedig a churadaethau Llanfflewyn, a Llanrhwydrus, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Rhuddlad; y mae y fywioliaeth yn werth 530*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yma gapeli i'r Methodistiaid, a'r Wesleyaid.

**LLANRHWYDRUS**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Fon, ar lan y mor, rhwng beisfor Cemlyn a Phwynt Carmel, 8 milltir gorllewinol o orsaf rheilffordd Amlwch, a 9 gogledd orllewinol o Lanerchymedd. Llythyrdy yn Gwyndy, dan Langefni. Erwau, 1143. Gwerth ardrethol, 1035*p.* Poblogaeth, 136. Tai, 26. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pheriglorïaeth Llanrhuddlad, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Rhwydrus. Y mae Ynys y Moelrhoniaid, o fewn tua dwy filltir, gogledd orllewinol oddi wrth y lle yma. Yr oedd yr Ysgeris yn perthyna gynt i fonachod Bangor, ac yr oedd hon, y brif bysgodfa a berthynai i'r esgobaeth. Trwy ddiofalwch yr esgobion, goddefwyd i'r lle lithro i feddiant teulu Gryffydd, o'r Penrhyn; ond yn 1498, llwyddodd yr esgob Dean, i adferu y meddiant i'r esgobaeth yn ol.

**LLANRHYCHWYN**, sydd blwyf, gerllaw pentref Trefriw, yn nosparth Llanrwst, ac yn swydd Gaernarfon, gerllaw afon Gonwy, ar derfyn swydd Ddinbych, 1½ milltir gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Llanrwst. Llythyrdy, Llanrwst, yn sir Ddinbych. Erwau, gyda Threfriw, 9576. Gwerth ardrethol 1799*p.*, o'r hyn y mae 124*p.* mewn mwnau.

Digitized by Google

Poblogaeth, 523. Tai, 113. Y mae y meddianau oll yn meddiant un gwr. Y mae Llyn Geirionydd o fewn y terfynau, ar ben dwyreiniol yr hwn yr oedd annedd Taliesin Ben Beirdd, i'r hwn y mae Arglwydd Willoughby wedi codi cof-golofn o tua deuddeg troedfedd o uchder, gerllaw Bryn y Caniadau. Cedwir Eisteddfod flyneddol yn y lle, a bu y cynulliadau yn lluosog iawn ar rai prydiau. Amcenir adferu gorsedd Taliesin yma, ond y mae uchder y rhiwiau i'r gymydogaeth led-anghyfanedd hon, yn anfanteisiol, ar hin arw, i gynal cyfarfodydd lluosog yma. Y mae llechi, a mwn plwm yn y gymydogaeth. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pheriglorinaeth Trefriw, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Rhychwyn. Bernir fod rhanau o'r adeilad yn henafol iawn. Dywedir, ond yn anghywir, ei bod wedi ei chodi cyn arferiad y llif a'r cŷn, gan nad oes olion y cyfryw arfau ar y coed, fel eu gwelir hyd y dydd hwn. Y mae gwydr lliwiedig mewn gweddillion anghysylltedig yn y ffenestr ddwyreiniol, gyda y dyddiad canlynol MCCCCXXII. Y mae golygfeydd tarawiadol ar ddyffryn Llanrwst, oddiar y llechweddau yma. Yr oedd Ieuan Glan Geirionydd yn enedigol o Drefriw, lle y gorphwys ei lwch mewn heddwch yn awr.

**LLANRHYSTYD**, pentref, a phlwyf, yn rhanbarth Aberystwyth, swydd ABERTEIFI. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw safn yr afon Gwyre; 7 milldir i'r de ddeorllewin o orsaf *Llanrhystyd Road;* a 2 filldir i'r de ddwyrain o Aberystwyth. Medda Lythyrfa dan Gaerfyrddin, a dwy ffair flyneddol, y naill ar ddydd Iau o flaen y Pasg, a'r llall, ar ddydd Iau o flaen y Nadolig. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgyrdd Haminiog, a Mefenydd; a mesura 8770 o erwau; o ba rai y mae 155 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 5427*p*. Poblogaeth, 1533. Tai annedd, 327. Cafodd yr eglwys hon ei hanrheithio gan y Daniaid, yn eu cadgyrchiad i'r wlad yma, yn y flwyddyn 987. Ac yn y flwyddyn 1080, cafodd Castell Llanrhystyd, a elwid hefyd Castell Dinarth, yr hwn a berthynai y pryd hyny i Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, ei anrheithio gan Rhys, tywysog y Deheubarth: ac yn y flwyddyn 1135, darfu i Owain Gwynedd, a'i frawd, yn cael eu cynnorthwyo gan Hywel ab Meredydd, a Rhys ab Madoc ab Idnerth, lwyr ddinystrio y castell hwn. Wedi ei ail-adeiladu, gwarchaewyd arno, a chymerwyd ef, ac amryw amddiffynfeydd eraill, yn y flwyddyn 1150, gan Cadell, Meredydd, a Rhys, meibion Gruffydd ab Rhys, Tywysog y Deheubarth, y rhai wedi eu cythrutho gan wrthsafiad dewr-wych ei ddiffynwyr, trwy yr hyn y collasent rai o'u gwyr dewraf, a barasant ladd y gwarchodlu â'r cleddyf. Fe'i hadgyweiriwyd ac a'i cadarnhawyd gan Roger, Iarll Clare, yn y flwyddyn 1158; a thua diwedd yr un ganrif, gosododd Maelgwyn ab Rhys warchae arno, ac a'i cymerodd, gan ladd y gwarchlu a adawsid i'w amddiffyn gan ei frawd Gruffydd; ac yn y flwyddyn 1204, efe a'i gwnaeth yn gyd-wastad a'r llawr, ac a wnaeth yr un modd ag amddiffynfeydd eraill, rhag disgyn o honynt i ddwylaw Llewelyn ab Iorwerth.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn archddeoniaeth Ceredigion, ac esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 140*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Rhystyd, yr hwn oedd yn ei flodau ddechreu y chweched ganrif. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Bedyddwyr, addoldai yn y plwyf. Crybwylla Leland fod yma weddillion hen adail fawr yn ei amser ef, yr hon y tybiai rhai mai Lleiandy ydoedd; ond, nid oes dim o'i holion yn aros; na dim seiliau cryfion i haeru fod y fath sefydliad wedi bod yma o gwbl: ond, y mae Ammaethfa yn y plwyf, a elwir "Y Mynachty," lle, y mae yn dra thebyg yr oedd gorsaf crefydd-dy Pabaidd.

**LLANRUG**, neu LLANFIHANGEL-YN-RUG, plwyf yn nghwmwd Is-Gwyrfai, cantref Arfon (a elwir yn awr hefyd cantref Is-Gwyrfai), swydd GAERNARFON. Ffurfia y plwyf hwn, yn nghyda phlwyfydd Llanddeiniolen, Llanberis, Bettws Garmon, a Llanfair-is-gaer, is-ddosbarth pwysig yn undeb Caernarfon. Dengys gwahanol gyfrifiadau y boblogaeth yn ystod y ganrif bresennol, fod Llanrug yn un o'r dosbarthiadau mwyaf cyflym-gynnyddol yn Ngwynedd. Yn 1801, nid oedd holl drigolion plwyf a threfgordd Llanrug, namyn 316. Erbyn 1851, yr oeddynt wedi cynnyddu i 1894; yn 1861, rhifent 2139; ac erbyn 1871, yr oeddynt yn 2720. Anfynych y ceir cyflymed cynnydd mewn plwyf mor fychan. Achosir yr agwedd yma ar bethau yn Llanrug, gan agosrwydd y lle i'r llech-chwarelau. O fewn y plwyf hwn y preswylia nifer lluosog o chwarelwyr Dinorwig; ac y mae y mwyafrif o weithwyr chwarelau y Glyn, &c., yn cartrefu yma. Erwau, 4156. Gwerth ardrethol, 4330*p*. Cynnyrchir 360*p*. o'r ardrethoedd hyn gan yr amrywiol chwarelau sydd yn Mynydd y Cefn Du, o fewn cyffiniau y plwyf. Gellir dyweyd fod canolbarth Llanrug, oddeutu 3½ milltir i'r dwyrain o Gaernarfon; ond cyrhaedda blaen y plwyf yn agos i Eglwys Llanbeblig, gan gynnwys cyfran chelaeth o bentref blodeuog Cae Athro, a phalas prydferth Glangwna, ar lan y Seiont. Yr afon hon a ffurfia derfyn gogleddol y plwyf am rai milldiroedd, ac a'i gwahana oddiwrth Landdeiniolen. Gellir dyweyd nad oes odid filltir yn holl yrfa y Seiont, o'i chychwyniad yn Llyn Padarn, hyd ei harllwysiad i'r Fenai, yn Nghaernarfon, heb fod oddifewn i Lanrug. Arwynebedd y tir sydd dra amrywiog. Ceir yma y gelltydd gwylltion, y glynau isel, a'r dyffrynoedd coediog mewn cyflawnder. Oddiar y bryncynau talion, ac yn enwedig oddiar lethr Mynydd y Cefn Du, ceir golygfeydd godidog a'r fôr a thir. I'r dwyrain a'r deau, y mae cadwen fawreddog yr Eryri. Y Wyddfa nid yw neppell; ac y mae yr Elidir, Moel Eilio, a'r Mynydd Mawr yn ymyl. I'r gorllewin a'r gogledd drachefn, gwel yr edrychydd arfor prydferth Caernarfon, ac Ynys Mon megys wrth ei draed; a dywedir y gellir gweled hyd yn nod fryniau yr Iwerddon, a'r ddiwrnod clir a dymunol. Bronell brydferth iawn ydyw yr un lle y saif yr Eglwys blwyfol. Yr Eglwys hon sydd gysegredig i Sant Michael. Y mae hi wedi ei hadeiladu ar ffurf croes, ac yn yr arddull Seisnig diweddaraf. Nid ardrethir ond ychydig, os yr un, o'i heisteddleoedd, ond gadewir hwynt yn rhydd ac agored i'r oll o'r plwyfolion. Y fywioliaeth sydd rectoriaeth, gwerth 200*p*. y flwyddyn, yn Esgobaeth Bangor. Y periglor presennol ydyw y Parch. H. Bailey Williams, mab i'r ysgolhaig a'r henafiaethydd galluog y Parch. Peter Bailey Williams, awdwr "Hanes Sir Gaernarfon," &c., a noddydd haelionus beirdd a llenorion ei oes. Efe oedd swcewr a dyddanydd penaf Dafydd Ddu Eryri hyd derfyn ei ddyddiau; ac efe hefyd a ofalodd am osod gwyddfa deilwng ar fedd y bardd, wedi ei farwolaeth anffodus trwy foddiad yn yr afon

Digitized by Google

Cegin. Yr oedd y Parch. P. B. Williams hefyd yn ebrwyad Llanrug; ac ar ei farwolaeth, dilynwyd ef gan ei fab, sef yr offeiriad presennol, yr hwn sydd, weithiau, mewn gŵth o oedran. Y Parch. P. B. Williams oedd fab i'r clodfawr Peter Williams, Esboniwr y Beibl. Y mae periglor presennol Llanrug yr deilwng o'i dad, a'i daid enwog, canys boneddwr trwyadl, a Christion rhyddfrydig ac eang-galon ydyw efe. Heblaw yn yr Eglwys blwyfol, cynnelir gwasanaeth Eglwysig yn rheolaidd mewn ysgoldy yn mhentref poblogaidd Cwm-y-glo. Medda yr Ymneillduwyr amryw gapelydd heirdd a chyfleus o fewn y plwyf poblogaidd. I'r gynnulleidfa ymgynnulledig yn y capel Methodistaidd, gweinidogaetha y Parch. John Eiddon Jones; ac y mae cynnulleidfa y capel Annibynol hardd yn mhentref Cwmyglo, o dan ofal y Parch. D. Oliver. Yn y flwyddyn 1834, trwy ymdrechion y periglor, adeiladwyd yma ysgol ddyddiol, yn unol â chyfundrefn y Gymdeithas Genedlaethol, neu Eglwysig. Yn ddiweddarach, adeiladwyd yma hefyd, ysgoldy Brytanaidd; ond y mae y naill a'r llall bellach wedi eu trosglwyddo i ofal a meddiant y Bwrdd Ysgol, a etholwyd yma oddeutu dwy flynedd yn ol. Cadeirydd y bwrdd ydyw y Parch. H. Bailey Williams, ebrwyad y plwyf; a'r is-gadeirydd ydyw y Parch. David Oliver. Tra yr ydym yn ysgrifenu (Mawrth, 1873), y mae y bwrdd yn brysur gyd a'r gorchwyl angenrheidiol o adeiladu ysgoldy newydd yn mhentref Cwm-y-Glo; ac wedi y cwblheir y gwaith hwnw, bydd angenion addysgiadol y plwyf wedi eu cyflenwi yn y modd mwyaf boddhaol.

Ar y cyfan, y mae rhaniad tiroedd y plwyf hwn yn dra boddhaol, gan na chyfyngir meddianniad y tiroedd i ychydig o ddwylaw. Ffermydd oddeutu can' erw a geir yma yn gyffredin, ac y mae y rhai hyny agos oll o dan amaethiad rhagorol. Wrth gwrs, anmhosibl a fuasai i'r diwydrwydd penaf ddwyn y parthau mwyaf mynyddig i gyflwr o ddiwylliad perffaith. Ceir yma amryw balasau lled wychion, megys Castell Bryn Bras, y Plas Tirion, Llwyn-y brain, y Ty Gwyn, Pant Afon, &c. Yma hefyd y mae Trefeilian, lle y ganwyd yr Esgob dysgedig Griffith Williams, un o amddiffynwyr galluocaf Siarl y Cyntaf, a chefnogwr gwresog adfeiriad teyrnach y Stuarts yn mherson Siarl yr Ail. Trwy ddylanwad ei gydwladwr Dr. John Williams, Archesgob Caerefrog, cafodd Griffith Williams ei bennodi yn un o gaplaniaid Siarl y Cyntaf, pan yn dra ieuanc; ac yn y flwyddyn 1628, gwnaed ef yn Brebendur Westminster. Yn mhen pum' mlynedd wedi hyny, derbyniodd y swyddi o Ddeon Bangor, ac Archddiacon Môn; ac yn y flwyddyn 1841, cysegrwyd ef yn Esgob Ossory, yn yr Iwerddon; a rhoddwyd iddo, ar yr un pryd, ganiatâd i ddal ei swyddogaethau urddasol ac enillgar yn Nghymru, a Westminster. Ysgrifenodd lawer o lyfrau llafurfawr ar amgylchiadau cynhyrfus yr amseroedd hyny; a chyfrifid ef yn un o ddynion dysgedicaf ei oes. Brodor o Lanrug hefyd ydoedd y Dr. Edwards, cydymaith enwog y Commodore Anson, yn ei fordaith oddiamgylch y ddaear. Dygwyd corff Dr. Edwards i fynwent ei blwyf genedigol, lle y cydetifedda dawelwch gweddillion Dafydd Ddu Eryri, ac amryw enwogion Cymreig ereill.

Derbyniodd pentref Cwm-y-glo, o fewn y plwyf hwn, hynodrwydd hanesyddol yn ngwanwyn y flwyddyn 1869, pryd y dygwyddodd yma un o'r damweiniau mwyaf erchyll a gofnodwyd erioed, trwy i ddau lwyth trol o'r pylor-olew a elwir *nitroglycerine* ffrwydro ar y ffordd, gan agor y ddaear, a malurio y troliau, y meirch, a chyrff y dynion anffodus a ddygwyddent fod gerllaw, mewn modd rhy arswydus i'w ddesgrifio. Gresyn fod y pentref poblogaidd hwn wedi ei adeiladu ar ymyl cors leidiog ac afiachus. Cyn gwneuthuriad y doll-ffordd o Gaernarfon i Lanberis, arferid cludo y llechi o Glynrhonwy, a'r mân chwareli ereill, i Gwmyglo mewn cychod ar y llyn. Erbyn hyn y mae y gledrffordd wedi gwneyd y badau, a'r troliau yn ddiangenrhaid i'r fasnach lechi. Mewn lle a elwir Caer-Cwm-y-Glo, ceir arwyddion o fŵn copr, a gwnaed ymgais i'w godi flyneddau yn ol; ond nid ydoedd y cyflenwad ddigonol i gyfateb i'r draul. Barna amryw ddaearegwyr, nad ydyw y Wyddfa yn perthyn o gwbl i'r hen ffurfiad Cambraidd; ond ceir prawfion digonol fod bryniau Llanrug yn perthyn i'r ffurfiad daearegol henaf, canys y mae ffosylau lluosog y fro yn gosod hyny tu hwnt i ddadl. Rhedai y ffordd Rufeinig o Gaernarfon, neu Segontium, i Ddinas Dinorwig, trwy ranau o'r plwyf hwn. Gallodd y diweddar Barch. Peter Bailey Williams, a Dafydd Ddu, ddarganfod y ffordd mewn amryw fanau mor ddiweddar a'u hamser hwy; ac y mae hi i'w gweled yn amlwg hyd y dydd heddyw, yn Rhos Bodrual, ar derfynau gorllewinol a gogleddol y plwyf.

Perthyna i'r plwyf yma haner cymmunroddion gwerthfawr John Morris, o Gaernarfon, yr hwn, yn y flwyddyn 1709, a destamentodd ei eiddo, sef tyddynod Drws y Dugoed, Cae Newydd, Caer Wethus, Erw Gain, Cae'r Gethin, a llain arall o dir yn nghyffiniau Eglwys Llanrug, yn nghydag amrywiol leiniau o dir a berthynai iddo yn nhref a phlwyf Nefyn, i'r Gwir Barchedig Dad yn Nuw, John, Arglwydd Esgob Bangor; y Dr. John Jones, Deon Bangor; Rowland Wynne, o Gaerynarfon, Yswain; Thomas Wynne, o'r Glasgoed, boneddwr; Hugh Lewis, o'r Bontnewydd, Yswain; a Robert Wynne, ebrwyad Llanrug, a Llanddeiniolen, ac i'w hetifeddion mewn ymddiried dros byth, gan drefnu ar fod iddynt ddefnyddio y cynnyrch tuag at brentisio plant genedigol o Lanrug, a thref Caernarfon, bob yn ail. Yr oedd deg punt i'w rhoddi dros bob bachgen, ar ei rwymiad i ddysgu rhyw gelfyddyd; ac un bunt yn flyneddol tuag at ddilladu pob egwyddorwas yn ystod tymmor ei brentisiaeth. Dengys adroddiad swyddogol dirprwywyr elusen, fod deugain o fechgyn tlodion o'r dref a'r plwyf, wedi eu prentisio a'u dillada trwy yr elusen yma, rhwng y blyneddoedd 1823, ac 1832. Trwy ddiofalwch yr ymddiriedolwyr, collwyd y lleiniau tir yn nhref Nefyn; ond er hyny, cynnyrchai yr etifeddiaeth elusenol y swm blyneddol o 55*p.* 12*s.* pryd y gwnaeth y Dirprwywyr Seneddol eu hadroddiad diweddaf. Trwy ddarpariadau y Ddeddf Seneddol er awdurdodi amgauad tiroedd agored Llanrug, a basiwyd yn y flwyddyn 1819, ychwanegwyd 35 erw, a 38 perch, at yr etifeddiaeth elusenol. Erbyn y flwyddyn 1829, yr oedd disgynyddion y mwyafrif o'r ymddiriedolwyr gwreiddiol wedi marw, a chafwyd awdurdod briodol i ffurfio corff ymddiriedol newydd, yn cynnwys Arglwydd Newborough, y Parch. Peter Williams, y Parch. J. W. Trevor, y Parch. William Wynn Williams, ac ereill. Y mae amryw o'r ymddiriedolwyr hyn eto yn fyw, ac yn parhau i reoleiddio yr elusen. Y goruchwyliwr

Digitized by Google

presennol, ydyw Mr. Owen Jones, Caernarfon, yr hwn a dderbynia bum' punt y flwyddyn am ei wasanaeth. Deallwn fod yr ymddiriedolwyr, o herwydd deall o honynt fod amryw rieni yn defnyddio yr arian at ddybenion o'r eiddynt eu hunain, wedi penderfynu yn ddiweddar, na phrentisir ychwaneg o blant; ond y rhoddir cyllid yr etifeddiaeth tuag at hyrwyddo addysg gyffredinol yn y plwyf a'r dref. Perthyna i Lanrug fân elusenau ereill, tuag at roddi bara i'r tlodion ar adegau pennodol o'r flwyddyn. Yn y flwyddyn 1786, testamentodd Catherine Jones, a John Jones, wyth bunt rhyngddynt i'r perwyl yma; ac ar adeg ddiweddarach, rhoddodd Owen Thomas bum' punt, a'i frawd David Thomas, dair punt a deg swllt at yr un amcan. Am fanylion yr elusenau hyn, gweler Adroddiad y Dirprwywyr.

Bernir ddarfod i fryniau Llanrug gael eu poblogi amser maith cyn dyfodiad y Cymry i Wynedd. Ceir yma hyd yr adeg bresennol, olion "Cytiau y Gwyddelod;" ar ffurf mân bentrefydd o fythod crynion. Oddeutu deugain mlynedd yn ol, cyfrifwyd uwchlaw tri chant o'r cyfryw fythod o fewn y plwyf; ac yn agos i bob cylch pentrefol, cafwyd meini crynion ac olion ereill hen lawfelinau y cyfnod boreuol.

**LLANRWST**, plwyf a thref farchnad yn nghwmwd Uwch Dulas, cantref y Rhos (a elwir yn awr hefyd Cantref Uwch Dulas), swydd DINBYCH, GOGLEDD CYMRU. Ymestyna rhan o'r plwyf hefyd i Sir Gaernarfon, a gelwir y rhan hono wrth yr enw adnabyddus Trefgordd Gwydir. Cynnwysa y drefgordd hon yn unig, 7621 o erwau; gwerth ardrethol, 1551*p.*; a phoblogaeth o 400. Y trefgyrdd ereill o fewn y plwyf, ydynt Capel Garmon, Garthgyfanedd, Tybrithuchaf, Mathebrwyd, a Thre'r Dref. Y mae y rhai hyn oll ar ochr Dinbych i'r afon Conwy, ac yn cynnwys 15,297 o erwau. Gwerth ardrethol, 13,006*p.* Poblogaeth, 3600. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, gyda pha un y mae capeloriaeth Sant Mair wedi ei chysylltu, ac yn werth 925*p.* y flwyddyn. Yr ebrwyad presennol ydyw y Parch. Hugh Jones, yr hwn hefyd sydd un o Ganoniaid Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Y mae y Ganoniaeth yn werth tri chant a haner o bunnau y flwyddyn; ac felly fe welir fod holl gyllid ebrwyad Llanrwst, yn cyrhaedd y swm parchus o ddeuddeg cant a phymtheg a thriugain o bunnau bob deuddeng mis. Y mae trefgordd Capel Garmon wedi ei ffurfio yn ficeriaeth annibynol er ys blynyddau; ac y mae cyllid y ficer yno, oddeutu 300*p.* Noddydd y naill a'r llall ydyw Esgob Llanelwy. Yr oedd yma gynt rectoriaeth, a ficeriaeth. Derbyniai y rector y swm mwyaf o'r degwm am segura, tra y rhoddid y swm lleiaf i'r ficer am gyflawni y gwaith; ond yn nheyrnasiad Siarl yr Ail, unwyd y ddwy swyddogaeth. Yr Eglwys sydd gysegredig i St. Crwst, yr hwn a elwir hefyd wrth yr enwau Rhystyd, a Restitutus. Dywedir i'r Eglwys gyntaf yn y lle, gael ei hadeiladu ar dir a roddwyd i'r perwyl hwnw, gan Rhûn ap Nefydd Hardd, pencenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Cyflawnasai Nefydd ysgelerwaith, trwy lofruddir y Tywysog Idwal, mab Owain Gwynedd, ac fel iawn am y trosedd hwnw o eiddo ei dad, y rhoddodd Rhûn y tir crybwylledig at wasanaeth crefydd. Ystyrid y trosedd yn fwy ysgeler, oherwydd fod Owain Gwynedd wedi ymddiried y Tywysog Idwal i Nefydd i'w fagu. Chwalwyd yr Eglwys hono, ac adeiladwyd yr un bresennol, oddeutu dechreu y bymthegfed ganrif. Y Parch. H. Holland Edwards, ebrwyad y plwyf, a Phrebenadur Westminster, ddechreu y ganrif bresennol, a adgyweiriodd yr adeilad, ac a ychwanegodd at y cyfangorff blaenorol, glochdy hardd. Yn gysylltiedig â'r Eglwys, ar yr ochr ddeuheuol, y mae adeilad hardd ar ffurf gastellaidd betrual, a elwir Capel Gwydir. Adeiladwyd hwn ar draul Syr Risiart Wynne, yn ol cynlluniau a ddarparesid gan y pensaer clodfawr Ynyr, (neu Inigo) Jones, yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Bwriadwyd ef fel claddfa i deulu Gwydir, amryw o ba rai a gladdesid yn flaenorol i hyny yn nghangell yr Eglwys. Cynnwysa gelfyddwaith godidog, a darluniau cywrain o amryw o hen deulu urddasol y Wynniaid. Ar y mûr dwyreiniol, y mae tabled o fynor gwyn, ac arno yn gerfiedig achau y teulu, lle yr olrheinir eu trâs i'r Tywysog Owain Gwynedd. Ar y mûr deheuol, y mae cof-faen i Syr John Wynne, Barwnig, casglydd dyfal a dysgedig y defnyddiau tuagat gyfansoddi *The History of the Gwydir Family.* Y mae yma hefyd faen coffadwriaethol am Meredydd, taid Syr John Wynne, ac am Sidney, gwraig Meredydd, yr hon oedd ferch i Syr William Gerard, Canghellydd yr Iwerddon. Ffurfir nen y capel hwn o gerfwaith derw ysplenydd, a berthynai gynt i hen Abbadty Maenan gerllaw. Yn nghanol llawr y capel, y mae yr arch carreg yn mha un y claddwyd Llewelyn ap Iorwerth, neu Llewelyn Fawr, yn y flwyddyn 1240. Claddwyd Llewelyn ar y cyntaf yn yr Abbadty a sefydlasid ganddo ef ei hun yn Nghonwy. Y mynachod a symudasant ei gorff oddiyno i Abbadty Maenan; ac ar ddadwaddoliad y sefydliadau Mynachol gan Harri VIII., symudwyd arch yr hen Dywysog dewr drachefn, i Eglwys Llanrwst. Gadawyd hi yn orchuddiedig gan ysbwrial yn yr Eglwys dros amser maith, hyd nes y symudodd Syr Risiart Wynne hi i Gapel Gwydir. Gerllaw i arch Llewelyn, y mae cerflun o Hywel Coetmor, ŵyr Dafydd, brawd Llewelyn ap Gruffydd. Hywel oedd perchenog etifeddiaeth Gwydir, a chan un o'i ddisgynyddion ef y gwerthwyd hi i deulu y Wynniaid. Gerllaw palasdy Gwydir, y mae Capel Eglwysig, a fwriadwyd ar y cyntaf, at wasanaeth teulu urddasol y palas hwnw. Cynnelir yma wasanaeth cyhoeddus yn ol trefn yr Eglwys Sefydledig. Yn y flwyddyn 1841, trwy ymdrechion y Parch. H. H. Edwards, adeiladwyd Eglwys Sant Mair, at wasanaeth y plwyfolion na ddeallent Gymraeg. Y mae hon yn adeilad hardd, a saif ar lethr brydferth, ar ochr ddeheuol y dref. Medda y gwahanol enwadau Ymneillduol gapelydd cyfleus yn nhref Llanrwst, ac yma y mae y llenor trylen, y Parch. T. Roberts, (Scorpion) yn gweinidogaethu i'r Annibynwyr er ys blyneddau lawer.

Y mae plwyf ëang Llanrwst yn un pwysig mewn llawer ystyr; canys yma y canolbwyntia llawer penran dyddorol o hanesiaeth gyffredin a llinachol ein cenedl. Ei safle sydd un o'r rhai mwyaf dymunol yn Ngwynedd, sef yn nghanol Dyffryn Cynwy, ac ar lan yr afon oddiwrth ba un yr ymgyfenwa y dyffryn têg. Cyferfydd y mawreddog, y prydferth, a'r swynol—y doldiroedd breision, y perllanau a'r coedwigoedd têg, yr afon risialaidd a physg-gynnyrchiol, a'r mynyddoedd uchelgrib, oll yn y dyffryn hwn. Ceir yma agos bob agwedd ar natur mewn cylch mor fychan, fel y gall y llygaid egwan eu tremio ar unwaith. Y Conwy yn ddiau ydyw y brydferthaf, o holl afonydd Gwynedd; ac er nad ydyw ei gyrfa'ond ber, eto y mae yn ddihafal mewn amrywiaeth. Un funyd y mae'n rhuo ac yn crych-

Digitized by Google

ferwi yn nwydwyllt yn nghanol y mynyddoedd, a'r funyd nesaf yn llithro gyda thawelwch sibrydol trwy y doldiroedd teccaf a gwastadaf. Cymaint ydyw cyfoethogrwydd amrywiaethol golygfeydd y dyffryn hwn, fel y mae er ys amser maith, wedi dyfod yn brif gyrchle y darlunwyr, a phortreadwyr natur. O herwydd hyn, nid rhyfedd fod amgylchoedd tref Llanrwst wedi eu britho gan balasau boneddigion, megys y Gwydir, yr Abbey (Abbadty y dyddiau gynt), y Mur Du. (preswylfod y Blackwalls dysgedig), Belmont, Plas Madog, yr Hendre, Oaklands, Tanycelyn, Plas Isaf, &c. Yr hynotaf a'r gwychaf o'r rhai hyn yn ddiau ydyw Gwydir, yr hwn, fel yr awgrymwyd eisoes, a adeiladwyd gan John Wynne ap Meredydd, oddeutu y flwyddyn 1555. Y mae ei safle wrth droed Carreg-y-Gwalch, oddiar yr hon yr ymgyfyd y bryniau uchel a choedlethrog, a wahanant y Lugwy a'r Gonwy. Yr oedd yr hen balasdy cyntaf yn llawer ëangach na'r un presennol, ond chwalwyd hwnw agos oll yn y flwyddyn 1816. Y mae y gyfran a adawyd o adeilad John Wynne yn awr mewn ystâd ragorol o adgyweiriad, a'r dodrefniad, a phobpeth o nodwedd henafol a phriodol. Y perchenog presennol ydyw Arglwydd Aveland, un o etifeddion y diweddar Arglwydd Willoughby de Eresby. Y nesaf mewn dyddordeb ydyw y Plas Isaf, lle y ganwyd William Salusbury, cyfieithydd cyntaf y Testament Newydd i'r Gymraeg. Ond gofod a waharddа i ni fanylu yn nghylch y gwahanol balasau yn yr erthygl hon, canys ceir crybwyllion am amryw o honynt yn nglyn â hanesion eu perchogion henafol mewn erthyglau ereill.

Y mae tref Llanrwst yn un o henafiaeth mawr, er mai ychydig o'r adeiladau, yn eu ffurf bresennol, a berthynant i'r cyfnod henafol. Pa fodd bynag, yr oedd yma dref yn y ddegfed ganrif, canys cofnodir am frwydr waedlyd a ymladdwyd gerllaw tref Llanrwst yn y flwyddyn 952, rhwng meibion Hywel Dda, a meibion Idwal Foel. Meibion Hywel a ddaethant o'r Deheubarth, gyda llu mawr o arfogion, i oresgyn Gwynedd; ond meibion Idwal a'u gwŷr a'u cyfarfyddasant ger Llanrwst, lle y gorchfygwyd y Deheuwyr, ac y gyrwyd hwy ar ffoedigaeth yn ol i'w gwlad. Gwrthddrych dyddorol iawn hefyd yw y bont gywrain sydd yma yn croesi y Gonwy. Cynlluniwyd hi gan Inigo Jones, trwy orchymyn y Brenin Siarl y Cyntaf, oddeutu y flwyddyn 1636; ac yr oedd y draul o'i hadeiladu y pryd hwnw yn fil o bunnau, yr hyn a dalwyd gan Siroedd Dinbych a Chaernarfon. Ystyrir adeiladaeth y bont hon yn gampwaith mewn cywreinrwydd celfyddydol, o herwydd ei chadernid mawr, ac ysgafnder rhyfeddol ei hymddangosiad. Cynnwysedig ydyw o dri bwa, y canol o ba rai sydd agos i 60 troedfedd o led. Chwalwyd un o'r bwäau ddechreu y ddeunawfed ganrif, a hawdd y cenfydd yr edrychydd, nad ydyw y bwa a adeiladwyd yn y flwyddyn 1703 agos mor gywrain a chadarn a'r ddau fwa a arhosant yn eu perffeithrwydd fel eu cynlluniwyd gan athrylith ddihafal Inigo Jones. Ceir y profion cadarnaf mai brodor o Lanrwst oedd Inigo, er fod amryw haneswyr Seisonig yn honi mai brodor o Lundain ydoedd. Yn y flwyddyn 1661, Morrus Wynne, o Gae'r Melwr, a adeiladodd Neuadd Drefol, a Marchnad-ty yn Llanrwst. Arferid cynnal Brawdlys Chwarterol swydd Dinbych yn yr adeilad hwnw, bob yn ail a thref Dinbych, hyd nes y symudwyd y prif frawdlys i Ruthyn. Ail adeiladwyd y Neuadd gan y diweddar Arglwydd Willoughby de Eresby, ac yno y cynnelir Llys y Manddyledion dros ddosbarth Uwch Dulas. Cynnelir yma hefyd farchnad wythnosol, ac amryw ffeiriau yn ystod y flwyddyn. Yn flaenorol i wneuthuriad y gledrffordd o Gonwy i Lanrwst, arferai y trigolion dderbyn eu nwyddau gyda llongau, a badau, i Drefriw, canys y mae y Gonwy yn fordwyol hyd yn Nhrefriw, sef oddifewn dwy filldir i Lanrwst.

Yn y flwyddyn 1612, sylfaenodd a gwaddololdd Syr John Wynne, yr hyn a elwid "Jesus Hospital" yn Llanrwst. Yma trefnid fod i wardain gael preswylfod, ac ugain punt y flwyddyn o gyflog; a'r wardain hwn oedd i arolygu a gofalu am gysuron deuddeg o ddynion tlodion, a gedwid yn yr elusendy. Yn nglyn â'r sefydliad elusenol, agorwyd ysgol rydd, prif athraw yr hon oedd i dderbyn ugain punt y flwyddyn, gyda thy a gardd, a'r is-athraw i gael deg punt y flwyddyn, gyda thy a gardd. Dywedir mai degwm plwyf Eglwys Fach, oddigerth degwm trefgordd Bodnod, yn y plwyf hwnw, a adawyd yn eiddo yr offeiriad, oedd y gwaddol a roddodd Syr John i elusendai, ac Ysgol Rad, Llanrwst. Talwyd degymau Eglwys Fach i elusendai, ac Ysgol Rad Llanrwst, am agos i ddau can' mlynedd; ond oddeutu dechreu y ganrif bresennol, gwadodd perchenogion etifeddiaeth Gwydir hawl ymddiriedolwyr yr elusen i'r degymau; gan honi nad oedd yr un weithred ysgrifenedig yn dangos, ac yn profi y fath hawl. Nis gwyddom a oes gweithredoedd ysgrifenedig a dilys yn dangos hawl perchenogion etifeddiaeth Gwydir i ddegymau Eglwys Fach. Y mae yn debyg fod, canys hwy a dderbyniant chwe' chant o bunnau o'r cyfryw ddegymau yn flyneddol. Nid ydyw y tlodion yn cael perchenogi hen elusendai Syr John Wynne yn ddiardreth, er y flwyddyn 1811. Yr anghydwelediad gyda theulu Gwydir, a fu yr achos i "Ysgol Rad Llanrwst" gael ei chau, ac i'r adail gael ei gadael yn anghyfanedd, pryd y canodd Ieuan Glan Geirionydd ei bennillion toddedig, yn mha rai y dywedai:—

"Mae sŵn y gloch yn ddystaw,
Heb dorf yn d'od o'r dre;
A bolltau'th ddorau cedyrn
Yn rhydu yn eu lle;
Ystlum a'r mud ehediaid
Sy'n gwau eu hwyrdrwm hynt,
Lle pyncid cerddi Homer
A Virgil geinber gynt.

Mae hirwellt bras, anfaethlon
Yn brith orchuddio gro
Y llawnt bu'r cylch a'r belen
Yn treiglo yn eu tro;
Boed wyw y llaw a'th d'rawodd
A haint mor drwm a hyn,—
Boed ddiblant a'th ddiblantodd,
A diffrwyth fel dy chwyn."

Yn yr ysgol hon yr addysgwyd yr addfwyn a'r awengar Ieuan; ac nid rhyfedd oedd i'w deimladau ymdori mewn geiriau mor ddrylliog, pan y gwelodd y sefydliad a fuasai o gymaint lles iddo, wedi syrthio i adfail. Deallwn fod yr ysgol mewn sefyllfa flodeuog yn awr, ac yn mwynhau 400*p*. y flwyddyn o waddol. Perthyna i'r plwyf amryw elusenau ereill, a adawyd er budd y tlodion, gan Mary Mostyn, John Salusbury, Evan Davies, a Morus Hughes. Yn y flwyddyn 1766, gadawodd Evan Davies eiddo, gwerth

Digitized by Google

600*p.* i'r perwyl a nodwyd. Y mae holl gyllid elusenol y plwyf ar hyn o bryd, oddeutu 75*p.* y flwyddyn.

Yn nechreu y ganrif hon, ymddangosodd Athraw cerddorol o gryn enwogrwydd yn y Dref hon; sef Mr. John Ellis, yr hwn a anwyd yn Llangwm, swydd Dinbach, tu a'r flwyddyn 1750. Yno y cyfanneddodd, nes dysgu y gelfyddyd o Gyfrwywr, a phrīodi gwraig, ac yna symmudodd i Lanrwst, lle y cyfanneddodd am lawer o flyneddoedd, gan ddilyn ei alwedigaeth, yn yr hon yr ystyrid ef yn dra chelfydd. Yr oedd ei Weithdy yn Heol y Bont, lle y mae yr un alwedigaeth yn cael ei dwyn yn mlaen hyd heddyw. Rywfodd neu gilydd, naill a'i trwy ei dynerwch at ei ddyledwyr, neu, o herwydd gwastraffu llawer o'i amser i ddysgu Cerddoriaeth gyssegredig i'w gyd-genedl yn rhad, ac am ddim, fe ddyrysodd ei amgylchiadau bydol, fel y bu raid iddo roddi i fynu ei holl eiddo i'w ofynwyr, er talu yr hyn oedd yn ddyledus iddynt. Pan gyfarfu y diweddar Barch. Gruffydd Solomon ef gyntaf ar ol hyny, dywedai wrtho yn ei ddull ffraeth ei hun,—"Wele, wele, John Ellis bach, chwi a aethoch i lawr yn y byd dan ganu!"

Wedi yr amgylchiad hwn, efe a symmudodd o Lanrwst i gymmydogaeth Llanllyfni; a'i waith y pryd hyny, oedd myned i wahanol ardaloedd i ddysgu Cerddoriaeth gynnulleidfaol, yn benaf i gynnulleidfaoedd yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd; ond gan nad oedd yn mysg yr Enwad crybwylledig nemawr o chwaeth at ganiadaeth reolaidd, wrth don-nodau, y mae yn debyg mai ychydig gydnabyddiaeth a roddid iddo am ei lafur.

Tu a'r flwyddyn 1822, efe a ddaeth i Le'rpwl, i ddysgu canu, a darllen, i gynnulleidfaoedd Pall Mall, a Bedford, yr unig addoldai yn y dref a berthynent i'r Trefnyddion Calfinaidd y pryd hyny. Yr oedd efe wedi argraphu ei lyfr, "Mawl i'r Arglwydd." yn 1816. Daeth a nifer o'r llyfr hwn i'w ganlyn; yn nghyda Llyfryn bach arall, yn cynnwys Cyfarwyddyd i ddysgu darllen, gwerth 6*c.*

Lled aflwyddiannus a fu ei ymdrechiadau i ddysgu cerddoriaeth gynnulleidfaol yn Liverpool, fel yn Nghymru; ac o'r diwedd rhoddodd i fynu yr ymdrech gyda Cherddoriaeth; ac ymsefydlodd fel Glo Fasnachydd.

Nid dyn o dalentau cyffredin oedd John Ellis; ond yr ydoedd yn dra mympwyol yn ei olygiadau ar ddarllenyddiaeth, ac yn enwedig ar Gerddoriaeth. Tybiai nad oedd yr holl gerddorion a fuasent o'i flaen yn gywir eu syniadau ar y gelfyddyd gerddorol; ac i wellau hyny, aeth yntau i wneuthur pob peth yn hollol wrthwyneb iddynt hwy, ac i natur hefyd; ac felly am yr holl donau, ac anthemau a gyfansoddodd, nid ydyw eu melodau namyn clytiog, a gwasgarog, darn yma, a darn acw, heb reol na threfn; a'r accen, neu y mydryddiad, heb ddim ymblethiant o'r naill adran yn y llall, i ffurfio melodeg cyfan. Ac y mae ef yn addef hyn yn ei rag-ymadrodd, lle y dywaid;—"Nid fy mhrif amcan wrth wneuthur tri llais, ydyw gwneuthur iddynt, y naill i bereiddio y llall; ond bod pob un yn fesur i ddangos meddwl y geiriau: ond ni byddant yn cydgordio wrth eu cyd-ganu, yn ol rheol y Cerddorion, yr hyn sydd yn merwino y glust."—Felly, yn ol y fympwy uchod y cyfansoddodd ei holl donau, a'i anthemau, yr hyn a barodd i'w holl waith o'r bron fyned yn annghof cyn marwolaeth yr Awdwr. Yr unig dôn o'i waith, sydd yn cadw i fynu goffadwriaeth ei enw, ydyw *Elliot,* ac nid oes yn hono ddim yn teilyngu ei galw yn dôn *wir dda.*

Dyma y dôn olaf a gyfansoddodd efe, a hyny dan amgylchiad neillduol, yn ol ei adroddiad ef ei hunan wrth "Corfanydd."—Tu a'r flwyddyn 1823, cyfansoddodd Pedr Fardd yr Emyn,—

"Yr holl freniniaethau a dreulir,
A'r ddelw falurir i lawr," &c.

Tu a'r amser hwnw, tynwyd i lawr un o'r tai mawr yn *Clayton Square,* er gwneyd tramwyfa at farchnadfa *St. Johns,* &c., trwy *Elliot Street.*—"Pan y gwelais yr hen balasdy," eb efe, "yn cael ei ddymchwelyd i'r llawr, a'i falurio, er cael mynedfa uniongyrchol i'r farchnad, meddyliais am eiriau yr Emyn uchod, a daeth yr awen gerddorol attaf, a chyfansoddais dôn ar y geiriau yn y fan, yr hon a elwais *Elliot,* yn ol enw yr heol." Argraphwyd hon, yn nghyd ag amryw donau eraill, mewn llyfryn o bris swllt. Er fod mydriad yr Emyn yn yr amser triphlyg, efe a argraffodd y dôn yn y llyfr hwnw yn yr amser cyffredin. Gwaith Cerddorion eraill wedi hyny, oedd ei nodi mewn amser triphlyg; ond, nid yw hyny yn newid dim ar gerddediad naturiol y dôn, yr hyn sydd yn yr amser cyffredin. Ac am fod mydrgerdd y dôn a'r Emyn yn groes i'w gilydd, dyna paham na's gellid ei galw yn don *wir* dda. Ond y mae "Heol y Bont" yn y drefn sydd arni yn "Ychwanegiad Ieuan Gwyllt," yn dôn a ellid ei rhestru yn mysg y rhai goreu.

Bu farw y gwr uchod yn y flwyddyn 1834; wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 84 mlwydd.

**LLANSADWRN,** plwyf yn nghwmwd Dindaethwy, cantref Rhosyr (a elwir yn awr hefyd Cantref Dindaethwy), Ynys MON. Saif 2¼ milltir i'r gorllewin o Beaumaris, ac oddeutu 4 milldir i'r gogledd o Bont Menai, a Phorthaethwy. Rhed y ffordd o Langefni i Beaumaris trwy y plwyf. Amgylchir ef gan blwyfydd Pentraeth, a Llanddona, ar y gogledd; ar y de, gan Llandegfan; ar y dwyrain gan Beaumaris; ac ar y gorllewin gan Benymynydd. Erwau, 2981. Gwerth ardrethol, 2660*p.* Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, yn Esgobaeth Bangor. Prisid hi yn Llyfrau y Brenin fel gwerth 7*p.* 6*s.* 8½*c.* Gwerth presennol, 381*p.* Y mae agos yr oll o'r tir yn amgauedig, ac o dan ddiwylliad da. Yn wahanol i blwyfi gwledig yn gyffredin, cynnyddodd poblogaeth y plwyf hwn yn ystod y triugain mlynedd diweddaf. Yn nghyfrifiad 1801, nid oeddynt namyn 275; ond yn 1861, yr oeddynt yn 410. Yr eglwys sydd gysegredig i Sadwrn, un o seintiau mwyaf cyfrifol y chweched ganrif. Yn iaith y Lladinwyr, gelwir ef "Saturninus," a thybir ddarfod iddo sefydlu Eglwys yn y lle hwn oddeutu y flwyddyn 600. Yn mur y gafell, y mae llûn pen offeiriad, wedi ei gerfio ar garreg mewn modd cywrain, ac ar gyfer hyny, oddiallan i'r mur, y mae llun pen arth, gyda genfa a chadwyn, wedi ei gerfio yr un modd. Yn y fynwent, darganfyddwyd carreg, ar yr hon yr oedd cerfiad mewn llythyrenau Rhufeinig yn dangos ei bod yn ffurfio cyfran o feddfaen Sadwrn. Yr hyn sydd yn cysylltu hynodrwydd arbenig â'r garreg gofiannol hon ydyw, ei bod yn crybwyll am wraig yr hen sant. Wele brawf ychwanegol nad oedd deddfau yr Hen Eglwys Frytanaidd yn gwahardd i'r offeiriaid briodi.

Digitized by Google

Y mae y plwyf hwn yn gyfoethog mewn olion a gweddillion henafiaethol. Mewn maes gerllaw Trefor, y mae dwy gromlech, y fwyaf o ba rai a safai ar ddwy garreg gynnal, ddeg troedfedd o uchder, hyd y flwyddyn 1825, pryd y cwympodd. Yma y mae hen balas y "Castellior," enw yr hwn, fel yr eglurodd yr ysgolhaig penigamp, Mr. J. R. Elias (Y Thesbiad), mewn gohebiaeth ddysgedig yn un o'r Newyddiaduron yn ddiweddar, a arwydda iddo fod unwaith yn orsaf Rufeinig. Cadarnheir tybiaeth Mr. Elias gan weddillion caerfa Rufeinig sydd i'w gweled gerllaw y lle. Hafod-ty Rhydderch, o fewn y plwyf hwn, oedd unwaith yn balas eang, perthynol i un o deulu y Bwcleiaid, ond nid ydyw mwyach amgen nag amaethdy. Er hyny, dengys ei faintioli, a'i adeiladwaith uwchraddol, ei fod gynt yn breswyl pobl urddasol. Y mae yma un brif ystafell wedi ei gadael agos yn ei chyflwr cyntefig. Addurnir ei nhenfwd gyda chywreinwaith godidog; ac ar un o'r cylchfwäau y mae'n gerfiedig:—"*Si Deus nobiscum, quis contra nos?*" sef un o arwyddeiriau arf-beisiol y Bwcleiaid. Ceir yr un geiriau yn Saesoneg, ar un o ffenestri hen breswylfod y teulu yn Beaumaris. Perthyna i'r plwyf lawer o elusenau gwerthfawr. Yma y mae dwy fferm o'r enwau Bryn Eryr, a Rhôs Owen, y rhai a gymmunroddodd y Dr. Rowlands, tuag at gynnal yr elusendai a sefydlwyd ganddo yn Mangor. Yn y flwyddyn 1715, cymmunroddodd Rowland Jones, dyddyn o'r enw Gorslâs, gwerth 4*p.* 10*s.* y flwyddyn; gan orchymyn i'r ardreth gael ei rhanu yn gyfartal rhwng tlodion y plwyf hwn, a Phentraeth. Yn y flwyddyn 1756, Mrs. Roberts a roddodd 150*p.*, y cynnyrch blyneddol i gael ei ranu rhwng y tri pherson tlottaf a fyddo yn cadw tai yn mhlwyf Llansadwrn. Rhoddwyd yr arian hyn o dan lôg i gwmni ffordd Caergybi, ac yr oeddynt yn ddiweddar yn cynnyrchu 7*p.* 10*s.* y flwyddyn. Yn y flwyddyn 1741, rhoddodd Humphrey Williams, a Griffith Rowlands, ddeg punt bob un i'r tlodion. Gyd a'r symiau hyn, a mân symiau ereill, adeiladwyd deg o fythynod, ar dir a brydleswyd i'r perwyl yn rhâd gan y diweddar Arglwydd Bulkeley; a rhoddir y bythod hyn yn rhad i ddeg o deuluoedd, a ddewisir gan y festri i breswylio ynddynt.

**LLANSADWRN**, plwyf yn nghwmmwd Maenor Deilo, cantref Bychan (a elwir yn awr hefyd cantref y Perfedd), swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Saif y pentref ar gangen o afon Towy, 2½ milldir i'r gogledd-orllewin o orsaf Llangadog, a 5½ i'r de-orllewin o Lanymddyfri. Poblogaeth yn 1801, 807; yn 1861, 1099. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, a churadiaeth barhaus Llanwrda yn gysylltiedig â hi. Prisid hi yn Llyfrau y Brenin fel gwerth 6*p.* 10*s.* Gwerth presennol, 165*p.* Perthyna y nawddogaeth i'r Arglwyddes Foley. Mesura arwynebedd y plwyf 7064. Gwerth ardrethol, 5074*p.* Derbynia yr Arglwyddes Foley, 263*p.* 14*s.* 9*c.* o'r degwm yn flyneddol. Yma y mae Abermorlais, hen breswylfod y pendragon glew, Rhys ap Thomas. Er mai Syr Rhys a wnaeth fwyaf o neb er hyrwyddo dyrchafiad Harri VII. i orsedd Prydain, rhyfedd ydyw meddwl, ddarfod i'w ŵyr, sef Rhys ab Gruffydd, gyflawni y fath uchel-fradwriaeth yn erbyn Harri VIII., mab Harri VII., fel y cymerodd y teyrn hwnw ei etifeddiaeth oddiarno. Felly amddifadwyd llinach hen wron Maes Bosworth (Rhys ap Thomas) dros byth o'u tref-dadaeth henafol yn Abermarlais. Y Brenin a roddodd yr etifeddiaeth i Syr Thomas Jones, Marchog. Wedi hyny, trwy gysylltiadau priodasol, hi a ddaeth yn feddiant Syr Francis Cornwallis, o swydd Suffolk. Mab y Syr Francis hwn a fu farw heb yr un etifedd, a rhanwyd yr etifeddiaeth rhwng ei bedair merch, yn y flwyddyn 1793. Trwy briodas âg un o ddisgynyddion yr ieuengaf o'r merched hyny, daeth Abermarlais i feddiant yr Is-Iarll Hawarden, yr hwn a'i gwerthodd i'r Cadben Thomas Foley, un o wroniaid brwydr y Nilus; ac o hyny allan parha yn meddiant ei deulu ef. Dyrchafwyd y Cadben Foley i radd Llyngesydd, a gwnaed ef hefyd yn farchog. Efe a adeiladodd balasdy gwŷch ar safle palas Rhys ap Thomas. Perthyna i'r plwyf hwn waddoliadau elusenol a gynnyrchant gyllid o 276*p.* 17*s.* y flwyddyn. Deillia y swm mawr yma yn benaf, o haelioni yr Arglwyddes Letitia Cornwallis, yr hon, yn y flwyddyn 1739, a roddodd 400*p.* tuag at waddoli ysgol i blwyfi Llansadwrn, a Llanwrda; 1000*p.* i'w gosod ar lôg, a'r llôg i'w ranu rhwng pedair o ferched dibriod; 800*p.* i adeiladu tai cyfaddas i'r merched dibriod hyny, a thy hefyd i'r ysgolfeistr; 200*p.* tuag at ddodrefnu yr elusendai; 200*p.* tuag at adgyweirio a phrydferthu y tai; a phwrcasu dodrefn newyddion pan fyddo hyny angenrheidiol. Os byddai unrhyw weddill o gynnyrch y swm olaf hwn, trefnai fod iddo gael ei ddefnyddio i brynu hosanau ac esgidiau i blant tlodion y plwyf. Rhoddodd yr un foneddiges haelionus hefyd 50*p.* i gynnyrchu rhoddion Nadolig i'r tlodion. Gadawyd yr arian heb eu defnyddio dros amser maith; ac erbyn y flwyddyn 1782, cafwyd eu bod wedi cynnyddu fel y canlyn:—Y 400*p.* at yr ysgol, i 1435*p.*; y 1000*p.*, i 3587*p.*; y 200*p.* tuag at brynu dodrefn, i 717*p.*; yr ail swm o 200*p.* i'r un faint; y 50*p.* i'r tlodion i 179*p.*; a'r 800*p.* cronfa adeiladu, i 2504*p.* 11*s.* Erbyn 1794, cafwyd fod yr holl swm wedi cynnyddu i 9228*p.*; a rhenir y llôg blyneddol fel y canlyn:—116*p.* 2*s.* rhwng pedair o ferched dibriod a breswyliant yn yr elusendai; 65*p.* i'r ysgol; a 5*p.* 7*s.* 7*c.* i'r tlodion. Derbynia y tlodion hefyd ddeg swllt yn flyneddol, o gynnyrch rhodd William Thomas Howell, o Ryd Edwyn. Telir o etifeddiaeth Abermarlais hefyd yn flyneddol 5*p.* tuag at addysgu, a 5*p.* tuag at brentisio nifer o blant; a derbynia y tlodion 40 galwyn o haidd yn fisol o'r un etifeddiaeth.

**LLANSADWRNEN**, plwyf yn nghwmmwd Wydigyda, cantref Mawr (a elwir yn awr hefyd cantref y Derllys), swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Saif y plwyf hwn 1½ milltir i'r de-orllewin o Lacharn, a 5 milltir i'r de-ddwyrain o orsaf St. Clears. Erwau, 1644. Gwerth ardrethol, 1265*p.* Poblogaeth yn 1861, 194. Yr eglwys sydd gysegredig i Sadwrn. Y mae y fywioliaeth, yr hon sydd werth 197*p.* y flwyddyn, wedi ei chysylltu â ficeriaeth Llacharn. Perthyna i'r offeiriad hefyd 23 erw o dir. Y mae safle y plwyf yn un dra dymunol, ar lan arfor Caerfyrddin. Mewn calchgraig, ar ael y môr, y mae ogof dra hynod, yr hon oedd, yn y dyddiau gynt, yn ymguddfa i nifer o for-ladron ysgeler. Yn y plwyf hwn yr oedd *Broadway House*, preswylfod yr hynod John Powell, Prif ynad Llys y Dadleuon Cyffredin, a cheidwad y Sel Fawr, yn nheyrnasiad Iago II. Efe oedd un o'r barnwyr a brofasant y saith Esgob a garcharwyd yn Nhŵr Llundain trwy orchymyn y Brenin, yn y flwyddyn 1688; a thrwy uniondeb diwyrni y Barnwr Powell y rhyddhawyd hwy oddiwrth y cyhuddiadau a ddygasid i'w herbyn. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1696, yn 63 mlwydd

Digitized by Google

oed; a chafodd ei gladdu yn Eglwys Llacharn, lle y mae coflech hardd iddo, ar ba un y mae argraff Lladinaidd, yn cyfeirio at ei ymddygiad anrhydeddus ar y prawf bythgofiadwy hwnw.

**LLANSAINT**, tref-gordd yn mhlwyf St. Ismael, cwmwd Cydweli, cantref Eginog, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Y mae yma Eglwys gysegredig i'r Holl Saint. Gwel ST. ISMAEL.

**LLANSAMLET**, sydd blwyf a phentref, yn nghantref Llangyfelach, undeb Abertawy, esgobaeth Ty Ddewi, tua 4 milldir i'r gogledd o Abertawy, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Mesura y plwyf 8835 erw; ac y mae wedi ei ranu yn ddau ddosparth, dan yr enwau Llansamlet Uchaf, ac Isaf. Pris ardrethol y dosparth uchaf yw 8730*p.*, o'r hyn y mae 5900*p.* mewn glofeydd: a gwerth ardrethol y dosparth isaf yn 9059*p.*, o'r hyn y mae 260*p.* mewn glofeydd. Mae yn y plwyf hwn amryw weithfeydd eang, heblaw gweithfeydd glo, megys Gwaith Tin y Fforest; Gwaith Tin Beaufort, a Gwaith Tin Worcester, &c., yn y rhai y cyflogir rhai miloedd o weithwyr. Mae yr eglwys blwyfol yn hen iawn, a'i mynwent eang yn llawn o feddfeini coffadwriaeth am y rhai sydd yn cysgu yn ei mynwes. Ficeriaeth yw y fywioliaeth Eglwysig, yn gydiedig a Chapeliaeth Cilfai, ac yn werth 300*p.* y flwyddyn, yn rhodd a nawdd esgob Ty Ddewi. Mae yn y plwyf gapeli gan yr Annibynwyr, Bedyddwyr, a Threfnyddion Calfinaidd, yn y rhai y mae eglwysi llewyrchus a lluosog iawn. Poblogaeth y plwyf yn 1871, oedd 6028.

**LLANSANNAN**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref IS-ALED, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Aled, yn gylchynedig gan fryniau tlysion; 8 milldir i'r gorllewin wrth ddehau o orsaf Dinbach, ac yn meddu llythyrfa dan Abergeley, gwestdy da, a ffeiriau ar Mai 18; Awst 17; Hydref 26; a Thachwedd 30. Cynnwysa y plwyf 14,973 erw o dir. Gwerth ardrethol, 5989*p.* Poblogaeth, 1256. Tai annedd, 277. Y mae Dyffryn Aled, palas hardd P. W. Yorke, Yswain, o fewn llai na milldir o'r pentref. Y mae yr Aled, yn y rhan uchaf o'i rhawd, drwy y rhan ddeheuol o'r plwyf, yn llifeirio drwy geunant gyfyng, ac yn cymeryd dau gwymp tra nodedig; y naill a elwir Llyn yr Ogof, a'r llall, Rhaiadr Rhyd y Bedd, y rhai a gylchynir gan ddrychfeydd rhamantus dros ben. Y mae cylch, o tua phedwar ar hugain o dyllau celfyddydol, mewn bryn yn y plwyf hwn, yr hwn o'r herwydd a elwir "Bwrdd Arthur."

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 412*p.* Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Sannan. Ac y mae yma addoldai cyfleus gan y Trefnyddion Calfinaidd, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr. Bu yr enwog a'r dysgedig William Salesbury yn cyfanneddu yn y Cae Du, yn y plwyf hwn; ac yma y ganwyd ac y magwyd y Pregethwyr dihafal, Henry, a William Rees.

**LLANSANNOR**, plwyf yn nghantref y Bontfaen, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; ac yn sefyll mewn llanerch ddymunol iawn, tua 2 filldir i'r gogledd o dref y Bontfaen. Perchenogir y plwyf gan Syr Ifor B. Guest, Barwnig; a theulu Spearman. Eglwys y plwyf yw'r unig le i addoli yn y lle; ac y mae y fywioliaeth yn rectoriaeth gwerth 105*p.* y flwyddyn. Amaethwyr gan mwyaf yw y trigolion, a'u rhifedi yn 1861, oedd 197.

**LLANSANTFFRAID**, plwyf yn nghwmwd Tir Raulff cantref mawr (a elwir hefyd cantref Pen-y-gelli), swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU. Saif ar lan yr afon Wŷsg, a Chamlas Brycheiniog, 7 milltir i'r de-ddwyrain o Aberhonddu. Erwau, 2247. Gwerth ardrethol, 2248*p.* Poblogaeth, 255. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, yn Esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 295*p.* y flwyddyn. Noddydd, T. Watkins, Yswain. Yr Eglwys sydd gysegredig i Ffraid, neu Ffread, yr hon hefyd a elwir Bridget a Bride, santes Wyddelig o fri mawr. Cymaint ydoedd poblogrwydd y santes estronol hon yn mhlith y Cymry, fel y cysegrasant gynnifer a phedair-ar-bymtheg o'u heglwysydd iddi. Gelwir rhan orllewinol y plwyf yn Scethrog, oddiwrth Frochwael Ysgythrog, Tywysog Powys, yr hwn a etifeddodd y faenoriaeth trwy ei fam, merch Brychan Brycheiniog. Nid oes sicrwydd ddarfod i Frochwael erioed breswylio ar yr arglwyddiaeth hon, er y tybia rhai mai yn eglwys gyfagos Llandefeiliog-fach ei claddwyd. Cyfyd y dybiaeth yma oddiar y ffaith fod yn Llandefeiliog garreg o gerfiad anghelfydd, yn coffau claddedigaeth rhyw benaeth Brythonaidd. Pan lwyddodd Bernard Newmarch i gonero hen Dywysogaeth Brycheiniog, efe a gyflwynodd faenoriaeth ac arglwyddiaeth Scethrog i un o'i ddilynwyr, o'r enw Miles Pitchard neu Pychard, gan yr hwn, neu un o'i olynwyr, yr adeiladwyd yma balasdy ar ffurf gastellaidd, a elwid y Tŵr. Y mae cyfran o furiau yr adeilad i'w gweled eto yn gyfunol âg amaethdy ar y lle. Ymddengys fod muriau y Tŵr oddeutu tair llath o drwch; a gwelir eto olion y ddyfrffos a'i hamgylchynai. Cafwyd yn y lle, garreg yn dwyn dyddiad rhwng saith ac wyth gan' mlynedd yn ol. Yr oedd ffordd Rufeinig o Gaerlleon-ar-Wysg i Gaer Brycheiniog, yn myned trwy y plwyf. Ar ochr y ffordd hon y cafwyd carreg ag arni yn gerfiedig, y gair "Victorini," yr hyn, fel y tybir, a arwydda fod yma fab i Victorinus wedi ei gladdu.

Brodor o'r plwyf hwn ydoedd y Parch. Thomas Vaughan, dyn o dymherau nwydwyllt ac arferion rhyfedd, ond a berchenogai athrylith ddiamheuol. Cafodd ei ddyrchafa i fod yn beriglor ei blwyf genedigol yn nheyrnasiad Siarl y Cyntaf; ond o herwydd ei ymlyniad wrth achos annobeithiol y Brenin hwnw, bwriwyd ef allan o'r fywioliaeth adeg rheolaeth Cromwel. Wedi ei ddifwyno o'i berigloriaeth, efe a ymroddodd gyda dyfalwch mawr, i efrydu athroniaeth, fferylliaeth arbrofiadol, a llenyddiaeth ddwyreiniol. Enillodd enwogrwydd yn yr holl gangenau hyn, ac hefyd fel bardd Seisonig a Lladinaidd. Rhydd Wood, yn ei *Athenæ Oxonienses*, restr o weithiau lluosog Mr. Vaughan. Brawd iddo ef hefyd oedd Henry Vaughan, M.D., awdwr yr *Olor Iscanus* a chaneuon godidog ereill. Yma y claddwyd Henry Vaughan, yn y flwyddyn 1695.

Cyfrifir y plwyf hwn yn un dymunol i breswylio ynddo. Oddiar y bryn a elwir yr Allt, ceir golygfeydd dymunol iawn ar ddyffryn prydferth y Wysg, yn nghyda chadwyn uchelgribog Bannau Brycheiniog. Oddeutu can' mlynedd yn ol, adeiladodd Roger Jones, Yswain, Buckland Park, yr aelod seneddol dros y sir, balas gwych yma, yr hwn a ystyrir hyd heddyw yn un o brif addurniadau y fro. Cymmunroddodd amryw bersonau waddoliadau i dlodion y plwyf; ond, oherwydd diofalwch yr ymddiriedolwyr, y maent oll, oddigerth ychydig leiniau o dir, gwerth 5*p.* 10*s.* y flwyddyn, wedi eu cyfrgolli.

Digitized by Google

**LLANSANTFFRAID**, pentref, a phlwyf yn Undeb Aberaeron, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd ar lan y môr, 4¼ milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o Aberaeron; ac 11½ milldir i'r de dde orllewin o orsaf Aberystwyth; ac y mae yn isborthladd i Aberystwyth. Cynnwysa y plwyf hefyd dreflan Llannon; a'i lythyrfa yw Aberystwyth. Mesura o erwau 5443, o ba rai y mae 135 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3644*p.* Poblogaeth, 1309. Tai annedd, 306.

Y mae *Leland* yn coffau bod yma ryw adeilad fawr, ond ni's gallai efe benderfynu a'i hon oedd "Mynachlog Llanffride" yr hon a grybwyllir yn y llyfr a elwir "*De Dotatione Ecclesiae S. Davidis.*" Sonia *Giraldus* hefyd am "leiandy Llansantffride;" ond, y mae mor ansicr a'i yma yr oedd hwnw yn sefyll, ynte yn rhywle arall: pa fodd bynag, fe fernir yn gyffredin, fod yma olion hen grefydd-dy mynachaidd mawr i'w canfod yn y lle hwn.

**LLANSANTFFRAID**, pentref, a phlwyf, yn Undeb Llanfyllin, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd ar yr afon Cain, yn agos i'w hymuniad â'r Fyrnwy; ac ar reilffordd Llanfyllin, yn agos i'r hen orsaf Rufeinaidd "Mediolanum," fel y bernir, ar Ystrad Watling, a ffordd Caersws; tua milldir a haner oddiwrth ffin swydd y Mwythig, ac 8 milldir i'r de orllewin wrth orllewin o Groesoswallt; ac y mae yma orsaf ar y rheil-ffordd, a llythyrfa dan Groesoswallt. Cynnwysa y plwyf drefgyrdd y Llan, Dolwen, Llanerchymrys, Lledrod, Meliniog Fach, Meliniog Fawr, Collfryn, Llanerch ila, Tre dderwen Fawr, a Threwylan. Mesura yn erwau, 6065. Gwerth ardrethol, 10,386. Poblogaeth, 1305. Tai annedd, 267. Y mae hen wersyll Prydeinaidd ar y bryn a elwir y Foel, gerllaw ffordd Llanfyllin, gweddillion yr hwn a welir yn amlwg o Bont y pentre, a ffordd Llangedwin. Y mae olion gwersyll arall hefyd ar ben Bryn y Winllan, yn agos i ffordd Llangedwin. Tua dwy filldir oddiyma, y mae gweddillion hen amddiffynfa a elwir y Clawdd Coch, yr hon y bernir oddiwrth ei ffurf, mai un Rufeinaidd ydoedd. Yr oedd sefyllfa yr amddiffynfa hon yn dra manteisiol er diogelu mwn-gloddiau Llan y mynech, y rhai a weithid, fel y tybir, gan y Rhufeiniaid.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 350*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae rhanau o'r eglwys yn adeiladwaith o'r bedwaredd ganrif ar ddeg; ond yn benaf, o'r ail ganrif ar bymtheg; ac fe'i hadgyweiriwyd yn dda yn y flwyddyn 1866.—Y mae tua naw punt o elusenau yn perthyn i'r plwyf. Gelwir y plwyf yma yn gyffredin, "Llansantffraid yn Mechain."

**LLANSANTFFRAID-GLAN-CONWY**, neu Y DYSERTH, pentref, a phlwyf, yn Undeb Conwy, swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd ar lan afon Gonwy, a cher rheilffordd Llanrwst, ar ffin swydd Gaer yn arfon; 2 filldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o dref Conwy. Y mae yma lythyrfa o'r enw Llansantffraid, dan Gonwy; a chynnelir ffeiriau yma ar Chwefror 14; Mai 1; Awst 1; a Thachwedd 1. Y mae y plwyf yn gynnwysedig o drefgyrdd Llan, Deunant, Trallwyn, a Threbwll. Mesura 5726 o erwau, o ba rai y mae 705 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4391*p.* Poblogaeth, 1304. Tai annedd, 307. Ychydig nifer ydyw y tir-feddianwyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 240*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i goffadwriaeth St. Ffraid, yn adeilad ehang, cynnwysedig o gorph, cangell, ac ystlysgell ddeheuol; a dwy ffenestr ddwyreiniol dda, yn cynnwys rhai gweddillion ceinwych o hen wydr lliwiedig. Y mae yn y plwyf leoedd adoliad cyfleus a destlus, gan y Trefnyddion Calfinaidd, y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr. Wrth ystlys coedwig gerllaw Hendre Waelod, y mae cromlech, a elwir "Allor Moloch;" ac yn muarth ammaethdy cyfagos o'r enw "Bryn y pobty," y mae ffynnon o ddwfr mwnyddol. Dadleua rhai yn gryf iawn, mai yn Nhy Capel y Bedyddwyr yn y Ffordd las, o fewn y plwyf hwn, y ganwyd y Maen-gerfiwr byd-enwog, John Gibson, R.A., pan oedd ei dad, William Gibson, yn byw yno, ac yn arfer ei ddawn yn achlysurol fel pregethwr cynnorthwyol gyda'r Bedyddwyr. Y mae desgrifiad o'r gromlech uchod wedi ymddangos yn yr *Archæologia Cambrensis*, cyf. xxi. t.d. 278, lle y dywedir bod y maen uchaf yn gorwedd unwaith, yn debygol, ar 11 neu 12 o attegfeini, ac yn mesur 11 troedfedd, 2 fodfedd o hyd, wrth 10 troedfedd o led, ac oddeutu 3 troedfedd o drwch at ei gilydd; ac y gellid gwneyd amcan-gyfrif y pwysai 24¼ tunnell.

**LLANSANTFFRAID-GLYN-CEIRIOG**, plwyf yn nghwmwd Nanheudwy, cantref y Rhaiadr (a elwir, weithian, cantref y Waun), swydd DINBYCH. Poblogaeth, yn 1801, 464; yn 1851, 614; ac yn 1861, 738. Gwelir fod yma gynnydd cyflym a sefydlog yn nifer y trigolion, yr hyn, yn ddiau, sydd i'w briodoli i ddadblygiad a llwyddiant llechchwarelau yr ardal. Erwau, 2612. Gwerth ardrethol, 2543*p.* o ba swm cynnyrchir 113*p.* gan y chwarelau. Y fywioliaeth oedd guradaeth barhaus; ond y mae hi yn awr wedi ei gwneyd yn ficeriaeth berthynol i Esgobaeth Llanelwy. Y noddydd ydyw Is-Iarll Dungannon; a chyllid yr offeiriad ydyw 200*p.* y flwyddyn. Dro yn ol, aeth y noddydd urddasol i draul lled fawr i adgyweirio yr Eglwys, yr hon sydd yn awr mewn cyflwr gweddus a dymunol. Cyfranodd ei arglwyddiaeth hefyd yn ehelaeth tuagat gynnyddu cyflog yr offeiriad i'r swm presennol; a chafwyd cynnorthwy haelionus tuag at yr un amcan, gan ymddiriedolwyr Gwaddoliadau y Frenines Ann. Cynnwysa y plwyf drefgyrdd Glyn Fychan, Nantyr Isaf, a Nantyr Uchaf, ac y mae yma lythyrdy o dan reolaeth swyddfa Llangollen. Saif y plwyf o fewn dwy filltir i'r de orllewin i Langollen, ar lan yr afon Ceiriog, ac megys yn nghesail Mynydd y Berwyn. Yn y fath fro, naturiol ydyw fod arwynebedd y plwyf, yn fryniog ac amrywiaethol. Heblaw y llech-chwarelau, symbylir diwydrwydd y gymydogaeth hefyd gan amryw bandai, a gwlan weithfeydd sydd wedi eu hadeiladu ar lan y Ceiriog. Cynnelir yma ffeiriau ar Chwef. 14eg, Mai 1af, Awst 1af, a Thachwedd 1af. Rhenir yn flyneddol 6*p.* o gynnysgaeth elusenol a berthyn i'r plwyf. Cafwyd yr arian hyn trwy amgau dernyn o dir agored, yr hwn a elwir hyd heddyw Tir y Tlodion. Yr oedd yma, ar un adeg, wyth gant o erwau o dir agored.

**LLANSANTFFRAID - GLYN - DYFRDWY**, plwyf yn nghwmwd Glyndyfrdwy, cantref y Barwn (a elwir yn awr hefyd Cantref Edeyrnion), swydd FEIRIONYDD. Nifer y boblogaeth, yn 1801, ydoedd 88; yn 1851, 137; ac yn 1861, 161. Achosir cynnydd poblogaeth y plwyf hwn hefyd gan y llech-chwarelau a agorwyd yma flyneddau yn ol. Saif y plwyf ar lan yr afon Dyfrdwy, 2 filltir i'r dwyrain o Gorwen,

Digitized by Google

a medda lythyrdy o dan swyddfa y dref hono. Erwau, 693. Gwerth ardrethol, 667*p.*—agos i bunt yr erw. Yn yr hen amser, capeloriaeth berthynol i fywioliaeth Corwen, ydoedd Llansantffraid, ond y mae, weithian, wedi ei ffurfio yn ebrwyadaeth annibynol, gwerth 98*p.* y flwyddyn. Noddydd, Esgob Llanelwy. Tuag at gyfoethogi cyllid yr offeiriad, cafwyd rhodd Freninol o 400*p.* Medda y Methodistiaid Calfinaidd addoldai yn y lle, a chynnelir yma amryw ysgolion Sabbothol. Gwelir oddiwrth y barthlen, fod y plwyf hwn yn ffurfio terfyn gogledd-ddwyreiniol sir Feirionydd, ar ororau sir Ddinbych. Amgylchir ef ar y tu deau gan y Ddyfrdwy, ac ar ei odreuon dwyreiniol, rhed yr afonig Morwynion, yr hon a ymarllwys i'r Ddyfrdwy. Ar brydiau, tyr yr afon olaf dros ei cheulanau, a phâr ei gorlifiadau lawer o ddinystr ar eiddo, ac anhwylusdod i'r tlodion. Y mae rhediad yr afon fawr, yn nodedig o droellog o fewn y fro hon; ac wrth edrych arni oddiar y bryniau, trwy y mân goedwigoedd, gellid meddwl mai mân lynoedd ydyw ei dyfroedd, gan ei bod yn colli o olwg y llygaid mewn rhai manau, ac yn ymddangos yn llydan mewn manau ereill. Yma y mae hen balasdy Rhagat, yn nghlyn â pha un y mae swrn o draddodiadau dyddorol. Uwchlaw y Rhagat, y mae Ty'n-y-Caerau, lle, fel yr awgryma yr enw, a fu gynt yn wersyll milwrol. Oddiar Dy'n-y-Caerau, ceir golygfa eang ar Ddyffryn Edeyrnion, tref Corwen, a chadwyn uchel y Berwyn. Yn y Pentref, y mae yn sefyll hyd heddyw, gyfran o furiau "Cachardy Owain," lle yr arferai Owain Glyndwr garcharu y milwyr estronol a ddisgynent i'w ddwylaw yn ei ymgyrchoedd glewion yn erbyn goresgynwyr ei wlad. Yn y flwyddyn 1807, amgauwyd holl diroedd cyffredin y plwyf hwn, trwy gytundeb rhwng y trigolion. Oddeutu 1812, cymmun-roddodd Griffith Roberts, 20*p.* i'r tlodion, a rhenir cynnyrch y swm hwnw bob dydd Nadolig, yn ol ewyllys y rhoddwr.

**LLANSANTFFRAID-YN-ELFEL**, plwyf yn Nghwmwd Llêch Ddyfrog, Cantref Elfel (a elwir, weithian, hefyd, Cantref Colwyn), swydd FAESYFED. Poblogaeth yn 1801, 293; yn 1861, 340. Erwau, 4000. Gwerth ardrethol, 1833*p.* Saif ar lan yr afon Edwy, 4½ milltir i'r gogledd-ddwyrain o Lanfairmuallt; a rhed y dollffordd o Lanfair i Kington, yn swydd Henffordd, drwy y lle. Amgylchir y plwyf ar y gogledd gan y Bettws; ar y deau gan Aberedwy, Llanfareth, a Charegrina; ar y de-ddwyrain gan Dyserth. Y mae arwynebedd y tir yn wyllt a rhamantus. Ymddyrcha yma amryw fryniau uchel, ar lethrau gleision y rhai y porthir diadelloedd lluosog o ddefaid, a geifr. Er fod pridd y gwastad-diroedd o nodwedd gleiog, eto ceir ef yn ffrwythlon, a ffafriol i amaethyddiaeth. Prydferthir y fro gan gyflawnder da o ffynidwydd, a derw. Saif y pentref ar lethr uchel, uwchlaw Dyffryn Edwy.

Yn y flwyddyn 1242, Ralph Mortimer a adeiladodd yma gastell cadarn, ar safle hen amddiffynfa Frytanaidd eang. Yroedd Ralph ar y pryd, newydd goncro a meddiannu Arglwyddiaeth Meillionydd; a diogelu meddiant o'r arglwyddiaeth hono oedd ei amcan yn adeiladu y Castell. Bellach, nid oes namyn ychydig o olion caerfa Mortimer yn aros; ond y mae y ffôs a amgylchai y rhagfuriau, i'w gweled yn lled amlwg. Rai blyneddau yn ol, cafwyd pridd-lestr (*urn*) gerllaw i'r ffos hon, yn llawn o lwch esgyrn dynol wedi eu llosgi.

Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, gwerth 198*p.*, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Cofnoda Llyfrau y Brenin am Brebenduriaeth, gwerth 1*p.* 6*s.* 8*c.*, berthynol i'r plwyf hwn, yn Eglwys Golegawl Aberhonddu. Mwynha y plwyf hwn gyfran o elusen gyfoethog Powell, yn Aberhonddu. Saif cyfran o ettifeddiaeth Fforest Colwyn, yr hon a roddwyd at wasanaeth y sefydliad elusenol, yn y plwyf yma, a'r gyfran arall yn mhlwyf cyfagos Carregrina. Yn y flwyddyn 1720, testamentodd Hugh Evans, fod i ddwy bunt yn flyneddol, gael eu talu allan o ardreth fferm berthynol iddo ef, i dlodion Llansantffraid; a deillia punt arall o gynnyrch rhodd rhyw berson haelionus, na hysbyswyd ei enw, i'w rhanu rhwng cleifion y plwyf.

**LLANSANTFFRAID-YN-MYNWY**, plwyf yn nghantref Abergafenni, swydd FYNWY. Saif ar lan yr afon Wŷsg. 2½ milltir o Ben y Pergwn, a 4½ milltir o Abergafenni. Erwau, 289. Gwerth ardrethol, 647*p.* Poblogaeth yn 1831, 36; yn 1861, 16. Annedd-dai, 4. Gwelir fod yma leihad anarferol yn rhif y trigolion. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, yn Esgobaeth Llandaf, gwerth 73*p.* y flwyddyn. Perthyna y noddaeth i Mrs. Jones. O ran ei ffurf, y mae yr Eglwys yn gyffelyb i ysgubor; ond cedwir hi mewn cyflwr da o adgyweiriad.

**LLAN SAWEL**, neu LLAN SAWYL, pentref, a phlwyf, yn nosparth Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Cothi, yn nghanol golygfeydd mynyddig a thra rhamantus; 8 milldir i'r gogledd orllewin o orsaf Llangadog; a 9 milldir i'r gogledd o Landeilo Fawr. Y mae yn un o'r lleoedd pleidebu yn etholiad aelod Seneddol yn y Sir, a bu unwaith yn dref farchnad: medda Lythyrfa, dan Gaerfyrddin; a chynhelir ffeiriau yma ar y dydd Gwener wedi Mai 12;—Gorphenaf 15; Hydref 23; a'r dydd Gwener wedi Tachwedd 12. Mesura y plwyf, 10,017 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 4323*p.* Poblogaeth, 1003. Tai annedd, 207. Ychydig ydyw nifer y tirfeddianwyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, wedi ei chyssylltu â ficeriaeth Caio Cynwyl, yn esgobaeth Ty Ddewi. Yma y mae Rhyd Odyn, neu yn hytrach, "Rhyd Edwin," (*Edwin's Ford*), hen gartref y Williamsiaid, a fuant dros oesau lawer yn cynnrychioli y Sir hon yn y Senedd.

Brodor o'r plwyf hwn oedd John Thomas Philipps, yr hwn a fu yn athraw i William, Dug Cumberland, ac aelodau eraill o'r teulu breninol; yr oedd efe hefyd yn awdwr rhai epistolau Lladin, tra adnabyddus. Efe a gymmun-roddodd driugain punt yn y flwyddyn, at gynnal ysgol rad, er addysgu plant tlodion y plwyf hwn; ond, gan ei farw cyn llawnodi yr ewyllys yn briodol, fe gollwyd y gymmunrodd.

**LLANSAWYL.** Gwel BRITON FERRY.

**LLANSILIN**, trefgordd, a phlwyf, yn Undeb Croesoswallt; y drefgordd, a'r rhan fwyaf o'r plwyf, sydd yn etholiadol yn swydd DINBACH, a'r gweddill o'r plwyf sydd o fewn swydd y MWYTHIG. Y mae y drefgordd yn gorwedd ar lan yr afon Cynllaith, ar y ffin a'r Mwythig, 3½ milldir i'r gorllewin o Glawdd Offa; a 6 milldir i'r gorllewin dde orllewin o orsaf Croesoswallt. Y mae yma lythyrfa, dan Groesoswallt; a chynhelir ffeiriau yma ar Gorphenaf y 10fed, a Medi 30ain. Cynnwysa y plwyf hefyd, drefgyrdd Bodlith, Estynallan, Lledrod, Lloran, Moelfre, Pridd-bwll, Is-foel Rhiwlas, Uwch-foel Rhiwlas, a Sycharth, yn swydd Dinbach; a threfgordd Sychdyn, yn swydd y Mwythig. Mesura y rhan sydd yn swydd



Digitized by Google

Dinbach, 11,285 o erwau; a chyfrifir ei gwerth ardrethol, yn 11,588*p*. Poblogaeth, 1795. Tai annedd, 341. Y rhan sydd yn swydd y Mwythig a fesura 1446 o erwau; a chyfrifir ei gwerth ardrethol, yn 1607*p*. Poblogaeth, 207. Tai annedd, 46. Perthynai y faenoriaeth i Einion Efell, oddiwrth yr hwn yr hana amryw deuluoedd yn y gymmydogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 307*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Silin, mewn cyflwr da; ac yn y flwyddyn 1866 rhoddwyd ffenestr arliwiedig hardd ynddi; o fewn yr eglwys, cair coflechau heirdd am deuluoedd y Mauriciaid, y Wyniaid, ac eraill. Y mae perigloriaeth Rhyd y Croesau, o fewn hen gylch y plwyf hwn, yn fywioliaeth ar wahan. Y mae yn y plwyf addoldai ymneillduol, yn perthyn i'r Bedyddwyr, ac i'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd.

Ar y bryn, oddiar Byllau y Meirch, y mae maen mawr, a elwir "Bwrdd y Tri Arglwydd," am fod tair arglwyddiaeth yn cyfarfod yno, a dywaid hen draddodiad, i dri arglwydd giniawa yno rywbryd. Ac yn nhrefgordd y Rhiwlas, yr oedd carreg led fawr, a elwid "Maen Tyssilio," at yr hon y cyrchai dynion cryfion a heinyf o wahanol barthau, i ymdrechu am yr oruchafiaeth yn y "Saith gwrol gamp," yn y dyddiau gynt: ond y mae y cyfryw ddefodau wedi myned yn annghof yn yr oes oleu hon, ac enw y llanerch yma yn awr, yw "Pant Tysilio." Yn y flwyddyn 1699, yr oedd ffynnon yn mhlwyf Croesoswallt, a elwid "Ffynnon Maen Tyssilio," at yr hon y cyrchai y trigolion i gynnal eu Gwylmabsant.

Yr oedd y plwyf hwn yn dra chyfoethog mewn palasau hen enwogion Cymreig, rai canrifoedd yn ol, megis Y Glasgoed, Lloran, Moelfre, Moeliwrch, y Plas Newydd, neu Bodlith, a Sycharth. Wedi lladd Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys, yn y flwyddyn 1073, cymerodd ei fab Meredydd, feddiant o holl Bowys o'r diwedd; yr hon a ddosbarthodd efe, cyn ei farwolaeth, yn ddwy ran, Powys Faelawr, neu y ddwyreiniol, o'r tu gogleddol i'r afon Tanat, yr hon a roddes efe i'w fab Madog; a Phowys Gyfeiliog, neu yr orllewinol, ar y tu deheuol i'r Tanat, yr hon a roddes efe i'w wyr Owain Cyfeiliog. Ac yn ol defod yr oesoedd hyny, rhanodd Madog ei ettifeddiaeth eto rhwng ei chwe mab: a rhan ei fab Einion Efell, oedd Cynllaith, y rhan fwyaf o'r hon arglwyddiaeth a wnelid i fynu gan y plwyf hwn. Dywedir mai yn Llwyn y Maen, yn mhlwyf cyfnesawl Croesoswallt, y cyfanneddai Einion Efell. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1196, ac a olynwyd gan ei fab Rhun, ac yntau drachefn, gan ei fab Cuhelyn. Fe'n hysbysir fod y Cuhelyn hwn wedi ail adeiladu llŷs Lloran Uchaf yn y plwyf hwn, yn y flwyddyn deuddeg cant a deg ar hugain; fel y dywaid un hen Fardd boreuol:—

"Deuddeg cant rhuglant rhagflaen—a thri deg
Oedd oed y Mab cywrain;
Seiliodd Cuhelyn sylfaen,
Uchel mawr o galch a maen.

Cododd, arlwyodd ar lan—dwr Baro;
Dŷ a bery'r byd allan;
Eurer glod i'r eryr glan,
Nudd llwyr yn neuadd Lloran."

Crybwyllir am Iefa, mab Cuhelyn, fel un a gyfanneddai eto yn Llwyn y Maen; a chyn ei farwolaeth, efe a ranodd ei ettifeddiaeth rhwng ei ddau fab; Madog Goch a gafodd Loran Uchaf, a'r tiroedd a berthynai iddi; ac Iefa Fychan, y mab ieuangaf, a gafodd hen balas ei rieni, Llwyn y Maen. I Fadog Goch o Loran, yr oedd mab, a elwid Madog Cyffin; yr hwn a gafodd y cyfryw gyfenw oddiwrth le o'r cyfryw enw, lle ei rhoddasid allan i'w faethu.[1] Cymerodd teuluoedd lluosog a hanasant o hono ef, y cyfenw "Cyffin" oddiwrtho. Y cyntaf hwn o'r Cyffiniaid, a olynwyd gan ei fab Ieuan, a gyfenwid "Gethin;" i'r hwn y bu pedwar mab, sef Ieuan Fychan, Morus, Iolyn, a Gruffydd.—Yr henaf, Ieuan Fychan, a gymerodd ei drigle yn Moeliwrch, plâs ar ael ddeheuol Gwrn Moelfre, o fewn tua milldir i bentref Llansilin; lle y bu ei hiliogaeth am genedlaethau lawer, yn lletygar a haelionus dros ben; ac yn nodedig fel noddwyr beirdd eu hoes.

Hywel, fab Ieuan Fychan, a grybwyllir yn anrhydeddus yn nghyfansoddiadau y Beirdd. Ei brif feirdd oeddynt Guto y Glyn, ac Ieuan Gruffydd Llywelyn, y rhai oeddynt yn eu blodau, o'r flwyddyn 1400 i'r flwyddyn 1460. Cyfansoddodd y cyntaf Gywydd ar ail adeiladiad Plas Moeliwrch, am yr hwn y dywaid:—

"Cymry a'i gwel frŷ gwâl fraith,
Caer gaullofft y carw o Gynllaith;
Nef i'm'yw, o Naf a main,
Neuadd fel seren Owain."

Rhaid fod y bryddest uchod wedi ei chyfansoddi ar ol y flwyddyn 1402, pan ymddangosodd y wib-seren at yr hon y mae cyfeiriad yn y llinellau uchod, a'r hon y mynai y Beirdd i'r bobl gredu ei bod yn rhag-redegydd rhyw chwyldroad daionus i'r genedl, dan dywysiad eu gwron enwog, Owain Glyndyfrdwy. Mewn pryddest arall, dywaid y Bardd, ei fod wedi cyhoeddi gostegion cyfeillgarwch, rhyngddo ei hun a'i noddwr llettygar o Foeliwrch, mewn tri ar ddeg o Gywyddau, a gyfansoddwyd fe ddichon, ar gynnifer o uchel-wyliau;—ac er fod yr Abbad Dafydd, o Lanegwest, wedi bod yn taer gymhell y Bardd i dreulio y Nadolig gyd ag ef, eto, na's gallasai abbad nac offeiriad, nac esgob, na phab, beri iddo ef brysuro ei ymadawiad o blas Moeliwrch.

"Duw Tad, wedi dau oed hydd,
A'th brïodes a'th brydydd;
Rhoi'n dystion rhan dwy osteg,
Ydd wyf dri chywydd ar ddeg;
*** Y mae deupen carennydd
Y rh'om, nad awn byth yn rhydd:
Er bod rh'of a'r abbad draw,
Amnodau i ymadaw;
Nid micar a'n hysgar ni,
Na brawd a wnai brïodi;
Nid esgob, enw dewisgair,
Nid Pab, onid Mab Mair."

Olynwyd Hywel yn ettifeddiaeth Moeliwrch gan ei fab, Ieuan, bardd teuluaidd yr hwn oedd Hywel Cilan, yr hwn a flodeuai o 1460 i 1490.

Mab Ieuan, oedd Llewelyn o Foeliwrch, yr hwn oedd yn fwy poblogaidd yn mhlith y Beirdd nag un o'i ragflaenoriaid. Cyfansoddai Deio ab Ieuan Bwl Gywydd iddo, yn yr hwn y gofynai ar ran cyfaill, gwpl o filgwn ganddo; ac ynddo ei geilw:—

"Llew o fewn maes, a'r llafn main,
A thëyrn Cynllaith Owain."

[1] *Cyffin*, trefgordd yn mhlwyf Llangadfan, swydd Drefaldwyn.

Digitized by Google

Un arall o feirdd teuluaidd Llewelyn, oedd Ieuan ab Gruffydd Leiaf, yr hwn a gyfansoddai o'r flwyddyn 1500 hyd 1530. Bu Llewelyn farw tu a'r flwyddyn 1534; a chan fod y ddeddf er uno Cymru a Lloegr wedi ei chadarnhau tu a'r un adeg, (26ain Harri VIII.) cyfododd ymrafael yn mysg ei feibion, mewn perthynas i drefniad ettifeddiaeth eu tad;—yr henaf yn hawlio yn ol y gyfraith newydd, yr hawl o gyntafanedigaeth; a'r ieuangaf yn sefyll dros raniad cydafael, neu gyfartal, yn ol cyfreithiau Hywel Dda, yr hyn a gadarnhasid trwy arferiad er cyn côf. Wedi ymgyfreithio maith, rhoddwyd yr amrafael i farn gwŷr i'w therfynu; a barnwyd fod Morus Wynn, y mab henaf, i gael Plas yn Moeliwrch, a Thomas ab Llewelyn, ei frawd, i gael dau dyddyn yn Llys Dynwallon, neu, fel ei gelwir gan rai awdwyr, "Estynallan," a'i fod ar ei draul ei hun i ranu y gweddill o feddiannau eu tad, yn Nghynllaith Owain, Cynllaith yr Iarll, a Charreg Hwfa, yn arglwyddiaethau y Waun, a Chroesoswallt, neu unrhyw le arall, yn ddwy ran gyfartal; a Morus Wynn i gael ei ddewis o'r ddwy ran, &c.

Yn mysg y beirdd a ysgrifenasant alarebau er cof am Llewelyn, yr oedd Morus ab Hywel ab Tudur, a William Alaw.

Wedi i Morus Wynn gael ei sefydlu yn yr hen gartref, efe a gynhaliodd y lletygarwch arferol yno yn ddi drai. Ei feirdd oeddynt Huw Ceiriog, William Cynwal, Huw Arwystl, a Gruffydd Hiraethog, y rhai oeddynt yn eu blodau o'r flwyddyn 1520, hyd y flwyddyn 1580. Dywedai y bardd diweddaf, yn ei fynediad ar ei gylchoedd i Foeliwrch:—

"Tynu'r wyf tan araf hynt,
Treiglo lle bu'r Guto gynt.***
Pawb yno—pob awenydd,
Yno cân bawb canu bydd!
Yno gwau cerdd, nid gwiw cêl,
Tewach na'r Guto i Hywel.[1] ***
Llew iawn yn cadw llawenydd
Llan Silyn, Morrus Wynn sydd."

Ac y mae Huw Ceiriog, mewn cyfeiriad at lettygarwch Moeliwrch, ac amledd y rhai a gyrchent yno, yn dywedyd,—

"Ty mawl a gwin—ty aml gyrch,
Tair mil at dyrau Moelyrch."

A dwys oedd y galar ar farwolaeth Morus Wynn o Foeliwrch, o'r hyn y rhoddwn ychydig linellau fel enghreifftiau yma,

"Duodd, a rhewodd yr hin—ar Foeliwrch
Marfolaeth brenin-llin;
Llu a gwaedd lle y bu gwin,
Am Forus hael o fro Silin."
M. ab I. ab Dafydd.

Ac un arall o'r Beirdd, a ddyru arllwysiad i deimladau hiraethlawn ei galon yn y llinellau canlynol:—

"Hiraeth, trwm alaeth tramawr—y sydd
I'n synu hyd Faelawr,
Fyn'd Duw ei hun mewn un-awr,
A'r llewyrch o Foelyrch fawr."—*Gr.* ab *Gr.*

Cymerasai Morus Wynn yn ail wraig, ei gares, a'i gymmydoges, aeres Bodlith; a Rhisiard eu mab, gan ddewis yn hytrach sefyllfa gysgodfawr Bodlith, a adeiladodd dŷ newydd yno, lle y gwnaeth ei drigfa, gan ei alw "Y Plas Newydd." Ei ferch, a'i aeres, Gwenhwyfar, a brïododd â Ffoulke Middleton, seithfed mab Rhisiard, llywydd Dinbach.

Thomas ab Llewelyn, mab ieuangaf Moeliwrch, ar raniad yr ettifeddiaeth, fel yr adroddwyd yn barod, a ymsefydlodd ar y rhan a ddyfarnwyd iddo yn Llys Dynwallawn. Y trydydd mewn disgyniad llinachol o hono ef, oedd William Morus, neu "Maurice," o Gefn y Braich, henafiaethydd galluog, a chasglydd di flino y llyfrgell enwog o law ysgrifau, a gludwyd wedi hyny i Wynnstay. Yr oedd efe yn disgyn yn ochr ei fam, o Lowri, chwaer Owain Glyndwr; a'r hyn sydd yn gyd darawiad go hynod, efe a brïododd Letitia, disgynydd o wrthwynebydd llwyddiannus Owain Glyndŵr, sef Harri Bolinbroke. Kynaston ydoedd hi o Morton, yn hanu o'r Greyaid Powys, a'r Greyaid hyny o Antigony, ferch Wmphrey, Duc Caerloyw, pedwerydd mab Harri IV.

Bu yr henafiaethydd diwyd uchod farw, o'r flwyddyn 1680, hyd y flwyddyn 1690. Ei ferch, a'i aeres Letitie, a brïododd Dafydd Williams o Lan Alaw, yn Ynys Fôn, Yswain. Eu hwyres a briododd Feurig o Fodorgan, yr hwn a werthodd y ddwy ettifeddiaeth.

Awn rhagom yn awr at eraill o hiliogaeth Ieuan Fychan o Foeliwrch. Ei fab Gruffydd, a brïododd aeres Aber Tanat; a thros dair cenedlaeth, ei hiliogaeth a gymerasant y cyfenw "Llwyd," ac at un o'r rhai hyny y cyfeiriai Guto y Glyn yn y llinellau canlynol;—

"Af ddyw Sul foddus aelwyd,
Af ddydd Llun at Ddafydd Llwyd;
Af ddyw Mawrth, fi odd'yma,
Af beunydd at Ddafydd dda."

Mab y Llwyd olaf, Thomas, a gymerodd y cyfenw Tanat, oddiwrth yr afon a lifeiriai yn agos i'w annedd; ac aeth yr ettifeddiaeth oddiwrth y Tanataid yma drwy brïodas, i'r Godolphiniaid, teulu o Gernyw; ac oddiwrthynt hwythau, trwy ewyllys Arglwydd Godolphin, i deulu pendefigaidd Osborne.

Gwreiddiodd cangenau eraill o gyff Moeliwrch yn Llwyth Ter, yn mhlwyf Llanarmon, ac yn y Pant Glas Isaf, plwyf Llangadwaladr. Elizabeth, merch ac aeres Morus Lewis o'r Pant Glas Isaf, a brïododd Morus Jones o'r Ddôl, yn Edeyrnion; ac oddiwrthynt hwy yr hanodd y Jonesiaid o'r Rhagatt, ac o'r Cefn Coch, yn nyffryn Clwyd, wedi hyny: ac o'r un cyff yr hanodd Jonesiaid Bryn Eisteddfod, yn agos i Gonwy. Oddiwrth frawd i Morus Lewis y Pant Glas, y disgynodd Huwsiaid Cefn Llyfnog: a Mary, merch i frawd arall i Morus Lewis, a brïododd E. Richards, o Bentre Heilyn Uchaf.

2. Morus, mab Ieuan Gethin;—Ei fab Hywel, a brïododd aeres y Glasgoed, y bedwaredd mewn disgyniad o Einion Gethin o Gynllaith, ac yntau yn bummed o Rhiwallon, brawd Bleddyn ab Cynfyn, yr hwn a gwympodd yn mrwydr Mechain, yn y flwyddyn 1060. John, gorwyr Hywel, a gymerth y cyfenw Cyffin, oddiwrth ei hynaif, Madog Cyffin. Ei wyr ef, John Cyffin, a werthodd y Glascoed i frawd ei dad, Gruffydd Cyffin, tad Watcyn Cyffin, Ysw., merch yr hwn o'r enw Margaret, a brïododd Syr William Williams, Llefarydd Ty y Cyffredin yn nwy Senedd olaf Charles yr Ail, tad Syr William Williams, Barwnig o Glanforda, hynaif teuluoedd

[1] Tua chan mlynedd cyn hyn yr oedd Guto'r Glyn yn hoff fardd i Hywel, yr hwn oedd yn hen-daid i Morus Wynn.

Digitized by Google

Wynstay, a Bodelwyddcn. Y mae lluaws mawr o deuluoedd eraill yn y cymmydogaethau hyn, yn alluog i olrhain eu hachau o'r boneddwr uchod, Morus ab Ieuan Gethin.

3. O Iolyn, mab arall i Ieuan Gethin, yr hanai Cyffiniaid Bodfach. Dafydd, y trydydd mewn disgyniad o Iolyn, a briododd aeres Bodfach, y seithfed mewn disgyniad o Celynin o Lwydiarth; ac yntau yn chwecbed o Aleth, frenin Dyfed. Aeres y Cyffiniaid a briododd Adam Prys, Ysw., o Glan Miheli, cangen o Prysiaid y Dref Newydd, ac o frenin-llwyth Elystan Glodrydd. Aeres y Prysiaid o Bodfach, a Glan Miheli, oedd fam i Syr Edward Pryse Lloyd, Barwnig, o Bengwern; ac wedi hyny Arglwydd Mostyn.

4. Mab ieuangaf Ieuan Gethin, oedd Gruffydd, yr hwn a feddiannodd yr hen lys treftadol; ac o hono ef yr hanodd Mauriceiaid Lloran Uchaf, a Glan Cynllaith, yn y plwyf hwn. Oddiar gofiech yn ystlys ogleddol yr eglwys, yr hon a gyfodwyd i goffadwriaeth David Maurice, Yswain, o Glan Cynllaith, fe'n hysbysir fod Glan Cynllaith, neu Pen y bont, wedi disgyn i ran y drydedd gangen o hen dylwyth Lloran Uchaf, ar raniad yr ettifeddiaeth hono rhwng wyth o feibion, o gylch y flwyddyn 1560; yr hyn oedd y chweched rhaniad ar ettifeddiaeth Lloran Uchaf yn mysg meibion, o'r flwyddyn 1200, hyd y flwyddyn 1560. Bu farw David Maurice yn y flwyddyn 1719. Disgynodd ettifeddiaeth Lloran Uchaf trwy aeriaeth, i'w fab Edward, yr hwn a fu farw yn ddi blant, yn y flwyddyn 1732. Ei fam Elizabeth, ail ferch Robert Villiers, Arglwydd Purbeck, a Barwn Stoke, a gyfododd y wyddfa, er coffadwriaeth serchog am ei gwr a'i mab. Yna, daeth ettifeddiaethau unedig Lloran, a Phen y Bont, neu Glan Cynllaith, i feddiant ettifedd cyfreithiol y ddwy, Price Maurice, Yswain, tad y diweddar Edward Corbett, o Ynys y maen-gwyn, Ysw.

Yn y plwyf hwn hefyd yr oedd Sycharth, un o lysoedd y Gwron Cymreig, Owain Glyndyfrdwy. Safai yr hen lys hwn ar godiad tir, ac fe'i hamgylchynid gan gemmaes, yn yr hwn yr oedd pysgodlynoedd, ceirw, &c. Yr oedd Owain yn arglwydd Cynllaith a Glyndyfrdwy; ac y mae yn debyg fod ganddo ei lys yn mhob un o'r ddwy arglwyddiaeth. Y mae Iolo Goch yn rhoddi darluniad tra ardebol o'r lle hwn, pan oedd Owain yn mlodau ei ddyddiau yn cyfanneddu yma yn dangnefeddus, yn magu ei blant, ac yn noddi y beirdd. Yn ddiweddarach ar ei oes debygid, yr ymsefydlodd efe yn Nglyn-dyfrdwy fel ei brif drigias. Gwel yr erthygl OWAIN GLYNDYFRDWY.

**LLANSOY**, plwyf yn nosbarth Bryn y Biga, swydd FYNWY. Saif 2 filltir i'r gogledd-ddwyrain o Landdeneio, a 4½ milltir i'r dwyrain-ogleddddwyrain o Gaerwysg. Erwau, 1410. Gwerth ardrethol, 1687*p*. Poblogaeth, 168. Annedd-dai, 30. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, yn Esgobaeth Llandaf, gwerth 170*p*. y flwyddyn. Y noddydd ydyw Duc Cendl. Perthyna i'r plwyf 14*p*. o waddol elusengar.

**LLANSPYDDYD**, plwyf yn Nghwmwd Llywel, Cantref Mawr (a elwir yn awr hefyd Cantref Defynog), swydd FRYCHEINIOG. Saif ar lan yr afon Wysg, 2¼ milltir i'r de-orllewin o Aberhonddu. Erwau, yn nhreflan Llanspyddyd, 1691. Gwerth ardrethol, 1730*p*. Cynnwysa y plwyf hefyd drefgyrdd Modrydd, a Phen-y-bont, yn y rhai y mae 8435 o erwau. Gwerth ardrethol, 4418*p*. Holl boblogaeth y plwyf yn 1801 ydoedd 531. Poblogaeth bresennol, 580. Annedd-dai, 80. Dywedir mai enw cyntefig y plwyf hwn ydoedd Llanyspytty, ac mai llygriad o'r enw hwnw ydyw yr un presennol. Cadarnheir y ddamcaniaeth hon o berthynas i darddiad enw y lle, gan y ffaith fod yma unwaith yspytty enwog, perthynol a darostyngedig i Briordy Malvern, yn swydd Caerwrangon. Milo Fitz-Walter a roddodd gyllid maenoriaeth, a phrif ddegymau Llanspyddyd i Briordy Malvern, tuag at gynnal yr Yspytty a nodwyd. Rhedai y brif-ffordd Rufeinig fawreddog o Rydychain i Aberdaugleddyf, trwy y lle hwn. Trwy ran isaf y plwyf, ymlinella tollffordd Aberhonddu a Chaerfyrddin; a thrwy y rhan uchaf, y rheda cangen o'r ffordd i Ferthyr Tydfil. Yn mharth de-orllewinol y plwyf, gerllaw Blaengwythiel, gwelir olion amlwg o "Sarn Lleon," sef y ffordd Rufeinig o *Deva* (Caerlleon) i *Nidum* (Castellnedd). Croesai hon briffordd Rhydychain ac Aberdaugleddyf, yn Nyffryn Wŷsg. Y mae yma dair o bontydd yn croesi y Wysg, sef un yn Aberbrân, un yn Abercamlais, a'r llall yn Mhenybont. Adeiladwyd y gyntaf, a thelir traul ei hadgyweiriad, gan drigolion cantrefi Defynog, a Merthyr Cynnog.

Ar dorlan ddeheuol yr afon, yn nghanol coed tlysion a chysgodfawr, y saif pentref prydferth Llanspyddyd; a chan fod ei safle yn uchel a dymunol, ceir o hono olygfeydd godidog ar Ddyffryn hudolus Gwŷsg. O'r pentref hyd Aberbrân y mae y dyffryn yn nodedig o gul; a'i lethrau coediog a wnant i'r lle ymddangos fel un ardd, neu berllan cang. Y mae hen balas Aberbrân, cartref y Williamsiaid henafol, ac urddasol, wedi ei ollwng i adfail; ond parha hen balasdy Pen-y-bont i gael ei drigiannu, ac ymddengys ei ysblander cymaint ag erioed. Y mae yn Abercamlais, a Chefn-y-parc hefyd, balasdai gwychion iawn. Ar fryncyn uwchlaw Aberbrân, gwelir olion y Gaer, sef hen amddifa Frytanaidd cang a chadarn yn ei dydd. Ei ffurf ydoedd hir-grwn; ac un rhagfur a berthynai iddi. Yn y dyffryn, gerllaw Pen-y-bont, adeiladodd Einion Sais gastell, yr hwn, mewn amser diweddarach, a feddiannwyd ac a breswyliwyd gan Dafydd Gam. Yr oedd Einion Sais yn un o gadfridogion glewaf Iorwerth III., a chymerodd ran arbenig yn mrwydau bythgofiadwy y teyrn hwnw, yn Cressy, a Poictiers. Erbyn hyn, nid oes garreg ar garreg yn aros o gastell Einion, a Dafydd Gam.

Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, gwerth 100*p*. y flwyddyn, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Y noddydd ydyw Ardalydd Camden. Y mae holl werth degymau y plwyf yn 417*p*., dwy ran o dair o ba swm a berthyna i Ardalydd Camden. Yr eglwys sydd gysegredig i Sant Cattwg. Y mae nifer o goed yw anarferol o fawr yn y fynwent, ac ystyrir hwy yr addurniadau mynwentol godidocaf yn y sir, os nad yn holl Ddyfed. Sicrheir ni fod rhai o'r coed gwychion hyn yn 27ain troedfedd o gylchfesur. Yr oedd yn y fynwent hon gynt, garreg o gerfiad hynod, ag y tybid ei bod wedi ei bwriadu yn gof-faen i Brychan Brycheiniog. Y farn gyffredin ydyw, mai yma y claddwyd Brychan, er fod rhai hanesion yn dyweyd mai mewn mynwent arall y dodwyd gweddillion yr hen dywysog haeddbarch i orphwys. Perthyna i'r plwyf amryw waddoliadau elusenol, y rhai a roddwyd, yn benaf, gan Mr. Tobias Williams, a Mrs. Games. Medda y trigolion hefyd hawl i ethol dynes dlawd i fod yn un o'r deuddeg "chwiorydd," pennodedig i fwynhau brein-

Digitized by Google

tiau yr yspytty elusenol, a sefydlwyd gan Mrs. Walker yn Nhy Ddewi.

**LLANSTADWEL**, neu LAN TUDWEL, plwyf yn Nghwmwd Is y Garn, Cantref y Rhôs, swydd BENFRO. Nifer y boblogaeth, yn 1801, ydoedd 386; yn 1851, 905; ac yn 1861, 1745. Erwau, 3971. Saif y plwyf ar ochr ogleddol culfor godidog a phwysig Aberdaugleddyf, 2 filltir i'r gogledd-orllewin o Benfro. Achoswyd y cynnydd rhyfeddol yn y boblogaeth, gan y fasnach forwrol fywiog a gerir yn mlaen yma. Oddeutu dechreu y ganrif bresennol, bu yn mwriad y Llywodraeth adeiladu llongborth pwysig yn Naylands, o fewn y plwyf hwn, a chariwyd yr amcan i weithrediad mor bell, fel yr adeiladwyd yma ddwy long ryfel, y rhai a alwyd "Prince of Wales," a "Milford." Cynnwysai y cynllun hefyd ddarpariaeth er gwneyd amddiffynfa gadarn, er diogelu arfordir Aberdaugleddyf; ond wedi marwolaeth prif hyrwyddwr yr amcan, sef Syr John Philipps, tad y diweddar Arglwydd Milford, llwyr ddyryswyd y bwriadau eang, a gadawyd y lle mewn dinodedd a segurdod, hyd nes y daeth bywiogrwydd masnachol, ac ysbryd anturiaethus yr oes bresennol, i alw am wasanaeth man mor gyfleus.

Eglwys y plwyf hwn sydd gysegredig i Sant Tudwel; a'r fywioliaeth sydd ficeriaeth, gwerth 90*p.* y flwyddyn, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Y noddydd ydyw Lewis Child, Yswain. Cyfoethogwyd y ficeriaeth gyda 200*p.* o rôdd Freninol. Eiddo y noddydd ydyw y prif-ddegymau. Mr. Richard Mathias, o Hayston, a adawodd gynnysgaeth odidog i dlodion y plwyf hwn, a Rhôs-y-Farchnad. Yn ei destament olaf, efe a roddodd ei holl eiddo personol, sef 1900*p.*, i waddoli ysgol, modd y caffai plant pobl dlodion y ddau blwyf, addysg râd. Pennododd y boneddwr haelionus, offeiriaid Llanstadwel, a Rhôs-y-Farchnad yn ymddiriedolwyr; ond trwy ryw amryfusedd, bu y gwŷr da mor anffodus a chynnyrchu costau cyfreithiol, nes gostwng y swm gwreiddiol i 1278*p.* Y mae cynnyrch blyneddol y gwaddol ar hyn o bryd, oddeutu haner cant o bunnau. Cynnalia y gwahanol enwadau Ymneillduol achosion crefyddol blodeuog yn y plwyf. Y mae yma olion dau wersyll Brytanaidd eang. Ceir un o honynt ar derfyn gogledd-ddwyreiniol y plwyf, ar gyfer pentref Rhôs-y-Farchnad, a'r llall ar y pwynt de-orllewinol, ar lan culfor Aberdaugleddyf.

**LLANSTEPHAN**, plwyf yn Nghwmwd Wydigada, Cantref Mawr (a elwir yn awr hefyd Cantref y Derllys), swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref yn nghanol coed prydferth, ar lan yr afon Towy, a cherllaw ei haberiad, 8 milltir i'r de-dde-ddwyrain o Gaerfyrddin. Cynnwysa y plwyf hefyd bentrefi Llanybre, a Lacques. Erwau, 6710. Gwerth ardrethol, 5875*p.*, o ba swm, cynnyrchir 100*p.* gan y chwarelydd. Poblogaeth yn 1801, 974; yn 1861, 1229. Cymer y plwyf ei enw oddiwrth gysegriad ei Eglwys i Stephan ferthyr. Y mae yr Eglwys yn adeilad henafol, a pherthyna iddi gloch-dŵr nodedig ar gyfrif ei uchder anghyffredin. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, gyda yr hon y mae curadiaeth barhaus Llangynog wedi ei chysylltu. Prisid y ficeriaeth, yn Llyfrau y Brenin, fel gwerth 8*p.* 13*s.* 4*c.* Cyfoethogwyd hi gyda 200*p.* o rôdd gan un o'r ardalwyr, a 600*p.* o rôdd Seneddol. Holl werth presennol y degwm ydyw 529*p.*, o ba swm y telir 101*p.* i'r ficer, a'r gweddill i'r Meistriaid Morris a Lloyd, arglwyddi y Faenoriaeth, a noddwyr y fywioliaeth. Y mhentref Llanybre y safai adeilad Eglwysig tra henafol, a elwid y Capel Mynor. Yn amser y Weriniaeth o dan Cromwell, meddiannwyd y capel hwn gan yr Annibynwyr; ac yn eu meddiant hwy y mae ei safle hyd heddyw. Medda y gwahanol enwadau Ymneillduol addoldai cyfleus yn y plwyf.

Ar fryn lled uchel, a ymdeifl yn benrhyn i feisfor Caerfyrddin, yr oedd castell cadarn, a chwareuodd ran bwysig yn helyntion cythryblus y Cymry, yn ystod y gorthrwm Normanaidd. Yn y flwyddyn 1143, llwyddodd Cadell, Meredydd, a Rhŷs, meibion Gruffydd ap Rhys, Tywysog y Deheubarth, i feddiannu Castell Caerfyrddin, a'r llwyddiant hwnw a'u calonogodd i geisio meddiannu Castell Llanstephan hefyd. Hwy a osodasant arno warchae penderfynol, a daeth byddin gref o'r Anglo-Normaniaid i'w herbyn. Wedi amryw frwydrau gwaedlyd, y penaethiaid Cymreig a fuont drechaf, a syrthiodd y castell i'w meddiant. Ymddiriedwyd gwarchodaeth y lle i'r Tywysog Meredydd, ar yr hwn y daeth lluoedd nifeiriol o'r Normaniaid i ymosod. Gadawodd Meredydd iddynt gwblhau eu holl ddarpariadau er ceisio cymeryd y lle trwy ruthr; ond wedi i'r ymosodwyr esgyn eu hysgolion hyd yn mhen y muriau, Meredydd a'i wŷr a ddygasant beiriannau neillduol a ddyfeisiasid ganddynt gogyfer a'r amgylchiad, i weithredu gyda phybyrwch mawr, a hyrddiwyd y Normaniaid i'r gwaelod, yn bentyrau o gyrff, a chlwyfedigion. Yr ymosodwyr yn awr a enciliasant o'r ymgyrch, a chafodd Meredydd heddwch am yspaid; ond, yn mhen amser, daeth lleng luosocach i ymosod arno drachefn; a daeth y castell eilwaith i feddiant y Normaniaid. Ymddengys ddarfod iddo aros yn meddiant gelynion ein gwlad y waith hon, hyd y flwyddyn 1216, pryd yr arweiniodd y dewrwych Llewelyn ap Iorwerth fyddin yn eu herbyn, ac y meddiannodd y castell; ac efe a'i chwalodd hyd ei sylfeini, modd na's gallai fod mwyach yn noddfa i'r gelyn. Ond yr oedd y Normaniaid yn nodedig bryderus i gadw meddiant o amddiffynfa a reolai enau y Dowy; ac o herwydd hyny, mor ebrwydd ag y dychwelodd Llewelyn Fawr i Wynedd, hwy a ymroisant i ail adeiladu Castell Llanstephan. Hyd y gallwn weled, hwy a gawsant heddwch y waith hon hyd 1254, pryd yr ymdeithiodd Llewelyn ap Gruffydd i'r Deheubarth, ac yr ymosododd ar y Castell, gan ei feddiannu, a'i ddinystrio. Y mae eto ychydig falurion o'r hen gastell yn sefyll, ac y mae y prif borth yn ei gyfanrwydd cysefin. Ceir o hono olygfeydd eang ac ysblenydd ar forlanau Morganwg, a Phenfro. Yn yr oesau ofergolus, cyfrifid fod dyfroedd Ffynnon St. Anthony, yn y plwyf hwn, wedi eu bendigo â rhinweddau gwyrthiol tra nodedig.

Maentumiwyd eisoes, fod safle y plwyf yn ddymunol, ar lanau beisfor Caerfyrddin. Amgylchir ef gan blwyfydd Llangain, ar y gogledd-ddwyrain; gan Langynog, a Llandeilo-Abercowi, ar y gogledd-orllewin; ac ar y gorllewin, a'r deau, gan y môr, a'r afon Towy. Hyd y flwyddyn 1807, yr oedd yma fesur mawr o dir agored; ond yn y flwyddyn a nodwyd, cafwyd deddf Seneddol i awdurdodi amgauad y cwbl. Oddeutu glanau coediog y Dowy, y mae amryw balasau gwychion, a rhai o ddyddordeb henafol. Plâs Llanstephan oedd preswylfod y Llwydiaid urddasol; a thrigodd cangen arall o'r un teulu dros amser maith mewn palasdy cyfagos. Ar safle uchel, yn nghanol planigfeydd godidog, y saif Maesgwynne, lle tra adnabyddus i dir-ddarlun-

Digitized by Google

wyr, a hoffwyr golygfeydd tlysion. Cyfrifir pentref Llanstephan yn un o'r rhai mwyaf dymunol yn y wlad; a mwynha y fantais ddwbl, o dawelwch gwledig a neillduedig, ac agosrwydd cyfleus i'r môr. Cyfrifir calch-chwarelau y plwyf yn rhai godidog, a gwneir masnach dra eang o'u cynnyrch.

**LLANSTEPHAN**, plwyf yn Nghwmmwd Pen Gwyllt, cantref y Clawdd, (a elwir yn awr hefyd Cantref Castell Paun), swydd Faesyfed. Poblogaeth yn 1801, 246; yn 1861, 231. Erwau, 2407. Gwerth ardrethol, 1746*p.* Saif y lle gerllaw glanau yr afonydd Bachwy, a'r Wy, yn ymyl y llinell derfyn rhwng siroedd Maesyfed a Brycheiniog. Y Fachwy a wahana y plwyf hwn oddiwrth Landeilo-Graban. Gerllaw mangre ramantus iawn, a elwir y Pwll Du, y mae yr afon a nodwyd, wedi tori iddi ei hun redle dwfn yn y graig; ac yn gyfagos, y mae rhaiadr, a'i ddisgyniad yn ddeugain troedfedd o uchder. Prydferthir rhamantedd gwyllt y fro, gan lwyni lluosog o frigwydd tlysion. Y fywioliaeth, sydd ficeriaeth yn Esgobaeth Ty Ddewi, a'i gwerth ydyw 69*p.* y flwyddyn. Perthyna y swm mwyaf o'r degwm i noddwyr lleygol. Y mae fferm o'r enw Pentref, o werth 7*p.* 10*s.* y flwyddyn, yn perthyn i dlodion y plwyf. Tybir mai gyda 60*p.* a roddwyd gan Thomas Havard, yn y flwyddyn 1681, y prynwyd yr ettifeddiaeth elusenol hon.

**LLANSTINAN**, plwyf yn Nghwmmwd Pen y Gaer, Cantref Pybidog (a elwir yn awr hefyd, Cantref Dewisland), swydd Benfro. Poblogaeth, 174. Annedd-dai, 36. Erwau, 1577. Gwerth ardrethol, 1332*p.* Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, gwerth 100*p.* y flwyddyn, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Y noddydd ydyw y Milwriad Owen. Cysegrwyd yr Eglwys i'r Sant Justinian, yr hyn a ddyry esboniad ar enw y plwyf. Safle Llanstinan ydyw 2½ milltir i'r de-orllewin o Abergwaun, ac y mae y brif-ffordd o'r lle olaf i Hwlffordd, yn rhedeg trwy y plwyf. Hwlffordd a ffurfia y terfyn gogleddol; ac ar y de, amgylchir y plwyf gan Lanfair-Nant-y-Gôf; a chan Lanychaer ar y dwyrain. Ymdroella yr afon Cleddau, neu Cleddyf, yn dra phrydferth trwy y plwyf; ac yn y gymydogaeth hon y mae tarddiad yr afon. Cyfrifir y tir yn ffrwythlon a chynnyrchiol; ac y mae golwg hyfryd ar yr arwyneb, gan ei fod yn cael ei amrywiaethu gan fryniau, a'i addurno â mân goedwigoedd teg. Yma y safai palas y Symmoniaid haelionus. Wedi eu marw hwy, gollyngwyd eu preswylfod i adfail dros amser maith; ond y mae efe eto wedi ei adfer i fod yn addurn i'r fro, gan yr Oweniaid.

**LLANTHONY ABBEY**, neu Llan Ddewi Nant Honddu, sydd hen Abbatty adfeiliedig, yn mhlwyf Cwmiou; ac yn sefyll yn Nyffryn Ewias, tua deg milldir i'r gogledd o Abergafenni, swydd Fynwy. Yn ymyl yr adfeilion y mae Mynyddoedd Euas, a elwir *Hatterall Hills* yn awr, yn sefyll fel muriau cysgodol i'r adeilad; tra y rhed yr Honddu risialog yn chwareus heibio, dros ei llwybr graianog.

Dywed traddodiad, ddarfod i Dewi Sant, yn amser y brenin Arthur, fyned yn ddamweiniol i'r dyffryn prydferth a neillduedig hwn, ac iddo o herwydd annghyfanedd-dra y lle, adeiladu capel bychan yma, ac iddo dreulio llawer o'i amser yma, mewn unigedd; ac mai dyna yr achos y galwyd enw y lle yn Llanddewi Nant Honddu.

Yn y flwyddyn 1100, wedi i'r Normaniaid ddyfod i'r wlad, darfu i William, un o brif swyddogion Walter de Lacy, Iarll Henffordd, a gorchfygydd y parthau hyn, ymneillduo i'r llanerch hon, gyda'r bwriad o dreulio bywyd meudwyaidd. Yn y flwyddyn 1103, ymunodd Ernisius, Caplan yr Ymherodres Maude ag ef, ac adeiladasant Eglwys yma, yr hon a gyssegrwyd i Ioan Fedyddiwr.

Trwy gael nawdd a chefnogaeth Walter de Lacy, ynghyda'r brenin Harri I. a'r Ymherodres Maude, a'r enwog adeiladydd Roger, esgob Sarum, sylfaenwyd Mynachlog yma, yn y flwyddyn 1107; ac wedi ei gorphen, cyssegrwyd Ernisius yn brif Abbad y lle. Yma y gorphenodd Walter de Lacy o Gaerloyw, Iarll Henffordd, a chwnstabl Lloegr, ei yrfa ddaiarol, a chladdwyd ef yn y Cabidyldy. Mae rhan o'i gofadail i'w gweled yma yn bresenol. Ail Abbad y lle oedd Robert de Betun, yr hwn a fu yn foddion i ddwyn y fynachlog i gryn sylw a bri.

Yn y flwyddyn 1129, dyrchafwyd ef yn esgob Henffordd. Robert de Braci, a wnaed yn drydydd Abbad y Fynachlog. Yn amser hwn, sef yn y flwyddyn 1136, wedi i Milo, Iarll Henffordd, roddi llawer o diroedd i'r Fynachlog, ymosododd y Cymry i raddau ar y lle, am fod Milo a'r Monachod, yn ymddwyn yn ormesol tuag at ein cenedl, a bu rhaid i'r mynachod adael y lle yn y flwyddyn a nodwyd, gan fyned i Gaerloyw, lle yr adeiladwyd Ail Llanthony, ger y ddinas hono. Y pedwerydd Abbad, oedd William o Wycombe. Y pumed Brior, neu brif Abbad, oedd Clement, yr hwn a lywodraethai rhwng y blyneddau 1150–70. Gwnaeth hwn ymdrechion egniol er symmud y sefydliad yn ol i ddyffryn Euas: a chan nad ymddengys fod yr adfeilion presenol yn henach na'i amser ef, bernir mai efe a gyfododd yr adeilad hwn yn gyfan gwbl; a hyny er mwyn denu y mynachod yn ol i'r lle. Os gwir hyn, mae yn awgrymu ddarfod i'r Cymry ddinystrio yr adeilad cyntaf; ac i hwn gael ei adeiladu yn gadarnach o lawer. Wedi marwolaeth Clement, ymddengys i'r priordy hwn gael llai o sylw; ac iddo yn mhen amser ar ol hyn, gael ei gyfrif yn israddol i Gaerloyw: oblegyd cawn i Iorwerth IV., roddi breinlen, i uno Abbatty Llanthony âg eiddo Caerloyw, o herwydd anfoddlonrwydd y bobl, gyda bywyd anfoesol John Adams, yr Abbad, a'i bedwar Canon! Desgrifia Giraldus Cambrensis y fan, fel Monachlog ardderchog, yn ei amser ef, sef yn y flwyddyn 1188.

Mesurai yr adeilad 212 troedfedd o hyd, 50 o led: gyda rhan arall yn gydiol, yn 100 troedfedd o hyd, a 96*tr.* o led. Yr oedd yr adeilad ar ffurf Croes; gyda thwr yn y canol, a dau ar y tu gorllewinol. Mae rhanau isaf y tyrau gorllewinol, a'r muriau sydd yn eu cyssylltu, mewn cadwraeth dda yn awr. Mae y tu gogleddol i'r adeilad yn sefyll hefyd, ond y mae y tu deheuol wedi syrthio. Mae un ystafell yma mewn sefyllfa dda, ac yn mesur 24 troedfedd, wrth 11. Yn 1801, syrthiodd rhanau helaeth o'r muriau dan effaith storm gref; ac yn 1803, syrthiodd y rhodfa ddeheuol. Syrthiodd rhanau ereill o gorph yr adeilad, yn y flwyddyn 1837. Pan oedd yr adeilad yn ei ogoniant, safai ar saith erw o dir, gyda muriau o'i amgylch.

Mae eglwys brydferth yn agos i'r adfeilion, a elwir *St. David's*, yr hon sydd fath o gapel anwes, dan Eglwys blwyfol Cwmiou. Mae ysgol Genedlaethol yn y lle hefyd, lle yr addysgir meibion a genethod.

**LLANTILLIO CROSSENNY**, neu Llandeilo Croes-senny, sydd blwyf a phentref mawr, yn

Digitized by Google

nghantref Scenfraith, undeb a dosparth llys sirol Trefynwy, deoniaeth Abergafenni, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU; 7½ milldir i'r gogledd orllewin o Drefynwy, 5 i'r gogledd o Raglan, a 6 i'r de-ddwyrain o Abergafenni. Saif y plwyf ar lan afon Trothy, a rhed Cledrffordd Abergafenni a Threfynwy trwyddo. Eglwys y plwyf sydd hen adeilad, yn yr arddull Seisnig henafol, yn cynnwys corff, cangell, rhodfeydd, a thwr pinaclog, ac ynddo 6 cloch. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1719. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 280*p.* y flwyddyn, gyda Ficerdy, a 13 erw o dir eglwys, yn nawdd a rhodd y Dirprwywyr Eglwysig. Llanfair sydd Gapeliaeth yn y plwyf hwn, a'r eglwys wedi ei gwaddoli a 13*p.* 14*s.* 10*c.* Mae yn y plwyf ysgol Ramadegol hefyd, i feibion a merched, ac wedi ei gwaddoli â 200*p.* y flwyddyn; ac y mae gan y Trefnyddion Cyntefig gapel bychan yma.

Ar fryn uchel yn y plwyf hwn, y mae adfeilion hen gastell Normanaidd, a elwir Castell Gwyn, yn bresenol, ond a elwid gynt wrth yr enw, Castell Llandeilo. Mae iddo chwech o dyrau hir-gylchog, ac un o honynt yn 60 troedfedd o uchder. Pan oedd y castell yn ei fri, fe'i hamddiffynid â dau dwr mawreddog a chadarn, un bob tu i'r porth, gyda phont symmudol yn arwain i mewn.

Y tu allan i'r rhai hyn drachefn, yr oedd dwfr-ffos o amgylch y lle, yn mesur o 40 i 70 troedfedd o led, ac o 14 i 18 troedfedd o ddwfn, o'r amddiffynfeydd allanol, y tu allan i hyny drachefn, fel yr oedd yn un o'r Cestyll cadarnaf yn Ngwent.

Bernir iddo gael ei adeiladu gyntaf, cyn y goresgyniad Normanaidd, dan William y Goresgynydd: tra y barna ereill mai yn amser y brenin Stephen yr adeiladwyd ef. Dywed rhai, iddo fod yn meddiant Hameline de Baladun, gorchfygydd Gwent Uchgoed; tra y barna ereill mai Brian Fitz-count, Iarll Henffordd, a chanlynydd William I. i'r wlad hon, oedd y Normaniad cyntaf a'i meddianodd. Bu yn meddiant teulu o'r enw Philpot ar ol hyny, yr hwn deulu a ddisgynodd o Dyfnwal ab Caradog, arlwydd Gwent Uchgoed, yr hwn a briododd â merch Hameline de Baladun. Cafodd yr enw Castell Gwyn, nid oblegyd ei liw, ond am mai eiddo Gwyn ab Gweithfoed ydoedd: a chan nad yw yr haneswyr Seisnig yn deall hyn, galwant ef *The White Castle.*

Ychydig fanylion sydd ar gael o hanes y castell hwn, fel llawer castell arall yn Nghymru; ond bernir iddo gael ei ddifurio trwy orchymyn Iorwerth IV., yn amser Rhyfeloedd y Rhosynau, pan ddinystrwyd cestyll Grosmont, a Scenfraith.

Ychydig bellder oddi yma, y mae gweddillion yr Hen Lys, (*Old Court*) lle y preswyliai Syr Dafydd Gam, yr hwn a enwogodd ei hun yn amser Harri V., ac yn neillduol yn mrwydr Agincourt, lle y collodd y gwron ei fywyd. Syr Dafydd Gam a elwir *Fluellen* yn ngwaith Shakspeare.

Mesura y plwyf 5951 erw; gwerth ardrethol, 6891*p.*; poblogaeth yn 1861, oedd 748.

**LLANTILLIO-PERTHOLEU**, neu LLANDEILO PERTHOLEU, sydd blwyf, dwy filldir i'r gogledd ddwyrain o Abergafenni, yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Abergafenni, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, swydd FYNWY. Saif y plwyf ar lan afon Gafenni, ac ar ochr y ffordd sydd yn myned o Abergafenni i Henffordd. Cylchynir y plwyf agos oll, gan fynyddoedd uchel, y rhai sydd fel yn ffurfio mur o'i amgylch. Mae yr Eglwys wedi ei chysegru i Sant Teilo. Adeilad henafol, bychan ydyw, yn cynnwys corff, cangell, tri chapel, porth, a thwr yn cynnwys pedair cloch. Dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1591. Cedwir breinlen henafol mewn coffr yn yr eglwys hon, yr hon freinlen a roddwyd i'r plwyfolion gan Jasper Tudur, ewythr Harri VII. Dyben y freinlen oedd rhoi hawl rhydd i'r plwyfolion i anfon eu hanifeiliaid i bori darn neillduol o dir, yn ddi dâl. Enw y tir yw y Fforest Foel. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 240*p.* y flwyddyn, gyda Ficerdy; yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Llandaf. Mae Capel anwes bychan yn y Bettws, yn y plwyf hwn; ac y mae yn y plwyf ysgol blwyfol hefyd. Cyfrenir 34*p.* mewn elusenau yma yn flyneddol. Iarll Abergafenni yw arlwydd y faenor. Prif gynnyrch y plwyf, ydyw gwenith a haidd. Mae arwyneb y plwyf yn 6750 erw; gwerth ardrethol 7663*p.*; poblogaeth yn 1861, oedd 984.

**LLANTRISAINT**, sydd blwyf yn nosparth a swydd FON, yn agos i afon Alaw, 5 milltir gogleddorllewin o Lanerchymedd. Llythyrfa yn Nghaergybi. Erwau, 4447. Gwerth ardrethol, 4710*p.* Poblogaeth, 448. Tai, 93. Y mae y meddianau yn cael eu rhanu rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â churadaethau parhaol Llanllibio, a Llechgynfarwy, yn esgobaeth Bangor; gwerth 813*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i'r tri Sant canlynol, fel yr awgryma yr enw, sef Afran, Ieuan, a Sanan. Brodor o'r plwyf hwn ydoedd Dafydd Huws, Ysw. o Woodrising, yn Norfolk, sylfaenydd yr Ysgol Rad, a'r Elusendy, yn y Beaumaris, ag y mae y manylion am dano wedi eu cofnodi, wrth ei enw yn y Gwaith hwn. Ond y peth hynotaf mewn cysylltiad â hanes y plwyf hwn, ydoedd darganfyddiad Bedd Bronwen, ar lan afon Alaw. Tua thri ugain mlynedd yn ol, daeth yr hen ymadrodd canlynol sydd mewn cofnodiad yn y Mabinogion Cymreig, ag a gyflewyd yn Ngeiriadur Lladin a Chymraeg y Dr. Davies, dan sylw arbenig tri o henafiaethwyr cyfarwydd yn yr hen gofnodau boreuol, sef y Parch. Richard Davies (o Fangor), periglor plwyf Llantrisant, y Parch. John Richards, Llanerchymedd, a Mr. John William Prichard, o Blas-y-brain, wedi hyny, o'r Chwaenwen; sef, "Bedd petrual a wnaed i Fronwen ferch Llyr, ar lan Alaw, ac yno y claddwyd hi." Wedi ymgynghoriad pwyllus a phriodol, penderfynasant wneud yr olrheiniad gofynol yn y lle, er cael sierwydd, a oedd dim olion yn aros, a allai arwain at ddarganfod y ffaith, o'r hyn a gynhwysid yn yr hanes grybwylledig. Galwasant gyda Mr. Thomas, deiliad amaethfa Glan Alaw, a gofynasant a wyddai ef am ddim olion o feddrod ar geulan Alaw, yn un man; i'r hyn yr atebai ei fod ef newydd fod yn cludo cerig at y cloddiau, o "Ynys Bronwen,"—sef rhyw fryn bychan, adnabyddus wrth yr enw hwnw yn y gymydogaeth. Tybient ar hyny, eu bod wedi cael gafael ar yr agoriad at y dirgelion oll. Arweiniwyd hwy at y lle; gwelsant bob arwyddion o wirionedd yr hen gofnodiad; ac wedi cloddio ychydig, daethant at lechfaen, tua dwy lath o hyd, dwy droedfedd o led, a thair neu bedair modfedd o drwch. Y mae y mesurau hyn yn cael eu mynegi yn gywir, can belled ag y gall yr Ysgrifenydd adgofio. Wedi symud y llech-orchudd, canfyddwyd celwrn, o luniad y priddlestri boreuol, o'r hwn y mae y darluniad canlynol yn rhyw fath o fraslun:—

Digitized by Google



Wedi y darganfyddiad hynod hwn, hysbyswyd yr amgylchiadau i Richard Llwyd, Bardd Eryri, yr hwn a gyflwynodd yr hanes yn fuan i deulu Mostyn; ac yr oedd yr hen Farwn Mostyn, yn teimlo y dyddordeb mwyaf yn yr hanes. Cyflwynodd yr hanes hefyd i Syr R. C. Hoare, o Stourhead, a Richard Fenton, Ysw. o Abergwaun, y rhai a'i hystyrient yn un o ddarganfyddiadau henafiaethol hynotaf yr oes, fel yr awgrymir yn Llythyr y Barwnig, yn y Cambro-Briton am Hydref, 1820. Denwyd sylw yr amaethwr at y lle, drwy ymddangosiad rhai cerig yn codi eu penau allan o ganol y daearglawdd ar lan yr afon. Deallai yn union mai olion gwaith llaw oedd yno, canys nid oes cerig yn Nghors-Gwredog, o'r Pwll-coch hyd at Fod-yn-Olwyn. Yr oedd y Celwrn tua throedfedd o uchder, ac wedi ei osod a'i enau i lawr. Dywed Syr Richard Hoare, iddo ddygwydd bod yn Môn, yn fuan wedi y darganfyddiad, ac nad allai osgoi y brofedigaeth o fyned i weled y llecyn hynod, serch gorfod teithio tua deunaw milltir allan o'i ffordd. Dywed fod y celwrn yn debyg o ran ei wnauthuriad i rai a welsai yn *Wiltshire*, a mannau eraill. Yr oedd y llestr yn gyfan, oddieith un bwlch, yn y cwr uchaf, fel y gwelir wrth y darlun; ac yr oedd yn cynnwys llawer o esgyrn haner calchaidd; ac wedi gwneud yn ymchwiliad athronyddol, arferol ar y fath achos, deallid mai esgyrn dynol oedd y cynnwysiad. Yr oedd cyfeiriad at yr amgylchiad wedi ei gadw yn yr hen Drioedd boreuol, lle y mynegid, mewn cyfeiriad at "Bronwen, merch Llyr Llediaith," fel chwaer i Bran Fendigaid, tad yr enwog Caradawg. Yn ol y rhamant, cyfeirir ati mewn cysylltiad â Gwerddon, lle yr ymddygwyd yn angharedig tu ag ati, gan Matholwch, yr hwn oedd y pryd hwnw yn frenhin y wlad honno; fel y penderfynodd adael ei chartref, ac ymfudo i Gymru. Ac wedi ei glaniad yma, dywedir iddi edrych yn ol, mewn myfyrdod ar ei gwlad gysefin, ac wrth adlewyrchu ar y bryntwch a gafodd, iddi dori ei chalon. Y darluniad hanesyddol ydyw, ei bod yn "un o ergydion drygionus Brydain, â chledr y llaw, sef dyrnod Matholwch y Gwyddel, ar Bronwen, ferch Llyr." Y mae yr amgylchiadau, a'r hanes, yn ein harwain yn naturiol at amser dyddiad ei marwolaeth, a'i chladdedigaeth. Y mae y Beddgelwrn yn awr yn yr Amgueddfa Frytanaidd, yn Llundain. Dengys y darganfyddiad hwn, awduriaeth yr hen ysgrifau Cymreig yn eglur iawn. Y mae y gareg oedd yn gorchuddio y Bedd, yn awr yn Bost-llidiard, yn agos i amaethdy Glan-alaw, yr hwn erbyn hyn, sydd yn rhan o feddianau Richard Davies, Ysw., yr aelod seneddol dros y Sir. Y mae yr hen gareg yn deilwng o le gwell, a diau y cymer y boneddwr anrhydeddus y gofal priodol am ddernyn henafiaethol o'r fath hynodrwydd a dyddordeb.

**LLANTRISAINT**, sydd blwyf, a hen fwrdreisdref, yn nghantref Miskin, undeb Pontypridd, esgobaeth Llandaf, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU: 181 milldir o Lundain, gyda'r reilffordd, neu 170 dros y brif-ffordd, 11 o Gaerdydd, 10 o Benybont-ar-Ogwy, a 5 o Bontypridd. Mae y dref wedi derbyn ei henw oddi wrth yr Eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i'r tri sant, Illtyd, Gwynno, a Tyfodwg. Bu yr Eglwys hon yn brif eglwys Arglwyddiaeth Miskin am oesau, a'r rhai canlynol yn gapeli anwes perthynol iddi, sef Aberdar, Llanwyno, Ystrad-dyfodwg, a Llanilltyd Faerdref: ac y mae y cyssylltiad yn parhau i raddau yn bresenol, er nad yn hollol yn y ffurf wreiddiol. Mae yr Eglwys yn adeilad eang, yn yr arddull Normanaidd, yn cynnwys corph, cangell, porth, a thwr ysgwâr, ac ynddo chwech cloch. Dyddia coflyfr yr eglwys, o'r flwyddyn 1727. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 550*p.* y flwyddyn, yn rhodd Deon, a Glwysgor Caerloyw.

Mae yn y dref hen gastell adfeiliedig hefyd, yr hwn a adeiladwyd gyntaf yn ol pob tebyg, gan Gwrgan ab Ithel, Tywysog Morganwg. Pan ranodd Robert Fitzhamon Fro Morganwg rhwng ei gyd Farchogion, yn 1091, rhoddwyd Arglwyddiaeth Miskin, a Chastell Llantrisant, i Einion ab Collwyn. Bernir i Einion adeiladu y castell i gyd o'r newydd y pryd hwnw, a bu ef a'i wehelyth yn ei breswylio am rai oesoedd: ond amlwg yw, i Gilbert de Clare, sef Gilbert Goch, mab-ynghyfraith Iorwerth I. ei gymmeryd i'w feddiant. Bernir i'r Castell gael ei ddinystrio gan Llywelyn Bren, yn 1315, a chan Owen Glyndwr, yn 1404: ac nid ymddengys iddo gael ei adgyweirio ar ol hyny; oblegyd yn 1630, yr oedd un Thomas Mathew wedi ei ardrethu am can lleied a 17*s.* 8*c.* y flwyddyn. Dywed Leland fod rhan o'r Castell yn cael ei ddefnyddio yn garchardy i arglwyddiaeth Miskin yn ei amser ef, (1540), a bod y gweddill o hono yn adfeilion:—

"Gastell hen! gwelaist eni—hir oesoedd,
Llantrisant addurni,
Pe bae'n bod dafod i ti,
O'r hanes wnait roi i ni!"

Yn amser Harri VI. cafodd y dref hon freinlen gan Iarll Warwick, yn rhoddi hawl i'r trigolion ffurfio llywodraeth drefol o'u heiddo eu hunain: a chynnal marchnad yn y dref, &c. Parhaodd yn un o brif drefi marchnadol Morganwg, hyd yn ddiweddar: ond y mae Marchnad Pontypridd bellach wedi llyngcu marchnad Llantrisant, fel na chynnelir un yno yn awr

Mae yn amlwg oddi wrth hen ystrydoedd y dref, ger yr Eglwys, iddi fod yn dref o fri unwaith, gan fod canol ei heolydd hi wedi eu palmantu, fel eiddo rhai o brif ddinasoedd Prydain yn awr.

Tua milldir o'r dref, y mae hen amddiffynfa, lle yr ymladdwyd brwydr Rhiw'r Saeson, yn y flwyddyn 873, pryd y cafodd y Cymry fuddugoliaeth anrhydeddus ar y Saeson.

Mae daiareg y plwyf hwn yn hynod ddyddorol i'r daiaregydd, o herwydd ei amrywiol drysorau cuddiedig. Mae yma gyfoeth diyspydd o Geryg Calch rhagorol, digon o lo o'r fath oreu, gydag helaethrwydd o fwn haiarn, *Hematite Iron Ore*, a llawer o fwn plwm. Creda rhai fod y Rhufeiniaid wedi bod

Digitized by Google

yn cloddio am blwm yn y plwyf hwn. Pa un a yw hyny yn ffaith ai peidio, y mae Leland yn dweyd yn eglur, fod gwaith haiarn yn y plwyf yn ei amser ef. Etto, dichon na fu erioed y fath fri ar weithfeydd yn y lle hwn, ag sydd yn bresenol.

Yn 1852, y dechreuwyd y *Bute Hematite Iron Ore Works;* ac yn 1855, dechreuwyd y *Mwyndy Iron Ore Works;* ac y mae lluaws o weithfeydd glo ar raddfa eang iawn yn cael eu gweithio o fewn ychydig ffordd i'r dref.

Mae dwy orsaf cleddffordd ger y dref, un ar y G.W.R. a'r llall ar y T.V.R.: ac y mae llinell o reilffordd yn rhedeg o'r dref hon i'r Bontfaen, er y flwyddyn 1865.

Mae y dref hon yn gyfranog a Chaerdydd, a'r Bontfaen, yn anfoniad aelod i'r Senedd i'w cynrychioli.

Dechreuwyd achos crefyddol ymneillduol yn y dref yn y flwyddyn 1652, gan y Bedyddwyr; yr hwn a ddiflanodd yn 1656. Yn y flwyddyn 1776, adeiladodd y Trefnyddion Calfinaidd gapel bychan yma, yr hwn a ail adeiladwyd yn 1826, ac a helaethwyd drachefn. Yn 1808, adeiladodd yr Annibynwyr gapel Bethel, yr hwn a helaethwyd yn 1856: ac adeiladasant gapel arall yn 1852. Yn 1813, darfu i'r Wesleyaid godi capel yma; ac yn 1824, codwyd capel gan y Bedyddwyr yma, er iddynt fethu y tro cyntaf. Yn 1867, codwyd Ysgoldy Cenedlaethol ardderchog yn y dref, yn werth 2000*p.*, yr hwn sydd yn addurn i'r ardal.

Mesura y plwyf 16,669 erw, gwerth ardrethol 35,218*p.*, poblogaeth yn 1871 oedd 8085.

**LLANTRISAINT**, sydd blwyf, yn nghantref Brynbiga, undeb Pontypool, archddeoniaeth Trefynwy, esgobaeth Llandaf, yn sir FYNWY, DEHEUDIR CYMRU; 2½ milldir o orsaf Brynbiga, a 144 i'r deorllewin o Lundain. Saif ar lan afon Wysg, ac yn ymyl yr heol sydd yn arwain o Brynbiga i Gasgwent. Mae yr Eglwys yn adeilad henafol; a'r coflyfr yn dyddio o'r flwyddyn 1678. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 152*p.* y flwyddyn, gyda thŷ anedd, a 30 erw o dir eglwys. Mae yn y plwyf Ysgol Genedlaethol ragorol, lle yr addysgir meibion a merched y plwyfolion. Maint y plwyf yw, 2762 erw; gwerth ardrethol, 2615*p.*; poblogaeth yn 1861 oedd 308.

**LLANTRITHYD**, neu LLANTRYDYD, sydd blwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb Caerdydd, esgobaeth Llandaf, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Cynnwysa y plwyf 1238 erw, gwerth ardrethol 1730*p.* Yr unig le addoliad yn y plwyf yw yr eglwys wladol, bywioliaeth yr hon sydd rectoriaeth, yn werth 165*p.* y flwyddyn, yn nawdd a rhodd cynnrychiolwyr Syr D. T. Aubrey, Barwnig. Rhif y boblogaeth yn 1861 oedd 204. Bu yma Gastell cyn y cyfnod Normanaidd, yn yr hwn y preswyliai Hywel, mab Iestyn ab Gwrgan. Llosgwyd y castell hwnw yn y flwyddyn 1151, gan Meredydd, mab Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr; ac ni chodwyd ef ar ffurf castell mwy, ond fel llys gwladol. Bernir mai rhwng 1422, a 1472 y codwyd y palas presenol. Bu dynion o safle ac enwogrwydd yn preswylio yma, megys Syr Richard Walwyn, Marchog (1558); Syr Anthony Mansel (1590). Syr Thomas Aubrey, uchel Sirydd Morganwg, yn 1602; a Syr John Aubrey, yn 1634. Yn y palas hwn, dan nawdd Syr John Aubrey, yr ymguddiodd Dr. Frewyn, Archesgob Caerefrog, a Dr. Sheldon, Archesgob Caergaint, yn amser Oliver Cromwell, nes i'r storm fyned heibio. Yr oedd Syr John Aubrey, fel hwythau, yn ymlynydd ffyddlon wrth Charles I., ac felly cyssegrodd ei balas yn fath o ddinas noddfa i ffoaduriaid urddasol y cyfnod pwysig hwnw. Mae lle paradwysaidd o amgylch y palas yn bresenol; ac y mae llawer o son am harddwch Parc Llantryddyd, gan y rhai sydd yn byw gerllaw iddo.

**LLANTWD**, neu LLANTYD, plwyf yn undeb Aberteifi, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU; 3 milldir i'r de dde orllewin o Aberteifi. Llythyrfa, Aberteifi. Erwau, 1792. Gwerth ardrethol, 1306*p.* Poblogaeth, 264. Tai annedd, 61. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gydiedig â ficeriaeth Llandudoch, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Illtyd.

**LLANULYD**, capeloriaeth yn mhlwyf Defynog, swydd FRYCHEINIOG; ar yr afonig Cray, dair milldir i'r dwyrain-dde-ddwyrain o Drecastell, a saith a haner i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Y mae yn ogymaint â threflan Cray. Gwerth ardrethol, 2369*p.* Poblogaeth, 545. Tai, 105. Y fywioliaeth sydd isberigloriaeth barhaol, yn esgobaeth Tyddewi; ei gwerth yw 120*p.*, ac y mae yn nawddogaeth ficer Defynog.

**LLANUWCHLLYN**, pentref a phlwyf yn nosbarth y Bala, MEIRIONYDD. Saif y pentref ar y Ddyfrdwy, wrth ben Llyn Tegid, a cherllaw rheilffordd Corwen ac Abermaw, yn nghysgod mynyddoedd yr Arenig, a'r Berwyn, bum milldir i'r de-ddeorllewin o'r Bala; cynhelir ffeiriau y lle, Ebrill 25, Mehefin 20, Medi 22, Hydref 16, a Thachwedd 22. —Mae y plwyf yn cynwys trefgyrdd Castell, Cynllwyd, Penanlliw, a Phenaran. Erwau, 12,000. Gwerth ardrethol, 4692*p.* Y boblogaeth yn 1851, 1264; yn 1861, 1145. Tai, 263. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gwerth 200*p.*, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth Syr Watcyn W. Wynn, Bar., A.S. Mae arwynebedd y plwyf yn dra anwastad a mynyddig; rhwng terfynau y plwyf hwn y mae Penllyn, yr uchaf o fynyddoedd yr Aran, ac y mae cymydogaeth mor fynyddig, fel y gallesid dysgwyl, ond yn orlawn o'r golygfeydd gwylltaf a mwyaf rhamantus,—yn enwedig arweddau Bwlch y Groes, un o'r bylchau mwyaf anhygyrch yn Nghymru, yn cael ei amgylchynu bron gan fynyddoedd, a chlogwyni crog; ac ambell i lecyn glas a ffrwythlon. Gerllaw i'r nant y mae rhaiadr bychan tlws, yn cael ei ffurfio gan yr afonig Twrch, yr hon a ruthra yn drystfawr a chynddeiriogwyllt dros y ceryg aruthrol sydd megis yn ceisio attal ei gyrfa. Oddiar gopa Aran Penllyn, ceir golygfeydd mawreddog ar fynyddoedd ereill Gwynedd, ac ar lawer o fynyddoedd y Deheudir. Codir llechi yn yr ardal hon, ac y mae yma waith aur, yr hwn sydd ar brydiau yn lled gynnyrchiol. Adeilad digon diolwg ydyw yr eglwys blwyfol, a phan wnaed adroddiad 1869 yr oedd mewn cyflwr truenus o ran adgyweiriad. Gresyn hyn, canys y mae tu fewn iddi, rai beddergryff tra dyddorol. Ymwelwyd â hi gan Pennant, yr hwn a ddyru ddarluniad o'r cerflun o ryfelwr arfog, ar yr ochr ogleddol i'r gangell, ynghyd a'r darlleniad canlynol o'r agraff odditano, wedi ei haner dileu gan law Amser:—"*Hic jacet Johannes ap *** Madoc ap J—eth, cujus animæ pr—etur Deus. Amen. anno Dni* MCCC. V. 88." Mae y ddelw yn dwyn arfbeisiau Ririd Flaidd, a Chunedda Wledig. Ririd oedd arglwydd Penllyn, a thybir mai ei breswylfod ef ydoedd Castell Carn Dochan, sef yr hen amddiffynfa ac y mae ei holion i'w gweled hyd heddyw, ar gopa clogwyn

Digitized by Google

uchel yn y plwyf hwn. Credir yn gyffredin fod y plwyf hwn yn hysbys i'r Rhufeiniaid, a barnai Camden am Caer Gai, mai castell ydoedd a adeiladwyd gan Rufeinwr o'r enw Caius. Y Prydeiniaid, pa fodd bynag, a'i priodolent i Cai Hir, brawdmaeth Arthur Frenin. Gellir bod yn lled sicr iddo fod yn meddiant y Rhufeiniaid, canys daethpwyd o hyd i liaws mawr o fatholion mewn gwahanol leoedd yn y gymydogaeth; a bu o wasanaeth, y mae yn ddiameu, fel amddiffynfa i wylied, a chadw y bwlch. Yr oedd y bardd Seisnig Spenser, yn hysbys o'r traddodiad am Caer Gai, ond "Timon" yw yr enw a rydd ei ddarfelydd bywiog ef i'r arwr. Gesyd y bardd le genedigaeth a dygiad i fyny Arthur, yn y gymydogaeth hon, wrth droed yr Aran (gwel *Fairie Queen*, llyfr i. canto 9). Gwnaed difrod yn Cwm Cynllwyd ar yr 20fed o Fehefin, 1781, trwy i gwmwl dori, ac arllwys ei gynwysiad yn ddisymwth; cododd yr afon Twrch, torodd ei ffordd trwy bob rhwystr, a chariodd ymaith ddau ar bymtheg o dai, ynghyd a'u dodrefn, deg o wartheg, a nifer mawr o ddefaid, ond diangodd y trigolion, oddigerth un, rhag dyfrllyd fedd.

Rai cannoedd o flyneddoedd yn ol, codwyd palasdy yn ymyl gweddillion yr hen Gaer Gai, ac heb fod nepell oddiwrth olion ffyrdd Rhufeinig yn arwain o Ffestiniog, (Tomen y Mur) a Chastell Prysor, i Mediolanum neu Feifod. Daeth y palas hwn mewn amser i feddiant Rowland Fychan, boneddwr a enwogodd ei hun fel pleidiwr i'r Brenin Siarl; o achos ei zel yn yr achos breninol, efe a dynodd arno ei hun wg y fyddin seneddol, yr hon a losgodd ei dy yn y flwyddyn 1645, ond y mae y muriau allanol yn sefyll hyd heddyw, ac yn ffurfio rhan o'r amaethdy sydd yn dwyn yr hen enw anrhydeddus. Wrth gymmeryd plaid y Brenin anffodus, nid oedd Rowland Fychan yn gwneud mwy na llai na'r hyn a wneid gan bron yr oll o foneddigion Cymreig y cyfnod cynhyrfus hwnw; ond mewn pethau ereill efe a dra rhagorodd ar ei gydradd. Yn nghanol helbulon a thrallodion politicaidd, mynodd efe egwyl i droi at lenyddiaeth, a chysegrodd ei ddysg i gyfoethogi llenyddiaeth ei wlad. Ymroddodd i droi i'r Gymraeg rai o brif weithydd duwinyddol y Saeson, ac y mae llyfr "Yr Ymarfer o Dduwioldeb," sef ei gyfieithiad o *Practice of Piety*, gan Bailey, yn cael ei astudio hyd heddyw, fel cynllun o arddull Gymreig gadarn; a dyry i'w awdwr y safle flaenaf fel ieithydd ac ysgolhaig. Ymddengys ei fod yn ymddifyru weithiau yn y ddawn brydyddol, ac y mae rhai englynion o'i eiddo ar gof a chadw yn yr oes esgeulus hon. Trwy ymgyfreithio treulfawr a blinderus, yr adenillodd efe yr etifeddiaeth a attafaelwyd gan y Cromweliaid, a bu hyd yn nod Siarl II. yn dra hwyrfrydig i estyn cyfiawnder ac ymwared i hen gyfaill ei deyrnach.—Mae yn y plwyf hwn ysgol, waddoledig gyda 25*p*. yn y flwyddyn, elusendai gyda 42*p*., a 29*p*. o elusenau ereill.

**LLANWDDYN**, pentref a phlwyf yn nghantref a dosbarth Llanfyllin, MALDWYN. Saif y pentref ar yr afon Owddyn, cainc o'r Fyrnwy, ddeng milldir i'r gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Llanfyllin, yn meddu ffeiriau Mai 8 a Hydref 2.—Mae y plwyf yn cynwys trefgyrdd Llan, Abermarchant, Garthbwlch, Rhiwargor, a Spytty. Erwau, 20,190. Gwerth ardrethol, 1982*p*. Poblogaeth, 529. Tai, 111. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth Iarll Powys. Yr oedd y plwyf hwn gynt yn ffurfio capeloriaeth, ac yn ddibynol ar y plwyf cyfagos, Llanrhaiadr-yn-Mochnant. Gwahaniaethir o barth i darddiad yr enw; olrheinia rhai ef i Wddyn, neu Owddyn, cawr a anwyd yma, ac yn y bryniau gerllaw y mae lle a elwir "Gwely Wddyn." Ni fynem ddyweyd yn bendant na fu cewri yn yr ardal hon, canys "ymhob gwlad y megir glew," ond gwell genym ni roddi ein coel mewn traddodiad arall, sydd yn gosod Wddyn allan fel mynach, yn meddu cell yn neillduaeth creigiau yr ardal, ac nis gallasai ddewis llanerch fwy manteisiol i fyfyrdod tawel, a gweddi. Y mae hen draddodiad fod trysorau aruthrol yn guddiedig yn rhywle yn y gymmydogaeth, ond fod pob ymdrech i'w darganfod, wedi cael ei lesteirio gan dymhestloedd dibaid. Byddai Wddyn, fel brawd ffyddlon, yn arfer ymweled â Sant Melangell, neu Moncella, yn ei gell yn y Pennant, bum milldir draw yr ochr arall i'r mynydd, ac y mae llwybr yr hen feudwy duwiolfrydig, yn cael ei ddangos hyd y dydd heddyw, ac yn cael ei alw ar ei enw. Y mae yn y plwyf chwarelau llechi, ac y mae mwy nag un cais wedi ei wneud, ond yn aflwyddianus, i godi mŵn plwm. Bu Mr. David Humphreys, yn 1721, mor feddylgar a gadael cymmunrodd o 30*p*. er budd tlodion y plwyf, a rhenir y llog yn flyneddol.

**LLANWENARTH**, pentref a phlwyf yn nosbarth Abergafenni, swydd FYNWY. Saif y pentref ar yr afon Wysg, un filldir i'r dwyrain o gyffiniau Brycheiniog, a dwy filldir a chwarter i'r gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Abergafenni; y mae yn lle o gryn faintioli, ac yn cynwys rhai tai hynod. Mae y plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosbarth, Citra ac Ultra, ac ymestyna tu draw i gamlas Aberhonddu. Erwau rhan Citra, 2860; gwerth ardrethol, 2463*p*.; poblogaeth yn 1851, 254, ac yr oedd wedi lleihau i 230 yn 1861; tai, 53. Erwau rhan Ultra, 2480. Gwerth ardrethol, 4307*p*., o'r hyn y mae 285*p*. mewn haiarn-weithfeydd, a 165*p*. yn y gamlas. Poblogaeth yn 1851, 2248; yn 1861, 2096. Tai, 421. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, gwerth 267*p*. a phersondy, yn esgobaeth Llandaf, ac yn nawddogaeth Iarll Abergafenni. Gwnaed rhan fawr o ddosbarth Ultra yn fywioliaeth ar ei phen ei hun yn 1865, ac fel ficeriaeth, y mae yn werth 274*p*., ac yn nawddogaeth y rheithor. Mae rhan arall, oedd yn meddu poblogaeth o 660 yn 1861, yn gynwysedig yn nghapeloriaeth Blaenafon. Elusenau, 4*p*.

**LLANWENLLWYFO**, sydd blwyf yn nosparth a swydd FON; ar lan y mor, gerllaw ymarllwysiad yr afon Dulas, 3¾ milltir gogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd Amlwch, a 6½ gogledd-ddwyrain o Lanerchymedd. Llythyrfa yn Amlwch. Erwau, 1576. Gwerth ardrethol, 1642*p*. Poblogaeth, 546. Tai, 118. Y mae 135 o erwau o'r tir hwn dan ddwfr. Llysdulas ydyw palas Syr Arundell, a'r Foneddiges Neave. Merch Arglwydd Dinorben yw arglwyddes y lle; yr hwn sydd un o'r mannau prydferthaf yn yr ynys; ar lethr yn gogwyddo at y mor, ac yn rhoddi golygfa ardderchog ar y terfynau o amgylch. Y mae Ynys Gadarn yn gyfagos; a thraeth Dulas gerllaw. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Bangor; ac yn nawddogaeth periglor Amlwch. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gwenllwyfo, ac mewn cywair da.

**LLANWENOG**, sydd bentref, a phlwyf, ac isddosparth, yn nosparth Llanbedr, yn swydd ABERTEIFI. Saif y pentref ar rediad llifeiriant i'r afon

Digitized by Google

Teifi, yn agos i'r terfyn sydd yn cysylltu y lle â Chaerfyrddin; 6 milltir gogledd-ddc-ogledd o orsaf rheilffordd Llanbedr; ac y mae yn lle cang; yn cynal ffair ar Ionawr 14. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys y pentref a elwir y Cwrt. Llythyrfa yn Llanbedr, dan Gaerfyrddin. Erwau, 10,720. Gwerth ardrethol, 4374*p*. Poblogaeth, 1521. Tai, 333. Y prif balasau ydynt High Mead, a Llanvaughan. Hynodir y lle hwn o blegid brwydr drychinebus a ymladdwyd yma yn 981, rhwng y Daniaid, dan eu harweinydd Godfrid, a'r Cymry, dan Einion ab Owen, neu Hywel ab Ieuaf, pan y dinystriwyd y dieithriaid yn hollol gan y brodorion. Y mae traddodiad yn aros eto i fynegi, mai yn Caer-faes, ar amaethfa Ty-cam, y bu y gyflafan. Yn mysg yr henafiaethau yma, y mae careg foreuol, a'r cerfiad canlynol arni, yn ol darlleniad Dr. Meurig, "TRENACATUS IC JACET FILIUS MAGLAGNI." Darganfyddwyd bedd o gryn hynodrwydd yn Nghrug-yr-Udon; ac y mae o fewn y plwyf, olion hen amddiffynfa, a elwid Castell-Moyddin; ac yr oedd yma, hyd yn ddiweddar, garnedd a elwid Carn Phylip Wyddel, chwe llath o hyd, a phedair troedfedd o uchder, ar ffurf dyn yn gorwedd, wedi colli ei ben. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 138*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gwenog. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd, blwyf Llanwnen, yn cynwys 13,200 o erwau. Poblogaeth, 1865. Tai, 394.

**LLANWERN**, sydd blwyf yn nosparth Casnewydd, swydd FYNWY, ar reilffordd y Deheubarth, 4 milltir dwyreiniol o Cas-newydd. Y mae gorsaf ar y rheilffordd yn perthyn i'r lle. Llythyrfa yn Cas-newydd, Mynwy. Erwau, 701. Gwerth ardrethol, 1303*p*. Poblogaeth, 15. Tai, 3. Yr oedd y meddiant, yn cynwys Llanwern House, yn perthyn gynt i deulu Vanne, ond yn awr y mae yn eiddo, y Parch. Syr C. Salusbury, Barg. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 100*p*., ac yn nawddogaeth y Parch. Syr C. Salusbury, Barg. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da, ar sefyllfa ddengar.

**LLANWINIO**, neu LLANWYNO, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth a swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref yn agos i darddiad yr afon Cynin, sydd yn rhedeg i'r Tâf, 8 milltir gogleddol o orsaf rheilffordd Conwil, ac 11 gogledd-orllewin wrth orllewin o Gaerfyrddin. Cynhelir ffair yma, Tachwedd 12. Y mae y plwyf yn cynwys 7619 o erwau. Llythyrfa yn Nghaerfyrddin. Gwerth ardrethol, 3932*p*. Poblogaeth yn 1851, 1014; yn 1861, 944. Tai, 207. Y mae y meddianau yn cael eu rhanu rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth *Ty-Ddewi*; gwerth 83*p*., ac yn nawddogaeth *W. Howell*, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gwyno, ac mewn cyflwr da. Y mae yma addoldy yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd.

**LLANWNDA**, plwyf, yn nhgantref Uwch Gwyrfai, dosbarth a swydd GAERNARFON; ar y ffordd Rufeinig o Gaernarfon, ac ar reilffordd Caernarfon ac Afonwen, dair milldir i'r de o dref Gaernarfon. Erwau, 11,459—2694 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4989*p*. Poblogaeth, 1660. Tai, 359. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn gyssylltiol âg isberigloriaeth barhaol Llanfaglan, yn esgobaeth Bangor. Ei gwerth yw 270*p*., ac y mae yn nawddogaeth Esgob Bangor. Elusenau, 6*p*. Yr oedd hwn yn un o'r plwyfydd cyntaf yn Nghymru i fabwysiadu Bwrdd Ysgol, dan Ddeddf Addysg 1870. Mae yn y plwyf hwn chwarelydd llechi rhagorol, a diau y dadblygir eu hadnoddau yn fwy nag erioed pan gwblheir y bwriad presennol i wneud rheilffordd newydd drwy y plwyf. Ar dir Bodaden y mae yn weladwy ychydig olion o'r hen ffordd Rufeinig, sef y ffordd a arweiniai i Segontium. Ceir olion dwy amddiffynfa Brydeinig hefyd, sef Hen Gastell, a Dinas Gwyrfai. Bu *Farringdon*, henafiaethydd enwog, yn beriglor yma am flynyddoedd lawer, a mawr hyfrydai yn y cofiannau a'r traddodiadau lleol. Y mae yn perthyn i'r plwyf gryn swm o elusenau, a adawyd trwy lythyrau cymmun er budd y tlodion.

**LLANWNDA**, plwyf yn nghantref Dewisland, dosbarth Hwlffordd, swydd BENFRO; ar yr ochr ddeheuol i forgaine Abergwaen, ddwy filldir a haner i'r gogledd-orllewin o dref Abergwaen, a 15 milldir i'r gogledd-orllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd *Clarbeston-road*. Y mae yn perthyn iddo ffeiriau ar y 29ain o Fai a'r 22ain o Dachwedd, a chynwysa bentrefydd Dyffryn, a Goodwick. Erwau 5701, o ba rai y mae 90 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3542*p*. Poblogaeth yn 1851, 1292; yn 1861, 1138. Tai, 262. Y fywioliaeth eglwysig, gwerth 220*p*., sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawddogaeth Deon a Glwysgor Tyddewi. Perthyna i'r lle henafiaeth mawr, a bernir fod y wlad oddiamgylch yn hoff gyrchfan i'r Derwyddon. Hawdd gweled fod yma brif orsaf ganddynt i gyflawni eu defodau, oddiwrth y lliaws gweddillion Derwyddol dros y plwyf a'r ardal gylchynol, ac hefyd oddiwrth enwau lleoedd, megis "Llan Druidion," "Ffynon Druidion," a'u cyffelyb. Gerllaw Ffynon Druidion, darganfyddwyd pump o arfau callestr, a bernir eu bod yn cael eu defnyddio i flingo yr ebyrth. Yn y dyffryn odditanodd, y mae pridd-amddiffynfa gron, a nodir gan un maen uchel ar ei ben ei hun, a hwn y mae yn debyg oedd yn gwarchod ac yn amddiffyn y fynedfa i'r llwyn cyssegredig. Dywed traddodiad, fod yma mewn cyfnod bore iawn, dref o'r enw Tref Cullhwch, a lled gadarnheir y gred yn y ffaith, trwy fod sylfaeni hen adeiladau yn cael eu troi i fyny yn aml gan yr erydr. Oddeutu y flwyddyn 1076, cawn i Drahaiarn ab Caradog, Tywysog Gwynedd, arwain ei fyddinoedd i'r Deheubarth, er mwyn darostwng y wlad dan ei awdurdod, ac yn Pwllgwtic bu orfod arno ymladd cad ar faes, gyda Rhys ab Owain, yr hwn fel tywysog y De a alwasai ei holl luoedd allan. Bu yn ymladdfa dost a hirfaith, ond Rhys a orchfygwyd, collodd y rhan fwyaf o'i fyddin, ac ymlidiwyd ef yn galed gan y gorchfygwr, nes yn y diwedd iddo ef a'i frawd Hywel, gael eu cymeryd yn garcharorion. Nid oeddid yn adwaen trugaredd yn yr oes ryfelgar hono, a thynged y ddau frawd anffodus, oedd cael eu rhoddi i farwolaeth gan Trahaiarn, yn ddial am lofruddio o honynt Bleddyn ab Cynfyn, rywbryd yn flaenorol. Ymwelodd y Ffrancod â'r gororau hyn yn y flwyddyn 1797, ac ar ol ysbeilio y trigolion am dalm o amser, effeithiodd y rhysedd ar ddysgyblaeth y milwyr, a bu raid i'w harweinydd mewn canlyniad, ymostwng yn ddiammodol i'r cartreflu, dan Iarll Cawdor. Y mae cyfres o amddiffynfeydd Prydeinig yn ymestyn ar hyd yr holl blwyf, o'r dwyrain i'r gorllewin; mae yr amddiffynfa ar y Garn Fawr, yn amgau llain eang o dir, ac yn cynwys gwrthgloddiau wedi eu naddu o'r graig, ynghyda muriau ceryg. Ar gopa craig uwchben mor-rodfa Goodwick, y mae maen sigl, yn pwyso pum tunnell.

Digitized by Google

Ceir amryw gromlechi yn y gymydogaeth, ac y mae amryw, o ymddangosiad tra mawreddog ychydig i'r gorllewin o safle henafol Tref Cilhwch, ac y mae un o honynt, yr hon sydd yn fwy perffaith na'r gweddill, yn meddu bwrddfaen, pymtheg troedfedd o hyd, wyth troedfedd o led, a dwy droedfedd a haner o drwch. Pan agorwyd carnedd, yn 1826, er mwyn lledu y ffordd gerllaw y môr yn y plwyf hwn, cafwyd offeryn pres, gyda modrwy gron yn un pen iddo, a thriongl gwastad yn y pen arall, a dau dwll crwn wedi eu tori i'r gwddf oedd yn cyssylltu y rhai hyn ynghyd. Gerllaw Tref Asser, yn y plwyf hwn, y mae carnedd, gyda ffos o'i hamgylch, yr hon, pan agorwyd hi er ys talm yn ol, a gafwyd yn cynnwys darnau o wrnau, ac arwyddion ereill ei bod gynt yn gladdfa. Dywedir mai yn Nhref Asser y ganwyd Asser Menevensis, cyfaill a bywgraffydd Alffred Fawr, Brenin Lloegr. Bu Giraldus Cambrensis, y mynach enwog fu gyda Baldwyn yn pregethu y crwysgadau trwy Gymru, am beth amser yn beriglor y plwyf hwn.

**LLANWNEN**, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Moethen, dosbarth Llanbedr, swydd ABERTEIFI; gerllaw ymuniad y Granell a'r Teifi, dair milldir i'r gorllewin wrth dde o orsaf rheilffordd Llanbedr. Erwau, 2480. Gwerth ardrethol, 1316*p*. Poblogaeth, 344. Tai annedd, 61. Ffeiriau ar y 24ain o Fawrth, a'r 13eg o Ragfyr. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, gwerth 102*p*., yn gyssylltiol â churadiaeth barhaol Silian, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawdd yr Esgob. Gwynin yw nawddsant yr Eglwys, yr hon sydd mewn sefyllfa dda. Bernir fod amddiffynfa yn sefyll gynt ar y tyddyn a elwir Castell Du, ac y mae olion gwersyll bychan ar y bryn. Mewn maes perthynol i Gefn Llew Tref, cafwyd batholion arian lled hynod flyneddoedd yn ol.

**LLANWNOG**, plwyf, ac is-ddosbarth yn y rhan isaf o gantref Llanidloes, dosbarth y Drefnewydd, MALDWYN. Mae y plwyf yn gorwedd ar y ffrwd Taranon, caine o'r Hafren, ac ar y ffordd Rufeinig i Gaerlleon-ar-Ddyfrdwy, chwe milldir i'r gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd y Drefnewydd. Mae yn cynwys treflan Caersws, a threfgyrdd Esgob, a Chastell Surnant, Uwchllawrcoed, a'r Wig. Erwau, 10,701. Gwerth ardrethol, 7498*p*. Poblogaeth, 1631. Tai annedd, 283. Y fywioliaeth eglwysig, gwerth 220*p*. a phersondy, sydd ficeriaeth yn esgobaeth Bangor, ac Esgob Bangor yw y noddwr.—Yma y mae tlotty undeb y Drefnewydd, yn yr hwn yr oedd 134 o ddeiliaid yr elusen, pan wnaed y cyfrifiad yn 1861.—Mae yr is-ddosbarth yn cynwys pedwar o blwyfydd ereill. Erwau, 45,535. Poblogaeth, 4802. Tai annedd, 855.—Mae arwynebedd y plwyf yn anwastad, a rhai o'r mynyddoedd yn bymtheg cant o droedfeddi o uchder, a throsodd. Yn nghanol y mynyddoedd hyn y mae tri llyn, sef Llyn Mawr, Llyn Tarw, a Llyn Du. Y blaenaf a orchuddia bump ar hugain o erwau, ac y mae ynddo olion coedwig fawr, yn cynwys derw, ffawydd, a phinwydd. Dengys yr olion hyn fod y bryniau cylchynol yn orchuddiedig gan goed, mewn cyfnodau boreuol. Gellir tybio fod y Derwyddon yn tario yn fynych yn y llwyni, canys y mae ar y bryniau hyn amryw garneddau, ac y mae olion gwersyll Prydeinig i'w gweled yn Gwyn Fynydd, Rhos Ddiarbed, Cefn Carnedd, a manau ereill yn y plwyf. Dywedir fod y Frenhines Elisabeth yn cadw nifer o geffylau yn y Parc, y fferm fwyaf yn y plwyf, ac o'r dydd hwnw allan, daeth y parth hwn o Gymru yn dra enwog fel magwrfa ceffylau o radd uchel. Mae eglwys y plwyf yn hen adail, wedi ei chyssegru i Sant Gwynog; mae ffenestr y gangell yn lliwiedig, ac yn meddu darlun o'r nawddsant yn ei wisgoedd offeiriadol, gyda'r meitr ar ei ben, a ffon fugeiliol yn ei law; ac odditano mae yn argraffedig, "*Sanctus Gwynocus, cujus animæ propitietur Deus.*" Mae yma addoldai gan y gwahanol enwadau ymneillduol. Yn 1687, testamentodd Hugh Baxter 50*p*.; Richard Baxter, yn 1690, a roddodd 50*p*., ac wedi hyny 50*p*. yn ychwaneg; a Richard Gittins, yn 1783, a roddodd 10*p*., a rhenir llogau y symiau hyn yn flyneddol rhwng y tlodion; a gadawodd Anne Prichard, yn 1760, y swm o 20*p*., gyda gorchymyn fod i'r llog gael ei ranu yn flyneddol rhwng teuluyddesau methiantus y plwyf.—Yn ddiweddar, agorwyd rheilffordd newydd can belled a Chaersws, yn dwyn yr enw rheilffordd y Fan, a'i rheolydd yn bresennol yw y bardd awenyddol, Ceiriog.

**LLANWNWAS**, lle yn ngorllewinbarth swydd BENFRO; dair milldir a chwarter i'r dwyrain o Dyddewi. Y mae yn y gymydogaeth feini Derwyddol.

**LLANWNWS**, plwyf yn cynwys trefgyrdd Gwnws-uchaf, a Gwnws-isaf, yn y rhan uchaf o gantref Ilar, swydd ABERTEIFI. Mae cof-faen henafol yn y fynwent, ac yn yr eglwys y mae cwpan-gymun gyda'r dyddiad 1574 arni. Gwel GWNWS.

**LLANWRDA**, pentref a phlwyf yn nosparth Llanymddyfri, swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref yn agos i'r *Central Wales Railway*, 4½ mill. i'r de.-or. o Llanymddyfri; ac mae yma Lythyrfa, o dan Gaerfyrddin, a gorsaf rheilffordd. Cynwysa y plwyf 4441 o erwau. Gwerth ardrethol, 3120*p*. Poblogaeth, 611. Tai annedd, 118. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradaeth barhaol, gyssylltiedig a ficeriaeth Llansadwrn, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae y plwyf yn cyfranogi yn elusenau Llansadwrn. Mae yr eglwys yn gyssegredig i St. Cawrda, neu Cawrdaf, mab Caradog Freichfras, lle y cofheir ef, Rhagfyr 5. Ond prif gymmwynasydd y lle hwn ydoedd y Foneddiges Letitia Cornwallis, un o etifeddesau teulu henafol Abermarlais, yr hon, yn ei hewyllys yn 1731, a gymmynroddodd 400*p*. er gwaddoli yma ysgol rydd i addysgu plant plwyfi Llansadwrn, a Llanwrda, 1000*p*. er gwaddoli sefydliad i gynal boneddigesau morwynol swydd Gaerfyrddin, ac 800*p*. er pwrcasu tir, a pharotoi adeiladau pwrpasol. Gadawyd i'r symiau uchod ychwanegu yn y drysorfa, nes y gallwyd cael darn o dir yn agos i'r eglwys, yn ol cyfarwyddiadau ei hewyllys, fel erbyn 1793, yr oedd yr arian wedi chwyddo i 9000*p*., y rhai y pryd hwnw a ddefnyddiwyd i amcan yr ewyllys, a gorphenwyd yr adeiladau yn 1795. Derbynia yr ysgolfeistr, yr hwn a benodir gan festri Llanwrda, 60*p*. y flwyddyn o gyflog, yn nghyda thŷ a gardd yn ddi ardreth; a derbynia pob un o'r boneddigesau morwynol, 37*p*. 14*s*. 1*c*. y flwyddyn, ac y mae 20*p*. y flwyddyn yn ganiataol at ddodrefnu eu hystafelloedd.

**LLANWRIN**, trefgordd a phlwyf yn nosbarth Machynlleth, swydd DREFALDWYN. Gorwedda y drefgordd ar yr afon Dyfi, 3¼ milldir i'r gog.-dd. o orsaf Machynlleth. Cynwysa y plwyf hefyd drefgorddau Blaenglesyrch, Rhiwgwreiddyn, a Glynceiriog; a'i llythyrdref yw Machynlleth, swydd Drefaldwyn. Erwau, 10,351. Gwerth ardrethol, 3784*p*. Poblogaeth, 720. Annedd-dai, 152. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 365*p*. Noddwr, esgob Bangor.

Digitized by Google

Mae y Llan wedi ei chysegru i St. Gwrin, yn mesur 163 o droedfeddi o hyd; ac adgyweiriwyd hi yn 1864. Mae yma hefyd gapeli gan y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Annibynwyr, ac elusenau 8*p*. Mae y ffordd o Fachynlleth i Ddolgelleu yn myned trwy ddyffryn Dylas, ac yn hynod am brydferthwch ei golygfeydd; a'r ffordd o Ddinasmawddwy i Aberdyfi, yn arwain trwy y pentref. Ar lan y Dyfi, yn y plwyf hwn, y saif Mathafarn, lle unwaith y preswyliai Dafydd Llwyd ab Llewelyn ab Gryffydd, bardd, a brudiwr, yr hwn a goffheir mewn hanesyddiaeth, oblegyd ei atebiad i Iarll Richmond, pan ar ei daith i facs Bosworth. Yr oedd yr Iarll a'i fintai ar eu ffordd o Aberdaugleddyf i'r Amwythig, i ymladd a Rhisiart III. am goron Prydain, a llettywyd hwynt dros nos o dan gronglwyd Dafydd Llwyd. Yr Iarll yn ei bryder am lwyddiant ei anturiaeth, a ofynodd farn ei westwr. Atebodd Dafydd Llwyd yn gyfrwys bod y cwestiwn yn rhy bwysig i roddi atebiad byrbwyll iddo, ond y cai ei atebiad borau dranoeth. Pan ddeallodd gwraig Dafydd Llwyd bod ei gwr yn petruso ateb y cwestiwn, ebe hi—"Beth! tydi yn fardd, yn brophwyd, ac yn weledydd, ac yn methu ateb cwestiwn syml fel hwna! Dywed yn bendant wrtho, y bydd iddo enill yr ornest; ac os try hyny yn wirionedd, byddi di wedi enill enw anrhydeddus; ond os fel arall y try, ni raid i ti ddim ofni, oblegyd ni bydd fawr o berygl i'r Iarll ddyfod byth y ffordd yma i dy gyhuddo di o fod yn au-brophwyd." Felly gwelodd y brudiwr ei ffordd yn glir, a phrofodd Iarll Richmond ei ffordd yn ddiogel i orsedd Prydain dan y teitl o Harri VII. Yn ystod y rhyfel cartrefol o dan deyrnasiad Charles I., daeth byddin Cromwell i'r parthau hyn, gwnaeth ddifrod mawr ar lawer o feddianau, a llosgodd Mathafarn i'r llawr, yn 1644.

**LLANWRTHWL**, plwyf o ddau raniad, yr isaf, a'r uchaf, yn nosbarth Rhaiadr, swydd Frycheiniog; ar yr afon Wy, ar reilffordd Llanidloes, Rhaiadr, a Talyllyn, ac o amgylch gorsaf Doldowlod. Llythyrdref, Rhaiadr. Erwau, 18,851. Gwerth ardrethol y rhan isaf, 1161*p*. Pob. 261. Annedd-dai, 47. Gwerth ardrethol y rhan uchaf, 883*p*. Pob. 295. Annedd-dai, 51. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yma gapel gan yr Annibynwyr, ac elusenau 16*p*.

Derbyniodd y plwyf ei enw oddiwrth Gwrthwl, neu Morddal, sant o ddyddiad anhysbys, a saif ar derfyn gogleddol y swydd, yn ymylu ar Maeshyfed, oddiwrth yr hon y gwahenir ef yn y gogledd, a'r gogledd-ddwyrain, gan yr afon Wysg, ac yn y gorllewin, a'r gogledd-orllewin, gan y Claerwen, a'r Elain, y rhai sydd yn ymarllwys i'r Wysg ar y tu gogledd-ddwyrain i'r plwyf. Mae y tiroedd uchaf yma yn gyffredin yn greigiog, ar isaf yn gorsiog; ond gyda glanau yr Wysg, a'r Elain, y mae rhai dolydd breision a ffrwythlawn. Mae gweithiau copr wedi bod yn cael eu dwyn yn mlaen yma, dan yr enw "Gweithiau Rhunnant;" ond ychydig fu eu llwyddiant. Mae amryw weddillion Derwyddol ac henafiaethol yn aros yn y plwyf hwn; megys y golofn, a dybir sydd weddillion croes, yn y fynwent; a meini hynod ar hyd Drygarn, a Rhos-saith-maen.

**LLANWRTYD**, plwyf, ac ad-ddosran, yn nosparth Llanymddyfri, swydd Frycheiniog. Gorwedda y plwyf ar yr afon Irfon, â rheilffordd Craven-Arms, Knighton, Llanymddyfri, ac Abertawe, 11½ mill. i'r gog. or. wrth og. o Lanymddyfri; cynwysa faerdrefi Clawddmadog, a Llechweddor, ffynonau meddyginiaethol enwog, gorsaf rheilffordd a elwir "*Llanwrtyd-Wells*," a llythyrfa, o dan Lanfair-muallt, swydd Frycheiniog. Erwau, 11,335. Gwerth ardrethol, 2056*p*. Pob. 607. Annedd-dai, 117. Curadaeth yw y fywioliaeth, perthynol i Langammarch, yn esgobaeth Ty-Ddewi. Mae yma gapel Presbyteraidd, ac ysgol waddoledig. Cynwysa yr ad-ddosran hefyd, blwyf Llanddulas. Erwau, 14,555. Pob. 731. Annedd-dai, 136. Mae yr afon Irfon, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Wysg wrth Lanfair-muallt, yn rhedeg trwy ganol y plwyf, gan dderbyn i'w mynwes y pedair afonig a elwir y Cerdin, Cledan, Cledwiail, a'r Henog. Hynodir y plwyf hwn gan y ffynon fŵnawl, yr hon a ddarganfyddwyd gerllaw yr Irfon, gan Theophilus Evans, awdwr "Drych y Prif Oesoedd," yn 1732, a'r hon sydd wedi dyfod erbyn hyn yn un o fendithion penaf ein gwlad. Y ffynon hon, yr hon a elwir "Ffynonau Llanwrtyd," a'r "Ffynon Ddrewllyd," sydd yn rhedeg dros wely cyfoethog o frwmstan, o'r hwn y mae yn cyfranogi yn helaeth, a fedda hefyd lawer o ddur, ac ychydig o halen morawl. Prawf ei hun yn barhaus y feddyginiaeth fwyaf effeithiol i bob afiechyd clafrllyd, a chroenawg; rhyddha edefynau y cylla, ac ar gyfer pob afiechyd o hir arosiad, ni ystyrir ef yn ail i un dwfr yn Ewrop. Oddiar pan ddaeth y rheilffordd drwy y lle, mae y pentref wedi cyflym gynnyddu mewn rhifedi annedd-dai, a chyfleusterau i lettya ymwelwyr. Mae Dol-y-coed, hen breswylfod y Jonesiaid, wedi ei throi yn westy golygus, er llettya ymwelwyr; ac mae y *Bellevue*, yn sefydliad eang a thra chyfleus i'r un amcan. Mae gweithfa wlan eang yn y lle, yn yr hon y mae llawer o ddwylaw yn cael gwaith ar hyd y blyneddoedd. Mae yr ysgol rydd waddoledig, yr hon sydd wedi bod yn fendith i gynnifer o blant tlodion y plwyf hwn, yn aros yn golofn o haelfrydedd Mrs. Margaret Jones, o Great Queen Street, Llundain, brodor oddiyma, yr hon, yn 1783, a gymynroddodd 300*p*. yn ol pedair y cant, at waddoli yr ysgol hon. Dygir yr ysgol yn mlaen o dan olygiaeth ymddiriedolwyr, un o ba rai bob amser ydyw person y plwyf. Yr un foneddiges hefyd a gymynroddodd log 200*p*., yn ol pedair y flwyddyn, at roi bwyd a dillad i blant tlodion y plwyf, a llog 50*p*. er rhoi gwledd flyneddol i'r ymddiriedolwyr, ar y laf o Dachwedd. Mae yr eglwys blwyfol yn gysegredig i Dewi Sant.

**LLANWYDDELAN**, plwyf yn nosbarth Drefnewydd, swydd Drefaldwyn; ar yr afon Rhiw, ger ffordd Rhufeinig Caersws, 4 mill. i'r de wrth or. o Lanfair-caer-einion, a 6½ mill. i'r gog. wrth or. o orsaf rheilffordd Drefnewydd. Cynwysa dreflanau Pencoed, Penymaes, a Treganol; a'i llythyr-dref yw Llanfair-caer-einion, o dan Trallwm (*Welsh Pool*). Erwau, 3784. Gwerth ardrethol, 2095*p*. Pob. 476. Annedd-dai, 96. Mae y fywioliaeth yn rectoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 250*p*. Noddwr, esgob Llandaf. Mae yr eglwys yn gysegredig i St. Gwyddelan, yr hwn a goffheid Awst 22. Mae yma weithfa wlan fechan, yn yr hon y mae nifer o'r triglion yn enill eu bara. Mae yma symiau bychain o gymynroddion, wedi eu gadael er addysgu plant tlodion y plwyf, sef llog 15*p*. a adawyd gan Rowland Evans, 12*p*. gan Richard Pryce, a 5*p*. gan y Parch. Mr. Jones. Gadawyd hefyd amryw fan symiau mewn tiroedd, ac arian, gan wahanol bersonau er lles y tlodion. Tybir bod y ffordd Rufeinig o Gaer-Sws i Gaerlleon-ar-Ddyfyrdwy, yn myned trwy gŵr gor-

Digitized by Google

llewinol y plwyf hwn, a elwir Bwlch-Cae-Haidd, ac oddiyno yn rhedeg trwy ddyffryn Mochnant, lle y gosodai Syr Richard Colt Hoare y *Mediolanum* a grybwyllir gan Richard o Cirencester. Mae yma hefyd ychydig weddillion o'r hen amddiffynfeydd Prydeinig, yn aros hyd heddyw, un o'r cyfryw a elwir Pen y Gaer, yr hon a amgylchid gan gamlas, ac un arall yw Lluest Cerig, neu Carneddau; y rhai, yn ddiamau oeddynt wersyllfeydd er gwylio Bwlch Cae Haidd, a Cefn Coch.

**LLANWYNNO**, sydd blwyf yn cynnwys 13,013 erw, yn nghantref Miskin, undeb Pontypridd, esgobaeth Llandaf, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Saif Eglwys y plwyf, mewn ardal hynod fynyddig, tua 5 milldir i'r gogledd o Bontypridd, ac iddi gorph, cangell, porth, clochdy a 4 cloch. Rhenir y plwyf i ddau ddosparth, y rhai a enwir fel y canlyn, 1. Glyncynon; 2. Hafodrinog. Curadiaeth barhaol yw y fywioliaeth eglwysig, yn nglŷn ag Eglwys Rhondda, ac yn werth 400*p.* y flwyddyn. Mae rhan helaeth o bentref *Mountain Ash* yn y plwyf hwn, yn nghyd a rhan o bentref Blaenllechau. Mae ei waelod yn gyfoethog iawn o lo ager rhagorol, yr hwn a weithir ar raddfa eang, fel y dengys y daflen ganlynol, am y flwyddyn 1870:—

| | Tunnelli. |
|---|---|
| Navigation Colliery, ...................... | 138,624 |
| Deep Dyffryn ,, ...................... | 27,061 |
| Pont Cynon—Glo Tai, .................. | 2,147 |
| Llwyn celyn ,, ...................... | 25,202 |
| Hafod ,, ...................... | |
| Gyfeillion ,, ...................... | 80,527 |
| Daren Ddu ,, ...................... | 3,262 |
| Duallt ,, ............ ....... | 200 |
| Daren Ddu newydd ...................... | 8,242 |
| Ferndale—Glo Ager,......... .......... | 35,865 |
| Carn Parc, Glo Tai, ...................... | 751 |
| Ynyshir ,, ...................... | 30,851 |
| Lan Darenddu ,, ...................... | 760 |
| Cyfanswm, ... | 353,492 |

Poblogaeth y plwyf yn 1861 oedd 8693, ac yn 1871 yr oedd yn 11,423.

**LLANYBLODWEL**, plwyf yn nosbarth Croesoswallt, Amwythig; ar yr afon Tanad, ger Clawdd Offa, 3 mill. i'r gor. o orsaf Llanymynech, a 5½ mill. i'r de. or. wrth or. o Groesoswallt. Cynwysa drefgorddau Blodwell, Abertanad, Bryn, a Llynclys; a chanddi lythyrfa o dan Groesoswallt. Erwau, 4694. Gwerth ardrethol, 5542*p.* Pob. 1008. Anneddai, 201. Eiddo Iarll Powys yw y faenoriaeth. Mae yma weithfeydd calch, efydd, a phlwm. Mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 271*p.* Noddwr, esgob Llanelwy. Mae yr eglwys gan mwyaf o'r 14eg ganrif; yn cynwys porth a bwäu Normanaidd; adgyweiriwyd hi yn 1855; ychwanegwyd ati y pryd hwnw dŵr wythonglog; cynwysa fedyddfaen Normanaidd, a chofgolofnau o'r Bridgmaniaid, y Godolphiniaid, ac eraill. Mae yma ysgol gyda 10*p.* y flwyddyn o waddol, yn nghydag Ysgol Genedlaethol. Bu John Parker, yr henafiaethydd, yn ficer yma; ac efe a ddygodd y draul o adgyweirio yr eglwys yn 1855.

**LLANYBRI**, capeloriaeth, yn nghyda phentref, yn mhlwyf Llanstephan, swydd GAERFYRDDIN; ar yr afon Tywy, gyferbyn a gorsaf Ferryside, a 3½ mill. i'r dw. o Gas'lychwr. Ei llythyrdref yw Caslychwr, o dan St. Clears. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 150*p.* Noddydd Miss Lloyd.

**LLANYBYDDER**, pentref, plwyf, ac adran, yn nosbarth Llanbedr, swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref ar yr afon Teifi, ger ffordd Sarn Helen, ac yn agos i reilffordd Llanbedr a Chaerfyrddin, 4½ mill. i'r de. or. o Lanbedr, a chanddo lythyrdy o dan Caerfyrddin. Cynhelir ffeiriau yma ar yr 17eg o Gorphenaf, a'r 1af, a'r 21ain o Tachwedd. Cynwysa y plwyf hefyd bentrefi Abergorlech, Glanduar, Porth-y rhyd, a Tynyffordd. Erwau, 10,031. Gwerth ardrethol, 3140*p.* Pob. 1131. Annedd-dai, 263. Mae yr adran yn cynwys hefyd ddau blwyf arall. Erwau, 25,667. Pob. 2541. Annedd-dai, 590.

Mae trum o dir uchel yn rhedeg trwy ganol y plwyf o'r dw. i'r gor., oddiwrth ba un y mae amrywiol nentydd yn rhedeg tua'r gogledd i'r Teifi, a thua'r deau i'r Cothi. Mae amryw garneddau, neu gofgolofnau yn aros yn y plwyf hwn; a thua haner milldir i'r de orllewin oddiwrth yr eglwys, y mae adfeilion gwersyllfa, yr hon a dybir sydd weddillion Rhufeinig. Mae yr eglwys blwyfol wedi ei chysegru i St. Pedr, a'r fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn werth 117*p.* Y mae wedi ei gwaddoli a 600*p.* o rodd frenhinol, ac a 1200*p.* o rodd seneddol, ac o dan nawdd yr arglwydd Gangellydd. Y mae hefyd gapel yn Abergorlech, ar derfyn deheuol y plwyf, yr hwn sydd yn meddu curadiaeth barhaol, gyda gwaddol o 1000*p.* o rodd frenhinol, ac o dan nawdd y ficer. Y mae yma ddau gapel gan yr Annibynwyr, un gan y Bedyddwyr, ac un gan y Methodistiaid.

**LLANYCEFN**, plwyf yn nosbarth Narberth, swydd BENFRO; ar yr afon Cleddau Ddwyreiniol, 3¼ mill. i'r gog. or. wrth og. o orsaf *Narberth Road*, a 6½ i'r gog. og. or. o Narberth. Llythyr-dref, Narberth. Erwau, 2684. Gwerth ardrethol, 1918*p.* Pob. 416. Annedd-dai, 88. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 51*p.* Noddwr, arglwydd Milford. Mae y fywioliaeth wedi ei gwaddoli a 1000*p.* o rodd frenhinol, yn nghyda 200*p.* o rodd seneddol.

**LLANYCHAER**, neu LLANERCH AUR, plwyf yn nosbarth Hwlffordd, swydd BENFRO; 2½ mill. i'r de. dd. o Abergwaen, a 10½ mill. i'r gog. wrth or. o orsaf *Clarbeston-Road.* Llythyr-dref, Abergwaen, o dan Hwlffordd. Erwau, 2053. Gwerth ardrethol, 853*p.* Pob. 194. Annedd-dai, 37. Y fywioliaeth sydd rectoriaeth, a unwyd gyd Puncheston, yn 1868, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 170*p.* Noddwr, y Parch. W. Davies.

**LLANYCHAIARN**, pentref, a phlwyf, yn nosbarth Aberystwyth, swydd ABERTEIFI. Saif y pentref ar yr afon Ystwyth, ger y traeth, 2 fill. i'r dê. o orsaf Aberystwyth. Cynwysa y plwyf 4021 o erwau o dir, a 160 o ddwfr. Llythyr-dref, Aberystwyth. Gwerth ardrethol, 3330*p.* Pob. 580. Annedd-dai, 111. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 97*p.* Noddwr, Syr A. P. Chichester, Barwn.

Mae yr eglwys yn gysegredig i Llwch-haiarn mab Hygarfael, un o Seintiau Cymreig y 7fed ganrif; ac adeiladwyd hi fel capel i rectoriaeth Llanbadarn Fawr. Ar lan ddwyreiniol yr Ystwyth, yn y plwyf hwn, y safai unwaith gastell Llanychaiarn, o'r hwn ac am yr hwn nid oes braidd ddim yn aros. Yn Blaen plwyf, ar derfyn deheuol y plwyf, y mae capel gan y Methodistiaid, ac yn y lle a elwir *Chancery*

Digitized by Google

y mae ysgoldy wedi ei adeiladu gan y plwyfolion, er rhoi addysg rydd i'w plant. Mae amryw dai dymunol yn y plwyf hwn, ond y prif dŷ yw Tan y bwlch trigfa y Davisiaid; a chofgolofn y Cadfridog Davies, yr hwn a enwogodd ei hun, yn y *Peninsular war*, ac yn neillduol ar wastadedd Salamanca, ydyw un o brif addurniadau y fynwent.

**LLANYCHAN**, neu LLANHYCHAN, plwyf yn nosbarth Rhuthyn, swydd DDINBACH, ar yr afon Clwyd, gerllaw rheilffordd Dyffryn Clwyd, a 3 mill. i'r gog. o Ruthyn. Llythyr-dref, Rhuthyn. Erwau, 566. Gwerth ardrethol, 1371*p*. Pob. 107. Anneddau, 20. Y fywioliaeth sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 170*p*., ac esgob Llanelwy yw y noddwr. Mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Hychan—un o eppil yr amwys Frychan Brycheiniog, ond nid oes ynddi unrhyw hynodion adeiladol. Yn y plwyf hwn y mae maenoriaeth y Rhos, yr hon a berthyn i esgob Bangor, a goruchwyliwr yr hwn sydd yn cynal ei faenor-lys yn y pentref, ar bob Pasg. Cynhelir ffair yma, Hydref 12. Mae amrywiol symiau bychain wedi eu gadael yma er llesoli y tlodion; tua'r flwyddyn 1725, gadawodd Maurice Jones, y periglor, 6*p*. o ardreth-dal er prentisio plant tlodion y plwyf hwn, a phlwyf Cerrig y Druidion, neu, yn niffyg hyny, i gael eu talu i weddw rhyw offeiriad; Mrs. Austin hefyd a gymynroddodd 20*p*. mewn arian i dlodion y plwyf, ac mae yma ychydig o roddion elusenol eraill.

**LLANYCIL**, plwyf yn undeb y Bala, arglwyddiaeth Uwch Tryweryn, cantref Penllyn, swydd FEIRIONYDD; ar lan Llyn Tegid, ddeuddeng milldir i'r de-orllewin wrth orllewin o Gorwen. Cynnwys dref y Bala, a threfgyrdd Cyffdy, Ismynydd, Maestron, Streflyn, ac Uwchmynydd. Cynnwysa y plwyf 12,868 o erwau, ac ymestyna am naw milldir o Lyn Tegid, mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol, ac y mae oddeutu pedair milldir o led, o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin. Oddigerth y rhan sydd gerllaw y Llyn, lle saif tref y Bala, mae y tir yn lled fryniog, ac nid yw y parth uchaf o'r plwyf yn cael ei amaethu cystal a'r rhanau isaf, y rhai a ffurfiant ddyffryn ffrwythlon, yn cael ei ddyfrhau gan y Ddyfrdwy, a'r Tryweryn. Mae y mynydd, yr Arenig Fawr, yn mhen uchaf y plwyf, yn 2089 o droedfeddi o uchder, a rhwng arucheledd y bryniau, a thynerwch y dyffryn, nis gellid mwynhau golygfeydd mwy dymunol nag a geir yn y gymydogaeth hon. Mawn, yr hwn a godir mewn gwahanol barthau o'r plwyf, yw tanwydd cyffredin y trigolion, y rhai sydd yn 2383 o nifer, ac yn anneddu 531 o dai. Gwerth yr eiddo trethadwy, yw 8769*p*. Mae rhan o gapeloriaeth Frongoch, gyda phoblogaeth o 128 o eneidiau, yn y plwyf hwn. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn nawdd yr esgob. Ei gwerth yw 350*p*. a phersondy. Yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Beuno Sant, a saif o fewn milldir i'r Bala, a dywedir ei bod mewn cyflwr da. Ceir y rhan fwyaf o'r manylion am y plwyf yn yr erthygl ar y BALA. Yn y plwyf hwn y mae y tlotty a berthyn i undeb y Bala. Nid yw tlodion Llanycil yn hollol ddiddarbod am danynt, canys gadawodd Mrs. Margaret Price, y swm o 100*p*., gyda gorchymyn fod i'r llog fyned i ddilladu pump o wyr, a saith o wragedd; yn 1774, testamentodd William Price 100*p*. tuag at ddilladu tlodion o'r ddeuryw, a 100*p*. tuagat brynu bara i'r anghenus; Elinor Williams, yn 1752, a roddodd 40*p*. i'w rhanu yn flynyddol rhwng wyth o'r tlodion; ac Edward Meyrick, yn 1712, a adawodd ardreth blyneddol o 15*p*. tuag at ddillad i ddeg ar hugain o blant tlodion Gwynedd, ac ardreth o'r un swm, ynghyda'r defnyddiad o dŷ, a thair erw a haner o dir, i ysgolfeistr yn y plwyf hwn, er mwyn cyfranu addysg rad i blant tlodion. Yn mynwent y plwyf hwn y claddwyd yr anfarwol Charles o'r Bala. Mae yn yr eglwys amryw gof-feini, ac un, yn cynnwys llinellau tarawiadol o waith yr enwog John Wilkes, er cof am Evan Llwyd, A.C., Fron, awdwr amryw lyfrau poblogaidd yn yr iaith Seisnig. Perthyna i ysgol Rammadegol y Bala, 160*p*. yn y flwyddyn, o waddol.

**LLANYCRWYS**, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Caio, ac mewn rhan yn nghantref Cathinog, yn undeb neu ddosbarth Llanbedr, swydd GAERFYRDDIN; ar yr afon Cothi, a'r ffordd Rufeinig a elwid Sarn Helen, gerllaw llinell derfyn Ceredigion, bedair milldir i'r dwyrain wrth dde o orsaf rheilffordd Llanbedr. Y mae yn cynwys, rhwng treflanau Fforest, a Mynachdy, 3379 o erwau, y rhai sydd ar y cyfan yn lled fryniog. Gwerth ardrethol, 785*p*.; 524 yw rhif y trigolion, a nifer y tai yw 113. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi; gwerth 60*p*., ac yn nawdd J. Jones, Ysw.

**LLANYFYNY**, trefgordd yn mhlwyf Llangurig, swydd DREFALDWYN; dair milldir a chwarter i'r de o Lanidloes. Gwerth ardrethol, rhwng 194*p*. mewn mwngloddiau, 1926*p*.; rhif y boblogaeth yw 419.

**LLANYMAWDDWY**, pentref a phlwyf yn arlwyddiaeth Mawddwy, dosbarth Dolgellau, swydd FEIRIONYDD. Saif y pentref yn nghwr eithaf Dyffryn y Dyfi, dan Arran Fawddwy, ddwy filldir i'r gorllewin o gyffiniau Maldwyn, bedair milldir a chwarter i'r gogledd-ddwyrain wrth ogledd o Ddinas Mawddwy, lle mae gorsaf rheilffordd, a deunaw milldir a hanner i'r gogledd-ddwyrain o Fachynlleth. Rhenir y plwyf i bedair tref-ddegwm, nid amgen Cowarch, Cwm Cewydd, Llanerchfydd, a'r Pennant. Erwau, 15,290. Gwerth ardrethol rhwng 200*p*., mewn mwngloddiau, 1736*p*. Lleihau y mae y boblogaeth, canys nid oedd ond 595 yn 1861, tra yr ydoedd yn 685 ddeng mlynedd yn flaenorol. Nifer y tai yw 128. Arwynebedd anwastad sydd i'r plwyf, a'r uchaf o amryw fynyddoedd ydyw Aran Fawddwy, copa yr hon sydd 2955 o droedfeddi o uchder. Yn nghanol y mynyddoedd hyn y mae dyffryn tlws, yr hwn a ddyfrheir gan yr afon Dyfi a'i cheinciau, y Rhiwlech, Nant yr Esgair, Llam y Llai, y Pymrhyd, y Sherfel, Nant Cwm y Bachgen, y Cowarch, y Ceryst, y Clywedog neu'r Cleifion, a'r Angell. Wrth droed Aran Fawddwy y tardda y Ddyfi, yr hon, nes disgyn o honi i'r Cwm, a adnabyddir wrth yr enw Llaethnant. Yr oedd y fro hon gynt yn nodedig am ei choed, ond nid yw yr arbenigrwydd hwn yn perthyn iddi yn bresennol, er fod ynddi etto rai planhigfeydd lled dda. Buasai llwyni tewfrig yn perffeithio yr olygfa, yr hon sydd fel y mae, yn ennyn edmygedd ymwelwyr o herwydd ei chymlethiad o gainder a gwylltineb. Mae y lle yn gyfoethog o olion henafiaethol. Gellir tybio oddiwrth yr enw, ac amryw amgylchiadau ereill, fod amddiffynfa Gymreig yn y lle a elwir Castell y Dinas, ac y mae yn ddiamheuol i'r Rhufeiniaid fod yn gwersyllu yma. Flyneddoedd yn ol, cafwyd llestr pridd yn llawn o esgyrn, gerllaw pentref Abercowarch, ac ymysg yr ysbwrial, yr oedd llafnau pres ar lun cyllill. Rhaid eu bod yn hen, can hyned a'r

Digitized by Google

chwechcd ganrif ond odid, ond trwy ddiofalwch anesgusodol, hwynt hwy a faluriwyd. Ar ben mynydd gerllaw, y mae crug o geryg didrefn, ac y mae yr enw a roddir ar y fan, sef Castellau, yn golygu fod yno wylfa, neu amddiffynfa rywbryd, a choleddir tyb gyffelyb am hen olion a gafwyd ar ochr Bwlch Oerddrws, ac am faes ar dir y Cwm Uchaf a elwir Cae'r Castell. Darganfyddwyd cistfaen ger Cae'r Fachell, yn Nghwm Cerist, ychydig flyneddoedd yn ol, ac y mae yn Llaethnant, gerllaw Rhyd y Gerwyn, garnedd a elwir y Garnedd Wen. Y mae carnedd hefyd ar fynydd Penygelli, ac y mae gwylfaau i'w gweled hyd heddyw ar fynydd Ty'n y coed, ac yn nghwr Bwlch Coediog. Bernir fod amryw ffyrdd Rhufeinig yn rhedeg drwy y plwyf hwn, ac y mae llwybr rhai o honynt yn olrheinadwy etto. Mae lle i gasglu fod y grefydd Gristionogol wedi ei phlanu yma yn lled foreu, ac mai Tydecho, nawddsant y plwyf, fu yn offeryn i'w sefydlu. Mab ydoedd y Tydecho hwn i Anwn Ddu, brenin Grawec, a chefnder Cadfan, y tywysog a ddaeth trosodd o Gâl, yn y chwechcd ganrif, gyda llu o saint i bregethu yr Efengyl, neu fel y dywed hen ysgrif, i "adnewyddu Cred a Bedydd" yn y wlad hon. Priodolai yr hen bobl, alluoedd gwyrthiol i Tydecho, a rhyfedd a lliosog ydynt y traddodiadau yn ei gylch ar lafar gwlad. Ceir rhestr o'r gweithredoedd a briodolid gan ofergoel i'r hen sant, yn "Nghywydd Gwyrthiau Tydecho Sant," o waith Dafydd Llwyd ab Llewelyn ab Gruffydd, y brudiwr o Fathafarn, a gyhoeddwyd yn y *Brython*, gyda nodiadau gwerthfawr o eiddo Glasynys. Llyma un, fel yr edrydd Glasynys:—"Tua dwy filldir a haner i fyny tuhwnt i Lanymawddwy, y mae lle o'r enw Rhiw'r March. Saif ar ben y golwg, rhwng Pennant a Llaethnant, lle y dywedir i'r hyn a ganlyn gael ei gyflawni gan y sant: 'Tydecho a arferai yn aml neilldno i'w *wely*, neu unig-fan, i fyfyrio wrtho ei hun; a phan yno rywbryd, dygwyddodd fod ei laethwraig yn godro i fyny yn y fuches, o herwydd y mae Buches Tydecho yn cael ei dangos hyd y dydd hwn. Yntau a edrychai yn graffus ar yr olygfa wyllt arddunol a ledai a'i flaen—yr Aran fel colofn fawreddus o archadeiladaeth y Duwdod; troes ei olwg at ei fuches, a gwelai ei forwyn yn dyfod i lawr, a'r llaeth ganddi ar ei phen, mewn cerwyn neu ystên goed. A phan yr oedd hi wedi disgyn i lawr i'r gwaelod, ac yn croesi yr afon, llithrodd ei throed, a chwympodd y gerwyn, a chollodd y llaeth. Galwyd y lle hwnw Rhyd y Gerwyn o'r herwydd fyth, ebe llais unfryd traddodiad. Tydecho, pan ganfu hyn, a berodd i'r holl afon droi yn llaeth; a galwyd y lle, o herwydd hyn, yn Llaethnant; a rhedodd yr hylif chwaethus yn lle dwfr, i lawr i ymyl y Llan, ac er coffâd o hyn, canodd rhyw fardd y ddwy linell hyn:—

'Tydecho, dad di duchan,
A'i gwnaeth yn *llaeth* hyd y Llan.'

Y mae Gwely Tydecho eto heb ei falurio gan ddwylaw creaduriaid cethin, 'ar gwr glyn, ar graig las.' Yn y graig, y mae amryw groesau wedi eu cerfio gan ddwylaw rhyw bererinion hunanymwadol, a fuant yno yn talu ymweliad â gorphwysfa un o hen seintiau ffyddlon Ynys Prydain, ac fel cofarwydd o'u gofwyad, dodasant y nod Cristionogol yn y graig las, yn dyst i'r oesoedd a ddelai, eu bod hwy yn dilyn y Grog fel cyfeirlun nodedig o'r dyoddefaint a waredodd y byd o afaelion crafangawg anobaith." Sonir hefyd fod Maelgwyn Gwynedd, "poenydiwr y saint," wedi llatratta ychain Tydecho, ond cafodd amser i edifarhau am ei ryfyg, os coelir yr hen chwedl—"Yr oedd Tydecho yn aredig ar lan afon Dyfi, a Maelgwyn yn eistedd i fyny ar ben y llech las, gan feddwl y caffai lawer byd o ddifyrwch wrth edrych ar yr hen sant dinam. Ond er ei fawr ofid, troes y cyfan yn ei erbyn, o herwydd glynodd yn anysgogol wrth y graig, ac y mae ol ei eisteddiad anghysurus i'w weled hyd heddyw!" Mae yn y plwyf hwn amryw ffynnonau meddyginiaethol, megis Ffynnon y Gwylliaid, ar Ben Bwlch y Groes, yr hon sydd yn llawn o drwth mwnawl o liw coch, ag sydd yn dra llesol i ryddhau y coluddion. Nid chwedlau gwyllt o eiddo y dychymyg yw yr oll o gofiannau y plwyf hwn. Yn y fro hon yr oedd y "Gwylliaid Cochion," y rhai, yn amser Rhyfel y Rhosynau, a barent fwy o fraw a dychryn i drigolion y gymydogaeth, nag a achoswyd erioed gan fwganod a chreaduriaid y dychymyg. Y cyntaf o honynt oedd Owain ab Cadwgan, yn y ddeuddegfed ganrif, a buont yn ffrewyll ar y wlad hyd y flwyddyn 1555, pryd y rhoddwyd terfyn ar eu rhysedd yspeilgar, gan y Barwn Owen, a Syr Sion Wyn ab Meredydd o Wydir. Dywedir y byddai y carn ladron yn arfer golchi eu dwylaw yn Ffynnon y Gwylliaid, ar ben Bwlch y Groes, a chredai yr hen bobl mai effaith y gwaed hwnw ydoedd y rhwd coch sydd yn rhedeg o honi. Fel y crybwyllwyd, yn nechreu y chwechcd ganrif y sefydlwyd yr efengyl yn y plwyf, a bernir fod yr eglwys bresennol yn gorchuddio llanerch yr hen gyssegrfan. Saif ar ochr ogleddol y dyffryn, gerllaw ymuniad yr afon Pumrhyd a'r afon Dyfi. Perthynai iddi gynt dri chapel, neu is-lanau, sef Mallwyd, Cemmaes, a'r Garthbeibio, ond y maent hwy yn fywioliaethau annibynol ers llawer dydd. Gwerth presennol rheithoriaeth Llanymawddwy, yr hon sydd dan fugeiliaeth a nawddogaeth Esgob Bangor, yw 235*p*. a phersondy. Yn y flwyddyn 1291 prisid "Llanemawdwe" yn 15 o farciau, a'r prisiad yn amser Harri'r Wythfed ydoedd 6*p*. 18*s*. 4*c*. Pe dychwelid i'r fywioliaeth ei meddiannau cyntefig, buasai ei gwerth yn llawer iawn mwy nag ydyw yn bresennol. Yn y rhestr a ganlyn ceir enwau offeiriaid Llanymawddwy o'r flwyddyn 1537 hyd 1849:—

| | |
|---|---|
| Owain ab Dafydd, a benodwyd gan yr Esgob Warton, | 1537 |
| Elis ab Howel, | — |
| Tomos ab William, gan Goldwel, | 1556 |
| I. Kynwel, gan T. Dafis, | 1563 |
| I. Barker, periglor Llansantffraid-Glan-Conwy, gan Morgan, | 1603 |
| I. Dafis, B.D. | 1613 |
| Edwart Wyn, gan Owain, | 1644 |
| I. Ffowc, periglor Llanfihangel-yn-Rhos, ... | 1666 |
| William Iones, gan Iones, | 1702 |
| Rhosier Kynaston, gan Fleetwood, | 1709 |
| Rhisiart Huws, ficer Llanbrynmair, | 1711 |
| Lewys Jones, ficer Rhiwabon, gan Tanner, | 1739 |
| Edward Owen, gan Shipley, | 1770 |
| Robert Nannau, gan Bagot, | 1791 |
| R. Wyn Owain, | 1835 |
| W. Edwards, | 1849 |

Breintiwyd y plwyf ar ol hyn â gweinidogaeth y gwladgarwr a'r llenor enwog, Ab Ithel, ac y mae y plwyf yn bresennol dan ofal teilwng olynydd iddo, sef yr awdwr a'r ysgolhaig trylen, y Parch. Daniel

Digitized by Google

Silfan Evans, B.D. (Hirlas), gwr ag y mae ei dalentau yn hawlio iddo sefyllfa fwy urddasol yn ei eglwys. Yr I. Dafis yn y rhestr uchod, yw yr enwog Ddoctor Dafis o Fallwyd, y gramadegwr, a'r geirdarddwr dihafal. Bu yr anfarwol Charles o'r Bala yn gweinidogaethu am ysbaid byr yn y plwyf, ac wrth hyn gwelir fod cofrestr Mawddwy yn mhell o fod yn amddifad o enwogion. Perthyna i'r plwyf ychydig o elusenau er budd y tlodion.

**LLANYMYNACH,** pentref yn nosbarth Croesoswallt, swydd Amwythig, a phlwyf, mewn rhan hefyd yn nosbarth Llanfyllin, swydd DREFALDWYN. Saif y pentref ar yr afon Fyrnwy, ar gyffiniau Maldwyn, yn ymyl camlas Trefaldwyn, a rheilffordd Cymru, gerllaw cydiad y gangen i Lanfyllin, heb fod nepell o Glawdd Offa; 4½ milldir i'r gorll.-dde-orll. o gyffiniau swydd Ddinbych, a 5½ milldir i'r de-wrth-orllewin o Groesoswallt; y mae yn lle tlws, yn sefyll ar lechwedd bryn, ac yn meddu gorsaf yn nghydiad y gainc rheilffordd, ynghyda phont gareg olygus dros y Fyrnwy, a ffeiriau ar y 1af o Ebrill, Mai 29, a Medi 23. Mae y plwyf yn cynwys trefgyrdd Careg Hwfa, Llwyn Tydmon, a Threpenal—y gyntaf yn gorwedd yn Maldwyn, a'r ddwy ereill yn cael eu gwahanu gan Glawdd Offa, ac yn perthyn i swydd Amwythig. Golchir ochr orllewinol y plwyf gan yr afon Tanad, yr hon a'i gwahana oddiwrth blwyfydd Llansaintffraid, a Llan-y-blodwel; ac yna, ar ol ymuno â'r Fyrnwy, y mae yn ffinio ei ddeheubarth, gan ei wahanu oddiwrth blwyfydd Llansaintffraid, a Llandysilio. Mae yr afon Morda yn ei wahanu yn y dwyrain oddiwrth Kinnersley, ac y mae yn ffinio ar blwyf Croesoswallt yn y gogledd. Yn y gauaf, y mae llongau 40 neu 50 tunell yn gallu nofio yn y Fyrnwy can belled a'r lle hwn. Mesura y plwyf oddeutu tair milldir ar ei hyd, a milldir a haner ar ei draws. Erwau rhan swydd Amwythig, 1281; gwerth ardrethol, 6545*p.*, o'r hwn swm y mae 132*p.* ar fwnau; poblogaeth, 551; tai, 109. Erwau parth Maldwyn, 1223; gwerth ardrethol, 3444*p.*,—o'r hyn y mae 30*p.* ar fwnau, a 1432*p.* ar chwarelau; poblogaeth, 400; tai, 92. Mae y tir yn amrywio o ran ei ansawdd; yn y parthau uchel y mae yn raianog, ac yn bur dringar; gwneir y rhanau isaf i fyny o dywod, a thywodglai hynod ffafriol i borfeydd. Ceir cyflawnder o frithylliaid, samledi, &c., yn afonydd y plwyf, sef y Fyrnwy, Banwy, Owddyn, Cynlleth, a'r Tanat; yn wir, cyfrifai Mr. Pennant ugain o fathau o bysgod yn mynychu y ffrydiau hyn. O bryd i bryd, anfonwyd symiau mawrion o lechi Llangynog i Gaerloyw. Y mae bryn, neu fynydd Llanymynach, yn 900 o droedfeddi o uchder; y mae wedi ei dyllu a'i rwyllo gan chwarelau o geryg calch, y rhai a anfonir o fesur y miloedd o dunelli, i swydd Stafford, i'w defnyddio yn y tawdd-dai haiarn. Ceir calch yn mhob parth o'r llinell sydd yn gwahanu y mynyddoedd oddiwrth y gwastadeddau, ar gyffiniau Gogledd Cymru. Mae y gwelyau calch yn gorwedd mewn rhai lleoedd ar dywodfaen, ac mewn lleoedd ereill odditano. Mae y mynydd hefyd yn oludog o efydd, sinc, plwm, a chalamin; a cheir digonedd o brofion fod y Rhufeiniaid wedi bod yn cloddio ei drysorau. Un o olion eu diwydrwydd ydyw ogof anferth, gydag amryfal droadau dyryslyd, yr hon a wnaed i godi yr efydd. Oddeutu y flwyddyn 1760 daeth y mwnwyr oedd yn gweithio yn yr ogof gelfyddydol hon, ar draws amryw ysgerbydau dynol, nifer o daclau coginio, lle tân, a bwyell fechan. Yr oedd un ysgerbwd a gleinfreichrwy gwydr am ei arddwrn aswy, a chad-fwyall yn ei ymyl. Cafwyd hefyd nifer o fathodau Rhufeinig, o amser Antoninus, Faustina, ac ereill. Oddeutu 15 mlynedd ar ol hyny, daeth mwnwyr ereill o hyd i amryw esgyrn dynol, a breichrwy aur am arddwrn. Cafwyd hefyd arfau gweithio, rhai Rhufeinig yn ol pob tebyg, a dodwyd hwynt yn nghadw yn llyfrgell Ysgol Rydd yr Amwythig. Mawr ganmolir yr olygfa oddiar gopa y mynydd; y gwastadedd tua'r Amwythig i'r dwyrain, ac ar y llaw arall fryniau ysgythrog Maldwyn. Mae yr Hafren a'i cheinciau, y Fyrnwy, a'r Tanad, i'w gweled yn ymddolenu, bob un o'i dyffryn bach tlws ei hun, ac yn ymuno o'r diwedd i ddyfrhau dyffryn ffrwythlawn yr Amwythig. Draw yn y pellder, gyda chymorth ffurfafen ddysglaer, a phelydr haul, canfyddir ffrydlif crychwyn Pistyll Rhaiadr; ar y llaw aswy, gwelir bryniau Breiddin, a mynyddoedd y Berwyn, yn llanw y gorwel o'n blaen. Ar y gorllewin i fynydd Llanymynach, gellir olrhain yr hyn a erys o Glawdd Offa, dyfais ofer brenin Mersia i amddiffyn ei diriogaeth rhag ymgyrchoedd y Cymry. Cychwyna y Clawdd oddiwrth yr afon Wy, gerllaw Caerloyw, a rhed drwy siroedd Henffordd, Maesyfed, rhan o Amwythig, a Dinbych, hyd yn Nhreuddyn, swydd Callestr. Bu yn fur y gwahaniaeth rhwng Lloegr a Chymru, hyd ddyddiau Gwilym y Gorchfygwr, ond ni bu yn un math o attalfa i ymdaith fuddugoliaethus y teyrn hwnw. Yn gyfochrog â dau glawdd arall dros y mynydd hwn, y mae werthyr anferth o geryg rhyddion, gyda ffos ddofn yn rhedeg hyd y llechwedd, a'r tebygolrwydd ydyw, iddi gael ei chodi gan y Rhufeiniaid, i amddiffyn eu mwngloddiau rhag y Cymry. Yr oedd unwaith ar lechwedd dwyreiniol y bryn, gromlech, yn mesur saith troedfedd wrth chwech, ac yn 18 modfedd o drwch. Chwilfrydedd ofer am drysor, a barodd iddi gael ei thynu i lawr; nid dyma yr unig engraifft, ysywaeth, o ariangarwch yn cymell dynion i ddymchwelyd allorau eu tadau, a gwyn fyd na ddelai rhyw ysbryd, pa un bynag ai ofergoel, ai ynte cariad deallus at henafiaeth y gelwir ef, i ymlid y Fandaliaeth dinystriol sydd yn bygwth dileu pob ôl a choffa am Gymru Fu. Dysgwyliwn lawer yn y cyfeiriad hwn oddiwrth y Gymdeithas Henafiaethol Gymreig, sydd newydd ddechreu ei gyrfa, dan ofal tadol prif lenorion y genedl. Ond i ddychwelyd i gopa mynydd Llanymynach. I'r de-ddwyrain, gwelir Llwyn-y-Groes, a fu unwaith yn breswylfod John Evans, Ysw., awdwr cywrain a dysgedig y *Survey of North Wales*, yr hwn a fu farw yn 1795. Gwr enwog arall, oedd Syr Thomas Jones, un o Farnwyr y Goron, yr hwn a breswyliai yn y plas a welir i'r de-orllewin; sef Careg Hwfa. Ymhellach yn yr un cyfeiriad, yn nghwr eithaf y plwyf, y mae Pentref Heilyn, hen gartref y teulu a ddygai yr enw hwnw. Goronwy ab Heilyn a ddewiswyd gan "Llewelyn ein Llyw Olaf" i ohebu â dirprwywyr Iorwerth Hirgoes, am delerau heddwch terfynol,—telerau a fuont yn rhy weiniaid i osod ffrwyn ar ddyhewyd gwladgar y tywysog Cymreig, yr hwn a wybu rym gelyniaeth estron didrugaredd, ond a syrthiodd yn aberth yn y diwedd i fradwriaeth cydwladwyr anffyddlon. Yr oedd Dr. Peter Heylin, yr hwn a fu farw yn 1662, o wehelyth y Goronwy uchod. Oddeutu dwy filldir i'r gogledd-orllewin o Lanymynach, ar fin y Fyrnwy, y safai unwaith Gastell Careg Hwfa, o'r hwn nid oes unrhyw olion wedi eu gadael, ond yn unig ffos ddofn ar y tu

dwyreiniol. Ychydig oleuni a deifl Hanesiaeth ar helyntion y lle hwn, oddeithr iddo yn 1162 gael ei warchae gan y ddau gefnder, Owain Cyfeiliog, ac Owain ab Madog, y rhai a'i meddianasant am 25 mlynedd. Ymhen yr ysbaid hwnw, gwarchaewyd ar y lle gan Gwenwynwyn, a Chadwallon; a lladdwyd Owain ab Madog. Oddeutu haner milldir oddiwrth y castell hwn, y mae Gwern y Fign, lle yr ymladdwyd brwydr oddeutu y flwyddyn 1202.

Bywioliaeth eglwysig y plwyf hwn, sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Ei gwerth yw 394*p.* gyda phersondy, ac Esgob Llanelwy yw y noddwr. Cafodd yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Sant Agatha, ei hail-adeiladu yn 1845; arddull Normanaidd sydd iddi, ac y mae ei ffenestri dwyreiniol, a gorllewinol, yn lliwiedig. Mae yma ysgol genhedlaethol. Yn y flwyddyn 1791, ymunodd trefgyrdd Llwyn Tudmon a Threpenal gydag amryw blwyfydd cyfagos, i godi Meithrinfa Diwydrwydd yn Nghroesoswallt.

**LLANYNGHENEDL**, plwyf yn nosbarth a swydd MON; gerllaw morgainc Caergybi, ddwy filldir a chwarter i'r gogledd o orsaf rheilffordd y Valley, a phedair a chwarter i'r dwyrain wrth ddc o Gaergybi. Erwau, rhwng 605 o ddwfr, 2965; gwerth ardrethol, 1965*p.*; poblogaeth, 427; tai, 77. Mae y rhan fwyaf o'r tir wedi ei ddiwyllio. Y fywioliaeth eglwysig sydd isberigloriaeth barhaol, yn gyssylltiedig â rheithoriaeth Llanfachreth, yn esgobaeth Bangor. Mae yr eglwys wedi ei chyssegru i Sant Enghenel, wyr Brochwel Ysgythrog; cyfodwyd yr eglwys gyntaf ar yr un lanerch, yn y seithfed ganrif.

**LLANYNYS**, plwyf yn nosbarth Buallt, BRYCHEINIOG; ar yr afon Irfon, dair milldir i'r gorllewin wrth ddc o orsaf rheilffordd Buallt. Erwau, 2250. Gwerth ardrethol, 952*p.* Poblogaeth, 152. Tai, 27. Y fywioliaeth eglwysig, gwerth 101*p.*, sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawdd yr Esgob. Elusenau, 10*p.*

**LLANYNYS**, plwyf yn nosbarth Rhuthyn, swydd DDINBYCH; ar yr afon Clwyd, yn ymyl gorsaf Rhewl, ar reilffordd Corwen, bedair milldir i'r gogleddwrth-orllewin o Ruthyn. Yn y plwyf hwn y mae trefgyrdd Trefechan, Rhydonen, Maesmancymro, Bryncaredig, Bachymbyd, ac Esceibon. Erwau, 4921. Eiddo trethadwy, 6588*p.* Poblogaeth, 723. Tai, 146. Bachymbyd, a Rhydycilgwyn ydynt balasdai perthynol i Arglwydd Bagot, a Syr W. W. Wynn ydyw perchenog Plasyward. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn gydiol âg isberigloriaeth barhaol Gyffylliog, yn esgobaeth Llanelwy. Ei gwerth yw 415*p.* a phersondy, ac Esgob Llanelwy a fedd y nawddogaeth. Adnewyddwyd yr eglwys yn 1862.

**LLANYRE**, neu LLANHIR, plwyf a phentref yn nghantref a dosbarth Rhaiadr, swydd FAESYFED. Saif y pentref ar y ffordd Rufeinig o Gaerfagu i Fuallt, rhwng yr afonydd Ithon ac Wy, chwe milldir a haner i'r de-ddwyrain o orsaf rheilffordd Rhaiadr. Mae y plwyf yn mesur pum milldir o hyd, a dwy a haner o led, ac yn cynwys 5901, y rhan fwyaf wedi eu hamgau a'u diwyllio. Gwerth ardrethol, 2785*p.* Poblogaeth, 744. Tai, 141. Mae y plwyf wedi ei ranu i drefgyrdd Cilgee, a Thrawscoed. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn gydiol â ficeriaeth Llanfihangel-Helygen, yn esgobaeth Tyddewi.

**LLANYSTUMDWY**, pentref a phlwyf yn nghantref Eifionydd, dosbarth Pwllheli, swydd GAERNARFON. Saif y pentref ar yr afon Dwy, gerllaw glan y mor, ddwy filldir i'r gorllewin-ogleddorllewin o orsaf rheilffordd Criccieth, ac wyth milldir i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Bwllheli. Mae y plwyf yn cynwys 6522 o erwau o dir, a 258 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 4956*p.* Poblogaeth, 1126. Tai, 236. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 485*p.* a phersondy, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1863, ac y mae yma amryw addoldai Ymneillduol. Sefydlwyd Ysgol Wladwriaethol yn 1819, er cyfranu addysg rad i blant tlodion, ac adeiladwyd ysgoldy, gydag arian oedd wedi ymgrynhoi oddiwrth y berigloriaeth, yn ystod tymor Dr. Hughes. Yn 1690, gadawodd y Parch. John Jones gymunrodd o 50*p.* gyda gorchymyn fod i'r llog gael ei ranu yn flyneddol rhwng deg o'r tlodion oedd heb fod yn derbyn cymorth plwyfol; testamentodd Margaret Wynne 50*p.* er cynorthwyo hen wragedd methiantus; ond collwyd y swm hwn trwy fethdaliad y personau oedd wedi benthyca yr arian ar log; ac yn 1720, gadawodd Thomas Pritchard gymunrodd o ddeg punt i'r tlodion. Ychwanegir at brydferthwch golygfeydd naturiol y plwyf hwn gan amryw balasdai, a'r mwyaf dyddorol o honynt ond odid, ydyw y Plas Hen, yr hwn a berthyn i'r Mostyniaid. Perthynai yn ystod teyrnasiad y Brenin Ioan i Syr Hywel y Fwyall, milwr enwog, ag y priodolir iddo yr orchest o gymeryd brenin Ffraingc yn garcharor yn mrwydr Poictiers.

**LLANYWARED**, trefgordd yn mhlwyf Llangurig, swydd DREFALDWYN; 3¼ milldir i'r de o orsaf rheilffordd Llanidloes. Gwerth ardrethol, 2455*p.* Poblogaeth, 355.

**LLARY** AB CASNAR WLEDIG, un o ryfelwyr Arthur.

**LLARY** AB ERYF, yr hwn hefyd a elwir Llawr ab Eidrif, Llawr ab Eirif, a Llawr ab Erw, ydoedd lywydd un o'r tair "Llynges cyniwair;" y ddau eraill oeddynt Dignif a Dolor. *Myf. Arch.* ii. 8, 10, 70.

**LLAWDDEN**, o Ynys Eiddin, yn y Gogledd, un o seintiau Ynys Prydain.

**LLAWDDEN**, IEUAN, bardd, yn ei flodau o tua 1440 i 1480. Ganwyd ef yn nyffryn Llwchwr, swydd GAERFYRDDIN, treuliodd ran o'i oes yn weinidog Machynllaeth, claddwyd ef yn Llandeilo-Talybont. Cyfansoddwyd marwnad iddo gan Iorwerth Fynglwyd, yr hon, yn nghyda chyfieithad o honi, a geir yn yr *Iolo MSS.* 317, 696.

**LLAWFRODEDD FARCHOG** neu FARFAWG, pendefig urddasol yn nechreu y 6ed ganrif, yr hwn a elwir yn un o'r tri "Buelydd Gosgordd Ynys Prydain." Diadell Nudd Hael ab Senyllt a gadwai efe, yn yr hon yr oedd un fil ar hugain o wartheg blithion. Mewn *Triad* arall, dywedir mai enw ei fuwch ef oedd Cornillo, a'i bod yn un o dair brif-fuwch Ynys Prydain. Yr oedd ei gyllell hefyd yn un o'r triarddeg Brein-Dlysau, a'i chyneddf ydoedd, y gallai dori bwyd i bedwar gwr ar hugain ar unwaith.—*Myf. Arch.* ii. 22, 70; Jones's *Bard. Mus.* tud. 49.

**LLAWGAD TRWM FARGOD**, un o dri ffyrnig-wyr Ynys Prydain, y rhai a gyflawnasant y tair "anfad gyflafan." Y ddau eraill oeddynt Llofan, ac Eiddyn. Y gyflafan a gyflawnodd Llawgad, oedd lladd Afaon mab Taliesin.—*Myf. Arch.* ii. 9, 13, 65.

Digitized by Google

**LLAWHADEN**, pentref a phlwyf yn nosbarth Narberth, swydd BENFRO. Saif y pentref ar fryn yn ymyl yr afon Cleddau, dair milldir i'r gogledd-orllewin o Narberth, a thair milldir a haner i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd *Narberth-road*. Cynhelir ffeiriau yno ar y 29ain o Hydref a'r 22ain o Dachwedd. Mae y plwyf yn cynwys 4490 o erwau. Gwerth ardrethol, 3803*p*. Poblogaeth, 647. Tai, 131. Yr oedd palasdy castellog Esgobion Tyddewi yn sefyll yn ymyl y pentref; difrodwyd ef gan yr Esgob Barlow; a chynrychiolir ef yn bresenol gan nifer o dyrau wythonglog, ffenestri cywrain, a phorth prydferth, gyda bwa gron fawr, a thŵr cryf bob ochr. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn gydiol âg isberigloriaeth Bletherston, yn esgobaeth Tyddewi. Ei gwerth yw 170*p*. a phersondy, ac Esgob Tyddewi yw y noddwr. Mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Sant Aidan, mewn cyflwr da, ac yn cynwys colofn er cof am yr Esgob Houghton, o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

**LLAW-LECH**, trum o fryniau yn ngorllewinbarth Meirionydd, bedair milldir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o'r Abermaw.

**LLAWR**, un o feibion Llywarch Hen, am yr hwn y galara ei dad:—

"Ni'm dygred na hun na hoen
Gwedy y lleas Llawr a Gwen
Wyf anwar abar wyf hen."

**LLAWR-Y-BETTWS**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanfawr, MEIRIONYDD; ddwy filldir i'r gogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd y Bala. Yn 1865 y cafodd ei ffurfio fel y cyfryw, ac y mae yn cynwys poblogaeth o 410. Y fywioliaeth sydd isberigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, yn werth 118*p*., ac yn nawdd yr Esgob. Adeiladwyd yr eglwys yn 1864 yn yr arddull Seisnig boreuol, a chostiodd 1800*p*.

**LLAWR-Y-DREF**, degymiaeth yn mhlwyf Aberffraw, Mon.

**LLAY**, a ysgrifenir weithiau LLAI, trefgordd yn mhlwyf *Gresford*, swydd DDINBYCH, ger Clawdd Offa, a'r afon Alun; 4¼ milldir i'r gogledd o Wrecsham. Cynnwysa o erwau, 2167. Gwerth ardrethol, 4084*p*. Poblogaeth, 489. Tai annedd, 103.

**LLECH**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr-yn-Nghimmerch, swydd DDINBYCH; bedair milldir a chwarter i'r gogledd-orllewin o Ruthyn, gyda phoblogaeth o 149. Perthyn y faenoriaeth i Esgob Bangor.

**LLECH** (Y). Afonig fechan yn swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU. Tardda mewn mynydd-dir anffrwythlon, tua thair milldir i'r gorllewin o Ystradfellte, a rhed i gyfeiriad de-orllewin, nes ymarllwys i afon Tawy, ger y *Lamb and Flag*, ychydig filldiroedd i'r gogledd o Ystradgynlais. Ar ei thaith, pasia y Llech heibio Capel Coelbren, yr hwn sydd Gapel Eglwysig mewn ardal fynyddig; ac yn y fan hono, ffurfia y Llech raiadr trystfawr, trwy neidio dros graig, can troedfedd o ddyfnder, fel y gellir pasio heb wlychu rhwng y graig a'r afon.

Naid y Llech i wneyd ei llam,—trwy hedfan
Can Troedfedd ar garlam;
A dyhidliad ei hadlam
Yn y gwynt fel bwa'n gam.—*D. Morganwg.*

**LLECHAN**, trefgordd yn mhlwyf Gyffin, swydd GAERNARFON; gerllaw Conwy, gyda phoblogaeth o 146.

**LLECHAU**, mab Arthur, un o dri "deifnogion" neu wyddonwyr Ynys Prydain. Y ddau eraill oeddynt Rhiwallon, a Gwalchmai. Lladdwyd Llechau yn mrwydr Llongborth.

**LLECHAU**, sant, un o feibion Brychan Brycheiniog, a sylfaenydd Llanllechau, yn Ewyas, swydd Henffordd. Dywedir iddo fod yn trigianu am ryw hyd yn Nhregaian, Mon.

**LLECHCYNFARWY**, plwyf yn nosbarth a swydd MON; dair milldir a chwarter i'r de-orllewin o Lanerchymedd, yn cynwys 1964 o erwau, 366 o drigolion, a 78 o dai. Gwerth ardrethol y plwyf ydyw 1524*p*. Y fywioliaeth sydd isberigloriaeth barhaol, yn gydiol â rheithoriaeth Llantrisaint, yn esgobaeth Bangor. Mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Sant Cynfarwy, yn sefyll ar yr un llanerch a'r eglwys a godwyd yn 650; y mae ar ffurf croes, ac mewn cyflwr lled dda. Mewn cae yn ymyl y fynwent, y mae maen, a elwir Maen Llechgwenfarwydd, uwchlaw naw troedfedd o uchder, ac yn dwyn arwyddion o henafiaeth mawr. Elusenau, 26*p*.

**LLECHFAEN**, neu LLECHFAN, treflan yn ffurfio y rhan uchaf o blwyf Llanhamllech, cantref Pencelli, swydd FRYCHEINIOG; ar yr afon Wysg, gerllaw y ffordd Rufeinig a elwid *Via Julia Montana*, dair milldir a chwarter i'r de-ddwyrain o Aberhonddu, gyda phoblogaeth o 113.

**LLECHFRAITH**, a LLECHGRON, dwy dreflan yn mhlwyf Llanegwad, swydd GAERFYRDDIN; saith milldir a haner i'r dwyrain o Gaerfyrddin. Gwerth ardrethol Llechfraith gyda Miros, 1553*p*.; gwerth ardrethol Llechgron, 1428*p*. Poblogaeth y ddwy dreflan, 204 a 254.

**LLECHID**, santes, yn nechreu y 6ed ganrif, ydoedd ferch i Ithel Hael, a sylfaenydd Llanllechid yn Arfon. Coffheid hi Rhagfyr 2.

**LLECH LLAWYNIOG**, neu LLWCH LLAWYNIOG, un o wroniaid y Mabinogion.

**LLECH MAWR**, treflan yn mhlwyf Llanilltyd Fawr, swydd FORGANWG; DEHEUDIR CYMRU; 4¼ milldir i'r de dde orllewin o Bontfôn.

**LLECHRYD**, pentref a phlwyf, yn Undeb a swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd ar lan yr afon Teifi, gerllaw y ffin a swydd Benfro; 3 milldir i'r de ddwyrain o dref Aberteifi. Y mae yn llanerch dra difyrus, ac yn gyrchfa lluaws o bysgodwyr. Mesura y plwyf 943 o erwau o dir, a chyfrifir ei werth ardrethol, yn nghyda Llangoedmor, yn 5050*p*. Poblogaeth, 454. Tai annedd, 112. Y mae yr holl blwyf yn rhanedig rhwng ychydig o dir-feddiannwyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 109*p*. Y mae yn nawddogaeth T. Lloyd, Ysw., a C. R. Longcroft, Ysw., ar yn ail. Adeiladwyd addoldy Henaduriaethol yma gan Wade, un o swyddogion Olifer Cromwell. Y mae rhai Haneswyr o'r farn, i frwydr dra gwaedlyd gael ei hymladd o fewn terfynau y plwyf hwn, rhwng Rhys ab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth, a thri mab Bleddyn ab Cynfyn, y rhai mewn gwrthryfel blaenorol, a yrasent y tywysog hwnw i ymnoddi yn yr Iwerddon. Yn y flwyddyn 1087, dychwelai Rhys oddiyno, a chanddo fyddin gref dan ei lywyddiaeth, gan fwriadu ail feddiannu ei diriogaethau; ac wedi glanio o hono ar yr arfordir cyfagos, efe a gyfarfuwyd mewn lle a elwir Llechryd, gan feibion Bleddyn, y rhai a benderfynent ei orfodi i ymladd brwydr, cyn i'w fyddin

Digitized by Google

gael ei chryfhau trwy ymuniad ei gefnogwyr Cymreig dan ei luman; a brwydr galed iawn a ymladdwyd yma, yn yr hon y llwyr orchfygwyd meibion Bleddyn, a chafodd dau o honynt eu lladd ar y maes. Gwedda i ni gydnabod, fod rhai haneswyr o'r farn, mai mewn lle o'r enw Llechryd, yn swydd Faesyfed, yr ymladdwyd y frwydr grybwylledig; ond, y mae amryw amgylchiadau yn ymddangos yn fwy ffafrawl i'r dyb gyntaf uchod; ac yn mysg pethau eraill, fod Llechryd yn Ngheredigion, yn gymhwys yn ffordd y tywysog Rhŷs, trwy ei diriogaethau ei hun, lle y gallasai ddysgwyl adgyfnerthiad i'w fyddin, yn ei fynediad tuag at eisteddle ei lywodraeth, yn Ninefwr, neu Gaerfyrddin. Y mae amryw leoedd yn y plwyf hwn yn dwyn arnynt enwau hanesyddol, megys Castell Maelgwyn, a elwir felly efallai, oddiwrth Maelgwyn Fychan;—Gwern Ynad, Tre Windsor, a Neuadd Gwilym, Llech y Gawres, a Llwyn y Grawys, neu yn fwy tebyg, Llwyn y Gawres; ac y mae lle o'r enw Cilfowyr, neu yn fwy priodol, fe ddichon, "Cil Ofwyr," yn agos i Gastell Maelgwyn.

Wrth arloesi tir rai blynyddau yn ol, deuwyd ar draws amryw feddau, a math o ffôs fawr, lle y claddasid swrn o laddedigion, ar ol rhyw frwydr waedlyd debygid, efallai y frwydr a grybwyllwyd uchod, rhwng Rhys ab Tewdwr â meibion Bleddyn ab Cynfyn.

**LLECHRYD TY CELYN**, trefgordd yn mhlwyf Llannefydd, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 5½ milldir i'r gogledd orllewin o dref Dinbach.

**LLECHWEDD ISAF**, neu ARLLECHWEDD ISAF, rhanbarth yn Undeb Conwy, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU. Cynnwysa blwyfi Caerhun, Llangelynin, a Llanbedr y Cenin.

**LLECHWEDDOR**, treflan yn mhlwyf Llanwrtyd, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU; ar lan yr afon Irfon, 12 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfair yn Muallt. Cynnwysa bentref Pont rhyd-y-fen. Gwerth ardrethol, 1238*p*. Poblogaeth, 320. Tai annedd, 60.

**LLECHWYDD**, a elwir hefyd LECKWITH, plwyf yn Undeb Caerdydd, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; ar lan yr afon Ely, 2 filldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Caerdydd. Llythyrfa, Caerdydd. Mesura o erwau, 1302. Gwerth ardrethol, 1221*p*. Poblogaeth, 133. Tai annedd, 30. Ychydig yw nifer y tir-feddianwyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, unedig a pherigloriaethau Llandoch, a Chogan, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 182*p*. Noddwr, Ardalydd Bute.

**LLECHYLCHED**, plwyf, a phentref, yn swydd FON, GOGLEDD CYMRU; yn agos i gledr-ffordd Caer a Chaergybi; 3 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o orsaf y Faelwy, a 4¼ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o'r Aberffraw. Llythyrfa, y Gwyndy, dan Langefni, Môn. Erwau, 1783. Gwerth ardrethol, 1719*p*. Poblogaeth, 635. Tai annedd, 144. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, gydiedig a pherigloriaeth Llanbeulan, yn esgobaeth Bangor.

**LLEDR**, neu LLEDOER, afonig yn swydd GAER YN ARFON, yr hon sydd yn cyfodi yn ystlysau Moel Ledr, a'r Arddu, ysgwyddau Moel Siabod, ac yn llifeirio yn ddwyreiniol am tuag 8 milldir, heibio i Ddolwyddelen, i'r afon Conwy. Fe'i croesir ger Dolwyddelen, gan Sarn ffordd Helen; yr hen ffordd Rufeinaidd.

**LLEDROD**, neu LLETHR Y TROED (ISAF ac UCHAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Lledrod, cantref ILAR, swydd ABERTEIFI; ar lan yr afon Wyrfai; 6¼ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Dregaron. Gwerth ardrethol Lledrod Isaf, 1822*p*. Poblogaeth, 588. Tai annedd, 134. Gwerth ardrethol Lledrod Uchaf, 1664*p*. Poblogaeth, 537. Tai annedd, 105.

**LLEDROD**, trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 4¼ milldir i'r dwyrain o Lanfyllin. Poblogaeth, 60.

**LLEDROD**, trefgordd yn mhlwyf Llansilin, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 7½ milldir i'r de orllewin o'r Waun. Gwerth ardrethol, yn nghyd a'r Rhiwlas, 3662*p*. Poblogaeth, 299.

**LLEFOED WYNEBGLAWR**, bardd a flodeuai o 900 i 940. Mae darn o'i waith o'r enw *Gossymdeith, or the Journey of Life*, yn y gyfrol gyntaf o'r *Myf. Arch.*

**LLEIAN**, santes, yn y 5ed ganrif, ydoedd ferch, neu wyres, i Brychan Brycheiniog, gwraig Gafran ab Dyfnwal Hen, a mam Aeddan Fradawg, yr hwn wedi ei orchfygu yn mrwydr Arderydd a ffodd i Ynys Manaw, a dilynwyd ef gan ei fam. Tybir bod Capel Llanlleian, swydd Gaerfyrddin, ar ei henw. Yn ol cyfrif arall, Gafran oedd fab i Aeddan Fradawg.—*Myf. Arch.* ii. 59, 70.

**LLELA**, MORUS, bardd yn ei flodau o 1550 i 1600.

**LLEMENIG** AB LLAWEN, yr hwn hefyd a elwir Llwminig a Llwmhunig ab Mahawen, ydoedd benaeth yn y 6ed ganrif; ac efe oedd un o'r tri "trwyddedawg hanfodawg" llys Arthur. Y ddau eraill oeddynt Llywarch Hen, a Heiddin Hir.—*Myf. Arch.* ii. 16, 17, 73.

**LLEMINOD ANGEL**, sant, yn niwedd y 6ed ganrif, ydoedd fab Pasgen ab Urien Rheged.

**LLEON GAWR**, yn ol rhai *Brutiau Cymreig*, ydoedd fab Brutus Darian Las, a brenin Prydain: ac efe a adeiladodd Gaerlleon ar Ddyfrdwy, ar yr un pryd ag yr adeiladid Jerusalem. Ond yn ol *Brut* G. ab Arthur, mab ac olynydd Brutus Darian las oedd Leil, yr hwn a adeiladodd Gaerleil (Carlisle). *Geoff.'s British Hist.* (Bohn's), tud. 113.

**LLETHRGELE**, trefgordd yn mhlwyf Llanegwad, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU; 7½ milldir i'r dwyrain o dref Aberteifi. Poblogaeth, 210.

**LLETTY GYNFARCH**, trefgordd yn mhlwyf Forden, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r gogledd o Drefaldwyn. Poblogaeth, 11.

**LLEUDDAD**, yr hwn hefyd a elwir Llawddog, sant, yn y 7fed ganrif, ydoedd fab i Dingad ab Nudd Hael, o Trefrian, neu Tonwy, ferch Llewddyn Lüyddog o Ddinas Eiddyn. Symudodd gyda'i frodyr Baglan, Gwytherin, Tygwy, Tyfriog, a'i chwaer Eleri, o goleg Cattwg i goleg Enlli; ac yno y terfynodd ei oes. Efe a sylfaenodd eglwysi Llanllawddog, Cenarth, a Penboyr, yn swydd Gaerfyrddin; a Chilgeran, yn swydd Benfro. Coffheid ef Ionawr 15.

**LLEUDDAD LLYDAW**, sant, yn nechreu y 6ed ganrif, ydoedd fab i Alan ab Emyr Llydaw, ac aelod o goleg Illtyd. Ar farwolaeth Cadfan, penodwyd ef yn abad Enlli; o ba herwydd gelwid ef yn esgob, ac ystyrid ef yn un o angelion gwarcheidiol yr Ynys. Mae llawer o leoedd yn Lleyn, yn dwyn ei enw hyd heddyw; megys Gardd Lleuddad, yn Ynys Enlli; Ogof Lleuddad, yn Aberdaron; a Ffynon Lleuddad, yn mhlwyf Bryncroes. Cofnodir un o'i ddywediadau yn "Chwedlau y Doethion."

Digitized by Google

"A glywaist ti chwedl Lleuddad,
Er athraw, gwr anynad;—
'Digared pob di gariad.'"—*Iolo MSS.* 258.

**LLEURWG**, neu LLES AB COEL AB CYLLIN, yr hwn hefyd a elwir Lleufer Mawr, a chan estroniaid, *Lucius*, yw un o'r rhai anhawddaf i ffurfio barn arno o'r holl gymeriadau Prydeinig. Yn ol y chwedl, yr hon a adroddwyd gyntaf gan Bede, "yn o.c. 156, y gwnaed Marcus Antonius Verus, a'i frawd Aurelius Commodus yn gyd ymerawdwyr Rhufain. Yn eu hamser hwy, pan oedd Eleutherus, dyn sanctaidd, yn llywyddu eglwys Rhufain, anfonodd Lucius, brenin y Prydeiniaid, lythyr ato, i ofyn iddo am roddi gorchymyn am ei wneyd ef yn Gristion. Efe a dderbyniodd ei ddymuniad duwiol yn fuan, a chadwodd y Prydeiniaid y ffydd, yr hon a dderbyniasant, yn ddilwgr a chyfan, mewn heddwch a llonyddwch hyd amser yr Ymerawdwr Diocletian."—*Bede's Eccles. Hist.* b. i. ch. iv.

Y nesaf a adrodda y chwedl, yw Marc y Meudwy, golygydd, neu helaethydd Nennius, yn nechreu y 9fed ganrif, gyda'r gwahaniaeth hwn:—"Yn oed Crist 167, y brenin Lucius, yn nghyd a holl benaethiaid y bobl Frytanaidd, a dderbyniasant fedydd, mewn canlyniad i genadwri a anfonwyd gan *ymerawdwyr Rhufain*, a'r pab *Evaristus*."—*Nen.'s Hist.* § 22.

Y nesaf sydd yn adrodd y chwedl, yw "Llyfr Llandaf" yr hwn a ysgrifenwyd gan Galfrid, erbyn Cynadledd Rheims, yn 1119; ac yn ol hwn, "yn o.c. 156, Lucius, brenin Prydain, a anfonodd ei genadon, Elfan a Medwy, at Eleutherus, i ddymuno cael ei wneyd yn Gristion. Derbyniodd Eleutherus y cenadon yn llawen, a gorchymynodd eu bedyddio; ac ar eu gwaith yn cofleidio y ffydd Gatholic, ordeiniwyd Elfan yn Esgob, a Medwy yn Ddoctor. Wedi derbyn gwybodaeth yn yr Ysgrythyrau, dychwelasant yn bregethwyr at Lucius i Brydain, a thrwy eu gweinidogaeth sanctaidd hwy y derbyniodd Lucius, a holl bendefigion Prydain, fedydd."—*Llyfr Llandaf*, tud. 309. Dyna y chwedl yn ol y tri argraffiad henaf sydd genym o honi; ac mae yn anhawdd gwybod a oes rhyw rith o wirionedd ynddi, a'i nad oes. Pe cymwysem feirniadaeth ati, ymddangosai ar unwaith yn gruglwyth o wrth-ddywediadau, ac annghysonderau. Er engraifft, mae yr holl neillduolion yn adroddiad Bede yn wallus. Antonius Pius, oedd yn teyrnasu yn Rhufain yn o.c. 156, ac nid Marcus Antonius Verus, a'i frawd, Aurelius Commodus. Yn o.c. 161, y gwnaed Marcus Antonius Verus yn ymerawdwr; ac ni bu efe a'i frawd erioed yn cyd deyrnasu. Heblaw hyny, mae enw a dyddiad esgob Rhufain yn annghywir. Ni etholwyd Eleutherus yn esgob Rhufain, hyd o.c. 172, neu yn ol rhai awdurdodau, hyd 177, neu 185.

Y mae adroddiad Marc y Meudwy yn cael ei andwyo gan dri chyfeiliornad. Gosoda y pab Evarestus i fyw hyd o.c. 167, tra mae pob sicrwydd ei fod wedi marw yn o.c. 109. Yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Trajan, sef yn o.c. 101, y daeth i'w swydd, ac wyth mlynedd y parhaodd ynddi.—*Euseb.* b. iii. ch. xxxiv.; b. iv. ch. i.

Hefyd, nid oedd ymherawdwyr Rhufain yn yr ail ganrif yn pleidio Cristionogaeth, a llawer llai y cydweithredent mewn dim â'r rhai a alwent eu hunain yn esgobion Rhufain.

Y mae adroddiad "Llyfr Llandaf" yr un peth a'r eiddo Bede, ond yn unig ei fod yn nodi ac yn enwi y cenadon a anfonodd y brenin at y pab Eleutherus, ac yn nodi mai ar orchymyn St. Eleutherus, y pab, y sefydlwyd urdd eglwysig, ac yr ordeiniwyd esgobion, yn Mrydain. Mae hyny yn cyfleu y syniad nad oedd un eglwys Gristionogol yn Mrydain yn flaenorol i hyny; ac ymddengys i ni mai dyna amcan yr ychwanegiad, ac yn wir, amcan yr holl chwedl. Canys nid yw yn ymddangos i ni yn ddim amgen na chwedl babyddol, wedi ei dyfeisio gan y mynachod, er ceisio profi eu hoff bwnc—dibyniaeth yr Eglwys Brydeinig ar Eglwys Rhufain. Oblegyd fel y nodwyd eisioes, Bede, mynach o Jarrow, yr hwn ar ddymuniad Coelwulf, a ysgrifenodd ei Hanesiaeth Eglwysig yn nechreu yr 8fed ganrif, yw yr henaf oll sydd yn crybwyll am y peth. Yna, mae yn canlyn, o ba le y cafodd Bede yr hysbysiaeth? Oblegyd ar helyntion y Prydeiniaid, y mae Bede yn proffesu dilyn ysgrifenwyr eraill, ac mewn llawer o engreifftiau y mae yn dilyn Gildas yn gywir. Ond ar ddyfodiad Cristionogaeth i Brydain, y mae yn myned heibio yr hyn a ddywed Gildas yn ddi sylw, ac yn ysgrifenu y chwedl uchod am y "brenin Lucius" a'r pab Eleutherus, yr hyn, os yn wirionedd, oedd yn rhwym o fod yn hysbys i Gildas, ac yn ffaith anrhaethol rhy bwysig i unrhyw hanesydd ei gadael allan o hanesiaeth y genedl.

Hefyd, y mae yr ymdrech a ddangosodd y mynachod mewn gwahanol oesoedd, i chwyddo ac addurno y chwedl, yn myned yn lled bell i brofi ei tharddiad. Gan y rhai hyn yr ydym yn cael y pab Eleutherus yn anfon dau ddoctor crefyddol, Dyfan a Ffagan, at y brenin Lucius, yn nghyda llythyr maith, yr hwn sydd yn darllen yn dra hyawdl, ac yn proffesu bod yr ysgrif gyntaf erioed a anfonwyd o Rufain i'r Ynys hon. Yna cawn Dyfan a Ffagan yn argyhoeddi holl *fflameniaid* ac *arch-fflameniaid* yr Ynys o'u heilunaddoliaeth, ac yn eu hordeinio yn *esgobion* ac *archesgobion*, heb gofio (neu heb wybod) mai ar ol cyngorfa Nice, yn 325, y daeth y teitl o archesgob i fodolaeth. Wedi hyny, arweinir hwynt i gymeryd meddiant o Eglwys Afallon, ac i gysegru eglwys Caerwynt, i'r hon meddant, y rhoddodd Lucius holl diroedd a breintiau y fflameniaid; ond dywed y *Trioedd*, mai i Llandaf y rhoddodd efe y rhai hyny, a'r Iolo MSS., ei fod ef ei hun "yn esgob yno, yn dysgu cred a bedydd." Gwna eraill i Lucius ei hun gysegru eglwys St. Pedr, yn Westminster, eglwys Castell Dover, eglwys St. Martin yn Caergaint, ac eglwys St. Pedr yn Cornhill, a'u gwaddoli oll â thiroedd lawer; ac yn y diwedd, adael ei deyrnas, a myned ar daith genadol trwy Ffrainc, a'r Almaen, lle y terfynodd ei ddyddiau am goron merthyrdod.

Heblaw hyny, nid oes un math o brawf hanesyddol bod y fath frenin a Lleurwg, neu Lucius, erioed wedi bodoli. Dengys cyflwr yr Ynys o dan lywodraeth y Rhufeiniaid, nas gallasai fodoli fel "brenin Prydain," nac ychwaith fel "brenin" ar un rhan o Brydain. Sieffre o Fynwy oedd y cyntaf a roddodd achau iddo, ac efe a'i gwna yn fab Coel ab Meyryc, ab Gweirydd, ab Cynfelyn, ab Teneufan, ab Lludd, &c., ond y *Trioedd* ac "Achau y Saint," a'i gwnant ef yn fab Coel ab Cyllin, ab Caradog, ab Bran, ab Llyr Llediaith, &c. Er fod Lles ab Coel yn un o seintiau eglwys Rhufain, a'i wyl fedydd yn cael ei chadw Mai 26ain, a'i ferthyrdod Rhagfyr 3ydd, eto nid yw ei enw yn cael ei grybwyll yn un o'r ddwy hen ysgrif o Achau y Seintiau Cymreig, sydd yn yr

Digitized by Google

Amgueddfa Brydeinig;[1] ac nid oes grybwylliad am ei enw yn y Gofrestr Gyntaf (*Catalogus Primus*) o'r pabau, yr hon sydd yn terfynu yn o.c. 353; tra mae yr Ail Gofrestr (*Catalogum Secundum*), yr hon sydd yn estyn yn mlaen hyd o.c. 530, yn crybwyll i Eleutherus "dderbyn llythyr oddiwrth Lucius, brenin Prydain, yn gofyn iddo ei wneyd yn Gristion trwy ei orchymyn." Y mae dystawrwydd y *Catalogus Primus* ar beth mor bwysig a bedydd brenin Prydain, yr hwn, fel y dywedir, oedd y brenin cyntaf erioed a broffesodd Gristionogaeth, ac yn yr hwn y cyflawnwyd gyntaf y brophwydoliaeth hono i'r eglwys—"breninoedd fyddant dy dadmaethod," &c., yn awgrymu bod y peth yn anhysbys, hyd yn oed yn Rhufain, yn haner olaf y 4edd ganrif; tra mae y ffaith bod crybwylliad am ei fedydd yn y *Catalogum Secundum*, yr hon a ysgrifenwyd yn nechreu y 6ed ganrif, yn myned yn mhell i brofi dyddiad ac amcan y chwedl.

Ymddengys bod yr haneswyr mwyaf goleuedig, yn ngwyneb y ffeithiau uchod, a'u cyffelyb, yn barod i roddi Lles ab Coel i fyny, fel ffug-fod o greadigaeth y Pabyddion, oni buasai bod eglwysi yn Ngwent yn gysegredig iddo ef, a Dyfan, Ffagan, Medwy, ac Elfan. Ond y mae hyn eto i'w gadw mewn cof yn ngwyneb y ffaith hono. I Mair y Forwyn, a Mihangel, (Michael yr Archangel) y mae y nifer luosocaf o lawer o eglwysi Cymry yn gysegredig. Y mae cant a thair a deugain ar enw Mair, a phedwar ugain a phedair ar ddeg ar enw Mihangel. Ond gan na feddylir cymeryd hyny yn brawf bod y naill na'r llall o'r cyfryw bersonau wedi bod erioed yn llafurio yn Mrydain, y mae hyn, ar unwaith yn cwbl ddinystrio y ddameaniaeth boblogaidd bod enwau llanau ac eglwysdai, i gael eu hystyried yn gofgolofnau o'r personau ag y maent wedi eu cysegru iddynt. Heblaw hyny, nid yw y llanau sydd yn gysegredig i'r personau a enwir uchod, yn honi eu bod yn perthyn i'r dosbarth mwyaf henafol o lanau Cymry, ond fel y sylwodd awdwr galluog yr *Essay on the Welsh Saints*, adeiladwyd hwynt mewn oes ddiweddarach, er coffadwriaeth am y personau y dywedai traddodiad iddynt fod yn llafurio yn y parthau hyny. Felly, gan fod pob tebygoliaethau yn profi na fu erioed y brenin Prydeinig a elwir Lleurwg, Lles ab Coel, Lleufer Mawr, a Lucius, ond yn nychymyg y Pabyddion, yr ydym yn hollol ddibetrus, yn ei draddodi ef a'i osgordd, i Eglwys Rhufain, o ba le hefyd y daethant oll yn y dechreuad.—Gwel *Rees' Welsh Saints; Stillingfleet's Orig. Brit.; Hill's Eng. Monasticism; Bohn's Bede's, and Six English Chronicles; Cressy's Ch. Hist.*

**LLEW** ab Cynfarch, penaeth ar y Brytaniaid Gogleddol, yn y 6ed ganrif. Brodyr iddo oedd Urien, ac Afon; yr oedd yn briod ag Anna, ferch Uthyr; ac yn ystod afiechyd ei dad yn nghyfraith, efe a arweiniodd luoedd y teyrn hwnw yn erbyn y Sacsoniaid; ond gorchfygwyd ef yn fynych, gan fod ei gydwladwyr yn ei ystyried yn annghymwys i'w llywyddu, ac yn anufuddhau iddo. Ond yn "Englynion y Gorugau" gelwir ef yn fardd, a dywedir mai efe a ddyfeisiodd groen gyntaf at ysgrifenu.—*Iolo MSS.* 264.

**LLEWAI**, ferch Seithwedd Saidi, a elwir yn un o'r "tair gwrforwynion"—gwronesau Ynys Prydain. Y ddwy arall oedd Rhore ferch Usber, a Mederai Badellfawr.—*Myf. Arch.* ii. 12, 15.

[1] Harl. MSS. 4181.

**LLEWELYN**, Thomas, o Glyn Eithinog, Rhigos, neu Regoes, plwyf Ystrad-dyfodog, Morganwg, ydoedd un o'r cymeriadau mwyaf gwerthfawr yn Nghymru, yn yr 16eg ganrif; ac un y dymunem wybod llawer rhagor am dano nag â gynwysa y crybwyllion gwasgaredig a lithrasant i lawr atom ni. Dywed traddodiad, ei fod yn uchelwr, ac yn un o'r Lolardiaid; a bod y Dr. Thomas Llewelyn, awdwr y *Cofnodau Hanesyddol* am Gyfieithiadau y Bibl Cymraeg, yn un o'i ddisgynyddion. Yn ol y rhestr o Feirdd Gorsedd Morganwg, a gododd Dr. Owain Pughe o Lyfr Sion Bradford, yr oedd Thomas Llewelyn o Regoes, yn ddysgybl barddonol i Meuryg Dafydd, yn 1560; a cheir rhai penillion o'i waith yn egluro y mesurau, yn *Nghyfrinach y Beirdd.* Dyfynwn un, yn engraifft o'i ddawn farddonol:—

"Niwl ydyw balchedd gwagedd o goegiaith,
Y'marn y sobr, a gobr o gau obaith;
Cyd byddo heddyw yn Fyw ag yn faith,
Oer yw'r damwain y fory rhed ymmaith;
Dalla dros awr a'i dwyllodrus araith;
A gwedyn ein gadael pand gwael y gwaith;
Da'i ochel rhag cael dychwaith o'i ffug llwyr
I ddyn Duw a'i gwyr ni fedd synwyr saith.
Thomas Llewelyn o Regoes a'i cant,
[yn gyngor iddei fab Llywelyn Thomas. J. B.]"

Cymaint o'i hanes ag sydd ar gael, yw yr hyn a gasglodd Malkin yn ei *Scenery, Antiquities, and Biography of South Wales*, vol. i. p. 292, a dywedir mai Iolo Morganwg oedd ei hysbysydd. Dywed Malkin, "fod Thomas Llewelyn yn byw mewn ty a elwid Glyn Eithinog, yn amser Edward VI. ac Elizabeth; ei fod yn Brotestant o nodwedd uchel, iddo gael ei drwyddedu i bregethu gan yr archesgob Grindal, ac iddo gyfieithu y Bibl i Gymraeg da, o gyfieithad Saesneg Tyndal, o gylch y flwyddyn 1540; yr hyn oedd dros ddeugain mlynedd cyn i gyfieithiad Dr. Morgan gael ei wneyd. Ei fod yn aml yn myned trwy y gwasanaeth dwyfol mewn tai anedd, yn ogystal ag mewn eglwysi; ac iddo ffurfio llawer o gymdeithasau crefyddol bychain, y rhai oeddynt mewn llawer o bethau yn debyg i'r Methodistiaid diweddar, gan ystyried eu hunain yn aelodau o'r Sefydliad. Drwg dybiwyd y rhai hyn o'r diwedd o fod yn elynol i'r Eglwys, a dyoddefasant radd o erlidigaeth oddiwrth yr archesgob Laud, a'i blaid, yr hyn a barodd iddynt ymneillduo, a mabwysiadu gwahanol enwadau yn eu plith eu hunain. Y rhai oedd yn fedyddwyr babanod, a ymunasant a'r Presbyteriaid; ac eraill a unasant a'r rhai a arferent fedyddio rhai mewn oed. Gelwid y drydedd blaid yn Wrthfedyddwyr; a phan ffurfiodd George Fox ei ddysgyblion yn blaid wahanol, ychwanegwyd eu rhifedi gan y gwrthfedyddwyr Cymreig hyn, y rhai a gyfarfyddent i addoli yn Mynwent y Crynwyr. Ymsefydlodd y Presbyteriaid yn Mlaen Canaid, plwyf Merthyr Tydvil; a'r Bedyddwyr yn Hengoed, yn Gelligaer. Yn yr hanes hwn am Thomas Llewelyn a'i ddysgyblion cywir-galon, medd Malkin, y cawn ddechreuad yr Ymneillduwyr Cymreig. Y mae llythyr mewn ysgrifen yn llyfrgell Thomas Mostyn, yn swydd Fflint, oddiwrth Thomas Llewelyn o Regoes, at Richard Davies, ail esgob Protestanaidd Ty Ddewi, yn ei anog i gyfieithu y Bibl i'r iaith Gymraeg, ac yn rhoddi peth hanes am ei ymgais ei hun. Darfu i'r esgob parchedig, trwy gynorthwy William Salsbri, Ysw., o Lansanan, gyfieithu a

Digitized by Google

chyhoeddi y Testament Newydd. Ni hysbysir i ni ddarfod i Dr. Davies, a Mr. Salsbri wneyd defnydd o gyfieithad Thomas Llewelyn; ond y mae rhesymau cedyrn dros gredu hyny. Os na chamarweinir fi gan fy hysbysydd, y mae Cymraeg eu cyfieithiad mor hollol ac arbenig yn nhafodiaith Morganwg, neu Essyllwg, fel na's gellir llai na rhyfeddu, pa fodd y derbyniodd y fath gymeriad, os na arferwyd ac na ddilynwyd cyfieithiad yr hen fardd yn fanwl iawn."

Dyna sylwedd yr hanes a ddyry Malkin; ond rhaid cyfaddef bod llawer o dywyllwch yn gorwedd arno. Os mai dysgybl barddonol i Meuryg Dafydd oedd Thomas Llewelyn yn 1560, y mae yn anhawdd meddwl ei fod wedi cyfieithu y Bibl o gylch 1540. Nis gallasai Grindal, *fel archesgob*, ei drwyddedu i bregethu cyn 1575; a rhaid ei fod erbyn hyny mewn gwth o oedran. Eto mae cymeriad Grindal y fath, ag y gellid meddwl y buasai iddo drwyddedu dyn o nodwedd Thomas Llewelyn; ond nis gallasai Laud, *fel archesgob*, erlid ei ddysgyblion ef cyn 1633. Nid oes unrhyw wybodaeth am y llythyr y dywedir ei fod yn llyfrgell Syr Thomas Mostyn; ni ddywedir pwy a'i gwelodd, na pha bryd y gwelwyd ef. Ond hyn sydd sicr, oddiar ymchwiliad a wnaeth yr ysgrifenydd yn 1871, na wyr y teulu presenol ddim am y cyfryw lythyr. Eto, mae llawer o debygolrwydd bod yr adroddiad damweiniol uchod yn sylfaenedig ar ffaith, er bod yn anmhosibl ei holrain yn mhen cynnifer o oesau. Yr oedd yn Morganwg ysgrif-lyfr Cymreig o'r Ysgrythyrau, cyn geni awdwyr y cyfieithad argraffedig, (gwel *Eiriadur* Dr. Pughe o dan y gair "Celydd"); ac mae y ffaith bod cymaint o'r Wentwysaeg yn nghyfieithad William Salsbri, a Dr. Davies, yn un na fedrodd neb eto ei hesbonio, ond ar y dybiaeth bod cyfieithiad yr hen fardd Gwentaidd yn adnabyddus i'r Gogleddwyr. Yn ol tystiolaeth Siancyn Defynog, yn yr *Iolo MSS.*, yr oedd Thomas Llewelyn yn gant oed yn y flwyddyn 1590, a thebyg iddo fyw hyd 1615.

**LLEWELYN,** Thomas, LL.D., gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Llundain, ydoedd ddisgynydd, meddir, yn y bedwaredd âch, o'r hen fardd o Regoes. Ganwyd ef yn Mhenalltau-isaf, plwyf Gelligaer, gerllaw Hengoed, swydd Forganwg, tua'r flwyddyn 1720, neu yn ol rhai, yn 1724, neu 5. Tybir y gellir olrhain henafiaid Dr. Llewelyn yn mhlith aelodau eglwys Ilston, mor bell yn ol a 1653. Enwir yno ddau ddyn, Evan Llewelyn, a Llewelyn ab Evan; a thybir mai tad a mab oeddynt; ac mai mab, o'r enw Evan, i'r Llewelyn ab Evan hwnw, ydoedd tad y Dr. Thomas Llewelyn. Yr oedd Evan Llewelyn yn fyw yn Mhenalltau-isaf,—tyddyn bychan gerllaw Hengoed, lle y magodd dŷaid mawr o blant; ac yr oedd ef a'i wraig, yn nghydag amryw o'r plant, yn aelodau yn Hengoed. Claddodd wraig yn mynwent Hengoed, yn 1749, yn 45 oed. Yr oeddynt fel teulu, yn enwog iawn gyda chrefydd. Yr oedd Jenkin, brawd Dr. Llewelyn, a llawer henach nag ef, yn cadw tŷ yn Llanfabon cyn 1710; a buwyd yn pregethu yn ei dŷ ef cyn adeiladu capel Hengoed. Bu farw yn 1775. Yr oedd chwaer iddo yn briod ag un Benjamin Thomas, ac yn byw yn y Casbach; am yr hwn dŷ y dywedai Joshua Thomas yn 1777, "Tŷ annedd ydyw, lle mae yr efengyl wedi cael ei phregethu ys agos, neu lawn 80 mlynedd." Yr oedd rhieni Benjamin Thomas, y rhai oeddynt aelodau yn Llanwenarth, yn byw yn y Casbach o'i flaen ef, ac yn cadw addoliad yn eu tŷ. Bu Benjamin Thomas farw yn 1776 yn "wr oedranus."

Thomas Llewelyn, oedd un o'r plant ieuangaf, os nad yr ieuangaf oll o'r teulu; dygwyd ef i fyny yn deiliwr, ac wrth ddilyn yr alwedigaeth hono, aeth i fyw at ei chwaer i'r Casbach, gan weithio o dŷ i dŷ, am bedair ceiniog yn y dydd—cyflog teiliwr yn yr oes hono.

Cafodd ei fedyddio yn Hengoed tua'r flwyddyn 1738, dechreuodd bregethu yn fuan, a thua 1740 derbyniwyd ef i athrofa Pontypool; canys yn 1741 crybwylla Joshua Thomas, am "y Meistriaid Thomas Llewelyn o Hengoed, Morgan Edwards o Benygarn, Edmund Watkins o'r Blaenau, Jonathan Francis, a Timothy Thomas, o Gastell newydd Emlyn, fel myfyrwyr addawol i'r weinidogaeth."[1] Wedi aros yn Mhontypool am ryw hyd, aeth i Gaerodor, o dan ofal Bernard Fosket, ac oddiyno i Lundain, er perffeithio ei addysg, tan y dysgedigion, John Hubbard, Dr. Walker, Dr. Marryatt, Dr. Jennings, a Dr. Savage. Ar ei fynediad i Lundain, ymaelododd yn eglwys Samuel Wilson, ac ar ol gorphen o hono ei efrydiaeth, cafodd alwad i fod yn weinidog i'r eglwys hono, yr hon a wrthododd, gan ei fod wedi penderfynu peidio bod yn weinidog sefydlog yn un lle, eithr pregethu yn mhob man lle yr oedd angen. Yr oedd wedi priodi boneddiges gyfoethog iawn, drwy yr hyn yr oedd yn gwbl annibynol ar y byd; ac ymddengys, drwy ei holl fywyd, fel pe buasai yn myfyrio, pa fodd y gallai ddefnyddio ei dalentau, ei amser, a'i gyfoeth, i wneyd mwyaf o les i grefydd a chrefyddwyr, er cynnyrchu llwyddiant ar achos y Gwaredwr yn gyffredinol; ond yn neillduol yn mysg y Bedyddwyr, ac yn fwyaf arbenig yn mhlith y Cymry.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ar ol dyfod i'w safle, (ac ystyrid ef yn un o'r rhai dysgedicaf yn mhlith Ymneillduwyr ei oes), oedd sefydlu math o athrofa yn Llundain, er cyfranu addysg rad i wŷr ieuainc o Fedyddwyr a ymgeisient am y weinidogaeth. Tynodd hyn sylw ei frodyr at yr angenrheidrwydd o hyny; a ffurfiwyd Cymdeithas, er anogaeth a chynorthwy i wŷr ieuainc o'r farn hono, i ddysgu ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyrau, a phethau eraill, defnyddiol a dymunol i weinidogaeth y gair; a dewiswyd Thomas Llewelyn i fod yn athraw y sefydliad. Daeth ei enwogrwydd fel dyn dysgedig, ac athraw llwyddianus, yn adnabyddus yn fuan trwy y deyrnas; ac yn hollol ddiarwybod iddo ei hun, anrhegwyd ef gan brif-ysgol Aberdeen, â'r teitl o "M.A.," ac yn fuan ar ol hyny â "LL.D."

Bu y Dr. Llewelyn yn athraw yn yr athrofa yn Llundain, am tua deng mlynedd ar hugain, sef o tua 1746 hyd rywbryd ar ol 1770; a chynnyrchodd ei athrofa wŷr o fri uchel, fel ysgolheigion a phregethwyr, megys Dr. Jones o Hammersmith, a James Newton, M.A., athraw clasurol athrofa Caerodor, yn Nghofiant yr hwn, gan Dr. Caleb Evans, y gelwir y Dr. Thomas Llewelyn, "yn ysgolhaig mwyaf cyflawn, a boneddwr."

Yn ystod seibiant yr athrofa, efe a dreuliai ei amser yn y Casbach, yn Mynwy, lle yr oedd ganddo dŷ hardd, yn cael ei gadw gan ei chwaer, yr hwn a breswylir yn awr gan Syr George Walker, a'i briod; ac yn y rhan ddiweddaf o'i oes, gan ei fod yn dyoddef poenau arteithiol oddiwrth y "gareg," a'i nerth mewn canlyniad yn gwanhau, yr oedd o dan angenrheidrwydd i ysgafnhau ei lafur yn Llundain,

[1] *Hist. of the Welsh Associ.* tud. 52.

Digitized by Google

a threulio llawer o'i amser yn Nghymru; ac anfynych y gwelwyd serch cryfach, purach, a mwy sylweddol, at wlad a chenedl, nag a ddangoswyd ganddo ef mewn gweithredoedd, y rhai a barhant byth i ber-arogli ei goffadwriaeth. Heb fanylu ar ei ymdrechion dros y Cymry yn Llundain, megys y rhan arbenig a gymerodd efe yn sefydliad a chynaliad yr Ysgol Gymraeg, er dysgu plant y Cymry yn y brif ddinas, dros yr hon y gweinyddai efe, a'i gyfaill Robert Hughes (*Robin Ddu o Fon*) fel goruchwylwyr yn 1771; na'i wasanaeth i Gymdeithas y Cymrodorion, i'r hon yr oedd yn llywydd yn 1775,—a dywedir mai efe oedd un o'i haelodau cyntaf, ei fod yn trig-ianu yn *Queen's Square*, ac yn achlysurol yn gwledda yn anrhydeddus ei haelodau arweiniol; gallwn nodi bod ei gymwynasau i Gymru, trwy fod yn offeryn i gael cyflawnder o Fiblau i'w gydwladwyr yn 1769, a sefydlu Cenadaeth yn Ngogledd Cymru yn 1776, wedi gosod ei wlad o dan ddyled neillduol i'w goffadwriaeth.

Yr oedd y "Gymdeithas er taenu Gwybodaeth Gristionogol" wedi dwyn allan bedwar argraffiad rhadlawn o'r Bibl yn yr iaith Gymraeg, yn haner cyntaf y 18fed ganrif; sef yn 1718, 1727, 1746, a 1752; a'r cwbl yn cynwys 52,000 o gopiau. Gwerthid y rhai hyny am bedwar swllt a chwe cheiniog yr un; ond caniateid i foneddigion haelfrydig, gael nifer benodol o honynt yn rhatach; yn enwedig os dos-barthid hwynt yn mysg y tlodion. Rhoddid llawer yn rhad yn ysgolion Griffith Jones; ond yr oedd y telerau y fath, fel nas gallai un Ymneillduwr eu cael, gan fod yn rhaid iddynt, er mwyn cael Bibl, ddyfod a "*Sertifficat* oddwrth weinidog y plwyf, eu bod yn medru darllen Cymraeg, ac yn dyfod at eu gweinidog i ddywedyd eu *catechism*, yn ateb y gweinidog yn barchus yng Ngwasanaeth yr Eglwys, gydag *Amen* yn barchus ar ddiwedd y Gweddiau," &c. Ond er y cwbl, yr oedd pob argraffiad o'r Bibl Cymreig wedi ei lyncu i fyny gan y wlad, erbyn 1768, fel na's gellid cael Bibl am unrhyw bris; yr oedd un flynedd ar bymtheg wedi myned heibio, er pan argraffwyd y diweddaf, a theimlid newyn mawr am Air yr Ar-glwydd yn y Dywysogaeth. Yn 1768, cyhoeddodd Dr. Llewelyn draethawd galluog, gyda'r amcan o gynnyrchu moddion i ddiwallu yr angen hwn, dan yr enw, *An Historical Account of the British or Welsh Versions and Editions of the Bible*, &c.; argraffwyd ef gan R. Hett, Llundain, ac ail-argraff-wyd ef gan J. a W. Eddowes, Amwythig, yn 1793. Mae hwn yn llyfr rhagorol, ac yn cael ei ystyried yn safon ar y pwnc; ac arno ef y mae pob llyfr arall, o *Eiriadur* Charles, hyd *Lyfryddiaeth y Cymry*, wedi sylfaenu eu hadroddiad am argraffiadau o'r Bibl Cymreig. Profa y Doctor yn y gwaith uchod, bod yn anmhosibl cyflenwi angen Cymru â Biblau heb gymorth cyhoeddus; gan lwyr ddymchwelyd ar yr un pryd, y syniad ynfyd a goleddid gan lawer y pryd hwnw, y buasai peidio rhoi Biblau i'r Cymry yn eu hiaith, yn foddion i beri iddynt ei hanghofio, a dysgu Saesneg. Rhoddodd y clod haeddianol i'r "Gym-deithas er taenu Gwybodaeth Gristionogol," am ei gweithrediadau at Gymru, a llwyddodd i gael gan-ddynt i ddwyn argraffiad arall o 20,000 o Fiblau allan yn yr iaith Gymraeg, trwy iddo ef ymrwymo i gymeryd pump neu chwech mil o honynt ei hunan. O dan amgylchiadau y genedl yn yr oes hono, yr oedd hon yn weithred o wladgarwch a Christionog-aeth anarferol. Ugain mil o Fiblau i Gymru! a rhai miloedd o'r cyfryw yn cael eu gwasgaru, yn annibynol ar enwad a sect, i bawb a ewyllysient eu prynu!!

Yn fuan ar ol hyny, sef yn 1770, cyhoeddodd Dr. Llewelyn lyfr arall gwir werthfawr, dan yr enw *Historical and Critical Remarks on the British Tongue, and its connexion with other Languages, founded on its State in the Welsh Bible*, yn yr hwn y dangosa wybodaeth ddofn, a medrusrwydd neill-duol yn y gwahanol ieithoedd yr ymdrinia a hwynt; ac ystyrir y gwaith gan ddysgedigion, yn gynnyrch llenyddol ysplenydd.

Gorchwyl mawr arall ei fywyd, oedd cychwyn Cenadiaeth y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru. Cymerodd hyn le yn 1776, trwy iddo ysgrifenu at Joshua Thomas, Llanllieni; a William Williams, Aberteifi; yn hysbysu iddynt y carai gynorthwyo math o genadaeth yn Mon, Arfon, Meirion, Dinbych, a Fflint, lle nad oedd eto nemawr o Fedyddwyr, na llawer o Ymneillduwyr o unrhyw enw. Penodwyd ar David Evans o'r Dolau,—gwr llawn o sel, a doniau, i gychwyn i'r daith; ac wedi hyny, aeth eraill allan gydag ef, ac wrthynt eu hunain, fel erbyn 1787, yr oedd deg o eglwysi y Bedyddwyr yn y Gogledd, a'r Gymanfa yn cael ei chynal yn Llanerchymedd, yn Mon, yn 1788,—lle, ychydig flyneddoedd cyn hyny, nad oedd y trigolion yn gwybod bod y fath bobl a Bedyddwyr ar y ddaear;—a'r cwbl o hyny wedi tarddu o gychwyniad effeithiol Dr. Thomas Llewelyn. Yr oedd ef ei hun yn bresenol yn Nghymanfa Glyn Ceiriog, yn 1779, wedi marchogaeth i fyny yno o'r Casbach, er ei fod ar y pryd yn ddigon gwanaidd ei iechyd, ac yn ymyl triugain mlwydd oed. Bu fyw bedair blynedd ar ol hyn, a'i weithred gyhoeddus olaf, oedd anog Ross, Caerfyrddin, i gyhoeddi ar-graffiad llogell o'r Testament Newydd yn yr iaith Gymraeg. Crybwyllwyd eisioes, ei fod yn dyoddef gan anhwylder myfyrwyr caled yr oes hono—"y gareg;" aeth o dan yr oruchwyliaeth beryglus o'i thynu, yn y Casbach, yn 1774; ond er iddo gael adferiad rhanol am rai blyneddoedd, dychwelodd ei hen afiechyd yn y flwyddyn 1783, gan ddinystrio ei fywyd gwerthfawr. Claddwyd ef yn *Bunhill Fields*, yn yr un bedd a'r Dr. Watts. Mae cam-gymeriad wedi myned allan o barth blwyddyn ei farwolaeth. Rhydd y *Cam. Biog.* "1796;" y *Cambro-British Biog.* "1783;" a'i Gofiant gan Nefydd, yn *Seren Gomer* am 1855, "1793." Ond mae yn amlwg mai gwall orgraff yw y dyddiad a rydd Nefydd, gan ei fod ef ei hun yn y paragraff agosaf ato, yn dyweyd i Dr. Llewelyn fyw bedair blynedd ar ol Cymanfa y Glyn yn 1779. Heblaw hyny, y mae llythyr Cymanfa Cilfowyr am 1783, yn galaru "y golled fawr a dderbyniodd y Dê a'r Gogledd y flwyddyn hono, yn marwolaeth yr haeddbarch Thomas Llewelyn, LL.D."—*A Hist. of the Welsh Association*, tud. 69.

Gadawodd ar ei ol lawer o gyfoeth; rhanodd yn agos i 1000*p*. rhwng gwahanol Gymdeithasau, a phersonau tlodion; a daeth swm mawr i blith ei frodyr, a'u plant. Rhoddodd ei lyfrau, y rhai a ystyrid yn werth dros 1500*p*., i Athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor; ac mae ei weithredoedd yn sefyll yn golofnau bythol o barch i'w goffadwriaeth. Dy-wedai Gwallter Mechain, yn y "Gwyliedydd," Gor., 1828, am dano:—"Gwr o ddoniau a chynneddfau canmoladwy ydoedd, ac yn haeddu parch i'w enw gan ei wlad a'i genedl tra byddo dau Gymmro yn medru ymddiddan a'u gilydd yn eu hiaith gynhenid."

Digitized by Google

**LLEWELYN, William,** o Lanllieni, ydoedd fab i Thomas ac Alice Llewelyn o ardal y Coity, ger Penybont ar Ogwy, Morganwg. Un o *Mitchel Dean* oedd Alice, ei henw morwynol oedd Alice Cox. Ymddengys iddi ddyfod i Fro Morganwg i wasanaethu, ac yno fwrw ei choelbren gyda Thomas Llewelyn, yr hwn oedd grydd wrth ei alwedigaeth, ac yn aelod crefyddol o eglwys Henaduriaethol Penybont. Bu iddynt bedwar o blant, sef William, Thomas, Mary, a Dafydd. Bedyddiwyd William yn eglwys y Coity, Mawrth 24, 1735. Yr oedd ei rieni mewn amgylchiadau isel iawn, gorfodwyd yntau yn foreu i droi allan i ennill ei fara, yn ngwasanaeth un Morgan, fferyllydd, a bragwr yn Mhenybont. Ar ol gorphen gorchwylion y dydd, cyrchai i ysgol nos, yr hon a gedwid, fel y tybir, gan Lewis Jones, y gweinidog Henaduriaethol yn y dref. Wedi gweled bod ynddo gymwysderau i wneyd pregethwr, anfonodd Lewis Jones ef i'r athrofa, a gedwid ar y pryd yn y Fenni, gan David Jardine, gweinidog yr eglwys Annibynol yn y dref hono. Nid oes dim o hanes William Llewelyn fel myfyriwr ar gael; ond dywedir ei fod yn dra hoff o'r iaith Gymraeg cyn iddo fyned i'r athrofa, a'i fod hyd yn oed y pryd hwnw, yn llawn arnwytheddau (*eccentricities*).

Wedi gorphen o hono ei ysgol, ymsefydlodd yn weinidog eglwys fechan o Ymneillduwyr yn Henffordd, yr hon, ar ol ei gwasanaethu am tua dwy flynedd, a adawodd yn ddisymwth, ar brydnawn dydd Sadwrn, heb yngan gair wrth neb, na gwneyd un ddarpariaeth ar gyfer y bobl y Sabboth canlynol, o herwydd ymrafael a gymerasai le rhyngddo ag un o'r aelodau, am omedd o hwnw roddi i fyny ei eisteddle er gwneyd rhyw gyfnewidiadau yn yr eisteddleoedd. Yr olwg gyntaf a gawn arno ar ol hyny, ydyw yn Walsall, swydd Stafford, oddi yno symudodd i Bewdley, swydd Gaerwrangon, lle y trigodd am gryn yspaid o amser. Yn ystod y crwydriadau hyn, efe a briododd wraig, a chollodd hi eilwaith; ac effeithiodd hyny mor ddwys ar ei feddwl, fel yr analluogwyd ef i bregethu am ryw hyd, collodd ei iechyd, a chollodd hefyd ei synwyrau i raddau helaeth iawn. Nodwyd eisioes ei fod yn naturiol arnwythus, ond o hyn allan rhaid edrych arno yn gweithredu, yn myfyrio, yn pregethu ac yn ysgrifenu, fel dyn ar derfynau gwallgofrwydd.

Yr olwg nesaf a gawn arno ydyw fel teml yn ei hadfeilion, gyda golwg bruddaidd a thruenus, cyfundrefn ewynawl wedi ei chwilfriwio, a phoen annyoddefol yn ei ben, yn dyfod i Lanllieni (*Leominster*) er gosod ei hun o dan driniaeth feddygol Dr. Mowson. Yn mhen amser, dechreuodd wella mewn corph a meddwl, a daeth yn alluog i bregethu yn achlysurol. Pregethai weithiau yn lle Joshua Thomas, yn nghapel y Bedyddwyr yn y dref hono. Oddeutu y flwyddyn 1765, yn ol rhai; a 1772, yn ol eraill, y symudodd i Lanllieni; ac yn mhen yspaid ar ol ei ddyfodiad yno, bu farw Reece, hen weinidog yr eglwys Henaduriaethol yn *Burgess Street*, a dewiswyd yntau yn olynydd iddo. Yr oedd cynulleidfa gyfrifol yn nghapel *Burgess Street* yn yr amser hwnw. Byddai aelodau y fwrdeisdref yn mynychu y capel yn eu dillad swyddol. Ni chafodd dyn erioed well maes i lafurio, na chylch eangach i wneuthur daioni, nag a gafodd Llewelyn, pan gymerodd arno ofal gweinidogaethol capel *Burgess Street*. Ond yr oedd yn gymeriad nad oedd modd iddo lwyddo. Yr oedd yn ddyn hynod o ran gwisg, corph, a meddwl; tua chwe troedfedd o daldra, nodedig o landeg, edrychiad tywysogaidd, talcen uchel a llydan, llygaid llwydion, trwyn hir, gwyneb llyfndew, gruddiau cochliw, gwallt du, crych, yn crogi yn dorchau hirion dros ei goler, hugan o frethyn glas laes, gwasgod a *flaps* hirion hyd ei arffed, llodrau penlin o bali, a chwedi hyny o *Kerseymere*, botasau a thopiau melynion ar dywydd oer, ac esgidiau a byclau mawrion, dysglaer arnynt, ar dywydd cynes, a het walciog. Cerddai yn unionsyth, heb golli mymryn o'i daldra, a byddai ei olwg urddasol, ddifrifol, a mawreddog, yn creu math o arswyd yn mhawb a edrychent arno. Yr oedd ganddo y llais mwyaf peroriaethus a fu gan ddyn erioed, a meddai berffaith feistrolaeth arno yn mhob gwasanaeth. Yr oedd yn ysgolor gwych, ac yn fyfyriwr caled; meddai adnabyddiaeth helaeth o'r Groeg a'r Hebraeg; ac yr oedd ganddo Saesneg Saxonaidd rhagorol. Yr oedd ei feddwl yn gyfoethog o ddelweddau barddonol, a medrai ddarlunio golygfeydd gyda chelfyddyd meistr, a hyawdledd areithiwr. Ond yr oedd ei ysbryd, fel ei gorph, yn ucheldremawl ac arglwyddiaethol tuhwnt i fesur. Yr oedd cymaint o'i arswyd ar ei blant, fel y gyrodd hwynt oll oddicartref; ond dywedir ei fod yn ddiarebol dyner o'i wraig. Yr oedd ei arswyd ar ei holl gynulleidfa, bygythiai hwynt a dinystr tragwyddol os beiddient annghredu un sill o'i athrawiaeth, neu gynyg gwrthwynebu ei ewyllys mewn dim. Dywedir iddo ymffrostio unwaith wrth Mathew Wilks o Lundain, fod ganddo bobl a gredent yn ddiysgog ynddo; ac ymddengys mai cyraedd hyny oedd amcan mawr ei fywyd, a'r achos cynhyrfiol o'i holl gyfeiliornadau. Nid oes amheuaeth nad oedd yn fwy na haner gwallgof, a bod hyny yn cael ei effeithio gan y boen a ddyoddefai yn ei ben. Tan ddylanwad y gwallgofrwydd hwnw, gyrid ef o blith dynion; methai gael boddlonrwydd i'w feddwl yn un gyfundrefn dduwinyddol nac athronyddol oedd yn y byd; felly penderfynodd ffurfio cyfundrefn ei hunan, a'r canlyniad fu, iddo fabwysiadu y syniadau rhyfeddaf a fu yn y byd erioed.

*Dyn addoliaeth* oedd gwreiddyn ei holl wyriadau; daliai mai *dyn* oedd y Bod Mawr, ac mai ar ei ddelw naturiol y creodd efe Adda; a mynai bod saith o bersonau yn y Duwdod. Gosododd y pethau hyn allan mewn cyfrol a alwai, "*Morphi Theou*," neu "Ffurf Duw," yr hon sydd yn cynwys y pethau mwyaf cableddus a ysgrifenwyd erioed. Ond yn nghanol y cableddau a'r ffolinebau heb eu hail, ni a gyfarfyddwn ag ambell syniad gwych, newydd, a chyffrous, yn y rhai mae ei athrylith, yn awr ac eilwaith, i'w gweled yn ymsaethu fel mellten trwy dewdwr tywyllwch ei gyfeiliornadau, gan yru ar ffo, am ryw eiliad, y fagddu fawr, a'i holl ellyllon.

Ysgrifenodd hefyd, heblaw yr uchod, *An Exposition of the Beginning of Genesis; An Exposition of the Epistle to the Romans; An Exposition of the Revelation; A Treatise on the Sabbath; The Inspiration of the Bible Asserted and Explained; An Appeal to Men against Paine's Rights of Man,* in two parts; *The Doctrine of Baptism; The Science of Christ.*

Y cwestiwn mwyaf dyddorol mewn cysylltiad a dyn fel hwn feallai, yw, pa lwyddiant fu ar ei lafur? a pha barhad fu i'w athrawiaethau? Gallwn ateb na adwaenom ddyn erioed a fu farw mor ddisymwth, ac mor drylwyr a William Llewelyn. Ar foreu

Digitized by Google

Sabboth, Ionawr 30, 1803, efe a drengodd yn ddisymwth yn y pwlpud, ar ddiwedd ei bregeth, ac efe yn 68 oed. Yr oedd wedi ail briodi gyda merch un Morgan, canwyllwr, o dref Llanllieni, gyda'r hon y cafodd lawer o gyfoeth, ac o'r hon y cafodd bump o blant. Bu hithau farw yn mhen ychydig ar ei ol, yn 96 oed; a bu farw eu plant oll, heb adael eppil. Felly, mae William Llewelyn a'i hâd, wedi darfod o'r tir. Mae ei eglwys wedi dirywio yn mhob ystyr, fel nad yw mwyach ond dyrnaid o bobl grebachaidd a rhagfarnllyd, o dan yr enw "Llewelyniaid," yn cyfarfod dair gwaith bob Sabboth, yn yr hen addoldy, i wrando rhyw fath o bregeth, a darllen llawer ar weithiau Llewelyn, o ba rai y mae pentwr o gopiau ar loft y tŷ cwrdd, yn madru o eisiau pwrcasydd. Gwel *Y Traethodydd* am 1851.

**LLEWENNY**, hen balas yn swydd Dinbach, ar lan afon Clwyd; 1½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Ddinbach. Perthynai tu a'r unfed ganrif ar ddeg, i Marchweithian, pen un o bymtheg llwyth pendefigaidd Gwynedd; a chyn amser Harri III., yr ydoedd wedi dyfod yn eiddo y Salesburys; ac yn amser Charles yr Ail, daeth yn eiddo teulu o'r cyfenw Cotton; wedi hyny fe'i pwrcaswyd gan yr Anrhydeddus T. Fitzmaurice, ewythr y diweddar Ardalydd Lansdowne; ac yn amser yr Ardalydd, sef yn y flwyddyn 1809, prynwyd ettifeddiaeth Llewenny, gan y diweddar Barch. Edward Hughes o Kinmael. Bu yr enwog Cathrine Tudyr, a elwid "Catrin o'r Berain," yn brîod ag un o Salesburys Llewenny, a bu iddi dri o wŷr ar ei ol ef.

**LLEW LLAW GYFFES**, penaeth enwog yn y 5ed ganrif. Gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o'r "tri gwŷr rhuddfaawg," ac yn un o'r "tri eurgrydd." Gweithreda ran bwysig yn mabinogi "Math ab Mathonwy." Rhestrir Gamre, ei farch, yn un o dri rhyfel-feirch Ynys Prydain. Dywedir yn "Englynion y Beddau," bod bedd Llew Llaw Gyffes yn cael ei amddiffyn gan y môr.

**LLEYN**, y rhan o swydd Gaer yn arfon, sydd yn gorwedd rhwng beisfor Ceredigion a beisfor Caer yn arfon.

**LLEYN** ab Baran, yn ol yr *Iolo MSS.*, ydoedd dywysog dewr, a fu yn rhyfela a brenin Gwynedd; enillodd ran o'i diriogaeth yn swydd Gaerynarfon, a galwodd hi ar ei enw ei hun yn Lleyn. Bu fyw am 187 o flynyddoedd.

**LLEYN**, Huw, bardd a flodeuai rhwng 1540 a 1580. Dywedir ei fod yn frawd i William Lleyn.

**LLEYN**, Robert, bardd a flodeuai rhwng 1580 a 1620.

**LLEYN**, William, bardd rhagorol, ac offeiriad Protestanaidd diledryw, a anwyd yn Llangian, yn Lleyn, tua'r flwyddyn 1540. Ei enw priodol oedd William Owain, M.A. Dywed traddodiad, mai mab llwyn a pherth ydoedd, i un o Ruffyddiaid Cefnamwlch. Dygwyd ef i fyny i'r eglwys, a chafodd ficeriaeth Croesoswallt yn 1583; a bu farw yno yn 1587. Bu yn ddysgybl barddonol i Gruffydd Hiraethog, ac yn athraw i Edmwnd Prys. Urddwyd ef yn bencerdd cerdd dafod yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568. Efe yn ddiau oedd prif-fardd ei oes, ac ni chododd ei gyffelyb hyd Oronwy Owain. Bu ymryson barddonol rhyngddo ag Owain Gwynedd; ac mae y darnau hyny, yn nghyda thros ddeugain o ddarnau eraill, yn aros o hyd mewn llawysgrifau. Diogelir naw o'i gyfansoddiadau yn "Ngorchestion Beirdd Cymru." Canwyd ei farwnad gan Rhys Cain, ei ddysgybl. Mae ei waith yn hollol rydd oddiwrth naws Pabaidd, yr hyn sydd yn beth hynod o'r oes hono.

**LLIA** (Y), afonig fynyddig, yn neheubarth Brycheiniog. Y mae yn cyfodi yn mynyddoedd y Wigfa-Fawr, ac yn llifeirio yn ddeheuol am oddeutu 7 milldir, i Nedd. Yn agos i'w tharddiad, y mae carreg fawr, a elwir "Maen Llia," yn mesur 12 troedfedd wrth 9; yr hon sydd yn weledig am bellderau mawrion o bob tu i fwlch y mynydd.

**LLIBIO**, un o feibion Seithenyn Feddw, brenin Dyfed, yr hwn, yn ol y chwedl, a ollyngodd y môr dros Gantre'r Gwaelod. Wedi y trychineb hwnw, ymroddodd ei feibion, Gwyndeg, Senewyr, Arwystli Gloff, Llibio, Tudglud, Merini, Gwynodl, Hoedloyw, Tudno, a Teneio, i fywyd crefyddol; a daethant oll yn aelodau o goleg Dunawd, yn Mangor Iscoed. Ar enw Llibio y gelwir Llanllibio, yn Mon. Coffheid ef Chwefror 28.

**LLIDIARDAU**, treflan yn mhlwyf Llan y Cil, swydd Feirionydd; 4 milldir i'r gogledd orllewin o dref y Bala.

**LLIDIART Y GWENYN**, treflan yn mhlwyf Llanllechid, swydd Gaer yn arfon; 3¼ milldir i'r de ddwyrain o Fangor.

**LLIDNERTH**, sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Nudd Hael.

**LLIFER**, un o feibion Llywarch Hen.

**LLIFIOR**, trefgordd yn mhlwyf y Berriew, neu Aber Rhiw, yn swydd Drefaldwyn. Poblogaeth, 233.

**LLIFON**, cantref yn swydd Fon, yn cynnwys Bodedeyrn, tri ar ddeg o blwyfi eraill, a rhan o Gaergybi. Erwau, 33,479. Poblogaeth yn 1851, 14,455; yn 1861, 16,378. Tai annedd, 1373.

**LLIFON**, Huw, bardd a flodeuodd rhwng 1570 a 1600.

**LLINEGR**, lle ar arfordir swydd Flint, ger rheilffordd Caer a Chaergybi, yn agos i *Mostyn Quay*. Medda Lythyrfa, dan Dreffynnon.

**LLIOS** ab Nwyfre, tywysog cyn cred. Ei wraig oedd Arianrod, ferch Beli, a chwaer Caswallon. (*Myf. Arch.* ii. 60.)

**LLOEGRYN**, neu Loerinus, mab hynaf Brutus, i'r hwn y rhoddes efe y rhan o Brydain a alwyd byth ar ei enw yn Lloegr. (*Myf. Arch.* ii. 118.)

**LLOFAN LAWDINO**, neu Lawdifo, penaeth yn y 6ed ganrif, a laddodd Urien Rheged, yr hyn a elwir yn un o'r "tair anfad gyflafan." Dywed Englynion y Beddau bod ei fedd ar draeth y Fenai. (*Myf. Arch.* i. 78; ii. 9, 65.)

**LLONG** (Y), treflan yn nhrefgordd Coed Llai, plwyf y Wyddgrug, swydd Fflint, ger rheilffordd y Wyddgrug a Chaerlleon; 2¼ milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o'r Wyddgrug; y mae yma orsaf ar y rheilffordd. Cafodd y pentref yr enw "Llong" oddiwrth dafarndy bychan, i'r hwn yr oedd llun llong dan lawn hwyliau, yn arwydd-fwrdd; yr hwn oedd ar fin y dollffordd o'r Wyddgrug i Gaer.

**LLONIO LAWHIR**, sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Alan Fyrgam ab Emyr Llydaw. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd, ac yn gyffeswr neu ddeon yn ngh











oleg Padarn. Efe yw sant Llanddinam, swydd Drefaldwyn; a Llanllwni, swydd Gaerfyrddin. Claddwyd ef yn Enlli. (*Iolo MSS.*)

**LLORAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon Dyffryn Ceiriog, swydd Dinbach, 11 milldir i'r de orllewin o'r Waun. Poblogaeth, 60.

Digitized by Google

**LLORAN**, trefgordd yn mhlwyf Llansilin, swydd Dinbach; 5 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Groesoswallt. Gwerth ardrethol, 3472*p*. Poblogaeth, 246.

**LLORIEN**, un o feibion Llywarch Hen.

**LLOWARCH**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon Dyffryn Ceiriog, swydd Dinbach; 9 milldir i'r gorllewin o Groesoswallt. Poblogaeth, 146.

**LLOWES**, plwyf, yn Undeb y Gelli, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, ger yr afon Wy, ar y ffin a swydd Frycheiniog, a cher rheilffordd Aberhonddu a Henffordd; 3 milldir i'r de orllewin wrth orllewin o'r Gelli. Llythyrfa, Y Gelli, dan Henffordd. Erwau, 3319. Gwerth ardrethol, 3127*p*. Poblogaeth, 324. Tai annedd, 69. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig a ficeriaeth Llanddewi Fach, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 132*p*. Noddwr, Archddiacon Brycheiniog.

**LLOYD**, David, Ysw., o'r Henblas, yn Mon, a briododd ferch i Rhisiart Owain Tudur, o Benmynydd, perthynas i Harri VII.; a ganwyd iddynt dri o feibion, y rhai a ddygwyd i fyny i'r offeiriadaeth, sef John Lloyd, M.A., person Llandegfan; William Lloyd, M.A., person Llanelian, yn Mon; a Rhisiart Lloyd, yr hwn a ymsefydlodd yn Lloegr, a daeth ei unig fab, William, yn esgob Caerwrangon. Cafodd ei addysg yn Rhydychain; ond wedi hyny efe a ymneillduodd i fyw ar ei ettifeddiaeth yn Mon, gan ymddifyru yn yr awen. Yr oedd yn fardd tra chywrain; ac efe a gyfansoddodd amryw ddarnau, y rhai ydynt o hyd ar gael a chadw mewn llaw ysgrifau, yn gystal ag Acceniadur, neu Reolau Barddoniaeth, yn yr Iaith Gymreig. Yr oedd hwn wedi ei gyfansoddi o flaen yr eiddo Dr. Sion Dafydd Rhys. Yr oedd yn ieithydd rhagorol, deallai saith iaith yn eithaf rhwydd, heblaw y Gymraeg, megis y tystiolaetha Hugh Roberts, Aberffraw, yn ei alareb ar ei farwolaeth. Yr oedd hefyd yn dra chyfarwydd a manol fel beirniad ysgrythyrol, megis y deallir wrth ei nodion ar ymyl y dail yn y Salmau Hebreig, a'i Feibl hefyd. Efe a ddygodd ei holl feibion i fyny mewn dysg gartref; tri o'r rhai a ddygwyd i fyny yn offeiriaid; sef John Lloyd, yr hwn a ddaeth yn beriglor Beaumaris; William Lloyd periglor Llanelian yn Mon; gwr tra dysgedig, merch ac etifeddes yr hwn a ddaeth yn wraig i Dr. Robert Morgan; a Richard Lloyd periglor Sonning, a ficer Tilehurst, yn Berkshire. Eu mam ydoedd Catherine, merch Richard Owen Tudur, Penmynydd; ac yr oedd hi yn medru barddoni megis ei gwr, fel y deallir wrth y darn Cymreig a anfonodd yn gynghor i'w meibion, pan oeddynt yn ngholeg Oriel.

**LLOYD**, David, D.C.L., a aned yn hen aneddle ei hynafiaid, a elwir y Berthlwyd, plwyf *Llanidloes*, Sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1598. Pan yn 14 oed efe a benodwyd i ysgoloriaeth Coleg *All-Souls*, Rhydychain; ac yn 1617, etholwyd ef yn gymrawd proffianol y ty hwnw; a'r flwyddyn ganlynol yn gymrawd parhaus. Yn 1623 efe a aeth rhagddo gyda'r gyfraith lëyg. Wedi hyny penodwyd ef yn gaplan i Iarll Derby, ac yn oruwchwyliwr ei deulu. Yn y flwyddyn 1641, efe a sefydlwyd yn mheriglorïaeth Trefdraeth, yn Mon, yr hon a roddodd i fyny ar ei sefydliad yn Llangynhafal, Sir Dinbych, Gorphenaf, 1642. Yn Rhagfyr yr un flwyddyn, efe a wnaed yn ficer Llanfair, Dyffryn Clwyd, a gwarden Rhuthyn. Yr oedd efe hefyd yn brebendur Caerlleon Gawr; eithr o'r holl ddyrchafiadau hyn efe a ddifeddianwyd gan y "Senedd Hir;" ac efe a ddioddefodd hir gaethiwed ar gyfrif ei freninoldeb. Gyda'r "Adferiad" fe adferwyd iddo yntau ei feddianau, ac efe a ddyrchafwyd i ddiaconiaeth Llanelwy, Medi 24, 1660; ac yn fuan ar ol hyny, efe a gyflwynwyd i un o gynysgaethau Llansanan. Efe a fu farw Medi 7, 1663, yn Rhuthyn, lle y claddwyd ef, heb gymaint a cherfiad na chofadail er dynodi ei fedd. Ystyrid ef yn ddyn cywrain, ac yn fardd da. Cyfansoddodd amryw bryddestau, caniadau, &c., y rhai sydd yn wasgaredig mewn gwahanol lyfrau; eithr ei gampwaith ag y gwyddys am dano, yw *The Legend of Captain Jones, in two parts*, a gyhoeddwyd gyntaf yn Llundain, yn y flwyddyn 1656; ond wedi hyny, argraphwyd ef lawer gwaith. Y mae y cyfansoddiad tra darllenadwy hwn wedi ei ysgrifenu mewn arddull digrifeg ragorol; a dywedir mae efelychiad ffyddlon ydyw o "Awdl Richard Siôn Greulon."

**LLOYD**, David, A.C., ydoedd fab Hugh Lloyd, ac a anwyd yn y Pantmawr, plwyf Trawsfynydd, sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1635. Cafodd ei addysg foreuol yn ysgol Rhuthyn, o'r hon yr aeth i Goleg Oriel, Rhydychain. Yn 1652, efe a raddiwyd yn G.C.; ag yn 1658, penodwyd ef yn beriglor Ibston, Whatlington, yn esgobaeth Rhydychain. Ni chadwodd y fywioliaeth hon yn hir; eithr wedi ei raddio yn A.C. y flwyddyn ganlynol, efe a aeth i Lundain, ac a benodwyd yn ddarllenwr y *Charter House*. Wedi hyny efe a ymneillduodd i Gymru, ac a benodwyd yn gaplan i Dr. Isaac Barrow, Esgob Llanelwy, yr hwn a'i hanrhegodd a chanoniaeth yn 1670, heblaw amryw ddyrchafiadau ereill o fewn ei esgobaeth. Yn Awst, 1671, efe a benodwyd i ficeriaeth Abergele, ac ar yr un pryd yn brebendur y Faenol, yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Yn 1675, efe a gyfnewidiodd Abergele am Lanearгain, yn sir Callestr, lle bu yn cadw yr ysgol rydd dros lawer o flynyddau, a hyd o fewn chwe mis i'w farwolaeth, pan y dychwelodd i'w le genedigol, gan y teimlai ei iechyd yn gwanhau. Bu farw Chwef. 16, 1691. Yr oedd yn frwdfrydig a diwyd yn nghyflawniad ei ddyledswyddau offeiriadol, ac yn arfer darllen y gwasanaeth bob dydd yn ei eglwys ei hun yn Llaneurgain. Hefyd canmolid ef yn gyffredinol am ei hynawsedd a'i garedigrwydd i'r tlawd a'r anghenus, ac am ei barodrwydd i gyflawni unrhyw swydd ddaionus yn y gymydogaeth. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau, o'r rhai y rhoddir cyfres gan Wood yn ei *Athen. Oxon.* Eithr y mwyaf hysbys ydyw ei *Statesmen and Favourites of England since the Reformation*, yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain, yn gyfrol drwchus, wyth plyg, yn 1665, ac a ail gyhoeddwyd wedi hyny.

**LLOYD**, David, gweinidog yr Undodwyr yn Llwynrhydowen, swydd Aberteifi, a dderbyniodd ei addysg yn ngholeg Caerfyrddin. Daeth yn ysgolor enwog, ac yn bregethwr nerthol. Efe oedd sylfaenydd y cynulleidfaoedd Ariaidd yn swydd Aberteifi. Bu farw yn 1778, ar ol bod yn y weinidogaeth am 36 o flynyddau. Yn 1785, cyhoeddwyd ei "Waith Prydyddawl," yr hwn a gynwys lawer o dlysau barddonol.

**LLOYD**, David, ficer Llanbyster, swydd Faesyfed, ydoedd frodor o'r plwyf hwnw, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes faith. Cafodd guradiaeth Llanbyster yn 1778, ac yn 1785 cafodd guradiaeth Putley, ac Aylton, yn swydd Henffordd. Ond yn 1789, gwnawd ef yn ficer Llanbyster, ac yno y llafuriodd bellach hyd ei farwolaeth, Mawrth 3, 1838.

Digitized by Google

Yr oedd yn ddyn o dalentau amrywiol a chryfion. Ymbleserai mewn gallofyddiaeth, cerddoriaeth, a barddoniaeth. Cyhoeddwyd un ymdeithgan o'i waith, sef, *The Royal Cambrian Volunteers*, yr hon a gafodd dderbyniad gwresog. Cyhoeddwyd hefyd bryddest o'i waith, yn 1792, dan yr enw *The Voyage of Life;* ac ail argraffwyd hi yn 1812. Yn 1797, cyhoeddodd bregeth, dan y teitl *England's Privileges*. Ond ei brif waith ydoedd ei *Horæ Theologicæ*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1823.

**LLOYD**, David, LL.D., athraw coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, a anwyd yn Llandyssul, swydd Aberteifi, yn y flwyddyn 1805. Wedi iddo dderbyn ei addysg elfenol o dan John Thomas, gweinidog yr Undodiaid yn Mhant y defaid, derbyniwyd ef i goleg Caerfyrddin, pan yn ugain oed, lle y treuliodd yr amser arferol, gan enill enwogrwydd fel myfyriwr. Aeth oddiyno i brifysgol Glasgow, lle ar ei ymadawiad yr anrhydeddwyd ef a'r teitl o M.A. Yn 1834, etholwyd ef yn athraw clasurol coleg Caerfyrddin, ac yn fuan ar ol hyny, derbyniodd o Glasgow, y teitl o LL.D. Gelwid ef bellach Dr. Lloyd; a phrofodd ei hun yn un o'r dynion mwyaf gweithgar ac egniol gyda phob sefydliad daionus a fu erioed yn nhref Caerfyrddin. Yr oedd yn Undodwr selog, adeiladodd gapel i'r enwad hwnw yn y dref, a pharhaodd i bregethu ynddo hyd ei farwolaeth, ar y 13eg o Fedi, 1863. Yr oedd wedi priodi er's amryw flyneddau ag un Miss Tardrew, o dref Caerfyrddin, yr hon a adawodd, gyda mab a merch, i alaru ar ei ol.

**LLOYD**, Evan, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, ydoedd ail fab i John Lloyd, Ysw., o'r Frondderw, ger y Bala; ac felly disgynai o hen deulu y Brynhir, yn Nhrawsfynydd. Ganwyd ef yn 1734. Derbyniodd ei addysg yn y Trinity Hall, Caergrawnt, o dan ofal Thomas Hughes, LL.B. Oddi yno aeth i goleg yr Iesu, Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn ysgolor yn 1755, a chymerodd ei M.A. yn dra buan. Wedi gwasanaethu am beth amser mewn eglwys yn Llundain, lle y ffurfiodd gyfeillgarwch a phrif lenorion yr oes, megys. Churchhill, Garrick, Wilkes, a Colman, &c., rhoddwyd iddo ficeriaeth Llanfair Dyffryn Clwyd, swydd Ddinbach, lle y treuliodd y gweddill o'i oes fer mewn gwasanaethu ei blwyfolion, a chyfansoddi pryddestau Saesneg. Cyhoeddwyd y rhai canlynol:—1. *The Powers of the Pen*, 1765, ac a ail gyhoeddwyd yn 1768; 2. *The Curate*, 1766; 3. *The Methodist*, 1766; 4. *The Conversation*, 1767; 5. *Epistle to David Garrick*, yr hwn a'i anrhegodd ef â chwpan o'r ferywen enwog a dyfai yn ngardd Shakespeare. Dygodd rhyw sylwadau gwawdlyd a wnaeth efe ar un o'i gymydogion yn y "Methodist" ef i afael cyfraith athrod; a bu, o'r herwydd, yn ngharchar llys y frenhinfainc. Bu farw Ion. 1776, yn 42 oed, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Llanycil, lle y mae gwyddfa, ac arni linellau Seisnig o waith Wilkes, yn dangos ei fedd.

**LLOYD**, Syr Francis, Barwnig, ydoedd fab i Syr Marmaduke Lloyd, o Faes y Felin, swydd Aberteifi. Bu yn A.S. dros Gaerfyrddin. Yr oedd yn bleidiwr selog i Charles I. yr hwn a'i apwyntiodd yn drefnwr ei dŷ, ac a'i creodd yn farchog. Enciliodd o'r senedd yn 1643, am yr hyn y dirwywyd ef o 1033*p*. Bu yn briod y waith gyntaf a Mary, merch John Fychan, Iarll Carbery, o'r Golden Grove, swydd Gaerfyrddin; a'r ail waith a Bridget, merch Risiart Leigh, maer Caerfyrddin yn 1666. Pan adferwyd Charles II. gwnawd ef yn un o'i ddirgel-gyngor.

**LLOYD**, George, D.D., esgob Caerlleon, ydoedd chweched mab i Meredydd ab John, o deulu Llanelidan, a Chinmel, swydd Ddinbach. Dygwyd ef i fyny yn Nghaergrawnt. Cafodd yn gyntaf fywioliaethau Thorton, a Bangor; yn 1600, gwnaed ef yn esgob Sodor a Manaw; ac yn 1604, gwnaed ef yn esgob Caerlleon. Bu farw yn Thorton, Awst 1, 1655, yn 55 oed, a chladdwyd ef yn ei brif eglwys.

**LLOYD**, Hugh, D.C.L., duweinydd ac ysgolhaig, a anwyd yn Lleyn, swydd Gaerynarfon. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Caerwynt, ac yn 1564, gwnaed ef yn gymrawd parhaol yn Ngholeg Newydd, Rhydychain. Yn 1578, ac efe yn B.C.L. dyrchafwyd ef i ganghelliaeth Rochester. Wedi hyny penodwyd ef yn feistr coleg Caerwynt, a gwnaed ef yn ddoctor yn 1588, pryd yr ystyrid ef nid yn unig yn enwog mewn duwinyddiaeth, a'r gyfraith wladol, ond hefyd mewn gwybodaeth o'r ieithoedd Groeg, a Lladin. Ysgrifenodd lawer o lyfrau dysgedig, a bu farw Hydref 17, 1601.

**LLOYD**, Hugh, D.D., esgob Llandaf, a anwyd yn swydd Aberteifi, yn y flwyddyn 1589. Derbyniwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain, yn 1607, ac wedi ei raddio yn y celfyddydau yno, aeth i goleg Iesu, lle gwnaed ef yn gymrawd. Yn 1638, graddiwyd ef yn D.D.; ac ar yr un pryd gwnaed ef yn beriglor Llangadog, swydd Frycheiniog, ac yn archddiacon Ty-Ddewi. Dyoddefodd lawer yn adeg y gwrthryfel; ac fel gwobr am ei ffyddlondeb i achos y brenin, cysegrwyd ef yn esgob Llandaf, Rhagfyr 2, 1660. Bu farw yn 1667.

**LLOYD**, Humphrey, D.D., esgob Bangor, ydoedd drydydd mab Richard Lloyd, D.D., ficer Rhiwabon. Ganwyd ef yn Bod y Fuddau, ger Trawsfynydd, yn 1610. Derbyniwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain, wedi hyny i goleg Iesu, lle daeth yn ysgolor; yna dychwelodd i goleg Oriel, lle gwnaed ef yn gymrawd. Pan ymsefydlodd y brenin a'i lys yn Rhydychain, dewiswyd ef yn gaplan, gan yr archesgob Williams, yr hwn a roddes iddo hefyd brebendiaeth Ampleford yn mhrif eglwys Caerefrog. Ar farwolaeth ei dad yn 1653, efe a'i holynodd i ficeriaeth Rhiwabon; ond collodd ei swyddau yn ystod y Werin-lywodraeth. Yn 1661, gwnaed ef yn ganon esgobaeth Llanelwy, a chymerodd y radd o D.D.; ac yn 1673, olynodd ei frawd, Samuel Lloyd, yn ficeriaeth Gresford. Tachwedd 17, 1673, cysegrwyd ef yn esgob Bangor; ac yn y swydd hono, efe a brynodd archddeoniaethau Bangor, a Môn, a gwag fywioliaeth Llanrhaiadr yn Nghinmerch, ac a'u hunodd ag esgobaeth Bangor yn 1685; a dwy ran o dair o gyfranau Llanddinam a gyflwynodd efe at yr achos eglwysig, a chynaliaeth côr Bangor, ar drydedd ran i ficeriaeth Llanddinam. Bu farw yn 1688, a chladdwyd ef yn ei brif eglwys.

**LLOYD**, Jenkin, M.A., un o'r prawfwyr o dan y "Weithred er gwell lledaeniad o'r Efengyl yn Nghymru" ydoedd fab henaf, ac etifedd David Lloyd, Ysw., o Bontstremon, yn ol rhai, ond o'r Faerdref Fawr, yn ol eraill, plwyf Llandysul, swydd Aberteifi. Dygwyd ef i fyny i'r weinidogaeth, a daeth yn ficer ei blwyf genedigol, yn amser Charles I., gan drigo yn y Faerdref Fawr. Efe a briododd Elin, ferch Dafydd Llwyd o'r Geuros. Yr oedd yn bleidiwr selog i Cromwell, a daeth yn bregethwr teithiol o dan y gyfraith er lledaeniad yr Efengyl. Cyhoeddodd lyfryn o'r enw *Christ's Valedictions, or Sacred Observations on the Last Word of our Saviour, delivered on the Cross*, arddull ac eneiniad yr hwn a

Digitized by Google

brawf bod yr awdwr yn meddu ar y cymwysderau uchaf i fod yn weinidog yr Efengyl. Argraffwyd ef yn 1658, a chynwysa 220 o dudalenau. Nid yw dyddiad ei farwolaeth yn gwbl sicr; ond dywedir iddo orphwys oddiwrth ei lafur, tua 1660, felly ddwy flynedd cyn ystorm dydd Bartholomew.

**LLOYD**, JOHN, D.D., perthynas agos i Humphrey Llwyd, a anwyd yn nhref Dinbych. Cafodd ei addysg yn ngholeg Caerwynt, ac a dderbyniwyd yn gymrawd parhaus o goleg Newydd Rhydychain, yn 1579, pan y graddiwyd ef yn y celfyddydau; ac yn fuan wedi hyny efe a ddaeth yn bregethwr enwog. Yn 1595 efe a raddiwyd yn D.D., ac a gyflwynwyd i ficeriaeth Writtle, yn Essex, yn 1598. Yma, yn gystal ag yn yr athrofa, efe a berchid yn fawr ar gyfrif ei ddysgeidiaeth arbenig, a'i ddull ardderchog o bregethu. Efe a gyhoeddodd *Interpretatio Latina, cum scholiis in Flav. Josephum de Maccabaeis, seu de rationis imperio*, &c. 8vo, Oxon. 1590. Efe hefyd oedd y cyntaf a gyhoeddodd *Barlaamus de Papae Principatu, Græce et Latine*. Oxon. 1592. Efe a fu farw yn Writtle yn y flwyddyn 1603.

**LLOYD**, JOHN, D.D., mab Morgan Lloyd, a aned mewn hen deulu parchus yn Pentaine, sir Gaerfyrddin, yn 1638. Aeth yn aelod o goleg Merton yn 1655, lle yr arosodd nes y graddiwyd ef yn G.C. Wedi hyny efe a aeth yn gymrawd o goleg Iesu, ac a ddewiswyd yn benaeth ar roddiad i fyny ei swydd gan Leoline Jenkins. Yn y flwyddyn 1682, a'r ddwy flynedd ganlynol, bu yn gwasanaethu y swydd o is-ganghellydd yn yr athrofa, ac ar farwolaeth Dr. L. Womack fe'i penodwyd gan Iago II. i esgobaeth Tyddewi; ac a urddwydd i'r swydd hono yn Lambeth, Hydref 17, 1686. Eithr yn fuan efe a ddychwelodd i Rhydychain yn afiach, a bu farw ar y 13 o Chwefror canlynol yn ngholeg Iesu, yn ei nawfed flwyddyn a deugain oed, a chladdwyd ef yn nghapel y coleg. Cyfodwyd cofadail i'w goffadwriaeth, a cheir y cerfiad sydd arno yn Willis' *Survey of St. Davids*.

**LLOYD**, JOHN, cyfreithiwr enwog, a mab henaf Hugh Lloyd, Ysw., o'r Berth, plwyf Llanbedr, sir Dinbych, o Ursula, ail ferch Hywel Lloyd, Ysw., o'r Wigfair, sir Callestr. Ganwyd ef yn 1746. Derbyniodd y rhan fwyaf o'i addysgiaeth yn ysgol ramadegol Rhuthyn, lle yr addysgwyd Arglwydd Kenyon, Mr. Maddocks, y Barwniaid Perryn, a Richards, a chyfreithwyr enwog ereill; eithr bu dros ryw ychydig yn yr Amwythig. Dechreuodd astudio y gyfraith pan yn dra ieuanc; a thrwy ei alluoedd naturiol treiddgar, efe a gyrhaeddodd gryn fri ac enwogrwydd yn ei alwedigaeth. Yr oedd yn hynod am ei barodrwydd i ateb gofyniadau cyfreithiol rhag blaen yn ddifyfyr; a chan ei fod mor gyfarwydd a'r gyfraith yn ei gwahanol ganghenau, nis ceid ef byth yn anmharod i ateb unrhyw ofyniad a ddygwyddid roddi iddo. Yr oedd ei lwyddiant i'w briodoli yn unig i'w deilyngdod a'i wybodaeth yn ei broffes. Hyn yn unig a'i cyfododd ef i sylw Arglwydd Thurlow, yr hwn a'i anrhegodd ef a gwn sidan, ac ag ynadiaeth Gymreig. Yr oedd ei ymlyniad wrth Dywysogaeth Cymru yn ddiysgog, a brwdfrydig; ac efe a siaradai y Gymraeg mor rhugl a'r Saesneg; a dywedai yn fynych bod hyny yn un o'r manteision mwyaf iddo ef fel prif ynad yn nghylchdaith Caerfyrddin. Ystyrid ei farn mewn pynciau cyfreithiol o gymaint pwys gan y wlad yn gyffredinol, fel yr ymgynghorid ag ef gan Arglwydd Eldon, Syr James Mansfield, Arglwydd Redesdale, Syr Thomas Plumer, Sergeant Hill, yn nghyd ag enwogion ereill, mewn achos o ryw anhawsder a dyrysweh. Bu farw Medi 9, 1806, yn 60 mlwydd oed.

**LLOYD**, JOHN (*Einion Mon*), a anwyd yn Mhwllygynau, Mon, yn 1788. Gadawyd ef, a dwy chwaer yn ymddifad, pan oedd tua 14eg oed; ac yn mhen rhai blyneddoedd hudwyd ef gan ewythr iddo, yr hwn oedd wr cyfrifol iawn mewn byd ac eglwys, i arwyddo ei enw wrth rol o femrwn, yr hwn nid oedd ddim amgen na Gweithred Trosglwyddiad o Pwllygynau drosodd i'w gyfnither, merch yr ewythr hwnw; a'r canlyniad fu i'r plant ymddifaid gael eu hysbeilio o'u heiddo, a'u troi dros y drws. Aeth y chwiorydd i weini gyda boneddigion, a chychwynodd John, heb ddim ond pum' swllt yn ei logell, tua Manceinion; ac wrth fyned, galwodd heibio i'w gâr, y Dr. W. O. Pughe, yn Ninbach, gan yr hwn y cafodd bum punt, yn *fenthyg*, fel y tybiai ef, ac aeth gyda hwynt hyd ben ei daith. Wedi cael gwaith mewn maelfa gotwm yn Manceinion, arferai fyned i ysgol nosawl; a thrwy fod yn gynil ar ei enillion, daeth yn feddianol ar ugain punt, gyda'r rhai yr aeth i Lundain, gan feddwl y cawsai well gwaith, a manteision addysg, yn y ddinas fawr. Ond yn hyn fe'i siomwyd mewn rhan; oblegyd ar ol gosod ei hun mewn ysgol nosawl, a chael gobaith am lawer o fanteision yn yr ystyr hono, methodd a chael gwaith, nes o'r diwedd, yr oedd yr ugain punt wedi dyfod i lawr i chwe' cheiniog; ac heb un gobaith am geiniog ar eu hol. Ond pa dywyllaf y nos, agosaf yw'r wawr. Ar ol treulio boreugwaith heb ymborth, prynodd werth tair ceiniog o gig eidion gan gigydd yn *Fore Street*, a rhoddodd iddo y darn chwe' cheiniog i dalu am dano; ond y cigydd, mewn camgymeriad, a ddychwelodd iddo naw ceiniog o newid. Dywedodd yntau wrth y cigydd ei fod wedi ei demtio, ac adroddodd iddo ei gyfyngder; cymerodd y cigydd y naw ceiniog yn ol, a rhoddodd iddo ddarn dau swllt, a darn chwe cheiniog yn anrheg. Aeth yntau a'i gig i dafarndy i'w goginio, lle y gwelodd yn ngholofn yr hysbysiadau mewn newyddiadur, bod eisiau ysgolfeistr yn "*Sir John Cash's School*, 1 *Church Row, Aldgate Street, London;*" ac yn ddioed anfonodd lythyr at y Dr. W. O. Pughe; a'r canlyniad fu iddo gael y swydd! Yn mhen blyneddoedd, pan oedd yr ewythr hwnw a'i twyllasai ef o'i feddianau yn Mon, yn ngharchar y "King's Bench" am ddyled, ymwelodd John Lloyd ag ef, a chan dynu llonaid ei law o aur o'i logell, cyfrifodd bum gini, a dododd y naill ar ol y llall ar law ei ewythr, a dywedodd, "Yr wyf yn awr yn canu yn iach a chwi, ac nid wyf yn meddwl ymweled a chwi mwyach; byddwch wych." Dyma dalu da am ddrwg. Cafodd yr ewythr barus gini am bob swllt a gawsai John Lloyd wrth gychwyn o Mon. Bu am lawer o flyneddoedd yn dysgu plant boneddigion, ac yn eu plith ddau fab y Duc Wellington, Cyfansoddodd gân Saesneg i'r ddau bendefig ieuainc, yr hon a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Eryron Gwyllt Walia.

Yr oedd yn wladgarwr, gwladwriaethydd, a rhyddfrydwr neillduol, fel y prawf ei amddiffyniad i dlodion plwyf Llandwrog, yn Arfon; a'i ymdrech dros ryddfreiniad y Pabyddion yn ngholofnau y "*Times.*" Y peth cyntaf a wnaeth Arglwydd Newborough ar ol cael myned yn aelod seneddol dros swydd Gaerynarfon, oedd ceisio difeddianu tlodion plwyf Llandwrog o'r tai a'r gerddi ag oeddynt wedi adeiladu, ac amgau

trwy ganiatad ei dad; ond neidiodd John Lloyd, a Griffith Davies, o'r "*Guardian Assurance Office*," allan i'r ymgyrch, ac ataliwyd y trais.

Cyfansoddodd aml ddarn o farddoniaeth dda, o bryd i bryd, wrth y rhai y gosodai y ffugenw "Einion Mon."

Darlithodd yn fynych, gyda chymeradwyaeth mawr, yn y *Literary Institute, Aldersgate;* ac yn nghyfarfodydd y "Cymreigyddion." Ystyrid ef yn ysgolhaig campus, mewn mesureg, dacaryddiaeth seryddiaeth, Ffrancaeg, Eidalaeg, Ellmynaeg, Groeg, Lladin, Saesneg, a Chymraeg; a medrai bob math ar ysgrifen addurniadol. Bu farw yn 1838, yn 50 mlwydd oed.

**LLOYD**, Lewis, yr Arianwr llwyddianus, ydoedd fab henaf William Lloyd, Cwrt Henry, plwyf Llangathen, swydd Gaerfyrddin; ac a anwyd yn 1768. Cafodd ychydig o addysg pan yn ieuanc, a daeth yn foreu yn ddeiliad argraffiadau crefyddol. Wedi ymaelodi gyda'r Annibynwyr, a dechreu pregethu, anfonwyd ef i'r athrofa fechan a gynhelid ar y pryd yn Abertawe; ac yn y diwedd, trwy gymeradwyaeth Dr. John Jones, ymsefydlodd yn weinidog ar eglwys Gymreig a gyfarfyddai mewn addoldy bychan yn Manceinion. Ymddengys nad oedd wedi ei gynysgaeddu a llawer o ddoniau pregethwrol, ac nad oedd ganddo ond gobaith gwan an gynaliaeth wrth bregethu yr Efengyl. Yn mhen ychydig, efe a briododd unig ferch i John Jones, aelod o'r eglwys, a masnachwr cyfoethog yn y dref, yr hwn oedd yn arfer benthyca arian ar lôg, gan weithredu fel math o fancer yn mhlith ei gydnabod. Gan y gwelai ei dad yn nghyfraith nad oedd fawr o obaith iddo ddyfod byth yn un o ser yr areithfa; ond bod ganddo alluoedd a allent ei wneuthur yn haul yn y byd masnachol, efe a'i darbwyllodd i roddi y weinidogaeth i fyny, a dyfod yn gydgyfranog ag ef yn ei fasnach, o dan yr enw "Jones, Lloyd, & Co." Eangodd y fasnach yn fuan o dan eu dwylaw, a phrofodd Lewis Lloyd ei hun yn ddyn o athrylith neillduol i'w gylch newydd, fel o'r diwedd y cytunwyd bod iddo fyned i Lundain, a sefydlu cangen o'r ariandy yno, mewn cysylltiad a'r un oedd ganddynt yn Manceinion, fel y gallent dynu taliadau ar eu gilydd. Cyn hir, daeth "Ariandy Jones, Lloyd, a'u Cyf.," yn un o'r ariandai parchusaf yn Llundain, ac y mae yn aros hyd heddyw yn golofn o athrylith fasnachol mab Cwrt Henry. Wedi sefydlu masnach anrhydeddus, pentyru aur wrth y miloedd, prynu etifeddiaethau llydain, a phalasau gorwych, ac eistedd mewn cyd fwynhad gyda phendefigion y bobl, efe a ymneillduodd oddiwrth ei ofalon bydol, gan osod ei fab, Samuel Jones Lloyd, yn ben ar y fasnach yn ei le, yr hwn wedi hyny a ddyrchafwyd i Dy yr Arglwyddi, dan yr enw Arglwydd Overstone.

Mae hanes Lewis Lloyd yn un o'r engreifftiau cryfaf, mai nid ffordd freiniol sydd yn arwain i enwogrwydd, a bod yn rhaid i athrylith pob dyn ddyfod o hyd i'w faes priodol cyn y medr ymagor a rhagori. Adroddai Lewis Lloyd yn fynych, yr hanesyn canlynol am ei fywyd athrofaol, yr hwn oedd ar y pryd yn orlawn o awgrymiadau, er nad oedd ef na neb arall yn eu hamgyffred. Pan yn y coleg, yr oedd galwad ar y myfyrwyr, bob un yn ei dro, i ddechreu gwaith y dydd trwy weddi gyhoeddus, yn y fyfrgell; ond byr iawn oedd dawn gweddi Lewis Lloyd, a llawer gwaith y talodd efe yn llawen, chwe' cheiniog i un o'i gydfyfyrwyr, yr hwn oedd fachgen duwiol, a gweddiwr doniol, am weddio yn ei le. Aeth y ddau allan i'r byd mawr a llydan; uchelgais y talwr oedd cyrhaedd pinacl cyfoeth ac anrhydedd, yr hyn, yn ddiau, a gyrhaeddodd i foddineb ei galon; ond uchelgais y gweddiwr oedd bod yn bregethwr deg o'r gloch mewn cymanfa, yr hyn hefyd a gyrhaeddodd yntau; eithr ni chyrhaeddodd wrth hyny ond cyflog ag y buasai cogydd, neu drulliad ei hen gydfyfyriwr yn ei wrthod gyda pherffeithrwydd dirmyg! Dylai, gan hyny, fod byd arall, yn yr hwn y bydd i'r gweddiwr gael ei wobrwyo. Bu Lewis Lloyd farw yn mhalas ei fab yn swydd Northhampton, yn mis Mai, 1858, yn 90 mlwydd oed.

**LLOYD**, Syr Marmaduke, marchog, ydoedd fab i Thomas Lloyd, Trysorydd Ty Ddewi, ac wyr i Morgan Lloyd ab Huw o Lanllyr, a Maes y Felin, swydd Aberteifi. Dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr, ac yr oedd yn aelod o'r Deml. Gwnaed ef yn brif farnydd brawdlysoedd Maeshyfed, Brycheiniog, a Morganwg; ac yn 1630, yn brif ynad Aberhonddu, ac yn un o gynghoriaid y Cyffiniau. Yr oedd yn fyw yn 1640.

**LLOYD**, Nicolas, M.A., a anwyd yn Holton, sir Flint yn 1634. Yr oedd ei dad, George Lloyd, yn weinidog Wonsington ger Caerwynt; ac efe a osododd ei fab yn ngholeg Caerwynt. Derbyniwyd ef i Hart Hall, Rhydychain; oddiyno fe'i penodwyd i ysgoloriaeth coleg Wadham, yn 1653, ac ar ol hyny i gymrodoriaeth. Yn 1665, pan ddyrchafwyd Dr. Blanford, gwardydd y coleg hwnw, i esgobaeth Rhydychain, daeth Mr. Lloyd yn gaplan iddo, ac efe oddeutu y pryd hwnw yn beriglor eglwys St. Martin, Rhydychain; ac yn 1672 efe a'i cyflwynodd ef i berigloriaeth Newington, St. Mary, ger Lambeth, yn Surrey. Efe oedd awdwr "*Dictionarium Historicum, Geographicum, Poeticum*," &c. &c. Oxon. 1670, folio. Tynwyd hwn yn benaf o Eiriaduron C. Stephanus a P. Terrarius, ond gwnaeth yr awdwr ef yn gyfansoddiad hollol newydd, drwy chwanegu ato yn agos gymaint ag a gynwysai yn flaenorol, gyda llawer o wellianau. Cyhoeddwyd yr argraphiad newydd hwn yn 1686, yn Llundain, yn gyfrol unplyg. Bu farw Mr. Lloyd yn Newington yn 1680.

**LLOYD**, Richard, B.D., ydoedd fab i David Lloyd, Ysw., o'r Henblas, yn Môn, ac a aned yn 1574. Cafodd ei addysg gartref, dan arolygiaeth ei dad; a phan yn 17 oed anfonwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, efe a raddiwyd, ac a gafodd berigloriaeth Sonning, a ficeriaeth Tilehurst, yn Berkshire. Dioddefodd lawer yn ystod y gwrthryfel yn 1642, ar gyfrif ei frwdfrydedd yn achos y brenin; gan gael ei garcharu bedair neu bum waith; ac o'r diwedd difuddiwyd ef o'i ddyrchafiadau eglwysig. Wedi cael ei ddarostwng i dlodi yn y modd hwn, efe a ddychwelodd i Rydychain, lle y bu yn cadw ysgol anghyoedd dros amryw flyneddoedd. Y pryd hwnw yr ysgrifenodd, er mwyn ei efrydwyr, "*A Latin Grammar, or a compendious way to obtain sufficient Knowledge of the Latin Tongue, and the use of it both in prose and verse*," Rhydychain, 1658, y trydydd argraphiad. Cyfansoddodd rai llyfrau ereill. Bu farw Mehefin, 1659, gan adael mab o'r enw William ar ei ol, yr hwn a ddaeth wedi hyny yn esgob Llanelwy.

**LLOYD**, Richard, marchog Ecclusham, ger Wrexham, a Dulasau, yn sir Gaernarfon, ydoedd gynrychiolydd teulu parchus a henafol, a pherchenog

Digitized by Google

ettifeddiaeth helaeth yn sir Gaernarfon, sir Feirionydd, a sir Ddinbych. Yr oedd yn brif ynad yn nghylchdaith Brycheiniog; ac yn ystod y Gwrthryfel, yr oedd yn ymlynwr gwresog wrth blaid y brenin. Hydref 7, 1642, ymddengys i'r Brenin wedi dyfod o Amwythig i Wrecsam, er cyfarfod a'r prwyaduron o ddinas Caerlleon Gawr, alw gyda Syr R. Lloyd, ac iddo yntau geisio ei ddarbwyllo i aros hyd dranoeth yn Ngwrecsam o achos y tywydd, a dywedir i'r brenin ei ateb ef, a'r boneddigion ereill gydag ef, yn y geiriau syml a serchus canlynol; "Foneddigion, cwch chwi, a gorphwyswch; oblegid y mae genych gartrefi ac aneddau i fyned iddynt, a gwelyau yn eich meddiant i orphwys ynddynt, a chaniataed Duw i chwi eu mwynhau yn hir. Yr wyf fi wedi fy ymddifadu o'r cysuron hyn. Rhaid i mi feddwl am yr helyntion presenol, a dychwelyd heno i'r lle y daethum o hono." Bu farw Syr Richard Lloyd ar y pumed o Fai, 1676, yn 71 mlwydd oed, ac efe a gladdwyd yn Ngwrecsam; ac y mae cofadail hardd ac addurnedig wedi ei wneud iddo, yn mharth deheuol yr eglwys; ond heb un cerfargraff.

**LLOYD**, Simon, B.A., o'r Bala, a hanai o un o'r teuluoedd henaf, a mwyaf parchus yn Meirion, ac a anwyd yn y flwyddyn 1756. Dygwyd ef i fyny yn Ngholeg Iesu, lle y graddiwyd ef yn B.A.; ac wedi ei urddo, bu yn gwasanaethu amryw guradaethau yn Ngogledd Cymru. Dywed yr *Em. Welshmen*, fod Syr Watkin W. Wynn wedi ei benodi i guradaeth barhaol Llanuwchllyn, ond i'r esgob Horsley wrthod cadarnhau y penodiad, o herwydd y dywedid fod ynddo dueddiad at Fethodistiaeth; ac iddo yntau, mewn canlyniad, gan ei fod yn wr o gyfoeth, beidio gwneyd cynyg mwy am un appwyntiad arall yn yr eglwys, eithr troi at y Methodistiaid. Tra y dywed *Methodistiaeth Cymru*, mai curad oedd efe yn Bryneglwys yn Ial, ac iddo trwy ei waith yn gwahodd Thomas Charles o'r Bala i bregethu unwaith yn ei eglwys, dramgwyddo ei blwyfolion, nes erbyn y Sabboth canlynol, yr oedd yr eglwys wedi ei chloi yn ei erbyn, a gorfu arno yntau ffoi ymaith am ei fywyd, ac ymuno a'r Methodistiaid. Yn ol ein gwybodaeth o gyflwr yr Eglwys Wladol yn yr oes hono, tybiwn y gall y ddau adroddiad fod yn wirionedd. Canys gwyddom i Walter Cradoc, ar ol cael ei droi allan o guradaeth Caerdydd, gael derbyniad eilwaith i guradaeth Wrexham; a dichon i Simon Lloyd, ar ol cael ei wrthod yn Llanuwchllyn, gael ei dderbyn i Fryneglwys. Ond pa fodd bynag, yr oedd ei ymuniad a'r Methodistiaid Calfinaidd yn gryn gaffaeliad i'r enwad hwnw wrth ddechreu ei yrfa, a thra eto heb ddechreu urddo gweinidogion; a bu yn llafurio yn ffyddlawn, er nad yn boblogaidd, yn mhlith ei frodyr newyddion o hyny hyd ei farwolaeth. Efe oedd yr ail offeiriad a ymunodd a'r Methodistiaid yn y Gogledd; ymunodd Thomas Charles a hwynt tua diwedd 1784, a dilynodd Simon Lloyd ei esiampl, rhwng 1785 a 1790. Trigai y ddau o hyny allan yn y Bala,—Simon Lloyd yn ei dreftadaeth ei hun—Plas-yn-dre; a daeth y Bala i'r Methodistiaid yn y Gogledd, yr hyn ag oedd Llangeitho iddynt yn y Deheudir. Ymddengys nad oedd Simon Lloyd yn meddu ar ddoniau pregethwrol poblogaidd, ond yr oedd yn ysgolhaig da, a gwnaeth ddefnydd mawr o'i dalentau yn yr ystyr hono. Cyhoeddodd ei "Amseryddiaeth Ysgrythyrol," cyfrol 8 plyg, yn y Bala, yn 1816; yr hwn a fu yn destun ei efrydiaeth am 30 mlynedd, ac a argraffwyd drachefn. Cyhoeddodd hefyd "Esboniad byr ar Lyfr y Datguddiad," 8 plyg, Bala, yn 1828; yr hwn hefyd a ail gyhoeddwyd. Ar ol marwolaeth ei gyfaill Charles, efe a gyhoeddodd ddwy gyfrol o'r "Drysorfa." Bu farw Tachwedd 6, 1836, yn 80 oed; a chladdwyd ef yn meddrod y teulu, yn eglwys Llanycil.

**LLOYD**, Thomas, Abergele, ysgolfeistr, a gweinidog perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd, ydoedd fab i John Lloyd o Blasmeredydd, plwyf Gyffylliog, swydd Ddinbach, lle y ganwyd ef yn 1776. Yr oedd yn gefnder o ochr ei fam i Edward Jones o Faes y plwm. Yr oedd anaf geni ar ei law ddeau, am yr hon y gwisgai bob amser faneg ddu; ac oblegyd hyny, penderfynodd ei rieni, y rhai oeddynt mewn amgylchiadau lled gysurus, ac yn eglwyswyr selog, ei ddwyn i fyny yn yr ysgolion goreu oedd yn y wlad, gyda'r bwriad o'i wneyd yn gyfreithiwr, neu yn offeiriad. Gyda'r amcan hwnw, bu yn Llanrhaiadr yn Nghinmeirch, gyda John Jeffreys; yn Ninbach, gydag un Minshull; ac wedi hyny, yn yr Ysgol Fawr, yn Rhuthyn. Yr oedd er yn ieuanc, o dueddiadau crefyddol, ac yn mynych dynu anfoddlonrwydd a ffonodiau ei dad arno, trwy ei waith yn cyfrinachu yn ddirgelaidd a Methodistiad yn y gymydogaeth. Wedi gorphen ei ysgol, yn lle myned yn ei flaen at yr hyn y bwriadai ei rieni, efe a benderfynodd ymroi at gadw ysgol, ac a ddechreuodd ar ei waith yn 1794, ac efe yn 18 mlwydd oed, mewn ystafell groes, gysylltiedig a hen dŷ bychan a elwid High Gate, yn Llansantsior, ger Abergele. Daeth yr ysgol yn fuan i fri, a'r lle yn rhy fach, fel y penderfynodd y plwyfolion adeiladu ysgoldy iddo, mewn cysylltiad a'r eglwys, yn y fan lle saif yn awr feddrod arglwydd Dinorben, a'i deulu. Dygwyd traul yr adeiladaeth trwy roddion gwirfoddol, at yr hyn y rhoddodd Mr. Hughes, Cinmel 10*p*. Daeth yr ysgol yn mlaen yn dra llwyddianus, noddid hi gan oreugwyr yr ardal, a choleddid syniadau uchel iawn am yr ysgolfeistr drwy holl gylch ei adnabyddiaeth. Ond torodd y newydd drwy yr ardal fel taran un diwrnod, bod Thomas Lloyd wedi myned at y *Caradocs*, fel y gelwid yr Ymneillduwyr yn yr oes hono, yr hyn a'i dygodd ef ar unwaith o dan ŵg yr awdurdodau. Yr oedd wedi ymuno ar Methodistiaid Calfinaidd, a gyfarfyddent yn yr ardal hono mewn anedd-dy bychan a elwid y Bryngwyn, ar ymyl y ffordd o Abergele i'r Bettws. Wedi gweled nad oedd Llansantsior i fod iddo fel cynt, efe a symudodd i Abergele, yn 1799, ac a ddechreuodd gadw ysgol yno, lle cafwyd prawf yn fuan, ei fod wedi ei adblanu mewn lle cymwys i'w elfen. Tybir iddo ddechreu pregethu yn nghorph y flwyddyn hono; ac wedi llafurio yn ddiwyd ar y Sabbothau, a theithio llawer, trwy Ogledd Cymru yn neillduol, ar adegau gwyliau yr ysgol, efe a neillduwyd yn un o bump, i gyflawn waith y weinidogaeth yn y flwyddyn 1819; y pedwar ereill oeddynt James Hughes, Lleyn; William Roberts, Clynog; H. Gwalchmai; ac Owen Jones, Gelli. Yr oedd yn bregethwr llafurus a phur gymeradwy; ond er hyny fel ysgolfeistr yr oedd ei brif enwogrwydd. Yr oedd yn ysgolhaig da—yn fedrus mewn rhifyddiaeth, gramadeg, daearyddiaeth, a morwriaeth; a gallasai hefyd gyfranu addysg yn elfenau y Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg. Cyrchai plant i'w ysgol o bell ac agos, a chynnyrchai y fath ddylanwad arnynt—nid trwy y wialen, yn ol arferiad yr oes, ond trwy foddion moesol, fel yr oeddynt

Digitized by Google

oll yn ei ofni, a'i barchu. Yn 1844, ymaflodd y ddafaden wyllt yn ei wyneb, yr hyn a derfynodd yn ei angau, Gorphenaf 15, 1848, ac efe yn 72 oed. Gadawodd yn ei ewyllys 600*p*. at ddysgu plant mewn ysgol ddyddiol yn Abergele, ac mae ei goffadwriaeth yn parhau yn werthfawr yn yr ardal.

**LLOYD**, WILLIAM, D.D., esgob Llanelwy, ydoedd fab i Richard Lloyd, B.D., o'r Henblas, yn Môn, periglor Sonning, a ficer Tilehurst, yn swydd Berk, lle y ganwyd ef yn 1627. Pan yn 11eg oed, derbyniwyd ef i goleg Oriel, Rhydychain; aeth oddi yno i'r Coleg Newydd, ac wedi hyny i goleg Iesu, lle y daeth yn ysgolor, ac yn gymrawd. Yn 1654, cyflwynwyd iddo rectoriaeth Bradfield, swydd Berk, yr hon a roddodd i fyny yn fuan; ac yn 1660, gwnaed ef yn brebendur Ripon. Yn 1666, gwnaed ef yn gaplan i Charles II., ac yn 1667, yn D.D., ac yn brebendur Willsford, a Woodford, yn mbrif eglwys Salisbury. Yn yr un flwyddyn hefyd, cyflwynwyd iddo gan y goron, ficeriaeth St. Mary, yn Reading; ac ar y 13eg o Fehefin, gwnaed ef yn archddiacon Meirionydd. Yn Mai, 1672, gwnaed ef yn ddeon Bangor, ac yn 1674, yn *residentiary* Sarum. Yn 1676, gwnaed ef yn ficer St. Martin, yn Westminster; ac ar y 3ydd o Hydref, 1680, urddwyd ef yn esgob Llanelwy. Yr oedd yn brotestant o'r mwyaf selog, ac wedi profi hyny trwy ei draethodau rhagorol yn erbyn Pabyddiaeth yn y blyneddoedd 1674, 1675, a 1677. Yn 1684, efe a wnaeth ymosodiad egniol ar y Presbyteriaid, ar dir hanesiaeth eglwysig, mewn traethawd dan yr enw *An Historical Account of Church Government as it was in Great Britain and Ireland, when they first received the Christian Religion;* yr hwn a ddygodd atebiad chwerw, dan yr enw, *A Defence of the Antiquity of the Royal Line of Scotland, by Sir George Mackenzie, His Majesty's Advocate in Scotland*—cyfeiriad nad oedd yn ddysgwyl.

Yn 1688, adnewyddodd y brenin, Iago II. ei gyhoeddiad dros ryddid cydwybod, gyda'r bwriad o ddychwelyd y deyrnas at Babyddiaeth; a gorchymynodd i'r holl offeiriaid trwy y deyrnas, ddarllen y cyfryw gyhoeddiad yn yr eglwysi ar Sabboth penodol, a bod i'r esgobion ofalu bod y gorchymyn yn cael ei gario allan. Ond yn lle ufuddhau i orchymyn y brenin, darfu i chwech o'r esgobion, a'r cyntaf o ba rai oedd Lloyd, esgob Llanelwy, ymgynghori a'r archesgob Sancroft, ac uno a'u gilydd i anfon deiseb at y brenin, i fynegu na's gallent yn gyson a'u cydwybodau, ddarllen ei gyhoeddiad yn yr eglwysi; a'r canlyniad fu iddynt gael eu traddodi i'r Tŵr, a'u dwyn i brawf o dan y cyhuddiad o "ddyfeisio, gwneyd, a chyhoeddi athrod bradwrus yn erbyn ei fawrhydi, a'r llywodraeth." Ond ar ddiwedd un o'r rheithbrawfion mwyaf pwysig a dyddorol a gymerodd le yn y deyrnas hon erioed, cyhoeddwyd yr esgobion yn DDIEUOG, er gorfoledd dirfawr drwy yr holl wladwriaeth. Cyn diwedd y flwyddyn hono, yr oedd yn Chwyldröad gwyllt yn Lloegr, y Tywysog Orange wedi tirio yn yr Ynys, ac ar ei faner "Amddiffynaf y grefydd Brotestanaidd, a rhyddid Lloegr;" ac Iago II. wedi gorfod gadael ei deyrnas, a ffoi i Ffrainc. Yr esgob Lloyd, gan ei fod a'i holl galon yn y gwrthryfel hwn, a wnaed yn arglwydd elusenwr i William III., ac yn 1692, dyrchafwyd ef i esgobaeth Lichfield a Coventry; ac yn 1699, i esgobaeth Worcester, lle y bu farw yn ei balas ei hun, castell Hartlebury, Awst 30, 1717, yn 91 oed; a chladdwyd ef yn eglwys Fladbury, ger Evesham, yn yr hon yr oedd ei fab yn beriglor.

Yr oedd yr esgob Lloyd yn awdwr amryw o lyfrau; at y rhai a enwyd eisioes, nodwn y canlynol:—*A Chronological Account of the Life of Pythagoras; Nine Occasional Sermons; A Letter to Dr. William Sherlock,* 1691*; A Discourse of God's ways of disposing Kingdoms,* 1691*; The Pretences of the French Invasion Examined; Explanation of Daniel's Seventy Weeks; An Exposition of the Same; A System of Chronology; Harmony of the Gospels; The Chronology of the Bible.* Cyfieithodd i'r Lladin a'r Saesneg Epistol Groeg, Jeremy. Gadawodd mewn llawysgrifau, *A Discourse of the Three Orders in the Ministry; History of the Church of England.* Bu yn cynorthwyo Wilkins yn ei *Essay towards a Real Character, and Philosophical Language;* a thybir bod ganddo law yn y *Series Chronologica Olympiadum,* &c. Hefyd bu yn cynorthwyo Wharton yn ei *Anglica Sacra.* Gwel Wood's *Athen. Oxon. Biog. Brit.*, Le Neve's *Fasti.*

**LLOYD**, WILLIAM, D.D., esgob Llandaf, ydoedd fab i Edward Lloyd, rector Llangower, Meirion, o 1645 hyd 1685. Addysgwyd ef yn ngholeg St. Ioan, Caergrawnt; ac wedi ei urddo a'i anrhegu ag amryw ddyrchafiadau eglwysig, cafodd ei benodi yn gaplan i Charles II. Yn Ebrill, 1676, cysegrwyd ef yn esgob Llandaf; yn Mawrth, 1679, dyrchafwyd ef i Peterborough; ac yn Mehefin, 1685, i Norwich. Yn 1691, bwriwyd ef allan o'i esgobaeth am wrthod cymeryd llywodlw i William a Mary, ac ymgiliodd i Hammersmith, ger Llundain, lle y bu yn llechu, ac yn gweinyddu ei swydd yn ddirgel o hyny hyd ei farwolaeth yn 1710. Claddwyd ef yn nghlochdy yr eglwys hono, yn ol ei ddymuniad. Mae ei arlun yn ei wisgoedd esgobol yn cael ei gadw yn Mhenylan.

**LLUCHED**, ansawd benywaidd crybwylledig yn y "Mabinogion" mewn cyswllt a Nefed.

**LLUDD**, mab henaf Beli Mawr, a brawd Caswallawn. Olynodd ei dad ar orsedd Prydain, ac a wnaeth Lundain ei brif gartref, yr hon a amgylchodd efe â chaerau, ac a adeiladodd dai mawreddog oddifewn y ddinas, ac a sefydlodd dir helaeth oddiamgylch iddi, y tu allan i'r caerau, tuag at amaethyddiaeth a lle pori. Wedi ei gwneud fel hyn yn rhagorach nag un ddinas arall ag y gwyddid am dani, efe a roddodd iddi yr enw Caer Ludd, yn ol ei enw ei hun. Mewn cyfnod diweddarach, galwyd hi Caer Lundain. Blinwyd ef yn fawr gan y Coraniaid, tylwyth dieithr a ymsefydlasant yn yr ynys; ac y mae y dull cyfareddus y gorchfygodd efe hwynt yn cael ei osod allan yn gyflawn yn y Brudiau Cymreig, a chyfeirir at yr unrhyw hefyd yn y Trioedd. Claddwyd ef yn agos i'r porth a elwir Porth Lludd, a chan y Saeson Ludgate. Ei ddau fab oeddynt Afarwy, a Theneufan. Y mae dau hen lyfr cyfrifedig i Daliesin, a elwir Molawd Lludd, yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology.*

**LLUGUN**, neu LLUGYN Y LLAN, a LLUGYN Y WERN, dwy drefgordd yn mhlwyf Helygen, swydd FFLINT; 2 filldir i'r de orllewin o dref FFLINT. Gwerth ardrethol Llugyn y Llan, 2763*p*.; o ba rai y mae 1831*p*. mewn mwngloddiau. Gwerth ardrethol Llugyn y Wern, 1461*p*.; o ba rai y mae 26*p*. mewn mwngloddiau, a 10*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 689; a 576.

**LLUGWY** (Y), afon fechan yn swydd Gaer yn arfon. Y mae yn cyfodi ar y Gludair Fawr, yn Eryri,

Digitized by Google

ac wedi llifeirio tua 10 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain heibio i Gapel Curig, y mae yn ymarllwys i'r Gonwy ger Bettws y Coed. Y mae un rhaiadr rhamantus arni, a elwir Rhaiadr y Wenol; ond ei enw priodol ydyw "Rhaiadr Ewynnol," (*The Foaming Cataract.*)

**LLUGWY**, neu LLIGWY, beisfor bychan, yn mharth gogledd ddwyreiniol Ynys Fon, rhwng traeth Dulas, a Moelfre, 5½ milldir i'r de ddwyrain o Amlwch.

**LLWCHAIARN**, sant a flodeuai yn y chweched ganrif. Yr oedd yn fab i Hugarfael ab Cyndrwyn, ac yn frawd i Aelhaiarn, a Chynhaiarn. Efe a sylfaenodd yr eglwysi Llan-llwchaiarn, a Llanmerewig yn sir Drefaldwyn; a Llanychaiarn, a Llanllwchaiarn yn Ngheredigion. Cedwid ei ddydd-gwyl Ionawr 11.

**LLWCH LLAWYNIOG**, ansawd a geir yn y "Mabinogion." Efe a elwid hefyd, Llech Llawyniog.

**LLWCHWR** (Y), afon yn NEHEUDIR CYMRU. Y mae yn cyfodi yn ystlysau y Mynydd Du, yn swydd Gaerfyrddin, ac yn llifeirio am oddeutu pymtheng milldir i'r de-dde-orllewin, hyd ben y mor-gainc a elwir afon Burry. Y mae yn ffurfio rhaiadr o 19 troedfedd mewn un man, ac yn ffurfio y ffin rhwng swydd Gaerfyrddin a swydd Forganwg, dros oddeutu 8 milldir yn y rhan isaf o'i gyrfa.

**LLWCHWR**, a elwir hefyd LLYCHWYR, treflan yn mhlwyf Llanedi, cantref CARNWALLON, swydd GAERFYRDDIN; 12 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Abertawe. Y mae y ffordd o Bont ar Ddulas i Landybie, yn myned trwy y dreflan hon. Y mae yr afon Llwchwr yn ei ffinio ar y tu dwyreiniol, ac yn ysgaru y plwyf oddiwrth swydd Forganwg.

**LLWCHWR**, neu CASTELL LLWCHWR, bwrdeisdref, a phlwyf, yn nghantref ABERTAWE, swydd FORGANWG. Y mae y dref yn gorwedd ger yr afon Llwchwr, a'r hen ffordd Rufeinig a elwir "Ffordd Julian;" yn agos i reilffordd Deheudir Cymru; 7 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Abertawe; ar y llanerch lle y safai yr hen orsaf Rufeinaidd *Leucarum.* Bu unwaith yn lle o gryn fri a phwysigrwydd; ond nid yw yn bresenol namyn pentref canolig. Gelwid y lle mewn oesoedd boreuol "Tre yr Afanc," am fod llawer o'r creaduriaid a elwid yr Afancwn yn yr afonydd cymmydogol, medd rhai. Ychydig o amgylchiadau hanesyddol sydd wedi eu cadw ar gôf mewn cyssylltiad a'r lle; dywedir fod y castell wedi cael ei adeiladu gan Henry Beaumont, Iarll Warwick, yr hwn yn, neu oddeutu y flwyddyn 1099, a ddaeth i Frowyr; ac wedi traws-feddianu tiriogaethau eang, a adeiladodd yr amddiffynfa hon, a chestyll Abertawe, Penrice, a Llanrhidian. Yn y flwyddyn 1150, daeth Meredydd, a Rhŷs, meibion Gruffydd ab Rhŷs, a chan ymosod ar Frowyr, hwy a anrheithiasant y wlad, a chymerasant dref, a chastell Aberllychwr, ac wedi yspeilio y trigolion, gwnaethant y dref yn gydwastad a'r llawr, a di gaerasant y castell. Yn nheyrnasiad Edward yr Ail, dyroddwyd y castell gan y penteyrn hwnw i Huw le Despencer, gan yr hwn y bernir iddo gael ei ail adeiladu; ond ymddengys na chyrhaeddodd ei bwysigrwydd cyntefig mwyach, ac na lwyr adferwyd y dref drachefn o'i hanrheithiad blaenorol. Y mae y dref hon, mewn undeb ag Abertawe, Nedd, a Chenffig, yn anfon cynnrychiolydd i'r Senedd. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a chynnelir ffeiriau yma, ar Mehefin yr ail, a Hydref y degfed. Croesir yr afon yma gan y brif-ffordd, ar bont a gyfodwyd yn ddiweddar; ac y mae pont arall, agos yn bedwaredd ran o filldir o hyd, yn cludo y rheilffordd dros yr afon. Cafwyd batholion, a chreiriau Rhufeinaidd eraill, o bryd i bryd yn y gymmydogaeth yma; ac y mae gweddillion dau wersyll Rhufeinaidd bychain gerllaw y dref.

Cyfrifir gwerth ardrethol y dref yn 1776*p.*; o ba rai y mae 100*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 821; yn 1861, 876. Tai annedd, 198. Mesura y plwyf 3589 o erwau o dir, a 410 o ddwfr. Llythyrfa, Llanelli. Gwerth ardrethol, 3753*p.*; o'r hyn y mae 600*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 1099; yn 1861, 1238. Tai annedd, 260. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 180*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

**LLWYBR**, mab Caw, un o ryfelwyr y brenin Arthur.

**LLWYD**, EDWARD, y naturiaethwr a'r henafiaethwr enwog, ydoedd ordderchfab i Edward Llwyd, Ysw., o Lanforda, ger Croesoswallt, o ferch i Price, o Glanffraid, ger Talybont, plwyf Genau'r Glyn, swydd Aberteifi; lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1660. Hanai o deuluoedd parchus o'r ddwy ochr, a dywedir bod ei dad yn disgyn o Elidyr Lydanwyn. Derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, Tachwedd 17, 1682; lle y cafodd y fraint o fod o dan addysg Dr. Plott. Ymddengys ei fod wedi dangos tuedd neillduol at henafiaethau er yn ieuanc, a'i fod wedi dangos cryn ragoriaeth yn y gangen hono cyn ei fyned i Rydychain; canys cawn ddarfod iddo, yn y flwyddyn yr aeth i'r coleg, ar orpheniad yr Amgueddfa Ashmolaidd, gyflwyno casgliad o Henafiaethau, a wnaethid ganddo ef ei hun, i'r Amgueddfa, o dan ofal y prif geidwad, Robert Plott, LL.D. Erbyn 1684, yr oedd wedi enill y fath safle, fel y penodwyd ef yn is-geidwad yr Amgueddfa Ashmolaidd; ac yn y swydd hono, bu yn dosbarthu a chymharu y gwahanol ysgrifau a gedwid yn yr Amgueddfa, fel y gwelir ar gynddalenau y cyfryw hyd y dydd hwn: —*Accurante Edvardo Luido, proscustode, anno* 1684; ac yn 1690, ar ymddiswyddiad ei gyfaill, a'i noddwr, Dr. Plott, efe a benodwyd yn benceidwad. Ymddengys ei fod ar y pryd hwn yn gwneyd y gwyddonau cysylltiedig a'i swydd yn brif bynciau ei fyfyrdod; ac ymddangosodd llawer o ysgrifau ganddo ar hanesiaeth naturiol, yn y *Philosophical Transactions* am y cyfnod hwnw. Yr oedd ei enw bellach wedi cyraedd cyhoeddusrwydd mawr, a chanddo adnabyddiaeth bersonol neu lythyrol, bron yn mhob parth o Brydain, a'r Iwerddon. Yn 1693, penodwyd ef i gasglu defnyddiau perthynol at ddwyn allan *Camden's Britannia*, o dan olygiaeth yr esgob Gibson. Dechreuodd ar y gorchwyl hwn yn 1696. Casglodd ar y daith hon, lawer iawn o wybodaeth dra gwerthfawr, blaenffrwyth o ba un a gyhoeddodd efe yn 1699, dan yr enw *Lithophylacii Britannici Iconographia;* ailargraphiad o'r hwn, yn nghyda llythyrau Edward Llwyd ar gloddelion, a gyhoeddwyd gan J. Huddesford, yn 1760. Yr oedd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn allan ar draul yr arglwyddi Somers, Dorset, a Montague, Syr Isaac Newton, Syr Hans Sloane, Dr. Ashton, Dr. Geoffray o Paris, Dr. Martin Lister, a Dr. Tancred Robinson, ac o dan olygiaeth yr olaf; yr hyn a brawf bod yr awdwr wedi cyraedd safle anrhydeddus yn y byd llenyddol. Yr oedd wedi tynu cynllun ar raddfa eang, er egluro iaith, a hanesiaeth Prydain; ac er ei alluogi i wneyd hyny yn effeithiol, dechreuwyd trysorfa yn

1696, er ei gynal, a thalu ei holl dreulion am bum mlynedd, modd y gallai felly deithio, nid yn unig Cymru, ond yr Alban, Iwerddon, Cernyw, a Llydaw hefyd, a chasglu pob peth a fyddai yn debyg o daflu goleuni ar iaith ac hanesiaeth y gwledydd yr ymwelai a hwynt. Dyma bellach ydoedd prif amcan ei fodolaeth, a'r fath oedd ymddiried y cyhoedd yn ei gymwysderau at y gorchwyl, fel na bu diffyg yn ei drysorfa am y pum mlynedd y bu yn teithio y gwledydd. Ymddengys, pa fodd bynag, mai Syr Thomas Mansel o Fargam, oedd ei brif noddwr yn yr anturiaeth hon, i'r hwn, gan hyny, y cyflwynodd efe y gyfrol gyntaf o'i *Archæologia.* Dengys un o'i lythyrau at Rowland, awdwr y *Mona Antiqua Restaurata*, iddo gyfarfod a llawer iawn o rwystrau ac anffodion ar y daith grybwylledig, yn neillduol yn Llydaw, lle y cymerwyd ef i fyny fel ysbïwr, ac ar ol archwilio ei lyfrau a'i bapyrau, y taflwyd ef i gastell Brest. Ond trwy ymyriad personau o ddylanwad yn Lloegr, cafodd ei ryddid, a chyraeddodd adref i Rydychain, yn ngwanwyn 1701. Yr haf canlynol graddiwyd ef yn M.A., tra yr ymroddai i barotoi ei waith mawr i'r wasg, ac yn 1707, ymddangosodd y gyfrol gyntaf o'i *Archæologia Britannica*, yr hon a gynwysa:—(1) *Comparative Etymology;* (2) *Comparative Vocabulary of the Languages of Britain and Ireland;* (3) *An Armoric Grammar, translated out of the French;* (4) *An Armoric-English Vocabulary;* (5) *Some Words omitted in Dr. Davies' Dictionary;* (6) *A Cornish Grammar;* (7) *MSS. Britannicorum Catalogus;* (8) *A British Etymologicon;* (9) *A Brief Introduction to the Irish or Ancient Scottish Language;* (10) *An Irish-English Dictionary, with a Catalogue of Irish MSS.*

Nid oedd yr uchod ond un gyfrol o lawer a fwriadai efe gyhoeddi er egluro henafiaethau Prydeinig; ond rhoddodd angau atalfa ar ei fwriad gwladgarol, a'r nodiadau gwasgaredig a geir yn argraffiad Gibson o *Camden's Britannia*, a'r ychydig a gyhoeddwyd gan Carte, yn 1736, yw yr oll sydd yn aros o'r defnyddiau gwerthfawr a bentyrodd efe at y cyfryw amcan.

Yn 1708, etholwyd ef yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol; a'r gwanwyn canlynol, dangosodd y Brifysgol ei pharch iddo, trwy ei ethol yn Arch-ringyll mewn Duwinyddiaeth. Ond byr amser a gafodd i fwynhau yr urddau hyn; canys ar brydnawn Sabboth, Mehefin 26, 1709, tarawyd ef gan yr eisglwyf, mewn canlyniad iddo gysgu mewn ystafell laith yn yr Amgueddfa Ashmolaidd, a bu farw y dydd Mercher canlynol, yn 49 oed. Claddwyd ef yn y rhodfa Gymreig, yn eglwys St. Michael; a dywedir bod hanes ei fywyd mewn llawysgrifen, yn nghyda'i arlun, yn cael eu cadw yn ddiogel yn Rhydychain.

Parth galluoedd Edward Llwyd, nid oes ond un syniad, sef na chododd ei ragorach yn llenyddiaeth y Gymraeg a'i chwaer-ieithoedd hyd y dydd heddyw; a thra byddo ieithoedd a henafiaethau Prydeinig yn destynau erfrydiaeth ysgolheigion, bydd i'r *Archæologia Britannica* drosglwyddo enw Edward Llwyd i lawr i'r cenedlaethau a enir, gyda'r parch a'r anrhydedd a gydwedda a'i ddoniau godidog.

Ei lawysgrifau perthynol i henafiaethau Cymreig a Gwyddelig, yn cynwys 40 o gyfrolau 2 blyg, 10 4 plyg, ac uwchlaw 100 mewn plygiad llai, a gollwyd mewn modd tra hynod. Yn mhen tua phedair blynedd ar ol ei farwolaeth, cynygiwyd hwynt ar werth i'r Brifysgol, ac i goleg Iesu; ond o herwydd rhyw anghydfod a fuasai rhwng yr awdwr â John Wyne, D.D., yr hwn oedd ar y pryd yn brif athraw coleg Iesu, ac wedi hyny a fu yn esgob Llanelwy, gwrthododd y Brifysgol, a'r coleg, eu prynu; ac mewn canlyniad, daethant yn feddiant i Syr Thomas Seabright, o Beechwood, swydd Herts. Yn Ebrill 1807, gwnaeth Syr John Seabright arwerthiad cyhoeddus ar yr holl ysgrifau, a daethant yn feddiant i Syr Watkyn Williams Wynn. Yn mhen ychydig flyneddau ar ol hyny, anfonwyd y rhan fwyaf, a'r werthfawrocaf o honynt i Lundain, i gael eu rhwymo; ond tra yr oeddynt yno, aeth gweithdy y llyfr-rwymydd ar dân, a difrodwyd hwynt oll, er colled anadferadwy i Lenyddiaeth Gymreig! Pwy fuasai yn meddwl y gallasai yr ychydig anghydwelediad a fu rhwng y Llwyd ar Gwynne, wneyd y fath ddifrod ar ffrwyth athrylith? "Wele, faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei ennyn!" Gwel y *British Remains* gan Nicholas Owen; *Cambro-Briton*, vol. ii.; *Trans. Cymrod.* vol. i.

**LLWYD**, Syr Gruffydd, gwr tra chlodfawr mewn hanesiaeth Gymreig, ydoedd fab i Rhys ab Gruffydd ab Ednyfed Fychan. Crewyd ef yn farchog gan y brenin Iorwerth I., am iddo ddwyn y newydd o flaen neb i'r brenin, yr hwn ar y pryd oedd yn cynal senedd yn Rhuddlan, fod y frenines wedi rhoddi genedigaeth ddiogel i fab, yn Nghastell Caernarvon. Efe a barhaodd dros lawer o flyneddau ar y telerau goreu â brenin Lloegr; ond o'r diwedd, gan nas gallai ddioddef yn hwy y gorthrymder a'r gormes a arferid gan y swyddogion Seisnig, yn enwedig Syr Roger Mortimer, Arglwydd y Waun, ac ynad Gogledd Cymru, tuag at ei gydwladwyr, efe a ymdorodd allan mewn gwrthryfel cyhoeddus yn erbyn y Saeson; ac er mwyn cyflawni ei amcan yn well i daflu ymaith iau y gorchfygwyr, efe a ymgynghorodd a Syr Edward Bruce, brawd Robert, brenin yr Alban, yr hwn a orchfygasai Iwerddon; gan ddymuno arno ddwyn, neu anfon rhai cartrodau i'w gynnorthwyo yn ei amcan. Gan nas llwyddodd yn hyn, Syr Gruffydd a gasglodd ynghyd gynifer o wŷr ag a allai, ac a ddechreuodd ryfel ffyrnig, gan redeg dros holl Ogledd Cymru, a'r cyffiniau, a chymeryd i'w feddiant y gwahanol gestyll a'r gorsafaoedd milwrol trwy y wlad. Modd bynag, gorchfygwyd ef a'i wŷr yn fuan gan fyddin gadarn y Saeson, ac efe ei hun a gymerwyd yn garcharor. Dygwyddodd hyn yn y flwyddyn 1322. Carcharwyd ef yn Nghastell Rhuddlan; a chyfansoddwyd awdl anerchiadol iddo yno, gan Gwilym Ddu, yr hon sydd argraphedig yn y Myvyrian Archaiology. Mae yn debygol iddo gael aros yn ngharchar hyd derfyn ei oes, gan nad oes dim hanes ar gael am ei ddienyddiad. Ei brif gartref oedd Tregarnedd, yn Mon, yr hwn a barhaodd yn meddiant ei hiliogaeth hyd y flwyddyn 1750, pan gafodd ei werthu.

**LLWYD**, Gruffydd, mab Dafydd ab Einion Llygliw, ydoedd fardd clodfawr, yn blodeuo rhwng 1380 a 1420. Mae amryw o'i gyfansoddiadau yn nghadw mewn llawysgrifen. O'r un anerchiadol i Owain Glyndwr, ac sydd yn argraphedig yn *Jones's Welsh Bards*, y mae aralleiriad bywiog yn *Pennant's Tours in Wales*. Cyfansoddodd hefyd awdl ar y Wibseren a ymddangosodd yn y flwyddyn 1402; ac awdl anerchiadol i Morgan Dafydd Llewelyn, oddeutu y flwyddyn 1390, pan osodwyd ef ar ei brawf am ladd prif ynad Caerfyrddin, pan ar ei faine yn y dref

Digitized by Google

hono, y rhai ydynt wedi eu cyhoeddi, gyda chyfieithiad Seisnig, yn y *Iolo Manuscripts*.

**LLWYD**, Gruffydd, ab Goronwy Gethin, ydoedd fardd yn blodeuo o 1390 i 1420. Cedwir rhai o'i gyfansoddiadau mewn llawysgrif.

**LLWYD**, Gruffydd, ab Dafydd, Gaplan, ydoedd fardd yn blodeuo o 1450 i 1480. Ychydig o'i weithiau sydd ar gael mewn llawysgrifen.

**LLWYD**, Gruffydd, ab Gruffydd ab Ifan ab Einion, ydoedd fardd yn blodeuo rhwng 1470 a 1500.

**LLWYD**, Gruffydd, ab Ifan, ydoedd fardd yn blodeuo o 1500 i 1530. Mae rhai o'i weithiau ar gael mewn llawysgrifen.

**LLWYD**, Humphrey, yr henafiaethydd enwog, ydoedd fab henaf Robert Llwyd, o dref Dinbych; a'i fam ydoedd Joan, ferch Lewis Pigott. Hanai ei dad o Foulk Rosindale, Normaniad a ddaeth yn foreu i Ddyffryn Clwyd, gan drigo yn Fox Hall, neu Foulk's Hall, ger Dinbych, ac ymuno trwy briodas a Llwydiaid Aston, ger Croesoswallt, o ba le y derbyniodd ei hiliogaeth yr enw Llwyd, yn gystal a bonedd Einion Efell. Ni wyddom ddim am ddyddiau boreuol Humphrey Llwyd, ond cawn ei enw fel cyffredinwr yn ngholeg Brazenose, Rhydychain, am 1547, lle yr efrydai physygwriaeth, ac y graddiwyd ef yn M.A. yn 1551. Mae lle i gasglu ei fod yn flaenorol i hyn wedi ei dderbyn i deulu arglwydd Arundel, cangellydd y Brifysgol, fel physygwr teuluaidd, lle yr arosodd efe am bymtheg mlynedd. Yn y cyfamser efe a gyhoeddodd ei lyfr cyntaf, dan yr enw *An Almanack and Calendar*, &c. Ei lyfr nesaf oedd cyfieithiad i'r Saesneg, o *Judgement of Urines*, Llundain, 1551. Tua'r pryd hwn, daeth i adnabyddiaeth ag arglwydd Lumley, chwaer yr hwn a briododd efe wedi hyny, o'r hon y cafodd bedwar o blant,—dau fab, a dwy ferch. Casglodd i'w frawd yn nghyfraith luaws o lyfrau gwerthfawr, y rhai a gedwir yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yn 1563, gadawodd wasanaeth arglwydd Arundel, a dychwelodd adref i Ddinbych; trigai o fewn muriau y castell, gan ymarfer ei gelfyddyd feddygol, myfyrio henafiaethau ei wlad, ac ymddifyru mewn cerddoriaeth. Profir y parch a delid iddo gan ei gyd-wladwyr, gan y ffaith iddo gael ei ethol ganddynt yn aelod seneddol dros fwrdeisdrefi swydd Dinbych. Yn y cyfamser, trwy offerynoliaeth ei gyd-drefwr, syr Richard Clough, ffurfiodd adnabyddiaeth gyfeillgar a'r daearyddwr enwog Ortelius, yr hwn a anrhegodd efe a mapiau o Gymru a Lloegr, er egluro ei *Ancient Geography*, yn nghydag ysgrif o'i ddau waith Lladinaidd ar henafiaethau Prydeinig, sef *Commentarioli Descriptionis Britannicæ Fragmentum*, a *De Mona Druidum Insula antiquitati suæ restituta;* at yr hwn yr ychwanegodd *De Armamentario Romano;* y rhai a ysgrifenodd efe yn 1568, ychydig cyn ei farwolaeth. Argraffwyd y ddau ddiweddaf fel attodiad i *Historiæ Britannicæ Defensio*, Syr John Price, Llundain, 1573; a'r cyntaf a gyhoeddwyd yn Cologne, yn 1572; ac argraffiad Saesneg o hono gan Twyne, yn 1573, dan yr enw *Breviary of Britain;* ond dygodd Moses Williams argraffiad hardd o'r tri gwaith gwreiddiol allan, yn 1723.

Ond prif waith Humphrey Llwyd ydyw ei *History of Wales*, yr hwn sydd gan mwyaf yn gyfieithiad o *Brut y Tywysogion*, a briodolir i Garadog o Lancarfan. Ysgrifenodd hwn yn 1599, ac y mae copi o hono yn mhlith y *Cotton MSS.* yn yr Amgueddfa Brydeinig; ond fodd bynag, gadawodd ef yn anorphenol. Ond dygwyddodd bod copi o hono yn meddiant Syr Henry Sidney, arglwydd-lywydd y cyffiniau, ac ar ei ddymuniad ef, cyhoeddwyd y gwaith gan Dr. D. Powell, ei gaplan, yn 1584, yr hwn a lanwodd y diffygion, ac a ychwanegodd lawer o nodiadau gwerthfawr. Digon am deilyngdod hwn, yw y ffaith iddo fod yn sylfaen amryw o weithiau helaethach a mwy honfawr ar Hanes Cymru. Bu Humphrey Llwyd farw yn 1568, yn 41 oed, a chladdwyd ef yn yr Eglwys wen, Dinbych, lle y dangosir ei fedd gan "gofadail arw, beddargraff sychlyd, a Psalm oddi tano" yr hon sydd yn dechreu fel hyn:—

> "The corps and earthly shape doth rest here, tomyd in your sight,
> Of Humphrey Llwyd, Master of Arts, a famous worthy wight."

Faint bynag o lawysgrifau a adawodd ar ei ol, ni chyhoeddwyd o honynt ond un gyfrol, yn cael ei gwneyd i fyny o'i gyfieithiad o *Treasures of Health*, Peter Hespanus; *The Causes and Signs of every Disease*, ac *Aphorisms Hippocrates*, Llundain, 1585. Y mae darlun gwreiddiol o hono yn cael ei gadw yn Aston, copi o'r hwn a welir yn *Royal Tribes* Yorke.

**LLWYD**, Huw, ydoedd fardd o fri, yn byw yn Cynfael, plwyf Ffestiniog, Meirionydd. Yr oedd yn dal swyddogaeth yn y fyddin, a gwasanaethodd dros amryw flyneddoedd ar y Cyfandir; ac wedi iddo ddychwelyd i'w wlad enedigol, efe a fu farw tua'r flwyddyn 1620, ac efe uwchlaw 80 oed. Claddwyd ef yn Maentwrog, a'i hen gyfaill a'i gydoeswr, Archddiacon Prys, rheithor y plwyf, a gyfansoddodd englyn ar yr achlysur, yr hwn sydd ar gael o hyd. Cynelir coffadwriaeth Huw Llwyd hefyd, drwy golofn fawreddog o graig, a ymddyrcha o'r afon Cynfael, ac a elwir "Pulput Huw Llwyd Cynfael." Ystyrid ef gan y werin gyffredin yn ddewin, ac yn berchen galluoedd goruwch naturiol, a haerid ei fod yn traddodi ei gyfaredd yn nosweithiol o'r pulpud hwn. Modd bynag, yr oedd efe yn meddu galluoedd naturiol mawrion fel bardd; ac yr oedd ei deithiau drwy wahanol wledydd y byd wedi rhoddi cyfle rhagorol iddo ystorio ei hun ag helaethach gwybodaeth na nemawr o'i gyfoeswyr. Mae amryw o ddarnau o'i eiddo ar gael mewn llawysgrifen; a'i feddargraph, ysgrifenedig ganddo ef ei hun, sydd argraphedig yn y Greal.

**LLWYD**, Hywel, bardd enwog o Forganwg. Blodeuai o 1640 i 1670. Mae rhai darnau o'i waith yn nghadw mewn llawysgrifau.

**LLWYD**, Iorwerth, bardd a flodeuai rhwng 1300 a 1360.

**LLWYD**, Lleucu, boneddiges o brydferthwch mawr, yn byw yn Mhenant, Meirionydd. Yr oedd yn gariadferch anwyl gan Llewelyn Goch ab Meurig Hen, o'r Nannau; ond yn groes i ewyllys ei rhieni, a'i chyfeillion. Pan aeth ei chariadfab ar daith i Ddeheubarth Cymru, dywedwyd wrthi gan ei thad, er mwyn tynu ei serch oddiar ei chariadfab, ei fod ef wedi priodi dynes arall; gyda chlywed hyny hi a syrthiodd i lawr, ac a fu farw yn y fan. Ei chariadfab, ar ei ddychweliad tua chartref, a gyfansoddodd alareb dra hiraethus a serch-gynyrfiol ar ei hol, y gwreiddiol o'r hon sydd ar gael mewn llawysgrif, a chyfieithiad o honi yn argraphedig yn *Jones' Bardic Museum*. Dygwyddodd hyn o gylch y flwyddyn 1390.

Digitized by Google

**LLWYD**, Morgan, o Wynedd, pregethwr ac awdwr athrylithgar, yn haner cyntaf yr 17eg ganrif, a hanai, meddir, o hen deulu Cynfal, plwyf Maentwrog, swydd Feirionydd; ac mae chwedlau oddi ar lafar gwlad yn cael eu dwyn yn mlaen, i brofi mai mab ydoedd i Huw Llwyd y bardd, sef chwedl "Huw Llwyd a'r Ysbryd" yn yr hon y mae yr hen fardd wrth anerch yr ysbryd yn dyweyd, "Os ysbryd da wyt ti, wnei di ddim niwaid i mi er mwyn Morgan fy mab;" a'r chwedl hono a gofnodir yn "Nrych yr Amseroedd" am Huw Llwyd wrth farw, yn galw am weled Morgan. Ond os cywir y dyddiad a rydd yr *Em. Welshmen*, i farwolaeth Huw Llwyd, sef "tua 1620;" a'r dyddiad a rydd *Hist. of Nonconformity in Wales*, i enedigaeth Morgan Llwyd, sef "y flwyddyn 1619," nis gallai Morgan Llwyd y pregethwr, fod yr un a'r "Morgan" sydd yn y chwedlau.

Nid oes ond pur ychydig o hanes Morgan Llwyd yn adnabyddus; dywedir ei fod yn ddyn ieuanc yn yr ysgol yn Ngwrexam pan ddaeth Walter Cradoc yno i bregethu, ar ol cael ei droi allan o Gaerdydd, yn y flwyddyn 1633, ac mai o dan weinidogaeth danllyd y gwr hwnw, y dygwyd ef i adnabyddiaeth o'r gwirionedd. Os felly, rhaid bod hyny wedi cymeryd lle yn y flwyddyn 1634, pan nad oedd Morgan Llwyd eto ond 15 mlwydd oed; canys dywedir na oddefwyd Walter Cradoc yn Ngwrecsam uwchlaw blwyddyn, ac y mae yn amlwg mai yno yr aeth ar ol cael ei droi allan o guradaeth Caerdydd. Pa fodd bynag, yr ydym yn cael Morgan Llwyd, fel y rhan fwyaf o'i frodyr annghydffurfiol, yn ffoadur yn Lloegr, yn adeg y rhyfel cartrefol; ac mewn llythyr di ddyddiad at ei fam, o Gaerloyw, dywed ei fod ef a'i gyfeillion wedi myned trwy beryglon lawer, a'i fod yn hyderu y byddai i Ragluniaeth agor llwybr yn fuan iddo ddychwelyd yn ol i Gymru. Erbyn 1649, yr oedd yn ddyn o safle mor bwysig yn y wlad, fel y penodwyd ef yn un or 25ain gweinidogion yr Efengyl, a wasanaethent fel profwyr a chymeradwywyr, o dan y Gyfraith er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru. Dywed Joshua Thomas, ei fod yn wr deallus iawn, ac yn barod annghyffredin ei ateb a'i ymadrodd. Bu am flyneddau yn weinidog o dan y Gyfraith a enwyd, ar dref Gwrecsam. Yr oedd yn enwog iawn trwy Gymru; ac yn y Deheudir, gelwid ef Morgan Llwyd o Wynedd. Teithiodd a phregethodd trwy y Gogledd, ac mae traddodiad am dano yn pregethu yn Mhwllheli, ar ddyddiau marchnad; ac wrth iddo gerdded yr heol, a'i ddwylaw ar ei gefn, a'i Fibl yn ei law, byddai y bobl yn cilio o'i flaen, fel pe buasai gerbyd yn carlamu trwy yr heol. Efe a fu farw, meddir, Mehefin 3, 1659, yn 40 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Ngwrecsam. Dywedir i filwr erlidgar suddo ei gleddyf at y carn i'w fedd, ac iddo ar unwaith syrthio yn glaf a marw, yn mhen ychydig amser.

Yr oedd yn wr o athrylith mawr, ac fel ysgrifenwr, nid oedd neb yn Nghymru i'w gystadlu ag ef. Mae amryw o'i lythyrau at Wm. Erbury wedi eu hargraffu gyda llythyrau Erbury, ac yr oedd tri o lythyrau a anfonodd efe at ei fam, (yn nghyfraith, mae'n debyg), yn meddiant Joshua Thomas, un o ba rai a welir yn "Hanes y Bedyddwyr," tud. 145.

Ysgrifenodd amryw o lyfrau bychain yn Gymraeg, sef "Llyfr y Tri Aderyn," Gwrecsam, 1653; "Gwaedd yn Nghymru yn ngwyneb pob Cydwybod," 1653; "Y Lleferydd Anfarwol," 1656—yr hwn a gyfieithwyd i'r Saesneg, gan Griffith Rudd, ac a gyhoeddwyd yn Llundain, yn 1739; "Yr Ymroddiad," 1657; "Cyfarwyddyd i'r Cymro," 1557. Crybwylla Baxter yn ei *Catholic Communion doubly Defended*, tud. 39, am lyfr Saesneg o waith Morgan Llwyd, dan yr enw, *A Dialogue between Martha and Lazarus about his Soul.*

Mae daliadau enwadol Morgan Llwyd yn anhysbys; ymddengys oddiwrth ei ysgrifeniadau, ei fod unwaith yn tueddu at y Crynwyr; a dywedir iddo fyned i ymweled â George Fox, ond iddynt fethu dyfod i gydwelediad.

**LLWYD**, Rhys, ab Rhys ab Rhisiart, ydoedd fardd rhagorol, yn byw yn Llanharan, Morganwg. Blodeuai rhwng 1420 a 1460.

**LLWYD**, Rhys, brydydd, a elwid hefyd yr Hen Fardd Llwyd o Forganwg, neu Rhys Llwyd ab Rhys ab Ricart, ydoedd yn byw yn Blaencynllan, ac yn blodeuo rhwng 1450 a 1500. Efe oedd tad Lewis Morganwg. Mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**LLWYD**, Richard, yr hwn a adnabyddid yn gyffredin wrth yr enw Bardd yr Wyddfa, neu Eryri, a anwyd yn Beaumaris, yn 1752. Morwr oedd ei dad, yn trafnidio ar y gororau, mewn llestr bychan o'i eiddo ei hun; eithr ar fordaith i ryw le yn sir Gaerwerydd, ymaflwyd ynddo yno gan y frech wen, o'r hon y bu efe farw. Y dygwyddiad anhyfryd hwn, yn nghyd a drylliad y llestr wrth ddychwelyd tua chartref, a daflasant y teulu i'r cyfyngder mwyaf. Tlodi y weddw oedd yn ddigon i'w hattal i roddi unrhyw addysg i'w mab; eithr ei awydd di orphwys ef am wybodaeth, a ymddangosai mewn amryw ffyrdd; ac er gwaethaf pob anhawsderau, efe a roddodd brawf yn ieuanc, fod ganddo gynneddfau naturiol cryfion. Yn ffodus iddo ef, yr oedd ysgol yn Beaumaris, wedi ei sefydlu gan un Mr. David Hughes, yr hwn, fel yntau, a anesid mewn amgylchiadau isel; eithr wedi hyny a ddaeth yn wr mawr, ac yn fendith i'w ynys enedigol. Yma, ebe ef, yn un o'i nodau i *Gayton Wake*, y derbyniais addysg dros naw mis; ac yr wyf yn cydnabod y fendith hon gyda gostyngedig ddiolchgarwch, gan iddi fod i mi yn ffynonell anhyspydd-adwy o ddedwyddwch. Pan yn 12 mlwydd oed, derbyniodd ei fam gyda llawenydd, swydd iddo yn ngwasanaeth Henry Morgan, Ysw., o'r Henblas. Arosodd yma dros amryw flynyddau, a defnyddiai bob mynud hamddenol i ddiwallu ei syched am ddarllen, a chyraedd gwybodaeth. Yn wastad efe a gyfodai yn dra boreu, a chysegrai yr amser a enillai fel hyn i astudio; ac yr ydoedd yn hynod drwy ei holl fywyd maith, am ei gymedroldeb a'i gynildeb. Yn y flwyddyn 1780 efe a aeth i wasanaeth Mr. Griffith, Caer Rhun, ar lan Conwy, fel arolygwr tiriogaeth eang. Gweinyddai hefyd fel ysgrifenydd i'w feistr, yr hwn oedd yr unig ynad gweithredol mewn cylchdaith dra helaeth. Arosodd yma hyd farwolaeth Mr. Griffith, pan y daeth yn alluog drwy ei gynilion, yn nghyda rhoddion bychain oddiwrth ddau gyfaill, i ddychwelyd i Beaumaris, a byw yn annibynol. Yn 1800, efe a gyhoeddodd ddarn barddonol ar Forgilfach Beaumaris, yr hwn a dderbyniwyd gan y cyhoedd gyda'r arwyddion amlycaf o gymeradwyaeth; ac mae y nodach cysylltiedig ag ef yn cynwys gryn lawer o hyfforddiadau lleol, ac hanesyddol, ac wedi sefydlu enwogrwydd yr awdwr fel henafiaethydd. Nid yn unig fe wnaeth y cyfansoddiad hwn Richard Lloyd yn adnabyddus i'r cyhoedd, eithr ei werthiad a chwanegodd gryn swm at ei

Digitized by Google

adnoddau arianol. Yr oedd yn dra chynefin yn henafiaethau gwlad ei enedigaeth, ai hâchyddiaeth; yr hyn, yn nghyd a'i fywiogrwydd cynwynol, ei arabedd, a'i dymer dda, a barent i'w gyfeillach fod yn hyfryd a boddus gan y teuluoedd uwchaf yn y dywysogaeth, yn mhalasau y rhai yr oedd efe yn westwr croesawus. Yn 1804, efe a gyhoeddodd ei "Gayton Wake," yn nghyda dwy gyfrol o farddoniaeth, sef *Odes, Tales, Sonnets, Translation from the British*, &c., a chawsant gymeradwyaeth mawr yn mysg y cyhoedd. Yn 1814 efe a ymbriododd a Miss Bingley, o ddinas Caerlleon Gawr, gyda'r hon y bu efe byw yn ddedwydd, mewn annibyniaeth cysurus; ac wedi ei goroesi hi oddeutu deuddeng mis, efe a fu farw Rhagfyr 29, 1835, yn ei drigfan ei hun yn *Bank Place*, Caerlleon Gawr, ac efe yn 84 mlwydd oed. Casglwyd ei weithiau ynghyd, ac ail gyhoeddwyd hwynt mewn cyfrol dlos, gyda chofiant dyddorus, ac ardeb o'r awdwr, gan Mr. Edward Parry, y llyfrwerthydd gwladgarol, yn Nghaerlleon Gawr, 8vo, 1837.

**LLWYDCOED**, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, swydd DDINBYCH; 4¼ milltir i'r gogledd ddwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 122.

**LLWYDCOED**, treflan yn mhlwyf Aberdâr, swydd FORGANWG, ger rheil-ffordd Abertawe a Merthyr Tydfil; 5¼ milldir i'r de-orllewin o Ferthyr Tydfil. Gwerth ardrethol, 29,874*p.*; o ba rai y mae 3657*p.* mewn mwngloddiau, a 22,800*p.* mewn gweithfeydd haiarn. Poblogaeth, 1761. Y mae i'r dreflan orsaf ar y rheilffordd; ac y mae o fewn ffiniau bwrdeisiol Merthyr Tydfil.

**LLWYDIAN**, sant a flodeuai yn y seithfed ganrif. Efe a sylfaenodd yr eglwys a elwir Hen eglwys yn Môn. Ei ddydd gwyl yw Tach. 19.

**LLWYDIARTH**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel; a Chapeloriaeth, mewn rhan hefyd yn mhlwyf Llangadfan, swydd DREFALDWYN. Mae y drefgordd yn gorwedd ar yr afon Bechan; 6¼ milldir i'r de orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin; ac yn meddu llythyrfa dan Groesoswallt. Poblogaeth, 151. Tai annedd, 25. Y mae Maen chwyf enwog yn mharc Llwydiarth, yr hwn a elwir "Coetan Arthur," yn y gymmydogaeth.—Ffurfiwyd y Gapeloriaeth yn y flwyddyn 1859. Poblogaeth, 322. Tai annedd, 61. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Noddwr, Syr W. W. Wynn, Barwnig.

**LLWYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Nghimmeirch, swydd DDINBYCH. Poblogaeth, 343.

**LLWYN**, pentref yn mhlwyf Llanegryn, swydd FEIRIONYDD; 3¼ milldir i'r gogledd o'r Towyn.

**LLWYN CADWGAN.** Gwel LLANGAMMARCH.

**LLWYN DAFYDD.** Gwel LLANDYSSILIO-GOGO.

**LLWYN DU**, treflan yn mhlwyf Abergafenni, swydd FYNWY. Gwerth ardrethol, 1071*p.* Poblogaeth, 155. Tai annedd, 32.

**LLWYN DYRUS.** Palasdy yn y parth de-orllewinol o swydd Aberteifi; bedair milldir a chwarter i'r dwyrain-dde-ddwyrain o Aberteifi. Saif gerllaw olion hen gastell, ac yn ymyl hen wersyll.

**LLWYNEGROG**, neu LLWYN Y GROG, pentref yn mhlwyf Talachddu, swydd FRYCHEINIOG; bedair milldir a chwarter i'r gogledd-ddwyrain o Aberhonddu. Poblogaeth, 24.

**LLWYN EGRYN**, trefgordd yn mhlwyf yr Wyddgrug, swydd CALLESTR, ddwy filldir i'r gogleddddwyrain o dref yr Wyddgrug. Gwerth ardrethol, 1022*p.*, ac o'r swm hwn y mae 147*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 160. Tai, 28.

**LLWYNGWRIL**, trefgordd yn mhlwyf Llangelynin, MEIRIONYDD; ar reilffordd Aberystwyth a Glanau Cymru, chwe milldir a hanner i'r gogledd o Dowyn. Perthyna i'r lle orsaf rheilffordd, ac y mae yn y plwyf hen wersyll milwraidd, ac amryw geryg Derwyddol. Gwerth ardrethol, 1510*p.* Poblogaeth, 334.

**LLWYN LLINON**, treflan yn mhlwyf Beddgelert, swydd GAERNARFON; bedair milldir a chwarter i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Dremadoc. Poblogaeth, 215.

**LLWYN MADOG**, neu LLWYNDERW, preswylfod Syr F. C. Knowles, Bar., yn nwyreinbarth swydd DREFALDWYN; dair milldir a chwarter i'r de-ddeorllewin o Drallwm.

**LLWYN SWCH**, treflan gyssylltiol â Gellidy, yn mhlwyf Llanddarog, swydd GAERFYRDDIN; chwe milldir a hanner i'r dwyrain-dde-ddwyrain o Gaerfyrddin. Poblogaeth, 202.

**LLWYN Y CYFFIN**, trefgordd yn mhlwyf Bodfari, swydd DINBACH; ar yr afon Clwyd, ddwy filldir i'r gogledd-ddwyrain o Ddinbach. Poblogaeth, 146.

**LLWYN Y WERMOD**, palasdy yn swydd GAERFYRDDIN, perthynol i deulu y Williamsiaid; gerllaw yr afon Teifi, ddwy filldir i'r de-dde-ddwyrain o Lanymddyfri.

**LLYDER MAWR**, neu GLYDER FAWR, mynydd uchel yn nghadwyn yr Eryri, swydd GAERNARFON. Saif gerllaw Llanberis, rhwng Nant Peris a Nant Ffrancon. Ei uchder sydd oddeutu tair mil o droedfeddi.

**LLYFNI** (Y), afonig yn nwyreinbarth BRYCHEINIOG. Rhed trwy Lyn Safaddan, heibio Castell Brynyllys, tua'r gogledd i'r afon Wy, yn Glasbury; a'i hyd yw oddeutu deng milldir.

**LLYFNI** (Y), afonig yn swydd GAERNARFON. Tardda yn ymyl Drws y Coed, yn nghwmwd Uwch-Gwyrfai, yn nghantref Arfon, a rhed drwy Ddyffryn Nantlle, i forgilfach Caernarfon. Y mae oddeutu deng milldir o hyd, ac o dan reolaeth Dirprwywyr Pysgodfeydd Eogiaid. Rhed trwy lynoedd Nantlle, ac ychydig islaw Pont Llyfni ymarllwysa i'r môr. Myn traddodiad fod yr afon hon gynt yn rhedeg i ddyffryn Menai, ac mai hi yn unig oedd yn gwahanu Mon ac Arfon, gan ymarllwys i'r mor yn nghymydogaeth Ynys Seiriol. I attegu y ddamcaniaeth, dygir ymlaen y traddodiad ynghylch gorlifiad Traeth Lafan (Traeth y Gyflafan oud odid), a maentumir fod yn bossibl i ddyn, cyn dygwydd o'r trychineb hwnw, gerdded yr holl ffordd o Landdwyn i Glynog Fawr, heb gymaint a gwlychu gwadn ei droed. Dyna lên gwerin ar y pwnc.

**LLYFNI**, DAFYDD, ydoedd fardd o sir Gaernarfon, ac yn blodeuo tua diwedd yr 16eg ganrif. Mae rhai darnau barddonol iddo ar gael mewn llawysgrifau.

**LLYFFANOG**, trefgordd yn mhlwyf Llanarth, swydd ABERTEIFI; bedair milldir a chwarter i'r deorllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 272.

**LLYGAD GWR**, neu Gruffydd Llygad Gwr, ydoedd fardd nodedig, ac yn blodeuo o 1220 i 1270. Y mae pump o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'r "Myvyrian Archaiology;" sef, 1. Awdl i Gruffydd Maelawr; 2. I Llywelyn ei fab; 3. Arall, anerchiadol i Gruffydd Maelawr; 4. I Llywelyn, Tywysog; 5. Galareb i Hywel, mab Madog.

Digitized by Google

**LLYGADOG**, trefgordd yn mhlwyf Corwen, MEIRIONYDD, gyda phoblogaeth o ddeunaw ar hugain.

**LLYNAB**, mab Alan ab Emyr Llydaw, ydoedd sant yn blodeuo yn y chweched ganrif. Daeth gyda Cadfan i Brydain, ac fel ei frodyr, aeth yn aelod o goleg Illtyd. Wedi hyny bu yn rhagesgob yn esgobaeth Llandaf; a than yr enw *Lunapeius* y sonir am dano yn y *Liber Landavensis*. Yn ei hen oedran, efe a ymneillduodd i Ynys Enlli.

**LLYN BERWYN**, un o lynoedd swydd ABERTEIFI, yn gorwedd bum milldir a hanner i'r dwyrain-ddc-ddwyrain o Dregaron. Mesura oddeutu milldir a hanner mewn amgylchedd, ac y mae yn heigio o yslywenod, a brithylliaid.

**LLYN BODLYN**, llyn yn swydd FEIRIONYDD; gerllaw Drws Ardudwy, bedair milldir a chwarter i'r gogledd-orllewin o Ddolgellau. Ceir amryw olion Derwyddol gerllaw iddo.

**LLYNCHEL**, treflan yn mhlwyf Bettws Ifan, swydd ABERTEIFI, bedair milldir a chwarter i'r gogledd o Gastellnewydd Emlyn, a'r boblogaeth yn rhifo 184.

**LLYNCLYS**, trefgordd yn mhlwyf Llanyblodwel, swydd AMWYTHIG; ar reilffordd y Cambrian, dair milldir a haner i'r de-dde-orllewin o Groesoswallt. Y mae yn meddu gorsaf ar y rheilffordd, a'llythyrdy dan Groesoswallt. 275 yw rhif y boblogaeth. Am y llyn sydd yn y plwyf, yn dwyn yr enw "Llyn Llynclys," ysgrifenai yr henafiaethydd Cynddelw fel y canlyn:—"Llen gwerin am dano, yw iddo *lyncu* Llys. Mae'r enw, 'Llyn Llynclys,' fel yn gwireddu y traddodiad sydd ar lafar gwlad. Dyma sylwedd y chwedl a glywais gan hen bobl ryw ddeugain mlynedd yn ol:—'Yn yr hen amseroedd, yr oedd rhyw deulu hynod am loddest, trythyllwch, a thrais, yn byw yn y llys hwn. Dylid cofio hefyd mai yn rhyw le tua'r fan hon, yr oedd 'Llys Feisyr.' Pa fodd bynag, cynhalient eu gwyliau a'u gwleddoedd gyda chyfeddach, rhwysg, a gloddest mawr. Nid wyf yn cofio, a gawsai rhyw un ei ladd ganddynt wrth "chwarea broch yn nghoed" ai peidio; ond yr oedd llawer o gamwri wedi ei gyflawni mewn rhyw ddull neu gilydd; ac yn mhob gwyl neu gyfeddach, clywid llais annaiarol o gwmpas y ty, yn dywedyd, 'Daw dial, daw,' yn ddibaid. Ond ni feiddiai neb ymofyn â'r llais pryd y deuai y dialedd bygythiedig. O'r diwedd daeth yno forwyn mwy ceg-agored na'r cyffredin, ac wrth glywed yr ymleferydd hynod yn cyhoeddi 'Daw dial, daw!' hi a'i hatebodd, gan waeddi, 'Pa bryd?' A'r atteb a gafwyd oedd, 'Yn oes wyrion, gorwyrion, esgynydd, a goresgynydd.' Ac ni chlywid y llais mwyach, ac ni feddyliwyd am dano chwaith, trwy gymmeryd rhybudd, a diwygio oddiwrth y drygioni. A phan oedd y 'goresgynydd,' sef yr etifedd yn y chweched âch, yn cadw gwyl gyfeddach yn ol arfer a defod, aeth y telynor allan ganol nos, i ddadlwytho ei hun o dan effeithiau y mêdd a yfasai. Trodd ei wyneb yn ol tua'r ty, ond och! yr oedd y llys wedi diflanu, a'r man lle y safai yn llyn o ddwfr, a dim ond y delyn yn nofio ar ei wyneb! Difethwyd y tylwyth drygionus hwnw mewn un noswaith, a galwyd y llyn newydd, yn Llyn Llynclys hyd y dydd hwn." Gwelir fod y chwedl yn debyg yn ei phrif linellau i'r traddodiad am orlifiad Traeth Lafan, a Chantref y Gwaelod.

**LLYN CORON**, y llyn mwyaf yn YNYS MON, a nodedig am ei bysgod. Gwel ABERFFRAW.

**LLYN COWLYD**, llyn yn sir GAERNARFON, yn ngwaelod Cwm Cowlyd. Ganwyd a magwyd amryw feirdd a llenorion o gryn nod yn nghymmydogaeth y llyn hwn.

**LLYN CRAFNANT**. Gorwedda hwn yn agos i'r llyn a nodwyd ddiweddaf.

**LLYN CWM HYWEL**, llyn yn MEIRIONYDD, heb fod nepell o Lyn Bodlyn.

**LLYN CWM LLWCH**, llyn yn MRYCHEINIOG. Gorwedda dan Fanau Brycheiniog, wrth ben yr afon Taf, bedair milldir i'r de-orllewin wrth dde o Aberhonddu.

**LLYN EBYR**, llyn yn mhlwyf Trefeglwys, yn nghwmwd Uwch y Coed, yn nghantref Llanidloes, swydd DREFALDWYN; ddwy filldir a haner i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Lanidloes. Gorchuddia y llyn 37 o erwau o dir, ac y mae ei ddyfnder yn 39 o droedfeddi. Mae yma gwch, wedi ei adeiladu i bysgota, ac ymddifyru, gan gwmpeini neillduol; ond ni chyfyngir ar ryddid neb i bysgota yn y llyn. Y pysgod a ddelir ynddo yw penhwyaid, ysbinbysg, a llyswenod. Daliwyd rhai penhwyaid yn mesur o bump i chwe troedfedd o hyd. Pan oedd dyn o'r enw Mr. Issard yn byw yn y lle hwn, dywedir iddo groesi y llyn droion ar rew, gyda châr llusg, a meirch. Un tro, pan yn croesi y llyn gyda llwyth o wrysg, dygwyddodd fyned i ymyl llygedyn oedd heb gwbl rewi, a suddodd ei gi ynddo, fel na welwyd byth ail olwg arno. Dro arall, pan oedd yn croesi y llyn a dryll yn ei law, torodd y rhew, a suddodd y dyn hyd ei ddwyfron. Bu y dryll yn foddion i achub ei fywyd, canys gorweddai ar draws y twll i'r hwn y syrthiasai y dyn. Dywedir fod y dryll hwnw hyd heddyw yn meddiant Mr. Bennett, Cil Haul.

**LLYN EGNANT**, llyn yn ymyl tarddiad yr afon Deifi yn NGHEREDIGION.

**LLYN EIGIAU**, un o lynoedd yr Eryri, yn swydd GAERNARFON, dan Garnedd Llewelyn, bum milldir a haner i'r gogledd-orllewin o Lanrwst. Ar yr afon sydd yn rhedeg o'r llyn hwn y mae Rhaiadr Mawr.

**LLYNFI** (Y), neu yn fwy priodol Y LLYFNWY, yr hwn enw a roddwyd iddi yn wrth gyferbyniol i afon Cwm garw. Tardda y Llyfnwy yn Mlaen Llyfnwy, mewn ardal wyllt a mynyddig, yn nghanolbarth Sir Forganwg, ar y tu gogleddol i'r Maesteg. Rhed yr afon hon heibio gweithfeydd eang, ac ardal boblog, Maesteg; ac oddi yno heibio Llangynwyd, ar hyd ei dyffryn prydferth; ac oddi yno heibio hen balasdy enwog Cefnydfa, a Thon Ithel Ddu, ac ymarllwysa i afon Ogwy, mewn lle a elwir Aber Llyfnwy.

**LLYNGEDWY**, un o feibion Llywarch Hen. Hiraethir am dano yn ngalareb Henaint ei Dad, lle y mynegir bod ei fedd yn naear Amarch, lle fel y tybir sydd yn sir Drefaldwyn.

**LLYN GEIRIONYDD**, llyn enwog, yn gorwedd uwchben Trefriw, yn swydd GAERNARFON. Ar lan y llyn hwn y bu Taliesin Ben Beirdd yn treulio rhan a'i fywyd, ac y mae y ffaith wedi ei chofnodi ganddo ef ei hun. O herwydd hyn edrychir ar y llyn gan y beirdd gyda pharch dirfawr hyd y dydd hwn, a chynnelir arwest farddol ar ei lanau bob blwyddyn.

**LLYN GWYDDIOR**, llyn yn MALDWYN, bedair milldir a haner i'r gogledd-orllewin o Langadfan.

**LLYN GWYN**, llyn yn swydd FAESYFED, yn agos i ffynhonell yr afon Elan, 4 milldir i'r de orllewin o'r Rhaiadr. Y mae rhywogaeth neillduol o frithyll i'w cael ynddo.

Digitized by Google

**LLYN GWYNANT**, llyn gerllaw Beddgelert, yn swydd Gaernarfon; yn Nant Gwynant, i'r de-ddwyrain o'r Wyddfa, a phedair milldir a haner i'r de-ddwyrain o Lanberis. Y mae yn agos i filldir o hyd, ac yn cael ei gyflenwi â dwfr gan afon sydd yn disgyn o 300 troedfedd o uchder, trwy gyfres o fan raiadrau; uwchben y llyn, croga creigiau ysgythrog, a gorchuddir y glanau a choed cauadfrig teleidion, y cwbl yn rhoddi hawl i'r llyn hwn gael ei ystyried yn un o'r perlau tlysaf yn nghadwyn yr Eryri. Ar ei finion y mae olion Capel Gwynant, yr hwn a fu gynt yn gapel anwes ynglyn âg eglwys Beddgelert, ac yn derbyn gwaddol o bum punt y flwyddyn o etifeddiaeth Gwydir. Credir iddo gael ei sylfaenu gan John Williams, wyr John Coetmor ap Meredydd ap Ieuan ap Robert, o'r Gesailgyfarch a'r Gwydir, gof aur yn Llundain; a'r un person ydoedd ef a'r gwr a gynysgaeddodd Michael Drayton â phapyrau gwerthfawr Leland. Y mae yn heigio o bysgod.

**LLYN HILAN** neu Hilyn, llyn yn swydd Faesyfed; bedair milldir i'r de-orllewin o dref Maesyfed Newydd. Ei ffurf sydd grwn, oddeutu milldir o amgylchedd, a cheir ynddo gyflawnder o bysgod. Yr hyn sydd yn hynod yn y llyn hwn, ydyw ei fod yn gorwedd ar ben bryn uchel.

**LLYN IDWAL**, un o'r llynoedd hynotaf yn swydd Gaernarfon, yn gorwedd mewn aphwys anoddyn, dan y Glyder Fawr, bum milldir a chwarter i'r gorllewin o Gapel Curig. Mae aruthredd y golygfeydd cylchynol, gwylltineb ysgythrog y clogwyni sydd yn hongian uwch ben nes taflu eu cysgod tywyll yn wastadol ar y llyn, wedi peri fod y fangre anhygyrch hon erioed yn cael ei chyssylltu â dychymygion bwganaidd yr anwybodus, a chwedlau ellyllaidd yr ofergoelus. Dan ddyfroedd duon y llyn hwn, yn amser yr hen bobl dda gynt, y llechai "ellyllon mingeimion gant," gwaith y rhai oedd dychryn bugeiliaid, a gwasgaru eu dïadelloedd. Yma, medd traddodiad, y llofruddiwyd Idwal, fab y Tywysog Owain Gwynedd, gan Dunawd, fab Nefydd Hardd, pen un o bymtheg llwyth Gwynedd, i'r hwn yr oedd Owen yn ol defod yr oes, wedi ymddiried y llanc i'w feithrin, a'i addysgu. Ni bu le erioed yn fwy tebyg o fod yn "gilfach a glan" i nwydau a meddyliau llofruddiog, ac nid oedd ryfedd i grebwyll bywiog ein henafiaid dinwed, ei boblogi â bwganod, a mathau ereill o deulu Annwn. Ar du gorllewinol y llyn y mae y Twll Du, agen ddofn, oddeutu 300 troedfedd o ddyfnder, ac os yw erchyllder ymddangosiad yn rhoddi hawl i'r anrhydedd ammheus, y mae i'r twll hwn well hawl nag odid fan yn Nghymru, i'r cyfenwad o "Gegin y Cythraul!"

**LLYNLLANLYCHLLYN**, llyn yn neheubarth swydd Faesyfed, gerllaw Painscastle. Y mae oddeutu milldir a hanner o amgylchedd.

**LLYN LLYDAW**, llyn yn swydd Gaernarfon; dan yr ochr ddwyreiniol i'r Wyddfa, dair milldir a haner i'r de-ddwyrain o Lanberis. Y mae oddeutu milldir o hyd, o liw gwyrdd tywyll, ac yn gorwedd yn nghysgod mynyddoedd uchel y Lliwedd, Cribcoch, a Phen y wyddfa. Bu Pennant yma, a rhydd ddesgrifiad bywiog o arucheledd y golygfeydd cylchynol.

**LLYN LLYGAD RHEIDIOL**, llyn yn swydd Aberteifi, wrth darddiad yr afon Rheidol, fel yr awgryma yr enw, ac yn ymyl Plumlumon.

**LLYN LYMBRAN**, a saif ddwy filldir i'r deorllewin o Nant y Glyn, yn swydd Ddinbych.

**LLYN MAESLYN**, yn swydd Aberteifi, gerllaw Llyn Berwyn.

**LLYN MANOD**, neu Llyn y Maenod, a orwedd yn swydd Feirionydd, rhwng dau fynydd y Manod, ddwy filldir a haner i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o Festiniog. Y mae o gryn faintioli, a brithylliaid rhagorol i'w cael ynddo.

**LLYN MAWR**, yn Rhandir Rhigos, plwyf Ystrad-dyfodwg, swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Gelwir ef yn Llyn Mawr, mewn gwrthgyferbyniad i Lyn llai, sydd o fewn ychydig bellder oddi wrtho. Mae y Llyn mwyaf tua milldir o amgylchedd, a'r lleiaf tua thair rhan o filldir. Gorweddant wrth droed Craig serth, a elwir *Craig y Llyn*, yr hon sydd 1971 o droedfeddi o uchder. Nid oes dim yn neillduol yn y naill lyn na'r llall i dyny sylw, na dim o'u hamgylch ond gwylltineb. Y creaduriaid fynychant yr ardal amlaf, ydynt y defaid, a cheffylau bach y mynyddoedd, y rhai a fegir yn y parth hwn yn dra lluosog.

**LLYN MORWYNION**, a orwedd ar ddueddau gogleddol Meirionydd, chwe milldir i'r dwyrain o Ffestiniog. Y chwedl ynglyn â'r llyn hwn, fel y ceir hi ar lafar gwlad, a gyhoeddwyd yn y *Brython*, ac y mae fel y canlyn:—Ryw bryd yn yr oesoedd canol, dygwyddodd fod prinder mawr o ferched ieuainc yn Nyffryn Ardudwy; a'r gwyr ieuainc gan deimlo eu hunigoldeb a benderfynasant dori dros y bryniau, a myned a wneddynt cyn belled a Dyffryn Clwyd. Wedi aros enyd yno cafas rhai rianod, a diattreg groesi y mynyddoedd yn ol a wnaethant. Pan ganfu gwŷr Clwyd hyn, ffromasant, ac ar eu hol yn arfog yr aethant, a phan ar bwys Ffestiniog, goddiweddasant wŷr Ardudwy a'r Morwynion. Cymerth ffrwgwd waedlyd le rhwng y ddeu-lu. Gwyliai'r morwynion y cad ar faes o ben cnicyn o graig gyfagos. Lladdwyd gwyr Ardudwy oll. A'r Morwynion wrth weled hyn, a redasant i'r llyn gerllaw, ac yno y cawsant fedd diarch diamdo, ac fyth wedyn galwyd ef yn Llyn y Morwynion. Heb fod yn neppell oddiwrtho, y mae Beddau Gwyr Ardudwy.

**LLYN OGWEN**, llyn yn swydd Gaernarfon, gerllaw tarddiad yr afon Ogwen, rhwng Carnedd Dafydd a'r Glyder Fawr, bum milldir i'r de-wrthddwyrain o Bethesda. Y mae agos yn filldir o hyd, ac yn enwog am ei frithylliaid rhagorol. Cyrchir iddo yn yr haf gan filoedd o ddieithriaid ar y cyfrif hwn, ac er mwyn mwynhau y golygfeydd dihafal sydd o'i amgylch. Gellir llogi cwch i ymddifyru hyd wyneb y llyn, ac ar ei lan y mae ty i gael llety ac ymborth. Yn union ar ol gadael y llyn, mae yr afon Ogwen yn rhuthro trwy geunant dwfn ac erchyll, a elwir Bwlch y Benglog, a thrwy gyfres o raiadrau, yn disgyn ddyfnder o 100 troedfedd.

**LLYN SAFADDAN**, llyn yn swydd Frycheiniog; ar yr afon Llyfni, bedair milldir a hanner i'r dwyrain-dde-ddwyrain o Aberhonddu. Y mae oddeutu pum milldir o amgylchedd; y golygfeydd o'i amgylch ydynt brydferth er yn drymaidd; heigia o wahanol fathau o bysgod, y rhai a barant fod miloedd yn ymweled âg ef bob blwyddyn. Yn yr hen amser, byddai mynachod Aberhonddu yn pysgotta yn y llyn yn feunyddiol yn ystod y Grawys, a thri diwrnod yr wythnos am y gweddill o'r flwyddyn, ar yr amod na byddent i ddefnyddio dim ond un cwch. Gwêl yr hen draddodiad am y llyn, yn yr erthygl ar Llanfihangel-Talyllyn.

**LLYN TEGID**, neu Lyn y Bala. Gwel Bala.

Digitized by Google

**LLYN TEGWYN**, yn swydd GAERFYRDDIN; wrth gychwyniad afon Gwendraeth, ar y Mynydd Mawr. Cynnwys ysbinbysg braf, ac amryw fathau ereill o bysgod.

**LLYN TEIFI**, llyn yn NGHEREDIGION, yn nghanol mynydd-dir gwyllt, ac yn agos i darddell yr afon Teifi; 8½ milldir i'r gogledd orllewin o Dregaron. Y mae yn llyn o gryn faintioli, a dywaid llen gwerin ei fod yn anoddyfn. Ceir math o frithyll cochion ynddo; ac fe'i mynychir gan adar gwylltion. Y mae saith neu wyth o lynau eraill llai, yn agos iddo.

**LLYN URDDYN**, llyn yn MEIRIONYDD; ar lethrau gorllewinol y Llawlech, ddwy filldir i'r gogledd-orllewin o Ddolgellau. Canfyddir cromlechau, carneddau, ac olion tref Brydeinig, ar y tu gorllewinol i'r llyn.

**LLYN Y CAE**, llyn bychan yn MEIRIONYDD, yn agos i gopa Cadair Idris, yn gorwedd mewn ceudod dwfn, rhwng cribau y mynydd. Ar, neu o amgylch yr un mynydd, y mae Llyn y Gader, Llyn Gafr, a Llyn Aran.

**LLYN Y DINAS**, yn swydd GAERNARFON; dan fraich yr Aran o'r Eryri, ddwy filldir a haner i'r gogledd-ddwyrain o Feddgelert. Y mae yr afonig Glaslyn yn rhedeg iddo o Lyn Gwynant.

**LLYR**, mab Bleiddyd, ydoedd yr unfed brenin ar ddeg yn Mrydain; a dywedir ei fod yn byw yn y nawfed ganrif o flaen y cyfnod Cristionogol. Mynegir yn y Brutiau Cymreig, ei fod wedi cynal yr heddwch cyhoeddus dros 40 mlynedd, drwy ei ymdrechion gwrol. Adeiladodd ddinas ar lan yr afon Soram, a elwir Caer Lyr yn y Gymraeg. Efe oedd tad Gonorilla, Rhegau, a Chordeila, ymddygiad y rhai tuag ato a roddodd i Shakespeare destun treis-gerdd y brenin Lear.

**LLYR LLEDIAETH**, neu, o ymadrodd anwaraidd, ydoedd dywysog yn blodeuo yn nechreu y chweched ganrif, ac yn daid i'r clodfawr Garadawg. Yr ydoedd yn fab i Baran ab Ceri ab Caid ab Arch ab Meirion ab Ceraint ab Creidiol. Yn ol *Achau y Saint*, bu yn ymladdwr galluog ag amryw genedloedd. Efe a ddeolodd y Rhufeiniaid o'r Deheubarth, y Gwyddelod o Wynedd, a'r Llydawiaid o Gernyw. Efe a unodd y diweddaf (Cernyw) â Chymru, ac aeth i breswylio yno, gan roddi Siluria, [enw Morganwg y pryd hwnw] i Bran ei fab henaf. Wedi ei ddwyn ef a'i deulu yn gaethion i Rufain, cofnodir ef yn y Trioedd, fel un o "dri goruchel garcharawr" Ynys Prydain. Y ddau ereill oeddynt Mabon ab Medron, a Gair ab Geirion.

**LLYR LLUEDDOG** (*or of the numerous Host*), ydoedd benaeth yn byw tua dechreu y chwechcd ganrif. Cofnodir ef yn y Trioedd, fel un o dri "Cadfarchawg" Ynys Prydain. Y ddau ereill oeddynt Caradawg Freichfras, a Menwaed o Arllechwedd.

**LLYR MERINI**, mab Einion Yrth ab Cunedda Wledig, ydoedd sant yn byw tua diwedd y bumed ganrif. Efe ydoedd sylfaenydd eglwys Llanllyr, yn Maesyfed, a elwir yn awr yn Llanyre, a Llanllyr, yn Ngheridigion, yr hon ydoedd yn lleiandy. Efe oedd tad Caradawg Freichfras. Cofnodir ef hefyd yn y Trioedd, fel perchenog un o dri "tarw ellyll" Ynys Prydain.

**LLYS BRADWEN**, lle yn y de-orllewin i MEIRIONYDD, bedair milldir a chwarter o'r Abermaw. Ceir yma olion preswylfod Ednywain ab Bradwen, pencenedl un o lwythi Cymreig y seithfed canrif.

**LLYS DANHUNEDD**, neu LLYS TYNHYNEDD, trefgordd yn mhlwyf Cilcen, swydd CALLESTR; bedair milldir a chwarter i'r gorllewin o'r Wyddgrug. Y gwerth ardrethol, rhwng 430*p*. ar fwngloddiau, yw 2490*p*. Y mae 17 o dai yma yn cynwys poblogaeth o 83.

**LLYS DINAM**, treflan yn mhlwyf Llanafanfawr, BRYCHEINIOG; ar yr afon Wy, bum milldir a haner i'r gogledd-ogledd-orllewin o Fuallt. Erwau, 2476. Gwerth ardrethol, 1116*p*. Poblogaeth, 242. Tai, 39. Yr oedd un o dywysogion Brycheiniog yn cyfaneddu yma yn yr hen amser.

**LLYS DINMEL**, trefgordd yn mhlwyf Llangwm, swydd DINBYCH; saith milldir a haner i'r gorllewin o Gorwen, ac yn cynwys 78 o drigolion.

**LLYSFAEN**, plwyf yn Undeb Conwy, swydd GAER YN ARFON, ar lan y môr, a cherllaw cledr-ffordd Caerlleon ar Ddyfrdwy a Chaergybi, yn agos i orsaf Llanddulas, a 3 milldir i'r gorllewin o Abergeley. Cynnwysa dref-gyrdd Isallt, Is y ffordd, Pant, Penmain, a Rhwng y ddwy ffordd; ac y mae yma Lythyrfa, dan Abergeley, swydd Dinbach. Mesura o erwau, 1900; o ba rai y mae 106 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3727*p*.; o'r hyn y mae 1509*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 771; yn 1861, 908. Tai annedd, 206. Y mae Mynydd Llysfaen tua 700 troeddfedd o uchder, a cheir golygfeydd eang a mawr-wych oddiarno; ac ymddengys mai dros uchel-dir Llysfaen yr oedd y brif-ffordd mewn amserau boreuol; o leiaf meddwn seiliau i gasglu mai dyma y ffordd yr arweiniai Egbert, brenin y Sacsoniaid, ei fyddinoedd ar ei gad-gyrchiad i Wynedd, yn y flwyddyn 818, pan yr anrheithiodd efe Ynys Fôn, yn y canlyniad i frwydr waedlyd Llanfaes; canys yn gynar yn y ganrif hon, fe gafwyd modrwy aur emliwiedig, ac o wneuthuriad cywrain, ar y mynydd, yn agos i Eglwys Llysfaen. Yr ydoedd yn pwyso tuag owns; ac o'i mewn yr oedd enw ALHSTAN, swyddog urddasol yn myddin Egbert, yn ol barn yr Henafiaethydd *Mr. Pegge*. Yr oedd y fodrwy uchod yn meddiant Mr. Walker, o Gaerlleon, yn y flwyddyn 1833, ac efallai ei bod yn meddiant y teulu eto. Caed modrwy aur arall, drymach na'r un flaenorol, ond o wneuthuriad mwy syml, ar yr un mynydd, yn ddiweddarach. Ac yn y flwyddyn 1826, caed nifer mawr o fatholion (*coins*) arian, ar yr un mynydd, y rhai oeddynt wedi eu bathu yn nheyrnasiad Stephan, Harri I., Ioan, Edward I., ac Edward III.; ac mewn cadwraeth hynod o dda; yr hyn sydd yn gadarnhad o'r dyb, mai dros yr ucheldiroedd hyn yr oedd y brif-ffordd tu a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a'r bymthegfed ganrif, o Gaerlleon ar Ddyfrdwy i Gonwy.

Ychydig mwy na haner milldir i'r de orllewin o'r Llan, y mae olion hen wylfa filwraidd fechan, a elwir hyd heddyw, "Gwylfa Ddafydd;" yr hon debygid, a gafodd y cyfryw enw oddiwrth wersylliad Dafydd ab Llewelyn ab Iorwerth yn y lle, yn ystod ei wrthsafiad dewr-wych i'w ewythr, Harri III., ar ei gad-gyrch byth-gofus i Deganwy, yn y flwyddyn 1245: ac oddeutu y flwyddyn 1852, cafodd gwr o'r enw Hugh Hughes, ogof mewn calch-graig, oddi tan y lle a elwir Bryn poeth, yn agos i'r Wylfa grybwylledig, o fewn dau neu dri chan llath iddi, efallai. Wedi tori i fewn i'r ogof, cafwyd yno lawer o esgyrn dynol; o leiaf cyfrifwyd yn eu plith tua deg o benglogau; ac yn y pridd, a'r malurion cymmysgedig a'r esgyrn, cafwyd amryw fatholion arian,

Digitized by Google

o deyrnasiad Harri III., a chyn hyny, oddiwrth yr hyn y bernir nad Cymry oeddynt, ond yn hytrach, rhai o wŷr y Brenin, Harri, y rhai ond odid a gynllwynent gerllaw gwersyll Dafydd; a'r rhai pan eu darganfuwyd gan y Cymry, a giliasant i ymguddio yn yr ogof hon, lle eu mygwyd i farwolaeth, trwy losgi gwellt llaith, neu eithin gwlybion yn ngenau yr ogof.

Y fywioliaeth eglwysig yn y plwyf hwn sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 250*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy.

**LLYSIN**, trefgordd yn mhlwyf Llanerfyl, swydd DREFALDWYN; bedair milldir a chwarter i'r gogledd-orllewin o Lanfair. Poblogaeth, gyda Choed Talog, a Chenewyll, 249.

**LLYSSAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel-glyn-Myfyr, DINBYCH; chwe milldir a haner i'r gogledd-orllewin o Gorwen. Ei werth ardrethol yw 958*p*., a'r boblogaeth yn 113.

**LLYSWEN**, plwyf yn nosbarth y Gelli, cantref Talgarth, swydd FRYCHEINIOG; ar yr afon Wy, wrth derfyn Maesyfed, gerllaw gorsaf rheilffordd Boughrood, a saith milldir i'r de-orllewin wrth orllewin o'r Gelli. Yn y plwyf hwn y preswyliai gynt un o dywysogion y Deheubarth, ac y mae yn y dyddiau hyn liaws o deuluoedd urddasol yn cyfaneddu yn y gymydogaeth. Cynwys y plwyf 2067 o erwau: ei werth ardrethol yw 1152*p*.; nifer y trigolion yw 226, ac y mae ar eu cyfer, haner cant o anedd-dai. Saif y pentref ar yr afon Wy; gall ymffrostio mewn llythyrdy, ysgoldy gwladwriaethol, ac amryw addoldai. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawdd Syr J. R. Bailey, Bar., o Gastell Llangoed. Ei gwerth yw 170*p*. yn y flwyddyn, heblaw persondy, yr hwn a adeiladwyd yn 1865. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1863; y mae wedi ei chynllunio yn ol yr arddull Seisnig boreuol, a thŵr yn y pen gorllewinol iddi.

**LLYSWORNEY**, neu LLYSYFRONYDD, sydd blwyf bychan yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont-ar-Ogwy, deoniaeth Gro Nedd, esgobaeth Llandaf, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Maint y plwyf yw 870 erw; gwerth ardrethol, 1209*p*.; a rhif y trigolion yn 1861, oedd 210. Yn y plwyf hwn y mae *Nash Manor*, preswylfa teulu R. C. N. Carne, Ysw. er's oesoedd. Rectoriaeth yw y fywioliaeth Eglwysig, yn unol a Ficeriaeth Llanilltyd Fawr, a'r ddwy yn werth 347*p*. y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Caerloyw. Mae yn y plwyf gapel bychan gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac ysgoldy Cenedlaethol ger yr Eglwys. Prif orchwyl y trigolion yw Amaethyddiaeth.

**LLYS Y COED**, trefgordd yn mhlwyf Cilcen, dosbarth Llaneurgain o gantref Coleshill, swydd CALLESTR; bedair milldir a chwarter i'r gogledd-orllewin o'r Wyddgrug, gyda phoblogaeth o 74, a phymtheg o anedd-dai.

**LLYS Y FRAN**, plwyf yn nosbarth Narberth, cantref Dungleddy, swydd BENFRO; dair milldir a chwarter i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o orsaf rheilffordd *Clarbeston Road*, a saith milldir a chwarter i'r gogledd-orllewin wrth ogledd o Narberth. Erwau, 1466. Gwerth ardrethol, 1026*p*. Poblogaeth, 168. Tai, 36. Y fywioliaeth sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 104*p*., ac yn nawdd Arglwydd Aberdaugleddyf, a W. H. Scourfield, Ysw. Cafodd yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Meilyr, ei hadgyweirio yn 1869.

**LLYSYN**, trefgordd yn mhlwyf Carno, yn y dosbarth isaf o gantref Llanidloes, yn swydd DREFALDWYN; ar fraich o'r afon Hafren, 8½ milldir i'r gogledd o Lanidloes. Ei gwerth ardrethol yw 1496*p*., a 378 yw nifer y trigolion.

**LLYWARCH** AB BRAN, ydoedd benaeth un o'r pymtheg llwyth yn amser Owain Gwynedd, ac yn frawd yn nghyfraith i'r tywysog hwnw, eu gwragedd yn ddwy chwaer, merched Grono ab Owain ab Edwyn, Arglwydd Tegeingl. Yn ol rhai hanesion, yr oedd efe yn oruwchwyliwr i'r Tywysog. Yr oedd Llywarch yn Arglwydd Cwmwd Menai yn Mon, ac yn byw mewn tre ddegwm, a elwir yn awr yn "Tref Llywarch," yn yr hon y mae Caergybi, a thri darn o dir yn cael eu galw yn ol enwau ei dri mab; sef "Gwely Iorwerth ab Llywarch," "Gwely Cadwgan ab Llywarch," a "Gwely Madog ab Llywarch," y rhai a grybwyllir yn Nghoberestyn Gwynedd. Ei eirf-bais oedd, *Argent, between three crows with ermine in their bills, a chevron sable.* Mae llawer o deuluoedd, o hyd yn olrheinio eu disgyniad oddiwrtho ef. Bran ydoedd fab Dyfnwal ab Eunydd ab Aelfyw (neu Alan) ab Alser ab Tudwal Gloff ab Rhodri Mawr.

**LLYWARCH** AB CALCHFYNYDD, a gofnodir yn achyddiaeth Iestyn ab Gwrgant, fel y cyntaf a adeiladodd amddiffynfeydd â cheryg a chymrwd. Bu rhyfel ffyrnig rhyngddo ef a'r dieithriaid Saesoniaid, neu y Coraniaid, y rhai a ddaethant i Ynys Prydain yn ei amser ef. Ei dad, Calchfynydd neu Calchfynydd yr Oedranus, mab Enir y Bardd, ydoedd y cyntaf a wnaeth galch. Efe a ddarganfu y wyddor, drwy sylwi bod y ceryg llosgedig a daflasai efe ymaith o hen ffwrn pobty, yn myned yn llwch, ac yn llaid yn y gwlaw; a thrachefn wrth sychu, yn myned yn galed iawn. A pheth o'r calch efe a wyngalchodd ei dŷ; ac oddiwrth yr amgylchiad hwn, y cafodd efe yr enw "Calchfynydd," neu Calchwynydd.

**LLYWARCH** AB LLYWELYN, neu Llywarch Prydydd y Moch, ydoedd un o feirdd godidocaf y canol oesau. Blodeuai o 1160 i 1220. Y mae uwchlaw 30 o ddarnau barddonol cyfansoddedig ganddo ef, yn awr ar gael, ac yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'r "Myvyrian Archaiology." Mae y rhai hyn yn arddangos athrylith awenyddol rhagorach na'r cyffredin; a chan eu bod yn cynwys anerchion i'r gwahanol dywysogion oeddynt yn teyrnasu yn ei amser ef, y maent yn anmhrisiadwy o fuddiol yn eu cyfeiriadau at ffeithiau hanesyddol y cyfnod hwnw. Yn mysg y darnau, y mae un yn dra chywrain a dyddorol, yn cynwys dymuniad ar bob un, pan holid ef, i ymddangos yn hollol anwybodus o helynt Madog, mab Owain Gwynedd, yr hwn y dywedir iddo ymfudo yn 1172 i wlad bell yn y Gorllewin, a ddarganfuasid ganddo ar fordaith flaenorol, yn 1170.

**LLYWARCH BENTWRCH**, ydoedd fardd yn blodeuo o 1450 i 1480. Y mae rhai darnau prydyddol o'i eiddo ar gael mewn llawysgrifen.

**LLYWARCH FYR**, oedd fardd a flodeuodd o 1460 i 1500. Mae peth o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**LLYWARCH HEN**, ydoedd fardd tra rhagorol, mab Elidr Lydanwyn, tywysog Gwynedd, yr hwn ydoedd fab Meirchion, mab Grwst, mab Cenau, mab Coel, brenin Prydain. Ei fam ydoedd Gwawr, merch Brychan Brycheiniog. Llywodraeth etifeddol Llywarch oedd Argoed, yr hon fel y tybir, a wnelai i fyny ran o'r sir a elwir yn awr Cumberland, yn ymylu ar fforest fawr Celyddon, neu Caledonia; ac

Digitized by Google

y mae yn eglur oddiwrth y Trioedd, ei fod ef yn arfer llywodraeth dros y diriogaeth hon, pan y dywedir ei fod ef yn un o "dri thywysog anfoddus Prydain Fawr." Oddiwrth yr un awdurdod yr ydym yn deall iddo dreulio rhan o'i ddyddiau boreuol yn llys Arthur; eithr dygwyddodd iddo ymadael mewn soriant. "Tri gwesteion anfoddog Llys Arthur, oeddynt Llywarch Hen, Llwmhunig, a Heledd merch Cyndrwyn." Ymddengys hefyd oddiwrth un o'i ddarnau barddonol, ei fod yn rhyfela dan Arthur yn mrwydr Llongborth, oddeutu y flwyddyn 530 o oed Crist. Wedi dychwelyd o hono i'w wlad ei hun i gynorthwyo yn ei hamddiffyniad yr erbyn rhuthriadau y Saesoniaid, efe a aeth i gytundeb a'i berthynas Urien, tywysog Rheged, a'i fab Owain, er mwyn gyru ymaith y gormeswyr, y rhai oeddynt eisioes wedi cymeryd meddiant o'r gwledydd ar y tu dwyrain, a elwid Deifyr a Brynaich, neu Deira a Bernicia. Ar farwolaeth Urien, yr hwn a frad-laddwyd gan Llofan; ac wedi colli ei dreftadaeth, a'r rhan amlaf o'i feibion, yn y rhyfeloedd yn erbyn y Sacsoniaid, gorfodwyd ef i ffoi i Gymru, a chafodd nodded yn llys Cynddylan, tywysog rhan o Bowys. Ar ol gorchfygiad a marwolaeth ei noddwr, Llywarch a ymneillduodd i fwth unigol yn Aber Cuawg, sir Drefaldwyn; ac oddiyno, efe a ymsymudodd i blwyf Llanfor, ger y Bala, Meirionydd, lle y dangosir hyd y dydd hwn anedd, a elwir Pabell, neu Fwth Llywarch Hen. Ceir darluniad cyffrous o'i gyflwr yno yn ei Alareb ar Henaint. Yno, y mae'n debygol, y bu efe farw, oddeutu y flwyddyn 646, wedi goroesi ei holl blant. O'r rhai y mae enwau 24 o'i feibion, a thair merch yn cael eu cadw. Mae enwau y meibion yn addurnedig â thyrch euraidd am eu gwrhydri mewn rhyfeloedd. Cyduna yr hen draddodiadau i osod allan fod Llywarch Hen yn 150 mlwydd oed pan yn marw. Claddwyd ef yn eglwys Llanfor, lle mae careg gerfiedig yn y mur yn dynodi ei "argel wely." Y mae cofnodion ereill am dano yn nghadw yn y Trioedd, megis "Tri chynghoriaid farchawg" llys Arthur oeddynt, Cynon ab Clydno Eiddyn; Arawn ab Cynfarch; a Llywarch Hen ab Elidr Lydanwyn. "Tri lleddf unben," (*unambitious princes*) Prydain, oeddynt Manawyddan ab Llyr Llediaith; Llywarch Hen; a Gwgawn Gwrawn; y rhai a wrthodent awdurdod penadurol, ac a ymroddent at farddoniaeth. "Tri doethion beirdd" llys Arthur oeddynt, Catwg ab Gwynlliw; Taliesin Ben Beirdd; a Llywarch Hen. Darnau barddonol Llywarch Hen ag sydd yn awr ar gael, ydynt ddeuddeg o nifer—chwech o honynt o ansawdd hanesyddol, a'r gweddill ar bynciau moesol. Mae y rhai hyn oll yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Cyhoeddwyd hwynt hefyd gan Dr. W. O. Pugh, gyda chyfieithiad, a nodion, yn wyth plyg, Llundain, 1792. Dichon y bydd y neillduolion canlynol, fel chwanegiad, gyda golwg ar Llywarch Hen, yn dra derbyniol gan lawer; Ei ach a'i fonedd. Nis gwyddys yn iawn darddiad y gair Llywarch; efallai mai yr ystyr yw, Llyw penaf, neu flaenaf (Archllyw); na phaham y rhoddwyd y cyfryw enw ar y dyn hwn, oddigerth ar y dybiaeth y buasai yn dyfod yn enwog fel llywydd yn y wladwriaeth. Cysylltwyd y gair "Hen," a'i enw, er ei wahaniaethu oddiwrth ereill o'r un enw, ac hwyrach yn anfwriadol, i ddynodi yr oed mawr a gyrhaeddodd. Yr oedd yn disgyn oddiwrth henafiaid anrhydeddus, o ran ei dad a'i fam. Gallasai gyfrif yn mhlith ei henafiaid, freninoedd galluog, tywysogion enwog, gwroniaid dewrion, a seintiau clodfawr; y rhai y bydd eu henwau fel deddfwyr, rhyfelwyr, gwladgarwyr, a phleidwyr rhinwedd, yn barchus ac mewn bri tra pery Cymru, Cymro, a Chymraeg. Yn mhlith ei henafiaid o du ei dad, gellir nodi Elen, ferch Coel Godebog; yr oedd hi yn hen fodryb iddo. Dynes brydweddol a glan odiaeth ydoedd, yn santes enwog, ac yn hynod o ran ei serchogrwydd a'i duwiolfrydedd. Ymbriododd a Constantius Chlorus, yr ymerawdwr Rhufeinig. Priodolid iddi gan y mynachod, gaffaeliaid y wir groes, ar yr hon y croeshoeliwyd Crist; a chanai un o'r hen feirdd fel hyn ar y pwnc:—

> Diboen ferch Coel Godebog,
> I gred a gafas y Grog;
> Ugain trichant, a'i w'rantu,
> Oedd oed Iesu Dduw Dywysawg.

Yr oedd Cystenyn Fawr, yn gefnder i hendaid Llywarch Hen. Gwnaed ef yn ymerawdwr yn 306 o.c. Cofleidiodd Gristionogaeth yn 311 o.c. Galwodd ynghyd Gymanfa yn Arles, yn 314 o.c. Yn 325 o.c. efe a alwodd yn nghyd Gyngor Nicea, yn yr hwn yr oedd 318 o esgobion. Symudodd y llys ymerodrol o Rhufain i Byzantium, a rhoddodd yr enw Caercystenyn ar y lle. Efe a sefydlodd Archesgobaeth Caerefrog, yr hon a gyfrifid yn un o dair Archesgobaeth Ynys Prydain, y ddwy eraill oeddynt Llundain, a Llandaf. Bu farw yn 337 o.c., yn 62 mlwydd oed, wedi llywodraethu yn llwyddianus dros 31 o flyneddau. Yn mhlith ei henafiaid o du ei fam, gellir crybwyll Tewdric ab Teithfallt, brenin Morganwg, Gwent a Garthmathrin, [hen enw Brycheiniog] yn orhendaid iddo. Hen frenin clodfawr oedd hwn; Cristion brwd, gwladgarwr trwyadl, a rhyfelwr dewr a llwyddianus. Adeiladodd eglwys yn Llandaf yn yr un man ag a bu yr eglwys a adeiladwyd gan Lles ab Coel. Trwy ei haelioni ef y cyfodwyd corau Illtyd, a Garmon, yn Llanilltyd Fawr, a Llancarfan, yn Morganwg, y rhai a fuont gynt yn glodfawr am eu seintiau, a'u dysgedigion. Clwyfwyd ef yn farwol mewn brwydr a ymladdodd a'r Saeson yn agos i Dyndeyrn, ar lan yr Wy. Adeiladwyd addoldy yn y man hwnw, ar ei ddymuniad ef, a galwyd ef yn Ferthyr Dewdric, yr hwn yw Mathen yn bresenol. Yr oedd Brychan yn daid i Llywarch Hen o du ei fam. Gwnaeth hwn lawer er adfywio crefydd yn Nghymru. Bu iddo dair o wragedd, Prawst, Eurbrawst, a Rhybrawst. Yr oedd yn dad i 50 o blant, 24 o feibion a 26 o ferched. Ond y mae gwahanol farnau yn nghylch eu nifer; a bernir fod rhai o'i wyrion yn y nifer uchod. Cyfrifid teulu Brychan yn un o "Dri theulu bendigaid," ac yn un o "Dair gwelygordd gysegredig Ynys Prydain." Coffeir enwau y rhan fwyaf o'i blant a'i wyrion mewn cysylltiad a lleoedd cysegredig yn Nghymru hyd y dydd hwn. Yr oedd Tudfyl, merch Brychan, yn fodryb i Llywarch Hen, chwaer ei fam. Lladdwyd hi wrth Bont Rhun; ac oddiwrthi hi y cafodd Merthyr Tydvil ei enw, yr hwn sydd yn awr yn un o'r lleoedd mwyaf ei boblogaeth, a'i fasnach, yn Nghymru, yr oedd hi yn wraig i Cadell Deyrnllwg, ac yn fam i Brochwel Ysgythrog, yr hwn oedd mor enwog fel amddiffynwr ei wlad a'i genedl rhag gormes a thrawsfeddiant y Saeson. Rhoddir yma linell achyddol Llywarch Hen, o ran ei dad a'i fam, yn ol fel y ceir hi yn yr achau Cymreig:—Llywarch Hen, ab Elidyr Lydanwyn, ab Meirchion Gul, ab Gwrwst Ledlwm, ab Cenau, ab Coel Godebog. Llywarch Hen ab Gwawr ferch Brychan

Digitized by Google

ab Marchell, ferch Tewdric ab Teithfallt. Ymddengys bod hyn yn lled gywir am ei haniad yn ol hanesion Cymreig. Gwelir ei fod yn disgyn o achau anrhydeddus, pa un a'i fel llywodraethwyr, rhyfelwyr, gwladgarwyr, neu seintiau.—Ei gyfnod a'i wlad.—Cyfrifir ef yn perthyn i'r chwechcd a'r seithfed ganrif. Blinderus a thrafferthus iawn ydoedd hi ar y Cymry y pryd hwnw, mewn ymdrechion parhaus yn erbyn ymosodiadau goresgynol, gormesol a threisiol, gelynion estronol. Yr oedd y Saeson eisioes wedi meddianu rhanau helaeth o ddeheubarth yr Ynys, y rhai a alwent Essex, Middlesex, a Sussex, a llywodraethwyr Saesonaidd arnynt. Yr oedd yr Eingyl a'r Brithwyr yn ymgryfhau yn y parthau gogleddol, ac yn enill tir yn feunyddiol, a'r Cymru naill ai yn cael eu lladd, neu eu gyru ymaith i chwilio am loches yn rhywle fel y gallent. Bu y cyfnod helbulus hwn o gyfyngder a gormes, yn foddion i godi dynion o'r fath ysbryd gwladgarol, dewr, ac ymroddgar, yn Mrydain, na welodd y byd mewn un oes mo'u rhagorach. Un o brif ddynion y cyfnod hwn oedd Llywarch Hen; yr oedd yn wr mawr, pa un bynag a'i fel tywysog, neu filwr, neu fardd, yr edrychir arno. Argoed y gelwid y wlad yn yr hon yr oedd ei dreftadaeth a'i feddianau yn aros. Bu ganddo awdurdod lywyddol arni fel tywysog-frenin dros ysbaid o amser. Yr oedd dwy Argoed, sef un Calchfynydd, ag oedd yn sefyll rhwng yr afon Trent a'r Tain; ac un Derwenydd, yr hon oedd yn ymylu ar goed-dir mawr y gogledd. Yn hon y bu Llywarch Hen yn aros am dymor, yn mwynhau etifeddiaethau eang a chyfoethog, yn aneddu yn gysurus, yn rheoli yn hwylus, ac yn rhyfela yn fedrus dros ei wlad a'i rhyddid, hyd oni orfu iddo o'r diwedd roddi y goreu i'r gelynion. Wedi ymdrechu yn ddewr a chaled i gadw ei diriogaethau, gorchfygwyd ef gan yr estroniaid, syrthiodd y wlad i'w dwylaw, a gorfu arno yntau i ffoi am nodded. Yn yr adeg gyfyng hono, trodd ei wyneb tua Chymru, a chafodd nodded gan Cynddylan ab Cyndrwyn, tywysog Powys. Bu llys Pengwern yn nodded ac yn gartref iddo tra bu Cynddylan byw. Wedi marwolaeth y tywysog hwnw, bu Llywarch yn trigianu yn Ngwynedd, mewn lle a elwid Abercuawg, a'r lle hwnw yn Maldwyn a elwir Dolgiog.—Ei gyfoeswyr.—Yn mhlith y rhai a fuont yn cyfoesi mewn rhan ag ef, gellir crybwyll y breninoedd, y tywysogion, a'r beirdd canlynol:—Arthur y brenin, yr hwn oedd wedi ei ethol i'r ben-llywyddiaeth yn ol rheol unbenaeth Prydain. Coronwyd ef yn nghylch 516 o.c. gan Dyfrig, yr Archesgob, yn Nghaerlleon ar Wysg. Priodolir llawer o wrolgampau a gorchestion i'r brenin hwn. Yr oedd yn rhyfelwr dewr, ac enillodd lawer o fuddugoliaethau gogoneddus ar y Saeson. Ymladdodd ddeuddeg o frwydrau penodedig â hwynt, o fewn cylch ychydig flyneddau; a daeth o faes y frwydr bob tro yn orchfygwr anrhydeddus. Yr oedd Llywarch Hen yn un o farchogion llys Arthur. Priodolir yr hen driban canlynol i Arthur, fel ei awdwr:—

> Sef ynt fy Nhri chadfarchawg,
> Mael Hir, a Llyr Lluyddawg,
> A cholofn Cymru, Caradawg.

Collodd Arthur ei fywyd yn nghad Camlan, yn nghylch 542 o.c. Yr oedd Urieu Rheged, yn gefnder i Llywarch Hen. Yr oedd hwn yn frenin doeth, yn flaenor medrus, yn rhyfelwr dewr, ac yn un gwrolwych mewn rhuthr ar faes y gad; ac o herwydd hyny cyfrifid ef yn un o "Dri tharw Câd Ynys Prydain." Bu Llywarch Hen a'i feibion yn cydweithredu ag ef mewn brwydrau yn erbyn y Saeson. Lladdwyd ef mewn brad gan Llofan Llawdifo, a chyfrifid y weithred ysgeler hon yn un o "Dair Anfad Gyflafan Ynys Prydain." Yr oedd y brenin Cadwallon ab Cadfan, yn cydoesi a Llywarch Hen. Gorchfygwyd hwn unwaith gan Edwin, brenin y Saeson, mor llwyr, fel y gorfu arno ffoi o Brydain i'r Iwerddon, lle y bu dros saith mlynedd fel alltud; eithr wedi hyny, drwy gynorthwy brenin Llydaw, adenillodd ei diriogaethau, a'i lywodraeth; a lladdodd Edwin yn mrwydr Hadfield. Bu 14 o frwydrau rhyngddo a'r Saeson a'r Eingyl, heblaw llawer o fân ymladdau, yn y rhai y bu efe fynychaf yn orchfygwr. Cyfrifid ei deulu ef yn un o "Dri theulu diwair Ynys Prydain." Lladdwyd ef mewn brwydr a'r Saeson yn Northumbria, yn 634 o.c. Yr oedd y tywysog Geraint ab Erbin hefyd yn cyfoesi ag ef. Tywysog Dyfnaint ydoedd hwnw, a gelwid ef yn un o "Dri wyr Llyngesawg Ynys Prydain." Yr oedd yn bleidiwr gwresog, ac yn amddiffynwr galluog i'w wlad, ei rhyddid, a'i chrefydd, a rhesir ef yn mhlith y seintiau. Yr oedd yn elyn anghymodlon i'r Saeson; ac yr oedd ef a Llywarch Hen, yn cyd ymladd dan lywyddiaeth y brenin Arthur yn erbyn y Saeson, yn mrwydr Llongborth, yn nghylch 530 o.c., yn yr hon y lladdwyd Geraint, a chyfansoddodd Llywarch Hen alareb iddo.

Gwelsom ysgrifenydd diweddar yn haeru nad yw y farwnad uchod ond ffug; eithr y mae yn amlwg mai cael ei yru i'r eithafion hyn a wnaeth, er ceisio ymddangos yn gyson ag ef ei hun wrth wadu hanfod Arthur. Crybwyllir enw Arthur yn Marwnad Geraint ab Erbyn, fel "Amherawdwr, Llywiawdr llafur." Profa hyny bod i Arthur hanfod; felly rhaid oedd gwadu dilysrwydd y gân! ac hyd yn nod daflu amheuaeth ar ddilysrwydd hanfod Llywarch Hên!! Ond ni wyddom am neb ag sydd yn meddu unrhyw hawl i gael ei ystyried yn feirniad llenyddol, a amheuodd erioed am eiliad, ddilysrwydd y gân hon, ond cydnabyddir hi yn ddieithriad, yn waith diymwad Llywarch Hen; ac edrychir arni fel y cynllun uwchaf o athrylith Gymreig.

"Agorir y farwnad mewn modd barddonol, gyda chydnabyddiaeth o oruwch reolaeth Crist, fel awdwr ein bod, cyfranwr awdurdod, a threfnwr damweiniau bywyd:—

> "'Pan aned Geraint oedd agored—pyrth nef,
> Rhoddau Crist a arched,
> Pryd mirain, Prydain ogoned.'

"Mae yn anhawdd meddwl am Englyn Triban neu Driban Toddaid, mwy awenyddol na hwnyna—y nef yn agor ei phyrth, a Christ yn rhoddi eu dymuniad i'r bobl, wrth anfon Geraint i'r byd, yr hwn oedd a'i agwedd yn brydferth, ac yn ogoniant Prydain."

Wedi gwau dau benill ar bymtheg i ddarlunio dewrder Geraint, a difrod y frwydr, i Geraint gael ei ladd, ac mai Arthur oedd y penrheolwr yn y frwydr drychinebus hono, efe a newidia y mesur i ddeufan brithodl anghyfunhyd, ac mewn naw penill, efe a glodfora ryfelfeirch Geraint, fel rhai cyflym, "garhirion" "au rhawn yn ariant" yn cael eu porthi a "grawn addas," ac yn rhuthro fel eryrod ar eu gelynion. Ni rydd y gân unrhyw hysbysiaeth pwy oedd yn arwain y gelynion yn Llongborth; ond am y gelwir Geraint yn "elyn i Sais, câr i Saint," ac

Digitized by Google

yn "elyn gormes," gallwn fod yn sicr mai brwydr rhwng y Saeson barbaraidd, a'r Cymry Cristionogol ydoedd.

Yr oedd Cynddylan ab Cyndrwyn, tywysog Powys yn cyfoesi ag ef. Cynaliai hwn ei lys yn Mhengwern ger yr Amwythig. Yr oedd yn elyn anghymodlon i'r Saeson, a dygai yn mlaen ryfel yn egniol a pharhaus yn eu herbyn. Bu yn noddwr i Llywarch Hen, pan orfu arno encilio o'i wlad ei hun rhag gormes y Saeson. Buont eill dau yn cyd ymladd yn yr un brwydrau, dros eu gwlad a'u rhyddid. Cwympodd Cynddylan mewn brwydr yn nghylch 577 O.C.; a galarai Llywarch Hen yn fawr o herwydd marwolaeth ei gyfaill, a'i noddwr. Yr oedd Taliesin Ben Beirdd yn cyfoesi ag ef. Yr oedd hwn yn frodor o Wynedd; bu yn efrydydd o gor Catwg, yn Llancarfan; treuliodd lawer o'i oes yn llys Arthur, ac efe a adeiladodd eglwys Llanhymog, ger Caerlleon ar Wysg, yn Ngwent. Blodeuodd rhwng 520 a 570 o O.C. Yr oedd efe yn un o "Dri beirdd cred a bedydd Ynys Prydain." Yr oedd Aneurin Gwawdrudd hefyd yn perthyn i'r un cyfnod; yr oedd hwn yn un o'r ychydig a ddiangasant yn fyw o frwydr waedlyd ac anffodus Cattraeth. Bu yn ngharchar un tro gan ei elynion mewn daeardy; ond cafodd ei waredu oddi yno gan Cenau ab Llywarch Hen. Lladdwyd ef drwy ergyd bwyell gan Eiddyn ab Eiddygan; a chyfrifir y fwyellawd hono yn un o "Dair anfad fwyellawd Ynys Prydain." Myrddin ab Morfryn, neu Myrddin Wyllt, oedd berthynol i'r un cyfnod a Thaliesin, a Llywarch Hen. Brodor ydoedd o Ystrad Clwyd, yn yr Alban. Bu yn gyfranog yn mrwydr Arderydd dan Gwentolau ab Ceido yn erbyn Rhydderch Hael. Treuliodd wedi hyny y rhan ddiweddaf o'i oes yn llys Rhydderch Hael, yr hyn a ddengys ei fod wedi ymheddychu a'r brenin hwnw ar ol brwydr Arderydd. Perthynol i'r un cyfnod hefyd, oedd Golyddan. Eiddo y beirdd hyn yw y gweithiau barddonol Cymreig henaf sydd ar gael.

Mae deuddeg o gyfansoddiadau ar enw Llywarch Hen yn y *Myf. Arch.*, chwech o honynt o ansawdd hanesyddol, a'r gweddill o nodwedd foesol. Cyhoeddwyd cyfieithad Seisnig o honynt gan Dr. Pughe yn 1792, dan yr enw *The Heroic Elegies and other Pieces of Llywarch Hen;* ac y mae saith o honynt gan Skene yn ei *Four Books of Wales.* Credir gan feirniaid craff, bod ol dwylaw diweddarach i'w ganfod ar amryw o'r cyfansoddiadau hyn; ond ofnir nad oes fawr obaith bellach i neb allu eu puro. Arferid meddwl hyd yn ddiweddar bod y cwbl o farddoniaeth Llywarch Hen ar y mydr Tribanawg a gamenwid "Englyn Milwr." O dan y dybiaeth gamsyniol hono, torodd Dr. Pughe bob un o'r penillion yn dair llinell. Ond pan ymgymerodd Cynddelw at y pwnc, yn ei draethawd rhagorol ar "Fywyd a Nodweddiad Llywarch Hên," yn y *Beirniad* am Ebrill, 1865, efe a gafodd allan *naw* o fydrau rheolaidd yn ei ganiadau, sef Triban Milwr, Triban Cyrch, Triban Toddaid, Gorchan Pedryfan ar y Gyhydedd Lefn, Englyn Unodl Union, Llamgyrch o ansawdd Gadwynog, Llamgyrch, neu Fforchawdl, Brithodl Annghyfunhyd, a Cynghawg. Yn nhrefniad yr un athraw o Ganiadau Llywarch Hen yn y *Beirniad,* am Hydref, 1865, gwelir cyflawnder o engreifftiau ar bob un o'r mydrau uchod.

**LLYWARCH LLAETY,** ydoedd fardd yn blodeuo o 1300 i 1340. Mae un darn barddonol o'i waith, yn anerchiadol i Llywelyn ab Madog ab Meredydd, wedi ei argraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaiology.*

**LLYWARCH Y NAM,** bardd a flodeuai rhwng y blyneddoedd 1320 a 1360. Y mae un o'i ddarnau prydyddol, ag sydd yn anerchiadol i Llywelyn ab Madog ab Llywelyn, wedi ei argraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Myv. Arch.*

**LLYWEL,** plwyf yn nghantref Defynog, dosbarth a swydd BRYCHEINIOG, yn cynwys treflanau Traian Glas, Traian Mawr, ac Is Clydach, a phentref Trecastell, yr hwn sydd yn ffurfio rhan o fwrdeisdref Aberhonddu. Derbyniodd y plwyf ei enw oddiwrth y ffaith iddo gael ei ddewis yn orsaf wersyllol i'w fyddin, gan Idio Wyllt, nai Gwyddelig i Rys ab Tewdwr, yr hwn, fel gwystl o'i ddiolchgarwch i Idio am ei wasanaeth yn llethu gwrthryfel ei ddeiliaid anfoddog, a'i cynysgaeddodd âg arglwyddiaeth Llywel, neu "Lle Wyllt," yn cynwys yr holl diroedd o'r tu dwyreiniol i'r afon Dywi, o Langadog i Abergwesyn. Er mwyn cymodi trigolion cynhenid yr arglwyddiaeth, y rhai a ddangosent dueddfryd annibynol ac anhydrin, ymunodd Idio mewn priodas â merch Bleddyn ab Maenarch, tywysog Brycheiniog, a chadwodd fyddin gref ar fryniau Llywel, canys yr oeddynt yn dra chyfleus i'r dyben hwnw, gan y galluogent ef i wrthsefyll ymosodiadau o Frycheiniog, neu Gaerfyrddin, a gallai yntau ddisgyn pan y mynai i'r dyffrynoedd oddeutu, i lethu gwrthryfeloedd, casglu ymborth, neu godi trethi, canys yr oedd bendith y publicanod yn cael ei mwynhau hyd yn nod yn y cyfnod tywyll hwnw. I fesurau cyfrwys Idio, a'i sefyllfa gadarn ar y mynyddoedd, y priodolir cadwraeth arglwyddiaeth Llywel rhag disgyn i feddiant Bernard Newmarch, pan oresgynodd efe barthau ereill o Frycheiniog. Saif y plwyf yn y rhan orllewinol o'r swydd, ar yr afon Wysg, a'r *Via Julia Montana*, ar reilffordd Llanymddyfri ac Aberhonddu, dan fynyddoedd Bwlchygroes, ddeuddeng milldir i'r gorllewin o Aberhonddu. Y mae yn cynwys 22,295 o erwau, ac y mae yr eiddo trethadwy yn cyrhaedd 6021*p.* Lleihaodd y boblogaeth o 1627 yn 1851 i 1503 yn 1861; nifer y tai yw 338. Mae yr arwynebedd yn dra anwastad a mynyddig, ac y mae yr uchaf o fynyddoedd y plwyf, sef Mynydd Trecastell, yn 2596 o uchder. Rhed lliaws o aberoedd oddiar lethrau y mynyddoedd hyn, y rhai a ymunant a'r Tawe, a'r Wysg. Mae yr Wysg ei hunan yn tarddu o Lyn y Fan, rhwng dau fynydd cyfagos, nid amgen Bàn Brycheiniog, a Ban Sir Gaer, gerllaw y llanerch sydd yn cyssylltu y plwyf hwn a phlwyf Llanddausaint, yn swydd Gaerfyrddin. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, gwerth 160*p.*, ac yn nawdd yr Esgob. Trethid hi yn llyfrau y brenin i 9*p.* 10*s.* 5*c.* Llantrisaint y gelwid yr eglwys gynt, am fod iddi dri o nawddseintiau, nid amgen Dewi, Padarn, a Theilo; cafodd ei hadgyweirio yn ddiweddar. Y mae capel-eglwys gwaddoledig yn nhreflan Is Clydach, yr hon a ffurfia isberigloriaeth barhaol, yn nawdd y Ficer. Mae yma hefyd ddau gapel perthynol i'r Annibynwyr, dau i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac un addoldy gan y Bedyddwyr. Nid yw achos addysg ychwaith yn cael ei esgeuluso, canys y mae yn y plwyf ysgol Frytanaidd, ac Ysgol Wladwriaethol. Perthyna i dlodion y plwyf, werth chwe phunt yn y flwyddyn o elusenau, ffrwyth cymmunroddion a adawyd gan

Digitized by Google

John Jeffreys o Lundain, yn 1706, a chan Roger Jeffreys o'r Berthddu, yn 1714.

**LLYWELYN** ab Cynwrig Ddu, bardd o Fôn, yn blodeuo o 1460 i 1500. Mae rhai darnau o'i waith ar gael mewn llaw-ysgrifau.

**LLYWELYN** ab Ednyfed, bardd a flodeuai rhwng 1480 a 1520. Y mae ychydig ddarnau o'i waith ar gael mewn llaw-ysgrifau.

**LLYWELYN** ab Gruffydd, tywysog olaf y Cymry, ydoedd ail, neu drydydd mab i Gryffydd ab Llywelyn, o'i wraig Sina, ferch Caradog ab Tomas. Ei frodyr oeddynt Owain Goch, Dafydd, a Rhodri. Gruffydd, yn ol rhai ysgrifenwyr, ydoedd mab henaf Llywelyn ab Iorwerth, o'i wraig gyntaf, Tangwystl, ferch Llywarch Goch o Rhos; ond yn ol eraill, ordderchfab ydoedd. Anfoddlonodd Gruffydd ei dad, yr hwn mewn canlyniad, a'i difreiniodd yntau, gan osod Dafydd, ei haner brawd, ar orsedd Gwynedd yn ei le. Llywodraethodd Dafydd gyda gwialen haiarn am chwe blynedd, a thrwy ei gyd-gynllwyn gyda'i ewythr, Harri III., trosglwyddodd Gruffydd, a'i etifedd Owain Goch, i'r Twr yn Llundain, fel gelynion peryglus i heddwch y Dywysogaeth; ac wrth geisio dianc allan trwy ffenestr ei garchar, cyfarfu Gruffydd a'i ddiwedd truenus, ac mewn rhyw ysbaid ar ol hyny, rhyddhawyd Owain Goch. Tybir bod Llywelyn yn trigo yn y cyfamser gyda'i fam yn Maesmynan, ger Caerwys, yn swydd Fflint; gan etifeddu eu pedwar cantref treftadol, Rhos, Rhufoniog, Tegeingl, a Dyffryn Clwyd.

Yn 1246, pan y bu Dafydd farw yn ddi blant, dewisodd y Cymry Owain Goch, a Llywelyn, yn gyd-dywysogion Gwynedd. Dywed y rhai a ddaliant mai ordderchfab i Llywelyn ab Iorwerth oedd Gruffydd, bod y dewisiad uchod yn afreolaidd, ac mai Roger Mortimer, mab Gwladus Ddu, ferch Llywelyn ab Iorwerth o Joan ei wraig, ferch John, brenin Lloegr, oedd gwir etifedd talaeth Gwynedd; ond y mae y ffaith nad oes grybwylliad ddarfod i Gwladus Ddu, na neb o'i chydoeswyr ar ei rhan, honi ei hawl i'r dalaeth, yn myned yn mhell i brofi nad hi ydoedd y wir etifeddes, ond bod Gruffydd yn fab cyfreithlon, ac mai ei feibion ef gan hyny, oedd y gwir etifeddion. Ar ol i'r ddau frawd esgyn i'r orsedd, tybir bod Llywelyn yn trigo yn Abergwyngregyn, yn Arfon, ac Owain Goch yn Aberffraw, yn Mon. Yr oedd Cymru ar y pryd hwn mewn cyflwr gresynus i'r eithaf; yr oedd y mân ormeswyr, a elwid y barwniaid Normanaidd, trwy nerth y cleddyf, a chymorth brenin Lloegr, wedi ymsefydlu yn arglwyddi y cyffiniau, o Gaerlleon-ar-ddyfyrdwy hyd Gaerlleon-ar-wysg; gan ddal eu tiriogaethau mewn gwarogaeth i goron Lloegr; a thrwy eu rheibiaeth am ferched Cymru yn wragedd, a'u rhyfel-gyrchoedd ysbeilgar mynych i ganol y berfeddwlad, wedi enill cyfoeth aruthrol, ac yn bygwth yn fuan meddianu y Dywysogaeth, a llyncu i fyny ei holl drigolion; yr oedd gwaed tywysogol Deheubarth, wedi hen redeg allan gyda'r "Arglwydd Rhys," a'r eiddo Powys, gyda Meredydd ab Bleddyn, a'u hiliogaeth wedi ymwasgaru yn fân benaethiaid ymrafaelgar ar hyd y wlad, ac o dan ddylanwad arglwyddi y cyffiniau, yn byw mewn gwarogaeth i frenin Lloegr, ac yn barod ar unrhyw adeg i gynllwyno yn erbyn eu gilydd, neu yn erbyn y brenin; ac yr oedd tywysogaeth Gwynedd wedi ei bradychu i frenhinoedd Lloegr lawer gwaith, a llawer modd, gan ei thywysogion ei hunan, nes oedd rhyfeloedd a bradwriaethau wedi darostwng y bobl i dlodi, a digalondid, a pha fwyaf a ymladdent am eu hannibyniaeth, dyfnaf oll y suddent i grafangau y gormesydd. Dyna agwedd Cymru pan esgynodd y ddau frawd i orsedd Gwynedd; fel y barnasant mai y peth doethaf iddynt o dan yr amgylchiadau, oedd ymostwng yn gyntaf oll i warogi i'r gormesydd, Harri III., ar y telerau darostyngol a ganlyn:—Bod iddynt roddi i fyny eu hawl am byth i'r pedwar cantref treftadol, sef yr holl wlad o Gonwy i Ddyfrdwy; bod iddynt gadw mil o wŷr traed, a phedwar-ar-hugain o wŷr meirch, i fod yn barod ar bob achlysur i wasanaethu y brenin, yn Nghymru, neu ar y cyffiniau; neu anfon pum cant o wyr traed at ei alwad, i unrhyw wlad arall; bod gwarogaeth a gwasanaeth pendefigion Cymru, i fod yn eiddo brenhinoedd Lloegr am byth; ac, os torai y tywysogion un o'r amodau hyn, bod eu holl diriogaethau i gael eu fforfedu i'r brenin. Wedi iddynt arwyddo y cytundeb darostyngol uchod, caniatawyd iddynt feddianu eu tywysogaeth, dan warogaeth i goron Lloegr, dros byth; a chyflwynodd y brenin y pedwar cantref crybwylledig, yn anrheg i'w fab Edward, gyda'r teitl, meddir, o "Dywysog Cymru;" a gosododd yntau yr holl wlad, o Gonwy i Gaer, i'r barwn Normanaidd, Alan de Zouch, i'w dal o hyd breichiau, am rent blyneddol o un cant ar ddeg o forcau,[1] yr hwn a'i hail osododd i'r Cymry am y rhent uwchaf a allai gael, ac a brofodd ei hun yn feistr creulawn iddynt. Yr oedd Cymru ar y pryd hwn mewn cyflwr isel rhyfeddol, a dywed Matthew Paris, bod y genedl oblegyd y prinder oedd yn eu plith "wedi ei phlygu yn anewyllysgar o dan iau y Saeson; bod eu hen bendefigion uchel-fonedd wedi gwywo ymaith; mai nodau o wae yn unig a seiniai y delyn a'r beirdd; a bod esgobion Bangor a Llanelwy, yn gorfod cardota eu bara, oblegyd y caledi mawr." O dan yr amgylchiadau hyn, beth allai y tywysogion ieuainc wneyd yn well, na cheisio ymostwng i'w gorthrymwyr, hyd oni symudai yr olwyn fawr drachefn? Yn y cyfamser, ymroddodd y bobl i drin eu tiroedd, a meithrin anifeiliaid, gan ddyoddef mor amyneddgar ag y gallasent, o dan orthrwm yr ysbeilwyr a ymgyfoethogent trwy chwŷs eu gwynebau hwynt; ac felly yr ymlithrodd pedair blynedd heibio yn araf. Ond tua'r flwyddyn 1250, anfonodd y ddau dywysog lythyr at Harri, yn cwyno oblegyd ymddygiadau gormesol John de Grey, ynad Caer; ac yr oedd Alan de Zouch hefyd yn llethu trigolion y pedwar cantref, trwy osod arnynt gyfreithiau Seisnig, codi oddiarnynt drethi trymion at ffug-ymgyrch y brenin i Ryfel y Groes, ac at lanw ei logellau ei hun; ac ar noswyl Sulgwyn, 1252, wrth gludo yr arian a ysbeiliasai efe oddiar breswylwyr ei "diriogaeth" mewn certwyni dau farch i drysorau y brenin, efe a ymffrostiai fod pawb yn mhob rhan o Gymru weithian, yn gorphwys yn dawel o dan gyfreithiau Lloegr. Eithr nid oedd y cyfryw dawelwch ond rhagflaenydd ystorm ag oedd i ysgwyd yr holl deyrnas. Ar yr 8fed o Orphenaf, 1253, rhoddwyd derbyniad a nawdd i Dafydd ab Gruffydd, brawd Owain a Llywelyn, yn y llys Seisnig, yr hwn a fu yn offeryn i greu ymryson cartrefol yn Nghymru. Ar y 14 o Chwefror, 1254, rhoddodd y brenin i'w fab Edward, yn ychwanegiad at y pedwar cantref a nodwyd eisioes, gestyll Diserth, Rhuddlan, Dyganwy, Trefaldwyn, Caerfyrddin, Aberteifi, a Buallt; a llanwodd yntau hwynt oll a dyhirod ysgeler, tra y gorthrymai ei oruchwyliwr

[1] 667*p*. 6*s*. 8*c*.

Digitized by Google

creulawn, Geoffrey de Langley, drigolion yr ardaloedd cyfagos i'r cyfryw gestyll, â phob math o drethi a thrais. Tra yr oedd y genedl fel hyn yn eithafoedd anobaith, yn Gorphenaf 1255, wele ellyll ymryson brodyr yn dyrchafu ei ben. Dafydd ab Gruffydd wedi ei anfon o lŷs Harri, i gyd-gynllwyno â'i frawd Owain Goch, er ceisio amddifadu eu brawd Llywelyn o'i gyfran o dywysogaeth Gwynedd. Cynullasant eu lluoedd yn nghyd, yn Gymry a Saeson, yn ngwlad Lleyn; ond Llywelyn, anwylddyn y genedl, wedi clywed am eu brad, a ymluyddodd yn ddioed yn eu herbyn; ac mewn lle a elwir Bryn Derwyn, rhwng Clynog Fawr a Dolbenmaen, bu brwydr waedlyd rhyngddynt, yr hon a derfynodd, trwy adael y ddau wrthryfelwr yn garcharorion yn nwylaw Llywelyn, a'i adael yntau ei hun mewn cyflawn feddiant o dywysogaeth Gwynedd. I gastell Dolbadarn, wrth droed yr Wyddfa, y trosglwyddwyd Owain Goch, lle y bu yn ngarchar am dair blynedd ar hugain, sef hyd 1277; ond ni hysbysir i ba le y trosglwyddwyd Dafydd;[1] ond pa le bynag, cafodd ei ryddhau, a'i adferyd i ffafr ei frawd, cyn Mawrth, 1258.

Yr oedd cwynion mynych am anfadwaith y gorthrymwyr, yn dyfod y pryd hwn o bob parth i glustiau Llywelyn, ac ymddengys bod cwynion am droseddau y Cymry, yn myned hefyd i glustiau Harri; a thua dechreu 1256, anfonodd Harri genhadau at Llywelyn, i ofyn iddo ei gyfarfod ef yn Nhrefaldwyn, ar y 1af o Fawrth, i ymdrin yn nghylch parhad yr heddwch, â'r ad-daliad a ofynid gan Llywelyn am y troseddau a roddid yn ei erbyn. Atebodd Llywelyn ef trwy lythyr, yn dymuno ar i'r brenin oedi y dydd appwyntiedig hyd Ebrill 16eg, a nodi y Ty Gwyn-ar-Daf i ymgyfarfod, yn lle Trefaldwyn; ond nid yw ateb y brenin ar gael. Yn Ngorphenaf, y flwyddyn hono, ymwelodd y Tywysog Edward a'i diriogaethau yn Ngwynedd; a chan gychwyn allan o Gaer, teithiodd gyda rhwysg ynfyd trwy y wlad, yn mlaen oddiyno i Dyganwy, gan arolygu ei gestyll, a derbyn gwarogaeth ei wasolwyr; ac yn lle symud gorthrwm ac unioni cam y trigolion, efe a gymeradwyodd drahausder a threthi annghyfiawn Geoffrey de Langley; ac er mwyn gwneyd i'r bobl gofio am yr ymweliad hwn, efe a barodd i'w ddilynwyr dori un glust, a thynu ymaith un llygad, i fachgenyn diniwaid a ddygwyddodd ei gyfarfod ar y ffordd!! Cynhyrfodd yr ysgelerderau hyn drigolion y berfeddwlad, a daethant at Llywelyn, gan osod eu cwynion ger ei fron gydâ dagrau a griddfanau, dymuno arno gymeryd eu hachos mewn llaw, a thyngu y dewisent farw ar y maes, yn hytrach na dyoddef y fath orthrymder yn hwy. Cymerodd y Tywysog ieuanc eu hachos yn ddibetrus, anfonodd lythyr at Harri, yn nodi cwynion amrywiol ei ddeiliaid, gan awgrymu yn eglur, nas gallai oddef y fath gamwri yn hwy; ac os na wnai y brenin yn ddioed gyfiawnder yn erbyn y gorthrymwyr, y gorfodid ef, er yn anewyllysgar, i gymeryd eu hachos yn ei law ei hun.

Wedi canfod nad oedd y brenin yn gwneyd un ysgogiad i'r perwyl hwnw, efe a gynullodd ei wyr yn nghyd gyda chyflymdra braidd anhygoel; canys erbyn yr 2il o Dachwedd yr oedd yn nghanol y pedwar cantref, ac yn gyru yr ysbeilwyr o'i flaen hyd byrth dinas Caer. Y tywysog Edward, pan glybu hyny, a ddechreuodd barotoi i ddyfod i'w gyfarfod, ond nid oedd ganddo arian; apeliodd at ei dad am gymorth, ond yr oedd yntau yn rhy dlawd; yna aeth at ei ewythr Richard, Iarll Cernyw, ac wedi cael benthyg pedair mil o forcau gan hwnw at "ddileu y Cymry," cychwynodd i'w daith ar ffrwst. Ond daeth y cymylau yn eu graddau i ymladd yn ei erbyn; trodd y tywydd mor wlyb, fel y gorfu ar Edward druan droi tuag adref, heb wneyd dim ond gwario ei arian benthyg yn ofer, a dangos unwaith eto, ei anian fwystfilaidd, trwy beru i'w filwyr ddiffeithio yr ardaloedd Seisnig y dychwelodd trwyddynt tua Chaer; a dywedir iddo yn ei gynddaredd, orfodi Geoffrey de Langley, ei oruchwyliwr, dalu iddo am y colledion a wnaethai Llywelyn ar ei eiddo yn y Pedwar Cantref. Wedi i Llywelyn unwaith dynu ei gleddyf o'i wain, nid ymfoddlonodd ar lanhau y Pedwar Cantref oddiwrth y gorthrymwyr Normanaidd; ond aeth yn mlaen yn ei rwysg, gan adfeddianu Meirionydd a Cheredigion, dychwelyd eu hetifeddiaethau i Meredydd ab Owain, a Meredydd ab Rhys, ac ymlid Rhys Fychan ymaith o Buallt, fel pryf drwg. Wrth ddychwelyd o'r hynt ad-daliadol hon, efe a adenilloddodd oddiar ei gefnder, Roger Mortimer, gantref Gwrthrynion, yn swydd Faesyfed. Wedi hyny, aeth ef, a Meredydd ab Owain, Meredydd ab Rhys, yn nghydag amryw bendefigion eraill, yn erbyn y twyllodrus Gryffydd ab Gwenwynwyn, arglwydd Powys, ac enillasant oddiarno bron ei holl diriogaethau. Yna, deallodd bod Rhys Fychan wedi cael byddin luosog gan y brenin, ar fedr glanio yn Nghaerfyrddin, a gwarchae castell Dinefwr, a phrysurodd i'w gyfarfod yn ddioed; ac wedi brwydr waedlyd, yn yr hon y gadawyd dros ddwy fil o Saeson Normanaidd ar y maes, ffodd y gweddill ymaith gyda'u bywyd yn ysglyfaeth. Oddi yno aeth Llywelyn i Ddyfed, gan ddiffeithio yr holl wlad o'i flaen, ac wedi dinystrio cestyll Abercorran, Llanstephan, Maen-clochog, Arberth, a Threfdraeth, dychwelodd i'r Gogledd gydag ysbail anferth.

Yr oedd enw Llywelyn erbyn hyn yn lleng yn y wlad, pob cwmwd a phentref o Gymru yn dylifo allan o dan ei arfau, ei fyddin yn rhifo deng mil o farchogion arfog, a miloedd lawer o wŷr traed, a'i enw yn taenu dychryn dros yr holl deyrnas. Dywed Mathew Paris, i Harri, a Iarll Cernyw anfon y pryd hwnw at Llywelyn, i "erfyn arno yn ostyngedig," i attal ei ddifrodiadau dros dymor. Ond nid oedd gorphwys i fod, nes gorphen y gwaith; canys ar y 6ed o Ionawr, 1257, ymosododd ar yr ansefydlog Gryffydd Maelor, arglwydd Dinas Bran, ac a ddiffeithiodd ei diroedd ef a'i bleidwyr yn ddychrynllyd, gyda thân a chleddyf. Ffodd Gryffydd at y brenin, a thrwy ei gymorth ef a'i fab Edward, llwyddodd i gael byddin anferth o Saeson a Normaniaid, a chan ddwyn baner y tywysog Edward o'u blaen, daethant i gyfarfod Llywelyn yn agos i'r Hafren, a cherllaw castell Trefaldwyn. Ond pan welsant nerth y Cymry, a'u hyfder erchyll wrth ruthro arnynt, dychrynasant yn ddirfawr, a ffoisant i'r castell am eu bywyd. Gwelodd Gryffydd y pryd hwn, nad oedd wiw iddo ymddiried i Harri a'i wŷr, i'w amddiffyn rhag ymosodiadau y Cymry; am hyny, yn mhen ychydig, efe a ddychwelodd at Llywelyn i erfyn ei gymod, yr hwn yn ol ei haelfrydigrwydd arferol, a faddeuodd iddo ei holl fradwriaeth, ac a'i derbyniodd ef i'w gyngrair.

Yr oedd y Cymry y pryd hwn yn dra unol a'u gilydd, trwy Wynedd a Deheubarth, a dywed Matthew

[1] Dywed y "Brut" mai ffoi o'r frwydr a wnaeth Dafydd; ond dywed yr holl haneswyr eraill iddo gael ei garcharu, ond ni ddywedant yn mha le.

Digitized by Google

Paris, i Llywelyn, wrth weled ei fyddin mor fawr, ei rhanu yn ddwy, a bod pob un o'r ddwy yn cynwys deng mil ar hugain o wyr arfog, o'r rhai yr oedd pum cant yn farchogion mewn llurigau harddwych, a'u meirch oll yn cael eu hamgylchu a haiarnwisg, yn ol arferiad yr oes hono.

Ar y 5ed o Chwefror, ymosododd y Normaniaid ar fynachlog fawr Tŷ Gwyn-ar-daf, gan ei dryllio, a'i hysbeilio, curo y mynachod, a lladd un o honynt yn y fynwent. Pan glybu Llywelyn hyny, prysurodd i faes y galanasdra; ac yna anrheithiodd holl barthau Seisnig Cydweli, Carnwyllion, Gwŷr, ac Abertawe; ac wedi darostwng Cymry y parthau hyny o dan ei awdurdod ei hun, efe a ymosododd ar fyddin y Normaniaid, yr hon a enciliodd o'i flaen i ryw gastell na roddir ei enw, lle y bwriadent ei wrthsefyll mewn lle cul a chorsog. Ond Llywelyn a anfonodd nifer o wŷr i dori i'w cyfarfod hwynt, ac felly, medd yr hanesydd, cawsant eu hunain megys "rhwng dau faen melin; a hwy a orchfygwyd, ac a lwyr faluriwyd a galanastra mawr. Syrthiodd llu dirfawr o Saeson yn y frwydr hono, ac yn eu plith amryw bendefigion urddasol." Yr oedd y fuddugoliaeth hon yn "ddial gwaed y saint;" ac nid rhyfedd i'r hen fynach, Matthew Paris, osod y fath araeth hyawdl a duwiolfrydig yn ngenau Llywelyn, â'r hon y dywed efe, iddo ei thraddodi i'w filwyr ar y fuddugoliaeth hon.

Mae yn amlwg bod y llwyddiant mawr ag oedd yn dilyn arfau Llywelyn yn mhob ymgyrch fel hyn, yn ddyrnod ofnadwy i falchder Edward; ac yn ei gyfyngder, aeth at ei dad gwastraffus a thlawd, i ofyn am gymorth i ddarostwng y gwrthryfelwyr. Ond yr ateb a gafodd oedd, "Mi a roddais y wlad i ti yn anrheg, os medri ei meddianu. Gan hyny bydd wr, ac ymwrola yn awr yn dy ieuenctyd, fel y byddo ar dy elynion dy ofn rhagllaw. Am danaf fi, y mae genyf ddigon o waith arall." Wedi methu hefyd gael cymorth arian gan ei fam, na'i ewythr, Iarll Cernyw, na chan neb yn Lloegr, efe a anfonodd at y Gwyddelod, y rhai a frysiasant i gyduno a'i gais, trwy anfon llwythi llongau o filwyr i'w gynorthwyo. Ond deallodd Llywelyn am y cynllwyn, ac anfonodd longau arfog i gyfarfod y Gwyddelod ar y mor, y rhai a lwyddasant i'w dystrywio yn anadferadwy. Wedi i'r ddyfais hono i ddarostwng y gwrthryfelwyr fethu, cynygiwyd un arall. Ymddengys y tybid bod rhyw ddylanwad gan Iarll Cernyw, yr hwn a elwid y pryd hwnw yn "Frenin Rhufain," ar rai o benaethiaid Cymru; creda rhai bod ganddo law neillduol yn ngwrthryfel Dafydd, ac Owain Goch; a bod llawer o gyfeillion ganddo yn mhlith y penaethiaid Cymreig ag oedd ar y pryd hwn yn ymladd gyda Llywelyn. Felly ar ol i'r cynllwyn Gwyddelig fethu, yr ydym yn cael Harri yn cyhoeddi nawdd myned a dychwelyd, i genhadau oddiwrth Llywelyn at "Frenin Rhufain," yr hwn ag oedd i barhau mewn grym hyd yr 8fed o Ebrill. Ond nid ymddengys i un daioni ddeilliaw o hyny; canys cawn bod y gwrthryfel yn Nghymru yn parhau mor ddifaol ag erioed. Yn nechreu Ebrill, y llosgwyd Trefaldwyn hyd y llawr, ac y lladdwyd y trigolion yn greulawn, gan fintai o wyr Llywelyn.

Ar y 29ain o Fai, daeth llu o feirch filwyr Normanaidd, o dan dywysiad Rhys Fychan, i mewn i Gaerfyrddin; a thranoeth, cychwynasant allan ar fedr diffeithio y wlad oddi yno i Lanbadarn Fawr. Ond gwŷr Llywelyn o dan dywysiad Gryffydd Maelor, Meredydd ab Rhys, a Meredydd ab Owain, a'u hamgylchynasant, gan wlawio arnynt eu picellau gyda ffyrnigrwydd anorfod, nes y ffodd Rhys Fychan am ei fywyd i Dinefawr—ei gastell ei hun, gan adael i'r Normaniaid i ymddiried yn eu llurigau dur, a'u meirch haiarnwisg; ond cyn iddynt gyraedd pen eu taith, yr oedd dros dair mil o honynt wedi eu gadael yn feirwon ar y ffordd, ac yn eu plith, Stephen de Bazan, yr hwn oedd dra hoff gan y brenin; a phrin y diangodd cymaint ag un o'r fintai a'i fywyd yn ysglyfaeth. Cyfoethogwyd y Cymry yn fawr â'r ysbail o feirch ac arfau a gawsant trwy y fuddugoliaeth hon.

Parodd y cad-gyrchoedd difrodol a wnelai y Cymry yn barhaus, yn nghyda'r llwyddiant di eithriad oedd ar eu harfau, i Harri benderfynu galw holl nerthoedd y deyrnas yn nghyd, er darostwng Llywelyn a'r Cymry anhydrin, ar unwaith, ac am byth. Yn nechreu Gorphenaf, gyrodd lythyrau i bob parth o'r deyrnas, gydag Ysgotland, a'r Iwerddon, yn galw ar ei holl ddeiliaid gwarogol, ei gyfarfod ef yn Nghaer, ar y 1af o Awst yn ddiffael, fel y gallai wneyd cad-gyrchiad yn erbyn y Cymry. Ar y 18fed, a'r 19eg o'r un mis, efe a hysbysodd bod y cad-gyrchiad i fod yn ddeublyg—o ddau gyfeiriad ar unwaith, un ar Wynedd, yn cychwyn allan o Gaer, dan ei arweiniad ef ei hun, ar yr 11eg o Awst; ar llall ar Ddeheubarth, yn cychwyn allan o Gaerodor, dan arweiniad Iarll Caerloyw, ar yr un diwrnod; a bod llongau hefyd i gael eu gyru allan o'r Pum Porthladd, sef Dover, Hastings, Hythe, Romney, a Sandwich, i gynorthwyo y byddinoedd oddi ar y gororau; ac er mwyn gwneyd i'r ymosodiad aruthrol hwn fod yn llwyddianus i ddifa y Cymry, efe a orchymynodd ddifrodi yr ŷd, a holl ffrwythau y ddaear oedd yn y wlad o amgylch y cyffiniau, fel y byddai yn sicr na allai y Cymry, druain! gael ymborth o unlle yn ystod y rhyfel. Eithr ni feddyliodd o ba le y cai ymborth ei hunan. Tra yr oedd y parotoadau enfawr uchod yn myned yn mlaen yn Lloegr, er cychwyn tua Chymru, yr oedd Llywelyn wrthi yn brysur, yn parotoi y ffordd o flaen y brenin. Wedi iddo symud gwragedd a phlant, yn nghyda holl eiddo symudol ei ddeiliaid, dros afon Gonwy i amddiffynfeydd Eryri, efe a barodd i'r holl diroedd porfa, o Gaer i Gonwy, gael eu haredig, i'r melinau, a'r pontydd, gael eu dryllio, ac i bob defnydd ymborth nas gellid ei symud, gael ei ddifrodi, fel erbyn i'r brenin gyd a'i fyddin anferth—oll yn wisgedig mewn llurigau, ddyfod i'r wlad, efe a'i cafodd yn ddiffeithwch noethlwm; a chyn pen ychydig wythnosau, yr oedd y dydd byr, y tywydd oer, y corsydd twyllodrus, y creigiau anhygyrch, rhuthriadau ffyrnig y Cymry, a'r newyn du,—oll yn eu graddau, wedi ymladd mor effeithiol yn ei erbyn, fel y gorfodwyd yr hen frenin annarbodus, gyda'i fyddin ddrylliedig, i ymgilio tuag adref, o dan fwy o warth a chywilydd nag erioed. Ni bu yr ymosodiad o Gaerodor, ddim yn fwy ffodus; oblegyd trwy ryw gam ddealldwriaeth, yr hyn a briodolid i'w fradwriaeth, ni chychwynodd Iarll Caerloyw o gwbl. Effeithiodd gwarth yr aflwyddiant hwn gymaint ar feddwl y brenin, nes ei daflu i dwymyn boeth, yr hon a dybid a fuasai yn angau iddo; a pharodd y fath ddigalondid i'r tywysog Edward, fel y penderfynodd unwaith ymwrthod a Chymru am byth, a'i rhoddi i fyny fel talaeth anorchfygadwy.

Yr oedd y Cymry erbyn hyn yn anterth eu gorfoledd, cyffiniau y Dywysogaeth wedi eu hadferyd

Digitized by Google

i'w hehangder cyssefin, a Llywelyn yn Dywysog Cymru mewn gwirionedd.

Nid oedd yn naturiol i'r fath lu buddugoliaethus aros yn llonydd; am hyny rhuthrent ar diriogaethau Edward, ac arglwyddi y cyffiniau, ac ysgubent y cwbl o'u blaen.

Aethant i lawr i'r Deheubarth, gan anrheithio estroniaid swydd Benfro, lle yn ffodus iawn tua'r amser hwn y daethant o hyd i halen, nwydd ag y dyoddefent lawer o'i eisiau, byth er pan y dinystriasai Harri eu gweithiau halen, yn swydd Gaerlleon.

Erbyn dechreu 1258, yr oedd pethau yn ymddangos mor ddrwg, fel y dymunodd Harri ar Llywelyn arwyddo cad-oediad hyd y 19eg o Ebrill; a'r hyn y cydsyniodd. Ond gan y gwelai nad oedd un lles yn deilliaw iddo ef a'i wlad oddiwrth y cad-oediad, yn ebrwydd ar ei derfyniad, dechreuodd rhyfel mor ddifrodol ag erioed. Tua'r adeg, hon y gwrthgiliodd Meredydd ab Rhys o'r cyngrair Cymreig, a thyngodd ffyddlondeb i frenin Lloegr. Ar y 18fed o Fawrth, ffurfiwyd cytundeb ymosodol ac amddiffynol rhwng y Cymry a'r Ysgotiaid, yr hwn a arwyddwyd dros y Cymry, gan Llywelyn, a Dafydd ei frawd. Dyma y waith gyntaf i Dafydd ddyfod i'r golwg er brwydr anffodus Bryn Derwyn. Yr oedd ymryson blin ar y pryd hwn, yn ymgodi rhwng Harri a'i farwniaid, yr hwn wedi hyny a dorodd allan yn rhyfel cartrefol aethus. Blaenoriaid y barwniaid oedd Simon de Montfort, sylfaenydd Ty y Cyffredin, ac Iarll Caerloyw, yr hwn wedi hyny a wrthgiliodd oddiwrth y barwniaid, ac a fradychodd De Montfort. Tua'r pryd hwn, ffurfiodd Llywelyn a De Montfort gyngrhair dirgel, yr hwn a arweiniodd i farwolaeth y ddau; ond a ddygodd Gymru, ar ol cael ei darostwng o dan lywodraeth Lloegr, i gymeryd ei rhan yn ei Senedd, ac i gael llais yn ffurfiad ei chyfreithiau. Yr oedd Llywelyn ar y pryd hwn yn allu cryf yn Mrydain, a chanddo dri ugain mil o wyr arfog, wedi tyngu ar yr Efengylau y buasent yn mynu eu gwlad yn rhydd, neu ynte farw ar y maes; ac yr oedd yn naturiol i De Montfort, yr hwn nid oedd eto ond dechreu ar ei waith, ond yn llawn beiddgarwch ac uchelgais, ac yn ei syniadau gwleidyddol, yn mhell o flaen ei oes, edrych i fyny at Llywelyn, fel cyngreiriwr o'r pwys mwyaf i'w sicrhau. Heblaw hyny, yr oedd cydrywiaeth mawr yn syniadau ac amcanion y ddau; amcan proffesedig De Montfort, oedd cyfodi y barwniaid i'w lle priodol yn llywodraeth y deyrnas, er rhoi terfynau i wastraff y brenin ar arian ei ddeiliaid; rhoi i'r bobl yn mhob swydd, a bwrdeisdref, hawl i anfon eu cynnrychiolwyr i gynghorfa y genedl, i ffurfio cyfreithiau, ac i orfodi y brenin a'r deiliaid i gario allan y cyfreithiau hyny; tra mai amcan mawr Llywelyn, oedd gwaredu Cymru o grafangau cyfundrefn wasolaidd y Normaniaid, o dan yr hon, neu rai tebyg iddi, yr oedd holl Ewrop a'r byd ar y pryd hwnw, yn gorwodd yn ddi ymadferth, mewn trueni gwleidyddol a moesol. Arwyddair Llywelyn oedd RHYDDID!—gair hollol anadnabyddus yn yr oes hono; ond yr oedd ei enaid ef yn dyheu am weled y Ddraig Goch yn chwifio dros genedl *rydd* ar fynyddau Cymru. Nid rhyfedd ynte, bod y fath gydymdeimlad rhwng y ddau wron hyn, ac iddynt ffurfio cyngrair dirgel o gydweithrediad a ffyddlondeb i'w gilydd, tra yn cyd ymladd yn erbyn yr un gelyn mawr; ac yn ngoleu y cyfryw gyngrair y rhaid edrych ar weithrediadau Llywelyn am y dyfodol.

Ar ol ffurfio y cyngreiriau uchod, cynygiodd Llywelyn amodau heddwch i'r brenin; eithr ni welodd Harri yn dda i'w ateb.

Y dydd Mercher cyntaf ar ol y Pasg, cynaliwyd Senedd yn Llundain; a'r brenin yn ei araeth agoriadol, a achwynai yn dost ar ymddygiadau y Cymry, ac a ddywedai bod angenrheidrwydd wedi dyfod arno i roi terfyn ar en gwrthryfel difrodus, a'u bost annyoddefol. Am hyny rhoddodd wŷs i'w holl bendefigion a'u milwyr i'w gyfarfod ef yn Nghaer, ar y 24ain o Fehefin, fel y gallai bellach roi terfyn ar hanfod y fath genedl anhydrin. Ond yr oedd yn haws dyweyd, na gwneyd; yr oedd ei farwniaid wedi hen flino ar y glebar o ddarostwng y Cymry, ac heb weled dim yn deilliaw o'r holl gadgyrchoedd costfawr, ond tlodi a gwarth; felly cododd grwgnach cyffredinol trwy y deyrnas, ac enynodd digofaint y bobl yn erbyn yr hen frenin gwastraffus, am feddwl am y fath anturiaeth ddielw fel hyn ar fin cynauaf. Yr oedd gan Llywelyn, y pryd hwnw, gyfaill yn y llys, yr hwn a ofalodd i gael gan y brenin anfon dïogelwch myned a dychwelyd, i genhadau oddi wrth Llywelyn i ymddangos yn y Senedd oedd i fod yn Rhydychain ar yr 11eg o Fehefin, yr hwn ddïogelwch oedd i barhau hyd yr 8fed o Orphenaf. Felly ar yr 17eg o Fehefin, ymddangosodd dau genadwr oddiwrth Llywelyn, Aman, abad Aberconwy, a Madog ei fab, yn y "*mad parliament*" yn Rhydychain; a sefydlwyd heddwch rhwng Lloegr a Chymru ar y telerau canlynol:—Bod pob plaid i ddal yr hyn oedd ganddi ar y pryd, ac nad oedd y naill i fyned i diriogaethau y llall ar un cyfrif, heb drwydded i hyny; nad oedd y rhydleoedd a'r mynedfeydd i gael eu hatal; bod y brenin i gael caniatad i ddiwallu cestyll Dyganwy a Diserth o'r môr, os yn ddichonadwy, os amgen o'r tir, o dan nawdd diogelwch Llywelyn; os analluogid un o warchodlu y cyfryw gestyll gan afiechyd, bod i'r brenin gael anfon gwr nerthol i'w le; ac yn olaf, bod iawn di oed i gael ei roddi am bob trosedd o'r cytundeb hwn. Yr oedd y cytundeb uchod i barhau o'r 26ain o Fehefin, 1258, hyd y 1af o Awst, 1259; ond gwelwyd yn fuan, nad oedd ond rhith. Ar yr 8fed o Orphenaf, anfonodd Harri at Llywelyn, bod yr heddwch wedi ei dori, eithr ni ddywedodd gan bwy, nac yn mha le. Mewn canlyniad, appwyntiwyd Peter de Montfort, castellwr Abergafeni, a Jacobus de Aldithley, yn ddirprwywyr i ymchwilio i'r cyhuddiad. Yn y cyfamser, anfonodd y brenin Meredydd ab Rhys, a Patrick de Canton i'r Deheubarth, o dan yr esgus o ddarostwng y gwrthryfel, ac addawodd arglwyddiaeth Cydweli i Patrick, os gallai efe ei henill, a'i chadw. Pan wybu Llywelyn hyny, anfonodd Dafydd ei frawd, a mintai o wŷr, i'w cyfarfod; a thra yr oedd y penaethiaid yn ymgynghori yn Aberteifi, rhuthrodd y Normaniaid ar y Cymru, a bu lladdfa fawr rhyngddynt; ond o'r diwedd, y Cymry a orfuant, ac ni ddihangodd ond ychydig o'r Normaniaid; ac yn mysg y cwympedig yr oedd Patrick ei hun.

Ar y 27ain o Fai, 1259, cynaliodd Llywelyn gyngor cenedlaethol yn Arwystli, yn yr hwn y condemniwyd Meredydd ab Rhys i gael ei garcharu fel bradwr ei wlad, wrth ewyllys y tywysog; ond y Nadolig canlynol, efe a ryddhawyd, trwy gymeryd llw o ffyddlondeb i'r tywysog, trosglwyddo ei ddau gastell, Dinefawr, a'r Castell Newydd, i fyny iddo, a rhoddi ei fab yn wystl dros ei ffyddlondeb. Cymerodd amryw fan ysgarmesau le o hyn hyd ddiwedd

Digitized by Google

1261, yn un o ba rai cafodd Roger Mortimer brofiad chwerw o dan driniaeth ei gefnder. Yr oedd Mortimer mewn lle poeth, rhwng tân y Cymry, a'r Normaniaid, yn cael ei ddrwgdybio ar brydiau gan y ddwy blaid, ac felly yn dyoddef cryn anfantais yn fynych. Ond prif ddygwyddiad y cyfnod hwn, oedd y cytundeb heddwch a ffurfiwyd am ddwy flynedd.

Ar y laf o Awst, 1260, anfonodd Harri wŷs i'w holl ddeiliaid milwrol yn swyddi Henffordd, a Chaerloyw, i ymgyfarfod yn arfog yn Amwythig, ar yr 8fed o Fedi; a'i holl ddeiliaid eraill, i ymgyfarfod ar yr un diwrnod yn Nghaer, er mwyn gwneyd un ymosodiad deublyg eto ar y Cymry. Ond yn ffodus, digwyddodd i'r fyddin fawr oedd i ddifodi y Cymry y waith hon, gael ei gosod o dan arweiniad De Montfort; a'r canlyniad fu, i amodau heddwch gael eu ffurfio rhwng y ddwy genedl, yn Rhyd, Trefaldwyn, ar yr 2il o Awst, 1260. Pan y cytunwyd i estyn yr heddwch hyd y 24ain o Fehefin, 1262.

Tua dechreu 1262, cynygiodd Llywelyn i Harri sefydlu heddwch parhaus, yr hyn a welodd y brenin yn dda wrthod, dan yr esgus bod ei fab Edward oddicartref ar y pryd. Yn mhen ychydig, anfonodd Llywelyn achwyniad llym at y brenin, bod Roger Mortimer, a John l'Estrange, wedi tori yr heddwch, trwy ruthro i diroedd Gryffydd Maelor; ac mewn llythyr, dyddiedig yr 8fed o Fehefin, y mae Harri yn ei hysbysu ei fod wedi appwyntio dirprwywyr i wneyd ymchwiliad i'r cwyn. Wedi hyn, aeth Harri i'r Cyfandir, lle y clybu bod Llywelyn wedi marw; ac yn ei orfoledd mawr, parotoai i atal Dafydd i'r orsedd yn ei le, ond chwalwyd ei freuddwydion, pan dderbyniodd lythyr oddiwrth Llywelyn, yn achwyn yn lled fygythiol, bod rhai o'i benaethiaid wedi tori yr heddwch eto; ac mewn canlyniad, penodwyd dirprwywyr gan y ddwy blaid, i gyfarfod yn Rhyd Trefaldwyn, ar yr 20fed o Fedi, i ystyried y cwynion.

O hyn hyd ddiwedd y flwyddyn, cymerodd amryw fân frwydrau poethion le, rhwng gwŷr Llywelyn a'r Normaniaid, yn mharthau Dê Ddwyreiniol y Dywysogaeth; ac enillwyd llawer o gestyll; megys Cenenllys (Cefnllys?) a Conoclas (Cnwc glas?), &c.

Ond erbyn dechreu 1263, yr oedd pethau yn gwisgo agwedd mor fygythiol, fel yr anfonodd Harri at ei fab Edward i Ffrainc, lle yr oedd yn ymddifyru gyda chwareuon rhyfelgar yr oes, i erchi iddo ddyfod adref yn ddi oed. Daeth yntau drosodd gyda brys, gan ddwyn cant o farchogion gydag ef; ac wedi cael yr anwadal Gryffydd ab Gwenwynwyn, a gwyr Powys, i ymuno a'i osgordd, prysurodd i Wynedd; eithr cyn iddo wneyd dim gwerth son am dano, yr oedd y gwrthryfel wedi tori allan fel fflamau ysol yn Lloegr, ffenestri y nefoedd megys wedi eu hagor oddiuchod, ffynhonau dyfnder nerthoedd y deyrnas wedi ymrwygo odditanodd, holl gŵn rhyfel wedi eu gollwng yn rhydd o'u cadwynau, a'r bobl a'r bendefigaeth yn brysio i benderfynu eu tynged ar faes Lewes; yr hyn a barodd i Edward adael Cymru yn ddiatreg, a pharotoi i ryfela a'r barwniaid. Ond i beidio rhagflaenu yr hanes, ymddengys mai rhuthr Llywelyn ar diriogaethau Edward yn Ngwynedd, oedd yr arwydd i'r barwniaid godi i hawlio eu hiawnderau. Tra yr oedd Harri wedi ei orfodi gan y barwniaid i ail gadarnhau darpariaethau Rhydychain, y rhai a ddifodent ei awdurdod freninol, ar y 18fed o Fedi, efe a gynygiodd i Lywelyn amodau heddwch, o hyny hyd yr 11eg o Dachwedd; ac yn nglŷn a'r amodau yr oedd yn gofyn caniatad i anfon ymborth i gastell Dyganwy, yn yr hwn, o dan warchae Llywelyn, yr oedd newyn marwol yn teyrnasu; ond daeth yr ymborth yn rhŷ ddiweddar, gan fod y castell, ar y 29ain o Fedi, wedi syrthio i ddwylaw Llywelyn, yr hwn a'i llwyr ddinystriodd hyd ei sylfeini, fel na byddai byth mwyach yn ogof ellyllon i frawychu y Cymry.

Yn niwedd 1263, neu ddechreu 1264, yr ydym yn cael Llywelyn gyda Harri, a Simon, meibion De Montfort, yn anrheithio tiriogaeth Roger Mortimer, yn cymeryd castell Wigmore, ac yn dinystrio tref a chastell Maeshyfed; ac Edward gyda'r pendefig hwnw, yr hwn a fedrodd ddianc allan o Wigmore er yr holl wyliadwriaeth arno, yn meddianu cestyll Huntington, y Gelli, ac Aberhonddu, oddiar wŷr Llywelyn. Ar y 14eg o Fai, ar faes Lewes, trodd y fantol yn erbyn y brenin, a'r tywysog Seisnig; a syrthiodd y ddau i ddwylaw De Montfort. Bellach am rai misioedd, De Montfort oedd y gallu uwchaf yn y deyrnas, (er mai yn enw y brenin y gwerthredai), a Llywelyn y nesaf ato. Unodd y ddau eu galluoedd yn nghyd i anrheithio tiriogaethau De Clare; a Roger Mortimer, ac eraill o arglwyddi y cyffiniau, a gymerasant arfau yn eu herbyn hwy, a chyda'r brenin. Ar yr 22ain o Ionawr, 1265, yn Llundain, tra yr oedd y brenin a'r tywysog yn garcharorion yn nwylaw eu gorchfygwyr, y cynaliwyd y Senedd gyntaf erioed yn y deyrnas hon; yr hon a ystyrir yn ddechreuad Ty y Cyffredin. Gwnaed hyn oll gan De Montfort, dyn nad yw ei enw eto wedi cael lle braidd yn un o'n geiriaduron bywgraffyddol!

O gylch y pryd hwn, dywedir i Llywelyn a De Montfort gynal cynadledd yn nghastell Pen ar halawg, swydd Fflint, er cynllunio moddion i ddarostwng y barwniaid a gefnogasant y brenin, a'i fab; ac ymddengys mai yma y dyweddïodd De Montfort, Eleanor ei ferch, yn wraig i Llywelyn. Gellir tybied bod y ddau wron ar y pryd hwn, mewn gwynfydedd mawr; eithr llygedyn o flaen ystorm ydoedd. Yr oedd De Clare, Iarll Caerloyw, wedi troi yn elyn anhydrin, ac yn casglu nerth yn gyflym; a thrwy ei ystryw ef, ar yr 28ain o Fai, 1265, llwyddodd y tywysog Edward i ddianc o afael ei orchfygwr, yr hyn a roddodd yni adnewyddol yn mhlaid y brenin, ac a ddechreuodd effeithio yn anffafriol yn ddi oed ar achos Llywelyn, a De Montfort. Ar y 19eg o Fehefin, anfonodd Llywelyn freinlen allan, wedi ei selio ganddo ei hun, Gryffydd ab Gwenwynwyn, Gryffydd ab Madog, Hywel ab Madog, Rhys Fychan, ac amryw bendefigion eraill, yn dadgan ei fod ef yn dâl ei dywysogaeth a'i holl feddianau, mewn gwarogaeth i frenin Lloegr, fel y gwnai ei henafiaid o'i flaen, ac yn addaw talu i'r brenin dair mil o forcau, a chytuno ar amodau heddwch; ac ar yr 22ain o'r un mis, trwy ddylanwad De Montfort, rhoddodd y brenin Harri i Llywelyn freinlen, yn trosglwyddo iddo yr holl diriogaethau ag oedd yn ei feddiant eisoes, oddieithr cestyll Pen ar halawg, Matilda, a Threfaldwyn, yn nghyda chantref Ellesmere; a chaniataodd iddo hefyd, a'i olynwyr dros byth, benaduriaeth Cymru, yn nghyda hawl i dderbyn gwarogaeth ei holl bendefigion, heb ofyn dim iddo ei hun, (Harri) ond yn unig y ddirwy o dair mil o forcau, a gwarogaeth tywysog Cymru i goron Lloegr, y fath ag a arferid yn yr amser gynt. Arwyddwyd y freinlen uchod gan Harri, yn Nghas-Newydd-ar Wysg, tra yr oedd yno yn garcharor, yn ngosgordd De Montfort.



Digitized by Google

Wedi i De Montfort syrthio yn mrwydr Evesham, dydd Mawrth, y 10fed o Awst, 1265, cymerodd amgylchiadau drô chwyrn; daeth y brenin i gyflawn feddiant o'i holl awdurdod gynhenid, a suddodd plaid De Montfort gyda'r un cyflymdra; gwrthgiliodd Dafydd ab Gryffydd oddiwrth ei frawd, a'i wlad; ac ymunodd ag achos y brenin, yr hwn, yn dâl am ei fradwriaeth, a'i gwnaeth yn farchog, ac a roddes iddo ferch Iarll Derby—gweddw ieuanc newydd gladdu ei gwr, yn wraig; a gwnaeth ef hefyd yn arolygwr ar holl gestyll y brenin yn Nghymru, gan roddi cestyll Dinbych, a Fordsham, yn nghyda thiroedd yn perthyn iddynt, gwerth mil o forcau yn y flwyddyn. Prawf hyn bod bradwriaeth yn talu yn dda yn yr oes hono.

Yn fuan ar ol brwydr Evesham, anfonodd y Pab Clement IV., trwy ei genad, Ottoboni, sel-warant i Llywelyn, dyddiedig y 13eg o Fedi, 1265, yn gorchymyn iddo adferu i'r brenin yr holl gestyll a gymerasai efe oddiarno; ond nid ymddengys iddi gael un effaith ar y tywysog, oddieithr ei ffyrnigo, canys ar yr 28ain o Dachwedd, cawn y brenin yn anfon dau genad ato, i geisio cytuno am gad-oediad; yr hyn, mae'n debyg, na chafwyd; oblegyd yn ngwanwyn 1266, yr ydym yn cael Llywelyn yn gorchfygu Maurice Fitz-Gerard, a Hamo, swyddogion y brenin, ac yn anrheithio tiroedd Roger Mortimer. Erbyn hyn, yr oedd De Clare wedi edifarhau am fradychu De Montfort, a phleidio y brenin; ac yn penderfynu yn awr, gwneyd iawn dros ei gamwedd; a'r gauaf hwnw yr ydym yn cael Llywelyn ac yntau yn cyduno i dynu arfau dros y cyfreithiau y rhoddodd De Montfort ei waed i'w selio; ond yr oedd y teimlad wedi diflanu, a'r adeg wedi myned heibio

Yn nechreu 1267, yr oedd y tywysog Seisnig yn awyddus i fyned i Ryfeloedd y Groes, ac yn dymuno cael y deyrnas i heddwch cyn ei fyned; ac i'r dyben hwnw, ar y 12fed o Chwefror, anfonwyd Robert Walerond, yn enw y brenin, at Llywelyn, i gytuno am gad-oediad dros ddwy flynedd, fel rhagbarotoad i heddwch parhaus. Wedi cytuno ar hyny, daeth y brenin a'i fyddin yr haf dilynol i'r Amwythig; o ba le yr anfonodd genhadon at Llywelyn, yn nghyd a nawdd iddo i fyned a dychwelyd o'r 25ain hyd y 30ain o Fedi, fel y gallai fyned i Ryd, Trefaldwyn i warogi iddo ef. Mewn canlyniad, cyfarfyddwyd yno ddydd gwyl Mihangel, a ffurfiwyd cytundeb heddwch, yr hwn a amserwyd, Trefaldwyn, Medi 29, 1267; ac a gadarnhawyd o du y brenin a'r tywysog Edward, gan Robert de Walerond, a John de la Lynde, ac o du Llywelyn, gan Einion ab Caradog, a Dafydd ab Einion. Cynwysai y cytundeb uchod, bod Llywelyn i roddi i fyny yr hyn oll a enillasai efe trwy fuddugoliaethau, ond Brycheiniog, a Gwrthrynion, yn mha rai yr oedd i weinyddu cyfiawnder yn ol arferion y cyffiniau. Yr oedd i gael Burget, Cedewin, a Cheri hefyd ar yr un telerau. Yr oedd Roger Mortimer i gael caniatad i adailadu castell yn Maelienydd, ond i'w roddi i fyny i Llywelyn, os bernid hyny yn gyfiawn. Yr oedd Llywelyn i gael yr un cydnabyddiaeth am gastell Whittington, ag a gawsai ei ragflaenwyr. Yr oedd i roi tiroedd Pen ar halawg i fyny, ond ni oddefid i Robert de Monthault i adailadu castell yno am ddeng mlynedd a'r hugain. Yr oedd Llywelyn a'i etifeddion i gael eu galw yn Dywysogion Cymru, ac i dderbyn gwarogaeth yr holl bendefigion Cymreig, oddieithr eiddo Meredydd ab Rhys. Yr oedd Llywelyn i adferyd i Dafydd y tiroedd a ddelid ganddo, neu y rhai yr oedd ganddo hawl i'w dal, cyn iddo gilio at y brenin. Yr oedd y "pedwar cantref," neu y Berfeddwlad, asgwrn y gynen ar hyd y blynyddoedd, i gael ei hadferyd i Llywelyn, ar yr amod iddo eu dal o dan goron Lloegr, fel y daliesid hi gan ei henafiaid.

Nid oedd brenin Lloegr, na thywysog Cymru, i noddi gelynion eu gilydd. Yr oedd Llywelyn i dalu pum mil ar hugain o forcau i'r brenin; mil yn mhen mis, pedair mil ar y Nadolig canlynol, a thair mil ar bob Nadolig, nes y byddai y swm i fyny. Felly terfynodd y flwyddyn 1267, a'r pleidiau mewn heddwch, yr hwn oedd yn debyg ar y pryd i fod o hir barhad.

Aeth y blyneddoedd 1268–69 heibio, heb adael dim ond arwyddion nad oedd y cytundeb ddim yn cael ei gadw yn rhy dda; canys appwyntiwyd dirprwyaeth i gyfarfod yn Rhyd, Trefaldwyn, ar y 14eg o Fedi, 1268, i wneyd ymchwiliad i gwynion oblegyd troseddau o'r cytundeb; ac un arall i'r un perwyl, ar yr 21ain o Fai, 1269.

Yn Hydref, 1270, cawn Llywelyn yn llosgi castell De Clare yn Nghaerffili, oblegyd rhyw rhyw drosedd a gyflawnodd y pendefig hwnw yn ei erbyn; ac er i ddirprwywyr gael eu penodi i gyfarfod yn Rhyd, Trefaldwyn, ar y 13eg o Dachwedd, i wastadhau yr annghydfod, nid ymddengys i ddim gael ei wneyd, oblegyd pan oedd De Clare ar orphen adfer y castell yn 1271, bygythiai Llywelyn y distrywiai ef cyn pen tridiau, os na wneid iawn boddhaol iddo ef ar unwaith.

Dychrynodd hyn De Clare, fel y trosglwyddodd y castell i ofal esgobion Worcester, Coventry, a Lichfield, i'w ddal yn enw y brenin, nes y gellid trin yr achos yn ol cyfraith y cyffiniau. Llwyddodd yr esgobion i gael gan Llywelyn i godi y gwarchae, trwy wneyd ymrwymiad i ddwyn yr achos i brawf yn Rhyd, Trefaldwyn, ar yr 8fed o Orphenaf, 1272. Ond oedwyd y prawf dro ar ol tro, nes i Llywelyn, wedi llwyr ddiflasu, anfon esgob Llanelwy at y brenin, yr hwn oddiar ei wely angau, a anfonodd lythyr, dyddiedig Hydref 30, 1272, at Llywelyn, i ohirio y prawf addawedig hyd ddiwedd Mawrth, neu ddechreu Ebrill, y flwyddyn ganlynol; ond cyn pen un diwrnod ar bymtheg, yr oedd Harri wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a'i fab, dan yr enw Edward I., wedi ei gyhoeddi yn frenin yn ei le.

Yr oedd Edward ar y pryd hwn yn Sicily, ar ei ffordd adref o Ryfeloedd y Groes; ond gan y byddai rhai misoedd cyn y gallai esgyn i'r orsedd, penodwyd rhaglawiaeth i gymeryd gofal y deyrnas hyd oni ddychwelai. Un o weithredoedd cyntaf y rhaglawiaeth hyn, oedd anfon gwŷs i Llywelyn i ymddangos yn Rhyd, Trefaldwyn, ar yr 20fed o Ionawr, 1273, i warogi i Edward trwy gyfrwng rhyw abadau a benodwyd i'w dderbyn; ond ni wnaeth Llywelyn un sylw o'r wŷs. Yn mhen ychydig wedi hyn efe a ddechreuodd adeiladu amddiffynfa, a marchnadle, yn agos i gastell Trefaldwyn; ond ar orchymyn y rhaglawiaeth, efe a ymataliodd. Bwriadai Edward ddychwelyd adref yn ngwanwyn 1274, ac i'r coroniad gymeryd lle mewn rhwysg mawr, ar yr 8fed o Ebrill; ac i'r perwyl hwnw, efe a anfonodd lythyrau at Llywelyn, i hawlio yr arian oedd ddyledus iddo oddiwrtho, ei wahodd yntau i'r coroniad, ac i hawlio rhyw gymaint o hydd-gig erbyn y wledd. Ond ni farnodd Llywelyn yn ddoeth i'w ateb; eithr efe a anfonodd at De Grey, i ddyweyd nas gallai ei ateb

Digitized by Google

hyd wyl Mihangel; ond yr anfonai yr hyddgig yn brydlon crbyn y wledd. Ni ddychwelodd Edward fel y bwriadai, gan iddo ymdroi am yn agos i flwyddyn yn Ffrainc, lle y bu yn chwareu *tournament* gyda'r pendefigion, yr hyn a derfynodd mewn ymladdfa. Pa fodd bynag, nid oedd y rhaglawiaeth gartref, am roi Llywelyn i fyny; am hyny anfonasant wŷs arall ato, yn galw arno ef, ac is-ieirll swyddi Caerwrangon, Henffordd, Caerloyw, ac Amwythig, i ymddangos yn Rhyd, Trefaldwyn, ar y 6ed o Fai, 1274; eithr nid aeth Llywelyn yno. O'r diwedd, ymddangosodd Edward yn Llundain, a phenodwyd dydd y coroniad ar y 19eg o Awst, 1274; gwŷsiwyd Llywelyn i ymddangos yno ar y dydd appwyntiedig, yr hyn a wrthodai yntau oni roddai y brenin iddo Edmund ei frawd, De Clare, a Robert Burnell, prif ynad Lloegr, yn wystlon y cai efe a'i osgordd ddychwelyd yn ddiogel. Gwrthododd Edward roi y gwystlon, a gwrthododd Llywelyn dalu y warogaeth.

Wedi cael un arall o'r gwŷsion hyn i fyned i warogaethu i'r brenin, yn Nghaergaint, efe a anfonodd at y Pab, i ddadgan iddo ei ofnau i anturio trwy ganol gelynion, i warogaethu i'r brenin, a'r annghyfiawnder oedd gwŷsio y Cymru i Gaergaint, er penderfynu achosion gwladol, ac eglwysig. Gwrandawodd y Pab ar ei gwyn, a gwaharddodd i'r Cymru gael eu gwŷsio i Gaergaint ond hyny. Ymddengys bod ar y pryd hwn ymrafael poenus yn cael ei ddwyn yn mlaen, rhwng Llywelyn a Dafydd ei frawd, yn nghylch y tiroedd yr honai y gwr hwnw hawl iddynt; a rhyw bryd yn ystod y flwyddyn hon, cawn Dafydd yn ffurfio un o'r cynllwynion mwyaf dychrynllyd ag sydd yn difwyno hanes ein gwlad, ond yr hwn, yn ffodus, a fethodd efe ei gario allan. Yr oedd efe, ac Owain ab Gryffydd ab Gwenwynwyn, wedi trefnu cyfarfod eu gilydd yn llys Llywelyn, yn Aber, ryw ddiwrnod, a'r tywysog yn parotoi i'w derbyn yn groesawus. Daeth Dafydd a'i osgordd yno yn ol y cynllun, eithr methodd gwyr Owain a chyraedd, oblegyd i'r tywydd droi yn eu herbyn; ond daeth Owain yno ei hun. Dafydd, wrth weled hyny, a ofnodd bod rhywun wedi ei fradychu, ac ymadawodd o'r llys yn ddisymwth, a diarwybod i neb. Tarawodd hyny Owain a dychryn; a chan gasglu ar unwaith ei fod wedi ei fradychu, cyfaddefodd i Llywelyn y cyfan. Yr oedd y ddau adyn wedi penderfynu myned i ystafell wely Llywelyn, a'i ladd yn ei gwsg! Yr oedd Dafydd i fod yn dywysog Cymru, ac i roi ei ferch i Owain yn wraig, yn nghyda Cedewain, Ceri, neu y Berfeddwlad, fel ei chynysgaeth. Pan wybu Llywelyn hyn, gwŷsiodd Dafydd i Ruddlan, i sefyll ei brawf, gwrthododd yntau oni sicrheid iddo ddiogelwch myned a dyfod, a chynullodd fintai o wyr arfog oddiar y cyffiniau, a dechreuodd ruthro ar diriogaethau Llywelyn. Yn y cyfamser, deallodd Llywelyn bod ysgrifau seliedig, yn cynwys telerau y fradwriaeth, yn cael eu cadw dan ofal mam Owain, yn y Castell Coch; ac anfonodd wŷr i'w ceisio. Ond Gryffydd ab Gwenwynwyn, tad Owain, a ruthrodd ar y gwŷr, ac a'u bwriodd i ddaeardy y Castell, gan barotoi yn ddioed i wrthsefyll gwarchae, a dechreu anrheithio tiriogaethau y tywysog; ond ni bu Llywelyn fawr o amser, cyn gosod castell Gryffydd ab Gwenwynwyn yn gydwastad ar llawr, a goresgyn ei holl feddianau. Yna ymgiliodd Gryffydd ab Gwenwynwyn, ar ol Dafydd ab Gryffydd, at y brenin; ac er holl ddyhirwch y gwyr hyn, nid oeddynt yn rhy ddrwg i Edward I. eu croesawi a'u noddi yn ei lŷs, er ei fod drwy hyny yn troseddu yn y modd mwyaf ysgeler, y cytundeb y darfuasai iddo ef a'i dad ffurfio â Llywelyn, yn 1267.

Er bod Edward yn ymddwyn yn y modd herfeiddiol hwn, yr oedd yn parhau o hyd i anfon gwŷsiau i Llywelyn i ddyfod i warogaethu iddo i Gaer, ar y 29ain o Awst, 1275; ac i Westminster yn mhen tair wythnos ar ol gwyl Mihangel; ond parhau i anufuddhau yr oedd Llywelyn, am y rheswm bod Edward yn parhau i dori y cytundeb oedd rhyngddynt, trwy noddi bradychwyr a gelynion Llywelyn yn ei lŷs. Ond er hyny, nid oedd Edward fel yn teimlo yn awyddus eto i ddyfod allan i fesur arfau â Llywelyn, er ei fod mewn llawer gwell cyfleustra i hyny yn awr, nag y bu erioed o'r blaen, gan fod holl adnoddau rhyfelgar y deyrnas at ei alwad, a'i fod yntau, yn Rhyfeloedd y Groes, wedi enill yr enw o fod y cadfridog galluocaf yn Ewrop; a diau bod yr adgofion am yr adegau y bu yn gorfod ffoi o flaen Llywelyn mor ddiymadferth a changen grin o flaen y gwynt, yn para i losgi yn ei feddwl, ac yn taflu mallder dros fynydau dedwyddaf ei fywyd.

Pa fodd bynag, os nad ymglywai Edward â darostwng ei elyn trwy nerth arfau, penderfynodd ymgynyg at hyny trwy chwareu ag ef un o'r ystranciau mwyaf ystelciaidd ac annynol a gyflawnwyd hyd yn nod yn yr oes hono.

Nodwyd eisoes, bod Eleanor, merch De Montfort, wedi ei dyweddio gan ei thad, yn wraig i Llywelyn. Wedi syrthio o'r gwron hwnw yn mrwydr Evesham, ymgiliodd ei wraig, a'i merch, i Ffrainc, a gwnaethant eu preswylfa yn Mynachlog Montargis. Tua'r adeg dan sylw, penderfynodd Llywelyn gyflawni ei fwriadau anrhydeddus tuag at ei ddyweddi; ac anfonodd lythyr at Philip III., brenin Ffrainc, i erfyn arno anfon Eleanor, a'i gosgordd, drosodd i Gymru, fel y gallai ef ei phriodi, yn ol ei gytundeb a'i diweddar dad. Cydsyniodd y teyrn hwnw yn ddioed, ac anfonodd hi dan ofal ei brawd, offeiriad ieuanc o'r enw Amauri, gyda'i gosgordd anrhydeddus, mewn pedair o longau, tua Chymru. Edward, wedi iddo trwy ei yspiwyr gael allan y symudiad oedd ar droed, a aeth i lawr ei hun i gastell Caerodor; ac wedi tynu nifer o forwyr y ddinas hono i gyfranogi yn ei gynllwyn, anfonodd hwynt allan, yn y cymeriad o *bilots*, i gyfarfod gosgordd Eleanor de Montfort, yr hon, dan yr esgus o'i dwyn i gysgodfa rhag ystorm ag oedd yn ysgubo yn erwin ar y pryd, a hudasant i mewn i borthladd Caerodor, lle y trosglwyddwyd y foneddiges ieuanc, a'i brawd, i ddwylaw Edward, yr hwn oedd yn dysgwyl am danynt yn y castell, fel eryr am ysglyfaeth. Cymerodd Eleanor i'w lŷs, i weinyddu ar ei frenhines; ond carcharodd ei brawd yn nghestyll Corfe, a Sherburne, yn olynol, hyd oni ryddhawyd ef yn 1282, trwy ymyriad penderfynol y Pab, ar ol bod yn ngharchar am chwe blynedd!

Tybir bod pais-arfau dinas Caerodor—llong a chastell, wedi cael eu bodolaeth er coffadwriaeth am y cynllwyn uchod. Dyma'r gylchysgrif yn y paisarfau:—

> "Secreti clavis sum portus. Navita navis
> Portam custodit. Portum vigil indice prodit."

Yr hyn, fel y tybir, a ellir ei Gymreigio fel y canlyn,—"Myfi yw allwedd y dirgel borth. Y pilot gyfeiria lyw y llong. Y gwyliwr a noda allan y porth â'i fys."

Digitized by Google

Yr oedd y weithred hon o eiddo Edward, yn drosеddiad haerllug ar ddeddfau cydnabyddedig yr oes, ac yn tynu ymaith ar unwaith, bob ffug oddiar ei fwriadau tuag at Llywelyn. Teimlodd Llywelyn wrth reswm, y tramgwydd i'r byw; ond anfonodd at Edward, i gynyg swm mawr iddo am ryddhad ei ddyweddi, eithr yr atebiad a gafodd oedd, na roddid Eleanor de Montfort i fyny, hyd nes yr adferai Llywelyn i ddeiliaid y brenin, yr holl diroedd a enillasai efe oddiarnynt, ac yr adgyweiriai efe yr holl gestyll a ddifrodasai. Gorphenodd hyn y digofaint rhwng y ddau benadur yn berffaith, a gwnaeth y naill mor benderfynol am oruchafiaeth, â'r llall. Tra yr oedd Edward yn prysur barotoi i ryfel, er cyflawni prif uchelgais ei fywyd, a Llywelyn o'r ochr arall, yn parotoi i amddiffyn ei wlad, cyfryngodd y clerigwyr unwaith eto cyd-rhyngddynt, ac anfonwyd gwŷs i Llywelyn i fyned i Gaerwynt (*Winchester*) ar yr 20fed o Ionawr, 1276, i warogaethu i Edward; yr hyn, wrth reswm, nis gallasai efe, ond ar y telerau a gynygiasai lawer gwaith o'r blaen. Yna, gwŷsiwyd ef i Westminster, i'r un perwyl, yn mhen tair wythnos ar ol y Pasg. Wrth weled bwriadau rhyfelgar Edward, ysgrifenodd Deon a glwysgor Bangor lythyr at archesgob Caergaint, gan egluro iddo yn gyflawn, yr achos rhwng y brenin a'r tywysog; ac mewn canlyniad, anfonwyd archddiacon Caergaint amryw weithiau, ar genadwri at Llywelyn, i geisio cyflafareddu; ond y cwbl yn ofer, gan ei fod yn amlwg, nad oedd dim a wnelai y tro i Edward, ond perffaith ddarostyngiad ei elyn. Llywelyn wrth weled hyny, a ymosododd ar diriogaethau arglwyddi y cyffiniau, a dyma ddechreuad y diwedd. Yn fuan wedi hyn, anfonodd Llywelyn lythyr at Edward, i amlygu ei barodrwydd i fyned naill a'i i Groesoswallt, neu i'r Amwythig, i warogaethu iddo, ar y telerau bod cytundeb 1267 i gael eu cadarnhau, ac Eleanor de Montfort a'i gosgordd, "y rhai," meddai "a ddelir genych yn groes i ddeddfau moesgarwch cenedloedd," i gael eu gollwng yn rhydd. Darllenwyd y llythyr yn y Senedd, ar y 12fed o Dachwedd, lle y cyhoeddwyd Llywelyn ab Gryffydd yn deyrnfradwr, ac y penderfynwyd i alw holl nerthoedd milwrol y deyrnas i gyfarfod yn Nghaerwrangon, ar y 24ain o Fehefin, 1277, os na byddai galwad yn gynt, er darostwng Cymru unwaith, ac am byth. Tranoeth ar ol cyhoeddiad y ddedfryd uchod, cafodd Edward gan archesgob Caergaint anfon llythyr at Llywelyn, yn ei hysbysu y buasai rhaid iddo ef ei ysgymuno, fel terfysgwr ar heddwch y deyrnas, os na ddewisai efe wellhau ei fuchedd o hyny i ben pythefnos. Tra yr oedd y rhyfelgyrch anferth uchod yn cael ei barotoi, ni arbedid ymdrech na dichell, er ceisio annghymwyso Cymru i wneyd gwrthsafiad; gwarchodid y cyffiniau yn dda, o dan arweiniad Roger Mortimer, a William de Beauchamp, y rhai a wnaed yn "gapteniaid" erbyn yr achlysur; gwaherddid holl ddeiliaid y brenin yn Lloegr, Iwerddon, a Guiene, i gyflenwi y Cymry a lluniaeth, neu unrhyw nwydd defnyddiol arall, dan y perygl o enyn gwg y brenin; ac er mwyn ceisio effeithio ymraniadau yn mhlith y Cymry, rhoddodd y brenin hawl i'w holl swyddogion milwrol i dderbyn pob un a ewyllysiai ymgilio oddiwrth y tywysog, a gwarogi iddo ef, yr hyn a fu yn abwyd llwyddianus i ddal Rhys ab Meredydd, Gryffydd ab Meredydd, Cynan ab Meredydd, a Rhys Windawd, penaethiaid cedyrn yn y Deheubarth, y rhai a fradychasant eu tywysog a'u gwlad yn nydd cyfyngder, gan ymuno a'u gelynion. Bu hyn yn ddinystr i achos Llywelyn yn y Deheubarth, gan i'r holl wlad hono ddilyn esiampl y bradychwyr uchod yn ddioed; yr hyn nis gallai lai nag effeithio yn dra anffafriol ar ysbrydoedd gwroniaid y Gogledd. Ar ol cael pob trefniadau yn barod, gwŷsiodd Edward ei ddeiliaid milwrol i'w gyfarfod ef yn Nghaerwrangon, ar y 1af o Orphenaf, 1277; a threfnodd i'r ymosodiad ar Llywelyn fod yn driphlyg, ac i gychwyn o dri chyfeiriad ar unwaith; un o dan ei arweiniad ei hun, i gychwyn o Gaer; yr ail dan arweiniad Iarll Lincoln, a Roger de Mortimer, i gychwyn o Drefaldwyn; a'r trydydd dan arweiniad Paganus de Cadurcis i gychwyn i fyny o Gaerfyrddin; ac fel pe na buasai hyny yn ddigon, efe a anfonodd hefyd lynges y Pum Porthladd Diffynol, i wylio y gororau, ac i ddiffeithio Ynys Mon, gan mai oddiyno yr arferai y Cymry gael y rhan fwyaf o'u lluniaeth yn amser rhyfel.

Yr oedd yn gyfyng iawn a'r Llywelyn erbyn hyn: Deheubarth oll wedi cilio oddiwrtho; ei elynion wedi ei amgylchynu ar fôr a thir; Rhys ab Maelgwn. a gwŷr Geneu'r Glyn, yr unig ffyddloniaid tu hwnt i Dyfi, wedi gadael eu tiroedd yn ddiffaethwch, a ffoi ato i noddfeydd Eryri, gan ymddibynu am gynaliaeth ar yr ychydig luniaeth oedd wedi ei ddarparu yno erbyn y dydd blin; ac Edward gyda'i fyddin anferth, wedi gweithio ei ffordd yn mlaen hyd afon Conwy, a Dafydd, a Rhodri, brodyr Llywelyn, yn gwasanaethu i'r gormeswr yn lle llygaid, ar hyd y ffordd!! Beth oedd ganddo i'w wneyd yn ngwyneb y fath gyfyngder? Onid oedd y tyngedfenau fel wedi ymgyngreirio yn ei erbyn? Rhyfyg fuasai ymladd; ac nid oedd ganddo luniaeth i'w alluogi i ddal gwarchae, nes gorfodi ei elynion, y rhai oedd yn feddianol ar holl adnoddau y deyrnas, i roddi i fyny yr ymdrech. Heblaw hyny, yr oedd Eleanor de Montfort yn parhau yn ngafael ei gormeswr, ac nid oedd y gobaith lleiaf i unrhyw ymdrech a wnelai Llywelyn er amddiffyn annibyniaeth ei wlad, fod byth yn foddion i'w alluogi ef i feddianu gwrthddrych ei serch, yr hon oedd yn dihoeni yn nghrafangau ei gelynion. Pa fodd bynag, barnodd Llywelyn yn ddoeth i ofyn am delerau heddwch, yr hyn a ganiatawyd gan y brenin yn ddioed, eithr telerau hynod o gelyd oeddynt, fel y gwelir oddiwrth y prif bethau a nodwn fel engraifft:—Bod y tywysog i ryddhau ei holl garcharorion rhyfel; a thalu i'r brenin ddeng mil a deugain o forcau; bod y pedwar cantref i gael eu rhoddi i fyny i'r brenin a'i etifeddion am byth; bod pleidwyr y brenin i gael adferu iddynt yr holl feddianau a ddalient cyn dechreu y rhyfel; bod Llywelyn i gael cadw Ynys Mon, trwy dalu mil o forcau i'r brenin yn flyneddol am dani, eithr os byddai efe farw heb adu had, bod yr Ynys i ddyfod yn feddiant i'r brenin a'i etifeddion dros byth; bod Llywelyn am ei oes, i gael ei alw yn Dywysog Cymru, ac i dderbyn gwarogaeth pum arglwydd Eryri, eithr ar ol ei ddydd ef, bod tywysogaeth Cymru i ddarfod, a'i holl farwniaid i warogi i'r brenin; bod Llywelyn, can gynted ag y rhyddheid ef oddi tan ysgymundod yr eglwys, i warogi i'r brenin yn Rhuddlan, ac wedi hyny, ar amser penodedig yn Llundain; bod Owain Goch, brawd Llywelyn, i gael ei ollwng yn rhydd o'r carchar, bod cynllun heddwch rhwng Owain a Llywelyn i gael ei gymeradwyo gan y brenin, neu, bod Owain i ymroddi dan nawdd y brenin i geisio cyfiawnder yn ol cyfreithiau Cymru; bod Llywelyn

Digitized by Google

i roi deg o bendefigion penaf Cymru yn wystlon y cyflawnai efe yr amodau hyn; bod ugain o bendefigion Gwynedd i dyngu yn flyneddol, y cyflawnai efe yr un amodau, y rhai, os torai Llywelyn y cytundeb, oeddynt i gilio at y brenin; a bod y tywysog a'i gyngor, i dyngu y safent at y cytundeb. Tyngodd Edward trwy ei ddirprwywyr, a thyngodd Llywelyn ei hun; a chadarnhawyd y weithred o du Edward, gan William de Southampton, Robert Tibetot, neu Tiptost, ac Anthony Bek; ac o du Llywelyn, gan Tudur ab Ednyfed, a Gronw ab Heilyn. Dyddiwyd yr uchod ar y 10fed o Dachwedd 1277.

Ymddengys bod Edward yn edrych ar y cytundeb hwn yn gaffaeliad digyffelyb. Beth! cael Cymru, yr hon a gostiodd gymaint o waed ac arian i frenhinoedd Lloegr, a chymaint o warth iddo yntau yn y blyneddoedd a aethent heibio, i ymostwng fel hyn wrth ei draed, a hyny heb daro un ergyd! Yr oedd y ffaith yn llanw y brenin a llawenydd annysgrifiadwy; ac yn haelfrydedd ei galon, efe a ddechreuodd ymddwyn yn fawrfrydig a chymodlawn tuag at y tywysog darostyngol, maddeuodd iddo y mil morcau blyneddol oedd i dalu am Ynys Mon, yn nghyda'r deng mil ar hugain dirwy, (am y gwyddai, mae yn debyg, na thalai Llywelyn byth o honynt), ac ni dderbyniodd ond dwy fil yn unig. Gwnaed cytundeb i'r perwyl uchod yn Rhuddlan, ar y dydd crybwylledig, sef y 10fed o Dachwedd ac yn mhen ychydig wedi hyny, gwnaeth Llywelyn weithred yn Aberconwy, yn trosglwyddo Ynys Mon yn ol i'r brenin.

Prawf yr holl drafodaeth hynod hon, mai amcan y naill yn awr, oedd ceisio boddloni y llall, ac mai amcan mawr Llywelyn, yn yr holl aberthau cywilyddus hyn, oedd enill ei Eleanor de Montfort; ac nid rhyfedd, oblegyd "dyn yw dyn er hyn i gyd;" ac fe gafwyd man gwan hyd yn nod yn Samson.

Wedi cyflawni yr holl orchest hon, gollyngodd Edward ei fyddin i fyned bawb i'w gartref, a dychwelodd yntau i Lundain, yn nghanol edmygedd ei bendefigion.

Yn ol y trefniadau penodedig, aeth Llywelyn i Lundain y Nadolig canlynol, yn nghyda lluaws mawr o bendefigion Cymru yn ei osgordd. Wedi darfod y warogaeth, cyflewyd y pendefigion Cymreig yn Islington, a phentrefydd eraill cyfagos, lle, mewn canlyniad i ymddygiad sarhaus y werin Seisnig tuag atynt, yr hyn a briodolent hwy yn gymhwys i'w diffyg gwareiddiad, y penderfynasant ynddynt eu hunain i wrthryfela eto, y cyfleustra cyntaf a gaent, ac nad ymwelent byth mwy ag Islington, ond fel gorchfygwyr.

Yn ystod yr ymweliad hwn â Llundain, llwyddodd Llywelyn i gael caniatad i anfon llythyrau, a chenhadon, at ei ddyweddi yn Windsor; a dywedir bod brenin Ffrainc yn arfer ei ddylanwad ar y pryd, dros ei rhyddhad. O'r diwedd, cydsyniodd Edward i'r briodas gymeryd lle, a chymeradwyodd fwriadau Llywelyn gyda golwg ar benodiad cynysgaeth ei wraig; ond oblegyd rhyw resymau anhysbys, oedwyd gweinyddiad y briodas hyd ddydd anmhenodol. Dychwelodd Llywelyn a'i osgordd i Wynedd, yn Ionawr, 1288. Yr oedd yn amlwg bellach, mai amcan Edward ar ol dydd Llywelyn, oedd uno Cymru a Lloegr a'u gilydd; a chan y gwyddai na byddai dewrder yr hen genedl, a'i chariad at ryddid ddim marw gyda'r tywysog, efe a wnai ei oreu i ddileu y rhagfarnau hyny o'i heiddo, y gwyddai a fyddent yn sicr o wrthweithio yn erbyn ei amcanion. Felly cawn ef, yn gynar yn y flwyddyn hon, yn Ynys Afallon, yn efelychu ei hendaid, Harri II., uwch ben gweddillion tybiedig y brenin Arthur. Amcan yr ystryw mae yn ddiau, oedd darbwyllo y Cymry, bod Arthur wedi marw fel dyn arall, ac nad oedd obaith iddynt bellach am ymwared oddi tan iau y Saeson.

Wedi amryw ymdrafodaethau gohebol rhwng y brenin a'r tywysog, nas gallwn fforddio eu holrhain, ond oll yn profi mai amcan Edward oedd trin Llywelyn trwy deg; o'r diwedd efe a anfonodd wŷs iddo i ddyfod i wledd rwysgfawr i Gaerwrangon, yn yr hon y cyflwynid iddo, yn ngwydd yr holl gwmni urddasol, Eleanor de Montfort yn wraig. Dyma bellach yr abwyd ar y bach, aeth Llywelyn yno yn ol yr alwad, ac ymostyngodd yn y modd mwyaf gwasaidd wrth draed y trawsfeddianwr, er mawr foddhad i'r gwyddfodolion, eithr er gofid llosgfaol i wladgarwch a gwroldeb. Trefnwyd i'r briodas gael ei gweinyddu ar y 13eg o Hydref; ond cyn i'r diwrnod wawrio, cymerodd Edward fantais i wthio amodau eraill tra diraddiol ar Llywelyn; sef, yn mhlith pethau eraill, bod iddo dalu gwarogaeth i'r brenin ddwywaith yn y flwyddyn, ac nad oedd i noddi yn ei dywysogaeth, neb gelynol i frenin Lloegr. Wedi iddo felly ymostwng i bob peth, gweinyddwyd y briodas gyda rhwysg mawr, ar y dydd penodedig, a thalodd y brenin holl gostau y wledd. Yna yn ddioed, prysurodd Llywelyn a'i wraig tua Chymru, ac i'w prif lys yn Abergwyngregyn, yn Arfon.

Ond er yr holl aberth a wnaeth Llywelyn i feddianu ei wraig, ni bu ei fwynhad o honi ond hynod fyr; oblegyd hi a fu farw ar enedigaeth merch a'i henw Gwenllian, ar y 19eg o Mehefin, 1281, a chladdwyd hi, meddir, yn mynachlog y Brodyr Troednoeth, yn Llanfaes, ger Beaumaris, yn Mon; ac y mae chwedl ar lafar gwlad, ddarfod i'w beddfaen gael ei ddefnyddio mewn amser yn gafn dwfr i ddiodi anifeiliaid! Felly y darfu am yr olaf o eppil De Montfort yn Lloegr! Dywaid eraill mai gwraig Llywelyn a gladdwyd yno.

Wrth syllu ar yr amgylchiadau anffodus hyn, nis gallwn lai na chydymdeimlo ag ofnau Carnhuanawc, —bod gwg Rhagluniaeth wedi syrthio ar holl hiliogaeth Simon de Montfort, o herwydd creulonderau y cyntaf o'r enw hwnw tuag at yr Albigensiaid, druain, yn nyffrynoedd yr Alps, ac ar Gymru hefyd, trwy iddi, ar awr anffodus, gysylltu ei thynged â hwynt. Oblegyd cyn i Llywelyn ddechreu ymwneyd a'r teulu hwn, yr oedd Rhagluniaeth fel yn gwenu ar ei arfau, ac yntau yn fuddugoliaethus yn mhob man; ond o'r mynyd y cysylltodd efe ei dynged ei hun a'i wlad gyda'r eiddo De Montfort a'i deulu, trodd pob peth yn ei erbyn, gan barhau yn waeth-waeth waeth-waeth o hyny hyd y diwedd.

Ychydig iawn o hanes Llywelyn a geir am yn agos i dair blynedd ar ol ei briodas; ond y mae yr ychydig hwnw yn dangos ei fod ef a'i wlad yn cael medi yn chwerw o ffrwyth ei ymostyngiad i frenin Lloegr. Erbyn hyn, yr oedd Dafydd hefyd wedi cael hên ddigon ar ei wrthgiliad, ac fel y mab afradlon, yn awyddus am ddychwelyd adref; a llwyddodd rhai o'r tywysogion Cymreig i'w gymodi ef a'i frawd. Yna yn ebrwydd, efe a enciliodd oddiwrth y brenin, ac a unodd ei dynged gyda Chymru. Yr oedd gormes y Normaniaid yn cael ei deimlo yn ofnadwy trwy yr holl dywysogaeth; ac Edward, yn ei orawydd i enill Cymru o dan goron Lloegr, yn gwneyd pob ymdrech i wthio y cyfreithiau Seisnig i bob ardal, gan gwbl

Digitized by Google

ddiystyru hawliau, cyfreithiau, a theimladau y trigolion; ac felly wrth ddal yr awenau yn rhy dynion, efe a gynhyrfodd yr hen ysbryd i ddechreu gwreichioni mewn miloedd o galonau, fel nad oedd eisiau ond cael agorfa, na byddai eto yn fflamau difaol dros wyneb y wlad, fel yn y dyddiau gynt. O'r diwedd, ar nos Sul y Blodau, 1282, dechreuodd Dafydd yr ymgyrch, trwy ymosod ar gastell Penarlâg ar fin Dyfyrdwy; lladdodd Fulk Trigold, y castellwr, yn nghyda'r holl warchodlu, clwyfodd Roger de Clifford yn enbyd, a chludodd ef, a Payn Gameis, yn garcharorion i amddiffynfeydd Eryri, at Llywelyn. Yna ymunodd y ddau a'u gilydd, ac enillasant gestyll Fflint, a Rhuddlan, gan ysgubo ymaith arglwyddi y cyffiniau, a'u holl gyngreirwyr, fel ûs o flaen gwynt. Erbyn hyn, yr oedd holl Ddeheubarth o dan arfau, ac wedi meddianu cestyll y brenin, yn Nghaerfyrddin a Cheredigion, a'r holl dywysogaeth yn wenfflam o wrthryfel!

Yr oedd Edward ar y pryd yn Devizes, yn cadw'r Pasc; a phan wybu am y gwrthryfel yn Nghymru, anfonodd adgyfnerthion i'w gestyll ar y cyffiniau yn ddioed; ac wedi gorchymyn i John de Peckham, archesgob Caergaint, i ysgymuno y gwrthryfelwyr, efe a alwodd holl nerthoedd milwrol ei deyrnas i'w gyfarfod ef yn Nghaerwrangon, ar yr 17eg o Fai. Cyfododd dreth ar y deyrnas, a benthycodd arian lawer gan fasnachwyr, a gwyr eglwysig Lloegr a'r Iwerddon. Ymesgusododd wrth ei holl gyngreirwyr tramor, dros beidio anfon cynorthwy iddynt tra byddai yn rhyfela a'r Cymry, a benthycodd wasanaeth miloedd o filwyr cynefin a rhyfela ar diroedd mynyddig, o Ysgotland, Gwasgwyn, a Biscay, er mwyn erlyn Llywelyn trwy amddiffynfeydd Eryri; ac er mwyn rhoi agwedd mor grefyddol ag oedd yn bosibl ar y rhyfelgyrch, galwodd allan gynorthwy yr holl breladiaid a'r abadau oedd yn dal tiroedd ar amodau milwrol trwy y deyrnas, ac archodd i'r offeiriaid chwareu offer cerdd, canu psalmau, a chyflawni seremoniau crefyddol afrifed, dros ystod yr holl ryfelgyrch.

Yn nechreu Mehefin, cyrhaeddodd y brenin a'i luoedd i Gaer; o ba le, ar ol aeddfedu ei gynlluniau, y dechreuodd efe ar ei ryfelgyrch, trwy ymosod yn gyntaf ar gastell Estyn (*Hope*), yr hwn a feddianodd yn ddiwrthwynebiad. Oddi yno ymdeithiodd mewn rhwysg mawr, yn mlaen tua Rhuddlan, a'r Cymry yn ffugio encilio o'i flaen; yna yn ddisymwth cymerasant eu safle yn ei erbyn, a chymerodd brwydr boeth le rhyngddynt, yn yr hon y collodd y brenin lawer o'i bendefigion, ac yn eu plith, arglwydd Audley; lluaws mawr o filwyr cyffredin, a phedair ar ddeg o faneri; a chymaint oedd braw y brenin, o herwydd y gorchfygiad disymwth hwn, fel yr ymgiliodd i gastell Estyn er ei ddiogelwch. Yna, ar ol y fuddugoliaeth uchod, symudodd Llywelyn a'i wŷr yn araf dros afon Gonwy, i gadarnleoedd anhygyrch Eryri; a dychwelodd Edward i Ruddlan tua chanol mis Gorphenaf, o ba le yr anfonodd efe orchymyn i siryddion Henffordd, Amwythig, a Stafford, i anfon iddo wyr medrus i gymynu coed, ac arloesi ffordd i'w fyddin fawr ymwthio yn mlaen tua Chonwy.

Ymddengys i ni, mai dyma yr adeg y cymerodd y cyflafareddiadau cyfrwys, a gofnodir yn helaeth gan Powel, le rhwng archesgob Caergaint a Llywelyn, yn mha rai y mae gonestrwydd ac athrylith yr olaf yn dysgleirio yn llawer mwy llachar nag eiddo y cyntaf.

Y mae yn amlwg bod yr archesgob, oddiar ryw resymau anadnabyddus yn awr, yn lled hwyrfrydig i gario allan orchymyn y brenin, trwy ysgymuno Llywelyn, a gosod y dywysogaeth o dan waharddiad. Am hyny, daeth drosodd i Gymru ar y 3ydd o Dachwedd, 1282, a hyny yn ddiarwybod i'r brenin, meddai ef, ond dywed Wykes yn bendant, mai ar orchymyn y brenin y daeth, ac a ymdrechodd trwy bob moddion, teg a hagr, i ddarbwyllo Llywelyn a'r Cymry i ymostwng i'r brenin. Efe a gyflwynodd i Llywelyn ysgrif, yn cynwys dwy ar bymtheg o delerau cytundeb, gan ei dynghedu o dan y perygl o ysgymundod i gytuno a'r brenin yn ddioed. Atebodd Llywelyn ef ar ddydd gwyl Fartin, trwy bapyr ysgrifenedig, yn cynwys crynodeb talfyredig o'r holl ymrafael oedd rhyngddo ef a'r brenin, gan ei sicrhau ei fod yn barod i gymodi ar y telerau bod ei ddeiliaid i gael mwynhau eu cyfreithiau a'u defodau cenedlaethol, ac i gael gweinyddiad barn ddiduedd ar bob cwyn a ddygid ger bron. Anfonwyd hefyd i'r archesgob, achwynion gan Dafydd ab Gryffydd, pobl cantrefi Rhos, Penllyn, Ystrad Alun, a Thegeingl, Rhys Fychan o Ystrad Tywi, Rhys ab Rhys, Howel ab Rhys, Meredydd ab Owain, Gronwy ab Heilyn, a Llywelyn ab Gryffydd ab Madog, oll yn cwyno oblegyd y camdriniaeth waradwyddus oeddynt wedi derbyn oddi ar law y brenin. Cyflwynodd yr archesgob yr holl gwynion hyn ger bron y brenin yn Rhuddlan, gan erfyn arno weinyddu cyfiawnder i'r bobl orthrymedig. Atebodd y brenin, ei fod yn foddlon i faddeu iddynt, ac i wneyd iawn am bob niwaid, ond iddynt ddyfod ger ei fron ef i ofyn am hyny; ac y caent ryddid hefyd i ddychwelyd, os yr ymddangosai yn gyfiawn a chyfreithlon iddynt. Gan mor gyfrwys oedd yr atebiad wedi ei eirio, dychwelodd yr archesgob at Llywelyn gyda brys, gan drosglwyddo iddo atebiad y brenin, a dymuno arno ef a'i bendefigion, ymddangos ger bron ei fawrhydi yn Rhuddlan. Ond gwelodd Llywelyn yn fuan trwy yr abwyd, ac anfonodd yr archesgob yn ei ol, gyda'r atebiad a ganlyn:—Ei fod ef yn barod i roddi i fyny i'r brenin bob peth, ond ei gydwybod, a'i safle. Ffrochodd y brenin yn aruthr wrth y fath atebiad, a dywedodd na chynygid unrhyw delerau iddo mwyach, ond ei lwyr ymostyngiad ef a'i bobl. Ond gan y gwyddai yr archesgob na buasai y Cymry byth yn syflyd oddiwrth eu penderfyniad, erfyniodd ganiatad ei "arglwydd frenin" i ymgynghori gyda'r pendefigion oedd yn y fyddin, ac i roddi yr atebiad olaf i Llywelyn; ac mewn canlyniad, anfonwyd i Llywelyn ddwy ysgrif, yn llaw mynach Cymreig, o'r enw Ieuan; y gyntaf o ba rai oedd i gael ei darllen i'r tywysog yn ngwydd ei gyngor, ac yn cynwys yn mhlith pethau eraill, na chynygid unrhyw delerau iddo ef ond ymostyngiad diamodol i ewyllys y brenin. Yr oedd yr ail i gael ei darllen yn "ddirgel" i Llywelyn ei hun; ac yn cynyg iddo ar ei ymostyngiad i ewyllys y brenin, y byddai i'w fawrhydi ddarparu cynaliaeth anrhydeddus iddo, o fil o bunau yn y flwyddyn, a rhyw iarllaeth gyfaddas yn Lloegr. Anfonwyd ysgrif "ddirgel" hefyd i Dafydd, brawd y tywysog, ac yn cynyg iddo, os ymadawai ef a'i wlad, a myned i Ryfel y Groes, ac aros yno cyhyd ag yr ewyllysiai y brenin, y gwnai ei fawrhydi ddarpariaeth anrhydeddus ar ei gyfer ef a'i epil. Ni raid trafferth i nodi allan y ddichell oedd yn gorwedd yn y cynygion bâs, iselwael, a llwfr uchod; ac mor fawrfrydig a gonest y mae ymddygiad Llywelyn yn

Digitized by Google

ymddangos mewn cyferbyniad iddynt. Ni fynai ef wneyd dim yn y "dirgel," felly cyflwynodd y cyfan i sylw ac ystyriaeth ei gyngor; ac mewn canlyniad, anfonwyd tri llythyr at yr archesgob, yn cynwys "Ateb y Tywysog," "Ateb y Cymry," ac "Ateb Dafydd ab Gryffydd;" y rhai, yn nghyda'r holl ymdrafodaeth lythyrol uchod, a gofnodir yn llawn gan Powel, yn ei *History of Wales*.

Er bod yn anhawdd dirnad am ddim mwy teg, naturiol, a gwladgarol, na'r tri llythyr uchod, eto atebwyd hwynt gan archesgob Caergaint yn y modd mwyaf bustlaidd, chwerw, a dygasog, yr hyn a brawf nad oedd y gostyngeiddrwydd a honai, a'r ymadroddion Ysgrythyrol a ddefnyddiai efe, yn ddim ond ffug i guddio yr ysbryd drwg oedd yn rhedeg trwy ei holl weithredoedd. Mewn gair, nid oedd efe ond Balaam cyflogedig gan Edward, i geisio llithio y Cymry i ymostwng o dan draed y gorthrymydd; ac wedi iddo fethu trwy gyfrwystra, yn gollwng rhaff i'w nwydau i'w rhegu. Ond cafodd weled bod ei regfeydd, yn nghyda holl daranau ei eglwys, yr hyn a alwai efe yn ysgymundod, yr un mor ddieffaith ag oedd ei hudoliaethau, tuag at syflyd Llywelyn a'r Cymry i fradychu eu hunain, a'u gwlad. Do, safodd *Pobl Eryri* mor ddiysgog a'u creigiau; a phrofasant bod eu rhyddid yn fwy gwerthfawr ganddynt, na'u bywyd. Clod byth i'w coffadwriaeth.

Tra yr oedd y cyflafareddiad uchod yn cael ei ddwyn yn mlaen, yr oedd pob diwydrwydd yn cael ei arferyd yn Rhuddlan, i barotoi y cleddyf; a chan fwriadu gwneyd ymosodiad daublyg, efe a symudodd gorph ei fyddin yn mlaen at Gonwy; ac anfonodd lynges y Pum Porthladd, yn nghyda mintai gref o farchogion a'u gwyr, o dan arweiniad Syr William Latimer, i ymosod ar Ynys Mon. Mae yn amlwg fod yma ddau amcan mewn golwg yn yr ymosodiad ar Fôn,—Ysbeilio Llywelyn o'i ydlan, a bod yn alluog i wneyd rhuthriadau ar Eryri dros y Fenai. Glaniodd y fyddin yn Mon yn lled ddi drafferth, gan fod y rhan fwyaf o'r pendefigion yno o dan lw i'r brenin, a'r ychydig ffyddloniaid a wrthwynebent eu glaniad, a rifwyd yn rhwydd i'r cleddyf. Pan glybu Edward, bod Ynys Mon wedi ei meddianu, efe a lefodd mewn gorfoledd, "Dyna'r bluen harddaf yn nghynffon Llywelyn wedi ei thynu!" Ond buasai yn ddoeth iddo ymatal nes gweled y canlyniad. Y peth a wnaeth yr adran yn Mon, ar ol meddianu yr Ynys, oedd ceisio efelychu Julius Agricola gynt, drwy wneyd pont o fadau, wedi eu gorchuddio a byrddau, dros afon Menai, ar gyfer Moel y Don, yr hon bont oedd ddigon llydan i driugain o wyr ei cherdded ochr yn ochr, fel y gallai y fyddin yn Mon, gydweithio yn hwylus a'r hon oedd ar gychwyn i Arfon dros Gonwy, a bod yn alluog i drosglwyddo ymborth ac arfau, y naill i'r llall. Un diwrnod, pan oedd y bont eto heb ei gorphen, a phrin yn rhychwantu yr afon ar drai, aeth Syr William, a llu mawr o'i benaethiaid, a'u milwyr, drosti i Arfon; a mawr oedd eu llawenydd pan gawsant eu traed ar wlad y cewri; a chan na welent ddyn nac anifail yn un lle, tybient yn sicr bod y gelynion wedi ffoi, a bod Eryri wedi syrthio i'w dwylaw, yn rhwyddach hyd yn nod na Mon. Erbyn hyn, yr oedd eu llawenydd wedi haner eu meddwi, rhedent ar hyd y traeth, ymgydyment a'u gilydd, a bloeddient mewn gorfoledd. Ond yn ddisymwth, dyna gorn y gad yn adsain y creigiau! a'r Cymry yn rhuthro arnynt i lawr o'r mynyddoedd, a'r coedydd. Dechreuodd Syr William yn ddioed drefnu ei wŷr, a gwneyd gwrthsafiad egnïol; ond wrth weled ei wŷr yn syrthio fel gwellt o'i amgylch, a'r Cymry yn parhau i ddylifo arno fel llifeiriant, "Ffown!" ebe fe; ond erbyn troi eu golwg am y bont, yr oedd y llanw wedi dyfod i mewn, a dyfnder ofnadwy rhyngddynt a hi; a hwythau a ruthrent i bob cyfeiriad, rhai i gleddyfau sychedig y Cymry digofus, eraill i wanc dialeddol y don, fel na ddiangodd o honynt, ond Syr William Latimer yn unig, a hyny trwy gryfder ei farch i groesi y llifeiriant. Collodd y brenin yn y gyflafan hon, bymtheg o farchogion, deuddeg ar hugain o yswainiaid, a thros fil o filwyr cyffredin. Parodd hyn gymaint dychryn i Edward, fel yr enciliodd yn ddioed i gastell Rhuddlan; a gwnaeth i awyr Eryri oroian gan seiniau llawenydd, goleuid y mynyddoedd gan goelcerthi, a llwythid yr awelon gan ddaroganau Myrddin, y rhai a wnaent i Llywelyn yn fuan adferyd goruchafiaeth cenedl y Cymry, a sefyll yn Benteyrn Ynys Prydain.

Ond nid oedd y cwbl ond fel tywyniad diweddaf yr haul wrth fachlud. Rhaid i ni bellach ddilyn ein gwron i Buallt, ac i'w—angau. Mae tywyllwch neillduol yn gorwedd dros yr hynt anffodus hon i Buallt, ac nid oes neb eto wedi gallu chwalu dim o hono. Dywed yr haneswyr yn ddi eithriad, mai ei amcan yn ymweled a'r ardal hono, oedd ymgynghori a rhyw benaethiaid gyda gobaith o'u dwyn i bleidio ei achos; ac iddo, yn anarfog felly, syrthio yn aberth i fradwriaeth. Ond ni ddywedir pwy oedd cynllunwyr y fradwriaeth hono, nac â pha benaethiaid yr oedd efe ar fedr ymgynghori. Ond yr ydym ni, oddiar awgrymiadau a geir yn nghofnodau awdurdodedig y dyddiau hyny, yn gorfod cysylltu enw Edward I. â'r fradwriaeth ysgeler hon. Gwelsom eisoes, ac y mae prawfion ychwanegol i'w cael, bod Edward yn alluog i ffurfio cynllwynion; ac wrth dadogi iddo law yn mrad-lofruddiaeth Llywelyn, yr hwn y methodd efe ei hudo trwy ffafrau, na'i orchfygu trwy y cleddyf, yr ydym yn ychwanegu at ei gyfrif un o'r bradwriaethau mwyaf iselwael, a duaf, ag sydd yn anurddo hanes Prydain.

Yn *Rymer's Foedera*, cyf. ii. tud. 224, cawn lythyr yn yr hen Ffrancaeg Normanaidd, wedi ei ysgrifenu gan John Peckham, archesgob Caergaint, at Edward I., yr hwn oedd ar y pryd yn nghastell Rhuddlan; y mae wedi ei amseru yn Pembridge, swydd Henffordd, dydd Mawrth ar ol gwyl St. Lucy, 1282. Dechreua trwy hysbysu y brenin, ddarfod iddynt gael ar gorph Llywelyn wedi iddo syrthio, yn mhlith pethau eraill, lythyr bradwrus, yn cyfeirio at unigolion, dan enwau ffugiol, yr hwn, yn nghyda'i sel frenhinol, oedd yn meddiant Edmund de Mortimer, i ddysgwyl ewyllys y brenin. Yna dywed bod "Dame Maude Lungespeye"—Matilda merch Walter Clifford, o Margaret merch Llywelyn ab Iorwerth, yr hon oedd felly yn gares i Llywelyn, "wedi dymuno arno ryddhau y tywysog oddi tan ysgymundod, fel y gellid ei gladdu mewn tir cysegredig; ond iddo ei hysbysu nas gallai ef wneuthur dim, os na ellid profi bod Llywelyn cyn iddo farw, wedi dangos arwyddion o wir edifeirwch." "Dywedai Edmund de Mortimer wrtho, iddo glywed gan ei filwyr, y rhai oedd yn bresenol pan oedd Llywelyn yn trengu, ei fod ef (Llywelyn), yn galw am offeiriad cyn marw; ond heb berffaith sicrwydd" ychwanegai yr archesgob, "nis gallem ni wneuthur dim" i'w ryddhau. Yna cawn y frawddeg ganlynol, yr hon yn ddiau sydd

Digitized by Google

yn cyfeirio at awr gynarach o'r dydd:—"*Avec so, sachez Ke le Jur meymes Ke il fut ocis, un muygne blaunc li chaunzo messe, e Messire Roger de Mortimer ad les vestemens:*"—"Gyda hyna gwybydder ar y dydd y lladdwyd ef, i fynach gwyn ganu offeren iddo, a Syr Roger Mortimer a roddodd (fenthyg) gwisgoedd."

Y mae yn amlwg, gan hyny, bod Llywelyn a'i gefnder Roger Mortimer, ar y pryd hwn ar delerau da, ac ymddengys yn dra thebyg mai Roger Mortimer oedd un o'r uchelwyr y cyfeirid atynt yn y "llythyr bradwrus," pwy bynag a'i hysgrifenodd; ac mai amcan Llywelyn yn yr hynt anffodus hon i ardal Buallt, oedd ceisio enill Roger Mortimer ac eraill o bendefigion y parthau hyny, i uno eu nerthoedd ag ef yn yr ymdrech bresenol, neu sefyll yn anmhleidgar. Yr oedd Roger Mortimer yn dal tiriogaethau llydain ar y cyffiniau, ac yn eu plith Ewyas—Ewyas-Lacy ac Ewyas-Harrold; ac wrth gofio hyny, mae y cofnodiad canlynol, yr hwn a geir yn rhestr treulion y brenin Edward I., yn Rhuddlan, yn 1282, o dan y penawd *Wardrobe Expenses*, yn llefaru iaith pur groyw:—

"Tuesday, on the feast of the Nativity of the Blessed Mary, paid for six ells of Web Cloth, and six ells of strong fine linen, bought for pennons and Welsh Standards of Ewyas, and for making the same. } 0 13 4"

Paham y gwnaed banerau a llumanau Cymreig Ewyas, o dan lygad y brenin yn Rhuddlan, ac yr oedd y draul o'u gwneuthuriad yn cael ei chuddio yn mhlith ei *Wardrobe Expenses?*

Cawn "Master R. Giffard" yn llywyddu mil o fwäwyr yn Rhuddlan, yn 1282; a'i frawd *John* Giffard, oedd yn cydweithredu ag Edmund de Mortimer i syrthio ar warthaf Llywelyn yn Aberedwy; ac onid yw yn dra thebyg, oddiwrth yr amrywiol ffeithiau uchod, y rhai gyda'u gilydd sydd yn ffurfio y peth nesaf i sicrwydd, mai y *Welsh Standards of Ewyas*, y rhai, fel y gwelsom, a wnaed o dan lygad Edward yn Rhuddlan, a barodd i Llywelyn gamgymeryd y gelynion hyny am gyfeillion? Y mae pob tebygoliaeth yn ateb yn gadarnhaol, ac yn cyduno i ychwanegu gwaed Llywelyn at eiddo y lluaws eraill wrth ddrws Edward. Yn y goleu yna, mae yr holl gynllwyn yn ymddangos yn glir a chyfan. Ar ol i'r dichellion cyflafareddol droi yn fethiant, a'r gorchfygiad ofnadwy ar fin y Fenai daflu dychryn i holl wersyll y brenin, ac yntau yn ofni anturio ar ol Llywelyn i amddiffynfeydd Eryri, penderfynwyd gwneyd trwy gynllwyn, yr hyn y methwyd trwy wroldeb; yr oedd yn hysbys bod Roger Mortimer yn ddiweddar wedi claiaru llawer yn ei sel o blaid y brenin, fel yr awgrymid yn fynych y buasai yn debyg o bleidio y tywysog yn y rhyfel hwn, er nad oedd ar y pryd, wedi gwneyd dim dros un o'r ddau; yna yr oedd yn hawdd anfon llythyr amwys o dan sel Syr Roger Mortimer at Llywelyn, i Eryri, i addaw dyfod allan o'i blaid, gan geisio ganddo yntau ddyfod drosodd yn ddirgel i Faeshyfed, ac y byddai byddin Ewyas yn ei gyfarfod tuag Aberedwy; ac i'r perwyl hwnw, gweithiwyd banerau a llumanau Ewyas, yn nghastell Rhuddlan, ac anfonwyd hwynt i chwifio dros wŷr y brenin wrth deithio i fyny gyda'r afon Wŷ.

Ond i ddychwelyd at linyn yr hanes, ar ol gweithio y banerau ar llumanau yn Rhuddlan, y rhai y talwyd am danynt ar ddydd gwyl Fair, sef yr 8fed o Fedi, yr ydym yn cael Edward, ar y 12fed o Dachwedd, yn anfon gwŷs i'w holl ddeiliaid milwrol ar y cyffiniau canolbarthol, i ymuno a'i ewythr, Iarll Penfro, ar y 13eg o Ragfyr, i ymosod ar y gwrthryfelwyr o'r tu deheuol i Eryri. Ar y 24ain o Dachwedd, efe a anfonodd wŷs i holl siroedd Lloegr, am ragor o filwyr i ddyfod i'r maes. Dengys yr uchod bod pryder ac ofnau y brenin am ganlyniadau yr ymgyrch hon yn fawr; a thra yr oedd y cyfryw wŷsiau yn cael eu hanfon trwy y deyrnas, safai ef yn llonydd yn nghastell Rhuddlan, i wylio symudiadau Llywelyn, a threfnu ei gynllwynion ar ei gyfer. Yr oedd Llywelyn ar y pryd yn feistr ar ei sefyllfa yn Eryri, er ei fod yn cael ei lwyr amgylchu gan ei elynion, ac nad oedd fodd iddo symud allan, heb dori trwy dewdwr eu tarianau. Gwelodd Edward hyny, a thynodd Iarll Caerloyw a'i wŷr ymaith o Geredigion, gyda'r amcan, mae yn ddiau, i Llywelyn gael adwy i fyned allan. Tybiodd y tywysog bod hon yn adeg ffafrol iddo fyned i dalu ymweliad a'i gyngreirwyr newyddion tua glanau yr Wŷ, yn ol cais y llythyr a dderbyniasai, felly ymddiriedodd amddiffynfeydd Eryri i'w frawd Dafydd, a chymerodd ran o'i fyddin gydag ef i lawr trwy Geredigion, gan ddiffeithio tiriogaethau y Normaniaid a'r Cymry oedd wedi bradychu eu gwlad; ac ar yr 11eg o Dachwedd, gadawodd gorph ei fyddin ar Fynyddoedd Eppynt, er gwrthladd byddin Oliver de Dyneham, a chymerodd, fel y tybir, ddeunaw o'i wŷr gydag ef yn mlaen i ddyffryn Gwy, gan deithio ar yr ochr ogleddol i'r afon, nes y daethant i olwg byddin nerthol yn y pellder yn dyfod i fyny i'w cyfarfod; ond gan y gwelent fanerau a llumanau Ewyas yn chwifio uwch eu penau, aethant yn mlaen yn galonog, gan feddwl eu bod yn myned i fynwes cyfeillion. Ond och! y fath gamgymeriad! Nid oedd yno ond gelynion arfog, yn cael eu tywys gan Edmund de Mortimer, a John Giffard. Ond i ba beth y manylwn ar y fath ysgelerder! Cwympodd Llywelyn, eithr nid mewn rhyfel, ond trwy y fradwriaeth fwyaf barbaraidd; ac anfonwyd ei ben i Edward yn Rhuddlan, yr hwn a'i derbyniodd gyda gorfoledd annysgrifiadwy, fel caffaeliad gwerthfawrocaf ei oes waedlyd, ac a'i hanfonodd yn gyntaf i'w fyddin yn Ynys Mon, fel arwydd bod y fuddugoliaeth wedi ei henill, ac wedi hyny i Lundain, lle, ar ol ei goroni a dail eiddew ar yr 22ain o Dachwedd, er gwawdio y daroganiad y byddai i Llywelyn wisgo coron yn ninas Llundain, a'i gludo trwy ystrydoedd y ddinas gyda gorfoledd gwallgof, y gosodwyd ef ar bawl haiarn, ar ben y Twr Gwyn.

Am y corph, o herwydd iddo farw o dan ysgymundod yr eglwys, y mae braidd yn sicr iddo gael ei gladdu yn agos i'r lle y syrthiodd, mewn croesffordd, rhwng yr Irfon a'r Chwefri, ac a elwir oblegyd hyny, Cefn y Bedd.

Gadawodd ar ei ol un ferch fechan o'r enw Gwenllian, ar enedigaeth yr hon y bu farw ei mam; a mab ordderch, o'r enw Madog. Gosododd Edward y ferch mewn mynachdy yn Lloegr, lle y cymerodd y gorchudd; a dygwyd Madog, o herwydd ei wrthryfel, i'r Twr Gwyn, lle y bu farw. Felly bu diwedd am yr olaf o dywysogion Cymru, a'i eppil; ac unwyd Cymru a Lloegr o dan yr un goron, yr hon sydd yn gorphwys yn esmwyth yn awr, ar ben ein Grasusaf Victoria, yn yr hon y mae gwaed goreu y ddwy genedl yn cyd guro.

Digitized by Google

Wrth edrych ar y dyn, y gwladgarwr, a'r gwron, sydd yn dyfod i'r golwg drwy yr amgylchiadau uchod, y rhai a fras-linellwyd mor frysiog, gwelwn ynddo ddigon o dalentau a rhinweddau i'w anfarwoli, a theilyngu iddo gell gydag enwogion yr oesau yn nheml anrhydedd. Er i Edward lwyddo i'w frad-lofruddio, ac ymdrechu dileu pob cofnodiad ac adgof am dano, megys y gwnaeth hefyd am Simon de Montfort; eto y mae digon o wybodaeth am dano yn aros, i wneyd i'w gymeriad ymddangos yn anrhaethol dysgleiriach nag eiddo Edward, a pheri i'w goffadwriaeth gael ei anwylo gan bawb a fedrant edmygu gwladgarwch, dewrder, a medr milwrol. Ond er gwaethaf ymdrech Edward i ddileu ei goffadwriaeth, llwyddodd gweithiau rhai o'r beirdd cydoesol, a ganasant ei Foliant, a'i Farwnad, i ymlithro i lawr hyd yr oes hon; megys gweithiau Dafydd Benfras, Llygad Gwr, Bleddyn Fardd, a Gryffydd ab Yr Ynad Coch, y rhai a gedwir yn y *Myf. Arch.;* eithr y syndod yw, bod mor ychydig o gyfeiriadau hanesyddol yn y caneuon uchod, yn enwedig yn y Marwnadau, i roi dim goleuni ar amgylchiadau ei farwolaeth. Ond tybiwn y prawf hyny yn eglur, nad oedd y cynllwyn bradwrus drwy ba un y syrthiodd, yn adnabyddus i'w gydwladwyr; ond awgryma Gryffydd ab yr Ynad Coch, mai trwy frad y Saeson y lladdwyd ef:—

"Ys mau bid wrth Sais am fy nhreisiaw;"

ac mai deunaw o wyr oedd ganddo ar y pryd, y rhai oll a syrthiasant yn yr un gyflafan, fel na adawyd tafod i adrodd yr hanes:—

"Arglwydd llwydd cyn lladd y deunaw."

Felly dilys yw, mai dyfaliadau diweddar tuag at lanw yr adwy, yw yr adroddiadau dyrus ac anghyson a geir gan y gwahanol haneswyr am yr hynt i Fuallt. Hyn sydd sicr, bod diwedd Llywelyn wedi ei golli mewn tywyllwch, ac hyd yn nod ei feddrod wedi ei gladdu! Ond gan fod Un a fedr wneyd i gynddaredd dyn ei folianu, teimlwn nas gallwn derfynu y benod hon yn well, nag yn ngeiriau Ceiriog:—

"Mae'r freniniaeth *wedi* ymadael
O derfynau Cymru wen;
Ond mae Rhyddid eto'n aros,
Fel y nefoedd lâs uwch ben:
Duw sy'n planu'r hen deyrnwialen,
Fe sy'n rhoddi'r gwlith a'r gwlaw;
Beth all Cymru 'n well na gadael
Ei breniniaeth yn ei law!"

**LLYWELYN** ab Gruffydd ab Gwilym, bardd o Fôn, yn blodeuo rhwng y blynyddoedd 1550 a 1590.

**LLYWELYN** ab Gutyn, bardd o alluoedd da, a flodeuai rhwng 1460 a 1500. Yr ydoedd hefyd yn grythwr i Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd. Mae rhai darnau barddonol o'i waith ar gael, mewn ysgrifen.

**LLYWELYN** ab Gwilym Fychan, o'r Cryngae, a'r Ddol Goch yn Emlyn, boneddwr, milwr, a bardd, a roddodd gychwyniad i'r adfywiad llenyddol nerthol a dorodd allan yn Nghymru yn nechreu y 14eg ganrif, pan yr adferwyd yr Eisteddfod, ac y cynnyrchwyd goreuon beirdd Cymru. Yr oedd Llywelyn yn ewythr i Dafydd ab Gwilym, brawd ei fam; ac wrth weled yn ei nai ieuanc, awen gyferddawn, efe a'i cymerodd ato, ac a ddysgodd iddo gelfyddyd mydr a cherdd dafod; ac o hyny yr aeth Dafydd yn brydydd mawr iawn ei glod. Yn ei lŷs, a than ei nawdd ef, yn Emlyn, y cynnaliwyd yr Eisteddfod hono, yn mha un y lladdodd Dafydd ab Gwilym Rhys Meigen âg awdl duchan. Efe oedd llywydd yr orsedd yn y gyntaf o'r "tair Eisteddfod Dadeni" a gynnaliwyd yn Ngwern y Clepa, dan nawdd Ifor Hael, yn yr hon yr oedd Dafydd ab Gwilym, a'r tri brodyr o Marchwiail, sef Llywelyn, Ednyfed, a Madog Benfras, yn ddysgyblion cerdd dafod. Wedi hyny, efe a gynnaliodd Eisteddfod enwog yn ei lys ei hun yn Emlyn, yn yr hon y dechreuodd ymryson barddonol rhwng Sion Cent, a Rhys Goch o Eryri. Barnwyd Sion Cent yn oreu am wengerdd, a Rhys Goch am foliangerdd. Dywedir bod Llywelyn ab Gwilym yn geidwad y Castell newydd, ac iddo gael ei ladd gan wylliaid Penfro.

Canodd Dafydd ab Gwilym foliangerdd ragorol iddo, yr hon a elwir, "Arwyrain Llewelyn ab Gwilym Fychan, o Emlyn, a'r Cryngae yn Nyfed, Yswain—ewythr ac athraw y bardd, gwr cyfarwydd ar fesurau y ddwy gerdd, sef cerdd dafod, a cherdd dant;" ac yn yr hon y dengys y bardd ei ddymuniadau da iddo, ei nodded i'r beirdd, a'i safle urddasol a dylanwadol yn y wlad:—

"Llyfr dwned Dyfed, dyfyn—ar windai
I randir Llywelyn;
Llanerch, aed anerch pob dyn,
Lle twymlys, llu at Emlyn.
* * * * *

"Llonglwyth i dylwyth hyd Wyli,—a draidd
Llariaidd, brawdwraidd byd Bryderi;
Llafuriawdd berthawdd i borthi—digeirdd,
Llys Emlyn y beirdd, lle heirdd yw hi.

"Lle y gnawd gwasgawd, a gwisgi—ddillad,
Llety anghaead, wastad westi;
Lle cynefin gwin a gweini—heilgyrn
Lle chwyrn, llwybr tefyrn, lle beirw Teifi.
* * * * *

"Llawnaf dianaf daioni—mynud,
Lluniaeth ffraeth ffrwythdud, glud glodfori;
Llwybreiddwlad, gariad Gwri—Wallt-euryn
Llywelyn drawsdyn a â drosdi.

"Llywiawdr, ymerawdr meiri,—hyd Elfed
Llyw yw ar Ddyfed, llawer ddofi;
Llathrlaw osb euraw ysberi—gwëyll
Llid Pyll, arf dridryll, arfod Rhodri.
* * * * *

"Llywelyn derwyn i dori—aergad
Llaw fad, aur rhuddiad, i wŷr rhoddi;
Llywia, na threia, Un a thri,—rhag llaw,
Llywia, ddawn iddaw, Dduw i'w noddi.

**LLYWELYN** ab Gwrgant, brenin Dyfed, neu Demetia, o yn nghylch 1140 i 1170. Yr oedd efe yn un o'r cyffion achyddol ag y mae teuluoedd y wlad hono yn olrhain ei disgyniad oddiwrthynt.

**LLYWELYN** ab Hwlcyn, bardd a flodeuai rhwng 1540 a 1570.

**LLYWELYN** ab Hywel ab Ieuan ab Goronw, bardd a flodeuai o 1500 i 1540. Mae peth o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llaw-ysgrifen.

**LLYWELYN** ab Iorwerth, tywysog Cymru, ydoedd y mab henaf i Iorwerth Drwyndwn, yr hwn a gauwyd allan fel penadur, ar gyfrif anaf ar ei wyneb, a chyflwynwyd y llywodraeth i'w frawd, Dafydd ab Owain Gwynedd. Mam Llywelyn ydoedd

Digitized by Google

Marred, ferch Madog ab Meredydd, tywysog Powys. Wedi cyrhaedd oedran aeddfed efe a hawliodd Dywysogaeth Gwynedd, o'r hon yr oedd ei ewythr yn anghyfiawn yn ei gadw allan; a chan fod ei ewythr wedi gwneud ei hun yn adgas yn ngolwg y bobl, o herwydd ei greulondeb, ni chafodd Llywelyn unrhyw anhawsdra i adferu ei hawliau. Dechreuodd Llywelyn deyrnasu yn y flwyddyn 1194. Nid oedd ei ewythr, modd bynag, yn foddlon gadael iddo fwynhau y dywysogaeth, heb wneud rhyw ymdrech i'w hadfeddianu drachefn. I'r perwyl hwnw efe a gynullodd ynghyd fyddin fawr o Saeson, a Chymry, ac a ymosododd ar Llywelyn, yn y flwyddyn 1197, gan yr hwn y llwyr orchfygwyd ef, gan ei gymeryd yn garcharor. Yn 1202, hawliodd Llywelyn wriogaeth oddiwrth agos holl dywysogion Cymru, yr hyn hefyd a dderbyniodd, fel goruchdeyrn yn ol cyfreithiau Rhodri Fawr, a Hywel Dda. Yn yr un flwyddyn, efe a briododd Joan, merch John, brenin Lloegr, gyda'r hon y cafodd arglwyddiaeth Ellesmere ar y cyffiniau, yn waddol. Yn 1211, ymruthrodd y Brenin John ar Wynedd, gyda byddin gref; ond llwyddodd y tywysog i dori ei adgyflenwadau oddiwrtho, fel y gorfu arno encilio gyda cholled fawr. Yn y Mis Awst canlynol, modd bynag, gwnaeth y brenin John ail ymruthriad ar Gymru; ac wedi llosgi Bangor, efe a lwyddodd i ddarostwng Llywelyn. Yn y flwyddyn 1214, ymunodd tywysog Cymry a'r barwniaid Saesnig, mewn cyngrair yn erbyn John, am yr hyn yr esgymunodd y Pab ef; ond ni luddiodd hyn ei elyniaeth barhaus. O'r pryd hwnw hyd derfyn ei oes, efe a barhaodd mewn rhyfel bywiog yn erbyn Harri III.; ac yn gyffredin yr oedd ei arfau yn llwyddianus. Yn 1237, pan yn teimlo pwys henaint, gwahoddodd ynghyd holl dywysogion a boneddigion Cymru, i'w gyfarfod ef yn mynachlys Ystrad Flur, yn Ngheredigion, lle yr adnewyddasant eu llywod-lwon, ac y talasant wriogaeth i'w fab Dafydd, o'r dywysoges Saesnig, yn hytrach na Gruffydd, ei fab o'i wraig gyntaf, Tangwystl. Yr oedd ganddo hefyd ferch o'r enw Gwladus, o'r wraig gyntaf, yr hon oedd wedi priodi Syr Ralph Mortimer. Bu farw Llywelyn, Ebrill 11, 1240, wedi teyrnasu am 46 o flyneddau, ac efe a gladdwyd yn Aberconwy. Hynodid ei gymeriad o ran ei anturiaethau, a'i wladgarwch; a'i ddoniau a'i rinweddau a roddasant iddo yr enw "Llywelyn Fawr." Clodforir ef yn ddirfawr gan ei gyfoeswyr y beirdd; ac y mae amryw ddarnau mewn perthynas iddo, yn y gyfrol gyntaf o'r *Myv. Arch.* Efe a sylfaenodd fynachlog Aberconwy, yn 1185, ac a'i gwaddolodd hi a thiroedd lawer yn siroedd Caernarfon, a Môn, ac yn 1237, efe a sylfaenodd fynachlog Llanfaes, Môn, uwch beddrod ei wraig Joan.

**LLYWELYN** AB MADOG AB DAFYDD AB EDNYFED, bardd yn ei flodau rhwng 1470 a 1500.

**LLYWELYN** AB MEREDYDD AB EDNYFED, bardd yn ei flodau rhwng 1390 a 1420. Mae rhai o'i gyfansoddiadau yn aros mewn llaw-ysgrifau.

**LLYWELYN** AB OWAIN AB CYNWRIG FOEL, bardd yn ei flodau, rhwng 1480 a 1520. Cedwir rhai o'i gyfansoddiau mewn llawysgrifau.

**LLYWELYN** AB RHYS, bardd yn ei flodau rhwng 1470 a 1500. Mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael.

**LLYWELYN** AB SITSYLLT, oedd un o dywysogion enwocaf Cymru, mab Trawst, merch Elis, ail fab Anarawd, yr hwn oedd fab henaf Rhodri Mawr. Yn y flwyddyn 994 O.C., pan nad oedd ond 14 oed, efe a briododd Angharad, unig ferch, ac etifeddes Meredydd ab Owain, trwy hawliau yr hon, y daeth efe yn dywysog Deheubarth Cymru, a Phowys, yn 998. Yn y flwyddyn 1015, honodd ei hawl i dywysogaeth Gwynedd, fel yn deillio trwy ei fam; felly efe a arweiniodd fyddin yn erbyn Aeddan ab Blegwryd, yr hwn trwy drawsedd a lywodraethai yno; ac yn y frwydr hon, Llywelyn a'i lladdodd ef, yn nghyd a'i bedwar mab; ac yn y modd hwn efe a ddaeth yn dywysog holl Gymru. O'r amser hwn allan, bu llywiadaeth Llywelyn, yn foddion i ddwyn y wlad ar gynydd mewn llwyddiant; a mynega y Brudiau Cymreig, i'r bobl yn ystod y blyneddau hyn gynyddu yn ddirfawr mewn cyfoeth, a nifer. Wedi teyrnasu ar Gymru, mewn heddwch a llwyddiant hyd y flwyddyn 1021, dyma fyddin o Wyddelod dan Awlaff, yn ymruthro i'r Deheubarth; ac wedi cyrhaedd Caerfyrddin, ymunwyd â hwynt gan Hywel, a Meredydd, meibion Edwin ab Einion, teulu yr hwn er ys blyneddau a gauasid allan o gyfres yr olyniaeth i dywysogaeth y Deheubarth. Modd bynag, fe gafodd Llywelyn lwyr oruchafiaeth ar ei elynion; eithr yn fuan ar ol hyny, efe a syrthiodd trwy law brad-lofrudd; a phriodolir ei farwolaeth i fradwriaeth Madog Min, esgob Bangor. Gadawodd un mab o'r enw Gruffydd ar ei ol, yr hwn a deyrnasodd o 1037 i 1064. Y Llywelyn hwn a adeiladodd gastell Rhuddlan, yn yr hwn y cyfanneddai efe fynychaf; ac ar ol hyny, efe a barhaodd i fod yn balas breninol yn ystod bywyd ei fab.

**LLYWELYN** AB TEGONWY AB TEON, a brawd Mabon, ydoedd sant o'r chweched ganrif. Adeiladodd dŷ crefyddol yn Nhrallwng; a gorphenodd ei yrfa yn mynachlog Ynys Enlli. Cedwid ei wyl Ebrill 7.

**LLYWELYN** o LANGEWYDD, neu LLYWELYN SION, ydoedd fardd enwog o Forganwg, hynod o ran ei benodiad i gasglu ynghyd safon Barddas, fel yr oedd ar gael mewn traddodiad yn ngorsedd Morganwg, i'r hon yr oedd efe yn arlywydd yn 1580. Efe a gyflawnodd ei swyddogaeth gyda chryn ddiwydrwydd a ffyddlondeb; a chyflwynwyd ffrwyth ei lafur i sylw y beirdd, mewn cyfarfodydd dilynol; ac awdurdodwyd Edward Dafydd, i wneuthur rhai chwanegiadau. Mae y casgliad a wnaed yn y modd hwn, ar gael yn meddiant Mr. Turburville o Llanharan. Bu farw Llywelyn Sion yn 1616.

**LLYWELYN AURDORCHOG**, o Iâl, un o gantrefi sir Ddinbych. Yr oedd yn foneddwr o enwogrwydd, ac yn byw tua diwedd y ddeuddegfed ganrif. Ei feibion oeddynt Ithel Felyn, Iorwerth, Idris, Dolphin, ac Endywain, oddiwrth yr hwn y mae amryw deuluoedd yn sir Ddinbych yn olrhain eu disgyniad.

**LLYWELYN BRYDYDD HODNANT**, bardd clodfawr o Forganwg, yn blodeuo o 1280 i 1330. Y mae dwy gerdd anerchedig i Ieuan ab Gruffydd Foel, yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaiology.*

**LLYWELYN CELL IFOR**, bardd a flodeuai o 1370 i 1400.

**LLYWELYN DDU**, bardd a flodeuai o 1290 i 1340. Y mae un o'i gerddi ag sydd yn anerchiadol at Llywelyn ab Gwilym ab Hywel, yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'r *Myv. Arch.*

**LLYWELYN FARDD**, mab Cywryd, ydoedd fardd clodfawr, yn blodeuo o 1230 i 1280. Y mae saith o'i gyfansoddiadau, yn benaf rhai anerchiadol

Digitized by Google

at bersonau enwog mewn hanesiaeth Gymreig, yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

**LLYWELYN FOELRHON**, mab Dafydd Foel ab Dafydd Benfras, ydoedd fardd yn blodeuo o 1270 i 1300. Yr oedd ei dad, a'i daid, yn feirdd galluog.

**LLYWELYN FYCHAN**, mab Llywelyn Foelrhon, ydoedd fardd yn Môn, ac yn blodeuo o 1300 i 1330. Mae rhai o'i gyfansoddiau ar gael mewn llawysgrifen.

**LLYWELYN GOCH** AB MEURIG HEN, bardd enwog o Feirionydd, yn byw yn y Nannau, ac yn blodeuo o 1330 i 1370. Efe ydoedd cariadfab Lleucu Llwyd o Pennal, ar farwolaeth athrist yr hon, efe a gyfansoddodd alareb dra serch-gynyrfiol, yr hon sydd ar gael mewn llawysgrif; ac y mae cyfieithiad rhyddieithol o honi i'w gael yn *Jones's Bardic Museum.* Y mae llawer eraill o'i gyfansoddiadau ar gael, o'r rhai y mae chwech yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Ysgrifenwyd ei alareb gan Iolo Goch.

**LLYWELYN GOCH Y DANT**, ydoedd fardd o Wynedd, a flodeuai o 1440 i 1480. Erys rhai o'i gyfansoddiadau mewn llawysgrifen.

**LLYWELYN MOEL Y PANTRI**, bardd a flodeuai o 1400 i 1430. Claddwyd ef yn Ystrad Marchell, ac y mae ei alareb gan Gutto'r Glyn, yn argraffedig yn y *Cymrodorion Transactions.* Saif amryw o'i weithiau mewn llawysgrifen.

**LLYWIOG LAW AUROG**, ansawd a gyfarfyddir mewn chwedlonaeth Gymreig.

**LLYWYN**, sant a flodeuai tua dechreu y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o'r dysgedigion a ddaethant gyda St. Cadfan, o Lydaw i Ynys Prydain, ac a aethant yn aelodau o goleg Illtyd, ac ar ol hyny a ymsymudasant i Ynys Enlli.

# M.

**MABON** AB ENLLECH, sant yn y 6ed ganrif, brawd Teilo, a sylfaenydd Llanfabon, Morganwg. Cawn ei foeswers yn "Chwedlau y Doethion,"—

"A glywaist ti a gant Mabon
Pan yn addysgu ei feibion?
Nid chwiliwr y galon ond Duw."

**MABON** AB MEDRON, cymeriad ag sydd yn dysgleirio yn "Nghilhwch ac Olwen;" un o'r "tri goruchel garcharawr;" yr un, meddir, a Mabon ab Mellt; ac y mae ei fedd yn ucheldir Nanlle.

**MABON** AB TEGONWY, sant yn y 6ed ganrif, a sylfaenydd eglwys Rhiw Fabon, neu Rhiwabon, swydd Ddinbych.

**MAB Y CLOCHYDDYN**, bardd yn ei flodau o 1340 i 1380. Brodor, yn ol Edward Llwyd, o Lanafan Fawr, Brycheiniog, a'r un a Mab claf ab Llywarch. Y mae cywydd o'i waith yn y *Myf. Arch.*

**MACHEN**, plwyf yn nosbarth Casnewydd a swyddi Mynwy a Morganwg; ar yr afon Rumni, ac ar reilffordd Rumni a Chasnewydd, 6 milldir i'r Gorllewin o Gasnewydd. Medda orsaf ar y rheilffordd, a llythyrdy dan Casnewydd, Mynwy; a chynnwysa gordrefi Machen Isaf, a Machen Uchaf yn Mynwy, a chordref Rhydywern yn Morganwg. Erwau rhan Mynwy, 4460. Gwerth ardrethol Machen Isaf, 9491*p.*; o'r hyn y mae 6000*p.* mewn mwnau. Poblogaeth, 1122. Tai, 210. Gwerth ardrethol Machen Uchaf, 8706*p.*; o'r hyn y mae 5867*p.* mewn rheilffyrdd, a 19*p.* mewn chwareli. Poblogaeth, 1458. Tai, 309. Erwau Rhydgwern, 707. Gwerth ardrethol, gyda Rudry Van, 3236*p.*; o'r hyn y mae 846*p.* mewn mwnau. Poblogaeth, 284. Tai, 62. Poblogaeth yr holl blwyf, 2864. Plas Machen yw y brif breswylfod. Mae y tir yn fryniog; ac mae cyflawnder o fwnau plwm, a *calamine*, yn y ddaear. Mae gweithfeydd tin mawrion, a thawdd-dy, yn Machen Uchaf. Y fywioliaeth sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 351*p.* Noddwr, Arglwydd Tredegar. Mae yr eglwys blwyfol mewn cyflwr da; ac y mae yma gapeli gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Wesleyaid, ysgolion cyhoeddus da, ac 16*p.* o elusenau.

**MACHES**, santes yn y 6ed ganrif, merch Gwynlliw Filwr, a ferthyrwyd yn Llanfaches, Mynwy, gan un o'r Sacsoniaid barbaraidd.

**MACHNO (Y)**, afonig yn nghongl dde-ddwyreiniol swydd Gaerynarfon. Cyfyd ar gyffiniau Meirion, a chan redeg tuag wyth milldir i'r gogledd-ddwyrain, a rhoi enw i bentref a phlwyf Pen machno, disgyna i'r Gynwy, ychydig uwchlaw y rhaiadr.

**MACHNO**, HUW, bardd awenyddol, o Benmachno, swydd Gaerynarfon, a fu mewn ymrysonfa farddonol ag Edmwnt Prys. Claddwyd ef yn mynwent Penmachno, lle mae careg ag arni yr argraff ganlynol ar ei fedd,—"H. M. obiit 1637." Ei enw priodol oedd Hugh Owain.

**MACHRAITH**, sant yn y 7fed ganrif, a sylfaenodd Lanfachraith yn Mon; lle y coffheid ef, Ionawr I.

**MACHUTUS**, yr hwn hefyd a elwir *Malo,* a *Maclovius*, ydoedd sant tra enwog yn nghyfrif Eglwys Rhufain, yn y 6ed ganrif. Dywed Cressy, mai enw ei dad oedd Gwent, (*Hano*, yn ol y *Gallican Martyrology*) sylfaenydd y ddinas a alwai haneswyr *Guicensis;* a'i fam oedd Derwela, neu Darwalla, yr hon, yn ei thriugeinfed flwydd, a'i hymddug, ar noswyl y Pasg, yn nyffryn Llancarfan, Morganwg. Bedyddiwyd ef yn ei fabandod gan St. Brendan, abbad mynachdy Llancarfan; yr hwn hefyd a'i haddysgodd yn mhob rhinwedd a duwioldeb. Dywed Camden, bod traddodiad yn sicrhau iddo gael ei wneyd yn esgob, mewn dinas yn nhalaeth yr Iceni, a elwir yn awr swydd Huntingdon. Ond tybia Cressy, bod y cyfryw draddodiad wedi ei sylfaenu ar ryw gamsynied, a dywed ef, iddo yn adeg tymestl gwrthryfel Modred (Medrawd) yn erbyn Arthur, a'r rhyfeloedd gwaedlyd a ddilynodd, adael y deyrnas hon, a myned i Brydain Fechan, noddfa gyffredin duwiolion yr oes hono, lle yr ymneillduodd efe i ryw ynys gyfagos, fel y gallai foddhau ei dueddiadau crefyddol mewn bywyd meudwyol. Ond pan wybu pobl yr ynys gymydogaethol, sef Prydain Fechan, am dano, ac am

Digitized by Google

sancteiddrwydd ei fywyd, a'i alluoedd gwyrthiol, (oblegyd ni bu er dyddiau yr apostolion neb i'w gymharu ag ef mewn gweithredoedd nerthol), hwy a ddaethant yno, ac a'i gorfodasant i ymwadu a'i feudwyaeth, a dyfod yn esgob arnynt hwy, yn Ninas Aleth. Felly y bu; ac efe a fu yno yn llafurio yn eu plith am ryw yspaid; yn dysgleirio mewn sancteiddrwydd, a gwybodaeth Gristionogol, gan gadarnhau ei genadwri, trwy dawelu ystormydd â'i air, rhoddi llygaid i ddeillion, bywyd i feirwon, bwrw allan gythreuliaid, a diffodd gwenwyn seirph.

Ond o'r diwedd, cododd y diafol erlidigaeth greulawn yn ei erbyn, a bwriwyd ef allan o'r gadair esgobaethol, yn nghyd a'r saith cydymaith duwiol ag oedd yn glynu wrtho, er efelychu ei fywyd sanctaidd. Yna efe a gymerodd ei saith cydymaith duwiol gydag ef, ac a ffodd i Aquitania (un o bedwar rhaniad Gâl gan y Rhufeiniaid); ac yn ninas Xaintes (Santona yn bresenol), efe a noddwyd yn frawdol gan St. Leontius, archesgob Burdigala, (Bordeaux), yr hwn a'i gwnaeth ef yn gydymaith iddo ei hun, gan fawrygu ei ddoethineb, a'i sancteiddrwydd. Wedi bod yno am gyfnod, a chael prawf bod ei bobl ei hun, trwy offerynoliaeth ei weddiau ef wedi eu dychwelyd i edifeirwch am eu camymddygiad tuag ato, efe a fu farw yn Xaintes, yn hen, a llawn o ddyddiau, a chladdwyd ef gan St. Leontius yn Aquitania.

Yn Merthyroliaeth Eglwys Rhufain, gosodir ei farwolaeth yn 554.—*The Church-History of Brittany*, b. xi. ch. 39. Dywed yr *Em. Welsh.* mai mab i Caradawg ab Ynyr Gwent ydoedd.

**MACHWY**, neu BACHWY (Y), afonig yn swydd FAESYFED; yr hon sydd yn cyfodi ychydig i'r gogledd o Lanbedr; ac wedi amgylchynu tu a'r dwyrain, y mae yn cyfeirio i'r gorllewin dde orllewin, heibio i gastell Payne, a Llanbedr, trwy wlad a fforddia amrywiaeth o olygfeydd tra phrydferth, gan arllwys i'r Wy, yn agos i Erward, 7 milldir islaw tref Buallt. Y mae ei hyd oddeutu 10 milldir.

**MACHYNLLAITH**, bwrdeisdref, trefgordd, plwyf, adran, dosbarth, a chantref, yn swydd DREFALDWYN. Saif y dref mewn dyffryn prydferth, yn agos i gydgyfarfyddiad yr afonydd Dyfi, a Dulas, o dan Aran-y-Gesail, ac ar y rheilffordd o Drefnewydd i Aberystwyth. Y mae o adeiladaeth mwy unffurf na llawer o drefi Cymru, ei hystrydoedd yn llydain, ac uniawn, a'r tai gan mwyaf o ymddangosiad parchus; ond er hyny, y mae yn gwisgo agwedd drymaidd, a difywyd. Er ei bod yn ganol-bwynt gweithfeydd gwlan y rhan orllewinol o'r wlad, nid yw yn hyn wedi cyd gerdded a threfi y parth dwyreiniol. Tybir mai llygriad yw ei henw o *Man-cyn-llaith*, gan ddynodi ei safle wrth gaine-for y Dyfi. Y mae ei dechreuad wedi ei golli yn nhywyllwch henafiaeth. Tybir iddi fod gynt yn orsaf Rufeinig, ac mai hi oedd *Maglona*, lle yr oedd un o'r llengoedd yn gwersyllu, er cadw y mynyddwyr o dan law.

Y mae rhyw arwyddion o amddiffynfa i'w gweled ar fryn creigiog ger llaw y dref, ac mae gweddillion Rhufeinig wedi eu cael amryw weithiau yn Mhennal, tua phedair milldir oddiyma. Y mae yno le a elwir "Cefn y Gaer," lle mae olion caer gylchog i'w canfod ar ben bryn, muriau allanol yr hon sydd o geryg geirwon parhaol, wedi eu cloddio yn Tal-y-Gareg, y tu hwnt i'r afon, a thua 7 milldir o bellder; ac y mae sarn, 12 llath o led, wedi ei gweithio o geryg, yn rhedeg o'r gaer, trwy y ddôl gorsiog, at fin yr afon, a sylfeini tai wedi eu darganfod yr ochr draw iddi.

O ymadawiad y Rhufeiniaid, hyd amser Harri IV., nid oes braidd ddim amgylchiadau o bwys hanesyddol wedi cymeryd lle yn Machynllaith. Yn 1402, pan oedd Owain Glyndwr wedi ei ddyrchafu trwy amryw fuddugoliaethau ar y Saeson, efe a wŷsiodd holl bendefigion a phenaethiaid Cymru i'w gyfarfod yn Machynllaith; ac yma, yn Heol-maengwyn, mewn adeilad a ddefnyddir yn awr i ddybenion is-raddol, ond a elwir hyd heddyw "Senedd-dy Owain Glyndwr," cydnabyddwyd Owain yn Dywysog Cymru, a gosodwyd coron—y goron olaf a fedrodd Cymru fforddio i'r un o'i harwyr—yn ffurfiol ar ei ben. Bu agos i Owain golli ei fywyd ar ddydd ei goroniad, trwy fradwriaeth Dafydd Gam, penaeth llygad-cam o Frycheiniog, yr hwn a ddaethai yno o bwrpas ar fedr ei frad-lofruddio; ond yn ffodus, darganfyddwyd y frad, a charcharwyd y Cam am ddeng mlynedd er gwaethaf ymyriad y brenin, trwy deg, a thrwy hagr. Cafodd Charles I. letty noson yma mewn ty a elwir "y Garrison," pan unwaith ar ei daith i Gaer; a dywedir bod yr ystafell, a'r gwely yn yr hwn y cysgodd, yn cael eu cadw eto yn Esgair Llyferen, yn Meirion.

Gwnaed y dref yn fwrdeisdref yn amser Harri VIII., ac una gyda Llanidloes, Llanfyllin, Trefaldwyn, y Drefnewydd, a'r Trallwm, i anfon aelod i'r senedd. Adeiladwyd y Neuadd-dref gan Syr W. W. Wynn, taid y Barwn presenol o Wynnstay, yn 1783. Cynhelir y llysoedd chwarterol yma, a'r etholiadau; medda lythyrdy, ariandy, gwestdai, gorsaf rheilffordd, pedwar capel, ysgolion cenedlaethol, elusendai, a 65*p.* o elusenau. Cynhelir marchnad ddydd Mercher; ffeiriau ar y Mercher cyntaf o Mawrth, 16eg o Mai, 26ain o Mehefin, 9fed o Gorphenaf, 7fed o Awst, 18fed o Medi, 21ain o Hydref, 26ain o Dachwedd, a'r Mercher cyntaf cyn y Nadolig; dygir yn mlaen fasnach mewn gwlan, gwlaneni, crwyn, ac ŷd; y mae yn yr ardal weithfeydd llechi, a phlwm, a dygir yn mlaen gryn allforiaeth o'r nwyddau a gynnyrcha yr ardal, yn y Dderwen las ar y Ddyfi, 2 filldir o dan y dref.

Cynwysa y fwrdeisdref yr holl drefgordd, a rhan fechan o drefgordd Is y gareg.—Cynwysa y plwyf drefgorddau Machynllaith, Is y gareg, ac Uwch y gareg. Erwau, 14,861. Gwerth ardrethol, 7943*p.* Pob. 2877. Tai, 626. Y fywioliaeth sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 230*p.* Noddwr, esgob Bangor.—Cynwysa yr adran hefyd, blwyf Penegoes, a threfgordd Ysgubor y Coed; a chynwysa y dosbarth, neu yr undeb er cynal y tlodion, hefyd adran Darowen, yn cynwys plwyfi Darowen, Cemmes, a Llanbrynmair; ac adran Pennal, yn cynwys plwyfi Llanwrin, Pennal, a Thowyn. Erwau, 116,647. Tai, 2854. Pob. 13,317. Priodasau, yn 1861–70, 980. Genedigaethau, 4152. Marwolaethau, 2792. Cynydd y boblogaeth, 922. (Gwel boblogaeth y plwyfi o dan eu henwau.) Mae y gantref yn cynwys chwech plwyf.

Yn Nôl Guog, ger y dref hon, y bu Llywarch Hen yn llechu am ryw yspaid, ar ol dianc o hono o oddaith Pengwern. Bu Hywel Swrdwal, y bardd, yn weinidog plwyfol yma, tua chanol y 15fed ganrif; ac hefyd Ieuan Llawdden, o Ddyffryn Llwchwr, tua chanol y 15fed. Brodor o'r dref hon oedd Dr. Davies, llywydd yr ysgol ramadegol yn Macclesfield.

**MACHYNYS**, neu BACHYNYS; ynysig yn agos i arfordir de ddwyreiniol swydd GAERFYRDDIN; yn safn yr afon Llwchwr, 3½ milldir i'r dwyrain o

Digitized by Google

Lanelli. Sylfaenwyd mynachdy arni yn y flwyddyn 513, gan Sant Piro; ac o herwydd hyny ei galwyd Mynach-ynys, oddiwrth yr hyn y mae ei henw presenol yn deillio.

**MACSEN WLEDIG**, sef *Clemens Maximus* yr ysgrifenwyr Rhufeinaidd, yr hwn, tua chanol y 4edd ganrif, oedd yn benaeth ar lengoedd Rhufain yn Mrydain, ac ar ddyrchafiad Theodosius i fod yn gyd ymerawdwr â'r ddau frawd ieuanc, Gratianus, a Valentinianus, a wrthryfelodd; a chan arwain ei fyddin drosodd i'r cyfandir, efe a orchfygodd Gratian, ac a'i lladdodd, a chyhoeddodd ei fab ei hun, Victor, yn Caisar. Pa fodd bynag, arfogodd Theodosius yn fuan yn ei erbyn, ac wedi gorchfygu ei fyddin, lladdodd ef, a'i fab, yn y flwyddyn 388.

Y mae ymryson yn mhlith yr hen haneswyr o barth haniad a chenedl y gwrthryfelwr uchel-geisiol hwn. Dywed Zosimus (b. iv. p. 35) mai Yspaeniad ydoedd; tra yr awgryma Gildas (§ 13) yn lled gryf, mai Brytaniad ydoedd. Fel y gellid dysgwyl, mae y *Brutiau* Cymreig yn gwneyd helynt mawr o hono, gan roddi iddo restr hir o achau Cymreig, gwelygordd o Seintiau, a llawer o wrhydri milwraidd, a gweithredoedd gwladgarol. Mab ydoedd i Llywelyn, brawd Trahaearn, ac ewythr i Cystenyn Fawr. Efe a briododd Elen ferch Eudaf ab Bran ab Llyr, Iarll Ergyng, ac Ewas, brenin Prydain. Yn mhen pum mlynedd ar ol priodi, cawn ef yn myned gyda Cynan Meiriadog, cefnder ei wraig, â llu mawr o'r Brytaniaid, drosodd i Lydaw, gorchfygu y wlad hono, a'i rhoi yn anrheg i Cynan; yna yn anfon i Brydain am 10,000 o ferched ieuainc i boblogi y wlad, a 30,000 o filwyr i'w hamddiffyn; ac felly y gwnaed Llydaw yn "Brydain arall." Yn ol y Trioedd, efe a adeiladodd Gaersallawg, (*Caerynarfon*), Caeralun, (*Hwlffordd*), a Chaerfyrddin; ac a wnaeth Lundain yn dref archesgobol. Bu iddo dri mab, sef Peblig, Cystenyn, ac Owain; a chyfrifir y tri yn Saint.

**MADOCS**, William Alexander, sylfaenydd Tremadog, yn Arfon, ac un o ddadleuwyr enwocaf ei oes yn y Gangell-lys, ydoedd drydydd mab i John Madocs o'r Fron Yw, yn Nyffryn Clwyd. Ganwyd ef yn 1774. Addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y cymerodd y radd o M.A. yn 1799, a gwnaed ef yn gymrawd o goleg *All Souls*. Ymgymerodd yn fuan a gwleidyddiaeth; ac yn 1802, etholwyd ef yn aelod seneddol dros fwrdeisdref Boston, swydd Lincoln, a pharhaodd i gynnrychioli y lle hwnw hyd 1820, pan etholwyd ef dros Chippenham, swydd Wilt, yr hon a wasanaethodd hyd ddiwedd ei oes, yn 1828. Yr oedd yn dra enwog fel un o Whigiaid mwyaf gweithgar ei oes; ond ei brif enwogrwydd, yw iddo fod yn llwyddianus i adenill rhan o hen Gantref y Gwaelod, a elwid y Traeth Mawr, a'r Traeth Bychan, rhwng Arfon a Meirion, oddiar y mor; lle yn awr y saif y ddau le bywiog, Porthmadog, a Thremadog. Gwel o dan yr enwau uchod.

**MADOG** ab Brwyn, penaeth yn y 6ed ganrif. *Myf. Arch.* ii. 15, 16, 69.

**MADOG** ab Gildas y Coed Aur, sant yn y 6ed ganrif, aelod o gor Cenydd, yn Ngwyr, a sylfaenydd Llanfadog, yn nghantref Abertawe.

**MADOG** ab Gronw Gethin, bardd a flodeuai o 1390 i 1430.

**MADOG** ab Gryffydd Maelor, o Angharad, ferch Owain Gwynedd, a olynodd ei dad i dywysogaeth Powys, yn 1190. Cymerodd ei ran yn y rhyfeloedd rhwng Llywelyn Fawr a'r brenin John, weithiau gyda'r brenin, a phryd arall gyda'r tywysog. Efe a sefydlodd fynachdy Llanegwest, yn 1199; ac yn 1236, claddwyd ef yn ei fynachlog ei hun. Mae ei farwnad gan Einion Wan, yn y *Myf. Arch.*

**MADOG** ab Gwallter, mynach, a bardd, oedd yn ei flodau o 1250 i 1280.

**MADOG** ab Gwynan, a grybwyllir yn Llyfr Llandaf, ei fod wedi prynu *uncia* (tua 108 o erwau) o dir, yr hwn a elwir Turion, gan Ffernwael ab Ithel, am hebog, gwerth deuddeg muwch, am ddau geffyl, gwerth chwe muwch, am gorn, gwerth chwe owns o arian, am *scrupulum*, gwerth deuddeg muwch, ac am linyn coch; a chyflwyno y tir hwnw, trwy ganiatad y brenin, a'i feibion, Meurig a Gwrgan, i esgobion Llandaf, dros iachawdwriaeth ei enaid.

**MADOG** ab Hywel, bardd a flodeuai o 1370 i 1400.

**MADOG** ab Idwal, bardd, meddir, o'r 10fed ganrif.

**MADOG** ab Iddon, brenin Gwent, tua diwedd y 6ed ganrif, a laddwyd yn ei feddwdod, gan ei frawd Thomas.

**MADOG** ab Lloegrin, pedwerydd brenin Prydain. *Myf. Arch.* ii. 120.

**MADOG** ab Llywelyn, ordderchfab y Llyw Olaf, yn mhen deng mlynedd ar ol llofruddiad ei dad, a gododd wrthryfel nerthol yn Ngwynedd; eithr ar ol llwyddo i orchfygu y Saeson mewn amryw frwydrau, gorchfygwyd yntau o'r diwedd, ar Gefn Digoll, swydd Drefaldwyn, yn 1295; a chymerwyd ef yn garcharor i'r Twr Gwyn, lle y terfynodd ei oes.

**MADOG** ab Meredydd ab Bleddyn, o Hunydd, ferch Ednyfed, pen un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ac arglwydd Dyffryn Clwyd, ac Allington, a olynodd ei dad i ran o dywysogaeth Powys, yn 1129, yr hon oddiwrth ei enw ef, a alwyd yn Bowys Fadog, tra y gelwid y rhan arall, yn Bowys Wenwynwyn. Ei wraig oedd Susana, merch Gryffydd ab Cynan, o'r hon y cafodd dri mab, sef Gryffydd Maelor, Owain, ac Elise; ac un ferch, sef Marred, Gwraig Iorwerth Drwyndwn.

Bu iddo hefyd dri mab arall, sef Owain Brogyntyn, Cynfrig Efell, ac Einion Efell. Fel y rhan fwyaf o dywysogion Powys, yr oedd yn anffyddlawn i'w wlad a'i genedl, cymerodd ran bwysig gyda Harri II. yn erbyn Gwynedd; ond er hyny, rhoddir gair da iddo gan y beirdd, fel y prawf gweithiau Cynddelw, a Gwalchmai, a welir yn y *Myf. Arch.* Efe a adeiladodd gestyll Croesoswallt, Caereinion, ac Overton. Bu farw yn Nghaerwynt, yn 1159, a chladdwyd ef yn eglwys St. Mair, yn Meifod, swydd Drefaldwyn.

**MADOG** ab Owain Finddu, ab Macsen Wledig, sant yn y 5ed ganrif.

**MADOG** ab Owain Gwynedd, yr hwn yn ol y traddodiad, a ddarganfyddodd yr Amerig, ydoedd, yn ol Powel, ordderchfab i'r tywysog hwnw. Y mae cymaint wedi cael ei ysgrifenu dros, ac yn erbyn hawl Madog i'r anrhydedd o fod yr Ewropiad cyntaf a ddarganfyddodd gyfandir America, fel na wnawn ni yn bresenol, ragor na nodi y ffaith, mai nid chwedl a ddyfeisiwyd yn ganlynol i waith Columbus yn hwylio i America, yn 1492, ydyw yr hyn a ddywedir am ymadawiad Madog; oblegyd y mae gweithiau beirdd y ddeuddegfed ganrif, yn dystiolaeth ddiamheuol bod Madog wedi ei golli o Gymru, iddo fyned ar hyd y mor i chwilio am gartref, a bod ei dynged yn gwbl anhysbys i'w gydwladwyr. Ymddengys oddi-

Digitized by Google

wrth "Awdyl yr Haearn Twymyn" a gant Llywarch ab Llywelyn, "Prydydd y Moch," bod diflaniad Madog yn bwnc mor dywyll yn y dywysogaeth, fel y credid mai ei frad-lofruddio a gafodd; a rhywfodd na'u gilydd, syrthiodd y ddrwg dybiaeth ar Brydydd y Moch, yr hwn er profi ei ddieuogrwydd, a orfodwyd, neu a fwriedid orfodi, i fyned trwy brawf ofergoelus yr "haiarn twymyn." Yn y rhagolwg ar hyny, cyfansoddodd y bardd y gân grybwylledig, yn yr hon yr appelia at "Greawdyr nef" "bedyr," "tomas, phylip a phawl, ac Andras" er profi ei ddiniweidrwydd; a therfyna trwy weddio fel hyn:—

"Da haearn diheura pan llas
Lleith madawc nad om llaw y cauas
Noc y ceif cain ac glas
Ran o nef ac naw ternas
A minheu mynnaf gyweithas
Bot Duw ym a dianc oe gas."—
*Myf. Arch.* tud. 205.

Pa un bynag a orfodwyd y bardd i fyned trwy y prawf barbaraidd, a'i peidio, efe a fu byw i ganu am lawer o flyneddoedd ar ol hyn; ac yn ei "Awdyl i Llywelyn ab Iorwerth," (*Myf. Arch.* tud. 213) cyfeiria at "ermidet" (ymgiliad) Madog, yr hyn a brawf nad oedd unrhyw oleuni wedi ei gael ar ei dynged hyd deyrnasiad Llywelyn Fawr. Ond yn ei "Arwyrein i Rodri Vab Ywein," crybwylla yr un bardd, am ddau o frodyr Rhodri, y rhai fel y tybir, oeddynt Hywel, ac Owain, a dywed yn bendant i'r olaf, yr hwn a ddynododd efe â'r ansoddair "mynawc" (mwynaidd), fyned mewn blinder ar "fynwes mawr vor" i geisio "adnes" (meddiant) a allai gadw yn ei hawl rhag pob "esgar" (gelyn). Dyma y llinellau:—

"Deu deyrn derrwyn didorres yn llid
Llu daear ae hoffes
Yn ar dir ar doruoet ry dres
Yn aruou yn arwar trachwres
Ac arall mynawc y mynwes mawrvor
Y mawr uar agkymhes
Yn esguraw hawl hawt adnes
Yn esgar y bawb am beues."—
*Myf. Arch.* tud. 202.

Nid oes lun o amheuaeth nad yw yr uchod yn dysgu, mor ddiamwys ag y dichon i iaith wneyd, bod Madog "leith" (dyner) wedi diflanu o Wynedd, ac i'r un gwr "mynawc" (mwynaidd) fyned allan i'r mor i chwilio am gartref. Ond y mae Cynddelw Brydydd Mawr, yn "Marwnad Teulu Owain Gwynedd" yn crybwyll am Madog, fel wedi cael ei ladd gan y mor:—

"Eny llas madawc mur dygyuorth uar
Meu auar car Kynnorth."—
*Myf. Arch.* tud. 164.

Ymddengys mai barn ei gydoeswyr am dano, oedd ei fod, wrth chwilio am "feddiant a allai gadw yn ei hawl," wedi syrthio yn aberth i gynddaredd y tonau. Pa fodd bynag, yr oedd coffadwriaeth am ei hynt, yn parhau yn Nghymru; canys mewn "Cywydd i ddiolch am Rwyd Bysgota" o waith Meredydd ab Rhys, offeiriad Rhiwabon, ac athraw barddonol Dafydd ab Edmwnd, a flodeuai o 1430 i 1460, cawn y llinellau canlynol:—

"Madog wych mwyedig wedd,
Iawn genau Owain Gwynedd,
Ni fynai dir, f'enaid oedd!
Na da mawr ond y moroedd."

Yr unig werth hanesyddol sydd yn y pedair llinell uchod, o'r rhai y gwneir cymaint o ddefnydd gan y blaid sydd yn hawlio i Madog yr anrhydedd o ddarganfod America, yw prawf bod y traddodiad am fynediad Madog i'r mor, yn fyw yn Nghymru cyn bod son am America; ond pan ddychwelodd Columbus yn 1493, gan hysbysu ei fod wedi cael allan "fyd newydd," galwyd y traddodiad uchod i gof yn ddioed, a thrwy gymorth crebwyll, mwy bywiog na gonest, gwnaed i fyny chwedl hynod gywrain a chyflawn, er gosod allan hawl Cymru i'r "byd newydd," yn wrth-gyferbyniol i eiddo Yspaen. Ymddengys mai tad y chwedl hon, yw Guttyn Owain, oddiar yr hwn y cymerwyd hi gan Hwmphrey Llwyd, a Dr. Powel, a'r byd Seisnig oddiarnynt hwythau. Y mae rhai ysgrifenwyr diweddar, yn eu hawydd i wrthladd y chwedl, yn haeru i Madog gael ei ladd yn ei wlad ei hun, yn y flwyddyn 1170; ond nid oes un prawf o hyny; eithr i'r gwrthwyneb, fel y gwelsom yn y dyfyniadau uchod o waith y beirdd—y profion hanesyddol goreu—mae yn ddilys bod Madog wedi myned i ddifancoll ar y mor; a phe gellid profi i foddlonrwydd bod degwm o'r hyn a gyhoeddwyd am olion Cymreig yn mhlith Indiaid yr Amerig yn wirionedd, buasai ei hawl i ddarganfyddiad America wedi ei sicrhau.

**MADOG** ab Rhiryd, wyr Bleddyn ab Cynfyn, a gynullodd fintai o herwyr, yn 1109, ac a laddodd ei ewythr, Iorwerth ab Bleddyn, yn Nghaereinion; ac yn fuan wedi hyny, ymosododd ar ewythr arall iddo, Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Powys, ac a'i lladdodd yntau. Yna Meredydd ab Bleddyn, yn 1110, gan benderfynu ei gosbi am ladd ei frodyr, a arfogodd yn ei erbyn; ac wedi llwyddo i'w gymeryd yn garcharor, a'i hanfonodd yn rhwym at ei nai, Owain ab Cadwgan ab Bleddyn, er i'r tywysog hwnw benderfynu ei ddedfryd am ladd ei dad a'i ewythr; ond gan y dygwyddai bod Owain a Madog mewn cyfamod o gyfeillgarwch a'u gilydd, ymfoddlonodd Owain ar yn unig dynu ymaith ei lygaid ef.

**MADOG** ab Rhun, penaeth a wasanaethai o dan Brochwel Ysgythrog, yn mrwydr Bangor Is Coed, yn 607.

**MADOG** ab Selyf, bardd a flodeuai o 1270 i 1300.

**MADOG** ab Uthr, un o "Dri marchogion aurdafodogion llys Arthur."—*Myf. Arch.* xi. 17, 47.

**MADOG BENFRAS**, o Farchwiail yn Maelor, ydoedd fardd enwog, yn ei flodau o 1320 i 1350. Yr oedd iddo hefyd ddau frawd, Ednyfed, a Llywelyn, yn feirdd clodfawr. Eu tad oedd Gryffydd ab Iorwerth ab Einion Goch, o Sonlli neu Swnlli, a elwid felly, oddiwrth furmur afonig yn ei llifiad ar hyd nant droellog islaw y ty yn Maelor; a'u Hathraw barddonol oedd Llywelyn ab Gwilym Fychan, o'r Cryngae, a'r Ddol Goch, yn Emlyn; ewythr, ac athraw Dafydd ab Gwilym. Dan ddylanwad y gwyr hyn, torodd adfywiad llenyddol annghyffredin allan yn y dywysogaeth; cynaliwyd Eisteddfod heb un dyddiad wrthi, yn neuadd Ieuan ab Lleision, yn Llanfihangel Afan, plwyf Baglan, Morganwg, lle yr oedd Dafydd ab Gwilym yn gyff clêr, pan y canodd Rhys Meigen duchangerdd genfigenus iddo, yn groes i'r rheol, yr hyn a barodd i Dafydd ganu mor chwerw iddo yntau, yn yr Eistedd-

Digitized by Google

fod ganlynol, a gynaliwyd yn neuadd Llywelyn ab Gwilym, yn Emlyn, fel y syrthiodd Rhys yn farw gelain ar lawr y neuadd wrth ei wrando! Nid oes wybod a oedd y brodyr o Marchwiail yn bresenol yn yr Eisteddfodau hyny; ond yr oeddynt yn cymeryd rhan neillduol yn y "tair Eisteddfod Dadeni," fel eu gelwir, a gynaliwyd tua'r pryd hwnw. Y gyntaf a gynaliwyd yn Ngwernyclepa, dan nawdd Ifor Hael, yn yr hon yr oedd Llywelyn ab Gwilym yn athraw, a Dafydd ab Gwilym, a'r tri brodyr o Marchwiail, yn ddysgyblion iddo. Yr ail a gynaliwyd yn y Ddôl Gôch yn Emlyn, dan nawdd Llywelyn ab Gwilym. Gwedi hyn, y tri brodyr o Marchwiail, a ddodasant, dan osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, Eisteddfod fawr yn Maelor, yn Mhowys, dan nawdd Iarll Mortimer, dan goron y Brenin Iorwerth III.; ac yno cafodd Ednyfed ab Gryffydd gadair, am Gywydd Gwr, ac am Englynion Byraf Eiry Mynydd; a Madog Benfras a gafodd gadair, a Chae Bedw, am Riangerdd; a chanodd Dafydd ab Gwilym iddo am ei gerdd. Nid oes braidd ddim o waith Madog Benfras wedi dyfod i'r golwg, ond dywedir bod peth o hono ar gael mewn ysgrifau.

**MADOG DDWYGRAIG**, bardd yn ei flodau o 1300 i 1370. Mae deg o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.*

**MADOG MIN**, esgob Bangor, a bradwr Llywelyn ab Sitsyllt, a Gruffydd, ei fab, ydoedd fab i Cawryd ab Ednywain Bendew, tywysog Tegeingl.

**MADOG MORFRYN**, sant yn y 5ed ganrif, a elwir yn un o'r "tri gwynfebydd."—*Myf. Arch.* xi. 71.

**MADRYN**, santes yn y 5ed ganrif, ydoedd ferch Gwrthefyr Fendigaid, a gwraig Ynyr Gwent. Mewn cyssylltiad a'i llawforwyn Anhun, hi a sylfaenodd eglwys Trawsfynydd yn Meirion.

**MAEDDWYS**, un o wroniaid llys Arthur.

**MAEL**, yn ol *Brut.* Gr. ab Arthur, ydoedd fab Madog, brenin, Prydain. Ar ol marwolaeth eu tad, cyd deyrnasai ef a'i frawd Membyr, hyd oni fradlofruddiwyd ef ganddo.

**MAEL**, sant yn y 6ed ganrif, un o'r rhai a ddaeth gyda Chadfan o Lydaw. Yn gyfranog a Sulien, efe a sylfaenodd eglwysi Corwen, yn Meirion, a'r Cwm, yn swydd Fflint. Coffheid ef Mai 13.

**MAEL** ab Menwaed, o Arllechwedd yn Arfon, ydoedd un o Dri chadfarchogion Ynys Prydain. (*Myf. Arch.* ii. 62.)

**MAELDAF** ab Dylan Draws, penaeth, meddir, o'r 6ed ganrif.

**MAELDERW**, rhyfelwr o'r 6ed ganrif, a grybwyllir gan Aneurin a Thaliesin.

**MAELDDA HYNAF** ab Ynhwch, penaeth, meddir, o'r 6ed ganrif.

**MAELGWN FYCHAN** ab Maelgwn ab Rhys, sef wyr yr Arglwydd Rhys ab Gryffydd, a flaenorodd y gwrthryfel a dorodd allan yn y Deheubarth yn erbyn y gorthrwm trethol, o'r bymthegfed ran o'r holl dda symudol, a osododd Iorwerth I. ar Loegr a Chymru, yn 1294, er dwyn yn mlaen ryfel a Ffrainc. Ymddengys bod dealldwriaeth yn bodoli ar y pryd, rhwng gwahanol barthau Cymru a'u gilydd; canys cawn wrthryfel yn tori allan mewn tri man a'r unwaith; blaenorid yr ymgodiad yn y Gogledd gan Madog, yr ymgodiad yn Morganwg gan Morgan, ar ymgodiad yn Nyfed gan Maelgwn Fychan. Wedi i Maelgwn ddiffeithio tiroedd y brenin yn Mhenfro, Caerfyrddin, a Cheredigion, gorthrechwyd ef gan luoedd y brenin; cymerwyd ef yn garcharor i Henffordd, lle, ar ol ei lusgo wrth gynffonau meirch i'r dihenyddle, y crogwyd, ac y darniwyd ef!

**MAELGWN GWYNEDD**, yn ol y *Brutiau* Cymreig, ydoedd fab i Caswallon Law hir; olynodd ei dad ar orsedd Gwynedd yn 517, ac ar farwolaeth ddisyfyd Gwrthefyr, yn 546, etholwyd ef yn frenin y Brytaniaid. Priodolir iddo lawer o wrhydri milwraidd, ac haefrydedd crefyddol; efe oedd y cyntaf o olynwyr Arthur, a ddygodd y chwe teyrnas ganlynol dan deyrnged i Brydain, sef Iwerddon, Ynys yr Ia, Ysgotland, Orcney, Norway, a Denmarc; efe hefyd a wnaeth Bangor Fawr yn Arfon, yn esgobaeth; ac adeiladodd hefyd gestyll Caer Digoll, Caer Collwyn, Caer Gyffin, a Chaer Deganwy. Bu farw o'r "fad felen," yn Eglwys-Rhos, yn 560; yr hyn a roddodd fod i'r hen air, "Hun Maelgwn Gwynedd yn Eglwys-Rhos;" claddwyd ef yn Ynys Seiriol; a gadawodd ar ei ol ddau fab, Rhun, ac Einion, ac un ferch o'r enw Eurgain. (*Myf. Arch.* ii. 359.)

Ymddengys yn dra sier mai yr un ydoedd Maelgwn Gwynedd, a *Maglocune* Gildas, *Mailcun* Nennius, a *Malgo* Gryffydd ab Arthur. Rhydd Gildas gymeriad ofnadwy iddo; ac oddiwrth un ymadrodd o eiddo Gildas, y mae y cyhuddiad a elwir "Sodomiaeth" wedi glynu, er yn anhaeddianol, feddyliwn, wrth goffadwriaeth Maelgwn hyd y dydd heddyw. Ystyr geiriau Gildas yw a ganlyn, "Maglocune, paham yr ydwyt (megys pe wedi ymfwydo yn ngwin grawnwin Sodom) yn ymrolio yn ynfyd yn mhwll du dy gamweddau?" Nid yw y geiriau sydd rhwng cromfachau, namyn cymmwysiad o un o ymadroddion Moses wrth Israel, at frenin Cymru;—"Canys o winwydden Sodom, ac o feusydd Gomorrah, y mae eu gwinwydden hwynt, eu grawnwin hwynt sydd rawnwin bustlaidd; grawnsypiau chwerwon sydd iddynt; gwenwyn dreigiau yw eu gwin hwynt, a chreulon wenwyn aspiaid."—Deut. xxxii. 32,33. Arferiad y Gildas uchod, yr hwn, fel y tybir, nid oedd namyn mynach Rhufeinaidd, perffaith elynol i'r Cymru, oedd pentyru adnodau, a ffugyrau o'r Bibl, er difrio ac enllibio y genedl Gymreig; ac ymddengys i ni yn dra thebygol, mai yr enw "*drai gyr ynys*," yr hwn a rydd efe ar *Maglocune* wrth ddechreu ei anerch, a awgrymodd i'w feddwl y ffugyr o "*win grawnwin Sodom.*" Ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn ddigon amlwg oddiwrth ei holl arddull, pe buasai efe yn meddwl cyhuddo Maelgwn o'r hyn a elwir "Sodomiaeth," y buasai yn gwneyd hyny heb ddim blew ar ei dafod. Nid yw Nennius yn dwyn unrhyw gyhuddiad yn ei erbyn; ond galwa ef "Y brenin mawr Mailcun, yr hwn oedd yn teyrnasu ar y Brytaniaid, yn rhandir Guenedota [Gwynedd]. Ond Gryffydd ab Arthur, a Giraldus Cambrensis, yn nghyd ag eraill o gyffelyb anianawd, wedi ymaflyd yn yr awgrymiad uchod o eiddo Gildas, a helaethant arno gyda melldith. Y "fad felen," o'r hon y dywedir farw o Maelgwyn, ydoedd fath o haint ddinystriol, a ddiboblodd y Creuddin, a'r hon a achlysurwyd, debygid, trwy i gyrph lladdedigion brwydr Morfa Rhianedd, gael eu gadael ar wyneb y maes heb eu claddu.

**MAEL MAELIENYDD**, mab Cunedda Wledig, a ymladdai gyda'i frodyr er gyru y Gwyddelod o Gymru; a chafodd am ei lafur, randir o swydd Faeshyfed, a alwyd ar ei enw ef, Maelienydd.—*Iolo MSS.* 522.

Digitized by Google

**MAELOG**, sant yn ei flodau yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Caw o Brydyn, arglwydd Cwm cowlyd. Wedi ei ddwyn i fyny i efrydiaeth gyssegredig, aeth i Lowes, yn nhiriogaeth Elfael, swydd Faeshyfed, lle yr adeiladodd fynachlog, yn yr hon y gwasanaethai Dduw yn ddidor. Ar ei enw ef y mae eglwysi Llanfaelog, yn Mon; Llandyfaelog, yn swydd Gaerfyrddin; a Llandyfaelog Fach, a Llandyfaelog Tref y Graig, yn swydd Gaerfyrddin. Coffheid ef Rhagfyr 31.

**MAELOG GRWM**, penaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ydoedd fab i Cwnws Ddu ab Cillyn Ynad, a disgynydd o Cunedda Wledig. Ei beisarfau oeddynt:—"*Argent, on a chevron sable, three angels or.*" Mae rhai o'i ddisgynyddion yn y dywysogaeth.

**MAELOR**, neu Maylor, un o bum cantref, ac un o bedwar Adbarth Rhaglawol swydd Fflint. Saif ar ei phen ei hun, 8 milldir i'r de-ddwyrain oddiwrth y swydd i'r hon y perthyna, ar bob tu i'r afon Ddyfrdwy, ac yn nghyssylltiad swyddi Dinbych, Caer, ac Amwythig. Gelwid hi gynt, y *Faelor Saesneg*, er ei gwahaniaethu oddiwrth y *Faelor Gymreig*, a safai ar ei chyfer o'r tu arall i'r afon, a'r hon yn awr a berthyn i gantref Bromfield, yn swydd Ddinbych. Tybir iddi dderbyn ei henw am ei bod yn yr hen amseroedd, oddiar ei safle ganolog ar y cyffiniau, wedi ei phenodi fel *maelfa*, neu farchnadfa, lle y cyflenwid y byddinoedd a'r wlad a lluniaeth. Yn yr adfesuriad Normanaidd, perthynai i gantref a elwid y pryd hwnw, *Dudestan;* ond dan y *Statutum Walliæ*, a ffurfiwyd yn y 12fed o Edward I., unwyd hi a swydd Fflint; ac yn amser Harri VIII., ychwanegwyd ati y gongl dde-ddwyreiniol o'r swydd, a ffurfiwyd o'r cyfan, gantref presenol Maelor. Ffinir hi ar y gogledd-orllewin gan y Dyfrdwy,—ar y gogledd gan swydd Gaer,—ac ar y dwyrain a'r de gan swydd Amwythig. Cynnwysa bedwar o blwyfi cyfain, a rhanau o wyth eraill; erwau, 38,279; poblogaeth, 9824; annedd-dai, 2104. Yma y saif Bangor Iscoed, Marchwiail, yn nghyda rhai lleoedd eraill o henafiaeth, ac enwogrwydd.

**MAELOR**, Syr Thomas, offeiriad dysgedig, yr hwn a gyfieithodd "Mort d'Arthur" i'r Saesneg, yn y 9fed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth IV.

**MAELRYS**, neu Maelys, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Gwyddno ab Emyr Llydaw, a sefydlydd Llanfaelrhys yn Arfon. Coffheid ef Ion. 1. Gelwir ef hefyd, Maelerw, Maelrhyd, a Maelyrys.

**MAEN ACHWYNFAN**, croes-golofn henafol yn y parth gogleddol o swydd Fflint; mewn maes goris Mynydd y Garreg; 4½ milldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon. Y mae ei wyneb wedi ei orchuddio â cherfiadau o'r cyfnod, rhwng y 9fed a'r 12fed ganrif. Barna rhai y byddai penyd deithiau yn cael eu terfynu yn fynych o flaen y cyfryw golofnau cyssegredig yn yr oesoedd tywyll, lle y dyrchafai y rhai a ddygent eu penyd eu llef mewn cwynfanau wylofus, ac mai hyny a fu yr achlysur i roddi y fath enw ar y maen hwn. Y mae y groesfaen hon o ffurf hardd: yn 12 troedfedd o uchder, 2 droedfedd a 4 modfedd o led yn y gwaelod, a 10 modfedd o drwch.

**MAENAN**, trefgordd, yn mhlwyf yr Eglwys Fach, swydd Gaer yn Arfon; gerllaw yr afon Gonwy, 3 milldir i'r gogledd o Lanrwst. Erwau, 2902. Gwerth ardrethol, 1845*p*. Poblogaeth, 373. Tai annedd, 80. Seiliwyd mynachlog yma i fyneich o urdd y Brodyr Gwynion, neu y Cistersiaid, gan y brenin Edward y Cyntaf, yn y flwyddyn 1283, yn lle mynachlog Conwy, lle y bwriadai adeiladu tref filwraidd; ac ar y dadgorfforiad, fe'i rhoddwyd i'r Wyniaid o'r Glynllifon. Symmudwyd nen ei heglwys i Lanrwst; ac nid oes nemawr o'r hen fonachlog yn aros erbyn hyn.

**MAEN ARTHUR**, enw poblogaidd amryw gromlechau yn Nghymru; un o ba rai sydd ar lechwedd gogleddol Cefn y bryn, 9 milldir i'r gorllewin o Abertawe. Careg grut anferth ydyw, yn 14 troedfedd o hyd, a chyfrifir bod ei phwysau dros ugain tunnell, yn gorwedd yn ymddangosiadol ar 9 o attegion; ond yn wirioneddol ar ddim ond pedair.

**MAEN CLOCHOG**, pentref, a phlwyf yn undeb Narberth, swydd Benfro, Deheudir Cymru. Y mae y pentref yn gorwedd ar atlif o'r afon Cleddau, goris mynydd Prescelly; 6 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o orsaf *Clarbeston Road;* a 9½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Narberth. Y mae y lle wedi cael ei enw oddiwrth gromlech oedd yn y lle, yr hon a ddinystriwyd gan rai o bobl y wlad, yn y gobaith o gael trysorau dani. Y mae yma lythyrfa, dan Hwlffordd, a chynhelir ffeiriau yma ar Mawrth 10; Mai 22; Awst 5; a Medi 16; yn nghyd a'r dydd Llun o flaen y 29 o Hydref. Cynnwysa y plwyf 2754 erw o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol, yn 904*p*. Poblogaeth, 396. Tai annedd, 96. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 70*p*. Noddwr, T. Bowen, Ysw.

**MAEN EFA**, trefgordd yn mhlwyf Dymeirchion, swydd Fflint; 3¼ milldir i'r de ddwyrain o Lanelwy. Poblogaeth, 160.

**MAENEGID**, y rhan ddwyreiniol o Ynys Fôn, ger glan y Fenai. Y Sacsoniaid a roddasant yr enw uchod ar y rhan grybwylledig o'r wlad; ond erbyn hyn, nid yw mewn arferiad. Efallai mai arwyddocad yr enw yw Maen y gâd; oddiwrth faen a gyfodasid er coffau rhyw frwydr:—Cawn y cofnodiad canlynol yn un o'r hen Groniclau,—"872, y bu waith Bangolau yn Môn, lle y gorfu Rhodri a'r Cymry ar y Paganiaid duon mewn brwydr galed; a gwedi hyny yr un flwyddyn, Gwaith *Manegid* yn Mon, lle difethwyd y Paganiaid duon." Yn agos i eglwys Llanddona, ar lan y môr, y mae olion hen amddiffynfa, yr hon a brïodolir gan draddodiad lleol i'r Daniaid; ac ar fynydd Crowgarth y mae, neu o leiaf yr oedd hen faen hir, a gyfodasid yn faen coffa mewn rhyw adeg foreuol. Ai tybed mai hwn, a roddes yr enw Maen y gad i'r parth dwyreiniol hwn o Ynys Fon.

**MAENHILAD**, plwyf, yn undeb Pont y pŵl, swydd Fynwy; ger camlas Aberhonddu, ac yn gyfagos i reilffordd y Fenni a Phont y pwl, 3 milldir i'r gogledd ddwyrain o Bont y pŵl. Medda Lythyrfa dan Bont y pŵl. Mesura, 1987 erwau o dir. Gwerth ardrethol, 1964*p*. Poblogaeth yn 1851, 297; yn 1861, 339; 1871, 360. Tai annedd, 66. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 160*p*. Noddwyr, Deon a Glwysgor Llandâf.

**MAEN LLIA**. Gwel Llia (Y).

**MAEN MORDDWYD**, i'r hwn y prïodolid rhyw rinwedd gwyrthiol yn yr oesoedd tywyll, gan y dywedid y dychwelai yn ol mewn rhyw ffordd ddyeithr, a goruwch naturiol, o ba le bynag ei cymerid iddo, yn nghorph y nos ganlynol. Dywedir fod Huw Fleiddyn, Iarll Caer, wedi penderfynu rhoddi prawf ar wirionedd y chwedl, trwy beri ei

Digitized by Google

gymeryd, a'i fwrw i'r môr; ond y boreu dranoeth, caed y maen yn ei le arferol. Fe'i gelwid "Maen morddwyd," am ei fod ar lun morddwyd gwr. Yn oedd y maen hwn gerllaw hen eglwys Llanidan, yn Môn; ac y mae yn ddiau bod Pabyddion yr oesoedd tywyll, yn gallu tynu digon o offrymau oddiar yr ofergoelus a'r anwybodus, er talu am ei gyrchu yn ol, o ba le bynag ei cymerid, dan leni tywyll y nos. Dywaid Pennant ei fod yn awr wedi ei adeiladu yn ddïogel, yn mur presenol yr adeilad.

**MAENOR**, *a Rake*, trefgordd yn mhlwyf Pen-ar-halawg, swydd FFLINT; yn agos i'r afon Dyfrdwy, 1 filldir i'r dwyrain o Ben-ar-halawg. Erwau, 918. Gwerth ardrethol, 1650*p*. Poblogaeth, 88. Tai annedd, 13.

**MAENOR BYR**, neu MANORBIER, pentref, a phlwyf, yn nghantref Castell Martin, swydd BENFRO. Y mae y pentref yn gorwedd ar lan y môr, yn agos i reilffordd Penfro a Thinbych; 5 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Benfro; ac y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a llythyrfa, dan Tinbych. Y mae y plwyf yn cynnwys treflanau *Jameston*, a *Newton;* a mesura yn erwau, 3493. Gwerth ardrethol, 5169*p*.; o ba rai, y mae 125*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1861, 715; yn 1871, 694. Tai annedd, 147. Ychydig ydyw nifer y Tir feddianwyr.

Y mae cryn amrywiaeth barn wedi bod yn nghylch geirdarddiad enw y plwyf hwn; Giraldus Cambrensis, yr hwn oedd frodor o'r plwyf hwn, a'i galwai *Maenor Pyrr;* yr hyn a ddëonglai efe yn "Llys Pyrrus," yr hwn, eb efe, a berchenogai ynys Caldey hefyd. Yn ol Syr Richard Colt Hoare, y mae yr enw yn arwyddoccau yn llythyrenol, "Llys yr arglwyddi," am fod arglwyddi Dyfed, y rhai hefyd a feddianent ynys Caldey, yn cyfaneddu yma. Ni chafwyd allan i sicrwydd, gan bwy yr adeiladwyd y castell yma ar y cyntaf: efallai mai William de Barri, un o'r arglwyddi Normanaidd a ddylynasant Arnulph Montgomery i Frydain, a'r hwn a brïododd wyres Rhŷs ab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth, a barodd ei adeiladu. Bu y castell a'r faenor yn meddiant y teulu hwnw, hyd y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Harri IV., pan eu dyroddwyd i John de Windsor; ond wedi dychwelyd o honynt i'r goron ar ol hyny, fe'u dyroddwyd am swm mawr o arian, trwy fraint-lythyrau, i Thomas ab Owain, o'r Trellwyn, o deulu yr hwn yr aethant trwy brïodas, i deulu Philips; a pherthynant yr awr i Arglwydd Milford. Y mae *Giraldus* yn ei sylwadau ar y lle hwn, yn dweyd fel y canlyn;—"Dyfed yw y rhandir brydferthaf, cystal a galluocaf yn Nghymru; Penfro, hyny yw, y cantref hwn, Castell Martin, yw y dalaeth decaf yn Nyfed; a'r lle a ddarluniais, (Maenorbeer) yw y rhan hyfrydaf o Benfro." Yn y castell yma y ganwyd Giraldus de Barri, a adwaenir yn well dan yr enw "Giraldus Cambrensis;" ac yma y bu yn trigo dros beth amser; yr hyn sydd yn peri fod yr hen adfeilion yn wrthddrych edmygedd arbenig Henafiaethwyr Cymreig. Y mae yr adfeilion yn gorwedd ar gyfodiad tir, oddiar for-gilfach fechan Maenorbier, ac yn gynnwysedig yn benaf o'r teyrnystafelloedd, ffenestri y rhai a wynebent i'r cyntedd ehang, y cwbl wedi ei amgylchynu â chaerau canllawiog uchel. Ar drwyn yr Hen gastell, ar y tu dwyreiniol i for-gilfach Maenorbier, gwelir olion hen wersyllfa filwraidd fechan, a ffurfiwyd fel y bernir gan y Daniaid, ar ryw achlysur. Ganwyd *Silvester Giraldus de Barri*, neu, fel ei gelwir amlaf, "Giraldus Cambrensis," tu a'r flwyddyn 1146, ac efe a gafodd ei ddwyn i fynu dan addysg ei ewythr, oedd y pryd hyny yn esgob yn Nhy Ddewi; a'r gwr hwnw a'i hanfonodd drachefn i Ffrainc, i orphen ei efrydiaeth. Ar ei ddychweliad i Frydain, efe a ymgymerodd âg urddau cyssegredig, ac a ymddyrchafodd yn gyflym i enwogrwydd yn yr eglwys: ac ar amryfal adegau, efe a fu yn gweini y swyddau o arnegesydd yn Nghymru, i Archesgob Caergaint, ac Archddiacon Ty Ddewi; ac ar ol hyny, etholwyd ef yn esgob y dalaeth hono; ond, gan fod y Brenin yn ofni dyrchafu i'r fath urddas, wr o'r fath dalent a dylanwad yn y Dywysogaeth; ac un oedd yn gâr mor agos i'r tywysogion brodorawl, gan fod ei fam yn wyres i Rhŷs ab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth; efe a omeddodd gadarnhau ei etholiad. Bu Giraldus yn dilyn Baldwin, Archesgob Caergaint, ar ei daith trwy Gymru, i bregethu Rhyfel y Groes; ac yr oedd efe yn aelod o raglawiaeth y deyrnas yn ystod absenoldeb y Brenin, Rhisiard y Cyntaf, yn y Tir Sanctaidd.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 125*p*.; ac yn noddaeth Coleg Crist, Caergrawnt. Yr eglwys, yr hon sydd hen adeilad, yn yr arddull Seis'nig foreuol, sydd wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Iago. Y mae yn adeilad ehang, ac iddi dwr petryal uchel, a chanllawiog: ac yn agos iddi, ar yr ystlys ddeheuol, y mae olion hen adeilad fawr, yr hon efallai, oedd yn gydiedig wrthi gynt; ond y mae ei hanes yn hollol anadnabyddus erbyn hyn: efallai mai cor-gapel, (*chantry*,) ydoedd; neu faenol, (*grange;*) neu, gallasai fod yn rhyw grefydd-dy ar wahan.

**MAENOR DEILO** (yr ISAF a'r UCHAF), dwy dreflan yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN; ar lan yr afon Tywi, yn agos i Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 2187*p*. a 1767*p*. Poblogaeth yn 1861, 386, a 384.

**MAENOR DEWI**, neu MAENOR DEIFI, plwyf yn nghantref Cilgeran, undeb Aberteifi, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, ar lan yr afon Teifi, gerllaw y ffin a swydd Aberteifi; 4¼ milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o dref Aberteifi, yr hon yw ei lythyr-dref. Erwau, 3506. Gwerth ardrethol, 2629*p*. Poblogaeth yn 1851, 956; yn 1861, 896; yn 1871, 841; felly gwelwn fod poblogaeth y plwyf hwn, fel llawer o blwyfi ammaethyddol Cymru, yn parhau i leihau; fel y mae wedi lleihau 115 mewn ugain mlynedd. Adeilad fechan yw yr eglwys, yn agos i'r afon, wedi ei chyssegru i goffadwriaeth Dewi Sant. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglоriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 222*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Yr ydoedd gynt, Gapel anwes, yn Cil fawr, yn y plwyf hwn; ond y mae wedi ei ollwng i fyned yn adfeilion er's blyneddoedd lawer.

**MAENOR FABON**, treflan yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN, ar lan yr afon Towy; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 2038*p*. Poblogaeth yn 1861, 424.

**MAENOR OWEN**, plwyf yn undeb Hwlffordd, swydd BENFRO; ar lan y môr, 1 filldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o Abergwaun; a 13 milldir i'r gogledd orllewin o orsaf *Clarbeston Road*. Llythyrfa, Abergwaun, dan Hwlffordd. Erwau, 1263. Gwerth ardrethol, 971*p*. Poblogaeth yn 1861, 186; yn 1871, 176. Tai annedd, 38. Y fywioliaeth eglwysig sydd

ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 86*p*. Yn hen Blas Maenor Owen, y preswyliai John Lewis, Ysw., hedd-ynad yn y swydd hon yn nheyrnasiad Iago yr Ail., a gwr enwog am ei ddysgeidiaeth, a'i weinyddiad di duedd o'r gyfraith yn ei swydd. Yr oedd y gwr hwn yn gyfaill mynwesol i'r Esgob Gibson, i'r hwn y bu yn gynnorthwywr effeithiol, yn nygiad allan argraffiad o *Camden's Britannia*, yn enwedig y rhanau hyny o'r Gwaith a ddygai berthynas â Chymru, gan ei fod ef yn dra chyfarwydd yn hanes a henafiaethau y Dywysogaeth. Y mae yr hen balas yn adfeiliedig ac annghyfaneddol er's llawer blwyddyn; a phalas newydd hardd wedi cael ei adeiladu, ychydig yn uwch ar y bryn, gan Richard Bowen, Ysw., un o hiliogaeth y boneddwr uchod.

**MAENTWROG**, plwyf yn Nghwmwd Ardudwy, Cantref Dunodig (a elwir yn awr hefyd cantref Ardudwy), swydd FEIRIONYDD. Holl boblogaeth y plwyf hwn yn y flwyddyn 1801, pryd y gwnaed y cyfrifiad cyntaf, ydoedd 593. O'r pryd hwnw hyd yn awr, y mae y trigolion wedi cynnyddu yn rheolaidd, canys erbyn y cyfrifiad diweddaf, (1871) yr oeddynt yn 860. Annedd-dai, 176. Teuluoedd, 196. Cymer y plwyf ei enw oddiwrth faen coffadwriaethol y nawdd-sant Twrog, sant Prydeinig o fri ac enwogrwydd mawr, a flodeuodd oddeutu terfyn y bummed ganrif. Y mae "Maen Twrog" wedi etifeddu gwell ffawd nag a ddaeth i ran y mwyafrif o greiriau henafol ein cenedl, canys y mae efe mewn cadwraeth barchus hyd heddyw, yn un o gilfachau Corphlan brydferth y plwyf. Saif plwyf a phentref Maentwrog yn nghanol dyffryn tlws Ffestiniog—un o'r parthau mwyaf dymunol a rhamantus yn Ngwynedd. Am amrywiaeth a chyfoethogrwydd golygfeydd, o fewn cylch bychan, nis gwyddom am un lle a ddeil gydmariaeth â'r dyffryn hwn, oddigerth Dyffryn Conwy. Yma y mae y doldir ffrwythlon, y môr, y mynydd, y goedwig, yr afonydd, a'r rhaiaidr, yn cyd-demtio y llygad i sylwi arnynt, fel mai prin y gall yr edrychydd benderfynu pa beth i'w edmygu fwyaf. Ymwthia llanw y Traeth Bach i fyny y dyffryn, agos i ymyl y pentref; a gellir mordwyo llongau o faintioli gweddol hyd yn Nhan y Bwlch, lle yr arferid cludo llechi Ffestiniog ar y cyntaf, i'w hallforio. Ymestyna llethrau mawreddog y Moelwyn hyd at Faentwrog; ac addurnir y llethrau, yn enwedig oddiamgylch palasdy gwych Tan y Bwlch, gan gyflawnder dibrin o dderw, a choed preiffion ereill. Ymarllwysa yr afon Dwyryd i'r Traeth Bach; ac ar ei glan ddeheuol hi, y saif pentref Maentwrog. Ffrydiau brysiog Cynfal, a Melinrhyd, a ymunant â'r Ddwyryd o'r tu uchaf i'r lle hwn. Melinrhyd a Llechryd a ffurfiant y terfynau rhwng y plwyf yma a phlwyfydd Llandecwyn, a Thrawsfynydd. O fewn oddeutu milltir i'r pentref, y mae dau raiadr godidog. Gelwir un wrth yr enw Rhaiadr Du, a'r llall a elwir Llyn Gwynryn. Perthyna i'r olaf chwech o ddisgynfeydd; ac y mae codwm pob disgynfa, oddeutu deg troedfedd-ar-hugain. Y mae trwst ac ysblander y disgynfeydd yn odidog ryfeddol fel eu gwelir ac eu clywir o geunant yr isaf. Rhedai Sarn Helen, sef yr hen brif-ffordd Rufeinig o Segontium, neu Gaer Seiont, i Uriconium, drwy y lle hwn, a ffaith hynod ydyw, na cheir nemawr, os dim, olion Rhufeinaidd yn yr oll o Feirion ar yr ochrau deheuol a gorllewinol i'r ffordd hon. Profa hyn, yn nghyda'r ffaith nad ydyw tir Meirion yn cael ei ddangos ar yr hen barthleni (*maps*) Rhufeinaidd, na ddarfu i goncwerwyr cyntaf y Brytaniaid, oresgyn namyn ychydig iawn o wlad fryniog Meirionydd. Yn yr ystyr yma, gellir cyfrif y sir yn fwy "gwyryfol," ys dywed y Ffrancod, na'r rhelyw o Wyllt Walia. Ond y mae'n amlwg ddigon, na chyfranogodd Maentwrog o dawelwch cyffredin y sir, adeg ymgyrchoedd y Rhufeiniaid, canys ceir cyflawnder o olion gweithrediadau teulu Cæsar, yn y lle hwn. Yn meddiant Mrs. Oakeley, Plas Tanybwlch, a chan deulu Pen y Glanau, y mae casgliadau gwerthfawr o weddillion Rhufeinaidd, a gafwyd yn y fro. Yn mhlith casgliad Mrs. Oakeley, y mae cerrig addurnedig tra hynod. Un o honynt sydd garreg hir, a'i hymylau yn addurnedig âg arwyddluniau Rhufeinaidd; ac ar ran uchaf y garreg, y mae a ganlyn wedi ei gerfio yn gywrain a dillynwedd: "⊳ AND," ac ar y rhan isaf o'r un garreg, y mae'n gerfiedig "PXXXIX." Carreg arall sydd bedair modfedd ar ddeg o hyd, a naw modfedd o led, ac arni yn gerfiedig:—"⊳ IVL-MANS." Y drydedd garreg sydd bymtheg modfedd o hyd, a saith modfedd o led; ac arni y mae yn gerfiedig:—"IMAV. XXXIX." Ond gofod a wahardd i ni fanylu ar holl greiriau henafiaethol Maentwrog.

Yr hyn a esyd fri oesol ar y plwyf yma, ydyw y ffaith ddarfod i'r dysgedig Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd, dreulio deuddeng mlynedd a deugain o'i oes lafurus a defnyddiol o'i fewn. Yn y Tyddyn Du, Maentwrog, y cyflawnodd yr ysgolhaig trylen, a'r awenydd hyfedr, ei gyfieithiad mydryddol o Lyfr y Psalmau; ac yn Eglwys y plwyf hwn, y canwyd pob Psalm gyfieithiedig, o Sul i Sul, fel yr elid yn mlaen gyda'r gwaith. Heblaw nifer mawr o gyfansoddiadau yn y mydrau rhyddion a chynganeddol, canodd Edmwnd Prys hefyd 39 o gywyddau ymryson â William Cynwal. Cymaint ydoedd rhagoriaeth dawn ffrewyllog yr Archddiacon ar eiddo ei wrthwynebydd, fel y dywedir ddarfod i William Cynwal farw o dòr calon, fel y bu Rhys Meigen farw o herwydd ei orchfygiad gan awen ddihafal Dafydd ab Gwilym. Pan yr oedd Edmwnd Prys yn prysur gyfansoddi ei ddeugeinfed cywydd yn erbyn William, efe a glybu fod ei wrthwynebydd wedi marw; ac yn y fan rhoddodd yr Archddiacon awengar brawf nodedig o eangder maddeugar ei ysbryd, trwy droi ei ddoniau i ganu marwnad hiraethlawn i Cynwal. Rhoddodd Edmwnd Prys, gynnorthwy gwerthfawr i'r Dr. William Morgan gyfieithu y Beibl, yr hyn a gydnebydd y Doctor gyda diolchgarwch yn ei ragymadrodd i'r argraffiad cyntaf o'r cyfieithiad. Bu farw yr Archddiacon yn y flwyddyn 1824, a chladdwyd ef oddifewn i gysegrfan yr allor, yn Eglwys Maentwrog.

Maintioli y plwyf hwn, ydyw 5465 o erwau. Gwerth ardrethol, 2926*p*. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, gysylltiedig âg ebrwyadaeth Ffestiniog. Y pellder o Faentwrog i Ffestiniog, ydyw 2½ milltir; ac o Harlech y mae y pellder yn 9 milltir i'r gogleddorllewin-ogledd. Ailadeiladwyd yr Eglwys blwyfol yn y flwyddyn 1814. Cynnwysa eisteddleoedd i 232 o wrandawyr. Medda y gwahanol bleidiau Ymneillduol hefyd addoldai cyfleus yn y fro. Adeiladwyd yma ysgol ddyddiol flyneddau lawer yn ol, gan Mrs. Oakeley; ac yn ddiweddar, helaethwyd yr ysgoldy gan fab y foneddiges haelionus, sef W. E. Oakeley, Yswain. Cyfrenir addysg rydd a rhad i blant y fro yn yr ysgol hon, o dan ofal athraw medrus. Heblaw caredigrwydd Mrs. Oakeley, a'i mab cyfoethog, gweinyddir llawer o gymwynasau i'r ardal hefyd gan

Digitized by Google

Samuel Holland, Ysw., A.S., yr hwn a breswylia yn mhalas Glanwilliam, gerllaw pentref Maentwrog.

Perthyna i'r plwyf amryw waddoliadau elusenol. Yn y flwyddyn 1691, rhoddodd Evan Lloyd 20*p.*; yn 1742, rhoddodd Mrs. Jones 30*p.*; ac yn ddiweddarach John Roberts 5*p.* at wasanaeth y tlodion. Gyda chyfran o'r arian hyn, a symiau ereill, prynwyd tri bwthyn mewn parth anghysbell o'r plwyf, yn mha rai y caniateir i gynnifer o deuluoedd tlodion breswylio yn ddiardreth.

**MAENWYN**, penaeth Brythonaidd yn niwedd y chweched ganrif. Yr oedd efe yn gyfoeswr â Llywarch Hen; ac y mae yn mhlith caneuon Llywarch, gân gyflwynedig i Maenwyn, i'w galonogi i ymladd yn erbyn gelynion ei wlad, y rhai, fel yr ymddengys, oeddynt wedi gwarchae ei wersyll, a'i wŷsio i roddi ei arfau i lawr. Arferai Llywarch holl rym ei ddoniau i berswadio y penaeth i ddirmygu honiadau yr estron, a sefyll yn ffyddlon i'r Tywysog Cymreig.

**MAEN Y BARDD**, treflan yn mlwyf Caerhun, 4½ milltir i'r deau o Gonwy, swydd GAERNARFON. Cynnwysa 318 o breswylwyr.

**MAEN Y MORWYNION**, beddfaen henafol, er coffadwriaeth am rai o forwynion enwog yr hen amser, yn mhlwyf Aberyscyr, swydd FRYCHEINIOG, 2½ milltir i'r gorllewin-ogledd o Aberhonddu. Y mae ar wyneb y "Maen" gerfluniau cywrain, wedi eu cadw mewn cyflwr o gyfanrwydd rhyfeddol. Yr oedd o dan yr arluniau hefyd gerfargraff; ond y mae y llythyrenau wedi gwisgo ymaith, fel nas gellir mwyach ddeongli eu hystyron.

**MAEN Y PRENFOL**, darn o Gromlech, 16 trodfedd o hyd, yn mhlwyf Cellan, swydd ABERTEIFI, 3 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Lanbedr. Ceir amryw olion a gweddillion Derwyddol yn agos i'r fan.

**MAESCAR**, neu MAES Y GAER, trefgordd yn mhlwyf Defynog, cwmwd Llywel, Cantref Mawr (a elwir hefyd Cantref Defynog), swydd FRYCHEINIOG. Saif 8 milltir i'r de-orllewin o Aberhonddu, gerllaw arllwysiad y gamlas fawr i'r afon Wysg. Y mae hon yn drefgordd dra eang, ond graddol leihau y mae ei phoblogaeth, er y flwyddyn 1851. Yn y flwyddyn a nodwyd, hwy a rifent 782; yn 1861, 637; ac yn y flwyddyn 1871, 625. Erwau, 4241. Gwerth ardrethol, 3326*p*. Annedd-dai, 149. Teuluoedd, 150. Ffurfia y gyfran ogledd-orllewinol o blwyf Defynog. Prisir degwm y drefgordd, fel gwerth 248*p.*, yr hyn a renir rhwng Esgob Bristol a Chaerloyw, yr ebrwyad lleygol, a ficer Defynog.

**MAESGAMMEDD**, trefgordd yn mhlwyf Gwyddelwern, 3 milltir i'r gogledd o Gorwen, swydd FEIRIONYDD.

**MAESGARMON**, ardal, a ffermdy, o fewn un milltir i dref y Wyddgrug, yn swydd FFLINT, yn Nghwmwd Ystrad Alun, Cantref y Rhiw (a elwir yn awr hefyd Cantref y Wyddgrug). Gelwir y lle hwn wrth enw Sant Garmon, yr hwn a ddaeth i'r wlad hon yn y bummed ganrif, o Lydaw, i bregethu yn erbyn Morganiaeth. Yma yr ennillwyd hefyd y goncwest fawr, a adnabyddir wrth yr enw BUDDUGOLIAETH ALELIWIA. Yn y flwyddyn O.C. 420, daeth y Gwyddyl a'r Pictiaid yn llu mawr ar ymgyrch oresgynol i Wynedd, ac yr oedd mintai gref o honynt wedi gwneuthur eu hymddangosiad yn yr ardal hon, ar yr adeg pan oedd Sant Garmon, a Sant Bleiddyn yn y gymydogaeth, yn sefydlu achosion crefyddol. Pan glywodd Garmon a Bleiddyn am bresennoldeb y gelynion yn yr ardal, hwy a flaenorasant dyrfa fawr o'u disgyblion crefyddol, y Cristnogion brodorol, ac a gychwynasant i frwydr yn erbyn y goresgynwyr. Hyderai y Brythoniaid lawer mwy yn ngweddïau a dylanwad eu dau flaenor duwiol, nag a wnaent yn eu nerth a'u medr eu hunain. Yn wir, ni wnaethant ddarpariadau o gwbl gogyfer â'r frwydr. Cymerodd Garmon ei le fel blaenor ar nifer ddewisedig o'i ganlynwyr ffyddlon, ac ymwersyllodd mewn safle gyfyng, rhwng bryniau, a chreigiau. Gorchymynodd hefyd i'r rhai oedd gydag ef, pan ddynesai y gelynion, ddyrchafu bloedd nerthol i'r nef, gan ddywedyd dair gwaith, ALELIWIA! A hyny a wnaethant hyd onid adseiniai y bryniau cylchynol. Taflwyd y goresgynwyr i arswyd aruthrol, yn gymaint, nes tybied o honynt fod y nefoedd ar ymddîal arnynt; gadawsant eu harfau ar y maes; ffoisant mewn annhrefn mawr; ac wrth geisio croesi yr afon Alun gerllaw, a'r hon, ar y pryd, (adeg y Pasg), oedd yn gorlifo ei glanau, daliwyd hwy gan y llifeiriant, fel y boddodd niferi mawrion o honynt yn ei dyfroedd. Yn y flwyddyn 1735, adeiladodd Nehemiah Griffith, Ysw., gofadail ar y maes hwn, yn adrodd y dygwyddiad rhyfeddol, ac y mae yr adail yn aros hyd y dydd heddyw. Ennillodd y diweddar fardd clodwiw, Alun, y Parch. John Blackwell, B.A., gadair Eisteddfod y Wyddgrug, yn y flwyddyn 1831, am ei awdl orchestol ar "Frwydr Maes Garmon."

**MAESGLAS**, treflan bwysig ar lan y traeth, yn ngenau y Ddyfrdwy, yn mhlwyf Treffynnon, Cwmwd Cynsyllt, Cantref Tegeingl (a elwir yn awr hefyd Cantref Coleshill), swydd FFLINT. Y mae yma orsaf ar linell cledrffordd Caerlleon a Chaergybi; a thrwy yr orsaf hon y cerir yn mlaen drafnidiaeth Treffynnon, gan nad ydyw y gledrffordd wedi ymganghenu hyd y dref. Nid oedd y lle ond bychan a dinod iawn ddechreu y ganrif bresennol; ond dadblygiad cyfoeth mwnurol y fro, a barodd gynnydd cyflym iawn yn nifer y boblogaeth, yn ogystal ag yn maint y pentref. Y mae y boblogaeth yn agos i dair mil; a gwerth ardrethol y lle, yn 7891*p*. Cynnyrchir y rhan fwyaf o'r swm hwn gan y glofeydd, y mwnuron, a'r tawdddai. Am ddesgrifiad cyflawn o'r fro, gwel TREFFYNNON.

**MAES GLASAU**, trefgordd yn mhlwyf Mallwyd, 2 filltir i'r deau o Ddinas Mawddwy, swydd FEIRIONYDD.

**MAES GWAELOD**, trefgordd yn mhlwyf Owrtyn, swydd FFLINT. Saif 6½ milltir i'r gogledd-ddwyrain o Gastell y Waen.

**MAES GWARTHAF**, trefgordd bwysig yn mhlwyf Llanelli, undeb a chantref Crughywel, swydd FRYCHEINIOG. Saif ar lan Camlas Brycheiniog, 2 filltir i'r deau o Grug Hywel. Cynnwysa boblogaeth o 1659; ac y mae gwerth ardrethol y drefgordd, yn 11,171*p*. Gwneir y swm a nodwyd i fyny fel y canlyn:—105*p*. mewn chwarelau; 5023*p*. mewn gweithfeydd haiarn; 1399*p*. oddiwrth y gamlas; a'r gweddill oddiwrth y tir. Ceir y galchfaen ragoraf yma mewn cyflawnder; a brithir y fro gan odynau calch.

**MAES GWIG**, trefgordd yn mhlwyf Bettws-yn-rhos, 3½ milltir i'r de-orllewin o Abergele, swydd Dinbych. Poblogaeth, 164.

**MAES GWYN**, treflan yn mhlwyf Nant y Mel, cwmwd Glyn Ieithon, Cantref Maelienydd, (a elwir yn awr hefyd, Cwmwd y Rhaiadr), swydd FAESYFED. Saif 4 milltir i'r dwyrain-dde-ddwyrain o'r Rhaiadr;

Digitized by Google

ac heb fod yn neppell o'r Llyn Gwyn, wrth ystlys bryn noethlwm Rhiw Graidd. Yn yr hen amser, gelwid trefgordd y Maes Gwyn wrth yr enw Uwchgoed. Tueddu i leihau y mae rhifedi y boblogaeth. Yn y flwyddyn 1851, yr oeddynt oddeutu pedwar cant; ond nid ydynt weithian, namyn 384. Annedd-dai, 62. Gwerth ardrethol yr eiddo o bob math, 3107*p.*

**MAES GWYN**, trefgordd yn mhlwyf Gwyddelwern, 2 filltir i'r gogledd o Gorwen, swydd FEIRIONYDD. Gwerth ardrethol, 2039*p.*

**MAES LLEMYSTEN**, trefgordd yn mhlwyf Llangadfan, Cwmwd Caereinion, Cantref Llŷs Wynaf (a elwir yn awr hefyd Cantref Mathrafal), swydd DREFALDWYN. Saif 6½ milltir i'r gogledd orllewin o Lanfair.

**MAES MAN CYMRO**, neu MAES MAEN CYMRO, trefgordd yn mhlwyf Llanynys, undeb a Chwmwd Rhuthyn, swydd DINBYCH. Gwerth ardrethol, 1500*p.*

**MAES MAWR**, trefgordd yn mhlwyf Llandinam, Cwmwd Is y Coed, Cantref Arwystli (a elwir yn awr hefyd, Cantref Llanidloes, swydd DREFALDWYN. Saif 5¼ milltir i'r gorllewin-dde-orllewin o'r Drefnewydd.

**MAES MYNAN**, dyffryn nodedig yn nosbarth Caerwys, yn ngogledd-orllewinbarth swydd FFLINT. Y mae yn y dyffryn etifeddiaeth eang, a phalas gwŷch, yn dwyn yr un enw. Perchenogid y palas a'r etifeddiaeth gan y diweddar Hugh Jones, Yswain, o Glynnog Fawr, un o gyn-siryddion Llundain.

**MAES MYNYS**, neu, yn ol y parthofydd medrus, Nicholas Carlisle, MAES AM YNYS, plwyf yn Nghwd Is-orewyn, Cantref Buallt, swydd FRYCHEINIOG. Ai tybed nad Maes-maenwŷs ydyw gwir enw y lle? Y mae nifer trigolion y plwyf hwn agos yr un faint er ys deng mlynedd a thriugain; canys cawn mai eu rhifedi yn neiliadeb 1801 ydoedd 224; yn 1861, rhifent 239; a 227 yn 1871. Annedd-dai, 42. Teuluoedd, 43. Erwau, 4012. Gwerth ardrethol, 1328*p.* Cynnwysa y plwyf, bentref Nant yr arian, lle y mae llythyrdy, darostyngedig i swyddfa ganolog Llanfairmuallt. Saif y plwyf yn rhanbarth gogleddol y sir, rhwng yr afonydd Irfon a'r Honddu, 1 milltir i'r de-orllewin o Lanfairmuallt. Yr Honddu a'i gwahana ar y de-ddwyrain oddiwrth blwyf Llanddewi'r Cwm. Ar y gogledd-orllewin, gwahenir ef oddiwrth blwyf Llanynys gan yr afonig Iddon, yr hon a ymarllwysa i'r Irfon. Ei derfyn ar y dwyrain ydyw Llanfairmuallt; ac ar y de amgylchir ef gan Langynog, a Merthyr Cynog; ac ar y de-orllewin gan Langammarch. Arwynebedd y tir sydd amrywiaethol, yn cynnwys y bryniog, y gwaen-dir, a'r coed-dir. Ysgafn ydyw y pridd; ond cynnyrcha wenith, haidd, ceirch, a phorfa, lled dda. Ffurfia bryniau y plwyf gyfran o gadwyn mynyddau Eppynt; ac ymgyfyd rhai o honynt i gryn uchder. Y mae rhai o'r glynoedd yn ddyfnion a choediog, yr hyn a ffurfia wrthgyferbyniad tarawiadol i uchder y bryniau; a'r oll yn nghyd, a ffurfiant olygfa ramantus. Yn nyffryn Cwm Bwch, ceir cyflawnder mawr o dderi, ynn, bedw, llwyfan, &c.; ond y brif goedwig ydyw y "Gilfach Ddedwydd," yn mharth deheuol y plwyf, ar lan yr afonig Iddon. Tybir fod y "Gilfach Ddedwydd" yn safle teml Dderwyddol bwysig gynt. Mewn maes cyfagos i'r goedwig hon, y safai carreg hirgron, wyth droedfedd o uchder, ac o bedair a haner, i bum troedfedd o led. Gelwid y garreg hon, "Maen Dewi;" a lluosog a dyddorol oedd y traddodiadau a geid yn ei chylch, ar hyd a lled y fro. Ond perchenog diystyr y maes a aeth i'r llafur a'r drafferth o ddryllio "Maen Dewi" gyda grym pylor! Dyma fel y dinystria yr anwybodus lawer o greiriau a dolenau gwerthfawrocaf hanes ein gwlad a'n cenedl. Yn muriau ffermdy o'r enw Neuadd Siarmon yn y plwyf hwn, y mae croes o gerfiad godidog, wedi ei defnyddio fel carreg gyffredin!

Eglwys y plwyf sydd gysegredig i Ddewi Sant. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth; gwerth 156*p.* y flwyddyn, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Perthyna i dlodion y plwyf oddeutu 16*p.* y flwyddyn o waddol elusenol.

**MAESTEG**, tref bwysig yn mhlwyf Llangynwyd, Cwmwd Tir Hwndrwd, Cantref Cron Nedd, swydd FORGANWG. Saif y dref yn nyffryn ac ar lan yr afon Llynfi; a ffurfia is-ddosbarth yn undeb Penybont. Er mai tref ieuanc ydyw y Maesteg, eto y mae iddi nifer lluosog o drigolion, a'i chynnydd yn mhob ystyr sydd dra chyflym. Ni fynegir nifer y boblogaeth, ar wahan i gyfanswm poblogaeth Llangynwyd, yn yr adroddiad swyddogol o gyfrifiad 1871. Y mae yma ffwrneisiau, a gweithfeydd haiarn eang iawn, a dadblygiad y gweithfeydd hyny sydd yn achosi cynnydd cyflym y dref, a'i thrigolion. Ceir yma amryw gapelydd gwŷchion, a nifer o ysgoldai cyfleus er cyfranu addysg i'r plant.

**MAES TREF GOMER**, treflan yn mhlwyf Trefeglwys, undeb y Drefnewydd a Llanidloes, swydd DREFALDWYN. Saif 4¼ i'r gogledd o Lanidloes. Yn y dreflan yma y mae Eglwys y plwyf.

**MAES TREFNANT**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel-y-Pennant, 7¼ milltir i'r gogledd-ddwyrain o Dywyn, swydd FEIRIONYDD. Gwerth ardrethol, 597*p.* Poblogaeth, 64.

**MAES TREUDDYN**, trefgordd yn mhlwyf Cynwil-Caio, swydd GAERFYRDDIN. Saif ar lan yr afon Twrch, 8¼ milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Lanymddyfri. Gwerth ardrethol, 1659*p.* Poblogaeth, 450. Amgylchir y fro gan amryw fryniau coediog a phrydferth.

**MAESTRON**, trefgordd yn mhlwyf Llanycil, ger y Bala, swydd FEIRIONYDD. Gwerth ardrethol, 662*p.* Poblogaeth, 185.

**MAES TY RHOS LOWRI**, trefgordd yn mhlwyf Llanddewi ystradenni, 9 milltir i'r gogledd-orllewin o *New Radnor*, swydd FAESYFED. Gwerth ardrethol, 2056*p.* Poblogaeth, 336.

**MAES Y CRUGIAU**, gorsaf ar gledrffordd Manceinion ac Aberdaugleddau, 8¾ milltir i'r de-orllewin o Lanbedr, ar gyffiniau gogledd-orllewinol swydd GAERFYRDDIN.

**MAES Y CYMMER**, gorsaf ar gledrffordd Rhymni a Chasnewydd. Yma yr ymgangena y gledrffordd i Bont-y-pool. Y mae y lle ar gyffiniau gorllewinol swydd FYNWY, 16 milltir i'r gogledd-orllewin wrth orllewin o Gasnewydd.

**MAES Y CYNFORTH**, trefgordd yn ngogleddbarth BRYCHEINIOG, ar lan yr afon Irfon, 7 milltir i'r gorllewin-dde-orllewin o Lanfairmuallt. Ar gyfrif rhagoroldeb y cyfleusderau a geir i bysgotta yn yr Irfon, y mae Maes y Cynforth yn gyrchfa i lawer o enweirwyr o wahanol barthau.

**MAES Y DDERWEN**, trefgordd a saif 2 filltir i'r de-ddwyrain o Aberhonddu, swydd FRYCHEINIOG.

**MAESYFED**, swydd yn Neheubarth Cymru, yn cael ei therfynu ar y gogledd, gan swydd Maldwyn, ar y gorllewin, gan swydd Aberteifi, ar y de-orllewin a'r de, gan swydd Frycheiniog, ar y dwyrain, gan

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON. L






J. Bartholomew, Edin.
Digitized by Google

Digitized by Google

swydd Seisnig Henffordd, ac ar y gogledd-ddwyrain, gan swydd Amwythig. Hon yw y sir fwyaf Seisnig yn Nghymru, ac anaml y ceir neb o'r trigolion yn alluog i barablu dim ond Saesneg, a hwnw o natur mor gymysg a llygredig, fel nad yw amgen na "Saesneg Penarlâg." Pan ystyrir safle y swydd ar y goror, a'i darostyngiad mynych i luoedd yspeilgar y Saeson, ni ddylid synu cymaint fod pobl Maesyfed wedi colli iaith eu tadau, ond nid yw mor hawdd cyfrif am y ffaith, eu bod wedi colli pob gronyn o deimlad cenedlaethol—eu bod wedi peidio a bod yn Gymry, cyn gallu bod yn Saeson. Cafodd fflam gwladgarwch yn y sir hon ei diffodd yn fore iawn, ac nis gellir cyhoeddi y bobl yn hollol ddieuog o frys anweddus i goleddu arferion, yn ogystal ag iaith eu gorchfygwyr; canys dengys eu hanes nad oeddynt, i arfer cymhariaeth gyffredin, yn gwbl anghynefin â chwareu y ffon ddwybig. Nid yw yn hawdd canfod fod y swydd hon wedi elwa dim o barablu shibboleth yr estron; canys y mae cyflwr moesol a deallol ei thrigolion ar hyn o bryd, yn gyfryw na's rhydd nemawr o gysur i'r blaid hono, sydd weithian yn llai ei thrybestod nag y bu, a grochlefai y deuai yn fil-mlwyddiant ar Gymru, pan gyfranogai y bobl o gyflawnder Dic-Sion-Dafyddiaeth!

Maesyfed yw y fwyaf cyson a rheolaidd ei ffurf o holl siroedd Cymru. Ffurf bedairongl annghyfochrog sydd iddi, yn mesur 36 milldir o hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, ac oddeutu 30 milldir o lêd; y mae ei hamgylchedd oddeutu 120 milldir, a chynwysa oddeutu 272,182 o erwau. Bryniog ac anwastad yw ei harwynebedd; yn wir, cyfyd y mynyddoedd mewn rhai lleoedd i uchder mawr, ac y mae copa Coedwig Maesyfed yn 2163 troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr. Mae y bryniau yn gyffredin o ffurf reolaidd, gyda choppäau crynion, a llethrau graddol eu hosgo, er fod unffurfiaeth yr olygfa yn cael ei dori weithiau gan ddibynau serth, a glynoedd dyfnion. Mae ynddi rai mân lynoedd gwerth eu crybwyll, megis un yn nghymydogaeth Rhaiadr, y prydferthaf o'r cwbl; Llyn Gwyn, o gryn faintioli, o fewn ychydig filldiroedd i Raiadr, mewn cyfeiriad gwrthgyferbyniol i'r llall; Llyn Llanilin, oddeutu milldir o amgylchedd, o gryn ddyfnder, gyda digonedd o bysg, yn gorwedd mewn pant ar ucheldir ger Llanfihangel Nant Melan; a Llyn Bychllyn, yn nghymydogaeth Painscastle. Yr oedd y sir yn enwog gynt am ei choedwigoedd mawrion, y rhai ydynt erbyn hyn, gydag ychydig eithriadau, wedi diflanu. Mae coedwigoedd Maesyfed, a Blethvaugh yn parhau i arddel yr enw, ac y mae rhywbeth yn eu hymddangosiad, yn peri i un feddwl am leiniau eang o goed; ond os buont erioed yn orchuddiedig gan goed, yr hyn a amheuir gan lawer, y mae y gogoniant wedi eu gadael ers llawer dydd. Y defaid mynydd ydynt arch-elynion y coed, canys nid oes wrychoedd cyffredin a'u gwrthsaif, ac unwaith y cymmynir coeden, attelir attyfiad gan waith y defaid yn difa yr egin, a'r brigau ieuainc. Er hyny nid yw gwyneb y wlad yn hollol foel, canys gorchuddir ochrau y dolydd a'r dyffrynoedd, gan blanhigfeydd y boneddigion. Teneu a thlawd yw y rhan fwyaf o'r tiroedd, ond yn y manau goreu, megis y dyffrynoedd, a'r iseldiroedd ereill, y maent yn gleiog, a lled farlaidd. Nid oes ond oddeutu y bedwaredd ran o'r holl arwynebedd tan driniaeth; mae oddeutu dwy ran o dair o'r arwynebedd yn dir mynyddig, corsiog, a diwerth, tra y mae yn agos i ddwy ran o dair heb ei gau i mewn. Ceir cyflawnder o helwriaeth ar y mynyddoedd, ac yr oedd arnynt gynt, medd Leland, ddigonedd o geirw. Y cnydau a godir gan mwyaf ar y tiroedd diwylliedig, ydynt haidd; ceirch, rhyg, pŷs, a meillion; a'r da byw a fegir ar y tir pori, ydynt yn benaf ddefaid bychain, o wyth i ddeg pwys y chwarter, gwartheg o frîd Henffordd, a merlynod bychain, bywiog, a gwydn. Prin y mae y llaw-weithfaoedd yn werth eu henwi, oddieithr yr ychydig nyddu ar y gwlaneni cartref. Mae rheilffordd Tref y Clawdd a Chanolbarth Cymru, yn rhedeg trwy y sir heibio Cnwc glas, Llangunllo, Dolau, Penybont, a Llandrindod; rheilffordd y "Mid-Wales" a'i croesa trwy Raiadr; ac y mae rheilffordd *Lugg Valley* yn rhedeg o Lanandras i Langunllo.

Mae y swydd yn cynwys 48 o blwyfydd, a rhanau o 4 ereill; ac yn rhanedig i gantrefi Cefnllys, Colwyn, Tref y Clawdd, Painscastle, Maesyfed, a Rhaiadr. Dan ddeddf 1844, er crynhoi rhanau gwahanedig o siroedd, trosglwyddwyd trefgordd Litton, a Cascob, o Henffordd i Faesyfed; a rhan o blwyf Glasbury, o Faesyfed i Brycheiniog. Mae y swydd etholrestriadol yn rhoddi ymaith 19 o blwyfydd, neu gapeloriaethau plwyfol, i Frycheiniog; yn cymeryd i mewn 1 plwyf o Frycheiniog, 4 plwyf, a rhan o bumed, o Amwythig, a 14, a rhanau o ddau ereill, o Henffordd; cynwysa 307,987 o erwau, ac y mae yn rhanedig i ddosbarthiadau Llanandras, Trefyclawdd, a Rhaiadr. Y trefydd marchnad ydynt Llanandras, Tref y Clawdd, a Rhaiadr; a'r prif balasdai ydynt, Abbey Cwm Hir, Boultibrook, Evenjobb, Harpton, Cwmelan, Castell Dyserth, Neuadd, Knill Court, Llanelwedd, Maeslough, Norton, Penybont, Penycerig, a Stannage. Llywodraethir y sir gan arglwydd raglaw ac uchel siryda, a pherthyna i gylchdaith frawdlysol, yn ogystal a dosbarth milwraidd, Deheudir Cymru. Yn esgobaeth Henffordd y mae plwyfydd Trefyclawdd, Norton, Maesyfed Newydd, Maesyfed Hen, a rhan o Lanandras, ond y mae y gweddill o'r sir yn esgobaeth Tyddewi. Yn Llanandras, y cynhelir yr uchfrawdlysoedd, a'r brawdlysoedd chwarterol. Yr oedd yr heddlu yn 1864 yn cynwys 16 o wyr, a'r draul o'i gynnal yn 1341*p*. Nifer y troseddau a brofwyd yn 1864, oedd 65; y personau a gymerwyd i'r ddalfa, 43; troseddwyr a phersonau a ddrwg-dybid heb fod yn y ddalfa, 24; tai o gymeriad drwg, 21. Yn Llanandras y mae carchar y sir, a'r carchar bwrdeisdrefol yn Maesyfed Newydd. Anfonir un aelod i'r senedd i gynrychioli y bwrdeisdrefi, ac aelod arall dros y sir. Etholwyr y bwrdeisdrefi, yn 1833, 529,—yn 1868, 446; nifer etholwyr y sir, yn 1833, 1046,—yn 1868, 1597. Gwerth ardrethol yn 1815, 99,717*p*.; yn 1843, 128,986*p*.; yn 1860, 149,969*p*.,—o ba swm yr oedd 163*p*. mewn chwarelydd, 10*p*. mewn pysgodfeydd. a 30*p*. mewn gweithydd nwy. Y boblogaeth yn 1801, 19,135; yn 1821, 22,533; yn 1841, 25,458; yn 1861, 25,382; yn 1871, 25,430. Yr oedd yn 1861 o dai annedd, 4688; 156 o dai gweigion; a 19 yn cael eu hadeiladu. Poblogaeth y swydd etholrestriadol yn 1851 oedd 31,425; yn 1861, 32,866. Tai anedd, 6265; tai gweigion, 181; yn cael eu hadeiladu, 22. Prif afonydd Maesyfed, ydynt yr Wy, Teme, Elain, Ithon, Edwy, Bachwy, Arw, Somergill, Marteg, a Clywedog. Mae yn y sir hon gymaint o ddyfroedd mwnawl a holl siroedd ereill Cymru ynghyd. Gwyr Cymru benbaladr am ffynnonau Llandrindod, y rhai ydynt enwog am eu rhinweddau meddygol, a gellir estyn cyffelyb glod i ffynnonau

Digitized by Google

Llandegla, Penybont, Llanano, Llanbadarn Fynydd, a Llanybyster. Er fod natur y ffynnonau hyn yn fwnawl, nid yw mwngloddiau y sir yn lliosog. Codir calchfaen yn nyffryn Maesyfed, plwm yn Nghwm Elain, a chafwyd arwyddion o efydd, a phlwm, yn Llandrindod.

Yn adeg dyfodiad y Rhufeiniaid i Brydain, ffurfiai Maesyfed ran o diriogaeth y Siluriaid, y llwyth a enwogodd ei hun yn ei wrthwynebiad dewr i'r lluoedd Rhufeinig. Darostyngwyd y llwyth dewr gan Ostorius Scapula, a Julius Frontinus, a phan gyflawnwyd yr orchest hono, sefydlwyd gorsaf Rufeinig yn y Cwm, ar lan gorllewinol yr afon Ithon, filldir neu ddwy i'r gogledd-ddwyrain o Ffynnonau Llandrindod, ac agorwyd hefyd amryw brif-ffyrdd. Pan giliodd y Rhufeiniaid o Brydain, daeth Maesyfed yn rhan o dalaeth Ferregs, rhwng yr afonydd Wy a Hafren, ac yn ddarostyngedig i Caradog Freichfras, un o gad-farchogion Llys Arthur, yr hwn a flodeuai oddeutu dechreuad y chweched ganrif. Maentumia rhai ysgrifenwyr, fod enw y sir yn tarddu o Hyfaidd, un o feibion Caradog Freichfras, i'r hwn y gwnaeth ei dad y rhan yma o'i diriogaeth yn arglwyddiaeth ar ei phen ei hun. Ymlidiwyd y Cymry o bron yr oll o dalaeth ffrwythlawn Ferregs, gan Offa, brenin yspeilgar Mersia, yr hwn a blanodd drefedigaeth Seisnig yn y diriogaeth hon, ac a adeiladodd y Clawdd sydd hyd heddyw yn dwyn ei enw, ac yn amgau eithaf-bwynt dwyreiniol y sir bresenol, Maesyfed. Pan ranwyd Cymru gan Rhodri Fawr rhwng ei dri mab, aeth y rhan a elwir yn bresenol Maesyfed, i dywysogaeth Powys, neu Mathrafal. Bernid bob amser mai yn Llechryd, plwyf Dyserth, yn y sir, hon, yr ymladdwyd y frwydr fawr oddeutu y flwyddyn 1088, rhwng Rhys ab Tewdwr, a meibion Bleddyn ab Cynfyn, yn yr hon y buddugoliaethodd Rhys; ond y mae yn lled sicr erbyn hyn, mai gwir faes y gad oedd Llechryd ar lan y Deifi, yn Ngheredigion. Ar ol goresgyniad Lloegr gan y Normaniaid, blinid Maesyfed gan y barwniaid trahaus, oedd wedi llwyddo i oresgyn swyddi Brycheiniog a Henffordd, a meddianwyd rhanau helaeth o'r swydd gan deulu de Breos, ac yn ddilynol gan deulu Mortimer. Yn 1189, daeth Rhys ab Gruffydd, Tywysog y Deheubarth, ar ymdaith i'r cyffindiroedd, ac efe a gymmerodd gastell Maesyfed, a Chastell y Payne, yn Elfel, yn y sir hon. Yn 1196, cafodd Trahaearn Fychan, yr hwn oedd wr o ddylanwad mawr yn Mrycheiniog, ei frad-lofruddio yn greulawn a barbaraidd, gan William de Breos, Arglwydd Brycheiniog ac Abergafenni. Enynodd y weithred ysgeler hon ddigllonedd Gwenwynwyn, tywysog Powys, yr hwn oedd yn perthyn i Drahaearn trwy briodas; ac efe a arweiniodd lu o filwyr i diriogaeth De Breos. Efe a osododd warchae ar Gastell Payne, yr hwn a aethai i feddiant De Breos, ac a wnaeth ddiofryd y byddai iddo, gynted yr enillai y castell, ddifrodi â than yr holl wlad cybelled a'r Hafren, i ddial gwaed ei gâr Trahaearn. Ond nid oedd y gwaith o gymeryd y castell yn llawn mor hawdd ag y tybiasai y tywysog Cymreig, yr hwn a fu yn gwylied yr amddiffynfa am dair wythnos yn rhagor, yr hyn a roddodd amser i William de Breos gael adgyfnerthion o Loegr, dan Sieffre Fitz-Peter, ac oddiwrth amryw o arglwyddi y cyffin-diroedd a gasaent y Cymry â chasineb perffaith. Ond er cael yr adgyfnerthion hyn, nid oedd y Saeson yn teimlo yn hollol ddiogel o fuddugoliaeth, a chynnygiasant ammodau heddwch, y rhai a wrthodwyd gan Wenwynwyn gyda diystyrwch, gan fod y Cymry wedi rhoddi eu bryd yn yr ymgyrch, ar ddial cam eu gwlad. Ond ni hysbyddwyd cyfrwysder y Saeson, y rhai a ryddhasant Gruffydd, mab y diweddar Rhys ab Gruffydd, canys gwyddent fod hen elyniaeth farwol rhwng Gruffydd a Gwenwynwyn. Y defnydd cyntaf a wnaeth Gruffydd o'i ryddid oedd codi byddin i gynorthwyo y Saeson, y rhai wedi cael y cyfnerthiad hwn, a brysurasant yn ddioed i godi gwarchae Castell Paine. Pe cadwasai Gwenwynwyn at hen arfer ddoeth y Cymry, o ochel brwydrau ar y maes agored, a chilio i amddiffynfeydd naturiol y mynyddoedd, gallasai fod yn ddiogel rhag cynlluniau yr estron a'r bradwr, ond efe a fu rŷ hyderus, ac a wynebodd y Saeson ar y gwastadedd. Y canlyniad fu ei orchfygiad, gyda cholled o dair mil o laddedigion, heblaw nifer mawr o garcharion, a llawer o honynt yn wyr o safle bwysig. Ymhen llai na chanrif ar ol hyny, sef yn y flwyddyn 1282, cawn hanes i "Llewelyn y Llyw Olaf" arwain ei fyddin fechan i Aberedwy, lle yr oedd ganddo gastell neu balasdy, ar ochr Maesyfed i'r afon Wy, dair milldir islaw Buallt, gyda'r amcan o gynal cynghor yno â rhai o'i gyfeillion; ond daeth y gelyn, trwy ddichell neu frad, i wybod am ei fwriad, a daeth ar ei warthaf fintai o Henffordd, dan arweiniad Edmund Mortimer, a John Gifford. Gwelodd y tywysog ei berygl, a threfnodd fesurau i ddianc; cyrhaeddodd y bont dros yr afon Wy mewn pryd i'w chroesi, ac yna i'w dinystrio cyn i'w erlynwyr ei oddiweddyd. Wedi eu dyrysu fel hyn yn eu hamcan, dychwelodd y Saeson at rŷd oedd yn hysbys i rai o honynt, oddeutu wyth milldir yn is i lawr, gerllaw porthfa a elwir etto Caban Twm Bach, ac yn fuan ar ol hyny y cwympodd yr olaf o dywysogion y Cymry. Yn ngwrthryfel Owain Glyndwr yn erbyn Harri IV., brenin Lloegr, cawn hanes i'r penaeth Cymreig, yn y flwyddyn 1401, ddinystrio abbatty Cwm Hir, yn y sir hon, a chymeryd castell Maesyfed, gan orchymyn fod i benau y gwarchodlu, yn driugain o nifer, gael eu tori ar riniog rhewl y castell. Bu y fath lwyddiant ar symudiadau Owain ar ol yr amgylchiad hwn, fel y dychrynodd Harri, ac y penderfynodd fyned allan ei hun yn ei erbyn. Anfonodd wysiadau i raglawiaid y pedair sir ar ddeg ar hugain, yn galw arnynt gynull ynghyd eu lluoedd, a'i gyfarfod ef yn Lichfield ar y 7ed o Orphenaf, 1402; ond cyn bod amser i'w fyddin ddod at ei gilydd, ymdeithiodd Owain a'i filwyr at derfynau y Deheudir, yn nghyfeiriad swydd Henffordd, gan ddwyn y cleddyf a'r tân i dir ei elynion. Y rhai a ddioddefasant fwyaf oddiwrth ddifrodiadau Glyndwr, oeddynt denantiaid Edward Mortimer, Iarll March, bachgen dengmlwydd oed, ewythr yr hwn, Syr Edmund Mortimer, a gynullodd fintai gref o weision a thenantiaid ei nai, o swydd Henffordd, ac o Faelienydd yn Maesyfed, ac a ymdeithiodd i gyfarfod yr ymosodydd Cymreig. Cyfarfu y ddwy fyddin ar Fryn Glas, gerllaw Pilleth, ychydig i'r de-orllewin o Dref y clawdd, a throdd y fuddugoliaeth i ochr Glyndwr. Cwympodd un cant ar ddeg o wyr ar ochr Mortimer; ymysg gwyr Henffordd y bu y golled fwyaf, yr hyn a rydd le i feddwl, nad oedd pleidwyr Cymreig Iarll March yn taflu eu holl galon i'r gwaith, a diau eu bod hwy yn cyfranogi o'r syniad a goleddid gan eu cydgenedl ar y pryd, fod Glyndwr mewn cymundeb â byd yr ysbrydion. At y frwydr hon, a'r cyhuddiad fod y Cymry wedi anmharchu cyrff y lladdedigion, y cyfeiria

Digitized by Google

Shakespeare yn y rhan gyntaf o'i chwareugerdd hanesyddol ardderchog, "*Henry the Fourth.*" Cyffelyb fu hanes Maesyfed, bron bob amser, yn sathrfa barhaus i finteioedd ysbeilgar, hyd nes y pasiwyd deddf Harri yr Wythfed, yn estyn i Gymru holl ragorfreintiau y deiliaid Seisnig, ac yn y ddeddf hono y nodwyd Maesyfed fel un o'r siroedd newydd.

Ychydig o bwysigrwydd a dyddordeb a berthyn i'r olion henafiaethol a geir yn Maesyfed, er fod yn bossibl olrhain nifer mawr o gloddiadau, a thomenydd, yn nodi manau lle bu gynt amddiffynfeydd. Y mae y ffaith mai y Castell Pren y gelwir mwy nag un o honynt, yn rhoddi lle i'r dybiaeth, mai gwerthyr goed oedd holl nerth amddiffynol y rhan fwyaf o honynt. Crybwyllasom yn barod am orsaf Rufeinig, a gellir olrhain ei gweddillion ar fferm o'r enw Cwm, oddeutu dwy filldir i'r gogledd-ddwyrain o Landrindod. Petrual perffaith ydyw, yn cynwys rhyw bedair erw o dir, ac ymddengys ei bod gynt yn amgylchynedig gan fur ceryg trwchus, sylfaeni yr hwn sydd eto yn ganfyddadwy, gyda ffos ddofn o'r tu allan; ychydig bellder oddiyno, mae olion amryw orsafoedd milwraidd ereill. Ymddengys mai ger yr orsaf hon yr ymunai y ffyrdd Rhufeinig o Gaerfyrddin, a Chaer Frycheiniog, i Gaerlleon, a bernir fod caine-ffordd yn myned o honi trwy ganol swydd Maesyfed, i Kenchester, yn swydd Henffordd, ond ni ddarganfyddwyd erioed ddim olion o hon. Yn mhlwyf Llanddewi-Ystradeney, oddeutu pedair milldir uwchlaw Penybont, ger Dyffryn Ithon, y mae hen wersyll Prydeinig, o'r enw "y Gaer," hirgrwn ei ffurf, ac yn cael ei amddiffyn gan ddwy ffos ddofn. Saif ar fryn uwchben yr afon; ac yr ochr gyferbyniol i'r dyffryn, y mae carnedd o'r enw Bedd Ygre. Mae amryw garneddau nodedig yn nghymydogaeth Rhaiadr, ac y mae y fwyaf, a elwir Tomen Sant Ffraid, yn mhlwyf Cwm Deuddwr. Ychydig a wyddys am hen adeiladau milwraidd Maesyfed. Camden a ddywed "Y mae yn aros lawer o olion cestyll i'w gweled yma ac acw, ond yn enwedig Cefnllechau, a Timbod, y rhai, a hwythau yn sefyll ar fryn uchelgrib, a ddymchwelwyd gan Llewelyn, tywysog Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 1260." Dywed yr un awdwr fod castell Maud yn Ngholwyn, yn enwog iawn, ac mai arglwydd y castell oedd Robert de Todeney, uchelwr Normanaidd. Derbyniodd ei enw oddiwrth Maud, o St. Valeric, gwraig y William de Breos a wrthryfelodd yn erbyn y Brenin Ioan. Dymchwelwyd y castell gan y Cymry, ond cafodd ei ail-adeiladu yn 1231 gan Harri III., yr hwn a'i galwodd, fel pe i wawdio y Cymry, "Mangre Llewelyn." Gyda golwg ar gastell Rhaiadr, cawn i'r tywysog enwog, Rhys ab Gruffydd, yn 1169, ymheddychu â Harri III. a dygymod â rhwysg y Saeson. Yn 1176, cynhaliodd wledd yn nghastell Aberteifi, i'r hon y gwahoddodd efe liaws o fonedd Seisnig a Normanaidd, ond llofruddiwyd yr ymwelwyr uchelwaed hyn gan Einion, mab-yn-nghyfraith, Rhys. Cynddeiriogodd hyn y Saeson, ond ni tharfwyd Rhys oblegid hyny, ac er mwyn gosod ei ofn yn fwy ar ei elynion llidiog, efe a adeiladodd gastell Rhaiadr ar dir cadarn serth, uwchben yr afon Wy, lle y mae i'w gweled hyd heddyw y ffos, ac olion amddiffynfa gref. Ceir ychydig olion o gastell Aberedwy, gerllaw ymuniad yr Edwy a'r Wy; o gastell Bachrhyd, yn is i lawr ar lanau yr Wy; o gastell Maesyfed Newydd; o gastell y Graig Ddu; ac o amddiffynfa fechan ar lan yr Wy, rhyw ddwy filldir uwchlaw Buallt. Ceir hefyd olion o furiau tref a ffos Maesyfed Newydd; o ffos Castell Cymaron, ger Llanddewi-Ystradeney; o sylfaeni Castell Glyn Ithon, yn Nghefnyllechau; o sylfaeni Castell Dinboeth, yn mhen uchaf Dyffryn Ithon; ac o sylfaeni Castell Payne. Daw Clawdd Offa i'r sir o swydd Amwythig, a gwelir ef gyntaf gerllaw Trefyclawdd, neu Knighton; oddiyno rhed i'r de, a gellir ei olrhain rhwng plwyfydd Norton a Whitton, hyd gymydogaeth *Beggar's Bush*, lle y gogwydda i'r de-ddwyrain, a chroesa i swydd Henffordd yn mhlwyf Knill. Bwa Bank, sydd fryn uchel ar gyffiniau y sir, ger y lle hwn, a chroesir ei odreu i'r gorllewin gan y Clawdd, yr hwn sydd yno oddeutu haner can troedfedd o led, ac o ddyfnder mawr; mae olion gwersyll ar y bryn, a bernir fod yno gaerfa i amddiffyn y clawdd. Yn nyffryn y Clywedog, canfyddir sylfaeni abbatty Cwm Hir, yr hwn a sefydlwyd yn 1143 gan Cadwallon ab Madre i gynwys triugain o fynachod o'r urdd Cisterciaidd. Mae yr enwau Mynachdy, ger Trefyclawdd, a Choed y Mynach, ger Rhaiadr, yn arwyddocau rhyw gysylltiadau mynachaidd, nas gwyddir am danynt yn bresenol.

MAESYFED HEN, pentref, trefgordd, a phlwyf, yn nosbarth Presteigne, swydd FAESYFED. Saif y pentref ar graig uchel, 2¾ milldir i'r dwyrain-dde-ddwyrain o Faesyfed Newydd, a 3¾ i'r gorllewin-ogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Knighton. Mae y drefgordd yn cynwys treflan Burlingjobb. Gwerth ardrethol, 1960*p*. Poblogaeth, 350. Tai, 79.—Cynwysa y plwyf hefyd drefgyrdd Harpton Isaf, yr oll o Ednol, holl Walton o Womaston, holl Evenjobb, Newcastle, Barland, a Burfa, a holl Kinnerton, Salford, a Badland; ac y mae mewn rhan tu fewn i derfynau bwrdeisdref Maesyfed Newydd. Erwau, heb gyfrif Harpton Isaf, 10,069. Gwerth ardrethol, a chyfrif y gweddill o Harpton Uchaf, 11,536*p*. Poblogaeth y plwyf, 1349. Tai, 292. Poblogaeth y rhan sydd yn mwrdeisdref Maesyfed Newydd, 1264. Tai, 277. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, mewn cysylltiad â chapeloriaeth Kinnerton, yn esgobaeth Henffordd. Ei gwerth ydyw 195*p*. y flwyddyn, a phersondy; a'r noddwyr ydynt Ddeon a Glwysgor Caerwrangon. Hen adail urddasol, helaeth, ac mewn trefn dda, yw eglwys y plwyf, yr hon a saif ar graig uchel. Perthyna iddi dŵr uchel, gyda chwech o glychau, ac hefyd fedyddfaen henafol, ysgrin derw cerfiedig, a chof-feini am Lewisiaid Plas Harpton. Mae yn Ednol, a Kinnerton, gapelydd anwes ynglyn â'r fam eglwys. Barnai Camden, mai Maesyfed Hen oedd Magnos yr Ymherawdwr Antoninus, a'r dref a warchodid gan y gattrawd Phacienaidd yn nheyrnasiad Theodosius yr Ieuengaf. Dechreuodd ei dirywiad o amser Owain Glyndwr, yr hwn a ddinystriodd y castell, ac a ddifrododd yr holl wlad oddiamgylch. Bu Siarl y Cyntaf yn 1645, pan ar ffo rhag Cromwell, yn cyd swpera âg amaethwr yn Maesyfed Hen. Mae yn y lle addoldy gan yr Annibynwyr, ysgol waddoledig gyda 40*p*. y flwyddyn, a 19*p*. o elusenau.

MAESYFED NEWYDD, tref, bwrdeisdref, a phlwyf yn nosbarth Presteigne, swydd FAESYFED. Saif y dref ar yr afon Somergill, dan goedwig Radnor, 6½ milldir i'r gorll.-ogl.-orll. o orsaf rheilffordd Knighton, a 7 i'r gorll.-dde-orll. o Presteigne. Bu gynt yn lle o gryn fri, ac yn ddigon enwog i roddi ei enw ar y sir, pan ffurfiwyd hi o'r tiriogaethau cylchynol, yn amser Harri VIII., ond nid yw yn

Digitized by Google

bresennol, ond pentref o ran maintioli a phwysigrwydd. Daeth y lle yn bwysig gyntaf trwy iddo gael ei ddewis gan y barwniaid Normanaidd i adeiladu castell ynddo, er amddiffyn eu tiriogaethau ar y goror. Yr oedd y dref hefyd yn cael ei hamddiffyn gyda muriau, yn cynwys pedwar porth cryf, ac yn amgylchynedig gan ffos ddofn. Yn y flwyddyn 1188, daeth Baldwin, Archesgob Caergaint, a Giraldus Cambrensis gydag ef, i bregethu y croesgadau, ac yn y lle hwn y dechreuodd efe ei lafur, ac y derbyniwyd ef gan Rhys ab Gruffydd, tywysog y Deheubarth. Y mae yn deilwng o sylw hefyd, mai yma y dechreua "Itinerary" neu Deithlyfr Giraldus. Y flwyddyn ar ol hyny, ennillwyd y castell oddiar Syr Roger Mortimer, gan Rhys ab Gruffydd, yr hwn a lwyddodd i'w ddal yn erbyn holl ymosodiadau y Saeson. Tynwyd y castell i lawr gan Ioan, brenin Lloegr, ond cafodd ei ail-adeiladu gan y Saeson, a'i ennill drachefn gan y Cymry, yn 1231. Llosgwyd ef drachefn yn 1263, gan Llewelyn ab Gruffydd, a dinystriwyd ef am y tro olaf, yn 1401, gan Owain Glyndwr. Yn ol y ddeddf a basiwyd yn amser Harri VIII. gwnaed hi yn dref y sir, ac yn dref farchnadol, a brawdlysol, ond dirywiodd i'r fath raddau, fel y symudwyd y brawdlysoedd i Lanandras, ac nid yw yn bresennol nemawr gydag un heol afluniaidd, yn cynwys llythyrfa, neuadd drefol, carchar bychan, croes goffadwriaethol, eglwys, addoldy ymneillduol, ysgol waddolog gyda 15*p.* y flwyddyn, 12*p.* o elusenau, a ffeiriau ar y 14eg o Awst a'r 28ain o Hydref. Codwyd y groes yn 1864 er cof am y gwladweinydd goleufarn, a'r ysgolhaig trylen, Syr George Cornewall Lewis. Mae y lle yn fwrdeisdref wrth raith, yn cael ei llywodraethu dan freinlen o eiddo Elisabeth, gan feili, dau henadur, a swyddogion ereill; ymuna â Llanandras, Rhaiadr, Trefyclawdd, Cnwc glas, a Chefnllys, i anfon un aelod i'r Senedd. Mae y fwrdeisdref yn cynwys plwyfydd Maesyfed Newydd, a Llanfihangel-nant-melan, a rhanau o blwyfydd Maesyfed Hen, Llandegley, a Cascob. Poblogaeth yn 1851, 2345; yn 1861, 2262. Tai, 466.—Mae y plwyf yn cymeryd i mewn ran o drefgordd Harpton Uchaf, ac yn cynwys 3342 o erwau. Gwerth ardrethol, heb gyfrif y rhan o Harpton Uchaf, 1769*p.* Y boblogaeth, heb gyfrif y rhan hono, 463. Tai, 97. Poblogaeth y cyfan, 490. Tai, 100. Oddeutu milldir o'r dref, y mae rhaiadr mawreddog, yn disgyn dros ddibyn o 70 troedfedd. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Henffordd. Ei gwerth yw 304*p.* a phersondy; a'r Arglwydd Ganghellydd yw y noddwr.

**MAES Y FFYNNON**, treflan yn mhlwyf Llanddausant, undeb Llanymddyfri, a'r rhan isaf o gantref y Perfedd, swydd GAERFYRDDIN. Saif wrth odreu y Mynyddoedd Duon, 6½ milltir i'r de o Lanymddyfri; a chynnwysa 541 o drigolion. Ceir yma amryw nentydd coediog, tra phrydferth; ac ar amrywiol fryniau y fro, y mae carneddau, cromlechau, a gweddillion henafiaethol ereill. Mewn lle a elwir Ty Uchaf, y mae dwy o garneddau crynion mawrion iawn.

**MAES Y GROES**, trefgordd yn mhlwyf Cilcain, 4½ milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o'r Wyddgrug, swydd FFLINT. Poblogaeth, 237.

**MAES YR ODYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Glyn Myfyr, ar gyffiniau swydd DINBYCH, 11 milltir i'r de-orllewin o Ruthyn. Gwerth ardrethol, 970*p.* Poblogaeth, 198.

**MAES YR YCHAIN**, trefgordd yn mhlwyf Llandyssilio, 2 filltir i'r gogledd-orllewin o Langollen, swydd DINBYCH.

**MAES Y TREFNANT**, trefgordd, yn cynnwys poblogaeth o 49, yn mhlwyf Towyn, swydd FEIRIONYDD.

**MAETHLU**, un o seintiau Brytanaidd y chweched ganrif. Mab ydoedd i Garadog Freichfras, a Thegau Eurfron. Efe a sefydlodd Eglwys Llanfaethlu, yn Mon. Cedwid ei wylmabsant ar y 26ain o Ragfyr.

**MAGLONA.** Gwel MACHYNLLAITH.

**MAGLORIUS**, sant enwog, a flodeuodd yn y chweched ganrif. Ei dad ydoedd Umbrafael, brawd Amwn Ddu, a'i fam ydoedd Afrella. Addysgwyd ef yn Athrofa glodfawr Illtyd Sant; ac oddiyno aeth i Ffrainc, lle ei gwnaed yn Abad y Ddol, a thrachefn yn Esgob Taleithiol yn Llydaw. Wedi gwasanaethu y swydd urddasol hono am beth amser, efe a aeth i sefydlu mynachlog yn Ynys Jersey. Bu farw yn y flwyddyn 575, yn 80 mlwydd oed. Trosglwyddwyd ei gorff i'w gladdu mewn Mynachlog Fenedictaidd, yn nghyffiniau St. Jaques. Yr oedd y sant hwn yn fardd awenyddol. Efe a gyfansoddodd yr hymn Ladinaidd "*Cœlo quos eadem gloria consecrat*," yr hon a genir yn mhob Eglwys Babaidd, ar ddydd Gŵyl yr Holl Saint.

**MAGOR**, treflan, trefgordd, a phlwyf, yn nosbarth Casnewydd, swydd FYNWY. Saif y pentref gerllaw i gledrffordd Deheudir Cymru, a medda orsaf ar y llinell hono. Y mae o fewn 1¾ milltir i aberiad yr Hafren; a 7½ milltir i'r de-ddwyrain o Gasnewydd. Ymestyna y drefgordd hyd at lan y môr, a chynnwysa 1890 o erwau o dir, ac 830 o erwau o ddwfr. Gwerth ardrethol, 3636*p.* Poblogaeth yn 1871, 670. Annedd-dai, 143. Oddifewn i'r plwyf hwn y mae capeloriaeth Redwick; a chynnwysa y gapeloriaeth hono, boblogaeth o 234. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Llandaf; a'i gwerth blyneddol ydyw 285*p.* Y mae yma ysgoldy gwladwriaethol, a 3*p.* o elusenau i'w rhanu yn flyneddol rhwng y tlodion.

**MAGOS**, neu GAERFAGAN, ardal eang, yn sefyll 6 milltir i'r dwyrain-dde-ddwyrain o Raiadr Wy, swydd FAESYFED. Y mae yma ffordd Rufeinig; a thybia llawer mai dyma ydoedd safle yr orsaf Rufeinaidd a elwid Magos. Tuedda yr enw Cymreig Caerfagan, i gadarnhau y ddamcaniaeth. Darganfyddwyd llawer o weddillion Rhufeinaidd yn y fro, o bryd i bryd.

**MAIG**, neu MYGOTWAS, bardd Cymreig ag y crybwyllir ei enw yn "Chwedlau y Doethion." Dywed Iolo Morganwg, mai Mygotwas oedd awdwr y doethair "Drwg y ceidw diawl ei was."

**MALDWYN.** Swydd yn Ngogledd Cymru, yn cael ei ffinio ar yr ochr ogleddol gan swyddi Meirionydd, a Dinbych; ar y dwyrain, gan swydd yr Amwythig; ar y de, gan swydd Faesyfed; ar y deorllewin, gan Geredigion; ar y gorllewin, gan Geredigion, a Meirionydd. Ei hyd mwyaf, o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, ydyw 37 milldir; ei lled mwyaf ydyw 29 milldir, ac yn y man culaf, ei lled yw, oddeutu 21 milldir; ei hamgylchedd sydd oddeutu 135 milldir, ac y mae yn cynwys 483,323 o erwau.

Pan ddaeth y Rhufeiniaid i Brydain, perthynai y swydd hon, fel y rhan fwyaf o Wynedd, i diriogaeth llwyth y Gordofigwys. Ychydig a wyddis am ei helyntion yn y cyfnod bore hwnw; ond yn adeg y Rhufeiniaid, daeth y swydd i sylw mawr. Yn y

Digitized by Google

swydd hon, un ai yn nyffryn y Fyrnwy, neu ddyffryn y Tanad, yr oedd "Mediolanum" y Rhufeiniaid, a thybir fod ganddynt wersylloedd hefyd yn Nghaersws, yn nghymydogaeth y Drefnewydd, ac yn y Gaer, gerllaw Trefaldwyn. Y ffyrdd Rhufeinig oeddynt y *Via Devana*, rhwng Nedd yn Morganwg a Chaerlleon Gawr; yr hon a groesai y parth dwyreiniol o'r swydd; a changen o ffordd Watling, yn arwain i Gaer Seiont, yn croesi y parth gogleddol, heblaw amryw fân dramwyfeydd. Pan ranodd Rhodri mawr dalaeth Gwynedd rhwng ei dri mab, yn 876, penwyd fod i Maldwyn berthyn i dywysogaeth Powys. Pengwern, neu yr Amwythig a arferai fod yn brif ddinas Powys, hyd nes y gorfododd Offa brenin Mersia, i'r Cymry ffoi o wastadeddau swydd Amwythig; a'r dwthwn hwnw y symudwyd eisteddle y llywodraeth i Mathrafal, gerllaw Meifod, yn Nyffryn y Fyrnwy. Tywysogaeth Mathrafal y galwyd hi yn fynych ar ol hyny, ond er symud i Mathrafal, ni chafwyd gwaredigaeth oddiwrth y Mersiaid, y rhai a ruthrent i Bowys, gan feddiannu rhan o'r dalaeth y naill dro ar ol y llall. Wedi sicrhau yn y dull hwn lawer o dir nas perthynai iddo yn gyfiawn, arferodd Offa, brenin y Mersiaid, bob moddion cyfrwys i ddiogelu ei yspail; ac efe a gododd wrthglawdd, a alwyd byth ar ol hyny, Clawdd Offa, rhwng ei dalaeth ei hun a'r hyn a adawsai i'r Cymry o frenhiniaeth Powys. Nid oedd y mur hwn, pa fodd bynag, yn llwyddianus fel dyfais i sicrhau llonyddwch, canys bu yn aneffeithiol amryw weithiau i wrthsefyll y rhuthrgyrchoedd mynych a wnelai tywysogion Powys, i adenill y tiriogaethau a drawsfeddianesid gan draha y Saeson. Gwnaed y wlad yn fathrfa minteioedd olynol o Saeson a Chymry dialgar, y naill blaid mor yspeilgar a'r llall; ac yn ystod teyrnasiad Alffred Fawr, brenin Lloegr, yn 894, daeth mintai o'r Daniaid, dan arweiniad y carn-leidr enwog Hasting, ar rawd ddinystriol can belled a'r sir hon. Cyrhaeddodd yr haid anfad cybelled a phentref Buttington, gerllaw y Trallwm, ond clywsant yno, fod byddin Seisnig yn nesu i'w gwrthwynebu, a thybiasant yn ddoeth ymwersyllu yn ddioed mewn gwarchgloddiau cedyrn ar ddwy lan yr Hafren. Gwarchaewyd ar y gwersyll hwn am wythnosau gan Ethelred, brenin Mersia, â llu nerthol o uchelwyr a gwreng. Gwasgwyd y Daniaid o'r diwedd i'r fath gyfyngder, fel y bu yn dda ganddynt gael eu ceffylau yn ymborth, ond yn hytrach na digaloni, gwnaethant ymdrech penderfynol i dori y gwarchae, trwy ruthro fel llifeiriant ar y Saeson, nes gwneuthur adwy yn yr ochr ddwyreiniol. Bu yn ymladd gwaedlyd am ysbaid hir, a lladdwyd amryw dywysogion brenhinol, ond llwyddodd y rhan fwyaf o'r Daniaid i ddianc, a phrysurasant tuag arfordir Essex, heb ragor o aflonyddwch. Bu tywysogaeth Powys, oherwydd ei safle ar y goror, yn fwy anffodus a therfysglyd na'r gweddill o Gymru, ar ol y goresgyniad Normanaidd. Yr oedd pob estron lladronllyd, fel yn troi ei lygaid trachwantus arni; ac aeth traha un o honynt i'r fath rysedd cywilyddus, fel y tyngodd efe warogaeth ac ufudd-dod i'r Goresgynwr dros y parth hwn o Gymru, cyn iddo erioed ei ddarostwng. Enw y gwr uchelfryd hwn, oedd Baldwyn, ac efe a ymbarottodd yn ddiymaros i gyflawni ar weithred y warogaeth a roddasai ei enau i'r brenin. Cafodd bob cymorth i gario allan ei fwriadau ysbeilgar, ac ar ol llwyddo i raddau, efe a gododd gastell yn y swydd hon, mewn lle a alwyd byth wedi hyny "Tre Faldwyn," a benthyciodd y sir yr un enw o hyny hyd y dydd heddyw. Yr hyn a rwyddhaodd y ffordd i Baldwyn gyflawni ei dipyn gorchest, oedd y ffolineb o ranu Powys rhwng dau o ddisgynyddion Merfyn, mab Rhodri mawr. Rhoddwyd i un y rhan ogleddol o'r dalaeth, wrth yr enw Powys Fadog; i'r llall y rhoddwyd Powys Gwenwynwyn, sef y parth deheuol; ac fel pe na buasai hyn yn ddigon o wanychiad, rhanwyd y taleithiau hyn drachefn, rhwng disynyddion Madog, a Gwenwynwyn. Rhoddodd y trefniad hwn y Cymry dan anfantais i weithredu yn unol pan ddelai galwad, ond er hyny ni chafodd Baldwyn dario yn hir yn ei amddiffynfa, canys ymhen y flwyddyn, casglodd y Cymry eu nerth yn nghyd, ac enillasant y castell trwy ruthr disymwth. Yn ol arfer yr oes, ysbeiliasant y dref, a difrodasant y wlad oddiamgylch. Ond er methu o Baldwyn a chyfiawnhau ei ymffrost balch, ni chafodd Powys heddwch oddiar ddwylaw y Normaniaid, eithr caniataodd Gwilym Orcsgynwr drwydded i un Roger de Montgomery, i fyned a darostwng y Cymry a gyfaneddent ar y tu gorllewinol i'r Hafren. Casglodd Roger fyddin gref, a buan yr adfeddianodd efe y castell a ollyngasai Baldwyn o'i afael. Yr oedd y naill mor hunanol a'r llall, a thybiodd Roger y dylai yr ymddiffynfa mwyach ddwyn ei enw ef, ac nid eiddo ei ragflaenydd. Am hyny efe a'i galwodd ar ei enw ei hun, Montgomery, ac ar yr enw hwn yr adnabyddir y dref a'r sir hyd heddyw yn iaith y Saeson. Ennillodd Roger ffafr y brenin trwy ei lwyddiant, a rhoddwyd iddo y teitl o Iarll Arundel ac Amwythig. Adgyweiriwyd, a chyfnerthwyd y castell, gan Gwilym yr Ail, neu Gwilym Goch; yr hwn a benderfynodd roddi pen ar rwysg difrodgar y minteioedd Cymreig, dan Gruffydd ab Cynan, a meibion Bleddyn ab Cynfyn. I'r perwyl hwn, efe a arweiniodd fyddin dros y goror, ond gorfu arno ei galw adref gyda cholledion trymion, ar ol gadael gwarchodluoedd yn nghastell Trefaldwyn. Amgylchynwyd y castell gan y Cymry, y rhai ar ol gwarchae caled, a'i cymerasant trwy ruthr, ac a'i gosodasant yn gydwastad â'r llawr. Ond ni pharhaodd llwyddiant i wenu ar y Cymry yn hir, canys daeth y Normaniaid drachefn i'r wlad, ac ail-adeiladwyd y castell, gan Iarll Amwythig. Yn y flwyddyn 1080, glaniodd Gruffydd ab Cynan yn swydd Benfro, gyda'r amcan o ymdaith tua'r gogledd, i brofi ei hawl i orsedd Gwynedd. Ymunwyd âg ef gan Rhys ab Tewdwr, tywysog y Deheubarth, ac ymdeithiodd eu lluoedd cynghreiriol i'r Gogledd yn erbyn Trahaiarn, yr hwn a lywodraethai Wynedd ar y pryd. Bu frwydr ofnadwy ger Carno, yn y swydd hon; buddugoliaethodd Gruffydd, ac yn y lladdfa, cwympodd Trahaiarn ei hun. Yn y flwyddyn 1191, o herwydd clywed fod y Cymry wedi gwneud amryw ymosodiadau ar drigolion y goror, yr ydym yn cael ddarfod i Hubert, archesgob Caergaint, trwy fod Risiart y brenin yn y croesgadau, osod gwarchae ar y Castell Coch, a elwir yn bresenol Castell Powys, ger y Trallwm. Enillodd Hubert y castell ar ol gwrthsafiad ystyfnig, ac wedi gosod ynddo warchodlu cryf, efe a ddychwelodd i Loegr. Adenillwyd yr amddiffynfa gan y tywysog Cymreig, Gwenwynwyn, yn 1197; eithr ni bu y cyfnewidiad o nemawr fudd i'r Cymry; canys ymostyngodd Gwenwynwyn, o herwydd cenfigen, neu ddrwg deimlad at dywysog Gwynedd, i dalu gwarogaeth i Ioan frenin Lloegr, ac i ddal ei diriogaeth fel talaeth dan goron Lloegr. Ymddygiad bradwr

Digitized by Google

ydoedd hyn, a phan olynwyd ef yn y llywodraeth gan ei fab Gruffydd, adfeddianwyd, a dinystriwyd y castell gan Llewelyn ab Iorwerth. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1233; ond Harri y Trydydd a adeiladodd yr amddiffynfa drachefn, ac a'i hymddiriedodd i gadwraeth Hubert de Burgh, yr hwn a warchaewyd gan y Cymry, ond a wrthsafodd y gwarchae, nes dyfod o fyddin Seisnig i'w gynorthwyo. Cafodd lliaws mawr o'r Cymry a gymerwyd yn garcharorion yn y rhuthrgyrchoedd hyn, eu rhoddi i farwolaeth gan y Saeson, ac i ddial y creulondeb, cymerwyd a llosgwyd yr amddiffynfa gan Llewelyn, yr hwn a roddodd y gwarchodlu i farwolaeth, fel ad-daliad am yr hyn a ddioddefodd y Cymry. Pan wrthryfelodd Owain Glyndwr, ac y daeth llewyrch ar achos y Cymry, yn Machynlleth, ar gyffiniau gorllewinol y swydd hon, y cynhaliodd y gwron dieilfydd ei gyngor gyda phenaethiaid taleithiau Cymru, a chydnabyddodd y gynnadledd bwysig hono ei hawl i'r goron oedd heb ei gwisgo er pan gwympasai y Llyw Olaf. Yn ystod rhyfel cartrefol yr eilfed ganrif ar bymtheg, meddienid castell Trefaldwyn dros y brenin, gan Arglwydd Herbert o Chirbury; ond ar ddynesiad lluoedd y Senedd dan Syr Thomas Myddelton, efe a roddodd y gaerfa i fyny, heb ddim gwrthwynebiad. Cyn hir, daeth y fyddin frenhinol dan Arglwydd Byron, yn erbyn Trefaldwyn, a bu orfod ar fyddin Syr Thomas Myddelton, ffoi ar ffrwst tua Chroesoswallt, a gadael Arglwydd Herbert, yr hwn oedd wedi newid ei ochr, gyda gwarchodlu bychan, i amddiffyn y castell yn erbyn y brenhinwyr oedd weithian wedi ei amgylchynu. Erbyn hyn, pa fodd bynag, yr oedd adgyfnerthion wedi cyrhaedd y fyddin Seneddol, yr hon a ymdeithiodd yn ddioed dan Myddelton, Brereton, Meldrum, a Fairfax, i ddiogelu y castell rhag y brenhinwyr. Rhifai y seneddwyr oddeutu tair mil, a chyrhaeddai byddin y brenin i oddeutu pum mil. Aeth yn frwydr gyffredinol, yn yr hon am ychydig, y dechreuodd y seneddwyr golli tir; ond ymadnewyddasant drachefn gyda dewrder di-ildio, nes o'r diwedd yr enillasant fuddugoliaeth fawr, ac ymlidiasant weddill y fyddin orchfygedig rhyngddynt a'r Amwythig. Yr oedd Arglwydd Powys, ar doriad allan y rhyfel cartrefol, wedi gosod gwarchodlu yn y Castell Coch, dros y brenin; ond syrthiodd y castell i ddwylaw y seneddwyr, dan Syr Thomas Myddelton, yn Hydref 1644.

Mae yn swydd Maldwyn, fel y gallesid dysgwyl, amryw weddillion o'r hen oesoedd. Ceir olion gwersylloedd ac amddiffynfeydd Rhufeinig, petrual eu ffurf, yn Nghaersws, y Gaer, a Mathrafal, heblaw amryw olion Rhufeinig llai eu pwys. Yn Nghwmglan-Afon, ger Llangynog, y mae gweddillion adeilad henafol iawn, pedair llath ar ddeg o hyd, a saith o led, o'r enw Cubil, a thybir mai ffwrnais dawdd gan y Rhufeiniaid oedd ynddo, canys y mae amryw lefelydd mwnawl, o henafiaeth diamheuol yn y gymydogaeth. Yr oedd y ffordd Rufeinig *Via Devana*, yn dyfod i'r sir, o orsaf yn Nghastell Collwyn, Maesyfed, ac y mae ei chwrs gogleddol heibio Caersws, i'w weled etto yn mhlwyfydd Aberhafesp, Tregynon, Llanwyddelan, Llanllugan, Llanfair, a Llanerfyl. Yr oedd y ffordd Rufeinig arall a groesai y sir, yn dyfod i mewn o swydd Amwythig, ger pentref Llandrinio, ac y mae yn ganfyddadwy hyd y dydd hwn yn y gymydogaeth hono; yn Mediolanum, yr oedd y ffordd hon yn croesi y *Via Devana*, ac yn rhedeg oddiyno heibio Llangynog, a Thrum y Sarn, i swydd Feirionydd. Gellir hefyd olrhain amryw fân ffyrdd Rhufeinig, mewn gwahanol barthau o'r sir. Mae Clawdd Offa i'w olrhain bron ar hyd ei holl rediad trwy y sir hon. Deua i mewn o'r de yn Mhwll y Piod, ar y ffordd rhwng *Bishop's Castle* a'r Drefnewydd, ac oddiyno rhed ger *Mellington Hall*, heibio melin Brompton, a Pharc Lymore, ger Trefaldwyn, ac heibio *Forden Heath*, Nant y Cribau, Plas Leighton, ac eglwys Buttington; y mae yn ymgolli yma am bum milldir, a'r tebygolrwydd ydyw, fod gwely yr Hafren am hyny o bellder, yn gwneud yn lle gwrthglawdd, yr hwn sydd yn gwneud ei ymddangosiad drachefn ychydig islaw ymarllwysiad y ffrwd Bele i'r Hafren, ar ochr ogleddol yr afon olaf. Yna êl heibio eglwysydd Llandysilio, a Llanymyneich, hyd at fin y dibyn calchfaen yn y plwyf olaf, ac oddiyno ar draws y parth gogledd-orllewinol o swydd Amwythig, i swydd Dinbych. Y mae yn gynwysedig o ffos fawr, a gwerthyr, yr olaf ar ochr Lloegr; yn ei ymyl, gerllaw Mellington Hall, y mae gwersyll o'r enw Caer-ddin; tomen wrth felin Brompton; a hen amddiffynfa arall yn Nant y Cribau. Ar gopa mynydd uchel, ger pentref Llandinam, y mae gwersyll Prydeinig cryf; ac y mae yn wasgaredig ar hyd cymydogaeth Meifod amryw wersyllfaoedd, y rhai y tybir eu bod yn dwyn rhyw berthynas â chastell Mathrafal, syfleini yr hwn sydd yn olrheinadwy. Y mae hefyd wersyll Prydeinig crwn, o'r enw Gardden, neu, y Gaerddin, ar fryn ger Llanfair, ac un arall yn Llanerfyl; y mae gweddillion trydydd i'w gweled yn Nghastell Caereinion. Ceir tomen ddeg llath a thriugain o amgylchedd, gerllaw *Cann Office*, rhwng Llanfair a Mallwyd. Ceir carneddau ar ben Plumlumon, a lliaws yn mhlwyfydd Llanerfyl, a Llangadfan, lle mae y rhai mwyaf, o ddeg ar hugain i driugain llath o amgylchedd. Ar fryn o'r enw Pencoed, yn mhlwyf Llangadfan, y mae lliaws o fân dyllau, a bryniau; tybir mai claddfeydd yr hen Gymry oeddynt. Yn adeg y Diwygiad Protestanaidd, yr oedd yn Llanllugan leiandy, ac abatty yn Ystrad Marchell.

Maldwyn yw y swydd fwyaf o ran maintioli yn Ngwynedd. Gwneir i fyny y rhan fwyaf o honi o fynyddoedd gwylltion a diffrwyth, y rhai uchaf o honynt yn y pen de-orllewinol, yn rhedeg mewn llinell o Blumlumon i'r gogledd, rhwng Carno a Llanbrynmair, ac heibio Llyn Gwyddior, i Feirionydd. Mae y gadwen hon rhwng yr afonydd sydd yn rhedeg i'r dwyrain, a'r rhai a redant i'r cyfeiriad gwrthgyferbyniol. Y dyffryn ffrwythlonaf yw yr un a ddyfrheir o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain gan yr Hafren, tarddiad yr hon sydd yn y rhan ddeheuol o'r gadwen hon, a'r hon a gyll bob nodwedd chwyrn erbyn cyrhaedd Llanidloes, ac oddiyno a ymddolena trwy ddyffryndir meillionog, tebycach i wastad-diroedd breision Lloegr nag i ddim o'r fath a geir rhwng mynyddoedd Cymru. Ymlochesa lliaws mawr o bentrefydd yn nghysgod y bryniau, yn y rhandir ffrwythlawn hwn, tra y mae glanau yr afon, yn cael eu bywiogi a'u haddurno gan amryw drefydd, a phalasdai boneddigion. Mae y dyffrynoedd ereill, mewn cyfeiriad gogleddol o ddyffryn yr Hafren, yn llai eang a ffrwythlawn, ond nodweddir dyffrynoedd y Fyrnwy, a'r Tanad, gan ffrwythlondeb a gwir urdduniant. Dyfrheir dyffryn y Fyrnwy gan aberoedd a redant o'r trum bryniau i'r gorllewin, a dyffryn y Tanad, gan ffrydiau o'r Berwyn, y gadwen o fynyddoedd sydd yn croesi y parthau gogleddol a

Digitized by Google

gogledd-orllewinol o'r sir, o ymyl Castell y Waen, yn sir Ddinbych, hyd lan y môr, yn Meirionydd. Ffrwythlawn iawn hefyd yw dyffryn y Ddyfi, yn ngorllewin-barth y sir. Ar y cyffiniau gogledd-orllewinol, fel y mynegasom, y mae mynyddoedd y Berwyn, a'r uchaf yn 2014 o droedfeddi; yn y dwyrain ceir tŵr o fryniau, a elwir y Breiddin, gyda Moel y Golfa, yn 1199 troedfedd o uchder, bryn Breiddin yn 999 troedfedd, a Chefn y Castell; yn y de, y mae bryniau Llandinam, yr uchaf yn 1898 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y mor; mae gwastattir, yn fil o droedfeddi uwchlaw y mor, yn y canolbarth; ac ar y cyffiniau de-orllewinol, y mae mynyddoedd Plumlumon, yn 2463 o droedfeddi o uchder. Nid yw bryniau Maldwyn mor fawreddog eu hymddangosiad a mynyddoedd rhai o siroedd ereill Cymru; ond y maent yn fwy gwerthfawr, gan fod y rhan fwyaf o honynt yn dwyn gorchudd o borfa las hyd at eu copäau. Mae godreu rhai o honynt yn isel iawn, a lliaws o fryniau yn eu gwahanu, yr hyn ynghyda'r tiroedd breision yn y dwyrein-barth, a ffurfiant fwy o lawer o ffrwythlondir nag a allesid ddysgwyl mewn gwlad mor uchel. Er hyny, y mae yn y sir lawer iawn o gyttir anhydrin, a bu gynt, y rhan fwyaf o'r sir yn anialdir. Bu pedwar cyfyngiad mawr ar y cyttiroedd—yn gyntaf, amgauad Ystrad Marchell, Tir y Myneich, a'r Deuddwr, pan yr amgauwyd oddeutu 2600 o erwau, dan ddeddf a basiwyd yn 1788; amgauad Plas Dinas, a Mechain Iscoed, sef oddeutu 5000 o erwau, dan ddeddf a basiwyd yn 1789; amgauad Cedewain, Hopetown, ac Ofergorddwr, yn cyrhaedd i oddeutu 15,000 o erwau, dan ddeddf a gafwyd yn 1796; ac amgauad bryniau Cerri, oddeutu 20,000 o erwau, dan ddeddf a gafwyd yn 1797. Cyn hyny, cyfrifid hanner y sir yn gyttir diwerth. Mae llawer o'r bryniau sydd heb eu hamgau, yn meddu ar ddyfnder da o ddaear, ac yn orchuddiedig â mwsogl, rhedyn, a glaswellt hyd eu cribau, ac y mae glas-dir i'w gael hyd at gopäau y mynyddoedd uwchaf, y rhai nis gallesid eu troi i well pwrpas nag i fod yn borfeydd i breiddiau rhywiog o ddefaid, ac i fod yn danwydd i barth o wlad lle nad oes gormodedd o goed, a glo. Yr oedd rhanau helaeth o faenorydd Ystrad Marchell, Tir y Myneich, a'r Deuddwr, yn ddarostyngedig i orlifiadau mynych oddiwrth ymgodiad disymwth yr afonydd Hafren, a'r Fyrnwy, yn enwedig y flaenaf, ac oblegid hyny rhoddwyd adran yn neddf eu hamgauad, er galluogi y dirprwywyr i godi gwrthgloddiau, gyda'r amcan o gadw y llifeiriant mewn terfynau, y rhai gyda'r amgauad, a barasant draul o yn agos i 26,000*p.* Pan ystyrir yr anghyfleusderau naturiol, mae amaethyddiaeth y swydd hon mewn sefyllfa uchel iawn. Bernir fod yr wythfed ran o honi yn dir aredig, a'r drydedd ran yn borfa. Mae y tir yn y dyffrynoedd gan mwyaf yn gleiog, gan fyned yn fwy cyfoethog a marlaidd, fel yr eir yn is. Un rheswm, a'r rheswm penaf, am y ffrwythlondeb, ydyw digonedd o foddion dyfrhau. Mae trum o fynyddoedd yn rhedeg o'r gogledd i'r de, ac yn arllwys dyfroedd i'r dwyrain a'r gorllewin. Y benaf ar y dwyrain ydyw yr Hafren, brenhines afonydd Cymru, ynghyda'r Tanad, a'r Fyrnwy, y rhai a ffrydiant iddi. Cyfyd yr Hafren yn ffrwd gref, o ffynnon durddwr, ar ochr ddwyreiniol Plumlumon; a rhuthra yn ffroch tua thref Llanidloes, gan dderbyn ar ei ffordd, ffrydiau Bachwy, a Glaslyn. Ymuna â'r Clywedog yn Llanidloes, ac oddiyno rhed yn fwy llyfn a gwastad, gan gymmeryd cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, trwy ddyffryn llydan a hyfryd, heibio y Drefnewydd, ac o fewn milldir a haner i Drefaldwyn, gan lyncu dyfroedd y Miwl yn Abermule, a'r afonig Rhiw yn Berriew, neu Aber-Rhiw, heblaw lliaws o fân ffrydiau ereill. O'r lle olaf, cymer gyfeiriad gogledd-ogledd-ddwyreiniol, i'r Trallwm; ac yn *Pool Quay*, ychydig islaw y dref hono, y mae yn fordwyol, a chan droi yn raddol i gyfeiriad dwyreiniol, rhed ymlaen trwy wely dwfn, ac ar ol i'r Fyrnwy ymarllwys iddi, croesa y terfyn i swydd Amwythig. Dechreua y Fyrnwy ei thaith yn ddwy gainc, y naill yn tarddu ger Bwlch y Fedwen, ar dueddau Meirionydd; a'r llall ger Llanwddyn. Ymuna y ddwy ger Mathrafal, a rhedant yn afon gref, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, nes dyfod bron at derfynau y sir. Yna try yn ddisymwth tua'r dwyrain, ac ar ol derbyn dyfroedd y Tanad, ffurfia linell derfyn ogledd-ddwyreiniol y sir, nes ymuno â'r Hafren, ar y cyntaf yn gwahanu Maldwyn oddiwrth ran o sir Ddinbych, ac wedyn oddiwrth swydd Amwythig. Mae yr afon hon yn fordwyol am rai misoedd yn y gauaf, can uched a Llanymyneich, a nodweddir hi, a'i cheinciau gan amrywiaeth a rhagoroldeb y pysgod. Y benaf o'i cheinciau ydyw y Tanad, yr hon sydd a'i tharddiad yn mynyddoedd y Berwyn, yn mhen gogleddol y sir. Ymunir â hi ychydig islaw pentref Llanrhaiadr-yn-Mochnant gan yr afonig Rhaiadr, yr hon a ddisgyna o'r un rhandir mynyddig, ar hyd tueddau sir Ddinbych, ac a ffurfia raiadr mawreddog y Pistyll. Wedi hyn, ffurfia y Tanad linell derfyn y sir i'r gogledd, gan ei gwahanu oddiwrth swydd Ddinbych; ond yn fuan, try yn raddol i'r dwyrain at dueddau swydd Amwythig, ac yna, pan yn dynesu at Llanymyneich, try yn ddisymwth i'r de, nes ymuno â'r Fyrnwy gerllaw Llandysilio. Derbynia yr Hafren hefyd ddyfroedd y Clywedog, a'r Taranon, a cheinciau i'r Fyrnwy ydynt y Fanw, y Fechain, yr Einion, y Frogan, a'r Cain. Cyfyd yr Wy ar ochr ddeheuol Plumlumon, ac ar ol rhedeg am ddeng milldir trwy y sir mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol, heibio Llangurig, croesa i Faesyfed. Yr afon benaf ar yr ochr orllewinol i'r mynydd-dir, ydyw y Ddyfi, yr hon a ddisgyna o odreu Aran Fawddwy, gan redeg heibio Dinas Mawddwy, i gwr eithaf gorllewin Maldwyn, ac yno rhed trwy ddyffryn bras, o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, heibio tref Machynlleth. Ar ol ffurfio llinell derfyn orllewinol y sir am rai milldiroedd, gedy Faldwyn yn llwyr ar ymuniad ffrwd fechan o Blumlumon â'i dyfroedd. Mae camlas fawr, yr hon a gostiodd 125,000*p.*, yn rhedeg hyd ddyffryn yr Hafren, am 24 milldir, o'r Drefnewydd i Lanymyneich, a chainc dair milldir o hyd yn myned i Guilsfield; mae y gamlas hon yn ymuno â chamlas Ellesmere yn Llanymyneich. Mae yn y sir oddeutu dwsin o fân lynoedd, y penaf o ba rai ydynt Bugeilyn, Glaslyn, Llynygwyddior, Llyn Hir, a Llyn yr Afanc. Gyda'r fath gyflawnder o ddwfr, buasai yn gywilydd i'r amaethwyr esgeuluso trin y tir, a da genym ddweyd, nad ellir dwyn cyhuddiad o'r fath yn eu herbyn. Gwerthfawrogir amaethu da, yn enwedig yn y dwyrein-barth, a thyfir ceirch, haidd, pys, ffacbys, cywarch, gwenith, rhyg, maip, a meillion. Megir gwartheg Cymreig yn y parthau mynyddig, a gwartheg Devon, a Hereford, ar y tiroedd goreu. Meithrinir dau fath o ddefaid ar y mynyddoedd, un y rhywogaeth fach frodorol, o 8 i 10 pwys y chwarter; a'r llall yw rhywogaeth *Kerry Hill,*

Digitized by Google

digyrn, gyda gwlân rhagorol, ac oddeutu 12 pwys y chwarter. Ceir digonodd o'r merlynod mynydd yn y parthau uchel, a megir ceffylau o waed rhagorol, yn y dyffrynoedd. Anfonir anifeilaid, ymenyn, a chaws, o'r sir yn symiau mawrion; gwneir ychydig ossai (*cider*); a chedwir planhigfeydd derw, o ba rai yr anfonir coed at adeiladu llongau. Yr oedd Maldwyn erioed yn enwog am ei choed, ac ni buasai y bardd yn troseddu unrhyw reol, oddieithr eiddo y gynghanedd, pe dywedasai, "*Maldwyn* am goed, minnau am gân." Yn wir, yr oedd y fath gyflawnder o goed yn Maldwyn ers llai na chant a haner o flyneddoedd yn ol, fel nad oedd raid i'r trigolion ofalu am ddim arall yn danwydd. Gwerthwyd coed y sir hon am y tro cyntaf, o wîg Abertanad, ar dueddau swydd Amwythig, oddeutu y flwyddyn 1730. Oddeutu y flwyddyn 1750 gwerthwyd ychwaneg o goedydd Castell Powys, Aber Naint, a Thref Edryd, ac er y pryd hwnw, nid oes odid flwyddyn nad ydyw Maldwyn wedi anfon coed at wasanaeth y llynges. Nid yw mor enwog yn yr ystyr yma yn bresenol ag y bu, ond cyfrifir Maldwyn etto, y sir fwyaf coediog yn Nghymru, ac mewn cymhariaeth i'w maintioli, nid yw yn ol i odid sir yn y deyrnas.

Er nas gall Maldwyn ymffrostio o gyfoeth mwnawl Arfon, a Meirion, nid yw ei daear hithau yn hollol ddidrysor. Cloddir llechau yn Llangynog, Llanidloes, Machynlleth, a manau ereill; mae yn mysg bryniau Breiddin, gloddfeydd yn cynwys meini melin; ceir ceryg calch yn Llanymyneich, a Phorthywaen; ceir ychydig lo yn Nghoedwae; mwn plwm, gyda pheth arian ynddo, yn Llanbrynmair, Craig y Mwyn, Esgairhir, Pennant, Dylifau, Esgair Galed, a Dol y Felin Blwm; darganfyddwyd mwn efydd gan y Rhufeiniaid yn Llanymyneich; ac y mae mwn sinc i'w gael yn nghymydogaethau Llangynog, a Llanfyllin. Ceir ffynnonau mwnawl yn Llanfair, a Meifod, a chyfrifir fod yn eu dyfroedd rinwedd i wella amrywiol anhwylderau. Mae yn y swydd amryw law-weithfaoedd, yn y rhai y llafuria llaweroedd o'r trigolion. Gweithfeydd gwlaneni, a brethynau sydd yma gan mwyaf. Yn ol cyfrifiad 1861, yr oedd 290 o wrywod, a 218 o fenywod, yn cael gwaith gyda'r gwlaneni, ac 843 o wrywod, a 703 o fenywod, ar y brethynau. Mewn sir gyda chymmaint a fwngloddiau, a gweithfeydd ereill, y mae yn gofyn cael llawer iawn o foddion teithio, a chludiad. Y mae Maldwyn wedi ei chyflenwi â digonedd o ffyrdd o bob math, heblaw y gamlas, ac nid ychydig o reilffyrdd. Mae un reilffordd yn rhedeg o Groesoswallt i Lanidloes drwy y Trallwm, Trefaldwyn, a'r Drefnewydd; ceincia dwy reilffordd o honi yn Llanidloes, y naill i fyned tua Buallt, a'r llall tua Llanbedr Pont Stephan; mae un arall yn ceincio o'r gyntaf yn Llanymyneich, yn orllewinol i Lanfyllin; mae un arall yn ceincio o'r un man mewn cyfeiriad gwrthgyferbyniol, ac yn pasio trwy ran o'r goror gogledd-ddwyreiniol, er mwyn cynnal trafnidiaeth â'r Amwythig; un arall, yn ceincio o'r gyntaf yn y Trallwm, ac yn myned mewn cyfeiriad dwyrain-ogledd-ddwyreiniol, i gyd-redeg â'r olaf i'r Amwythig; dwy arall, yn ymadael â'r gyntaf yn Nhrefaldwyn, ac yn rhedeg y naill i'r gogledd-ddwyrain tuag Amwythig, a'r llall i'r de-ddwyrain tua *Bishop's Castle;* un arall, yn ceincio o'r gyntaf yn y Drefnewydd, ac yn myned i'r gorllewin heibio Carno, Llanbrynmair, a Machynlleth, tuag Aberystwyth; ac y mae cainc fechan yn rhedeg o'r un fan a'r olaf mewn cyfeiriad dwyreiniol, i Cerry.

Gwneir y swydd i fyny o wyth a deugain o blwyfydd, rhanau o naw plwyf arall, ac un lle anmhlwyfol; a rhenir hi i fwrdeisdrefi Llanidloes, a Thrallwm, a chantrefi Caersws, Deuddwr, Llanfyllin, Llanidloes, Machynlleth, Mathrafael, Trefaldwyn, Drefnewydd, a Thrallwm. Dan ddeddf 1844, er crynhoi rhanau gwahanedig o siroedd, cyssylltwyd â Maldwyn y drefgordd Careghwfa, yr hon yn flaenorol a berthynai i sir Ddinbych. Mae y sir at ddybenion etholrestrol yn rhoddi ymaith un drefgordd i Feirionydd, ac un plwyf, a rhan o ddau arall, i swydd Amwythig; yn cymeryd un drefgordd oddiar swydd Aberteifi, tri phlwyf, a rhan o un arall oddiar swydd Ddinbych, dau blwyf oddiar Meirionydd, ac un plwyf, a rhan o ddau arall, oddiar swydd Amwythig; cynwysa 568,121 o erwau, ac y mae yn rhanedig i ddosbarthiadau Trefaldwyn, y Drefnewydd, Llanfyllin, a Machynlleth. Cynnhelir uchel frawdlys y Garawys yn y Trallwm, ac uchel frawdlys yr Haf yn y Drefnewydd; yn Nhrefaldwyn y cynnhelir y brawdlys chwarterol, a hi ydyw prif dref etholiadol y sir. Y trefydd marchnad ydynt y Trallwm, y Drefnewydd, Trefaldwyn, Llanfair, Llanfyllin, Llanidloes, a Machynlleth; yr unig drefydd a phoblogaeth pob un uwchlaw 2000, ydynt y Trallwm, y Drefnewydd, a Llanidloes; ac y mae yn y sir dros 300 o fân drefydd, pentrefydd, a threflanau. Y prif balasdai ydynt Lymore, Nantyeribau, Bodfach, Gregynog, Aberfechan, Aberiarth, Llwydiarth, Broadway, Bryngwyn, Dolforwyn, Dolguog, Garth, Garthmyl, Glanhafren, Brynglas, Leighton, Mathafarn, Mellington, Plas y Drefnewydd, Rhiwport, Trelydan, a'r Faenor. Llywodraethir y sir gan arglwydd raglaw, sirydd, saith o is-raglawiaid, ac oddeutu deugain o ynadon; perthyna i ddosbarth milwraidd Gwynedd (yn ol deddf 1872), i gylchdaith farnol Gwynedd, ac i esgobaethau Llanelwy, Bangor, a Henffordd. Yr oedd yr heddlu yn y flwyddyn 1864 yn cynwys 29 o wŷr, ac yn costio yn flyneddol 2392*p.* Yn yr un flwyddyn, cyflawnwyd 116 o droseddau, cymerwyd 129 o bersonau i'r ddalfa, yr oedd 372 o droseddwyr adnabyddus, neu bersonau a ddrwgdybid, a'u traed yn rhyddion, a 67 o dai drwg. Enfyn y sir un aelod i'r Senedd, ac ymuna y chwe bwrdeisdref i ethol un cynnrychiolydd cydrhyngddynt. Nifer yr etholwyr sirol yn y flwyddyn 1833 oedd 2523; yn 1865, 3339, —o ba rai yr oedd 1860 yn rhydd-ddeiliaid, a 1284 yn dir-ddeiliaid, ond y mae y nifer yn bresenol yn llawer mwy, mewn canlyniad i estyniad yr etholfraint. Gwerth ardrethol yn 1815, 207,286*p.*; yn 1843, 341,086*p.*; yn 1860, 350,962*p.*,—o ba swm yr oedd 1847*p.* mewn chwarelydd, 3262*p.* mewn mwngloddiau, 20*p.* mewn pysgodfeydd, 2913*p.* mewn rheilffyrdd, a 489*p.* mewn gweithfeydd nwy. Nifer y trigolion yn 1801 oedd 48,184; yn 1821, 60,245; yn 1841, 69,607; yn 1861, 66,919; yn 1871, 67,623. Tai anedd yn 1871, 13,911; tai gweigion, 521; yn cael eu hadeiladu, 53. Poblogaeth y sir etholrestrol, yn 1851, 77,142; yn 1861, 76,923. Tai anedd, 15,608; tai gweigion, 509; yn cael eu hadeiladu, 100.

**MALEN**, nodwedd a ddarlunir yn y chwedloniaeth Dderwyddol, ac a elwir hefyd "ANDRAS," a'r "FALL," a "MAM Y DRWG." Dywedir yn y Trioedd, mai y tri ellyll a gydnabyddid yn yr ynys hon, oedd Ellyll Banawg, Ellyll Ednyfedawg Drythyll, ac Ellyll Malen. Dywaid *Davies*, mai Minerfa Prydain ydoedd.—*Anc. Myth.* p. 135.

Digitized by Google

**MALLT**, ydoedd enw ar un o'r ysprydion drwg, ac a elwid hefyd, y "Mwci Mallt," gan olygu fod ei ddylanwad yn y tywyllwch.

**MALLTRAETH**, sydd gantref, yn nghanol parth deheuol swydd FON, yn cynwys plwyf Aberffraw, a saith o blwyfydd eraill. Erwau, 28,156. Poblogaeth yn 1851, 6317; yn 1861, 4711. Tai, 1070. Y mae yr afon Cefni yn rhedeg gyda'r terfyn deheuol, ac yn diweddu mewn morfa hirfaith a llydan, gyda'r glan a elwir Malldraeth, neu dywod Malldraeth. Y mae golwg ddiffrwyth ac anghyfanedd ar y traeth; ond y mae wedi ei sychu i raddau, a'i ddiwyllio, ac y mae rheilffordd Caerlleon a Chaergybi yn ei groesi. Codid glo, mewn cryn helaethder, amser a fu, yn agos i Aberwy, ond y mae y gwaith wedi sefyll er cryn dymor bellach.

**MALLWYD**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Dolgellau; y mae y pentref, a'r rhan fwyaf o'r plwyf, yn swydd FEIRIONYDD, ac y mae y gweddill o'r plwyf yn Nhrefaldwyn. Y mae y pentref yn sefyll ar geulan yr afon Dyfi, ac yn agos i reilffordd Mawddwy. Y mae y lle hwn yn nghanol golygfeydd tarawiadol iawn, 2 filltir de dde-ddwyrain o Ddinas Mawddwy; ac y mae yma westy da. Y mae yn gyrchfa hoff genweirwyr, a gelwir y lle weithiau yn baradwys y darlunwyr. Y mae *Evans* yn desgrifio y lle, rhwng tri mynydd uchel llethr-syth, megis oriel naturiaethol; Camlan yn codi gyda mawredd uchelgrib yn gyferbyniol; a'r Aran, a'r Moel-dyfi benuchel yn codi eu coryn, gyda'u hamrywiol gymau, gyda gwahanol liwiau a chysgodion ar ddyfroedd y Dyfi. Y mae cyfran Meirionydd o'r plwyf, yn cynwys hefyd drefgorddau Camlan, Cerist, Dinas, Dugoed, Gartheiniog, a Maesglasau; ac y mae cyfran Trefaldwyn yn cynwys Trefgordd Caereinion-fechan. Llythyrfa yn Dinas-Mawddwy, dan Cemmaes, Trefaldwyn. Erwau yn nosparth Meirionydd, 14,556. Gwerth ardrethol, 3699*p.* Poblogaeth yn 1851, 1085; yn 1861, 938. Tai, 207. Erwau yn nosparth Trefaldwyn, 1894. Gwerth ardrethol, 707*p.* Poblogaeth yn 1851, 116; yn 1861, 111. Tai, 22. Y mae y meddianau yn cael eu rhanu rhwng lluaws. Y mae rhaiadr tra hynod yr olwg arno, ar yr afon Dyfi, yn Mhont-Fallwyd, o fewn ychydig bellder oddiwrth y pentref. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 340*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Bu gweithfaoedd, gwlaneni mewn bri yma gynt. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Tydecho, yr hwn a flodeuai tua diwedd y bumed, a dechreuad y chweched ganrif, am yr hwn y mae llawer o orchestion yn cael eu cadw mewn traddodiad hyd y dydd hwn. Y mae y lle hwn yn cael ei hynodi fel y man lle y bu yr enwog Dr. Davies, awdwr y Geiriadur Cymraeg a Lladin, yn gweinidogaethu. Y mae yr allor yn nghanol yr eglwys, lle y symudwyd hi gan Dr. Davies, yn groes i orchymyn yr Archesgob Laud. Y mae yn y fynwent dair Ywen, o faintioli anarferol. Y mae amryw waddolau yn perthyn i'r plwyf hwn.

**MANAFON**, plwyf yn rhanbarth y Drefnewydd, swydd DREFALDWYN; ar yr afon Rhiw, 2½ milldir i'r dehau wrth ddwyrain o Lanfair, ac 8½ milldir i'r de orllewin o orsaf y Trallwm. Cynnwysa drefgyrdd Manafon Llan, Manafon Gaenog, Manafon Llys, a Dwyriw; ac yn yr olaf y mae treflan Dolgwynfelyn. Llythyrdref, Llanfair Caereinion, dan y Trallwm. Erwau, 6635. Gwerth ardrethol, 4091*p.* Poblogaeth yn 1861, 701; yn 1871, 671. Tai yn 1861, 141. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 400*p.* Noddwr, esgob Llanelwy. Elusenau oddiwrth gymmunroddion, tua 5*p.* y flwyddyn.

**MANAWYDAN**, ydoedd fab Llyr Llediaith, tywysog y Brytaniaid yn Siluria, yn nechreuad y ganrif gyntaf. Y mae dau Driad, yn y rhai y cyfeirir ato. Yn un o honynt, gelwir ef yn un o'r tri "Eurgrydd," neu wneuthurwyr esgidiau aur; pan yr aeth can belled â Dyfed, gan arosod ei reolau. Y ddau arall oeddynt, Caswallon ab Beli, a Llew Llawgyffes. Yn y Triad arall, gelwir ef yn un o'r tri "Lleddf unben," neu dywysogion gostyngedig Ynys Brydain, o blegid wedi meithrin cerddoriaeth, ar ol caethiwed ei frawd Bran, ni fynai wedi hyny arhonni ei raddoliaeth, er y gallasai wneud hyny. Crybwyllir am Manawydan yn y gynadledd rhwng Arthur, Cai, a Glewlwyd; ac y mae ei enw yn cael ei grybwyll mewn cysylltiad â Pryderi, yn y Ganiad am feibion Llyr, "Cerdd meib Llyr," o waith Taliesin. Y mae enw Manawydan yn cael ei grybwyll hefyd yn "Englynion y Gorugiau." "Gorchest Manawydan y Doeth, wedi galarnad a llid tanllyd, ydoedd codi amddiffynfa o esgyrn Oeth ac Anoeth." Y mae Manawydan yn ffurfio un o'r Mabinogion a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Gwel *Myf. Arch.* i. 67, 167; ii. 15, 17, 64, 75. *Mabinogion* gan *Guest*, cyf. iii. a *Iolo MSS.* cym. 670.

**MANCOT**, neu MAN-COED, sydd drefgordd yn mhlwyf Pen-ar-lâg, yn swydd FLINT, gerllaw yr afon Dyfrdwy, a rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, un filltir i'r gogledd ddwyrain o Benarlag. Y mae yn cynwys is-bentref *Little Mancot.* Erwau, 282. Gwerth ardrethol, 999*p.* Poblogaeth, 276. Tai, 58. Y mae rhai o'r trigolion yn gwneud eu gorchwylion yn y gweithiau mwn haiarn, a phlwm.

**MANMOEL**, neu MAMHOLE, sydd is-bentref yn mhlwyf Bedwellty, yn swydd FYNWY; rhwng afonydd a rheilffyrdd Ebbw, a Sirhowy, 2½ milltir gogledd ddwyrain wrth ogledd o Bedwellty, a 7 gorllewin ogledd orllewin o Bont y pwl. Y mae yn cynwys Georgetown, a Brierlyhill, lle y mae gwaith haiarn eang; ac y mae yn cynwys llawer o gapeloriaeth Tredegar, St. George. Gwerth ardrethol 53,636*p.*, o'r hyn y mae 8500*p.* mewn mwnau, a 30,000*p.* mewn gwaith haiarn. Poblogaeth yn 1851, 9120; yn 1861, 11,510. Cododd y cynnydd yn y boblogaeth drwy helaethiad yn y gwaith haiarn. Y mae tlotty Bedwellty yma; ac yn ol cyfrifiad 1861, yr oedd yma 98 yn aros ynddo.

**MANOGAN**, ydoedd frenhin y Brytaniaid, yr hwn ydoedd dad Beli Mawr, a thaid Caswallawn. Gelwir ef yn y Brutiau Cymreig, yn gymeriad cyfiawn, a haelfrydig. Bu farw tua chanrif cyn y cyfnod Cristionogol. Efe ydoedd fab Cai ab Por ab Sawl Benisel ab Rhydderch ab Rhodawr ab Eidal ab Arthfael ab Sitsyllt ab Owain ab Caffo ab Bleiddyd ab Meirion ab Gorwst ab Clydno ab Clydog ab Ithel ab Urien ab Andryw ab Ceraint ab Por ab Coel ab Cadell ab Ceraint ab Elydnog ab Morfydd ab Dan ab Sitsyllt ab Cuhelyn ab Gwrgant Farfdrwch ab Beli ab Dyfnwal Moelmud ab Dyfnfarth Hen ab Prydain ab Aedd Mawr, llywydd cyntaf Ynys Prydain.

**MANSEL**, SYR FRANCIS, D.D., ydoedd drydydd mab Syr Francis Mansel, o Muddlescomb, swydd Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1588. Cafodd ei addysgiaeth yn ysgol Henffordd, ac yn ngholeg yr

Digitized by Google

Iesu, yn Rhydychain. Daeth yn gymrawd o'r Holl Saint, ac yn 1620, etholwyd ef yn brif athraw yn ngholeg Iesu. Cymerodd ei raddiad o D.D. yn 1624. Esgymunwyd ef o'i swydd ar yr ymweliad seneddol yn 1648, ac efe a enciliodd i Gymru, lle y pleidiodd ef yr achos brenhinol â'i holl allu, a thrwy hyny daeth yn wrthddrych erledigaeth y blaid seneddol. Ar farwolaeth Syr Eubule Thelwall, etholwyd ef drachefn yn brif athraw coleg Iesu, i'r hwn y bu ef yn gyfranwr helaeth, ac a chwyddodd gyfoeth y lle yn fawr, a chafodd lyfrgell helaeth i'r lle yn ychwanegol. Bu farw Mai, 1665.

**MANSON FAWR** a Manson Fechan, sydd ddau is-bentref yn y gogledd ddwyrain o swydd Fynwy, 2 filltir gogledd ogledd ddwyrain o dref Mynwy.

**MAPES**, Walter de, ydoedd ysgrifenydd enwog, a flodeuai tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Efe ydoedd fab Blondel de Mapes, yr hwn a ddaethai i Forganwg gyda Robert Fitzhamon, ac a gafodd diroedd Gweirydd ab Seisyllt, arglwydd Llancarfan; ond efe a briododd Fflur, unig blentyn Gweirydd, oedd yn fyw, ag a gafodd drwy y briodas, ei feibion Hubert, a Walter. Bu Hubert farw heb blant, a daeth Walter yn etifedd ar ol ei frawd, ac a adeiladodd bentref Tre-Walter, gyda phalas iddo ei hun. Efe a ddychwelodd y rhan fwyaf o'r tiroedd a feddianai i'w perchenogion gwreiddiol, ac efe a adeiladodd eglwys Llancarfan, fel y mae yn sefyll yn awr. Yr oedd ef yn archddiacon Rhydychain, ac yn gapelydd i'r brenhin Harri I. Efe a gyfieithodd y Croniclau Brytanaidd, o'r Gymraeg i'r Lladin; ac yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, efe a gyfieithodd ei gyfieithiad drachefn i'r Gymraeg, yn ei hen ddyddiau. Y mae ei waith gwreiddiol yn Gymraeg, a'i adgyfieithiad, wedi eu hargraphu yn y Myfyrian Archaiology. Ysgrifenodd hefyd draethawd ar Amaethyddiaeth yn Gymraeg, yr hwn sydd ar gael eto mewn Llawysgrifen.

**MARC CROSS**, sydd blwyf yn nosparth Pen y bont, yn swydd Forganwg, gerllaw culfor Caerodor, yn agos i *Nash Point*, 6¼ milltir gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Pont y Fôn. Llythyrfa, Pen y bont. Erwau, 1041, o'r hyn y mae 155 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 918*p*. Poblogaeth, 91. Tai, 17. Nid yw y meddianau yn perthyn ond i ychydig nifer. Y mae yma weddillion hen gastell, ac adeilad fonachaidd, a chromlech a elwir, "yr hen eglwys," a ffynhonell fwnol, o gryn enwogrwydd. Bu yma ddaear-lithriad ar y 24ain o Orphenaf, 1833, pan y cwympodd tua 200,000 o dunelli o gerig calch, hyd yn ymyl y traeth. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 196*p*.; ac y mae y lle yn nawddogaeth Deon a Phenawd Llandaf. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**MARCH** ab Meirchion, ydoedd benaeth, yr hwn a flodeuai tua diwedd y bumed ganrif. Y mae rhai cofnodau yn gosod ei diroedd yn Nghernyw, ac ereill yn Mhrydain Ogleddol. Crybwyllir am dano yn y Trioedd, fel un o dri meddianwyr llyngesoedd Ynys Brydain; ac yr oedd yn mhob un o honynt chwech ugain o longau; y ddau arall oeddynt Gwenwynwyn, a Geraint. Yr oedd y beirdd yn awgrymu fod ganddo glustiau march, ac y troid pa beth bynag y cyffyrddai ag ef yn aur; wrth yr hyn y deallir ei fod ef yn gyfoethog iawn, ac yn gybydd mawr, ac yn goddef iddo ei hun gael ei ddianrhydeddu gan ei wraig Essyllt, a'i nai Trystan ab Tallwch.

**MARCHALAD** a Branar, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangerniew, swydd Ddinbych; 7½ milltir gogledd ddwyrain o Lanrwst. Gwerth ardrethol, 645*p*. Poblogaeth, 128. Y mae Hafod-unnos, a Pennant, yn hen balasau o fewn y terfynau.

**MARCHELL**, ydoedd ferch Arwystli Gloff ab Seithenin, a Tywanedd merch Amlawdd Wledig. Hi ydoedd sylfaenydd Ystrad Marchell, gerllaw Trallwng, yn sir Drefaldwyn, lle yr adeiladwyd abad-dy wedi hyny, ac a elwid *Strata Marcella*, Yr oedd hefyd gapel yn mhlwyf Llanrwst, sir Ddinbych, a elwid Capel Marchell, ond nid ydyw ar gael yn awr.

**MARCHELL**, ydoedd unig ferch ac etifeddes Tudur, brenhin Garthmadryn, sydd yn awr yn ffurfio swydd Frycheiniog. Hi a ymbriododd ag Aulach Mac Gormuc, mab Cormach Mac Carbery, un o frenhinoedd Iwerddon, tu a'r flwyddyn 382, o'r hwn y daeth hi yn fam Brychan Brycheiniog, penaeth un o deuluoedd cysegredig Brydain.

**MARCHLWYS**, ydoedd esgob Llandaf, a ddilynodd Libiau. Yn y flwyddyn 926, efe, gyda Blegwryd, a Martin, a aeth gyda Hywel Dda i Rufain, i'r dyben o ymgynghori yn nghylch adgyweiriad y Cyfreithiau Cymreig. Bu farw yn 943.

**MARCHUDD**, ydoedd arglwydd Abergele, yn Uwch-dulas, swydd Ddinbych. Yr oedd y boneddwr hwn yn byw yn amser Rhodri Mawr, tua'r flwyddyn 846. Ei balas ydoedd Brynffanigl, yn mhlwyf Bettws Abergeleu. Efe ydoedd fab Cynan ab Elfyw ab Mor ab Mynan ab Ysbwys Mwyntyrch ab Ysbwys ab Cadrod Calchfynydd ab Cynwyd Cynwydion ab Cynfelyn ab Arthwys ab Morudd ab Ceneu ab Coel Godebog, brenhin Brydain. Yr oedd efe yn benaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, o'r hwn y disgyna amryw deuluoedd sydd yn blodeuo yn awr, ac yn eu plith, teulu enwog y Mostyniaid, o Mostyn, yn Sir Fflint. Efe a ddygai, yn ei arfbeisiau, "cochion, pen Saracen, wedi ei godi yn briodol, aur yn bleth." Y mae yr arfbeisiau hyn mewn arferiad hyd heddyw.

**MARCHWEITHIAN**, ydoedd arglwydd Isaled, yn swydd Ddinbych. Blodeuai y boneddwr hwn yn nheyrnasiad Harri II. Ei diroedd oeddynt Carwed Fynydd, Dincadfael, Prees, Beryw, Llyweni, Gwytherin, ac amryw drefgorddau eraill, o fewn cantref Isaled, fel yr ymddengys oddiwrth derfynaeth arglwyddiaethau Dinbych, a wnaed yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth III., yr amser yr oedd Cynwrig Fychan, y nawfed mewn disgyniad oddiwrth Marchweithian, yn byw. Ei balas ef ydoedd Llyweni. Marchweithian ydoedd fab Tegwel, ab Lludd ab Lleon ab Llyminod Angel ab Pasgen ab Urien Rheged ab Cynfarch ab Meirchion Gul ab Grwst Ledlwm ab Ceneu ab Coel Godebog. Efe ydoedd benaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, ac y mae amryw deuluoedd yn y parth hwnw o'r wlad yn ddisgynyddion oddiwrtho. Ei arfbeisiau oeddynt, "tarian goch, a llew ar branc arian, asur arfog."

**MARCHWIAIL**, neu Marchwiel, sydd drefgordd a phlwyf yn nosparth Gwrecsam, swydd Ddinbych. Saif y drefgordd gerllaw afon Clywedog, yn ymyl yr afon Dyfrdwy, *Wat's Dyke*, a rheilffordd Caerlleon ac Amwythig, 2 filltir de ddwyrain o Wrecsam. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys trefgordd Sontley; a'r Llythyrfa yw Gwrecsam. Erwau, 3316. Gwerth ardrethol, 5033*p*. Poblogaeth, 536. Tai, 106. Y mae y meddianau rhwng lluaws. *Marchwiel Hall* ydoedd balas teulu Broughton gynt,

Digitized by Google

ond y mae yn awr yn feddiant i S. P. Hope, Ysw.; ac y mae wedi cael ei adgyweirio yn ddiweddar. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 708*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Adgyweiriwyd yr eglwys yn 1788, ac y mae yn cynwys cofadail am Miss Yorke o Erddig. Y mae wedi ei chysegru i St. Marcellus. Y mae yma amryw waddolau, ac yn arbenig yr un gan Cadben D. Ellis, o 5000*p.* yn 1858.

**MARGAM**, sydd is-bentref, a phlwyf, ac is-ddosparth, yn nosparth Nedd, swydd FORGANWG. Saif yr is-bentref ar ffordd Julia, gerllaw rheilffordd y Deheubarth, dan fryn Margam, yn agos i lan y môr, ac yn ymyl gorsaf rheilffordd Porth Talbot, 5¼ milltir de-dde-ddwyrain o Nedd. Gelwid y lle gynt, Pen-dâr. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys is-bentref Hafod y Porth, ac yn cynwys pentref Taibach, y lle y mae prif Lythyrfa; ac yn cynwys hefyd is-bentrefi Brombill, Cenffig uchaf, a Trisant, ac y mae mewn rhan, o fewn bwrdeisdref seneddol Aberafon. Erwau 18,725, o'r hyn y mae 1045 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 15,183*p.* Poblogaeth yn 1851, 4747; yn 1861, 5525. Tai, 1016. Cynyddodd y boblogaeth drwy eangu y gwaith glo yno. Poblogaeth y rhan a berthyn i fwrdais Aberafon, yw 3191. *Margam Abbey* ydyw palas C. R. M. Talbot, Ysw. Y mae yn cymeryd ei enw oddiwrth *Cistertian-abbey*, a seiliwyd tua 1150, gan Robert, Iarll Caerloew, ac yn sefyll ar godiad tir, ar lethr bryn Margam, wedi ei gynllunio gan Hopper, yn yr arddull Duduraidd; ac yn arddangos prydferthwch dengar. Y mae yma amryw ddarluniau o waith yr hen feistri. Y mae Bryn Margam yn codi i'r uchder o 800 troedfedd, ac wedi ei wisgo yn hardd â choed derw o'r copa i'r gwaelod. Y mae y gerddi a'r coed ffrwythydd, o rywiogaeth gymeradwy iawn. Y mae yr eurafalau, fel y bernir, yn codi o hadau rhai a anfonwyd o Holland, i Mary, brenhines William III., ac a gafwyd o'r drylliad fu ar y llong oedd yn eu cludo, ar y terfynau yma. Y mae amryw ddarnau henafiaethol o hynodrwydd anghyffredin yn addurno llwybrau y gerddi. Bu y brenhin John yn cael ei groesawu yn y fynachlog, ar ei ffordd i'r Iwerddon; yr hwn a roddwyd ar y datodiad i Syr Rice Mansell, un o henafiaid y meddianydd presenol. Yr oedd rhai o'r adeiladau mewn cysylltiad a'r hen abad-dy, yn odidog yn eu cynlluniad a'u gwneuthuriad. Y mae llawer o aneglurdeb yn hanesion boreuol y lle hwn. Dywed rhai fod y lle unwaith yn esgobaeth, ac y bu pum esgob yn olynol yno; ac wedi hyny, iddi gael ei huno ag esgobaeth Llandaf. Y mae rhai yn ysgrifenu yr enw yn "Morgan," oddiwrth fab Caradog ab Iestyn, yr hwn a fu yn noddydd galluog i'r lle. Dyma oedd barn Hwmphrai Llwyd, ac amryw eraill. Dywed ef iddo weled breinlen Morgan ab Caradog, wedi ei harwyddo gan naw o dystion, oll o enwau Cymreig boreuol. Y mae Dugdale, yn ei Annales de Margan, yn gosod dyddiad seilio y lle yn 1147, gan Robert, Iarll Caerloew, yr hwn a fu farw y flwyddyn honno, ac a gladdwyd yn y fonachlog. Y mae yr esgob Tanner yn rhoi gofyniad ger bron, "Ai nid allai Robert ddechreu y lle, ac i'w fab William, ei olynydd, ei orphen wedi hyny?" Dywed Camden mai yr olaf oedd y sylfaenydd. Y mae y pentref Margam mewn sefyllfa ddeniadol iawn, yn cael ei gylchynu gan goedwigoedd sydd yn addurno y llechweddi, gyda phrydferthwch mawr. Y mae yn y coed, uwchlaw y pentref, weddillion eglwys neu gapel; ac y mae ar ben y bryn, gofadail Rufeinig gyda'r argraph "BODVOC JACIT HIC FLVS CATOTI SIRNI PRONEPVS ETENAL VE DOMAV;" ac y mae un arall yn agos i "Eglwys Nynud," lle sydd yn awr yn amaethdy, ar y ffordd o Margam i Cenffig, yn y llythyrenau Rhufeinig canlynol, "PUMPEIVS CARANTORIVS." Y mae hefyd, yn agos i'r hen adeilad, ddwy o groesau yn sefyll yn unionsyth, a dybir eu bod o'r bumed neu y chweched ganrif. Y mae olion hen amddiffynfa ar fryn a elwir Pen-y-castell gerllaw. Y mae glo a cherig calch mewn cyflawnder yn y gymydogaeth. Y mae mwn alcam a haiarn yn cael eu cloddio yn nyffryn yr Afon. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â ficeriaeth Taibach, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 121*p.*, ac yn nawddyddiaeth C. R. M. Talbot, Ysw. Adgyweiriwyd yr eglwys yn 1810, ac y mae yn cynwys cofadeiliau am deuluoedd Bussey, Mansel, a Talbot. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd, ddau blwyf arall, a rhan o drydydd plwyf. Erwau, 32,902. Poblogaeth, 16,815. Tai, 3079.

**MARGAN**, ydoedd fab Arthel, yn ol tystiolaeth y Brutiau Cymreig, ac a olynodd Gorfyniawn, fel brenhin y Brytaniaid. Cafodd deyrnasiad heddychlon, a thrwy gael addysg dda, un fuddiol i'w deyrnas; ond bu farw gyda ei fod wedi cyflawni y flwyddyn gyntaf o honi.

**MARIDUNUM**, ydoedd yr enw Rhufeinig a roddid ar Gaerfyrddin; (gwel CAERFYRDDIN); yr hwn enw a ddynoda dref, plwyf, is-ddosparth, a dosparth yn swydd GAERFYRDDIN. Y mae y dref yn sefyll ar y ffyrdd Julia, gerllaw afon Towy, a rheilffordd y Deheubarth, 9 milltir gogledd ogledd ddwyrain o enau y Towy, a 19¾ gyda'r rheilffordd o Lanelli. Yma yr oedd y ddwy linell o'r ffordd Julian yn cyfarfod. Y mae yr afon Towy yn fordwyol hyd ati, i longau cyffredin; ac y mae yn is-borth i Lanelli; y mae y rheilffyrdd yn ymganghenu o'r lle mewn pedwar cyfeiriad; un y Deheubarth yn ogleddol a gorllewinol; un Caerfyrddin ac Aberteifi yn ogledd-orllewinol, ac un Caerfyrddin a Llandeilo, yn dyfod i gysylltiad ag un Canolbarth Cymru yn Llandilo. Adwaenid y lle gan y Rhufeiniaid wrth yr enw *Maridinum;* ac i'r Cymry er ys amser maith, dan yr enw "Caerfyrddin." Yr oedd yn cael ei hystyried fel prif-ddinas Cymru, hyd amser symudiad y tywysogion i Dynefor, yn 877, a pharhaodd i ddal rhai o brif lysoedd cyfreithiol y dywysogaeth hyd amser diddymiad y frawdwriaeth Gymreig. Yma y cyfaneddai yr athronydd Merddin, neu Merlin; ac y mae lle ei gladdedigaeth yn cael ei nodi o fewn tua thair milltir i'r dref, ac a elwir hyd heddyw "Ogof Merddin." Y mae y dref yn brif-lythyrfa, ac yn brif ddinas y swydd. Y mae agerlongau yn mordeithio yn rheolaidd rhwng yma a Tenby, Bristol, a Wexford. Cafodd y dref ei breinlen yn amser Harri VIII., ac y mae yn uno â Llanelli yn anfoniad un aelod i'r senedd. Y mae terfynau y fwrdeisdref yn cynwys yr holl blwyf, gyda therfynau plwyfol *Castle-Green.* Yr oedd nifer etholwyr y ddwy dref yn 889, yn y flwyddyn 1868. Trethi uniongyrchol, 10,253*p.* Poblogaeth Caerfyrddin yn 1841, 9526; yn 1861, 9993. Tai, 1768. Y mae y dref yn rhoddi y teitl o Ardalydd i'r Dug o Leeds. Erwau yn cynwys *Castle-Green*, 5155. Gwerth ardrethol, 31,298*p.* Poblogaeth heb gyfrif *Castle-Green*, 9798. Tai, 1746. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 176*p.*, ac yn nawddogaeth Coleg St.

Digitized by Google

Dewi, Llanbedr. Y mae ficeriaethau Ty Ddewi, a Llanllwch yn wahanedig. Y mae y gyntaf yn werth 190*p.*, ac yn nawddogaeth y ficer. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd blwyfi Llangain, ac Abergwili. Erwau, 18,563. Poblogaeth, 12,583. Tai, 2333. Y mae y dosparth yn cynwys is-ddosparth Llangyndeyrn, yn cynwys plwyfi Llangyndeyrn, Llanddarog, Llanarthneu, Llangunnor, Llandefeiliog, a St. Ishmael. Y mae is-ddosparth St. Clear's, yn cynwys plwyfi St. Clear's, Llanstephan, Llangarn, Llansadwrn, Llandawee, Llandowror, Llanguning, Llangunog, Llanfihangel Aber-cowin, a Llandilo Aber-cowin; ac y mae is-ddosparth Conwil yn cynwys plwyfi Llanllawddog, Llanpumsaint, Newchurch, Merthyr, Abernant, Trelech-ar-Bettws, Meidrim, Llanwinio, a chapeloriaeth plwyfol Conwil-yn-Elfed. Erwau, 172,546. Trethi tlodion yn 1866, 18,013*p.* Poblogaeth yn 1861, 36,675. Tai, 7451. Priodasau yn 1866, 292. Genedigaethau, 1097. Lleoedd addoliad yn 1851: Eglwys Loegr 35, gydag eisteddleoedd i 8844; Annibynwyr 32, gydag eisteddleoedd i 7389; Bedyddwyr 17, eis. 3515; Undodiaid 2, eis. 316; Wesleyaid 6, eis. 1489; Methodistiaid 29, eis. 5828; Saint y Dyddiau Diweddaf 1, 100; Pabyddion 1, 120. Ysgolion Dyddiol 37, ysgolorion 2528. Neillduol 46, 1136. Ysgolion Sabbothol 113, 11,973 ys. Gwel CAERFYRDDIN.

**MARLOES**, neu MARLAIS, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd BENFRO, yn y trwyn rhwng Aber-daugleddyf a morgilfach St. Bride, 6 milltir gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Aber-daugleddyf, a 10 de-orllewin o Hwlffordd. Llythyrfa, Aber-daugleddyf. Erwau, 2478. Gwerth ardrethol, 2947*p.* Poblogaeth, 443. Y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae yma lyn yn cynwys Geleod. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 80*p.*, ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellwr.

**MARROS**, sydd blwyf yn nosparth Narberth, ac yn swydd GAERFYRDDIN, gerllaw morgilfach Caerfyrddin, 5½ milltir de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Whitland, 6 milldir gorllewin dde orllewin o Lacharn. Llythyrfa, Pendine, dan St. Clear's. Erwau 2574, o'r hyn y mae 400 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 661*p.* Poblogaeth, 130. Tai, 30. Y mae y meddianau mewn un etifeddiaeth. Y mae y tir yn lled ddiffrwyth. Cloddir cerig-haiarn yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 73*p.*, ac yn nawddogaeth ficer Lacharn.

**MARSHFIELD**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Casnewydd, swydd FYNWY. Saif y pentref yn agos i reilffordd y Deheubarth, 5 milltir de orllewin o Casnewydd, ac y mae yma orsaf rheilffordd. Y mae y plwyf yn cynwys 1270 o erwau; ac y mae y Llythyrfa yn Casnewydd, Mynwy. Gwerth ardrethol, 2498*p.* Poblogaeth, 509. Tai, 115. Y mae y meddianau rhwng lluaws. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 55*p.*, ac yn nawddogaeth Deon a Phenawd Caerodor.

**MARSIA**, ydoedd dywysoges ddysgedig o enwogrwydd; brenhines-briod Cuhelyn mab Gwrgant, brenhin y Brython, amser yr hon a nodir yn y chweched ganrif cyn cred. Yn ol y Brutiau Cymreig, yr oedd hi yn foneddiges o radd uchel, deall da, ac adnabyddus o'r gwyddonau. Heblaw yr amlygiadau o amrywiol ragoriaethau am athrylith a chraffder, ydoedd hyd y pryd hwnw yn adnabyddus, hi a dynodd allan y cyfreithiau oedd yn hysbys i'r Brython wrth yr enw Cyfreithiau Marsia, y rhai a gyfieithodd y brenhin Alfred wedi hyny, o'r Gymraeg i'r Saesoneg, ac a elwir *Merchen-lage.* Ar farwolaeth Cuhelyn, arosodd y llywodraeth yn llaw Mersia, mewn cyd-weithrediad a'i mab Saisyllt, o herwydd ei doethineb, hyd ei marwolaeth.

**MARTIN**, SANT. Esgob Ty ddewi, yr hwn yn nghyd â Marchlwys, esgob Llandaf, a Blegwryd, a aethant gyda Hywel Dda i Rufain, yn y flwyddyn 926, i ymgynghori o barth diwygiad y Cyfreithiau Cymreig.

**MARTIN**, ydoedd esgob Ty Ddewi, yr hwn, gyda Marchlwys, esgob Llandaf, a Blegwryd, a aeth gyda Hywel Dda i Rufain, yn y flwyddyn 926, i ymgynghori yn nghylch diwygiad y cyfreithiau yn Nghymru.

**MARTLETWY**, sydd blwyf yn nosparth Narberth, swydd BENFRO, ar yr ochr Ddwyreiniol o Aberdaugleddau, 5 milltir de orllewin o Narberth, a 6 de ddwyrain wrth dde o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Llythyrfa yn Hwlffordd. Erwau 3551, o'r hyn y mae 200 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 3857*p.*, o'r hyn y mae 1470*p.* mewn mwnau. Poblogaeth yn 1851, 829; yn 1861, 703. Tai, 157. Achoswyd y lleihad yn y boblogaeth drwy y lleihad yn y gwaith glo. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 100*p.*, ac yn nawddogaeth yr Anrhydeddus Cadben Greville. Y mae yr eglwys yn adeilad da; cyflwynedig i St. Marcellus.

**MARY** (ST.). Gwel MAENCLOCHOG.

**MARY-CHURCH** (ST.), sydd blwyf yn nosparth Pen-y-bont, swydd FORGANWG; yn gyfagos i'r afon Ddaw, 2 filltir de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Pont-y-fôn. Llythyrfa yn Pont-y-fôn. Erwau, 727. Gwerth ardrethol, 746*p.* Poblogaeth, 119. Tai, 30. Y mae yr holl feddianau mewn un etifeddiaeth. Y mae yma weddillion yn aros o gastell a adeiladwyd yn yr unfed canrif ar ddeg, gan Robert St. Cwintin. Y mae y fywioliaeth yn beriglorìaeth, mewn cysylltiad â pheriglorìaeth Llandow, yn esgobaeth Llandaf, ac yn nawddogaeth yr Ardalydd Bute.

**MARY-HILL** (ST.), sydd blwyf yn nosparth Pen-y-bont, swydd FORGANWG, gerllaw yr afon Ogmore, yn agos i Reilffordd y Deheudir, 3¼ milltir dwyreiniol o Ben-y-bont. Erwau, 1404. Gwerth ardrethol, 933*p.* Poblogaeth, 252. Tai, 48. Y mae y tiroedd oll yn perthyn i un etifeddiaeth. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 90*p.*, ac yn nawddogaeth Syr T. D. Aubrey, Barg. Y mae yma ffair gwartheg yn cael ei chynal yn flyneddol ar y 26ain o Awst.

**MATH** AB MATHONWY, oedd gymeriad hynod yn y Mabinogion Cymreig, yr hwn a ystyrid fel yn rhagori ar bawb yn ei alluoedd swynyddol. Crybwyllir am dano mewn dau Driad penodol, lle y gosodir ef allan fel dyn hysbys â chyfaredd, yr hyn a addysgai efe i Gwydion ab Don, yn y rhai y priodolir iddo ef un o brif swynion yr Ynys. Ymddengys fod celfyddydau cyfriniol Math wedi disgyn iddo oddiwrth ei dad, hudlath yr hwn y cyfeiria Taliesin ati, yn ei Gerdd Daronwy. Y mae Taliesin hefyd yn crybwyll yn fynych am alluoedd Math ei hunan; yr hyn a welir yn y "Cad Goddeu," a "Marwnad Aeddon o Fon." Y mae Math ab Mathonwy yn destyn un o'r Mabinogion, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gyda chyfieithiad a nodiadau gwerthfawr, gan yr Arglwyddes Charlotte Guest.

Digitized by Google

**MATHAFARN**, hen balas gynt; ond ammaethdy yn bresenol, yn neheubarth swydd Feirionydd; ar lan yr afon Dyfi, 5½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Machynlleth. Yma y preswyliai Dafydd Llwyd, y bardd a'r brudiwr enwog yn y bymthegfed ganrif; ac efe a lettyodd Iarll Rismwnt, (wedi hyny, Harri y Seithfed,) dros noswaith, ar ei gadymdaith o Aberdau gleddyf i Bosworth.

**MATHAIARN**, ydoedd un o feibion Brychan Brycheiniog, a sant, yr hwn a flodeuai yn y bumed ganrif. Yn ol "Achau y Saint," claddwyd ef yn Ngheredigion. Gwel *Iolo MSS.* t.d. 518.

**MATHEBRWYD**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanrwst, swydd Ddinbych, gerllaw Llanrwst. Gwerth ardrethol, 2218*p*. Poblogaeth, 360.

**MATHEWS**, Marmaduke, oedd un o'r offeiriaid a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig. Mab ydoedd i Mathew Mathews, Abertawe, a anwyd yn y flwyddyn 1606. Aeth i Goleg *All Souls'*, Rhydychain, Chwefror 20, 1624. Ni wyddis yn iawn pa le y sefydlodd gyntaf ar ol gadael y coleg; ond deallir ei fod yn offeiriad yn Penmain, gerllaw Abertawe, yn 1636, ac yn pregethu yn erbyn cadw yr holl wyliau, yn nghyd ag amryw bethau eraill, "fel dychymygion ffol ac ynfyd." Pan ddygwyd cwyn yn ei erbyn yn llys yr uchel ddirprwyaeth, efe a ffodd i Loegr Newydd. Ni wyddir ond ychydig am ei hanes yno. Pa fodd bynag, yn mhen rhyw ychydig amser wedi darostyngiad y marchoglu yn Nghymru, dychwelodd o America, a chafodd ei benodi yn weinidog St. John, Abertawe, o'r lle y cafodd ei fwrw allan yn 1662. Efe a adawodd fywioliaeth dda, er mwyn cydwybod, er nad oedd ganddo ddim arall mewn golwg tu ag at ei gynhaliaeth. Wedi hyny, efe a bregethodd, trwy ganiatad yr ynadon, mewn capel bychan yn mhen y dref. Yr oedd efe yn ddyn twymfrydig a duwiol iawn. Byddai yn arfer myned o amgylch o dy i dy, er hyfforddi y bobl. Yr oedd ei holl ymadroddion, agos yn nghylch pethau ysbrydol. Ni byddai yn gwneud ei ymweliadau i ddim ond yr hyn oedd briodol i'w weinidogaeth. Pan ddeuai rhyw-rai i ymweled ag ef, ar ol y cyfarchiad cyffredinol, troai yn fuan at bynciau crefyddol. Pan y dygid rhywbeth iddo i'w yfed, byddai yn arfer cymeryd y gwydryn i'w law, gan ddiolch yn ddifrifol i Dduw, yna yfai at ei gyfaill, gan ddywedyd fod iddo gyflawn groeso. Byddai yn myned allan yn aml ar ddyddiau marchnadoedd, at bobl y wlad, ac ymddiddanai â hwy am bethau ysbrydol. Rhai o'r cyfryw a'u derbynient gyda pharch; ond eraill gyda dirmyg a diystyrwch. Yr oedd yn byw uwchlaw y byd, gan ymddibynu yn hollol ar ragluniaeth am ei gynhaliaeth. Yr oedd ei blant, y rhai oeddynt Anghydffurfwyr egwyddorol, yn garedig iawn tuag ato; ac amryw o'i gyfeillion a'i berthynasau yr un modd; yr hyn a wnai iddo ddywedyd weithiau yn lled ysmala, ei fod yn cael ei gynal yn gysurus gan blant Duw, ei blant ei hun, a phlant y byd. Bu fyw hyd oedran teg, a pharhaodd yn ddefnyddiol hyd y diwedd. Bu farw tu a'r flwyddyn 1683.

**MATHEWS**, Thomas, ydoedd swyddog llyngesol enwog; disgynydd oddiwrth hen deulu yn Llandaf, lle y ganed ef tua 1670. Wedi myned i'r llynges, efe a ddaeth yn gadben yn 1703. Yn 1709, fe lwyddodd, ar ol ymdrechfa galed, i gymeryd y llong Ffrengig *Glorieux*, ag 11 o ynau, heb yr un dyn yn ei gynorthwyo, dim ond ei ddewrder ei hunan. Yn niwedd 1711, efe a ddychwelodd i Loegr, a chan fod heddwch wedi ei sefydlu, ni bu raid wrth ei wasanaeth hyd 1718, pan y cymerodd lywyddiaeth y *Kent*, â 70 gwn; un o'r cad-longau a orchymynwyd i fyned i for y Canoldir, dan Syr John Byng. Yn y frwydr fythgofiadwy a'r Yspaeniaid tu hwnt i Messina, efe a lwyddodd i gymeryd y *St. Carlos* â 60 gwn; a bu yn gryn gynorthwywr i gymeryd llong y llyngesydd Yspaenaidd, yn 1719, pan wedi ei adael gyda llyngesig fechan i wibio tu hwnt i Pontemelia, i'r perwyl o atal yr ol-lyngesydd Cannock i ddianc, yr hwn a gymerasai ei loches yn Messina. Efe a lwyddodd i gymeryd cadlong ysgafn o eiddo y gelyn, ac i yru ar y traeth, un o'i gadlongau goreu, y *Santa Rosalia*, â 64 gwn. Yn 1722 anfonwyd ef i ffordd gyda llyngesig fechan, tu ag India'r Dwyrain; dychwelodd yn 1724; ac wedi hir dymor o anweithgarwch, efe a benodwyd yn 1736 yn brwyadur y llynges arosol yn Chatham. Yn 1742, efe a benodwyd yn rhaglyngesydd y *coch*, a chadlywydd yn Mor y Canoldir, a gweinidog teyrngenhadol brenhin Sardinia, a thalaethau Itali. Efe a gadwodd yn rhwym yn mhorthladd Toulon, gyda gwyliadwriaeth arosol dros yspaid deunaw mis, lyngesoedd cyfunedig Ffraingc ac Yspaen, y rhai, o'r diwedd a orchymynwyd i hwylio yn Chwefror, 1744. Mae y frwydr fythgofiadwy a ganlynai a'r gelyn, yn ffurfio rhyw ddygwyddiad tra hynod yn hanes llyngesol Prydain; a methiant ymosodiad arwrol y llyngesydd Mathews, a briodolir i eiddigedd ei eilydd mewn llywyddiaeth, yr ol-lyngesydd Lestock, yr hwn ni ail-roddodd yr arwydd i ymladd. Yr oedd Mathews mor anfoddlon wrth ymddygiad Lestock yn hyn o beth, fel y trodd ef ymaith; a Lestock, mewn canlyniad, a gyhuddodd Mathews, o fyrbwylldra a brys, drwy ymosod ar y gelyn cyn i linell y frwydr gael ei ffurfio. Felly y dygwyd Mathews a Lestock i'w prawf ger bron y llys milwrol, a Syr Chaloner Agle yn llywydd. Parhaodd prawf Mathews o Hydref, 1745, i Mehefin 1747, pan farnodd y llys ef yn anghymwys i ddal un swydd yn mhellach yn ngwasanaeth y brenhin. Nid oedd y ddedryd mewn un modd yn foddhaol gan bobl Lloegr; ymdeimlent yn ddigllawn wrth weled Lestock, yr hwn nad ymladdodd, yn cael ei ryddhau, tra yr oedd y dyn a ymladdodd yn cael ei droi o'r gwasanaeth. Efe a dreuliodd weddill byr ei fywyd mewn ymneillduedd; ac a fu farw yn y flwyddyn 1751. Gan ei fod yn ddysgyblwr llym ei hun, efe a dalai y parch mwyaf i'w uwchafion swyddogol, ond efe a ddysgwyliai yr unrhyw sylw i'w orchymynion ei hun oddiwrth ei israddwyr. Dywedir fod ynddo gryn falchder; ond nid oedd yn ddim amgen na syniad dyn gwir ymwybodol o'i urddas, ac anrhydedd ei swydd. Nid amheuid fyth mo'i ddewredd, hyd yn nod gan ei elynion gwaethaf.

**MATHRAFAL**, sydd drefgordd, a chantref, yn swydd Drefaldwyn. Y mae y drefgordd yn mhlwyf Llangyniew: saif yn agos i'r afon Fyrnwy, 3 milltir gogledd ddwyrain o Lanfair; ac fe'i gelwir weithiau "Maithyrafel." Gwerth ardrethol, 884*p*. Tybir mai yma yr oedd yr orsaf Rufeinig *Mediolanum;* ac yr oedd un o gestyll Tywysogion Powys, a'r Viponts, yn sefyll ar y lle a fernir fel y man yr oedd yr orsaf Rufeinig arno. Ad-gadarnhawyd y castell gan un o deulu y Viponts, yn y drydedd ganrif ar ddeg. Gwarchaeodd Llewelyn ab Iorwerth arno yn 1212; a gorfodogodd y brenhin John, yr hwn a ddaethai



Digitized by Google

yma gyda byddin gref o Loegr, Llewelyn i encilio; a llosgodd y castell i'r llawr. Y mae olion o'r hen furiau, a ffos ddofn, yn aros eto, yr hyn a arddengys ei fod yn cymeryd gofod o tua dwy erw. Yr oedd tair ochr iddo yn cael eu hamddiffyn gan y ffos, ac yr oedd y bedwaredd yn cael ei diogelu gan fryn uwchlaw y Fyrnwy, ac yr oedd yn un pen i'r ochr hono, ddaearfur uchel, oddiar yr hwn y ceid golygfa fanteisiol o'r holl ddyffryn. Y mae y cantref yn cynwys pump o blwyfau, a rhanau o ddau eraill. Erwau, 62,948. Poblogaeth yn 1851, 5784; yn 1861, 5677. Tai, 1168. Y mae y lle hwn yn tori ffugur lled gyhoeddus yn yr hanesion Cymreig.

**MATHREY**, neu Mathry, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd Benfro. Saif y pentref yn agos i lan y môr, 6 milltir de orllewin o Abergwaen, a 12 gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Dyoddefodd y lle ruthrgyrch gan y Daniaid. Yr oedd unwaith yn dref marchnad. Llythyrfa dan Hwlffordd; a ffair ar Hydref 10. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys pentrefi Abercastell, a Castlemorris. Erwau, 6992. Gwerth ardrethol, 4903*p*. Poblogaeth yn 1851, 1052; yn 1861, 976. Tai, 194. *Mathry House* ydyw palas y teulu Harris. Bu preswyfa Esgobion Ty Ddewi ar amaethfa *Longhouse;* lle y mae eto gromlech, gyda bwrddfaen 16 troedfedd o hyd, ar bedwar o bileri 5½ o uchder. Y mae porthladd bychan yn Abercastell. Cloddir Llechi yn y plwyf hwn. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 316*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi.

**MATTHEW** ab Llewelyn Goch, ydoedd fardd a flodeuai rhwng 1360 a 1400. Y mae rhai o'i ganiadau ar gael mewn ysgrifen.

**MAUGHAN** (St.), sydd blwyf yn nosparth a swydd Fynwy; yn agos i'r afon Monnow, ar y terfyn a Henffordd, 4½ milltir gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Mynwy. Llythyrfa yn Mynwy. Erwau, 1304. Gwerth ardrethol, 1434*p*. Poblogaeth, 191. Tai, 45. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad a ficeriaeth Llangadog-feibion-Afael, yn esgobaeth Llandaf.

**MAURICE**, Henry, D.D., ydoedd dduwinydd tra dysgedig a thaleutog; mab i Thomas Maurice, curad Llangristiolus yn Mon, lle y ganed ef yn 1648. Cafodd ei addysgiaeth yn ysgol rad Biwmares, o'r lle y symudwyd ef i Athrofa Iesu, yn Rhydychain, yn 1664, ac wedi cymeryd y graddiad o B.A., efe a etholwyd yn gymrawd o'r gymdeithas hono, pan y denwyd sylw y prif athraw, Syr Leoline Jenkins, at ei ddysgeidiaeth anghyffredin. Pan yr anfonwyd Syr Leoline yn swyddwr llysol i Cologne, yn 1673, aeth Maurice gyd âg ef, fel capelydd, ac arosodd yno gydag ef dros ysbaid y tair blynedd ag y bu ef o'i wlad. Ar ei ddychweliad i Loegr, bu fyw am ryw dymor gyda theulu Syr Leoline, yn *Doctors' Commons*, ac weithiau yn Athrofa Iesu, hyd 1680, pan y penodwyd ef yn gapelydd teuluaidd i archesgob Caergrawnt. Y dyrchafiad cyntaf a gafodd ef gan yr archesgob, oedd perigloriaeth Chevening yn Kent, a dilynwyd hyn â pherigloriaeth fuddianol Llandrillo yn Rhos, yn esgobaeth Llanelwy, a thrysoriaeth Chichester, yn yr hyn y sefydlwyd ef, Ionawr 7, 1681. Gwedi hyny, dyrchafwyd ef i berigloriaeth Newington, yn swydd Rhydychain, yn 1685, ac efe yna yn ddoethawr duwinyddiaeth. Yn 1691, etholwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth Margaret, drwy hawl yr hon swydd, awdurdodwyd ef yn brebendur Caerwrangon, ac efe a fu farw yn sydyn yn yr un flwyddyn, Hydref 30. Yr oedd ef yn awdwr amryw o weithiau dadleuol, ac y mae rhestr o honynt yn cael eu rhoddi gan Wood, yn ei sylw am dano yn ei *Athenæ Oxoniensis*, yr hwn sydd yn ychwanegu, "ei fod ef yn wr o ddysgeidiaeth anghymarol, ac o rinwedd difrycheulyd." Yr oedd bywiogrwydd a pharodrwydd ei alluoedd, mewn cysylltiad â barn bwyllus, yn ei wneud yn rhagorol; at yr hyn y gellid nodi, ei gof cryf, a'i arabedd parod. Fel pregethwr, nid oedd ond ychydig a ragorai arno, mewn hyawdledd, a nerth ymresymiad; "ond uwchlaw y cyfan, y mae ei goffadwriaeth yn cael ei fawrhau oblegid ei eiddigedd a'i serch dros athrawiaeth a dysgyblaeth Eglwys Loegr, a'i ymroddiad anmhlygadwy i'w hamddiffyn, pan y byddai achosion yn galw."

**MAURICE**, Matthias, o Rowell, swydd Northampton, a anwyd yn y flwyddyn 1684, yn mhlwyf Llanddewi-felffrai, yn sir Benfro. Ychydig a wyddir o hanes ei rieni, amgen na'u bod yn deulu crefyddol, ac yntau felly wedi cael yr addysgiaeth briodol. Cafodd ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth yn athrofa yr Ymneillduwyr, yn Nghaerfyrddin, y pryd hwnw dan ofal y Parch. William Evans. Dywedir iddo gyrhaedd gwybodaeth lled eang yn Hebraeg, Groeg, a Lladin. Yr oedd yn fyfyriwr trwyadl, yn weithiwr difefl, yn dduwinydd cadarn, ac yn weinidog ffyddlon, yn gystal ag ysgrifenydd buddiol ac adeiladol. Wedi gorphen ei dymor addysgol, bu yn pregethu i'r eglwys Annibynol yn Henllan. Bu anghydfod ac ymraniad yn yr eglwys, ac enciliodd ef, a rhan o'r aelodau, ac ymffurfiasant yn eglwys yn Rhyd y Ceisiad. Yn amser ei arosiad yno, ffurfiwyd cangen o'r eglwys yno, yn Glandwr, yr hon a gynnyddodd mor fawr, fel yr edrychid ar Glandwr, yn hytrach fel y fam eglwys, a Rhyd-y-Ceisiad fel cangen o honi. Daeth y tair eglwys hyn rhagddynt mor llwyddianus, fel y goruwch-lywodraethid yr holl amgylchiadau annymunol er lleshad; a dygwydd o'r cwbl yn y diwedd yn hytrach "er llwyddiant yr efengyl." Bu llwyddiant Mr. Maurice yn achlysur i genfigen weithio yn ei erbyn i'r fath raddau, fel y codwyd erlidigaeth yn ei erbyn, a derfynodd yn ei ddygiad i afael y swyddogion gwladol, a orfodogent ddynion i fyned i wasanaeth y llywodraeth, ar y môr, yn erbyn eu hewyllys. Pa fodd bynag, gwaredwyd ef oddiwrth y brofedigaeth hon, ac wedi cael ei ryddid, aeth i Olney yn *Bucks;* a bwriadai yr eglwys yno roddi galwad iddo fod yn weinidog iddi, ond dyryswyd yr amcan, drwy ryw amgylchiadau anhysbys. Wedi hyn, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys Annibynol yn Rowell, lle y treuliodd ef weddill ei dymor. Cafodd lythyr ymadawol oddiwrth eglwys Rhydyceisiad at eglwys Rowell, Tachwedd 1, 1714. Y mae yn debygol mai fel cynorthwywr i'r Parch. Richard Davies, yr aeth ef yno; ond nid hir y bu Mr. Davies byw wedi sefydliad Mr. Maurice yno. Bu yn llwyddianus iawn yn ei lafur gweinidogaethol, fel yr ychwanegid beunydd at nifer y cadwedigion, yn yr eglwys dan ei ofal. Mewn canlyniad i'r haf dedwydd hwn ar yr eglwys, gwelodd auaf oer drachefn, o blegid y cydwybodolrwydd a ddangosai mewn athrawiaeth, a dysgyblaeth. Cododd un Lewis Wayman, aelod o'r eglwys, i haeru, "nad oedd yn ddyledswydd ar bechaduriaid annychweledig, i gredu yn Nghrist." Gorfu arno amddiffyn y gwirionedd mewn amryw draethodau a gyhoeddodd, a hyny gyd ag eglurdeb boddhaol. Yr oedd Mr.

Digitized by Google

Maurice yn Gristion dysglaer, ac yn Israeliad yn wir. Gwelir llawer o linellau ei fywyd dichlynaidd, a'i egwyddorion Ysgrythyrol, yn ei lyfr rhagorol, a alwai, "Crefydd gymdeithasgar yn cael ei harddangos," ac y mae ei holl syniadau, a'i siampl mewn bywyd, yn berarogl yn ei fywgraphiad drwyddo. Bu yn briod ddywaith. Ei wraig gyntaf oedd Elisabeth Humphreys. Ychydig o'i hanes a wyddir; bu eu plant o'r briodas hon feirw yn ieuaingc. Ei ail wraig oedd un Elisabeth Buck, o Saffron Walden, yn Essex, o ba un y cafodd dri o feibion, ac un ferch. Bu farw Medi 1, 1738. Claddwyd ef dan fwrdd y cymundeb yn Rowell. Y mae y llyfrau a ysgrifenodd ac a gyhoeddodd, yn lluosog. Yn ychwanegol at y rhai a nodwyd, gellid crybwyll am y rhai canlynol: Cyfieithiad o'r llyfr a elwid, "Yr athrawiaeth yn ol Duwioldeb," gan Dr. Isaac Chauncey. Cyfrol fechan a alwai "Cywir a Ffyddlon." Y wir eglwys yn cyrchu at y nod nefol." Cyfeithiad o Dair Pregeth gan y Parch. Thomas Bradbury, ar "Ddyoddefaint Crist." Y rhai canlynol oeddynt yn yr Iaith Saesoneg. "Gwaith yr Ysbryd mewn Gweddi." "Y dull o Fedyddio â Dwfr yn cael ei egluro." "Ffydd yn cael ei chalonogi." "Nad yw suddo mewn dwfr yn ddull Ysgrythyrol o Fedyddio." "Ffydd yn Gweithio trwy Gariad." "Cofgolofnau Trugaredd." "Llwythau yr Arglwydd yn ymddangos ger ei fron ef. "Y pwnc diweddar yn cael ei egluro yn wylaidd, sef "Fod y Duw tragwyddol yn ei air sanctaidd, yn ei gwneud yn ddyledswydd ar bechadwriaid a wrandawant yr efengyl, ei chredu." "Crefydd Gymdeithasol," mewn rhifynau, ond bu farw yr awdwr cyn-cwblhau y gwaith hwn.

**MAURICE**, William, ydoedd foneddwr, yr hwn oedd yn dir-feddianydd eang, o deulu da; ac yr oedd yn henaficithydd dysgedig, a chasglydd a chyfieithydd galluog, o hen law-ysgrifau Cymreig. Preswyliai yn Cefn-y-braich, yn mhlwyf Llansilin, yn swydd Ddinbych, lle yr adeiladodd lyfrgell, o dri uchder lloft, mewn cysylltiad a'i dy ei hun, yn yr hon y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes i astudio llenoriaeth Gymreig. Yr oedd ei gasgliad enwog o ysgrifau Cymraeg, yn cael eu cadw yn Wynnstay; ac y mae hanes y rhyfel cartrefol, yn Ngogledd Cymru, allan o'i ysgriflyfr ef, wedi ei gyhoeddi yn y gyfrol gyntaf o'r *Archæologia Cambrensis*. Bu farw rhwng 1680 a 1690.

**MAW**, neu Y Mawddach, sydd afon yn swydd Feirionydd. Y mae yn codi o dan Carn-Twrog, ac yn rhedeg ddeng milltir yn ddeheuol i gymydogaeth Dolgellau; ac yno yn dechreu lledu yn raddol, nes dyfod yn enau morawl; ac yna rhed am tua naw milltir, yn dde orllewinol, nes ymarllwys i'r môr yn Abermaw. Y mae hi yn teithio trwy gymydogaethau o olygfeydd prydferth dros ben; ac y mae iddi dri chodwm sydd yn ffurfio golygfeydd tarawiadol iawn,—un yn 60 troedfedd yn Parc Dolmelynllyn,—un arall 60 troedfedd, a elwir Cwymp Mawddach;—a'r trydydd, 150 o droedfeddi, yn Mhistyll-y-Cain. Tri rhaiadr o gryn sylw.

**MAWAN**, ydoedd fab Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, tywysog Powys. Ymddengys ei enw yn rhestr y Saint Cymreig, ond ni fynegir dim yn mhellach yn ei gylch. Yr oedd ef yn blodeuo yn nechreu y chweched ganrif.

**MAWAN** (St.), ydoedd sant, y dywedir iddo fyned gyda Bran ab Llyr i Brydain, tu a'r flwyddyn 70, gydag Ilid, Cyndaf, ac Arwystli Hen, a'i fod yn un o'r pregethwyr cyntaf o'r Efengyl yn y wlad hon. Yn ol un awdurdod, dywedir ei fod yn fab i Cyndaf.

**MAWDDWY**, Syr Lewis, difeinydd, a bardd, oedd yn ei flodau o tua 1580 hyd 1620, yn ol rhai Buchofwyr; ond y mae eraill yn dadleu ei fod yn oesi tua chan mlynedd yn foreuach. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn hen ysgriflyfrau.

**MAWDDWY**, Sion, ydoedd fardd enwog, yr hwn a flodeuai o tua 1560 i 1590. Yr oedd efe yn un o'r beirdd oedd yn bresenol yn Ngorsedd Morganwg yn 1580, ac y mae llythyr hynod o'i eiddo, dyddiedig yn y flwyddyn honno, wedi ei argraphu yn y Greal, t.d. 207. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau wedi eu cadw mewn llaw-ysgrifen.

**MAWR**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llangyfelach, swydd Forganwg, yn agos i ffordd Julian, 7½ milltir deheuol o Abertawe. Gwerth ardrethol, 3487*p*. Poblogaeth, 733. Tai, 140. Y mae nifer o'r trigolion yn lowyr.

**MAWR**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llangiwc, swydd Forganwg, 5½ milltir de dde orllewin o Nedd. Gwerth ardrethol, 2739*p*. Poblogaeth, 710.

**MECHELL**, merch henaf Brychan Brycheiniog, ydoedd santes o'r bumed ganrif. Hi ydoedd gwraig gyntaf Gynyr o Gaer Gawch.

**MECHELL**, a ysgrifenir hefyd Mechyll, a Machudd, ydoedd sant o'r seithfed ganrif. Yr oedd yn fab i Echwydd, neu Echwys, Mochwys, neu Arthwys, fab Gwyn Gohoew, fel y ceir yr enw yn amryddull. Efe oedd nawdd-sant Llanfechell, yn Môn, lle yr ydoedd gynt goleg i gant o seintiau. Dywedir ei fod wedi ei gladdu yn Eglwys Penrhos Lligwy, yn Môn.

**MECHLAS**, trefgordd yn mhlwyf Cilcain, swydd Fflint, 4½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o'r Wyddgrug. Poblogaeth, 128. Tai annedd, 34.

**MECHYDD**, ydoedd sant a flodeuai yn y chwechcd ganrif. Efe oedd fab i Sanddef Bryd Angel, mab Llywarch Hen. (Gwel Achau y Saint, a Iolo MSS. Cymreig, t.d. 529.)

**MEDERAI BADELLFAWR**, ydoedd fenyw a gofnodir yn y Trioedd, fel un o dair "gwrforwyn" Ynys Brydain. Y ddwy arall oeddynt, Llewai merch Ieithwedd Seidi, a Rhore merch Usber.

**MEDRAWD**, ydoedd fab Caradog Freichfras, sant a flodeuai yn y chweched ganrif. Yr oedd yn frawd i Cathan, ac Iddew.

**MEDRAWD**, ydoedd fab i Llew ab Cynfarch, yr hwn oedd yn gymeriad hynod yn hanesiaeth y Brython, ag oedd yn byw yn nechreu y chweched ganrif. Yn ol y Brutiau Cymreig, pan yr oedd ei ewythr Arthur yn arwain ei fyddinoedd yn Gâl, gwrthryfelodd Medrawd, ac ymhonodd hawl i goron Brydain, heblaw dianrhydeddu gwely ei ewythr, drwy gymeryd Gwenhwyfar ei wraig. Mewn trefn i'w amddiffyn ei hun, rhag y gosp yr oedd ei drosеddau yn ei haeddu, efe a wahoddodd drosodd fyddin gref o Sacsoniaid, ac a ymgyngreiriodd a'r Pictiaid, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod, a phob gelyn arall i Arthur, fel yr oedd o'r diwedd, wedi codi byddin o bedwar ugain mil o wŷr, gyda y rhai yr aeth i wrthwynebu glaniad Arthur. Yn y frwydr a gymerodd le mewn canlyniad, gorchfygwyd Medrawd, ac enciliodd, gyda chynnifer o'i filwyr gwasgaredig ag a allai eu cynull yn nghyd, i Gaerwynt, i'r lle y dilynwyd ef yn uniongyrchol gan Arthur. Er hyny, ni ddigalonai Medrawd, ond cyfarfyddodd ei ewythr drachefn ar y maes; ond wedi brwydr galed, efe a

Digitized by Google

orchfygwyd drachefn, ac efe a ffodd i Gernyw. Wedi cael ei ymlid yn ddioed gan Arthur, safodd yn ei erbyn drachefn, gerllaw afon Camlan, gyda byddin o tua thriugain mil o wyr, a bu y frwydr ofnadwy hon yn angeuol i Medrawd, ac Arthur. Y mae llawer o'r Trioedd yn cyfeirio at Medrawd. Yn un o honynt gelwir ef yn un o dri bradwyr ysgeler Ynys Brydain, oblegid ymuno a'r Sacsoniaid a'r Ysgotiaid yn erbyn Arthur; y ddau arall oeddynt Gwrgi, ac Aeddan. Mewn un arall, gosodir ef allan, fel un o'r tri, y rhai y difeddianwyd eu teuluoedd o'u hawliau a'u breintiau, oblegid iddo amcanu ysbeilio y llywodraeth oddiar Arthur, yr hyn a fu yn achos o frwydr Camlan yn 542; ac yn y diwedd, drwy hyny, a ataliodd y Brytaniaid rhag gwrthwynebu y Sacsoniaid yn effeithiol. Y ddau eraill oeddynt Afarwy, a Gwytheyrn. Mewn Triad arall, dywedir fod Medrawd wedi cyflawni un o dri chreulon ddinystr Ynys Prydain, yr hyn oedd ar feddianau Arthur; ac ad-daliad Arthur arno yntau oedd yr ail; a'r trydydd, oedd gwaith Aeddan yn erbyn Rhydderch Hael. Dywed un arall, mai un o dri chyfarfodydd bradwrus Ynys Brydain oedd yr un o gynhaliwyd rhwng Medrawd ac Iddog, pan y cynlluniasant y fradwriaeth yn erbyn Arthur; y ddau eraill a gynlluniwyd gan Afarwy, a Gwytheyrn. Y mae Medrawd yn cael ei restru hefyd gydag Afarwy, a Gwytheyrn, fel tri gwŷr dirmygedig Brydain, o blegid iddo draws-reibio y goron oddiar Arthur, ac ymuno a'r Sacsoniaid. Yn more ei fywyd, hynodir Medrawd, gyda Morgan Mwynfawr, a Hywel ab Emyr Llydaw, fel y tri thywysog yn llys Arthur oedd yn anorchfygadwy mewn brwydr, ac eto oeddynt mor rhagorol yn eu hymddygiad, ac mor hynaws yn eu moesau, a'u hymadrodd tyner, fel na allai neb nacau iddynt pa beth bynag a ddymunent.

**MEDWY**, ydoedd sant a flodeuai tua diwedd yr ail ganrif. Yr oedd efe yn un o'r pedwar esgob, a anfonwyd o Rufain, gan Eleutherius, esgob yr esgobaeth hono, i bregethu Cristionogaeth i'r Brytaniaid, yn ol dymuniad Lleurwg ab Coel. Y tri eraill oeddynt Dyfan, Ffagan, ac Elfan. Dywed hanesion eraill, fod Medwy, ac Elfan yn Frythoniaid, ac wedi cael eu hanfon gan Lleurwg i Rufain, a ddygasant Dyfan a Ffagan yma gyda hwy ar eu dychweliad. Medwy ydoedd sylfaenydd eglwys Llanfedwy yn Morganwg, yr hon a ddinystriwyd yn rhyfeloedd Iestyn.

**MEDDLAN**, oedd un o ferched Cyndrwyn, tywysog Powys, y galerir o'i phlegid gan Llywarch Hen, yn ei farwnad ar ol Cynddylan ab Cyndrwyn.

**MEDDWYL**, ydoedd un arall o ferched Cyndrwyn, enw yr hon a ymddengys gyda Meddlan.

**MEFENYDD**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanrhystyd, swydd ABERTEIFI, 8½ milltir gogledd ddwyrain o Aberaeron. Poblogaeth, 638. Tai, 129.

**MEIFOD**, neu MYFOD, sydd bentref, a phlwyf yn nosparth Llanfyllin, swydd DREFALDWYN. Saif y pentref gerllaw yr afon Fyrnwy, dan fryniau Broniarth, 5½ milltir gogledd-ddwyrain o Lanfair, a 6 milldir de orllewin o orsaf rheilffordd Llansantffraid. Dadleua rhai mai yma yr oedd yr orsaf *Mediolanum.* Yr oedd yn lle o bwysigrwydd eglwysig yn achosion tir Powys. Llythyrfa dan Trallwng; a ffeiriau yn cael eu cynal, Gwener olaf o Chwefror, Ebrill, Mehefin, Awst, Hydref, a Rhagfyr. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Cefnllyfnog, Cwm, Dyffryn, Cil, Main, Nant-y-meichiaid, Peniarth, Teirtref, Trefedid, Trefnamwy, ac Ystymcolwyn. Erwau 12,614. Gwerth ardrethol 13,209*p.* Poblogaeth, 1806. Tai, 359. Y mae y meddianau rhwng amryw. Y mae yma amryw o balasau rhagorol. Y mae yma hen werthyrau henafol, crynion, a daear-gloddiau. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Yr oedd yr eglwys yn perthyn i abad-dy Ystrad Marchell; yr oedd yn gladdfa tywysogion Powys; y mae yn helaeth, a hynod, o arddull Normanaidd, gyda thwr o gynllun y 15fed ganrif; y mae yn cynwys yn y mur, yn agos i'r bedyddfaen, gauad arch, o'r deuddegfed canrif; ac y mae yma rai hen gofadeiliau. Y mae y fynwent yn eang iawn, yn mesur tua phum erw. Y mae rhanau o gapeloriaethau Pont-Robert, a Phenrhos, o fewn y plwyf hwn. Y mae yma waddolion o werth *55p.*, yn y flwyddyn.

**MEIGANT**, ydoedd sant, a elwid hefyd MEUGAN, neu MEIGANT HEN, y dywedir am dano yn rhestr y Saint Cymreig, ei fod yn fab i St. Cyndaf, ac a elwir, "gwr o Israel." Tybia rhai mai yr un ydoedd ef a Mawan, yr hwn y dywedir ei fod yn fab i Cyndaf. Y mae maes gerllaw tref Beaumaris, lle y mae y llecyn, ag y buasai capel, a seiliesid gan Meugan Hen ab Cynfan, mewn cysylltiad ag eglwys Llandegfan.

**MEIGANT**, neu MEUGAN, ydoedd fab Gwyndaf Hen ab Emyr Llydaw, a Gwenonwy, merch Meurig ab Tewdrig, brenhin Morganwg, sant a flodeuai yn y chweched ganrif. Yr oedd efe ar y cyntaf, yn aelod o goleg Illtyd, o'r lle y symudodd i goleg Dyfrig, yn Nghaerlleon, lle yr oedd cymdeithas, ar yr hon yr oedd ei dad yn llywydd. Yn ei hen ddyddiau, efe a enciliodd i Enlli, lle y bu farw, ac y claddwyd ef. Efe a sylfaenodd eglwysi Llanfeugan yn Sir Frycheiniog, a St. Moughan yn Mynwy. Y mae dwy o ganiadau ar gael, o waith Meigant, yr hwn y tybir mai yr un ydoedd a'r sant, ac y maent wedi eu hargraphu yn y Myfyrian Archaiology; un o honynt yn farwnad ar ol Cynddylan. Y mae dywediad o'i eiddo wedi ei gadw yn "Chwedlau y Doethion," "A glywaist ti chwedl Meigant, wrth ymadael a'i elynion? Drwg y dywedir am blant y drygionus."

**MEIGEN**, RHYS, ydoedd fardd a flodeuai tuag o 1340 i 1360. Mewn cynulliad o'r beirdd yn mhalas Llewelyn o Emlyn, ymosododd ar Dafydd ab Gwilym, i'r hwn yr ymddengys ei fod yn elyn chwerw, yn y modd mwyaf annhrugarog; ar yr hyn yr adroddodd Dafydd gân, mewn ad-daliad, mor finiog a duchanol, fel y syrthiodd Rhys yn gorph marw ar y llawr yn y fan. Y mae y gân hon wedi ei hargraphu yn mysg cyfansoddiadau Dafydd ab Gwilym, a gyhoeddwyd gan Owen Jones, a William Owen, yn 1789.

**MEIGYR**, ydoedd fab Gwron ab Cunedda Wledig, tywysog, a sant, a flodeuai yn niwedd y bumed ganrif. Rhoddir yr hanes ganlynol am dano yn "Achau y Saint." Aeth Meigyr a'i frodyr, Cynyr, a Meilyr, gyda Caswallon Law Hir, eu cefnder, i ymlid ymaith y Gwyddyl Ffichti, allan o Fon, i'r hon ynys yr oeddynt wedi ffoi rhag meibion Cunedda, a'r lle hwn yr oeddynt wedi eu cadarnhau eu hunain ynddo. Wedi ymladd yn ofnadwy, llwyddasant i yru y Gwyddelod allan o Fon, a lladdodd Caswallon, Serigi Wyddel yno, a'i law ei hun. Yr oedd y Serigi hwn yn dywysog y Gwyddyl Ffichti, y rhai oedd wedi sefydlu eu hunain yn Ngwynedd, a chadw meddiant o'r lle, er amser Macsen Wledig. Ac wedi esgymuno

Digitized by Google

y dieithriaid o wlad Mon, cymerodd y Cymry galon, ac ymlidiasant hwy allan o bob man arall yn Ngogledd Cymru, ac ni arosodd yr un o honynt yn Nghymru, ond yn unig y rhai a wnaethid yn gaethweision.

**MEILIG**, un o feibion Caw, sant yn y bummed ganrif. Treuliodd ran foreuol ei oes yn y rhyfeloedd dan Arthur; ond ar ol hyny, efe a ymgyssegrodd i grefydd. Tybia rhai mae efe a sylfaenodd eglwys Llowes, yn Maesyfed, ac y mae yn y plwyf le a elwir hyd heddyw, Croes Feilig. Ei gofwyl yw Tachwedd 14.

**MEILYR** AB GWALCHMAI, un o brif-feirdd y canoloesoedd. Blodeuai rhwng 1170 a 1220. Mae wyth o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myfyrian*.

**MEILYR** AB GWRON AB CUNEDDA, un o seintiau y bummed ganrif. Brawd ydoedd i Meigyr, a Cynyr, a chyd-ymladdodd â hwynt dan Caswallon Law Hir, pan ymlidiwyd y Gwyddyl Ffichti o Wynedd.

**MEILYR** AB GWYDDNO, sef mab Gwyddno ab Emyr Llydaw, a chefnder Cadfan. Yr oedd y sant hwn yn byw yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif.

**MEILYR BRYDYDD**, un arall o feirdd enwog y ddeuddegfed ganrif. Tueddai ei awen at y prudd-aidd. Mae ganddo ddwy farwnad yn y *Myfyrian*, ar ol Gruffydd ab Cynan, a Thrahaearn ab Caradawg, a Meilyr ab Rhiwallon ab Cynfyn. Y mae ganddo gân arall, yn dwyn yr enw "Marw Ysgafn," yn yr hon y desgrifia efe ei wely angeu ei hun.

**MEILLTEYRN**, plwyf mewn rhan yn Nghwmwd Cymytmaen, ac mewn rhan yn Nghwmwd Canologion, Cantref Lleyn, swydd GAERNARFON. Holl boblogaeth y plwyf hwn, yn 1801, yn cynnwys pentref y Sarn, ydoedd 250; ac nid oeddynt wedi cynnyddu namyn pymtheg, erbyn cyfrifiad 1861. Erwau, 1519. Gwerth ardrethol, 1207*p*. Saif y lle 9½ milltir i'r gorllewin-dde-orllewin o Bwlheli. Fel agos yr oll o Gantref Lleyn, y mae tir y plwyf hwn yn ffrwythlon a chynnyrchiol, ac unig waith y trigolion ydyw llafurio y ddaear. Cynnelir yn y pentref amryw ffeiriau yn ystod y flwyddyn, yn mha rai y gwerthir nifer lluosog o anifeiliaid rhagorol. Rhed yr afonydd Rhydlâs, Cofan, a'r Sôch, trwy y plwyf. Y Gofan a'i gwahana oddiwrth blwyf Bottwnog, a'r Sôch oddiwrth Fryncroes. O dan ddarpariadau Deddf Ddiwygiadol 1867, gwnaed pentref y Sarn yn orsaf bleidleisio dros ranau o gymydau Cymytmaen, a Chanologion. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, gyda'r hon y mae curadiaeth barhaus Bottwnog wedi ei chysylltu. Gwerth blyneddol, oddeutu 200*p*. Y noddydd ydyw Esgob Bangor. Yn y flwyddyn 1847, ailadeiladwyd yr Eglwys, yr hon sydd gysegredig i *Peter ad Vincula*. Y mae yn y fynwent garreg o ffurfiad hynod, fel pe buasai wedi ei bwriadu er cof am ryw un urddasol; ond nid oes arni yr olion lleiaf o unrhyw gerfargraff. Mewn hen balasdy gerllaw mynwent y plwyf hwn, y ganwyd Henry Rowlands, Esgob Bangor, a sylfaenydd a gwaddolwr Ysgol Rammadegol Bottwnog. Ganwyd yr Esgob Rowlands yn y flwyddyn 1551; a bu farw yn y flwyddyn 1616. Yn ei destament olaf, trefnodd mewn modd arbenig, fod i'r ysgol gael ei chynnal yn wastadol a thros byth, naill a'i yn ei blwyf genedigol, neu ynte yn mhlwyf cyfagos Bottwnog. Yn waddol i'r ysgol hon, efe a adawodd fferm Llyslew, yn Môn, a thiroedd ereill. Trwy rinwedd ewyllys yr un prelad haelionus, rhoddwyd i blwyf Meillteyrn hawl i anfon un dyn tlawd i'r elusendy, yn Mangor. Yr oedd, hyd yn ddiweddar, gyfran fechan o hen furiau cartref yr Esgob Rowlands i'w gweled.

**MEIRCHION GUL**, penaeth ar y Prydeiniaid Gogleddol, a thaid Urien Rheged, a Llywarch Hen. Blodeuai yn y rhan gyntaf o'r bummed ganrif.

**MEIRIADOG**, trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd DDINBYCH; ar yr afon Clwyd, un filldir i'r de o Lanelwy. Erwau, rhwng Wigfair, 3046. Gwerth ardrethol Meiriadog ei hunan, 1306*p*. Poblogaeth, 335, a 69 o dai annedd. Mae yn y plwyf hwn amryw ogofeydd calchfaen, o 30 i 40 troedfedd o uchder, ac y mae y creigiau yn llawn o ffosylau, ac esgyrn anifeiliaid.

**MEIRIG** AB ARCOL LAW HIR, ab Pyr y Dwyrain, ab Llion Hen. Brenin Dyfed ydoedd ef, rywbryd tua diwedd y seithfed ganrif.

**MEIRIG** AB ARTHFAEL. Yr oedd amryw dywysogion Cymreig yn arddel yr enw hwn. Yn rhestr brenhinoedd Morganwg, a gododd Iolo Morganwg o Ysgriflyfr Llewelyn Sion, ceir enw Meirig ab Arthfael, yr hwn, meddir, oedd yn frenin da, ac wedi ennill rhagorgamp ar wneuthur daioni. Efe a waredodd ei wlad oddiwrth elynion, trwy rym arfau, a rhoddodd i lawr droseddau yn rhin cyfreithiau Morgan Mwynfawr; ac o herwydd y gweithredoedd daionus hyn, yr aeth yn air teuluaidd yn Morganwg, "Enw mawr yw enw Meirig." Gesyd ysgriflyfr Coychurch y cyfenwad anrhydeddus hwn ar Meirig ab Tewdrig, a phriodolir ef hefyd i Feirig arall. Y tebygolrwydd ydyw, fod dau frenin o'r enw hwn, yn teyrnasu yn agos i'w gilydd yn Morganwg. Sonia "Brut y Tywysogion" am Meirig ab Arthfael ab Blegwryd, tywysog Morganwg, yr hwn a gododd mewn gwrthryfel yn erbyn Llewelyn ab Sitsyllt, yn 1020, ond llwyr wasgarwyd ei fyddin, a lladdwyd yntau gan law y tywysog ei hun.

**MEIRIG** AB GWEIRYDD. Rhaid dibynu ar y Brutiau Cymreig am hanes y tywysog hwn. Codwyd ef i deyrnasu ar y Prydeiniaid oddeutu canol y ganrif gyntaf, fel olynydd i'w dad. Ni chafodd deyrnasu mewn tangnefedd, canys ymosodwyd ar yr Alban gan Rhodri, brenin neu benaeth y Pictiaid, a llu mawr i'w ganlyn, Scythiaid medd yr hen Frut. Ar hyn casglodd Meirig ei bobl ynghyd; llwyddodd i lwyr orchfygu yr estroniaid, ac i ladd Rhodri ei hun. Gorchymynodd Meirig fod i'r rhai a arbedwyd, wladychu yn yr Alban, ond wedi iddynt ymsefydlu yno, buan y daethant i deimlo yr angenrheidrwydd am wragedd, a deisyfasant ar y Prydeiniaid anfon eu merched attynt i'w priodi. O herwydd gwrthod o'r Prydeiniaid eu cais, hwy a briodasant Wyddelesau, ac o honynt hwy y disgynodd yr Ysgotiaid. Pan ddygodd Meirig yr Ynys i drefn a thawelwch, efe a ganiattaodd heddwch i'r Rhufeiniaid, o'i rydd ewyllys ei hun. Gwnaeth hefyd gyfreithiau newyddion i'w holl ddeiliaid, a threuliodd y gweddill o'i ddyddiau yn dawel a dedwydd. Dilynwyd ef ar yr orsedd gan ei fab Coel.

**MEIRIG** AB HYWEL, brenin Morganwg. Efe a laddwyd gan Berthrid, brenin Mersia, tra yn cynnorthwyo Rhodri Mawr, yn y flwyddyn 843.

**MEIRIG** AB IORWERTH, bardd a flodeuai rhwng 1320 a 1370. Ceir amryw o'i gyfansoddiadau mewn ysgriflyfrau.

**MEIRIG** AB TEWDRIG, olynydd ei dad fel brenin Gwent a Morganwg, a fu farw yn y flwyddyn 575, yn 90 mlwydd oed. Ystyrid ef yn frenin rhagorol, ac yn gymmwynaswr haelionus i grefydd. Dan ei

Digitized by Google

nawdd a'i amddiffyn ef y sefydlwyd esgobaeth Llandaf, a mynachlog Llancarfan. Rhoddodd diroedd ac eglwysydd yn waddol i'r esgobaeth, a cheir rhestr o'i roddion yn y "*Liber Landavensis.*" Dywed rhai haneswyr iddo gael ei ladd gan y Gwyddelod, yn Ngheredigion, lle yr oedd eglwys wedi ei chyssegru iddo. Eglwys Ystrad Meirig, yn ol pob tebyg, a fuasai hono.

**MEIRIG DAFYDD**, un o feirdd enwog Morganwg. Llywyddai yn ngorsedd Morganwg yn y flwyddyn 1500, a bu farw yn y flwyddyn 1600. Bu ef a Sion Mawddwy yn cario ymlaen ryfel bapyr â'u gilydd, ac os yw beirdd yr oes hon yn ymhyfrydu mewn ymosodiadau personol, prin y deuant i fyny mewn chwerwder a difriaeth, â beirdd yr unfed ganrif ar bymtheg. Ymddengys fod Meurig wedi awgrymu, fod brychau a beiau cerdd dafod yn marddoniaeth Sion Mawddwy. Daeth y cyhuddiad i glustiau Sion Mawddwy, yr hwn oedd o'r blaen ar delerau da â Meurig, ac wedi rhoddi benthyg pump o lyfrau barddonol iddo. Yr oedd yn naturiol iddo ffromi rhyw gymmaint; ond dyma fel y tywallta efe ei fustl ar Meurig druan: "Ond myfi a welais wr fel chwi, a gafas fenthyg pum llyfr barddoniaeth tros ddwy flynedd; ac a fum fy hunan yn ceisio ei ddysgu, pe yd fuasai dysg yn myned i'w ben; ond yr oedd ef mor ddwl at ddysg, a gwydd wŷllt, mor falch-ffol a Satan, mor genfigenus a Luciffer, can galled a Ieuan Grod Hen, cyhawsed i ddyn ymddiried iddo ag Iddawc Carn Brydain; a chanddo ben mawr, a synwyr bychan, i ddysgu canu cerdd blethedig, gyssylltiedig, gyfochredig, ddiadwyau, a synwyrau godidawg, ystyriaethawl; er hyny yr oedd ef yn gall i gasglu da'r byd, yn llawn lloriau fel hen gastell, cymmaint ei gywilydd a'r afr, cyn daered a'r âb, un wên a Suddas, cyhaeled a'r llyffant am y pridd, cymmaint ei gariad a'r iar at yr halen, a llawn cymmaint ei weniaith a charn putain; a mêl ar ei fin, a bustyl yn ei galon, a'r wlad o'r bron yn adrodd ei gampau, o'i fedydd hyd ei henaint; minnau a'i hadwaen ef yn awr i'm tyb. Nid chwi, Meurig, ydyw hwnw. Ha! ha! ha! he! he! nage, nage; wrth hyny, dau *nage* a wna un *ie*. Byddwch wych, Meirig, oni boch gwrda." Ni ddangosodd neb yn Nghymru, oddieithr Dewi Wyn, y fath ddawn ar natur ddrwg a difriaeth, ond ychydig effaith a gafodd yr ymosodiad ar Meirig, yr hwn sydd yn talu y pwyth yn ol hyd adref, er nad mor enllibus. Ebe Meirig, "Y chwi, Mr. Mawddwy, yn anad neb o feirdd Morganwg, a hoffasoch wagsain yn fwy na synwyr; gwnaed eich cywreinrwydd i chwi wynfyd calon, a llawenydd i chwi o'ch clod; nid oes fawr, a'r a wn i, a genfigena wrthych; ni allaf lai fy hun na thosturio wrthych. . . . Gwir yw i mi gael benthyg eich pum llyfr, ac y mae eu dysgeidiaeth yn fy mhen, pe bae hyny les yn y byd i mi; ond da yw gwybod ffolineb, er amlygu callineb, yr hyn a ddengys ol traed doethineb. . . . Mi a ddysgaf i chwi bwnc o addysg, ni wyddoch chwi fawr hyd yn hyn am dano. Nid iawn i fardd hoffi, chwaithach ymarfer, â chelwydd; mae defodau yr hen feirdd yn gwahardd y peth hyn. Yr ydych chwi chwyddedig iawn eich llafar; ond nid unwaith na dwywaith y gwelais i lawer peth, a dybygid ei fod yn fawr, yn troi o'r diwedd i maes yn o liprynaidd a salw. Sion bach! ni flinaf fy mhen mwyach o'th blegyd: bydd wych, a chais fod yn gall ryw bryd." Gwelir mai nid clefyd yn perthyn i feirdd yr oes hon yn unig yw difriaeth.

**MEIRION**. Un o seintiau y chweched ganrif. Efe a sefydlodd eglwys Llanfeirion, Mon, lle y cedwid ei wylmabsant ar y 3ydd o Chwefror. Mab ydoedd i Owain Danwyn, ac yr oedd yn frawd i Einion Frenin.

**MEIRION** AB TYBIAWN, ab Cunedda Wledig, ab Padarn Beisrydd. Penaeth yn y bummed ganrif, a nai fab cefnder i Cystenyn Fawr. Cafodd Cunedda gynnorthwy effeithiol ei feibion, i yru y Gwyddelod dan Serigi allan o Wynedd; cwympodd Tybiawn yn y cadgyrchoedd, ond rhoddwyd gwobr ei wroldeb, sef y cantref a alwyd wedi hyny Meirion, i'w fab, sef Meirion.

**MEIRION**, SION, un o feirdd yr eilfed ganrif ar bymtheg, yn ei flodeu rhwng 1610 a 1650.

**MEIRION GOCH**, boneddwr o Edeyrnion, Meirionydd, yr hwn, yn y flwyddyn 1079, a fradychodd Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, i ddwylaw y Saeson.

**MEIRIONYDD** (SWYDD). Swydd arfordirawl yn Ngogledd Cymru, yn ffinio i'r gogledd-orllewin ar swydd Gaernarfon; i'r gogledd, ar swydd Gaernarfon, a swydd Ddinbych; i'r gogledd-ddwyrain, ar swydd Ddinbych; i'r de-ddwyrain, ar swydd Maldwyn; i'r de, ar swydd Aberteifi; i'r gorllewin, ar forgainc Aberteifi, neu Gulfor Iwerddon. Gwahenir hi oddiwrth ran o swydd Gaernarfon, gan geunant yr afon Glaslyn; oddiwrth ranau o swyddi Dinbych, a Maldwyn, gan ddyfr-arllwysfa (*water-shed*) mynyddoedd y Berwyn; oddiwrth ran o Faldwyn, ac oddiwrth Geredigion, gan yr afon Dyfi. Ei ffurf sydd braidd yn drionglog, gyda'r ochrau yn wynebu i'r gogledd, y de-ddwyrain, a'r gorllewin. Ei hyd mwyaf, o'r man pellaf yn y gogledd-ddwyrain, (2¾ milldir tu hwnt i Gwyddelwern,) i'r gongl dde-orllewinol yn Aberdyfi, yw 46 milldir; ei lled mwyaf, mewn cyfeiriad gwrth gyferbyniol, yw 29 milldir; ei lled yn y man culaf yw 15¼ milldir; mesura oddeutu 140 milldir o amgylchedd, a 30 ohonynt ar lan y mor; a gwna'r cyfan 385,291 o erwau.

Nid oes odid sir yn y deyrnas yn fwy anwastad ei harwynebedd na Meirionydd; yr hon sydd o'r naill ben i'r llall wedi ei thryfritho gan fynyddoedd cribog, a chreigiau uchelfrig. A'i chymmeryd drwyddi draw, hon yn ddiau yw y sir fwyaf mynyddig yn Nghymru, er mai "bryniau Meirionydd," y mynai awen chwareus Lewis Morris alw ei thrumau ysgythrawg. Nid yw copa yr un o honynt yn esgyn mor uchel i'r entrych a chopäau balch rhai o greigiau yr Eryri yn Arfon, ond y maent yn hafal i'r un o honynt o ran arucheledd, ac amrywiaeth golygfeydd, heblaw eu bod yn oludog o drysorau tanddaearol. Y mae un tŵr o fynyddoedd uchel yn y gogleddorllewin, fel yn rhedeg o gadwyni yr Eryri, ac yn eu mysg, y mae y Cnicht, yn 2372 troedfedd, a'r Moelwyn, yn 2566 troedfedd o uchder. Yn union i'r dwyrain i'r rhai hyn, yn cael ei gwahanu oddiwrthynt mewn rhan gan geunant cul, ac mewn rhan gan fawndir llwm, y mae tŵr mawr trionglog, ynghyda gwastad-tir uchel, a rhed yn ddwyreiniol tua'r Bala, gan ddiweddu yn yr Arennig, yr hon sydd yn 2809 o droedfeddi o uchder. Mae cadwen hirgul tra uchel yn cael ei gwahanu oddiwrth y tŵr blaenaf, gan ddyffryn Ffestiniog; gorwedda yn y gorllewin i'r ail swp; ymestyna i'r de cân belled a genau yr afon Maw; mesura yn agos i 15 milldir o hyd, ac oddeutu 7 milldir o led; ac esgyna i gopäau Craig-dwrg a Rhinog-fawr, uchder o 2100, a 2345 o droedfeddi.

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON. LO



GLASGOW & EDINBURGH.
Digitized by Google

Digitized by Google

Mae swp cymhariaethol fychan, ond gwir ardderchog, yn codi yn union i'r de, i enau y Maw; gwneir ef i fyny yn benaf o Gadair Idris, ynghyd a'i cheinciau, a'i hysgwyddau; a chynwys Ben y Gadair, a Mynydd Moel, y rhai sydd yn 2914 a 2817 o droedfeddi o uchder. Mae cadwen fawr, yn dechreu yn yr eithaf bwynt de-orllewinol, yn nghymydogaeth Aberdyfi; ymestyna yn ymdonog, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, hyd yn nghymydogaeth Corwen; ffurfia derfyn mawreddog bron ar hyd holl ochr dde-ddwyreiniol y sir; dechreua yn Aran y Gesail, gyda chopa yn 2224 o droedfeddi o uchder; gerllaw Dinas Mawddwy, ymrana yn ddwy, y naill linell yn myned i'r gogledd-ogledd-ddwyrain, a'r llinell arall yn parhau mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol; cyfyd, ar y llinell ogledd-ogledd-ddwyreiniol i uchder o 2955 o droedfeddi, yn nghopa Aran Fawddwy; i'r llinell ogledd-ddwyreiniol y perthyna mynyddoedd y Berwyn, a chrib Cadair Ferwyn, yn codi 2563 o droedfeddi i'r entyrch. O'u cymmharu â golygfeydd teleidion gwlad fwy amaethedig, hwyrach y cyfrifid golygfeydd y sir hon yn amddifad o bryd a thegwch; ond os yw ei mynyddoedd yn ymddangos yn llwm a brochus, y mae ynglyn â hwynt wrthddrychau mor dra gwahanol eu hanian a'u hansawdd, fel ag i gynysgaeddu yr olygfa â swyn amrywiaeth, ac i foddhau llygad yr edrychydd, trwy arddangos y gwrthgyferbyniadau mwyaf dymunol mewn lliwiau. Mae môr a mynydd megis am y goreu i roddi boddhad, y llynoedd tawel megis yn ymhyfrydu yn y gwaith o adlewyrchu pelydrau y ser, neu olchi traed y bryniau, —"dyffrynoedd, glynoedd, glanau" yn ymryson mewn prydferthwch, a'r afonydd gloewon megis cadwyni arian yn addurno y cyfan. Ebe un awdwr Seisnig, "Ni pherthyn iddi wylltineb ysgythrog clogwyni Arfon, ond y mae yn hafal iddi mewn arucheledd tawel, ac yn rhagori mewn dillynder, amrywiaeth, a thegwch. Mae y mynyddoedd, er nad ydynt cyfuched, yn arddangos lliwiau tecach, a mwy amrywiol, yn ogystal a ffurfiau mwy gogyhyd a dillynwiw." Mae y rhai mwyaf mawreddus o honynt, hefyd, yn meddu y fantais o fod yn codi o wastadeddau isel, oddeutu glynoedd glaswyrdd, a dolydd deiliog, yr hyn a bair eu bod yn ymddangos yn llawer uwch nag ydynt mewn gwirionedd. Mae y dyffrynoedd, ac aeliau y bryniau, yn fwy coediog nag eiddo Arfon; yn wir, dywedir fod y coedwigoedd irddail, a mân raiadrau yr afonydd trychionog, yn peri fod arweddau yr olygfa yn dwyn cyffelybrwydd tarawiadol i rai o ardaloedd mwyaf swynol Switzerland.

Nid yw yr afonydd yn ail i'r mynyddoedd mewn pwysigrwydd a dyddordeb, a'r benaf o honynt hwythau yn ddiau yw y Ddyfrdwy, yr hon a ddyfrha y gogledd-ddwyrain, a red drwy Lyn Tegid, gan ymddolenu ar hyd dyffryn bras Edeyrnion, heibio i Gorwen, a hen ardal Glyndwr, hyd Langollen, ac oddiyno drwy siroedd ereill, i'r môr. Er mwyn iawn ddirnad gyrfaoedd yr afonydd, tyner llinell ddychymygol yn cychwyn o Faldwyn, ac yn rhedeg mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol, heibio Bwlch y Groes, ger Aran Fawddwy, i Ddrws y Nant, rhwng y Bala a Dolgellau, oddiyno ar draws y mynyddoedd, hyd Lyn Tryweryn, a Llyn y Morwynion, ac yn terfynu yn mhen dyffryn Ffestiniog. Mae yr afonydd yn disgyn mewn dau gyfeiriad gwrthgyferbyniol, rhai i'r gorllewin, a'r lleill i'r dwyrain; a dywedir am amaethdy o'r enw Pant Gwyn, fod y gwlaw a ddisgyna ar ochr orllewinol y tô, yn rhedeg i forgilfach Ceredigion, yn Abermaw; a'r gwlaw a ddisgyn ar yr ochr ddwyreiniol, yn rhedeg i fôr Iwerddon. Y prif afonydd ar yr ochr orllewinol i'r llinell a nodwyd, ydynt y Ddyfi, yn rhedeg hyd y terfyn de-ddwyreiniol, dan Aran y Gesail, a thrwy ddyffryn ffrwythlawn Machynlleth, i'r môr ger Aberdyfi; y Maw, neu y Mawddach, gyda'i dau raiadr, a rêd drwy y Ganllwyd, ac a dderbynia ddyfroedd yr Wnion, yr hon a dreigla o Ddrws y Nant, drwy ddyffryn Dolgellau, ac ymarllwysa dyfroedd unedig y ddwy i'r môr, ger Abermaw; a'r Traeth bach, yr hon a red mewn cyfeiriad gorllewinol trwy ddyffryn Ffestiniog. Y brif afon ar yr ochr arall yw y Ddyfrdwy, yr hon y sylwyd arni yn barod. Afonydd llai ydynt y Glyn, gyda chwympiad o 200 troedfedd; y Gynfael, gyda chwympiad o 40 troedfedd; y Ddwyryd, y Glaslyn, &c. Mae dyffryn y Ddyfi yn rhagori ar eiddo y lleill o ran maintioli a ffrwythlondeb; a phriodolir hyny i'r gwahaniaeth yn ansawdd y tir. Bychain o faintioli yw y llynoedd, oddieithr Llyn Tegid, y mwyaf yn Nghymru, yr hwn sydd agos yn ddeuddeng milldir o amgylchedd, ac wedi ei blymio mewn gwahanol fanau, ddyfnder o 55 i 120 o latheni. Y llynoedd ereill ydynt Llyn Arenig, yn Llanycil; llyn Conglog, yn Nhrawsfynydd; llyn Cregynan, yn mhlwyf Dolgellau; llyn Creini, ar Gefn Creini; llyn Cwm Mynach, yn Llanelltyd; Llyn Du, yn Llanfihangel y Pennant; Llyn Elidyr, yn Llanfrothen; llyn Geirw, yn Nghelynin; llyn Hoewal, yn Llanbedr; Llyn Mwyngil, yn Nhal-y-llyn; llyn Mynyllod, yn Llandderfel; llyn Serw, yn Nhrawsfynydd; llyn Tegwyn, yn Llandecwyn; llyn Tri Graienyn, yn Talyllyn, a elwir felly am fod ynddo dair careg anferth, y rhai y dywedir i Idris Gawr eu tynu o'i esgidiau; llyn Tryweryn, yn Llanfor; llyn Urddin, yn Llanddwywe; llyn y Ddinas, yn Meddgelert; llyn y Gadair, ger Dolgellau; llyn y Morwynion, yn Ffestiniog; llyn yr Oror, yn y Bettws; llyn Dulyn, yn Llanddwywe; llyniau Duon, llyn Bodlyn. Delir gwyniaid yn Llyn Tegid, math anghyffredin o frithyll yn Llyn Cwm Howel, ac ysbinbysg yn llynoedd Trawsfynydd.

Gan fod Meirionydd, yn nesaf i Arfon, y swydd fwyaf mynyddig yn Nghymru, nis gellir dysgwyl amgen nag amrywiaeth yn ansawdd ei thir. Gwir fod y dyffrynoedd, ac ardaloedd clyd a chysgodol tua glanau y mor, yn cynwys maesydd ffrwythlawn a meillionog, ond diffrwyth ac anniwylliedig yw y rhan fwyaf o'r sir. Nid yw hyny ryfedd yn y byd, eithr peth i'w ddisgwyl, pan ystyrir fod oddeutu haner yr arwynebedd yn cael ei wneud i fyny o gyttir moel ac anhydrin. Mae y rhan fwyaf o'r cyttiroedd hyn, pa fodd bynag, wedi cael eu perchenogi a'u hamgau bellach yn rhinwedd deddfau Seneddol. Mae rhai o'r mynyddoedd wedi eu hamgau hyd at eu cribau, ond y mae ereill megis yn herio pob ymgais i'w diwyllio, a'r parthau hawsaf i'w gosod dan drefn a thriniaeth yw y morfeydd ar yr arfordir. Yn ystod y blyneddoedd diweddaf, mae gwelliant amlwg wedi cymmeryd lle yn amaethyddiaeth y sir, ac y mae ymdrechion yr uchelwyr a'r boneddigion, ynglyn â'r Gymdeithas Amaethyddol, yr hon a gynnhalia ei harddangosfa yn flyneddol, yn effeithio i ddwyn peiriannau ac offerynau goreu Lloegr i gyrhaedd pob dosbarth o'r amaethwyr. Mae gan amaethwyr Meirionydd fwy o rwystrau i'w gorchfygu nag a ddisgyn i ran eu brodyr mewn un parth arall o Gymru; ond ni raid iddynt

Digitized by Google

ofni cymmhariaeth â neb mewn diwydrwydd, ac ymroddiad. Llwyddant i godi ceirch, haidd, a phytattws rhagorol, ac arferant erioed anfon caws, ac ymenyn i'r farchnad. Calch, a lludw mawn a arferid yn wrtaith, ond y blyneddoedd diweddaf, diolch i gyfleusderau y ffyrdd haiarn, gwneir defnydd lled helaeth o *guano*, a moddion cyffelyb. Er fod y gwartheg yn fychain, y maent yn nodedig o galed, a hawdd eu magu; duon eu lliw yw gwartheg y mynyddoedd, ond y maent yn llai eu maintioli na gwartheg duon Mon. Creaduriaid bychain celyd yw y defaid hefyd, fel y cyffredin o ddefaid Cymru; gyda wynebau a choesau gwynion, ac weithiau gyrn. Pwysa y rhai lleiaf o honynt o saith i naw pwys y chwarter, a'u cnu o dri chwarter pwys, i bwys a hanner; pwysa y rhai mwyaf, o naw i ddeuddeg pwys y chwarter, a chariant o bwys a hanner, i ddeubwys o wlân. Nid yw y gwlan hwn o'r math goreu, o herwydd y sythflew sydd ynddo. Megir yn y sir hon nifer mawr o ferlynod mynydd, y rhai a ymborthant ar ddeiliach y gwyllt-diroedd mynyddig, lle y cydborant yn gymmysg, nes y cyrhaeddant y teirblwydd, ac y byddant yn gymwys i'w gwerthu. Yna y mae y rhai a fegir ar fynyddoedd y Berwyn, yn cael eu gyru y tu fewn i wrŷch, neu gylch, a'r rhai cymwys i'w gwerthu yn cael eu didoli oddiwrth y lleill, a'u hanfon i'r marchnadoedd. Ceir mawn-diroedd rhagorol, yr hwn a wasanaetha yn lle glo, mewn gwahanol barthau o'r sir. Mae gwely o fawn tra rhagorol ar lan y mor, rhwng Tywyn ac Aberdyfi, yr hwn a ymestyna, nis gwyr neb pa mor bell, dan ddyfroedd morgilfach Ceredigion. I godi y mawn hwn rhaid symud amryw droedfeddi o dywod y mor, ac o herwydd y gronynau halenaidd a rydd hyn ynddo, mae y fflam yn graddol ysu llestri coginio a ddygir i gyffyrddiad â hi.

Perthyna creigiau Meirionydd yn benaf i'r ffurfiadau Cambriaidd, a Siluraidd, o nodwedd gyffelyb i greigiau Eryri. Ceir hefyd haenau o *trap*, a chalchfaen. Mae llechfaen yn y rhan fwyaf o honynt, ac y mae creigiau hylosg yn dyfod i'r golwg oddeutu genau y Fawddach, yn enwedig ar yr ochr ddeheuol, ac oddiyno tua'r gogledd-ogledd-ddwyrain. Mae ymddangosiad rhai o greigiau Cadair Idris, yn rhoddi lle i'r dybiaeth eu bod gynt yn ffurfio rhan o losgfynydd; ac y mae cribau y Gadair yn cynwys colofnau aruthrol o wyrddfaen crisialog, cyffelyb i'r rhai a ffurfiant y *Giant's Causeway* yn Iwerddon. Mae llawer o'r mynyddoedd yn oludog o blwm, a phres, a chodir calchfaen hefyd at ddybenion amaethyddol. Pan yn son am Môn "a'i thorog wythi arian," yr oedd Goronwy Owen yn farddonol yn hytrach nag yn llythyrenol gywir; ond buasai ei ddesgrifiad yn briodol yn yr ystyr gyfyngaf, a'i gymhwyso at Feirionydd, canys y mae yn agos i Ddolgellau, fwngloddiau aur, ac arian. Nid ydynt mor ennillgar, pa fodd bynag, a gweithfeydd copr Towyn, Dolgellau, Abermaw, ac Aberdyfi, neu fwngloddiau plwm ardaloedd y Tywyn, Llanaber, Dolgellau, Traeth Mawr, Llanelltyd, a Dinas Mawddwy. Y Cloddfeydd llechi, pa fodd bynag, sydd yn gosod yr arbenigrwydd mwyaf ar Feirionydd. Saif y rhai hyn yn benaf, yn ardaloedd Ffestiniog, a Chorris; a rhoddant waith i rai miloedd o ddynion. Gweithir hwynt yn ol deddfau manylaf a mwyaf cymmeradwy y gelfyddyd, ac nid yw yn ormod dyweyd, y ceir hufen dosbarth gweithiol Cymru ymysg chwarelwyr Meirion. Yn wir, y mae trigolion y sir yn gyffredinol, wedi ennill enw uwch na thrigolion unrhyw sir yn Nghymru am drefn a moesoldeb, fel y dengys ystadegau yr heddgeidwaid. Yn y flwyddyn 1864, nifer yr holl droseddau o bob math a gyflawnwyd, a'r rhan fwyaf o nodwedd hollol ddibwys, oedd 47; nifer y personau a gymerwyd i'r ddalfa, oedd 32; a phrin yr oedd yn angenrheidiol gwario y swm a wariwyd, sef 1718*p.*, at gynnaliaeth y 23 o heddgeidwaid a osodid i wylied bywydau a meddianau y trigolion heddychlawn. Yn Meirionydd, defod gyffredin yw anrhegu Barnwr ei Mawrhydi â phâr o fenyg gwynion, am nad oes iddo waith i'w gyflawni. Cafwyd prawf rhagorol o ufudd-dod a goddefgarwch y trigolion, yn eu hymddygiad ynglyn â phennodiad Saeson uniaith yn Farnwyr Llysoedd Sirol Canolbarth Cymru. Dangosodd y Meirionwyson eu bod yn ymwybodol o'r camwri o osod gwŷr o'r fath i weinyddu barn a rhaith mewn sir ag y mae ei thrigolion yn Gymry uniaith; a chafodd yr Arglwydd Ganghellydd Hatherley, a'r Senedd, wybod eu syniadau mewn modd rheolaidd a pherffaith gyfansoddiadol; ond er i'r gorthrwm gael ei angerddoli trwy annoethineb a thrahausder anesgusodol y Barnwr Homersham Cox, dyoddefodd y bobl y cam heb roddi i neb rith o le i'w cyhuddo o lithro oddiar lwybr ffyddlondeb ac ufudd-dod i'r awdurdodau goruchel. Nis gall na orfydd ysbryd penderfynol a theyrngarol o'r fath, hyd yn nod ar ragfarn Seisnig, ac ni raid wrth brophwyd i fynegi, mai Mr. Homersham Cox yw y Sais olaf a bennodir i weinyddu cyfiawnder, neu yn hytrach anghyfiawnder anfwriadol, mewn llysoedd Cymreig.

Mae swydd Feirionydd yn rhanedig i dri chwmwd, sef Edeyrnion, Ardudwy, a Mawddwy; dwy gantref, Meirionydd, a Phenllyn; 34 o blwyfydd, rhanau o dri phlwyf ereill, ac un lle gorblwyfol (*extra-parochial*). Gwahenir Cwmwd, neu Arglwyddiaeth Ardudwy, oddiwrth Talybont, gan yr afon Mawddach. Rhenir Ardudwy yn ddwy Gantref—Uwch-artro, ac Is-artro; cynwysa y gyntaf bedwar plwyf, nid amgen Llanelltyd, Llanaber, Llanddwywe, a Llanenddwyn; ac Is-artro a gynwys y plwyfydd canlynol; Llanbedr, Llanfair, Llandanwg, Llanfihangel-y-Traethau, Llandecwyn, Llanfrothen, Maentwrog, Ffestiniog, a Thrawsfynydd. Yn Uwch-Artro, ger Abermaw, y mae hen warchglawdd milwraidd wedi ei godi ar ben uchaf y bryn, ac a elwir Dinas Gortin. Yn Is-Artro, yn mhlwyf Llandanwg, y mae Tref Ddegwm a Chastell Harlech yn sefyll. Dywedir mai Maelgwn Gwynedd a adeiladodd y dref henafol hon, ac a'i galwodd—Caer Coelin. Yn mhlwyf Maentwrog y canfyddir adfeiliau Castell Min; lle y byddai Brenin Lloegr yn arferol o wersyllu pan yn dyfod yn erbyn Gogledd Cymru. Cantref Penllyn gynt a gynnwysai dri Chwmmwd, sef Uwch Meloch, Is Meloch, a Migneint, ond yn awr nid yw y tri ond yn gwneuthur dau Gwmmwd, y rhai a renir yn arglwyddiaethau Uwch Tryweryn, ac Is Tryweryn. Uwch Tryweryn a gynnwys dri phlwyf, sef Llanuwchllyn, Llanycil, a Llangower. Cynnwys Is Tryweryn ddau blwyf—Llanfor a Llandderfel. Mae Cwmmwd Edeyrnion (yr hwn sydd yn cymeryd i mewn hen gwmmwd Glyndyfrdwy) yn cynnwys y plwyfydd canlynol—Llandrillo, Llangar, Corwen, Llansantffraid, Bettws-gwerfil-goch, a Gwyddelwern. Y mae Cwmwd neu Arglwyddiaeth Mawddwy yn gorwedd i'r dwyrain, rhwng Tal-y-bont, a swydd Drefaldwyn, a chynwys ddau blwyf—Mallwyd, a Llan-y-Mawddwy. Y mae Cantref Meirionydd, yn

Digitized by Google

cynwys dau Gwmmwd, Estymaner a Thalybont. Cynwys Arglwyddiaeth Estym bedwar plwyf—Pennal, Towyn, Llanfihangel-y-Pennant, a Thalyllyn. Cwmmwd, neu Arglwyddiaeth Talybont a wahenir oddiwrth Estymaner gan yr afon Dysyni, ac y mae ynddo bedwar o blwyfydd: Llanegryn, Llangelynin, Dolgellau, a Llanfachreth. Mae y swydd at ddybenion cofrestriadol yn cymeryd i mewn drefgordd o Faldwyn, saith o blwyfi a rhan o un arall o sir Ddinbych, a phump o blwyfydd, a rhan o un arall o swydd Gaernarfon; ac yn rhoddi ymaith ddau blwyf i Faldwyn; cynwysa 466,026 o erwau; ac y mae yn rhanedig i ddosbarthiadau Corwen, Bala, Dolgellau, a Ffestiniog. Y trefydd marchnad ydynt Corwen, Bala, Dolgellau, Dinas Mawddwy, Harlech, Abermaw, a Thywyn; ac y mae yn y sir oddeutu 120 o dreflanau. Gweithir hosanau, a gwlaneni oddeutu y Bala, Dolgellau, a Chorwen. Y prif balasdai ydynt Glanyllyn, Maes y neuadd, Nannau, Hengwrt, Cors y gedol, Bronheulog, Caerynwch, Peniarth, Glyn, Dolserau, Pale, Rhiwlas, Rhug, Aberhirnant, Crogen, Talgarth, Caerffynnon, Glan William, Plas Weunydd, Castell Deudraeth, Tanybwlch, ac Ynys maengwyn. Y mae yn deilwng o sylw, nad oes yn trigiannu yn Meirionydd na duc, ardalydd, iarll, barwn, isiarll, na neb o deitl, oddieithr Syr E. Buckley, A.S., a'r Anrhydeddus C. H. Wynn, Rhug. Cyn i'r ddau uchelwr hyn ddyfod i fyw i'r sir ychydig flyneddoedd yn ol, nid oedd cymaint ag un gwr o deitl yn preswylio o'i mewn. Hynodrwydd arall a berthyn iddi, ydyw mai un cynnrychiolydd a fedd yn y senedd, canys nid oes yr un fwrdeisdref ynddi yn meddu y fraint o ethol aelod seneddol, ac y mae hyn yn gamwri ag y dylid mynu ei unioni. Nid oes yn y sir ychwaith, na maer, na chorphoraeth drefol, ond trwy ei bod mewn rhan yn esgobaeth Bangor, ac mewn rhan yn esgobaeth Llanelwy, y mae iddi ddau fugail meitrog, i ofalu am ei buddiannau ysbrydol. Poblogaeth y sir yn 1801 oedd 29,506; yn 1821, 34,382; yn 1841, 39,332; yn 1861, 38,963, gydag 8499 o dai annedd, 352 o dai gweigion, a 39 o dai yn cael eu hadeiladu. Erbyn 1871 yr oedd y boblogaeth wedi cynnyddu drachefn—y trigolion yn rhifo 48,598, a nifer y tai anedd yn 10,006. Nifer yr etholwyr yn 1833 oedd 580; yn 1865, 1527, ac o'r nifer olaf yr oedd 758 yn rhydd-ddeiliaid, a 530 yn dir-ddeiliaid. Gwerth ardrethol y sir yn 1815, oedd 111,436*p.*; yn 1843, 153,665*p.*; ac yn 1860, 186,603*p.*,—ac o'r swm olaf yr oedd 36,528*p.* mewn chwarelau, 722*p.* mewn mwngloddfeydd, 30*p.* mewn pysgodfeydd, 983*p.* mewn rheilffyrdd, a 100*p.* mewn gweithfeydd nwy. Llywodraethir y sir gan arglwydd raglaw, sirydd, ac oddeutu 30 o ynadon; perthyna i ddosbarth milwraidd Gwynedd, ac i gylchdaith Farnol Gwynedd. Cynnelir y brawdlysoedd yn Nolgellau, lle mae carchar y sir, ond yn y Bala y cyferfydd y cartreflu. Mae yn y sir oddeutu 190 milldir o dollffyrdd; a 420 milldir o ffyrdd rhagorol ereill. Mae rheilffordd o swydd Gaernarfon yn rhedeg hyd lan y mor, heibio Harlech, Abermaw, a'r Tywyn, i Aberdyfi; un arall, gyfleus i ranau de-orllewinol y swydd, er nad y tu fewn i'w therfynau, yn rhedeg ger y cyffiniau, heibio Machynlleth, tuag Aberystwyth; un arall, yn cychwyn o ymuniad y ddwy linell sydd yn cyfarfod yn eithafbwynt gogledd-ddwyreiniol y sir, ger Corwen, yn myned mewn cyfeiriad de-orllewinol, heibio Bala, a Dolgellau, i'r Abermaw; un arall, cainc o'r gyntaf, yn myned o Dywyn, mewn cyfeiriad dwyr.-ogl.-ddwyreiniol i Dalyllyn; ac un arall, cainc o'r ail, yn myned o Gemmaes, yn ogleddol i Ddinas Mawddwy. Myn traddodiad fod rhan fawr o Feirionydd wedi ei dwyn gan y môr, ac y mae y traethellau peryglus oddeutu y glanau, un ai yn cadarnhau y traddodiad, neu ynte wedi rhoddi bodolaeth iddo. Gall y rhai a roddant eu goglud yn nhraddodiadau y tadau, goleddu y syniad blaenaf, ond yr olaf yn ddiau a dderbynir gan y dosbarth beirniadol hwnw sydd yn rhoddi y fath le i swyddogaeth darfelydd mynachaidd ynglyn â'n traddodiadau cenedlaethol, ac yn dal fod cyffiniau Meirionydd yn gyffelyb yn bresennol, i'r hyn oeddynt yn amser y Rhufeiniaid. Pa fodd bynag, nyni a roddwn yma y traddodiad, a'r amgylchiadau a gyfrifir yn brawfion, gan adael i bob darllenydd fod yn sicr ac anffaeledig yn ei feddwl ei hun gyda golwg ar y deongliad. Hyn sydd sicr, fod rhes o geryg aruthrol, ac weithiau i'w gweled ar drai isel, yn rhedeg mewn cyfeiriad gorllewinol i'r mor, o enau yr afon Dysynni, yn ymyl eglwys Llangelynin, a'r enw a roddir arnynt er cyn cof, yw Sarn y Bwch. Mae llinell arall, lawer mwy ei maintioli na'r llall, ac yn 24 troedfedd o led, yn rhedeg mewn cyfeiriad de-orllewinol, o ymyl Harlech. Sarn Badrig y gelwir hon, a hen chwedl fynachaidd a fynega yn ddifrifol ddigon, mai Padrig, sant enwog y Gwyddelod, a'i ffurfiodd yn wyrthiol, i rwyddhau ei ffordd rhwng Prydain Fawr a'r Iwerddon, ac nid oedd bai ar yr hen nawddsant defosiynol, ysgatfydd, am ddefnyddio pob moddion i gadw ei draed sanctaidd rhag gwlybaniaeth! Pwnc sydd wedi dyrysu llawer ymenydd ydyw, beth a allasai y sarnau hyn fod? Ystyria rhai nad ydynt namyn gwaith celfyddyd, ond maentumia ereill, mai creigiau ansyfladwy ydynt. Y rhai a goleddant y syniad blaenaf, a honant fod Sarn y Bwch, a Sarn Badrig, yn cyfarfod eu gilydd, ac yn ffurfio gwrthglawdd rhag y môr, i lain eang o dir bras, a elwid Cantref y Gwaelod. Mae Llyfr Du Caerfyrddin yn cynwys barddoniaeth y cynfeirdd, yn galaru o herwydd trychineb gorlifiad y Cantref hwn; ac y mae enwau trefydd y dywedir eu gorlifo, ar gael yn y "Trioedd," ac mewn traddodiadau. Dadleua y blaid arall am y pethau hyn oll, mai "breuddwydion beirdd ydynt," a bod yn bossibl profi oddiwrth ysgrifeniadau Rhufeinaidd, a'u crybwyllion am borthladdoedd Meirionydd, fod y môr y pryd hwn yn yr un gwely ag yn bresennol. Os felly, rhaid addef fod breuddwydion y beirdd yn fwy manwl a thrwsiadus eu ffurf, nag eiddo bodau diawen, canys anaml y ceir breuddwydion hanesyddol yn rhoddi manylion am bersonau, lleoedd, ac amserau, gydag un math o gysondeb, na rhith rheswm. Dywedir fod y trychineb hwn wedi cymeryd lle oddeutu y flwyddyn 500, pan oedd Gwyddno Garanhir, tad Elphin, noddwr Taliesin, yn arglwydd y fro; ac mai yr achos oedd esgeulusdra hen feddwyn, o'r enw Seithenyn, yr hwn yn ystod y nos a adawodd lifddorau y gwrthglawdd yn agored. Yn y mor, oddeutu saith milldir i'r gorllewin o Aberystwyth, y mae crug o geryg rhyddion, a elwir Caer Wyddno, a cherllaw, y mae olion yr hyn a feddylir oedd morglawdd Cantref y Gwaelod. Nid yw y mor mewn un parth o forgilfach Aberteifi yn ddwfn iawn, a dywedir fod meini yn dwyn ergryff Lladinaidd, bathodau Rhufeinig, a choed cwympiedig, wedi cael eu gweled o bryd i bryd ar encil y mor. Bernir fod Dyffryn Tywyn, wedi ei enill oddiar ar ol gorchuddiad Cantref

Digitized by Google

y Gwaelod, ac y mae rhan fawr o hono, oedd gynt yn ddiwerth oddieithr fel mawndir, wedi ei drin a'i gau i mewn fel tir da.

Derbynia y swydd ei henw oddiwrth y cantref a elwid Meirion, yr hwn a gyssylltwyd â hi pan drefnwyd terfynau presennol y swydd yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, a'r cantref a roddodd enw i hen dalaeth Meirionydd. Derbyniodd y cantref ei enw, am mai efe ydoedd cynysgaeth Meirion, wyr Cunedda Wledig, yr hwn a'i rhoddes iddo yn wobr am y gwroldeb a ddangoswyd ganddo ef a'i dad yn y rhyfeloedd â'r gelynion Gwyddelig. Meirionydd yw yr unig swydd yn Ngwynedd a gadwodd ei henw cyntefig. Yn amser Cesar, yr ydoedd yn ffurfio rhan o diriogaeth y Gordofigwys, ac ar ol y goresgyniad Rhufeinig, perthynai i'r rhandir a elwid Mervinia, yr hwn oedd yn ffurfio rhan o dalaeth *Britannia Secunda*. Gerllaw y Bala y gesyd Stukeley yr orsaf Rufeinig bwysig, *Hereri Mons;* ond tybia ereill mai Tomen y Mur, ger Ffestiniog, ydoedd; bernir fod gorsafoedd Rhufeinig hefyd yn Nghaergai, ger Llanuwchllyn, yn agos i'r Bala, ac yn Mhennal. Yr oedd y ffordd Rufeinig, *Via Occidentalis*, yn rhedeg ar hyd yr holl sir, yn dyfod i mewn o'r de, o orsaf *Loventium* yn Ngheredigion, ac yn rhedeg i'r gogledd heibio gwersyll mawr Pennal, a gorsaf *Hereri Mons*, i *Segontium* ar fin y Fenai. Yr oedd cainc o ffordd ddeheuol *Watling* yn myned trwy y sir o orsaf *Mediolanum* yn Maldwyn, heibio Gaer Gai, ger y Bala, i'r *Via Occidentalis* yn *Hereri Mons*. Yn y rhaniad a wnaed gan Rhodri Fawr, gosodwyd y sir hon yn nheyrnas Aberffraw, neu Wynedd, oddeithr y rhanau dwyreiniol a gogledd-ddwyreiniol, sef hen gantrefi Mawddwy, Edeyrnion, a Glyndyfrdwy, a rhan o gantref Dinmael, y rhai a berthynent i deyrnas Powys. Er fod y trigolion yn rhy hoff o ymrafaelio â'u gilydd, ni ddyoddefodd Meirionydd, o herwydd ei sefyllfa anhygyrch, gymaint a rhanau ereill o'r Dywysogaeth oddiwrth anrheithiadau y Sacsoniaid, y Daniaid, a'r Normaniaid; ac ni bu yn faes brwydrau pwysig hyd dymor olaf annibyniaeth y Cymry. Ar ol casglu goreuon ei filwyr o bob parth o'i diriogaethau eang, croesodd Harri yr Ail i Gymru, yn y flwyddyn 1165, gerllaw Croesoswallt, tra yr oedd y fyddin Gymreig wedi ymgynnull yn Nghorwen, yn y sir hon, i'w wrthsefyll. Trwy dori i lawr y coed o'i flaen, rhag iddynt roddi cudd a chêl i'r Cymry, llwyddodd Harri, er gwaethaf gwrthwynebiad minteioedd bychain o'r Cymry, i ymdaith cybelled a mynydd y Berwyn, yn nghwr eithaf gogledd-ddwyrain Meirionydd, lle y gwersyllodd efe a'i luoedd. Gwersyllai y Saeson ar lechweddi y bryniau, a'r Cymry yn llu nerthol ar gribau y mynyddoedd cyferbyniol, y naill fyddin yn dysgwyl i'r llall daro y ddyrnod gyntaf; ond buan y daeth sefyllfa y teyrn Seisnig yn beryglus, canys llwyddodd y Cymry trwy wyliadwriaeth fanol, a phob dyfais a dichell, i attal ei gyflenwadau, i ddarostwng y fyddin Seisnig i'r cyfyngder mwyaf o herwydd prinder ymborth, a phorthiant. Ychwanegwyd at yr anhawsderau gan wlawogydd trymion a disymwth, y rhai a ruthrent o'r mynyddoedd fel rhaiadrau, a da fu gan Harri encilio i Loegr, gyda cholled fawr ar ddynion ac ystorfeydd. Yn 1404, ennillwyd castell Harlech trwy ruthr disymwth, gan Owain Glyndwr, pan gododd efe faner gwrthryfel yn erbyn trawsfeddianiad Harri y Pedwerydd o'r orsedd, ond ymhen pedair blynedd, syrthiodd drachefn i ddwylaw y fyddin Seisnig. Ar esgyniad Iorwerth y Pedwerydd i'r orsedd, yr oedd y castell hwn yn meddiant Dafydd ab Ieuan ab Einion, cyfaill diffuant i'r Lancastriaid, ac efe a'i daliodd yn enw y blaid hono amryw flyneddoedd, er gwaethaf pob deisyfiadau, a bygythion. O'r diwedd enynodd llid y brenin i'r fath raddau, fel yr anfonodd efe fyddin gref yn ei erbyn, dan lywyddiaeth William Herbert, iarll Penfro, yr hwn, ar ol cyfarfod âg anhawsderau luaws yn nygiad ei fyddin trwy wlad mor fynyddig, a lwyddodd i warchae y castell. Nid ar chwareu bach y darostyngodd efe y castell pa fodd bynag, canys ni roddodd yr amddiffynwyr eu harfau i lawr am dymor maith, a mynasant gael telerau anrhydeddus. Hwn oedd y castell olaf a amddiffynwyd ar ran teulu Lancaster. Yn gynnar yn rhyfel cartrefol yr eilfed ganrif ar bymtheg, amddiffynwyd Castell Harlech yn bybyr dros y brenin, gan Syr Huw Pennant; ond syrthiodd o'r diwedd i ddwylaw y fyddin seneddol, o herwydd i'r gwarchodlu droi yn anffyddlon i'w blaenor dewr. Daeth drachefn i feddiant y breninwyr, ond yn Mawrth, 1647, ennillwyd ef yn derfynol gan y fyddin seneddol dan y Cadfridog Mytton. Yr oedd Dolgellau yn meddiant y seneddwyr, ond gwarchaewyd arni gan fintai fechan o frenhinwyr, y rhai a wasgarwyd, a chymerwyd eu blaenor yn garcharor. Am hanes y Gwylliaid Cochion fu yn ddychryn yn y sir hon, gwel dan y pen LLANYMAWDDWY.

Perthyna i gyfrol henafiaeth y sir hon, rai pennodau lled ddyddorol, yn enwedig mewn perthynas i oesoedd boreuaf hanesiaeth. Ar y gwastattir ger Corsygedol, lle y saif llynoedd bychain Bodlyn, Cwm Howel, ac Irddin, y mae lliaws o weddillion Derwyddol, yn cynwys dau gylch o geryg rhyddion, un oddeutu 56 troedfedd o drawsfesur, a'r llall o faintioli llai. Haner milldir yn fwy i'r de, y mae dwy garnedd, o faintioli anarferol, ac i'r dwyrain, y mae cromlech fawr, yn cael ei ffurfio gan ddwy gareg ar eu lled-orwedd, y naill wedi ei gosod ar ymyl y llall, ac yn gorwedd ar bump o feini lled-ogwyddedig. Gerllaw y mae carnedd arall, ac arni ddwy gromlech fawr, a maen bwrdd un o honynt yn ddeuddeg troedfedd o hyd, a naw o led. Mae pedair colofn o faen, o ddeg troedfedd, i ddeuddeg troedfedd ac wyth modfedd o uchder, yn sefyll yn nghymydogaeth y cromlechau hyn; mae tair o honynt wedi cwympo, ond deil un i fyny, ac oddiamgylch y mae amryw gistfeini. Gerllaw y bumed gareg filldir, ar y ffordd o Harlech i Abermaw, y mae dwy gromlech yn ymyl eu gilydd, ac yn sefyll mewn modd hynod ar garneddau o geryg. Mae yn nghymydogaeth Harlech gyflawnder o weddillion henafiaethol, ac yn dwyn perthynas yn benaf â Derwyddiaeth. Ar lethr a chrib bryn serth, y mae amryw gylchoedd o geryg rhyddion, ac un maen yn nghanol y rhan fwyaf o'r cylchoedd. Mae copa Craig y Ddinas, yn ymyl y gweddillion hyn, wedi ei amgylchynu gan geryg afluniaidd, yn ffurfio gwerthyrau er amddiffyn y llain tir a amgauir ganddynt, a bernir mai amddiffynfa Brydeinig ydoedd; ac ar fryncyn cyfagos, y mae Castell Dinas Corddin, gwersyll milwraidd gyda gwerthyr, ag sydd yn ol pob tebyg yn llawn càn hyned a'r llall. Mae hefyd hen orsaf Brydeinig o'r enw Moel Offrwm, gyda gwerthyr o geryg rhyddion, ar uchaf clogwyn bàn uwchben Nannau, ger Dolgellau. Ceir olion mynych o'r meddianiad Rhufeinig; cafwyd bathodau Rhufeinig yn Cefn y Gaer, gerllaw Pennal, lle y mae etto olion eang o amddiffynfa Rufeinig gadarn.

Digitized by Google

Mae olion amddiffynfa gyffelyb, o'r enw Castell Prysor, yn ymyl Rhiwgoch, yn mhlwyf Trawsfynydd, a chafwyd yno hefyd fathodau, ac wrnau. Yr oedd gwersyll Rhufeinig hefyd yn y plwyf cyfagos, Maentwrog. Bernir fod Tomen y Bala wedi bod yn gwasanaethu fel amddiffynfa i'r Rhufeiniaid, a'r Prydeiniaid; ac y mae y bathodion, ac amryw bethau ereill a ddarganfyddwyd gerllaw Caer Gai, yn mhlwyf Llanuwchllyn, yn dangos fod yno hefyd amddiffynfa Rufeinig. Cafwyd bathodion Rhufeinig gerllaw Llanbedr, ac yn Nolgellau, a Harlech; cafwyd aurdorchau hefyd yn Harlech, ac ar Gadair Idris. Mae olion yr hen ffyrdd Rhufeinig i'w gweled mewn gwahanol ardaloedd hyd heddyw. Ar fynydd y Migneint, Ffestiniog, y mae "Beddau Gwyr Ardudwy," rhyw ddeg ar hugain o nifer, a dywed traddodiad lleol, eu bod yn feddau gwŷr o nod, a laddwyd yn y fan, mewn brwydr rhwng gwŷr Ardudwy a gwŷr o swydd Ddinbych. Mae yn agos iddynt amryw gylchoedd, a charneddau. Ceir meini gwŷr ger pentref Llanbedr, a gwahanol fathau o weddillion yn mhlwyfydd Trawsfynydd, a Chorwen. Yn mhlwyf Llanelltyd y mae adfeilion hen fynachlog enwog Cymmer, neu y Faner, yr unig grefydd-dy o'r fath yn y sir, yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Mae golwg urddasol etto ar hen gastell Harlech, ac yn Sychnant, oddeutu tair milldir o Gorwen, y mae olion palasdy yr anfarwol Glyndwr. Yn codi o'r Gynfal, un o geinciau y Ddwyryd, y mae craig golofnog uchel, a elwir Pwlpud Huw Llwyd o Gynfal, lle yr arferai yr hen fardd ymneillduo, o swn a berw y byd.

**MEISYR**, un o ferched Cyndrwyn, tywysog Powys, yr hon a grybwyllir gan Llywarch Hen.

**MELAI**, trefgordd gyda 42 o drigolion, yn mhlwyf Llanfairtalhaiarn, DINBYCH; saith milldir a haner i'r de-dde-orllewin o Abergele.

**MELANGELL**, merch Cyfwlch Addwyn, ab Tudwal Tudclwt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig. Ei mam oedd Ethni Wyddeles, merch Matholwch, Arglwydd Cwl, yn Iwerddon, ac yr oedd Rhydderch Hael, brenin Ystrad Clwyd, a Manaw, yn frawd iddi. Wrth yr enw *Monacella* yr adwaenir hi yn Lladin, a chedwid ei gwylmabsant ar y 27ain o Fai. Ymddengys fod ei thad wedi ei haddaw mewn priodas i un o bendefigion ei lŷs, ond yr oedd Melangell wedi cymmeryd llw o forwyndod, ac yn hytrach na thori ei diofryd, hi a ffodd o'r Iwerddon i Gymru. Ymneillduodd i Bennant Melangell, yn Maldwyn, a bu yno heb weled wyneb gwr am bymtheng mlynedd. Un diwrnod, yn y flwyddyn 604, pa fodd bynag, daeth Brochwel Ysgythrog, tywysog Powys, i'r ardal i hela ysgyfarnogod. Ymlidiodd ei ysglyfaeth i ogof, yn yr hon y canfyddodd efe y wyryf Melangell, yr hon oedd wedi dofi yr ysgyfarnogod i'r fath raddau, fel y deuent atti am nodded, a thau ei mantell yr oedd yr ysgyfarnog a ymlidiasai y tywysog. Er annos, nid oedd y cwn yn beiddio dynesu atti, a phan geisiai yr heliwr chwythu ei udgorn, glynai wrth ei wefusau. Gwrandawodd Brochwel ar adroddiad Melangell o'i hanes, a rhoddodd i Dduw, ac iddi hithau, lain o dir, i fod yn noddfa i'r sawl a ddeuent yno. Deisyfodd arni sefydlu abatty yn y fan, yr hyn a wnaeth, a hi a fu farw yn abades, wedi cyrhaedd oedran teg. Claddwyd hi yn eglwys Pennant, a Phennant Melangell y galwyd y lle hwnw o hyny allan. Mae yn y fynwent feddfaen yn nodi ei gorweddle, ond y mae yr argraff, a'r lluniau oedd arno, wedi gwisgo ymaith gan amser. Ystyrid hi yn nawddsant yr ysgyfarnogod, y rhai a elwid "Wyn Melangell," a chymmaint oedd ofergoel yr hen bobl dda gynt, fel nad oedd neb a laddai ysgyfarnog yn yr ardal; yn wir, credid yn ddiysgog, pan ymlidid ysgyfarnog gan gŵn, nad oedd yn ddichonadwy ei dal os digwyddai rhyw un waeddi, "Duw a Melangell a'th gato."

**MELIDEN**, trefgordd a phlwyf yn nghantref Prestatyn, dosbarth Llanelwy, swydd CALLESTR. Mae y drefgordd ar lan y mor, ac ar reilffordd Caer a Chaergybi, ddwy filldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd Prestatyn, a phedair milldir a haner i'r gogledd-wrth-ddwyrain o Lanelwy. Mae y plwyf yn cynwys hefyd drefgyrdd Nant, a Phrestatyn, a pherthyna i'r olaf lythyrdy, dan swyddfa Rhyl. Erwau, 4722, yn cynwys 3115 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 12,920*p.*, yn cynwys 9452*p.* mewn mwngloddfeydd. Poblogaeth, 1250, a 292 o dai annedd. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gyda 183*p.* o gyllid, a phersondy; ac Esgob Llanelwy yw y noddwr. Bywioliaeth ar ei phen ei hun yw periglorîaeth Prestatyn. Yn y flwyddyn 1684, testamentodd Edward ab Tomos, ardreth o 40*p.* i dlodion y plwyf. Mae olion hen gastell, o'r enw Plas Prestatyn, yn nhrefgordd Prestatyn.

**MELIN ABBEY**, palasdy yn mhlwyf Llanfihangel-Llanbarnam, MYNWY; ar yr afon Llwyd, dair milldir a hanner i'r gogledd o Gasnewydd. Adeiladwyd ef mewn rhan allan o weddillion Abatty.

**MELIN CRYTHAU**, lle yn cynwys gweithfeydd copr a glo, rhyw filldir i'r dwyrain o Gastellnedd, yn MORGANWG.

**MELIN CWRT**, pentref yn ngogledd MORGANWG, ar yr afon Cleddau, bum milldir a haner i'r gogledd o Nedd, yn cynwys ffwrneisiau mawrion. Ychydig bellder oddiwrth y gweithfeydd hyn y mae rhaiadr ardderchog ar yr afon Clydach, lle y cwympa y dwfr ddyfnder o 80 troedfedd. Gyda yr eithriad o Raiadr Mynach, dyma y mwyaf yn y Deheudir, ac y mae y golygfeydd cylchynol yn dra mawreddog.

**MELIN DWR**, trefgordd yn y rhan hwnw o blwyf Llanbadarn-fawr ag sydd yn nghantref Geneu'r Glyn, swydd ABERTEIFI; ar yr afon Rheidol, gerllaw Aberystwyth. Erwau, 6677. Gwerth ardrethol, 2799*p.*, ac o'r swm hwn y mae 1029*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 1151; yn 1861, 1311. Tai anedd, 234.

**MELINE**, neu MELINAU, plwyf yn nghantref Cemmes, undeb Aberteifi, swydd BENFRO; ar yr afon Nefern, dan fynydd Precelli, chwe milldir a chwarter i'r de-orllewin wrth dde o orsaf rheilffordd Aberteifi. Erwau, 4523. Gwerth ardrethol, 1858*p.* Poblogaeth, 414. Tai, 108. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth yn esgobaeth Tyddewi, gyda 130*p.* o gyllid, ac yn nawdd y Parch. D. Prothero. Ailadeiladwyd yr eglwys yn 1865, yn ol yr arddull Seisnig addurnedig. Mae olion hen wersyll yn Mhen y benglog.

**MELIN FELINDRE**, rhaiadr yn neheubarth Maldwyn, rhwng Llanidloes a Phlumlumon.

**MELIN GRUFFYDD**, lle ar yr afon Taf, yn MORGANWG, bedair milldir i'r gogledd o Gaerdydd, yn cynwys gweithfeydd alcan, perthynol i T. W. B. Blakemore, Ysw., yr hwn sydd yn preswylio yn y Felindre, palasdy cyfagos.

**MELINIOG FACH**, A MELINIOG FAWR, dwy drefgordd yn mhlwyf Llansaintffraid, MALDWYN; gerllaw Llanfyllin. Poblogaeth, 104 a 114.

Digitized by Google

**MELONS** (St.), pentref, a phlwyf, yn undeb Caerdydd, a swydd Mynwy. Saif y pentref ger yr afon Rhymni, ar dueddau Morganwg, ddwy filldir a haner i'r gorllewin wrth dde o orsaf rheilffordd Marshfield, a phedair milldir a chwarter i'r gogledd-ddwyrain wrth ogledd o Gaerdydd. Mae y plwyf yn cynwys 2574 o erwau. Gwerth ardrethol, 4346*p*. Poblogaeth, 688. Tai, 137. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, gydiol â ficeriaeth Llanedarn, yn esgobaeth Llandaf. Perthyna y nawddogaeth i Esgob Llandaf, bob yn ail gyda Deon a Glwysgor Llandaf. Elusenau, 15*p*.

**MELWAS**, tywysog ar y Brythoniaid Gogleddol, yr hwn a fu yn cyd-ddichella â Gwenhwyfar, merch Gwythyr ab Creidiol, a gwraig y brenin Arthur. Adnewyddodd y garwriaeth â Melwas pan oedd ei gwr yn y rhyfeloedd, a chwblhaodd ei hanffyddlondeb, trwy ffoi ymaith gydag ef. Trwy gyttundeb blaenorol â Melwas, aeth y frenhines a'i llawforwynion i'r coed i ymddifyru. Yn ddisymwth daeth Melwas o lwyn cyfagos, mewn gwisg o ddail, fel nad adwaenid ef, ac a gariodd ei frenhines ymaith yn ei freichiau. Wrth gwrs, bu yn dda gan y gwasanaethyddion allu dianc yn groeniach, canys credent yn eu dychryn, mai boneddwr o'r byd arall oedd yr ymwelydd dieithr, yr hwn a gipiasai eu meistres mor ddiseremoni oddiarnynt. Bu y ddichell hon yn destyn i awen y beirdd am oesau, a soniai Dafydd ab Gwilym am "Melwas yn y glas glog." Dygodd Melwas ei goflaid frenhinol gydag ef i'r Alban, ac yno y buont yn cyd fyw yn odinebus. Cafodd Edward Llwyd chwedl hynod, yn cyd-daro mewn lliaws o bethau â'r hanes Gymreig, yn un o lawysgrifau Kirkwood, ac fel yma y rhed hono:—"Oddeutu y flwyddyn 500, Gwenhwyfar, gwraig Arthur, brenin y Brythoniaid, a syrthiodd i warth dan ddrwgdybiaeth o odineb, a chollfarnwyd hi i'w darnio gan gŵn, eithr llwyddodd i ddianc i'r Alban, ac ar ol hyny bu farw ar fryn Stormont, lle y buasai yn trigiannu am beth amser, a chladdwyd hi yn Meigle, swydd Perth. Oddeutu tair milldir oddiwrth y bryn lle y claddwyd hi, y mae maen, ag sydd yn dalach na dyn, a'i llun yn gerfiedig arno, gyda'r cwn yn ysglyfaethu arni ar un ochr; ac ar yr ochr arall, ddynion yn ei hymlid. Y mae hefyd feddfaen arall, lle y claddwyd ei gwasanaethyddion."

**MELYN**, bardd yn ei flodeu rhwng 1390 a 1430.

**MELLTE** (Y), afon yn Mrycheiniog a Morganwg. Dechreua yn ddwy ffrwd, y Llia, a'r Ddringarth, ger Maen Llia, a Maen Dringarth, dan Fannau Brycheiniog; rhed oddeutu deng milldir i'r de heibio Ystradyfellte, nes dyfod i'r Hepste, ac ymuna â'r ffrwd hono, a'r Sychrhyd, i ffurfio yr afon Nedd. Gerllaw Ystradyfellte, rhed trwy ogof ryfedd, o'r enw Porth yr Ogof, oddeutu 40 troedfedd o uchder, 20 troedfedd o led, a 1800 o droedfeddi o hyd; ac yn nghanol yr ogof, ail ymunir â hi gan ran o'r dwfr oedd wedi myned o'r golwg ger eglwys Ystradyfellte, gan redeg dan y ddaear i'r ogof. Mae yr afon yn gwneuthur amryw raiadrau hynod brydferth.

**MENAI**, cwmmwd yn nghantref Rhosyr, Mon, a elwir felly, o herwydd ei safle ar lan culfor Menai. Erwau, 37,364. Poblogaeth yn 1851, 8781; yn 1861, 8068. Tai annedd, 1916. Hwn yw y penaf o chwe Chwmmwd Mon, a rhydd Rowlands ddesgrifiad manwl o hono yn ei *Antiquitates Parochiales*. Gorwedda y rhan fwyaf o hono ar ochr ddeheuol yr Ynys, ond y mae rhanau o hono yn wasgaredig dros yr holl sir, sef Rhoscolyn yn y gorllewin, Sybylldir yn y canol, a Bryn Gwallan bron yn y canol, rhwng tri Chwmmwd ereill. Mae y Cwmmwd oddeutu pedair milldir ar ddeg o hyd, o Abermenai i Goedana, ac oddeutu wyth o led. Mae ei derfynau yn y de, o Aberpwll Ffanogl i Abermenai, yn cael eu nodi yn fanwl ac eglur gan gulfor y Fenai, a'r un mor eglur o Abermenai i Landdwyn, yna i Borth Dwynwen, heibio morgilfach Caernarfon, ac o'r lle olaf, i Gareg Gwladus, yr hon yw nod terfyn Cymmydau Menai, a Malltraeth, ac mewn llinell union-syth o'r gareg hono hyd Felin Rhyd y Wraig. Oddiyno rhed y llinell derfyn trwy ffos, i Dregarnedd Ucha, yna ar hyd y gors i afon Cefni, ac Ynys Cefni; yna trwy ganol yr afon hono i Nant Hwfa, oddiyno dros Ros Tre Hwfa hyd Rhyd y Spardyn, ac oddiyno drachefn i'r afon Cefni ger Afrogwy; oddiyno ar hyd yr un afon i Langwyllog, oddiyno i Neuadd Coedana, yna heibio Trescawen i Lidiart Twrcelyn; oddiyno i Bont Rhyd Owen, yna i Rhos y Groes, a thrwy Rhos y Meirch i Bryn y Crogwydd, ac oddiyno heibio Careg Eurgan i darddiad y ffrwd sydd yn rhedeg ger Rhyd y Wraig. Oddiyno (wedi iddi bron amgylchu plwyf Llanffinan) mae y llinell yn myned i Felin Geraint, neu Felin Pentraeth; oddiyno i afon Ceint, a Rhyd Ceint; oddiyno i lyn Corslwyd, a Cherig Brudyn; yna ar hyd y cerig sydd yn nodi y terfyn, i Nant y Crwth, ac afon Braint; yna trwy ganol yr afon Braint o gwmpas Llwynogan i Aberpwll yn ol. Fel hyn, ei derfynau ydynt ran o gulfor Menai ar y de-ddwyrain, morgilfach Caernarfon ar y de-orllewin, tywod Malltraeth a'r afon Cefni ar y tu gorllewinol. Mae y Cwmmwd yn cynnwys plwyfydd Llangeinwen, Llangaffo, Llangefni, rhan o Dregaian, Llanidan, Llanddanielfab, Llanedwen, Llanfair y Cwmmwd, Niwbwrch, Llanffinan, Llanddwyn, Llanfihangel Ysgeifiog, Rhoscolyn, rhan o Lantrisant, rhan o Langwyllog, rhan o Lanerchymedd, a Cheryg Ceinwen.

**MENAI**, y culfor sydd yn gwahanu Mon ac Arfon. Yr oedd yn adnabyddus i'r Rhufeiniaid dan yr enw *Meneviacum Fretum*, i'r Sacsoniaid dan yr enw Maenige a Maunie, a bernir mai yr enw Prydeinig cyssefin, a gwreiddyn yr holl enwau hyn, oedd *Main-aw*, yr hyn a olyga, y Dwfr Cul. Ymestyna o ben uchaf Traeth Lafan, 14 milldir i'r de-orllewin, i Forgilfach Caernarfon yn Abermenai, ac y mae yn amrywio mewn lled, o 200 llath, i ddwy filldir. Bernir mai dwy forgilfach ydoedd yn wreiddiol, yn cael eu gwahanu gan wddf-dir cul oddeutu y fan lle y mae y pontydd yn bresennol, a sonia hen lawysgrif Seisnig, mai afonig fechan o'r enw Ell, oedd gynt yn gwahanu Mon ac Arfon. Mae y culfor yn cael ei ysgubo gan ddau ffrydlif (*tide*) cryf, yn dyfod iddo un o bob pen, yn rhedeg weithiau, o bedair i wyth milldir yr awr, ac yn codi oddeutu 20 troedfedd. Mae y ffrydlifoedd hyn, y traethellau, a chreigiau y Pwll—y "pella' o'i gof o'r pyllau i gyd," yn peri fod mordwyaeth y culfor braidd yn beryglus, ond er hyny y mae yn dra chyfleus, trwy fod llongau yn gallu morio yn dawel drwyddo ar adegau, pan fyddo tymhestloedd yn attal iddynt hwylio heibio Caergybi, heblaw fod yn rhaid i holl longau Bangor, Caernarfon, a'r Felin Heli, fyned ar hyd-ddo. Cyn adeiladu pontydd Menai, a Britannia, yr unig foddion i groesi y culfor, oeddynt ysgraffau, neu gychod, a chymaint oedd y perygl ar dywydd tymhestlog, fel y boddodd 180 o deithwyr rhwng y blynyddoedd

Digitized by Google



Drawn by W Simpson. Engraved by C. Lawrie.

THE MENAI STRAITS,
SUSPENSION AND TUBULAR BRIDGES,
FROM ANGLESEY.

BLACKIE & SON LONDON, GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

Digitized by Google

1664 ac 1842. Yr oedd pump o leoedd i groesi, a pherthynai y pyrth hyn i goron Lloegr, nes i Harri VIII. eu rhoddi oll i Richard Gifford, un o'i ystafellyddion, yr hwn drachefn a'u rhoddodd i William Bulkeley, yn y 33ain flwyddyn o deyrnasiad Harri, ac er y pryd hwnw, y maent wedi newid perchenogion fwy nag unwaith. Croesodd Agricola y culfor hwn i ymosod ar y Derwyddon, a cher Moel y Don y gorchfygwyd y Saeson yn 1282. Nid oes lanerch ar wyneb y ddaear yn fwy cain ei golygfeydd na glanau y Fenai, yn enwedig pan ddeuir i'r culfor o gyfeiriad Llynlleifiad. Mae awen y bardd wedi ei hysbyddu ers llawer dydd, wrth geisio desgrifio yr olygfa, a drychfeddwl egwan am dani a rydd pwyntyl yr arlunydd goreu, yn enwedig pan fyddo y mor yn ben llanw. Ar yr adeg hono, bydd y dwfr gwyrddlas clir yn cuddio y gwastattir, y mynyddoedd ysgythrog yn y pellder, ac amrywiaeth o gestyll a phalasdai yn britho y glanau. Ar y llaw aswy, y mae clogwyni certh y Penmaenmawr, o ba rai y cloddir y ceryg a ddefnyddir i balmantu heolydd y trefydd mawrion. Rhed y rheilffordd gyda'i odreu, a'r dollffordd yn uwch i fyny, uwchben dibyn serth; ond yn uwch na hithau, ffordd haiarn fechan, yn cael ei gweithio gyda cheffylan, yr hon a wnaed i gludo y ceryg o'r chwareli. Heb fod neppell, y mae gwastadedd Llanfairfechan, ac Aber; ac ar hyd y glanau hyn y mae tai golygus ymhob cyfeiriad, at wasanaeth y dieithriaid fydd yn ymweled â hwynt wrth y miloedd yn yr haf, i fwynhau y pleser o ymdrochi ar dywod glanwaith Traeth y Lafan, heb feddwl fawr am drychineb dybryd Tyno Helig. Yn uwch i fyny, y mae Castell a choedwig eang y Penrhyn, a dinas henafol Bangor, yn llechu yn neilldueadd coediog y dyffryn. Ar y dde, y mae tref Beaumaris, a thyrau adfeiliedig ei chastell, yn galw i fyny adgofion am yr adeg pan oedd ewinedd gorthrwm yn ngwddf y genedl. Mae pob man o amgylch Beaumaris yn llawn o gyffelyb adgofion am "Gymru Fu,"—y Friars, ar lanerch yr hen fynachdy, dyffryn Aberlleiniog, lle bu brwydr rhwng Iarll Amwythig a brenin Norway, Baron Hill, palasdy golygus teulu o hen wehelyth Cymreig, a Llanfaes, a gweddillion John Elias, yr efengylwr anfarwol, yn gorwedd yn nhawelwch ei mynwent ddiaddurn, yn dysgwyl am ddolef y "corn ffraeth, o saerniaeth nef." Ond rhaid gadael amgylchoedd swynol yr hen Borth Wygyr, er mwyn cael golwg yn uwch i fyny ar ryfeddodau celfyddyd. Ar ein haswy, rhwng Pen y Garth ac *Upper Bangor*, gwelir un o'r adeiladau harddaf yn Nghymru, sef y Coleg Athrawol, a saif am oesau yn gofgolofn i wladgarwch a diwydrwydd yr anfarwol John Phillips. Yn union gyferbyn, dyma Glynygarth, palasdy godidog Mrs. Schwabe, cyfeilles Garibaldi, mab yr hwn, sef Ricciotti, gwr ieuanc yn meddu cyfran helaeth o gynneddfau arwraidd ei dad, a fu yn trigiannu ynddo am ysbaid maith; a bu Napoleon y Trydydd, ychydig cyn ei farwolaeth, ar fedr prynu yr un palasdy. Yn ei ymyl y mae Rhianfa, palasdy yr Arglwyddes Hay Williams, wedi ei adeiladu ar ddull y palasdai castellog sydd yn britho glanau yr afon Rhine, yn yr Almaen. Ychydig latheni ymlaen, y mae Craigydon, preswylfod yr hen foneddwr Cymreig, y Milwraid Williams. Yr ydym yn union wedyn, yn morio heibio tref Porthaethwy, gyda Bodlondeb, Treborth, a'r *George Hotel*, un o'r gwesttai enwocaf yn y deyrnas, ar yr ochr gyferbyniol; ac yna daw pontydd y Fenai, a Britannia, a throbwll Ceris, dychryn y morwyr, yn ymferwi rhyngddynt. Er fod "morio weithiau yn enbyd," rhaid myned ymlaen i gael golwg ar y Plas Newydd, preswylfod teulu Ardalydd Mon, a chofgolofn yr arwr yn amlwg i bell ac agos. Ar yr aswy y mae y Faenol, ac yna daw porthladd prysur y Felin Heli, a bèr oddiyno yw y fordaith i ben y culfor, gerllaw Caernarfon, heibio Porthamel, anneddle Arglwydd Boston; Plas Coch, preswylfod W. Bulkeley Hughes, Ysw.; a Llanfair, palasdy J. Wynne Griffith, Ysw.

**MENAI** (Pont), crogbont enwog dros y culfor, rhwng Mon ac Arfon; gerllaw uniad rheilffordd Caergybi a rheilffordd Caernarfon, un filldir i'r gogledd-ddwyrain o Bont Britannia, ac un filldir i'r gorllewin o Fangor. Y mae ar ffordd fawr Caergybi, a wnaed gan Mr. Telford. Bu beirdd a brudwyr yn darogan am bont dros y Fenai, ac aml y sonid am brophwydoliaeth Robin Ddu ddewin, gan yr hen bobl dda gynt. O'r diwedd sylweddwyd breuddwydion beirdd, a choronwyd ymdrechion celfyddydwyr. Nid heb lawer o drafferth, pa fodd bynag, y dygwyd y bwriad gogoneddus i ben. Buwyd yn cynllunio yn y flwyddyn 1810 a'r blyneddoedd dilynol; ond erthylu a wnaeth pob cynllun hyd y flwyddyn 1818, pan y dechreuwyd y gwaith ar gynlluniau y peirianydd enwog Telford, a chwblhawyd y campwaith gorchestol yn y flwyddyn 1826. Costiodd y gwaith 211,791*p.*, ac edrychir ar y bont hon fel un o'r rhai mwyaf lluniaidd a gogyhyd yn yr holl fyd, er fod ei chymydoges, pont Britannia, yn rhagori arni mewn cadernid. Yr oedd dirfawr angen am dani, canys derbynid cwynion parhaus am anghyfleusderau y borthfa, a'r peryglon ynglyn â'r ysgraffau. Pan orphenwyd hi, rhoddwyd pen ar bob grwgnach, a chafwyd pont llawer amgen na'r un oedd gan Rhys Nanmor mewn golwg, pan y dywedai, "coed crai ar Fenai fydd." Saif ar lecyn o'r enw Ynys y Moch, lle yr oedd y glanau serth a chreigiog yn dra manteisiol i godi pont o'r fath. Gwneir hi i fyny o bedwar bwa ar un ochr, a thri ar y llall, rhychwant pob bwa yn 52¼ troedfedd, a thrwy eu bod yn saethu allan o uchder o 65 troedfedd, y maent yn cario y ffordd i'r pilerau crog. Mae y pilerau yn 153 troedfedd o uchder, yn 553 troedfedd y naill oddiwrth y llall, ac wedi eu hadeiladu o galchfaen caled. Mae y cadwyni cynnhaliol yn 16 mewn nifer, a phob un yn 1715 o droedfeddi o hyd; y maent wedi eu diogelu yn mhob pen i 60 troedfedd o graig; y maent yn pasio dros benau y pilerau mewn cyfrwymau o haiarn bwrw, ar rolynau; y maent yn 579 troedfedd o hyd rhwng y pilerau, gyda phlygiad o 43 troedfedd; cynnhaliant faich parhaus o 489 tunnell, a phe bai angen, cynnhalient bwysau ychwanegol o 1520 o dunnelli. Mae y bont, yr hon sydd yn cynnwys dwy ffordd, yn 28 troedfedd o led, ac yn 102 troedfedd uwchlaw gwyneb y mor ar ben llanw; gorwedda ar ddistiau heiyrn, y rhai a ddelir gan dudlathau oddiwrth y cadwyni, ac a gauir i mewn yn yr ochrau gan ganllawiau heiyrn uchel. Gellir canfod dirgryniad yn y bont pan groeso cerbyd, neu hyd yn nod wr ar farch, a bydd yn siglo cryn dipyn ar dywydd tymhestlog. Ond y mae yn bresennol yn llawn mor gadarn a diogel ag ydoedd ar ddydd ei hagoriad, er i dymmhestl yn Ionawr, 1839, wneud tipyn o alanastr arni, yr hwn a adgyweiriwyd yn ebrwydd. Mae y gwaith haiarn sydd yn y bont yn pwyso 2186 o dunnelli. Yn ymyl y bont, y mae y *George Hotel*, lle y bu Duc Welling-

Digitized by Google

ton yn aros; ac y mae gorsaf y ffordd haiarn hefyd, mewn agosrwydd cyfleus. Ar ochr Mon i'r bont, y mae tref gynnyddol y Borthaethwy, lle yr erys yr agerlongau fydd yn hwylio rhwng Bangor a Lerpwl. Mae gan Eglwys Loegr, a'r gwahanol enwadau, addoldai heirdd, ac y mae agwedd lewyrchus ar yr Ysgolion Cenhedlaethol, a Brytanaidd. Mae yma neuadd gyhoeddus fechan, ac adran o Drydydd Corphlu Gwirfoddolwyr Cyflegrol Mon; ffeiriau ar yr 11eg o Fai, Gorphenaf 27, Awst 18, Medi 26, Hydref 24, a Thachwedd 14. Mae yma for-bysgodfa yn cael ei chadw gan Mr. E. Edwards. Gerllaw y Borth, yn mynwent Llandysilio, y mae bedd, a chof-golofn y duwinydd enwog, Henry Rees.

**MENAI,** Lewis, bardd yn ei flodau rhwng 1550 a 1580. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgriflyfrau.

**MENW,** neu Menw Hen, yr hwn hefyd a elwir Menw ab Teirgwaedd. Un o gymmeriadau rhyfedd y Mabinogion, a'r Trioedd Cymreig, yr un yn ddiau a Menu yr India, yr hwn a roddes dri dadguddiad y Vedas, ac ymddengys fod *Veda*, a *Gwaedd* yn tarddu o'r un gwreiddair. Dywedir fod yn y Sanscrit, y Lladin, ac amryw ieithoedd ereill, amryw eiriau gyda'r flaen-lythyren *v* y rhai ydynt yn bodoli hefyd yn y Gymraeg gydag *g* yn flaen-lythyren, ac i'r dosbarth hwn y perthyna *veda* a gwaedd. Yr hyn sydd yn rhyfedd ydyw, fod hanes *Menw* gan y Cymry, yn debyg iawn i hanes *Menu* gan yr Hindwaid. Rhestrir ef yn y Trioedd, fel un o "dri wyr hud a lledrith;" y ddau ereill oeddynt Math ab Mathonwy, a Rhuddlwm Gawr; a dywedir am Menw, mai efe a ddysgodd ei hud i Uthr Bendragon. Triad arall a ddywed mai "tri prif ledrithiawg Ynys Brydain," oeddynt Coll ab Collfrewi, Drych ab Cibddar, a Menw ab Teirgwaedd. Rhoddir lle pwysig i Menw yn Mabinogi Cilhwch ac Olwen, a phriodolir rhywbeth heblaw hud a lledrith iddo, gan rai awduron Cymreig lled hygoelus. Yn nhraethawd Arobryn Abergafenni, a gyhoeddwyd yn Llanymddyfri, yn 1840, ar Ddilysrwydd Coelbren y Beirdd, y mae gan Taliesin ab Iolo chwedl ryfedd, yn priodoli darganfyddiad y wyddor hono i Menw. Y chwedl ydyw, i Einigan Gawr, weled tri pelydr o oleuni, ar y rhai yr oedd yn argraffedig bob gwybodaeth a gwyddor. Ac efe a gymmerth dair gwialen o griafol, ac a argraffodd yr holl wyddorau arnynt, megis mewn efelychiad o'r tri pelydr goleuni. A'r rhai a'u gwelsant, a osodasant y gwialenau i fyny fel duwiau, yr hyn a barodd y fath ofid i Einigan, fel y torodd efe y gwialenau, ac y bu farw. Ac yn mhen undydd a blwyddyn, Menw ab Teirgwaedd a welodd dair gwialen yn tyfu allan o enau Einigan, ac yn ysgrifenedig arnynt bob math ar wybodaeth a gwyddor. Yna Menw a gymerth y tair gwialen, ac a ddysgodd bob gwybodau, ac a'u cyfranodd oll i ereill, oddieithr enw Duw, dechreuad cyfrinach y beirdd, yr hwn pawb a'i medd, a fydd fendigedig.

**MENWAED,** un o dri cadfarchawg y brenin Arthur, a rhestrir ef yn y Trioedd gyda Llyr Lluyddawg, a Charadawg Freichfras. Penaeth ydoedd o Arllechwedd, yn swydd Gaernarfon, a blodeuai yn y bumed ganrif.

**MERDDIN EMRYS,** bardd Emrys Wledig, yr hwn oedd yn ei flodeu oddeutu canol y bumed ganrif. Dywedir ei fod yn archadeiladydd yn ogystal a bardd, ac mai efe a gynlluniodd Gaer Caradog ar wastadedd Salisbury, a elwir yn bresennol *Stonehenge*. Ceir amryw Drioedd yn crybwyll am dano; un a ddywed iddo ef a'i naw beirdd cylfeirdd, fyned ar ddifancoll mewn llong wydr i'r mor, ac na bu wybod fyth i ba le yr aethant; un arall a'i rhestra ef, a Madawg Morfryn, a Thaliesin fel "tri prif-fardd bedydd." Nid yw yn hawdd dyfalu beth oedd dechreu y chwedl am ei fyned ar ddifancoll, ond ymddengys fod traddodiadau cyffelyb mewn gwledydd ereill. Yn ei "Historia Brittonum," crybwylla Nennius am Dŵr Gwydr a ymddangosodd yn nghanol y mor i ryw filwyr Hispaenaidd. Ac yn y Rhamant Hispaenaidd, yr hon a ysgrifenwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, y mae hanes maith am ddisgyniad yr arwr i'r mor mewn Ty o Wydr. Ceir yr un chwedl hefyd mewn Rhamant Almaenaidd, oddeutu y flwyddyn 1100, ac yn "*Orlando Furioso,*" y mae rhai o'r ysbrydion a wysiwyd i Gyngor Demagorgo, yn cael eu desgrifio fel yn hwylio drwy yr awyr, mewn Llongau Gwydr. Mae Davies, yn ei *Mythology of the Druids,* yn tybio am Dy Gwydr Merddin, mai llestr cysegredig ydoedd, yn arwyddluniol o'r Arch; a thybia hefyd ei fod yn arwydd derbyniad i Gyfrinion Barddas. Mae chwedlau ffol Nennius, am enedigaeth Merddin Emrys wedi arwain rhai beirniad i haeru mai cymeriad hollol ffugiol oedd Merddin. Y mae yn ddilys fod chwedl Nennius, yn y peth hwn fel mewn llawer o bethau ereill, yn anghyson a gwallus i'r eithaf. Dywed fod bachgen *amddifad o dad* yn cael ei ddwyn o flaen Gwrtheyrn, a phan ofynwyd iddo beth oedd ei ddechreuad, iddo atteb, "Consul Rhufeinig oedd fy nhad," a thrachefn, pan ofynwyd i'r bachgen am ei enw, iddo ddyweyd mai Embresguletic (Emrys Wledig) ydoedd. Dywed Stephens, fod Nennius wedi camgymeryd Merddin Emrys y bardd, am Emrys y brenin ei hun; yr oedd Emrys, neu Ambrosius, o wehelyth Rhufeinig. Mae chwedl Nennius yn gwahaniaethu ychydig hefyd oddiwrth eiddo Sieffre o Fynwy. Er nas gallwn gydfyned â holl erthyglau credo llenyddol Mr. T. Stephens, y mae ei sylwadau ar y pen hwn yn deilwng o ystyriaeth. Dywed ef, fod cred gyffredinol yn ffynu ymysg yr Iuddewon, ac wedi ei thaenu meddir, i guddio gwendidau yr offeiriadaeth, fod plant a enid o wyryfon, neu yn hytrach heb eu tadu yn gyfreithlawn, yn debyg o ddyfod yn enwog. Ar ol hyny, ffynai yr un gredingiaeth yn yr oesoedd hyn; rhydd Syr Walter Scott ddwy engraifft o'r fath yn yr Alban, ac esboniad ofergoelus yn cael ei roddi arnynt; ac y mae yn amlwg mai ar sail y goel hon, y dygwyd Merddin i'r byd heb dad. Y mae yn sicr am y chwedl, mai ffugiaeth eglwysig ydyw, canys am ganrifoedd lawer wedi i Nennius huno gyda'i dadau, yr oedd traddodiad yn glynu wrth hanes llai rhyfedd am enedigaeth Merddin; mae yr hanes yn Nennius yn llawer mwy diaddurn nag yr ymddangosodd wedi hyny gan Sieffre o Fynwy. Yn yr ysgrifenydd blaenaf, nis gwyr y foneddiges pa fodd y beichiogodd; ond y mae Sieffre, neu Gruffydd ab Arthur, yn addurno y chwedl trwy ddwyn i mewn iddi weledigaeth o "wr ieuanc hardd," a chadarnha yr holl hanes trwy osod Meugant i ddyweyd ei fod "yn llyfrau y philosophyddion, ac mewn llawer iawn o historiau, wedi cael allan fod dechreuad cyffelyb i lawer iawn o ddynion." Mae yr hanes a roddir yn y *Liber Landavensis* am Sant Samson, esgob Llandaf, yn engraifft arall o ffyniad llenladrad ysgrythyrol ymysg y mynachod Cymreig; buasai ei fam am ysbaid maith yn amhlantadwy, eithr ymwelodd angel â hi, ac addawodd

Digitized by Google

iddi fab, a'r mab hwnw wrth gwrs a dyfodd i fyny yn gawr o ran talent a duwioldeb! Yr oedd diwedd Merddin yn cyfatteb i'w ddechreuad, canys efe a aeth i'r mor mewn llestr wydr, ac nis gwelwyd ef byth mwy. Y Merddin hwn yw yr un y bu ei broffwydoliaethau yn cyn fflam gwladgarwch yn mynwesau y Cymry yn eu rhyfeloedd â'r Saeson, a'i ddewiniaeth ef, a ragfynegodd farwolaeth ddisyfyd Gwrtheyrn, un o dri charn-fradwyr Prydain. Gellir tybio i Merddin fod yn ddewin i Wrtheyrn, yn ogystal ag i Emrys; rhoddodd Matthew o Westminster, ddesgrifiad manwl a'i ddaroganiadau, y rhai a gyfieithwyd i'r Lladin, gan Sieffre o Fynwy, a chyhoeddwyd argraffiad Seisnig o honynt yn y flwyddyn 1641. Yn Nant Gwynant, Beddgelert, y mae craig uchel-grib unig, o'r enw Dinas Emrys, a dywedir i Merddin gael ei wŷsio yno o Gaerfyrddin, gan Gwrtheyrn. Ar gopa y graig, y mae olion amddiffynfa betryal, ac ar y tu gorllewinol, yn wynebu Beddgelert, gellir olrhain mur. Gerllaw Dinas Emrys, y mae cyttir caregog, a elwir Celli'r Dewinion, ac heb fod neppell, yn y maes nesaf, y mae nifer o feini mawrion, a adwaenir wrth yr enw, Beddau'r Dewinion. Y traddodiad ydyw, mai i'r llanerch hon yr ymneillduodd Gwrtheyrn Fradwr, yn chwerwder ei ysbryd, pan gafodd ef ei hun yn cael ei ddiystyru gan ei ddeiliaid, ac yn analluog i wrthsefyll yn hwy y Saeson a ddygasai efe ei hun i'r wlad. Cafodd noddfa yn y graig hon, nes encilio o hono i Nant Gwrtheyrn, gerllaw Nefyn, yn Lleyn.

**MERDDIN WYLLT.** Maentumia rhai ysgrifenwyr diweddar, mai enw arall ydyw hwn ar Merddin Emrys; ond ar y cyfan, yr ydym yn methu gweled fod eu rhesymau yn ddigon i ddymchwelyd traddodiad canrifoedd. Ar y llaw arall, y mae y brutiau a'r traddodiadau Cymreig am Merddin Wyllt, yn rhoddi gwedd rhamant ar ei hanes, a'r rhan fwyaf o honynt, rhaid addef, yn ffrwyth dychymyg dilyffethair mynachod y canol oesoedd. Ond rhaid fod rhywbeth yn hynod yn y person cynhenid, i beri iddo gael ei gynnysgaeddu mewn amser i ddyfod â chynneddfau dewin a phroffwyd, ac y mae yn eithaf dichonadwy olrhain hanes cyson, allan o'r holl chwedlau a nyddwyd o'i ddeutu. Os bu brudiaeth yr oesoedd tywyll yn foddion i roddi arliw anhygoel ar fywydau arwyr Cymreig, y mae perygl i duedd ammheus yr oes hon, eu hysbeilio o'u cyfiawn eiddo; ac ar y tir hwn, tra yr ydym yn cydfyned ar y cyfan â sylwadau y beirniad trylen o Ferthyr, o barth i annilysrwydd y rhan fwyaf o'r cyfansoddiadau a briodolir i Merddin, ni's gallwn dderbyn ei gasgliadau ynghylch y person ei hun. Dengys Mr. Stephens uwchlaw amheuaeth, fod mewn llawer o'r cyfansoddiadau, megis yr "Hoianau" a'r "Afallenau," brawfion mewnol o arddull a syniadau yn eu cysylltu â beirdd goreu y ddeuddegfed ganrif; ond cyll yr olwg ar y ffaith arall, fod ynddynt bethau ereill sydd yn dywyll ac anesboniadwy, y rhai a hawliant darddiad boreuach, ac a roddant le cryf i'r dybiaeth fod gan y beirdd ryw sylfaen heblaw yr eiddynt eu hunain i oruwch-adeiladu arni. Prin y buasent yn llwyddo i lygad-dynu y wlad i gredu mai proffwydoliaethau oedd cynyrch eu hawen eu hunain; yr oedd cyflwr meddyliol yr oes yn isel, y mae yn wir; ond yr oedd dau ddosbarth, y beirdd a'r mynachod, yn ddigon craff a gwybodus i ddarganfod dichellion ac ystrywiau o'r fath, a buasai yr ysbryd cenfigenllyd sydd yn nodweddu plant Ceridwen ymhob oes, yn lled sier o fod wedi ei ddadlenu, serch ei fod yn cael ei ymarfer ymhlaid achos y tywysogion Cymreig.

Nid yw yr hen gofnodion yn cyttuno yn hollol o barth i fro enedigol Merddin; dywed rhai mai brodor o Ddyfed ydoedd, a gesyd ereill ei enedigaeth yn nghymydogaeth Conwy. Bernir yn lled gyffredin, ac ar seiliau cedyrn hefyd i'n tyb ni, mai yn rhywle ar dueddau yr Alban, neu Ogledd Lloegr, fel Llywarch Hen, y daeth efe i'r byd. Mab ydoedd i Morfryn, neu Madog Morfryn, un o bendefigion Gogledd Lloegr, yn y chweched ganrif, ac y mae Gwilym Ddu, ymhen oesoedd wedyn, nis gwyddom ar ba sail, yn awgrymu fod Merddin o wehelyth Meirchion, hen-daid Llywarch Hen. Gellir casglu ei fod o fonedd lled dda, oddiwrth y ffaith ei fod wedi cael ei osod dan addysg farddol, braint nad oedd yn nghyrhaedd neb cyffredin yn y dyddiau hyny, a'i athraw oedd y Meigant, ag y mae amryw gyfansoddiadau hyd heddyw yn cael eu priodoli iddo. Wedi hyny, yn ol defod ac arfer yr oes, efe a osodwyd dan nawdd Gwenddolau ab Ceidio, penaeth Ystrad Clwyd, yn yr Alban, ac ymddengys mai amcan y "nawdd" hwn oedd dysgu iddo y gelfyddyd o ryfela, canys yr oedd Gwenddolau mewn rhyfel parhaus â Rhydderch Hael, tywysog y Brythoniaid Gogleddol. Cymerodd Merddin ran flaenllaw yn yr ymfrwydro, er fod yn anhawdd cysoni hyny â'i ddygiad i fyny fel bardd; canys yr oedd Barddas yn gwahardd i'w dysgyblion ymarfer â milwriaeth; ond gwyddom i Llywarch Hen ymddwyn yn gyffelyb, ac ond odid ei fod ef a Merddin yn cymdeithasu â'r awen o serch tuag ati, yn fwy nag o warogaeth ac ufudd-dod i'r sefydliad barddol. Hynododd Merddin ei hun am ei wroldeb ar faes y gwaed, ac yn wobr am ei ffyddlondeb, cafodd berllan afalau yn anrheg gan ei noddwr. Dywedir mai yr amgylchiad hwn a symbylodd awen y bardd i gyfansoddi yr "Afallenau," y benaf o'r caneuon a briodolir iddo. Hon yn unig a gydnabyddir yn eiddo i Merddin gan Mr. Sharon Turner, y beirniad a wnaeth fwy na neb arall i osod bri ar ein llenyddiaeth yn ngolwg y Saeson; ond y mae Mr. Thomas Stephens yn dadleu mai yn ystod teyrnasiad, ac i hyrwyddo amcanion, Owain Gwynedd y cyfansoddwyd hi. Os Turner sydd yn ei le, a Merddin yn wir awdwr y gân, ymddengys iddo ei chyfansoddi yn nyddiau henaint, pan ydoedd efe yn bwrw trem adfyfyriol ar helyntion bore oes. Eb efe yn y pumed pennill:—

> "Ac yngwaith Arderydd oed aur fy ngorddyrch,
> Cyd bwyf aeleu heddyw gan eiliw eleirch."

Yr oedd wedi cwyno yn flaenorol nad oedd hyd yn nod Gwenddydd yn ei garu, fod penaethiaid Rhydderch yn ei gasau, ac nad oedd yr un tywysog ar ol Gwenddolau yn ei barchu. "Etto," meddai, "yr oeddwn yn mrwydr Arderydd yn gwisgo aurdyrch, er fy mod heddyw yn ddiystyr gan yr hon y mae ei thegwch yn ail i liw yr alarch." Nid yw yr ochr a gymerodd Merddin yn mrwydr Arderydd yn dwyn tystiolaeth uchel i'w wladgarwch. Achoswyd y frwydr hono gan ymrafael a gododd rhwng Aeddan a Rhydderch Hael ynghylch nyth chedydd. Mae lle i feddwl, pa fodd bynag, nad oedd hyny ond esgus gan Aeddan, i dynu ymrafael â Rhydderch, gan fod eu taleithiau yn ffinio ar eu gilydd yn Ngogledd Lloegr. Hysbysir ddarfod i Aeddan yn ei wanc am awdurdod, wahodd y Saeson i'r wlad, gan obeithio elwa ei hun oddiwrth yr annhrefn a barai hyny

Digitized by Google

ymysg ei gyd-dywysogion Cymreig, ac o herwydd hyny y rhestrir ef yn y Trioedd, fel un o Dri Charnfradwyr Prydain. Ymladdwyd brwydr Arderydd yn y flwyddyn 577, ar gyffiniau yr Alban; cymmerodd Gwenddolau ochr Aeddan a'r Saeson yn erbyn Rhydderch, ac aeth Merddin drosodd at yr un ochr gyda'i noddwr. Buan y derbyniodd Gwenddolau wobr ei anffyddlondeb, canys efe a gafwyd ymysg lladdedigion y gâd; a chwympodd gydag ef bedwar o frodyr Merddin, am y rhai y coffheir yn alarus gan y bardd. Ymddengys hefyd fod nai i'r bardd, fab ei chwaer Gwenddydd, yn ymladd yn y frwydr o du Rhydderch Hael, ac iddo gael ei dori i lawr gan Merddin:—

> "Och Iesu! na ddyfu fy nihenydd
> Cyn dyfod ar fy llaw llaith mab Gwenddydd."
> * * * * * * * *
> "Gwaeth imi a dderfydd heb esgorfa,
> Lleas mab Gwenddydd, fy llaw ai gwna."

I gwblhau y trychineb, aeth treftadaeth y bardd yn aberth i oruchafiaeth Rhydderch. Effeithiodd y profedigaethau chwerwon hyn yn ddwys ar feddwl Merddin; ymwadodd â rhwysg rhyfel, ymroddodd i alar; ac yn angerddoldeb ei flinfyd, canodd yn iach â phreswylfeydd dynion, a ffodd am noddfa a thawelwch i fysg milod y goedwig. Yn nghoedwig Celyddon y bu yn crwydro, yn adyn dibris o hono ei hun am dymmor maith, heb gymdeithasu â neb ond côr asgellog y wig, ac yn ymfoddloni ar y diddanwch a dynai oddiwrth feithriniad parhaus o'r Awen. Mae y darlun a rydd o'i deimladau yn gynhyrfus dros ben, yn gymysgfa o ddawn, galar, a hunanddibrisdod. Cyhudda ei hun o bob ysgelerder, ac y mae ymron dyrysu yn ngwyneb anghof ac ammharch ei hen gydnabod, gymaint felly, fel y beia Angeu am nad ymwelai âg ef:—"Angau a ddwg pawb, pa rag nam cyfeirch?" Mae Gruffydd ab Arthur, neu Sieffre o Fynwy, yn ei bryddest ar "Fywyd Merddin," a ysgrifenwyd yn y ddeuddegfed ganrif, yn nodi yr ymraniadau ymysg Brythoniaid y Gogledd, ac fel yr arweiniasant i gyflafan Arderydd. Crybwylla hefyd am golledion Merddin ar yr achlysur hwnw, a'i ffoedigaeth i'r goedwig. Desgrifir ef yno fel yn byw ar lysiau a gwreiddiau, ac yn dilyn arferion anwar-ddyn. Yr amgylchiadau hyn a barodd i'r cyfenwad "Gwyllt" gael ei gyssylltu â'i enw. Wrth gwrs, dadleua Mr. Stephens mai digwyddiadau dychymygol ydyw y rhai hyn oll, ac yr ydym ninnau yn cyd olygu âg ef na ddylid gosod pwys yn y byd ar ramantau Gruffydd ab Arthur. Ond tybed y dylem roddi clod i Gruffydd am *greu* yr holl chwedlau a dadogir arno? A oes rhesymau arbenig dros wrthod y dystiolaeth a rydd efe ei hun, mai eu casglu, ac o bosibl eu haddurno, a'u helaethu, a wnaeth? Dadl fawr Mr. Stephens ydyw, fod y gân yn son am ail-ddyfodiad Cadwaladr a Chynan, yr hyn a awgryma, yn ei farn ef, fod Merddin yn gwybod am fynediad Cadwaladr i Lydaw. Ond yr oedd hyny, medd Mr. Stephens, yn annichonadwy, canys ymhell ar ol amser Merddin, sef yn 668, yr aeth Cadwaladr i Lydaw, ac felly os nad oedd Merddin yn brophwyd gwirioneddol, nis gallai siarad am amgylchiad a gymmerodd le ar ol ei farwolaeth, ac felly rhaid fod y gân yn annilys, ac wedi ei hysgrifenu gan rywun arall. Ond a raid i ni gymmeryd yn ganiattaol mai Cadwaladr Fendigaid oedd Cadwaladr yr Afallenau, ac nas gall fod yn cyfeirio at ryw berson ag y mae ei hanes wedi myned ar ddifancoll yn nhreigl oesoedd? Mae yn wir fod Sieffre yn rhoddi yn ngenau Merddin, mai o Lydaw y deuai Cadwaladr, a Chynan, eithr nid oes dim yn y gân yn sail i'r dybiaeth, a gwyddom fod un o'r enw Cynan, yn frenin ar y Cymry oddeutu y flwyddyn 544, ac felly yn cydoesi â Merddin. I brofi ei osodiad mai rhywbryd rhwng y blyneddoedd 1240, a 1350, y cyfansoddwyd yr "Afallenau," gesyd Mr. Stephens bwys mawr ar debygrwydd yr arddull mewn rhai pethau i eiddo beirdd yr oes hono, a'i annhebygrwydd i arddull gwir gyfansoddiadau y cynfeirdd. Yn yr ymresymiad hwn y dengys efe, ond odid, fwyaf o gywreinrwydd, ond prin yr ystyriwn fod ei gasgliadau yn foddhaol. Llwydda i ddangos cryn gyffelybrwydd geiriol, a thebygrwydd ieithwedd, rhwng rhai pennillion yn yr "Afallenau" a barddoniaeth y drydedd ganrif ar ddeg; ond nid yw ond codi engreifftiau yma ac acw, ac nid yw yn meiddio haeru fod y cyfansoddiad fel cyfanwaith yn debyg i ffrwyth awen yr oes a nodwyd. Mae mwy o wahaniaeth arddull rhwng yr "Afallenau" ag awdl marwnad Llywelyn ab Iorwerth, gan Dafydd Benfras, nag sydd rhwng cywyddau Dafydd ab Gwilym, ag awdlau Eben Fardd. Cydnebydd Mr. Stephens, ddilysrwydd y "Gododin." A yw ieithwedd yr "Avallenau" mor annhebyg i eiddo y "Gododin" ag ydyw i eiddo beirdd llys Owain Gwynedd, a Llewelyn ab Iorwerth? Os yw ieithwedd yn safon i farnu henafiaeth cyfansoddiadau barddonol, ymha oes y rhestrir Dafydd ab Gwilym? Mae genym brofion hanesyddol ei fod yn blodeuo yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond y mae ei farddoniaeth yn llawer mwy dealladwy i'r darllenydd cyffredin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nag ydyw cyfansoddiadau Goronwy Owain, oedd yn canu bedwar can mlynedd ar ei ol, ond a ydyw hyn yn gwneud y cofnodion hanesyddol yn llai credadwy. Na, yn hytrach, dengys y perygl o roddi gormod pwys ar dystiolaethau "mewnol" unrhyw gyfansoddiad, yn enwedig pan fyddo yr awdwr yn wr o athrylith, ac yn meddu ar ddull o feddwl, a chyfansoddi, o'i eiddo ei hun. Yr ydym yn cydnabod fod yr engreifftiau a ddug Mr. Stephens yn tebygu i arddull rhai o feirdd y cyfnod a noda, ond y mae y rhan fwyaf o'r pennillion yn fwy cyfrin eu harddull, ac yn herio hyd yn nod alluoedd deongliadol y beirniad manylgraff o Ferthyr, yr hwn a seilia ei ddamcaniaethau ar gyfieithiad, nas gall neb sicrhau ei fod yn ddrych cywir o'r gwreiddiol. Nid oes dim tebygrwydd arddull rhwng—

> "Nis gwyr namyn Duw a dewinion—byd,
> A diwyd Derwyddon
> O eurdorf eurdorchogion,
> Ein rhif yn rhyfeirth afon,"

o eiddo Cynddelw Brydydd Mawr, a dyweder y pymthegfed pennill yn yr "Afallenau:"—

> "Afallen beren bren a honneit
> Neus gorwlych dwfyr rynn pluyn hwyeit
> A mi a ddysgoganaf ei bod yn nessaf
> Ac i mae arnaf ei harynneig,
> Pan fo Duw Dewin ym diffryt i rhag trin
> Hyd na bwyf gyfrin ag eissifleit."

Etto awgryma Mr. Stephens, mai yr un oedd awdwr y naill a'r llall! Yn hytrach na rhoddi clod i Llywarch am y fath feistrolaeth ar y gelfyddyd o guddio

Digitized by Google

arddull, a thywyllu iaith, gwell genym gymeryd tir canol, rhwng Mr. Thomas Stephens, a'r blaid sydd yn ddigon ffyddiog i dderbyn pob peth a dadogir ar y cynfeirdd druain. Mae lliaws o'r darnau a briodolir i Merddin, ar ffurf proffwydoliaethau; am y rhai hyn nid oes betrusder yn ein meddwl, nad yn y canol-oesoedd, ac i ddybenion gwleidiadol, yr ysgrifenwyd hwynt. Yr ydym yn foddlon i gydnabod Merddin y Bardd, ond nid yw Merddin Brophwyd namyn ymhonwr twyllodrus. Ar y tir hwn, yr ydym yn tueddu i osod yr "Afallenau" ar safon gwahanol i'r cyfansoddiadau ereill a briodolir i Merddin, sef Cerdd Yscolan, y Gorddodau, Cyfoesi Merddin a Gwenddydd, y Wasgargerdd, ac o bossibl yr Hoianau. Yn yr "Hoianau" neu y "Porchellanau" y mae yn canu ar ddull annerchiad i'r moch, a barna Mr. Stephens, fod ffugenw y bardd, a chyfeiriadau y gân, yn dangos hyd sicrwydd, mai yr awdwr ydoedd Llywarch Brydydd y Moch, neu Llywarch ab Llewelyn, yn y ddeuddegfed ganrif. Mae yn ddiameu fod beirdd y cyfnodau hyny yn cario dylanwad anghyffredin ar y werin, ac yr oedd yn naturiol i'r tywysogion i sicrhau y dylanwad hwnw o du eu hachos hwy. Yr oedd yn yr ychydig weddillion oedd ar gael o waith Merddin, rai cyfeiriadau ag yr oedd yn hawdd eu troi i feddu ymddangosiad o berthynas âg amgylchiadau yr oes hono; ac yr oedd llawer o draddodiadau ar lên gwerin, y rhai a gasglwyd gan y beirdd i'w troi ar gân, fel prophwydoliaethau am y tywysogion a wasanaethent. Hwyrach fod mwy o docio, a chyfnewid wedi bod ar rai nag ar ereill, ond bod yr "Afallenau," a'r "Hoianau," y gyntaf yn enwedig, wedi dianc yn fwy dianaf, am eu bod yn fwy hysbys i'r wlad, a bod o herwydd hyny, fwy o berygl cyffwrdd â hwy nag â'r lleill. Prin y mae yn y "Gorddodau" ddim yn argoeli eu bod yn gyfhên â'r "Afallenau;" ac y mae ol bysedd y ddeuddegfed ganrif yn y rhan fwyaf o bennillion yr "Hoianau." Gall fod yr "Afallenau" wedi dyoddef rhyw gymaint oddiwrth hyny, a bonglerwch ysgrifenwyr, ac adysgrifenwyr; ond ar y cyfan, yr ydym yn barnu bod eu dilysrwydd hwynt yn fwy diammheuol, ac yn tueddu i gredu iddynt gael eu cyfansoddi gan Merddin, yn neillduedd tawel coedwig Celyddon. Pa faint mwy a dynodd efe o Bair Ceridwen yno nis gwyddom, ond cafodd ddigon o amser a hamdden, i ddilyn awen a barddoni, canys bu yn y Goedwig am haner can mlynedd. Gorfu arno gilio oddiyno o'r diwedd i Gymru, am noddfa rhag traha ei hen gynghreiriaid Sacsonaidd, a'r crybwylliad nesaf a geir am dano, ydyw ei farwolaeth a'i gladdedigaeth gyda'r saint yn Ynys Enlli.

**MEREDYDD**, brenin Dyfed, yr hwn a laddwyd ar Forfa Rhuddlan, yn y frwydr fawr â'r Saeson yn y flwyddyn 800, pan gwympodd Caradog ab Gwyn.

**MEREDYDD** AB BLEDDYN, tywysog Powys, yr hwn a ddaeth i awdurdod ar farwolaeth ei dad, Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Cymru, yn 1072. Bradychwyd ef i ddwylaw brenin Lloegr gan ei frawd Iorwerth, yn 1101, ond diangodd ar ol caethiwed o bedair blynedd, ac adennillodd Bowys, yr hon a adferodd efe i'w hen derfynau cyssefin, trwy feddianu tiriogaethau ei frodyr, Iorwerth, a Chadwgan, y rhai a laddwyd yn 1109. Pan ymdeithiodd Harri I. i Gymru, yn 1118, amddiffynodd Meredydd y mynedfeydd i Bowys, gyda mesur helaeth o ddoethineb, a llwyddiant, er i Gruffydd ab Cynan, Tywysog Gwynedd, gilio oddiwrtho. Tarawyd y brenin yn ei fynwes gan saeth, yr hon fuasai wedi ei ladd oni bai am ragoroldeb ei ddurwisg, a chredai y brenin mai oddiar fwa Sais, ac nid Cymro yr annelwyd hi. Pa wedd bynag, cymerodd y brenin hyn yn esgus i gymodi â Meredydd, a chaniattau heddwch iddo, ar yr ammod fod iddo dalu swm bychan o arian, a mil o wartheg. Cydnebydd pawb fod Meredydd yn dywysog galluog, ond yn ei uchelgais i uno gwahanol ranau Powys, efe a arweiniwyd i ysgelerderau dybryd, a chwympodd rhai a'i berthynasau agosaf yn ebyrth i'w greulondeb. Bu yn briod ddwywaith; yn gyntaf â Hunydd, merch Eunydd ab Gwernwy, pen un o bymtheg llwyth Gwynedd, yr hon a ymddygodd iddo amryw blant; ac yn ail âg Efa, merch Bledrws ab Ednywain, ac wyres Ednywain Bendew, o'r hon y ganwyd Iorwerth Goch. Yr Iorwerth Goch hwn, o'i briodas â Maud, ferch Roger de Manley, ydoedd tad Syr Gruffydd Fychan, arglwydd Crugion, a Bergedwyn. Bu farw Meredydd yn henafgwr, ond nid oes sicrwydd ymha flwyddyn, gan fod yr awdurdodau yn anghytuno; dywed Brut y Tywysogion, mai yn y flwyddyn 1124, ond yn y flwyddyn 1129 y gesyd Brut y Saeson y dygwyddiad. Ar ei farwolaeth, rhanwyd Powys drachefn, yn ol cyfraith cydafael, rhwng ei fab henaf Madog, a'i wyr Owain Cyfeiliog, mab ei fab ieuengaf, Gruffydd, yr hwn a fuasai farw o'i flaen. Powys Fadog y galwyd dosran Madog; a Phowys Wenwynwyn, oddiwrth Gwenwynwyn fab Owain Cyfeiliog, y galwyd y llall.

**MEREDYDD** AB DAFYDD FYCHAN, bardd yn ei flodeu o 1520 i 1550.

**MEREDYDD** AB EDWYN AB EINION AB OWAIN AB HYWEL DDA, tywysog ar ran o'r Deheubarth, yn cyd-deyrnasu â'i frawd Hywel. Yn y flwyddyn 1021 cydymladdodd y ddau frawd yn erbyn y tywysog dewr, Llewelyn ab Sitsyllt, yr hwn a laddwyd yn y frwydr. Difeddianwyd hwynt o'u tiriogaethau gan Rhydderch ab Iestyn, tywysog y Deheubarth. Huriasant hwythau fintai o Wyddyl Ffichti, ac a ymladdasant gad ar faes â Rhydderch, yn 1031. Lladdwyd Rhydderch yn y frwydr hon, ac o ganlyniad daeth y ddau frawd i deyrnasu ar dywysogaeth y Deheubarth. Eithr ni chawsant fwynhau eu goruchafiaeth yn hir mewn llonyddwch; canys cododd meibion Rhydderch fyddin gref, i ddial marwolaeth eu tad, ond cawsant hwy a'u taid eu gorchfygu gan Meredydd, a Hywel, yn mrwydr Hiraethwy. Ond daeth dialedd ar eu gwarthaf o gyfeiriad arall, a lladdwyd y ddau y flwyddyn ganlynol, yn mrwydr Machwy, gan feibion Cynan, y rhai oeddynt dan ddiofryd i ddial marwolaeth eu hewythr, Llewelyn ab Sitsyllt.

**MEREDYDD** AB GRUFFYDD AB LLEWELYN oedd dywysog, yr hwn yn y flwyddyn 1068, mewn undeb â'i frawd Ithel, a geisiodd adenill tywysogaeth Gwynedd, yr hon a drawsfeddianesid gan Bleddyn, a Rhiwallon. Ond diweddodd y rhyfelgyrch yn drychinebus, canys yn mrwydr Mechain, Maldwyn, yn yr hon y lladdwyd Ithel ar un tu, a Rhiwallon ar y tu arall, gorfu ar Meredydd ffoi, ac ymlidiwyd ef mor galed gan Bleddyn, fel y bu farw o newyn, ac oerfel, ar y mynyddoedd.

**MEREDYDD** AB LLEWELYN AB EDNYFED, bardd rhwng 1470 a 1500. Mae peth o'i waith etto ar gael.

**MEREDYDD** AB OWAIN AB EDWYN a olianodd Gruffydd ab Llewelyn fel tywysog y Deheubarth. Teyrnasodd o'r flwyddyn 1062 hyd 1069, pan y



Digitized by Google

cafodd Caradog ab Rhydderch ab Iestyn gymmorth byddin Normanaidd, ac y rhoddodd derfyn ar hoedl Meredydd yn mrwydr Llanfedwy, ar yr afon Elerch, Morganwg.

**MEREDYDD** AB OWAIN AB HYWEL DDA, ydoedd dywysog dewr, ond aflonydd, yr hwn a fu yn llywodraethu Dyfed a Cheredigion, o 970 hyd 994. Efe a ennillodd lywodraeth Gwynedd yn 985, pan y lladdodd efe mewn brwydr y tywysog Cadwallon ab Ieuaf. Gyrwyd ef o Wynedd y flwyddyn ganlynol, gan Godfrid, fab Harold, brenin Lloegr, ond ni bu hyn yn foddion i dori dim ar ei uchelgais, a'r flwyddyn ganlynol, ar farwolaeth ei dad, trawsfeddiannodd dywysogaeth y Deheubarth, gan ddiystyru hawliau Edwyn, a Thewdwr, meibion ei frawd henaf Einion. Yn ystod y flwyddyn hon, blinid Meredydd gymaint gan y Daniaid, fel y cyttunodd efe i dalu iddynt deyrnged o geiniog y pen am bob un o'i ddeiliaid am ymadael. Ond ni adawai efe i'w gymydogion fwynhau y tawelwch a geisiai efe ei hun oddiar law y Daniaid, ac yn 990, a 991, yr ydym yn ei gael yn anrheithio Maesyfed, a Morganwg, lle y lladdwyd ei unig fab, Cadwallon. O hyny allan, machludodd ei seren, a goddiweddwyd ef gan ofidiau. Collodd Wynedd yn 992, trwy etholiad Idwal ab Meurig i'r orsedd, a phan amcanodd adfeddiannu y dywysogaeth hono drachefn yn 993, efe a lwyr orchfygwyd yn mrwydr Llangwm, yn sir Ddinbych. Effeithiodd hyn gymaint arno, fel y bu farw y flwyddyn ganlynol. Ei unig ferch, Angharad, a fu yn briod ddwywaith, y tro cyntaf â Llewelyn ab Sitsyllt, ac ar ol ei farw ef, â Chynfyn ab Gwerystan.

**MEREDYDD** AB RHOSSIER, bardd o Lanbedr ar fro, yn Morganwg, yr hwn a flodeuai rhwng 1450 a 1480. Meddianai safle led uchel ymysg plant y gân, fel bardd a henafiaethydd, ac efe ydoedd llywydd Gorsedd Morganwg yn 1470. Ymysg y cyfansoddiadau o'i eiddo sydd wedi dianc rhag difancoll, y mae ei Ddameg ynghylch Castell Trewarin.

**MEREDYDD** AB RHYS, bardd enwog rhwng 1450 a 1480, ac athraw barddonol Dafydd ab Edmwnt. Oddiwrth y ffaith ei fod yn cael ei alw yn "Syr," gellir casglu mai offeiriad ydoedd, ac yr oedd yn preswylio yn Rhiwabon, swydd Ddinbych. Mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael etto mewn ysgriflyfrau, ac y mae dau yn argraffedig yn Ysgriflyfrau Iolo, sef "Cywydd i ofyn Rhwyd Bysgota a'i Ddyfalu," a "Chywydd o ddiolch am y Rhwyd."

**MEREDYDD**, RICHARD, D.D., Brodor o sir Ddinbych, yr hwn o ochr ei dad, Robert Meredydd ab Gronw, a hanai o Ithel Felyn o Iâl, ac o ochr ei fam, Margred ferch William John ab Gronw, a hanai o Llywarch Holbwrch. Yr ydoedd hefyd yn perthyn yn agos i'r Dr. Richard Dafis, esgob enwog Tyddewi. Aeth i Rydychain yn 1568, a chafodd y gradd o A.C. fel aelod o goleg yr Iesu, yn 1575. Penodwyd ef yn ddeon eglwys Padrig Sant, yn Nublin, yn 1586, a chyssegrwyd ef yn esgob Leighlin, a Ferns, yn 1589. Bu farw yn Ebrill, 1597, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Sant Padrig. Mae ei ddisgynyddion, y barwnigiaid Meredith, i'w cael etto yn siroedd Kildare a Meath, yn yr Iwerddon, ac arwyddair eu harfwisgoedd hyd heddyw, ydyw yr hen ddiareb Gymreig "Heb Dduw heb ddim—Duw a Digon."

**MEREDYDD**, ROWLAND, bardd yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

**MERFYN**, trydydd mab Rhodri Mawr, yr hwn ar farwolaeth ei dad yn 877, a gafodd dywysogaeth Powys, tra y rhoddwyd i'w frodyr, Anarawd, a Cadell, dywysogaethau Gwynedd, a Deheubarth, yn unol â chymun-ewyllys Rhodri. Gelwir hwynt yn y Trioedd y "tri theyrn taleithiawg," ond nid hir y caniatawyd i Merfyn fwynhau ei dalaeth, canys difeddianwyd ef o honi gan ei frawd Cadell. Dywed Caradoc o Lancarfan, ddarfod i "Merfyn frenin Powys" gael ei ladd gan ei wŷr ei hun, yn y flwyddyn 892, yr hyn a led-awgryma fod y dalaeth rywbryd wedi ei hadferu iddo.

**MERFYN FRYCH**, brenin Manaw, a Phowys, yn ei hawl ei hun, ydoedd fab Gwriad ab Elidr ab Sandde ab Algwn ab Tegid ab Gwyar ab Diwg ab Llywarch Hen. Ei fam ydoedd Nest, ferch Cadell ab Elisau, tywysog Powys. Ar farwolaeth ei dad-yn-nghyfraith, Cynan Tindaethwy, yn 817, daeth Merfyn, ac Essyllt ei wraig, i orsedd Gwynedd. Yn nechreu eu teyrnasiad daeth Egbert, tywysog gorllewinbarth Lloegr, a byddin gref i Gymru, gan anrheithio y wlad hyd fynyddoedd Eryri, a meddianu arglwyddiaeth Rhufoniawg yn sir Ddinbych. Aeth trosodd i Ynys Mon, ac ymladdwyd brwydr waedlyd rhyngddo â'r Cymry yn Llanfaes, yn 819. Yr adeg hon y galwyd Mon yn "*Anglesey*," neu Ynys y Saeson, ond ni bu rhwysg Egbert ynddi o hir barhad, a chafodd Merfyn a'r Cymry y llaw uchaf drachefn. Gyda bod Mon wedi ei rhyddhau, bu raid i Merfyn brysuro i amddiffyn ei diriogaeth gynhenid, canys gwnaeth Kenwlph, brenin Mersia, ddau ruthrgyrch ar Bowys, a gorllewinbarth Cymru, gan wneuthur difrod mawr. Cedwid Merfyn mewn rhyfeloedd parhaus hefyd gan ei hen elyn Egbert, yr hwn yn 835, a lwyddodd i ennill Caerlleon, hen amddiffynfa gadarn y Cymry ar y goror. Yn 843, gwnaeth Berthred, brenin Mersia, ymosodiad ar y Cymry, mewn lle o'r enw Cetell, ac a'u gorchfygodd, ar ol brwydr waedlyd, yn yr hon y lladdwyd Merfyn, gan adael yr orsedd i'w fab henaf, yr hwn mewn blyneddoedd ar ol hyny, a ennillodd y cyfenw anrhydeddus, "Rhodri Mawr."

**MERIN**, sant yn y chweched ganrif, a mab Merini ab Seithenyn, tir yr hwn a orchuddiwyd gan y môr. Efe a sylfaenodd eglwysi Llanferin, neu Lanfetherin yn Mynwy, a Bodferin yn Lleyn, a chynelid ei wylmabsant ar y 6ed o Ionawr.

**MERTHYR**, plwyf yn nosbarth a swydd GAERFYRDDIN; ar yr afon Cowin, gerllaw rheilffordd Deheudir Cymru, bedair milldir i'r gorllewin o dref Caerfyrddin. Erwau, 2218. Gwerthardrethol, 2055*p*. Poblogaeth, 287. Tai, 41. Y fywioliaeth sydd reithoriaeth, gyda chyflog o 158*p*. a phersondy, yn esgobaeth Tyddewi.

**MERTHYR**, cantref yn nghanol swydd BRYCHEINIOG; yn ymestyn o'r goror gorllewinol hyd o fewn dwy filldir i'r goror dwyreiniol; ac yn cynwys plwyf Merthyr Cynog, chwech o blwyfydd ereill, a rhanau o dri phlwyf. Erwau, 63,109. Poblogaeth yn 1851, 3439; yn 1861, 3174. Tai, 637.

**MERTHYR CYNOG**, plwyf ac is-ddosbarth yn nosbarth a swydd BRYCHEINIOG. Mae y plwyf yn gorwedd ar yr afon Honddu, wyth milldir i'r gogleddogledd-orllewin o orsaf rheilffordd Aberhonddu, ac yn cynwys treflanau Is Dyffryn Honddu, ac Uwch Dyffryn Honddu, Yscir fawr, ac Yscir fechan. Erwau, 21,278. Gwerth ardrethol, 4667*p*. Poblogaeth, 800. Tai, 154. Y fywioliaeth eglwysig, gwerth 90*p*., sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawdd J. L.

Digitized by Google

V. Watkins, Ysw. Mae is-beriglorìaeth barhaol Dyffryn Honddu, yn fywioliaeth ar ei phen ei hun. —Mae yr is-ddosbarth yn cynnwys dau blwyf arall, a rhan o drydydd. Erwau, 34,651. Poblogaeth, 1593. Tai, 318.—Rhoddwyd degymau y plwyf hwn gan Milo Fitzwalter, Iarll Caerloyw, i brioriaeth Malvern; a phan ddadgorphorwyd y sefydliad hwnw, daethant yn eiddo y Goron, ac fe'u gwerthwyd yn ystod teyrnasiad Iago I. Yn 1646, yr oeddynt yr eiddo Syr Francis Fane, pleidiwr gwresog i'r brenin, ac y mae yn dra thebyg mai oblegid hyny yr attafaelwyd hwynt gan y Senedd, yr hon a orchymynodd daliad blyneddol allan o ddegymau y rheithoriaeth, o 50*p.* i beriglor Merthyr Cynog; 40*p.* i weinidog Llanfihangel-Nant-Brân; 40*p.* i weinidog Llandeilo Fawr; a 10*p.* i weinidog capel Dyffryn Honddu. Yr oedd yr holl leoedd hyn y pryd hwnw yn cael eu cynwys y tu fewn, neu yn cael eu hystyried fel yn dibynu ar y plwyf hwn. Yn yr Adferiad, daeth yr eiddo yn ol i feddiant y cyfiawn berchenog, a dirymwyd y taliadau a orchymynasai y Senedd. O'r amrywiol leoedd a enwir uchod, yr unig un a erys o fewn terfynau y plwyf, ydyw Capel Dyffryn Honddu. Mae fferm fechan ar lan yr Honddu, o'r enw y Mynachdy, a elwir felly am mai yno y trigai y mynachod a anfonid o Malvern i ofalu am eu heiddo yn y plwyf. Ceir olion gwersyll Prydeinig ar fryn, o'r enw Allffarnog yn y plwyf hwn.

**MERTHYR DYFAN**, plwyf yn nosbarth Caerdydd, swydd FORGANWG; ar lan culfor Bristol, bum milldir i'r de-wrth-orllewin o orsaf rheilffordd St. Ffagan's, a chwe milldir a hanner i'r de-orllewin o Gaerdydd. Erwau, rhwng 55 o ddwfr, 1396. Gwerth ardrethol, 997*p.* Poblogaeth, 143. Tai, 29. Y fywioliaeth, gwerth 109*p.*, sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Llandaf, ac yn nawdd R. F. Jenner, Ysw.

**MERTHYR MAWR**, plwyf yn nosbarth Pen y bont, swydd FORGANWG; ar yr afon Ogmore, gerllaw y fan yr ymarllwysa i'r mor, ddwy filldir i'r de-orllewin o orsaf rheilffordd Pen y Bont. Erwau, 2590, yn cynwys 490 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 1616*p.*, yn cynwys 40*p.* mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 174. Tai, 28. Perthynai y faenoriaeth gynt i'r Siwardiaid, a'r Stradlingiaid. Y fywioliaeth, gwerth 92*p.*, sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llandaf, ac yn nawdd Mrs. Nicholl, o Blas Merthyr Mawr, lle y mae dwy groes gerfiedig henafol.

**MERTHYR TYDFIL**, sydd blwyf eang, a thref farchnadol, undebol, etholfan dros y sir, pen dosparth llys sirol, &c., yn nghantref Caerffili, esgobaeth Llandaf, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Saif y dref yn mharth gogledd-ddwyreiniol y sir, 24 milldir o Gaerdydd, 30 o Abertawy, 18 o Gastell-nedd, 20 o Aberhonddu, a 194 o Lundain, gyda'r Cledrffyrdd.

Mewn undeb ag Aberdâr a'r Faenor, enfyn ddau aelod i'r senedd. Cafodd y plwyf ei enwi yn unol ag enw Tydfyl merch Brychan Brycheiniog, Tywysog Garth Mathrin. Dywed traddodiad, i Tydfyl, a'i thad, ac ereill o'r teulu, gael eu llofruddio mewn modd ysgeler yn y lle hwn, Awst 23, yn y flwyddyn 420 o'r cyfnod Cristionogol, gan lu o grwydriaid, a elwid Y Gwyddyl Ffichti. Bernir fod Eglwys y plwyf, wedi ei chodi ar y fan y cyflawnwyd y llofruddiaeth, a'i chysegru i'r dywysoges lofruddiedig. Tybia rhai haneswyr, fod gan y Rhufeiniaid orsaf fechan yn y lle hwn, yn y man y saif Ty Mawr, Penydarren yn bresenol: oblegyd wrth gloddio lle i sylfaenu y palas hwnw, cafwyd palmant, a phriddfeini Rhufeinig yn y ddaiar. Bernir hefyd mai y Rhufeiniaid wnaethant yr heol, oedd yn arwain gynt o'r pentref, heibio Gwaelod y Garth, o'r Gurnos, i gyfarfod a'r brif heol ger Pontsarn. Mae yr hen heol y cyfeiriwyd atti, wedi ei chau i fyny er ys llawer o flyneddau, a rhan o Barc y Gyfarthfa lle y bu hi.

Nid oes ond ychydig iawn o hanes am y lle hwn, o amser Tydfyl, hyd amser Goresgyniad Morganwg gan Robert Fitzhamon; ac nid yw ond pur gymmysglyd a thywyll o'r amser hwnw hyd ddechreuad cyfnod y Gweithfeydd Haiarn. Mae haneswyr yn gyffredin, trwy ganlyn eu gilydd, wedi myned i gryn amryfusedd gyda golwg ar y lle hwn, trwy ddweyd mai i ran Einion ab Collwyn y syrthiodd Arglwyddiaeth Senghenydd, pan ranwyd tiroedd Morganwg gan R. Fitzhamon. Tystiolaeth y cofnodion cywiraf pa fodd bynag yw, mai Cedrych ab Gweithfoed, Tywysog Powys, a gafodd Senghenydd, am gynorthwyo y Normaniaid i orchfygu y Tywysog Rhys ab Tewdwr, yn mrwydr Hirwaun Wrgan, yn y flwyddyn 1090; ac i orchfygu Iestyn ab Gwrgan drachefn, yn mrwydr y Mynydd Bychan, ger Caerdydd.

Dilynwyd Cedrych yn Arglwyddiaeth Senghenydd, yn yr hon y saif Merthyr Tydfil, gan ei fab Cadifor, a thebygol yw, mai oddi wrth ei enw ef yr enwyd *Pant Cadifor*, ychydig i'r gogledd o'r dref, a bernir mai ger y Pant, y preswyliai Cadifor.

Canlynwyd Cadifor gan ei fab Ifor, yr hwn a elwid Ifor Bach; yr hwn yn ol pob tebygolrwydd, a adeiladodd Lysdy Merthyr, yn breswylfa iddo ei hun. Bu amryw frwydrau rhwng y Cymry a'r Normaniaid yr amser hwnw, y naill fyddin yn cael ei harwain gan Ifor, a'r llall gan Robert, Iarll Caerloyw, yr hwn oedd fab i Harri I. brenin Lloegr, o Nest, merch Rhys ab Tewdwr. Yr oedd y Robert hwn yn briod â merch, ac etifeddes Robert Fitzhamon: a thrwy hyny daeth i feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg. Ar un achlysur, llwyddodd Ifor a'i fyddin i orchfygu yr Iarll a'i lu, yn Nghastell Caerdydd, a chymmerwyd yr Iarll, a'i wraig, a'i blentyn, yn garcharorion gan Ifor; a gomeddodd eu rhyddhau, nes i'r Iarll, a'i dad, sef Harri I. osod eu henwau wrth yr amodau a gynygiwyd iddynt gan Ifor. Dywed rhai haneswyr yn mhellach, ddarfod i'r Iarll roddi Cantref Cibwr i Ifor, am gael telerau heddwch.

Yr oedd Ifor Bach erbyn hyn, yn berchen ar yr holl dir sydd rhwng afon Taf, ac afon Rhymni. Yr oedd gan Ifor fab, o'r enw Gruffydd: ac am oesoedd ar ol eu hamser hwy, gelwid y ddau draeth rhwng Caerdydd ac Aber Rhymni, wrth yr enwau Morfa Ifor, a Morfa Gruffydd. Yr oedd Ifor Bach yn preswylio yn Llysdy (*Court House*) Merthyr, yn y flwyddyn 1110. Canlynwyd ef gan ei fab Gruffydd, yr hwn a briododd âg Elen, merch Rhys ab Gruffydd, ab Rhys ab Tewdwr, Tywysog y Deheudir. Mab i'r rhai hyn oedd y gwr anffodus hwnw, Rhys ab Gruffydd, a breswyliai y Castell Coch, pan ymosodwyd ar y lle gan y Normaniaid, dan arweiniad Iarll Caerloyw, pryd y tynwyd llygaid Rhys allan; ac yn ganlynol i hyn, newynwyd ef a'i feibion i farwolaeth yn Nghastell Caerdydd, oddieithr Hywel, yr hwn oedd faban. Mewn blyneddau dyfodol, gelwid yr Hywel hwn, yn Hywel Felyn; a chan ei fod yn wr dewr, llwyddodd i adenill ei etifeddiaeth. Yn 1230, priododd ef a Sarah, merch Meyo le Sore, arglwydd Llanbedr y Fro, un o hil Peter le Sore, y marchog Normanaidd a ddaeth i'r wlad hon gyda Gwilym y Goresgynydd. Mab i'r rhai hyn oedd

Digitized by Google

Madog ab Hywel Felyn, yr hwn a breswyliai yn Nghastell Madog, ger Pant Cadifor. Myn rhai gredu, mai y Llysdy yw y ty henaf yn y dref, os nad yr henaf yn y plwyf; ond amlwg yw, fod preswylfa Cadifor, yn henach na'r Llysdy. Mae rheswm da am hyn, hyny yw, heibio Pant Cadifor y cyfeiriai yr hen Heol Rufeinig, rhwng Caerlleon ar Wysg ac Aberhonddu, yr hon oedd y brif-ffordd am oesoedd ar ol amser Cadifor. Ymddengys mai ar ol amser Ifor Bach y gwnaed yr heol o'r pentref, i fyny dros Dwyn yr Odyn, i gyfarfod a'r brif heol, sydd yn dyfod dros Dwyn y Waun. Canlynwyd Madog ab Hywel Felyn i'r etifeddiaeth, gan ei fab Llywelyn, yr hwn fel y tybir oedd Llywelyn Bren. Yr oedd mab arall gan Madog, o'r enw Gruffydd, merch yr hwn a briododd ag Hopcyn Fychan, ab Rhys, ab Hopcyn. Mab iddynt, mewn ymryson, a laddodd un o wŷr Aberdâr, a ffodd yntau i'r Iwerddon. Yr oedd gan Gruffydd fab o'r enw Roger, i'r hwn y ganwyd dwy ferch; un o'r rhai a briododd ag Hywel Ddu, yn y flwyddyn 1400. Disgynydd o'r Hywel hwn oedd Rhys Fwyaf, ab Llywelyn Fychan, yr hwn a ranodd yr etifeddiaeth rhwng ei ddau fab, gan roddi ystad y Court i Philip, ac ystad Troedyrhiw i Llywelyn Anwyl.

Priododd Llywelyn â Janet, merch Hywel Gam, arglwydd Llanfrynach, ger y Bontfaen. O'r briodas hon y ganwyd Richard Gwyn, yr hwn a briododd a Janet Treherne, etifeddes Llwyncelyn, ger tref Merthyr. Ganwyd i'r rhai hyn dri o blant—Lewis, Richard, a Mallt. Prynodd Lewis ab Richard Gwyn ystâd y Court gan ei gâr, gan ei hail uno ag eiddo Troedyrhiw. Priododd Richard ab Richard Gwyn â pherthynas o'r enw Margaret, un o hil Hywel Felyn, a chawsant ddau o blant, Edward, ac Elizabeth. Priododd Richard yr ail waith a Gwladys, merch Ifan ab John, o Lanfrynach, a chawsant saith o blant. Hiliogaeth Richard o'r ail wraig, oeddynt y Prichards o Lancaiach. Gan mai Edward oedd yr henaf o'r plant, efe oedd yr etifedd, ac efe a gychwynodd deulu Lewisiaid y Fan. Efe hefyd a adeiladodd Balas Y Fan, ger Caerffili; ac aeth yno i fyw, gan adael y Court, a Throedyrhiw, i ereill i'w preswylio, er mai efe oedd eu perchenog. Bu yr Edward hwn yn Uchel Sirydd Morganwg, yn y blyneddau 1548–55.

Parhaodd ystad y Court, a Throedyrhiw, yn meddiant Lewisiaid y Fan, hyd y flwyddyn 1717. Pan honodd James Stuart (*Y Pretender*) hawl i goron Lloegr yn 1715, pleidiwyd ef gan E. Lewis, Ysw.; o'r Fan; ac ar ol i'r terfysg ostegu, dirwywyd Mr. Lewis o 10,000*p*. gan y Llywodraeth; fel y gorfodwyd ef i werthu llawer o'i diroedd, er talu y ddirwy. Gwerthodd ystad y Court am 400*p*. i Harri Edward, Tanygraig, Brycheiniog. Gwerthodd y Ty Newydd, Tir y Cwm, a Thy'r Ywen hefyd, tua'r un amser, i un o'i berthynasau.

Gwerthodd Harri Edward ystad y Court drachefn, i Mr. Thomas Rees o'r Werfa, plwyf Aberdar, tua'r flwyddyn 1727. Bu Thomas, mab hwn, yn preswylio yn y Court am hir amser; ac yn berchen ar ystad y Court, a'r Hendre Fawr yn Merthyr, gyda'r Werfa, y Ganlyn, a'r Tir Draw, yn mhlwyf Aberdar. Gwnaeth hwn ei Ewyllys yn 1787, ac ar ei farwolaeth, rhanwyd ei eiddo rhwng ei bump mab, a chafodd Samuel, y Werfa, a'r Court. Priododd Samuel â Margaret Thomas o'r Dyffryn, plwyf Aberdar (yr hwn dir a brynwyd gan deulu yr Anhr H. A. Bruce, A.S.), Thomas Rees, mab Samuel, a briododd ferch amaethwr yn Aberdar, a hyny yn groes i ewyllys ei dad, ac felly darfu i Samuel roddi y Court i Jane ei ferch. Priododd Jane, yn gyntaf a Rees Davies, Ysw., Maerdy, Merthyr; a thrachefn â W. Thomas, Ysw.; a elwid Dr. Thomas. Bu Dr. Thomas farw yn 1858, a daeth yr ystad yn eiddo i Richard, a William, ei feibion. Bu William farw heb etifedd, fel y daeth y lle yn eiddo Richard yn unig. Bu Richard farw yn 1872, gan adael gweddw, a thri o blant. Bu farw y weddw yn mhen ychydig amser ar ei ol, ac y mae y plant dan oed. Gwerthwyd dodrefn gwych ac henafol y Court, Mehefin 4, 5, 6, 7, 1872, mewn arwerthiad cyhoeddus. Yn mhlith pethau ereill, yr oedd yno bren gwely cerfiedig, a fu yn eiddo Syr Dafydd Gam, yr hwn a werthwyd am 2*p*.; a phren gwely ardderchog arall, ac arno y dyddiad M.C.L. sef 1150, yr hwn a brynwyd gan foneddwr o Gaer baddon, am y swm o 52*p*. 10*s*.

Hona mwyafrif ein haneswyr, fod cyssylltiad agos rhwng y Llysdy, a Chastell Morlais, yr hwn sydd tua thair milldir i'r gogledd o'r dref. Dywedant mai Ifor Bach a adeiladodd y naill a'r llall, ond na orphenodd y castell. Dywed hen draddodiad ofergoelus hefyd, fod math o fynedfa danddaiarol, o'r Court i fyny hyd y Castell; ond nid oes unrhyw sail i'r fath ofergoeledd. Myn rhai haneswyr, mai un o'r enw Anthony Morley, adeiladodd y Castell, yn amser y frenhines Elizabeth; ac mai Castell Morley yw ei enw priodol. Etto nis gall hyn fod yn gywir, oblegyd y mae Leland yn son am y Castell hwn, cyn amser Anthony Morley.

Yr hyn sydd fwyaf tebygol yw, mai Gilbert de Clare, Iarll Caerloyw, ac Arglwydd Morganwg, adeiladodd, neu yn hytrach, ddechreuodd adeiladu Castell Morlais, yn amser y brenin Edward I., er amddiffyn ei diriogaeth rhag Bohun, Iarll Henffordd. Cyn gorphen y Castell, ymladdwyd Brwydr Maes y Faenor, pryd y lladdwyd lluoedd o bob tu, ac y claddwyd hwy yn Ngharnedd y Faenor, yn agos i Eglwys y Faenor, ac o fewn ychydig i'r Castell. Cafodd y ddau iarll eu gwysio o flaen Iorwerth I. am ymrafaelio a'u gilydd,—carcharwyd hwy yn Y Twr yn Llundain, nes iddynt dalu dirwy i'r brenin. Amlwg yw, na orphenwyd adeiladu Castell Morlais o gwbl: ac ni orphenwyd cloddio y ffos sydd yn ranol o'i amgylch. Bernir i fyddin Iorwerth I., ei losgi tra yr oedd y ddau iarll yn garcharorion. Pa fodd bynag, y mae yr hyn sydd yn ngweddill o hono yn werth ymweled ag ef.

Yn 1846, glanhawyd un o'i ystafelloedd, yr hon sydd 19 troedfedd o dryfesur, a cholofn yn y canol, a 12 bwa yn troi oddi ar y golofn hono, a'r cwbl wedi ei wneyd mewn modd celfydd a chywrain. Mae trwch muriau yr ystafell hon yn 40 troedfedd. Mae ychydig o lanhau wedi bod ar y lle ar ol hyn, ac wrth wneyd hyny, deuwyd o hyd i agoriadau yn y muriau, sef lleoedd ffenestri, &c. O fewn y Castell, y mae pwll dwfn iawn, wedi ei gloddio yn y graig galch, a bernir mai ei ddyben oedd i gael dwfr at wasanaeth y castellwyr. Saif yr adfeilion ar tua thair erw o dir, a pherchenogir ef gan Gwmni Gwaith Haiarn Dowlais.

Cyn cyfnod y gweithfeydd haiarn yn y lle, nid oedd Merthyr Tydfil ond pentref bychan gwledig, yn cynnwys Eglwys fechan, isel, a diaddurn, gyda melin yn ymyl, a thafarn Penyfynwent, y *Star*, a'r *Farmer's Arms*, a elwid y Bwthyn Bach: ac ychydig dai ger y felin. Y prif dai ereill yn y lle, oedd-

Digitized by Google

ynt y Maerdy, Y Court, a'r Morlangau, neu'r Forlan. Mae y Court yn balas enwog yn bresenol; a saif hen dy Morlangau, yn ymyl yr heol, ger Gorsaf Cledrffordd Cwm Taf; tra y saif Ysgoldy y Pabyddion ar ran o'r Maerdy. Mae y tri thy a enwyd o fewn ychydig ffordd i Eglwys y plwyf. Dywed rhai, mai Ty Morley, yw enw gwreiddiol Morlangau, tra y ceisia ereill ei darddu o *furlong*. Saeson yw yr esbonwyr hyn cofier. Hyspys yw pa fodd bynag, mai Tir y Forlan y geilw hen bobl y dref y tir sydd yn perthyn i hwn, am ei fod mor wastad, a'r dwfr yn aros yn hir arno ar ol gwlawogydd. Y brif heol a berthynai i'r pentref yn y cyfnod Amaethyddol, oedd Heol Ferthyr, yr hon y cyfeiriwyd atti yn barod. Yr oedd hon, ac y mae etto, yn cychwyn oddi wrth yr Eglwys, heibio y Maerdy, a'r Court, i fyny dros Dwynyr-odyn, heibio Pwllyhwyaid, ac ar y de-ddwyrain i Haiarnfa Dowlais, i gyfarfod a'r Brif-ffordd, ar gefn y mynydd. Oddi yno, yr oedd y brif heol, yn myned yn ddeheuol dros Dwyn y Waun, trwy bentref Gelligaer,—Ystrad Mynach, Caerffili, ac i Gaerdydd. Dros yr heol hon y dygid pob masnach yn mlaen y pryd hwnw, rhwng Caerdydd a Merthyr; oblegyd nid oedd yr hen heol blwyfol, trwy Gwm Taf, ond un wael, droellog, o un amaethdy i'r llall, er fod llawer o dramwy ar hyd-ddi, gan amaethwyr godre y plwyf.

Tystia Hanesiaeth, fod Marchnad, neu Ffair y Waun, wedi ei sefydlu mor fore ag amser Iestyn ab Gwrgan; ac y mae yn parhau mewn bri o hyd.

Ar du gogleddol Heol Ferthyr, yn mhen uchaf Twyn-yr-odyn, yr oedd darn hirgul o dir, tua 50 llath o led, a thua hanner milldir o hyd, yn cael ei ystyried bob amser yn Gyttir, er cyfleustra i'r amaethwyr i droi eu hanifeiliaid iddo i bori, wrth fyned i, a dyfod o Ffair y Waun. Cyfrifid ef yn Gyttir rhydd hyd o fewn 30 o flyneddau yn ol: ond erbyn hyn, y mae ugeiniau o dai wedi eu codi arno, a'r *Ground Rent* yn cael ei dalu i deulu y Court! Os nad oedd hawl gan y rhai hyn i'r tir, mae yn rhyfedd fod y plwyfolion wedi goddef i'r Cyttir hwn gael ei gymmeryd oddi arnynt.

Yr hyn sydd wedi rhoddi pwysigrwydd a mawredd i Ferthyr Tydfil, yw trysorau cuddiedig y ddaiar, sef Glo, a Mwn haiarn.

Nid yw yn hyspys pa mor fore y dechreuwyd gwneuthur haiarn yn y plwyf hwn, na phwy oeddynt yr anturiaethwyr boreuaf. Bernir yn gyffredin, mai y Gwaith Haiarn cyntaf yn y plwyf hwn, oedd Haiarnfa Pont-y-gwaith, tua chwe milldir i'r dehau oddi wrth yr Eglwys.

Diamheu fod ceisiadau wedi eu gwneyd yn flaenorol, mewn amryw barthau o'r deyrnas, i wneuthur haiarn morthwyladwy (*wrought iron*); ond tebygol yw, mai yn y plwyf hwn y gwnaed haiarn bwrw, (*cast iron*), gyntaf yn y deyrnas, os nad yn y byd. Nid ydym am roddi i'r lle fwy o anrhydedd nag sydd yn ddyledus iddo, ond gan y gellir profi yr hyn a ddywedwyd, annheg â'r lle fyddai cuddio y ffaith.

Dywed Mr. C. Wilkins, awdwr *The History of Merthyr Tydfil*, i'r gweithwyr tra yn llwytho marwydos (*cinders*) ger Pontygwaith yn 1815, i'w anfon i Dowlais, ddyfod o hyd i lafn haiarn mawr, ac arno y blwyddiad 1478, ond iddynt ei dori i'w ail doddi; a thrwy hyny collwyd tyst gwerthfawr am amseriad y gwaith.

Yn annibynol ar hynyna, mae yn ffaith fod darn arall o haiarn bwrw, wedi ei gael, yn meddiant Anthony Hill, Ysw., diweddar berchenog Gwaith Haiarn Plymouth, Merthyr, ar yr hwn yr oedd yn argraffedig Bais Arfau Prydain, a'r blwyddiad 1555, gyda'r llythyrenau E.K. Yr oedd y llafn hwn wedi bod y tu cefn i'r tân, mewn ty annedd, am oesoedd, ac ymddengys mai i'r dyben hwnw y gwnaed ef. Rhoddodd Mr. Hill ef yn anrheg i David Mushet, Ysw.; awdwr cyfrol helaeth ar wneuthuriad haiarn a dur. Hwn yw y darn *haiarn bwrw* henaf yn y byd, yn ol pob tebyg, a bernir iddo gael ei wneyd yn haiarnfa Pontygwaith, neu ffwrnes Pont Rhun, gweddillion yr hon sydd yn sefyll yn ymyl afon Taf, ychydig i'r gogledd o bentref Troed-y-rhiw, ger Merthyr.

Yn amser y frenhines Elizabeth, yr oedd gweithfeydd haiarn yn Merthyr, ac yn mhlwyf Llanwynno, gan foneddwr o'r enw Anthony Morley. Methodd ef yn ei amgylchiadau, a bu farw mewn gofid o'r herwydd. Priododd ei weddw ag un John Watkins; ac y mae hanes ar gael, am ymgyfreithio rhwng John Watkins, Bridget ei wraig, ac Edward Mitchel, ar un tu, âg Elizabeth Mynefie o'r tu arall, o barth Coedwigoedd yn mhlwyf Llanwynno, a gweithfeydd haiarn yn mhlwyf Merthyr Tydfil.

Ymddengys i Mrs. Mynefie gymmeryd meddiant o'r coedwigoedd, a'r gweithfeydd, pan fethodd A. Morley, am fod arno arian iddi: a bernir fod E. Mitchel yn rhanol â Morley yn y gwaith.

Dygwyd y gyfraith yn mlaen yn y Cangell-lys, ar ran plant Morley, gan y personau a enwyd, yn erbyn Mrs. Mynefie; ond ni hyspysir pa un o'r pleidiau ennillodd.

Mae yr awgrym roddir yma am *goedwigoedd*, yn brawf mai golosgoed ddefnyddid i doddi haiarn gan A. Morley. Dygwyd y gwaith yn mlaen ar ol hyn gyda chryn lwyddiant, am beth amser.

Yn amser Charles I., yr oedd ffwrnes Pontygwaith, a ffwrnes Pont Rhun, yn eiddo Lewis, a Cook. Un o hiliogaeth Ifor Bach oedd y blaenaf, ac *Ironmonger* o Lundain oedd yr olaf. Priododd Cook, a merch Mr. Mordecai Ebrai Phel, brawd Lydia Phel, Cefnyfforest, yr hon a roddodd dir i wneyd Mynwent Y Crynwyr. O'r amser hwnw hyd yn awr, gelwir y lle y preswyliai Mr. Cook, wrth yr enw Ty'r Cook. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, rhwng Charles I., a'r Senedd, yr oedd Lewis, a Cook yn bleidiol iawn i'r brenin; a phan ddaeth byddin Cromwell i Gymru, yn mis Mai, 1648, ar eu taith i Frwydr St. Ffagans, daethant i chwilio am y boneddwyr hyn, a chan iddynt fethu dyfod o hyd iddynt, torasant eu ffwrnesi: ac nid oes hanes iddynt gael eu hadgyweirio ar ol hyn.

Y ffwrnesi nesaf y ceir ychydig hanes am danynt yn Merthyr, oedd ffwrnes y Wernlas, a ffwrnes Glynmil; a bu y rhai hyn yn gweithio ar raddfa fechan, o fewn ychydig hyd amser cychwyniad y gweithfeydd presenol.

Yr henaf o'r gweithfeydd presenol yw Dowlais, yr hwn a ddechreuwyd gan Mr. Lewis, o'r Fan, yn 1758. (Gwel DOWLAIS.)

Y nesaf at Dowlais, o ran amseriad, oedd ffwrnes Wilkinson, a Guest, ar dir Iarll Plymouth, yr hon a safai yn agos i'r fan y saif ffwrnesi Plymouth yn awr. Cododd Wilkinson ffwrnes yn Dowlais hefyd, ond nid ymddengys iddi dalu iddo; ac ni ddaeth nemawr fri ar ffwrnes Guest ac yntau, tra yn eu meddiant hwy.

Yn mhen tua phum mlynedd wedi cychwyn ffwrnes Dowlais, ac i'r son am dani gyrhaedd clustiau cyf-

Digitized by Google

oethogion y brif ddinas, a bod argoelion da am iddi dalu, cynhyrfwyd yspryd anturiaethus Anthony Bacon, Ysw., A.S. dros Aylesbury; ac yn 1763, daeth y boneddwr hwnw i bentref bychan Merthyr, yn cael ei lusgo mewn cerbyd, gan fulod.

Prif westy y lle y pryd hwnw, ac am oes ar ol hyny, oedd y *Star Inn*, ger yr Eglwys; ac yno y lletyodd Mr. Bacon, pan ymwelodd gyntaf a'r lle. Yn yr un ty y lletyodd yr enwog Argl Nelson, yn 1802. Mae y *Star* yn dafarn o hyd, a'r adeilad yn ei ffurf gyntefig, fel yr oedd yn y dechreu.

Wedi i Mr. Bacon ymweled a gwahanol lanerchau y gymmydogaeth, a chanfod fod digonedd o fŵn haiarn yn y ddaiar, a gelltydd eang o goed yn gyfleus, er cael golosgoed i doddi y mŵn, dychwelodd i Loegr,—hyspysodd y gyfrinach i'w gyfaill, William Brownrig, Ysw., o Whitehaven. Yna, mewn undeb a'u gilydd, cytunasant â pherchenogion y tir, ar du gorllewinol i afon Taf, i ardrethu 23 o dyddynoedd, neu mewn geiriau ereill, i brydlesu darn eang o dir, tua 4 milldir o hyd, a dwy o led, am yr yspaid o 99 mlynedd, am yr ardreth o 200*p*. y flwyddyn. Perchenogion y tir oeddynt y Gwir Anrhydeddus William, Iarll Talbot, Barwn Hensol; a Michael Richards, Ysw., Caerdydd. Gwnaed y cytundeb rhwng y boneddwyr hyn a Meistri Bacon a Brownrig, gan un Mr. Bold, cyfreithiwr, Aberhonddu, 29 Awst, 1765; ond yr oedd yr ymgymeriad o Mawrth 25, 1765, hyd Mawrth 25, 1864.

Darfu i Meistri Bacon, a Brownrig brydlesu darn helaeth o dir ar du dwyreiniol afon Taf hefyd, gan yr Anrhydeddus Iarll Plymouth; Mai 1, 1765; ac ymddengys iddynt brynu ffwrnes Wilkinson, a Guest.

Yr adeilad cyntaf a gododd Bacon a'i Gyf, ar du gorllewinol afon Taf, oedd Gefail gof, yn agos i uniad y ddwy Daf, yr hwn le a elwid y Cymmer; a gelwid llanerch gerllaw, wrth yr enw Cyfarthfa. Cyfarthfa Bleiddiaid medd rhai, am fod bleiddiaid yn arfer cyfarth ac udo yno yn y nos, yn y cynoesoedd.

Cyfarthfa cwn, medd ereill, am ei fod gynt yn fan cyfarfod gan drigolion yr ardal i gychwyn hela.

Am beth amser, dygid yr haiarn o ffwrnes Plymouth, ar gefnau mulod, at Efail Gyfarthfa: ond ni pharhaodd hyn ond ychydig, hyd nes daeth ffwrnes gyntaf Gyfarthfa yn barod.

Gan mai golosgoed ddefnyddid yn danwydd i doddi y mwn haiarn, yr oedd y fan yr adeiladwyd y ffwrnes yn un manteisiol, gan fod yno y pryd hwnw ddigonedd o goed. Yr oedd yn ymyl Cefn-coed-y-cymmer, a Choed Meurig gerllaw. Wedi codi ffwrnes Gyfarthfa, cafodd ffwrnes Plymouth sefyll am beth amser, am fod yr un newydd yn fwy cyfleus i'r efail.

Yr oedd yr annghyfleusderau i gludo yr haiarn o'r lle i'r farchnad, neu y porthladd, yn fawrion iawn ar y cyntaf. Nid oedd ond yr Hen Ffyrdd Cymreig, a Rhufeinig, yn unig at eu gwasanaeth: a thros y rhai hyny ar gefnau mulod y cludid yr holl haiarn a wnaed yn Dowlais a'r Gyfarthfa, am gryn amser. Os mai i borthladd Caerdydd, neu Casnewydd y dygid ef, yr oedd yn rhaid myned dros gefn y mynydd, heibio Twyn y Waun, Gelligaer, Caerffili, &c., ar hyd yr hen heol Rufeinig: ond os mai yn Abertawy yr allborthid ef, dygid ef mewn cewyll, ar gefnau mulod, dros y mynydd, hyd at Eglwys Penderyn, ac oddi yno i randir Rhigos, heibio y Llyn Mawr, ac i fyny i ben Craig y Llyn, ac ar hyd cefn y mynydd rhwng Glyn Corwg a Chwmnedd, heibio Castellnedd, &c., i Abertawy. Mae rhanau o'r hen ffordd Gymreig hon i'w gweled yn bresenol.

Yr oedd Meistri Bacon, a Brownrig, yn teimlo yr anhawsdra hwn, ond ar yr un pryd yn gweled y buasai traul gwneyd heol newydd, yn feichus iawn iddynt hwy, heb gael cynnorthwy ereill. Bu y ddau yn cydgynllunio pa fodd y gallent lwyddo i gael cynnorthwy, ac yn y diwedd tarawyd ar y cynllun canlynol. Gwahoddodd Mr. Bacon luaws o amaethwyr y plwyf i wledd undiwrnod, ac ar ol iddynt fwyta ac yfed yn lled helaeth, efe a ddechreuodd areithio iddynt ar y priodoldeb o wneyd heol newydd, o Ferthyr i lawr trwy Gwm Taf, i gyfarfod a'r brif heol ger Glan Caiach; y buasai y ffordd hono yn llawer mwy manteisiol iddynt, na dringo i fyny dros Dwynyrodyn i gefn y mynydd, &c. Ar ddiwedd ei anerchiad, dywedodd y buasai ef, a'i gyfaill Mr. Brownrig, yn cyfranu yn helaeth at y draul, os buasent hwythau yn cymmeryd rhan yn y gwaith. Derbyniwyd ei gynygiad gyda brwdfrydedd, a rhoddwyd y gwaith allan i un Mr. Robert Thomas, taid y diweddar Dr. Thomas, o'r Court, Merthyr, a gorphenwyd hi yn y flwyddyn 1767. Yr oedd y rhan hono o'r heol, o Ferthyr hyd at Pont Rhun, ychydig i'r dwyrain o'r heol bresenol. Yr oedd yn myned heibio gwaith Plymouth, Pentrebach, Taibach, Dyffryn, &c., ac nid oes ond y darn o'r Dyffryn hyd Pentrebach yn aros o honi.

Wedi gwneuthuriad yr heol newydd, cludid yr haiarn ar gefnau mulod, fel yn flaenorol, ond ar hyd yr heol newydd. Adeiladodd Mr. Bacon dŷ iddo ei hun yn agos i'r ffwrnes, fel y gallai ofalu am dani yn barhaus. Yr oedd Mr. John Guest hefyd wedi codi tŷ iddo ei hun, ar lan afon Morlais, yn agos i ffwrnes Dowlais; ac ymddengys fod y ddau yn hynod gyfeillgar; ac yn cyd ymgynghori llawer, yn nghylch y dull gorau i gario y ddau waith yn mlaen. Gan fod rhagolygon da am lwyddiant, ag angen helaethu gwaith Mr. Bacon, a bod Mr. Guest, gan ei fod yn frodor o swydd Stafford, yn fwy adnabyddus a dynion yn medru gwneuthur haiarn, nag oedd Bacon ei hun, anfonodd Mr. Guest at amryw o'i gyfeillion yn Broselay, i geisio ganddynt ddyfod i Ferthyr, i helaethu gwaith y Gyfarthfa. Ar ei gais, daeth tri brawd, Samuel, Jeremiah, a Thomas Homphrey, y rhai oeddent feibion i berchenog Ffwrnes Callcot, a Morthwylfa Stewponey, a'r tri yn gelfydd mewn gwneuthur haiarn, ac hefyd yn lled gyfoethog. Gyda hwy daeth Joseph Hesman, a'i ddau fab; sef John, a William, gyda'i ddwy ferch. Benjamin Brown, gôf, Charles, a Thomas Turley, y rhai oeddynt burwyr haiarn (*Refiners*); James Lee, a'i ddau fab, John, a Thomas. Daeth y rhai hyn gyda'u dodrefn, &c., mewn llong i Gaerdydd, a Thomas Homphrey gyda hwy; ac yno daeth Samuel, a Jeremiah Homphrey i'w cyfarfod. O Gaerdydd, daethant mewn math o bedrolfeni i Ferthyr, Mai 13, 1782. Lletyodd y rhai hyn y noson gyntaf yn y *Boot Inn*, ger Eglwys Merthyr. Yr oedd Mr. Bacon, erbyn eu dyfodiad hwy i'r lle, wedi dechreu efelychu Mr. Guest, trwy agor ychydig leflau glo yn Nghwm Canaid, &c., ac yn ei ddefnyddio yn lle golosgoed, i doddi mŵn haiarn. Nid oedd Bacon y pryd hwnw yn alluog i wneyd ond haiarn bwrw garw, tra yr oedd galwad mawr yn y farchnad, am haiarn coethedig, a morthwyledig; a phrif amcan y boneddwr, wrth anfon am ddynion o Callcot, oedd coethi, a morthwylio haiarn.

Digitized by Google

Nid ymddengys mai dyfod i weithio am gyflog i Mr. Bacon a wnaethant ychwaith: ond cytunodd yr Homphreys ag ef, y buasent hwy yn adeiladu Purfa, (*Refinery*), a Morthwylfa (*Forge*), ger ffwrnes y Gyfarthfa, a'i fod ef i'w diwallu a digon o haiarn tawdd, am 4*p.* 10*s.* y dunnell, a glo am 4*s.* y dunnell. Aeth pethau yn mlaen felly am beth amser; ond ni pharhaodd yn hir. Tua'r amser hwnw, yr oedd y Rhyfel Americanaidd, sef y rhyfel rhwng Lloegr ac America, yn cael ei gario yn mlaen gydag egni ymdrechol. Yr oedd Mr. Bacon, fel y sylwyd, yn aelod Seneddol, ac o ganlyniad, yn troi mewn cylch pwysig yn y deyrnas; felly fe lwyddodd i wneyd cytundeb a'r llywodraeth i'w diwallu â gynau mawrion (*Cannon*), at wasanaeth y milwyr a'r morwyr. Adeiladwyd *Foundry* yn ymyl ffwrnes Gyfarthfa, i'w gwneuthur, a chludid hwy mewn pedrolfeni ar hyd yr heol newydd i Gaerdydd, ac anfonid hwy oddi yno i Plymouth a Portsmouth.

*Cannon Warf* y gelwid y man y llwythid hwy i'r llongau yn Nghaerdydd, am oesoedd.

Gan i Mr. Bacon gael digon o werth ar yr haiarn tawdd, mewn ffurf o gyflegrau, a chael pris uchel am y cyfryw gan y llywodraeth, aeth yn lled esgeulus gyda golwg ar ddiwallu Purfa a Morthwylfa yr Homphreys, yr hyn a arweiniodd i ymryson rhyngddynt; a'r diwedd fu, i'r Homphreys werthu eu sefydliad i Mr. David Tanner, o sir Fynwy. Yn fuan ar ol hyn, ail gychwynodd Bacon, Ffwrnes Plymouth; tra yr arolygid Ffwrnes Gyfarthfa gan Mr. Richard Hill, yr hwn oedd yn briod â chwaer Mr. Bacon. Yn 1784, cyttunodd Bacon a Mr. Tanner, fod yr olaf i gymmeryd at Ffwrnes Gyfarthfa, ar yr ammod ei fod i dalu 5*s.* i Bacon am bob tunnell o haiarn a doddai. Rhoddodd Ffwrnes Plymouth i Mr. Richard Hill, ar yr un ammod, ac ymneillduodd yntau i fyw ar ei gyfoeth, am ei fod wedi gwneyd masnach dda wrth wneyd gynau i'r llywodraeth. Bu Mr. Bacon yn cynnrychioli Aylesbury yn y Senedd, amryw dymhorau,—yr ail dro oedd yn 1768; yna yn 1774; a thrachefn yn 1780.

Tua'r flwyddyn 1791, adeiladodd Balas Aberaman, yn mhlwyf Aberdar, yn breswylfa iddo ei hun. Tra yn byw yno, daeth i adnabyddiaeth â llenorion yr ardal,—dysgodd ddarllen a siarad Cymraeg, a bu yn gefnogydd da i lenyddiaeth ein gwlad. Am ei gefnogaeth, anrhegwyd ef â chopi o'r *Gododin* gan Mr. Edward Evan, Ton Coch, mac'n debyg. Dim ond tri chopi o'r Gododin oedd ar gael ar y pryd,—un yn y *British Museum* yn Llundain, y llall yn Hengwrt, a'r trydydd yn Aberdar. Rhoddodd Mr. Thomas Bacon fenthyg y copi i Theophilus Jones, awdwr *The History of Breconshire*, ond ni ddychwelwyd ef. Wedi marwolaeth Theophilus Jones, rhoddodd ei weddw y copi i Carnhuanawc.

Wedi i Mr. D. Tanner gymmeryd at waith Gyfarthfa, unwyd ag ef gan Meistri Bowser a Cockshutt. Ni pharhaodd yr undeb hwn yn hir,—collodd Tanner lawer o arian yn yr anturiaeth, ac ymadawodd,—aeth Bowser yntau i ddechreu gwaith ar Hirwaun, fel y daeth Gyfarthfa yn eiddo Mr. Cockshutt.

Pan oedd y gwaith yn eiddo hwn, y daeth Richard Crawshay i gyssylltiad ag ef. Mab amaethwr o swydd Gaerefrog, oedd R. Crawshay; a phan yn llanc ieuanc ymrysonodd a'i dad, ac yn y ffrae, hawliodd Richard ei ferlyn ei hun, aeth ar ei gefn, a marchogodd i Lundain. Wedi cyrhaedd yno, gwerthodd y merlyn am 15*p.*; a chyn iddo dreulio y rhai hyny, cyflogwyd ef gan un o'r enw Bicklesmith, haiarn-werthwr. Wedi bod yn ngwasanaeth Mr. Bicklesmith amryw flyneddau, rhoddodd y boneddwr hwnw y fasnach i fyny i Mr. R. Crawshay. Llwyddodd yntau yn dda fel olynydd iddo, a daeth yn lled gyfoethog. Pan ddaeth yn gyfaill i Mr. Cockshutt, yn Gyfarthfa, gadawodd ei fasnach yn Llundain i ofal ei fab.

Yn fuan wedi iddo ef ddyfod i Ferthyr, adeiladwyd Morthwylfa, a Melin Rolio yn Gyfarthfa, i wneuthur haiarn yn ol cynllun Mr. Henry Cort, gan dalu 10*s.* y dunnell i Mr. Cort, am yr hawl o ddefnyddio ei gynllun. Erbyn 1789, yr oeddynt yn alluog i droi allan o Weithfa Gyfarthfa, y swm o *Dair Tunnell* o haiarn mewn wythnos!

Erbyn hyn yr oedd Merthyr yn dyfod yn mlaen yn gyflym,—haiarnfa Gyfarthfa yn eangu, ac yn llwyddo,—Dowlais yn mwyhau,—Penydarren a Phlymouth yn ychwanegu, y tai a'r boblogaeth yn lluosogi, a'r fasnach yn cynnyddu yn gyflym. Yr anhawsder a deimlid yn barhaus, oedd diffyg cyfleustra i drosglwyddo yr haiarn o Ferthyr i borthladd Caerdydd.

Gan mai angen yw mam dyfais, llwyddodd Mr. Homphrey, Penydarren, i ddyfeisio cynllun i gael gwell trosglwyddfa na heol Bacon, sef gwneyd Camlas o ymyl gwaith Gyfarthfa i Gaerdydd. Ffurfiwyd Cwmni, dechreuwyd y gwaith yn 1791, a gorphenwyd ef yn 1798, dan arolygiaeth Mr. R. Crawshay. Costiodd ei wneyd, 103, 660*p.* Ei hyd yw 25 milldir; ac yn gostwng rhwng Merthyr a Chaerdydd, 611 troedfedd; yr hyn a achosodd wneyd 40 o *locks* arno. Wedi cael y Camlas yn barod, dygid holl haiarn Merthyr, a Dowlais, mewn badau yn cario tua 15 tunnell yr un ar hyd-ddo i'r porthladd.

Gwr enwog iawn yn nghyssylltâ gwaith Gyfarthfa, yn amser Mr. R. Crawshay, oedd Mr. Watkin George, y Peiriannydd. Efe a ddyfeisiodd y Rhod Ddwfr fawr fu am flyneddau lawer yn ysgogi peiriannau i chwythu y ffwrnesi. Yr oedd y Rhod hono yn 50 troedfedd tryfesur, 6 troedfedd o led, a'r llyfrothenau (*gudgeons*) ar y rhai y pwysai, yn 100 tunnell yr un, wedi eu gwneyd o haiarn tawdd. Fe ddisgynai y dwfr ar hon mewn tri man, y naill uwchlaw y llall. Adroddir yr hanesyn canlynol mewn cyssylltiad a gwneuthuriad y Rhod hono, gan hen drigolion Merthyr. Yr oedd Mr. W. George yn dweyd wrth Mr. R. Crawshay yn aml, y dylai gael un felly er llwyddo y gwaith: ac yn y diwedd, dywedodd yr olaf am iddo wneyd *Model* o honi. Tynwyd y cynllun gan Mr. W. George, a gwnaed un fechan gan Mr. W. Aubrey y saer. Wedi i Mr. R. Crawshay ei gweled, boddlonwyd ef yn fawr, a gofynodd i Mr. George, beth fuasai y draul o wneyd yr un fawr; ac ar ol cyfrif, fe ddywedodd y buasai yn costio 4000*p.*! "Wel Watkin, ebe yntau, un o ddau beth am dani; os metha ateb y dyben, bydd yn ddinystr i mi; ond o'r tu arall, os trŷ yn llwyddiant, bydd yn *fortune* i mi." Gwnaed y Rhod pa fodd bynag, a throdd allan yn llwyddiant perffaith. Yn 1795, yr oedd dwy ffwrnes yn y Gyfarthfa, gyda Choethfa, Morthwylfa, a Melin Rolio. Yr holl haiarn a wnaed yn y pedwar gwaith yn Merthyr y flwyddyn hono, oedd tua 250 tunnell o fariau yr wythnos.

Yn 1801, adeiladwyd dwy ffwrnes yn yr Ynys Fach, (rhan o waith Gyfarthfa) yn ol cynllun Mr. W. George; a'r un flwyddyn, yr adeiladwyd y Bont Haiarn dros afon Taf, yn ol cynllun yr un gwr.

Digitized by Google

Dywed Mr. Malkin yr hanesydd, mai gwaith Gyfarthfa oedd y mwyaf yn y deyrnas yn 1803, a bod Mr. Crawshay yn alluog i wneyd o 60 i 70 tunnell o haiarn barriau mewn wythnos! Ychwanega, bod dwy ffwrnes newydd ganddo agos yn barod, ac ar ol eu gorphen, y buasai yn alluog i wneyd can tunnell o haiarn bob wythnos. Hanesydd arall a ddywed yn 1804, fod pedair ffwrnes yn gweithio yn y Gyfarthfa, gyda nifer o rai llai, morthwylfa, a melin rolio.

Gwelodd Mr. R. Crawshay fod llwyddiant y gwaith yn ymddibynu i raddau pell ar fedrusrwydd Mr. Watkin George, ac felly cynnygiodd iddo ran yn y gwaith, yr hyn a dderbyniodd, a bu yn un o'r Cwmni am 13 o flyneddau: ac yna symmudodd i Bontypool, yn werth 20,000*p.* i gymmeryd rhan yn y gwaith hwnw, gyda Mr. Leigh.

Yn 1805, yr oedd chwech ffwrnes yn y Gyfarthfa, a *dwy* felin rolio. Yn 1806, yr oedd nifer gweithwyr Gyfarthfa yn 1500; a gwnaed ganddynt y flwyddyn honno, 9906 o dunnelli o haiarn. Enwau y perchenogion y pryd hwnw oeddynt Crawshay, Hall, a Baily. Tad y diweddar arglwydd Llanover oedd y Mr. Hall hwn. Yr oedd tad Mr. B. Hall yn rhanfeddianydd yn Nghamlas Merthyr a Chaerdydd. Cododd ei fab yn far-gyfreithiwr, yr hwn a roddodd i fyny y gyfraith, a daeth yn un o Gwmni gwaith Gyfarthfa,—priododd â merch Mr. R. Crawshay; ac ar ei briodas, cafodd waith Rhymni, yn gynnysgaeth gyda'i wraig. Bu farw Mr. R. Crawshay yn 1810, fel y daeth ei fab William, yn olynydd iddo. Prynodd W. Crawshay hawl B. Hall, a Joseph Baily, fel y daeth yn berchen ar y lle ei hun. Ni wnaeth hwn nemawr gyda golwg ar lywodraethu y gwaith, ond rhoddodd yr awenau yn llaw ei fab, y diweddar W. Crawshay, Ysw.; a than ei olygiaeth fedrus ef, daeth y gwaith i'w fri presenol. Ar ei farwolaeth ef, daeth y gwaith yn eiddo ei fab R. T. Crawshay, Ysw., Castell Gyfarthfa, yr hwn yw y perchenog presenol.

Dengys y daflen ganlynol gynnydd y gwaith hwn mewn gwahanol flyneddau:—

| Blwyddyn. | Rhif y Ffwrnesi. | Y Swm a wnai pob un yn wythnosol. | Cyfanswm. |
|---|---|---|---|
| 1819 | 6 | 65 tunnell | 29,000 |
| 1846 | 11 | 80 „ | 45,760 |
| 1856 | „ | 105 „ | 55,440 |
| 1860 | „ | 120 „ | 60,000 |

Cynnwysa y gwaith yn bresenol, 11 o ffwrnesi tawdd, 80 ffwrnes *puddling;* 12 Coethfa; 6 melin rolio: a gallant droi allan o'r gwaith hwn, tua 1500 tunnell o haiarn gorphenedig bob wythnos.

Gwaith Penydarren.—Wedi yr ymryson fu rhwng Mr. Anthony Bacon a'r Homphreys yn Gyfarthfa, ac i'r rhai olaf werthu eu gweithfa i Mr. Tanner yn 1784, ardrethodd Samuel, Thomas, a Jeremiah Homphrey, dyddyn bychan a elwid Penydarren, am dair punt y flwyddyn, er codi gwaith haiarn arno.

Unwyd a hwy hefyd gan Mr. George Forman, boneddwr cyfoethog o Lundain; ac adeiladwyd ffwrnes Penydarren.

Yn 1796, adeiladwyd yr ail ffwrnes yno; a chan fod y gwaith yn eangu, gorfu arnynt ardrethu a phrydlesu amryw dyddynoedd ychwanegol, er codi mŵn, a glo, at y ffwrnesi. Yn 1803, gwnaed hanner can tunnell yn wythnosol yn y gwaith hwn. O fis Hydref 1805, hyd Hydref 1806, anfonwyd o'r gwaith hwn 6963 o dunnelli o haiarn. Adeiladwyd y drydedd ffwrnes, a dwy felin rolio, yn y gwaith hwn yn 1811.

Yn 1815, gwnaed 7800 o dunnelli o haiarn yn y gwaith hwn, yr hyn a ddengys ei fod yn myned ar gynnydd. Gan fod galw mawr am haiarn, a'r mŵn, a'r glo mor agos a manteisiol i'r ffwrnesi, aeth y gwaith hwn yn mlaen yn dra llwyddiannus am flyneddau lawer. O bryd i bryd ychwanegwyd at nifer y ffwrnesi, nes oeddynt yn saith o rif, gyda Choethfa eang, morthwylfa gref, a melin ardderchog, i ddwyn yr haiarn i'w sefyllfa orphenol. Unwyd a'r Cwmni gan y diweddar Henadur Thompson, yr hwn oedd foneddwr cyfoethog a pharchus. Yn 1830, darfu i'r Homphreys ymadael, fel y daeth y gwaith yn eiddo Forman a Thompson.

Yn y gwaith hwn y gwnaed cledrau (*Rails*) gyntaf yn Nghymru, sef cledrau at reilffordd henaf y deyrnas, yr hon sydd yn rhedeg o Liverpool i Manchester. Wedi marw yr Henadur Thompson, daeth y gwaith yn eiddo W. Forman, Ysw.; yr hwn a werthodd ei hawl yn y glô a'r mŵn, i Gwmni Dowlais, ac felly safodd y gwaith yn 1859. Ergyd trwm i'r dref oedd yr amgylchiad gofidus hwn, oblegyd taflwyd miloedd o'r trigolion allan o waith yn hynod ddisymwth ac annysgwyliadwy.

Yn mhen tua phum mlynedd wedi iddo sefyll, gwnaed rhyw fath o ail gychwyn arno, gan Meistri Davies, Williams, a Phillips: ond ni wnaethant unrhyw ddaioni o hono; ac felly gwerthasant eu hawl i Meistri Hankey a Fothergill. Mae yn myned yn mlaen yn bresenol rywlun, hyny yw, rhanau o hono; ond nid oes obaith y gwelir ef yn ei fri cyntefig, gan nad oes hawl gan berchenogion y ffwrnesi a'r melinau, i godi glô a mŵn, o'r ddaiar a berthynai iddo gynt.

Gwaith Plymouth.—Fel yr awgrymwyd eisoes, y rhai cyntaf a berchenogent ffwrnes Plymouth, oeddynt Wilkinson a Guest. Yr un Guest oedd hwn, a'r John Guest a ddaeth i arolygu ffwrnes Dowlais; a chyfaill iddo o swydd Stafford, oedd Wilkinson. Adeiladodd Wilkinson ffwrnes yn Dowlais hefyd, ond aeth ei anturiaeth yn fethiant.

Pan brynodd Mr. Bacon y ffwrnes gan y rhai hyn, ymddengys iddo wneyd peth cyfnewidiad yno, trwy osod Rhod Ddwfr fechan, i weithio y ddwy fegin oedd yn chwythu y ffwrnes.

Yn 1784, cymmerodd Mr. R. Hill at y ffwrnes hon, gan dalu pum swllt i Mr. Bacon am bob tunnell o haiarn a wnai. Wedi marwolaeth Bacon, talodd R. Hill swm pennodol o arian i'r etifeddion, yn lle y 5*s.* y dunnell; ac felly daeth yn berchen ar y gwaith. Erbyn y flwyddyn 1796, yr oedd wedi helaethu y ffwrnes, a gwnaeth yn y flwyddyn hono, 2200 o dunnelli o haiarn. Yn fuan adeiladodd ddwy ffwrnes ychwanegol. Yn 1807, ffurfiwyd Cwmni Morthwylfa Plymouth, er mwyn adeiladu Morthwylfa Pentrebach. Ar farwolaeth Mr. R. Hill, daeth y gwaith yn eiddo ei blant, sef Meistri Richard, John, ac Anthony Hill. Yn 1815, adeiladwyd y bedwaredd ffwrnes yn Plymouth; ac yn 1819, adeiladwyd y ffwrnes gyntaf yn y Dyffryn, tua dwy filldir yn ddeheuol i'r lleill. Wedi marw John a Richard, daeth y gwaith i gyd yn eiddo A. Hill, Ysw.; yr hwn oedd un o brif fferyllwyr ei oes; ac yn un o brif wneuthurwyr haiarn y deyrnas. Ychwan-

Digitized by Google

egodd ef y gwaith, nes oedd yno ddeg o ffwrnesi tawdd, 60 o ffwrnesi puddling, saith melin rolio, &c.

Bu Mr. A. Hill farw yn 1862, ac yn mhen tua blwyddyn ar ol hyny, gwerthwyd y gwaith i R. Fothergill, Ysw., A.S., a'i Gyf; ac yn eu meddiant hwy y mae yn bresenol.

Yn gymmaint a bod y gweithfeydd yn eangu, a swm yr haiarn a gynnyrchent yn cynnyddu, yr oedd hyd yn nod y Camlas wedi myned yn rhy fach ac annghyfleus i drosglwyddo y trysor i'r porthladd. Pa fodd bynag, yn y flwyddyn 1841, agorwyd cledrffordd Cwm Taf, o Ferthyr i Gaerdydd; yr hyn a wnaeth drosglwyddiad nwyddau yn bur hwylus. Anfonir llawer iawn o haiarn Dowlais, ac eiddo Plymouth, i'r farchnad ar hyd y llinell gyfleus hon.

Yn 1854, gwnaed Cledrffordd Cwm Nedd i Ferthyr, yr hon a agorodd dramwyfa hwylus, o ddinas yr haiarn i borthladd Abertawe. Agorwyd llinell o gledrffordd wedi hyny, o Ferthyr i Aberhonddu; ac y mae llinell Merthyr ac Abergafenni ar waith yn bresenol, yr hon a fydd wedi ei gorphen yn mhen ychydig amser, fel y bydd y cyfleusderau teithiol, a masnachol, yn agored i Ferthyr o bob cyfeiriad.

Gyda golwg ar hanes grefyddol y lle, gellir dweyd gyda phriodoldeb, bod agos cymmaint o lwyddiant wedi bod ar grefydd yn y lle, ag sydd wedi bod mewn ystyr fasnachod.

Amlwg yw, bod Eglwys blwyfol y lle wedi bod yn sefydliad pabyddol yn yr oesoedd gynt, a bod yn y plwyf amryw fân gapeli, megys Capel y Fforest, Capel y Gyfarthfa, a'r Mynachdy, yn Heol y Bont. Mae yr hen gapeli wedi diflanu, a'r Eglwys wedi ei hail adeiladu yn 1807; ac y mae cloc ardderchog yn y clochdy, yr hwn a oleuir â nwy yn y nos. Yn 1820, nid oedd ond Eglwys y plwyf yn lle addoliad gan yr Eglwyswyr, ac nid oedd ond dwy Eglwys yn y plwyf yn 1840. Erbyn heddyw, y mae yma wyth o leoedd addoliad gan yr Eglwyswyr, sef Eglwys St. Tydfil; dwy Eglwys yn Dowlais; Eglwys St. David's; Eglwys St. John's, Troedyrhiw; Eglwys Penydarren; Eglwys Cyfarthfa; ac Eglwys Ffynon Tydfil.

Dengys y cynnydd hwn, fod yr Eglwyswyr wedi bod yn llafurus iawn yn y lle yn ystod y 30 mlynedd diweddaf, ac y maent yn parhau yn eu hymdrechion, dan arweiniad y Parch. John Griffith, M.A., ac y mae llwyddiant eglur ar eu llafur. Perigloriaeth yw bywoliaeth yr Eglwys blwyfol, yn werth 700*p.* y flwyddyn, gyda Pheriglordy, yn nawdd a rhodd Ardalydd Bute.

Heblaw y sefydliad gwladol, y mae yn y lle, ddwy Eglwys Babyddol, sef un yn Dowlais, a'r llall yn Merthyr.

Mae crefydd yn uchel yma hefyd yn mhlith yr Ymneillduwyr; a bernir yn gyffredin mai yma y cychwynwyd Ymneillduaeth Cymru. Dengys yr hanesion cywiraf, mai yn Mlaen-canaid, ger y dref hon, y corffolwyd yr eglwys ymneillduol gyntaf yn y Dywysogaeth. Amaethdy yw Blaen-canaid yn bresenol, ar lechwedd y mynydd, rhwng Merthyr ac Aberdar; a dichon mai amaethdy oedd y pryd hwnw; er fod rhai yn barnu mai math o gapel oedd, a bod y llecyn a ddefnyddir yn ardd yn awr, wedi bod yn fynwent gynt.

Priodolir corfforliad yr eglwys yno gynt, i Thomas Llywelyn, o'r Rhigos; yr hwn oedd wr dysgedig, a pharchus, yn byw dan deyrnasiad y frenhines Elizabeth.

Dywed rhai haneswyr, mai yn 1620 y corffolwyd eglwys Blaen-canaid; ac iddi barhau yno am 70 mlynedd, sef hyd y flwyddyn 1690, pryd yr adeiladwyd capel Cwmglo; ac i'r eglwys barhau yno am 60 mlynedd. Nid oes amheuaeth pa fodd bynag, nad oedd Ymneillduaeth wedi gwreiddio yn ddwfn, ac wedi ymledu yn eang yn y lle hwn, mor fore a'r flwyddyn 1669. Yn y flwyddyn a nodwyd, y daliwyd, ac y carcharwyd yr enwog Vavasor Powell, am bregethu yn Merthyr; ac yn ol tystiolaeth ei gyhuddwyr, yr oedd y cynnulleidfaoedd Ymneillduol yma yn rhifo y pryd hwnw, rhwng pump a chwe'chant o nifer.

Tyst pwysig arall, ag sydd yn profi fod Ymneillduaeth yn gryf yn yr ardal yma yn fore iawn, yw "Hanes Brycheiniog" gan Theophilus Jones; yn yr hwn y dywedir fod 110 o ymneillduwyr yn mhlwyf y Faenor, ag sydd yn ffinio a Merthyr, mewn poblogaeth o 297.

Dywed Malkin, yr Hanesydd, fod dwy eglwys Ymneillduol yn Nghymru, yn 1642, ac mai yr eiddo Merthyr Tydfil oedd un o honynt. Hefyd, dywed y *Broad Mead Records*, gan y Parch Henry Maurice, mai y ddwy eglwys Ymneillduol henaf yn Nghymru, oeddynt eiddo Merthyr ac Abertawe.

Dywed Mr. C. Wilkins, yn ei *History of Merthyr*, i Walter Cradoc fod yn weinidog Ymneillduol yn Merthyr, ac iddo gael ei ganlyn gan un John Owen. Os yw hyn yn wir, rhaid fod yma eglwys bur luosog tua'r flwyddyn 1633. Diamheu i lawer o lewyrch fod ar yr achos tra y cynnelid ef yn Mlaen-canaid; ac y mae traddodiad, fod pobl yn dyfod ugain milldir o ffordd ar foreuau Suliau i'r cyfarfodydd yno, sef o ardaloedd Caerffili, y Berthlwyd, ac hyd yn nod o ymyl y Bontfaen.

Pan ddaeth Capel Cwmglo yn barod, symmudwyd yr eglwys yno; ac y mae hanesion yn dangos fod yn yr eglwys hono Undodwyr, Henaduriaethwyr, Crynwyr, Bedyddwyr, &c., yn cyd addoli. Saif gweddillion hen Capel Cwmglo, mewn pant coediog, o fewn tua hanner milldir i Flaen-canaid; a mesura tua 40 troedfedd o hyd, ac 20 o led. Aeth prydles y Capel hwnw allan yn 1747, pryd yr adeiladwyd Capel gan ran o'r aelodau ar Gefn-coed-y-Cymmer, yr hwn gapel a elwir, "Yr Hen Dy Cwrdd." Cangen arall o eglwys Cwmglo a godasant gapel bychan yr Ynysgau, ar lan afon Taf, yn mhentref Merthyr, yn 1749; ac yn 1751, cododd cangen arall o eglwys Cwmglo hen Dy Cwrdd Aberdar. Ymddengys fod cangen Cefn-coed-y-Cymmer, a changen Aberdar, o'r un daliadau crefyddol, sef Undodaidd, a rhoddasant yr un enw i'w Capeli. Bernir fod y rhai a aethant i'r Ynysgau yn Drindodiaid.

Gweinidog cyntaf yr eglwys yn Nghapel yr Ynysgau, oedd un James Davies, o Lanwrtyd. Bu ef farw yn 1760, a chanlynwyd ef gan ei fab, yr hwn a barhaodd yn weinidog yr eglwys hyd y flwyddyn 1781. Gellir dweyd gyda phriodoldeb, mai cangenau o'r Ynysgau, ydynt holl eglwysi Annibynol y dref. Ail adeiladwyd y capel yn 1855, ac y mae yn awr yn un o'r rhai harddaf yn y lle.

Dechreuwyd achos y Bedyddwyr yn y lle yn 1791, pryd yr adeiladwyd Capel Seion y waith gyntaf. Mae gan yr enwad hwn 12 capel yn y lle yn bresenol, a chan yr Annibynwyr, 11. Mae gan y Trefnyddion Calfinaidd hefyd, 7—y Wesleyaid 4, Presbyteriaid 1—y cwbl yn 35 o gapeli.

TERFYSGOEDD.—Mae tri therfysg wedi cymmeryd lle yma, yn y rhai y galwyd am gynorthwy milwyr

Digitized by Google

i adfer heddwch. Bu y cyntaf yn y flwyddyn 1800. Yr hyn a achosodd y terfysg oedd gwaith perchenogion y gweithfeydd haiarn yn gostwng cyflogau eu gweithwyr; nes oedd y rhai hyny, a'u teuluoedd, yn goddef newyn. Yn y cyfyngder hwnw, appeliasant am ychwaneg o gyflog, yr hyn a omeddwyd iddynt. Y canlyniad fu, iddynt beidio gweithio, gan arfer iaith bur fygythiol; ac yn ychwanegol at hyny, torasant i mewn i "*Shop y Cwmni,*" gan gymmeryd yr ymborth oddi yno, rhag newynu i farwolaeth.

Yn y cyfamser, anfonwyd am filwyr o Bristol, i ostegu y terfysg, y rhai ar ol dyfod, ni chawsant waith i'w harfau. Daliwyd rhai o flaenoriaid y gweithwyr, a chrogwyd un o honynt, o'r enw Aaron Williams, yn Nghaerdydd, yn 1801. Ei holl drosedd oedd codi ei lais yn erbyn gorthrymder, a bwyta ymborth heb dalu am dano, rhag iddo newynu!

Yn 1816, bu terfysg bychan drachefn yn y lle, o herwydd yr unrhyw achos, sef gostyngiad cyflogau y gweithwyr. Anfonwyd am filwyr i'r lle y pryd hwnw hefyd, ond ni chawsant waith i'w harfau. Gwelodd y meistri, mai y ffordd oreu iddynt adferu heddwch, oedd tynu un gostyngiad yn ol, gan roi ond un i'r gweithwyr, yn lle dau, fel y bwriadwyd gyntaf.

Y prif derfysg, oedd yr hwn a fu yma yn y flwyddyn 1831. Yr un peth fu achos hwnw a'r rhai blaenorol, sef Gostyngiad pris, gyda sefydlu math o Lys Man-ddyledion yn y dref, yn yr hwn y gweinyddid y gyfraith yn hynod lym.

Arweiniodd hyn y bobl i godi terfysg yn y lle,—torwyd i mewn i swyddfa y *Court of Requests*, a llosgwyd y llyfrau.

Anfonodd y meistri am filwyr, a daeth adran o'r 93d Highlanders i'r lle, yn cael eu harwain gan Meistri W. Crawshay, A. Hill, ac I. Bruce Pryse. Aeth y dorf o weithwyr i gyfarfod y milwyr, i Heol Aberhonddu, gyda thorth o fara ar hen pawl, yn awgrym i'r milwyr, mai newyn oedd achos y terfysg.

Cyd gerddodd y milwyr a'r gweithwyr o heol Aberhonddu, hyd at y *Castle Inn*, yn nghanol y dref, yn ddigon heddychol. Pan welodd rhai o flaenoriaid y gweithwyr, fod bwriad i fyned a'r milwyr i mewn i'r *Castle Inn*, rhoisant awgrym i'w cyd weithwyr i ymwthio yn mlaen at y drws, er cau y mynediad. Wrth wneyd hyn, gwthiwyd y milwyr yn erbyn mur yr adeilad, fel nad oedd lle ganddynt i ddefnyddio eu harfau. Llwyddodd W. Crawshay ac ereill, pa fodd bynag i fyned i mewn i'r gwesty, a safodd ef a hwythau yn ffenestr llofft y tŷ, o'r hwn le yr anerchwyd y dorf. Yr oedd Syr J. I. Guest ar gefn ei geffyl, yn nghanol y dorf ar y pryd, ac nid oedd yr un dyn yn y dorf a godai law yn ei erbyn, o herwydd eu parch iddo.

Ar ol amryw anerchiadau o bob tu, ymddengys i berson a elwid Lewis yr Heliwr, anerch ei gydweithwyr, gan ddweyd os oedd pawb yno yr un feddwl ag ef, y buasent yn cymmeryd yr arfau oddi ar y milwyr, gan ymladd hyd farw dros eu hiawnderau.

Gyda ei fod yn ynganu y geiriau, dechreuodd yr ymladdfa. Yn yr ymdrechfa, llwyddodd tua hanner cant o'r milwyr i ymwthio i mewn i'r gwesty, tra yr oedd y lleill wedi colli eu harfau, ac yn cael eu baeddu dan draed gan y dorf. Taniodd y rhai oedd i mewn yn yr adeilad ar y dorf, a chan fod muriau y ty yn amddiffynfa iddynt, nid oedd mantais gan y dorf arnynt. Yn yr ymladdfa, lladdwyd tua 60 o'r gweithwyr, ac amryw o'r milwyr.

Haera amryw haneswyr na laddwyd un o'r milwyr, ond y mae y rhai oedd yn yr ymladdfa, yn tystio heddyw, iddynt weled amryw o honynt yn feirwon. Ar ol y terfysg, daeth amryw adranau ychwanegol o filwyr i'r lle, a gostegwyd y terfysg. Cafodd amryw o'r terfysgwyr eu dal hefyd, ac yn eu plith Lewis yr heliwr, a Richard Lewis, *alias* Dic Penderyn. Cafodd y blaenaf ei alltudio am 15 mlynedd; a'r olaf ei grogi. Mae digon o dystion yn fyw heddyw, a wnant eu llw, nad oedd Dic Penderyn yn euog o fod yn rhanol yn y terfysg o gwbl; ond darfu i deiliwr, a barfwr yn y lle, dyngu yn ei erbyn yn y llys, ac ar eu tystiolaeth hwy, crogwyd ef.

Nid yw ymddygiadau y meistri wedi cyfnewid nemawr etto at eu gweithwyr yn y lle: ond da genym fod ymddygiadau y gweithwyr yn ngwyneb gormes, wedi gwella llawer. Nid oedd ymddygiad y meistri yn well yn nechreu y flwyddyn 1873, nag oedd yn y blyneddau gynt, pan fu terfysgoedd yn y lle, oblegyd ceisiasant ostwng pris y gweithwyr, pan oedd marchnad y glo a'r haiarn yn codi yn gyflym. Gwrthododd y gweithwyr hyn, a buont, o'r cyntaf o Ionawr hyd yr 17 o Fawrth, ar *Strike;* ac er fod holl weithfeydd haiarn a glo Merthyr, a holl weithfeydd sir Fynwy wedi sefyll, ni fu yma un terfysg o gwbl; yr hyn sydd yn deilwng o'i gofnodi, er clod i weithwyr Deheudir Cymru.

Yn y flwyddyn 1851, sefydlwyd Bwrdd Iechyd, i lywodraethu matteriou y dref; ac y mae wedi gwneyd llawer iawn o ddaioni, er ei fod yn gostus. Prif waith y Bwrdd ydoedd gwneyd y Ddwfr Weithfa, ar y draul o dros 80,000*p.* fel y mae digonedd o ddwfr glan i'w gael yn y dref yn awr, at wasanaeth ei phoblogaeth luosog. Mae yr unrhyw Fwrdd, wrth y gorchwyl o wneyd Ffoselliaeth yn bresenol, yr hyn a gyst lawn cymmaint a'r Ddwfr Weithfa: ond bydd y lles a ddeillia oddi wrth hyn yn llawn dâl am ei wneyd. Sefydlwyd Undeb Plwyfol Merthyr yn 1836, ac yr oedd yn perthyn i'r undeb y pryd hwnw, blwyfi Merthyr Tydfil, Aberdar, Y Faenor, Penderyn, Ystrad-dyfodwg, Gelligaer, Llanfabon, a Llanwynno. Oddi ar pan ffurfiwyd Undeb Pontypridd, nid yw undeb Merthyr yn cynnwys ond y plwyfi canlynol:—

| Plwyfi. | Erwau. | Pobl yn 1861. | Ardrethiad. |
|---|---|---|---|
| Aberdar | 16,858 | 32,247 | £166,746 |
| Gelligaer | 16,388 | 5,777 | 58,105 |
| Merthyr Tydfil | 17,714 | 49,810 | 131,646 |
| Penderyn | 12,765 | 1,331 | 6,366 |
| Rhigos | 5,420 | 822 | 5,555 |
| Vaynor | 6,597 | 2,984 | 5,524 |
| Cyfanswm | 75,742 | 92,971 | £373,942 |

Adeiladwyd Tlotty yr Undeb tua'r flwyddyn 1852; yr hwn sydd adeilad eang, yn y rhan orau o'r dref, sef *Thomas Town.*

Yn gymmaint a bod claddfeydd y dref wedi eu llenwi, darfu i'r Bwrdd Iechyd brynu darn helaeth o dir ar y tu gogleddol i Gefn-coed-y-Cymmer, at wneyd Claddfa Gyhoeddus i'r dref; ac yn y gladdfa hono y cleddir agos yr oll o feirwon Merthyr, er ys blyneddau bellach.

Tuag at fod yn fwy cyfleus yn yr etholiadau trefol, y mae y dref yn bresenol wedi ei rhanu yn Barthau, y rhai ydynt a ganlyn: 1. Y Dref; 2. Cyfarthfa; 3. Dowlais; 4. Penydarren; 5. Plymouth. Cynrych-

Digitized by Google

iolir y gwahanol barthau hyn gan bersonau gwahanol ac annibynol.

Mae yn y dref Lyfrgell, a Darllenfa ragorol, yn cynnwys tua 5000 o gyfrolau; a derbynir i'r sefydliad brif Newyddiaduron y wlad. Mae yn agored o ddeg y bore, hyd ddeg yr hwyr.

Saif y Ty Marchnad ar erw o dir, a chynnelir y farchnad ar ddydd Sadwrn yn fwyaf neillduol; ond y mae yn agored bob dydd o'r wythnos, ond y Sul, a llawer o fasnach yn cael ei gario yn mlaen ynddo. Cedwir ffeiriau yma ar y 18fed o Fawrth, Mehefin, a Thachwedd.

Mae yma ddau Ariandy, heblaw Ariandy y Llythyrdy, sef Cangen o Ariandy Aberhonddu, a changen o Ariandy Deheudir Cymru a Gorllewin Lloegr.

Y *Temperance Hall*, a'r *Drill Hall*, ydynt brif neuaddau y dref, yn y rhai y cynnelir pob math o gyfarfodydd cyhoeddus.

Ardalydd Bute yw arglwydd y faenor, a phrif berchenogion tirol y lle ydynt arglwydd Dynevor, R. T. Crawshay, Ysw.; Syr Ifor B. Guest; R. Fothergill, Ysw., A.S., R. E. Davies, Ysw., Gwaelod y garth, ac etifeddion R. Thomas, Ysw., y Court.

Dengys yr ystadegau canlynol fod cynnydd y dref wedi bod yn gyflym iawn yn y canrif presenol:—(1801), 7705; (1811), 11,104; (1821), 17,404; (1831), 22,083; (1841), 34,977; (1851), 46,378; (1861), 49,800; (1871), 51,891.

**METHODISTIAETH GALFINAIDD GYMREIG,** y gelwir un o'r Enwadau Ymneillduol cryfaf a mwyaf dylanwadol yn y Dywysogaeth yn yr oes bresenol; ac am hyny teilynga le, a sylw, yn y Gwaith hwn. Prif offerynau cychwynol y symudiad, a ymffurfiodd o'r diwedd yn Gyfundeb crefyddol dan yr enw uchod, oedd Howel Harris, a Daniel Rowlands. Mab ieuangaf i dyddynwr bychan, oedd yn byw mewn lle a elwid Trefecca, yn mhlwyf Talgarth, oedd Howel Harris; yr hwn pan yn unmlwydd ar hugain oed, wrth gyfranogi o swper yr Arglwydd yn llan y plwyf, ar Sul y Pasg, 1735, a ddeffrowyd i ystyried ei gyflwr yn ngwyneb gair Duw; ac a argyhoeddwyd ei fod yn hollol amddifad o wir grefydd, ac estronol iddi; a thrwy ddarllen yr ychydig lyfrau da oeddynt o fewn ei gyrhaedd, dyfnhaed yr argraff ar ei feddwl; ac fel yr oedd efe wrth fwrdd yr Arglwydd, y Sulgwyn canlynol, yn drallodus ei ysbryd, yn yr olwg ar ei gyflwr, ac yn drymlwythog gan deimlad o euogrwydd pechod, cafodd yno ddatguddiad ysbrydol o Grist croeshoeliedig, fel yr hwn a osododd Duw yn iawn, er cyfiawnhad y pechadur euog ac annheilwng, fel y gwasgarwyd ei ofnau a'i amheuon, ac y cynnyrchwyd yn ei galon hyder mabaidd yn nhrugaredd Duw mewn Cyfryngwr.

Yn y fan, wedi cael ei oleuo am ei gyflwr truenus ei hunan wrth natur, a threfn ogoneddus yr Efengyl er cadwedigaeth pechadur, efe a deimlodd yn ddwys yn achos cyflwr tywyll a dïofal ei gymmydogion; ac a ddechreuodd eu dysgu, a'u rhybuddio yn nghylch "y pethau a berthynent i'w heddwch;" ac yn fuan, parai ei agwedd grefyddol, a'i addysgiadau difrifol, gyffroad mawr trwy yr holl gymmydogaeth. Cyn ei ddeffroad, buasai ei rieni yn son am ei ddwyn i fynu yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig; ac yn mis Tachwedd, 1735, efe a anfonwyd i Rydychain; ac yr oedd ganddo addewid am fywioliaeth dda yn yr Eglwys; a gobeithiai ei hen gyfeillion y byddai iddo yn y brif ysgol, gael ymwared oddiwrth yr hyn a gyfrifent hwy yn benboethni crefyddol. Ond bu yr effaith yn dra gwahanol arno ef; canys y fath oedd yr annghrefydd, a'r anfoesoldeb a ganfu efe yn Rhydychain ar ei fynediad yno, fel nad arhosodd efe yno ond am un tymhor; ac wedi dyfod adref i Gymru, ni ddychwelodd i Rydychain mwyach; ond dechreuodd ymroddi i fyned o dŷ i dŷ yn mhlwyf Talgarth, ac yn y plwyfi cymmydogaethol, i rybuddio pechaduriaid i "ffoi rhag y llid a fydd;" ac yn fuan, aeth y bobl a ddelent i'w wrandaw, yn rhy luosog i'r tai eu cynnwys, ac yr oedd y fath rymusderau yn cyd fyned â'i annerchiadau, fel y byddai llawer yn gwaeddi allan yn y fan, dan deimlad dwys o'u pechadurusrwydd, a pherygl eu cyflwr ysbrydol; ac mewn nifer mawr o dai oedd yn ddi weddi o'r blaen, dechreuwyd cynnal addoliad teuluaidd; ond, mor wir a bod y fath effeithiau daionus yn cael eu cynnyrchu trwy ei offerynoliaeth, dechreuodd bonedd a gwerin ei wrthwynebu, drwy wawdiadau, a bygythion; er hyny efe a aeth rhagddo yn benderfynol, gan ymdrechu i ddi huno ac achub y bobl.

Yn niwedd yr haf, 1736, efe a agorodd ysgol yn y ty yn Nhrefecca, ac yn fuan gwelodd yn angenrheidiol ei symud i lan Talgarth; ac yno byddai yn hyfforddi yr ieuenctyd am eu cyflwr andwyol fel pechaduriaid, ac am drefn Duw i'w hachub drwy Gyfryngwr. Oddeutu yr adeg hono, deallodd fod rhyw wr yn myned o'r naill blwyf i'r llall, i ddysgu yr ieuenctyd mewn caniadaeth eglwysig; ac mewn cyfeiriad at hyn, y mae efe yn dywedyd, "Rhoddes hyn gyfleusdra arall i mi i wneuthur daioni, ac i amlygu fy nghariad at fy nghyd bechaduriaid." Felly, efe a aeth oddi amgylch gyd a'r athraw cerddorol; ac ar y nosweithiau, pan fyddai y gwersi ar ganu Psalmau drosodd, cyfodai Harris ar ei draed, i hyfforddi y rhai cynnulledig yn ngwirioneddau yr efengyl; a bu yn llwyddianus trwy y llwybr yma i ennill llaweroedd i gredu yn Nghrist. Fel ffrwyth y llwyddiant hwn, sefydlwyd cymdeithasau eglwysig, neu, fel eu gelwid y pryd hyny, ac yn hir ar ol hyny, "y seiat breifat," mewn amryw fanau. Am hyn y mae Harris ei hun yn rhoddi yr hanes a ganlyn i ni:—"Dechreuais yn ol trefn y cymdeithasau neillduol y rhoddai Dr. Woodward adroddiad am danynt, mewn traethawd bychan ar y mater, gan nad oedd eto gymdeithasau o'r fath yn Lloegr, na Chymru. Nid oedd hanes am y Methodistiaid Seis'nig hyd yn hyn; er, fel y clywais ar ol hyny, bod yr Arglwydd wedi bod yn gweithio ar rai o honynt yn Rhydychain, a manau eraill." Y mae y diweddar Barch. Thomas Charles, yn ei fuchdraethiad am Howel Harris, yn y *Drysorfa*, yn dywedyd am hyn,—"Dyma gychwyniad cyntaf y Methodistiaid." Dywedir mai mewn pentref bychan a elwir Erwood, ar y ffordd rhwng Talgarth a Llanfair yn Muallt, "y ffurfiwyd y gymdeithas neillduol" gyntaf.

Yn nechreu haf, 1737, gwahoddwyd Howel Harris, gan foneddwr o swydd Faesyfed, i ddyfod i'w dy ef i bregethu, yr hyn a roddodd gyfleusdra i lawer o foneddigion o'r amgylchoedd, i'w wrandaw; ac yr oedd yn cael lle i gredu fod y Goruchaf yn bendithio ei lafur. Yr oedd efe eto yn parhau gyda'r ysgol; ond, yn myned allan i gynghori ar y nosweithiau, y dyddiau gwyliau, a'r Sabbathau: ond, tua diwedd y flwyddyn hon, gomeddid y llan iddo mwyach i gadw ysgol ynddi; ond ni wnaeth hyny o erlidigaeth

Digitized by Google

arno, ddim ond agor drws iddo i lafurio yn helaethach gyd a'i hoff orchwyl. Yr ydoedd yn awr yn myned allan i bregethu, ddydd a nos, yma a thraw, gan lefaru yn fynych deirgwaith neu bedair, ac weithiau chwe gwaith yn y dydd, i dorfeydd lluosog. "Yr oeddwn y pryd hwn" (medd efe ei hun) "yn cael fy llwytho a phob math o enllibiau o bob cyfeiriad. Yr oedd yr heddynadon yn fy mygwth, a'r clerigwyr yn pregethu yn fy erbyn, gan fy ngalw yn gau-brophwyd, a thwyllwr. Yr oedd y werinos hefyd, yn ddiwyd yn gwylio am danaf mewn llawer lle, gyda bwriadau niweidiol. Ond, yr oeddwn yn cael fy nghludo, megys ar adenydd eryr, gan ymorfoleddu ar y cyfan. Nid arferwn gymeryd un testun neillduol, ond llefaru yn rhydd, fel y rhoddai yr Arglwydd i mi ymadrodd. Y ddawn a dderbyniaswn hyd yn hyn, oedd i argyhoeddi y gydwybod o bechod."—Fel "mab y daran," yr oedd Harris yn cydgau ei wrandawyr i ffydd Crist; yn peri iddynt anobeithio yn mhob man, nes iddynt ffoi i gymeryd gafael yn ngobaith yr efengyl. Yn y modd hwn, heb un amcan i sefydlu enwad neu sect, yr oedd cymdeithasau crefyddol yn cael eu cychwyn mewn amryw fanau, a gwaith mawr yn cael ei wneuthur.

Am y Parch. Daniel Rowlands, yr oedd efe yn gwasanaethu fel curad i'w frawd henaf, John, yr hwn oedd yn dal bywiolaethau Llangeitho, Llancwnlle, a Llanddewi brefi; ac efe a aethai i'r swydd gyssegredig, fel miloedd eraill yn yr oes hono, yn wr ieuanc anystyriol, heb feddwl dim am ei rwymedigaethau pwysig, a'i gyfrifoldeb difrifol, ac yn hollol annghydnabyddus o efengyl Crist. Wedi pregethu yn yr eglwys boreu Sabbath, byddai yn treulio y gweddill o ddydd yr Arglwydd mewn chwareuon oferwag, os nad mewn meddwdod. Ond, pan oedd yn bedair blwydd ar hugain oed, wrth wrandaw ar Gruffydd Jones o Landdowror yn pregethu yn Llanddewi-brefi, yn y flwyddyn 1737, cafodd dröedigaeth amlwg; ac o hyny allan, yr oedd efe yn ei deimlad, ei fuchedd, a'i weinidogaeth, yn greadur newydd. Bellach yr oedd yn pregethu gyda grym mawr, gan ymdaflu, gorph ac enaid, i'w bregethau; ac yn fuan, gorlenwid yr holl lanau y pregethai ynddynt, gan dorfeydd astud a difrifol. Yn wir, efe a ddaeth yn ebrwydd y pregethwr mwyaf poblogaidd yn y Dywysogaeth; ac efe oedd y cyntaf o weinidogion yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru, a nodwyd â'r enw *Methodist.* Cyn hir, efe a welodd ac a deimlodd na's gallai gyfyngu ei lafur gweinidogaethol i'w blwyf ei hun. Yr oedd sefyllfa y wlad yn gyffredinol mor amddifad o grefydd, a'r ceisiadau yn dyfod am ei wasanaeth o bob cwr, fel na phetrusai efe bregethu pa le bynag y byddai drws yn agor iddo. Pan y caniatteid iddo, pregethai yn y llanau plwyfol; ond os y byddai y llan yn gauedig iddo, pregethai mewn tŷ annedd, mewn ysgubor, neu yn yr awyr agored; ac yr oedd seliau ei weinidogaeth, mewn eneidiau dychweledig at Grist, yn amlhau yn feunyddiol.

Clybu Howel Harris am Rowlands, yn y flwyddyn 1738; ac yr oedd yn llawen iawn ganddo glywed am effeithiolrwydd ei weinidogaeth, a dymunai yn fawr gael cyfleusdra i'w wrando: ac ni fu yn hir cyn cael ei ddymuniad yn hyn; canys daeth Rowlands ar daith trwy ranau o swydd Frycheiniog, a'r siroedd cylchynol, i bregethu; a chafodd Harris gyfle i'w wrandaw yn Defynog; mewn canlyniad i'r hyn yr ysgrifenai fel y canlyn;—"Wedi i mi fy hun brofi nerth y gair dan weinidogaeth Mr. Rowlands, a gweled yn amlwg effeithiau ei bregethiad yn ngalwedigaeth rhai oeddynt hysbys i mi, credais fod yr Arglwydd gyd ag ef mewn modd annghyffredin." Erbyn hyn yr oedd lluaws mawr o "Gymdeithasau neillduol" fel eu gelwid, wedi eu sefydlu yn Neheudir Cymru; yn 1739, yr oedd deg ar hugain o leiaf; a'r aelodau a elwid yn *Fethodistiaid.* Nid oedd dim son y pryd hyny, nac am oes dda ar ol hyny, am Fethodistiaid *Calfinaidd*, am nad oedd Methodistiaid Wesleyaidd yn Nghymru.

Tra yr oedd y Diwygiad Methodistaidd yn ymledu yn gyflym yn y Deheubarth, yr oedd tywyllwch, anwybodaeth, ac anfoesau, yn gordoi pob cwr o Wynedd. Ychydig iawn o bregethu o gwbl oedd yn y llanau plwyfol, a phrin y gellid dweyd fod dim efengyl yn hyny o bregethau a draddodid. Ac ychydig iawn o gynnulleidfaoedd ymneillduol oedd yn y Gogledd, a bychain a nychlyd oedd y cynnulleidfaoedd hyny. Y Parch. Lewis Rees, gweinidog eglwys annibynol Llanbrynmair, yr hwn oedd wr hynod mewn duwioldeb, ac efengylwr da, wedi cyfarfod yn y Deheudir â Howel Harris, a ddywedodd wrtho am gyflwr anwybodus a di grefydd trigolion Gwynedd yn gyffredinol; gan ei gymhell yn daer i ddyfod yno ar daith i bregethu; a'i adroddiad, yn nghyd a'i gymhelliad, a effeithiodd ar Mr. Harris, fel y penderfynodd ymweled a rhanau o Ogledd Cymru. Y daith hon a wnaed ganddo yn y flwyddyn 1739.

Yn mysg lleoedd eraill, efe a bregethodd y tro hwn yn Nhref eglwys, swydd Drefaldwyn, pryd y dychwelwyd Lewis Evan at grefydd, gwr a ddaeth yn bregethwr wedi hyny, ac a ddyoddefodd lawer o erlidiau:—pregethodd hefyd yn Llanbrynmair, pan yr argyhoeddwyd tri o frodyr, o'r enwau William, Edward, a Richard Howel; a gwr arall o'r enw Richard Humphreys. Yn agos i Gemmaes, yn swydd Drefaldwyn, daeth clerigwr, a dau heddynad, a cheispwl, i'w ddal, gan fygwth ei gosbi hyd lymder eithaf y gyfraith, am droseddu y *Conventicle Act.* Ond, efe a aeth rhagddo yn ddi ofn i swydd Feirionydd, lle y gwelodd yr Arglwydd yn dda wneyd ei lafur yn fendithiol i laweroedd. Nid yw yn ymddangos iddo fyned yn mhellach na'r Bala y tro hwn; a'r pryd hwnw y pregethwyd gyntaf gan un o'r bobl a elwid Methodistiaid, yn y Bala. Wrth ddychwelyd oddiyno, pregethodd yn Ninas Mawddwy; ac wedi hyny aeth i Fachynlleth, lle yr ymddygwyd yn greulawn tuag atto. Gollyngwyd ergyd o law-ddryll ato, a lluchiwyd ef â ffyn, ac â cheryg: ond, efe a waredwyd o'u dwylaw yn rhyfedd.

Yn y flwyddyn 1741, daeth Harris i Wynedd yr ail waith; a'r pryd hwnw erlidiwyd ef yn y Bala, bron hyd angeu: er hyny ni lwfrhai, ond elai rhagddo i swydd Gaerynarfon, lle, yn nghyd ag erlidiau, y cafodd eneidiau hefyd yn ffrwyth, a gwobr ei lafur; ac yn eu plith, John Gruffydd Ellis, yr hwn a ddaeth yn un o'r pregethwyr goreu yn Ngogledd Cymru yn ei ddydd; ac ar ei ddychweliad oddiyno, efe a groesodd o'r Abermaw, ac a ddaeth drachefn i Fachynlleth, lle y bu eto mewn perygl am ei fywyd, "Eithr fe'm hachubwyd," medd efe, "fel ysglyfaeth o safn y llew." Siriolid ef yn fawr mewn amryw leoedd yn swydd Drefaldwyn, wrth ganfod Cymdeithasau neillduol wedi eu ffurfio mewn amryw fanau, ac ynddynt Fethodistiaid, ieuainc o ran eu proffes grefyddol, yn arddangos yn eu profiad a'u hymarweddiad effeithiau achubol a sancteiddhaol gair y bywyd.

Digitized by Google

Nid hir y bu Harris a Rowlands yn llafurio ar ddechreu y cyfnod Methodistaidd yn Nghymru, heb gael eu cynnorthwyo gan bregethwyr duwiol a dawnus o'r Eglwys Sefydledig. Canys yn fuan, gwelwn y Parch. William Williams o Bant y Celyn, peraidd Emynydd Cymru, wedi ei argyhoeddi wrth wrando Howel Harris yn pregethu ar fynwent Talgarth; y Parch. Howel Davies, o swydd Benfro, yr hwn fel Daniel Rowlands, a ddychwelwyd dan weinidogaeth y Parch. Gruffydd Jones, o Landdowror; a'r Parch. Peter Williams, yr hwn a gafodd ei argyhoeddi yn wr ieuanc, wrth wrando George Whitfield, yn Nghaerfyrddin; yn dyfod allan yn gynnorthwyr iddynt yn y gwaith mawr o efengyleiddio y Dywysogaeth. Ac erbyn y flwyddyn 1742, yr oedd Howel Harris yn gallu dweyd mewn llythyr at Mr. Whitfield,—"Y mae yn awr yn Nghymru, ddeg o wŷr eglwysig sydd yn cael eu harddel yn rhyfeddol gan yr Arglwydd Iesu Grist." A chyd a'r deg o weinidogion yr Eglwys Sefydledig oeddynt wedi dyfod yn mlaen i gynnorthwyo y diwygiad Methodistaidd, yr oedd amryw o bregethwyr di urddau, a "Chynghorwyr," fel eu gelwid, wedi eu cyfodi, ac yn llafurio yn llwyddianus a chymeradwy.

Er dechreu y flwyddyn 1740, arferai y Gweinidogion a'r Cynghorwyr gyfarfod, yn fisol, neu ddau fisol, yn ol eu cyfleusdra, er cyd-ymgynghori mewn perthynas i'w gwaith pwysig; ac yn y cyfarfodydd hyn yr awdurdodid brodyr i fyned allan fel Cynghorwyr, ac y trefnid maesydd eu llafur: ond ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr, 1742, y cynhaliwyd y Gymdeithasfa (*Association*), gyntaf, yn Watford, ger Caerphilli. Y pryd hyny, golygid y dosbarth Calfinaidd o Fethodistiaid Lloegr, o'r un frawdoliaeth a Methodistiaid Cymru, er eu bod wedi cychwyn yn hollol annibynol y naill ar y llall; ac felly gwahoddwyd Mr. Whitfield, a brodyr Seis'nig eraill, i Gymdeithasfa Watford; a phennodwyd Whitfield yn Llywydd y Gymdeithasfa hono. Cawn hanes fod Harris, a Rowlands cyn hyn, yn ymweled a'r frawdoliaeth Seis'nig yn Llundain, a bod Mr. Whitfield, pan yr aeth i'r Alban am bedwar mis, yn y flwyddyn 1741, wedi gadael gofal y Tabernacl yn Llundain, ar Howel Harris. Yr oedd o glerigwyr urddedig yn wyddfodol yn Nghymdeithasfa Watford, y gwŷr canlynol;—George Whitfield, Daniel Rowlands, William Williams, a John Powell; ac o bregethwyr di urddau, Howel Harris, Joseph Humphreys, John Cennick, Robert Jenkins, James Beaumont, Thomas James, Morgan John Lewis, John Jones, Benjamin Thomas, a Thomas Lewis. Golygid y pedwar clerigwr, gyd a'r tri cyntaf o'r pregethwyr; sef, Howel Harris, Joseph Humphreys, a John Cennick, yn ffurfio bwrdd sylfaenol y Gymdeithasfa; a thrwy eu penderfyniad unfrydol hwynt, y gosodid y brodyr eraill yn eu lleoedd.

Penderfyniadau y Gymdeithasfa gyntaf oeddynt a ganlyn;—1. Fod y brodyr canlynol i fod yn bregethwyr cyhoeddus,—Herbert Jenkins, James Beaumont, Thomas James, Morgan John Lewis, Benjamin Thomas, John Jones, a Thomas Lewis.—2. Fod Richard Tibbot i fod yn ymwelwr cyffredinol â'r cyfarfodydd eglwysig.—3. Fod y brodyr canlynol i fod yn Gynghorwyr annghyoedd (*private exhorters*),—James Williams, Morgan Hughes, David Williams, Rees Thomas, John Powel, William Evans, William Morgan, Harri Harris, Thomas Price, William Powel, Stephen Jones, Thomas Lewis, Howel Griffith, Richard Thomas, John Belcher, Evan Thomas, William Rees, Thomas Evans, Richard Jones, Charles Powel, John Jones, Morgan John, William Harris, a John Richard.—4. Fod i'r brodyr a betrusant dderbyn y cymmun yn yr Eglwys, ar gyfrif annuwioldeb y gweinyddwyr, a'r derbynwyr; ac yn mhlith yr Ymneillduwyr, ar gyfrif eu claiarineb, barhau i'w dderbyn yn yr Eglwys, hyd nes yr agoro yr Arglwydd ddrws amlwg i adael ei chymmundeb.—5. Nad oes i'r un Cynghorwr gael ei gyfrif yn un o honom ni, ond a brofir, ac a gymeradwyir; ac nad oes i neb o honynt fyned tu hwnt i'w derfynau pennodol heb ymgynghoriad blaenorol.—6. Fod i bob Cynghorwr ddwyn hanes ei Gymdeithasau priodol, ac o'r rhai a dderbynir iddynt, i'r Gymdeithasfa (gyffredinol) nesaf, yr hon a gynhelir y Mercher cyntaf ar ol y 25ain o Fawrth, 1743."

At y Gymdeithasfa hon y mae Williams o Bant y Celyn yn cyfeirio, yn ei Farwnad i Daniel Rowlands;—

"Dyma'r pryd daeth Whitfield enwog
Ar adenydd Dwyfol ras,
'Lawr i Gymru i gael profi
Y newydd win o Ddwyfol flas;
Dyma'r pryd yr hyfryd asiwyd,
O fewn ffwrnes fawr y nef,
Sais a Chymro mewn athrawiaeth
Loyw, ddysglaer, gadarn gref.

Dyma'r pryd, boed cof am dano,
Ganwyd yr Assosasiwn fawr,
Ac sy er haner cant o flwyddau
Yn cadw fynu hyd yn awr;
Yn gwneyd undeb athrawiaethau,
Ac yn clymu cwlwm crwn,
Na's gall rhagfarn na drwg-dybiau
Fyth i ddattod dim o hwn."

Heblaw "yr Assosasiwn fawr," yr hon oedd i arolygu holl faesydd ac achosion y Cyfundeb, sefydlwyd "Cymdeithasfa Fisol" mewn gwahanol Ddosbarthiadau, neu randiroedd, pob un i arolygu achosion ei ddosbarth ei hun; a'i phenderfyniadau i fod yn ddarostyngedig i farn y Gymdeithasfa gyffredinol. Cofnodir yn "Llyfr Trefecca," am Gymdeithasfa Fisol yn y Rhiwiau, Llanddeusant, ar Chwefror 3ydd, 1742; ac yn Nhrefecca, Chwefror 7fed; un yn y Tyddyn, swydd Drefaldwyn, Chwefror 17eg; ac un yn Llanwrtyd, ac arall yn Nglan yr afon ddu, Mawrth 1af, 1742. Dywedir yn yr "Hanes," yn llyfr "Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd," mai yn nhy Jeffrey Dafydd o'r Rhiwiau, Llanddeusant, tu a'r flwyddyn 1743, y cynhaliwyd y Gymdeithasfa gyntaf yn mhlith y Methodistiaid, a chymerwyd hyny o'r llyfr, "*Drych yr Amseroedd*," gan Robert Jones, Rhoslan; neu o'r ail lyfr o *Drysorfa* Mr. Charles; ond oddiwrth y cofnodiad uchod am Gymdeithasfa Watford, yn Ionawr, 1742, gwelir nad yw y sylw hwnw yn hollol gywir. Yn y Rhiwiau, debygid, y bu y Gymdeithasfa *fisol* gyntaf; neu *Gyfarfod* Misol fel ei gelwir yn awr; a hyny, nid yn 1743, ond yn Chwefror, 1742. Y mae yn ymddangos yn ol penderfyniad olaf Cymdeithasfa Watford, mai yn flyneddol y bwriedid i'r Gymdeithasfa "fawr" fod ar y dechreu; ac felly cynnaliwyd yr ail Gymdeithasfa yn Watford, Ebrill 6ed, 1743, pryd yr oedd Whitfield drachefn yn llywyddu. Yn y Gymdeithasfa hon rhanwyd y wlad yn bump o ddosbarthiadau,

Digitized by Google

neu randiroedd cymdeithasfaoedd misol; a threfnwyd i bob cymdeithasfa fisol gynnwys clerigwr, os byddai un i'w gael, i fod yn llywydd, neu gymedrolwr; ac arolygwr, neu arolygwyr y dosbarth, a'r cynnorthwywyr. Y dosbarthiadau oeddynt;—1. Maesyfed, a Threfaldwyn—Y Parch. W. Williams yn gymedrolwr; a Richard Tibbot yn arolygwr.—2. Y rhan uchaf o Geredigion, a Chaerfyrddin,—Y Parch. Daniel Rowlands yn Gymedrolwr; a John Richard, James Williams, William John, a David Williams, yn arolygwyr.—3. Y rhan isaf o Geredigion, a Phenfro—y Parch. Howel Davies yn gymedrolwr; a William Richard, Thomas Maelor, a John Harries yn arolygwyr.—4. Brycheiniog—y Parch. Thomas Lewis yn gymedrolwr; a Thomas James, a James Beaumont yn arolygwyr.—5. Morganwg, a Mynwy—y Parch. John Powel yn gymedrolwr; a Morgan John, Thomas Williams, Morgan John Lewis, Thomas Price, a John Belcher, yn arolygwyr: ac at y rhai hyn yr oedd Howel Harris i fod yn arolygwr cyffredinol dros holl Gymru. Yr oedd yr arolygwyr yn mhob dosbarth, i ofalu am yr holl aelodau eglwysig perthynol iddo; i gadw cofrestriad o'u nifer, eu henwau, a pha un a'i prïod neu sengl a fyddai pob un; yn nghyd ag ansawdd eu profiad ysbrydol.

Yn yr ail Gymdeithasfa gyffredinol, yn Watford, penderfynwyd i'r Gymdeithasfa fod yn chwarterol o hyny allan, ac nid yn flynyddol; a phennodwyd i'r nesaf fod yn Nhrefecca, Mehefin 26ain, 1743. Agorwyd y Gymdeithasfa hono trwy bregeth rymus gan Whitfield, ar rodiad Enoch gyda Duw. Dygid y cynnadleddau yn y Cymdeithasfaoedd hyn yn mlaen, mewn lledneisrwydd a brawdgarwch hyfryd, tra yr oedd llawer o frwd-frydedd crefyddol yn eu harnodi. Nid oedd gwyr blaenaf y Gymdeithasfa wedi cyrhaedd deng mlwydd ar hugain oed eto; ond yr oeddynt mewn modd tra phrydferth, "yn rhoddi parch, yn blaenori eu gilydd:" ac fel yr ysgrifenai Harris am danynt;—"Y mae yn rhyfedd pa fath ymddarostyngiad i'r naill y llall y mae yr Arglwydd yn ei weithio yn ein hysbrydoedd. Yr ydym yn dechrau ac yn diweddu mewn gweddi, a thrwy dywallt ein calonau yn nghyd. Y mae yn syndod pa fodd y mae corph o greaduriaid beilchion, anwybodus, ac annghymwys, yn cael eu dysgu, eu huno, a'u harwain, mewn gwaith mor fawr. Arglwydd, tydi a wnaeth hyn! I ti yn unig y byddo y clod!"

Yn y flwyddyn 1743, y troes y Parch. William Williams, Pant y celyn, yn hollol allan o'r Eglwys Sefydledig; ac efe ydoedd y cyntaf i wneyd felly gyd a'r Methodistiaid. Yr oedd efe wedi ei urddo yn ddiacon yn yr Eglwys, yn 1740, gan Dr. Claget, Esgob Ty Ddewi; a chawsai is-berigloriaeth Llanwrtyd, a Llanddewi Abergwesyn. Arferai ddywedyd mewn digrifwch, iddo gael ei roddi yn llŷs yr Esgob, pan oedd yn gwasanaethu Llanwrtyd, "am bedwar ar bymtheg o bechodau y bu yn euog o honynt;" megys am beidio rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio, peidio darllen rhai rhanau neillduol o'r gwasanaeth, a'r cyffelyb. Pallodd yr Esgob ei gyflawn urddo, o herwydd ei "bechodau" hyn; ac yn enwedig am ei afreolaeth yn pregethu mewn lleoedd annghyssegredig, a hyny allan o'i blwyfydd ei hun; ac ar annogaeth y Parch. George Whitfield yn benaf, efe a adawodd yr Eglwys, ac a aeth allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, gan deithio trwy holl Gymru i bregethu Efengyl Crist. Byddai yn myned yn fisol yn gyffredin i Langeitho, i gynnorthwyo y Parchedig Daniel Rowlands, i gyfranu Swper yr Arglwydd i'r tyrfaoedd lluosog o ddeuent yno o bob parth o Gymru. Eto, nid oedd blaenoriaid y Methodistiaid yn eu cyfrif eu hunain y pryd hwn, nac am lawer o flynyddoedd ar ol hyn, yn perthyn i *sect* ar wahan oddiwrth Eglwys Loegr; ond yr oedd yr holl glerigwyr Methodistaidd, oddigerth William Williams, yn dal bywiolaethau yn yr Eglwys Sefydledig, tra ar yr un pryd y llafurient i ddwyn yn mlaen yr achos Methodistaidd; ac ni chaniatteid i neb ond hwy, i weinyddu yr ordinhadau sacramentaidd yn mysg y Methodistiaid. Er hyny, yr oeddynt yn ymarferol wedi sefydlu cyfundeb Ymneillduol; ac felly y cyfrifid hwynt gan Eglwyswyr yn gyffredinol; ac o ganlyniad, yr oeddynt yn eu gwrthwynebu, ac yn eu herlid hyd eithaf eu gallu, a'u hawdurdod.

Ac nad oedd Tadau Methodistiaeth yn meddwl am gyfodi Enwad Ymneillduol ar y dechreu, a welir yn eu hwyrfrydigrwydd i adeiladu capelau; eu gobaith, a'u dysgwyliad oedd, y cynnyrchid diwygiad o fewn yr Eglwys, wrth yr hon yr oedd eu hymlyniad yn grŷf. Yr "Hanes," yn y "*Cyffes Ffydd*," a ddywaid, mai yn y flwyddyn 1747 yr adeiladwyd y capel cyntaf gan gorph y Methodistiaid yn Nghymru; ac mai yn Llanfair yn Muallt, swydd Frycheiniog, y codwyd hwnw. Felly, yr oedd un mlynedd ar ddeg wedi myned heibio, er pan ddechreuasai Howel Harris bregethu, cyn yr adeiladwyd un addoldy at ei wasanaeth neillduol ef, a'i gyd lafurwyr. Ond, yn Nghymdeithasfa Chwarterol Porth y rhyd, Hyd. 3ydd, 1744; "Cyttunwyd ar fod ty yn cael ei adeiladu yn Llansawel, i ddybenion crefyddol;" ac os dygwyd y penderfyniad yna i weithrediad, yr hyn sydd yn dra thebyg, nid capel Llanfair yn Muallt oedd yr addoldy Methistaidd cyntaf yn y Dywysogaeth; ond efallai mai yr esboniad prïodol ar yr annghyssondeb ymddangosiadol uchod, ydyw, mai yr adeilad yr Llanfair oedd y cyntaf a alwyd yn *Gapel* gan y Methodistiaid; gan mai "ty i ddybenion crefyddol," yw yr ymadrodd am adeilad Llansawel. Mewn tai annedd y cynhelid y Cyfarfodydd crefyddol y pryd hyny.

Pa fodd bynag, yr oedd y Diwygiad Methodistaidd yn parhau i fyned rhagddo; ac erbyn y flwyddyn 1746, yr oedd saith ugain o gymdeithasau eglwysig wedi eu ffurfio, a thua deugain o bregethwyr, yn perthyn i'r Methodistiaid; a choffeir fod yn y flwyddyn hon gynnifer a thair mil,—a gyfrifid oll yn Fethodistiaid, yn arfer cymuno gyda Rowlands yn Llangeitho; a thua dwy fil gyda Howel Davies, yn swydd Benfro.

Am y Diwygiad hwn y mae y Parch. Titus Lewis, yn ei "*Hanes Prydain Fawr*," yn dywedyd fel y canlyn;—"Bu y cyffroad yma yn foddion hefyd, nid yn unig i gyfodi *sect* newydd yn Nghymru, ond i adfywio yr hen sectau oedd yno eisoes; canys er bod dynion enwog a defnyddiol y pryd hyn yn mysg yr Ymneillduwyr yn y dalaeth, eto yr oedd cysgadrwydd a marweidd-dra ysbrydol i raddau mawr wedi gorddiwes pob plaid. Bu y diwygiad trwy y Methodistiaid, fel toriad gwawr, a chodiad haul, ar bob sect Galfinaidd trwy Gymru a Lloegr."

Megys yr oedd Gweinidogion o Eglwys Loegr yn perthyn i'r Gymdeithasfa Fethodistaidd, yr oedd felly hefyd weinidogion o ordeiniad Ymneillduol, ac yn dal cyssylltiad â'r Annibynwyr, megys y Parchedigion Benjamin Thomas, Henry Davies, a Richard

Digitized by Google

Tibbot; ac yn ddiweddarach, Thomas Gray, o Abermeurig.

Tra yr oedd Methodistiaeth yn myned yn mlaen yn llwyddianus yn Neheudir Cymru, arafaidd y gweithiai ei fford yn Ngwynedd; ac yr oedd y pregethwyr, a'u dysgyblion, yn gorfod goddef erlidiau llymion. Cafodd rhai eu dirwyo am roddi eu tai heb eu trwyddedu, i bregethu ynddynt; a dirwywyd eraill am bregethu, a'r lleill am wrando arnynt yn y cyfryw dai. Llawer o dir-feddianwyr galluog a droisant eu tir-ddeiliaid o'u ffermydd, am ymuno a'r Methodistiaid, neu eu cefnogi; a bu y werinos, dan gynhyrfiad oddiwrth foneddwyr a chlerigwyr,[1] yn baeddu, a haner lladd y pregethwyr; ac mewn amryw leoedd, buant yn dryllio dodrefn, ac yn yspeilio meddiannau pobl ddiargyhoedd a diniwed, yn unig am eu bod yn addoli Duw, yn ol y ffordd yr oeddynt hwy yn ei galw yn heresi. Y brodyr yn y Deheudir a wnaethant gasgliadau haelionus tuag at gynnorthwyo y cyfeillion erlidiedig ac yspeiliedig yn Ngwynedd; ac er mwyn talu costau cyfreithiol, tuag at sicrhau amddiffyniad y gyfraith iddynt. Yr oedd hedd-ynadon wedi dirwyo amryw yn annghyfiawn, gan ddirdynu y gyfraith yn eu herbyn; a darfu i'r Arglwyddes Huntingdon ddodi o flaen rhai o brif swyddogion y llywodraeth, adroddiad o'r gorthrymderau a ddyoddefid gan y Methodistiaid Cymreig, trwy annhegwch yr ynadon; a'r canlyniad, mewn rhai amgylchiadau, ydoedd gorfod dychwelyd y dirwyon yn ol.

Parhaodd brodyr y Deheubarth dros flynyddoedd lawer, i anfon Pregethwyr i'r Gogledd, gan ddwyn eu traul. Yn mysg y rhai a anfonwyd fel hyn, yr oedd Dafydd William Dafydd, John Belcher, Benjamin Thomas, Dafydd William Rhys, William Jones, o Lancothi, John Harris, o sir Benfro, a Morgan Jones. Ceir hanes hefyd am y Parchedigion William Williams, o Bant y celyn, Peter Williams, a Daniel Rowlands, yn ymweled â rhanau o'r Gogledd yn yr amserau hyny: ac yr oedd erbyn hyn, amryw o "Gynghorwyr" wedi dechreu pregethu yn y Gogledd; megys Evan Dafydd, o'r Waun Fawr, Arfon; Morgan Gruffydd, a Hugh Gruffydd, Lleyn; Lewis Evan, Llanllugan; a Thomas Meredydd, Mochdref, y ddau o swydd Drefaldwyn; Edward Parry, Brynbugad; John Richards, Bryniog; a Dafydd Jones, Adwy y Clawdd; y tri o sir Ddinbych:—a chwanegid yn barhaus at eu nifer. O'r diwedd, dechreuwyd cynnal Cymdeithasfaoedd Chwarterol, a Misol, yn y Gogledd, megys yn y Deheudir; ac yn fuan hefyd, dechreuwyd codi capelau yma.

Pe na chawsid ond erlidigaeth oddiwrth elynion crefydd i gythryblu y Methodistiaid, tra yr oedd yr achos crefyddol yn ngwendid ieuenctyd yn eu mysg, da fuasai; ond yn fuan, dyoddefodd Methodistiaeth lawer oddiwrth ysbryd ymbleidiaeth oddi fewn. Dechreuodd Howel Harris, y prif offeryn yn yr ysgogiad cyntaf ar y diwygiad, arfer ymadroddion dyeithriol am berson, ac angeu Crist; yr hyn a barai i lawer o'i frodyr, farnu ei fod yn ymylu ar Sabeliaeth. Yn mlyneddoedd cyntaf y diwygiad, gweinidogaeth daranllyd iawn oedd yr eiddo Harris, yn annelu at galonau pechaduriaid rhyfygus, ac anystyriol; ond, yn mhen rhai blynyddau, efe a aeth i bregethu mwy i broffeswyr; gan amcanu at athrawiaethu i'r deall, yn hytrach nag archolli y galon: ac y mae ef ei hun yn dywedyd, ei fod wedi cael y pryd hwn, olygiadau neillduol o ogoneddus ar fawredd person y Gwaredwr, fel Duw-ddyn; ond wrth lefaru am Dduw yn ymddangos yn y cnawd, ac yn ei aberthu ei hun, y mae yn debyg nad oedd efe yn rhoddi lle digonol i'r gwirionedd, fod y ddwy natur yn mherson Crist yn cadw eu priodoleddau neillduol, heb fod y naill yn ymgolli yn y llall, nac yn ymgymmysgu â'u gilydd. Dywedai fod Duw wedi marw ar y groes; ac na wnaethai Crist ddim mewn un natur, heb fod hyny yn perthyn i'r natur arall; yr hyn, yn nghyd ag ymadroddion eraill cyffelyb, oeddynt yn dramgwyddys i'w frodyr; a phan ymresyment âg ef, er ceisio ei argyhoeddi o'i gyfeiliornad, efe a'u cyfrifai hwynt yn ddynion cnawdol. Gyda golwg ar hyn, sylwa y Parchedig Mr. Charles fel y canlyn;—"Yr oedd gwrthwynebiad oddiwrth ei frodyr crefyddol, yn beth hollol anadnabyddus i Mr. Harris. Hyd yn hyn gwrandawent arno fel tad, a phen athraw, fel yr oedd mewn gwirionedd i'r rhan fwyaf o honynt. Yn lle ceisio arafu, a phwyllo, ac ystyried yn ddifrifol, a oedd ei ymadroddion yn addas am y pynciau uchod, chwerwodd ei ysbryd tuag attynt; a phellaent oddiwrth eu gilydd yn raddol, hyd oni ddiweddodd mewn ymraniad gofidus. Bu yr effeithiau o'r ymraniad yn alarus iawn; aeth y bobl yn ddwy blaid; sef 'pobl Mr.

[1] Ceisia rhai yn yr oes hon wadu y ffaith o fod clerigwyr wedi bod yn annog bonedd a gwreng i erlid y Methodistiaid: ond y mae gan yr Ysgrifenydd amryw gerddi, a gyfansoddwyd ychydig gyda chan mlynedd yn ol, gyd a'r unig amcan i annog boneddigion Gwynedd i erlid y Methodistiaid; neu fel eu gelwid ganddynt hwy, "y Roundiaid;" sef Penuau crynion. Y mae un o'r cerddi hyn wedi ei chyfansoddi gan wr urddasol debygid; canys fel hyn y dywedir ar ei therfyn yn yr hen ysgriflyfr;—"*Richard Thomas, D.D., o Fôn, a'i cant.*"

Dodwn yma rai penillion o honi fel enngrhaifft.

"Cyd neswch y Cymry yn gynes i ganu,
Llawn achos llonychu, heb ffaelu'n y ffydd:
Yn buraidd eich bwriad, y glan Brotestaniaid
Yn erbyn y *Roundiaid* di doriad bob dydd.
Duw cadw'r Eglwys wiw-lwys wen,
A phawb yn bur sy'arni'n ben,
A George yr Ail mewn sail ddi sen,
Baun dyddan bendigedig.
Duw cadw'r marchog, enwog un;—
Y glân Syr Watcyn William Wyn,
A'i ffryndiau tirion yn gyttun,
I ennyn dawn unig.

. . . . . . .

"Syr Watcyn sydd flaenor, wr union mawr *honour*,
Yn rulio ar ei drysor dan ordor Duw ne;
Mae'n gwario mawr arian, mewn llawndid yn Llundain,
Pa yswain drwy Frydain mor gadarn ag ê?
Mae'n cadw y Roundiaid bleiddiaid blin,
I swatio i lawr yn swta eu min;
Fe ofna rhain ar bob rhyw hin
Syr Watcyn a'i Feilïaid;
Ein llesawg Farchawg enwawg un,
Y glan Syr Watcyn Williams Wyn,
A'i Ffryndiau tirion yn gyttun,
A dyr edyn y Roundiaid.

. . . . . . .

"Duw Dad a'i fawr allu fo'n helpwr i chwynu
Yr ysgall a'r mieri sy'n tewychu ar y tir;
Duw dod i ni arfau i dori'r croes-geinciau,
Sy'n faglau ar lwybrau mewn golau i ni'n glir:
Duw dod ffyniant ar ein ffydd,
I fyw mewn doniau nos a dydd,
Nertha swydd y rheiny sydd
Yn ufudd dda notiad.
Ein llesawg Farchawg enwawg un,
Y glan Syr Watcyn Williams Wyn,
A'i ffryndiau tirion yn gyttun,
Dyr edyn y Roundiad."

Digitized by Google

Harris,' a 'phobl Mr. Rowlands' fel eu gelwid. Aethant i ymddadleu ac ymryson â'u gilydd, hyd oni ddrylliwyd y Cymdeithasau bychain ar hyd y wlad, ac yr aeth crefydd yn gwbl i'r dim mewn llawer o ardaloedd lle y buasai golwg obeithiol unwaith. Clywais lawer o'r hen bobl yn siarad yn alarus am effeithiau niweidiol a dychrynllyd yr ymraniad hwn. Bu amseroedd meithion ar ol hyn, deg, neu bymtheng mlynedd, heb ddim diwygiad neillduol yn un parth o'r wlad, ac achos crefydd yn isel, ac yn wywedig iawn."

Yr oedd y dadleuon a'r ymrysonau ar yr achos hwn, wedi bod am rai blyneddoedd mewn Cymdeithas faoedd, a lleoedd eraill, cyn ei ddwyn i benderfyniad; ond mewn Cymdeithasfa a gynhaliwyd yn Llanidloes, yn 1751, y daeth yr ymraniad i gymeryd lle yn weithredol; a chiliodd Mr. Harris oddiwrth ei frodyr. Cyfrifid Mr. Rowlands, Llangeitho, yn blaenori y gwrthwynebiad i Mr. Harris; a chyda Rowlands y safodd y Gweinidogion, a'r prif bregethwyr, ac o ganlyniad, y Cymdeithasfaoedd: ac o hyn allan "pobl Mr. Rowlands" oedd i'w cyfrif yn brïodol fel yn cyfansoddi y cyfundeb Methodistaidd yn Nghymru.

Wedi yr ymraniad, llafuriodd Harris yn benaf yn ei dŷ ei hun, yn Nhrefecca, lle y byddai yn aml yn pregethu ddwy waith, neu dair yn y dydd, i'r rhai a gyrchent ato. Efe a fyddai yn myned ar ambell daith i efengylu eto weithiau; ond yn Nhrefecca y gweinidogaethai gan mwyaf o hyn allan; a byddai amryw o'r rhai a gawsent fendith dan ei weinidogaeth ef yn y blyneddoedd blaenorol, yn ymweled ag ef yno; a chan y byddai efe yn pregethu iddynt bob dydd, yr oeddynt yn awyddus am gael aros gyd ag ef: a'r canlyniad fu, iddo yn Ebrill, 1752, sylfaenu yr adeilad fawr yn Nhrefecca, i fod yn gartref, ac yn addoldy, iddo ef a'i gyfeillion a lynent wrtho; ac wedi ei gorphen, ymgasglodd rhifedi mawr o bob parth o'r Dywysogaeth iddi, fel erbyn dechreu 1754, yr oedd y teulu sefydlog yno, oddeutu cant o rifedi, heblaw llawer a gyrchent yno yn achlysurol. Yn 1755, yr oedd amryw deuluoedd o Wynedd wedi dyfod i Drefecca, a'r gymmydogaeth; rhai i fyw yn mysg y teulu, ac eraill wedi cymeryd tyddynod yn yr ardaloedd cylchynol, fel y gallent fwynhau gweinidogaeth Mr. Harris.

Yn y flwyddyn 1756, ymwelodd y Parch John Wesley â Threfecca, ar ei ffordd i'r Iwerddon, ac efe a ddywed;—"Cymhellwyd ei ysbryd ef, (Harris), i adeiladu ty ehang i'r Arglwydd; ac mor fuan ag y codwyd ef, daeth gwŷr, gwragedd, a phlant, ato o bob parth o Gymru, heb iddo ef eu ceisio." Ar ymweliad diweddarach o'r eiddo Mr. Wesley â Threfecca, efe a ddywaid,—"Yr oedd o gylch chwech ugain o bersonau yn y teulu; oll yn ddiwyd, ar waith yn barhaus, ac oll yn ofni Duw, ac yn gwneuthur cyfiawnder. Y mae ty Howel Harris yn un o'r lleoedd prydferthaf a welais yn Nghymru:— capel bychan, a phob peth o'i amgylch yn amlygu chwaeth ragorol; ac y mae yr ardd, y perllanau, y pysgod-lynoedd, a'r bryn gerllaw, yn gwneyd y llanerch fel math o baradwys fechan.

Yn 1759, canfyddir y nodiad canlynol yn Nyddlyfr Mr. Harris;—"Yr ydwyf yn hyderu fod y gair wedi cael ei bregethu yma gyd âg awdurdod a nerth, dair gwaith bob dydd, a phedair gwaith bob Sul, dros saith mlynedd."

Ond, pa mor gysurus bynag yr oedd pethau yn mhlith "y teulu," yn nghartref neillduedig Trefecca, yr oedd canlyniadau athrist i'r ymraniad, mewn llawer o eglwysi y Methodistiaid, yn enwedig yn Ngwynedd. Perchid Harris gan yr aelodau crefyddol yn gyffredinol, fel yr offeryn cyntaf i gychwyn Methodistiaeth yn y Dywysogaeth; ac nid oedd y rhan fwyaf o honynt yn gwybod nemawr am yr ymrafael, hyd oni thorodd allan yn benderfynol yn Nghymdeithasfa Llanidloes. Ac yn eu hanfanteision, a'u mebyd crefyddol, nid oeddynt onid anmherffaith yn eu gwybodaeth dduwinyddol; ac o ganlyniad ni allasai nemawr o honynt feddu barn aeddfed ar destun y ddadl; a than y cyfryw amgylchiadau, yr oedd yn naturiol dysgwyl i'r rhan fwyaf lynu wrth "bobl Mr. Harris." Cawn yr adroddiad canlynol ar hyn yn "*Drych yr amseroedd.*"—"Wedi ymranu, aeth y llefarwyr-oedd o blaid Mr. Harris, yn ddi ymaros trwy y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru, lle yr oedd Cymdeithasau neillduol wedi eu sefydlu; yna, ar ol y bregeth, galwent y cyfeillion yn nghyd, gan ofyn iddynt, pwy oedd o du yr Arglwydd? a dweyd ei bod yn bryd iddynt ochelyd cael eu twyllo; gan sicrhau fod "yr offeiriaid," fel yr arferent alw Mr. Rowlands a'i ganlynwyr, wedi colli Duw. Gan fod hyn yn beth mor ddyeithr, ac annysgwyliadwy i'r rhan fwyaf o'r eglwysi, a hwythau yn dyner eu cydwybodau, ac yn ieuainc mewn profiad, taflodd hyn y fath ddyryswch i'w meddyliau, fel na's gwyddent ar ba law i droi. Ofnodd llawer fyned yn agos at Mr. Rowlands a'i blaid, rhag cael eu twyllo, fel yr oedd y dysgawdwyr eraill wedi eu rhybuddio. Cauwyd y drysau mewn amryw fanau, fel na chai Mr. Rowlands, na neb o'i ganlynwyr, dderbyniad i bregethu. Ond, o radd i radd, dychwelyd a wnaeth y rhan fwyaf at blaid Mr. Rowlands, y rhai oedd yn dal y wir athrawiaeth yn fwy cyson na'r lleill.

Er hyny, bu yspaid maith o amser ar ol hyn, tair blynedd ar ddeg o leiaf, heb ddiwygiad neillduol yn un parth o'r wlad. Yn yr yspaid maith hyny o amser, rhoddes rhai ag oedd wedi dechreu pregethu, y gorchwyl heibio dros flyneddau, o herwydd petrusder, a digalondid. Cafodd y gelyn dïafol oddefiad y pryd hyny, i ddyfod fel gwaedgi uffernol i ganol y praidd, i darfu y defaid, eu herlid, a'u gwasgaru ar hyd yr anialwch; ac oni buasai i'r Bugail da, o'i fawr gariad a'i ras, ofalu am danynt, darfuasai am y praidd yn llwyr."

Yn y cyfnod hwn, yr oedd gweinidogaeth Daniel Rowlands yn Llangeitho, yn parhau mewn grym, ac effeithiolrwydd mawr. Ac heblaw bod Mr. Rowlands yn pregethu yn nerthol yn eglwys Llangeitho, byddai y Cynghorwyr oeddynt heb gael urddau eglwysig, yn pregethu mewn ysgubor wag, oedd ar dir Mr. Rowlands, hyd y flwyddyn 1760, pan yr adeiladwyd y capel cyntaf i'r Methodistiaid yn Llangeitho. Nid oedd Mr. Rowlands namyn curad o hyd yn Llangeitho; canys pan fu farw ei frawd John, y periglor, wedi i Daniel fod yno yn gurad am saith mlynedd ar hugain, naccaodd esgob Ty Ddewi roddi y fywioliaeth iddo ef, am y rheswm ei fod wedi derbyn cwynion lawer yn ei erbyn, am ei afreoleidd-dra eglwysyddol: a'i arglwyddiaeth a roddes y fywioliaeth i John, mab Daniel Rowlands, gwr ieuanc saith ar hugain mlwydd oed; ac wele y gweinidog eglwysig galluoccaf, a mwyaf poblogaidd yn Nghymru, yn gurad i'w fab, megys y buasai o'r blaen yn gurad i'w frawd! Dywedir fod yr Esgob, wrth ganiattau i Rowlands barhau i bregethu yn Llangeitho, fel curad i'w fab ei hun, yn ei rybuddio fod yn rhaid iddo

Digitized by Google

bellach ymwrthod â'r afreolaeth anfad, am yr hyn yr oedd lluaws o'r offeiriaid yn achwyn arno wrtho ef; a'r afreolaeth hyny oedd, pregethu yr efengyl allan o'i blwyf, pa le bynag y caffai wrandawyr! Atteb llariaidd, ond penderfynol Rowlands ydoedd, nad oedd ganddo ef un amcan ond gogoniant Duw yn iachawdwriaeth pechaduriaid; a chan fod ei lafurwaith wedi ei fendithio mor fawr, na's gallasai addaw ei roddi i fynu.

O'r diwedd, yn y flwyddyn 1763, llwyddodd gwrthwynebwyr Mr. Rowlands i gael gan yr Esgob ei wahardd i bregethu yn yr eglwys; a'i arglwyddiaeth a anfonodd archwys, yn galw yn ol ei drwydded fel curad; a bu mor ffol a pheri i'w rybudd gael ei weini arno ar y Sabbath! Daeth dau offeiriad i mewn i'r eglwys, rhwng y gwasanaeth a'r bregeth; ac un o honynt a roddes lythyr yr esgob, yn cynnwys yr archwys ddywededig, yn llaw Mr. Rowlands, pan oedd efe yn myned i'r pulpud. Yntau, wedi ei ddarllen, a hysbysodd ei gynnwysiad i'r gynnulleidfa, gan attolygu arnynt fyned allan yn ddi gynwrf, fel y gallent orphen gwasanaeth y boreu hwnw gerllaw porth y fynwent. Aeth y gynnulleidfa allan gan wylo, a phregethodd Rowlands yn yr awyr agored, gyda grym anarferol. Ond, ni wnaeth Esgob ac offeiriaid weithred ffolach erioed na throi Daniel Rowlands allan o Eglwys Loegr; canys yr oedd efe bellach yn ei deimlo ei hunan yn ŵr rhydd, yn gallu gwasanaethu ei Feistr nefol yn y man y mynai, a'r modd y barnai ei gydwybod ei fod yn fwyaf ysgrythyrol. Bu raid cael capel newydd yn Llangeitho yn ebrwydd, llawer helaethach na'r un cyntaf; ac un a gyfrifid yn fawr yn y dyddiau hyny. Yr oedd i hwn ddrws bychan yn y cefn, yn agor i'r pulpud; a chan y byddai y capel yn orlawn yn gyffredin cyn y deuai Mr. Rowlands i mewn, efe a allai fyned i'r pulpud trwy hwn, heb ymwthio trwy y dyrfa.

Yn fuan wedi yr amgylchiad uchod, cymerodd adfywiad crefyddol nerthol le; yr hwn a ymledodd agos trwy holl barthau De a Gogledd Cymru; ac a ddechreuodd yn nghapel newydd Llangeitho, pan yr oedd Rowlands yn pregethu; a bu yr adfywiad yma yn foddion effeithiol i wrthweithio dylanwad niweidiol yr ymraniad, am yr hwn y crybwyllwyd uchod. Yn Ngwynedd yn enwedig, lle yr oedd yr ymraniad wedi gwneyd y fath niweid i achos Methodistiaeth, caed y diwygiad hwn fel bywyd o feirw iddo; amlhaodd y pregethwyr, lluosogwyd y gwrandawyr a'r aelodau eglwysig; a dygwyd crefydd, yn y wedd Fethodistaidd arni, i sylw y wlad yn gyffredinol.

Y mae Mr. R. Jones, Rhoslan, yn gwneyd y sylw canlynol gyda golwg ar y diwygiad hwn—"Yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng y diwygiad yma, a'r un a ddechreuodd ar y cyntaf trwy Howel Harris. Yr oedd hwnw, o ran dull ei weithrediadau yn llym, ac yn daranllyd iawn; ond yn hwn, megys gynt yn nhŷ Cornelius, yr oedd tyrfaoedd lluosog yn mawrygu Duw, heb allu ymattal; ond weithiau yn llamu o orfoledd, fel Dafydd gynt o flaen yr arch. Clywais gan hen wraig dduwiol, iddo barhau dri diwrnod, a thair noswaith, yn ddigysswllt, mewn lle a elwir Lon Fudr, yn Lleyn, swydd Gaerynarfon; y naill dyrfa yn cylchynu y llall. Pan elai rhai adref, deuai eraill yn eu lle; ac er myned i'w cartrefi dros ychydig, nid allent aros nemawr heb ddyfod yn ol. Pan ddaeth y tywalltiadau grymus hyn ar gannoedd, os nad miloedd, trwy Ddeheudir, a Gwynedd, bu llawer o gynwrf, a dadleu yn ei gylch. Daliwyd llawer â syndod, gan ddywedyd, 'Beth a all hyn fod?' 'Meddwon ydynt,' medd rhai 'O'u côf y maent,' medd eraill:—yn debyg iawn i'r rhai hyny ar ddydd y Pentecost. Ond ni feiddiodd braidd neb wneyd niweid iddynt, eithr yn unig eu gwneuthur yn nod i gynhen tafodau."

Yn 1769, cawn hysbysiad am Daniel Rowlands a Howel Harris yn cyd gyfarfod yn serchog yn nghymmydogaeth Trefecca, ar yr achlysur o gylchwyl agoriad yr athrofa a sefydlasid gan yr Iarlles Huntington. Barnai y bendefiges dduwiolfrydig a haelionus hono, y gallasai coleg neillduol fod yn fuddiol, i ddarparu gwŷr ieuainc o dduwioldeb a dawn, i waith y weinidogaeth: a'i harglwyddiaeth a ddewisodd gymmydogaeth Trefecca fel lle i'w godi, am ei bod yn dysgwyl llawer oddiwrth ei hen gyfaill Harris, fel tad, a chynghorwr i'r efrydwyr ieuainc. Adgyweiriwyd hen adeilad Trefecca Isaf, i gynnal yr athrofa; a'r adgyweiriad a wnaed dan arolygaeth Mr. Harris. Y coleg hwn a agorwyd gyntaf ar y 24ain o Awst, dydd genedigaeth yr arglwyddes Huntington; ac ar yr achlysur hwnw, pregethodd G. Whitfield oddiar Exod. xx. 24,—"Yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf attat, ac y'th fendithiaf." Ac yn chwanegol at lafurwaith yr athrawon, byddai Mr. Harris yn myned i'r coleg bob dydd am hir amser, i ymddiddan â'r efrydwyr am achos eu heneidiau, ac i'w cynghori gyda golwg ar bregethu yr efengyl. Yn Awst, y flwyddyn ganlynol, cylchwyl yr agoriad, fel y nodwyd, yr oedd Rowlands o Langeitho yn bresenol, a'i gyfeillion Howel Davies, William Williams, a Peter Williams, yn nghyda John Wesley, Shirley, ac eraill o Loegr,—y rhai oll, yn nghyda Howel Harris, a gymerasant ran yn ngwasanaeth y gylchwyl, ac a gyfranogasant o Swper yr Arglwydd yn gariad-lawn. Cawn hefyd eu bod yn cyfarfod yn yr un lle, ac ar y cyffelyb achlysur, yn y flwyddyn 1770; fel y gellid barnu bod eu teimladau at eu gilydd wedi eu meddygyniaethu. Erbyn hyn yr oedd Harris yn ymadroddi mewn dull mwy cymedrol wrth lefaru am berson, ac angeu Crist; a chredid y bu mwy o ymryson yn nghylch geiriau nag yn nghylch syniadau, yn y dadleuon blaenorol; a chydnabyddid bod Howel Harris yn teilyngu parch mawr fel tad y diwygiad Methodistaidd yn Nghymru. Yr oedd amser ei ymddattodiad yn agosau bellach; ac mewn llawn sicrwydd gobaith, a gorfoledd yr iachawdwriaeth, efe a hunodd yn yr Iesu, Gorphenaf 21ain, 1773, yn dri ugain mlwydd oed.

O'r pryd hwn hyd y flwyddyn 1785, pan yr ymunodd y Parch. T. Charles, o'r Bala, â'r Methodistiaid, canfyddwn Fethodistiaeth yn myned ar gynydd yn gysson; ac adfywiadau grymus yn cymeryd lle mewn manau. Yr oedd amryw Bregethwyr nerthol a dylanwadol, yn y Deheudir, wedi cyfodi o fysg y "Cynghorwyr;" megys Dafydd Morus, William Llwyd, o Gaio, a Dafydd Parry; y rhai o ran dawn i lafaru, a dylanwad ar y cynnulleidfaoedd, a gyfrifid yn tynu yn agos at Daniel Rowlands; ac yr oedd y Parch. John Williams o Ledrod, gwr eglwysig parchus, a phregethwr da, wedi ymuno â'r Methodistiaid. Yn y Gogledd, yr oedd Evan Richardson, o Gaer yn arfon; John Roberts, o Lanllyfni, ac wedi hyny o Langwm; a'i frawd seraphaidd, Robert Roberts, o Glynog; Thomas Jones,

o Ddinbych; a John Jones, o Edeyrn, wedi dechreu pregethu; heblaw amryw eraill oeddynt yn bregethwyr cymeradwy a defnyddiol, er nad mor boblogaidd a'r rhai a enwyd. Adeiledid amryw addoldai, a chynhelid Cymdeithasfaoedd yn y gwahanol siroedd. Er hyny, rhaid addef fod ymuniad Mr. Charles â'r Methodistiaid, yn gaffaeliad gwerthfawr i'r Cyfundeb; gan ei fod wedi bod yn brif offeryn i'w ddwyn i ffurf reolaidd er mwyn trefn a pharhad, heblaw na's gwnaeth neb gymaint ag ef er cynnysgaeddu y Cymry â gwybodaeth o air yr Arglwydd. Ar y dechreu, efe oedd yr unig weinidog urddedig oedd yn perthyn i'r Methodistiaid yn Ngogledd Cymru; ond efe a ddilynwyd yn fuan gan ei gyfaill dysgedig, y Parch. Simon Lloyd, B.A. Plas yn dre, Bala; ac am flyneddau lawer, sef hyd ymuniad y Parch. William Lloyd, o Nefyn, ac wedi hyny, o Gaer yn arfon, â'r Methodistiaid, hwynthwy oeddynt yr unig ddau yn Ngwynedd, a weinyddent yr ordinhadau o fedydd a swper yr Arglwydd, yn y cynnulleidfaoedd Methodistaidd. Mewn Cymdeithasfa a gynhaliwyd yn y Bala, Mehefin y 9fed, 1790, cyttunwyd ar reolau neillduol, o ffurfiad Mr. Charles, er sicrhau iawn drefn, a gweddusrwydd yn y Cymdeithasfaoedd Chwarterol; ac yn ol y rhai hyny y dygir yn mlaen gynnadleddau y Gymdeithasfa eto.

Yn y flwyddyn 1799, cychwynwyd y "Drysorfa," dan olygiad Mr. Charles, a Mr. Jones o Ddinbych. Cynnwysai y Cyhoeddiad gwerthfawr hwn, draethodau wedi eu hamcanu i weinyddu addysg ac adeiladaeth grefyddol yn gyffredinol; ac ysgrifau eraill, yn dwyn perthynas mwy neillduol â Methodistiaeth; megys "Cofnodau yr ymdriniaethau yn Nghyfarfodydd y Cymdeithasfaoedd Chwarterol. Dan olygiad Mr. Charles hefyd, y cyhoeddwyd am y waith gyntaf, yn 1801, "Rheolau Dysgybliaethol y Corph o Fethodistiaid yn Nghymru." Nid oedd angen ychwanegu y gair "*Calfinaidd*" at yr enw "*Methodistiaid*" y pryd hwnw; gan nad oedd y Methodistiaid Wesleyaidd, hyd yn hyn wedi ymsefydlu yn Nghymru, o leiaf, yn Ngwynedd. Tu ar adeg yma, teimlai Mr. Charles yn angenrheidiol iddo gyhoeddi yn Saes'neg, ei "*Vindication of the Welsh Methodists;*" a darfu i Mr. Jones o Ddinbych, gyhoeddi llyfr i'r un perwyl, yn Gymraeg, sef yr un a gyfansoddodd efe ar Undeb Eglwysig. Yr achlysur o hyn ydoedd, fod y Parch. T. E. Owen, periglor Llandyfrydog, Môn, wedi cyhoeddi dau draethawd, y naill yn yr iaith Saes'neg, dan yr enw, "*Hints to Heads of Families;*" a'r llall yn Gymraeg, dan yr enw, "*Cyngor difrif Periglor i'w Blwyfolion;*" yn ymosod yn y modd mwyaf dygasog ar y Methodistiaid. Darluniai eu pregethwyr fel "dosbarth rhyfygus o ddynion, sydd yn peri cyffro ac afreolaeth, dan rith lledaenu crefydd, yn dirmygu pob dysgyblaeth awdurdodedig, yn rhuthro i le gweinidog y plwyf, yn ymgynnull mewn lleoedd anmhriodol, ac ar amserau annghymwys, yn cablu urddas mewn geiriau bustlaidd yn erbyn llywodraethwyr a bugeiliaid yr Eglwys Wladol, ac yn erbyn Sefydliadau o brydferthwch, trefn, ac adeiladaeth, gan draethu nodiadau difriol ar ffurf o addoliad a gymeradwyir gan reswm, a Beibl."

Yr oedd attebion Mr. Charles, a Mr. Jones, yn llednais a boneddigaidd, eto yn rymus ac anwrthbrofadwy, ac yn llwyr ddymchwelyd cyhuddiadau baerllug y periglor. Gellir crybwyll hefyd, i'r bardd ffraeth-lym, Thomas Edwards, a gyfenwid "Twm o'r Nant," yr hwn a arferai wrando ar y Methodistiaid, ag oedd yn ewyllysiwr da iddynt, gyfansoddi a chyhoeddi cân i'r offeiriad erlidgar hwn, yr hon a genid yn y ffeiriau a'r marchnadoedd, er mawr ofid a chywilydd i'r gwrthwynebwr urddedig.

Gwnaeth Mr. Charles wasanaeth annrhaethol werthfawr i Fethodistiaeth, ie yn wir, i Gymru yn gyffredinol, trwy ei ymdrechion i sefydlu a chynal ysgolion dyddiol, ac yn enwedig yr Ysgolion Sabbathawl, ar hyd a lled y Dywysogaeth.

Mewn llythyr a ysgrifenid gan Mr. Charles ei hun at foneddiges haelionus yn Lloegr, efe a ddywaid fel y canlyn am gyflwr y wlad, a'r modd y cychwynwyd y symmudiad crybwylledig uchod, er chwanegu moddion addysg yn y Dywysogaeth:— "Wrth ymdaith, er's mwy na naw mlynedd yn ol, trwy amryw barthau o'r wlad, mi a welais fod ardaloedd helaeth yn mynydd-dir Gwynedd, wedi soddi i'r anwybodaeth dyfnaf o bethau Duw, nifer y bobl a fedrent ddarllen yn fychan iawn, ac yn gyffelyb o ran Beiblau yn eu tai. Mewn dwysder, dechreuais feddwl pa fodd y gellid symud aflwydd mor drwm; ac ni fedrais ddirnad am un ddyfais a allwn ei ddefnyddio ond hono, o roi ysgol-feistriaid ar waith, yn ol y cynnorthwyon a gawn, a'u danfon i'r lleoedd tywyll, i addysgu yn rhad bawb oll a ddeuent i'r lle, i ddarllen y Beibl yn eu hiaith eu hunain, ac i'w hyfforddi yn mhrif egwyddorion Cristionogaeth. Trwy gymhorth cyfeillion ewyllysgar, i'r rhai y dadguddiaswn fy meddyliau yn yr achos, gosodwyd hyn ar droed; ac y mae wedi llwyddo tu hwnt i'm dysgwyliad. Y galwad am ysgolfeistriaid a fawr amlhaodd; ac yr oedd cyfnewidiad amlwg yn egwyddorion a moesau y bobl y buasai yr ysgolion yn eu plith. Gosodais Ysgolion Sabbothol, ac ysgolion y nos, ar droed, er mwyn y rhai yr oedd eu gorchwylion a'u tlodi yn eu hattal rhag dyfod i ysgolion y dydd. Pa ymgais bynag o'r natur hwn a wnaethom, fe lwyddodd yn rhyfedd, nes llenwi y wlad âg ysgolion o ryw fath neu gilydd; ac yr oedd pawb yn cael eu dysgu ar unwaith. Yr oedd yr effeithiau daionus yn gyfattebol: difrifwch cyffredinol yn nghylch pethau tragywyddol a gymerodd le mewn aml ardal eang, llawer o gannoedd a gawsant eu deffroi i deimlo eu pechod, a'u heisiau o Grist, y rhai y mae genyf bob sail i goelio, eu bod heddyw yn ddilynwyr ffyddlawn iddo. Y mae yr ysgolion eto ar droed, a'r effeithiau yr un, mewn gradd mwy neu lai. Y mae nifer y dysgawdwyr hefyd yn cynnyddu, neu yn lleihau yn ol y moddion a fyddo genyf. Y cwbl o'r elw sydd yn dyfod i mi oddiwrth gapel, yr wyf yn gweinyddu ynddo, yr wyf yn ei roddi yn llwyr at eu cynnal hwynt; tra yr wyf fy hun yn cael fy nghynnal trwy ddiwydrwydd fy ngwraig. Yr wyf yn talu i bob ysgolfeistr ddeuddeg punt yn y flwyddyn. Y maent yn aros am haner blwyddyn, neu naw mis yn yr un man, ac yna yn cael eu symmud i barth arall. Yr ydym yn cael fod naw mis yn llawn ddigon i ddysgu i'n plant ddarllen y Beibl yn dda yn yr iaith Gymraeg. Yr wyf yn ymweled â'r ysgolion, ac yn eu holwyddori ar gyhoedd; ac yn cael y boddlonrwydd o weled agwedd gyffredinol y wlad wedi newid yn dra rhyfedd; gweled yr anialwch yn blodeuo fel y rhosyn, a'r sychdir yn ffrydiau dyfroedd. Trwy yr ysgolion, a phregethiad yr efengyl, y mae gwybodaeth grefyddol yn ymdaenu yn mhob man. O fy enaid! bendithia yr Arglwydd!"

Digitized by Google

Er na's mynem awgrymu mai Mr. Charles oedd cychwynydd cyntaf Ysgol Sabbothawl, gallwn ddywedyd yn ddi betrus, mai iddo ef yn arbenig y mae Cymru yn ddyledus am *ffurf* ei hysgolion Sabbothawl, fel y mae yn ysgol i feibion a merched, *o bob oedran, a sefyllfa,* ac nid yn unig i blant, a phlant y tlodion, fel y mae mewn gwledydd eraill. Ac efe hefyd a gyffrodd y wlad yn gyffredinol i'w chodi, a'i chynnal. Efe a gafodd lawer o wrthwynebiad ar y dechreu, hyd yn nod oddiwrth amryw o'i frodyr crefyddol, yn ei ymdrechiadau i gyfodi yr Ysgolion Sabbathawl: ar y cyntaf, nid oedd yr athrawon mewn llawer o honynt, yn neb amgen nag athrawon yr ysgolion dyddiol, y rhai oeddynt yn gyflogedig gan Mr. Charles; ond enillwyd amryw eraill yn raddol, i roddi eu cynnorthwy. Dadleuai llawer o swyddogion eglwysig, fod dysgu plant ar y Sabbath yn drosedd o'r pedwerydd gorchymyn, ac nad oedd yn gweddu i rai nad oeddynt yn aelodau eglwysig, adrodd yr Ysgrythyrau yn gyhoeddus: ond yr oedd Mr. Charles yn myned yn mlaen gyd a'i amcan yn addfwyn, eto yn ddianwadal, nes enill ei holl frodyr i gydweled, a chyd weithredu âg ef. Ei annerchiadau ar ran yr Ysgolion Sabbathawl yn y "*Drysorfa*," a'i sylwadau ef, a'r rhai blaenaf yn mysg y brodyr yn y Cymdeithasfaoedd, mewn annogaeth i'w cefnogi, a fuant o fawr les i hyrwyddo y gwaith; ac yn enwedig bu y cyfarfod a elwid yn "Sassiwn plant," yn dra effeithiol i godi yr Ysgolion i sylw a chymmeradwyaeth mawr. Byddai plant a phobl ieuainc yr amrywiol Ysgolion Sabbathawl yn yr ardaloedd cymmydogaethol, yn ymgyfarfod mewn lle canolog a chyfleus, a Mr. Charles yn dyfod yno i'w holwyddori ar destunau neillduol, yn athrawiaethol, ac ymarferol, yr hyn y pryd hyny, ydoedd yn beth newydd a dyeithr yn Nghymru. Yr oedd y fath ddifrifwch yn ymddangos yn yr holi, a'r atteb, fel y byddai yr edrychwyr, a'r gwrandawyr yn rhyfeddu; ac yn aml cyn diwedd y cyfarfod, byddai y lluaws yn tori allan i folianu Duw; ac weithiau yn parhau am oriau yn yr hwyl orfoleddus hono.

Fel yr oedd yr ysgolion dyddiol a Sabbathawl yn lluosogi darllenwyr gyda chyflymdra dirfawr yn mysg y genedl, cynnyddai y syched am lyfrau i'w darllen, yn enwedig yr Ysgrythyrau Sanctaidd, o'r rhai yr oedd prinder mawr yn y wlad; am hyny aeth Mr. Charles i Lundain, i ymofyn am foddion i'w diwallu; ac mewn cyfarfod o garedigion Cristionogol a gynnullwyd ganddo yno, y cychwynwyd yr ysgogiad at gael Cymdeithas Feiblaidd, nid yn unig i gyflenwi Cymru, ond holl gyfanneddle y ddaear â gair y bywyd; ac felly gellir dywedyd, mai sefydliad yr Ysgol Sabbathawl yn mysg Methodistiaid Cymru, a esgorodd ar y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor.

Y ffrwyth toreithiog a ddylynai weinyddiad addysg i'r plant yn yr Ysgolion Sabbathawl, a fu yn achlysur i gyfeirio sylw arweinwyr y Cyfundeb yn fwy neillduol at ddyledswydd Eglwys Crist i feithrin plant credinwyr fel aelodau o honi; a chyd farnwyd y dylai had yr eglwys, neu blant credinwyr, gael eu dwyn i fynu yn yr eglwys, a derbyn hyfforddiadau eglwysig. O'r blaen, nid oedd ryddid i neb i fod yn bresenol yn y cyfarfodydd eglwysig, ond y rhai y gwelid arwyddion eu bod wedi eu hargyhoeddi yn rymus, a'u dychwelyd at yr Arglwydd mewn ffydd ac edifeirwch; ac felly mewn oedran cymhwys, i adrodd eu profiadau crefyddol: a phan gedwid cyfarfod eglwysig mewn tŷ annedd, byddai raid i blant y ty hwnw fyned i rywle na's gallent glywed yr ymddiddanion yn y cyfarfod. Ond bellach, canfyddwyd os oedd gan blant yr eglwys hawl i fedydd, fod yr un hawl gan y plant bedyddiedig i gael eu magu yn yr eglwys; eu dwyn yno, i fod yn wrthddrychau addysg ac arolygaeth, tuag at eu parottoi a'u cymhwyso i gael eu derbyn at fwrdd yr Arglwydd, a mwynhau breintiau cyflawn aelodaeth eglwysig. Bu agor y cyfarfodydd eglwysig i'r plant, o fendith annrhaethol i'r Cyfundeb, ac yn foddion effeithiol cyflawniad yr addewid werthfawr hono;—"Plant dy weision a barhant; a'u had a sicrheir ger dy fron di;" canys erbyn hyn, y mae y nifer mwyaf o'r rhai sydd mewn cymmundeb gyd a'r Methodistiaid Calfinaidd, yn rhai a ddygwyd i fynu o'u mebyd yn y cyfarfodydd eglwysig.

Yn y flwyddyn 1790, ar y 10fed o Hydref, bu farw y Parch. Daniel Rowlands, yn 77ain mlwydd oed. Ei ddymuniad mynych oedd, na byddai yn hir yn glaf cyn marw; ac fe ganiattawyd ei ddymuniad iddo. Clafychodd ar ddydd Gwener; a'r Sadwrn canlynol, yr oedd ei enaid wedi myned at Dduw—ei Dad, a'i Gyfaill. Y dydd Sadwrn hwnw, yr oedd lluaws mawr o bobl, o amrywiol barthau y Dywysogaeth, wedi ymgasglu i Langeitho erbyn Sabbath y cymmundeb, gan ddysgwyl y buasai Rowlands yn alluog i gymeryd rhan yn y gweinyddiad fel arferol: ond, wedi dechreu yr addoliad yn y capel, wele gennadwri yn dyfod o dŷ yr hen efengylwr, yn hysbysu ei fod ef wedi huno yn yr Iesu; ac mor rymus y dylanwadai yr hysbysiad ar y gynnulleidfa, fel y bu raid tori y gwasanaeth i fynu.

Yn un o'i bregethau olaf, efe a ddefnyddiai yr ymadroddion canlynol;—"Nid ydwyf yn blino *ar* y gwaith; ond yr wyf yn blino *ynddo.* Y mae ynwyf ryw rag-deimlad y bydd fy Nhad nefol yn fuan yn fy ngollwng oddiwrth fy llafur, ac yn fy nwyn i'm gorphwysfa dragywyddol. Ond, yr wyf yn gobeithio y bydd iddo aros yn ei bresenoldeb grasol gyda chwi, ar ol i mi fyned ymaith."

Pan ymdaenodd y newydd am ei farwolaeth dros y wlad, yr oedd y Methodistiaid trwy Gymru oll, yn teimlo fel plant amddifaid, wedi colli eu harweinydd penaf ar y ddaear. Y mae William Williams, yn ei Farwnad iddo, yn dywedyd;—

"Nawr y penaf un ddihangodd,
Rowlands sy heddyw yn y nef,
Wedi derbyn coron auraidd,
Hyfryd ffrwyth ei lafur ef:
Talent *ddeg* a roddwyd iddo,
Fe'u marchnattodd hwynt yn iawn;
Ac o'r *deg* fe'u gwnaeth hwy'n *gannoedd,*
Cyn machludo ei haul brydnhawn.

Nid oes un o Siroedd Cymru,
Braidd un plwy' sy'n berchen cred,
Na bu Rowlands yn eu teithio,
Ar eu hyd, ac ar eu lled;
Dros fynyddau, drwy afonydd,
Ac aberoedd gwaethaf sydd,
O Dyddewi i Lanandras,
O Gaergybi i Gaerdydd."

Yr oedd Williams ei hun pan yn cyfansoddi ei Alareb ar ol ei gyfaill Rowlands, mewn nychdod corphorol, yn ymdeimlo yn ymyl angeu, a'r nefoedd; ac y mae y ddau benill olaf o'r Alareb, yn dangos fel yr oedd yn dysgwyl y naill a'r llall:—

Digitized by Google

"Mae fy amser i ar ddarfod,
Mae fy ngalwad bron ar ddod,
Rwyf mewn carchar gan yr angeu,
Fel yn llechu dan ei dro'd;
Ni chaf fyn'd i ma's o'i loches,
Yma fymryn bach na thraw;
Ond fy Jubil mi ddysgwyliaf,
Dyr fy nghadwyn maes o law.

Eto, er y llyffetheiriau,
Sydd yn rhwymo nghorph ynghyd,
Y mae'r nefoedd fawr yn agor,
Rhwymwyd y cymmylau 'i gyd;
Mae fy ysbryd yn cartrefu,
Gyd a'r dorf aneirif fawr,
O rai cyntaf-anedigion
Ag sydd yn y nef yn awr."

Ac yn mhen tri mis ar ol ymadawiad Rowlands o Langeitho, terfynodd gyrfa ddaearol Williams o Bant y celyn hefyd; canys efe a hunodd yn mynwes ei Anwylyd, Ionawr 11, 1791, yn y 74ain flwyddyn o'i oedran.

Y mae Mr. Charles yn gwneyd y Sylwadau canlynol am y ddau wr enwog uchod;—"Pregethau Mr. Daniel Rowlands, a Chaniadau Mr. William Williams, a wnaethant yr oes yr oeddynt yn byw ynddi yn fwy nodedig na nemawr o oesoedd a fu ar Gymru erioed. Y pedwar peth canlynol ydynt yn ymddangos yn nodedig yn Williams; grym, a helaethrwydd ei ddoniau naturiol, ei ddiwydrwydd mawr yn eu defnyddio, nos a dydd, y graddau helaeth iawn a fwynhaodd iddo ei hun o ddylanwadau a chynnorthwyon yr Ysbryd Glan yn ei waith, a'r fendith fawr oedd ar y bobl drwyddo."

Yr oedd y Parch. Howel Davies, o sir Benfro, wedi marw er y flwyddyn 1770; ac nid oedd bellach yn fyw, ond *un* o'r *pedwar* o weinidogion Eglwys Loegr a ddaethent allan ar y dechreu, i bregethu, a gweinyddu yr ordinhadau sacramentaidd mewn undeb â'r Methodistiaid; sef y Parch. Peter Williams; ac am rai blyneddoedd cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1796, ac efe yn 76 mlwydd oed, nid oedd ef mewn undeb â'r Methodistiaid.

Rhai o'i Sylwadau ar athrawiaeth y Drindod, a gyhoeddodd efe yn gyntaf yn nglŷn â'i argraphiad pedwar plyg o'r Beibl, yr hwn a elwir yn gyffredin, "Beibl Peter Williams," a barodd anfoddlonrwydd i'w frodyr. Daliai ef, nad oedd yr Hanfod Ddwyfol yn Drindod o angenrheidrwydd natur, nac yn Drindod o bersonau gwahaniaethol; eithr fod Duw yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glan, "yn ei ewyllys dragywyddol ei hun—am ei fod yn ewyllysio achub a sancteiddio, a bod y Tad a'r Ysbryd, yr un modd a'r Gair, yn cyfansoddi yr un Cyfryngwr; neu, fod Iesu Grist, fel y dywed yn ei argraphiad o'r llogell-Feibl, gyda chyfeiriadau John Canne—

"Yn Dad, yn Fab, yn Ysbryd Glan,
Yn Dduw, yn ddyn, yn ddiwahan."

Pan ei galwyd i gyfrif gan ei frodyr, am ei olygiadau dyeithriol hyn, efe a ddadleuai yn boethlyd dros ei farn; a gomeddai addaw bod yn ddystaw ar y pwnc rhagllaw. Ymdrechodd yr hybarch Daniel Rowlands, i gyfanu y rhwyg rhyngddo a'i frodyr, ond yn ofer; ac wedi marw Rowlands, mewn Cymdeithasfa, yn yr hon yr oedd ei fab Nathaniel yn llywyddu, penderfynwyd na's gellid golygu Peter Williams yn perthyn i'r frawdoliaeth Fethodistaidd mwyach. Am y gweddill o'i oes, pregethai Mr. Williams yn nghapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin—capel a adeiladasai efe ar ei draul ei hun, heb fod mewn cyssylltiad neillduol ag unrhyw enwad: ond wedi ei farwolaeth, prynodd y Methodistiaid y capel gan ei deulu.

Ar ol enwau Daniel Rowlands, Howel Davies, William Williams, a Peter Williams, nid oes un enw anrhydeddusach yn mysg yr Eglwyswyr a ymunasant â'r Methodistiaid, na'r eiddo y Parch. David Jones, o Langan. Efe a ddaeth i undeb â'r Methodistiaid tu a'r flwyddyn 1768, dros ddeng mlynedd ar hugain ar ol cychwyniad Methodistiaeth yn Nghymru, a phan yr oedd ef ei hun yn 33ain mlwydd oed: a pharhaodd mewn cyssylltiad â'r corph hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 1810, er ei fod trwy yr holl amser yn dal ei le yn yr Eglwys Sefydledig. Pregethai ar bob cyfle a gaffai, mewn lleoedd cyssegredig, ac annghyssegredig; ac ymwelai ar ei deithiau pregethwriaethol a phob rhan o Gymru. Yn ei farwnad i Daniel Rowlands, dywaid Bardd Pant y celyn, gan gyfarch y Parch. Nathaniel Rowlands,—

"Bydd yn dâd i'r Asosasiwn,
Ac os teimli'th fod yn wan,
Ti gai help gwir Efengylwr,
Dafydd onest o Langan,
Dawdd y cerryg â'i ireidd-dra,
A thrwy ei efengyl fwyn,
Wna i'r derw mwyaf caled,
Blygu'n ystwyth fel y brwyn."

Ac yn ei Farwnad, gan Thomas Williams, Bethesda, dywedir,—

"Jones fel angel yn Llanganna
Yn udganu'r udgorn mawr,
Nes ba'i'r dorf mewn twymn serchiadau,
Yn dyrchafu uwch y llawr."

Ymddengys fod Nathaniel Rowlands, mab yr hybarch Daniel, yn ysgolor gwŷch, a phregethwr galluog, fel y dywedai Williams o Bant y Celyn am dano, wrth ei gydmaru â'i Dâd;—

"Uwch mewn dysg, nid llai mewn doniau."

Ond, ni chanfuwyd mor enneiniad rhyfedd oedd ar bregethau ei dad, ar ei bregethau ef; ac ymddengys mai dyn uchel-frydig iawn ydoedd, a'i fod yn llywyddu y Gymdeithasfa ar ol marwolaeth ei dad, mewn ysbryd hynod o dra-arglwyddiaethol; a gwrthwynebai yn haerllug, bob cais am ordeinio gweinidogion i'r Cyfundeb. Ond cafodd ei ddiarddel o'r Gymdeithasfa am ddiotta, yn y flwyddyn 1807, yr hyn ydoedd bedair blynedd cyn yr ordeinio cyntaf yn mysg y Methodistiaid: eto parhaodd i wasanaethu yn yr Eglwys Sefydledig hyd ddiwedd ei oes.

Y mae yn gweddu i ni goffau am y Parch. David Griffith, periglor Nefern, yn swydd Benfro, yr hwn a dderbyniwyd i'r Gymdeithasfa ychydig flyneddoedd cyn marw y Parch. Daniel Rowlands, pan nad oedd ond gwr ieuanc; a dywedir fod yr hen Rowlands yn coleddu gobeithion uchel iawn am ei ragoriaeth, a'i ddefnyddioldeb gweinidogaethol: ac yn wir, fe drodd Griffiths allan yn bregethwr galluog ac effeithiol; ac enillodd gymeradwyaeth a defnyddioldeb mawr yn y Corph yn fuan.

Yn y flwyddyn 1794, cawn fod John Elias, a Richard Lloyd, yn dechreu pregethu; y ddau hyn

Digitized by Google

am y rhan fwyaf o'u hoes, a berthynent i Gyfarfod Misol Môn, ac yr oeddynt yn gyfeillion hynod o serchog. Yn 1796, dechreuodd Michael Roberts bregethu; a'r flwyddyn ganlynol, dechreuodd John Evans o'r New Inn. Yn 1802, dechreuodd Ebenezer Richards; a'i frawd, Thomas Richards, yn 1803. Yr oedd yr holl wŷr hyn yn enwogion y pwlpud yn mysg y Methodistiaid; a'u gweinidogaeth effeithiol a fendithiwyd mewn modd neillduol, er llwyddiant ac anrhydedd y Cyfundeb, ac yn ddïau er dychweliad llawer o bechaduriaid at Dduw.

Hyd yn hyn yr oedd y corph o Fethodistiaid yn ymddibynu am y gweinyddiad o'r sacramentau ar yr ychydig weinidogion o Eglwys Loegr oeddynt yn arfer llafurio yn eu mysg. Ond yr oedd y cynnulleidfaoedd a'r aelodau wedi lluosogi yn ddirfawr erbyn dechreu y ganrif bresenol; a theimlid fod nifer y clerigwyr a bregethent, ac a weinyddent yr ordinhadau arwyddoccaol yn y Corph, yn llawer rhy fychan i gyfarfod ag angenrheidiau yr eglwysi. Mynych y gorfodid rhïeni o Fethodistiaid, i gymeryd eu plant at offeiriaid y plwyf i'w bedyddio, yr hwn fe ddichon a fyddai yn wr anfucheddol, neu a fyddai yn dra erlidgar o'r Methodistiaid; neu, at weinidog i'r Annibynwyr, neu y Bedyddwyr, os ceid un yn agos; yr hyn mewn amser a barodd anniddigrwydd mawr yn mhlith blaenoriaid ac aelodau yr eglwysi; fel yr ydoedd y dymuniad yn cryfhau yn gyflym am ddiwygiad yn y peth hwn. Yr ydoedd lluaws o bregethwyr galluog a chymeradwy erbyn hyn, yn Neheudir a Gogledd Cymru, y rhai a roddid i bregethu yn oedfaon mwyaf cyhoeddus y Gymdeithasfa; ac edrychid arnynt gan yr eglwysi a'r wlad, "yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd;" ac er hyny, ni feiddient weinyddu yr ordinhadau o fedydd, a swper yr Arglwydd, am nad oeddynt wedi derbyn urddau esgobyddol. Aethai mwy na deng mlynedd a thriugain drosodd, er ffurfiad y Cyfundeb, a'r gwŷr eglwysig yn blaenori o'i fewn; ac yr oedd y clerigwyr oeddynt mewn cyssylltiad ag ef yn dysgwyl y gallasid ei gadw fel math o attodiad at Eglwys Loegr, er fod uchafiaid yr Eglwys yn Nghymru yn hollol wrthwynebol iddo yn wastadol; ac wedi myned yn fwy caeth yn ddiweddar, ac yn gorchymyn unffurfiaeth manylach oddiwrth y rhai oeddynt yn ddarostyngedig iddynt. Dros amser maith, parhaodd y clerigwyr i ddadleu yn gryf yn erbyn y cynnygiad i ordeinio pregethwyr a gyfodasid yn y Cyfundeb; yn enwedig yn y Deheubarth, lle yr oedd deg o offeiriaid yn glynu wrth y Gymdeithasfa, ac yn eu mysg, yr hybarch D. Jones, o Langan. Yr oedd Mr. Charles hefyd yn y Gogledd, yn hwyrfrydig i newid yr hen drefn, am ei fod yn ofni na allasid dwyn y cyfnewidiad oddiamgylch heb i ganlyniadau niweidiol gymeryd lle. Y gwŷr a safasant yn fwyaf gwrol yn y Cymdeithasfaoedd dros y cyfnewidiad, oedd Mr. Ebenezer Morris, yn y Deheudir, a Mri. Elias o Fôn, a Jones o Ddinbych, yn y Gogledd; ac yr oedd corph y frawdoliaeth yn eu pleidio.

Wrth ysgrifenu ar y testun mewn dadl, cawn Mr. Thomas Jones yn gwneyd y sylwadau canlynol;—"Yr hyn sydd yn taraw fy meddwl i gyda grym mawr, yw cynnwysiad yr ystyriaethau canlynol:—1. Y mae yr Ysgrythyrau yn ymddangos i mi mor eglur a phendant yn gorchymyn yr arferiad o'r ddau sacrament yn Eglwys Crist, ac hefyd yn amlwg o blaid y gweinyddiad o Swper yr Arglwydd yn fwy mynych, os nad yn fwy rheolaidd o ran amser, nag y mae yn cael ei arfer yn ein plith ni. 2. Nid ydwyf yn gallu galw i gof weled o honof eglwys weledig yn cael ei darlunio gan neb rhyw ysgrifenydd, ond fel cynnulleidfa o bobl a chanddynt air Duw yn cael ei gywir bregethu, a'r sacramentau yn cael eu dyladwy weinyddu yn eu plith. 3. Yr wyf yn sylwi nad ydyw bedydd, mewn dull cyffredin o ddywedyd, ddim yn cael ei weinyddu yn ein mysg. 4. Bod mewn amryw o'n cymdeithasau, lawer o bobl yn anewyllysgar iawn i gael bedyddio eu plant yn Eglwys Loegr, a chan ei gweinidogion hi; ac ymddengys fod yr anewyllysgarwch hwn, yn gystal a'r nifer o bobl yn tueddu ato, ar gynnydd parhaus. Ac am gymmuno yn Eglwys Loegr, nid oes ond ychydig iawn o'n pobl yn tueddu at hyny. 5. Bod, yn ol pob argoelion, lawer o'n cyd aelodau yn ddïau yn cael eu dolurio yn eu cydwybodau wrth gael eu gwasgu i fedyddio eu plant yn Eglwys Loegr, gan ei gweinidogion anneffroedig, &c. 6. Bod amryw yn ceisio yr ordinhad gan weinidogion o gorph arall, er gyda meddwl anfoddlawn, o herwydd mwy nag un ystyriaeth. 7. Bod cymhell neb o'n haelodau i geisio yr un o'r sacramentau oddiallan i gylch ein corph ein hunain yn beth na ddylem fod yn euog o hono; gan ei fod yn groes i air Duw, ac i arferiad cyffredinol eglwysi Duw yn mhob oes a gwlad."

Ond gwnaeth Mr. Jones beth mwy na siarad, ac nac ysgrifenu, tuag at hyrwyddo yn mlaen y neillduad. A chaiff ef adrodd yr hanes ei hunan:—"Yr oedd rhai Eglwyswyr, oedd yn dadau enwog yn y corph, yn petruso, ac yn methu cydsynio yn rhwydd i ddwyn yn mlaen y cyfnewidiad a farnai eraill yn rheidiol; sef, neillduo rhyw nifer o'r pregethwyr eraill i gynnorthwyo yr Eglwyswyr, a chyflawni angen yr eglwysi, o ran gweinyddiad y ddwy ordinhad. Yn y cyfwng hwn, dygwyddodd yn y modd canlynol, i mi gael fy nhynu i fyned o flaen eraill o'm brodyr, oedd o'r un llais a thueddiad yn yr achos. Wedi i blentyn gael ei eni i un o'n cyfeillion, efe a geisiodd help rhai brodyr i ddeisyf arnaf fi, a olygent fel gweinidog y gynnulleidfa (yn Ninbych), ymroddi i fedyddio y plentyn. Efe a chwanegodd amryw ddadleuon a rhesymau o blaid ei gais, ac yn erbyn myned a'i faban i un gynnulleidfa arall i'w fedyddio. Minnau, wedi dwys ystyried yr achos, a cheisio gofyn cyfarwyddyd gan yr Arglwydd, a benderfynais, ac a addewais y gwnawn weinyddu yr ordinhad, os byddai i gorph yr eglwys, neu y gynnulleidfa, fy ngalw i hyny, ar ol cyd-erfyn ar yr Arglwydd am iddo eu cyfarwyddo a'u harwain yn ol ei air a'i ewyllys. Wedi iddynt gyd gyfarfod hebof fi, ac ystyried yr achos, gyd ag ymbiliau ar Dduw, hwy a hysbysasant i mi, eu bod oll, hyd at un aelod, oedd mewn gradd o ofn a phetrusder, yn galw arnaf i wneuthur felly. Yr oedd yr achos erbyn hyn wedi bod gyda dwysder ar fy meddyliau ddydd a nos; a thrwy ymarfer â gair Duw a gweddi, yr oeddwn yn ymofyn am addysg ac arweiniad. Wedi i gyfaill neu ddau, oedd yn lled agos attom, fy ngwrthannog gyda math o ddwysder, os nad poethder hefyd, mi a aethum yn drallodus fy helynt; eto, wrth ystyried eu dadleuon, gan daer ymbil ger bron yr Arglwydd, yr oedd y clorian yn troi yr un ffordd ag o'r blaen. Yr oeddwn yn deall fy mod yn groes, os nid i ordeiniad a gorchymyn, eto i arferiad, y corph o bobl yr ymunaswn o galon â hwynt; ac yr oedd yn ddrwg genyf, ac y mae yn ddrwg genyf hyd heddyw, dristau neb o'm brodyr. Ië, yr oedd yn

Digitized by Google

dra gofidus genyf feddwl am dristau un brawd, a thad yn enwedigol; yr hwn yr oedd, ac sydd a'i goffadwriaeth heddyw, yn fwy parchus yn fy meddwl nag un gwr y bu i mi gymdeithas neillduol âg ef ar wyneb y ddaear, (y Parch. T. Charles). Ond trwy y pethau hyn eu gyd, myned yn mlaen a wnaethum, neu a fu raid i mi, gan adael y canlyniad yn llaw yr Hollwybodol, a'r Hollalluog Dduw. Yr oeddwn yn gorfod meddwl, os oedd efe wedi fy ngalw i bregethu ei air, yr hyn ni's medrwn ei lwyr amheu, yna, fod ei alwad hwnw, yn nghyd a'r galwad oedd arnaf gan gynnulleidfa Gristionogol, ynghyd ag amgylchiadau eraill, yn ddigon o alwad arnaf i weini yr ordinhad o fedydd. Felly, gyda chryndod, a rhyw fesur o ymdaweliad hefyd yn yr Arglwydd, fel yr wyf yn meddwl, mi a anturiais at y gwaith. Yn lled fuan ar ol hyn, darfu i nifer o'm brodyr, mewn Cyfarfod Misol, adael, neu oddef i'r gynnulleidfa, ac i minnau, gael canlyn rhyddid ein cydwybodau mewn golygiad ar yr ordinhad arall, Swper yr Arglwydd. Yn ganlynol, ni a dderbyniasom y fraint hono, ac a gawsom y mwynhad o honi gyda gradd o ofn duwiol, llawenydd, a diolchgarwch."

Yr ysgogiad yma o eiddo Mr. Jones o Ddinbych, a fu mewn effaith yn benderfyniad ar yr achos hwn. Yr oedd efe yn wr dysgedig, dawnus, a dylanwadol; ac yr oedd yr eglwys neillduol yr oedd efe yn perthyn iddi, yn nghyd a'i Gyfarfod Misol, fel y gwelir, yn ei gymhell i weini y sacramentau, fel nad ellid ei attal, na gweinyddu cerydd arno. Yn y Deheudir, yr oedd Mr. John Williams Meidrym, pregethwr derbyniol, a dyn diargyhoedd a diniweid, wedi ymddwyn yn lled debyg i'r hyn a wnaed gan Mr. Jones yn Ngwynedd; perswadiwyd ef mewn amgylchiad neillduol i fedyddio plentyn; ond trwy hyny tynodd helynt flin yn ei ben. Yn y Gymdeithasfa nesaf, ymosodwyd yn erwin arno gan yr offeiriaid; y rhai a haerent ei fod wedi cyflawni pechod rhyfygus, trwy feiddio gweinyddu yr ordinhad o fedydd, ac yntau yn wr di urddau; ac fe ddywedir iddynt lwyddo i'w roddi dan attalfa i bregethu dros ryw dymhor. Ond ni's gellid gwneyd â Mr. Thomas Jones, fel y gwnaed â John Williams; ac y mae yn ddiamheuol pe na's daethai y cynllun ordeinio oddiwrth Mr. Charles, y pryd, a'r modd y daeth, y buasai amryw bregethwyr parchus eraill yn dilyn ei siampl, ar alwad y cynnulleidfaoedd. Cawn Mr. John Elias, mewn llythyr at gyfaill yn Liverpool, yn y flwyddyn 1810, yn dywedyd, "Ysgrifenwch i'r Bala, i geisio gan Mr. Charles, neu Mr. Llwyd, ddyfod attoch i weini yr ordinhadau; ac os na ddeuant, nid wyf yn meddwl y byddai yn bechod mawr i chwi geisio gan Mr. Jones, o Ddinbych, ddyfod attoch." Ond, tua'r pryd hwn, fe dueddwyd meddwl Mr. Charles, yr hwn oedd yn blaenori y corph yn Ngwynedd, a chanddo hefyd ddylanwad mawr ar Fethodistiaid y Deheubarth, ar gyfrif ei dduwiolfrydigrwydd, a'i ddefnyddioldeb rhagorol,—i gydsynio a dymuniad ei frodyr, ac i'w harwain yn symmudiad newydd a phwysig yr ordeiniad; ac felly y dywaid Mr. Jones yn mhellach;—"Erbyn y Cyfarfod Chwarterol a ganlynodd yn y Bala, Mehefin, 1810, yr oedd yr Arglwydd wedi gogwyddo ei was, yr hwn yr oedd gan y corph oll, y parch mwyaf a theilyngaf iddo, a'r ofn mwyaf rhag ei ofidio; ac er mawr lawenydd i'r brodyr oedd yno yn gynnulledig, efe a ymroddodd yn ewyllysgar a llawen i ddwyn yr amcan yn mlaen mewn modd araf a graddol, fel yr oedd pawb o'r brodyr yn cyd farnu ei fod yn fwyaf cymhwys."

Ysgrifenwyd llythyr oddiwrth Gymdeithasfa y Gogledd, yn y Bala, at Gymdeithasfa y Deheudir, yr hon oedd i ymgynnull yn fuan yn Llangeitho, yn hysbysu y penderfyniad y daethai y brodyr yn Ngwynedd iddo, gyda dymuniad ar i frodyr y Deheudir ddyfod i gyd-weled, a chyd-weithredu â hwynt ar yr achos. Yr oedd y clerigwyr yn dangos eu gwrthwynebiad arferol yn Nghymdeithasfa Llangeitho, i'r neillduad cynnygiedig; ond, yr oedd annerchiad Mr. Ebenezer Morris, ar destun y ddadl, yn effeithio yn ddwys ar y frawdoliaeth yn gyffredinol.—"Boddlawn a thawel a fyddwn i," eb efe, "heb y neillduad y sonir am dano, pe gallwn gredu mai dieuog a fyddwn yn y farn fawr, o fod yn fyddar i gwyn yr eglwysi, ac esgeulus o'u hangen; ni soniwn air am y peth byth mwy. Ond y mae dychryn Duw arnaf, yn peri na byddwyf ddystaw neu ddïofal, rhag y gofyn Duw yr esgeulusdra ar fy llaw i a fy mrodyr." Gohiriwyd yr achos i sylw pellach yn y Gymdeithasfa Chwarterol ganlynol, yr hon a gynhelid yn Abertawe. Yr oedd yr enwog Jones o Langan wedi marw cyn y Gymdeithasfa hon; ond yr oedd offeiriaid eraill ynddi, yn dadleu yn gyndyn yn erbyn dwyn y neillduad yn mlaen. Er mantais fawr i amcan y neillduad, daeth yr enwog Rowland Hill, o Lundain, i Gymdeithasfa Abertawe, ac a ddadleuodd yn effeithiol drosto. Cyfrifid Mr. Hill, a chyfrifai yntau ei hun, yn Fethodist Calfinaidd Seis'nig: ac wedi iddo glywed yn Nghaerodor, lle yr ydoedd ar ymweliad y pryd hwnw, fod pwnc yr ordeinio i gael ei drafod yn Abertawe, tueddwyd ei feddwl i ddyfod i'r Gymdeithasfa. Yn ei annerchiad yno, dywedodd fod ei ddygiad i fynu yn Eglwys Loegr yn ei wneyd yn ffafrol iddi; a'i fod yn caru y gweinidogion oedd ynddi yn pregethu yr efengyl: ond, yn gymaint a bod y rhan fwyaf o lawer o'i gweinidogion yn gwadu yr athrawiaeth y tyngasent grediniaeth iddi, fod duwiolion o orfod yn cilio oddiwrthi, ac na's gallai plant yr Arglwydd fyw ar ûs. Cyfeiriai at lafur Mr. Whitfield, a sylwai ei fod wedi colli yn fawr o eisiau gwneyd yn ei oes, yr hyn yr oedd y Methodistiaid Cymreig yn awr yn ei geisio;—pe y gwnaethai felly, y buasai yn debygol yr holl Fethodistiaid Calfinaidd Seis'nig trwy y deyrnas, yn un corph lluosog: ond yn lle hyny, eu bod wedi eu rhanu yn amryw bleidiau, a chynnulleidfaoedd annghyssylltiol; ac mai felly y byddai y corph o Fethodistiaid Cymreig yn sicr o fyned, os na chaent yr hyn yr oeddynt yn awr yn ei ofyn. Un o'r offeiriaid, wrth siarad yn erbyn y cynnygiad, yn ei araeth, yr hon nid oedd Mr. Hill yn ei deall, am mai Cymraeg ydoedd, a arferai y gair Saes'neg *valid*. Deallodd Mr. Hill wrth y gair hwnw, mai ammeu cyfreithlondeb sacrament a weinyddid gan bregethwr heb dderbyn urddau esgobol, yr oedd y gwr parchedig; ac efe a gyfododd drachefn, ac a draethodd mewn modd bywiog ac eglur ar natur sacramentau y Testament Newydd, gan ddangos yn eglur, fod pob hawl i'w gweinyddu, gan y rhai oll a dderbynient weinidogaeth gan Grist, ac a elwid gan yr eglwysi; ac fe'n hysbysir, fod ei annerchiadau grymus wedi rhoddi taw ar y gwrthwynebwyr, fel nad arferwyd yr hen wrth-resymau byth ar ol hyny. Yn y diwedd, penderfynodd y Gymdeithasfa gydsynio â'r hyn y cyttunwyd arno yn y Bala: felly gan hyny, yn y flwyddyn ganlynol (1811), yn Nghym-

Digitized by Google

deithasfa y Bala, yr hon a gynhelid yn mis Mehefin, neillduwyd y pregethwyr canlynol, y rhai oeddynt wedi eu dewis gan eu hamrywiol Gyfarfodydd Misol; —John Elias, a Richard Lloyd, o Fôn; Evan Richardson, o swydd Gaer yn arfon; Thomas Jones, a John Davies, o swydd Ddinbych; John Roberts, o swydd Feirionydd; a William Jones, ac Evan Griffiths, o swydd Drefaldwyn. A chyda hwynt hefyd, caniattawyd i Mr. Robert Ellis, o'r Wyddgrug, swydd Fflint, yr hwn a neillduasid gan Gyfundeb yr Arglwyddes Huntington, i weinyddu yr ordinhadau sacramentaidd yn y Cyfundeb hwn. Dygid gwasanaeth yr ordeiniad yn mlaen gan Mr. Charles, yn cael ei gynnorthwyo gan y ddau henuriad parchus, John Evans, o'r Bala; a Robert Jones, o Roslan. Ac yn Nghymdeithasfa Llandeilo Fawr, yn mis Awst, yn yr un flwyddyn, neillduwyd y pregethwyr a ddewisasid i'r un perwyl gan Gyfarfodydd Misol y Deheudir; sef, Ebenezer Morris, John Thomas, ac Ebenezer Richards, o swydd Aberteifi; Evan Harries, o swydd Benfro; John Evans, David Rees, Arthur Evans, a David Charles, o swydd Gaerfyrddin; Hopkin Bevan, o swydd Forganwg; David Parry, ac Evan Evans, o swydd Frycheiniog; a James James, a John Rees, o swydd Fynwy. Yn yr ordeiniad hwn, yr oedd Mr. Charles yn cael ei gynnorthwyo gan ddau weinidog urddedig yn Eglwys Loegr—y Parch. John Williams, o Ledrod; a'r Parch. John Williams o Bant y celyn; mab i beraidd Ganiedydd Cymru.

Trwy y neillduadau hyn, yr oedd Methodistiaeth Cymru yn cael ei gosod, o ran ei gweinidogaeth, a'i llywyddiaeth, yn annibynol ar yr Eglwys Sefydledig; a'r canlyniad o hyn a fu, i'r offeiriaid canlynol yn y Deheubarth, gilio yn llwyr oddiwrth y Methodistiaid:—Y Parchedigion D. Griffiths, o Nefern; W. Jones, o Landudoch; W. Davies, o Lanfyrnach; W. Davies, o Gynfil; W. Hughes, o Sychbant; Hezeciah Jones, a D. Jones, ei frawd. Ond y ddau barchedig John Williams, y rhai, fel y crybwyllwyd, a gymerasant ran yn ngwasanaeth y neillduad yn Llandeilo, a'r Parch. H. Howells, Trehill, Morganwg, a lynasant wrth y Cyfundeb hyd ddydd eu marwolaeth; a'r un modd y gwnaeth y Parch. Simon Lloyd, o'r Bala; a William Lloyd, o Gaer yn arfon, y rhai yn nghyda Mr. Charles, oeddynt yr unig wŷr eglwysig a berthynent i'r Methodistiaid yn y Gogledd.

Am yr ordeiniadau dilynol yn y Cyfundeb, nid oes un angen am i ni ymhelaethu; cychwyniad yr ordeinio oedd yr ysgogiad mwyaf pwysig; ac am hyny yr oedd yn angenrheidiol cyfeirio gyda mesur o fanylrwydd at yr amgylchiadau dechreuol.

Yn y flwyddyn 1823, y cyhoeddwyd gyntaf, "Hanes, Cyfansoddiad, Rheolau Dysgyblaethol, yn nghyd â Chyffes Ffydd, y Corph o Fethodistiaid Calfinaidd yn Nghymru; a gyttunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth, a'r Bala," yn y flwyddyn hono. Yr oedd mewn golwg ar y pryd, gael Gweithred Fynegiadol o Athrawiaeth a Rheolau y Cyfundeb, wedi ei chofrestru yn y Cangell-lys, er mwyn sicrhau yn gyfreithiol, yr addoldai yn eiddo y Cyfundeb; a thuag at hyny, yr oedd eisiau cyttuno ar *Gyffes Ffydd*, a'i chyhoeddi, at yr hon y cyfeirid yn y cyfryw Weithred Gyfansoddiadol. Y Weithred hono a gofrestrwyd yn y flwyddyn 1826. Y mae enw y Cyfundeb yn awgrymu ar unwaith, mai y wedd Galfinaidd ar athrawiaeth yr efengyl, a geir yn y Gyffes hon; ond gellir chwanegu, mai yr un yw Calfiniaeth y Gyffes Ffydd hon, a'r eiddo Cyffes Ffydd Cymmanfa Westminster—yr un a Chalfiniaeth y Dr. Owen, a'i frodyr annghydffurfiol; ac ar y cyfan, â Chalfiniaeth Erthyglau Eglwys Loegr.

Parodd dyfodiad y Wesleyaid i Gymru, i'r Methodistiaid, a chyda hwy, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, ymdrechu yn egniol, o'r pulpud a thrwy y wasg, dros yr athrawiaeth Galfinaidd; ond, mewn blynyddoedd diweddarach, achlysurwyd cryn ddadl rhwng rhai o'r Methodistiaid â rhai o'r Annibynwyr yn nghylch yr athrawiaeth hon. Y mae y Dr. Edwards, o'r Bala, yn gwneyd y Sylwadau canlynol ar hyn; —"Cyn marwolaeth Jones o Ddinbych, yr oedd gwrth-darawiad yn erbyn Uwch-Galfiniaeth wedi dechreu yn mysg yr Annghydffurfwyr, yr hyn a aeth ar gynnydd yn raddol, nes peri cyfnewidiad cyffredinol yn eu barn. Barnodd llawer o'r Methodistiaid, fod eu brodyr Ymneillduol, wrth ymwrthod ag Uwch-Galfiniaeth, yn nesau gormod at Arminiaeth; a pharodd hyn wrth-darawiad yn rhai o honynt hwythau, a gyrodd hwynt i adael hen safle y Methodistiaid, ac i ochri at syniadau Uwch-Galfinaidd. Tuedd y dadleuon o'r ddwy ochr, oedd fel y canlyn: —Yr oedd un blaid yn cyfeirio ei sylw yn fwy neillduol at y gofyniad, Pa ham y mae rhai yn golledig? Ac wrth geisio atteb y gofyniad hwn, yr oeddynt yn dyfod i'r penderfyniad, fod yr achos o hyny ynddynt hwy eu hunain; ac yr oeddynt o ganlyniad yn teimlo na fyddai neb yn golledig yn y diwedd ond y rhai a wrthodent yr iachawdwriaeth oedd wedi ei darparu iddynt hwy yr un modd a'r rhai a gedwir. Wrth gymhwyso y gosodiad hwn, aeth amryw yn raddol mor bell a dadleu nad yw Duw yn gwneuthur mwy i'r rhai a gedwir nag i'r rhai a fyddant yn dragywyddol golledig—fod yr Iawn yn dwyn yr un berthynas â phawb—a bod gallu, neu ras digonol er iachawdwriaeth, yn cael ei roddi i bawb yn ddi wahaniaeth. Ond arhosodd eraill yn y pwnc cyntaf; sef, cyffredinolrwydd yr Iawn, heb ymwrthod a phen arglwyddiaeth Duw yn y cymhwysiad o'r iachawdwriaeth. Yr oedd y blaid arall yn dechreu gyd a'r gofyniad, Pa ham y mae rhai yn gadwedig? Wrth atteb y gofyniad hwn, yr oeddynt yn gweled fod yr achos yn Nuw; ac mai efe gan hyny sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth. Ond, wrth gario allan yr egwyddor hon i'w chanlyniadau, aeth rhai mor bell a rhoddi lle i gasglu eu bod yn gwadu fod yr Iawn yn ddigonol i bawb, neu, fod Duw mewn gwirionedd yn galw ar bawb i gredu; ac er mwyn dal yn eglur fod troedigaeth pechadur o Dduw yn unig, aethant i wadu y gallu naturiol sydd mewn dyn fel creadur rhesymol. Nid aeth ond ychydig iawn o'r Methodistiaid i'r eithafion hyn; o leiaf, nid aethant felly mewn proffes. Y cwbl a ellir ei ddywedyd ydyw, fod llawer o honynt am ryw gymaint o amser, wedi dangos gogwydd attynt. Ond daliodd y Cyfundeb fel y cyfryw, wrth yr hen gred—fod yr Iawn yn ddigonol i bawb, fod gallu naturiol gan bawb i edifarhau a chredu yr efengyl, fod Duw yn galw ar bawb yn ddi wahaniaeth, ac eto fod perthynas neillduol rhwng yr oll o drefn yr iachawdwriaeth â'r rhai a gedwir. Er cydnabod mai fel Penllywydd yr oedd Duw yn gofyn Iawn, yr oeddynt hefyd yn barnu fod ei lywodraeth ef yn seiliedig ar gyfiawnder tragywyddol; ac er cydnabod fod yr iachawdwriaeth yn addas i bawb, yr oeddynt yn barnu hefyd mai Duw, yn ei ras penarglwyddiaethol, sydd yn dwyn dyn i wneyd derbyniad o honi."

Digitized by Google

Un o'r symmudiadau pwysicaf mewn cyssylltiad a'r Cyfundeb, sydd yn hawlio ein sylw yn nesaf, ydyw sefydliad yr athrofeydd, er parottoi gwŷr ieuainc i'r weinidogaeth. Yr oedd teimlad cryfhaol o ddymuniad am sefydliad o'r fath, yn ffynu yn mysg Methodistiaid y Dywysogaeth, lawer o flynedd-oedd cyn iddynt ddyfod i benderfyniad gweithredol ar y peth. Wedi iddynt ddechreu ordeinio Gweinidogion o'u plith eu hunain, teimlent yr angen am well addysg er cymhwyso rhai i'r weinidogaeth, gan na's gellid dysgwyl am weinidogion wedi eu dwyn i fynu yn mhrifysgolion yr Eglwys Sefydledig fel o'r blaen: ond, yr oedd llawer o anhawsderau ar ffordd cael sefydliad o'r fath at wasanaeth neillduol y Cyfundeb. Y mae Awdwr parchus "*Methodistiaeth Cymru*," yn darlunio y ddau deimlad oedd yn y corph ar hyn, fel y canlyn;—"Nid oedd y mwyafrif o'r brodyr, ïe, o'r brodyr yn y weinidogaeth, ddim eto wedi gosod yr angenrheidrwydd am ddysgeidiaeth at eu calon. Yr oedd y difatterwch hwn yn gyffredinol. Ychydig oedd y rhai a allent werthfawrogi dysgeidiaeth, gan na chawsai ond ychydig nifer brofiad o honi. Ië, yr oedd llaweroedd yn ei dïystyru; a mwy fyth yn edrych arni yn afreidiol. Dywedent fod y pregethwyr di ddysg yn pregethu yn well na'r rhaï dysgedig: cyfeirient hefyd yn wastad at yr apostolion, gan ddweyd mai gwŷr anllythyrenog oeddynt hwy, a bod yr Arglwydd yn hytrach yn hoffi defnyddio offerynau o'r fath, modd y byddai godidowgrwydd y gallu yn fwy amlwg o Dduw. Barnent mai po mwyaf dysyml y dibynent ar Ysbryd yr Arglwydd, a pho leiaf ar addurniadau dynol, mwyaf oll a dderbynid o bresenoldeb Duw, a mwyaf oll a fyddai y llwyddiant. Cyfeirient yn hyderus at Enwadau o Gristionogion, yn mhliti y rhai yr oedd cyflawnder o ddysgeidiaeth, ond ychydig o wir grefydd, fel cadarnhad diymwad o'r synied, fod llawer o ddysg yn gyru dynion yn ynfyd. Yr oedd y nifer a goleddent y golygiadau hyn yn mysg y Methodistiaid, yn llawer lluosocach na'r rhai a goleddent y rhai gwrthwyneb, fel mai nid peth hawdd oedd cael darpariaeth gogyfer ag amddifadrwydd y Cyfundeb o foddion dysgeidiaeth. Ychydig o ddysgeidiaeth hefyd oedd yn mysg y genedl yn gyffredinol. Yr oedd prinder mawr o ysgolion. Nid oedd rhïeni, gan amlaf, yn gweled ond ychydig o werth mewn dysgeidiaeth; ac wrth gwrs, ychydig a gyfranent tuag at ei rhoddi i'w plant. Yr oedd dylanwad y synied hwn yr un mor nerthol, os nid mwy, yn mysg y crefyddwyr, yn enwedigol gan yr haerid fod yr Ysgrythyrau, yn gystal a'r ffeithiau, yn gosod y rhagoroldeb yn hytrach ar 'ffol-bethau y byd, fel y gwaradwyddid y doethion.' Ar y llaw arall, yr oedd amryw yn mysg y rhai mwyaf pwyllog ac ystyriol yn y Corph, yn rhagweled yr angenrheidrwydd o ysgogi yn yr achos, ac o ddefnyddio rhyw foddion i helaethu gwybodaeth gyffredinol y pregethwyr. Yr oedd aml un o'r pregethwyr eisoes, wedi ymwthio, trwy eu llafur a'u hymdrech eu hunain, yn lled ddwfn i drysorau gwybodaeth ddynol; ac fe ddaeth yn raddol i'r golwg, nad oedd hyny o ddysgeidiaeth a ennillasent yn effeithio yn niweidiol ar eu gweinidogaeth, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb; gwelid eu bod yn rhagori mewn gwirionedd ar y rhai llai eu dysg na hwy, o ran dysgleirdeb eu gweinidogaeth, a helaethrwydd eu defnyddioldeb. Yr oedd y dosbarth yma yn lluosogi hefyd. Fel yr oedd y gwrandawyr yn amlhau, ac yn eu mysg amryw wedi cael mwy o fanteision nag eraill, ehangach eu gwybodaeth, a choethusach eu teimladau, yr oedd y synied yn raddol yn ennill tir, fod yn rhaid i'r rhai a gyfrifid yn athrawon crefyddol y genedl, fod yn cyfatteb i'w lle cyhoeddus, os dysgwylid i'w dylanwad fod yn rymus a pharhaus. Fel hyn yn ddystaw, ond yn effeithiol, yr oedd gwrthweithiad yn cerdded trwy y Cyfundeb, i'r hen ddifaterwch am ddysg, ac i'r hen ragfarnau yn ei erbyn. Dechreuodd rhai gwŷr o ddylanwad siarad yn y Cymdeithasfaoedd am yr angenrheidrwydd o gael athrofa i'n pregethwyr ieuainc; a gofyn a oedd dim modd ysgogi tuag at ei chyrhaedd. Yr oedd lluaws o bregethwyr ieuainc yn teimlo eu colled o ddiffyg rhyw gymaint o ddysgeidiaeth, ac yn gwneyd eu goreu tuag at gael hyny; a chynnorthwyid ambell un, gan gyfeillion galluog a charedig; ac eraill a wnaent aberth mawr o hunan ymwadiad yn eu hymdrechion am addysg, o wir awydd gwasanaethu eu cenedl yn fwy effeithiol trwy hyny. Eto nid oedd y rhai a gyrhaeddent raddau o ddysgeidiaeth yn y ffyrdd uchod, ond ychydig o nifer, na'r mesur o ddysgeidiaeth a gyrhaeddid, ond bychan ac arwynebol.

Tu a'r flwyddyn 1818, llwyddodd y Parch. John Elias, gyd a'i frodyr yn Mon i ddechreu, ac wedi hyny gyda gwŷr blaenaf yr Enwad yn siroedd eraill Gwynedd, i bennodi ar Mr. Owen Williams, pregethwr ieuanc o Fôn, fel Athraw Athrofa i'r Cyfundeb yn y Gogledd, yr hon oedd i fod yn agored hefyd i frodyr y Deheudir. Mab oedd Mr. Owen Williams, i un William Williams, o'r Ty Newydd, Rhos y Meirch, gerllaw Llangefni; nid oedd ei rïeni yn meddu ar lawer o dda y byd hwn; ond yr oeddynt "yn hynod yn mysg y saint;" a'i fam yn enwedig, yn cael edrych arni, megys "mam yn Israel:" ac yr oedd eu mab hwn er yn ieuanc iawn, wedi ei fagu yn ngeiriau y ffydd, yn dwyn arwyddion amlwg o'i fod yn feddiannol ar grefydd syml, ac yn amlygu awydd cryf am ddysgeidiaeth. Cyfrifid ef y dyddiau hyny yn lled ddysgedig, a bernid ei fod yn meddu cymhwysderau neillduol i addysgu eraill; a chyd a'r amcan o'i gymhwyso yn mhellach i'r cyfryw orchwyl, efe a anfonwyd dros dymhor i athrofa Hoxton; a phennodwyd ar Langollen, fel y lle i sefydlu ei ysgol ynddo, i bregethwyr ieuainc. Ond siomwyd dysgwyliadau Mr. Elias, a'i frodyr o gyffelyb feddwl, am yr athrofa yn Llangollen, trwy i nychdod oddiweddyd Owen Williams, yr hyn a derfynodd yn ei farwolaeth, cyn iddo allu ymaflyd yn y gwasanaeth oedd mewn golwg iddo, a chanddo. Parodd hyn na bu nemawr o son cyhoeddus am athrofa dros rai blynyddoedd wedi hyny. Yn Nghymdeithasfa y Bala, yn y flwyddyn 1825, crybwyllodd Mr. Elias am Mr. Evan Rowlands, gwr ieuanc a fuasai am flyneddoedd yn athraw cynnorthwyol i'r Parch. Dr. Steward, Gweinidog Presbyteraidd, a gadwai ysgol ragorol yn Liverpool. Yr oedd Mr. Rowlands y pryd hyny yn ymberffeithio fel ysgolor yn ngholeg Belfast, ac ar ddechreu pregethu. Dywedid ei fod ef yn wr ieuanc gobeithiol iawn yn mhob ystyr; a dadleuai Mr. Elias, a rhai gwyr da eraill, y dylasid darparu at sefydlu athrofa i'r Cyfundeb dan arolygaeth Mr. Rowlands, a phennodwyd cyfeisteddfod i ffurfio cynllun at ddwyn yr amcan yn mlaen: ond, yr oedd petrusder llawer yn nghylch hyn yn peri oediad ar y peth; ac yn nghanol y petruso, a'r oedi, llesgaodd iechyd Mr. Rowlands, fel yr eiddo Mr. Williams o'i flaen, a bu yntau farw cyn diwedd y

Digitized by Google

flwyddyn 1828. Edrychai amryw ar y siomedigaethau olynol hyn, fel cynifer o awgrymiadau o'r nef, na ddaethai yr amser eto i sefydlu athrofa i'r Methodistiaid.

Ond, erbyn y flwyddyn 1836, yr oedd amgylchiadau yn ymddangos yn fwy ffafrawl i fyned yn mlaen yn y cyfeiriad hwn; canys ymddangosai fod rhagluniaeth wedi darpar dau wr ieuanc cymhwys i gychwyn athrofa i'r Cyfundeb; sef y Parch. Lewis Edwards, yr hwn oedd newydd enill y gradd o M.A., yn anrhydeddus yn mhrif ysgol Edinburgh; ac ŵyr i'r hybarch Thomas Charles, o'r Bala, gwr ieuanc a ddygasid i fynu yn Rhydychain, gyd a'r bwriad o fyned i'r offeiriadaeth yn yr Eglwys Sefydledig; ac wedi graddio yn B.A. yno: ond wedi dewis oddiar argyhoeddiad cydwybod, ymgyssylltu, fel ei daid, â'r Methodistiaid; a daeth llawer o'r rhai mwyaf eu dylanwad yn y Cyfundeb, i edrych ar yr amgylchiadau hyn fel awgrymiad, fod yr adeg wedi dyfod i gychwyn athrofa at wasanaeth y Corph Methodistaidd; ac o ganlyniad, yn mhrif Gymdeithasfa Chwarterol y Deheudir y flwyddyn hono, sef Cymdeithasfa Awst, yr hon a gynhelid yn Mhont y pridd, Morganwg, cytunwyd ar amryw benderfyniadau gyda golwg ar sefydliad y cyfryw athrofa; a chymeradwywyd Meistri L. Edward, a D. Charles fel athrawon y Sefydliad; ac aed yn mlaen mor bell ag i drefnu fod Cyfarfod misol pob Sir, yn Neheudir a Gogledd Cymru, i dalu yn flyneddol at gynnaliaeth yr athrofa, y dognau y bernid yn gyfiawn eu harddodi arnynt. Anfonwyd y penderfyniadau cynnygiol hyn o Gymdeithasfa y Deheudir i'r Gymdeithasfa Ogleddol yn Nghaer yn arfon, yn y mis canlynol, (Medi); a rhoddwyd y derbyniad mwyaf unfryd, a gwresog, iddynt yno.

Ond yr oedd anhawsder eto ar y ffordd, sef penderfynu ar y lle y cynhelid yr athrofa. Mynai y Gogleddwyr gael yr athrofa o fewn eu rhandir hwy; a'r Deheuwyr yn llawn mor benderfynol am ei chael o fewn eu cylch hwythau: ond, tra yr oedd y ddwy Gymdeithasfa yn ymdrechu i ddyfod trwy ddadl *lle* yr athrofa, darfu i'r Parch. L. Edwards, (yr hwn erbyn hyn oedd wedi priodi wyres i'r Parch. T. Charles,) a'i frawd yn nghyfraith, Mr. Charles, anturio agor ysgol yn y Bala, gan lwyr fwriadu ar y pryd, fyned yn mlaen ar eu traul eu hunain; ond, yn y flwyddyn gyntaf, Cyfarfodydd misol y Dehau a'r Gogledd, trwy awdurdodiad eu Cymdeithasfaoedd, a gyfranasant at ei chynnaliaeth, yn ol y dognau a roddasid arnynt yn Nghymdeithasfa Pont y pridd, trwy yr hyn yr oeddynt megys yn cymeryd meddiant o'r brodyr a grybwyllwyd, fel athrawon athrofa y Cyfundeb. Yn fuan, daeth lluaws mawr o Bregethwyr ieuainc, dan anfoniad eu Cyfarfodydd misol, i'r athrofa i gael eu haddysgu, y nifer luosoccaf o'r Gogledd, a rhai o Siroedd Aberteifi, Penfro, a Chaerfyrddin.

Yr oedd hen dŷ Howel Harries, yn Nhrefecca, wedi dyfod bellach yn feddiant i'r Cyfundeb yn y Deheudir; a phenderfynodd y Gymdeithasfa yno ei barottoi, fel lle i gynnal yr athrofa. Yn y cyfamser, bu cyfeillion y Deheudir yn daer ar eu brodyr o'r Gogledd i ymuno a hwynt, er cael un athrofa i'r holl Gorph; ac yr oedd Cymdeithasfa y Gogledd yn datgan eu boddlonrwydd i'r athrofa fod mewn rhyw le canol, yr hwn a fyddai yn gyffelyb gyfleus i'r ddau barth o Gymru: ond, nid oedd y brodyr Deheuol yn barod i ymadael o Drefecca. Ac er y gallasid meddwl ar un achlysur, yn y Gymmanfa Gorphoredig a gynhaliwyd yn Aberystwyth, yn nechreu Awst, 1841, y buasai undeb o ran athrofa yn cymeryd lle yn fuan, gwelwyd yn Nghymdeithasfa Bangor, ddechreu y mis canlynol, nad oedd un gobaith y cydsyniai y Gogleddwyr i'r athrofa a agorasid yn y Bala, gael ei symmud o Wynedd, yn enwedig i fan mor anghysbell a Threfecca; yr unig le a gymeradwyid gan frodyr y Deheudir. Yn y Gymdeithasfa flyneddol a gynnaliwyd yn Nolgelleu, yn niwedd mis Medi, mewn canlyniad i benderfyniad Cymdeithasfa Bangor, trefnwyd ar fod Cyfarfodydd misol y Gogledd, yn helaethu yn eu cyfraniadau at gynnal yr athrofa, er mwyn cyflawni y diffyg o gynnorthwy siroedd y Deheudir. Yn Nghymdeithasfa Ruthin, yn niwedd Rhagfyr, 1841, annogwyd i ddechreu yn ddïoed ar wneyd cronfa, tuag at gynnaliaeth anrhydeddus, dïogel, a pharhaus i'r athrofa.

Daeth yr un peth dan sylw drachefn, yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin, 1842, pan roddwyd cymhelliadau grymus i sefydlu y gronfa; ac y canmolwyd sir Feirionydd am wneuthur mor ganmoladwy eisoes tuag at yr amcan hwnw. Ond, er fod y ddwy Gymdeithasfa am gael bob un athrofa i'w rhandir eu hunain, nid oedd hyny yn achlysuro dim drwgdeimlad rhyngddynt; canys gwelwn i Gymdeithasfa y Deheudir anfon llythyr brawdol at Gymdeithasfa y Gogledd, cynnulledig yn y Bala, i ddeisyf ar iddynt ganiattau i un o'r ddau athraw yn athrofa y Bala, ddyfod i lywyddu eu hathrofa newydd hwy yn Nhrefecca; ac wedi ystyriaeth bwyllog, boddlonwyd gan Gymdeithasfa y Bala, er mwyn cadarnhau undeb y ddwy Gymdeithasfa mewn cariad, i Gyfeisteddfod Trefecca ymohebu a'r Parch. David Charles, B.A.; canys golygid y gallai y ffaith o fod Gogleddwr yn llywyddu athrofa y De, a bod Deheuwr yn llywyddu athrofa y Gogledd, fod yn foddion i gryfhau brawdgarwch rhwng y ddwy dalaeth; a deallwyd fod Mr. Charles yn ymfoddloni i fyned i Drefecca, er mwyn cadarnhau y fath deimlad daionus a hyfryd.

Hydref y 6ed a'r 7fed, y flwydd hono, 1842, mewn cyssylltiad â Chymdeithasfa Talgarth, agorwyd athrofa Trefecca, pryd y pregethodd y Parchedigion Thomas Richard, Henry Rees, Lewis Edwards, o athrofa y Gogledd, a'r Parch. James Hamilton, (wedi hyny Dr. Hamilton,) o Lundain, yn nghyda brodyr eraill, ar yr achlysur dyddorus. Pennodwyd ar y Parch. John Parry, o Fanchester, yr hwn a fuasai dros ryw yspaid yn athrofa y Bala, ac wedi hyny yn mhrif ysgol Edinburgh, i fod yn gynnorthwywr i Mr. Edwards yn y Bala—yn awr Dr. Edwards, canys graddiwyd ef yn D.D. gan brif ysgol Edinburgh, yr un amser ag y graddiwyd yno Dr. Candlish, o Edinburgh, a Dr. Porter, o Belfast.

Ar waith Mr. Charles yn rhoddi ei swydd i fynu yn Nhrefecca, dewiswyd i'w olynu yn 1865, y Parch. William Howells, o athrofa Trefecca yn gyntaf, ac wedi hyny o brifysgol Llundain,—nai i'r clerigwr efengylaidd, a'r pregethwr enwog, William Howells, Long-acre, Llundain; a'r Parch. J. Harries Jones, M.A., o brif ysgol Glasgow, a Ph.D. o brif ysgol Bonn.

Wedi blyneddoedd o siarad ac annog yn Nghymdeithasfaoedd y Gogledd, gyda golwg ar gael cronfa sefydlog at gynnal eu hathrofa, penderfynwyd o'r diwedd, yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, a gynhaliwyd yn mis Rhagfyr, 1856, fyned yn mlaen o

Digitized by Google

ddifrif i gyfodi y cyfryw gronfa; a phennodwyd y Parch. Edward Morgan o'r Dyffryn, swydd Feirionydd, fel goruchwyliwr, er hyrwyddo y gronfa. Un o benderfyniadau y Gymdeithasfa hon o barth i'r gronfa, ydoedd, "Fod y casgliad at y gronfa, i gael ei wneuthur yn hollol annibynol ar y lle y bydd yr athrofa ynddo; gan nad pa gymaint fydd y gronfa, y bydd y lle y cynhelir yr athrofa yn ddarostyngedig i benderfyniad y Gymdeithasfa."

Pan y gwnaed y penderfyniadau uchod, enwyd *ugain mil* o bunnau, fel nod i gyrchu atto; a rhoddwyd pum mlynedd o amser tuag at ei gwneyd i fynu. Ymroddodd Mr. Morgan i'r gwaith yn egnïol, er ei holl lesgedd corphorol, a choronwyd ei ymdrechiadau â llwyddiant mawr; efe a gasglodd tu hwnt i'r swm a roddasid fel nod i gyrchu atto; canys aeth y gronfa dros chwe mil ar hugain o bunnau! Ond, tra yr oedd Mr. Morgan yn myned yn mlaen yn ei ymdrech lwyddianus i gasglu y gronfa, yr oedd pobl y Bala, a'u cyfeillion trwy sir Feirionydd, yn gwneyd ymdrechiadau gorchestol, i sicrhau arhosiad yr athrofa yn y Bala; a phenderfynodd Cyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, brynu cae cyfleus gerllaw tref y Bala, i adeiladu yr athrofa arno; ac fe'i prynwyd am *fil* o bunnau. Yr oedd y teimlad yn ffynu yn meddwl amryw trwy y siroedd, y buasai lle mwy Ses'nig na'r Bala yn ddymunol fel cartref yr athrofa, lle y gallasai yr efrydwyr gael cyfleusdra yn fynych i ymarfer a phregethu Saes'neg, &c.; ond, yr oedd y teimlad lleol yn y Bala, a Sir Feirionydd, mor gryf, a rhyw synied o gyssegredigaeth yn nglŷn â'r Bala, wedi ymwreiddio yn meddyliau llawer trwy y gwledydd, fel, pan oedd y mater mewn dadl gan gyfeisteddwyr pennodedig yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi, 1863, y cafwyd fod y mwyafrif o blaid y Bala. Rhoddwyd y cae crybwylledig gan gyfeillion y Bala, a'r Cyfarfod Misol, yn anrheg i'r Cyfundeb, fel lle yr athrofa, a throsglwyddwyd y meddiant o hono yn rheolaidd i ymddiriedolwyr a benodwyd gan y Gymdeithasfa.

Dydd Iau, Mehefin 15, 1865, un o ddyddiau Cymdeithasfa y Bala y flwyddyn hono, gosodwyd i lawr garreg sylfaen adeilad yr athrofa, gan y Parch. Henry Rees, pryd yr annerchwyd y dorf fawr a ddaethai yn nghyd, gan amryw frodyr. Ac ar y dyddiau Iau, a Gwener, Medi 5ed a'r 6ed, 1867, agorwyd y coleg newydd, pan oedd yn bresenol tua chant a haner o bregethwyr, y rhan fwyaf o ba rai oeddynt wedi bod yn efrydwyr yn athrofa y Bala, ar wahanol adegau; yn nghyda llawer o swyddogion, ac aelodau eglwysig, a charedigion yr achos crefyddol yn mysg y Methodistiaid, o amrywiol fanau. Ar yr achlysur, pregethodd y Parch. David Charles, G.C., yr hen athraw, nos Iau; a thranoeth, y brodyr Edward Morgan, a Henry Rees, yn y boreu; J. Ogwen Jones, a Roger Edwards, yn yr hwyr; ac yn y prydnhawn, areithiodd y brodyr Dr. Edwards, Mr. Henry Rees, Mr. Edward Morgans, David Roberts, Ysw. Liverpool, a Morgan Lloyd, Ysw., Bargyfreithiwr, ac un o hen efrydwyr lleygol yr athrofa.

Am y deng mlynedd ar hugain blaenorol, cynnaliesid yr athrofa mewn adeiladau cyfyng ac anghyfleus; ond y mae yr adeilad bresenol yn eang, yn brydferth, a thra chyfleus. Yr oedd yr holl draul tua deng mil o bunnau; ac ar daer annogaeth ei frodyr, ymgymerodd Mr. Morgan a'r gwaith pwysig o gasglu y swm hwnw drachefn, at y chwe mil ar hugain punnau a gasglasai o'r blaen; a chafodd fyw i weled y gwaith mawr hwn eto yn agos i gael ei gwblhau.

Yn awr y mae cronfa at waddoli athrofa Trefecca yn cael ei chasglu; ac addewidion o tuag ugain mil o bunnau wedi eu cael trwy lafur-waith effeithiol y Parch. Edward Matthews, Morganwg.

Medda y Methodistiaid Calfinaidd, eu Cymdeithasau Cenhadol, Cartrefol a Thramor. Cymdeithas Genhadol Gartrefol Gogledd Cymru, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1813, tua blwyddyn cyn marwolaeth Mr. Charles o'r Bala; a thrwy ei annogiad, a than ei arolygiad ef. Amcan sefydliad y Gymdeithas hon ar y cyntaf, oedd lledaenu gwybodaeth grefyddol ac efengylaidd yn mhlith trigolion Goror Clawdd Offa; neu, y Cyffin-diroedd rhwng Cymru a Lloegr, y rhai oeddynt yn dra anwybodus am Dduw, a phethau byd arall. Ond, y mae gweithrediadau y Gymdeithas erbyn hyn yn cyrhaedd i gyfeiriadau eraill hefyd. Perthyna iddi orsafau Seis'nig yn siroedd Dinbych, Fflint, Trefaldwyn, Caerlleon, Lancaster, a'r Amwythig; a gorsafau Cymreig yn Crewe, a Hanley, Witton Park, yn Durham, Barrow-in-Furness, Widness, Wigan, St. Helen's, a Southport, yn nghyda Dublin, prif ddinas yr Iwerddon: ac heblaw hyny, y mae yr ardaloedd yn sir Fflint, sydd yn fwyaf darostyngedig i ymosodiadau Pabyddiaeth, yn faes llafur ganddi. Cenhadaeth Gartrefol Deheudir Cymru, a sefydlwyd yn ffurfiol yn y flwyddyn 1826, er fod y Gymdeithasfa yn cynnorthwyo brodyr fel Cenadon mewn manau cyn y pryd hwnw; ac y mae hi yn cynnal Cenadau yn siroedd Penfro, Caerfyrddin, Brycheiniog, Mynwy, Maesyfed, a Henffordd, y rhai ydynt oll yn llafurio yn yr iaith Saesoneg. Cymdeithas Genhadol Dramor y Cyfundeb, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1840. Cyn hyny yr oedd y Corph yn cynnorthwyo Cymdeithas Genhadol Llundain; ond, yr oedd y synied yn ffynu yn lled gyffredinol, mai gwell a fuasai i'r Methodistiaid gael Cenhadaeth dramor dan eu harolygaeth eu hunain, er meithrin a chryfhau zel genhadol. Yr oedd teimlad grymus dros hyny, yn enwedig yn Liverpool; ac yno y dechreuwyd gweithredu yn yr achos; ac yn fuan, cymeradwywyd yr amcan gan Gymdeithasfaoedd De a Gogledd Cymru. Y mae Cyfeisteddfod Gweithiol y Gymdeithas, yn Liverpool o'r dechreuad; a dangoswyd yno yn wastadol, bob ymroad a ffyddlondeb ar ei rhan. Bu y Genhadaeth hon yn dra llwyddiannus ar fryniau Cassia, yn yr India Ddwyreiniol, lle yr oedd y brodorion yn dywyll ac ofer-goelus, ac heb ganddynt iaith ysgrifenedig cyn dyfodiad y Cenadon i'w mysg; ond yn awr y mae yno ysgolion, eglwysi, a chynnulleidfaoedd lluosog; ac y mae amryw o'r brodorion eu hunain, yn athrawon ac yn bregethwyr. Yn mhlith hen Frythoniaid Ffrainc hefyd, neu y Llydawiaid, y mae i'r Gymdeithas hon orsafau, a Chenadon yn llafurio ynddynt.

O ran ffurf-lywodraeth eglwysig, y mae mwy o'r elfen Henaduriaethol yn perthyn i'r Cyfundeb nag o un drefn arall, ac er's tua phump neu ddeng mlynedd ar hugain bellach, ymwelwyd yn fynych, os nid yn flyneddol, a'i Gymdeithasfaoedd, gan ddirprwywyr o Eglwys Rydd Ysgotland, y Presbyteriaid Unedig, yr Eglwys Bresbyteraidd yn Lloegr, ac Eglwys Bresbyteraidd yr Iwerddon; a bu rhai o weinidogion enwocaf yr eglwysi hyn yn eu tro, yn ymwelwyr a'r Cymdeithasfaoedd Chwarterol; megis, y diweddar Dr. Cook, o Belfast; a'r Dr. Hamilton, o Lundain; Dr. Candlish, Dr. R. Buchanan, Dr.

Digitized by Google

MacLaughlan, Dr. Hall (yn awr o Gaerefrog Newydd), Dr. M'Gill, William Arnott, &c.

Fel y Presbyteriaid, ac nid fel yr Esgobyddwyr, y mae y Methodistiaid yn dal cydraddoliaeth gweinidogion yr efengyl; ac heb ganiattau i un arglwyddiaethu ar ei frodyr; ac fel y Presbyteriaid, yn wahanol i'r Cynnulleidfaolion, y mae pob eglwys yn ddarostyngedig i arolygiaeth Cyfarfod misol; a'r Cyfarfodydd misol yn ddarostyngedig i awdurdod y Gymdeithasfa Chwarterol. Eto, y mae gwahaniaeth tra phwysig rhwng y Methodistiaid â'r Presbyteriaid, gyda golwg ar hawliau, neu ymarferiadau aelodau eglwysig. Gyd a'r Presbyteriaid, neu yr Henaduriaethwyr, yr hyn a elwir *Session*, sef Gweinidog a henuriaid yr eglwys, heb yr aelodau cyffredin, sydd i dderbyn aelodau o'r newydd, derbyn ymgeiswyr am y weinidogaeth, gweinyddu dysgyblaeth, a threfnu achosion eglwysig yn gyffredinol: ond, gyda y Methodistiaid Calfinaidd yn wastad, penderfynir yr holl bethau hyn gan yr eglwys, trwy bleidlais mwyafrif o'r aelodau, yn nghyd a'r swyddogion. "Y mae i bob Cymdeithas neillduol," medd llyfr y *Cyffes Ffydd*, "awdurdod i drefnu ei holl achosion ei hunan, os gall eu dwyn yn mlaen mewn modd buddiol ac adeiladol, yn ol golygiad a barn y Corph yn gyffredinol ar y gwirionedd, mewn pethau ysbrydol, ac allanol."

Y mae cylch y Cyfarfod misol yn gyffredin yn cynnwys yr holl eglwysi mewn sir; ond, ni chyfyngir y cylch yn gwbl at raniad gwladol y siroedd, eithr er mwyn cyfleusdra teithio, cymerir rhanau o'r naill sir i mewn i ddosbarth Cyfarfod misol sir arall, megis y mae parthau o Sir Ddinbych yn perthyn i Gyfarfod misol sir Fflint; a pharthau o sir Fflint, ac o sir Gaerynarfon yn perthyn i Gyfarfod misol sir Ddinbych. Yn siroedd Caerynarfon, a Meirionydd, o herwydd lluosowgrwydd y cynnulleidfaoedd, a phellder y ffordd, y mae yn mhob un ddau Gyfarfod misol gwahanol; a bu son am ranu yn gyffelyb siroedd Aberteifi, Morganwg, Trefaldwyn, a Dinbych; ond hyd yn hyn nid ydys wedi penderfynu ar y dosbarthiadau, eithr y mae dysgwyliad cyffredinol i'r Cymdeithasfaoedd Chwarterol gymeryd mewn llaw, adolygu, ac ail drefnu cylchoedd y Cyfarfodydd misol trwy y Dywysogaeth yn gyffredinol, fel eu gwneler yn fwy cyfleus i gario yr achos crefyddol yn mlaen yn effeithiol.

Heblaw y pregethwyr, dysgwylir i ddiacon, neu "flaenor," fel ei gelwid o'r dechreuad, o bob eglwys, fod yn bresenol yn y Cyfarfod misol, fel cynnrychiolydd yr eglwys y byddo yn perthyn iddi. A chynnrychiolir y Cyfarfodydd misol yn y Gymdeithasfa Chwarterol, gan Weinidogion, a diaconiaid, wedi eu dewis gan eu Cyfarfodydd misol, fel eu cynnrychiolwyr; eithr y mae gan bob pregethwr, a blaenor, perthynol i'r Enwad, hawl i fod yn bresenol yn nghynnadleddau y Gymdeithasfa, ac i bleidleisio ynddynt.

Pan ordeiniwyd gweinidogion yn y Cyfundeb ar y cyntaf, golygid nad oedd un pregethwr ordeiniedig i'w gyfrif ei hun yn weinidog neillduol a gosodedig, i un gangen o eglwys, gan fod yr holl rai a ordeinid i'w cyfrif yn weinidogion i'r holl Gorph, ac i bregethu a gweini yr ordinhadau sacramentaidd i bob eglwys, fel y byddai yr alwad am danynt, a'u cyfleusdra hwythau; ond er hyny, dysgwylid i'r Gweinidogion ofalu yn neillduol am eu heglwysi cartrefol, yn nghyd ag am yr eglwysi yn eu cymmydogaethau. Y pryd hwnw, ac am flynyddoedd lawer ar ol hyny, yr oedd y weinidogaeth deithiol yn arferedig a phoblogaidd iawn. Byddai rhai o'r Gweinidogion mwyaf poblogaidd yn myned am wythnosau ar daith o bregethu drwy y gwledydd; gan bregethu ddwy waith neu dair y dydd, am fis neu ddau yn ddi dor. Ac y mae yn ddiau i'r teithio hwn fod yn dra bendithiol i'r Cyfundeb; yn gymaint a'i fod yn cynhyrfu holl drigolion y wlad i ddyfod i wrando yr efengyl; a mynych y byddai pregeth rymus "y gwr dyeithr" yn effeithio yn fawr ar y gwrandawyr: ond, wedi i'r pregethwyr amlhau yn mhob sir, ac i'r gwasanaeth Sabbathawl ddyfod yn rheolaidd a chyson yn y Capelau yn gyffredinol, yr oedd yr angen am weinidogaeth deithiol yn myned yn llai; a'r dymuniad yn myned yn gryfach am fugeiliaeth fanylach ar yr eglwysi; a'r canlyniad ydyw, fod bugeiliaeth eglwysig, neu gyssylltiad neillduol rhwng gweinidog âg eglwysi, neu eglwys bennodol, yn myned ar gynnydd yn barhaus yn y blynyddoedd diweddaf. Mae yn wir fod yn rhaid wrth fesur helaeth o "ysbryd nerth, a chariad, a phwyll," gyd a'r ysgogiad yma, tra y mae eto gynifer o bregethwyr a gweinidogion cymeradwy, yn ymddibynu yn benaf am eu cynnaliaeth ar eu hadnoddau personol neu deuluaidd, ac nid ar yr eglwysi: ond, y mae y symmudiad yn mlaen yn hyn yma yn anocheladwy; ac y mae arwyddion yr amserau yn peri i ni gredu, na bydd ar fyrder un eglwys yn y Cyfundeb, heb fod dan arolygaeth fugeilaidd reolaidd.

Oddiwrth yr Ystadegau a gyflwynwyd i'r Gymmanfa Gyffredinol yn Aberdâr, cawn yr hysbysiadau canlynol;—Nifer y Capelau, a lleoedd pregethu, yn 1871, 1145.—Nifer y Gweinidogion, 449.—Nifer y Pregethwyr heb eu hordeinio, 344.—Nifer y Diaconiaid, 3374.—Nifer y Cymmunwyr, 93,276.—Nifer yr Ymgeiswyr am Aelodaeth, 4102.—Nifer y plant yn yr Eglwysi, 43,274.—Nifer yr athrawon a'r athrawesau yn yr Ysgolion Sabbothawl, 20,075.—Nifer yr Ysgolorion yn yr Ysgolion Sabbothawl, 148,144.—Nifer y Gwrandawyr, 245,316.—Cyfanswm yr holl dderbyniadau arianol at wahanol achosion yn ystod y flwyddyn, 115,336*p.* 6*s.* 9¾*c.*; ac o'r cyfanswm yna, derbyniwyd at y Weinidogaeth, 44,171*p.* 16*s.* 2*c.*; ac at ddyled y Capelau, 25,728*p.* 19*s.* 3¾*c.*

[Y mae yn gweddu i ni gydnabod, ein bod yn ddyledus i raddau helaeth iawn am ddefnyddiau yr Erthygl hon, i'r Erthygl wir gyflawn a rhagorol dan yr un pennawd, yn y "Gwyddoniadur," tra nad esgeuluswyd unrhyw ffynhonellau eraill o hysbysiaeth ar y testun, o fewn ein cyrhaedd.]

**MEURIG**, neu Maurice, ydoedd lenor dysgedig, a thrysorydd Eglwys Gadeiriol Llandaf yn y drydedd ganrif ar ddeg. Cyfieithodd Efengyl Ioan, o'r Lladin i'r Gymraeg, ac ysgrifenodd esboniad hefyd ar yr un Efengyl. Efe oedd awdwr y llyfr tra chywrain ar hanes Morganwg, a elwid *Y Cwtta Cyfarwydd;* ac heblaw hyn, ysgrifenodd *Holl Hanes Ynys Prydain, Llyfr o Ddiarebion, Dosbarth Cerdd Dafod*, a *Theologyddiaeth Gymraeg*. Bu *Y Cwtta Cyfarwydd*, yn ol yr Iolo MSS., yn nghadw mewn llawysgrif am oesoedd yn Abermarlais. Bu Meurig farw yn y flwyddyn 1290.

**MEURIG**, Syr Gelly, a anwyd yn ninas Bangor, oddeutu y flwyddyn 1556. Efe ydoedd mab henaf y Gwir Barchedig R. Meurig, D.D., Esgob, a'i wraig, Catherine Barret. Bu farw yr Esgob pan oedd y mab oddeutu naw mlwydd oed, ac mewn

Digitized by Google

canlyniad symudodd Catherine Barret a'i hetifedd, i swydd Benfro. Wedi derbyn addysg briodol, dewisodd Gelly Meurig fywyd milwrol; a chafodd ei dalentau a'i wroldeb mawr, fantais i amlygu eu hunain yn fuan yn rhyfelgyrch gwaedlyd y Netherlands. "Er cof am ei gynneddfau rhagorol, ac er dangosiad o'i bybyrwch a'i ddewrder," rhoddwyd iddo, yn y flwyddyn 1583, y caniatad Breninol i wisgo arfbeisiau. Ar ei ddychweliad o Holland, priododd gydag Elizabeth, gweddw ieuanc John Gwyn, o Lanelwedd, swydd Faesyfed, a merch ieuengaf Evan Lewis, Nantmelan, o'r un sir. Oddeutu yr adeg yma, efe a ffurfiodd gydnabyddiaeth gyda Robert Devereux, yr hwn a ddaeth wedi hyny, o dan y teitl o Iarll Essex, i fod yn un o gymeriadau hynotaf hanesiaeth Brydeinig. Parhaodd cyfeillgarwch Meurig a'r Iarll i gynnyddu ac ymgryfhau hyd angau; ac wedi cyd-dreulio oes lawn o yni, ac anturiaethiau llwyddiannus, cyfranogodd y ddau o'r un dynged derfynol chwerw. Yr oedd Gelly Meurig yn un o'r pum cant a ddilynasant Iarll Essex i Flushing, yn niwedd y flwyddyn 1585, a'r rhai a roddasant y fath brofion o'u gwroldeb diysgog yn ystod yr amgylchiadau cyfyng a'u goddiweddasant y flwyddyn ddilynol. Ar ei ddychweliad i Loegr o'r ymgyrch yma, cafodd Meurig ei bennodi i'r swydd uchel o brif arolygydd ty Iarll Essex. Dwy flynedd yn ddiweddarach, efe a ddilynodd yr iarll, ar ei draul ei hun, mewn rhyfelawd i Torres Vedras, ac oddiyno i Lisbon, lle yr arddangosodd y gwroldeb mwyaf, er i'r ymgyrch droi allan yn aflwyddiannus. Yn 1591, anfonodd y Frenines Elizabeth Iarll Essex gyda phedair mil o wŷr, i gynnorthwyo Harri IV., pryd y torodd afiechyd dinystriol allan yn mhlith y milwyr Prydeinig. Ymddengys fod Mr. Meurig wedi ei analluogi i ddilyn y rhyfelawd yn mhellach na Dieppe, canys un arall o swyddogion yr iarll, sef Anthony Bagot, mewn llythyr at ei gyfaill Richard Broughton, a ddywedai—"Mr. Reynolds a minnau ydyw yr unig swyddogion a fedd ei arglwyddiaeth (sef Iarll Essex). Y mae Mr. Meyrick yn glaf yn Dieppe, ond daeth pedwar o'i osgorddlu gyda ni, ac yr oedd tri o honynt yn glaf." Ar ei ddychweliad o'r rhyfelawd hwn, Essex a annogodd y Frenines Elizabeth i roddi bwrdeisdref, castell, parciau, a maenorau Wigmore, yn swydd Henffordd, yn anrheg i Gelly Meurig, a Henry Lindley, sef dau oruchwyliwr palas yr iarll. Y rhodd hon a wnaeth Mr. Meurig yn gyfoethog ar unwaith; ac efe a'i hystyriai yn werthfawrocach, o herwydd ei bod yn gyfagos i etifeddiaeth ei wraig, yn swydd Faesyfed. Amgylchiadau pwysig y flwyddyn 1596, a roddasant gyfleusderau neillduol i ddyn glew fel Meurig ychwanegu at nifer ei lawryfon. Efe a gymerodd ran arbenig yn yr ymosodiad llwyddiannus ar Cadiz. Gogyfer â'r ymgyrch hwn, efe a ddyrchafwyd o'r gradd o gadben, i'r gradd o is-filwriad, yn nghatrawd Syr Conyers Clifford; a chafodd ei bennodi yn un o ddirprwywyr yr ystorfeydd. Ei ymddygiad gwrolwych ar yr achlysur yma, a enillodd iddo y gradd o farchog. Dodwyd arno yr anrhydedd hwnw yn marchnadle Cadiz, yn ebrwydd wedi ymostyngiad yr Hispaeniaid, a meddianniad y ddinas gan y Prydeinwyr. Yn y flwyddyn 1597, anfonwyd rhyfelgyrch arall yn erbyn yr Hispaeniaid, o dan briflywyddiaeth Iarll Essex. Yn yr ymgyrch yma, ymddiriedwyd i Syr Gelly Meurig lywyddiaeth y llong ryfel Swiftsure, yr hyn a ddengys ei fod yn fedrus ar fôrfilwriaeth, yn ogystal a thirfilwriaeth. Tywydd tymhestlog, yn nghyda'r cwerylon anffodus rhwng Essex a Syr Walter Raleigh, a fuont foddion i darfu llwyddiant y rhyfelawd hwn: ond er hyny, cafodd Syr Gelly Meurig fantais i enwogi ei hun, ac i arddangos ei lewder a'i bybyrwch dihafal yn mrwydr Fayal. Ond fe ddaeth terfyn ar ffawd dda Iarll Essex, a Syr Gelly. Gelynion y blaenaf a lwyddasant i enyn rhagfarn y Frenines i'w erbyn. Bu raid iddo encilio o'r Llŷs, a daeth yn fuan i ofni am ddiogelwch ei balas yn y Strand, Llundain. O herwydd hyn, efe a amgaerodd ei balas, ac i Syr Gelly Meurig yr ymddiriedodd y gorchwyl anhawdd a pheryglus o'i amddiffyn yn erbyn lluoedd y Goron. Gwrthsafodd Syr Gelly bob ymosodiad yn llwyddiannus, hyd nes y derbyniodd orchymyn yr iarll i roddi y meddiant i fyny i'r Goron. Amcan Essex a Meurig yn gwneyd y fath arddangosiad penderfynol o wrthwynebiad i awdurdod yr orsedd, oedd ceisio gorfodi y Frenines i newid ei chynghorwyr; ond pa mor ragorol bynag oedd eu bwriadau, cyfrifwyd eu hymddygiad yn uchel-fradwriaeth, a chondemniwyd y ddau i dalu penyd eu camwedd ar y dienyddle. Attafaelwyd holl etifeddiaethau Syr Gelly, ac amddifadwyd ei fab, a'i ferch, o'u holl freintiau teuluaidd. Dienyddiwyd ef yn y flwyddyn 1600; ac efe a arddangosodd yr un gwroldeb ar y dienyddle, ag a nodweddasai ei ymddygiad ar lawer maes gwaedlyd. Iago I. a roddodd etifeddiaeth Syr Gelly, yn swydd Henffordd, i Mr. Harley, un o henafiaid Ieirll Rhydychain; ond ar adeg ddilynol, rhyngodd bodd i'r Senedd adfer rhai o'u breintiau teuluaidd, i wehelyth Meurig.

**MEURIG**, Syr John, ydoedd gadfridog yn y fyddin Brydeinig, a chynnrychiolydd Newcastle-under-Line yn y Senedd Hir. Efe ydoedd pummed mab Syr Francis Meurig, Marchog, o Fleet, yn mhlwyf Monkton, swydd Benfro, o'i wraig Ann, ferch Francis Laugharne, Yswain, St. Bride, o'r un sir. Yr oedd efe hefyd yn nai i Syr Gelly Meurig, ac fel ei ewythr, a'i dad, dewisodd yr alwedigaeth filwrol. Yn y flwyddyn 1603, bu farw ei dad; a gadawyd yntau i weithio ei ffordd yn mlaen yn y byd goreu y gallai yn ngrym ei adnoddau personol. Erbyn hyn, yr oedd mab i'r diweddar Iarll Essex wedi dyfod eto yn ddyn pwysig a dylanwadol yn y wladwriaeth; a'r pendefig hwnw a fynwesodd hoffder naturiol at John Meurig, ar gyfrif ymlyniad ffyddlon ei deulu wrth y cyn-iarll. Dilynodd John y pendefig yn ei ymgyrch i Flanders, yn y flwyddyn 1620; a phedair blynedd yn ddiweddarach, cafodd y swydd o gadben o dan yr un pendefig, yn y rhyfelawd i'r Talaethau Unedig. Yn y flwyddyn 1625, efe a gymerodd ran bwysig yn y rhyfelgyrch Hispaenaidd, lle y dirfawr enwogodd ei hun. Ar ei ddychweliad i Brydain y waith hon, gosodwyd arno urdd marchog. Yn y flwyddyn 1630, efe a ymrestrodd fel gwirfoddolwr yn ngwasanaeth Adolphus, brenin Sweden; ac yn ystod y rhyfelgyrch hwnw, cafodd brofiad milwrol tra eang. Cymerodd ran yn ngwarchaead Venlo, Roermount, a Maestricht. Yn ngwarchaead y lle olaf, ar yr 17eg o Awst, 1632, gwnaeth y gelynion ruthrgyrch sydyn ar bwynt a amddiffynid ganddo, ac fe'i clwyfwyd yn beryglus yn yr ymdrechfa. Yn yr ymgyrch rhwng y Senedd a'r Brenin Siarl I., cymerodd Iarll Essex, a Syr John Meurig, ran benderfynol o blaid y Senedd. Yn y flwyddyn 1642, cyfododd y Brenin luman rhyfel yn Nottingham: a phenderfynodd y Senedd brysuro i gyfodi byddin,

Digitized by Google

gynnwysedig o bymtheng mil o wŷr traed, a phedair mil a haner o wŷr meirch, i'w wrthwynebu. Iarll Essex a bennodwyd yn bendragon y fyddin hon, a rhoddodd y Senedd iddo y teitl o "arglwydd-gadfridog." O dano ef, gweinyddai Syr John Meurig, fel rhagweinydd cyffredinol, a milwriad catrawd fawr, gynnwysedig o ddeg o gwmnïau. Cymerodd ran bwysig yn mrwydr *Edge Hill;* a phan yr aeth Essex i gyfodi gwarchae Caerloew, gosododd Syr John ei fagnelau ar elltydd Presbury, a gweithredodd gydag effeithiolrwydd rhyfeddol. Cofnodir iddo yn mrwydr Newbury hefyd, wneyd mwy na neb arall tuag at droi mantol buddugoliaeth o blaid gwŷr y Senedd. O'r adeg hon allan, Meurig a fu prif gadweinydd, a chyfaill penaf Iarll Essex. Parhaodd i ymladd dros y Senedd hyd nes yr enciliodd yr Iarll o'r fyddin. Dywedasom eisoes, ei fod yn aelod Seneddol dros *Newcastle under Line.* Yr oedd efe yn un o'r aelodau hyny a bleidleisiasant dros dderbyn y telerau cytundeb a gynnygiwyd gan Siarl I., gan y tybiai fod y telerau hyny yn ddigonol er diogelu heddwch a rhyddid y wlad. O herwydd hyn, gosododd Cromwell ef mewn dalfa tra bu y Senedd yn pasio y mesurau llymion a therfynol yn erbyn Siarl. Ymddengys fod Syr John yn teimlo y gwrthwynebiad cryfaf i bob mesurau a ystyriai yn eithafol a gorthrymus. Efe a ddefnyddiodd ei holl allu i wrthwynebu honiadau trahaus a pheryglus y Brenin; ond pan y gwelodd Cromwell a'i wŷr drachefn, yn rhuthro i gyffelyb gormod rhysedd, efe a'u gwrthwynebodd hwythau gyda'r un diysgogrwydd. Priododd Syr John Meurig, y waith gyntaf, gydag Alice, merch Syr Edward Fitton, Marchog, o Gawsworth, swydd Gaerlleon, o'r hon y ganwyd iddo fab ac etifedd, Essex Meurig, a dwy ferch. Yr ail waith, efe a briododd Jane, gweddw Syr Peter Wyche, Marchog, Llysgenad Prydain yn Nghaercystenyn, a merch i William Meredydd, o Wrecsam, swydd Dinbych. Ni bu iddo blant o'r briodas hon. Terfynodd ei yrfa arwrol ac anturiaethol, yn y flwyddyn 1659; ac felly ni chafodd efe fyw i weled adferiad teyrnach y Stuarts, yn mherson Siarl II. Y mae darlun gwych o'r Cymro clodfawr hwn yn cael ei gadw eto yn Bush, lle y preswylia rhai o'i ddisgynyddion.

**MEURIG**, Syr John, Prif Farnwr Gogledd Cymru, ydoedd fab Essex Meurig, ac ŵyr y Cadfridog Syr John Meurig. Meddai waedoliaeth a chyfathrach Cymreig diledryw o bobtu, canys ei fam ydoedd Jane, merch Robert Corbed, o Ynysymaengwyn, swydd Feirionydd. Wedi derbyn addysg briodol, efe a efrydodd ac a ymarferodd y gyfraith gyda'r fath lwyddiant, fel y cafodd ei ddyrchafu i fod yn Brif Farnwr Gogledd Cymru. Priododd Mary, merch ac etifeddes John Williams, o Norchard, yn swydd Benfro. O'r briodas hon, ganwyd iddo ddau fab, sef Essex Marychurch Meurig, yr hwn a fu farw yn ddietifedd, a John, yr hwn a briododd Miss Adams, etifeddes Patrickchurch, neu Pater, yn swydd Benfro. Bu y Prif Farnwr farw yn y flwyddyn 1732.

**MEURIG**, Dr. John, esgob dysgedig, oedd fab anghyfreithlawn i Owain ab Huw ab Owain ab Meurig, Ysw., o Fodeon, yn Ynys Fôn; a'i fam oedd Gwenllian, ferch Ifan, o'r Penrhyn Deu-draeth, a haner brawd, o du ei dâd, i Syr Huw Owain, marchog, y cyntaf o Orielton, swydd Benfro. Efe a anfonwyd i gael ei addysgu yn yr Ysgol a seiliasid gan William o Wykeham, yn Nghaerwynt, o'r lle y cafodd ei ethol i fod yn ysgolor o'r Coleg Newydd, yn Rhydychain. Yn y flwyddyn 1557, efe a wnaed yn Gymmrawd Gwastadol; ac yn 1558, derbyniodd y graddiad o G.C. Yn 1561, cymerodd y radd o A.C.; ac yn 1565, gweinyddai y swydd o Ysgolfaer Ieuangaf. Yn mhen pum mlynedd wedi hyn, efe a gyflwynwyd i Ficeriaeth Hornchurch, yn Essex, yr hon oedd yn noddaeth neillduol ei goleg. Ei enwogrwydd llenyddol a dynodd sylw Henry, Iarll Derby, dan nawdd yr hwn yr arganmolwyd ef yn 1575, fel un cymhwys i olynu ei gydwladwr, John Salesbury, fel esgob Manaw; ac efe a gyssegrwyd i'r esgobaeth hono yn Ebrill, 1576, gan Grindall, Archesgob Caergaint; canys er fod esgobaeth Manaw, (yn ol Le Neve) yn nhalaeth Efrawg, trwy fod yr archesgobawd hono yn wag ar y pryd, cyflawnid gwasanaeth y cyssegriad gan arch-esgob Caergaint, trwy drwydded neillduol oddiwrth y Frenines. Gweinyddodd yr esgob ei swydd am dair blynedd ar hugain, a bu farw, yn ol Wood, yn swydd Gaerefrog, yn 1599; ac fe'i holynwyd yn yr esgobawd gan Gymro arall, George Lloyd.

**MEURIG**, Rowland, LL.D., un o ddynion enwocaf yr unfed ganrif-ar-bymtheg, a anwyd yn 1505. Efe ydoedd ail fab Meurig ap Llewelyn, o Fodorgan, yn Ynys Môn; a'i fam ydoedd Margred, merch Rowland ap Hywel, ebrwyad Aberffraw, yn yr un Ynys. Addysgwyd Rowland Meurig yn *St. Edward's Hall,* Rhydychain. Daeth i fod yn un o offeiriaid cyfnod rhyfeddol y Diwygiad Protestanaidd; ac ymddengys ei fod yn un o goleddwyr cyntaf egwyddorion bendithlawn y chwyldroad crefyddol hwnw. Yn ystod teyrnasiad Harri VIII., rhoddwyd iddo ebrwyadaeth Stoke, yn swydd Norfolk, ac yn fuan wedi hyny, cafodd ei bennodi yn bennaeth côr Llanddewi brefi. Yn y flwyddyn 1533, derbyniodd y gradd o wyryf yn y gyfraith gyffredin, gan Brif Ysgol Rhydychain; a dilynwyd hyn yn ebrwydd gan ei bennodiad yn benaeth Coleg *New Inn Hall.* Yn y flwyddyn 1538, cymerodd y gradd o Ddoethawr yn y Gyfraith, a phennodwyd ef agos ar unwaith i'r swydd urddasol ac enillgar o Ganghellydd Esgobaethau Ty Ddewi, a Wells. Ond yn y flwyddyn 1549, rhoddwyd attalfa am ysbaid, ar lwyddiant rhyfeddol, a dyrchafiad cyflym, y Cymro athrylithgar hwn, canys llwyddodd rhyw gynllwynwyr, i gael gan Iorwerth VI. wysio ei esgob ac yntau ger bron y Llys Eglwysig. Ymddengys nad oedd sail i unrhyw gŵyn gwirioneddol yn erbyn y naill na'r llall; ac er i'r ddau gael eu heuog farnu, yn ffurfiol, eto ni roddwyd y ddedfryd mewn grym yn erbyn Dr. Meurig. Rhoddodd ei swyddogaethau i fyny yn Esgobaeth Wells; ac yn 1550, cawn ef yn ebrwyad ei blwyf genedigol, sef Llangadwaladr, yn Mon, ac hefyd yn dal y swyddi o ganghellydd, a chanon Ty Ddewi, a phrif-gôrydd Llanddewi-brefi. Yn y flwyddyn 1554, efe a briododd Catherine, merch Owen Barret, o Gellyswig a Hascard, swydd Benfro. Erbyn hyn, yr oedd Mari wedi esgyn i'r orsedd, ac awdurdodau Rhufain yn manteisio ar ei chydweithrediad ewyllysgar i geisio dadwreiddio Protestaniaeth. Gwyddid am egwyddorion diwygiadol Dr. Meurig; ac yr oedd ei briodas yn esgus croesawgar i'w erlyn a'i ddifwyno o'i holl swyddi. Y mae gwahardd i'r offeiriaid briodi yn un o ddeddfau mwyaf digyfnewid Eglwys Rhufain. Ar esgyniad Elizabeth, tywynodd haul llwyddiant a dyrchafiad unwaith yn rhagor ar Dr. Meurig. Adferwyd iddo ei holl swyddogaethau blaenorol

Digitized by Google

yn ddiymaros; ac yn ychwanegol at hyny, cafodd ei bennodi yn un o'r dirprwywyr Breninol i ymweled âg Eglwysi Cadeiriol Ty Ddewi, Llandaf, Llanelwy, Bangor, Henffordd, a Chaerwrangon. Ar farwolaeth Dr. Glynn, Esgob Bangor, pennododd y Frenines y Dr. Meurig yn brelad yr esgobaeth yn mha un y'i ganesid; a chysegrwyd ef i'r swydd ar yr 21ain o Ragfyr, 1559. Heblaw ei esgobaeth, cafodd hefyd ganiatad i ddal y swyddi o brebendur Treflodau, ac ebrwyad Llanddewibrefi, a Llanddewi felfre; ac yn ychwanegol at y cwbl, y Goron a'i dewisodd i fod yn un o uchel gynghor y terfynau. Bu farw y Cymro urddasol a llwyddiannus, ar y 25ain o Fedi, 1565, a chladdwyd ef ar yr ochr ddeheuol i'r allor, oddifewn i Eglwys Gadeiriol Bangor. Yr oedd iddo chwech o blant, sef pedwar mab, a dwy ferch.

**MEURIG**, Syr Samuel Rush, K.H., ydoedd ddisgynydd mewn llinell unionsyth o'r enwogion Syr Gelly Meurig, a'r Dr. Rowland Meurig, Esgob Bangor. Ei dad ydoedd John Meurig, Yswain, *Great George Street, Westminster*, a *Peterborough House, Fulham;* a'i fam ydoedd Hannah, merch ac etifeddes Samuel Rush, Yswain, o *Ford House, Hert*, a *Chiselhurst*, Caint. Ganwyd ef ar y 26ain o Awst, 1783; a bu farw ei dad, yn 1805, a'i fam, yn 1832. Priododd Samuel pan yn ugain oed; a bernir ddarfod i hyny beri tramgwydd annghymmodlawn i'w dad, yr hwn, yn ei lythyr cymmun diweddaf, a drefnodd fod yr holl eiddo teuluaidd i gael ei attal oddiwrth y mab, a'i drosglwyddo drosodd i'r ail-genedlaeth. O dan y trefniant yma, gan na feddai John Meurig yr un plentyn arall, unig fab Samuel Rush a ddaeth i fod yn etifedd; ond bu y mab hwnw farw yn 1837, ac felly, er gwaethaf pob croes-drefniant, daeth yr eiddo yn y diwedd i feddiant Samuel, yr hwn a'i defnyddiodd i wasanaethu llenyddiaeth a hanesyddiaeth henafol ei wlad. Addysgwyd yr henafiaethydd trylen hwn yn Ngholeg y Frenines, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A., a thrachefn yn LL.D. Er yn fachgen, teimlai y dyddordeb dyfnaf yn hanes ei wlad, a'i genedl, ac ymroddodd i'w hefrydu gyda dyfalwch a brwdfrydedd. Yn y flwyddyn 1810, cyhoeddodd "Hanes a Henafiaethau sir Aberteifi." Arddengys y llyfr hwn ol ymchwiliad trwyadl, barn addfed, a dysgeidiaeth drylen. Oddeutu yr adeg yma, mabwysiadodd Dr. Meurig yr alwedigaeth gyfreithiol, a gwasanaethodd am flyneddau fel dadleuydd llwyddiannus yn y Llŷs Eglwysig, a'r Llŷs Morawl. Rhoddodd ei fryd ar gasglu arfau a gwisgoedd milwrol gwahanol wledydd a chyfnodau. Gwariodd symiau mawrion o arian gyda'r gorchwyl hwn; a llanwodd ei dy yn *Cadogan Place*, Llundain, o'r nen i'r llawr, gyda'r creiriau dyddorol. Yn y flwyddyn 1812, efe a gyfansoddodd waith hanesyddol o faintioli mawr, yn ol cynllun y Dr. Henry, ar Brydain o dan lywodraethiad y Breninoedd brodorol, hyd y flwyddyn 703. Gellir ffurfio syniad am faintioli y gwaith hwn, oddiwrth y ffaith y bwriedid ei gyhoeddi mewn chwech o gyfrolau mawrion. Ni chyflawnwyd y bwriad olaf, gan i'r awdwr benderfynu corffori y gwaith mewn llyfr arall. Yn y flwyddyn 1814, ymunodd Dr. Meurig gyda'r Cadben Hamilton Smith, i gyfansoddi llyfr ar wisgoedd yr hen Frytaniaid, yr hwn a gyhoeddwyd gyda darluniau lliwiedig. Yn y flwyddyn 1824, cyhoeddodd ei waith mawr ar Arfau, ac Arfwisgoedd, mewn tair cyfrol wythblyg, gyda nifer lluosog o ddarluniau. Ymddangosodd ail argraffiad o'r llyfr hwn yn y flwyddyn 1843, gydag amryw ychwanegiadau gan Albert Way, yswain. Yn y flwyddyn 1825, ysgrifenodd Dr. Meurig lawer i "Wyddoniadur Henafiaethol" Mr. Frosbroke. Cydweithiodd â Mr. Joseph Skelton, F.S.A., i gyhoeddi llyfr darluniadol, seiliedig ar ei waith blaenorol ef ar arfau, &c. Oddeutu y flwyddyn 1827, gwnaeth Dr. Meurig ymgais i brynu hen gastell adfeiliedig Goodrich, ar lan yr Wy, yn swydd Henffordd, gyda'r bwriad o'i adgyweirio, a'i wneyd yn amgueddfa i'w gasgliad arfogol. Dyryswyd yr amcan yma o'i eiddo gan afresymoldeb y pris a ofynid am yr hen gastell; ac o herwydd hyny, efe a brynodd y bryncyn cyferbyniol, ar yr ochr arall i'r Wy, ac a adeiladodd arno balas gwych, yr hwn a alwodd yn Goodrich Court. Yma y cludodd ei gasgliad gwerthfawr a godidog o arfau ac arfwisgoedd, lle y gwelir hwy hyd heddyw, wedi eu trefnu yn y modd mwyaf cywrain. Yn y flwyddyn 1826, ymddiriedwyd iddo y gorchwyl o drefnu y casgliad cenedlaethol o arfau, ac arfwisgoedd, yn Nhŵr Llundain; ac yn y flwyddyn 1828, galwyd arno, gan y Brenin Sior IV., i gyflawni yr un gorchwyl ar y casgliad yn Nghastell Windsor. Oherwydd y modd meistrolgar y cyflawnodd efe y gorchwylion hyn, y Brenin Gwilym IV., yn mis Ionawr, 1832, a osododd arno urddas yr urdd Hanoferaidd; ac yn Chwefror y flwyddyn ddilynol, fe'i gwnaed yn un o farchogion y deyrnas. Yn y flwyddyn 1834, gwasanaethodd y swydd o uchel sirydd Henffordd, a gosododd fri arbenig ar dymmor ei swyddogaeth, trwy adfer yn y sir osgorddlu y sirydd mewn gwisgoedd gwychion. Ei waith llenyddol pwysig diweddaf, ydoedd golygu yr argraffiad mawr o waith Lewis Dwnn. Ymgymerodd â hyn yn y flwyddyn 1840, ar gais Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn Llanymddyfri, yn y flwyddyn 1846. Yr oedd efe er yn ieuanc yn aelod gweithgar o Gymdeithas Freiniol yr Henafiaethwyr, a gohebodd lawer i'w chylchgronau hi, a chyhoeddiadau Seisnig ereill. Wedi ymsefydlu ar derfynau ei wlad enedigol, cyfyngodd Syr Samuel ei gynnyrchion llenyddol agos yn gyfangwbl i gylchgronau Cymreig, a Seisnig, y Dywysogaeth. Hyd ddiwedd ei oes, efe a fu yn un o brif ohebwyr y "*Cambrian Quarterly Magazine*" a'r "*Archæologia Cambrensis.*" Fel llywydd Sefydliad Gwyddonol Henffordd, efe a draddododd ddeugain o ddarlithiau dysgedig, ar Hanes Prydain; a meddyliodd am gyhoeddi y rhai hyny ar ffurf rad, ond rhoddwyd y bwriad olaf heibio, o herwydd diffyg cefnogaeth ddigonol. Terfynodd y marchog Cymreig anrhydeddus hwn, ei oes lafurfawr a defnyddiol, yn *Goodrich Court*, ar yr eilfed o Ebrill, 1848.

**MEURIG**, Syr William, cyfreithiwr enwog yn yr eilfed ganrif-ar-bymtheg. Mab ydoedd i Morris Owen, yr hwn, yn unol â thelerau testament olaf un o'i berthynasau, a gyfnewidiodd ei enw i Meurig, neu Merryck. Pan oedd William yn dra ieuanc, canfyddwyd ei fod wedi ei gynnysgaeddu â galluoedd meddyliol cryfion; a chan fod ei dad yn feddiannol ar gyfoeth lawer, cafodd talentau y mab bob cynnorthwy i ymddadblygu. Yn gyntaf, anfonwyd y bachgen addawol i ysgol Rammadegol Caerwynt, ac oddiyno, yn y flwyddyn 1612, i'r Coleg Newydd, Rhydychain, lle yr enillodd lawryfon enwogrwydd ysgolheigaidd. Wedi cwblhau y cwrs athrofaol rheolaidd, efe a ymroddodd i efrydu y gyfraith, yn benaf y gyfraith Eglwysig. Yn y flwyddyn 1625, derbyn-

Digitized by Google

iodd y gradd o Ddoctor, neu Ddoethawr, yn y gyfraith. Yn ebrwydd wedi hyn, yr Archesgob Laud a'i trwyddedodd i weithredu fel dadleuydd yn Uchel Lys Egwysig Caergaint. Ei ddysgeidiaeth uchel, a'i dalentau godidog, a fuont foddion effeithiol i'w ddyrchafu i'r radd flaenaf yn ei alwedigaeth ddewisedig; a chymaint ydoedd ei enwogrwydd, fel y'i pennodwyd yn farnwr Llys yr Hawl-freiniau (*Prerogative Court*), ar farwolaeth Syr Harri Martin, yn Hydref, 1641. Arddangosodd ffyddlondeb mawr i'r orsedd, ac ymlyniad neillduol wrth y ddau Siarl yn ystod eu hadfyd a'u helbulon. Dilynodd Siarl II. yn ei ffoedigaeth i'r Cyfandir; a phan adferwyd y teyrn hwnw i orsedd ei dad, adferwyd i Syr William Meurig hefyd ei fraint a'i awdurdod fel barnwr. Yn Nhachwedd, 1661, gwahoddwyd ef i'r Llŷs, ac yn ystafell wely y Brenin, rhoddwyd iddo y radd urddasol o Farchog. Priododd gyda Sarah, merch Mr. James Dodwell, o Rydychain, a ganwyd iddo un ferch, yr hon a fu farw o'i flaen. Bu yntau farw yn y flwyddyn 1668, a dilynwyd ef yn ei swydd farnol, gan Syr Leoline Jenkins.

**MIAWST**, treflan yn mhlwyf Llanarthni, Cwmwd Iscennin, swydd Gaerfyrddin. Saif oddeutu 9½ milltir i'r de-ddwyrain o dref Caerfyrddin; a chynnwysa oddeutu 400 o boblogaeth. Yn agos i'r lle hwn y cychwyna yr afon Gwendraeth Fach ei gyrfa.

**MICHAEL CHURCH**, neu Michael-Church-upon-Arro, plwyf yn Nghwmwd Castellmaen, Cantref y Clawdd (a elwir yn awr hefyd cantref *Pain's Castle*), swydd Faesyfed. Y mae'r plwyf hwn yn terfynu ar swydd Henffordd, a'i drigolion, fel agos yn mhob parth o sir Faesyfed, bron wedi llwyr golli eu cymeriad a'u hanian Gymroaidd. Y pellder oddiyma i Kington, Henffordd, ydyw 6 milltir. Poblogaeth, 138. Annedd-dai, 23. Erwau, 1936. Gwerth ardrethol, 1449*p*. Yr Eglwys sydd gysegredig i Michael, oddiwrth yr hyn y cymer y plwyf ei enw. Y mae y fywioliaeth wedi ei chysylltu â phlwyf Brilley, yn Esgobaeth Henffordd. Y Normaniaid a adeilasant yma gastell, ychydig o furddyn pa un sydd eto yn aros. Oddiar Allt Huntingdon, yn y plwyf hwn, ceir golygfeydd eang ar gyffiniau Lloegr a Chymru, ac ar hen faesydd ar ba rai yr ymladdodd ein henafiaid lawer gornest galed dros ryddid a breintiau ein gwlad.

**MICHAELSTON-LE-PIT**, neu Lanfihangel-yn-y-Gwaelod, plwyf yn Nghwmwd Is Caeth, y Cantref Breninol (a elwir hefyd Cantref Dinas Powys), swydd Forganwg. Saif yn agos i'r morlan, 3½ milltir i'r de-orllewin o Gaerdydd. Poblogaeth yn 1801, 68; yn 1861, 73. Annedd-dai, 18. Erwau, 790. Gwerth ardrethol, 672*p*. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth yn Esgobaeth Llandaf; gwerth 65*p*. y flwyddyn. Noddydd, Thomas B. Rouse, Yswain. Y mae yr arwynebedd yn anwastad a rhamantus. Yn y bryniau, ceir chwarelau o galchgraig rhagorol; a darganfyddwyd gwythienau bychain o blwm hefyd o fewn y plwyf. Ar un o'r gelltydd, gwelir olion hen gaerfa Rufeinaidd.

**MICHAELSTON-SUPER-AFON**, plwyf yn Nghymydau Rhwng Nedd, ac Afan, Cantref Cron Nedd, swydd Forganwg. Rhenir y plwyf yn ddau ddosbarth, sef Michaelston Uchaf, a Michaelston Isaf. Cynnwysa y dosbarth olaf gyfran o dref Aberafon. Y mae safle y pentref ar lan yr Afon, 1½ milltir o Borth Talbot, a 4½ milltir i'r de-ddwyrain-wrth-dde o Gastellnedd. Bu cynnydd rhyfeddol yn rhifedi poblogaeth a gwerth eiddo y plwyf hwn yn ystod y 60 mlynedd diweddaf. Yn 1801, nifer holl drigolion y plwyf ydoedd 233; ond erbyn 1861, yr oedd nifer poblogaeth y dosbarth isaf yn unig yn 5323; y gyfran oddifewn i dref Aberafon, yn 1647, a dosbarth Michaelchurch Uchaf, yn cynnwys 861. Dadblygiad mŵngloddiau eang y fro, fu achos y fath gynnydd cyflym. Yn y flwyddyn 1803, holl swm y trethi, yn ol wyth swllt y bunt, oedd fel y canlyn:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dosbarth Isaf, | £27 | 4 | 5 |
| Dosbarth Uchaf, | 47 | 5 | 1 |
| Cyfanswm, | £74 | 9 | 6 |

Erbyn 1861, yr oedd gwerth ardrethol y dosbarth isaf yn 7344*p*., a'r dosbarth uchaf yn 776*p*. Oddeutu haner y tir sydd fryniog a chyfoethog o fwnai haiarn, a gwelyau trwchus o'r glo rhagoraf; a'r haner arall sydd ddyffryndir teg, ac amaethdir ffrwythlon. Y mae yma un wythien lo yn ddeuddeg llath o drwchfesur. Yn y wythien hon, darganfyddir nifer lluosog o weddillion dail a choed anadnabyddus i'r oes bresennol. Cafwyd yma goeden mewn dyfnder mawr, wedi cadw ei ffurf, ac heb gydymgaledu â'r mater cyffredin, a barna naturiaethwyr mai math o balmwydden ydoedd, ac nad oes coed o ryw cyffelyb yn tyfu mwyach ar wyneb y ddaear. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth yn Esgobaeth Llandaf, ac y mae capeloriaeth Eglwys yr Holl Saint wedi ei chysylltu â hi. Cyllid blyneddol yr offeiriad ydyw 120*p*. Medda yr Ymneillduwyr amryw gapelydd ac ysgoldai yn y plwyf.

**MICHAELSTON Y FEDW**, plwyf yn Undeb Casnewydd-ar-Wysg, ac mewn rhan yn Nghantref Caerphili, swydd Forganwg, a Chantref y Wentloog, swydd Fynwy. Saif pentref y Fedw ar lan yr afon Rhymni, 2½ milltir i'r gogledd-orllewin o Marshfield, a 5 milltir i'r de-orllewin o Gasnewydd. Erwau, 1134. Gwerth ardrethol, 1110*p*. Poblogaeth, 203. Er fod trefgordd Llanfedw o fewn y plwyf, eto cedwir cyfrifon y drefgordd hono ar wahan; ac y maent fel y canlyn:—Erwau, 2299. Gwerth ardrethol, 1962*p*. Poblogaeth, 309. Cymry ydyw trigolion y rhan yma, a Saeson, neu Gymry o genedligrwydd dirywedig, a breswyliant y rhan arall. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth; gwerth 500*p*. y flwyddyn, yn Esgobaeth Llandaf. Y mae yma ysgol waddoledig, yn meddu cyllid o 64*p*. y flwyddyn, a rhenir 11*p*. o waddol elusenol yn flyneddol rhwng y tlodion.

**MIDDLETON**, trefgordd yn Nghwmwd Marchell, Cantref Ystlyc, swydd Drefaldwyn. Ffurfia ran o blwyf Alberbury, 5½ milltir i'r de-ddwyrain o'r Trallwm, a cherllaw mynydd hanesyddol Tal y Freiddin, a therfyn siroedd Maldwyn, a'r Amwythig. Maint y drefgordd ydyw 736 o erwau. Nifer y boblogaeth yn 1851, 102; yn 1861, 216. Gwelir fod y trigolion wedi mwy na dyblu mewn deng mlynedd ar hugain.

**MIDDLETON**, Syr Thomas, ydoedd un o dylwyth enwog Gwaenynog, sir Ddinbych, yn yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg. Ei dâd ydoedd Richard Middleton, yr hwn a lanwodd y swydd o Lywodraethwr Castell Dinbych o dan dri theyrnasiad, sef o dan Iorwerth VI., Mari, ac Elizabeth. Anfynych y bendithiwyd unrhyw ddŷn â chynnifer o feibion enwog ag a ddaeth i ran Richard Middleton, canys efe ydoedd tâd William Middleton (Gwilym Canoldref), Ffowc

Digitized by Google

Middleton, Syr Hugh Middleton, a Syr Thomas, gwrthddrych yr ysgrif hon. Bu iddo amryw feibion ereill hefyd; ond y pedwar a nodwyd oeddynt y rhai a adawsant fwyaf o'u nôd a'u hargraff ar amgylchiadau eu hoes a'u gwlad. Aeth Syr Thomas Middleton i Lundain pan yn dra ieuanc, ac yno efe â ymroddodd â'i holl egni i ddilyn bywyd masnachol. Ei ysbryd anturiaethus, a'i graffder a'i fedrusrwydd naturiol, a'i gwnaethant ar fyrder yn enwog yn mhlith marsiandwyr y Brif Ddinas. Llwyddodd i gasglu swm dirfawr o gyfoeth; ac yr oedd efe wedi enill iddo ei hun safle gymdeithasol mor uchel erbyn y flwyddyn 1614, fel y cafodd ei ethol yn Arglwydd Faer Llundain am y flwyddyn hono. Yn fuan wedi hyn, prynodd etifeddiaeth Castell y Waun, sir Ddinbych; ac efe ydoedd cyff cenedl teulu urddasol Middletoniaid y lle hwnw. Ar farwolaeth ei dad, gwnaed Syr Thomas yn Llywodraethwr Castell Dinbych, yr hon swydd a ystyrid ar y pryd, fel un o urddas ac ymddiried mawr. Er mai fel Normaniaid estronol y daeth teulu Middleton gyntaf i Ddyffryn Clwyd, eto yr oeddynt, trwy gydymgymysgu mewn priodasau â'r brodorion, a mabwysiadu arferion a defodau y wlad, wedi dyfod yn Gymry trwyadl erbyn amser Syr Thomas, a'i frodyr. Cyflawnodd Gwilym Canoldref gymwynas bwysig i'r genedl Gymroaidd, trwy gyfieithu Llyfr y Psalmau ar fesur cerdd, a'i frawd, (Syr Thomas), a ddygodd allan dri argraffiad o'r holl Feibl, at wasanaeth ei gydgenedl. Pan yn uchder ei rwysg a'i lwyddiant yn Llundain, ymddengys ddarfod i'r barwnig anrhydeddus ystyried sefyllfa druenus gwlad ei enedigaeth, yr hon oedd ar y pryd, braidd yn gwbl amddifad o Air y Bywyd. Rowland Heilin, un o henaduriaid Llundain, a gynnorthwyodd Syr Thomas i gyflenwi yr angen am Feiblau yn y Dywysogaeth; a chyhoeddasant argraffiad ehelaeth, at wasanaeth y tlodion yn arbenig, yn y flwyddyn 1630; ac, fel yr awgrymwyd eisoes, dilynasant hyny yn fuan gyda dau argraffiad arall. O herwydd y gymwynas ysbrydol hon, cawn Stephen Hughes, yn ei ragymadrodd i "Lyfr y Ficer," yn gwneyd y sylwadau canlynol:—"Yr wyf yn dymuno o'm calon ar Dduw, ar fod i bob bendith ysbrydol a thymmorol, ddisgyn ar bob un o hiliogaeth Syr Thomas Middleton, yn Ngwynedd, neu un lle arall. Rhodded Duw iddynt fendithion aneirif, fel tywod y môr, fel glaswellt y ddaear, ac fel sêr y nefoedd. A bydded i bob un yn Nghymru ag sydd yn caru Duw, ac yn hiraethu am iachawdwriaeth eneidiau anfarwol, gyduno i gyhoeddi o'u calon, Amen, ac Amen, boed felly. O Arglwydd grasol, bendithia eppil Syr Thomas Middleton, a bydded ei enw dros byth yn anrhydeddus." Hawdd, yn ddiau, oedd gan bob Cristion ystyriol ymuno yn neisyfiadau yr hen lenor brwdfrydig, Stephen Hughes, ar ran gwehelyth cymwynaswr mor dda ag ydoedd Syr Thomas Middleton. Mab i'r Syr Thomas hwn oedd yr ail farwnig o'r un enw. Ond yr oedd y mab yn dra gwahanol i'r tâd yn ei dueddiadau. Tra mai masnach a chrefydd a gymerai y tâd fel gwrthddrychau ei hoffder, ymhyfrydai y mab yn nghelfyddyd waedlyd y fidog, y cleddyf, a'r bŵa; a "Syr Thomas Middleton y rhyfelwr" y gelwid ef. Cynnrychiolai y Syr Thomas olaf hwn sir Ddinbych, yn y Senedd a ddaeth i wrthdarawiad â'r Brenin Siarl I. Cymerodd blaid y Senedd, ac ymarfogodd i ymladd yn erbyn lluoedd y Brenin. Rhoddodd Cromwell iddo swydd anrhydeddus yn myddin Werinol Gwynedd; a Syr Thomas, a Syr William Brereton, a lywyddent yr ymgyrch llwyddiannus yn erbyn Castell Holt, yn y flwyddyn 1643. Cymerodd ran bwysig hefyd yn narostyngiad Croesoswallt, a goresgyniad Trefaldwyn, y flwyddyn ddilynol. Ond nid hir y parhaodd y cydgordiad rhwng Syr Thomas Middleton a'r Senedd; canys yn y flwyddyn 1648, yr awdurdodau a farnasant yn angenrheidiol ei osod o dan lŵ, a meichniaeth o ugain mil o bunnau, na byddai iddo aflonyddu yr heddwch. Am ystod y deng mlynedd dilynol, efe a arhosodd mewn di-nodedd a thawelwch; ond mynai y blaid lywodraethol wgu arno, a'i flino gyda sarhâd diachos yn barhaus. Yn y flwyddyn 1658, y driniaeth annheilwng a dderbyniai oddiar ddwylaw y rhai a wasanaethasai efe mor effeithiol gynt, a gyffrodd natur Syr Thomas i'r fath raddau, fel yr ymunodd â Syr G. Booth, mewn ymgyrch er ceisio adfer y freniniaeth yn mherson Siarl II. Booth a Middleton a lwyddasant i feddiannu castell a dinas Caerlleon; ond y Cadfridog Lambert a ddaeth yn fuan ar eu gwarthaf, gan eu gorchfygu, gwasgar eu byddin, a chymeryd Syr G. Booth yn garcharor. Llwyddodd Syr Thomas Middleton i encilio gydag ychydig filwyr i Gastell y Waun; ond buan y dilynodd Lambert ef yno hefyd, gan warchae ei balas castellaidd, a thori holl goed ei barc, i'w gwerthu er budd y Senedd. Wedi ymdrech fer, bu raid i Syr Thomas roddi y castell hefyd i fyny, a llwyr ymostwng i arfogion annorfod y pendragon dihafal Cromwell.

**MIDDLETON,** William, neu Gwilym Canoldref, oedd drydydd mab Richard Middleton o Ddinbych, a brawd i Syr Thomas, Syr Hugh, a Ffowc Middleton. Amcanodd ei dad ei ddwyn i fyny i'r offeiriadaeth, a chyda'r bwriad o'i gyfaddasu i'r swyddogaeth sanctaidd, anfonwyd ef i dderbyn yr addysg fwyaf uchelryw, yn hen brif-gadair dysg, yn Rhydychain. Ond er fod natur William yn llawn o'r eneidnwyd farddol, sydd a'i thuedd gyffredin i ymhyfrydu yn llwybrau tawel hedd, o dan nawdd Duw a'i dangnef, eto efe a wrthododd fuchedd efengylydd, gan ddewis yn hytrach yrfa helbulus a pheryglus milwr. Ymunodd yn gyntaf â'r fyddin; ond gan fod bywyd tir-filwr yn rhywbeth rhy unffurf a gwastadlyfn yn ei olwg, efe a ymofynodd, ac a gafodd yn y llynges, le cyfaddasach i ddadblygu ei alluoedd beiddgar, a boddhau ei anianawd ramantus. Ei fedrusrwydd a'i eofndra dibrin, a'i dygasant yn ebrwydd i sylw llyngeswyr llygaidgraff y Frenines Elizabeth, y rhai a'i pennodasant yn llywydd un o longau mwyaf a rhagoraf y cyfnod. Efe a lywyddai un o'r chwe' llong a anfonwyd, yn y flwyddyn 1591, o dan brif lywyddiaeth y Llyngesydd Howard, i gyfarfod adran o lynges yr Hispaen, ar ei dychweliad o'r Amerig, yn llwythog o aur, arian, ac eiddo gwerthfawr o bob desgrifiad. Philip II., "Armada" yr hwn a ddinystriasid dair blynedd yn flaenorol gan gydweithiad yr ystorm, a chyfrwysdra y Prydeinwyr, a fu rŷ ofalus i gynllwynion ei hen orchfygwyr y waith hon. Daeth i ddeall yn brydlon am fwriadau a chynlluniau y Prydeiniaid, a danfonodd allu deg cymaint, i warchod ac amddiffyn ei lynges ddychweledig. Y Cadben Middleton a anfonwyd gan y Llyngesydd Howard i wylio symudiadau yr Hispaeniaid. Yntau a'u dilynodd, ac a'u gwyliodd o hirbell, dros yspaid tridiau, ac yna a ddychwelodd i rybuddio ei lyngesydd fod y gelynion yn meddu, o

Digitized by Google

leiaf, ddeg cymaint o nerth ag a oedd at alwad y Llyngesydd Prydeinig. Fel yma y gwaredwyd adran fechan y Llyngesydd Howard, rhag dinystr sicr a diamheuol. Ond, er uched clodydd haeddiannol y môr-filwr gwrolfryd hwn, eto perthyn iddo ef glodydd uwch nag a ddichon bidog, na chleddyf, na magnel, ei enill i'r dewrfrydiccaf o'u plant. Bydd ei enw fel "Gwilym Canoldref," y bardd, yn rhwym o oroesi ei glodydd milwrol. Buasai ei fydryddiad cywrain o Lyfr y Psalmau yn unig, yn ddigon i ddiogelu iddo, o leiaf, anfarwoldeb gogyhyd â'r Gymraeg. Y mae ei gyfieithiad wedi ei wneyd yn ol manylaf ddeddfau cyfundrefn gaeth y gynghanedd Gymreig; ond er hyny, efe, trwy ei fawr fedrusrwydd, a'i feistrolaeth ar yr iaith wreiddiol, yn ogystal a'r Gymraeg, a lwyddodd i wneyd meddwl yr Ysbryd Glân yn dra eglur. Wrth gwrs, y mydrau caethion a chyfyng a ddewiswyd ganddo, a lesteiriasant lawer ar ddefnyddioldeb ei gyfieithiad, i'r cyffredin, a'r annysgedig. I'r cyfryw rai, tra rhagorach, a buddiolach, cyfieithiad syml yr Archddiacon Prys. Y Dr. Sion Dafydd Rhys, yn ei ragymadrodd i'w Rammadeg, a gydnebydd ddarfod iddo dderbyn cynnorthwy gwerthfawr gan "y milwr calonocaf ar fôr ac ar dir, a'r mwyaf cyfarwydd mewn barddoniaeth Gymreig—Gwilym Canoldref." Ymddangosodd hefyd awdl o waith ein bardd, ar y "pedwar mesur ar hugain, y pedair cynghanedd, a'r cymeriadau oll, mewn Caniad o un pennill-ar-ddeg," yn yr argraffiad cyntaf o Rammadeg y Dr. Rhys. Gan fod Grammadeg S. D. Rhys wedi ei gyfansoddi, gan mwyaf, yn Lladin, ac felly yn anghyfaddas i hyfforddi y Cymry uniaith, cyhoeddodd y Cadben Middleton "Lyfr Barddoniaeth" o'i waith ei hun, yn y flwyddyn 1593, yn mha un yr "eglurid pedwar perthynasau cerdd, sef Cymhariad, Odl, Cynghanedd, a Mesur." Y mae yn awr ger ein bron, argraffiad o'r gwaith hwn, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1710, yn nglŷn â "*Flores Poetarum Britannicorum*" y Dr. Dafis o Fallwyd, gan D. Lewys, Llanllawddog. Bu Gwilym Canoldref hefyd yn gyfranog yn nghychwyniad y gwaith enwog a elwir "Egluryn Ffraethineb," pa un a gwblhawyd trwy ymdrechion unol y dysgedigion William Salsbri, a Henri Perri. Ond ei brif waith ef, ydyw y Salmau Cân, y rhai a gadwant ei enw fyth yn glodfawr, er gwaethaf esgeulusdra cywilyddus ei gydwladwyr, yn gadael i "fan fechan ei fedd," gael ei hanghofio. Efe a orphenodd y gwaith dysgedig a llafurfawr hwn, mewn Ynys o'r enw Scutum, yn yr India Orllewinol; ar y 24ain dydd o Ionawr, yn y flwyddyn 1595. Ni bu efe byw nemawr o amser ar ol hyn; canys yr oedd wedi marw pan gyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'r gwaith, gan Thomas Salisbury, yn y flwyddyn 1603. Bardd Mawddach a anrhegodd ein cenedl âg ail argraffiad o'r gwaith, yn y flwyddyn 1827, o dan olygiad y cerddfeirniad trylen, Gwallter Mechain. Y mae yn rhaid fod William Middleton yn un o ddynion mwyaf talentog, dysgedig, ac ymroddgar yr oesoedd. Myfyriai ef fawrion bethau Duw, ac ymroddai i gyfoethogi llên ei genedl, pan yn marchogaeth yr ystorm ar y cefnfor, neu yn gwylio y gelynion ar ynysoedd pellenig a barbaraidd India y Dwyrain.

**MILES**, JOHN, oedd weinidog y Bedyddwyr yn Ilstone, ger Abertawe. Yr oedd yn fab i Walter Miles, yr hwn oedd yn byw ar gyffiniau Sir Henffordd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1621. Aeth i'r Athrofa i Rydychain pan yn bymtheg oed. Nid yw yn hysbys pa hyd y bu yn yr athrofa, a pha un a gafodd efe ei raddio yno a'i peidio. Y mae ei hanes o'r pryd yr aeth i'r athrofa, hyd y flwyddyn 1649 yn eisiau. Y flwyddyn hono aeth i Lundain gyda'i gyfaill Thomas Proud, lle yr unasant a chymdeithas o Fedyddwyr, a gyfarfyddent yn *Glass House, Broad Street*. Pan ddychwelasant i Gymru, ffurfiasant eglwys o Fedyddwyr yn Ilstone, ger Abertawe, ar y dydd cyntaf o Hydref, 1649. Yr ydym yn cael enw Mr. Miles, fel Profiedydd, yn y weithred er lledaenu yr efengyl yn Nghymru. Y mae hyn yn profi ei fod yn weinidog o barch ac uchel gymeradwyaeth gyda'i frodyr. Ymddengys iddo fod yn nodedig o weithgar a llwyddianus, o'r flwyddyn 1649, i 1660, yn lledaenu ei olygiadau neillduol ar fedydd a chymundeb caeth, drwy holl ranau gorllewinol Deheudir Cymru. Ysgrifenodd lawer o lythyrau at yr eglwysi, i'w cyfarwyddo yn eu bucheddau a'u hathrawiaeth. Edrychid arno yn hyn fel blaenor yn mysg deg neu dri a'r ddeg o weinidogion o'r un golygiadau; a thrwy eu cydunol ymdrechiadau, yr oedd pump o eglwysi wedi eu ffurfio a'u huno yn un gymdeithasfa. Ymddengys i Mr. Miles allu dal ei fywioliaeth yn Ilstone, fel gweinidog y plwyf hyd yr adferiad. Er ei holl lafur a'i ofalon yn sefydlu a threfnu, ynghyd a ffurfio, bwriwyd ef allan o'r eglwys yn y flwyddyn 1660. Yn fuan wedi hyn, o herwydd poethder yr erlidigaeth yn y wlad hon, efe a symudodd i America, yn nghyda llawer o aelodau ei eglwys; a sefydlasant yn Rehoboth, yn nhiriogaeth Massachusetts, lle y sefydlodd eglwys yn 1663. Ond yno nid oedd allan o afael erlidigaeth yn gwbl, oblegid ar yr ail o Orphenaf, 1667, yn y llys a gynelid yn Plymouth, o flaen Thomas Prince, llywydd, ac ereill, Mr. Miles a Mr. Brown, am droseddu ar iawn drefn, drwy osod i fyny addoliad cyhoeddus yn anwybodus, ac heb ganiatad y llŷs, ac aflonyddu heddwch y lle, a ddirwywyd i'r swm o bum punt yr un, a Mr. Tanner i'r swm o un bunt; a barnwyd fod eu harosiad yn Rehoboth yn niweidiol i heddwch yr eglwys hono, ni chaniata y dref hono iddynt, ac am hyny y maent yn gorchymyn i bawb a berthynent i'r addoliad, i ymgadw yn hollol rhag cyfarfod yn y lle neu'r cwmwd hwnw, o fewn un mis; ond ar yr amod iddynt symud eu cyfarfod i ryw le arall, lle na byddai iddynt ddrygu unrhyw eglwys arall, a rhoddi iddynt hwy unrhyw foddhad rhesymol am eu hegwyddorion, nid oeddynt yn gwybod llai na wnai y llywodraeth hono ganiatau iddynt wneud hyny. Ar y 30ain o Hydref nesaf, y llys a ganiataodd iddynt ddarn mawr o dir, ar yr hwn yr adeiladasant dref a alwent, Abertawe. Rhanodd Mr. Miles ei lafur gweinidogaethol rhwng Abertawe a Boston; ond yn y flwyddyn 1678 efe a sefydlodd yn Abertawe, lle y bu farw Chwefror 3, 1683. Y mae ei goffadwriaeth yn parhau yn werthfawr yn mysg y Bedyddwyr. Dywedir iddo unwaith wedi cael ei ddwyn o flaen yr ynadon, erfyn am Feibl, ac ar ei waith yn ei gael, efe a drodd at y geiriau hyny yn Job xix. 28; "Eithr chwi a ddylech ddywedyd, paham yr erlidiwn ef; canys gwreiddyn y mater a gaed ynof." Ac wedi iddo eu darllen, efe a eisteddodd i lawr; a chafodd y geiriau y fath effaith dda ar eu meddyliau, nes eu tueddu i ymddwyn tuag atto gydag hynawsedd, os nad gyda charedigrwydd. Ei fab a ddychwelodd i Loegr, a'i ŵyr, Mr. Samuel Miles, oedd weinidog



Digitized by Google

esgobyddol yn Boston, yn y flwyddyn 1724. Y mae Dr. Cotton Mather yn enwi Mr. Miles yn mhlith duwiolion America, ac yn dywedyd fod iddo air da gan yr holl eglwysi yn y wlad hono.

**MILFORD.** Gwel ABERDAUGLEDDAU.

**MILFORD NEWYDD**, neu NEYLAND, pentref a phorthladd yn mhlwyf Llanstadwel, ar un o freichiau arfor eang Aberdaugleddau, swydd BENFRO. Saif ar gyfer *Paterchurch*, a Phwynt Hobb, 3½ milltir i'r gogledd-orllewin o Benfro, a 4½ milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Aberdaugleddau. *Neyland* oedd hen enw Normanaidd y lle; ond y trigolion, yn ddiweddar, mewn awydd i gystadlu â *Milford* (Aberdaugleddau), a gyfnewidiasant yr enw i "Milford Newydd." Y mae y lle yn ymddadblygu, ac yn ymeangu yn gyflym; a dygir yn mlaen yma drafnidiaeth forawl dra phwysig. Ceir agerddlongau yn rhedeg yn rheolaidd, oddiyma i *Waterford*, yn yr Iwerddon.

**MILLMAN**, WILLIAM, a fwriwyd allan o blwyf Magwyr, sir Fynwy. Nodir ef yn y "*Lambeth MSS.*" fel "*Sabbatarian* Baptist," sef y Bedydwyr a gadwant y seithfed dydd yn Santaidd. Dr. Calamy a ddywed iddo ymsefydlu ryw flyneddau wedi ei fwrw allan, yn Nhintern, ac iddo farw yno. Cymerodd ei farwolaeth le rywbryd ar ol y flwyddyn 1690, oblegid sonir am dano y pryd hyny, fel cynorthwywr i Mr. Quarrell yn Llantrisant, a Llangwm.

**MISCYN**, trefgordd yn mhlwyf Llantrisant, undeb Caerdydd, a chantref Miscyn, swydd FORGANWG. Saif 5 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Cowbridge, neu Bont Fôn. Tybir fod yma unwaith le o bwysigrwydd, gan fod yr holl gantref wedi ei enwi ar ol y drefgordd. Yma y treuliodd y llenor, a'r gwladgarwr, Alaw Goch, derfyn ei oes wasanaethgar.

**MOAT LANE**, treflan yn mhlwyf Llanwnog, swydd DREFALDWYN, 4½ milltir i'r de-orllewin o'r Drefnewydd. Yn ngorsaf y lle hwn y cyferfydd cledrffordd y *Cambrian*, â llinell Machynlleth ac Aberystwyth; ac nid ydyw glanau yr Hafren, a hen ffordd Rufeinig Sarn Sws, yn neppell.

**MOAT NEWYDD**, plwyf, a phentref, yn nosbarth Narberth, swydd BENFRO. Saif ar lan yr afon Cleddau, 3½ milltir i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o *Clarbeston Road*, a 7 milltir i'r gogledd orllewin o Narberth. Y mae yma lythyrdy, o dan swyddfa ganolog Hwlffordd. Erwau, 3101. Gwerth ardrethol, 1995*p*. Poblogaeth, 311. Annedd-dai, 61. Palasdy y *Moat House* yn y lle hwn, sydd anneddle odidog, perthynol i deulu *Scourfield*, un o ba rai a gynnrychiola y sir yn y Senedd bresennol. Gwnaeth y Fflemingiaid amgaerfa yma, gyda dyfr-ffos o'i hamgylch, yn amser Harri II.; ac y mae o fewn y plwyf, olion hen gaerfa Rufeinig, eang, a chadarn. Y fywioliaeth sydd ebrwyadaeth, gwerth 130*p*. y flwyddyn, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Y noddydd ydyw W. H. Scourfield, Ysw.

**MOCHDREF**, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo-yn Rhôs, Cwmwd Uwch Dulas, swydd DINBYCH, 3½ milltir i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Gonwy. Gwel LLANDRILLO.

**MOCHDREF**, plwyf yn Nghwmwd Ceri, Cantref Maelienydd, (a elwir, weithian hefyd, Cantref Trefaldwyn); swydd DREFALDWYN. Saif yn agos i'r Hafren, a cherllaw y llinell derfyn rhwng siroedd Maldwyn a Maesyfed, 3 milltir i'r de-orllewin o'r Drefnewydd. Cynnwysa y plwyf drefgyrdd Llan Mochdref, ac Esgair Geiliog. Erwau, 5025. Gwerth ardrethol, 2963*p*. Poblogaeth, 526. Annedd-dai, 95. Y fywioliaeth sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Llanelwy; gwerth 86*p*. y flwyddyn. I Esgobaeth Ty Ddewi y perthynai plwyfydd Mochdref, a Cheri, hyd deyrnasiad Gwilym y Pedwerydd, pryd yr unwyd hwy âg Esgobaeth Llanelwy. Gwnaed ymgais i ysgar y ddau blwyf hyn oddiwrth Dy Ddewi, yn amser Giraldus Cambrensis; ond rhoddodd Giraldus ei alluoedd rhyfeddol ar waith, i wrthwynebu y cynllun; ac efe a fu lwyddiannus. Yn y flwyddyn 1287, rhoddodd Thomas Beck, Esgob Ty Ddewi, brif ddegymau y plwyf hwn, yn nghyda'r eiddo tri-ar-hugain o blwyfydd ereill, yn waddol i Goleg St. Mair, ger Abergwili, swydd Gaerfyrddin. Harri VIII. a drosglwyddodd yr un degymau i Goleg Crist, Aberhonddu. Yr eglwys sydd gysegredig i'r Holl Saint; ac y mae ei hadeiladwaith o'r dullwedd Seisnig boreuol. Ar bwynt o dir a elwir y Graig, y mae gweddillion amddiffynfa filwrol fechan, nodedig o gadarn; a cherllaw Melin y Graig, y mae olion amlwg, gwersyllfa Rufeinig. Yr oedd hefyd ffordd Rufeinig, yn croesi bryniau Mochdref, i sir Faesyfed.

Mochdref a Cheri a ffurfient Arglwyddiaeth henafol Fferegedd, pa un a roddodd Elystan Glodrydd i'w ail fab, Morgeneu. Hyd y flwyddyn 1796, yr oedd y rhan fwyaf o dir y plwyf hwn yn rhydd, ac heb ei amgau. Yn y flwyddyn a nodwyd, cafwyd deddf seneddol i awdurdodi amgauad y cwbl. Y mae yma amryw fryniau uchel, llethrau y rhai a fuont unwaith yn orchuddiedig gan goed. Y maent weithian, wedi eu llymhau yn ddirfawr; ond er hyny, y mae y fro eto, yn gyflawn o olygfeydd rhamantus a godidog.

**MOCHRAS**, treflan yn mhlwyf Llandanwg, gerllaw aberiad yr afon Artro, 3½ milltir i'r de-ddeddwyrain o Harlech, swydd FEIRIONYDD.

**MOCHROS**, treflan yn mhlwyf Llanarth, 4½ milltir i'r de-orllewin o Aberaeron, swydd ABERTEIFI. Cynnwysa 350 o drigolion.

**MODRON**, merch Afallach, a gwraig Urien Rheged.

**MODRYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llanspyddyd, swydd FYCHEINIOG. Saif ar lan yr afon Tarrell, wrth odreuon Bannau Brycheiniog, 2 filltir i'r gorllewin o dref Aberhonddu. Erwau, 4774. Gwerth ardrethol, 1087*p*. Poblogaeth, 117. Annedd-dai, 20.

**MOEDDYN** (CASTELL), gwersyllfa Brydeinig dra henafol, yn agos i gaerfa fawr Clogwyn Penygaer, yn ngorllewinbarth CEREDIGION.

**MOEL**, gair Cymraeg yn arwyddo llwm, teg, crwn-lyfn, llyfn-lethrog, crwn-ben; ac a ddefnyddir fel blaenddod mewn enwau mynyddoedd o'r desgrifiadau a nodwyd.

**MOEL AELIAU**, neu MOEL EILIO, un o fynyddoedd mwyaf adnabyddus cadwyn Eryri. Saif 4½ milltir i'r gogledd-orllewin wrth orllewin o'r Wyddfa, a 5 milltir i'r de-ddwyrain o Gaernarfon. Y mae uchder coryn crwn Moel Aeliau yn 2377 o droedfeddi; ac nid oes yn Eryri ond dau neu dri o fynyddau uwch. Llethrau gogleddol, gorllewinol, a deheuol y foel hon, ydynt nodedig o lyfnion a chydrywiol â'r enw "Moel." Gwisgir yr ochrau a nodwyd hyd y coryn, gan fân-wellt trwchus a chwtta, ar ba un yr ymbortha diadellau lluosog o ddefaid perthynol i amaethwyr Nant y Bettws. Ond nid oes argoel o lyfnder ar ochr ddwyreiniol y mynydd; canys yma,

Digitized by Google

uwchlaw Cwm Dwythwch, y mae serthedd a hagredd uthrol, yn tystio ddarfod i'r fro, mewn rhyw oes bell yn ol, deimlo oddiwrth ddirdyniadau naturiol cryfion iawn. Y mae y golygfeydd a geir oddiar ben y foel uchel hon, yn amrywiol, a mawreddog. Ar glirddydd teg, gwelir yr oll o Ynysoedd Môn, a Manaw, a'u hymylon yn amgylchynedig gan y môr gloew. Dros Fôn, gwelir mynyddau Wicklow, yn yr Iwerddon; ac i'r cyfeiriad deheuol, caiff y llygad ymwibio dros Benrhyn Lleyn, a gororau Meirion, nes ymgolli yn Môr Cantre'r Gwaelod. Hawdd i'r teithiwr o Gaernarfon i Feddgelert, adnabod Moel Aeliau, gan mai dyma'r mynydd cyntaf a gyferfydd ar ei aswy, wedi myned o hono trwy bentref y Waenfawr, a thros bont, ac heibio i Eglwys Bettws Garmon. Nant y Bettws y gelwir y fynedfa gul rhwng godreu y Foel a godreu y Mynydd Mawr, a Chastell Cidwm. Trwy y nant hon y llifeiria y Wyrfai, o Lyn Cawellyn, at lanau yr hwn y cyrhaeddir ar derfyn de-ddwyreiniol y nant. Y dyddiau presennol, y mae Moel Aeliau yn dechreu rhoddi allan ei chyfoeth mŵnurol. Darganfyddwyd fod ynddi gyflawnder o haiarn rhagorol, amser maith yn ol, a dechreuwyd ei gyfodi gan gwmni hyderus ar y pryd. Gostyngiad mawr yn mhris yr haiarn, yn nghyda'r draul drom o gludo y mwnur mewn meni i borthladd Caernarfon, a fu foddion i ddyrysu yr anturiaeth dros amser maith. Ond y bywiogrwydd diweddar yn marchnad y mwnuron, a fu yn foddion i dynu sylw at y lle drachefn; ac y mae yn awr, foneddwr Seisnig o'r enw Mr. Shancklin, yn cario yma weithfeydd yn mlaen ar raddfa eang. Yn uwch i fyny yn y Nant, ar ochr y Foel, y mae cwmni a elwir "Cwmni Bulkeley," yn agor llech-gloddfa, gyda rhagolygon addawol am lwyddiant ehelaeth. Y mae cwmni arall, ar fedr gwneyd cledrffordd gul, o Gaernarfon i'r lle; a phan gwblheir yr amcan hwnw, diau y bydd dadblygiad ehelaeth ar adnoddau mwnurol Moel Aeliau, a Nant y Bettws.

**MOEL ARTHUR**, un o big-dyrau naturiol uchaf Bryniau Clwyd, ar derfyn siroedd Dinbych, a Fflint, 6 milltir i'r dwyrain o dref Dinbych. Uchder y Foel hon ydyw 1491 o droedfeddi. Ar ei phen y mae hen wersyllfa Brydeinig eang, yn amgylchynedig â dwy ddyfrffos ddofn. Dyfeiswyr rhai o'n traddodiadau gwylltion, a ddywedasant ddarfod i Arthur a'i luoedd wersyllu yma, a galwyd y mynydd Moel Arthur. Y mae ffordd balmantedig yn cyfeirio o'r hen amddiffynfa uchod tua Llys-dŷ anhunedd, yn agos i bentref Nannerch.

**MOEL DDOLWEN**, hen wersyllfa Frytanaidd, ar gyfer caerfa y Garddau, 7 milltir i'r gorllewin o Lanfair-Caereinion, swydd Drefaldwyn.

**MOEL ERYR**, pwynt uchaf y Mynyddoedd Prisilaidd, yn ngogleddbarth Brycheiniog.

**MOEL FAMAU**, yr uchaf, a'r hynotaf o Fynyddoedd Cadwyn Clwyd; ar derfynau siroedd Dinbych a Challestr. Saif 4 milltir i'r de-orllewin o'r Wyddgrug. Uchder y Foel ydyw 1845; ac er nad ydyw namyn ychydig dros haner uchder y Wyddfa, eto edrychir arni fel prif addurn talaeth Powys, a chyfeiria y brodorion ati, gyda'r un edmygedd ag y cyfeiria Llanciau Eryri at eu Gwyddfa. Gwŷr Clwyd, wrth gyfeirio at rywbeth anmhosibl, a ddywedant—"Hawdded i chwi ddymchwel y Famau â throsol;" a hen ofyniad yn Nghallestr ydyw—"Pwy a naid dros Foel Famau?" Un o'r beirdd a seiliodd ddywediad grymus, mewn dwy linell anfarwol, ar Foel Famau, yn amser yr ymgyrch etholiadol rhwng yr Anrhydeddus E. M. Lloyd Mostyn (yr Arglwydd Mostyn presennol), a Syr Stephen Glynn. Gan gyfeirio at ddiogelwch eisteddle seneddol Mr. Mostyn, dywedodd y bardd:—

"Daw'r Famau fawr i'r llawr yn llyn
Wedi i Fflint wadu'i phlentyn."

Pan gyrhaeddodd y Brenin Sior y Trydydd derfyn yr haner canfed flwyddyn o'i deyrnasiad, boneddigion swydd Callestr a adeiladasant "Dŵr Jubili," er dathlu yr amgylchiad dyddorol, ac eithriadol yn hanes gyrfaoedd Penteyrniaid. Y diweddar Arglwydd Kenyon, Prif Ynad Llŷs Mainge y Brenin, oedd y prif gychwynydd yn y symudiad. Yr oedd y Tŵr yn 150 o droedfeddi o uchder, ac wedi ei wneyd ar ffurf Byramidaidd. Oddiarno, ceid golygfa gyflawn ar Ddyffryn eang a chynnyrchiol Clwyd, mynyddoedd Arfon, Cadair Idris, a bryniau Cumberland. Mewn Eisteddfod a gynnaliwyd yn y Wyddgrug, ar ddydd Calan, 1851, rhoddwyd gwobr am yr englynion goreu i'r Tŵr hwn, pryd y dyfarnodd y cerddfeirniad dihafal Eben Fardd, Mr. A. J. Brereton (Andreas o Fon), yn fuddugol. Wele rai o'r englynion:—

Tŵr yn goron i'n teyrngarwch—ydyw,
Mae'n adail o harddwch;
Tŵr deiliaid, er llaid a llwch,
Bery'n gaerau breingarwch.

Adail yr oes, a deil i'r hin,—a'i gant
Mewn gwyntoedd ysgethrin,—
Tŵr abl yw, Tŵr Iubil in',
Tra bryniau—Tŵr y Brenin.

Yn ei furiau cofiwn fawredd—ein Tŵr,
Un teg ar ei orsedd;
Dirus o hyd ar ei sedd,
Ymlonai bum' deng mlynedd.

Tra gŵr llên ac awenydd,—cofir
Y cyfiawn deyrn-lywydd;
Coffa ar Foel Fama' fydd
O'r tradoeth Sior y Trydydd.

Y mae rhan fawr o'r adail wedi ei dymchwelyd mewn ystorm gref rai blyneddoedd yn ôl; a gresyn na byddai i foneddwyr Powys ei adgyweirio.

**MOEL FELIARTH**, trefgordd yn mhlwyf Llangadfan, swydd Drefaldwyn. Poblogaeth, 257. Gwel Llangadfan.

**MOEL FENLLI**, mynydd yn ne-ddwyreinbarth swydd Dinbych, 1½ milltir i'r de-ddwyrain o Ruthyn. Uchder, 1491 o droedfeddi.

**MOELFRE**, trefgordd yn mhlwyf Llandefaelog, Cantref Cydwely, undeb a swydd Gaerfyrddin. Saif 3 milltir i'r deau o dref Caerfyrddin; a chynnwysa oddeutu 300 o drigolion. Ymddolena yr afon Towy heibio y lle; a chyfrifir y drefgordd yn un brydferth a thra dymunol i'w phreswylio.

**MOELFRE**, treflan ar y gogledd-ddwyrain i Gaerfyrddin, a 6½ i'r gogledd o Landeilo-fawr, ar lan yr afon Cothi.

**MOELFRE**, trefgordd yn mhlwyf Llansilin, swydd Dinbych, yn cynnwys poblogaeth o 170. Saif 7½ milltir i'r de-orllewin o Gastell y Waun.

**MOELFRE**, gallt, neu fronell, yn ngogledd-barth Meirionydd, 2 filltir i'r de-ddwyrain o Harlech. Ceir oddiamgylch y lle, luaws o garneddau mawrion.

Digitized by Google

**MOEL GWYDION,** mynydd yn mharth gogledd-orllewinol MEIRIONYDD, heb fod yn neppell o Ffestiniog. Y mae yma hen wersyllfa Frytanaidd, ag iddi dri o furiau cedyrn. Y mae cyfanrwydd y muriau hyn yn y dyddiau presennol yn wrthddrych syndod, canys ychydig o'r cyfryw greiriau dyddorol a adawyd heb eu llwyr ddinystrio gan ddireidi annystyriol dynion anwybodus, a gwanc ystormydd canrifau. Tybir mai Gwydion ap Don a adeiladodd y gaerfa yma, ac mai dyna a achosodd alw y mynydd yn Foel Gwydion.

**MOEL HEBOG,** mynydd uchel yn ngwmwd Eifionydd, Cantref Dunodig, swydd GAERNARFON. Saif ddwy filltir i'r gorllewin-dde-orllewin o Feddgelert. Ymgyfyd crib y mynydd hwn i'r uchder o 2584 o droedfeddi; ac y mae yr olwg arno o bob cyfeiriad, yn fawreddog, a rhamantus. Ei ochrau sydd agenog, ac ysgythrog iawn, yn arddangos effaith gwegiadau ymnyddol natur, mewn oesau pell yn ol. Prin y mae yr enw "Moel" yn briodol i fynydd mor amddifad o bob llyfnder a thegwch gwedd. Hoff gan yr hebogiaid ymnythu yn agenau y mynydd hwn; a thyna paham ei galwyd gan yr hen Gymry, yn Foel Hebog.

**MOEL IFOR,** hen balas perthynol i deulu y Wyniaid, gerllaw Llanrhystyd, yn ngorllewinbarth CEREDIGION. Y mae y palas yn awr wedi ei ddarostwng i safle amaethdy cyffredin.

**MOEL MORFUDD,** mynydd 1767 o droedfeddi o uchder, yn neheubarth swydd DINBYCH, 4 milltir i'r gogledd-orllewin o Langollen.

**MOEL ORTHRWM,** sydd fynydd yn ngorllewinbarth MEIRIONYDD, 2½ milltir i'r gogledd-ddwyrain o Ddolgellau, a 5½ milltir i'r un cyfeirbwynt o Gadair Idris. Ymgyfyd ei grib i uchder o 1200 o droedfeddi; a cheir oddiarno y fath olygfeydd rhamantus ac amrywiol ar barthau Meirion, fel y cynghorir teithwyr i'w esgyn yn lle Cadair Idris, pan fydd y Gadair uchel-binaglog yn orchuddiedig gan niwl. Gosododd y diweddar Arglwydd Lytton, hynodrwydd arbenig ar y fro, trwy wneyd Parc Nannau, wrth droed Moel Orthrwm, yn brif ganolbwynt ei Ramant odidog ar "Arthur." Y mae ar y mynydd ragfuriau cedyrn o henafiaeth mawr, yn amgau olion nifer lluosog o "gyttiau," cyffelyb i "Gyttiau'r Gwyddelod" yn Llanrug, Arfon, a'r rhai a welir ar lethr Mynydd Caergybi, yn Môn.

**MOEL SIABOD,** mynydd uchel yn nwyreinbarth swydd GAERNARFON, 2½ milltir i'r de-ddeorllewin o Gapel Curig, a 6½ milltir i'r dwyrain o'r Wyddfa. Ymgyfyd y mynydd hwn i uchder o 2878 o droedfeddi. Odditano y mae Dyffryn Mymbyr, a Llyn y Foel; a chaiff yr ymdeithydd a gyflawna y caledwaith o ddringo i'w goryn, fwynhau rhai o'r golygfeydd gwylltaf a mwyaf mawreddog a rhamantus yn anian. Y mae yr ochrau gogleddol, a gorllewinol, o ffurfiad llyfn, a hawdd eu dringo; ond ar du y dwyrain, uwchben Llyn y Foel, y mae y serthedd mwyaf ysgythrog, ac arswydus. O herwydd ei uchder mawr, a'i ymddangosiad pigdyrog, desgrifiodd awdwr yr awdl odidog ar Fynyddoedd Eryri, y mynydd hwn fel y canlyn:—

"Moel Siabod yn mhalas wybyr—uchel led
Uwchlaw Dyffryn Mymbyr:
Tafod ein rhyddid difyr—yn siarad
A di ddirywiad fydoedd yr awyr."

**MOELWYN,** mynydd ar derfynau siroedd Arfon a Meirion, 3½ milltir i'r gogledd-orllewin wrth orllewin o Ffestiniog. Uchder ei goryn ydyw 2566 o droedfeddi. Y mae ei ochrau dwyreiniol, a gogleddol yn ysgythrog, piccellog, a pheryglus i'w hesgyn; ond gyda'r gwyliadwriaeth mwyaf, ac o dan ofal a chyfarwyddyd arweinydd cwbl hyddysg. Yr ithfaen galed, a'r llechfaen wasanaethgar, a ffurfiant grynswth y mynydd hwn. Yn mron y Moelwyn y mae llechchwarelau y Rhosydd, Croesor, Rhysgae, chwarel Cwmni y Moelwyn, ac amryw ereill, wedi eu cloddio.

**MOEL Y DON,** bâdfa, neu borthfa, ar y Fenai, rhwng Porthaethwy a Thal y Foel. Y mae y dramwyfa hon wedi bod mewn arferiad mawr er ys oesoedd. Glania y bâdau yn y Felinheli, ar ochr Arfon, ac yn Llanedwen, yn Môn. Dyma un o'r pwyntiau culaf ar y Fenai; a diau mai dyna a dueddodd Luke de Tanny, cadfridog anffodus Iorwerth y Cyntaf, yn y flwyddyn 1282, i'w ddewis fel y lle hwylusaf i geisio croesi yr afon, ar ei ddychweliad gyda'i filwyr o'r "Ynys Dywell." Yn agos i'r lle hwn hefyd y croesodd Agricola ei luoedd annorfod, pan yn myned i ail gonero yr Ynys, wedi i Scutonius Paulinus gael ei orfodi i ollwng gafael o honi. Llwyddasai Luke de Tanny i ddwyn yr oll o Fôn o dan rith-warogaeth i'r Brenin Seisnig, a dychwelai yn llawen ei ysbryd, ac ysgafn ei galon, i ymofyn cymeradwyaeth ei deyrn. Arweiniodd ei luoedd rhwysgfawr at Foel y Don, a gosododd bont o fadau dros yr afon, gan ddysgwyl y gallai groesi mewn diogelwch ar drai. Ond yr hen Gymry digllon, yn eiddigus o'u breiniau cenedlaethol, a wylient ei holl symudiadau mewn ymguddfa ar ochr Arfon; ac ebrwydded yr anturiodd Luke, a dau cant o'i wŷr, yn cynnwys dau ar bymtheg o foneddigion, a thri ar ddeg o farchogion, ar y bont o fâdau; a thra yr oedd y llanw yn ymgodi odditanynt, y Cymry a ruthrasant yn sydyn o'u hymguddfeydd, gan ymosod, gyda holl bybyrwch diwrthdro ein trâs ar y gelynion, a marwolaethu y mwyafrif o honynt â'r cleddyf, a hyrddio y rhelyw i'w boddi yn y weilgi drochionog. O farchogion, boneddigion, a dau can milwyr De Tanny, ni ddiangodd namyn un i fynegi tynged ei gymdeithion. Yr oedd hyn yn un o weithredoedd medrusaf a godidocaf y Cymry yn oes y gormesdeyrn Iorwerth.

**MOEL Y GAER,** coryn uchaf mynyddoedd Helygain, swydd Fflint. Saif 4 milltir i'r gogleddogledd-orllewin o'r Wyddgrug. Uchder Moel y Gaer ydyw 1050 o droedfeddi. Ar ben y Foel y mae hen gaerfa Brydeinig, mewn cyflwr da o gadwraeth. Ffurf y gaerfa sydd grwn, a'i thrawsfesur ydyw 588 o droedfeddi. Amgylchir hi gan ragfur cadarn.

**MOEL Y WYDDFA,** bryncyn uchaf y Wyddfa, a'r tir uchaf o fewn Prydain oll, ar y ddeau i'r afon Tweed. Y mae Moel y Wyddfa yn llawn 3571 o droedfeddi uwchlaw llanw y môr. I'r dyben o esgyn y coryn uchel hwn, teithia cannoedd o bobl bob haf o'r cyfandir, o'r America, a phob parth o Brydain. Y mae yma amryw gabanau wedi eu hadeiladu, er budd a chysur yr ymwelwyr, ac yn y cabanod hyny, ceir lluniaeth, a gorphwysle, am brisiau rhesymol bob amser yn ystod yr hâf. Am ddesgrifiad cyflawn o'r Wyddfa, ei golygfeydd dihafal, &c., gweler yr erthygl o dan y gair WYDDFA (Y).

**MOFONIAWG,** trefgordd yn mhlwyf Llannefydd, swydd DINBYCH. Saif ar lan yr afon Elwy, 5½ milltir i'r gogledd-orllewin o dref Dinbych.

**MOLFRE,** neu, yn hytrach, MOELFRE, treflan yn mhlwyf Llandefeilio, swydd GAERFYRDDIN,

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON. LON




Digitized by Google

Digitized by Google

DEHEUDIR CYMRU; 4¼ milldir i'r gogledd o Gydweli. Poblogaeth, 217.

**MON**, Ynys yn Ngogledd Cymru, yn amgylchedig gan Fôr yr Iwerddon, a môr-gaingc, neu afon, Menai. Yr afon Menai a wahana yr Ynys oddiwrth swydd Gaernarfon, a'r gweddill o dir Cymru. Safle yr Ynys ydyw, o'r graddau 53° 6′ hyd 53° 23′ Lled. Gogleddol, hyd 4° 20′ Hydr. Gorllewinol. Y parthleni (*maps*) cyffredin a gyfrifant fesuriad Môn fel 173,000 o erwau, sef ychydig ychwaneg na 270 o filltiroedd ysgwâr. Gwrthbrofir hyn gan fesurwyr y Llywodraeth, yn nglyn â'r adroddiad o gyfrifiad y boblogaeth am 1871, y rhai a ddywedant fod maint yr Ynys yn 193,511 o erwau ysgwâr. Oddigerth Meirionydd, Môn ydyw y swydd leiaf ei phoblogaeth yn Ngogledd Cymru. Diau y gwisgai pethau agwedd wahanol i hyn yn yr hen amser; canys y tebygolrwydd yw, fod nifer trigolion "Ynys y Cedyrn" yn dra lluosog trwy gydol yr oesoedd y bu hi yn brif achles a noddfa y gorthrymedigion Brytanaidd a ffoent iddi o bob cyfeiriad; a thra yr oedd prif athrofeydd ac uchel-demlau dysgawdwyr crefyddol cyntaf ein cenedl, yn sefyll rhwng ei llwyni cysegredig. Pa fodd bynag, o herwydd rhesymau hawdd eu hegluro, ceir poblogaeth Môn, yn yr oes hon, yn llai na'r eiddo yr un swydd arall o fewn terfynau Gwynedd a Phowys, oddigerth Meirion yn unig. Yn y flwyddyn 1801, pryd y gwnaed y cyfrifiad swyddogol cyntaf o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol, rhifedi trigolion Mon oedd 33,806, sef 15,775 o wrywod a 18,031 o fenywod. O'r cyfrifiad hwnw hyd 1851, sef dros yspaid haner can' mlynedd, parhaodd y nifer i gynnyddu; ond yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, tra y cynnyddodd poblogaeth sir gyfagos Caernarfon, agos i ddeugain mil, cymerodd lleihad cyflym le yn mhlith pobl Môn. Yn 1851, yr oeddynt yn rhifo 57,327. Erbyn 1861, syrthiodd y nifer i 54,609; ac erbyn 1871, gostyngodd y rhif i 51,040, sef 24,400 o wrywod, a 26,640 o fenywod. Yn y flwyddyn olaf a nodwyd, holl nifer y tai a drigiennid o fewn yr Ynys, oedd 12,170—llai o 158 nag yn adeg cyfrifiad 1861. Yn ystod yr un amser, cynnyddodd nifer y tai gweigion, i 336. Beaumaris ydyw yr unig fwrdeisdref gorfforiaethol o fewn yr Ynys; a Chaergybi, ac Amlwch, ydynt yr unig drefydd o'i mewn a feddant gyfryw awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Mewn adran bellach yn mlaen yn yr erthygl hon, nyni a gawn achlysur i sylwi ar raniadau henafol y wlad; a cheir gweled fod y rhaniadau hyny yn dra gwahanol i'r rhaniadau presennol. Rhenir hi yn awr i chwech o gantrefi, (y rhai a elwir ar enwau y cymydau henafol), yn nghyda dau is-ddosbarth rhaglawiol, dau ddosbarth heddynadol, 78 o blwyfydd a threfgyrdd, &c. I ddybenion heddgeidwadol, a rheolaeth y ffyrdd cyhoeddus, cyfrifir hi fel un dosbarth. Tra yr ydym eisoes yn ymwneyd â materion a ffeithiau diweddar, dichon mai dymunol a fyddai i ni, yn y fan hon, cyn dechreu trafod hanes ac amgylchiadau henafol yr Ynys ddyddorol, sylwi gyda gradd o fanylrwydd ar leihad hynod y boblogaeth yn ngwahanol barthau yr Ynys. Yn mwrdeisdref gorfforedig Beaumaris y cymer y lleihad mwyaf le. Yn y flwyddyn 1871, yr oedd rhifedi y tai trigiannol o fewn y fwrdeisdref yn llai o 51 na'r hyn ydoedd ddeng mlynedd yn flaenorol; ac yn y cyfamser, cynnyddodd nifer y tai gweigion 18. Poblogaeth y fwrdeisdref fechan a leihaodd 267, sef 108 o wrywod, a 159 o fenywod. Sefydlodd Iorwerth y cyntaf dair tref Seisnig yn Mon, ac Arfon; sef Conwy, Caernarfon, a Beaumaris. Y gorchfygwr a enwyd a waharddodd i'r Cymry fwynhau unrhyw fraint o fewn y trefydd hyn; ond er gwaethaf pob ymdrech i'w gadw i fyny, eto collodd Conwy, a Chaernarfon eu cymeriad estronol yn lled fuan; a gwirionedd awgrymiadol a dyddorol ydyw, fod Beaumaris, yr unig un o'r tair tref a gadwodd raddau o'i nodwedd Seisnig hyd yr oes hon, wedi dirywio, a myned fwy yn ei gwrthol, mewn masnach a phoblogaeth. Syr John Wynn o Wydir a ddesgrifiodd drigolion y trefydd hyn mewn triawd hynod;—Dywedai yr edrychid arnynt yn ei oes ef, fel "Boneddigion Conwy, Cyfreithwyr Caernarfon, a Masnachwyr Beaumaris." Oddeutu ugain mlynedd yn ol, clywsom hen ŵr call a chredadwy yn dyweyd, ddarfod i Beaumaris barhau i feddu cryn lawer o bwysigrwydd masnachol, hyd ddyddiau ei fachgendod ef, yn niwedd y ddeunawfed ganrif; ond erbyn hyn, ychydig ydyw nifer ei masnachwyr, a lleied ydyw swm ei thrafnidiaeth, fel mai gwastraff o gannoedd o bunnau yn flyneddol, ydyw cynnal tolldy o'i mewn. Oni buasai am bydferthwch hudoliaethus y dref, fel ymdrochle, a chyrchfa ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf, buasai yn beryglus i Beaumaris ddyfod, yn mhen haner canrif eto, yn gwbl anghyfanedd. Ond y mae iddi hi safle deg, morlan dymunol, heolydd prydferth, glanwaith, ac iachus; a hyderwn y sicrha y manteision hyn iddi eto ragolygon gwell, a thynged amgenach.

Gyda golwg ar y boblogaeth, yr un chwedl sydd i'w dyweyd am bob parth o Fôn, yn ystod y deng mlynedd rhwng cyfrifiadau 1861, ac 1871. Lleihad a gymerodd le yn y chwech is-ddosbarth cofrestriadol, sef Llangefni, Bryngwran, Llandyfrydog, Amlwch, Llanddeusant, a Chaergybi. Yn nosbarthiadau Caergybi, ac Amlwch, y cymerodd y lleihad mwyaf le. Ac i ba achos y priodolir hyn, tra y gwelir y fath gynnydd yn mhob parth o swydd gyfagos Arfon? Paham y diboblir "Mam Cymru?" Gellir cyfrif am y lleihad dirfawr yn Nghaergybi, o herwydd cwblhad y gwaith mawr o adeiladu y llongborth mawreddog, yn nghesail Mynydd Tŵr. Dygodd y gwaith hwnw gannoedd o deuluoedd i'r lle, y rhai ni's gallent gael moddion cynnaliaeth yno, wedi ei orpheniad. Yn Amlwch drachefn, ceir gweithfeydd copr Mynydd Parys, yn nghyda'r tawdd-dai, a'r ffwrneisiau, yn mha rai yr oedd cannoedd o bobl yn cael gwaith, wedi dyrysu i raddau ehelaeth. Y mae ymfudiaeth ar raddeg eang yn dyfod yn fater o angenrhaid amlwg, pan leiha y galwad am lafur mewn cymydogaeth, neu wlad. Ond lleihaodd rhifedi y bobl hefyd yn agos yr oll o blwyfydd gwledig Mon, yn ystod y deng mlynedd; ac eto tystia agwedd ddiwylliedig y tir, fod y goruchwylion amaethyddol yn cael eu cyflawni yn effeithiol. Rhaid, gan hyny, mai llafur peiriannol sydd yn cael ei ddwyn i arferiad, yn lle diwydrwydd dynol. Os felly, gallwn ymgysuro o herwydd nad ydyw debyg fod cyfoeth y wlad yn lleihau mewn cyfartaledd i'w phoblogaeth. Holl nifer y llongau o fewn porthladdoedd Mon, ar y 3ydd o Ebrill, 1871, oedd 73, sef 30 (13 o ba rai oeddynt lestri tramor) yn Nghaergybi, 17 yn Amlwch, ac 16eg yn Nghaergybi. Dengys hyn nad ydyw trafnidiaeth forawl yr Ynys, namyn cydmarol fychan; ac mai gyda y gledrffordd yr enfyn y Monwysiaid eu lluaws gwartheg duon, a'u defaid pasgedig, a'u meirch porthiannus, i farchnadoedd Lloegr; ac mai trwy yr un cyfrwng cludol hefyd, y

Digitized by Google

derbyniant eu nwyddau angenrheidiol o Loegr. Cymerasom lawer o drafferth i ymchwilio i ba gyfeiriad yr ymfuda y mwyafrif o'r Monwysiaid, pan yr ymadawant o'u gwlad enedigol, i ymofyn gwell ffawd. Ffrwyth ein hymchwiliad ydyw, ddarfod i ni gael profion pendant a diamheuol, mai ychydig iawn o honynt a ymfudant i wledydd tramor. Y mwyafrif o'r gwrywod, a ymsefydlant yn chwarelau Arfon, a Meirionydd; ac anfynych yr â namyn nifer bychan iawn o honynt yn mhellach na Lerpwl. Y benywod a ymfudant i wasanaethu boneddigion, a masnachwyr yn nhrefydd, a siroedd ereill Gwynedd, lle y priodant, ac y deuant yn benau teuluoedd diwyd, a pharchus. Boneddion, masnachwyr, ac amaethwyr Arfon, a Dinbych, a fawr hoffant langcesau Môn fel morwynion, a chydnabyddir fod llangciau yr "Hen Ynys" hefyd, braidd yn ddihafal mewn diwydrwydd, a gweithgarwch. Yn wir, gwyddom am lawer o drigolion parchusaf y siroedd ereill, yn ogystal a nifer mawr o fasnachwyr Lerpwl, y rhai nid ydyw hawdd ganddynt gymeryd neb ond Monwysiaid i'w gwasanaethu. Adlewyrcha hyn glod uchel ar gymeriad cyffredin pobl yr Ynys. Ffaith ddyddorol yn nglyn â hanes poblogaeth Gogledd Cymru, ydyw fod y naill megys yn symud o ffordd y llall. Ieuengctyd y parthau agosaf i Loegr, a ânt gyntaf dros derfynau yr "Hen Wlad," ac a ymfudant i America, a lleoedd ereill. Fel hyn:—Pobl Arfon a Meirionydd, a ymfudant i America yn lluoedd, a phobl Môn a ddeuant i lanw eu lleoedd. Y mae'n wir syndod meddwl y graddau i ba un y mae parthau mwyaf poblogaidd Arfon, yn ddyledus i Fôn am eu poblogiad. Dro yn ol, bu un o'r dynion mwyaf cydnabyddus â thref Caernarfon, yn gwneyd ymchwiliad i haniad poblogaeth bresennol y dref hono; a'r canlyniad oedd, iddo ddyfod i'r penderfyniad sicr, fod o leiaf ddau o bob pump o honynt, naill ai yn rhai a ddaethant o Fôn eu hunain, neu ynte yn blant i rieni a ymfudasent o'r Ynys hono. Fel hyn, fe welir fod dylanwad yr Hen Ynys yn rhwym o fod yn fawr a phwysig, yn ei chwaer-siroedd; a'i bod hi, trwy fagu a meithrin trigolion i'r parthau ereill, yn parhau i fod yn "fam Cymru" mewn un ystyr ymarferol. Yr un modd y gellid dyweyd am Gymry cyfoethog a dylanwadol Lerpwl. Ceir nifer mawr iawn o honynt hwythau, yn hanedig o Fôn. Pa beth bynag ydyw yr achos o hyny, gwirionedd diwrthdro yw, fod y Monwysiaid yn fwy ffrwythlon ac eppilgar na thrigolion unrhyw barth arall adnabyddus i ni. Yn nghymydogaethau chwareli y Gogledd, a glofeydd y De, peth anghyffredin ydyw gweled tŷaid o fwy na phedwar o blant; ond peth cyffredin ddigon, ydyw gweled saith neu wyth o frodyr, a chwiorydd, bochgoch a bywiog, yn addurno aelwyd yr un llafurwr tlawd yn Môn. Yn un o'i areithiau bythgofiadwy, dywedodd Mr. Disraeli fod murmur parhaus y môr o gylch glanau eu Hynys, yn gwneyd y Gwyddelod yn gythryblus a chyffrous. Dyddorol iawn a fyddai gweled rhyw athronydd yn ymgymeryd â'r gorchwyl o brofi, pa ddylanwad, neu achos naturiol, sydd yn gwneyd pobl Môn gymaint yn fwy eppilgar a ffrwythlon, na thrigolion parthau ereill Cymru. Tueddwyd ni i ymhelaethu yn y cyfeiriad yma, am y teimlwn fod y ffeithiau hynod sydd gyssylltiedig â phoblogaeth rinweddol Ynys Môn, yn teilyngu mwy o sylw nag a dderbyniasant hyd yn hyn. Dywediad cyffredin yn Arfon a lleoedd ereill ydyw:—"Pobl sir Fôn sydd yma yn mhob man." Ni chlywsom neb yn rhoddi rheswm dros luosowgrwydd y Monwysiaid mewn siroedd ereill; ond credwn y gwelir oddiwrth ein sylwadau blaenorol, mai y rheswm ydyw, eu bod yn lluosogi yn gyflymach na phobl ereill; ac mai i leoedd agos i'w cartref Ynysig, yr ymfudant.

Bellach, nyni a sylwn ar hanes foreuol yr Ynys. Addefa pob beirniad adnabyddus i ni, fod dyddordeb dyfnach bob amser yn gysylltiedig â hanesiaeth ynysoedd, nag a geir yn nglŷn â chroniclau cyfandiroedd. Dichon mai yr achos penaf o hyny ydyw, fod nodweddion cenedlaethol preswylwyr ynysoedd, yn fwy neillduol, a phendant, na nodweddion y bobl a gyfaneddant gyfandiroedd. Ceir y rhai olaf yn fwy gwasgaredig, a'u cysylltiadau cymdeithasol yn wanach, a llai eu rhif, na'r eiddo yr Ynyswyr. Peth cydmarol hawdd a naturiol, ydyw cymysgu llwythau, a chenedloedd, ar gyfandir eang; ond mewn Ynys fechan, ceir y brodorion cynhenid yn gyffelyb i un teulu. Eu cyfathrach beunyddiol â'u gilydd, a wna i'w holl dueddiadau a'u harferion ymgyffelybu; a hyn a gynnyrcha yr arbenigrwydd cymeriadol a grybwyllasom. Peth arall a gysyllta ddyddordeb neillduol â hanes ynysoedd, ydyw eu bod, agos bob amser, yn nawddleoedd i grefydd a defosiwn. Cafwyd crefyddwyr pob oes a gwlad, yn hoffi neillduedd ynysig; a pharodd weledigaethau rhyfeddol Ioan yn Mhatmos, i'r Cristionogion cyntefig gredu, a dysgu, mai mewn ynysoedd yn unig y gellid arwedd buchedd a bywyd gwir ddichlyn a sanctaidd. Dyma fel y daeth Ynys y Gwylanod i gael ei chysegru gan Seiriol; Ynys Cybi gan Gybi; ac Enlli, a Dwynwen i fod yn safleoedd y fath Abbad-dai a mynachlogydd enwog. Ond perthyn i Fôn enwogrwydd crefyddol henach nag a etifeddir gan yr un o'r rhai hyn. Yr oedd hi yn brif safle y math o ddefosiwn a sancteiddrwydd a fodolai yn Mrydain, ganrifoedd cyn cyflawniad yr amser i Brynwr Byw i'r holl fyd gael ei eni yn Methlehem, Tir Juda. Bu Angharad Llwyd, yr hanesydd Gweirydd, a beirniaid brysiog ac anochelgar ereill, yn ddyfal gyda'r gorchwyl o wawdio Rowlands, am iddo ddadleu mai yn Môn yr oedd prif safle crefydd Dderwyddol gyntefig yr Ynysoedd Prydeinig; ond parha rhesymau a ffeithiau olrheiniedig y clasurol Rowlands, yn eu sefydlogrwydd cynhenid; tra y mae sylwedyddion craffus a phwyllog yn cael difyrwch mawr y dyddiau presennol, wrth edrych ar ei feirniaid annochelgar, mor brysur gyda'r gorchwyl anrhydeddus o fwyta eu geiriau, a dileu eu dadleuon blaenorol eu hunain. Cygynted ag y penderfynodd awdwr dysgedig "Hanes y Brytaniaid a'r Cymry," wrthod credu unrhyw hanes, triawd, na thraddodiad Prydeinig, oddigerth yn unig y rhai a gadarnheir gan y "prif awduron" estronol, efe a ganfyddodd ei hun wedi ymddyrysu yn annobeithiol rhwng cyrn y ddilema. Tacitus a'i frodyr ni ddywedent air, ond am Dderwyddiaeth Môn; ac o herwydd hyny bu raid taflu Gweirydd a'i erthygl lafurfawr yn y "Gwyddoniadur" dros y bwrdd, mewn trefn i ddiogelu anffaeledigrwydd y "prif awduron."

Enw yr Ynys.—Trwy ddarpariadau "Ystatud Rhuddlan," a basiwyd ac a drefnwyd gan y gorchfygwr Iorwerth y Cyntaf, y ffurfiwyd yr Ynys hon yn swydd, neu sir, wrth y trefniant Seisnig. Yn flaenorol i hyny, hi a ffurfiai arglwyddiaeth, neu dalaeth arbenig yn Nheyrnas Gwynedd, ac yn yr hen diriogaeth Ordofigaidd. Galwyd hi wrth wahanol enwau, megys yr "Ynys Dywell," oddiwrth y coed-

Digitized by Google

wigoedd a'i llanwai gynt; "Ynys y Cedeyrn," oherwydd ei hynodrwydd fel magwrfa arwyr, a chewri, a phrif drigle y Derwyddon galluog; ond yr enw cyntaf, a'r un a barhaodd mewn arferiad mwyaf cyffredin yn mhlith y trigolion, er ys o leiaf ddwy fil o flynyddau, ydyw "Ynys Fôn," neu "Ynys Môn," ac mewn oesoedd diweddar, "MÔN" syml. Yr hanesydd a'r ysgolhaig Rowlands (gwêl *Mona Antiqua*, tu dal. 24) a ymresyma yn gywrain iawn, mai yr Ynys hon a elwid gan y Rhufeiniaid yn *Ultima Thule*, yr hyn, medd efe, sydd gyfystyr â'r enw "Y Fôn Dywell"—sef y Fôn, (pellaf) yn gyfystyr âg *ultima*, a Thywyll yn gyfystyr â'r Lladin *Thule*. Gwawdiwyd hyn, fel llawer o ddamcaniaethau ereill Rowlands; ond, fel y sylwyd eisoes, y mae gwaith yr hen Hanesydd o'r Plas Gwyn, yn dal prawf ac ymchwil, yn well na'r eiddo llawer o'i feirniaid byrbwyll, a'i gondemnwyr brysiog. Pan ystyriwn fod y cofnodwyr Rhufeinaidd yn galw rhywle yn Mrydain, yn *Ultima Thule*, cyn iddynt erioed dreiddio yn mhellach na Môn, gwelir fod rhesymeg tebygolrwydd, a'i gogwydd yn gryf o blaid Rowlands. Hyn sydd sicr, sef fod y Brytaniaid wedi galw yr ynys yn "Fôn Wlad," i arwyddo pwynt pellaf eu tiriogaeth, yr un modd ag y galwasant bellafbwyntiau ereill yn ddilynol, megys Cernyw, yn *Ben-y-fonlaz*, neu Ben-y-fonwlad. Onid naturiol, gan hyny, oedd i'r Rhufeiniaid wneyd yr un modd, a galw Môn yn *Ultima Thule*, neu y tywyll-dir pellaf? Y Rhufeiniaid hefyd o osodasant ffurf Ladinaidd ar enw cysefin yr Ynys, ac a'i galwasant hi *Mona*. Parodd hyn ddyryswch i lawer hanesydd estronol anghyfarwydd, trwy eu harwain i dybio mai Ynys Manaw, (*Isle of Man*) a olygid wrth *Mona* y Rhufeiniaid. Camgymeriad dybryd oedd hyn, canys bu yr Hanesydd Rhufeinig, Tacitus, ofalus i'n hysbysu amryw weithiau, mai Ynys Môn a olygai efe wrth yr enw Mona. Pliny, yr hwn a fucheddai yn y ganrif gyntaf, a'i geilw wrth yr un enw, ac a eilw Ynys Manaw, yn Mona*pia*, er mwyn gwneyd y gwahaniaeth yn ddigon pendant. Gallem ddyfynu Lambard, Leland, Giraldus, ac awdurdodau diamheuol ereill, i brofi mai yr Ynys hon oedd *Mona* y Rhufeiniaid; ac mai "Monapia," "Menania," ac "Eubonia," y gelwid Ynys Manaw gan yr Haneswyr cyntefig. Ein rheswm dros fanylu ar enw yr Ynys, ydyw fod diogeliad priodol enwau lleoedd, yn bwysig iawn i ddiogeliad gwirionedd hanesyddol. Yn y bennod gyntaf o'r gwaith brysiog ac annaeddfed, a elwir *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*, ceisia y Dr. Thomas Nicholas, wrthbrofi damcaniaeth Rowlands o berthynas i haniad yr enw, "Ynys Dywell." Dywed Rowlands, ddarfod i'r enw hwn gael ei ddodi arni o herwydd amledd ei choedwigoedd deri, yn nirgeloedd pa rai y pabellai y derwyddon, ac yr adeiladent eu temlau, a'u prif lysoedd. Mewn gwrthwynebiad i hyn, dywed y Dr. Nicholas, fod tymheredd yr Ynys bob amser yr un; a bod ei noethni presennol yn profi na bu bosibl iddi fod erioed yn nodedig fel meithrinle coedwigoedd, a pherllanau. Y mae un ffaith bendant yn werth dwsin o ymresymiadau a chyfresymau arwynebol fel hyn. Hysbys yw i bob sylwedydd gweddol gyfarwydd â'r Ynys, fod ei pharthau llymaf ar hyn o bryd, yn dwyn arwyddion diamheuol iddynt fod gynt yn safleoedd coedlanau mawrion. Gogleddbarth yr Ynys, yn ddiddadl, ydyw y lle llymaf o'i mewn yn bresennol; ond ceir yn naear Cors y Bol, Llyn yr Hafodol, a manau ereill, doraeth dihysbydd o goed, heb gwbl fraenu hyd y dydd hwn. Yn nyddiau ei fachgendod, bu ysgrifenydd yr erthygl hon, yn llygad-dyst o weled ugeiniau o dunelli o'r cyfryw goed, yn cael eu codi o'r corsydd, a'u sychu yn dânwydd i'r amaethwyr, a'r bwthynwyr. Os llom oedd yr Ynys bob amser, a fedr Dr. Nicholas a'i gydfeirniaid, esbonio tarddiad y fath gyflawnder o goed pwdr? Pwy a gyflawnodd y gwrhydri o gludo cynnifer o filiwnau o goed preiffion, o wledydd ereill, i'r unig ddyben o'u bwrw i bydru yn nghorsydd Môn? Hyd nes yr esbonir hyn, rhaid i ni lynu wrth y grediniaeth, mai o herwydd amledd ei choedwigoedd, ac nid "o herwydd ei niwl a'i tharth," y galwyd Môn yn "Ynys Dywell." Adwaenir yr Ynys hefyd, er cyn cred a chof, wrth yr enw "Môn, Mam Cymru." Gwelsom rai ysgolheigion yn ymgais er rhoddi ffurf newydd i'r enw hwn, trwy ysgrifenu "Môn, Mam Gymru," yn lle "Mam Cymru." Methasom erioed ddirnad eu rhesymau, na theimlo grym eu dadleuon dros y cyfnewidiad annaturiol hwn yn llythyreniad yr enw. Diau mai ffrwythlonedd hynod yr Ynys, ragor parthau ereill y Dywysogaeth, a barodd iddi gael ei galw yn "Fam Cymru." Cyn cynnyddiad rhyfeddol y bobl yn y ganrif bresennol, cyfrifid fod Môn yn alluog i gynnyrchu digonedd o rawn ac anifeiliaid, i borthi holl drigolion Gwynedd, Powys, a'r Deheubarth. Ffrwythlonrwydd rhyfeddol daear eu trigias, a alluogodd drigolion yr Ynys trwy yr oesoedd, i gadw i fyny gymeriad uchel, ar gyfrif eu haelioni i'r rhai tlodion a rheidus. Pwy bynag a ymdeithiai hyd yn Môn, a gaffai ei hun yn ddiogel mwyach rhag pob peth tebyg i newyn neu angenoctyd. Mewn cyfeiriad at y digonolrwydd yma, yn nghyda pharodrwydd y trigolion i groesawu ymwelwyr â gwleddoedd breision, y canai un o'r beirdd:—

"Gorddu yw brig y Werddon
Gan fŵg ceginau o Fon."

Hyny yw, cymaint oedd y coginiaw yn Môn, fel y cyrchid torchau mŵg y ceginau dros y môr, nes pardduo bryniau y Werddon! Moesgar gyfeiriai Goronwy Owain at olud cynhenid ei wlad hefyd, pan y dywedai:—

"Henffych well, Fôn, dirion dir,
Hyfrydwch pob rhyw frodir;
Goludog, ac ail i Eden
Dy sut,—neu Baradwys hen;
Gwiwddesdl y'th gynnysgaeddwyd,
Hoffder Duw Ner, a dyn wyd."

Nid rhyfedd oedd i wlad mor oludog gael ei galw yn "Fam Cymru." Priodolir yr enw i un achos arall hefyd, sef i'r ffaith, mai Môn oedd prif drigle y Derwyddon—cartref dysgeidiaeth, moesoldeb, a deddfwriaeth Brydeinig, am ganrifoedd cyn y goresgyniad Rhufeinig. I'n bryd ni, dyma y ddau brif reswm dros alw yr Ynys wrth yr enw anrhydeddus hwn. Pan oresgynwyd yr Ynys gan "wŷr Dulyn" (gwŷr Dublin), y Daniaid, a'r Sacsoniaid, yn olynol yn y ddegfed ganrif, y naill a'r llall o'r treiswyr hyn a ddodasant arni enwau gwahanol. Yn y "Saxon Chronicle," gelwir hi "Monige," "Engles-eie," ac "Anglesey." Ystyr yr enw olaf, yn y ddwy ffurf, ydyw "Ynys y Saeson;" ac ymddengys fod y goresgynwyr yn dra awyddus i'r enw hwn, a ddynodai eu huchafiaeth hwy mor effeithiol, lwyr ddisodli yr hen enw syml, "Môn," neu "Mona." Dyma a ddywed "Llyfr Du Basing" ar y pwnc:—

Digitized by Google

"A llu dirvawr o Saeson, diffeithiaw Llŷn a Môn, a dodi Saeson yn holl diroedd Iago, a chadarnhau yr holl diroedd hynny iddynt, a hanped gwaeth i Ynys Vôn o hynny, can nas galled ei gwared vyth wedi hynny; ac achaws hynny y doded enw Anglisei ar Ynys Vôn, sef hynny yw, *Ynys y Saeson.*"

Cyffelyb gyfrif a ddyry "Brut y Tywysogion," am haniad yr enw estronol *Anglesey;* ond methiant a fu pob ymgais, trwy gydol y mil blynyddoedd diweddaf, i gael gan y brodorion fabwysiadu yr enw hwn. Er gwaethaf gormes a bygythion y gorchfygwyr yn yr oesau gynt, a themtasiynau cysylltiedig â chyfleusderau y llythyrfa, &c., yn yr oes hon, eto wrth ei henw cysefin prydferth, a Chymreigaidd, y myn y bobl alw eu hynys deg, gyfoethog ei hadnoddau, ddyddorol ei hanesiaeth, a goludog ei thraddodiadau. Dengys eu hymddygiad tuag at enw yr ynys hon, yn ogystal a thuag at agos bob peth, y dirfawr wahaniaeth rhwng y Rhufeiniaid a'r Saeson, fel concwerwyr. Cyfnewid lleied a allent ar bethau oedd nôd y Rhufeiniaid; ond newid pob peth, ac archolli teimladau y gorchfygedigion, oedd cynllun creulon y Sacsoniaid, y Daniaid, a'r Normaniaid.

Deuwn bellach i olrhain poblogiad cyntaf yr Ynys —crefydd a sefydliadau cyntefig y brodorion—eu rhyfeloedd, eu helbulon, &c., gan geisio crynhoi i ofod bychan, hanes lled gyflawn, am un o'r llanerchau mwyaf dyddorol yn Ewrop.

Poblogiad Cyntaf yr Ynys.—Cydnabyddir gan bawb bellach, mai y parthau dwyreiniol a Deheuol o'r Ynysoedd Prydeinig, a boblogwyd gyntaf; ac megys y sylwa Rowlands, (*Mona Antiqua*, p. 23), naturiol oedd i'r bobl, fel y cynnyddent, ymwthio yn mlaen i'r rhanau Gogleddol, a Gorllewinol. Cymhellid hwy i hyn gan angenrheidiau cynnaliaeth, yn ogystal a chan chwilfrydedd, ac awydd i weled amgylch ogylch y wlad. Gofynol ydoedd cael gwlad eang i gynnal nifer bychan o bobl y pryd hwnw; gan mai ychydig oedd cynnyrch bwytadwy y tir. Y trigolion a fuont o angenrheidrwydd, am oesoedd heb allu gwneyd nemawr ddefnydd o'r rhaw a'r aradr; ac felly yn gorfod dibynu braidd yn gwbl ar eu medr a'u llwyddiant gyda'r helffon, a'r bwa, yn nghyda'r ychydig lysiau gwylltion, a geid yn gyfaddas i'w bwyta. Meddwn dystiolaeth sicr Diodorus Siculus, a Chaisar, na thyfid ŷd, namyn ar arfordir y parthau De-ddwyreiniol, mor ddiweddar a'u hamser hwy. Caisar a ddywed, "nad oedd y rhan fwyaf o drigolion yr ynys yn hau ŷd, eithr yn byw ar laeth, a chig;" a Strabo a dystia, "eu bod yn byw ar eu hanifeiliaid," o ba rai, fel yr ymddengys oddiwrth dystiolaethau unfryd yr haneswyr boreuaf, yr oedd yn Mrydain nifer mawr. Dio Nicæus a ddwg dystiolaeth bwysig a dyddorol ar y pen hwn. Dywed bod y trigolion yn byw ar helwriaeth, a ffrwyth coed; ac na phrofent bysgod, er fod cyflawnder o honynt yn y moroedd, a'r afonydd. Rhai beirniaid a ddywedant, mai rheswm y Brytaniaid dros wrthod pysg fel ymborth, oedd y cysegredigrwydd a briodolent i'r môr, yr afonydd, a'r ffynnonau, ac i bob peth a heigiai yn y dyfroedd. Gallem ddyfynu llawer o dystiolaethau yr haneswyr henaf, a mwyaf dilys, a chredadwy, er profi fod ein cyndadau, a boblogasant yr Ynysoedd hyn gyntaf, yn helwyr medrus, ac yn hoff o ymborthi ar gig adar, megys gwyddau gwylltion, &c., yn ogystal ag ar gig anifeiliaid pedwar carnol, megys ceirw, geifr, bualod, (ychain bannog), a môch; yr oll o ba rywogaethau, medd Plinius, Strabo, Dion Cassius, Gildas, ac ereill, oeddynt dra lluosog yn y tir. Ni fwytaent y ceiliog, yr ysgyfarnog, na'r ŵydd ddôf, yr oll o ba rai a gyfrifent yn gysegredig. Hoff iawn oeddynt o fwyta rhisgl, a gwraidd coed: a dywed Caisar, fod pob math o goed, oddigerth ffynidwydd, a ffawydd, yn tyfu yn y wlad hon adeg ei ymweliad ef. Felly, wrth hela, ac ymchwil am fathau newyddion o goed, a llysiau, yn ymborth, y bobl a raddol ymledasant dros yr holl wlad. Wedi croesi yr Hafren, a threiddio hyd froydd mynyddig Meirion, ac Arfon, diau iddynt deimlo oddiwrth noethni y tir; ac o herwydd hyny, fel y dywed Rowlands, pan, oddiar uchelfanau yr Eryri, y gwelsant wastadedd Môn yn ymledu yn hudolus o'u blaenau, hwy a deimlasant awyddfryd angerddol i fyned a meddiannu lle mor ddymunol i'w breswylio. Ond wedi cyrhaedd o honynt at lan y Fenai, hi a ddaeth yn gyfyng arnynt. Er nad oedd yr afon, y pryd hwnw, agos gyfled ag ydyw hi yn awr, eto yr oedd hi yn anhawdd i bobl yn sefyllfa y Brytaniaid cyntaf a ddaethant at ei glan, ei chroesi. Ni feddent foddion, na chyfleusdra i wneyd cŵch, amgen na'r corwgl gwiail; ac o ganlyniad, angenrhaid oedd iddynt ymchwil am y lle yr oedd y dwfr gulaf. Olrheiniadau y daearyddwyr, a brofant fod y Fenai ar ei hyd unwaith, yn llawer culach nag ydyw hi yn bresennol. Ceir profion diamheuol, fod yr oll o'r Traeth Gwyllt, rhwng Tal y Foel a Chaernarfon unwaith yn dir caled; a dengys Rowlands, fod yn ei amser ef, lawer o dir, a orchuddir weithiau gan y dwfr, yn amaethdir sych. Mewn amser diweddar iawn y llifeiriodd y môr gyntaf erioed dros ddarnau ehelaeth o dir, gerllaw y Pwynt, Beaumaris, ac hefyd islaw Llanidan. Barn y daeryddwyr craffaf bellach, a gytuna gyda'r eiddo Rowlands i raddau ehelaeth, fod gynt sarn, agos yn croesi yr afon gerllaw Pwllcerris. Agosrwydd y creigiau at eu gilydd mewn llinell unionsyth o lan i lan, a ddyry gadarnhad i'r dybiaeth yma. Ychydig o farldir caled oddiamgylch y creigiau hyn, a wnaethai y cysylltiad agos yn gyflawn ar draws yr afon, adeg trai. Naturiol ydyw casglu, mai dros y lle hwylus hwn y croesodd y minteioedd cyntaf o bobl i Ynys Môn. Pa bryd y troediodd y dyn cyntaf ar yr Ynys, sydd gwestiwn ag y rhaid ei adael o dan seliau y dirgelwch cynhanesiol. Diau fod meddiannwyr cyntaf yr Ynys, yn ddynion glewion, a chyflawn o yni; canys naturiol casglu, mai y Brytaniaid mwyaf eu dyhewyd, a'u hanturiaeth, oeddynt y rhai cyntaf i ymwthio yn mlaen tros fryniau ac afonydd. Dichon fod hyn yn rheswm arall dros alw Môn, yn "Ynys y Cedyrn." Modd bynag, sicr yw, ddarfod i'r fintai gyntaf gael ei dilyn yn fuan gan fintai arall. Brasder cynhenid y tir, oedd demtasiwn gref i'r bobl brysuro iddi, yn hytrach nag ymdroi yn noethni y mynyddoedd. Dyma y rheswm fod olion trigiant mwy henafol i'w cael yn Môn, na dim ar a welir yn Arfon. Er i bobl ddyfod i Arfon yn gynt, eto Môn a boblogwyd gyntaf, mewn modd rheolaidd a sefydlog. Profir hyn gan y ffaith o ddiddymiad cynnarach y bwystfilod rheibus yn Môn. Bu y blaidd a'i gymdeithion yn rhydd-gampio ar fynyddoedd, ac yn cynniwair trwy goedwigoedd Eryri, am oesoedd wedi iddynt gael eu llwyr ddinystrio yn Ynys Môn. Naturiol iawn ydyw tybiaeth Rowlands, ddarfod i'r ail a'r drydedd fintai, pan ddaethant at lan yr afon, ymchwil am y "Porth" lle y croesasid yr afon gan eu

Digitized by Google

rhagflaenoriaid, ac mai o'r ymchwiliad hwnw y tarddodd yr enw, "Porthaethwy," sef Porth aeth hwy. Dyma yr esboniad symlaf, a mwyaf naturiol, ar darddiad yr enw. Gwelsom rai ysgolheigion ag y coleddwn barch mawr i'w barn, yn dadleu mai "Porth-caethwy," sef Porth-y-dŵr-cul, oedd ffurf gyntaf yr enw; ond mwy tebyg a naturiol yr ymddengys y ffurf arall. Sut bynnag, sicr yw, mai dyma y lle y croesodd y brodor cyntaf i'r Ynys; ac felly gwelir mai Porthaethwy oedd yr henaf, yn ogystal a'r enwocaf a'r mwyaf cyfleus o chwe' phorth cyssefin y Fenai, neu y Fainwy, (dŵr cul). Ceir tebygrwydd hynod a tharawiadol rhwng yr enw "Porthaethwy" a'r *Portus Itius*, gerllaw Calis, yn Normandy; a phriodolir hyn i gyffelybrwydd y gwahanol gangen-ieithoedd Celtaidd.

Mewn erthygl fel hon, gofod a wahardd i ni fanylu ar anneddau, tir-raniadau, teuluyddiaeth, a threfniadau cymdeithasol cyntefig, trigolion Môn; ond er hyny, ymdrechwn roddi byr-grynodeb o gofnodau lluosog Caisar, Tacitus, Plinius, Diodorus Siculus, Gildas, Rowlands, ac ereill, ar y penranau dyddorol a nodwyd. Dealler nad ydyw llawer o'r awduron a enwyd, yn crybwyll dim yn arbenig am anneddau, teuluaeth, &c., brodorion cyntefig Môn; ond desgrifiant bethau fel yr oeddynt trwy Frydain yn gyffredinol, a naturiol ydyw i ni gymeryd yn ganiataol, mai cyffelyb ydoedd ansawdd gyntefig pethau yn Ynys Môn. Tybia Rowlands, i'r rhai a groesasant y Fenai gyntaf, gyfanneddu amser maith ar y bryniau noethion, uwchlaw Porthaethwy; a dywed fod mor ddiweddar a'i oes ef, olion gwersylloedd lluosog, o ddull tra henafol, ar y bryniau hyn. Ymddangosai sylfaeni y bythynod henafol fel wedi eu cloddio i'r ddaear, a'u ffurfiau oeddynt grynion, cyffelyb i "Gyttiau'r Gwyddelod" a welir hyd heddyw ar fynydd Caergybi, bryniau Llanrug yn Arfon, a mannau ereill. Mewn traethawd diweddar o'i eiddo, yr Anrhydeddus W. O. Stanley, A.S., a ddadleua mai Gwyddelod yr Iwerddon a adeiladasant y bythynod hyn; ond amlwg yw, mai cyfeiliornus y fath dybiaeth, gan na bu unrhyw nifer o frodorion yr Iwerddon erioed yn preswylio o fewn Ynys Môn dros amser digonol i wneyd yn angenrheidiol iddynt fyned i'r draul a'r drafferth o adeiladu anneddau iddynt eu hunain. Fel lladron ac yspeilwyr, mewn oesoedd cydmarol ddiweddar, y bu Gwyddelod yr Iwerddon, ar ymweliadau â Môn; ac o ganlyniad, yr oedd trawsfeddiannu anneddau y brodorion, yn llai trafferth iddynt, na darpar preswylfeydd newyddion. Heblaw hyn, nid oedd yr enw "Gwyddelod," yn gyfyngedig i frodorion yr Iwerddon yn unig yn yr hen amser. "Gwydd-helwyr," neu "Gwydd-helod" y gelwid y llwythau Brytanaidd a Chymreig, a gymerynt y rhan fwyaf blaenllaw yn nhreiddiad y coedwigoedd, a heliad y bwystfilod rheibus, o barthau newyddion ag y chwenychid eu poblogi. Hawdd dyfalu, fel y sylwa Rowlands, yr helbulon a'r perylon y bu raid i frodorion cyntaf yr Ynys hon, fel ymsefydlwyr cyntaf pob gwlad arall, eu gwynebu, a'u gorchfygu. Fel y profwyd eisoes, yr oedd yr holl Ynys, oddigerth y bryniau noethion, yn orchuddiedig gan goedwigoedd anhydraidd, yn mha rai y cyniweiriai, ac yr ysgleifiai y llew, y blaidd, a bwystfilod rheibus ereill. Dadleuwyd na bu y llew erioed yn mhlith bwystfilod brodorol unrhyw barth o Frydain; ond, megys y profa Rowlands, cyfeiliornad dybryd ydyw hyn, oblegyd pe na buasai y llew yn teyrnasu unwaith fel brenin coedwigoedd Môn, pa le y cawsid y fath enwau a Bod-lew (ffau y llew) a Llâs-llew (lle lladdwyd y llew)? Yr un modd yr arwydda yr enwau, "Cors y Bleiddiau," "Cors y Wiber," &c., fodolaeth bwystfilod, ac ymlusgiaid o wahanol fathau yn yr Ynys. Cafwyd esgyrn llewod, a hyd yn nod esgyrn cawr-filod, (*elephants*) mewn lleoedd nad oes gofnodau pendant i neb eu gweled yn fyw. Dylid cofio yn wastadol, ein bod ni wedi colli ein hanesiaeth henafol bendant agos oll, o herwydd ystyfnigrwydd y Derwyddon yn attal trosglwyddiad gwybodaeth i ysgrifen, yn yr oesoedd boreuaf; ac mewn oesoedd diweddarach, fe'n hyspeiliwyd o'n cofnodau gwerthfawrocaf, trwy fâr ac anrhaith y gelynion yn llosgi ein llyfrgelloedd. Ond tuedd ddoeth y Cymry bob amser, i enwi lleoedd oddiwrth ddygwyddiadau cysylltiedig â hwy, a'n galluoga i ddadblygu llawer o leni trwchus ansicrwydd. Nid oes genedl ar y ddaear yn meddu y fath fantais ag a fedd y Cymry i esbonio hanesiaeth trwy gyfrwng enwau lleoedd a phersonau. Tebyg ydyw, fod Dinas y Nant, uwchlaw Cadnant, ger Porthaethwy, yn un o'r lleoedd cyntaf y gwersyllodd pobl arnynt yn Ynys Môn. Hyd o fewn can' mlynedd yn ol, yr oedd ar Ddinas y Nant olion amlwg o sylfaeni nifer mawr o fythynod, o ffurfiad henach na'r cyfnod Rhufeinig. Yr oedd afreoleidd-dra ffurfiad sylfaeni y ddinas, neu y dref, yn brawf diamheuol o'i dirfawr henafiaeth. A ganlyn ydyw y desgrifiad a ddyry Tacitus, o anneddau cyntefig y Cymry; a sicr yw, mai cyffelyb oedd adeiladaeth gyntaf y Monwysiaid, i waith eu brodyr a'u trâs yn gyffredinol. Wele eiriau Tacitus, yn ol cyfieithiad Gweirydd:—"Y maent yn arfer cloddio ogofau dyfnion yn y ddaear, y rhai a doant yn ofalus â thail a phridd, (tywyrch), lle y cadwant eu hymborth; a phreswyliant ynddynt y gauaf, er mwyn clydwch. Nid yn unig, cânt gysgod yn y llechfeydd hyny rhag gerwindeb y tymmor, ond ymguddiant ynddynt yn ddiogel rhag ymosodiad cartrefol, neu dramor. Pan anrheithia y gelyn y wlad oddiamgylch, bydd y trysor cuddiedig yn ddiogel rhag y difrod cyffredin, naill ai am ei fod yn rhy ddirgel, neu oblegyd bod chwilio am dano yn ormod o drafferth a llafur." Fel y sylwa un hanesydd Cymreig tra llafurus, tebyg ydyw na phreswyliai y Cymry, mwy na'r Ellmyn, a chenedloedd ereill, a elwir gan yr haneswyr Rhufeinig yn "farbariaid," yn y fath ogofeydd tanddaearol ystod misoedd teg yr hâf. Tystia rhai haneswyr boreuol, mai corsenau, a brwyn, a ddefnyddid gan y gwahanol lwythau Brytanaidd, i wneyd eu hanneddau, ac y byddent yn eu clydu a'u diddosi, trwy eu dwbio â chlai. Hyd y gallwn ni weled, tystiolaeth unfryd yr holl haneswyr boreuol ydyw, mai mewn math o fythod crynion yr anneddai trigolion yr ynys hon ar y cyntaf; ac yr arferid gosod seiliau y bythod hyny yn ddyfnion yn y ddaear; a'u toi â brigau coed, llafrwyn, hesg, &c.; ac yn ol Diodorus Siculus, yr oedd mewn rhai parthau o Frydain, fythod yn cael eu toi â gwellt, mor foreu a'r flwyddyn 45 cyn Crist. Y mae braidd yn sicr ddarfod i'r Monwysiaid ddechreu defnyddio gwellt i doi, mor foreu a thrigolion unrhyw barth arall, o herwydd cyfaddasrwydd neillduol yr Ynys i dyfu ŷd.

Sefyllfa Gymdeithasol a Theuluol Brodorion cyntaf yr Ynys.—Fel y gwelir oddiwrth yr adranau blaenorol, y mae ysgrifenydd yr erthygl hon yn ystyried Rowlands, ar y cyfan, yn llawer cywirach

Digitized by Google

na'i feirniaid a'i gondemnwyr, o berthynas i hanesiaeth gyffredin Ynys Môn. Drwg genym nas gallwn ffurfio a datgan cyffelyb farn am ddamcaniaethau yr Henafiaethydd cywrain, o berthynas i drefniadau teuluaidd a chymdeithasol trigolion cyntaf yr Ynys. Caisar, Tacitus, Dio Nicæus, ac ereill, a dystiolaethant yn benderfynol, fod aml-wreicaeth, yn ei ffurfiau hagraf, yn ffynu yn mhlith y Brytaniaid, "fel yr oll o genedloedd barbaraidd ereill Ewrob," oddigerth y Germaniaid. Tacitus a eithriada y Germaniaid, ac a'u dirfawr ganmola o herwydd eu purdeb priodasol. Dywed eu bod oll yn credu, ac yn ymarfer y ddyledswydd i bob dyn fod yn ŵr un wraig; ond ceir yn ngweithiau haneswyr blaenorol. (a Chaisar yn eu plith), brofion pendant fod y Germaniaid hwythau hefyd yn ddarostyngedig i'r pechod gwrthun o amlwreicaeth, gan' mlynedd cyn oes Tacitus. Gwada Rowlands na bu amlwreicaeth erioed mewn bri yn Ynys Môn; ond, yn anffodus, rhy weiniaid ei resymau, ac annigonol ei brofion dros y fath haeriad. Yn ngwyneb tystiolaethau di wrthdro yr haneswyr henaf, nis gallwn ddadleu fod y Monwysiaid yn rhagori ar eu brodyr yn gyffredin o ran trefniant teuluaidd. Eusebius a haera, fod llawer o'r Brytaniaid, neu y Cymry cyntefig, heb ond un wraig rhyngddynt; eithr nis gall hyn fod yn gywir, gan y tystiolaetha haneswyr boreuach yn wahanol. Cytuna agos yr oll o'r haneswyr credadwy, mai y ffurf o amlwreicaeth a fodolai yn mhlith y Cymry, oedd fod tylwyth o frodyr a pherthynasau agos, yn cytuno i gyd-briodi, a chyd fyw gyda nifer o wragedd. Hwy a briodolent blant pob gwraig i'r brawd, neu y cyfaill a'i priodasai gyntaf. Hyn a wneid, yn ddiau, er hyrwyddiad trefniant a thestamentiad eiddo ar farwolaeth pob tâd. Ond er eu bod fel hyn, megys yr oll o hen genedloedd y byd adnabyddus cyn gwawriad cyfnod bendithiol yr efengyl, yn amlwreica, eto meddwn y profion sicraf, ddarfod i'r Cymry bob amser barchu priodas fel ordinhad sanctaidd. Yr oedd eu syniad am briodas a theuluaeth yn gyfeiliornus, y mae'n wir, ond nid ymwnelent â gwragedd na pherthynent yn gyfreithlon iddynt, yn ol y fath o gyfraith a fodolai yn eu plith. Meddwn y prawf cadarnaf o'u dygasedd at ddarostyngiad, a halogiad morwynion, yn y gosp lem a weinyddasant ar dreiswyr dwy ferch y Frenines Buddug. Cofnodir fod y Cymry yn cynal gwleddoedd rhwysgfawr, a seremonïau difrifol, ar yr achlysur o briodas. Y mab a wnelai ddatganiad o'i serch at y fenyw yn ngwyddfod y teulu o bob ochr, ac a roddai iddi anrhegion dynodiadol o'i rhwymedigaeth i fyw yn ddiwair a ffyddlon i delerau y briodas. Ymddengys ddarfod i'r efengyl, pan y daeth, ymlid amlwreicaeth o Fôn, fel o bob man arall lle y derbyniwyd hi, ar fyrder. Bu trigolion yr Ynys hon, fel y Cymry yn gyffredin, trwy gydol canrifoedd cyntaf Crêd, yn ogystal a chyn hyny, yn gwahardd y ffolineb dinystriol a gyfreithlonwyd yn un o gyfreithiau Hywel Dda. Hywel a'i gyd-ddeddf-roddwyr a gyfreithlonasant briodas morwynion pedair-ar-ddeg, â bechgyn cyfoed; ond yr hen Gymry a waherddynt briodas hyd nes y byddai y pleidiau o'r ddau ryw, wedi cyrhaedd yr oedran cyfaddas o ugain, neu un mlwydd-ar-hugain. Sylwa Tacitus, fod y gwaharddiad yma yn cael effaith ddymunol ar dŵf a nerth y boblogaeth. Arferai trigolion cyntaf Môn, losgi cyrff y meirw, ac adeiladu tomenydd, neu grugiau mawreddog, ar eu llŵch. Llawer o deuluoedd a chyfeillion anwylaf y rhai trangcedig, a arferent ruthro i fflamau coelcerthi yr angladdau, er mwyn cael myned ar fyrder i gydfyw â'u hanwyliaid yn ngwynfyd, yr hyn sydd brawf o'u cred ddiysgog a thrylwyr yn anfarwoldeb yr enaid. Dull cyntaf y trigolion o ymwisgo, oedd gyda chrwyn yr anifeiliaid dofion, a'r bwystfilod gwylltion a laddent; ac ar y dillad a wisgent y dydd, a phentyrau o frwyn a dail o osodent yn gylchoedd oddiamgylch y tânau, ar ganol lloriau y bythod, y cysgent y nôs. Credwn y gellir cymeryd yr adroddiad byr hwn, fel darlun cywir o arferion teuluaidd a chymdeithasol trigolion cyntaf Ynys Môn, yn ogystal a pharthau ereill Brydain.

Rhaniadau yr Ynys.—Dyry Rowlands amryw ddamcaniaethau tarawiadol o berthynas i raniadau cyntefig yr Ynys. Barna ef, mai i ddybenion teuluaidd a chymdeithasol y gwnaed y rhaniadau hyny gyntaf; ac nid i gyfateb amcanion llywodraeth gyffredinol. Gan ddilyn y ddamcaniaeth naturiol hon, efe a olrheinia luaws o enwau lleoedd henafol, i enwau eu meddiannwyr cyntaf, megys Trefeilir, Trefrhys, &c. Y dosbarthiad cyntaf, hyd y gwyddys, a wnaed i ddybenion llywodraeth gyffredin, oedd rhaniad yr Ynys yn dair Cantref, sef Cantref Cemmaes, Cantref yr Aberffraw, a Chantref Rhosfair, neu Niwbwrch. Mewn gweithiau diweddar, mynych lysenwir y gantref ddiweddaf, yn "Rhoshir," yr hyn sydd gamgymeriad amlwg, gan mai Rhosfair oedd enw Brytanaidd a henafol Niwbwrch, ac i'r Forwyn Fair y mae eglwys y lle yn gysegredig. Nid yw yn gwbl hysbys pa bryd, na chan bwy, y gwnaed y rhaniad cantrefol cyntaf; ond amlwg ydyw, ddarfod i hyny gael ei wneyd yn dra boreu; ac hefyd mai dyma yr unig raniadau, a therfynau, oeddynt mewn grym hyd ddymchweliad y llywodraeth Frytanaidd. Ar ddymchweliad y llywodraeth frodorol, y goresgynwyr, i'r dyben o hwyluso eu trefniadau, a chario allan eu cynlluniau yn fwy effeithiol, a ranasant bob cantref yn ddau gwmwd. O Gantref Cemaes, gwnaed Cwmwd Talybolion, a Chwmwd Twrcelyn; o Gantref Aberffraw, Cwmwd Malltraeth, a Chwmwd Llifon; ac o Gantref Rhosfair, Cwmwd Tindaethwy, a Chwmwd Menai. Dangosasom eisoes, fod Môn wedi ei phoblogi yn gyflymach na pharthau ereill Gogledd Cymru. Dyry Williams, yn ei *History of Anglesey*, a gyfansoddodd efe fel attodiad i'r "Mona Antiqua," reswm cryf arall dros gywirdeb ein damcaniaeth. Dywed fod arferiad y Derwyddon i noddi y rhai erlidiedig, a'r ffoedigion o bob parth, yn nghyda safle ddiogel yr Ynys, wedi ei gwneyd yn attynfa pobl trwy yr oesoedd. Cymaint ydoedd y mawredd a osodasai lluosowgrwydd ei phoblogaeth ar Fôn erbyn y flwyddyn 877, pryd yr esgynodd y Tywysog Anarawd i orsedd Gwynedd, fel y barnodd y Tywysog hwnw yn ddoeth, sefydlu ei lŷs yn yr Aberffraw. Gan eu deiliaid eu hunain, gelwid Tywysogion Gwynedd, o Anarawd hyd Llewelyn ein Llyw olaf, yn Freninoedd yr Aberffraw; a gelwid Gwynedd, yn Dalaeth yr Aberffraw, mor ddiweddar ag amser y Frenines Elizabeth. Y pwysigrwydd a osodai y llŷs arni, ac yn arbenig lluosowgrwydd ei phoblogaeth, a wnaeth yn angenrheidiol i raniadau gwladol ac Eglwysig Môn, fod yn llawer manylach na rhaniadau parthau ereill. Felly, yn y flwyddyn 636, pan y cynghorodd Honorius, Archesgob Caergaint, ranu yr holl deyrnas yn blwyfydd, cawn Fôn, er yn llawer llai ei harwynebedd, eto yn cael ei rhanu i nifer lluosocach o blwyfydd, na swyddi eang Arfon, a Dinbych. Gwnaed

Digitized by Google

yr Ynys ar y pryd, yn 74 o blwyfydd, ac y mae ynddi yn awr 78, tra nad oes yn Arfon namyn 75. Yn ei nodiadau ar ei daith gyda'r Archesgob Baldwin, dywed Giraldus Cambrensis, fod yn Ynys Môn y pryd hwnw, dri chant a thri ugain a thri o bentrefydd, neu dreflanau. Gan fod geirwiredd Giraldus fel hanesydd yn ddiamheuol, parodd hyn ddyryswch i lawer; ond diau, mai nid yr un ystyr ag a roddir iddo yn awr genym ni, a roddai ef i'r gair pentref. Y tebygolrwydd yw, mai maesdref, amaethdy, neu randir, dros ba un y telid degwm, a olygai yr hanesydd wrth bentref. Dyma yr esboniad a ddyry Lambard ar yr ymadrodd; ac nis gallwn ganfod un rheswm dros amheu ei briodoldeb. Rhaniadau presennol y wlad sydd fel y canlyn:—Un prif ddosbarth rhaglawiol; dau is-ddosbarth rhaglawiol; chwe' chantref, (gelwir y cymydau yn awr yn gantrefi), sef Twrcelyn, Talybolion, Llifon, Malltraeth, Menai, a Thindaethwy. Ffurfia pob un o'r cantrefi, neu y cymydau hyn hefyd, ddeoniaeth wladol, yn Esgobaeth Bangor. Beaumaris ydyw yr unig fwrdeisdref gorfforiaethol o fewn yr Ynys; a Chaergybi, ac Amlwch, ydynt yr unig leoedd a feddant fyrddau iechyd lleol. Crybwyllasom eisoes, mai 78 ydyw nifer y plwyfydd; ac y mae yma bum' tref farchnad, sef Caergybi, Beaumaris, Llangefni, Llanerchymedd, ac Amlwch. Credwn fod yr uchod y desgrifiad cyflawnaf, a chywiraf a wnaed eto, o raniadau henafol, a diweddar, Ynys Môn.

Crefydd Gyntaf yr Ynys.—Diau nad oes neb a amheua nad Derwyddiaeth oedd crefydd gyntaf trigolion Môn, fel parthau ereill Brydain. Bwriadem drafod natur a ffurfiau y grefydd Dderwyddol, yn nghyda desgrifio yr olion lluosog o'r pethau a gyfrifir yn allorau, &c., a geir hyd heddyw yn Ynys Mon; ond gwelwn mai diangen i ni fanylu ar y cyfryw bethau yn yr erthygl hon, gan fod erthygl gyflawn ar Dderwyddiaeth wedi ymddangos eisoes yn y Gwaith hwn, a'r cromlechau, y crugiau, y tomenydd, &c., wedi eu desgrifio yn fanwl yn yr erthyglau ar y gwahanol blwyfydd lle y safant. Awgrymasom eisoes, ein bod o'r un farn ag awdwr dysgedig y "Mona Antiqua," mai yn Môn yr oedd prif safle Derwyddiaeth. Mewn erthygl ddysgedig yn y Gwyddoniadur, aeth yr ysgolhaig trylen, Gweirydd ap Rhys, i lafur dirfawr i wrthbrofi y gosodiad hwn, gan wawdio hygoeledd Rowlands, a dadleu dros Stonehenge fel prif safle debygol crefydd ein cyndadau. Cyffelyb yr ysgrifenodd Angharad Llwyd, Williams, Nicholas, ac ereill; ond y mae y galluocaf, a'r mwyaf ymchwilgar o wrthwynebwyr Rowlands, sef Gweirydd, ar ol pymtheng mlynedd o ystyriaeth, wedi canfod ei gyfeiliornad, a throi i ddadleu, mai Môn yn ddiamheuol, oedd cartref dysgeidiaeth grefyddol gyntaf y cenedloedd Celtaidd. Yn wir, efe a â yn mhellach, a maentumia, oddiwrth ysgrifeniadau Tacitus, a haneswyr boreuol ereill, na flagurodd Derwyddiaeth yn Mrydain, namyn yn Môn yn unig. Profa hyn fod yn bosibl i hyd yn nod ysgolhaig a beirniad o'r radd flaenaf, neidio yn sydyn, o'r naill eithafedd i'r llall. *Gwel "Hanes y Brytaniaid a'r Cymry" tu dal.* 94. Yn yr un Gwaith, (tu dal. 103), gwada yr awdwr yn bendant, na chyfodwyd Gwaith Emrys (*Stonehenge*) o gwbl i ddybenion Derwyddol. Wele ei eiriau ef ei hun:—"Gan y cytuna pob henafiaethwyr, bod llwyni yn anhebgorol angenrheidiol at gyflawni y defodau Derwyddol, gellir penderfynu, nad adeiladwyd Gwaith Emrys, (*Stonehenge*), gan y Derwyddon at addoliad crefyddol o leiaf, oblegid ei bod mewn gwastadedd, lle nad oes dim tebyg i lawer o goed dyfu yno erioed. Credwn i ni ddangos eisoes, bod pob tebygolrwydd mai pethau diweddar, mewn cymhariaeth, a wnaed mewn canlyniad i ryfeloedd, ydyw Gwaith Emrys, maengylchoedd Abury, Dwygyfylchi, a'r cyffelyb; beth bynag, nid oes dim sail hanesyddol, na dim tebygolrwydd, bod gan y Derwyddon law yn y byd yn eu hadeilad." Wedi ymchwiliad dyfal, ac ystyriaeth fanwl, tueddir ysgrifenydd yr erthygl hon hefyd i farnu, nad oes gysylltiad hanfodol rhwng cromlechau, a thomenau mawrion y Plasnewydd, a manau ereill, â'r grefydd Dderwyddol. Tystia Tacitus, ac ereill, yn bendant, ddarfod i'r Rhufeiniaid, mewn trefn i lwyr ddadwreiddio Derwyddiaeth yn Mon, "chwalu allorau, a llosgi llwyni cysegredig y Derwyddon." A ydyw yn debyg yr aethai y Rhufeiniaid i gynnwair ar hyd a lled y wlad, gan gyflawni y caledwaith llafurfawr o dori a dinystrio y llwyni trwy dân, a gadael heb ei gyflawni, waith mor hawdd a dymchwel y pethau a gamenwir yn demlau, ac allorau cerrig y Derwyddon? Nac ydyw yn ddiau. Hefyd, y mae yn amlwg y buasai gweithiau mawrion y Plasnewydd, a Thre'r Dryw, y rhai a ddesgrifir mor fanwl a medrus gan Rowlands, yn gwbl anghyfaddas i ddybenion addoliadol, ac aberthol y Derwyddon. Cawn ddarluniau o allorau y Derwyddon gan Caisar, a Strabo; ac nid oes yr un o honynt hwy eu dau, yn yngan gair am allorau, na themlau cerrig. Fel hyn y dywed Caisar:—"Hwy a feddant eilunod anferth eu maint, a'u haelodau o wiail plethedig, y rhai a lanwant â dynion byw; yna rhoddir y cyfan ar dân, a difethir y dynion yn nghanol y fflamau." Fel y sylwa Prys, gwelir mai allor goed, ac nid cerrig, oedd yma. Ymddengys hefyd, fod yr allor a'r cwbl yn cael ei llosgi, a bod y Derwyddon yn cyfodi allor newydd ar gyfer pob aberthiad. Darlun Strabo sydd fel y canlyn:—"Y maent yn darparu eilun aruthr ei faint, o wair; ac wedi bwrw coed arno, llosgant arno ychain, pob math o fwystfilod gwylltion, a dynion yn nghyd." Wele hyn eto yn hollol groes i'r syniad fod y Derwyddon yn adeiladwyr allorau cerrig. Yn wir, nid oes unrhyw sail gredadwy i'w chael, i'r dybiaeth fod y cysylltiad lleiaf rhwng y cromlechau, y tomenydd, y meini hirion, &c., â Derwyddiaeth. Tueddol ydym i gysylltu pobpeth mawreddog a henafol, â chrefydd gyntefig ein gwlad; ond sicr ddiameu yw, na adawsai dwylaw dinystriol y Rhufeiniaid, gynnifer o allorau crefydd a gashaent mor ddybryd, heb eu llwyr ddinystrio. Y mae y syniad hwn yn hollol gyson â'r golygiad, mai yn Môn yr oedd prif safle y Derwyddon, a bod preswyl yr Archdderwydd yn Nhre'r Dryw. Diau fod y cromlechau, &c., yn dal perthynas bwysig âg adran arall, a diweddarach, o hanesiaeth ein gwlad; ac os bydd i ni, mewn erthygl arall, geisio profi mai damcaniaeth y Proffeswr Peters sydd gywir, sef mai ar feddrodau tywysogion, a gwroniaid enwog, y cyfodwyd y crugiau, a'r tomenau mawreddog, sydd yn enyn chwilfrydedd, ac yn dyrysu cywreinrwydd beirniadol dysgedigion trwy yr oesoedd, hawdd a fydd profi hefyd, mai ar hen brif safleoedd temlau dysgawdwyr crefyddol cyntaf eu gwlad, yr oedd yn naturiol i'r Cymry gladdu eu henwogion, a chyfodi eu cofadeiliau.

Pa faint bynag a gondemnir ar farbareidd-dra crefydd y Derwyddon, meddwn y prawf cadarnaf fod y grefydd hono yn uwchraddol i baganiaeth ysgeler

Digitized by Google

cenedloedd ereill cyn Crêd, yn y ffaith bwysig, ddarfod i'r Derwyddon dderbyn yr efengyl gyda breichiau agored. Ymddengys eu bod hwy, tra yn addoli Duw o dan wahanol enwau, yn y llwyni a'r coedwigoedd, eto, fel plant Israel gynt, yn dysgwyl am ddatguddiad gwell. Gan fod anfarwoldeb yr enaid yn un o'u prif athrawiaethau, parod oeddynt i dderbyn yr hyn a roddai iddynt obaith gwell a sicrach, am fywyd dedwydd tuhwnt i'r bedd. Yn ddiamheuol, eu crefydd, er gwaethaf ei holl ffoleddau, a ddysgodd iddynt syniad eglurach am berthynas a dyledswydd dyn tuag at Dduw, nag a ddysgodd unrhyw grefydd baganaidd arall i'w chredinwyr. Y mae desgrifiad Tacitus, o ddull Derwyddon Môn yn gwrthwynebu goresgyniad eu Hynys gan Suetonius Paulinus, yn adlewyrchu yr anrhydedd uchaf ar eu gwroldeb, a'u haidd dros ryddid ac annibyniaeth eu gwlad. Fel y sylwa ysgrifenydd arall, gan mai dyma yr unig beth a ysgrifenwyd am Dderwyddon Môn, a Phrydain, gan hanesydd cyfoesol â hwy, nyni a ddodwn yma gyfieithiad cyflawn o eiriau Tacitus ei hun:—

"Gobeithiai Suetonius, trwy ddarostwng ysbryd gwrthryfelgar y Brytaniaid, y gallai godidowgrwydd ei lwyddiant, fod yn gyfartal i lwyddiant Corbulo yn Armenia. Am hyny, penderfynodd ddarostwng Ynys Môn, lle a breswylid gan bobl ryfelgar, a noddfa gyffredin yr holl Frytaniaid anfoddog. Er mwyn rhwyddhau ei ddynesiad at oror anhawdd a pheryglus, archodd i nifer o ysgraffau gwastad-waelod gael eu gwneuthur. Trosglwyddodd ei wŷr traed drosodd yn y rhai hyny, tra yr aeth y gwŷr meirch drosodd, mewn rhan trwy y beisleoedd, ac mewn rhan trwy nofio eu meirch nes glanio ar yr Ynys. Yno, ar lan y Fenai, safai tyrfa fawr o wŷr arfog, yn un corff cyfagos i'w gilydd ar y traeth, yn barod i ryfel, tra y rhuthrai y benywod yn orwyllt trwy y rhengau, mewn galarwisgoedd, a'u gwallt yn chwyfio yn y gwynt, gan gludo ffaglau tân yn eu dwylaw, a'u holl ymddangosiad yn debyg i ellyllon gorphwyllog gan gynddaredd. Y Derwyddon hefyd a safent oddiamgylch, a'u dwylaw yn ddyrchafedig tua'r nef, yn erfyn ar y duwiau, ac yn arllwys melldithion erchyll ac arswydus. Y milwyr Rhufeinig a darawyd â braw a dychryn gan newydddeb yr olygfa ofnadwy. Safent mewn syndod syfrdanol, fel pe buasai eu haelodau wedi fferu, heb fedru syflyd o'r fan, ond sefyll yn nôd i saethau y gelyn. Ond yn mhen ychydig amser, taenodd annogaethau y Cadfridog egni trwy y rhengoedd, a'r milwyr hefyd yn cynhyrfu eu gilydd i wneyd gwrhydri. Teimlent fod yn warth iddynt gymeryd eu dychryn felly gan haid o fenywod, a thorf o offeiriaid penboeth; a chan gyrchu eu llumanau yn mlaen, rhuthrasant i'r ymgyrch gyda ffyrnigrwydd anwrthwynebol. Hwy a ddymchwelasant y Brytaniaid oll o'u blaen, gan eu bwrw bendramwnwgl i'r fflamau a gyneuasent eu hunain. Cwympodd yr Ynys o flaen y goresgynwyr; a gosodwyd gwarchodlu i gadw y gorchfygedig mewn ufudd-dod. Gwnaed y llwyni cysegredig a gyflwynasid at ddefodau ofergoelus a barbaraidd, yn gydwastad a'r llawr. Yr oedd y brodorion yn mwydo eu hallorau â gwaed eu caethion, ac yn ymgynghori â'u duwiau trwy gysegr-chwilio ymysgaroedd dynion."

Dyna gydnabyddiaeth ardderchog o ddewrder Derwyddon Môn, ac yn enwedig o arwredd benywod yr Ynys yn y cyfnod boreu hwnw. Profa hyn yn ddiamheuol, mai Môn oedd prif safle Derwyddiaeth, gan na chawn yr hanesydd manylgraff Tacitus, yn crybwyll ddarfod i'r Rhufeiniaid farnu yn werth iddynt ymosod ar y grefydd hono mewn un parth arall o Brydain. Wrth anrheithio llwyni cysegredig Môn, yr oeddynt ar unwaith yn dinystrio ei chartref, ac yn cloddio o dan hanfod ei nerth.

Gorchfygiad yr Ynys gan y Rhufeiniaid.—Yr ydym eisoes wedi dyfynu yr unig adroddiad diogel a chredadwy am orchfygiad cyntaf yr Ynys gan y Rhufeiniaid. Cymerodd hyny le yn y flwyddyn 60 o'r cyfnod Cristionogol; ac felly gwelir ddarfod i Fôn fwynhau ei hannibyniaeth am amser maith wedi i barthau ereill o Brydain gael eu darostwng i awdurdod y gorchfygwr. Heblaw yr anhawsdra naturiol i gyrhaedd i'r Ynys, ymddengys oddiwrth adroddiad Tacitus, fod y Rhufeiniaid hefyd yn ymwybodol o rwystr pwysig arall i orchfygu Môn. Gwyddent mai "pobl ryfelgar" a'i preswyliai hi, ac mai dyma ydoedd "noddfa gyffredin y rhai anfoddog o bob parth." Diau mai y bobl anhyblyg a ddewisent ymladd yn hytrach nag ymostwng i iau yr estron, a olygai yr hanesydd Rhufeinig, wrth y "bobl anfoddog" hyn. Yr oedd Suetonius Paulinus wedi cael trafferth flin i ddarostwng y Gordofigion mewn parthau ereill o Ogledd Cymru, rhwng y blyneddoedd 58, a 60; a gwyddai fod y dewrion a lwyddasent i osgoi ei gynddaredd ef, wedi dianc i ymnoddi yn Môn. Dyblai hyn awydd y Cadfridog i oresgyn yr Ynys, a dial ar y Derwyddon oeddynt mor ddyfal i gadw fflam gwladgarwch yn oleu. Dyma yr achos paham yr arferodd Suetonius y fath greulondeb anarferol tuag at y Monwyson. Bernir mai yn Mhorthamel y croeswyd y Fenai gyntaf gan y Rhufeiniaid. Ni chafodd Suetonius rwydd-deb i lywodraethu Môn am amser maith, canys gorfu iddo ef a'i luoedd, ddychwel yn fuan i wrthwynebu Buddug, yr hon a fygythiai ddymchwel y gallu Rhufeinig gyda'i byddin Frytanaidd wladgar a phybyr. Ymddengys ddarfod i'r gorchfygwyr orfod cilio o Fôn cyn llwyddo o honynt i lwyr ddifodi y Derwyddon, canys profa Rowlands, allan o ysgrifeniadau awdwyr Ysgotaidd henafol, a diamheuol, ddarfod i nifer mawr o honynt ddianc i Ynys Manaw, Ucheldir Ysgotland, a'r Ynysoedd Ysgotaidd, yn y cyfnod rhwng ymadawiad Suetonius, a dyfodiad Agricola i ail-gongcro yr Ynys, yn y flwyddyn 78 o.c. Y Monwysiaid a fwynhasant oddeutu pymtheng mlynedd o heddwch ac annibyniaeth rhwng y ddau orthrechiad; ac ymddengys ddarfod i'r Ynys ddyfod eto yn y cyfnod yma, yn noddfa gyffredin y ffoedigion "rhyfelgar ac anfoddog." Yr oedd Agricola yn dra awyddus i gwblhau concwest Prydain yn y dull manylaf a llwyraf; ac mewn trefn i wneyd hyny yn effeithiol, canfyddodd mai angenrheidiol oedd iddo yntau oresgyn yr Ynys fechan oedd yn ddinas noddfa i anfoddogion pob parth o Wynedd. Bernir mai dros Foel-y-Don y croesodd ef a'i luoedd i'r Ynys; ac ni chofnodir ddarfod iddo gyfarfod gwrthwynebiad cyffelyb i'r hyn a gyfarfu Suetonius. Wedi i'r Derwyddon gael eu hymlid a'u llofruddio, ni feddai y bobl mwyach neb i'w harwain i ymgyrch dros ryddid eu gwlad. Er mwyn cadarnhau ei afael ar yr Ynys, barna Rowlands darfod i Agricola sefydlu dwy wersyllfa, neu amddiffynfa gadarn, un yn mhlwyf Llansadwrn, yn agos i Borthaethwy, a'r llall yr ochr arall i'r Ynys, yn agos i Grigyll. Gelwid y naill a'r llall "Castellior;" a sicrheir mai "Castell"

Digitized by Google

ydoedd yr enw Rhufeinig am gaerfa neu amddiffynfa. Dywedir fod olion caerfa Rufeinaidd i'w gweled hyd heddyw, ger amaethdy y Castellior, Llansadwrn. Cofnodir am olion caerfa Rufeinaidd hefyd ar Ynys Cybi; ond wedi ymchwiliad personol manwl rai blyneddau yn ol, methasom ni a chanfod dim o olion y cyfryw. Ond ar dyddyn o'r enw y Waunfynydd, yn mhlwyf Llechylched, y mae olion hen orsaf Rufeinig arall, o'r enw "Castellior." Tua haner can mlynedd yn ol, cloddiwyd y rhan fwyaf o adfelion yr hen "Gastellor" yma, i'w defnyddio gan yr ammaethwr i wneyd magwyrydd, &c. Cyn hyny yr oedd yma olion deg ar hugain, neu ddeugain, o hen anneddau crynion; a rhai adeiladau eraill o wneuthuriad llawer cadarnach; a cherllaw, yr oedd claddle, a ffordd Rufeinig balmantedig.—Gwel ddarluniad manol o'r lle hwn yn yr "*Archaeologia Cambrensis*," am 1871, t. d. 51, &c. Yn wir, ychydig iawn o olion Rhufeinaidd a geir yn Môn o gwbl; a diau fod llawer o honynt wedi eu dinystrio gan ddwylaw diystyr trigolion anwybodus oesoedd dilynol.

HELYNTION YR YNYS WEDI YMADAWIAD Y RHUFEINIAID.—Wedi dadfeiliad yr Ymherodraeth Rufeinig, a therfyniad llwyr ei hawdurdod ar Frydain, ymddengys mai ychydig seibiant a heddwch a fwynhaodd ein cyndadau. Hwy a fuont dros amser yn ymrafaelio yn eu plith eu hunain, yn nghylch hawliau gwahanol benaethiaid a thywysogion. Diau y buasai dyryswch y cyfnod yma yn llawer mwy nag ydoedd, oni bai gwasanaeth y beirdd, fel cofnodwyr teuluaidd, a gwarcheidwaid llinachaeth bûr, yn ystod y goresgyniad. Y beirdd Brytanaidd ni phallasant obeithio a darogan am adferiad annibyniaeth eu gwlad, hyd yn nod yn yr adeg dywyllaf a mwyaf annobeithiol ar ei hanes. Pan oedd ffydd y Derwydd wedi pallu, ac yntau wedi ffoi ymaith, gan adael ei allorau, yr oedd llygad mwy treiddgar ffydd y bardd, yn gallu gweled arwydd egwan o oleuni dyfodol, megys rhwng plygion y cymylau tywyllion. Yr hyder didranc hwn, a ddiogelodd linachaeth y pennaethiaid Prydeinig, er gwaethaf cynnifer o anfanteision. Cafwyd fod dau deulu urddasol, ar gyfrif uchder eu trâs, a chyfanrwydd didor eu llinachaeth, yn meddu hawl arbenig i freintiau a mawrhydi yr unbenaeth. Y teuluoedd hyn, oeddynt ddilynwyr Coel Godhebog, perthynasau agos i Gystenyn Fawr, gan fod Cystenyn yn ŵyr i Coel; a'r teulu arall, a flaenorid gan Octavius, ŵyr Asclepiodotus, Duc Cornwall, yr hwn, wedi ei ddewisiad yn Frenin gan gyfran o'r Brytaniaid, a laddwyd gan Coel Godhebog. Yn eu gwahanol barthau, cafwyd y teuluoedd hyn yn arweinwyr medrus a gwrol i'r Cymry, yn erbyn rhuthriadau y Pictiaid, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod. Meibion Cunedda Wledig, o linach Coel, a lwyddasant i sefydlu eu hawdurdod dros Ystrad Clwyd, a thaleithiau y Gogledd. Yr oedd Gwawl, mam Cunedda, yn chwaer i Helen, mam Cystenyn, ac ymddengys fod y tywysogion, (meibion Cunedda) yn dra awyddus i ddiogelu rhandir eu Nain rhag trais goresgynwyr tramor, canys hwy a adawsant Gumberland, a manau ereill o dan lywodraeth un o'u nifer, ac a ymsefydlasant yn Ngogledd Cymru, gan adeiladu iddynt eu hunain lysoedd parhaus, mewn amrywiol fanau a ddygant eu henwau hyd heddyw. Yr henaf o'r tywysogion dewrion hyn, oedd Einion Urdd, yr hwn, pan oedd holl barthau ereill Gogledd Cymru yn rhydd oddiwrth bob gelyn, a glybu fod y Gwyddelod Ysgotaidd, yn ail anrheithio Ynys Môn. Y Gwyddelod a lanasent y waith hon yn Nghaergybi, o dan arweiniad Sirigi; ac Einion a anfonodd fyddin gref i'w gwrthsefyll, o dan lywyddiaeth ei fab henaf, —Caswallon Law Hir. Ymddengys ddarfod i'r Gwyddelod adeiladu math o amddiffynfa yn Nghaergybi, a galwyd y lle hwnw am oesoedd wrth yr enw "Llan y Gwyddel." Lluoedd Caswallon a'u cyfarfyddasant yn y fan hon, gan eu llwyr orchfygu, a'u gyru ar ffo; a Chaswallon Law Hir a laddodd Sirigi â'r law ei hun. Ymddengys ddarfod i'r Monwyson gael heddwch gweddol gan y Gwyddelod lladronllyd am gyfnod maith wedi y frwydr hon; ond blinwyd hwy yn fynych gan oresgynwyr ereill, fel y cawn achlysur i ddangos ar fyrder. Oddeutu y flwyddyn 443, Caswallon Law Hir a etifeddodd orsedd ei dâd; ac fel cynnrychiolydd y gangen henaf o wehelyth Cunedda, efe a fwynhai uwchafiaeth mewn urddas ac awdurdod, yn mhlith y Tywysogion Brytanaidd. Cymaint yr hoffder a fynwesodd efe at Ynys Môn, fel y sefydlodd ei lŷs ynddi. Yr oedd adfeilion "Llys Caswallon," i'w gweled yn Llaneilian, gerllaw Amlwch, yn ddiweddar iawn; a dywed Rowlands (*Mona Antiqua*, p. 146) ddarfod iddo ef weled Siartrau, &c., a wnaed gan Caswallon, er diogelu tiroedd a meddiannau ereill i Sant Eilian, a'i olynwyr. Profa hyn fod y Tywysogion Cymreig yn meddu syniad cywir am ddeddfau er rheoleiddiad a diogeliad eiddo yn yr oes hono, pryd yr oedd fwyaf tueddol a naturiol iddynt ymddyrysu mewn afreoleidd-dra, fel pobl newydd gael eu gwared odditan iau gorthrechwyr penaf y byd. Mab i Gaswallon Law Hir, oedd yr enwog Maelgwyn Gwynedd, yr hwn a feddiannodd Ynys Manaw, a manau ereill, ac a oedd, fel y sylwa Rowlands, yn ddychryn i'r Saesoniaid. Y Maelgwyn hwn, a sefydlodd ac a waddolodd Esgobaeth Bangor, oddeutu y flwyddyn 550. Ychydig yn flaenorol, adeiladasai Deiniol ap Dunawd, Abbad Bangor-is-y-coed, Goleg yn Mangor, a Deiniol a bennodwyd yn esgob cyntaf y lle. Mewn trefn i reoli a diogelu parthau ereill ei Dywysogaeth yn fwy effeithiol, symudodd Maelgwyn ei lŷs, o Ynys Môn, i'r Creuddyn, yn Arfon; a chawn ei fab, Rhun ap Maelgwyn, drachefn yn adeiladu iddo ei hun gaerfa, ar yr ochr arall i'r Gonwy.

Gofod a wahardd i ni fanylu ar agwedd debygol crefydd a phethau ereill yn Ynys Môn, ystod y cyfnod hwn; a gwelwn y rhaid i ni ymgyfyngu yn gwbl at hanesiaeth gyffredinol. Ond gan fod hwn yn gyfnod pwysig iawn, fe wêl y darllenydd yr angenrhaid a'r priodoldeb o fanylu graddau ar brif bwyntiau hanesiaeth. Dyma yr adeg y sefydlwyd breniniaeth gyntaf yn Ngogledd Cymru; ac y mae helyntion Ynys Môn, yn gymhlethedig â hanes sefydliad y Freniniaeth hono, i raddau mwy arbenig na helyntion unrhyw barth arall. Wedi i'r trigolion fwynhau graddau o dawelwch oddiwrth elynion tramor, Edwin o Northumbria, a arweiniodd finteioedd lluosog o Saesoniaid i Wynedd, a llwyddodd i oresgyn yr holl wlad dros amryw flyneddoedd; ond yr oedd y brodorion yn meddu digon o rym ac yni, i attal i unrhyw oresgynydd wneuthur iddo ei hun ddinas barhaus yn eu tir. Ychydig o hanes arbenig Môn, sydd wedi ei gofnodi rhwng diwedd y chweched, a dechreu y nawfed ganrif. Ond gyda gwawriad y ganrif olaf a nodwyd, daeth yr Ynys, yn ogystal a'r oll o Wynedd, i fod yn faes ymdrechfa waedlyd, rhwng meibion Rhodri Molwynog a'u gwahanol gefnogwyr. Un o'r cyfreithiau mwyaf niweidiol i annibyniaeth

Digitized by Google

Cymru, oedd yr un a drefnai fod holl eiddo y tâd, ar ei farwolaeth ef, i gael ei ranu rhwng ei feibion. Pa mor gyfiawn bynag y gallasai y fath gyfraith fod gyda golwg ar etifeddiaethau cyffredin, amlwg yw, ei bod yn gwbl ddinystriol pan ei cymhwysid at deyrnasoedd a thywysogaethau. Ond yr hen Gymry a arferent ranu y deyrnas a'r cwbl, rhwng meibion brenin trangcedig; a byddai adeg y rhaniad braidd bob amser yn troi allan i fod hefyd yn adeg cyhoeddiad rhyfel. Y tywysogion nis gallent gytuno o berthynas i derfynau priodol eu hawdurdod, a'r canlyniad a fyddai, ysu y wlad â rhyfel cartrefol, a gwanychu nerth y genedl, nes ei gwneyd yn ysglyfaeth rhwydd i bob gormeswr a ddewisai osod ei sawdl ar ei gwddf, a llethu ei rhyddid. Yn rhinwedd y gyfraith ffôl a nodwyd, Hywel, mab ieuengaf Rhodri Molwynog, oddeutu y flwyddyn 810, a hawliodd Ynys Môn oddiar ei frawd, Cynan Tindaethwy, fel ei ran gyfiawn o etifeddiaeth a theyrnas ei dad. Cynan a wrthwynebodd gais ei frawd am ranu y deyrnas, a'r ddau a gytunasant i benderfynu y cweryl trwy gâd ac ymgyrch. Mewn dwy frwydr olynol, Hywel a fu drechaf, a thrwy hyny a gafodd feddiant o'r Ynys; ond Cynan a ymlidiodd yn ddirfawr oherwydd ei orchfygiad, ac a benderfynodd wneyd un ymdrech ychwanegol i adfeddiannu yr Ynys a ffurfiai y rhanbarth werthfawrocaf o Wynedd. Efe a gasglodd fyddin newydd, ac a ymosododd ar Hywel gyda'r fath bybyrwch, fel y gorfu i'r olaf roddi ei arfau i lawr, a dianc am ei einioes i Ynys Manaw. Os ydym i gredu "Llyfr Basingwerk," ymddengys fod dygwyddiadau arswydus wedi cymeryd lle trwy Gymru oll, oddeutu yr adeg hon. Y mae y dyfyniad canlynol o'r "Llyfr Du" yn werth ei gadw:—

"Oed Crist 810, y duodd y lleuad, dydd Nadolig, ac y llosges Mynyw, ac y bu varwolaeth ysgrybl trwy holl Gymru; a'r vlwyddyn honno y bu varw Owain ab Meredydd, ac y bu ymladd Hywel a Chynan, ac y goryg Hywel Ynys Vôn; yr un vlwyddyn y llosges Diganog gan dân mellt. Oed Crist 815, y bu daranau mawr, a mellt yn llosgi llawer, ac y bu varw Gr. ab Rhûn, ac y llâs Griffu ab Cynen ab Cadell Deyrnllig o dwyll Elisau, ac y gorfu Hywel o Ynys Vôn, a Chynan i vrawd, ac ai deholes ev a'i lû. Oed Crist 817, y deholed Hywel i Vanaw, ac y bu varw Cynan Dindaethwy, Brenin Gwynedd, ac y dyvethwyd y Saeson ynysoedd Erryri, ac a dynant Ryvoniog i ar y Cymru. 818 y bu ymladd y Môn, yr hwn a elwyd gwaith Llanvaes."

Dyna baragraph ag sydd yn cofnodi swrn o ddygwyddiadau pwysig, ac hefyd yn arddangosiad tarawiadol o ddonioldeb yr hen ysgrifenwyr. Yr "ymladd y Môn, yr hwn a elwyd gwaith Llanvaes," ydoedd y frwydr rhwng Egbert, Brenin Sacsoniaid y Gorllewin, a'r Cymry. Gan fod Hywel yn alltud yn Manaw, a'i frawd, Cynan Tindaethwy, newydd farw, ymddengys na feddai y Cymru dywysog enwog i'w harwain a'u blaenori yn y gâd fythgofiadwy hon. Er hyny, hwy a ymladdasant yn ddewr dros eu rhyddid a'u hannibyniaeth, (gwel yr erthygl ar LLANFAES). Yr oedd Egbert eisoes wedi meddiannu Arglwyddiaeth Rhufoniog, yn swydd Dinbych; ac anrheithio yr oll o Ogledd Cymru, hyd fynyddoedd Eryri. Wedi brwydr Llanfaes, efe a lwyddodd hefyd i feddiannu Môn am yspaid; ond ni chafodd efe ddinas barhaus yma, canys Merfyn Frych, yr hwn a ddaethai i fod yn Dywysog Cymru yn rhinwedd hawl ei wraig Esyllt, merch ac etifeddes Cynan Dindaethwy, a gasglodd fyddin gref, ac a ymosododd ar yr anrheithwyr Sacsonaidd, gan eu gorchfygu, a'u hymlid allan o'r Ynys. Yr Egbert hwn a orchymynodd i'r Saeson alw yr Ynys yn "Anglesey," yn lle "Mona," yn ol arfer y Rhufeiniaid; ac efe hefyd a gyfnewidiodd enw cyffredin yr holl deyrnas, gan orchymyn nad oedd iddi gael ei galw yn Frydain mwyach, eithr yn *England*—Lloegr. Yn ychwanegol at y campau hyn, megys i ddangos i ba ryw ormod rhysedd y gallai creulondeb a barbareidd-dra Sacsonaidd ymgyrhaedd, efe a roddodd allan gyhoeddiad, yn gwahardd i neb o'i ddeiliaid, o dan boen marwolaeth, ei alw ei hun yn Frytaniad, ond yn Sais, ac yr oedd raid i bob dyn, dynes, a phlentyn, o waedoliaeth Cymreig, fyned o derfynau ei lywodraeth cyn pen chwe' mis wedi seliad y cyhoeddiad.

O'r adeg hon, cawn Fôn yn ysglyfaeth parhaus i ryfel a chelanedd, am gyfnod hirfaith, a chyflawnwyd ynddi yn y naill frwydr ar ol y llall, wrhydri a fydd byth yn anrhydedd anniflanedig i'r hen genedl ddewr, ond anffodus. Yn y flwyddyn 846, goresgynwyd yr Ynys gan y Sacsoniaid, o dan arweiniad Burchred, Brenin Mersia. Yr oedd y cadflaenor glew Rhodri Mawr, erbyn hyn, wedi esgyn i orsedd ei dâd, Merfyn Frych; a'i lywodraeth yn cyrhaedd dros Gymru oll, ac efe a ymosododd ar y goresgynwyr gyda phybyrwch a sicrhaodd iddo fuddugoliaeth. Ond er ymladd, ac enill brwydrau, eto nid oedd braidd flwyddyn o dawelwch i'r Monwyson i'w gael. Yn ebrwydd wedi i'r Saeson orfod cefnu ar yr Ynys, wele y Daniaid yn ymosod arni. Rhodri a'u gwrthwynebodd hwythau gyda phybyrwch diwrthdro, mewn dwy frwydr waedlyd, sef un yn Mryn Goleu, a'r llall yn Manegid. Cofnoda "Llyfr Ieuan Brechfa" a "Llyfr Du Basing" ddarfod i Rodri "ddyvetha y Paganiaid Duon," sef y Daniaid, yn y brwydrau hyn. Ymddengys ddarfod i Rodri orfod ymladd yn barhaus yn ystod y flwyddyn hon; canys "Llyfr Du Basing" a ddywed:—"Ac yr yn vlwyddyn y bu waith Bangor, lle y lladdwyd y Saeson wrth y niferoedd, a cherrig a dreiglwyd arnynt oddiar y bryniau, ac yn mhlith y rhai hyny, Esgob Bangor a lâs." Yr oedd y Llŷs y pryd yma, fel y sylwyd, wedi ei symud o Fôn, lle y'i sefydlasid gan Gaswallon Law Hir, i Arfon, ond oddeutu y flwyddyn hon, sefydlodd Rhodri Mawr y Llŷs yn yr Aberffraw. O hyn allan, cyfrifwyd yr Ynys yn eisteddle Llywodraeth Gogledd Cymru, cyhyd ag y parhaodd annibyniaeth y genedl heb ei ddifodi. Wedi brwydr Bangor, ymddengys ddarfod i'r Mônwyson fwynhau tair blynedd o heddwch, gan fod y Saeson yn cael digon o waith i ymladd â'r Daniaid. Erbyn 876, yr oedd nerth y Daniaid wedi pallu i raddau yn Lloegr, yr hyn a roddodd fantais i'r Saeson i wneyd ymgyrch arall i Fôn. Cyfarfyddwyd hwy y waith hon eto gan Rhodri, ac efe a'i wŷr a ymladdasant dros freiniau eu gwlad yn y modd mwyaf pybyr ac arwrol. Yn y "Llyfr Du," ceir y cofnod canlynol am y frwydr hon:—

"Dydd Sûl y bu waith Môn, ac yno llâs Rodri Mawr, ac Gwriaid ei vrawd, a Gweyrydd ab Owain Morganwg, gan y Saeson; ac yna, yn eu llawn angerdd, y cymmerth gwragedd Môn arvau, ac a ruthrasant ar y Saeson, au lladd yn greulon oni orvu arnynt ffo."

Wele yr un ysbryd arwrol yn dangos ei hun yn mhlith merched Môn y waith hon eto, ag a'u hanfar-

Digitized by Google

wolodd adeg yr ymosodiad cyntaf ar eu gwlad, gan y Rhufeiniaid. Wedi i'r milwyr Cymreig gael eu gorchfygu, ac i'w Brenin gwympo yn y gâd, rhianod yr Ynys ni phlygent o dan law trais, cithr hwy a ymarfogasant, ac a ymosodasant ar y gelynion "hyd oni orfu arnynt ffo." Ni chofnodir yn holl hanes ein cenedl ddewr, ddygwyddiad ag y dylem ymfalchio mwy o hono, na'r dygwyddiad hwn. Cyn ei farwolaeth, trefnasai Rhodri Mawr, fod i'w deyrnas gael ei rhanu rhwng ei dri mab, a hwynthwy a alwyd y "Tri Thywysog Taleithiawg," am y gwisgai pob un o honynt Dalaith yn ei gapan, megys brenin. I'w fab henaf, Anarawd, y rhoddodd efe deyrnas Gogledd Cymru, a'i Lŷs yn Aberffraw; ac o herwydd hyn y galwyd Gwynedd yn Dalaeth Aberffraw yn Môn. Yr oedd Anarawd hefyd, fel prif gynrychiolydd llinach Cunedda, i wisgo y teitl o Frenin Cymru oll, a'i ddau frawd, llysoedd pa rai oeddynt yn Ninefwr, a Mathrafal, i dalu iddo deyrnged flyneddol, ac Anarawd i dalu y deyrnged arferol i Frenin Lloegr, dros holl Gymru. *Gwel Brut y Tywysogion, Llyfr Ieuan Brechfa, Powel's History of Wales*, &c.

Yn y flwyddyn 900, y Daniaid, y rhai a elwid gan y Cymry, yn Baganiaid Duon, a wnaethant gâd i Fôn, o dan arweiniad Igmont; a bu brwydr waedlyd yn Rhos-y-Maelion. Yn yr ymgyrch yma, cynnorthwyid Tywysog Aberffraw gan Merfyn, Tywysog Powys, yr hwn a gwympodd yn y frwydr. Gelwir y lle yr ymladdwyd y frwydr hon hyd heddyw, wrth yr enw Maes Rhos Meilion. "Yn 915," medd amryw o'r hen Gofion, "y divethwyd Môn gan wŷr Dilyn" (Dublin). Gwelir fod y naill ymosodiad yn dilyn y llall gyda'r fath gyflymdra, fel y cedwid yr Ynys beunydd yn olygfa celanedd a thywallt gwaed. Y Cymry a drechid mewn ambell frwydr; ond methiant a fu holl ymgeisiadau goresgynwyr y cyfnod cythryblus hwn, i ymsefydlu yn y wlad. Cymaint oedd glewder a medrusrwydd cyffredin y Tywysogion Cymreig, a brwdfrydicced oedd ysbryd y bobl dros eu rhyddid a'u hannibyniaeth, fel nad ymfoddlonent funyd awr o dan iau estronol; ac wedi pob gorchfygiad, hwy a ymladdent yn barhaus, ddiorphwys, nes ymlid y gelyn o'u tiriogaethau. Yn adeg yr ymosodiad a nodwyd o eiddo "Gwŷr Dilyn," Idwal Foel a deyrnasai ar Dalaeth yr Aberffraw, ac ymddengys ddarfod i'w ddeiliaid orfod dyoddef caledi mawr, mewn canlyniad i'r anrhaith cyffredinol a wnaeth y gelynion dros yr holl Ynys. Y Gwyddelod hyn nid ymfoddlonent ar anrheithio eiddo y trigolion, eithr hwy a fynasant hefyd arfer y creulonderau mwyaf ysgeler tuag at y bobl. Yn fuan wedi hyn, daeth haid o ysbeilwyr gwancus o'r un wlad i'r Ynys; ac wedi amryw frwydrau gyda'r brodorion, hwy a lwyddasant i chwalu Palas Breninol yr Aberffraw, a lladdasant Rhodri, mab ieuengaf Idwal Foel. Yn y flwyddyn 958, llywodraethid holl Gymru gan y brodyr Iago ac Ieuaf; ond er cymaint eu grym hwy, eto llwyddodd Abloic, Brenin yr Iwerddon, i lanio yn Môn, a chyflawni llawer o greulonderau, a difrodiadau. Ymddengys fod hwn yn un o'r goresgyniadau mwyaf trychinebus, canys y Cofion a ddywedant am dano:—"Divethwyd yr Ynys yn gwbl gan veibion Bloic." Yn y flwyddyn 961, goresgynwyd Gogledd Cymru, gan Edgar, Brenin Lloegr, yr hwn a gariodd ddinystr a chelanedd trwy yr holl wlad. Ymddengys mai rheswm proffesedig Edgar dros y rhyfelgyrch hwn, oedd esgeulusdra Tywysog yr Aberffraw i dalu y deyrnged arferol i'r Tysorlys Seisnig. Nid rhyfedd fod y Tywysog Cymreig yn analluog, yn ogystal ag yn anewyllysgar, i dalu y deyrnged ar y fath adeg, tra yr oedd ei wlad yn cael ei hysbeilio beunydd gan y Gwyddelod, y Daniaid, neu y Saeson. Gan na feddai y Cymry arian, ac oddiar ddysgwyliad am esgus adnewyddol i gymeryd meddiant terfynol o'r wlad, Edgar a osododd dreth ryfedd a rhamantus ar y tywysogion Cymreig, trwy orchymyn iddynt ddwyn iddo ef yn flyneddol, benau tri chant o fleiddiaid. Wrth gwrs, efe ni thybiodd am foment y gallasai y Cymry dalu y fath deyrnged am un flwyddyn; ond fel y mae yn syndod meddwl, lluosoced oedd nifer y bleiddiaid yn y wlad ar y pryd, fel y cafwyd tri chant bob blwyddyn, am yspaid tair blynedd; a'r wlad ni flinwyd mwyach gan fleiddiaid. Yn y flwyddyn 969, goresgynwyd yr Ynys unwaith yn rhagor, gan y Daniaid, y rhai a anrheithiasant y parthau dwyreiniol, yn enwedig oddiamgylch Penmon, ac am yspaid, llwyddasant i gael meddiant llwyr a chyflawn o'r holl Ynys; ond hwy a ymlidiwyd ymaith drachefn yn mhen amser, gan y brodorion anhyblyg. Oddeutu yr adeg yma, y tywysogion Iago, ac Ieuaf, a gwerylasant â'u gilydd. Iago a lwyddodd i fwrw Ieuaf i garchar, yr hyn a arweiniodd i ddygiad ar y wlad, frâd a gormes, ag y dywed y "Llyfr Du," "nas galled ei gwared vyth gwedi hyny oddiwrthynt." Fel y sylwa Angharad Llwyd, tuedd gyffredin y blaid wanaf o'r Cymry, pan y cymerai rhyfel cartrefol le yn eu plith, oedd myned i ymofyn cynnorthwy gelynion anghymmodlawn y wlad. Y gelynion hyny a geid yn wastadol yn barod i estyn eu cynnorthwy, ond hwy a ofalent am gymeryd meddiant parhaus o ryw gyfran dda o'r wlad, fel taledigaeth eu gwobrwy. Yn yr amgylchiad yma, ymofynodd Hywel ap Ieuaf gynnorthwy llu mawr o Saeson, i ddial ar ei ewythr Iago, o her wydd carchariad ei dâd. Gyda y rhai hyn, Hywel a anrheithiodd wlad Lleyn, a Môn; ac a lwyddodd i gymeryd Iago yn garcharor. Iago drachefn, a lwyddodd i ddianc i Loegr; ac megys i wneyd helbulon brodorion yr Ynys yn gwbl annobeithiol, Malctus, fab Harold, a arweiniodd fyddin o'r Daniaid Duon i Fôn; ac yn ebrwydd wedi hyny, daeth Godffri i oresgyn yr Ynys, a'i dodi o dan deyrnged iddo ei hun. Ond yr oedd Hywel ab Ieuaf yn ddyn dewr, yn ogystal a thywysog uchel-geisiol; a chan nad oedd ar hyn o bryd, berygl oddiwrth ei ewythr Iago, efe a wnaeth gâd yn erbyn y Daniaid, gan eu gorchfygu, a chymeryd Ynys Fôn oddiarnynt, a'i gwneyd yn feddiant iddo ei hun. Cystenyn Ddu, fab Iago, a ymlidiodd yn ddirfawr o herwydd ymddygiad ei gefnder Hywel tuag at ei dad, a'i deulu; ac yn angerdd y teimlad yma, efe a gasglodd fyddin o forladron Danaidd, ac a oresgynodd Fôn, gan ei hanrheithio yn ddiattal. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 679. Hywel a gasglodd ei luoedd i wrthwynebu y gelynion ysgleifgar a arweinid mor fedrus gan ei gefnder. Cyfarfu y byddinoedd gwrthwynebol ar faes Hirbarth, a chelanedd ofnadwy a fu yno. Cystenyn Ddu a laddwyd yn yr ymgyrch, a throdd mantol buddugoliaeth o blaid Hywel a'r Cymry.

Yn y flwyddyn 985, gwedi marw Hywel, Meredydd, Tywysog Powys, a mab ieuengaf Owen ab Hywel Dda, a drawsfeddiannodd deyrnas Gogledd Cymru oddiar ei ddau nai, sef meibion Eingion; ond byr iawn a fu tymmor ei awdurdod, gan i'r Daniaid drachefn oresgyn Ynys Môn, a gorchfygu Meredydd mewn brwydr galed, a chymeryd dwy fil o'i wŷr yn

Digitized by Google

garcharorion, yn mhlith pa rai yr oedd ei frawd, sef y Tywysog Llywarch ab Owain, llygaid yr hwn a dynwyd ymaith gan y gorchfygwyr barbaraidd. Gwelir cofnod hynod am yr amgylchiad hwn, a thrychinebau ereill a gymerasant le oddeutu yr adeg bresennol, yn y "Llyfr Du," "Brut y Tywysogion," a "Llyfr Ieuan Brechfa," ond gofod a wahardd i ni eu dyfynu. Y Daniaid a lwyddasant y waith hon i orfodi Meredydd i ffoi i Bowys, gan adael trigolion Môn, a holl Wynedd, heb dywysog, na chadflaenor. Tra yr oedd y trigolion yn y cyflwr diamddiffyn hwn, y Daniaid a gyflawnasant bob math o anrhaith ar a allent ddyfalu, a mawr y dyoddefaint a fu yn y wlad o'r herwydd. Y Brutiau a gofnodant mai dyma'r pryd y daeth y fath newyn ar y wlad, fel y gorfu i'r trigolion, "gan ddrudaniaeth, ddechreu bwyta cregyn y môr." Rhaid i ni basio heibio ryfeloedd Idwal ab Meurig, a Swayn ab Harold, yn ngyda'r "Haint Chwyslyd," a elwid hefyd "Haint y Saeson," a fuont yn peri celanedd ac anrhaith yn y flwyddyn 993. Ymddengys fod angau yn defnyddio pob gallu ac offeryn oedd at ei wasanaeth, i andwyo a phoenydio y Cymry yn y cyfnod tywyll yma, fel mai anhawdd dyfalu gydag unrhyw sicrwydd, pa un ai rhyfel, y newyn, ynte yr haint, oedd y dinystrydd mwyaf. Y cyflwr truenus hwn a barhaodd dros amser maith; ac nid rhyfedd fod pob hanes reolaidd o helbulon y wlad, wedi cyfrgolli hyd y flwyddyn 1074, pryd y daeth Gruffydd ab Cynan, cyfiawn etifedd Coron Gwynedd, drosodd o'r Iwerddon, i honi ei hawliau yn erbyn Trahaern ab Caradog. Gwyddeles ydoedd mam Gruffydd, ac yn nyddiau ei adfyd, efe a ymofynodd, ac a gafodd nawdd a lloches gyda'i pherthynasau hi. Daeth byddin o Wyddelod gydag ef hefyd, i'w gynnorthwyo i adfer ei deyrnas o ddwylaw Trahaern, a chyda chynorthwy parod amryw o'r Mônwyson, y rhai oeddynt falch o weled y gwir etifedd, efe a lwyddodd i feddiannu Ynys Môn gyda rhwyddineb. Gwedi hyn, efe a groesodd y Fenai, ac ar ol sicrhau Robert o Ruddlan, ac ereill yn gyngreiriaid, efe a ymdeithiodd hyd yn Meirionydd, lle y cyfarfyddwyd ef gan Trahaern, yr hwn oedd hefyd yn meddu cyngreiriaid lluosog. Mewn brwydr galed, Trahaern a fu drechaf, a gorfu i Gruffydd encilio i Ynys Môn, gan adael y gweddill o Wynedd yn meddiant ei wrthwynebydd. Ond nid hir y parhaodd llwyddiant i wenu ar arfau Trahaern. Gruffydd a dderbyniodd adgyfnerthion o'r Iwerddon, a chyda y rhai hyny, a brwdfrydedd cynnyddol y bobl o'i blaid, efe a lwyddodd yn fuan i sefydlu ei awdurdod dros deyrnas Gwynedd. Gweler hanes manwl o deyrnasiad y Tywysog enwog hwn, o dan y penawd "Gruffydd ab Cynan." Yn ystod ei deyrnasiad ef, a phan yr oedd William Rufus yn llywodraethu ar Loegr, yr ymosodwyd ar Wynedd, gan fyddin luosog o Saeson, o dan arweiniad Hugh Fleiddyn, Iarll Caerlleon, a Hugh Goch, Iarll yr Amwythig; y rhai a annogid i'r ymgyrch gan amryw bennaethiaid Cymreig, bradwrus, ac anfoddog. Teimlai Gruffydd fod ei alluoedd yn annigonol i gyfarfod byddin luosog ei wrthwynebwyr, ac o herwydd hyny, efe a giliodd i ymlochesu yn Mynyddoedd Eryri. Y ddau Iarll, mewn canlyniad, a orymdeithiasant yn ddirwystr hyd lan y Fenai. Gruffydd, o dan deimlad o'r trychineb a'i goddiweddai, os goddefid i'r gelynion feddiannu Môn, eisteddle ei lywodraeth, a benderfynodd groesi yr afon, a gwneyd ymdrech benderfynol i amddiffyn yr Ynys. Derbyniodd ychydig adgyfnerthion o'r Iwerddon, ac am yspaid, ymddangosai pethau yn lled addawol. Pa fodd bynag, yn y cyfwng yma, Owain ab Edwyn, Arglwydd Tegeingl, yr hwn a briodasai ferch i Gruffydd, ac a wasanaethai fel ei Brif Weinidog, a amlygodd ei fradwriaeth mewn modd agored, trwy ddatgan ei fod o blaid y Saeson, ac yn erbyn ei ddâdyn-nghyfraith, a'i frenin cyfreithlon. Gwedi enciliad pennaeth mor lew a dylanwadol i rengau lluosog ei elynion, gwelodd Gruffydd, nad oedd obaith iddo lwyddo i wrthsefyll y goresgynwyr; ac efe a enciliodd eilwaith i ymofyn noddfa yn yr Iwerddon. Yn y fath gyflwr diamddiffyn, syrthiodd Ynys Môn unwaith eto yn ysglyfaeth i'r goresgynwyr. Y Saeson a gyflawnasant y creulonderau mwyaf ysgeler, hyd yn nod ar bersonau, ac eiddo, y trigolion anarfog, a'r bobl ddiniweitiaf, y waith hon. Hwy a wnaent hyn, meddynt, fel ad-daliad am ruthriadau a wnaethid gan y Cymry ar feddiannau Saeson y cyffiniau; ond cynllun rhyfedd, ac annynol, oedd dial ar bobl Môn, am gamweddau tybiedig trigolion Powys, a chyffiniau Clawdd Offa. Ond cafodd yr Ynys waredigaeth eto oddiwrth ei gorthrymwyr: a'r waith hon, fe ddaeth y waredigaeth trwy gydweithiad hynod amgylchiadau. Magnus, fab Harold, Brenin Norway, wedi iddo feddiannu Ynysoedd Orkni, ac Ynys Manaw, a ddaeth a'i lynges hyd ororau Môn, gan feddwl ei meddiannu. Diau fod Magnus yn tybio mai yn erbyn pobl Môn yn unig y buasai raid iddo frwydro; ond lluoedd Ieirll Caer, a'r Amwythig, y rhai oeddynt wedi cadarnhau eu meddiant o'r Ynys, trwy adeiladu Castell cryf yn Aberllienawg, a'i cyfarfyddasant ar lan y môr. Cofnodir ddarfod i Hugh Goch, Iarll yr Amwythig, ruthro i'r dwfr i wrthwynebu y goresgynwyr, pryd yr anelodd Magnus saeth ato oddiar fwrdd ei long, yr hon a dreiddiodd trwy hollt yn ei lurig, gan wanu ei ben. Wrth edrych arno yn gwingo yn ei gwymp, Magnus a lefodd yn wawdlyd, yn y Ddanaeg:—"*Leit loupe,*" sef yw hyny, "gadawer iddo ddawnsio." Y Cymry a gyfrifasant farwolaeth hynod yr Iarll, fel barn Duw arno, o herwydd y creulonderau ysgeler a gyflawnasid ganddo ychydig ddyddiau yn flaenorol. Y dygwyddiad hwn a barodd gyffro, a dyryswch dirfawr yn mhlith y Saeson, fel y gorfu i Iarll Caer encilio o Ynys Môn, a gwersyllu yn Mangor, lle yr oedd efe, a diweddar Iarll yr Amwythig, wedi adeiladu castell, o gyffelyb gadernid i un Aberllienog. Efe a barhaodd i gario yn mlaen ysgarmesoedd gwaedlyd yn erbyn gwŷr Môn, o'i gastell yn Mangor; ond yr oedd ei allu wedi ei barlysu i'r fath raddau, fel nad allodd wneyd unrhyw ymgais difrifol tuag at oresgyn yr Ynys mwyach. Y Norwegiaid a ganfyddasant fod y Saeson wedi ysbeilio Môn mor llwyr, fel nad oedd yno mwyach ysglyfaeth gwerth ei gael; ac o herwydd hyny, hwy a ddychwelasant i'w llongau, ac a hwyliasant ymaith, byth i ddychwelyd mwy. Amcan gwastadol y Daniaid, a'r Norwegiaid, oedd yspeilio a lladratta, yn hytrach na chymeryd meddiant parhaus o leoedd fel Môn; a dyma y waith olaf i'r un o genedloedd y Gogledd, wneyd rhuthr ar yr Ynys. Wedi llawer o ymladd gyda'r pennaethiaid bradwrus a fuasent yn foddion i ddymchwel ei lywodraeth, a'i yru yntau ar ffo, Gruffydd ab Cynan a lwyddodd i adfeddiannu ei deyrnas unwaith eto; a'r waith hon, efe a gafodd heddwch i lywodraethu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, wedi cyrhaedd o hono yr oedran o ddwy flwydd a phedwar ugain. Claddwyd ef ar

Digitized by Google

yr ochr chwith i'r allor fawr yn Eglwys gadeiriol Bangor.

Mon o Amser y Tywysog Owain Gwynedd, hyd Uniad terfynol Cymru a Lloegr.—Yr ydym bellach wedi cyrhaedd cyffiniau hanesiaeth gydmarol ddiweddar, ac o herwydd hyny, gall ein camrau fod yn frasach, gan fod y ffeithiau yn fwy hysbys i'r darllenydd cyffredin. Olynwyd Gruffydd ab Cynan yn llywodraeth Môn, a Gwynedd, gan ei fab dewrwych a chlodfawr, Owain Gwynedd, yr hwn oedd un o'r tywysogion medrusaf, doethaf, a mwyaf llwyddiannus a fu erioed yn gwisgo coron; fel y prawf ei waith yn cadw cyfanrwydd ei Dywysogaeth fechan, am y cyfnod maith o ddeuddeng mlynedd ar hugain, er gwaethaf ymosodiadau mynych, byddinoedd lluosog Lloegr. Yn y flwyddyn 1151, Cadwaladr, brawd Owain, a ddiangodd o'r carchar yn mha un y cadwesid ef er ys amser maith gan ei nai Hywel, ac a ymosododd ar Fôn, gan lwyddo, o herwydd sydynrwydd ei ruthr, i ddwyn cyfran ehelaeth o honi o dan ei awdurdod, am ychydig amser; ond Owain a anfonodd luoedd cedyrn i'w erbyn, a bu raid i'r chwyldroadwr ddianc i Loegr, i ymofyn nawdd ac ymguddle. Yn y flwyddyn 1157, y Brenin Harri yr Ail a benderfynodd oresgyn Gwynedd; a thuag at wneyd hyny yn fwy effeithiol, efe a anfonodd lynges, o dan lywyddiaeth Meredydd, Tywysog Powys, i ymosod ar y môrlanau. Y llynges hon a hwyliodd o borthladd Caer hyd arfordir Môn; a llu mawr o fôr a thir-filwyr a laniasant, gan anrheithio parthau eang o'r Ynys. Yr oedd y Tywysog, a'r fyddin reolaidd, yn absennol ar y pryd, yn gwrthwynebu y lluoedd Seisnig ar ororau Dinbych a Challestr; ond gwŷr Môn a ymgasglasant, ac a ymarfogasant goreu y gallent, i ymosod ar y gelynion; ac er dirfawr anrhydedd iddynt eu hunain, lluoedd annysgybledig y Mônwysiaid, a orfuasant. Llwyddasant i lwyr ddinystrio y milwyr Seisnig, cyn gallu o'r rhai hyny ddychwel i'w llongau. Yr ychydig a adawyd o'r tir, a'r môr-filwyr Seisnig, a gyfodasant eu hangorion ar fyrder, ac a ddychwelasant i Gaerlleon, i adrodd tynged eu brodyr. Yn y flwyddyn 1173, Dafydd ab Owain Gwynedd, a gymerodd feddiant treisiol o Ynys Môn, oddiar Rodrig ei frawd, sef y Tywysog cyfreithlon. Goresgynwyd Gogledd Cymru gan y Brenin Harri III. yn y flwyddyn 1245; a'r Brenin hwnw a orchymynodd i'w raglaw o'r Iwerddon, wneyd ymgyrch ar Fôn. Y Rhaglaw a laniodd gyda llynges fawr; ac a barodd anrhaith dirfawr ar yr Ynys. Ond nid oedd yni a dewrder y trigolion eto wedi ei lethu. Hwy a ymarfogasant, ac a ddaethant ar warthaf y Gwyddelod, pan oedd y rhai hyny yn llwythog o ysbail gwerthfawr, gan eu gorchfygu, a chymeryd y cwbl oddiarnynt, a'u gorfodi i ddychwel i'w llongau yn waglaw.

Pan benderfynodd y Brenin Iorwerth y Cyntaf, orchfygu Cymru, a llwyr lethu ei hannibyniaeth, efe a orchymynodd i lynges luosog fordwyo oddiamgylch glanau Cymru; ac un o ddyledswyddau penaf y llynges hon, oedd darostwng Môn, yr hyn a lwyddodd i'w gyflawni. "Llewelyn ein Llyw Olaf" oedd teyrn Gwynedd yr adeg hon; a lluoedd lluosog Brenin Lloegr a'i gwasgasant ef i'r fath gyfyngdra, fel y bu raid iddo, yn fuan wedi y dygwyddiad olaf a nodasom, ymofyn telerau heddwch. Ar ammodau celyd iawn y caniatawyd hyny iddo. Un o'r ammodau hyn ydoedd, fod iddo dalu mil o ddarnau aur yn flyneddol, am ganiatâd y Brenin i gadw meddiant o Fôn; ac os y byddai efe marw yn ddietifedd, fod i'r Ynys gael ei throsglwyddo yn feddiant bythol i Frenin Lloegr, a'i etifeddion. Fel y gallesid dysgwyl, Llewelyn a'r Cymry a dorasant y cytundeb gorthrymus yma mor ebrwydd ag y gwenodd gwawr egwan o lwyddiant ar eu hachos. Wedi i Iorwerth oddef gorchfygiad, a chael ei orfodi i ddychwel i Loegr, efe a drefnodd ryfelgyrch arall yn erbyn Gwynedd, gan orchymyn i'w lynges drachefn ymosod ar Fôn, a'i hanrheithio, mewn trefn i amddifadu y Cymry o'r cyflenwadau oeddynt i'w cael mor hwylus, o Ynys mor ffrwythlon. Yn anffodus i'r Cymry, gorchwyl cydmarol hawdd oedd darostwng Môn y waith hon, gan fod mawrion yr Ynys yn gefnogol i achos Iorwerth. Yr oedd ysbryd bradwriaeth a gwaseidd-dra Seisnig, wedi llenwi meddyliau y cyfoethogion; ac fel esgus dros eu hanffyddlondeb i'w gwlad, hwy a ddadleuent eu bod yn rhwym o gefnogi y Brenin Seisnig, yn ngrym y llwon a gymerasent adeg y cytundeb heddwch anghyfiawn y cyfeiriasom ato eisoes.

Gwedi llwyddo o honynt i lŵyr ddarostwng yr Ynys, y Saeson a wnaethant barotoadau i ddychwel i Arfon, trwy adeiladu pont o fadau dros y Fenai, yn Moel y Dòn. Pan oeddynt yn croesi y bont hon, y Cymry o lechweddau Arfon, a ruthrasant arnynt, gan ladd a boddi nifer mawr o honynt, a gorfodi y gweddill i ddychwel i Fôn, lle y bu raid iddynt aros hyd ar ol marwolaeth anffodus Llewelyn, yn y gauaf dilynol. Gosododd y Brenin Iorwerth, bedwar cant a haner o dreth flyneddol ar drigolion yr Ynys, yr hyn oedd swm mawr iawn i'w dalu yn y cyfnod hwnw. Er yn orchfygedig, ac er bod eu nifer wedi ei wneyd yn fychan gan ganrifoedd o ymladd diorphwys, eto ymddengys nad oedd y Cymry wedi colli nemawr o'u hen ysbryd gwrolfryd. Parhasant i boenydio Iorwerth gyda chynlluniau i adfer annibyniaeth eu gwlad, ac ymdrechion mynych i fwrw ymaith yr iau Seisnig. Symbylid eu gwladgarwch beunydd gan draha a gorthrwm y gorchfygwyr, y rhai a arferent bob math o greulonderau tuag at y brodorion. Yr adeg yma, fel ar amserau adfydus blaenorol, daeth Ynys Môn i fod yn gyrchfa a noddfa penaethiaid erlidiedig y genedl o bob parth; ac o ganlyniad, hi a ddaeth hefyd i fod yn ganolbwynt pob gweithrediadau yn erbyn y Saeson. Yma y cynllunid gwrthryfeloedd parhaus; ond y Saeson a lwyddent i lethu y cwbl, yn gymharol ddi drafferth, hyd yr ymgyrch o dan arweiniad Madog, gordderchfab Llewelyn, yn y flwyddyn 1294. Llwyddodd Madog i gymeryd meddiant llwyr o Ynys Môn am beth amser. Mewn brwydr âg ef, y lladdwyd Roger de Puleston, yr hwn a bennodasai Iorwerth yn sirydd a rhaglaw yr Ynys. Gwedi darostwng y gwrthryfel mewn parthau ereill, croesodd Iorwerth y Fenai, a'i filwyr a wnaethant ddinystr a galanastra dirfawr yn y wlad. Chwalasant Eglwys a Phriordy Llanfaes, ac anrheithiasant y tiroedd a'r ysguboriau perthynol i'r sefydliadau hyny. Y Brenin a ganfyddodd yr anmhosiblrwydd o gadarnhau ei awdurdod dros Wynedd, cyhyd ag y parhai Môn yn nawddle i'r penaethiaid a'r gorthrymedigion Cymreig, a ymgynullent iddi o bob parth i ffurfio cynlluniau er dymchwel ei lywodraeth. O herwydd hyn, efe a benderfynodd adeiladu yma gastell, hafal o ran cadernid i gestyll Caernarfon, a Chonwy. Porth Wygyr (*Beaumaris*) a ddewisodd efe yn safle y castell hwn. Gorphenodd yr adeilad erbyn y flwyddyn 1296,

a gosododd ynddo warchodlu nerthol, i gadw yr Ynys mewn ymostyngiad. Heblaw hyn, Iorwerth a ffurfiodd Feaumaris yn dref Seisnig, gan wneyd cyfreithiau llymion, er attal i'r Cymry fasnachu, na meddu unrhyw fraint o'i mewn.

Wele ni bellach yn cael Môn wedi ei llwyr ddarostwng, ac annibyniaeth Cymru wedi ei ddileu, ar ol mwy na deuddeg can' mlynedd o ymdrech diorphwys yn erbyn rhuthriadau gelynion o bob parth. Dichon nad oes hanes am genedl mor fechan, a ymladdodd mor ddewr, ac a lwyddodd dros gyhyd o amser, i wrthsefyll rhuthriadau gelynion mor lluosog. Ond ni lwyr derfynwyd helbulon gwaedlyd yr Ynys yn amser Iorwerth y Cyntaf. Pan chwyfiwyd y Ddraig Goch gan Owain Glyndwr, cafwyd y Mônwysiaid eto yn barod i ymrestru o dan y lluman cenedlaethol. Gwarchodid Castell Beaumaris yr adeg hon, ar ran y Brenin Seisnig, Harri IV. gan Henry Percy, yr hwn hefyd a gyfenwid Hotspur. Cafodd yr Hotspur hwn, fod Mynachod Llanfaes yn ochri o blaid eu cydwladwr, Glyndwr; ac o herwydd hyny, efe a roddodd amryw o honynt i farwolaeth, ac a gludodd y lleill ymaith yn garcharorion.

Trigolion Mon, a Rhyfel Cartrefol yr Eilfed Ganrif-ar-bymtheg.—Ymddengys fod trigolion yr Ynys hon wedi llwyr ymgymmodi â'r Llywodraeth Seisnig erbyn yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg; canys cawn eu bod y pryd hwnw, yn mhlith cefnogwyr brwdfrydicaf y Brenin Siarl y Cyntaf, dros yr hwn yr ymladdasant yn fwy cyndyn a llwyddiannus, na thrigolion odid unrhyw barth o'r deyrnas. Ar y cyntaf, gwarchodid Castell Beaumaris dros y Brenin, gan Iarll Dorset, ac yn ddilynol i hyny, megys mewn cydnabyddiaeth o ffyddlondeb yr Ynyswyr i'r gormesdeyrn, gwnaed Thomas, Arglwydd Bulkeley, yn Gwnstabl y lle, yr hwn, yn ngyda'i fâb, y Milwriad Richard Bulkeley—ac amryw o foneddigion ereill yr Ynys, a ddaliasant y Castell dros y Brenin, hyd y flwyddyn 1646, pryd y bu raid ei roddi i fyny ar delerau anrhydeddus, i'r Cadfridog Mytton; ond ymddengys iddo drachefn syrthio i ddwylaw pleidwyr y Brenin am beth amser. Yn y flwyddyn 1648, gwnaed ymdrech egniol mewn amryw ranau o'r deyrnas, i adfer awdurdod y Brenin Siarl; a phobl Môn a ymrestrasant megys un gŵr i gefnogi y symudiad. O dan arweiniad y Bwlcleiod, ac ereill, cawn ddarfod i bob Monwyson oedd uwchlaw un mlwydd-ar-bymtheg, arwyddo y datganiad hynod a welir yn yr erthygl ar Beaumaris. Yn y datganiad rhyfedd hwnw, dywedid fod trigolion yr Ynys, "wedi ystyriaeth ddyfal, a gweddi daer am gyfarwyddyd Duw," yn gwrthdystio yn erbyn ymddygiad gelynion y Brenin, a'u bod hwy (trigolion Môn) wedi cadw yr Ynys yn ufydd i'r Brenin Siarl, hyd nes yr oedd y gelynion wedi goresgyn a meddiannu yr holl deyrnas; ac mai dyma yr unig sir a gadwesid yn gyfan mewn ffyddlondeb i'r Brenin, am fwy na dau fis gwedi i bob man arall orfod ymostwng i'r Senedd. Yr oedd y trigolion yn yr un datganiad hynod, yn mynegi eu parodrwydd i roddi eu cyrff, eu meddiannau, a'r oll a berthynai iddynt, i lawr wrth draed "eneiniog Duw," sef y Brenin Siarl. Bydd yn werth i'r darllenydd droi i'r erthygl ar Feaumaris, tu dal. 120, er cael ail olwg ar y cyhoeddiad mwyaf gwasaidd a arwyddwyd erioed gan gynnifer o Gymry. Pa fodd bynag, bu raid i'r un rhai yn dra buan, law-nodi cyfansoddiad pur wahanol, sef cytundeb o ymostyngiad i Gromwell, ac ymrwymiad i dalu ugain mil o bunnau fel iawn rhyfel. Nis gallodd Castell Beaumaris, er ei holl gadernid, ddal yr un diwrnod o flaen lluoedd buddugoliaethus y Cadfridog Mytton, a chydag ymostyngiad y lle i'r cadfridog hwnw, darfu rhyfel a chelanedd yn Ynys Fôn. Heddwch a thangnefedd a etifeddir gan ei thrigolion hyd y dydd hwn, a hyderwn yn ddiffuant y parhant i fwynhau y cyfryw freintiau anmhrisiadwy holl ddyddiau y ddaear.

Tir ac Amaethyddiaeth yr Ynys.—Er fod yn yr Ynys rai cannoedd o erwau o dir cleilyd, a chorsydd diffaeth, eto gellir dyweyd fod daear Môn, ar y cyfan, yn dra ffrwythlawn. Nid ydyw y pridd yn ddigon trwm i'r gwenith gwyn, bras, dyfu ynddo hyd berffeithrwydd, a mwy manteisiol i'r amaethwr, yw ymgadw at y gwenith côch, neu y gwenith crwn. Ceir yma gnydau godidog o haidd, a cheirch, a gwair, a phorfa hafal, os nad rhagorach, nag a welir mewn unrhyw barth o Wynedd. Ychain duon Môn, a ddaliant gydmariaeth ffafriol â da corniog unrhyw wlad, o ran eu defnyddioldeb cyffredinol, a phereidddra nodedig eu cig. Defaid y wlad ydynt fawrion a hawdd eu pesgi; a diau nad oes unrhyw barth o Frydain, yn cynyrchu rhagorach meirch. Y mae ffeiriau yr Ynys yn ddiarebol fel cyrchfa porthmyn meirch o bob cyfeiriad. Barn yr amaethwyr mwyaf profiadol ydyw, fod tir yr Ynys yn fwy ffafriol i feithriniad anifeiliaid, nag i dyfiad ŷd; a chyd olyga llawer o wŷr deallus â'r sylwadau a wnaed gan Richard Davies, Ysw., A.S., mewn ciniaw amaethyddol yn Llangefni, ddechreu y mis hwn (Medi, 1873), pryd y dadleuodd y boneddwr anrhydeddus a meddylgar, y gallai yr amaethwyr ymgyfoethogi yn gyflymach, pe yr ymroddent yn gyfangwbl i dyfu a phesgi anifeiliaid. Tyfir mwy o bytatws yn Môn, nâg mewn unrhyw barth cymhesur o Gymru; ac er y flwyddyn 1765, y mae tyfiad rwdins, a maip, wedi bod ar gynnydd dirfawr. Perthyna i'r Ynys fath o faip arbenig, o rywogaeth fân, a lliw melyn, y rhai a elwir "Maip Sir Fon." Ychydig o gaws a wneir yn y wlad, a chaws o nodwedd lled salw ydyw yr hyn a wneir yma. Defnyddir calch, gwman y môr, tywod creginog o draethau yr Ynys, &c., fel gwrtaith; a mawr ganmolir gwman, a thywod creginog y Traeth Côch, fel gwrtaith o radd uchel iawn. Y Parch. Thomas Williams, ebrwyad Llansadwrn, yn y flwyddyn 1645, oedd y cyntaf i ddarganfod rhagoroldeb y tywod creginog fel gwrtaith. Defnyddir hefyd yn awr, lawer o wrteithiau celfyddydol, o weithfeydd y Meistri Hills, Amlwch; a manau ereill.

Er gwaethaf yr anfantais o fod heb brydlesoedd ar eu ffermydd, eto y mae amaethwyr Môn yn arddangos dyfalwch mawr, ac ysbryd tra anturiaethus gyda diwylliad y tir. Gwariant symiau aruthrol o arian i sychu corsleoedd tonenog, chwalu hen wrychoedd ceimion, ac anolygus, ac adeiladu rhai newyddion, heirdd a phrydferth, gwrteithio y crindir tenau, a chyfôdi adeiladau cyfaddas at wasanaeth dyn ac anifail. Gresyn yw meddwl, na feddant y diogelwch lleiaf am yr arian a wariant fel hyn. O dan y drefn bresennol, gall tir-feddiannydd diystyr o hawliau cyfiawn ei isradd, ymlid dyn o'i fferm, yn mhen y chwe' mis wedi i'r dyn hwnw wario arni yr hyn a enillodd trwy gydol oes faith o lafur diorphwys. Trwy y gyfundrefn anghyfiawn hon, amddifadir plant yr amaethwyr yn fynych, o fanteision ag y mae ganddynt wrth natur hawl i'w hetifeddu. Yn ystod y deng

Digitized by Google

mlynedd ar hugain diweddaf, y mae cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle yn y dull o amaethu a diwyllio y tir yn Môn. Yn nyddiau bachgendod yr ysgrifenydd, yr oedd y ffust, yr aradr pren, a'r ordd eithin, yn uchder eu bri, a dynoliaeth yn chwysu mêr ei hesgyrn allan, wrth gyflawni gwaith ag y mae nerth march, a grym ager, weithian yn ei wneyd yn llawer mwy effeithiol. Damwain ydyw clywed clep y ffust gwplws, na chnoc yr ordd eithin, o fewn terfynau Môn bellach, ac y mae'r crydr coed agos oll, wedi cyflawni y gwasanaeth olaf yn merwad y crochan pytatws, neu dwymniad y crochan uwd. Yr agerdd-beiriant sydd yn dyrnu, y march sydd yn malu eithin, a'r aradr haiarn sydd yn cwyso y tir yn barod i dderbyn hâd. Trwy fabwysiad a defnyddiad cyffredin offer amaethyddol, y mae blinder llafur dynol wedi ei ddirfawr leihau. Y mae y peiriant hyd yn nôd yn disodli y bladur ar y gwaen-diroedd, a'r yd-faesydd gwastad a theg. Yn ei draethawd godidog ar amaethyddiaeth, dywed y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain) fod ychain duon Môn, yn gyffelyb braidd yn mhob peth i'r ychain Rhufeinig a ddesgrifir gan Columella. Y maent yn nodedig o gorffol, coesfyr, a thueddol i besgi, a'r amaethwyr a ddylent fod yn ymarhous i gyfnewid y rhywogaeth yma am wartheg dyeithr na feddant gyfaddasrwydd i ddal hinsawdd arbenig yr Ynys. Cyfrifir defaid Môn, yn hynod ac uwchraddol yn mhlith anifeiliaid gwlanog Cymru. Hwynthwy ydynt y defaid brodorol mwyaf yn y Dywysogaeth. Yn eu cyflawn faint, a phan wedi eu pesgi yn barod i dwcca y cigydd, pwysant gymaint a deunaw pwys y chwarter. Nodweddir hwy yn gyffredin gan goesau, a gwynebau brychion, ac nid oes iddynt gyrn. Rhai naturiaethwyr a ddameanant, eu bod ar y cyntaf, o'r un rywogaeth a defaid bychain penfrych mynyddau Arfon; ond eu bod hwy wedi ymddadblygu mewn canlyniad i frasder eu porfa, a chynesrwydd yr hinsawdd. Ereill a ddadleuant mai o'r Iwerddon y dygwyd y rhywogaeth i Fôn, ryw gyfnod maith yn ol. Ceir o bwys a haner, i ddau bwys (pwysau mawr) o wlan ar bob dafad yn flyneddol. O herwydd rhyw resymau anhysbys i ni, y mae amaethwyr Môn yn magu llai o fôch y naill flwyddyn ar ol y llall. Blinir amaethwyr parthau eang o'r Ynys, yn enwedig gyda'r morlanau, gan luosowgrwydd y pryfettach dinystriol, a elwir cwningod, y rhai y myn amryw dirfeddiannwyr eu coleddu, ar draul peri mawr niwed i amaethyddiaeth y wlad.

Mwnau yr Ynys.—Y mae cyfoeth mwnawl Môn yn dra gwerthfawr. Ei chalchgreigiau, a'i mynorgreigiau, ydynt ddihysbydd; a chodir cannoedd o filoedd o dunelli yn flyneddol, i'w hallforio i bob parth o'r deyrnas, o chwarelau mawrion y Plas Newydd, Penmon, a Moelfro. Wedi ei gaboli, ceir y mynor yn dra phrydferth, a'i barhad braidd yn ddihafal. Ceir mathau ereill o greigiau gwerthfawr yn ngwahanol barthau yr Ynys. Yn Morfa Malldraeth, a Chors Ddeugae, ceir gwythienau o lo; ac er mai glo lled fân ydyw, eto gwneir elw da wrth ei gloddio. Ond "Pres fwnau Parys fynydd" a ffurfiant gyfangorff cyfoeth mwnawl Môn. Dyma yn ddiau y corff mwyaf o gopr pur, a ddarganfyddwyd yn Mrydain hyd yn hyn. Diangenrhaid i ni fanylu ar weithfeydd enwog Mynydd Parys, yn yr erthygl hon, gan y cair dysgrifiad cyflawn o honynt yn yr erthygl ar Amlwch. Yn ardal Cemaes, ceir gwahanol fathau o baent, a chlai gwyn gwerthfawr; ond ni wnawn yma namyn crybwyll y ffaith, gan fod mwnau yr Ynys wedi cael eu trafod yn yr erthyglau ar y gwahanol blwyfydd. Yr un modd, y mae'n gweddu i ni basio heibio i borthladdoedd, ac aberoedd y wlad, o herwydd y cair pob manylion perthynol iddynt hwythau mewn erthyglau ereill; ac ailadroddiad di amcan a fyddai ysgrifenu yr un ffeithiau drosodd drachefn. Felly, ni wnawn namyn cofnodi, mai Beaumaris, Cemaes, Cemlyn, a Chaergybi, ydynt y prif borthladdoedd; a cheir lleoedd gweddol gyfleus i fân lestri lanio hefyd, yn nghilfachau Dulas, a'r Aberffraw. Prif afonydd yr Ynys ydynt y Gefni, yr Alaw, y Fraint, y Ffraw, a'r Ddulas. Nid oes yr un o'r rhai hyn yn fordwyol; ond ceir ynddynt gyflenwad gweddol o leisiaid, brithyll, a mathau ereill o bysg. Ceir cyflawnder o wahanol bysgod hefyd gyda'r môrlanau, a llawer o'r trigolion a enillant fywioliaeth gysurus wrth rwydo, a gwerthu y cyfryw.

Cynrychioliad yr Ynys.—Cynnrychiolir Ynys Môn yn Senedd Prydain, gan ddau aelod; un o ba rai a etholir gan dirfeddiannwyr, a threthdalwyr o dros ddeuddeg punt o fewn y sir, a'r llall gan dŷ-ddeiliaid bwrdeisdrefi Beaumaris, Caergybi, Amlwch, a Llangefni. Yn y flwyddyn 1541, sef y 33ain o deyrnasiad y Brenin Harri VIII., y rhyddfreiniwyd Môn, ac y caniatawyd i'r trigolion gael eu cynrychioli yn y Senedd. Yn y flwyddyn hono, etholwyd aelod dros y sir, Risiard ap Dafydd ap Huw Ifan ap Sieffri, yn aelod dros fwrdeisdref Niwbwrch. Ymddengys ddarfod i ryw dwyll, neu gamgymeriad, gael ei wneyd o berthynas i'r freinleu fwrdeisiol gyntaf, canys dros Niwbwrch yn unig yr etholwyd yr alodau hyd y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth y Chwechcd, pryd yr etholwyd "Morus Gruffydd, o Blas Newydd, Yswain," gan fwrdeisiaid Niwbwrch a Beaumaris. Parhaodd Niwbwrch i fwynhau cyfran o'r gynrychiolaeth hyd y flwyddyn 1730, sef y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Sior y Cyntaf, pryd y penderfynodd pwyllgor o Dy y Cyffredin, nad oedd bwrdeisiaid Niwbwrch yn meddu hawl i bleidleisio o gwbl, yn ol deddfau Harri VIII. a'r Frenines Elisabeth, ac mai maer, bailiaid, a bwrdeisiaid rhyddion Beaumaris yn unig, a feddent y fath hawl. O hyny hyd wneuthuriad mesur diwygiadol 1832 yn ddeddf, Beaumaris oedd yr unig un o drefydd Môn, a gynrychiolid yn y Senedd (Gwel *The Calendars of Gwynedd*, by Edward Breese, Esq., F.S.A.) Mesur Diwygiadol 1832 a ddygodd Gaergybi, Amlwch, a Llangefni, i'r gynrychiolaeth; a Mesur Diwygiadol 1867 a wnaeth bob ty-ddeiliad o fewn y trefydd hyn, a Beaumaris, yn etholwr.

Crefydd, a Moesau trigolion yr Ynys.—Y mae'r erthygl hon wedi myned eisoes yn feithach nag y bwriadai yr ysgrifenydd iddi fod ar y cychwyn; ac o herwydd hyny, rhaid ymattal rhag manylu ar lawer o bethau dyddorol sydd yn gylymedig â hanesiaeth gyfoethog Ynys Môn. Ond, fel y crybwyllwyd yn barod, nid oes angen manylu ar lawer o bethau mewn ysgrif ar yr Ynys yn gyffredinol, gan fod pob manylion i'w cael yn yr ysgrifau a gynnwys y gwaith hwn ar y plwyfi, y tref-gyrdd, &c. Prif swyddogaeth yr ysgrifenydd, oedd rhoddi i'r darllenydd olwg cyffredinol ar brif bwyntiau hanes yr Ynys, a'i thrigolion, yn ystod y gwahanol gyfnodau, ac nis gall derfynu yn fwy priodol, na thrwy dalu gwarogaeth i grefyddolrwydd a moesoldeb uchel y trigolion yn y dyddiau hyn. Nid oes hanes am Ynys na swydd o

Digitized by Google

fewn cyffiniau teyrnas Prydain Fawr, lle y mae moes a chrefydd yn blaguro ac yn llwyddo i'r un graddau ag yn Môn. Y mae ei charchar braidd yn wâg yn wastadol, er ys blyneddau bellach; ac y mae y mwyafrif o'r drwg-weithredwyr a geir o'i mewn, yn ddyeithriaid a chrwydriaid na pherthynant ddim oll i'r brodorion. O fewn y ddwy flynedd ddiweddaf, cynnaliwyd yma bedwar brawdlys, ac mewn tri allan o'r pedwar, nid oedd yr un troseddwr i'w brofi; ac yn y brawdlys arall, nid oedd namyn un cyhuddedig, a'r rheithwyr a farnasant fod yr un hwnw yn ddieuog. Felly, wele ddwy flynedd heb i'r un trosedd gael ei gyflawni o fewn yr holl Ynys; hyny yw, heb i'r un trosedd a haeddai ei gosbi gan farnwyr, gael ei gyflawni. Nid rhyfedd oedd i'r Barnwr Keating ddyweyd yn y Beaumaris, ddiwedd mis Gorphenaf, "nas gwyddai ef am yr un wlad yn y fath sefyllfa ddymunol." Y mae yr achos o hyn yn hawdd ei ganfod, sef yn nghapelydd llawnion, ac aelwydydd crefyddol yr Ynys. Hir y byddo i bobl Môn barhau i ofni Duw, a chilio oddiwrth ddrygioni, ac felly i fod yn brif addurn:—

"Cymru lân, Cymru lonydd—Cymru wèn,
Cymru anwyl beunydd."

Bydded iddi hefyd fod yn wastadol deilwng o eiriau ei phrif-fardd dihafal:—

"A thudwedd bendith ydwyt,
Mawl dy Ner, aml ei dawn wyt;
Os ti a fawl nefawl Nêr,
Dilys y'th felus foler;
Ddawnol fydd pawb o'th ddynion,
A gwynfyd y myd ym Môn!
Dy Eglwyswyr, deg loywsaint,
A'th leygion yn sywion saint,
Cryfion yn ffrwythau crefydd,
Fyddant a diffuant ffydd;
Yn lle malais trais traha,
Byddi'n llawn o bob dawn da,
Purffydd a chariad perffaith,
Ffydd yn lle cant mal chwant maith;
Yn lle aflwydd tramgwydd trwch,
Digon o bob rhyw degwch;
Undeb a phob rhyw iawnder,
Caru, gogoneddu Nêr;
Dy enw fydd, da iawn fod,
NEF FECHAN Y NAF UCHOD."

**MON** (LEWIS), bardd enwog o Fon, yr hwn a flodeuai rhwng 1480 a 1520. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifen.

**MONACHLOG DDU**, plwyf yn undeb Narberth, swydd BENFRO, goris mynydd Preseli, ger tarddiad yr afon Cleddau Ddwyreiniol; 6½ milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd *Narberth Road*, a 9½ milldir i'r gogledd o Narberth. Llythyrfa, Hwlffordd. Erwau, 6166. Gwerth ardrethol, 1364*p*. Poblogaeth, 470. Tai annedd, 108. Y mae llawer o'r tir yn anniwylliedig. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 129*p*. yn y flwyddyn. Noddwr, Arglwydd Milford.

**MONK NASH**, plwyf yn undeb Pen y Bont, swydd FORGANWG, yn agos i oleu Nash, ar gyfyngfor Caerodor; 6 milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Pont fôn. Llythyrfa, Pen y bont. Erwau, 1584; o'r rhai y mae 260 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1769*p*. Poblogaeth, 103. Tai annedd, 17. Rhoddwyd y faenoriaeth gan Richard de Grenville i Fonachlog Nedd. Y mae yma adfeilion ysgubor Fynachaidd, a rhyw adeiladau eraill. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 67*p*. Noddwr, J. B. Pryce, Ysw.

**MONNINGTON AR WY**, plwyf yn undeb Weobley, swydd HENFFORDD, ar lan yr afon Wy; 5¾ milldir i'r de dde orllewin o Weobley. Erwau, 1011. Gwerth ardrethol, 1355*p*. Poblogaeth, 102. Tai annedd, 21. Perthynai y faenoriaeth unwaith i fab yn nghyfraith Owain Glyndwr, a pherthyna yn awr i Syr V. Cornewall, Barg. Bernir mai yn Llys Monnington, yr hwn nid yw namyn ammaethdy yn awr, y bu farw yr hen wron Cymreig.

**MOOR**, trefgordd yn mhlwyf Pen ar halawg, swydd FFLINT. Erwau, 237. Gwerth ardrethol, 760*p*. Poblogaeth, 110. Tai, 23.

**MOR**, fab Cenau ab Coel Coedhebog, sant oedd yn oesi yn y bummed ganrif. Efe a seiliodd eglwysi Llanfor, neu Llannor, yn Lleyn, swydd Gaer yn arfon; a Llanfor, yn Mhenllyn, Meirionydd. Fe'i gelwir mewn rhai ysgrif-lyfrau, Mor ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel, ab Myr, ab Morydd. Yr oedd ef yn dad i Arthwys.

**MOR**, fab Morien, sant a flodeuai yn gynnar yn y bummed ganrif. Efe a grybwyllir yn Achau y Saint, fel un a ddug ffydd a bedydd i'r wlad hon; ond ni fynai ddwyn bedydd i Wynedd: y cyntaf a wnaeth hyny oedd Gwydion ab Don, brenin Llychlyn, yr hwn oedd frenin Gwynedd, pan feddai y Gwyddelod arglwyddiaeth yn Ngwynedd. Ar ol hyny, fe aeth Môr i Rufain, a Jerusalem. Crybwyllir yn Englynion y Gorugiau, mai gorchest-gamp Mor ab Morien, oedd sefydlu breiniau i wlad anrhydeddus Cymru, rhyddid i'r aradr, a'r ffydd Gristionogol.—(IOLO MSS. pp. 551, 672.)

**MOR** ab Pasgen ab Urien Rheged, sant, a flodeuai yn y chweched ganrif. Efe a gladdwyd yn Ynys Enlli.

**MORACH** (MORFRAN), pendefig, tiriogaeth yr hwn oedd yn Maelor, ardal sydd yn awr yn gwneyd i fynu ran o swydd Fflint. Efe a grybwyllir gan y beirdd yn fynych, ar gyfrif ei wledd enwog.

**MORDAF**, esgob Bangor, yr hwn yn nghyda Marchlwys, a Blegwryd, a aethant gyda Hywel Dda i Rufain, yn y flwyddyn 926, pan aeth efe yno i ymgynghori yn nghylch adolygiad, a diwygiad cyfreithiau Cymru.

**MORDAF HAEL**, pendefig oedd yn oesi yn y bumed ganrif. Mab ydoedd i Serfan ab Dyfnwal Hên, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig, ac fe'i coffeir yn y Trioedd, gyda Rhydderch Hael, a Nudd Hael, dan yr enw "Tri thywysog hael Ynys Prydain." Efe a ymgyssegrodd i wasanaeth crefydd, ac fe'i rhestrir gyd a'r Saint Cymreig. Yr oedd eglwys gynt, yn agos i Groesoswallt, a elwid Llanforda, yr hon fe ddichon, a gafodd ei henwi oddiwrtho fel ei seilydd. Ond, fe roddwyd attaliad arni gan Reyner, esgob Llanelwy, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1224; eithr y mae ei gorsaf yn amlwg eto; a Llanforda y gelwir y drefgordd yn yr hon y gorweddai. Crybwyllir Mordaf yn "Chwedlau y Doethion," a phriodolir y dywediad doeth canlynol iddo;—"A glywaist ti ymadrodd Mordaf, yr hwn oedd un o'r Triwyr Haelaf?—O bob drwg y goreu yw'r lleiaf."

**MORDEYRN**, sant, o amseriad anhysbys. Efe oedd seilydd eglwys Nantglyn, yn swydd Ddinbych; ac yr oedd adfeilion "Capel Mordeyrn," gerllaw yr eglwys, yn weledig yn y flwyddyn 1698.

Digitized by Google

**MORDRYDD**, treflan yn mhlwyf Llanspyddyd, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 4½ milldir i'r de orllewin o Aberhonddu. Y mae ei sefyllfa yn y rhan uchaf o ddyffryn yr afon Tarell, yr hon sydd yn ffinio rhyngddo a phlwyf Llanfaes. O fewn ychydig bellder i'r dehau, ac mewn rhan o fewn y dreflan hon, y mae y mynyddoedd hynod a elwir "Banau Brycheiniog," yn ymddyrchu i'r uchder o 2862 troedfedd uwchlaw lyfel y môr. Y mae *Gilbert Court*, hen balas a adeiladwyd gan deulu o'r cyfenw Parry, yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, ar lan ddeheuol y Tarell, yn ammaethdy yn y dreflan hon yn bresenol; lle hefyd y mae Bolgoed, yr hon a ffurfiai ran o'r ettifeddiaeth a ddyroddid gan Bernard Newmarch i'w ganlynydd, Syr John Skule. Nid oes dim o olion y palas lle y cyfanneddai yr hen farchog crybwylledig, yn weledig yn bresenol; ond y mae twmpath, neu grugyn, ar dyddyn o'r enw Cilhwybarth, yr hwn y barnai *Jones*, Hanesydd Brycheiniog, ei fod yn orsaf rhyw hen adeilad a berthynai i'r faenoriaeth.

**MORDDAL** (GWR GWEILGI), a gofnodir yn y Trïoedd, fel adeiladydd Geraint ab Greidiol; ac fel addysgwr cyntaf y Brythoniaid, i adeiladu â cheryg a chalch, tu a'r pryd yr oedd Alecsander Fawr yn ei rwysg; ac am hyny, efe a restrir gyda Chorfinwr, a Choel ab Cyllin, fel tri Madgynydd Ynys Prydain.

**MORFA**, rhan o blwyf Nefern, swydd BENFRO; 2 filldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Drefdraeth. Poblogaeth, 355.

**MORFA**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangelynin, swydd FEIRIONYDD, 4½ milltir gogledd ogledd orllewin o Towyn. Gwerth ardrethol 651*p*., o'r hyn y mae 20*p*. mewn mwnau.

**MORFA-BYCHAN**, sydd le o fewn dwy filltir i Borth-madog, yn swydd GAERNARFON, gyda Llythyrfa dan Gaernarfon.

**MORFAEL**, enw a ganfyddir yn rhestr y Seintiau Cymreig, ond ni wyddys dim ychwaneg am dano.

**MORFA NEFYN**, sydd le yn mhenryn Lleyn, swydd GAERNARFON, 6½ milltir gogledd orllewinol o Bwllheli. Llythyrfa dan Bwllheli.

**MORFIL**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd BENFRO, o dan fynydd Preselli, ar darddiad afon Cleddau orllewinol; 5½ milltir de wrth orllewin, o Drefdraeth, a 7½ gogleddol o orsaf rheilffordd *Clarbeston-road*. Llythyrfa yn Hwlffordd. Erwau, 2551. Gwerth ardrethol, 809*p*. Poblogaeth, 125. Tai, 26. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 81*p*., ac yn nawddogaeth Arglwydd Milford.

**MORFRAN** (AIL TEGID), bardd oedd yn oesi yn gynar yn y chweched ganrif. Hynodir ef yn y Trïoedd, gyda Gwgan Gleddyfrudd, a Gilbert, dan yr enw, "Tri ysgymydd aerau Ynys Prydain." Mewn Trïawd arall, fe'i crybwyllir fel un o'r tri rhyfelwr a ddiangasant o frwydr Camlan, o herwydd hynodrwydd eu personau. Yr oedd diogelwch Morfran yn ddyledus i'w hagrwch anferth; oblegid ffoai pawb rhagddo, gan feddwl mai y dïafol ydoedd. Y ddau eraill oeddynt Glewlwyd Gafael-fawr, a Sandde bryd angel. Crybwyllir am dano yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen," ei fod yn orchuddiedig drosto â blew, megis carw; a deallir wrth Hanes Taliesin, fod Morfran yn fab i Tegid Foel, a Cheridwen.

**MORFYDD**, merch, ac unig aeres Gwraldeg, brenin Garth Madryn (yn awr, Sîr Frycheiniog). Prïodwyd hi â Teithall ab Anwn ddu, oddeutu o.c. 160.

**MORFYDD**, merch Urien Rheged, oedd yn byw yn y chweched ganrif. Cofnodir hi yn y Trïoedd fel cariadferch Cynan ab Clydno Eiddyn. Crybwyllir am dani hefyd yn *Englynion y Gorugiau*.

**MORFYDD**, cariadferch Dafydd ab Gwilym, a hynodwyd yn Nghyfansoddiadau y bardd hwnw, oedd ferch Madog Lawgam, o Fôn. Cyfansoddodd D. ab G. 147 o Gywyddau anerchiadol iddi.

**MORGAN**, neu PELAGIUS, un o'r cymeriadau anhawddaf mewn hanesiaeth eglwysig, i draethu am dano gyda dim sicrwydd. Dywedir mai Cymro ydoedd, a tharddir ei enw o *mor*, a *geni*, sef brodor o'r mor, neu o fin y mor, â'r hyn y cytuna ei enw Groegaidd πελάγιος; ond eraill a darddant yr enw o'r geiriau Gwyddelig *môr*, sef *mawr*, a *ceann*, neu *keann—pen*, yr hyn yn y Gymraeg, a arwydda *penfawr*, neu *penfras*. Saif yr anhawsderau canlynol ar ein ffordd i olrhain ei hanes:—Yn gyntaf, yn Rhufain, tua'r flwyddyn 405, y daw i'r golwg gyntaf mewn hanesiaeth; yn ail, trwy ddwylaw ei wrthwynebwyr y trosglwyddwyd i ni bob crybwyllion sydd genym am dano; ac yn drydydd, nid yw yr haneswyr eglwysig Groegaidd, na'r haneswyr Cymreig henaf, sef Gildas, a Nennius, yn gwneyd un crybwylliad am dano o gwbl. Y mae yn y rhestr ryfedd a elwir "Cof Cyfarwyddyd" yn yr IOLO MSS., yr hon a broffesa fod wedi cael ei chymeryd o "Lyfr Caradawc o Lancarfan," y cofnodion canlynol:—

"380. Cyfergyd a'r amseroedd hyn, y bu Morien ab Argad Fardd, yn ddysgediccaf o neb yn y byd, ac efe a fu yn Ammau bedydd ag Aberth Corph Crist, ac achos hynny y bu casineb, ac ymrysonau, ac ymladdau nid bychain; ac Hud Morien a fu un o Dri hud ddargoll Ynys Prydain, . . . . sef o'i achos y colled bedydd ag Aberth yn Ynys Prydain, ac ydd aeth holl werin yr ynys yn Iuddewon difedydd."

"390. Cyfergyd a'r amseroedd hyn y bu Cwstenyn ymerawdwr, yn gyfnoddwr y ffydd yng Nghrist, ac y bu Martin Esgob, yn Gwrthammau Hud Morien yn yr Eidal, ag Ynys Prydain; ac yn dysgu bedydd ag Aberth modd au dysgwyd gan bawl Abostol."

Faint bynag o werth hanesyddol a briodolir i'r cofnodion uchod, y mae yn dra thebyg mai at yr hyn a elwir mewn iaith ddiweddarach, yn "heresi Morgan," y maent yn cyfeirio; er yn ol yr hanesion cyffredin, Garmon a Bleiddian a anfonwyd yma i wrthladd "heresi Morgan," ac nid "Martin," esgob Tours yn Gâl, yr hwn, meddir, yn 393, a sefydlodd y fynachlog gyntaf yn Ffrainc. Os oes rhyw wirionedd yn sylfaen i'r cofnodau uchod, ac os mai yr un oedd Morien ab Argad Fardd, a Morgan yr heretic, y mae yn amlwg bod cysylltiad rhywng Morganiaeth a Derwyddiaeth, a bod mwy o sail i'r dyb a osodwyd i fyny gan yr ysgol ddiweddar o Dderwyddon Cymreig, megys Iolo Morganwg, Dr. Owain Pughe, a Dr. Richards o Lynn, nag a gydnabyddir yn gyffredin; sef mai syniadau Derwyddol yr hen Frytaniaid, ar bwnc "Rhyddid yn Nyndod," wedi eu cymmysgu a Christionogaeth, yw yr hyn a elwir Morganiaeth. Ond os mai nid yr un person oedd Morien a Morgan, y mae yn canlyn nad oes un hanesydd Cymreig, o ddim henafiaeth, yn crybwyll am Morgan o gwbl; a'r debygoliaeth yw, nad yw yr enw, Morgan, ond cyfieithad diweddar o *Pelagius*, megys yr arferai y Cymry alw Maximus yn *Macsen Wledig*, a Lupus yn *Fleiddian*, &c. Pa fodd bynag, dywed Awstin,

Digitized by Google

yr arferid galw Pelagius yn "Pelagius Brito," er ei wahaniaethu, fel y tybiai ef, oddiwrth Pelagius o Tarentum; a gelwid ef hefyd, Pelagius y Mynach, er dangos nad oedd yn meddu un swydd yn yr eglwys; ond ei fod yn un o'r rhai oedd yn ymneillduo oddiwrth orchwylion y byd, er ymroddi i fyfyrdodau duwiol.

Oddiar eiriau Awstin y mae pedair gwlad yn honi yr arch heretic hwn fel eu heiddo—Llydaw [*Bretagne* neu Armorica] Ysgotland, Iwerddon, a Chymru. Sylfaenir hawl Llydaw ar ei henw henafol, *Bretagne;* ond dadleua *Stillingfleet*, nad yw yr enw yn ddigon henafol, ac mai yr engraifft gyntaf a geir o'r enw Bretagne, neu Britannia ar y wlad hono, yw yr un a geir yn hanes cyngor Tours, lle y gelwir Mansuetus yn *episcopus Britannorum*. Hawl Ysgotland a orphwys ar frawddeg wawdlyd o eiddo Jerome, yr hon, fel y cawn weled, sydd i'w deall am wlad arall. Ond er hyny attegir hawl Ysgotland gan un ffaith, sef na ddarfu i Pelagius, wedi iddo fyned i Rufain, byth ddychwelyd i'w wlad ei hun, yr hyn, yn ol beirniaid adwythig, sydd un o nodweddau yr Ysgotiaid hyd y dydd hwn. Gorphwysa hawl yr Iwerddon ar y frawddeg ganlynol, o eiddo Jerome, am Celestius, dysgybl Pelagius—"*Scotorum pultibus prægravatus.*" Yn ei ddull dirmygus cyffredin o siarad am ei wrthwynebwyr, dywed Jerome, "Y mae awdwr y sect o hyd yn ddystaw gyda ni, ond mewn manau eraill, y mae yn arllwys ei athrodion; enfyn ei gyfrolau ymosodol i'r holl fyd, y rhai oedd unwaith yn werth eu pwysau o aur, ond yn awr ydynt yn llawn o wenwyn. Er ei fod ef ei hun yn ddystaw, y mae yn defnyddio y ci Albinaidd (*Albinum canem*) hwnw i gyfarth yn ei le, y ci mawr cedenog hwnw, cymmwysach i ymladd a'i sodlau nag a'i ddanedd. Y mae o wreiddyn Ysgotaidd (*Scoticæ originis*), pobl agos i'r Brytaniaid; a dylai, yn ol chwedlau y beirdd, gael ei daro fel Cerberus â'r cwlbren ysbrydol, fel y soddo gyda'i feistr, Pluto, i ddystawrwydd bythol;" a gollynga ef ymaith fel penbwl gyda'r frawddeg, "*Scotorum pultibus prægravatus.*" Ar gyfieithad y frawddeg ddiweddaf y mae y ddadl yn troi. Y meddwl llythyrenol, yn ddiau yw, bod y ci (Celestius) wedi ei chwythu i fyny ag uwd ei wlad frodorol; yr hyn weithiau a gamgyfieithwyd yn "uwd yr Alban, gan dynu y casgliad mai brodor o'r Alban, a elwir yn awr Ysgotland, oedd Pelagius, yr hwn a borthai ei ddysgybl a'i syniadau. Ond y mae yn ffaith adnabyddus, mai "Scotia" oedd enw yr Iwerddon yn yr yr oesau boreuol hyny, ac mai "Scoti" y gelwid y trigolion. Felly gan hyny, ni a dybiwn bod y geiriau yn profi tu hwnt i amheuaeth, mai Gwyddel oedd Celestius; ond nid ydynt yn profi mai Gwyddel oedd ei athraw. Heblaw hyny, byddai yn anmhosibl, oddiar y wybodaeth sydd genym am gyflwr isel yr Iwerddon yn yr oes hono, i neb brofi y gallasai Pelagius gael yn yr Iwerddon, y manteision crefyddol ac addysgiadol a roddent iddo y gwrteithiad meddyliol uchel, a'r wybodaeth dduwinyddol annghymmarol, gyda pha rai y synai efe y byd crefyddol, ac y dyrysai efe ei wrthwynebwyr mewn dadl. Dywed *Travers Hill*, eithr ni nododd ei awdurdod, bod Abatty Benchor, neu Bangor, yn swydd Down, yn ddigon boreu i allu rhoi addysg i Pelagius; ond y gwir yw, mae yr awdurdodau goreu yn cyduno mai St. Comgal, yn y flwyddyn 555, a sylfaenodd yr Abatty hwnw; felly yr oedd ddau cant o flynyddoedd yn rhy ddiweddar i allu rhoi addysg i Pelagius, yr hwn oedd yn dechreu tynu sylw yn Rhufain, fel heretic, yn y flwyddyn 405. Saif hawl Cymru ar y ffaith bod Morgan yn cael ei alw gan estroniaid, "*Pelegalius Brito;*" a chyttuna y prif haneswyr mai un o'r hen Frytaniaid ydoedd. Ond rhaid cyfaddef nad oes un rhith o sail i'r chwedl a osododd rhai o'u hysgrifenwyr diweddar i fyny yn lle hanes, sef mai un o fynachod Bangor Iscoed ydoedd, ac iddo gael ei ddiswyddo oblegyd ei heresiau; mwy nag sydd i'r chwedl arall, mai brodor ydoedd o Forganwg, ac aelod o Gor Illtyd. Y gwir yw, yr oedd sefydliad Bangor Iscoed, lawer yn rhy ddiweddar i Morgan; ac felly hefyd pob mynachlog yn Nghymru. Gwel DUNAWD FFUR. Er hyny, mae y ffaith yn aros, mai Brytaniad oedd Morgan, ac mai efe, yn ol Kurtz, oedd y cyntaf i geisio deall ystyr lythyrenol epistolau Paul; a meddai ddigon o wroldeb moesol i ymgodi uwchlaw ei oes, gan draethu ei syniadau ar yr egwyddor o ryddid yr ewyllys, a gallu dynol, er gwaethaf gwaseiddiwch y bobl, a digofaint y clerigwyr.

Yr olwg gyntaf ydym yn ei gael arno, ydyw yn Rhufain, yn niwedd y 4edd ganrif, yn byw math o fywyd meudwyol, yn ol arfer lleygwyr mwyaf crefyddol yr oes hono, ac yn dysgu pobl ieuainc; o ba rai, enwir Celestius, Julianus, Timasius, a Jacobus. Yn y cyfamser, efe a ysgrifenodd Esboniad ar Epistolau Paul, a rhai traethodau ar byneiau duwinyddol; ond wedi iddo gael ei gyhuddo o heresi, treuliodd ei amser i amddiffyn ei hun yn Asia, Affrica, a Rhufain; ac wedi llawer o helyntion blinion, cyfiawnhau, ac esgymuno, yn ol a gwrthol, yr ydym yn ei golli o dan esgymundod Cyngorfa Antiochia.

Fel y crybwyllwyd uchod, gan mai trwy ddwylaw ei gyhuddwyr y mae syniadau Pelagius wedi dyfod i ni, y mae haneswyr yn amrywio yn eu dull yn eu gosod allan. Kurtz, ar ol darlunio syniadau athrawiaethol Awstin, a ddywed "Tra gwahanol i hanes fewnol Awstin, oedd eiddo Morgan, neu Pelagius, mynach Prydeinig, o gyraeddiadau anrhydeddus, a difrifoldeb moesol; ond yn amddifad o ddyfnder meddyliol, neu allu amgyffredol. Mewn pellder oddiwrth drafferthion a thrialon bywyd, heb brofiad o demtasiynau mewnol, na thuedd cryf i bechodau cyhoeddus, ac yn amddifad hefyd o brofiad Cristionogol dwfn, yr oedd ei feddylddrych am grefydd, yn gynnwysedig o fath o feudwyaeth fynachol. Yr oedd ei gasineb tuag at syniadau Awstin, o berthynas i lygriad trwyadl y natur ddynol, a'i hanalluogrwydd perffaith i wneyd dim tuag at argyhoeddiad a sancteiddhad, wedi cael ei ychwanegu trwy ei wybodaeth am ryw bersonau esgeulus, oedd yn gwneyd hyny yn esgusawd dros eu drygioni. Cadarnhaodd y ffaith hono ef yn y dyb, y buasai yn well pregethu y ddeddf foesol, hawliau yr hon, fel y tybiai ef, a allai dynion gyflawni, os buasent yn ddifrifol yn eu hymdrech. Yn ystod ei arosiad yn Rhufain, tua'r flwyddyn 410, efe a ddechreuodd ledaenu y syniadau hyn. Y canlynol ydynt brif amlinellau ei gyfundrefn. Bod dyn wedi ei greu yn wreiddiol yn agored i farwolaeth naturiol; ac mai marwolaeth dragywyddol, ac nid naturiol, oedd canlyniad, a chosb pechod. Na ddarfu i gwymp Adda effeithio un cyfnewidiad yn natur foesol dyn; ac na ddarfu i'w effeithiau ymestyn dros hiliogaeth Adda. Fod pob dyn yn dyfod i'r byd yn hollol fel y daeth Adda allan o ddwylaw ei Greawdwr, h.y., heb na phechod, na rhinwedd. Mewn ymarferiad o'r hyn oedd iddo eto yn ryddid di leihad, iddo

Digitized by Google

gael ei adael i ddewis y naill neu y llall. Bod goruchafiaeth gyffredinol pechod, yn ymddibynu ar ddylanwad hudoliaeth, esiampl ddrwg, ac arferiad; ond y gallai dynion fyw yn ddibechod, ac yn wir fod dynion perffaith ddibechod wedi bodoli. Bod gras Duw yn hwylysu y ffordd i ddyn gyraedd ei dynged. Gan hyny, nad oedd gras ddim yn *ddiammodol*, ond yn *berthynasol* angenrheidiol, oblegyd goruchafiaeth gyffredinol pechod. Bod gras yn gynnwysedig mewn goleuni ysbrydol drwy y dadguddiad, mewn maddeuant pechodau, fel arddangosiad o diriondeb Dwyfol, ac mewn cryfhau ein galluoedd moesol, drwy ddwyn anogaethau y ddeddf, ac addewidion bywyd tragywyddol, i ddylanwadu arnynt. Bod gras Duw wedi ei fwriadu i bob dyn; ond bod yn rhaid i'r dyn ei deilyngu drwy wneyd ymdrechion difrifol am rinwedd. Bod Crist wedi ymgnawdoli, fel trwy ei athrawiaeth, a'i esiampl berffaith, y rhoddai efe i ni yr anogaeth grefaf i ddiwygio ein ffyrdd, ac felly ein gwaredu ni. Megys yr ydym drwy *bechod* yn efelychu Adda, felly y dylem drwy rinwedd efelychu Crist. Daliai fod bedydd yn angenrheidiol (bedydd babanod "*in remissionem futurorum peccatorum*"—er maddeuant o bechodau dyfodol). Babanod a fuont feirw yn ddifedydd, a fwynhaent meddai, radd is o ddedwyddwch. Ymddengys yr un ymlyniad annghyson wrth yr athrawiaethau derbyniedig, yn ei addefiadau o berthynas dadguddiad, gwyrthiau, prophwydoliaeth, y Drindod, a Duwdod Crist. Pe buasai Pelagius yn cario allan ei egwyddorion i'w terfynau naturiol, buasai, yn ddiau, yn bwrw allan o'i gyfundrefn, yr oll sydd yn oruwchnaturiol."—*Kurtz's Hist.* § 83, 3.

I'r gofyniad, O ba le y cafodd y Brytaniad y golygiadau neillduol uchod? cynnygir amryw atebion. Yr ysgol ddiweddar o Dderwyddon Cymreig, a nodwyd eisios, a ddywed mai cymmysgiad oeddynt o Dderwyddiaeth a Christionogaeth. Celestius, cydymaith Morgan, a ddywed iddo dderbyn ei syniadau am bechod gwreiddiol, oddiwrth Ruffinus, o Aquileia, yr hwn yn ddiau a'u derbyniasai oddiwrth Origen, ei athraw; syniadau yr hwn am rag-hanfodiad eneidiau, a'u carchariad yn y corph, oeddynt yn rhwym o ddadymchwelyd cwymp dyn, a phechod gwreiddiol. Olrheinir ei syniadau ar gyflwr dibechod babanod, yn ol i Theophilus o Antiochia, a Chlement o Alexandria; ei eiddo ar gadwedigaeth babanod difedydd, i Gregory o Nazianzum; a'i eiddo ar allu dyn i fyw heb bechu, i Athanasius, yr hwn a gyfenwir "*Pater Orthodoxiæ.*" Ond yr oedd gwaith Pelagius—gwr heb urddau, yn dal y cyfryw syniadau, yn nghyda'r rhai a ddeillient yn naturiol o honynt, yn drosedd anfaddeuol yn ngolwg y fath ysbrydoedd uchelgeisiol a thrahaus, ag Awstin Fawr, a Jerome; ac am hyny yr oedd yn rhaid ei gollfarnu ef a'i ddilynwyr. Ond y mae yn deilwng o sylw, bod yn oed ei wrthwynebwyr blaenaf, yn gorfod dwyn y dystiolaeth uwchaf i'w ddysg, a'i dduwioldeb. Dywed Awstin "ei fod yn cael y gair o fod yn ddyn gwir dduwiol, ac yn Gristion o radd nid isel;" "iddo fyw yn hir, ïe, yn hir iawn yn Rhufain, a'i fod yn cadw y gymdeithas oreu yno." Chrysostom a ddywed, "Y mae fy ngofid yn fawr am Pelagius, y mynach; meddyliwch y fath nifer o goronau a haedda y sawl sydd yn sefyll yn ddiysgog, pan y gwelwn rai fu yn bucheddu gyda chymmaint o dduwioldeb a manylrwydd, yn syrthio ymaith."

Ymddengys i Pelagius, a'i gyfaill, Celestius, ymadael o Rufain ar ddynesiad y Gothiaid yno, yn 410, myned yn gyntaf i Sicili, ac wedi hyny i Affrica, gan wasgaru eu syniadau gydag eofndra. Tra yr arosodd Celestius yn Carthage, i ddysgwyl urdd henuriad, aeth Pelagius i Balestina, lle yr enillodd ffafr a nodded John, esgob Jerusalem; yr hwn, meddir, o herwydd ei ymlyniad wrth syniadau Origen, a roddodd dderbyniad parotach i'r eiddo Pelagius. Erbyn hyn yr oedd erlidigaeth wedi dechreu o ddifrif arnynt; cynnaliwyd cyngor yn Ngharthage, trwy ddylanwad Awstin, esgob Hippo, yn 412, yn yr hwn yr esgymunwyd Celestius; ac ysgrifenodd Awstin lyfryn i ddynoethi yr heresi. Yn Mhalestina, yr oedd Jerome, wedi ei gynhyrfu gan dramgwydd a dderbyniodd gan Pelagius, yn defnyddio ei holl allu i'w wrthwynebu; ond yn aflwyddianus. Yn 415, anfonodd Awstin, un *Paulus Orosius*, henuriad ieuanc o'r Yspaen, i Balestina, i gyhuddo Pelagius o heresi; ond mewn cyngor a gynnaliwyd yn Jerusalem, o dan lywyddiaeth John, i'r dyben o ystyried y cwyn, methodd y duwinyddion Dwyreiniol weled dim heresi yn syniadau Pelagius; ac felly rhyddhawyd ef. Cwyn arall a ddygwyd yn ei erbyn, gan ddau esgob o Gâl, yn nghyngor Diospolis (Lydda), o dan lywyddiaeth Eulogius o Cæsarea, a derfynodd yn yr un modd. Ar hyn, trwy ddylanwad ofnadwy Awstin, cymmerodd yr Affricaniaid yr achos mewn llaw, ac mewn dau gyngor olynol, a gynnaliwyd yn Ngharthage, a Milevum, yn 416, collfarnwyd Pelagius a Celestius; a chawsant gan *Innocent I.*, yr hwn a eisteddai ar y pryd yn nghadair Rhufain, i gymmeradwyo y ddedfryd. Parodd hyn i Pelagius ysgrifenu ei Gyffes Ffydd, yr hon a ddygwyd gan Celestius i Rufain, er apelio at y Pab; ond erbyn cyraedd yno, yr oedd Innocent I. wedi marw, a Zosimus yn ei olynu yn y babaeth. Cymmerodd Zosimus blaid yr esgymunedig, cyhoeddodd hwynt yn iach yn y ffydd, a cheryddodd eglwys Affrica yn chwerw. Ni effeithiodd hyny fawr ar yr Affricaniaid, gydag Awstin yn flaenor iddynt; ond safent dros eu dedfryd. Yn 418, cyhoeddodd yr *Ymerawdwr Honorius* "*sacrum scriptum*" yn erbyn y Pelagiaid; ac yn yr un flwyddyn, condemniwyd hwynt mewn iaith grefach nag o'r blaen, gan Gyngorfa Gyffredinol a gynnaliwyd yn Ngharthage. Parodd hyny i Zosimus newid ei farn, a throi i'w collfarnu hwynt yn y modd mwyaf llymdost. Gwrthododd deunaw o esgobion yr Eidal ag arwyddnodi y gyfryw ddedfryd, ac alltudiwyd hwynt. O'r diwedd, cynnaliodd yr Eglwys Ddwyreiniol, fel ei gelwid, Gyngorfa Gyffredinol yn Ephesus yn 431, a chollfarnwyd y Nestoriaid, yn nghyda Pelagius, a Celestius, a hyny heb gymmaint a gwneyd darnodiad o'r athrawiaeth dan sylw. Gan hyny, y mae yn amlwg, oddiwrth y gipdrem uchod ar yr ymrysonfa, mai yr Affricaniaid—prif lygrwyr y grefydd Gristionogol, oedd prif wrthwynebwyr Pelagius; yr oedd y Brytaniad, pan yn cael cyfle i amddiffyn ei hun, yn rhy galed i'r Cyngorfeydd, ac yn rhy galed hefyd i olyniaeth o Babau; ac y mae yn dra thebyg, oni buasai Awstin Ddu o Hippo, y buasai Pelagius yn lledu ei egwyddorion o dan sel esgobaeth Rhufain. Ond wedi iddo gael ei gollfarnu felly gan y babaeth, yn nghyd a'r Eglwys Orllewinol, a'r Ddwyreiniol, efe a ymgiliodd i ddinodedd, yn rhyw le yn y Dwyrain, a thebygol iddo farw rhwng 425 a 430; eithr ymddengys i'w olygiadau gael eu cludo i'r wlad hon gan un Agricola, mab Severianus, esgob Pelagaidd

Digitized by Google

o Gal; a gwnawd gwrhydri mawr gan Garmon a Bleiddian, ac wedi hyny gan Dewi, i wrthladd "heresi Morgan" yn Nghymru.

Dywedir i Pelagius ysgrifenu rhai llyfrau dysgedig cyn iddo syrthio i'r heresi; nodir ei esboniadau byrion ar epistolau Paul, a thri Llyfr ar y Drindod; ysgrifenodd hefyd amryw lyfrynau i amddiffyn ei hun yn ngwyneb ymosodiadau ei elynion arno, rhanau o ba rai a welir yn ngweithiau Jerome, ac Awstin, er eu dynoethi. Yr unig bethau cyfain o'i waith a ddisgynasant hyd atom ni, yw ei Lythyr at Juliana, mam Demetrias, yr hwn, yn ol Orosius, ydyw un o'r cyfansoddiadau mwyaf llafurus a choeth a gaed yn unrhyw oes; a'i Gyffes Ffydd, yr hon a elwir *Pelegius's Libellus*, ac a welir yn ngweithiau Awstin, dan yr enw "Sermo 191."

Er cymmaint o son am Morgan sydd wedi bod yn Nghymru erioed, ac er bod y Gyffes uchod o'i eiddo, y darn henaf o lawer a ysgrifenwyd gan unrhyw Gymro, neu Frytaniad, ni chafodd erioed eto, er dim a wyddom ni, ei gosod mewn Cymraeg; ond ni a wnawn hyny o gymmwynas yn bresenol â'r darn henafol hwn o lenyddiaeth Brydeinig; a chyda llaw, y mae y Gyffes ganlynol yn llawer hŷn na'r hon sydd yn myned ar enw Athanasius, ac o fewn 36 mlynedd mor hyned a Chyffes Caercystenyn:—

"Yr ydym yn credu yn Nuw, y Tad Holl alluog, Creawdwr pob peth, gweledig ac anweledig. Yr ydym yn credu hefyd yn yr Arglwydd Iesu Grist, drwy yr hwn y crewyd pob peth, y gwir Dduw, yr unig anedig, gwir Fab Duw, nid wedi cael ei wneuthur, na'i fabwysiadu, ond wedi cael ei genedlu: o'r un *sylwedd* a'r Tad, yr hyn a ddynoda y Groegiaid drwy (y gair) *ὁμοούσιον*: ac felly yn gyfartal a'r Tad yn mhob peth, fel na ellir ei gyfrif yn israddol mewn nac amser, gradd, na gallu. Ac yr ydym yn cydnabod bod yr hwn a genedlwyd, o'r un mawredd a'r hwn a'i cenedlodd. A phan y dywedwn bod y Mab wedi ei genedlu o'r Tad, nid ydym yn priodoli un amser i'r Cenedlìad Dwyfol, ac Anrhaethadwy; ond golygu yr ydym, na pherthyn i'r Tad na'r Mab ddechreuad. Oblegyd nis gallwn gyfaddef bod y Tad yn dragywyddol, oni chyfaddefwn hefyd bod y Mab yn Gyd-dragywyddol; oblegyd gelwir ef yn Dad, am fod ganddo Fab, a'r hwn oedd erioed yn Dad, oedd erioed yn meddu Mab.

"Yr ydym yn credu hefyd yn yr Ysbryd Glan, y gwir Dduw, yn deilliaw oddiwrth y Tad, yn gyfartal yn mhob peth a'r Tad, a'r Mab, mewn Gallu, mewn Ewyllys, mewn Tragywyddoliaeth, mewn Sylwedd. Nid oes ychwaith unrhyw raddoliaeth yn y Drindod; dim a ellir alw yn uwchraddol, nac israddol, ond y mae yr holl Drindod yn gyfartal mewn perffeithrwydd: fel, oddieithr y geiriau sydd yn gosod allan briodoldeb y Personau, pa beth bynag a ddywedir am un Person, gellir yn briodol ei ddeall am bob un o'r tri.

"Ac er gwrthbrofi *Arius*, yr ydym yn dywedyd bod sylwedd y Drindod yr un a'r unrhyw, ac yn arddel un Duw mewn tri Pherson;—er gochel rhyfyg *Sabellius*, yr ydym yn gwahaniaethu y tri Pherson wrth eu Priodoleddau; nid dywedyd bod y Tad yn Dad iddo ei hun, na'r Mab yn Fab iddo ei hun, na'r Ysbryd Glan yn Ysbryd ei hun; ond bod un Person i'r Tad, un arall i'r Mab, ac un arall i'r Ysbryd Glan. Oblegyd yr ydym ni yn cydnabod nid yn unig luosogrwydd o Enwau, ond hefyd priodoleddau i'r Enwau, hyny yw, Personau, neu fel y dynodir hwynt gan y Groegiaid, *Hypostases*. Ac nid yw y Tad un amser yn cau allan Berson y Mab, neu Berson yr Ysbryd Glan; ac nid yw y Mab ychwaith, na'r Ysbryd Glan, byth yn derbyn Enw, na Pherson y Tad; ond y mae y Tad bob amser yn Dad, y Mab bob amser yn Fab, a'r Ysbryd Glan bob amser yn Ysbryd Glan: felly gan hyny y maent yn un o ran sylwedd, ond yn wahanedig drwy Bersonau, a thrwy Enwau.

"Ac yr ydym ni yn dyweyd mai y Mab Duw hwn, yr hwn, gyda'r Tad, a'r Ysbryd Glan, a etifeddai dragywyddoliaeth diddechreu, yn niwedd y Byd, a ymgymmerodd o Mair, yr hon oedd o hyd yn Forwyn, berffaith Ddyn o'n natur ni; ar Gair a wnaethpwyd yn *Gnawd*, trwy ymgymmeryd â Dynoliaeth, nid trwy gyfnewid ei Dduwdod.

"Ac nid ydym ni yn dyweyd bod yr Ysbryd Glan yn lle Had, fel ag y delir yn gableddus gan ryw bersonau: ond iddo weithredu, trwy allu a dylanwad y Creawdwr.

"Yr ydym ni yn dal bod yn Nghrist Berson y Mab, fel y dywedwn bod ynddo ddau Sylwedd, (neu ddwy Natur), berffaith a chyflawn, sef eiddo y Duwdod, ac eiddo y Dyndod yr hon sydd gynnwysedig o gorph ac enaid.

"Megys yr ydym yn condemnio *Photinus*, yr hwn a gydnabydda yn Nghrist ddim ond *dŷn* yn unig; felly hefyd yr ydym yn melldigo *Apollinaris*, a'r oll o'i fath, y rhai a ddywedant, i Fab Duw gymmeryd arno lai na'r Natur Ddynol yn gyflawn, neu bod y *dŷn* (neu y ddynoliaeth), a gymmerodd efe, naill a'i mewn corph, neu mewn enaid, neu mewn meddwl, yn wahanol i eiddo y rhai y cymmerodd efe hi er eu mwyn; ond daliwn ni, ei fod ef yr un ffunud a ninau, oddieithr yn unig yr ystaen o bechod, yr hyn nid yw naturiol i ni.

"Yr ydym hefyd yn ffieiddio cabledd y rhai a ânt o amgylch gyda deongliad newydd, i ddal allan oddiar ei ymgnawdoliad, bod y cyfan a berthynai i'w Natur Ddwyfol, wedi myned i'r dyn (neu y ddynoliaeth), ac felly hefyd, bod y cyfan a berthynai i'r Natur Ddynol, wedi eu trawsffurfio i'r Duw, (neu y Natur Ddwyfol). Canlynai o hyny (beth na chynnygiodd un Heresi erioed gadarnhau,) y buasai y ddau Sylwedd (neu y ddwy Natur,) sef y Ddwyfol, a'r Ddynol, drwy y fath gymmysgiad, yn ymddangos wedi eu difodi, colli eu safle briodol, a'u cyfnewid i beth arall. Felly gellir ystyried, nad yw y rhai sydd yn arddel yn y Mab, Dduw anmherffaith, a Dyn anmherffaith, ddim yn dal mewn gwirionedd, na Duw, na Dyn.

"Ond yr ydym ni yn dal, bod ein Natur ni, yr hon oedd gyfaddas i ddyoddef, wedi ei gwisgo gan Fab Duw, fel ag yr oedd y Duwdod yn parhau yn annghyfaddas i ddyoddef. Oblegyd fe ddyoddefodd Mab Duw, (nid mewn ymddangosiad yn unig, ond yn wirioneddol,) yr holl bethau a ddywed yr Ysgrythyr, sef newyn, syched, blinder, poen, angau, a'r cyffelyb; ac efe a ddyoddefodd yn y Natur hono ag oedd yn gyfaddas i ddyoddef, h.y. nid yn y Natur oedd wedi ymgymmeryd, ond yn y Natur a gymmerwyd. Oblegyd y mae Mab Duw o ran ei Dduwdod mor annghyfaddas i ddyoddef a'r Tad; mor anamgyffredadwy a'r Tad; mor anweledig a'r Tad. Ac er i Berson priodol y Mab, hyny yw, Gair Duw, gymmeryd arno Ddynoliaeth gyfaddas i ddyoddef; eto ni ddyoddefodd Duwdod y Gair, yn ei Natur ei hun, ddim wrth breswylio yn y Ddynol-

Digitized by Google

iaeth, mwy nag y dyoddefodd yr holl Drindod, y rhai y rhaid i ni gyfaddef o angenrheidrwydd sydd uwchlaw dyoddef. Mab Duw a fu farw gan hyny, yn ol yr Ysgrythyrau, o ran yr hyn oedd yn alluog i farw.

"Adgyfododd y trydydd dydd. Esgynodd i'r Nef. Y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw y Tad, yn yr un natur o gnawd ag y ganwyd ef, y dyoddefodd, ac yr adgyfododd drachefn. Oblegyd nid yw ei Natur Ddynol wedi ei diddymu, ond ei gogoneddu, am ei bod i barhau am byth gyda'r Ddwyfol.

"Yn gymmaint ag iddo dderbyn gan y Tad bob awdurdod yn y Nef, ac ar y Ddaear, efe a ddaw i farnu y byw a'r meirw, fel y gwobrwyo efe y cyfiawn, ac y cosbo y pechaduriaid.

"Yr ydym yn credu hefyd yn Adgyfodiad y cnawd, yn y fath fodd fel ag y dychwelir i ni y cyrph hyn, yn y rhai yr ydym yn trigo yn bresenol; ac y bydd i ni barhau am byth y rhai ag y gwneir ni yn yr adgyfodiad.

"Bod un bywyd i'r saint, ond gwahanol wobrwyon yn ol eu llafur; ac o'r tu arall, y bydd cosbedigaethau y drygionus yn ol mesur eu pechodau.

"Yr ydym yn dal *un Bedydd;* yr hwn, meddwn, a ddylai gael ei weinyddu gyda'r un geiriau cyfammodol (*sacramenti*) i fabanod (*infantibus*), ac i bersonau henach.

"Os bydd i ddyn syrthio ar ol bedydd, yr ydym yn credu y gall gael ei adferyd trwy edifeirwch, (neu benyd).

Yr ydym yn derbyn yr Hen Destament, a'r Newydd, yn yr un nifer o Lyfrau ag y mae awdurdod yr Eglwys Sanctaidd Gatholicaidd yn ei drosglwyddo.

"Yr ydym yn credu bod ein heneidiau yn cael eu rhoddi gan Dduw, a daliwn eu bod yn cael eu gwneuthur ganddo ef; melldigwn y rhai a ddywedant bod eneidiau fel yn rhan o sylwedd Duw. Condemniwn hefyd y rhai a ddywedant bod eneidiau wedi pechu mewn sefyllfa flaenorol, neu eu bod wedi byw yn y broydd nefol, cyn iddynt gael eu hanfon i gyrph.

"Yr ydym hefyd yn ffieiddio cabledd y rhai a ddywedant bod Duw wedi gorchymyn i ddyn unrhyw beth anmhosibl; neu bod gorchymynion Duw y fath, fel nas gallant gael eu cyflawni gan unrhyw ddyn unigol, ond y gallant gael eu cyflawni gan holl ddynolryw yn nghyd. Neu, hefyd, y rhai a gondemniant briodasau cyntaf, yn ol *Manichæus*, neu ail briodasau yn ol y *Montaniaid.*

"Hefyd yr ydym yn melldigo y rhai a ddywedant bod Mab Duw wedi dyweyd anwireddau, o angenrheidrwydd y cnawd; ac o achos y natur ddynol a gymmerodd efe arno, nas gallasai efe wneuthur y peth a fynai.

"Yr ydym yn condemnio Heresiau *Jovinian*, yr hwn a ddywed, na bydd yn y bywyd dyfodol wahaniaeth mewn teilyngdod, (neu wobrau), ac y bydd ynom ni yno rinweddau, (neu rasusau) nad oeddym yn gofalu am danynt yma.

"Yr ydym yn dal ewyllys-rydd yn y fath fodd, fel y dywedwn bod arnom yn barhaus angen cymmorth Duw; a bod y rhai a ddywedant, gyda *Manichæus*, nas gall dyn ochelyd pechod, mor gyfeiliornus a'r rhai a ddywedant, gyda *Jovinian*, nas gall dyn gyflawni pechod; oblegyd y mae y ddau ddosbarth yn cymmeryd ymaith ryddid yr ewyllys. Ond yr ydym ni yn dyweyd bod dyn bob amser mewn cyflwr y gall bechu, neu y gall beidio pechu; felly yr ydym yn honi ein hunain bob amser yn meddu ewyllys-rydd.

"Dyma, y mwyaf bendigaid Bab, ein Ffydd, yr hon a ddysgasom yn yr Eglwys Gatholig, ac a ddaliasom bob amser. Os oes ynddi rywbeth wedi ei eirio yn anochelgar, neu yn anfedrus, dymunwn ar iddo gael ei gywiro genych chwi, yr hwn a ddeliwch y Ffydd, ac Esgobaeth Pedr. Ac os bydd i'n Cyffes gael cymmeradwyaeth eich barn, a'ch apostoliaeth, yna bydd i bwy bynag a geisio gael bai ynwyf fi, ddangos, nid fy mod i yn heretic, ond ei fod ef yn anfedrus, neu yn genfigenus, neu ynte nad yw yn Gatholig."

Wedi darllen y Gyffes ragorol uchod, cyfaddefwn nad ydym yn rhyfeddu i Zosimus fethu canfod cymaint o heresi ynddi ag a fynai Awstin.

**MORGAN** ab Cadwgan, yn ol Caradog o Lancarfan, a lofruddiodd a'i ddwylaw ei hun, ei frawd Meredith, tua'r flwyddyn 1122; ond wedi hyny edifarhaodd am yr anfadwaith, ac aeth ar bererindod i Jerusalem; eithr wrth ddychwelyd, bu farw yn ynys Cyprus, yn 1126.

**MORGAN** ab Huw Lewis, ydoedd fardd, a flodeuai rhwng 1580 a 1620. Efe ydoedd weinidog Llanwnda, yn Lleyn, Swydd Gaernarfon. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen.

**MORGAN** ab Hywel ab Tudyr, ydoedd fardd, a flodeuai o 1560 i 1600. Y mae rhai o'i ganiadau ar gael mewn ysgrifen.

**MORGAN** ab Rhys o Ddefynog, ydoedd fardd a flodeuai rhwng 1550 a 1580. Y mae rhai o'i weithiau ar gael mewn ysgrifen.

**MORGAN,** Abel, gweinidog enwog gyda y Bedyddwyr, a anwyd yn yr Alltgoch, plwyf Llanwenog, swydd Aberteifi, yn 1673. Dywed Morgan Edwards, yn ei Hanes am Fedyddwyr America, i Abel Morgan gael ei eni yn "1637;" ond y mae yn amlwg fod hyny yn wall anfwriadol, ac iddo ddygwydd trwy i'r ysgrifenydd, neu yr argraffydd, gam osod y ffugyrau 37 am 73. Yr oedd i Abel Morgan ddau frawd hefyd, yn weinidogion enwog, sef Enoch Morgan, a Benjamin Griffiths; yr oedd y tri o'r un fam, ond nid o'r un tad. Ganwyd Enoch yn 1676, a Benjamin yn 1688; ac aeth y tri, y naill ar ol y llall, drosodd i'r America. Dechreuodd Abel bregethu cyn bod yn 19 oed; cafodd ei neillduo yn weinidog ar eglwys Blaenau Gwent, tua'r flwyddyn 1700. Bu yn briod ddwy waith; y waith gyntaf â merch ieuanc o'r Fenni, yr hon, gydag un mab, a fuont feirw ar y fordaith i'r America; priododd merch iddo o hon, un Holmes, ac aeth yn deulu lluosog a pharchus yn y wlad hono; Priododd yr ail waith, ferch i Thomas Griffith, un o weinidogion Rhydwilym, yr hwn, ac efe yn 56 oed, a gymmerodd ei deulu, a phymtheg o'r aelodau, drosodd i Bensylfania. Wedi llafurio am 11eg mlynedd yn y Blaenau, gydag arddeliad mawr, efe a benderfynodd ymfudo i Bensylfania, at y llu mawr o'i gydwladwyr ag oedd wedi sefydlu yno eisioes. Ond cafodd fordaith hynod o flin, ac nid anhebyg i'r eiddo Paul, o Judea i Rufain. Cynnaliwyd ei gyfarfod ymadawol yn y Blaenau, Awst 23, 1711; ac ar yr 28ain o Fedi, cychwynodd ef a'i deulu bach, mewn llong o Gaerodor. Cododd gwynt gwrthwynebus arnynt ar unwaith, a gyrodd hwynt i mewn i Aberdaugleddyf, swydd Benfro, lle y cadwyd hwynt am dair wythnos. Wedi hwylio o honynt oddi yno, gyrwyd hwynt gan y dymhestl i mewn i Corc, yn yr Iwerddon; lle y caethiwwyd hwynt am bum wyth-

Digitized by Google

nos, mewn cyflwr truenus. Wedi hwylio oddi yno, ar y 19eg o Dachwedd, a myned oll yn gleifion ar y mor, ar y 14eg o Ragfyr, bu farw iddo fab bychan; ac yn mhen tri diwrnod ar ol hyny, bu farw ei wraig. Yr oedd yr oruchwyliaeth yn chwerw, ar y cefnfor mawr, yn nyfnder y gauaf. Ond rywbryd yn y gwanwyn, efe, yn nghyda'r gweddill o'i deulu, a gyraeddasant yr hafan a ddymunent, wedi bod yn y llong am ddwy wythnos a deugain! Wedi myned yno, efe a gymmerodd ofal yr eglwys o Fedyddwyr henaf yn Mhensylfania, sef Pen-y-Pec, ger Philadelphia, lle y bu yn llafurus a llwyddianus hyd ddiwedd ei oes, yn 1722. Yr oedd, cyn ymadael a'r wlad hon, wedi cyhoeddi cyfieithad o "Gyffes Ffydd y Bedyddwyr," ac argraffiad o "Gatecism y Gymanfa;" a gadawodd ar ei ol amryw lyfrau gwerthfawr, mewn llawysgrifau, yn eu plith "Gyd-gordiad Egwyddorawl o'r 'Scrythyrau, neu gyfarwyddyd i gael pob lle o'r 'Scrythyr Lan;" yr hwn a gyhoeddwyd yn Philadelphia, yn 1730, wedi ei gyflwyno i'r ardderchog David Llwyd, Ysw., prif farnwr talaeth Pensylfania, gan ei frawd, Enoch Morgan. Dyma y Mynegair Ysgrythyrol cyntaf yn yr iaith Gymraeg.

MORGAN, Syr Charles, Barwn Tredegar, a anwyd Chwefror 4, 1760. Yr oedd ei glod yn fawr am ei haelfrydedd cyffredinol, yn enwedig ei nawdd i welliannau amaethyddol, ac i'r beirdd; am yr hyn y cyfenwid ef yn "Ifor Hael." Bu farw ar y 5ed o Dachwedd, 1847, yn 86 oed; gan adael ar ei ol chwech o blant, sef Syr Charles Robinson Morgan, yr hwn a fu yn aelod dros Aberhonddu; y Parch. Augustus Morgan, offeiriad yn eglwys Loegr; Octavius Morgan, a fu yn aelod dros swydd Fynwy; Mariah Margaret, priod y milwriad Millman; Angelina Cecilia, priod Mr. Hugh Owen, mab henaf Syr John Owen, o Orielton, swydd Benfro; a Charlotte, priod yr Arglwydd Rodney.

MORGAN, Parch. David, Llanfyllin; a anwyd yn Nolwen, gerllaw Tal-y-bont, yn swydd Aberteifi, Rhagfyr 27, 1779. Yr oedd yn disgyn oddiwrth henafiaid parchus, y rhai a etifeddent, dros amryw genedlaethau, yr un ystad ag y ganwyd ef arni. Yr oedd yn dueddol yn more ei oes i ddilyn yr unrhyw orchwylion a difyrion, ag oedd arferol yn y parthau gwledig hyny; eithr ar ail briodas ei dad, ymadawodd a'i gartref, er ymbarotoi ar gyfer galwedigaeth fasnachol. Bu am chwe mis yn yr alwedigaeth hon; ymadawodd, ac edrychodd am alwedigaeth fwy iachus, mewn amrywiaeth amaethyddol. Dychwelodd i'w gartref, ac arosodd yno, hyd nes yr oedd yn chwech ar hugain oed, pan yr ymbriododd, ac yr ymgymerodd a sefyllfa amaethwr. Yn ysdod y tymor byr a dreuliodd efe yn Machynlleth fel masnachwr, y daeth o amgylch y cyfnewidiad yn ei hanes fel crefyddwr. Yr oedd ei gymdeithas wedi bob yn benaf gyda yr Eglwys Sefydledig; ond ar ei arosiad cyntaf yn Machynlleth, dygwyddai fod yr enwog John Roberts, Llanbrynmair, yn ymweled a'r teulu, ag yn cysgu yn yr un ystafell â Mr. Morgan, a hyny ar y noswaith gyntaf y daethai Mr. Morgan yno. Treuliwyd rhan o'r nos mewn ymddiddan am bethau crefyddol, yr hyn a ddeffrodd feddyliau difrifol a phryderus yn ei galon, gan ei ddwyn i goleddu Annibyniaeth, er ei bod yn dra dirmygedig yn ngolwg llawer ar y pryd hwnw; ond wedi hyny a fwriedid mor gynorthwyol i gynnydd crefydd yn y Dywysogaeth. Yn y flwyddyn 1807, efe a'i gydmar, er gwaethaf pob rhagfarn yn erbyn Annibyniaeth, ac er gwaethaf pob rhyw elyniaeth mewn ystyr deuluaidd, a allai achlysuro, hwy a benderfynasant ymuno a'r blaid Gristionogol honno, oedd dan ofal y Parch. A. Shadrach yn Nhalybont. Yn fuan ar ol hyn, mewn cyfarfod eglwysig, galwyd ar Mr. Morgan, yn hollol annysgwyliadwy a dirybudd, i lefaru gair oddiwrth rhyw ran o'r ysgrythyr, yr hyn a wnaeth mor hyawdl a nerthol, fel y rhyfeddodd pawb o'r gwrandawyr; a gwelsant ar unwaith, ei fod wedi ei dori allan at ryw orchwyl gwahanol i Amaethyddiaeth. O hyny allan, yr oedd efe yn derbyn gwahoddiadau i bregethu yn y cylchoedd cymydogaethol yn fynych. Ar ol llafurio gyda'i waith amaethyddol drwy y dydd, gwelid ef ar ei farch yn yr hwyr, yn cyrchu at ryw dy, neu faes, neu gapel, i bregethu. Ar y Sabbathau yr oedd yn wastadol yn rhwym yn ngwasanaeth y Gwaredwr yn Nhywyn Meirionydd. Dros amryw flyneddau, efe a deithiai tua deugain milltir, ac a bregethai, ar ei draul ei hun, lawer gwaith yn yr wythnos. Yn y flwyddyn 1812, gwahoddwyd ef gan yr eglwys yn Machynlleth i ddyfod yn fugail arni; ac ar ol ymgynghori a'i gyfaill, y Parch. J. Roberts, ac eraill, efe a gydsyniodd; ac am 22 o flyneddoedd, efe a gyflwynodd ei holl egnion yn ddiflino at yr achos cysegredig yr ymrwymasai iddo; a bu ei lafur yn dra llwyddianus. Yn lle dau gapel bychan yn y dref a'r gymydogaeth, megis yr oeddynt ar ei ddyfodiad ef yno, efe a adawodd un capel mawr yn Machynlleth, a chwech eraill yn y plwyfydd cymydogol. Efe a chwanegodd 500 o aelodau at yr eglwys, a gadawodd yno 400 mewn cymundeb. Yn ysdod ei holl amser yno, ni bu ei gyflog uwchlaw 30*p*. yn y flwyddyn; er bod yr eglwys, pan yr ymadawodd ef, wedi ymranu yn bedair, a phob un o honynt yn alluog, i ddyblu y swm hwnw i'w gwahanol weinidogion. Yn 1836, efe a symudodd i Fanceinion, i ofalu am yr eglwys Gymreig yno; ond nid oedd bywyd dinesig yn cyddaro a'i natur ef; efe a hiraethai am fryniau cribog gwlad ei enedigaeth, a'r llafur teithiol yn mysg ei hen gydnabod. Felly efe a ymadawodd a Manceinion yn 1839; a chan dderbyn gwahoddiad o Lanfyllin, lle a gynygiasid iddo 25 mlynedd yn ol, efe a ymsefydlodd yno, a pharhaodd i lafurio yno dros 18 mlynedd, hyd pan ddaliodd gwendid a henaint ef, gan ei analluogi at ddyledswyddau pwysig y weinidogaeth. Rhoddodd ofal yr eglwys i fynu, ac efe a ymneillduodd o gysylltiadau cyhoeddus. Ymfudodd o Lanfyllin i Groesoswallt, gan fwriadu treulio gweddill ei oes yno. Ond daeth terfyn i'w gynlluniau daearol yn gynt nag y dysgwyliasid. Ni chafodd ond tair wythnos yn ei breswylfa newydd, cyn cael yr alwad i'r "wlad well," yr hyn a fu ar y 15fed o Fehefin, 1858. Darparasai yr eglwysi Cymreig, gyda chymorth o Loegr, flwydd-dal iddo, fel y gallai derfynu ei oes yn gysurus; ond ni chafodd efe fwynhau dim o'u haelfrydedd, a'u caredigrwydd, o blegid bu farw cyn i'r taliad cyntaf ddyfod yn ddyledus iddo. Erys y weithred hon yn dystiolaeth eglur, am y parch a'r anrhydedd a feddai yn ngolwg y cyhoedd. Yr oedd Mr. Morgan yn astudiwr trwyadl, yn nghanol ei lafur amrywiaethol. Ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiadau cyfnodol Cymreig, ar wahanol destynau, yn enwedig i'r Dysgedydd. Cyhoeddodd "Hanes yr Eglwys," yn ddwy gyfrol; "Traethawd ar Ymneillduaeth;" "Hanes Ymneillduaeth yn Nghymru;" "Cyflwr Gwreiddiol Adda, a'i Gwymp; yn nghyd a'i nodweddiad fel Cynnrych-

Digitized by Google

iolydd ei hiliogaeth;" "Esboniad ar y Datguddiad," ac amryw draethodau, pregethau, &c. Arddengys y cyfan brofion o feddwl cryf, barn annibynol, ac ymchwiliad eang. Yr oedd yn hynod mewn amryw ystyriaethau, yn gystal o ran corph, a meddwl; nerth anianyddol, a moesol. Yr oedd diwydrwydd a dyfalwch yn naturiol iddo; ni wyddai ddim am ddiogi, ond gwyddai yn dda pa fodd i brynu yr amser. Yr oedd yn fynych yn ei fyfyrgell am dri o'r gloch yn y boreu, a hyny hefyd ar ol dydd caled o bregethu. Yr oedd Mr. Morgan yn Gristion caredig a hynaws, yn nghanol ei benderfynolrwydd. Y mae yn debyg mai efe a ddaeth yn olynydd y Parch. James Griffiths, diweddar o Dyddewi, yn Machynlleth; ond nid i'r eglwys honno yr urddwyd ef gyntaf, canys dywed Mr. Griffiths—"Bu mesur o gynnydd mewn rhifedi ar yr eglwys yn Machynlleth, yr holl amser y bu'm yno. Yr oedd heddwch a chydweithrediad dymunol yn eu plith, a rhwng y canghenau yn Aberhosan a Phennal. Yr oedd Tywyn hefyd, a Llanegryn, a Llwyngwril, dan fy ngofal gweinidogaethol i yn benaf yr amser hwnw. Yn mhen rhai blyneddau, cydunodd y tri lle olaf a enwyd, ar fy nymuniad, i roddi galwad i Mr. Morgan, Tal-y-bont, (y Parch. D. Morgan, Llanfyllin, yn awr), i gymeryd eu gofal, a sefydlwyd ef yn y Towyn, a'r ddau le arall, (Llanegryn, a Llwyngwril), mewn cysylltiad, yn fuan wedi hyny.

**MORGAN**, Enoch, ydoedd frawd i Abel Morgan, a gweinidog Rhydwilym, swydd Benfro, yn moreu ei oes; ac wedi hyny ymfudodd, yn un o'r "unarbymtheg," gyd Thomas Griffith, i Bensylfania, lle y gorphenodd ei oes yn 1740. Gadawodd ar ei ol fab o'r enw Abel, yr hwn a ddaeth yn ddyn gwir enwog yn y weinidogaeth yn America. Efe a ymsefydlodd yn weinidog yn Middletown, N.J., ar yr eglwys o Fedyddwyr henaf yn y dalaeth hono, a'r henaf yn y Gymanfa, ond Pen-y-pec. Rhoddir gair uchel iawn i'r gwr hwn gan Dr. Gellies, yn ei Hanes Bywyd Whitfield.

**MORGAN**, George Cadogan, ydoedd frodor o Ben-y-bont, swydd Forganwg, ac a anwyd yn 1754. Meddyg cyfrifol o'r dref honno oedd ei dad; a'i fam ydoedd chwaer yr enwog Dr. Price. Bwriadwyd ei ddwyn ef i fynu i'r eglwys sefydledig, ond gan nad oedd yn cydweled a'i hegwyddorion, aeth fel ysgolor i athrofa Ymneillduol, oedd y pryd hwnw dan ofal y Drd. Savage, Kippis, a Rees. Yn 1776, ymsefydlodd fel gweinidog ar gynulleidfa yn Norwich. Arosodd yno hyd 1785, pan y symudodd i Yarmouth; a gadawodd y lle hwnw yn y flwyddyn ganlynol, i'r dyben o uno a'i ewythr yn Hackney. Daeth yma yn bregethwr prydnhawnol, yn nghapel Gravel-pit, ac yn ddarlithydd yn y Coleg Newydd. Rhoddodd y swyddau hyn i fynu tua 1792, a defnyddiodd ei alluoedd i addysgu nifer neillduedig o efrydwyr yn ei dŷ ei hun. Bu farw yn Southgate, yn mis Tachwedd, 1798, yn yr oedran boreuol o bedair mlwydd a deugain. Tua phedair blynedd cyn ei farwolaeth, yr oedd wedi cyhoeddi gwaith, mewn dwy gyfrol, a alwai Darlithoedd ar Wefryddiaeth, y rhai a dderbyniwyd gan y cyhoedd gyda chymeradwyaeth mawr; ac y mae ei enw yn adnabyddus hefyd, am ei draethodau gwerthfawr, a gyflwynwyd yn y flwyddyn 1785 i'r Gymdeithas Freiniol; yn cynwys Sylwadau a Phrofion ar Olwg Cyrph mewn cyflwr o Gydlosgiad. Cyhoeddwyd y papyr hwn yn y bymthegfed gyfrol a thrugain o'r Olrheiniadau Athronyddol. Yr oedd efe yn bleidiwr i egwyddorion Stahl, mewn gwrthwynebiad i gyfundrefn Lavoisier, a'r Fferyllwyr Ffrengig. Yr oedd efe yn wr o ymroddiad diorphwys, yn arfer codi yn foreu, a pharhau i fyfyrio hyd oriau hwyrol. Yr oedd efe yr orwresog yn ei ymchwiliadau gwyddonol, ac yr oedd yn fedrus yn y gelfyddyd werthfawr o gyflwyno ei syniadau i eraill, ag oedd yn llewyrchu yn ei feddyliau ei hun. Gwel yr *Encyclopædia Londonensis.*

**MORGAN**, Henry, LL.D., ydoedd esgob dysgedig, genedigol o swydd Benfro. Daeth yn efrydydd yn mhrif ysgol Rhydychain yn 1515, lle y cafodd ef ei raddau yn y gyfraith, a daeth yn ddoethawr yn 1525. Daeth yn fuan yn brif athraw mewn neuadd addysgol a elwid *St. Edward's Hall,* ac edrychid arno fel rheithofydd, a phenodwr tra rhagorol. Bu am lawer o flyneddoedd yn gymedrolwr gwastadol, ar y rhai a lafurient er cyrhaedd graddau yn y gyfraith, yn yr ysgolion perthynol i'r frawdoliaeth honno. Yn 1553, pan yr oedd ef yn brebendari *St. Margaret's, Leicester,* yn mhrif eglwys Lincoln, penodwyd ef, o blegid ei ddysgeidiaeth uchel, gan y frenhines Mary, i esgobaeth Ty-Ddewi, a chysegrwyd ef yn 1554. Bu yma hyd 1559, pan y diswyddwyd ef gan y frenhines Elizabeth, oblegid ei ymlyniad ffyddlon wrth eglwys Rhufain. Ar hyn, enciliodd i Wolvercote, gerllaw Rhydychain, lle yr oedd ganddo rai perthynasau, ac yn neillduol, teulu Owens o *Godstow House,* yn y plwyf hwnw, lle y bu efe farw yn mis Rhagfyr, yr un flwyddyn, ac a gladdwyd yn eglwys Wolvercote.

**MORGAN**, Jenkyn, oedd weinidog y Gynulleidfa Annibynol yn Rhos-y-meirch, yn swydd Fon. Yma y cafwyd blaenffrwyth Ymneillduaeth yn Ynys Mon. Yma dros dymor, yr ymgynhullai holl grefyddwyr y wlad, o bob enwad, a hon yw mam holl eglwysi yr ynys. Yr oedd Ymneillduaeth wedi cychwyn yn holl siroedd Cymru, flyneddoedd lawer cyn i Fon agor ei drws i grefydd efengylaidd; ac yn erbyn ystormydd cryfion o erlidigaethau, y llwyddwyd yn y diwedd, i osod yr achos i fynu o fewn y terfynau. Wrth ddarlunio sefyllfa Mon, yn y flwyddyn 1730, dywedai John Evans o'r Bala:—"Yr oedd holl wlad Mon o un grefydd, nid oedd yno ddim pleidiau, ond pawb yn cyrchu i Eglwys ei blwyf yn o ddyfal, ac yr oeddynt yn rhagori yn hyn ar drigolion llawer o barthau Cymru. Byddai sôn mawr am bregeth yn y Llan, os dygwyddai hyny fod, gan mor anaml y byddai yr offeiriaid yn pregethu." Mae yn ymddangos ddarfod, rywbryd cyn y flwyddyn honno, i dri brawd, Hywel, Harri, a Thomas, meibion Thomas Prichard o'r Ty-gwyn, yn agos i Langefni, trwy ryw foddion, gael eu dwyn i anesmwythder mawr am eu cyflwr ysprydol, ac yr oedd ganddynt chwaer, yr hon a ddeffrowyd fel hwythau am ei hachos tragwyddol. Nid oeddynt yn nodedig am eu doniau, na'u gwybodaeth, ond trwy gywirdeb eu hamcan, gweddusder eu rhodiad, a chrefyddolder eu hymddiddanion, enillasant barch y cyhoedd, ac arweiniasant lawer i ystyried eu diwedd. Bu Hywel Thomas fyw ar ei dir ei hun, Trefollwyn, a bu Harri Thomas byw yn Bwlch y fen, a Thomas Thomas yn Mhen-yr-allt, Heneglwys. Dywedir i'r ddau flaenaf, yn mhen amser, gofrestru eu tai at bregethu, ac y mae rhai o'u hiliogaeth gyda chrefydd yn awr. Dyfodiad William Prichard i Fon, a fu yn achlysur o gychwyniad Ymneillduaeth yn y wlad, a chan fod cysylltiad rhyngddo ef a dechreuad yr achos yn Rhos-y-meirch, ac a Jenkyn Morgan, dylid cyfeirio

Digitized by Google

gair ato yma. Agorodd William Prichard ei dy i dderbyn yr efengyl, ac yr oedd Glasfryn-fawr yn lletty fforddolion i bregethwr a ddeuai heibio. Daeth Lewis Rees o Lanbrynmair yno, yr hwn a'i hysbysai am Howell Harris, y deuai heibio; a phan ddaeth, dywedodd wrth William Prichard am Jenkyn Morgan, yr hwn oedd bregethwr tanllyd, ac yn cadw un o ysgolion cylchredol Madam Bevan, Daeth Jenkyn Morgan i Lasfryn-fawr i gadw ysgol. Cododd rhagfarn ac erlidigaeth yn ei erbyn yn fuan, fel yr ymlidiwyd ef oddiyno, a gorfu ar William Prichard ymadael; ond yr oedd ei ymroad dros grefydd yn parhau. Cofrestrwyd ty bychan yn Minffordd, Penmynydd, i bregethu, wedi i William Prichard symud i Fon; ond nid yw yn debyg i'r un eglwys gael ei ffurfio yno, ac nid oes sicrwydd am ddyddiad na lle ffurfiad cyntaf yr eglwys. Dywedir mai mewn lle a elwir Caeau-Mon, y ffurfiwyd yr eglwys, a hyny yn 1744. Ni wyddir yn iawn, a oedd Jenkyn Morgan yno ar y pryd. Bu yma am ugain mlynedd, os felly, y mae yn debyg iddo ddyfod yma yr un amser a William Prichard, sef yn 1742; oblegid 1762 ydyw y dyddiad diweddaf y ceir ef yma. Yn y flwyddyn 1746, yr urddwyd ef yn Weinidog Rhos-y-meirch, Mon, yn Watford, Morganwg. Y mae cofnodiad am Jenkyn Morgan yn derbyn cynnorthwy oddiwrth y Bwrdd Presbyteraidd, o 1747 hyd 1762. Y mae yn hysbys ei fod yma, pan adeiladwyd y capel, yn 1748, o blegid efe a brynodd dyddyn bychan, Tyn-yr-aethnen, lle yr adeiladwyd y capel. Nid oes sicrwydd am amser, a lle genedigaeth y gweinidog rhagorol hwn. Bernir mai yn ardal Caerphili y ganwyd, ac y magwyd ef, ac mai yn ysgol Mr. David Williams, Pwll-y-pant, gweinidog yr eglwys yn Watford, y derbyniodd ei addysg. Bernir hefyd mai yn Watford y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig, gan mai yno y dechreuodd bregethu. Tua y flwyddyn 1740, yr anfonwyd ef i'r Gogledd i gadw un o ysgolion rhad Mr. Griffith Jones, Llanddowror. Agorodd ysgol yn agos i'r Bala, a bu yno am ryw amser, yn ddefnyddiol iawn fel ysgolfeistr, a phregethwr. Crybwyllodd Mr. Lewis Rees, ar un o'i ymweliadau â Phwllheli, am dano fel dyn rhagorol iawn, yr hyn a gododd awydd yn y bobl yno am ei wasanaeth. Daeth i Leyn, ac yn fuan wedi ymsefydlu yno, priododd un o ferched y Tyddyn-mawr; ac wedi sefydliad William Prichard, fel amaethwr yn Mon, daeth yntau yn fuan ar ei ol; ac wedi llwyddo i gasglu eglwys fechan yno, yr urddwyd ef yn weinidog iddi. Urddwyd ef yn Watford, dros Rós-y-meirch, am nad oedd gweinidogion yn Mon y pryd hwnw, gan Lewis Rees, Edmund Jones, ac eraill. Bu yn gweinidogaethu hefyd yn Amlwch, a mannau eraill o'r ynys hyd ddiwedd ei oes. Bu farw Mai 9, 1773, a chladdwyd ef yn mynwent Rhos-y-meirch. Cyhoeddodd Mr. Charles, yn un o rifynau y Drysorfa, adroddiad John Evans o'r Bala, am fuddugoliaeth a gawsai ar yr annuwiolion a fwriadent gynal noswaith lawen yn Mon, drwy bregethu yn y rhan arall o'r ty, ac ennill y gynulleidfa oll, y telynor, y dawnswyr, a'r cyfan, i'w wrando; y rhai a ddychwelwyd at yr Arglwydd yn y fan a'r pryd.

**MORGAN**, John, LL.D., neu Yong, esgob Ty Ddewi, a addysgwyd yn Rhydychain. Gwnawd ef yn ddeon Windsor yn 1484; ac yn 1493, gwnaed ef yn archddiacon Caerfyrddin, tra yr oedd hefyd yn dal rectoriaeth werthfawr Hanslape, yn swydd Buckingham. Parhaodd i ddal ei ddyrchafiadau hyd 1496, pryd y dyrchafwyd ef i esgobaeth Ty Ddewi, yr hon a fwynhaodd hyd ei farwolaeth yn 1504. Claddwyd ef yn ei brif-eglwys.

**MORGAN**, Phylip, D.C.L., gwleidyddwr, llysgenadydd, ac esgob Ely, a hanai o deulu henafol yn swydd Gaerfyrddin. Ymddengys oddi wrth Fœdera Rymer, iddo dreulio ei fywyd rhwng 1414 a 1420 yn Normandi. Penodwyd ef yn Gangellydd Normandi, Ebrill 8, 1418; ac yn mynachlog Rouen, ar y 3ydd o Ragfyr, 1419, cysegrwyd ef yn Esgob Worcester. Yn ol Rapin, yr oedd yn ddyn o alluoedd hynod fel llysgenadydd, (diplomatist), a defnyddiai Harri V. ef bob amser i gyflawni negesau dirgelaidd, pwysig yn y llywodraeth. Yn 1425, trosglwyddodd y Pab Martin V. ef i esgobaeth Ely; yn yr hon swydd y bu cyngaws eglwysig pwysig rhyngddo ef ag awdurdodau prifysgol Caergrawnt, ac y collodd yr Esgob y gyfraith. Bu farw yn Hatfield, Hydref 25, 1435; a chladdwyd ef yn y *Charter House*, Llundain.

**MORGAN**, Richard, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Henllan, swydd Frycheiniog, a anwyd yn Ystrad Isaf, Ystradgynlais, yn 1743. Collodd ei dad pan tua naw mlwydd oed. Dygwyd ef i fyny yn gylchwr; a phan yn 18 oed, ymaelododd yn eglwys BlaenauGlyntawe, lle yn fuan y dechreuodd bregethu. Wedi derbyn rhyw gymaint o addysg barotoawl, aeth i'r Athrofa Annibynol yn y Fenni, lle yr arosodd am bedair blynedd; a thrwy ymroddiad gormodol i'w efrydiaeth, gosododd ei hun yn ddeiliad i afiechyd, yr hwn yn y diwedd a derfynodd ei oes. Wedi gorphen o hono ei dymor athrofaol, urddwyd ef yn weinidog Henllan, Medi 28, 1768; lle y treuliodd ei oes, ac y bu farw Chwefror 10, 1805, yn 62 oed. Yr oedd yn fyfyriwr caled a llafurus, yn dduweinydd galluog, yn bregethwr gonest, ac effeithiol; a choronwyd ei lafur â llwyddiant mawr.

**MORGAN**, Robert, D.D., esgob Bangor, ydoedd fab i Richard Morgan o'r Fronfraith, plwyf Llandysul, swydd Drefaldwyn; o'i wraig Margaret, merch Thomas Lloyd, o Gwernbuarth. Ganwyd ef yn 1608; derbyniodd elfenau ei addysg gan dad Simon Lloyd, archddiacon Meirionydd; dygwyd ef i fyny yn ngholeg Iesu, Caergrawnt, lle y graddiwyd ef yn A.C. Ar ddyrchafiad Dr. Dolben i esgobaeth Bangor, penodwyd Robert Morgan yn gaplan iddo, gan yr hwn y cafodd ficeriaeth Llanwnog, swydd Drefaldwyn, ac wedi hyny rectoriaeth Llangynhafal, Dyffryn Clwyd, yn 1632. Ar farwolaeth Dr. Dolben, dychwelodd i Gaergrawnt, ac ymsefydlodd gyda'i gyfaill Dr. Beale yn ngholeg St. John, lle y'i graddiwyd yn B.D. Pan ddyrchafwyd y Dr. William Roberts yn esgob Bangor, daeth yntau yn gaplan iddo, a chafodd ficeriaeth Llanfair Dyffryn Clwyd. Yn 1642, efe a gyfnewidiodd Langynhafal, a Llanfair Dyffryn Clwyd am Drefdraeth, a Llanddyfnan, yn Mon. Nid oedd bywioliaeth Llanddyfnan ar y pryd ond gwerth 38*p.* yn y flwyddyn, gan ei bod wedi ei gwerthu ar lês i deulu Bulkeley, Baronhill; ond efe a'i prynodd o'i logell ei hun; a phan fwriwyd ef allan o'i fywiolaethau eraill gan y profwyr o dan Cromwell, gallodd gadw hono iddo ei hun, yn rhinwedd y cyfryw bryniant. Dyoddefodd lawer yn ystod y weriniaeth, a thrigai ar y pryd yn yr Henblas, Llangristiolus. Ar adferiad y freniniaeth, adfeddianodd yntau ei swyddau, a gwnawd ef yn archddeon Meirionydd, ac yn D.D. yn 1660. Ar farwolaeth y Dr. Price, cysegrwyd ef yn Esgob Bangor, Mehefin 1, 1666.

Digitized by Google

Pan fu farw yr archddeon Mostyn, efe a gadwodd feddiant o'r archddeoniaeth, a thrwy weithred Seneddol, sicrhaodd hi i'w olynwyr. Bu farw Medi 1, 1673, a chladdwyd ef yn ei brif eglwys, ar y tu deau i'r allor. Gadawodd amryw gymunroddion i'r eglwys, ac yn eu plith, bywioliaeth Llanddyfnan, yr hon a brynasai efe am 300*p*. Dywed Wood, ei fod yn bregethwr hyawdl, yn Gymraeg, a Saesneg.

**MORGAN**, Sion, a elwid Sion Morgan Ofalus, ydoedd fardd yn ei flodau o 1590, i 1630.

**MORGAN**, Thomas, un o ysgrifenyddion Mari, brenines yr Ysgotiaid, ydoedd frodor o Gymru, wedi ei ddwyn i fyny yn Rhydychain; eithr gadawodd y brifysgol cyn ei raddio, gan fyned i wasanaeth y frenines, o'r hyn yn y diwedd y diswyddwyd ef trwy ddichell y Jesuitiaid, am y rhan a gymerodd efe o blaid ei gyfaill, y Dr. Owen Lewis, i gael ei benodi yn gardinal Seisnig. Yr oedd wedi ei nodi allan gan y Jesuitiaid i gael ei ddinystrio; llwyddasant i'w daflu i garchar yn Mharis; ond rhyddhawyd ef trwy orchymyn y Pab; yna gwnaed cynyg i'w fradlofruddio; ond efe a ddiangodd yn archolledig; ac o'r diwedd, carcharwyd ef am dymor maith gan y Duc Parma; eithr ar farwolaeth y gormesydd hwnw, adfeddianodd ei ryddid, a threuliodd weddill ei oes gyda'r Dr. Lewis. Yr oedd yn fyw yn 1593.

**MORGAN**, Thomas, awdwr *Y Moral Philosopher*, ydoedd frodor, fel y tybir o Gymru, ond nid yw yn hysbys o ba le. Daw i'r golwg am y waith gyntaf fel hogyn bychan yn gweini mewn fferm ger Bridgewater, Gwlad yr Haf, ac yn tynu sylw y Parch. John Moore, yr hwn a gadwai ysgol yn y dref hono, at ei alluoedd addawol. Cynygiodd Moore roi addysg yn rhad iddo, os y tanysgrifiai cyfeillion at ei gynaliaeth. Yna cawn ef yn cael ei urddo yn weinidog Presbyteraidd yn Marlborough, swydd Wilt, yn 1717; lle daeth yn enwog fel pregethwr, ac yr ymunodd mewn priodas a Mary, merch N. Merriman, un o brif bleidwyr ymneillduaeth yn y dref hono, a'r gymydogaeth. Yn fuan ar ol 1720, barnwyd nad oedd yn uniongred ar byneiau y ffydd, a bwriwyd ef allan o'r weinidogaeth. Wedi hyny, dechreuodd efrydu meddyginiaeth, enillodd y radd o M.D., ac ymsefydlodd fel meddyg yn Mristol, ac wedi hyny yn Llundain; eithr nid oedd ei lwyddiant fel meddyg ond bychan. Cyhoeddodd ddau lyfr meddygol; aeth y cyntaf trwy dri argraphiad, a'r ail trwy ddau. Cyhoeddodd hefyd lyfr a'r enw *Theological Disputations*, yr hwn, oblegyd chwerwder ei ysbryd, a barodd i lawer o'i gyfeillion oeri tuag ato. Yn 1737, cyhoeddodd y gyfrol gyntaf o'r *Moral Philosopher*, yr ail yn 1739, a'r drydedd yn 1740. Oblegyd ei syniadau deistaidd a'i osodiadau beiddgar, cododd hwn ef i sylw mawr; gwrthwynebwyd ef gan ysgrifenwyr o fri, cymerodd y bobl yn ei erbyn fel meddyg, collodd ei ymarferiad, a bu farw yn 1743, gan adael gweddw, ac un mab.

**MORGAN**, Thomas, cenadwr Wesleyaidd yn yr India Orllewinol, a anwyd yn Neheubarth Cymru, a ddychwelwyd at grefydd yn moreu ei oes; ac wedi bod am saith mlynedd yn y weinidogaeth yn Lloegr, aeth yn Genadwr i'r India Orllewinol, lle y treuliodd ddeunaw mlynedd gweddill ei oes, i ddwyn y paganiaid at Grist.

**MORGAN**, William, D.D. cyfieithydd y Bibl i'r iaith Gymraeg, ydoedd fab i William, neu John Morgan, o Ewybrnant, plwyf Penmachno, swydd Gaerynarfon; a'i fam oedd Lowri, ferch William ab Ifan, ab Madog ab Ifan Tegin, o'r Bettws. Olrheinir ei achau o du ei dad, yn ol i Nefydd Hardd, ac i Hedd Molwynog; ac o du ei fam, i Farchudd ab Cynan; ond nid ei achau, na'i ddyrchafiadau eglwysig, sydd wedi anfarwoli ei enw, eithr y gymwynas a wnaeth efe i'w gydgenedl, trwy osod Y Bibl yn eu hiaith. Nid oes dim o hanes boreu ei oes ar gael; ond cafodd ei ddwyn i fyny yn ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle yr ymaelododd fel *sizar*, Chwefror 16, 1565. Cymerodd bedwar o deitlau yn y brifysgol, sef B.A. yn Ionawr, 1568; A.M. yn 1571; B.D. yn 1578; a D.D. yn 1583. Cafodd ei benodi i ficeriaeth y Trallwng, swydd Drefaldwyn, ar yr 8fed o Awst, 1575; a thybir mai dyma ei benodiad cyntaf. Wedi bod yno am dair blynedd, symudodd i Lanrhaiadr-yn-Mochnant, swydd Ddinbych, lle yr ymgysegrodd at orchwyl mawr ei fywyd. Yr oedd Gweithred Seneddol, yr hon a ffurfiwyd un a'i yn 1562 neu 1563, yn gofyn ar "Fod i'r Bibl, yn cynwys yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyda Llyfr y Weddi Gyffredin, a Gweinyddiad y Sacramentau, i gael ei gyfieithu i iaith y Brytaniaid, neu y Gymraeg, a'r gwaith i gael ei olygu, ei ddefnyddio, a'i gydnabod, gan Esgobion Llanelwy, Bangor, Llandaf, Ty-Ddewi, a Henffordd, a'i arferyd yn yr Eglwysi, erbyn y 1af o Fawrth, 1566, dan ddirwy, yn niffyg o hyny, o ddeugain punt ar bob un o'r Esgobion uchod." Mewn canlyniad i'r ddeddf hono, cafwyd y Testament Newydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, nid gan yr "Esgobion uchod," ond gan William Salsbri, lleygwr dysgedig, o'r Cae Du, Llansanan. Gwir mai Thomas Huet, Cangellor Menyw, a gyfieithodd Lyfr y Datguddiad, ac mai y Dr. Richard Davies, esgob Ty-Ddewi, a gyfieithodd yr Ail Epistol at Timotheus, yr Epistol at yr Hebreaid, Epistol Iago, a dau Epistol Pedr; ond William Salsbri a gyfieithodd yr oll o'r gweddill, ac a arolygodd y gwaith drwy y wasg. Argraffwyd y gyfrol yn Llundain, gan Henry Denham, yn yr hen lythyren ddu, yn 1567.

Dyma y Testament Newydd o'r diwedd wedi ei gael; ond gorfu i'r Cymry ddysgwyl am un mlynedd ar hugain drachefn, cyn cael yr Hen Destament yn eu hiaith. Mae amryw bethau wedi cael eu cynyg fel achosion o'r fath oediad; ond dywed Morgan yn eglur, mai "difaterwch a diogi" oedd yr achos. Pa fodd bynag, ymaflodd Morgan yn y gwaith o ddifrif, a chyhoeddwyd yr holl Fibl, a'r Apocrypha yn y Gymraeg, gan Richard, a Robert Barker, yn 1558. Y mae wedi ei argraffu â llythyren ddu flewog, o'r plyg mawr; wedi ei ranu yn benodau ac adnodau, yn meddu cynwysiad i bob penod, nodau cyfeiriol ar ymyl y dail, cyflwyniad Lladin i'r frenines Elizabeth, calender, a thablau, ac yn rhifo 555 o dudalenau. Dywedir mai ei fwriad cyntaf oedd cyfieithu Pum Llyfr Moses yn unig; ond mewn canlyniad i achwyniad a ddygwyd yn ei erbyn at yr archesgob Whitgift, ei fod yn pregethu allan o'r ffordd gyffredin, ac yn rhy lym yn erbyn difyrwch yr oes, &c., gorfu iddo ymddangos ger bron yr archesgob yn Lambeth, yr hwn, pan ganfu ei alluoedd a'i ddysgeidiaeth uchel, a'i penododd yn gaplan iddo ei hun, ac a'i hanogodd i gyfieithu yr holl Fibl i'r iaith Gymraeg. Wedi gorphen o hono barotoi y llawysgrifau, aeth i Lundain i arolygu y gwaith trwy y wasg; a bu yno am tua blwyddyn, yn cael ei letya yn groesawus gan y Dr. Gabriel Goodman, deon Westminster, caredigrwydd yr hwn a gydnabydda

Digitized by Google

yn gynes yn nghyflwyniad y gwaith. Cydnabydda hefyd y cymorth a dderbyniodd gan Dr. Whitgift, archesgob Caergaint; y Drd. Hughes, a Bellot, esgobion Llanelwy, a Bangor; Dr. David Powell, ficer Rhiwabon; Edmund Prys, archddiacon Meirionydd; a Richard Vaughan, y pryd hwnw, person Lutterworth, ac wedi hyny, esgob Bangor, Caerlleon, a Llundain.

Yn y flwyddyn y cyhoeddodd efe ei Fibl, cafodd ei ddyrchafu i rectoriaeth Llanfyllin, yn nghyda rectoriaeth segur-swyddol Pennant Melangell; ac yn 1594, ychwanegwyd iddo rectoriaeth Dinbych at yr uchod. O'r diwedd cafodd ei alluoedd uchel, a'i weithgarwch canmoladwy, eu gwobrwyo, trwy gael ei ddyrchafu i esgobaeth Llandaf, i'r hon y cysegrwyd ef yn 1595, drwy orchymyn penodol y frenines Elizabeth; ac yn 1601, trosglwyddwyd ef i esgobaeth Llanelwy, lle y bu farw, Medi 10, 1604, ac y claddwyd ef yn ei brif eglwys, heb unrhyw wyddfa, nac argraff, i ddangos ei fedd. Yr oedd Syr John Wynn o Wydir, yr hwn nid oedd ar dir cyfeillgar ag ef, yn cael ei orfodi i ddyweyd am dano, "Bu farw yn ddyn tlawd. Yr oedd yn ysgolor campus yn yr ieithoedd Groeg a Hebraeg."

**MORGAN**, William, A.C.F., a anwyd yn Mhenybont-ar-ogwy, Morganwg, Mehefin, 1750. Mab ydoedd i feddyg; a dygwyd yntau i fyny i'r un alwedigaeth. Trwy ddylanwad y Dr. Rhisiart Price o Lundain, yr hwn oedd ewythr iddo, brawd i'w fam, cafodd dderbyniad i Yspytty Guy, lle y bu yn dilyn ei efrydiaeth am dair blynedd. Yn 1770, cyhoeddodd y Dr. Price ei *Reversionary Payments*, yr hwn a ddygodd yr awdwr i sylw neillduol rhai o'r Cymdeithasau Yswiriol, ac a roddodd iddo yntau symbyliad i fyfrio meidroniaeth, yn yr hon y daeth yn dra enwog. Yn Chwefror 1774, penodwyd ef yn ysgrifenydd cynorthwyol i'r *Equitable Society*, i'r hon y daeth yn brif ysgrifenydd yn 1775. Yn 1779, cyhoeddodd *The Doctrine of Annuities;* ac yn 1781, *Examination of Dr. Crawford's Theory of Heat and Combustion.* Yn 1783, anfonodd bapyr, trwy law ei ewythr, i'r "Gymdeithas Freninol," ar *The Probability of Survivorship;* am yr hwn y dyfarnwyd iddo y tlws aur o roddiad Syr Godfrey Copley, ac yr etholwyd ef yn aelod o'r gymdeithas A.C.F. Cyhoeddodd y papyr uchod, yn nghydag eraill o'r un ansawdd, gyda'r ail argraffiad o'r *Doctrine of Annuities*, yn 1821.

Yr oedd hefyd yn awdwr y llyfrau canlynol:—*A Review of Price's Writings on the Subjects of Finances*, 1792; *Facts addressed to the Serious Attention of the People of Great Britain*, 1803; *Memoirs of the Life of Richard Price, D.D.*, 1815. Ysgrifenodd hefyd lawer o erthyglau ar yswiriant bywyd, a'r pynciau perthynol i hyny, i *Encyclopædia* y Dr. Rees. Gwnaeth ei lafur ddaioni dirfawr i'r cymdeithasau yswiriol, ac yn neillduol i'r *Equitable*, trysorgyff yr hon, yn yr amser y bu ef yn ysgrifenydd iddi, a gyfododd o 33,800*p.* i 9,000,000*p.* Bu farw yn Stamford Hill, Middlesex, Mai 4, 1833, yn 83 mlwydd oed.

**MORGAN**, William, D.D., Caergybi, gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr, ac un o gewri y Pwlpud Cymreig, a anwyd yn ardal Tabor, swydd Benfro, yn 1801. Dechreuodd bregethu yn ieuanc, derbyniwyd ef i Athrofa y Fenni, yn Medi, 1822; ac wedi bod yno am ddwy flynedd, ymsefydlodd yn Nghaergybi, lle y neillduwyd ef i waith y weinidogaeth, Ebrill 15, 1825; ac y treuliodd oes faith yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu a chorph cadarn a lluniaidd, cyneddfau deallgar o radd uchel, darfelydd gwir gyfoethog, tymeredd wresog, a llais cyfrolawg a soniarus, wedi ei ddysgyblu yn dda, ac yn alluog i anerch saith mil o wrandawyr oddi ar esgynlawr Cymanfa. Yr oedd wedi cyd-dyfu ag achos y Bedyddwyr yn Nghaergybi, gan ledu ei wraidd fel Libanus; a chymerai ei safle yn naturiol yn rheng flaenaf pregethwyr Cymru. Ysgrifenodd aml i ddarn o bryd i bryd i gylchgronau yr enwad, a chyhoeddodd ddwy gyfrol o'i bregethau, ychydig flyneddau yn ol, y rhai, pa fodd bynag, ni chawsant y derbyniad a ddysgwylid iddynt. Yn y flwyddyn 1862, anrhydeddwyd ef â'r teitl o D.D. gan Brifysgol George Town, Kentucky, America; a theimlid na ddaeth teitl i Ogledd Cymru erioed, a eisteddai yn weddusach ar ei feddianydd, nag eiddo y Dr. Morgan. Yr oedd wedi ei analluogi gan y parlys er's rhai blyneddoedd, a bu farw Medi 15, 1872, yn 71 oed; ac wedi bod yn weinidog yn Nghaergybi am 46ain o flyneddoedd.

**MORGAN ELFAEL**, ydoedd fardd a flodeuai rhwng 1580, a 1610. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen.

**MORGAN HEN**; a elwid felly, yn debyg i *Llywarch Hen*, o blegid ei fod yn oedranus iawn; gelwid ef hefyd, Morgan Mawr, ac efe ydoedd dywysog breiniol Morganwg, yr hwn a olynodd ei dad Owain, mab Hywel ab Rhys. Dywedid ei fod yn frenhin o allu, a dewrder mawr; ac yn fawr uwchlaw pawb eraill mewn haelfrydedd, cyfiawnder, a thrugaredd, am yr hyn y dynodid ef fel "ail Arthur." Priododd Olwen, neu Elen, merch Rhodri Mawr. Bu dadl rhyngddo âg Owen, mab Hywel Dda, yn nghylch tiriogaethau Ystrad Yw, ac Ewyas, yr hon yn y diwedd a gyflwynwyd i gyflafareddiad y brenhin Seisnig Edgar, ac esgobion Llandaf, a Thy-Ddewi. Etholodd Edgar ddeuddeg o brif ddoethion y wlad i feirniadu yr achos, yn ol trefniadau cyfreithiol Morgan Mwynfawr; hyny ydyw, deuddeg gwr o'r Deheubarth, gwlad Owen; a deuddeg o Forganwg, gwlad Morgan; a'r brenhin ei hun yn llywyddu yn y cyngor. A'r ddedryd ydoedd, fod Morgan wedi hollol brofi ei hawl i ystrad Yw, ac Ewyas, y rhai a adferwyd iddo mewn canlyniad. Yr oedd gan Morgan balas yn Nghaerdydd, ac yn Margam, a Brigan, lle yr arferai gynal ei lysoedd cenedlaethol, a barnol. Bu farw yn 1001, yn yr oedran uchel o gant a naw mlwydd ar hugain; wedi cael byw i weled yr arglwyddiaeth yn cael ei mwynhau gan ei blant, a'i wyrion, i'r rhai yr oedd ef wedi ei chyflwyno, o blegid ei oedran, a'i wendid, cyn ei farwolaeth.

**MORGAN MWYNFAWR**, neu Morgan ab Athrwys ab Meurig ab Tewdrig, ydoedd frenin Morganwg pan oedd St. Oudoceus yn esgob Llandaf. Mae yn Llyfr Llandaf, gofnodion am dano yn cyflwyno tiroedd i'r eglwys hono. Dywedir yn *Williams's History of Monmouthshire, Appendix, page* 66, mai yn Margam yr oedd ei lys, ac iddo sylfaenu esgobaeth yno, yr hon, wedi parhau am bum olyniad, a unwyd a Llandaf. Dywedir pethau anhygoel am dano yn y *Myf. Arch. a'r Iolo MSS.*

**MORGANS** (Y Parch. Edward), a anwyd yn y Pentref, gerllaw Llanidloes, swydd Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1818, ac yn Llanidloes y dygwyd ef i fynu, yr ymunodd ag eglwys y Trefnyddion Calfin-

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON, LONDO




Digitized by Google

LASGOW & EDINBURGH

aidd, ac yr amlygodd yn foreu ar ei oes, duedd a chymhwysder at weinidogaeth yr efengyl. Efe a aeth i Athrofa y Bala yn y flwyddyn 1839; ond nid arhosodd yno yn hir y pryd hwnw; canys yn y flwyddyn 1840, efe a symmudodd i Ddyffryn Ardudwy, i gadw Ysgol Ddyddiol, ac yno, o dan nawdd, a thrwy annogaeth y diweddar Barch. Richard Humphreys, y dechreuodd efe bregethu; ac yn mis Rhagfyr, y flwyddyn hono, y traddododd efe ei bregeth gyntaf, mewn lle a elwir y Gwynfryn.

Yn y flwyddyn 1842, efe a ddychwelodd i'r Bala, lle yr arhosodd efe am oddeutu tair blynedd; ac oddi yno efe a aeth am dymhor i brif ysgol Edinburgh. Yn y flwyddyn 1847, efe a ordeiniwyd i gyflawn waith y weinidogaeth; ac yn fuan ar ol hyny, efe a symmudodd i Ddolgelleu, i fugeilio yr eglwys Fethodistaidd yno; ac wedi bod yno yn gysurus a llwyddianus iawn fel gweinidog, am ddwy flynedd, efe a ddychwelodd i'r Dyffryn, gan iddo brïodi Miss J. Humphreys, merch ieuangaf y Parch. Richard Humphreys, o'r Dyffryn; ac yno y trigodd mwyach, hyd ddydd ei farwolaeth.

Wedi i Mr. Morgan ddechreu pregethu, gwelid yn ebrwydd fod ynddo elfenau defnyddioldeb a phoblogrwydd ragor na'r cyffredin o'i gyfoeswyr. Dygai i sylw wirioneddau mawrion yr efengyl mewn dull gwreiddiol, tarawiadol, a phrïodol iddo ei hun; eglurai a chymhwysai ei holl bregethau, trwy gydmariaethau tlysion a grymus; yr oedd natur, a chelfyddyd, hanesyddiaeth, hen a diweddar, ac agos bob peth y gellid meddwl am dano, yn cael eu gosod dan dreth ganddo, i arddangos ac arganmawl gwirionedd yr efengyl. Mewn corff bychan, egwan, a nychlyd, yr oedd ganddo feddwl cryf, a dysglaer; a hwnw wedi ei sancteiddio gan Dduw pob gras, i'w wasanaethu ef yn efengyl ei Fab. Eithr nid oedd y pregethwr ond un peth ynddo; nid oedd cynlluniwr mwy deheuig, na gweithiwr mwy llafurus, gyda holl achosion y Cyfundeb nag efe. Yn ei Gyfarfod Misol ei hun, cyfrifid ef fel llygad, ac fel llaw, i gyfarwyddo, a gweithredu, yn holl ysgogiadau pwysig yr achos. Mae y cychwyniad a'r llwyddiant sydd wedi bod ar y drefn fugeiliol yn Ngorllewin Meirionydd, dros fwy nag ugain mlynedd, i'w brïodoli yn benaf i'w gynghorion, ei gyfarwyddiadau, a'i ymdrechiadau di ball ef. Yn y Gymdeithasfa Chwarterol yn Ngogledd Cymru, cyrhaeddodd yn naturiol le mawr a dylanwadol; ac efe a ddewiswyd yn llywydd y Gymdeithasfa am y flwyddyn 1865. Etholwyd ef hefyd yn llywydd y Gymmanfa Gyffredinol yn Aberhonddu, Gorphenaf, 1870; a phan yn analluog, yn ystod ei afiechyd diweddaf, i ysgrifenu, efe a draethai i'w fab, er mwyn iddo ef ysgrifenu drosto, y Cyfarchiad y gobeithiasai allu ei draddodi i'r Gymmanfa Gyffredinol yn Liverpool, wrth roddi y gadair i fynu i'w olynydd. Efe ydoedd Ysgrifenydd gweithgar Athrofa y Bala; ac yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, Rhagfyr, 1855, pennodwyd ef yn gasglydd cronfa o ugain mil o bunnoedd, tuag at gynhaliad parhaus yr Athrofa, gan roddi pum mlynedd o amser tuag at wneuthur y casgliad. Yr oedd llawer ar y dechreu yn wrthwynebus i ffurfio y cyfryw gronfa; a mwy, debygid, yn annghrediniol am lwyddiant yr amcan, yn enwedig pan feddylid am lesgedd corfforol yr hwn a bennodasid yn Gasglydd: ond, efe a ymaflodd yn y gwaith mewn ffydd, ac a aeth trwy y gwledydd yn Ngwynedd, ac i'r trefi yn Lloegr, gyd a'r gorchwyl oedd yn ddigon anhyfryd ar amryw ystyriaethau; ac yr oedd ei hyawdledd, ei arabedd, ei graffder, ei ddyfalwch, a'i benderfyniad, yn gorchfygu pob anhawsderau. Yn lle ugain, efe a gasglodd chwech ar hugain o filoedd o bunnoedd. Ac yn mhen ychydig o flyneddoedd drachefn, trwy gymhelliad taer ei frodyr, efe a ymgymerodd a chasglu cronfa tuag at gyfarfod a thraul adeilad yr Athrofa; ac a lwyddodd i gael yn ychwanegol, tua chwe mil o bunnau. Yr oedd ei weithgarwch bron yn ddi gyffelyb; ac yr oedd yn dra chydwybodol yn mhob peth a wnelai: ni fedrai wenieithio i neb; ac nid ofnai wyneb dyn; er hyny yr oedd yn gywir a ffyddlawn i'w holl frodyr. Efe a aeth mewn llesgedd mawr, i Gymmanfa Manchester y Pasc, 1871, ac yno y pregethodd am y tro olaf, gyd ag ysbryd parod, er fod y cnawd yn wan. Yr oedd yn meddiannu ei enaid mewn amynedd, ac yn mwynhau cysuron yr efengyl, yn nghanol poenau corfforol llymion ei ddyddiau diweddaf; ac efe a hunodd yn yr Iesu ar y 9fed o Fai, 1871, yn y drydedd flwyddyn ar ddeg a deugain o'i oedran, wedi bod yn pregethu ddeng mlynedd ar hugain; ac yn ordeiniedig i gyflawn waith y weinidogaeth, bedair blynedd ar hugain.

**MORGAN TALAI**, bardd yn ei flodau o 1540 i 1580.

**MORGANWG**, Swydd, neu Sir Forganwg, sydd wlad ar lan mor y deheubarth; yn cael ei therfynu, ar y de, a'r de-orllewin, gan gulfor Bryste; ar y gorllewin, gan afon Llychwr, yr hon sydd yn ei hysgaru oddiwrth Gaerfyrddin; ar y gogledd, gan Gaerfyrddin, a Brycheiniog; ar y dwyrain, gan afon Rymni, yr hon sydd yn ei gwahanu oddiwrth Fynwy. Mesura yn y ffordd hwyaf, sef o orllewin i ddwyrain, ddeuddeng milltir a deugain; ei lled yn y man mwyaf, o ogledd i ddehau, ydyw saith milltir ar hugain; cyfartaledd ei lled, yw tair milltir ar ddeg a haner; y mae ei therfynau ar lan y môr, yn bedair milltir a thriugain; y mae ei chylch-fesur yn cyrhaedd cant a deugain o filltiroedd; a chynnwysa oll 547,494 o erwau. Y mae y llinell sydd gyda y traeth, a elwir Dyffryn Morganwg, o wyth, i ddeng milltir o led, yn wastadedd prydferth, tra ffrwythlawn, ag a adwaenir yn gyffredin, fel "gardd Deheudir Cymru." Y mae yr arwynebedd oddiyma, yn ymgodi yn gylchlinellol, mewn amrywiaeth mawr; ac y mae y llinellau ar y gogledd, a'r gogledd ddwyrain, yn gynwysedig, gan mwyaf o fynyddoedd cerygog, a geirwon; o'r braidd yn anhygyrch, rhwng y clogwyni cadwynol, a'r pig-dyrau cylchog, mewn gwahanol uchder, tra y rhed yr afonydd rhyngddynt mewn arwylltedd rhaiadrol.

Yr oedd y diriogaeth ag sydd yn awr yn ffurfio swydd Forganwg, yn ysdod yr amser boreuaf ag y mae genym hanes am dani, yn ffurfio rhan bwysig o'r dalaeth a elwid ar y cyntaf, Gwent; ac wedi hyny Essyllwg; a darfu i'r Rhufeiniaid esmwytho yr enw olaf yn *Siluria*, a chynnwysai, yn ol barn y rhan fwyaf o'r henafiaethwyr, yr oll o Fynwy, a rhanau o siroedd Caerloew, Henffordd, a Brycheiniog. Golygir fod arwyddocad y ddau enw, sef *Gwent*, ac *Essyllwg*, agos yn gyfystyr, ac yn arwyddo goror brydferth a dymunol; ac yr oedd y naill a'r llall mewn ymarferiad, yn amser y goresgyniad gan y Rhufeiniaid. Yr oedd yr hen Dywysogion Brytanaidd yma, yn sefyll yn uchel yn ngolwg eu cydoeswyr, ac yn cael eu galw yn fynych i gymeryd arweiniad y byddinoedd unedig, perthynol i'r ynys, pan y byddai yn ofynol, er cyd-amddiffyniad rhag ymosodiadau

Digitized by Google

goresgynwyr dieithrol. Ond addefir fod cryn dywyllwch yn ymdaenu dros yr hanes, hyd amser goresgyniad Brydain gan Iwl Caisar, pan yr ymddengys mai Llyr Llediaith oedd tywysog llywodraethol y diriogaeth, yr hwn a olynwyd gan ei fab, Bran ab Llyr, prif breswylfa yr hwn oedd yn Dindryfan, ag a elwir yn awr Dunraven, ar derfyn morawl y wlad hon. Yr oedd Ostorius Scapula, yr hwn oedd wedi ei godi i arwain y byddinoedd Rhufeinig, yn y flwyddyn 50, wedi sicrhau yr holl wlad hyd ochr ddwyreiniol yr Hafren, a gwneud ei ymosodiad ar y *Siluriaid*, canys felly y galwent drigolion Essyllwg, y rhai oedd wedi gwrthwynebu holl alluoedd y Rhufeiniaid, am naw mlynedd, yn llwyddianus iawn, dan arweiniad galluog mab Bran, sef yr enwog Caradawg, neu Caractacus. Bu ymdrechion gwrol y penadur anhyblyg hwn, yn wyneb anfanteision mawrion, yn foddion i atal rhwysg, a gohirio y gorchfygiad am dymor maith, wedi symud maes y rhyfel i wlad y Gordofigion, yr hon oedd yn cynwys, agos yr oll o Wynedd, a therfynau Gogleddol Amwythig; ond o'r diwedd, efe a orchfygwyd gan Ostorius, mewn brwydr benderfynol, yn yr hon y cymerwyd ei wraig a'i ferch yn garcharorion; ac yn fuan wedi hyny, rhoddodd ei frodyr eu hunain i fynu i'r cadfridog Rhufeinaidd; a Charadog ei hun, wedi gweled nerth y gelyn, a roddwyd i fynu gan frenhines y Brigantwys, i lys yr hon yr oedd efe wedi ffoi am noddfa. Yn ol cofnodau sydd mewn ysgrifau sydd yn yr *Harleian Collection*, yn yr Amgueddfa Frytanaidd, cymerwyd Bran ab Llyr, a'i deulu, yn garcharorion i Rufain yr un modd, fel gwystl dros ymddygiad heddychol yr enwog Caradog, yr hwn y dywedir iddo gael ei ryddhau yn uniongyrchol, a dychwelyd gyda'i wraig a'i ferch i Frydain. Wedi aros yn Rhufain am saith mlynedd, caniatawyd o'r diwedd i Bran a'i deulu ddychwelyd i'w gwlad enedigol; a chan ei fod wedi ei ddychwelyd at Gristionogaeth yn ystod ei arhosiad yn yr Eidal, efe a fu yn foddion i ddwyn y grefydd honno i Frydain, ac o blegid hyny y gelwid ef, mewn canlyniad, "Bran Fendigaid." Bu farw tua y flwyddyn 80. Ar gwymp Caradog, darostyngwyd yr Essyllwyr, heb lawer o wrthwynebiad, gan Julius Frontinus, yr hwn a gododd orsafau milwrol yn mhob rhan o'r wlad, wedi eu cysylltu â ffyrdd, er rhwyddhau tramwyaeth o'r naill fan i'r llall, a'r benaf o honynt, oedd yr un a elwid *Julia Strata*, neu *Via Julia*, yn croesi o ddwyrain i orllewin. Ychwanegid *Maritima*, at enw y llinell hon yn fuan, i'w gwahaniaethu oddiwrth y ffordd dros y parthau mynyddig, a elwid *Via Julia Montana*. Y prif orsafau Rhufeinig o fewn terfynau Morganwg, oeddynt *Tibia Amnis*, a dybir ydoedd ar lan y Taf, yn, neu yn agos i Gaerdydd; ond barna rhai, mai yn mhentref y Caerau, dair milltir yn orllewinol i'r dref, yr ydoedd; a *Bovium*, a dybir ei bod yn agos i bentref presenol Boverton, ar y ddeau i Bont-y-fon; *Nidus* yn Nedd; a *Leucarum* yn Llychwr. Bernir mai amryfusedd oedd meddwl mai Caerffili ydoedd *Bullœum Silurium* Ptolemy. O'r braidd, yr unig gofnodiad sydd wedi ei drosglwyddo i ni am y parth hwn o Frydain, dan y llywodraeth Rufeinig, ydyw rhestr ddyryslyd o enwau y tywysogion brodorol, y rhai y caniateid iddynt arfer awdurdod mewn enw, eto a ddychwelwyd iddynt yn wirioneddol, ar ymadawiad galluoedd y lleill allan o'r ynys. O'r rhai hyn, Tewdrig a flodeuai tua chanol y bumed ganrif, yr hwn y dywedir, a adeiladodd yr eglwys gyntaf yn Llandaf; yn ei ymdrech i gynal annibyniaeth ei diriogaeth, efe a ymlidiodd ymaith, ar amryw droion, bleidiau o Sacsoniaid oedd yn goresgyn y wlad; ond mewn ymdrech â hwy, yn agos i Tintern, cafodd archoll angeuol, a bu farw ar faes y frwydr, ac a gladdwyd yn y lle, man y codwyd eglwys, wedi hyny, yn unol a'i ddymuniad; a galwyd y lle, yn ol ei enw, Merthyr Tewdrig, ac wedi hyny a lygrwyd i Mathern. Ei fab, a'i olynydd, Meurig ab Tewdrig, gwr o gondra a doethineb mawr, ydoedd dad i Arthur, yr hwn y mae ei orchestion yn tori ffugyr mor gyhoeddus yn y cofnodau Cymreig, fel arwr dieilfydd, yr hwn a olynodd ei dad yn y llywodraeth. Tu a'r flwyddyn 517, etholwyd Arthur gan lywodraethau Brydain, i arfer awdurdod brenhinol drostynt, mewn amser o berygl; a thrwy ei fedrusrwydd a'i alluoedd anarferol, efe a barhaodd i wrthwynebu yn llwyddianus holl ymosodiadau arfogaeth y Sacsoniaid, hyd nes y cyfododd anghydfod rhyngddo ef a'i nai, Mordred, ac yn y rhyfel cartrefol a gymerodd le, lladdwyd y ddau bennaeth hyn yn mrwydr Camlan, yn 542. Olynwyd Arthur yn mrenhiniaeth Essyllwg neu Gwent, gan ei fab Morgan, yr hwn ydoedd dywysog doeth a hynaws, ag a gynhaliai ei lys ar y cyntaf yn Nghaerlleon, prif ddinas henafol ei diriogaethau, yn swydd Fynwy; ond y Saeson, wedi marwolaeth Arthur, a wnaethant ymosodiadau mynych ar y wlad, ac er mwyn ymddiogelu rhagddynt, symudodd Morgan safle yr ymerodraeth yn fwy gorllewinol, gan breswylio weithiau yn Nghaerdydd, a phrydiau eraill yn Margam, yn y sir hon. O blegid hyn, gelwid parthau gorllewinol yr hen Essyllwg, yn "Morganwg," yr hon a lywodraethid gan Morgan yn bersonol; a daeth "Gwent," i ddynodi y rhan ddwyreiniol o'r dalaeth, lle y gosododd Morgan un o'i feibion yn rhaglaw. Gelwid Morganwg yn gyffredin, "Gwlad Morgan, neu Gwlad-Forgan, ag a gyfnewidiwyd yn raddol i'r cyfenwad presenol. Mewn perthynas i enw y wlad, dichon y dylid mynegi yma, y tybia rhai mai "Mor-Gant," ydyw y gwreiddair, o herwydd fod y mor fel cant yn cylchynu rhan mor eang o honi. Tybiem y buasai y dynodiad hwnw yn fwy cydweddol â sefyllfa ynys Fon, yr hon a gylchynir a'r "morfuriau." Yr oedd y Wlad-Forgan gyntefig, yn cael ei therfynu ar y dwyrain gan afon Wysg, ac ar y gorllewin gan y Nedd; ac eto, er fod terfynau presenol Morganwg wedi eu dynodi gan weithred yr undeb, a basiwyd yn y 27n Harri VIII., y mae y rhan honno o Fynwy sydd yn gorwedd yn orllewinol i'r Wysg, yn cael ei chymeryd gan y cyffredin, megis yn perthynu i Forganwg; tra y mae y rhan orllewinol o'r Forganwg bresenol, (Gwyr, neu Gower gyntefig), yn cael ei hystyried yn gynwysedig yn "Sir Gaer," neu Gaerfyrddin ddiweddar. Rhys, mab Arthfael, un o'r tywysogion a ganlynasant Morgan, fel penadur Morganwg, yn ol hen ysgrif, yn meddiant Thomas Truman, o Bantlliwydd, gerllaw Pont-y-fon, a adeiladodd gestyll, a llongau, a orfodogodd bawb oedd yn meddianu tiroedd yn Nyffryn Morganwg, i hau ŷd yn yr haner o hono; a phawb yr oedd ganddynt diroedd ar y bryniau, i hau ŷd ar y bedwaredd ran o hono; tra yr oedd yr holl dir, na thyfai ŷd arno, ag na chynnyrchai borfa i anifeiliaid, i gael ei fforffedu i'r brenhin, os na byddai yn goedwig; trwy y gyfraith hon, daeth Morwanwg i gael ei hynodi uwchlaw pob parth arall am ei ffrwythlondeb.

Er yr holl fanteision a gododd oddiwrth yr am-

Digitized by Google

gylchiad hwn, daeth y diriogaeth yma, gyda'r gweddill o'r Deheubarth, dan awdurdod Rhodri Mawr, tywysog Gwynedd, drwy ei briodas ef âg Angharad, merch ac etifeddes Gwgan, brenhin Ceredigion, a'r lle y cysylltwyd yr holl oruwch lywodraeth ar dywysogaethau eraill y Deheubarth. Ar farwolaeth Rhodri, daeth am ryw dymor yn rhan o frenhiniaeth Ceredigion, dan lywyddiaeth Cadell ei fab, ac wedi hyny, dan fab i Cadell, sef Hywel Dda, yr hwn a unodd dair penaduriaeth Cymru dan ei lywodraeth ei hun. Nid yw hanesiaeth teyrnasiad yr un o'r mân dywysogion yn Morganwg, yn dangos unrhyw ddyddordeb yn y cofnodau Cymreig hyd amser Morgan ab Owain, a adwaenir hefyd wrth yr enwau, Morgan Hen, Morgan Mawr, a Morgan Mwynfawr, yr hwn a flodeuai tua chanol y ddegfed ganrif. Aflonyddwyd y wlad yn fawr y pryd hwnw, gan bleidiau ymosodol o Sacsoniaid, a Daniaid, y rhai a ysbeilient feddianau y trigolion, ac a ddinystriasant eglwysi ac adeiladau crefyddol eraill y wlad; ac ymlidiodd Morgan y gormeswyr hyn ymaith lawer gwaith. Yr oedd gorchestion milwrol eraill y pennaeth hwn, gan mwyaf, yn erbyn tywysogion tŷ Dynefor, y rhai oedd wedi goresgyn dosparth Ewyas, yn nyffryn yr Wysg, ac Ystrad Yw. Cyflwynwyd yr achos hwn, yn ol tystiolaeth y cofnodau Cymreig i gyflafareddiad Edgar, brenhin Lloegr, yr hwn a roddes ei ddedryd o blaid tywysog Morganwg, ac a waharddodd ymosodiadau pellach gan y gormeswyr. Darfu i Einion, mab Owain, tywysog y Deheudir, gymeryd mantais ar yr aflonyddwch oedd y pryd hwnw drwy Gymru, i oresgyn Gwŷr, dan yr esgus o wrthwynebu y Gwyddelod a'r Daniaid, ddwywaith. Yn ysdod teyrnasiad Morgan Hen, y cyfododd y gofyniad, pa un a oedd teyrnged is-dywysogion y Deheudir i gael ei thalu i frenhin Gwynedd, ynte i frenhin Lloegr, fel arglwydd aruchel, yr hyn a benderfynwyd, yn 962, drwy ymddangosiad Edgar, gyda byddin arfog yn Nghaerlleon, yr hwn a rwymodd y tywysogion i'w thalu i goron Lloegr. Yn 987, tiriodd y Daniaid ar derfynau y wlad hon, ac a wnaethant ddifrod mawr, a llosgasant eglwysi Llanilltyd, a Llandaf; ac amryw adeiladau crefyddol eraill. Fel yr oedd Morgan Hen, bellach yn oedranus iawn, efe a roddodd y llywodraeth i fynu i'w feibion, a chrybwyllir yn benodol am Owain, ac Ithel, yn y cofnodau Cymreig, fel penaethiaid y wlad yn ysdod oes eu tad. Ithel, a elwid Ithel Ddu, oddiwrth liw ei wallt, a breswyliai yn achlysurol yn Ystrad Owain, ac yr oedd ganddo hafod mewn lle a elwid "Ton Ithel Ddu," ychydig o filltiroedd yn ogleddol o Ben-y-bont; bu fyw ar ol Owain, a thua y flwyddyn 990, ymosodwyd ar ei diriogaeth yn ddi-drugaredd gan Edwin, mab Einion, yr hwn, mewn cydweithrediad â Meredydd, brenhin Cymru oll, ac yn cael ei gynorthwyo gan bleidiau o Sacsoniaid, a Daniaid, a aethant i'r diriogaeth, o Sir Gaerfyrddin trwy Gwŷr; ond Hywel, brawd ieuengaf Ithel, wedi ei gynhyrfu i'r eithaf gan y gormesiadau hyn, a gododd yr holl wlad i fynu o'r tu cefn iddynt, ac wedi cynull byddin fawr, wedi ymarfogi yn y modd goreu y gallent, a ruthrasant arnynt ar eu dychweliad, mewn lle a elwir croes Einion, yn mhlwyf Llangyfelach, ac a'u gorthrechodd, gyda lladdfa fawr, ac a adfeddianodd yr ysbail oeddynt wedi gludo ymaith. Bu farw Ithel yn 994, ac olynwyd ef yn llywodraeth Morganwg, gan ei fab Gwgan, yr hwn a ddarlunir fel tywysog gwybodus, a heddychol, ac a roddodd i'w ddeiliaid dir cyffredin eang yn mharthau gogleddol y wlad, yn borfa gwartheg a defaid, ac i gynnyrchu yd; yr hwn a elwid mwyach Hirwaen Wrgan. Bu farw yn 1030, cyn yr hyn, yn ol Caradog o Lancarfan, yr oedd efe wedi cymeryd ato i'r llywodraeth, ei ewythr Hywel, trydydd mab Morgan Mawr, i'r hwn y gadawodd efe ei holl dywysogaeth, yn hytrach nag i'w fab ei hun, Iestyn, afradlonedd yr hwn oedd wedi ei wneud yn wrthddrych o atgasedd gan bawb. Pa fodd bynag, daeth Iestyn i'r llywodraeth ar farwolaeth Hywel, yn 1043; ac wedi dyweddio Denis, merch Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys, efe a adeiladodd gastell, ychydig o filltiroedd yn ogleddol i Gaerdydd, yr hwn a alwodd, yn ol ei henw hi, Denis Powys; ac y mae yr enw hwn yn aros ar y lle hyd yn awr, gydag ychydig o gyfnewidiad i Dinas Powys, fel un o raniadau y wlad. Darfu i Rhydderch, mab Iestyn, drawsfeddianu llywodraeth y Deheudir, ar farwolaeth ei thywysog Llewelyn; a darfu i'w feibion hefyd, Rhydderch a Rhys, honni hawl iddi, yn mhen ychydig o flyneddoedd ar ol marwolaeth eu tad, a chan godi byddin gref yn Morganwg, i gefnogi eu honiadau, ac ymosodasant ar Gryffydd, yr hwn oedd wedi darostwng yr holl weddill o Gymru dan eu hawdurdod, mewn brwydr drychinebus, ond anmhenderfynol. Yn fuan wedi hyn, aeth rhai o bleidwyr Caradog; mab Rhydderch ab Iestyn, o Gwent a Morganwg, i swydd bresenol Caerfyrddin; lle yr oedd ganddynt rai o ddeiliaid anfoddhaol Gryffydd, y gwyddent a fyddai yn ffafriol iddynt; ac ymosodasant ar feddianau ei gyfeillion, ac a roddasant rai o honynt i farwolaeth; ond Gryffydd yn fuan a ddialodd ar ei gaeth-ddeiliaid gwrthryfelgar, drwy ddinystrio eu hetifeddiaethau yn Dyfed, Ystrad Tywi, a Gwyr. Yn 1056 darfu i Rhys, brawd Gryffydd, arwain byddin i Gwent a Morganwg, a gwneud difrod mawr; ond y brodorion, mewn amddiffyniad iddynt eu hunain, a'i hymlidiasant i'r cyffin-diroedd, ac wedi ei gymeryd ef yn garcharor, a dorasant ei ben, ac a'i danfonasant i frenhin Lloegr, Iorwerth y Cyffeswr, yr hwn oedd ar y pryd yn Nghaerloew. Yn fuan wedi hyn, Caradog, mab Rhydderch ab Iestyn, wedi codi byddin luosog yn Gwent a Morganwg, a lwyddodd gyda y penaeth Sacsonaidd Harold, wedi hyny, brenhin Lloegr, i uno ag ef gyda byddin nerthol, a bu iddynt orthrechu Gryffydd, mewn brwydr galed, pan y lladdwyd y penaeth hwnw. Yr oedd Caradog, drwy alw ar y Saeson i'w gynorthwyo, wedi gobeithio enill iddo ei hun dywysogaeth y Deheudir; ond Harold, wedi marwolaeth Gryffydd, a'i hymlidiodd ef allan o'r wlad, a chyflwynodd y frenhiniaeth i Meredydd ab Owain. Pa fodd bynag, cymerodd Caradog fantais ar farwolaeth Harold, yn 1069, a derchafiad William o Normandy i orsedd Lloegr, ac a enillodd i'w blaid, luaws o filwyr Normanaidd, gyda y rhai yr aeth i'r Deheubarth, ac a orthrechodd ac a laddodd Meredydd, ar derfynau y wlad hon y flwyddyn ganlynol; ond drwy e farwolaeth, mewn canlyniad i dderbyn archoll angeuol mewn brwydr, olynwyd ef yn llywodraeth Deheudir Cymru, gan ei fab Rhydderch, yr hwn wedi hyny a lofruddiwyd yn fradwrus, gan garenydd iddo.

Yr ydym yn awr yn dyfod at y rhan fwyaf pwysig a dyddorol o'r hanes foreuol am y wlad hon. Darfu i Rhys ab Tewdwr, tywysog Dynefor, yn y flwyddyn 1080, oresgyn tiriogaethau Iestyn ab Gwrgan yn Morganwg, ac ysbeilio ei gestyll yn Dinas Powys,

Llanilltyd, a Dindryfan; ond gyda ei fod wedi galw ei fyddin adref, dechreuodd Iestyn ad-dalu y sarhad, drwy ymosod ar siroedd Caerfyrddin, a Brycheiniog, lle y cafodd ysbail werthfawr. Ar hyn, ffodd Einion ab Collwyn, un o flaenoriaid gwrthryfel aflwyddiannus yn erbyn Rhys, i lŷs Iestyn am noddfa, ac aethant i gyfamod a'u gilydd, pan y trefnwyd fod i Einion gael merch Iestyn yn briod, ac arglwyddiaeth Meisgyn, a elwir yn awr Miscyn, os gallai ef sierhau i Iestyn wasanaeth rhai o'r barwniaid Normanaidd, i'r rhai y buasai ef yn gweini, pan yr oedd ar led, dan William o Normandy. Aeth Einion rhag blaen i Lundain, a llwyddodd yn hawdd i gael gan Robert Fitz-Hamon, câr agos i'r Gorchfygwr, ddyfod i Forganwg, gydag eraill a weithredent yn unol a'i orchymyn ef; ar ddyfodiad y galluoedd hyn, sef Fitz-Hamon ei hun, ac un ar ddeg o farwniaid eraill, a thair mil o wŷr dan arfau, cymerodd Iestyn y maes, ac a ymosododd ar Rhys, ac a'i gorchfygodd, gyda cholled agos o'r cyfan o'i feirchfilwyr, ar Hirwaen-Wrgan, y tir cyffredin y cyfeiriwyd ato yn barod, wrth droed mynydd uchel, o fewn tua dwy filltir i dref bresenol Aberdar, yn y swydd hon, ac ar derfynau Brycheiniog. Dywed rhai cofnodau Cymreig, yr hyn a amheuid gan Mr. Theophilus Jones, i Rhys ffoi o faes y frwydr i Glyn Rhondda, dyffryn neillduedig, rai milltiroedd i'r de, lle y cymerwyd ef gan Iestyn, ac y torodd ymaith ei ben, a gelwir y lle, oddiwrth yr amgylchiad, "Penrhys," hyd yn awr. Cwympodd ei fab Goronwy yn y lladdfa; a boddwyd Cynan, mab Goronwy, wrth ffoi gyd âg ychydig o feirchfilwyr tua Chaerfyrddin, yn llyn Cromlyn, sydd yn awr yn forfa eang, rhwng Briton Ferry, ag Abertawe. Darfu i Iestyn obrwyo ei gyngreirwyr yn ol ei amodau, gan dalu iddynt mewn aur, mewn lle tua thair milltir yn orllewinol o Gaerdydd, a elwid wedi hyny byth mwy, "Y Filltir Aur;" a chyfeiriasant eu ffordd at lan y mor, gyda y bwriad o hwylio am Loegr; ond wedi gwrthod cyflawni ei amodau ag Einion, prysurodd hwnw at y blaenor Normanaidd, a datguddiodd iddo fradwriaeth Iestyn, a dangosodd iddo mor hawdd fuasai iddo ef gymeryd meddiant o'r holl wlad iddo ei hun, a'i ganlynwyr. Newidiodd Fitz-Hamon a'r barwniaid eraill eu meddwl ar unwaith, a thrwy gydweithrediad rhai o'r penaethiaid brodorol, y rhai oeddynt wedi llidio at ymddygiad gormesol a diegwyddor Iestyn, yr hwn oedd yn hollol anmharod i wrthwynebu y fath gyngrair; efe a gynnullodd hyny o fyddinoedd a allai gael, ar dir cyffredin, gerllaw Caerdydd, lle y gorchfygwyd ef yn rhwydd, ac y gorfu arno yntau ffoi am ei ddiogelwch. Fel hyn y dinystriwyd y llywodraeth Frytanaidd yn Morganwg; a thrwy orchfygiad Iestyn, yr oedd Fitz-Hamon, yn meddu arglwyddiaeth hollol dros y wlad; a buan y dosparthodd y terfynau rhwng ei gyfeillion, ac ychydig o'r prif benaethiaid Cymreig, gan gadw iddo ei hun drefydd Caerdydd, Cynffig, a Phont-y-fon, gyda'r tiroedd cylchynol.

Yn ol y cofnodiad a roddir gan Malkin, dyma drefn dosparthiad Morganwg, mewn canlyniad i'r chwyldroad crybwylledig, wedi ei ddyfynu ganddo o ysgrifau Caradog o Lancarfan:—"Robert Fitzhamon a gymerodd ei ran yn nghestyll Caerdydd a Cenffig, gyda thref farchnad Pont-y-fon, ac etifeddiaeth Llanilltyd; ac a feddianodd y tiroedd cysylltiedig, gydag arglwyddiaeth freiniol yr holl wlad. Cafodd William de London, gastell a maenoriaeth Ogwyr, gyda y tiroedd perthynol i'r arglwyddiaeth honno. Cafodd Richard Grenville, gastell ac arglwyddiaeth Nedd, gyda'r fwrdais, a'r tiroedd perthynol iddi. Rhoddwyd i Robert de St. Quentin, gastell ac arglwyddiaeth Llanblethian; nid oes brofion eglur pa un a ychwanegwyd iddo dref Pont y fon, ynte a gadwodd Fitz-hamon hi iddo ei hun. Gilbert Humphreyville, a gafodd gastell ac arglwyddiaeth Penmarc. Cafodd Roger Berclos, arglwyddiaeth St. Athans. Reginald Sully, a gafodd gastell ac arglwyddiaeth Sully, a elwid felly yn ol ei enw. Peter le Soor a gafodd gastell ac arglwyddiaeth Peterston super Elwy, y lle sydd yn cael ei enw oddiwrtho. Cafodd John Fleming, gastell ac arglwyddiaeth St. George. Cafodd Olifer St. John, gastell ac arglwyddiaeth Fonmore, yr enw a roddodd y Normaniaid ar y fan yn lle Abernant. William de Esterling, a gafodd gastell ac arglwyddiaeth St. Donatts. Cafodd Payne Turberville, gastell ac arglwyddiaeth Coety; ond yr oedd efe yn honni ei fod ef wedi cymeryd ei deitl, nid trwy ddamweiniaeth rhyfel, ond trwy hawliau priodasol. Einion ab Collwyn a gafodd Gaerffili, gyda merch Iestyn mewn priodas, y wobr ag yr oedd efe wedi ei hamcanu, ac a fu yn achos o'r ddadl. Cafodd Caradog ab Iestyn, Aberafon, gyda'r holl diroedd rhwng Nedd ac Afon, fel castell ac arglwyddiaeth freiniol. Hywel ab Iestyn a gafodd Lantrythid. Rhys ab Iestyn a gafodd y tiroedd rhwng Nedd a Tawy. Y mae yr hen enwau Cymreig wedi eu cadw yn rhyfedd yn holl ranau y wlad. Y mae yr enwau canlynol yn aros ar wahanol leoedd yn y terfynau hyn hyd yn awr, ac yn gwasanaethu i daflu llawer o oleuni ar amgylchiadau yr hanesiaeth hon, megis Trahaern, Owain, Madog, Caradog, Hywel, Rhys, Llewelyn, Cadog, Bleddyn, Arthur, Cadwgan, Gryffydd, Morgan, Llywarch, Lleision, Rhydderch, Illtyd, Ieuaf, Meurig, Ifor, Goronwy, Tydur, Taliesin, Myrddin, Meredydd, ac amryw eraill; a gellid cyfeirio at amryw enwau benywol, sydd eto ar gael ar amryw fannau o fewn y terfynau, megis Gwenllian, Angharad, Morfudd, Lleian, gyda rhestr o'u cyffelyb, yr hyn a dyn sylw pob teithiwr ac ymwelydd yn y wlad, mewn adgofion am yr hanes.

Yr oedd Fitz-hamon yn bleidiwr gwresog i Harri I., yn erbyn hawliau ei frawd henaf, Robert, Dug Normandy, yr hwn a garcharwyd ganddo yn Nghaerdydd. Ar farwolaeth y boneddwr hwn yn 1107, efe a olynwyd yn ei etifeddiaethau a'i anrhydedd, gan Robert, mab naturiol Harri I., o Nest, merch Rhys ab Tewdwr, i'r hwn y rhoddodd y penadur hwnw Mabel, neu Mabli, merch Fitz-hamon yn wraig. Wedi cael meddiant o arglwyddiaeth Morganwg, amcanodd Robert arosod yr hen ddeddfau gwarogol, ag yr oedd ei ragflaenorydd wedi methu eu gosod ar y tir-ddeiliaid brodorol; cyffrodd hyn yspryd y Cymry, ac arweiniodd Ifor ab Cadifor, a elwid hefyd Ifor Bach, yr hwn ydoedd arglwydd Senghenydd, ac yn preswylio yn nghastell Morlais, ar derfynau y sir bresenol, ei alluoedd yn erbyn castell Caerdydd, yr hwn a gymerodd drwy ystorm, a gwnaeth Iarll Caerloew a'i foneddiges yn garcharorion. Cynnygiwyd amodau am eu rhyddhad gan frenhin Lloegr; yr hyn a ganiataodd Ifor, ar y dealltwriaeth, dan lw y brenhin, y byddai i Gymry Morganwg fwynhau eu breintiau cyntefig, heb eu haflonyddu. Yn mhen ychydig o flyneddoedd wedi hyn, aeth Gryffydd, mab Rhys ab Tewdwr, diweddar dywysog y Deheubarth, i Gwyr, gyda nifer mawr o'r milwyr brodorol;

Digitized by Google

ond wedi methu mewn ymosodiad ar gastell Abertawe, efe a roddodd y cymydogaethau cylchynol ar dân, ac a ddifrododd y terfynau, gan ddychwel i sir Gaerfyrddin yn llwythog o ysbail; a'r flwyddyn ganlynol, aeth i Gwyr yr un modd. Gwnaeth Cadell, tywysog Cymreig, tua chanol y ddeuddegfed ganrif, ymosodiadau amryw weithiau, o gastell Caerfyrddin, ar diriogaethau y Normaniaid, oedd wedi ymsefydlu yn yr ardal, ac yn neillduol yn Gwyr, yn y dosparth lle y darfu i'w frodyr, Rhys, a Meredydd, yn 1150, gymeryd castell Aberllychwr. Yn fuan wedi hyn, arweiniodd Madog ab Meredydd, tywysog Powys, fyddin nerthol i Forganwg, ac a ddifrododd diroedd Morgan ab Caradog ab Iestyn, ac a gymerodd ac a ddinystriodd ei gastell yn Aberafon. Ar ol hyn, cymerodd Morgan a'i ganlynwyr eu diogelwch yn yr eglwysi, a'r monachdai, a gosodasant eu hunain dan nodded William, Iarll Caerloew, ac arglwydd Morganwg, yr hwn oedd wedi olynu ei dad Robert, yn 1147, yn ei deitlau, a'i feddianau, a'r hwn, wedi marwolaeth ei unig fab, a sefydlodd y Tywysog John, mab ieuaf Harri II., yn etifedd. Y tywysog hwn, wedi priodi Isabel, merch ieuengaf yr Iarll William, a fwynhaodd y meddianau hyn, hyd ei ysgariad oddiwrth y foneddiges honno, wedi ei dderchafiad i orsedd Lloegr, pan eu rhoddwyd fel ei chynnysgaeth, i Iarll Essex, yr hwn yn nesaf, a briododd hi, ac wedi hyny priododd â Hubert de Burgh. Ar farwolaeth Isabel, disgynodd y teitl a'r meddianau teuluol i Almaric, mab ei chwaer henaf Mabel, a fu farw yn ieuangc ac heb blant; ac felly cyflwynwyd y cyfan i Richard, Iarll Clare, yr hwn oedd yn briod âg unig ferch yr Iarll William, oedd yn fyw, ac yn nhylwyth yr hwn yr arosasant hyd ddechreuad y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn gynar yn y drydedd ganrif ar ddeg, goresgynwyd Morganwg o'r gorllewin, gan y penaeth Cymreig, Rhys ab Gryffydd, yr hwn a lwyddodd i gymeryd holl gestyll Gwyr, ac amryw eraill, yn cynwys un Senghenydd, a elwid wedi hyny Caerffili. Ar ol marwolaeth Gilbert de Clare, yn 1230, tra yr oedd Richard, ei fab henaf dan oed, cymerodd Iarll Penfro, ei ewythr o du ei fam, lywodraeth Morganwg, trwy dalu pum can marc i goron Lloegr; yn 1257 ymosododd y Richard hwn yn erbyn y Cymry, y rhai oedd wedi ymosod ar ei feddianau yn Morganwg; ac yn 1257, pan yr oedd Harri III., wedi bwriadu ymosod ar Ogledd Cymru, ymddiriedwyd iddo holl lywodraeth y byddinoedd yn Morganwg, a'r parthau eraill o'r Deheubarth. Trwy farwolaeth ei ddisgynydd, Gilbert de Clare arall, yr hwn a laddwyd yn mrwydr Bannockburn yn 1314, ac heb blant, disgynodd teitl ac etifeddiaeth y teulu, i Eleanor, ei chwaer henaf, yr hon a'u trosglwyddodd trwy briodas i Huw Despencer, yr ieuengaf, serchus gyfaill Iorwerth II. Yn 1315 cododd gwrthryfel yn Morganwg, gan Llewelyn Bren, yr hwn, gyda deng mil o wyr, a ymosododd ar, ac a gymerodd gastell Caerffili; ond a ddarostyngwyd yn fuan gan John Gifford, arglwydd Bronllys, yr hwn oedd wedi ei benodi yn geidwad tiroedd Gilbert, diweddar Iarll Clare, yn Morganwg; a Humphrey de Bohun, Iarll Henffordd, llywydd y byddinoedd yn yr ymgyrch hwn; a chymerwyd y penaeth Cymreig a'i ddau fab yn garcharorion, a danfonwyd hwy i Dŵr Llundain. Mewn canlyniad i hyn, pa fodd bynag, cafodd trigolion Cymreig Morganwg, ymwared oddiwrth lawer o ormes yn eu gwasanaeth gwarogol. Yn fuan wedi hyn, dechreuodd ymosodiadau y Spenser ieuaf, er helaethu ei feddianau yn Morganwg, yr hyn a daflodd yr holl wlad i ddyryswch mawr. Yr oedd gan William de Breos, arglwydd Gwyr, ddwy ferch; priododd yr henaf, sef Alisa, John de Mowbray; a'r ieuengaf, James de Bohun, o Medhurst: William, gan hyny, trwy weithred benodol, a roddodd i John de Mowbray a'i wraig, a'u hetifeddion, anrhydedd a thiroedd Gwyr; ac i Humphrey de Bohun, Iarll Henffordd, efe a roddodd y gweddill o'i etifeddiaethau. Trwy awdurdod y rhodd hon, cymerodd Mowbray feddiant o'r tiroedd heb drwydded oddiwrth y brenhin, yn awdurdod yr hwn eu delid ganddo, a chymerodd Spencer esgus oddiwrth hyn i'w gospi, a chael dedryd o fforffediad yn ei erbyn; ond haerai Mowbray, a Iarll Henffordd, eu bod wedi gweithredu yn unol a deddfau ac arferion y Cyffiniau, a honasant eu hawl; a chan fod hwn yn bwnc o hawl yr holl diroedd cyffiniol, ffromodd yr holl arglwyddi eraill wrth ormes Spencer. Wrth weled nad oedd modd penderfynu y ddadl ond trwy allu, anfonasant, dan arfogaeth agored, at y Brenhin Iorwerth, fod iddo gael ei ddeol o'r wlad, ei garcharu, neu ei ddwyn i brawf; a thrwy ganfod nad oedd y cynnygiad hwn yn tycio, gwnaethant ddifrod mawr ar diroedd Spencer yn Morganwg, a rhanau gorllewinol Cymru, gan ladd a charcharu ei weision, a dinystrio a llosgi ei gestyll; aeth yr ymosodwyr wedi hyny i gyngrair a'r Iarll Lancaster, ac felly yn ddigon nerthol i ddirwasgu y penderfyniad i gwblhad, ond aeth y cyfan yn ofer, ar orchfygiad a marwolaeth Lancaster. Y Frenhines Eleanor, a'r Tywysog ieuangc Iorwerth, wedi ymosod ar Fryste, a chrogi ei llywodraethwr, y Spencer henaf, o flaen castell y ddinas, yn ngolwg ei fab, a'r brenhin, y rhai a ddiangasent mewn llong fechan, gyda'r bwriad o encilio i'r ynys fechan Lundy, yn nghulfor Bryste; ond wedi ymryson a'r gwyntoedd yn y braich hwnw o'r mor, am un diwrnod ar ddeg, bu raid iddynt lanio o'r diwedd ar derfynau Morganwg, a chymeryd nodded yn nghastell Caerffili. Oddiyno anfonodd y brenhin amryw genhadaethau at ei ddeiliaid milwrol yn sir Benfro, a pharthau eraill o'r Deheubarth, a chaeth-ddeiliaid arglwyddiaeth Morganwg, gan orchymyn iddynt godi arfau o'i blaid; ond wedi cael ei siomi yn ei ddisgwyliad am gymorth milwrol, bu raid iddo lechu yn abatty Nedd, a gadael Spencer yn nghastell Caerffili, lle y gwarchaewyd arno yn fuan gan fyddinoedd y Frenhines, fel y bu raid ei roddi i fynu iddynt; ond ffodd Spencer, ac ymunodd a'r brenhin, gyd a'r hwn ei cymerwyd yn garcharor yn Llantrisant, yn y swydd hon, ac efe a gludwyd i Henffordd, lle y profwyd, y collfarnwyd, ac a dienyddiwyd ef, gan blaid y frenhines, ac aeth ei etifeddiaethau, mewn canlyniad i'r goron. Pa fodd bynag, derbyniwyd Huw, ei fab henaf i ffafr gan Iorwerth III., ac adferwyd iddo y cestyll a'r tiroedd a berthynai i'w dad yn y wlad hon; ac yn yr eilfed flwyddyn ar bymtheg o'r teyrnasiad hwnw, cawn ef yn cael ei enwi "Arglwydd Morganwg." Ar ei farwolaeth, olynwyd ef gan ei frawd Iorwerth, wyr yr hwn, Thomas Le Despencer, a lwyddodd i gael dychwelyd i'r teulu y teitl o Iarll Caerloew. Y boneddwr hwn, wedi derchafiad Harri IV., i'r orsedd, a ddifeddianwyd o'i holl deitlau a'i feddianau, ac wedi cael ei roddi i farwolaeth gan y cyhoedd yn Bryste, efe a gyhoeddwyd yn fradwr, a fforffedwyd ei feddianau; oddigerth yr etifeddiaeth yn Morganwg a ganiatawyd i'w weddw, ac a ddaeth

Digitized by Google

trwy ddisgyniad i'w ferch Isabel, yr hon a briododd, y waith gyntaf, Richard Beauchamp, Iarll Warwick, mab yr hwn, sef Harri, drwy hon, ei ail wraig, a ddaeth i feddiant o etifeddiaethau y Spencers, y rhai, wedi ei farwolaeth ef a'i ferch, a drosglwyddwyd i'w chwaer Anne, oedd y pryd hyny yn wraig i Richard Neville, Iarll Salisbury, yr hwn wedi hyny a grewyd yn Iarll Warwick, ac fel y cyfryw, a'i hynododd ei hun mor fawr yn rhyfeloedd y Rhosynau. Wedi marwolaeth y boneddwr hwn yn mrwydr Barnet, yn 1471, difeddianwyd ei weddw o'i hetifeddiaeth, ond fe'i cyflwynwyd i'w dwy ferch, un o ba rai oedd wedi ymbriodi â Sior, Dug Clarence, a'r llall â Richard, Dug Caerloew; i'r olaf y daeth y meddianau Cymreig. Wedi marwolaeth merched Iarll Warwick, darfu i Harri VI. yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, adferu i'r bendefiges, trwy weithred Seneddol, yr etifeddiaethau a berthynent i'w gwr. Hyd yma y dygir hanes ddyddorol y wlad hon yn ei chynhyrfiadau; weithiau dan dywell nos, a phryd arall dan lewyrch haul. Y mae yn nodedig i'r lluaws dieithriaid hyn fynwesu teimlad caredig at drigolion y wlad, dan bob cyfnod, gyd ag ychydig o eithriadau. Bu yma gryn gyffro yn amser y Werin-lywodraeth, a phrydiau eraill, a chan fod y cofnodau hyny mor adnabyddus, ni chyd-weddai ag amcan y gwaith hwn fanylu yn mhellach.

Y mae arwynebedd y wlad hon yn amrywiaethol iawn, gan fryniau a dyffrynoedd, oddigerth tua chymydogaeth Caerdydd, lle y ceir gwastadedd ffrwythlon, o ehangder mawr. Y mae y rhanau gogleddol yn arddangos mynyddau diffrwyth, ond y maent, gan mwyaf, yn ymestyn yn gadwyni o ogledd i ddehau, yn cael eu gwahanu gan ddyffrynoedd isel, prydferth, yn amrywiol, a rhamantus eu golwg; trwy ba rai y rhed yr afonydd yn eu llwybrau troellog am gulfor Bryste. Y crib uwchaf ydyw Mynydd-Llangeinwyr; Pencraig-llyn-fawr, yn mhlwyf Glyn Corwg; y Mynydd a gyfyd uwchlaw Ysdrad-dyfodog, yn ogleddol o Ben-y-Bont; a Mynydd y Gwair, o fewn tua deuddeng milltir i Abertawe. Y mae y bryniau uchel hyn, yn cael eu gwahanu yn naturiol oddiwrth y parthau eraill o'r wlad, gan esgeiriau sydd yn rhedeg o ddwyrain i orllewin, trwy eu canol, o Riwperra, ar finion Mynwy, gyda Llantwit-Garth, Llantrisant, Mynydd y Gaer, Mynydd Brombill, y Gnol, &c. Oddiwrth droed y mynyddau hyn hyd lannau y mor, yr ymestyna tiroedd cyfoethog a chynnyrchfawr. Y mae cribau a llechweddau y clogwyni hyn, o agweddau amrywiaethol iawn, mewn gelltydd serth, a bryniau cilgantol. Y mae pob ochr i fau Abertawe yn ffrwythlon iawn. Bro Miscyn, a dyffryn Elai, cymydogaeth Hensol, hyd borthfa Penarth, sydd mor rhagorol, fel nad yw yn rhyfedd i'r parthau hyn gael eu galw yn "Ardd Morganwg." Y mae amryw o'r Creigiau Calchaidd gyda glan y mor, yn codi yn sydyn i gan troedfedd o uchder. Nid yw y Llynau yma yn fawrion iawn. Y mae Llyn Cenffig yn un o'r rhai mwyaf: y mae Llynfawr, o dan fynydd Pen-craig, gyd âg amryw llai o faintioli, rhwng y bryniau, yn rhoddi prydferthwch i'r golygfeydd ar y llechweddi. Y mae y coedwigoedd sydd yma yn addurno y wlad i raddau mawr, yn enwedig ar lanau y Taf, y ddwy Rhondda, a'r Cynon. Y mae y bryniau coediog yn Morganwg, ag y cyfeirir atynt gan Spencer, yn llethrwylltedd Aberdar, ac Ystrad-dyfodog, eto yn aros yn eu tegwch tarawiadol, yn nghyd a'r gwigoedd uwchaf, ar fryniau Margam; Baglan, Britton Ferry, a dyffryn Nedd.

Y mae hinsawdd Dyffryn Morganwg, a phenrhyn Gwyr, yn hynod o dyner ac iachusol, ac y mae hirhoedledd yn beth cyffredin yn mhlith y preswylwyr; eto y mae mor gyfnewidiol yno, fel y gwyddir fod yr amrywiaeth yn fynych, yn ugain gradd mewn pedair awr ar hugain. Y mae yr awyr yma yn fynych yn dra lleithog, drwy fod y tawch yn codi oddiar y mor am dros haner y flwyddyn, a chymeryd y dyddiau ar gyfartaledd at eu gilydd. Y mae hyn weithiau yn achos o gryn bryder i'r amaethydd, yn amser y cynhauaf gwair, a'r yd. Er fod yr awel mor dyner yma, fel y tyfa y myrtwydd, a phlanhigion egwein eraill, heb yr un gorchudd, eto ceir rhai ystormydd geirwon yn ysgythru drwy yr holl derfynau, y rhai a ddilynir â gwlawogydd trymion. Y mae y cynhauaf ychydig yn ddiweddarach yn Gwyr, nag yn y Dyffryn, o herwydd y lleithedd oddiar y mor. Gyda y traeth, o Benarth i Lanilltyd, y mae y pridd yn tueddu at y cleiog; a chyfrifir fod y tir mwyaf rhinweddol, ar gyfer pob tymor, a geir yma, ar derfynau Aberafon, St. Bride, Caerau, Caerdydd, St. Ffagan, Llandaf, Llansannor, Margam, Michaelston, Peterston, Roath, Radyr, ag Eglwys Wen, yn nyffryn Nedd. Y mae cnydau o bob math yn cael eu codi yma mewn cyflawnder. Er fod yma dir ŷd yn mhob parth o'r bron, eto, o blegid fod y prif orchwylion mewn mwnyddiaeth, yn y gwaith glo, a haiarn, nid yw y cynyrch gymaint ag y gallasai fod, dan amgylchiadau gwahanol. Y mae y tir porfa yn llawn gan eanged a'r tir llafur. Y mae amaethyddiaeth y wlad mewn cyflwr uchel, ac y mae pob adnoddion gofynol at gyfoethogi y pridd, o fewn cyrhaedd, fel y mae yr enllyn yn y cyflwr goreu. Y mae yr anifeiliaid o'r rhywogaeth oreu yn mhob rhan o'r wlad, pa un bynag a olygwn a'i y gwartheg, y defaid, neu y meirch, &c. Yn y dyffrynoedd, lle y mae yr hinsawdd yn dyner, y mae pob math o lysiau yn cael eu codi yn doreithiog, ac y mae Cymdeithas Amaethyddol y wlad, wedi bod yn anogaethol a chefnogol iawn i bob gwelliant yn ngwahanol ganghenau yr alwedigaeth.

Y mae adnoddau mwnyddol Morganwg yn ddihysbydd, ac yn enwedig yn y defnyddiau gwerthfawrocaf i'r byd, sef glo, a haiarn. Y mae y plwm, a'r main, yn rhagorol, ag y mae haenau daearegol y wlad yn hynod iawn. Y mae yn cynwys celwrn mwnyddol eangaf Deheudir Cymru, yn ei holl barthau gogleddol, mewn llinell, o gymydogaeth Risca, ar afon Rymni, gyda'r Castell Coch, Llantrisant, a Newton Dawn, hyd lan y mor, dan Margam; a chan groesi beisfor Abertawe, hyd y Mumbles; y mae yn ymestyn hyd Gwyr, a Chaerfyrddin. Y mae ei gyfoeth dyfnaf tua chymydogaeth Nedd. Y mae gwely y glo sydd yn gorwedd nesaf i'r wyneb yma, yn ei fan dyfnaf, tua-thriugain gwrhyd o tano, ac yn codi yn mhob cyfeiriad, gan ymestyn yn ei led o ogledd i ddeau, tua milltir, ac yn llawer o filltiroedd yn ei hyd, o ddwyrain i orllewin. Y mae deuddeg o'r gwelyau glo, o dair i naw troedfedd o drwch, ac un ar ddeg, o ddeunaw modfedd, i dair troedfedd, yn gwneud yn nghyd, bymtheg a phedwar ugain troedfedd o'r glo goreu, goruwch a thros ben y mân ffurfiadau dirif. Y mae haenau y gareg haiarn yn helaeth, yn gystal a'r pelleni pwysig. Y mae y mwn haiarn goreu, a helaethaf, yn ochr ogleddol y wlad, o gymydogaeth Merthyr Tydfil, yn orllewinol, i fynu hyd at ranau

Digitized by Google

uchaf Dyffryn Tawe, lle y mae y cynyrch tua deg ar hugain y cant o haiarn pur. Y mae y cerig calch mewn cyflawnder yn y Dyffryn, a thros Gwyr. Y mae yn rhai o uchel diroedd y cerig hyn, blygion o'r tywodfaen gwyn, megis y gwelir ar St. Mary's Hill, yn agos i Pont-y-fon; Cefn y bryn, yn Gwyr; Cefn y Fai, gerllaw Pen y bont; ac yn mharthau gogleddol Newton Down. Y mae mwn plwm wedi ei ganfod yn Barry, Sully, Llantryddid, Coychurch, Merthyr mawr, Newton, Coed Elai, Maen Llwyd, ac o fewn tair milltir i Gaerffili. Nid yw y gwaith yn All Slade, Bishopston yn Gwyr, Tewgoed yn Llangan, na Park mine, Llantrisant, yn cael eu dwyn yn mlaen yn awr. Y mae Calamine mewn cyflawnder yn y Maen Llwyd; Manganese yn Gwyr, Newton, Twynau Gwynion, a manau eraill. Y mae y cerig calch a elwir "Aberdaw," oddiwrth enw pentref yma, yn helaeth iawn, mewn amryw barthau o'r wlad, lle y mae y cloddfeydd yn rhoddi gorchwylion i nifer mawr o ddwylaw. Y mae yn Gwyr; yn agos i Merthyr Tydfil; ac yn Bwa Maen, gerllaw Pont Nedd Fechan, gerig marmor amryliw, y rhai a lifir, ac a gabolir, i brydferthwch mawr. Y mae haenen deneu o'r gallestr, yn mhlwyf Llansannor. Y mae meini llifo, a hogi, yn Llangynwyd, Coed-dy, Pyle, Caer Bal, Llandaf, St. Hilary, &c.; a cheir meini melinau yn Merthyr, Twynau Gwynion, Rhossilly, Pen y Fai, Caerffili, Cefn y Bryn, Newton Down, ac ychydig o leoedd eraill. Y mae clai tân, mewn gwelyau o wahanol drwch; a defnydd priddfeini, mewn cyflawnder yn y wlad.

Y mae gweithfaoedd a thrafnidiaeth y wlad, fel y gellid dysgwyl, yn eang, o blegid cyflawnder ei thrysorau mwnyddol, a'i chyfleusderau cludiad, a theithio, ar dir a môr. Ei phrif weithfeydd sydd mewn haiarn, y rhai a ddygir yn mlaen tua Merthyr, Dowlais, &c., lle y mae ffwrneisiau toddi y mŵn; ac hefyd yn Pentyrch, yn nyffryn y Taf; yn Glandwr, gerllaw Abertawe, Nedd, Dyffryn-llynfi, Pen y bont, Cwm-bychan, Pont-rhyd-y-fen, &c. Gellid gwneud crynhoad o adnoddau y wlad fel y canlyn: —Nifer y gweithiau glo, yn 1860 ydoedd 181; a'r allforiad o'r glo, gyda rhyw gymaint, o siroedd Caerfyrddin, Penfro, a Brycheiniog, ond yn benaf o'r wlad hon, yn 1859, ydoedd 10,000,350, o dunellau. Y mae y cerig haiarn, gan mwyaf yn Nyffryn Nedd, ac mewn cyflawnder yn nherfynau Aberdar, a Merthyr Tydfil. Y mae y plwm yn Llantrisant, Pont-y-fon, a lleoedd eraill; Calamine yn y Maen Llwyd; Manganese yn ochr ogleddol Gwyr, a Newton; ac y mae nifer o wythienau efydd, a mwnau eraill, o fewn y terfynau. Y mae y pridd o natur dywodol, wedi ei gyfoethogi a'r calchaidd; ac ar y bryniau, ceir y mawnol, a'r graianol. Y mae yma tua 100,000 o erwau, o arwynebedd diffrwyth. Y mae Dyffryn Morganwg yn cynnyrchu, ar gyfartaledd, 25 o fwsieli, yr erw, o wenith; o 30, i 35 o haidd; 35 o geirch; a chwe tunell o gloron. Tyfir yma ffâ, pŷs, clofer, &c., yn helaeth. Y mae yr amaethfaau yn gyffredin dan brydlesoedd. Y mae yr anneddau yn drefnus a phrydferth. Y mae y gwaith mwnyddol, yn nghelwrn y glo, yn rhoddi gwaith i 30,000 neu 32,000 o ddwylaw. Y mae mwn efydd, ac alcan, yn cael ei ddwyn o Gernyw i Abertawe, Nedd, Trefforest, Aberafon, a lleoedd eraill, i'w toddi; y mae pridd-lestri geirwon yn cael eu gwneud yn Abertawe, Nantgarw, ac Ewenni; ac y mae marmor, yn cael ei dorri, a'i loewi yn Merthyr Tydfil; ac y mae melinau coed yn Merthyr, Caerffili, a manau eraill, sydd yn rhoddi gorchwylion i bedwar cant o ddynion. Y mae rheilffordd y Deheudir, yn rhedeg gyda holl lannau y môr, gyda'r hon y mae canghenau cysylltedig o'r holl ddyffrynoedd. Y mae camlesoedd Caerdydd, Aberdar, Abertawe, a Penclawdd, yn dyfod i gysylltiad hyrwyddol a'r cyfan. Y mae yma tua 1300 o filltiroedd o ffyrdd da. Dywedir fod y gwelliannau a'r cynnydd yn cyrhaedd i bob rhan o'r wlad.

Y prif afonydd yn Morganwg ydynt y Taf, Tawe, Nedd, Llychwyr, a'r Rhymni. Y mae ceulanau y rhai hyn, yn gystal a'r ffrydiau llai, sydd yn rhedeg rhwng y bryniau iddynt, yn arddangos golygfeydd prydferth, amrywiaethol, a tharawiadol iawn. Y mae y Taf yn dyfod i'w rhwysg yn ochr ogleddol y wlad, gerllaw Coed-y-cymer, lle yr una Taf-fawr a Taf-fechan, sydd yn disgyn o lethrau Bannau Brycheiniog. Y mae yr Elai hefyd yn llifeiriant nerthol, yn disgyn o ochr ogleddol Llantrisant; y Daw, neu y Dawon, sydd yn rhedeg drwy Bont-y-fon; yr Ewenni o ochr ogleddol Llanilid, trwy wastadedd dyffryn Coychurch, i enau yr Ogwyr, yn agos i adfeiliau Castell Ogwyr; yr Ogwyr sydd yn rhedeg drwy dref Pen-y-bont, ac wedi teithio tua phymtheg milltir, wedi cael cwmni yr Ewenwy, yn ymarllwys i gulfor Bryste; a'r Afan, neu yr Afon, sydd yn gweini i drafnidiaeth y Tai-bach. Yr unig afon o sylw yn Gwyr, heblaw y Burry, ydyw y Penarth-pil, sydd yn ymarllwys i feisfor Oxwich.

Y mae y gweddillion henafiaethol yn lluosog, ac o gymeriad amrywiaethol, a dyddorol iawn. Y mae Cromlechau ac allorau Derwyddol i'w canfod, o'r braidd yn mhob cymydogaeth. Ar fynydd, tua therfyn gogledd orllewinol y wlad, y mae cylch o feini geirwon, yn nghanol pa rai y mae cistfaen, tua phum troedfedd o hyd; a elwir Carn-llechart. Tua dwy filltir yn ddwyreiniol oddi yno, ar Fynydd y Gwyryd, y mae un arall, o'r un cymeriad, yn cynwys tri o gylchau cyffelyb, lle y mae cistfaen, a elwir yn gyffredin, "yr Allor." Ar Fynydd y Drumau, yn agos i Nedd, y mae cistfaen; a Maen Hir, wedi ei osod yn unionsyth, ac yn weledig o gryn bellder. Yn agos i lys y Dyffryn, gerllaw pentref St. Nicholas, rhwng Caerdydd a Phont-y-fon, y mae un o'r cromlechau mwyaf yn y deyrnas; tua dwy droedfedd ar bymtheg o hyd, a thair ar ddeg o led, a elwir Llech-y-filiast, enw a geir ar amryw o adeiladau cyffelyb. Y mae un yn agos i St. Donatts, a elwir "Yr Hen Eglwys." Y mae yn Rhosilly Down, yn agos i bentref Tythegston, un a elwir Maen Arthur; ac y mae ar Gefn-y-Bryn, mynydd yn Gwyr, un a gynhelir gan chwech o bilerau, o drwch mawr, ac felly o bwysau dirfawr; er maint y darnau a dorwyd ymaith o honi, o bryd i bryd, erys eto dros ugain tunell. Y mae ar fryn, uwchlaw y Ty Newydd, yn ogleddol o Ben y bont, y wersyllfa Brydeinig henaf yn y Deheubarth. Y mae olion y ffyrdd Rhufeinig yn aros eto, ac yn lled hawdd i'w dilyn drwy y wlad. Y mae yn Pen-Tref-Castell, olion hen wersyllfa, o feini a phridd, o agweddiad hirgron. Y mae un o'r gwersyllfaoedd Rhufeinig mwyaf cadarn, yn agos i bentref y Caerau, yr hon sydd yn ymestyn dros holl grib y bryn, tua ddeuddeg erw o fesuriad. Y mae un arall, a elwir Cae'r Gaer, yn agos i bentref St. Nicholas; ag un arall o fewn tua dwy filltir o Bont y Fon, yn agos i'r Filltir Aur; ac un arall, o fewn tua dwy filltir i Bonvilston, a elwir *Castle Ditches*. Y mae y Maen-chwyf gerllaw

Digitized by Google

Pontypridd, yn un o wrthddrychau hynotaf y dosparth hwn o fewn y wlad: y mae o bwysau enfawr, ac eto yn hawdd i'w siglo, mewn perffaith ddiogelwch ar ei begynau. Y mae y wlad hon wedi bod yn enwog am ei chofnodau henafol a llenyddol Cymreig; ac y mae enwau Iolo Morganwg, a Taliesin ab Iolo, yn cael eu bytholi yn eu llafur, a'u hysgrifau.

Y mae yr adeiladau henafol sydd ar hyd a lled y wlad hon, yn tynu sylw y cyhoedd i raddau mawr. Y mae Priordy Benedictine, a monachlog arall yn Nghaerdydd; ac olion monachlog yn Llancarfan, yn Llanilltyd Fawr, a Llangenith, y rhai a ddinystriwyd er yn mhell cyn y Diwygiad. Yr oedd abad-dy *Cistercian*, yn Margam y pryd hwnw; ac un arall yn Nedd; a *Benedictine-cell* yn Ewenwy. Y mae rhai o gynlluniau goreu o adeiladau eglwysig boreuol, i'w gweled yn mhrif-eglwys adfeiliedig Llandaf, ac yn eglwysi Ewenwy, Llanbleiddian, a Llanilltyd. Y mae hen eglwys Aberdar, yn arddangos llawer o ragoriaethau y cynlluniau cynnarol. Y mae olion yr hen werthyroedd yn lluosog iawn yma, megis y gwelir yn nghastell Caerffili, Castell Coch; Castelli Caerdydd, Coed-ty, Dinas Powys; Kenffig, Llanbleiddiau, Llandaw, Llantrisant, Llwchwr, Marcros, Morlais, Nedd, Newcastle, Oystermouth, Oxwich, Penllyn, Penmarc, Penarth, Penrice, St. Donatts, Abertawe, Tal y fan, Weobley, Wrinchstone, &c. Y mae yr hen balasdai yn lluosog, ond y mae llawer o honynt wedi eu gadael, ac eraill wedi eu troi yn amaethdai. Yn mhlith y rhai sydd yn aros yn eu henwogrwydd, gellid cyfeirio at Aberpergwm, eiddo y teulu Williams, lle y ceir ar byst y fynedfa, yr hen arwyddair Cymreig. "A ddioddefwys a orchfygwys;" Cefn Mabli, eiddo y teulu Tynte; Dyffryn, yr Anrhydeddus Booth Grey; Dyffryn Clydach; Castell Fonmon; Gnol, Hensol, Castell Llandaf, &c. Y prif balasau diweddar, a'u teuluoedd, yw y rhai canlynol, sef, Britton Ferry, Iarll Jersey; Coedringlan, Treherne; Cowityrala, Rous; Coedtre-hen, Traherne; Cyfarthfa Castle, Crawshay; Dunraven Castle, Iarll' Dunraven; Ewenny Abbey, Turberville; Green Meadow, Wyndham Lewis; Llanharan, Hoare Jenkins; Margam Park, Talbot; Penlle'r Gaer, Dilwyn; Penrice, Mansel Talbot; Rheola, Edwards Vaughan; Singleton, Vivian; Sketty Park, Morris; Stoat Hall, Lucas; Wenvoe Castle, Jenner, &c., y rhai ydynt oll yn addurno y cymydogaethau lle y safant.

Y mae y wlad yn cael ei dosbarthu i 125 o blwyfi, rhanau o dri eraill, a phedwar o leoedd plwyfol yn ychwanegol; ac y mae yn cael ei rhanu i gantrefi, Abertawe neu Gwyr, Llangyfelach, Nedd, Miscyn, Caerffili, Cibwr, Dinas Powys, Pont y fon, Ogwyr, a Chastell Newydd. Y mae y sir gofrestrol yn rhoddi ymaith Lychwr i Gaerfyrddin, ac isbentrefi, Llanfedw a Rhydgwern i Fynwy; yn cymeryd i fewn blwyfi y Faenor, Penderyn, Ystradfellty, ac Ystradgynlais, o Brycheiniog; a phlwyfi St. Melons, a Rymni, o Fynwy; yn mesur 606,708 o erwau; ac yn cael ei rhannu i ddosparthau Abertawe, Nedd, Pen-y-bont, Caerdydd, a Merthyr Tydfil. Y bwrdeisdrefi yn y swydd, ydynt Abertawe, Nedd, Llychwr, Cenffig, Caerdydd, Pont y fon, Llantrisant, Merthyr Tydfil, ac Aberafon; a'r rhai hyn ydynt yr unig drefi yn cynwys dros 2000 o drigolion; ond lle pwysig arall ydyw dinas Llandaf; ac y mae dros 200 o fan drefydd, pentrefydd, ac is-bentrefi. Gwerth ardrethol, yn 1815, 334,192*p.*; yn 1843, 617,397*p.*; yn 1851, 850,440*p.*; yn 1860, 1,302,877*p.*, o'r hyn yr oedd 7328*p.* mewn cloddfeydd; 185,680*p.* mewn mwnau; 163,560*p.* mewn gwaith haiarn; 40*p.* mewn pysgodfeydd; 25,604*p.* mewn camlesydd; 106,368*p.* mewn rheilffyrdd; a 5706*p.* mewn goleunwy. Y mae y wlad yn cael ei llywodraethu gan bedwar o arglwyddfarchogion, a thua phedwar-ugain o ynadon. Y mae yn nghylchdaith Deheudir Cymru; ac yn y dosparth milwrol Cartrefol; ac y mae yn ffurfio rhan o esgobaethau Llandaf, a Thy-Ddewi. Y mae Llys cyfreithiol y Gwanwyn, yn cael ei gynal yn Abertawe, ac y mae carchar y sir yn Nghaerdydd. Yr oedd nifer yr Hedd-geidwaid yn 1862, yn bedwar a deugain o wyr, gyda'r draul o 3081*p.* i Abertawe; chwech a deugain, gyda'r draul 3442*p.* i Gaerdydd; pedwar, gyda'r draul o 298*p.*, i Nedd; a chant a phedwar ar bymtheg ar hugain, gyda'r draul o 9246*p.* i'r gweddill o'r sir. Nifer y troseddau a gyflawnwyd y flwyddyn hono ydoedd, 60 yn Abertawe, 113 yn Nghaerdydd, 28 yn Nedd, 452 yn y gweddill o'r wlad; y personau a ddaliwyd oeddynt, 60 yn Abertawe, 133 yn Nghaerdydd, 28 yn Nedd, a 296 yn y gweddill o'r wlad; yr oedd y rhai a ddrwg-dybid fel troseddwyr ar y cyfan, yn Abertawe 687 yn Caerdydd 1048; yn Nedd 105; a 3515 yn y gweddill o'r wlad; yr oedd y tai o gymeriad drwg yn Abertawe, yn 236; 257 yn Nghaerdydd; 22 yn Nedd; a 452 yn y gweddill o'r wlad. Anfonir pedwar Aelod i'r senedd gan y bwrdeisdrefi, a dau gan y gweddill o'r sir. Lle yr etholiad, dros y swydd, yw Pen-y-bont; ac y mae pump o etholfanau; yr oedd nifer yr etholwyr yn 1868, yn 6759. Poblogaeth yn 1801, 70,897; yn 1821, 102,073; yn 1841, 171,188; yn 1861, 317,752. Tai annedd, 59,254; tai heb eu cyfaneddu, 3727; yn cael eu hadeiladu, 735. Y mae y swydd yn rhoddi y teitl Iarll i Dug Beaufort.

Y mae llawer o sylwadau a ellir eu gwneud ar hanesiaeth bwysig y wlad hon yn y cyfnodau boreuol. Anfynych y ceir sylwadau anmhleidiol gan haneswyr ar ymddygiadau y brodorion, ac Arglwyddi y Cyffiniau, y rhai a deyrnasent, fel mân dywysogion dan aden coron Lloegr yn y dyddiau gynt. Nid yw terfynau eu hawdurdod yn cael eu gosod ger bron yn ddigon eglur a boddhaol. Ymddengys fod Warrington yn cynyg at fod mor ddiragfarn a neb o honynt, er mai tra diffygiol ydoedd yntau. Y mae yn wir fod llawer i'w feio yn hanes y rhai a orchfygwyd, ond nid yw yn ddim, os edrychir ar ymddygiadau trahaus a gormesol y gorchfygwyr, yn wyneb yr amgylchiadau. Y mae Warner, ac eraill, wedi dilyn sylwadau Daines Barrington, a'u cymeryd yn ganiataol, heb eu chwilio. Dywed ef nad oedd y Cymry yn alluog i adeiladu un math o amddiffynfa, mewn amser o ymosodiad gan ddieithriaid, amgen na muriau tywyrch, hyd wedi dyfodiad Iorwerth y cyntaf yma; tra y mae yr hanesion cywiraf, a sylwadau yr henafiaethwyr teeaf, yn gwrthbrofi yr haeriad disail. Os oedd anwybodaeth y genedl mor fawr, a'i medrusrwydd mor fychan, pa fodd yr adeiladwyd castell cyntaf Caerffili; ac y cynlluniwyd hen eglwysi ardderchog Llandaf, a Ty-Ddewi? Os o Loegr, neu y Cyfandir y cafwyd y crefftwyr, gan bwy yr oedd yr awdurdod i alw am danynt? Anhawdd genym gredu, nad oedd athrylith William Edwards, Pont-y-pridd, ar gael y pryd hwnw, yn mysg y genedl. "Yn mhob gwlad, megir y glew," ac nid yw Morganwg wedi bod erioed ar ol, yn ngweithrediadau celfyddol, anturiaethau trafnidiol, na rhagor-

Digitized by Google

iaethau llenyddol y byd, os edrychwn ar bob tu i'r ddalen. Os sylwir ar enwau y gwyr a enillasant iddynt eu hunain radd dda, yn mhob dosparth a rhagoriaethau cymdeithasol, cawn fod y genedl Gymreig, yn ol graddau ei manteision, yn ymgysdadlu a'r goreuon. Wedi marwolaeth Rhys ab Tewdwr, gwelodd y Cymry y priodoldeb o wneud y goreu o'r gwaethaf. Bu dymor maith o ormes mewn canlyniad. Gwelodd brenhinoedd Lloegr lawer sarhad anoddefol ar ddwylaw yr arglwyddi cyffinol, a bu raid atal eu rhwysg lawer gwaith. Yr oedd rhai o honynt yn dra ffroen uchel, ond eraill yn wŷr, a chryn ddynoliaeth ynddynt. Yr oedd bradwriaeth a gormes rhai o'r penaethiaid Cymreig, yn cymodi graddau mawr ar deimlad y brodorion tu ag at y dyeithriaid. Ni feddent hyder yn eu brodyr, oedd o gymeriad Iestyn, ac Einion, a fradychent eraill, ac a fradychent eu gilydd. Yr oedd Iorwerth I., yn ystyried rhwysg rhai o'r arglwyddi, yn galw am ryw ataliad arnynt. Bwriadodd ddiddymu eu hawliau, a thrwy *quo warranto*, osod terfynau i'w deiliadaeth, a'u meddiant o'u hetifeddiaethau; ac yn enwedig, pan y tynodd Iarll Warren ei gledd allan, fel arwydd o'i benderfyniad; ac y dywedodd, "trwy yr un hawl ac yr enillodd fy henafiaid eu meddianau, yr wyf finau yn bwriadu dal yr eiddof fi," a dilynodd y lleill oll, yr un modd. Daeth amryw o honynt yn serchus iawn o'r Cymry, ac yn bleidwyr gwresog i'w hiaith, a'u harferion, ac amryw trwy briodasau, i berthynas agos â hwy, a'u hiliogaeth i gyfrif eu hunain fel rhan o'r genedl.

**MORGENAU**, esgob Ty Ddewi, yr hwn, yn ol Giraldus, oedd y cyntaf yn Nhy Ddewi a fwytaodd gig. Lladdwyd ef, yn 996, gan y Daniaid.

**MORGYNNYDD**, esgob Ty Ddewi, yr hwn, yn ol Giraldus, a olynodd Argustel yn yr esgobaeth, ac a olynwyd gan Erfin, a fu farw yn 1023.

**MORIED**, ydoedd benaeth, yr hwn a ymladdodd yn mrwydr Cattraeth, ac y crybwyllir am dano gan Aneurin, yn y Gododin.

**MORIEN FARFAWG**, a gofnodir yn y Trioedd, fel un o dri "estron deyrn Ynys Prydain." Y ddau eraill oeddynt, Gwrddylad Gawr, a Chystennyn Fendigaïd. Y mae penaeth o'r enw hwn yn cael cyfeirio ato amryw weithiau gan Aneurin, yn y Gododin; ac y mae yn debygol mai yr un ydyw.

**MORLAIS** (Castell), a saif yn mhlwyf Merthyr Tydfil, tua thair milldir i'r gogledd o'r dref, a thua haner milldir o ffordd Aberhonddu. Nid yw yn awr ond pentwr o adfeilion, a'i hanes wedi ei golli. Dywed traddodiad mai Ifor Bach, neu Ifor ab Cadifor, a'i hadeiladodd, yn nechreu y 12fed ganrif; bu ymryson cyfreithiol nodedig ynddo, rhwng y Goron ag Arglwyddi y Cyffiniau, yn amser Edward I.; bu yn breswylfod tywysogion Brycheiniog am rai oesoedd; a dinystriwyd ef gan fyddin y Senedd, yn yr ail ganrif ar bymtheg.

**MORRIS**, William, Tyddewi, gynt o Gilgeran, gweinidog tra phoblogaidd gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, a anwyd yn Nghil geran, pentref ar lan yr afon Teifi, yn ngoror uchaf sir Benfro. Yno yr ymunodd ag eglwys Dduw, ac yno y dechreuodd bregethu; ac fel "William Morris Cilgeran" yr adwaenid ef oreu trwy y Dywysogaeth, hyd derfyn ei oes. Cafodd y fraint fawr o'i fagu a'i feithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, ar yr aelwyd gartrefol, yn gymaint a bod ei rieni yn ofni yr Arglwydd yn fwy na llawer; yn wir, bu ei dâd, Mr. Thomas Morris, yn bregethwr cymeradwy yn y Cyfundeb, er nad mor boblogaidd a'i fab, flyneddoedd lawer. Wedi iddo ddechreu pregethu, efe a ddaeth yn boblogaidd iawn yn fuan; ac yr oedd gwir elfenau poblogrwydd ynddo, fel y parhaodd ei boblogrwydd i fyned ar gynnydd parhaus, am fwy na haner can mlynedd. Bu fyw yn Nghil-geran gyd a'i dad dros amryw flyneddoedd, gan gyd-weithio yn yr un alwedigaeth, a chynnorthwyo i fagu y plant ieuangach. Wedi iddo briodi, efe a ymroddodd yn fwy llwyr i waith y weinidogaeth; ac yn mhen ychydig flyneddoedd, nid oedd nemawr ardal yn y Dywysogaeth nad oedd wedi bod ynddi yn pregethu. Bu yn cyd-lafurio â'r Parchedigion David Griffiths, a Thomas Richards, trwy ei oes; ac nid yn aml y cafodd y Trefnyddion Calfinaidd yn yr un sir, y fath dri chedyrn a hwy, am gynifer o flyneddoedd, i gydweithio. Tu a'r flwyddyn 1836, bu farw priod ieuenctyd Mr. Morris, yr hyn a fu yn brofedigaeth lem iawn iddo ef, ac a adawodd argraff ddwys ar ei ysbryd; ond, yn mhen ychydig amser, ail ymaflodd yn ei waith, ac ymroddodd yn fwy llwyr nag erïoed i wasanaeth ei Arglwydd: cyssegrodd ei hunan bellach, gorph ac enaid, i achos yr efengyl; ac nid arbedai y naill na'r llall yn y gwaith pwysig; ac yr oedd rhagoroldeb ei bregethau, yn dangos yn eglur ei fod yn "ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth." Yr oedd ei deithiau mawrion a phärhaus, yn nghyd a'i ddull gwresog o draddodi, yn brofion digonol nad arbedai ei gorph, ond y rhoddai ef yn aberth byw ar allor y weinidogaeth; o'r hyn y mae miloedd o dystion byw eto yn y Dywysogaeth. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol claddu ei wraig gyntaf, sef yn y flwyddyn 1835, efe a briododd drachefn, â Miss Bowen Trelethyn, yn agos i Dyddewi, yr hon a'i goroesodd ef; ac yn yr un flwyddyn, efe a symudodd o Gilgeran, gan wneyd ei gartref yn "hen ddinas Dewi Sant," fel yr arferai ei galw. Wedi ymsefydlu yn Nhyddewi, ni laesodd yn ei lafur gweinidogaethol; ond ymhyfrydai ei enaid yn y gwaith, gartref, ac oddi cartref.

Yn ystod haf 1854, efe a aeth i Lundain, i wasanaethu yr achos crefyddol yn mysg y Cymry; ac ar ol Sabbath o lafur caled, cafodd lewyg yn y nos, yr hyn oedd dechreuad ei afiechyd diweddaf. Bu yn Llundain am oddeutu dau fis wedi hyny, ac nid ydys yn gwybod iddo gael un llewyg arall tra fu yno. Ond wedi iddo ddychwelyd i'r wlad, byddai yn syrthio i lewygfeydd yn awr ac eilwaith; ond yn gyffredin yn y nos; ac ni byddai ef ei hun yn gwybod dim am danynt. Nid ydys yn gwybod iddo gael llewyg yn y dydd ond unwaith, pan y syrthiodd oddiar ei farch, yn agos i Nefern, sir Benfro. Meddyliai y sawl a ddaeth o hyd iddo, ei fod wedi marw; ond efe a ddadebrodd yn raddol, ac a aeth rhagddo yn ei daith bregethwrol i sir Aberteifi. Hwn oedd y tro olaf iddo fod yno; canys ymwelid ag ef gan yr anhwyldeb hwn yn amlach amlach; ni byddai mwy na thair wythnos neu fis rhwng y naill ymosodiad a'r llall; ac o'r diwedd, byddai yn cael o dair i chwech, ac weithiau saith, o lewygfeydd yn y dydd.

Yr oedd ganddo ofal mawr am blant yr eglwys bob amser, a chafodd gyfle yn ei flyneddoedd olaf i dalu mwy o sylw iddynt nag o'r blaen; am ei fod yn cael ei orfodi i fod yn fwy cartrefol, o herwydd ei anhwyldeb. Cadwai fath o gymdeithas grefyddol gyda hwy yn wythnosol; ac yr oedd yn ngolwg rhai

Digitized by Google

o honynt, megys "angel Duw," am y gwyddent mor agos at ei galon oedd achos eu heneidiau.

Bu yn analluog i bregethu nemawr, am agos i ddwy flynedd; a pharai hyny gryn bryder i'w feddwl, fel y gellid deall wrth ei waith yn gofyn i'w gyfeillion yn aml, pa esboniad oedd ganddynt hwy i'w roddi ar ei achos. "Carwn wybod," meddai, "paham na chawswn *weithio* fy niwrnod i ben, a marw yn fy ngwaith."—"Carwn gyrhaedd rhyw gymmydogaeth, lle y mae goleuni ar y fath bwnc dyrus." Dywedai weithiau, nad oedd yn ofni uffern; ond ei fod yn arswydo wrth feddwl am sancteiddrwydd y nef. Ni allasai ddywedyd un gair am y pumthengnos olaf y bu byw; ond yr oedd yn deall y cwbl a ddywedid wrtho; a phan ddywedid rhyw beth am y Gwaredwr bendigedig yn ei glyw, torai i wylo yn fynych. Boreu y dydd y bu farw, bu cyfnewidiad mawr arno er gwaeth; bu trwy y dydd heb sylwi ar ddim; a'r noswaith hono, collwyd ef o'r ddaear, a chyrhaeddodd "y wlad well." Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono, Rhagfyr 13eg, 1862, yn mynwent eglwys Gadeiriol Tyddewi, yn medd ei anwyl ferch.

**MORRISTON**, neu Treforris, sydd dref, a chapeloriaeth, yn mhlwyf Llangyfelach, swydd Forganwg. Y mae yn sefyll ar yr afon Taw, yn agos i reilffordd y Deheubarth, 2½ milltir gogledd ogledd ddwyrain o Abertawe; y mae y lle yn cymeryd ei enw oddiwrth y teulu Morris, y rhai a'i sylfaenasant. Y mae y lle hwn yn eang a chynnyddol iawn, ac y mae yn cael ei gyfaneddu, yn benaf, gan weithwyr yn ngorchwylion y llestri pridd, a'r gwaith efydd, sydd yn cael eu dwyn yn mlaen yno. Llythyrfa dan Abertawe. Cynnelir ffair yma ar y 29ain o Fawrth. Nid oes unrhyw derfynau penodedig i'r gapeloriaeth. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 85*p.*, ac yn nawddogaeth Sir A. Morris. Y mae yr eglwys yn adeilad diweddar.

**MORTON ISAF**, sydd drefgordd yn mhlwyf Ruabon, swydd Ddinbych, ar reilffordd Amwythig a Chroesoswallt, 5 milltir gogleddol o'r Waun. Y mae y ddwy drefgordd, Uchaf, ac Isaf, gyda Morton Anglicorum, yn cynwys gwerth ardrethol, 6677*p.* Poblogaeth, 3467. Tai, 130, a 191. *Morton Hall* ydyw y prif balas yn y gymydogaeth. Y mae nifer mawr o'r trigolion yn cael eu bywioliaeth yn y gweithydd glo, a haiarn.

**MORTON UCHAF**, sydd drefgordd yn mhlwyf Ruabon, swydd Ddinbych, ar reilffordd Amwythig a Chroesoswallt, 5 milltir gogleddol o'r Waun.

**MORUS** ab Hywel ab Cadwaladr, ydoedd fardd a flodeuai rhwng o ddeutu 1490, a 1520.

**MORUS** ab Hywel ab Tydyr, ydoedd fardd a flodeuai rhwng 1520, a 1550. Y mae rhai o'i ganiadau wedi eu cadw mewn ysgrifen.

**MORUS** ab Ieuan ab Einion, neu fel y gelwid ef yn fwyaf cyffredin, Morus Dwyfach, ydoedd fardd enwog o Leyn, sir Gaernarfon, ac yn byw rhwng 1540, a 1570. Y mae rhai o'i gerddi mewn ysgrifen.

**MORUS** ab Llewelyn, a elwir hefyd Morus Mawddwy, a Morus Meudwy, ydoedd fardd yn byw rhwng 1540, a 1570. Y mae rhai o'i ganiadau eto ar gael.

**MORUS**, Caleb, ydoedd weinidog o enwogrwydd mawr yn mhlith yr Annibynwyr yn Llundain. Ganwyd ef, Awst 5, 1800, yn Paregyd, wrth droed Foel Trigarn, yn mhlwyf yr Eglwyswen, yn Sir Benfro, o rieni oedd mewn amgylchiadau cysurus yn y byd. Pan yn blentyn, amlygai duedd arbenig at ddarllen, a myfyrio. Ei brif lyfrau oeddynt "Taith y Pererin," ac "Esboniad Burkitt." Nid oedd nemawr o lyfrau eraill, o nodwedd grefyddol, yn adnabyddus y pryd hwnw yn yr ardal, ac nid oedd cyflawnder o'r rhai hyny. Gosodwyd ef yn ieuangc mewn ysgol ramadegol barchus yn Aberteifi, lle yr amlygodd dalent neillduol at ddysgu. Ar farwolaeth ei athraw teilwng, yr hwn oedd offeiriad yn yr eglwys sefydledig, symudwyd ef i ysgol gyffelyb yn Hwlffordd, gyda golwg am iddo ymbarotoi at y gyfraith. Y pryd hwn, gwnaed argraff ddwys ar ei feddwl, drwy gyfeillach grefyddol dyn duwiol a letyai yn yr un annedd ag yntau. Mewn canlyniad i hyn, efe a ymunodd a'r eglwys Annibynol yn Mhenygroes, pan yn bedair ar ddeg oed, ac yn fuan iawn, hynododd ei hun, drwy gymeryd rhan yn y cyfarfodydd cymdeithasol, a gynelid yn yr ardal, er addysg grefyddol. Bu ef yn foddion i sefydlu un o'r rhai hyn mewn amaethdy a elwir Maesgwyn, lle yr holwyddorid y bobl ar gylch, am eu gwybodaeth ysgrythyrol. Yr oedd y dalent, y duwioldeb, a'r brwdfrydedd a amlygai, mewn cysylltiad a'r cyfarfodydd hyn, yn ei nodi allan fel un cymwys i'r weinidogaeth. Er yn ieuangc, prynai yr amser i ddarllen, ac yr oedd o feddwl tra defosiynol. Yn lle bod yn ofni yr hwyr, elai i'r fynwent yn nyfnder y nos, gerllaw hen gapel Pen-y-groes, fel man manteisiol i ddal cymundeb â Duw; ac ymunodd a'r eglwys yno, pan yn wr ieuangc. Ei weinidog y pryd hwnw, oedd y Parch. William Evans, yr hwn, gyda'r cyfeillion yno a'i hanogasant i bregethu. Wedi cael ysgol barotoawl yn Aberteifi, derbyniwyd ef i'r Athrofa Bresbyteraidd yn Nghaerfyrddin, dan ofal y Parch. D. Peter, lle y treuliodd ei amser o bedair blynedd, gan gynyddu mewn dawn a chymeradwyaeth. Parhaodd drwy ei oes i deimlo parch at yr hen athrofa, a chyfranai dair punt yn flyneddol yn ei ddyddiau diweddaf, at gynal myfyrwyr Annibynol yr Ngholeg Caerfyrddin. Yn mis Ebrill, 1823, ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys Tabernacl, Arberth, lle y treuliodd bedair blynedd, ac y gwnaeth iddo ei hun lawer o gyfeillion. Yn y flwyddyn 1827, symudodd i Lundain, yn gydweinidog a'r Parch. George Burder, yn Fetter Lane; ar ol marwolaeth Mr. Burder, syrthiodd y gwaith yn drwm arno, a chyrhaeddodd safle uchel yn mysg pregethwyr y brif ddinas. "Ychydig o eglwysi," meddai y *Pulpit Observer*, am Mawrth, 1859, "a godasant gynnifer o weinidogion i lafur cartrefol, a thramor, âg eglwys *Fetter Lane*, yn ysdod ei weinidogaeth ef. Bu yn glaf iawn yn 1835, a threuliodd haner blwyddyn yn ei ardal enedigol. Dychwelodd, ond nid i'w nerth blaenorol; ac ar ol ymdrechiadau aflwyddianus, rhoddodd *Fetter Lane* i fynu. Ymgymerodd ar ol hyny a chapel newydd Eccleston; a bu wedi hyny, yn addysgu yn ei dy ei hun, yn *Mecklenburg Square*. Yna dychwelodd i'w hen gartref, a threuliodd ddeng mlynedd olaf ei oes mewn ymneillduedd yno. Bernir fod math o bruddglwyfder yn perthyn i'r teulu o ochr ei fam. Aeth er mwynhau adloniant, a chryfhau mewn iechyd, i le a elwir Cwbert, ar lan y mor, gerllaw Aberteifi, yn haf 1864; ac ymhoewodd i raddau yno am dymor, ond daeth y dyfrglwyf, a'r clwyf melyn, i'w annharu, fel y methodd ddychwelyd adref, a bu farw ddydd Mercher, Gorphenaf 26n. Enillodd iddo ei hun enw, yn mysg "gwerthfawr feibion Lefi," na's anghofir ar fyrder. Y dydd Llun canlynol, claddwyd ef yn

Digitized by Google

ymyl ei rieni, yn mynwent Pen-y-groes. Ymgynhullodd lluaws mawr i'w hebrwng i dy ei hir gartref. Gweinyddwyd ar yr achlysur yn Cwbert, gan y Parch. E. Lewis, Brynberian. Cyrhaeddodd yr orymdaith Ben y groes, tua thri o'r gloch; pan y pregethwyd gan y Parch. D. E. Davies, Aberteifi. Annerchwyd y dorf ar lan y bedd, gan y Parch. J. Davies, Glandwr. Tynodd cyfaill iddo y darlun hwn o hono;—"If the outer man always reveal the inner, in his case it is the exact copy of it. Whoever looks at him, plain person or cultivated, child or adult, is struck with him at first sight; while the student of man finds everything belonging to him recorded there. What freshness and brightness are upon him! The dew and morning light of youth! One can never think of him as old! What a rich product of nature he is corporeally! How his princely bounty is expressed in every lineament of his frame, up to the rich hair of his head. A frame, all sensibility, yet full of command; yea, of softness and of fire. The glory of his personal exterior, as of his entire mind and character, is the perfect symmetry of it. No excess, no defect, nothing wanting. The man, the whole man, and nothing but the man there!" Yr oedd Caleb Morus yn feddyliwr gwreiddiol, ac yn draddodwr hyawdl. Er treulio ei ddyddiau goreu yn Llundain, ni chollodd unwaith mo'i galon Gymreig. Nid llawer a gyhoeddwyd o'i waith. Argraphwyd pregeth angladdol o'i eiddo ar ol ei gyfaill, y Parch. Nun Morgan Harry. Cyhoeddodd gasgliad o dystiolaethau y Bibl am hawliau y tlodion, a rhai darnau yn ychwanegol. Yr oedd yn dra hoff o'r hen Emynau Cymreig, am y rhai y dywedai fod ysprydoliaeth dyhewyd ynddynt. Cyfansoddodd rai penillion ei hun; yr eiddo ef yw y canlynol:—

"Ar y byd ac ar yr eglwys
   Duw dywallto'r Yspryd Glan;
Miloedd eto ddelo' i brofi
   Pur effeithiau'r bedydd tan;
Tyr'd i lawr, yma'n awr,
Yn dy ddylanwadau mawr!"

Yr oedd yn dra hynaws yn ei gyfeillach, ac yn barod iawn i estyn ei nawdd dros bregethwyr ieuaingc. Y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig yn nheimlad pob dyn a wyr am ei gymeriad.

**MORUS**, Dafydd, ydoedd fardd, yr hwn a flodeuai rhwng 1580, a 1620. Yr oedd yn ficer Llanfynydd, yn Sir Gaerfyrddin. Erys rhai o'i ganiadau hyd heddyw mewn ysgrifen.

**MORUS**, Dafydd, pregethwr tra phoblogaidd gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a anwyd tu a'r flwyddyn 1744. Efe a ddechreuodd bregethu pan yn un mlwydd ar hugain oed; ac yn fuan efe a gyrhaeddodd enwogrwydd, a phoblogrwydd mawr trwy yr holl Dywysogaeth. Ni chafodd ddim manteision dysgeidiaeth yn ei ieuenctyd; er hyny efe a gyrhaeddodd fesur helaeth o wybodaeth dduwinyddol, ac a ddysgodd ddeall awdwyr Seis'nig yn dda; a medrai ysgrifenu yn dda hefyd.

Yr oedd rhywbeth yn barchus yn yr olwg arno; pan yn ieuanc, yr oedd yn llyfn-deg ei wedd, ei wallt yn wineu-felyn, ac yn disgyn yn denau ar ei ddaleen; ei lygaid yn fawrion, ac yn fywiog; a'i lais yn gryf, eglur, a soniarus. Daliodd tewychder mawr ef, pan yn ddyn ieuanc, a chynnyddodd arno i raddau anarferol, nes yr oedd yn annghysurus iddo ei hun, ac yn syndod i eraill: a pharhaodd felly hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le ar yr 17eg o Fedi, 1791; pan nad oedd efe namyn 47 mlwydd oed.

Prif nodwedd ei weinidogaeth oedd grymusder; ac yr oedd cymhwysder neillduol ynddi i ddeffroi dynion cysglyd a diofal, a pheri iddynt ffoi at Grist, y Gwaredwr, am eu bywyd. Ymddengys ei fod yn wr o feddwl bywiog, a dychymyg parod, ac yn arfer cryn lafur yn cyfansoddi pregethau. Dywedai y diweddar Barch. Christmas Evans am dano;—"Yr oedd Dafydd Morus yn bwysig a thra deffrous, yn ei annerchiad at gydwybodau, a serchiadau ei wrandawyr. Nid hawdd yw darlunio yr effeithiau oedd yn canlyn ei ddawn, yn y dyddiau tanbaid a deffrous hyny, trwy siroedd Caer yn arfon, Môn, Dinbych, &c."—Yr oedd ei weinidogaeth danllyd, a nerthol, pan yr elai ar daith trwy Wynedd, yn gyffelyb i adeg y mellt a'r taranau. Safai dynion anystyriol yn synedig, wedi eu dal gan ddychrynfeydd, fel pe y buasai y Barnwr yn ymddangos; ac elai y rhuthr heibio, gyda chawodydd bendithiol o'r gwlaw graslawn. Mawr a fu y son yn Môn am flyneddoedd, am bregeth a draddodwyd ganddo yn yr awyr agored, yn agos i Bont-rhyd-pont; yr hon a elwir hyd heddyw, "Pregeth y golled fawr!" Ei destun oedd, "Pa lesad i ddyn, os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" Wedi llefaru ychydig ar y testun, torrai y pregethwr allan mewn croch-waedd ddolefus, gan ddywedyd, "O bobl y golled fawr!" nes oedd y gwrandawyr yn plygu o'i flaen, fel cyrs o flaen tymhestl-wynt. Ychwanegwyd lluaws mawr at yr eglwysi trwy y wlad, mewn canlyniad i'r bregeth rymus hon; a hir, a hyfryd a fu y son am yr oedfa, gan yr hen bobl tra fuant byw. Mawr a fyddai y gwahaniaeth ar wedd llawer un cyn ei bregeth, ag a fyddai ar ei hol. Cyn yr oedfa, fe'i derbynid weithiau yn lled oeraidd; yn enwedig pan y dygwyddai ymweled âg ardal y tro cyntaf erioed; ond ar ol ei wrando, dangosid y serchawgrwydd mwyaf atto. Yr ydoedd unwaith, yn lled gynnar ar dymhor ei weinidogaeth, a'r daith yn Sir Ddinbych, ac yn dyfod o'r Bont Uchel, i Adwy y Clawdd; ond, gan nad oeddynt wedi cael ei gyhoeddiad yn yr Adwy, nid oedd yno neb yn ei ddysgwyl; a chan na buasai yn y wlad hono o'r blaen, nid oedd neb o'r frawdoliaeth yn ei adnabod. Pa fodd bynag, efe a gyfarfu â rhai o'r gwragedd oeddynt yn aelodau eglwysig yn y lle, i'r rhai yr hysbysodd ei hun, gan ychwanegu ei fod ef wedi dyfod yno i bregethu; a gofynai a oedd dim modd anfon gair ar led y gymmydogaeth, a chynnull rhyw nifer o bobl yn nghyd. Gyda hyn, wele y blaenor yn dyfod i'r lle, ac yn edrych ar y pregethwr dyeithr yn lled chwith, gan ofyn iddo, pwy oedd efe, ac a oedd efe yn werth i anfon allan am wrandawyr iddo? Ymddangosai hefyd yn dra afrywiog ei dymher, a bustlaidd ei ysbryd: ond yr oedfa a ddaeth, a deallwyd yn fuan, nad dyn cyffredin oedd y pregethwr, canys disgynai ei gennadwri ar y gwrandawyr gyda nerth anarferol, fel eu llyncwyd i fynu gan syndod; ac yn fuan, rhoddid arwydd o deimladau y galon yn y dagrau a lifeirient dros eu gruddiau; ac yr oedd yr hen flaenor tal gryf, yntau, wedi ei orchfygu. Wedi yr oedfa, daeth hwn atto, gan ymesgusodi, a dywedyd, "Dafydd Morus bach, gobeithio y maddeuwch i mi am fy ymddygiad attoch cyn yr Oedfa." I'r hyn yr attebai yntau, "Mi a welaf mai Ci wyt ti: dangos dy *ddannedd* a wneit cyn yr oedfa; ac ysgwyd dy

Digitized by Google

*gynffon* yr wyt ti yn awr." Un felly hefyd y dangosodd y blaenor ei fod yn fuan: canys efe a drodd ei gefn ar eglwys Crist, gan ymdrybaeddu mewn buchedd aflan, a gwrthwynebiad i'r efengyl.

Sonir hyd heddyw, am bregeth hynod a lefarodd efe yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog;—Efe a bregethai dan bren brigog, ar y gair, "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth; canys ni elli fod mwyach yn oruchwyliwr." Dan y bregeth hon, torodd pawb yn y lle o'r bron i waeddi, i wylo, i weddïo, neu i folianu. Yr oedd Duw yn llefaru trwyddo wrth galonau y gwrandawyr; ac nid oedd anystyriaeth rhai, na gwrthwynebiad eraill, yn gallu dal dan ei weinidogaeth. Golygfa ydoedd, na's gwelsid ei chyffelyb yn y wlad hono o'r blaen; ac nid oedd gan edrychwyr paganaidd yr ardal, un cyfrif i'w roddi am y fath beth, ond bod chwiw o wallgofrwydd wedi disgyn yn ddisymwth ar y gwrandawyr. Teithiodd Dafydd Morus lawer, trwy Ogledd, a Dehau; ac edrychid am ei ddyfodiad trwy y wlad, gyda llawer o lawenydd a dysgwyliad, fel un a fendithid yn fawr gan yr Arglwydd, i droi pechaduriaid o gyfeiliorni eu ffordd. Anaml y cynhelid Cymdeithasfa yn ei ddydd, na fyddai Dafydd Morus yn un o'r rhai a fyddent yn pregethu ynddi; canys yr oedd yn un o'r lleygwyr grymusaf ei weinidogaeth yn mysg ei frodyr.

Yn y flwyddyn 1774, symmudodd Dafydd Morus o Ledrod, i ardal y Twr Gwyn i breswylio, a hyny ar gais y gynnulleidfa fechan yn y lle hwnw. Galwyd ef i roddi heibio ei alwedigaeth, ac ymroddi yn llwyr i bregethu, a chynnal Cyfarfodydd Eglwysig ar hyd y wlad, ddyddiau a nosweithiau yr wythnos, a chydnabyddid ef yn flyneddol am ei lafur. Yn fuan ar ol ei ddyfodiad i breswylio yn nghymmydogaeth y Twr Gwyn, dylynwyd ei weinidogaeth ag effeithiau grymus, nes ychwanegu lluaws at yr eglwys; daeth gwedd siriol ar yr achos, dyrchafwyd Trefnyddiaeth i olwg yr ardal, darostyngwyd rhagfarn y trigolion i raddau helaeth, a chymmaint oedd y chwanegiad yn nifer y gwrandawyr, fel y bu raid helaethu y ty cwrdd yn y flwyddyn 1778.

Ar foreu Sabbath, yn y flwyddyn 1784, dan weinidogaeth Dafydd Morus, torodd adfywiad grymus yn y lle, yr hwn yn ei effeithiau a gyrhaeddodd y gwrandawyr yn gyffredinol; a lluaws mawr o honynt a argyhoeddwyd, ac a ddychwelwyd at Dduw; a pharhaodd yr adfywiad hwn yn ei rymusder am dymhor maith. Bu y gwr defnyddiol hwn farw yn nghanol ei ddyddiau, ar yr 17eg o Fedi, 1791, yn 47ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu tua chwech ar hugain o flyneddoedd. Yr oedd wedi claddu ei wraig dair blynedd o'r blaen, a dau o'i feibion, sef Theophilus, ac Eliezer, y rhai a fuant feirw yn nyddiau eu hieuenctyd; ond, gadawodd ar ei ol un mab, yr hwn oedd eisoes wedi dechreu pregethu, sef Ebenezer, yr hwn a lewyrchodd yn ffurfafen Trefnyddiaeth am flyneddoedd lawer.

**MORUS**, Ebenezer, o'r Twrgwyn, ydoedd weinidog o enwogrwydd mawr gyda y Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn mhlwyf Lledrod, yn sir Aberteifi. Yr oedd ei dad, y Parch. Dafydd Morus, yn bregethwr enwog yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd; gweinidogaeth yr hwn a fu yn fuddiol i ddwyn llawer i wybodaeth o'r gwirionedd. Ebenezer oedd yr henaf o bedwar o blant. Nid oes dim o hynodrwydd neillduol yn cael ei adrodd am dano yn nyddiau boreuaf ei oes. Pan yn ddwy flwydd ar bymtheg oed, gadawodd dy ei dad, er myned i fyw i Drefeastell, yn sir Frycheiniog, lle y bu yn cadw ysgol am ryw ysdod o amser. Hyd yn hyn, yr oedd y pethau a berthynent i heddwch ei enaid yn guddiedig oddiwrtho; ond bu pregeth o eiddo D. W. Rees yn dra bendithiol iddo; ac yn fuan ar ol hyny, ymunodd a chymdeithas y Methodistiaid yn Nhrefcastell. Wedi cael prawf boddhaol o'i dduwioldeb, ac arwyddion dyladwy o'i gymhwysderau, anogwyd ef i ddechreu pregethu, pan oedd yn bedair blwydd ar bymtheg oed. Yn fuan wedi hyn, darfu iddo gymeryd taith gyda y Parch. Dafydd Parri o sir Frycheiniog, trwy Ogledd Cymru, i bregethu. Yn mhen dwy flynedd wedi hyn bu farw ei dad; a gadawodd Drefcastell, a symudodd i fyw i amaethfa ei rieni, yn mhlwyf Troed yr aur, yn Sir Aberteifi. Yr oedd Mr. Morus yn nodedig am ei symlrwydd, a pha beth bynag a farnai fod yn briodol, ni byddai byth yn ddiffygiol o benderfyniad i'w gwblhau, pa un bynag a'i mewn dysgyblaeth eglwysig, a'i mewn achosion cymdeithasol yr ymaflai. Yr oedd ei ddoniau gweinidogaethol ar gynnydd parhaus, a'i lafur cyhoeddus yn gymeradwy a bendithiol iawn. Cododd yn fuan i boblogrwydd fel pregethwr, uwchlaw y cyffredin, a daeth ei enw yn adnabyddus drwy holl derfynau Cymru. Yr oedd yn feddianol ar bob cymhwysder gofynol i'w wneyd yn boblogaidd. Yr oedd yn nodedig am rymusder ei lais, ac am ei fedr i'w gyweirio, a'i bereiddio yn soniarus. Yr oedd ei amrywiaeth, ei fywiogrwydd, a'i ddifrifoldeb meistrolgar, yn wastadol yn enill sylw ei wrandawyr. Ei gof di ball, ei barodrwydd pert, a'i ffraethineb tarawiadol, a unent yn effeithioldeb ei draddodiad. Yr oedd ganddo amcan, a gallu i argraphu ei syniadau ar feddwl, a theimlad ei wrandawyr. Yr oedd ei dduwinyddiaeth yn Ysgrythyrol, ac mewn perffaith eglurder ar bob pwnc, ond ei brif destyn oedd person, a gogoniant y Gwaredwr. Prif nodwedd ei weinidogaeth oedd grymusder. Yr oedd ehediadau ei feddwl, a mawr-wychedd a chadernid ei iaith, yn gorlanw, ac yn gorchfygu pob teimlad a feddai ei wrandawyr, ac yn difrifoli pawb. Pan y cyfeiriai ei ymadroddion at y diofal, a'r digrefydd, o ba rai y cynnwysid y rhan fwyaf o'i gynulleidfaoedd, byddai ei ddoniau yn berffaith gyfaddas i'r perwyl mewn golwg. Yr oedd yn dra dymunol yn ei gyfeillach, ac yn wastadol yn tueddu er adeiladaeth. Yr anhwyldeb a anmharodd ei i chyd, ydoedd clwyf yr ysgyfaint, arwyddion o'r hyn a ymddangosodd i'w flino yn fuan ar ol ei ddychweliad o Lundain, yn y flwyddyn 1824, lle yr oedd wedi bod dros ychydig o Sabbathau, yn gweinyddu yn addoldy y Trefnyddion Calfinaidd Cymreig, yn Heol Jewin. Cynnyddodd ei anhwyldeb yn fuan i raddau brawychus. Y bregeth olaf a draddododd, oedd yn nghapel y Twrgwyn, gerllaw y lle y preswyliai. Amlygai mai ei brif ddymuniad am gael bywyd, oedd er mwyn gwneud daioni yn y gwaith mawr; "a phan allan o'r gwaith, allan o'r byd," oedd ei ddymuniad. Hunodd mewn teimlad nefol, a gogoneddus, yn yr Iesu, Awst 15, 1825, yn 56 mlwydd oed. Boreu dydd Iau, y deunawfed o'r un mis, ymgynhullodd tyrfa fawr iawn i'w hebrwng i'r bedd; a gweinyddwyd ar yr achlysur, gan y Parch. D. Griffiths, sir Benfro; Ebenezer Richards, Tregaron; a D. Charles, Caerfyrddin; a chladdwyd ef yn mynwent Troed-yr-aur, yn ymyl gorweddle ei dad. Yn marwolaeth Mr. Morus, collodd yr Enwad un o brif gawri yr areithfa, ag yr oedd ei glod yn uchel drwy holl eglwysi y

Digitized by Google

Dywysogaeth. Ymddangosodd portead cywir iawn o hono yn yr *Evangelical Magazine*.

**MORUS**, Edward, ydoedd gyfansoddwr medrus iawn ar ganiadau; ac yr oedd yn byw yn y Perthillwydion, yn agos i Geryg y Drudion, swydd Ddinbych. Y mae nifer o'i gyfansoddiadau ar gael. Ysgrifenwyd ei Farwnad, gan ei gyd-oesydd Huw Morus, o Bont-y-meibion; oddiwrth yr hon y deallir iddo farw yn Essecs, yn y flwyddyn 1689.

**MORUS**, Huw, ydoedd fardd galluog, ac ystyrir ef yn un o'r caneuwyr goreu a feddodd y Dywysogaeth erioed. Efe a aned yn y flwyddyn 1662, yn mhlwyf Llansilin, swydd Ddinbych. Yr oedd yn drydydd mab i amaethwr cyfrifol, yn byw ar ei etifeddiaeth yn Mhont-y-meibion, yn nyffryn Ceiriog. Gan ei fod ef yr ieuengaf o'r meibion, rhwymwyd ef gyda chrwynwr yn Overton, sir Fflint; ond wedi treulio ysdod ei rwymiad, efe a ddychwelodd i'w gartref, at ei dad, ac wedi hyny, gyda'i frawd henaf, ei olynydd, yr arosodd hyd ei farwolaeth. Y cynnyrchion cyntaf a'i dyrchafasant ef i fri, fel prydydd blaenaf ei oes, oeddynt ganeuon cariadol, neu riangerddi, ar wahanol fesurau telynol. Ei glod, a'i barodrwydd i lunio penillion byrfyfyr, a enillai sylw pawb drwy y wlad; ac o herwydd hyny, byddai yn westeiwr mynych yn Nghastell y Waun, Porkington, Glasgoed, a'r Plasnewydd. Yn Porkington unwaith, efe a gyfarfyddodd a'r Dr. William Lloyd, esgob dysgedig Llanelwy, ac y mae y penillion a gyfansoddodd ar yr achlysur, eto ar gael, yn gyhoeddedig gyda ei waith. Mewn gwleidyddiaeth, yr oedd yn ymlynwr cadarn wrth y benaduriaeth, ac yn gyfaill brwdfrydig i achos Siarl I.; ac yn ysdod y rhyfel cartrefol, efe a ymdrechodd a'i holl allu o blaid y brenhin, mewn amryw gyfansoddiadau duchanol, yn amlygiad o'i egwyddorion, mewn eglwys a gwladwriaeth, y rhai sydd yn awr yn argraphedig. Er ei fod i raddau mawr, dan ddylanwad plaid, eto y mae rhyw wythien o hynawsedd a thymer dda, yn amlwg yn ei holl weithiau goganol. Er fod ei awen yn chwareus, yr oedd yn arddangos difrifoldeb. Yr oedd yn wir bleidiol i rinwedd a moesgarwch, ac yr oedd tuedd ei ganiadau, yn cyddaro â hyny. Yr oedd yn naturiol i'w ysgrifeniadau dynu gwg pleidwyr y senedd, eto, ni chofnodir iddo orfod dyoddef dim, fel y bu i lawer eraill, o blegid hyny. Arferai alluoedd ei awen yn erbyn trais ac anghyfiawnder yn mhob modd, gartref, yn gystal ag yn mhell. Mewn pedair o ganeuon, a alwai "Tiroedd y Taerion," dynoethodd yn ddiarbed amcan rhyw rai tua Rhiwabon, drwy lunio ffug lythyr cymun, o ddwyn etifeddiaeth oddiar ei gwir-berchenog; y rhai a fynent ddial arno, ond a siomwyd yn eu hamcan, drwy ei gyfrwysdra ef i guddio ei hun rhagddynt. Arferai ei ddawn mewn cyfeiriad at gyfoethogion, er eu dwyn i gyd-ymdeimlad a'r tlawd a'r anghenus. Arferai gyfansoddi Carolau newyddion erbyn pob Nadolig, a mawr fyddai y cais am danynt, o bob parth o Wynedd; ac y mae y cyfansoddiadau hyn o'i eiddo, yn arddangos fod ganddo wybodaeth helaeth yn athrawiaeth yr Ysgrythyrau, am drefn iachawdwriaeth, a gogoniant y Gwaredwr. Dywedir iddo oesi dan deyrnasiad chwech o bennau coronog, ac iddo weled chwech o ficeriaid, o bryd i bryd, yn ei blwyf ei hun, ar y rhai yr oedd yn wrandawr cyson a rheolaidd, er fod ganddo bum milltir o daith, dros fryniau oerllyd y Berwyn. Adroddir llawer o hanesion dyddorol am dano, yn mysg pa rai, y mae yr un ganlynol. Fel yr oedd ef ryw foreu Sul, yn marchogaeth tu a'r eglwys ar farch gwyn, bu iddo gyfarfod â rhyw ddyn, a gyfeiriai ato, gan ddywedyd wrth ei gyfaill, "Dyna Huw Morus;" i'r hyn yr atebodd y llall, "Ai yr hwrdd yna ydyw ef?" Hyn a led-glywodd Huw, a dywedodd yn ddioed:—

"Dyn wyf fi, nid wyf fi hwrdd;
Gwn fy hun, nad wyf fi hardd;
Dywed i fi, os wyt ti fardd,
Ple mae colofnau cangau cerdd?"

Ychwanegir y chwedl ddyddorol ganlynol am dano:—Y mae yn hysbys ei bod yn arferiad yn llawer o gynulleidfaodd eglwysig Cymru, ar ddiwedd yr addoliad, fod trefn y bobl i fyned allan, yn ol y graddau o barch a ystyrid yn ddyledus iddynt; ac felly, mor uchel yn y raddoliaeth honno yr oedd cynulleidfa Llansilin yn ystyried Huw Morus, fel y byddai, hyd yn nod ficer y plwyf, yn barnu yn briodol roddi y flaenoriaeth iddo! Un o henafgwyr y plwyf, yr hwn a oroesoedd Huw Morus lawer o flyneddoedd, ond wedi bod yn gydnabyddus ag ef yn ei ieuenctid, ac yn cofio yn dda, a'i darluniai i'w ŵyr, yn ol y desgrifiad canlynol:—"Yr oedd ef yn ddyn tal, a gwyneb hir, gwelw ei wedd, ag ôl y frech wen arno." Un o'i fywgraphwyr Seisnig, a'i darluniai fel hyn:—"Mae Huw Morus i'w restru yn mysg y rhai penaf o'r prydyddion Cymreig. Ei syniadau oeddynt ffrwythlonus, amrywiaethol, a hedegog. Yr oedd y cwbl yn dylifo o'i ysgrifell gyda'r fath rwyddineb di boen, fel y gellir golygu ei gyfansoddiadau megis ysprydoliaeth ei hunan. Nid oes i'w gael ynddynt ddim cymhellwaith, na dim yn bradychu ymdrech llafurus, ond y cwbl fel cynnyrch diledryw yr awen. Yr oedd efe yn tra rhagori yn y ddawn a elwir digrifwch, ac ar yr un pryd heb fod yn ddim llai ei fedrusedd mewn teimladrwydd ac arucheledd. Yn brofion o hyn, cymerer ei 'Farwnad Gwŷr Olifer,' Cerdd i ofyn 'Feiol,' 'Cyffes Dic y Dawns,' a 'Charol Gwyliau yn amser Olifer.' Yn y dull teimladol hefyd, anhawdd cael dim yn fwy tynerol ac effeithiol, na 'Marwnad Mrs. Middleton, o'r Plasnewydd; mewn dull o ymddiddan rhwng y drengedig a'i phriod goroesol. Y ddau gyfansoddiad prydferthaf o'r fath, yn y Saesoneg ydyw, 'Galar-gan yr Arglwydd Lyttleton ar farwolaeth ei Arglwyddes;' ac un arall, 'Er Coffadwriaeth am Foneddiges ieuangc,' gan Mr. Shaw; ond pwy bynag a'i cymharo a'r un crybwylledig, bydd raid iddo addef ddarfod eu cyfartalu, os nid eu rhagori, gan y bardd cynenid Cymreig. Ei 'Gyffes,' hefyd, ar ei Glaf wely, sydd gyfansoddiad trylawn o syniadau dyrchafedig a godidog. Efe a drafodai destynau crefyddol gyda chyffelyb urdduniant, ac erioed ni chyffyrddodd a'r arch â dwylaw anghysegredig. Fel ysgrifenydd caneuon telynegol, cyffelybai un awdur ef, 'i wibseren aruthrol, yn ymddangos ar ol cylchdroad o 300 o flyneddoedd,' sef amser ymddangosiad Dafydd ab Gwilym, yn y ffurfafen farddonol. 'Yr oedd yr awdwyr hyn ill dau,' medd ef, 'yn drylawn o naturiaeth ddi-gymysg, ac heb fod yn rhy rwymedig i gelfyddyd. Bu farw Awst 31, 1709, yn 87 oed. Claddwyd ef yn eglwys Llansilin, lle y codwyd cof-golofn am dano gan ei nai, perchenog Pont-y-meibion. Cyhoeddwyd darnau o'i waith, gan Ffoulc Owen, Rhydychain, Thomas Jones, Amwythig, a David Jones, Trefriw; a chasgliad helaethach drachefn, gan Gwallter Mechain.

Digitized by Google

**MORUS**, Lewis, neu Llewelyn Ddu o Fon, ydoedd un o'r llenorion, y beirdd, y gwladgarwyr, a'r dysgedigion penaf ar y cyfan, ag y cafodd yr Ynys y fraint o'u magu, yn ysdod ei hanesyddiaeth. Ganwyd ef, yn ol yr hanes debycaf o fod yn gywir, mewn man a elwir, y Tyddyn Melus, yn mhlwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd. Ty bychan, tô gwellt, trwsiadus, ydyw hwn, sydd ar gael hyd heddyw, gerllaw y brif-ffordd. Dengys coflyfr eglwys y plwyf yma, mai ar y deuddegfed dydd o fis Mawrth, 1702, y ganwyd ef. Y mae ychydig o gamgymeriad yn Williams' *Eminent Welshmen*, lle y dywedir iddo gael ei eni mewn pentref yn mhlwyf Penrhos-Llugwy, a elwir Pentre-Eirianell. Amaethdy yw hwnw, mewn gwlad, uwchlaw afon Dulas, i'r man y symudodd ei rieni ef i fyw, pan yr oedd Llewelyn yn ei ieuengctid. Yr oedd ef yn fab henaf i Morus ab Rhisiard Morus, yr hwn a ddilynai y gelfyddyd o gylchwr. Dywedir i'w dad, mewn amser diweddarach, wedi iddo symud i Bentre-Eirianell, adael y gelfyddyd gyntaf, a throi yn fasnachwr mewn ŷd. Dywedir i Llewelyn, am ryw dymor yn ei ieuengctid, ddysgu celfyddyd ei dad, fel cylchwr; ac yn hyny, fel gorchwylion eraill, ni bu yn ol o ddangos ei athrylith, a'i fedrusrwydd. Chwedl gyffredin am dano ydyw, y gallai "wneud telyn a'i chwareu; gwneud llong a'i hwylio; a gwneud Cywydd a'i ganu gan dant." Y mae yn debyg na ddarfu iddo ddilyn yr alwedigaeth grybwylledig yn hir, eithr troes ei fyfyrdod at y gorchwyl o fesuriaeth tir. Dichon mai trwy ei alluoedd celfyddgar, a'i ragoroldeb yn y wyddor hon, yr ymgododd i sylw y cyhoedd, ac yr enillodd gefnogaeth boneddion ei wlad, i ymddyrchafu i swyddogaeth berthynol i'r dollfa yn Nghaergybi, dan nawdd y Llywodraeth, yn Mon. Efallai na ellir cael tystiolaeth well am eangder cylch ei fyfyrdod a'i lafur, na'r hyn a fynega ef ei hun, mewn llythyr a ysgrifenodd at Samuel Pegge, Chwefror 11eg, 1761:—

"Am yr ychydig wybodaeth a gyrhaeddais i, bu raid i mi ei henill megys trwy awch naturiaeth. Nid oedd fy addysg ieithyddol ond afreolaidd; a choed masarn, ac onen, neu fath o feistri pren, ar y goreu, oedd fy athrawon, gan mwyaf. Y mae y cynnydd a wnaethym yn y ffordd hono, wedi adfeilio llawer o eisiau ymarferiad, ac ymohebiaeth â gwyr o ddysg. Cymerodd helyntion gwladwriaethol, fel swyddog yn y gyllidaeth, y rhan werthfawrocaf o'm hamser, fel y mae yn rhyfedd genyf, i mi allu cadw dim mewn cof. Dodwyd fi ar y cyntaf, i gasglu cyllid, a threth yr halen; yna gosododd y Morlys fi i wneud mesuriad arolygol o arfordiroedd Cymru, a chyhoeddwyd rhan fechan o'm llafur ar hyny, yn 1748. Dodwyd fi, wedi hyny, at wahanol orchwylion perthynol i'r Trysorlys, yr hyn a gymerodd fy amser am rai blyneddoedd—fel arolygydd tir-gyllid y brenhin, casglydd porth-dollau yn Aberteifi, ac arolygydd mwn-weithiau y brenhin yn Nghymru. Y mae yr iaith Saesnig mor estronol i mi ag ydyw y Ffrangcaeg: y mae genym ni blwyfydd cyfan yn mharthau mynyddig Cymru, lle na siaredir gair o Saesneg o gwbl.—Y mae yr ychydig wybodaeth a fu genyf o ieithoedd eraill, wedi myned yn rhydlyd; ac nis tybiaf fod yn wiw i mi bellach geisio ei hadferu, gan fod un troed i mi yn y bedd. Ysbeiliwyd llawer o'm hamser gynt, gan gerddoriaeth, a phrydyddiaeth, o'r hyn nid oes i mi elw yn y byd.—Ond weithian nid wyf mewn un swydd gyhoedd, oddigerth arolygu mwnweithiau y brenhin, a hyny heb ddim cyflog; ac wedi cweryla â rhai o'r blaenoriaid, mi a ymneillduais i dyddyn bychan o'm heiddo fy hun; ac yno y mae fy ngardd, fy mherllan, fy nhyddyn, ac ychydig o fwnwaith, yn cymeryd rhan fawr o fy amser. Y mae fy ngwybodaeth mewn physygwriaeth, a llaw-feddyginiaeth, yn cyrchu llawer o dlodion ataf, y mae yr hoff fyfyrdod a wnaethym mewn llysieuaeth, yn awr yn lles iddynt hwy. Bu genyf ddifyrwch mawr o'm mebyd mewn philosophyddiaeth naturiol, a rhif-fesuriaeth; ac y mae genyf gynhulliad gweddol o gloddiadon, cregyn, &c., o'r rhan fwyaf o barthau y byd, a chasgliad gwerthfawr o arfau, ac offerynau perthynol i hyny. Rhoddais lawer o'm bryd ar gynlluniau, a pheirianau. Gwnaethym rai diwygiadau yn y gangen hon o lawgelfyddyd, tu hwnt i ddim o'r fath a gyhoeddwyd yn Mrydain, na Ffraingc. Prin ydyw fy ngwybodaeth am arian bath, a bychan yw'm cynhulliad o honynt, ac nid yw yn werth ei grybwyll, gan nad oes ond ychydig i'w cael yn y parth yma o'r byd. Y mae genyf rai cerfiadau cywrain ar gerig, yn nghyd ag ychydig arfau Brytanaidd. Go fychan yw fy nghynnulliad o lyfrau, a'r rhan fwyaf o honynt ar anianyddiaeth, rhif-fesuriaeth, a henafiaethau Brytanaidd. Ond yr hyn sydd wedi cymeryd fwyaf o'm bryd er's cryn ysbaid bellach, yw gwneud ychwanegiadau at Eiriadur Cymraeg a Lladin y Dr. Davies; a Geiriadur arall hefyd o'm gwaith fy hun yn gwbl, ar ddull Mareni. Treuliodd fy amcan yma fy oriau hamddenol er's llawer blwyddyn faith. Yr enw a roddaf arno yw, "*Celtic Remains*," neu ddysgrifiad o'r hen ymerodraeth Geltaidd, yn yr iaith Saesneg, yn cynnwys cynulliad o ddefnyddiau bywgraphyddol, beirniadol, hanesyddol, geiryddol, amseryddol, a daearyddol, o ddeilliad Celtaidd, er ffurfio hanes Frytanaidd o'r cynoesoedd; yn ddwy ran:—Y gyntaf yn cynwys hen enwau dynion, lleoedd, gweithredoedd, a'r cyffelyb, yn y Frytanaeg, a'r Gaelaeg, yn ol trefn yr egwyddor; lle y chwilir i mewn, nid yn unig i wir enwau Celtaidd yn ol yr orgraph hen a diweddar, gan eu profi o awdurdod Brytanaidd, yn nghyd âg enwau lleoedd presenol, a'r cyffelyb, ond hefyd i'r camgymeriadau, a'r gwallau, pa un bynag a'i o ddymuniad, neu o ddamwain, a wnaed gan ysgrifenwyr a draethasant ar hen helyntion Prydain mewn unrhyw iaith, gan eu diwygio a'u hegluro. Gorchwyl dirfawr a llafurus yw hwn. Yr ail ran a gynwys enwau dynion, a lleoedd, o darddiad Celtaidd, wedi eu Lladineiddio gan ysgrifenwyr Lladinaidd, y rhai a ystumiwyd, ac a nyddwyd yn ol eu hiaith hwy; lle yr ymdrechir dangos yr hyn oeddynt yn eu dechreuad Celtaidd; gan eu cymmharu â hen hanes, ac iaith prif ganghenau y bobl hyny, y Frytanaeg, y Wyddelaeg, yr Armoraeg, a'r Gernywaeg. Geiryddol ydyw y rhan hon gan mwyaf, lle y caiff mympwy ei rhaff, ond nid heb ei chadw oreu y gellir o fewn terfynau.—Yn nghylch ugain mlynedd yn ol, prydyddiaeth Gymraeg oedd yn nofio uwchlaw fy holl drysorau, er ei bod weithian yn mawr iselu; a byth er pan wnaethym ryw gampwri yn y ffordd honno, nid oes dim a wna'r tro gan fy nghydwladwyr, os na roddaf gymeradwyaeth i'w cyfansoddiadau cyn eu gyru i'r byd. Ond ocho finau! mor isel yr ydym wedi cwympo oddiwrth enwogrwydd yr henafiaid. Mi hoffwn o'm calon i ryw un galluog gymeryd arno'r gorchwyl o wneud cyfieithiad Lladin o

Digitized by Google

rai o'n hen brydyddion Brytanaidd.—Yr wyf yn addef i chwi, er mai Cymraeg yw fy mamiaith, ac er cael o honof fy magu yn Mon, lle y siaredir hi mewn mawr burdeb, ac yr hoffir hi gan y trigolion, lle hefyd y mae prydyddiaeth a henafiaethau mewn mawr gymeradwyaeth; eto, yr wyf yn dysgu rhywbeth yn feunyddiol wrth ddarllen yr hen feirdd, ar ol bod yn gydnabyddus â hwy er's yn agos i ddeng mlynedd a deugain.—Am y cyfieithiad o Tysilio, chwi a welwch wrth y gwaith a dorais allan i mi fy hun, pa fodd yr wyf yn sefyll. Y mae'n debyg na byddaf byw i orphen yr un o'r pethau hyny; ac ofnaf na bydd gan fy mhlant yr un awyddfryd angerddol ag sydd genyf fi, at y fath fyfyrdodau, ac ni welaf ond ychydig o rai eraill yn meddu na'r tueddfryd, na'r defnyddiau, i gyflawni y cyfryw orchwyl."

Dyma i ni dystiolaeth Llewelyn ei hun, am y prif syniadau oedd yn llanw ei fynwes. Gorchwyl anhawdd gan bob dyn o chwaeth buredig, ydyw adrodd llawer o bethau ag a fyddo yn dal cysylltiad ag ef ei hun. Felly y mae yntau wedi bod yn ochelgar iawn wrth adrodd ei hanes, er cerdded canol llwybr barn, rhwng gwyleidd-dra ar un llaw, a hunanoldeb ar y llaw arall. Nid oes na bardd na llenor Cymreig, na theimla alar, am na buasai y "Celtic Remains" wedi ei orphen a'i argraphu cyn hyn. Y mae ei farddoniaeth ar gael yn lled gyflawn yn y "Diddanwch Teuluaidd." Y maent oll yn llawn o naturiaeth, ac y mae pertrwydd i'w ganfod, hyd yn oed yn ei rimynau gwagsaw. Y mae yn syndod i'n meddwl weithiau sylwi, pa fodd yr oedd yn bosibl i feddwl mor oleuedig, a dawn mor goethedig, ymostwng i osod Llythyr Mari Benwan o Anwn, a'r cyffelyb, wrth eu gilydd, na phlethu cynnifer o'i ddyriau digrif, na'i gywyddau diles. Ond nid ydym yn hoffi ymdroi nemawr yn y llwybrau hyn, gan y gwna yr awdwr iawn am y pentwr us sydd yn un pen i'r glorian, yn mhwysau y gwenith pur sydd yn y pen arall. Yr oedd mesuriad a darluniad arfordiroedd ein gwlad, yn orchwyl sydd wasanaeth i'r oesau.

Yn y flwyddyn 1737, darfu i gyfarwyddwyr y Morlys, ei benodi ef, fel y gwelsom, yn yr hanes a ddyfynwyd o'i lythyr ef ei hun, i arolygu, mesur, a darlunio porthladdoedd, ac arfordiroedd Cymru. Hyn a gyflawnodd yn y modd mwyaf cywrain a gorchestol, ac a fawr gymeradwywyd gan y cyhoedd; a chyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn 1748, mewn llyfr ag sydd yn awr ger ein bron, ac a elwir, "Plans of Harbours, Bars, Bays, and Roads, in St. George's Channel." Dywedir nad oedd hwn yn waith gorphenol, ond iddo ychwanegu ato yn fuan. Cynnwysa tua deg a deugain o Forlenni, yn dangos ansawdd amrywiol Borthladdoedd ein gwlad. Nid anmhriodol fyddai cyfleu yma ychydig o'r Rhagymadrodd, er mwyn dangos natur y gwaith, i'r rhai hyny sydd heb ei weled:—"Yr athrist hanesion am long-ddrylliadau, a cholledion, yn dygwydd mor fynych ar dueddau Cymru, y rhai yn ddiameu a achlysurwyd yn benaf, o blegid diffyg gwybodaeth, ac anmherffeithrwydd y Morlenau oedd mewn ymarferiad, cyn cyhoeddi y rhai y soniwn am danynt yn awr, a gymhellodd Gyfarwyddwyr y Morlys, i gymeryd yr unrhyw dan ystyriaeth, ac i benderfynu ar fod i arolygiad mesurol gael ei gymeryd mewn llaw. Ac yn y flwyddyn 1737, rhyngodd bodd iddynt fy mhenodi i at y gorchwyl; a dechreuais arno wrth y Penmaen-mawr, yn Ngwynedd, gerllaw Bar Caerlleon. Ar ol cyflwyno gorchwyl blwyddyn, archwyd i mi fyned rhagof; ond gan na ddarparasid i mi eto, mor cyfreidiau, a'r defnyddiau anhebgorol i'r perwyl, gohiriwyd y gorchwyl hyd 1742. Y pryd hwnw y caniataodd y Cyfarwyddwyr, i mi lestr, wedi ei darparu yn gyfrdo; a thrwy y moddion hyn, aethum a'r gwaith yn mlaen gyda gofal a manylrwydd mawr, hyd nes cyrhaeddyd y mynediad i For Hafren. Ond yn y flwyddyn 1744, cyfododd y rhyfel rhwng y deyrnas hon â Ffraingc, a llesteirwyd y gwaith; a minau a orphenais y Morlenni, ac a gyflwynais fy arolygiad i'r Morlys. Y darluniadau o'r Porthladdoedd, &c., ag sydd yn awr wedi eu cerfio, ac yn cael eu gosod yn y Traethawd hwn, a ffurfiwyd yn y dechreu, yn llyfr bychan, a wnaethum i'm gwasanaeth fy hun; er mwyn adnewyddu fy nghof, pan ddygwyddai tymestloedd, neu ryw anhap disymwth, a ddichonai ddamweinio yn ysdod y gwaith. Ond hapiodd i mi ddangos y pethau hyn i Arglwyddi y Morlys, a rhyngodd bodd iddynt eu cymeradwyo, gan anog ar fod iddynt gael eu cyhoeddi er budd i forwyr; yn nghyd a rhai crybwylliadau a wnaethum mewn perthynas i'r gwelliantau a ellir eu gwneuthyr yn y Porthladdoedd hyny; gan na thybid yn addas gyhoeddi yr Adolygiad o'r holl arfordir, nes myned a'r gwaith yn mlaen hyd Bentir Cernyw, sef gorphen hyd yno o For Hafren. Gallaf anturio honni fod un peth anarferol yn y darluniadau hyn, ac nas ceir mewn odid, os yn unrhyw rai eraill; hyny yw, Bod enwau lleoedd wedi eu dodi i lawr yn ol eu gwir orgraph; yr hyn mewn Darlunlenni eraill, o'r Arfordiroedd hyn, sydd yn gyffredinol yn cael ei wneuthyr yn y fath fodd, fel nas clywodd trigolion y manau hyny erioed son am danynt, ac nad ydynt gan mwyaf yn ddim amgen, na ffug-ddyfeisiadau cyfieithwyr anwybodus, a cherfwyr esgeulus; eithr yr oedd fy adnabyddiaeth o iaith a henafiaethau y Brytaniaid yn rhoddi mantais i mi yn hyn." Ysgrifenodd Mr. Morus hefyd, ddarluniad hanesyddol, o fwnyddiaeth y parthau hyny o'r Dywysogaeth ag oedd dan ei sylw, ond ni chyhoeddwyd byth mor gwaith hwnw. Ni a welwn wrth yr hyn a grybwyllwyd eisoes am dano, ei fod wedi cael ei orlwytho gan gynnifer o drafferthion y byd, fel nas gallasai gael ond ychydig o hamdden, i goledd nac i ganlyn ei dueddiad mwyaf naturiol, sef henafiaeth, a barddoniaeth, &c. Dichon hefyd fod hyn yn awgrymu yn gryf, mai adloniant, mewn ambell awr hamddenol, rhwng y gorchwylion pwysig hyn, ydoedd ei farddoniaeth, a'i ebychiadau chwareus. Nid ellir darlunio ei dalentau amrywiaethol, ei gymeriad personol, a'i lafur diorphwys, yn fwy effeithiol, nac yn y dyfyniadau canlynol o'i Farwnad, gan ei gyfaill Goronwy Ddu:—

"Er llid, er gofid wir gyfion,—ddeiliad,
Ef oedd ddilwgr galon;
Duw a folai, da'i ofalon
Sior a garai is aur Goron;
Lle ba'i gwaethaf llu bygythion
Ni chai'r anwir drechu'r union;
Dra gallawdd, nodawdd i anudon, dorf
Llwyr darfu'r Lledneision.

"Bu'n wastad ddifrad ddwyfron—ddiysgog
I'w hydr Eneiniog Deyrn union;
Rhyngodd ei fodd a'i ufuddion—swyddau
A chwys ei aeliau a chysulion.

"Mesurai, gwyddai bob agweddion,
Llun daear ogylch, llanw dwr eigion;
Amgylchoedd moroedd mawrion,—a'u cymlawdd,
Iawn y dangosawdd, nid anghyson.

"Daear a chwiliodd drwy ei chalon,
Chwalai a chloddiai ei choluddion;
A'i dewis wythi meini mwynion:
A thew res euraid ei thrysorion,
A'i manylaf ddymunolion—bethau,
Deuai i'r golau ei dirgelion.

"Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,
Llwybrau'r taranau a'r terwynion,
Fflamawg fellt llamawg folltau llymion—
Is awyr gannaid a ser gwynion,
Nodau'r Lloer a'i newidion—hynt cwmwl
O fro y Nifwl i for Neifion.

"Ebrwyddaf oedd o'r wybryddion—hyglod
A llwyr ryfeddod holl rifyddion,
Traethai, fe wyddai foddion—Teyrnasoedd;
Rho'i o hen oesoedd wir hanesion."

Bu yn ymdrechgar iawn am gael codi argraphwasg, er mwyn cyhoeddi llyfrau Cymraeg er lles ei genedl. Gan fod ei anerchiad at drigolion Gwynedd, yn egluro yr amgylchiadau mor gyflawn, ni ellir amgen na'i ddodi ger bron. Ymddengys mai gwaith Golygwyr y "Greal" yw yr Arweiniad, a ysgrifenwyd yn 1805:—"Anogaeth i argraphu llyfrau Cymraeg. Rhodded yr argraphwasg ar waith yn Nghaer Gybi, B.A. 1735, gan Llewelyn Ddu o Fon, er amcanu gosod 'Tlysau yr Hen Oesoedd' ger bron ei gyfoedion; eithr o wall ymgeledd, gorchwyl fethiantus fu honno, fel llawer un arall o'r fath yn Nghymru; a gwael y dynged na buasai amgen! meddwn ni; ond barned y darllenydd ai nad oedd pwys yn chwedl y gwr a roddes ei law yn y gwaith, yr hwn sydd yn rhagymadroddi fel hyn;—At Drigolion Gwynedd;—"Pwy bynag na fedro roddi gair da i hyn o orchwyl, harddach iddo na ddywedo ddim; canys pwy yn ei gof a darawai'r llaw a fa'i yn cynyg cymhorth, er gwaeled fyddai? Ac nid yw yn chwareu teg enllibio gwr dyeithr yn ei gefn. Beth a wyddoch chwi na fedr ateb drosto ei hun, pe bai yn y fan? Os ffol a fu'm am fyned i gost fawr, er mwyn lles i'm gwlad, (tygaswn i), y peth lleiaf a ellwch, ydyw esgusodi y gwr gwirion. Pwy wyr flas peth heb ei brofi? Wele, gan hyny, yn dyfod atoch i ofyn eich nodded, forwyndod yr argraphwasg cyntaf erioed yn Ngwynedd. Os da fydd y peth yn eich golwg, chwi a rowch fywyd iddo; os amgen, dychweled i'r llwch o'r lle y daeth. Llawenychasai eich hen deidiau, pe gwelsent y cyfryw beth; nid oes amheu nad digio a wna rhai o honoch chwi; dylaswn fyned i wlad arall i ddechreu prophwydo. —Er mwyn denu y Cymry Seisnigaidd i ddarllen Cymraeg, ac i graffu ar beth na chlywsant erioed braidd son am dano (sef bod dysg a gwybodaeth yn Nghymru), rhoddais y cynwysiadau yn Saesneg; na ddigiwch gan hyny wrth y cymysg; bernwch pan wypoch y cwbl. Da iawn y gwn i, mai gwir a ddywed yr Hen Wyr—'a fo gwas cyffredin byd, hwyr y caiff ei dâl;' canys dyled ar bawb nid yw ddyled ar neb. Eto chwi welwch, er gwybod hyn, i mi dorri trwy reol callineb i'ch gweini chwi. Pe'r edrychem ar fyrdra oes dyn, ac ar ei gwagedd, nid oes neb mor gibddall na welai mai ffolineb yw bydol ddoethineb; a byddem yn fwy caredig i'r genedl sydd yn dyfod ar ein hol. Anifeilaidd yw'r dyn a adawai blant y byd mewn tywyllwch, lle y gallai â chanwyll ffyrling eu goleuo:—'Gwell gwae fi na gwae ni.'—Yr argraphwasg, medd y doethion, yw canwyll y byd, a rhyddid plant Prydain. Pam i ninnau (a fuom wyr glewion gynt! os oes coel arnom) na cheisiwn beth o'r goleuni? Swllt o bwrs pob un o honoch, tu ag at y papur a'r gwaith, a lanwai'r wlad o lyfrau da, ac â llawer o fwynder a dyddanwch, ac a gadwai'ch enwau i dragwyddoldeb, fel cenhedloedd eraill. Oni wnewch hyn, gwnewch a fynoch; Duw gyda chwi! yw dymuniad eich ufudd wasanaethwr." Gresyn na chawsai y gefnogaeth a haeddai!

Dywedai Dafydd Ddu o Eryri, yn ei gofion am Lewis Morus, a ymddangosodd gyda y "Diddanwch Teuluaidd, a gyhoeddwyd yn 1817, fel y canlyn," Mr. Lewis Morus a osododd Argraphwasg i fynu yn Modedeyrn yn Mon; argraphwyd yno lyfrau, a elwir "Ymarfer o Lonyddwch," a rhai mân bethau eraill. Cynygiodd Mr. Lewis Morus, argraphu llyfr a elwid 'Tlysau'r Hen Oesoedd,' yr hwn a fwriadodd efe i arddangos henafiaethau, ond ni lwyddodd yr amcan, ac ni ymddengys iddo argraphu ond un ran o hono. Yr Argraphwasg a grybwyllwyd uchod, a werthwyd i Dafydd Jones o Drefriw, a thebygol fod y wasg hyd y dydd heddyw, yn meddiant ei fab, Ismael Jones; yr hwn, yn nghyd a'i fab, John Jones (Bardd celfyddgar), sydd argraphwyr blodeuog yn Nhrefriw, yn agos i Lanrwst." Gwelir fod y ddau gyfeiriad uchod yn anghyson a'u gilydd; un yn dywedyd mai yn Nghaergybi y codwyd y wasg, a'r llall yn dywedyd mai yn Modedeyrn, pentref o fewn chwe milltir i Gaergybi, ar yr hen brif-ffordd i Fangor, y codwyd hi. Dywed yr olaf hefyd, mai un rhifyn o 'Dlysau yr Hen Oesoedd' a 'argraphwyd.' Cof yw gan yr Ysgrifenydd, glywed Mr. Jones, Argraphydd, Llanrwst, yn dywedyd, fod dau rifyn o hono yn ei feddiant ef, hyd yn ddiweddar. Symudwyd yr hen wasg o Drefriw, gan Mr. Robert Jones, brawd i Mr. John Jones, i Langollen.—Yn mhen dwy flynedd ar ol sefydlu yr Argraphwasg, sef yn 1737, dyrchafwyd Lewis Morus eilwaith i'r swyddi a grybwylla yn ei lythyr at Mr. Pegge—i wneud mesuriaeth arolygol o arfordiroedd Cymru, &c., ac ymadawodd o Gaergybi, i breswylio mewn lle a elwid Gallt Fadog, yn sir Aberteifi; lle y bu, fel yr ymddengys, hyd 1749, pan y priododd ei ail wraig, Anne Lloyd, etifeddes Pen bryn-y-Barcud, Llanbadarn Fawr, yn sir Aberteifi. Ei wraig gyntaf, yr hon a briododd Mawrth 29, 1729, ydoedd Elisabeth Gryffydd, etifeddes Ty Wydrin ger Caergybi, o'r hon y ganwyd iddo fab, a elwid Lewis, pan nad oedd ei wraig ond 16 mlwydd a 6 diwrnod oed. Bu y mab hwn farw yn ieuangc. Bu iddo hefyd ddwy ferch o'r wraig hon. Bu iddo naw o blant o'r ail wraig, pum mab, a phedair merch. Bu amryw o'r plant feirw yn ieuaingc, a bu farw ei ail wraig, Mawrth 30, 1786. Pan ddaeth Penbryn i'w feddiant, symudodd yno i breswylio, ac yno yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, sef Ebrill 11, 1765. Claddwyd ef yn eglwys Llanbadarn Fawr, a dywedir nad oes yno yr un Beddfaen i ddangos pa le y gorwedd ei weddillion marwol. Y mae enwau y tri brawd talentog, Lewis, Richard, a William Morus, yn dra adnabyddus i bob llenor Cymreig. Am fam y Morusiaid y dywedodd Goronwy wrth ei mab Richard, fel hyn; "Mi glywais fyned o Dduw a'ch mam, a saeth i'm calon oedd y newydd. Da iawn a fu hi yn ei hamser i lawer-

Digitized by Google

oedd, ac yn mysg eraill i minau hefyd. Hoff iawn oedd genyf redeg o'r ysgol ar brydnhawn Sadwrn, o ysgol Llanallgo i Bentre-Eirianell; ac yno byddwn sicr o gael fy llawn hwde ar fwyta brechdanau o fêl, triagl, neu ymenyn, neu yr un a fynwn o'r tri rhyw; papur i wneud fy nhasg, ac amryw neges arall; a cheiniog yn fy mhoced i fyned adref; ac anferth siars wrth ymadael, i ddysgu fy llyfr yn dda; a phwy bynag a fyddai byw yn y byd, y ceid fy ngweled yn glamp o berson." Yr oedd yn rhaid fod ymroad a diwydrwydd Lewis Morus yn anghyffredin, pan y meddylir am amrywiaeth canghenau ei efrydiaeth, ac amlder ac eangder ei ysgrifeniadau. Gadawodd ar ei ol yn nghylch pedwar ugain o gyfrolau o ysgrifeniadau. Bernir mai y gwerthfawrocaf o honynt, ydyw y "Gweddillion Celtaidd," yr hwn sydd yn cynwys rhan fawr o ffrwyth ei lafur am yn nghylch deugain mlynedd o amser. Gresyn na argreph[i]d y llyfr hwn, er mwyn helaethu gwybodaeth Cymry a Saeson, mewn henafiaeth, ieithyddiaeth, a changhenau eraill o wybodaeth, ag sydd yn gysylltedig a'r cyfryw wyddorion. Yr oedd Mr. Morus yn cynal ymohebiaeth eang âg amryw o ddysgedigion ei oes, yn mysg eraill, ysgrifenodd lawer at Mr. Edward Richard, Ystrad Meurig, yn sir Aberteifi; yr hwn a ysgrifenodd lawer o lythyrau ato yntau, ar amrywiol bynciau o ddysgeidiaeth, fel y dengys y llythyrau gwreiddiol ag sydd eto ar gael. Bu yn athraw prydyddol i'r enwogion Goronwy Owain, Evan Evans y Prydydd Hir, ac amryw eraill, fel y tystia y penill canlynol o eiddo Goronwy, yn ei Farwnad deimladol ar ei ol:—

"A thra bo urddawl athraw beirddion,
A mwyn dysg wiwles mewn dwys galon,
Gwiwdeb ar iaith a gwaed y Brython,
Ac awen Gwyndud ac ewyn gwendon,
Daear a nef, a dwr yn afon
Ef a gaiff hoewaf wiw goffeion."

Y mae nifer mawr o gyfrolau, yn llaw ysgrifen Lewis Morus, yn nghadw yn llyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd yn Llundain, ac y mae swyddogion y lle yn dra hynaws eu moes, tu ag at lenorion a elo yno i ofyn am gael eu gweled, neu gopio o honynt. Y mae yn resynol na byddai genym ninau yn Nghymru, ystafell o'r fath, ar radd fechan, er cadw yr ychydig law-ysgrifau henafol, a llyfrau prinion, ag sydd eto ar gael, cyn eu myned i ddifancoll.

**MORUS, Rhisiard**, oedd frawd i Llewelyn Ddu o Fon, henach nag ef. Yr oedd yn ysgrifenydd yn y For-swyddfa, yn Llundain. Yr oedd yn nodedig am goethder cynneddfau, treiddgarwch ymchwiliad, a chywreindeb craffder naturiol. Yr oedd ynddo ef, fel ei frawd, duedd ddiflino i fyfyrio ac ymddifyru, mewn casglu gwybodaeth, a hanesiaeth am ei wlad enedigol, a'i genedl. Pa orchwyl bynag a gymerai efe mewn llaw, efe a'i cyflawnai yn ddichlynaidd a theg. Hyn, yn nghyd a chyfryngaeth ei frawd Llewelyn, a enillodd iddo yntau sefyllfa dan y llywodraeth, sef prif ysgrifenydd y Swyddfa Forawl, yr hon alwedigaeth a gyflawnodd dros lawer o flynyddoedd; a phan yr aeth yn hen, oedfreintiwyd ef. Bu yn dra llafurus i wneud pob gwasanaeth a allai i'w genedl, mewn pethau tymhorol, ac ysprydol. Yn ei ddyddiau ef y cafodd bywioliaeth Trefdraeth, ei phenodi i offeiriad o Sais; ond y plwyfolion, yn ddigon rhesymol, a wrthwynebasant y penodiad. Bu Mr. Morus yn gefnogwr iddynt yn yr achos, ac ataliwyd y fywioliaeth oddiwrth y Sais. Bu y gwr enwog hwn hefyd yn wasanaethgar iawn, yn arolygu diwygiad dau argraphiad, (os nad mwy), o'r Bibl Cymraeg, sef rhai y blyneddoedd 1746, a 1762. Am y gwaith yma, dywedai mewn llythyr at gyfaill:—"Ystyriais yr iaith Gymraeg er ys mwy na haner can mlynedd, ac felly y mae genyf gyfarwyddyd cyflawn o'i mydryddiaeth, modd y gallaf wrth ei rheolau anhyfeth, gyweirio pob camysgrifenadaeth yn ngwaith yr hen feirdd, ac wrth ddiwygio y wasg yn y ddau argraphiad o'r Bibl, yn 1746, a 1762, bum ofalus iawn i sylwi ar y pethau lleiaf mewn ysgrifenyddiaeth gywir; ac ysgrifenyddion godidocaf yr oes hon, yn nghylch hyn, a unasant i fod fy amcan yn iawn, sef y Parch. Edward Samuel, y Parch. William Wyn, y Parch. Evan Evans, y Parch. J. Thomas, a fy nau frawd, Lewis, a Gwilym Morus." Er mwyn dangos ychwaneg o'i farn, am y gorchwyl o ddiwygio argraphiadau y Bibl, y mae yn werth cyfeirio at y llythyr canlynol, yr hwn a anfonodd efe at y Parch. John Evans, golygydd argraphiad y flwyddyn 1770, o ba un yr argraphwyd ugain mil:—"Twr Gwyn, 2 Chwefror 1760,—Anwyl Gyfaill.—Mynegodd Mr. Evans yr argraphydd i mi, fel y bu rhyngoch y dydd arall mewn eisteddfod, aelodau pa un oeddynt Dr. Worthington, Dr. Owen, Parch. J. Evans, &c., yn iaith a threfn y Bibl Cymraeg, a'ch bod wedi barnu yn oreu, Fibl yr esgob Llwyd, 1690; yn amgenach Cymreigiwr na'r Dr. Davies, awdwr y Gramadeg a'r Geirlyfr, a sefydlwr iawn-ysgrifenyddiaeth yr iaith, drwy brofiadau allan o waith y beirdd, y rhai yn unig a'i cadwasant heb ei cholli. Wfft i chwi oll! Gwendid mawr yw hynyna ysywaeth! Fy nghymydog, Mr. Prys Lewis, o goleg yr Iesu, ac wedi hyny, o Lanfachraeth, Mon, oedd coleddwr yr argraphiad hwnw (nid yr esgob Llwyd), drwy yr hwn y cafodd yr enw *Welsh Rabbi*, yn Rhydychain, Myfi a welais yn ei dy yn Llanfihangel Tre'r Beirdd, yr holl ddalenau prawf a ddaethant o'r wasg yn y gwaith hwnw. Yr oedd tad yr esgob Llwyd, o dylwyth yr Henblas, yn Mon, ond Sais oedd yr esgob, wedi ei eni yn Berkshire, ac ni wyddai fwy oddiwrth y Gymraeg, er ei fod unwaith yn esgob Llanelwy, na'r esgob Newcombe, sydd yno yr awr hon, yn ymdrechu hyd y geill am ddeol yr iaith oddiar wyneb y ddaear; felly tra anghymwys i hyfforddi iawn ysgrif y Bibl. Erchwn arnoch gymeryd trugaredd ar iaith eich mam, a pheidio tori ei hesgyrn eilwaith, y rhai sydd yn awr wedi eu gosod yn eu lle priodol, dan boen ysgymundod Cymdeithas y Cymrodorion, y rhai ydynt ei hamddiffynwyr, yn erbyn pawb a'i drylliant, o'r esgob i'r cardotyn. Fe wyddai wrth y chwedl yma eich bod chwi wedi anghofio y cyfamod rhyngoch a'r Gymdeithas, pan eich derbyniwyd yn aelod o honi, ar fod i chwi goledd eich mamiaith hyd eithaf eich gallu, canys yn ol yr hanes hwn, yr ydych wedi cymeryd mewn llaw ei drygu yn ddirfawr. Os chwi a ddirmygwch y rhybydd yma, gwae chwi na's ganesid chwithau yn Berkshire, canys beth a ddywedwch pan ddarllenoch mewn llyfr a gyhoeddir ar ol hyn, ddarfod i Moses Williams, a Rhisiard Morus, wneyd aneirif o welliadau yn iaith ac orgraph y Bibl, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, yn 1718, 1746, a 1762; ond yn 1768, fe adferwyd yr holl feiau, drwy fawr boen a llafur. Pwy a enwir yma? Ffei rhag cywilydd! Na sonier am fath beth yn heolydd y ddinas. Oni welwch chwi fel y mae y Dr. Davies yn profi y geiriau, "bore," "daear," &c., drwy

Digitized by Google

awdurdod y beirdd? A phwy yn yr oes hon sydd yn rhyfygu gwrthsefyll yr awdurdod hwnw? Mae cantoedd o feiau mân, yn orgraph y Bibl mawr, y rhai a ddiwygiwyd yn y rhai canlynol, megis dyblu y cydseiniaid heb achos; camosodiad eraill yn wrthwyneb i reolau gramadeg, &c., y rhai wrth gydmaru y llyfrau yn nghyd, a ymddangosant ar yr olwg gyntaf; ond nid oes neb mor ddall a'r rhai ni fynant weled. Mi wyf yr eiddoch, Rhisiard Morus." Dywedir hefyd ddarfod i'r gwr hwn ddangos parodrwydd ewyllysgar a haelionus, i gynorthwyo y diweddar Barch. Peter Williams, yn y gorchwyl llafurus, a llesfawr o gyhoeddi y Bibl Cymraeg, gyda nodiadau, a sylwadau ar bob penod. Ymddengys hefyd, fod ganddo gryn raddau o'r ddawn farddonol, ac y mae peth o'i waith yn argraphedig, i wirio hyn, heblaw tystiolaeth yr enwog fardd, Goronwy Owain, yr hwn a ddywed yn Nghywydd Marwnad ei fam ef, fel hyn:—

"Rhisiard am gerdd ber hoewsain,
Hafal ni fedd Gwynedd gain."

Bu farw Rhisiard Morus, yn y flwyddyn 1779, a chladdwyd ef yn mynwent *St. George in the East*, Llundain; a gadawodd ar ei ol, wraig a phlant. Aeth mab iddo, a elwid Rhisiard, i fyw fel masnachwr gwladol i'r India, ac yr oedd dwy ferch iddo yn byw yn Llundain rai blyneddau yn ol.

**MORUS**, William, oedd frawd arall i "Llewelyn Ddu o Fon," yr hwn oedd lysieuydd galluog iawn, ac athronydd naturiaethol tra rhagorol. Trwy ddylanwad ei frawd Llewelyn, cafodd sefyllfa o ymddiried dan y llywodraeth, sef Cyfarchwyliaeth y Cyllidau, a chasglydd Toll yr Halen, yn Nghaergybi. Yno, mae'n debygol, y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd, ac y gorphenodd ei yrfa ddaearol, yn 1764. Yr oedd ei athrylith yn eang; ac yr oedd wedi cyrhaedd i amryw ganghenau o wybodaeth a dysg. Bu yn ddiwyd iawn, yn casglu ac yn adysgrifenu gweithiau y prif feirdd, &c. Yr oedd ganddo wybodaeth, a difyrwch mewn cerddoriaeth; canys dywedir yr arferai hyfforddi ieuengetyd Caergybi yn y gelfyddyd honno. Yr oedd efe hefyd, yn ol ei eiriau ei hun, yn ei lythyr at Mr. Huw Huws, y Bardd Coch, yn arfer ymddifyru mewn casglu amryw fathau o feteloedd cloddiedig, cregin cywreinddull, &c. Drachefn, cangen arall o'i wybodaeth a'i hyfrydwch, oedd garddwriaeth, a llysieuaeth. Cyfrifid ei ardd yn Nghaergybi, yn un o'r gerddi harddaf a thirionaf yn Ngwynedd. Am dano ef, fel llysieuwr, y dywedodd Mr. Evan Evans, yn ei Gywydd Marwnad a gyfansoddodd ar ei ol:—

"Brasgamu, llamu y llwybr
Linneas yn ei lan ewybr."

Ac fel crynhoad o ragoriaethau yr un gwr, y mae y bardd crybwylledig, wedi dodi yr hyn a ganlyn o flaen ei farwnad iddo:—"Llysieuydd godidog, a rhagorol am ei wybodaeah yn amryw gangau philosophyddiaeth anianol, celfydd yn iaith yr hen Frytaniaid, a'r beirdd, a hynod am amryw gampau gorchestol, a rhinweddau da eraill, nad ydynt yn aml yn Nghymru y tô yma." Y mae y cofnodau hyn yn nghyd, yn dangos fod talent ac athrylith wedi disgyn i'r teulu hwn i raddau uchel iawn, yn amrywiol ganghenau gwybodaeth a dysg; ac mai nid y gemau lleiaf yn eu coronau ydoedd, eu llenoriaeth Gymreigyddol.

**MORUS BERWYN**, ydoedd fardd, yr hwn a flodeuai rhwng 1650, a 1690. Y mae rhai o'i ganiadau ar gael mewn ysgrifen.

**MORUS GETHIN**, ydoedd fardd a flodeuai rhwng y blyneddoedd 1470, a 1570. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau mewn ysgrifen.

**MORUS LLWYD** ab William, oedd fardd yn byw rhwng 1560, a 1690. Cyfaneddai yn Mhrys Iorwerth, Mon. Y mae rhai o'i gynnyrchion eto ar gael mewn ysgrifen.

**MORYDD**, fab Dan, neu Daned, yn ol y Brutiau Cymreig, a olynodd ei dad ar orsedd Prydain. Efe a fuasai yn dywysog o deilyngdod annghyffredin, pe na buasai mor dueddol i greulondeb afresymol; canys nid ymattaliai rhag cyflawni llofruddiaeth yn ei gynddaredd. Yr oedd yn ddyn o gyfansoddiad prydferth; yn hael yn ngweinyddiad ei ffafrau; ac o'r fath nerth rhyfeddol, fel nad oedd a ymgystadleuai âg ef yn yr holl deyrnas. Yn ei amser ef y goresgynodd brenin y Moriniaid barthau gogleddol yr Ynys, gyda byddin gref, gan ddechreu ei hanrheithio: a Morydd â holl nerth ei deyrnas, a aeth allan i'w erbyn, ac a ymladdodd ag ef: ac yn y frwydr hono gwnaeth ef ei hun fwy na'r rhan fwyaf o'i fyddin; ac wedi y fuddugoliaeth, ni's goddefodd i un o'r gelynion ddianc yn fyw; canys efe a orchymynodd eu dwyn ato, y naill ar ol y llall, fel y gallai borthi ei greulonedd wrth eu gweled yn cael eu lladd ger ei fron; ac wedi blino ar hyn, efe a barodd eu blingo yn fyw, a'u llosgi wedi hyny. Yn ystod y creulonderau hyn, a'u cyffelyb, cymerodd damwain le, yr hon a roddes derfyn ar ei ddrygioni. Daeth angenfil creulawn o fôr y Werddon, yr hwn a barhai i ysglyfaethu trigolion yr arfordiroedd. Can gynted ag y clywodd Morydd am dano, efe a aeth i ymladd ag ef ei hunan, ac wedi treulio o hono ei holl arfau yn ofer yn ei ymosodiad arno, yr angenfil a ruthrodd arno, ac a'i llyncodd yn fyw, fel pe buasai bysgodyn bychan. Morydd a adawodd bump o feibion, yr henaf o ba rai, Gorfyniawn, a'i holynodd ef yn y freniniaeth.

**MORYDD**, fab Llywarch Llwyd, brenin Ceredigion, marwolaeth yr hwn a gymerodd le meddir, Rhagfyr 8fed, o.c. 830.

**MWROG**, un o'r hen seintiau Cymreig boreuol; ond nid ydys yn sicr pa bryd yr oesai. Efe a seiliodd eglwys Llanfwrog, yn Môn; a'i gofwyl a gedwid Ionawr 6, neu y 15.

**MWSTWR**, trefgordd yn mhlwyf Corwen, swydd Feirionydd, yn agos i dref Corwen. Poblogaeth yn 1861, 239.

**MYDAN**, mab Pasgen ab Urien Rheged, sant, oedd yn ei flodau yn agos i ddiwedd y chweched ganrif. Yr oedd efe yn aelod o Gor Cattwg.

**MYDREILIN**, treflan yn nghanol swydd Aberteifi; 7 milldir i'r Dehau wrth ddwyrain o Aberaeron. Mae yma lythyrfa dan Aberaeron.

**MYDRYM**, neu Meidrum, plwyf, yn undeb, a swydd Gaerfyrddin, ar yr afon Gynin, 3 milldir i'r gogledd wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd St. Clears; ac 8½ milldir i'r gorllewin o Gaerfyrddin. Llythyrfa, St. Clears. Erwau, 6905. Gwerth trethedig, 5142*p*. Poblogaeth yn 1861, 992; yn 1871, 951. Tai annedd, 196. Y mae hen wersyll o'r enw "Castell Brynule," yn gorchuddio llanerch o tua dwy erw o dir, ac wedi ei ddiffynu âg un amgaer, o fewn y plwyf hwn. Cynhelir ffair gwartheg a cheffylau yma ar y 12fed o Fawrth. Y fywioliaeth

Digitized by Google

eglwysig sydd ficeriaeth, unedig âg is-beriglorïaeth wastadol Llanfihangel Abercowin, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 90p. Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

**MYDWALLED**, neu MEDWALLETH, trefgordd yn mhlwyf Bugeildy, swydd FAESYFED, 5½ milldir i'r de ddwyrain o'r Dref Newydd.

**MYDDFAI**, plwyf, yn undeb Llanymddyfri, swydd GAERFYRDDIN, ar yr afon Sefin, 3¼ milldir i'r Dehau o orsaf rheilffordd Llanymddyfri, a 3½ milldir i'r gorllewin o'r ffin rhwng swyddi Caerfyrddin a Brycheiniog. Cynnwysa dreflanau Myddfai Isaf, a Myddfai Uchaf: a chynhelir ffeiriau ar Mehefin 18, a Hydref 18. Llythyrfa, Llanymddyfri, dan Gaerfyrddin. Erwau, 11,914. Gwerth ardrethol, 5343p. Poblogaeth yn 1851, 1069; yn 1861, 1118. Tai annedd, 232. Y mae yr arwynebedd yn fryniawg, ac y mae mŵn plwm yn y creigiau. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 103p. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys yn hên, ond mewn cywair da; a chynnwysa yn y gangell, gof-lech i'r Doctor Morgan Owen, Esgob Llandaf o 1639, hyd 1644, yr hwn a gladdwyd yma. Y mae yn y fynwent hen ywen, 25 troedfedd o gylch-fesur; a sycamorwydden, 54 troedfedd o gylch-fesur. Y mae y llan yn gyssegredig i St. Michael, am ba achos y gelwir y lle weithiau, "Llanfihangel Myddfai." Yr oedd gynt Gapel anwes, yn y lle a elwir Dol Hywel; ond y mae yn furddyn adfeiliedig er's llawer blwyddyn. Y mae dwy garnedd mewn cae o'r enw Cae'r Mynach, yn agos i'r Ficerdy; ac yn y rhandir fynyddig, y mae craig a enwir "Craig Cwm Clyd," yr hon sydd yn agos i driugain llath o uchder union-syth. Yn y drydedd ganrif ar ddeg yr oedd tylwyth o feddygon tra enwog yn cyfanneddu yn y plwyf hwn, sef Rhiwallon, a'i dri mab, Cadwgan, Gruffydd, ac Einion, y rhai a adawsant mewn ysgrifen, adroddiad cyflawn o'r ymarfer o physygwriaeth, fel yr oedd yn adnabyddus iddynt hwy; ac y mae y gwaith hynod hwn wedi ei argraffu yn ddiweddar, gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig: ac y mae yn deilwng o sylw, fod hiliogaeth Rhiwallon, wedi parhau i olynu eu gilydd yn ddidor, fel meddygon yn Myddfai, hyd ganol y ganrif ddiweddaf. Y mae gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, addoldai yn y plwyf. Perthyna i'r plwyf tua 17 punt yn y flwyddyn o elusenau.

**MYDDFAI**, treflan yn mhlwyf Llanarthney, swydd GAERFYRDDIN, 6½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Landeilo Fawr.

**MYDDFAI (Y)**, afonig yn swydd Gaerfyrddin, yn tarddu yn agos i bentref Myddfai, ac yn arllwys i'r Towy, islaw Llangadoc.

**MYDDFAI (Y)**, afonig yn swydd Feirionydd, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Maw, gerllaw Mynachlog y Cymmer.

**MYDDLETON**, SYR HUGH, y boneddwr a'i henwogodd ei hun trwy ddwyn yr Afon Newydd i Lundain, a anwyd yn mhlwyf Henllan, gerllaw Dinbych. Yr oedd ef yn chweched mab i Richard Myddleton, llywydd castell Dinbych yn nheyrnasiad y brenin Edward y Chweched, a'r breninesau Mari, ac Elizabeth,—o Jane, ferch Hugh Dryhurst, o Ddinbych. Efe a amlygai dalent gref fel peiriannydd yn ieuanc, ac a ddechreuodd, fel ein hysbysir ganddo ei hunan, trwy chwilio am lô, o fewn milldir i'r man ei ganed. Wedi hyny, efe a ymsefydlodd yn Llundain fel gof aur. Gan nad oedd y brif ddinas yn cael ei chyflenwi â digonedd o ddwfr, cafwyd tair o weithredoedd Seneddol i'r perwyl hyny; un yn nheyrnasiad y frenhines Elizabeth, a dwy yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf, yn caniattau i ddinasyddion Llundain, hawl gyflawn i ddwyn afon i'r brif ddinas o unrhyw barth yn swyddi Middlesex, a Hertford. Wedi llawer o ymgynghoriad, rhoddwyd yr amcan i fynu, fel peth na's gellid ei gwblhau, hyd oni ymgymerodd Syr Hugh Myddleton â'r gorchwyl, fel cydnabyddiaeth am yr hyn, darfu i'r ddinas drosglwyddo iddo ef a'i ettifeddion, yr holl awdurdod a'r hawl-fraint a roddasai y ddeddf Seneddol iddynt hwy, i'r perwyl hyny, mewn gweithred a gadarnhawyd Ebrill 1af, 1606. Gan hyny, wedi gwneuthur archwiliad manol o'r holl ffynnonau, a'r afonydd, yn swyddi Middlesex, a Hertford, efe a ddewisodd ddwy ffynnonell, un yn mhlwyf Amwell, yn agos i Hertford, a'r llall yn agos i Ware; y ddwy oddeutu ugain milldir o bellder o Lundain, ac wedi uno eu ffrydiau, efe a'u cludodd i'r ddinas, trwy draul, a llafur dirfawr. Dechreuwyd ar y gwaith ar yr 20fed o Chwefror, 1608, ac fe'i dygwyd yn mlaen drwy amryfath diroedd am rawd o yn agos i ddeugain milldir, gan gynnwys yr holl drofeydd. O'r diwedd, gorphenwyd y pontydd lluosog, y dyfr-ffosydd, a'r ceu-ffyrdd; a dygwyd y dwfr i'r gronfa, yn Islington, ar ddydd Gwyl Mihangel, 1613. Er i'r brenin Iago dalu haner y treuliadau ar y gwaith mawr hwn, fe andwywyd Syr Hugh drwy ei anturiaeth; a llyncodd yr Afon Newydd ei holl gyfoeth, gan gynnwys dwy fil o bunnau yn y mis, o'i fwngloddiau yn Ngheredigion. Ar orpheniad llwyddiannus y gorchwyl enfawr hwn, y brenin a'i gwnaeth yn farchog; ac yn y flwyddyn 1622, efe a'i creodd yn farwnig. Yr oedd y cyffredin mor bell o feddu synied priodol am fuddioldeb yr anturiaeth, fel am fwy na deugain mlynedd, na chynnyrchai y deuddeg a thriugain cyfranau, i ba rai ei trefnasid, ddim mwy na phum punt yr un. Gwerthid pob un o'r cyfranau ar y dechreu, am gan punt; ond wedi hyny buant yn gwerthu am ddeng mil o bunau y gyfran. Tlodasai yr anturiaeth ef, fel y bu raid iddo ddilyn peirianyddiaeth fel galwedigaeth, a bu ei fedrusrwydd o wasanaeth mawr mewn llawer o fanau, lle y byddai eisiau dyfrffosi tir, ac mewn cyssylltiad a mŵnyddiaeth. Efe a gynnrychiolai fwrdeisdref Dinbych yn y Senedd am y blyneddoedd 1603, 1614, 1620, 1623, a 1628. Efe a anrhegodd gorfforaeth Dinbych, o'r hon yr oedd yn henadur, â dau fyrllysg, a chwpan arian hardd; a rhoddodd gwpan arall i ben ei deulu, yr hon gwpan a gedwid yn Ngwaenynog hyd yn ddiweddar. Bu farw Syr Hugh, yn y flwyddyn 1631, gan adael hiliogaeth o'i wraig Elizabeth, ferch, ac aeres John Olmstead o Ingatestone, Essex, Ysw. Y mab henaf a fu byw, Syr William Myddleton, a olynodd yn y farwnigiaeth; ac ar farwolaeth ei fab ef, Syr Hugh, y trydydd barwnig, yn ddi blant, yn y flwyddyn 1675, darfu am y teitl.

**MYFANWY FECHAN**, boneddiges a hanai o dras Tudyr Trefor, ag oedd yn dra chlodfawr am ei glendid; preswyliai yn Nghastell Dinas Bran, gerllaw Llangollen, yn nghylch y flwyddyn 1390. Ymddengys fod y Bardd enwog Hywel ab Einion Llygliw, wedi cael ei lygad-dynu gan ei thegwch, ac efe a gyfansoddodd Gywydd gorchestol iddi, yr hwn a gyhoeddwyd yn y *Myvyrian Archaiology*.

**MYFENYDD**, bardd a flodeuai yn y ddegfed ganrif; ond nid ydys yn gwybod fod dim o'i Gyfansoddiadau ar gael.



Digitized by Google

**MYGNACH**, sant a fucheddai tua chanol y chweched ganrif. Yr oedd yn fab i Mydno o Gaer Seon, neu Gaerllion, yn agos i Aberconwy, yr hwn oedd yn fab i Gwron ab Arch, ab Gwrddyled, ab Eginir, ab Owain Finddu, fab Macsen Wledig. Bu Mygnach dros ryw yspaid yn Gofnodydd coleg Cybi, yn Nghaergybi; ac wedi hyny yn llywydd ynddo. Gelwir ef hefyd "Ugnach."

**MYHATHAN**, treflan yn mhlwyf Llanarthney, swydd GAERFYRDDIN, 6½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 1571*p*. Poblogaeth, yn nghyda Threforgan, 338.

**MYLES**, JOHN, sylfaenydd Cymanfa y Bedyddwyr yn Nghymru, ydoedd fab i Walter Myles o Newton, swydd Henffordd. Mae tair trefgordd o'r enw Newton yn swydd Henffordd, ac ni fynegir i ba un o honynt y perthyn yr anrhydedd o roi genedigaeth i John Myles; ond gan y dywed traddodiad, mai brodor ydoedd o gyffiniau swydd Henffordd, rhaid mai yn Newton, yn mhlwyf Clodoc, neu yn Newton, yn mhlwyf Leintwardine, y ganwyd ef. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1621. Derbyniwyd ef yn aelod o goleg Brasenose, Rhydychain, Mawrth 11, 1636. Nid yw yn hysbys dros ba hyd y bu yno, a pha un a dderbyniodd efe radd-urddau yno. Ni chawn olwg arno mwyach hyd Chwefror 22, 1649, pan y gwelwn ei enw yn mhlith Gweinidogion yr Efengyl, a elwir "y cymmeradwywyr," yn y weithred Seneddol, o'r dyddiad uchod, er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru. Mae yn amlwg felly, fod John Myles yn weinidog cyn ffurfiad y weithred uchod; ond nis gwyddom yn mha eglwys yr oedd. Nis gallasai fod yn eglwys blwyfol Ilston, gan, yn ol Walker, mai W. Houghton oedd yr offeiriad yn y plwyf hwnw yn nechreu 1649. Trowyd ef allan, gan y "profwyr," am ei ddiffyg cymmwysder, a rhoddwyd John Myles yn ei le; ond ar adferiad y freniniaeth, yn 1660, trowyd yr olaf allan, a dychwelwyd y cyntaf i'w fywioliaeth.—*Dr. Walker's Sufferings of the Clergy, part* ii. *page* 278.

Felly y mae yn aros yn ddirgelwch yn mha le yr oedd John Myles yn weinidog yn nechreu 1649; y tebygolrwydd yw, bod y traddodiad yn gywir, am fodolaeth cynnulleidfa o Ymneillduwyr yn mhlwyf Ilston, sef Llanilltyd-yn-Mrowyr, 7½ milldir i'r gorllewin-dde-Orllewin o Abertawe, Morganwg, mor foreu, o leiaf, a 1642; a dichon mai llafurio yn mhlith y gynnulleidfa hono yr oedd John Myles, ac feallai hefyd, Thomas Proude, cyn dyfod i'r golwg yn 1649. Pa fodd bynag, "yn ngwanwyn y flwyddyn hono (1649), fe'n hysbysir i John Myles, a Thomas Proude fyned i Lundain, ac o dan gyfarwyddyd rhagluniaeth, ddyfod at y gymdeithas fedyddiedig yn y *Glass House, Broad Street*, yr hon oedd dan ofal Mr. William Consett ac Edward Draper; lle y cawsant dderbyniad croesawus. Yna yn ddioed, cadwyd diwrnod i ymofyn â'r Arglwydd, ac i erfyn arno anfon gweithwyr i'r conglau tywyll hyny o'r tir. Yn fuan, anfonwyd y teithwyr hyn yn ol drachefn, i'w gwlad eu hunain, lle y buont yn offerynol i gynnull Eglwys Fedyddiedig ar y pryd a nodir uchod, (sef gwanwyn 1649) yr hon, trwy fendith ar eu llafur, a gynnyddodd, erbyn diwedd y flwyddyn ddilynol, i bymtheg a thri ugain o aelodau. Yn 1651, ymunodd deugain yn rhagor a hi; saith a deugain yn 1652; ac erbyn diwedd 1660, yr oedd dau cant a thri ugain a thri o bersonau wedi ymuno â'r eglwys hono, enwau pa rai a safant yn awr mewn cof-lyfr cryno a gadwent."—*Backus's History of New England*, Boston, 1777.

Eglurwn yma, i John Myles a'i holl eglwys, ymfudo i'r America, pan dorodd yr erlidigaeth allan yn 1662; ac iddo fyned a Llyfr Eglwys Ilston yno gydag ef; yr hwn, yn rhagluniaethol, a syrthiodd i ddwylaw Isaac Backus, ac a ddyfynwyd yn helaeth ganddo, yn ei "Hanes o Loegr Newydd, gyda chyfeiriad neillduol at y Bedyddwyr;" ac felly y dychwelwyd i Fedyddwyr Cymru, hanes dechreuad amryw o'u heglwysi.

Yn Llyfr Eglwys Ilston, cawn y cofnodiad canlynol am ddechreuad yr achos:—"Nis gallwn lai na rhyfeddu yn barchus at ddoethineb anchwiliadwy, gallu, a chariad Duw, yn nygiad oddiamgylch ei fwriadau ei hun, yn mhell uwchlaw, a thu hwnt i alluoedd a dealldwriaeth y doethaf o ddynion. Fel hyn, er gogoniant ei enw mawr ei hun, y mae efe wedi ymddwyn tuag atom ni; oblegyd tra nad oedd yn bodoli unrhyw gwmpeini, neu gymdeithas o bobl, yn dal allan a phroffesu athrawiaeth, addoliad, trefn, a dysgyblaeth yr Efengyl, yn unol a'i sefydliad cyntefig, ag y clywsom ni erioed am danynt, yn holl Gymru, er amser y gwrth giliad (*apostacy*), bu foddlawn gan yr Arglwydd ddewis y gongl dywell hon i osod ei enw ynddi, a'n anrhydeddu ni, rai annheilwng, â'r dedwyddwch o fod y rhai blaenaf yn yr holl barthau hyn, yn mhlith y rhai yr ymarferwyd yr ordinhad ogoneddus o fedydd, ac yma i gynnull yr eglwys gyntaf o gredinwyr bedyddiedig."

Dyddiad corpholiad yr eglwys yw, "Hydref 1af, 1649;" a gwelsom ysgrifenydd diweddar yn gwneyd defnydd pur annheg o'r dadganiad uchod, drwy haeru oddiwrtho "nad oes cysgod o brawf, bod dim Gwrthfedyddwyr-babanod yn Nghymru, yn flaenorol i'r flwyddyn 1649, ac mai John Myles oedd eu sylfaenydd.

Ni ddylai unrhyw ysgrifenydd honi y gradd lleiaf o graffder hanesyddol, oni wyr efe bod i'r ymadrodd "cynnull eglwys," neu "eglwys gynnulledig," ystyr neillduol ac arbenig i Annghydffurfwyr y cyfnod hwnw, y rhai, ar ol ymarfer ar hyd eu hoes, ymgyfarfod i addoli Duw yn nirgel leoedd y wlad, mewn distawrwydd, ac yn y nos, oeddynt yn awr yn dechreu cael eu corpholi yn eglwysi cyfammodol, ac i'r amcan hwnw, yn myned trwy *ffurf* o gorpholiad,—ffurf ag oeddynt newydd dderbyn o Loegr, a ffurf ag oedd rhai o honynt, a dyweyd y lleiaf, yn lled ofni ei bod yn sawru o Babyddiaeth. Mae yn amlwg bod rhai o honynt yn dra gwrthwynebus i gael eu corpholi yn ffurfiol yn eglwysi cynnulledig, gan weithredu ar yr egwyddor o gashau hyd yn nod y wisg a halogwyd gan y cnawd; yr oeddynt yn ffieiddio twyll offeiriadaeth, a chaethiwed eglwysig, i'r fath raddau, fel yr ofnent y byddai cael eu corpholi yn eglwysi ffurfiol, drwy fyned dan ddwylaw a bugeiliaeth gweinidogion, ethol swyddogion, &c., yn tueddu i'w dwyn yn ol i'r un caethiwed drachefn.

Yn Nhachwedd 1639, anfonwyd Henry Jessey, gan ei eglwys yn Southwark, Llundain, i Gymru; i gynnorthwyo William Wroth, Walter Cradoc, ac eraill, i gorpholi yr eglwys yn Llanfaches. Dyma y corpholiad cyntaf yn Nghymru; ac mae yn amlwg mai yn erbyn barn a theimlad William Erbury, y darfu i Annghydffurfwyr Caerdydd ddilyn esiampl eu brodyr yn Llanfaches, yn y pwnc hwn; canys dywed Erbury, yn ei anerchiad i'r eglwys hono.—"Anwylyd, pregethwr oeddwn i chwi ar y cyntaf,

Digitized by Google

yna eich bugail; a'r diweddaf, nid yn ol fy ngoleuni fy hun, ond o gariad at Saint Llanfaches, y rhai wedi eu cynull yn eglwys ar ffurf newydd, ni adawent lonydd i mi, nes y daethym i a'm pobl i'r un ffurf a hwythau: felly y rhodiasom,—hwy yn y goleuni, o herwydd yr wyf yn credu i hyny eu harwain hwynt i gymdeithas; ond myfi yn y tywyllwch, oblegyd yn groes i'm hargyhoeddiad; mewn cariad yn unig, fel y dywedais, y dilynais hwynt, am nas gallwn roddi tramgwydd. Ond gwelwch farn Duw; y mae llai o gariad, a mwy o dramgwyddiadau wedi bod rhyngom ar ol i ni ddyfod i frawdoliaeth, neu gyngrair o eglwysi, na phan yr oeddym yn fintai o saint gwasgaredig. Wel, eglwysi cynnulledig oedd raid i ni fod, ac felly y buom, hyd nes i'r cleddyf ein gwasgaru oll i Loegr; yna bu iddynt hwy o Lanfaches barhau gyda'u bugail, eu hathraw, a'u henadur llywodraethol."—*Erbery's Testimony.*

Tybiwn y teifl y dystiolaeth uchod, oleuni ar y syniad a fodolai yn y dywysogaeth yn y cyfnod hwnw, o barthed i gorpholi, neu gynnull y saint yn eglwysi; ac mai yn y goleuni yna y mae cysoni yr hyn a ddywed Joshua Thomas, am eglwys y Bedyddwyr yn Olchon; sef bod yno eglwys mor foreu, o leiaf, a 1633, â'r hyn a ddyfynasom uchod o Lyfr Eglwys Ilston; sef mai yr eglwys a gorpholwyd yno yn 1649, ar gynllun yr eglwys yn y *Glass House*, Llundain, oedd yr eglwys gyntaf o gredinwyr bedyddiedig yn holl Gymru.

Heblaw hyny, y mae yn berffaith amlwg, mai egwyddor fawr corpholiad yr eglwys yn Ilston, oedd ei bod i gael ei gwneyd i fyny yn hollol o "gredinwyr bedyddiedig," neu yn iaith y dyddiau presenol, i arfer "cymmundeb caeth;" ac ar yr egwyddor hono hefyd y ffurfiwyd y Gymanfa, gan gau allan bob eglwys a oddefai fedydd babanod. Nid oes dim sydd sicrach nac mai eglwysi cymmysg, o barth eu barn am, a'u harferiad o fedydd, ydoedd amryw o'r eglwysi a ddaethant wedi hyny i berthyn yn hollol i enwad yr Annibynwyr. Yn ol Ivimey, eglwys gymmysg oedd eglwys Henry Jessey, er 1637; a bedyddiwyd ef ei hun gan Hansard Knollys, yn 1645. Eglwys gymmysg hefyd oedd Llanfaches o'i dechreuad; a gweinidog ar gangen o honi, Llantrisant, oedd William Thomas, yr hwn a fedyddiai bedwar ar ddeg yn Broadmead, Caerodor, yn 1666. Pa fodd bynag, pan ffurfiwyd eglwys Ilston gan Myles a Proude, gan osod bedydd y crediniol i lawr fel ammod aelodaeth, yn uniongyrchol corpholwyd eglwys y Gelli, yn Mrycheiniog, ger cartref John Myles; yr hyn, yn marn Joshua Thomas, a olygai bod hen eglwys Olchon yn cael ei chorpholi o'r newydd, a bod y lluaws a fedyddiwyd y flwyddyn hono yn ardaloedd y Gelli, a Llanigon, yn cael eu hychwanegu ati, a'u ffurfio yn un eglwys, dan gyfarwyddyd John Myles; ac yn niwedd y flwyddyn hono hefyd, neu ddechreu y ddilynol, corpholwyd eglwys yn Llanharan, Morganwg; felly dyma dair eglwys o Fedyddwyr wedi eu corpholi yn Nghymru, o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd; ac ar y 6ed a'r 7fed o Dachwedd, 1650, cawn y tair eglwys yn ymffurfio yn Gymanfa, er ymgynghori a'u gilydd, a threfnu y cynllun goreu i ddwyn y gwaith yn mlaen. Dyma y Gymanfa gyntaf yn Nghymru, os nad yn Lloegr hefyd; felly mae yn ddyddorol i gofnodi ei phenderfyniadau cyntaf; y rhai a redent i'r perwyl hwn:—"Bod y brodyr, wrth ystyried prinder mawr y gweinidogion a ddaliant allan yn garedig air y gwirionedd yn swydd Gaerfyrddin, a bod cyfleusdra tymmoraidd yn cael ei roddi yn awr gan Ragluniaeth Duw, er lledaenu y gwirionedd yn y parthau hyny, yn penderfynu i'r brawd Dafydd Dafis, o hyn allan ymdrechu pregethu y ddau ddydd cyntaf yn mhob dau fis, yn nhref Caerfyrddin, neu o amgylch yno; bod i'r brawd Myles, bregethu yn y parth hwnw un dydd cyntaf yn mhob dau fis; a bod i'r brawd Prosser bregethu yno un dydd cyntaf yn mhob dau fis; ac y dymunir ar i'r brodyr hyn ymgynghori, a threfnu rhyngddynt a'u gilydd, pryd y bydd yn fwyaf cyfleus i unrhyw un o honynt i fod yno. Ac wedi ystyriaeth ddifrifol o sefyllfa y brodyr yn Llanharan, bernir yn ddoeth gan y brodyr yma, bod cynnulliad parhaus i gael ei gynnal yno gan yr eglwysi, nes y bydd i'r Arglwydd godi brodyr mwy galluog yn eu plith eu hunain; bod y brawd Dafis i fod yn wyddfodol yno mor aml ag y bydd yn bossibl iddo; ond pan y bydd ef yn gorfod bod yn Nghaerfyrddin, ein bod yn dymuno ar ein brodyr yn y Gelli, i ofalu anfon yno y brawd Prosser, neu y brawd Thomas Watkins, neu rywun arall a farnont yn gyfleus. Ac yn mhellach, gan ystyried y cyfryw frodyr ag ydynt yn llafurio yn y weinidogaeth, gofynir ar i'r swm o 30*p.* gael ei godi gan yr eglwysi, yn gyfraniadau cyfartal, 10*p.* yn mhob eglwys, at gynnaliaeth y weinidogaeth."

Yna penodwyd ar frawd o bob eglwys i ofalu am yr arian, bod casgliad i gymmeryd lle yn chwarterol, a bod y brawd Prosser, ar gyfrif ei lwyr ymroddiad i'r weinidogaeth, i gael 25*p.* y flwyddyn o honynt, a bod y 5*p.* eraill, i'w talu yn ol ewyllys yr eglwysi.

Gwelir bod yma, o leiaf, bump o weinidogion, a hyny yn mhen deuddeg mis ar ol corpholiad yr eglwys gyntaf: sef John Myles, Thomas Proude, Dafydd Dafis, Walter Prosser, a Thomas Watkins. Ond gan na ofynid i'r eglwysi ddarparu yn gwbl at gynnaliaeth ond yn unig "y brawd Prosser," y mae yn ymddangos bod y tri cyntaf a enwyd, ar gyfrif eu bod wedi derbyn addysg yn y brif-ysgol, ac urdd esgobawl, wedi eu gosod yn y bywioliaethau plwyfol, o dan y "Gyfraith er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru," a'u bod yn derbyn tâl dan y llywodraeth. Mae sicrwydd bod John Myles wedi ei osod yn rectoriaeth Ilston, a Thomas Proude yn rectoriaeth Cheriton, ger Abertawe. Hawdd fyddai i ni gondemnio ymneillduwyr y cyfnod hwnw, am ymgyssylltu felly a'r llywodraeth wladol; ond lliniara ein condemniad, pan ddeallwn, mai nid "cyssylltiad yr Eglwys a'r wladwriaeth" oedd y maen tramgwydd yn y dyddiau hyny, ond cyflwr di ymadferth a llygredig yr offeiriaid, y rhai a fwytaent fara seguryd, ac a adawent y bobl i newynu am fara y bywyd; a phan ymaflodd y Llywodraeth yn y gwaith o buro y weinidogaeth, a rhoi Efengyl effeithiol i Gymru, ac yn neillduol gan nad oedd un caethiwed yn cael ei osod ar olygiadau ac arferion crefyddol gweinidogion y gwahanol enwadau Ymneillduol, wrth gael eu gosod i mewn yn yr eglwysi plwyfol, rhuthrodd llawer o weinidogion y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr i mewn, megys o dan eu dwylaw, gan dybied, yn ddiamau, ei fod yn gyfleustra rhagorol iddynt i wneuthur daioni, ac i sefydlu gwir grefydd yn y wlad, heb fawr feddwl eu bod drwy hyny, yn colli y cyfleustra euraidd i ddadgyssylltu yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth, ac i osod crefydd i ymddibynu ar yr egwyddor wirfoddol.

Y mae yn anmhossibl yn awr dysgrifio i foddlon-

Digitized by Google

rwydd, gyssylltiad John Myles âg eglwys blwyfol Ilston, ac a'r Bedyddwyr; sef pa un a oedd efe yn myned trwy ei ddyledswyddau fel gweinidog y plwyf, gan dderbyn at fwrdd yr Arglwydd yn unig y rhai oeddynt wedi eu bedyddio trwy drochiad; neu ynte a oedd ganddo ddwy gynnulleidfa; un yn gynnulleidfa gymmysgedig, yn cyfarfod yn eglwys y plwyf, a'r llall yn gynnulleidfa o Fedyddwyr, yn cyfarfod mewn rhyw le arall. Mae hen adfeilion capel yn aros yn Ilston, a elwid "Capel y Drindod," yn mesur 24 troedfedd o hyd, wrth 8 o led; a dywed traddodiad lleol, mai capel y Bedyddwyr ydoedd. Dichon mai yn hwnw y corpholodd John Myles yr eglwys, ac mai yno yr arferent ymgyfarfod mewn cymmundeb; neu ynte, fe ddichon i'r eglwys, ar ol cael ei chorpholi yno, symud i Lanilltyd (yr eglwys blwyfol), pan benodwyd ei gweinidog i'r fywioliaeth hono, yn lle W. Houghton. Oblegyd y mae yn dra sier bod yr eglwys fedyddiedig wedi ei chorpholi yno, rai misoedd o leiaf, cyn i'w gweinidog gael ei osod yn y fywioliaeth blwyfol. Corpholwyd yr eglwys, fel y nodwyd, Hydref 1af 1649; tra na ddaeth y "Ddeddf er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru" i'w grym, hyd Mawrth 25ain 1650; ac o dan hono y rhoddwyd yr Ymneillduwyr yn y Llanau plwyfol.

Pa wedd bynag, y mae yn ddilys ddigon, na weinyddai efe gymmundeb i neb ond y rhai oedd wedi eu bedyddio trwy drochiad, fel y gwelir oddiwrth y llythyr canlynol a anfonodd efe at eglwys y Gelli, yr hon cyn ei chorpholi oedd mewn blinder, drwy fod rhai yn bygwth dwyn i mewn gymmundeb cymmysg i'w plith, a dwyn Vavasor Powel yno, i bregethu dros hyny. Ymddengys hefyd bod Jenkin Jones, yr hwn hefyd oedd dros gymmundeb cymmysg, wedi bod yn gweinyddu cymmundeb i rywrai oedd heb eu bedyddio a'r broffes o'u ffydd, yn yr ardal hono; yn Clifford, feallai, a thrwy hyny roi tramgwydd i'w frodyr bedyddiedig, a rhwystr ar ffordd y gwirionedd. Dyma y llythyr, yr hwn a ddylai gael ei gadw ar gyfrif ei henafiaeth, yn gystal ac ar gyfrif y goleuni a deifl ar y pwnc oedd mewn dadl gan y Bedyddwyr yn yr adeg hono:—

"Frodyr Gwerthfawr,—Drwy ystyriaeth ddwys a difrifol o'ch llythyr, llanwyd fy nghalon â chymmysgedd o sêl, llawenydd, a gofid; â gofid, oblegyd bod fy anwyl frawd Jenkin Jones (ffydd, diwydrwydd, ac uffudd-dod moesol yr hwn sydd wedi ei wneyd yn enwog), yn awr yn profi ei hun yn offerynol i rwystro ufudd-dod llawer, a thrwy hyny wrthwynebu teyrnas Crist; a'i fod, ar ol gwneyd cymmaint i osod i lawr sylfaen dda, yn awr yn adeiladu arni, wair, a sofl, ac (O newydd trwm!) yn ammau ordinhad o sefydliad mor ddiammeuol, ac hefyd mewn dull annrhefnus ac anniffynadwy, yn tori bara gyda'r gynnulleidfa, yr hon arferiad, (er, anwyl enaid, y gallai mai nid dyna ei amcan), a all wasanaethu i'w huno hwynt yn gadarnach yn un corph i wrthsefyll ffyrdd Crist. O mor amlwg y gwelaf ddichell Satan.

"Ond, megys ag yr oedd hyn yn newydd trwm, felly hefyd yr oedd eich sefydlogrwydd, eich dianwadalwch, a'ch dyfalbarhad chwi, yn nghyd a'r newydd da, bod deg neu ddeuddeg gyda chwi yn barod i ymostwng i'n Harglwydd a'n Brenin Iesu, yn adnewyddu fy nghalon, ac yn gorbwyso yr ystyriaeth arall. O newydd bendigedig! bod rhai, nad yw eu ffydd mewn doethineb ddynol, ond yn ngallu Duw, ac yn beiddio dilyn eu Cadfridog er i bawb aros yn ol. Anwylaf eneidiau, nid ydych chwi o'r rhai sydd yn tynu yn ol; ewch yn mlaen, a llwyddwch yn enw yr Arglwydd. Mae fy ngweddiau taeraf drosoch; a mwy, y mae Crist drosoch, y mae yr Ysgrythyrau drosoch, y mae yr holl eglwysi rheolaidd drosoch, ac yr ydych yn awr ar eich prawf caled; yr aur pur sydd yn cael ei brofi fwyaf. Ymddygwch fel dynion, ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu Ef, fel y galloch wrthsefyll y gelyn, er iddo gael ei oddef i ddefnyddio y duwiol i ddwyn i mewn ei demtasiynau. Na fydded i'ch serch at ddynion, dywyllu, neu lygru eich barn; ond dychwelwch at y gwirionedd noeth, heb dderbyn wyneb personau; gan wybod hyn hefyd, mai ffordd arferol Duw, yw gwneyd yr olaf yn flaenaf, a'r blaenaf yn olaf. Ac yn wir, megys y mae fy llawenydd yn annhraethadwy wrth ystyried eich ffyddlondeb, felly hefyd y mae fy nymuniad i wneyd i chwi ddaioni, yn nghyda fy ymwybodolrwydd o'ch cyflwr presenol, yn dyrchafu fy sêl drosoch, rhag mewn unrhyw fodd i'm hesgeulusdra roddi amser, neu le i'r gelyn gael unrhyw fantais; ac am hyny yr wyf yn barod (trwy ras) i dreulio ac ymdreulio yn eich plith chwi, a saint eraill; ac yn wir, nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, pe gallwn orphen fy ngyrfa mewn llawenydd, yn y weinidogaeth yr hon a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu. Gan hyny, fy mhenderfyniad i, gyda chyfarwyddyd difrifol yr eglwys ffyddlawn hon, yw dyfod atoch, gyda brawd arall, yr hwn a anfonant hwy gyda mi am dymor, fel y gallwyf yn ddifeth fod yn pregethu yn Clifford, ar y dydd cyntaf o'r wythnos nesaf; (dymunwyf arnoch gan hyny roddi rhybudd), a phe cyfarfyddwn a Mr. Cradoc, Mr. Powel, neu Mr. Jones, y rhai a gyfrifir yn golofnau, mi a ymddygwn tuag atynt megys yr ymddygodd Paul at Pedr, Galat. ii. 9-14. (Erfyniaf arnoch ddarllen yr adnodau yn y Bibl Cymreig). Mi a'u ceryddwn ac a'u gwrthwynebwn hwynt yn eu hwyneb, am nad ydynt yn iawn droedio at wirionedd yr efengyl. Mi a wn fy mod i ddysgwyl tlodi, dirmyg, gwaradwyddiadau, a gwrthwynebiadau, hyd yn nod oddiwrth feibion fy mam; ond yr wyf yn cael i fesur mawr bod Duw wedi fy arfogi yn erbyn y rhai hyn oll; ac yr wyf yn hyderus nas gall dim o'r pethau hyn fy syflyd. Anwyl frodyr, byddwch yn selog dros Grist yn awr am ychydig bach, a dysgwyliwch ryfeddodau yn eich plith drwy y moddion gwanaf. Gwyddoch mai ffyddlawn yw yr hwn a addawodd goron y bywyd i'r rhai a fyddont ffyddlawn hyd angau. Yn wir ar yr olwg gyntaf ar eich llythyr, penderfynais oedi enyd cyn dyfod i fyny atoch, ond wedi ail ystyriaeth, ni fynaf oedi, rhag i hyny brofi yn beryglus; ac y mae gogoniant Duw, a lles eich eneidiau chwithau, yn fath dyn-feini nerthol, fel nas gall dim fy moddloni, hyd nes y gwelaf chwi, i gael ymddiddan ac ymgynghori yn nghyd, &c.

"Bellach frodyr, nid oes genyf ddim i'ch anog iddo, ond bod i chwi y rhai ydych yn foddlawn, (*satisfied*) bennodi rhyw ddiwrnod, ddechreu yr wythnos nesaf, i gydgyfarfod yn nghylch yr achos gwir bwysig hwn. Yr wyf yn eich cyflwyno i Dduw, ac i air ei ras ef, yr hwn sydd abl i'ch adeiladu mewn ffydd a gwir ufudd-dod, a gorphwysaf.—Eich brawd, yn cydymdeimlo a'ch cyflwr presenol,

"29ain o'r 11eg mis, '49. JOHN MYLES.

"Dymunwyf anerch yn yr Arglwydd, y brodyr a'r chwiorydd anwyl, y rhai sydd yn dymuno arddel a bod yn ddeiliaid i'n Harglwydd Iesu Grist.—J. M."

Digitized by Google

Digitized by Google


MONMOUTH.
SWYDD FYNWY.
English Miles.
Milldiroedd Seis nig
0 1 2 3 4 5
Railways
H E R E F O R D
B R E C K N O C K
(SWYDD FRYCHEINIOG)
TALGARTH
Capel-y-ffin
Trefeinon Sta.
Cwarel-y-fan
Llangorse
L. Safaddan
Talyllyn Jun.
Talybont Sta.
R. Usk
Brecon Canal
CRICKHOWEL
Clodock
R. Monnow
Pontrilas Sta.
to Hereford
Kentchurch
Langua
Grosmont
St. Weonards
Garway
Skenfrith
Llanrothal
Marstow
Welsh Newton
Whitchurch
Ganarew
R. Wye
Stanton
MONMOUTH
Redbrook
St. Briavels
Llanthony
Oldcastle
Bal mawr
Tandy Sta.
Pen-y-clawdd
Llangenau
Sugar Loaf
Skirrid Fawr
Llanfetherine
Llangattock Lingoed
Llanvapley
Llantillio Crossenny
ABERGAVENNY
Llanwenarth
Clydach
Govilon
Gilwern Sta.
Llanfoist
Blorenge
Bryn mawr
Beaufort Sta.
Nantybwch Sta.
Sirhowy
Nantyglo
TREDEGAR
Rhymney
Pontlottyn
Ebbw Vale
Blaen Afon
Llanover
Llanellen
Llansaintffraid
Llanarth
Bryngwyn
Raglan
Tregaer
Dingestow
Mitchel Troy
Wenastow
Penrose
Cwmcarvan
Penyclawdd
Trelech
Llangoven
Bettws Newydd
Kemeys Commander
Trostrey
Llandenny
Goytre
Monkswood
Llanishen
Rockfield
Newcastle
St. Maughan
Llanfaenor
Llandewi Skirrid
Llanddewi Rhydderch
Llanvihangel Crucorney
Pandy
Gwm Yoy
Carn Clochty
Gwastad
Waun wen
Mynydd
Hatterall Hill
Gwryne fawr
Tyr Phil Sta.
from Merthyr
from Dowlais
T E R




BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH

Digitized by Google

Digitized by Google

Gwelir oddiwrth y dyddiad uchod, bod y llythyr wedi ei anfon at yr eglwys yn y Gelli, cyn iddi gael ei chorpholi yn ffurfiol yn eglwys o Fedyddwyr digymmysg. Byddai y Bedyddwyr gynt yn dechreu eu blwyddyn ar y cyntaf o Fawrth; felly y "29ain o'r 11eg mis, '49" ydoedd Ionawr 29, 1650, yn ol ein cyfrif ni; ond "tua chanol y 12fed mis, '49," y corpholwyd y Gelli yn eglwys o Fedyddwyr digymmysg, dan gyfarwyddyd John Myles. O ganlyniad, mae y ffaith uchod, yr hon sydd yn ymgodi oddiwrth y dyddiadau, yn profi tuhwnt i amheuaeth, bod eglwys o Fedyddwyr yn ymgynnull yn nghonglau Henffordd, Brycheiniog, a Maeshyfed, yn flaenorol i 1649, ac na wnaeth John Myles, ond corpholi y cyfryw yn eglwys o Fedyddwyr digymmysg, a'u dwyn i well trefn i weithio.

Efe a fu yn hynod weithgar a llwyddianus o 1649 hyd 1660, yn lledaenu ac yn amddiffyn yr egwyddorion, planu eglwysi, a dwyn y cyfryw i'r Gymanfa, gan eu cyssylltu oll yn un peirianwaith, trefnus ac effeithiol. Daeth amryw o weinidogion ag oeddynt ar y maes o'i flaen ef, megys Hywel Fychan, Walter Prosser, a Thomas Watkins—gweinidogion y parth dwyreiniol o Gymru, i mewn i'w gynllun, ac i gydweithio ag ef yn egniol; ond eraill, megys Jenkin Jones, William Thomas, a Hugh Evans, o swydd Faeshyfed, a gadwasant ar wahan, gan weithio yn egniol mewn ffordd annibynol, a phlanu eglwysi cymmysg, y rhai yn y diwedd a ddarfuant, neu a lyncwyd i fyny gan yr Annibynwyr.

Erbyn 1660, yr oedd eglwys Ilston yn eang a lluosog, yn rhifo 263 o aelodau, ac yn meddu amryw o weinidogion, heblaw John Myles. Ond o dan yr erlidigaeth ddifaol, a dorodd allan yn 1662, aeth Myles yn nghyd a'i holl eglwys, braidd, drosodd i America. Ymsefydlasant yn Rehoboth, talaeth Massachusetts, lle y ffurfiodd John Myles eglwys yn 1663. Ond cafodd brofi yn fuan, bod yn y Byd Newydd rywbeth heb law rhyddid cydwybod, a bod yr ysbryd a alltudiodd Roger Williams allan o dalaeth Massachusetts, yn 1635, yn para yn fyw, ac yn ei nerth yn 1667; canys ar yr 2il o Fehefin, yn y flwyddyn hono "yn y llys yn Plymouth, o flaen Thomas Prince, Llywydd, ac eraill, Mr. Myles a Mr. Brown, am droseddu o honynt y gyfraith, drwy osod i fyny gyfarfod cyhoeddus, yn ddiarwybod i, ac heb dderbyn cymmeradwyaeth y Llys, er aflonyddwch ar heddwch y lle, a ddirwyir i bum punt yr un, a Mr. Tanner i'r swm o un bunt; ac yr ydym yn barnu nas gellir caniatau eu harosiad yn Rehoboth, gan ei fod yn dra niweidiol i heddwch yr eglwys hono, a'r dref; ac yr ydym, gan hyny, yn gorchymyn i'r holl bersonau y perthyn iddynt, i ymgadw yn gyfangwbl o'r cyfryw gyfarfod, yn y cyfryw le, neu drefgordd, o fewn y mis hwn. Eto ar yr ammod bod iddynt symud eu cyfarfod i ryw le arall, ac na byddo iddynt aflonyddu ar heddwch unrhyw eglwys yn y lle hwnw, a rhoddi i ni foddlonrwydd rhesymol o berthynas i'w hegwyddorion, nis gwyddom lai, na allant gael caniatad gan y Llywodraeth hon i wneyd hyny."

Ar y 30ain o Hydref y flwyddyn hono, caniataodd y Llys iddynt ddarn mawr o dir, ar yr hwn yr adeiladasant y dref a elwir Swansey, yn swydd Bristol, Massachusetts; yr hon hefyd a gorphorwyd yn yr un flwyddyn.

Rhanai John Myles ei lafur rhwng Swansey a Boston dros dymor; ac yn 1678 efe a ymsefydlodd yn Swansey, lle y gorphenodd ei oes lafurus a gwerthfawr, ar y 3ydd o Chwefror, 1683, yn 62 oed.

"Mae ei goffadwriaeth o hyd, (1777) yn werthfawr yn ein plith. Adroddir am dano unwaith, pan o flaen yr ynadon, yn gofyn am Fibl, ac wedi ei gael, yn troi at y geiriau acw yn llyfr Job, (xix. 28), 'Eithr chwi a ddylech ddywedyd, Paham yr erlidiwn ef? Canys gwreiddyn y matter a gaed ynof;' ac wedi iddo eu darllen, eisteddodd i lawr. Cafodd y geiriau y fath effaith ar yr ynadon, fel y triniasant ef gyda chymmedroldeb, os nad gyda charedigrwydd. Dychwelodd ei fab i Loegr, ac yr oedd ŵyr iddo, Samuel Myles, yn weinidog Esgobyddol yn Boston, yn 1724."—*Backus's Hist. of New England.*

Wrth ymadael a John Myles, nis gallwn ond gofidio na buasai rhyw law garedig wedi croniclo mwy o'i hanes; canys y mae yn ddiau bod y dyn a wnaeth y fath wasanaeth i Annghydffurfiaeth, ac yn neillduol i Fedyddwyr Cymru, ac America, a hyny yn ngwyneb y fath anhawsderau, yn deilwng o le uchel yn nheml anrhydedd.

**MYLLIN**, sant, o amseriad anhysbys. Efe a seiliodd eglwys Llanfyllin, yn swydd Drefaldwyn.

**MYMBYR**, mab Madoc, yn ol y Brutiau Cymreig, ydoedd bumed brenin Prydain. Ar farwolaeth Madoc, ei feibion, Mymbyr, a Mael, a ymrysonasant a'u gilydd am y bennaduriaeth; a Mymbyr yn ddichellgar, a wahoddodd Mael i gynnadledd, er terfynu yr ymrafael yn heddychol; ac yno a'i llofruddiodd ef, ac felly sicrhaodd yr arglwyddiaeth iddo ei hun; ac efe a ymddygodd mor draws a chreulawn, fel y torodd efe ymaith yr holl wŷr urddasol, rhag ymawyddu o honynt am y llywodraeth. O'r diwedd, wedi teyrnasu o hono ugain mlynedd, fel yr oedd efe yn dilyn yr helwriaeth, mewn glyn coediog, yn mhell oddiwrth ei gymdeithion, efe a ddifawyd gan y bleiddiau. Dywedir fod Mymbyr wedi adeiladu dinas hardd ar lan y Tafwys, yr hon a enwodd efe ar ei enw ei hun, Caer Fymbyr, wedi hyny fe'i galwyd Caer Bosso, ac yn awr, Rhydychain.

Yr oedd efe yn ei flodau tua'r amser yr oedd Saul yn teyrnasu ar Israel.

**MYNACH** (Y), afonig yn y parth gogleddol o swydd Aberteifi, yr hon sydd yn tarddu dan Blumlumon, ac wedi llifeirio mewn cyfeiriad de ddeorllewinol am oddeutu 6 milldir, y mae yn ymarllwys i'r Rheidiol, yn agos i "Bont y gwr drwg." Y mae arni bedwar cwymp, yn agos y naill i'r llall, y naill yn 18, yr ail yn 60, y trydydd yn ugain, a'r olaf yn 110 o droedfeddi.

**MYNACHDY**, treflan yn mhlwyf Llan y Crwys, swydd Gaerfyrddin; ar yr hen ffordd Rufeinaidd, Sarn Elen; 4 milldir i'r dwyrain o Lanbedr. Gwerth ardrethol, 540*p*. Poblogaeth, 214. Tai annedd, 44.

**MYNWY**, swydd yn Lloegr, ond a ystyrir yn llawn mor aml fel rhan o Gymru. Ei ffiniau ydynt —i'r gogledd-orllewin, swydd Frycheiniog; i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, swydd Henffordd; i'r dwyrain, swydd Gaerloyw; i'r de, genau yr Hafren a chulfor Caerloew; i'r gorllewin, Morganwg. Ei ffurf sydd braidd yn bum-onglog, a'r ochrau yn gwynebu y gogledd-orllewin, y gogledd-ddwyrain, y dwyrain, y dwyrain-dde-ddwyrain, a'r gorllewin; ond ymestyna allan yn llain hir, oddeutu saith milldir o'r gogledd-orllewin, ac y mae bwlch o naw milldir wrth bump yn y gongl dde-orllewinol. Y llinell derfyn, ar hyd rhan o'r gogledd, ac ar hyd

Digitized by Google

y rhan fwyaf o'r gogledd-ddwyrain, yw yr afon Mynwy; ar hyd y rhan fwyaf o'r dwyrain, yr afon Wy; ar hyd yr holl orllewin, afon Rhymni. Hyd mwyaf y sir, yw 32 milldir; ei lled mwyaf, 29 milldir; ei hamgylchedd, oddeutu 124 milldir; a'i harwynebedd, 368,399 o erwau. Mae yr arwynebedd, yn lled fryniog ar y cyfan, a lliaws o'r mynyddoedd o 1000 i 2000 o droedfeddi o uchder. Y prif afonydd, heblaw y rhai ar y terfyn, ydynt y Drothy, yr Wysg, a'r Ebbw. Gweithir mŵn plwm, glo, a haiarn, a chodir digonedd o galchfaen ynddi. Y gweithydd glo, a phlwm, sydd wrth wraidd cynnydd a llwyddiant y sir. Saif y prif weithfeydd yn Pontypool, Abersychan, Pentwyn, Blaenafon, Nantyglo, Beaufort, Tredegar, dyffrynoedd yn Ebbw, Sirhowy, a Rhymni. Nifer y glofeydd yn 1859 oedd 74. Nifer y glowyr, yn ol cyfrifiad 1861, oedd 10,701; mwnwyr haiarn, 2427; personau ar waith yn ngwneuthuriad yr haiarn, 8833; yn ngwneuthuriad yr alcan, 266; yn ngwneuthuriad y platiau alcan, 457; yn cloddio ceryg, 370. Rhwng y mwngloddiau, y rheilffyrdd, a'r camlesydd, y mae holl arwynebedd y wlad wedi cyfnewid yn ystod y blyneddoedd diweddaf. Mae y rheilffyrdd yn rhy liosog i'w henwi, a bernir fod oddeutu 1322 o dollffyrdd yn y sir hon yn unig.

Cynnwysa y sir 116 o blwyfydd, rhanau o dri ereill, a thri lle anmhlwyfol; ac y mae yn rhanedig i fwrdeisdrefi Mynwy, a Chasnewydd, a chantrefi Abergafenni, Caldicott, Raglan, Skenffrith, Brynybyga, a Gwentlogau. Mynwy yw pen tref y sir; a'r trefydd marchnad ydynt Mynwy, Casnewydd, Brynybyga, Abergafenni, Caerwent, Pontypool, Tredegar, a Chaerlleon; yr unig drefydd gyda thros 2000 o boblogaeth, ydynt y saith gyntaf o'r trefydd marchnad hyn; ac y mae yn y sir, uwchlaw 165 o drefydd llai, pentrefydd, a threflanau.

Yn y dyddiau gynt, yr oedd y diriogaeth a elwir yn bresennol yn sir Fynwy, yn rhan o wlad y Siluriaid, a bu hefyd yn perthyn i dywysogaeth Deheubarth, Gwent, a Morganwg. Rhan ydoedd o *Britannia Prima* y Rhufeiniaid, y rhai a godasant ynddi bump o orsafoedd pwysig, sef Blestium, yr hon oedd, fel y tybir, ar yr un lanerch a thref Mynwy; Burrium, yn Brynybyga; Gobannium, yn Abergafenni; *Isca Silurum*, yn Caerleon; a *Venta Silurum* yn Nghaerwent. Ysgubodd y Saeson drwy y diriogaeth, pan ydoedd yn rhan o Went, eithr nid ymddengys iddynt erioed ei llwyr orchfygu. Bu y Normaniaid yn fwy cyfrwys, canys yn hytrach na cheisio ei throsglwyddo yn ei chrynswth i'r Goron, hwynt-hwy a'i meddianasant ddarn ar ol darn, ac a'i rhanasant trwy y gyfundrefn warogaethol, ymysg y prif farwniaid. Gwnelai y barwniaid ruthrgyrchoedd ar eu traul eu hunain; ymgadarnhasant mewn amddiffynfeydd, a chestyll; sylfaenasant eu nerth a'u hawdurdod ar eu hadnoddau eu hunain; ac yn nhreigliad amser; gwrthwynebasant awdurdod y goron, a mynasant awdurdod annibynol iddynt eu hunain. Fel hyn aeth y wlad yn faes cynnen a thywallt gwaed, ac mewn annhrefn y parhaodd, hyd amser Harri VIII., yr hwn a ddiddymodd y mân lywodraethau, yma, ac yn nhiriogaethau ereill Gwent, a Morganwg. Efe hefyd a ranodd Gymru yn ddeuddeg sir, gan wahanu Mynwy oddiwrth y Dywysogaeth, a'i gwneuthur yn sir Seisnig. Ond sir hollol Gymreig yr ystyrid hi er pob peth, hyd amser Siarl II. Cymmerodd rhai o ddigwyddiadau mwyaf pwysig y rhyfel cartrefol yn amser Siarl I. le yn y sir hon; ac yn mis Tachwedd, 1839, cododd oddeutu 10,000 o'r *Chartists* wrthryfel yn Nghasnewydd, ond buan y daethant i wrthdarawiad â'r milwyr, a'r canlyniad ydoedd i ugain o honynt golli eu bywydau, ac i'r arweinyddion gael eu halltudio.

Ceir amryw gylchoedd Derwyddol, ar y gwahanol fryniau. Mae hen wersylloedd, rhai Prydeinig, a rhai Rhufeinig, yn Taliurum, y Gaer, bryn Campstown, Craig y Saeson, Craig y Caerydd, Cwrt y Gaer, a Sudbrooke. Gellir olrhain lliaws o hen ffyrdd Rhufeinig trwy y sir. Y mae, neu yr oedd, hen gestyll o fri yn Nghaerlleon-ar-Wysg, Brynybyga, Skenfrith, Mynwy, Raglan, Llandilio, Llanfair, Llangibby, Llanfaches, Cresseney, Abergafenni, Dinam, Castell Glas, Casnewydd, Pencoed, Pencow, Castell Tregreg, Caldicott, a Chaerwent. Yr oedd abattai yn Tintern, Llanthony, Caerlleon, Grace-Dieu, a Llantarnam; mynachdai, priordai, crefydd-dai, a lleiandai, yn Abergafenni, Mynwy, Caerwent, Casnewydd, Brynybyga, Goldcliff, a lleoedd ereill.—Am y manau hyn, gwêl dan eu gwahanol enwau yn y Gwaith hwn.

**MYNWY**, tref, plwyf, is-ddosbarth, a dosbarth, yn swydd Fynwy. Saif y dref gerllaw cydgyfarfyddiad yr afonydd Monnow (neu Mynwy) ac Wy, hanner milldir i'r gogledd o enau y Trothy, ac ar ben eithaf cangen Pontypool a Mynwy o reilffordd y *West Midland*, un milldir a thri chwarter i'r gorllewin o linell derfyn swydd Gaerloyw, dwy filldir a chwarter i'r de o linell derfyn swydd Henffordd, 13½ milldir i'r dwyrain o Abergafenni, a 129 i'r gorllewin-ogleddorllewin o Lundain. Cymmer y dref ei henw oddiwrth ei safle, wrth enau yr afon Monnow, neu Mynwy, ac mewn amser a fu, gelwid hi Abermynwy, Trefynwy, a Mongwy. Bernir ei bod yn meddiannu safle yr hen orsaf Rufeinig *Blestium*, yr hon a grybwyllir gan Antonine; ac yr oedd ffordd Rufeinig yn myned oddiyno i Frynybyga, ond ychydig a gafwyd o olion Rhufeinig yn y lle. Yr oedd yn lle o gryn bwysigrwydd yn amser y Saeson cyntefig, ac ymddengys iddynt hwy ei gryfhau, er mwyn cadw meddiant o'r diriogaeth a ennillwyd ganddynt rhwng yr Hafren a'r Wy. Gwyddis hyd sicrwydd, fod yno gastell yn adeg y goresgyniad Normanaidd, a daeth y lle i gryn bwysigrwydd ynglyn â'r castell y pryd hwnw, ac mewn dygwyddiadau dilynol. Perthynai y faenor i'r Goron yn y cyfnod Sacsonaidd; rhoddwyd hi i deulu Fitz-Baderon yn amser y Goresgyniad; ar ol bod yn eu meddiant hwy am oddeutu dwy ganrif, syrthiodd i ddwylaw amryw yn olynol, nes o'r diwedd yr aeth i feddiant Duciaid Beaufort. Safai y castell ar fryncyn, uwchben yr afon, ar dueddau gogleddol y dref; llosgwyd ef yn amser Harri III. gan Simon de Montford, ond cafodd ei ail-adeiladu yn fuan; bu yn meddiant olynol Iorwerth I., ei frawd Emwnt, John o Gaunt, a Harri IV.; yn y castell hwn y ganwyd Harri V., "Harri o Fynwy," arwr Agincourt, a dangosir hyd heddyw, ystafell yr enedigaeth frenhinol. Mae y castell yn adfeiliedig ac ammherffaith iawn yn bresennol, ond yn amser Leland yr oedd mewn gwell trefn a chadwraeth. Yr oedd y dref hefyd yn cael ei hamgylchu gan furiau, a ffosydd, a meddianwyd hi gan warchodlu seneddol ar ol brwydr Marston Moor. Adeiladwyd priordy Benedictaidd gerllaw eglwys y plwyf, yn amser Harri I., a bernir mai yno y derbyniodd Gruffydd ab Arthur, neu Sieffre o Fynwy, y rhamantwr di-ail, ei addysg. Mae yn sicr mai brodor o dref Mynwy oedd Sieffre, ac nid anrhydedd bychan

Digitized by Google

i'r lle, ydyw iddo fod yn fan genedigol y gwr a roddodd ddefnyddian i rai o brif orchestion Spencer, Shakespeare, a Milton. Cafodd llu o enwogion ereill eu geni yn y dref ddyddorol hon. Tref fechan ydyw, yn gynnwysedig yn benaf o un heol hir, ac amryw heolydd llai, yn ymganghenu o honi. Ar glogwyn, ychydig bellder o'r dref, y mae allor Dderwyddol, o ffurf afreolaidd, yn mesur dwy droedfedd betrual yn y gwaelod, 17 troedfedd ar yr ochr ogleddol, 12 troedfedd ar yr ochr ddeheuol, ac 11½ troedfedd o uchder. Ar y ffordd i Raglan, y mae pont o dri bwa, yn croesi yr afon Mynwy, a adeiladwyd yn 1272; ar y bont hon y mae porth, yr hwn oedd yn amddiffyn cadarn i'r dref yn yr hen oesoedd, gyda dwy ochr-fynedfa. Mae amryw bontydd ereill yn y gymmydogaeth. Saif neuadd y dref yn *Agincourt Square;* adeilad diweddar ydyw, o wneuthuriad destlus, ac o'i flaen y mae cerflun lled annheilwng o Harri V. Adeilad cyfleus yw y farchnadfa, a chostiodd wyth mil o bunnau. Saif carchar y sir ar fryn, yn mhen draw y dref; adeilad eangfawr ydyw, yn ol cynllun Howard, gydag ymddangosiad castellog; deil 25 o garcharorion gwrrywaidd, ac wyth o fenywod. Saif eglwys Fair ar lanerch yr hen briordy, a ffurfia clochdy yr hen eglwys hono ran o honi, gyda phigdwr, yn codi uchder o 200 troedfedd, Cafodd eglwys Sant Thomas, yr hon oedd wedi myned yn dra adfeiliedig, ei hadgyweirio yn 1830. Mae yn y dref addoldai cyfleus yn perthyn i'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Wesleyaid, a'r Pabyddion. Yr ysgol rammadegol, i 100 o fechgyn brodorol, a'r elusendai i ddeg o wrrywod, a deg o fenywod, a sefydlwyd ac a waddolwyd yn amser Iago I. gan William Jones. Ffurfiwyd, a gwaddolwyd sefydliad rhad i weithwyr, yn 1868 gan Mrs. M. Jones, a pherthyna hefyd i'r dref freintiedig hon, ysgol wladwriaethol, ysgol fabanod, llyfrgell gyhoeddus, tlotty, ac amryw elusenau, ac yn nhref Mynwy y cynnhelir y brawdlysoedd, ac yr addysgir cartreflu y sir. Mae Mynwy yn fwrdeisdref trwy raith; cafodd ei breinlen gyntaf gan Iorwerth VI.; llywodraethir hi yn bresennol gan faer, pedwar henadur, a 12 cynghorydd; ac ymuna â Chasnewydd, a Brynybyga, i anfon aelod i'r Senedd. Mae terfynau y fwrdeisdref yn cynnwys holl blwyf Mynwy, a rhan o blwyf Dixton-Newton. Cyllid y gorphoraeth yn 1855, 541*p.* Poblogaeth yn 1851, 5710; yn 1861, 5783; yn 1871, 5374.

**MYNYDD**, rhan-barth yn mhlwyf Bryncroes, swydd GAER YN ARFON; yn ngorynys Lleyn; 10½ milldir i'r gorllewin ddc orllewin o Bwllheli. Poblogaeth yn 1861, 470.

**MYNYDD BACH**, mynydd-res isel yn nghanol swydd ABERTEIFI; 8 milldir i'r gogledd ddwyrain o Aberaeron.

**MYNYDD CEFN AMWLCH**, mynydd yn y parth de ddwyreiniol o swydd GAER YN ARFON; 5 milldir i'r de orllewin o Nefyn. Y mae Cromlech nodedig arno, a elwir "Coetan Arthur."

**MYNYDD DIGOLL**, mynydd yn mharth dwyreiniol swydd Drefaldwyn; 3 milldir i'r dwyrain o'r Trallwm. Yma y gorchfygwyd Madog, mab ordderch Llewelyn ab Gruffydd, gan Arglwyddi y Cyffindiroedd, yn y flwyddyn O.C. 1294.

**MYNYDD DU**, mynydd yn y parth dwyreiniol o swydd GAERFYRDDIN, 6 milldir i'r dwyrain o Landeilo Fawr.

**MYNYDD DU**, neu "MYNYDDOEDD DUON," mynydd-res wyllt, ac uchel, ar ffin ddwyreiniol swydd FRYCHEINIOG, yn ymestyn am tuag 16 milldir mewn cyfeiriad deheuol, o ddyffryn yr Wy, yn agos i'r Gelli, hyd ddyffryn yr Wysg, goris Crughowel. Y clogwyn uchaf yw Pen Cadair Fawr, 2545 troedfedd o uchder; 4¾ milldir i'r de ddwyrain o Dalgarth.

**MYNYDD EPPYNT**, mynydd-res yn swydd FRYCHEINIOG, yn cyfeirio o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y rhan ogleddol o'r wlad.

**MYNYDD HIRAETHOG**, mynydd-res annghyfannedd a noethlwm, yn nghanol swydd DINBACH; yn ymestyn yn ddwyreiniol o gymmydogaeth Llanrwst, hyd yn agos i Ruthin.

**MYNYDD ISLWYN**, pentref, a phlwyf, yn undeb y Cas Newydd, MYNWY. Y mae y pentref yn sefyll filldir a haner i'r dwyrain o afon Sirhowy; 2½ filldir i'r dwyrain wrth Ddehau o orsaf rheilffordd gydiol Tredegar; a 9½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Cas Newydd. Cynnwysa y plwyf, dreflanau Clawr-plwyf, Mynydd-maen, a Phenmaen, ac o'i fewn y mae tref Abercarn, yn yr hon y mae llythyrfa, dan y Casnewydd, swydd Fynwy. Erwau, 15,938. Gwerth ardrethol, 29,971*p.* o'r hyn y mae 12,970*p.* mewn mwngloddiau; 60*p.* mewn chwarelau, 220*p.* mewn gweithfeydd haiarn, a 3446*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 5994; yn 1861, 6877; yn 1871, 7126. Tai annedd, 1402.—Y mae arwyneb y tir yn fryniawg, ac yn disgyn tu a'r afonydd, y Sirhowy, a'r Ebbwy. Y mae carnedd, neu dommen fawr yn agos i'r eglwys, lle fel y bernir, yr oedd gwylfa filwraidd yn yr oesoedd cynhyrfus. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth 300*p.* yn y flwyddyn. Noddwr, Esgob Llandaf. Y mae y llan yn adeilad fawr, mewn cywair da; a thwr iddi, yr hwn a ail-adeiladwyd yn y flwyddyn 1821. Y mae ficeriaeth Penmaen yn fywioliaeth ar wahan: ac y mae adfeilion hen gapel anwes yn nghymmydogaeth Abercarn.

**MYNYDD LLWYDIARTH**, rhes o fryniau ysgythrog yn y parth gogledd ddwyreiniol i Ynys FÔN, yn ymestyn ar hyd y pentir, rhwng y Traeth Coch a Thraeth y Lafan. Y mae llyn bychan ar ei lechwedd deheuol, o'r enw Llyn Llwydiarth.

**MYNYDD-MAEN**, treflan yn mhlwyf Mynydd Islwyn, yn swydd FYNWY, 4¾ i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o Gaerphilli. Gwerth ardrethol, 8067*p.*; o ba rai y mae 4000*p.* mewn mwngloddiau, 6*p.* mewn cloddfeydd, a 220*p.* mewn gweithfeydd haiarn. Poblogaeth yn 1861, 1782.

**MYNYDD MAEN**, neu MYNYDD LLWYD, mynydd yn y parth gorllewinol o swydd FYNWY, 2½ milldir i'r gorllewin o Bont y Pool. Ar ei ben y mae hen wersyll milwraidd, 570 troedfedd o hyd, a 210 troedfedd o led.

**MYNYDD MAWR**, mynydd yn Neheubarth swydd GAERFYRDDIN, 3 milldir i'r gorllewin o Landybie. Y mae llyn arno, o'r enw Llyn Tegwyn.

**MYNYDD MAWR**, mynydd yn nghanol swydd GAER YN ARFON, yn gyfagos i'r Wyddfa; 5 milldir i'r de ddwyrain wrth Ddehau o Gaer yn arfon. Y mae yn ei fan uchaf yn 2300 troedfedd o uchder.

**MYNYDDOG** (EIDDIN), un o bennaethiaid y Prydeiniaid Gogleddol, yr hwn oedd yn oesi yn nechreu y chweched ganrif. Fe'i crybwyllir yn y Gododin, ac yn y Trïoedd, fel pennaeth un o'r "Tri gosgordd addwyn" Ynys Prydain, a ymenwogasant yn mrwydr Cattraeth; ac fe'u gelwid felly am eu bod yn dilyn eu tywysogion o'u hewyllys da eu

Digitized by Google

hunain, ac ar eu traul eu hunain. Pennaethiaid y ddau eraill, oeddynt Belyn, a Drywon ab Nudd.

**MYNYDD Y GARREG**, yn mharth gogleddol swydd Fflint, ar yr arfordir, 4 milldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon. Ar ei ben, y mae goleudy Rhufeinaidd, wedi ei adeiladu o gerryg calch, ac mewn cadwraeth dda.

**MYNYDD Y GWAIR**, yn y parth gorllewinol o swydd FORGANWG; ar y ffin â swydd Gaerfyrddin; 10 milldir i'r gogledd o Abertawe. Y mae gwersyll Rhufeinaidd mawr ar ei ben, a ffordd Rufeinaidd yn myned ar ei draws.

**MYNYDD Y GWYRYDD**, yn y parth Gorllewinol o swydd FORGANWG; rhwng yr afon Nêdd a'r afon Tawe; 4 milldir i'r gogledd o Gastell Nedd. Y mae cylch Derwyddol, a Chistfaen, ar ei ben.

# N.

**NANARTH**, trefgordd yn mhlwyf Llangernyw, swydd DDINBYCH; 6½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 94.

**NANARTH** (CREIGIAU), llanerch dra phrydferth yn mharth gorllewinol swydd FAESYFED, ar lan yr afon Wy; 2 filldir i'r gogledd ogledd orllewin o'r Rhaiadr.

**NANHORON**, lle yn ngorynys Lleyn, swydd GAER YN ARFON; 7 milldir o Bwllheli. Medda lythyrfa dan Bwllheli.

**NANMOR**, neu NANT Y MOR, treflan yn y rhan hono o blwyf Beddgelert, sydd o fewn cantref Ardudwy, swydd FEIRIONYDD; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o Beddgelert; a 5½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Dremadoc. Gwerth ardrethol, 1072*p.*; o'r hyn y mae 20*p.* mewn mwn-gloddiau, a 40*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 332. Y mae yn ffurfio un o'r glynoedd wrth droed y Wyddfa, sydd yn ymestyn i swydd Feirionydd.

**NANMOR**, DAFYDD, bardd enwog, a breswyliai yn Nanmor, plwyf Beddgelert, ond yn sir Feirionydd. Mae llawer o'i gynyrchion ar gael, mewn ysgrifen; ac y mae y llinellau cyntaf o 31 o'i gywyddau yn argraffedig a'r glawr y Greal. Bu farw tua'r flwyddyn 1460, ac efe a gladdwyd yn Meddgelert.

**NANMOR**, RHYS, bardd enwog a flodeuai rhwng 1440 a 1480. Yr oedd yn fab i Dafydd Nanmor, ac yn byw yn Maenor Fynwy, yn sir Benfro. Mae rhai o'i gynyrchion barddonol i'w cael mewn ysgrifen.

**NANNAU** (IS AFON ac UWCH AFON), dwy drefgordd yn mhlwyf Llanfachreth, swydd FEIRIONYDD; 3¼ milldir i'r gogledd o Ddolgelley. Gwerth ardrethol, 3022*p.* a 2311*p.*; o'r blaenaf y mae 272*p.* mewn mwngloddiau, a 17*p.* mewn pysgfeydd. Poblogaeth, 412, a 544. Yma y mae palas Nannau, hen breswylfod y diweddar Syr Robert Vaughan, Bar. A.S., yn gorwedd ar fryn serth, 702 troedfedd uwchlaw lyfel y môr; fe'i hadeiladwyd gan Syr R. Vaughan, yn lle hen balas Hywel Sele, carenydd ffals Owain Glyndwr. Y mae y parc perthynol iddo yn fawr iawn, yn cyrhaedd dros lawer o filldiroedd gyda ffordd y Bala, a hyd at odreu Moel Orthrwm; ac o'i fewn, hyd y flwyddyn 1813, yr oedd hen dderwen, 27½ troedfedd o gylch-fesur, yr hon oedd yn gysylltiedig mewn hanesiaeth â marwolaeth Hywel Sele ac fe'i gelwid "Ceubren yr Ellyll."

**NANNAU**, GRUFFYDD, bardd yn byw rhwng 1520 a 1560. Ceir rhai o'i weithiau mewn llaw ysgrifen.

**NANNERCH**, trefgordd, a phlwyf, yn Undeb Treffynnon; ac y mae y drefgordd, a'r rhan fwyaf o'r plwyf, o fewn swydd FFLINT; a'r rhan arall o'r plwyf yn swydd Ddinbych. Y mae y drefgordd yn gorwedd goris Moel Arthur, 4½ milldir i'r de orllewin o orsaf Bagillt; a 5 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Fflint; ac y mae rheilffordd y Wyddgrug a Dinbych, yr hon a agorwyd yn ddiweddar, yn trawsu rhan o'r plwyf. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgyrdd Llan Nannerch, Cwm, a Threfechan, yn swydd Fflint; a threfgordd Penbedw yn swydd Ddinbych. Mesura y rhan sydd yn swydd Fflint, 1849 erw. Ei gwerth ardrethol, 1633*p.* Poblogaeth, 275. Tai annedd, 59. Mesura y rhan sydd yn swydd Ddinbych, 943 erw; a chyfrifir ei gwerth ardrethol, yn 887*p.* Poblogaeth, 58. Tai annedd, 13. Y mae arwynebedd y plwyf hwn yn hynod o donawg, ac anwastad; y rhan fwyaf o'r tir yn dir âr, a rhai gweirgloddiau, a phorfeldir; y gweryd, gan mwyaf sydd raianawg, ac yn dra chyfaddas i gynnyrchu ŷd.

Y mae rhai ffynnonau rhagorol o fewn y plwyf; ac un o honynt, o'r enw "Ffynnon Sara," a gyfrifir yn darddell yr afon Chwiler, yr hon wedi llifeirio ychydig i'r Gorllewin, sydd yn ymarllwys i'r afon Clwyd, yn agos i Bont-ruffydd. Plas Penbedw, a berthynai gynt i dylwyth y Mostyniaid; fe ddyroddwyd Maenoriaeth Penbedw, Gorphenaf 17, 1544, gan Harri yr Wythfed, i Peter (Pyers) ab Howel, *alias* Peter Mostyn, o Wepre, am y taliad o saith deg a thair o bunnoedd mewn llaw.

Yn y gweirgloddiau islaw y plas, y mae cylch Derwyddol, a thomen-fryn, neu garnedd fechan; ac ar gopa y mynydd, uwchlaw y palas, y mae hen amddiffynfa Brydeinaidd gref iawn, a dwy ffos ddofn annghyffredin, a chloddiau cyfattebol, ar yr ystlysau esgynadwy; ac ar yr ystlys a gyfrifid yn anhygyrch, y mae tir-res llyfn, wedi ei lyfelu ar hyd y bryn, yn lle i roddi gwarchodlu yr amddiffynfa trwy eu hymarferion milwraidd, efallai. Gelwir yr amddiffynfa hon, "Moel Arthur," er anrhydedd i'r brenin Arthur, fe ddichon. Heb fod yn mhell oddiwrth yr amddiffynfa uchod, y mae gweddillion un fawr iawn arall, a elwir "Pen y Cloddiau," yr hon sydd tua milldir a haner o gylch-fesur. Y mae wedi ei diffynu âg un, dwy, tair, ac hyd yn nod bedair o ffosydd, yn ol sefyllfa y tir; ac yn y ffos nesaf i fewn, y mae olion bythod y gwarch-filwyr. Yn mhlas Penbedw y cyfanneddai Watcyn Williams, Ysw.; yr hwn a fu yn cynnrychioli bwrdeisdref swydd Fflint mewn deugain o Seneddau olynol; ac a fu farw Tach. 30, 1808, yn ei chweched mlwydd a thriugain oed.

Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 292*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Yr eglwys sydd gyssegredig i St. Mair, ac y mae mewn cadwraeth dda; a chynnwysa amryw gof-lechau heirdd, megys yr un i goffadwriaeth Watcyn Williams, Ysw.: ac un arall i wraig

Digitized by Google

R. Mostyn, Ysw.; wyres Syr Kenelm Digby, casgliad ardderchog yr hwn o ysgrif-lyfrau addurniadol, &c., a gedwid yn y llyfrfa hon.

**NANNEY,** Richard, oedd offeiriad Clynnog Fawr, sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1688. Dywedir ei fod yn ficer y plwyf, ac yn ddyn rhagorol. Yr oedd yn byw yn y Farchwen, ac yn wr hynaws a thirion. Rhagorai yn ei weinidogaeth ar bawb yn mron o'i frodyr urddasol yn yr holl wlad. Dywedir ei fod wedi ymddiosg mor llwyr oddiwrth y byd a'i ofalon, fel nad adwaenai ei anifeiliaid ei hun, oddieithr yr un a farchogai; er hyn ymddengys ei fod wedi parhau i lafurio dros dymor maith, heb nemawr o lwyddiant, ond tua diwedd ei oes, ymddangosodd megis goleuni yn yr hwyr; coronwyd ei weinidogaeth ag arddeliad mawr; dyferodd fel gwlaw ar ddaear gras, a phrofid hi fel olew a gwin yn archollion eneidiau trallodedig; parodd hyn at-dyniad a sugn rhyfeddol i wrando arno, a chrynoi lluaws mawr o ddynion o'r wlad oddiamgylch, nes oedd eglwys fawr Clynog, yr hon sydd fel eglwys gadeiriol o faintioli, yn orlawn o wrandawyr astud a thoddedig. Gan ei henaint a'i lesgedd, yr oedd yn angenrheidiol ei gynorthwyo i'r pulpud. Ar ol pregethu, eisteddai yn y pulpud i aros i'r gynulleidfa i ganu Salm neu hymn, a mynych, medd yr hanes, y byddai tywalltiadau o orfoledd yr iachawdwriaeth yn gorlenwi llawer o'r gwrandawyr, a'r adeilad mawr a ddadseiniai yn hyfryd gan Haleluia i Dduw a'r Oen. Dywedir mai yn Ebenezer, plwyf Llanaelhaiarn yr oedd ef yn byw am haner can mlynedd, yn fawr ei barch a'i gyfrifiad gan drigolion yr ardal. Yr oedd y wlad o ben bwy gilydd, newydd fod yn gruddfan dan iau Oliver Cromwell, ac yn awyddus iawn am gael rhyw rai fel y gwr hwn i fwrw olew ar ddyfroedd terfysglyd yr oes; ac nid rhyfedd fod ei goffadwriaeth yn fywiol yma hyd y dydd heddyw. Bu farw Mr. Nanney, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau, yn y flwyddyn 1768 pan ydoedd ychydig dros bedwar ugain mlwydd oed. Yr oedd ef yn 1723, yn ficar Clynog, ac yn berson Llanaelhaiarn.

**NANT,** trefgordd yn mhlwyf Abergeleu, swydd Ddinbych; yn agos i dref Abergeleu. Poblogaeth, 164.

**NANT,** cyd drefgordd â Phrestatyn, yn mhlwyf Meliden, cantref Prestatyn, swydd Fflint; 8 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Lanelwy; a 3¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Ruddlan. Poblogaeth, 404.

**NANT** (Melin y), lle hynod o ardebawl yn y parth gorllewinol o swydd Gaer yn Arfon, ar yr afon Gwyrfai; 5½ milldir i'r de ddwyrain o dref Caer yn arfon.

**NANTCLWYD,** trefgordd yn mhlwyf Llanelidan, yn swydd Ddinbych, ar lan yr afon Clwyd, a cher rheilffordd Dinbych, Rhuthin, a Chorwen; 4¾ milldir i'r dehau o Ruthin. Gwerth ardrethol, 3028*p*. Poblogaeth, 81.

**NANT CONWY,** cantref yn y parth dwyreiniol o swydd Gaer yn Arfon, yn cynnwys plwyf Bettws y Coed, pedwar plwyf arall, a rhanau o ddau eraill. Erwau, 46,326. Poblogaeth yn 1851, 4281; yn 1861, 4556. Tai annedd, 932.

**NANT CRIBAU,** palas yn mharth dwyreiniol swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r gogledd o Drefaldwyn. Perthynai gynt i dylwyth pendefigaidd o'r cyfenw Devereux.

**NANTCWNLLE,** plwyf yn undeb Tregaron; swydd Aberteifi; ar yr afon Aeron, 3¾ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd y Bettws, a 6½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Dregaron. Cynnwysa bentrefydd Llandain Fach, a Dalbwda; a'i lythyrfa yw Tregaron, dan Gaerfyrddin. Mesura y plwyf, yn erwau, 4603; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1074*p*. Poblogaeth, 779. Tai annedd, 178. Y mae gweddillion hen wersyll milwraidd, a elwir "Pen y Gaer," o fewn y plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawddogaeth Esgob Ty Ddewi.

**NANT DDU,** capeloriaeth, yn yr adran uchaf o blwyf Cantref, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru; ar yr afon Tâf, goris Bannau Brycheiniog; 8½ milldir i'r de dde orllewin o orsaf Aberhonddu. Llythyrfa, Aberhonddu. Poblogaeth, 95. Tai annedd, 17. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglor-iaeth wastadol, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 60*p*. Noddwr, Periglor Cantref. Cafodd yr eglwys ei hail adeiladu, yn y flwyddyn 1864, ar y draul o 400*p*.

**NANT FYLLON,** trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, swydd Drefaldwyn; 3¼ milldir i'r gogledd o Lanfyllin. Gwerth ardrethol, 584*p*. Poblogaeth, 168.

**NANT FFORCH,** trefgordd yn mhlwyf Castell Caereinion, swydd Drefaldwyn; 4¼ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Lanfair. Poblogaeth, 86.

**NANT-FFRANCON,** ceunant ramantus yn y parth dwyreiniol o swydd Gaer yn Arfon, islaw cwympiadau Llyn Ogwen; 4¼ milldir i'r gogledd orllewin o Capel Curig.

**NANT FFRIAR,** trefgordd yn mhlwyf Llan dderfel, swydd Feirionydd; 3¼ milldir i'r dwyrain o'r Bala. Gwerth ardrethol, 590*p*. Poblogaeth, 182.

**NANT GAREDIG,** pentref yn nghanol swydd Gaerfyrddin, gerllaw yr afon Towy, a rheilffordd Dyffryn Towy; 6½ milldir i'r dwyrain wrth ogledd o dref Caerfyrddin. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, dan Gaerfyrddin.

**NANT GARW,** treflan yn y parth dwyreiniol o swydd Forganwg, yn Nglyn Tâf, 6 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Gaerdydd. Medda lythyrfa, dan Bont y Pridd.

**NANTGLYN,** pentref, a phlwyf, yn Undeb Rhuthin, swydd Ddinbych. Y mae y pentref hwn, yr hwn sydd yn gorwedd mewn llanerch ddymunol, ar gainc o'r afon Clwyd, yn agos i ganol y sir; ac y mae y plwyf agos yn saith milldir o hyd, a phedair milldir a haner o led. Gorwedda y pentref, 4 milldir i'r de orllewin wrth ddehau o orsaf Dinbych, a medda lythyrfa, dan Ddinbych; a ffair ar y 27ain o Hydref. Cynnwysa y plwyf, drefgyrdd y Blaenau, Gwilym, y Plas, a'r Hendref. Mesura yn erwau, 5600. Cyfrifir ei werth ardrethol, yn 1497*p*. Poblogaeth, 266. Tai annedd, 76. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Llanelwy; gwerth, 222*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae Llan y plwyf yn gyssegredig i St. Iago: ac nid oes unrhyw ragoriaeth yn perthyn i'r adeilad; ond y mae rhai coed Yw rhagorol yn y fynwent. Yr oedd Mr. David Samuel, yr hwn a hwyliodd gyd a'r Cadben Cook, fel llaw-feddyg ar fwrdd y *Discovery*, ag ydoedd yn llygad-dyst o'i farwolaeth ef, am yr hyn yr ysgrifenodd efe hanes ddyddorol i'r *Biographia Britannica*, yn frodor o'r lle hwn; ac yn y Plas, trefgordd yn y plwyf hwn, y ganwyd y Chwareuyddes enwog Mrs. Jordan.

Digitized by Google

**NANT GWRTHEYRN,** ceulc ramantus yn mharth de orllewinol swydd GAER YN ARFON; ar lan y môr, wrth droed mynyddoedd yr Eifl, 3¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Nefyn. Dywedir i'r brenin Gwrtheyrn encilio i'r fan hon rhag llid ei ddeiliaid, ac iddo farw yma yn y flwyddyn 465; a dangosir rhyw fath o garnedd yma, yr hon a elwir hyd heddyw, "Bedd Gwrtheyrn."

**NANT GWYNANT,** a elwir hefyd NANHWYNAN, arglwyddiaeth yn mhlwyf Beddgelert, swydd GAER YN ARFON; yn cynnwys rhan o bentref Beddgelert. Gwerth ardrethol, 1609*p*. Poblogaeth, 599. Y mae glyn rhamantus, yn esgyn yma mewn cyfeiriad gogledd ogledd orllewinol, heibio i Ddinas Emrys, goris ystlys dde orllewinol y Wyddfa, lle y dywedir fod Gwrtheyrn, a'r dewin Merddin Emrys, wedi encilio am loches, ar ol ffoedigaeth Gwrtheyrn rhag Hengist, a chyn cymeryd o hono ei nawddle olaf yn Nant Gwrtheyrn.

**NANT HALEN,** trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd DREFALDWYN; yn agos i dref Llanfyllin. Poblogaeth, 59.

**NANT HEULOG,** trefgordd yn mhlwyf Llangwm, swydd DDINBACH; 14 milldir i'r de orllewin o Ruthin. Poblogaeth, 72.

**NANTLLE,** pentref yn swydd GAER YN ARFON, gerllaw tarddiad yr afon Llyfni, mewn glyn ardderchog, goris esgeiriau gorllewinol y Wyddfa; 9 milldir i'r de dde orllewin o Gaer yn arfon. "Nant Nantlle" y gelwir y glyn, yr hon a gynnwysa ranau o bedwar o blwyfi, sef Beddgelert, Llanllyfni, Llandwrog, a Chlynog Fawr yn Arfon. Pe ymwelid a'r gymmydogaeth hon gan ymdeithydd o brif-ffordd Beddgelert a Chaer yn arfon, byddai yn angenrheidiol iddo droi i mewn drwy y *drws*, sef "Drws y Coed," gan gefnu ar y Wyddfa, "Tywysoges mynyddoedd Eryri;" ac ar ei ddeheulaw, y mae y "Mynydd Mawr," a'r "Cilgwyn," a'r "Clogwyn Melyn;" tra y mae cadwaen o fynyddau rhamantus yn ymddyrchafu ar ei law aswy, y rhai a ddygant yr enwau canlynol, "Garn Farchog;" neu, "Carn Farchnad," "Talmynyddau," "Cwm Silin," ac wrth eu godreu, y mae "Cwm Dulyn," a "Chwm Cyrch." Fel y mae yr Ymdeithydd yn myned rhagddo, ymleda y dyffryn yn raddol, hyd oni's cyfyngir arno gan y tomenydd ysbwrial anferth a gyfodwyd o'r amrywiol lech-chwarelau a weithir yn y gymmydogaeth; ac yn cyd deithio âg ef, y mae afonig a darddodd o Lyn y Dywarchen, ychydig uwchlaw Drws y Coed, yr hon a ymffurfia yn Llyn yn y Nant, trwy gyd gyfarfyddiad amryw fân ffrydiau eraill, a ddisgynant o gesseiliau y mynyddoedd; yna ymarllwysa allan yn afon gref o'r llyn hwn, ac yn ebrwydd ffurfia lyn mawr arall gerllaw; a gelwir y llynau hyn yn "Llynau y Nantlle;" ac mewn amseroedd boreuol, gelwid y gymmydogaeth hon o'r herwydd, yn "Bala deulyn;" ond yr enw mwyaf cyffredin ydyw "Nantlle," neu "Nant llef." Y mae amryw draddodiadau ar lafar gwlad, mewn cyssylltiad a'r enw hwn; a dichon na byddai yn annifyr gan y Darllenydd gael rhai o honynt. Un ydyw, Bod hyddgwn perthynol i rai o'r hen bendefigion Cymreig, ar ryw adeg bell iawn yn ol, wedi codi rhyw greadur dyeithriol, a alwent "Aur-frychyn," am fod ei flew yn dysglaerio yn debyg i'r *aur*. Dywedir fod rhyw debygrwydd maintioli, a ffurf, rhwng y creadur crybwylledig â'r Bual, neu yr Ych gwyllt; a bod yr hydd-gwn wedi ei ymlid oddi gerllaw Llyn Cadair, hyd y lle hwn, cyn ei ddal; a phan ei goddiweddwyd, iddo lefain nes diaspedain, a hollti y creigiau; ac i'r ardal gael ei galw oddiwrth yr amgylchiad uchod, yn "Nant y llef."

Chwedl draddodiadol arall a adroddir mewn cyssylltiad a'r enw, ydyw, Fod y coedwigoedd oeddynt yn y Nant hon, yn llawn o wylltfilod, y rhai oeddynt wedi dyfod yn orthrymder blin ar drigolion yr ardaloedd cylchynol; y rhai, er cael ymwared oddiwrthynt, a roddasant dân yn y goedwig ar y naill ben, yn Nrws y Coed; ac ar y pen arall, yn Sarn wyth-ddwr; a'r creaduriaid a gilient yn raddol o flaen y tân a oddeithiai y goedwig o'r naill ben a'r llall, hyd onid amgylchynwyd hwynt gan y tân, yn nghanol y Nant; a chan mor ofnadwy yr udai y creaduriaid yn eu cyfyngder, galwyd y lle yn "Nant llef." Y mae digon o brofion fod y lle hwn wedi bod yn goedwig drwchus unwaith; a bod y coed hyny wedi eu dinystrio trwy dân, fel y gwelir ei ôl ar y gweddillion a geir yn y mawnogydd yn bresenol; ond pa bryd? gan bwy? ac i ba ddyben? ni's gellir ei benderfynu i sicrwydd erbyn hyn.

Wedi i Edward y Cyntaf ddarostwng Cymru, efe a dreuliodd rai dyddiau yn y gymmydogaeth hon, yn misoedd yr haf, tra yn cadarnhau ei iau ar yddfau y Cymry; ac y mae rhai o'i Archebau ar gael, wedi eu dyddio o'r Bala deulyn: ac y mae rhai Haneswyr yn dywedyd ei fod ef wedi cynnal math o rithymgyrch (*tournament*), cyffelyb i'r un y parodd ei gynnal yn Nefyn, ar y gwastadedd rhwng y ddau lyn; gyd a'r amcan, fe ddichon, o ddwysau ei arswyd ar feddyliau y trigolion. Dywaid pobl yr ardal yn gyffredin, mai yn yr hen dy, a safai wrth gefn yr ammaethdy presenol, a elwir "Bala deulyn," y cyfanneddai ei fawrhydi, tra yn aros yn y gymmydogaeth hon; ond barna eraill, mai yn y lle a elwir "Ty'n y Nant" yr anneddai y brenin; ac y mae traddodiad yn yr ardal, fod rhan o'r pren gwely breninol, wedi ei ddefnyddio yn risiau yn y tŷ hwnw; ac yr oedd gweddillion gwely yn weledig mor ddiweddar a'r flwyddyn 1861, yn ffurfio rhan o'r grisiau o fewn Ty'n y Nant.

Yn Nrws y Coed, y mae amryw fwn-gloddiau, lle y bernir y cyfodid efydd o bryd i bryd, o'r cyfnod Rhufeinaidd hyd yr oes hon. Y mae tua 30 o anneddau yn y lle hwn, ac un addoldy, y rhai a gyfodwyd at wasanaeth y mwngloddwyr, ac yn Neiliadeb 1871, dywedir fod nifer y preswylwyr yn 150.

Yn y Nant hon y saif pentref blodeuog "Tal y Sarn;" y mae yma tua 250 o dai, a rhif y trigolion yn 1160; ac y mae yma amryw addolfeydd cyfleus, perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Eglwys Sefydledig: y cyfan wedi eu hadeiladu yn ddiweddar mewn cydmariaeth, at wasanaeth y llech-gloddwyr. "Pen y Groes" sydd bentref poblogaidd arall, tua milldir a haner i'r Gorllewin o Dal y Sarn. Yn y flwyddyn 1795, nid oedd namyn un ty to gwellt bychan yn y lle hwn, yr hwn a elwid Pen y groes, am ei fod wedi ei adeiladu gerllaw croes-ffordd; ond erbyn hyn y mae yma dros ddau gant o dai, a'r trigolion yn rhifo tuag un cant ar ddeg; ac y mae yma hefyd amryw addoldai trefnus, a chysurus.

Cyfansoddwyd y Molawd canlynol i Ddyffryn Nantlle gan frodor o'r ardal.

"Brenines dyffrynoedd gwlad Cymru wyt ti,
O Nantlle! mewn cyfoeth wyt uchel dy fri:

Digitized by Google

O ganol dy fynwes, trysorau a gawn,
A'th uchel fynyddau o fwnau y'nt lawn.
Y gwledydd ymreibiant am geryg dy frô,
A choron palasau yw'th lechau yn dô.
Ond rhinwedd dy feibion, a chrefydd y gwir,
Yw'r perl a brydfertha dy goron yn wir:
Mae ynot ti flodau, os ydynt yn fân,
Brydferthant Baradwys pan fyddych di'n dân
Hawddamor it Ddyffryn gorenwog y Nant,
Boed heddwch i'th lenyrch, a llwyddiant i'th blant." WIL LLWYD.

**NANT LLEIDIOG**, trefgordd yn mhlwyf Llanfawr, swydd FEIRIONYDD; yn agos i'r Bala. Gwerth ardrethol, 696. Poblogaeth, 227.

**NANT MEL**, neu NANT MAEL, plwyf yn nghantref Rhaiadr, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU. Y mae y plwyf mewn sefyllfa ddymunol, ar lan yr afonig Dulas, a'r brif-ffordd o Raiadr i Faesyfed Newydd yn myned drwyddo; o fewn 4 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o orsaf rheilffordd y Rhaiadr. Cynwysa drefgyrdd Gwastedin, Maes gwyn, Coed glasson, a'r Faenor; a medda lythyrfa, dan y Rhaiadr. Mesura 16,387 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol, yn 7637*p*. Poblogaeth, 1453. Tai annedd, 240. Yn y plwyf hwn y mae Llyn Gwyn, yr hwn sydd tua milldir o gylch-fesur; a'r hwn oedd yn gyrchfa enwog pererinion yn yr "oesoedd tywyll." Y mae dwy o'r carneddau mwyaf yn y wlad, o fewn y plwyf hwn, y naill ar ben Gwastedin, a'r llall ar y bryn a elwir Camlo. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 250*p*.; yn nawddogaeth Esgob Ty Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i goffadwriaeth St. Cynllo, ac yn gorwedd wrth droed bryn serth, oddiar y brifffordd, a ail adeiladwyd yn y flwyddyn 1792, sydd adeilad hardd, yn cynwys corph, a changell, yn nghyda thŵr gwalciog, yr hwn sydd yn ffurfio gwrthddrych dyddorol o amryw gyfeiriadau. Y mae yma leoedd addoli hefyd yn perthyn i'r Bedyddwyr yn y Dolau, ac i'r Annibynwyr yn y Cwrt gwyn. Y mae pum punt yn flyneddol o ardreth tyddyn o'r enw Pen y ffynnon, yn y plwyf hwn, i'w talu i'r tlodion, dan ewyllys Hugh Philips; ac ychydig swm i'r un perwyl, oddiwrth dir a gymmun-roddwyd yn y flwyddyn 1718, gan John Davies.

**NANT PERIS**, mynydd-fwlch yn swydd Gaer yn arfon, rhwng y Wyddfa a'r Gluder Fawr, yn agos i Lanberis. Y mae tua 4 milldir o hyd; ac y mae rhan o honi yn gul iawn; a'r golygfeydd a geir ynddi yn wyllt, ac ysgythrog dros ben.

**NANT Y BELA**, glyn dwfn, prydferth, ar rawd yr afon Dyfrdwy, yn agos i orsaf rheilffordd y Cefn; 4 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Langollen.

**NANT Y BWCH**, gorsaf ar derfyn cainc o reilffordd Sirhowy, ar ffiniau swyddi Brycheiniog, a Mynwy.

**NANT Y CAIN**, pentref yn mhlwyf Llangwnwr, swydd GAERFYRDDIN; heb fod yn neppell o dref Caerfyrddin.

**NANT Y CANDY**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel, swydd DREFALDWYN; 5½ milldir i'r de orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 45.

**NANT Y DERI**, gorsaf rheilffordd yn swydd FYNWY, ar reilffordd Henffordd a'r Cas Newydd; 6½ milldir i'r De wrth Ddwyrain o Abergafeni.

**NANT Y FUDD**, glyn ardebawl yn neheuberth swydd FFLINT, ar hyd pa un y llifeiria cainc o'r afon Alun; 1 filldir i'r De orllewin o Gaergwrle.

**NANT Y GLO**, pentref a chapeloriaeth, yn mhlwyf Aberystruth, swydd FYNWY; y mae y pentref yn sefyll ar flaen dyffryn yr Ebwy Fach, ac ar derfyniad rheilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol; 3½ milldir i'r dehau o ffiniad swydd Fynwy a swydd Frycheiniog; ac 21½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o'r Cas Newydd. Y mae yma Weithfeydd haiarn mawrion, yn cynnwys saith o ffwrneisiau, a morthwylfeydd enfawr. Y mae yma orsaf rheilffordd, a phellebyr, llythyrfa, dan Dredegar; gwestdy cyfleus, &c. Ffurfiwyd y Gapeloriaeth yn y flwyddyn 1844. Gwerth trethadwy, 10, 980*p*. Poblogaeth yn 1861, 4450. Tai annedd, 853. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 300*p*. Yn noddaeth y Goron, a'r Esgob, ar yn ail.

**NANT Y GWRHYD**, trefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd DDINBYCH, yn agos i dref Llangollen.

**NANT Y GWRHYD**, dyffryn dwfn cul, yn y parth dwyreiniol o swydd GAER YN ARFON, yn disgyn tu a'r dwyrain ogledd ddwyrain o esgeiriau dwyreiniol y Wyddfa, hyd Gapel Curig, ac yn cael ei ffinio ar y tu dehau gan Foel Siabod. Y mae yn ymddangos yn llwm ac annghyfanneddol ar ei hyd, heb fod yr olygfa yn cael ei lliniaru gan goed, na diwylliant; nac onid ychydig o un math o adeiladau.

**NANT Y MEICHIAID**, trefgordd yn mhlwyf Meifod, yn swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r de ddwyrain o Lanfyllin. Poblogaeth, 147.

**NANT Y MWYN**, pentref yn Ngogledd Ddwyrain swydd GAERFYRDDIN; ar yr afon Towy, 5½ milldir i'r gogledd o Lanymddyfri, Medda Lythyrfa dan Gaerfyrddin. Ar lethr bryn yn y plwyf hwn, y mae Gweithfeydd plwm, perthynol i Iarll Cawdor.

**NANT Y NEF**, trefgordd yn mhlwyf Llangynhafal, swydd Ddinbych; 3½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 102.

**NANTYR**, (ISAF, ac UCHAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Llansantffraid Glyn Ceiriog, swydd DINBYCH; 2 filldir i'r dehau o Langollen. Poblogaeth, 22 a 32.

**NANT Y RHEIBIO**, ceunant yn agos i Gastell Dinefwr, swydd GAERFYRDDIN; yn nghymmydogaeth Llandeilo Fawr. Y mae yma ffynnon yn llenwi, ac yn treio ddwy waith y dydd.

**NARBERTH**, bwrdeisdref, tref farchnad, a phlwyf, yn nghantref Narberth, swydd BENFRO. Y mae y dref yn gorwedd ar lethr bryn gerllaw rheilffordd Penfro, Tenby, a Whitland; 3½ milldir i'r de dde ddwyrain o orsaf *Narberth Road;* ac 11½ milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o Benfro. Adeiladwyd castell yma gan Syr Andrew Perrott, er amddiffyn yr arglwyddiaeth a roddasai Arnulff i'w daid, Stephen Perrott, fel gwobr am y cymhorth a roddasai efe iddo i oresgyn y rhan yma o'r dywysogaeth. Dywedir fod Stephen Perrott wedi gwneyd math o amddiffynfa o'r blaen i'r un perwyl, ar fryn a elwir "Bryn y gwersyll," rhwng pentref Templeton yn y plwyf hwn, a'r dref bresenol. Mewn amser, aeth yr arglwyddiaeth, a'r castell hwn, o feddiant y Perrotiaid, i ddwylaw y Mortimeriaid; ac fe'i rhoddwyd gan Harri yr Wythfed i Syr Rhys ab Thomas.

Ychydig sydd o hanes y castell ar gôf a chadw, yr hwn a gymerwyd, ac a ddinystriwyd, gan Llywelyn

Digitized by Google

ab Gruffydd, Tywysog Gwynedd, yn y flwyddyn 1256; ond, ymddengys iddo gael ei adgyweirio drachefn yn fuan; ac o'r pryd hyny hyd amser Harri yr Wythfed, ymddengys fod yr arglwyddiaeth a'r castell, yn y cyffredin yn berchenogaeth y goron, neu ryw aelod enwog o'r bendefigaeth Seis'nig. Cafodd y castell ei niweidio yn fawr yn ystod y rhyfel Cartrefol; gan ei fod yn cael ei ddal ar y dechreu, dros y brenin Charles y Cyntaf; ond fe'i cymerwyd gan wŷr y Senedd: ac yn y flwyddyn 1657, preswyliai un Cadben Castell, cefnogydd gwresog i Cromwell yma; ac ymddengys fod y castell mewn cyflwr anneddadwy hyd y flwyddyn 1657, pan y ffurfiai ran o feddiannau enfawr y Barlows o Slebech, y rhai yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Iago yr Ail, a gawsant ganiattad i gynnal marchnad, a ffair yma, ac i dderbyn toll oddiwrthynt. Nid yw y dref ond bechan, ac afreolaidd yn ei hadeiladau; ond cynhelir ynad-lysoedd yma, ac y mae yn un o'r lleoedd pennodedig i bleidebu mewn etholiad aelod Seneddol; a thrwy ddeddf y diwygiad Seneddol, fe'i gwnaed yn fwrdeisdref, mewn undeb a Hwlffordd, ac Abergwaun, er anfon aelod i'r Senedd. Y mae yma lythyrfa hefyd, gorsaf rheilffordd, gwestdy cyfleus, marchnadle, eglwys, a thri addoldy ymneilldnol, ac ysgol waddoledig. Ail adeiladwyd yr eglwys yn y ganrif bresenol; ac addoldy yr Annibynwyr a adeiladwyd yn y flwyddyn 1859. Cynhelir marchnad wythnosol yma ar ddydd Iau; a chynhelir Ffeiriau, ar Mawrth 21; Mai 13; Meh. 4; Gorph. 5; Awst 10; Medi 26; Hydref 25; a Rhagfyr 11; a dygir yn mlaen gryn lawer o fasnach yma, mewn cyssylltiad a'r cloddfeydd ceryg, a'r glofeydd cyfagos. Poblogaeth y fwrdeisdref, yn 1851, oedd 1392; yn 1861, 1209; yn 1871, 1266. Tai annedd, 286. Y mae y plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosbarth, y Gogleddol, a'r Deheuol; a chynnwysa o'i fewn, dreflan *Redstone*. Erwau, 6084. Gwerth ardrethol y dosbarth Gogleddol, 6017*p*. Poblogaeth yn 1851, 1941; yn 1861, 1717. Tai annedd, 398. Y prif achos o leihad y boblogaeth, oedd symudiad y llafurwyr ar waith y rheilffordd. Gwerth ardrethol y dosbarth Deheuol, 2644*p*.; o ba rai y mae 30 punt mewn Cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 881; yn 1861, 829. Tai annedd, 176.

Tua milldir i'r dehau o'r dref, y mae pentref henafol *Templeton*, a elwir felly am ei fod gynt yn gyrchle nodedig Marchogion y Deml, o Slebech; y rhai a arferent ddilyn eu helwriaeth yn y lle hwn. Y mae gwedd henafol ar amryw o'r tai yn y pentref hwn; ac y mae yr adfeilion lluosog sydd o'i amgylch, yn cadarnhau gwirionedd y traddodiad, ei fod ar un adeg yn lle mwy pwysig: a dywedir hefyd, bod yma eglwys, neu gapel anwes, yn yr oesoedd Pabaidd; ac yn y flwyddyn 1863, adeiladwyd yma eglwys newydd, a gwnaed y lle yn gapeloriaeth.

Bywioliaeth eglwysig Narberth, sydd beriglorïaeth, unedig âg is-beriglorïaethau gwastadol Roberton Wathen, a Mounton, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 417*p*. ac yn Nawddogaeth y Goron. Y mae eglwys Templeton yn fywioliaeth wahanol.

Y mae enwogrwydd hanesyddol yn perthyn i'r *Grove*, yn y plwyf hwn, am ei fod yn ettifeddiaeth drefdadol y Milwriad Poyer, yr hwn a amddiffynodd gastell Penfro mor ddewrwych, yn amser y rhyfel cartrefol; a'r hwn, yn nghyd a'r Milwriaid Laugharne, a Powell, a roddwyd ar eu prawf gan Cromwell am deyrn-fradwriaeth, ac a ddedfrydwyd i'w dienyddio. Dylanwadwyd ar Cromwell i arbed bywyd dau o'r tri; ac efe a barodd blygu tri phapur, ar ddau o ba rai yr oedd yn ysgrifenedig, "Bywyd wedi ei roddi gan Dduw;" a'r trydydd, ar yr hwn nid oedd dim yn ysgrifenedig, a ddisgynodd i ran y Milwriad Poyer, yr hwn yn y canlyniad, a saethwyd yn *Covent Garden*, ar y 25ain o Ebrill, 1649. Oddiwrth yr amgylchiad yma y mae yr arwydd-air teuluaidd,—"*Sors est contra me*,"—wedi ei gymeryd.

Ymddengys fod y lle hwn, yr hwn yn rhai o'n hen gofion, a elwir "Arberth," yn nodedig mewn amseroedd tra boreuol, fel preswylfa rhai o bennaethiaid y wlad; a chyfarfyddwn a chrybwylliad yn nghyfnodau boreuaf ei hanes, am Pwyll Pendefig, o Frenin-llwyth Dyfed, yn cychwyn o'i balas yn Arberth, i hela yn Nglyn Cuch.

**NARBERTH ROAD**, gorsaf rheilffordd, a phellebyr, yn swydd Benfro; ar reilffordd Deheudir Cymru; 11 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o St. Clears.

**NASH**, plwyf, a phentref bychan, yn undeb y Cas Newydd, swydd Fynwy, ar ystlys aswy genau yr afon Wŷsg. 3 milldir i'r de orllewin o orsaf Llanwern; a 3½ milldir i'r de dde ddwyrain o'r Cas Newydd. Llythyr-dref, Cas Newydd, Mynwy. Erwau, 3563, o ba rai y mae 825 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4792*p*., o'r hyn y mae 10*p*. mewn pysgfeydd. Poblogaeth, 278. Tai annedd, 58. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 80*p*. Yn noddaeth Colleg Eton. Y mae deg punt ar hugain y flwyddyn o waddoliadau elusenawl yn perthyn i'r plwyf.

**NASH**, plwyf, mewn rhan yn nghantref Castell Martin, ac mewn rhan yn nghantref Narberth, swydd Benfro. Y mae *pentref* Nash yn gorwedd yn agos i gilfach o *Milford Haven*, 2 filldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o orsaf rheilffordd Penfro. Erwau, 577. Gwerth ardrethol, 942*p*. Poblogaeth, 147. Tai annedd, 21. Y mae y *plwyf* hefyd yn cynnwys treflan Upton; a'i lythyrfa yw Penfro. Erwau, 1012, o ba rai y mae 105 dan ddwfr yn Upton. Gwerth ardrethol, 1332*p*. Poblogaeth, 171. Tai annedd, 24. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, unedig a Chapeloriaeth Upton, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 130*p*. Noddwyr, Drs. J. ac R. Evans.

**NASH**, llanerch anmhlwyfol, yn undeb Pen y bont, swydd Forganwg; 2½ milldir i'r de orllewin wrth orllewin o Bont Fôn. Erwau, 178. Poblogaeth, 11. *Nash House*, palas Tuduraidd, lle y cyfannedda boneddwyr o'r cyfenw Carne, yw yr unig dŷ annedd.

**NASH**, Richard, a anwyd yn Abertawe, yn y flwyddyn 1674. Ei dad oedd foneddwr, yr hwn yr oedd y rhan fwyaf o'i eiddo yn deillio oddiwrth waith gwydrau, o'r hwn yr oedd yn gyfranog; a'i fam oedd yn nith i'r Milwriad Poyer, amddiffynydd gwrol castell Penfro yn erbyn byddin y Senedd, yn 1648. Efe a addysgwyd yn ysgol Caerfyrddin, ac oddiyno efe a aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, er ei barottoi i fyned yn gyfreithiwr; ond tra yn y coleg, efe a aeth yn dra phenrydd ei fuchedd, a phenderfynodd fyned i'r fyddin, yn yr hon y prynodd swyddogaeth: eithr efe a flinodd ar ei alwedigaeth newydd yn fuan, a gwerthodd ei swyddogaeth, fel y gallai fyw yn segur, dan yr esgus o efrydu y gyfraith yn y *Temple*. Yma, efe a ymroddodd yn llwyr i bleser, ac arfoesedd; a phan ymwelodd y brenin

Digitized by Google

William â'r *Inn*, efe a ddewiswyd yn feistr y coeg-wychder â'r hyn yr arferid croesawu y pennadur. A chymaint o foddhad a gafodd y brenin yn ei groesawiad, fel y cynnygiodd anrhydeddu Nash, trwy ei urddo yn farchog: ond efe a'i gwrthododd, gan ddywedyd, "Rhynged bodd i'ch Mawrhydi, os ydych yn bwriadu fy ngwneyd yn farchog, i mi gael bod yn un o farchogion tlodion Windsor, ac yna byddai genyf gynnysgaeth gyfartal o leiaf i gynnal fy urddas." Pa fodd bynag, ni chymerwyd yr awgrymiad, ac er na ennillodd efe gyfoeth trwy ei swydd ddiweddar, efe a ennillodd lawer o gyfeillion.

Oddeutu y flwyddyn 1703, daeth Caer-baddon i ryw raddau, yn gyrch-le pobl o urddas ac enwog-rwydd, trwy fod amryw feddygon yn rhoddi gair uchel i iachusrwydd y ffynnonau, a gosodid y difyrion dan arolygaeth meistr y defodau. Yr ail a ddewiswyd i'r swydd hon oedd Mr. Nash, a hyny yn y flwyddyn 1704; ac yn y fan, efe a sefydlodd gyfres o reolau, mor nodedig am eu manylrwydd, ag am eu cyfadd-asrwydd doeth i angenion cymdeithas y lle: a thrwy ei ddyfalwch, daeth Caer-baddon yn fuan yn gem-maes haf-ddifyrion i fonedd y deyrnas yn gyffredinol, a gwelleid y difyrion yn gyffredinol dan ei weinydd-iaeth. Tra yn uchder ei ddylanwad a'i boblogrwydd, yr oedd yn byw yn y modd mwyaf ysplenydd, gan gynnal ei dreulion trwy lwyddiant parhaus wrth y chwareu-fwrdd. Addurnid ei wisg ag eirionweoedd drudfawr, ac am ei ben, gwisgai het walciog, wen, fawr. Y cerbyd, yn yr hwn y marchogai, a dynid gan chwech o geffylau llwydion, dylynid ef gan osgordd mawr o weinidogion, rhai ar feirch, a rhai ar draed; tra y gwnelid ei fynediad trwy yr heolydd yn hysbys, gan sein-dorf o gyrn Ffrengig, ac offer eraill. Ei deitl cyffredin oedd, brenin Caer-baddon, a pharhaodd ei deyrnasiad yn ei rhwysg, dros yr yspaid maith o haner can mlynedd; ac y mae yn rhaid addef, er mor goeg-rodresgar oedd ei fuchedd, ei fod yn cael ei barchu yn ddiffuant. Nid oedd terfyn ar ei elusengarwch; ac yr oedd ei gym-mwynasau yn gymmesur a'i dreuliadau eraill. Y tynerwch yma at anffodion y truenus, a'i ymdrechion parod i'w cynnorthwyo, a ddyrchafent ei gymeriad, ac a orchuddient ei wendidau, megys llen anhydraidd. Yn ystod gauaf caled 1739, yr oedd ei ymdrechiadau i gynnorthwyo yr angenog yn dra chanmoladwy; a mynych yr elai i dai y tlodion, y rhai y tybiai eu bod yn rhy falch i ofyn am elusen, ac yr estynai gymhorth haelionus iddynt.

Ond, o'r holl enghreifftiau o'i elusengarwch, nid oes yr un yn dychwelyd mwy o wir anrhydedd iddo, na'r drafferth a gymerodd efe i sefydlu yspytty yn Nghaer-baddon. Ac y mae yn ofidus meddwl, ei fod ef cyn terfyn ei oes, mewn angen am y cyfryw elusen ag y buasai efe mor barod yn wastadol i'w estyn i eraill; ac amryw achosion eraill hefyd a gyd-weithient i chwerwi prydnhawn ei einioes. Efe a fu farw Chwefror 3, 1761, yn 87 mlwydd; a chladd-wyd ef yn eglwys y fynachlog, yn Nghaer-baddon. Galarid yn ddwys a diffuant ar ei ol, gan yr holl ddinas y buasai efe cyhyd o amser yn gymmwynaswr iddi; a chladdwyd ef gyda rhwysg ac anrhydedd di eilydd o'r braidd, ar draul corphoraeth y ddinas; ac ysgrifenwyd ei feddargraff, yr hwn sydd deyrnged ddillyn i'w goffadwriaeth, gan Dr. Harrington.

**NASH POINT**, neu, "y trwyn," fel y mae yr enw yn arwyddo, pentir bychan, ar arfordir Morganwg; 6½ milldir i'r de orllewin o Bont fôn, sydd yn cael ei wneyd i fynu o galchgreigiau uchel, murawl, ac ysgythrawg. Ar y trwyn yma y dryll-iwyd yr agerlestr, "y Frolic," yn y flwyddyn 1832, pan y collwyd pawb oedd ar ei bwrdd, yn agos i driugain mewn nifer. Yn ddïoed ar ol y trychineb erybwylledig, fe gyfodwyd dau oleudy ar y trwyn hwn, y naill yn 167, a'r llall yn 123 troedfedd o uchder; ac o fewn mil o droedfeddi, y naill i'r llall; a dangosant oleuadau sefydlog hyd 18 milldir, ac 16 milldir o bellder. Y mae traethellau symudol peryglus, oddeutu 6 milldir o hyd, ac mewn rhan yn sych ar drai isel, yn gorwedd i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o'r pentir; ac y mae arwydd wedi ei gyfodi arno. Y mae trwyfa, tua ¼ milldir o led, rhwng y traethau a'r lan, yn meddu dyfnder o dri gwrhyd; ac yn fordwyol ar hin dêg.

**NAVIGATION**, lle ar ffin ddwyreiniol swydd Morganwg, ar ddyfr-ffos Glyn Taf, a rheilffordd Glyn Taf, ar gydiad y cangenau i Aberdâr; 16½ milldir i'r gogledd wrth orllewin o Gaerdydd. Cafodd y lle yr enw oddiwrth swyddfa dyfr-ffos, (*canal*), oedd yma; a chynt, rhoddes enw i orsaf rheilffordd yma, a elwir yn awr, *Aberdare Junction.*

**NEB**, un o feibion Caw. Enwogodd ei hun fel rhyfelwr dan Arthur.

**NEDD** (Y) afon, yn swyddi Brycheiniog, a Morganwg. Y mae yn cyfodi dan y mynydd a elwir Ban-Gyhyrych, yn y Goedwig Fawr, yn agos i Fannau Brycheiniog. Wedi crynhoi amryw ffrydiau yn mysg mynyddoedd y Goedwig Fawr, ac i waered hyd Bont Nedd Fechan, ar ffin Morganwg, ac oddeutu 10 milldir o'i tharddell uchaf, y mae yn dyfod yn Nedd brïodol, ger Pont Nedd Fechan; ac yn llifeirio oddiyno am tua 15 milldir i'r De Orllewin, heibio i Aberpergwm, Glyn Nedd, Capel Resolven, Aberdulas, Llanilltyd, Cadoxton, a Nedd, i feisfor Abertawe, ger *Britton Ferry.*

**NEFAI**, un o feibion Brychan Brycheiniog, yr hwn, yn nghyda'i frodyr Pasgen, a Papiali, a aned o Yspaenes o'r enw Prosori, trydedd gwraig Brychan. Hwy a aethant drosodd i Yspaen, lle y daethant yn seintiau, a boneddigion. Blodeuent yn y bumed ganrif.

**NEFED**, dynes y sonir am dani yn y Mabinogion yn nghyswllt a Lluched.

**NEFYDD**, un o feibion Llywarch Hen.

**NEFYDD**, un o ferched Brychan Brycheiniog, ydoedd santes, ac yn byw tua chanol y bumed ganrif. Priodwyd hi a Thudwal Befr; a mynegir yn *Monedd y Saint*, iddi fod yn santes yn Llech Gelyddon, yn Mhrydain Ogleddol.

**NEFYDD**, mab Rhun Dremrudd ab Brychan Brycheiniog, ydoedd sant yn byw tua diwedd y bumed ganrif. Dywedir yn *Achau y Saint*, mai efe a sylfaenodd eglwys Llannefydd, yn Rhyfoniog, neu sir Dinbych; ac iddo wedi hyny, fod yn esgob yn Mrydain Ogleddol, lle y lladdwyd ef gan y Sacson-iaid paganaidd, a'r Brithwyr.

**NEFYDD**, mab Nefydd Ail, mab Rhun Drem-rudd, ydoedd sant, yn byw tua dechreu y chweched ganrif. Yr oedd yn dad i Dewdwr Brycheiniog.

**NEFYDD HARDD**, ydoedd foneddwr o Nant-conwy, sir Gaernarfon, ac yn byw tua chanol y 12fed ganrif. Yr oedd yn fab i Garadawg ab Gwrydyr, ab Maelog Dda, ab Greddf, ab Cwnws Du, ab Cillin Ynad, yn disgyn mewn llinell union oddiwrth Cunedda Wledig. Yr oedd mewn bri mawr gan y Tywysog Owain Gwynedd, yr hwn a roddodd ei fab

Digitized by Google

i'w ofal i'w faethu; ond Nefydd a barodd i'w fab ei hun, Dunawd, ladd y tywysog ieuanc, mewn lle a elwir fyth wedi hyny, "Cwm Idwal." O herwydd y camwedd hwn, diraddiwyd hiliogaeth Nefydd, o fod yn foneddigion, i fod yn gaethion. Felly ystyrir gwerinwyr Nanconwy, o uwch urddas cyntefig, nag unrhyw werinwyr ereill. Rhun mab Nefydd, er mwyn gwneud iawn am yr anfadwaith crybwylledig, a roddes y tir i adeiladu eglwys Llanrwst. Yr oedd Nefydd Hardd yn Benaeth un o Bumtheg Llwyth Gwynedd; eirf-arwyddion yr hwn oeddynt,—*Argent, three spears' heads imbrued sable pointed upwards.* Awduron ereill a roddant,—*Argent, a chefron between three javelins sable, pointed upwards, gules.*

**NEFYDD NAF NEIFION**, ansawd chwedlofyddol a gofnodir yn y Trioedd Cymreig, fel yn draddodiadol o'r dylif. Tri "prif orchestwaith" Ynys Prydain oeddynt, Adeiladu llong Naf Neifion, yr hon a gludai ynddi wrryw a benyw o bob rhywogaeth anifeilaidd, pan dorodd Llyn y Llifeiriant allan,—llusgo yr afanc gan ychain Hu Gadarn,—a cheryg Gwyddon.

**NEFYN**, santes o'r bumed ganrif, yr hon oedd yn un o ferched, neu wyresau i Brychan Brycheiniog, ac a briodes Cynfarch Oer, o'r hwn y daeth yn fam i Urien Rheged. Cofnodir yr enedigaeth hon yn y Trioedd, fel un o "Dri Gwyn Dorllwyth Ynys Prydain," Tebygol mai Nefyn a sylfaenodd eglwys Nefyn yn Lleyn, sir Gaernarfon.

**NENNIUS**, hanesydd Prydeinig o'r wythfed ganrif. Tystiolaetha ei hun ei fod yn ddysgybl i Elfod, yr hwn yn 755 O. C., a ddaeth yn archesgob Bangor Deiniol, sir Gaernarfon. Efe oedd awdwr yr "*Historia Brittonum*," o'r hwn y mae amryw lawysgrifau ar gael, a'r hwn a gyhoeddwyd gyntaf gan Gale yn 1691, ac wedi hyny gan Bertram. Mae yr ysgrif oreu yn nghadw yn llyfrgell y Vatican, gyda pharhad gan Marc y Meudwy, yr hwn oedd yn byw yn y ddegfed ganrif. Cyhoeddwyd hwn yn 1819, gan y Parch. W. Gunn, gyda chyfieithiad, a nodiadau helaeth, at yr hyn y cyfranodd y Dr. W. O. Pughe hyfforddiadau gwerthfawr. Er bod argraffiadau Gale, a Gunn, yn amrywio llawer mewn trefniad, a geiriadaeth, y mae y sylwedd yr un. Y rheswm am hyn yw, mai gwahanol gyfieithiadau ydynt o'r un gynysgrif; a gellir profi hefyd oddiwrth ei arddull, mai Cymraeg oedd y cyfansoddiad cyntefig. Cyhoeddwyd argraphiad newydd o'r un Lladin, yn 1838, gan Stevenson, yn gyfrol 8 plyg.

**NERCWYS**, neu NERQUIS, pentref, trefgordd, a chapeloriaeth, yn mhlwyf y Wyddgrug, swydd FFLINT. Mae y pentref yn sefyll 2 filldir i'r de orllewin o'r orsaf a elwir y Llong; a 2 filldir i'r de wrth orllewin o'r Wyddgrug; a medda Lythyrfa, dan y Wyddgrug, swydd Fflint. Mae y drefgordd yn cynnwys 2280 erw o dir. Gwerth ardrethol, 2477*p*. Poblogaeth yn 1861, 482. Tai annedd, 99. Y mae y Gapeloriaeth yn ehangach na'r drefgordd, ac fe'i ffurfiwyd yn y flwyddyn 1844. Poblogaeth yn 1871, 1093. Tai annedd, 232. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 100*p*. Noddwr, ficar y Wyddgrug. Y capel, neu y llan, yr hwn sydd gyssegredig i St. Mair, sydd yn adeilad hardd, a chlochdy golygus iddo, o adeiladaeth led ddiweddar. Y mae amryw ged-roddion, yn cyrhaedd yn y cyfan tua 15 punt yn y flwyddyn, i'w defnyddio at addysgu plant tlodion yma.

**NEUADD**, neu NOYADD, lle yn mharth gorllewinol swydd FAESYFED; ½ milldir i'r de orllewin o Raiadr.

**NEUADD FAWR**, neu NOYADD FAWR, lle, yn mharth de orllewinol swydd ABERTEIFI; 5½ milldir i'r dwyrain o Aberteifi.

**NEUADD LLANARTH**, neu NOYADD LLANARTH yn ol tafodiaeth sathredig, palas Arglwydd Kensington, yn y parth de orllewinol o swydd Aberteifi; yn agos i Lanarth.

**NEVERN**, neu NEFERN, plwyf yn nghantref Cemmaes, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Y mae y pentref yn sefyll ger yr afonig Nevern, yn nghwr dyffryn coediog, hardd, 2 filldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Drefdraeth, ac 8 milldir i'r de orllewin o orsaf Aberteifi. Martin de Tours, Marchog Normanaidd, a ddaethai gyda William y Goresgynydd i Frydain, ac a wobrwyasid am ei wasanaeth, â thiriogaeth ar arfordir Dyfnaint, a barottodd longau i drosglwyddo byddin dros y cyfyng-for, er trawsfeddiannu unrhyw ran o'r dywysogaeth y canfyddai ei bod yn hawddaf ei goresgyn; ac efe a laniodd ei wŷr yn Abergwaun, gan gymeryd meddiant o arglwyddiaeth Cemmaes: ac er cadw y diriogaeth a drawsfeddiannasai, efe a gyfododd amddiffynfa yn y fan hon; neu, a gadarnhaodd un a adeiladasid yma o'r blaen, lle y gwnaeth ei drigfa, ac fe'i meddianwyd ar ei ol ef, gan ei fab William, yr hwn wedi ei gadarnhau ei hun yn y wlad, trwy briodi merch Rhys ab Gruffydd, a adawodd hen lŷs ei dad, y castell hwn, a elwid Castell Llanhyfer, o'r hwn y mae ychydig weddillion yn aros ar fryn uwchlaw yr eglwys; gan symud i un mwy mawr-wych, a adeiladasai efe yn Nhrefdraeth. Y mae y plwyf hwn yn un mawr iawn, gan ei fod yn cyrhaedd o lan beisfor Aberteifi, hyd at fynyddoedd Precelly. Mesura 14,637 o erwau, o ba rai y mae 115 dan ddwfr, neu yn Dowyn. Y mae wedi ei ranu yn bedwar dosbarth; sef, y Creigiau, y Cilgwyn, y Morfa, a Threwern. Gwerth ardrethol y Creigiau, 1430*p*.; y Cilgwyn, 1346*p*.; y Morfa, 1354*p*.; y Trewern, 1751*p*. Poblogaeth y cyfan yn 1851, 1642; yn 1861, 1436. Tai annedd, 315; yn 1871, 1424. Tai, 308. Y lleihad yn y boblogaeth, a achlysurwyd trwy ymfudiad llafurwyr ammaethyddol. Hen balas o amseriad Harri y Seithfed, yr hwn oedd yn breswylfa i Syr James ab Owain, ac a gyfaneddwyd wedi hyny gan fonedd o deuluoedd eraill, sydd yn ammaethdy yn bresenol. Y prif breswylfeydd yn bresenol, ydyw Llwyn y Gwair, a'r Henllys. Y mae pont, a elwir Pont Baldwyn, yn croesi yr afonig Nefern; a dywedir mai dyma y lle cyntaf, neu un o'r lleoedd cyntaf, y pregethwyd y croesgadau ynddo gan yr Arch-esgob Baldwyn, a Giraldus Cambrensis. Y mae cromlech fawr iawn yn Mhentre Ifan, o fewn tua milldir a haner i bentref Nefern, bwrdd-faen yr hon sydd yn mesur 18 troedfedd wrth 9; ac mor uchel, fel y gallai chwech o wŷr ar feirch lechu dani; ac fe'i hamgylchynir gan gylch Derwyddol lled anmherffaith, 150 troedfedd o gylch-fesur. Y mae cromlech arall, a ffos yn y bwrdd-faen, yn y lle a elwir Llech y Drybedd. Yn yr Henllys y preswyliai hen arglwyddi Cemmaes, ac fe'i perchenogir eto gan eu cynnrychiolydd, Thomas Lloyd, Ysw. o'r Bronwydd; ond fe'i cyfaneddir yn bresenol gan dir-ddeiliad. Yma y preswyliai yr henafiaethydd, a'r ysgolor enwog, George Owen, arglwydd Cemmaes, yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, ac Iago, y Cyntaf. Dywedir fod yr eglwys wedi ei seilio ar y cyntaf yn y chweched

Digitized by Google

ganrif, gan Sant Brynach, neu Byrnach, i goffadwriaeth yr hwn ei neilldawyd; ac fe'i hail adeiladwyd gan rai o arglwyddi Normanaidd Cemmaes. Yn y fynwent, o'r tu deheuol i'r porth, y mae paladr hen groes Brydeinaidd, wedi ei haddurno â cherfiadau cywrain, ac yn dwyn rhyw argraff yn agos i'r canol, yr hon sydd erbyn hyn bron yn llwyr annarllenadwy; y mae yn gynnwysedig o un garreg, dair troedfedd ar ddeg o uchder, dwy droedfedd o led, ac wyth droedfedd o drwch, a phen cylchawg, ar yr hwn y mae croes, a chroesau wedi eu cerfio ar bob ystlys, a chlwmau o wahanol ffurfiau. Ar yr ystlys ogleddol i'r fynwent, yr oedd carreg arall, chwe throedfedd o uchder, yn dwyn arni y geiriau, "VITATIANI EMERITI," ond y mae hon wedi ei symmud er ys talm. Y mae capel anwes, cyssegredig i Mair, yn nhreflan y Cilgwyn. Y mae cryn lawer o elusenau yn perthyn i dlodion y plwyf hwn, y rhai a renir yn flyneddol, ar yr 21ain o Ragfyr.

**NEVIN**, neu NEFYN, tref fechan, a phlwyf, yn LLEYN, swydd GAER YN ARFON, 5 milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o Bwllheli; ac 20 milldir i'r de orllewin wrth ddehau o Gaer yn arfon. Nid ydys yn meddu gwybodaeth sicr am ddechreuad y lle hwn; ond oddiwrth ychydig o weddillion hen werthyrau cryfion, y rhai y mae yn amlwg ydynt o adeilwaith Rhufeinaidd, yn agos i'r porthladd a elwir "Porth yn Lleyn," ar bentir cul, yn ymestyn i'r môr, yr hwn a gysgoda y porthladd rhag gerwinder y gwynt gorllewinol, fe gesglir ei fod gynt yn un o'r porthladdoedd a fynychid gan y Rhufeiniaid. Ychydig iawn sydd ar gof a chadw o'i hanes foreuol, cyn llwyr oresgyniad Cymru gan Edward y Cyntaf, pan yr ymddengys fod Nefyn yn lle pwysig, yn gymaint ag iddo gael ei ddewis gan y pennadur hwnw, yn y flwyddyn 1284, i gynnal gwledd fuddugoliaethus yma, ar yr achlysur pwysig hwnw, er dyhuddo serchiadau y Cymry, efallai, neu i'w difyru, trwy dalu math o warogaeth i'w hysbryd milwraidd; ac ar yr achlysur crybwylledig, efe a wnaeth fath o ford gron yno, yn ol dull yr arwr enwog Arthur; ac a gynnaliodd gad-ymgyrch ardderchog, yn yr hon y cymerid rhan, nid yn unig gan brif bendefigion Lloegr, ond hefyd gan amryw farchogion enwocaf y Cyfandir; ac ar yr achlysur hwnw, ennillodd y Brenin Edward enwogrwydd mawr, am ei fedrusrwydd yn trin arfau rhyfel. Y mae Haneswyr yn cyd dystio fod yma gynnulliad mawr dros ben ar y pryd, ac yr oedd olion y gwersyll, o fewn pa un y cyflawnid y gorchestion milwraidd, yn weledig yn ddiweddar, gerllaw y ffordd o Nefyn i Edeyrn. Yn nheyrnasiad Edward y Trydydd,—Edward, y Tywysog Du, yn y ddeuddegfed flwyddyn o'i swyddogaeth fel tywysog Cymru, a ddyroddodd y lle hwn i Nigel de Lohareyn, yn wobrwy am ei wasanaeth ffyddlawn, a'i ymddygiad gwrol ar faes Poictiers; a thrwy freinlen, ddyddiedig yn Nghaer yn arfon, efe a wnaeth Nefyn yn fwrdeisdref rydd, gan ganiattau i'r bwrdeisiaid, gorphoriaeth farchnadol; ac awdurdod i gynnal ffair flyneddol, a marchnad, yn y lle, ac a roddes i'r lle yr holl ragorfreintiau a fwynheid gan y bwrdeisdrefi breninol, yn nghyd a'r rhydd-freiniau a'r tollau a ddyroddasid o'r blaen i dref Niwbwrch, yn Môn.

Yn nechreu y ganrif hon, cynnygiwyd cynllun er gwellhad y lle hwn a'r gymmydogaeth, trwy wneuthur ffordd newydd, ar draws y Traeth Mawr, o swydd Feirionydd i Borth-din Lleyn, yn agos i'r dref hon, trwy adeiladu morfur, a gwneyd porthladd yma, a thrwy wneyd y porthladd hwn yn orsaf y llythyrfadau i'r Iwerddon, yn lle Caergybi. I'r amcan yma cafwyd deddf Seneddol yn y flwyddyn 1806, dan drefniadau yr hon y ffurfiwyd Cwmni, i ddwyn y cynllun i weithrediad; ond, ar ail gais at y Senedd, am gynnorthwy ychwanegol, wedi dechreu rhyw faint ar y gwaith, fe'i rhoddwyd i fynu.

Y mae y dref yn gorwedd ar lan cul-for St. Sior, wrth odreu mynyddoedd yr Eifl, ac yn agos i feisfor Nefyn. Y tai ydynt wedi eu hadeiladu yn lled afreolaidd; ac nid yw y dref yn hynod am ei glanweithdra, er bod gwelliannau mawrion wedi cymeryd lle yma yn y blyneddoedd diweddaf.

Bu cynnygiad ar droed rai blyneddau yn ol, i wneyd y lle yn derfynle rheilffyrdd, mewn cyssylltiad a Chwmni y *Great Western;* ac yn ddiweddarach fyth, cynnygiwyd ei gwneyd yn derfynle bwysig mewn cyssylltiad a'r rheilffordd rhwng Caer yn arfon a Phorth madoc, a Phwllheli; ond, ni chariwyd yr un o'r Cynlluniau hyn allan. Y mae mewn undeb a Phwllheli, Criccieth, Conwy, Caer yn arfon, a Bangor, yn meddu hawl i anfon aelod i'r Senedd, a medda lythyrfa dan Bwllheli; gwestty canolig, marchnad ar ddydd Sadwrn; a ffeiriau ar Ebrill 11, Awst 18, a Hydref 20. Y mae y plwyf yn gymmesur a'r fwrdeisiaeth, ac yn cynnwys 1706 o erwau o dir, a 110 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 2649*p*. Poblogaeth, yn 1871, 1791. Tai annedd, 500. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 110*p*. Noddwr, C. W. G. Wynne, Ysw. Ac y mae yn y plwyf amryw addoldai ymneillduol, perthynol i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion, Calfinaidd, a Wesleyaidd. Mewn glyn tra chauedig, heb fod yn neppell o'r dref hon, y tybir ddarfod i Gwrtheyrn encilio, wedi ei ddeoli o orsedd Lloegr; am ba achos y gelwir y lle, "Nant Gwrtheyrn." Dywedir fod ganddo gastell, lle y cyfanneddai; ac yn ol y chwedlau mynachaidd, fe'i dinystriwyd gan fellt, a lladdwyd Gwrtheyrn ar yr achlysur. Cyfeiria traddodiad at fryn glas bychan, fel gorsaf y breswylfa hon; ac y mae math o garnedd yn agos iddo, a elwir "Bedd Gwrtheyrn," yn yr hwn, pan ei hagorwyd yn gynnar yn y ganrif hon, y cafwyd arch carreg, yn cynnwys esgyrn dyn tal; y rhai y tybid mai esgyrn y teyrn anffodus hwnw oeddynt. Yn agos i Gefn Ammwlch, ar y tu dehau i'r dref hon, y mae gweddillion Cromlech fawr, a elwir gan y werin, Coeten Arthur. Tua phedair milldir o'r dref, y mae hen balas o'r enw Brynodol, lle y preswyliai Sieffre Parry, swyddog yn myddin y Senedd dan Cromwell, yr hwn oedd yn ŵr tra chrefyddol, ac a arferai bregethu i'r fyddin, neu gynghori ei gydfilwyr; ac un o'i hoff gynghorion, oedd—*Love God*, ("Cerwch Dduw:") am hyny galwai Cromwell ef,—"*Love God Parry.*" Y swyddog milwraidd hwn, yr hwn oedd frodor o swydd Drefaldwyn, a brïododd MARGARET, ferch, a chydaeres Hugh Hughes, Ysw. o Gefn Llanfair, gweddw Robert Saython, Ysw.; o'r hon y bu iddo fab, LOVE PARRY, Ysw.; o Gefn Llanfair, gwraig yr hwn oedd Ellen, ferch, ac ettifeddes Hugh Wynn, Bon. o Benarth; eu mab hwy, oedd LOVE PARRY, Ysw. o Rydolion, y Wern Fawr, Cefn Llanfair, a Phenarth. Efe a brïododd Rachel, ferch Vincent Corbett, Ysw. o Ynys Maengwyn, o'r hon y bu iddo blant,—1. LOVE, ei ettifedd. 2. JOHN, Cyfreithiwr Cyffredinol Gogledd Cymru, Barnwr o *Lincoln's Inn*, ac A. S. dros Gaer yn arfon. 3. CORBETT, is-filwriad yn y fyddin. 4. HUGH, a brïod-

Digitized by Google

odd Miss Burynard, o'r hon y bu iddo fab, Love Albert, yr hwn a briododd Miss Comberbach. 5. WILLIAM, yr hwn a gymerodd urddau eglwysig. 6. VINCENT. 7. CATHARINE, yr hon a briododd John Jones, Ysw.; o'r Llwynon, mab yr hon oedd Thomas Parry Jones.

Y mab henaf, LOVE PARRY, Ysw. o Benarth, swydd Gaer yn arfon; a briododd Sydney, aeres Madryn, ferch i Robert Lewis, Ysw. o Lysdulas, yn swydd Fon, Canghellydd Bangor, a chydaeres a'i chwaer Mary, mam Arglwydd Dinorben. O'r briodas uchod, bu i Love Parry ddwy ferch, yn gyd ettifeddesau, un o ba rai a briododd y Milwriad Wardle. Y llall, MARGARET PARRY, yr hon a ettifeddodd Fadryn, a briododd Chwefror 9, 1780, ei chefnder Thomas Parry Jones, Ysw. o'r Llwynon, swydd Dinbych; yr hwn ar yr achlysur hwnw, trwy drwydded freninol, a gymerodd gyfenw ychwanegol, ac arflen PARRY. O'r boneddwr hwn, yr hwn a fu farw yn 1835, bu iddi blant:—1. LOVE PARRY (Syr), o Fadryn, tad y boneddwr sydd yn bresenol yn cynnrychioli swydd Gaer yn arfon yn y Senedd. 2. THOMAS PARRY, Ysw., Cadben yn y llynges freninol, yr hwn a ettifeddodd Lwynon. 3. JOHN PARRY, A.C., Periglor Edern, swydd Gaer yn arfon; ac a briododd Margaret, unig ferch William Mac Ivor, Ysw. 4. WILLIAM PARRY, Is-filwriad yn y fyddin, yr hwn a olynodd dan ewyllys Sarah Iâl, o Blas yn Iâl, swydd Dinbych, i'r ettifeddiaeth hono, ac a gymmerth gyfenw, ac arflen Iâl, yn lle yr eiddo Jones Parry. Efe a briododd Eliza Flora, ferch John Sanderson, Ysw. 5. EDWARD, a anwyd yn 1797, ac a fu farw yn 1816. 6. SYDNEY PARRY, yr hon a briododd Gorphenaf 12, 1806, â Robert Browne Macgregor, Ysw., is-filwriad yn y gattrawd 88; mab y Parch. Mr. Macgregor. 7. ELLEN ELIZA, yr hon a briododd y Meigad-fridog Clapham, o *Widcombe House*, Gwlad yr Haf.

Ymddengys y byddai y Sieffrey Parry, a grybwyllwyd uchod, yn arfer pregethu i'w gymmydogion, yn ei dŷ ei hun, Brynodol, ar ol gadael byddin y Senedd; canys fe'n hysbysir gan Sion Lleyn, fod hen bulpud yn Mrynodol, yn ei amser ef, tua dechreu y ganrif hon, yr hwn a elwid "Pulpud Sieffrey Parry."

**NEWCHURCH**, neu LLAN NEWYDD, plwyf yn yr adran isaf o gantref ELVET, swydd GAERFYRDDIN, ar reilffordd Caerfyrddin ac Aberteifi; 3¼ milldir i'r gogledd orllewin o dref Caerfyrddin. Llythyrdref, Caerfyrddin. Mesura 4894 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 3970*p*. Poblogaeth yn 1851, 871; yn 1861, 782; yn 1871, 735. Tai annedd yn 1861, 169; yn 1871, 158.—Achlysurid y lleihad parhaus yma yn y boblogaeth, gan ymfudiad llafurwyr ammaethyddol i'r gweithfeydd haiarn, yn swydd Forganwg. Dywedir fod brwydr galed wedi cael ei hymladd, o fewn terfynau y plwyf hwn, rhwng y Prydeiniaid â'r Rhufeiniaid, tu a'r flwyddyn 72. Maeslywydd y Rhufeiniaid yn y frwydr, meddir, oedd Severinus, mab Severus, llywydd Rhufeinig Prydain, yr hwn a gyfanneddai yn Nghaerefrog. Tybir i Severinus gwympo yn y frwydr hon; ac yr oedd maen gynt ar ochr y ffordd; ond y mae wedi ei symmud er ys talm, a'i osod i fynu yn y buarth o flaen ammaethdy o'r enw Traws Mawr. Y mae Camden yn crybwyll am y maen hwn, ac yn dywedyd fod y geiriau "*Severini Fili Severi*," yn ddarllenadwy y pryd hyny; ond yr oedd y gweddill o'r argraff yn annarllenadwy. Efe a'i darlunia fel math o golofn annghelfydd, wedi ei chyfodi yn agos i'r brif-ffordd, bump neu chwe throedfedd o uchder; a thua thair troedfedd o led. Y mae y plwyf yn gorwedd ar lan yr afon Gwili; ac ar y dollffordd o Gaerfyrddin i Gastell newydd yn Emlyn, ac yn cynnwys llanerch eang o dir âr, a phorfeldir rhagorol. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 96*p*. Noddwr, J. Davies, Ysw.

Y mae amryw garneddau yn y plwyf, y rhai efallai, a gyfodwyd ar feddrodau y rhai a gwympasant yn y frwydr rag grybwylledig; ac o'r tu dwyrain i'r eglwys, yn agos i weddillion hen gapel, sydd wedi ei droi yn ysgubor, y mae hen wersyll Rhufeinaidd, ac olion ffordd Rufeinaidd, yr hon a elai, ar draws y plwyf hwn, i Abergwaun.

**NEWCHURCH**, plwyf yn nghantref Pain's-castle, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, ar yr afon Saeth, 7 milldir i'r de orllewin o dref-y-Clawdd, yn agos i ffiniau swydd Henffordd. Llythyrfa, *Kington*, sef Tref y clawdd. Erwau, 1788. Gwerth ardrethol, 1270*p*. Poblogaeth yn 1871, 124. Tai annedd, 22. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglориaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 171*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

**NEWCHURCH**, pentref, a phlwyf, yn undeb Caerwent, swydd FYNWY. Y mae y pentref yn sefyll yn agos i darddell yr afonig Poolmerig; 4¾ milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Llandeni; a 5¾ milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o Gaerwent. Rhenir y plwyf yn ddau ddosbarth, y dwyreiniol, a'r gorllewinol; a chynnwysa 5434 o erwau o dir. Llythyr-dref, Caerwent, (*Chepstow*). Gwerth ardrethol y rhan Ddwyreiniol o'r plwyf, 2212*p*. Poblogaeth, 466. Tai, 112. Gwerth ardrethol y rhan Orllewinol, 1064*p*. Poblogaeth, 130. Tai, 32. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth 166*p*. Noddwr, Dug Beaufort. Y mae capel anwes yn perthyn i'r plwyf hwn yn Devandean; ac 8*p*. yn y flwyddyn o elusenau.

**NEWGATE** (Y), afonig yn swydd Benfro, yr hon sydd yn tarddu yn agos i Lanrheithian, ac wedi llifeirio tu a'r dehau am 5 milldir, sydd yn cymeryd cyfeiriad gorllewinol am 2¼ milldir, i Feisfor St. Brides, 6½ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Dy Ddewi, gan nodi y ffin rhwng cantrefi Rhos, a Thir Dewi, (*Dewisland*); a thrawsu traethau meithion ar drai. Y mae traddodiad yn dywedyd fod y llanerch faith hon, a orchuddir gan draethau yn bresenol, yn goedwig fawr unwaith; ac y mae *Giraldus Cambrensis* yn dywedyd, fod cyffion coed mawrion yn sefyll yma yn nghanol y môr, fel yr ymddangosai yn debycach i lwyn o goed, nag i lan y môr, yn ei ddyddiau ef.

**NEWMARKET**, pentref, a phlwyf, yn undeb Treffynnon, swydd FFLINT, ar yr hen brif-ffordd rhwng Caerlleon a Chaergybi; 3 milldir i'r de ddwyrain o orsaf rheilffordd Prestatyn; a 7 milldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon. Yn Ardrethiad y Pab Nicholas, gelwir y lle hwn "Rhiwlyfnwyd," ac fe'i crybwyllir dan yr un enw mewn hen ysgrif mor ddiweddar a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg, gan ei fod gynt yn gapeloriaeth yn mhlwyf y Dyserth. Yn ol Mr. Pennant, ei hen enw oedd "Treflawnyd;" "am yr hyn," medd yr Henafiaethydd enwog hwnw, "ni's gallaf gael unrhyw reswm boddhaol." Meddyliodd rhai mai yma yr

Digitized by Google

ystorid ŷd at wasanaeth y gwarchluoedd Cymreig, a gadwent yr amryfal amddiffynfeydd ar hyd y fynydd-res rhwng Tegeingl â Dyffryn Clwyd. Ond efallai nad oes unrhyw gyfeiriad hanesyddol yn hen enw Cymreig y lle, ond yn hytrach ei fod yn ddarluniadol o ansawdd y gymmydogaeth, fel tir ŷd cynnyrchiol; ac mai yr hen enw yn syml oedd, "Treflan yd." Y mae amryw yn barnu oddiwrth y lluaws Carneddau sydd yn y gymmydogaeth hon, yn gystal ag enwau lleoedd, mai gerllaw y fan hon yr ymladdwyd y frwydr ofnadwy hono, rhwng Agricola a'r Brytaniaid, yn yr hon y difethwyd yr holl ryfelwyr a berthynent i'r Gordofigwys. Barna eraill, ar sail crybwyllion o'r eiddo *Dion Cassius*, Hanesydd Groegaidd o'r drydedd ganrif, mai dyma lanerch y frwydr olaf rhwng Paulinus a Buddug; ac mai er côf am hyny y cyfodwyd y garnedd fawr oddiar y dref bresenol, a elwir "Gop Paulini."

Bu cynnydd mawr ar y pentref hwn yn nechreu y ddeunawfed ganrif, trwy ofal ac ymdrechion John Wynn, Ysw., o'r Gop, i'r hwn y perthynai yr ettifeddiaeth y pryd hyny. Cafodd ei gwneyd yn dref farchnad; a thros lawer o flyneddoedd, cynhelid marchnadoedd da yma bob dydd Sadwrn; a ffeiriau sefydlog, ar y Sadwrn olaf yn Ebrill, y trydydd Sadwrn yn Gorphenaf, y pedwerydd Sadwrn yn Hydref, a'r ail Sadwrn yn Rhagfyr. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgyrdd y Gop, a'r Graig; a mesura 1031 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 1911*p*. Poblogaeth yn 1851, 642; yn 1861, 520; yn 1871, 587. Tai annedd, 133. Y brif breswylfa yma ydyw y Gelli Auraidd, (*Golden Grove*,) palas y Milwriad Morgan, yr hwn a adeiladwyd yn y flwyddyn 1578; ond a adgyweiriwyd, ac a brydferthwyd yn fawr o fewn yr oes hon. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 90*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Michael, neu Mihangel, sydd adeilad fechan, led ddiweddar, yn sefyll o fewn claddfa chang, yr hon a gysgodir yn ddymunol gan goed uchel. Oddeutu ugain llath oddiwrth y prif borth, y saif croes uchel, a hardd ragorol, y pen uchaf i ba un sydd wedi ei cherfio yn dra chywrain, a llaw yn dadweinio dagr, yn nghyda rhyw arysgrifen, yr hon sydd wedi ei threulio gymaint gan y dywydd, fel na's gall neb ei ddarllen erbyn hyn. Y mae yma addoldai perthynol i'r Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd; ac yn y flwyddyn 1713, darfu i John Wynn, Ysw., o'r Gop, gymmun-roddi 40 punt yn y flwyddyn at ddilladu ac addysgu ugain o blant tlodion; ac er mai anghydffurfiwr oedd y boneddwr uchod, y mae ei elusen wedi ei thrawsfeddianu gan yr eglwyswyr, er's llawer blwyddyn, fel nad ydyw yr arian yn cael eu defnyddio eto i'r amcan a fwriedid gan y rhoddwr haelionus.

Yn mhlith y carneddau lluosog sydd yn y gymmydogaeth hon, y mae un a elwir "Copa'r 'leni," neu, "Cop Paulini," fel y barna rhai, ar ben bryn, ychydig oddiar y pentref hwn, wedi ei chyfansoddi o geryg rhyddion, yn gorchuddio erw a haner o dir, ac oddeutu deuddeg llath o uchder; ac er fod amryw ddychymygion gwahanol wedi eu cyfodi o barth i'r amcan o ffurfio y fath garnedd enfawr, ni's gall fod nemawr o amheuaeth iddi gael ei chyfodi ar y dechreu ar weddillion rhyw ryfelwr, neu dywysog enwog, a laddwyd mewn brwydr; ac fe ddichon iddi gael ei defnyddio mewn oesoedd diweddarach, fel gwylfa filwraidd, i'r hyn yr ydoedd yn dra manteisiol, yn gymmaint a bod yr holl wersyllfeydd milwraidd ar y dehau a'r gorllewin, Môr y Werydd ar y gogledd, a morgeinciau y Dyfrdwy a'r Mersey, ar y dwyrain, i'w gweled yn amlwg o'i phen. Gelwir rhan o ael y bryn, "Bryn y Saethau," trwy yr hyn yr awgrymir, mai dyma orsaf y saethyddion yn rhai o'r brwydrau hyny, yn nghyfnod boreuol hanesyddiaeth Prydain, a ddylifasant y gymmydogaeth hon â gwaed dynol; adfydau alaethus yr hwn gyfnod, ni chofianwyd gan unrhyw hanesydd, ac ydynt yn gladdedig er's llawer oes bellach, mewn anghof trylwyr. Y mae mwy o nifer o'r carneddau hyn, o faintioli cyffredin, yn y llanerch rhwng y lle hwn a Chaerwys, nag mewn unrhyw gymmydogaeth arall o Ogledd Cymru; ac mewn amryw o honynt, y rhai a agorwyd, canfyddwyd gwrnau, yn cynnwys lludw, ac esgyrn llosgedig: ac y mae cannoedd o honynt erbyn hyn, wedi eu lyfelu er mwyn diwyllio y tir. Y mae gweddillion Clawdd Offa yn agos i'r pentref hwn, ac yn ffurfio y ffin rhwng y plwyf hwn a phlwyf Llanasa.

**NEWTON**, plwyf yn nghantref Narberth, swydd Benfro, Deheudir Cymru; 3 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Narberth; a 5¼ milldir i'r de orllewin wrth ddehau, o orsaf rheilffordd *Narberth Road*. Llythyrfa, Narberth. Erwau, 721. Gwerth ardrethol, 544*p*. Poblogaeth, 51. Tai annedd, 9. Y mae ceryg haiarn yn y plwyf, ond nid oes gweithio arnynt. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, mewn cyssylltiad âg is-berigloriaeth wastadol Slebech, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae hen Gromlech wedi haner cwympo, gerllaw.

**NEWTON NOTTAGE**, pentref, a phlwyf, yn undeb Pen y bont, swydd Forganwg. Mae y pentref yn gorwedd ar lan y môr, 3 milldir i'r de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd y Pîl; a 5 milldir i'r de orllewin wrth orllewin o Ben y bont. Bu y lle hwn dro yn ol, yn fwy poblogaidd fel ymdrochle nag ydyw y blyneddoedd hyn. Y mae pentref porthladdol Porth y Cawl hefyd, o fewn y plwyf hwn, yn yr hwn y terfyna rheilffordd y Llynfi; ac y mae yma lythyrfa, dan Ben y bont. Mesura y plwyf 3877 o erwau; o ba rai y mae 560 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2275*p*. Poblogaeth yn 1851, 959; yn 1861, 1082; tai annedd, 224; yn 1871, 1455; a thai annedd, 303. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 412*p*. Noddwyr, teulu *Knight*, a theulu *Guest*, ar yn ail.

**NEWYDD** (Y Cei), pentref yn mhlwyf Llanddewi Aberarth, ar lan y môr; 5 milldir i'r de orllewin o Aberaeron. Y mae yn is-borthladd i Aberteifi, yn orsaf gwylwyr y forlan, ac yn ymdrochle. Prif alwedigaethau y preswylwyr, yw adeiladu llongau, a physgotta. Y mae yma lythyrfa, dan Gaerfyrddin. Y mae yma angorfa dda i lestri heb fod yn fawrion, ac y mae y porthladd yn cael ei gysgodi yn dda rhag y gwyntoedd gorllewinol. Cynhelir ffeiriau yma Hydref 4, a Thachwedd 12. Y mae yn bentref cynnyddol a bywiog, a chyfrifir fod y boblogaeth yn rhifo tua deunaw cant.

**NEWYDD** (Y dref), tref farchnad, bwrdeisdref, a phlwyf, yn y parth uchaf o Gantref y Dref Newydd, swydd Drefaldwyn. Mae y dref yn sefyll mewn dyffryn teg, ar lan yr Hafren, a cherllaw rheilffordd Cymru; 5¾ milldir i'r gogledd orllewin o'r fan lle y mae Siroedd Trefaldwyn, yr Amwythig, a Maesyfed yn cyfarfod, a 29½ milldir i'r de dde orllewin o Groesoswallt. Nid oedd y lle hwn rai oesoedd yn ol, yn ddim amgen na phentref bychan, o'r enw



Digitized by Google

Llanfair yn Nghedewain; ond cynnyddodd yn raddol i gryn fri, fel gorsaf llaw weithfeydd gwlaneni; a daeth yn lle pwysig yn ddisymwth tu a'r flwyddyn 1832, trwy symmudiad y farchnad wlaneni iddi, a gynhelid cyn hyny yn y Trallwm. Y mae yn hynod fel y lle y ganwyd, a'r lle y claddwyd, Robert Owen, sylfaenydd Cymrodoliaeth, (*Socialism*); a thrwy ysgrif diwygiad Seneddol 1832, fe'i gwnaed yn fwrdeisdref Seneddol, a hawl ganddi mewn undeb a Threfaldwyn, y Trallwm, Machynlleth, Llanidloes, a Llanfyllin, i anfon aelod i'r senedd. Yma y cynhelir brawdlysoedd yr haf am swydd Drefaldwyn, a chyfarfodydd ustusiaid; ac y mae yn meddu prif lythyrfa, gorsaf rheilffordd, dau ariandy, dau brif westy, pont, neuadd drefawl, a lluaws o adeiladau cyhoeddus eraill, at wasanaeth i addysg, a chrefydd, &c. Y bont sydd adeilad led ddiweddar, ac y mae yn gynnwysedig o dri bwa, pob un yn dri ugain troedfedd o rychwant. Y neuadd wlaneni, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1832, ar y draul o 4000*p.* Y mae yn adeilad dra ehang, ac fe'i defnyddir i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus mawrion, ac amcanion eraill. Adeiladwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1847, a chynnwysa gofadeiladau i'r Prysiaid, o *Newtown Hall;* a chrog-wasgodfa nodedig o hardd, a symudwyd iddi o'r hen eglwys, i'r lle ei dygasid ar y cyntaf, o Abbatty Cwm Hir, medd rhai. Y mae yr hen eglwys yn sefyll yn nghanol y dref; y mae yn hen adail ddyddorol; ond mewn cyflwr adfeiliedig. Cynnwysa gorph, a changell, yn nghyd ag asgellfa ddeheuol o'r un lled, yn cael ei hysgaru gan orthofa goed gywrain, o wyth gell. Yr oeddys yn son yn ddiweddar, am roddi mesur o adgyweiriad arni, er mwyn ei chael i gynnal gwasanaeth claddu ynddi. Cynhelir marchnadoedd ynddi ar ddyddiau Mawrth, a Sadwrn; a ffeiriau, ar y dydd Llun, a'r dydd Mawrth olaf yn mhob mis. Dygir y gweithfeydd gwlaneni yn mlaen yma mewn mwy na haner cant o ffactris, ac y mae peiriannau o bob math yn cael eu gwneyd yma. Y mae ffiniau y fwrdeisdref, yn cynnwys yr oll o blwyf y Dref newydd, yn nghyda threfgyrdd Gwestydd, a Hendidley. Poblogaeth yn 1851, 6371; yn 1861, 5916. Tai annedd, 1391.

Mesura y plwyf 2736 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol, yn 12,576*p.*; o ba rai y mae 150*p.* mewn gweithfeydd nwy. Poblogaeth yn 1851, 3784; yn 1861, 3692; yn 1871, 3536. Tai annedd, 836. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 406*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy.

Ar lan yr Hafren, o fewn tua milldir i'r Dref newydd, ar yr ochr aswy i'r ffordd i'r Trallwm, y mae gweddillion hen wersyllfa Brydeinaidd; ond nid oes unrhyw amgylchiad hanesyddol ar gof a chadw, sydd yn ei gydio a'r dref mewn un modd; ac ar y llaw ddehau i'r un ffordd, y mae olion ffordd Rufeinaidd, o Gaersws i'r Gaer, ger Trefaldwyn; ac y mae ychydig o gastell Dolforwyn yn aros yn agos i'r dref. Yn ystod rhyfel cartrefol yr eilfed ganrif ar bymtheg, llettywyd y brenin Charles y Cyntaf, ar ei ffordd i Gaerlleon ar Ddyfrdwy, am ddau ddiwrnod a dwy noswaith, gan Syr John Price, yn *Newtown Hall*, hen gartref y teulu er amser Harri y Chweched; ac ar ei ymadawiad, bu agos iawn iddo gael ei gymeryd yn garcharor, gan Syr Thomas Myddleton.

NICHOLAS (St.), a elwir hefyd Monkton, sydd blwyf, yn undeb, a swydd Benfro, Deheudir Cymru, ½ milldir i'r gorllewin o Benfro, ac mewn rhan o fewn bwrdeisdref Penfro. Erwau, 4629 o ba rai y mae 360 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 6245*p.*, o'r hyn y mae 426*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 1587. Tai annedd, 332. Ymddengys fod y lle yma wedi cael yr enw "Monkton," neu "Tre Fynach," oddiwrth yr amgylchiad canlynol; Arnwlph de Montgomery, seilydd castell Penfro, a ddyroddodd yr eglwys, oedd o fewn ffiniau yr amddiffynfa hono, yn nghyd ag ugain gweddgyfar o dir yn y plwyf hwn, i fynachlog Sant Martin, yn Seys, yn Normandi; ac yn fuan wedi y dyroddiad hwnw, sefydlwyd priordy o fyneich, o'r urdd Benedictaidd, cyssegredig i St. Nicholas, yn y lle hwn; ac fe'i gwnaed yn gell neu guddigl i'r Fynachlog dramor hono. Bu William, a Walter Mareschal, Ieirll Penfro, yn gymmwynaswyr mawrion i'r sefydliad hwn, yr hwn a barhaodd i flodeuo, hyd deyrnasiad Edward y Trydydd, pan ddarfu i'r penteyrn hwnw gymeryd hwn, yn nghyd a'r crefydd-dai estronol eraill, i'w ddwylaw ei hunan. Fe'i hadferwyd gan Harri y Pedwerydd; ond, wedi ei hattafaelu drachefn, fe'i dyroddwyd gan Harri y Chweched, i Humphrey, Dug Caerloyw, yr hwn, yn yr unfed flwyddyn ar hugain o'r teyrnasiad hwnw, a'i rhoddes yn gell, neu guddigl i Fynachlog St. Albans, yr hyn a gadarnhawyd gan y brenin Harri, yn y 27ain o'i deyrnasiad; a pharhaodd yn ddarostyngedig i'r Fynachlog hono, hyd ddadgorfforiad y crefydd-dai pabaidd, pan y cyfrifid ei chyllid, yn ol *Speed*, yn 113*p.* 2*s.* 6*c.*; ac yn ol *Dugdale*, yn 57*p.* 9*s.* 3*c.* Yn yr 37ain o deyrnasiad Harri yr Wythfed, fe'i dyroddwyd i John Vaughan, a Chatharine, ei wraig. Yn y plwyf hwn y mae Orielton, hen balas, a adeiladwyd ar y cyntaf, fel y bernir, gan un o ganlynwyr Arnwlph de Montgomery, o'r enw *Oriel*, oddiwrth yr hwn y cafodd ei enw. Yn nheyrnasiad Harri yr Ail, perthynai i deulu o'r cyfenw Wyrriott; a pharhaodd yn meddiant y teulu hwnw hyd deyrnasiad Elizabeth, pan, drwy briodas âg ettifeddes o'r teulu hwnw, yr aeth yn eiddo Syr Hugh Owen, Marchog; ac ar farwolaeth un o'i hiliogaeth, Syr Hugh Owen, Barwnig, yn y flwyddyn 1809, disgynodd ei ettifeddiaethau eang i'w gâr, John Lord, Ysw., yr hwn wedi cymeryd y cyfenw "Owen," a wnaed yn Farwnig. Y mae lluaws o dwmpathau, neu garneddau bychain, mewn amryw barthau o'r plwyf, y rhai efallai a gyfodwyd ar weddillion rhai o amddiffynwyr y tir, yn erbyn y goresgynwyr Normanaidd a flinent y wlad hon.

NICHOLAS (St.), plwyf yn nghantref *Dewisland*, swydd Benfro, yn agos i lan y môr, 4½ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Abergwaun; a 12½ milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd *Clarbeston Road.* Llythyrfa, Abergwaun, dan Hwlffordd. Erwau, 2141. Gwerth ardrethol, 1624*p.* Poblogaeth, 252. Tai annedd, 60. Y plwyf hwn sydd yn cyfansoddi yr unig gôr-fywioliaeth, (*prebend*), sydd yn perthyn i eglwys gadeiriol Ty Ddewi, i'r hon y mae preswylfa yn y ddinas hono yn perthyn, yr hon a elwir yn gyffredin, "St. Nicolas Pen y Foes." Prisir y gôr-fywioliaeth yn llyfrau y goron, yn 5*p.* 4*s.* 6½*c.*; ac y mae yn noddaeth yr Esgob. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gydiedig â ficeriaeth Granston, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae carreg yn magwyr y fynwent, tua llathen a haner o hyd, a thri chwarter llath o led, a'r argraff canlynol arni;—Tunccetaceux Sordaar!! Hic Iacit + Yn

Digitized by Google

amser Edward Llwyd, yr ydoedd y garreg uchod yn ystlys ddwyreiniol porth yr eglwys; ond ymddengys fod yr argraff mor ddarllenadwy a phan ei hadysgrifiwyd ganddo ef, tua'r flwyddyn 1695. Ar fryn heb fod yn neppell o'r eglwys, oddiar Trellys, y mae cromlech, bwrddfaen yr hon sydd yn gorwedd ar ddwy atteg yn unig. Y mae y lle a elwir y Mynydd du, yn agos i Dy Ddewi, yn rhan o feddiannau y gôrfywioliaeth hon; ac fe ffinir y tyddyn crybwylledig gan ffos dra hynod; am hyny y mae rhai henafiaethwyr o'r farn, mai "Côrfywioliaeth Pen y ffos," oedd yr enw ar y cyntaf; ond iddo gael ei lygru mewn amser, i "Pen y Foes."

**NICHOLAS** AB GWRGANT, brawd Iestyn, tywysog Morganwg, a wnaed yn esgob Llandaf yn y flwyddyn 1149, a pharhaodd ynddi hyd ei farwolaeth yn 1183. Mynega yr hanesydd am ei dduwioldeb, a'i serch tuag at y Cymry.

**NICHOLASTON**, plwyf yn undeb Abertawe, swydd FORGANWG, ar lan beisfor Oxwich, yn mhentir Browyr; 1¾ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o *Penrice;* a 10 milldir i'r gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd Abertawe. Cynnwysa dreflan *Manselfield;* a'i lythyrfa yw Abertawe. Erwau, 731; o'r rhai y mae 105 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 427*p.* Poblogaeth, 105. Tai annedd, 25. Cafodd y plwyf ei enw oddiwrth gyssegriad ei eglwys i goffadwriaeth St. Nicholas. Y dreflan, Manselfield, a gafodd ei henw oddiwrth deulu o'r cyfenw Mansel; un o ba rai, William Mansel, Ysw. o Gastell Penrice, a'i perchenogai yn nheyrnasiad Harri y Chweched. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, unedig â pheriglorïaeth Oxwich, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 224*p.* Noddwr, C. R. M. Talbot, Ysw. Yr eglwys sydd adeilad fechan, ddi addurn, yn agos i grib y bryniau ydynt yn crogi oddiar ganol beisfor Oxwich.

**NICOLAS**, DAFYDD, o Ystrad Dyfodwg, ydoedd fardd a fu farw yn y flwyddyn 1777.

**NICOLAS** (ST.), plwyf a phentref, yn nghantref Dinas Powys, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd o fewn 1½ milldir i'r de dde ddwyrain, i orsaf rheilffordd Peterston, a 6 milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Gaerdydd. Cynhelir mân frawdlysoedd yma, a medda lythyrfa, dan Gaerdydd, a ffeiriau, ar Mai 19; Awst 21; a Rhag. 17. Cynnwysa y plwyf 2104 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 2374*p.* Poblogaeth, 419. Tai annedd, 72. *Dyffryn House*, y gelwir palas J. B. Pryce, Ysw.; a *Cottrell*, llygriad efallai o'r enw Cymreig "Coed yr haul," ydyw preswylfa y Bendefiges Tyler, gweddw y llyngesydd, Syr George Tyler. Y mae cromlech fawr iawn, bwrdd-faen yr hon sydd yn 24 troedfedd wrth 17, a chell oddi tani, tua 17 troedfedd o hyd, 15 troedfedd o led, a 6 throedfedd o uchder, yn agos i'r pentref; ac un arall, lai, gerllaw *Dyffryn House.* Heblaw hyn y mae rhai meini Derwyddol eraill yn y gymmydogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandâf. Noddwr, J. B. Pryce, Ysw. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Nicolas, fel y mae ei henw yn arwyddoccau, sydd adeilad henafol.

**NIDAN**, sant yn byw tua dechreu y seithfed ganrif. Mab oedd i Gwrfyw, ab Pasgen ab Cynfarch; ac yr oedd yn gyffeswr i'r seintiau yn ngholeg Penmon, Ynys Mon Efe a sylfaenodd eglwys Llannidan yn y sir hono. Ei ddydd gwyl oedd Medi 30.

**NINIAN**, neu Sant Ninias, ydoedd berson o fonedd genedigol, ac athrylith ardderchog, ac yn frodor o Wynedd. Wedi derbyn gartref yr addysg oreu a allasai fforddio, efe a deithiodd trwy wahanol fanau, er cael gwelliant ychwanegol; ac a dreuliodd amryw flyneddau yn Rhufain, yr hon oedd y pryd hwnw yn brif orsaf dysgeidiaeth. Yn gyntaf, efe a ddychwelodd y Brithwyr at Gristionogaeth, yn ystod teyrnasiad Theodosius yr ieuaf. Hysbysa Bede ni, iddo adeiladu eglwys o geryg, yr hyn nad oedd yn arferiad y pryd hwnw yn mysg y Brythoniaid, a'i chyflwyno hi i'w gyfaill St. Martin, esgob Tours, yn Witherne, Galloway, yr hon a ddaeth yn y diwedd yn esgobaeth. Ysgrifenodd St. Ninias esboniad ar y Salmau. Bu farw yn 432, ac efe a gladdwyd yn ei eglwys ei hun. Ceir amryw eglwysi yn yr Alban yn dwyn ei enw, cyfres o ba rai a welir yn *Chalmers' Caledonia*, 315.

**NIWBWRCH**, a elwir hefyd LLANBEDR, am fod y llan yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Pedr; plwyf, a bwrdeisdref gynt, yn nghantref y MENAI, swydd FON. Y mae y dref yn sefyll gerllaw beisfor Malltraeth, 3½ milldir i'r de ddwyrain o orsaf rheilffordd Bodorgan, a 4 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Gaer yn arfon. Y lle hwn, a gafodd ei enw presenol, "Niwbwrch," yr hwn sydd lygriad o'r enw Seis'nig, *New borrough*, (y fwrdeisdref Newydd,) oddiwrth y ffaith o fod y lle wedi cael ei chyfansoddi yn fwrdeisdref rŷdd, gan y brenin Edward y Cyntaf; a bu yn anfon aelod i'r Senedd, o'r pryd hyny hyd amser Harri yr Wythfed, pan ei hamddifadwyd o'i braint, gan Edward y Chweched, yn ffafr y Beaumaris. Gelwid y lle mewn oesoedd boreuol, "Rhos Fair," oddiwrth eglwys fechan, gyssegredig i St. Mair, a safai ar ben y Faenor; neu, yn ol *Rowlands*, yn fwy prïodol, "Rhos Hir," am ei bod yn gorwedd ar gefnen o rosdir, a gyrhaeddai o'r plwyf hwn hyd Fynydd Llwydiarth. Er nad ydyw namyn tref o ymddangosiad tlodaidd yn bresenol, bu yn lle pwysig yn yr amser gynt; a thros lawer o flyneddoedd, bu gan dywysogion Gwynedd balas yma; tra y meddent balas arall yn Aberffraw, yr ochr arall i Dywyn Malltraeth; ac y mae "Prydydd y Moch" yn cyfeirio at y ffaith yma, yn un o'i Odlau i Lewelyn ab Iorwerth;—

"Mae llys yn Rhos-fair, mae llyn,
Mae eur-glych, mae Arglwydd Llewelyn;
A gwyr tal yn ei ga'lyn,
Mil myrdd mewn gwyrdd a gwyn."

Ymddengys mai hon oedd y brif dref yn Ynys Fôn, pan gymerwyd meddiant o Gymru, gan Edward y Cyntaf; ac mai yma y cynhelid llys barn dros holl gwmmwd Menai; a'r teyrn hwnw a'i gwnaeth yn fwrdeisdref, gan roddi amryw ragor-freintiau i'r bwrdeisiaid, y rhai a gadarnhawyd wedi hyny mewn breinlen, ddyddiedig yn yr 17eg o deyrnasiad Edward yr Ail, a thrachefn, gan senedd, a gynhaliwyd yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Edward y Trydydd.

Yn nheyrnasiad Harri y Seithfed, trwy gam ddarluniad a wnelsid i'r teyrn hwnw, symudwyd y brawdlysoedd, a gorchwylion sirol eraill, o'r Beaumaris, lle eu cynnaliesid er's dau gant a haner o flyneddoedd cyn hyny, i Niwbwrch, yr hon yn y canlyniad, a ddaeth yn ben tref y sir. Yn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Harri yr Wythfed, llwyddodd y bwrdeisiaid i gael breinlen newydd, trwy yr hon yr adnewyddid, ac y cadarnheid yr holl ragorfreintiau a ddyroddasid mewn breinleni blaenorol;

Digitized by Google

ond bu raid ei rhoddi i fynu y flwyddyn ganlynol; ac yn y 27ain o'r teyrnasiad hwnw, dychwelai Niwbwrch, fel pen tref y sir, mewn cyssylltiad a'i bwrdeisdrefi cynnorthwyol, un aelod i'r senedd; a pharhaodd i ymarfer yr hawl-fraint hono, hyd yr ail flwyddyn o deyrnasiad Edward y Chweched, pan, drwy ei bod wedi adfeilio llawer o'i phwysigrwydd blaenorol, ei hesgusodwyd ar ei chais ei hunan, rhag cyfranu tuag at draul cynnaliaeth aelod, a chyfyngwyd yr ethol-fraint i'r Beaumaris yn unig. Yn yr ail, a'r drydedd flwyddyn o'r teyrnasiad yma, symudwyd y brawdlysoedd, a'r gorchwylion Sirol yn gyffredinol, o'r dref hon, yr hon oedd yn annghyfleus i'r pwrpas, i'r Beaumaris, wedi eu bod yn cael eu cynnal yn Niwbwrch dros bum mlynedd a deugain. Ond, er y trefniadau hyn, parhai bwrdeisiaid Niwbwrch i honi eu hawl o'r fraint i gyfranogi yn etholiad aelod dros Beaumaris; ond gwrthwynebid yr hawliad, yn bybyr ac egnïol, gan fwrdeisiaid Beaumaris, a dygwyd y ddadl i derfyniad yn Nhy y Cyffredin, yn y flwyddyn 1709, pan y cyhoeddwyd fod hawl yr etholiad yn aros yn Maer, maenorwyr, a phrif fwrdeisiaid Beaumaris yn unig: gwnaed ymdrechiadau cyffelyb i geisio adfeddiannu yr etholfraint yn 1722, ac yn 1724; ond gyd a'r cyffelyb ganlyniad.

Y mae y dref, yr hon erbyn hyn nid yw yn amgen na rhyw bentref lled ddi nod, yn gorwedd yn agos i gongl ddeheuol yr ynys, ar fin morfeydd ehang Malltraeth, ac yn agos i enau yr afon fechan Braint, yr hon a ymarllwysa i gyfyng-for y Menai gerllaw porthfa Abermenai.

Prif waith y preswylwyr ydyw gwneyd matiau, a rhaffau, o for-hesg, a gynnyrchir mewn helaethrwydd yn y tywyn gerllaw; ac y mae rhai o honynt yn cael eu bywioliaeth fel pysgodwyr. Y farchnad, yr hon a gynnelid yn wythnosol gynt, sydd wedi ei rhoddi i fynu ers llawer o flyneddoedd; ond cynnelir ffeiriau yma yn flyneddawl, ar Mai 11eg, Meh. 29ain, Awst 16eg, Medi 25ain, a Thach. 11eg. Yn rhinwedd eu hen freinlen, etholir Maer, cofiadur, a maenoriaid, yn flyneddol eto, gan y trigolion; ond ni's meddant unrhyw frawdwriaeth, ni chynnaliant unrhyw lysoedd, ac ni thrafodant unrhyw orchwyl cyhoeddus. Y mae y plwyf yn cynnwys yr ychydig weddillion sydd yn aros o blwyf Llanddwyn, yr hwn gynt oedd yn blwyf tra helaeth, yn sefyll i'r gorllewin o Niwbwrch, ar lan cyfyng-for Sant Siôr, y cyfan o ba un o'r bron, a ddinystriwyd gan ormesiadau y môr; neu, a gladdwyd dan ei dywod, a gludir yn lluwchfeydd mawrion o flaen y gwyntoedd gorllewinol cryfion. Nid oes namyn ychydig adfeilion o hen eglwys Llanddwyn yn weledig yn bresenol, er y dywedir ei bod unwaith yn adeilad fawr a hardd, ac yn gorwedd ar wastadedd bras, yn agos i lan y môr. Collid llawer iawn o longau yn fynych ar y glenydd peryglus hyn flyneddau yn ôl; ond trwy ddarpariadau a wnaed yn y blyneddoedd diweddar hyn, nid ydyw y colledion yn agos mor aml ag yr arferent fod. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 214*p.* yn y flwyddyn. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Yr eglwys, yr hon sydd adeilad yn yr arddull Seis'nig addurniadol, sydd mewn cyflwr gweddol; y mae yn gynnwysedig o gorff eglwys, (*nave,*) a chôr, yn ffurfio un aden, dros 100 troedfedd o hyd: y mae iddi ffenestr ddwyreiniol dda. Gerllaw y Frondeg, yn y plwyf hwn, y mae maen yn dwyn arno ryw argraff, o'r wythfed, neu y nawfed ganrif, fel y bernir. Medda y dref hon lythyrfa, dan Fangor; a dyru y teitl o Farwn, i deulu y Wynniaid o'r Glynllifon. Mesura y plwyf 4305 erw o dir, a 3105 erw o ddwfr. Gwerth ardrethol, 2001*p.* Poblogaeth yn 1851, 1032; yn 1861, 918; yn 1871, 948. Tai annedd, 251.

**NIWL** (Cyncrog) cymeriad a grybwyllir yn y Mabinogion.

**NODDFA,** trefgordd yn mhlwyf Darowen, swydd Drefaldwyn; 6 milldir i'r gogledd ddwyrain o Machynlleth. Cynnwysa yr eglwys blwyfol, i'r hon y perthynai y rhagorfraint o *noddfa.* Gwerth ardrethol, 2080*p.* Poblogaeth yn 1851, 533; yn 1861, 680. Tai annedd, 127. Achlysurwyd y cynnydd yn y boblogaeth, gan fywiogrwydd y gweithydd mŵn yn y gymmydogaeth.

**NON FENDIGAID,** ydoedd santes enwog, yn byw tua diwedd y bumed ganrif. Yr oedd yn ferch i Gynyr o Gaer Gawch, yn Menevia, ac a briododd Sandde, mab Caredig ab Cunedda, o'r hwn y daeth yn fam i Dewi Sant. Y mae yr eglwysi canlynol wedi eu cyflwyno iddi,—Llanuwchaeron, a Llannon yn Ngheredigion; Llannon yn sir Gaerfyrddin; a chapel St. Nun, yn mhlwyf Tyddewi, yn sir Benfro. Cedwid ei gwyl, Mawrth y trydydd. Y mae ymadrodd o'i heiddo ar gael yn Chwedlau y Doethion:—"A glywaist ti ddywediad Non? mam Dewi Sant ydoedd hi;—nid oes ynfydrwydd tebyg i ymryson.

**NORTHOP,** neu North hope, a elwir gan y Cymry, Llaneurgain, pentref, trefgordd, a phlwyf, yn undeb Treffynnon, swydd Fflint, Gogledd Cymru. Y mae y pentref yn gorwedd yn agos i'r hen ffin a elwir "Clawdd Watt," goris Mynydd Lugan; 3½ milldir i'r dehau o orsaf rheilffordd y Fflint. Y mae yn bentref prydferth, ac yn cynnwys Llythyrfa; a chynhelir ffeiriau yma, ar Mawrth 14, Gorphenaf 7, a Hydref 12. Y mae y pentref yn nhrefgordd Llaneurgain; ac heblaw y drefgordd hon, cynnwysa y plwyf, drefgyrdd Caerfallwch, Golfftyn, Wepre, Kelsterton, Sychtyn, Leadbrook Fwyaf, a Leadbrook Leiaf; a chyrhaedda hyd at lan y Dyfrdwy. Mesura yn erwau, 12,366, o ba rai gorchuddir 3515 gan ddwfr. Gwerth ardrethol, 22,718*p.*; o ba rai y mae 6896*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth y plwyf yn 1851, 3567; yn 1861, 3657; yn 1871, 4050. Tai annedd, 905. Y mae mwngloddiau plwm, Glofeydd, Gweithfeydd priddlestri, a phriddfeini yn y plwyf, a rheilffordd yn cydio y rhai penaf o honynt â phentref porthladdol *Conah's Quay.* Meddylir bod y mwngloddiau plwm wedi cael eu hagor i ryw fesur, mor foreu a'r cyfnod Rhufeinaidd. Perthynant yn awr i deulu pendefigaidd y Grosvenors. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 500*p.* yn y flwyddyn. Noddwr, Esgob Llanelwy. Yr eglwys sydd yn yr arddull Seis'nig ddiweddar, ac yn meddu tŵr, 98 troedfedd o uchder, oddiar yr hwn y cair golygfa ysplenydd ar y wlad o amgylch, am bellder mawr.

Yma y claddwyd Edwyn ab Gronw, tywysog Tegeingl, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1073. Bernir mai y Tywysog hwn a gynnrychiolir yn yr hen ddelw o geryg nadd sydd yn yr eglwys hon, lle ei darlunir fel gwr corphol, a helm am ei ben, ac arfwisg am dano. Yn ei law ddehau y mae gwaywffon ddi addurn, a chleddyf yn ei law aswy. Yn y Llŷs, o fewn y plwyf hwn y cyfanneddai Edwyn.

Digitized by Google

Gwelir yma ddelw arall, o ryfelwr mewn cyflawn arfogaeth; ac oddiwrth yr arysgrif sydd o amgylch ei darian, bernir mai delw Ithel Fychan, ab Bleddyn, ab Ithel Llwyd, ab Ithel Gam, ab Maredydd, ab Uchtryd, ab Edwin Tegeingl, ydoedd. Y mae rhai hen ysgrifau yn ein hysbysu mai yn nghastell Ewloe y preswyliai efe. Yr oedd ef yn un o dywysogion Tegeingl, er gwrthladd ymdrechion y Saeson i'w goresgyn; ac ychwanegir ei fod wedi ei gladdu yma. Mewn hên ysgrif-lyfr arall, cair y cofion canlynol am y pendefig uchod;—"Ithel Fychan a brïododd Alice, cyd-aeres i Rys ab Cadwaladr, ab Gryffydd ab Cynan." Yn y flwyddyn 1301, efe a wnelai wrïogaeth yn Nghaerlleon, i Edward, tywysog Cymru, am ei diroedd yn y plwyf hwn, a phlwyfi eraill. Y wyddfa hon i'w goffadwriaeth, a gyfodwyd gan ei fab Ithel, yr hwn oedd y pryd hyny yn berson Llaneurgain.

Cofadail arall yma, a gyflwyna ddelw boneddiges i'n sylw, a'r arysgrifen ganlynol arni;—"Llewci, anno domini 1482." Barnai Miss. Angharad Llwyd o Gaerwys, mai yr un a gynnrychiolid, ydoedd Lleucu Llwyd, ferch Rhys ab Rotpert o Ginmael; yr hon a brïododd ag un Hywel ab Tudyr, o Mostyn, a'r Llŷs, yn mhlwyf Llaneurgain; ac yr ydoedd hi yn fam i Angharad, aeress y lleoedd hyny, yr hon a brïododd Iefan ab Adda, o Bengwern; un o henafiaid Syr Thomas Mostyn, &c. Yr amseriad 1482, oedd yn cyfatteb i'r flwyddyn olaf o deyrnasiad Edward y Pedwerydd, pan ddaeth y Stanleys i feddiant o ettifeddiaeth y Llŷs.

O fewn tua milldir i'r gogledd o bentref Llaneurgain, yn agos i'r brif-ffordd i Dreffynnon, y mae adfeilion Llŷs Edwin, tywysog Tegeingl. Ar ben bryn, a elwir "Bryn Castell," yn mhlwyf Llanasa, yr ydoedd "Castell Edwin," lle y preswyliai efe yn achlysurol, mae yn debyg. Yr oedd yr Edwin hwn yn ben un o bymtheg llwyth Gwynedd; ac yn arglwydd, neu dywysog Tegeingl, sef Cwnsyll, Rhuddlan, a Phrestatyn. Efe a brïododd Gwerydd, (Ewerydd, neu Iwerydd, yn ol rhai ysgriflyfrau,) ferch Cynfin ab Gwerasten, a chwaer i Bleddyn ab Cynfin, Tywysog Powys. Bernir mai yn y Rhual, gerllaw y Wyddgrug, y cyfanneddai y rhan olaf o'i oes; canys dywedir yn rhai o'r hen gofiannau, "Edwin o'r Rhual, a gladdwyd yn Llaneurgain, yn y flwyddyn 1073;" ac y mae yr enw *Rhual*, neu yn hytrach Rhial," ystyr yr hyn yw, "tegle y penaeth," wedi ei roddi i'r llanerch, ar gyfrif preswyliad Edwin yno. Dywedir mai ei ladd a gafodd, gan Rhys ab Rhydderch, ab Owain. Y mae Pennant yn dywedyd fod ettifeddiaeth y Llŷs wedi parhau yn meddiant hiliogaeth Edwin, hyd farwolaeth Hywel Gwynedd, yr hwn a roddwyd i farwolaeth ar ben Moel Caerfallwch, am iddo gefnogi Owain Glyndwr, yn ei wrthryfel yn erbyn Harri y Pedwerydd; a'r pennadur hwnw, a ddyroddodd ei ettifeddiaethau dirwyedig i un Bryan Saxton; a'i hiliogaeth ef a'u perchenogodd hyd yr 17eg o deyrnasiad Harri y Chweched, yr hwn a'u dyroddodd i Syr John Stanley, ei ystafellydd. —"Angharad, ferch Howel ap Tudyr, hanedig o Edwin, oedd ettifeddes y Llŷs, yn amser teyrnasiad Edward y Pedwerydd; ac wedi hyny, ei mab, William Stanley, o'i hail ŵr, Edmwnt Stanley, a ddaeth i feddiant o'r lle hwnw, a thiroedd eraill yn mhlwyf Llaneurgain."

Bu y Llys yn meddiant teulu y Stanleys, hyd amser Olifer Cromwell, pan y daeth i feddiant y Milwriad Roger Whitley, un o swyddogion y Werinlywodraeth; a thrachefn, daeth trwy brïodas, i feddiant Iarll Plymouth; ond perthyna yn awr i Iarll Grosvenor.

Heb fod yn mhell o'r Llŷs, ar y ffordd i Lygen, safai gynt gapel; ond nid oes faen ar faen o hono yn aros yn bresenol. Y mae yn debyg iddo gael ei adeiladu yn y ddeuddegfed ganrif, pan ryddheid y myneich gan y Pab, odditan awdurdod eu pennadur. Dywedir fod y capel hwn yn gyssegredig i St. Pedr, a gweinyddid ynddo, mae yn debyg, gan rai o Fyneich y Maes Glas. Yr oedd yma bedair o goed yw rhagorol, yn agos i'r hen gapel, y rhai a gymynwyd yn y flwyddyn 1799, ac a wnaed yn ddodrefn tŷ, gan deulu y Crewes, o'r Celyn. Y mae ffynnon ragorol gerllaw y fan hon, a elwid "Ffynnon Pen y Capel;" yr hon a gyfrifid yn gyssegredig yn yr oesoedd tywyll; ac i ddyfroedd yr hon y prïodolai yr ofergoelus, rinweddau neillduol.

Tua haner milldir i'r dehau o Pen y Capel, y mae ammaethdy a elwir Monachlog, yr hon efallai a fu unwaith yn gell, berthynol i Fonachlog fawr y Maes Glas. Yr oedd rhanau o hen furiau yr adeilad gyssegredig, yn weledig ddechreu y ganrif hon, yr oeddynt dros lathen o drwch, ac o ymddangosiad tra henafol.

Yr oedd amryw Balasau yn y plwyf hwn ganrifoedd yn ôl, ac y mae olion rhai o honynt yn aros eto; yn enwedig *Northop Hall*, muriau yr hwn oeddynt dros ddwy lath o drwch yn agos i'r gwaelod, wedi ei adeiladu yn gryf, fel y gallai sefyll gwarchae. *Wepra Hall* y gelwir hen balas arall yn y plwyf, yn yr hwn yr ymguddiai Arglwydd Petre, yn amser Olifer Cromwell.

**NOTT**, Syr William, G.C.B., a aned yn Nghastell nedd, sir Forganwg, Ionawr 20, 1782. Yr oedd yn fab i wr tra pharchus yn y lle hwnw. Ei dad wedi hyny a ymsymudodd i Gaerfyrddin, lle y bu yn cadw yr *Ivy Bush Inn*, ac yn berchen llythyr-gerbyd yno. Cafodd Nott ieuanc, ei addysg foreuol yn Mhontfaen, neu Bont y Fon, yn ei sir enedigol; ac ymddengys nad oedd dim yn addawol ynddo y pryd hwnw, o'r galluoedd hyny a'i henwogasant gymaint mewn amser diweddarach. Yn y flwyddyn 1800, pan yn ddeunaw mlwydd oed, efe a aeth i wasanaeth yr *East India Company;* ac nid hir y bu, wedi dechreu ei yrfa, cyn arddangos arwyddion o enwogrwydd mewn amser dyfodol. Yn Ngorphenaf 1804, pedair blynedd wedi ei diriad yn Calcutta, y Rhaglaw Nott, a hwyliodd yn llywydd ar fintai o wirfoddolion Bengal, ar ryfelgyrch o dan y Cadben Hayes, i Muckie, er ceryddu brodorion y lle hwnw am y driniaeth anwaraidd a roddasent i ddwylaw y llong seisnig *Crescent;* a'r cynnyg a wnaethant mewn canlyniad, i fradlofruddio y genad anfonedig o *Fort Marlborough* attynt, i geisio iawn ganddynt am y sarhad a wnaethent. Crybwyllir am y Rhaglaw Nott yn arbenig gan y Cadben Hayes, yn ei hanes am gymeriad y lle hwnw, gan ddywedyd,—"Y gwasanaeth pwysig hwn i'r llywodraeth, ac er llesiant Prydain yn gyffredinol, a gyflawnwyd mewn deugain awr, gan ddyrnaid o wyr, gyferbyn a llu mawr o yspeilwyr beiddgar ffyrnig, mewn llawn arfogaeth, yn cael eu cadarnhau gan reso amddiffynfeydd, a wnaed mor gedyrn gan natur, a chelfyddyd, fel ag i herio unrhyw genedl i wneud ymosodiad, pe yn amddiffynedig gan Brydeiniaid." Wedi dychweliad Nott i Galcutta, efe a barhaodd yn nghyflawniad ei

Digitized by Google

ddyledswydd gyda'r fyddin hyd y flwyddyn 1811, pan y penodwyd ef yn Arolygydd Taliadau Teuluaidd; yr hon swydd a roddodd i fyny yn 1822. Dychwelodd i Gymru yn 1826, mewn iechyd anmharus, gyda dyrchafiad yn uchgadben, a chynysgaeth, yr hyn a'i galluogodd i brynu ettifeddiaeth fâch, a elwir Ffynon Job, ger Caerfyrddin. Gallasai derfynu ei yrfa yma, yn ol pob tebygolrwydd, oni buasai rhyw ddygwyddiadau, y rhai nas gall y mawr mwy na'r bychan eu rhagweled, na'u gochelyd. Methiant ariandy yn Calcutta, a niweidiodd ei gyfoeth yn fawr, fel y gorfu iddo werthu Ffynon Job. Efe a ddychwelodd i India'r Dwyrain drachefn; ac yn 1837, a benodwyd yn llywydd y 38 gatrawd frodorol yno. Yr hon a ddysgwyd ganddo yn fuan, yn lled dda o ran dysgyblaeth, a medr. Yn 1838, penodwyd ef yn frigadier o'r ail ddosbarth, ac efe a etholwyd i lywyddu yr ail adran o fyddin yr Indus. Yn fuan ar ol hyny ceir canmoliaeth uchel iddo gan Syr W. Cotton, am ei ddull rhagorol yn arwain ei wŷr dros fwy na mil o filldiroedd o gad-ymdaith. Yn 1839, cafodd lywyddiaeth yr holl gatrodau yn Scinde, ac Affghanistan Isaf, pan y dangosodd, ar yr achlysuron mwyaf peryglus, y gallu, y penderfyniad, a'r medr mwyaf. Y gorchwyl cyntaf o bwys a gyflawnodd, oedd cymeryd meddiant o dref ac amddiffynfa Khelat. Yr oedd y Cadfridog Nott, yn Ionawr, 1841, wedi sefydlu ei bencadlys yn Candahar; a thua diwedd y flwyddyn hon, y torodd y gwrthryfel allan yn Cabool, yr hyn a barodd symbyliad a hyder adnewyddol i'r anfoddusion drwy yr holl wlad. Ymgynullodd llu mawr o'r gelynion terfysglyd yn nghymdogaeth Candahar, ac a wnaethant eu hymddangosiad ar y 12fed o Ionawr, 1842, tua'r pellder o wyth milldir oddiwrth y dref. Cymerasant safle gadarn, a chors ddofn o'u blaen, yr hyn a barai anhawsder mawr i'n catrodau ni fyned yn agos atynt. Modd bynag, y Cadfridog a ddaeth allan gyda'r dewrfrydedd mwyaf, ac a ymruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, gan eu gyru ar ffo ymhob cyfeiriad. Ar yr achlysur hwn, yr oedd ganddo 12,000 o elynion i'w gwrthsefyll, a dim ond 5000 o wŷr dano. Yn mis Mawrth drachefn, nesaodd y gelynion eto at Candahar, a'r Cadfridog Nott, yn awyddus am eu dwyn i frwydr benderfynol, a aeth allan ar y 7fed o'r mis yn eu herbyn, ac a'u herlyniodd hwynt dros yn nghylch 30, neu 40 milldir, gan eu llwyr ddymchwelyd, a'u gorchfygu yn drwyadl. Yn ystod rhyfelgyrch am bum niwrnod, yn erbyn tua 12,000 o elynion, gyda'r rhai yr oedd tua 6000 o farchogion, ni chollwyd cymaint a chamel, neu y sypyn lleiaf o'r clûd. Oddeutu yr amser hwn, cafodd y Cadfridog Nott gyfarwyddyd oddiwrth Lywydd Cyffredinol India, i adael Candahar. Ymdeimlai yn dra phetrusgar yn ngwyneb y cyfarwyddyd hwn; modd bynag, ei ddyledswydd oedd ufuddhau. Archwyd iddo alw yn ol warchodlu Khelat i Ghilzie; ac i gyflawni hyn, efe a anfonodd y Milwriad Wymer, gyda'r rhan fwyaf o'i wŷr tuag yno. Y gelynion yn deall fod ei fyddin wedi ei gwanychu trwy hyn, a benderfynasant i wneyd cynyg egnïol arall i'w orchfygu. Y tywysog Kefter Jung, gydag adgyfnerthiad o dair mil o wŷr dan Akban Khan, penaeth Zemindawur, ar y 29ain o Fai, a ddynesodd o fewn milldir i'r ddinas, yn hyderus o lwyddiant. Y Cadfridog Nott, yn barod i bob cyfyngder, a aeth allan i'w cyfarfod. Ei gatrodau dewrion a gymerasant eu holl safleoedd, ac a'u gyrasant yn yr annhrefn mwyaf o'r maes. Yr oedd y gelynion y tro hwn tua 10,000, tra nad oedd ganddo ef ond 1200. Daeth yn awr yn gwestiwn gydag ef, a oedd yn ddyledswydd arno roddi ufudd-dod cyfan-gwbl i'r archebion a dderbyniasai oddiwrth y Llywydd Cyffredinol; penderfynodd ysgrifenu atto, gan awgrymu, er bod y gwrthryfel a dorasai allan yn Cabool yn dra thrychinebus, eto nad oedd y fyddin dan ei lywyddiaeth ef wedi ei gwanychu gymaint ag y tybid ei bod; ac awgrymai gyda phob parch, y gallai fyned yn mlaen, yn gystal a dychwelyd; ac yn ei farn ef, y byddai y blaenaf yn rhwyddach iddo. Y fath oedd effaith y dull doeth, gochelgar a dewrgalon a gymerasai, fel er y gorchymyn blaenorol a roddasai y Llywydd Cyffredinol, gan wybod oddiwrth yr hyn a gyflawnasai y Cadfridog, y gallai efe effeithio yr oll ag oedd angenrheidiol tuag at lwyddiant ein harfau, ac amddiffyniad ein hanrhydedd; efe a benderfynodd ei adael i gymeryd ei ffordd ei hun. Awst 8fed, efe a gychwynodd allan ar ei ryfelgyrch anturiaethus o Candahar, gydag oddeutu pum mil o wyr. Aeth rhagddo heibio i Khelat-i-Ghilzie, yn erbyn Ghuznee. Ar y 18fed o Awst, cyfarfu a llu dirfawr o'r gelynion, lawer mwy na'r eiddo ef, ac a'u gorchfygodd. Aeth rhagddo drachefn; ac ar y 30ain o Awst, pan o fewn 38 milldir i Ghuznee, daeth i'w gyfarfod tua deuddeg mil o'r gwrthryfelwyr, mewn llawn arfau, dan lywyddiaeth Shumsoodeen Khan, cefnder Akbar Khan. Gwynebodd hwynt â haner ei filwyr, ac wedi ymrysonfa fer a chyndyn, efe a'u llwyr orchfygodd, gan gymeryd meddiant o'u magnelau, eu pebyll, a defnyddiau ereill, a'u gwasgaru hwythau yn mhob cyfeiriad. Ar y 6ed o Fedi, yr oedd y Cadfridog wedi cyrhaedd yn lled agos i amddiffynfa Ghuznee; ac yn ddioed ymosododd arni, ac a'i cymerodd, ar ol gorchfygu y gelynion, y rhai oeddynt yn llu mawr yn gwersyllu yn y gymydogaeth. Wedi dinystrio Ghuznee, a'i chastell, a'r holl weithiau perthynol iddi, efe a aeth rhagddo tua Cabool. Ymosodwyd arno drachefn, yn mylchau Mydan, lle y gwnaed cynyg ffyrnig arall i'w attal yn ei ymdaith, gan Shumsoodeen, wedi ei adgyfnerthu a llu mawr, dan amryw benaethiaid Affghanaidd; ond yma yr un modd efe a'u gorchfygodd. Ymlaen ag ef drachefn; ac ar yr 17eg o Fedi, efe a ymunodd a'r Cadfridog Pollock yn Cabool. Er bod tynged y gwrthryfel yr amser hwn yn amrywio mewn gwahanol fanau o'r wlad, eto yr oedd gyrfa y Cadfridog Nott, yn un gyfres ddidor o fuddugoliaethau. Yr oedd ei yspryd yn bywiocau pob milwr yn ei fyddin; a goruchafiaeth oedd y canlyniad. Ar yr ail o Rhagfyr 1842, gwnaed y Cadfridog yn Farchog Croes Fawr Caerbaddon, (*Knight Grand Cross of the Bath*) a chafodd ddiolchgarwch dau dy y Senedd, am y glewder, y medrusrwydd, a'r dyfalwch, a ddangosodd yn yr amryw weithrediadau a gyflawnasai; ac yn Medi, 1845, pleidebodd Llys Cyfarwyddwyr Cymdeithas Anrhydeddus India'r Dwyrain, ar fod iddo gael y blwydd-dal o 1000*p.*, yn dechreu o'r dydd y gadawodd efe India, fel cydnabyddiaeth o syniad y Llys, am y rhagwelediad, y farn, y penderfyniad, a'r gwrolder, a ddangosid gan Syr William Nott, dros holl ysbaid ei lywyddiaeth yn Candahar, ac yn ystod y rhyfelgyrch ysplenydd, a llwyddianus, oddiyno drwy Ghuznee, i Cabool, yr hyn a effeithiodd mor rhagorol er amddiffyniad buddugol anrhydedd y Prydeiniaid a chynaliaeth eu henwogrwydd. Oddiar yr ail flwyddyn o'i wasanaeth yn Affghanistan, dechreuai iechyd Syr William Nott ymollwng; ac o'r diwedd,

Digitized by Google

efe a aeth mor anmharus tua therfyn y gwrthryfel, fel y teimlai yn anghenrheidiol iddo ddychwelyd i Loegr. Yr oedd yn hynod eiddil pan gyrhaeddodd y wlad hon; a thybid fod y cyffroad a achosid drwy ei dderbyniad, a'i groesawiad cyhoeddus a buddugol yn Nghaerfyrddin, wedi cynyddu ei afiechyd yn fawr, yr hwn oedd ymchwyddiad y galon. Bu farw yn Nghaerfyrddin, ar ol yr arhosiad byr o bedwar mis, ar ddydd Calan, 1846, yn 63 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn eglwys henafol St. Pedr, yn y dref hono. Bu Syr William Nott yn briod ddwy waith. Yn gyntaf yn 1805, a Letitia, merch Henry Swinhoe, Ysw., o'r hon y cafodd 14 o blant, pump o honynt yn fyw ar ei ol. Yn ail, yn 1843, a Rosa Wilson, merch Cadben Dore. Yr oedd ganddo serch mawr at Gaerfyrddin. Adbrynodd ei ystad flaenorol, Ffynon Job; ac yr oedd tua chant o ddynion yn adgyweirio y tŷ, ar amser ei farwolaeth. Y mae colofn hardd wedi ei hadeiladu yn Nghaerfyrddin i'w goffadwriaeth, a'i safddelw, mewn gwronwisg, ar ei phen, yn y man a elwid gynt yn "Hen Groes y Farchnad."

**NUDD**, sant o'r chweched ganrif. Yr oedd yn fab Ceidio ab Arthwys ab Myr ab Morydd ab Cenau ab Coel Godebog. Yr oedd efe a'i frodyr, Gwenddolau, a Chof, yn aelodau o goleg St. Illtyd.

**NUDD HAEL**, boneddwr o'r chweched ganrif. Yr oedd yn fab Senyllt ab Cedig ab Dyfnwal Hen ab Ednyfed ab Macsen Wledig. Cofnodir ef yn y Trioedd, fel un o "Dri Haelion Ynys Prydain." Y ddau ereill oeddynt Rhydderch, a Mor Hael. Mewn Triad arall, mynegir ei fod yn berchenog mintai o anifeiliaid, yn cynwys 21 mil o wartheg blithion, ac yn cael eu cadw gan Llawfrodedd Farfog. Cyfrifir Nudd Hael yn mhlith y seintiau Cymreig; a dywedir iddo fod yn aelod yn ngholeg Illtyd, ac iddo sylfaenu eglwys Llysfronnudd.

**NWYTHON**, a elwir weithiau NOETHAN, oedd sant o'r chweched ganrif, ac yn fab Gildas y Coed Aur. Yr oedd efe, a'i frodyr, Dolgan, Cennydd, a Gwynnog, yn aelodau o golegau Catwg, ac Illtyd. Yr oedd dau gapel wedi eu sylfaenu gan Gwynnog, a Nwython, yn agos i eglwys Llangwm Dinmael, yn sir Dinbych; ond yn awr wedi eu troi, un yn felin, a'r llall yn odyn. Cedwid dydd gwyl y ddau ar yr un pryd, sef Hydref 23.

**NYF**, un o ansoddau chwedlofyddol benywaidd y Mabinogion.

# O.

**OFFA**, CLAWDD, yr hen ffin gelfyddydol rhwng teyrnas y Mersiaid a Chymru. Credir yn gyffredinol iddo gael ei ffurfio gan Offa, brenin y Mersiaid, yr hwn a fu farw tua'r flwyddyn 800, mewn canlyniad, medd rhai, i archollion a gawsai yn mrwydr Morfa Rhuddlan; ond, y mae rhai henafiaethwyr o'r farn, ei fod, yn gyfan, neu mewn rhan, wedi ei wneyd cyn amser Offa, ac mai ei ddefnyddio, a'i adgyweirio i'w amcan a wnaeth ef. Fe'i trawsir mewn amryw fanau gan ffyrdd Rhufeinaidd: math o warchglawdd ydyw, o 50 i 60 troedfedd o drwch, a ffos ddofn ar yr ochr Gymreig iddo; ac wedi ei ddiffynu â mân amddiffynfeydd, yma a thraw. Erbyn hyn, y mae wedi ei wneyd yn gydwastad a'r llawr bron ar ei hyd, a'r rhan fwyaf o'i ddefnyddiau wedi eu cludo i wrteithio y tiroedd cyfagos. Cychwynai yn agos i Prestatyn, ar arfordir swydd Fflint, 4 milldir i'r Gorllewin o enau yr afon Dyfrdwy. Cyfeiriai yn Dde Dde Ddwyreiniol tua'r Treuddyn. Gellir ei olrhain yn agos i Newmarket, lle ei trawsir gan Sarn Hwlcyn; fe'i holrheiniwyd hyd at lethr y bryn, ar yr hwn y mae Gorsedd Rhydwen yn sefyll; yna, mae yn debyg ei fod yn cael ei ddwyn yn mlaen ar, neu o'r tu isaf i gefnen Helygen, ar yr ochr Orllewinol, yn agos i Naid y March, ger Moel y Crio, i Foel y Gaer, y gwersyll mawr, sydd yn agos i ddwy filldir i'r Dehau o Helygen; yna, fe ddichon ei fod yn dyfod ger Pant y terfyn, o'r tu Dwyreiniol i Gwysaney, i Sychdyn; ac oddiyno, heibio i'r Twr, a Nerquis, neu ychydig yn fwy Dwyreiniol, trwy Goed llai, i Ben ystryd, filldir a haner i'r de ddwyrain o Dreuddyn a'r Heol, lle ei canfyddir drachefn. Fe'i gwelir drachefn yn agos i'r dollborth, ger y fynedfa i Nant y Ffrith, a chyfeiria yn Ddeheuol, o'r tu cefn i lofeydd Brymbo, at dyddyn o'r enw "Y Llidiart." Yn fuan wedi hyn, y mae yn trawsu y ddwy ffordd, yr hen, a'r newydd, o Wrecsam i'r Mwnglawdd; ac yna, cyfeiria ychydig yn fwy Dwyreiniol, heibio i Blas Power; yna yn ddeheuol drachefn, fe'i gwelir yn dra amlwg yr holl ffordd, ger tyddyn Cadwgan, at y Pentre Bychan; ac yn parhau felly hyd onid yw yn dyfod i fewn ar y ffordd o Wrecsam i Riwabon, ger y *New Inn*, a Than y Clawdd; ac y mae yn dra uchel a pherffaith, lle y mae yn croesi y ddwy ffordd o Riwabon i Langollen, a Gweithydd haiarn y Cefn. Collir ef yma, yn nghanol y tryblith a achoswyd yma gan y mwngloddiau, &c.; ond fe'i canfyddir yn fuan drachefn ar y tu deheuol i'r afon Dyfrdwy, yn dyfod i fynu o'r afon, ac yn esgyn y bryn, yn agos i'r tyddyn a elwir Cefn y Wern. Yna y mae y clawdd yn cyfeirio i'r de orllewin wrth ddehau, tu a'r dyffryn bychan, islaw ystlys orllewinol Castell y Waun; ac wedi myned heibio i'r castell, y mae yn croesi dyffryn y Ceiriog, yn agos i Felin y Castell, yna yn esgyn dros y bryniau, tua Ffynonau y Castell, a Than y Mynydd, gan ffurfio y ffin rhwng swydd yr Amwythig a swydd Ddinbych, dros oddeutu tair milldir. Y mae yn dra amlwg yn y gymmydogaeth hon, yn enwedig tua'r ochr orllewinol i fryn Selattyn, lle y mae carn ar ei ben uchaf, a thommen ar y tu gorllewinol i'r clawdd. Yma y mae yn cymeryd cyfeiriad i'r dehau; ac ar yr ochr ddwyreiniol, neu y Seis'nig iddo, y mae Maen hir, yn agos i Lwyn y Pant. Y mae yn myned heibio i Garreg y big, a chan ymgadw yn uchel ar fynwes y bryn, â i'r gorllewin i redegfaes Croesoswallt, ac yn mlaen hyd Drefonen. Yn fuan wedi hyn yr ydym yn colli pob olion o hono; neu yn hytrach, efallai y gellir barnu fod llethr y galchgraig yn ei wneyd yn afreidiol; yna, gan amgylchynu y bryn, o'r tu uchaf i'r odynau calch, yn agos i dollborth ffordd Llan y blodwell, a chymeryd cyfeiriad dwyreiniol am haner milldir, y mae drachefn yn

Digitized by Google

rhedeg ar hyd esgair orllewinol bryn Llan y mynach, hyd oni thrŷ i waered i bentref Llan y mynach, ar ben deheuol yr ucheldir tra hynod hwnw.

Bellach y mae y clawdd yn dyfod i'r tir isel, trwy yr hwn y llifeiria y Fyrnwy, ac yn ei groesi o fewn tua milldir a haner, o'r tu dwyreiniol i'r gwersyll Rhufeinaidd, a elwir "Y Clawdd Coch," yna, gan ddilyn y brif-ffordd o Groesoswallt i'r Trallwm, y mae yn myned trwy Landyssilio, heibio i'r Stryd, a'r Rhos, i waered at lan yr Hafren. Yma, y mae yn diflanu am 4½ milldir, neu, gellir meddwl fod yr afon ei hunan yn gwasanaethu yr amcan yn ei le; neu, ynte, gall ei fod yr unrhyw a'r hyn a elwir "arglawdd Tir y mynach," mewn cyssylltiad a mynachlog Ystrad Marchell, yr hwn a safai ddwy filldir oddiyma: neu ynte, tybiaeth arall y gellir ei ffurfio yw, y gall ei fod wedi croesi yr Hafren ar gyfer y *Severn Farm*, ac mai ei olion ef yw yr arglawdd a gyfeiria i fynu at y Pren Yw, a thu cefn i hen amddiffynfa yn y gwastadedd, a elwir y *Moat*, yn agos i'r Hen Felinau, lle yr oedd porthfa Rufeinaidd fe ddichon gynt.

Yr olion amlwg nesaf a gawn ni o'r Clawdd, sydd yn *Buttington*, tua chwarter milldir i'r dehau o'r eglwys; ac oddiyno gellir ei olrhain ar hyd llechwedd gorllewinol y Mynydd Hir, i'r Pentre, a'r Fron, oddiar *Leighton Hall*. Yn fuan ar ol hyn, y mae yn rhedeg yn gyfochrog â hen ffordd—Rufeinig fe ddichon, ac yn fuan yn ei chroesi, neu yn cael ei groesi ganddi, haner milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o'r lle yr ymganghena y ffyrdd i Chirbury, a Threfaldwyn, o'r Trallwm; ac yna y mae y Clawdd yn rhedeg trwy dir diwylledig, lle y mae yr aradr o bryd i bryd bron wedi llwyr ddileu ei olion, o'r tu isaf i'r amddiffynfa greigiog gadarn, a elwir y *Moat*, yn mhlwyf Forden. Wrth fyned rhagom, canfyddwn linell y clawdd yn weledig yn nesaf gerllaw y Fron Goch, ac yn croesi y ffordd o Worthin i Drefaldwyn, yn agos i'r *Pound;* ond fe'i collir eto am ychydig, fel y mae yn trawsu y tir corsog oddeutu glanau y Camlad; eithr ymddengys drachefn ar ein dyfodiad i dir sychach, islaw *Roundhill*, yna cyfeiria i'r dehau wrth ddwyrain yn dra amlwg, hyd oni chyrhaedda *Lymore Park*, i'r hwn y ffurfia y ffin ddwyreiniol, cystal ag i swyddi Trefaldwyn, a'r Amwythig. Yna â heibio i ammaethdy a elwir yn ddynodawl "Y Ffosydd," ac y mae dwy domen (*tumuli*) isel, ychydig i'r gorllewin i'w linell, yn Brompton. Mae yn ddiamheuol fod y tomenydd hyn yn nodi claddleoedd y lladdedigion o ddwy fyddin a fuant yn ymladd yn y llanerch yma. Oddiyma y mae y Clawdd yn cyfeirio i'r de ddwyrain wrth ddehau, hyd y tu gorllewinol i Goed Mellington, a Phlas Mellington, can belled a'r Cwm Uchaf. Yma y mae ei gyfeiriad yn dyfod yn lled afreolaidd, gan gyrfio allan tu ar Gorllewin, ger Derwen; ac wedi esgyn y bryniau, y mae yn croesi y ffordd, a'r ffin rhwng swyddi yr Amwythig a Threfaldwyn, lle y mae yn myned i wlad wyllt, a lled anhygyrch, gan ddisgyn i'r glyn dwfn sydd o'r tu gogleddol i fryn *Edenhope*, yna esgyna i'r ucheldir gwyllt hwnw, a chan groesi y rhan uchaf o hono, y mae yn cyfeirio ychydig i'r dwyrain o ddehau, can belled a *Mainstone*. Y mae enw y pentref pellenig yma, yr hwn sydd yn gyfansoddedig o ddau air cyfystyr—y Cymraeg, "maen," a'r Saesonaeg, *stone*, yn arwyddocau yr un peth—yn rhoddi sail i'r casgliad, fod rhyw amgylchiad hynod wedi cymeryd lle yma, naill a'i brwydr, neu gadarnhad cyfammod. Mae y clawdd yn awr yn crymu yn raddol tu a'r gorllewin, fel y mae yn wynebu y bryniau eto; ac wedi myned rhwng y Cnwc Uchaf, a'r Cnwc Isaf, lle y canfyddir gwersyll afreolaidd, tua chwarter milldir i'r gorllewin o'r llinell; yna y mae yn disgyn yn ddisymwth i'r dyffrynoedd, ac yn dilyn eu cyfeiriad dolenawg am dair milldir, hyd oni chyrhaedda ddyffryn y Clun, ger Bryn Draenog. Y mae gwersyll petrual bychan yn gorwedd ar y bryn oddiar y pentref a elwir *New castle*, haner milldir i'r gorllewin. Ger *Spoad* Isaf, y mae y Clawdd yn esgyn eto o'r Clun, ac yn myned i gorsdir gwyllt, a ymleda o'r tu gorllewin i'r Clun, a Thref y Clawdd, (*Knighton*,) ac â rhwng Bryn Weston ar y tu dwyreiniol, a Bryn Spoad ar y gorllewin, gan ogwyddo tu a'r dehau wrth orllewin; yna dros dir uchel iawn, y mae yn troi i'r de ddwyrain, gan adael gwersyll milwraidd yn Llandu, ar y tu dwyreiniol, a disgyn tuag at ammaethdy a elwir *Garbet Hall*. Yma y mae yn esgyn drachefn ger Brynwrgan, ac yn dilyn ymyl afreolaidd llechwedd y bryn, ar hyd ystlys Bryn Penpwntan, hyd at ymyl *Kinsley Wood*, lle y mae yn disgyn yn ddisymwth i ddyffryn y Teame. Y mae gwersyll enwog Caer Caradog yn gorwedd dair milldir i'r gogledd ddwyrain o Dref y Clawdd, ac o fewn tua dwy filldir a haner i'r Clawdd, yn y man agosaf. Yn Nhref y Clawdd, y mae yn rhedeg drwy y dref, yr hyn a fu yn achlysur i roddi ei henw Cymreig iddi. Gan gyfeirio ychydig yn orllewinol i'r eglwys, trwy ryw gaeau a gerddi, ac esgyn y bryn uwchlaw y Ffridd, a'r Ty'n y Coed Uchaf, y mae yn croesi ffordd Llanandras, gerllaw y *Tile House*. Y mae y Clawdd yn hynod o eglur drwy yr holl ran yma o'r wlad; ac mewn manau, y mae rhanau helaeth o hono wedi ei gau allan, a'i blanu. Y mae y llinell, yr hon yn y lle a nodwyd ddiweddaf, a ogwyddai tu a'r dehau, yn awr yn gwneyd cyrfiad maith o dair milldir tu a'r dwyrain, gan ddyfod yn ol, hyd drwyn de orllewin *Furrow Hill;* pan y mae yn disgyn i ddyffryn y Lug, dri chwarter milldir i'r gogledd orllewin o Discoed. Oddiyma y mae y llinell yn cyfeirio i'r de dde orllewin, i fynu y bryniau, tua *Castle Ring*, hen wersyllfa fodrwyol; ond, cyn ei gyrhaeddyd, y mae yn troi yn ddisymwth tu a'r de ddwyrain, ac yn crymu yn ol drachefn am Fryn *Evenjob*, ger Burfa, nes dyfod i'r gweirglodd-dir sydd ar lan yr Afonig Hindwell, rhwng Harpton Isaf, a Knill. Yn awr y mae y Clawdd yn dyfod yn dra throfaus yn ei gyfeiriad, gan ddilyn ystumiau y bryniau, ac wedi rhedeg i'r dwyrain yn gymwys uwchlaw *Holywell*, i *Eyewood*, tua milldir i'r gorllewin o Titley, y mae yn troi i'r dehau drachefn, ac am yspaid y mae wedi ei ddileu yn y canlyniad i ammaethiad y tir. Ymddengys drachefn yn *Flinsham*, ar ffordd Tref y Clawdd o Titley, ac yn croesi y bryn uwchlaw *Parkstile;* yna yn myned trwy y Parc, ac yn cyfeirio i'r de ddwyrain ger *Jacob's Castle*, i *Holmes Marsh*.

Yma y mae wedi gadael yr ucheldiroedd, a chychwyn ar isel-diroedd swydd Henffordd; ac y mae ei gyfeiriad wedi ei ddileu am chwech neu saith milldir, trwy effeithiau hir ammaethiad; ond y mae sail i feddwl, fod ei gyfeiriad bron yr unrhyw a'r ffordd o Dref y Clawdd i Henffordd, trwy Lynhales, a Sarnsfield; meddylia eraill, ei fod yn cyfeirio yn hytrach tu a'r dwyrain yn fwy, ac yn myned i ddwy domen, a elwir *Hall Moat*, a *Hell Moat*, ac i Weobley, lle y

Digitized by Google

mae gweddillion hen amddiffynfa hir-gron fawr, ar y tu deheuol i'r dref. Ond er ei fod yn anhawdd ei olrhain yn y gymmydogaeth hon, y mae yn ymddangos yn amlwg eto yn y lle a elwir *Clay-pits*, ac yn crymu ychydig i'r dwyrain o'r dehau, trwy dyddyn *Upperton*, ar draws y brif-ffordd, gan gyfeirio i'r bryn yn gymhwys, ger *Mansel Gamage*. Yma y mae yn cadw dros ael y bryn, ac yn myned heibio i'r *Garnon House*, tua haner milldir i'r dwyrain; ac yn dyfod i waered i ffordd Henffordd, a glan ogleddol yr afon Wy, ger porthfa, haner milldir i'r gorllewin o *Bridge Sollers*, a dwy filldir i'r gorllewin o *Kentchester*, yr orsaf Rufeinaidd MAGNA, neu ARICONIUM. Oddi yma bernir fod yr hen ffin hon yn myned trwy y rhanau gorllewinol o siroedd Henffordd a Chaerloyw, a therfynai yn *Sedbury Park*. Yr oedd clawdd arall, a elwir "Clawdd Wat," yn rhedeg bron yn gyfochrog a Chlawdd Offa, o fewn pellder, o ychydig gannoedd o latheni, hyd ddwy filldir, y naill oddiwrth y llall; a'r farn gyffredin ydyw, mai Maelawr, neu dir lle y gallai y ddwy genedl gyfarfod yn heddychlawn i drafod masnach a'u gilydd, oedd y llanerch rhwng y ddau glawdd.

**OGMORE**, treflan a chantref, yn swydd FORGANWG. Y dreflan sydd yn mhlwyf Ewenny, ac yn gorwedd ar ymgyfarfyddiad yr Ewenny a'r Ogmore, 3 milldir i'r de orllewin wrth ddehau o Ben y bont. Yma yr adeiladwyd Castell Ogmore, yn amser William Rufus, neu, Gwilym Goch; a ffurfiai enghraifft nodedig o amddiffynfa Normanaidd, yn gylchynedig gan ddyfr-ffos, tua 50 troedfedd o led, ac o 20 troedfedd i 30 o ddyfn. Y mae y cantref yn ymestyn ar hyd yr arfordir yn nghyfeiriad y de ddwyrain, hyd gymmydogaeth Llanilltyd Fawr; ac yn cynnwys plwyf Ewenny, a phedwar ar ddeg o blwyfau eraill. Erwau, 36,793. Poblogaeth yn 1861, 4176. Tai annedd, 850.

**OGMORE** (YR), afon yn swydd FORGANWG, yn tarddu o amryw ffynonellau yn nghanol barthau y swydd, yn mysg mynyddoedd y mae eu cribau uchaf uwchlaw deunaw cant a haner o droedfeddi o uchder; y mae yn llifeirio yn ddeheuol hyd Ben y Bont; ac yn dde orllewinol oddi yno i gulfor Caerodor, 6 milldir i'r gogledd orllewin o Drwyn Nash, gan wneyd yn y cyfan afon o tuag un filldir ar bymtheg o hyd. Ar y daith, y mae yr Ogwr fach, y Garw, y Llynfi, a'r Ewenny, yn ymuno â hi; ac y mae yn ffurfio mor-gainc fechan dros y 1¼ milldir diweddaf o'i rhediad. Y mae wedi bod yn enwog bob amser am ei gleisiaid rhagorol.

**OGWEN** (YR), afon yn swydd GAER YN ARFON. Y mae yn tarddu o Lyn Ogwen, llyn cûl, tua milldir o hŷd, yn gorwedd rhwng esgair o fynydd Carnedd Ddafydd, a mynyddoedd y Trifaen, a'r Glyder Fach; ac yn ymdaflu yn ebrwydd i geunant cûl a elwir "Bwlch y Benglog," ac yna yn gwneyd cyfres o gwympiadau, y rhai yn nghyd a wnant dros gan troedfedd o ddyfnder; ac wedi llifeirio mewn cyfeiriad gogledd ogledd orllewin, am oddeutu 9 milldir, y mae yn ymarllwys i Gulfor Menai, gerllaw Bangor. Ar lan yr afon hon y mae llech-gloddfeydd digyffelyb y Penrhyn, a phentref cynnyddol Bethesda.

**OLIFER**, ROBERT AB, ydoedd fab i Olifer ab Thomas, o'r Neuadd Wen, plwyf Llanerfyl, yn swydd Drefaldwyn; a'i fam ydoedd Catrin, ferch Morus ab Ieuan, o Langedwyn. Yr oedd Robert yn cyfaneddu yn Cynhinfa; a phan yno, efe a adeiladodd bont geryg dros yr afon Owddyn, er cyfleusdra y wlad; a gelwir y bont hono hyd heddyw, "Pont Robert ab Olifer," neu, yn fyrach, "Pont Robert;" ac felly y gelwir yr ardal, a'r dreflan. Ymddengys ei fod ef yn ei flodeu tua dechreu yr ail ganrif ar bymtheg.

**OLIFER**, THOMAS, a anwyd yn mhlwyd Tregynon, sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1725. Yr oedd ei rieni yn byw mewn cyflwr lled barchus, ac yn berchen ychydig ystad; ond gan iddynt feirw pan nad oedd ef ond plentyn, disgynodd ei ofal ar ei ewythr, yr hwn ni wnaeth nemawr fwy drosto, na'i rwymo i ddysgu celfyddyd. Meddai gyneddfau da; ac ymunodd â John Wesley, ac yr oedd efe yn un o'r pregethwyr lleyg a ddewiswyd i'w gynorthwyo. Yn y flwyddyn 1753, penodwyd ef yn bregethwr teithiol, ac wedi llafurio yn yr alwedigaeth hono dros lawer blwyddyn, yn Lloegr, Iwerddon, ac Ysgotland, dewiswyd ef gan Mr. Wesley, i arolygu y wasg yn Llundain, lle bu farw yn y flwyddyn 1799. Yr ydoedd yn awdwr y llyfrau canlynol:—(1) "Twelve Reasons why the People called Methodists ought not to Buy or Sell Uncustomed Goods." (2) "An Answer to a Pamphlet entitled 'A few Thoughts on Matter of Fact concerning Methodism, offered to the Consideration of the People who attend, encourage, and support Methodist Teachers,' in a Letter to the Author." (3) "A Full Reply to a Pamphlet, entitled 'An Answer to a late Pamphlet of Mr. Wesley against Mr. Erskine.'" (4) "A Letter to the Rev. Mr. Toplady, occasioned by his late Letter to Mr. Wesley." (5) "A Scourge to Calumny, in two parts, inscribed to Richard Hill, Esq." (6) "A Rod for a Reviler, or an Answer to Mr. Rowland Hill's Letter to Mr. Wesley." (7) "An Account of the Life of Mr. Thomas Oliver, written by himself." (8) "A Full Refutation of the Doctrine of Unconditional Perseverance, in a Discourse on Heb. ii. 3." Mae y gwaith hwn hefyd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. (9) A Defence of Methodism delivered extemporary in a Public Debate, held in London, December 12, 19, and 26, 1785, on the following question—Have the Methodists done most good or evil?" (10) "A Descriptive and Plaintive Elegy on the Death of the late Rev. John Wesley." (11) "An Answer to Mr. Mark Davies's Thoughts on Dancing, to which are added, Serious Considerations to dissuade Christian Parents from teaching their Children to Dance." Yr oedd hefyd yn awdwr rhai Emynau, y rhai ydynt yn argraffedig yn y llyfrau emynau Wesleyaidd.

**OLWEN**, ansawd nodedig yn rhamanteg y Cymry, ydoedd ferch Ysbyddaden Ben Cawr, tywysog y Brythoniaid Gogleddol, ac yn byw yn y chweched ganrif. Yr oedd hynodrwydd ei thlysni yn ddiarhebol; a mynych y cyfeirir at ei swynion gan yr hen feirdd, yn enwedig Dafydd ab Gwilym. Sion Brwynog hefyd, yn ei anerchiad mydryddol i ferch ieuanc, a ddechreua drwy ei chydmaru i Olwen. Mynegir hefyd am dani, fod pedair meillionen wen yn tarddu i fyny lle bynag y dodai ei throed arno, oddiwrth yr hyn y gelwid hi yn Olwen, (Ab Wên). Yr oedd hi yn wrthddrych serch Cilhwch; ac y mae hanes eu helyntion yn ffurfio un gyfres o'r Mabinogion, a gyhoeddwyd gan yr Arglwyddes Charlotte Guest, dan y penawd, "Cilhwch ac Olwen," neu y Twrch Trwyth.

**ONEN GREG**, merch Gwallawg ab Llenawg, ydoedd yn byw yn y chweched ganrif. Hi a briodes

Digitized by Google

Meirig ab Idno ab Meirchion, o'r hwn y daeth yn fam i St. Elaeth.

**ONLLWYN**, gorsaf ar reilffordd Nedd ac Aberhonddu, Deheudir Cymru; 10¼ i'r gogledd ogledd ddwyrain o Nedd.

**ORCHARD** (Ddwyreiniol a Gorllewinol), dau hen gastell yn mhlwyf Sant Athan, swydd Forganwg, ar lan yr afon Thaw, 5 milldir i'r de wrth ddwyrain o Bont Fon. Cymerasant eu henw oddiwrth berllanau a lafurid yn y gymmydogaeth i Harri y Cyntaf, gan y Fflemingiaid. Y mae y ddau hen gastell yn adfeilion maluriedig yn bresenol. Adeiladwyd yr un a elwir Orchard Ddwyreiniol, yn y flwyddyn 1091, gan Roger Berkrolles, neu Berclos, un o'r deuddeg marchog a ddaethant gyd a'r anturiaethwr Normanaidd Fitz-hamon, i'r hwn y rhoddasid yr arglwyddiaeth hon ar adeg y Goresgyniad.

**OSBASTON**, lle yn mharth gogledd ddwyreiniol swydd Fynwy; tua milldir i'r gogledd o Dre fynwy.

**OSBER**, neu Osbwrn Wyddel, ac a elwir hefyd Osborn Fitzgerald, ydoedd impyn o gangen y Desmond, deilliedig o gyff mawr Gwyddelig y Geraldiaid. Daeth i Gymru, tua chanol y 13eg ganrif. Mr. Vaughan o'r Hengwrt, henafiaethydd dysgedig Meirionydd, a dybiai mai oddeutu y flwyddyn 1237 y daeth yma; ond mwy tebygol ei bod ychydig flyneddau yn ddiweddarach. Gadawodd Iwerddon, yn ol traddodiad, oblegid lladd o hono ryw berson o urddas; a dywedir iddo ddwyn byddin o gan wr gydag ef, yn arfog, ar geffylau llwydion; a chynyg ei wasanaeth i Llywelyn, tywysog Cymru y pryd hwnw; yr hwn a'i derbyniodd, ac a ddangosodd garedigrwydd mawr iddo yntau o'r herwydd, mewn canlyniad. Yn ol hanes arall, yr oedd mewn bri uchel gan Iorwerth I., ac a wnaed yn oruwchwyliwr Gwynedd ganddo; ond y mae y gosodiad hwn yn dra amheus, gan nad yw yr enw Osber iw gael yn un o roliau cyfrifon y gweinidogion dan y teyrnasiad hwnw. Lle cyntaf ei arosiad yma, oedd y Berllys, a elwir Berdir—talfyrdir o Osberdir, hwyrach. Yr oedd efe yn berchen Cors y gedol, drwy iddo briodi ettifeddes y lle hwnw, fel y dywedir. Mae olion amddiffynfaoedd i'w canfod etto yn y Berllys. Mae Syr William Betham, Rhaglaw Ulster, yn ei sylw ar y mater hwn, yn mynegi iddo gael sicrwydd, ar ol ymchwiliad manwl yn ei gasgliadau enfawr o hanesion Geraldaidd, bod Osber Wyddel yn fab i John Fitz Thomas Fitz Maurice Fitz Gerald, Arglwydd cyntaf Decies, a Desmond. Yn mysg yr enwocaf yn llinell ddisgynedig Osber yr oedd Dafydd, ac Ieuan ab Einion, ceidwad dewrwych Castell Harlech. Ond y mae amryw deuluoedd yn Meirionydd, yn olrhain eu disgyniad yn y linach gywir oddiwrtho ef. O'r rhai hyny, nid oes yn awr ond dau yn unig yn aros, Gwynniaid, Peniarth, a'r Nanneyaid—gynt Gwynniaid Maes-y-neuadd. Rhesid Osber gyda Cantelli, ac Amabon, fel penaethiaid y tair llinach ddiweddar.

**OSFRAN**, boneddwr yn byw tua diwedd y bumed ganrif. Yr oedd ganddo fab, a laddwyd yn mrwydr Camlan.

**OSWAL**, neu Oswael, un o feibion Cunedda Wledig, ac yn byw tua dechreu y bumed ganrif. Efe, a'i frodyr, a arweiniasant y Cymry yn erbyn y Gwyddelod oeddynt wedi ymsefydlu yn Ngwynedd a Cheredigion, ac a'u llwyr alltudiasant. Cafodd Oswal gryn lawer o dir am ei wasanaeth, yr hwn a elwid oddiwrtho ef, yn Osweilyng; a gelwid yntau yn Oswal o Osweiliawn. Yn y diriogaeth hon y mae tref bresenol Croes Oswallt, a elwir felly oddiwrth yr enw.

**OUDOCEUS**, sant o enwogrwydd mawr, ydoedd fab Budic, a brodor o Cornugallia yn Llydaw, ac yn perthyn i'w thywysogion; ond a orfuwyd i adael ei wlad enedigol, a ffoi i Ddyfed, neu sir Benfro. Gan i Budic gael ei groesawu mor dda gan Aercol Lawhir, tywysog y diriogaeth hono, efe a briododd Arianwedd, chwaer Teilo Sant, o'r hon y cafodd ddau fab, Ismael, a Thyfei. Tra yr arosai yn Nyfed daeth cenadon o Cornugallia, yn ei hysbysu am farwolaeth y brenin, a bod y bobl, gan ewyllysio olynydd o'r un teulu, wedi ei ddewis ef. Cydsyniodd Budic a'r cynygiad; a chan gymeryd ei wraig a'i deulu gydag ef, efe a ddychwelodd i'w wlad, ac a sefydlodd ei lywodraeth dros yr oll o Lydaw. Yn fuan wedi hyny, efe a gafodd fab arall, a elwid Oudoceus, yr hwn mewn cydsyniad ag addewid a wnaed yn flaenorol i Sant Teilo, a fwriadwyd megis ei frodyr ereill, i broffesiaeth grefyddol. Yr oedd Oudoceus er yn blentyn yn rhagori mewn dysgeidiaeth, a hyawdledd, yn gystal ag mewn purdeb a santeiddrwydd bywyd; a phan ymwelodd Sant Teilo â Llydaw, yr oedd ei rinweddau yn dysgleirio fel goleuni llachar. A phan ddychwelodd ei ewythr i Gymry, daeth gydag ef; ac ar ei farwolaeth, penodwyd ef i esgobaeth, neu archesgobaeth Llandaf, dros yr hon y bu yn gofalu hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddygwyddodd tua 664. Cedwid ei ddydd gwyl gynt, Gorph. 2, sef y dydd y dywedid iddo farw. Ceir hanes bywyd y Sant Oudoceus yn *Llyfr Llandaf*, lle priodolir gwyrthiau lawer iddo.

**OVERTON**, a elwir hefyd Owrtyn, ac weithiau, Owrtyn Madoc, bwrdeisdref, a phlwyf, yn nghantref Maelor, swydd Fflint. Y mae y fwrdeisdref yn gorwedd ar fryn, neu lanerch o ucheldir, gerllaw yr afon Dyfrdwy; 2 filldir i'r gogledd o'r ffin rhwng swydd Fflint a swydd yr Amwythig; a 4½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Ellesmere. Cafodd y lle ei alw "Owrtyn Fadoc," oddiwrth Madoc ab Meredydd, tywysog Powys, ac arglwydd Owrtyn, yr hwn, meddir, a gyfododd gastell yma; o'r hwn nid oes dim yn aros; ond gelwir y llanerch lle y safai, "Maes y castell." Ar adeg y Goresgyniad, yr oedd y lle hwn, yr hwn a elwir yn y *Domesday Book*, "Ovretone," yn meddiant pendefig Sacsonaidd; ond fe'i dyroddwyd gan y Goresgynydd i un o'i ganlynwyr, o'r enw Robert Fitz-Hugh. Edward y Cyntaf a roddodd yr arglwyddiaeth i'w frenines Eleanor, yn y 14eg o'i deyrnasiad, a'r frenines a'i rhoddodd i Robert de Crevecœur, yn nghyd a'r hawl-fraint i sefydlu marchnad wythnosol, a ffair, yn y lle; ac yn yr 20fed flwyddyn o'i deyrnasiad, y brenin Edward a'i gwnaeth yn fwrdeisdref rydd, drwy freinlen; a'r un penteyrn y flwyddyn ganlynol, a archodd i Reginald de Grey, prif farnwr Caerlleon, i fyned i Overton yn bersonol, a neillduo i'r bwrdeisiaid, ac i eraill a dueddid i ddyfod yn breswylwyr o'r lle, diroedd gweddol, o fewn maenoriaeth castell Overton, a choed hefyd, i adeiladu bwrdeisdai a hwy; ac yn yr 28ain o'i deyrnasiad, caniattaodd Edward i'r bwrdeisiaid, ryddhad oddiwrth doll, am saith mlynedd, ac amryw freintiau eraill. Edward yr Ail a roddes y fwrdeisdref a'r arglwyddiaeth i'w frenines, Isabel; ac yn y 14eg o deyrnasiad Edward y Trydydd, fe'u rhoddwyd, yn nghyda thiroedd eraill yn Maelor, i Eubule le

Digitized by Google

Strange, arglwydd y Cnwcyn, yn nghyda chadarnhad o'r freinlen flaenorol, yr hon a gadarnhawyd drachefn, ac a helaethwyd, drwy yr ychwanegiad o amryw ragorfreintiau, yn y 30ain o deyrnasiad Richard yr Ail.

Y mae y pentref mewn sefyllfa hynod o ddifyrus, ar ychydig o godiad tir, ar lan yr afon Dyfrdwy, dros yr hon y mae pont faen, o ddau fwa uchel, yn cydio siroedd Dinbych a Fflint, ac ar y brif ffordd o Gaerlleon i'r Amwythig. Y mae y ddrychfa gylchynol yn hardd dros ben, gan ei bod yn gyfansoddedig o arweddau tra amrywiol, a dymunol. Oddiar ucheldir yn agos i'r pentref, gwelir ar un llaw, wastadedd ëang o weirgloddiau gwyrdd-leision, trwy yr hwn y dolena yr afon Dyfrdwy, yn cael ei hymylu gan lethrau coediog heirdd; ac yn cael ei ffinio yn y pellder, gan gopäau uchel y mynyddoedd cylchynol; ac ar y llaw arall, gwelir Dyffryn Breninol Sir Gaer, yn gyfoethog o'r golygfeydd mwyaf amrywiadol, a gwastadoedd breision Sir y Mwythig. Y mae y pentref yn brydferth, a dymunol yr olwg arno, a chyd a'i eglwys henafol, fel ei gwelir bron o bob cyfeiriad, yn ffurfio golygfa ddyddorol yn y tirweddiad.

Y mae marchnad y lle wedi ei rhoddi i fynu er ystalm; ond cynhelir ffeiriau yma yn flyneddol, ar y dydd Sadwrn wedi Mawrth 7; y dydd Llun cyn Iau Derchafael; Mehefin 11; Awst 9; a Hydref 8. Cynhelir yr is-frawdlysoedd yma; ac y mae yn un o'r lleoedd penodedig i'r etholwyr sirol i bleidebu yn etholiad marchog y Sir; y mae hefyd yn un o'r bwrdeisiadau, mewn undeb a Fflint, Treffynnon, y Wyddgrug, Caerwys, Caergwrle, Rhuddlan, a Llanelwy, sydd yn meddu hawl i anfon cynnrychiolydd i'r Senedd. Y mae yma lythyrfa, dan Riwabon. Cynnwysa y plwyf, dreflanau Clog, Knolton, a Maesgwaelod; a mesura yn erwau, 4398. Gwerth ardrethol, 6846*p*. Poblogaeth yn 1851, 1479; yn 1861, 1397; yn 1871, 1324. Tai annedd, 292. Felly gwelir fod poblogaeth y plwyf hwn, fel yr ardaloedd ammaethyddol yn gyffredinol, yn lleihau yn barhaus. Y prif balasau yn y plwyf hwn, ydyw *Knolton Hall*, palas C. R. Cotton, Ysw. Gwernhaelod, palas y Fletchers; a Bryn y Pŷs, palas E. Peel, Ysw. Treuliodd yr enwog Ddug Wellington, (y cyntaf o'r teitl,) lawer o ddyddiau ei fachgendod yn Mryn y pŷs. Y mae olion hen wersyll milwraidd crwn, yn agos i Wernhaeled, yn cael ei gylchynu gan arglawdd pridd, o'r hwn y ceir golwg gyflawn ar yr holl wlad ar y tu gorllewinol i'r afon; ac yn agos iddo, y mae twmpath, neu garnedd, dwy lath ar hugain o hyd, a deuddeg llath o led; ac wedi ei gyfodi i gryn uchder: fe'i gelwir "Bedd y Cawr;" ond nid oes dim o'i hanes, nac achlysur ei gyfodiad yn hysbys.

Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn Esgobaeth Llanelwy; gwerth 551*p*. yn y flwyddyn. Yr eglwys sydd groes-adail, mewn cyflwr da; ac y mae rhai prenau yw, tra golygus yn y fynwent. Y mae elusenau y plwyf tua 34*p*.

**OVERTON**, pentref, yn mhlwyf Porth Einion, swydd Forganwg; 14 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Abertawe.

**OWAIN** ab Bradwen, neu fel yr ysgrifenir ef weithiau, Ednywain ab Bradwen, ydoedd foneddwr o Wynedd, yn byw yn y 12fed ganrif, dan deyrnasiad Gruffydd ab Cynan. Gelwir ef gan rai haneswyr yn Arglwydd Meirionydd; ond yn anghywir, gan fod y tywysogion a'u meibion bob amser yn Arglwyddi Meirionydd. Modd bynag, yr oedd gan Bradwen, a'i hiliogaeth, gryn lawer o feddianau yn y sir hono, yn cynwys holl gantref Tal y Bont, oddigerth Nannau, a meddianau y Tywysog, yn nghyda'r rhan fwyaf o Ystumaner. Mae safle ei balas, neu fel y gelwid ef, Llys Bradwen, i'w ganfod o hyd yn nghwmwd Cregenau, yn Nhalybont Isgregenau, yn ymyl Dolgellau. Esgynai llinach Owain, yn ol rhai awdurdodau fel hyn;—Bradwen mab Idnerth ab Dafydd Esgid Aur ab Owain Aurdorchog ab Llywelyn Aurdorchog ab Coel ab Gweryd ab Cynddelw Gam ab Elgyd ab Gwerysnadd ab Dwye Lythyr Aur ab Tegawg ab Dyfnfrath ab Madog Madogion ab Sandde Bryd Angel ab Llywarch Hen. Awdurdod arall a esyd Bradwen yn fab Mael ab Bleddyn ab Morudd ab Cynddelw ab Cyfnerth ab Cadifor ab Rhun Mergynawg ab Cynfawr ab Hefan ab Cadifor ab Maeldaf Hynaf, ab Unwch Unarchen ab Ysbwys ab Ysbwch; y cyfryw Ysbwch ac Ysbwys, tad a mab a ddaethant i'r ynys hon o'r Ysbaen, gydag Emrys Wledig, ac Uther yn 466, ac yn gyntaf hwy a breswyliasant yn Moelysbyddion, a phan adferodd Emrys ei goron oddiwrth Gwrtheyrn y treisiwr, efe a wobrwyodd y gwyr hyny [ei osgordd] a chantref Tal y Bont, a rhan o Ystumaner. Yr oedd Owain ab Bradwen yn benaeth un o bumtheg llwyth Gwynedd; a'i arwyddion oeddynt "*Gules, three snakes enowed in a triangular knot argent.*"

**OWAIN** ab Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Powys, ydoedd ansawd hynod am ei derfysg a'i arferion difrodus. Yn ngwyliau y Nadolig, 1107, rhoddid gwledd gan ei dad yn Aberteifi, i'r penaethiaid cymydogol; a chan y siaradid gyda'r fath syndod ac edmygedd am brydferthwch a glendid Nest, merch Rhys ab Tewdwr, a gwraig Gerald de Windsor, ceidwad Castell Penfro, ymgynhyrfodd Owain mewn awydd am ei gweled; a chan fod gradd o berthynas rhyngddynt, caniatawyd hyny iddo yn rhwydd; a'r canlyniad fu, i Owain osod y Castell ar dân, a dwyn Nest ymaith gydag ef; a chyda chryn anhawsder y diangodd Gerald rhag dinystr. Bu y weithred anfad hon yn achos o'r gofid mwyaf i'w dad, yr hwn mewn ofn rhag dialedd brenin Lloegr, a ffodd gyda'i fab i'r Iwerddon. Modd bynag, wedi profi ei ddiniweidrwydd, dychwelodd Cadwgan i'w wlad; a'r mab, yn ddirgelaidd yn fuan ar ei ol. Daeth i feddiant o ran o Bowys ar farwolaeth ei dad, yn 1110; ac wedi hyny, derbyniwyd ef i ffafr Harri I., gyda'r hwn yr aeth efe i Normandy, ac a wnaed yn farchog ganddo. O'r diwedd, lladdwyd Owain, gan Gerald de Windsor, yn 1114.

**OWAIN** ab Dafydd, bardd a flodeuai rhwng 1540 a 1570. Ceir rhai o'i gynyrchion mewn ysgrifen.

**OWAIN** ab Edwyn, ac a elwid hefyd Owain Fradwr, ydoedd foneddwr o Wynedd, yr hwn oedd brif weinidog, a chwegrwn Gruffydd ab Cynan, yr hwn a briodasai Angharad ei ferch ef. Efe a ymunodd a Hugh, Iarll Caerlleon, mewn brad yn erbyn ei dywysog, ac a lwyddodd gyda byddinoedd Gruffydd, i ymuno a'r gelyn, yr hyn a barodd i'r tywysog ffoi i'r Iwerddon. Fel hyn ymsefydlodd Owain yn dywysog Gwynedd, yn 1096; ond nid hir y cafodd fwynhau ffrwyth ei fradwriaeth, gan i Gruffydd ddychwelyd ymhen dwy flynedd, ac adferyd ei diriogaethau. Gelwid Owain yn frenin Tegengl, yr hon sydd adran o sir Gallestr, yn cynwys cantrefi

Digitized by Google

diweddar Rhuddlan, Coleshill, a Phrestatyn. Bu farw Owain o'r nychglwyf, yn 1103, a chanlynwyd ef yn ei feddianau, gan ei fab Gronw. Yr oedd Owain ab Edwyn yn benaeth un o bumtheg Llwyth Gwynedd, ac yn dwyn yr Eirfarwyddion, "*Argent, between four Cornish choughs, armed gules, a cross fleury, engrailed sable.*"

**OWAIN** ab Gwilym, Syr, o Dalyllyn, ydoedd fardd enwog, yn byw rhwng 1530 a 1560. Mae rhai o'i gerddi ar gael mewn ysgrifen.

**OWAIN** ab Hywel Dda, tywysog Ceredigion, yn olynol i farwolaeth ei dad yn 948.

**OWAIN** ab Ieuan ab Rhys, bardd a flodeuai rhwng 1570 a 1600. Ceffir rhai o'i gynyrchion barddonol mewn ysgrifen.

**OWAIN** ab Llywelyn Moel, bardd a flodeuai rhwng y flwyddyn 1430, a'r flwyddyn 1460. Y mae rhai o'i Gyfansoddiadau barddonol yntau yn nghadw mewn llawysgrifau.

**OWAIN** ab Macsen Wledig, a elwid hefyd Owain Finddu, dynsawd hynod mewn hanes Prydeinig. Deallir wrth y Trioedd, iddo gael ei ethol mewn cynnadledd genedlaethol i benaduriaeth Prydain, yn niwedd y bedwaredd ganrif, a bod Prydain wedi ei hadferu dano i gyflwr o annibyniaeth; ac i'r deyrnged flyneddol a dalesid i'r Rhufeiniaid er amser *Julius Caesar*, gael ei hatal. Mynegir hefyd i'r Rhufeiniaid mewn rhith o gydsyniad a hyn, gymeryd ymaith eu catrodau, a goreuon y Prydeiniaid, a allent ddwyn arfau gyda hwynt, drwy yr hyn y gwanhawyd y wlad gymaint, fel y daeth yn ysglyfaeth rwydd i'w gelynion. Un o'r Trioedd a fynega i Owain gael ei ddyrchafu i urddas prif benadur y Prydeiniaid, er nad oedd yn henafydd brodorol, gan fod ei dad o wraidd estronol. Dywedir mai yn Nanhwynan, yn nghoed Ffaraon, y claddwyd ef, wedi ei ladd gan Eurnach Gawr, i'r hwn y rhoddodd yntau glwyf marwol ar yr un pryd. Cyfrifir Owain hefyd yn mysg y seintiau Cymreig; ond heb eglwysi ar ei enw. Rhesir ef gyda Chaswallon, a Charadog, dan yr enwad o "Dri Chenadwr penadurol Ynys Prydain," y rhai yr oedd yr holl ynys o wir ewyllys yn barod i'w gwasanaethu yn erbyn y gelyn cyffredin. Ar gyfrif yr un peth, rhesir ef gyda Phrydain, a Charadog o dan yr enwad o Dri thywysog cynnadleddol Ynys Prydain," canys yno yr etholwyd ef gan lais y genedl, ymgynulledig mewn cymanfa o bob parth o'r Ynys.

**OWAIN** ab Morydd, brenin y Brythoniaid, yn ol y Brutiau Cymreig, yr hwn yn nghyd a'i frawd Peredur, gyda byddin fawr, a ymruthrasant ar eu brawd henaf, Elidyr y brenin, ac a'i gorchfygasant ef, ac a'i cauasant yn Nhwr Llundain. Yna hwy a ranasant y wlad rhyngddynt, fel y cafodd Owain yr holl wlad o'r gorllewin i'r *Humber*, yn cynwys Lloegr, Cymru, a Chernyw; a Pheredur yr oll o'r Humber i wlad y Gogledd, a holl wlad y Gogledd hefyd. Bu farw Owain ymhen saith mlynedd ar ol hyn, a'r holl deyrnas a ddaeth i feddiant Peredur. Amseryddir ei deyrnasiad yn y bumed ganrif cyn Crist.

**OWAIN** ab Urien Rheged, o Madron, merch Afallach, tywysog a enwogodd ei hun yn fawr wrth amddiffyn ei wlad yn erbyn y Sacsoniaid. Yr oedd yn byw tua dechreu y chweched ganrif; a deallir wrth Alareb, yr hon sydd o hyd ar gael, ac a briodolir i Taliesin, iddo ladd Ida, brenin arswydus Northumberland, yr hwn a elwid Fflamddwyn gan y Cymry. Cofnodir ef yn y Trioedd, gyda Rhun ab Maelgwn, a Rhufawn Befr, dan yr enwad o "Dri Gwyndeyrn Ynys Prydain." Triad arall a rydd enwau Owain, Cadwallawn, a Gwgan Gleddyfrudd, fel perchenogion "Tri Anrheithfarch," enw march Owain oedd Carnaflawg. Triad arall a'i geilw yn un o "Dri Chadfarchawg Llys Arthur;" y ddau ereill oeddynt Cadwr, Iarll Cernyw; a Lancelot du Lac. Dyma oedd eu nodeb, ni encilient o'r frwydr er picell, saeth, neu gleddyf; ac ni fyddai cywilydd fyth i Arthur mewn brwydr, y dydd y gwelai efe eu gwynebau hwynt yno; a galwyd hwynt yn farchogion y frwydr. Cyfeirir at Owain yn fynych gan y beirdd Cymreig, ac y mae efe yn berson pwysig yn y cyfansoddion boreuol Ffrengig, a elwir *Lays*, a *Fabliaux*, ac yn Rhamantegau y Ford Gron. Efe yw arwr y Mabinogi, a elwir "Iarlles y Ffynnon." Efe a adeiladodd eglwys, a chastell Aberllychwr, megis y crybwyllir yn Englynion y Gorugiau:—"Gorchestwaith Owain mab Urien, oedd sefydlu yn Aberllychwr gyfraith barn, clawdd cyfiawnder, a chastell gwyn, yn erbyn camwri." Sonir am ei gladdfa yn Meddau y Milwyr;—"Bedd Owain ab Urien sydd o ffurf ysgwar, dan dywarchen Llan Morfael."

**OWAIN,** Syr Dafydd, offeiriad, a bardd, a flodeuai rhwng 1540 a 1570. Preswyliai yn Maenan, sir Dinbych.

**OWAIN,** Gutyn, oedd un o feirdd mwyaf enwog a chlodfawr y bumthegfed ganrif. Yr oedd yn hanesydd, ac arwyddfardd i fynachlog y Maes Glâs, yn sir Flint, ac Ystrad Fflur, yn Ngheredigion; a byddai yn trigianu ar yn ail yn y ddwy fynachlog. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau barddonol wedi eu cadw mewn llawysgrifau. Yr oedd efe wedi gwneud amryw gasgliadau achyddol; ac efe hefyd a ysgrifenodd yr adysgrif mwyaf perffaith o hanes Cymru gan Caradog, yr hwn a ddygodd yn mlaen hyd ei amser ef. Gelwid y gwaith gwerthfawr hwn, "Llyfr Du Basing," pa un sydd ar gael yn awr, ac yn meddiant Thomas Taylor Griffiths, Ysw., o Wrexham; yr hwn sydd un o hiliogaeth John Griffith, Ysw., o'r Cae Cyriog, yn mhlwyf Rhiwabon, yr hwn oedd henafiaethydd enwog. Bu farw yn y flwyddyn 1698. Y cyfansoddiad olaf yn "Llyfr Basing," a roddwyd i fewn yn y flwyddyn 1461. Gutyn Owain oedd yr ail berson a enwyd gan Harri VII. yn y ddirprwyaeth a benodwyd i ymchwilio i achyddiaeth ei daid, Owain Tudur. Yr oedd Gutyn yn enedigol o Maelor, yn sir Flint; ond efe a fu byw am ryw gymaint o amser yn Ifton yn agos i Groesoswallt, lle yr oedd ganddo beth tir o'i eiddo ei hun; ac yn y weithred berthynol i'r tir hwnw, y mae ei enw wedi ei ysgrifenu yn Gruffydd ab Huw ab Owain; neu fel arall, Gutyn Owain. Bu farw tua'r flwyddyn 1480.

**OWAIN,** John, D.D., oedd yn ail fab i'r Parch. Henry Owen, gweinidog yr efengyl yn Stadham, ac wyr i Griffith Owain, Ysw., Talybont, Ceredigion. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1616. Wedi iddo dderbyn gryn lawer o addysg gan ei dad, anfonwyd ef i ysgol yn Rhydychain, yr hon a gedwid gan ysgolhaig rhagorol, o'r enw Edward Sylvester; ac yr oedd ei gynydd mor gyflym mewn dysgeidiaeth, fel yr ystyrid ef pan yn 12 mlwydd oed, yn un cymwys i'w dderbyn i'r brif ysgol, a chafodd y pryd hwnw ei restru yn ngoleg y Frenines, Rhydychain, ac yn athraw iddo yr oedd yr hyglod Dr. Barlow, a chafodd ei raddio yn B.A., pan yn 19 mlwydd oed, a gwnaed ef yn M.A., yn y flwyddyn 1635. Gan fod

Digitized by Google

teulu mawr gan ei dad, nid oedd gan hyny yn alluog i gynal ei fab yn y modd y dymunai; ond trwy garedigrwydd Hugh Owen, Tal y Bont; ei ewythr, yr hwn, wrth weled ei alluoedd gobeithiol, a roddodd iddo ddefnyddiau cynaliaeth gysurus, tra yn dilyn ei efrydiaethau; ac yn ngwyneb nad oedd ganddo blant ei hun, a'i fod yn berchen llawer o gyfoeth, bwriadai fabwysiadu John yn etifedd iddo. Cyn iddo adael y brif-ysgol, yr hyn a ddygwyddodd pan oedd yn 21 mlwydd oed, ymddengys fod dylanwadau crefyddol yn gweithredu yn rymus ar ei feddwl; am yr achlysur o hyny nid ydym yn hysbys. Diameu iddo gael ei ddwyn i fyny yn grefyddol pan o dan gronglwyd ei dad, a dichon mai argraffiadau o hyny a adnewyddwyd y pryd hwn ar ei feddwl. Pa fodd bynag, ar y pryd hwn, gadawodd y brif ysgol, tua'r flwyddyn 1636. Yr amser hwn, darfu i'r brenin Siarl ddyrchafu Dr. Laud i'r archesgobaeth; ac yn yr awdurdod uchel hono, efe a ataliodd weinidogaeth llawer o'r offeiriaid mwyaf llafurus, a dygodd i mewn amryw drefniadau newyddion, a defodau afreidiol a chaethiwus, i brif ysgolion Rhydychain, â pha rai ni allasai John Owen o gydwybod gydymffurfio, oblegid yr oedd ei ofal gymaint am anrhydedd a phurdeb addoliad Duw yn ol ei air, fel na allai ymostwng i un gosodiad anysgrythyrol, ac felly ymddidolodd oddi wrth y Sefydliad. Yn y cyfamser yr oedd yn gapelydd i ddau deulu ardderchog, hyd ddechreuad y rhyfel cartrefol, yna pleidiodd achos y Senedd. Yn ngwyneb yr ymddygiad hwn o'i eiddo, casawyd ef gan ei gyfeillion, fel Puritaniad penboeth. Ystyriai ef hyn fel dyoddefiadau er mwyn cydwybod, ac o hyny allan, bu yn wrthwynebwr i'r eglwys wladol. Ataliwyd yn awr y cynorthwy a roddai ei ewythr iddo; ond parhaodd i fod yn gapelydd i Syr Robert Dormer, o Ascot, ac athraw i'w fab henaf; ac wedi hyny i Arglwydd Lovelace, o Hurley. Ar ei ymadawiad a phreswylfod Arglwydd Lovelace, aeth i fyny i Lundain, lle yr oedd efe yn hollol estronol, a chymerodd ei letty gerllaw y *Charter House*. Er bod yr argyhoeddiadau tostlym a grybwyllwyd yn flaenorol, wedi lliniaru i raddau y pryd hyn, eto yr oedd ei fynwes heb gael ei thawelu mewn modd cyfreithlon; ond wedi myned i Lundain, efe a aeth rywbryd i eglwys Aldermanbury, gan ddysgwyl clywed Mr. Calamy yn pregethu; ond darfu i ryw amgylchiad rwystro Mr. Calamy rhag ddyfod i bregethu y noson hono yn y lle; ond aeth pregethwr anadnabyddus i'r areithfa, a phregethodd oddiar Mathew viii. 26. Bu y bregeth hon yn foddion yn llaw yr Arglwydd, i symud ei ofnau, a rhoddi iddo y fath oleuni, cysur, a heddwch sefydlog, yr hyn a gafodd fwynhau i raddau, dros y gweddill o'i oes. O hyn allan yr oedd yn llwyr argyhoeddedig o wirionedd egwyddorion anghydffurfiaeth. Yn y flwyddyn 1642, ysgrifenodd ei lyfr cyntaf, yr hyn a alwai yn "Dadblygiad Arminiaeth," a dygwyd ef yn fuan drwy yr argraphwasg, yn un gyfrol 4 plyg. Cafodd y gwaith hwn o'i eiddo, dderbyniad cyffredinol, a chymeradwyaeth lluaws o ddysgedigion duwinyddol, heblaw dwyn yr awdwr i sylw gwŷr o enwogrwydd, ac awdurdod. Yr amser hwn, darfu i'r pwyllgor ag oedd i buro a glanhau yr eglwys oddiwrth weinidogion anfucheddol, ei anrhegu â bywioliaeth eglwys Fordham, lle y priododd a boneddiges, o'r hon y cafodd amryw o blant, y rhai y gwelodd efe eu claddu oll. Ar ol bod yn Fordham tua blwyddyn a haner, cyflwynwyd iddo fywioliaeth Coggeshall, a bu ei lafur gweinidogaethol yn y lleoedd hyn yn llwyddianus. Yr oedd ei barch a'i gymeriad yn awr y fath, fel yr oedd yn cael ei wahodd a'i apwyntio yn fynych i bregethu o flaen y Senedd; a chymellwyd ef i fyned gyda Cromwell yn gyntaf i'r Iwerddon, ac wedi hyny i'r Alban. Ond can gynted ag y cafodd ei ryddid, dychwelodd yn llawen at ei bobl i Coggeshall, ond ni oddefwyd iddo aros yno yn hir, am fod y Senedd eisioes wedi ei benodi i ddeoniaeth Eglwys Crist, yn Rhydychain, yr hwn benderfyniad a hyspyswyd yn y wedd a ganlyn;—"Ar y 18fed o Fawrth, 1651, y Tŷ hwn, wrth ystyried gwerthfawrogrwydd John Owen, M.A., o goleg y frenines, a archodd fod iddo gael ei osod yn Neoniaeth Eglwys Crist, yn lle Dr. Reynolds." Yn y flwyddyn ganlynol, cafodd ei anrhydeddu a'r graddiad o D.D., a'i ddewis yn Is-ganghellydd yn y brif ysgol yno; a pharhaodd yn y swydd bwysig hono, mewn anrhydedd a pharch, am bum mlynedd. Yn y flwyddyn 1654, pan oedd Cromwell wedi dadgorffori y Senedd a elwid "Y Senedd Hir," ac yn gweled angenrheidrwydd i wysio ynghyd gorff newydd o Seneddwyr, dewiswyd y Dr. Owen yn gynrychiolwr y brif ysgol, ac o dan y nodweddiad hwnw, aeth i Lundain; eithr o herwydd i gyfeisteddiad y gorfreiniau, farnu nad cyfaddas oedd i wr mewn urddau gweinidogaethol eistedd yn y Senedd, ni fu yn y sefyllfa hono ond am ychydig o amser, er fod Cromwell a'i etholwyr yn cefnogi ei eisteddiad yn y Tŷ, ac mewn ufudd-dod i'r rhai hyny yn unig y cydsyniodd efe i fyned yno. Yn hanes bywyd y gwr enwog hwn, yr ydym yn cael iddo ymwrthod a'r drefn eglwysig esgobyddol, ac am dymor fabwysiadau yr un Bresbyteraidd; ond barnodd mai y dull mwyaf cyson a'r ysgrythyrau, ydoedd yr un Annibynol; ac eto y fath ydoedd helyntion y deyrnas y pryd hwnw, fel nad oedd y cyfryw olygiadau yn difeddianu gweinidogion o freiniau eglwysig, fel y mae digon o engreifftiau yn dangos, ond nid neb yn fwy nodedig na'r Dr. Owen. Yn rhyw fodd, trwy i Cromwell ddeall nad oedd Dr. Owen yn ffafriol iddo ef gael y goron a'r deyrnwialen, yn lle bod yn Amddiffynydd, anfoddlonodd gymaint, fel y rhoddodd i fyny ei swydd o Ganghellydd y brif ysgol, a phennododd Richard ei fab i'r swydd yn ei le, yr hwn o fewn y chwech wythnos, a ddiswyddodd y Dr. Owen o'r is-ganghelloriaeth, gan roddi ei le i'r Dr. John Conant, Presbyteriad, a phериglor coleg Exeter. Felly wedi pum mlynedd o wasanaeth llafurus, rhoddodd ei swydd i fyny, a thraddododd gyfarchiad pwysig i'r canghellydd, a'r is-ganghellydd newydd, gan ofalu na wnai y crybwylliad lleiaf er sarhau ei olynwyr, nag o eiddigedd o herwydd ei ddiswyddiad ei hun; ond rhoddodd ddesgrifiad helaeth a manwl o'r anrhrefn a gafodd efe yn y brif ysgol ar ei ddyfodiad yno, ac o'r diwygiadau a dygodd efe oddiamgylch, yn ystod ei swyddogaeth. Yr ydym wedi olrhain bywyd Dr. Owen hyd ei ddiswyddiad o fod yn ganghellydd i brif-ysgol Rhydychain; rhaid i ni droi yn awr at y gweddill o'i oes lafurus. Yn nesaf, yr ydym yn ei gael yn colli deoniaeth Eglwys Crist, trwy gynydd Presbyteriaeth, y rhai a gyfyngent ar freiniau yr Annibynwyr, un o ba rai oedd Dr. Owen. Cafodd ei ddifeddianu o'r ddeoniaeth trwy benderfyniad y Senedd, ar y 13eg o Fawrth, 1660, a'i ragflaenydd Dr. Reynolds, a benodwyd yn ei le. Darfu i hyn derfynu pob perthynas rhwng y Dr. Owen a helyntion gwladwriaethol ei oes. Yn fuan ar ol y dygwyddiad hwn, ymneillduodd i Stadham, lle yr oedd efe wedi prynu etifedd-

Digitized by Google

iaeth; a thrwy ei fod wedi arfer wrth gyrchu yno pan yn Rhydychain, i bregethu ambell waith i'r trigolion, trwy hyny yr oedd cynulleidfa fechan o honynt wedi ymuno yn nghyd, ac i'r rhai hyny yr aeth efe y pryd hwnw i weinidogaethu, ond ni pharhaodd hyny ond am ychydig; canys daeth Meiwyr Rhydychain, a gwasgarasant y gynulleidfa; ac mor boeth oedd yr erlidigaeth oedd wedi codi, fel y gorfu i'r Dr. grwydro o le i le, er mwyn diogelwch. Ffurfid yn awr gyfreithiau i gyfyngu ar ryddid crefyddol, fel nad oedd modd i Dr. Owen mwyach bregethu, heb ei ddwyn ei hun yn agored i gosb. Eto o herwydd ei enwogrwydd diweddar, chwenychid ei arbed hyd y gellid; ac i'r dyben hwn, anfonodd yr Arglwydd Ganghellydd Clarendon am dano, ac yn hynaws iawn a'i hanogodd, os nad allai o gydwybod gydffurfio a'r cyfreithiau oedd y pryd hwnw mewn gweithrediad, am iddo ddefnyddio ei amser i ysgrifenu yn erbyn Pabyddiaeth, a pheidio cynal cyfarfodydd anghyfreithlon; ac addawodd yntau wneuthur felly; ond cafwyd ef yn fuan yn pregethu i bobl Stadham; eithr gan nad oedd yn dal yr un fywioliaeth eglwysig, nid oedd un gafael gan y gyfraith arno. Cyn hir ar ol hyn, cyflawnodd ei addewid, trwy ysgrifenu yn erbyn Pabyddiaeth, a darfu i'w waith foddhau Arglwydd Clarendon mor fawr. fel y cynygiodd iddo ddyrchafiad yn yr Eglwys Sefydledig, os cydffurfiai a'i gosodiadau, a'i threfniadau; ond ni wnaeth felly. Yn fuan wedi hyn, sef tua diwedd y flwyddyn 1663, cafodd wahoddiad taer i gymeryd gofal eglwys Gynulleidfaol yn Boston, yn America; ac amcanodd gydsynio a'r gwahoddiad hwnw; ond trwy ryw amgylchiadau anhysbys, fe'i llesteiriwyd. Dywed rhai, mai trwy orchymyn y Senedd. Yn ngwyneb nas gallasai bregethu mwyach yn Stadham, symudodd i Lundain, ac wedi myned yno, pregethai yn achlysurol, mor fynych ag y caffai gyfleusderau. Ymddengys ei fod y pryd hwn yn pregethu yn lled reolaidd, a chanddo gynulleidfa wedi ymuno dan ei weinidogaeth, ac yn mysg ei wrandawyr, yr oedd amrywiol o swyddogion milwrol, â'r rhai yr oedd yn adnabyddus. Yn y flwyddyn 1668, bu farw ei gefnder, Mr. Martin Owen, gan adael iddo bum cant o bunau, yr hyn, gyda'i etifeddiaeth ei hun, a'r elw oddiwrth y llyfrau a ysgrifenai, a'i galluogai i fyw yn lled gysurus, er nad oedd yn cael nemawr o elw oddiwrth y weinidogaeth. Ar y 7fed o Chwefror, 1673, bu farw yr enwog Joseph Caryl, cyfaill y Dr. Owen, a gweinidog i eglwys luosog yn heol Leadenhall; a chan fod Caryl ac Owen mor gydnaws o ran eu hegwyddorion, cytunwyd fod eu dwy gynulleidfa i ymuno dan ofal y Dr. Owen, yr hon oedd yn cael ei gwneud i fyny o brif ddynion enwog y dyddiau hyny; yr hyn yn ddiau a barodd i'r erlid i'w erbyn leihau. Ar yr 28ain o Ionawr, 1676, claddwyd ei wraig, ac yn mhen tua blwyddyn a haner ar ol hyny, priododd a gweddw Thomas D'Oyly, Ysw., Chiselhampton, gerllaw Stadham, yr hon oedd yn foneddiges o dduwioldeb nodedig, ac o gyfoeth mawr, yr hyn a wnaeth ei amgylchiadau tymorol yn gysurus. Yn nghylch y pryd hwn, yr oedd Bunyan yn garcharor; ac un o'i gyfeillion a ddaeth at y Dr. Owen i ddeisyf arno eiriol drosto. Ysgrifenodd at Dr. Barlow, ei hen athraw, a chyfarwyddodd yr esgob ef i anfon erfyniad at yr Arglwydd Ganghellydd, yr hyn a wnaed, ac yn y dull hwnw y cafodd Bunyan ei ryddhau. Dyoddefodd y Dr. Owen yn ei flyneddoedd olaf, lawer o anhwyldeb, megis dolur y gareg, diffyg anadl, &c., y rhai a gawsant fagwrfa fawr trwy ei lafur gweinidogaethol, a'i ddyfal fyfyrdod gyd a'i ysgrifeniadau meithion. Yn awr yr oedd pen ei daith yn agoshau, ac yntau yn dywedyd ei fod yn myned at yr hwn yr oedd ei enaid yn ei garu; a boreu dydd ei farwolaeth, dywedodd wrth ei gyfaill Mr. Payne, "O frawd anwyl, y mae y diwrnod y maith hiraethais am dano wedi dyfod o'r diwedd, pan y caf weled person gogoneddus y Cyfryngwr yn eglurach nag ei gwelais, ac nag y gallaswn ei weled yn y byd hwn." Felly aeth i ganfod yr olygfa ogoneddus hono, ar y 24ain o Awst, 1683, yn 67 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa Maesydd Bunhill. Y mae nodweddiad y Dr. Owen wedi cael ei roddi mewn gwahanol ddulliau, yn ol meddwl yr ysgrifenwyr; ond y mae pawb yn cytuno ei fod yn ddyn o alluoedd anghyffredin, ac o ddysgeidiaeth tu hwnt i'r cyffredin. Dywedir ei fod yn feistr ar yr ieithoedd Hebraeg, Groeg, a Lladin, ei fod yn athronydd mawr, ac yn hynod o hyddysg yn y gyfraith wladol, yn hanesydd gwir fawr, yn neillduol mewn hanesyddiaeth eglwysig. Fel awdwr, yr ydym wedi cael iddo ysgrifenu 80 o gyfrolau, o lyfrau gwir ddefnyddiol, o'r rhai y mae y cyfrolau canlynol wedi ymddangos mewn gwisg Gymreig, sef, "Escol, neu Reolau Cymdeithas Eglwysig," "Yr athrawiaeth o barhad y Saint mewn gras," "Pechod preswyliedig mewn credinwyr," "Esboniad ar yr Hebreaid," "Traethawd ar berson a gwaith yr Ysbryd Glan," "Traethawd ar Berson Crist," yn nghyd ag ereill. Ychydig flyneddoedd yn ol, argraffwyd ei holl waith, gan R. Baynes, Llundain, mewn 28ain o gyfrolau unffurf wyth plyg.

**OWAIN**, Syr Sion, clerigwr, a bardd, yr hwn a flodeuai o tua 1560 hyd 1600. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau a'r gael mewn llaw ysgrifen.

**OWAIN**, Sion Thomas, bardd a flodeuai rhwng 1600 a 1640.

**OWAIN BROGYNTYN**, boneddwr nodedig, oedd yn byw tua diwedd y ddeuddegfed ganrif. Basdardd oedd i Madog ab Meredydd ab Bleddyn, tywysog haner Powys, o ferch y Maer Du o Rug, yn Edeyrnion. Ei dad a ganiataodd iddo arglwyddiaeth Edeyrnion yn Meirionydd, a thiriogaeth arall yn ymyl, a elwir Dinmael. Preswyliai Owain yn Mrogyntyn, ger Croesoswallt, yr hwn le a elwir yn Porkington, llygriad o Brogyntyn, oddiwrth yr hwn y cymerodd efe ei gyfenw; ac y mae rhyw weddillion amddiffynfa, a elwir Castell Brogyntyn, yn dynodi gorsaf ei breswyl hyd y dydd hwn. Amryw deuluoedd yn siroedd Meirionydd, a Dinbych, a ddisgynant yn llinell gywir oddiwrtho. Mae ei ddagr, a'i gwpan, ar gael o hyd yn Rug. Priododd Owain ddwy waith; yn gyntaf, Sioned, merch Hywel ab Madog ab Idnerth ab Cadwgan ab Elystan Glodrudd; ond ni chafodd blant o honi. Yn ail Marred, merch Einion ab Seisyllt o Fathafarn, o'r hon y cafodd dri mab, Gruffydd, Bleddyn, a Iorwerth.

**OWAIN DWN**, bardd a thelynor. Yr oedd yn gadben ar fyddin o farchogion, ac a ymenwogodd yn fawr yn yr Iwerddon, tua'r flwyddyn 1460. Dywedir iddo fod yn Arglwydd Rhaglaw yno wedi hyny.

**OWAIN GRUFFYDD**, bardd yn byw rhwng 1600 a 1630.

**OWAIN GRUFFYDD**, ydoedd fardd ac achyddwr o Eifionydd, yn sir Gaernarfon, yr hwn a fu farw yn 1750 yn 87 mlwydd oed. Oddiwrth yr Englyn can-

Digitized by Google

lynol o'i waith, gellir casglu ei fod yn teimlo gwrthwynebiad cryf i roddi y corph mewn arch o goed yn y bedd;—

"O, ffei! gwaith ffiaidd o'i go'—wneyd eirch
Nid archiad Duw mo'no;
Mewn llïan, graian, a gro,
Bu gorph Iesu 'n gorphwyso."

Ond, ymddengys na chafodd ei ddymuniad yn y peth hyn. Cyfansoddwyd ei Alareb gan Michael Prisiart, o Lanllyfni, yr hwn a ddywedai am dano fel y canlyn;—

"Ni fu er Taliesin fardd,
O fewn Arfon, un eurfardd,
Graffach nag Owen Gruffydd,
Gain ei daith yn gweini dydd;
Bardd iawngyrch heb wardd un-gwr,
Ydoedd ef, ddi adwedd ŵr:
Croniclwr, Achwr uchel,
Cywir wers aur, cariwr sêl;
Canai gerdd megys Merddyn,
Celfydd y gwnai Gywydd gwyn."

**OWAIN GWYNEDD**, bardd yn byw rhwng 1550 a 1590. Yr oedd yn fardd i Lewis Owen, Ysw., Rhag-ystafellydd, a Barwn Trysorlys Gwynedd, yr hwn a lofruddiwyd yn 1555; ac efe a gyfansoddodd ei alargan. Y mae rhai o'i gynnyrchion mewn ysgrifen.

**OWAIN GWYNEDD**, yn ol pob tebygolrwydd, a aned tua therfyn yr unfed ganrif a'r ddeg. Ei dad, Gruffydd ab Cynan, a fu y moddion [trwy iddo orchfygu y gormeswr Trahaiarn], o ddychwelyd yr arglwyddiaeth i'r linach gyfreithlon. Daliodd Gruffydd ei iawnderau am bumtheng mlynedd a deugain; ac er iddo ar ei gychwyniad cyntaf, fod yn lled aflwyddianus, eto tua diwedd ei oes, buddugoliaethai ar ei holl elynion, ac am ryw ysbaid, efe a yrodd yr holl Saeson ar ffo o'i diriogaethau. Owain ei fab, a ddygwyd i fynu o'i febyd mewn ymarferion milwraidd, yr hyn oedd angenrheidiol anhebgorol i dywysogion yn y dyddiau terfysglyd hyny. Yr ydym yn cael ei fod yn ngwasanaeth ei dad yn y flwyddyn 1121, ac mewn cysylltiad a'i frawd Cadwallon, yn gwneuthur ymgyrch yn erbyn Meredydd ab Bleddyn, Tywysog Powys, er adenill rhai tiriogaethau yn ol i feddiant rhai o neiaint Gruffydd. Y ddau dywysog ieuanc a lwyddasant er cyflawni arch eu tad, ac a anrheithiasant drefedigaethau Meredydd. Canlynwyd marwolaeth Rhys ab Tewdwr âg anhrefn fawr; oblegid byddai y pendefigion, naill ai yn ymladd a'u gilydd, neu mewn rhyfel a'r Normaniaid, y rhai a ddygasid i'r wlad gan Iestyn ab Gwrgant. Dygwyddodd damwain yn y flwyddyn 1105, er mwyhau y terfysgoedd. Gorlifodd y mor dros ranau o Holland, ac amryw o drigolion yr iseldiroedd a orfuant ymddeol, er preswylio yn mha le bynag y ceffynt le; a daeth amryw o honynt drosodd i Loegr, i erfyn am breswylfeydd gan Harri I. Harri a gofleidiodd y cyfleustra, ac a yrodd y Fflemiaid i barthau goreu sir Benfro, a bu yr estroniaid yn gynorthwyon mawr i'r brenin, ac yn ddrain am oesau yn ystlysau y Cymry. Dyma sefyllfa pethau yn Neheudir Cymru tua'r flwyddyn 1135, pan yr hwyliodd dau fab Gruffydd ab Cynan eu byddinoedd i'r wlad, er ymlid yr estroniaid ymaith. Wedi eu dyfod, gan lywyddu byddin gref, i sir Aberteifi, llwyddasant i gymeryd amryw o gestyll y barwniaid Normanaidd; ac wedi i amrai o bendefigion Cymru ymgysylltu â hwynt, ymdaenasant dros y wlad, gan wasgaru difrod yn mhob bro y cyniweirient drwyddi. Ond oblegid rhyw achos, anhysbys ar hyn o bryd, dychwelasant yn ol i Wynedd, heb gyflawni yr amcan bwriadol o ymlid yr estroniaid o Ddyfed; eto yr oedd ganddynt ysbail mawr. Daethant yr un flwyddyn i'r Deheudir, a chanddynt chwe mil o wyr traed, a dwy fil o wyr meirch, a thrwy gydymdrechiad boneddwyr y wlâd, darostyngasant y gelyn hyd at furiau castell Aberteifi. Pan yr oedd Owain a'i gyd ryfelwyr yn medi llwyddiant fel hyn, dychrynodd y llywydd Seisnig yn Aberteifi i raddau mawr iawn, ac efe a gynnullodd yr holl Saeson, y Normaniaid, a'r Fflemiaid ynghyd, er rhoddi câd i Owain Gwynedd, ar ei ddyfodiad i Aberteifi. Gwyr Gwynedd a'u cyfarfuant; ac ar ol ymladd dewr, ac ymdrechu yn galed o'r ddau tu, gorfu i'r llywydd Seisnig ffoi, a gadael y maes i'r buddugoliaethwyr, yn nghyda thair mil o laddedigion. Effaith y frwydr hon, fu deoliad yr estroniaid o'r wlad, a gosod y meddianwyr Cymreig yn eu hettifeddiaethau eu hunain. Owain a'i frawd wedi hyn a ddychwelasant yn ol i'w gwlad eu hunain, mewn anrhydedd, a gorfoledd mawr. Y flwyddyn ar ol hyn, bu Gruffydd ab Cynan farw, ac Owain, ei fab henaf, a osodwyd ar orsedd Gwynedd; ac felly efe a gafodd faes helaethach yn awr i'w athrylith, ac i ddangos ei orchestion. Can gynted ag y bu farw ei dad, ymwelodd Owain y drydedd waith â'r Deheudir, mewn cysylltiad a'i frodyr. Y tro hwn, fe ddinystriodd gastell Caerfyrddin, yn nghyd ag amddiffynfeydd Normanaidd ereill, ac yna efe a ddychwelodd i'w wlad enedigol. Am flyneddau wedi hyn, nid oes ond ychydig o hanes Owain i'w gael; ond gellid barnu oddiwrth ei ymddygiadau cyn, a chwedi, nad ydoedd yn llonydd. Ond yn y flwyddyn 1142, yr ydym yn ei gael eto mewn arfau, eithr oddiar achlysur teuluaidd, y rhai yn aml yn y dyddiau boreuol hyny a roddent y dywysogaeth mewn goddaith. Ei frawd Cadwaladr, yr hwn oedd mewn meddiant o rai tiriogaethau yn y Deheubarth, mewn rhyw ymrafael a'i frawd Anarawd, a achosodd ei farwolaeth, naill ai trwy ei ddwylaw ei hun, neu trwy offerynoliaeth rhyw un arall. Can gynted ag y cyrhaeddodd y newydd hwn Owain, penderfynodd ddial ei frawd ar Cadwaladr. Felly, gyda'i fab Hywel, efe a ymruthrodd i diriogaeth Cadwaladr, yn mha le y gwnaeth y difrod mwyaf trychinebus; ac i goroni ei fuddugoliaeth, rhoddodd gastell Aberystwyth ar dân. Cadwaladr, wedi ei wneuthur yn hysbys o amcan Owain, a ffôdd i'r Iwerddon, ac a ddarbwyllodd trwy addewidion teg, a geiriau denu, amrai o'r Gwyddelod i ymrestru dan ei luman. Wedi cael o hono ryw nifer o Wyddelod, dychwelodd i Gymru, a glaniodd yn Aber Menai, sir Gaernarfon. Ond wedi i'r ddwy fyddin ymgyfarfod, ymheddychodd y ddau frawd, yr hyn a achosodd i'r Gwyddelod ffromi, a Chadwaladr a roddes iddynt ddwy fil o anifeiliaid, yn nghyd ag anrhegion ereill. Ond yn eu gwaith yn dychwelyd yn ol i'w gwlad eu hunain, ymruthrodd Owain arnynt, ac a'u rhifodd i'r cleddyf, ac a'u hyspeiliodd o'u holl feddianau. Yr oedd y Saeson o bryd i bryd, wedi ymsefydlu ar gyffiniau Cymru, yn neillduol Gwynedd, ac wedi adeiladu amrywiol gestyll; ac yn eu plith, yr oedd castell y Wyddgrug, yn Nghallestr, yn un o'r rhai cadarnaf. Y rhai hyn oeddynt neillduol ofidus i'r Cymry; oblegid o honynt yr ymruthrai y gelyn allan, ac a ddifrodai y wlad

Digitized by Google

oddiamgylch. Yn y flwyddyn 1145, meddianwyr y Castell hwn a ysbeiliasant ac a ddifrodasant yn ysgeler; yr hyn a gynhyrfodd Owain i'r penderfyniad, o ddinystrio y castell hwn yn wyneb pob gwrthwynebiadau. Efe a'i bobl a'i gwarchaeasant, ac wedi hir ymladd, dymchwelodd ef i'r llawr, a chynifer o'r gwarchawdlu a ddiangasant rhag y cleddyf, a wnaed yn garcharorion. Y Saeson, er ymddial ar Owain, a benderfynasant atal ei rwysg a'i lwyr ddarostwng; ac yn y flwyddyn 1149, Randulph, Iarll Caerlleon Gawr, a lywyddodd fyddin gref yn erbyn Owain, ac a wnaeth gynrhair a Madog ab Meredydd, tywysog Powys, yr hwn yn eiddigeddus o herwydd llwyddiant Owain, a ymunodd a Randulph. Pan ddaeth y galluoedd hyn i Gallestr, ymgyfarfu Owain a hwynt, nid yn nepell o dref Fflint, ac a'u dymchwelodd yn hollol, fel na adawodd ond ychydig i ddychwelyd yn ol i Gaer, i adrodd y galanedd. Fel hyn y gwaredwyd Cymru unwaith yn rhagor oddiwrth beryglon y gelyn, ac oni buasai yr ysbryd dryg-ionus oedd o hyd yn cyniwair i'w gorphwysfa gartrefol, gallasai prydnawn teyrnasiad Owain fod yn un o dawelwch digwmwl. Yn 1157, ymosodwyd ar diriogaeth Owain gan Harri II., yr hwn a arweiniodd fyddin gref, o Gaer i Ruddlan, tra yr oedd ei lynges yn anrheithio yr arfordir mor bell ag Ynys Fôn. Er i'r Cymry ymladd yn ddewr dros eu gwlad, a'u hiawnderau, llwyddodd y brenin i ddarostwng cymmaint ar Owain, fel ei gorfodwyd ef a'i bendefigion, i dalu gwarogaeth i'r brenin, ac i roddi i fynu y cestyll yn Ngwynedd, a adfeddianasid oddiar y Saeson: a gorfodwyd ef hefyd i roddi dau o'i feibion i'w elynion, fel gwystlon am ei ymddygiad rhagllaw. Yn y flwyddyn 1165, ymunodd Owain mewn cyngrhair â thywysogion Cymreig eraill, i wrthladd y brenin Harri; ac am hyny, arweiniodd y brenin fyddin gref eto i Wynedd, a gwersyllodd ger yr afon Ceiriog; eithr parodd ymosodiadau diflin y Cymry, a gwlawogydd trymion, i'r brenin encilio yn waradwyddus. Yna, cymerodd Owain gastell y Maes Glas, ger Treffynnon, gan ei lwyr ddifrodi; ac yn fuan ar ol hyny, cyfarfu cestyll Prestatyn, a Rhuddlan â'r un dynged. Yr unig ddygwyddiad gwiw-gofus arall a hynododd yrfa y penaeth hwn, oedd enilliad castell Rhuddlan, yr hwn a barhasai yn nwylaw y Saeson fyth er amser ymgyrch cyntaf Harri. Ond mor gadarn oedd y gwarchodlu, ac mor gyndyn yr amddiffyniad a wnaed, fel na bu unol-luoedd Owain a Rhys, yn alluog i gyflawni eu hamcan, nes ar ol gwarchae arno am dri mis. At y llwyddiant hwn, hwy a ychwanegasant ddarostyngiad amddiffynfa arall yn y gymydogaeth, yr hyn fel yr ymddengys, a gwbl orphenodd eu buddugoliaeth ar y Saeson, y rhai oeddynt yn awr wedi eu hollol ddiletya o'u gorfodaethau yn Ngwynedd. Yr oedd teyrnasiad ac einioes Owain, yn awr yn tynu yn agos at y terfyn. Ni orfucheddodd efe y fuddugoliaeth olaf hon ond tair blynedd, a bu farw yn y flwyddyn 1169, gan adael y wlad yn y fath gyflwr o dawelwch, ag na phrofasai ond yn anfynych o'r blaen, ac nad oedd yn awr wedi ei harfaethu i'w fwynhau yn hir. Efe a arferasai ei awdurdod pen arglwyddiaethol ar Wynedd am 32 o flyneddoedd, yn ystod pa amser maith, ni phrofodd ef bron unwaith aflwyddiant yn ei anturiaethau; ac yr oedd yr enwogrwydd a adawodd efe, megis yn ei lythyr cymun i'w wlad, yr un hwnw o eiddo un o'i thywysogion mwyaf dewr a llwyddianus. Ei blant, gan gynwys y rhai ag oeddynt anghyfreithlon, yn gystal a'r rhai hyny a anwyd iddo o'i wraig briod, oeddynt yn lliosog. Y mae yr hanesyddion Cymreig wedi cadw enwau ugain o honynt; ac o'r rhai hyn, dywedir i 17 oroesi eu tad. Rhoddwyd gweddillion daearol Owain yn nghadw yn Eglwys esgobol Bangor, yn sir Gaernarfon. Ond nid oedd doniau milwraidd, a theilyngdod cyhoeddus Owain, yn gwneuthur i fyny ei unig ganmoliaeth. Y mae efe yn sefyll yn enwog yn mysg llywodraethwyr Cymru, am y cefnogaeth a roddodd i'r rhai a gysegrasant eu hunain i'r awen. Er na feddwn un dystiolaeth hanesol a chyfeiriol at y pwnc hwn, eto nid yw nifer y beirdd a flodeuasant yn ystod ei amser ef, a'r iaith wresog o foliant, yn mha un y clodforir ef ganddynt, hyd yn nod yn y darnau sydd eto i'w cael, yn gadael dim amheuaeth mewn perthynas i'r gwirionedd hwn. A gellir ei ystyried fel cadarnhad o'r haeriad hwn, i un o'i feibion ef, ymddysgleirio ymhlith y frawdoliaeth ddoniol hon. Pa beth bynag, ynte, a allasai fod colliadau naturiol Owain Gwynedd, i ba ormodedd bynag y gallasai effaith amgylchiadau neillduol ei hudo, rhaid ei ystyried ef fyth, fel un o'r cymeriadau mwyaf arddercbog yn Nghymru yn ystod amser ei hannibyniaeth. Ac fel gwrthwynebydd llwyddianus i fwriadau rhyfelgar y Saeson, ni fedd ef un cymar yn hanes ei wlad.

**OWAIN GYFEILIOG**, tywysog tra enwog fel rhyfelwr, ac fel bardd, ydoedd fab Gruffydd ab Meredydd ab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys. Ar farwolaeth ei daid, y tywysog Meredydd, yn 1130, olynodd Owain ef i ran fawr o Bowys, yn cynwys yn mysg ereill, y diriogaeth sydd yn awr ar ei enw yn sir Drefaldwyn, "Tiriogaeth Cyfeiliog." Yn y flwyddyn 1162, bu mewn rhyfel ag Hywel ab Cadwgan ab Elystan Glodrudd, arlywydd y wlad rhwng yr Wy a'r Hafren; ond mor aflwyddianus fel y bu i Hywel ymosod ar Gastell Tafalwern, neu Walwern, yn Nghyfeiliog, lle y preswyliai Owain yn gyffredin, a'i ddymchwelyd i'r llawr. Yn y flwyddyn ganlynol, ymosododd Owain ar gastell Careghofa, ger Croesoswallt, ac a'i dinystriodd. Yn 1165, ymunodd ag Owain Gwynedd, yn flaenor byddinoedd Powys, ac a ymenwogodd gymaint yn mrwydr Crogen, fel yr enciliodd Harri II. o'r maes, gyda cholledion mawrion. Yn y flwyddyn ganlynol, efe a ddifeddianodd Iorwerth Goch o'i diroedd yn Mhowys, yr hyn a dramgwyddodd Owain Gwynedd, a Rhys, tywysog y Deheubarth, yn fawr iawn, fel y darfu iddynt ymuno yn 1167, i ddwyn eu byddinoedd i Bowys, ac amddifadu Owain o'i holl diroedd. Owain fodd bynag, a ddychwelodd yn fuan, a thrwy gymorth byddin o Saeson, efe a adenillodd ei etifeddiaeth. Yn 1176, efe a gafodd wyslythyr oddiwrth Harri, i'w gyfarfod yn Rhydychain, er ymgynghori ynghylch helyntion Cymru. Efe a briodes Gwenllian, merch Owain Gwynedd, o'r hon y cafodd un mab, Gwenwynwyn, yr hwn a etifeddodd ei holl ystad, oddigerth cymydau Llanerchudol, a Broniarth, y rhai a benodasid gan ei dad, i'w fasdardd, Caswallawn. Owain Cyfeiliog a sylfaenodd Abatty Ystrad Marchell, ger y Trallwm. Bu farw yn 1197 mewn gwth o oedran. Yr oedd yn noddwr rhyddfrydig i Gynddelw, a beirdd ereill cyfoesol ag ef; ac yr oedd yn sefyll yn y radd flaenaf ei hun yn eu plith. Y mae dau o'i gynyrchion yn argraffedig yn y *Myfyrian Archaiology;* ac y mae y darn uchelryw, a elwir "Hirlas Owain," wedi ei gyhoeddi gan Evans, yn ei "Gynnyrchion o'r Beirdd Cymreig,"

Digitized by Google

gyda chyfieithiad rhyddiaithol. Hefyd y mae cyfieithiad mydryddol gan y Parch. R. Williams, o'r Fron, yn "*Pennant's Tours in Wales.*"

**OWEN**, Charles, D.D., oedd frawd ieuangaf i'r Parch. James Owen o'r Amwythig, a'i fywgraffydd. Bu tua haner canrif yn weinidog yr eglwys Bresbyteraidd yn Warrington; yr oedd hefyd yn athraw coleg yno. Heblaw cyhoeddi a gorphen rhyw weithiau ag oedd wedi eu gadael gan ei frawd mewn ysgrifen, efe hefyd a ysgrifenodd hanes bywyd ei frawd; amryw draethodau dadleuol; yn nghyd a chyfrol werthfawr, a elwid, "*The Wonders of Redeeming Love.*" Bu farw mewn henaint teg, ddechreu y flwyddyn 1746.

**OWEN**, David (*Brutus*), oedd unig fab Benjamin Owen, clochydd plwyf Llanpumsaint, Sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1795; a chafodd ei ddwyn i fyny yn ofalus, yn egwyddorion, ac ymarferiadau yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd yn llanc gwrol, yn llawn difyrwch a chwareu; a dangosodd arwyddion yn foreu, ei fod yn feddianol ar alluoedd mwy nâ'r cyffredin. Cafodd ei rwymo yn egwyddorwas i ddysgu y gelfyddyd feddygol, dan ofal Mr. Thomas, Aberduar, lle y byddai yn gyffredin yn nghyfeillach y Bedyddwyr; ac yn y diwedd, efe a aeth yn aelod o'r cyfundeb hwnw. Cyn terfyniad ei egwyddoriaeth, efe a drodd ei sylw oddiwrth y broffes feddygol, at y Weinidogaeth, ac aeth i athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor, dan ofal yr enwog Dr. J. Ryland. Oddiyno efe a symudodd mewn amser cyfaddas i'r Aber, ger Penmaenmawr, Gogledd Cymru, lle bu yn cadw ysgol am dair blynedd, yn nghapel y Bedyddwyr. Wedi hyny cafodd ei urddo yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn agos i Bwllheli, lle y gwasanaethodd am beth amser. Tua'r flwyddyn 1820, efe a briododd Ann, merch Mr. Jones, amaethwr, ger Abersoch, saith milldir o Bwllheli. Cymerai ofal gweinidogaethol pedwar a leoedd bychain, tlodion, gan wasanaethu fel meddyg gwlad; ac ar yr un pryd yn cadw ysgol. Nid oedd un o'r ddwy alwedigaeth yn debyg o ganiatau iddo lawer o gyfleusderau i amlygu ei alluoedd naturiol, oddieithr pan y byddai ar deithiau pregethwrol gyda'r Parch. C. Evans. Tra yr ydoedd yn y lle hwn, ei deulu yn cynnyddu, ac yntau yn dlawd a phrofedigaethus ei amgylchiadau, efe a gyflawnodd un o gamgymeriadau penaf ei fywyd. Ysgrifenodd at y Parch. Dr. Carpenter, gweinidog Undodaidd yn Mristol, i ddweyd fod tair neu bedair o gynnulleidfaoedd bychain dan ei ofal ef wedi cofleidio egwyddorion Undodaidd; a chan y cyd-olygai yntau â hwynt, a'u bod yn dlodion, dymunai gael ychydig gymhorth arianol drwyddo ef, oddiwrth y *Presbyterian Fund*, yn Llundain. Gan fod y newydd mor ddyeithr i Dr. Carpenter, efe a ysgrifenodd at ryw rai i ymofyn i wirionedd yr hysbysiad, a chafodd allan, mai dychymyg Brutus a'i cenedlasai yn gyfan-gwbl; ac yn Nghymanfa Pwllheli, a gynhelid yn fuan ar ol hyny, torwyd pob cyssylltiad rhyngddo a Chyfundeb y Bedyddwyr. Yn y flwyddyn 1824, efe a gafodd ryw achos tramgwydd oddiwrth rai o flaenoriaid y Gymdeithas Gymreigyddol yn Lleyn; ac er mwyn poeni y cyfryw, efe a ysgrifenodd erthygl ffyrnig yn erbyn y Beirdd, a'r Gymraeg, yn Seren Gomer am Fis Mawrth, dan yr enw "Brutus." Hyn a osododd yr holl Gymdeithasau Cymreigyddol mewn cythrwfl mawr; a chafodd Brutus weled yn fuan, ei fod wedi cynhyrfu y fath lu o elynion, fel mewn ychydig fisoedd, yn lle bod agos yn anadnabyddus a ddinod, daeth ei ffugenw yr un mwyaf hynod ac anmharchus yn y Dywysogaeth, a gwarthruddid ef fel pen bradwr yr iaith Gymreig, a phentyrid pob math o enllib ar ei ben. Y Parch. T. Price (*Carnhuanawc*) oedd y cyntaf i amddiffyn y Gymraeg. A'r Parch. Joseph Harris, Golygydd *Seren Gomer*, a ddywedai, nad oedd braidd angen atebiad i Brutus: gan nad oedd ei gecraeth ond adsain o'r hyn oedd wedi ymddangos flwyddyn yn flaenorol, yn y *Cambrian*, a'r *Carmarthen Journal*, a ysgrifenid gan D. W. Ramsey; a'r hyn oedd wedi ei wrthbrofi mor alluog gan ysgrifenwyr ereill. Ni wnaeth hyn, modd bynag, dawelu pethau, ac ymddangosodd atebion ffyrnig yn rhifyn Mai o Seren Gomer, oddiwrth "Isaac o Dreflys," a "Cymro Diddig;" wyth o englynion i Brutus, gan "Anti Brutus;" a gofynion gan "Camber ab Brutus," ac yn y mis dilynol, gan y Parch. David Jones, o Lerpwl." Yn Seren Gorphenaf, ymddangosodd difyrdraeth, (*Squib*) yn cyhoeddi Damwain Echryslawn, fod Brutus ab Dic wedi cyflawni hunanladdiad, trwy grogi ei hun; gan ddesgrifio holl amgylchiadau y digwyddiad; a bod ei gorph i gael ei gladdu ar groesffordd, rhwng Llundain a Chaergybi! Credid yr amgylchiad arswydus hwn gan amryw fel gwirionedd hyd y mis nesaf, pan ymddangosodd llythyr maith a nerthol gan Brutus, wedi ei gyffroi gan yr hysbysiad o'i farwolaeth; yn yr hwn y dangosai y fath alluoedd ag a sefydlodd ei gymeriad fel ysgrifenydd Cymraeg o'r radd flaenaf. Achosodd hyn wrth-atebiad oddiwrth "Gedeon," yr hwn hefyd a amlygai gryn alluoedd; ac atebiad oddiwrth M. Antwn, gyda'r hwn y cauodd y Golygydd y ddadl yn Seren Gomer, oddieithr i ryw ysgrifenydd dyfodol ddwyn rhyw rhesymau newyddion. Hyn a wnaed gan Carnhuanawc, mewn llythyr mwyn a boneddigaidd; yr hwn er ei fod yn collfarnu y golygiadau a gyhoeddwyd gan Brutus, a ddywedai, —"Eithr mewn perthynas i resymau Brutus am ddilead y Gymraeg, (os gellir galw y fath haeriadau yn rhesymau) gan ys pa fodd yr ymddangosent iddo ef ei hun, etto pan eu dynoethwyd gan "Gedeon," ac ereill, ymddangosai eu gwegi, a gwelid nad oes dim ynddynt yn haeddu y sylw lleiaf, oddieithr yr iaith hyawdl a pha un eu gwisgwyd hwy gan fedrusrwydd eu hysgrifenydd; ac yn hyn, braidd nas galaraf am eich penderfyniad i derfynu y ddadl; o herwydd bydded amcanion Brutus y peth a fyddont, y mae ei ddull o ysgrifenu mor dlws a llyfn, fel na allwn lai na dywedyd y buasai ei ddoniau yn anrhydedd i'w wlad, oni bai fod ei egwyddorion mor adgas." Y modd yma y terfynodd y ddadl nodedig a sefydlodd gymeriad Mr. Owen fel ysgrifenydd Cymraeg campus a thalentog; er ar y pryd hwnw, y mwyaf gwrthgenedlaethol yn ei egwyddorion. Yn fuan wedi hyny efe a ysgrifenodd draethawd byr ar fedydd, yr hwn a alwai, "*Vox Scriptorum, Vox Dei*," yr hwn a ysgrifenasai er ei ddifyrwch ei hun, ac a ddangosai i rai o'i gyfeillion, a chafodd rhai o'r cyfryw gopiau ysgrifenedig o hono; ac yr oedd un o honynt yn awyddus am iddo gael ei gyhoeddi; ac heb yn wybod i Mr. Owen, a'i cymerodd i gyfarfod misol y Bedyddwyr yn sir Fon, lle y llywyddai y Parch. Christmas Evans, yr hwn a wrthwynebai iddo gael ei gyhoeddi, am nad oedd y pwnc ar y pryd yn cael ei ddadleu yn y wlad. Y canlyniad o'r sylw a wnaeth efe o'r pwnc o fedydd pan yn ysgrifenu y traethawd crybwylledig, oedd ei ddwyn i chwilio yn ddyfnach i'r mater, a chafodd allan nad oedd y tir y safai arno

yn ddiffynadwy; ac mewn ychwanegiad at hyn, yr oedd amgylchiadau annymunol wedi cyfodi, yr hyn a derfynodd mewn toriad o'r cysylltiad oedd rhyngddo a'r Bedyddwyr. Yn fuan ar ol hyn, rhoddodd gyhoeddusrwydd i newidiad ei farn, mewn traethawd a alwai, "Athrawiaeth Bedydd Babanod." Mewn canlyniad, derbyniwyd ef i gyfundeb yr Annibynwyr, fel aelod, a phregethwr. Argraffwyd y traethawd hwn yn Aberystwyth, gan Mr. Samuel Thomas; ac yn fuan achosodd gryn gynwrf yn mysg darllenwyr Cymraeg, ac adfywiodd lawer o ysbryd ymrysonol rhwng yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Un o'r blaid ddiweddaf, Mr. Benjamin Jones, Caergybi, (P. A. Mon) a baratodd waith, yr hwn oedd i ddiddymu gwaith Brutus, yr hwn a alwai "Athrawiaeth Bedydd," i'r hwn yr oedd y rhagymadrodd Seisnig mwyaf athrodus, ynghyd ag amryw benillion Cymreig, cywyddau, ac englynion, oddiwrth gynifer a 32 o brif feirdd a phrydyddion Cymru, yn collfarnu Brutus, ac yn canmol P.A. am ddyfod allan i ymladd a'r "Hen Fradwr." Yn y flwyddyn 1828, Mr. S. Thomas, argraffydd Aberystwyth, a brynodd hawlysgrif *Yr Oes*, Misolyn a gychwynasid gan J. A. Williams, Abertawe; yr hwn y newidiwyd ei enw wedi hyny, yn Lleuad yr Oes; ac mewn modd doeth, sicrhaodd Mr. Thomas wasanaeth Brutus fel Golygydd; o ganlyniad, efe a symudodd i Lanbadarn-Fawr, lle y cadwai ysgol, ac y gofalai hefyd am y Cyhoeddiad, hyd oni werthwyd ef yn mhen tua deunaw mis, i Jeffrey Jones, argraffydd, Llanymddyfri; yr hwn oedd newydd sefydlu swyddfa argraffu yn y dref hono; a chan ei fod yn edmygu galluoedd Brutus, cytunodd ag ef i barhau yn Olygydd. Wedi hyny symudodd ef a'i deulu i Bentref ty gwyn, ger Llanymddyfri, yn y flwyddyn 1829, lle y preswyliodd tua naw mlynedd. Yma yr ysgrifenodd attebiad i'r Traethawd a'r Fedydd, gan P.A. Mon, yr hwn a alwai "Breiniau Babanod," cyhoeddedig yn Llanymddymfri, yn 1830; yr hwn a gafodd werthiad helaeth; yn mha un yr amddiffynai ei hun rhag gwaradwyddiadau ei athrodydd. Bu Jeffrey Jones farw yn 1830, a chafodd hawlfraint Lleuad yr Oes ei gwerthu drachefn, i bwyllgor o weinidogion yr Annibynwyr, y rhai, mewn cysylltiad a Meistri D.R. a W. Rees, Llanymddyfri, a osodasant i fyny gyhoeddiad newydd, a elwid, Yr Efengylydd, a fwriedid i fod yn fath o Drysorfa Efengylaidd Gymreig, dan olygiaeth Brutus; y Parch. J. Rowlands, Cwmllynfell, ac ereill. Modd bynag daeth yn mhen amser yn fwy gwleidyddol nag y bwriedid iddo fod ar y cyntaf, gan ei gynllunwyr. A chyn terfynu pum mlynedd, ysgrifenodd Brutus amryw erthyglau arweiniol o olygiadau mwy ceidwadol nag y mynai amryw iddynt fod; yn neillduol gan fod gwleidyddiaeth yn rhedeg yn uchel ar ol pasio ysgrif y diwygiad yn 1832. Awgrymai rhai o'r gweinidogion i Brutus, y byddai iddo gael ei droi o'i swydd fel Golygydd y Cyhoeddiad, tra y gweithiai ereill yn ddirgel, i sefydlu Cyhoeddiad gwrthwynebol. Mr. Rees yn canfod pethau yn myned hytrach yn anhyfryd, a werthodd ei hawl o argraffu yr Efengylydd, i Mr. E. Griffiths, Abertawe, yr hwn oedd wedi gwneud cais at rai o'r gweinidogion am dano, os byddai cyfnewidiad yn y Golygydd, a'r Argraffydd, i gymeryd lle. Mr. Rees y pryd hwn a benderfynodd sefydlu cylchgrawn Ceidwadol, dan yr enw, Yr Haul, a Brutus i fod yn brif olygydd arno. Cyhoeddodd Mr. Rees y Cylchgrawn hwn am fwy nag ugain mlynedd. Ac yn y flwyddyn 1856, pan oedd am ymrhyddau oddiwrth fasnach, efe a roddodd yr hawlfraint i Brutus, yr hwn a wnaeth drefniadau gyda Mr. W. Spurrell, argraffydd, Caerfyrddin, gan yr hwn y mae wedi ei argraffu a'i gyhoeddi o hyny hyd yn awr. Cydffurfiodd Brutus â'r Eglwys Sefydledig, yn yr hon yr oedd wedi cael ei ddwyn i fyny, a daeth i fod yn aelod yn Eglwys Llywel. Y Parch. D. Parry oedd offeiriad y plwyf y pryd hyny. Pan aeth Brutus gyntaf i'r cyfarfod cyfrinachol, teimlai y gweinidog yn annedwydd i siarad â dyn ag yr oedd ei enwogrwydd fel ysgrifenydd mor adnabyddus. Modd bynag, darfu i Brutus ei ryddhau oddiwrth bob pryder, trwy hysbysu, iddo ddyfod yno fel pechadur gwirioneddol, gan ymddiried yn unig yn haeddiant ei Waredwr am fywyd tragwyddol; a rhoddodd yr amlygiad mwyaf boddhaol o'i deimladau, ei argyhoeddiadau, a'i brofiad. Efe a symudodd o Bentre ty gwyn, i dy bychan ar ochr y ffordd o Llanymddyfri i Drecastell, lle yr ymwelid ag ef gan amryw lenorion o gryn enwogrwydd; yn mysg pa rai yr oedd yr ysgolhaig Celtaidd, Dr. Meyer, yr hwn wedi hyny a fu yn ysgrifenydd Cyfrinachol i'r diweddar Dywysog Albert, yr hwn a amlygai syndod mawr, wrth weled yr ysgrifenydd Cymreig blaenaf a mwyaf talentog, yn cael ei orfodi i fyw mewn bwthyn mor wael. Bu fyw yno am 11eg o flyneddau, yna symudodd i dy gwell, o eiddo Mr. D. R. Rees, a elwid Bron Arthan, lle y trigodd 18 mlynedd, sef hyd ei farwolaeth, yn y flwyddyn 1866, yn 71 mlwydd oed. Llafuriodd yn galed i ddwyn i fynu deulu o ddeg o blant, a hyny yn benaf a'i ysgrifell, yn cael ei gynorthwyo trwy gadw un o ysgolion Mrs. Bevan am rai blyneddau. Cafodd brofi i'r iaith Gymreig, yr hon a ddirmygasai, ac a anmharchasai gynt, fod mewn gwirionedd y moddion penaf o'i gynaliaeth ef; ac yn yr iaith hono yr anfarwolwyd ei enw. Fel Golygydd yr Haul, cyfarfyddodd a llawer o wrthwynebiad oddiwrth amryw oeddynt unwaith yn gyfeillion cynes iddo. Ei weithiau llenorol ereill oeddynt "Allwedd y Cysegr," a gyhoeddwyd yn rhifynau. Y mae hwn yn un o'r llyfrau goreu yn y Gymraeg. "Christmasia," oedd waith bychan, a ysgrifenodd ar farwolaeth Cristmas Evans; yr hwn oedd yn dra gwerthadwy, gan ei fod yn ddarluniad mor dda o gymeriad y pregethwr enwog a rhagorol hwnw. Dilynwyd hwn, gan waith cyffelyb ar farwolaeth John Elias, dan yr enw "Eliasia." Hefyd "Gweithrediadau yr Eglwys Sefydledig, Aberystwyth, 1841. Pan gynygiodd Dr. Layard, darganfyddwr Ninefe, yn 1852, gyhoeddi cyfieithiad o hanes ei ddarganfyddiadau, cytunwyd â Brutus i'w cyfieithu; yr hyn a wnaeth gyda'i alluoedd arferol, ac enillodd gymeradwyaeth y wasg Gymreig, am y modd medrus y gorphenodd y gwaith. Anogwyd ef gan amryw o'i gyfeillion, i gyhoeddi detholiad o'i brif ysgrifeniadau, gan ymgadw oddiwrth yr hyn oedd ddadleugar, a phersonol, â'r hyn y cydsyniodd. Cyhoeddodd gyfrol fawr a hardd, argraffedig yn Llanymddyfri, yn 1855, cyhoeddedig drwy danysgrifiadau. Ond o herwydd na chymerodd amryw o'r tansgrifwyr eu copiau, ni bu y gwaith teilwng hwn o nemawr fudd iddo, mewn ystyr arianol.

Efe a barhaodd i olygu yr *Haul*, o'i gychwyniad yn 1835 hyd ddechreu 1866, pan dorodd angau y cyssylltiad. Efe a fu farw Ion. 16, 1866; a chladdwyd ef yn mynwent Llywel, ger Trecastell, swydd Frycheiniog.

Digitized by Google

**OWEN**, Ellis, Ysw., ydoedd amaethwr cyfrifol, yn byw yn Nghefnymeusydd, plwyf Ynys Cynhaiarn, sir Gaernarfon. Yn y lle hwn y ganwyd ef, yn y flwyddyn 1789. Yr oedd o deulu cyfrifol, a gwaedoliaeth parchus, o du ei dad, a'i fam. Yr oedd yn amaethwr llwyddianus, llygadog wrth brynu a gwerthu; diwyd, deffrous, a doeth y tu hwnt i'r cyffredin. Efe a gasglodd yn ei ymdriniaeth a materion amaethyddol, lawer o olud. Yr oedd yn nodedig yn ei ardal am uniondeb ei ymddygiad, a manylrwydd ei gyfrifon. Fel amaethwr, yr oedd yn y dosbarth uchaf o ran ei wybodaeth, ei gallineb, ei gyfiawnder diwyrni, a haelioni caredig ei gymwynasgarwch fel y cyfryw i'w gymydogion. Yr oedd cyfiawnder anhyblyg ei fuchedd, a sirioldeb a mwyneidd-dra ei dymer, yn ei wneuthur yn wrthddrych hoffder a pharch anrhydeddus pawb a'i hadwaenent. Nid oedd ond ychydig o bobl a gerid ac a anrhydeddid yn fwy nag ef. Mae y gair parch, yn air rhy eiddil i osod allan deimladau dynion tuag ato; anrhydedd yw y gair priodol. Yr oedd gair da, mawr, a gair uchel iddo, gan bawb yn gyffredinol. Yr oedd pawb a'i hadwaenent yn barod i'w addoli agos, yn anad un dyn a welsom erioed, o herwydd ei berffaith gywirdeb, a'i hawddgarwch. Yr oedd yn ddyn hollol ddiweniaeth, a didderbyn wyneb; ac nis gellir yn hawdd grybwyll enw neb ag iddo fwy o gyfeillion personol yn mhlith pob gradd o ddynion, o'r sefyllfaoedd isaf, hyd yr uwchaf. Yr oedd y galar o herwydd ei golli yn alar cyffredinol. Cymaint oedd ei wybodaeth, a'i ddoethineb, fel yr oedd yn fath o gynghorwr cyffredinol yn ei ardal, i bawb a fyddent mewn petrusder neu amheuaeth yn nghylch materion pwysig, o natur deuluaidd, neu blwyfol. Gwasanaethodd ei blwyf am lawer o flyneddau gydag anrhydedd mawr, fel gwarcheidwad eglwysig. Yr oedd yn un o'r gwarcheidwaid goreu a fu yn Nghymru erioed. Ond fel llenyddwr yr oedd ei ragoroldeb mwyaf. Ar lawer golygiad, efe oedd y mwyaf nodedig o holl feibion athrylithgar Eifionydd. Yr oedd yn henafiaethydd, ac yn achyddwr anghymarol. Nid oedd dim yn perthyn i henafiaethau nac achyddiaeth ei wlad, nad oedd efe yn hysbys o hono, megis ein hen ffyrdd Rhufeinig, ein hen gestyll, ein hen balasau, ein hen deuluoedd, ein hen ryfeloedd â'r Saeson, a'r Normaniaid, hen faesydd ein brwydrau, a'n holl olion henafiaethol o bob natur; yr oeddynt oll ganddo, megis ar benau ei fysedd, megis o anian, yn hytrach na thrwy ei fod wedi talu rhyw astudiaeth bendant i'r cyfryw faterion. Yr oedd ei wybodaeth mor fanol, ac mor amrywiol, yn mhob cangen o wybodaeth lenyddol, nes yr oedd yn amhosibl gwybod i ba gangen yr oedd wedi talu y sylw mwyaf. Ac yr oedd ei gof yn nodedig o gywir, a gafaelgar. Clywsom ef o dro i dro, yn adrodd hen farddoniaeth a fuasent yn llenwi amryw gyfrolau. Ac nid oedd henaint yn effeithio dim ar ei gof a'i ddeall, os nad oedd yn eu gwneuthur yn fwy dysglaer. Pan oedd o fewn blwydd i bedwar ugain oed, yr oedd mor ffraeth, mor gofus, mor wreiddiol, ac mor loyw a dysglaer ei gyneddfau ag erioed. Yr oedd ei haul pan ar fin machludo, yn myned yn fwy goleu a phelydrog. Yr oedd wedi bod yn ei ieuengctyd mewn ysgol yn yr Amwythig; ac yr oedd yno wedi dysgu Seisnig yn dda, ac efe a goleddodd yr iaith hono ar hyd ei oes. Yr oedd yn hynod o hysbys yn ngwaith y beirdd Seisnig, yn enwedig, Milton, Young, a Cowper; ac yr oedd yn gyfansoddwr gwych ei hun yn yr iaith hono. Gwelsom ddarnau campus o'i waith ynddi, mewn rhyddiaeth a barddoniaeth. Fel bardd Cymreig yr oedd yn odidog dros ben. Ni byddai un amser yn cyfansoddi darnau hirion. Nis gwyddom a gyfansoddodd efe erioed yr hyn a elwir Awdl; ond yr oedd yn gelfydd, yn ffraeth, ac yn wreiddiol, mewn darnau bychain, penillion, cywyddau, ac yn enwedig englynion. Byddai yn ysgrifenu ei gyfansoddiadau o un i un mewn llyfr pwrpasol, ag sydd yn awr yn Nghefnymaesydd. Bwriadai gyhoeddi ei waith barddonol; ond daeth angau ar draws yr amcan, er hyny y mae lle i obeithio y cyhoeddir ef eto. Mae ganddo ugeiniau lawer o englynion beddargraffiadol, oll yn wreiddiol, oll yn gywrain, a tharawiadol, ac oll yn gwbl anhebyg i'w gilydd. Ac y mae ganddo luaws mawr o fân draethodau campus, ar destynau crefyddol a moesol. Nis gwyddom am un llyfr Cymraeg mor ddifyr a gwych, ag a fyddai llyfr yn cynwys gwaith llenyddol Ellis Owen. Hyderwn y bydd i'w nith, a'i etifeddes, Anne Thomas, wneuthur rhyw drefniad buan i gyhoeddi llyfr mor werthfawr. Yr oedd eangder ei wybodaeth llenyddol, a chywirdeb dillyn ei chwaeth, yn ei wneuthur yn un o'r beirniaid rhagoraf. Efe, a Ieuan Glan Geirionydd, oedd beirniaid awdl y gadair yn eisteddfod y Gordofigion yn Lerpwl, pan enillodd Eben Fardd ar "Job." Cynygiwyd iddo fod yn un o feirniaid y gadair yn un o'n eisteddfodau diweddar; ond gomeddodd gymeryd y swydd, yr oedd ei barch i eisteddfodau wedi llwyr ddarfod er ys rhai blyneddau. Pan oedd yn ieuanc, efe a lanwodd y swydd o ysgrifenydd Cymdeithas Ysgolion Sabbothol Eifionydd, am lawer o flyneddoedd. Bu am hir amser yn gadeirydd, ac ysgrifenydd y Feibl Gymdeithas, yn Nhremadog; ac hefyd yn ysgrifenydd, a chadeirydd y Gymdeithas Eifionyddol er cosbi lladron; a bu am rai blyneddau dan y llywodraeth, yn arolygydd pwysau a mesurau yn ei ardal enedigol. Yr oedd wedi ffurfio Cymdeithas Lenyddol Eifionydd, er ys llawer o flyneddau, yr hon a gyfarfyddai yn Nghefnymaesydd bob pymthefnos yn y gauaf. Ni chlywyd erioed ddarllen gwell traethodau, na gwychach areithio, nag yn ei chyfarfodydd hi, gan wyr ieuainc talentog y gymydogaeth. Rhai o aelodau y gymdeithas hon, ar ei ddymuniad ef, oedd yn ei roddi yn y bedd, ar ddydd yr angladd. Yr oedd Cefnymaesydd yn fath o *half-way-house* i lenyddion Cymru. Nid oes odid lenor o ddim nod yn y Dywysogaeth, nad yw wedi bod yn Nghefnymaesydd yn ei dro, yn ymweled a'r dyn mawr, ac yn cael ei groesawu ganddo. Bu mwy o dalent lenyddol yn y ty enwog hwn, am yr haner can mlynedd diweddaf, nag odid dŷ yn y Dywysogaeth, oddigerth ty Carnhuanawc. Yn ddiweddaf, yr oedd yn ddyn o nodweddiad crefyddol, a defoisynol; yn arfer cadw dyledswydd bob amser yn ei deulu. Nid llawer oedd a chanddynt gymaint parch i bethau sanctaidd a chysegredig. Bu farw mewn hollol ymddiried yn ei Dduw, ac yn nisigl gyfamod gras yr efengyl. Yr oedd Mr. Ellis Owen yn ei ddyddiau goreu, yn ddyn tal, cryf, ac o gorffolaeth mwy hardd na'r cyffredin. Ni buasai modd i ddyn dieithr wrth ei weled mewn ffair neu farchnad, neu gyfarfod cyhoeddus, beidio gofyn i'r nesaf ato, "Pwy atolwg yw y dyn golygus acw." Yr oedd ei law-ysgrifen yn fan ac yn fechan, ac mor hardd ac unffurf a *copperplate*, ac fel yr oedd yn heneiddio, yr oedd ei law-ysgrifen yn myned yn fanach, ac yn dlysach.

Digitized by Google

Bu farw Ionawr 27, 1868, yn 79 mlwydd oed, wedi byr gystudd o'r *bronchitis*, er mawr deimlad calon i bob bardd a llenor a'i hadwaenai. Bu ei hir fywyd diargyhoedd, a gwastad fucheddol, yn godiad i lenyddiaeth ei wlad, a'i achles i blant athrylith Eifion, a manau ereill, y fath ag a ad gofadail barhaus ar ei ol yn yr oes a ddel, yn gystal a'r oes bresenol. Rhoddwyd ei ran farwol i orwedd yn yr ysmotyn a nodasai iddo ei hun, yn mynwent Ynyscynhaiarn. Diau genym y bydd yr englynion canlynol, o waith y llenor ymadawedig, pa rai a ymddangosasant yn y Croniel am Mai 25, 1867, o ddyddordeb neillduol i'n darllenwyr:—

"PEN FY MLWYDD, MAWRTH 31, 1867."

Saith neg wyth, chwaneg rhowch chwi—a gefais
Yn gyfan o flwyddi;
Annyddan fy oedran i,
Poen a henaint penwyni.

Er cryfder na chyfferi,—ni chaf fyw,
Nychaf mwy, rhaid imi
Ddwyn rhyw boen a dihoeni;
Dyma gaf tra fyddaf fi.

Ffarwel oes, einioes anwyl—am y gaf,
Mwy gefais na'm dysgwyl;
Brysio yr wyf i breswyl,
Gwedi gwaith, i gadw gwyl.

Gwyl heb un anhwyl, mewn hedd—a gwedi
Gadael byd a'i wagedd;
Y fan y bydd fy annedd,
O dwrw byd, ydyw'r bedd.

**OWEN**, PARCH. GORONWY, A.C., oedd un o feirdd blaenaf Cymru benbaladr. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanfair-Mathafarn-Eithaf, yn Môn, Ionawr 1, 1722. Ei dad oedd Owain Goronwy, gwr o amgylchiadau cyffredin yn y byd; ac yn lle cefnogi ei fab yn ei awydd am ddysgeidiaeth yn moreu ei oes, fel y dylasai, yr oedd yn wastadol yn gwneud ei oreu i anghefnogi y duedd honno oedd ynddo, a hyny mewn tymer erwin a sarug. Pa fodd bynag, trwy ddylanwad ei fam, efe a gafodd ddylyn ei ysgol; a phan nad oedd ond pymtheg oed, yr oedd yn gymwys i gymeryd y swydd o gynorthwywr mewn ysgol ramadegol, yn Mhwllheli. Trwy haelioni Edward Wyn, Ysw. o Fodewryd, fe'i galluogwyd ef i fyned i Rydychain, yn 1741, a chafodd ei raddio yn Ngholeg Iesu. Nid llawer o fanylion ei fywgraphiad sydd ar gael, ond y mae efe ei hun, mewn llythyr at Mr. Richard Morris, wedi ysgrifenu ychydig o hanes ei fywyd, yn 1752, yr hwn a gyhoeddwyd yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*. Deallir wrth ei dystiolaeth ef ei hun yn hwnw, iddo gael ei urddo yn ddiacon yn 1745, a chael ei benodi gan gapelwr esgob Bangor, i guradaeth ei blwyf genedigol; ond ni chafodd aros yno ddim rhagor na thair wythnos; bwriwyd ef ymaith gan yr esgob, er mwyn cael ei le i wr ieuangc arall, o gyfoeth, yr hwn oedd yn awyddus iawn am guradaeth o fewn yr esgobaeth. Er nad oedd y guradaeth yn werth dim ond ugain punt yn y flwyddyn, eto, gyda chryn betrusder yr ymdeimlai i ymadael a'i wlad enedigol, lle y mwynhai, fel y dywedai, barch a sylw neillduol gan bob gradd. Gan na wyddai am un man yn ymagor o'i flaen yn Nghymru, ymsymudodd i sir Amwythig, a bu yn gurad yn Nghroesoswallt am dair blynedd; ac yno yr ymbriododd yn 1747. Gadawodd Groesoswallt yn 1748, ac aeth i Donnington, lle yr oedd ganddo ysgol, yn nghyd a churadaeth Uppington; ond nid oedd cynnyrch y ddau uwchlaw 26*p.* yn y flwyddyn, yr hyn a barai iddo gwyno llawer o herwydd yr anhawsder o gynal teulu yn Lloegr, a swm mor fychan. Yr oedd ganddo erbyn hyn, ddau fab, a'r ieuengaf o'r un enw a'i dad. Yn gynar yn 1753, ymsymudodd i guradaeth Walton, yn swydd Lancaster; ac yn ngwanwyn 1755, yr ydym yn ei gael yn gurad Northolt, yn Middlesex, lle yr oedd yn cael 50*p.* yn y flwyddyn. Yn 1757, efe a gyflwynodd annerchiad, dyddiedig, Tachwedd 2, i Gymdeithas y Cymrodorion yn Llundain, yn dymuno cymorth i'w alluogi ef, a'i deulu, i ymfudo i'r Amerig; ac er na thalwyd nemawr o sylw i'w gais ganddynt fel brawdoliaeth, eto cyfranodd amryw o'r aelodau yn bersonol, yr hyn a'i galluogodd i gyflawni ei amcan. Wedi cyrhaedd y tu draw i'r Werydd, ymsefydlodd yn gyntaf yn Williamsburgh, Virginia, lle y cafodd swydd mewn coleg, gyda chyflog o 200*p.* yn y flwyddyn. Gan ei fod wedi claddu ei wraig gyntaf, efe a briododd yma ei ail wraig, chwaer Llywydd y coleg, yr hon oedd yn weddw, gyda phump neu chwech o blant, o'i gwr blaenorol, y rhai y rhwymwyd ef gan y Llywydd i'w cynal oll o'i gyflog ei hun. Yr hanes diweddaf, gwarantedig am dano, a geir mewn llythyr arall at Mr. Richard Morris, o swyddfa y llynges, gyda Galareb ar farwolaeth Lewis Morris, yr hwn a fuasai yn gyfaill, a noddwr gwastadol iddo, tra yn Lloegr. Y mae y llythyr hwn wedi ei ddyddio, Gorphenaf 23, 1767, o sir Brunswick, yn Virginia, lle yr oedd bywioliaeth St. Andrew's ganddo. Deallir hefyd wrth y llythyr crybwylledig, ei fod yn awr yn briod a'i drydedd wraig, o'r hon y cafodd dri o blant. Yr oedd wedi colli ei blant a aned yn Lloegr, oddigerth ei fab henaf, Robert. Tybir i'r bardd enwog a dieilfydd hwn farw ar y tir estronol, tua y flwyddyn 1770. Anfonwyd llythyr gan rai o'i edmygwyr at ei fab yn 1798, er mwyn cael rhyw hysbysiaeth am dano; ond ymddengys fod ei deimladau ef, erbyn hyn, wedi cael eu cwbl Amerigeiddio; canys yr unig ateb a gafwyd oddiwrtho oedd, bod yn rhaid iddo ef yn gyntaf gael gwybodaeth pwy a fyddai i dalu am hyny. Yr oedd Goronwy Owen yn ysgolhaig clasurol ardderchog, ac yn feistrolaidd ar yr Hebraeg, a'r Galdaeg; eithr fel bardd Cymreig, diau nad yw yn ormod dywedyd, ei fod yn sefyll gyda'r blaenaf, os nad y blaenaf o bawb yn ei amser, mewn rhai pethau. Y crynodeb goreu a gyhoeddwyd gyntaf o'i weithiau, a geir yn y gyfrol a elwir, "Dyddanwch Teuluaidd, neu Waith Beirdd Mon," argraphedig yn 1763. Cynnwysa y gyfrol hefyd, rai darnau Lladin o'i waith. Heblaw hyn, y mae ei weithiau i'w cael yn wasgaredig mewn amryw gasgliadau ereill, fel mai prin y cyfarfyddir a chasgliad barddonol, na bydd rhyw ddetholion o'i waith ef ynddo. Amryw o'i fywgraphwyr a ymddangosasant yn ofidus, o herwydd ei ymddeoliad i wlad estronol, ac a briodolant yr achos o hyny i'w uchraddolion eglwysig; ond efallai eu bod wedi dirgelu rhywbeth yn ei nodweddiad personol, a neillduol, ag a allasai roddi gradd o oleuni pellach fel y rheswm am ei helbul. Modd bynag, y mae yn alarus meddwl, fod y fath athrylith oruchel wedi cael ei llethu gymaint gan drallodion bydol. Cyfodwyd cofadail hardd am dano, yn eglwys Bangor, yn 1831, gan rai o edmygwyr ei athrylith.

Digitized by Google

Y mae llawer o dymhorau gwahanol iawn i'w gilydd, wedi bod o bryd i bryd ar yr awen Gymreig. Weithiau, dysgleiriai dan dywyniad haul llwyddiant yn ei hymdrechion, bryd arall, byddai fel "seren dan gwmwl," heb ond ychydig o'i llewyrch i'w ganfod yn tremio drwy y lleni, yn aneglur ar y dywyllnos ddu. Ond nid ymddengys y byddai byth yn llwfrhau dan yr amgylchiadau mwyaf anffafriol, canys cyfodai rhywun neu gilydd o'i meibion, gyda gwroldeb adnewyddol, fel cadarn wedi gwin, ag a roddai, megis bywyd o feirw yn ei holl ymadferthoedd, yn mysg y genedl. Felly yr ydoedd ar gyfodiad Dafydd ab Gwilym, Iolo Goch, ac eraill. Mewn maes gwahanol, y bu "Canwyll y Cymry," yn llewyrchu yn brydferth drwy y caddug niwl, ac awen Williams Pant y celyn, ar ei ol; ond yn nosparth cyhoeddus y beirdd cenedlaethol, Goronwy Owain a ragorodd yn ei oes, ac a greodd gyfnod newydd yn hanes awenydd a llenoriaeth y dywysogaeth, ag sydd yn parhau hyd y dydd hwn. Yn y flwyddyn 1860, cafwyd argraphiad cyflawnach na dim a welsid o'r blaen yn y "Gronoviana," o'i waith barddonol, a'i lythyrau, allan o argraphwasg Llanrwst. Mae ei farddoniaeth, gan mwyaf, wedi ei chyfansoddi yn ol yr hen ddull Cymreig, yn y Mesurau Cynghaneddol, neu y Mesurau Caethion, fel y gelwir hwy gan y Pryddestwyr. Y mae ei waith, gan mwyaf, mewn Awdlau, Cywyddau, ac Englynion. Y mae yr Awdlau, agos oll, ar y Pedwar Mesur ar Hugain, a dim ond un penill, yn fynych ar bob mesur. Yr oedd llenyddiaeth Gymreig mewn cyflwr tra isel, pan y dechreuodd Goronwy ysgrifenu. Nid oedd ond ychydig yn alluog i ddarllen yr iaith yn briodol, ac nid oedd y Llyfrau yn y Gymraeg ond ychydig o nifer, ac o gymeriad pur gyffredin. Nid oedd cyflawnder o Fiblau ar y pryd, a'r ychydig o ysgolion oedd mewn ambell ardal, yn ddim amgen na hyfforddiant mewn darllen, ac ychydig o ysgrifenu, a rhifyddu. Ni chafwyd misolyn, na newyddiadur, am dymor maith wedi hyny. Pan y cynnygiodd Lewis Morris godi argraphwasg, pan y ceisiodd godi cyfnodolyn, dan yr enw "Tlysau yr Hen Oesoedd," y mae ef ei hun yn cwyno, nad allai ddwyn dim ychwaneg na dau rifyn allan, o ddiffyg cefnogaeth, ac y mae yn ei anerchiad at ei gyd-genedl, yn awgrymu fod anwybodaeth yn teyrnasu dros y wlad. Yr oedd ei frodyr Rhisiard, a William, yn ddynion o wybodaeth gyffredinol, ac o wasanaeth mawr i'r wlad; ac yr oedd Ieuan Brydydd Hir, William Wyn, a Richards o Ystrad Meyrig, ac eraill, yn ddynion dysgedig a galluog, llawn o eiddigedd teilwng dros dderchafiad y Cymry, ond ychydig iawn o gefnogaeth a gawsant hwythau yn eu hymdrechion gwladgarol i wneud daioni i'w brodyr yn ol y cnawd; ond am eu cydoesydd Goronwy Owen, ni allasai ef, mewn modd yn y byd, gynal ei deulu, a chadw corph ac enaid gyda eu gilydd, heb symud o'r naill guradaeth fechan i'r llall, er cael rhyw offeiriadaeth i gael tamaid o fara, nes o'r diwedd, orfod ymfudo dros foroedd y gorllewin, ar hen lwybr Madog ab Owain Gwynedd, am gynhaliaeth bywyd. Ond eto, er hyn i gyd, gadawodd Goronwy ar ei ol, gymunrodd i'w genedl, yn ei farddoniaeth drylen, a werthfawrogir gan y genedl, "Tra mor, tra Brython." Y mae ei waith o nodwedd uwchlaw y cyffredin; ei iaith yn goethach a mwy dysgedig, ei chwaeth yn bur a dillyn, a'i gyfansoddiadau yn mhell uwch cyrhaeddiadau y werin i'w hiawn brisio. Pan y cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o'r "Diddanwch Teuluaidd," cafodd dderbyniad cyffredinol dros yr holl dywysogaeth, yr hyn a arddengys yn ddigon eglur, fod cysgodau y nos yn dechreu cilio, awydd a gallu i ddarllen yn cynnyddu, ac enwau Goronwy, Llewelyn Ddu. a'r Bardd Coch, yn dechreu dyfod i gael eu mawrhau; a Huw Jones, o Langwm, y Cyhoeddwr, yn llongyfarch ei gydwladwyr, ar gyflwyniad y fraint newydd hon i'w llaw, yn ei englynion dysyml:—

"Ag addysg o Gywyddau,—Mon Ynys
Mewn anwyl blethiadau;
Yn y wlad hon, fwynlon fau,
Hynod ydoedd hen Dadau, &c."

Ni feddai y genedl y fath drysorfa o farddoniaeth deilwng, yn y Mesurau Cynghaneddol, o'r elfeu Gymreig, o flaen amser Goronwy, ac y maent yn aros eto i ddysgleirio yn mysg y lluaws a gaed ar eu hol, gan eu bod hyd yn hyn yn mhlith detholiad penaf yr holl gasgliadau amrywiaethol. Am deilyngdod cynnyrchion barddonol Goronwy Owen, y mae yn afreidiol cynyg un gair o ganmoliaeth iddynt; y mae can mlynedd bellach o ddarllenïad arnynt, yn ddigon o dystiolaeth dros eu teilyngdod, yn enwedig wrth feddwl eu bod yn fwy cymeradwy heddyw, nag y buont erioed. Detholodd destynau teilwng ar y cyfan i gyfansoddi arnynt; nid oes ond ychydig iawn o'r gwagsaw wedi cael lle ar ei fwrdd; yr oedd y sylweddol yn fwy yn ei olwg na'r chwareus, ac yr oedd yn fwy am feithrin y difrifol na'r cellweirus. Y mae ei iaith yn goeth a destlus, yn eglur, heb fod yn gyffredin; yn swynol, heb fod yn aflednais; ac yn nerthol, heb fod yn chwyddedig. Y mae argraph o wreiddioldeb meddwl i'w ganfod yn mhob dernyn o'i waith; ac y mae urddunedd ac arucheledd syniadau yn rhedeg drwy ei holl gyfansoddiadau. O'r haner cant o ddarnau sydd yn y casgliad, ni theimla y darllenydd siomedigaeth yn nefnyddiad cymaint ag un o honynt; y mae tynerwch a nerth; teimlad a dylanwad, yn elfen naturiol drwyddynt oll. Rhaid fod ei alluoedd dychymygiadol yn gryfion, a'i fedr i'w gwisgo yn yr ieithwedd fwyaf dengar uwchlaw y cyffredin, fel y mae prydferthwch tarawiadol ei linellau yn boddhau pawb. Gwyddir mai yn y Mesurau Cynghaneddol yr ysgrifenai, ac ni ystyriai efe bob mesurau eraill, ond pethau benthyciol, ac anghydweddol ag anianawd y Gymraeg; eto, y mae eu plethiad mor naturiol ac esmwyth, ag iaith rydd. Nid oedd ef yn fawrygydd gorwresog o honynt oll, canys dynoethir yn ddiarbed rai o honynt fel cyfryngau anmhriodol i geisio gwisgo meddyliau dyrchafedig ynddynt. Nid oedd efe yn cyfrif dim yn farddoniaeth, heb gynghanedd, yn yr iaith Gymraeg, ac nid oedd yn foddlawn i alw "Coll Gwynfa" yn farddoniaeth yn yr iaith Saesoneg. Dyma a ddywed am dano;—"Coll Gwynfa" Milton, sydd lyfr a ddarllenais gyda phleser, ie, gyda y syndod a'r hyfrydwch mwyaf. Gelwch ef yn waith mawreddog, addurnol, a nerthol, neu os ydych yn dewis, yn waith nefolaidd, cewch fi yn barod i gyduno â phob peth a ddywedwch i'w ganmawl, os peidiwch a'i alw yn farddoniaeth; neu os gwnewch hyny, rhaid i chwi adael i minnau ganiatau i'r "Bardd Cwsg" gymeryd ei eisteddle ymysg y beirdd. Fel ag y mae Barddoniaeth Saesonig yn rhy benrydd, felly y mae yr eiddom ni yn rhy gaeth, a therfynol; nid yn y cynganeddion, canys hebddynt hwy ni byddai yn farddoniaeth o gwbl, ond

Digitized by Google

yn hyd ei linellau a'r caniadau hefyd; ein llinellau hwyaf heb fod dros ddeg sill (rhy fyr a phrin i gynwys dim mawreddog), a'n caniadau hefyd heb fod uwchlaw tri-ugain o linellau, hyd cyffredin Cywyddau Dafydd ab Gwilym, yr hyn sydd yn llawer iawn rhy fyr i Bryddest Arwraidd. Pa fodd bynag, anhawsderau ydyw y rhai hyn, nad wyf yn meddwl y cant byth eu symud ymaith. Dyma y cynlluniau a adawodd ein doethion gyndadau i ni, a'r rhai hyn, mae yn debyg, a fernid ganddynt hwy yn fwyaf cyd-weddol âg anianawd ein cenedl, a'n hiaith. Ond y mae rhyw gymaint o ryddid mewn dull o gyfansoddi wedi bod, ac yn bod, bob amser, yn fwy hapus ac effeithiol, na gormod o fanyldra caethiwus." Dyma farn yr enwog Goronwy am farddoniaeth y Cymry, a barddoniaeth y Saeson. Y mae y terfynau diweddaf y cyfeiriai atynt, erbyn hyn, wedi eu hanghofio yn llwyr. Dyma waith Dafydd Ionawr, ar fesur Cywydd, yn rhai o'i Weithiau, yn filoedd ar filoedd o linellau; ac y mae rhai o'r Awdlau Cadeiriol diweddar, yn fil neu ddwy o linellau; ac yr oedd Pryddest fuddygol Ieuan Glan Geirionydd, yn Eisteddfod Rhuddlan, yn rhedeg i amryw filoedd o linellau. Y mae mwy o sylw yn awr, ar y pwysau, nag ar yr hyd.

Yn mhlith gweithiau Barddonol Goronwy, dichon mai "Cywydd y Farn Fawr," sydd wedi tynu mwyaf o sylw y cyhoedd, a diau fod "Esponiadau Llewelyn Ddu" arno, wedi bod yn help i osod pwysigrwydd arno. Y mae llawer cais wedi ei wneud at ei gyfieithu i'r Saesonaeg, a llawer un wedi tynu yn lled agos at y nod; ond yn effeithiolaeth darlleniad y gwreiddiol, cawn yr holl gynnygion hyd yma yn rhy fyr o gyrhaedd yr amcan mewn golwg; y mae yn rhaid ei fod yn waith gorchestol. Beia rhai ddewisiad mesur Cywydd at y testyn, o herwydd fod hyd y llinell, yn rhy fer i wisgo meddyliau mor fawreddol yn ddigon effeithiol. Rhaid addef fod hyn, i raddau mawr, yn bwnc o chwaeth; canys y mae yr awdwr yn ymddangos yn hollol gartrefol a dedwydd yn ei holl ddarluniadau, ac nid fel dyn yn mron boddi, yn eipio gafael yn y peth nesaf i law, er cydio ynddo rhag suddo, Y mae yn wir orchest, ac heb neb yn teimlo gofid wrth weled dyn yn ymorchestu er cwblhau y gwaith. Y mae yn tori allan i enaid ei bwnc ar unwaith wrth ddechreu, mewn chwe llinell; pan yr eidduna gymhorth y Goruchaf i gyflawni y gorchwyl y mae yn ymaflyd ynddo:—

"Dod ym dy nawdd, a hawdd hynt,
Duw hael, a deau helynt,
Goddau f'armerth, o'm nerthyd,
Yw *Dydd Barn* a diwedd Byd;
Dyddwaith, pa ham na'm diddawr?
Galwad i'r Ymweliad Mawr!"

Nid ydym ni yn gweled dim yn dywyll, fel y dywed rhai, yn y llinellau uchod, oddigerth fod yma air neu ddau lled ansathredig, mewn arferiad. Y mae aruthredd dyfodiad y Barnwr, a'i osgorddlu mawr, yn dra effeithiol a chyffrous:—

"Mal Cawr aruthr yn rhuthraw,
Mal Lladron dison y daw:
Gwae i'r diofal ysmala!
Gwynfyd i'r diwyd a'r da!
Daw Angelion lwysion lu,
Llym naws, a Llumman Iesu;
Llen o'r ffurfafen a fydd,
Mal cynfas, mil a'i cenfydd,
Ac ar y Llen wybrenog,
E rydd Grist, arwydd ei Grog.

Yno'r Glyw, Ner y gloewnef,
A ferchyg yn Eurfyg nef!
Dyrcha'n uchel ei helynt,
A gwân adenydd y gwynt!
A'i angelion gwynion, gant,
Miloedd yn eilio Moliant;
Rhoir gawr nerthol a dolef,
Mal clych yn entrych y nef;
Llef mawr goruwch llif Mor-rhyd,
Uwch dyfroedd aberoedd byd;
Gosteg a roir ac Ust! draw,
Dwrf rhaiadr darfu rhuaw;
Angel a gân, hoewlan lef
Feluslais nefawl oslef;
Wrth ei fant, groewber Gantawr,
Gesyd ei gorn, mingorn mawr;
Corn anfeidrol ei ddolef,
Corn ffraeth, o saerniaeth, nef, &c."

Mae dychymygiad y syniadau uchod yn naturiol, y darluniadau yn darawiadol, a'r delweddau mor gyffrous, fel y gwelir syniad yn ymagor yn mhob syniad, ac awgrymiad yn nghesail pob awgrymiad, fel y maent yn cludo y darllenydd, neu y gwrandawr gyda hwy, gan greu dysgwyliad newydd yn symudiad pob llen, nes llanw y myfyrdod âg ystyriaethau addoliadol! Y mae yn cryfhau pan y daw at y desgrifiad o'r meirw yn cyfodi o'r bedd:—

"Cyfyd, fal yd, o fol âr,
Gnwd tew, eginhad daear,
A'r mor a yr o'r meirwon
Fil myrdd, uwch dyfnffyrdd y don;
Try allan ddynion tri-llu,
Y sydd, y fydd, ac a fu;
Heb goll, yn ddidwn hollol,
Heb un o naddun yn ol!
Y dorf ar gyrch, dirfawr gad,
A'n union ger bron Ynad,
Mab Mair ar gadair a gaid
Iawn Naf gwyn, o nef gannaid,
A'i osgordd, Welygordd lân,
Deuddeg Ebystyl diddan;
Cyflym y cyrchir coflyfr,
A daw i'w ddwy-law ddau lyfr,
Llyfr Bywyd, gwynfyd y gwaith
Llyfr Angau, llefair engwaith, &c."

Ni cheid terfyn ar ddyfynu, o blegid fod y gwaith drwyddo mor ddyddorol i bob meddwl ystyriol. Y mae ei Gywydd, "Bonedd a Chynneddfau yr Awen," yn arddangos yr un llinellau o alluoedd meddwl, eangder gwybodaeth, a dillynder chwaeth. Y mae ei gyfeiriadau at Dafydd, a Solomon yn swynol iawn, ar deimlad pob sylwedydd:—

"Cyn dyfod canu Dafydd,"

ac fel yr el yn mlaen yn ei gyfansoddiad, yn y cofnodau Ysgrythyrol mewn cyfeiriad.

"Prydodd dalm o ber Salmau,
Fwyned i'm ynt, f'enaid mau!
Canu dwsmel a thelyn,
Yn hardd a wnai'r gwiwfardd gwyn,
Gyda'i law, ydd a'i 'r awen,
Wi, wi, i'r llaw wisgi wen;
Ewybr oedd y boreuddydd,
Ei lais ym min dichlais dydd,

'Deffro fy nabl, parabl per,
'I ganu emyn Gwiwner,
'I'm Ion y rhof ogoniant,
'A chlod, a thafod a thant!"

Mae yr "Awdl Goffadwriaethol am Lewis Morris," mewn rhai mannau yn dra dyrchafedig, a darluniadol; ni allwn osgoi heb ddyfynu y darnau canlynol, er mor adnabyddus ydynt i amryw, rhag bod neb o'n darllenwyr heb eu gweled:—

"Mesurai, gwyddai bob agweddion,
Llun daear ogylch, llanw dwr eigion,
Amgylchoedd moroedd mawrion,—a'u cymlawdd,
Iawn y danghosawdd, nid anghyson."

"Daear a chwiliodd drwy ei chalon,
Chwalai, a chloddiai ei choluddion,
A'i dewis wythi, meini mwynion,
A thew res euraid ei thrysorion,
A'i manylaf ddymunolion—bethau,
Deuai i'r golau ei dirgelion."

"Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,
Llwybrau'r taranau a'r terwynion,
Fflamawg fellt llamawg, folltau llymion—
Is awyr gannaid a ser gwynion,
Nodau lloer, a'i newidion,—hynt cwmwl,
O fro y nifwl i for Neifion!"

Y mae llawer o gywreindeb, yn gystal ag yni yn yr Awdl hon. Gwelir fod yr un brifodl yn rhedeg drwyddi o'r dechreu i'r diwedd. Yn niwedd yr Awdl, ychwanega ef ei hun y sylw canlynol;—"Yr Awdl hon a gant Goronwy Owen, Person Llanandreas, yn swydd Brunswick, yn Virginia, yn y Gogleddawl America, lle na chlybu ac na lefarodd hayach dengair o Gymraeg er's gwell na deng mlynedd." Y mae yr Awdl hon yn cynwys amlygiadau o deimladau wedi eu cyffwrdd i'r byw, wrth yr hanes am farwolaeth ei hen gyfaill mynwesol. Y mae un sylw yn y fan hon, ag y mae yn gofyn llaw ysgafn iawn i'w gofnodi, a hyny yw, mai cyfeiriad sydd ar lafar gwlad, at yr oerni a gymerodd le unwaith rhwng y ddau gyfaill, yn y "Cywydd i Ddiawl." Rhai a dybiant i Llewelyn ei gyfarfod unwaith yn Llundain, mewn cyflwr na ddymunasai ei weled, mewn ymollyngdod gyda diod, ac iddo fod yn chwerw iawn wrtho o blegid hyny, a dywedyd ei fod yn canu yn iach iddo byth mwy; ac i Goronwy glywed wedi hyny, iddo ddywedyd wrth gyfaill iddo, mai "angel yn ngroen bwystfil ydoedd;" a'i fod ef wedi gwneud ei oreu iddo, ac na wnai ddim mwy iddo; ag mai purion fyddai iddo fyned i'r Amerig, &c. "Dywedir hefyd yn mhellach, fod Goronwy wedi cymeryd yn angharedig iawn arno am hyny, ac fel ffrwyth y teimladau siomedig, y cyfansoddodd y Cywydd, gan briodoli y syrthiad allan yn esgus dros gybydd-dod ei hen gyfaill, fel y tybir yr awgryma y llinellau canlynol:—

"Nis dorai, was diarab,
Na chrefydd, na ffydd, na Phab,
Cod arian y cyw diras,
Yw crefydd y cybydd cas,
A'i oreudduw oedd ruddaur,
A'i enaid oedd dyrnaid Aur,
A'i fwnai ef a'i wiwnod,
A'i Grist yw ei gist a'i god,
A'i eglwys a'i holl oglud,
Cell yr aur, a'r gloew-aur glud,
A'i ddu bwrs oedd ei Berson,
A mwynhaed ddegwm yn hon,
A'i brif bechod yw tlodi,
Pob tlawd sy' gydfrawd i Gi, &c."

Ond y mae yn anhawdd profi y dybiaeth hon i fod yn wirionedd. Pa fodd bynag, os bu teimladau o'r fath yn ei fynwes unwaith, yr oedd raid eu bod wedi eu colli yn llwyr cyn y gallasai gyfansoddi y fath Farwnad ar ei ol; o blegid gormod gorchest fyddai gallu ffugio teimladau i raddau mor arbenig. Gwelir yn hyn o sylw, nad ydym wedi ymdrechu i dynu dim ar waith Goronwy i lawr yma. Y mae yn hawdd nodi, a chyfrif beiau, a gwyddom fod llawer o feiau ieithyddol a chynganeddol yn y dyfyniadau a osodwyd ger bron. Nid oes genym ni ond gadael y gorchwyl hwnw i rai sydd yn hoffach o'r elfen dduchanol na nyni. Y mae rhai o'r farn, fod bod yn ddigon cas, a brwnt, a sarhaus ar gyfansoddiadau, yn gyfystyr â thegwch a gonestrwydd; ond nid ydym ni wedi ein hargyhoeddi can belled a hyny, eithr gwell genym, ar bob llaw, egwyddor yr hen ddywediad, "cyfiawnder, pe syrthiai y ffurfafen," a dyna yn unig a'n rhwymodd i wneud y cyfeiriad at y "Cywydd i Ddiawl."

Y mae llawer o draddodiadau a chwedlau yn Mon, ar len gwerin, am Goronwy Owen, yn aros hyd heddyw, a llawer o honynt yn anhawdd eu cysoni, o ran eu dyddiad, a'u tebygoliaeth, eto dichon y dylid cyfeirio atynt yma, a'u gosod ar gof a chadw, a'u cymeryd am eu gwerth. Y mae y chwedl ganlynol yn cael ei hadrodd yn gyffredin, am ddygiad cyntaf y bardd i sylw y byd. Dywedir fod y gair wedi cyrhaedd i glustiau y Bardd Coch, o Lwydiarth Esgob, fod rhyw fachgen o athrylith anghyffredin, ac o dalent Bardd, yn Llanfair-Mathafarn-eithaf, ac i Mr. Huws fyned yno yn un-swydd i'w weled. Wedi galw yn nhy ei dad, a gofyn a oedd eu bachgen Goronwy i mewn, atebodd ei rieni, nad ydoedd, ond ei fod wedi myned gyda bechgyn eraill y gymydogaeth i'r fawnog, ac y dychwelai yn fuan. Aeth yr hen foneddwr i gyfarfod y bechgyn, y rhai erbyn hyn oedd ar eu dychweliad. Gofynodd i'r cyntaf a gyfarfu, "O ble mae'r daith hirfaith hon?" a'r ateb oedd, O'r hen gors fawn yna; "O," ebe yntau, "nid tydi sydd arnaf eisiau ei weled," cyfarfu âg eraill, a bu y gofyniad, a'r atebiad yn gyffelyb. Aeth rhagddo, ac o'r diwedd, cyfarfu ag un pert, a chraff yr olwg arno, a gofynodd, fel o'r blaen;

"O ble mae'r daith hirfaith hon?
O geisio mawn, goesau meinion,"

oedd yr atebiad. Clos pen glin a wisgai y Bardd Coch, ac yr oedd o aelodau ysgafn, yn ol y darluniad o hono. Ac felly er ei foddlonrwydd, y cafodd ei amcan yn ei neges. Dywedir yn mhellach, pan yr oedd Goronwy yn parotoi am ei daith i'r brif-ysgol, fod Llewelyn Ddu, a'r Bardd Coch yn bresenol gydag ef; a phan yr oedd efe yn methu cyfleu ei holl ddillad yn y god ledr fechan oedd ganddo, i Lewis Morris ddywedyd yn ei ddull parod arferol:—

"Ni roir yn y croen, ond un crys,"
"Digrif pe rhoddid deugrys,"—

atebai Goronwy, yr hyn a roddai lawer o foddhad i'r ddau fardd oedd hŷn nag ef. Y mae y chwedl ganlynol yn cael ei dywedyd am Owain Gronw

Digitized by Google

Owain, tad Goronwy Owen, yr hwn oedd Eurych wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yr Esgob Humphreys o Bangor, unwaith yn pregethu ar y Sabbath yn Llanfair-Mathafarn-eithaf, ac wedi y gwasanaeth, nid oedd neb yn ei wahodd i gael tamaid o luniaeth. Pobl wledig iawn oeddynt oll. Pa fodd bynag, anturiodd Owen Gronw ofyn iddo ddyfod gydag ef, a dywedai fod ganddo rost a berw yn ei dy. Derbyniodd yr esgob y gwahoddiad yn llawen, ac yr oedd yntau yn dipyn o fardd. Wedi dyfod i olwg y ty, gofynodd iddo:—

> "Owen Gronw, ddyn graenus,
> Deneu dy law, a'i dyna dy lys?"

ac wedi dyfod i mewn, gwelai yr esgob ar y bwrdd, datw, rai wedi eu rhostio, ac eraill wedi eu berwi, a mawr fel y mwynhaodd yr ymwelydd ei hun, wrth wledda ar y rhost a'r berw!

Y mae Englynion Goronwy i Ellis Roberts, y Cowper, o Lanrwst, yn dangos fod y ddawn dduchanol at ei wasanaeth, os byddai galwad am dani. Y mae yn debyg nad oedd ganddo fawr o serch at Ellis cyn eu cyfansoddi, o blegid yn ei lythyr at William Morris, dywed fel y canlyn am dano, "Mi fu'm i unwaith yn nghwmni Ellis yn Llanrwst, er's yn ngylch pedair blynedd ar ddeg i rwan, yn ymryson prydyddu *extempore*, ac fe ddywedai fy mod yn barota bachgen a welsai erioed; ac eto er hyn, cyn y diwedd, ni wasanaethai dim oni chai o, a lleban arall o Sir Fon, oedd yn ffrind iddo, fy lainio i; a hyny a wnaethent, oni buasai Clochydd Caernarfon oedd gyda mi. Tybio yr wyf mai prifio yn rhy dost o rychor iddo a wnaethum yn ei arfau ei hun, sef dychanu, a galw enwau drwg ar gân." Gwyr y cyffredin pa fath fardd oedd Ellis, ac y mae cyngor Goronwy iddo yn dra phriodol yn ei Englynion. Yn enw Huw Huws, y Bardd Coch, yr anfonodd yr Englynion i'r Cowper, er celu yr awdwriaeth. Y mae nifer o ddarnau eraill o waith y Bardd enwog hwn, ag y buasai yn briodol iawn gwneud cyfeiriad atynt, a dyfyniadau o honynt; ond ni chaniata terfynau ein gofod; ac y mae y gwaith yn adnabyddus yn y wlad. Y mae llawer o syniadau yn taro yn naturiol ar feddwl pob dyn wrth adolygu amseroedd, a gweithiau dynion mawr. Pwy a all lai na mawrhau talent dyn fel Goronwy Owen, a hoffi ei waith? Y mae mwy o'i linellau cynghaneddol ar gof, ac ar lafar yn ein gwlad, nac o eiddo yr un awdwr arall. Prin y dysgwyliwn, "Fyth weled ei fath eilwaith;" a phwy a all lai na galaru wrth droi i led-edrych ar ei golliadau. Os gwir yw yr hyn a led-awgrymir am deimlad chwerw Llewelyn Ddu tu ag ato, ar un adeg, gwel pawb fod hyny yn codi yn gwbl oll oddiar eiddigedd drosto, a'r dymuniadau goreu iddo. Ni ellir galw doe yn ol! Pwy sydd heb ei goll! Wrth feddwl am gynnifer o Gymry sydd yn awr yn cyfaneddu o fewn cyrhaedd y terfynau lle y preswyliai ein prif-fardd, y mae yn syndod na byddai i ryw rai gael allan ryw hanes am ei hiliogaeth; ac a oes dim o'i ysgrifau, o'i lyfrau, neu ei lythyrau, eto yn aros. Byddai rhyw hysbysiad am eu helynt o gryn ddyddordeb yn Nghymru, gan luaws sydd eto yn edmygwyr ei goffadwriaeth.

**OWEN**, Henry, oedd offeiriad Harpsden, Sir Rhydychain. Yr oedd yn orwyr i'r barwn Lewis Owen o'r Llwyn, gerllaw Dolgellau, yr hwn oedd ragystafellydd Gwynedd, ac yn un o farwniaid trysorlys Cymru. Cafodd Henry Owen ei ddwyn i fynu yn mhrif ysgol Rhydychain, lle, wedi iddo aros rhai blyneddau, y cafodd urddau eglwysig, ac aeth i weinidogaethu mewn lle a elwid Stadham, sir Rhydychain. Wedi hyny cafodd berigloriaeth Harpsden yn yr un sir. Yr Henry Owen hwn oedd tad yr anfarwol Dr. John Owen, yr hwn o herwydd ei fawr ddiwydrwydd yn y cyflawniad o'i swydd gyssegredig, a elwid mewn ffordd o wawd, yn un o'r "Puritaniaid." Efe a briododd wraig grefyddol, o'r hon y cafodd dri mab, ac un ferch; ei ail fab ydoedd John. Wedi bod am ysbaid hir yn weinidog llafurus yn ngwinllan ei Arglwydd, bu farw ar y 18fed o Fedi, 1649 yn 63 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Harpsden.

**OWEN**, Henry, M.D., duwinydd tra dysgedig, oedd yn aelod o hen deulu tra chyfrifol, ac a anwyd yn Tan y Gadair, yn agos i Ddolgelley, swydd Feirionydd, yn y flwyddyn 1716. Cafodd ei addysg ddechreuol yn ysgol Rhuthin, a phan yn 19 mlwydd oed, aeth i goleg yr Iesu, Rhydychain. Hoff destunau ei efrydiaeth flyneddau cyntaf ei addysg golegawl, oedd celfyddydau rhif a mesur; ond wedi cymeryd o hono ei raddau yn y celfyddydau, efe a ymroddodd i efrydu y gelfyddyd feddygol; ac yn y flwyddyn 1746, efe a gafodd y radd o Wyryf mewn Meddygyniaeth: a thros dair blynedd, efe a ddylynodd yr alwedigaeth feddygol; ond gan adfeiliad yn ei iechyd, a'i deimladau hefyd, efe a dueddwyd i roddi yr alwedigaeth hono i fynu, ac ymgymeryd a'r offeiriadaeth yn yr Eglwys.

Ni's meddwn hysbysiaeth pa bryd y cafodd urddau eglwysig; ond dywedir ei fod pan yn lled ieuanc, yn gaplan i Syr Matthew Featherstonehaugh, yr hwn a'i cyflwynodd i fywioliaeth Torling, yn Essex. Yn y flwyddyn 1748, efe a anfonodd ei lyfr cyntaf o'r wasg, yr hwn a elwid *Harmonia Trigonometrica*, 8 pl. Yn y flwyddyn 1750, efe a gyflwynwyd i berigloriaeth *St. Olave, Hart Street*, Llundain, pan y rhoddes efe fywioliaeth Torling i fynu; ac yn fuan wedi hyny, efe a bennodwyd yn gaplan i esgob Llandâf, yr hwn wedi hyny a fu yn esgob Durham. Yn 1753, efe a gymerodd ei radd yn M.D. yn Rhydychain. Ymddangosodd cyhoeddiad nesaf Dr. Owen yn 1755, yn cynwys Sylwadau rhagorol ar y Gwyrthiau Ysgrythyrol. Yn y flwyddyn 1760, efe a briododd ferch Dr. Butts, yr hwn a fuasai ar y cyntaf yn Esgob Norwich, a thrachefn yn Esgob Ely. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyny, efe a gyhoeddodd ei Sylwadau ar y Pedair Efengyl, 8 plyg; a dylynwyd hwn yn 1766, gan "Gyfarwyddiadau i Efrydwyr ieuainc mewn Dwyfyddiaeth." Yn y flwyddyn 1769, efe a gyhoeddodd ei Ymofyniad i ansawdd Cyfieithiad y Deg a thriugain, yr hwn a enillodd enw mawr iddo fel beirniad Ysgrythyrol galluog. Cyhoeddodd amryw lyfrau ar ol hyn, y rhai oeddynt ffrwyth dysgeidiaeth ddofn, a chwaeth goethedig; ac wedi goddef cystudd maith, efe a derfynodd ei einioes, Hydref, 15, 1795, wedi cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain mlwydd.

**OWEN**, Hugh, gweinidog annghydffurfiol enwog, a anwyd yn Mron y clydwr, yn mhlwyf Llanegryn, swydd Feirionydd, yn y flwyddyn 1637. Ei dâd, Humphrey Owen, oedd yn hanu o deulu tra chyfrifol, ac yn byw ar ei dir ei hunan; yr oedd efe yn fab i John Owen, yr hwn oedd yn ail fab i John Lewis Owen o'r Llwyn, Ysw., A.S., dros swydd Feirionydd, mab henaf Lewis Owen, rhag-ystafellydd Gogledd Cymru, yr hwn a lofruddiwyd ger Llidiard y Barwn,

Digitized by Google

yn y flwyddyn 1555. Efe a addysgwyd yn Rhydychain, ac yr oedd yn ymgeisydd am y weinidogaeth pan gadarnhawyd deddf Bartholomeus, fel ei gelwid; ac oddeutu yr amser hwnw, efe a symudodd o Rydychain i Lundain. Yn fuan wedi hyny efe a ymsefydlodd yn ei wlad enedigol, lle y trigianai ar ettifeddiaeth fechan o'r eiddo ei hun, ac yr ymenwogodd fel pregethwr diflin a llwyddianus. Meddai amryw leoedd yn y rhai yr arferai bregethu yn swydd Feirionydd, ac agos yr un nifer yn swydd Drefaldwyn. Heblaw hyny, ymwelai weithiau âg ardaloedd yn swydd Gaer yn arfon, a manau eraill, i bregethu, a chwblhai ei gylch-daith o fewn tua thri mis; ac yna ail ddechreuai. Pregethai gyda serchawgrwydd a difrifwch mawr, ac yr oedd yn dra effeithiol a dylanwadol ar y gwrandawyr; fel yr oedd lluaws mawr yn cyrchu i wrando arno pa le bynag yr elai, ac effeithiau grymus yn dylyn ei bregethau. Ond ei lafur caled a di ball a anmharodd ei iechyd; ac nid rhyfedd hyny, gan y byddai yn marchogaeth yn y nos yn fynych, ac o dan wlawogydd trymion ac oerion, dros y mynyddoedd; ac heb ganiattau iddo ei hunan prin ymborth angenrheidiol; canys anfynych yr arferai ddim cig-fwyd, ac ni phrofai ddim dïod gadarn; ond ei brif ymborth oedd llaeth-fwyd, â'r hyn yr oedd wedi ei ymarfer ei hun trwy lettya gan amlaf mewn tai tlodion, lle na byddai dim arall i'w gael. Yr ydoedd yn debyg i'r prif Gristionogion, yn hynod addfwyn, gostyngedig, a llafurus. Fel yr oedd efe yn myned i bregethu ar un achlysur, pan ydoedd yn rhew caled, ac yn odi yn drwm, efe a gollodd y ffordd ar y mynyddoedd, a chynnyddodd yr ystorm mor gref, gan yru yr eira i'w wyneb gyd a'r fath nerth, fel na's gallai ei farch fyned rhagddo; am hyny, efe a adawai iddo fyned fel y mynai, hyd oni chanfu ei fod mewn perygl oddi wrth siglenydd, fel nad oedd yn ddïogel iddo farchogaeth yn hwy. Wedi cyflwyno ei hunan i Dduw mewn gweddi, efe a adawodd ei geffyl i ymdaro drosto ei hunan, ac a gerddodd wrtho ei hun yn ei fottasau, mewn eira dwfn hyd haner nos, pan y teimlai ei hun mor lluddedig, a'r oerni wedi effeithio cymaint arno, fel yr amheuai gael byw! Ond yn rhagluniaethol, efe a ddaeth at feudy, i'r hwn y ceisiodd fyned; ond erbyn iddo geisio agor y drws, efe a gafodd fod hwnw wedi ei folltio; efe a ymdrechodd fyned i fewn ryw ffordd, am fwy nag awr, ond yn aflwyddianus. O'r diwedd, pan oedd pob gobaith wedi darfod, efe a ganfu dwll yn un pen i'r adeilad, a thrwy anhawsder mawr, efe a aeth i fewn y ffordd hono, ac a orweddodd rhwng y gwartheg hyd y boreu. Yna efe a ddaeth allan, ac wedi canfod tŷ heb fod yn neppell, efe a dynodd ato, ac a gurodd ar y ddôr. Cyfododd gwr y ty yn fuan, ac a'i gollyngodd ef i fewn, pan y canfu fod ei wallt, a'i farf, wedi rhewi; ac mai prin yr oedd yn alluog i siarad. Gwnaeth gŵr y ty dân dâ, rhoddodd ychydig o laeth poeth iddo, ac a'i dododd mewn gwely cynes, lle y gorweddodd am rai oriau. Pan gyfododd, yr ydoedd wedi adnewyddu cymaint, fel yr aeth efe y boreu hwnw i'r lle yr oedd y cyfarfod i fod, ac y pregethodd yno, heb deimlo unrhyw anmhariaeth neillduol ar ei natur. Efe a arferai ddywedyd, nad oedd efe yn cenfigenu wrth ddoniau un dyn, ond mai ei ddymuniad oedd defnyddio ei dalent fach ei hun yn ffyddlawn yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Yr ydoedd yn dra gofalus rhag gofidio neb, ac er ei fod yn gydwybodol yn ei olygiadau ei hun, yr ydoedd yn dirion a haelfrydig tuag at y rhai a wahaniaethent oddiwrtho. Mynych y dywedai nad oedd efe yn rhoddi bri ar neb am ei ymlyniad wrth y blaid hon, neu y llall, ond am yr hyn a ganfyddai o ras Duw ynddo! Yr oedd ei ymarweddiad diargyhoedd yn peri i fonedd y wlad ei barchu, i rai o ba rai yr oedd efe yn garenydd agos. Ymwelai yn gyson a rheolaidd a'r lluaws tlodion oeddynt yn ei gymmydogaeth, gan estyn cynnorthwy iddynt; a phan ar ei deithiau y dygwyddai gyfarfod rhai a ddyoddefent oddiwrth lymder yr hin o ddiffyg gwisgoedd cyfaddas, bu yn dïosg oddiam dano ei hunan i roddi iddynt yr hyn y gwelai eu bod mewn angen am danynt, er peryglu ei iechyd ei hun drwy hyny; ac nid anfynych y cafwyd enghreifftiau o fod ei dduwioldeb diledryw wedi gadael argraffiadau dyfnion ar rai na buasid yn dysgwyl hyny. Ar un achlysur, pan oedd Is Siryf Meirionydd wedi ei gymeryd i ddalfa yn ei dŷ ei hun, yn nheyrnasiad Iago yr Ail, efe a ymddangosai yn hollol barod i fyned gyd ag ef, ond attolygai am ganiattad i weddïo yn gyntaf gyd a'i deulu, yr hyn a roddwyd iddo; ond wedi iddo orphen, dywedai y swyddog, yr hwn oedd wedi cael ei lwyr orchfygu gan ei ddyhewyd, na byddai a wnelai efe ag ef mwyach; ac felly efe a aeth ymaith, gan adael ei garcharor yn wr rhydd. Efe a garcharid unwaith yn nghastell Powys, ond ymddygid tuag atto yn garedig dros ben yn ystod ei garchariad: ac er mai Pabydd oedd Arglwydd Powys, pan y clywodd efe ef yn gweddïo, efe a ddywedodd wrth ei offeiriad, "Yn ddïau Cristion da yw hwn!" a phan ei rhyddhawyd, efe a barodd iddo addaw dyfod i Gastell Powys bob Nadolig. Yr oedd ei gynnulleidfa yn gynnwysedig mewn rhan o Fedyddwyr, o leiaf, y rhan o honi oedd yn swydd Drefaldwyn; ac yr oedd efe yn dra gofalus yn ei ymdrech i "gadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd," gyda golwg ar y gwahaniaeth barn rhyngddynt hwy ag amryw o'u cyd aelodau; a mynych eu hadgofiai o'r rhwyg galarus a achlysurasid trwy y diffyg o hyny yn Ngwrecsham. "Yr ydwyf yn eich taer-gymhell i hyn," eb efe, "am mai amcan a dymuniad pob aelod a ddylai fod, i gynnyddu breniniaeth Crist, ac i argraffu ei ddelw ef, nid yr eiddynt eu hunain, ar eneidiau dynion." Arferai ddywedyd, "Os meddaf ddelw Crist wedi ei hargraffu ar fy enaid, byddaf yn sicr o fyned i'r nefoedd; ond gallaf fod wedi fy medyddio yn y naill ffordd a'r llall, a myned i uffern wedi y cwbl." Efe a fu byw i weled y Chwyldroad dedwydd, a rhai blynyddoedd wedi hyny; canys efe a fu farw yn y flwyddyn 1699, yn ddwy flwydd a thriugain oed. Yr oedd ei fab, John Owen, yn y weinidogaeth, ac efe a gyrhaeddodd radd uchel o enwogrwydd, fel yr oedd pob tebyg y buasai yn dyfod yn ddyn mawr, pe y cawsai efe fyw ychydig yn hwy; ond efe a fu farw y flwyddyn ganlynol i'w dâd, yn wr ieuanc, deng mlwydd ar hugain oed. Y diweddar a'r enwog Hugh Farmer o Walthamstow, oedd yn wyr i Mr. Hugh Owen, mab i ferch iddo. Yr oedd efe yn wr o dalentau dysglaer, a duwioldeb diamheuol, a bu am flynyddoedd lawer, yn hoff bregethwr yn *Salter's Hall.*

**OWEN**, Humphrey, llefarwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yr oedd yn frawd i Mr. John Owen, Berthen Gron. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1736, naw mlynedd ar ol ei frawd. Bu Humphrey hefyd yn pregethu amryw flynyddau cyn ei farw, ar ddau hyn mae yn debyg oeddynt bregethwyr cyntaf y

Digitized by Google

Trefnyddion Calfinaidd yn sir Fflint. Yr oedd Humphrey yn meddu ar lais peraidd rhagorol, ac yn ganwr campus. Byddai yr hen bobl, meddai ei ŵyr, y Parch. J. Williams, Liverpool, yn ninas Caerlleon, yn arfer dweyd pan glywent ei gyhoeddi, wel ni gawn ganu da y Sabbath nesaf, mae Humphrey Owen yn dyfod atom. Byddai yn aml ar ei gyhoeddiad, yn dechreu y canu ei hunan, ac ystyrid y pregethwr hwnw yn un hapus iawn y dyddiau hyny, a allai arwain y canu, yn gystal a phregethu. Ymddengys fod Humphrey Owens am rhyw nifer o flyneddau cyn ei farw, yn oruchwiliwr neu yn arolygwr ar weithiau mŵn yn nghymydogaeth Treffynon, dros Hugh Humphreys, Ysw. Digwyddodd i oruchwiliwr ddyfod unwaith at y boneddwr hwn ar ddydd Sadwrn, a gofyn a oedd Humphrey Owens gartref? Nac ydyw, oedd yr ateb, y mae wedi myned i gynghori y bobl, ac y mae ar y diawliaid eisiau eu cynghori; y maent yn tori fy ngwrychoedd, ac yn gwneud pob math o gastiau ar fy nhir. Mae yn ddigon tebyg fod y rhai cythreulig, y cyfeiriai y boneddwr atynt, yn tori gorchymynion Duw, yn gystal a'i wrychoedd yntau; ond yn ei olwg ef, yr oedd y gwrychoedd o fwy o bwys na'r gorchymynion, a'r tiroedd o fwy gwerth nag eneidiau dynion. Cyfarfu Humphrey Owen a llawer o anfri a sarhad wrth fyned oddiamgylch i bregethu yr efengyl, Pan unwaith yn gweddio ar ddechreu oedfa yn Gronant, pentref wrth lan y mor, yn ngogledd sir Fflint, taflodd rhyw un ddallhuan i'w wyneb, gan fwriadu atal yr oedfa trwy derfysgu y pregethwr, ac er na lwyddodd yn hollol i rwystro yr oedfa, eto archollwyd peth ar y pregethwr. Mynych iawn y lluchiwyd ef â thom, ac âg wyau clwcion, am ddim ond ceisio lleshad ysbrydol ei gydwladwyr. Dygwyddodd tro tra hynod iddo yn Nghonwy. Nid oedd un capel y pryd hwnw o fewn y dref, na nemawr o grefyddwyr yn perthyn i un enwad o Ymneillduwyr. Aeth Humphrey Owen yno i bregethu, ac ar yr heol y safai. Cyn iddo orphen ei bregeth, daeth ato gwnstabl, gan orchymyn iddo ddyfod gydag ef yn ddiymaros at yr heddynad, yr hwn a'i hanfonasai i'w gyrchu, yr hwn hefyd oedd berson y plwyf. Wedi dyfod i wydd i gwr parchedig, bu yr ymddiddan canlynol rhyngddynt:—Beth yw yr achos, gofynai y person fod eich bath chwi yn dyfod ar draws gwlad i aflonyddu y bobl? "Yn siwr Syr," ebe y pregethwr, "yr oedd perffaith lonyddwch yn ein plith ni nes daeth y cwnstabl atom oddiwrthych chwi, hyny Syr yn unig a barodd yr aflonyddwch." A fedrwch chwi Roeg? gofynai y person. "Yn wir syr, y mae yn hynod dda genyf fod Iesu Grist yn deall Cymraeg yn dda; ac yn yr iaith hono yr oeddwn yn llefaru," oedd yr ateb. Ebe y gwr mawr wrth y cwnstabl, gan fwriadu peri arswyd blin ar y pregethwr;—"Gwna dy hun yn barod i fyned a'r dyn yma i Gaernarfon, i'w roi yn nwylaw y *press-gang.*" Felly ymadawodd yr ynad, a'i was hefyd, gan adael y truan wrtho ei hunan, ac nid oedd y gwr boneddig yn meddwl dim llai na fyddai y pregethwr allan o law yn awyddus iawn i ymostwng, ac i addaw na throseddai efe byth yr un modd drachefn. Ond wedi hir ddysgwyl, ac heb un deiseb gostyngedig o'r fath yn dyfod, tybiodd y person mae gwell fyddai ei ollwng yn rhydd, ac anfonodd y cwnstabl ato i ddyweyd, "Mae fy meistr yn dweyd y gellwch fyned i ffwrdd." Ewch chwithau at eich meistr ebe Humphrey Owens, a dywedwch wrtho, nad af fi ddim i ffwrdd, oddieithr iddo ef ei hun ddyfod a fy ngollwng i yn rhydd. Felly y bu, gorfu ar y gwr boneddig ddyfod yn ol, a gollwng y gwr yn anrhydeddus i ffwrdd. Yntau a aeth ymaith tua Llanrwst erbyn yr hwyr, yn ol ei addewid. Bu Humphrey Owen farw yn Nhreffynon, yn y flwyddyn 1796, ugain mlynedd ar ol ei frawd, pan oedd oddeutu 60 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent plwyf Ysgeifiog, yn ymyl ei frawd.

OWEN, James, ganwyd y gwr duwiol hwn mewn lle a elwir Bryn, yn mhlwyf Abernant, gerllaw Caerfyrddin, Tachwedd y 1af, 1654. Yr oedd ei rieni yn barchus, ac yn eglwyswyr selog; ond trodd y plant oll, yn feibion ac yn ferched, yn Ymneillduwyr goleuedig, ac egwyddorol. Dyoddefodd ei dad lawer yn amser y rhyfel cartrefol oedd yn y wlad y pryd hwnw, o herwydd ei fod yn tueddu yn gryf o blaid y brenin. Yr oedd ei dad yn amaethydd lled gyfrifol. Dechreuodd James Owen ei yrfa addysgol mewn ysgol rydd, gyda Mr. Picton, yn Nghastell Caerfyrddin, ac wedi hyny gyda Mr. Phillips, o'r un dref. Yr oedd ei awydd am ddysgeidiaeth yn fawr iawn; glynai yn ddyfal wrth ei lyfrau. Pan oedd yn yr ysgol, goleuwyd ei feddwl yn nghylch mawr bwys gwirioneddau y Beibl. O hyn allan addurnwyd ef a grasau yr efengyl, fel y bu yn addurn i grefydd yr Arglwydd Iesu Grist holl ddyddiau ei einioes. Tueddwyd ei feddyliau yn gryf at waith mawr y weinidogaeth Gristionogol. Pan ganfu ei dad ynddo dueddfryd duwiol, yn nghyd ag awydd a medrusrwydd nodedig at ddysgeidiaeth, ymdrechodd, er fod ganddo wyth ereill o blant, ac nad oedd yn berchen llawer o dda y byd hwn, i roddi iddo ddysg addas at y swydd santaidd. Yn mhen rhyw gymaint o amser, symudodd o Gaerfyrddin, i athrofa yr enwog Samuel Jones, Brynllywarch, o dan nawdd ac arolygiaeth yr hwn y dysgodd athroniaeth, a duwinyddiaeth. Wedi iddo ymadael ag athrofa Brynllywarch, efe a aeth at ei dad-bedydd, y Parch. James Howell, clerigwr. Pan oedd efe yno, ymroddodd gydag egni i chwilio i mewn i'r ddadl boethlyd oedd ar droed y dyddiau hyny, ynghylch cydffurfiaeth ag anghydffurfiaeth; ac o herwydd rhyw gaethiwed cydwybod a deimlai, tueddwyd ef at yr Ymneillduwyr. Ymresymodd ei rieni lawer iawn ag ef ar yr achlysur hwn, canys yr oeddynt hwy yn gadarn yn y ffydd esgobaethol. Ymdrechai Mr. Howell, yn nghydag amryw o'i gyfeillion, i'w ogwyddo at yr eglwys Wladol. Gwyddai yn dda fod yr Ymneillduwyr dan raddau mawr o ddirmyg, a'u bod yn cael eu hamgylchynu gan wrthwynebwyr galluog, ac os gwnai efe ymlynu wrthynt, nad oedd iddo ddysgwyl dim llai na dirmyg a thlodi. Ond yr oedd ei wrthwynebrwydd i gydymffurfio a'r Eglwys Wladol y fath, nad ellid ei symud ymaith â gobaith elw na dyrchafiad. Ac wedi hir a dwys ystyriaeth o'r achos hwn, anturiodd fwrw ei goelbren yn mysg y blaid erlidiedig a dirmygedig. Dechreuodd ar waith y weinidogaeth, (pan yn dra ieuanc) yn Abertawe, fel cynorthwywr i'r Parchedig Stephen Hughes, "Apostol y Diwygiad yn sir Gaerfyrddin." Buan y teimlodd ddyrnodiau erlidigaeth o herwydd ei anghydffurfiaeth, fel y gorfu iddo ffoi am noddfa, yr hon a gafwyd iddo am rhyw hyd yn Bodfal, sir Gaernarfon. Pan fyddai yn rhydd oddiwrth ei lafur gweinidogaethol, efe a astudiai dros un awr a'r bumtheg y dydd, gan faint ei awydd am gyrhaedd gwybodaeth. Yn y flwyddyn 1676, cafodd wahoddiad i Sweeney, ger Croesoswallt, fel pregethwr teuluaidd i foneddiges o'r enw Mrs. Baker; ac yn mhen tua

Digitized by Google

thair blynedd, ymunodd mewn priodas a dynes grefyddol a pharchus, a symudodd i fyw i Groesoswallt, yn y flwyddyn 1679. Wedi ei symudiad llwyr yno, ymroddodd i daenu gwybodaeth o'r efengyl gydag aiddgarwch mawr, am yr hyn yr erlidid ef yn greulawn. Cymerwyd ef i fyny am bregethu, a gosodwyd ef, ac amryw o'i wrandawyr yn y carchar, yn Nghaerwys, sir Fflint, ond trwy ryw gamgymeriad, canfuwyd nad oeddid wedi eu carcharu yn ol rheol y gyfraith, ac o herwydd hyny, fe'i cynghorwyd ef i ddefnyddio y gyfraith i gosbi ei wrthwynebwyr. Pan glywodd ynadon yr heddwch hyny, hwy a ofnasant yn ddirfawr, a gollyngasant ef a'i gyfeillion yn rhydd. Ond ni ddefnyddiodd Mr. Owen y camgymeriad i wneud iddynt un niwed. Pan welodd yr ynadon mai gwr tawel a heddychol oedd Mr. Owen, hwy a dalasant iddo ddrwg am dda, trwy ei ddirwyo ef, a'i gyd garcharorion. A phan nad oedd ganddynt ddim arian i dalu y dirwy, hwy a yspeiliasant eu tai o'u dodrefn, ac a'u gwerthasant i dalu y ddirwy. Bu yn gweinidogaethu yn Nghroesoswallt am lawer o flyneddoedd, ac yno y dyoddefodd efe lawer o erlidigaethau. Pregethodd yn gyson i gynnulleidfa fechan, dan lawer o anfanteision. Bu hefyd yn ffyddlon iawn i daenu gwybodaeth yn mysg y Cymry, yn amrywiol barthau tywyll o'r dywysogaeth; ond pa fwyaf y llafuriai yn y gwaith da hwn, mwyaf oll o wrthwynebiadau oedd yn ei gael, a mynych y cyflawnai ei ddyledswydd mewn perygl am ei fywyd. Pwy a ddichon beidio a galaru wrth feddwl am bleidgarwch erledigaethus yn rhedeg mor bell ac i orthrymu gwr mor dduwiol a llafurus ag oedd Mr. Owen, yn unig am ei fod yn gwahaniaethu oddiwrth ei erlidwyr yn mhethau allanol crefydd. Tra bu Mr. Owen yn Ngroesoswallt, daeth yn adnabyddus a'r gwr duwiol hwnw, Mr. Phillip Henry, yr hwn a wnaeth sylw neillduol o hono; a thrwy eu mynych ymgyfeillach a'u gilydd, bu yn offeryn i gadarnhau Mr. Owen mewn egwyddorion o arafwch a mwyneiddra, yn y rhai yr oedd Mr. Henry a'i deulu yn rhagori ar y cyffredinolrwydd yn eu hoes. Perai dysgeidiaeth, duwioldeb, a llafur Mr. Owen, iddo gael ei barchu yn fawr gan y gwir dduwiol, ac a'i gwnaeth yn bregethwr poblogaidd yn y Dywysogaeth, yn mhob man lle yr oedd efe yn adnabyddus. Yr oedd y flwyddyn 1681 yn un hynod yn oes James Owen. Dyma y flwyddyn, sef ar y 27ain o fis Medi, y bu dadl bwysig yn neuadd tref Croesoswallt. Darfu i Dr. Lloyd, esgob Llanelwy, wedi hyny esgob Caerwrangon, yr hwn oedd yn elyn i erlidigaeth, ymdrechu drwy diriondeb, i symud ymaith y rhwystrau oedd yn meddwl yr Ymneillduwyr yn erbyn cydymffurfio a'r eglwys Wladol. I'r diben hwn, ymwelodd a'r holl drefydd mwyaf yn ei esgobaeth, ac yn mysg ereill, Croesoswallt. Wedi ymddiddan lawlaw a Mr. Owen amryw weithiau, darfu iddo benodi y 27ain o Fedi, i ddadleu mewn cyfarfod cyhoeddus, ar yr achlysur hwn, yn Neuadd y dref, lle yr oedd Mr. Owen i roddi cyfrif yn ngwydd y dorf gynulledig, pa sail oedd ganddo i ymaflyd yn ngwaith y weinidogaeth heb gael urddau esgobawl. Felly y bu. Daeth yr enwog Mr. Henry Dodwel gyda'r esgob; a Mr. Phillip Henry, a Mr. Jonathan Roberts, o Lanfair, sir Dinbych, gyda Mr. Owen. Daeth hefyd amryw o offeiriaid, a boneddigion y wlad, ynadon y dref, a lluaws mawr o bobl, i'r cyfarfod, i wrando ar y ddadl. Dechreuodd y ddadl am ddau o'r gloch y prydnawn, ac a barhaodd hyd yn agos i wyth o'r gloch yn yr hwyr. Yr oedd yr esgob yn ymdrin a'r ddadl gyda phwyll ac arafwch mawr, ac er na lwyddodd efe i enill Mr. Owen i'r un meddwl ag ef, eto bu y cyfarfod yn llesol i symud ymaith gryn radd o'r rhagfarn oedd rhwng y ddwy blaid, ac i gynyddu cariad brawdol yn mysg y gwrandawyr. Yn y flwyddyn 1699 cafodd Mr. Owen wahoddiadau i fyned i Manceinion, a'r Amwythig, a hyny ar yr un amser, ond tueddwyd ef i ufuddhau i'r alwad o'r Amwythig; ac yno yr aeth, i gynorthwyo y Parch. Francis Talents, un o'r Anghydffurfwyr yn y dref hono. Tra y bu efe yno, bu yn ddefnyddiol yn y sefyllfa o arlywio dygiad gwyr ieuainc i fyny i waith y weinidogaeth. Dyma y dosbarth olaf o'r winllan y bu efe yn llafurio ynddo. Yr oedd yn ysgolaig rhagorol yn ei iaith gynenid, y Gymraeg, yn yr hon yr ysgrifenodd efe amryw o lyfrau, megis; "Bedydd Plant o'r nef," yn nghyd ag atebiad i lyfr a gyhoeddwyd gan Keach, fel sylwadau ar ei lyfr ef. Argraffodd hefyd y llyfr tra dyddorol hwnw, a elwir "Trugaredd a Barn." Cyfieithodd hefyd "Gatecism y Cymanfa," gyda rhai ychwanegiadau o'r eiddo ei hun. Dygodd hefyd allan drwy y wasg, draethawd bychan ar "Ddyledswydd Gweinidogion ac Eglwysi at eu gilydd." Argraffodd amryw lyfrau yn Saesneg; ac yn eu plith y rhai canlynol;—1. Amddiffyniad i urddiad ysgrythyrol, gan brofi trwy air Duw, a hanesiaeth eglwysig, y gall urddiad fod yn iawn ac yn ysgrythyrol, er na fu gan esgob taleithiol, ran na chyfran ynddo. 2. Pregeth ar Waredigaeth y Brenin William. 3. Amddiffyniad i'w lyfr blaenorol ar urddiad, yn ngwyneb ymosodiad Thomas Gipps. 4. Nodiadau ar bregeth o eiddo yr un Gipps. 5. Amddiffyniad yr Ymneillduwyr yn ngwyneb cyhuddiadau Gipps. 6. Atebiad i lythyr Gipps at Gyfaill. 7. Rhagymadrodd i waith M. Delme ar y dull o bregethu. 8. Cymedroldeb yn Rhinwedd. 9. Amddiffyniad i'r llyfr blaenorol. 10. Hanes cysegriad allorau, temlau, ac eglwysi. 11. Amddiffyniad i Hen Brydain, mewn atebiad i nodiadau esgob Caerwrangon. 12. Hanes urddiad fel defod. Mr. Owen hefyd a ysgrifenodd i Dr. Calamy, hanes gweinidogion a drowyd allan yn Nghymru. Heblaw y pethau a nodwyd, yr oedd yn lled fedrus yn yr Arabaeg, Syriaeg, Sacsonaeg, a'r Ffrancaeg. Ond er ei fod yn ymhyfrydu yn fawr mewn darllen llyfrau mewn hanesiaeth eglwysig, ac mewn amrywiol ganghenau o wybodaeth a dysgeidiaeth, y Beibl oedd ei brif fyfyriaeth. Yr oedd yn ymhoffi cymaint yn yr ysgrythyrau, fel y trysorodd y rhan fwyaf o honynt yn ei gof. Yr oedd Mr. Owen yn wr llariaidd, gweithgar, a defnyddiol yn ei oes; yr oedd yn geryddwr llym iawn am bechod, ac er hyny arferai diriondeb, yn enwedig tuag at y rhai edifeiriol. Yr oedd yn ofalus iawn yn newisiad ei gyfeillion, ac yn adeiladol yn ei gyfeillach. Yr oedd yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, gan gyfranu at anghenrheidiau y tlodion, ac at achosion da ereill, y ddegfed ran o'i gyflog, bob blwyddyn yn rheolaidd. Yr oedd yn hynod yn ei grefydd deuluaidd. Ni oddefai i neb o'i deulu son am bethau y byd ar ddydd yr Arglwydd, ac os dygwyddai i neb o honynt wneud hyny, efe a ddywedai "Gadewch y pethau yna hyd y foru." A mynych y sylwai, "Mai un o arwyddion cyntaf gwaith gras yn y galon, ydyw gwneud cydwybod o gadw dydd yr Arglwydd." Er fod Mr. Owen yn Ymneillduwr, eto parchai wyr urddasol a duwiol yn yr Eglwys Wladol, ag ymddygai tuag

Digitized by Google

atynt fel brodyr. Fel gweinidog, yr oedd Mr. Owen yn bregethwr buddiol ac effeithiol. Ei bregethau oeddynt eglur, synwyrol, serchiadol, a chynwysfawr. Ei ddull yn pregethu oedd rydd, naturiol, a sobr; a'i faterion yn gyfaddas a chyrhaeddgar. Fel athraw i'r gwyr ieuainc oedd dan ei ofal athrawol, bu yn ddiwyd, ffyddlawn, a llafurus iawn; ie, yn ei holl fywyd, yr oedd Mr. Owen yn dduwiol, yn ffyddlon, a gweithgar yn ngwinllan ei Arglwydd, gan ddefnyddio ei holl dalentau er gogoniant ei feistr, a lleshad i ddynion. Ond o herwydd ei fod yn eistedd cymaint i ddarllen, ac ar brydiau ereill yn teithio drwy bob hin i lafurio yn galed i bregethu, cafodd ei flino gan glefyd y gareg am lawer o flyneddoedd, yr hyn yn y diwedd a roes derfyn ar ei fywyd. Wedi dyoddef llawer felly am ddeng mlynedd a'r hugain, nes difa grym ei gorff er pob dyfais a doethineb meddygol, efe a fu farw drwy ddirfawr boen. Gwynebodd frenin y dychryniadau gyda gwroldeb, arafwch, a phwyll. Wedi galw ei deulu ynghyd at ei glaf wely, dywedodd wrthynt, "Ni fynaswn i er deng mil o fydoedd dreulio fy mywyd yn amgen nag y treuliais ef; yn awr yr wyf yn mwynhau dyddanwch na ddichon neb ei brisio." Efe a fu farw Ebrill 8fed, 1706 yn ddeuddeg mlwydd a deugain oed; a phregethwyd yn ei angladd, gan y Parch. Matthew Henry, oddiar Actau xx. 38.

**OWEN**, John, y penilliwr enwog, a elwid yn Lladin, *Audoenus*, ydoedd drydedd mab Thomas Owen, Ysw., o'r Plas Du, yn mhlwyf Llanarmon, sir Gaernarfon. Dygwyd ef i fyny yn ysgol Winchester; ac yn 1584, ar ol dwy flynedd o brawf, derbyniwyd ef yn gymrawd parhaus o goleg newydd Rhydychain. Graddiwyd ef yn B. C. L., yn 1590; a chan adael ei gymrodoriaeth yn y flwyddyn ganlynol, efe a aeth i gadw ysgol yn Nhryleg, ger Trefynwy; ac oddeutu'r flwyddyn 1594, dewiswyd ef yn athraw yr ysgol rydd yn Warwick, lle y dangosodd ei hun yn ysgolor Lladin rhagorol, ac yn enwedig fel mydrydd ynddi. Daeth ei benillion Lladin i enwogrwydd neillduol yn ddioed, a chaent eu hedmygu yn gyffredinol. Enwogrwydd oedd ei unig wobr; oblegid parhaodd yn dlawd trwy gydol ei oes, gan gael ei gynal yn benaf gan ei gydwladwr, a'i gâr, Arglwydd Williams, esgob Lincoln, y pryd hwnw. Yr oedd ynddo ddysgwyliad mawr oddiwrth ryw ewythr cyfoethog; ond rhyw benillion pigog yn erbyn eglwys Rhufain, a fuont yn achos o dynu ei enw allan o'i ewyllys; a gosodwyd llyfr y penillion hyny gan y chwil-lyswyr Rhufeinig, yn yr *Index Expurgatorius*. Bu farw yn y flwyddyn 1622, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol St. Paul, lle y cyfododd yr archesgob Williams, gofadail iddo.

**OWEN**, John, offeiriad Llanor a Denio, ger Pwllheli, sir Gaernarfon, a Changhellydd Bangor; oedd frodor o Lanidloes, Sir Drefaldwyn. Daeth i swyddau anrhydeddus ac uchel, mewn gwlad ac eglwys. Yr oedd hefyd mewn awdurdod a dylanwad mawr; ac nid oedd yn amddifad o alluoedd naturiol, a doniau helaeth fel llefarwr; ond yr oedd yn un o'r erlidwyr mwyaf creulawn a barbaraidd ar grefydd a chrefyddwyr. Efe oedd Boner y ddeunawfed ganrif. Efe a lwyddodd i anog yr offeiriaid, a thrwyddynt hwy y werin, trwy yr holl esgobaeth, i gynddaredd. Ei arferiad oedd, yn yr hyn y dilynai yr offeiriaid ei esiampl, tywys y terfysgwyr i bob man y byddai yr Anghydffurfwyr, neu y Trefnyddion, yn bwriadu cynal cyfarfod. Yr addolwyr diniwed a drinid yn y modd mwyaf barbaraidd. Lluchid ceryg atynt, clwyfid hwynt â chleddyfau, a chyllill; saethid atynt, diosgid meibion a merched yn noethion yn ngwydd y dorf, anfonid dynion galluog i'r fyddin, neu y llynges, gyrid hwy ymaith oddiwrth eu teuluoedd a'u cyfeillion, fel anifeiliaid, i wahanol barthau o Loegr. Daeth Howel Harris i Bwllheli ar nos Sadwrn. Bore y Sabbath, gofynodd pa le yr oedd y pregethwr goreu yn yr Eglwys yn y parthau hyny. Dywedwyd wrtho, fod y Canghellwr Owen yn Llanor, yn agos yno. Aeth yntau i'r lle i'w wrando, a chlybu y fath bregeth, na chlywsai ei chyffelyb o'r blaen. Mae'n debyg fod y Canghellydd wedi clywed fod y fath un yn cael ei ddysgwyl i'r ardal hono; a thybiodd yn addas rhybuddio ei wrandawyr o'u dirfawr berygl. Gosodai Mr. Harris allan yn ei bregeth, fel cenad Satan, a gelyn Duw, a holl dynolryw. Dynodai ef fel gweinidog dros y cythraul, yn dwyllwr a gau brophwyd; ie yn waeth na'r diafol ei hun; oblegid, ebe fe, nis gall hwnw weithredu yma yn mhlith dynion, ond trwy y cyfryw offerynau. Galwaf arnoch gan hyny o gariad at Dduw a'i eglwys, ac at eich gwlad, i ymuno yn erbyn y fath ddyn ofnadwy, yr hwn a ddwg gydag ef y fath wenwyn marwol ac a ddinystriai, nid personau dynion a'u meddianau yn unig, ond hefyd eu heneidiau dros byth bythoedd. Y modd hwn y llefarai y Canghellwr Owen wrth ei blwyfolion, heb wybod fod yr anghenfil a ddynoethai felly, yn y lle. Ar ol darfod y gwasanaeth, aeth Mr. Harris ato, i ymddiddan ag ef ynghylch gosod i fyny ysgolion Cymreig yn y wlad, ac i ymresymu ag ef hefyd yn nghylch ei bregeth. Ar hyn deallwyd mai hwn yn wir oedd y dyhiryn y mynai y person iddynt fod mor ochelgar rhagddo; ac yn fuan ymbarotoisant i ddangos eu tuedd erlidgar, trwy ymosod ar y gwr dyeithr. Rhai a geisient gymeryd ei geffyl odditano, ac ereill a luchient geryg at ei ben; ond er hyn oll, medrodd ddiange o'u dwylaw heb gael fawr niwed. Fel hyn y bum, meddai Mr. Harris ei hun, mewn mawr beryglon yr holl wythnos hono, a thybiais lawer gwaith na chawn byth genad i ddychwelyd yn fyw o'r parthau hyny. Diau pe buasai llywodraeth y Pab heb ei diddymu o'r wlad, y buasai ef, gyda hyfrydwch mawr, fel Boner gynt, yn llusgo y crefyddwyr yn ddidrugaredd i'r fflamau. Danfonodd rai i garchar; ac yn ei gynddaredd, pan ddygwyd y Parch. Lewis Rees Llanbrynmair, wedi hyny o'r Mynyddbach ger Abertawe, o'i flaen gan y gelynion am bregethu yn Mhwllheli, efe a rwygodd ei wisg yn ddarnau a'i gleddyf, fel nad oedd yn werth dim. Yr oedd pregethu mewn lle a elwid Bryntani, yn mhlwyf Llanor, yn fuan ar ol cychwyniad y diwygiad; a byddai y Canghellydd Owen, a'i fintai erlidwyr, yn ddyfal yn eu hymosodiadau ar y crefyddwyr; ac ymdrechent wybod yr amserau y byddai moddion crefyddol yn cael eu cynal, er mwyn eu herlid. Yr oedd yn y plwyf wr boneddig o'r enw Mr. Lloyd, Ty newydd, yr hwn oedd ysgolhaig rhagorol; ac yr oedd y Canghellydd ag yntau mewn llid anghymodlon at eu gilydd. Pan ddeuai y Canghellydd a'i blaid i erlid, byddai y boneddwr yn sicr o fod wrth y drws, a gofynai iddo, Beth yw dy neges di yma John Owen? Yna troent i ymgecru yn Saesneg, a thrachefn yn Lladin, ac wedi hyny yn y Roeg; a phan na allai y Canghellydd ddal i fyny yr ymddiddan yn yr iaith hono, gwawdiai y boneddwr ef yn y modd mwyaf trahaus, a dywedai, "John, gollyngais yn angof fwy nag a ddysgaist ti erioed." A thra byddai y gwyr hyn yn ymryson oddiallan, cynhelid y cyfar-

Digitized by Google

fod crefyddol oddifewn, mewn heddwch, ac o dan fendith. Yr oedd gan y Canghellydd arddwr, yr hwn oedd wr medrus, yn ysgolaig, yn brydydd, ac hefyd yn glochydd iddo yn Llanor. Yr oedd hwn yn byw yn gysurus, ac yn gyfaill mawr i'w feistr, ar anogaeth yr hwn y cyfansoddodd fath o goeg-chwareu, (*interlude*), i wawdio a dirmygu crefydd a chrefyddwyr; yn mha un y dygodd i fewn enwau Whitfield, Harris, ac amryw ereill o ddiwygwyr yr oes hono; gan eu darlunio yn y modd mwyaf gwarthus ag y medrai. Casglodd y Canghellydd lawer iawn o arian i'r clochydd, er ei alluogi i'w hargraffu. Mewn cyfarfod o amryw offeiriaid a boneddigion ger Pwllheli, casglodd haner can gini iddo. Pan oedd y clochydd yn myned a'r gân i'w hargraphu i'r Amwythig, aeth i letya i ryw dŷ ar y ffordd, a gofynodd y teulu iddo, pa beth oedd ganddo. Dywedodd yntau mai cerdd oedd ganddo i wawdio y Cradociaid. Cyffrodd hyn y teulu, fel y gwaeddasant, "Y dystryw mawr! pa beth a wnaethant i ti? Pa le mae y rhaff fechgyn: ni a'i crogwn ef yn y fan yma." Dychrynodd y dyn gymaint, fel y diangodd ymaith am ei fywyd. Yn fuan ar ol hyn ymrafaeliodd y clochydd a'r Canghellydd a'u gilydd, ac ni bu heddwch rhyngddynt yn ol llaw. Y sawl a fyddont anffyddlon i Dduw, fyddant anffyddlon hefyd i'w gilydd; ac felly y bu rhwng y Canghellydd a'i was. Cymerodd amryw anffodion le ag oeddynt yn amlygu anfoddlonrwydd Duw tuag at y Canghellydd. Dywedir iddo adeiladu melin wynt, a chyn iddo gael un elw oddiwrthi, daeth corwynt dychrynllyd, a drylliodd hi yn ddarnau. Adeiladwyd llong iddo ger Pwllheli, ond methwyd ei chael i'r mor mewn un modd tra fu efe byw; ond wedi ei farwolaeth, cyflawnwyd y gorchwyl yn rhwydd. Dygwyddodd anffawd arall i'r Canghellydd. Trwy ryw amgylchiad, cymerodd ymrafael le rhyngddo a rhyw hen ferch ddrwg ei thymer, ag oedd yn byw yn mhlwyf Llanor, o'r enw Dorothy Ellis, neu "Dorti Ddu," fel y difenwid hi yn gyffredin. Ni adawai hon lonydd i'r Canghellydd yn un man, pan yn mysg boneddigion na gwreng; ond rhegai a melldithiai ef yn ddiarbed, gan haeru ei fod yn ceisio ei threisio. Safai ar ei gyfer yn yr eglwys, pan fyddai yn pregethu, gan ei felldithio a'i holl egni, a thrwy gryn orchest y gellid ei chael allan. Rhwymid hi weithiau wrth bost yn y fynwent, er ei hatal i aflonyddu yr addoliad. Ond mor gynted y gollyngid hi yn rhydd, rhuthrai i gyfarfod y Canghellydd, gan syrthio ar ei gliniau noethion i'w regu, ac ni ellid mewn modd yn y byd ei dofi. Cyhoeddwyd ysgymundod yr eglwys arni, a gosodwyd cadair bwrpasol iddi yn yr eglwys, i ddwyn ei phenyd, a chyfaddef ei bai. Hithau yn lle adrodd y geiriau ar ol y person, a ddywedai yn y gwrthwyneb, ac yr oedd bellach yn fwy cythreulig nag o'r blaen, os oedd bosibl. O'r diwedd, gwaelodd iechyd y Canghellydd, am ei bod yn ei boeni yn dibaid; a therfynodd ei daith yn anghysurus, yn nghanol ei ddyddiau; a chymerwyd pob gofal rhag i'w gorph gael ei anmharchu ganddi; ac yr oedd yntau wedi gorchymyn iddynt ei gladdu yn Llanidloes, ei le genedigol, fel na chai Dorti Ddu, na neb yn Llanor, ei sathru dan eu traed. Tra yr oedd ei gorph yn aros heb ei gladdu, cedwid gwyliadwriaeth ofalus arno rhag yr hen Dorti. Ond er eu holl ofal, cafodd gyfle rywfodd i fyned i'r ystafell lle yr ydoedd, ac ymaflodd yn ei drwyn, gan ei ysgwyd yn dra ffyrnig. A chan na allai gael cyfleusdra i ddangos ei chynddaredd tuag atto yn mhellach, ar ol ei gladdu, aeth yn unswydd i Lanidloes, tua 80 milldir o ffordd, er dangos y dirmyg ffieiddiaf a allai iddo yn ei fedd. Gweddus yw gweddio gyda Dafydd, "Na syrthiwyf yn llaw dyn."

**OWEN,** Syr John, mab henaf John Owen, Ysw., Clenenney, sir Gaernarfon, ac a anwyd yn y flwyddyn 1600. Ei dad yr hwn oedd bedwerydd mab Robert Owen, Ysw., Bodsilin, yn yr un sir, a fuasai yn gofiadur i'r enwog Walsingham, ac a bentyrasai gynysgaeth o ddeng mil o bunau yn ei wasanaeth, yr hyn oedd yn swm anferth yn y dyddiau hyny. Oddeutu y flwyddyn 1597, efe a briododd Ellen Maurice, Clenenney, a Porkington. Bu eu mab Syr John Owen, yn filwriad yn y fyddin, ac yn rhaglyngesydd Gwynedd. Efe a hynododd ei hun yn ddirfawr yn ngwarchaead Caerodor, pan gymerwyd hi gan y tywysog Rupert, ac a glwyfwyd yn enbyd yn y rhuthr. Yn 1645, penodwyd ef gan y tywysog yn lle yr archesgob Williams, yn llywydd Castell Conwy; ond rhoddwyd yr amddiffynfa i fyny, i'r cadfridog Mytton, trwy ddyfais a chymhorth y prelad a'i gyfeillion. Ar hyny dychwelodd Syr John Owen i Clenenney. Yn 1648, efe a ymarfogodd unwaith drachefn er ymdrechu dros ei feistr cwympedig. Ond ymosodwyd arno yn fuan gan William Lloyd, y sirydd, yr hwn a orchfygwyd, a glwyfwyd, ac a wnaed yn garcharor ganddo. Yna efe a warchaeodd Gaernarfon; eithr yn clywed fod y milwriaid Carter, a Twistleton, gyda byddin y Senedd, ar eu taith i ymosod arno, efe a frysiodd i'w cyfarfod, ac a gymerodd y sirydd gydag ef ar garthglwyd. Ymgyfarfu y ddwy blaid ger Llandegai; a bu ymladdfa ffyrnig rhyngddynt, yn yr hon yr oedd Syr John a'i wyr yn rhagori ar y dechreu; eithr o herwydd adgyfnerthion ei wrthwynebwyr, trodd y fantol yn ei erbyn. Mewn ymorchest bersonol â chadben o'r enw Taylor, tynwyd ef oddiar ei geffyl, a gwnaed ef yn garcharor; a'i wŷr wedi eu digaloni trwy golli eu llywydd, a ffoisant am eu bywyd. Bu farw y sirydd ar yr un dydd. Ystyrid y fuddugoliaeth hon o gymaint pwys a chanlyniad, fel y derbyniodd cadben Taylor y swm o ddau gant o bunau oddiwrth ystad Syr John, yn wobrwy am y newydd. Yna fe'i dygwyd i gastell Windsor, lle y canfu bedwar boneddwr arall yn rhwym am gyffelyb drosedd. Gosodwyd ef ar ei brawf gyda'r Dug o Hamilton, Iarll Holland, ac Arglwyddi Goring, a Capel. Dywedai wrth y barnwyr ar y faine, "mai boneddwr dysyml oedd efe o Gymru, yr hwn a ddysgwyd yn wastadol i ufuddhau i'r brenin; ei fod ef wedi ei wasanaethu yn ffyddlon a gonest yn ystod y rhyfel; a chan y sylwai fod llawer o wyr gonest yn ymdrechu codi byddinoedd, gydag amcan i'w ryddhau o garchar, ei fod yntau wedi gwneud yr un peth." Modd bynag, yn y diwedd, dedfrydwyd ef i golli ei ben, am yr hyn efe, gyda'r conder mwyaf, a ymgrymodd i'r llys, ac a ddiolchodd yn ostyngedig. Gofynai un yn ei ymyl iddo, pa beth oedd yn ei feddwl wrth ddyweyd felly. Atebodd yntau yn hyglyw, "mai anrhydedd mawr i foneddwr tlawd o Gymru, fyddai colli ei ben gyda'r arglwyddi urddasol, oblegid ofnai mae ei grogi a gaffai." Modd bynag, siomwyd ef o'r anrhydedd hwn; ac ar ol ychydig fisoedd o garchariad, cafodd faddeuant, a chaniatad i ddychwelyd i Gymru, ei wlad enedigol, lle y bu farw yn y flwyddyn 1666; a chladdwyd ef yn eglwys Penmorfa, Sir Gaernarfon. Perchenogir ei etifeddiaeth gan ei ddisgynyddion; ac y mae

Digitized by Google

llawer o weddillion hynod ar ol y marchog arwraidd, i'w cael eto yn Porkington; yn mysg y rhai y mae ei sel swyddogol, fel rhaglynesydd Gwynedd, a chleddyf a roddwyd iddo gan Arglwydd Capel, y dydd cyn ei ddienyddiad, yr hwn a ddywedai wrth ei gyflwyno i Syr John, y credai y defnyddid ef ganddo gydag anrhydedd. Yno hefyd y mae ei ddarlun, cerfiad o'r hwn a geir yn yr argraphiad pedwar plyg o *Pennant's Tours in Wales*.

**OWEN**, John, D.D., oedd brelad enwog, ac yn fab henaf i Owen Owen, ail fab Owen ab Robert, Bodsilin, yn mhlwyf Aber, sir Gaernarfon. Yr oedd ei dad, Owen Owen, A.C., yn archddiacon Môn, ac yn rheithor Burton Latimers, yn sir Northampton, lle y ganwyd gwrthddrych yr erthygl hon, yn y flwyddyn 1580. Dygwyd ef i fyny yn Nghaergrawnt, lle y daeth yn gymrawd o goleg Iesu, ac y graddiwyd ef yn D. D. Penodwyd ef yn gaplan y brenin Iago I., cyn iddo esgyn i'r orsedd; ac yn 1618, cyflwynwyd ef i reithoriaeth Burton Latimers. Ar farwolaeth esgob Hanmer, ei waedoliaeth Gymreig, a'i wir deilyngdod yn ngolwg y brenin, a'i tueddasant i'w ddyrchafu i esgobaeth Llanelwy, gyda llawn gydsyniad yr archesgob Laud, gan yr hwn yr oedd efe yn barchus iawn; oblegid ar y ddau ymgeisydd ereill, hawliau y rhai ni allai yr archesgob benderfynu, efe a gafodd y flaenoriaeth, ac yn hollol groes i'w ddysgwyliad ei hun hefyd, canys dywedai Fuller am dano, ei fod yn wr gwylaidd, ac na chyfaddefai ei werth ei hun; a chan hyny, ymdeimlai ereill yn fwy awyddus i roddi iddo ei barch haeddianol. Urddwyd ef Medi 20, 1629. Yr oedd y dewisiad yn mhob ystyr yn un rhagorol; oblegid efe a enwogodd ei hun trwy ei fedr anghymarol yn yr iaith Gymreig, a'i frwdfrydedd dros lesiant ei esgobaeth. Yn ddioed wedi ei ddyfod i Lanelwy, efe a ymosododd ar amryw weithiau pwysig; a chofnodir rhai o honynt yn y llyfr a elwir Cwtta Cyfarwydd, gan ddechreu yn 1600, a pharhau am oddeutu 50 mlynedd. Dyma yr esgob teilwng a sefydlodd bregethu Cymraeg gyntaf yn eglwys blwyfol Llanelwy, yn 1630. Treuliodd symiau dirfawr o arian, i adgyweirio ac addurno yr eglwys gadeiriol. Yn y flwyddyn 1636, gosododd i fynu ynddi yr organ newydd fawr. Dioddefodd yn fawr pan dorodd y gwrthryfel allan; ac fel un o'r esgobion ardystiol, fe'i carcharwyd yn y Twr; a bu rhaid iddo dalu pum cant o bunau gogyfer a'i dymorolion, neu ei feddianau eglwysig. Bu farw yn Aberkinsey, ger Llanelwy, Hydref 16, 1651, ac efe a gladdwyd heb unrhyw gerfiad na chofadail, dan yr orsedd esgobol, yn ei eglwys gadeiriol ei hun, yr hon yn y tymor terfysglyd a di lywodraeth hyny, a halogid yn gywilyddus gan ryw ddyhiryn o'r enw Milles, ag oedd yn cadw y llythyrdy, ac yn byw yn nhy yr esgob, gan werthu gwin a gwirod yno. Cadwai yr adyn hwn ei geffylau a'i wartheg yn nghorff yr eglwys, ac a borthai ei loi yn nghadair yr esgob, a rhanau ereill o'r gangell. Symudodd y bedyddfaen i'w fuarth, ac arferai ef yn gafn moch, neu i fwyda rhyw greaduriaid ereill yn ol yr achos. Priododd mab yr esgob Owen, ferch o Bagillt, plwyf Treffynon, sir Fflint, merch yr hwn drachefn trwy briodi Mr. Fitzherbert, a ddygodd Wepre, i'r teulu hwnw. Tystia Brown Willis, iddo weled, yn 1724, ddarlun paentiedig o'r esgob, yn nhy T. Cartwright, Ysw., Bloxham, sir Rhydychain.

**OWEN**, Lewis, y Barwnig, fel ei gelwid yn gyffredin, oedd yn fab i Owen ab Hywel ab Llywelyn, Ysw., o dref Dolgellau, yn sir Feirionydd, pen un o'r teuluoedd mwyaf henafol yn y Dywysogaeth. Treuliodd ei fywyd mewn bri ac awdurdod mawr; ac yn gymaint a'i fod yn meddu etifeddiaeth, gwerth tri chant o bunau yn y flwyddyn, cafodd ei benodi yn is-ystafellydd, a barwn y trysorlys, i Ogledd Cymru. Bu yn sirydd Meirionydd yn y blyneddoedd 1546, a 1555; ac yn aelod seneddol dros yr un sir, yn y seneddau a ymgynullent am y blynyddoedd 1547, 1552, a 1554. Ar ol rhyfeloedd teuluoedd Efrog a Chaerwerydd, yr oedd lluoedd o herwyr a lladron yn preswylio ardal y Mawddwy, y rhai a fuont am lawer o amser, yn finteioedd, yn yspeilio a llofruddio, yn herio yr awdurdod wladol, ac yn gyru diadelloedd o anifeiliaid, o un sir i'r llall, ar ganol dydd, yn hollol ddigosb. Er gosod atalfa ar eu gweithrediadau ysgeler, rhoddwyd awdurdod i John Wynn ab Meredydd, o Wydir, a Lewis Owen, i adsefydlu heddwch y wlad, a chosbi y drwgweithredwyr oll. Wedi derbyn yr awdurdod hon, cyfodasant fintai o wyr cryfion; ac ar noswyl Nadolig, daliasant yn nghylch pedwar ugain o'r yspeilwyr a'r lladron, ar y rhai y cynaliasant garchar-wysiad, a darfu iddynt eu cosbi yn ol eu haeddiant. Darfu i'w cymdeithion ystrywgar, benderfynu dial am hyn, a gwylient gyfleustra pan fyddai y barwn yn myned trwy y rhanau hyny o sir Feirionydd i'r brawdlysoedd, i'w gynllwyn yn nghoedydd tewfrig Mawddwy, mewn lle a elwir oddiar hyny hyd y dydd hwn, "Llidiard y Barwnig," lle y torasant i lawr lawer o goed yn groes i'r ffordd, er rhwystro ei fynediad. Wedi ei gael yn y sefyllfa hon, saethasant ato gawod o saethau, un o ba rai a lynodd yn ei wyneb, yr hon a dynodd, a thorodd hi. Ar ol hyn ymosodasant â gwaywffyn, a phastynau, a gadawsant ef yn gelain, dan fwy na deg ar hugain o glwyfau. Amddiffynwyd ef gan ei fab yn nghyfraith, Ioan Llwyd o Ceiswyn, hyd y diwedd; ond ei weinyddwyr a ffoisant ar yr ymosodiad cyntaf. Darfu i'r weithred haerllug ac anfad hon, gynnyrchu heddwch i'r wlad; oblegid gosodwyd gweinyddiad o'r gyfraith mewn gweithrediad yn y modd mwyaf llym, fel y darfu i'r holl nythiad ystrywgar a lladronllyd gael eu dystrywio. Dioddefodd llawer o honynt weinyddiad cyfiawnder; a ffodd y lleill i beidio dychwelyd mwy. Llofruddiwyd y Barwnig Owen ar yr 11eg o Hydref, 1555.

**OWEN**, Lewis, awdwr bagad o gyfansoddiadau yn erbyn y Iesuaid, (*Jesuits*) ydoedd frodor o Feirionydd. Derbyniwyd ef i goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1590, ac efe yn 18 mlwydd oed; ond ymadawodd a'r athrofa heb un graddiad. Wedi hyny efe a deithiodd lawer trwy wahanol wledydd y Cyfandir, a chan aros am ryw hyd yn Ysbaen, efe a ymunodd a chymdeithas o Jesuitiaid yn Valledolid, lle y bu yn aros yn sylwedydd cywrain a manylgraff yn eu plith. O'r diwedd, wedi ei lwyr foddloni gyda golwg ar eu cynllwynion, fel o amcan gwleidyddol yn hytrach na chrefyddol, efe a ddaeth yn elyn chwerw yn eu herbyn. Y cyntaf o'i gynnyrchion yn eu herbyn, a elwid, "The Running Register, recording a true State of the English Colleges, Seminaries, and Cloisters in all Foreign Parts, together with a Brief Discourse of the Lives, Practices, &c., of English Monks, Friars, Jesuits, &c.;" London, 1628. Canlynwyd hwn gan un arall o'r enw, "The Unmasking of all Popish Monks, Friars, and Jesuits; or a Treatise of their Genealogy, Beginning, Proceedings, and Present State, &c.;" London, 1628,

Digitized by Google

4to. Y nesaf oedd, "*Speculum Jesuiticum;* or The Jesuits' Looking-glass, wherein they may behold Ignatius their patron, his progress, their own pilgrimage, his life, their beginning, &c.;" London, 1629, 4to. Trachefn cyhoeddodd, "A True Catalogue of all their Colleges, &c., and a true Number of the Fellows of their Society." Mae hwn yn nghyda'r *Speculum Jesuiticum*, yn argraphedig yn niwedd yr *Europae Speculum*, 1629, o waith Syr Edwin Sandys. Bu farw Lewis Owen, ryw faint wedi y flwyddyn 1629.

**OWEN**, Lewis, Dr., neu Owen Lewis, canys ysgrifenir ef yn y ddau ddull, ydoedd esgob Cassano, ac yn fab i berchen tir parchus yn mhlwyf Llanfeirian, Môn, lle y ganwyd ef yn 1533. Dygwyd ef i fyny yn ysgol Caerwynt, ac efe a wnawd yn gymrawd parhaus o Goleg Newydd, Rhydychain yn 1553. Yn 1558 graddiwyd ef yn B.C.L., ac efe a wnaeth gynydd pellach yn y gelfyddyd hono, gyda bwriad i fyned rhagddo, eithr gan nas goddefai ei dybiau crefyddol iddo wneud felly, efe a adawodd yr athrofa, tua'r flwyddyn 1561, er na chyhoeddwyd ei gymrodoriaeth yn wag hyd 1563; ac aeth i Douay, lle ei gwnaed y yn *Regius Professor* yn ei gelfyddyd. Mewn llyfryn o'r enw, "The State of the English Fugitives under the King of Spain, and his Ministers, &c." (London, 1596), mynegir fod cryn anghydfod a chynwrf wedi ymdori allan yn y coleg Seisnig yn Rhufain,—Dr. William Allen yn benaeth un blaid, a Dr. Lewis Owen, yn benaeth y llall, yr hwn meddir, "oedd wr tra doeth a dysgedig; ac ar gyfrif ei oed, ei ddifrifoldeb, a'i arosiad yn y parthau hyny, ystyrid ef o awdurdod uchel yn llys Rhufain." Gan fod y Pab yn benderfynol penodi Cardinal i Loegr, ystyrid Dr. Lewis Owen fel y teilyngaf o'r anrhydedd hwnw; eithr o herwydd dylanwad y Jesuitiaid, yn erbyn y rhai yr oedd ganddo yr elyniaeth fwyaf, sicrhawyd y swyddogaeth hono i Dr. Allen, ac efe mewn canlyniad, a urddwyd felly yn 1587. Penodwyd Dr. Lewis, yn esgob Cassano yn Naples, gan Phillip II. brenin Yspaen; ac efe a gysegrwyd i'r perwyl hwnw yn Rhufain, Chwefror 3ydd 1588. Wedi arolygu ei esgobaeth am oddeutu saith mlynedd, yn llawn cymeradwyaeth a pharch, bu farw Hydref 14eg, 1594, a chladdwyd ef yn y capel perthynol i goleg y myfyrwyr Seisnig yn Rhufain, lle y gosodwyd maen mynor ar ei fedd, a'r cerfiad canlynol arno, yn cynwys rhyw fanylion chwanegol:—"*D. O. M. Audaeno Ludovico Cambro-Britanno I. V. D. ac Professori Oxonii in Anglia, ac Regia Duaci in Flandria, Archidiacono Hanoviæ et Canonico in Metropolitana Cameracensi, atque Officiali Generali*," &c. &c.

**OWEN**, Morgan, D.D., ydoedd frodor o sir Gaerfyrddin, a'i dad yn offeiriad yn y sir hono. Derbyniwyd ef i goleg Iesu, Rhydychain, yn 1608, ac efe yn 23 mlwyd oed; ac ar ol hyny daeth yn gaplan y coleg newydd. Yn 1613, graddiwyd ef yn G.C., ac yn 1616 yn A.C., ac efe y pryd hwnw yn aelod o Hart Hall. Cafodd ddyrchafiad eglwysig da yn ei wlad enedigol; a chan ei fod yn wr defnyddiol a brwdfrydig dros yr eglwys, pan ddaeth Dr. Laud yn esgob Tyddewi, efe a'i penododd yn gaplan iddo ei hun; a graddiwyd ef yn D.D. pan wnaed yr esgob yn Ganghellydd yr athrofa. Fel arwydd o gydnabyddiaeth a diolchgarwch am yr anrhydedd hwn, efe a gauodd fynwent ddeheuol eglwys St. Mair, a mur o gerryg nadd, ac a adeiladodd borth prydferth ar yr un tu iddi, ar y draul o £230, yn 1637. Yn mysg yr amryfal gerfluniau perthynol i'r porth hwn, yr oedd y Fair Fendigaid, a baban yn ei breichiau. yr hyn a ffieiddid yn fawr gan y Puritaniaid, ac a ddinystriwyd yn 1642, gan filwyr y Senedd, a'r hyn a achlysurodd un o'r erthyglau yn erbyn ei noddwr, Archesgob Laud, ar ei brawf, yn y geiriau hyn; "Mai efe a rwymodd y dywededig Dr. Morgan Owen i'w hadeiladu, neu fel Canghellydd yr athrofa a ganiataodd iddo, ac a gyd-ddygodd a'r cwbl pan orphenwyd ef." Urddwyd ef yn esgob Llandaf yn 1639; a daliai hefyd reithoriaethau Bedwas, a Rudry, ar ei enw. Yr oedd efe yn un o'r esgobion a ardystiasant yn 1641, am yr hyn y carcharwyd ef yn y Twr, a bu yno tua phedwar mis. Ar ol ei ryddhad, efe a ddychwelodd i'w wlad enedigol, lle y dyoddefodd lawer o herwydd ei deyrngarwch, a'i fod yn esgob, ac wedi ei ddyrchafu gan Laud. Ymosodwyd ar ei balas yn Methern, ger Caerwent, (Chepstow) gan ryw Green, o Gaerdydd, a chymerwyd ef, ynghyd a'i holl feddianau yn y parth hwnw, a manau ereill hefyd. Ei olynydd cyntaf yn Bedwas, oedd ryw Henry Nicholls; ac ar ol hwnw, un Watkin Jones, o Mynyddislwyn, yr hwn yn ei blwyf ei hun, oedd ail-fedyddiwr; ond yn Bedwas, a Rudry, yn henadur proffesedig. Rhyw Rheese John Dafydd, y goruchwyliwr, a'r gorfodogwr, oedd yn byw yn y persondy, yn gofalu am yr eglwysdir, ac yn derbyn y degwm; hwn a symudodd y bedyddfaen hardd oedd yn eglwys Bedwas; a chan na allai efe a'i gydymaith ddryllio y cyfryw yn ddarnau, fel yr amcanent, efe a barodd iddo gael ei ddwyn o dan yr ywen yn y fonwent, lle y defnyddiwyd ef yn gafn, i ddyfrhau ei anifeiliaid. Bu farw yr esgob Owen yn Nglasallt, sir Gaerfyrddin, yn Ionawr 1644–45, ac efe a gladdwyd yn eglwys Llanfihangel Myddfai. Meddianai gryn lawer o dir, yr hwn a etifeddwyd gan ei nai; ac efe a gynysgaeddodd ysgol rad Caerfyrddin, a £30 yn y flwyddyn, i'w talu gan blwyf St. Ismael, yn y sir hono. Yr oedd y wlad yn ferwedig trwyddi y tymor hwn; y brenin a'i blaid o un tu, a'r senedd a'i phlaid o'r tu arall. Yr oedd yr anghydfod rhwng y Senedd a'r esgobion yn cynyddu fwy-fwy, a chafodd deuddeg o honynt eu cyhuddo o deyrnfradwriaeth, a danfonwyd deg o honynt, yn garcharorion i Dwr Llundain; yn mhlith y rhai yr oedd Dr. Morgan Owen, esgob Llandaf, fel y soniwyd eisioes: Dr. J. Owen, esgob Llanelwy; a Dr. Roberts, esgob Bangor. Wedi anfon yr esgobion i Dwr Llundain, cytunodd y Senedd na byddai i'r esgobion o hyny allan, nac eistedd, na rhoi eu llais yn Nhy yr Arglwyddi. Yn ol gwneuthur y gyfraith hon, rhyddhawyd yr esgobion o Dwr Llundain, a chaniattaed iddynt fyned lle y gwelent fod yn dda, a dyoddefodd rhai o honynt lawer o galedi. Bu y pethau hyn yn achos o gynwrf mawr yn Nghymru, oblegid fod rhai yn gyfeillion i'r esgobion, ac ereill yn bleidiol i'r senedd. Archesgob Laud, wedi bod yn garcharor yn Nhwr Llundain yn agos i dair blynedd, a gafodd ei brofi gan y Senedd, a'i farnu yn euog o ymdrechu dymchwelyd y cyfreithiau, a'r grefydd Brotestanaidd, yn nghyda rhagorfraint y Senedd: a rhoddwyd ef i farwolaeth yn y 72 flwyddyn o'i oedran, wedi bod ddeuddeng mlynedd yn archesgob Caergaint. Pan glybu Dr. Morgan Owen, esgob Llandaf, fod archesgob Laud wedi ei osod i farwolaeth, efe a syrthiodd o'i gadair, ac a fu farw yn y Glasallt, yn sir Gaerfyrddin, lle yr oedd wedi cilio yn amser y rhyfel cartrefol. Yr oedd Dr. Owen yn wr o sir Gaer-

Digitized by Google

fyrddin, wedi ei ddwyn i fyny yn gyntaf yn ysgol rydd Caerfyrddin, ac wedi hyny yn athrofa Rhydychain.

**OWEN**, Richard, D.D., ydoedd fab y Parch. Cadwaladr Owen, unwaith yn gymrawd o goleg Oriel, Rhydychain, ac wedi hyny rheithor Llanfechan, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1605. Derbyniwyd ef i goleg Oriel, pan yn bumtheg oed; ac yn 1627 gwnaed ef yn gymrawd o hono, ac efe yn G.C., y pryd hwnw. Wedi derbyn ei urdd o A.C., efe a dderbyniodd urddau eglwysig; ac yn 1635, anrhegwyd ef gan athrofa Rhydychain â ficeriaeth Etham yn Nghaint. Yn 1638 rhoddodd i fyny ei gymrodoriaeth, a chymerodd yr urdd o G.D. ac efe y pryd hwnw yn rheithor St. Swithin. Pan dorodd y gwrthryfel allan, yr oedd yn ymlynydd ffyddlon wrth y brenin; ac amddifadwyd ef o'r holl fywiolaethau, a dyoddefodd lawer yn achos y brenin, am yspaid 17eg o flyneddau. Ar ol dychweliad Siarl II. adferwyd iddo ei fywiolaethau; ac ar ol hyny, efe a gafodd brebendiaeth Reculverland, ger St. Paul's, a bywioliaeth St. North Cray, yn Nghaint, ac a wnaed yn D.D. Yr oedd mewn bri mawr am ei fuchedd a'i ymarweddiad sanctaidd; am iachusrwydd ei farn, am ei gydymffurfiad ag athrawiaeth a dysgyblaeth henafol eglwys Loegr, ac am ei ymlyniad teyrngarol wrth ei fawrhydi y brenin, yn ystod y chwyldroadau blaenorol. Efe a gyhoeddodd ddwy bregeth, un o'r rhai a ymddangosodd yn 1666, 4plyg. Efe a gyfieithodd hefyd i'r Saesneg, duchangerddi Juvenal. Bu farw yn Ionawr, 1682.

**OWEN**, William, Ysw., cyfreithiwr dysgedig o'r unfed ganrif a'r bumtheg, oedd frodor o sir Benfro, aelod o deulu parchus, a henafol. Yr oedd yn berthynas agos i'w gydwladwr dysgedig, Syr Thomas Eliot; ac yn y Middle Temple, yr oedd yn ystafellydd i Syr Anthony Fitzherbert, un o ynadon y *Common Pleas*. William Owen oedd awdwr y talfyriad o Gyfreithiau Lloegr, cyhoeddedig yn gyntaf yn 12eg plyg. Cyhoeddwyd argraphiad arall yn 1528. George Owen, yr hanesydd o sir Benfro, a fynega fel hyn am dano, geiriau yr hwn a gyfleir yma yn eu horgraff cyntefig;—"He also wrote other workes, notwithstanding his hard studie in his youth, and continuall toyle and travell, all his tyme, he carried to his grave so many yeares, as that he saw in ripe yeares, the fifth issue male, by discent of the body of his god-father, and was present at the coronation and proclamation of thirteen Kings and Queens of England, and lived under the fourteenth. He also saw eight bishops in St. Davids; and all his life tyme was never sick but once, and at his dying day, which was on the 29th of March 1574, wanted not one tooth."

**OWRTYN.** Gwel Overton.

**OXWICH**, plwyf, yn nghantref Abertawe, swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Y mae beisfor o'r un enw yn y gymmydogaeth; a saif y plwyf ar ystlys orllewinol y beisfor, yn ngorynys Browyr; 10 milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd *Gower Road*, a 12 milldir i'r de orllewin wrth ddehau o Abertawe. Llythyrfa, Abertawe. Erwau 1602, o ba rai y mae 405 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 717*p*. Poblogaeth, yn 1861, 328; yn 1871, 255. Tai annedd, 61. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, gydiedig a pherigloriaeth Nicholaston, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Y mae Castell Oxwich yn sefyll ar bentir sydd yn rhedeg allan i drwyn Oxwich; ac fe'i hadeiladwyd yn amser Harri yr Wythfed, gan Syr Rice Mansell. Y mae yma ogof o ddyfer-faen, a elwir "Twll Bacwn," (*Bacon Hole*), yn yr hon y darganfuwyd pedwar haen olynol o esgyrn; yr haen gyntaf yn cynnwys esgyrn ychain, ceirw cochion, iyrchod, a llwynogod, mewn mariandir; yr ail haen, a gynnwysai yr arth, yr ŷch, a'r carw, o dan haen o fferfaen; y trydydd haen a gynnwysai esgyrn y mammoth, y trwyn-gorniog, (*rhinoceros*,) yr udfil, (*hyena*,) y blaidd, yr arth, yr ŷch, a'r carw, oddi tan haen arall o fferfaen, (*stalagmite;*) yn nesaf, esgyrn y mammoth, y pryf llwyd, a'r ffwlbart, dan drydedd haen o fferfaen; ac islaw yr olaf, ar y llawr calchgreigiog, y canfyddwyd amryw fath o gregyn, esgyrn adar, a llygod mawr. Yr oedd esgyrn y mammoth yn nodedig o fawrion, ac fe'u cedwir yn amgueddfa Abertawe. Y mae ogof arall, o'r enw *Michin Hole*, ychydig i'r gorllewin o'r un uchod; ond ni chafwyd dim gweddillion esgyrnawl ynddi.

**OYSTERMOUTH**, plwyf yn nghantref Abertawe, swydd Forganwg, yn ngorynys Browyr, o amgylch gorsaf rheilffordd Norton a'r Mumbles; 5 milldir i'r de dde orllewin o Abertawe. Cynnwysa bentrefi Newton, Norton, a'r Mumbles, yr olaf o ba rai sydd yn meddu llythyrfa dan Abertawe. Gelwid y lle hwn mewn oesoedd boreuol gan y Cymry, "Caer Tawy," a hyny yn ol barn rhai, am fod castell wedi ei adeiladu yma, gan Henry de Beaumont, yr hwn a ddug diriogaethau eang oddiar Caradog ab Iestyn, yn nhalaeth Browyr, er diogelu y meddiant o ba rai y cyfododd efe amryw gestyll. Y mae y fan hon yn ymdrochle led boblogaidd. Mesura 5194 o erwau o dir, o ba rai y mae 1220 dan ddwfr. Cyfrifir gwerth ardrethol y plwyf yn 7774*p*., o ba rai y mae 80*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 1938; yn 1861, 2460; ac yn 1871, 3574. Tai annedd yn 1861, 519; yn 1871, 742. Y mae castell Oystermouth yn sefyll ar glogwyn anferth o galch-graig, o'r lle y cair cyflawn olwg ar y *bay;* a dywedir iddo gael ei adeiladu yn yr unfed ganrif ar ddeg, gan Henry de Bellamonte; ac a adgyweiriwyd mewn rhan yn ddiweddar, gan y Dug o Beaufort. Y mae yma lawer o galch yn cael ei gloddio, a'i losgi, a physgodfa wystrys yn cael ei dwyn yn mlaen. Adeiladwyd Ysgoldy prydferth yn y fynwent, gan y diweddar Rhys Davies, Ysw., yr hwn a neillduodd wyth guni yn y flwyddyn, i'w talu o ddegwm y plwyf, tuag at gynnal yr ysgol: a darfu i foneddiges o'r enw Mrs. Benbow, gymmunroddi dau guni yn y flwyddyn, i'w rhanu rhwng tlodion y plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 85*p*. Noddwr, y Milwriad Perrot.

Digitized by Google

# P.

**PABIALI**, sant, oedd yn ei flodeu tua chanol y bummed ganrif. Yr oedd ef yn fab i Brychan Brycheiniog; ac efe, a'i frodyr Pasgen, a Nefai, a anwyd o Prossori, Ysbaenes, yr hon oedd yn drydedd wraig i Brychan. Hwy a aethant drosodd i'r Hispaen, lle y daethant yn saint, a phendefigion. Mewn rhai ach-restrau o'r saint, fe elwir Pabiali yn Papai; a'r Gwyddelod a'i galwant Pianno, Pivannus, a Piapponus.

**PABO**, a elwir yn gyffredin, "Pabo Post Prydain," ar gyfrif ei wrolder yn ymladd yn erbyn gelynion ei wlad, oedd fab i Arthwys ab Mor, yr hwn oedd yn fab i Morfydd ab Cenau ab Coel Godebog. Efe a ymenwogodd yn gyntaf, fel rhyfelwr yn erbyn y Pictiaid Gwyddelig, ond o'r diwedd bu raid iddo adael ei diriogaethau yn y Gogledd, ac ymneillduo i Gymru. Efe a gafodd dderbyniad caredig gan Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, brenin Powys, gan yr hwn, yn gystal a'i fab, Brochwel Ysgythrog, y cafodd Pabo roddion o diroedd. Efe a brïododd un Gwenaseth, ferch Rhufon Rhufoniog. Yn fuan ar ol hyn, ymddengys iddo adael buchedd filwraidd, a throi at fuchedd grefyddol, fel y gwnaeth llawer eraill o'r tywysogion, a'r pendefigion brodorol, a fuant mor anffodus a cholli eu tiroedd yn yr amseroedd terfysglyd hyny. Efallai iddo fod dros ryw dymhor gyda Chystenyn Fendigaid, yn Llangystenyn, ar yr ochr ddwyreiniol i afon Gonwy, lle y mae lle o'r enw *Pabo*, yn sefyll hyd heddyw. Wedi hyny, efe a seiliodd eglwys Llanbabo yn Môn; ac fe ddywaid Lewis Morris, fod hen draddodiad yn y plwyf hwnw, fod Pabo, a mab, a merch iddo, wedi eu claddu gerllaw yr eglwys hon, gyferbyn ag wynebau cerfiedig oeddynt yn y mur, i'w gweled yno yn ei amser ef, oddeutu y flwyddyn 1730, os nad ydynt yno eto. Fel yr oedd clochydd yn tori bedd tua chwe troedfedd o ddyfnder, yn nghylch amser teyrnasiad Charles yr Ail, tarawodd ei gaib yn erbyn careg. Yr oedd wedi dryllio peth ar y gareg, ac anurddo amryw o'r llythyrenau, cyn gwybod mai careg fedd ydoedd. Math o lech-faen led feddal ydoedd; a llun dyn, a choronig ar ei ben, a theyrn-wialen yn ei law, arni; a'r geiriau canlynol wedi eu cerfio o amgylch y llun;—"HIC JACET PABO POST PRUD. CORPORS . . . TE . . . PRIMA." Y mae y gareg hon wedi ei dodi i fynu ar fur yr eglwys, oddifewn, yn awr.

**PADARN**, sant enwog, oedd fab i Pedrwn, neu Pedredin, fab Emyr Llydaw, a chefnder i sant Cadfan, gyd a'r hwn y daeth efe i Frydain, medd Usher, yn y flwyddyn 516. Yn ol Achau y Saint, wedi iddo gyrhaedd i Gymru, efe a ddaeth yn aelod o goleg Illtyd, yr hwn oedd yn gefnder iddo; a bu yn esgob yno. Wedi hyny, efe a sefydlodd gymdeithas grefyddol, gynnwysedig o chwech ugain o aelodau, mewn lle yn Ngheredigion, a alwyd oddiwrtho ef wedi hyny, Llanbadarn-Fawr, lle hefyd y sefydlodd efe esgobaeth, o'r hon y daeth efe yr esgob cyntaf. Mewn rhai hen ysgrif-lyfrau, efe a elwir yn archesgob Llanbadarn. Efe oedd seilydd Llanbadarn Tref eglwys, neu Llanbadarn Fach, a Llanbadarn Odin, yn Ngheredigion; hefyd Llanbadarn Fawr, Llanbadarn Fynydd, a Llanbadarn y Gareg, yn swydd Faesyfed; ac y mae sefyllfa rhai o'r lleoedd hyn yn gwasanaethu i nodi ehangder ei esgobaeth tu a'r dehau, ar hyd y ffiniau a neillduwyd i esgobaeth Tyddewi; ond y mae ei therfynaeth yn anhysbys tu a'r gogledd, er fod yn debyg y cynnwysai ran fawr o swydd Drefaldwyn. Nis gellir penderfynu gyda sicrwydd, pa hyd y bu Llanbadarn yn brif eglwys esgobaeth, gan mai ychydig o'i hanes sydd ar gael; a'r sylw olaf arni yn y cymeriad hwnw, a ganfyddir yn y Brutiau Cymreig, sydd am y flwyddyn 720, pan ddywedir fod llawer o eglwysi Llandâf, Mynw, a Llanbadarn, gan olygu tair esgobaeth y Deheudir, wedi cael eu hanrheithio gan y Sacsoniaid. Ond, fe adroddir iddi golli ei rhagorfreintiau trwy ymddygiad aflywodraethus ei phreswylwyr, y rhai a laddasant eu hesgob; ac yn y canlyniad, fe'i cyssylltwyd âg esgobaeth Mynyw. Deallwn oddiwrth grybwylliadau o'r eiddo *Johannes Sulgenus*, fod Padarn wedi bod yn llywyddu ar yr esgobaeth hon dros un mlynedd ar hugain; a'i fod ef wedi treulio ei fywyd yr holl yspaid hyny, yn yr ymarferiad o'r cyfryw ddyledswyddau crefyddol ag oeddynt gymeradwy yn yr oes hono; ac y mae y Trïoedd yn rhoddi ar ddeall i ni, ei fod ef yn myned o amgylch y wlad, gan bregethu ffydd yn Nghrist, heb dâl na gwobrwy, i bob gradd o bobl, a lliniaru cyfyngderau y tlodion hyd eithaf ei allu; ac am hyny, efe a elwid yn un o dri gwesteion gwynfydedig Ynys Prydain. Y mae John o Teignmouth, yn dywedyd ei fod ef wedi adeiladu mynachlogydd ac eglwysi trwy holl Geredigion; a'i fod wedi rhoddi cerydd llym i Maelgwyn Gwynedd, oddiar law yr hwn y derbyniasai gamwri, ar gad-gyrchiad y tywysog hwnw i'r Deheubarth. Ar derfyniad yr un mlynedd ar hugain, efe a ddychwelodd i'w wlad ei hun, lle ei gwnaed yn Esgob Vannes. Pa fodd bynag, ymdorodd ymryson rhyngddo ef a'r esgobion Llydawaidd eraill; ar yr hyn y galwyd cymmanfa, ac y llwyddwyd i'w cymmodi. Ond er hyn oll, yr oedd efe yn ofni eu gelyniaeth, ac efe a giliodd at y Franciaid, yn mysg y rhai yr arhosodd efe hyd ddiwedd ei ddyddiau. Efe a danysgrifiodd benderfyniadau Cynghorfa Paris, a gynhaliwyd yn y flwyddyn 557, ac fe'i canmolir yn fawr fel mynach, ac fel esgob, yn ysgrifeniadau Venantius, Bardd Lladinaidd o Ffrainc, yr hwn a gyfoesai ag ef. Dywaid un o'i fywgraphwyr boreuol, yr hwn a ddyfynir gan Usher, fod tri diwrnod wedi eu neillduo yn gyssegredig i'w goffadwriaeth, sef Ebrill 15, yr hwn oedd gofwyl ei farwolaeth; Mehefin 20, cofwyl ei urddiad yn Esgob; a Thachwedd 1af, er cof o'i gymmodiad ag esgobion Llydaw. Ond, yn ol yr awdurdodau Cymreig, dwy gofwyl oedd iddo, sef Ebrill 16, a Thachwedd 12. Y mae dywediad o'i eiddo ar gof a chadw yn *Chwedlau y Doethion;*—"A glywaist ti ddywediad Padarn, y pregethwr cyfiawn a galluog? —A wnelo dyn, a farna Duw."

**PADARN**, neu PEDR, esgob Llandâf, yr hwn a olynodd Marchlwys, yn 945. Cynhaliodd Gymmanfaoedd yn Llandâf yn y blyneddoedd 950, a 955; a bu farw yn 961.

**PADARN** (BEISRUDD), mab Tegid ab Iago, oedd meddir, yn feudwy, ac yn esgob. Fe'i cam-gymerir



Digitized by Google

yn aml am Padarn ab Pedredin; ond nodwedd mewn rhamant yw efe yn hytrach. Yr oedd Pais Padarn Beisrudd, yn un o'r tair engrhaifft ar ddeg firain, o gelfwaith Ynys Prydain.

**PADRIG** mab Alfryd, mab Goronwy, mab Gwydion ab Don, o Waredog, yn Arfon, ydoedd sant o'r seithfed ganrif. Yr oedd efe yn cydoesi â sant Elfod; ac yn aelod o goleg Cybi, yn Môn. Efe a sylfaenodd eglwys Llanbadrig yn Môn.

**PADRIG** mab Mawon, apostol enwog y Gwyddelod, yn ol yr awdurdodau Cymreig, ydoedd enedigol o Browyr, yn swydd Forganwg. Fe'i gelwir hefyd Padrig Maenwyn. Tu a'r flwyddyn 420, blinid Cymru yn ddirfawr gan wibiaid Gwyddelig, y rhai a ymosodent ar yr arfordiroedd, gan ysglyfaethu pob peth y gallent roddi eu dwylaw arno: ac fel yr oedd un fintai o honynt wedi ymosod ar goleg Theodosius, yn Nghaerworgorn, neu fel ei gelwir yn awr, Llanilltyd Fawr, hwy a'i dystrywiasant, ac a gludasant Padrig yr hwn oedd yn ddysgawdwr yr athrawiaethau Cristionogol yno, yn garcharor i'r Iwerddon. Wedi ei ddwyn drosodd felly i'r Ynys Werdd, efe a ymdrechodd yn egnïol i hyfforddi y brodorion Gwyddelig, a Llychlynaidd; ac ni bu ei lafur yn ofer; canys dychwelwyd nifer mawr o honynt i'r ffydd Gristionogol. Nid yw yn ymddangos, i Padrig ddychwelyd i Gymru drachefn. Heblaw "Achau y Saint," y mae traddodiadau eraill yn cyssylltu ei enw â Chymru. Y mae Riccmarchus, Giraldus Cambrensis, a John o Teignmouth, yn dywedyd ei fod unwaith wedi ymsefydlu mewn dyffryn bychan, a elwid *Vallis Rosina*, yn Mynwy, lle yr adeiladasai fynachlog, gan fwriadu treulio gweddill ei oes mewn ymneillduedd crefyddol; ond i angel ymddangos, a gorchymyn iddo fyned a phregethu yr efengyl yn yr Iwerddon, gan ddangos iddo mewn gweledigaeth, yr holl wlad hono, o'r llanerch lle y safai efe. Yr oedd capel o'r enw Capel Padrig, amser yn ol, yn mhlwyf Tyddewi, yn swydd Benfro, yr hwn a orweddai, yn ol John o Teignmouth, yn agos i'r llanerch lle y dangosodd yr Arglwydd yr Iwerddon iddo mewn gweledigaeth. Dywedir hefyd, fod eglwys wedi ei chyflwyno iddo, yn agos i'w le genedigol, Aberllychwr. Canfyddwn y sylw hynod a ganlyn yn Achau y Saint Prydeinig;—"Gogoniant yr amherawdr Theodosius yn nghysswllt a Chystenyn Llydaw, a gyfenwid y Bendigaid, ydoedd sylfaenu yn gyntaf o bawb Goleg Illtyd, yr hwn a reolid gan Balerus, gwr o Rufain; a Phadrig fab Mawon yn llywydd arno, cyn ei gaethgludo ymaith gan y Gwyddelod." (*Iolo's Welsh MSS.*, 455, 500, 534: *Rees's Welsh Saints.*)

**PAIN'S CASTLE**, trefgordd a phentref bychan, yn mhlwyf Llanbedr-Pain's Castle, yn nghantref Pain's-castle, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru. Y mae y pentref yn sefyll a'r gainc o'r afon Wy; 5 milldir i'r gogledd orllewin o'r Gelli. Bu unwaith yn dref farchnad, ac y mae yma ychydig o adfeilion castell Normanaidd; a chynhelir ffeiriau yma ar y 12fed o Fai, yr 22ain o Fedi, a'r 15fed o Ragfyr.

**PANA AB PYD,** ansawd dychymygol yn Chwedloneg y Cymry.

**PANDY**, pentref yn nhrefgordd Cynllwyd, plwyf Llanuwchllyn, swydd Feirionydd, 4½ milldir i'r de orllewin o'r Bala.

**PANDY**, gorsaf rheilffordd, ar ffin ogleddol swydd Fynwy; ar reilffordd Henffordd a'r Fenni, ger yr afon Monnow; 6½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Fenni.

**PANT**, trefgordd yn mhlwyf Llysfaen, swydd Gaerynarfon; 7½ milldir i'r dwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 289.

**PANT**, lle ar derfyn dwyreiniol swydd Ddinbych, lle y mae llythyrfa dan Riwabon.

**PANT**, neu Dowlais, gorsaf rheilffordd yn nghapeloriaeth Dowlais, swydd Forganwg; ar reilffordd Aberhonddu a'r Merthyr; 2½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Ferthyr Tydfil.

**PANTARFON**, treflan yn mhlwyf Llanfynydd, swydd Gaerfyrddin; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr.

**PANTEAGUE**, neu yn hytrach, Pant teg, pentref, a phlwyf, yn undeb Pont y pool, swydd Fynwy. Y mae y pentref yn sefyll ¾ milldir i'r dwyrain o'r Afon Llwyd, 1 filldir i'r de ddwyrain o orsaf rheilffordd Pont y pool, a 2½ i'r de ddwyrain o Bont y pool; lle y cynhelir yr is-frawdlysoedd, ac y mae llythyrfa, dan Bont y pool. Heblaw hyny, y mae pentrefi Pont y moel, Sebastopol, a Chwm-ynysgou, Pen yr heol, ac *Upper Race*, o'i fewn. Mesura yn erwau, 3458; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 10,214*p.*, o'r hyn y mae mil o bunnau mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 2349; yn 1861, 2828; yn 1871, 2761. Tai annedd, 557. Y mae yma weithfeydd haiarn mawrion. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglоriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 343*p.* Noddwr, C. H. Leigh, Ysw.

**PANT GLAS**, gorsaf ar reilffordd swydd Gaer yn arfon; 9 milldir i'r dehau o Gaer yn arfon.

**PANTON**, Paul, Ysw., o'r Plas Gwyn, Pentraeth, yn Môn, boneddwr enwog am ei hyddysgrwydd yn hanes a henafiaethau ei wlad enedigol; a theilwng o goffadwriaeth anrhydeddus ar gyfrif ei haelfrydedd i gynnorthwyo eraill a lafurient yn yr un cyfeiriad. Efe a ffurfiodd gasgliad gwerthfawr o Ysgrif-lyfrau Cymreig; a chyfoethogwyd y casgliad yn ddirfawr, trwy yr ychwanegiad o'r eiddo y Parch. Evan Evans, a gyfenwid "Ieuan Brydydd Hir," awdwr dysgedig y *Dissertatio de Bardis*, yr hwn a gyrhaeddai hyd yn agos i gant o gyflyfrau. Daeth y casgliad yma i'w feddiant trwy gyttundeb, yn yr hwn y sefydlai Mr. Panton flwydd-dal o ugain punt ar y bardd anffodus tua diwedd ei oes. Bu Mr. Panton farw yn y flwyddyn 1797, yn y seithfed flwydd a thriugain o'i oedran.

**PANT Y DWR**, gorsaf rheilffordd yn mharth gogledd orllewin swydd Faesyfed, ar reilffordd Llanidloes a Thal y llyn; 7 milldir i'r gogledd o Raiadr.

**PANT Y FFRYDLAS**, treflan yn mhlwyf Llanllechid, swydd Gaer yn arfon, 3½ milldir i'r de ddwyrain o Fangor.

**PANT Y FFYNON**, gorsaf rheilffordd a phellebyr, ar derfyn dwyreiniol swydd Gaerfyrddin; ar reilffordd Llanelli a Dyffryn Towy, ar gydiad y gangen ddwyreiniol i Brynamman; 12½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Lanelli.

**PANT Y GROES**, treflan yn mhlwyf Llandudoch, swydd Benfro, yn agos i dref Aberteifi.

**PANT Y MANUS**, trefgordd yn mhlwyf Llangernyw, swydd Ddinbych; 7½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst.

**PANT Y MWYN**, treflan yn nhrefgordd Gwernafield, plwyf y Wyddgrug, swydd Fflint; yn agos i dref y Wyddgrug.

Digitized by Google

**PANTYRID**, pentref yn mhlwyf Llandyfodwg, swydd FORGANWG; 6¼ i'r gogledd ddwyrain o Ben y bont.

**PARC**, trefgordd yn mhlwyf Ceryg y Drudion, swydd DDINBYCH; 13 milldir i'r de orllewin o Ruthin.

**PARC**, treflan yn mhlwyf Eglwys Ilan, swydd FORGANWG; goris Cefn-fryn, 4 milldir i'r gogledd-orllewin wrth orllewin o Landâf. Gwerth ardrethol, 1295*p*. Poblogaeth, 132. Tai annedd, 19.

**PARK MILL**, lle, naw milldir o Abertawe, yn swydd FORGANWG; a llythyrfa yno, dan Abertawe.

**PARROT**, JAMES, neu PERROT, oedd weinidog gyda y Bedyddwyr yn Hengoed. Brodor ydoedd o ardal Olchon, sir Frycheiniog, ac aelod, ar y cyntaf, o eglwys Olchon; yno hefyd y dechreuodd bregethu yn 1795. Cafodd ei sefydlu yn weiniodog cynorthwyol i'r Parch. Lewis James, yn eglwys Hengoed; ond ni bu ei arosiad yno yn hir, nac ychwaith yn gysurus; cymerodd anghydfod le, mewn perthynas i ddysgyblaeth. Yr oedd yma wr, a merch ieuangc, a gyhuddid o anlladrwydd, ond yr oeddynt yn gwadu gwiredd y cyhuddiad, a'r rhan fwyaf o'r eglwys yn eu credu. Credai Mr. Parrot eu bod yn euog, ac anogai ar fod iddynt gael eu dysgyblu. Cynaliwyd amryw gyfarfodydd i drafod yr achos. Gwahoddwyd gweinidogion cymydogaethol yno i'w cynorthwyo i ddyfod i ddealltwriaeth; ond ni lwyddwyd, a chyngorasant Mr. Parrot i ymadael. Yn fuan wedi ei ymadawiad, daeth gwirionedd y cyhuddiad yn ddigon amlwg, a chafodd y ddau eu diaelodi. Yn 1809 aeth Mr. Parrot yn weinidog i Groes-parc, sir Forganwg; a phan ymgorpholodd Cadoxton, cangen o Groes-parc, yn eglwys ar wahan, yn 1814, cymerodd ei gofal, gan adael y fam-eglwys. Nid hir y bu yno, canys priododd wraig yn y Cas-newydd-ar-Wysg, a symudodd yno. Efe oedd sylfaenydd yr achos yn Nghaerdydd, pan oedd yn weinidog Croes-parc; a gweinyddai yno yn fisol hyd 1815. Yn fuan wedi hyn, ffurfiwyd cangen eglwys Croes-parc yn y Tabernacl, Caerdydd, lle mae eglwys flodeuog yn awr. Bu farw yn Nghasnewydd yn y flwyddyn 1826, wedi bod yn llwyddianus iawn.

**PARRY**, DAVID, oedd weinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd, yn sir Frycheiniog. Brodor ydoedd o Gaio, yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1790. Dechreuodd bregethu yn ddeunaw mlwydd oed. Yn fuan wedi hyny, aeth i athrofa yr Iarlles Huntington, yn Nhrefecca. Nid y bu yno nemawr, ond yn mhen tri mis, dychwelodd i ymweled a'i berthynasau, gan lwyr fwriadu myned i'r athrofa eilwaith; ond cynghorion ei gyfeillion a orfuant, ac ymroddodd yntau i weinidogaethu i'w gymydogion tlodion, gyda hyny o ddysgeidiaeth a feddai. Pan yn bedair ar hugain oed, priododd â merch o blwyf Llanwrtyd, yr hyn, mae'n debyg a fu yn achlysur i'w arwain i ymsefydlu dros y gweddill o'i oes yn y Gilfach, yn y plwyf crybwylledig. Yr oedd yn un o'r pregethwyr hynotaf yn y sir, o herwydd ei ddawn doddiadol. Yr oedd ganddo ddylanwad mawr ar deimladau ei wrandawyr, gan nad ar ba bwnc y traethai. Yr oedd ei lais yn beraidd, a'i yspryd yn efengylaidd. Edliwiai un wraig grefyddol unwaith i'w chymydog, gan ddywedyd, "Wel, Thomas, dyna beth nad ydych chwi byth yn meddwl am dano, sef achos eich enaid." "Yr ydych yn camsynied," ebai Thomas, "yr wyf yn gorfod meddwl am fy enaid, bob amser y gwrandawyf ar Dafydd Parry yn pregethu." Mewn cymanfa yn sir Forganwg unwaith, ar ol i lawer o weinidogion draethu eu cenadwri, daeth adeg Dafydd Parry i ddatgan yr eiddo yntau; a rhyfedd oedd y llewyrch a ddilynai ei ymadroddion; yn gymaint felly, nes i Ebeneser Morris dori allan, a dywedyd, "Y mae yr Arglwydd fel pe byddai yn arddel yr hyn a ddywed Dafydd Parry." Bu farw yn y flwyddyn 1821, yn 61 mlwydd oed, wedi bod yn y weinidogaeth am 43 o flynyddoedd.

**PARRY**, EDWARD, o Brynbugad, plwyf Llansannan, sir Ddinbych, a anwyd mewn lle a elwir Llysbychan, gerllaw Llansannan, yn y flwyddyn 1723. Ni ddysgodd, ar y cyntaf, ond Cymraeg, gan fod ei rieni yn bwriadu ei anfon o gartref wedi hyny i dderbyn ychwaneg o ddysg. Yr oedd rhai o'i henafiaid wedi gadael tir tu ag at ddysgu eu plant yn olynol, i'r hyn yr oedd hawl gan Edward Parry. Ond yn gymaint ag na chafwyd lle gwag iddo mewn pryd, daeth i fynu mewn oedran, ac yr oedd raid iddo feddwl am sefydlu yn y byd; ac felly esgeuluswyd ei addysg; ond dysgodd ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg yn rhagorach na'r cyffredin; a chyrhaeddodd y fath raddau o wybodaeth fuddiol, fel y gallai ymadroddi yn synhwyrol ar bob mater y soniai am dano. Bu yn gweithio fel amaethwr hyd nes yr oedd yn ddeunaw mlwydd oed, pryd y rhwymwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu y gelfyddyd o saer coed. Yn 1742, bu eira mawr ar yr 17eg o Fai, a bu iddo ef ei fesur ar ei fuarth, a'i gael yn bymtheg modfedd o drwch gwastad. Cyfansoddodd ddau neu dri o benillion ar yr achlysur, y rhai nid ydynt ar gof yn bresenol, ond diweddai un o honynt fel y canlyn:—

"O rhyfedd fel trefnodd ef gelloedd yr ia!
Paham y daeth eira y pumed o'r Ha?"

Dyma y tro cyntaf y sylwyd fod y ddawn farddonol ganddo. Aeth ar amserau wedi hyn, gyda Thwm o'r Nant, i chwareu digrif-ganeuon; ac wrth fod ei ddawn yn cynnyddu, dywedir iddo fyned yn fwy digrif nac yr un o'i gydymeithion. Cyn hir, bu iddo adael cwmniaeth y Bardd o'r Nant, a throdd i wneud digrif-ganeuon ei hun, a daeth dynion cyfrifol ato i'w chwareu; ond nid er eu helw eu hunain, ond i'r dyben o gynorthwyo pobl dlodion. Dywedodd Thomas Edwards, na welsai ef neb a dawn mor barod âg ef, gan y canai ar unrhyw destyn a ofynid, gyda'r parodrwydd mwyaf. Tu ar flwyddyn 1746, ymuñodd mewn priodas â Gwen, merch Dafydd Huws o Blas Pigod, plwyf Llansanan, ac ar yr achlysur, cafodd gryn gynnorthwy i drin y ddaear. Cymerodd dyddyn a elwir Cefn-byr, yn agos i Lansannan, ond eto yr oedd efe yn glynu wrth chwareu yr ofergampau. Ac fel yr oedd efe a'i gyfeillion, wedi dyfod yn nghyd un bore Sabbath, wedi clywed o honynt fod pregeth i gael ei thraddodi yn yr Hen-lys, Llanfair-Talhaiarn, cymhellasant eu gilydd i fyned yno; ac felly aeth o wyth i ddeg o honynt yno, yn fwy fel digrifwch nac unrhyw amcan i erlid nac aflonyddu neb. Pa fodd bynag, dychwelasant oll, dan drallod meddwl o blegid eu pechodau. Beth bynag am y lleill, glynodd y gwirionedd yn meddwl Edward Parry. Dafydd William Rhys oedd enw y pregethwr, yr hwn a alwai Parry yn dâd o hyny allan. Bwriadai gael ymddiddan a'r pregethwr y bore dranoeth; ac er ei gyfarfod ar y ffordd, ni feddai ddigon o wroldeb i'w gyfarch. Ymadawodd a'i gyfeillion cellweirus ar hyn o bryd. Cymhellodd wr o'r Deheudir, yn fuan wedi hyn, i ddyfod i'w dŷ i bregethu. Cafodd

Digitized by Google

Dafydd William Rhys yno yn fuan wedi hyny; a dyma y drws cyntaf yn Llansannan, a agorwyd i groesawu pregethu. Tynodd ŵg offeiriad y plwyf ac eraill arno ei hun drwy hyny, a llidiodd ei feistr tir, fel y gyrwyd ef allan o'i dyddyn, er iddo gael cynygiad i aros yno, ar yr ammod na byddai pregethu yno mwy; a'i atebiad i'w feistr oedd, "Nid yw eich tir chwi, Syr, ond am dymor; ond y mae crefydd i barhau byth." Tua chwech wythnos cyn Calanmai, sef yr amser yr oedd ef i symud, dygwyddodd iddo gyfarfod âg un John Foulkes, o'r Wenallt, plwyf Llansannan, gwr ar ei dir ei hun, wrth yr hwn y dywedodd ei gwyn. Gofynodd hwnw iddo, am ba beth yr oedd yn cael ei droi allan, ac atebai Parry, mai am dderbyn pregethu i'w dy. "Onid gwaith da yw hyny," ebe Foulkes, "Nid oes genyf yn awr un ty gwag i chwi, ond gan eich bod yn saer, os codwch dŷ, mi a osodaf le i chwi, a thir, mewn rhwymiad." Felly efe a gymerodd bedwar cae ar lan afon Deunant, lle y mae Capel Tan y Fron yn sefyll yn awr, tua dwy filltir o Lansannan. Yno yr adeiladodd dŷ gyda brys, a bu rai nosweithiau ynddo, cyn ei wydro na'i orphen. Yr oedd darn serth o dir cyffredin uwch ben, a elwid, y "Fron Ddafydd," o herwydd pa ham, y galwyd ei aneddle ef, "Tan y fron," hyd y dydd hwn. Tu a'r amser hwn daeth Howell Harris i gynyg pregethu yn Ninbych, ond ymlidiwyd ef ymaith. Yr oedd gwraig yn byw mewn lle a elwir Brynanllech wedi cael ei thueddu at grefydd, a chafodd honno fel yntau, ran o chwerwder yr erlidigaeth. Un Sabbath ar ol i'r ystormydd erlidgar gael eu codi yn erbyn yr hen bregethwyr, Lewis Evan, Howell Harris, Edward Olifer, ac eraill, daeth un i bregethu i le yn Ystryd Henllan, ac yr oedd Edward Parry, a gwraig y Brynanllech yn bresenol. Daeth yr erlidwyr yno, gan gau o'u hamgylch, a'u hymlid i ffordd Nantglyn, gan eu dirmygu yn mhob modd. Tynasant y wraig oddiar ei cheffyl, gan rwygo ei dillad; ond dygwyddodd i foneddwr ddyfod y ffordd honno, a gofynai, paham y gwnelent felly a'r wraig, i'r hyn yr atebent, "Mai putain ydoedd hi." Ceryddodd hwy, ac anogodd y wraig i fyned at y swyddwyr priodol, a'u cospi. Felly y cawsant lonyddwch y pryd hwnw. Dro arall, cawsant driniaeth arw ar ffordd Llansannan. Tua llidiard Gwaenynog, ymaflodd yr erlidwyr yn Edward Parry, gan geisio ganddo ymladd, ond efe a wrthododd y fath beth. Wedi iddo symud o Danyfron i Brynbugad, y pen arall i'r plwyf, derbyniai Margared Huws, Brynanllech ambell oedfa, a chyfarfod gweddi i'w thy, am yr hyn y tynodd yn ei phen anfoddlonrwydd mawr; ac ar anogaeth offeiriad y plwyf, taflodd y meistr tir hi allan o'i thŷ; a bu raid iddi hi a'i dodrefn, a'i hanifeiliaid, fod ar y mynydd, dan ryw fath o gysgod, hyd ddiwedd y flwyddyn; a byddai Edward Parry a'i gyfeillion yn myned yno i gynal ambell gyfarfod crefyddol. Pan ddaeth ystorm yr ymrafael rhwng Howell Harris a Daniel Rowlands yn nghylch rhyw bynciau athrawiaethol, yr oedd Parry wedi dechreu pregethu er ys blwyddyn neu ddwy, ac yr oedd Huw Dafis, brawd ei wraig, wedi ymuno â Howell Harris, ac yn myned drwy y wlad i gynghori y bobl i fyned i Drefecca; ac fe aeth llawer o Lansannan a manau eraill yno. Ond nid a'i Edward Parry yno er dim, er ei fod yn parhau yn gadarn gyda phlaid Harris, gan dderbyn ei ddilynwyr i'w dy, tra y parhasant i ddyfod drwy y wlad; ond yr oedd ef ei hun wedi peidio pregethu. Ei dad hefyd oedd yn derbyn pobl Rowlands. Yr oedd y nifer fwyaf o'r pregethwyr yn y Deheudir, wedi glynu gyda Rowlands, a'r nifer fwyaf yn y Gogledd, gyda Harris. Y pryd hwn, aeth Edward Parry at Eglwys Loegr; a thybiodd offeiriad y plwyf ei fod wedi cael ei lwyr adferu, am hyny, efe a'i gwnaeth ef yn warcheidwad eglwysig; a thrwy ei fod yn byw yn mhell oddiwrth yr eglwys, efe a ddarllenai wasanaeth yn ei dy ei hun ar brydnhawn Sabbathau, gan esbonio y Salmau, a'r llithiau penodedig. Yr oedd llawer o chwareuon a dawnsio yn cael eu cynal y pryd hwn ar y Sabbath, yma ac acw drwy y plwyf; a phan gaffai Edward Parry wybod am danynt, efe a gynhaliai wasanaeth mewn tŷ gerllaw iddynt; ac felly llwyddodd i'w dileu i raddau mawr. Yn 1763, bu farw ei wraig. Yr oedd yr ail ddiwygiad yn dechreu yn wan y pryd hwn yn y Deheudir, ac yn sir Gaernarfon; a derbyniodd Edward Parry bregethwyr ieuaingc o'r sir honno, a manau eraill i'w dy. Yn mhen dwy flynedd wedi claddu ei wraig, yn 1765, priododd ei ail wraig; ac yr oedd wedi ail-ddechreu pregethu ychydig cyn hyny; a'r Sabbath wedi ei briodas, daeth gwr dieithr i bregethu i Brynbugad; a'r un noswaith yr oedd yntau yn pregethu yn nhy ei wraig. Tu a'r amser hwn, daeth Mr. Huws, offeiriad o'r Ysbyty, trwy y wlad i bregethu, yr hwn a elwid hefyd "Huws o Sir Fon;" a chafodd dderbyniad i'r Arllwyd, ty ail wraig Edward Parry, yr hwn le oedd yn gyfagos i derfynau Llansannan, Llannefydd, a Henllan. Taenwyd y son am hyn drwy yr holl wlad, a daeth y fath dorf yn nghyd, fel y bu raid i Mr. Huws bregethu yn yr ysgubor. Wrth hyn, digiodd offeiriad plwyf Llansannan yn fawr, ac anfonodd at offeiriad Henllan, yr hwn oedd yn feistr tir iddo, a bwriwyd ef allan o Arllwyd, a phreswyliodd yn Mrynbugad. Yn 1767, aeth y diwygiad yn mlaen yn nerthol iawn. Ffurfiwyd Cymdeithas eglwysig yn Brynbugad, yr hon a gynhelid bob nos Iau. Dyma y gyntaf yn y cymydogaethau hyn. Torodd allan ar hyn, i bregethu yn mhob man ag y gallai gyrhaedd, gyda llwyddiant mawr. Pregethodd yn Petmal, Brynhafod, Nant-glyn, a Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd. Yr oedd o wybodaeth eang, ac yn ysgolhaig hunan-ddysgedig o gryn enwogrwydd. Cyfieithodd y "Traethawd ar y Ddau Gyfamod." Cyfansoddodd amryw emynau, a marwnadau, ond ni argraphwyd *casgliad* o'i waith. Pregethodd weithiau yn Llundain, a manau eraill yn Lloegr. Ni bu ei afiechyd yn faith. Cwynai dan ddolur y gareg, a'r lledewigwst. Bu clefyd trwm yn Llansannan, yr hwn a'i daliodd yntau o'r hwn y bu farw Medi 16, 1786, gyda y dystiolaeth hon ar ei wefus, "Ffyddlon yw yr hwn a addawodd." Claddwyd ef yn mynwent eglwys blwyfol Llansannan, gyda chofion bendigaid ar ei ol.

**PARRY**, John, o Gaerlleon, oedd enedigol o Sir Gaernarfon, yn y flwyddyn 1775; ac o herwydd bywiogrwydd a grym ei alluoedd, ymdrechodd ei dad i roddi mwy o fanteision dysgeidiaeth iddo ef, nag oedd dynion ieuangc o'i sefyllfa yn arfer gael, yn enwedig yn y blyneddoedd hyny. Pan yn ddwy ar bymtheg oed, ymwelodd Duw âg ef drwy ei ras; ac yn fuan ymunodd a'r Trefnyddion Calfinaidd. Parai ei ragoroldeb mewn doniau a duwioldeb, i'r dyn mwyaf llygadog ac ysprydol yn eu mysg, ddechreu darogan am dano ef, ac eraill o'i gyfoedion, fod iddynt rywbeth mwy na chyffredin i'w wneuthyr yn ngwinllan eu Harglwydd; ac felly, yn ol proffwydoliaethau oeddynt wedi cerdded o'r blaen am

Digitized by Google

dano ef, dechreuodd yn lled gynar yn ei oes ar waith y weinidogaeth. Wedi ei arwain o amgylch, o fan i fan yn y dywysogaeth, gan gadw ysgol dros ryw dymor, dygodd rhagluniaeth ef i Gaerlleon, lle y bu yn myned i mewn ac allan, o flaen y praidd, mewn cymeradwyaeth a pharch mawr, dros ddeugain mlynedd. Yr oedd yn wr o feddwl gwastad, o dymer gymdeithasol, ac o arferion da. Ar y pryd hwn, tybid fod math o ddwysder meddwl, mewn cysylltiad a gordynerwch ei deimladau, yn peri fod ei yspryd yn ddarostyngedig i gythruddo, pa bryd bynag y cyfarfyddai âg ymddygiad haerllug, neu wrthwynebiad disymwth gyda yr achos a fyddai ganddo mewn llaw; ac os na safai yn ddewr dros ei bwnc, eisteddai i lawr, efallai yn ddigofus weithiau; pa fodd bynag, yn drist ac archolledig ei feddyliau. Hawdd er hyny, ydoedd i'r doeth ei enill, os nad i'r cyfrwysgall ei gamarwain ar rai achlysuron; a thueddir rhai i feddwl, er ei fod yn gall fel y sarph, yn gystal a diniwaid fel y golomen, eto fod y rhinwedd olaf yn gorbwyso y llall yn ei gymeriad. Mae enw a nodwedd Mr. Parry mor hysbys trwy yr holl dywysogaeth, fel gweinidog parchus, pregethwr llafurus, ac awdwr hyfedr, fel nas gellir yn yr erthygl hon wneud ei enw yn fwy hysbys. Bu yn argraphydd, ac yn olygydd i "Oleuad Cymru," am flyneddoedd lawer; a dygai y Cyhoeddiad hwnw yn mlaen yn fedrus, er coethi chwaeth ei genedl, pan yr oedd yn llawer tlotach o ran misolion nag ydyw yn awr; ac o ufudd-dod i gais ei frodyr, rhoddodd y Goleuad i fynu, fel y dygai hen gyhoeddiad y Methodistiaid, sef y Drysorfa, yr hon a ataliesid am flyneddoedd cyn hyny, yn mlaen yn fisol; a mawr fu ei ofal hyd ei farwolaeth, am wasanaethu ei frodyr yn hyn, fel mewn pethau eraill, hyd y gallai. Yr oedd Mr. Parry yn sylwgar iawn ar arwyddion yr amserau, a myfyriai lawer ar lyfr y Datguddiad. Hanesion am lwyddiant y Genhadaeth, a wnai i'w enaid sirioli ynddo; ac yr oedd yn dwyn y fath eiddigedd cryf dros ledaeniad achos y Gwaredwr yn mhellderau y byd, nes y meddylid weithiau ei fod yn barod i ymgyflwyno i'r gwasanaeth ei hunan, hyd oni orfodid ef i ddywedyd, "Ond, wel, wel, yr wyf fi yn rhy hen." Pan glywodd gyntaf am y "Cyngrair Efengylaidd," bu yn destyn gorfoledd i'w yspryd, a dywedai yn fynych, mai dechreuad dyddiau hafaidd y mil blyneddoedd oeddynt, a phriodas y sectau gwahanol, er dinystrio y butain Rufeinig. Edrychai ar ledaeniad Puseyaeth, ac egniad Pabyddiaeth at adfeddianu y wlad, gyda galar a thristwch; a mawr oedd ei awyddfryd, os gwelai yr Arglwydd yn dda estyn ei ddyddiau, i ysgrifenu "Holwyddoreg," a llyfrau bychain eraill, er ymdrechu gwrthweithio y lefain oedd yn dechreu suro y wlad. Llywodraethai ei holl achosion wrth farn, gan brynu yr amser, drwy fore godi, ac arfer diwydrwydd. Os nad ydym yn camgymeryd, un o'i ragoriaethau gyda negeseuau y bywyd hwn, ydoedd y rheoleidd-dra, a'r manyldra hwnw yn eu dygiad yn mlaen, pa un a'i dysgai i gadw pob peth yn ei le priodol, ac i wneuthyr pob peth yn ei iawn bryd. Mewn gair, dyn i'r mynud oedd, yn nghyflawniad ei holl orchwylion, fel na welid ef braidd byth yn colli y cerbyd trwy ddiofalwch, yn tori amod a'i gwsmeriaid, nac yn dwyn ei lythyr yn rhy ddiweddar i'r llythyrfa. Ei gas bethau oeddynt athrod ac enllib, ac oddiar wir ofn anghydfod, byddai ambell waith fel yn awyddus i osgoi testynau ymrafaelion, pan fe ddichon y byddai angenrheidrwydd am eu trafod; prysurai rhagddo at ryw fater arall, ac nid anfynych y triniai hwnw, gyda y fath londer a difyrwch, nes gwneud pawb, o leiaf am y tro, yn rhy ddigrifol a hapus i ymrafaelio a'u gilydd. Yr oedd tymer ei yspryd fel olew esmwyth, yn lleddfu teimladau blinion y galon, ac yn dirymu dyn i feddwl ymladd âg ef. Nid ydym yn meddwl fod hynodrwydd mawr ar ei feddwl o ran eangder na threiddgarwch, ac eto, yr oedd rhyw neillduolrwydd yn perthyn iddo; gosodai ei ddelw ar ei holl gynyrchion; pa un bynag a wnelai ai pregethu ai ysgrifenu, yr oedd rhywbeth gymaint o hono ef ei hun yn ei holl waith, fel yr oedd yn hawdd ei adnabod. O ran ei gymeriad gweinidogaethol, yr oedd yn dwyn mwy o synwyr a phwyll y dyn, a mwy o amynedd a ffyddlondeb yr ŷch, nac o wroldeb y llew, na threiddgarwch a hediadau cyflym ac uchel yr eryr. Eglurhau a dysgu oedd ei amcan ef. Nid bob amser, fe ddichon, yr edrychai ar bob ochr i'r pwnc, eto ni fethodd un amser a'i ddeall. Y pethau a drinid mor fedrus a goleu ganddo, fel y gwelid ei amcan yn ddigon eglur. Yr oedd ganddo ddawn arbenig i ddeongli geiriau y Bibl, ac i drin ei hanesion santaidd, er buddioldeb i'r rhai a'i gwrandawent. Dygai allan ei addysgiadau ar brydiau felly, drwy siarad a'r gwahanol bleidiau, y cyfeirid atynt yn ei destyn, a gwnai iddynt hwythau siarad âg yntau, ac a'u gilydd; a thra yr ymgomiai yn y modd yma ger bron ei wrandawyr, arferai gyfaddasu ei lais, dull ei wyneb-pryd, a holl ysgogiadau ei gorph, mor berffaith at yr amgylchiad, nes y byddai yr holl hanes yn olygfa fywiol o flaen eu dychymyg, a'u meddyliau ar unwaith yn derbyn difyrwch, ac adeiladaeth. Prif bynciau ei weinidogaeth oeddynt, cyflwr andwyol, a hollol lygredigaeth natur dyn drwy y cwymp; iachawdwriaeth pechadur o benarglwyddiaeth a gras Duw, trwy gnawdoliaeth ac iawn yr Emanuel; cyfiawnhad drwy ffydd, a gwaith yr Yspryd Glan. Yr oedd y ddeddf a'r Efengyl yr cael eu lle priodol yn ei weinidogaeth. Tra y gofalai am roddi arbenigrwydd dyladwy i brif bynciau yr athrawiaeth iachus, gofalai hefyd am bethau oedd yn gweddu iddi, trwy egluro ac argymell dyledswyddau crefydd. Bu farw, Ebrill 28, 1846, yn 71 oed. Claddwyd ei gorph yn mynwent *St. John*, Caerlleon, y dydd Gwener canlynol.

**PARRY**, John Humphreys, ydoedd henafieithydd dysgedig, ac ysgrifenydd galluog, a anwyd yn y Wyddgrug, yn sir Fflint, yn y flwyddyn 1789; ei dad ydoedd beriglor y plwyf oedd ar y terfyn, sef Llanferras. Wedi derbyn ei addysgiaeth yn y brif athrofa, daeth yn aelod o'r "*Temple*," yn y flwyddyn 1807; ac mewn amser priodol, galwyd ef i'r llys dadleuol, sef yn y flwyddyn 1810. Cyrhaeddodd i sefyllfa o enwogrwydd mawr yn ei swydd, a chymeradwyaeth y cyhoedd. Derbyniodd gryn glod am ei waith yn cyfansoddi, ac yn cyhoeddi y "Cambro Briton," cylchgrawn ag oedd yn cynnwys llawer o adroddiadau gwerthfawr, o berthynas i hanesiaeth a henafiaeth Cymru. Daeth allan yn rhifynau misol, yn dair cyfrol wythplyg, y rhai a orphenodd yn fuan wedi y flwyddyn 1820. Y Llyfr nesaf, o'i gyfansoddiad, ydoedd y "Cambrian Plutarch," yn cynwys cofiannau, a nodiadau ar lafur yr enwogion canlynol, sef Arthur, Aneurin, Taliesin, Llywarch Hen, St. Dewi, Asser Menefensis, Hywel Dda, Rhys ab Tewdwr, Owain Gwynedd, Giraldus Cambrensis, Llewelyn ab Gryffydd. Dafydd ab Gwilym, Owain Glyn-

Digitized by Google

dwr, Syr Rhys ab Thomas, Humphrey Llwyd, Dr. John Dafydd Rhys, yr Esgob Morgan, Dr. John Dafis, Edward Llwyd, Lewis Morus, Thomas Pennant, Ysw., a'r Parch. Peter Roberts. Yr oedd hefyd yn awdwr amryw dreithodau arobryn; a phenodwyd ef yn olygydd gweithiau Cymrodorion Caerludd, a daeth y gyfrol gyntaf allan dan ei olygiaeth ef. Cafodd Llenyddiaeth ei wlad golled fawr, yn ei angau cynamserol, yr hyn a gymerodd le yn Llundain, ar y 7fed o Chwefror, 1825, trwy law lofruddiog, ar un o heolydd y brif ddinas. Gadawodd wraig a phump o blant i alaru ar ei ol. Y modd y collodd ei fywyd oedd, trwy i ddyn meddw ei daro i lawr ar yr heol, pryd y syrthiodd ar ei ben yn erbyn y palmant, fel y bu farw yn y fan. Brawd iddo ef oedd y Parch. Thomas Parry, D.D. yr hwn oedd yn esgob Barbadoes, yn y flwyddyn 1852.

**PARRY,** Moses, Dinbych, oedd weinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd yn sir Ddinbych. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1785. Ystyrid ef gan y cyhoedd, fel gwr o synwyr cryf, ac yn meddu ar lawer o bwyll a doethineb, gyda chryn radd o gyfrwysder naturiol. Yr oedd yn arfer ei gallineb weithiau can belled, nes peri i rai amheu cywirdeb ei ddybenion; ond nid oedd yr un achos gwirioneddol am hyny. Byddai yn arafaidd wrth amlygu ei fwriadau i eraill, a cheid allan, pan yr adnabyddid ef yn drwyadl, ei fod yn deilwng o'r ymddiried llwyraf. Yr oedd ei uniondeb ef bob amser yn ddi-fwlch. Yr oedd dynoliaeth yn ei chyflawnder ynddo, ac yr oedd ei gynghorion yn wastadol yn deilwng o dderbyniad a hyder. Yr oedd ei Gristionogaeth hefyd uwchlaw amheuaeth. Yr oedd llawenydd, a digrifwch, yn berffaith naturiol iddo. Cadwai bawb eraill yn yr un teimlad o hyfrydwch diddan, mor hawdd ag y chwareua telynor ei dannau; ac yr oedd ganddo ddawn i gadw hyny o fewn terfynau purdeb ar bob amgylchiad, fel nad ymylai byth ar un dymher lygredig. Ond pan yr elai at wasanaeth y cysegr, yr oedd yn cwbl ymryddhau oddiwrth bob ysgafnder, ac yn arddangos y difrifoldeb mwyaf diffuant. Yr oedd ei weddiau, a'i ymddiddanion yn yr eglwys, yn gystal ag yn nghyfeillach yr aelwyd, yn deilwng o Gristion; ac yr oedd y dull tawel yn yr hwn y daethai trwy brofedigaethau chwerwon bywyd, a rhai o honynt oddiwrth frodyr, yn dwyn tystiolaeth dros burdeb ei dduwiolfrydedd; ac yr oedd ganddo y fath hunan-feddiant ar ei deimlad, fel nad ymollyngai byth i nwyd o fyrbwylldra. Bu yn achos o syndod i lawer am ei gydwybodolrwydd gyda phethau crefyddol. Llawer gwaith yr elai i'r cyfarfod misol, chwarterol, &c.; ac i'r cyfarfodydd cartrefol, ac i ymweled ag eglwysi bychain o fewn ei gyrhaedd, yn unig er mwyn gwasanaethu achos y Gwaredwr; a hyny yn barhaus hyd ddiwedd ei dymor. Yn y flwyddyn 1838, penderfynwyd yn Nghymdeithasfa y Bala, ar fod i'r Parch. Henry Rees, a'r Parch. Moses Parry, fyned i'r America, i dalu ymweliad, âg eglwysi y Trefnyddion yn y wlad honno, yn unol â thaer erfyniad y cyfeillion yno. Felly, cychwynasant o Lerpwll, Ebrill 20ed, 1839. Cawsant lawer o diriondeb ar y fordaith, a chyrhaeddasant New York yn ddiogel. Teithiasant lawer o ganoedd o filltiroedd wedi cyrhaedd yno, dan lawer o anfanteision, na wyddid nemawr am danynt yn Nghymru; ond er pob tywydd, cadwai Mr. Parry ei feddwl i fynu yn wrol, drwy ymnerthu yn ei Dduw. Ysgrifenai adref yn fynych oddiyno; a chychwynasant ar eu dychweliad Awst 25ain. Ymddengys i'r ymweliad hwn fod yn lles mawr i eglwysi yr enwad yn America. Teithiodd yno 2292 o filltiroedd, mewn naw wythnos a dau ddiwrnod. Bu yn glaf iawn yn ysdod y daith, dan glefyd yr afu, ond gofalodd rhagluniaeth y nef yn rhyfedd am dano, a dychwelodd ef yn iach i wlad ei enedigaeth. Yr oedd yn gyfaill ffyddlon a chywir; agorai ei feddwl mewn cyfrinach, a derbyniai gyfriniaeth, a chadwai hi yn gysegredig. Yr oedd yn ochelgar yn ei ddewisiad o gyfaill, ac wedi ei gael, nid oedd berygl ymadael âg ef. Yn oedd yn gwbl deilwng o'i swydd fel un o weinidogion y Testament Newydd, yn holl ranau y gwaith. Dywedai gwr o Lundain am dano, wedi iddo fod yno y waith gyntaf, "Ni bu yma neb, ag y gallwn gofio am dano, a dawn mor fuddiol a bendithiol a chymeradwy yn y gyfeillach, â Moses Parry, a Mr. Elias o Fon." Dywedai y Parch. T. Jones, o Ddinbych gynt, am dano, "Moses Parry ai piau hi o ddigon am weddio, holi yr ysgolion, a chadw y gyfeillach eglwysig." Llywyddai yn fedrus iawn yn y cyfarfodydd misol, a manau eraill. O ran ei agweddiad corphorol, yr oedd yn lled dal, a chorphorol; o arddull lluniaidd, safiad syth, a heinif o ysgogiad; ac wedi lled foeli, a britho yn ngwallt ei ben. Yr oedd yn Gristion dichlynaidd, ac ni allai oddef gweniaith. Hyderai mewn gwirionedd mor drwyadl, fel nad ofnai draethu ei feddwl yn agored. Ymlynai yn ffyddlon wrth yr egwyddorion a gredai. Ymddangosai bob amser yn gyhoeddus, yn ei ddoniau priodol ei hun. Bu farw yn addurn i grefydd. Yr oedd ei weinidogaeth yn wir ddefnyddiol, a'i bregethau yn dra adeiladol. Dangosodd arwyddion llafur ac efrydiaeth ymroddgar yn ei gylch, can belled ag yr oedd ei amgylchiadau bydol yn caniatau. Yr oedd adeiladaeth yr eglwysi yn fwy yn ei olwg, na molawd y cyhoedd. Fore Sabbath, Chwefror 11eg, 1855, cymerwyd ef yn glaf; cwynai o herwydd anhwyldeb yn ei ymysgaroedd, a methai fyned i'w gyhoeddiad. Boreu dydd Llun, ciliodd ei afiechyd, a thybid ar y pryd, fod y perygl drosodd: yr oedd yn gallu myned o amgylch ddyddiau Llun, a Mawrth, fel arferol; ond bore Mercher, ail ymosododd ei afiechyd arno, a bu farw y nos Iau ganlynol, yn ffydd yr efengyl a bregethodd cyhyd; a'i ymddiried ar y Gwaredwr a arganmolai mor gynes i eraill.

**PARRY,** Richard, D.D., ydoedd un o'r wyth esgobion, a urddwyd yn olynol i Lanelwy. Efe oedd fab henaf, ac etifedd John Parry, o Bwllhaulog, yn Rhuthin, sir Ddinbych, ac yno ei ganwyd, yn 1560. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster dros amser, dan hyfforddiant yr hanesydd enwog Camden; ac oddi yno, dewiswyd ef yn efrydydd yn Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1579. Mynega Wood yn yr "Athenæ Oxonienses," ac esgob Humphreys yn ei Attodiad i'r unrhyw; iddo fod dros ryw ysdod o amser, yn brif athraw ysgol Rhuthin; ond y mae hyny yn amheuus, fel y deallir oddiwrth Newcome's *Memoir of the Goodmans;* eithr iddo fod yn isathraw yno, sydd fwyaf tebygol. Yn y flwyddyn 1592, gwnaed ef yn Gangellydd Bangor; a chafodd ficeriaeth Gresford yn yr un flwyddyn; ac yn 1599, gwnaed ef yn ddeon Bangor, wedi ei raddio yn D.D., y flwyddyn flaenorol. Pan esgynodd y brenhin Iago i orsedd Lloegr, gan y meddyliai yn uchel am ddysgeidiaeth Dr. Parry, efe a'i dyrchafodd ef i esgobaeth Llanelwy, ac urddwyd ef Rhagfyr 30n,

Digitized by Google

1604. Bydd enw yr esgob Parry fyth yn barchus gan y Cymry, fel awdwr y cyfieithiad diwygiedig o'r Bibl, yr hyn a gymerodd arno ei hun i'w gyflawni yn hollol ddigymhelliad gan neb arall, er llesiant ei gydwladwyr, ac nid oes neb yn amheu nad oedd yn dra chymwys at y gorchwyl. Argraffwyd y Bibl hwn yn un gyfrol unplyg, yn y flwyddyn 1620; a chynnwysa gynnifer o wahaniaethau a diwygiadau, fel y mae yn amheus na ddylid ei ystyried yn gyfieithiad newydd trwyadl. Gyda golwg ar y gwahaniaeth rhyngddo a chyfieithiad y Doctor Morgan, efe a ddywed, "Quædam cum prædecessoris laude retinui; quædam in Dei nomine mutavi atque sic compegi, ut et hic sit αμφιδοξουμενον καρδειγμα, et dictu sit difficile, num vetus an nova Morgani an mea, dicenda sit versio." Nid oes amheuaeth na phery y cyfieithiad Cymreig hwn o'r Bibl, yn gymeradwy gan y genedl; a dyma yr un a ystyrir yn awdurdodedig. Nid ydym yn awgrymu wrth hyn, nad oes le i ddiwygiadau ynddo, a dichon fod cyflwr presenol ein llenoriaeth yn galw am hyny; ond byddai yn anhawdd cytuno ar benodiad neb ag y gellid ymddiried hyny iddo; ac felly ar y cyfan, dichon mai ei adael fel y mae sydd oreu. Y mae rhai wedi anturio dywedyd, a chyhoeddi, nas gellir yn briodol ystyried y Dr. Parry yn un o gyfieithwyr y Bibl; o blegid na wnaeth efe ond cyhoeddi ail-argraffiad o Fibl Dr. Morgan; yr hwn a gyfnewidiodd mewn amryw fanau, ac a ddiwygiodd mewn manau eraill. Cynorthwywyd ef yn hyn, gan y Dr. John Davies, o Fallwyd, ei gaplan. Mae y cyflwyniad i'r brenhin Iago I., wedi ei ysgrifenu yn y Lladin, gan yr esgob Parry. Bu yr Esgob Parry farw yn ei dy ei hun yn Dyserth, yr hwn a feddianai fel arch-ddeon, Medi 26n, 1623; a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeiriol ei hun, heb yr un cerfiad, na chofadail ar ei ol. Y flwyddyn cyn ei farwolaeth, efe a drefnodd fod chwe-phunt y flwyddyn i'w talu o'i ystad, gan ei fab Richard, a'i etifeddion dros byth, tu ag at gynal ysgolor tlawd yn Ngholeg Iesu, Rhydychain, a fyddai yn enedigol o dref Rhuthin, neu esgobaeth Llanelwy. Wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd yn ei enw, "Consio ad clerum," ar Datguddiad iii. 4—1628, wythplyg. Y mae coffadwriaeth y Dr. Parry yn aros yn fendigedig gan ei genedl.

**PARRY, THOMAS**, oedd weinidog gyda y Bedyddwyr, yn Olchon, sir Frycheiniog. Yr oedd yn gyfaill mawr i Mr. Vavasor Powel, ac arferai fyned gydag ef ar droion, yn ei deithiau pregethwrol. Yr oedd yn preswylio mewn lle a elwir y Wenallt. Cedwid addoliad yn ei dy, yn amser peryglus yr erlidigaethau. Dywedir iddo yn ei ieuengctid, gael ei gystuddio â chlefyd trwm. Cafodd unwaith freuddwyd am y byd ysprydol, a adawodd argraph ddifrifol ar ei feddwl. Bu yn ffyddlon fel Cristion, a gweinidog, am dymor maith. Yr oedd yn bresenol yn Nghymanfa y Fenni, yn 1653; ac yn Llanwenog 1705. Bu farw mewn oedran teg, o ddeutu 1709. Yr oedd yn amaethwr, o ran ei alwedigaeth fydol, ac o blegid hyny, anfynych y teithiai yn mhell o gartref. Ystyrid ef yn ddyn o gymeriad prydferth, yn cael gair da gan y cyhoedd, yn holl gylch ei adnabyddiaeth.

**PARRY, WILLIAM, LL.D.**, ydoedd wr o gryn enwogrwydd, yn amser teyrnasiad y frenhines Elizabeth, ac yn frodor o Laneurgain, swydd Gallestr. Mynega ei hun mewn llythyr at Arglwydd Burleigh, ei fod yn fab i foneddwr, o deulu henafol, yr hwn oedd dad i ddeg ar hugain o blant, o ddwy wraig, ac a fu farw yn gant ac wyth mlwydd oed; ac mai ei fam oedd Conwy, o Boddryddan. Mewn bywgraphiad cyhoeddedig gan ei elynion, yn fuan ar ol ei ddienyddiad, gwedir yr ymhoniad ymffrostgar uchod, a dywedir iddo ddisgyn o linach eithaf dinod. Bod ei dad, enw yr hwn oedd Harri ab Dafydd, yn cadw gwesty cyffredin yn Northop, neu Laneurgain. Rhwymwyd ef ar y cyntaf, yn egwyddorwas gyda chyfreithiwr yn Nghaerlleon Gawr, oddiwrth yr hwn y ffodd ymaith, ac yr aeth i Lundain, i weled pa ffawd a'i dilynai. Ar ol llawer o anhawsderau, efe a lwyddodd i gael lle yn nheulu Iarll Penfro; ac yno yr arhosodd hyd farwolaeth y pendefig hwnw, yn 1569. Gan ei fod yn meddu ar alluoedd lled dda, byddai ar waith mewn rhyw bethau cyhoeddus, anhysbys o ran eu natur; er y gwnelid crybwylliad mynych o'r ffaith yn ei ohebiaethau ag Arglwydd Burleigh. Yn y cyfamser, graddiwyd ef yn LL.D.; a chan fod ei wraig wedi marw, efe a briododd weddw gyfoethog, ac a wasgarodd ei meddianau, gan fyw yn afradlon, nes dwyn ei hun i angen a chaledi. Yn 1588, cyflawnwyd gweithred dreisiol ar foneddwr o'r enw Hare; un o'i ofynwyr, yr hyn a barodd iddo adael Lloegr, a myned i Ffraingc, gan gael ei achub rhag canlyniadau ei gollfarniad drwy faddeuant a gafwyd iddo, yn ol erfyniadau ei gyfeillion. Tra yn Ffraingc, yr oedd yn gweithredu fel casglwr gwybodau dirgel dan Arglwydd Burleigh, yr hwn yr oedd ganddo gryn ymddiried ynddo. Dywedir fod ei alwedigaeth yn awr fel ysbiwr, yn un o'r rhai mwyaf iselwael a chywilyddus; a thrwy ei wneud ei hun yn adnabyddus o ddirgelion y Pabyddion Seisnig yno, efe a'u bradyddai yn y man. Modd bynag, enillid ef o'u tu gan y Pabyddion Rhufeinig; a chan ddychwelyd i Loegr yn gynar yn y flwyddyn 1583, yr ydym yn ei gael yn eistedd yn Nhy y Cyffredin, fel aelod dros Queenborough, ac yn gwrthwynebu yn egniol arferu llymder ychwanegol tuag at y Catholiciaid Rhufeinig. Taflwyd y Ty i gymaint syndod wrth haerllugrwydd ei araith, fel y traddodwyd ef i ofal arfswyddwr y brenhin; ond rhyddhawyd ef dranoeth ar gais y frenhines, yr hon a ddywedai ei fod wedi traethu ei barn hi i raddau yn foddhaol. Yn mhen chwech wythnos ar ol hyn, traddodwyd ef i'r Tŵr, dan y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth; amcanu cyd-lofruddio y frenhines; am yr hyn y profwyd ef yn Westminster, Chwefror 25, 1584. Wedi ei hudo i wneud cyffesiad, mewn gobaith o gael maddeuant, cafwyd ef yn euog, a chyda'r llymder mwyaf, ar yr ail o Fawrth canlynol, gweinyddwyd y ddedryd arno yn Nghefn Palas Westminster. Er cyffesiad Dr. Parry, y mae sail gref i amheu, a fwriadodd efe erioed yn ddifrifol, i lofruddio y frenhines; ac efe a wadai hyny yn y dull mwyaf dwys a phendant yn y dienyddle.

**PARRY, WILLIAM**, ydoedd arluniwr o gryn enwogrwydd, a anwyd yn 1742. Derbyniodd ei addysgiadau cyntaf yn y gelfyddyd, mewn arlunfa yn athrofa Shipley. Wedi hyny, bu yn astudio oddiwrth y darluniadau plastr, yn oriel y Duc Richmond. Fel na byddai dim yn niffyg o gyflawniad ei addysg yn y gelfyddyd, efe a aeth yn efrydydd dan Syr Joshua Reynolds; a thua'r un amser derbyniwyd ef i athrofa St. Martin's Lane. Wedi derbyn amryw obrwyon gan y Gymdeithas er cefnogaeth Celfyddyd, galluogwyd ef trwy nawdd a

Digitized by Google

haelfrydedd Syr Watcyn William Wynn, Barwn, i ymweled a'r Eidal, lle yr arosodd o 1770 hyd 1775; ac yn ystod yr amser hwn, efe a baentiodd adlun o'r "Gweddnewidiad," gan Raphael. Yn 1776, dewiswyd ef yn gymrodor o'r athrofa freiniol; ond gan na chaffai waith, fel y dysgwyliasai, yn Llundain, efe a ddychwelodd i Rufain, lle yr arhosodd dros lawer o flyneddoedd, gan fod mor llwyddianus ag y dymunai. Yn 1791, gorfuwyd ef gan afiechyd, i ymweled a'i wlad enedigol, lle y bu farw, Chwefror 13, y flwyddyn honno. Yr oedd William Parry yn fab i John Parry, o Ruabon, sir Ddinbych, yr hwn a adnabyddid yn gyffredin wrth yr enw, "y Telynor Dall clodfawr." Efe oedd y cyntaf yn mhlith ei gydoeswyr a fedrai chwareu yn unigol, neu yn gyngherddol, ar y delyn deir-rhes Gymreig, offeryn a fuasai yn ngholl yn hir i'r byd Seisonig, adferiad yr hon sydd ddyledus i athrylith a diwydrwydd y chwareuydd cywrain hwn. Bu yn delynor i'r Barwniaid Syr Watcyn William Wynn, y cyntaf, a'r ail. Efe a gyhoeddodd, Gyfrol o Alawon Cymreig; mewn cydweithrediad â thelynor arall o'r enw Evan Williams. Bu farw John Parry, yn Rhuabon, yn 1782.

**PARRY,** WILLIAM, ydoedd athraw duwinyddol coleg Wymondly, yr oedd yn enedigol o Abergafeni, sir Fynwy. Symudodd oddi yno gyda ei dad i Lundain, lle y sefydlodd gyda ei deulu. Wedi hyny cafodd dderbyniad i athrofa Homerton, lle y dylynodd ei gylch o efrydiaeth i'r weinidogaeth gyda diwydrwydd mawr. Ar ol arosiad o chwe blynedd yn y sefydliad hwnw, galwyd ef i'r swydd weinidogaethol yn Little Badrow, Essecs. Daeth yno yn oleuni dysglaer, ac am lawer o flyneddoedd, llanwodd gyfwng eang ysgolhaig y cyhoedd yn mhlith yr Ymneillduwyr yn y parth hwnw o'r deyrnas, fel gweinidog o ddoniau o'r radd uchaf, y rhai a gysegrodd at amcanion crefydd ddifrifol ac efengylaidd. Ei nodwedd oedd yr eiddo gweinidog ffyddlon a doeth yr efengyl, yn llafurio yn ddiwyd yn ei gylch. Yr oedd yn hynod am eglurder, ac yn meddu gwahanol wybodaethau, a dwfn ddysgeidiaeth. Wedi dal y swydd hon am agos i ugain mlynedd, efe a symudodd i Wymondly, Herts, i gymeryd arno y swydd bwysig o brif athraw, yn y coleg oedd wedi ei sefydlu yn Northampton, er dyddiau Dr. Doddridge, yr hwn oedd yn awr wedi ei dori i fynu, fel y byddai iddo gael ei adsefydlu mewn lle newydd, gyd ag athrawon gwahanol. Yr oedd Mr. Parry wedi cwbl gymhwyso ei hun at y swydd hon, o blegid ei alluoedd a'i ddysgeidiaeth, yn gystal ag ymlyniad goleuedig a sefydlog wrth wirioneddau yr efengyl. Yr oedd llafur y sefyllfa hon, yn dyfod yn bwysig ar ei natur, mewn canlyniad i'w efrydiaeth ddyfal foreuol, nes y llesghaodd ei gryfder, ac yr anmharwyd ei iechyd. Bu farw yn orfoleddus, Ionawr 8, 1819, eto bu hyny er mawr alar i'w gyfeillion lluosog.

**PARSEL CANOL,** trefgordd yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, swydd ABERTEIFI; yn agos i dref Aberystwyth, a'r afon Rheidiol. Mesura yn erwau, 4325. Gwerth ardrethol, 4188*p.*; o'r hyn y mae 2448*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 604. Tai annedd, 116.

**PARTRISHOW,** plwyf yn nghantref Crughywel, swydd FRYCHEINIOG, ar lan yr afon Grwyney Fawr, ar y ffin a swydd Fynwy, goris y Mynyddoedd Duon, 2¾ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanfihangel, a 5¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Grughywel. Llythyrfa, Crughywel. Erwau, 1481. Gwerth ardrethol, 626*p.* Poblogaeth, 72. Anneddau, 13. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, gydiedig â pherigloriaeth Llanbedr, yn esgobaeth Tyddewi.

Barna rhai mai llygriad yw enw presenol y plwyf hwn, o'i enw cynhwynol, "Parthau yr Ishow," neu "tiriogaeth Ishow," y nawdd-sant i'r hwn y mae ei lan wedi ei chyssegru. Y diweddar Arch-ddiacon Payne, a farnai mai yr enw cyntefig yn ei ffurf dilwgr, oedd "Merthyr Ishow," i'r hwn, yn ol hen goflyfr Llandâf, y cyssegrwyd eglwys yma gan yr esgob Herewald, yn yr unfed ganrif ar ddeg, dan yr enw *Methur Yssui.* Y mae sefyllfa y plwyf mewn rhandir fynyddig; ac fe'i ffinir ar y tu Dwyreiniol, a Deheuol, gan yr afon Grwyne Fawr, yr hon a'i hysgara oddiwrth dreflan y Ffawyddog, yn swydd Henffordd, ac oddiwrth ran o swydd Fynwy; ar y tu Deheuol a Gorllewinol, fe'i ffinir gan blwyf Llanbedr; ac ar y tu Gogleddol, gan dreflan Grwyne Fawr, yn mhlwyf Talgarth. Y bedydd-faen yn llan y plwyf hwn, sydd dra henafol, ac y mae yn fawr iawn, er ei ffurfio o un telpyn o garreg; ac o gylch ei ymyl y mae yr arysgrif ganlynol,—"*In tempore Gynillyn, Meilir me fecit.*" Cynhillyn, fab Rhys Goch, ydoedd arglwydd Ystradwy, a alwyd wedi hyny Cantref Crughywel, yn nheyrnasiad Harri y Cyntaf., pan adeiladwyd yr hen lan. Y mae y grog-loft, yr hon sydd wedi ei cherfio yn geinwych, mewn derw Gwyddelig, yn aros yma eto; neu, o leiaf, yr oedd yn aros yma yn ddiweddar. Dywaid traddodiad am dani, mai gwaith celfyddydwr Eidalaidd ydoedd; ac y mae yn amlwg ei bod o amseriad Harri y Seithfed, a'r tebygolrwydd yw, mai rhodd teulu yr *Herbert* ydoedd, y rhai a berchenogent diroedd yn y plwyf hwn. Y mae gan enethod tlodion o'r plwyf hwn, hawl i gael addysg rad yn ysgol Llanbedr, yn ol cymunrodd Mrs. Herbert. Ar waelod y bryn ar yr hwn yr adeiladwyd yr eglwys, y mae afonig fechan, a elwir "Nant Mair;" ac ar ei glan, y mae ffynnon Sant Ishow, wedi amgau ei thair ystlys gan fagwyrydd, yn y rhai yr oedd cloerau, wedi eu bwriadu, fe ddichon, i dderbyn yr offrymau a gyflwynai yr addolwyr i'r sant.

**PASGEN,** sant, oedd yn oesi tua chanol y bummed ganrif. Yn ol *Bonedd y Saint*, Pasgen, Nefai, a Phabiali, oeddynt feibion Brychan Brycheiniog, o Ysbaenes o'r enw Prosori. Aeth Pasgen a'i frodyr i'r Hispaen, lle y gwnaed ef yn esgob. Gan fod awdurdodau eraill yn son am Pasgen fab Dingad, ac wyr i Brychan, rhaid fod dau sant o'r un enw, ewythr, a nai. Yr oedd carreg yn mynwent Towyn, Meirionydd, dalm o amser yn ôl, ar yr hon yr oedd y llythyrenau PASCENT wedi eu crifellu, yr hon y tybid ei bod wedi ei chyfodi i goffadwriaeth Pasgen ab Dingad.

**PASGEN,** un o feibion Urien Rheged, pennaeth oedd yn byw yn gynnar yn y chweched ganrif. Efe a goffeir yn y Trioedd fel un o "dri phenaeth trahawg" Ynys Prydain. Y ddau eraill oeddynt Rhun ab Einion, a Sawl Benuchel.

**PATER,** neu PATER CHURCH, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Gwel PENFRO.

**PAWL HEN,** sant oedd yn oesi ar ddiwedd y bummed ganrif, oedd fab i Meurig ab Tewdrig. Efe a elwir mewn rhai ysgrif-lyfrau, "Pawl Hen o Fanaw" a "Palcen o Fanaw;" yr hyn a awgryma

Digitized by Google

ei fod yn frodor o Ynys Manaw. Bu yn aelod ar y cyntaf o Gor Illtyd, yn Nghaerworgorn; ac efe a gyfododd sefydliad cyffelyb yn Tŷ Gwyn ar Dâf, swydd Gaerfyrddin, tu a'r flwyddyn o.c. 480, o'r hwn y bu ef ei hun yr Abbad cyntaf, a'r lle ei gelwir ef hefyd yn esgob. Daeth ei sefydliad yn enwog fel athrofa grefyddol yn fuan; a chan fod Pawl yn enwog am ei hyddysgrwydd yn yr Ysgrythyrau, symudodd Dewi, Teilo, a saint enwog eraill i'r Ty Gwyn, er cael mwynhau ei hyfforddiadau. Efe a osododd Gredifael, a Fflewyn yn bennaethiaid y Sefydliad. Efe yw nawdd-sant Llangors, yn swydd Frycheiniog, a Chapel Peulin, yn swydd Gaerfyrddin. Yr oedd ef yn bresenol yn y Gymmanfa a gynhaliwyd yn Llan-ddewi-brefi, yn y flwyddyn 519; ac y mae yn deilwng o sylw, mai yn nghymmydogaeth y lle hwnw, y mae yr olion mwyaf parhaus o'i goffadwriaeth. Y mae Capel Peulin, yr hwn sydd yn dwyn ei enw, yn agos i Lan ddewi brefi; ac o fewn plwyf Caio, yr hwn sydd yn ymylu ar Landdewi, y mae maen, yn dwyn arno yr arysgrif ganlynol, SERVATUR FIDAEI PATRIEQ: SEMPER AMATOR HIC PAULINUS JACIT CULTOR PIENT . . . SIMUS ÆQUI. Yr oedd efe yn dad Peulan, Gwyngenau, a Gwenfaen; a chynnelid ei gofwyl ar yr ail ar hugain o Dachwedd, dan yr enw Polin Esgob, neu, yr Esgob.

**PEACOCK**, REGINALD, D.D., esgob dysgedig, a anwyd yn Lacharn, yn swydd Gaerfyrddin. Efe a dderbyniodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Oriel, Rhydychain, o'r lle y daeth yn Gymmrawd, ac y cymerodd ei urdd-radd o D.D. Efe a fu yn gaplan i Humphrey, Dug Caerloyw, ewythr, a noddwr Harri y Chweched, ac efe a ddyrchafwyd ganddo ef i esgobaeth Llanelwy, trwy awdurdodiad oddiwrth y Pab, wedi ei dyddio Ebrill 22, 1444; ac fe'i cyssegrwyd yn Croydon, ar y 14eg o'r Mehefin canlynol. Efe a symmudwyd i Chichester, yn 1449, a pharhaodd yno hyd 1457, pan ei difuddiwyd o'i esgobaeth, am ddal opiniynau a farnwyd yn hereticaidd mewn cymmanfa a gynhaliwyd yn Lambeth; gan Thomas Bourchier, archesgob Caergaint. Y mae amddiffyniad maith iddo yn Llyfr y Merthyron, gan Fox; a hanes ei brawf, a'i ddifuddiant, yn nghyd a'r athrawiaethau a ddelid ganddo. Dywaid Godwin am dano, ei fod wedi myned yn eofn, yn ei hyder ar ffafr Dug Caerloyw, i amddiffyn yn gyhoeddus amryw opiniynau, rhai yn gywir, a rhai yn gyfeiliornus; ond oll yn ddyeithriol yr amserau hyny, y rhai wedi marwolaeth y Dug, y gorfu iddo eu dadgyffesu wrth groes St. Paul, lle o flaen ei lygaid, y llosgwyd y llyfrau a ysgrifenasai, y rhai oeddynt lawer; efe a gyfieithasai lawer o'r Ysgrythyrau i'r Saesonaeg; yr hyn medd Godwin, nid ymddangosai ei fod yn cael ei annghymeradwyo. Wedi ei ddifuddiad o'i esgobaeth, efe a gedwid yn garcharor caeth yn Monachlog Thorney, yn swydd Caergrawnt; a rhoddid deugain punt i'r abbad at ei gynhaliaeth; ond prin y parhaodd ei garchariad flwyddyn, pan y rhyddawyd ef gan angau.

**PEBLIG**, sant, a flodeuai yn y rhan gyntaf o'r bummed ganrif, oedd fab i Macsen Wledig, neu, ei ŵyr, yn ol hanesion eraill, a mab i Owain Finddu. Efe a seiliodd eglwys Llanbeblig, yr hon yw eglwys plwyf Caer yn arfon; a'i gofwyl a gynhelid Gorph. 3.

**PEDR**, sant oedd yn oesi yn gynnar yn y chweched ganrif. Mab oedd efe i Coron ab Ceredig ab Cunedda. O'r lluaws eglwysi yn Nghymru a ddygant yr enw Llanbedr, ni's gellid gwybod i sicrwydd penderfynol erbyn hyn, a seiliwyd yr un o honynt ganddo ef, neu ynte ai eu cyssegru i'r apostol Pedr a gawsant oll.

**PEDROG**, sant, yr hwn yn ol *Bonedd y Saint*, oedd yn fab i Clement, tywysog Cernyw; ond, y mae awdurdodau eraill, yn haeru ei fod yn deilliaw o rïaint tywysogaidd yn Nghymru. Efe a aeth i'r Iwerddon i gael ei addysgu yn y Gwyddonau dysgedig, ac a arhosodd yno am ugain mlynedd, yna efe a aeth drosodd oddiyno i Gernyw, yn y flwyddyn 518, ac a ymsefydlodd yn agos i fôr Hafren, mewn ty gweddi bychan, o'r enw Petroc-stow, sef Trigle Petroc; ond sydd wedi ei lygru erbyn hyn i *Padstow*, lle y dygwyd i fynu lawer o ysgolorion enwog dano ef. Efe a ysgrifenodd lyfr ar "Fuchedd Feudwyol," i'r hyn yr oedd ef bron wedi llwyr ymroddi. Bu farw tu a'r flwyddyn 564, ac efe a gladdwyd yn Bodmin, lle, yn ol rhai awdurdodau, y sefydlasai efe esgobaeth. Efe yw nawdd-sant Llanbedrog yn Lleyn, Llanbedrog, neu St. Petrox, yn swydd Benfro; St. Petrock, yn Exeter; a Petrockstow, yn Nyfnaint. Cynhelir ei gofwyl Gorph. 4.

**PEDROGL** (PALADR-DDELLT), ansawd enwog yn y ffug-chwedlau Cymreig, a gofnodir yn y Trïoedd gyda Chattwg a Blas, fel un o'r "Tri Marchawg Cyfiawn-bwys" yn Llys Arthur. Ond i'r darllenydd Seis'nig y mae yn fwy adnabyddus dan ei enw cyfieithedig, *Lancelot du Lac*.

**PEDRWN**, sant oedd yn oesi yn gynar yn y chweched ganrif; yr oedd yn fab i Corun ab Ceredig ab Cunedda; a brawd i Tyssul, Pedr, Tyrnog, a Choranog. Yr ydoedd sant arall o'r enw yma, a ysgrifenid weithiau "Pedryn," a "Pedredin," yr hwn oedd yn fab i Emyr Llydaw, a thad i Sant Padarn. Yr oedd yn aelod o Gôr Illtud.

**PEIBIO**, ansawd a grybwyllir yn y Mabinogion Cymreig.

**PEILYN**, GRUFFYDD, neu GRUFFYDD AB HEILYN, bardd, a flodeuai rhwng 1570 a 1600; yr hwn oedd yn frodor o swydd Ddinbych.

**PEILLAN**, santes oedd yn ei blodau yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif. Un o ferched Caw ydoedd hi.

**PEIRIO**, mab Caw; sant oedd yn oesi yn nechreu y chweched ganrif. Yr oedd ef yn aelod o Gor Illtyd, ar farwolaeth yr hwn yr etholwyd ef yn llywydd y sefydliad hwnw; ond dywedir iddo farw dranoeth, ac iddo gael ei olynu yn y swydd gan Samson ab Amwn Ddu. Efe ydyw nawddsant Rhosbeirio, yn Môn.

**PEITHIEN**, sant, a flodeuai yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif. Yr ydoedd yn ferch i Caw, a chwaer i Peillan, a Pheirio. Nid oes unrhyw eglwysi yn dwyn ei henw.

**PENAL**, neu PENALLT, rhandir yn mhlwyf Llangadog, cantref Crughywel, swydd FRYCHEINIOG. Gwerth ardrethol, 3651*p*. Poblogaeth, 732. Tai annedd, 134. Y mae gan Ddug Beaufort balas yn y gymmydogaeth hon, yr hwn a elwir *Troy House*.

**PENAL**, a elwir fynychaf, PENNAL, pentref, a phlwyf, yn nghantref Ystummaner, swydd FEIRIONYDD. Y mae y pentref yn gorwedd ar yr hen ffordd Rufeinaidd a elwir "Sarn Helen," goris bryn Arran y Gessail, yn agos i'r afon Dyfi; 3 milldir i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Machynlleth, yn cymeryd i fynu fel y tybir y llanerch lle yr ydoedd hen orsaf Rufeinaidd. Cynnelir cyfarfodydd yr ustusiaid yma, ac y mae yma brif lythyrfa, dan yr enw "Pennal,

Digitized by Google

swydd Feirionydd." Mae y plwyf yn cynnwys 7461 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 3356p. Poblogaeth, 675. Anneddau, 133. Yn y plwyf hwn y mae Talgarth, palas hardd C. F. Thruston, Ysw. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 75p. Noddwr, Esgob Llandâf. Y mae y llan yn adeilad henafol, ac y mae pridd-feini Rhufeinaidd yn ei muriau, yn gymaint ag iddi gael ei hail adeiladu tua diwedd y ddeunawfed ganrif, o ddefnyddiau wedi eu cymeryd o hen amddiffynfa Rufeinaidd a elwir Cefn Caer: ond, gan fod y muriau wedi eu gorchuddio â chymrwd, nid ydyw yr hen bridd-feini Rhufeinaidd yn weledig. Y mae y plwyf hwn, yr hwn sydd yn gorwedd ar lan yr afon Dyfi, ac yn cael ei groesi gan yr hen brif-ffordd o Fachynlleth i Aberdyfi, a'r Tywyn, gan mwyaf yn fryniawg a chreigiawg, fel nad yw yn meddu nemawr o gyfaddasrwydd at amcanion ammaethyddol. Y mae y gweryd yn deneu, ac yn dlawd; ond y mae rhai o'r tiroedd isaf yn lled gynnyrchiol. Nid oes nemawr ddim o olion yr hen amddiffynfa Rufeinaidd, Cefn y Gaer yn aros. O bryd i bryd cafwyd amryw fatholion Rhufeinaidd yn y lle, yn dwyn arnynt enwau Domitian, Augustus, a Thiberius; ac mewn mawnog heb fod yn mhell oddiyno, cafwyd pen gwaywffon, neu bicell, o wneuthuriad Rhufeinig amlwg. Yn Esgair Llyferin, yn y plwyf hwn, y mae, neu yr oedd yn ddiweddar, y gwely a ddarparasid i'r brenin Charles y Cyntaf, pan ar ei daith trwy y wlad hon i Gaerlleon, yr hwn a symudwyd i'r lle hwn o hen balas, yn mhlwyf Machynlleth. Y mae pren yw, o dyfiant rhyfeddol, yn agos i Bont y lludw, boncyff yr hwn sydd yn ddeuddeg troedfedd ar hugain o gylch-fesur, o fewn chwe modfedd i'r ddaear; ac yn wyth droedfedd a deugain o uchder; a'i gangen fwyaf yn naw troedfedd o gylch-fesur, a phedair troedfedd a deugain o hŷd.

**PENAL**, Hugh, bardd, a ysgrifenai o 1550 hyd 1580. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau yn nghadw mewn Ysgriflyfrau.

**PENALTH**, plwyf yn swydd Fynwy, ar lan yr afon Wy; 1½ milldir i'r de dde ddwyrain o orsaf rheilffordd Mynwy. Llythyrfa, Mynwy. Erwau, 2284. Gwerth ardrethol, 2656p. Poblogaeth, 484. Anneddau, 112. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf.

**PENALLY**, plwyf yn nghantref Castell martin, swydd Benfro. Y mae y pentref yn sefyll ar lan y môr, gerllaw rheilffordd Penfro, a Thenby; yn agos i Drwyn Gilton; 1½ milldir i'r de dde orllewin o Tenby, ac y mae yn lle prydferth, yn meddu gorsaf ar y rheilffordd, a llythyr-swyddfa dan Ddinbych y pysgod, neu Tenby. Cynnwysa y plwyf 2567 erw o dir, a 265 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 2935p., o ba rai y mae 100p. mewn cloddfeydd. Poblogaeth, yn 1851, 394; yn 1861, 545; yn 1871, 468. Tai annedd, 84. Y mae sefyllfa y plwyf hwn yn mhen de ddwyreiniol swydd Benfro, ar lan culfor Caerodor. Perthynai gynt i deulu de Barri, o gastell Manorbyr; ac yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Harri y Pedwerydd, fe'i dyroddwyd i John de Windsor; ond dychwelodd i'r goron yn fuan; ac fe'i dyroddwyd trwy fraint-lythyrau, i Thomas ab Owain o'r Trellwyn, yn y plwyf hwn; o deulu pa un, ar farwolaeth un o'i hiliogaeth, Thomas Bowen, Ysw. yr aeth i feddiant teulu Phillips, o Picton. Gosododd arglwydd Carberry warchodlu yn Trellwyn, hen gartref y Boweniaid, i'w gadw dros y brenin, yn amser y rhyfel Seneddol; ond gwarchaewyd arno gan fyddin y Senedd, ac wedi gwrthsafiad dewr-wych, fe'i rhoddwyd i fynu ar ammodau anrhydeddus. Y mae helaethrwydd o gerryg calch yn y plwyf, y rhai a gloddir ar raddfa chang; ac anfonir llawer o honynt drosodd i swydd Dyfnaint, a defnyddir llawer fel gwrtaith yn y gwledydd cyfnesawl. Y mae y llan yn hen groes-adail, mewn cyflwr dâ, wedi ei hamgylchu â choed; ac ar wyddfa yma, y mae llun dau ben, a'r arysgrif anmherffaith a ganlyn arno, "*Wm de Raynoor et Isemay sa femme, virgo beata Maria Ayt Merci, Amen.*" Y mae hen groes fechan yn y fonwent, a'i phaladr wedi ei haddurno â cherfiadwaith cywrain, ond heb unrhyw arysgrif ddarllenadwy arni. Y mae Ynys Caldey o fewn ffiniau y plwyf hwn i bob amcanion eglwysig. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi; gwerth 77p. yn y flwyddyn. Noddwr, Esgob Tyddewi.

**PENANLLIW**, trefgordd yn mhlwyf Llanuwchllyn, swydd Feirionydd; 4¼ milldir i'r de orllewin o'r Bala. Gwerth ardrethol, 1099p. Poblogaeth, 297.

**PENARDD**, Rhys, bardd oedd yn ei flodau o tua'r flwyddyn 1460, hyd 1490. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau yn nghadw mewn ysgriflyfrau.

**PENARRAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanuwchllyn, swydd Feirionydd; 4 milldir i'r de orllewin o'r Bala. Gwerth ardrethol, 1623p. Poblogaeth, 559.

**PENARTH**, porthladd, a phlwyf yn nghantref Dinas Powys, swydd Forganwg. Y mae y porthladd yn gydiol a Thrwyn Penarth, 3 milldir i'r dehau o Gaerdydd; ac mewn gwirionedd y mae yn fath o faesdref, ac is-borthladd i Gaerdydd, ac y mae cymmundeb trwy gainc-reilffordd rhyngddo a'r rheilffyrdd yn Nghaerdydd; y mae yma lythyr-swyddfa dan Gaerdydd, a llong-orsaf chang. Dechreuwyd y llong-orsaf yn y flwyddyn 1851, ac fe'i gorphenwyd yn y flwyddyn 1865; y mae yn 2100 troedfedd o hyd, a 370 troedfedd o led; ac yn gorchuddio llanerch o 17¼ erw; y mae iddo nawfle o dair erw; lloc yn 400 troedfedd, wrth 300; a mynedfa o'r môr, 60 troedfedd o lêd, yn nghyda dyfnder o 35 troedfedd uwchlaw y trothwy ar y gorllanw, fel y gall llongau mwy ddyfod i fewn iddo, nag i un llongorsaf arall yn nghulfor Caerodor. Cynnwysa y plwyf 1142 erw o dir, a 365 o ddwfr. Gwerth ardrethol yn 1860, 4648p., o ba rai yr oedd 23p. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 105; yn 1861, 1406; yn 1871, 2612. Anneddau, 391. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorиaeth, unedig â pherigloriaeth Lavernock, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 187p. Yn noddaeth yr Arglwyddes Windsor. Y mae y llan yn yr arddull Seis'nig foreuol, ac yn groes-adail, a thŵr iddi. Y mae yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Awstin; ac wedi ei hadeiladu ar bentir creigiog. Y mae hen adfail yn y plwyf hwn, yn ysgubor yn bresenol, yr hwn a fu unwaith yn gôr-gapel, mewn cyssylltiad, efallai â mynachlog Llandough ar Ely, neu yn cael ei wasanaethu gan fyneich oddiyno. Yn ystod teyrnasiad y freninines Elizabeth, a'r breninoedd James, a Charles, yr oedd llawer o for-ladron yn arfer ymweled a'r cyfyng-foroedd, yn enwedig cyfyng-for Caerodor; ac ymddengys fod swydd Forganwg, a thref Caerdydd yn enwedig, yn eu hachlesu, ac hyd yn nod yn cyfranogi â hwy yn weithredol i ryw raddau.—Gwel yr *Arch. Cambrensis*, am 1872, p. 47.

**PENARTH**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, swydd Drefaldwyn; yn agos i Lanfair.

Digitized by Google

Gwerth ardrethol, 3142*p.*, o ba rai y mae 14*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 187.

PENARTH, cantref yn NGHEREDIGION, yn cynnwys plwyf Caron is clawdd, a phedwar o blwyfi eraill. Erwau, 86,568. Poblogaeth, 6965. Tai annedd, 1477.

PENARTH, a elwir hefyd PENNARD, plwyf yn undeb Abertawe, swydd FORGANWG; ar yr ochr ddwyreiniol i feisfor Oxwich; 6½ milldir i'r de orllewin wrth ddehau o orsaf rheilffordd Abertawe. Llythyrfa, Abertawe. Erwau 2292, o ba rai y mae 45 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 2102*p.*, o ba rai y mae 150*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 285. Tai annedd, 63. Meddylir fod y lle hwn yn bwysiccach, a llawer ehangach, oesoedd lawer yn ol, nag ydyw yn bresenol. Y mae y gweddillion o hen gastell, yr hwn, debygid, oedd yn adeilad lled fawrwych, adfeilion eglwys henafol, a sylfeini adeiladau lluosawg, a orchuddir gan y tywod yn bresenol, yn brofion nodedig o gywirdeb y cyfryw dyb. Nid ydys wedi cael sicrwydd boddhaol, gan bwy, neu pa bryd, yr adeiladwyd y castell ar y cyntaf. Y mae rhai ysgrifenwyr, wedi prïodoli ei seiliad i Iarll Warwick, yr hwn a ddug y diriogaeth hon dan ei arglwyddiaeth yn nheyrnasiad Harri y Cyntaf; ac eraill a farnant iddo gael ei adeiladu cyn hyny. Bernir fod tref yn sefyll gynt, lle y mae y tywod yn awr; ac y mae pentref bychan, ychydig i'r dehau o honynt, yn myned dan yr enw *Southgate* hyd heddyw; a thu a'r gogledd, y mae tyddyn-dy yn cadw yr enw cynhwynol "Norton," neu *North-town.* Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tyddewi. Gwerth, 79*p.* Noddwr, T. Penrice, Ysw. Yr eglwys bresenol a adeiladwyd tua dau can mlynedd yn ôl, ac y mae mewn cywair dâ. Y mae ei sefyllfa ar ben bryn, tua haner milldir oddiwrth yr hen eglwys. Y mae yn gyssegredig i Sant Mair. Y mae dwy ogof nodedig yn y calch-greigiau sydd ar hyd ffin ddeheuol y plwyf, yn y rhai y cafwyd esgyrn amryw fath o anifeiliaid. Un o'r rhai hyn, yr hon a elwir *Bacon's Hole*, sydd yn anhygyrch o'r môr ar unrhyw sefyllfa ar y llanw; ac elir iddi ar hyd llwybr cul, a serth, o'r clogwyn yn unig.

PENBEDW, treflan yn y rhan hono o blwyf Nannerch sydd o fewn cantref Ruthin, swydd DINBYCH; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Wyddgrug. Erwau, 943. Gwerth ardrethol, 887. Poblogaeth, 58. Tai annedd, 13. Y mae y dreflan yma yn gorwedd yn y parth de orllewinol, a mwyaf mynyddig o'r plwyf, ar y brif ffordd o Ddinbych i'r Wyddgrug; ac fe'i hysgerir oddiwrth blwyf Cilcain gan afonig fechan, yr hon hefyd yw y ffin rhwng swyddi Fflint a Dinbych. Dyroddid y faenoriaeth gan Harri yr Wythfed i Peter Mostyn, Ysw., yn y flwyddyn 1554. Adeiladwyd *Penbedw Hall* yn y flwyddyn 1775, ar ychydig o godiad tir, o'r lle y geir golwg dra dymunol ar ddyffryn cynnyrchiol Nannerch. Yn agos i'r palas, y mae mwnglawdd haiarn, a'r mŵn mor bur, fel y caid pymtheg can pwys o haiarn, o bob tunnell o'r mŵn; ac yn y flwyddyn 1826, cynnyrchai y mwnglawdd hwn 1800 tunnell o fŵn: ond er y pryd hyny, yr ydys wedi rhoddi i fynu ei weithio. Cair helaethrwydd o fwn plwm hefyd yn y parth dwyreiniol o'r drefgordd hon; ac er fod y mwngloddiau wedi cael eu gweithio dros ganrifoedd, y maent yn parhau yn gynnyrchiol. Er nad yw parc Penbedw yn ëang iawn, y mae yn cynnwys rhai creiriau henafiaethol tra ddyddorol. Yn gymwys o flaen y palas, y mae gweddillion cylch Derwyddol, yn gan llath o gylch-fesur, yr hwn, debygid, oedd ar y dechreu yn gynnwysedig o un ar ddeg o feini, o ba rai nid oes namyn pump yn aros yn bresenol; y mae gorsafau y lleill, y rhai a symmudwyd, yn cael eu nodi gan goed derw tyfadwy, y rhai a blanwyd, er mwyn cadw yn amlwg ffurf gynhwynol yr hen gylch. Tua dau can llath i'r gorllewin o'r cylch crybwylledig, y mae maen hir, yn agos i'r hwn y mae dwy garnedd, agos yn berffaith. Ar un o'r bryniau, o'r tu cefn i Blas Penbedw, y mae hen wersyll Prydeinaidd, a elwir Moel Arthur, yn ddiffynedig gan ffosydd, a gwrthgloddiau. Yr oedd yr amddiffynfa hon yn un o gyfres luosog o amddiffynfeydd oeddynt ar y fynydd-res hon; ac yr oedd ffordd filwraidd o honi, i'r amddiffynfa gref ar Foel y Gaer, yn mhlwyf Llaneurgain.

PENBERRY, pentir tra serth ar arfordir gorllewinol swydd BENFRO, o fewn tair milldir i Benrhyn Dewi.

PENBIDDLE, treflan yn mhlwyf Llanfihangel Crucorney, swydd FYNWY; 6½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Fenni. Erwau, 870. Poblogaeth, 107. Tai annedd, 25.

PENBOYR, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Elfed, swydd GAERFYRDDIN, yn agos i'r hen ffordd a elwir Sarn Elen; 4 milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Llandyssul; a 4 milldir i'r de ddwyrain o'r Castell Newydd yn Emlyn. Llythyrfa, Castell Newydd yn Emlyn, dan Gaerfyrddin. Erwau, 6826. Gwerth ardrethol, 3285*p.* Poblogaeth yn 1851, 1271; yn 1861, 1146; yn 1871, 1154. Anneddau, 252. Y Llan, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Llawddog, a ail adeiladwyd yn y flwyddyn 1809, ar draul y periglor, y Parch. Thomas Beynon, Archddiacon Ceredigion, yr hwn hefyd a amgauodd y fynwent â magwyr, saith droedfedd o uchder. Y mae capel anwes yn y plwyf, yr hwn a elwir *Trinity Chapel*, lle y cynhelir gwasanaeth er mwyn y rhai hyny o'r plwyfolion ydynt yn cyfanneddu mor bell o'r fam eglwys. Meddylir fod y gladdfa yn cymeryd i fynu ran o orsaf gwersyll Rhufeinaidd. Cafwyd pridd-lestr yn llawn o fatholion Rhufeinaidd yn y gymmydogaeth, tua dechreu y ganrif hon; a darganfuwyd dernyn o ffordd Rufeinaidd, ac amryw olion eraill o breswyliad y lle ar ryw adeg gan y genedl hono. Y mae amryw garneddau mewn amryfal barthau o'r plwyf; ac un, fwy o lawer, yn agos i'r brif-ffordd dros y mynydd o Gaerfyrddin i Gastell Newydd yn Emlyn.

PEN BRE, a elwir weithiau PEMBREY, plwyf, a thref borthladdol yn nghantref Cydweli, swydd GAERFYRDDIN. Y mae y dref yn sefyll ar lan yr afon Burry, dyfrffos Cydweli, a rheilffordd Deheudir Cymru, wrth droed Mynydd Penbre, 5½ milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Lanelli; ac fe'i gelwir hefyd *Burry Port.* Y mae yma orsaf rheilffordd, a phellebyr, o'r enw Penbre; a llythyr-swyddfa, dan Lanelli, o'r enw *Burry Port.* Y mae y porthladd, yr hwn a ffurfiwyd yn y flwyddyn 1819, o'r tu fewn i draeth Cefn Sidan, yn meddu morfur o 1200 troedfedd o hyd, ac o leiaf, 12 troedfedd o ddwfr; a goleudy arno yn 35 troedfedd o uchder. Gwnaed porthladd arall, a elwir "Porthladd Burry," neu, "Y Porthladd newydd," yn y flwyddyn 1825. Y mae gweithfeydd efydd mawrion yn gyfagos i'r lle hwn. Cynnwysa y plwyf 14,705 o erwau o dir, a 12,030 erw o ddwfr. Gwerth ardrethol, 9564*p.* Poblogaeth yn 1851,

Digitized by Google

3310; yn 1861, 4145; yn 1871, 4773; ac o dai annedd, 972. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig a Chapeloriaeth Llanury, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 69*p*. Noddwr, Iarll Ashburnham. Yn mis Tachwedd, 1828, aeth llong Ffrengig, ar ei mordaith o Martinique, yn ddrylliau ar drwyn Penbre, a chollwyd agos i holl griw y llong, a'r mynedolion; yn mysg yr olaf, yr oedd y Milwriad Coquelin, a'i ferch, Adeline, nith i Josephine, gwraig Napoleon Buonaparte, y rhai, yn nghyd a'r dyoddefwyr anffodus eraill, a gladdwyd yn mynwent Penbre.

**PENBRYN**, plwyf yn y rhan isaf o gantref Troed yr Aur, swydd Aberteifi. Y mae y plwyf yn gorwedd ar yr arfordir, 7½ milldir i'r gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd Castell Newydd yn Emlyn; ac yn cynnwys ymdrochle Traeth Saith. Llythyrfa, Castell Newydd yn Emlyn, dan Gaerfyrddin. Erwau 8347, o ba rai y mae 120 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4864*p*. Poblogaeth, 1511. Tai annedd, 361. Y mae dau hen wersyll Prydeinaidd yn y plwyf hwn, a adwaenir wrth yr enwau, Castell Nadolig, a Chastell Pwntan. Gelwir y plwyf hwn "Penbryn," oddiwrth sefyllfa y llan ar ben bryn serth, yn agos i'r môr; ac fe'i gelwir weithiau, "Llanfihangel Pen y Bryn," oddiwrth gyflwyniad yr eglwys i Sant Mihangel fel ei nawdd-sant. Ymddengys fod y gymmydogaeth hon wedi ei hynodi ar adeg dra boreuol, fel drychfa amryw o'r ymrysonau gwaedlyd a gymerasant le yn amser yr ymrysonfeydd annaturiol am yr arglwyddiaeth rhwng y gwahanol bennaethiaid brodorawl, ac ymdrechion parhaus y brodorion i wrthsefyll trawsfeddianniad eu tiriogaethau gan oresgynwyr estronol. Barna rhai, fod enwau amryw leoedd o fewn y plwyf, yn dystion o'r galanastra a gymerodd le yma ar y cyfryw achlysuron, megys "Maes Glas," "Pwll Glas," a'r "Clos Glas," (neu *Galanas*, fel y tybir:) y "Ffynnon Waedog," a "Llech yr Ochain." Tybiai *Mr. Evans*, mai un o'r lleoedd uchod oedd y llanerch lle y lladdwyd gwŷr Arthur, trwy frad ei gâr Modred: a barna rhai, mai "Llongborth," lle arall yn y plwyf hwn, oedd y man a grybwyllir gan Llywarch Hên, fel y maes lle y lladdwyd Geraint ab Erbin, tywysog Dyfnaint, a'i wŷr, a'r hwn y tybir ei fod wedi ei gladdu o fewn y plwyf hwn, mewn lle a elwir "Perth Geraint;" ond, y mae eraill o'r farn fod y lle a grybwyllid gan yr hen Fardd yn Marwnad Geraint, yn Nyfnaint, neu Gernyw. Y Dr. Owen Pughe, yn ei Nodiadau ar gyfieithiad y cyfansoddiad uchod, a awgryma y gallai mai *Portsmouth* oedd y lle. Cyfrifir "Traeth Saith" yn y plwyf hwn, yn ymdrochle tra manteisiol; ac ar y forlan, y mae craig lefn, a elwir "Carreg Morwynion," oddiwrth y ffaith, meddir, fod amryw fenywod wedi boddi, tra yn ymdrochi yma. Y mae treflan fechan yn y plwyf, a elwir "Sarnau," oddiwrth weddillion amryw ffyrdd palmantedig ar draws cors yn y gymmydogaeth. Yr oedd "Llanborth" gynt yn balas perthynol i deulu Rhys ab Rhydderch, arglwydd y Tywyn. Castell Nadolig, hen wersyllfa Brydeinig fawr, yn ddiffynedig â dau warch-glawddcryf, sydd yn gorwedd ar ammaethfa o'r un enw, yn agos i'r brif-ffordd; ac ychydig flyneddoedd yn ol, gellid olrhain ffordd balmantedig o hono am tua milldir, yn cyfeirio yn ogleddol. Y mae maen hir, tua phum troedfedd o uchder, mewn maes yn agos i'r eglwys, a rhyw arysgrif arno, a ddarllenid fel y canlyn gan *Mr. Llwyd*:—Cor Balenci Jacit Ordovs; hyny yw, "Y gatrawd Valencia a orchfygodd y Gordofigion." O dan garnedd o geryg oedd yn agos i'r Maen hwn, cafwyd amryw fatholion arian, a phridd-lestr, yn cynnwys esgyrn llosg, a lludw. Crybwylla yr Esgob Gibson, yn ei Nodiadau ar Camden, i fatholyn aur, ychydig yn drymach na guni, gael ei ddarganfod yn y plwyf hwn, yr hwn y bernid mai bathodyn Prydeinaidd ydoedd, er cyn y goresgyniad Rhufeinaidd. Y mae amryw garneddau i'w canfod o fewn y plwyf, a gweddillion amryw amddiffynfeydd milwraidd. Ar y tyddyn a elwir Cefn Llethrau, y mae tommen-fryn uchel o bridd, yn gylchynedig gan dri gwarchglawdd, dan yr enw "Castell," yr hwn ydoedd ar un adeg yn lle cryf iawn; ond erbyn hyn y mae y cloddiau wedi eu chwalu bron yn llwyr: ac heb fod yn neppell oddiwrth hwn, y mae tommen-fryn arall, a elwir "Castell Prydd," neu "Castell Pridd." Y mae carnedd fawr hefyd yn Mlaen-hofnant, tyddyn yn y plwyf hwn; a dwy eraill yn y gymmydogaeth.

Bywioliaeth eglwysig y plwyf hwn sydd ficeriaeth, yn unedig ag is-berigloriaethau Bettws Ifan, a Brongwyn, yn esgobaeth Ty ddewi. Gwerth, 300*p*. Noddwr, Esgob Ty ddewi.

**PENBUALLT**, treflan yn mhlwyf Llangammarch, swydd Frycheiniog; ar yr afon Irfon, 8 milldir i'r de orllewin o Lanfair-yn-muallt. Gwerth ardrethol, 1996*p*. Poblogaeth, 568.

**PENCADAIR**, treflan yn mhlwyf Llanfihangel-ar-arth, yn y rhan uchaf o gantref Cathinog, swydd Gaerfyrddin, ar reilffordd Manchester a Milford, 11½ milldir i'r gogledd o dref Caerfyrddin. Y mae y lle hwn yn gorwedd mewn dyffryn, ar lanau yr afonig Tafwili, yr hon sydd yn ymarllwys i'r afon Teifi; ac y mae y brif-ffordd o Gaerfyrddin i Lanbedr yn myned drwy y pentref. Yma y cyrhaeddodd y brenin Harri yr Ail gyd a'i fyddin yn y flwyddyn 1163, i gosbi Rhŷs ab Gruffydd, Tywysog y Deheubarth, am ryw gad-gyrchiadau a wnelsai efe i diriogaethau rhai o ddeiliaid y pennadur hwnw, tra yr oedd ef yn Normandi; ond gan iddynt ddyfod i gyttundeb a'u gilydd, dychwelodd Harri i Loegr, gan gymeryd neiaint Rhŷs gyd ag ef, fel gwystlon. Ond, mewn canlyniad i lofruddiad y Tywysogion hyny gan Iarll Caerloyw, i gadwraeth yr hwn eu rhoddasid, gwnaeth Rhŷs ddifrodiadau ofnadwy yn swyddi Aberteifi, a Phenfro. Yr oedd yma hen gapel anwes gynt, yr hwn a ollyngwyd yn adfeilion tua chant a haner o flyneddoedd yn ôl; ond y mae y gladdfa a berthynai iddo, yn cael ei chadw yn gauedig eto. Yr oedd hen ffordd Rufeinig o Gaerfyrddin i Lanbedr, yn myned trwy y gapeloriaeth hon.

**PENCADAIR FAWR**, ban uchaf y Mynyddoedd Duon, ar ffin ddwyreiniol swydd Frycheiniog; 4¾ milldir i'r de ddwyrain o Talgarth. Ei uchder yw 2545 troedfedd.

**PEN CAE CLAWDD**, hen wersyll milwraidd mawr, yn y parth gorllewinol o swydd Forganwg, ar Fynydd y Gaer, yn agos i hen ffordd Rufeinig, 10½ milldir i'r gogledd o Abertawe.

**PEN CARREG**, plwyf yn y rhanbarth uchaf o gantref Cathinog, swydd Gaerfyrddin. Y mae y plwyf yn gorwedd ar yr afon Teifi, ar y ffin â swydd Aberteifi, yn agos i orsaf rheilffordd Llan y bydder; a 4 milldir i'r de orllewin wrth orllewin o dref Llanbedr. Llythyrfa, Llan y bydder, dan Gaerfyrddin. Erwau, 10,392. Gwerth ardrethol, 3705*p*. Pobl-

Digitized by Google

ogaeth, 1208. Tai annedd, 269. Y mae yn ffurfio llanerch o dir coediog a difyr, ar lan y Teifi. Y mae Mynydd Pen carreg yn ymestyn ar draws y plwyf ar y tu deheuol. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty ddewi; gwerth 126*p*. Noddwr, P. Pryse, Ysw. Yr eglwys, adeilad fechan, a seml, sydd yn gyflwynedig i Sant Padrig. Y mae hen amddiffynfa Brydeinaidd o fewn y plwyf, am yr hon nid oes dim cofion hanesyddol ar gael.

**PENCELLI**, treflan yn mhlwyf Llanfigan, cantref Pencelli, swydd FRYCHEINIOG; 4½ milldir i'r de ddwyrain o Aberhonddu. Yr oedd Maenoriaeth Pencelli yn yr amser gynt yn ffurfio un arglwyddiaeth fawr, yr hon yn yr 28ain o deyrnasiad Edward y Cyntaf, oedd yn berchenogaeth i Roger Mortimer, yr hwn a wŷsid i'r Senedd y flwyddyn hono, dan y teitl, Barwnig Mortimer, o Bencelli: ond yn nheyrnasiad Edward yr Ail, fe'i rhanwyd yn ddwy arglwyddiaeth, dan yr enw Pencelli Gymreig, a Phencelli Seis'nig; ac wedi hyny fe'i gwnaed yn bump o arglwyddiaethau bychain, sef y Castell, Maenoriaeth Pencelli Seis'nig, Cwm Orgwm, y Wenallt, a Phencelli Gymreig, at yr hon yr ychwanegwyd wedi hyny, arglwyddiaeth gyfnesawl Scethrawg. Yr oedd hen gastell Pencelli yn sefyll yn y pentref, tua chwarter milldir i'r dwyrain o'r eglwys; ond nid oes brin ddim o'i olion yn weledig erbyn hyn, gan fod palas i'r Herbertiaid wedi cael ei adeiladu ar ei orsaf, ac mewn rhan â'i ddefnyddiau; ac nid oes namyn ychydig adfeilion o'r adeilad olaf yn aros erbyn hyn. Yr oedd capel, cyflwynedig i Sant Leonard, o fewn y castell; ond y mae dwylaw diarbed amser wedi difrodi hwnw hefyd; yr oedd wedi ei waddoli a chyfran o'r degwm; ac y mae hyny yn awr yn perthyn i arglwydd y faenoriaeth. Poblogaeth y dreflan, 375.

**PENCLAWDD**, capeloriaeth, a phentref, yn mhlwyf Llanrhidian, swydd FORGANWG; yn mhenrhyn Browyr, ar derfyniad cangen o reilffordd Llanelli, 2¼ milldir i'r de orllewin wrth ddehau o Gasllwchwr. Y mae yma Lythyrfa, dan Abertawe, a gorsaf rheilffordd; ac y mae glofeydd, a gweithfeydd efydd yn y gymmydogaeth; a chamlas yn rhedeg i for-gilfach Burry. Y fywioliaeth eglwysig sydd yn gydiedig â ficeriaeth Llanrhidian, yn esgobaeth Ty Ddewi.

**PENCOED**, treflan yn mhlwyf Coychurch, swydd FORGANWG, ar reilffordd Deheudir Cymru, 3¾ milldir i'r dwyrain o Ben y Bont. Mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, dan Ben y bont. Erwau, 2045. Gwerth ardrethol, 1568*p*. Poblogaeth yn 1861, 604. Tai annedd, 135.

**PENCOED**, trefgordd yn mhlwyf Llanwyddelen, swydd DREFALDWYN, 6½ milldir i'r dehau o Lanfair caereinion. Poblogaeth, 149.

**PENCOED** (CASTELL), palas yn neheubarth swydd FYNWY, ar ucheldir, o'r hwn y cair golygfeydd ysplenydd; 7 milldir i'r dwyrain o'r Cas Newydd. Fe'i hadeiladwyd yn amser Harri yr Wythfed, o ddefnyddiau hen gastell a fuasai yno o'r blaen; a bu yn hir yn meddiant Morganiaid, Tredegar. Y mae porthfa yr hen gastell yn aros.

**PENCWM** a PHEN Y DDAULWYN, dwy dreflan yn mhlwyf Llangwnwr, swydd GAERFYRDDIN, yn agos i dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 225.

**PENDERI**, treflan yn mhlwyf Llangyfelach, swydd FORGANWG, 4¼ milldir i'r gogledd o Abertawe. Gwerth ardrethol 4941*p*., o'r hyn y mae 1500*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 1330. Tai annedd, 256.

**PENDERYN**, a elwir weithiau, PEN Y DAREN; plwyf yn cynnwys treflanau Penderyn Uchaf, a Phenderyn Isaf, yn nghantref Defynog, swydd FRYCHEINIOG, rhwng yr afonydd Hepste, a'r Tâf, ger ffin swydd Forganwg; 2¼ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Hirwaun; a 7 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Ferthyr Tydfil. Llythyrfa, Hirwaun, dan Aberdâr. Erwau, 12,765. Gwerth ardrethol Penderyn Isaf 4966*p*., o'r hyn y mae 381*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 1552; yn 1861, 1134. Tai annedd, 256. Gwerth ardrethol Penderyn Uchaf 1679*p*., o ba rai y mae 115*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 225; yn 1861, 197. Tai annedd, 34. Yn y creigiau, cair calch, glô, mŵn haiarn, a chlai tân. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglcriaeth, yn Esgobaeth Tyddewi. Gwerth, 235*p*. Noddwr, W. Winter, Ysw. Cynnwysa y plwyf hwn ran o gyttir eang Hirwaun Wrgan, ar yr hwn yr ymladdwyd y frwydr fythgofiadwy rhwng byddin Iestyn ab Gwrgan, yn cael ei gynnorthwyo gan rai o'r arglwyddi Normanaidd, â byddin Rhŷs ab Tewdwr; yn yr hon y llwyr orchfygwyd Rhŷs. Dywaid rhai Haneswyr, fod yr hen dywysog Rhŷs, pan welodd orchfygu ei fyddin, wedi ffoi o faes y frwydr, a chyrhaedd Glyn Rhondda, tua deuddeng milldir o bellder, lle ei goddiweddwyd, ac y torwyd ei ben, gan Iestyn: ond haera eraill, i'r hen wron lwyddo yn ei ffoëdigaeth, i gyrhaedd tiriogaethau ei gâr, Bleddyn ab Maenarch; ac iddo gael ei ladd yn y frwydr a benderfynodd dynged y tywysog hwnw, gerllaw Aberhonddu. Y mae cof am yr amgylchiad yma yn cael ei gadw yn yr ardal eto, trwy enwau amryw leoedd yn y plwyf, megys "Bodwigad," llygriad o *Bod waun y gâd;* a "Chadlan," yr enw a roddid ar y dyffryn sydd yn trawsu y plwyf, yn yr hwn y mae amryw garneddau; y ddwy fwyaf o ba rai a gyfrifai Mr. Jones, Hanesydd Brycheiniog, fel cof-arwyddion milwraidd, cyssylltiedig, fe ddichon, a'r frwydr uchod: y mae un o honynt yn ugain llath o gylch-fesur; a'r llall yn bedair ar ddeg, ac yn gylchynedig â ffôs. Yn y plwyf hwn, y mae hen amddiffynfa Brydeinaidd gref, a elwir Craig y Dinas, a elwid felly, am fod ei sefyllfa ar ben calch-graig serth ac anhygyrch, godreu yr hon a olchir ar un tu, gan ffrydiau unedig yr Hepste, a'r Fellte; a'r ochr arall, gan yr afonig Sychryd, yr hon sydd yn ffurfio y ffin rhwng siroedd Brycheiniog a Morganwg. O fewn y plwyf hwn y mae y rhaiadr hynod, a elwir "Eirwy Hepste," yr hon sydd yn cwympo o'r uchder o yn agos i haner can troedfedd, dros ddibyn creigiog, gan ffurfio, weithiau un bwa, ac weithiau dri bwa cyfochrog, dan ba rai y cair tramwyfa, rhwng gwaelod y graig a'r dwfr cwympedig; ac y mae yr olygfa oddeutu y llanerch hon, yn ardebol, a rhamantus dros ben. Y mae amryw elusenau wedi eu gadael o bryd i bryd at wasanaeth y plwyf hwn.

**PENDINE**, PENDAIN, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Derllys, swydd GAERFYRDDIN, ar lan beisfor Caerfyrddin; 5 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Lacharn; a 7 milldir de dde orllewin o orsaf rheilffordd St. Clears. Mae yma lythyrfa, dan St. Clears. Erwau 1578, o'r hyn y mae 615 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 600*p*. Poblogaeth, 170. Tai annedd, 39. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorineth, gydiedig â pherigloriaeth Llandawke, yn esgobaeth Ty Ddewi.

Digitized by Google

**PENDWYLAN**, neu, PEN DEU LWYN, plwyf yn nghantref Pont fôn, swydd FORGANWG, gerllaw yr afon Ely, a rheilffordd Deheudir Cymru; 1¾ milldir i'r gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd *Peterston;* ac 8½ milldir i'r gorllewin o Gaerdydd. Cynnwysa bentref Rhydodridge; a'i lythyrfa ydyw Peterston, dan Gaerdydd. Erwau, 3504. Gwerth ardrethol, 3185. Poblogaeth, 452. Tai annedd, 88. O fewn ffiniau y plwyf hwn y mae Hensol, lle y cartrefai teulu boneddigaidd o'r cyfenw "Jenkins," dan nawdd achlesol y rhai y cynhelid cisteddfod flyneddol y beirdd, am flyneddoedd lawer, yn mhlwyf cyfnesawl Ystrad Owain, hyd farwolaeth Richard Jenkins, Ysw., yr hwn oedd yn edmygydd brwdfrydig ar farddoniaeth a cherddoriaeth Gymreig, ac yn delynor medrus ei hunan. Wedi hyn yn y flwyddyn 1721, trosglwyddwyd yr ettifeddiaeth i'r Arglwydd Ganghellydd Talbot, trwy ei brïodas â'i nith; ac efe a ddyrchafwyd i'r bendefigaeth, dan y teitl, "Barwn Talbot, o Hensol;" a'i fab a chwanegodd ddwy aden at y palas, ac a wnaeth welliannau mawrion ar yr ettifeddiaeth. Perthyna y lle yn awr i'r Crawshay's. Y mae amryw ffynnonau yn y plwyf, i'r rhai y prïodolir rhinweddau meddygol; ac effeithiolrwydd mawr i wellau y llygaid, a'r tan iddwf yn enwedig. Gellid casglu oddiwrth enwau amryw dyddynod yn y plwyf, fod yma hen wersyllfeydd milwraidd ar ryw adeg foreuol; ond, nid oes dim o'u hanes ar gael, ac ni's gellir canfod dim o'u holion.

**PEN DYFFRYN**, palas bychan hardd, wrth droed y Penmaen Bach, yn mhlwyf Rhiwgyfylchi, swydd GAER YN ARFON; 2 filldir i'r gorllewin o dref Aber Conwy.

**PENEGOES**, neu PENEGWEST, plwyf yn nghantref Machynlleth, swydd DREFALDWYN; ar lan yr afon Dulas, 1½ milldir i'r dwyrain o orsaf rheilffordd Machynlleth. Cynnwysa drefgyrdd Uwch y coed, ac Is y coed; a medda lythyrfa, dan Machynlleth, swydd Drefaldwyn. Erwau, 8085. Gwerth ardrethol 5419*p.*, o ba rai y mae 2440*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1871, gan gynnwys y Dylife, 1112. Tai annedd, 216. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglоriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 250*p.* Noddwr, Esgob Llandâf. Dywedir fod y plwyf wedi cael ei enw oddiwrth un o fân benaduriaid Cymru, a elwid Egwest, yr hwn y torwyd ei ben yn agos i'r llanerch lle y saif yr eglwys. Y mae y plwyf yn gorwedd mewn rhandir dra mynyddig, yn y parth Gorllewinol o'r wlad, ac fe'i trawsir gan yr afon Dyfi, yr hon sydd yn llifeirio o fewn ychydig mwy na haner milldir i lan y plwyf, a chan y brif-ffordd o'r Trallwm i Fachynlleth, yr hon sydd yn myned trwy y pentref. Yn y rhanau mynyddig, cair porfa i ddiadellau lluosog o ddefaid, ac yn y tiroedd isel, y mae y gweryd yn gymhwys i gynnyrchu ŷd. Y mae y gweithfeydd gwlaneni a ddygir yn mlaen yn y plwyf, yn rhoddi gwaith i gyfran o'r trigolion; a'r gweithfeydd plwm, yn mynyddoedd y Dylife, a'r Esgair Galed, y rhai a ddygir yn mlaen yn fywiog yn y blyneddau diweddaf hyn, a fforddiant gynhaliaeth i deuluoedd lluosog. Mewn cae yn agos i'r eglwys, y mae ffynnon, dwfr yr hon a gyfrifir yn rhinweddol i wellau y gymmalwst: yr oedd adeilad yn ei gorchuddio gynt, rhanau o adfeilion pa un sydd yn aros eto: yr oedd y ffynnon wedi ei ffurfio yn faddon, tua saith lâth o hŷd, a thair o lêd, wedi ei rhanu yn ddau faddon, a grisiau i fyned i waered i bob un: y mae tua phedair troedfedd o ddyfnder. Dywedir am hen drigle yn y plwyf hwn o'r enw Dolguog, mai yno yr enciliodd Llywarch Hên yn ei drallod, i liniaru ei dristwch yn swn ei delyn. Yn y plwyf hwn hefyd, y ganwyd yr arlunydd enwog, Richard Wilson, yn y flwyddyn 1714, pan oedd ei dad yn beriglor y plwyf.

**PENFRO**, Swydd yn Neheudir Cymru. Enw gwreiddiol y swydd hon ydoedd Penbroog—*pen*, y rhan neu y cwr pellaf; *bro*, rhandir, gwlad; *og* neu *wg*, geiryn terfynol yn arwyddocau, mewn hen enwau Cymreig, "gwlad drigianol;" megys, Brycheini*og*, Rhyfoni*og*, Essyll*wg*, Morgan*wg*, &c. Yn yr *Annales Cambriae*, gelwir y swydd yn Pembroc a Pembroch-ia; yr hwn, fel yr enw Seisnig presenol, nid yw amgen na llygriad o'r hen enw Cymreig. Er mwyn perseinedd, debygid, y defnyddiwyd y ffurf lyfnach, Penfro. Oddiwrth enw tref Penfro, yn mhen eithaf y rhan yma o'r wlad, y rhoddwyd yr enw, yn ddiau, ar gantref Penfro, yn gystal ag ar y swydd.

DAEARYDDIAETH.—Y mae dwy ran o dair o derfynau y swydd hon, sef ar y deheu-orllewin a'r gogledd-orllewin, yn arforawl. Ar ei thueddau gogleddol, terfynir hi gan yr afon Teifi, yr hon a'i rhana oddiwrth Geredigion; ac ar yr ochr ddwyreiniol, gwahenir hi oddiwrth swydd Gaerfyrddin, mewn rhan gan yr afonydd Cych, cangen o'r Teifi; y Taf; a'r Cleddeu; ac mewn rhan gan ucheldir mynyddig sydd yn gorwedd rhwng tardd-leoedd y Cych a'r Taf. O Ben Strwmbwll, yn Mhencaer, i Ben Sant Gyfan, ar lenydd Castell Martin, y mae Swydd Benfro yn mesur 31 milldir o hyd; ac o Feisfor Sant Ffraid, i derfynau swydd Gaerfyrddin, mesura 21 milldir o led. Cynwysa ei harwynebedd 627 o filldiroedd ysgwâr, neu 401,691 o erwau. Y mae ffurf y swydd yn nodedig o afreolaidd. Gan nad oes yn y sir weithiau mwnawl, na llawweithfeydd o bwysigrwydd, nac ychwaith unrhyw achosion masnachol ereill i beri ffurfiad trefydd mawrion, y mae y boblogaeth yn wasgaredig, ac agos yn sefydlog. Yn ystod y ganrif bresenol yr oedd y cyfrifiadau fel y canlyn:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth y Sir | yn | 1801 | 56,280 |
| " | " | 1831 | 80,900 |
| " | " | 1841 | 88,044 |
| " | " | 1851 | 94,140 |
| " | " | 1861 | 96,278 |
| " | " | 1871 | 91,936 |

Gwelir fod y boblogaeth wedi lleihau mewn nifer yn ystod y deng mlynedd 1861–71, yr hyn a achoswyd yn benaf drwy leihad yn nifer y milwyr a gedwir yn Pembroke Dock. Cyfartaledd y boblogaeth yn y sir ydyw 178 ar gyfer pob milldir ysgwâr, yr hyn sydd yn llai nag eiddo unrhyw sir arall yn y Dywysogaeth.

Y mae Penfro mewn modd arbenig yn sir amaethyddol, gyda llawer o'i harwynebedd yn ucheldir, ac hyd yn nod yn fynyddig. Nid oes ynddi wastaddiroedd neu ddyffrynoedd llydain, nac ychwaith afonydd o faintioli, na mynyddoedd o uchder mawr. Ond y mae ei ffynonau a'i nentydd yn dra lluosog, y rhai, gyda niwloedd a chafodau mynych y gorllewin-for, a ddyfrhant yn helaeth y ddaear is-Siluriaidd, fas ac anffrwythlawn, o ba un y cyfansoddir y rhan fwyaf o arwynebedd y sir. Y mae yma, er hyny, lawer iawn o borfeldir ac yd-dir gweddol.

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON, LONDON.




Digitized by Google

GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

Nis gall trigolion y sir hon ymfalchio nemawr yn eu mynyddoedd; o herwydd, gyda'r eithriad o Ben Preselu (1754 troedfedd o uchder), yn nghanol y sir, ynghyd a chreigiau uchel Trefgarn, ac ambell fynydd a moel yn nghymydogaethau Tŷ-Ddewi, a Phencaer, y mae uchder y rhanau mynyddig ereill yn dra chymedrol, ac yn hynod amddifad o unrhyw wylltedd a phrydferthwch. Ond am lenydd agenog, holltedig; pentiroedd ystormus; ac ynysoedd creigiog, mewn moroedd gwylltion, nid oes yr un sir arall yn Mrydain, heb eithrio hyd yn nod Gernyw ei hun, mor enwog ag ydyw swydd Benfro. Mewn ystyr ddaearyddol, y mae hynodrwydd godidog y sir hon, i'w ganfod yn benaf yn ei mor-lenydd rhagorol, eu hamrywiaeth dirfawr, a'u traethau lluosog. O ben mynydd Preselu, gellir canfod bron yr oll o'r sir; ac y mae yr olygfa a geir oddiyno ar ei harfordir hirfaith, yn dra godidog. Y mae hafan anghymarol Aberdaugleddyf yn un o'r porthladdoedd mwyaf eang a chyfleus yn yr holl fyd. Nid ydyw afon Lerpwl, na geneu yr Hafren, y Tafwys, neu y Tein, yn haeddu eu cyffelybu i'r hafan enwog yn sir Benfro, lle nad ydyw y llanw a'r trai yn anhwyluso dim ar gyfleusderau lluosog y porthladd. (Gwel Aberdaugleddyf.)

Y mae cymydogaeth Aberdaugleddyf wedi bod bob amser yn ganolbwynt masnach, bywyd, a dylanwad yn y sir. Gerllaw y dref, ac ar lenydd yr hafan, y mae prif drefydd y sir, yn gystal a lluaws mawr o'i phrif hen balasdai. Y mae y tir yn fwy toreithiog, a'r golygfeydd yn rhagorach yno, nag ydynt hwyrach yn un rhan arall o'r sir; ac yno, yn naturiol, yr ymsefydlodd y dosbarth pwysicaf o'r boblogaeth. Yn nghymydogaeth Marloes hefyd, yn yr un rhan o'r sir, y mae gwlad eang a thoreithiog, daear yr hon sydd o'r tywod-faen coch, ac yn ymestyn hyd at y môr. Rhwng Dinbych-y-pysgod a Narberth, y mae y ddaear yn wael ac yn llwm; ac mewn llawer man arall, yn y cyfeiriad gogleddol o'r lle olaf, nid yw y tir yn nemawr gwell. Yn ardaloedd Hwlffordd, a Solfach, y mae gwlad dda mewn cymhariaeth; yn nghylchoedd Trefgarn, ceir ucheldir creigiog; ac yn nghymydogaethau Tŷ-Ddewi, y mae gwastad-dir cerygog, bas, llythyrenol ddi-goed, ond er hyny tra chnydiol o ŷd; ac yno y trigiana amaethwyr cyfoethog, a llawer o honynt yn feddianwyr y ffermydd a breswyliant. Wedi croesi y Preselu i ranau uchaf y sir, ceir eto yr un amrywiaeth yn natur y tir. Yn y dosbarthiadau sydd yn ymestyn hyd lenydd yr afon Teifi, y mae golwg dda ar y wlad, mewn canlyniad i amaethyddiaeth ragorol y lluaws boneddigion sydd wedi ymsefydlu yno; ac y mae yn nghantref Cemmaes, yn nghymydogaethau Eglwyswrw, Trefdraeth, a Nefern, leiniau o ddaear dra chynyrchiol. Yn y rhanau ereill o'r dosbarth gogleddol o'r sir hon, y mae y tir, at eu gilydd, yn wael, ac yn gofyn amaethyddiaeth o'r radd uchaf. Rhwng Llantwd ac Eglwyswrw, yn mhen uchaf y sir hon, y mae coedwig nodedig Pencelli, yr hon sydd yn meddiant arglwydd is-faenor Eglwyswrw. Flyneddoedd yn ol, mesurai y goedwig hon bum can erw, ac yr oedd ei hamgylchedd yn agos i bum milldir o hyd. Dywedai awdwr a ysgrifenai yn y flwyddyn 1591 am dani, fod yno, yn ei amser ef, dderw yn ddau can mlwydd oed, gyda manwydd, drain, cyll, helyg, a phorthiant digonol yn yr haf i "ddeg ar hugain o gesyg magu; ac yn y gauaf i dri chant o ddefaid, a deucant o wartheg, heblaw y moch lawer a gedwid yno." Y mae y goedwig hon yn bresenol yn llawer llai ei maint nag ydoedd gynt; ond y mae yn parhau eto i fod yn un o hynodion daiaryddol sir Benfro.

Daeareg.—Y mae tebygolrwydd neillduol yn eu natur ddaearegol rhwng siroedd Môn a Phenfro; yn wir, mwy o debygolrwydd nag sydd rhwng unrhyw ddwy sir arall yn Nghymru. Y tair prif gyfres o haenau yn Mhenfro ydynt—1. *Creigiau Llandeilo*, y rhai a gyfansoddant agos yr oll o'r sir hon, o lanau y Teifi, ac o dueddau swydd Gaerfyrddin yn y cyfeiriad gorllewinol, hyd i'r afon Cleddeu, a chyda rhai cyfyngau, mor bell a'r sianel; ac yn y cyfeiriad deheuol mor bell a Sant Clears, Narberth, a Hwlffordd. 2. Yr haen *ulyfddygol* (*carboniferous*), yr hon sydd yn ymestyn o Saundersfoot a Begelly, ar hyd gwaelod y sir, hyd i Littlehaven a Newgate, ar y glannau gorllewinol; ac yn cynwys y gwelŷau glo yn y parthau hyny. 3. Math o *dywodfaen* sydd yn ymledu drwy gantrefi Castell Martin a'r Rhos (*Roose*), ynghyd â'r wlad rhwng Sant Clears a'r môr yn Pendein. Nid yw yr haen olaf hon yn ddim amgen na pharhad o hen wely y dywodfaen fawr a gyfarfyddir yn siroedd Henffordd a Brycheiniog, a'r hwn sydd yn disgyn yn isel i'r ddaear o dan y gwelŷau glo yn Morganwg, a sir Gaerfyrddin. Yn ychwanegol at y rhai uchod, y mae sir Benfro yn cynwys hefyd ddadblygion amrywiol o'r calchfaen ulyfddygol, gwelŷau Cambriaidd haenedig, a chreigiau tânddygol haenedig, ac wedi ymffrwydro. Ceir y calchfaen ar hyd glenydd deheuol Castell Martin, lle y furfiant glogwyni uchel a serth Sant Gyfan, creigiau y Stack, a Phen Linney; ac ymestynant hefyd o ynys Caldy i gyfeiriad tref Penfro, a hafan Aberdaugleddyf, ac o Dinbych y Pysgod i Pater. Hon yw y graig ddefnyddiol sydd yn cynyrchu calch at wasanaeth yr amaethwyr yn ngwahanol ranau y sir. Y mae y gwelŷau Cambriaidd yn gorwedd yn afreolaidd ar hyd yr arfordir, rhwng traeth y Cwm mawr a Phorthlliscy ger Tŷ-Ddewi. Agorwyd chwarelau o'r gwelyau hyn yn Trefgarn, a Throedyrhiw, ac y maent yn cynyrchu meini rhagorol at adeiladu. Ceir hwynt hefyd gerllaw Tŷ-Ddewi, a defnyddiwyd hwy yn helaeth i adeiladu y brif-eglwys yn y ddinas hono. Yn mynyddoedd Preselu, yn Mhencaer, yn Nhŷ Ddewi, yn Nhrefgarn, ac mewn manau ereill, cyfarfyddir â'r creigiau tân-ddygol, haenedig; ac yn Mhen Dewi, yn ynysoedd Ramsey, a Skomer, yn nghlogwyni Talbenny, yn gystal ag am rai milldiroedd i'r dwyrain o'r clogwyni hyny, cyfarfyddir â'r creigiau tân-ddygol ymffrwydrol, heb ymhaenu, ac o drwch mawr.

Hanes a Henafiaethau.—Drwy y cyfnodau Brytanaidd, Rhufeinig, a Sacsonaidd, nid ydyw hanes swydd Benfro yn gwahaniaethu nemawr oddiwrth yr eiddo rhanau ereill o Brydain Orllewinol, y rhai oeddynt oll wedi eu poblogi gan lwythau o Gymry, wedi eu dosbarthu yn benaduriaethau, yn cael eu llywodraethu gan eu tywysogion etifeddol eu hunain. Yr oedd y tywysogion hyn yn fynych yn ymgyrchu i ryfeloedd blinion yn erbyn eu gilydd, er dirfawr wanychdod i'w gallu i wrthwynebu gelynion allanol. Y canlyniad fu iddynt yn raddol golli yr annibyniaeth a fwynhasai eu tadau o'u blaen, a syrthio i ymostyngiad gwriogaethol i'r brenhinoedd Seisnig Edgar, Alfred, ac Athelstane. Darostyngwyd hwynt yn fwy gan y Gorchfygwr, ac amryw o'r brenhinoedd a'i dilynasant ef, hyd nes o'r diwedd y cwblhawyd

Digitized by Google

eu gorchfygiad gan Iorwerth I. Yn yr holl amgylchiadau hyn, yr oedd swydd Benfro yn rhanog o'r un dynged ag a syrthiodd ar barthau ereill y Dywysogaeth. Ond dylid sylwi fod gan y sir hon ei hanes neillduol ei hun, o amser Gwilym II. hyd deyrnasiad Harri VIII.

Yr ydym yn gwybod y tuhwnt i amheuaeth fod yr holl wlad yn cael ei phoblogi gan yr hen Frythoniaid yn yr amser pan ymwelodd y Rhufeiniaid gyntaf â'r ynys hon. Y pryd hwnw, yr oedd swydd Benfro, ynghyd â rhanau o Geredigion, ac o sir Gaerfyrddin, yn myned dan yr enw Dyfed, yr hwn a gyfieithwyd gan y Rhufeiniaid yn *Dimetia*. Yn fynych iawn cyfyngir yr enw Dyfed i sir Benfro ei hun yn unig. Sonir mewn hen ysgrifau, am Brochmael, a brenhinoedd ereill Dyfed yn amser y Rhufeiniaid. Dywed Asser o Dŷ-Ddewi, yr hwn a ysgrifenai yn y nawfed canrif, fod Hemeid, brenhin Dyfed, wedi cael ei orfodi, o herwydd rhuthrgyrchoedd chwe mab Rhodri Fawr, i osod ei hun a'i diriogaeth o dan amddiffyniad y brenhin Alfred. Crybwyllir hefyd am Meurig, brenhin Dyfed. Ar raniad Cymru gan Rhodri Fawr, gwnaed ei fab, Cadell, yn dywysog y Deheubarth, yr hyn a gynwysai Dyfed, Ceredigion, Ystrad Tywi (sir Gaerfyrddin), a'r wlad hyd afon Tawe, yn Morganwg. Yn y flwyddyn 907, dilynwyd Cadell ar orsedd y Deheubarth, gan ei fab Hywel Dda, yr hwn a deyrnasai hefyd yn Mhowys. Yn y flwyddyn 940 gwnaed ef yn frenhin ar holl Gymru; ac efe ydoedd awdwr a threfnydd y cyfreithiau enwog a elwir wrth ei enw.

Ni bu Julius Caesar erioed ar yr ochr orllewinol i'r Hafren; fel, os darostyngwyd Dyfed i'r Rhufeiniaid, y mae yn rhaid ddarfod i hyny gymeryd lle y flwyddyn 50 o.c. pryd y gorchfygwyd y Siluriaid, dan Caradog, gan Ostorius; a'r flwyddyn 85 pan alwyd Agricola adref. Ni wyddir ond ychydig am weithrediadau y Rhufeiniaid yn Mhenfro. Ymddengys oddiwrth "Gylchdeithiau" Antonius, eu bod wedi myned drwy yr holl sir, ac wedi gwneuthur ffyrdd ar ei thraws, o'r naill ben i'r llall, olion o ba rai a welir hyd heddyw. O Gaerfyrddin (*Maridunum*), eu prif ddinas, i'r gorllewin o Gaerlleon ar Wysg, agorasant ffordd union i Dŷ-Ddewi, ar yr hon yr oedd gorsaf, a elwid *Ad Vicessimum* gerllaw Ambleston; ac i gyfarfod hon yn Nhŷ-Ddewi, gwnaethant un arall yn dyfod oddiwrth Sarn Helen, yn myned o Gaerfyrddin i'r Gogledd, drwy rannau uchaf dyffryn Teifi. Yr oedd y ffordd hon yn myned o Dŷ-Ddewi, dros fynydd Preselu, heibio Cilrhedyn, Priskilly, Croes-goch, a Waun-y-beddau.

Y mae henafiaethau y cyfnod Brytanaidd yn dra lluosog yn swydd Benfro. Yn mysg y rhai penaf, gellir nodi cromlechau Pentre-Evan, ger Felindre; Llech-y-drybedd, rhwng Trefdraeth ac Aberteifi; cromlech Trellys, yn Mhencaer; un yr Hirdŷ (*Longhouse*), ger Mathry; ac un arall yn Manor-bier, ger Dinbych y Pysgod. Y mae rhai ereill, llai eu maint, yn Nhrenewydd, Castell Martin; ac yn Llechfaen, ger Solfach. Yn Llandudoch y mae maen, ac arno gerfysgrifiaeth yn ol arfer y Gwyddelod gynt (*Ogham stone*)—un o'r meini goreu o'r fath yn yr holl Dywysogaeth; ac y mae maen arall cyffelyb, yn y Bridell, ger Cilgerran. Y mae caerau, a gwersyllfaoedd, carneddau, a beddau henafol, yn lluosog yn y sir hon. Yn mhlith yr henafiaethau eglwysig yn swydd Benfro, y penaf o lawer ydyw eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi. (Gwel Ty Ddewi.)

Y mae cyfnod newydd a hollol wahaniaethol yn hanes y swydd hon, yn dechreu gyda dyfodiad y Normaniaid i'r wlad. Y mae y cyfnod hwnw yn un nodedig, llawn o ddygwyddiadau a chyfnewidiadau cymdeithasol, a gwleidyddol, ac yn ystod yr hwn y diddymwyd awdurdod a llywodraeth y tywysogion a'r arglwyddi brodorol, y llanwyd haner y swydd gan drigolion cymysg a dieithr, ac yr adeiladwyd y cestyll a'r maenorfeydd cadarnaf ac enwocaf yn y sir. Hanes y cestyll a'r caerfeydd hyn ydyw hanes y sir ei hun, am ysbaid o dros bedwar can mlynedd, sef o ddyddiau Gwilym Goch y Normaniad, 1090, hyd y 27ain o Harri yr Wythfed, pryd y cwblhawyd yr uniad rhwng Cymru a Lloegr. Nid ydyw yn dyfod o fewn cylch yr erthygl hon i fanylu ar hanes dyddorol a chyffrous gwahanol fanau yn y sir, eithr yn hytrach ein hamcan ni raid fod, i gymeryd golwg gyffredinol ar yr holl swydd; a gellir cael yr holl brif fanylion mewn perthynas i leoedd neillduol, mewn rhanau ereill o'r gwaith hwn.

Ad-drefnwyd rhaniadau swydd Benfro gan Llewellyn ("Llyw olaf") yn ystod y cyfnod Normanaidd, a dengys y daflen ganlynol wahanol ddosbarthiadau y sir y pryd hwnw, yn gystal ag yn bresenol.

| Hen Gantrefi. | Hen Gwmydau. | Cantrefi diweddar. |
|---|---|---|
| Cemmaes,...... | Is Nyfer.<br>Uwch Nyfer,<br>Trefdraeth, | Kemes. |
| Dau Gleddeu, | Amgoed,<br>Pennant,<br>Y Felfre, | Daugleddy. |
| Pebydiog,...... | Pebydiog,<br>Mynyw,<br>Pencaer, | Dewsland<br>(Dewis' land). |
| Rhôs,........... | Hwlffordd,<br>Castell Gwalchmai,<br>Y Garn, | Roose. |
| Penfro, ......... | Penfro,<br>Coed-yr-Haf,<br>Maenor-Pyr, | Castle Martin. |
| Arberth, ....... | Penrhyn-ar-glais,<br>Esger Olef,<br>Tal-lacharn, | Narberth. |
| Emlyn, ......... | Uwch Cych.<br>Is Cych,<br>Lle-fether, | Cilgerran. |

Y mae yn nodedig yn hanes llywodraethiad y Normaniaid yn y sir hon, mor ofalus yr ymgadwasant rhag gwneuthur ymgyrchoedd yn erbyn cantref Pebydiog—rhan o'r wlad a ystyrid yn gysegredig ganddynt, er mai ysbeilwyr oeddynt, am yr achos fod y gantref hono dan nawddogaeth Sant Dewi. Er i gantrefi Cemmaes, Rhôs, Penfro, Arberth, a bron yr oll o Dau Gleddeu, gael eu goresgyn drwy dân, a chleddyf, a'u meddianu gan y Normaniaid, eto ni feiddiodd yr ymgyrchwyr hyny droseddu ar gysegredigrwydd Pebydiog, yr hon oedd dreftadaeth Dewi, a'r Eglwys. Ni ymsefydlasant yno, ac y mae trigolion y gantref hono hyd y dydd heddyw, yn Gymry o linach mor bur a dilychwin ag ydyw trigolion unrhyw ran o'r Dywysogaeth. Ers chwe chan mlynedd bellach, y mae poblogaeth swydd Benfro wedi bod yn ymranedig i ddau ddosbarth, y Cymry, a'r Saeson. Preswyliai y Cymry yn nghantrefi Cem-

Digitized by Google

maes, Cilgerran, Dewsland, ac mewn oddeutu haner dwsin o blwyfydd ar gyffiniau cantrefi Dau Gleddeu, a Narberth; tra y meddianai y Saeson y gweddill o'r sir, sef y rhan hono a alwyd gan Camden, yn *Anglia Transwalliana*, "Little England beyond Wales," neu Loegr fechan tu hwnt i Gymru.

Y lle cyntaf, a'r penaf yn y sir hon, a feddianwyd gan y Normaniaid, ydoedd tref Penfro, ac yno yr adeiladasant un o'r castelli cryfaf yn y deyrnas. (Gwel PENFRO.) Nest, merch Rhys ap Tewdwr, a briododd Gerald de Windsore, ac a adeiladodd gastell Carew, yr hwn enw, yn ddiau, nid yw amgen na llygriad o *Caerau.* Merch y Gerald de Windsore uchod, Angharad, a briododd William de Barri, ac a ymsefydlodd yn Maenor Pyr, castell Manorbier, fel y gelwid ef ar ol hyny, a'u mab hwy a anwyd yno, ydoedd Giraldus Cambrensis, y teithiwr Cymreig enwog. Ymddengys fod caerfa gan yr hen Gymry yn Ninbych-y-pysgod, ond daeth y castell yn y lle hwnw yn enwog yn amser Gruffydd ap Rhys, mab yr hwn, Cadell, a glwyfwyd yn dost mewn brwydr yn y lle, oddeutu y flwyddyn 1154. Yr oedd yn Arberth hefyd gaerfa henafol, yr hon oedd yn enwog yn nyddiau Arnulph de Montgomery, y Normaniad rhyfelgar a wnaeth ruthrgyrch i'r swydd hon yn y flwyddyn 1092. Castell Lawhaden neu Llan Aeddan —ydoedd yn yr amser Normanaidd, yn breswylfod a rhan o dreftadaeth esgobion Ty-Ddewi; ond yr esgob Milbourne a ddinystriodd y lle, yn y flwyddyn 1616, cyn ei symudiad o Dy-Ddewi i esgobaeth Carlisle. Castell Gwys, (Whiston,) a adeiladwyd gan Normaniad o'r enw Wiz. Ei ŵyr ef oedd Syr Phylip Gwys, merch yr hwn a briododd Gwgan ap Bleddyn, o'r rhai y disgynodd teulu Wogan, o Gasgwys. Hwn oedd brif gastell maenor Normanaidd Dau Gleddeu, ac fe'i dinystriwyd gan Llewelyn Fawr o Wynedd, yn y flwyddyn 1220. Yr oedd castell Hwlffordd, o faintioli a nerth dirfawr. Tybir ddarfod ei adeiladu yn 1112 gan Gilbert de Clare, tad Richard de Strongbow, gorchfygwr yr Iwerddon. Mewn amseroedd diweddarach, gwnaeth Owain Glyndwr, ruthrgyrch aflwyddianus yn erbyn y lle hwn, ond dinystriwyd y castell yn 1648, drwy orchymyn Oliver Cromwell. Castell Roche, yn nghantref y Rhôs, a enwir am y waith gyntaf, yn nheyrnasiad Harri II., pryd y meddylir iddo gael ei adeiladu gan Adam de Rupe, arglwydd y gantref hono.

Un o'r cestyll hynotaf yn y sir hon ydyw castell Cilgerran, uwchlaw glanau yr afon Teifi. Adeiladwyd ef gan Roger de Montgomery, yn y flwyddyn 1092; ac y mae yn bresenol yn meddiant Syr Pryse Pryse, Gogerddan. (Gwel CILGERRAN.) Castell Trefdraeth, yn nghantref Cemmaes, a adeiladwyd gan Martin de Tours, yr hwn a oresgynodd y rhan hono o'r sir, yn 1094. Arglwydd maenor Cemmaes, ydyw maer etifeddol Trefdraeth, ac y mae y castell a'r faenor yn bresenol yn feddiant i Syr Thomas D. Lloyd, Bronwydd, yr hwn sydd yn hanu o Syr William Martin, a merch yr Arglwydd Rhys o Dinefawr. Heb fod yn nepell o Drefdraeth, yr oedd castell Llan-nyfer, gerllaw pentref Nanhyfer, neu Nevern. Ymddengys fod hwn yn fwy henafol na chastell Cemmaes, er mai arglwyddi y gantref hono a'i meddianent, ac a drigent ynddo. Y rhai uchod ydynt holl brif gantrefi y sir.

Yr oedd swydd Benfro gynt yn freiniarllaeth (*palatinate*), ac fel y cyfryw, meddai ei changell-lys, a'i llysoedd ereill ei hun, y rhai a gynelid yn nghastell yr iarll, yn Mhenfro. Yr oedd felly urddas uwch yn perthyn i'r sir hon nag a feddai unrhyw swydd arall yn y deyrnas, oddigerth siroedd Caerhirfryn, Caerlleon, a Durham. Cymerwyd y freiniarllaeth oddiar y swydd hon gan Harri VIII., yr hwn a osododd holl siroedd Cymru ar yr un tir. Yn y rhyfel cartrefol rhwng y Senedd a'r Brenhin Siarl I., yr oedd sir Benfro, fel yn wir yr holl Dywysogaeth yn gyffredinol, o blaid yr orsedd. Anfonwyd Cromwell i'r sir gyda byddin gref, ac efe a orchfygodd yr holl wlad, ac a barodd ddinystrio amryw o brif gestyll y sir. Am gysylltiad y Tuduriaid â'r swydd hon, fel Ieirll Penfro, gwel tref PENFRO; ond gellir crybwyll yma, fel nodiad hanesyddol, mai drwy bleidlais derfynol Syr Arthur Owen, Barwnig, yr hwn oedd ar y pryd yn aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Penfro, y cariwyd y mesur yn nhŷ y Cyffredin, yn nheyrnasiad y Frenhines Anne, yn galw y deyrnach Brunswickaidd i orsedd Prydain Fawr. Y mae dywediad cyffredin mewn rhai parthau o Gymry, fod Ynys Enlli yn perthyn yn yr hen oesau i swydd Benfro, a bod trethi a degymau yr Ynys hon, yn cael eu talu i ganghell-lys breiniarllaeth y swydd. Modd bynag, er ddarfod i ni ar adegau gwahanol, wneuthur llawer ymchwiliad i wirionedd y traddodiad hwn, ymddengys i ni nad oes dim sail iddo o gwbl, mewn unrhyw hanesyddiaeth y gellir dibynu arni.

NODWEDDION CENEDLAETHOL, A THAFODIAITH.—Y mae oddeutu haner y swydd hon yn cael ei phoblogi gan drigolion cymysg, y rhai sydd yn siarad math o iaith Saesneg nodweddol o honynt hwy eu hunain yn unig. Cyfrifir yn gyffredin, mai pobl o darddiad Fflemingaidd ydynt, ac oddiwrth hyny y deilliodd yr enw a roddwyd ar ran o'r sir gan Camden, sef *Anglia Transwalliana.* Y mae priodoli tarddiad y rhan hon o'r boblogaeth i'r Fflemingiaid hyny a oresgynasant y swydd ar wahanol amserau, yn foddion i roddi cyfrif digonol dros y dafodiaith nodedig a leferir yn nghantrefi Roose, a Chastell Martin, er na ddigona hyny yn unig i egluro yr holl neillduolion a berthyn i drigolion a thafodiaith rhanau ereill o'r "Lloegr fechan tu hwnt i Gymru." Yn nheyrnasiad Harri I. a'i frawd Gwilym Goch, ymddengys fod niferi lluosog o'r Fflemingiaid wedi cael caniatad, ac yn wir, gefnogaeth hefyd, i ymsefydlu yn ngogledd Lloegr; a'r rheswm a roddir dros hyny ydyw, fod Matilda, neu Maud, gwraig Gwilym y Gorchfygwr, yn ferch i Baldwin, iarll Fflanders, ac yr oedd lluaws o ymfudwyr wedi gorfod gadael y wlad hono, mewn canlyniad i orlifiad y môr dros y rhandir a breswylid ganddynt. Wedi iddynt ymluosogi yn y gogledd, ac achosi amryw gynhyrfiadau yno, ac yn gymaint a bod y Normaniaid yn swydd Benfro, yn dyoddef cryn lawer oddiwrth wrthwynebiad y Cymry, meddyliodd Harri I. mai y llwybr goreu i esmwythau ar y naill blaid a'r llall, fyddai symud niferi o'r Fflemingiaid, o ogledd Lloegr, i swydd Benfro. Yn wir, symudwyd bron yr oll o honynt, o'r naill le i'r llall. Rhoddwyd tiroedd y Cymry iddynt yn sir Benfro, ar yr ammod iddynt fod yn wastad yn barod i wrthwynebu pob rhuthrgyrch a wnelid gan y Cymry i adenill eu meddianau yn y wlad. Felly y tystiolaetha *Gwilym o Malmesbury*, yn ei Groniclau.

Ond dylid cofio, fod lluaws o Fflemingiaid wedi dyfod drosodd i Loegr yn mhlith y lluoedd a ddaethant i'r wlad hon yn nglyn â byddin y Gorchfygwr.



Digitized by Google

Yr oedd efe wedi anfon allan ei gyhoeddiad i Fflanders, yn gwahodd pawb a ddymunent gael cyfran o'r ysbail yn Lloegr, i ymuno â'i fyddin ef; ac ymddengys fod cynifer o'r bobl hyny wedi croesi drosodd i Loegr, nes oeddynt o'r diwedd wedi myned yn rhy luosog a phoenus i'w goddef, yn amser Gwilym Goch. Yn ol *Brut y Tywysogion*, ymsefydlasant gyntaf yn nghantref y Rhos, yn y swydd hon, a hyny oddeutu y flwyddyn 1105. Y mae y cyfeiriadau a wneir at eu hymsefydliad yma, mor anghyflawn, fel y mae yn amhosibl gwybod pwy ydoedd eu prif arweinwyr, nac ychwaith nodi yr holl ymgyrchoedd mynych a ymladdasant yn erbyn y brodorion. Yn y rhandir rhwng castelli Roch, a Benton, yr oeddynt dan lywodraeth uniongyrchol Adam de Rupe, yr hwn oedd "iarll y traeth" (*comes littoris*) rhwng Newgate ac Aberdaugleddyf. Tref Hwlffordd ydoedd eu prif ganolbwynt, mewn ystyr filwrol, yn gystal a masnachol; ac y mae Giraldus Cambrensis, yr hwn a ysgrifenai yn mhen haner can mlynedd ar ol eu hymsefydliad yn y sir, yn eu darlunio fel pobl gryfion a dewr; bob amser yn hollol elyniaethus i'r Cymry; tra chyfarwydd mewn masnach, a gwlânweithfeydd; awyddus i enill ar fôr a thir; a'r un mor gymhwys i ddilyn yr aradr, ag oeddynt i ddwyn y cledd. Ychwanega yr un awdwr, fod y Ffflemingiaid hyn yn nodedig hefyd am eu dewiniaeth, ac y mae yn hysbys fod swydd Benfro hyd y dydd hwn, yn hynod yn mhlith siroedd Cymru, am ei hofergoeledd.

*Tafodiaith* sir Benfro ydyw un o'i hynodion penaf; a byddai unrhyw ddarluniad o'r swydd yn angyflawn iawn heb gyfeiriad at y pwnc hwnw. Rhenir y boblogaeth yn y sir hon i ddau ddosbarth, y rhai a adwaenir yn y wlad hono, ar gyfrif amrywiaeth eu hiaith, fel "Seisnigion," a "Chymreigwyr." Y mae y ffeithiau hanesyddol a nodasom yn barod, yn ddigon i egluro cymeriad ieithyddol y dosbarth blaenaf. Pa fodd y dysgodd y Ffflemingiaid Saesneg, a hwythau yn wastad yn llefaru eu hiaith eu hunain yn eu cartrefi, a ddeallir yn hawdd oddiwrth y ffaith, eu bod wedi trigianu cyhyd yn ngogledd Lloegr, yn gystal ag mewn rhanau ereill o'r wlad, cyn iddynt ymsefydlu yn swydd Benfro. A phan ystyrir y fath gymysgedd o bobloedd a fu yn preswylio yn y sir hon ar wahanol amserau, ac hefyd a ymsefydlasant yma, nid ydyw yn anhawdd rhoddi cyfrif am neillduolrwydd cymysgedig yr iaith Saesneg a leferir gan drigolion rhanau deheu-orllewinol y sir. Y mae eu tafodiaeth yn gynwysedig o Saesneg i'r hon yr impiwyd lluaws mawr o eiriau ac ymadroddion Ffflemingaidd, Normanaidd, a hyd yn nod Cymreig.

Y mae yn perthyn i "Saesneg Sir Benfro" neillduolrwydd mewn geiriau, ieithwedd, cynaniad, a threigliad geiriol. Nid ydyw yn gweddu i ni, hwyrach, mewn gwaith Cymreig fel hwn, roddi llawer o enghreifftiau yn cynwys geiriau ac ymadroddion Seisnig; ond gellir nodi yma, na chydnabyddir y canol-ryw (*neuter gender*) yn nhafodiaith y Sir hon. Yn hytrach, y mae pob peth, naill ai yn wrryw, neu yn fenyw ynddi. Wele yn canlyn restr fer o eiriau hynodol, yn amryw o ba rai y gellir canfod olion ymgyfathrach y Ffflemingiaid â hen Gymry y sir:—

*cupl* = (nid dau, ond) ychydig o nifer.
*pile* = lluchio cerryg at un.
*culf* = darn (nid bychan) o fara.
*sump* = sylweddol; llon'd llaw; cryn dipyn.
*dern* = tost, dreng, caled.
*budram* = gruel blawd ceirch; brwchan.
*rammas* = siarad didrefn.
*relge* = braenaru tir.
*voor* = cŵys.
*burgage* = dôl.
*stum* = enhuddo tân i'w gadw dros nos; stwmio.
*cowell* = basged, cawell.
*coppat* = toi tas; coppa.
*rottle* = trwyadl.
*hild* = arllwys; hidlo.
*gorral* = bwytäwr mawr; glwth; gor-bol.

Y mae y terfynau rhwng y "Seisnigion" a'r "Cymreigwyr" yn y sir hon, yr un heddyw ag oeddynt chwe chanrif a haner yn ol. Roose, Castell Martin, Narberth, a Dungleddy, oeddynt y cantrefi a boblogid gan y dyeithriaid yn y ddeuddegfed canrif, a'r rhai hyny ydynt y parthau lle yr erys y "Seisnigion" yn y dyddiau presenol. Mewn ystyr gyffredinol, gellir dywedyd nad oes brin blwyf yn yr holl sir, wedi ei enill na'i golli gan y naill blaid na'r llall, yn ystod y chwe chanrif diweddaf. Fel y canlyn y dywed yr hen hanesydd, George Owen, Ysw., o Henllys, Nevern, yn y sir hon, yr hwn a ysgrifenai oddeutu y flwyddyn 1610:—

"Rhenir swydd Benfro agos yn ddwy ran gyfartal, gan yr iaith Saesneg, a'r iaith Gymraeg. Saesneg a lefarir yn nghantrefi Castell Martin, a Rowse; yn holl gantref Narberth, oddigerth plwyfi Llanddewi, a Llanbedr; ac yn holl gantref Dungleddy, oddigerth plwyfi Llanvalteg, Llangain, Llandyssilio, Llanykeven, a Crynow. Cymraeg a lefarir yn nghantrefi Kilgerran, Kemes, a Dewisland. Y mae pedwar-arddeg a thri ugain o blwyfi y sir yn cael eu poblogi gan y Saeson (Ffflemingaidd); pedwar a thri-ugain o blwyfi, gan y Cymry; ac yn y chwe phlwyf gweddill, sef o Cronwere i Lanhaden, llefarir y ddwy iaith." (*Camb. Reg.* ii. 78.)

Y mae yr elyniaeth lidus a fodolai gynt rhwng y ddwy blaid hyn, wedi darfod bron yn llwyr. Yn fynych cymer cyd-briodasau le rhwng y ddwy boblogaeth, drwy yr hyn y cynnyrchir cyfathrach gymdeithasol garedig rhyngddynt. Y mae llawer oes wedi myned heibio, er pan y mae geiriau yr hanesydd George Owen wedi peidio a bod yn wir. Dywedai efe am y boblogaeth Seisnig yn yr ail-ganrif-ar-bymtheg, yr arferent "gadw eu hunain mor neillduedig, fel y rhyfeddent yn ddirfawr weled Cymro yn dyfod i'w mysg; ac yn gymaint felly, fel y galwai y naill gymydog ar y llall, gan ddywedyd 'Gwelwch, dacw Gymro!'"

Y mae *enwau lleoedd* yn naturiol ddilyn ymsefydliadau pobloedd mewn gwlad. Yn nghantrefi Roose, a Chastell Martin, y mae nifer luosog iawn o enwau lleoedd yn terfynu gyda'r ol-ddodiad *ton*, yr hwn sydd air Teutonaidd am "arosfa." Yn nghantref Dewisland y mae lluaws mawr o enwau lleoedd yn dechreu gyda'r gair Cymraeg *tre*. Yn wir, drwy holl gyfnewidiadau yr oesoedd, y mae lluaws o'r hen enwau Cymreig wedi eu trosglwyddo i lawr i'n dyddiau ni heb eu hanafu nemawr. Penfro, Dinbych, Narberth, a'r holl blwyfi sydd yn dechreu gyda Llan, ydynt enghreifftiau nodedig o hyn. Ceir enwau Cymreig hefyd yn fynych ar ffermydd, cwmydau, nentydd, bryniau, &c.: megys, Trefrân, Camrhos, Talbeny, Coedganlas, Pennar, Pwllycrochan, Caerew (*Caerau*), *Ben*ton, a Begelly.

Wrth gyfeirio at enwau lleol, dygir i sylw arbenig, y ffaith o ymsefydliad y Daniaid yn y sir hon. Yn y nawfed canri., ac yn y degfed, pan oedd cenedl y

Digitized by Google

Daniaid yn gwneuthur ymdrechion egniol i enill meddiant o'r deyrnas hon, ymddengys na wnaeth y bobl hyny fwy o ruthrgyrchoedd yn erbyn un rhan o Gymru nag a wnaethant yn erbyn sir Benfro. Deuent yn heidiau lluosog mewn llongau, gyda'r amcan o ysbeilio y wlad. Weithiau byddai eu hymweliadau yn frysiog, ac yn fyr-barhaol; ond ar brydiau ereill, gwnaent arosfa hir yn y cymydogaethau lle y disgynent. Lle y maent wedi gadael eu hargraff mor ddwfn ar y wlad, nes gosod yno enw perthynol i'w hiaith ddyeithr hwy, a'r enw hwnw wedi glynu wrth y cyfryw le drwy y canrifau, gellir casglu yn rhesymol eu bod wedi ymsefydlu i ryw raddau yn y manau hyny. Ceir yn y sir hon y geiriau Danaidd canlynol yn nglyn âg enwau lleoedd: —*gard*, neu *garth* = lle amddiffynol; *wick* = cilfach; *thorpe* neu *drop* = pentref; *by* = arosfan; *holm* ac *ey* = ynys; a *stack* neu *stakr* = craig golofnog. Canfyddir y geiriau uchod yn yr enwau lleol hyn:—

| | |
|---|---|
| Fishguard. | Grassholm. |
| Hasguard. | Flatholm. |
| Goodwick. | Skokholm. |
| Gellyswick. | Steepholm. |
| Musselwick. | St. Bride's Stack. |
| Wick Haven. | Stack Rocks. |
| Freystrop. | Stackpool. |
| Goultrop. | Caldy. |
| Colby. | Ramsey. |

Heblaw hyny, y mae yn nglyn â'r sir hon y cyfryw enwau Scandinafiaidd ag Harroldston, Hubbaston, Strumble, Sker-las, Skomer, Skerry, &c. Pe chwilid hefyd yn fanwl i enwau personau, yn gystal ag i neillduolion corfforol, dosbarth o'r boblogaeth, byddai yn hawdd cael profion digonol, fod y môr-ysbeilwyr Danaidd wedi mynychu ac ymsefydlu yn swydd Benfro yn yr hen amseroedd; ac wedi gadael yn y wlad olion diamheuol o'u dyfodiad iddi.

PENFRO, sydd dref, dau blwyf, is-ddosparth, a dosbarth, yn swydd BENFRO. Saif y dref ar benrhyn yn hafan Aber-dau-gleddau, gerllaw rheilffordd Penfro a Tinbych, deng milltir de wrth ddwyrain o Hwlffordd, ac yn cymeryd i fynu bentir, a elwir Pen-y-fro, o'r hwn y cymer y fan ei enw cyffredin. Sylfaenwyd y lle, gyda chastell cadarn, yn 1092, gan Arnulph de Montgomery; ac yr ydoedd unwaith wedi ei gylchynu â muriau, gweddillion o ba rai sydd yn aros hyd yn awr; y mae yn gynwysedig, yn benaf, o un heol hirfaith, yn ymestyn o ddwyrain i orllewin, ac y mae yma Brif-lythyrfa, gorsaf rheilffordd, ariandy, dau brif-westdy, treflys, marchnadfa, tair o eglwysi, pedwar o gapeli ymneillduol, ysgol genedlaethol, a gweithdy cyhoeddus. Yr oedd y castell yn sefyll yn y pen nesaf i'r mor o'r esgair, yr hwn oedd yn dra eang, cadarn, a diogel, drwy fod ei gylchfuriau yn ddyblyg. Yma y ganwyd Harri VII.; daliodd warchae yn achos Siarl I.; ac y mae yr adfeiliau sydd yn aros eto, yn ardderchog. Y maent yn cynnwys y porth mawr, gyda thyrau crynion, carchar crwn, deuddeg troedfedd a deugain o drawsfesur, a phymtheg a thriugain o uchder, gyda muriau o bedair troedfedd ar ddeg o drwch, a chapel, a neuadd; ac ystafell dan-ddaearol, neu ogof, dwy droedfedd ar bymtheg a thri ugain, wrth ddwy ar bymtheg a deugain, a elwir y Wogan. Y mae dwy fraich o'r gilfach yn amddiffyn ochrau yr adfeiliau, dros y rhai y mae pontydd. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Michael, o adeiladaeth ddiweddar, ac yn addurn i'r dref. Y mae eglwys St. Mair, mewn rhan yn Normanaidd, gyda chlochdy cadarn. Y mae eglwys Moncton yn dra henafol. Y mae y gweithdy yn ddigon eang i gant a phedwar ugain o drigolion. Y mae yma farchnad wythnosol ar y Sadwrn; a ffeiriau ar Ebrill 12, Mai 11, Gorphenaf 10, Medi 22, Hydref 10, a Tachwedd 30n. Cynhelir llysoedd gwladol, a chyfarfodydd yr ynadon yma, ac y mae y lle yn etholfa. Y mae y dref wedi cael ei chorphoraethu er amser Rhisiard III.; ac yn cael ei llywodraethu gan faer, chwech henadur, a deunaw o gynghorwyr, ac yn uno âg Aberdaugleddau, Tinbych, a Weston, i anfon aelod i'r senedd. Cyfoeth y Gorphoriaeth yn 1850 ydoedd 388*p*. Swm y trethoedd ar feddiant ac elw y dref, yn y bwrdeisdrefi unedig, yn 1863, ydoedd 4241*p*. Etholwyr y bwrdeisdrefi yn 1833, 1208; yn 1868, 1479. Y mae y fwrdeisdref yn cynwys plwyfi St. Michael, a St. Mair, gyda rhan o blwyf Monkton. Poblogaeth yn 1851, 10,107; yn 1861, 15,071; yn 1871, 14,409. Tai, 2140. Dau blwyf Penfro ydynt St. Michael, a St. Mair; ac y mae yr olaf yn cynwys tref a chapeloriaeth Pembroke Dock. Erwau yn St. Michael, 1817. Gwerth ardrethol 5260*p*., o'r hyn y mae 257*p*. mewn cloddfeydd. Erwau yn St. Mair 3457, o'r hyn y mae 1025 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 21,811*p*., o'r hyn y mae 135*p*. mewn cloddfeydd, a 100*p*. mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 7874; yn 1861, 12,559. Tai, 1672. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth unedig, yn esgobaeth Ty Ddewi; Gwerth 500*p*., ac yn nawddogaeth Syr John Owen, Barg. Y mae ficeriaeth Pembroke Dock, yn fywioliaeth ar wahan. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys plwyfi Penfro, St. Mair, Monkton, St. Petroes, Stackpole Elidor, Bosheston, St. Twinell, Warren, Castlemartin, Angle, Rhoscrowther, a Pwllcrochan. Erwau, 30,991. Poblogaeth, 16,559. Tai, 2383. Y mae y dosparth hefyd yn cynwys is-ddosparth Roose, yn cynwys plwyfi, Burton, Rosemarket, a Llanstadwell; ac is-ddosparth Tinbych, yn cynwys plwyfi Penfro, St. Michael, Coheston, Nash Lawrenny, Carew, St. Florence, Lamphey, Hodgeston, Manorbier, Penally, Tinbych, Gumfreston, a Redberth, a llain blwyfol ychwanegol Caldy, ac ynysoedd St. Margaret. Erwau, 70,276. Trethi y Tlodion yn 1863, 10,331*p*. Poblogaeth yn 1851, 22,960; yn 1861, 29,003. Tai, 4743. Priodasau yn 1863, 257; genedigaethau, 1028, o'r rhai yr oedd 71 yn anghyfreithlon; marwolaethau, 460. Lleoedd addoliad yn 1861, Eglwys Loegr 28, gyda 7807 o eisteddleoedd; Annibynwyr 10, gyda 1926 e.; Bedyddwyr 11, gyda 3041 e.; Wesleyaid 8, gyda 2451 e.; Tri heb eu dynodi, gyda 250 e.; Pabyddion 1, gyda 130 e. Ysgolion dyddiol 18, gyda 1939 ysgolorion; 45 o ysgolion neillduol, gyd 807 y.; 37 o ysgolion Sabbathol, gyda 3351 y.; ac un ysgol brydnhawnol i rai mewn oed, gyda 7 ysgolor.

Y mae Pembroke Dock yn borthfa a chapeloriaeth yn mhlwyf Penfro, St. Mair. Saif y dref ar gangen o hafan Aber-dau-gleddau, yn nherfyn gorllewinol rheilffordd Penfro a Tinbych, gyferbyn ag Aber-dau gleddau-Newydd, dwy filltir, gogledd orllewin o Penfro; a elwid gynt, Pater; ac a ddaeth yn borthfa llongau gan y llywodraeth, yn 1814, yn lle Aber-dau-gleddau; ac yn cynwys gofod o 88 erwau, cylchynedig â mur uchel, gyda dau dwr, a gwynebiad i'r mor, o tua haner milltir o hyd, gyda 12 o lithrfaoedd er adeiladu llongau o bob maintioli, dan dô haiarn; y mae yma hefyd le sych i longau o'r maintioli mwyaf; amddiffynfa yn cynwys 24 o fagnelau, a

Digitized by Google

lluestfa milwyr, wedi ei diogelu; a chysgod ac esgynfa, yn Hobbs-Point; ac y mae yn dwyn yn mlaen drafnidiaeth eang âg Iwerddon ac America; ac y mae hefyd yn bwynt-mordeithio rheolaidd, âg agerdd, rhwng yma a Waterford. Y mae yma Brif-lythyrfa, gorsaf rheilffordd, ariandy, a dau westdy. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1844. Gwerth ardrethol yn 1860, 15,326*p.*, o'r hyn yr oedd 35*p.* mewn cloddfeydd, a 100*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1861, 10,190; o ba rai yr oedd 1285 yn filwyr, a 558 ar fyrddau llongau. Tai, 1353. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 300*p.*, ac yn nawddogaeth yr Esgob a'r Goron, bob yn ail. Adeiladwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1848. Y mae trefniant y rheilffordd, mewn cysylltiad â llinell Penfro a Chaerfyrddin; ac yn cynwys llinell o Pembroke-Dock yn ddwyreiniol hyd i Tinbych, gyda changen o Pembroke-Dock i Hobbs-Point; a chyda hyny, amrywiol linellau byrach, yn cynwys estyniad i Ty-Gwyn ar Daf, a'r cymydogaethau.

**PENFRO**, trefgordd yn mhlwyf Caerhun, swydd Gaer-yn-arfon, 4¼ milldir i'r dehau o Gonwy. Poblogaeth, 389.

**PENGAM**, gorsaf rheilffordd ar ffin ddwyreiniol swydd Forganwg; ar reilffordd dyffryn Rhymni, yn agos i'r afon Rhymni, am y ffin a swydd Fynwy, 17 milldir i'r gogledd o Gaerdydd.

**PENGARNISIOG**, treflan yn mhlwyf Llanfaelog, Mon, 3¼ milldir i'r gogledd o'r Aberffraw. Poblogaeth, 99.

**PENGARNOD**, lle yn mharth gogleddol swydd Drefaldwyn; 3 milldir i'r gogledd orllewin o Lanfyllin.

**PENGWERN**, trefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd Ddinbych, yn agos i dref Llangollen. Gwerth ardrethol, 933*p.* Adeiladwyd Plas yn Mhengwern gan Tudur Trefor, Iarll Henffordd; ac yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, daeth i feddiant teulu y Mostyniaid.

**PENGWERN**, trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd Fflint, ar lan yr afon Clwyd, ddwy filldir i'r gogledd orllewin o Lanelwy. Poblogaeth, 273.

**PENHOW**, plwyf, yn undeb y Cas Newydd, swydd Fynwy; 2¾ milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Magor; a 7¼ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o'r Cas Newydd. Medda lythyrfa dan y Cas Newydd, swydd Fynwy. Erwau, 1784. Gwerth ardrethol, 2105*p.* Poblogaeth, 268. Tai annedd, 60. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth, yn esgobaeth Llandâf.

**PENIARTH**, trefgordd yn mhlwyf Llanegryn, swydd Feirionydd, ar yr afon Disynwy; 4¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Towyn. Cynnwysa bentref y Llwyn. Gwerth ardrethol, 1854*p.* Poblogaeth, 244.

**PENIARTH**, trefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd Drefaldwyn; 3¼ milldir i'r dehau o Lanfyllin. Gwerth ardrethol, 3150*p.* Poblogaeth, 500.

**PEN ISA'R WAUN**, pentref yn mhlwyf Llanddeiniolen, swydd Gaer-yn-arfon; 4¼ milldir i'r dehau o Fangor. Medda lythyrfa, dan Gaer-yn-arfon.

**PENLEY**, trefgordd gapelawg, yn mhlwyf Ellesmere, swydd Fflint, yn agos i ffin swydd y Mwythig; 4 milldir i'r gogledd wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Ellesmere. Medda lythyrfa, dan yr Amwythig. Erwau, 2036. Gwerth ardrethol, 2950*p.* Poblogaeth, 382. Tai annedd, 91. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorìaeth wastadol, yn esgobaeth Lichfield. Gwerth, 120*p.* Noddwr, Ficer Ellesmere.

**PENLLECH**, plwyf yn nghantref Cymmytmaen, Lleyn, yn swydd Gaer-yn-arfon; 10½ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o orsaf rheilffordd Pwllheli. Llythyrfa, Llaniestyn, dan Bwllheli. Erwau 2187, o ba rai y mae 93 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1335*p.* Poblogaeth, 247. Tai annedd, 45. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 190*p.* Noddwr, Esgob Bangor. O fewn y plwyf hwn y mae Cefnammwlch, lle genedigol yr Esgob Griffiths, ac nid yn Llaniestyn, fel y cam hysbyswyd yn yr Erthygl ar y plwyf hwnw. Y mae cromlech ar Fynydd Cefn Ammwlch, a elwir yn gyffredin "Coiten Arthur." Y mae yn gynnwysedig o un garreg fawr, yn gorwedd ar dair o gerryg eraill. Mewn cyssylltiad â'r Gromlech hon, dywaid llên gwerin, i Arthur Gawr ei thaflu yma oddiar Garn Madryn, mynydd arall, ychydig filldiroedd oddi yma; ac i'w wraig ddwyn y tair carreg arall yn ei harffedog, gan eu cyfleu fel attegion dan y Goiten.

**PENLLIN**, neu Penllyn, plwyf yn nghantref Pont-fôn, swydd Forganwg; 2 filldir i'r gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Pont fôn. Erwau, 1784. Gwerth ardrethol, 2384*p.* Poblogaeth, 320. Tai annedd, 74. Y fywioliaeth eglwysig sydd isberiglorìaeth wastadol, wedi ei chydio â ficeriaeth Llanfrynach, yn esgobaeth Llandâf. Un o brif hynodion y plwyf ydyw ei hen gastell. Pwy oedd ei sylfaenydd, ac yn mha oes ei hadeiladwyd, nid yw hysbys: ond y mae yn amlwg oddiwrth ffurfiad ei furiau, ei fod wedi ei gyfodi ar adeg foreuol iawn; ac y mae ei sefyllfa, ar fryn uchel, yn agos i'r pentref, yn ngolwg yr holl wlad gylchynol, yn dangos y rhaid fod yr amddiffynfa hon yn un bwysig iawn amryw ganrifoedd yn ôl. Yn amser Leland, yr oedd y castell, a'r tiriogaethau perthynol iddo, yn meddiant teulu y Turbervilles, oddi wrth y rhai yr aeth i feddiant y Stradlingiaid o St. Donatt, a thrwy ddiffyg ettifeddion gwrrywaidd i'r teulu hwnw, aeth i deulu y Manseliaid, o Fargam, yn nghyda chyfran o'u hettifeddiaethau eraill.

**PENLLORCAN**, ydoedd gymeriad yn y rhamantau Cymreig.

**PENLLYN**, cantref yn y parth gogledd ddwyrain o swydd Feirionydd; yn cynnwys plwyf Llandderfel, a phedwar o blwyfi eraill. Erwau, 58,292. Poblogaeth yn 1861, 6352. Tai annedd, 1373.

**PENLLYN**, Tudyr, ydoedd fardd o gryn enwogrwydd, a flodeuai o tua 1440 i 1470. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau mewn ysgrifen.

**PENLLYN**, William, ydoedd fardd a flodeuai o tua 1550 i 1590. Cofnodir ei fod yn mysg yr ymgeiswyr llwyddianus ar y delyn, yn yr Eisteddfod a gynaliwyd yn Nghaerwys, yn 1568, pan yr etholwyd ef i fod yn un o'r prif-feirdd, a'r addysgwyr ar ganiadaeth offerynol. Gadawodd gasgliad o Gerddoriaeth Gymreig ar ei ol mewn ysgrifen, am yr hwn y dywedai Dr. Burney, yn ei "Hanes Cerddoriaeth," ei fod yn cynwys "darnau at y delyn, ag sydd yn llawn o alawaeth a chynganeddiad; y maent wedi eu hysgrifenu mewn nodiant neillduol; a bernir eu bod, can hyned a'r flwyddyn 1100, yn y pryd diweddaraf. Y mae amryw o honynt yn wybyddus eu bod o'r henafiaeth hwn."

**PENMACHNO**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Llanrwst, swydd Gaernarfon. Saif y pentref ar afon Machno, neu Machnawf, dwy filltir uwchlaw ei hymarllwysiad i afon Gynwy, ar derfynau sir Ddinbych, chwe milltir deheuol o orsaf rheilffordd

Digitized by Google

Llanrwst. Y mae sefyllfa yr afon fel cylch o ddiogelwch i eglwys y plwyf, ac y mae yn lle hoff gan y genweirwyr a welir yno yn aml yn gyffredin, lle y mae y pysg goreu mewn cyflawnder. Y mae yr arwynebedd yn fynyddog, ac yn gyfoethog mewn mwnau. Y mae y tir yn y dyffryn yn ffrwythlawn; ac yn cael ei ddyfrhau yn fanteisiol gan y ffrydiau a redant o'r amrywiol fryniau. Y mae y golygfeydd o amgylch y fro yn swynol a tharawiadol iawn. Yn y flwyddyn 1784, rhoddodd y goron brydles ar fwnau y tir cyffredin yma, a elwir Llechwedd Oernant, i un Mrs. Ann Robinson, am un mlynedd ar ddeg ar hugain, am ardreth o chwe swllt ar hugain ac wyth geiniog y flwyddyn; a phymtheg swllt y dunell ar y mŵn plwm, wyth swllt y dunell ar y Calamine; a'r ddegfed ran am yr efydd, a'r meteloedd eraill. Llythyrfa, dan Lanrwst. Ffeiriau, Awst 23, a Medi 11. Y mae y plwyf yn cynwys 11,208 o erwau. Gwerth ardrethol, 3758*p.*; o'r hyn y mae 330*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 1251; ac yn 1861, 1425. Tai, 301. Y mae meddiant y tiroedd rhwng ychydig nifer. Y mae llechi yn cael eu cloddio yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; Gwerth 180*p.*, ac yn nawddogaeth Arglwydd Ranelagh. Y mae yma addoldy gan y Methodistiaid, a chan y Wesleyaid. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Tyddyd, ac wedi bod dan adgyweiriad yn ddiweddar. Rhoddodd Richard Anwyl, yn 1682, 200*p.*, i brynu tir; Ffredrig Lloyd 100*p.*, Morus Huws 70*p.*, a Dafydd Price 20*p.*, er lles tlodion y plwyf; ac y mae yma ysgol ac elusendai, gyda gwaddolion. Y mae y pentref ar gynnydd yn awr trwy agoriad llech-gloddfeydd.

**PENMAEN**, sydd blwyf yn nosparth Abertawe, swydd Forganwg, yn mhenrhyn Gower, ar feisfor Oxwich, naw milltir gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd Abertawe. Y mae yn cynwys is-bentref Pafiland; a'r llythyrfa yn Abertawe. Erwau 1538, o'r hyn y mae 55 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 805*p.* Poblogaeth, 123. Tai, 25. Y mae y tiroedd yn meddiant ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 210*p.*

**PENMAEN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfawr, swydd Feirionydd, un filltir gogledd ddwyrain o'r Bala. Poblogaeth, 265.

**PENMAEN-MAWR**, sydd gapeloriaeth, yn mhlwyf Dwygyfylchi, mewn cysylltiad â ficeriaeth Dwygyfylchi, yn swydd Gaernarfon, ar reilffordd Caerlleon a Chaergybi, pedair milltir gorllewin dde orllewin o Gonwy. Y mae yma orsaf rheilffordd, ac y mae y lle ar gynnydd mawr mewn adeiladaeth a phoblogaeth, ac yn rhagarwyddo y bydd yno dref bwysig cyn y bo hir. Saif y mynydd, sydd wedi rhoddi yr enw i'r gymydogaeth, ar lan y mor, i'r uchder o 1545 o droedfeddi, ac felly y mae yn wrthddrych eglur iawn o bob cyfeiriad. Y mae sefyllfa hynod, a dyddordeb hanesol y lle hwn y fath, ag a eilw am nodiadau lled helaeth. Tynid sylw y cyhoedd ato flyneddau yn ol, i raddau mawr, o blegid yr anhawsder i deithio drwy y gymydogaeth hon, ar y brif-ffordd rhwng Caerlleon a Chaergybi, fel y llinell gyfeiriol am Iwerddon. Ar y cyntaf, nid oedd ond llwybr peryglus ar lechwedd y mynydd cerigog, fel mynedfa i deithwyr. Dywedir fod gwesty bychan, ar y naill ben, a'r llall, i'r llwybr hwn, a bod yr arabawl Deon Swift pan yr ydoedd yno, wedi cylymu penillion tebyg i'r hyn a ganlyn, fel anerchion i deithwyr a ymwelai a'r fan:—

"Cyn it gychwyn am y bryn,
Cymer wydraid o win gwyn,"

"Bellach, wedi dod i lawr,
Cymer eto wydraid mawr,"

ac felly y dysgwylid i'r cyngor gael ei dderbyn yn y naill ben, a'r llall. Dangosir peryglon y daith, yn yr hanes a geir dan y gair "Llanfair-fechan," yn y gwaith hwn, am John Wmffrai, a Mari Tomas. Dengys y cofnodiad canlynol hefyd, y modd y galwyd sylw y cyhoedd, gan Arglwydd Bwlclai, o Fryn Barwn, Biwmares, at yr angenrheidrwydd o gael ffordd hygyrch drwy y lle. "Y mae y Penmaen-mawr, ar ffordd Caerlleon a Chaergybi, bellach yn hollol adnabyddus, o herwydd y dramwyfa ddofn a pheryglus sydd yno, a chynnygir, er mwyn diogelwch y rhai a deithiant y ffordd honno, ar fod i Brif-ffordd gael ei llunio dros y Penmaen-mawr, (fel yr hir ddymunid), llawn tair llath o led, gyda gwal rhyngddi a'r clogwyn, a rhyngddi ar môr, fel y ceir ffordd rydd i gerbyd, neu unrhyw wr ar ei farch, a elo y ffordd honno; ac er mwyn cwblhau hyn yn effeithiol, a chyda pob brys, y mae y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Bwlclai, yn wirfoddol a rhâd, yn cynyg cymeryd y drafferth o hyrwyddo y cyfryw Waith, fel y caffo ei orphen yn mhen deuddeng mis, wedi y derbynio efe y cydroddion gofynol i ddwyn y draul. —Wedi gosod y cynnygiad ger bron Dug Ormond, ac i'w raslondeb alw sylw Boneddion a Masnachwyr Iwerddon at y mater, y mae fy Arglwydd Bwlclai wedi cael ei gefnogi i roddi dynion galluog i olrhain y ffordd, a chyhoeddi eu syniadau am ansawdd y lle. Dywedant hwy fod yr ystormydd yn bwyta i fynu y ddaear rydd o dan y ffordd, a bod yn rhaid adeiladu ategion mewn amryw fannau, o'r gwaelod i fynu at y ffordd, er diogelu y dramwyfa, yr hon a raid fod yn lletach nac y bwriadwyd ar y cyntaf; ac i fod yn y man culaf yn llawn pedair llath, ac yn 6 neu 7 llath mewn mannau eraill. Ac er atal y cerig rhyddion uwchlaw y ffordd, rhag llithro i lawr iddi, fod yn rhaid codi muriau uchel mewn amryw leoedd. Wrth edrych dros yr holl amgylchiadau, gwelir y bydd y draul yn llawer mwy nag a dybid ar y dechreu. Dysgwylir y bydd i haelioni boneddion Iwerddon, gael ei gefnogi gan eraill o Loegr, ac yn enwedig gan bawb ag sydd yn arfer teithio y ffordd honno." Cafwyd yr hyn a ganlyn yn llawysgrif Arglwydd Bwlclai. "Y mae gweithwyr galluog wedi bod yn adolygu y gwaith ar ffordd Penmaenmawr, a gwelaf ei fod yn waith o'r natur ag y bydd raid i mi ymgymeryd a'i ofal fy hunan. Ac i'r dyben hwnw, yr wyf wedi penodi dau o foneddion y gymydogaeth, i arolygu y gwaith yn fy absenoldeb. Nid oes neb a all ddywedyd eto, pa faint fydd y gost, ond y mae pawb o'r farn, y gellir ei wneud yn sicr a diogel. Yr wyf yn amcanu fod y ffordd yn llawn pedair llath yn y man culaf, a chwech neu saith mewn mannau eraill, er mwyn cyfleusdra i gerbydau, &c." Cyhoeddwyd anerchiad at y cyhoedd, yr hwn a gylchdaenwyd yn helaeth. Yr oedd yn cynnwys y syniadau a fynegir yn y datganiad uchod, gan Arglwydd Bwlclai, a Dug Ormonde, Rhaglaw yr Iwerddon. Rhoddodd y Llywodraeth gymhorth tu ag at gwblhau y gwaith. Ebrill 20, 1769, penderfynodd Ty y Cyffreddin roddi 2000*p.* at ddwyn y draul: ac felly y cwblhawyd ffordd Sychnant, fel ei gelwir yn gyffredin.

Y mae y dyfyniad canlynol, o hanes Helig ab

Glanawg hefyd, yn rhoddi awgrymiad effeithiol am ansawdd y lle yn yr oesau gynt. "Yr oedd gan Helig ab Glanawg dri mab, o wŷr santaidd, ac a gysegrwyd i eglwysi, sef Beda, a Gwyn, y rhai oeddynt ill dau yn Dwygyfylchau, ac a gladdwyd yn mhen uchaf yr eglwys; a mab arall a elwid Brothen, yr hwn a wasanaethai Dduw, ac a gladdwyd yn Llanfrothen, yn sir Feirionydd. Seiriol, brawd i Helig ab Glanawg, a elwid yr "offeiriad santaidd," ydoedd benaeth y tŷ crefyddol yn Ynys Glanach, yn sir Fflint, yr hwn dŷ a elwid "Tref yr-offeiriad," oddiwrth Seiriol. Yr oedd gan y Seiriol hwn hefyd feudwyfa ar y Penmaenmawr, ac yr oedd ganddo gapel yno, lle y treuliai lawer o'i amser mewn gweddiau; yr oedd y lle hwn y pryd hwnw yn ddiffaethwch garw, llethrau annheithadwy, o blegid serthedd y creigiau, a'r coed cauadfrig oedd dros y llethr, fel na ellid gweled yr wybren yno. Cynlluniodd Seiriol sarn, o ynys Seiriol i'r Penmaenmawr, fel y gallai gerdded yn droedsych o'r eglwys yn yr Ynys, i'w gapel yn y Penmaen; ac y mae y palmant hwn yn weledig hyd heddyw, pan y byddo y mor yn dryloew, pe dewisai dyn fyned mewn cwch i'w weled; ond wedi y gorlifiad galarus hwn, y mae y ffordd wedi ei hatal, pan y daeth yr eigion i mewn, a churo ar greigiau y Penmaenmawr; ac yna y darfu i'r dyn santaidd hwn, fel meudwy da, beri tori ffordd drwy y brif graig, yr hwn yw yr unig le ag y gellir croesi drwyddo, ac y mae y ffordd hon yn arwain o Dwygyfylchau i Lanfair-fechan, ac y mae yn brif-ffordd y brenhin, o Gonwy i Biwmares, Bangor, a Chaernarfon, ac unig fynedfa llythyr-was y brenhin i farchogaeth i, ac o'r Iwerddon.—Y mae y graig hon yn filltir a haner o uchder, ac yn dra serth, yn neillduol o dan y ffordd hon; y mae y ffordd ar lan y mor, o fewn plwyf Dwygyfylchau, wedi ei thori drwy ochr y graig, gan esgyn yn barhaus hyd nes y deuir i graig a elwir "Clipyn Seiriol," ac yna a dorir rhagddi drwy ochr y graig serth galed, heb ddisgyn nac esgyn, nes dyfod at gapel Seiriol, ac y mae yr holl ffordd yn gan llath uwchlaw y mor, dros yr hon, os dygwyddai i ddyn neu anifail syrthio, na allai wybod pa un ai môr a'i craig a wnelai fwyaf o niwaid iddo; ac o'r capel hwn yn mlaen, y mae y ffordd wedi ei thori drwy y bryn graianog; gan ddisgyn wedi hyny o'r capel crybwylledig, nes y deuir i lan y mor, o fewn plwyf Llanfair, ac y mae y ffordd hon tua milltir o hyd, a dwy lath o led, ond prin lathen mewn rhai mannau, ac y mae y ffordd honno er hyny byth ac eto, yn cael ei chadw a'i hadgyweirio, gan feudwy, yr hwn ni chai am ei lafur, ond rhoddion gwirfoddol teithwyr a elent heibio; a chasgliad unwaith bob blwyddyn yn y plwyfi ac eglwysi y trefydd cymydogaethol; a haelfrydedd yr heddynadon, a'r rheithwyr a benodid at uchel lysoedd y wlad, mewn tair sir yn Ngwynedd; ac er hyn, adfeiliasai y ffordd yn fuan, oni bai gadernid y gwaith, drwy y meini mawrion a'r rhwbel a lithrent o'r bryn, wedi ymddatod ar ddadmeriad y rhew a'r eira, i gau i fynu y ffordd, neu rwygo adwyau, a adgyweirid gan y meudwy, gyda chymorth y trigolion cymydogaethol, gan ffurfio sylfaeni newyddion, gyda pholion, a drain, &c. er cau y bylchau. Chwe swllt ac wyth geiniog a ganiateir gan y brenhin, tu ag at adgyweiriad y ffordd hon, ac a delir gan y derbyniwr cyffredinol. Ar y trai isel, yn mhob Mawrth, a Mehefin, ac Awst, y gwelir gwreiddiau ac olion coed derw, ac onen, a phrenau eraill. Hyn yr wyf yn ei dystiolaethu fel llygad dyst, oblegid mi a welais y gwreiddiau fy hun, ac a godais rai i fynu, yr hyn a brawf yn eglur, fod y dyffryn hwn, cyn y gorlifiad, yn fro goediog." Cyn gadael ein nodiadau ar y ffordd, heb geisio gwarantu y manylion yn yr hanes uchod, byddai yn briodol mynegi, mai can mlynedd union sydd er pan gwblhawyd ffordd Sychnant; ar yr hon y gwellhawyd tua haner canrif yn ol, gan Mr. Telford, yr hon yn awr sydd yn brif-ffordd hyfryd a hygyrch. Y mae twnel y rheilffordd a dorwyd trwy ei odreu, yn 220 llathen o hyd.

Yr oedd amddiffynfa fawr a chref ar ben y Penmaen-mawr, i'r hon yr oedd tair, os nad pedair amgaer, olion pa rai ydynt o 12 i 15 troedfedd o uchder mewn manau, ac oddeutu 12 troedfedd o drwch; a rhwng y caerau, ac o fewn yr amddiffynfa, y mae olion amryw o gytiau crynion, yn enwedig ar yr ystlys ogledd ddwyreiniol, hen anneddau y preswylwyr, neu y gwarchodlu: ac y mae Pennant yn sylwi ei fod yn gallu canfod yn eglur, olion dwy ffordd igam-ogam, yn esgyn i'r amddiffynfa, un ar yr ystlys ogledd orllewinol, a'r llall ar yr ystlys dde ddwyreiniol, a bod olion magwyrydd, o bob tu i'r ffyrdd dywededig. A gellid meddwl fod nifer o dyrau, wedi bod unwaith ar y llanerch uchaf, o fewn y caerau; un yn y canol, a phump eraill yn ei amgylch; ac yn agos i'r tyrau hyn, yr oedd ffynon wedi ei thori yn y graig, yr hon a gedwid yn llawn yn barhaus gan y gwlawogydd a'r niwl a fydd yn amgau y clogwyn uchel hwn. Bernir fod yr orsaf filwraidd hon, mor gadarn ac anhygyrch, yn yr oesoedd boreuol, fel na allasai unrhyw allu gelynol ei chymeryd, oddieithr trwy hir warchae arni, a newynu y rhai a'i cadwent, trwy brinder ymborth. Er gweled manylion hanes y gymydogaeth hon, troed y darllenydd at y gair Dwygyfylchi, lle y ceir crynhoad o honynt, yn y gwaith hwn.

Y mae y Penmaenmawr yn cael ei ystyried fel terfyn cadwyn mynyddau Eryri, yr hon, wrth ei chymeryd igam-ogam, gyda y cribau, a ymestyn i tua deugain milltir. Y Gwyrddfaen yw natur y graig, ond nid yw yn hollol mor galed a'r graig yn y Penmaen-bach. Y mae y cerig yn dra chymwys at balmantu, ac adeiladaeth. Y maent yn cael eu trwsio yn yr ysgwyddau a dorir yn y mynydd, mewn cyflawnder mawr, ac yn cael eu cludo i lawr hyd lan y mor, mewn gwageni ar reilffyrdd, gyda rhwyddineb hynod. Y maent yn cael eu hallforio i Liverpool, a manau eraill, ac felly yn ffurfio trafnidiaeth eang, ac yn rhoddi cynhaliaeth i nifer mawr o weithwyr yn y gymydogaeth, y rhai a ddangosant fedrusrwydd mawr yn y gelfyddyd o'u parotoi at waith. Ffurfiant arwynebau prydferth, o liw glaswyrdd. Eu defnyddiau hanfodol ydyw, y "semi-crystalline," gronynau o "hornblende," a "feltspar," mewn cyfartaledd pur agos, ac felly yn gyfaddas i'w llyfnhau, gyda gwynebiad teg.

Y mae y gymydogaeth ar gynnydd mawr fel ymdrochle, ac y mae glan y mor yn ffurfio llawr carpedaidd o dywod glan, tra manteisiol at yr amcan. Nid yw yr adeiladau gorwych sydd yma, yn gymaint mewn heolydd, ag mewn palasau ar wahan. Y mae y tai cysylltiedig gan mwyaf, wrth droed y mynydd, a'r adeiladau prydferth dan gysgod y Moel-llys. Codwyd eglwys newydd hardd yma yn ddiweddar, ac y mae yma gapelau teg, gan y pedwar enwad Ymneillduol; ac ysgolion da. Y mae dieithriaid ac eraill yn nhymor yr haf, yn hoff iawn o esgyn i ben

Digitized by Google

y mynydd hwn, ac y mae yr olygfa ar y mor a'r tir yn hynod o darawiadol. Y mae tair ffordd i ddringo at ei grib. Un fanteisiol iawn a gychwyna o hen bentref Dwygyfylchi, heibio i Nant y glyn, ac yn mlaen gyda ffordd y mynydd. Un arall yn cychwyn o ganol y dreflan, ac yn dyfod yn fuan i'r ffordd grybwylledig; gellir teithio ar farch, neu unrhyw filyn, nes dyfod at y bwthyn sydd ar ei ysgwydd, ar yr ochr ddeheuol. Y mae y ffordd o Lanfair fechan hefyd yn hawdd ei throedio a'i dilyn, nes dyfod at y bwthyn crybwylledig, ac yna dilyn hyd y llwybr troellog sydd rhwng y cerig rhyddion, eto yn ddigon hawdd i'w rodio, nes cyrhaedd y grib. A'r llwybr canol ydyw, drwy gymeryd y cyfeiriad o'r brif-ffordd, tu a'r dde, o bentref Penmaenan, yr ochr nesaf i Fangor, nes dyfod at weithdai y cwmni, ac wedi hyny, dringo wyth cant a haner o risiau cerig, o orsaf i orsaf, nes cyrhaedd y grib, gyda chenad y rhai sydd yn golygu y gwaith. Myn rhai fod yr olygfa o grib y Penmaenmawr, yn un o'r rhai mwyaf ardderchog yn Arfon. Y mae yn rhoddi golygfa fanteisiol ar Ben y gogarth; ac Ynys Manaw, pan fyddo yr awyr yn glir; y mynyddoedd cylchynol; y môr, a'r llongau, hyd Fangor, a Chastell y Penrhyn, nes ymgolli rhwng clogwyni uchel y wlad; gyd âg amrywiaeth diderfyn. Y mae y lle hwn yn cael ei fynychu gan y Prif-weinidog, Mr. Gladstone, lle y mae palas prydferth wedi ei godi gan rai o'i berthynasau agosaf. Y mae Pendyffryn, Mrs. Darbyshire, yn llechu yn nghesail y mynydd, gerllaw y brif-ffordd, mewn un o'r manau mwyaf swynol yn y wlad; ac am y Penmaenmawr, ni allwn derfynu ein sylwadau am dano yn well, na chyda'r darluniad damegol a ganlyn, sydd yn ei osod allan, fel HEN FONEDDWR LLECHWEDD ISAF:—

"Boneddwr gynt, oedd enwog iawn,
A'i lys wrth lan y mor;
Ei glod ar dafod, â phob dawn
Adseiniai llawer cor.

Mae'n aros eto'n yr un fan,
Ni symud gam er neb,
Er fod ei droed yn sengi glan
Yn ymyl Aber wleb.

Bu Tywysogion pena'r fro
Dan nawdd ei loches gref;
LLEWELYN fawr, ar lawer tro,
Ga'i groeso ganddo ef.

O'i olwg, nid a dim ar goll,
Ef mewn gwirionedd yw
Gwyliedydd mawr, y dyffryn oll,
A phawb sydd yno 'n byw.

Ystyrir ef fel Brenhin mawr,
Ar Lechwedd Isa'i gyd;
Ei wisg addurnir hyd y llawr,
A gemau gwerthfawr drud.

Mor daled yw, fe guddia'i ben,
Yn nghanol cwmwl du,
Fel piler a gynhaliai'r nen
Rhag syrthio oddi fry.

Mae'i farf yn llwyd, ei gern yn llom,
A'i ddanedd rai, yn rhydd,
Ei drwyn yn dal, a'i en yn drom,
A phantau ar ei rudd,

Ei goryn uchel, gan y gwynt,
Wna'n foel ei dalcen mawr,
Ysgydwa'i wallt ar ambell hynt,
Nes curo'r geifr i lawr.

Ac am ei wddf mae rhuban gwyrdd,
A huda'r defaid sionc,
I ddringo ato amryw ffyrdd,
A mentro aml sponc.

Pan giba'i aelau yn ei wg,
A bygwth pwys ei ffon,
Cymerir hyn fel arwydd drwg,
Gan bawb a'i gwel o'r bron.

Os beiddia byddin ddo'd i'w dir,
Ysgydwa'i odreu llaes,
Nes lluchio myrdd o'r meini hir,
I gadw'n glir y maes.

Ar ambell dro, fe ddigia 'r don,
Nes golchi dros ei droed;
Ond pw,—ar frys encilia hon
Mor swil a neb fu'rioed.

Un diwrnod, tra gorphwysai'n iach,
Yn mreichiau melus hun,
Cyn iddo ddeffro'n ddistaw bach,
Do'i heibio ddieithr-ddyn,

Yr hwn a'i ebill mawr, a'i ordd,
A dyllai rhag ei flaen,
Dan gwr ei glog, er agor ffordd
I'r march a'r cerbyd tan;

A phan ddeffro'i yn syn, o'i gwsg,
Tarewid ef yn fud;
Rhwng twrw '*Train*,' ac arogl mwsg
Yr ofnai ddiwedd byd!

A phwy, mewn difrif, dybiech chwi,
Ydoedd yr enwog gawr?
Os gwyddoch, rhowch ei enw'i mi,
Mewn penill teg i lawr!

GWALCHMAI."

**PENMAEN POOL**, gorsaf rheilffordd yn mharth gorllewinol swydd FEIRIONYDD, ar derfyniad cangen o reilffordd Aberystwyth a Glanau Cymru, goris Cadair Idris, yn agos i forgilfach y Mawddach, 3½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Ddolgelleu.

**PENMAEN-RHOS**, sydd fynydd adnabyddus, ar lan y mor, yn nherfyn gogleddol siroedd DINBYCH, ac ARFON, chwe milltir dwyreiniol o Gonwy. Y mae ei grib yn codi i uchder mawr. Y mae twnel perthynol i reilffordd Caerlleon a Chaergybi yn rhedeg drwyddo, yn 1269 troedfedd o hyd. Cloddir cerig calch mewn cyflawnder mawr yma.

**PENMAIN**, sydd dref-gordd yn mhlwyf Llysfaen, swydd GAERNARFON, dwy filltir gorllewinol o Abergele. Poblogaeth, 139.

**PENMAIN**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Mynyddislwyn, swydd FYNWY, rhwng afonydd Ebbw a Sirhowy, gerllaw gorsaf rheilffordd Abercarn, a deuddeng milltir gogledd orllewin o Cas'newydd. Llythyrfa, yn Abercarn, dan Casnewydd. Erwau, 4250. Gwerth ardrethol 12,236*p.*, o'r hyn y mae 7630*p.* mewn mwnau, a 30*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 2379; yn 1861, 2686. Tai, 562. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth 150*p.*, ac yn nawddogaeth y goron a'r esgob bob yn ail. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da yma. Y mae yma addoldy helaeth, perthynol i'r Annibynwyr.

**PENMARC**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Caerdydd, swydd FYNWY. Saif y pentref ddwy filltir oddiwrth lan y mor, 5½ de wrth orllewin o orsaf rheilffordd Peterstone, a 6½ de ddwyrain o Bontfon. Llythyrfa, dan Bontfon. Y mae y plwyf

Digitized by Google

yn cynwys hefyd bentrefi Aberthaw, Burton, Cwm, Fonmon, Fontigari, Nurston, Rhos, a Tredogan. Erwau, 3395, o'r hyn y mae 160 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3942*p*. Poblogaeth, 529. Tai, 113. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae Castell Penmarc, yr hwn a berthynai i deulu Humfreville, ac a ddinystriwyd gan Owain Glyndwr, yn adfeiliau yn awr. Yr oedd Castell Fonmon yn perthyn i'r Humfreviliaid, ond aeth i feddiant y St. Johniaid o Bletstoe; ac a brynwyd wedi hyny gan y Milwriad Philip Jones, blaenor enwog y fyddin seneddol; ac y mae yn awr yn breswylfod R. O. Jones, Ysw.; gwelir ynddo ennghreifftiau o'r addurniadau Normanaidd diweddar, neu Sacsonaidd boreuol. Bu John Wesley yn fynych yn ymweled â Fontigari, lle sydd yn awr yn amaethdy. Y mae calch o rywogaeth werthfawr yn Aberthaw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 224*p*., ac yn nawddogaeth Deon a Glwysgor Caerloew. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da. Y mae yma gapel perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd; a gwaddolion o 10*p*.

**PENMON,** plwyf yn nghantref Tindaethwy, swydd Fon; ar gyfer Ynys Seiriol; 3 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o dref Beaumaris; ac 8½ milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o orsaf rheilffordd Llanfair. Llythyrfa, Beaumaris. Erwau, 7180; o ba rai y mae 6128 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 942*p*. Poblogaeth, 213. Tai annedd, 46. Y mae y plwyf yn gorwedd ar benrhyn, sydd yn ymestyn i Fôr y Werydd, ger safn ogleddol afon Menai. Cafodd y plwyf hwn, a'r wlad o'i amgylch, ei anrheithio gan y Daniaid, yn y flwyddyn 969, ac yn fuan wedi hyny, cyfranogodd, yn nghyd a'r gweddill o'r Ynys, yn y cyffelyb anrheithiad. Nid ydyw y plwyf yn fawr; ond y mae yn cynnwys cyfranau agos yn gyfartal, o dir âr, a phorfeldir, mewn cyflwr o ammaethiad rhagorol. Yr unig fŵn mettelaidd a ddarganfuwyd yn y plwyf, yw mŵn haiarn: ond y mae yma helaethrwydd o fynorfaen llwyd, yr hwn y gellir ei gaboli yn hardd dros ben. Y mae y marmor hwn wedi bod mewn bri mawr er's hir amser, at wneyd gweithiau addurniadol; ond yn ddiweddar mewn cydmariaeth, y daeth rhagoriaethau ceryg Penmon, fel defnyddiau adeiladau parhaus, a chryfion, i sylw; a hyny trwy eu detholiad i adeiladu pilerau, ac attegion Pont Menai, pilerau pont Aberconwy, morfur Caergybi, Castell y Penrhyn, ac amryw adeiladau eraill, cyhoedd ac annghyoedd, a wnaed o ddefnyddiau a gloddiwyd yn y plwyf hwn. Ac o geryg a gloddiwyd yma hefyd, y gwnaed Neuadd Farchnad Birmingham, yr hon sydd yn adeilad hynod o fawrwych. Y mae y cloddfeydd hyn mewn sefyllfa hynod o fanteisiol, ar lan yr afon Menai, ar y tu dwyreiniol, a môr y werydd ar y tu gogleddol, a gogledd ddwyreiniol, fel y gellir llwytho y ceryg mewn llongau gyda rhwyddineb, i'w trosglwyddo i unrhyw barth o'r deyrnas. Y mae rhan o'r plwyf o fewn ffiniau bwrdeisiol Beaumaris. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gydiedig a ficeriaeth Llanfaes, yn esgobaeth Bangor. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i goffadwriaeth St. Seiriol, oedd gynt yn eglwys gyfeinniol berthynol i briordy henafol a seiliasid yma. Croes-adail eang ydoedd, yn yr arddull Normanaidd, a thŵr petrual yn y canol: ond, nid oedd yn aros o'r hen adeilad, cyn yr adgyweiriad diweddar arni, namyn y corph eglwys, (*nave*), a'r côr. Tu a'r flwyddyn 1854, gwnaed adgyweiriad trwyadl ar yr eglwys hon, ar y draul o 1198*p*. 9*s*. 7½*c*. a chyfodwyd yr holl swm trwy gyfroddion; gan gynnwys 195*p*. gan wahanol gymdeithasau, a'r gweddill gan unigolion. Cyfranodd Syr Richard Williams Bulkeley 150*p*. ar y dechreu, ar ben rhestr y cydroddwyr; ac wedi gorphen yr adgyweiriadau, daeth yn mlaen mewn haelfrydedd canmoladwy, ac a dalodd y gweddill oedd yn ddiffygiol o gyfatteb i'r draul, sef y swm o 225*p*. 3*s*. 6*c*.; yn gwneyd yn y cyfan, ddim llai na 375*p*. 3*s*. 6*c*.!

Y mae rhai haneswyr o'r farn fod crefydd-dy wedi ei sylfaenu yma yn y chweched ganrif, gan Einion Frenin, dan lywyddiaeth Sant Seiriol, lle yr oedd côr, neu athrofa enwog yn yr adeg foreuol hono, i'r hon y cyrchai gwŷr ieuainc pendefigaidd, hyd yn nod o'r Cyfandir, i dderbyn addysg. Wedi hyny, cyfranodd Maelgwyn Gwynedd yn haelionus at gynhaliaeth y Sefydliad. Erbyn y ddeuddegfed ganrif, yr oedd Priordy rheolaidd yma, ac Idwal, mab yr hen dywysog enwog Gruffydd ab Cynan, yn brior ynddo; a'r tywysog ei hun a fu yn gymmwynaswr da i'r Sefydliad. Yn y flwyddyn 1220, darfu i'r tywysog enwog, Llewelyn ab Iorwerth, ychwanegu yn ddirfawr at gyllid y Sefydliad; a chyflëodd fyneich o'r urdd Benedictaidd ynddo, y rhai a barhasant i'w feddiannu hyd ddadgorphoriad y mynachdai, pan y cyfrifid ei gyllid yn 49*p*. 12*s*. 2*c*. Yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad y Frenines Elizabeth, dyroddwyd yr hydd-gae, (*park*,) a'r pethau eraill a berthynent i'r Priordy, i John More, Yswain. Y prif weddillion o'r hen Sefydliad yma, heblaw yr eglwys, ydyw rhan o dŷ y Prior, yr ystafell fwytta, a'r colomendy. Y mae hen groes faen yn yr hydd-gae, deg troedfedd o uchder, ar baladr yr hon y mae addurniadau cywrain wedi eu cerfio; ac ar yr ystlys ddeheuol iddi, y mae delw rhyw sant, a dau o bersonau eraill, wedi eu cerfio, ond y mae ymosodiadau ystormydd oesoedd ar y garreg, wedi eu gwneyd yn dra aneglur. Yr oedd yn nghadw yn mysg hen ysgrif-lyfrau y Plas Gwyn, ganiattad o bardwn rhad i un Robert ab Johns, yn nglyn a'r hwn yr oedd dernyn o hen sêl y Priordy, yn dwyn arni yn y rhan uchaf, ddarlun o'r Forwyn Fair, a'r Baban, yn nghyd a'r gylchysgrif, PENMONA + SIG. Y mae ucheldir creigiog, tua thri chwarter milldir i'r Gorllewin o'r lle hwn, a elwir "Marian y Crogwydd," lle y dywaid traddodiad, y dienyddid troseddwyr dyfarnedig mewn rhyw amserau boreuol, a dangosir tyllau yn y graig, yn y rhai, meddir, y sicrheid attegwydd y crogbren. Tua milldir i'r dehau o'r hen briordy, y saif hen gastell Aber Lïenawg, a adeiladwyd gan Huw Fleiddyn, Iarll Caer, a Huw Goch, Iarll y Mwythig, yn y flwyddyn 1098, pan y goresgynasant Ynys Fôn, ac y cyflawnasant greulonderau gwarthus ar y trigolion. Efallai mai y creuloniaid hyny a gyfodasant y crogbren a grybwyllwyd uchod, ar y marian uwchlaw eu castell. Y mae y castell, yr hwn a adeiladwyd ar ben bryncyn celfyddydol, oedd gynt yn gylchynedig gan ddyfr-ffos, yn gynnwysedig o bedwar mur, yn amgau llanerch betrual, a thŵr crwn bychan ar bob ongl; ac y mae yn eglur ei fod wedi ei fwriadu i amddiffyn y fynedfa trwy y dyffryn cyfagos. Efallai fod cilfach o'r mor yn ymestyn i'r dyffryn hwn gynt, ac y gallai llynges yr ieirll ddyfod i fynu i angori goris y castell. Yn nes i lan y Menai, y mae bryncyn crwn o bridd, a elwir y "Castell Bach," i'r hwn, medd traddodiad, yr oedd trwyfa dan-ddaearol o'r castell mawr. Ac y mae yn debyg ei fod wedi ei

Digitized by Google

gyfodi er attal gelynion i lanio yn ngenau yr afon. Ar fryn, gerllaw lle o'r enw "Tyddyn Crwn," ac a elwir mewn rhai hen ysgrifeniadau, "Castell Crwn," y mae olion amddiffynfa filwraidd fechan, dra henafol; ond nid oes dim o'i hanes ar gael. Ychydig gannoedd o latheni, i'r dehau o honi, y mae "Cae y Groes," ar fan uchaf yr hwn, oes neu ddwy yn ol, yr oedd croes yn sefyll, paladr, a throed yr hon oeddynt ar gael yn y plwyf, rai blyneddoedd yn ol, wedi eu troi i wasanaeth ammaethyddol. Y mae ffynnon gref ar dir Tros yr afon, yn y plwyf hwn, dwfr yr hon sydd yn hynod o oer, ac fe'i cyfrifir yn dra effeithiol er meddygyniaethu anhwylderau hirarosol.

Y mae lle o fewn y plwyf hwn, ychydig i'r gogledd o'r llan, a elwir "Parc Dinmor;" ac y mae yno olion hen amddiffynfa gref odiaeth; a'r gweithfeydd allanol iddi wedi eu gwneyd yn y modd mwyaf manteisiol er gochel, a gwrthsefyll ymosodiadau rhuthrol y gelynion: a gellid meddwl fod yno ffordd dan-ddaiarol o honi i'r môr; canys y mae amryw dyllau, o lathen i ddwy lath o ddyfn, ar hyd y linell, lle y mae y ddaear wedi ymollwng i fewn yn yr oes hon. Ymddengys bod y ffordd dan-ddaiarol hon yn ymranu ychydig rydau oddiwrth yr hen amddiffynfa, un yn cyfeirio i for y Werddon, ar y tu gogleddol, a'r llall tu ag afon Menai. Ar gyfer yr ymraniad, y mae lle a elwir "Bryn-gwy-allan;" ac ar gyfer terfyniad y gainc i'r afon, y mae yn amlwg fod hen Wylfa filwraidd, ryw adeg dra boreuol, a gelwir y lle eto, "Clip y Wylfa."

O fewn ffiniau y plwyf hwn, y mae yr Ynysig a elwir "Ynys Seiriol;" yr hon sydd yn gorwedd yn mor y Werddon, tua milldir i'r dwyrain o Ynys Fôn; a dywedir fod Sant Seiriol, i'r hwn y mae y Priordy wedi ei gyssegru, wedi cyfodi meudwyfa ar yr Ynys hon, a'r feudwyfa hono a ddaeth mewn amser yn guddigl berthynol i Briordy Penmon. Y mae yma dŵr ysgwâr, ac olion adeiladau cydiol ag ef ar bob ochr, fel y gellir casglu ei fod pan yn gyfan, yn groes-adail gywir: ac y mae yr adfeilion sydd gerllaw yr hen furddyn yma, yn dangos bod yma adeiladau chang ar un adeg. Tua haner y ffordd rhwng pen tir Môn â'r Ynys hon, y mae craig, yn ymddangos ar drai, oddiwrth yr hon y mae sarn, yn cyfeirio tu a'r dehau, wedi ei chyfansoddi o ddarnau enfawr o graig ar bob ochr, a'r cyfwng wedi ei lenwi i fynu â cheryg manach, ac â chymrwd. Y mae mewn cyflwr tra pherffaith; ac yn cyrhaedd yn mhell i'r afon, a nodir ei therfyn gan nawf-nod coch. Dywaid traddodiad, mai gweddillion ffordd ydyw, a groesai y Fenai gynt, o Fon i Arfon. Gan bwy, neu pa bryd y gwnaed y sarn hon gyntaf, ni's gwyddys: meddylia rhai mai y Rhufeiniaid a'i gwnaethant, er rhwyddin eb yn nhrosglwyddiad milwyr, neu nwyddau, drosodd i Fon, ac er cadarnhad o'r dŷb uchod, dywedir y gellir olrhain ffordd Rufeinaidd balmantedig, trwy Benmon, yn nghyfeiriad Llaniestyn: ond braidd na thueddid ni i feddwl, fod yma hen ffordd Brydeinig, cyn dyfod o Rufeinwr o fewn ein hynys, er cydio amddiffynfa gref y Penmaen Mawr, âg amddiffynfa Din sylwy; ond fe ddichon fod y Rhufeiniaid wedi ei hadgyweirio, a'i chymhwyso at eu hamcanion, pan ddaethant i feddiant o Ynys Fôn. Ar hyd y sarn hon hefyd, y mae yn debyg, yr elai Seiriol, mewn adeg ddiweddarach, i'w gapel ar y Penmaen Mawr. Yn agos i'r Sarn hon yr aeth yr agerlong y *Rothesay Castle* yn ddrylliau, ar ei mordaith o Liverpool i Fangor, yn mis Awst, 1831, pan y collodd mwy na chant eu bywydau.

Y mae yr Ynys tua milldir o hŷd, yn lled uchel, a'i hystlysau yn dra serth ar bob ochr, oddieithr yr un a wyneba tua Phenmon, lle y gellir esgyn i'w phen yn rhwydd. Y mae ychydig ddefaid yn cael porfa ar yr Ynys, a chryn lawer o wningod yn bywiolaethu yma, y rhai a ddelir, ac a anfonir i farchnadoedd Lloegr. Dywedir fod rhyw Filwriad, tua diwedd y ganrif o'r blaen, wedi syrthio allan ag Arglwydd Bulkeley, yr hwn a warafunai iddo ddyfod i'r Ynys i saethu cwningod, ac adar y môr, y rhai a'i mynychent, ac iddo yntau ddwyn nifer o lwynogod ieuainc, a'u gollwng yn rhydd ar yr Ynys, fel y difaent yr helwriaeth; ac er cyfleusdra i'w dal, gwnaed math o gwterydd yn yr hen adfeilion sydd ar yr Ynys, a helid y llwynogod â chŵn i'r cwterydd, tra y dodid sach ar y pen arall, lle eu delid yn fyw; a dyma y gwir reswm am y tyllau celfyddydol hyny yn yr hen adfeilion, a fuant yn gyfryw faen tramgwydd i amryw o henafiaethwyr dysgedig yr oes hon.

Cyfrifid yr Ynys hon yn llanerch sanctaidd tu a'r chweched, a'r seithfed ganrif, fel ei dewiswyd meddir, yn gladdfa i amryw o enwogion y genedl; ac yn mysg eraill, fe'n hysbysir mai yma y claddwyd Maelgwyn Gwynedd, yr hwn a fuasai farw o'r Fad Felen, yn eglwys Llanrhos.

**PENMORFA**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Ffestiniog, ac yn swydd Gaernarfon. Saif y pentref un filltir yn ogleddol o Dremadog, a dwy filltir gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Porthmadog. Y mae yma ffeiriau ar Mai 14, Awst 10, Medi 15, a Tachwedd 11. Y mae y plwyf yn cynwys 10,157 o erwau, Llythyrfa yn Tremadog, dan Gaernarfon. Gwerth ardrethol, 3225*p.*, o'r hyn y mae 20*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 1104. Tai, 256. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng llaweroedd. Y mae llawer o'r tir yn fynyddig a diffrwyth. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig a churadaeth barhaol Dolbenmaen, yn esgobaeth Bangor; gwerth 290*p.*, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da, wedi ei chysegru i St. Beuno, ac yn cynwys cofadeiliau am deuluoedd Syr John Owen, a Syr Joseph Huddard. Y mae yma gapeli gan y Methodistiaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr; ac y mae yma waddolion o werth saith bunt y flwyddyn. Y mae golygfeydd y gymydogaeth hon yn darawiadol, yn eu hagweddau amrywiaethol. Y mae Clenenau, preswylfod teulu Owen, yn balas henafol, ac wedi ei hynodi fel lle genedigol, a thrigfa yr hen freiniolwr annibynol, Syr John Owen, Barg., yr hwn oedd arweinydd byddinoedd y brenhin, yn y parth hwn o'r dywysogaeth, yn amser y rhyfel cartrefol, yn nheyrnasiad Siarl I. Cafodd ei orchfygu, yn y Dalar-Hir, gerllaw Bangor, yn 1648, a chymerwyd ef yn garcharor, yn yr ymdrech olaf a wnaed gan y Cymry dros y penadur hwnw; a chludwyd ef i Windsor, lle y profwyd ef, gyda Dug Hamilton, ac eraill, ac y collfarnwyd hwy i farwolaeth; ond trwy eiriolaeth rhai o'r cadfridogion seneddol, derbyniodd bardwn, a dychwelodd i'w etifeddiaeth, lle y bu farw yn 1666. Y mae o fewn y plwyf hwn rai gwythienau o fŵn efydd, a gwnaed llawer ymgais ar ei gloddio, o bryd i bryd; ond wrth ei doddi, ceid fod y fath raddau o haiarn yn gymysgedig a'r pres, fel yr oedd y draul o'u gwahanu yn digaloni yr anturiaethwyr; felly ni throdd y cynnygion a wnaed er elw, a rhoddwyd y gwaith, ar y pryd i fynu. Y mae ar Fwlch-

Digitized by Google

Craigwen, gylch Derwyddol, yn cynwys un a deugain o feini sythion, a rhai o honynt dros saith droedfedd o uchder; ac y mae un arall, llai o faintioli, yn agos i'r eglwys, ond y mae y rhan fwyaf o'r meini wedi eu cymhwyso at adeiladau, a magwyrydd, yn y gymydogaeth. Yn 1829, darganfyddwyd bathodyn arian hynod, wrth agor bedd, yn mynwent yr eglwys; yr oedd mewn cadwraeth dda, gyda yr argraph ganlynol, mewn llythyrenau henafol arno, RADVLVS DEI GRA. DVX BVRG, a thybir mai bathodyn i Rodolphus, Dug Burgundy, ydoedd, yr hwn a flodeuai tua dechreu y nawfed ganrif, ag oedd yn hoff iawn o henafiaethau. Bernir mai o fewn y plwyf hwn y ganwyd Syr Howel y Fwyall, yr hwn oedd y prif feddianydd o'r gymmydogaeth. Y mae enw y lle hwn yn awgrymiad am ansawdd ei sefyllfa naturiaethol, sef Pen y morfa, perthynol i'r Traethau, Mawr, a Bach, oddiar ba rai y cymerwyd mesur mawr o dir gwerthfawr, drwy anturiaethau clodfawr William Alecsander Madog, Ysw., pan y cynlluniai ac y cwblhai y Gwarchglawdd diogel, sydd yn awr fel prif-ffordd, yn cysylltu Arfon a Meirion yn nghyd; a'r hyn a brofir o wasanaeth dirfawr i'r cyhoedd, ac a barha yn ol pob tebygolrwydd drwy yr oesau; ac a drosglwydda ei enw yntau i'r cenedlaethau dyfodol, gyda pharch mawr.

**PENMYNYDD,** sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Bangor, ac yn swydd FON. Saif y pentref ar ben dyffryn Braint, dwy filltir a haner gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanfair; a phedair a chwarter dwyreiniol o Langefni. Llythyrfa, dan Langefni; ac y mae yma ffair ar Llun y Pasg. Y mae y plwyf yn cynwys 3153 o erwau. Gwerth ardrethol, 3090*p*. Poblogaeth yn 1851, 566; yn 1861, 446. Tai, 108. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae hynodrwydd hanesol y lle hwn yn galw am adolygiad lled fanwl. Dichon mai y gwrthddrych o'r dyddordeb mwyaf o fewn y plwyf hwn ydyw yr annedd henafol, Plas Penmynydd. Yma ar un pryd, yr oedd arglwyddiaeth henafiaid Owain ab Meredydd ab Tydur, a elwir yn gyffredin Owen Tudor; ail wr Catherine o Ffraingc, gweddw waddolog Harri y pumed, a thaid Harri y seithfed; ac o'r hwn yr hanodd tylwyth breiniol y Tuduriaid. Y mae llawer o hanesion a nodiadau wedi eu cyhoeddi am y lle hwn, a thrwy dderbyn hanesion ar gofnodiad a thraddodiad, heb eu holrhain yn ddigon manwl, ac heb gymharu dyddiadau, y mae llawer o amryfusedd wedi ei adrodd a'i dderbyn fel gwirionedd. Ac er mwyn cael allan wir ansawdd presenol y lle hynod hwn, ymwelwyd a'r fan, ar y dydd diweddaf o Hydref 1873, a thrwy hynawsedd boneddigaidd y preswylydd, Cadben Rowlands, cafwyd cyfle i adolygu yr hen adeilad, a'i gysylltiadau; ei feini cerfiedig, ei drawstiau addurnol, a'i furiau henafol. Y mae yn eglur fod yr hen balas wedi bod dan adgyweiriad, ar lawer o adegau, o bryd i bryd. Cyn adrodd yr olygfa a gafwyd ar y lle, y dydd a grybwyllwyd, dodwn ger bron, grynodeb o'r hanesion sydd a'r gael, mewn argraph am y lle fel y caffo y darllenydd fantais i dynu ei gasgliadau ei hun, oreu y gallo.

"Y gweddillion sydd yn aros o hen breswylfa y Tyduriaid ydynt, ddôr y fynedfa; rhan o'r ty, a simfa fawr y neuadd, yr hon a welir yn yr amaethdy yn awr. Y mae rhai arfbeisiau, a dyddiadau yr adeilad, neu amserau adgyweiriad, gyda llythyrenau enwol y meddianwyr i'w gweled eto. Hen enw cyffredin y teulu hwn oedd Owain. Rhisiard oedd y gwryw diweddaf o'r teulu; ac yr oedd yn siryf Mon yn 1657." Er mwyn ymweled a'r lle hwn, dywed Mr. Hutton iddo gerdded 33 o filltiroedd, er ei fod yn 77 mlwydd o oedran; a dyma ei sylwadau ef. "Y prif beth a ddywedir am Owen, mewn hanesiaeth yw," ei fod yn foneddwr Cymreig dillynfoes a theg yr olwg arno." Ai dyma yr oll a deilynga dyn a roddodd i Loegr y fath linach luosog o frenhinoedd? A gyflwynir i ddinodedd un nad yw hanesion yn ei gyhuddo o fai? Caffed fyw ynte ar fy nalenau i, gan nad oes neb arall a'i cofnoda. Nid oedd ei feddianau personol yn llawn bedwar can erw; gwerth 7*s*. 6*c*. yr erw, neu 150*p*., y flwyddyn. Yr oedd yn dal ei dir ei hun, ar ochr mynydd, a'i arwynebedd yn tueddu at y gorllewin. Y mae y ty o fewn 200 llath i'r brif-ffordd, yn wynebu tu a'r gogledd, o ddau uchder lloft, 4 o ystafelloedd ar y llawr. Dywed traddodiad, iddo gael ei ail-adeiladu, er amser Owen; a dywed Pennant, fod y mynedfa a'r simfa yn aros eto. Y mae y lle tân yn eang, ac addurnol; y mae y mur yn dair troedfedd o drwch. Byddai yn fwy priodol galw yr ystafell wyneb, yn gegin, nac yn neuadd." Dywed yn mhellach fod y cerfiad ar y gareg uwchlaw y drws wedi ei wisgo gan y tywydd fel nas gellir deall beth ydoedd. Uwchlaw drws yr ystabl, y mae arfbeisiau y teulu. Y mae yn mur y darllawdy, bump o gerig, gyda'r cerfiadau canlynol,—ar un, "Eslopus"—un arall "ausdod," ond y mae y llythyren gyntaf yn ngholl; ar y drydedd, "Vivela Vibas;" ac y mae y bedwaredd yn cynwys wyth neu ddeg o eiriau, wedi eu gwisgo yn fawr gan amser:—

Ar y bumed y mae R. O / E. O } 1650.

Y mae yn debyg mai llythyrenau enwau dau frawd a fu yn adgyweirio y lle ydyw y rhai hyn. Ar y swmer yn y darllawdy, y mae rhes o eiriau, mewn dull henafol, y rhai nad allwn eu deall." Y mae yr hyn a ganlyn wedi ei gyhoeddi yn yr *Archaeologia Cambrensis:*—"Y mae y ty hwn, yr hwn sydd o arddull Elizabeth, a Iago, wedi ei godi yn lle un mwy henafol, a elwid weithiau, 'Castell Penmynydd,' a dybir ei fod yn sefyll ychydig yn nes at yr eglwys. Dywedir fod hwn yn un o balasau gwreiddiol teulu Tydur, a gellir ei olrhain, fel yn eu meddiant, yn mhell cyn dyfodiad y teulu i'r goron." Wedi dodi yr hanesion cyhoeddedig am yr hen balas ger bron, dodwn eto yr hyn a welsom, ac a dynai sylw neillduol.

Nid yw yr adeilad presenol yn arddangos henafiaeth yr hen balas gwreiddiol. Dywedai Mr. Rowlands, iddo wneud rhai ymchwiliadau o amgylch y lle, ac iddo ddarganfod sylfaeni eang adeilad henafol, mewn cymrwd poeth, ar yr ochr ddwyreiniol i'r ty, yn yr ardd, mewn cysylltiad o'r braidd a'r ty presenol; a thybiai ef mai yno yr oedd anneddle gwreiddiol y Tyduriaid. Cadarnheid ef yn y dyb hon, drwy iddo ddarganfod yno hen gleddyf, yr hwn oedd wedi cancro cymaint, fel yr aeth yn ddrylliau. Daeth hefyd o hyd i ddwy gadfwyeill o alcanbres, mewn cadwraeth dda, y rhai sydd yno i'w gweled. Y mae un o honynt yn arddangos olion cerfiadau. Y mae yn eglur fod yno amryw o'r meini cerfiedig, yn yr adail bresenol, a berthynent i'r hen balas cyntaf. Y mae yno dair careg, yn taflu allan o'r mur, o'r un natur careg a'u gilydd, ac yn ymddangos yn henafol iawn. Y mae un uwchben y drws ar yr ochr ogleddol, wedi ei gwisgo gymaint gan y tywydd, fel

Digitized by Google

na ellir deall yn awr, beth ydoedd gynt. Y mae yr ail, ar yr ochr arall i'r drws, mewn cyflwr gwell, yn dangos y darian mewn agwedd deg, a thri phen Sais rhwng cwpl. Y mae y ddwy gareg hyn yn wynebu y gogledd. Ffenestr sydd rhyngddynt yn awr, lle y tybid y buasai drws gynt. Y mae y drydedd yn yr ongl orllewinol, ac yn dwyn y dyddiad 1376, a'r llythyrenau canlynol oddi tanodd, R. O. T.—Yn yr adeilad allan, a dybir ydoedd gynt yn ddarllawdy, ond sydd yn awr yn ystabl, y mae trawst o hen dderw du caled, tua phymtheg troedfedd o hyd, a deuddeg moddfedd ysgwar, a fernir ydoedd yn perthyn i'r hen balas gwreiddiol. Y mae cerfiadau ar bob tu iddo, ar ei hyd. Y mae morteisiau rhyngddynt yn tori ar y geiriau. Can belled ag y gellid eu dirnad, ceid hwy fel hyn. Ar un ochr,

TDOMV—INVAN YMLAVORAY LRVNTOY IEDIFRCF

Gwelir fel y mae y toriadau yn peri fod y cyddilyniad yn colli. Ac ar yr ochr arall y mae—

AVDMP—ORDM—MDIP—EVS—EVSFIE—ANN DOMINO.

Yn anffodus nid yw y dyddiad wedi ei gadw. Y mae careg uwch ben drws un o'r tai allan, gyda'r cerfiad canlynol:—

VIVE VT
VIVAS

ac uwchlaw un o'r ffenestri, y mae yr hyn a ganlyn:—

REPASTV
EST OPVS
LAVS DEO

O fewn y marchdy, y mae careg yn dwyn y dyddiad canlynol:—

16
18

ac uwch ben drws, a ffenestr ystabl arall, y mae

R O
E O 1650.

Y mae y cerfiad sydd yn y cadwraeth goreu yno, ar un o'r tai allan, yn cynwys tri llew ar branc, mewn cerfiad cwbl yn lân ac eglur. Yr oeddid yn teimlo yn alarus nad allesid darllen y cyfan, ond tybid mai gwell oedd eu dodi ger bron fel y maent, na cheisio cyflawni y diffygion â thyb a dyfaliad, heb sierwydd.

Wedi dodi ger bron yr hyn a ellid ei gasglu am yr hen breswylfod, efallai y byddai yn briodol ychwanegu rhai o'r traddodiadau sydd yn aros am y teulu yn mhellach. Trwy ba fodd y gweithiodd Owain ei ffordd i'r palas breiniol sydd anhysbys. Ar y cyntaf, pan yr oedd yn lled ddiffygiol yn ei wybodaeth o'r Saesonaeg, galwai rhai ef "Y Cymro Mud." Dyma yr hanes a adroddid ac a gredid gan y brodorion. Tra yr oedd Owen, yn mhlith eraill, yn dawnsio gyda y frenhines Catharine, dygwyddodd i'w ben-lin daro yn erbyn yr eiddo hi. Cylymodd ruban am ben ei lin. "I ba beth yr ydych yn rhwymo y ruban?" ebe hi. "Rhynged bodd i'ch graslonrwydd, rhag i mi daro ynoch chwi eto," ebe yntau. "Dichon y gellwch fy nharo mewn rhyw fan arall," oedd yr ateb. Ni ddywed yr hanesydd fod ei llygaid yn llefaru mewn iaith eglurach na'i geiriau, ond dyna y dybiaeth. Anfonodd y frenhines yn ddirgelaidd i Fôn, i wneud ymofyniad am fanylion ei hanes. Gwobrwyodd Owen y cenhadon, a hysbysodd ei fam am eu cenadwri. Wedi cyrhaedd i Blas Penmynydd, cawsant y fam yn ciniawa ar ddysglaid o bytatws ar ei gliniau, ac atebodd i'w gofyniadau, Ei bod yn ymborthi a'r rost a berw (gan feddwl y pytatw wedi eu coginio mewn dwy ffordd); na fynai hi mor can punt am ei bwrdd (sef ei gliniau); a'i bod hi yn cadw chwech o weision lifrai, gwryw, a benyw, yn wastadol dan arfau er ei hamddiffyn, (geifr, a chyrn ganddynt). Pan y byddo dyn fel Owen yn ymgodi yn y byd, y mae yn gyffredin yn dyfod yn wrthddrych i genfigen saethu ato. Nid oes dim amheuaeth nad yw y dawns, a'r ruban, a'r atebiad yn wirionedd; ond am y rhost a'r berw, y can punt, y bwrdd, a'r pytatw, a'r geifr, y mae yn debyg mai dyfais wawdiol rhyw rai ag yr oedd Owen wedi ymgodi yn uwch na hwy, oedd y rhai hyny. Nid oedd pytatw yn Mon y pryd hwnw. Bu Harri V., farw yn 1422, gan adael ei fab Harri VI. yn wyth mis oed. Priododd ei weddw, Catherine o Ffrainge, Owen yn 1428, ac yn ol yr hanes a geir am danynt, buant fyw yn ddedwydd gyda eu gilydd. Nid ymddangosai hi yn gyhoeddus mewn bywyd gwleidyddol, a chedwid ef yn wastadol tu ol i'r llen, heb gymaint a'i anrhydeddu a barwnigiaeth, hyd ddeng mlynedd ar hugain wedi hyny, gan ei fab, Iarll Penfro. Bu farw y frenhines, Ionawr 3, 1437 yn Bermondsey. Claddwyd hi; ond pan adeiladodd ei hwyr, Harri VII. ei gapel, codwyd hi, a chladdwyd hi mewn arch gyffredin, yn agos i gofadail ei gwr yn Westminster Abbey. Bu iddynt dri mab, Edmund, Jasper, ac Owen. Darostyngwyd Owen, a chondemniwyd ef heb brawf, bu farw, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys y Grey Friars, yn Henffordd.

Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Credifael, yr hwn a flodeuai tua diwedd y bumed ganrif, ac yn gyntaf a lywyddai yn ngholeg y Ty Gwyn ar Daf. Y mae o fewn i'r adeilad, allor-fedd o alabastr ardderchog, yn dwyn ffugr boneddwr, a boneddiges. Y mae traddodiad yn dywedyd, mai ar ddadgorfforiad y crefydd-dai pabaidd, y dygwyd hwn yma o Lanfaes, a'u bod yn perthyn i rai o deulu Tydur. Rhydd y Parch. R. Williams, Rhydycroesau, yr hanes ganlynol, mewn cysylltiad â'r cofadail hwn. Yr arfau ydynt, dri phen Sais, sef arfbeisiau Ednyfed Fychan, prif gyngborwr. a chadfridog Llewelyn ab Iorwerth. Tra yn arwain y byddinoedd yn y brwydrau rhwng Llewelyn a John, brenhin Lloegr, ymosododd ar fyddin Ranulph, Iarll Caerlleon. ac a'i gorchfygodd, ac a laddodd dri o benaethiaid y gelyn; penau pa rai a gyflwynodd wrth draed ei Dywysog. Dyma fel y daeth y tri phen i'r arfbeisiau, y rhai a wisgir yn awr gan Syr Richard Bwlclai. Gwelir felly mai rhai o'r teulu a orphwysant yma. Y mae tri phen ar y gareg sydd eto yn mur plas Penmynydd.

Y mae yr hyn a ganlyn, mewn hysbysiaeth am William Pen, neu William Pennmynydd, efallai yn deilwng o le yma. William Penn ydoedd fab i Syr William Penn o Winstead yn Essecs, a phrif lyngesydd Lloegr, yn amser Siarl II. Cymro o genedl ydoedd, ac efe, Syr William, ydoedd y cyntaf i gael ei alw yn Penn. Enw ei dad oedd John Tydur, a'r hwn, meddai y mab, gan ei fod yn preswylio ar ben rhyw fynydd uchel yn Nghymru, a elwid Sion Penmynydd. Y mae hyn, debygir, yn ei gysylltu â Thyduriaid Penmynydd yn Mon. Symudodd wedi hyny i'r Iwerddon, lle yr ymgyfoethogodd yn fawr,

Digitized by Google

a phan ddaeth yn ol i Gymru, cyferchid ef gan ei hen gydnabyddion yn Mr. Penn, heb y llinachau Cymreig. Yr oedd hyn yn dyfod i arferiad cyffredinol bellach yn Nghymru, o fabwysiadu yr enw personol cyntaf, yn lle y llinachau o *ab*, *ab*, *ab*, nes dyfod i'r diwedd drwy gysylltu enw y cartrefle; yn lle hyny, torid yn fyr gyda'r enw personol cyntaf, a'r cartrefle. O hyn allan, ni a gawn enw y cartrefle yn gyfenw y teulu, megis *Carreg*, o Gareg; *Bodfel* o Bodfel; *Pennant* o Bennant; *Mostyn* o Fostyn; ac felly Pen, neu Penn, o Pen; gan feddwl Penmynydd. Ganwyd William Penn yn Llundain, Hydref 14, 1644. Wedi cael elfenau ei ddysgeidiaeth yn Chigwell, Essecs, ac yn Llundain, efe a aeth i Rydychain. Yr oedd y pryd hwn dan argyhoeddiadau crefyddol, yr hyn a weithiwyd ar ei feddwl trwy bregethiad Crynwr. Gan iddo wneud proffes o'r argyhoeddiadau hyn, efe a ddiarddelwyd o'r Brif ysgol. Bu wedi hyny yn teithio ar led, a phan ddaeth adref, efe a aeth i Gyfreithdy Lincoln, i efrydu y Gyfraith. Gan ei fod yn parhau i lynu wrth y Crynwyr, anfonodd ei dad ef i'r Iwerddon, ond yno, efe a ymunodd yn ffurfiol a'r gymdeithas honno, o blegid yr hyn y cafodd ei garcharu. Digiodd ei dad gymaint wrtho, fel y troes ef allan o'i dy. Pan yn 24 oed, efe a ddechreuodd ddyfod allan fel gweinidog yn mhlith y Crynwyr, a chafodd ei garcharu yn y Twr, ac yn Newgate, ac yn y carcharau yr ysgrifenodd y rhan fwyaf o'i weithiau. Yr oedd Siarl II., mewn dyled o tua 16,000*p.*, i dad Penn, y rhai oeddynt wedi eu gwneud iddo yn ewyllys diweddaf ei dad; ond yr oedd amgylchiadau arianol y penadur hwnw mor isel, fel nad oedd ganddo fodd i dalu; a chan fod y Crynwyr yn dyoddef erlidigaethau, a cholledion trymion o blegid eu crefydd, cynnygiodd Penn i Siarl, os caniatai iddo ef hawl o diroedd yn Ngogledd America, y maddeuai efe yr holl ddyled honno, fel y gallai sefydlu yno drefedigaeth i'w gyfeillion, y Crynwyr; ac hefyd i bwy bynag a ewyllysiai fwynhau mwy o ryddid crefyddol nag oeddynt yn ei fwynhau yn y wlad hon y dyddiau hyny. Felly ar y 5ed o Ionawr, 1681, cadarnhawyd talaeth helaeth i William Penn, o dan yr enw Pensylvania. Mynasai Penn ei galw yn Gymru Newydd, ond ni fynai yr ysgrifenydd, Gabriel Thomas, Cymro, mo'i galw felly. Er bod y Llywodraeth wedi rhoddi ysgrif-hawl o'r dalaeth i Penn, nid ystyriai efe er hyny fod ganddo hawl, heb wneud cytundeb a'r llwythau Indiaidd ydoedd yn preswylio y wlad. Yn ganlynol, wedi iddo gyrhaedd drosodd, ar y 28n o Hydref, 1682, dranoeth, efe a alwodd y llwythau Indiaidd, a'u penaethiaid, a gwnaeth bwrcasiad o'r tiroedd, gan dalu am danynt mewn nwyddau amrywiol, hyd i werth pum cant a deg ar hugain o ddolerau. Yr oedd amryw o Gymry yn ymfudo gyda William Penn, y rhai oeddynt Grynwyr, megis Dafydd Llwyd, yr hwn a fu yn gyfieithydd cyffredinol, a blaenor y gynadledd gyntaf yn 1683; ac efe a dynodd y cytundeb a'r Indiaid; Thomas Llwyd, brawd i Charles Llwyd, o Ddolobran, yn mhlwyf Meifod, yn sir Drefaldwyn; a'r hwn a fu y llywydd gweithredol cyntaf ar dalaeth Pennsylvania, yn 1684; Gabriel Thomas, yr hwn oedd ysgrifenydd y cynulliad cyntaf, yn 1683; Anthony Morris, maer cyntaf Pennsylvania; Gryffydd Jones, yr ail faer; Huw Dafydd, yr hwn oedd un o ddeiliaid Charles Llwyd, Dolobran.—Y mae yn y plwyf hwn, chwech o elusendai, y rhai a sylfaenwyd yma yn gynar, ac a waddolwyd yn 1623, gan Lewis Owen, Ysw., o Twickenham, yn swydd Middlesex, gyda degymau plwyf Eglwys Rhos, er gwell cynnaliad i'r deiliaid yno. Y mae y degymau hyn wedi bod yn meddiant teulu Mostyn, er ys amser maith, y rhai a dalent y swm o 60*p.*, tu ag at gynnaliad yr elusendai. Y mae yma waddolion ychwanegol er lles y tlodion.

Bydd yr Achyddiaeth canlynol yn derfyniad digon priodol i'r sylwadau ar blwyf a phalas hynod Penmynydd. Drwy ei wraig Gwenllian, merch Rhys ab Gryffydd, Tywysog y Deheubarth, cafodd Ednyfed Fychan ddau fab, Gryffydd, a Grono. I'r ail fab, Grono, efe a roddodd faenorau Penmynydd, Tre Castell, ac Arddreiniog, gydag etifeddiaethau eang eraill. Yr oedd Grono ab Ednyfed yn wr o enwogrwydd mawr, ac yn preswylio yn Nhrefcastell, gerllaw Llanfaes; ac efe a olynwyd gan ei fab Tydur, a elwid yn gyffredin Tydur Hen ab Grono, yr hwn a ranodd ei diroedd ar ei farwolaeth rhwng ei dri mab, Grono, Howel, a Madog. Treuliodd fywyd anrhydeddus yn Mhenmynydd. Bu farw Hydref 9fed, ac efe a gladdwyd yn Monachlog Bangor, yr hon a adeiladasai ef ei hun; mewn beddrod a wnaed iddo, yn mur deheuol y capel, yn y Friars yn 1311. Wedi marw y tad, mwynhaodd y meibion yr etifeddiaeth oll. Bu Howel farw heb blant. Madog, wedi derbyn urddau eglwysig, a ddaeth yn Archddiacon cyntaf Mon; ac wedi hyny, yn Abad enwog iawn yn Nghonwy; a gadawodd ei diroedd ar ei ol i Fonachlog Conwy. Grono, y mab henaf, wedi cael tiroedd ei frawd Howel, a wnaeth ei fab Tydur yn etifedd; a efe a gladdwyd gyda ei dad yn Mangor, Rhagfyr 11, 1331. Yr oedd Syr Tydur ab Grono yn wr galluog iawn, ac yn fawr yn ffafr Iorwerth III., gan yr hwn y cafodd ei ddyrchafu yn Farwnig. Ei wraig ydoedd yr Arglwyddes Margared, merch Thomas ab Llewelyn, Arglwydd Deheudir Cymru, a chwaer i'r Arglwyddes Eleanor, mam Owain Glyndwr. Rhanodd ei etifeddiaeth rhwng ei bum mab, sef Grono, Ednyfed, Gwilym, Meredydd, a Rhys. Preswyliai, gan mwyaf yn Trecastell, lle y bu farw, a chladdwyd ef yn y Friary, Bangor, Medi 19, 1367. Bu i Meredydd, y pedwerydd mab, gyflawni llofruddiaeth, a bu orfod arno ffoi o'i wlad, a byw mewn deoliad. Efe oedd dad Owen Tydur, a ddienyddiwyd yn 1461; taid Harri VII. Cafodd Grono, mab henaf Syr Tydur ab Grono, Benmynydd fel ei ran, lle y bu fyw a marw. Gadawodd ar ei ol, ei unig ferch Morfydd, yr hon a briododd William ab Gryffydd ab Gwilym ab Gryffydd ab Heilyn ab Syr Tydur ab Ednyfed Fychan o'r Penrhyn, yn swydd Gaernarfon. Tydur Fychan a gafodd Benmynydd ar farwolaeth ei fam. Olynwyd ef gan ei fab Owen Tydur Fychan, yr hwn oedd yswain personol i Harri VII. Yna dilynodd ei fab Richard Owen, Ysw., o Benmynydd, siryf Mon yn 1565 a 1573. Ei fab Richard Owen Tydur, a ddilynodd yn nesaf, yr hwn oedd dad Dafydd Owen Tydur, yr hwn a arwyddodd Achlenau Lewis Dwnn yn 1588, ac efe oedd dad Richard Owen, Ysw., o Benmynydd, siryf Mon yn 1623, a thad Richard Owen Tydur, y gwryw olaf o ddisgyniad uniongyrchol y teulu, ac efe ydoedd siryf Mon yn 1657. Ei ferch, a'i etifeddes, Margared, a briododd Coningsby Williams, Ysw., o Glan y gors, yn y swydd hon; yr hwn a feddianodd Benmynydd am ei oes. Gan nad oedd iddo blant o'i wraig gyntaf, aeth yr etifeddiaeth i Jane, merch Rowland Bwlclai, Ysw., o Porthamel, o Mary, ei wraig, merch Richard Owen, Ysw., o Benmynydd, yr hon a bri-

Digitized by Google

ododd Richard Meurig, Ysw., o Fodorgan. Gwerthodd yr etifeddiaeth, yn 1722, i Arglwydd Bwlclai, ac y mae yn awr yn feddiant i Syr Richard Williams Bwlclai, Barg., yr hwn sydd yn ddisgynydd mewn llinell uniongyrchol o Ednyfed Fychan.—Y mae yn hysbys i'r cyffredin, ddarfod i Harri VII., anfon cenhadaeth i Gymru, i wneud olrheiniad manwl i achyddiaeth ei daid, Owain Tydur, yr hyn a gyflawnwyd yn ffyddlon gan "Syr John Leiaf, offeiriad, Gyttun Owain, Gryffydd ab Llewelyn ab Jermy Fychan, Madawc ab Llewelyn ab Howel, Robert ab Howel ab Thomas, John King, gyda llawer eraill, ar draul Mawrhydi y Brenhin." "Abad Llanegwestle, a Dr. Owen Pool, Canon Henffordd, Arolygwyr." Y mae yr Achlen yn fanwl ac eglur iawn, yn olrhain ei welygordd, yn ol drwy yr oesau, nes dyfod at Cadwaladr, a'r hen Dywysogion Cymreig boreuaf, y rhai a ddarlunid yn gyffredin gan y genedl, fel—

"Nyth teg o Benaethiaid dâ!"

**PENNANT**, sydd drefgordd yn mhlwyf Eglwys Fach, swydd Ddinbych, pedair milltir a chwarter gogleddol o Lanrwst. Poblogaeth, 115.

**PENNANT**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanymawddwy, swydd Feirionydd, pedair milltir a chwarter gogledd ddwyrain o Ddinas-Mawddwy. Gwerth ardrethol, 678*p*. Poblogaeth, 116.

**PENNANT**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanbrynmair, swydd Drefaldwyn; a'r ddylifiad rhaiadr Ffrwd-y-Pennant, naw milltir a haner gogledd orllewin o Lanidloes. Gwerth ardrethol 1527*p*., o'r hyn y mae 50*p*. mewn mwnau. Poblogaeth, 363. Y mae disgyniad y rhaiadr yn 130 troedfedd.

**PENNANT**, neu Pennant-Melangell, sydd drefgordd, a phlwyf, yn nosparth Llanfyllin, swydd Drefaldwyn. Saif y drefgordd ar darddle yr afon Tanat, dan fynyddau y Berwyn, naw milltir a haner gogledd orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Gwerth ardrethol, 1418*p*: Y mae y plwyf yn cynwys hefyd, drefgorddau Cornorion, Cwmllech, Dwyffrwd, Garth-gelynen-fawr, Garth-gelynen-fechan, a Phengwern. Llythyrfa yn Llanfyllin. Erwau, 5000. Gwerth ardrethol, 3502*p*. Poblogaeth, 712. Tai, 147. Y mae y tiroedd yn meddiant amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol Pen y bont, yn esgobaeth Llanelwy; Gwerth 185*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn henafol, ond mewn cyflwr da. Y mae yn cynwys rhai cerfiadau addurnol, yn egluriadol o'r chwedl am St. Monacella. Y mae yma rai gwaddolion.

**PENNANT**, sydd drefgordd yn mhlwyf Bugeildy, swydd Faesyfed, ar yr afon Teme, pedair milltir a chwarter gogledd orllewin o Dref y clawdd. Gwerth ardrethol, 2515*p*. Poblogaeth, 202.

**PENNANT**, Dafydd, ydoedd fardd a flodeuai tua diwedd yn unfed canrif ar bymtheg. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen.

**PENNANT**, Huw, cerddor medrus yn amser Harri VIII., ac Elizabeth. Graddiwyd ef yn yr ail ddosparth o bencerddiaid yn Eisteddfod Caerwys, yn 1560.

**PENNANT**, Syr Huw, ydoedd offeiriad, neu weinidog eglwysig, o wybodaeth eang mewn hanesyddiaeth a henafiaeth; a chasglydd mawr ar ysgrifau Cymreig. Yr oedd efe hefyd yn fardd galluog, ac y mae rhai o'i gyfansoddiadau eto ar gael. Dylid cofio mai nid yr un ydoedd a Huw Pennant, oedd yn byw yn amser teyrnasiad Harri VIII., ac Elisabeth, ac ydoedd yn bresenol yn yr Eisteddfod fawr, a gynaliwyd yn Nghaerwys yn 1568, lle y graddiwyd ef, fel efrydydd mewn caniadaeth leisiol. Syr Huw Pennant ydoedd frawd i Thomas Pennant, abad y Maes glâs, a mab Dafydd Pennant, Ysw., o Bychton, gerllaw Treffynon, yn swydd Fflint, yr hwn ydoedd henafiad uniongyrchol Thomas Pennant, y naturiaethwr uchelglodus. Yr oedd Syr Huw, yn gydoesydd â Gyttyn Owain, yr hwn a fu farw tua y flwyddyn 1480.

**PENNANT**, Richard, Barwn Penrhyn, ydoedd y nawfed mewn disgyniad o Thomas Pennant, abad y Maes glâs, yn 1480, yr hwn, gan adael ei abad-dy, a briododd Angharad, merch Gwilym ab Gryffydd, o'r Penrhyn, Ysw. Efe hefyd oedd y trydydd o Giffard Pennant, Ysw., yr hwn a aeth i Jamaica, yn amser Olifer Cromwell, ac wedi hyny a gafodd etifeddiaethau eang yn yr ynys honno. Dychwelwyd ef yn aelod seneddol dros Petersfield, yn senedd gyntaf Sior III., ac yn 1767, etholwyd ef dros Liverpool, ac etholwyd ef eilwaith dros y fwrdeisdref hon yn 1768, 1774, a 1784. Pan yr ystyrir ei brofiad ef, a'i farn gywir mewn trafnidiaeth, ni chafodd y dref fawr fasnachol hon, erioed ei chynrychioli yn fwy galluog a ffyddlon, ac ni feddodd Ty y Cyffredin yr un aelod o uwch annibyniaeth ac onestrwydd, nag Arglwydd Penrhyn. Yn 1765, efe a briododd Anne Susannah, merch ac unig etifeddes y llywydd Warburton, o Winnington, swydd Gaerlleon, a thrwy hawl ei nain Anne, ail ferch, a chyd-etifeddes Syr Robert Williams, o'r Penrhyn, Barg. daeth i feddiant o haner yr etifeddiaeth honno. Yr oedd yr haner arall wedi ei phrynu, gan ei dad, John Pennant, Ysw., gan y teulu Yonge, y rhai oeddynt wedi dyfod i feddiant o honi, drwy briodas Gwen, merch ieuengaf Syr Walter Yonge, o Escot, yn swydd Devon, Barg., fel y daeth yr etifeddiaeth bwysig hon eilwaith yn unedig. Pan y daeth ef i feddiant o'r eiddo hwn, yr oedd y lle yn arddangos, pob arwydd o ddifaterwch a thlodi. Yr oedd y Cloddfeydd Llechi sydd yn awr drwy eu heangder, wedi dyfod yn wrthddrych o'r fath syndod ac edmygedd i deithwyr o bob gwlad, mewn sefyllfa isel iawn; ac nid oedd allforiad y defnyddiau gwerthfawr hyny, y pryd hwnw, dros fil o dunelli yn y flwyddyn. Yr oedd ei ymdrechiadau mor eang a phriodol, mewn plannu, cloddio, adeiladu, ammaethu, a chynllunio ffyrdd, fel y cafodd yn fuan, y boddhad o weled ei etifeddiaeth wedi dyfod mor brydferth ag un ar wyneb sir Gaernarfon, a dïau y bydd ei fywyd dichlynaidd yn addurn yn ei hanes. Yn 1793, dyrchafwyd ef i'r arglwyddiaeth, ond terfynodd yr urddasolrwydd hwn gyda ei oes ef, canys bu farw heb blant, Ionawr 21, 1808. Ail-grewyd y teitl yn ddiweddar, yn nyrchafiad yr Arglwydd Penrhyn presenol, o Gastell Penrhyn.

**PENNANT**, Thomas, ydoedd naturiaethwr, a theithydd enwog, mab henaf Dafydd Pennant, Ysw., o Downing, yn mhlwyf Whiteford, gerllaw Treffynon, yn swydd Fflint, lle y ganwyd ef Mehefin 14, 1726. Ei fam ydoedd ferch Richard Mytton, Ysw., o Halston. Derbyniodd ddechreuad ei addysgiaeth yn Wrecsam, ac oddi yno efe a symudodd i Rydychain. Pan yr oedd yn ddeuddeng mlwydd oed, dechreuodd ei chwaeth droi at efrydu hanesiaeth naturiol, yr hyn a hynododd ei fywyd mor gyhoeddus mewn canlyn-

Digitized by Google

iad; a thua 1746, cymerodd daith i Gernyw, lle y daeth yn hoff iawn o wyddoriaeth mwnau a maen-iadau, yn yr hyn y cefnogwyd ef yn fawr gan Dr. Borlase. Yn 1754, efe a etholwyd yn Gymrawd o Gymdeithas yr Henafiaethwyr, ac yn yr un flwyddyn, ymwelodd a'r Iwerddon, a theithiodd ranau helaeth o honi; ond cwynai fod digrifwch lletengar y wlad, yn gwneud cofnodau ei ymdaith yn hollol anghymwys i'w hargraphu. Yn 1755, dechreuodd ohebu a Linnæus, i'r hwn y danfonodd ef, yn mhen dwy flynedd wedi hyny, ddarluniad o *conca anomia*, oedd newydd gael ei ddarganfod, yr hwn, wedi ei ddarllen ger bron Cymdeithas Freiniol Upsal, a barodd iddo gael ei ethol yn aelod o'r frawdoliaeth honno. Yn ei "Fywyd Llenyddol," y mae yn llefaru am yr arwydd hwnw o barch, fel y prif anrhydedd llenorol a gawsai o gwbl, ac yn enwedig gan ei fod wedi ei gael trwy gymeradwyaeth Linnæus ei hun. Parhaodd ei ohebiaeth a'r naturiaethwr enwog hwn, hyd nes y daeth oedran a gwendid Linnæus i'w derfynu. Yn 1765, y cyhoeddwyd y rhan gyntaf o'i waith mawr ar "Filodiaeth Brydeinig," wedi ei addurno â chant a deg ar hugain o argraphlafnau, a rhaid cofnodi er anrhydedd yr awdwr, ei fod wedi bwriadu i'r elw gael ei roddi i Ysgol Rad Gymreig Llundain. Ond darfu i'w ddiffyg profiad o ymrwymiadau llenorol o'r fath, a'r golled a gafodd wrth ddwyn y gwaith allan, ei analluogi i gario yr amcan i ben; ond eto efe a'i cwblhaodd drachefn mewn rhan, wrth gyhoeddi yr ail argraphiad. Yn 1765, cymerodd daith ar y Cyfandir, lle y daeth yn gydnabyddus âg agos yr oll o gymeriadau llenyddol enwog yr oes, yn mhlith pa rai yr oedd Buffon. Voltaire, y ddau Gesners, a Pallas, ac yr oedd y derbyniad a gafodd ganddynt, yn profi fod ei glod wedi cyrhaedd atynt o'i flaen ef. Yn fuan wedi ei ddychweliad, etholwyd ef yn gymrawd o'r gymdeithas Freiniol; ac yn 1768, efe a gyhoeddodd argraphiad newydd o gymaint ag oedd wedi ymddangos o'r "Milodiaeth Prydeinig," ac a gyflwynodd yr elw i'r Ysgol Gymreig. Yn y flwyddyn ddilynol, ychwanegodd gyfrol arall at y gwaith, mewn perthynas i ymlusgiaid, a physgod yr ynys hon, gyda chyfrol arall fel cyfeiliant, a gyhoeddwyd yn 1770, yr hyn a gyflawnodd y gwaith. Ymddangosodd ei "Gyfolwg ar Bedwartroediaid" yn 1771, a hyny gyda y fath gymeradwyaeth, fel y prynwyd yr holl argraphiad i fynu yn ddioed; a'r flwyddyn ddilynol, cyhoeddwyd un arall drachefn gyda yr un llwyddiant. Yn y flwyddyn hon, anrhydeddwyd ef a'r graddiad o "Ddoctor o'r Gyfraith," mewn cynulliad llawn, gan Brifathrofa Rhydychain, fel teyrnged o barch i'w gymeriad llenyddol. Yn 1772, cymerodd ail daith i'r Alban, ac yn mlaen can belled a'r Hebrides, ac yn ei daith, derbyniodd lawer o amlygiadau o barch, o blegid y darluniad a wnelsai o'r Alban. Nid yn unig, cafodd ei lwytho â diolch ac arfolliad unigolion, ond amryw fwrdeisdrefi hefyd; ac Edinburgh yn mysg eraill, a'i hanrhegodd a'i rhyddfraint. Cyhoeddwyd hanes yr ail Daith hon yn 1774, gyda lluaws o gerfluniau gwychion. Yr oedd yspryd teithio, gyda y bwriad arbenig o wneud darganfyddiadau lleawl daearyddol, yn ymddangos fel wedi cymeryd meddiant o feddwl Pennant erbyn hyn. O 1773 hyd ddiwedd 1777, yr oedd ei amser yn cael ei gymeryd i fynu agos i gyd, mewn ymweled â gwahanol barthau o'r ynys, ac y mae y rhan fwyaf o'r teithiau hyn wedi cael eu cyhoeddi, o bryd i bryd, ac ni ragorwyd arno erioed gan neb yn y dosparth hwn o lenoriaeth. Dywedodd Dr. Johnson yn dra phriodol am dano:—"Pennant ydyw y teithydd goreu y darllenais i ei waith erioed; y mae yn sylwi ar fwy o bethau nag y gwna neb arall." Yn 1778, y cyhoeddodd y gyfrol gyntaf o'i "Deithiau yn Ngogledd Cymru," a'r ail yn 1781. Y mae y gwaith hwn yn orchwyl tra rhagorol, a chyda chyflawnder o hysbysiaeth parthedegol, y mae yn orlawn o ddyddordeb hanesyddol, a darluniadau bywgraphol, mewn cysylltiad a'r rhan honno o'r dywysogaeth. Yn ei holl deithiau trwy Gymru, canlynwyd ef gan y Parch. J. Lloyd, periglor Caerwys, yr hwn oedd ysgolhaig a henafiaethydd Cymreig godidog, i'r hwn y mae Pennant yn cydnabod ei hun yn ddyledus am lawer o hysbysiaeth werthfawr. Yn yr un flwyddyn, ymddangosodd argraphiad newydd o'i "Gyfolwg ar Bedwartroediaid," mewn dwy gyfrol. Yn 1782, cyhoeddodd ei Daith, o Gaerlleon i Lundain; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, ei waith mawr olaf a'r hanesiaeth naturiol, dan yr enwad "Arctic Zoology," mewn dwy gyfrol, at yr hwn yr ychwanegodd gyfeiliant yn 1787. Cyhoeddwyd ei "Hanes Llundain" yn 1799, yr hwn a aeth trwy amryw argraphiadau; a dilynwyd hwn gan ei "Fywyd Llenyddol," yn 1793, a'i Hanes Whiteford, a Threffynon, yn 1796. Yn nechreu 1798, nid yn mhell iawn cyn ei farwolaeth, ymddangosodd ei ddwy gyfrol gyntaf o'i "Outlines of the Globe," a chyhoeddwyd dwy gyfrol ddilynol gan ei fab. Terfynodd fywyd o lafur dihafal, a rhagoriaethau bywyd dichlynaidd, Rhagfyr 16, 1798. Bu Mr. Pennant yn briod ddwy waith; yn gyntaf yn 1759, âg Elizabeth, merch J. Falconer, Ysw., o'r hon y cafodd ei fab, Dafydd, yr hwn a'i holynodd yn ei etifeddiaethau eang, ac un ferch. Yr ail waith, yn 1777, âg Anne, merch Syr Thomas Mostyn, Barg., o'r hon hefyd y cafodd fab, a merch. Y mae Teithiau Pennant trwy Ogledd Cymru, yn aros eto mewn bri mawr, gan bob Hanesydd, a Henafiaethwr Cymreig.

**PENNON**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llancarfan, swydd Forganwg, pum milltir a hanner de ddwyrain o Bontfaen.

**PENPERGWM**, sydd orsaf rheilffordd yn swydd Fynwy; ar y rheilffordd Ganolbarthol orllewinol, gerllaw yr afon Wysg, tair milltir a haner de dde ddwyrain o Abergafenni.

**PENPONT**, neu Bettws-Penpont, sydd gapeloriaeth, ac is-bentref, yn mhlwyf Llanspyddyd, swydd Frycheiniog, ar yr afon Wysg, pedair milltir gorllewinol o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Llythyrfa yn Aberhonddu. Erwau, 1790. Gwerth ardrethol, 1601*p*. Poblogaeth, 119. Tai, 20. *Penpont House* sydd balas, yn eiddo P. Williams, Ysw. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 120*p*., yn nawddogaeth y Tir-feddianwyr. Y mae y gymydogaeth hon yn cael ei phrydferthu â choed prydferth, a rhodfeydd swynol, yn nghanol pa rai y mae Capel Bettws, a'i gladdfa eang. Y mae yn mhalas Penpont, ddarlun o'r frenhines Anne Boleyn, ail wraig Harri VIII., a mam y frenhines Elizabeth, ac o'r gwehelyth hwn y disgynai y teulu Parry Williams. Y mae tylwyth Abercamlais hefyd yn perthyn i deulu o'r un achau. Y mae Aberbran, palas arall a berthynai iddynt, yn awr yn ammaethdy.

**PENRHIWLLAN**, sydd le yn ochr ddeheuol Aberteifi, pedair milltir gogleddol o Gastell-newydd-Emlyn. Llythyrfa, dan Gaerfyrddin.

Digitized by Google

**PENRHOS**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanfynydd, swydd GAERFYRDDIN, pum milltir a hanner gogledd orllewin o Landeilo-fawr.

**PENRHOS**, sydd blwyf yn nosparth Pwllheli, swydd GAERNARFON; ar draeth dwyreiniol penrhyn Lleyn, tair milltir a haner de orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Pwllheli. Erwau 555, o'r hyn y mae 103 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 458*p*. Poblogaeth, 104. Tai, 24. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â churadaeth barhaol Abereirch, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**PENRHOS**, sydd gapeloriaeth yn Guilsfield, Llandrinio, plwyfi Llansantffraid, a Meifod, swydd DREFALDWYN; yn agos i'r afon Hafren, dwy filltir a haner de orllewin o orsaf rheilffordd Four-Crosses, a chwech a haner dwyrain dde ddwyrain o Lanfyllin. Ffurfiwyd y lle yn gapeloriaeth yn 1844, ac y mae y Llythyrfa dan Groesoswallt. Poblogaeth, 976. Tai, 190. Poblogaeth rhandir Guilsfield, 308; Llandrinio, 169; Llansantffraid, 282. Penrhos Hall ydyw annedd W. O. Gore, Ysw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 141*p*., ac yn nawddogaeth W. O. Gore, Ysw. Y mae yr eglwys yn adeiladaeth ddiweddar.

**PENRHOS-GARNEDD**, sydd le ar ochr ogledd orllewin CAERNARFON; dwy filltir de dde orllewin o Bangor. Llythyrdy, dan Bangor.

**PENRHOS-LLIGWY**, sydd blwyf yn nosparth, a swydd FON, ar lan y mor, pedair milltir a haner dwyrain ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanerchymedd. Llythyrfa, dan Lanerchymedd, o Fangor. Erwau 2894, o'r rhai y mae 300 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1969*p*. Poblogaeth yn 1851, 553; yn 1861, 473. Tai, 106. Yr oedd maenoriaeth Lligwy unwaith yn blwyf ar wahan. Yr oedd yn perthyn gynt i deulu Lloyd; ond a brynwyd gan deulu Irby, ac y mae yn awr yn feddiant i Arglwydd Boston. Y mae y lle hwn wedi ei hynodi ei hun am ei gloddfeydd. Codir y marmor goreu yma. Y mae cilfach fanteisiol at allforiad, yn rhedeg i fynu yma, o feisfor Dulas; ac oddiyno y cludir y meini mewn cyflawnder i Lundain, Llerpwll, a manau eraill. O fewn ychydig bellder o enau y beisfor yr hwn sydd yn ffurfio porthfa manteisiol, y mae ynys fechan, a elwir Ynys Gadarn, yr hon sydd graig uchel o farmor, ar yr hon y gosodir goleuni weithiau, fel rhybudd i'r morwyr dieithrol, rhag rhedeg eu llongau i beryglon, lle y bu drylliadau colledus lawer gwaith. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 75*p*., ac yn nawddogaeth Arglwydd Boston. Adgyweiriwyd yr eglwys yn 1866; y mae wedi ei chysegru i St. Michael. Y mae yn y fynwent ddau feddfaen, o henafiaeth mawr. Y mae Rowlands, yn ei "Mona Antiqua Restaurata," yn gwneud sylw ar y cerfiad sydd ar un o honynt, ac yn arddangos, mai gorchudd ydoedd, ar fedd Mechell, neu Macutus, wyr un o arglwyddi Caerloew, esgob St. Maloes, a sylfaenydd eglwys Llanfechell, yn y swydd hon; yr hwn a lofruddiwyd yn mradwriaeth Stonehenge. Gadawodd Owen Lloyd, Ysw., o Lundain, yn 1665, ammaethfa yn nghapeloriaeth plwyfol Iscoed, yn agos i Wrecsam, a'r elw i fyned at osod bechgyn tlodion y plwyf hwn yn wyddorweis mewn rhyw gelfyddyd neu alwedigaeth yn Llundain. Gadawodd hefyd 400*p*., i'w rhoddi allan yn mhryniad tir, er gwaddoli dwy ysgoloriaeth yn Mhrif-athrofa Rhydychain; un i fachgen o'r plwyf hwn, a'r llall i fachgen o unrhyw blwyf arall yn Mon. Y mae ardreth yr ammaethfa yn awr yn 70*p*., ac yn cael eu defnyddio i osod pedwar bachgen o'r plwyf hwn yn egwyddorweis, drwy benodiad Mr. Meurig o Fodorgan. Y mae Lligwy, yn y plwyf hwn, wedi bod yn breswylfod henafol teulu o'r enw Llwyd, ond a brynwyd, fel y crybwyllwyd, gan y meddianydd presenol. Y mae yma olion capel henafol, ar fryndir uwchlaw beisfor Dulas, ac y mae ei adeiladaeth o gynllun boreuol iawn. Wrth agor daearfa llwynog yn y lle hwn, darganfyddwyd beddrod petrual, yn cynwys amryw esgyrn dynol, y rhai a faluriasant yn llwch ar eu dygiad allan; ac wrth gloddio yn mhellach, canfyddwyd pentyrau o weddillion dynol yn ychwaneg. Tua chwarter milltir oddiwrth y lle hwn, y mae Cromlech, y dywedir ei bod y fwyaf yn yr ynys; y mae yn ddeunaw troedfedd o hyd, ac un ar bymtheg o led, yn cael ei chynal gan bump o bilerau, ac ochr craig. Gelwir hon yn gyffredin gan y brodorion, Coeten Arthur. Ganwyd yr enwog Llewelyn Ddu, o fewn y plwyf hwn, yn 1702; a'r un modd, ei frawd Richard, yr hwn a adawodd gofion anrhydeddus am dano ei hun, yn marn y cyhoedd, mewn llawer modd. Bernir fod yma nifer o gylchau, ac olion Derwyddol eraill, sydd heb eu holrhain na'u darlunio yn ddigon manwl hyd y dydd hwn.

**PENRHUDD**, neu PENRITH, sydd blwyf yn nosparth Castell-newydd-Emlyn, ac yn swydd BENFRO, o dan fynydd Frenin-fawr, saith milltir de orllewin o orsaf rheilffordd Castell-newydd-Emlyn. Y mae yn cynwys capeloriaeth Castellan. Llythyrfa, dan Aberteifi. Erwau, 3081. Gwerth ardrethol, 1245*p*. Poblogaeth, 370. Tai, 93. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 100*p*., yn nawddogaeth yr Arglwydd Ganghellydd.

**PENRHYLOG**, sydd bentref yn nhrefgordd Ceulan-y-Maes-Mawr, plwyf Llanfihangel-Geneu'r Glyn, swydd ABERTEIFI, pum milltir a haner gogledd ddwyrain o Aberystwyth.

**PENRHYN**, sydd orsaf rheilffordd, yn ngogledd orllewin MEIRIONYDD, ar reilffordd Ffestiniog, tair milltir a chwarter dwyrain wrth ogledd o Borthmadog.

**PENRHYN**, sydd dref-ddegwm yn mhlwyf Aberffraw, swydd FON, gerllaw Aberffraw.

**PENRHYN**, sydd le yn ngogledd ddwyrain swydd CAERNARFON, tair milltir gogledd ddwyrain o Gonwy, yn ardal y Creuddin.

**PENRHYN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Berriew, swydd DREFALDWYN, pedair milltir a chwarter gogledd orllewin o Drefaldwyn. Poblogaeth, 184.

**PENRHYN** (CASTELL), ydyw palas ardderchog Arglwydd Penrhyn, yr hwn yw Rhaglaw swydd GAERNARFON. Saif rhwng Aber a Bangor, gyferbyn âg eglwys, a phentref prydferth Llandegai. Y mae ar sail yr hen balas enwog a godwyd gynt gan Rodri Molwynog, Tywysog Cymru, yn y flwyddyn 720; ond a chwalwyd hyd y llawr, gan Meredydd ap Owain, yn 987; ond eto a ail adeiladwyd yn amser Harri VI. Adeiladwyd y Castell presenol yn ddiweddar. Dechreuwyd y gwaith gan yr Arglwydd Penrhyn cyntaf, a gorphenwyd ef gan ei olynydd, G. H. Dawkins Pennant, Ysw., trwy briodas â merch yr hwn y daeth yr Arglwydd Penrhyn presenol i'r etifeddiaeth, Cymerodd yr adail bresenol tu ag ugain mlynedd o amser i'w gwblhau; ac y mae ar gynllun mor eang a mawreddog ag yr un palas castellog sydd yn y

Digitized by Google

deyrnas. Y mae wedi ei adeiladu o farmor Mon, ac yn cynnwys lluaws o'r ystafelloedd mwyaf gorwych, wedi eu coroni â thyrau uchel, o ba rai y mae pump yn grynion. Y mae y gadwrfa, ac un o'r tyrau ereill, yn bedeirongl, gyda'u cribau addurnol. Y mae y cynlluniau mewnol yn dra ysplenydd, ac yn dal cysondeb a'r dullweddau allanol. Y mae perffeithrwydd cerfiad mewn llechfaen i'w weled mewn gosail gwely cywrain sydd yno. Y mae yr adeiladau allanol hefyd, ar gynllun eang iawn, yn enwedig y march-dai, y rhai a ddaliant gymhariaeth a'r goreuon yn y deyrnas. Dywedai Miss Costello, yn ei darluniad o hono, fod cael rhoi tro drwyddo, ac edrych ar ei wahanol lysoedd, a'i neuaddau amrywiaethol, a'i eglwysfa led dywell, fel breuddwyd i'r ymwelydd a'r lle hwn, y mae ei gynlluniad yn ol trefniant boreuol y Saeson a'r Normaniaid. Y mae y llygaid yn sicr o gael eu serenu, a'r meddwl ei swyno, â newidiadau cyflym yr olygfa ddysgleirwych a geir ar bob llaw. Y mae cyfoeth y meddianydd, a medrusrwydd y celfyddydwr, yn sicr o syfrdanu teimlad pob adolygydd gwyddonol a olrheinio yr holl adeiladau, a'r gerddi sydd yn eu cylchynu. Y mae yma, mewn cadwraeth dda, Gorn Hirlas, pedwar can mlwydd oed. Corn ych, wedi ei gylchio âg arian, gyda chadwyn gref o'r un defnydd, i'w grogi ar yr astell ger bron. Ar y pen agored iddo, y mae enw Piers Gryffydd, a'r teulu, wedi ei gerfio. Y mae yr olygfa ar y palas yn ymestyn yn mhell: saif ar uchder tir, ac y mae y fagwyr sydd yn amgylchu y parc, yn dair troedfedd ar ddeg o uchder, ac yn saith milltir o gylch-fesur. Y mae yno amryw fynedfaau, a bwthynod prydferth, yn gysylltiadol a'r cyfan, ond y mae y brif-fynedfa, gerllaw ffordd Bethesda, yn rhagori mewn dengarwch a mawrwychedd; gydag arfbais y teulu yn nghanol y bwa-maen, yn y porth eangaf. Y mae y gwelliannau a wnaed yma er ys deugain mlynedd, wedi rhoddi i'r lle gymeriad hollol newydd; ac y mae ymweliad a'r lle, i ddieithriaid, yr hyn a ganiateir ar ddyddiau Mawrth a Gwener, pan y byddo y teulu o gartref, yn sicr o roddi mawr fwynhad i bawb a gymero y fantais honno. Y mae Corn Hirlas arall, o gynllun henafiaethol cyffelyb, yn meddiant Iarll Cawdor, yn y Gelli Aur, swydd Gaerfyrddin. Cyfeirir at y fath gorn nghân Owain Cyfeiliog, yr hon sydd yn adnabyddus i'r cyffredin.

Y mae cloddfa Lechi y Penrhyn, yr ochr ddeheuol i'r palas, tua thair milltir, ar ffordd Amwythig, lle y mae tua thair mil o weithwyr mewn gorchwylion parhaus. Dywedir eu bod yn werth 80,000*p.* y flwyddyn. Y mae Porth-Penrhyn, tua chwe milltir oddiwrth y gloddfa, yr ochr ddwyreiniol i Fangor, lle yr allforir 120,000 o dunelli yn flyneddol, Costiodd adeiladaeth Castell Penrhyn, 500,000*p.*

**PENRHYN-COCH**, sydd bentref yn nhrefgordd Trefeirig, plwyf Llanbadarn-fawr, swydd ABERTEIFI, gerllaw Aberystwyth.

**PENRHYN-DEUDRAETH**, sydd gapeloriaeth, yn mhlwyfi Llanfihangel-y-Traethau, Llandecwyn, a Llanfrothen, swydd FEIRIONYDD, ar reilffordd Ffestiniog, ogylch gorsaf rheilffordd Penrhyn, tair milltir a chwarter dwyrain wrth ogledd o Borthmadog. Sefydlwyd y lle yn rheolaidd yn 1858. Llythyrfa, dan Gaerynarfon. Poblogaeth, 1088, 78, a 149. Tai, 245, 15, a 31. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; ac yn nawddogaeth Mrs. Oakley. Yma y mae Castell-Deudraeth, palas y diweddar D. Williams, Ysw., a fu yn aelod seneddol dros sir Feirionydd.

**PENRHYN-FAWR**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandrinio, swydd DREFALDWYN; mewn cysylltiad â PENRHYN-FECHAN, trefgordd arall yn yr un plwyf, saith milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwng. Gwerth ardrethol, 2940*p.* Poblogaeth, 70 a 45.

**PENRHYN-SARNDDU**, sydd fryn yn mhlwyf Llanfihangel-Geneu'r-Glyn, swydd ABERTEIFI; pedair milltir gogledd ddwyrain o Aberystwyth. Y mae ar y grib, gistfaen a elwir "Gwely Taliesin."

**PENRICE**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Abertawe, swydd FORGANWG. Saif y pentref yn agos i ochr orllewinol beisfor Oxwich, yn mhenrhyn Browyr, naw milltir de orllewin o orsaf rheilffordd Llychwr, a deg gorllewin ddc orllewin o Abertawe. Yr ydoedd unwaith yn dref marchnad; ac y mae yno ffeiriau ar Mai 17, Gorphenaf 17, Medi 17, a Rhagfyr 11. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd is bentref Pilton-Green. Llythyrfa, dan Abertawe. Erwau, 2248. Gwerth ardrethol, 1254*p.* Poblogaeth, 307. Tai, 70. Ysgrifenid yr enw ar y cyntaf, yn Penrhys, yn cyfeirio at benrhyn o'r plwyf, a gymerwyd gan Rhys ab Caradog, yr hwn a laddwyd yma. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Adeiladwyd Castell Penrhys, gan Iarll Warwick, er mwyn diogelu ei feddianau yn Mrowyr; ac a aeth wedi hyny i feddiant y teuluoedd Penrice, Mansell, a Talbot. Y mae yn awr yn adfeiliau, yn cynwys ychydig o dyrau crynion. Y mae palas C. R. Talbot, Ysw., yr hwn a godwyd yn ddiweddar, yn sefyll yn agos i'r hen adfeiliau, wedi cael ei gylchynu â choed. Adeiladwyd y llys newydd, yn 1782, â defnyddiau abad-dy Margam. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 53*p.*, ac yn nawddogaeth N. V. E. Vaughan, Ysw. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da, ac wedi ei hadeiladu ar lc prydferth, yn ol y cynllun Normanaidd.

**PENRILLAN**, neu PENRHYDDLAN, sydd le yn nghwr deheuol swydd DREFALDWYN, pedair milltir a chwarter dwyrain ogledd ddwyrain o Lanidloes.

**PENROSE**, sydd blwyf, yn nosparth, a swydd FYNWY, dwy filltir a haner i'r gogledd o orsaf rheilffordd Raglan-Footpath, a chwe milltir i'r gorllewin wrth ddeau o Fynwy. Llythyrfa yn Mynwy. Erwau, 2695. Gwerth ardrethol, 2361*p.* Poblogaeth, 378. Tai, 79. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 140*p.*, ac yn nawddogaeth Deon a Glwysgor Llandaf. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da. Y mae yma addoldy gan y Bedyddwyr.

**PENRY**, JOHN, neu JOHN AP HENRI, ydoedd wr o dalent, gwroldeb, a duwioldeb, uwchlaw y cyffredin. Yr ydoedd yn fab i Meredydd Penri, o'r Cefn-brith, yn mhlwyf Llangamarch, swydd Frycheiniog. Ganwyd ef yn 1559, a phan yr oedd yn bedair ar bymtheg oed, anfonwyd ef i'r Brif-athrofa yn Nghaergrawnt. Yr oedd y pryd hwnw, fel y cyffredin o'i gydwladwyr, yn bleidiol iawn i Babyddiaeth; ond wedi dyfod i gydnabyddiaeth a'r Puritaniaid yn Nghaergrawnt, argyhoeddwyd ef mor drwyadl, fel y daeth yn Brotestant penderfynol. Yn 1586, aeth fel efrydydd i St. Alban's Hall, yn Rhydychain, a hynododd ei hun yn fuan, "fel pregethwr galluog yn y Brif-athrofa." Wedi yr argyhoeddiad hwn, holl feddylfryd ei galon, oedd cynllunio moddion er efengyleiddio ei wlad frodorol ei hun. Bernir y

Digitized by Google

byddai yn pregethu yn fynych yn Nghymru, yn ysdod ei ymweliad a'i berthynasau, tra yr oedd yn efrydydd, ac y daeth llawer o'i gydwladwyr i wybodaeth y gwirionedd trwy ei offerynoldeb ef. Yn 1587, cyhoeddodd draethodyn, ar angenion ysprydol Cymru, yr hwn a gyflwynodd i'r Frenhines, a'r Senedd; yn yr hwn y cymhellai hwy i ffurfio moddion effeithiol er efengyleiddio gwlad ei enedigaeth, oedd wedi cael ei hesgeuluso yn fawr. "Ni wyr miloedd o'u pobl," meddai ef, "ddim am Grist, fel Duw, na dyn, offeiriad, na phrophwyd, ac y maent o'r braidd heb glywed dim am dano. O sefyllfa alarus! Y mae llawer parth, man na wyddir dim am bregethu. Mewn rhai manau, darllenir pregeth unwaith tua phob tri mis." Priodolai Penry yr achos o hyn, i fod yr offeiriaid yn gyffredin heb fod yn cyfaneddu yn y cymydogaethau, ac yn anwybodus am wirioneddau yr efengyl, yn anfoesol yn eu bucheddau, ac heb ddeall yr iaith Gymraeg. Un o'r cynlluniau a gynnygiodd oedd, bod i'r holl offeiriaid Cymreig, a ellid gael yn Lloegr, i ddychwelyd i'w gwlad enedigol, a chefnogi ac anog lleygwyr duwiol i arfer eu doniau fel pregethwyr. Cyflwynwyd deisab, yn cynwys syniadau y traethawd, gan un o'r aelodau Cymreig i'r senedd, gan gadarnhau gwirionedd y tystiolaethau, ond yr unig effaith a gafodd y cais ydoedd, gorchymyn i atafaelu y llyfr, a charcharu yr awdwr. Anfonwyd Penry i'r carchar, gyda gorchymyn i'r ceidwad ei sicrhau yn ddigon diogel. Wedi ei gadw mewn caethiwed am fis, galwyd ef yn mlaen i gael ei holi, neu yn hytrach i'w geryddu yn chwerw. Condemniodd yr Archesgob Whitgift ei gynlluniau am efengyleiddio Cymru, fel peth annyoddefol; a'r dyb nad oedd offeiriad heb bregethu yn wir weinidog Cristionogol, yn heresi. Ond atebodd y Cymro gwrol yr Archesgob, mewn tôn bwysig a difrifol, "Yr wyf yn diolch i Dduw, na ddeallais erioed fod y fath syniad yn heresi, a byddai well genyf golli fy mywyd, na gwadu y gwirionedd." Dywedodd Esgob Winchester, yr hwn oedd yn bresenol, "Yr wyf fi yn dywedyd i ti, ei fod yn heresi, a bydd raid i ti ei alw yn ol, fel y cyfryw," ac ateb Penry ydoedd, "Na wnaf, trwy gymorth Duw, tra y byddwyf byw." Condemniwyd ef i'r carchar yn ol, am beth amser, ac wedi hyny rhyddhawyd ef, fel y ceffid ei achos yn gliriach, er cyfiawnhau, yn ol meddwl yr ynadon, fesurau mwy penderfynol. Nid dyn oedd ef i'w roddi i lawr, nac i atal prif nod ei fywyd, gan erlidigaeth, bygythiadau esgobion, na pherygl ymddangosiadol angau ei hun. Cawn ef drachefn, yn 1588, yn cyhoeddi traethodyn arall ar yr un mater, a dilynwyd hwn drachefn, yn y drydedd flwyddyn, ag un arall, a elwid, "Anogaeth i lywodraethwyr a phobl ei Mawrhydi yn Nghymru, i ymdrechu yn ddifrifol i gael planu pregethiad yr efengyl yn eu plith." Yn yr Anogaeth hon, y mae yn annerch offeiriaid Cymru, nad oeddynt yn pregethu, yn yr ymadroddion nerthol, eglur, a diweniaith, canlynol:—"Yr wyf yn eich adnabod chwi, ddynion egwan, eneidiau tlodion sydd yn gwneud bywioliaeth yn y byd. Pa beth a ddylwn ddywedyd wrthych chwi, y rhai a allech ddywedyd am danoch eich hunain, 'Er ein bod yn gwisgo crys o rawn i dwyllo, nid ydym ni ond llafurwyr cyffredin.' Nid ydych chwi yn weinidogion, fel y profais yn barod, ac ni byddai waeth i'r bobl ofyn cyngor gan y lloriau, neu y ffyn nac i chwi. Yr ydych yn halogi y sacramentau yn warthus, ac yn galw am i ddigofaint a dialedd Duw gael ei dywallt arnoch, &c." Gan droi oddiwrth y "gweinidogion mud," at y bobl, dywedai, "Na fydded i neb wneud y camwri â mi, drwy gyhoeddi fy mod yn dywedyd nad oes aelodau i Grist yn Nghymru. Yr wyf yn ardystio nad oes genyf y fath feddwl, a byddwn foddlon i farw i gadarnhau y dystiolaeth, fod gan yr Arglwydd ei bobl ddewisedig yn fy anwyl wlad, a hyderaf y bydd eu nifer yn amlhau yn ddyddiol, &c." Y mae yn llafaru mewn iaith gref, ac yn rhybuddio y wlad yn ddifrifol yn erbyn ymdawelu gyda'r fath annhrefn. Darfu i'r apeliadau hyn ar ran Cymru, oedd wedi cael ei hesgeuluso i'r fath raddau, gyffroi eiddigedd gelynion Protestaniaeth dros ben pob mesur. Yr oedd bod i efrydydd ieuangc Cymreig, o egwyddorion Puritanaiadd adnabyddus, gynyg cynllun i efengyleiddio y Dywysogaeth, trwy offerynoldeb llafur lleygol, a chyfraniadau gwirfoddol, yn bechod marwol yn erbyn yr esgobion, fel nad oedd dim a lonyddai eu cynddaredd, ond gwaed, a bywyd y troseddwr. O hyn allan, ni chafodd y diwygiwr twymfrydig lonyddwch o fewn terfynau ymerodraeth ei Mawrhydi, nes cael dybenu ei fywyd gwerthfawr. Yr oedd gweision yr esgobion yn ei hela yn mhob man. Chwiliwyd, chwalwyd, ac ysbeiliwyd ei fyfyrgell yn Northampton; ac yr oedd maer y dref honno wedi cael gorchymyn caeth, gan Lys yr Uchel Awdurdod i'w ddal ef a phawb oedd a wnelent a'r wasg anghyhoedd yno, tra yr oedd y trahausfalch Dr. Some o Gaergrawnt, wedi cael ei gyflogi i ysgrifenu yn erbyn ei lyfrau.

Cyhuddwyd Penry, gan ei gydoeswyr, a chan haneswyr dilynol, o fod yn awdwr traethodau "Martin Marprelate," a gyhoeddwyd yn 1588. Yr oedd y cyhuddiad hwn yn hollol ddisail. Nid oes y cysgod lleiaf o brawf, fod dim a wnelai ef â hwy, yn mhellach na'u bod wedi dyfod o'r un wasg a'r eiddo yntau. Y mae y traethodau hyny wedi eu hysgrifenu mewn arddull ac yspryd hollol wahanol i'w weithiau ef. Yr oeddynt mewn iaith dduchanol a sarhaus, tra yr oedd holl ysgrifau Penry yn agored, onest drwyadl, a'i enw yn eglur wrthynt bob amser. Cyfeiria atynt yn un o'i lyfrau, fel ymosodiadau annheg, dan ffug enw anadnabyddus. Nid oedd efe am gelu na chysgodi dim; ond yr oedd yn datgan ei syniadau "yn llygad haul, ac yn wyneb goleuni" yn wastadol. Pan nad allai aros yn Lloegr yn hwy, gyd ag un math o ddiogelwch, enciliodd i'r Alban, trwy gymhorth ei gyfeillion, a'i deulu gydag ef, yn 1589. Cafodd y croesawiad cynnesaf yno, lle tra yn golygu y wasg, y pregethai hefyd, gyda chymeradwyaeth mawr. Pan y deallodd yn Archesgob ei fod yn yr Alban, efe a anogodd y Frenhines i ysgrifenu llythyr at y Brenhin Iago, i erfyn arno anfon yr ymnoddwr yn ol, neu ei ddeol ef allan o'i deyrnas. Rhoddodd y Cyfrin Gyngor hefyd allan warant i'w ddal. Mewn cydsyniad â chais Brenhines Lloegr, cyhoeddodd Brenhin yr Alban gyfraith deoliad yn ei erbyn, ond gwrthododd y gweinidogion gwrol Ysgotaidd, ei gyhoeddi yn mhob man. Gallasai aros mewn tawelwch yno, ond yr oedd ei bryder dros "anwyl wlad ei enedigaeth" y fath, fel y dymunai wasgar goleuni yr Efengyl, ac ni allai aros yn y Gogleddbarth. Gan hyny, ni a'i cawn ef yn Llundain, yn Medi, 1592. Yr oedd erbyn hyn wedi rhoddi i fynu bob gobaith am wneud dim daioni i Gymru trwy apeliadau at y Frenhines, na'r Senedd. Wedi dychwelyd i Lundain, dymunai yr ymneillduwyr iddo gymeryd swydd yn eu plith hwy, ond ni fynnai.



Digitized by Google

Dywedai fod ei holl fwriad i arfer hyny o dalent a feddai, i wneud daioni yn mhlith y tlodion yn Nghymru.

Wedi bod gyd a'r ymneillduwyr, er eu cydadeiladaeth a'u cysur am tua chwe mis, daliwyd ef ar yr 22n, o Fawrth, 1593, a chyflwynwyd ef i'r carchar, ac oddi yno i warthrudd, dan yr enw prawf, er sarhad bythol ar enw Cyfiawnder Seisnig. Nid oedd yr un gyfraith yn y deyrnas, drwy yr hon y gallesid ei gollfarnu, ond o blegid y syched oedd am ei waed, dienyddiwyd ef mor ddistaw ag y gellid, rhag codi cynnwrf, ar y 29n o Mai, 1593, am bump o'r gloch y pryduhawn, o blegid yr oedd ar y swyddogion ofn y bobl. Bu farw yn y bedwaredd flwydd ar ddeg ar hugain o'i oed, gan adael gweddw, a phedair o ferched, a lluaws o Gristionogion erlidiedig, i alaru ar ei ol. Nid oedd Penry erioed wedi ymyryd â gwleidyddiaeth, ond can belled ag yr oedd yn dal cysylltiad â iawnderau cywybod, a rhyddid crefyddol. Yn ei lythyr diweddaf at ei wraig a'i blant, y mae yn arddangos arwyddion diffuant o'i ddyhewyd a'i gariad at y Gwaredwr, a'i hyder arno am fywyd tragwyddol; ardystia ei deyrngarwch ffyddlon, a'i ddymuniadau goreu i'r Frenhines, a llwyddiant ei theyrnasiad; yn nghyd a'i serch at ei anwyl deulu, gan adael Bibl yn gymunrodd i bob un o'i blant. Fel hyn y terfynwyd tymhor y cerub disglaer hwn ar y ddaear; a'i air diweddaf, ydoedd dros iawnderau Iesu Grist, ac yn erbyn aflendid Babel Rhufain!

**PENSARN**, sydd faesdref o gymydogaeth CAERFYRDDIN, un filltir oddiwrth ganol y dref. Y mae yma lythyrfa dan Gaerfyrddin.

**PENSARN**, sydd orsaf rheilffordd yn sir FEIRIONYDD, gerllaw y rheilffordd Gymreig, ar lan y mor, dwy filltir a haner deheuol o Harlech.

**PENSARN**, sydd dreflan, tua haner milltir gogleddol o Abergele, yn swydd DDINBYCH. Y mae y lle hwn o adeiladaeth ddiweddar, ac wedi cynnyddu yn gyflym fel ymdrochle, a man croesawiad dieithriaid yn misoedd yr haf. Y mae y gymydogaeth hon yn arddangos golygfeydd tra dengar a dymunol. Y mae nifer o balasau o fewn yr amgylchoedd. Gellid cyfeirio at Garthewin, Brownlow W. Wynne, Ysw.; Coedcoch, J. Lloyd Wynne, Ysw.; Pentremawr, Bateman Jones, Ysw.; Hafod-Unos, H. R. Sandbach, Ysw.; Dyffryn Aled, Pierce Wynne York, Ysw.; ac yn arbenig, Castell Gwrych, preswylfa Lloyd Hesketh Bamford Hesketh, Ysw., yr hwn sydd wrthddrych eglur gerllaw y brif-ffordd oddi yma i Gonwy. Y mae wedi ei adeiladu ar y cynllun castellol, ac y mae y prif dŵr, yn ddeg troedfedd a phedwar ugain o uchder. Uwchlaw y brif fynedfa, y mae cofnodion hanesyddol o ddyddordeb wedi eu cerfio, am amgylchiadau pwysig a gymerasant le o fewn yr ardaloedd hyn. Y mae Cefn yr Ogof hefyd, sydd gerllaw, yn agorfa eang i grombil y mynydd uchel, ag sydd yn tynu sylw y teithiwr yn naturiol; ac y mae y golygfeydd amrywiaethol yn mhob cyfeiriad, mewn môr a mynydd, yn darawiadol iawn.

**PENTIR**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Bangor, swydd GAERNARFON, dwy filltir a thri chwarter dedde-orllewin o orsaf rheilffordd Bangor. Yr oedd y lle hwn, ar un pryd, yn blwyf ar wahan, ond y mae wedi ei gyd-gorphori â Bangor, er 1656. Y mae yn bentref, mewn lle o gryn brydferthwch. Llythyrfa, dan Bangor. Gwerth ardrethol, 2663*p*. Y mae y fywioliaeth mewn cysylltiad â ficeriaeth Bangor.

**PENTRAETH**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth, a swydd FON. Saif y pentref, yr hwn a hynodir yn gyffredin am ei brydferthwch, ar yr afonig Nydwydd, sydd yn rhedeg i'r Traeth-coch, o fewn tua milltir i'r mor; pedair milltir a haner gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd Llanfair; a phump gorllewin wrth ogledd o Biwmares. Llythyrfa, dan Borth Menai. Cynnelir ffeiriau yma Mai 5, Mehefin 24, a Medi 20. Y mae y plwyf yn ymestyn hyd i lan y mor yn y Traeth-Coch, ac yn cynwys 2983 o erwau o dir, a 1030 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3881*p*. Poblogaeth, 962. Tai, 231. Y mae y tiroedd yn cael eu rhannu rhwng llaweroedd. Yma y mae hen balas enwog y Pantwniaid gynt; lle y buasai y Llyfrgell Gymreig werthfawr, a symudwyd i gymydogaeth Caergybi, a gynwysai gasgliadau helaeth Ieuan Brydydd Hir, Llewelyn Ddu; amryw o ysgrifau Goronwy Owen, Dafydd Thomas, John Williams Plas y brain, ac eraill. Y mae y lle yn awr yn meddiant Arglwydd Vivian. Y mae o fewn y plwyf amryw olion Derwyddol. Erys yr hen feini sydd yn dynodi gorchestnaid Einion ab Gwalchmai, yma hyd y dydd hwn; yr hwn a enillodd "Angharad wych Einion ei rhyw, rhodd Ednyfed Fychan;" ac a gwblhawyd hefyd gan Howel ab Owen Gwynedd, "am yr hyn yr enillodd ef yn briod iddaw, ferch Einion ab Geraint, cyph genedl y Plas-gwyn, a Than-yr-allt:"—

"Naid vawr er vwyn gwawr i'w gwydd,
A'r naid yn Abernydwydd;
Dwy droedfedd hoew-wledd hylwydd—a deugain
A digon o wrantrwydd;
Yr hyn a wel pawb yn rhwydd
A'r nodau'n Abernydwydd."

Y mae Pentraeth yn cael ei chrybwyll yn yr hen gofnodau Cymreig. Dyma yr unig le yn Mon, gyda Chaergybi, a dynodd sylw arbenig, *Grose*, yr Henafiaethydd. Crybwyllir am y lle yn fynych yn yr hen "Derfynaeth," yn cynwys "tri Gwelygordd, yn nghwmwd Tindaethwy, yn perthyn i etifeddion Geraint ab Tegwared, Madog ab Meilir, a Morau ab Aurau, disgynyddion o'r un boncyff, yn ddyledus yn llys y wlad, a rhaith y cymmydau, i dalu amobyr o ddeg swllt." Aeth tiroedd Madog ab Ithwal, a Heilyn Twrch, yn anial o eisiau deiliaid. Y mae amryw waddolion yn perthyn i'r lle hwn. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mair; ac fe'i gelwir weithiau, Llanfair Bettws Geraint. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaeth barhaol Llanbedrgoch, yn esgobaeth Bangor; gwerth 400*p*., ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y mae yn yr eglwys gofadeiliau am deuluoedd Plasgwyn, a Thy fry. Y mae yma addoldai gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, ac ysgol gyhoeddus Genedlaethol, ac un Brydeinig, o adeiladaeth rhagorol.

**PENTRE-BRYN-NANT**, sydd bentref yn ochr ogledd ddwyreiniol ABERTEIFI, gerllaw pont sydd yn croesi yr afon Ystwyth, pymtheng milltir i'r dwyrain dde ddwyrain o Aberystwyth.

**PENTRE-CASTELL**, sydd amddiffynfa ar ochr ogledd orllewinol MORGANWG, yn wynebu gwersyll Mynydd y Gwair, a'r ffordd Rufeinig, naw milltir a haner oddiwrth Nedd.

**PENTRE-CWM**, sydd is-bentref, yn mhlwyf Llandeilo-fawr, swydd GAERFYRDDIN, ar yr afon Teifi, gyferbyn a Chastell Dynefor. Gwerth ardrethol, 1508*p*. Poblogaeth, 315.

Digitized by Google

**PENTREF**, sydd bentref yn mhlwyf Llanfihangel Abercowin, swydd GAERFYRDDIN, dwy filltir yn ogleddol o Lacharn.

**PENTREF**, sydd is-bentref yn nhrefgordd Mancott, plwyf Pen-ar-lag, yn sir FFLINT, dwy filltir dwyreiniol o Ben yr halawg.

**PENTREF**, sydd is-bentref yn mhlwyf y Wyddgrug, yn swydd FFLINT, un filltir yn ddwyreiniol o Fflint.

**PENTREF**, sydd drefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, yn swydd FFLINT, yn agos i Ruddlan. Poblogaeth, 71.

**PENTREF**, sydd is-bentref yn y rhan ogledd orllewinol o swydd FYNWY, un filltir i'r gogledd orllewin o Abergafenni.

**PENTREFELIN**, sydd bentref yn mhlwyf Llywel, swydd FRYCHEINIOG, deuddeng milltir yn orllewinol o Aberhonddu. Cynhelir ffair flyneddol yma, ar y degfed o Hydref.

**PENTREFOELAS**, neu CAPEL-FOELAS, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Llanrwst, swydd DDINBYCH. Saif y pentref gerllaw un or ffrydiau sydd yn arllwys i'r Gynwy; yn agos i'r terfyn âg Arfon, wyth milltir a haner de dde ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanrwst. Llythyrfa, dan Lanrwst. Cynnwysa y plwyf 8144 o erwau. Gwerth ardrethol 2200*p*. Poblogaeth, 534. Tai, 95. Y mae capeloriaeth plwyfol y Foelas, neu Pentrefoelas, yn nghwmmwd Isaled, yn nghantref Uwchaled, neu Uwchmynydd, yn esgobaeth Llanelwy. Yr ydoedd gynt yn rhan wahanedig o Lan-Nefydd, ac y mae yn cael ei ddarlunio felly mewn rhai cofnodau. Ei enw cyntefig ydoedd Tir yr Abad. Yn ol tystiolaeth Rees, yn ei "Saint Cymreig," gelwid y lle hefyd, yn "Marchaled," a "Capel Foelas." Y mae ffordd fawr Amwythig, o gynlluniad Telford, yn rhedeg drwy y plwyf hwn, ar geulan yr afon Nug. Y mae cyfran helaeth o'r lle yn fynyddig, ac yn llwybrau defaid, a phorfaau gwartheg. Yn ol cofnodau Llysoedd gwladol am y lle, y mae yn cael ei alw, Pentre'r fidog. Y mae y plwyf yn cael ei breswylio, gan mwyaf, gan amaethwyr, ac y mae nifer o gelfyddydwyr yn y pentref. Y mae yr enw, "Y Foel las," yn codi oddiwrth ddaearfwd sydd yma, mewn rhan yn naturiol, ac mewn rhan yn gelfyddydol, yn agos i'r man lle y safai hen balas y Foelas. Yr oedd y lle yn amddiffynfa gynt, gyda ffos o'i amgylch. Dywed Pennant y bu yma gastell Cymreig, a ddinystriwyd gan Llewelyn ab Iorwerth, yr hwn, wedi hyny, a gyflwynodd y lle i gysylltiad âg Abad-dy Cynwy. Yr oedd Llewelyn Brydydd Moch, yn gydoesydd â Llewelyn Fawr, ac mewn cyfeiriad at fuddygoliaeth y Tywysog hwnw yn y Foelas, y dywedai:—

"A Dinbych wrthrych orthorryant—ar fil
Ar Foelas a Gronant;
A dinas Emreis amrygant,
Amrygur Newenhyr naw nant,
A Chaer yn Arfon, &c."

Yr unig weddillion sydd yn aros, ydynt ychydig feini a ffurfient sylfaen adeilad petrual. O fewn tua haner milltir i'r lle hwn, yn agos i'r pentref, y mae bryn uchel a elwir, Y Gaer Fawr, ac y mae lle gerllaw iddo, a elwir Y Gaer Bach, manau, yn ol pob tebygolrwydd, y buasai gwerthyrau diogelwch, mewn amser o berygl. Y mae, heb fod yn neppell o'r bryn, ac o'r tu cefn i'r anneddau presenol, faen garw yn sefyll, tu ag wyth troedfedd o uchder, dwy o led, ac un o drwch, gyda cherfiad arno, o gryn hynodrwydd. Y mae wedi tynu sylw amryw henafiaethwyr, megis Camden, Llwyd, Pennant, ac eraill. Yn ol yr eglurhad goreu a ellir ei roddi arno, ymddengys ei fod mewn rhan yn Gymraeg, ac mewn rhan yn Lladin, fel y canlyn:—

EGO JOH DE TIN I DYLEV KUHELI LEUAV FFORD CUDVE BRAECH I KOED EMRIS LEWELI OP PRICEPS HIC HU.

neu mewn argraph gyffredin, fel y canlyn, "EGO JOHANNES DE TYN Y DYLAU GWYDHELEN LEUAF. (AR) FFORDD GYDDFAU BRAICH Y COED EMRYS, LEVELINUS OPTIMUS PRINCEPS HIC HU. . . . Y meddwl ydyw, fod un John, o dy Dylau Gwyddhelen, ar ffordd coed Emrys, wedi codi y gof-adail hon, er coffadwriaeth am y rhagorol Dywysog Llewelyn. Bernir mai Llewelyn ab Sitsyllt ydoedd, yr hwn a laddwyd, ni enwir yn mha le, gan Hywel, a Meredydd, meibion Edwyn, yn 1021; o blegid gwybyddir fod Llewelyn ab Iorwerth wedi ei gladdu yr Nghonwy, yn 1240; a Llewelyn "y Llyw olaf," wedi cwympo yn Muallt, Brycheiniog, a'i gladdu, na wyddir yn iawn pa le, a'i ben wedi ei anfon i'w osod ar dŵr Llundain, yn 1282. Dylid eto grybwyll yn mhellach, nad ydyw yr henafiaethwyr yn cytuno oll, ar yr eglurhad uchod ar yr argraph.

Yr oedd hen balas cyntefig y Foelas, yn adeilad teilwng o'r oesau boreuol. Tynwyd ef i lawr yn 1813, a chymerwyd llawer o'r defnyddiau at adeiladaeth y palas ardderchog presenol. Y mae yma nifer o enwau lleoedd a gofnodir yn y gweithredoedd cysylltedig a hawliau Abad-dy Conwy, a gwaddoliad y lle hwnw, â'r amrywiol diroedd, gan Llewelyn Fawr; megis Foelas-Cerniogau, a Llanfair Rhyd y Castell, y Garneddwen, a manau eraill. Bernir mai gorchudd beddau oedd yr olaf. Chwalwyd amryw o'r hen feini, y rhai a ddefnyddiwyd tu ag at gau allan y tiroedd cyffredin yn 1803. Darganfyddwyd amryw gistfeini, yn cynwys gweddillion dynol, yma y pryd hwnw. Cafwyd yma hefyd ddernyn o wydr tywyll crwn, tua saith modfedd o drawsfesur, a dwy a haner o drwch. Y mae ar yr ochr orllewinol i'r fan, weddillion Maen Hir, o gryn faintioli, a elwid Maenpebyll. Bernir fod y ffordd Rufeinig i Conovium, rhwng Pentrefoelas a Chaer Dunawd, yn Llanfihangel, dan yr enw Llwybr Elen, a ddarganfyddwyd yn ddiweddar tua Rhuthin, yn rhedeg drwy y lle. Y mae yr holl gymydogaeth, hyd derfynau Capel Garmon, ac Ysbytty Ifan, yn arddangos amryw olion henafiaethol. Adeiladwyd yr eglwys bresenol gan Watcyn Wynne, Ysw. o Foelas, yn 1766, at yr hon yr ychwanegodd Jane, ei ferch henaf, wedi hyny yr Anrhydeddus Mrs. Finch, aden i'r lle, yn 1774, gyda chladdfa i'r teulu. Gadawodd John Griffith, Ysw., Cefnamwlch, yn Lleyn, perthynas i deulu y Foelas, drwy ei ewyllys yn 1794, gan punt, yn flyneddol, er ychwanegu cyflog y curad yma, ond o herwydd rhyw achosion cyfreithiol, a ddiddymwyd. Yma ydoedd cartref y bardd rhagorol, John Thomas. Bu farw Medi 12, 1818, yn un ar bymtheg a thriugain oed. Cyhoeddwyd ei gynnyrchion barddonol yn 1847, dan yr enw, Eos Gwynedd. At o ef y cyfeiria "Twm or Nant" yn y penill canlynol:—

"Ond mae rhai siopwyr yn byw yn siapus,
Dyna Sion Pentrefoelas wrth fyw yn ofalus
Ac ambell rai eraill mewn tref a llan,
Yn gwneud eiddo'n anrhydeddus."

Digitized by Google

Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; Gwerth 242*p.*, ac yn nawddogaeth C. W. G. Wynn, Ysw. Y mae yma addoldai gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd.

**PENTRE-HELYGEN**, sydd le yn nghanol swydd FFLINT, dwy filltir deheuol o Dreffynon.

**PENTRE-HOBYN**, neu PENTRE-ROBYN, sydd bentref yn mhlwyf Pen-ar-lag, swydd FFLINT; ar afon Alun, un filltir de ddwyreiniol o'r Wyddgrug. Y mae yn cynwys hefyd is-bentrefi, Penymynydd, Little Mountain, Stony-houses, a Drury, a rhan o Lane End. Erwau, 1586. Gwerth ardrethol 1561*p.*, o'r hyn y mae 20*p.* mewn mwnau. Poblogaeth, 942. Tai, 207. Pentrehobyn House ydyw palas y teulu Mathers, ac a adeiladwyd yn 1540. Y mae yma weithfeydd pridd-lestri, a llechfeini.

**PENTRE-NANT**, sydd le yn ochr dde ddwyreiniol swydd DREFALDWYN, tair milltir a chwarter de dde ddwyrain o Drefaldwyn.

**PENTRESALLY**, sydd is-bentref yn ochr ddeheuol ABERTEIFI, pedair milltir o Gastell-newydd Emlyn. Llythyrfa, dan Gaerfyrddin.

**PENTRE-WERN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangernyw, swydd DDINBYCH, chwe milltir a haner gogledd ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 130.

**PENTYRCH**, sydd blwyf yn nosparth Caerdydd, swydd FORGANWG, yn agos i'r afon Taf, milltir a haner gogledd orllewin o Gaerdydd. Y mae yn cynwys hefyd is-bentrefi Castell, a Garth. Llythyrfa, dan Gaerdydd. Erwau, 3975. Gwerth ardrethol 5521*p.*, o'r hyn y mae 1816*p.* mewn mwnau, a 344*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 1599; yn 1861, 2110. Tai, 439. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y creigiau yma yn cynwys cerig calch, haiarn, a glo; ac y mae yma weithydd haiarn, a glo. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; Gwerth 113*p.*, ac yn nawddogaeth Deon a Glwysgor Llandaf, bob yn ail. Y mae yma ychydig waddolion.

**PENTYRCH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfair-Caereinion, swydd DREFALDWYN; gerllaw Llanfair.

**PENTYRCH**, sydd bentref yn mhlwyf Cilredyn, swydd GAERFYRDDIN, pedair milltir a chwarter de dde orllewin o Gastell newydd Emlyn.

**PEN-UCHAF**, sydd drefgordd yn mhlwyf Bodfari, swydd DINBYCH, pedair milltir a chwarter gogledd ddwyrain o Ddinbych.

**PENWYLLT**, sydd orsaf ar linell rheilffordd Nedd ac Aberhonddu, Deheubarth, pedair milltir ar ddeg a haner, gogledd ogledd ddwyrain o Nedd.

**PEN-Y-BONT**, sydd bentref yn mhlwyf Llanbadarn-fawr, MAESYFED; ar yr afon Iddon, gerllaw rheilffordd Knighton a chanolbarth Cymru, saith milltir gorllewin ogledd orllewin o Maesyfed Newydd. Llythyrfa, dan Rhaiadr, a gorsaf rheilffordd, gwesty, a phont-gadwynol. Y mae yma ffeiriau ar Mai 12, Medi 27, a Hydref 26. Pen y bont Hall ydyw palas, J. C. Severn, Ysw.

**PEN-Y-BONT**, sydd bentref yn mhlwyf Llandysilio Gogo, ABERTEIFI, saith milltir a haner de orllewin o Aberseron.

**PEN-Y-BONT-AR-OGWY**, sydd dref, is-ddosparth, a dosparth, yn swydd FORGANWG. Y mae y dref yn mhlwyfi Coity, a Chastell newydd, ac yn sefyll gerllaw yr afon Ogwy, ar reilffordd y Deheubarth, ugain milltir gogleddol o Gaerdydd. Nid yw yn dref olygus iawn; y mae yn cynwys tair rhan, sef Pen-y-bont, Hen-gastell, a'r Castell-newydd. Y mae y ddwy olaf ar bob ochr i'r afon; ac y maent wedi cymeryd eu henwau oddiwrth hen amddiffynfeydd. Y mae olion yr Hen gastell wedi colli, ond y mae gweddillion o'r Castell newydd yn aros; yn cynwys muriau allanol, a phorth Normanaidd. Y mae y llysdy trefol yn adeilad diweddar, prydferth. Y mae yr eglwys blwyfol, wedi ei chodi ar le eglur, yn nosparth Castell newydd; a chapel ychwanegol yn yr Hen gastell. Y mae yma bedwar o gapeli ymneillduol, meddygdy, a gweithdy; yr olaf wedi ei adeiladu dan y draul o 4400*p.* Y mae y rheilffordd yn nghyfeiriad ochr ogleddol yr afon; ac y mae cangen yn rhedeg i draeth Porthcawl. Y mae yma briflythyrfa, gorsaf rheilffordd, gyda phellebyr, ariandy, a thri prif westdy. Y mae y lle yn etholfa, ac yn cynal llysoedd gwladol; ac y mae newyddiadur wythnosol yn cael ei gyhoeddi yma. Cynnelir y farchnad ar y Sadwrn; ac y mae yma ffeiriau, Chwefror 25, Ebrill 1, Iau Derchafael, Mehefin 6, a Tachwedd 17. Y mae gweithfa gwlaneni yn y lle; ac y mae yma fasnachaeth helaeth mewn ŷd; gwaith haiarn, a glo, a chloddfeydd cerig. Yr oedd Dr. Price, a Mr. Morgan, y rhai oeddynt wyddonwyr enwog, yn enedigol o'r lle hwn. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys plwyfi Coity, Castell-newydd, Laleston, Merthyr Mawr, Tythegston, Newton Nottage, Pyle, Cenffig, Ewenni, Wick, St. Brides Major, a St. Andrews Minor. Erwau, 33,408. Poblogaeth, 11,417. Tai, 2279. Y mae y dosparth hefyd yn cynwys is-ddosparth Maes-teg, yn cynwys plwyfi Bettws, Llangeinion, Llandyfodog, Llanharan, Llanilid, Coychurch, St. Brides Minor, a rhan o Langynwyd, yn nghyd ag is-ddosparth Pont-y-fon, yn cynwys plwyfi Pont-y-fon, Llangan, St. Mary-Hill, Llanharri, Ystradowen, Llansannor, Penllin, St. Hilari, St. Mary-church, Flemingston, Eglwys-Brewis, St. Athan, Gileston, Llanmaes, Llantwit-Major, Llandaw, St. Donats, Marcross, Monknash, Llanmihangel, Llandough, Llanblethian, Llysworney, a Colwinstone, a dosparthau plwyfol Nash a Stembridge. Erwau, 109,511. Treth-Tlodion yn 1866, 17,402. Poblogaeth yn 1861, 26,465. Tai, 5362. Priodasau yn 1866, 227; genedigaethau 1034, o'r rhai yr oedd 61 yn anghyfreithlon; marwolaethau 694, o ba rai yr oedd 249 dan 5 oed, a 31 dros 85 mlwydd oed. Lleoedd addoliad yn 1851 oeddynt: Eglwys Sefydledig 40, gyda 4865 o eisteddleoedd; Annibynwyr 17, gyda 4656 e.; Bedyddwyr 14, gyda 2478 e.; Trefnyddion Calfinaidd 15, gyda 4619 e.; Wesleyaid 11, gyda 1820 e.; Undodiaid 1, 40 e. Ysgolion dyddiol cyhoeddus 20, gyda 1519 ysgolorion; ysgolion dyddiol neillduol, 779 y.; ysgolion Sabbathol 70, gyda 4940 y.; a dwy ysgol brydnhawnol, i rai mewn oedran, gydag 41 o ysgolorion.

Mewn cysylltiad a'r lle hwn, y mae yn briodol gwneud sylw lled gyhoeddus, mewn ffordd o gofiant am y diweddar Barch. W. Jones, Gweinidog yr Annibynwyr, yr hwn oedd un o gedyrn y weinidogaeth, ac a adwaenid, fel y cyfryw drwy yr holl dywysogaeth. Ganwyd ef yn y Bala, yn 1784. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, yn aelodau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd ei dad yn flaenor gyda yr enwad hwnw yn y Bala; ac edrychid arno gan y cyhoedd, fel dyn teilwng iawn. Gofalodd am roddi dysgeidiaeth foreuol dda i'w fab William; a dangosodd y mab arwyddion syched am wybodaeth a dysg, a thuedd at foesoldeb a chrefydd, yn ieuangc iawn. Pregethai yn fynych i'w gyfoedion plentynaidd.

Digitized by Google

Elai o amgylch i ymweled a'r hen a'r methodig, a chynghorai hwynt, a phregethai iddynt yn aml. O'r diwedd daeth ei dad i deimlo yn anfoddlon yn herwydd y rhyfyg hwn o eiddo ei fab, a cheryddai ef yn llym, gyda y bwriad o'i ddiddyfnu oddiwrth yr arferiad. Unwaith, pan yr oedd yn ei geryddu am hyn, aeth un o'i gyfeillion ieuaingc at gloch yn y dref, yr hon a seinid pan ddygwyddai i dân dori allan mewn rhyw dy, a chanodd hi nes cynhyrfu y trigolion i holi pa le yr oedd y tan, ac yr hysbysid iddynt mai yn nhy William Jones yr oedd. Aeth llawer at y fan; ond ni welsant y fflamau, ond cawsant y tad yn gweinyddu dysgyblaeth lem ar y mab am bregethu; ac wedi cywilyddio am y gwaith, y tro hwn fu yr olaf. Pan oedd tu ag un ar bymtheg oed, aeth i gapel yr Annibynwyr yn y dref honno, i wrando y Parch. T. Phillips, D.D., o'r Neuaddlwyd, yn pregethu. Y testyn oedd Salm lxxxiv. 10, "Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb." Tynai golwg siriol, a dull dengar y pregethwr, ei sylw yn fawr, a theimlai yn fuan ddwfn argyhoeddiad yn ei feddwl, mai ei ddyledswydd oedd peidio aros yn hwy allan o dŷ yr Arglwydd. O'r pryd hyny allan elai yno i addoli, a dechreuodd ddarllen llyfrau ar natur eglwys Crist, a daeth yn fuan dan argyhoeddiad, mai Annibyniaeth ydoedd y drefn ysgrythyrol. Yn fuan wedi hyn derbyniwyd ef yn aelod yno, yr oedd yn fawr yn ngolwg yr eglwys a'r gweinidog, ac anogwyd ef y flwyddyn ganlynol i ddechreu pregethu. Aeth i gadw ysgol i Bentre Llyn-cymer. Pan oedd yn 22 oed aeth i athrofa Wrecsam, dan ofal Dr. Jenkyn Lewis, lle y dilynodd ei addysgiaeth am bedair blynedd. Gan ei fod wedi cael manteision addysg yn fore, safai felly ar uwch tir nag amryw o'i gydfyfyrwyr. Yr oedd yn dra chyfeillgar a'i hen athraw, ac o herwydd rhagoroldeb ei alluoedd, gwnaed cynnygiad iddo gael myned i'r Eglwys Wladol, yr hyn a wrthododd yn y modd mwyaf penderfynol. Cyn iddo ymadael a'r athrofa, cafodd wahoddiad i ymweled, ar brawf am beth amser yn yr haf, â Phenybont ar Ogwy, a Brynmenyn, sef yn 1810. Derbyniodd alwad unol i fod yn weinidog yno. Cydsyniodd a'r cais. Yr oedd yr achos ieuangc yn Coity, yn uno yn yr alwad, ac mewn cysylltiad a'r ddwy eglwys arall. Ymdrechodd dynion annheilwng o'u lle, wau maglau i'w niweidio, ond methwyd yn yr amcan, o blegid profodd amser fod ei gymeriad yn ddifwlch; ac yr oedd ei gymeradwyaeth yn nheimlad pawb, yn sicrhau iddo y boddhad o amddiffyn trwyadl. Yn y flwyddyn 1814, priododd un, Miss Turberville, Tycandy, yr hon ydoedd yn mhob modd yn ymgeledd gymhwys iddo. Bu iddynt ddeg o blant, a chawsant weled amryw o honynt yn proffesu crefydd, ac mewn sefyllfaoedd cysurus. Yr oedd Mr. Jones yn weithiwr difefl; pregethai weithiau bedair gwaith ar y Sabbath. Yr oedd ganddo feddyliau trwyadl, llais peraidd, a dawn ymadrodd hyawdl. Niweidiwyd ei beirianau lleisiol ar un amgylchiad, drwy gael gwely llaith. Cafodd afiechyd yr afu i'w nychu, nes yr anmharwyd ei iechyd, ac mewn perffaith hyder yn iachawdwriaeth ei Dduw, ac ymollyngiad i'w ewyllys, hunodd yn yr Iesu, yn 63 mlwydd oed, Mehefin 5, 1847. Claddwyd ef yn mynwent y Tabernacle, Pen-y-bont. Yr oedd Mr. Jones yn Gristion disglaer, yn bregethwr rhagorol, ac yn ysgolhaig gwych; yn y Gymraeg, Saesonaeg, Lladin, Groeg, a'r Hebraeg. Yr oedd yn dduwinydd tra rhagorol, fel y profa ei "Eiriadur Ysgrythyrol," sef y drysorfa athrawiaethol, gyda'r oreu sydd wedi ei chyhoeddi mewn unrhyw iaith. Cyhoeddodd bregeth odidog ar Dduwdod Crist, ac un ar y Ddiaconiaeth. Ysgrifenodd lawer mewn ffordd ddadleuol ac ymresymiadol ar amryw bynciau, yn Seren Gomer. Yr oedd ef yn astudio ei bregethau yn fanwl, a chyflawn iawn, ac yn eu traddodi gyda chywirdeb mor orphenol a phe buasent wedi eu parotoi i'r Wasg. Bu yn golygu y Drysorfa Gynulleidfaol, cyhoeddiad misol, perthynol i'r Annibynwyr yn y Deheudir, am rai blynyddoedd. Cyhoeddwyd cyfrol fechan o'i bregethau wedi ei farwolaeth, ac y mae rhai eto yn aros mewn ysgrifen, ac heb eu dwyn allan drwy y wasg. Teimlwyd colled fawr am dano, a hiraeth ar ei ol, yn holl gylch ei adnabyddiaeth.

**PEN-Y-BONT FAWR**, sydd is-bentref yn mhlwyf Pennant, yn swydd Drefaldwyn; gerllaw yr afon Fyrnwy, wyth milltir gorllewin dde orllewin o Lanfyllin. Llythyrfa dan Groesoswallt, ac eglwys ychwanegol. Y mae yma yn bentref o boblogaeth gynnyddol.

**PEN-Y-CLAWDD**, sydd drefgordd yn mhlwyf y Waun, yn swydd Ddinbych, yn agos i Glawdd Offa, yn nghymydogaeth y Waun. Poblogaeth, 547.

**PEN-Y-CLAWDD**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Fynwy; milltir a haner de orllewin o orsaf rheilffordd Dingestow, pedair milltir a thri chwarter de orllewin o Fynwy. Llythyrfa yn Rhaglan, dan Casnewydd, Mynwy. Erwau, 614. Gwerth ardrethol, 385*p*. Poblogaeth, 53. Tai, 11. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â ficeriaeth Llangofen, yn esgobaeth Llandaf.

**PEN-Y-COED**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfwrog, yn swydd Ddinbych, yn gyfagos i Ruthin.

**PEN-Y-CWM**, sydd le yn ochr dde orllewin swydd Penfro, naw milltir gogledd orllewin o Hwlffordd. Y mae yma Lythyrdy, dan Hwlffordd.

**PEN-Y-DARREN**, sydd le yn nherfyn Merthyr Tydfil, yn swydd Forganwg, ar yr ochr ogleddol i'r dref, ac o fewn y fwrdeisdref. Llythyrfa dan Ferthyr Tydfil, ac y mae yn un o brif leoedd y gwaith haiarn, yr hwn sydd er ys amser bellach yn rhoddi gorchwylion i tua dwy fil o weithwyr.

**PEN Y FAE**, pentref yn mhlwyf Castell Newydd, swydd Forganwg; yn agos i Ben y bont.

**PEN Y FOED**, trefgordd yn mhlwyf Llangwm, swydd Ddinbych; 8½ milldir i'r gorllewin o Gorwen. Gwerth ardrethol, 1230*p*. Poblogaeth, 83.

**PEN-Y-FFORDD**, sydd le yn ochr ddwyreiniol swydd Fflint, gyda Llythyrfa, o dan dref Flint.

**PEN Y GELLI**, trefgordd yn mhlwyf Cerri, swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o'r Dref newydd, Poblogaeth, 78.

**PEN Y GLODDFA**, Gwestydd, a Hen didle, tair trefgordd yn mhlwyf Llanllwch-haiarn, swydd Drefaldwyn; yn nghwr y Dref Newydd.

**PEN Y GRAIG**, lle yn y parth de orllewinol o swydd Gaer-yn-arfon; 13 milldir i'r de orllewin o Bwllheli. Medda Lythyrfa, dan Bwllheli.

**PEN Y GROES**, pentref yn swydd Gaer yn arfon, yn agos i reilffordd Cymru; 6 milldir i'r dehau o Gaer yn arfon. Medda Lythyrfa, dan Gaer yn arfon, a gorsaf rheilffordd.

**PEN Y MAES**, trefgordd yn mhlwyf Llanwyddelen, swydd Drefaldwyn; 4½ milldir i'r de dde orllewin o Lanfair. Poblogaeth, 146.

Digitized by Google

**PEN Y MYNYDD,** llandref yn nhrefgordd Pentrehobyn, plwyf Pen yr halawg, swydd FFLINT; 1 filldir i'r de ddwyrain o'r Wyddgrug.

**PEN YR HALAWG,** a elwir ar lafar gwlad, **PENARLAG,** a chan y Saeson *Hawarden*, pentref, trefgordd, a phlwyf, yn nghantref y Wyddgrug, swydd FFLINT. Cafodd ei enw Cymreig am ei fod yn gorwedd ar ucheldir sydd yn ymddyrchafu oddiar Forfa Caer. Y mae ei sefyllfa 2 filldir i'r dehau wrth orllewin o orsaf rheilffordd *Queen's Ferry*, 2½ milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Broughton; a 6½ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Gaerlleon ar Ddyfrdwy. Adwaenid y lle gan yr hen Frythoniaid dan yr enw Pen y Llwch. Cynhelir yr is-frawdlysoedd yma; ac y mae yma Lythyrfa, dan Gaerlleon. Cynhelir marchnad wythnosol yma ar ddydd Sadwrn, a ffeiriau ar yr 28ain o Ebrill, a'r 22ain o Hydref. Y mae y plwyf yn cynnwys hefyd drefgyrdd Broughton, Breton, Sealand, Manor a'r Rake, Mancott, Tref Eflo, Coed Eflo, Aston, Moor, Broad Lane, Pentre hobyn, Bannel, Saltney, a Shotton; a chyrhaedda hyd for-gainc y Dyfrdwy. Mesura yn erwau, 17,695, o ba rai y mae 535 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 38,557*p.*, o'r hyn y mae 961*p.* mewn mwngloddiau, 6*p.* mewn cloddfeydd, a 2600*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth, yn 1851, 6203; yn 1861, 7044; yn 1871, 8683. Tai annedd, 1793. Y mae cynnydd y boblogaeth wedi ei achlysuro yn benaf gan ennilliad tir o'r morfa, yn nhrefgordd Sealand, agoriad ac ehangiad glofeydd, a gweithfeydd haiarn, &c. Yr oedd y faenoriaeth ar un pryd yn perthyn i dywysog Sacsonaidd o'r enw Edwin, yr hwn, er amddiffyn ei diriogaethau, a drawsfeddiannasai ei ragflaenoriaid yn y rhan hon o'r Dywysogaeth, a gyfanneddai yma yn achlysurol, lle hefyd yr oedd cyffin breniniaeth y Mersiaid. Ar oresgyniad Prydain, gan Gwilym y Cyntaf, yr oedd Pen yr Halawg o fewn y tiriogaethau ehang a ddyroddodd y Gorchfygwr i Huw Fleiddyn, a gwnelai i fynu ran o deyrniarllaeth Caerlleon. Yn fuan wedi hyny, adeiladwyd y castell, ac ymddengys ei fod yn meddiant un o'r enw Roger Fitzvalerine, mab i un o ganlynwyr lluosog y Gorchfygwr, oddiwrth yr hwn y daeth wedi hyny i feddiant tylwyth o'r cyfenw Montalto, arglwyddi y Wyddgrug, y rhai a'i dalient fel goruchwylwyr y deyrniarllaeth, ac a'i gwnaethant eu prif drigle.

Yr oedd sefyllfa neillduol y lle hwn, ar yr unig ran o'r morfeydd y gallai y Saeson eu trawsu yn eu cadgyrchiadau i galon Gwynedd, yn gyfryw ag a barodd i'r llanerch fod yn gemmaes rhai o'r amgylchiadau pwysiccaf mewn cyssylltiad a darostyngiad y Dywysogaeth. Yn y flwyddyn 1157, casglodd Harri yr Ail, fyddin gref yn Nghaerlleon; a daeth drosodd i swydd Fflint, gyd a'r amcan o gymeryd meddiant cyflawn o Gymru; a gwersyllodd ar y morfa, o fewn y plwyf hwn. Er gwrthladd yr ymosodiad yma, arweiniodd Owain Gwynedd ei luoedd hyd y Maes Glas, gerllaw Treffynnon, lle y gwersyllodd o fewn ychydig filldiroedd i'r fyddin freninol. Eofnder ymddangosiadol Owain yn y symmudiad yma, a barodd i Harri obeithio ei fod ef yn bwriadu anturio câd ar faes, â lluoedd y brenin, yr hwn oedd yn dra hyderus y byddai i luosogrwydd a dysgyblaeth ragorach y Saeson, sicrhau buddugoliaeth rwydd iddo; am hyny, y brenin a anfonodd gorph o filwyr dewisol, dan lywyddiaeth rhai o'i brif farwniaid, i gymell y Cymry i frwydr, neu geisio eu codi o'u gwersyllfan. Ond fel yr oedd y fyddin yma yn myned trwy Goed Eflo, ymosodwyd arnynt yn ddisymwth ac annysgwyliadwy yn y bwlch peryglus hwnw, gan Dafydd, a Chynan, meibion Owain, y rhai gyda mintai o Gymry dewrion, oeddynt wedi gosod cynllwyn iddynt yn y coed hyny. Trwy fod y rhuthr arnynt mor angerddol, ac annysgwyliadwy, a'r lle yr oeddynt ynddo yn anfanteisiol, cafodd y Saeson eu gyru ar ffô gyda lladdfa fawr; a'r ychydig o honynt a lwyddasant i ddianc, a gyrhaeddasant wersyll y brenin, mewn dychryn ac annrhefn mawr. Y brenin wedi ei gythruddo gan yr aflwydd annysgwyliadwy yma, a drefnodd ei holl fyddin yn ddioed, gan benderfynu ei harwain i galon gwlad Owain; ar yr hyn y cynllwynodd y tywysog Cymreig iddo yn Nant y Fflint, lle y gwnaeth gryn ddifrod ar ei fyddin, ac yna enciliodd i gymmydogaeth Llanelwy, fel yr hysbysir yn fanylach mewn rhanau eraill o'r Gwaith hwn. Ar derfyniad Ieirllaeth Caer, cymerodd y brenin feddiant o'r castell hwn, ac amryw amddiffynfeydd eraill; ac yn y flwyddyn 1264, cynnaliai Llewelyn, Tywysog Cymru, gynnadledd yn Mhen-yr-halawg, gyda Simon de Montford, Iarll Leicester, er ceisio cyttuno ar ammodau heddwch. Yn y flwyddyn ganlynol, darfu i Iarll Leicester orfodi Harri y Trydydd, yr hwn oedd yn garcharor ganddo, i roddi y castell hwn i fynu i'r Tywysog Cymreig, yr hwn, fel yr ymddengys, a'i dinystriodd; canys yn mysg erthyglau eraill o gyfammod priodasol cynnygiedig, rhwng Llewelyn âg Ellen de Montford, ymrwymai y Tywysog i adferu i Robert de Montault ei holl diroedd yn Mhen-yr-halawg; ond ar yr un pryd yn gwahardd iddo ef gyfodi castell, nac unrhyw amddiffynfa yno, am y deng mlynedd ar hugain dyfodol. Ond, er hyny, ymddengys i'r castell gael ei adeiladu yn fuan, ac ar derfyniad gwrthryfel Leicester, dychwelodd i feddiant y goron; canys yn y flwyddyn 1280, cawn grybwylliad am dano dan yr enw "Castrum Regis," sef y Castell Breninol.

Yn y bummed flwyddyn o deyrnasiad Edward I., y penteyrn hwnw a amcanai ymwthio i'r dywysogaeth, trwy y rhan hono o'i ffin a ymylai ar yr afon Dyfrdwy; ac efe a ddug fyddin fawr o swydd Gaerlleon, ac a'i gwersyllodd ar forfa yr Halawg, (*Saltney,*) tra yr oedd ei gad-gloddwyr ar waith yn agor ffyrdd trwy goedwigoedd mawrion, oeddynt yn gorchuddio rhanau helaeth o'r wlad, rhwng cyffiniau swydd Gaerlleon, a'r Eryri. Yn y fan hon yr arhosodd grym byddin Edward, hyd onid adeiladodd efe gastell Fflint, a chadarnhau o hono gastell Rhuddlan, er diogelu y rhanau hyny o'r dywysogaeth a ddarostyngasid ganddo eisoes; yna y brenin a arweiniodd ei fyddinoedd i Aberconwy, lle y gorfododd Lewelyn i wneyd cyttundeb heddwch ar ammodau tra darostyngedig i'r Cymry. Llymder yr ammodau hyn a gynnyrchodd deimladau tra digofus yn mynwesau y pendefigion Cymreig, fel yr ymunasant i fwrw ymaith yr iau a ddodasai Edward arnynt, ac ymarfogasant i wrthwynebu ei awdurdod. Dafydd, brawd Llewelyn, yr hwn oedd newydd ymheddychu ag ef, a ddechreuodd y rhyfel-gyrch, trwy wneyd ymosodiad annysgwyliadwy ar gastell Pen-yr-halawg, ar noswaith dywell ac ystormus, Sul y Palmwydd, 1282, ac wedi cymeryd yr amddiffynfa, efe a roddes y gwarchodlu i'r cleddyf; ac wedi archolli Roger de Clifford, prif ynad Caerlleon, efe a'i cymerodd yn garcharor, ac a'i dug i fylchau Eryri. Yn y canlyn-

Digitized by Google

iad i hyn, cyfododd y Cymry yn gyffredinol mewn gwrthryfel yn erbyn y brenin Edward; ond ni pharhaodd yr ymdrech yma yn hir; canys lladdwyd Llewelyn trwy frad yn Muallt, ac unwyd Cymru a Lloegr dan yr un goron. Arhosodd y castell hwn yn meddiant teulu Montault hyd y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Edward III., pan fu farw Robert, y barwn diweddaf, heb adael ettifedd, yna fe'i rhoddwyd i Isabel, y fam frenines, ac ar warthruddiad hono wedi hyny, dychwelodd i'r goron. Yn y flwyddyn 1337, darfu i Edward III., ddyroddi Goruchwyliaeth Caerlleon, yn nghyda chastell Pen-yr-halawg, i William Montacute, Iarll Salisbury, yn meddiant teulu yr hwn yr arhosodd hyd farwolaeth un o'i orneiaint, John, Iarll Salisbury, yr hwn y torwyd ei ben yn Cirencester, yn y flwyddyn 1400, wedi gwrthryfeliad aflwyddiannus dros ei bennadur di orseddawg, Richard yr Ail. Yna daeth y castell hwn drachefn yn eiddo y goron. Harri y Pedwerydd a'i dyroddodd i'w ail fab, Thomas, Dug Clarence, ar farwolaeth yr hwn yn mrwydr Baugy, yn 1420, dychwelodd i feddiant Harri y Pummed, yr hwn a'i rhoddodd i'w fab, Harri y Chweched wedi hyny; yr hwn drachefn, yn 1443, a'i dyroddodd i Syr Thomas Stanley, ei ben dystain; ond wedi galw ei rodd yn ol yn y flwyddyn 1450, y pennadur hwnw a'i rhoddodd drachefn i'w fab, Edward, Tywysog Cymru. Bu y castell wedi hyny yn meddiant y Nevilles, Ieirll Salisbury, ac oddiwrthynt hwy, aeth i feddiant Arglwydd Stanley, mab, ac ettifedd yr hwn, Thomas, wedi hyny Iarll Derby, a brïododd Margaret, Duges Richmond, a mam Harri y Seithfed. Treuliodd y pennadur hwnw ryw gymaint o'i amser yn y castell, ar ymweliad a'i fam, gan gymeryd arno mai amcan ei ymweliad oedd mwynhau difyrwch helwriaeth; ond prif amcan ei ymweliad, oedd er ymgymmodi â'r iarll, wedi dïenyddiad annïolchgar ei frawd, Syr William Salisbury. Wedi marwolaeth Margaret, disgynodd y castell i Thomas, iarll Derby, ŵyr yr iarll diweddar, ac arhodd yn meddiant y teulu hwnw hyd ddïenyddiad James, y seithfed iarll, yr hwn y torwyd ei ben yn Bolton, yn y flwyddyn 1651. Yn fuan wedi dechreu y rhyfel Seneddol, bradychwyd y castell gan y llywydd, i feddiant y Senedd, a phlaid y Senedd a'i cadwasant yn eu meddiant hyd y flwyddyn 1643, pan ymosodwyd arno gan fintai o freninolion, dan lywyddiaeth y Rhag-filwriad Marrow, i'r hwn wedi pymthengnos o warchae, ei rhoddwyd i fynu gan y gwarchlu, y rhai oeddynt yn dechreu dyoddef eisiau ymborth; a chaniatteid iddynt fyned allan, a baner eu harfau ganddynt, a chael nawdd-osgordd hyd yn Wem, neu Nantwich. Parhaodd y castell hwn yn meddiant y Breninolion hyd oni roddwyd dinas Caer i fynu i Syr William Brereton, yn 1645, pan y gwarchaewyd arno gan y Maeslywydd Mytton.

Gwrthsafodd y gwarchlu yr ymosodiad hwn dros amryw wythnosau, hyd oni chafodd y llywydd orchymyn i'w roddi i fynu gan y Brenin; ac yna fe'i rhoddwyd i fynu ar ammodau anrhydeddus; a thua diwedd y flwyddyn, gorchymynodd y Senedd i'r castell hwn, a phedwar o gestyll eraill yn y parth yma o'r Dywysogaeth, gael eu di gaeru, rhag y buasai y Cymry, y rhai gan mwyaf oeddynt yn parhau yn ffyddlawn i achos y brenin, ymnoddi ynddynt, a pheri blinder i blaid y Senedd. Wedi marwolaeth James, seithfed iarll Derby, darfu i'r cyfreithiwr enwog, Syr John Glynne, brynu y castell gan oruchwylwyr y gorfodogaethau; ac ar yr Adferiad, efe a wnaeth gyttundeb a'r wythfed iarll Derby, er sicrhau ei hawl ynddo; ac y mae yn parhau yn meddiant ei hiliogaeth, yn mherson Syr S. R. Glynne, Barwnig, hyd heddyw. Chwaer i'r Barwnig hwn ydyw y foneddiges glodwiw sydd yn brïod â Phrif weinidog enwog Prydain Fawr, y Gwir Anrhydeddus, W. E. Gladstone, Ysw., yr hwn sydd ganddo ettifeddiaeth eang yn y gymmydogaeth hon. Yn y flwyddyn 1857, llwyr ddinystriwyd eglwys y plwyf hwn trwy dân, ac fe'i hail adeiladwyd yn y flwyddyn 1860, ar y draul o 5490*p*. Brodorion o'r plwyf hwn, oedd yr Henadur Boydell, a'r foneddiges Hamilton, enw yr hon a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd, mewn cyssylltiad a'r llyngesydd enwog Nelson. Byddai trigolion y plwyf hwn yn cael eu llysenwi gynt, "*Harden Jews*," am eu bod, medd traddodiad lleol, wedi dystrywio delw y Forwyn Fair, yn y flwyddyn 946.

**PEN YR HEWL**, pentref yn mhlwyf Abertawe, swydd Forganwg; yn agos i dref Abertawe.

**PEN Y SARN**, lle yn mharth gogleddol gwlad Fon; 2 filldir o Amlwch. Medda Lythyrfa, dan Amlwch, Môn.

**PEREDUR**, athraw coleg Illtyd, tua therfyn y bumed ganrif. Mab ydoedd i Elifer Gosgorddfawr. Yr oedd llwyth Peredur yn un o'r "tri anniwair deulu," am iddynt adael eu harglwydd y noson cyn ei frwydr âg Ida, ac yn y frwydr hono y lladdwyd Peredur.

**PEREDUR** ab Efrawg, arwr un o'r hen Fabinogion Cymreig, a phenaeth, yn nechreu y chweched ganrif. Cofnodir ef gan Aneurin yn y *Gododin*, fel "Peredur arfau dur," a dywedir yno, iddo syrthio yn mrwydr Cattraeth. Molir ei wroldeb gan feirdd y canol-oesau. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Bort, a Galath, fel "tri marchawg llys Arthur," y rhai a fuont ar ymchwil am y *Greal*. Y mae dywediad o'i eiddo yn *Chwedlau y Doethion*, sef "Calettach yw dewr na dur."

**PERIS**, sant yn y seithfed ganrif, a mab i Helyg ab Glanawg. Gelwir ef yn *Bonedd y Saint*, yn "Sant, a Chardinal, o Rufain." Sefydlodd eglwys Llanberis, sir Gaernarfon; ac efe yw sant gwarcheidiol Llangian, yn yr un sir, yr hon a sefydlwyd gan Gian ei was. Cedwid ei wylmabsant Rhagfyr 11eg.

**PERROT**, Syr James, mab anghyfreithlawn i Syr John Perrot, ac a anwyd yn sir Benfro, yn 1571. Pan yn bumtheg oed, cafodd ei dderbyn fel bonedd-wr cyffredin yn ngholeg Iesu, Rhydychain; eithr gadawodd y lle cyn ei raddio, ac ymneillduodd i'r *Inns of Court*. Wedi hyny, bu yn ymdaith ar y cyfandir, ac ar ol dychwelyd, trigianodd ar ei etifeddiaeth yn Haroldston, sir Benfro. Gwnaed ef yn farchog, a bu yn eistedd mewn amryw seneddau yn amser Iago I. Fel seneddwr, yr oedd yn llefarwr mynych, a gwrol. Cymerodd ran yn y ddirprwy a benodwyd i ymchwilio i achosion eglwysig a milwrol y deyrnas. Yr oedd yn awdwr y gweithiau canlynol, —(1) *The First Part of the Consideration of Humane Conditions, &c.* (2) *Meditations and Prayers on the Lord's Prayer, and Ten Commandments*, 1630. (3) *A Book of the Birth, Education, Life, and Death, and Singular Good Parts, of Sir Philip Sidney*. Bu farw yn Haroldston, Chwef. 4, 1636, a chladdwyd ef yn eglwys Hwlffordd.

**PERROT**, Syr John, ydoedd fab Syr Thomas Perrot o Haroldston, ger Hwlffordd, sir Benfro, lle y ganwyd ef tua 1527. Wedi derbyn addysg gyf-

Digitized by Google

addas i'w dras a'i waedoliaeth, yn ol defod yr oes, danfonwyd ef pan yn 13eg oed, at ardalydd Winchester, arglwydd-drysorydd Lloegr ar y pryd, er cwblhau ei ddysg, trwy gynghorion a dylanwad y gwladlywiwr clodfawr hwnw. Yr oedd Perrot yn un o Farchogion y Badd-dy, yn nghoroniad Iorwerth VI., yr hwn a goleddai syniadau uchel iawn am dano. Ar esgyniad y frenhines Mari, carcharwyd ef am lochesu Protestaniaid yn ei dy, yn Nghymru, ond gan fod iddo luaws o gyfeillion, a bod y frenhines yn hoff o hono, rhyddhawyd ef yn fuan. Pan ddaeth Elizabeth i'r orsedd, cafodd dderbyniad croesawus eilwaith i'r llys; ac yr oedd efe yn un o'r pedwar marchog a ddygent y *canopy* ddydd ei choroniad. Yn 1572, danfonodd y frenhines ef drosodd i'r Iwerddon, fel arglwydd-lywydd Munster, yr hwn le oedd ar y pryd mewn gwrthryfel; eithr trwy ei drefniadau doeth a phenderfynol ef, darostyngwyd y dalaeth yn fuan i heddwch a defnyddioldeb. Dewiswyd ef yn nesaf yn llyngesydd nifer o longau ar gyffiniau yr Iwerddon, yr hon a fygythid gan yr Yspaeniaid, eithr wedi bod yn gwib-forio am yspaid, a chael nad oedd perygl, efe a ymneillduodd i'w etifeddiaeth yn Nghymru. Yn 1582, gofynwyd ei gynghor am y dull goreu i ddarostwng gwrthryfel iarll Desmond, yn yr Iwerddon, a threfnu y deyrnas hono mewn modd mwy llywodraethus, ac efe a ysgrifenodd draethodyn, yn cynwys ei olygiadau ar y pwnc, yr hwn a ganmolid gymaint, fel y penodwyd ef yn 1583, yn arglwydd-rhaglaw Iwerddon. Yr oedd ei brofiad eisioes yn y wlad, a'i gywirdeb diffuant, yn ei wneud yn wr tra chymwys i lanw y swydd uchel hono. Yn fuan, ymgymerodd â thaith trwy y wlad, fel y gwelai, ac y clywai ei hun y cwynion, ac y gallai gymhwyso moddion priodol i'w symud ymaith. Pa fodd bynag, darfu i'w fesurau llymion, godi llawer o elyniaeth yn ei erbyn, yr hyn a barodd i'r llywodraeth ei alw yn ol yn 1588, pan yr hwyliodd o Ddublin i'w gastell, Carew, sir Benfro. Eithr nid hir y cafodd fwynhau heddwch neillduedd, canys cyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth, ac wedi ei ddal, a'i ddodi yn y Tŵr, dygwyd ef i brawf, Ebrill 27, 1592, ger bron dirpwyaeth neillduol, yn neuadd Westminster, lle, ar ol ymchwiliad caled i'w weithredoedd, ei eiriau, ac hyd yn nod ei feddyliau, cafwyd ef yn euog, a dedfrydwyd ef i farw ar yr 16eg o Fehefin canlynol. Pa fodd bynag, y frenhines a ataliodd rym y gyfraith, yr hon a gredai ei fod yn dioddef yn annheg; a daeth clefyd arno, yr hwn a derfynodd ei drallodion trwy farwolaeth naturiol, yn Medi y flwyddyn hono.

**PERROT**, Robert, cerddor enwog yn ei ddydd, ac ail fab i George Perrot, o Haroldston, sir Benfro. Yn 1515, yr oedd yn wyryf mewn cerddoriaeth, ac yn organydd coleg Magdalen, Rhydychain, a chymerodd radd yn ei wyddoniaeth hoff. Cyfansoddodd luaws o gôrganau eglwysig, a gweithiau eraill, a bu yn haelfrydig wrth ei goleg. Bu farw yn 1550. Efe oedd cyff teulu y Perrotiaid o Northleigh, sir Rhydychain.

**PERRY**, Parch. Henry, neu Parry, ieithydd dysgedig, ydoedd frodor o sir Fflint, ac yn hanu o deulu henafol a pharchus,—yn disgyn o Ednywain Bendew, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Addysgwyd ef yn *Gloucester Hall*, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y celfyddydau, ac y gwnaed ef yn B.D. o goleg Iesu, yn 1597. Bu am yspaid yn ymdaith ar led, ac yna ymsefydlodd yn Môn, lle y daeth yn gaplan i Syr Richard Bulkley; ac ar farwolaeth ei wraig gyntaf, efe a briododd ferch i foneddwr o'r enw Robert Vaughan, o Beaumaris, pan y cyhuddid ef, fod ei wraig gyntaf yn fyw. Rhoddes yntau brawf o'i marwolaeth, a chyhuddodd ei athrodwyr o falais ddrwg. Yr oedd yn awdwr llyfryn dysgedig ar Ramadeg Cymraeg, a'r cyntaf a ymddangosodd ar y pwnc, o'r enw "Egluryn Phraethineb," sef Dosparth ar Retoreg, un o'r saith Gelbhydhyd, yn dyscu lluniaeth ymadrodh a'i pherthynasau." Yr oedd rhaggynllun y gwaith hwn wedi ei dynu gan William Salisbury, eithr cwblhawyd ef gan Perry, yn 1580. Ni chyhoeddwyd ef, modd bynag, hyd 1595, a'r pryd hwnw, ar draul Syr John Salisbury, o Leweni. Yr oedd hefyd yn awdwr Geiriadur Cymraeg, yr hwn ni chyhoeddwyd, eithr a ganmolir yn uchel gan Dr. Davies, o Fallwyd, yn ei rag ymadrodd i'w Eiriadur. Cafodd berigloriaeth Rhoscolyn, Môn, yn 1601, yr hon a gyfnewidiodd yn 1606 am yr eiddo Trefdraeth, yn yr un sir. Penodwyd ef yn ganon, yn eglwys gadeiriol Bangor, yn 1612, ac yn beriglor Llanfachreth, yn 1613. Bu farw yn 1617. Wyr iddo ef oedd y dysgedig Dr. Henry Maurice.

**PERTH Y CYTIAU**, llandref yn nhrefgordd y Faenol, plwyf y Towyn, swydd Feirionydd; yn agos i'r Towyn.

**PERTHYR**, llandref yn mharth gogledd ddwyrain swydd Fynwy; yn agos i'r afon Monnow, 3½ milldir i'r gogledd orllewin o dre Fynwy.

**PERYF** ab Cedifor, bardd, rhwng 1160 a 1200. Y mae un cyfansoddiad o'i waith, sef anerch i Hywel ab Owain Gwynedd, i'w weled yn y *Myv. Arch.*

**PETER**, Parch. David, gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Nghaerfyrddin, a anwyd yn Aberystwyth, yn 1765; a phan nad oedd efe ond baban, symudodd ei rieni i'r Ceinewydd, yn yr un sir. Saer llongau oedd ei dad, ac yr oedd ef a'i briod yn aelodau ffyddlawn o'r Eglwys Sefydledig. Wedi iddo dderbyn cymaint o ddysg ag a allasai gael yn yr ardal yr oedd yn byw ynddi, dechreuodd gadw ysgol ei hun yno. Pan nad oedd Ymneillduwyr ond anaml a dirmygedig yn y wlad, efe a fwriodd ei goelbren yn eu plith; ac wedi ymuno a'r Annibynwyr, cafodd dderbyniad i'w hathrofa, a gynhelid yn Abertawe y pryd hwnw. Dewiswyd ef yn athraw cynorthwyol yr Athrofa hono, yn 1789; ac yn weinidog Heol Awst, Caerfyrddin, yn 1792, i ba le y symudasid yr athrofa yn y cyfamser; ac yn brif-athraw y sefydliad yn 1795. Cyfarfyddai ynddo lawer o ragoriaethau oedd yn ei wneud yn un o'r gweinidogion mwyaf defnyddiol a pharchus yn Nghymru. Nid oedd ei ddoniau o'r fath fwyaf poblogaidd yn y pwlpud, na'i athrylith bregethwrol yn gref; ond yr oedd ganddo yn helaeth y cyneddfau hyny sydd yn gwneud dynion bychain yn fawr, ac heb y rhai nid yw dynion mawr ond bychain, sef gallu, a phenderfyniad i iawn-ddefnyddio ei amser a'i gyneddfau. Hyn oedd dirgelwch llwyddiant a rhagoroldeb ei fywyd. Y mae yn rhaid fod ei lafur yn fawr, pan ystyriom fod dwy ysgol tan ei arolygiaeth, ac yn gweinidogaethu i eglwys fawr; ac anfynych y cyflawnai ei ddyledswyddau trwy eraill. Dywedai un tro, ei fod ef, wrth weled cynifer o bregethwyr yn cyniwair trwy y wlad, a bod Caerfyrddin yn lled ddeniadol i'r cyfryw ddyfod ar y Sabbathau, fel y gallasai efe fod heb bregethu i'w eglwys unwaith yn y mis, pe rhoddasai ei le i eraill, wedi penderfynu na wnai mo

Digitized by Google

hyny, oblegid y buasai yn niweidio ei gynnulleidfa, oddieithr rhywrai neillduol. Barnai hefyd fod i weinidogion newid yn fynych a'u gilydd, yn mhell o fod yn tueddu i'w cysur eu hunain, a llesiant pobl eu gofal. Er fod gan Mr. Peter, yr holl orchwylion hyn i fyned trwyddynt bob wythnos, a phregethu mewn dwy iaith bob Sabbath, eto medrai fyned yn mlaen yn esmwyth yn y cyflawniad o honynt. Fel pregethwr, nid oedd yn hyawdl a ffraeth, ac nid oedd un mawredd celfyddydol na thlysni yn nghyfansoddiad ei bregethau, na tharawiadau nerthol a melltenog i deimladau ei wrandawyr; ond yr oeddynt yn llawn o eiriau gwirionedd a sobrwydd. Byddai eglurder ei bregethau y fath, fel nad oedd modd i neb, a wnai y sylw lleiaf o honynt, beidio eu deall. Yr oedd ei agwedd brydferth, ddysyml, wresog, a difrifol yn yr areithfa, yn rhoddi nerth, awch, a chymeradwyaeth, i'r oll a ddywedai yno. Yr oedd ei olygiadau ar athrawiaeth yr efengyl yn wir efengylaidd, a chyfranogai ei bregethau yn helaeth o'r egwyddorion hyn, er yr ymdrinai â hwy yn y modd mwyaf ymarferol. Llwyddodd yr Arglwydd ei lafur a'i ymdrechion yn fawr. Helaethwyd addoldy Heol Awst amryw weithiau yn ystod ei weinidogaeth, ac y mae yn bresenol yn un o'r addoldai helaethaf a phrydferthaf yn y Dywysogaeth. Afreidiol i ni ddywedyd ei fod yn ysgolhaig da, oblegid yr oedd ei swydd, a'r modd y cyflawnodd hono dros gynnifer o flyneddau, yn dangos hyny; er y dichon nad oedd ei ragoriaeth yn ymddangos gymaint mewn rhyw un gangen o ddysgeidiaeth ag oedd yn eangder a chyffredinolrwydd ei wybodaeth yn ngwahanol ganghenau gwybodaeth gelfyddydol. Yr oedd yn meddu manteision mawr i gynnyddu yn barhaus yn y pethau hyn, trwy ei berthynas a'r Athrofa. Ni ragorai fel ysgrifenydd ar rai oedd yn llawer llai dynion nag ef. Y mae ei bregeth ar y "Dydd yn Gwawrio" yn ddernyn ac y mae cryn lawer o ffrwyth llafur ei feddwl i'w weled ynddi. Ond ei brif waith, yw "Hanes Crefydd yn Nghymru," yr hwn sydd siomedig, ac yn dra annheilwng o'i ysgrifenydd. Nid yw ei wir gymeriad yn ymddangos ynddo, na thrwyddo. Nid oes anmheuaeth nad yw y llyfr yn cynwys llawer o bethau da, anghenrheidiol i ddynion eu gwybod; y mae yn goflyfr defnyddiol o amseriad pethau a gymerasant le yn y byd, mewn amser hen a diweddar; ond y cymysgedd anphilosophaidd a gynwysa, a'r dull anghelfydd ac anrhefnus y gosodir hwy wrth eu gilydd, sydd yn ei wneud, feddyliem, yn anmhriodol i'r amcan, ac yn siomedig i'r darllenydd. Y mae yn hawdd gweled, tybiem, fod yr awdwr parchus, pan yn casglu defnyddiau, ac yn cyfansoddi ei lyfr, heb un clorian, pwysau, na mesur yn ei law, i farnu y defnyddiau a roddai ynddo.

Wedi athrawiaethu a gweinidogaethu am fwy na deugain mlynedd, efe a fu farw Mai 4, 1837, yn 72 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent ei gapel. Olynwyd ef fel gweinidog, gan y Parch. J. Breese, o Lynlleifiad; ac fel athraw, gan y Parch. D. Davies, Pant-teg.

**PETERSTON**, gorsaf rheilffordd yn swydd Forganwg, ar reilffordd Deheudir Cymru; ger Peterstone ar Ely; 6¾ milldir i'r gorllewin o Gaerdydd.

**PETERSTON**, plwyf yn undeb y Cas Newydd, swydd Fynwy; ar yr arfordir, 1 filldir i'r dehau o orsaf rheilffordd Marshfield; a 6 milldir i'r de orllewin wrth ddehau o'r Cas Newydd. Llythyrfa, y Cas Newydd, swydd Fynwy. Erwau 3234, o'r rhai y mae 1100 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3200*p*. Poblogaeth, 174. Tai annedd, 32. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 57*p*. Noddwyr, Deon a Glwysgor Caerodor. Cafodd yr eglwys ei hadeiladu gan Maud, ferch Fitzhammon.

**PETERSTON AR ELY**, plwyf yn undeb Caerdydd, swydd Forganwg; ar yr afon Ely, ac ar reilffordd Deheudir Cymru, 6¾ milldir i'r gorllewin o Gaerdydd. Medda Lythyrfa o'r enw Peterstone, dan Gaerdydd. Erwau, 2010. Gwerth ardrethol, 2176*p*. Poblogaeth, 219. Tai annedd, 45. Y mae y plwyf wedi cael ei enw oddiwrth gyssegriad yr eglwys i Pedr fel ei nawdd-sant, a'i sefyllfa ar lan yr afon Ely. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 228*p*. Y mae gweddillion hen gastell, a berthynai i Fitzhammon yn y plwyf hwn; ond nid oes nemawr o'i hanes yn hysbys.

**PETERSTON AR Y BRYN**, capeloriaeth yn mhlwyf Coychurch, neu y Coed du, swydd Forganwg, a elwir weithiau hefyd, "Peterston ar Montem;" yn agos i reilffordd Deheudir Cymru, ac i'r afon Ogmore, goris Mynydd y Rhiw, 3 milldir i'r gogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Pencoed; a 4½ milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Lantrisant. Llythyrfa, Coychurch, dan Ben y bont. Erwau, 2060. Gwerth ardrethol 1458*p*., o'r hyn y mae 440*p*. mewn mŵngloddiau. Poblogaeth, 216. Tai annedd, 40. Isberigloriaeth wastadol yw y fywioliaeth eglwysig, mewn cyssylltiad a pherigloriaeth Coychurch, yn esgobaeth Llandâf.

**PETROX** (St.), neu Llanbedrog, plwyf yn swydd Benfro, 3 milldir i'r dehau wrth orllewin o orsaf rheilffordd Penfro. Llythyrfa, Penfro. Erwau, 967. Gwerth ardrethol, 1627*p*. Poblogaeth, 130. Tai annedd, 16. Cafodd y plwyf yr enw oddiar fod y llan wedi ei chyssegru i goffadwriaeth Sant Pedrog. yr hwn oedd yn ei flodau tua dechreu y seithfed ganrif. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, gydiedig â pherigloriaeth Stackpole Elidor, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae y llan yn adeilad hardd, a thŵr ysgwar yn perthyn iddi, wedi ei hadeiladu ar ucheldir, o'r lle y mwynheir golygfa ddymunol ar y wlad o amgylch ogylch.

**PEULAN**, sant yn nechreu y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Pawl Hen, ac efe a sefydlodd eglwys Llanbeulan, yn Môn.

**PEYTYN GWYN**, lle genedigol Syr Dafydd Gam, yn mhlwyf Llandefaelog Fach, swydd Frycheiniog; 2 filldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Aberhonddu. Dafydd Gam oedd yr arwr a eilw Shakespeare yn *Fluellin*, fe'i hurddwyd yn farchog pan ar drengu ar faes Agincourt.

**PHILLIPS**, Parch. Daniel, ydoedd frodor o sir Gaerfyrddin, ac a addysgwyd i'r weinidogaeth tan ofal Samuel Jones, o Frynllywarch. Treuliodd ei ieuenctyd yn wyllt ac anystyriol; eithr pan argyhoeddwyd ef o ddrwg pechod, ac yr ymunodd â phobl grefyddol, tynwyd sylw yn fuan at ei dduwioldeb a'i ddoniau anarferol, ac anogwyd ef i ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth. Wedi gorphen ei ysgol, taer anogwyd ef i gymeryd eglwys Ymneillduol Pwllheli, sir Gaernarfon. Ymsefydlodd yno yn 1684, eithr oblegid yr erlidigaeth boeth oedd yn ffynu ar y pryd, ni ordeiniwyd ef i'r swydd hyd 1688. Ymgartrefai yn y Gwynfryn, ffermdy ger maes ei weinidogaeth; ac yn fuan, priododd weddw yr enwog Henry Mau-

Digitized by Google

rice, trwy yr hyn y daeth i feddiant o'r fferm grybwylledig. Cymaint oedd rhagfarn a gelyniaeth y werin-bobl yn erbyn crefydd a chrefyddwyr, fel nas gallai gael gwas na morwyn trwy yr holl wlad, ond rhai diwerth a drygionus, na roddai neb wasanaeth iddynt. Gorfu arno unwaith gyflogi morwyn ddiras a dilywodraeth, yr hon a regai ac a fellditiai yn ei wyneb. Gan yr arferai Mr. Phillips neillduo i'w ystafell i weddio, y Fagdalen annychweledig hon, er boddio ei nwyd o gywreinrwydd, a edrychai trwy dwll y clo, pan y canfu ei meistr ar ei ddwylin, a'r dagrau mawrion yn treiglo tros ei ruddiau. Er caleted ydoedd, o hyn allan yr oedd yn greadur gwahanol, ymunodd â'r eglwys, a daeth yn aelod defnyddiol ac anrhydeddus. Yr oedd Mr. Phillips yn wr gweithgar a di arswyd. Er gwaethaf rhagfarn y lluaws, pan ddaeth Deddf y Goddefiad i weithrediad, efe a gymerth ac a gofrestrodd dŷ yn nhref Caernarfon, a dau neu dri eraill cyffelyb, yn Môn. Wedi gweinidogaethu yn ymdrechgar a llwyddianus am ddeugain namyn dwy o flynyddau, efe a orphenodd ei yrfa yn 1722. Yr oedd dau o'i feibion hefyd yn bregethwyr, ac y mae ei ddisgynyddion yn lluosog yn Nghymru, Lloegr, ac America; a dywedir na bu dim llai na phumtheg o honynt yn y weinidogaeth.

**PHILLIPS**, Dr. James, ydoedd o Flaenpant, plwyf Llandygwydd, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn henafiaethydd enwog. Y mae ar gael lythyr rhagorol o'i eiddo, at Edward Prichard, Ystradmeurig, amseredig, "Blaenpant, Chwef. 1760;" ac un arall "Mai 12" o'r un flwyddyn. Y mae un arall oddiwrth S. Pegge at Dr. Phillips, oll ar destynau neu ymchwiliadau henafiaethol.

**PHILLIPS**, John, esgob Sodor a Manaw, ydoedd enedigol o Ogledd Cymru. Addysgwyd ef yn Rhydychain, a chymerodd y radd o M.A. fel aelod o St. Mary's Hall, yn 1584. Wedi derbyn urddau Sanctaidd, rhoddwyd iddo berigloriaeth Thorp-Basset, yn sir Caerefrog, ac yn 1591, cafodd fywiolaeth Slingesby. Yn 1601, ac efe yn gaplan i Iarll Derby, penodwyd ef yn Archddeon Cleveland, yr hon swydd a ddaliodd trwy gynrychiolydd, hyd 1619. Yr oedd hefyd yn Archddeon Manaw; ac yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd ei oes, a pherchid ef gan wreng a boneddig ar gyfrif addfwynder a lledneisrwydd ei natur. Yr oedd mor gydnabyddus yn yr iaith Fanawaidd, fel y cyfieithodd iddi yr Ysgrythyrau, a'r Llyfr Gweddi Cyffredin. Eithr cyn cyhoeddi y rhai hyn, efe a fu farw, yn 1633.

**PHILLIPS**, Parch. John, diweddar lywydd Coleg Athrawol, Bangor. Mab ydoedd i David, a Mary Phillips, Pont Rhydfendigaid, sir Aberteifi. Yr oedd ei nain, o du ei fam, yn gyfnither i'r Parch. John Williams, Lledrod, un o'r gweinidogion efengylaidd a droisant allan o Eglwys Loegr, yn nyddiau Rowlands, Llangeitho. Ganwyd ef, fel y tybir, tua diwedd 1810. Treuliodd ran helaeth o'i flynyddau boreuaf gyda'i nain, Jane Jones, Tŷ mawr, Rhydfendigaid, yr hon oedd yn wraig grefyddol a rhinweddol. Bu yr amser a dreuliodd gyda'i nain yn dra manteisiol iddo, gan ei bod yn ofalus i feithrin ynddo duedd grefyddol, a'i gadw rhag cael ei lithio i ddilyn llwybrau ofer ieuenctyd y gymydogaeth. Tan feithriniaeth addysg dda, yn ddyddiol a Sabbathol, y cafodd efe ei ddwyn i fyny o'i febyd. Dywed un o'i hen gyfeillion am dano fel hyn;—"Yr oedd prif linellau ei brydferthwch wedi iddo ddyfod yn ddyn, i'w gweled yn eglur ynddo pan yn fachgenyn ieuanc; nis gwelais ef yn ymrafaelio â neb erioed; na, tangnefeddwr a fyddai ef bob amser." Pan oedd tua 14 oed, derbyniodd argraffiadau mwy grymus a dwys ar ei feddwl yn nghylch ei gyflwr ysprydol, yn adeg y diwygiad nerthol a dorodd allan yn nechreu 1825, ac a ymdaenodd dros lawer o ardaloedd sir Aberteifi, pryd y cafodd nifer lluosog eu dychwelyd at grefydd. Ymroddodd o hyny allan yn fwy penderfynol i wasanaeth crefydd. Yn ystod y ddwy neu y tair blynedd cyntaf o'i oes grefyddol, trigianai gartref, yn cynorthwyo ei rieni yn eu masnach. Yr oedd ei serchawgrwydd a'i hynawsedd yn y sefyllfa hono, yn enill iddo gyfeillion lawer. Yr oedd ganddo ddau gyfaill ieuainc neillduol, plant yr un diwygiad ag yntau, yn byw yn yr un pentref. Arferent gyfarfod â'u gilydd amryw nosweithiau yn yr wythnos, i gyd-ddarllen, i gyd-weddio, ac i bregethu i'w gilydd. Yr oeddynt ill trioedd yn llwyr fwriadu treulio eu hoes i gyhoeddi i'w cydwladwyr yr efengyl hono y cawsent hwy eu bywyd trwyddi. Enwau ei ddau gyfeillion hyn oedd, Evan Richards, a William Oliver. Bu farw y ddau cyn dechreu o honynt bregethu yn gyhoeddus. Cyfansoddodd Mr. Phillips alareb ragorol ar farwolaeth yr olaf, yr hon a argraffwyd yn *Lleuad yr Oes*, am 1828. Cynwysa syniadau da, a gwir farddonol, a llawn o deimlad tyner a hiraethus ar ol ei gyfaill. Ond ni ddarfu i Mr. Phillips feithrin y ddawn hon, ac ni wyddis iddo gyfansoddi dim ar gân, ond y farwnad dan sylw yn unig. Cyfeiriodd ei lafur a'i awyddfryd i ddefnyddio pob cyfleusdra er cyrhaedd gwybodaeth, fel ag i gymhwyso ei hun i'r gwaith pwysig yr oedd yn amcanu atto. Yn nghylch y pryd hwn yr oedd yr hen batriarch Williams o Ledrod, wedi symud i fyw i gymydogaeth Llangeitho. Ymddengys ei fod yn coleddu meddyliau uchel am ei gâr ieuanc. Wedi ymofyn yn fanwl yn mherthynas iddo, a chael ei fod yn tueddu yn gryf at waith y weinidogaeth, penderfynodd ar unwaith, oddiar y boddlonrwydd a gafodd ynddo, i'w gefnogi a'i gynorthwyo yn hyny. Mewn canlyniad, anfonodd ei gyhoeddiad y byddai yn pregethu ac yn cadw cyfarfod eglwysig yn Rhydfendigaid, ganol dydd gwaith, fel y byddai efe yn arfer gwneud yn fynych, pan y teimlai yn ddyledswydd arno i ymweled â rhai o eglwysi ei wlad ei hun. Aeth yno yn ol y cyhoeddiad, ac yn y Gymdeithas eglwysig ar ol y bregeth, rhoddodd achos y gwr ieuanc o flaen y frawdoliaeth, fel un yn dymuno cael caniatad i bregethu yr efengyl. Gan fod Mr. Phillips yn sefyll yn uchel yn ngolwg yr eglwys, fel dyn ieuanc crefyddol, derbyniwyd ei gais yn ddiwrthwynebiad, a'r nos Sabbath canlynol, pregethodd ei bregeth gyntaf. Yr oedd yn bregeth effeithiol, a chafodd yr eglwys gyflawn foddlonrwydd, er mai ieuanc ydoedd, ei fod wedi derbyn cenadwri o'r nefoedd, a bod ganddo allu i'w thraddodi. Yr oedd Mr. Phillips cyn hyn wedi bod am ryw gymaint o amser, ond nid gyda llawer o gysondeb, yn hen ysgol enwog Ystradmeurig, yr hon oedd yn agos i'w gartref. Yr oedd hefyd wedi gwneud defnydd da o lyfrgell a berthynai i gymydog iddo, o'r enw Dafydd Morgan. Yn 1829, yr oedd y Dr. Edwards, yn bresenol o'r Bala, y pryd hwnw yn wr ieuanc, yn cadw ysgol yn Llangeitho, a bu Mr. Phillips am beth amser dan ei addysg ef yno. Dangosodd yn fuan iddo fyned i Langeitho, nid i segura, ond i ddysgu; ac yn yr adeg hon y ffurfiodd cyfeillgarwch rhwng yr athraw a'i ddysgybl, nad yw angau ei

Digitized by Google

hun yn ddigonol i ddiddymu ei heffeithiau. Tua diwedd y flwyddyn hono, ymadawodd Mr. Edwards o sir Aberteifi, a chafodd Mr. Phillips, ar ol bod yn llafurio am ryw yspaid yn y sir hono, ei benodi gan Gyfarfod Misol y sir, fel Cenadwr yn Rhaiadr Gwy, sir Faesyfed. Bu yno am flwyddyn, neu ychwaneg, yn cadw ysgol ddyddiol, ac yn pregethu yn y dref a'r gymydogaeth, a bu ei lafur a'i ymddygiadau yn foddion i enill ffafr y trigolion at grefydd a'i chanlynwyr i raddau mawr. Yn nechreu haf, 1832, aeth Mr. Phillips ar gyhoeddiad drwy ranau o siroedd Meirionydd, a Chaernarfon; ac yn niwedd yr un flwyddyn, cymerodd daith arall i'r Gogledd, a maes y rhan fwyaf o hono ydoedd sir Fôn. Yr oedd yn pregethu yn anarferol o rymus ac effeithiol, i gynulleidfaoedd lluosog, yn mron yn mhob lle—yr oedd ei faterion yn gymhwys, ei lais yn bêr-seiniol ac ystwyth, a'i holl ddull yn gwneud i'r bobl wrandaw a theimlo. Effeithiodd ei lafur ar ei iechyd, fel y clafychodd ar ei daith yn Mon; ond wedi rhyw yspaid, gwellhaodd yn ddigon da i fyned i Gymdeithasfa Llanrwst, a gynelid Ion. 3, a 4, 1833. Pregethodd yno yn nodedig o dda; ond yr oedd efe yn edrych mor wael, fel yr ofnai amryw nad oedd ond ychydig amser iddo i fyw, yr hyn oedd yn peri cydymdeimlad dwys a chyffredinol tuag ato. Yn neillduol, y boneddwr caredig, John Davies, Ysw., o'r Fronheulog, gerllaw y Bala, a'i cymhellodd i fyned gydag ef i'r Fronheulog, i orphwys am rai wythnosau, er mwyn adgyfnerthiad iechyd. Ond ni fynai Mr. Phillips orphwys oddiwrth bregethu. Pregethai yn Llandderfel, a'r Bala, ac yn amryw o gapelau eraill Penllyn ac Edeyrnion, gydag effeithioldeb arbenig; ac yr oedd yr holl wlad yn cyrchu ar ei ol. Parodd ei boblogrwydd i rai deimlo yn eiddigus tuag ato, ac i gymeryd mantais ar rai ymadroddion anochelgar, ond digon diniwaid o'i eiddo, mewn pregeth yn Llwyneinion, oddiwrth Esa. xlix. 20, i'w feirniadu yn lled wawdlyd ac anheg, mewn llythyr yn y Dysgedydd, yr hwn a atebwyd gan ei gyfaill, Dr. Edwards; ond mae yr ymdrafodaeth hono wedi hen fyned heibio, fel na wneir ond ei chrybwyll yma, gan i olygydd parchus y cyhoeddiad crybwylledig, roddi terfyn arni hefyd yn fuan. Y gyfeillach a ddechreuodd y pryd hwn rhwng Mr. Phillips a Mr. Davies, a'i foneddiges deilwng, a barhaodd hyd y diwedd. Yn fuan ar ol hyn, penderfynodd ei gyfaill Edwards, ac yntau, fyned i Brifysgol Edinburgh. Aethant yno ar eu cyfrifoldeb eu hunain, heb gael ond ychydig o gefnogaeth oddiwrth eu brodyr crefyddol, rhag i ddysg athrofaol niweidio eu defnyddioldeb. Dywedai y Parch. T. Richards, Abergwaun, wedi iddynt orphen eu hamser yno, yn debyg i hyn am danynt:—"Yr oeddem mewn pryder mawr wrth weled Edwards a Phillips yn myned i Edinburgh; ond yn awr yr ydym yn gallu diolch o'n calon i'n Tad nefol, am yr addurniadau gwerthfawr a roddodd y nefoedd ar eu hysbrydoedd, trwy lafur y Dr. Chalmers gyda hwynt." Ysgrifenai Dr. Edwards am yr adeg hono fel hyn:—Bum yn cyd-lettya ag ef yn Edinburgh am ranau o dair blynedd; ac yn yr holl amser hwnw, ni welais ddim a barodd i mi ammheu uniondeb a phurdeb ei egwyddorion. Yr oedd efrydwyr eraill yn lletya yn yr un tŷ," a byddent yn dyfod atom i gadw addoliad teuluaidd yn gyson. Weithiau, pan fyddai yr amser yn caniatau, caem ychydig ymddiddan tra buddiol a difyr; ac ar y cyfryw achlysuron, yr wyf yn sicr eu bod oll yn teimlo nad oedd yr un o honynt mewn cryfder meddwl yn rhagori ar Mr. Phillips. Byddwn bob amser yn tueddu i feddwl fod Mr. Phillips yn fwy dyn mewn ymddiddan nag yn y pulpud. Gŵyr pawb pa fath un ydoedd fel pregethwr; ond nid oes neb wedi ei weled yn gyflawn, na chafodd dreulio llawer o amser yn ei gyfeillach. Heblaw ei fod yn bwyllog a boneddigaidd, yr oedd yn meddu hefyd ar lawer o graffder, a llawer o gryfder. Yn Mai 1835, symudodd Mr. Phillips i Dreffynon, mewn cydsyniad a'r alwad arno i gymeryd gofal yr eglwys yno. Mae yn debyg mai efe oedd y cyntaf yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru, a ymgymerodd a bugeiliaith eglwys neillduol, a gellir dywedyd i'r prawf cyntaf hwn droi allan yn dra llwyddianus. Gofalai yn neillduol am y bobl ieuainc; arferai gynal cyfarfod darllen gyda hwynt yn wythnosol, ar nos Sadwrn, oddieithr pan fyddai oddicartref ar ei deithiau, i'w hyfforddi yn athrawiaethau crefydd. Pregethai ar brydiau yn nghonglau yr heolydd; a thrwy hyny, enillai lawer o'r dosparth isaf o'r trigolion, i wrandaw yr efengyl. Yn ystod ei arosiad yn Nhreffynon, bu yn dra ymdrechgar i ddileu y ddyled drom oedd ar eu capel; ac yno yr oedd, pan gafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, yn nghymdeithasfa y Bala, yn Mehefin, 1837. Yn nechreu 1843, gadawodd Mr. Phillips Dreffynon, wedi bod yno yn agos i wyth mlynedd, a symudodd i sir Fôn, i gartref Mrs. Phillips. Yr oedd efe wedi priodi, flwyddyn neu ddwy cyn ymadael o Dreffynon. Yn y flwyddyn hon cafodd ei benodi gan y *British and Foreign School Society*, yn oruchwiliwr i'r Gymdeithas dros Ogledd Cymru, mewn canlyniad i ymdrechiadau Hugh Owen, Ysw., o Lundain, yn achos addysg rydd ac anmhleidiol, mewn cysylltiad a'r Gymdeithas hono. Yn 1847, sef wedi derbyn y penodiad hwn, efe a ymsefydlodd yn Mangor, lle y preswyliodd am y gweddill o'i oes. Yr oedd pwyllgor y Gymdeithas uchod yn derbyn yn flyneddol i'r Coleg Athrawol yn y Borough Road, Llundain, nifer o wyr ieuainc o Gymru, i'w parotoi yn ysgolfeistriaid. Cafodd 166 eu haddysgu yno o'r flwyddyn 1844 hyd 1858, ond er cymaint y nifer, yr oedd yn fyr i ddiwallu angen y wlad. Yr anhawsder i gael athrawon wedi eu hyfforddi i'r gwaith, a arweiniodd i sefydliad y Coleg Athrawol yn Bangor, gyda'r hwn y llafuriodd Mr. Phillips yn effeithiol am flyneddoedd, nes gorphen yr adeilad brydferth, a gosod i fyny beirianwaith hyfforddiadol ynddo mewn llawn, a llwyddianus weithrediad. Yn Ebrill, 1856, y bu yr ymdrafod cyntaf am gael Coleg Athrawol i Gymru. Costiodd yr adeilad &c., 13,000*p.*, ac ni chafwyd ond 2000*p.* gan y Llywodraeth; yr oedd yn eisiau felly 11,000*p.*, a disgynodd y gorchwyl o gasglu y swm dirfawr hwn ar Mr. Phillips. Agorwyd y sefydliad yn Ionawr, 1858, mewn ystafelloedd ardrethol, ac fe'i dygwyd yn mlaen felly, tra y buwyd yn adeiladu, ac yn Awst, 1862, pan oedd yr adeilad yn barod, symudwyd yr efrydwyr i'r coleg. Yn fuan wedi hyny, darfu i'r pwyllgor benodi Mr. Phillips i fod yn llywydd y sefydliad, yr hon swydd a gyflawnodd efe yn ddiwyd a gofalus, a gwyddis yn dda ei fod yn bryderus am lwyddiant ac effeithiolrwydd y coleg hyd y diwedd. Traddododd Mr. Phillips rai darlithiau tra rhagorol, yn enwedig y ddwy a draddododd ar yr achlysur canlynol, a gymerodd le yn 1850. Dyna y pryd yr enciliodd arglwydd Fielding (yn awr Iarll Dinbych) at Babydd-

Digitized by Google

iaeth. Parodd yr amgylchiad hwn gyffro mawr yn y wlad; ac mewn erthygl olygyddol ar y mater yn y *North Wales Chronicle*, sylwodd y Golygydd, er bod yn ddrwg ganddo am enciliad arglwydd Fielding at Babyddiaeth, y buasai iddo droi at Ymneillduaeth yn "ddrwg mwy." Traddododd Mr. Phillips mewn canlyniad i'r sylw hwn, ddarlith boblogaidd, ar "Babyddiaeth, Eglwysyddiaeth, ac Ymneillduaeth," yn y Tabernacl, Bangor, Tachwedd 19, 1850, i gynulleidfa dra lluosog. Parodd y ddarlith hon gynwrf rhyfeddol. Cynyrchodd ddadleuon ar y mater mewn llawer ardal, ac yn enwedig trwy y wasg Gymreig, a Seisnig; a diamheu i Ymneillduaeth gael ei gosod trwy yr amgylchiad, ar dir llawer uwch yn Nghymru. Traddododd ddarlith alluog arall yn yr un lle, Ion. 7, 1852, ar "Eglwys Loegr, ac Ymneillduaeth," mewn ffordd o amddiffyniad i'r gyntaf, ac mewn atebiad i lythyrau lawer, gan offeiriaid Pabyddol, ac ereill yn y newyddiaduron. Mae y ddwy hyn yn argraffedig, a gellir dweyd fod eu cyfansoddiad, a'r traddodiad o honynt yn feistrolgar dros ben. Gadawodd rai canoedd o bregethau ysgrifenedig ar ei ol; y mae cryn nifer o honynt wedi eu hysgrifenu yn gyflawn a manwl, ac yn eu plith, dybygem, ei bregethau mwyaf nodedig ac effeithiol. Yr oedd wedi enill iddo ei hun radd uchel, a safle bwysig yn y Cyfundeb crefyddol y perthynai iddo, ac etholwyd ef yn Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd am y flwyddyn 1864. Yr oedd yn wr llednais a boneddigaidd, yn hynod am ei ddoethineb a'i bwyll, yn gydwybodol ei egwyddor, ac yn rhyddfrydig ei ysbryd, a meddai gymhwysder mawr i drin materion dyrus, ac i dawelu ymrysonau. Byddai ei wasanaeth yn aml o werth mawr, pan fyddai achosion o bwys i gael eu trin. Gwnaeth lawer o les i eglwysi y wlad dan amgylchiadau o'r fath. Yr oedd hefyd yn ddiweddar, wedi derbyn gwahoddiad caredig a thaer oddiwrth Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn America, i dalu ymweliad â hwynt yno, a theimlai yntau yn dra awyddus i fyned, mor fuan ag y buasai amgylchiadau yn goddef. Ond yn y cyfamser, symudwyd ef oddiwrth bob llafur daearol. Yr oedd ei farwolaeth yn dra annysgwyliadwy i bawb. Ni bu yn glaf ond tua thair wythnos, ac yr oeddid yn gobeithio am ei adferiad hyd o fewn ychydig i'w ddyddiau olaf. Yr oedd ei gyfansoddiad naturiol yn gryf a chadarn, fel yr oedd yn alluog i fyned trwy lawer o waith; ond credir fod ei lafur caled a pharhaus yn ei wanhau yn raddol, ac yn effeithio yn ddirgelaidd i brysuro ei ymadawiad. Bu farw Hydref 9, 1867, yn 57 oed, ac wedi bod yn pregethu tua deunaw mlynedd a'r hugain. Gadawodd weddw, a phump o blant i alaru ar ei ol, a chylch eang o gyfeillion i gydymdeimlo â hwynt. Fel dyn cyhoeddus, a dyn i'r genedl, parodd y newydd am ei farwolaeth brudd-der cyffredinol. Gellir dywedyd iddo ymadael â'r byd mewn tawelwch mawr; y prif beth oedd ganddo mewn golwg yn ei oriau olaf, oedd gogoneddu Duw trwy ymddiried ynddo hyd y diwedd, ac yn y diwedd. Yr oedd y teulu ar y pryd yn aros mewn tŷ o'r eiddynt, yn Brynteg, Môn, ac yno y gorphenodd efe ei yrfa. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn Llaneugrad, yr hon a saif mewn pant o'r neilldu, yn amgylchedig â choed, mewn ardal hynod o anghysbell. Yno y mae claddfa teulu Mrs. Phillips, ac yno y claddesid amryw o'u plant, a fuont feirw yn eu mabandod. Yr oedd y claddedigaeth yn anrhydeddus, ac anarferol o fawr; yr oedd miloedd o gyfeillion wedi dyfod yn nghyd, a llawer o honynt o bell ffordd, i arddangos parch eu calonau i'w goffadwriaeth. Gweinyddwyd wrth y tŷ, gan y Parch. Owen Thomas, a Dr. Edwards, a phrin yr oeddynt yn gallu myned ymlaen, gan mor ddrylliedig oedd eu teimladau. Darllenwyd y gwasanaeth yn y Llan wrth y bedd, (gan fod yr hen eglwys ar y pryd dan adgyweiriad) yn deimladol iawn gan y Parch. James Morris, periglor y plwyf. Ar ol cyfarchiad byr a thra phriodol i'r amgylchiad, gan y Parch. Henry Rees, a chanu gair o hymn, gadawyd yr hyn oedd farwol o un o wroniaid Cymru, i huno yn dawel, yn ei "argel wely" hyd fore mawr y deffroad cyffredinol, wrth alwad yr udgorn diweddaf.

**PHILLIPS**, John Thomas, ydoedd frodor o Lansawel, sir Gaerfyrddin. Bu yn athraw i William, duc Cumberland, ac aelodau eraill o'r teulu breninol. Yr oedd yn awdwr epistolau Lladin rhagorol. Gadawodd yn ei ewyllys 60*p.* yn y flwyddyn, tuag at gynal ysgol rad i blant tlodion ei blwyf genedigol; ond bu farw cyn arwyddo yr ewyllys, ac felly collwyd y gwaddol.

**PHILLIPS**, Morgan, a anwyd yn sir Fynwy, ac a dderbyniwyd i Rydychain yn 1533. Cynnyddai yn anarferol o gyflym mewn rhesymeg ac athroniaeth, ac yr oedd yn ddadleuydd mor graff a galluog, fel yr adwaenid ef pan nad oedd ond Gwyryf yn y Celfyddydau wrth yr enw "Morgan the Sophister." Yn 1538 etholwyd ef yn Gymrawd o Goleg Oriel; ac wedi cymeryd ei raddio yn M.A., rhoddwyd iddo urddau cyssegredig. Yn 1546, gwnaed ef yn benaeth coleg St. Mary's Hall; a thair blynedd ar ol hyny, yr oedd yn un o'r tri a ymgymerasant ddadleu yn gyhoeddus yn yr ysgol dduwinyddol, yn erbyn Peter Martyr. Yn 1550, rhoddes ei swydd o benaeth i fyny, ac efe ar y pryd yn B.D.; ac yn 1553, penodwyd ef yn gantor prif-eglwys Tyddewi, gan y frenhines Mari. Yn 1559, sef yn fuan ar ol esgyniad y frenhines Elizabeth, gadawodd ei swydd, ei gyfeillion, a'i wlad, er mwyn ei grefydd; a bu yn trigianu mewn gwledydd tramor, fynychaf yn Douay. Yr oedd yn awdwr amrai lyfrau, ac yn eu plith:—(1) "*Disputatio de Eucharistae Sacramento,*" 1549; (2) "*Defence of the Honour of Mary, Queen of Scotland, with a Declaration of her Right, Title, and Interest to the Crown of England,*" 1571; (3) "*A Treatise showing the Regimen of Women is Conformable to the Law of God, and Nature,*" 1571. Argraffwyd y ddau waith olaf yn Liege, a'r blaenaf yn Llundain. Bu farw yn Douay, yn 1577.

**PHILLIPS**, Peregrine, a anwyd yn Amroth, sir Benfro, yn 1623. Yr oedd ei dad yn ficer y plwyf hwnw, sonir am dano fel hen Buritan da, a dywedir iddo ddioddef am nacau darllen Llyfr y Chwareuon. Addysgwyd ef gyntaf yn ysgol gyhoeddus Hwlffordd; yna gan gaplan Syr Edward Harley, yn Bampton Bryan, sir Henffordd; a thrachefn dan Dr. William Thomas, wedi hyny esgob Tyddewi; oddiyno aeth i Rydychain, lle yr arosodd hyd doriad allan y Rhyfel Cartrefol. Gweinyddodd gyntaf fel curad i'w ewythr, Dr. Collins, offeiriad Cydwelly, sir Gaerfyrddin, o ba le y symudodd i fywioliaeth Llangwm, ger Hwlffordd, lle y trigianodd am lawer o flynyddau. Tynwyd sylw boneddigion yr ardal yn fuan at ei alluoedd, a phenderfynwyd ei ddyrchafu i ryw le mwy cyfaddas i'w gymhwysderau. Mewn canlyniad darfu i Syr Hugh Owen, Syr Roger Sort, a Syr John Meyrick, rhoddi iddo fywioliaeth Monkton, ger Pen-

Digitized by Google

fro; a thrachefn St. Mary's, yn y dref hono; ac hefyd yr eiddo Cocheston. Pregethai dair gwaith bob Sabbath yn y manau hyn, gan wneud daioni mawr. Ystyrid ef y pregethwr goreu yn yr holl barthau hyny; a phan y daeth Olifer Cromwell i Benfro, yn 1648, dymunodd arno bregethu yn un o'r eglwysi crybwylledig, ger bron swyddogion ei fyddin; ac enillodd ganmoliaeth mawr o'r herwydd, a chafodd ffafrau lawer oddiar law arwr y werin lywodraeth. Bu wedi hyny, fel yr oedd amgylchiadau yn caniatau, ar daith trwy y sir, gan bregethu yn Nghymraeg a Saesoneg; ac hefyd ger bron ynadon brawdlysoedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Hwlffordd. Yn ystod gwarchaeaeth Penfro, cafodd P. Phillips waredigaethau hynod, gan ei fod yn byw gerllaw y castell. Yr oedd y milwyr yn yspeilio oddi arno bob peth bwytadwy, a byddai raid iddo roddi pob dyfais ar waith, er cuddio ei luniaeth rhagddynt. Dywedir fod yn rhaid iddo un tro, gornelu ei unig fuwch yn yr ysgubor, a'r ychydig flawd oedd yn ngweddill, yn y gobenydd, a rhwng y llaeth o'r ysgubor, a'r blawd o'r gobenydd, llwyddwyd i gadw eneidiau a chyrph y teulu wrth eu gilydd, am beth amser, pan oedd dinystr, anrhaith, a newyn, yn amgylchynu ei drigfan. Yr oedd efe yn un o'r dirprwywyr a benodwyd i archwilio i gyfaddasder yr offeiriaid yn Nghymru; a phrofodd yn y swydd hono, ei fod yn ddyn addfwyn a chymedrol. Pan fwriwyd ef allan o'i fywioliaeth gyda'r Ddwy Fil, gan lywodraeth Siarl II., efe a ymneillduodd i dyddyn ger Hwlffordd, o'r enw Dredgeman Hill. Trefnodd ran o'r tŷ hwnw yn fan i addoli ynddo, a dygódd hyn ef i afael erlidigaeth greulon, a charcharau chwerwon. Byddai cofnodi rhestr o honynt yn ddigon i godi gwrid i wyneb y gormeswr mwyaf caled. Er gwaethaf pob peth, pa fodd bynag, ni chiliai efe oddiar lwybr ei ddyledswydd, ac y mae ei rinweddau yn y cyfnod hwnw, yn rhoddi rhyw fawredd cysegredig ar ei gymeriad. Yn Mawrth, 1668, sefydlodd eglwys yn ei dy. Pan ddeddfwyd cyfraith y Goddefiad, yn 1687, darparwyd lle o addoliad yn nhref Hwlffordd; ac arferai yntau bregethu bob nos Sabbath yn y dref, a'r bore yn ei dŷ ei hun. Cofrestrwyd tŷ cwrdd Hwlffordd yn ol gweithred seneddol, yn Ionawr, 1691; eithr bu y gweinidog ffyddlawn a llafurus farw yn y Medi canlynol, ac efe yn 68 oed. Claddwyd ef yn eglwys Haroldston,—gerllaw y pwlpud, medd traddodiad. Parhaodd yn rheng flaenaf milwyr y Brenin Mawr hyd ei farwolaeth, a phregethodd ddwywaith y Sabbath cyn ei farwolaeth; a'r pryd hwnw, yr oedd ei eglwys yn rhifo triugain o aelodau. Y mae ei ddisgynyddion o genedlaeth i genedlaeth hyd y dydd hwn, wedi bod yn enwog gydag achos crefydd. Ychydig flyneddau cyn ei farwolaeth, cafodd waredigaeth hynod, yr hon sydd yn haeddu cael ei chofnodi. Tra yn marchogaeth adref yn hwyr un noswaith, gerllaw Freystrup, lle y mae llawer o hen byllau glo, damweiniodd syrthio i un o honynt, yr hwn oedd yn lled ddwfn, ac yn haner llawn o ddwfr; eithr gan fod y pwll yn gulach tua chwe' llath o'i safn nag yn y top, glynodd y march yn y fan hono, a'r marchog ar ei gefn. Damweiniodd yn fuan i hen wraig fyddar, a'i wyres fach ar ei braich, ddyfod heibio y ffordd hono, a'r plentyn wrth glywed swn uchel, wedi cryn drafferth, a berswadiodd ei nain i fyned ac edrych yr achos o hono. Pan aeth i'r lle, cafodd allan sefyllfa beryglus Mr. Phillips, hysbysodd y ffaith, a thrwy gryn anhawsder, cafwyd yr efengylydd i'r lan. Yr oedd efe yn ymneillduwr cadarn, ond rhyddfrydig. Yn fuan wedi ei droad allan, bu dadl rhyngddo â Dr. Reynolds, yn nghylch seremoniau a dysgyblaeth yr Eglwys Sefydledig, yr hon a gymerth le yn Nghaerfyrddin; a bu un arall rhyngddo â'i hen athraw, yr esgob Thomas, yr hon a argraffwyd gan yr olaf, yn groes i fwriad, ac yn ddiarwybod i Mr. Phillips.

**PHILLIPS**, Thomas, D.D., gweinidog yr Annibynwyr yn y Neuaddlwyd, sir Aberteifi. Ganwyd ef Mawrth 29, 1772, mewn amaethdy o'r enw Scythlyn, yn mhlwyf Llanfihangel-ar-arth, sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei rieni yn bobl barchus iawn, ac yn aelodau o'r eglwys Gynulleidfaol yn Mhencadair. Bu ei dad, a'i daid o'i flaen, yn swyddwyr yn yr eglwys uchod am flyneddau. Yr oedd Thomas, er yn blentyn o duedd fyfyrgar, a sylwai yn fanol ar yr hyn a welai ac a glywai. Yr oedd argraphiadau dwysion ar ei feddwl am bethau byd tragwyddol er pan oedd yn saith mlwydd oed, pan yn gwrando Mr. Evans, Drewen, yn pregethu tua'r amser hwnw, oddiar 2 Cor. x. 4. Tua deng mlwydd oed, teimlodd argraffiadau a chyffroadau grymusach ar ei feddwl, wrth ganfod amryw bobl ieuanc yn ymuno a'r eglwys yn Mhencadair, yn enwedig y Parch. D. Davies, Abertawe, ag oedd y pryd hwnw yn wr ieuanc; ond efe a safodd allan yn hir wedi hyny. Trallodwyd ef yn fawr pan yn gwrando pregeth gan y Parch. Henry George, Brynberian, ar y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan; pryd y meddyliodd ei fod yn euog o'r pechod hwnw. Cafodd ei ddal yn y fagl hono am lawer o amser. Ond yn ngwyneb y trallod meddwl hwn, parhaodd i chwilio am wybodaeth, gan ddarllen pob llyfr y deuai o hyd iddo, gan fyned i wrando pob pregeth o fewn ei gyrhaedd; eto yr oedd yn methu dyweyd ei dywydd a'i deimladau wrth neb. Ond pan oedd y Parch. Jonathan Jones, o Rhydybont, yr hwn hefyd a weinyddai yn Mhencadair, ar un bore Sabbath, wrth y bwrdd yn gweinyddu Swper yr Arglwydd, efe a edrychodd i fyny i'r lloft, lle'r oedd Mr. Phillips, a dywedodd, "A ddeui di ddim at grefydd eleni?" ac atebai yn iaith y pechadur, "Deuaf y flwyddyn nesaf." "Hwyrach," ebe yntau, "y byddi farw cyn hyny." Ymaflodd hyn yn ei feddwl gyda'r fath ddwysder, fel y penderfynodd yn y fan, ac y dywedodd wrtho ei hun, "Deuaf yn awr," a thrwy gymhorth y nef, cyflawnodd ei addewid. Yn fuan wedi hyn, ymunodd a'r eglwys yn Mhencadair, pan tua deunaw mlwydd oed, lle y cafodd dderbyniad croesawus. Yn fuan wedi iddo wneyd proffes o grefydd, ymddengys i'w duedd flaenorol o ymroddi i waith y weinidogaeth Gristionogol, ymweled ag ef gyda nerth ychwanegol; a'i fynwes mewn canlyniad, a lanwyd o deimladau cymysglyd. Yn mhen amser daeth i'r penderfyniad doeth a dedwydd, o adael ei achos yn llaw Duw, ac i'r eglwys benderfynu drosto, ac na wnai ef na symud llaw, na dywedyd gair wrth neb am ei deimladau, na myned i un man, ond fel y byddo yr eglwys yn ei alw, neu yn ei gyfarwyddo, gan nad beth fyddai y canlyniad. Gwelodd yr eglwys yn Mhencadair yn fuan, fod ynddo gymwysder i'r weinidogaeth gyhoeddus; a rhoddwyd anogaeth unfrydol iddo arfer ei ddawn i bregethu; a cheisiasant gan y Parch. Jonathan Jones, wneud eu golygiadau yn hysbys iddo; yr hwn yn ei ddull hynod arferol, a ddywedodd wrtho, "Y maent yn dyweyd fy machgen i, fod yn rhaid i ti fyned yn drothwy iddynt." Nid oedd hwn yn ddull calon-

Digitized by Google

ogol nac anogaethol i wr ieuanc ddechreu ar y gwaith. Ond efe a gydymffurfiodd â chais yr eglwys, heb ameu dim nad llais Pen mawr yr eglwys ydoedd. Anfonwyd ef i athrofa Caerfyrddin, dan ofal y Parch. D. Peter, lle y treuliodd tua dwy flynedd a haner. Tra yr ydoedd yn yr athrofa, derbyniodd wahoddiad oddiwrth eglwys Ebeneser, Pontypool, yr hon ar y pryd oedd wedi ei hamddifadu o'i gweinidog, trwy farwolaeth y Parch. Edmund Jones; a thrwy gydsyniad ei athraw, ufuddhaodd i'w cais. Bu yno yn nghylch 6 mis, ond ni chydunodd yr eglwys i roddi galwad iddo ymsefydlu yn eu plith fel gweinidog. Wedi dyfod adref, bu mewn petrusder yn nghylch myned i Homerton; ond ar daer gymhelliadau y Parch. B. Evans, Drewen, ac ereill, efe a ymwelodd a Neuaddlwyd; ac wedi aros yno am ychydig amser, rhoddodd yr eglwys alwad unfrydol iddo ddyfod yn fugail arni. Ond yr oedd efe y pryd hwnw a'i fryd yn fawr ar fyned i athrofa Homerton, fel na roddodd iddynt ateb cadarnhaol hyd Wanwyn y flwyddyn 1796. Urddwyd ef, Ebrill y 6ed, y flwyddyn hono, pan yn 24 mlwydd oed. Parhaodd i lafurio yn y Neuaddlwyd, a lleoedd ereill, am 46 o flyneddau, sef hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Rhagfyr 23, 1842. Ymunodd mewn priodas a merch ieuanc rinweddol iawn, gyda'r hon y cafodd lawer o gyfoeth. Efe a briododd ar yr un dydd o'r flwyddyn ag y ganwyd ef. Bu Mrs. Phillips yn ymgeledd gymhwys iddo, gan ei bod yn wraig hynaws, dawel, a haelionus, ac yn dylyn lletygarwch. Tua dechreu y flwyddyn 1810, penderfynwyd gan weinidogion yr Annibynwyr, i godi athrofa ramadegol a duwinyddol, yn benaf er mwyn y rhai oedd yn debyg o fod yn ddefnyddiol fel pregethwyr, ond yn rhy hen i gael derbyniad yn y colegau rheolaidd; ac hefyd er parotoi dynion ieuainc o gymwysderau gweinidogaethol, a fyddent yn ymgeiswyr am fanteision uwch yn yr athrofau ereill, yn Nghymru, a Lloegr. Yr oedd Mr. Phillips ar y pryd yn adeiladu yn agos i'w drigfa yn Mhenybanc, le i'w blant ei hun gael addysg; a dywedodd y gellid gwneud rhan o hwnw yn lle i'w chadw, nes y ceid ei well. Ar hyn penodwyd y Parch. J. Maurice, mab henaf y Parch. Phillip Maurice, yn athraw. Ond oblegid gwylder ei feddwl, gwrthodai gymeryd arno y fath orchwyl, heb i Mr. Phillips ymrwymo i gydddwyn rhan o'r gwaith; ac yn unol a thaer ddymuniad ei frodyr, efe a gydsyniodd. Ychwanegodd lawer at ei lafur, am weddill ei oes; oblegid bu farw ei gydweithiwr hoff yn fuan, a syrthiodd y gwaith yn gwbl arno ef. Yn y flwyddyn 1831, derbyniodd y radd o D.D., oddiwrth goleg Jersey Newydd, America, fel arwydd o barch i'w alluoedd a'i gymwysderau. Treuliodd fywyd hynod o weithgar a defnyddiol, rhwng darllen, myfyrio, pregethu, ysgrifenu, teithio, ac addysgu dynion ieuainc. Yr oedd maes ei lafur gweinidogaethol yn cyrhaedd o ymyl afon Llyfnant, terfyn sir Drefaldwyn, hyd Lanllwchhaiarn, yn isel yn sir Aberteifi. Efe ydoedd yr eangaf ei derfynau yn y Dywysogaeth. Un o brif ragoriaethau Mr. Phillips, oedd ei wresogrwydd, ei ddiwydrwydd, a'i lafur gyda'r Gymdeithas Genadol, a'i deimlad dwys dros sefyllfa druenus y paganiaid; ac anrhydeddwyd ef â braint uwchlaw neb yn Nghymru, drwy i dri o aelodau ei eglwys gael eu codi i fod yn Genhadon, i lafurio yn mharthau pell y byd, sef Jones, Bevan, a John, heblaw dwy o ferched o'i eglwys, a anfonwyd allan, a buont feirw ar faes eu llafur. Ni anghofiwn byth, y cyfarfod dyddorol, pwysig a hyfryd a gynaliwyd yn y Neuaddlwyd, ar neillduad y ddau flaenaf, ac yn Penrhiwgaled, ar neillduad yr olaf i waith pwysig y Genadaeth. Er na fu un o honynt byw nemawr o amser wedi myned i ben ei daith, bu y ddau arall yn llafurio yn hir, mewn diwrnod poeth iawn, nes y gorchfygwyd eu natur gan bwysigrwydd eu llafur. Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i waith, (1) "Pregeth ar 1 Cor. xv. 3," 1803; (2) "Pregeth ar Galatiaid iii. 19," 1808; (3) "Breniniaeth Crist, wedi ei hystyried mewn pregeth ar Luc i. 33," 1812; (4) "Natur Cyfamod Eglwys," 1815; (5) "Ychydig Fasgedeidiau o Sypiau Grawnwin," 1818; (6) "Ychydig o Loffion Grawnwin," 1826; (7) "Esboniad Byr ar y Testament Newydd," 1831; (8) "Gweddi yr Arglwydd, wedi ei hystyried yn ddwys, a'i hegluro yn amlwg," 1834; (9) "Ychydig o Hymnau Efengylaidd, ar Destynau Ysgrythyrol, a Phrofiadol."

**PHILLIPS**, Y Parch. Thomas, D.D., Gweinidog parchus a thra defnyddiol gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, oedd frodor o Lanymddyfri. Wedi ei ddwyn i fynu yn blentyn yn yr Eglwys Sefydledig, efe a ymunodd a'r Trefnyddion Calfinaidd pan yn dair blwydd ar ddeg oed, pan oedd yn dymhor o adfywiad crefyddol grymus yn y wlad hono. Dechreuodd bregethu cyn ei fod yn 16eg mlwydd oed, a chyn ei fod yn ddeunaw mlwydd oed, yr oedd efe wedi ei dderbyn yn aelod o Gymdeithasfa y Cyfundeb hwnw. Wedi bod yn Llanarthney, swydd Gaerfyrddin, am bedair blynedd, yn cadw ysgol, efe a aeth yn y flwyddyn 1826, ar gais Cymdeithasfa y Deheudir, yn Genhadwr i'r Gelli, swydd Frycheiniog; ac efe a ddechreuodd yr achos Seis'nig yno; a thrwy lafur dyfal a doeth, casglodd gynnulleidfa, a llwyddodd i gael Capel yno, ac un arall yn Clifford. Efe a neillduwyd i gyflawn waith y Weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Aberteifi, Awst, 1830. Yn nechreu y flwyddyn 1836, efe a ddaeth i gyssylltiad swyddol a'r Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor, fel Ysgrifenydd Taleithiol dros Gymru, a'r siroedd cyfagos yn Lloegr. Cyflwynwyd yr Adroddiad cyntaf o'i weithrediadau, gan Dr. Phillips, mewn Cynnadledd Flyneddol o Ysgrifenyddion Taleithiol, yn mis Chwefror, 1837. Dygai yr adroddiad hwnw y fath dystiolaeth bendant i ganlyniadau daionus llafur Dr. Phillips, yn nghyd â'r egni, y trefnusrwydd, a'r llwyddiant gyda pha rai yr oedd wedi cyflawni ei ddyledswyddau, fel ag i arwain y Cyfeisteddfod i'r penderfyniad unfrydol, fod y Gymdeithas wedi cael ei harwain gan Ragluniaeth, at foneddwr teilwng o'u hymddiried mwyaf trwyadl, ac un wedi ei gyfaddasu yn neillduol i roddi, o dan fendith Duw, wasanaeth gwerthfawr a pharhaus. Gan hyny, gofynwyd iddo ymgymeryd â'r swydd o Oruchwyliwr y Feibl Gymdeithas yn Nghymru; ac o'r pryd hyny hyd ei farwolaeth, bu yn gynnrychiolydd ffyddlawn, selog, a phoblogaidd i'r Sefydliad, â pha un y daeth ei enw i ddwyn cyssylltiad mor agos ac adnabyddus, ac am lwyddiant pa un y llafuriodd gyda hunanymwadiad mawr, a sel di ball, hyd derfyn ei einioes. Yr oedd y cymhwysderau a feddai Dr. Phillips,—cymhwysderau ag y darfu i amser a phrofiad eu cryfhau, a'u haeddfedu, y fath ag oeddynt yn ei gyfaddasu yn neillduol i'r gwaith a ofynid gan y Feibl Gymdeithas; yn gymaint a bod ei feddwl ef yn nodedig o ymarferol, ac awgrymiadol; nid yn fyrbwyll yn ei gynlluniau, nac anamserol yn ei benderfyniadau, ond yn dawel yn ei sylw ar ffeithiau.

Digitized by Google

ac yn glir yn ei rag-olwg ar ganlyniadau; ac o herwydd hyny, yn gyffredin, yn gywir yn ei farn. Yr oedd yn meddu gallu annghyffredin i drefnu, ac yn teimlo bob amser bod canlyniadau parhaol yn ymddibynu i fesur mawr, ar fod peth yn cael ei ddechreu mewn ffordd drefnus, ac ar egwyddor amlwg ac adnabyddus; o ganlyniad, tra nad oedd yn dibrisio ymdrechion unigol a gwasgaredig o blaid y Feibl Gymdeithas, ei amcan parhaus ydoedd sefydlu cyfundraeth reolaidd dros wyneb yr holl faes a ymddiriedasid i'w ofal; a bu fyw i weled canlyniadau oeddynt yn tra rhagori ar y gobeithion ehangaf a goleddasai pan ymgymerodd a'i waith—canlyniadau na's gallai un amser edrych arnynt, heb gael ei feddiannu gan deimladau o ostyngeiddrwydd dwfn, a diolchgarwch calon i Dduw, yr hwn a fendithiasai ei lafur mor rasol. Yr oedd pob peth yn cael ei wneuthur ganddo ef o gydwybod yn drefnus, yn ei amser, a'i le priodol; ac eto nid mewn ysbryd ffurfiol—nid i gadw at ffurf er ei mwyn ei hun, ond er mwyn gwneyd y defnydd goreu o bob mynyd o amser; ac felly yr oedd y gwaith yr oedd yn gallu myned drwyddo, yn fawr iawn. Yr oedd y synied a goleddai am yr amcan mawreddog sydd mewn golwg gan y Feibl Gymdeithas, yn peri iddo deimlo yn nyfnder ei galon fod ei swydd ef yn un gyssegredig, a'i lafur yn llafurwaith er gogoniant Duw, ac iachawdwriaeth dynion; ac yr oedd ei holl feddyliau, ei holl amcanion, a'i holl ddymuniadau, yn canoli yn y Gymdeithas a garai â chariad mor fawr. Hyrwyddo ei hamcanion hi, fel moddion i ledaenu gwybodaeth o'r Gwirionedd Dwyfol, a lluosogi ei fuddugoliaethau, oedd yr "un peth" a roddai unoliaeth prydferth i'w holl fywyd, ac a arddodai ei argraff ei hun ar ei holl ohebiaethau, ei weithrediadau, a'i ymddiddanion. Yr oedd yspryd siriol a charuaidd Dr. Phillips, yn ei gyfaddasu yn neillduol i greu dylanwad yn mhob cylch yn ffafr y Feibl Gymdeithas. Gan fod y Gymdeithas yn gweithredu yn annibynol ar, ac ar wahan oddiwrth bob cyfundebau eglwysig, ac yn ceisio ennill cydymdeimlad pawb sydd yn derbyn yr Ysgrythyrau Sanctaidd fel Datguddiad ysbrydoledig o feddwl Duw, y mae yn angenrheidiol i'w gweithrediadau gael eu llywodraethu gan ansectariaeth perffaith, a haelfrydigrwydd gwirioneddol; ac yn y peth hyn yr oedd Dr. Phillips yn gynnrychiolydd cywir a ffyddlawn i'r Gymdeithas. Heb erioed betruso yn nghylch, na gwyro oddiwrth y golygiadau gyda pha rai y dechreuodd ei fywyd crefyddol, gallai gydweithredu yn llawen a chalonog â holl ddysgyblion Crist; a rhoddid croesaw calonawg iddo ar ei ymweliadau, gan Eglwyswyr, ac Ymneillduwyr, yn ddiwahaniaeth.

Yn y flwyddyn 1853, gwnaed darpariadau er cynnal Jubili y Gymdeithas; ac adnabyddiaeth y Cyfeisteddfod o ddoethineb ymarferol Dr. Phillips, a'u tueddodd i'w ddewis ef, fel y gwr cymhwysaf i drefnu, ac i ddwyn i weithrediad y manylion aneirif y byddai yn rhaid eu penderfynu, a gweithredu arnynt; a chan hyny gwysiwyd ef i Lundain, ac ymddiriedwyd i'w ofal ddyledswyddau Ysgrifenydd y Jubili: ac nid gormod yw dywedyd, fod llwyddiant cynllun y Jubili, yr hwn a ddygodd y fath offrwm ardderchog i gyllidau y Gymdeithas, ac a roddodd arbenigrwydd adnewyddol i'w hamcanion a'i hawliau o flaen llygaid y cyhoedd, gan greu dylanwad, effaith yr hwn a deimlir hyd y dydd heddyw, yn ddyledus dan fendith Duw, i'r mesurau egniol, doeth, a phoblogaidd, a ddyfeisiwyd gan Dr. Phillips. Yr oedd y cyfnod hwnw iddo ef, yn un o bryder mawr, ac o lafur didor, oblegyd yn ychwanegol at ei lythyrau aneirif, a'i deithiau lluosog, yr oedd ei feddwl mewn llafur mawr ar y pryd, yn parottoi i ddwyn allan ei gyfrol Gymreig, "Llyfr y Jubili." Y pryd hwn hefyd y daeth i gydnabyddiaeth â'r foneddiges ragorol, Mrs. Raynard, i'r hon y mae tlodion Llundain dan y fath ddyled, a chydymdeimlad dyfnaf yr hon sydd wedi bod bob amser o blaid lledaeniad yr Ysgrythyrau. Arweiniodd y gyfeillach rhyngddynt i gyhoeddiad y llyfr dyddorol a defnyddiol hwnw, *The Book and its Story*, cyfrol sydd erbyn hyn wedi ei chyfieithu i amryw ieithoedd, ag sydd yn mhob man lle ei darllenir, yn ennill cyfeillion newyddion i'r Feibl Gymdeithas. Ar ol preswyliad o flwyddyn a haner yn Llundain, dygodd Dr. Phillips ei lafur mewn cyssylltiad a'r Jubili i derfyniad dedwydd, wrth ddwyn trwy y wasg, gyfrol o dan yr enw *Jubilee Memorial*, yn mha un yr adolygid gweithrediadau y flwyddyn, y cyfraniadau a dderbyniasid, y cynlluniau yr oeddid wedi eu cario allan, y dyddordeb a gynnyrchasid, a'r llwyddiant mawr oedd wedi hynodi y symudiad trwy yr holl wlad. Yna, dychwelodd Dr. Phillips at ddyledswyddau arferol ei ddosbarth, wedi derbyn diolchgarwch calonog ac unfrydol y Cyfeisteddfod, am y modd effeithiol yn mha un yr oedd wedi cyflawni y dyledswyddau pwysig, at ba rai y cawsai ei alw.

Yr oedd Dr. Phillips ar amryw amserau wedi coleddu dymuniad am ymweled â chyfandir America, os byth y byddai i Ragluniaeth agoryd y ffordd. Y mae yno drefedigaethau lluosog o Gymry wedi ymgasglu at eu gilydd, yn arfer yr hen iaith, ac yn glynu wrth egwyddorion ac arferion crefyddol gwlad eu genedigaeth; a buasai y Dr. Phillips yn foddion i ennyn y wreichionen gyntaf o gariad at achos y Beibl yn mynwesau llawer o honynt, y rhai a gofient gyda phleser serchog, am ei ddylanwad a'i gynghorion, ac a deimlent awydd cryf am iddo ddyfod ar ymweliad â hwy i'r wlad bell hono. Cymerodd Jubili y Feibl Gymdeithas Americanaidd le yn y flwyddyn 1866; a dymunodd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Gymdeithas hono, ar Gyfeisteddwyr y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor, anfon dirprwyaeth attynt, fel prawf o gyfeillgarwch a chydymdeimlad â'u chwaer Gymdeithas yn yr Unol Daleithiau. Yr oedd hwn yn gais na's gellid ei wrthod, ac nid oedd yn y Cyfeisteddfod y duedd leiaf i wneuthur hyny; ac wrth ymofyn am gynnrychiolydd teilwng, ymddangosai yn berffaith naturiol i ddewis at y gwasanaeth dedwydd ac anrhydeddus hwn, Ysgrifenydd Jubili y Gymdeithas ei hun. Gan hyny, dewiswyd Dr. Phillips, yn nghyd a'r Parch. T. Nolan, i ffurfio dirprwyaeth; ac wedi cyflawni y dyledswyddau uniongyrchol a ymddiriedasid i'w ofal, treuliodd beth amser mewn ymweled â'r sefydliadau Cymreig, lle y cyfarfyddodd â llawer o gyfeillion ei ieuenctyd, y rhai a dderbyniasant ei ymweliad gyda llawenydd mawr, ac a gawsant gyfle felly i adnewyddu argraphiadau eu hen wlad anwyl. Cymerodd Dr. Phillips fantais ar y cyfleusdra hwn, i wasgu ar eu meddyliau y pwys o wneyd ymdrechiadau rheolaidd i gynnal y Feibl Gymdeithas Americanaidd, â'r hon yr oedd newidiad gwlad wedi eu dwyn i gyssylltiad, ac amcan pa un sydd yn unrhywiol a'r eiddo Cymdeithas henach Prydain Fawr. Ar yr achlysur o'r ymweliad hwn â'r Unol Daleithiau, y derbyniodd ef

Digitized by Google

yn anrhydedd o'i raddio yn D.D. gan Brifysgol Caerefrog Newydd.

Tua dwy flynedd cyn ei ymadawiad, tarawyd Dr. Phillips gan afiechyd, yr hwn, i'w feddwl ef ei hun, oedd yn dwyn arwyddion peryglus a rhybuddiol. Ymadferodd oddi tan yr ymosodiad hwn, er ei fod i fesur wedi ei wanhau, ac wedi ei osod o dan attalfa gyda golwg ar ei lafur yn y dyfodol. Ond, gyda bod ei nerth yn dychwelyd, ymgymerodd drachefn âg ymrwymiadau lluosog a blinderus. Yr oedd yn bresenol yn Nghyfarfod blyneddol yr Ysgrifenyddion Taleithiol yn mis Chwefror diweddaf cyn ei farwolaeth, a llywyddodd y Gynnadledd, gyd a'i allu a'i ddoethineb arferol. Yr ydoedd hefyd yn bresenol yn y Cyfarfod Blyneddol, yn mis Mai; ac ni ellid gweled un pall yn ei egni, na diffyg yn yr ystwythder a'r sirioldeb yspryd hwnw ag oedd bob amser yn gweinyddu i daflu y fath ddymunoldeb a newydddeb o amgylch y gwaith i'r hwn yr oedd wedi ymgyssegru mor drwyadl. Yr oedd y ffarwel a gymerodd y pryd hwnw â Thy y Feibl Gymdeithas, yr hwn a hoffai mor fawr, a'r lle am lawer o flynyddoedd yr oedd wedi gwneuthur ei gartref ynddo yn Llundain, yn ffarwel am byth. Dychwelodd i'r wlad, wedi tynu iddo ei hun gynllun cyfres luosog o gyfarfodydd, y rhai y bwriadai eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Ond, cyn pen dau fis o'r pryd hwnw, cymerwyd ef yn glaf, a'i afiechyd a ddylynid âg arwyddion oeddynt yn peri anesmwythder mawr yn meddyliau ei gyfeillion: ond, yr oedd ei yspryd gobeithiol ef ei hun, yn peri iddo edrych ar yr ochr olau i bethau, a thybied mai rhyw achos amserol oedd yn peri ei ddyoddefiadau; ac ni's gallai ymgymmodi â'r meddwl am roddi i fynu ei hoff waith. Glynodd wrth waith pan y dylasai, er ei fwyn ei hun, ymattal. Cynnaliodd ei gyfarfodydd olaf yn mis Awst; ac erbyn hyny, yr oedd ei ddolur wedi cynnyddu yn y fath fodd, fel ag i roddi sail i'r ofnau mwyaf difrifol am y canlyniad. Aeth wythnosau heibio heb un cyfnewidiad er gwell; ond yr oedd mwy-fwy o wendid yn effaith naturiol ei anallu i gadw ei ymborth i lawr, a dechreuodd ei feddygon ofni fod ei afiechyd yn gyfryw, ag oedd tu hwnt i fedr dynol i'w symud. Yr oedd erbyn hyn yn angenrheidiol cadw oddiwrtho y trefniadau perthynol i'w ddosbarth, rhag terfysgu ei feddwl, er ei fod yn teimlo cymaint o ddyddordeb ag erioed yn ngwaith mawr y Gymdeithas. Yr oedd wedi ei orlenwi â llawenydd ar dderbyniad y newydd fod Rhufain o'r diwedd wedi ei hagoryd i Air Duw. Nid oedd lle mwyach wedi ei adael i obaith am ei adferiad, yn meddyliau y rhai a wylient gerllaw ei wely â thynerwch diball; eto, yr oedd y gobaith hwnw heb lwyr adael y dyoddefydd ei hun; ac yr oedd yn amlwg ei fod, trwy holl yspaid tawel ei afiechyd diweddaf, yn dyfeisio cynlluniau i wasanaethu amcanion y Gymdeithas gyda mwy o effeithioldeb nag erioed, mewn amser i ddyfod. Ar yr un pryd, yr oedd yn amlwg nad oedd yn cau ei lygaid yn hollol ar y sefyllfa beryglus i'r hon yr oedd wedi ei ddwyn; oblegyd ceir prawf yn y nodiad diweddaf a ysgrifenodd yn ei deithlyfr, yr hwn a gadwai yn wastad gyd a'r manylrwydd mwyaf, ei fod yn teimlo fod ei yrfa yn nesau i'r terfyn. Ar y 12fed o Hydref y gorphenodd ysgrifenu adroddiad o'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynnaliasai; a chan deimlo yr hyn oedd yn nesau, ychwanegodd mewn llaw ddi gryn, y geiriau toddiadol yma,—"Y Diwedd"—"Anrhydeddus a gogoneddus yw ei waith Ef." Wrth un o'r Ysgrifenyddion, yr hwn a ymwelodd ag ef ychydig ddyddiau cyn ei ymadawiad, dywedai gyda thawelwch mawr, os gwelai yr Arglwydd yn dda ei adferu eto, fod ganddo ddigon o waith; ond ychwanegai, gan gyfeirio at ei lafur pwysig a threulfawr yn y blyneddoedd a aethent heibio, y gweddai iddo bellach reoli ei lafur gyda mwy o ofal a doethineb. Ar yr un achlysur, dygodd dystiolaeth i'r pleser mawr yr oedd bob amser wedi ei fwynhau wrth hyrwyddo amcanion y Feibl Gymdeithas, ac i'r cysur cryf â'r hwn yr oedd ei enaid ef ei hun yn cael ei lenwi gan addewidion a gobeithion Gair Duw. Am y cennadwriaethau o gydymdeimlad a dderbyniai mor gyson oddiwrth y Cyfeisteddfod, yn gystal ag oddiwrth gyfeillion Cristionogol eraill, â pha rai yr oedd yn dwyn cyssylltiad, yr oedd yn teimlo yn dra diolchgar, a dywedai fwy nag unwaith, ei fod yn cael ei nerthu drwyddynt. "Yr wyf yn marw," eb efe wrth aelodau ei deulu, y rhai oeddynt wedi ymgasglu o amgylch ei wely, gan feddwl fod amser ei ymddattodiad wedi dyfod,—"Yr wyf yn marw yn ffydd yr Arglwydd Iesu Grist;" ac efe a fu farw fel y bu fyw, yn gorphwys ar "Y Graig" gyda hyder na chaniattawyd i amheuon nac ofnau ei siglo, na'i dywyllu.

Cymerodd marwolaeth Dr. Phillips le yn ei breswylfod ei hun, yn ninas Henffordd, ar ddydd Gwener, yr 28ain o Hydref, 1870, a gosodwyd ei weddillion marwol i orphwys yn mynwent Tupsley, ar y 4ydd o Dachwedd. Yr oedd yr Ysgrifenyddion yn bresenol ar ran y Cyfeisteddfod, a daeth lluaws mawr o gyfeillion dylanwadol, yn weinidogion ac eraill, yn nghyd o barthau pell o Gymru, yn gystal ag o Liverpool, a Manchester, i uno yn yr orymdaith angladdol o honynt eu hunain, er mwyn dangos eu cariad at, a'u parch i'r ymadawedig, ac i alaru am y golled ag y mae ymadawiad un mor anrhydeddus a defnyddiol, o angenrheidrwydd wedi ei achosi. Am Thomas Phillips, gellir mewn gwirionedd ddywedyd, "Gwyr bucheddol a'i dygasant i'w gladdu, ac a wnaethant alar mawr am dano ef."

**PHYLIP**, Hopcin Thomas, bardd rhwng 1590 a 1630. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

**PHYLIP**, Syr Phylip, o Emlyn, ydoedd offeiriad a phrydydd, yn byw rhwng 1440 a 1470. Ceir rhai o'i gynyrchion mewn ysgrifen.

**PHYLIP**, Phylip Sion, ydoedd fab i'r enwog fardd Sion Phylip, ac fel amryw eraill o'r teulu awenyddol hwnw, yn ymhwedd gyda cherdd a chân. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau ar gael, ac yn eu plith farwnad Maurice Wynne, o Foel y glo, Ysw., yr hwn a fuasai farw yn Hydref, 1673.

**PHYLIP**, Risiart, ydoedd fardd yn byw tua diwedd y ganrif 16, a dechreu yr 17. Yr oedd yn frawd i'r enwog fardd Sion Phylip. Mae rhai o'i gynyrchion ar gael mewn ysgrifen, yn mhlith y rhai y mae galareb ar farwolaeth Maurice Jones, Pen y Morfa, yr hwn a fu farw yn 1624.

**PHYLIP**, Sion, ydoedd fardd enwog o Ardudwy, Meirionydd. Efe oedd fab henaf Phylip ab Morgan ab Risiart Palcws, o deulu parchus a henafol yn, ac oddeutu Harlech. Yr oedd yn frawd i William, Dafydd, a Risiart Phylip; ac yn dad i Gruffydd, a Phylip Sion Phylip. Mae llawer o'i gynyrchion ar gael mewn ysgrifen. Bu farw yn y flwyddyn 1620, yn 80 mlwydd oed. Ceir ei linach yn *Lewis Dwnn's Heraldic Visitations*, a'r nodiadau i'r unrhyw gan W. W. E. Wynne, Ysw.

Digitized by Google

**PHYLIP**, WILLIAM, bardd enwog o Ardudwy, Meirionydd; ac yn ol rhai awduron, brawd i Sion Phylip, ond gwedir hyn gan ohebydd yn y Brython, v. 129, y hwn a ddywed nad oes rhith o sail i'r haeriad, heblaw fod y ddau yn Phylip. Gan na cheir unrhyw brofion tros y naill haeriad mwy na'r llall, nid oes ond eu cymeryd am eu gwerth. Yn ol y Brython, ganwyd ef yn Tynyberth, ger Talybont, Meirion, a dywedir fod ei dad, Phylip William yn hen ac oedranus, pan ei ganwyd, a mynai rhai y gellid ei dadu yn fwy godidog. Gan ei fod yn byw yn nyddiau terfysglyd y Rhyfel Gartrefol, ac yn freingarwr selog, cyfansoddodd farwnad deimladol ar ol Siarl I., yr hyn a ddygodd arno ŵg y Gwerinwyr. Atafaelwyd ei feddianau, a gorfu arno yntau, yn hen wr, 73 oed, ffoi am nodded i blith twmpathau eithin, a chilfachau clogwyni mynyddau Ardudwy. O'r diwedd, daeth i ryw gymod a'i elynion, a dychwelodd i'w gartref, sef yr Hendref Fechan. Pa fodd bynag, cafwyd allan nad oedd cymdeithas y grug a'r eithin wedi newid ond ychydig ar syniadau gwleidiadol yr hen fardd, ac fel cosb pellach arno, gorfodwyd ef i gasglu trethi Cromwell, yn ei gymydogaeth. Yr oedd yn anhawdd i ddichell dynion ddyfeisio cosb drymach arno, ond yr oedd yn rhaid i William Phylip ufuddhau, os na fynai gysgu ei nosweithiau drachefn yn mreichiau moelion clogwyni y mynydd-dir, neu mewn rhyw le arall a fyddai gwaeth fyth. Ond yr oedd gan yr hen fardd hefyd ei ffordd o dalu y pwyth. Pan yn tynu allan ei wŷs swyddol i hawlio y dreth gan ei gymydogion, dywedai,—

Dyma warant sant tan sel,—atolwg
Telwch yn ddiochel
Rhag i'r sant, a'i chwant ni chel,
Gethru a myn'd yn gythrel.

Y mae amryw o'i gyfansoddiadau wedi eu hargraffu yn y Blodeugerdd. Claddwyd ef yn mynwent Llandwywe, Ardudwy, lle y mae ei gareg fedd eto yn aros, ac arni y geiriau hyn, "W. PH. FE. XI."

**PHYLIP BRYDYDD**, bardd enwog, yn ei flodeu rhwng 1200, a 1250. Y mae chwech o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*; cywyddau anerch Rhys Ieuanc, a'i fab Rhys Gryg, tywysogion Deheubarth, ydynt; ac y mae marwnad Rhys Ieuanc yn eu plith, yr hwn a adawodd y byd hwn yn 1222.

**PHYLIP FEDDYG**, un o deulu Meddygon Myddfai, sir Gaerfyrddin, y rhai o dad i fab a fuont yn enwog am genedlaethau yn y gelfyddyd feddyginiaethol. Yr oedd yn disgyn o Riwallon, yr hwn oedd y cyntaf, hyd y gwyddis, a ysgrifenodd yn Nghymraeg, ar y gelfyddyd hono, a Phylip a helaethodd ac a gywirodd awduriaeth ei henafiad. Y mae eiliadon o'r ddau waith yn nghadw mewn llawysgrifen yn yr Amgueddfa Brydeinig; ac argraffwyd yr un diwygiedig yn ddiweddar yn Llanymddyfri, dan y teitl, "Meddygon Myddfai," a llawer o bethau dieithr a lledchwith, yn ngoleu yr oes hon, a gynwysa. Yr oedd Phylip yn byw rhwng 1330 a 1380.

**PHYLIP GRUFFYDD**, bardd o Ardudwy, Meirion, yn ei flodau yn y 17eg ganrif. Mab ydoedd i Sion Phylip y bardd, ar farwolaeth yr hwn yn 1620, efe a gyfansoddodd ei farwnad, yr hon, yn nghyda pethau eraill o'i waith, sydd ar gael mewn ysgrifen. Canodd awdl ar briodas Owen Wynne, o'r Glyn, yn 1661.

**PICKHILL**, trefgordd yn mhlwyf Bangor, swydd DINBYCH, ar lan yr afon Dyfrdwy, 4¼ milldir i'r de ddwyrain o Wrecsham. Gwerth ardrethol, 2812*p*. Poblogaeth, 175. Tai annedd, 36.

**PICTON**, trefgordd yn mhlwyf Llanasa, swydd FFLINT; 5¼ milldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon. Y mae yn cynnwys treflan Glan yr afon. Poblogaeth, 565.

**PICTON**, SYR THOMAS, G.C.B., ydoedd ail fab John Picton, Ysw., o Poyston, swydd Benfro, lle ei ganwyd yn 1758. Er mai efe oedd y mab ieuangaf, ettifeddodd lawer o gyfoeth ar farwolaeth ei fam. Dewisodd fywyd milwraidd; ac yn Rhagfyr, 1771, gwelwn ei enw yn llumanwr yn y 12fed gatrawd o wŷr traed. Ymroddodd gyda dyfalwch canmoladwy i ddeall dysgyblaeth ei alwedigaeth; a chafodd lawer o hyfforddiadau gwerthfawr gan ei ewythr, yr isfilwriad Picton, dan yr hwn y gwasanaethai. Yn Mawrth, 1777, dyrchafwyd ef yn is-gadben; a chan ei fod wedi blino ar wasanaeth gwarchlu yn Gibraltar, lle y gwersyllai ei gatrawd ar y pryd, efe a'i gadawodd, gan ymuno a'r 75ain, ac yn Ionawr, 1778, cawn ei fod wedi ei ddyrchafu yn gadben. Yn y flwyddyn 1783, pan leihawyd y fyddin, yr oedd y gatrawd 75 yn aros yn Nghaerodor; a pharodd son am y cyfnewidiad lawer o anfoddlonrwydd, a thorodd gwrthryfel allan yn mhlith y milwyr; ond llwyddwyd i'w ddarostwng, trwy ymddygiad gwrol Cadben Picton, am yr hwn wasanaeth y talodd y brenin ddïolchgarwch iddo, gan addaw ei ddyrchafu; ond annghofiwyd yr addewid yn fuan; ac wedi i'r gatrawd gael ei chwalu, ymneillduodd Picton ar haner tâl i swydd Benfro, lle yr arhosodd am ddeuddeng mlynedd, yn ymblesern yn nifyrion helwriaeth, yn efrydu yr awduron clasurol, ac yn enwedig, yn ei berffeithio ei hun yn nghelfwaith rhyfel. Ar doriad allan y rhyfel, yn 1793, ceisiodd amryw weithiau gael rhyw bennodiad yn ngwasanaeth ei wlad; ond, wedi ei omedd drachefn a thrachefn, trwy attebion mwys a boneddigaidd, efe a hwyliodd ar ei draul ei hun yn 1794, i'r India Orllewinol, lle yr oedd Syr John Vaughan yn gadlywydd, â'r hwn yr oedd efe yn gydnabyddus. Cydsyniwyd a'i ddymuniad yno yn ddïoed, ac yr oedd yn dda gan Syr John ei ddewis yn gadweinydd, gan ei roddi ar yr un pryd yn swyddog yn yr 17 gatrawd; ac yn fuan fe'i dyrchafwyd i fod yn uch-gadben yn yr 68ain gatrawd, a phennodwyd ef hefyd yn rhaglaw y penlluestwr, (*Deputy Quartermaster-general*). Ar farwolaeth ei noddwr yn 1795, ymbarottodd Picton i ddychwelyd i Loegr; ond cymerwyd ef drachefn i ffafr Syr Ralph Abercromby, olynydd Syr J. Vaughan, ac yn India Orllewinol yr arhosodd ychydig yn hwy. Fel cadweinydd gwirfoddol Syr Ralph, bu o gynnorthwy mawr iddo yn ei ymosodiad ar St. Lucia; ac fel taledigaeth am ei wrhydri a'i wasanaeth ar yr achlysur hwnw, efe a bennodwyd yn rhagfilwriad yn yr 56ain gatrawd. Yn nesaf, cymerodd ran yn yr ymosodiad ar St. Vincent, ac ar derfyn y rhyfel-dymhor blin hwnw, dychwelodd gyda Syr Ralph i Loegr. Tua therfyn 1797, dychwelodd y ddau gyd a'u gilydd i'r India Orllewinol, ac yn fuan wedi cyrhaedd yno, dechreuodd y rhyfelawd yn erbyn Trinidad, yr hwn a derfynodd yn narostyngiad yr ynys hono, ac yn mhenodiad Picton yn llywydd arni. Tra yn llanw y swydd hono, llawnododd orchymyn i boenydio caethes, o'r enw Louisa Calderon, ar gais ynad Ysbaenaidd. Cydsyniodd â'r cyfryw gais am ei hysbysid fod hyny yn beth cyff-



Digitized by Google

redin; ond, gorfu arno sefyll prawf mewn llys cyfreithiol am y weithred hon, yn y flwyddyn 1806, a dyfarnwyd ef yn euog gan y rheithwyr. Ar ei ddychweliad i Frydain, gan fod llaweroedd o chwedlau cynhyrfus yn cael eu taenu am ei ymddygiadau, caniattawyd iddo brawf o'r newydd, yn wyneb yr hwn y cafwyd ef yn ddieuog o unrhyw drosedd bwriadol; ond er hyny arhosodd y weithred hono yn frycheuyn du ar ei gymeriad dysglaer.

Yn ystod ei brawf maith a phryderus, amlygwyd serch mawr ei geraint tuag atto, a chyfodwyd iddo luaws o gyfeillion caredig; cynnorthwyid ef yn haelionus gan ei ewythr, i gyfarfod y treuliadau trymion; ac yr oedd Dug Queensbury mor argyhoeddedig o'i ddiniweidrwydd, fel y cynnygiodd yntau wneyd yr un gymmwynas, ac yr amlygodd ddymuniad am gael dyfod i gydnabyddiaeth bersonol ag ef. Yr oedd ynys Trinidad, o dan lywyddiaeth y Milwriad Picton, wedi dyfod yn wrthymgeisydd masnachol mor lwyddiannus yn erbyn y Cyfandir cyffiniol, fel y cynnygiai llywodraethwyr Carracas, a Guyana, wobr o ugain mil o ddoleri am ei ben ef. Yn 1809, cymerodd Picton ran yn yr ymosodiad ar Flushing; a phan gymerwyd y dref hono, gosodwyd ef yn llywodraethwr arni. Dychwelodd oddiyno i Loegr, wedi ei wanychu yn fawr, gan dwymyn dost; ond ar ei adferiad, efe a ymunodd a'r fyddin yn Ysbaen. Amlygid ei wrhydri yn mhob amgylchiad, a pha le bynag y byddai yr ymladd calettaf, yno y gwelid ef yn ei elfen, yn nghanol y perygl mwyaf. Adwaenid ei gadran ef o'r fyddin, dan yr enw "y gadran ymladdol;" ac yn mrwydr ddychrynllyd Badajos, darfu i'r gadran hono gyflawni gorchestion mewn dewrder, ac angerddoldeb dieilfydd eu hymosodiadau hwy a enillodd y gaer, ac a sicrhaodd lawryf buddugoliaeth i fyddin Prydain Fawr. Yn mrwydrau mawrion Busaco, Vittoria, Ciudad Rodrigo, &c., yr oedd efe yn arweinydd buddugoliaethus, a chofnodir ei weithredoedd gwrhydrus gan hanesyddiaeth. Gan ei fod dan orfodaeth i ddychwelyd adref, er cael adferiad nerth ac iechyd, derbyniwyd ef yn anrhydeddus gan y Tywysog Raglaw, yr hwn a'i hanrhydeddodd âg urdd y Baddon; ond, efe a ddychwelodd yn fuan i faes y rhyfel. Ar derfyniad Rhyfel yr Orynys, cafodd Syr Thomas Picton ddiolchgarwch y Senedd, ac efe a ddychwelodd i'w balas, a'i ettifeddiaeth yn Nghymru. Yn 1815, efe a wnaed yn Farchog y Groes Fawreddog, (*Knight of the Grand Cross*); a hyny ydoedd yr anrhydedd olaf, ac uchaf a dalwyd iddo, tra y gwobrwywyd amryw o'i gydswyddogion, nad oeddynt, a dweyd y lleiaf, *yn fwy* haeddianol nag ef, âg eisteddle yn Nhŷ yr Arglwyddi!

Pan ddychwelodd Bonaparte o Elba, yr oedd yn anmhossibl i filwr mor wrolfrydig a Picton aros yn segur, a phennodwyd ef o ganlyniad yn llywydd y bumed gadran o'r fyddin. Gwasanaethodd ei wlad, a'i frenin yn ddewr yn y cyfryw swydd, a syrthiodd yn arwr, ac yn mreichiau buddugoliaeth, ar faes byth-gofiadwy Waterloo. Nis gwyddid hyd ar ol ei farwolaeth, ei fod wedi ei glwyfo, cyn wynebu i faes ei frwydr olaf; gan fod dwy o'i asenau wedi eu tori yn yr ysgarmes a gymerasai le y dydd blaenorol: ond yr oedd efe wedi celu y ffaith oddiwrth bawb ond ei hen wasanaethwr, yr hwn a rwymasai yr archollion i fynu; rhag y buasid yn erfyn arno ymgadw o'r frwydr, pe y gwybuasai ei gydswyddogion am ei gyflwr. Cwympodd, pan newydd droi yn ol un o'r ymosodiadau pwysicaf a wnaed gan y gelyn yn y frwydr ofnadwy hono. Dygwyd ei gorph i Lundain, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu, yn nghladdfa St. George's, Hanover Square. Penderfynodd y Senedd fod cofadail i gael ei chyfodi iddo yn eglwys gadeiriol St. Paul; a chyfodwyd un arall drwy danysgrifiad ei gyfeillion a'i edmygwyr, yn Nghaerfyrddin.

**PICTON CASTLE**, palas, yn nghanol swydd Benfro, ychydig o'r tu uchaf i ymuniad y ddwy Gleddau; 6¼ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Narberth. Y mae yn lle o gryn henafiaeth, yn gymaint ag y perthynai yn amser Gwilym Goch, i William de Picton.

**PIERCE**, Parch. Thomas, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Liverpool, a bardd o gryn deilyngdod. Ganwyd ef yn Ninbych Mai 24, 1801. Crydd oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, a brodor o Fachynlleth; ystyrid ef yn un o'r dynion gonestaf yn y dref, a bu yn aelod gyda'r Annibynwyr am lawer o flyneddau. Dygwyd Thomas i fynu yn yr un alwedigaeth, ac ymunodd a'r un enwad crefyddol â'i dad. Yr oedd yn fachgen meddylgar, a chyda ei gyfaill a'i gyfoed Caledfryn, ymddifyrai yn rhodfeydd yr awen, pan nad oedd ond plentyn. Wedi ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Ninbych, aeth i Fanchester, lle y bu yn gweithio am yspaid, a'r lle y priododd gydag un Ann Griffiths, ond bu hi farw yn mhen pumtheg mis ar ol hyny. Dychwelodd i Ddinbych ar ol y tro hwn, a dewisodd yr eglwys ef yn un o'i diaconiaid, ac yn 1826, galwyd arno i ddechreu pregethu. Rhoddes Caledfryn ac yntau brawf o'u cymhwysder i'r gwaith hwnw yn ystod yr un noson, ac anogodd yr eglwys gyda phob sirioldeb iddynt ganlyn yn mlaen. Yn ngwanwyn, 1827, aeth y ddau wr ieuanc ar daith, a thynasant gryn lawer o sylw. Priododd yn y Mai canlynol, âg Eleanor Roberts, o dref Dinbych, yr hon a fu yn wraig ffyddlawn a charuaidd iddo, trwy holl dymhor ei gystudd maith, hyd y diwedd. Yn fuan ar ol ei ail briodi, cafodd wahoddiad yr eglwys Annibynol Gymreig a gyfarfyddai yn *Greenland Street*, Liverpool. Cangen eglwys o'r Tabernacl ydoedd hon, ac nid oedd ei haelodau ar y pryd ond 35 o nifer. Urddwyd ef yn gyflawn weinidog, Rhagfyr 24, 1832. Llafuriodd Mr. Pierce yn galed iawn, wedi ymgysylltu a *Greenland Street.* Fel y gellid disgwyl, nis gallai y ddiadell fechan a fugeiliai, ei gynal yn gwbl oll, a chan hyny, am lawer o flynyddau wedi cael Parch. o flaen ei enw, bu ef yn dilyn ei hen alwedigaeth. Cynyddodd yr eglwys tan ei ofal, ac yn fuan aeth cortynau ei phabell yn rhy fach, ac yn Awst, 1837, gosodwyd careg sylfaen capel newydd i lawr yn Bedford Street, yr hwn a adwaenid wrth yr enw Bethel, a dyna fu man cyfarfod yr eglwys lewyrchus hono, hyd ddechreu 1868, pryd y symudodd i addoldy newydd hynod o brydferth, a saif yn Park Road. Rhywbryd tua 1844, aeth oddicartref am Sabbath, a rhoddwyd ef i gysgu mewn ystafell oer, a chafodd wely llaith. Mewn canlyniad, cafodd anwyd trwm, a chrygni, y methai am wythnosau gael gwared oddiwrtho. Ni bu byth gan gryfed dyn ar ol hyn; yr anwyd lleiaf a ddygai arno gaethder, a diffyg anadl, a chollodd i raddau mawr y pereidd-dra a'r nerth oedd yn ei lais. Er ei holl nychdod corphorol, yr oedd ei feddwl yn parhau mor fywiog, a'i yspryd mor ymdrechgar ag erioed. Ond enill tir arno yr oedd ei afiechyd yn barhaus, a byddai raid iddo dreulio rhan fawr o bob haf yn

Digitized by Google

Nghymru; ond yr oedd y gauaf, a Lerpwl, yn ei wanychu o flwyddyn i flwyddyn. O'r diwedd penderfynodd roddi ei ofal gweinidogaethol i fynu, yr hyn a wnaeth yn Nghorphenaf, 1856. Rhifedi yr eglwys y pryd hwn, oedd 250. Yn ngwyneb hyn, penderfynodd yr eglwys roddi punt yn yr wythnos iddo, tra y parhai yn analluog. Ni bu y gweddill o'i oes ond cyfnod o ddioddefaint, yr hwn a ddaliodd yn dawel ac ymroddgar i ewyllys Duw, ac a derfynodd yn ei angau tangnefeddus, Mai 30, 1857. Dilynwyd ei weddillion i gladdfa *Smithdown Lane*, gan dros fil o bersonau. Dygodd yr eglwys holl draul yr angladd, a chododd gofgolofn wedi hyny ar ei fedd. Traddododd ei gyfaill mynwesol, y Parch. William Rees, ei bregeth angladdol yn Bethel, i un o'r cynulleidfaoedd lluosocaf a fu erioed o fewn y muriau. Crybwyllasom eisioes, ei fod yn fardd o gryn fri. Y mae darnau tlysion odiaeth yn ei farddoniaeth, ond y mae yn amddifad o'r tân a nodweddagyfansoddiadau barddonol ei gyfaill Hiraethog, a'r dillynder iaith sydd yn addurno gwaith ei hen gyfaill arall, Caledfryn. Yr oedd ganddo yntau ei ffugenw, ond ychydig ddefnydd wnaeth erioed ohono, sef oedd hwnw, *Thomas Llwyd*. Bu yn llwyddianus mewn amryw gystadleuon o bwys; enillodd y wobr a'r tlws yn ail Eisteddfod Lerpwl, yn 1839, am yr Awdl oreu ar Haman a Mordecai, a'r flwyddyn ganlynol, cafodd y wobr yn Eisteddfod y Gordofigion, a gynaliwyd yn Lerpwl yn Mehefin 1840 am yr awdl oreu ar y "Rhuthr-wynt a ymwelodd a Lerpwl, a manau ereill o'r deyrnas, Ionawr 6 a 7, 1839," ac hefyd wobr Cymreigyddion Caerludd, yn 1841, am yr awdl farwnad oreu er cof am Syr Watkin Williams Wynne, barwnig, A.S. Enillodd y wobr am yr englyn goreu i'r Llwynog, yn Eisteddfod Aberffraw 1849; yn 1850, gwobrwywyd ef gan Eisteddfod Iforaidd Tredegar, am y farwnad oreu i'r Parch. J. P. Davies, gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn y dref hono; ac yn Eisteddfod Madog 1851, enillodd am yr awdl oreu er Coffadwriaeth am Dewi Wyn. Un o destynau Eisteddfod Llundain oedd Chwe Englyn i'w dodi ar feddfaen y Parch. John Elias, a dewiswyd un o'i rai ef at bump eraill, yn fuddugol. Cafodd dlws yn Nghyfarfod Llenyddol Porthmadog, yn 1856, am y cywydd goreu i'r "Goleudy," a dyna yr olaf o'i ymdrechion cystadleuol. Yn 1864, cyhoeddwyd, "Cofiant, Pregethau, a Barddoniaeth, y diweddar Parch. Thomas Pierce, Liverpool, gan ei fab-yn-nghyfraith, y Parch. H. E. Thomas, Birkenhead.

**PIERCEFIELD**, palas, yn agos i derfyn de ddwyreiniol swydd FYNWY, ar lan yr afon Wy, 1¼ milldir i'r gogledd o Gaerwent. Perthynai gynt i Valentine Morris; wedi hyny daeth i feddiant N. Wells, Ysw.; ac yn awr y mae yn perthyn i J. Russell, Ysw. Y mae ynddo bedwar dernyn o deisban, a fu yn perthyn i Louis XVI. Y mae yn sefyll mewn parc nodedig o hardd a difyrus, yr hwn a fesura tua milldir a haner o hyd.

**PIERRE** (ST.) a RUNSTONE, plwyf yn undeb Caerwent, swydd FYNWY, gerllaw rheilffordd Deheudir Cymru; 2¼ milldir i'r de dde orllewin o Gaerwent. Llythyrfa, Caerwent. Erwau, 591. Gwerth ardrethol, 1810*p*. Poblogaeth, 88. Tai annedd, 12. Y mae yr holl diroedd yn perthyn i un ettifeddiaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, gydiedig â'r eiddo Portskewett, yn esgobaeth Llandâf.

**PILSON**, treflan ger ffin ddwyreiniol swydd FYNWY, ar yr afon Wy, 4½ milldir i'r de dde ddwyrain o Drefynwy.

**PILL GWENLLI**, capeloriaeth yn mhlwyf St. Woollos, swydd FYNWY, ar yr afon Wŷsg, o'r tu isaf i'r Casnewydd. Y mae yn cynnwys llongbyrth, a rhan o dref y Casnewydd. Poblogaeth, tua 7000. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 300*p*. Noddwr, Esgob Llandâf.

**PILLITH**, neu PWLL LLAITH, plwyf yn nghantref Cefn llŷs, swydd FAESYFED; ar yr afon Lug; ac ar reilffordd Dyffryn Lug; 3 milldir i'r de orllewin wrth ddehau o Dref y clawdd. Llythyrfa, Tref y clawdd, (*Knighton*,) swydd Faesyfed. Erwau, 1897. Gwerth ardrethol, 1018*p*. Poblogaeth, 166. Tai annedd, 34. Hynodir y lle hwn mewn hanesyddiaeth, fel y man lle yr ymladdwyd brwydr bwysig rhwng byddin Owain Glyndwr, a'r byddinoedd oeddynt dan lywyddiaeth Syr Edward Mortimer, lle y gorchfygwyd y diweddaf, ac ei cymerwyd yn garcharor, wedi colli un cant ar ddeg o'i wŷr. Ymladdwyd y frwydr hon, yr hon a grybwyllir gan Shakespear, yn ei Chwareugan, Harri IV., ar gyttir bryniawg, tua haner milldir i'r gogledd o'r eglwys, ar yr 22in o Fehefin, 1402. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 59*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae plant tlodion y plwyf hwn yn meddu hawl i addysg rad yn yr ysgol a sefydlwyd yn Whitton, gan y Foneddiges Child o'r plwyf hwn, yr hon a'i gwaddolodd â thiroedd a gynnyrchant fwy na chan punt yn y flwyddyn. Y mae ffynnon yn y fynwent, dyfroedd yr hon sydd dra rhinweddol i wellhau amryw o anhwylderau y llygaid.

**PÏOD**, treflan yn mhlwyf Llandybie, swydd GAERFYRDDIN, 4¼ milldir i'r deau o Landeilo Fawr.

**PIRS**, DAFYDD SION, ydoedd fardd gwlad lled awenyddol, yn byw yn Llanfairtalhaiarn, yn ystod y ganrif ddiweddaf. Yr oedd yn cydoesi ag ef yn y lle hwnw, Sion Powel o Rhydyreirin, Sion Powel y gwehydd, ac Ieuan Brydydd Hir, Is beriglor Llanfair ar y pryd; a gelwid hwy yn "Bedwariaid Llanfair Talhaiarn."

**PISTYLL**, treflan yn mhlwyf Llandebie, swydd GAERFYRDDIN; 4 milldir i'r dehau o Landeilo Fawr.

**PISTYLL**, plwyf, yn undeb Pwllheli, swydd GAER YN ARFON, yn y parth gorllewinol o orynys Lleyn, goris mynydd yr Eifl, 1¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Nefyn; a 5¼ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Pwllheli. Llythyrfa, Nefyn, dan Bwllheli. Erwau 3949, o ba rai y mae 138 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1276*p*. Poblogaeth, 467. Tai annedd, 116. Ychydig ydyw nifer tirfeddianwyr y plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, gydiedig â pherigloriaeth Edern, yn esgobaeth Bangor. Y mae ammaethdy yn agos i'r eglwys, wedi ei adeiladu ar orsaf hên balas; ac nid oedd perchenog yr ammaethfa hon, yr hon a fesurai ddau can erw o dir, yn rhwym i dalu dim mwy na swllt, fel cydnabod am ei ddegwm; ond yn lle hyny, fe'i gorfodid i arlwy bara a chaws, a chwrw, neu fetheglyn da, i bawb a groesai y bwlch trwy fynyddoedd yr Eifl, i dref farchnad Nefyn. Nid yw yr eglwys namyn adeilad fechan, a'i sefyllfa dan graig uchel, ac ar fin dibyn serth uwchlaw y môr. O'r tu dwyrain i'r eglwys y mae dyffryn bychan a elwir "Nant Gwrtheyrn," lle y dywedir ddarfod i'r tywysog hwnw encilio rhag cynddaredd ei ddeiliaid

Digitized by Google

digofus, a lle yr adeiladodd gastell, yr hwn, medd traddodiad, a ddinystriwyd gan fellt. Y mae y Glyn cul yma yn gorwedd rhwng Craig y Llan a'r Eifl, ac yn hynod geledig ac anhygyrch. Dywedir i'r tywysog anffodus gyfarfod a'i dranc yn y llanerch neillduedig hon, yn y flwyddyn 464; ac mai yma ei claddwyd, o dan garnedd, a elwid "Bedd Gwrtheyrn."

**PISTYLL Y CAIN**, rhaiadr, o tua dau can troedfedd, sydd ar yr afon Cain, yn nghymmydogaeth Dolgelleu.

**PLENYDD.** "Tri chyntefigion Beirdd Ynys Prydain; Plenydd, Alawn a Gwron; sef oeddynt y rhai hyny a ddychymygasant y breiniau a'r defodau y sydd ar feirdd a barddoniaeth, ac am hyny eu gelwir y tri chyntefigion, &c." Dywed rhai mai yn amser Prydain ab Aedd Mawr y buant; ac eraill a ddywedant mai yn amser Dyfnwal Moelmud. Yn *Englynion y Gorugau*, dywedir mai mab ydoedd Plenydd i Hu Gadarn, a bod a fyno ef a dyfeisio *Coelbren y Beirdd*.

**PONT-ABER BIG**, lle gerllaw Aber big, swydd FYNWY; lle yr arllwysa yr Ebwy fach i'r Ebwy fawr, 15 milltir i'r gog. og. or. o'r Casnewydd.

**PONT-ABER PERGWM**, lle ger cyffiniau Cymru a swydd FYNWY; 19 milltir i'r gog. or. o Gasnewydd, Mynwy.

**PONT-AR-DAWE**, trefgordd yn mhlwyf Llangiwg, swydd FORGANWG. Saif ar yr afon Tawe, ar fin rheilffordd Dyffryn Tawe, 8 milltir i'r gog. og. ddw. o Abertawe. Medda orsaf ar y rheilffordd, llythyrdy dan Abertawe, pont o un bwa, 80 troedfedd o rychwant, dros y Tawe, ac eglwys, yn yr arddull Saesnig addurnol, gyda phig-dwr, 200 troedfedd o uchder, a adeiladwyd yn 1860, gan J. Parsons, Ysw.

**PONT-AR-DDULAIS**, lle bychan ar gyffiniau swyddi CAERFYRDDIN a MORGANWG; ar yr afon Llwchwr, lle y derbynia y Dulais, ac ar fin rheilffordd Llanelli a Dyffryn Towy, 7¼ milltir i'r gog. ddw. o Lanelli. Medda orsaf ar y rheilffordd, a llythyrdy dan Lanelli, ac y mae yn orsaf bysgota.

**PONT-AR-FYNACH**, neu BONT Y GWR DRWG (*Devil's Bridge*), yw un o'r lleoedd mwyaf rhamantus yn swydd ABERTEIFI. Saif ar y Fynach, ychydig cyn ei hymollyngiad i'r Rheidiol, yn agos i'r Hafod, yn mhlwyf Llanbadarnfawr, 10 milltir i'r dwy. o Aberystwyth. Y mae yn bont ddyblyg, yn cael ei gwneyd i fyny o ddau fwa, y naill yn gymmwys uwchben y llall, gan rychwantu dros agendor, 18 troedfedd o led, a 118 troedfedd o ddyfnder, drwy yr hwn y rhuthra y Fynach yn ffyrnig-wyllt, gan lamu dros dri o raiadrau olynol, gyda swn aruthrol. Adeiladwyd y bwa cyntaf, meddir, tua'r flwyddyn 1087, gan Fynachod Ystrad Fflur. Ond dywedir na adeiladwyd Mynachlog Ystrad Fflur hyd 1164; felly y mae yn rhaid un ai mai nid gwaith y myneich hyny ydoedd, neu ynte ei bod tua chan mlynedd yn ddiweddarach na'r dyddiad a roddir iddi yn gyffredin. Pa fodd bynag am hyny, y mae yn ddilys bod y bont isaf yno er's tua saith ganrif; canys hysbysa Giraldus, iddo ef a'r Archesgob Baldwin ei chroesi, yn 1188.

Dyma y cyfrif a rydd traddodiad am adeiladaeth y bont ryfedd hon, o ba herwydd galwyd hi "Pont y Gwr Drwg:"—"Fel yr oedd unwaith hen wraig o'r gymmydogaeth yn chwilio am ei buwch, yr hon a aethai ar ddisperod, hi a'i canfu hi yr ochr draw i'r afon, ar glogwyn serth a dychrynllyd, ac mewn lle hollol anobeithiol iddi feddwl byth allu cael gafael arni. Pan yn ei chyfyngder, ymddangosodd y Gwr Drwg iddi; a chan gymmeryd arno gydymdeimlo yn ddwys a hi yn ei sefyllfa anffodus, efe a gynnygiodd daflu pont dros y gagendor dychrynllyd, ar yr ammod ei fod ef i dderbyn am ei gymmwynas, *y cyntaf a elai drosti*. A chan ystyried y byddai y naill amgylchiad neu y llall, yn rhwym o fod yn ddinystr iddi hi, yn ei gorphwylledd, hi a gydsyniodd â'r cynnyg. Ac ar yr eiliad, dyna'r bont yn barod. Ond O! y fath sefyllfa ofnadwy! Yr hen wraig o un tu i'r bont, a'i buwch anwyl o'r tu arall; a pha un bynag ohonynt a gychwynai groesi at y llall, yr oedd i syrthio i afael y Gwr Drwg! Yn y cyfyngder ofnadwy, fflachiodd i feddwl y wraig ddyfais ragorol: dygwyddodd bod yn ei chanlyn gi bychan, ac yn ei llogell ddernyn o fara; felly hi a daflodd y bara nerth ei braich dros y bont, a rhedodd y ci bach ar ei ol; a phan gwelodd ei fawrhydi satanaidd ei fod wedi cael ei werthu felly gan yr hen wraig, efe a ollyngodd ei gynffon, ac a giliodd ymaith."

Mewn cyfeiriad at y cyfryw draddodiad, fel hyn y dywed Daniel Ddu o Geredigion:—

"Mi a wn mai rhyw ymenydd—cadarn
  Fu'n rhoi cydiad celfydd
Y bont addien ysplenydd,
  Uwch ceudod yn syndod sydd.

Llesol wyt, trwy'r holl oesoedd,—da waith
  I deithwyr, aml filoedd;
Camfa lan, uwch cwm a'i floedd
  Nwyfus yn cyrhaedd nefoedd.

Gwir draws yw rhoi i'r Gwr Drwg—y moliant,
  Am haeledd mor amlwg;
I ni dda, mae'n wir na ddwg
  Etifedd cas y tewfwg."

Wedi i'r hen bont wasanaethu y cyhoedd yn ffyddlawn am chwe chanrif, drwgdybiwyd hi yn 1753, ac adeiladwyd y bont bresenol, ar draul y swydd, yn gywir uwch ei phen, dros yr hon y rhed cerbydffordd hardd a diogel o Aberystwyth at droed Pumlumon.

**PONT-AR-GOTHI**, pentref yn nghanol swydd GAERFYRDDIN, ar yr afon Cothi, 5¼m. i'r dw. og. ddw. o Gaerfyrddin. Mae dau hen gastell yn yr ardal.

**PONT-AR-ITHON**, lle ar ymuniad yr Ithon â'r Wy, yn ngogledd-barth swydd FRYCHEINIOG; 4 milltir i'r gog. or. wrth og. o Buallt.

**PONTBLEIDDYN**, pentref bychan, a chapelgordd, yn mhlwyf y Wyddgrug, swydd FFLINT. Saif y pentref ar yr afonig Alun, yn nhrefgordd Coedllai, 2 filltir i'r de. ddw. o'r Wyddgrug. Mae y gapelgordd yn cangach na'r drefgordd hono. Ffurfiwyd hi yn 1844. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 150*p*. a phersondy. Noddwr, ficer y Wyddgrug.

**PONT-CYSSYLLTAU**, a rychwanta Ddyffryn Llangollen, ac afon Dyfrdwy, 4 milltir i'r dw. o Langollen, dros yr hon y rhed camlas Ellesmere. Dyma yr adeiladaeth fwyaf aruthrol o'r dosbarth hwn yn Mrydain. Cynlluniwyd a gweithiwyd hi gan Telford, yn 1795–1805, gyda'r draul o 47,018*p*. Mae yn gyfansoddedig o 19 o fwäau; yn 1007 troedfedd o hyd, 12 o led, a 126 o uchder.

**PONT-DOLANOG**, treflan yn mhlwyf Llanfihangel, a chapelgordd, mewn rhan hefyd yn mhlwyfi Llanerfyl, Llangynyw, a Llanfair-Caer-Einion, yn

Digitized by Google

swydd DREFALDWYN. Saif y dreflan ar y Fyrnwy, 4 milltir i'r gog. or. o Lanfair. Ffurfiwyd y gapelgordd yn 1856; a'i llythyrdref yw Llanfyllin, dan Groesoswallt. Y fywioliaeth blwyfol sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 155*p*. Noddwr, yr Esgob.

**PONT-DOLGOCH**, lle bychan yn neheubarth TREFALDWYN, ar yr afonig Carno, 7¼ milldir i'r gor. wrth og. o'r Drefnewydd, yn meddu gorsaf ar y rheilffordd Gymreig.

**PONT-ERWYD**, neu ERWYDD, pentref bychan ar y Rheidiol, 11 milltir i'r dwyrain o Aberystwyth. Y mae yn orsaf bysgota, medda westdy, ac mae yn yr ardal raiadrau prydferth.

**PONT FADOG**, capelgordd, yn mhlwyf Llangollen, swydd DDINBYCH. Ffurfiwyd hi yn 1848, a'i llythyr-dref yw Llangollen. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 150*p*. Noddwr, Ficer Llangollen.

**PONTFAEN**, plwyf, yn nghantref Cemmaes, dosbarth Hwlffordd, swydd BENFRO. Saif ar afon Gwaen, 4¼ milltir i'r de. dde. or. o Drefdraeth. Llythyrdref, Abergwaen, dan Hwlffordd. Erwau, 695. Gwerth ardrethol, 371*p*. Poblogaeth, 43. Tai, 8. Mae yr ardal yn enwog am grugieir, ac mae yn ddiamau bod gwely o lechi rhagorol yn y ddaear, ond nid yw eto wedi ei agor. Y fywioliaeth blwyfol sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 72*p*. Noddwr, R. E. Arden, Ysw.

**PONTFATHEW**, pentref yn nhrefgordd Gwyddelfynydd, plwyf Towyn, swydd FEIRIONYDD. Saif 2 filltir o Dowyn, a'i lythyrdref yw Machynllaeth.

**PONT-GLYN-DIFFWYS**, llecyn rhamantus yn mharth deheuol swydd DDINBYCH, ger cydgyfarfyddiad y Geirw, a'r Alwen, 4 milltir i'r gor. wrth og. o Gorwen. Mae pont o un bwa, 50 troedfedd o rychwant, yn fforchogi yma ddiffwys anferthol, drwy yr hwn y rhuthra yr afon yn drystfawr ac ewynog, i'r glyn islaw.

**PONT-LOTTYN**, neu LLODDYN, pentref poblogaidd ar yr afon Rhymney, ar derfyn swydd FORGANWG, 2¾ milltir i'r de. or. o Dredegar. Poblogir ef yn benaf gan weithwyr gwaith haiarn Rhymney. Medd orsaf ar reilffordd Dyffryn Rhymney, a llythyrdy, dan Tredegar.

**PONT-LLANAFAN**, a saif ar yr afon Ystwyth, yn mhlwyf Llanafan, swydd ABERTEIFI. Y mae golygfeydd rhamantus, a rhaiadr, yn yr ardal.

**PONT-LLANFRAITH**, a saif ar afon Sirhowy, ar fin rheilffordd Pont-y-pool a Merthyr Tydfil, 2¾ milltir i'r gor. de orllewin o Crymlyn, swydd FYNWY. Mae yma bentref bychan, a medda lythyrdy, dan Gasnewydd, Mynwy.

**PONT-LLANIO**, a saif ar afon Teifi, yn nhrefgordd Llanio, 2¾ milldir i'r de or. o Dregaron. Medda y pentref orsaf o'r un enw, ar reilffordd Manceinion ac Aberdaugleddau.

**PONT-LLANYCHAIARN**, pentref bychan yn nhrefgordd Llanbadarn-y-Creuddyn Isaf, plwyf Llanbadarn-fawr, swydd ABERTEIFI.

**PONT-NEDD-FECHAN**, pentref ar gydgyfarfyddiad yr afonydd Nedd, a Pyrddin, a Mellte, a Hepste, ar derfyn swydd FRYCHEINIOG. Medda bont o un bwa dros y Nedd, gwestdy bychan, a ffeiriau ar y Sadwrn ar ol y 12fed o Mawrth, y Sadwrn cyn y 12fed o Mai, y Sadwrn cyn y 12fed o Mehefin, y Sadwrn cyn y 26ain o Awst, yr 21ain o Fedi, a'r 14eg o Dachwedd.

**PONT-NEWYDD**, sydd bentref yn swydd GAERNARFON; ar afon Gwyrfai, ac ar reilffordd Caernarfon a Nantlle, dwy filltir a haner deheuol o Gaernarfon. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd. Y mae yma addoldai gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd.

**PONT-NEWYDD**, sydd is-bentref yn ochr dde orllewinol swydd FYNWY; gerllaw Camlas, a rheilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol, pum milltir a chwarter gogledd wrth orllewin o Casnewydd. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a gweithiau alcan.

**PONT-NEWYDD**, sydd le yn ochr ogledd ddwyreiniol swydd DDINBYCH; gerllaw afon Elwy, pedair milltir a chwarter gogledd orllewin wrth ogledd o dref Dinbych.

**PONT-NEWYNYDD**, sydd is-bentref, a chapeloriaeth, yn mhlwyf Trefethin, swydd FYNWY. Saif ar afon Afon, ac ar reilffordd y Dyffrynoedd Dwyreiniol; tri chwarter milltir gogledd ogledd orllewin o Pontypwl. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd. Llythyrfa, dan Pontypwl. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1844. Poblogaeth, 2753. Tai, 540. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 220*p*., ac yn nawddogaeth Ficer Trefethin.

**PONTRESELI**, sydd le yn ochr ogleddol swydd GAERFYRDDIN, gerllaw yr afon Teifi, chwe milltir gorllewinol o Gastell-newydd-Emlyn. Y mae yma Lythyrfa, dan Gaerfyrddin.

**PONT-RHYD-FENDIGAID**, sydd bentref yn ochr ogledd ddwyreiniol swydd ABERTEIFI; gerllaw yr afon Teifi, pum milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o Dregaron. Llythyrfa, dan Gaerfyrddin. Y mae yma orsaf pysgotta ragorol, a gwestfa. Y mae adfeiliau hen abad-dy Ystrad Fflur o fewn y terfynau yma.

**PONT-RHYD-Y-FEN**, sydd is-bentref yn nghanol swydd FORGANWG; ar yr afon Afon, pum milltir gogledd ogledd ddwyrain o Aberafon. Llythyrfa dan Tai bach. Y mae yma olwyn-ddwfr yn cael ei gweithio gan ffrwd wedi ei dwyn i'r lle, o'r ochr gyferbyniol o'r dyffryn, ar gamlas faenol 460 troedfedd o hyd.

**PONT-RHYD-Y-GROES**, sydd bentref yn ochr ogleddol swydd ABERTEIFI; gerllaw afon Ystwyth. Llythyrfa, dan Aberystwyth; y mae golygfeydd y gymydogaeth hon yn dra tharawiadol.

**PONT-RHYDYRN**, neu PONT-RHYD-YR-YNN, sydd is-bentref yn ochr dde orllewin swydd FYNWY; ar yr afon Afon, gerllaw rheilffordd y Dyffrynoedd Dwyreiniol, dwy filltir a thri chwarter de dde ddwyrain o Pontypwl. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd.

**PONT-ROBERT**, sydd is-bentref, yn mhlwyf Meifod, a chapeloriaeth, mewn rhan yn mhlwyfi Llanfihangel, a Llangyniew, yn swydd DREFALDWYN. Saif gerllaw afon Fyrnwy, saith milltir a haner de orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin, a deuddeng milltir gorllewin ogledd orllewin o Trallwng. Llythyrfa dan Trallwng. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1854. Poblogaeth, 612. Tai, 124. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 178*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy.

**PONTSARN**, sydd orsaf ar gangen rheilffordd Aberhonddu a Chasnewydd, pedair milltir a haner gogledd ddwyrain o Merthyr.

**PONT-YATES**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llangyndeyrn, swydd GAERFYRDDIN, mewn cysylltiad a churadaeth barhaol Llangyndeyrn, pedair milltir a chwarter de ddwyrain o Gaerfyrddin.

Digitized by Google

**PONT-Y-BEREM**, sydd le yn nghanol swydd Gaerfyrddin, gerllaw afon Gwendraeth-fach, pum milltir a haner de ddwyrain o Gaerfyrddin. Llythyrdy, dan Lanelli.

**PONT-Y-BODKIN**, sydd le yn swydd Fflint; gyda Llythyrdy o dan dref y Wyddgrug.

**PONT Y FON**, tref fechan, plwyf, a chantref, yn swydd Forganwg. Y mae y dref yn sefyll ar lan yr afon Ddaw, ac ar y ffordd arforawl Rufeinaidd; 5 milldir i'r de dde orllewin o orsaf rheilffordd Llantrisant; a 12 milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Gaerdydd. Y mae rheilffordd 6 milldir o hyd yn ei chydio â rheilffordd Llantrisant a Glyn Tâf, ac â rheilffordd Deheudir Cymru, yn Llantrisant. Gelwir hi yn fynych, "Pont-faen," yr hyn nid yw ond llygriad o'r hen enw, Pont-y-fôn, cyfieithiad llythyrenol o'r hwn yw ei henw Seis'nig, *Cowbridge*. Barna amryw ei bod yn gorwedd ar orsaf yr hen dref Rufeinaidd, *Bovium*. Amgaerwyd y dref âg amddiffynfeydd yn y flwyddyn 1091, gan Robert St. Quentin, un o farchogion Fitzhamon, ac y mae rhanau o'i muriau yn aros eto. Gwnaed Pont y fôn yn fwrdeisdref trwy freinlen gorphoriaethol, a gadarnhawyd y 33ain i Charles yr Ail, yn ol yr hon y mae yr awdurdod lywodraethol wedi ei chyfleu mewn Maer, dau feili, deuddeg henadur, a deuddeg o'r prif fwrdeiswyr, yn cael eu cynnorthwyo gan ysgrifenydd trefol, dau ferllysgwr, chwe cheispwl, profwr cwrw, a swyddogion eraill. Pennodir y Maer gan Ardalydd Bute, a'r ddau feili a ddewisir yn flyneddol, o blith yr Henaduriaid, o ba rai yr enwir pedwar i'r perwyl hyny gan y bwrdeisiaid, a'r Maer a ddethola ddau allan o'r pedwar hyny: yr Henaduriaid a etholir o blith y prif fwrdeiswyr trwy fwyafrif o honynt eu hunain, fel y byddo gwag-leoedd yn dygwydd; a'r prif fwrdeiswyr a etholir yr un modd gan yr Henaduriaid, o blith y bwrdeisiaid. Yr ysgrifenydd trefol hefyd a bennodir gan Ardalydd Bute, a'r swyddogion eraill gan y Gorphoriaeth. Y mae Pont y fôn, mewn undeb a Llantrisant, a Chaerdydd, yn meddu y rhagorfraint o anfon cynnrychiolydd i'r Senedd. Cynnelir is-frawdlysoedd yma, ac y mae yma Lythyrfa, ariandy, dau brif west-dy, neuadd drefol, neuadd farchnad, eglwys, tri addoldy ymneillduol, ac ysgol ramadegol, yr hon a sefydlwyd yn amser Charles yr Ail, gan Syr Leoline Jenkins, ac fei cedwir mewn adeilad a gyfodwyd, neu, a adnewyddwyd, gan Gymmrodorion o Goleg Iesu, Rhydychain, ar y draul o tua phum mil a haner o bunoedd, a pherthyna iddi waddol o gan punt yn y flwyddyn, yn nghyda dwy gymmrodoriaeth, dwy ysgoloriaeth, a chlas-ged, yn Ngholeg yr Iesu. Cynnelir marchnadoedd yma bob dydd Mawrth; a ffeiriau yn y dref, ar y dydd Mawrth cyntaf o Chwefror, y dydd Mawrth cyn y 25ain o fis Mawrth, Mai 4, Mehefin 24, y dydd Mawrth cyntaf o Awst, Medi 29, a'r dydd Mawrth cyntaf o Ragfyr; a chynnelir ffeiriau yn *Aubrey Arms*, yn agos i'r dref, ar yr ail dydd Llun o Fawrth, ac o Hydref.

O fewn tua dwy filldir i'r dref, mewn cae gerllaw y brif-ffordd o Lundain i Hwlffordd, yn agos i gyttir, a elwir "Y filldir Aur," y mae olion gwersyll petryal bychan, yr hwn y tybir mai Rhufeinaidd ydoedd; ac y mae olion gwersyll arall cyffelyb, ar yr ochr arall i'r un cyttir. Darganfyddwyd rhai batholion Rhufeinaidd yn y lle hwn, yn mysg pa rai yr oedd un o bres, yn dwyn yr arysgrif Cæsar Traianus, ac ar y wyneb arall, Pont Max . . . . Sii. Cynnwysa y plwyf hwn 96 erw o dir, a chyfrifir ei werth ardrethol yn 3122*p*. Poblogaeth, 1134. Tai annedd, 247. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gydiedig â ficeriaeth Llanbleiddian, yn esgobaeth Llandâf; a chynt, ystyrid mai rhan o blwyf Llanfleiddian oedd Pont y fôn.

**PONT-Y-MINSTER**, sydd is-bentref yn ochr ogledd orllewinol swydd Fynwy; gerllaw afon Ebbw, pum milltir gorllewin ogledd orllewin o Gasnewydd. Llythyrdy, dan Casnewydd, Mynwy.

**PONT-Y-PAIR**, sydd le yn ochr ddwyreiniol swydd Gaernarfon; ar afon Lligwy, yn agos i'w harllwysiad i'r Gynwy, tair milltir a chwarter deheuol o Lanrwst, yn Mettws y Coed.

**PONT-Y-PRIDD**, sydd dref yn mhlwyfi Llanilltud Fawr, a Llanwonno, yn swydd Forganwg: gerllaw yr afon Taf, a rheilffordd Dyffryn-Taf, yn nghyswllt cangen Rhondda i Dreherbert, tair milltir ar ddeg gogledd orllewin wrth ogledd o Gaerdydd. Y mae yr enw wedi ei gymeryd oddi wrth fwthyndaear a fuasai yn y lle. Y mae y fan wedi ei hynodi oblegid y Bont or-enwog a godwyd yma gan yr archadeiladydd William Edwards, dros y Taf, yn 1755, ac y ceir y manylion am dani dan ei enw yn y gwaith hwn. Saif y bont arfan ag y mae yr afon yn llydan, a'r ceulanau yn isel, ac y mae yn 140 o droedfeddi o led. Y mae yr afon Rhondda yn uno a'r Taf yma, ac ar amser gwlaw trwm, y mae y llifeiriant yn codi i nerth aruthrol. Y mae yma Brif-lythyrfa, a gorsaf rheilffordd, gyda hysbysai gwefrol. Y mae masnach y dref yn cael ei gynal, yn bennaf mewn cysylltiad a'r nifer o weithfaoedd glo a haiarn sydd yn y cymydogaethau o amgylch y lle. Ffurfiwyd y lle yn ddosparth, mewn cysylltiad â deddf y tlodion, fel cangen o ddosparth Merthyr Tydfil. Y mae y lle hwn yn gynnyddol, ac yn sefyll mewn man cyfleus at fasnach y fro.

**PONT-Y-PWL**, neu Pont-y-pool, sydd dref, isddosparth, a dosparth, yn swydd Fynwy. Saif y dref ar yr afon Afon-Llwyd, ac ar reilffordd y Dyffrynoedd Dwyreiniol, yn agos i reilffordd Casnewydd, y Fenni, a Henffordd, gerllaw Camlas Aberhonddu, wyth milltir a haner, gogledd wrth orllewin o'r Casnewydd; yn mhlwyf Trefethin, a ddechreuwyd fel ychwanegiad at bentref Trefethin, tua milltir i'r gogledd; ac yr oedd yn un o'r gweithfeydd haiarn cyntaf, ac yn gychwyniad gwaith toddi, â golosgoed, yn 1560; ac a gododd i hynodrwydd yn amser Siarl I., am weithfeydd llestri wedi eu gludloewi, a elwid llestri Pontypwl. Y mae yn parhau i ddwyn yn mlaen weithydd haiarn; ond wedi rhoddi y gwaith llestri i fynu. Y mae yma waith alcan, a glo, mewn eangder mawr; a'r olaf, mewn cyflawnder o leoedd eraill yn y gymydogaeth. Saif ar lethr, yn nghanol cymydogaeth fynyddig. Nid oes dim rheolaidd a threfnus yn ffurfiad yr heolydd, ond y mae yn ddiweddar wedi myned dan welliannau pwysig, ac yn arddangos arwyddion o lwyddiant a chynydd mawr. Y mae yma Brif-lythyrfa, gorsaf rheilffordd, a phellebyr, ariandy, a gwesty eang, a llysdy o adeiladaeth Eidalaidd, tair o eglwysi, a thros ddeuddeg o gapeli ymneillduol, gydâg Athrofa Dduwinyddol gan y Bedyddwyr. Gelwir un o'r eglwysi yn ol enw y lle, ac y mae yn cael ei gwasanaethu gan gurad parhaol, o benodiad ficer Llanofer. Y mae un o'r eglwysi ar derfyn Pontnewynydd, ar yr ochr ogledd ogledd orllewinol; ac y mae y drydedd yn mhlwyf Trefethin. Y mae y farchnad ar y Sadwrn; a ffeiriau yn cael eu

Digitized by Google

cynal ar Ebrill 2, a 22, Gorph. 5, Hydref 10. Pont-y-pool-Parc ydyw palas C. Hanbury Leigh, Ysw., sydd ar fryn gerllaw, yn meddu golygfeydd dengar, ac mewn sefyllfa brydferth. Poblogaeth y dref yn 1851, 3708; yn 1861, 4661. Tai, 880. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys plwyfi Trefethin, Llanhileth, Mamhilad, Llanfihangel-Pont-y-Moel, a Penteg. Erwau, 20,434. Poblogaeth yn 1851, 20,614; yn 1861, 22,633. Tai, 4447. Y mae y dosparth hefyd yn cynwys is-ddosparth Llangybi, yn cynwys plwyfi Llangybi, Llandegfeth, Llanethwy-Fach, a Llanfrechfa, ac is-bentref Glasgoed; gydâg is-ddosparth Wysg, yn cynwys plwyfi Llanbadog, Monkswood, Goitre, Cemaes-Comander, Trostrey, Gwernesney, Llangefiew, Llanllowell, a Llantrissant, tref Wysg, ac is-bentref Gwehellog. Erwau yn y dosparth, 51,429. Trethi-tlodion yn 1863, 12,834*p*. Poblogaeth yn 1851, 27,993; yn 1861, 30,288. Tai, 5986. Priodasau yn 1863, 383; genedigaethau 1165, o ba rai yr oedd 57 yn anghyfreithlon; marwolaethau 620, o ba rai yr oedd 247 dan 5 oed, a 17 uwchlaw 85. Priodasau yn y deng mlynedd o 1851-60, 3020; genedigaethau, 11,487; marwolaethau, 6718. Lleoedd addoliad yn 1851, Eglwys Loegr 28, gydag eisteddleoedd i 6269; Bedyddwyr 16, gyda 5921 e.; Wesleyaid 15, gyda 4254 e.; Trefnyddion Gwreiddiol 4, gydag 840 e.; Trefnyddion Calfinaidd 3, gyda 635 e.; 1 heb ei ddynodi, gyda 20 e.; Pabyddion 2, gyda 240 e.; Annibynwyr, heb gyfrif. Ysgolion dyddiol cyhoeddus, gyda 1684 o ysgolorion; rhai neillduol 19, gyda 458 y.; a 54 o ysgolion Sabbathol, gyda 5764 y. Y mae y Gweithdy cyhoeddus yn Llanfrechfa; ac yn ol Cyfrifiad 1861, yr oedd yno 166 o dlodion.

**PONT-Y-RHUN**, neu PENTREBACH, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Merthyr-Tydfil, swydd FORGANWG; mewn cysylltiad â Merthyr-Tydfil. Sefydlwyd y lle yn 1860. Llythyrfa yn Merthyr-Tydfil. Poblogaeth, 5288. Tai, 1022. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 65*p*., ac yn nawddogaeth A. Hill, Ysw.

**PONT-YSTICYL**, sydd gyswllt o gangen rheilffordd Merthyr, ar linell Aberhonddu a Chasnewydd, yn agos i Pontsarn.

**POOL PARK**, palas arglwydd Bagot, yn swydd DDINBYCH, yn agos i'r afon Clwyd; 1¼ milldir i'r de orllewin o Ruthin. Y mae rhai henafiaethau dyddorol o fewn y cemmaes.

**POOL QUAY**, pentref, a chapeloriaeth, yn mhlwyf Cegidfa (*Guilsfield*), yn swydd DREFALDWYN. Y mae y pentref ar yr afon Hafren, 4 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm; ac y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a lle i groesi yr Hafren. Ffurfiwyd y Gapeloriaeth yn y flwyddyn 1862; ac y mae y llythyrfa yn Nghegidfa, dan y Trallwm. Poblogaeth, 420. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 250*p*. Noddwr, Iarll Powys.

**PORT DINORWIG**, pentref porthladdol yn mhlwyf Llanfair is gaer, swydd GAER YN ARFON, ar lan yr afon Menai, gerllaw rheilffordd Bangor a Chaerynarfon; ac ar derfyniad y rheilffordd o lechgloddfeydd Llanberis, 3¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Gaer yn arfon. Medda orsaf ar reilffordd Bangor a Chaer yn arfon, a llythyrfa, dan Fangor; ac yma yr allforir y llechi o Lanberis, gan fod yma borthladd bychan, ac angorfa ddyogel i tua 120 o lestri, o 200 tunell o lwyth.

**PORTH**, gorsaf rheilffordd, a phellebyr, yn swydd FORGANWG, ar gangen y Rhondda o reilffordd Glyn Tâf; 3¼ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Bont y pridd.

**PORTHAETHWY.** Gwel PONT MENAI.

**PORTHAMEL**, lle ar ystlys dde ddwyreiniol Ynys Fôn; ar lan yr afon Menai; 5¼ milldir i'r de orllewin o Fangor. Bu y llanerch hon yn ddrychfa gweithrediadau milwraidd mawrion, gan Suetonius, Agricola, a Iorwerth I.

**PORTH CAWL**, pentref porthladdol yn mhlwyf Newton Nottage, swydd FORGANWG; ar feisfor bychan, ger terfyniad rheilffordd y Llynfi a'r Ogmore, 6¼ milldir i'r de orllewin o Ben y bont. Medda lythyrfa, dan Ben y bont, a gorsaf rheilffordd. Y mae yn ymdrochle led boblogaidd; ac oddeutu y flwyddyn 1867, dechreuodd ddyfod yn lle tra phwysig i allforio glô; a chynnyrchion gweithfeydd haiarn y Maes Teg, a'r Ton du.

**PORTHCERI**, plwyf yn nghantref Dinas Powys, swydd FORGANWG; ar lan y môr, 7 milldir i'r dehau o orsaf rheilffordd Peterston, a 10 milldir i'r de orllewin o Gaerdydd. Llythyrfa, Pontfon. Erwau 1131, o ba rai y mae 215 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1060*p*. Poblogaeth, 153. Tai annedd, 34. Perthynai y faenoriaeth gynt i'r *St. Johns*, o Bletsoe, un o farchogion Fitz-Hammon, ac yn awr y mae yn perthyn i deulu o'r cyfenw Romilly. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, gyssylltiedig â pherigloriaeth Berry, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 289*p*. Noddwyr, ettifeddion y diweddar Syr S. Romilly. Ceri, oddiwrth yr hwn y cafodd y porthladd bychan yma ei enw, oedd yn hen dad cu i'r enwog Caradog; ond pa fodd yr oedd y penaeth hwnw yn dwyn perthynas â'r lle hwn, nid yw yn ymddangos. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Curig.

**PORTHDINLLEYN**, pentref yn mharth de orllewinol swydd GAER YN ARFON, ar lan mor-gilfach cysgodol o'r un enw, ar ystlys orllewinol gorynys Lleyn, 2 filldir i'r gorllewin o Nefyn.

**PORTH EINION**, pentref, a phlwyf, yn nosbarth Abertawe, yn swydd FORGANWG. Y mae y pentref yn sefyll ger beisfor o'r un enw, 1 milldir i'r gogledd o drwyn Portheinion, yn mhen tir de ddwyreiniol Browyr; 12 milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Llwchwr; a 15 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Abertawe. Cynnwysa y plwyf, bentref *Overton* hefyd, a'i lythyrfa yw Abertawe. Erwau 1136, o ba rai y mae 80 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 701*p*. Poblogaeth, 254. Tai annedd, 62. Y mae pysgodfa llymeirch ëang ar yr arfordir hwn, yr hyn, yn nghyd ag allforiad ei chynnyrch, sydd yn fforddio bywioliaeth gysurus i lawer o'r trigolion yn eu tymhor. Y mae helaethrwydd o'r galch-graig yn y plwyf hefyd, ac y mae llawer yn cael gwaith i'w gloddio, ei losgi, a'i allforio. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 121*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

**PORTHLLONGDDU**, porthladd bychan ar ystlys orllewinol y Traeth Coch, yn Nwyrein-barth Ynys Fôn; 6¼ mill. i'r gogledd orllewin wrth orllewin o'r Beaumaris. Allforir llawer o geryg calch oddiyma.

**PORTHMADOC**, tref borthladdol yn mhlwyf Ynys Cynhaiarn, swydd GAER YN ARFON, gerllaw y Traeth Mawr, ac ar derfyn rheilffordd Ffestiniog, 1 milldir i'r de ddwyrain o Dremadoc. Y mae yma orsaf rheilffordd, a Llythyrfa, dan yr enw Portmadoc, swydd Gaer yn arfon. Y mae y dref hon

Digitized by Google

yn myned ar gynnydd yn dra chyflym, am fod yma allforiad mawr ar lechi, a ddygir i lawr yma o gloddfeydd Ffestiniog, gyd â'r rheilffordd.

**PORTH Y RHYD**, pentref, yn mhlwyf Llan y byddar, yn swydd GAERFYRDDIN; 4¼ milldir i'r de orllewin o Lanbedr pont Stephan.

**PORTH YR OGOF**, ogof yn y galch-graig, yn y parth Deheuol o swydd FRYCHEINIOG, a drawsir gan yr afon Mellte, ychydig islaw Ystrad y fellte, a 5 milldir i'r gogledd orllewin o Hirwaun. Y mae tua 40 troedfedd o uchder, tuag 20 troedfedd o lêd, ac oddeutu 2400 troedfedd o hŷd; a gellir myned i fewn iddi yn dra phell gyda goleuni.

**PORTSKEWIT**, neu yn hytrach, PORTH IS COED, plwyf yn Undeb Caerwent, swydd FYNWY, ar forgainc yn Hafren, y ffordd Rufeinaidd Julianaidd, a'r rheilffordd Orllewinol Fawr, 4½ milldir i'r de orllewin wrth ddehau o Gaerwent. Mesura o erwau 1779, o ba rai y mae 720 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2110*p*. Poblogaeth, 244. Tai annedd, 48. Mae yr holl diroedd yn perthyn i un etifeddiaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth, unedig â pherigloriaethau St. Pierre, a Sudbrook, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 402*p*. Noddwr, C. Lewis, Ysw.

**POWEL**, ANTHONY, ydoedd o Lwydiarth, neu Dir Iarll, Morwanwg. Yr oedd yn gasglydd henafiaethau Cymreig, y rhai, neu ddewisolion o honynt, a gyhoeddwyd yn yr Iolo MSS.

**POWEL**, CHARLES, ydoedd o Gastell Madog, yn Mrycheiniog, ac yn deilliaw oddiwrth William Powel, bardd o'r un lle, ac yn ei flodau rhwng 1580 a 1620. Charles oedd yr etifedd gwrryw diweddaf o'r lle hwnw yn dwyn y cyfenw Powel. Yr oedd yn henafiaethydd enwog, ac ysgrifenodd amryw ymchwiliadau a wnaethai yn bersonol, ar gais Mr. Strange, y rhai a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Henafiaethwyr yn Llundain. Yr oedd yn ddyn o dalentau uwch na'r cyffredin, y rhai a feithrinwyd ac a wrteithiwyd ganddo trwy ei waith yn gohebu â llawer o ddysgedigion ei oes, a thrwy ddarllen, a hir brofiad, yn ystod ei oes faith. Bu farw yn oedranus, yn 1796.

**POWEL**, DAVID, D.D., duwinydd dysgedig, a henafiaethydd enwog. Mab ydoedd i Hywel ab Dafydd ab Gruffydd ab Ithel; a disgynai mewn llinell unionsyth o Lywelyn Aurdorchog. Blwyddyn ei enedigaeth ydoedd 1552. Pan yn 16eg oed, danfonwyd ef i Rydychain, er cwblhau ei addysg. Ni wyddis yn mha goleg y bu ar y cyntaf, ond yn 1571, symudwyd ef i Goleg yr Iesu, yr hwn oedd newydd gael ei sefydlu, a graddiwyd ef yn B.A. yn 1572, ac yn M.A. yn 1576. Wedi derbyn urddau eglwysig, cafodd ficeriaeth Rhiwabon, a gwnaed ef yn brebend Llanelwy; a'r flwyddyn ganlynol cafodd beriglorìaeth Llanfyllin, yr hon a roddes i fyny yn 1579, pan y cafodd ficeriaeth Meifod. Chwanegwyd iddo yn 1580, y segur-swydd o beriglorìaeth Llansantffraid yn Mechain, sir Drefaldwyn. Yr oedd bellach yn enwog am ei ddysgeidiaeth, a chymerodd y radd o B.D. yn 1582, ac o D.D. yn 1583. Yn 1584, dewiswyd ef yn gaplan i Henry Sidney, arglwyddlywydd Cyffiniau Cymru, yn meddiant yr hwn yr oedd cyfieithiad anorphenedig o Hanes Cymru, gan Caradawg, o waith yr hanesydd diwyd-bwyll Humphrey Llwyd. Ar ddymuniad ei arglwyddiaeth, cwblhaodd Dr. Powel y cyfieithiad, a chyfoethogodd y gwaith, trwy chwanegu lluaws o nodiadau gwerthfawr. Y llyfr hwn a argraffwyd mewn 4 plyg, yn 1584. Ei waith nesaf ydoedd dwyn allan argraffiad newydd o *Itinerary Giraldus Cambrensis*, gyda nodiadau, a chynwysai yr un gyfrol hefyd, *Annotationes in Cambriae Scriptum per Sil. Giraldum Cambrensem*, a *De Britannica Historia recta intelligenda Epistola*. Argraffwyd ef gyntaf yn Llundain, yn 1583, wedi ei gyflwyno i Syr Phillip Sidney; ac ail argraffwyd ef gan Camden, yn yr *Anglica, Normanica, Hibernica, Cambrica*, yr hwn a gyhoeddwyd yn Frankfort, yn 1603. Cyhoeddwyd argraffiad arall o hono yn 1806, gan yr henafiaethydd trylen hwnw, Syr Richard Hoare, barwnig. Yn 1585, cyhoeddodd Dr. Powel hefyd *Historia Britannica*, neu Hanes Prydain, mewn chwe' llyfr, gan Ponticus Virunius, aralleiriad byr ydyw hwn o waith mawr Sieffrey o Fynwy, ac ail argraffwyd ef yn y *Rerum Britannicarum Scriptores Vetustiores*, &c., yn 1587. Bu Dr. Powel hefyd o gryn gymorth i'r Dr. Morgan, yn y gwaith o gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg. yr hwn a orphenwyd ac a gyhoeddwyd yn 1588. Gadawodd lawer o waith llenyddol mewn llawysgrifau heb eu cyhoeddi, yn mlith y rhai yr oedd Geirlyfr Cymreig, y rhai ni ddaethant byth i oleu dydd. Bu farw yn 1598, a chladdwyd ef yn eglwys Rhiwabon, lle y trigasai am y rhan fwyaf o'i oes.

**POWEL**, EDWARD, D.D., ydoedd frodor o Gymru, ac a addysgwyd yn Rhydychain, lle y gwnaed ef yn Gymrawd o Goleg Oriel, yn 1495. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, efe a ymroddodd yn gyfangwbl i dduwinyddiaeth, yn yr hon wybodaeth y daeth yn ddadleuydd enwog, ac y cymerodd ei raddau hefyd. Yn 1501, rhoddwyd iddo beriglorìaeth Bledon, yn esgobaeth Wells, a gwnaed ef hefyd yn brebend yn mhrifeglwys Salisbury. Y Dr. Edward Powel hwn a ddewiswyd, o herwydd ei fawr wybodaeth, a'i benderfyniad dewr, gan y frenhines Catherine, yn ddadleuydd trosti yn y cynghaws, pan geisiai ei phriod Harri VIII., ysgariaeth oddiwrthi; a'r Dr. Powel a hynododd ei hun cyn hyny trwy ei sel yn gwrthwynebu syniadau Luther. Ei lyfr yn erbyn y diwygiwr Ellmynaidd, a elwid *Propugnaculum Summi Sacerdotii Evangelici ac Septenarii Sacramentorum adversus Mart. Lutherum*, 1523. Coleddid y meddyliau uwchaf gan brifysgol Rhydychain am ei ddysgeidiaeth, a phan ddanfonasant at y brenin Harri, i'w hysbysu am y doethorion duwinyddol o'u plith a ysgrifenasant lyfr bob un yn erbyn Luther, gwnaent sylw neillduol a thra chanmoliaethol o Dr. Powel, a'i waith. Ei lyfr arall a elwid, *Tractatus de non dissolvendo Henrici Regis cum Catharinâ Matrimonio.* Pregethai yn selog tros uwchafiaeth y Pab, ac o ganlyniad yn erbyn uwchafiaeth y brenin tros eglwys Lloegr, a thrwy hyny tynodd arno ŵg yr olaf, ac hefyd am wrthod cymeryd llw yr olyniaeth, ac o'r diwedd bwriwyd ef i garchar, condemniwyd ef i farw, a dienyddiwyd ef yn *Smithfield*, Gorphenaf 30, 1540.

**POWEL**, PARCH. GABRIEL, ysgolhaig enwog, ydoedd drydydd mab y Dr. Powel, a anwyd yn Rhiwabon, yn 1575. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1592, a chymerodd y radd o B.A., ac yna gadawodd y brif ysgol am dymhor, pan y llanwodd y swydd o drydydd athraw ysgol ramadegol y Deon Goodman, yn Rhuthyn. Edmwnd Griffith, wedi hyny esgob Bangor, oedd y cyntaf, a Richard Parry oedd yr ail. Ar ol hyny dychwelodd i Rydychain, ac aeth yn aelod o goleg St. Mary's Hall, ac yn ystod ei arosiad yno, cyhoeddodd amryw lyfrau,

Digitized by Google

trwy y rhai yr enillodd gryn enwogrwydd, ac y dygwyd ef i sylw ei gyd-wladwr, Dr. Richard Vaughan, esgob Llundain. Cafodd dderbyniad i dy y prelad hwnw, a gwnaed ef yn gaplan y teulu, a diau y buasai hyny yn llwybr diogel iddo i ddyrchafiadau uchel eraill, ond bu yr esgob a'i gaplan farw o fewn ychydig amser i'w gilydd, yn ystod 1607. Nid oedd Gabriel Powel ond ychydig tros ei ddeg ar hugain oed, pan y bu farw, ac eto ystyrid ef yn un o ysgolheigion goreu ei oes, a choleddid y dysgwyliadau uwchaf yn ei gylch. Dyma restr o'r llyfrau a gyfansoddodd, a gymerwyd o *Wood's, Athen. Oxon.*:—(1) "The Resolved Christian," 3ydd argraffiad o'r hwn a gyhoeddwyd yn 1602; (2) "Prodromus, a Logical Resolution of the first chapter of the Epistle of St. Paul to the Romans," yr hwn a argraffwyd yn Llundain, yn 1600, ac yn Rhydychain yn 1602, a thrachefn yn yr iaith Lladin; (3) "The Catholic's Supplication to the King for Toleration of the Catholic Religion, with Notes and Observations," 1603; (4) "A Consideration of Papists' reasons of State and Religion, for a Toleration of Popery in England, intimated in their supplication to the King's Majesty; and the state of the present Parliament," 1604; (5) "The unlawfulness and danger of Toleration of divers religions, and connivance to contrary worship in one monarch or kingdom," 1605; (6) "Refutation of an Epistle apologetical, written by a Puritan-Papist to persuade the permission of the promiscuous use and profession of all sorts of Heresies," &c., 4to, London, 1605; (7) "Consideration of the deprived and silenced Ministers' arguments for their restitution to the use and liberty of their ministry, exhibited in their late supplication to this present Parliament," 4to, London, 1606; (8) "Disputationes Theologocae de Antichristo et ejus Ecclesia," 8vo, London, 1606; (9) "De Adiaphoris theses Theologicae et Scholasticae," &c., London; (10) "Rejoinder unto the mild defence, justifying the consideration of the silenced Ministers' supplication to the Parliament;" (11) "A Comment on the Decalogue," 8vo; ac amryw lyfrau eraill, ar bynciau gwleidiadol y dydd. Y mae yn y llyfrau uchod luaws o syniadau anghyson âg egwyddorion gwir ryddid crefyddol, ond dangosant ddysgeidiaeth drylawn eu hawdwr, a phrofant y fath dalent ddysglaer a gollwyd yn ei angau cynar ac anysgwyliadwy.

**POWEL,** GRUFFYDD, ydoedd fab ieuangaf Thomas Powel, Ysw., o Lansawel, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1561. Pan yn ugain oed, derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, lle ei dewiswyd drachefn yn Gymrawd. Wedi ei raddio yn y celfyddydau a'r gyfraith wladol, dewiswyd ef yn 1613 yn benaeth y coleg hwnw, a chyfrifid ef ar y pryd gan bawb, yn enwog fel athronydd, a dadleuydd, cystal ag yn ddysgawdwr rhagorol. Yn 1524, cyhoeddodd, *Analysis Analyticorum Posteriorum, seu Librorum Aristotelis de Demonstratione, cum Scholis;* a "*Analysis Libri Aristotelis de Sophisticus Elenchis,*" 1594 a 1664. Bu farw yn Mehefin, 1620, a chladdwyd ef yn eglwys St. Michael, Rhydychain, yn nghangell coleg Iesu. Gadawodd ei holl etifeddiaeth at wasanaeth ei goleg, a chyda y rhai hyn, ac arian eraill, prynwyd tiroedd er mwyn cynal un Cymrawd o Goleg Iesu.

**POWEL,** SYR JOHN, ydoedd o Broadway House, plwyf Llansadwrnen, sir Gaerfyrddin. Yr oedd efe yn un o farnwyr Llys y Penadur, oedd yn eistedd ar brawf y Saith Esgob, yn 1668, tan deyrnasiad Iago II. Yr oedd yn gwahaniaethu oddiwrth y lleill ar y fainc yn yr achos hwnw, a thrwy ei gywirdeb annhyblyg ef y cawsant eu rhyddhau rhag y cyhuddiad a ddygid yn eu herbyn; ond achlysurodd hyn iddo gael ei ddiswyddo. Bu farw yn 1696, yn 63 oed, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Lacharn, lle y mae gwyddfa i'w goffadwriaeth, yn canmol ei ymddygiad ar y prawf crybwylledig.

**POWEL,** SION, o Rydyreirin, plwyf Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych, ydoedd fardd gwlad da, a chlochydd y plwyf hwnw, yn ystod y ganrif ddiweddaf. Dywed y Parch. D. Silvan Evans, yn y Brython v. 41, mai gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; ac y mae cywydd yn y cyhoeddiad o'i waith i'r Haul, yn mha un y gelwir ef yn "Sion Powel, gwehydd, o Rydyreirin, yn Llansanan."

Y mae "Odlig Alarus" hefyd o waith yr hen fardd hwn, yn yr un cyhoeddiad (cyf. v. 113), a Llythyr at Dafydd Jones o "Drefriw," yn yr un gyfrol tudalen 41. Hyd y gwyddom, ychydig yn rhagor a gyhoeddwyd o'i waith, ond y mae llawer o'i bethau yn aros mewn llawysgrifen, ac yn meddiant y Parch. D. Silvan Evans. Bu Sion Powel farw yn 1767, a chanwyd ei farwnad gan ei hen gyfaill mynwesol, y Prydydd Hir, yn yr hon y geilw efe ef yn fardd, a Christion da.

**POWEL,** THOMAS, D.D., ydoedd fab i'r Parch. J. Powel, periglor Cantref, sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef yn 1608. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1625, ac etholwyd ef yn ysgolor yno yn 1627; ac wedi ei raddio yn y celfyddydau, gwnaed ef yn Gymrawd. Yna cymerodd ei urddau sanctaidd, a phenodwyd ef yn beriglor ei blwyf genedigol—rhodd ei frawd hynaf. Yn ystod y Rhyfel Cartrefol, dioddefodd o herwydd ei freingarwch; bwriwyd ef o'i fywioliaeth gan ledaenwyr yr Efengyl yn Nghymru, am iddo ymlynu wrth achos y brenin, ac iddo ddarllen y Llyfr Gweddi Cyffredin. Wedi ei fwrw allan, enciliodd i'r Cyfandir, lle yr arosodd hyd adferiad y freninoliaeth yn mherson Siarl II., pryd y rhoddwyd iddo ei le yn ol; ac wedi ei wneuthur yn ddoethawr mewn duwinyddiaeth, penodwyd ef yn ganonwr Llandaf, ac yn ol Browne Willis, neillduwyd ef gan Siarl II. yn esgob Caerodor, ond bu farw cyn esgyn i'r swydd, Rhagfyr 31, 1660, a chladdwyd ef yn *St. Dunstan in the West.*

Dywed Wood ei fod yn wr boneddigaidd a thra moesgar, yn gydnabyddus â llawer cangen o ddysgeidiaeth, yn athronydd galluog, yn feirniad craff, yn feistr ar amryw ieithoedd, ac yn ddigymhar ei wybodaeth mewn duwinyddiaeth. Yr oedd yn awdwr, *Clementa Opticae; novâ, facili, et compendiosâ methoda explicata,* 1651; a *Quadriga Salutis; or the Four General Heads of the Christian Religion surveyed and explained,* 1657; yn niwedd yr hwn y mae rhai nodiadau gan yr awdwr, yn Nghymraeg. Cyhoeddodd hefyd y Deg Gorchymyn, y Catecism, a Gweddi yr Arglwydd, yn Nghymraeg a Saesneg. Gadawodd ei waith mwyaf dyddorol yn anorphenedig mewn llawysgrifen, a thybir ei fod bellach ar goll, sef, *Fragmenta de Rebus Britannicis,* yn cynwys traethodau byrion ar hanes, arferion, a chrefydd, yr hen feirdd a derwyddon Prydeinig. Bu ei fab Thomas Powel hefyd, yn beriglor Cantref.

**POWEL,** VAVASOR, yr anghydffurfiwr enwog, a anwyd yn y Cnwcglas, sir Faesyfed, yn 1617. Yr oedd yn perthyn i rai o'r teuluoedd parchusaf yn sir-

Digitized by Google

oedd Maesyfed, Amwythig, a Threfaldwyn. Ei dad, Richard Powel, oedd foneddwr parchus o'r dref hono; a'i fam oedd ferch un o'r Vavasors, o swydd Gaerefrog. Wedi derbyn addysg oreu ei sir enedigol, derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, lle y dywedir iddo gynyddu yn rhagorol mewn dysg, ond nid ymddengys iddo gymeryd na graddau, nac urddau. Ar ei ddychweliad o'r brifysgol, bu yn cadw ysgol yn Clun, sir Amwythig, lle yr oedd ei ewythr, Erasmus Powel yn beriglor; ac yn ei gynorthwyo yn y gwasanaeth dwyfol, trwy ddarllen y gweddiau. Er ei fod wedi cael addysg dda, ac ar fedr ymroddi i'r weinidogaeth, eto ymddengys na bu a fynai crefydd â'i galon hyd onid oedd yn llawn ugain oed. Ni bu erioed yn darllen y Beibl fel pechadur hyd y pryd hwnw; dechreuodd yn awr ei chwilio am ei fywyd, a chafodd fywyd ynddo. Bu y "Gorsen Ysig," o waith Sibbes, yn gymhorth mawr iddo; ond bu am hir amser, fel cwch mewn tymhestl, yn methu gan fawredd yr ystorm, dyfod i gyrhaedd na chilfach na glan. Y mae yn dywedyd am dano ei hun fel hyn; —Yn yr amser hwn, cefais boenau dirfawr yn fy mhen, yr hwn a barhaodd yn ddidor am amryw ddyddiau, a nosweithiau. Yr oeddwn yn meddwl y collaswn fy synwyrau, neu fy mywyd; ond trwy ddiriondeb ragluniaeth, daeth llyfr bychan i'm llaw o waith Mr. Perkins, yn yr hwn y mae sylw fel hyn:— Os yw poenau un asgwrn, neu un dant, am ychydig ddyddiau mor annioddefol, pa beth fydd poenau yr holl gorph ac enaid yn uffern dros byth? ac ar hyn cynyddodd poenau fy nghydwybod mor ddirfawr, fel yr anghofiais i raddau holl boenau fy mhen. Bu felly dan argyhoeddiadau dychrynllyd, yn swn taranau Sinai, ac yn ngolwg mellt y ddeddf, am yn agos i bedair blynedd. Mynych y temtiodd Satan ef i'w ladd ei hun. Arswydai ddwyn cyllell gydag ef i un man, rhag ofn y demtasiwn. Ond o'r diwedd, gostegodd yr ystorm, rhoddodd ei hunan yn gyflawn i Dduw, ac ymgysegrodd gorph ac enaid yn gyfangwbl i'w wasanaeth dros byth. Pa hyd y bu yn sir Amwythig, nis gwyddis. Y mae yn debyg mai o dan weinidogaeth danllyd Walter Cradoc, yr hwn oedd y pryd hyny yn Ngwrecsam, y cafodd ei gadarnhau yn ffordd iachawdwriaeth. Daeth W. Cradoc i Wrecsam, yn 1632, ond ni bu yno yn hir, cyn cael ei fwrw ymaith am ei Buritaniaeth; ac yn fuan ar ol hyny, bwriodd V. Powel ei goelbren gyda y Diwygiwr erlidiedig. Ymroddodd i lafurio yn egniol, mewn teithio, gweddio, a phregethu. Dywedir y byddai yn arfer pregethu o leiaf ugain waith yn yr wythnos, yn ei wahanol gylchdeithiau. Nid oes braidd eglwys na thref yn holl Gymru, na bu efe yno yn rhybuddio y preswylwyr diofal, i ffoi rhag y llid a fydd. Yn 1642, symudodd i Lundain, lle y bu yn pregethu gyda llwyddiant mawr dros ddwy flynedd. Aeth oddiyno i Dartford, Kent, lle yr arosodd am ddwy flynedd a haner, ac yno bu yn fendithiol iawn i droi llawer o eneidiau. Yn ystod ei arosiad yn Dartford, torodd pla dychrynllyd allan yno, yr hwn a ysgubai y trigolion wrth y canoedd ymaith, ond ni chyffyrddodd "y saeth a cheda liw dydd âg ef." Cyn toriad allan y rhyfel cartrefol, yr oedd erlidigaeth wedi cyrhaedd uwchafnod ei greulondeb, yn enwedig tuag at yr annghudffurfwyr yn Nghymru, a syrthiodd V. Powel am ran helaeth o gynddaredd y gormeswyr. Am ei fywyd y ffödd efe i Lundain, ac er diogelwch ei einioes yr arosodd efe yn Lloegr, am bedair blynedd a haner, a phan ddaeth Cymru trwy ffawd y rhyfel, tan ddylanwad y Senedd, aeth rhai o aelodau ei eglwys yn sir Faesyfed, yr holl ffordd i Kent i'w wahodd i ddychwelyd atynt. Ond cyn myned, ymddengys iddo fod tan arholiad y Gynnadledd o Dduwinyddion, a benodasid i brofi a chymeradwyo pregethwyr cyhoeddus; ac wedi derbyn trwydded arwyddedig gan ddeunaw o'r profwyr, daeth i Gymru, gan ymgyflwyno yn ddioed ei holl nerth i waith pwysig y weinidogaeth yn mhlith ei gydwladwyr, ac at yr hwn waith yr oedd ynddo gymhwysder neillduol. Yr oedd o gyfansoddiad iachus a nerthol. Teithiai filltiroedd meithion heb ddiffygio. Gweddiai a phregethai yn fynych, am dair, pedair, a chwe awr yn nghyd. Yr oedd yn wr cadarn yn yr ysgrythyrau; gallai ar amnaid droi at unrhyw adnod yn y Bibl y sonid am dani, yr oedd yn fynegair Ysgrythyrol ynddo ei hun. Ei ddull o bregethu ydoedd trwy gymhariaethau eglur, a gwasgai y gwirionedd adref gyda ffrydlif o hyawdledd a dawn, nes y byddai yn ddychryn a gorfoledd yn mhlith ei wrandawyr. Nid ymddengys ei fod wedi sefydlu ei opinynau gwleidiadol yn ystod y rhyfel; ond ei fod yn credu mai ei ddyledswydd ef oedd pregethu yr efengyl gyda pha blaid bynag y cai gyfleusdra i hyny. Bu am ysbaid yn gaplan yn myddin y brenin, ac yr oedd gyda'r fyddin hono yn Môn; o'r ochr arall, coleddid syniadau uchel am dano gan Cromwell; bu yn pregethu gerbron arglwydd faer Llundain, Rhag. 10, 1649; a cherbron y Senedd, yn y Chwefror canlynol. Yn 1649, yr oedd yn trigianu ar ei dir ei hun yn y Goetre, plwyf Ceri, sir Drefaldwyn, lle yr oedd ei wraig a'i blant, ond y lle o herwydd ei alwedigaeth efengylaidd, nid oedd modd iddo ef ei hun aros ond ychydig o'i amser. Tua diwedd 1653, ceir ef eilwaith yn Llundain. Yr oedd yno pan gymerodd Cromwell y teitl o arglwydd amddiffynydd Rhyddwladwriaeth Prydain Fawr, a gwrthwynebodd y peth yn gyhoeddus, a thraddododd bregeth bwysig y diwrnod hwnw, yn eglwys Black-friars, am yr hyn y cadwyd ef yn ngharchar am rai dyddiau, ac yr arholwyd ef ger bron y Cynghor, ond gollyngwyd ef yn rhydd. Y flwyddyn ganlynol, ac mewn cysylltiad âg amryw eraill, cawn ef yn tynu allan wrthdystiad yn erbyn gwaith Cromwell yn trawsfeddianu yr hyn a ystyrid yn gyfystyr â'r orsedd. Ffyrnigodd y Diffynydd a'i bleidwyr yn fawr wrth yr ymddygiad hwn, a chan y tybient mai efe oedd a'r prif law yn y gwaith, danfonwyd byddin o wyr traed i Aberfechan, sir Drefaldwyn, i'w ddal, lle yr oedd efe yn cynal cyfarfod gweddi ar y pryd. Cymerasant ef o flaen *Major-General* Berry, i Worcester, yr hwn a'i derbyniodd yn garedig, ac a'i rhyddhaodd, gan ei anog yn addfwyn na fynychai y cyfryw ymddygiad. Fel hyn, ni bu efe heb ei elynion yn nyddiau rhwysg y Werin-lywodraeth. Ond pan ddychwelodd Siarl II., ymdywalltodd llid y llywodraeth, a'i elynion arno yn ddidrugaredd. Ebrill 28, 1660, cyn toriad dydd, daeth byddin o filwyr at y Goetre, ac a'i cymerasant yn ddirybudd, ac yn hollol ddiachos, i garchar y sir; ac ni chafodd ond ychydig ryddid hyd angau wedi hyny. Symudwyd ef o garchar Trefaldwyn i'r Amwythig, ac wedi bod yn garcharor yno am naw wythnos, rhyddhawyd ef. Yn mhen tair wythnos, daliwyd ef drachefn, dan y cyhuddiad o gabledd, gwrthryfel, a theyrnfradwriaeth; a bwriwyd ef i garchar Trefaldwyn, ac wedi rhai misoedd yno, a gwrthod cymeryd y llwon, na chydymffurfio, dygwyd ef o flaen y brenin, a'i gynghor, a'r canlyniad

Digitized by Google

fu ei draddodi i garchar *Fleet Street*, Llundain. Bu yno am ddwy flynedd, a thros fwy na haner yr amser hwn, mewn ystafell dywell; yr hyn gyda sawyr drewedig tomen o fudreddi gyferbyn a'r ffenestr, a niweidiodd ei iechyd i'r fath raddau, fel na chafodd ei adferyd. Tra yr oedd ei gorph fel hyn yn cael ei gystuddio, yr oedd ei elynion yn ymhyfrydu yn duo ei gymeriad. Symudwyd ef oddiyno i garchar *South Sea Castle*, Portsmouth, lle y bu yn gauedig a diymgeledd am bum mlynedd. Ond o'r diwedd, bu ei brif elynion feirw, a chafodd ei ryddhau. Pwy a ddichon adrodd na desgrifio ei deimlad? yr oedd y fath waredigaeth fel adgyfodiad oddiwrth y meirw. Cychwynai yn siriol tuag adref, gyda mil o gynlluniau yn ei feddwl pa fodd y defnyddiai efe weddill ei oes. Daeth trwy Bath, Bristol, a Chasnewydd, ac o'r diwedd cyrhaeddodd Merthyr Tydvil. Yr oedd wedi pregethu yn y Casnewydd, ac yr oedd tyrfa luosog yn dysgwyl am dano yn y Merthyr. Yr oeddynt wedi cyfarfod yn y fynwent, ac o'i hamgylch. Pregethodd iddynt oddiar Jer. xvii. 8, 9: "Bendigedig fyddo y gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd." Ond tra bu ef wrth y gorchwyl o bregethu, offeiriad y plwyf, George Jones, dan ei enw, dyn o'r cymeriad duaf, am feddwdod, ac anniweirdeb, a yrodd i Gaerdydd, at yr ynadon, y rhai oeddynt yno yn y brawdlys chwarterol, gyd ag achwynion, a llwon celwyddog yn erbyn Mr. Powel. Ar yr achwyniad hwn, gyrwyd swyddogion i'w ddal, a'i ddwyn i garchar Gaerdydd. Pan ofynodd am awdurdod y Swyddog, efe a darawodd ei law ar ei gleddyf ac a ddywedodd, "Dyma fy awdurdod i." Wedi bod am beth amser yn ngharchar Caerdydd, cymerwyd ef i Bontfaen, i gyfarfod yr ynadon. Rhoddwyd ef yno tan arholiad maith, a bu cryn ddadl ar y fainc, pa un a ollyngid ef yn rhydd a'i peidio, eithr penderfynwyd o'r diwedd, ei fwrw eilwaith i garchar Caerdydd, ac wedi bod yno am rai misoedd, trosglwyddwyd ef drachefn i Lundain. Yr oedd hyn yn Hydref, 1639, ac yno y bu mewn caethiwed, prinder, a gwall ymgeledd, hyd ddydd ei farwolaeth. Ond yr oedd ei feddwl yn para yn gryf a diysgog, a pho mwyaf ei orthrymder, mwyaf oll ei ddyddanwch. Ymddengys ei fod tra yn y carchar y tro hwn, yn cael caniatad i ymweled yn achlysurol, tan ofal ceidwad, a'i gyfeillion yn y Brifddinas. Byddai hefyd yn pregethu ar amserau yn muarth y carchar, lle y byddai amryw yn dyfod i'w wrando. Ar y Sabbath, Medi 25, y traddododd ei bregeth ddiweddaf; a'r noson hono cymerwyd ef yn glaf; ond pan oedd ei gorph yn cael ei wasgu dan bwysau cystudd, yr oedd ei enaid dedwydd, yn ymddyrchafu ar adenydd ffydd i olwg palas ei Dad. Dywedodd wrth ei gyfeillion ychydig cyn ei ymddatodiad "Pe dywedai y diafol wrthyf fy mod yn falch, yn anffyddlawn, neu yn aniolchgar, byddai genyf achos i'w gredu, yr wyf yn cyhuddo fy hun am ormod o'r pethau hyny; ond pe dywedai wrthyf nad oes genyf ras, ac nad ydwyf Cristion, ni chredwn ef." Yn y profiad dedwydd hwn y gwywodd yn raddol dan ddwylaw angau; ac yn hollol feddianol ar ei deimlad a'i synwyrau, bu farw yn dawel, Hydref 27, 1678, yn yr 11eg flwyddyn o'i garchariad, y 33ain o'i weinidogaeth, a'r 53ain o'i oedran. Yr oedd yn wr cadarn a nerthol mewn gweddi, a chafodd brofion digonol, amlwg ac uniongyrchol lawer gwaith, fod yr Arglwydd yn gwrando arno. Yr oedd ei elusengarwch a'i haelioni yn annghydmarol. Gwnai ddaioni i eraill yn aml ar draul colledu ei hun. Cysegrai y bumed ran o'i holl dderbyniadau i gynorthwyo y tlawd. Y tlawd a'r angenus oedd ei ddewisedigion. Gwahoddai hwynt i'w dŷ, gwisgai y noeth, porthai y newynog, a thorai o fara y bywyd i bob dyn. Yr oedd mor ryddgalon fel yr arferai ddywedyd fod ganddo le mewn gwelyau i ddeuddeg yn ei dŷ, cant yn ei ysgubor, ac i fil yn ei galon. Fel penteulu, yr oedd yn dirion a gofalus. Cadwai addoliad teuluaidd ddwywaith yn y dydd, mewn darllen, a gweddio, a chanu mawl. Er ei fod yn cael niwaid oddiwrth lawer, nid oedd efe yn elyn i neb. Lili ydoedd heb bigau, er ei fod yn cael ei amgylchu â drain. Gweddiai yn fynych dros ei elynion, am i'w pechodau gael eu llwyr ddileu oddiar goflyfr y nef. Yr oedd yn ddyn gonest a difrifol yn ei ymadroddion; llefarai feddwl ei galon ar bob amgylchiad, neu ni ddywedai ddim.

**POWEL**, Watcyn, ydoedd o Benyfai, ger Pen-y-bont ar ogwy, sir Forganwg. Derbyniwyd ef i Orsedd Morganwg yn 1560, a bu yn llywyddu ynddi yn 1620. Yr oedd hefyd yn gynullydd henafiaethau Cymreig. Daeth ei lawysgrifau i feddiant Iolo Morganwg, a chyhoeddwyd hwynt yn yr *Iolo* MSS.

**POWEL**, William, o Gastell Madog, bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620.

**POWEL**, Parch. William, LL.D., ydoedd drydydd mab i William Powel o Nanteos. Ei fam ydoedd Averina, ferch Cornelius Le Brun, o Colone yn yr Almaen, yr hwn yn 1663, a wnaeth ei hun yn ddeiliad o Brydain, ac a briodasai Ann, ferch y milwriad John Jones o Nanteos. Efe a anwyd yn 1705. Cafodd ei ddysg yn ngholeg St. John, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o LL.D. Cafodd ficeriaeth Llanfihangel Genau'r Glyn. Priododd Elizabeth Ann Corbett, llys-ferch Athelstan Owen, o Riwsaeson. Bu farw Rhagfyr 21, 1780, yn 73 oed.

**POWYS**, un o'r hen dywysogaethau i ba rai y dosberthid Cymru dan ei thywysogion brodorol ei hun. Yr ydoedd ar y cyntaf yn cyrhaedd tu hwnt i'r Hafren, i siroedd yr Amwythig, Caerwrangon, a Henffordd, hyd yr afon Wy; ond, wedi gwneyd Clawdd Offa, fe'i cyfyngid i diriogaethau ar y tu gorllewinol i'r gwrthglawdd hwnw; ac yn amser Llewelyn, cynnwysai yr oll o swydd Drefaldwyn, a rhanau o siroedd Maesyfed, a Brycheiniog, os nad oedd rhanau o siroedd Fflint, a Dinbych hefyd yn perthyn iddi. Yn bresenol y mae yn rhoddi y teitl o Iarll i deulu yr Herbertiaid. Y mae Castell Powys, palas yr Iarll, yn sefyll ar graig o dywod-faen coch, 1 milldir i'r Dehau o dref y Trallwm, ac oddiwrth ei orsaf, fe'i gelwir, Y Castell Coch yn Mhowys. Fe'i sylfaenwyd yn y flwyddyn 1109, gan Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Powys; ac yn y flwyddyn 1191, fe'i cymerwyd gan yr Archesgob Hubert, yr hwn a'i hadgyweiriodd, ac a'i cadarnhaodd, ac fe'i delid dan nawdd brenin Lloegr, gan Owen ab Gruffydd ab Gwenwynwyn. Llewelyn ab Iorwerth a'i cymerodd, ac a'i digaerodd.

**POWYS**, Lewis, bardd yn ei flodeu rhwng 1580 a 1620.

**PRENDERGAST**, plwyf yn nghantref Dungleddau, yn swydd Benfro. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Cleddau, ac ar reilffordd Deheudir Cymru, gerllaw gorsaf Hwlffordd, i'r hon y mae megis maes-dref, ac yn gydiol â'r dref gan bont. Cynnwysa y plwyf 1104 o erwau o dir; ac y mae mewn rhan o fewn bwrdeisdref Hwlffordd. Llythyrfa, Hwlffordd. Gwerth ardrethol, 4072*p*. Poblogaeth,

Digitized by Google

1481. Tai annedd, 321. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 183*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae y lle wedi cael ei enw oddiwrth hen deulu pendefigaidd o'r enw, a fu yn cyfaneddu yma, ac i'r hwn y perthynai yr holl blwyf yn yr amser gynt. Gellid olrhain rhai olion o'r hen lŷs yn ddiweddar. Yr olaf o'r teulu a fwynhaodd yr ettifeddiaeth hon, oedd Maurice de Prendergast, yr hwn a aeth gyda Strongbow, Iarll Clare, i'r Iwerddon, ac a ymsefydlodd yn y wlad hono. Wedi hyny, daeth yr ettifeddiaeth i feddiant teulu o'r cyfenw Stepney, y rhai a gyfaneddent yma hyd eu symudiad i swydd Gaerfyrddin; ac yna yr hen balas, wedi ei adael yn annghyfanedd, a aeth yn adfeiliedig yn fuan. Y mae yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i Dewi Sant, yn hen adeilad yn yr arddull Seis'nig Foreuol.

**PRESELLE** (Mynyddoedd), rhes o fynyddoedd, yn y parth gogledd ddwyreiniol o swydd Benfro, yn ymestyn am oddeutu deng milldir o'r dwyrain wrth ogledd, i'r gorllewin wrth ddehau, gan gyrhaedd eu man uchaf ger Cwm Cerwin, lle y maent yn 1754 o droedfeddi goruwch lyfel y môr.

**PRESTATYN**, neu Prysgoed-ddin, trefgordd, capeloriaeth, a chantref, yn swydd Fflint. Y mae y drefgordd yn mhlwyf Meliden, ar lan y môr, ac ar reilffordd Caer a Chaergybi, 4½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Ruddlan, ac y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, dan y Rhyl. Gwerth ardrethol, 2123*p*. Yr oedd yma gastell wedi ei adeiladu gan y Cymry ar adeg dra boreuol, oddiwrth yr hwn y gelwid y lle, "Cantref Prysgoed-ddin." Dygwyd yr amddiffynfa hon oddiar ei hen berchenogion, gan y Saeson dan Harri II., ac yr ydoedd yn ei feddiant yn y flwyddyn 1167, pan ei dinystriwyd gan Owain Gwynedd, Cadwaladr, a Rhŷs, Tywysog y Deheubarth; ac yn y canlyniad, darostyngwyd Tegeingl oll dan awdurdod Owain. Y brenin Rhisiard y Cyntaf, a roddodd yr arglwyddiaeth i Robert Banaster, yr hwn a gadwodd feddiant o honi am yn agos i bedair blynedd, ac a adeiladodd dref, yr hon wedi hyny a ddinystriwyd gan Owen Gwynedd. Yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Edward y Cyntaf, hawlid yr arglwyddiaeth hon gan Robert de Crevecœur, yn rhinwedd ei haniad o Banaster, ac wedi gwneyd ymchwiliaeth o flaen rheithwyr, penderfynwyd y cynghaws yn ei ffafr. Disgynodd yr arglwyddiaeth oddiwrth y teulu uchod, trwy briodas, i deulu a gyfenwid y Conwyaid, o'r Bodrhyddan; ac ar raniad yr ettifeddiaethau teuluaidd, ar farwolaeth Syr John Conwy, disgynodd, trwy hawl ei fam, i'r Parch. Richard Williams, o'r Fron, yr hwn a'i trosglwyddodd i'w frawd yn nghyfraith, Richard Wilding, Ysw. Y mae ychydig o olion yr hen gastell yn aros eto, yn gynnwysedig o ranau o'i sylfaeni, ar lanerch o dir lled ddyrchafedig, a elwir Plas Prestatyn, mewn gweirglodd, goris y felin; a'r un ffunud hefyd, gellir olrhain y ddyfr-ffos a'i hamgylchai, o fewn ychydig bellder iddo. Y mae y drefgordd yn gorwedd ar lan Môr y Werydd, mewn llanerch isel, yr hwn a ammaethir yn rhagorol, ag sydd yn dra chynnyrchiol mewn pob math o ŷd-rawn.

**PRESTEIGN**. Gwel Llanandras.

**PRICE**, Syr Carberry, y pedwerydd barwnig, a'r diweddaf o Gogerddan, sir Aberteifi, ydoedd unig fab Carberry Price, Ysw., yr hwn a ddaeth i feddiant o'r etifeddiaethau a'r urddenw, ar farwolaeth ei gefnder, Syr Thomas, yn ddiblant, yn Mai, 1682. Yn ei amser ef, yn 1690, y darganfyddwyd mŵn plwm ac arian ar yr ystâd, nad oedd ei ragorach yn y deyrnas yn y dyddiau hyny, a gelwid ef y *Welsh Potosi*. Yr oedd yn ddeddf er cyn côf, fod mŵn a gynwysai arian neu aur yn cael eu hystyried yn fwngloddiau breninol; ac oblegid hyny, yr oedd mwngloddiau Cymru, er ar etifeddiaethau a maenoriaethau personol, wedi eu caniatau gan ein breninoedd i estroniaid tramor, ond yn cadw iddynt eu hunain y ddegfed o'r aur neu'r arian a dynid o honynt, fel y darfu i'r frenhines Elizabeth; ac ni ddiddymwyd y gyfraith oedd yn hawlio hyny hyd y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad William a Mary. O dan yr awdurdod uchod yr oedd mŵn sir Aberteifi, yn cael eu gweithio tros y Goron, gan Syr Hugh Middleton, a Mr. Bushell. Mewn canlyniad i ddilead yr hen gyfraith hono gan William a Mary, darfu i Syr Carberry ddosranu ei diroedd cyffredin yn gyfranau, a dechreu gweithio y cloddfeydd ar ei diroedd. Ond Cymdeithas y Mwngloddiau Breninol a'u hawlient, fel eu heiddo hwy. Ar hyn, bu cynghaws cyfreithiol rhwng Syr Carberry â hwynt; a phan enillodd ein cydwladwr y dydd, crewyd ef yn farchog. Efe a fu farw yn 1695.

**PRICE**, Ellis, LL.D., o Blasiolyn, Ysbytty Ifan, sir Ddinbych, ydoedd ail fab Robert ab Rhys ab Meredydd o'r un lle. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt, lle y cafodd y radd o LL.D. Yr oedd efe yn un o aelodau Caergrawnt, a fuont mewn dadl â Throgmorton, ac eraill o brifysgol Rhydychain, yn 1532; ac yn ol Caius yn ei *Antiquities of Cambridge*, daeth Dr. Price allan o'r ymdrafod hon yn fuddugwr. Bu yn cynnrychioli sir Feirionydd yn senedd y frenines Mari, ac yn nau senedd cyntaf y frenines Elizabeth. Adwaenid ef yn mhlith y werin, wrth yr enw Dr. Coch, o herwydd y fantell a wisgai o'r lliw hwnw, yn urddas ei radd, a'i swydd. Ystyrid ef ganddynt yn offeryn gormes yn llaw Dudley, iarll Leicester, er yspeilio gwyr Gwynedd o'u hawliau cynhenid; a thybid ei fod wedi ymwerthu i bob drwg, ac yn gnaf penaf yr holl wlad. Credid ei fod ef a Leicester yn cyd-gynllwyn i gael i'w meddiant ran fawr o'r tiroedd eglwysig oeddynt wedi syrthio i hawl y goron trwy ddiddymiad y mynachlogydd. Gwrthwynebwyd hwynt mewn cyfraith gan y rhai oedd mewn meddiant o honynt eisioes, a'r canlyniad fu, i wyth o brif foneddigion Lleyn, gael eu cymeryd yn garcharorion i'r Twr Gwyn, yn Llundain. Trwy ei graffder cyfreithiol, daeth Dr. Price i feddiant o faenoriaeth Tir Ifan, yr hon sydd yn awr trwy bryniad, yn meddiant arglwydd Penrhyn, sir Gaernarfon; a bu bywioliaeth eglwys Llangwm, Llandrillo yn Rhos, a Llanuwchlyn, am yspaid yn ei ddwylaw. Cyfrifid ef y marchog goreu yn y wlad, a dywed traddodiad fod ôl traed un o'i feirch campus i'w weled hyd heddyw, mewn lle a elwir oblegid hyny yn "Sarn y Dr. Coch." Ei enw ef oedd y cyntaf o'r rhai yr anfonodd y frenhines Elizabeth atynt yn eu hawdurdodi i gynal yr Eisteddfod Freiniol yn Nghaerwys, yn 1568. Yr oedd yn ddyn mawr gyda'r beirdd, ac feallai yn fardd ei hunan, o leiaf yr oedd Thomas Prys, ei fab, yn fardd enwog. Byddai yn cadw llys agored i feirdd a cherddorion bob Gwyliau. Un flwyddyn, mynai gael Rhys Grythor i'w wyl, a rhoddes William Cynwal ar waith i wneud cywydd i'w ofyn, gan Sion Tudur. Mae cywyddau y ddau fardd yn argraffedig yn y Gwyliedydd, am 1825. Ystyrid ef yn fath o frenin bychan yn y wlad. Bu

Digitized by Google

bedair gwaith yn sirydd Dinbych, saith waith yn sirydd Meirion, dwy waith yn sirydd Mon, ac unwaith yn sirydd Caernarfon. Y mae darlun o hono yn nghadw yn Mhodysgallen, ger Conwy, a dynwyd yn 1605.

**PRICE**, Hugh, D.C.L., sefydlydd gwladgarol Coleg Iesu, Rhydychain, ydoedd frodor o Aberhonddu, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y cymerodd ei raddio fel doethawr yn 1525. Gwnaed ef yn un o brebendiaid cyntaf Rochester tua 1542, ac hefyd yn drysorydd Tyddewi. Pan yn oedranus, efe a benderfynodd roddi manteision addysg uchel, yn nghyraedd ei gydwladwyr mewn modd mwy neillduol, yr hyn nid oedd yn Rhydychain, yn yr amser hwnw. Gyda'r bwriad hwnw, deisebodd y frenhines Elizabeth ar iddi sefydlu coleg, i ba un y gallai efe gyfranu ei gyfoeth. Cydsyniodd ei Mawrhydi â'r cais, a rhoddes freineb i'r perwyl hyny, dyddiedig Mehefin 27, 1573, ac yn awdurdodi mai ei enw fyddai "Coleg Iesu," i'w adeiladu o fewn dinas a phrifysgol Rhydychain, o sefydliad y frenines Elizabeth; y Gymdeithas i fod yn gyfansoddedig o un dysgawdwr, wyth o Gymrodyr, ac wyth o ysgolorion; ac er eu cynaliaeth, caniataed i'r Dr. Price waddoli ei ettifeddiaethau i'r swm o 160*p.* yn y flwyddyn. Chwanegodd y frenhines hefyd i'r un perwyl, nifer o goed, o goedwigoedd Shotover, a Stow. Yr oedd etifeddiaethau y sefydlydd, y rhai a droswyd Mehefin 30, yn sefyll yn sir Frycheiniog; a chyfranodd hefyd tros 1500*p.* tuag at yr adeilad, heblaw swm arall o arian, yr hwn a fu yn aros yn llonydd hyd ddechreu yr 17eg ganrif, pryd yr oedd yn 700*p.* Bu Dr. Price farw yn Awst, 1574.

**PRICE**, Syr John, LL.D., henafiaithydd enwog, ydoedd frodor o sir Frycheiniog, yn fab i Rhys ab Gwilym Gwyn, yr hwn a gynnrychiolai un o deuluoedd henaf y sir. Addysgwyd ef yn Broadgate Hall, neu Goleg Pembroke, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn ddoethawr yn y gyfraith, yn 1534. Noddid a chefnogid ef yn ei efrydiau gan William, iarll Penfro, a chynyddodd ynddynt yn rhagorol, yn enwedig yn hanes a henafiaeth ei wlad enedigol. Daeth yn efrydydd yn y gyfraith, a galwyd ef at y bàr, tynodd sylw y Brenin Harri VIII., gan yr hwn y penodwyd ef yn un o Gynghorwyr Llys y Cyffiniau. Priododd Joan merch John Williams, Ysw., o Southwark, yr hwn oedd fab i William Evan, neu William Morgan, o'r Eglwys wen, ac yn frawd hynaf i Morgan Williams, yr hwn a briodes ferch i Walter Cromwel, o Putney, o'r hwn y disgynai Oliver Cromwel. Cymerodd Syr John Price ran flaenllaw yn nghwbl uniad Cymru â Lloegr, a thybir mai efe oedd awdwr y ddeiseb at Harri VIII., ar y pwnc hwnw, cyfansoddiad yr hon, a adlewyrcha anrhydedd mawr ar ei hawdwr. Urddwyd ef yn farchog gan y brenin, a llanwodd y swydd o sirydd Brycheiniog yn 1541, a'r cyffelyb dros sir Henffordd yn 1553. Efe a gyfieithodd gyntaf Weddi'r Arglwydd, y Credo, a'r Deg Gorchymyn, y rhai a argraffwyd yn 1555. Ni argraffwyd ei *Historia Britannicae Defensio*, yr hwn a ysgrifenwyd yn ateb i *Polydore Virgil*, hyd yn mhen ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth; pan y gwnaed hyny gan ei fab, Syr Richard Price. Yr oedd hefyd yn awdwr *A Description of Wales*, yr hwn a helaethwyd gan Humphrey Llwyd ac a argraffwyd fel rhag-ymadrodd i'r hanes Seisnig yr hwn a gyfieithwyd gan Llwyd, a helaethwyd ac a gyhoeddwyd gan Dr. Powel yn 1584. Efe a ysgrifenodd hefyd draethawd Lladin ar y Sacrament, a bu o gymhorth i'w gyfaill Leland, gyda'i *Assertio Arthuri.*

**PRICE**, Parch. John, a anwyd yn y Twr, ger Llangollen, Mawrth, 1734. Bu am flyneddoedd yn aelod o Goleg Iesu, Rhydychain, ac ar ol hyny o Goleg y Drindod, yn yr un brifysgol. Cymerodd ei raddau o A.C. yn 1768. Cyfrifid ef yn ysgolhaig da; ac yr oedd bob amser yn barod i gyfleu gwybodaeth i'w gyfeillion allan o'r llyfrfa oedd tan ei ofal, y Llyfrfa Fodleiaidd, ceidwadaeth yr hon a gafodd yn 1768, a wnaed ef yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol. Yr oedd trwy hir ymarferiad, yn hollol ymlynol wrth y llyfrfa hono. Bu yn ficer Llangatwg, sir Forganwg, ac yn beriglor Wolaster, ac Alvington yn sir Gaerloyw. Nid ydys yn gwybod iddo gyhoeddi dim o'i eiddo ei hun, ond cynorthwyodd yn awduriaeth *The Lives of Leland, Hearne, and Wood*, yn 1772, a chyhoeddwydd rhai gweithiau rhagorol yn ystod yr amser y bu efe yn geidwad y Llyfrfa, yn rhagymadroddion y rhai y mae ei wasanaeth yn cael ei gydnabod. Bu farw yn Rhydychain, Awst 17, 1813, yn 79 mlwydd oed.

**PRICE**, Owen, oedd frodor o swydd Drefaldwyn, yr hwn a wnaed yn Ysgolor o Goleg yr Iesu, Rhydychain, yn y flwyddyn 1648, gan yr Ymwelwyr Seneddol, lle yr arhosodd efe bedair blynedd, ac yna efe a bennodwyd yn athraw ysgol gyhoeddus yn Nghymru, lle yr ymdrechai i ddysgu y rhai oeddynt dan ei ofal yn egwyddorion yr Henaduriaethwyr. Yn 1655, dychwelodd i Rydychain, lle ei gwnaed yn efrydydd o Goleg Eglwys Crist. Wedi cymeryd ei raddau yn y celfyddydau, efe a bennodwyd yn athraw yr Ysgol Rad, ger Coleg Magdalen, a'i fedrusrwydd addefedig i gyfranu addysg, a ddygai luaws mawr o ddysgyblion yno. Ar adferiad y Brenin, efe a ddifuddiwyd o'r swydd hono, am ei fod yn anghydffurfiwr, a bu yn cadw ysgol hynod o lwyddianus yn swydd Dyfnaint, ac wedi hyny yn swydd Berks, a manau eraill. Yr oedd yn awdwr rhai llyfrau elfenol. Bu farw yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1671.

**PRICE**, Richard, D. D., awdwr gwleidiadol enwog, a anwyd yn Tynton, ger Penybont-ar-ogwy, sir Forganwg, yn 1723. Yr oedd ei dad, Rice Price, yn Galfiniad llym, a chymerodd lawer o boen i blanu yr egwyddorion hyny yn meddwl ei blentyn. Ar farwolaeth ei dad, aeth Richard pan yn ddeunaw oed, i fynu i Lundain, lle y derbyniwyd ef i goleg Ymneillduol trwy ddylanwad ewythr iddo, ac yno efrydodd uchanianaeth, athroniaeth, a duwinyddiaeth. Yn 1743, cyflogwyd ef fel caplan, a chydymaith yn nheulu Mr. Streathfield, o Stoke Newington, lle yr arosodd am 13 o flyneddau, pryd y bu y boneddwr hwnw farw, gan adael cymunrodd i'r caplan, yr hwn hefyd a chwanegwyd trwy farwolaeth ei ewythr tua'r un pryd. Penodwyd ef hefyd yn bregethwr boreuol capel Newington Green. Ei lyfr cyntaf a elwid, *Review of the Principal Questions and Difficulties in Morals*, 1758 a 1787; a'r gwaith hwn a sefydlodd ei enwogrwydd fel uchelanianydd a moesddysgydd. Yn 1767, gofynwyd iddo gan bwyllgor o foneddigion mewn cysylltiad â'r alwedigaeth gyfreithiol, am ei farn parth cynllun o'r eiddynt er sicrhau blwydd-dalion i'w gweddwon. Hyn a dynodd ei sylw gyntaf at yr egwyddorion diffygiol ar ba rai yr oedd cymdeithasau o natur cyffelyb wedi eu sylfaenu, ac a fu yn achlysur iddo

Digitized by Google

ysgrifenu ei draethawd ar *Reversionary Payments*, 1769, a chyhoeddiad yr hwn a barodd ddifodiad uniongyrchol bron, amryw o'r cyfryw gymdeithasau, a diwygiad y gweddill. Daeth pum' argraffiad o hono allan, yr olaf yn 1803, dan olygiaeth William Morgan. Yn 1776, ymddangosodd ei *Observations on Civil Liberty*, and *The Justice and Policy of the War with America*, am yr hwn y coleddid syniadau mor uchel gan gefnogwyr annibyniaeth yr Unol Daleithiau, fel y deisyfasant ganiatad yr awdwr i ddwyn allan argraffiad rhad o'r gwaith; ac mewn canlyniad, gwerthwyd 60,000 o hono mewn ychydig fisoedd. Anrhydeddwyd ef gan gorpholaeth drefol Llundain â blwch aur, yn cynwys rhyddid dinesig iddo; ac yn 1778, darfu i'r Gydgynghorfa Americanaidd, ei wahodd i'w cynorthwyo i reoleiddio eu cyllid, a sicrhau iddo, os ymfudai gyda'i deulu i'r America, y gwobrwyid ei wasanaeth yn haelionus. Eithr ni thybiodd yn ddoeth dderbyn y gwahoddiad hwn. Graddiwyd ef yn ddoethawr mewn duwinyddiaeth gan brifysgol Glasgow, yn 1769; ac yr oedd yn Gymrawd o'r Gymdeithas Freiniol, wedi ei ethol yn 1784. Efe a fu farw yn Llundain, yn 1791. Heblaw y gweithiau crybwylledig, yr oedd Dr. Price yn awdwr y llyfrau canlynol:—(1) "Four Dissertations on Providence, Prayer, the State of Virtuous Men after Death, and Christianity," 1760 a 1768; (2) "The Nature and Dignity of the Human Soul," 1766; (3) "An Appeal to the Public on the Subject of the National Debt," 1772, a 1774; (4) "An Essay on the Present State of the Population of England and Wales, with Morgan on Annuities," 1779; (5) "The Vanity, Misery, and Infamy of Knowledge without Suitable Practice," 1770; (6) "An Essay on the Population of England from the Revolution to the Present Time," 1780; (7) "The State of the Public Debts and Finances assigning the Preliminary Articles of Peace in January," 1783; (8) "Postscript" to the same, 1784; (9) "Observations on the Importance of the American Revolution, and the Means of making it useful to the World," 1784; (10) "A Discourse on the Love of our Country," 1789, a 1790; (11) "Britain's Happiness, and its full Possession of Civil and Religious Liberty, briefly stated and proved," 1791; (12) "Fast Sermons," 1759, 1779, 1781, &c.; "Sermons on Various Subjects," 1786, 1816; "Sermons on the Christian Doctrine," 1787; (13) "On the Expectations of Lives, the Increase of Mankind," 1769. Ysgrifenwyd ei fywgraphiad gan ei nai, William Morgan, a chyhoeddwyd ef yn 1815.

**PRICE**, Robert, LL.D., prelad enwog yn ei ddydd, ydoedd bedwerydd mab John Price, Ysw., o'r Rhiwlas, sir Feirionydd, lle y ganwyd ef, yn 1607. Cafodd ei addysg yn Ysgol Westminster, ac oddiyno etholwyd ef yn efrydydd i Goleg Crist, Rhydychain, yn 1625. Cymerodd ei raddau yn y celfyddydau, ac yna efrydodd y gyfraith, yn yr hon wybodaeth y graddiwyd ef yn wyryf, yn 1632. Urddwyd ef yn ddiacon yn Mangor, yn 1634, ac yn fuan penodwyd ef yn ficer Towyn Meirionydd. Yn 1635 gwnaed ef yn ganghellydd yn mhrifeglwys Bangor, yr hon swydd a roddes i fyny yn 1636. Gan iddo gael ei benodi yn gaplan iarll Stratford, arglwydd rhaglaw Iwerddon, cafodd ddeoniaeth Connor, yn y wlad hono, ac ystyrid ef ar y pryd, yn dra hyddysg yn y gyfraith eglwysig. Yn Ebrill, 1639, gwnaed ef yn ddoethawr yn y gyfraith, gan brifysgol Dublin, ac yn fuan cafodd yr un anrhydedd hefyd o Rydychain. Pan dorodd y gwrthryfel Gwyddelig allan, collodd bob peth a feddai yn y wlad hono, a dioddefodd lawer o herwydd ei freingarwch; ond ar ddychweliad Siarl II., adferwyd ef i'w swyddau, a chysegrwyd ef yn esgob Ferns a Leighlin, Ionawr 27, 1660. Ar farwolaeth y Dr. William Roberts, esgob Bangor, penodwyd ef yn olynydd iddo, eithr cyn esgyn i'r swydd, efe a fu farw, Mawrth 26, 1666, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys Patric Sant, lle ni roddwyd na chofgolofn, na chofnod i ddynodi y fan.

**PRICE**, Robert, y gwladgarwr twymgalon, a anwyd yn y Gilar, yn mhlwyf Cerrig y Druidion, Ionawr 14, 1653. Mab henaf ydoedd i Thomas Price, Ysw., o'r Gilar, o Margaret Wynne, merch ac aeres, Thomas Wynne, Ysw., o Bantybeudy. Addysgwyd ef gyntaf yn ysgol ramadegol Gwrecsam; ac oddiyno danfonwyd ef i Gaergrawnt, lle y derbyniwyd ef yn aelod o Goleg St. John's. Pan tuag ugain oed, aeth yn efrydydd i Lincoln's Inns; ac ymhen ychydig ar ol hyny, cychwynodd i'w ymdaith trwy Ffrainc a'r Eidal; a bu yn absenol o Loegr am ddwy flynedd. Yn 1679, efe a briododd Lucy, merch henaf Robert Rodd, Ysw., o Foxley, yn sir Henffordd, gyda yr hon y cafodd gynysgaeth dda. Yn 1682, efe a wnaed yn gyfreithiwr cyffredinol tros Ddeheudir Cymru, ac etholwyd ef yn henadur tros ddinas Henffordd, a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn *Recorder* tros Faesyfed. Darfu i'w uniondeb, a'i farn, a'i hyddysgrwydd yn nghyfreithiau ei wlad, enill iddo enwogrwydd mor uchel, fel y penodwyd ef yn 1684, ar farwolaeth Siarl II., yn oruchwyliwr i'r frenines weddw; hefyd yn ysgrifenydd trefol i ddinas Caerloyw, yn 1685; a'r flwyddyn ganlynol yn gynghorwr i'r brenin, yn Ludlow. Eithr yn y chwyldroad a ddyrchafodd Gwilym III., i orsedd Prydain, efe a gollodd ei swyddau o fod yn gyfreithiwr cyffredinol Morganwg, ac ysgrifenydd trefol Caerloyw. Yr oedd y teyrn newydd, yn nodedig am noddi a dyrchafu ei anwyliaid tramor. Yn mhlith eraill, efe a greodd un William Bentinck, i iarllaeth Portland, ac yna, a roddes arglwyddiaethau Dinbych, Bromfild a Ial, yn sir Ddinbych, iddo ef a'i etifeddion tros byth. Wrth wrthwynebu y rodd amryfus hon, yr enillodd Robert Price, lawryfau bythwyrddion ei enwogrwydd, ac y mae ei areithiau ar yr achlysur yn llawn dyngarwch a chariad at ei wlad. Dadleuai nad oedd gan y brenin hawl, yn ol y *Bill of Rights*, i roddi ymaith ran o etifeddiaeth Tywysog Cymru, heb ganiatad neillduol y Senedd, a therfynodd araith faith a theyrngarol, trwy gynyg fod anerchiad yn cael ei gyflwyno i'r brenin gyda'r amcan o atal rhoddiad yr arglwyddiaethau hyn i iarll Portland. Yr oedd y cais hwn mor rhesymol, a'r araith mor hyawdl, fel y cariwyd y penderfyniad yn ddiwrthwynebiad; ac er fod y brenin yn dra digofus wrth yr areithiwr, eto danfonodd atebiad tyner i Dŷ y Cyffredin, yn datgan na buasai yn gwneud anrheg o'r cyfryw diroedd, pe gwybuasai y buasai hyny yn anerbyniol gan y Senedd; a chan hyny yn dileu y rhodd. Ar dderbyniad yr ateb hwn, cynygiodd Robert Price, a phenderfynodd y Tŷ yn unfrydol, fod ceisio, neu gyfranu, rhoddion afresymol gan unrhyw aelod o'r cyfringynghor, &c., i gael ei ystyried o hyny allan yn gamymddygiad, ac uchel-drosedd." Yr oedd yr araith hon yn cynwys gwirioneddau rhy heilltion iddi gael ei cyhoeddi dan deyrnasiad y brenin hwnw; eithr y flwyddyn wedi ei farwolaeth ef, argraffwyd

Digitized by Google

hi dan y teitl, *Gloria Cambrae: or, a Speech of a bold Briton in Parliament, against a Dutch Prince of Wales.* Ceir cyfieithiad, lled drwsgl y mae'n wir, o hono yn Ngreal Llundain. Gallesid meddwl y buasai gagendor yn aros byth rhyngddo a'r teyrn y gwrthwynebasai ei gynlluniau mor ddi dderbynwyneb, a llwyddianus; ond dull cysefin Gwilym III., o ladd gwrthwynebiad dynion galluog ac egwyddorol, ydoedd eu gosod mewn swyddau, ac yn ddiau efe a gafodd y ddau nodweddiad hyn yn helaeth yn y Cymro gwladgarol hwn. Yn 1700, rhoddes y brenin iddo y swydd o farnwr y llysoedd Cymreïg. Bu yn aelod seneddol tros Weobly, o 1682, hyd 1702, pan y rhoddes y gynrychiolaeth i fyny i'w fab, Thomas, ac yn ystod yr un flwyddyn, efe a wnaed yn rhingyll yn y gyfraith, er mwyn ei gyfaddasu i dderbyn yr anrhydedd a ddodid arno gan y frenines Anne, yr hon ar ei dyrchafiad i'r orsedd, a'i penododd yn un o farnwyr y Trysorlys. Er fod y swydd hon ar y pryd yn cael ei hystyried fel gris i ddyrchafiad uwch, parodd ei uniondeb anmhlygadwy fel gweinyddwr y gyfraith, i weinidogion y goron, ei adael yn y llys hwnw am bum mlynedd ar hugain; a phan ddywedodd y prif weinidog wrtho, y cai unrhyw swydd ag oedd yn ei allu ef ei dodi iddo, atebodd, "na dderbyniai ef unrhyw swydd ar na chaffai ynddi berffaith ryddid i arfer ei farn yn ol fel y byddai natur y gwasanaeth, a'i ddyledswydd yntau i'w wlad, yn caniatau." Yn 1726, gwnaed ef yn un o farnwyr Llys y Dadleuon Cyffredin. Dywed cyfoeswr am dano, "Iddo lanw y gwahanol swyddau hyn mewn doethineb, a'i fod yn farnwr rhagorol mewn gwirionedd; yn gweinyddu cyfiawnder gydag uniondeb dyben, gan gasbau pob peth ag arno arogl lleiaf pleidgarwch neu lwgr-wobrwyaeth." Bu farw Chwef. 2, 1732, yn 79 oed, a chladdwyd ef yn Yazor, sir Henffordd. Bu iddo dri o blant, sef dau fab, ac un ferch; Thomas, yr henaf, a fu farw pan ar daith yn Genoa, yn 1706, a thybir na chafodd bob chwareu teg; a'r ail, Uvedale Tomkyns, a ddaeth i feddiant o etifeddiaethau ei dad. Cyhoeddwyd hanes bywyd y Barwn Price yn Llundain, yn 1734, mewn cyfrol 8 plyg, i ba un yr ydym yn ddyledus am yr hanes blaenorol.

**PRICE**, Parch. Samuel, ydoedd enedigol o'r Bettws, ger Penybont-ar-ogwy, Morganwg. Yr oedd yn ewythr frawd i'w dad i'r Dr. Richard Price, o Lundain. Bu yn cyd weinidogaethu â'r enwog Dr. Watts, am ysbaid deugain mlynedd, a saith mlynedd yn olynydd iddo. Bu farw yn y flwyddyn 1756.

**PRICE**, Theodore, D.D., a anwyd yn Bronyfoel, plwyf Llanenddwyn, Dyffryn Ardudwy, Meirionydd. Mab ydoedd i Rhys ab Tudur ab William Vaughan, o Gilgerran. Addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y daeth yn Gymrawd o Goleg Iesu, ac ar ol hyny, yn athraw ar Hart Hall. Wedi ei raddio yn y celfyddydau, cafodd fywioliaeth yn ngwlad ei enedigaeth, trwy gael ei benodi yn beriglor Llanfair, ger Harlech, yn 1581; ac yr oedd mewn meddiant o segur-swydd gyfoethog, sef perigloriaeth Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd. Yn 1596, gwnaed ef yn brebend Winchester; ac yn 1623, yn brebend Westminster. Bu farw Rhagfyr 15, 1631. Cyhuddid ef o goledd egwyddorion Pabyddol; ond bernir nad oedd y drwgdybiau hyn, ac amryw eraill am dano, ddim ond cynyrch eiddigedd a gwenwyn tuag at ei lwyddiant.

**PRICE**, Thomas, neu Prys, o Blasiolyn, ydoedd fab henaf y Dr. Ellis Price, a grybwyllwyd eisioes. Efe a briododd Margaret, merch i William Griffith, o'r Penrhyn, ger Bangor. Yr oedd yn fardd o gryn enwogrwydd, ac yn eu flodeu, rhwng 1550 a 1610. Yr oedd o dueddfryd wyllt, ac anturiaethus. Yn ystod bygythiad yr Yspaeniad i ymosod ar yr Ynys hon, efe a ddarparodd long ryfel i fyned allan fel herw-long yn erbyn y gelyn; ac yn ei wibiadau ar y dyfnder, cyfarfu a gwrthwynebiadau mor ffyrnig, fel y gorfu arno encilio, a rhydd ef ei hun yn un o'i gywyddau, gronicl rhyfedd a dyddorol o'r ymgyrch anffodus hono. Wedi hyny, pan oedd Prydain yn llewygfeydd dychryn yr Armada Yspaenaidd, a'r frenines Elizabeth yn adolygu ei byddinoedd yn Tilbury, yr oedd Cadben Price yno yn gwasanaethu fel swyddog milwraidd; ac wedi i'r llynges fostfawr Yspaenaidd fyned yn ddrylliau, ac i heddwch gael ei gyhoeddi rhwng y ddwy wlad, parhaodd rhai i ymosod ar fasnach-longau Yspaen mewn dull anghyfreithlawn, trwy ddarpar llongau ar eu traul, a than eu llywyddiaeth eu hunain, ac i'w mantais eu hunain; un o ba rai oedd y Cadben Price hwn, a Gregory Jones, o Gastell y march, a Rhys Griffith o'r Penrhyn, y ddau olaf o sir Gaernarfon; a William Middleton, (*Gwilym Canoldref*) o sir Ddinbych. Cafodd rhai o honynt eu cosbi, megis Gregory Jones, yr hwn a gymerwyd o'i wely gan wŷr llong ryfel, ac a gludwyd i'r Iwerddon fel alltud. Dywedir mai Cadben Price, Cadben William Middleton, a'r Cadben Thomas Koet, oeddynt y rhai cyntaf a fygasant dybacco yn heolydd Llundain, a mawr oedd y synu a'r edrych oedd arnynt. Y mae awdwr yr *Heraldry Displayed*, yn eu rhestru yn mhlith y pumtheg gwr boneddig o sir Ddinbych, a goleddasant lenyddiaeth Gymreig yn ystod yr amser isel hwnw arni, a ddilynodd ryfel Owen Glyndwr, hyd deyrnasiad y frenines Elizabeth. Yr oedd yn sirydd Caernarfon yn 1599. Y mae ei waith barddonol yn nghadw yn y *British Museum*, yn ei ysgrifen ef ei hun, mewn cyfrol drwchus, yn cynwys tros fil o du dalenau; a cheir ychydig o hono wedi ei argraffu, ac yn wasgaredig yn y cylchgronau Cymreig. Yn mhlith y rhai hyn ceir cyfeiriadau hynod o dlysion, yn enwedig yn ei farwnad ar ol ei fab, Ellis Price.

**PRICE**, Thomas, ydoedd o hen deulu Bodfach, yn sir Drefaldwyn, a henafiaid arglwyddi Mostyn, o Fostyn, sir Fflint. Yr oedd yn ddyn dysgedig, a hoff o ymchwiliadau henafiaethol. Efe a gasglodd lawer o ysgriflyfrau, y rhai a dybir ydynt yn awr yn llyrfa y Vatican, yn Rhufain.

**PRICE**, Parch. Thomas, a adnabyddir yn well wrth yr enw barddonol (*Carnhuanawc*). Ganwyd y Cymro gwladgarol, a'r hanesydd clodfawr hwn, yn mhlwyf Llanfihangel Bryn Pabuan, ger Buallt, yn sir Frycheiniog, yn 1788; efe oedd yr ieuangaf o ddau fab y Parch. Rice Price, ficer Llanwrthwl, yn y wlad hono. Cafodd ei frawd ei addysgu yn Ngholeg Wadham, Rhydychain; urddwyd ef yn offeiriad, a bu farw yn ieuanc. Addysgwyd Thomas, yn ngholeg ysgol ramadegol Aberhonddu, a thua 1812, urddwyd ef yn ddiacon, ac ar yr un pryd, penodwyd ef yn gurad Llanyre, a Llanfihangel Helygen, ger ffynonau Llandrindod, sir Faesyfed. Wedi bod yno dair blynedd, efe a benodwyd yn gurad Llangenau, ger Crughywel, ac yn y dref hono, a'r gymydogaeth, y treuliodd efe weddill ei oes. Wedi bod am dair blynedd a'r ddeg yn gurad, a llanw y swydd hono gyda gallu a diwydrwydd na cheid ond anfynych eu cyffelyb, yn 1825, efe a benodwyd yn ficer

Digitized by Google

Cwmdu, ac yn chwanegol at hyny, cafodd guradiaeth barhaol Tretwr; ond nid ystyrir fod ei dderbyniadau oddiwrth y ddau le hyn, nemawr tros 200*p*. yn y flwyddyn. Yr oedd ynddo yn ieuanc, chwaeth neillduol at arlunio; a phan oedd efe yn Aberhonddu yn yr ysgol, daeth ei fedrusrwydd yn hysbys i Theophilus Jones, awdwr yr *History of Breconshire*, yr hwn a drigianai yn y dref hono, ac a'i rhoddes ef ar waith i dynu y darluniau at yr ail gyfrol o'r gwaith hwnw. Cyhoeddwyd y gyfrol hono yn 1809, pan nad oedd Mr. Price ond un ar hugain oed. Rhoddes hefyd lawer o gymhorth pwysig i'r awdwr gyda'r gorchwyl o gysoni a threfnu yr achau, a'r croniclau sydd yn y gwaith. Yn 1822, cymerodd daith ar ei draed trwy Lydaw, yn Ffrainc, er ymweled â hen gefnderoedd cenedl y Cymry yn y wlad hono; ac ysgrifenodd hanes ei daith, yn nghyda sylwadau ar arferion a defodau y trigolion, yr hyn a gyhoeddwyd yn yr ail gyfrol, a'r drydydd, o'r *Cambrian Quarterly Magazine*. Bu yn foddion i gael cyfieithiad, ac i gyhoeddi y Testament Newydd yn y Lydawaeg. Gallai Mr. Price gerfio ar goed, a'r cyffelyb, mewn dull hynod o brydferth, ac y mae y cerfiadau a welir yn nghyhoeddiadau Cymdeithas y Llaw ysgrifau Cymreig, yn gopiau o'i waith ef, a'r portreadau o hen ysgrifau o waith ei ddwylaw. Medrai chwareu unrhyw alaw ar y delyn Gymreig heb gymhorth llyfr, deallai yn berffaith, ffurfiad yr offeryn hwnw, a gwnaeth un o honynt a'i ddwylaw ei hun. Er nad oedd yn llysieuydd, yr oedd yn gydnabyddus a phob pren a phlanigyn Cymreig; edmygai yr helygen Gymreig; a'r feipen chwerw Gymreig, ac o ganlyniad, magai hwynt rhag ofn eu myned allan o fodolaeth. Yr oedd yn esiampl nodedig o'r hyn a all dyn ei gyflawni heb ryw lawer iawn o fanteision addysg, heb uchelwaed na chysylltiadau teuluaidd, ac heb gyflog ond yr hyn a ystyrir i ddyn yn ei radd ef prin yn ddigon i ddwyn deupen byd at eu gilydd. Trwy ei athrylith a'i ddiwydrwydd, casglodd drysorfa helaeth o wybodaeth, ac enillodd enwogrwydd a pharch mawr ei gydwladwyr, yr hwn a bery cyhyd ac y pery eu llenyddiaeth. Bu ganddo ef law yn yr hyn a elwir gyda llawer o briodoldeb, yn "Ymladdfa'r Cewri," yr hon a gymerodd le yn Seren Gomer am 1824, rhwng Gomer, Brutus, ac eraill, parth teilyngdod a pharhad yr iaith Gymraeg. Yn 1829, efe a gyhoeddodd lyfr ar wyneb-ddull ac anianaeth trigolion y wlad hon, tan y teitl, *An Essay on the Physiognomy and Physiology of the Present Inhabitants of Britain, with reference to their origin as Goths, and Celts.* Yn 1842, ymddangosodd ei brif waith, a gwaith ardderchog yn ddiau ydyw, sef, ei "Hanes Cymru," o'r oesoedd boreuaf hyd farwolaeth y tywysog Llywelyn ab Gruffydd, yn nghyda chrybwyllion am eu prif ddygwyddiadau ar ol hyny. Yn 1846, cyhoeddodd, *The Geographical Progress of Empire and Civilization.* Enillodd amryw wobrau am gyfansoddiadau buddugol mewn Eisteddfodau; gweithredodd fel beirniad ynddynt lawer tro; a bu ragor nag unwaith yn arweinydd a bywyd i Eisteddfodau y Fenni. Nid oes odid i gylchgrawn Cymreig, a gyhoeddid yn ei amser ef, heb ynddo ryw ohebiaeth o eiddo Carnhuanawc, yn cyfoethogi ei dudalenau. Bu farw Tachwedd 7, 1848. Cyhoeddwyd dwy gyfrol o'i weddillion llenyddol, a hanes ei fywyd, dan yr enw, *Celtic Remains.*

PRICE, WILLIAM, a addysgwyd yn Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A., yn 1619. Efe oedd y cyntaf a lanwodd y swydd o ddarllenydd y llith ar athroniaeth foesol, a sefydlwyd gan Dr. Thomas White; a chyhoeddodd gyfrol ar y pwnc hwnw, yn 1624. Yn 1631, rhoddwyd iddo berigloriaeth Dolgellau, lle y trigianodd o hyny allan, ac y priododd ferch i Robert Vaughan, o Hengwrt, yr henafiaethydd enwog. Bu farw yn Nolgellau, yn 1646, a chladdwyd ef yn yr eglwys hono.

**PRICHARD**, EVAN, neu IEUAN LLEYN, a anwyd yn Ty Mawr, plwyf Bryncroes, sir Gaernarfon. Enw ei dad oedd Risiart Thomas; a'i fam Mari Siarl, yr hon oedd yn farddones led wych. Aeth y rhieni i'r America yn 1795, gan adael Ieuan gyda'i daid, gyda'r hwn y magesid ef o'i febyd. Yn fuan efe a gafodd le yn y gyllidfa, a swyddog yn y dollfa ydoedd yn 1808, pan gyhoeddai Dafydd Ddu "*Gorph y Gainc,*" lle y ceir anerchiadau barddonol gan y ddau i'w gilydd. Yr oedd efe hefyd yn un o ohebwyr *Geirgrawn* Dafydd Ddu, os nad cydolygydd hefyd. Gohebodd lawer i'r Gwyliedydd, ac ystyrir ei gyfieithiad o'r *Cottar's Saturday Night*, o waith Burns, a ymddangosodd yn y cyhoeddiad hwnw, yn un tra rhagorol. Anrhegodd y Seren Gomer hefyd, âg amryw o gynyrchion ei athrylith. Tuag 1812, gadawodd Loegr, ac ymgartrefodd gyda'i ewythr yn y Ty Mawr, Lleyn. Cafodd y swydd o gadw ysgol rad symudol plwyfydd Bryncroes, Llanfaelrhys, a Llangwnadl. Bu farw Awst 14, 1832, a chladdwyd ef yn mynwent Bryncroes. Ceir Awdl i Rinwedd, o'i waith yn y Brython, llyfr v. t.d. 329.

**PRICHARD**, MICHAEL, bardd o gryn deilyngdod, a anwyd yn mhlwyf Llanllyfni, sir Gaernarfon, tua 1706. Bu farw yn yr oedran cynar o 24 oed, gan adael amryw ddarnau barddonol a brofent mor resynus oedd ei farwolaeth mor ieuanc, y rhai sydd ar gael mewn ysgrifen. Gwelir cywydd i'r Wyddfa o'i waith yn y *Gwladgarwr*, llyfr viii. 87; a marwnad, a beddargraff Owen Gruffydd o Lanystumdwy, o'i waith yn y Brython, llyfr v. t. d. 205. Cyfansoddodd Huw Huws o Fôn, gywydd marwnad ar ei ol yntau.

**PRICHARD**, PARCH. RHYS, awdwr enwog Canwyll y Cymry, a anwyd yn nhref Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, yn 1579. Yr oedd ei dad yn foneddwr tiriog, a Rhys oedd yr henaf o'i feibion. Addysgwyd ef yn ysgolion y dref hono, hyd onid oedd tua deunaw oed, pryd yr aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, a graddiwyd ef yno yn B.A., yn Mehefin 1602. Yr oedd eisioes wedi ei urddo yn ddiacon, yn yr Ebrill blaenorol, mewn lle o'r enw Wytham, yn sir Essex, gan John, esgob Colchester; a'r Awst canlynol, penododd esgob Tyddewi ef i ficeriaeth Llandingad, ei blwyf genedigol, yn yr hwn y saif tref Llanymddyfri, a thyna paham y gelwir ef yn "Ficer Llanymddyfri." Yn 1613, y brenin Iago I., a roddes iddo berigloriaeth Llanedi, yn yr un sir; a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn gaplan i Robert, iarll Essex. Yn fuan wedi hyny, Esgob Tyddewi, a'i penododd yn beriglor eglwys gadeiriol Aberhonddu, pan y cymhellwyd ef gan yr archesgob Laud, i gymeryd ei raddio yn M.A. Yn ychwanegol at y swyddau hyn, yn 1626, gwnaed ef yn ganghellwr Tyddewi, gyda yr hon swydd yr oedd perigloriaeth Llanhawden yn gysylltiedig. Felly gwelir, ei fod ef wedi ei noddi yn deilwng gan benaethiaid yr eglwys. Gan nad pa un a oedd ganddo foesoldeb personol i'w gymeradwyo yn nechreu ei oes gyhoeddus a'i peidio, diam-

Digitized by Google

heu ei fod yn wr o gynneddfau llawer uwch na'r cyffredin. Yn wir, gellir casglu oddiwrth amryw o'i ganeuon, nad efe oedd y mwyaf moesol, a dweyd y lleiaf. Dywed traddodiad, fod tuedd ynddo pan yn ieuanc, i yfed yn anghymedrol, ac i ddilyn cymdeithion halogedig mewn diotta a chyfeddach. Mynegir mai trwy ymddygiad bwch gafr y dygwyd ef gyntaf i ffieiddio yr arferion hyny. Byddai y bwch, meddir, yn arfer ei ganlyn yn ei rodfeydd, a'r un modd i'r tafarnau, ac ar ryw awr wan, rhoddes ef, neu rywun o'i gymdeithion gwagsaw, ormodedd o ddiod i'r creadur barfog, fel y meddwodd; eithr wedi iddo sobri y tro hwnw, ni lwyddwyd byth i'w gael i dafarndy drachefn; ac felly, trwy gymedroldeb y bwch, argyhoeddwyd y meistr o'i anghymedroldeb yntau. Pa un ai trwy hyn, ynte ryw ffordd arall y diwygiwyd ef o anweddusder ei fuchedd, amlwg yw, ei fod yn nghanol nawn ei einioes, yn wr tra dichlynaidd ei fuchedd, yn addurn i'w alwedigaeth a'i broffes, ac yn oleuni dysglaer mewn oes dywyll a thra anwybodus. Bu farw yn Llanymddyfri, yn 1644, eithr ni wyddys pa le y claddwyd ef. Am ei weinidogaeth gyhoeddus, y mae yn amlwg oddiwrth ei ganiadau, ei fod yn iach yn y ffydd, ac fel pregethwr, diau nad oedd ei ail yn Nghymru yn yr oes hono. Ymgynullai tyrfaoedd mawrion i'w wrando, nad allai eglwysdai gwledig mo'u cynwys, a phregethai yntau iddynt allan yn y mynwentydd. Pan oedd un tro yn Nhyddewi, yn cyflawni ei ddyledswyddau fel canghellydd, mor lluosog oedd ei gynulleidfaoedd, fel y bu raid iddo gael pwlpud symudol yn y fynwent. Dygwyd cynghaws yn ei erbyn am hyn yn y llys eglwysig, ond er hyny ni roddes efe lai o dân yn ei weinidogaeth, ac ni thyrai llai o bobl i'w wrando. Pan yn trigianu yn St. Cenox, ger Llanhawden, pregethai yn aml oddiar ben clogwyn, gerllaw ei dy, i dyrfaoedd nad allai unrhyw eglwys mo'u cynwys. Wrth weled y werin-bobl mor anwybodus, a chanfod ynddynt duedd gref at ganu, efe a drodd ei bregethau ar gân, pa rai a roddai efe i'w blwyfolion, ac felly y dechreuodd efe gyfansoddi y caniadau hyny, sydd wedi bod mor fendithiol i genedl y Cymru. Rhaid ei fod wedi gwneud hyn yn arfer ganddo, ac iddo barhau yn yr arferiad am lawer o flyneddau, heb un bwriad, fe ddichon, iddynt fod o wasanaeth ond yn y cylch cyfyng y bwriedid hwynt iddo ar y cyntaf. Pa fodd bynag, yn mhen dwy flynedd ar ol ei farwolaeth, casglwyd hwynt yn llyfr, a chyhoeddwyd hwy yn ddwy ran, gan Stephen Hughes, Meidrym, a chyhoeddwyd y drydedd ran o honynt yn 1670. Yn 1672, ail argraffwyd hwynt, a chwanegwyd atynt bedwaredd ran. Ymddengys iddynt gael derbyniad rhyfeddol o galonog; ac nid oedd modd taro ar bethau mwy pwrpasol i chwaeth y genedl yn yr oes hono; yr oeddynt yn syml, diaddurn, o ran iaith a meddyliau, ac yn llefaru wrth y werin mewn geiriau a ddeallai. Dysgai truciniaid ddarllen er mwyn eu deall, trysorid hwy yn y côf, defnyddid eu syniadau fel diarhebion gan y bobl, argreffid eu moeswersi cyfoethog ar y galon, ac eisteddai y tywysog hwn o lyfr, yn nesaf at y brenin, sef y Bibl, ar fwrdd pob teulu yn Nghymru. Er mai ei enw ydoedd *Canwyll y Cymry*, gelwid ef fynychaf *Llyfr y Ficer*. Cyhoeddwyd tua phumtheg argraffiad o hono o'r pryd hwnw hyd yn awr; a'r olaf yn ddiau ydyw yr harddaf, y llawnaf, a'r cywiraf o honynt oll, yr hwn a argraffwyd gan Mr. Rees, Llanymddyfri, ac a olygwyd gan y Cadeirdraw Rees. Cyfieithwyd y gwaith i'r Saesneg, yn 1771, gan y Parch. William Evans, Llanhaden. Dywedir fod y Ficer wedi gadael lluaws o bregethau o'i ol mewn ysgrifen, ond eu myned oll trwy ddiofalwch, i ddifrod ac anrhaith. Cymun-roddodd ugain punt yn y flwyddyn tuag at sefydlu ysgol rad yn mhlwyf Llanymddyfri, eithr buan y traws ddefnyddid y gwaddol hwnw i ryw ddybenion anmherthynasol, ac ni wyddys bellach ddim am dano. Ni sonir ond am un mab iddo, yr hwn ydoedd wyllt ac afradlon, ac a gyfarfyddodd â marwolaeth gynamserol trwy gael ei fradlofruddio mewn cynnen â rhai o'i gymydogion.

**PRICHARD**, Sion William, o Blas y Brain, yn Môn. Yr oedd yn dipyn o Fardd, ac yn benafiaethydd enwog yn ei ddydd. Y mae llawer o'i lythyrau mewn ysgrifen, ac yn argraffedig yma a thraw. Yr oedd ei lawysgrif yn nodedig am ei thlysni. Cyhoeddwyd o'i waith, "Hanes Pibau'r Bugeiliaid."

**PRION**, cyd drefgordd â Chliciedig, yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Nghimmeirch, swydd Dinbych, 3 milldir i'r de ddc orllewin o Ddinbych. Y mae afon yn cyfodi yn y parth bryniog o honi, o ddwy ffynnonell, ac wedi uno o'u dyfroedd, y mae yn suddo dan y ddaear, heb ymddangos mwyach, hyd oni thyr allan yn ffrwd gref o'r galch-graig yn Ffynnon St. Dyfnog, yn agos i eglwys y plwyf.

**PRYDAIN** ab Aedd Mawr, cymeriad hynod yn hanesiaeth Prydain. Crybwyllir ei enw yn fynych yn y *Trioedd*, yn *Tri* 4, gyda Hu Gadarn, a Dyfnwal Moelmud, tan y penawd "tri phost cenedl Ynys Prydain," "ac efe a wnaeth wladoliaeth a theyrnedd gyntaf yn Ynys Prydain, a chyn no hyny nid oedd o iawn namyn o addwynder, na deddf namyn y trecha treisied." Yn *Tri* 34, rhestrir ef gyda Caradawc ab Bran, ac Owain ab Macsen Wledig, dan y penawd "tri unben dygynull;" yn *Tri* 36, gyda Dyfnwal Moelmud, a Bran ab Llyr, fel "tri bancewyddion" neu wneuthurwyr deddfau. Dywedir mewn *Tri* arall mai efe a yrodd ymaith "y ddraig ormes o Ynys Prydain;" ac ar yr un awdurdod, tystir mai ar ei enw ef y gelwir yr ynys hon yn Ynys Prydain; a chyn hyny gelwid hi Clas Merddyn, ac ar ol hyny, y Fel Ynys.

**PRYDERI** ab Pwyll Pen Annwn, penaeth Dyfed, a chymeriad hynod yn yr hen ramantau Cymreig. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Thrystan, a Coll, fel "tri gwrddfeichiaid." Crybwyllir ef hefyd yn Mabinogion Manawyddan ab Llyr, Cilhwch, ac Olwen, Math ab Mathonwy, a Phwyll Pendefig Dyfed; ac hefyd yn Cerdd am Feib Llyr, o waith Taliesin. Dywedir mai Gwydion ab Don a laddodd Pryderi, mewn brwydr law-law a gymmerth le gerllaw rhyd Melenydd, ar yr afon Cynfael, yn Ardudwy. Dywed yr un awdurdod, mai yn Maen Tyriawg, ger Ffestiniog, y claddwyd ef; eithr yn *Englynion y Beddau*, dywedir mai yn Abergenoli. Crybwyllir ei enw yn fynych gan feirdd y canoloesoedd; geilw L. Glyn Cothi, Dyfed yn "wlad Pryderi;" a Dafydd ab Gwilym a'i geilw yn "Pryderi dir."

**PRYDDERCH**, Parch. Rees, o Ystradwalter, ger Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, lle y bu yn cadw ysgol am ddeugain mlynedd. Nid oedd efe yn y weinidogaeth pan gadarnhawyd Deddf Unfurfiaeth, yn 1662; ond gan ei fod yn ysgolfeistr, dyoddefodd o'i herwydd. Yn mhen rhai blyneddau ar ol hyny, arferodd ei ddawn fel pregethwr, er poethed yr erlidigaeth, ac am lawer o flyneddau cyn ei farwol-



Digitized by Google

aeth, yr oedd yn un o'r pregethwyr mwyaf defnyddiol ac enwog yn Nghymru. Dewiswyd ef yn weinidog eglwysi Ymneillduol yn, ac oddeutu Llanymddyfri, yn 1675, eithr ni urddwyd ef hyd 1688. Dan deyrnasiad gorthrymus y Stuartiaid, arferai ei gynulleidfa addoli mewn ogof fawr, o'r enw Castell-craigwyddon, tua phum' milldir o Lanymddyfri. Wedi marwolaeth Henry Maurice, bu gofal eglwysig holl sir Frycheiniog arno ef. Bu farw Ionawr 25, 1699. Ganwyd, ordeiniwyd ef, a bu farw, ar yr un dydd o'r flwyddyn. Gadawodd mewn llawysgrif lyfr o'r enw "Gemau Doethineb," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1714, ac a adargraffwyd amryw weithiau, gan gael cylchrediad helaeth, a gwneud daioni mawr.

**PRYS**, Edmwnd, duwinydd dysgedig, a bardd awenyddol, a anwyd, fel y mae yn fwyaf tebyg, yn y Tyddyn Du, plwyf Maentwrog, tu a'r flwyddyn 1541. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle yr enillodd y radd o A.C. Wedi iddo dderbyn urddau eglwysig, efe a sefydlwyd yn rheithoriaeth Ffestiniog, yn swydd Feirionydd, yn y flwyddyn 1572, yr hon a ddaliai gyda rheithoriaeth Llanddwywe, yn yr un sir. Yn y flwyddyn 1576, efe a bennodwyd yn Arch-ddiacon Meirionydd, ac yn 1602, appwyntiwyd ef yn gor-geiniad Llanelwy. Yr oedd yn un o'r beirdd mwyaf galluog yn y Dywysogaeth yn ei oes, ac y mae llawer iawn o'i gyfansoddiadau ar gael, y rhan fwyaf o honynt heb eu hargraffu; yn mysg eraill, y mae lluaws o Gywyddau dadleuol rhyngddo ef â William Cynwal; ac am yr achos o'r ymrafael uchod cawn yr hanes canlynol.—"Rhŷs Wynne, hen wr bonheddig o Fur y castell, a ddaeth gyda William Cynwal at yr Archddiacon, lle yr oedd efe yn saethu deg ar hugain ei hun; ac wedi ei gyfarch, a ddywedodd fel hyn, 'Pet fai genyf fwa digon gwan, er fy hyned, ni chaech chwi mor saethu eich hunan.' Yna dywedai William Cynwal, fod ganddo fwa a dynai Rŷs a'i fys bach, a gyrhaeddai ddeg ar hugain. A Rhys a eiliawdd ymadrodd wrtho, 'Mi a baraf i'r gwr yma wneuthur i chwi Gywydd i'w ofyn, os y rhoddwch chwi genad.' Yna y rhoes ef genad; ond gadael iddo ef yru testyn i'w ofyn; canys rhodd oedd y bwa iddo yntau, gan William Clwch, yr hwn a'i dygasai gyd ag ef o Antwerp. Ond ni welai Rhys Wynne mo William Cynwal yn gyru testyn mewn amser; yna dymunodd am i'r Arch-ddiacon ganu Cywydd ar ei amcan; ac efe a ganodd. Ac atteb William drwy lythyr oedd, fod y bwa yn menthyg gyda Mr. Thomas Prŷs, ac y caid ef pan ddeuai adref; neu, efe a brynai y bwa gorau a gaffai yn Nghaerlleon.

Wedi aros mwy na dwy flynedd wrth addewid William Cynwal, efe a ddaeth i fan lle yr oedd yr Arch-ddiacon, yr hwn a roes sen i'r Prydydd, am na roddai er cerdd, fel y mynai gael er cerdd. Yna, gyrodd William Gywydd, a Llythyr i ddangos ei achau ei hun; a bod yn arfer dwyn achau os gofynid dim; a chan i'r Arch-ddiacon, (medd efe) raelio arno pan gyfarfu ag ef, efe a yrodd fwa cerdd, i foddloni Rhys Wynne; ac esgus na cheid adref mor bwa i'w roddi, gan y Dr. Ellis. Yna gyrodd Edmwnd Prŷs atteb i'r Cywydd, a'r Llythyr; a William Cynwal a'i hattebodd yntau; a bu deuddeg Cywydd, o atteb a gwrthatteb rhyngddynt. Yna, canodd Edmwnd Prŷs *dri* Chywydd am *un* i William Cynwal; ond William a ganodd iddo yntau *dri* Chywydd am danynt. Yna, yr Arch-ddiacon a ganodd i William Cynwal, *naw* am ei *dri;* ond Cynwal yntau a ganodd *naw* am danynt. Yna y gyrodd yr Arch-ddiacon y Llythyr hwn at William Cynwal;—

"Fy ngorchymyn attoch.—Bid hysbys i chwi dderbyn o honof eich naw Cywydd chwi, lle y gwelaf eich naws a'ch cerdd yn myned waeth waeth; er hyny ni ddigiaf ddim; eithr nid oes yn fy mryd i fod cyhyd yn gyru i chwi *dri naw*, ag y buoch chwi yn potyssu eich *naw;* oblegyd y mae fy nefnyddiau i wedi eu sychu er cyn fy ngeni; ac nid rhaid i mi ond egori llyfrau, er cael digon o ddefnydd hanes a naws pob peth. Chwi a allasech feddwl am gerdd Dafydd ab Gwilym wrth Gruffydd Grug, mai haws cael saer na defnydd. Ni byddai fost yn y byd i mi, pe y canwn *ddeg* am eich *un* chwi: ac am na ddeuwch lle y byddwyf fi, rhaid i mi yru attoch i ddangos i chwi eich beiau; ac os oes un o'ch gradd a'u hamddiffyn, dangosed ei reswm. Dau ragor cyflwr yr y'ch chwi yn ei holi,—bod yn *Brydydd*, ac yn *Arwydd-fardd;* ac yn y ddau radd hyn, rhaid i mi eich gostwng chwi. Am eich cerdd chwi, nid oes yr un o'r pymtheg bai na bo ynddi, a rhai yn fynych.—'Nid adwaenost byr mewn deu-nod, yw ceisio nghywilyddio ynghaw,' yn eich degfed Cywydd. *Yn ail*, rhoddi yr iaith allan o'i thadogaeth, megys y gair *anodd*, yn lle *anhawdd;—dallt*, yn lle *deall;* a llawer o eiriau cyffelyb. Er fod awdurdod i rai, nid yw camarfer yn warant i neb. *Yn drydydd*, drwg ystyr, lle y galwasoch fi yn *baun*, gwaith 'paun gloyw-syth, pen Eglwyswr,'—ac yn *Ferddin*, yr hwn oedd yn gonsuriwr, a mab ordderch, a gelyn Crist; a mil o'r ystyriaethau anmherthynasol. *Yn bedwerydd;* bai am y Beirdd, lle y methodd genych ddwyn eu hachau, na'u lle, na'u hamser: ond canu mai ysbryd oed dâd i Ferddin! Fe losged rhai am yr opiniwn hwn. Ceisio tywyllu cnawdoliad Crist Iesu: canys os ganed un arall o'r Yspryd, pa ragoriaeth a fyddai i'r Prynwr? Hefyd am Dduw y canasoch yn eich pumed Cywydd;—

> 'Un Duw lan nid amcanodd
> Unwaith Fardd o ddyn o'th fodd.
> Yn Ddoctor, blaenor heb lai,
> Cyn oes a'ch amcanasai:—
> Costio wrthyd, ynfyd oedd.'

A llawer o gam ddysgeidiaeth, berygl i enaid a chorff, ac i minnau, ond atteb i'ch gorchfygu.—*Yn bumed*, lle canwyf i *ffawd*, sef *tyciant; anffawd, annhyciant*,—'Cynwynol poethffawd,' meddwch chwi, fal petwn i yn bwrw bai ar eich cerdd. Eisiau gwybod o honoch pa beth sydd Saes'neg, a pha beth sydd Gymraeg, yr ydych chwi yn canu Saes'neg:—

> 'O bai at fael na *sparit* fi;—
> Er *taring* hir y troi 'nghyd;—
> A phwyso 'n iaith *ffasion* wŷch,
> Yn ddi *wast* wedd;—
> *Scorn*, a chornio,' &c. &c.

Y mae cant o'r fath yma yn eich cerdd.—Yn *chweched*, Twyllgynghanedd;—'Yn ei amser, clander clod.'—Y mae yn yr odl yma ddau fai, neu dri.—*Un*, eisiau adnabod tadogaeth o 'Galan.' Ni thywysa hi yn y blaen, sef 'Calandr.'—*Yn ail*, ei chanlyn hi yn y sain wrth ei threiglo, o Galan, Calandr, Calandrio, nid Calanderau.—'Yr awen o'r dechreuad.'—Blin! Blin! ond gwaeth na hyn ei gyd yw y geiriau llanw, a'r clytiau afresymol, fal yn eich Cywydd cyntaf i Rŷs Wynne;—

> 'Graens iaith a garwn saethu.'

Digitized by Google

Pa beth yw "graens iaith?" a'i llysiau siopau? ai soeg? Ac yn yr un Cywydd, dywedwch,—

"Ni thynais o'n iaith un-oed
Fwa cryf acw erïoed."

Beth yw "iaith un-oed," at "fwa cryf," ond diffyg iaith, a diffyg awenydd? Ac yn eich ail Gywydd hefyd dywedwch,—"Rhoes win Sieb;"—"Pair yw'r pen;"—"Dwys Beibl od oes heb wybod;"—"Siciwyd gwawd sieced gadarn." Mi a rifais yn eich gwawd chwi, o'r beiau hyn, uwchlaw cant at yr un synwyr; a rhad Duw ar eich gwaith!—Hwylbren llong?

Am eich galwedigaeth chwi yn Arwydd-fardd; lle yr ydych chwi yn dywedyd gwir, fod pawb yn dyfod o "Noa hên," fe allai na ddaeth pawb sydd yn Ewrob o Siapheth, oblegyd fod rhai o hil Cam yn planta o hil Sem,—bod rhai o'r cawri yn dyfod o Cam, ac na orchfygodd Brutus ddim o honynt; a bod gyda Brutus rai o Asia, er nad llawer. Pe caniattaem i chwi, fod pawb yn dyfod o Siapheth, ni allai pawb ddyfod o Brutus, a deugain mil yn hiliaw o ferched yr Ynys; ac nid oes un Cymro, nag yn aerog, nag yn gardottyn, (os gwir eich achau), na ddaw e' i Brutus! Os byddwn ni byw, mi, a chwi, fe chwilir hefyd; am na ddeuwch chwi o flaen gwŷr, lle y caffom ymresymu. Rhaid i mi amddiffyn fy ngherdd, lle yr ydych yn ceisio beiau. Yn fy nhrydydd Cywydd, mi a genais fel hyn;—

"Hoff lawnder ben i Fflandrys;"

ac meddwch chwi mai *Fflands* ddylasai fod: myfi a'i hamddiffynaf:—"Fflandria" yw y gwreiddiol, ac ni all *ndrs* dreiglo heb fogail rhyngddynt;—

"Tithau 'r Albrysiwr tuthia,
Drosodd at y Fflandrysiaid."—*D. ab Gwilym.*

Yn fy seithfed Cywydd, chwi a fynech fod bai yn y penill, am baentio grawnwin i'r adar;—

"Ar y pared yr heden'
Fo gerllaw, a phigo'r llen."

*Potentiate modo temp. plusq perfecto plur.* 3rd *person.*—*Heden'*-dent, *hedynt*—dynt. Onid yw eich Dwned chwi fel hyn; y mae ef allan o'i le. Nid oes un Bardd na's canodd felly. Am y gair clwm, myfi a'i hamddiffynais drwy dreigliad yn fy ngherdd; a'r gair "ffurfafen," lle yr oedd un o'r ddwy *f* yn toddi;—

"Pa nt rhyfedd, paentiwr awen:"—*H. Cydweli.*
"Ysgafn y cawn weisgion cerdd;"—*S. Phylip.*

a mil o'r fath; yn mhob un o'r rhai hyn y mae *f* yn colli bod yn gydsain. O achos hyn ydwyf yn deall mai am na fedrwch nac adnabod bai, na rhoddi drosoch, yr ydych heb ddyfod yn fy wyneb. Da y gwna mab heb ddyfod i'r maes, am na fedr na tharo na derbyn.—Ewch yn iach!

Eich cyd-frawd mewn cerdd dafawd,
EDMWND PRYS."

Wedi hyn dechreuodd yr Arch-ddiacon wneuthur *tri naw* Cywydd i William Cynwal am ei naw, mal y dywedai yn ei Lythyr; ond, ar ddiwedd yr 16eg o honynt, daeth Rhydderch a gair iddo, farw o William Cynwal: yna y canodd yr Archddiacon Gywydd Marwnad iddo, ar ddull ymddiddan rhyngddo â'r genad, yn cwyno colled y fath Fardd godidog.

Rhif y Cywyddau Ymryson oeddynt 54; o ba rai cyfansoddid 19 gan William Cynwal, a 35 gan yr Arch-ddiacon. Heblaw a nodwyd uchod, cyfansoddodd yr Arch-ddiacon luaws mawr o Gywyddau, a Cherddi, ar destunau, ac achlysuron eraill; ond, y gorchwyl a geidw ei goffadwriaeth yn fwyaf byw yn mynwes ei gyd-genedl, yw ei gyfieithiad mydrol o'r Psalmau, i'r iaith Gymraeg. Dywedir iddo gyfieithu y Psalmau o wythnos i wythnos at wasanaeth ei eglwys ei hun, ac iddynt gael eu canu oll yno, cyn eu cyhoeddi. Heblaw y Psalmau, cyfansoddodd amryw Emynau, y rhai a ganfyddir yn gyffredin wedi eu hargraffu ar ddiwedd ei gyfieithiad o'r Psalmau. Cynnwysa y Psalmau a'r Emynau crybwylledig amryw bennillion tlws, ac ystwyth iawn, tra y mae eraill o'i gyfansoddiad, yn glogyrnaidd ac anystwyth; ond pan ystyriom mai yn nghanol tywyllwch ac annghoethder llenyddol yr unfed ganrif ar bumtheg yr ysgrifenodd, ac mai efe oedd y blaenaf yn y rhan hon o wasanaeth yr Arglwydd yn mysg ein cenedl, yr ydym yn cael ein gorfodi i fod yn llaw ysgafn iawn wrth feirniadu ei waith. Diau y buasai ei lafur yn llawer mwy gwasanaethgar i'w genedl, pe y buasai wedi amrywio mwy yn y mesurau. Y mae agos yr holl Psalmau, gydag ychydig iawn o eithriadau, wedi eu cynganeddu ganddo ar yr un mesur, yr hwn, o herwydd hyny, fe ddichon, a elwir yn gyffredin "Mesur Psalm;" ond, ei brif fai, debygid, ydyw ei fod yn ymgadw yn rhŷ gaeth at eiriau y Psalmydd, yn lle canu y Psalmau yn fwy yn iaith y Testament Newydd, gan fod llawer o'r Psalmau, yn ol tystiolaeth Crist, a'r Apostolion, wedi cael eu hysgrifenu am dano ef, prin yr oedd yn gweddu i fardd Cristionogol eu haralleirio, heb wneuthur un defnydd o'r goleuni a ddyru y Testament Newydd arnynt.

Y mae yr esgob William Morgan, D.D., yn ei Ragymadrodd i'w gyfieithiad o'r Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg, yn cydnabod ei rwymedigaeth i'r Arch-ddiacon am y cynnorthwy a roddasai efe iddo i gwblhau y gwaith pwysig hwnw. Mewn cysylltiad â Gramadeg Cymraeg y Dr. John Davies, yr hwn a gyflwynasid i'r Arch-ddiacon, y mae penillion Lladin rhagorol o'i waith, fel cymeradwyaeth i'r llyfr, ac y mae efe yn crybwyll yno, ei fod ef yn bedwar ugain mlwydd oed y pryd hyny, sef yn y flwyddyn 1621; ac efe a fu farw yn y flwyddyn 1624, pan yn dair blwydd a phedwar ugain oed.

Yr oedd yr Arch-ddiacon yn hanu o deuluoedd mwyaf pendefigaidd y Genedl, fel y gwelir oddiwrth yr achrestr ganlynol:—Edmwnd Prys, Arch-ddiacon Meirionydd, oedd yn fab i Siôn Prys, ab Gruffydd, ab Gruffydd, ab Rhŷs, ab Einion Fychan, ab Ifan, ab Rhŷs Wynn, ab Dafydd Llwyd, ab Grono Llwyd, ab y Penwyn o Felai, ac oddiyno i Marchudd, Caswallon, a Beli Mawr, fal âch William Wynn, Llanfair-talhaiarn. Einion Fychan ab Ifan, gorwyr i Ddafydd Llwyd, ab Grono Llwyd, a gafodd hiliogaeth o ddau fab, sef Dafydd ab Einion Fychan, a Rhŷs ab Einion Fychan, yr hwn ydoedd foncyff y Prysiaid o Faentwrog. Siôn Prŷs, tad yr Archddiacon, a brïododd Siân, ferch Owen ab Llewelyn, ab Madog, ab Rhŷs, ab Dafydd Fychan, ab Rhŷs, ab Ednyfed Fychan, pen cynghorwr y Tywysog Llewelyn ab Iorwerth, a'i Faeslywydd enwog; ac o'r briodas hono y ganed Edmwnd Prŷs, yr hwn a brïododd Catrin, ferch Ifan ab Dafydd, ab Ifan, ab Einion, ab Gruffydd, ab Llewelyn, ab Cynfrig,

Digitized by Google

ab Osbwrn Wyddwalch. Mam Catrin, gwraig Edmwnd Prŷs, oedd Sabel, ferch Gruffydd, ab Dafydd Fychan, o Gefn Ammwlch, yn Lleyn, yr hwn dylwyth oedd yn deillio o gyff âch llwyth breninol Elystan Glodrudd.

Dywedir i Edmwnd Prŷs gael tri o feibion, sef Ffowc, Morgan, ac Edmwnd, neu, yn ol eraill, Samuel.

Ach-len yr Arch-ddiacon, oedd Ysgub wenith yn y Maes Glas; llew, ar ei ysglyfnaid yn y Maes Melyn; a'i arwydd-air oedd,—"Mor anwyl yw Meirionydd."

**PRYS**, Fowc, oedd fardd enwog, ac yn fab i Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd, ac yn byw yn y Tyddyn du, yn mhlwyf Maentwrog. Yr oedd hefyd yn Ficer Clynog, yn sir Gaernarfon, a thybir iddo farw tua'r flwyddyn 1664, yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol ei dad.

**PRYS**, Rhys, o Dynton, Morganwg, bardd a dysgybl yn Nghorsedd Morganwg, yn 1739. Efe oedd tad yr enwog Dr. Richard Price.

**PRYS**, Sion, o Gaerddinen, yn mhlwyf Llanfair, Dyffryn Clwyd. Dywedir mai efe oedd perchenog y lle hwnw; a'r Llwyn Ynn, ac felly yr ydoedd yn wr boneddig tiriog. Claddwyd ef yn mynwent Llanfair yn 1640. Yr oedd Sion Prys yn fardd doniol ac athrylithgar, ac y mae ger ein bron ysgriflyfr, yn cynwys amryw gywyddau o'i waith.

**PRYSC**, cyd drefgordd â Charfan, yn mhlwyf Llanddewi Brefi, swydd Aberteifi.

**PUGH**, Edward, lluniedydd cywrain, a brodor o dref Ruthyn, sir Ddinbych. Trwy ei athrylith a'i ddiwydrwydd ei hun, cyrhaeddodd safle uchel fel arlunydd, a chyflogwyd ef i dynu y golygfeydd i'r llyfr, *Modern London*. Cyhoeddodd hefyd gyfrol orchestol o'i waith ei hun, o'r enw *Cambria Depicta*, 1813, yr hwn a gynwys ddysgrifiad mewn argraff, ac arluniau o'i daith trwy Gymru, ac a gymerth ddeng mlynedd iddo i'w gyfansoddi. Bu farw yn ei dref enedigol, yn mis Mehefin, 1813, bron cyn i'w waith llafurfawr ddyfod allan o'r wasg. Yr oedd yn ddyn tawel ac addfwyn iawn.

**PUGH**, Ellis, a anwyd yn mhlwyf Dolgellau, Meirion, yn Mis Mehefin, 1656. Bu farw ei dad cyn ei eni, a'i fam, ychydig ddyddiau ar ol hyny, ac yntau a adawyd yn amddifad. Wedi tyfu i fynu yn 18 oed, ymunodd â'r Crynwyr, y rhai o gylch yr amser hwn, oeddynt yn ymluosogi yn y Dywysogaeth; a daeth i gryn gyfrifoldeb yn eu plith. Tynfa gyffredinol yr enwad hwn, yn y cyfnod tan sylw, ydoedd i wladychfa newydd William Penn, yn Pennsylvania, yn Lloegr Newydd; a chyrhaeddodd y cyffrawd ymfudol Ellis Pugh, ac amryw o'r Crynwyr Cymreig. Felly yn y flwyddyn 1686, cychwynodd ef a'i deulu, yn nghydag amryw o'u cydnabyddiaeth, tua'r sefydliad hwnw; ac wedi mordaith aniben tros fôr terfysglyd, yn nhymor y gauaf, yn y mis Ionawr canlynol, cyrhaeddasant Barbadoes, lle y cawsant eu derbyn yn groesawus gan eu cyfeillion; ac yn haf y flwyddyn 1687, daethant i Pennsylvania, lle yr ymsefydlasant. Bu Ellis Pugh yno hyd 1706, pryd y daeth i'w fryd ymweled â gwlad ei enedigaeth. Gadawodd ei deulu yn America, ac ail groesodd yr Atlantig, ac wedi aros am beth amser yn Nghymru, dychwelodd yn 1708, at ei eiddo yn Pennsylvania, ac yno yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a ddygwyddodd Hydref 3, 1714. Yn ystod ei selni diweddaf, yr hwn a barhaodd am yspaid blwyddyn, ysgrifenodd lyfr, a elwir "Anerch i'r Cymru, i'w galw oddiwrth y llawer o bethau, at yr un peth anghenrheidiol, er mwyn cadwedigaeth eu heneidiau;" ond nid argraffwyd mo hono hyd y flwyddyn 1792, pryd yr ymddangosodd yn Llundain, mewn cyfrol fechan 24plyg yn cynwys 212 o du dalenau. Ymddengys fod Ellis Pugh yn ddyn didwyll a gonest, a'i gymeriad yn uchel yn mysg ei gydnabod.

**PUGH**, Phillip, a anwyd yn ardal Llangeitho, yn sir Aberteifi, yn 1679. Bu dan addysg yr enwog Samuel Jones, o Frynllywarch; ac am dymhor wedi hyny, yn athrofa y Fenni. Yna dychwelodd gartref, a bu am flyneddau yn pregethu yn yr ardaloedd cylchynol gyda llwyddiant mawr. Hydref, 1709, urddwyd ef yn gyd weinidog â David Edwards, a Jenkyn Jones, ar eglwysi Cilgwyn, Cae'ronen, Llwynpiod, &c., a llafuriodd yn y cylch eang hwnw gydag arddeliad a llwyddiant cynyddol, am y cyfnod hirfaith o 57, o flyneddau. Bu farw yn 81 oed, yn ystod y flwyddyn 1760. Yr oedd efe yn llanw safle bwysig mewn cymdeithas, gan ei fod yn dir-feddianydd; ond yr oedd ei enwogrwydd yn gorphwys ar sylfaen gadarnach na hyny, sef ei dduwioldeb seraphaidd, ei ymdrechion diorphwys yn ngwaith y weinidogaeth, a'i ddefnyddioldeb maith a helaeth. Yn ol cofnodau eglwys y Cilgwyn, ceir ddarfod iddo fedyddio dim llai na 680 o blant, o'r flwyddyn 1709 hyd 1760. Pan ystyriom fod tri gweinidog ar gylch yn gofalu am yr eglwys hono, a bod rhagfarn yn yr oes hono yn erbyn dwyn plant i'w bedyddio gan yr Ymneillduwyr, ymddengys y nifer yn fawr aruthrol. Yr oedd yn Galfiniad trwyadl, ac yn Ymneillduwr diragrith.

**PUGHE**, William Owen, D.C.L., y geirlyfrwr enwog, a adwaenid hefyd wrth yr enw llenyddol, *Idrison*. Ganwyd ef yn Ty'nybryn, plwyf Llanfihangel y Pennant, Meirion, Awst 7, 1759. Symudodd ei rieni yn fuan ar ol ei enedigaeth ef, o'r lle uchod i dyddyn a elwid Egryn, yn Ardudwy; ac yno y treuliodd ddyddiau ei fabandod, ac y dechreuodd ymarfer âg elfenau dysg, hyd nes iddo gyrhaedd maintioli digonol i fyned i ysgol bellach oddicartref, pryd yr anfonwyd ef i athrofa Altringham, ger Manchester. Mewn perthynas i'w duedd a'i athrylith yn ei ddyddiau boreuol hyn, y modd goreu i'w dysgrifio, ydyw yn ei eiriau ef ei hun;—"Yn y dyddiau gynt, yr oedd y trigolion yn byw mewn esmwythder a hamdden, ac o herwydd hyny yn ymddifyru llawer mewn chwaryddiaethau, a chaniadaeth tafod a thant; a thra yr oedd yr arferion hyn eto heb ddiflanu y'm ganwyd innau, a hyny yn ngoror Meirion, lle yr oedd y cyfryw arferion yn cael eu cynal yn helaethach, y mae'n debyg, nag yn un oror arall o'r Dywysogaeth; ac fel yr oedd yn naturiol, dygwyd finau i fyny yn y cyffelyb ddull, a hyny yn fwy, yn gymaint a bod fy nhad yn un o'r cantorion penaf yn y wlad; a thra yr oeddwn gartref, byddwn yn cael mynych gyfleusdra i wrandaw nifer o gymdeithion a ymgasglent ynghyd i'r diben o ymarfer eu medrusrwydd yn y gelfyddyd hon a'r cyffelyb. Tra yr oedd y defodau cenedlaethol yma fel hyn yn ymreddfu yn fy meddwl, pan oeddwn yn nghylch saith oed, anfonwyd fi i'r ysgol, yr hyn fu fy nghais cyntaf tuag at enill cydnabyddiaeth a'r iaith Seisnig, swn yr hon y pryd hwnw ydoedd dra dieithriol i'm clustiau. Ac wrth geisio cyrhaedd rhyw grap ar yr iaith hono, daethum toc yn alluog i ddarllen fy iaith fy hun; a'm hawyddfryd yn hyn a awchlymid yn fynych

Digitized by Google

wrth glywed datgan amrywiol gyfansoddiadau ynddi. Ond y peth a enillodd fy sylw tu hwnt i'r oll y pryd hwn, ydoedd dyfodiad y llyfr hyglod hwnw o'r wasg, a elwid *Gorchestion Beirdd Cymru*, a argraffwyd yn 1773, sef pan oeddwn yn 14 oed. O blith nifer lluosog o blant, myfi oedd y cyntaf a anturiodd dros riniog ein rhieni, i wneuthur prawf o'm dichwaen yn y byd; ond nid heb y gobaith hudoliaethus o ddychwelyd adref ar fyrder, i gyduno a'm brodyr a'm chwiorydd yn ein campau. Mynych yn ein hymddyddanion cartrefol y clywsem son am Lundain; ac yno y gwnes fy ail gartref yn Mai, 1776. Yr oedd y cwbl erbyn hyn yn ymddangos yn newydd i mi, yn enwedig yr iaith; eto mor gryfion ydoedd effeithiau arferion ieuenctyd ar fy meddwl o hyd, fel nad oedd dim a'm difyrai yn fwy na llyfrau Cymreig; a mynych y dygent y fath fyfyrdodau melus-brudd i'm meddwl, nes oedd y rhan flaenorol o'm bywyd yn ymddangos fel rhyw hanfodiad arall. Parheais yn y ddinas fawr hon hyd 1782 cyn gwybod fod o'i mewn un dyn arall heblaw fy hunan, a chanddo un ymsyniad am iaith na llenyddiaeth Cymru. Y pryd hwnw damweiniodd i mi daraw wrth Robert Hughes, y bardd, o'r Caint Bach, yn Môn; ac achos o alar mawr i mi a fu ei farwolaeth, yr hyn a ddygwyddodd ar y 27ain o Chwefror, 1785. Efe a'm dug i gydnabyddiaeth â Mr. Owen Jones, *Myfyr*, ac eraill o sylfaenwyr Cymdeithas y Gwyneddigion; a mawr oedd fy ngresi ganfod y fath gynulliad o lawysgrifau Cymreig oedd ganddynt, o ba rai nis gwyddwn o'r blaen fod cymaint âg un yn yr holl Brif-ddinas. Hyn a roddodd egni adnewyddol i'm hymdrechiadau." Wedi dyfod o hono yn gydnabyddus a'r Gwyneddigion, ac a'u cynnulliad helaeth o lawysgrifau Cymreig, fel y dangoswyd yn flaenorol, daeth i ganfod eu bod yn cynwys nifer mawr o eiriau anhysbys i'r cyffredinolrwydd o'r Cymry, ac nas gellid eu cael yn un o'r geirlyfrau oeddynt y pryd hwnw yn ergraffedig yn eu hiaith; ac felly yn debyg o fyned ar ddifancoll tragwyddol o blith y genedl, er galarus dylodi i'r hen iaith gyfoethlawn hon. Yr ystyriaeth o hyn a'i cymhellodd i gynull rhai o'r geiriau hyny yn nghyd; a chan foreued a'r flwyddyn 1785, dechreuodd eu cydgorphori yn nalenau un o'r Geirlyfrau helaethaf oedd y pryd hwnw ar gael; a'r lloffion hyn a gynyddent yn gyflym drwy amryw foddion, yn enwedig trwy iddo ddefnyddio tua thair blynedd i ddarllen llyfrau Cymreig, rhai mewn argraff, a rhai mewn llawysgrifen, ac felly y cynyddai y defnyddiau yn ei ddwylaw i'r fath faintioli, fel y bu yn angenrheidiol iddo adysgrifio y cyfan, i'r dyben o'u dwyn yn nes i drefn yr egwyddor. O dipyn i beth, daeth i'w feddwl i ffurfio Geiriadur cyflawn o'r Gymraeg, er ei fod ar yr un pryd mewn gradd o amheuaeth a fyddai yn alluog i gwblhau y fath antur; eithr fel yr oedd yn myned rhagddo, mwyaf yn y byd y canfyddai fuddioldeb y gorchwyl, ac y cynyddai ei awyddfryd i'w ddwyn i ben; ac o'r diwedd, y dywenydd o weled ei hun wedi cyrhaedd ei amcan, ond nid cyn bod yn agos i ugain mlynedd o'i oes wedi llithro heibio yn y llafur. Yr ystyriaeth o hyn a barai i amryw o'i gyfeillion mwyaf ystyrbwyll resynu, os nad beio, iddo golli cymaint o amser i gasglu geiriau iaith a fernid oedd yn mron marw. Ond heb gymeryd ei ddigaloni gan y cyfryw rybuddion, glynodd o hyd yn ei amcan, er bod ganddo eto y llafur gorflin o adysgrifio y cwbl tuag at ddodi y gwaith yn y wasg, heblaw ychwanegu llawer o eiriau deongliadol, a lluaws mawr o ddyfyniadau, er egluro geiriau anamlwg a phwysfawr, gan ychwanegu cyfieithiadau Seisnig at y cwbl o'r dyfyniadau hyn. Yn ei gynygiadau cyntaf i gyhoeddi y Geiriadur, addefai y byddai ynddo tuag ugain mil o eiriau ychwaneg nag yn un Geirlyfr o'r fath a gyhoeddwyd yn flaenorol; ond cynyddodd y gwaith gymaint yn ei ddwylaw, fel erbyn ei orphen, gwelid ei fod yn cynwys fawr llai na chan mil o eiriau, sef yn agos i gymaint arall ag sydd yn y cyffredin o eiriaduron Seisnig. Nid oes yn yr argraffiad helaethaf o eiddo y Dr. Johnson, sef yr un a gyhoeddwyd gan Todd, ond tua deunaw mil a deugain, a chyfrifid hwnw yn orchestwaith rhyfeddol; ac yn y Geiriadur Seisnig rhagorol o waith y Dr. Noah Webster, nid oes fawr tros ddeg mil a thriugain; ond beth yw hyny wrth lafur y Dr. Pughe, yn enwedig pan ystyrir y fath eirlyfrau helaeth oedd yn y Saesneg cyn rhai yr awduron uchod? Mewn cysylltiad â'r Geiriadur, yr oedd hefyd Ramadeg tra chywrain, yn mha un y dygodd efe i drefn amryw o deithi yr iaith, y rhai yn flaenorol oeddynt mewn cyflwr tra annosparthus. Daeth y gwaith hwn allan o'r wasg yn 1803. Ond bu yr awdwr athrylithgar fyw i glywed galwad uchel am ail argraffiad o'r gwaith; a mwy na hyny, cafodd fywyd ac iechyd i ddiwygio ac arolygu y llyfr drwyddo oll a'i law ei hun, a'i weled yn orphenedig, ac yn fwy cymeradwyol fyth. Cyhoeddwyd hwn yn Ninbych yn 1832, yn ddwy gyfrol hardd, yn cynwys o gwbl, 1350 o du dalenau, yn nghyda darlun cywir o'r awdwr. Ond er trymed ydoedd gorchwyl y Geiriadur, ac er cyhyd y bu ar ei ddwylaw, nid oedd hwn ond megis rhan fechan o lafur Dr. Pughe. Ysgrifenodd luaws o ganiadau, traethodau, llythyrau, &c., y rhai a ymddangosasant, rhai yn llyfrau ar eu penau eu hunain, a rhai mewn cyhoeddiadau cyfnodol; megis *Y Greal*, *Cambrian Register*, *Cambro-Briton*, *Cambrian Quarterly*, *Gentleman's Magazine*, *Seren Gomer*, *Transactions of the Cymrodorion*, &c. Yn y cyhoeddiad olaf hwn, ymddangosodd amryw draethodau rhagorol o'i waith, ac un yn neillduol a gyfrifir nemawr llai gorchestol na'i Eiriadur, tan yr enw *An Outline of the Characteristics of the Welsh, and its Utility in connection with other Ancient Languages for developing the primitive Speech of Mankind.* O'r holl erthyglau a gyfranodd efe i'r cyhoeddiadau crybwylledig, ac eraill nas gwyddis pa faint, nid oes nemawr o honynt yn dwyn ei enw priodol ef, ac felly diau fod llaweroedd na cheir byth allan eu hawdwr, oddigerth iddynt gael eu holrhain oddiwrth eu rhagoroldeb ar eiddo ysgrifenwyr eraill. Yn mhlith llawer yn ychwaneg a gyfranogasant yn helaeth o'i gynorthwyon, gellir enwi y rhai canlynol:—Rees' *Encyclopedia*, Warrington's *History of Wales*, Hoare's *History of Wiltshire*, Britton's *Beauties of England and Wales*, Campbell's *Books on Wales*, Gunn's *Tracks*, Meyrick's *Cardiganshire*, Coxe's Publications, Chalmers' *Caledonia*, &c. Ond y llyfrau oedd ganddo ef y llaw mwyaf yn eu dygiad allan, oeddynt yr *Archaiologia of Wales*, mewn cysylltiad âg Owain Myfyr, a Iolo Morganwg, yr hwn a ail gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Mr. Gee o Ddinbych. "Gwaith Dafydd ab Gwilym;" "Gwaith Llywarch Hen," yn nghyda chyfieithiad llythrenol o'r cyfryw i'r Saesneg, y *Cambrian Register* yn dair cyfrol; *Cambrian Biography*, sef y cynulliad cyntaf o hanes Enwogion Cymru, yr hwn er nad yw ond byr, eto sydd dra chynwysfawr; "Dyhewyd y Cristion;"

Digitized by Google

tracthawd ar "Drin Tir;" "Coll Gwynfa," sef cyfieithiad diodl o *Paradise Lost, Milton;* cyfieithodd hefyd *Palestine,* o waith yr esgob Heber, i'r Gymraeg; ac aml i un o ganeuon Mrs. Hemans a gafodd yr un gymwynas oddiar ei law. Gorchwyl llenyddol arall y llafuriodd yn ddiwyd gydag ef, ydoedd y "Mabinogion," yn nghyda chyfieithiad o honynt i'r Saesneg. Ni lafuriodd yr un Cymro erioed yn fwy egniol a llwyddianus ar ran llenyddiaeth ei wlad na'r Dr. Pughe, a dylai ei enw fod yn anwyl byth gan ei genedl o herwydd hyny. Hysbyswyd eisioes ddarfod iddo wneuthur ei gartref yn Llundain can gynared a'r flwyddyn 1776. Awst 9, 1790, priododd Sarah Elizabeth Harper, o'r hon y bu iddo un mab, a dwy ferch. Bu Mrs. Owen farw, Ionawr 25, 1816; a thuag at ysgafnhau gorthrymder meddyliau blinion a achlysurid iddo drwy hyny, y cymerai efe mewn llaw y gorchwyl gorchestfawr o gyfieithu "Coll Gwynfa," fel y dangosir yn ei eiriau ef ei hun:—"Ni syniaswn o fy mhen fy hunan byth ryfygu cymeryd arnaf y fath orchwyl; ac er dangos mor swta y bu i mi hyny, nid anwiw yw dodi yma hanes y dechreuad. Y llynedd, ar ddydd Mawrth y 26ain o fis Mai, galw arnaf o gyfaill, ac o blith ereill ymadroddion, annogai imi gyfieithu Coll Gwynfa i Gymraeg; a minnau gan synied hyny o dueddiad i ysgafnhau gorthrymder meddyliau blinion, a ymroddwn i gyflawni yr annogiad, a dechreuwn y gwaith ar y dydd Sadwrn canlynawl, a dygid i ben ar nos Fawrth, yr 22ain o Rhagfyr nesaf ar ol." Felly ni bu efe mor saith mis yn cyflawni y gorchwyl. Tua 1806, gadawyd iddo etifeddiaeth yn nghymydogaeth Dinbych, yr hyn a barodd iddo ychwanegu y cyfenwad Pughe at ei enw, yr hyn o'r blaen ydoedd William Owain yn unig, fel y mae ei lyfrau blaenorol i hyny yn dangos. Ar yr etifeddiaeth uchod, oddieithr rhai yn Llundain, y treuliai efe y blyneddoedd olaf o'i oes; ac mor edmygol a chariadus ydoedd yn mysg bonedd yr ardal, fel y cyfluniasant gyfarfod cyhoeddus yn nhref Dinbych, ar y 4ydd o Fawrth, 1834, i'r diben o roddi gwledd, a thalu parch gydnabyddiaeth iddo, lle traddodid areithiau o longyfarchiad iddo, yn cynwys adroddiadau o'i orchestion llenyddol, a'i ragoriaethau personol; darllenwyd amryw lythyrau anerchiadol oddiwrth foneddigion absenol; dadgenid ei glod mewn cyfansoddiadau barddonol; a chytunid i wneuthur casgliad o gydroddion ei ewyllysgwyr da, tuag at ffurfio rhyw gof-arwydd arosol er oesoli ei goffadwriaeth; ac addawid swm helaeth i'r perwyl. Etholwyd Mr. Owen yn aelod o'r Gymdeithas Henafiaethol, ryw yspaid o amser cyn cyhoeddiad ei Eiriadur; a thua'r flwyddyn 1824, darfu Prifysgol Rhydychain ei anrhegu a'r teitl o Ddysgawdwr yn y Cyfreithiau Gwladol. Yn y blyneddau diweddaf o'i oes, yr oedd Dr. Pughe yn cael ei flino yn dost gan afiechyd poenus, drwy ba un yr ydoedd yn cael ei ddifuddio o gwsg a gorphwysdra, fel nas gallai oddef ond ychydig enyd yn yr un ystum, yn ei orwedd, nac yn ei cistedd. Tua dechreu haf 1835, tueddwyd ef i fyned i ymweled a'i ardal enedigol yn Meirion, ac wedi treulio rhai dyddiau yn ei ddull siriol arferol, mewn tyddyndŷ a elwir Dolydd-Cau, yn mhlwyf Tal-y-Llyn, [nid ymhell oddiwrth y lle y ganesid ef,] aeth i'w ystafell wely fel arferol nos y 3ydd o Fehefin, ond y boreu dranoeth, cafwyd ef wedi marw yn yml ei wely, a'i ddillad am dano, fel y bernid iddo gael ei darawo â llesmair ô'r parlys mud. Gyda bwydydd a diodydd, yr oedd Dr. Pughe yn dra chymedrol; ei arwyddair ydoedd, "Nid oes arnaf syched, ac i ba beth yr yfaf." Fel ymdrechwr yn achos dysg a geirda ei genedl, ni bu haiach neb a'i rhagorai; ac os â rhywrai i'w feio am ormod sêl yn hyny, tawed y rhai sydd â llawer rhy fychan; a chofiont, er cymaint oedd ei lafur a'i lwyddiant ef, nad oedd neb llai ei ymffrost, a mwy dirodres; ac er cymaint o sarhad ac enllib a roddid iddo, nid oedd neb mwy tangnefeddus, amyneddgar, llariaidd a charedig.

**PULESTON**, John, Ysw., ydoedd o Hafod y Wern, sir Fflint, ac a anwyd yn 1603. Efe a briododd Elen, merch i Syr Kynrig Eyton, marchog o Eyton, yn yr un sir. Cymerodd arfau yn wrol o blaid Siarl II., yn erbyn Cromwell; ac yr oedd yn un a fwriedid i urdd marchog y Dderwen Freiniol; ac yn meddu etifeddiaeth o werth 2500*p*. Cafodd un o'i henafiaid, Syr Roger Puleston, ei drin yn arw gan y Cymry gwrthryfelgar, yn Nghaernarfon, yn amser Edward I. Yr oedd ei ddisgynydd, John Puleston henaf, ystafellydd Gwynedd, yn fwy poblogaidd, ac yn ffafriol iawn gan y beirdd; a rhaid fod un o honynt yn gwenieithio iddo yn ei gywydd, pan y dywed, "Diwaed sais ydyw Sion." Yr oedd Pulestoniaid Hafod y Wern, yn deilliaw o ail fab Emral, yn Maelor Isaf.

**PURTHEN**, neu Y Pyrddin, sydd afon ar ochr dde orllewinol Aberhonddu; yn codi dan Fynydd Capellante, ac yn rhedeg tuag wyth milltir yn ddeheuol, i afonydd Llech a Nedd. Y mae yn ffurfio dau raiadr mawreddog, o 90, a 40 troedfedd o godwm.

**PWLLAN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Tregynon, swydd Drefaldwyn, pedair milltir a chwarter gogleddol o'r Drefnewydd. Poblogaeth, 109.

**PWLL-CARADOG**, sydd lyn a rhaiadr prydferth, ar ochr ogleddol Aberteifi; ar yr afon Ystwyth, yn agos i Lanafau.

**PWLL-CROCHAN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Benfro, gerllaw hafan Aber-dau-gleddau, pedair milltir a chwarter gorllewinol o orsaf rheilffordd Penfro. Llythyrfa yn Mhenfro. Erwau 3016, o'r hyn y mae 1380 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1459*p*. Poblogaeth, 364. Tai, 38. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 200*p*., ac yn nawddogaeth ymddiriedolwyr Mrs. Lukin. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1342, gan R. Beneger, yr hwn oedd y periglor ar y pryd, lle y mae cofadail iddo. Y mae yma ysgol waddolcdig â deuddeg punt yn y flwyddyn.

**PWLL-DU**, sydd lyn, a rhaiadr o ddeugain troedfedd o godwm, ar yr afon Machwy, yr ochr ogleddol i Aberhonddu.

**PWLL-ELECH**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanilltyd Fawr, yn swydd Forganwg, pedair milltir a chwarter deheuol o Bont-y-fon.

**PWLL-GWAELOD**, sydd gilfach yn ochr ddwyreiniol beisfor Abergwaen, yn swydd Benfro.

**PWLLHELI**, sydd dref, is-ddosparth, a dosparth, yn swydd Gaernarfon. Saif y dref ar ochr orllewinol penrhyn Lleyn, wrth enau afon Pencos, yn nherfyniad cangen o reilffordd swydd Gaernarfon, ugain milltir de dde orllewin o Gaernarfon. Breintiwyd y lle gan y Tywysog Du, a chyflwynwyd y fan ganddo i Nigel de Lohayren. Y mae y dref yn cael ei llywodraethu gan faer, pedwar o henuriaid, a deuddeg cynghorwr; ac y mae yn uno â Chaernar-

Digitized by Google

fon, Bangor, Conwy, Criciaeth, a Nefyn, yn anfoniad aelod i'r senedd; y mae yn is-borthladd i Gaernarfon; ac yn lle y cynhelir is-lysoedd gwladol; ac y mae yn etholfa; ac y mae hefyd yn ymdrochle, gyda thraeth gwastad prydferth, pedair milltir o hyd; ac fel tref, arddengys lawer o ragoroldeb yn ei heolydd a'i hadeiladau, yn enwedig yn ei gwelliannau diweddar. Y mae golygfeydd y gymydogaeth yn ddengar; ac y mae yr olwg yn fawreddog ar arfordir Meirionydd. Y mae yma brif Lythyrfa, gorsaf rheilffordd, pedwar ariandy, a gwestai helaeth, gyda llysdy, eglwys, pump o gapeli Ymneillduol, dwy ysgol gyhoeddus, a gweith-dy. Y mae y farchnad ar y Mercher, a'r Sadwrn. Cynhelir y ffeiriau ar Mawrth 15, Mai 22, Mehefin 28, Awst 13, Medi 24, a Thachwedd 11. Y mae masnachaeth y cymydogaethau cylchynol yn helaeth yma; ac'y mae adeiladaeth llongau, a mordwyaeth, ar raddau eang yn y lle. Ffurfir y porthladd gan enau y Pencos, a digon o ddwfr i lestri yn cludo 500 tunell: y mae carreg yr Imbill, neu yn fwy priodol, "Ewyn-byll," yn graig uchel wrth enau yr afon; ac y mae y morglawdd a godwyd yma, wedi bod yn wellhad pwysig i'r lle, yr hwn a gwblhawyd mewn canlyniad i Weithred Seneddol, a gafwyd yn amser Sior III. gyda'r draul o 10,000*p.*, drwy yr hyn yr enillwyd tair mil o erwau o dir oddiar y mor, ag sydd yn awr dan wrteithiad. Yr oedd terfynau y fwrdeisdref gynt yn gyfyngedig i blwyf Denio, ond y maent yn awr yn cynwys rhanau o blwyfi Abererch, a Llanor. Poblogaeth yr hen fwrdeisdref yn 1851, 2331; yn 1861, 2420. Tai, 567. Poblogaeth y fwrdeisdref newydd yn 1851, 2709; yn 1861, 2818. Tai, 679. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys plwyfi Denio, Llanor, Penrhos, Llanfihangel Bachellaeth, Llanbedrog, Llangian, Llanengan, a Llandegwning. Erwau 23,526. Poblogaeth, 6579. Tai, 1502. Y mae y dosparth hefyd yn cynwys is-ddosparth Criciaeth, Llanystumdwy, Abererch, Llanarmon, Llangybi, Llanaelhaiarn, a Llangiwch; is-ddosparth Nefyn, yn cynwys Nefyn, Pistyll, Ceidio, Bodfaen, Llandudwen, Edeyrn, Tudweiliog, a Llaniestyn; ac is-ddosparth Aberdaron, yn cynwys plwyfi, Aberdaron, Llanfaelrhys, Rhiw, Bryncroes, Bodferin, Llangwnadle, Penllech, Meyllteyrn, a Bottwnog, a llinell blwyfol ychwanegol Ynys Enlli. Erwau 93,319. Trethi tlodion yn 1863, 12,927*p.* Poblogaeth yn 1851, 21,788; yn 1861, 20,908. Tai, 4751. Priodasau yn 1863, 117; genedigaethau 550, o ba rai yr oedd 66 yn anghyfreithlon; marwolaethau 394, o ba rai yr oedd 99 dan 5 oed, ag 20 dros 85. Priodasau yn y deng mlynedd 1851 i 1860, 1229; genedigaethau, 5691; marwolaethau 3932. Lleoedd o addoliad yn 1851, Eglwys Loegr 30, gyda 7219 eisteddleoedd; Annibynwyr 20, gyda 3111 e.; Bedyddwyr 12, gyda 1603 e.; Wesleyaid 9, gyda 1205 e.; Trefnyddion Calfinaidd 35, gyda 8915 e.; ac un heb ei ddynodi, gyda 444 e. Ysgolion cyhoeddus dyddiol 26, gyda 1283 ysgolorion; Ysgolion neillduol 9, gyda 235 y.; a 59 o Ysgolion Sabbathol, gyda 8508 y. Gadawodd y Parch. Huw Jones, yn 1695, 1000*p.* mewn ymddiriedaeth i Gryffydd Vaughan, 200*p.* o'r cyfryw swm i fyned i adeiladu ysgoldy, un ai yn Mon, Arfon, neu Meirionydd, lle y barnai efe yn briodol, a'r gweddill 800*p.* at brynu tir i waddoli yr ysgol, er addysgu bechgyn tlodion o'r gwledydd hyny. Adeiladwyd yr Ysgoldy yn Mhwllheli; ond ni roddwyd yr arian gweddill allan i brynu tir, ond y maent eto yn aros yn nwylaw etifeddion Lloyd Mostyn, Ysw., yn awr, Arglwydd Mostyn, yr hwn sydd yn penodi yr athraw, i'r hwn y mae yn talu swm llog y cyfryw arian am ei wasanaeth. Nifer y plant dan addysg yma yn ddiweddar, ydoedd o haner cant i dri-ugain. Y mae y dref hon yn dal cysylltiad pwysig â Lleyn.

**PWLL-Y-CROCHAN**, sydd dref ddegwm, yn Eirias, plwyf Llandrillo, swydd Gaernarfon, pedair milltir o Gonwy. Hyd yn ddiweddar yr oedd yn balas yn perthyn i deulu Syr Thomas Erskine, ond y mae yn awr yn feddiant i J. Pender, Ysw., A.S., ac wedi ei droi yn Westdy, o gryn gyhoeddusrwydd yn nghymydogaeth Colwyn. Y mae tref newydd yn cael ei chodi yn gyflym rhwng y fan hon a'r mor, lle y croesawir dieithriaid a ymwelant a'r lle, fel ymdrochfa fanteisiol dymor yr haf. Y mae yr adeiladau yma yn wych a dengar, a'r lle ar gynnydd mawr.

**PWLL-Y-WRACH**, sydd is-bentref yn mhlwyf Talgarth, swydd Frycheiniog; gerllaw Talgarth. Gwerth ardrethol, 848*p.* Poblogaeth, 131. Tai, 27.

**PWYLL** (Pen Annwn), neu Pwyll Pendefig Dyfed, ydoedd fab i Meurig, tywysog Dyfed, yr hwn oedd fab Argoed, neu Arcol Law Hir, mab Pyr y Dwyrain; ac a flodeuai yn y seithfed ganrif. Yr oedd yn gymeriad o hynodrwydd yn y chwedlau a'r rhamantau Cymreig; ac y mae ei orchestion yn ffurfio un o'r cyfresau o Fabinogion, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda chyfieithiad, a nodiadau, gan Arglwyddes Charlotte Guest. (Gwel *Mythology of the Druids*, gan Davies, a Mabinogion Guest, cyfrol y drydedd.)

**PYLE**, neu Pil, sydd bentref a phlwyf, yn nosparth Pen-y-bont, swydd Forganwg. Y mae y pentref yn sefyll yn agos i Reilffordd Deheubarth Cymru, yn agos i'w chysylltiad â rheilffordd Dyffryn Llynfi, pum milltir a thri chwarter gorllewin ogledd orllewin o Ben-y-bont; ac y mae yma orsaf ar y rheilffordd; a Llythyrfa dan Ben-y-bont. Y mae y plwyf gyda Cenffig a Scer, yn cynwys 4526 o erwau, a 725 dan ddwfr. Gwerth ardrethol Pyle ar wahan, 3949*p.*, o'r hyn y mae 1619*p.* mewn mwnau. Poblogaeth yn 1851, 991; yn 1861, 1192. Tai, 231. Cododd y cynnydd yn y boblogaeth, drwy helaethiad yn y gwaith glo, a'r haiarn. Y mae y meddianau agos oll mewn un etifeddiaeth. Cloddir yma gerig rhagorol at adeiladaeth. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, gysylltedig â Cenffig, yn esgobaeth Llandaf.

**PYLL**, ydoedd un o feibion Llywarch Hen, ag sydd yn cael ei fawrygu gan ei dad, am ei weithredoedd milwriol, yn ei farwnad ar Henaint. (Gwel Alarebau Gwronaidd Llywarch Hen, a gyhoeddwyd gan William Owen, tu dal. 137.)

**PYR**, yn ol y Brutiau Cymreig, a olynodd Sawl Benuchel, fel Brenhin Brydain. Ni chofnodir dim yn mhellach am dano. Dilynwyd ef gan Capoir. (*Myf. Arch.* ii. 165.)

Digitized by Google

# R.

**RADYR**, yn hytrach RHAIADR, plwyf yn nghantref Cibwr, swydd FORGANWG, ar gamlas Merthyr Tydfil, yr afon Tâf, a rheilffordd Glyn Tâf, 1½ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llandâf, a 4½ milldir i'r gogledd orllewin o Gaerdydd. Llythyrfa, Llandâf, dan Gaerdydd. Erwau, 1530. Gwerth ardrethol, 1876*p*. Poblogaeth, 422. Tai annedd, 82. *Radyr Court* oedd palas hen deulu boneddigaidd o'r cyfenw Matthews; y mae wedi ei dynu i lawr mewn rhan, a'r gweddill wedi ei wneyd yn ammaethdy. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 115*p*. Noddwyr, Ettifeddion Iarll Plymouth. Y mae tarddell dwfr hynod o oer, a elwir y "Pistyll goleu," yn y plwyf hwn; am yr hwn yr haerodd rhai ysgrifenwyr, ei fod yn ddwfr mwnawl, ond nid ydys wedi cael allan fod unrhyw brïodolderau neillduol yn perthyn iddo, heblaw ei oerni annghyffredin, yr hyn sydd yn ei wneyd yn effeithiol i gryfhau y gewynau. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Sant Ioan Fedyddiwr, ac nid ydyw namyn adeilad syml, ddi addurn.

**RAFF** AB RHOBERT, bardd yn ei flodeu tua 1530, yn ol Morris Williams. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

**RAKE**, cyd drefgordd â'r Manor, yn mhlwyf Pen yr halawg, cantref y Wyddgrug, swydd FFLINT.

**RECORDE**, ROBERT, mesuronydd enwog, a anwyd yn Ninbych y Pysgod, sir Benfro. Mab ydoedd i Thomas Recorde, Ysw., o'r lle hwnw; a Rose, merch i Thomas Jones, o Fachynlleth, sir Drefaldwyn. Aeth i Rhydychain yn 1525, ac etholwyd ef yn gymrawd o Goleg *All-Souls*, yn 1531, ac efe ar y pryd yn B.A. Ymroddodd i efrydu physigwriaeth, ac aeth i Gaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn ddoethawr yn y wyddor hono, yn 1545, ac anrhydeddid ef gan bawb a'i hadwaenai, am ei fawr wybodaeth mewn gwyddonau, a chelfyddydau eraill. Yn ol Wood:—"Dywedir ei fod tra yn Ngholeg *All-Souls*, a thrachefn wedi iddo ymneillduo o Gaergrawnt i'r brifysgol hon, yn dysgu rhifyddiaeth yn gyhoeddus, ac elfenau uwchrifyddiaeth. Gosodai hyn allan mor syml ac eglur i bob amgyffrediad, na wnaeth neb erioed yn gyffelyb o'r blaen. Y gwir yw, yr oedd efe wedi ei freintio â gwybodaeth anghyffredin mewn rhifyddiaeth, a mesuroniaeth; ac am athroniaeth naturiol, ser-ddewiniaeth, a gwybodaethau ereill prinion a ffasiwnol yr oes hono, rhydd awduron gan mwyaf iddo ganmoliaeth uchel."—Robert Recorde oedd yr ysgrifenydd gwreiddiol cyntaf ar rifyddiaeth yn Seisnig; y cyntaf ar fesuroniaeth; y cyntaf a ddaeth a gwybodaeth o *algebra* i Loegr; yr awdwr cyntaf ar seryddiaeth yn Seisnig; y cyntaf yn y wlad a fabwysiadodd gyfundrefn Copernicus; dyfeisydd y cynllun presenol o dynu allan y petryal gwreiddiol (*square root*); dyfeisydd yr arwyddlun o gyfartaledd; a darganfyddwr amryw o ddeddfau eraill uwchrifyddiaeth. Yr oedd yn trigianu yn Llundain, yn 1547, ac yn dilyn ei alwedigaeth o feddyg. Gan iddo syrthio i ddyled, efe a roddwyd yn ngharchar y Frenhinfainc, lle y bu farw yn 1558. A ganlyn ydynt ei lyfrau cyhoeddedig: (1) "The Grounde of Arts, teachinge the Worke and Practise of Arithmetike, both in whole Numbers, and Fractions." Cyhoeddwyd hwn gyntaf, mae'n debyg, yn 1540; a helaethwyd ef gan Dr. Doe yn 1573. Adargraffwyd ef amryw weithiau, a pharhaodd mewn arferiad hyd oni chyhoeddwyd *Cooker's Arithmetic*, yn 1677; yr argraffiad olaf a gyhoeddwyd yn 1699. (2) "The Pathway to Knowledge, containing the First Principles of Geometrie, as they may moste aptly be applied unto Practise, both for use of Instruments Geometricall and Astronomical, and also for Projection of Plattes in every Kinde, and therefore much necessary for all sortes of Men," 1551. (3) "The Castle of Knowledge, containing the Explication of the Sphere, both celestial and material, and divers other things incident thereunto," 1556 a 1596. (4) "The Whetstone of Witte, which is the second part of Arithmetic; containing the Extraction of Rootes, the Cossike Practise, with the Rule of Equation, and the Workes of Surde Nombers," 1557. (5) "The Urinal of Physic, of the Judicial of Urines," yr ail ran o'r hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1582. Ysgrifenodd hefyd amryw lyfrau ereill, ac yn eu plith draethodau ar y Sacrament, y Gyffesgell, Difyniaeth, a Gwir Ddelw o Werinlywodraeth.

**REDBARTH**, neu RHYD Y BERTH, plwyf yn swydd BENFRO, 4 milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Tenby. Llythyrfa, Tenby. Erwau, 305. Poblogaeth, 107. Tai annedd, 28. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 56*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

**REES**, ABRAHAM, D.D., ydoedd fab i'r gweinidog llafurus a phoblogaidd, Lewis Rees, o Lanbrynmair, ac yn nhy yr hen Gapel yno y ganwyd ef, yn 1743. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, dan ofal Dr. Jenkins; yna aeth i athrofa Hoxton, y naill du i Lundain; a chynyddodd mor gyflym, fel cyn ei fod yn ugain oed, y penodwyd ef yn athraw rhifyddol yr ysgol hono, a bu yn llanw y swydd am yspaid 22 mlynedd. Yn y cyfamser, ni chollodd olwg ar ddyben ei dad yn rhoddi addysg iddo, sef er mwyn ei gyfaddasu at waith y weinidogaeth. Yn 1766, urddwyd ef yn weinidog cynulleidfa o Bresbyteriaid, a gyfarfyddai yn St. Thomas, Southwark. Tra yn gweinidogaethu yn y lle hwn y graddiwyd ef yn Ddoethawr mewn Duwinyddiaeth, gan Brifysgol Edinburgh, trwy arganmoliaeth amryw bersonau cyfrifol yn y byd dysgedig. Yn 1781, ar farwolaeth Nathaniel White, o'r Old Jewry, y gynnulleidfa hono yn unfrydol a wahoddasant Dr. Rees i ddyfod yn olynydd iddo, ac yntau a gydsyniodd. Llwyddodd yr eglwys yn fawr dan ei ofal, a bu raid adeiladu capel helaethach yn heol Jewin, lle y parhaodd efe i bregethu cyhyd ag y parhaodd ei iechyd. Bu hefyd yn darlithio am yspaid yn Salter's Hall. Yn 1784, Dr. Savage a Dr. Kippis a roddasant eu swyddau i fynu yn athrofa Hoxton, ac yn fuan ar ol hyny, gwnaeth Dr. Rees yr un peth. Ni chafwyd byth allan yr achos o'r ymadawiad hwn; ond y mae lle i farnu, iddo gael ei achlysuro gan mwyaf, trwy anfoddlonrwydd yr ymddiriedolwyr oherwydd gwrthgiliad yr athrofa oddiwrth yr egwyddorion athrawiaethol ar ba rai y sylfaenasid hi. Yn awr

Digitized by Google

gan fod yr hen athrofa yn Hoxton wedi ei thori i fyny, a'r un yn Warrington, yn gystal a'r un yn Daventry, yn gwaethygu yn feunyddiol, penderfynwyd gan gyfarfod o'r Ymneillduwyr mwyaf haelionus a chyfoethog yn Llundain, i sefydlu athrofa arall yn agos i'r brifddinas, ar gynllun mwy helaeth a rhydd na'r un a fuasai cyn hyny yn Lloegr, i ddysgu dynion ieuanc yn egwyddorion anghydffurfiad, heb gyffes ffydd, na son am ddaliadau neillduol neb. O ganlyniad, gwnaed tanysgrifiad helaeth, ac mewn ychydig amser, cynyddodd y trysorfeydd yn ddigon cryfion i brynu lle i adeiladu arno yn agos i Hackney, yr hwn a adeiladwyd, ag a agorwyd yn 1786. Oddiar y penderfyniad cyntaf i sylfaenu yr athrofa hon, edrychid ar Dr. Rees fel y person mwyaf cymhwys i gyflawni dyledswyddau Athraw trigianol yn y celfyddydau, yr hyn a wnaeth, cyhyd ag y parhaodd y sefydliad. Cyfarfu â llawer o ddygwyddiadau anffodus nad oeddid yn eu rhagweled ar y cyntaf, a gwelwyd yn fuan, trwy leihad y tanysgrifwyr, ac ymneillduad yr athrawon, na fyddai y sefydliad ardderchog hwn o hir barhad, ac o'r diwedd, bu farw yn enwog Dr. Kippis, yr hyn a osododd derfyn arno yn gyfan-gwbl, ar ba achlysur galarus y traddododd Dr. Rees bregeth ragorol yn yr Old Jewry. Yn nghylch 1750, pan oeddid yn bwriadu cyhoeddi y chweched argraffiad o *Chambers' Cyclopædia*, barnodd perchenogion y gwaith fod yn anghenrheidiol ychwanegu llawer ato i'w wneud yn fwy defnyddiol, a dewiswyd Mr. George Lewis Scott, athraw rhifyddol ei Fawrhydi, a'r diflin Dr. John Hill, fel rhai addas i gyflawni eu dymuniad. Yn y cyflwr hwn yr arosodd y gwaith dros amryw flyneddoedd, ac yn y cyfamser, ffurfiodd y perchenogion y penderfyniad o wneud yr ychwanegiad trwy gorph y llyfr, yn lle ei argraffu yn wahanol ar y diwedd, ac Owen Ruffhead a osodwyd ar waith i ddwyn y penderfyniad oddiamgylch; ond nid aeth efe yn mhell yn mlaen cyn i'w farwolaeth gymeryd lle, a'r gwaith a arosodd am gryn amser. Yna rhoddwyd yr argraffiad newydd i ofal a than arolygiaeth Dr. Kippis; ond canfu ef yn fuan nad oedd ei gryfder corfforol yn ddigon i'r fath orchwyl pwysfawr, a rhoddodd ef i fynu. Y perchenogion fel hyn yn cael eu siomi o hyd yn eu dysgwyliadau o gael y gwaith allan, ac yn methu gwybod yn awr am un addas i'w arolygu, cawsant eu hanog gan rywun adnabyddus â gallusoedd dysgedig Dr. Rees, i roddi y gwaith dan ei arolygiaeth ef; ac yntau oddeutu 1777, a gymerodd y gorchwyl pwysig mewn llaw, ac yn nghwrs y flwyddyn ganlynol, gwnaeth y rhifyn cyntaf ei ymddangosiad. Y cyhoeddiad a gymerodd i fynu naw mlynedd; gorphenwyd ef mewn pedwar cyflyfr unplyg yn 1786, yn nghylch y cyfryw amser hefyd y dewiswyd y golygydd dysgedig yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol. Cymaint oedd clod y Cylch-ddysgedydd, a'r galw am dano, fel y cyhoeddwyd ef yn fuan yn amryw o ieithoedd y Cyfandir; a'r gwerthiant mawr a gafodd gartref, a gynhyrfodd y perchenogion i'w helaethu, fel y gwnaethai y Ffrancod âg ef. Ac i'r dyben hyny, er i'r Dr. Rees gael ei benodi i arolygu y cyhoeddiad, gosodwyd amryw eraill ar waith i ysgrifenu ar wahanol ganghenau dysgeidiaeth, y rhai a dybid eu bod yn fwyaf gwybodus o honynt. Er, fe allai, mai y gwaith hwn yw y mwyaf ardderchog a ymddangosodd erioed yn yr iaith Saesneg, eto y mae ei anferth faintioli, ac yn ganlynol ei fawr bris, yn ei wneud yn hollol anngbyraeddadwy i'r rhan fwyaf. Heblaw y gweithiau blaenorol, efe a argraffodd bregeth ar y "Ddyledswydd a'r Pwysfawrogrwydd o chwilio yr Ysgrythyrau," dwy bregeth angladdol, un a'r farwolaeth Mr. R. Robinson o Gaergrawnt, a'r llall ar farwolaeth Dr. Flaxman, o Rotherhithe; dwy bregeth ar "Iawn drefnyddiaeth achosion bydol," un arall ar agoriad y capel yn Heol Jewin; a dau lyfr o "Bregethau Ymarferiadol." Ni ddarfu i Dr. Rees, un amser, gymeryd rhan mewn unrhyw ddadl, hyd y flwyddyn 1813, pryd yr argraffodd lyfryn wythplyg, dan yr enw, "Egwyddorion yr Ymneillduwyr Protestanaidd yn cael eu hamddiffyn." Mewn amddiffyniad, fel y gwelir, yr ysgrifenodd efe y llyfryn hwn; ac ni wyddis iddo erioed ymddangos fel ymosodydd, oddeithr iddo wneuthur hyny wrth ysgrifenu ei sylwadau ar Amlwreigiaeth, yn ei eirlyfr unplyg. Yr oedd Dr. Rees yn un o aelodau henaf y Gymdeithas Linneaidd; ac ychydig o fisoedd cyn ei farwolaeth, cafodd ei ddewis yn aelod anrhydeddus o'r Gymdeithas Freiniol. Hefyd bu y Doctor, dros amryw flyneddoedd, yn llywydd y bwrdd Presbyteraidd yn Llundain, fel ymddiriedolwr y drysorfa a sefydlwyd gan Dr. Daniel Williams, a threfnydd y Llyfrgell yn Redcross Street; yr oedd hefyd yn un o gyfarwyddwyr penaf y Waith-Ysgol i amddifaid yn City Road, a pherthynai i'r rhan fwyaf o'r sefydliadau haelionus yn mhlith yr Ymneillduwyr. Yn ei egwyddorion llywodraethol, yr oedd yn gyfaill diysgog i ryddid gwladol â chrefyddol, ond yn eithaf gelynol i bob math o derfysg, ac ni chymerodd ran erioed mewn dadleuaeth anfuddiol. Yn ei ddaliadau crefyddol, canlynai Undodiaid yr hen Ysgol, ac fel ei hen gyfaill Dr. Price, yr oedd yn credu rhaghanfodiad Crist, er ei fod yn gwadu yr athrawiaeth o'i ddwyfoldeb anhebgorol.

**REES**, Parch. Henry, a anwyd yn y Chwibren Isaf, plwyf Llansanan, sir Ddinbych, yn 1797. Mab ydoedd i Dafydd Rees o'r lle hwnw, ac enw morwynol ei fam, ydoedd Anne Williams, o Gefnfforest. Ei daid ydoedd Henry Rees, gwr genedigol o Landeilo Fawr, sir Gaerfyrddin; daeth i Lansanan ar y cyntaf fel *exciseman*, a phriododd yno Miss Gwen Llwyd, merch ac etifeddes Chwibren Isaf. Yr oedd y Llwydiaid hyn yn deulu henafol a pharchus yn y wlad, ac yn disgyn mewn llinach unionsyth o Hedd Molwynog, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, yr hwn a gyfaneddai yn Henllys, Llanfairtalhaiarn. Cafodd Ymneillduaeth afael yn y teulu nodedig hwn yn gynar, yr oedd Henry Rees, (*y taid*) yr hwn a gyfrifid yn ddyn dichlynaidd a dirodres ei fuchedd, yn gwrando yn gyson gyda'r Methodistiaid yn Nhanyfron; ac yr oedd ei wraig nodedig, yn un o aelodau yr eglwys hono. Profodd Dafydd Rees, (*y tad*) argraffiadau dwysion crefyddol yn ieuanc, ac ymunodd gyda'r Methodistiaid yn Nhanyfron, yn yr hwn le, yn nghyda Llansannan wedi hyny, y bu yn flaenor ffyddlawn a defnyddiol am lawer o flyneddau. Dyn difrifol, dwys a myfyrgar ydoedd, ac un o'r gweddiwyr hynotaf yn yr holl wlad; dywedai ei gymydogion, fod gystal ganddynt glywed Dafydd Rees yn gweddio, a chlywed John Elias yn pregethu. Yr oedd Anne Rees, ei wraig hefyd yn ddynes llygadgraff, ddarbodus, a synwyrol. O tan aden ofalus y rhieni hyn, mewn cwm anghysbell, yn nghanol golygfeydd gwledig amaethyddol, wrth odreu gogleddol mynydd Hiraethog, yn ngolwg dyffryn swynol Aled, y magwyd y "tywysog hwn yn Israel." Cym-

deithasai lawer â natur yn ei hunigedd tawel, tra y byddai yn bugeilio praidd ei dad ar hyd llechweddau mynydd Hiraethog. Traddododd ganoedd o bregethau bachgenaidd i'r twmpathau eithin, a'r llwyni grug, oeddynt yn addurno llethrau Bronllywelyn; ac i'r gwartheg hamddenol, a'r ceffylau, ar hyd maesydd anwastad y Chwibren, a phe buasai rhywbeth yn mhenau y cyfryw, cawsent lawer o adeiladaeth, os nad ambell gymhorth i chwerthin dan y weinidogaeth. Am sefyllfa ei feddwl yn y cyfnod tan sylw, gwell y dywed ef ei hun na neb arall:—"Yr oeddwn yn grefyddol," meddai, "mewn ystyr, mi dybiwn, cyn cof genyf. O leiaf, byddwn yn meddwl am farw weithiau pan wrthyf fy hun, yn ofni cyflawni drygau, ac yn hoff o bregethwyr a phregethau er pan ydwyf yn cofio dim. Pa bryd y dechreuodd y fath bethau droi ynof, nis gwn. Mae yn gofus genyf ddal sylw, pan yn blentyn ieuanc, ar ryw sylwadau neillduol mewn pregeth; ac ar ol myned adref, ciliais yn ddystaw o'r neilldu, i'r dyben o'u pregethu drosodd drachefn i mi fy hun. Glynodd yr arferiad hon wrthyf yn ystod fy ieuenctyd; ac o herwydd hyny, byddai yn hoff genyf ar brydiau, gael gorchwyl i'w gyflawni ar hyd y meusydd, a'r coedydd, lle y cawn fyned a dychwelyd wrthyf fy hun. Os oedd tueddfryd fel hyn yn rhyw ragarwydd fod pregethu yn fy aros, bum lawer gwaith, mewn oedran addfettach, yn flin na buasai rhywun o'm tadau yn deall hyny ar y pryd, ac yn trugarhau wrthyf, gan fy ysgytian o'm dydd-freuddwydion, a'm gosod dan well addysg a dysgyblaeth feddyliol, i'm parotoi at y gwaith. Gwastreffais lawer o amser gwerthfawr yn bur ddifudd. Fel bechgyn Cymru yn gyffredin, teimlwn inau yn fy ieuenctyd, ormod o ryw ffol awydd i fod yn brydydd. Collais aml i awr yn y ffordd hono. Mae yn gofus genyf, ar un achlysur ysmala, i'm teimladau barddonol ddeffroi ynof, a thorais allan i ganu yn bur hyderus, i gysuro fy hen feistres oedd wedi ei chythryblu mor fawr gan ysbryd y nos o'r blaen. Mae yn dda genyf allu dweyd, nad wyf yn cofio imi gam-dreulio ond ychydig o amser yn y ffordd hyny byth wedyn. Pan rhwng un a dwy ar hugain oed y dechreuais bregethu; ac os wyf yn cofio yn iawn, yn Llanelian, pentref bychan rhwng Bettws Abergele, a Chonwy, y bu hyny." Yr oedd wedi cael rywfaint o ysgol yn ei Lan enedigol yn nhymor ei ieuenctyd, ond yn fuan ar ol dechreu pregethu, aeth at y Parch. Thomas Lloyd i Abergele, er mwyn ymwneud ychwaneg â dysgeidiaeth, ac ymbarotoi at y gwaith y rhoddes ei fryd gymaint arno. Nid oes hysbysrwydd pa hyd y bu yno, na pha faint ei lwyddiant, ond trysorodd wybodaeth ddigonol o'r Saesonaeg, fel ag i allu darllen ynddi waith yr hen dduwinyddion Puritanaidd, y rhai a fuant o bleser a chymhorth iddo ar hyd ei oes, Gwelir ei syniadau parchus am ei hen athraw yn yr erthygl feistrolgar a ysgrifenodd efe i'r Traethodydd am 1853, tan y penawd, "Y Gweinidog a'r Ysgolfeistr, Thomas Lloyd o Abergele." Cyn myned at Mr. Lloyd, aethai adref i weled ei deulu, a chafwyd ganddo bregethu ar noson waith, yn yr Hendref Uchaf. Ar ol y bregeth, gofynodd ei fam i'w dad, "Wel, Dafydd, beth ydych yn ei feddwl o bregeth Henry?" Yr ateb oedd, "Meddwl yr wyf y gwna well pregethwr na dim arall." Yr oedd ei dad yn cadw llygad pryderus arno; ac er na ddywedai nemawr air yn ei gylch, yr oedd yn falch iawn ei weled yn cynyddu mor gyflym a gobeithiol. Dywedai unwaith, ar ol ei wrando yn pregethu, "Y mae cymaint, os nad mwy o fater, athrawiaeth, a meddwl, yn mhregethau Harri, ag sydd yn mhregethau John Elias; ond pe gallai ef wneud cystal pregethau a John Elias, nis gallai byth eu dweyd cystal ag ef." Yn 1821, wedi bod yn pregethu tua thair blynedd, efe a aeth i'r Mwythig, gyda'r bwriad o ddysgu y gelfyddyd o rwymo llyfrau. Dysgwylid fod gan bob pregethwr gyda'r Methodistiaid haner can mlynedd yn ol, ryw alwedigaeth, neu foddion at ei gynaliaeth, heblaw pregethu: ac ystyrid fod rhwymo llyfrau yn orchwyl tra chydnaws âg anianawd y swydd. Nid oedd ganddo wrth gychwyn, un bwriad i aros yn Amwythig yn hwy na'r amser anghenrheidiol i ddysgu ei gelfyddyd. Ond fel y sylwai ei frawd, "yn lle i'r bachgen rwymo y llyfrau, wele y llyfrau yn rhwymo y bachgen." Ni lynodd efe yn hir wrth y gwaith hwnw, ac nid oes lle i gasglu iddo gyrhaedd unrhyw fedr neillduol yn y gwaith; canys yn bregethwr, ac nid dim arall, yr oedd efe wedi ei dori allan gan Ragluniaeth ddoeth. Daeth ei frodyr yn Amwythig i werthfawrogi ei ddoniau yn ddioedi, ac anogasant ef yn fuan i ymroddi yn gyfangwbl at bregethu, gan sicrhau y *rhoddent iddo ei fwyd!* Yntau a gydsyniodd, a chyda hwy y bu yn trigo dros bumtheg mlynedd. Yr oedd y cyfnod hwn, ar lawer o ystyriaethau, y pwysicaf yn ei holl fywyd. Yma y dadblygodd, i raddau helaeth, y cyneddfau ysplenydd hyny oeddynt wedi dechreu ymagor yn wylaidd rhwng bryniau gwlad ei enedigaeth. Yn ystod ei arosiad yma, yr esgynodd i fri a sylw cyffredinol yn Nghymru, yn enwedig yn y Gogledd, fel un o'r pregethwyr ieuainc mwyaf gobeithiol; ac enillodd syniadau mwyaf hyderus am ei ddyfodiant dysglaer, oddiwrth enwogion y Cyfundeb, megis John Elias, Ebenezer Richards, &c. Ac yma y preswyliai pan y cafodd ei ordeinio yn Sassiwn y Bala, yn 1827, yn 30 oed; ac efe oedd yr ieuangaf o ran oedran, ac o ran amser y buasai yn pregethu, o'i holl frodyr yn Ngogledd Cymru. Fel y dywed ei hen gyfaill, y Parch. John Hughes, Liverpool, yn *Methodistiaeth Cymru:* "Cafodd fisoedd lawer o seibiant, mewn dystawrwydd tawel, i yfed yn ehelaeth o ysbryd a syniadau y Dr. Owen, a Phuritaniaid eraill; ac nid oes achos dweyd fod Methodistiaeth Cymru yn ddwfn ddyledus i gyfeillion Amwythig, am yr achles manteisiol a gafodd y pregethwr ieuanc yn eu plith. Rhaid oedd i Harri Rees, Llansannan, wrth neillduaeth tawel yr Amwythig, cyn y gwnaethid ef yn Barch. Henry Rees, Liverpool." Fel y dywedir yn y *Drysorfa* am Ebrill, 1869:—"Yr oedd yn rhaid iddo yma bregethu llawer i'r un bobl; tri Sabbath yn y mis yn gyffredin, ac yn amlach yn fynych; a thair pregeth ar y Sabbath, heblaw oedfeuon ar noson waith ar dymhorau. A thuag at gyflawni y pwlpud fel hyn, yr oedd ei astudiaeth yn ei lyfrgell yn ddibaid." Yn niwedd 1836, symudodd i Liverpool, ac yma y treuliodd weddill ei oes mewn parch a defnyddioldeb mawr. Ni bu erioed weinidog anwylach gan bobl ei ofal, teilyngach o'r serch cryf a ymglymai am dano, nac un a adawodd wagle mwy ar ei ol, pan y syrthiodd i'r bedd. Fel lluaws o fendithion mawrion, nid oeddym yn gallu prisio ei werth nes ei golli. O ran y dyn oddiallan, anfynych y gwelid enghraifft harddach o'r ddynoliaeth nag efe, yn enwedig yn ei flyneddau olaf, pan yr oedd awelon amser wedi teneuo ei wallt, a'i eira wedi cannu y gweddill, a'i fywyd myfyrgar, a'i ymarweddiad ddilychwin, wedi goleuo ei wyneb i fynu

Digitized by Google

fel gwyneb angel. Dywed "Gohebydd Liverpool" i un newyddiadur, wrth gofnodi ei farwolaeth;—"Hyd o fewn tua phythefnos yn ol, gallesid gweled ar amserau yn rhodio yn arafaidd ar hyd heolydd Liverpool, henafgwr tywysogaidd ei olwg, yn rhywle tua deg a thriugain oed, ei war yn crymu, a'i wallt arianaidd yn bargodi ar hyd ei ysgwyddau llydain. Cerddai yn bwyllog, myfyrgar, a diystyr i bawb a phobpeth, a'i feddwl fel pe wedi ymollwng i ddilyn meddyliau duwiol ei galon. Byddai ganddo yn gyffredin ffon ddestlus yn un llaw, maneg *kid* ddu am y llall, ac yr oedd yr holl olwg arno, yn dra thrwsiadus a boneddigaidd. Anfynych y gwisgai arwydd ei swydd yn y rhodfeydd hyn, sef y ffunen wen; ac er hyny, yr oedd rhyw fawredd neillduol i'w ganfod yn ei gorph tal a chymesurol; ffurf teg, tirion, a deallgar, ei wynebpryd; a'i ddau lygaid duon dysglaer, a dwfn-fyfyriol hyny, a hawlient sylw yr edrychydd mwyaf digraff, ac a barai i bobl ddieithr droi drach eu cefnau ar ol myned heibio iddo, er cael golwg arall edmygus a manylach arno." Pan fu farw Mr. Elias, edrychid yn naturiol at Mr. Rees fel olynydd iddo yn nghadlywyddiaeth y fyddin. Er yn ieuangach mewn dyddiau nag amryw o'i frodyr, yr oedd efe yn sefyll o'i ysgwyddau i fynu yn uwch na hwynt; a'i athrylith, ei ddawn, ei brofiad, ei ddealltwriaeth, a'i ddoethineb, yn rhoddi iddo yn naturiol y lle blaenaf yn Nghymanfaoedd a Chynghorau y Gogledd. Ymroddodd yn llwyr i'w alwedigaeth oruchel; ymgartrefai mewn tair ystafell, sef ei fyfyrgell, ei ystafell weddi, a'r pwlpud, lle ei gwelid bob amser a delw amlwg y ddwy flaenaf arno. Ni halogodd efe burdeb ei wisg offeiriadol yn llaid gwleidyddiaeth. Yr oedd efe, enaid a chalon yn ei waith, pwysigrwydd yr hwn ydoedd wedi llwyr lyncu ei feddyliau. Gwirioneddolrwydd a difrifoldeb dihoced ydoedd anhebgorion y weinidogaeth, yn ol ei syniadau ef. "Mae rhai pregethwyr, meddai unwaith, fel chwareuwyr, yn codi teimlad trwy bortreiadu pethau o flaen y dychymyg. Ac y mae achos i ni sylwi ar hyn y dyddiau yma, rhag i ni gamgymeryd teimladau y chwareudy, am wir addoli. Mae y teimladau a gynyrchir trwy y gwirionedd, yn lladd pechod; ond y mae y teimladau a gyfodir trwy chware ar y dychymyg, yn gadael dyn mor annuwiol ag o'r blaen. Nid yw y diafol yn anfoddlon i'r dychymygion a draethir gan bregethwr i gyffroi anwydau'r bobl; caiff yr had hwnw lonydd heb ei bigo i fynu; ond y mae yr un drwg, a llygredigaeth y galon, yn wrthwynebol i'r had da. Portreiadir uffern amgen i uffern y Beibl, a gall hyny effeithio yn fawr ar deimladau y gwrandawyr. Clywson rai yn ei desgrifio fel tân naturiol, ac yn darlunio y cythreuliaid yn poenydio y damnedigion â phigffyrch, ac yn desgrifio Cain a'i dafod yn golsyn, ei anadl yn frwmstanaidd, a'i fysedd yn ffaglu, &c., nes yr oedd llawer ar y pryd yn cael eu cyffroi yn fawr. Ond nid oedd yno ddim sancteiddrwydd yn canlyn. Eithr pregether uffern y peth ydyw, amddifadrwydd o heddwch Duw, dirnadaeth o'i ŵg, chwantau drwg heb fodd eu dirgelu, ac heb fod yn bosibl eu boddhau, anobaith am ymwared byth,—rhaid cael ysbryd y weinidogaeth, a chynorthwyon Ysbryd Duw, tuag at ddangos y pethau hyn yn effeithiol." Pregethu yr efengyl ydoedd unig waith bywyd Mr. Rees. Teimlai bron o ddechreu ei weinidogaeth hyd ei diwedd, fod anghenrhaid wedi ei osod arno i bregethu; ac i hyny y cyssegrodd efe ei holl dalentau, a'i amser. Cyflawnodd ei weinidogaeth yn ffyddlawn, astudiodd yn galed, a llafuriodd yn egniol ar hyd ei oes; ac nis gwyddom am neb y gellir dweyd am dano gyda mwy o briodoldeb, ei fod wedi "iawn-gyfranu gair y gwirionedd." Yr oedd efe, nid yn unig yn meddu gwybodaeth dduwinyddol eang, ond chwaeth bur a choethedig. Ni chlywodd neb erioed mo hono ef yn dweyd dim o'r pwlpud yn anghydweddol âg urddas y weinidogaeth; ac ni byddai dim yn ei boeni ef yn fwy, na thrin pethau mawrion yr efengyl mewn dull isel, ysgafn, a rhodresgar. Er na dderbyniodd addysg athrofaol, byddai ei bregethau bob amser yn gyfansoddiadau meistrolgar, manwl, a nerthol. Anaml, os byth, y clywid ef yn pregethu ar adnod heb gymeryd trafferth i'w hegluro yn drwyadl; a byddid yn sicr o gael ganddo ef, ei gwir feddwl a'i hamcan; ac er mor alluog oedd ei bregethau, anfynych, os byth, y byddai dim ynddynt nas gallai y gwanaf ei amgyffredion ei ddeall. Yr oedd ei Gymraeg yn hynod o gywir, syml, a nerthol. Y mae yr ychydig o draethodau a gyfansoddwyd ganddo, yn engreifftiau nodedig o gyfansoddiaeth Gymreig bur a diledryw; a gallai llawer o lenorion ieuainc y dyddiau hyn, gael lles mawr trwy eu darllen yn ofalus. Ond er cymaint ydoedd fel pregethwr, nid oes anmheuaeth nad oedd hyd yn nod yn fwy na hyny fel gwr y cynghor. Llanwodd y swydd o gadeirydd Cymdeithasfa y Gogledd am 28ain o flyneddau. Yr oedd treiddgarwch ei ddirnadaeth, craffder ei sylwadau, ei bwyll, a'i ymgais i ymddwyn yn gyfiawn tuag at bawb, yn peri ei fod yn llanw y swydd hono yn dra theilwng, ac er boddlonrwydd cyffredinol. Yn ateg i'w fywyd cyhoeddus, yr oedd ganddo gymeriad difrycheulyd. Ymddengys nad arweiniwyd ef erioed i lawer o brofedigaethau. Dywedai ei frawd athrylithfawr, y Parch. William Rees, wrth draddodi ei bregeth angladdol yn nghapel Chatham Street, Liverpool;—"Y mae rhai llysiau yn yr ardd y rhaid eu sathru cyn y ceir perarogl o honynt, tra y mae eraill yn gwasgar eu peraroglau tan ddylanwad yr awel dyner, a'r heulwen deg; un fel yr olaf ydoedd ef, yr oedd ei rinweddau yn ymdori allan heb i brofedigaeth nac adfyd wasgu arno, ac ychydig o ganlyniad, a gafodd o'r cyfryw yn ei holl fywyd." Gwnaed ef yn offeryn bendith fawr i'w genedl, a bydd ei ddylanwad yn fyth-barhaol arni. Wedi sefyll fel un o brif bregethwyr Cymru am yn agos i haner can' mlynedd, daeth y terfyn yn annysgwyliadwy i bawb ond efe ei hun. Chwefror 5, 1869, cafodd anwyd trwm yn angladd ei hen gyfaill, y Parch. Hugh Hughes, Abergele, yr hyn a drodd yn enynfa yr ysgyfaint. Gwaethygodd yn gyflym, a bu farw y 18 fed o'r un mis, yn y Benarth, ger Conwy, palasdy ei fab-yn-nghyfraith, R. Davies, Ysw., A.S., tros sir Fon. Claddwyd ef yn Llandysilio, ger Porthaethwy, a bernir nad oedd dim llai na thair mil o bobl yn y gladdedigaeth, chwe' chant o ba rai a ddaethent yr holl ffordd o Liverpool.

**REES**, Parch. Lewis, o Lanbrynmair a'r Mynyddbach. Ganwyd y gweinidog enwog hwn Mawrth 2, 1710, yn Glanrhwydre, Dyffryn Nedd, Morganwg. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r eglwys Annibynol yn Mlaengwrach, a derbyniwyd yntau yn ieuanc i'r un cyfundeb. Darfu i'w dduwioldeb, a'i dalentau, ac yn enwedig ei ddawn mewn gweddi, dynu sylw ei frodyr ato, fel un cymhwys i'r weinidogaeth. Bu am yspaid, o ganlyniad, o dan addysg ei weinidog Henry Davies, wedi hyny gyda y Parch. Joseph

Digitized by Google

Simons, o Gastellnedd, yr hwn a gadwai ysgol ramadegol yn Abertawe; a thrachefn, gyda Rees Price, tad y Dr. Richard Price o Lundain, yn Pen y bont ar ogwy. Trwy arganmoliaeth Mr. Price, cafodd yn nesaf dderbyniad i'r athrofa yn Maengwyn, sir Faesyfed, yr hon oedd tan lywyddiaeth Vavasor Griffiths. Wedi bod yno am rai misoedd, wrth ganfod ei fod yn ysgolor gwych, ac yn wr ieuanc tra duwiolfrydig, efe a'i cynghorodd i gymeryd gofal eglwys; a thrwy argymelliad Edmund Jones o'r Trans, ymsefydlodd yn Llanbrynmair, lle yr oedd eglwys wanllyd eisioes mewn bodolaeth. Bu yn llanw y swydd o gynghorwr yno, gyda chymeradwyaeth mawr, am tua phedair blynedd, ac urddwyd ef yn weinidog, Ebrill 13, 1738. Tua 1740, efe a briododd Esther, merch Mr. Abraham Parry, o blwyf Pendeyrn, sir Frycheiniog. Pan ofynodd am gydsyniad y boneddwr i'r briodas fwriadedig, atebwyd ef trwy ofyn, pa gynysgaeth oedd ganddo? Y pregethwr a gymmerth y Beibl, ac a ddywedodd, "Syr, fy mhrif gynysgaeth i ydyw y llyfr hwn." Bu Mr. Parry yn foddlon iddo ef a'i dreftadaeth, a chydsyniodd yn rhwydd â'i gais. Pan ymsefydlodd Mr. Rees yn y Gogledd, yr oedd yr eglwysi mewn cyflwr tra nychlyd, a rhysedd a gwamalrwydd yn uchel iawn eu penau yn mhlith pob dosparth. Yr oedd gweinidogion yr Eglwys Sefydledig yn ddifater yn nghylch dyledswyddau eu galwedigaethau, ac os meiddiai unrhyw lef ddiaspedain, ac argyhoeddiad ar ei haden, rhaid fod ei pherchenog yn ddyn dewr, gan y byddai yn nod buan i erlidigaeth o'r fath greulonaf. Yr oedd Lewis Rees yn meddu y llef hon, a bu yn ddigon gwrol i'w rhoddi allan; a'r canlyniad naturiol i hyny, fu iddo ddyoddef llawer; ond cafodd gymaint o waredigaethau ag a gafodd o beryglon. Bu aml i dro mewn enbydrwydd einioes. Ar ei daith o Lanbrynmair i Lanuwchlyn, lle y bu yn offerynol i sefydlu eglwys, ac i ba le y cyrchai o'r herwydd yn dra mynych, safai Llan a Ddinas Mawddwy, lle y camdrinid ef bob amser gan haid o ddynion didoriad a haerllug, yn cael eu hanog i'r anfadwaith, meddyliai ef, gan offeiriad y plwyf. Un diwrnod, cyfarfu y gwr parchedig, a chwynai wrtho pa mor annynol yr ymddygai ei blwyfolion at ddyeithr-ddyn diniwaid. "Pa fodd" ebai ei barchedigaeth, "y dysgwyliwch chwi, a chwi yn Bresbyter, oddefiad yn y wlad hon? Ewch i Ysgotland, dyna wlad y Presbyteriaid." "Gobeithio, syr," ebai Lewis Rees, "eich bod chwi yn byw ar uwch egwyddor grefyddol na defodau y wlad y dygwyddoch fod yn preswylio ynddi. Ped elech chwi i Ysgotland, Presbyter a fyddech; i Itali. Pabydd a fyddech; i Turkey, gwadech y Beibl yn gyfangwbl, a derbynìech y *Koran* fel rheol ffydd ac ymarweddiad." Er cymaint rhagfarn y gwr eglwysig, gwelai fod rheswm gan y gwr dyeithr, addawodd wneud ei oreu er cael iddo heddwch o hyny allan, ac felly y bu. Yn ystod ymweliadau cyntaf Mr. Rees â Phwllheli, rhoddwyd gwysiadau allan aml dro i'w ddal. Pan gymerwyd ef un tro ger bron yr erlidiwr didrugaredd hwnw, y canghellydd Owen, cafodd ddiangfa gyfyng am ei fywyd. Pan ddeallodd yr Herod o Lanor, fod gan y carcharor drwydded rheolaidd fel pregethwr, ac felly nas gallai ef ei gosbi, torodd allan mewn ebwch o gynddaredd; gafaelodd yn ei gleddyf, bygythiai ei ladd a'i ddwylaw ei hun, a chyda yr arf dinystriol, torodd ymaith damaid o'i hugan, fel na bu hono werth dim mwyach. Yn 1743, aeth i Fôn, ac ar ei daith, pregethai yn Mhen mynydd, lle y preswyliai William Prisiart, gwr a ddyoddefodd lawer yn achos ei grefydd. Yno cynullodd byddin o erlidwyr i ymosod arno. Pa fodd bynag, anturiodd sefyll o'u blaen i'w hanerch; ac yn ddamweiniol rhoddes allan i ganu yr emyn ;—

> "Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
> Lle daw i'm help wyllysgar."

Gan fod mynyddau Arfon yn y golwg, tybiodd y dorf anwybodus, fod ganddo nifer o filwyr yno yn nghadw fel gosgordd i'w amddiffyn. Tan y dychryn hwn, arosasant yn llonydd, a chafodd yntau rwydddeb i bregethu. Dychwelwyd rhai o honynt, a choleddodd eraill o hyny allan, syniadau mwy ffafriol am Ymneillduwyr. Wedi iddo lafurio yn galed a llwyddianus yn y Gogledd, am 25 o flyneddau, derbyniodd wahoddiad eglwys Annibynol Mynyddbach, ger Abertawe, yn 1759, a dychwelodd i orphen ei ddyddiau yn ei sir enedigol. Bendithiwyd ef âg oes hir, ac âg iechyd rhagorol. Bu farw yn dangnefeddus iawn, Mawrth 21, 1800, yn 90 oed, ac wedi gweinidogaethu am 65 o flyneddau. Cymerodd hyn le yn Llansamlet, lle yr oedd yn byw ar y pryd gyda'i ferch; a chladdwyd ef yn mynwent capel Mynydd Bach. Ni chyhoeddwyd ond y ddau lyfryn canlynol o'i waith:—(1) "Rhai Rheolau a Chyfarwyddiadau a gynygiwyd er cynyddu cyfeillach grefyddol yn mhlith Crist'nogion, yn nghyda Hymn ar Dymher Lonydd," 1771. (2) Cyfieithodd "Y mawr bwys o fod ein tybiau mewn crefydd yn gyson â'r Ysgrythyr, yr hon a bregethwyd o flaen cymanfa o weinidogion yn Ringwood," 1773. Yr oedd yn nodedig mewn symlrwydd duwiol, yn selog dros burdeb a santeiddrwydd, heb fod yn rhodresgar, ond yn fanwl iawn, yn ofalus iawn am grefydd deuluaidd. Yr oedd mewn gweddi yn rhagori, yn dywysog gyda Duw. Fel pregethwr, yr oedd yn ymarferol yn hytrach nag athrawiaethol; ac fel gweinidog, yn ofalus i feithrin crefydd yn ei gynulleidfa, ac yn onest yn ngweinyddiad dysgyblaeth.

**REES, Owen**, bu am lawer o flyneddau yn un o'r cwmni enwog o gyhoeddwyr Seisnig, "*Longman, Rees, and Longman.*" Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain, ac ystyrid ef yn fasnachwr rhagorol. Casglodd gyfoeth mawr, ac ymneillduodd i'r Gelligron, sir Forganwg, lle y bu farw Medi 7, 1837, yn 67 oed.

**REES, Parch. Rice**, ydoedd fab David a Sarah Rees, yr hon oedd ferch i Mr. Rice Rees, o Lanymddyfri, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn Tonn, Llandingad, ger y dref hono, Mawrth 31, 1804. Addysgwyd ef gyntaf yn yr ysgolion o gylch ei gartref; ac yn 1819, aeth i ysgol ramadegol Llanbedr, yr hon oedd ar y pryd dan ofal y Parch. Eliezer Williams, ficer y plwyf. Yn mhen ychydig, bu ei ysgolfeistr talentog farw, ac olynwyd ef yn y swydd gan y Parch. J. Williams, wedi hyny archddeon enwog Ceredigion; a chanmolid ef yn fawr gan y ddau, am ei ddiwydrwydd, a'i ymarweddiad rhagorol. Derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, yn Mai, 1822; ac etholwyd ef yn ysgolor o'r coleg hwn w yn Rhagfyr. 1825; ac yn gymrawd yn Rhagfyr, 1828. Cafodd ei urddo yn ddiacon yn Rhydychain, yn 1827; ac yn offeiriad yn 1828. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1826, yn M.A. yn 1828, ac yn B.D. yn 1837. Pan oeddid ar fedr agor coleg Llanbedr, ac y penderfynwyd fod yn anghenrheidiol bod un o'r athrawon yn ysgolor Cymraeg da, cystal ag yn deall y clasuron, wedi ymchwil-

Digitized by Google

iadau manwl am berson yn meddu y cymhwysderau hyn, tynwyd sylw y pwyllgor at gymeriad dysglaer, diwydrwydd llenyddol, a chyfaddasder neillduol, Mr. Rees i'r gwaith; a gwahoddwyd ef i gymeryd y swyddau pwysig o Ddysgawdwr yn Nghymraeg, Athraw clasurol, a Llyfrgellydd y sefydliad hwnw. Dechreuodd ar ei ddyledswyddau ar agoriad y coleg, Mawrth 1, 1827. Llanwodd ei swyddau yn anrhydeddus, yr oedd ei ymroddiad i'w waith, ei bryder amlwg am lwyddiant yr ysgolheigion, y dull medrus gyda pha un y cyfranai addysg iddynt, ynghyd a'i ymddygiad boneddigaidd a heddychlawn, yn enill iddo barch ei uwchradd, cystal a'i isradd. Yn fuan penodwyd y Cadeirdraw Rees, gan Esgob Tyddewi, yn un o'r Arholwyr Cymreig, er profi cymhwysder y sawl a offeiriadent mewn plwyfi na siaredid ond yr iaith Gymraeg yn unig; ac enillodd gymaint o ymddiried yr esgob, fel yr oedd rhan bwysig o'r arholiad, heblaw ei waith fel arholwr yn y Gymraeg, yn disgyn ar ei ran ef. Yn Hydref, 1838, penodwyd ef yn ffurfiol yn gaplan teuluaidd i'w arglwyddiaeth hefyd. Efe a enillodd wobr yn Eisteddfod Caerdydd yn 1835, am y Traethawd goreu yn Saesneg o hanes y Seintiau Cymreig, a chafodd ganmoliaeth uwchaf y beirniaid, yn nghyda'u dymuniadau gwresocaf ar i'r cyfansoddiad gael ei gyhoeddi. Mewn cydsyniad â hyn, darfu i'r awdwr parchus helaethu cryn lawer ar y gwaith, ac argraffwyd ef yn Llanymddyfri y flwyddyn ganlynol, tan y teitl, *An Essay on the Welsh Saints, or the Primitive Christians, usually considered to have been the Founders of Churches in Wales.* Rhoddwyd i'r llyfr ar unwaith dderbyniad calonog gan ysgolheigion Celtaidd, a dyfynir ef hyd y dydd hwn, fel yr awdurdod uwchaf ar y pwnc. Ar gyfrif ei enwogrwydd fel Cymreigiwr, dewisodd esgob Tyddewi ef i gydweithredu a thri boneddwr o'r esgobaethau Cymreig eraill, er adolygu y cyfieithiad Cymraeg o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin;* a thrwy ei wybodaeth a'i allu, enillodd barch ac edmygedd ei gydlafurwyr yn y gwaith hwnw. Yr oedd yr adolygiad bron wedi ei gwblhau, pan y bu Mr. Rees farw. Yn y cyfamser, yr oedd efe hefyd yn brysur wrth y gwaith o olygu argraffiad newydd o *Ganwyll y Cymry*, ac wedi myned mor bell a'r ganfed dudalen, pan yr attaliwyd ef yn ddisymwth gan angau, a cheir yno fanylion ei farwolaeth. Cyhoeddwyd y gwaith hwn, yn cynwys bywgraphiad o'i awdwr duwiolfrydig, yn 1841, ac yn ddiau dyma yr argraffiad goreu o'r llyfr teuluaidd a phoblogaidd hwnw. Tybiadau ffafriol am ei gymeriad a'i alluoedd llenyddol, a dueddodd Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, i ddeisyf arno fod yn olygydd y *Liber Landavensis*, ac er ei fod wedi ei orlwytho ar y pryd gan ei lafur llenyddol, eto parodd ei serch at lenyddiaeth ei wlad, iddo gydsynio a'r cais. Yr oedd wedi agor gohebiaeth, ac wedi ymroddi yn brysur i'r gwaith, pan y cymerwyd ef yn sydyn yn glaf, tra yn marchogaeth ar y ffordd fawr, ger y Bontnewydd ar wy, sir Frycheiniog, a bu farw yno yn ddisyfyd, Mai 20, 1839, yn yr oedran cynar o 36 ain. Bwriadai hefyd gyhoeddi hanes Prydain yn yr oesau boreuaf, a Gramadeg o'r Iaith Gymreig, ond yn ei farwolaeth alarus a chynamserol, collodd llenyddiaeth Gymreig un o'r goleuadau dysgleiriaf a fu erioed yn addurno ei ffurfafen. Y mae cof-faen marmor i'w goffadwriaeth, i'w weled yn eglwys Llandingad, ger Llanymddyfri.

**REES**, Parch. William Jenkyn, o Gascob, a anwyd yn Llanymddyfri, yn 1772. Dechreuodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol ei dref enedigol, yna yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin, o dan Mr. Parker. Yn 1791, pan yn 19 oed, aeth i Goleg Wadham, Rhydychain, lle yn 1795 y daeth yn B.A., ac yn M.A. yn 1797. Ordeiniwyd ef gan esgob Butler o Hereford, i guradiaeth Stoke Edith, a Westside, yn yr esgobaeth hono. Yn 1807, cafodd berigloriaeth Cascob, yn sir Faesyfed, gan Dr. Burgess, esgob Tyddewi. Cyhoeddodd, "A Short and Practical Account of the Principal Doctrines of Christianity," 1803; "The Hereford Guide" (yn ddienw); "Clerical Elocution, or an Essay on the Delivery of Sermons," 1809; "The Necessity of Attention in a Christian Minister to his Duties; a Sermon preached in Brecknock, at the visitation of the Bishop of St. Davids," 1811; "Unconditional Election and its dependent Doctrines, disapproved, being an Abridgment of Whitby on the Five Points" (yn ddienw); "Anniversary Sermon," 1815; "Lives of Welsh Saints," a ddechreuwyd gan ei nai, y Cadeirdraw Rees, o goleg Llanbedr, ac a gwblhawyd ganddo ef.

**RESOLFEN**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanilltyd Isaf, swydd Forganwg, ar lan yr afon Nêdd, ac ar reilffordd Glyn Nêdd, 7 milldir i'r gogledd ddwyrain o Gastell Nêdd. Medda orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, dan Gastell Nêdd. Mesura yn erwau, 4560. Gwerth ardrethol 2726*p*., o ba rai y mae 1500*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 630; yn 1861, 762. Tai annedd, 146. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 70*p*. Noddwr, Ardalydd Bute.

**REUTER**, Adam, awdwr dysgedig a chywrain, a anwyd, medd Wood, yn sir Ddinbych, eithr ni ddywed yn mha le. Yn 1608, ymneillduodd i Rydychain, er mwyn cael hamdden a chyfleusdra i efrydu, ac efe ar y pryd yn drwyddedig yn nwy gangen y gyfraith, sef yr eglwysig, a'r wladol. Arosodd yn y brifysgol tros lawer o flyneddau, a graddiwyd ef fel cyffredinwr yn ngholeg Exeter. Dywed Wood ei fod yn hyddysg yn ngwaith yr awduron sylweddol, yn gyfansoddwr rhwydd yn Lladin, ond er hyny yn Galfiniad llym, yr hyn, y pryd hwnw, oedd yn ddigon derbyniol gan ddoethion a phenaethiaid y Brifysgol. Geilw ei hun yn rhai o'i lyfrau, yn *Cotbusius L. Silesius*, ac yr oedd yn awdwr y rhai canlynol:—(1) *Questiones Juris Controversi* 12. *Ex. L. ut vim.* 3. *just. and jure*, 1609. (2) *Oratio quam Papam esse bestiam quae non est, et tamen est, apud Johan. Apoc.* xvii. *ver.* 18, yr hon araith a draddodwyd yn gyhoeddus ger bron aelodau y Brifysgol. (3) *Libertatis Anglicae Defensio, seu demonstratio: Regnum Anglicae non esse Feudum Pontificis: In Acad. Oxon. publice opposita Martino Becano Societatis Jesu Theologo*, 1613. (4) *Eadgarus in Jacobo Redivivus; seu Pietatis Anglicanae Defensio, &c., contra Ross Weydum*, 1614. (5) *Tractatus de Concilio, Theophilo Suffoliciae Comiti dedicat*, 1626. Heblaw amryw o lyfrau eraill.

**REYNOLDSTON**, plwyf yn nghantref Abertawe, swydd Forganwg, yn ngorynys Browyr, goris Cefn y Bryn, 7¾ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Casllwchwr; a 12 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Abertawe. Medda Lythyrfa, dan Abertawe. Erwau, 1047. Gwerth ardrethol, 863*p*. Poblogaeth, 277. Tai annedd, 65. Perthynai y Faenoriaeth i Reginald de Breos. Yn y plwyf hwn y mae *Fairy*

Digitized by Google

*Hill*, lle y cyfanneddai y ddiweddar arglwyddes Barham, yr hon a gyfododd bedwar o addoldai i'r Ymneillduwyr yn Mrowyr, ac a gyfranodd yn haelionus at gynnal efengylwyr yn y parth hwnw o'r wlad. Y mae y pentref, yr hwn sydd yn gynnwysedig o amryw fwthynod prydferth, yn gorwedd mewn llanerch ddifyrus, goris ochr ddeheuol y fynydd-res a elwir Cefn y Bryn, oddiar grib yr hon y cair golygfa ardderchog ar y wlad o amgylch. Y mae gweddillion hen wersyllfa filwraidd fechan, mewn lle a elwir Bryn y maes, yn y plwyf hwn, yr hwn y cesglir oddi wrth y darnau o wrnau a gaed yn y ffos a'i hamgylchai, mai gan y Rhufeiniaid ei gwnaed. Ac ar ben Cefn y Bryn y mae amryw garneddau mawrion o geryg, y rhai, efallai, oeddynt feddrodau, o'r cyfnod Derwyddol. Ar yr un esgair hefyd, y mae ffynnon nodedig, a elwir "Y Ffynnon Sanctaidd," lle y mae tarddiad cryf o ddwfr, o fewn llanerch betrual amgauedig, o gryn henafiaeth, debygid. Yn agos i'r eglwys, y mae Ffynnon, gyssegredig i St. Sior; ac heb fod yn neppell, y mae un arall, gyssegredig i Fair Forwyn, am yr hon y bernir fod rhinweddau meddygol yn perthyn i'w dyfroedd. Y mae carreg fawr, a elwir "Maen Gwyr," yn agos i *Stout Hall*, yn y plwyf hwn; ac heb fod yn mhell oddiwrtho, y mae cylch o feini, a gyfodwyd gan y diweddar Mr. Lucas, i gynnrychioli *Stonehenge*. Yn yr un lanerch, y mae un o'r ogofeydd mwyaf yn y deyrnas, yr hon a ddarganfuwyd gan yr un boneddwr, sef Mr. Lucas. Wedi sylwi ar agorfa fechan yn y galch-graig, yn cynnwys clai hynod o grŷf, efe a roddes ddynion ar waith i'w hagoryd, ac a ganfu ei bod yn ymledu fel yr elid i fewn i'r graig. Y mae gwaelod yr ogof yn arwyneb gwastad, tua deugain troedfedd islaw lyfel y tir yn y lle, a'r nen, yr hwn sydd fath o fwa ysplenydd, yn amrywio mewn uchder, o ddeg troedfedd, i bymtheg ar hugain. Y mae yn ddigon eang i gynnwys dwy fil o wŷr, a'r fynedfa i fewn iddi mewn un man ar hyd rhes faith o risiau annghelfydd, ac mewn man arall ar lethrfa raddol.

Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 120*p*. Noddwr, C. R. M. Talbot, Ysw.

**REYNOLDSTON**, plwyf yn nghantref Narberth, swydd Benfro, 4¼ milldir i'r de wrth orllewin o Narberth; a 6 milldir gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Dinbych y pysgod. Llythyrfa, *Tenby*. Erwau, 525. Gwerth ardrethol, 301*p*. Poblogaeth, 97. Tai annedd, 23. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 62*p*. Noddwr, Syr R. Phillips, Bar. Y mae gwedd dra henafol ar y pentref, ac y mae yn dra thebyg ei gyfanneddu ar y dechreu gan nifer o'r Ffleminglaid, i'r rhai y rhoddodd Harri I., diriogaethau yn y rhan yma o'r dywysogaeth, gyd a'r amcan o gadarnhau ei ddylanwad ar y wlad, ac er diogelu y meddiannau a ddygasai y Normaniaid trwy drais oddiar y brodorion.

**RHAGGAT**, trefgordd yn mhlwyf Corwen, swydd Feirionydd; ar lan yr afon Dyfrdwy, yn agos i dref Corwen. Gwerth ardrethol, 571*p*.

**RHAGLAN**, pentref, plwyf, a chantref, yn swydd Fynwy. Y mae y pentref yn gorwedd ar lan afonig fechan sydd yn ymarllwys i'r afon Wŷsg, 1½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o'r orsaf a elwir *Raglan Foot-path;* a 7 milldir i'r gorllewin dde orllewin o dref Mynwy. Dyru y teitl o Farwn i'r Duc o Beaufort; a medda lythyrfa, dan y Cas Newydd, Mynwy. Y mae y plwyf yn Undeb Mynwy, ac yn cynnwys 4083 o erwau. Gwerth ardrethol, 5796*p*. Poblogaeth, 886. Tai annedd, 195. Ychydig ydyw nifer tirfeddianwyr y plwyf. Y mae Castell Rhaglan yn gorwedd ar lanerch o dir dyrchafedig, 1¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r pentref. Fe'i hadeiladwyd yn amser Harri y Pummed, gan yr Herbertiaid, ar hen orsaf castell blaenorol a berthynai i'r *Morleys*. Bu y lle dros ryw yspaid yn drigle Ieirll Worcester; ac yn 1642, rhoddodd Ardalydd Worcester warchodlu i'w gadw, yn mhlaid y brenin Charles y Cyntaf; a chafodd y pennadur anffodus hwnw, loches yn y castell hwn dros ryw yspaid, a gwnaeth y castell hwn wrthsafiad llwyddianus yn ei blaid hyd yn agos i derfyn y rhyfel: ond o'r diwedd, fe'i rhoddwyd i fynu i Fairfax, yn mis Awst, 1646; ac yn y canlyniad, fe'i di gaerwyd; ac yn awr y mae yn un o'r adfeilion barwnaidd godidoccaf yn Lloegr. Gorchuddia lanerch o dir, tu a'r drydedd ran o filldir o gylch-fesur.

Bywioliaeth eglwysig y plwyf hwn sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 270*p*. Noddwr, Dug Beaufort.

**RHAIADR CWM DYLI**, cyfres o raiadrau ar yr afonig Glaslyn, swydd Gaer yn Arfon, uwchlaw arllwysiad yr afonig i Lyn Gwynant, o dan ael ogledd orllewinol yr Wyddfa. Y mae cwymp y rheieidr oddeutu 300 troedfedd.

**RHAIADR CYNWYD**, cwymp ar yr afon Trystiog, yn y parth gogledd ddwyreiniol o swydd Feirionydd, yn agos i arllwysiad yr afon i'r Dyfrdwy; 3 milldir i'r de orllewin o Gorwen.

**RHAIADR DU**, cwymp dwbl, o 35, ac 20 troedfedd, ar yr afon Camlan, yn swydd Feirionydd, o fewn tiroedd Dol y melyn-llyn, 5 milldir o Ddolgelley.

**RHAIADR GWY**, tref fechan, plwyf, a chantref, yn swydd Faesyfed, Deheudir Cymru. Y mae y dref yn sefyll ar lan yr afon Wy, a cher rheilffordd Canol-barth Cymru, 14 milldir i'r dehau o Llanidloes. Cymerodd ei henw ar y dechreu oddiwrth ychydig gwymp yn yr afon, yr hwn y bu agos iddo gael ei lwyr ddystrywio yn y flwyddyn 1780, wrth wneyd parottoadau i adeiladu pont dros yr afon. Adeiladwyd castell yma yn y flwyddyn 1178, gan Rhŷs ab Gruffydd, yr hwn a losgwyd yn 1231, gan y Tywysog Llewelyn. Yn ystod y rhyfel gartrefol, rhwng Charles y Cyntaf a'r Senedd, fe'i di gaerwyd yn gyntaf, ac yna fe'i llwyr anrheithiwyd, fel nad oes dim o'i olion yn weledig yn bresenol, oddieithr y ddyfr-ffos, yr hon sydd wedi ei llenwi mewn rhan gan falurion y graig; dynodir gorsaf y tŵr, neu y gadwrfa, gan fryncyn, a saif oddiar yr afon Wy, ac a elwir, "Bryn y tŵr," (*Tower Mount*). Yr oedd yr afon yn llifeirio goris ei furiau ar y tu gorllewinol; a thrwy ffos ddofn a dorasid yn y graig, gallesid ei gylchynu â dwfr ar adeg o berygl. Yr oedd yma grefydd-dŷ pabaidd yn yr hen oesoedd, yn perthyn i'r myneich duon, sefyllfa yr hwn oedd yn agos i'r bont; ac efallai mai cuddigl ydoedd a berthynai i Fynachlog Ystrad Fflur, yr hon nid oedd yn mhell oddiyma, yn swydd Aberteifi. Y mae amryw garneddau, a beddrodau hefyd yn agos i'r dref, yr hynottaf o ba rai a elwir "Tommen Sant Ffraid," yr hon sydd yn gylchynedig gan fwthynod; a dywaid traddodiad, bod ffordd dan ddaiarol o honi i'r castell, a hefyd i wersyllfa filwraidd oedd yr ochr arall i'r afon, yn mhlwyf Cwm toyddwr. Ymddengys fod y

Digitized by Google

dref hon yn llawer mwy ar un adeg, nag ydyw yn bresenol; canys y mae llanerch o dir ar Gefn Ceidio, tua haner milldir o'r dref, a elwir Pant yr Eglwys, lle, medd traddodiad y safai Eglwys gynt, a dyw-edir fod yr hen dref yn cyrhaedd hyd yno. Y mae y dref bresenol yn gynnwysedig o bedair heol, yn cyfeirio o'r farchnadfa, yr hon sydd yn y canol, bron yn gymhwys i'r pedwar pwynt, yn ol pa rai eu henwir, megis Heol y Dehau, y Dwyrain, y Gogledd, a'r Gorllewin. Cynnelir y brif farchnad yma ar ddydd Mercher; ac un lai, ar ddydd Sadwrn, i werthu cig yn benaf. Y mae yn hen fwrdeisdref, ac mewn undeb â Llan Andras, Maesyfed Newydd, y Cnwc glas, Tref y Clawdd, a Chefn y Llys, medd y fraint o anfon cynnrychiolydd i'r Senedd. Bu y prif frawdlysoedd yn cael eu cynnal yma ar un adeg; a chynhelir y llysoedd Sirol yma eto. Y mae yma lythyrfa, gorsaf rheilffordd, pellebyr, gwest-dŷ da, ty marchnad, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1768, eglwys, tri addoldy Ymneillduol, ac Ysgol waddol-edig. Sefydlwyd Ysgol Ramadegol yma ar y cyntaf, gan ryw gymmwynaswr anhysbys, yr hon a ollyng-wyd i lawr, ond a ail gychwynwyd tua diwedd y ganrif o'r blaen, ac adeiladwyd Ysgoldy gerllaw y fynwent, trwy gyfroddion y cyffredin, yn yr hwn y cyfrenid addysg rad, i chwech o fechgyn o'r plwyf hwn, a chwech o'r plwyf nesaf, Cwmtoyddwr. Byddai ymgeiswyr am urddau eglwysig yn cael eu hordeinio o'r Ysgol hon, cyn sefydlu Coleg Llanbedr. Yn y flwyddyn 1810, cymmun-roddodd y Parch. Henry Williams, ddwy fil o bunnau yn y blwydd-dalion cydsawdd, tair punt y cant, at waddoliad Darlithiau mewn Dwyfyddiaeth, i gael eu traddodi yn yr eglwys hon: y darlithydd i gael ei bennodi gan Ganghell-ydd ac Ysgolorion prif ysgol Rhydychain, y flaenor-iaeth i gael ei roddi i'r câr agosaf i'r cymmun-roddwr, yr hwn am bob gomeddiad, a dâl ddirwy o ddeg swllt i'r tlodion. Yr un boneddwr hefyd a adawodd-log 200*p.* yn yr un ariansawdd, i'r clochydd. Cyn-nelir ffeiriau yma ar Awst 6 a'r 27, Medi 26, Hydref 14, a Rhag. 3. Y mae y fwrdeisiaeth yn cynnwys holl blwyf y Rhaiadr, a rhan o drefgordd Dyffryn Gwy. Poblogaeth yn 1851, 1007; yn 1861, 1030. Tai annedd, 214. Dadgyssylltwyd y plwyf hwn oddi-wrth Nantmel, yn y flwyddyn 1735. Erwau, 188. Gwerth ardrethol, 1598*p.* Poblogaeth, 802. Tai annedd, 195. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficer-iaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 75*p.* Nodd-wr, Ficer Nantmel.

**RHAIADR MAWDDACH**, cwymp, o tua 50 troedfedd, ar yr afon Mawddach, yn swydd FEIRION-YDD; 2 filldir o Ddol y melynllyn.

**RHAIADR MAWR**, neu RHAIADR Y PORTH LLWYD, cwymp prydferth ar yr afon Aled, swydd DDINBYCH; 5 milldir o Lansannan.

**RHAIADR Y PARC MAWR**, cwymp o tua 100 troedfedd, yn agos i Wydir.

**RHAIADR Y WENNOL**, neu yn hytrach, RHAIADR EWYNOL, cwymp hardd, ar yr afon Llugwy, swydd GAERYNARFON, 3 milldir i'r dwyrain o Gapel Curig.

**RHAN BERFEDD**, trefgordd yn mhlwyf yr Hope, swydd FFLINT; yn agos i Gaergwrle. Gwerth ardrethol, 1729*p.* Poblogaeth, 323.

**RHANDIR**, trefgordd yn mhlwyf Llandyssul, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r de orllewin o Dre-faldwyn.

**RHANDIR ABBAD**, RHANDIR CANOL, RHANDIR ISAF, a'r RHANDIR UCHAF, pedair llandref yn mhlwyf Llanfair ar y bryn, swydd GAERFYRDDIN, ar lan yr afon Towy, gerllaw Llanymddyfri. Gwerth ardrethol, 4520*p.*, 1628*p.*, 2084*p.*, ac 1173*p.*; o ba rai y mae 2500*p.* mewn mwngloddiau yn Rhandir Abbad. Poblogaeth, 553, 297, 433, a 276. Tai annedd, 113, 51, 89, a 50. Y mae Nant y Mŵn yn perthyn i'r Iarll Cawdor; a Glan brân, i'r Mil. Gwynne.

**RHAN HIR**, trefgordd yn mhlwyf Llangernyw, swydd DDINBYCH, 12 milldir i'r gorllewin o Ddin-bych. Poblogaeth, 172.

**RHAN TREGYNWEN**, trefgordd yn mhlwyf Llantysilio, swydd DREFALDWYN; 7½ milldir i'r go-gledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm.

**RHEDYW**, sant ond ni wyddis yn mha oes. Claddwyd ef yn Llanllyfni, Arfon, ac efe a sefydlodd yr eglwys hono. Dangosid yno hefyd ei ffynon, ei gadair, ac ol traed ei farch ar gareg. Cofnodid ef Tachwedd 11.

**RHEIDIOL** (Y), afon yn swydd ABERTEIFI, yn tarddu ar ystlys ogledd orllewinol Plumlumon; yr hon a lifeiria 3½ milldir i'r gorllewin ddc orllewin, ar y ffin â swydd Drefaldwyn; yna dros 7 milldir cyfeiria yn ddeheuol, hyd Bont ar Fynach, lle yr ymuna y Mynach â hi; ac oddiyno cyfeiria yn orlle-winol am un filldir ar ddeg, gan ymarllwys i'r môr gerllaw Aberystwyth.

**RHELESCYN**, trefgordd yn mhlwyf Cegidog, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r gogledd o'r Trallwm. Poblogaeth, 29.

**RHES Y CAE**, capeloriaeth yn mhlwyfi Cilcain, Helygen, ac Ysceifiog, swydd FFLINT; 4½ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Treffynnon. Fe'i cyfansoddwyd yn y flwyddyn 1848; a medda Lyth-yrfa, dan Dreffynnon. Poblogaeth yn 1861, 627. Tai annedd, 138. Poblogaeth rhan Helygen, 441; rhan Ysceifiog, 115. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Noddwr, Esgob Llanelwy.

**RHIALLU**, mab Tudwalch Carnau, tywysog Cernyw; y mae ei enw yn nghofrestrau y Seintiau Cymreig, ond nid oes yr un eglwys yn adnabyddus wedi ei chysegru ar ei enw, na'i sylfaenu ganddo. Ei fam oedd Dyfanwedd, merch Amlawd Wledig, pen-aeth ag oedd yn byw tua dechreu y chweched ganrif.

**RHIAN**, sant, yr hwn nid oes ychwaneg o hanes am dano, na'i fod wedi sylfaenu eglwys Llanrhian, yn sir Benfro, cedwid gynt ei wyl-ddydd ar Mawrth 8.

**RHIANON**, merch Hefeydd Hen, nodweddiad enwog yn y Ffughanesion Cymreig. Priododd y tro cyntaf a Pwyll, brenin Dyfed, a'r amgylchiadau mewn perthynas i'w diweddiad a adroddir yn helaeth yn Mabinogi Pwyll Pendefig Dyfed. Ar ol marw-olaeth Pwyll, y mae Rhianon yn cael ei dyroddi gan ei mab Pryderi, ar Manawydan mab Llyr, a'i hanes ddylynol a adroddir yn y Mabinogi sydd yn dwyn ei enw. Ei hadar oeddynt ryfeddol, caniadau y rhai oedd mor bêr, nes oedd rhyfelwyr yn aros yn swyn-edig am bedwar ugain mlynedd yn ddidor i wrandaw arnynt; y rhai oeddynt yn fynych dreith-destynau gan y beirdd. Crybwyllir hefyd am danynt yn y Triad canlynol: "Tri pheth na's clywir yn fynych. Cân adar Rhianon, cân ddoeth o enau Saesoniaid, a gwahoddiad i wledd oddiwrth gybydd."

**RHIDIAN**, sant, ar na wyddis yn iawn ei ddydd-iad; yr oedd yn aelod o Goleg Cennydd, yn Llan-gennydd, yn Mrowyr, Morganwg, ac yn sylfaenydd eglwys Llanrhidian yn yr un sir.

Digitized by Google

**RHIEINGAR**, un o santesau y bumed ganrif. Yr oedd hi yn un o ferched Brychan Brycheiniog, a dywedir ei bod yn santes yn Llech, yn Maelienydd. Dyma hen enw ardal yn sir Faesyfed, adran o'r hon, neu y dosran cymydogaethol o Elfael, a elwid unwaith Llech Ddyfiog; ac er fod sefyllfan yr olaf yn ansicr, mae yr adroddiad sydd ar gael fod Cynydr wedi ei gladdu yn Glasbury, efallai yn gynorthwy i benderfynu hyn; y mae Llangynydr ac Aberyscir, dwy eglwys yn Mhrycheiniog, y rhai feallai a sylfaenwyd gan Cynydr, wedi eu cysegru iddo ef, yn nghyd a'r Forwyn Fair, ac o dan y flaenaf yr oedd unwaith gapel a elwid Eglwys Fesci.

**RHIERI**, mab Tangwn, penaeth ag oedd yn byw yn agos i ddiwedd y chweched ganrif. Cofresir ef yn y Trioedd, fel un o "dri gwrdd faglawg Ynys Prydain." Y ddau eraill oeddynt Tynwedd, a Pryderi.

**RHIGOS**, neu RHEGOES, llandref yn mhlwyf Ystrad dyfodwg, swydd FORGANWG; 10 milldir i'r de orllewin o Ferthyr Tydfil. Y mae yn gorwedd ar derfyn swydd Frycheiniog, ac ar fin y ffordd o Gastell Nedd i Ferthyr-Tydfil; gerllaw Rhos Hirwaun. Gwerth ardrethol, 1752*p.*, o ba rai y mae can punt mewn mŵn-gloddiau, a 350*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 1047; yn 1861, 822. Tai annedd, 154. Achlysurid y lleihad yn y boblogaeth, gan attaliad gweithfeydd haiarn Hirwaun, yn yr adeg grybwylledig.

**RHINOG FAWR**, mynydd, 2354 troedfedd o uchder, yn y parth gorllewinol o swydd FEIRIONYDD; 4 milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o Harlech. Y mae Rhinog Fach yn agos iddo.

**RHIRYD**, un o feibion ordderch y tywysog Owain Gwynedd. Yr oedd efe yn Arglwydd Clochran, yn yr Iwerddon, a chynorthwyodd Hywel ei frawd yn yr ymdrech i sicrhau iddo benaduriaeth Gogledd Cymru. Yr oedd efe yn bresenol yn mrwydr y flwyddyn 1170, lle y clwyfwyd Hywel yn farwol, ac wedi hyny a gymerwyd gan Rhiryd drosodd i'r Iwerddon. Yn y flwyddyn 1172, aeth gyda Madog ei frawd, i wlad bell yn y gorllewinbarth, yr hon oedd Madog wedi ei gweled ar fordaith flaenorol, a meddylia rhai fod genym reswm digonol i feddwl, mai y wlad hono oedd cyfandir America, lle y tiriasant, ac yn ol amryw, y mae eu hiliogaeth yno yn aneddwyr y coedwigoedd, hyd y dyddiau presenol.

**RHIRYD FLAIDD**, cymerodd ei gyfenw Blaidd oddiwrth ei henafiad o dŷ ei fam, Blaidd Rhudd, neu Flaidd Gwaedlyd, o'r Gest, ger Penmorfa. Yr oedd efe yn fab i Gwrgenau ab Collwyn, o ferch Bleddyn, tywysog Powys. Yr oedd Rhiryd yn Arglwydd Penllyn, yn sir Feirionydd, ac yn byw yn Rhiwaedog, ger y Bala. Yr oedd ei diroedd yn cynwys pum plwyf Penllyn, Lleyn ac Eifionydd, yn swydd Gaer yn arfon, Pennant Melangell, a'r Glyn, yn Mhowys; ac un ar ddeg o drefi yn sir Amwythig. Yr oedd yn byw tua chanol yr unfed ganrif ar ddeg. Y mae llawer o'r teuluoedd henaf yn Ngogledd Cymru, yn olrhain eu hachau oddiwrtho ef.

**RHISIART** AB IORWERTH FYNGLWYD, un o feirdd enwog diwedd y bumthegfed ganrif, dywedir ei fod yn byw yn y blyneddoedd 1460, hyd 1500. Y mae darnau o'i weithiau barddonol ar gael mewn llawysgrifau.

**RHISIART** AB RHYS, o Lanharan, yn sir Forganwg, yr hwn oedd yn un o feirdd enwog yn nechreu yr unfed ganrif ar bumtheg, oblegid dywedir ei fod yn byw rhwng y blyneddoedd 1480, a 1520. Yr oedd yn fab i Rhys Llwyd, neu Rhys Brydydd, ac yn byw yn Merthyr Fawr. Yr oedd efe yn athraw i Iorwerth Fynglwyd; ac y mae rhai darnau o'i weithiau barddonol ar gael, mewn casgliadau llawysgrifau. Yr oedd ganddo ddau fab, un Llywelyn, yr hwn a elwid yn Ngogledd Cymru, Lewis Morganwg, a'r llall yn Rhys, a elwid mab Rhisiart Brydydd o Wig.

**RHISIART FYNGLWYD**, un o feirdd dechreu yr unfed ganrif ar bumtheg; y mae darnau o'i farddoniaeth ar gael mewn hen law ysgrifau.

**RHISIART GELE**, yr hwn hefyd a elwid "Y Prydydd Brith," oedd yn byw yn y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bumtheg.

**RHISIART IORWERTH**, oedd fardd a flodeuai rhwng y blyneddoedd 1470, a 1500. Yr oedd efe yn fab i Iorwerth Fynglwyd. Y mae darnau o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael mewn ysgrifen.

**RHISIERDYN**, oedd fardd enwog yn Mon, yr hwn oedd yn nghanol ei enwogrwydd rhwng 1290 a 1340. Y mae dwy o'i awdlau lled faith, cyflwynedig i Hywel ab Gruffydd, a Goronwy ab Tudur, wedi eu hargraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Myv. Arch.*

**RHITTA GAWR**, oedd ormedd-leiddiwr rhyfeddol, am yr hwn y mae yr hanes canlynol yn cael ei rhoddi yn yr Adgofion Cymreig:—Mewn un o'r Trioedd gelwir ef, yn un o'r tri "Gwrthrymardwy," a gwnaeth fantell iddo ei hun, o farfau y breninoedd, y rhai a wnaethai efe yn ddifarf, neu gaethion, o herwydd eu gorthrwm a'u traha. Y ddau eraill oeddynt Hu Gadarn, a Phrydain ab Aedd Mawr. Mewn Triad arall, y mae yn cael ei osod gyda Phrydain, a Charadawg, o dan y cyfenwad o un o'r tri "madoreilitiwr," ar gyfrif ei fod wedi erlyn trahausder ac anghyfiawnder y tywysogion anrheithus. Yn *Brut y Breninoedd*, y mae Arthur yn dywedyd am ysgarmes ofnadwy a fu rhyngddo ef a Rhitta Gawr, yn mynyddoedd yr Wyddfa, am ei fantell; ac ychwanegir, fod Rhitta wedi addurno ei fantell a barfau y breninoedd, a gadael y man uchaf yn wag, er gosod croen gên, a barf Arthur arno, yn gymaint ag mai efe oedd y brenin mwyaf uchelfalch. Am hyny, anfonodd genadwri at Arthur, am iddo anfon croen ei ên, a'i farf, iddo ef, neu ddyfod ag ymladd ag ef, ar yr amod fod y gorchfygwr i gael barf y gorchfygedig. Enillodd Arthur y fantell, a gorchfygodd Rhitta. Y mae bryn yn agos i'r Towyn, sir Feirionydd, a elwir *Rhiw y Barfau*, lle yn ol y traddodiad, y darfu i'r brenin Arthur ladd Rhitta Gawr.

**RHIW**, plwyf yn nghantref Cymmytmaen, Lleyn, swydd GAER YN ARFON. Y mae y pentref yn gorwedd ar ucheldir garw, 10½ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Pwllheli. Cynnwysa y plwyf, 1493 erw o dir, a 160 erw o draeth, a'i lythyrfa yw Llanengan, dan Bwllheli. Gwerth ardrethol, 807*p.* Poblogaeth, 340. Tai annedd, 83. Y mae Mynydd y Rhiw, yn 1013 troedfedd o uchder. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, unedig âg Is-berigloriaeth Llandudwen, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr olygfa a geir o ben Mynydd y Rhiw, yn odidog dros ben, gan gymeryd i fewn fynydd-res Eryri, a thros feisfor Ceredigion gwelir prif fynyddoedd Meirionydd, a rhanau helaeth o swyddi Aberteifi, a Phenfro, ac Ynys Fôn ar y llaw arall; a rhai o Fryniau yr Iwerddon, yn y pellder, ar ddiwrnod claer. Y mae y llan wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Aelrhiw.

Digitized by Google

**RHIW**, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo yn rhos, swydd DINBYCH: 7½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Abergeley. Poblogaeth yn 1861, 134.

**RHIW** (Y), afonig yn swydd DREFALDWYN, yn tarddu ar Fynydd y Drum, ac yn llifeirio yn ddwyreiniol dros oddeutu 14 milldir i'r Hafren, 5 milldir i'r dehau o'r Trallwm. Y mae rhaiadr hardd arni ychydig o'r tu uchaf i bentref Aberrhiw.

**RHIWABON**, plwyf, a thref fechan, yn nghantref Bromfield, swydd DDINBYCH, a gymer ei enw oddiwrth ei sefyllfa ar riw serth oddiar ffrwd a elwir yr Afon; ac fe hynodir y lle yn yr hanesyddiaeth Gymreig, drwy frwydr galed a ymladdwyd yn y gymmydogaeth, rhwng byddinoedd Owain Gyfeiliog, tywysog Powys, â'r Saeson; yn yr hon y cafodd Owain fuddugoliaeth drwyadl; er cof am yr hon y darfu i'r tywysog, yr hwn oedd yn gystal Bardd â Rhyfelwr, gyfansoddi pryddest ardderchog a elwir "Hirlas Owain."

Y mae Parc ardderchog Wynnstay, gerllaw y dref hon, a mynedfa iddo o honi. Dywedir fod y parc hwn tua deuddeg milldir o gylch-fesur; ac yn oludog o brenau mawrion ac ardderchog dros ben yr olwg arnynt. Mae yn debyg fod y lle hwn yn ddyledus am ei lwyddiant dechreuol i fesur mawr, i'w gyfagosrwydd i Wynnstay; ond erbyn hyn y mae ei bwysigrwydd penaf yn cael ei achosi gan y Gweithfeydd glo, a haiarn, sydd yn y gymmydogaeth. Cynnelir yr is frawdlysoedd yma; ac y mae yma lythyrfa, gorsaf rheilffordd, a phellebyr, gwestdy ehang, eglwys, a phump o addoldai ymneillduol, ysgol ramadegol, ac elusendy, gyda 200*p.* yn y flwyddyn o waddol; ysgol arall, a 23*p.* o waddol yn perthyn iddi, ac elusendai eraill, i'r rhai y perthyna 50*p.* o waddol; ac elusenau eraill yn cyrhaedd y swm o 193*p.* Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 588*p.* Noddwr, esgob Llanelwy. Mae yr eglwys yn sefyll gerllaw y fynedfa i barc Wynnstay, ac y mae ynddi amryw gofadeiladau cywrain i aelodau o'r teulu urddasol hwnw, a theulu yr Eytwniaid: ac un i Powel, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1590, yr hwn oedd yn frodor o'r plwyf hwn, ac yn ficer ynddo. Efe a ysgrifenodd Nodiadau ar Giraldus, ac a gyhoeddodd Hanes Cymru, gan Caradog o Lancarfan. Cynnelir Ffeiriau yma ar y dydd Gwener olaf yn Chwefror; Mai, 22; a Thachwedd, 20. Cynnwysa y plwyf drefgyrdd Rhiwabon, Bellan, Bodulltin, Cristionydd Coed, Cristionydd Cynrig, Dynhilla Isaf, Dynhilla Uchaf, Hafod, Morton Anglicorum, Morton Uchaf, Morton Isaf, a Rhyddallt. Erwau, 14,364. Gwerth ardrethol, 70,440*p.*, o ba rai y mae 23,012*p.* mewn mŵngloddiau, 109*p.* mewn cloddfeydd, 21,360*p.* mewn Gweithfeydd haiarn, a 300*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 11,507; yn 1861, 14,343; yn 1871, 14,850. Tai annedd, 3394. Dealler fod y cyfrifon uchod yn cymeryd Rhos y medre, a Rhos llanerchrugog i fewn hefyd.

Pen y Gardden yn y plwyf hwn, sydd balas perthynol i'r Arglwyddes Marshall. Am Blas Madoc, bernir ei fod wedi ei gyfodi ar orsaf hen balas perthynol i un o Dywysogion Cymru; ac yma yn awr y preswylia C. H. Whalley, Ysw., A.S. Y mae gwersyll, neu amddiffynfa filwraidd, o'r enw "Y Gardden," neu yn hytrach y "Gaer-ddin," ar godiad tir, tua ¾ milldir o'r dref. Y mae ficeriaeth Rhos y medre, a Rhos llanerchrugog yn fywioliaethau gwahanol er's rhai blyneddoedd.

Bu y Parch. Peter Roberts, Golygydd dysgedig y *Collectanea Cambrica*, ac Awdwr Hanes Foreuol y Cymry, ac amryw weithiau eraill, yn cyfanneddu yn y plwyf hwn.

**RHIWAEDOG** (ISAFON, ac UWCHAFON), dwy drefgordd yn mhlwyf Llanfawr, swydd FEIRIONYDD; 2 filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o'r Bala. Gwerth ardrethol, 1664*p.*, a 774*p.* Poblogaeth, 235, a 187.

**RHIWALLON**, un o Feddygon enwog Myddfai, yn sir Gaerfyrddin, yr hwn oedd yn byw yn nechreu y drydedd ganrif ar ddeg. Mewn cyfuniad a'i dri mab, Cadwgan, Gruffydd, ac Einion, gwnaeth ef gyflawn adroddiad o'r ymarfer o feddyginiaeth ag oedd yn wybyddus iddynt hwy y pryd hwnw, ac y mae yn debygol mai y llaw-ysgrif wreiddiol yr hon a ysgrifenodd efe, oedd yr un a drosglwyddwyd er ys ychydig flyneddau yn ol o lyfrgell yr Ysgol Rad Gymreig yn Llundain, i'r Amgueddfa Brydeinig, o'r hon y mae llawer o hen gopïau. Y mae yn deilwng o'n sylw, i hiliogaeth Rhiwallon barhau yn ddidor fel ymarferwyr â meddyginiaeth yn Myddfai, hyd tua chanol y ganrif ddiweddaf.

**RHIWALLON**, mab Cunedda, yr hwn, yn ol y "Brut Cymreig" a ganlynodd ei dad ar orsedd Prydain. Gan ei fod yn ieuanc a thyner o ran ei gyneddfau, cafodd ef deyrnasiad heddychol. Yn ei ddyddiau ef y bu yn gwlawio gwaed am dri diwrnod, a bu ar ol hyny farwolaethau lawer, y rhai a achoswyd gan frathiadau y pryfed gwenwynllyd a fagwyd gan y gwlaw. Yn ol rhai hanesion awdurdodol, bu ef yn teyrnasu am chwe' mlynedd a deugain, a chladdwyd ef yn Nghaerefrog.

**RHIWALLON**, mab Cynfyn, yr hwn ar farwolaeth y tywysog Gruffydd ab Llywelyn yn 1062, a addurnwyd yn rhanol â Bleddyn ei frawd, a phenaduriaeth Gwynedd a Phowys, yr hyn sydd yn gwneud y rhaniad presenol o Ogledd Cymru. Dygwyd hyn oddiamgylch, drwy gynorthwy Iorwerth y Cyffesswr, i'r hwn yr oedd y tywysogion hyn wedi cymeryd llw o ffyddlondeb, a than rwymau i dalu teyrnged gyflawn, yr hyn na thalwyd i'w olynwyr. Yn y flwyddyn 1068, unodd Rhiwallon a Bleddyn, yn ystod absenoldeb y brenin William o Normandy, ac unasant âg Edric, Iarll Mercia, mewn gwibdaith ddarneidiol ar y gororau, ac anrheithiasant sir Henffordd mor bell a'r Wyebridge. Yn 1068, cyfododd Meredydd, ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llywelyn, fyddin, er cael adfeddiant o benaduriaeth Gogledd Cymru oddiar y Tywysogion llywodraethol; ac ymladdwyd brwydr galed yn Mechain, swydd Drefaldwyn, lle y lladdwyd un tywysog o bob plaid, Rhiwallon ac Ithel.

**RHIWALLON**, mab Urien, a gofresir yn y Trioedd fel y penaf o dri "hucilogion deulu" Ynys Prydain. Y ddau lwyth ereill oeddynt eiddo Caswallon Law Hir, a Belyn o Leyn; gelwid hwy felly, am iddynt rwymo eu hunain yn nghyd â llyfetheiriau eu meirch, er cyd-oddef ymosodiadau eu gelynion, ac o ganlyniad cawsant eu rhyddhau i beidio cydnabod unrhyw benarglwyddiaeth yn eu tiriogaethau, namyn yn y gyfraith genedlaethol a chyffredin. Yr oedd Rhiwallon yn byw yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif, ac yr oedd yn ymladd yn erbyn y Sacsoniaid pan gymerodd yr amgylchiad uchod le.

**RHIWALLON WALLT BANADLEN**, yr hwn oedd un o benaethiaid y chweched ganrif. Cofresir ef yn y Trioedd, fel un o'r tri "deifnogion" Ynys Prydain; y ddau eraill oeddynt Gwalchmai



Digitized by Google

ab Gwyar, a Llechan ab Arthur. Mewn Triawd arall, unir ef â Rhun ab Maelgwn, a Chadwaladr, o dan y cyfenwad o dri "aurhualogion" Ynys Prydain, am fod cylchau o aur o amgylch eu breichiau, eu penliniau, a'u gyddfau, fel nodau o hawlfreintiau breninol. Ond yn ol rhai copïau o'r Trioedd, gelwid hwy felly, am eu bod yn rhy dal i farchogaeth yn y ffordd gyffredin, ac am hyny yn defnyddio pedyll aur i ddal eu penliniau, tra yr oedd eu traed yn cael eu cadw yn ol a rhwymynau yn croesi pystylwyni (*cruppers*) eu meirch.

**RHIWARGOR**, trefgordd yn mhlwyf Llanwddyn, swydd DREFALDWYN; 13 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 125.

**RHIWBRYFDIR**, lle 3 milldir o Ffestiniog, yn y parth gogledd orllewinol o swydd FEIRIONYDD; lle y mae llythyrfa, dan Gaer yn arfon.

**RHIWDERYN**, gorsaf rheilffordd yn y parth de orllewinol o swydd FYNWY, ar reilffordd Rhymni a'r Cas-Newydd; 4½ milldir i'r gorllewin o'r Cas-Newydd.

**RHIWGWREIDDYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanwrin, swydd DREFALDWYN; 3¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Fachynlleth.

**RHIWHIRIETH**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, swydd DREFALDWYN, yn agos i Lanfair. Poblogaeth, 256.

**RHIWIAU**, neu Y RHEWL, trefgordd, a gorsaf rheilffordd yn mhlwyf Llanbedr Dyffryn Clwyd, swydd DINBYCH; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 162.

**RHIWLAS**, treflan yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN; yn agos i dref Llandeilo.

**RHIWLAS** (ISFOEL, ac UWCHFOEL), dwy drefgordd, yn mhlwyf Llansilin, swydd DINBYCH; 9½ milldir i'r dehau o Langollen. Poblogaeth, 239, a 134.

**RHIWNACHOR**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd DREFALDWYN; yn agos i Lanfyllin.

**RHIW SAESON**, trefgordd yn mhlwyf Llanbrynmair, swydd DREFALDWYN; 11 milldir gogledd ogledd orllewin o Lanidloes. Gwerth ardrethol, 808*p*. Poblogaeth, 196.

**RHOBERT**, HUW IEUAN, oedd yn un o feirdd diwedd yr unfed ganrif ar bumtheg. Gelwir ef gan Moses Williams, Syr Huw Robert, Lên. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau wedi eu cadw mewn llawysgrifau.

**RHOBERT**, MORYS AB, o'r Bala, ydoedd fardd gwlad lled dda, ac yn meddu awen barod, fel y prawf amryw draddodiadau sydd am dano ar lafar gwlad, ac yn argraffedig yn y Gwyliedydd am 1823, a'r Brython am 1860. Nid ymddengys fod dim ond ambell englyn damwain o'i waith, ar gof a chadw.

**RHODRI**, mab ieuangaf Idwal Foel, tywysog Gogledd Cymru, yr hwn a laddwyd gan y Gwyddelod yn Môn, yn y flwyddyn 966. Dialwyd ei farwolaeth gan Iago ei frawd, yr hwn a ymosododd ar y Gwyddelod, y rhai oeddynt wedi ymsefydlu yn dra lluosog ar holl ororau Gogledd Cymru. Darfu iddo eu difa mor ofnadwy, fel na ddarfu i'r un o'r hiliogaeth mwyach wneuthur un math o ymsefydliad yn Nghymru.

**RHODRI**, mab Owain Gwynedd, tywysog Gogledd Cymru, o Crisiant, ei ail wraig, merch Gronw ab Owain ab Ednywain. Yn y flwyddyn 1174, rhoddwyd Rhodri yn ngharchar, gan Dafydd ei frawd, a chadwyd ef yno hyd y flwyddyn 1177, pryd y diangodd, a chafodd feddiant o Ynys Mon. Yr oedd yn cadw ei feddiant o honi yn y flwyddyn 1188, pan oedd *Giraldus Cambrensis* gyda yr Archesgob Baldwin ar ei daith trwy Gymru; a phan ddarfu iddynt groesi cyfyngfor Menai, cyfarfuwyd hwy gan Rhodri a'i feibion, ac yn mron holl breswylwyr yr Ynys. Er holl ymdrechion yr Archesgob i berswadio ei feibion i gymeryd y groes, methodd mewn un modd gael ganddynt wneuthur hyny, ac i'r cyfryw amgylchiad y priodola Giraldus farwolaeth rhai o honynt yn fuan ar ol hyny, ac hefyd ymlidiad Rhodri o'r Ynys, yr hyn a gymerodd le yn fuan iawn.

**RHODRI**, mab Morgan Mawr, brenin Morganwg, yr hwn a wnaed yn esgob Llandaf yn y flwyddyn 961, yn groes i ewyllys y Pab, am ei fod yn wr priod: a chafodd ei wenwyno yn fuan wedi hyny. Cafodd y cynygiad i arosod gweddwdod y fath wrthwynebiad yn Neheudir Cymru, fel y meddyliwyd mai doethineb oedd rhoddi eu ffordd iddynt, a chaniatawyd iddynt briodi fel o'r blaen.

**RHODRI FAWR**, oedd ryfelwr enwog, a thywysog Cymru, a mab i Merfyn Frych, ar farwolaeth yr hwn, yn y flwyddyn 843, gwnaed ef yn benadur Ynys Manaw. Enw ei fam oedd Esyllt, unig ferch Cynan Tindaethwy, yn hawl pa un y cafodd benaduriaeth Gwynedd a Phowys; a Deheudir Cymru, trwy hawlfraint Angharad ei wraig, merch Meurig ab Dyfnwal ab Arthen Sitsyllt, brenin Ceredigion. Yn y flwyddyn yr esgynodd i'r llywodraeth, anrheithiwyd ei diriogaethau gan Berthred, brenin Mercia, yr hwn yn y diwedd a orchfygodd efe, gyda cholled fawr, trwy gynorthwy Meurig ab Hywel, brenin Morganwg, yr hwn a laddwyd yn y frwydr. Yn y flwyddyn 855, gorchfygodd lu mawr o'r Daniaid, a lladdodd Gormund, eu blaenor. Yn y flwyddyn 872, gorchfygodd y Daniaid ddwywaith gyda lladdfa fawr yn Mon, yn mrwydrau Bangolau, a Manegid. Yn y flwyddyn 877, darfu i'r Seison anrheithio Mon gyda byddin alluog a dinystriol, y rhai a wrthwynebwyd gan Rhodri yn ei ysbryd dewrwych arferol; ond efe yn y diwedd a syrthiodd yn anrhydeddus, pan yn ymladd dros, ac yn amddiffyn ei wlad. Lladdwyd Gwriad ei frawd, a Gweirydd mab Owain Morganwg, yn yr un frwydr. Gadawodd Rhodri Fawr dri mab, sef Anarawd, Cadell, a Merfyn, ar ei ol, rhwng y rhai y rhanodd ei lywodraeth; rhoddodd Gwynedd i Anarawd, ynghyda'i breswylfod breninol yn Aberffraw, yn Ynys Mon, i'r hwn le y symudwyd hi o Gaer Seiont, ger Caernarfon; eisteddle wreiddiol llywodraeth Gwynedd oedd yn arfer bod yn Dyganwy, ar y Conwy. Cafodd Cadell dywysogaeth Deheubarth Cymru, gyda phalas Dinefwr; a rhoddodd Powys i Merfyn, gyda phalas Mathrafal. Gelwid y tri thywysog hyn "Y tri thywysog taleithiol," am eu bod yn gwisgo coronblethau neu deyrn-goronau o aur, yn y rhai yr oedd perlau gwerthfawr; ond yr oedd Anarawd, fel y mab henaf, yn cael y teitl o "Frenin Cymru oll," ac yn derbyn teyrnged flyneddol oddiwrth dywysogion Deheubarth Cymru, a Phowys.

**RHODRI MOLWYNOG**, oedd dywysog gwrol a rhyfelgar, ac yn fab i Idwal Iwrch, mab Cadwaladr. Ar farwolaeth Ifor ab Alan, yn y flwyddyn 720 o'r cyfnod Cristionogol, esgynodd i lywodraeth y rhan orllewinol o Brydain; ac mor fuan ag y darfu iddo gymeryd meddiant o honi, bu raid iddo amddiffyn ei diriogaethau yn erbyn ymosodiad y Sacsoniaid, y rhai oeddynt yn ymosod arnynt dan lywyddiaeth Addelred, yr hwn a anrheithiodd sir Dyfnaint, a phan yn myned rhag eu blaen i anrheithio Cernyw

Digitized by Google

gorchfygwyd hwynt gan y Brythoniaid o dan Rhodri, a gorfodwyd hwy i gilio yn ol. Yn yr un flwyddyn, darfu i Rhodri orchfygu y Sacsoniaid yn Ngogledd Cymru, a thrachefn yn Morganwg. Yn y flwyddyn 728, dinystriodd fyddin fawr o'r Sacsoniaid yn mynydd Carno, ger Crughywel, a thro arall yn mrwydr Henffordd, yn y flwyddyn 735. Yr oedd mewn brwydrau parhaus a'r Sacsoniaid, hyd yn agos i ddiwedd ei oes, a bu farw yn y flwyddyn 755, gan adael ar ei ol ddau fab, sef Cynan Tindaethwy, a Hywel, a'r henaf a esgynodd i orsedd Cymru, dros derfynau yr hon y bu Rhodri Molwynog mewn ymdrech parhaus a'r Sacsoniaid.

**RHODWYGEIDIO**, neu CEIDIO, plwyf yn swydd FON, ar lan yr afon Alaw, 1 filldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Llanerchymedd. Llythyrfa, Llanerch y medd, dan Fangor. Erwau, 1003. Gwerth ardrethol, 1106*p*. Poblogaeth, 284. Tai annedd, 73. Y fywioliaeth eglwysig sydd Is-berigloriaeth wastadol, gydiedig âg Is-berigloriaeth wastadol Llanerch y medd, yn esgobaeth Bangor. Gwel CEIDIO.

**RHONDDU**, afon yn swydd FORGANWG, yr hon sydd yn tarddu dan Graig y Llyn, ac yn llifeirio yn dde ddwyreiniol am oddeutu pedair milldir ar ddeg, gan ymarllwys i'r Tâf, ger Pont y Pridd.

**RHONDDU** (DYFFRYN), capeloriaeth yn mhlwyf Llanwonno, swydd FORGANWG; ar yr afon Rhonddu, ac ar reilffordd Dyffryn Rhonddu, yn agos i orsaf rheilffordd y Porth; 3¼ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Bont y pridd. Llythyrfa, Pont y pridd. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn gydiedig âg Isberigloriaeth Llanwonno, yn esgobaeth Llandâf.

**RHORE FAWR**, merch Usber Galed, yr hon a gofresir yn y Trioedd fel un o dair "gwrforwyn" Ynys Prydain; y ddwy ereill oeddynt Llewai merch Seithwedd Seidi; a Mederai Badell Fawr.

**RHOS**, parsel yn mhlwyf Bryn croes, swydd GAER YN ARFON; 7¼ milldir i'r de orllewin o Nefyn.

**RHOS**, trefgordd yn mhlwyf Llangynhafal, swydd DDINBYCH; 3¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Ruthin.

**RHOS**, lle yn mharth de ddwyreiniol swydd DDINBYCH; ar reilffordd Caer a'r Amwythig; 3 milldir i'r de dde orllewin o Wrecsham.

**RHOS**, beisfor bychan, yn y parth gogledd orllewinol o swydd DINBYCH; 1 filldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o ben y Fuwch foel (*Little Orme's Head*).

**RHOS**, pentref yn mhlwyf Pen marc, swydd FORGANWG; 9¼ milldir i'r de orllewin o Gaerdydd.

**RHOSAFLO**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, swydd DREFALDWYN, yn agos i Lanfair. Poblogaeth, 201.

**RHOSBEIRIO**, plwyf yn nghantref Twr Celyn, swydd FON; 3 milldir i'r gorllewin wrth ddehau o orsaf rheilffordd Amlwch. Llythyrfa, Amlwch, Môn. Erwau, 369. Poblogaeth, 26. Tai annedd, 5. Y fywioliaeth eglwysig sydd Is-berigloriaeth wastadol, gydiedig â pherigloriaeth Llaneilian, yn esgobaeth Bangor. Y llan, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Peirio, sydd hen adeilad fechan; a bernir ei bod wedi ei hadeiladu ar y cyntaf, tu a'r flwyddyn 605.

**RHOSCOLYN**, plwyf yn nghantref Menai, swydd FON; yn cynnwys y parth de ddwyreiniol o Ynys Cybi; 3 milldir i'r de dde orllewin o orsaf rheilffordd y Faelwy (*Valley*), a 4¼ milldir i'r de dde ddwyrain o Gaergybi. Llythyrfa, Caergybi. Erwau 250, o ba rai y mae 385 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1813*p*. Poblogaeth, 464. Tai annedd, 113. Y mae Awdwr y *Mona Antiqua Restaurata*, yn awgrymu i'r lle gael ei enw oddiwrth un o'r colofnau a gyfodai y Rhufeiniaid er cofnodi eu buddugoliaethau, cystal ag i nodi terfynaeth eu goresgyniadau. Ac y mae yr un awdwr yn dywedyd, fod gan Gwenfaen, merch Pawl Hen, grefydd-dy, neu guddigl yn y fan hon, oddiwrth yr hwn wedi hyny, y deilliodd y llan blwyfol, yr hon a alwyd oddiwrth seilydd cyntaf y sefydliad, "Llanwenfaen," enw, a lynodd wrthi am rai oesoedd, yn lle ei chyn enw, "Rhoscolyn." Gellir adnabod y llanerch lle y gorweddai yr hen guddigl eto, trwy yr amledd o esgyrn dynol a ganfyddir pa bryd bynag y troir y tir â'r rhaw, neu â'r aradr. Y mae hen balas o'r enw "Bodior" yn y plwyf, lle y bernir y preswyliai un o'r pendefigion Rhufeinaidd, pan arglwyddiaethai y Rhufeiniaid ar yr ynys, a cherllaw iddo, canfyddir helaethrwydd o'r marmor amryliw hardd, a elwir *verd antique;* a dywedir fod peth o'r marmor a gloddiwyd yn y fan hon, yn rhagori yn amrywiaeth ac ysplander ei liwiau ar yr hyn a gloddir yn yr Eidal; ac yn yr un cloddfeydd, canfuwyd gwythïeni o ystinos (*asbestos*), hardd, o gyfansoddiad sidanaidd, meddal, ac o ansawdd dra rhagorol. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, unedig âg Is-beriglorïaethau Llanfair yn neubwll, a Llanfihangel yn nhywyn, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 260*p*. Noddwr, Esgob Llandâf. Y mae wyth punt o elusenau yn perthyn i'r plwyf.

**RHOSCROWTHER**, neu RHOS Y CRYTHOR, plwyf yn nghantref Castell Martin, swydd BENFRO; 2 filldir i'r dehau dros y dwfr, o orsaf rheilffordd *Milford;* a 6 milldir i'r gorllewin o Benfro. Llythyrfa, Penfro. Erwau 2536, o ba rai y mae 170 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2563*p*. Poblogaeth, 238. Tai annedd, 43. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 307*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Adgyweiriwyd yr eglwys yn drwyadl yn y flwyddyn 1869. · Dywedir fod y lle hwn yn drigle rhai o'r tywysogion Cymreig, cyn y goresgyniad Normanaidd; ac y mae yma le a elwir eto Estington, llygriad fel y tybir o Iestyn-ton, sef Tref Iestyn, lle y bernir fod y llys tywysogaidd. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Sant Decumanus. Heb fod yn nepell o'r eglwys, y mae ffynnon, a bwa maen wedi ei adeiladu drosti, yr hon a elwid gynt, "Ffynnon Sant Degmen," neu Decuman, ac i'r hon y priodolid rhinweddau meddygol lawer.

**RHOS DDU**, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Ilar, swydd ABERTEIFI, yn agos i lan y môr, 6¼ milldir i'r de ddwyrain o Aberystwyth. Erwau, 1307. Gwerth ardrethol, 482*p*. Poblogaeth, 158. Tai annedd, 33. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 101*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae arwyneb y plwyf yn amrywiol, ac mewn rhai manau yn fynyddig. Y gweryd yn y rhanau isel, sydd yn lled gynnyrchiol; ac ar lechweddau y bryniau, cair ychydig borfa i ddefaid, a dyniewaid.

**RHOSFERIG**, neu RHOS FEURIG, llandref yn mhlwyf Llanfihangel Bryn Pabuan, swydd FRYCHEINIOG, ar lan yr afon Irfon, 6¼ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfair yn Muallt. Erwau, 1320. Gwerth ardrethol, 700*p*. Poblogaeth, 95. Tai annedd, 14. Yr oedd yma lŷs yn yr hen amser, i Elystan Glodrydd, brenin y Merlys, sef y diriogaeth sydd yn gorwedd rhwng yr Wy a'r Hafren.

Digitized by Google

**RHOS GOCH**, trefgordd yn mhlwyf Worthen, swydd DREFALDWYN; 6½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Drefaldwyn. Poblogaeth, 48. Tai annedd, 8. Y mae y drefgordd hon yn cynwys rhan o'r Mynydd Hir, ar ffin swydd Amwythig, yn yr hon y mae y rhan fwyaf o'r plwyf.

**RHOSILLY**, neu RHOS SULWY, plwyf yn nghantref Abertawe, swydd FORGANWG, ar lan pentir Browyr; 12 milldir i'r de orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Llwchwr; a 17½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Abertawe. Llythyrfa, Reynoldston, dan Abertawe. Erwau 2470, o ba rai y mae 410 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 581*p*. Poblogaeth, 267. Tai annedd, 72. Y mae y cyfan yn eiddo un gŵr. Rhoddwyd y Faenoriaeth gan Fitz-Hamon i Reginald de Sulwy. Y mae ogof yn nannedd y graig, ar lan y môr, a elwir "*Y Barometer*," neu "Yr Hinfynag," yr hon a olchir gan y môr; ac ar hin ystormus, ergydia adsain a glywir dros saith milldir o bellder. Y mae y pentir hwn yn dra pheryglus i fordeithwyr, a chymerodd amryw long-ddrylliadau hynod le ar y glenydd hyn. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 135*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

**RHOSLLANERCHRUGOG**, pentref poblogaidd, a chapeloriaeth, yn mhlwyf Rhiwabon, swydd DDINBYCH. Y mae y pentref yn sefyll 2 filldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Rhiwabon; ac y mae ynddo Lythyrfa, dan Riwabon. Ffurfiwyd y Gapeloriaeth yn y flwyddyn 1844. Cyfrifir y gwerth trethadwy yn 20,637*p*. Poblogaeth yn 1861, 6620. Tai annedd, 1508. Y mae llawer o'r trigolion yn cael eu bywioliaeth trwy weithio yn y gweithfeydd glô, a haiarn. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 300*p*.; yn noddaeth y Goron, a'r Esgob, ar yn ail.

**RHOS MAEN**, treflan yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN; ar yr afon Towy, yn agos i dref Llandeilo.

**RHOS MARKET**, plwyf yn nghantref Rhos, swydd BENFRO; 1 filldir i'r de ddwyrain o orsaf rheilffordd *Johnston;* a 4 milldir i'r gogledd ddwyrain o *Milford.* Medda Lythyrfa, dan Milford. Erwau, 1759. Gwerth ardrethol, 1319*p*. Poblogaeth, 389. Tai annedd, 89. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 96*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Ismael, a gafodd ei hail adeiladu yn ddiweddar. Y mae adfeilion hen balas yn y pentref, a fu gynt yn artrefle teulu o'r cyfenw Walters; a merch i Syr Richard Walters, a elwid Miss Lucy Walters, a ddaeth yn hoff-fenyw Charles yr Ail, ac yn fam yr anffodus Ddug Mynwy. Yma hefyd y ganwyd Dr. Zachariah Williams, tad Miss Williams, y foneddiges ddall, a gyfanneddai dan gronglwyd yr enwog Dr. Johnson.

**RHOS TRYFAN**, lle yn y parth gogledd orllewinol o swydd GAER YN ARFON, 4 milldir o dref Caer yn arfon. Y mae poblogaeth yr ardal yn cynnyddu yn gyflym yn y blyneddoedd diweddar hyn, mewn cyssylltiad â bywiogrwydd y llech-gloddfeydd cymmydogol.

**RHOS Y BOL**, lle yn mharth gogleddol swydd FON; 3 milldir o Amlwch. Daeth yr ardal yn boblogaidd rai blyneddau yn ol, mewn cyssylltiad â mwngloddiau Mynydd Paris.

**RHOS Y MAMBYCH**, trefgordd yn mhlwyf Llangwm, swydd DDINBYCH; 14 milldir i'r de orllewin o Ruthin.

**RHOS Y MEDRE**, pentref a chapeloriaeth, yn mhlwyf Rhiwabon, swydd DDINBYCH. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw rheilffordd Caerlleon a'r Amwythig, 1½ milldir i'r gogledd o Riwabon. Y mae yn lle poblogaidd, a medda Lythyrfa, dan Riwabon. Cynnwysa y gapeloriaeth dref-gyrdd Bodulltin, yr Hafod, a Christionydd Cynrig; ac fe'i cyfansoddwyd yn y flwyddyn 1844. Poblogaeth yn 1861, 5305. Tai annedd, 1158. Y mae y nifer fwyaf o'r trigolion yn gweithio yn y glofeydd, a'r gweithfeydd haiarn yn y gymmydogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth, 142*p*. Noddwr, Syr W. W. Wynne, Barwnig.

**RHUALLT**, lle yn mharth gogledd orllewinol swydd FFLINT. 3¼ milldir i'r dwyrain o Lanelwy.

**RHUDD-DRE**, neu RUDDRY, plwyf yn nghantref Caerphilli, swydd FORGANWG, 2¼ milldir i'r dwyrain wrth ddehau o Gaerphilli. Llythyrfa, Caerphilli, dan Gaerdydd. Erwau, 2639. Gwerth ardrethol, 3236*p*., o'r hyn y mae 846*p*. mewn mŵn-gloddiau. Poblogaeth, 374. Tai annedd, 76. Y mae ffynnon o ddwfr mwnawl yn y plwyf, yr hwn sydd yn dra rhinweddol i iachau amryfal anhwylderau y llygaid. Y fywioliaeth eglwysig sydd Is-beriglorïaeth wastadol, gydiedig â pherigloriaeth Bedwas, yn esgobaeth Llandâf.

**RHUDDLAD**, oedd yn un o seintiau y seithfed ganrif. Yr oedd hi yn ferch i frenin Leinster, yn yr Iwerddon, a sylfaenodd eglwys Llanrhuddlad, yn Mon. Cedwid ei gwyl-ddydd gynt ar Medi 4.

**RHUDDLAN**, bwrdeisdref, plwyf, a chantref, yn swydd FFLINT. Y mae y dref yn sefyll ar lan yr afon Clwyd, a cher rheilffordd Dyffryn Clwyd, 3¼ milldir i'r de dde ddwyrain o'r Rhyl. Bu y dref hon yn lle tra phwysig yn yr oesoedd gynt, a hyny yn enwedig yn ei chyssylltiad â'r castell cadarn a adeiladasid yma yn foreu. Meddylir fod y lle wedi cael ei enw oddiwrth liw coch, (rhudd) y priddyn yma, ar lan yr afon Clwyd. Ymddengys fod cryn bwysigrwydd yn perthyn i'r dref hon mewn adeg led forau; ac y mae y morfa sydd gerllaw iddi, ac a elwir "Morfa Rhuddlan," wedi ei hynodi yn Hanesyddiaeth ein cenedl, fel maes brwydr waedlyd a ymladdwyd yno tu a'r flwyddyn 795, rhwng y Sacsoniaid, dan Offa, brenin y Mersiaid, â'r Cymry; yn yr hon y cafodd ein cyd genedl ei gorchfygu, wedi brwydr hynod o galed a gwaedlyd, yn yr hon y lladdwyd Caradog, tywysog Powys, ac amryw o bendefigion y Cymry; a'r holl garcharorion a gwympasent i ddwylaw y Saeson, a roddwyd i farwolaeth yn ddi drugaredd. Er côf am y gyflafan hono, cyfansoddwyd yr hen dôn Gymreig, a elwir "Morfa Rhuddlan." Yn ol y Brutiau Cymreig, ymddengys bod Offa ei hunan wedi ei archolli yn farwol yn y frwydr uchod; ond, y mae yr Haneswyr Seis'nig yn amseru ei farwolaeth flwyddyn yn gynt. Yn y flwyddyn 1015, darfu i Llywelyn ab Sitsyllt, tywysog Gwynedd, adeiladu castell, a llys tywysogaidd yn Rhuddlan, gan wneuthur y lle ei brif breswylfod; ac yma y cynhaliai ei fab, Gruffydd ab Llywelyn ei lŷs, dros ystod ei deyrnasiad, sef o'r flwyddyn 1037 hyd 1064. Ymddengys fod y tywysog Gruffydd wedi cyffroi digofaint Edward y Cyffeswr, brenin Lloegr yn ei erbyn, trwy lochesu Algar, Iarll Caer, un o bendefigion anufudd y brenin; am hyny anfonodd y pennadur hwnw Harold, gyda byddin gref, i ddial ar

Digitized by Google



Drawn by W. Simpson

Engraved by C. Lawrie

RHUDDLAN CASTLE,

FLINTSHIRE.

BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

Digitized by Google

Gruffydd, a goresgyn ei diriogaethau. Daeth Harold a'i fyddin ar warthaf Gruffydd yn Rhuddlan mor annysgwyliadwy, fel nad oedd wedi gwneuthur unrhyw barottoad i'w wrthsefyll; ond efe a lwyddodd i ddianc yn ddirgel i fwrdd un o'r llongau oedd yn y porthladd, a chan godi hwyliau yn ddïoed, efe a ddiangodd yn ddïogel. Llwyddodd Harold yn fuan i gymeryd yr amddiffynfa, a chymaint oedd ei siomedigaeth, pan ganfu fod y tywysog Cymreig wedi dïanc, fel y llosgodd efe ei lŷs, ac y dystrywiodd efe yr holl longau rhyfel, a'r llongau eraill oeddynt yn aros yn y porthladd; ac yna efe a ddychwelodd i Loegr, i wneyd cad-ddarpariadau mwy eang er ymosod ar Gruffydd.

Tua diwedd teyrnasiad Edward y Cyffeswr, ymddengys fod y castell hwn yn meddiant Edwin, Iarll Caer. Efallai na ddarfu i Gruffydd ei adfeddiannu ar ol ei ffoedigaeth a-grybwyllir uchod, ond gwneyd o hono ei gartref yn yr Aberffraw, yn Môn, dros weddill ei ddyddiau. Pa fodd bynag, ymddengys fod y Cymry wedi cymeryd meddiant o'r castell hwn drachefn cyn hir, ac iddynt gadw y meddiant o hono dros ryw yspaid, ac yn y cyfamser, iddynt ail adeiladu, a chadarnhau y dref, gan ei gwneuthur yn un o'r lleoedd mwyaf llwyddianus yn Ngwynedd. Ond, yn y flwyddyn 1098, daeth Robert, nai Huw Fleiddyn, Iarll Caer, ac a warchaeodd ar Ruddlan, gan orfodi y gwarchlu i roddi y castell i fynu: a'r brenin William, a gyfenwir "y Goresgynwr," yn canfod sefyllfa fanteisiol Rhuddlan, yn agos i'r môr, a phwysigrwydd y lle, fel amddiffynfa yn agos i'r cyffin-diroedd, a archodd i Robert, yr hwn a gyfenwir *de Rotelan*, oddiwrth y lle hwn, i adgyweirio y castell, a chadarnhau amddiffynfeydd y dref, gan ei gwneuthur ei brif drigfa, ac y mae yn dra thebyg mai dyma y pryd yr adeiladwyd y tyrau ysgwâr, sydd yn aros hyd heddyw, ag ydynt yn yr arddull Normanaidd yn amlwg.

Yr ychwanegiadau hyn at gadernid y lle, a gyfodwyd gan y pendefig hwn, mewn ufudd-dod i orchymyn y brenin, ac ar ei draul, yn nghyd a'r cyfleusdra manteisiol i gael adgyflenwadau o wŷr ac arlwyon o Loegr ar unrhyw bryd gyd a'r môr, a wnelai y lle yma yn orsaf filwraidd dra phwysig, ac yn foddion grymus i gadw y Cymry danodd.

Yn y flwyddyn 1109, darfu i Gruffydd ab Cynan, yr hwn o'r blaen a fuasai ar ymweliad gyda Robert yn y lle hwn, ac a gynnorthwyasid ganddo yn erbyn rhai o'i elynion, mewn canlyniad i ryw ymrafael a gyfodasai rhyngddynt, ymosod ar gastell Rhuddlan, llosgi y gadwrfa allanol, lladd llawer o'r gwarchlu, a gorfodi y lleill i encilio i'r tyrau am ddïogelwch.

Pan oedd Harri yr Ail yn cynnyg goresgyn Gwynedd, yn y flwyddyn 1157, efe a ddaeth hyd Ruddlan, ac a barodd adgyweirio y castell, a chadarnhau yr amddiffynfeydd, a chyn ei ddychweliad i Loegr, rhoddodd warchodlu cryf ynddo i'w amddiffyn.

Yn y flwyddyn 1165, ymgyfammododd y tywysogion Cymreig i gyd ymdrech er bwrw iau drom y brenin Harri oddiar eu gwarau; a'r brenin yn ystyriol o bwysigrwydd y castell hwn, fel prif amddiffynfa gyffiniol; ac yn barnu mai ar hwn y gwnaent eu hymosodiad cyntaf, a brysurodd rhagddo, er ei amddiffyn; ond y gelynion a giliasant yn ôl ar ei ddynesaad, eithr gan nad oedd ganddo ddigon o allu i ymlid ar eu hol, nid arhosodd efe yma nemawr o ddyddiau; ac wedi adgyfnerthu y gwarchodlu, efe a ddychwelodd i Loegr. Ond, er cryfed oedd y castell, ac er lluosoced y gwarchlu a adawsid ynddo, ymosododd y Cymry arno yn y flwyddyn 1167, ac er iddo gael ei amddiffyn yn ddewr-wych, fe'i cymerwyd, wedi gwarchae o ddau fis, gan Owen Gwynedd; yr hwn a barodd ddryllio yr amddiffynfeydd, a rhoddi y gwarchlu i'r cleddyf. Er hyny, ymddengys iddo gael ei adferu yn fuan gan y Saeson; canys fe'i henwir, yn nghyda dwy amddiffynfa eraill, a roddwyd gan Harri yr Ail i Dafydd, mab Owain Gwynedd, ar ei brïodas âg Emma, haner chwaer i'r pennadur hwnw; ac yn 1178, fe'i cedwid erddo ef, gan warchodlu Seisnig, yn erbyn byddin o'i ddeiliaid ei hunan, y rhai a gyfodasent mewn gwrthryfel i'w erbyn, o herwydd ei ormes annyoddefol. Yn y flwyddyn 1187, croesawid Baldwin, Archesgob Caergaint, a Giraldus Cambrensis, mewn modd tywysogaidd gan Dafydd, yn ei gastell hwn, pan ar eu taith trwy Gymru, i bregethu rhyfel y Groes. Y mae yn debyg ddarfod i Dafydd roddi y castell hwn i fynu i'r Saeson cyn pen hir ar ol yr amgylchiad uchod, y rhai a'i cadwasant yn eu meddiant dros beth amser.

Tua diwedd teyrnasiad Rhisiard y Cyntaf, yr oedd un Ranwlff de Meschines, a gyfenwid "Blundeville," Iarll Caer, yn llywydd y castell hwn; a daeth corphlu o'r Cymry, ac a osodasant warchae arno yn ddisymwth, pan nad oedd y gwarch-lu yn alluog i'w amddiffyn, fel yr oedd mewn perygl dirfawr, o'r hyn ei gwaredwyd gan ei raglaw, Roger de Lacey, yr hwn yn ddi ymaros a gasglodd dyrfa fawr o segurwyr a chrwydraid o bob math, y rhai a ymgynnullasent yn ffair Caer, ac a'u harweiniodd tua Rhuddlan. Llewelyn ab Iorwerth, yr hwn a olynasai Dafydd ab Owain fel tywysog Gwynedd, ac a lywyddai y gwarchaewyr yn bersonol, a welai dyrfa annifeiriol o bobl yn dyfod yn y pellder; a chan feddwl mai byddin Seis'nig ydoedd, yn dyfod i weini ymwared i'r castell, efe a gyfododd y gwarchae yn y fan, ac a enciliodd oddi yno ar frys; a'r Iarll yn ei ddiolchgarwch am y fath ymwared prydlawn, a anrhydeddodd ei raglaw yn fawr, gan ei wobrwyo yn haelionus.

Aeth y brenin John trwy Ruddlan, pan oresgynai Wynedd, yn y flwyddyn 1211. Ac yn y flwyddyn ganlynol, ymosodai y tywysog Llewelyn ar y castell, ond yn aflwyddiannus y pryd hyny: ond dwy flynedd yn ddiweddarach, efe a lwyddodd i'w gymeryd; ac o'r pryd hyny hyd y flwyddyn 1277, ymddengys ei fod yn meddiant y Cymry a'r Saeson bob yn ail: ond y pryd hwnw fe'i dygwyd oddiar y Cymry am y tro olaf, gan Edward y Cyntaf, yr hwn yn canfod y pwysigrwydd o gadw meddiant ddyogel o hono, er cwblhau ei amcanion o lwyr ddarostyngiad y Dywysogaeth, a'i gwnaeth yn brif gyrchle ei fyddinoedd cynnulledig i oresgyn Gwynedd; ac yma hefyd yr oedd ei brif ystorfa, o arfau, a phob cad-ddarpariadau er darostwng Cymru. Wedi cadarnhau y lle yn fawr, gwnaeth y brenin Edward y fan hon ei ben cadlys, tra yn goresgyn y wlad; ac yma y gwnaeth efe gyfammod â Llewelyn, yr hwn a ymostyngodd bron yn hollol i'w drugaredd, gan gydsynio i ddyfod yma i gymeryd llw o ffyddlondeb iddo, a thalu teyrnged o ddwy fil o farciau iddo.

Yn y flwyddyn 1282, darfu i Anian, Llywydd mynachlog Rhuddlan, yr hwn a etholasid yn esgob Llanelwy, gyflwyno deiseb i'r brenin Edward, yn yr hon y cwynai fod yr adeiladau esgobyddol yn Llanelwy wedi cael eu hanrheithio gan y byddinoedd rhyfelgar, o'r naill blaid a'r llall, ac am hyny, yn

Digitized by Google

deisyf caniattad ei fawrhydi i symmud y gadair esgobyddol i Ruddlan, fel lle o ddiogelwch, lle y gallai yr esgobion a'r eglwys, dan gysgod y castell cadarn yno, gael eu dïogelu rhag ymosodiadau nwydwyllt y naill blaid, a'r llall, i'r rhai yr oeddynt yn ddarostyngedig yn barhaus yn Llanelwy. Buasai y brenin Seis'nig yn cydsynio â'r cais hwn yn ewyllysgar; ac yn wir, efe a gynnygiodd dir yma, ar yr hwn yr adeiladid eglwys gadeiriol, yn nghyda mil o farciau arian, tuag at ddwyn traul yr adeilad; ond ni lwyddwyd i gael cydsynied y Pab; ac o'r diwedd, ail adeiladwyd yr eglwys gadeiriol ar ei hen orsaf. Edifarhaodd Llewelyn yn fuan am yr ymostyngiad a wnelsai i'r pennadur Seis'nig, a chan ei fod yn gwybod y perygl o adael lle mor bwysig yn nwylaw ei elyn, darfu iddo ef, a'i frawd Dafydd, yr hwn dan argyhoeddiad o'r perygl cyffredinol, oedd wedi ymheddychu â'i frawd weithian, gymeryd yr holl amddiffynfeydd Seis'nig oeddynt yn Ngogledd Cymru, oddieithr castell Rhuddlan; ac o'r diwedd, efe a osododd warchae ar y castell hwn, gan ladd yr holl weithwyr oeddynt yn cadarnhau yr amddiffynfeydd. Ar hyny, y brenin Edward, yn hyderus yn nghadernid yr amddiffynfa hon, ac wedi rhoddi ei fryd ar lwyr ddarostwng Cymru, a anfonodd wŷsiadau allan, yn erchi i'w holl dir-ddeiliaid milwraidd ei gyfarfod ef yn Rhuddlan, yn y Mehefin canlynol, 1282. Ar ddynesad Edward, cyfododd y tywysogion Cymreig y gwarchae, a'r mis canlynol, darfu i'r brenin Edward, tra yn aros yn Rhuddlan, anfon gorchymyn allan i Siryfion y gwledydd cyffin-dirawl, yn erchi i bob un o honynt gyfodi nifer bennodol o fwyellwyr, i weini fel cad-arloeswyr, er parottoi ffordd ddyogel i'w fyddin drwy y wlad. O'r lle hwn hefyd, y dygid yn mlaen y cyflafareddiad aneffeithiol rhwng y brenin a'r tywysogion Cymreig, yr hyn a ddygid yn mlaen trwy gyfrwng Archesgob Caergaint; ond wedi rhoddi terfyn o'r diwedd ar bob cyflafareddiad, aeth y brenin yn mlaen yn nechreu Tachwedd, o Ruddlan i Aberconwy; ond dychwelodd ar y 24ain o'r un mis, wedi gorchfygiad rhan o'i fyddin ger Moel y don; ac anfonodd ei wŷsebion allan o'r lle hwn, am gynnulliad Senedd, i ganiattau cyflenwadau annghyffredin, er cynnal y rhyfel yn mlaen. Wedi marwolaeth anffodus Llewelyn y gauaf canlynol, a gwasgariad hollol y byddinoedd Cymreig, dygwyd ei frawd Dafydd, yn nghyd a'i wraig, ei ddau fab, a'i saith merch, yn garcharorion i Ruddlan, lle yr oedd y pennadur Seis'nig yn cartrefu weithian, er trefnu amgylchiadau y wlad yr oedd newydd ei goresgyn. Wedi cadw Dafydd yn garcharor caeth yn y castell hwn dros ryw yspaid, efe a gymerwyd, yn rhwym mewn cadwynau, i'r Amwythig, lle ei rhoddwyd i farwolaeth waradwyddus fel bradwr.

Yn ystod ei drigias yn Rhuddlan y sefydlodd Edward gorph o gyfreithiau er llywodraethu ei ddeiliaid newyddion, a adwaenir dan yr enw "Ystatyd Rhuddlan," trwy yr hon y dygid y drefn Seis'nig o weinyddiad barn, i'r tiriogaethau ehang hyny, y rhai ar gyfrif eu sefyllfa annghysbell, oeddynt hyd yma heb ddyfod dan draws-lywodraeth arglwyddi y cyffindiroedd; ac oddi yma hefyd yr anfonodd efe gyhoeddiad at holl drigolion Cymru, y byddai iddo eu cymeryd dan ei nawdd, gan eu sicrhau y caent fwynhau eu rhyddid, a'u hettifeddiaethau, ar yr unrhyw ammodau ag eu daliasent o'r blaen dan eu tywysogion brodorawl. Yma hefyd y darfu i Edward, tra yn eistedd mewn cyngherlys, lle yr oedd y pendefigion Cymreig yn wyddfodol, addaw yn bennadur iddynt frodor o'u gwlad eu hunain, un na's gwyddai pa fodd i lefaru gair o Saes'neg, a buchedd, ac ymarweddiad yr hwn a fuasai yn ddifeius hyd yn hyn. Ar eu gwaith yn datgan eu llawenydd, ac yn addaw ufudddod i'r cyfryw un, efe a gyhoeddodd ei faban Edward, oedd newydd gael ei eni yn Nghastell Caer yn arfon, yn dywysog Cymru. Er mwyn gwarchod Rhuddlan rhag unrhyw ymosodiad rhagllaw gan y Cymry, penderfynodd y brenin Edward, ail adeiladu y castell, a'i wneyd yn anorchfygadwy trwy gadernid ei amddiffynfeydd, a buwyd fwy na phymtheng mlynedd yn cwblhau y gwaith hwn, yr hyn a ddygid yn mlaen ar raddeg o ysplander a mawrwychedd, o'r hyn y cair prawf nodedig yn ei adfeilion godidog. Er na orphenwyd y gwaith hwn yn ystod arhosiad Edward yn Rhuddlan, yma y ganwyd ail blentyn y pennadur hwnw, sef y dywysoges Eleanor. Yn y cyfamser, cynnyddai y dref yn gyflym mewn poblogrwydd a phwysigrwydd, fel y daeth yn fuan yn dref benaf y rhan yma o'r dywysogaeth; a'r rhan fwyaf o'r preswylwyr oeddynt ymsefydlwyr Seis'nig. Rhoddasai Huw Fleiddyn, Iarll Caer, amryw ragorfreintiau i'r preswylwyr; a nifer y bwrdeisiaid, y rhai yn ei amser ef, nid oeddynt namyn wyth, a chwanegwyd i ddeunaw, yn amser Robert de Rotelan, yr hwn a ychwanegodd at eu rhagorfreintiau, gan eu gwneyd yn gyfartal â'r eiddo dinaswyr Henffordd. Trwy wŷseb, a anfonwyd allan o Gaerodor yn y flwyddyn 1284, cyhoeddwyd preswylwyr Rhuddlan, yn gystal a'r eiddo rhai trefydd Cymreig eraill, yn rhydd dros byth oddiwrth y trethi a elwid *talliages*, a thrwy freinlen, a ddyddiwyd yn Fflint, Medi 8fed, yn yr un flwyddyn, y 12fed o'i deyrnasiad, gwnaeth yr un pennadur y lle hwn yn fwrdeisdref rŷdd, gan ordeinio i gwnstabl y castell fod yn faer, i gael ei gynnorthwyo gan ddau feili, etholedig bob blwyddyn o blith y bwrdeisiaid; a chan swyddogion dinesig eraill: a chaniattaodd i'r gorphoriaeth garchar, ac awdurdod i gynnal brawdlysoedd, yn nghyd ag amryw ragor-freintiau eraill, y rhai a gadarnhawyd drachefn gan y brenin Rhisiard yr Ail, yn Leicester, ac wedi hyny, gan yr un pennadur yn Westminster.

Wedi i Syr Gruffydd Llwyd, yr hwn a anrhydeddasid gan Edward y Cyntaf, trwy ei wneyd yn farchog ar ei waith yn dwyn y newydd i'r pennadur hwnw o enedigaeth mab iddo yn Nghaer yn arfon, gyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn Edward yr Ail, efe a gasglodd fyddin o'r brodorion, yn y flwyddyn 1322, ac a ymosododd ar gastell y lle hwn; ond wedi amryw ymdrechiadau aflwyddiannus i'w gymeryd, efe a gymerwyd yn garcharor, ac wedi ei garcharu yma dros yspaid, fe'i rhoddwyd i farwolaeth. Dyroddwyd castell Rhuddlan, gan y brenin Edward y Trydydd, yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, i'w fab, Edward, y Tywysog Du, fel rhan o Iarllaeth Caer: ac yn ol mynegiad o gyllidau yr Iarllaeth hono, a wnaed tua deugain mlynedd yn ddiweddarach, ymddengys fod tref Rhuddlan yn talu i Ieirll Caer, uchelrent o 72*p.* 9*s.* 2*c.* yn y flwyddyn; a bod swyddged-y cwnstabl, yr hwn oedd yn gyfrifol am daliad yr ardreth uchod, yn cyrhaedd y swm o 8*p.* 14*s.* yn y flwyddyn.

Ar ddychweliad Rhisiard yr Ail o'i gad-gyrchiad i'r Iwerddon, o'r lle ei gelwid yn ôl gan gyflwr cythryblus ei deyrnas gartref; dygwyd y pennadur hwnw gan yr Iarll o Northumberland, a chorff mawr o ganlynwyr, i'r dref hon, lle ei cadwyd mewn

Digitized by Google

math o garchariad anrhydeddus, ac wedi bod yma dros ryw yspaid, er cael ymborth a gorphwysfa, fe'i dygid ar ffrwst gan y pendefig hwnw i gastell Fflint, lle ei bradychwyd i ddwylaw ei wrth-ymgeisydd Bolingbroke, wedi hyny, Harri y Pedwerydd. O'r pryd hyny, nid oes nemawr o hanes y castell hwn ar gôf a chadw, ac ymddengys iddo gael ei ollwng i esgeulusdra yn fuan, a dyfod yn adfeiliedig; canys pan dorodd y rhyfel Seneddol allan, yr oedd traul fawr yn ofynol i'w ddwyn i gyflwr cymhwys i dderbyn y milwyr a roddid ynddo fel gwarchlu, i'w gadw dros y brenin. Yn y flwyddyn 1645, gwarchaeid arno gan fyddin gref o wŷr y Senedd, dan lywyddiaeth Syr William Brereton; ond y gwarchlu a'i hamddiffynent yn ddewr a llwyddiannus, a bu raid i Syr William encilio yn ol i Gaer, wedi llawer ymdrech aflwyddianus i'w gymeryd. Yn y flwyddyn ganlynol, gwarchaewyd ar y castell gan y Maeslywydd Mytton, i'r hwn ei rhoddwyd i fynu, ac yn fuan wedi hyny, fe'i di gaerwyd trwy orchymyn y Senedd.

Dros yr afon Clwyd, yr hon a lifeiria o'r tu isaf i'r dref, y mae hen bont, o ddau fwa maen, a adeiladwyd ar draul William Hughes, Esgob Llanelwy, yn y flwyddyn 1595, hyd at yr hon y byddai y llanw yn codi yn ddigon uchel gynt, i alluogi cychod yn dwyn saith dunell o lwyth, i ddyfod gerllaw y dref: ond, y mae gwelliannau mawrion wedi eu gwneyd yn mordwyaeth yr afon hon yn ddiweddar.

Nid ydyw tref Rhuddlan yn bresenol, yn nemawr amgen na rhyw bentref, cynnwysedig yn benaf o un heol dda, yn cael ei thrawsu gan amryw heolydd llai, yn gorwedd mewn llanerch ddymunol, ar lan ddwyreiniol yr afon Clwyd. Y mae y freinlen a roddwyd iddi ar y dechreu gan Edward y Cyntaf, ac a gadarnhawyd wedi hyny gan Rhisiard yr Ail, wedi bod yn llythyren farw, byth er pan ddi gaerwyd y lle trwy orchymyn y Senedd, gan na phennodwyd yr un cwnstabl byth wedi hyny; ac o ganlyniad, ni bu yr un Maer ar y fwrdeisdref; y mae pennodiad y beiliaid, i'r hyn y mae yr awdurdod yn perthyn i arglwydd y faenor, yn cymeryd lle eto yn flyneddol. Nid yw y gorphoriaeth yn ymarfer unrhyw awdurdod frawdwriaethol mwyach; gan nad yw y brawdlysoedd a gynhelid dan eu breinlen gynt, yn cael eu cynnal mwy; yr unig lysoedd a gynhelir yn awr, ydynt y maenor-lys, a'r pentref-lys, a gynhelir gan arglwydd y faenor, yn yr olaf o ba rai, yr hwn a gynhelir yn flyneddol yn mis Hydref, y dewisir y swyddogion bwrdeisiol. Medda Rhuddlan, mewn undeb â Fflint, Treffynnon, Y Wyddgrug, Owrtyn, Llanelwy, Caerwys, a Chaergwrle, y rhagorfraint o anfon Aelod i'w cynnrychioli yn y Senedd. Cynnwysa ffiniau y fwrdais, drefgyrdd Bryn bychan, Bryn y wal, Criccin, Pentre, Yscawen, Bryn ehedydd, Cefn du, Rhyd orddwy, Tre Llywelyn, a'r Rhyl. Mesura, yn erwau, 5670, o ba rai y mae 1560 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4855*p*. Poblogaeth yn 1851, 3049; yn 1861, 4397. Tai annedd, 942. Yn y Rhyl yn benaf y bu y cynnydd yn y boblogaeth. Pengwern, a fu gynt yn balas y Mostyniaid, sydd yn perthyn i Syr Huw Williams yn awr. Bodryddan sydd balas arall yn y gymmydogaeth, yn perthyn i hen deulu boneddigaidd o'r cyfenw "Conwy."

Seiliwyd mynachlog i'r brodyr duon, yn lled agos i'r castell, rywbryd cyn y flwyddyn 1268, canys yn y flwyddyn hono, dyrchafwyd Anian, pennaeth y crefydd-dy hwn, i gadair esgobawl Llanelwy: ac allan o hen ysgrif-lyfr oedd yn meddiant Anngharad Llwyd, caed y cofnodiad canlynol,—"Llewelyn ab Gruffydd ab Llewelyn, Tywysog Cymru, a wnaeth mynachlog Rhuddlan, oedran Crist, 1258, ac Edward y Cyntaf a'i gwnaeth gwedi hyny, 1262: ac Eleanor y Frenines a wnaeth yr Hen dŷ, (Hendre, efallai); a phedwar Escwier a wnaeth y *Ffratyr*, nid amgen Rhobert ap Gryffydd ab Howel; Llewelyn ab Ednyfed Fychan; Madoc Gloddaeth; ac Ednyfed ab Gruffydd o Faelor; a Madoc, person Myfod a Hwytfford a wnaeth y *telys* nesaf i'r afon, a elwir Neuadd Wen; a Phylip ap Solffin a wnaeth Capel Mair."

Diau fod y fynachlog hon wedi goddef llawer o bryd i bryd oddiwrth y gwahanol bleidiau ymrafaelgar, yn eu cad-ruthriadau ffrochwyllt yn erbyn eu gilydd; ond, er pob peth, ymddengys ei fod wedi ei gadw i fynu mewn bri hyd ddadgorfforiad cyffredinol y crefydd-dai; eto nid yw Dugdale na Speed, yn crybwyll faint oedd cyllid blyneddawl y priordy hwn.[1] Bernir fod is-grefydd-dy, neu fath o ysbytty, gan Farchogion y Deml, gerllaw yma, yn y lle a elwir y "*Spittal.*"

Y mae awdurdodau eraill yn dweyd fod cyllid y ty hwn ar y dadgorfforiad, yn cael ei gyfrif yn 197*p*. 19*s*. 10*c*. Dyroddwyd y tir a'r adeiladau oeddynt arno, i un Harri ab Harri, yn y 32ain flwyddyn o deyrnasiad Harri yr Wythfed. Y mae y gweddillion wedi eu troi yn ammaethfa, ystablau, &c., yn bresenol. Cloddiwyd amryw eirch ceryg o bryd i bryd ar orsaf yr hen adeiladau, y rhai, debygid oeddynt yn gorchuddio llanerch eang iawn, pan oedd y sefydliad yn ei ogoniant; ac yn mysg y cof-feini a gafwyd yn agos i'r lle, yr oedd un i goffadwriaeth Anian de Schonan, ar yr hon yr oedd ei ddelw, yn dal croes-ferllysg esgobawl yn ei law aswy, a'r ddeheulaw yn ddyrchafedig, megys ar y weithred o gyhoeddi y fendith; a'r pen wedi ei goroni â meitr. Y mae y garreg hon yn awr wedi ei hadeiladu mewn mur ysgubor! Darganfyddwyd llawer o esgyrnegau, (*skeletons*), yn y gladdfa, a theflir llawer o esgyrn dynol i fynu eto yn fynych, gyd â'r rhaw wrth balu. Heb fod yn mhell o'r hen briordy, y saif ammaethfa o'r enw Spittal, neu Ysbytty, am yr hon y crybwyllasom o'r blaen, ei fod yn perthyn gynt i Farchogion y Deml. Seiliwyd hwn gan Edward y Cyntaf, yn y flwyddyn 1279; ac yn agos iddo y mae ffynnon ragorol, o'r hon y cyflenwid y priordy â dwfr, yr hwn a gludid yno mewn pibellau plwm, y rhai a gyfodwyd yn nechreu y ganrif hon, ac oddiyno y cyflenwir tref Rhuddlan â dwfr eto, ar dymhorau o sychder.

Ar ystlys ddwyreiniol y brif heol, y mae yn aros eto ran o'r tŷ lle y cynnaliai Edward y Cyntaf ei gynghor-lys, tra yn arolygu adeiladaeth y castell, ac yn llunio cyfreithiau gyda golwg ar lywodraethiad dyfodol ei ddeiliaid Cymreig. Er cadw côf o'r amgylchiad yma, parodd y diweddar wir Barchedig W. D. Shipley, M.A. Deon Llanelwy, ddodi careg yn y mur, a'r cerfiad canlynol arni,—"Y dernyn yma sydd yn aros o'r adeilad lle y cynnaliai Edward y Cyntaf ei senedd, O.C., 1283, yn yr hon y cadarnhawyd Ystadyd Rhuddlan, er sicrhau i Dywysogaeth Cymru ei hiawnderau barnol, a'i hannibyniaeth." Tua milldir o'r dref, yn nhreflan Criccin, y mae carnedd fawr, wedi ei chyfodi ar weddillion St. Eurgain, neu Cain, ferch Maelgwyn, a nith Asaf, seilydd esgobaeth Llanelwy. Ar y garnedd yr oedd paladr croes, pen yr hon oedd mewn pwll ar y tyddyn nesaf.

Yr oedd yr hen gastell yn cymeryd i fynu orsaf

[1] *Tanner's Monasticon.*

Digitized by Google

ddyrchafedig ar lan yr afon Glwyd: y muriau a amgauent lanerch wyth-onglawg, ac a ddiffynid gan wyth o dyrau crynion, o gadernid mawr, o ba rai yr oedd y rhai ar y gongl ddwyreiniol, a gorllewinol, yn ddwbl; a'r rhai ar y conglau gogleddol, a deheuol, yn sengl: y fronallt serth tu a'r afon a ddiffynid â muriau uchel, a thyrau ysgwâr, ac amgylchid y cyfan â ffôs ddofn a lledan, wedi ei gwynebu â maen-waith. Y mae muriau y castell yn ddwy droedfedd ar bymtheg o drwch, ac ar yr ystlys ddeheuol agos yn gyfain. Y mae tri o'r tyrau crynion, o ba rai y gelwir un "Tŵr y Brenin," mewn cadwraeth weddol; gweddillion amryw o'r ystafelloedd breiniol, yn un o ba rai y dywedir i'r dywysoges Eleanor gael ei geni; un o'r tyrau ysgwâr a ddiffynent y fronallt o'r afon, yr hwn sydd agos yn gyfan; ac adfeilion un arall, a elwir "Tŵr y Silod." Ychydig i'r dehau o'r castell, y mae bryn celfyddydol, a elwir "Y Twt-hill," yn gylchynedig â ffos ddofn; a bernir mai dyma lle yr oedd yr amddiffynfa a'r llŷs, a adeiladwyd gan Llewelyn ab Sitsyllt, ac a ddystrywiwyd gan Harold. Yr oedd y ffos yn amgylchu llanerch bedronglog, o fewn yr hon yr oedd priordy Rhuddlan gynt.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 264*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae ficeriaeth y Rhyl yn fywioliaeth ar wahan. Dyroddwyd degwm mawr y plwyf hwn, gan y brenin Edward y Cyntaf, i Ddeon a Glwysgor Llanelwy, yn y flwyddyn 1284; a thyma oedd prif ffynonell cyllid y corff hwnw drwy yr oesoedd. Adeiladwyd ficerdy da yma, tu a'r flwyddyn 1810. Y mae yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i'r Forwyn Fair, yn hen adeilad, mewn rhan yn yr arddull Seis'nig boreuol, ac yn gynnwysedig o gorff-eglwys, cangell, ac aden ogleddol; a chynnwysa rai cofadeiliau dyddorol i deulu Bodryddan; yn enwedig un o farmor gwyn, a gyfodwyd i goffadwriaeth y gwir Barch. W. D. Shipley, Deon Llanelwy.

Y mae y cantref yn cynwys, heblaw Rhuddlan, bedwar o blwyfi eraill; a rhanau o dri phlwyf eraill. Erwau, 32,830. Poblogaeth yn 1851, 10,654; yn 1861, 11,564. Tai, 2510.

**RHUDDLWM GAWR**, sydd nodweddiad dychymygol. Cofresir ef yn y Trioedd, gyda Math ab Mathonwy, a Menw, fel tri rhagorol yn y gelfyddyd ledrithiol a drychiolaethol, i'r hyn ei haddysgid ef gan Eiddilig Cor.

**RHUDDWYN GAWR**, oedd wron Prydeinig boreuol, traddodiadau am yr hwn ydynt wedi cadw ychydig o gofiannau. Rhoddodd efe yr enw Caer Rhuddwyn i amddifynfa ar ben bryn Pentre gaer, yn mhlwyf Croesoswallt, yn uniongyrch o dan yr hwn y mae llyn mawr, a elwir Llyn Rhuddwyn. Crybwyllir yn y Chwedlau Cymreig, am dri chawr o frodyr, Cawr Myfyr, Cawr Rhuddwyn, a Chawr Berwyn.

**RHUFAWN**, un o feibion Cunedda Wledig, yr hwn a ryfelodd gyda'i frodyr yn neoliad y Gwyddelod o Ogledd Cymru. Fel gwobrwy am hyn, cafodd gantref yn sir Ddinbych, a elwid Rhufoniog. Gelwid ef Rhufawn Rhufoniog, ac hefyd Rhufawn Hael, am ei fod y dyn mwyaf haelionus yn Nghymru yn ei amser ef.

**RHUFAWN BEFR**, neu y Teg, yr hwn yn ol rhai awdurdodau hanesyddol, oedd yn fab i Gwyddno Garanhir, tra y mae ereill yn dywedyd mai mab Dewrath Wledig oedd. Yr oedd yn byw yn y chweched ganrif, ac yr oedd yn un o'r gwroniaid a ymladdodd yn mrwydr Cattraeth, a dywed Aneurin fel y canlyn am dano:—"Y pennaeth hwn a ruthrai trwy luoedd; syrthiodd pump o gadfyddinoedd trwy fin ei gleddyf. Rhoddodd ef aur i'r allor, a rhoddion o feini gwerthfawr i'r cerddor." Lladdwyd ef mewn brwydr, a rhoddwyd ei bwysau o aur am ei gorph, ac am hyny y gelwir ef yn y Trioedd yn un o'r tri "eurgelain" Ynys Prydain, ac un o'r tri brenin "bendigaid" Brydain, ac y mae un arall yn ei resu yn un o'r tri "treiawg." Y mae crybwylliad am ei fedd, mewn awdl a gyfansoddwyd gan Hywel, mab y tywysog Owain Gwynedd, yn nghylch y flwyddyn 1160, yr hon a argraffwyd yn y *Myv. Arch.* Yn mhen mwy na chanrif ar ol hyn, yr ydym yn cael bedd Rhufawn yn cael ei grybwyll gan Gwilym Ddu, y bardd, yn y fath fodd, ag y gallwn benderfynu fod y fan lle y gorweddai yn eithaf gwybyddus y pryd hwnw.

**RHULEN**, plwyf yn undeb Llanfair yn muallt, swydd Faesyfed; ar lan yr afon Edwy, 6½ milldir i'r dwyrain wrth ddehau o orsaf rheilffordd Buallt. Llythyrfa, Tref y Clawdd. Erwau, 756. Gwerth ardrethol, 673*p*. Poblogaeth, 97. Tai annedd, 20. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, gydiedig â Ficeriaeth Glascwm, yn esgobaeth Ty Ddewi.

**RHUN**, mab Beli ab Maelgwyn, oedd dywysog, ac yn byw a bod yn y rhan flaenaf o'r seithfed ganrif. Cofresir ef yn y Trioedd fel un o dri "rhuddfaawg" Ynys Prydain. Y ddau ereill oeddynt Llew Llawgyffes, a Morgan Mwynfawr.

**RHUN**, mab Brychan Brycheiniog, oedd sant, ac yn byw yn y bumed ganrif yn agos i Mara, neu Lyn Llanygors, yn sir Frycheiniog. Lladdwyd ef a Rhawin ei frawd, gan y Sacsoniaid paganaidd, ar Bont Rhun, yn agos i Ferthyr Tydvil, pan oedd efe yn amddiffyn y bont yn eu herbyn. Efe oedd tad Nefydd, ac Andras.

**RHUN**, mab Einion, oedd benaeth yn niwedd y seithfed ganrif. Cofresir ef yn y Trioedd fel un o dri "trahaawg" Ynys Prydain; y ddau ereill oeddynt Sawl Benuchel, a Pasgen ab Urien.

**RHUN**, mab Euryn y Coed Aur, yr hwn oedd yn fab Caw o'r Twr Celyn. Yn ol Achau y Saint, yr oedd Rhun yn sant yn Ystumllwynarth, ac yn byw yn y chweched ganrif.

**RHUN**, mab Maelgwyn Gwynedd, oedd dywysog rhyfelgar, a esgynodd i'r orsedd ar ol ei dad, yn y flwyddyn 560. Cafodd ryfel maith a gwaedlyd a'r tywysogion gogleddol, y rhai a wnaethant ruthrgyrch i sir Gaernarfon, a llosgasant bob peth o'u blaen; i ddial am hyny, yr aeth Rhun a byddin i ogledd Cymru, ac fel tâl i wyr Arfon am eu dewrder mawr, ac am eu bod wedi cael eu cadw cyhyd oddiwrth eu teuluoedd, rhoddodd iddynt bedwar-ar-ddeg o hawl-freintiau, y rhai a elwir "Breiniau Gwyr Arfon;" ac y mae y rhai hyn ar gael yn Neddf-lyfr y Cyfreithiau Cymreig. Mewn un o'r Trioedd, gelwir ef yn un o dri "Gwyndeyrn" Ynys Prydain, y ddau ereill oeddynt Rhufawn Befr, ac Owain ab Urien. Mewn Triad arall, y mae yn cael ei resu gyda Rhiwallon Wallt Banadlen, a Chadwaladr Fendigaid, i wneud tri Aurhualogion. Prif breswylfod Rhun, oedd y *Roman Conovium*, ar oror orllewinol yr afon Conwy, ac oddiwrtho ef y cafodd yr enw Caer Rhun. Bu farw yn y flwyddyn 586, a chanlynwyd ef yn y llywodraeth, gan Beli ei fab.

Digitized by Google

**RHUN**, mab Peredur, yn ol y Brut Cymreig, a adferwyd i benaduriaeth Prydain ar farwolaeth Idwal, a chyfrifid i hyny gymeryd lle yn y bumed ganrif cyn Crist.

**RHUN BALADR FRAS**, yr hwn oedd nawfed brenin Prydain, a esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth Lleon Gawr, ei dad. Teyrnasodd un a deugain o flyneddoedd; yn ystod yr amser hyn, gwellawyd amgylchiadau y genedl, a chafodd heddwch ei adferu. Efe hefyd a adeiladodd Gaergaint, a Chaerwynt, a'r ddinas ar fynydd y Gaer, yr hon a elwid Caerbaladrin, a Chaersepton, ond yn awr a elwir gan y Saeson, Shaftsbury, lle y prophwydodd yr Eryr dynged Prydain, pan oedd y ddinas yn cael ei hadeiladu. Tua'r amser hwn y gorphenodd Solomon adeiladu y deml yn Jerusalem.

**RHUSNANT**, trefgordd yn mhlwyf Llandyssilio, swydd Drefaldwyn; 7½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm.

**RHU-WRIAD**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon, swydd Faesyfed; 3¼ milldir i'r gogledd o Raiadr Gwy. Poblogaeth, 141. Tai annedd, 25.

**RHWNG-DWR-CLYDACH**, sydd isbentref yn mhlwyf Llangyfelach, swydd Forganwg, chwe milltir a haner gogleddol o Abertawe. Gwerth ardrethol 6359*p.*, o'r hyn y mae 1070*p.* mewn mwnau, a 52*p.* mewn camlesydd. Poblogaeth yn 1851, 1578; yn 1861, 1720. Tai, 336. Y mae y gweithydd glo yn y gymydogaeth hon, mewn cysylltiad a'r rheilffyrdd a'r camlesydd, drwy y wlad.

**RHWNG Y DDWY AFON**, trefgordd yn mhlwyf Caerhun, swydd Gaer-yn-arfon; 4¼ milldir i'r dwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 182.

**RHWNG Y DDWY FFORDD**, trefgordd yn mhlwyf Llysfaen, swydd Gaer-yn-arfon; 3¼ milldir i'r gorllewin o Abergeley.

**RHWYDRYS**, oedd sant yn y chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Rhwydrim neu Rhodrem, brenin Connaught; ac efe a sylfaenodd eglwys Llanrhwydrys yn Mon. Cedwid ei wyl-ddydd gynt ar Tachwedd 1.

**RHYCHWYN**, un o seintiau y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o ddeuddeg mab Helig ab Glanawg, y rhai oeddynt wedi llwyr ymroddi i fyw yn grefyddol, pryd y dystrywiwyd tiriogaethau eu tad gan orlifiad y môr. Efe a sylfaenodd eglwys Llanrhychwyn, yn sir Gaernarfon, ac y mae lle yn swydd Dinbych a elwir Bodrhychwyn.

**RHYD-AR-GAERAU**, sydd bentref yn mhlwyf Llanllawddog, swydd Gaerfyrddin, chwe milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o Gaerfyrddin.

**RHYDFAES**, trefgordd yn mhlwyf Llandinam, swydd Drefaldwyn; 5¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanidloes. Poblogaeth, 119.

**RHYDFENDIGAID**, pentref yn nghapeloriaeth Caron uwchclawdd, swydd Aberteifi; yn agos i Dregaron.

**RHYDGWERN**, sydd is-bentref yn mhlwyf Machen, swydd Forganwg, gerllaw afon Rymni, pum milltir a haner dwyreiniol o Gaerphili. Poblogaeth yn 1851, 185; yn 1861, 323. Tai, 68.

**RHYDLEWIS**, sydd le yn ochr ddeheuol swydd Aberteifi, chwe milltir gogleddol o Gastell-newydd-Emlyn. Llythyrfa, dan Gaerfyrddin.

**RHYDMANTEG**, sydd bentref yn mhlwyf Llangranog, yr swydd Aberteifi; wyth milltir a haner gogleddol o Gastell-newydd-Emlyn.

**RHYDODRIG**, sydd bentref yn mhlwyf Pendoylwyn, swydd Forganwg, wyth milltir a haner gogleddol o Gaerdydd.

**RHYD-ONEN**, neu Rhyd-yr-onen, sydd orsaf ar reilffordd Tal-y-llyn, yn swydd Feirionydd, milltir a thri chwarter gogledd ddwyrain o Towyn.

**RHYDONEN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanynys, swydd Ddinbych, gerllaw afon Clwyd, tair milltir a chwarter gogledd ogledd orllewin o Ruthin.

**RHYDORDDWY**, sydd drefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd Fflint, gerllaw Rhuddlan. Poblogaeth, 61.

**RHYDOWEN**, sydd ffrwd yn afon Cletwr, swydd Aberteifi, gerllaw Gallt-ryd odyn. Cafodd yr enw oddiwrth Owen Glyndwr.

**RHYDPONT**, sydd le wrth ben beisfor Caergybi, yn swydd Fon, tair milltir de ddwyreiniol o Gaergybi. Gelwir y bont sydd yma, yn gyffredin, Pontrypont, o pont-rhyd-y-bont.

**RHYDUCHAF**, sydd is-bentref yn nhrefgordd Is-mynydd, gerllaw y Bala, yn swydd Feirionydd.

**RHYD-Y-BORTHAN**, sydd is-bentref, yn mhlwyf Eglwys-Ilan, yn swydd Forganwg, gerllaw afon Tâf, camlas Morganwg, a rheilffordd Dyffryn Taf, pedair milltir a chwarter gorllewin ogledd orllewin o Gaerphili. Gwerth ardrethol, 5814*p.*, o'r hyn y mae 1931*p.* mewn mwnau, a 15*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 1412; yn 1861, 1925. Tai, 405. Cynyddodd y boblogaeth drwy helaethiad gweithiau mewn mŵn, a defnyddiau eraill.

**RHYD-Y-BRIW**, neu Ysclydach, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llywel, yn swydd Frycheiniog, ar yr afon Wysg, gerllaw rheilffordd Aberhonddu a Llanymddyfri, dwy filltir a haner dwyreiniol o Drecastell. Llythyrfa, yn Trecastell, dan Aberhonddu. Gwerth ardrethol, 1652*p.* Poblogaeth, 303. Tai, 64. Y mae y meddianau rhwng lluaws. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 145*p.*, ac yn nawddogaeth ficer Llywel.

**RHYD-Y-CROESAU**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyfi Llansilin, Llan-y-bodwel, Croesoswallt, a Selattyn, swydd Amwythig, ar Glawdd Offa, ar derfyn Cymru, tair milltir a haner gorllewin wrth ogledd, o orsaf rheilffordd Croesoswallt. Poblogaeth, 328. Tai, 75. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 100*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**RHYD-Y-FELIN**, sydd le yn ochr ogleddol Aberteifi, dwy filltir a haner de dde ddwyrain o Aberystwyth. Llythyrfa dan Aberystwyth.

**RHYD-Y-GOLEU**, treflan yn nhrefgordd, a phlwyf y Wyddgrug, swydd Fflint; yn agos i'r Wyddgrug.

**RHYD-Y-GROES**, sydd le yn ochr ogleddol swydd Forganwg, wyth milltir a haner gorllewinol o Merthyr Tydfil.

**RHYD-Y-MAEN**, sydd le yn ochr ogleddol swydd Feirionydd, gyda Llythyrfa, dan Gorwen.

**RHYD-Y-MERC**, sydd le o fewn pedair milltir i Abergafenni, yn swydd Fynwy. Llythyrfa, dan Abergafenni.

**RHYD-Y-MWN**, a elwir weithiau Rhyd-y-mwyn, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Cilcen, swydd Fflint; a awdurdodwyd yn 1863. Y mae y fywioliaeth yn is-berigloriaeth barhaol; gwerth 236*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy.

Digitized by Google

**RHYD-Y-PENNANT,** sydd bentref yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, swydd Aberteifi, pedair milltir a chwarter gogledd ddwyreiniol o Aberystwyth.

**RHYD-YR-HIN,** a elwir hefyd, Rhyderwin, trefgordd yn mhlwyf Llanegryn, cantref Tal y bont, swydd Feirionydd, 6 milldir i'r gogledd wrth orllewin o'r Towyn. Y mae wedi cael ei henw oddiwrth rŷd peryglus, trwy yr hwn y croesid y Dyssyni yn y fan hon. Y mae y llandref hon yn cynnwys y rhan orllewinol o'r plwyf, yr hwn a derfynir gan y môr ar y tu gorllewinol, a'r afon Dyssyni ar y tu dwyreiniol, ac ar y tu deheuol, fel ag i ffurfio math o orynys. Yn y drefgordd hon y mae yr eglwys, yn gorwedd ar lechwedd mynydd uchel, yn agos i'r afon Dyssyni. Y mae yma draethell nodedig, wedi ei britho â chreigiau, ac yn cael ei galw "Sarn y Bwch," yn ymestyn o'r lan i feisfor mawr Ceredigion, yn safn yr afon Dyssyni.

**RHYD-Y-RHIW,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llanegryn, swydd Feirionydd; tair milltir a haner gogleddol o'r Towyn. Poblogaeth, 401.

**RHYDDALLT,** trefgordd yn mhlwyf Rhiwabon, swydd Ddinbych; 4½ milldir i'r gogledd o'r Waun. Poblogaeth, 317.

**RHYDDERCH,** esgob yn Nhyddewi, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 961.

**RHYDDERCH,** brenin Prydain, yr hwn, yn ol y "Brut Cymreig," a ganlynodd Rhydion yn y freniniaeth, yn yr ail ganrif cyn Crist.

**RHYDDERCH,** brenin Dyfed, yn Neheubarth Cymru, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 804.

**RHYDDERCH,** mab Caradog ab Iestyn, yr hwn a esgynodd i orsedd Morganwg yn y flwyddyn 1070, trwy farwolaeth ei gefnder, Caradog ab Rhydderch ab Iestyn. Yn y flwyddyn 1071, gorchfygodd fyddin o'r Normaniaid, gyda lladdfa fawr, y rhai oeddynt yn anrheithio Deheudir Cymru. Ar farwolaeth Bleddyn ab Cynfyn, yn y flwyddyn 1072, cafodd benarglwyddiaeth Deheudir Cymru yn gysylltiedig â Rhys ab Owain, yr hyn ni fwynhaodd am fawr o amser, oblegid iddo gael ei ladd mewn modd bradwrus, gan Meirion ab Rhydderch, ei gefnder, yn y flwyddyn 1074.

**RHYDDERCH,** mab henaf Iestyn, brenin Morganwg, oedd yn arglwydd Gwynllwg, a chafodd breswylfod freninol Caerlleon-ar-Wysg; ond yn y flwyddyn 1021, ar farwolaeth Llywelyn ab Sitsyllt, cafodd feddiant o benaduriaeth Deheubarth Cymru, yr hon a gadwodd trwy rym arfau am ddeng mlynedd. Yn y flwyddyn 1031, darfu i Hywel, a Meredydd, meibion Edwyn, y rhai a ychwanegasant eu galluoedd milwrol trwy gyflogi milwyr Gwyddelig, ymosod arno, a'i ladd yn y frwydr.

**RHYDDERCH** ab Rhisiard, oedd yn un o'r beirdd enwog yn niwedd yr unfed ganrif ar bumtheg, a dechreu yr ail ar bumtheg. Yr oedd yn foneddwr o gyfoeth mawr, ac yn byw yn Myfyrian, sir Fôn. Y mae ychydig o'i gyfansoddiadau ar gael yn awr mewn llawysgrifau.

**RHYDDERCH** ab Sion, oedd yn awenydd enwog yn haner olaf yr unfed ganrif ar bumtheg.

**RHYDDERCH,** John, y bardd a'r gramadegydd enwog, yr hwn oedd o ran ei alwedigaeth yn argraffydd, ac yn byw yn yr Amwythig, lle yr argraffodd amryw lyfrau Cymreig. Yn y flwyddyn 1718, argraffodd ramadeg bychan yn Gymraeg, o dan yr enw "Gramadeg Cymraeg, o gasgliad, myfyrdod, ac agraffiad J. R., ac ar werth gantho ef yn y Mwythig." Darfu iddo hefyd gasglu Geiriadur Seisnig a Chymreig, a dygodd argraffiad o hono allan yn yr Amwythig, yn y flwyddyn 1725. Nid oes genym sicrwydd pa flwyddyn y bu farw, ond tebygol ei fod wedi marw cyn y flwyddyn 1731, yn yr hon flwyddyn y dygwyd allan argraffiad arall o Eiriadur Seisnig a Chymreig, gan Thomas Durston, ar ddalen enwol yr hwn y dywedir, iddo gael ei ddechreu gan John Rhydderch, a'i adolygu a'i orphen gan y Parch. John Williams, periglor Willey, sir Amwythig.

**RHYDDERCH HAEL,** oedd yn fab i Tudwal Tudglud ab Cedig ab Dyfnwal Hen ab Ednyfed ab Macsen Wledig. Yr oedd efe yn frenin y Brythoniaid a elwid Prydeiniaid Ystrad Clwyd, tua'r flwyddyn 560, ac yn preswylio yn Aelclwyd, yr hwn le a elwir yn bresenol yn Dunbarton. Yr oedd hefyd yn frenin Ynys Manaw. Perchid ef yn fawr fel y dyn mwyaf rhyddfrydig, a'r rhyfelwr penaf yn ei oes. Ymladdodd yn y frwydr fawr fythgofiadwy, a elwid brwydr Arderydd, yn y flwyddyn 577, yn erbyn Aeddan Fradawg, a Gwenddolau ab Ceidio, yn yr hon yr enillodd Rhydderch y fuddugoliaeth, ac y lladdwyd Gwenddolau, a nifer lluosog o'i ganlynwyr. Yn y Trioedd, y mae Rhydderch yn cael ei resu gyda Nudd Hael, a Mordaf Hael, o dan y cymeriad anrhydeddus o "Dri Thywysog Hael" Ynys Prydain. Yn mysg y tri ar ddeg "brenindlysau," neu addurniadau breninol Prydain, yr oedd dau perthynol i Rhydderch Hael; un oedd ei gleddyf, yr hwn a elwid Dyrnwyn, a pha bryd bynag y tynid ef o'r wain gan neb un ond ei berchenog, byddai yn ymddangos fel un llafn llosgedig o dân yn ei law; y llall oedd ei liain bwrdd, neu yn ol rhai darlleniadau, ei ddysgl, ar yr hon y byddai yn ddioed unrhyw fath o gig a ddymunid. Yn "Chwedlau y Doethion" yr ydym yn darllen:—"A glywaist ti ddywediadau Rhydderch, y trydydd un hael a orseddwyd, ac yn un addfwyn? Yn fynych yr ydym yn gweled casineb atgasaf, ar ol cariad digyffelyb." Bu Rhydderch Hael fyw nes yr oedd yn bedwar ugain a phump mlwydd oed, a bu farw yn y flwyddyn 601, a chladdwyd ef yn Abererch, yn sir Gaernarfon.

**RHYDDION,** brenin Prydain, tua dwy ganrif cyn Crist. Nid oes ychwaneg o'i hanes ar gael, ond iddo gael ei ganlyn yn y freniniaeth gan Rhydderch.

**RHYDDMARCH,** mab Sulien, esgob Tyddewi, yr hwn a ddaeth i'r esgobaeth hono ar farwolaeth ei dad, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1088. Desgrifir ef gan Caradawg, fel un tebyg i'w dad, nad oedd gyffelyb iddo mewn doethineb a dysgeidiaeth. Derbyniodd ef, gyda llawer ereill, eu dysg gan ei dad. Bu farw yn y flwyddyn 1098. Y mae ysgrif ardderchog o'i eiddo ar gael yn mysg y casgliad Cottonaidd yn yr Amgueddfa Freiniol, ac yn cynwys yn benaf, hanes bywydau y Seintiau Cymreig.

**RHYL,** sydd dref a chapeloriaeth yn mhlwyf Rhuddlan, swydd Fflint. Nid oes ond ychydig amser er pan y mae y lle hwn wedi ymgodi i gyhoeddusrwydd. Nid yw yr haneswyr Pennant, Wright, na Bingley, wedi gwneud un sylw ar y fan, ag sydd erbyn hyn yn cael ei restru yn mhlith ymdrochleoedd penaf ein teyrnas. Nid yw ystyr yr enw yn eglur iawn, eto dichon y gellid cael yr arweiniad ato, wrth ystyried ei sefyllfa. Y mae yn nherfyn morfa yr Hâl, neu yr Haleg, (*Saltney*),

Digitized by Google

Gwelir hyn oddiwrth yr enw Pen-ar-lag, neu Haleg, a Plas-yr-Hal, gerllaw Rhuthin, a manau eraill; yr hyn a awgryma mai y Rhâl, wedi ei gyfnewid, mewn amser i Rhyl, ydyw y gwreiddair. Saif y dref ar lan y mor, wrth enau yr afon Clwyd, ac ar reilffordd Caerlleon a Chaergybi, deng milltir ar hugain, gorllewin ogledd orllewin o Gaerlleon; yn gyfagos i balas Tyn-y-Rhyl, yr hwn a godwyd yno, yn yr unfed canrif ar bymtheg, yn dra unigol; ac nid oedd y lle amgen na phentref pysgotta, mor ddiweddar a'r flwyddyn 1830. Y mae y dref yn awr yn ffurfio ymdrochle prydferth, eang, a chyfleus, ac yn denu ei filoedd yno yn ysdod misoedd yr haf, o bob parth. Y mae yma brif Lythyrfa, gorsaf rheilffordd, a nifer o Westai, o'r dosparth cyntaf. Y mae cynnydd cyflym y dref i'w briodoli, i raddau, i agosrwydd y lle i Lerpwll, a threfydd eraill Lloegr, gyda'r cyfleusderau teithio, ar dir a mor. Y mae y golygfeydd oddiyma yn eang, amrywiaethol, a tharawiadol, gan ymestyn dros fynyddau y Clwyd, Penmaen-mawr, Pen-y-gogarth, Rhiw-leden, a'r Wyddfa, ar ochr y tir, a mynyddau Cumberland, &c. dros y mor. Y mae y Ter-res wedi ei adeiladu yn ddengar, am gryn feithder gyda glan y mor, yr hwn sydd yn ffurfio rhodfa swynol iawn; a'r ymylon yn cael eu haddurno â nifer mawr o fythynod ymdrochi, wedi eu cynllunio yn hardd, ar hyd y dramwyfa. Yn nghanol y lle y mae rhodfa golofnog, yn rhedeg i'r mor, 2115 o droedfeddi o hyd, a godwyd ar y draul o 17,000*p.*, yn y flwyddyn 1867. Y mae yma eglwys eang; ac addoldai perthynol i'r Annibynwyr, Bedyddwyr, Trefnyddion Calfinaidd, Wesleyaid, Pabyddion, &c., a phob manteision addysgol; ystafelloedd darllen, a chyfleusderau adloniant mewn cyflawnder. Bu sefyllfa y traeth am beth amser yn anffafriol i'r lle hwn, drwy fod y gwastadedd tywod am bellder mawr i'r mor, yn cael ei chwythu, wedi sychu, i'r heolydd a'r glanau; ond trwy drefniant priodol, y mae hyn wedi ei ddiwygio, yr hyn sydd yn welliant pwysig yn y dref. Y mae y Baddonau sydd wedi eu codi yma, o wasanaeth mawr i'r cyhoedd. Y mae y Farchnadfa, yn rhoddi mantais fawr at gyflawni gofynion ymwelwyr ac eraill. Y mae Cwmni y Goleuni, a'r Dwfr, yn gwneud eu trefniadau yn foddhaol iawn, ar gyfer y lluaws sydd beunydd yn ymweled a'r dref. Y mae y Bywyd-fad yn amddiffyn gwerthfawr iawn ar gyfer peryglon yr ystormydd a'r llong-ddrylliadau, yn y gymydogaeth. Ffurfiwyd y dref yn Gorphoraethol, yn 1851, trwy weithred Seneddol, yr hyn a alluogodd yr awdurdodau i weithio allan eu cynlluniau gwelliannol i ymarferiad. Y mae y gymydogaeth yn orlawn o gyfleusderau ymddifyru, mewn rhodfeydd golygus, a gwrthddrychau o ddyddordeb hanesol ar bob llaw, hyd Ruddlan, Bodrhuddan, Dyserth, Siambr Wen, Pengwern, Mostyn, Llanelwy, y Cefn, Abergele, Gwrych, Bron yr Wylfa, Bodelwyddan, Cynmael, Llansantsior, Llanddulas a'r Ogofau, a'r llwybrau cylchynol, drwy yr holl gymydogaeth. Y mae y tiroedd o amgylch y dref, yn wastadedd morfaog wrth naturiaeth, ond trwy wrteithiad priodol, wedi ei ddwyn yn dir yd, a gweirgloddiau ffrwythlon, ag sydd yn ad-dalu yn dda am y draul i'w perchenogion; ac y mae morglawdd diogel, o bedwar ugain troedfedd o led, am agos i wyth milltir o hyd, yn ei amddiffyn. Cyfrifir yr awyr yma yn mysg y mannau mwyaf iachusol yn y gwledydd hyn. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1844. Poblogaeth yn 1861, 2965. Tai, 627. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth, 155*p.*, ac yn nawddogaeth Ficer Rhuddlan. Yma y bu yr enwog Ieuan Glan Geirionydd farw, lle y gweinyddai yn yr eglwys Sefydledig; ac efe a gladdwyd gerllaw ei fan genedigol, yn Trefriw. Y mae claddfa eang wedi ei hagor gerllaw y dref yn ddiweddar; ac y mae holl ragolygon y dref yn foddhaol iawn.

**RHYLLON**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd Fflint; gerllaw Llanelwy. Poblogaeth, 20. Y mae Rhyllon-House yn feddiant i Syr T. H. Browne, ac yma y cartrefai y farddones enwog Mrs. Hemans, am dymor maith.

**RHYMNI**, neu Rhymnwy, sydd afon yn swyddi Brycheiniog, Mynwy, a Morganwg. Y mae yn codi gerllaw Aberhonddu, ac y mae yn cyfarfod yn fuan âg uniadau Mynwy a Morganwg; ac yn rhedeg am tua deng milltir ar hugain yn ddeheuol, gyda'r terfyn rhwng y ddwy wlad, i afon Brystai, dwy filltir a haner, dwyrain wrth ogledd o Gaerdydd. Y mae y dyffryn hwn yn gyfoethog o fwnau, ac yn arddangos golygfeydd tarawiadol iawn.

**RHYMNI**, Rhymney, neu Rhymnwy, sydd bentref a chapeloriaeth, yn mhlwyf Bedwellty, swydd Fynwy. Saif y pentref gerllaw afon Rhymnwy, yn nherfyniad Rheilffordd Rhymnwy, yn gyfagos i'r cysylltiad â Brycheiniog a Morganwg, dwy filltir a haner gogleddol o Dredegar. Y mae y Lythyrfa dan Dredegar, a gorsaf rheilffordd, gyda phellebyr. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1839. Poblogaeth yn 1861, 7630. Tai, 1390. Y mae gwaith haiarn eang yma, a ffwrneisiau wedi eu hadeiladu ar y cynllun Aiphtaidd, mewn cadernid mawr. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llandaf; gwerth, 300*p.*, ac yn nawddogaeth yr Ymddiriedolwyr. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**RHYOD AIL MORGANT**, oedd benaeth, ac yn byw yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif. Cofresir ef yn y Trioedd fel un o "dri beirdd afreolaidd" Ynys Prydain; y ddau ereill, oedd Arthur, a Chadwallawn mab Cadfan. Rhesir ef hefyd gyda Thrystan, a Dalldaf, mab Cynin Cof, fel un o "dri cyforddwyr" llys Arthur. Yr ydym hefyd yn cael ar ddeall mewn Triad arall, enw ei farch, yr hwn a elwid ganddo yn Rhuddfrych.

**RHYS** ab Caradog ab Iestyn, oedd foneddwr yn Morganwg, yr hwn a laddwyd gan y Normaniaid yn Mrowyr yn y flwyddyn 1099, pan y cymerasant feddiant o'r wlad hono, o dan lywyddiaeth Henry Beaumont.

**RHYS** ab Cynfrig Goch, yr hwn hefyd a elwid Rhys Goch Glyndwrdu; yr oedd y Rhys hwn yn cael ei resu yn mysg meibion yr awen, ac yn byw tua'r blynyddoedd 1400 a 1430. Addysgwyd ef yn y cynghaneddion gan Iolo Goch, yr hwn oedd yn ewythr iddo, brawd ei dad. Y mae darnau o'i gyfansoddiadau ar gael, mewn llawysgrifau.

**RHYS** ab Dafydd ab Einion, oedd fardd enwog rhwng y blyneddoedd 1460 a 1490. Y mae rhai o'i weithiau barddonol ar gael, mewn llawysgrifau.

**RHYS** ab Dafydd Llwyd ab Llywelyn Llygliw, un o feirdd yr unfed ganrif ar bumtheg.

**RHYS** ab Ednyfed, oedd fardd yn uchder ei enwogrwydd o'r flwyddyn 1560, i 1600.

**RHYS** ab Einion, oedd fardd o'r radd uchaf, tua chanol yr unfed ganrif ar bumtheg.

**RHYS** ab Gorfyniawn, yr hwn yn ol y "Brut Cymreig" a ganlynodd ei ewythr Elidr Wâr ar orsedd

Digitized by Google

Prydain, a dilynodd gynllun doeth ei ewythr yn nygiad yn mlaen y llywodraeth. Yr oedd yn un ag oedd yn ffieiddio gormes, ac am hyny ymarferodd â chyfiawnder, ac â thynerwch, yn ei ymddygiad at ei ddeiliaid. oblegid ni chiliodd i'r ddeheu na'r aswy yn ngweinyddiad cyfiawnder a gwirionedd.

RHYS AB GRUFFYDD AB RHYS, yr hwn a ganlynodd ei dad fel tywysog Deheubarth Cymru, yn y flwyddyn 1136. Yn nechreu ei deyrnasiad, yr oedd mewn brwydrau parhaus a'r Seison o dan Harri II., ac adfeddianodd yr oll oedd y Seison wedi enill yn Neheubarth Cymru, a dinystriodd, neu daliodd afael yn yr holl gastelli oeddynt wedi adeiladu. Gorfu arno ymostwng i'r brenin Seisnig yn y flwyddyn 1164, a thalodd warogaeth iddo yn Woodstock, gan roddi iddo foddlonrwydd am ei ffyddlondeb dyfodol. Modd bynag, ni allasai ymostwng yn faith iawn i'r sarhad a roddid arno, ac yn y flwyddyn 1165, unodd a'r tywysogion Cymreig ereill, mewn rhyfel cyffredinol yn erbyn y brenin. Wedi iddo gadw ei anibyniaeth am amrywiol flyneddau, trwy nerth arfau, gwnaeth heddwch anrhydeddus â Harri, yn y flwyddyn 1172, a derbyniwyd ef fel ymwelydd yn un o'r palasau breninol, sef Ty Gwyn ar Daf, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd Rhys o'r amser hwn yn fath o gaethwas i'r brenin Seisnig, ac ymfoddlonodd i'r enw a'r swydd o fod yn brif ynad Deheubarth Cymru. Efe oedd tywysog olaf y Deheubarth, a gelwid ef yn gyffredin yn Arglwydd Rhys. Yn y flwyddyn 1195, darfu iddo drachefn gyfodi gwrthryfel, a llwyddodd i gael amrywiol o'r castelli o afael y galluoedd Seisnig, ond darfu i'w lwyddiant gael ei luddias gan angeu; bu farw yn y flwyddyn 1196. Claddwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi, lle y mae ei gofadail luniol hyd heddyw i'w gweled mewn sefyllfa lled dda. Er ymostyngiad Rhys ab Gruffydd i frenin Lloegr, y mae Caradawg, yr hanesydd, yn ei alw y tywysog mwyaf dewr, doethaf, a mwyaf rhyddfrydig o dywysogion y Deheubarth. Priododd a Gwenllian, merch Madog ab Meredydd, Arglwydd Bromfield, o'r hon y cafodd amryw o feibion a merched, sef Gruffydd, Cadwallawn, Maelgwn, Meredydd, a Rhys. Gwenllian, un o'i ferched, a briododd âg Ednyfed Fychan.

RHYS AB GWILYM AB THOMAS, oedd fardd enwog rhwng y blyneddoedd 1520 a 1550.

RHYS AB HYWEL LEN, nid oes genym hanes am hwn, ond yn unig ei fod fel bardd yn byw rhwng y blyneddoedd 1500 a 1540.

RHYS AB IEUAN AB MEREDYDD DDU, bardd a enwogodd ei hun rhwng y blyneddoedd 1440 a 1480. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael yn bresenol mewn llawysgrifau.

RHYS AB IFAN AB LLYWELYN AB HYWEL, oedd fardd o gryn enwogrwydd, rhwng y blynyddoedd 1490 a 1530.

RHYS AB LLEWELYN AB GRUFFYDD AB RHYS, un o feirdd diwedd y bumthegfed ganrif, ac yn byw hefyd yn yr unfed ganrif ar bumtheg, tebygol iddo farw tua y flwyddyn 1520.

RHYS, MAB OWAIN AB EDWYN, oedd yn nodweddiad hynod yn hanes Cymru. Bu gorfod arno ffoi am ddiogelwch i Ynys Mynaw, ond dychwelodd oddiyno yn y flwyddyn 1072, ac wedi codi byddin gref o wyr Ystrad Tywi, a sir Frycheiniog, ymladdodd frwydr â Bleddyn ab Cynfyn, brenin Cymru, yn yr hon y lladdwyd Bleddyn. Wedi iddo fuddugoliaethu yma, arweiniodd ei fyddinoedd i Ddeheubarth Cymru, yn erbyn Rhydderch ab Caradog; ond yn lle brwydr, cytunwyd mewn modd heddychol i gyd lywodraethu ar dywysogaeth y Deheubarth. Ni fwynhaodd Rhys ab Owain y gallu hyn nemawr o amser, oblegid lladdwyd ef gan Trahaiarn ab Caradog, yn y flwyddyn 1074.

RHYS AB TEWDWR MAWR. Yr oedd Rhys yn Dywysog y Deheubarth, ac yn ddisgynedig yn y bedwaredd âch mewn llinell uniongyrchol o'r enwog Hywel Dda. Syrthiodd Tewdwr, tad Rhys, mewn brwydr waedlyd, yn y flwyddyn 997, gan adael ei ddau fab, Rhys, a Rhydderch, i drugaredd terfysgoedd blinion y dyddiau enbyd hyny. Pa cyhyd yr arosodd Rhys, y mab henaf yn ei wlad enedigol wedi marw o'i dad, nis gwyddom yn gywir; ond mae yn sicr i ryfeloedd a chreulonderau ei gyd genedl, yn nghyd a'r ysbeiliad o'i dreftadaeth gyfreithlon, ei yru yn ieuanc iawn i ymofyn am nodded at Frytaniaid Llydaw, yn Ffrainc. Bu Rhys yn Llydaw am o haner cant, i driugain mlynedd. Am y tymhor hirfaith hwn o fywyd Rhys, nid oes dim hanes adnabyddus ar glawr yn bresenol. Yn y flwyddyn 1077, y cawn yr hanes cyntaf am Rhys wedi ei fynediad i Lydaw. Yr amser hwnw, bu farw Rhys ab Owen, yr hwn a ladratasai arglwyddiaeth y Deheubarth, yr hon a berthynai yn briodol a chyfiawn i Rhys ab Tewdwr. Pan glywodd ab Tewdwr fod ab Owen wedi marw, dychwelodd yn ol i'w wlad, a honodd ei hawl deg i benogaeth y Deheubarth. Rhaid fod Rhys yr amser hwn oddeutu pedwar ugain oed, ac felly yn hollol anghymwys o ran dyddiau i wynebu ar y tywydd blin a gyfarfu. Yr oedd hawl Rhys mor gyfreithlon, a'i gymeriad am dynerwch, doethineb, ac arafwch, yn sefyll mor uchel, fel y pleidleisiodd y wlad yn unfrydol dros ei sefydlu yn yr arglwyddiaeth a feddienid gan ei gyn-dadau. Pan ddychwelodd Rhys, yr oedd arglwyddiaeth Gwynedd hefyd yn meddiant anghyfreithlawn Trahaiarn ab Caradog. Y Trahaiarn hwn a fu y prif foddion i ddiorseddu Rhys ab Owen; ac wedi effeithio hyny, meddyliai am gael arglwyddiaeth y Deheubarth i'w law anonest, yn gystal ag eiddo Gwynedd. Pan welodd Trahaiarn wŷr y De yn rhoddi y freniniaeth yn ol i'w hiawn berchenog, cynhyrfodd ei lid yn ddirfawr yn erbyn Rhys ab Tewdwr. Yr oedd Gruffydd ab Cynan, gwir etifedd gorsedd Gwynedd, wedi gwneud llawer cynyg at adenill ei hawliau, ond wedi bod yn aflwyddianus yn ei holl ymdrechion; ac felly gwnaeth apeliad at Rhys ab Tewdwr i ddyfod allan yn gynorthwy iddo. Ar ol i Rhys a Gruffydd ddeall eu gilydd, gwnaethant barotoadau uniongyrchol er ymosod ar y treisiwr Trahaiarn, yr hwn hefyd nid oedd yn cysgu, nac yn esgeulus. Cyflogodd ei gefnderwyr, Caradog, a Meilyr. i fod yn gynorthwywyr iddo. Cyfarfu y byddinoedd ar fynydd Carno, yn swydd Drefaldwyn, agos yn nghydiad y Deheubarth a Gwynedd a'u gilydd. Yma, ar hen fynydd Carno, y bu un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd a gofnodir mewn hanesiaeth Gymreig. Yr oedd yr ymosodiadau o'r ddwy ochr yn ffyrnigwyllt ofnadwy; ac am gryn amser, yr oedd yn amheus o ba ochr y troisai y fantol; ond yn y diwedd, cyfiawnder a drechodd. Syrthiodd Trahaiarn a'i ddau gefnder, yn gystal a'r rhan fwyaf o'u byddinoedd, yn gelaneddau ar gopa gwaedlyd Carno. Cymerodd y frwydr hirgofiadwy hon le, yn y flwyddyn 1079, a'r canlyniad o honi oedd sefydlu arglwyddiaeth dwy ran y Dywysogaeth yn nwylaw yr etifeddion priodol. Ar ol y frwydr fawr hon, bu tawelwch; ond drwg genym yw ychwanegu, mai tawelwch

Digitized by Google

twyllodrus oedd, a thawelwch o fyr barhad. Yn ystod arosiad Rhys yn Llydaw, yr oedd teulu Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, wedi lled dybiaw y gallasent hwy feddu arglwyddiaeth y Deheubarth; ac felly cododd Iestyn faner gwrthryfel yn erbyn Rhys, yn lled fuan ar ol ymgyrch mynydd Carno. Yr oedd Iestyn yn ddyn o ysbryd gwrol a gweithgar, yn llawn o anturiaeth ac uchelgais; ond nid oedd yn meddu un mymryn o egwyddor, na gwir wladgarwch. Yr oedd o dymer sarug, gcintachlyd, a bradychlyd. Gwnaeth hyn ef mor amhoblogaidd gyda gwyr Morganwg, fel y penderfynwyd ar farwolaeth ei dad, na chawsai ef fod yn ddilynydd iddo. Ond yn mhen amser, wedi marw o'i ewythr, efe a gafodd feddiant o'r awdurdod. Dyna oedd prif nodwedd y dyn a heriai Rhys ab Tewdwr, iawn etifedd arglwyddiaeth y Deheubarth. Teimlai Rhys mai pwnc mawr mewn rhyfel oedd taro ergyd yn uniongyrchol; ac felly, er ei fod yn hen iawn, cychwynodd i Forganwg, difrododd lawer ar y wlad, yn ol hen arfer y dyddiau hyny; a chymerodd feddiant o gastelli Llanilltyd, Dindryfan, a Dinas Powys. Ar y llaw arall, nid oedd Iestyn yn segur, gweithiodd yntau ei ffordd i diroedd Rhys yn Mhrycheiniog, ac Ystrad Tywi, a gwnaeth yno ddifrod a galanasdra mawr. Parhaodd yr ymgyrchion hyn rhwng y pleidiau am gryn amser. Yr oedd i Rhys elynion heblaw Iestyn. Cyngreiriodd meibion Bleddyn ab Cynfyn, Tywysog Powys, yn ei erbyn; casglasant lu mawr o ddynion anfoddog ac anwladgar, ac ymosodasant mor nerthol ar fyddinoedd Rhys, fel y gorfu iddo unwaith yn rhagor ymgilio o'r wlad. Aeth yr hen Dywysog y tro hwn i'r Iwerddon, ac ni bu yno yn hir cyn cyfodi byddin gref, er ail ymosod ar derfysgwyr ei wlad. Yn amser ei fynediad i'r Iwerddon, gwnaeth Iestyn, a meibion Bleddyn, ddifrod dychrynllyd ar ei derfynau, drwy ladd a llosgi y ffordd y cerddent. Ar ddychweliad Rhys a'i fyddin Wyddelig, rhedai ei ddeiliaid ffyddlon wrth y canoedd a'r miloedd, er ymresu dan ei faner. Amcanodd Iestyn a'i gyfeillion ddenu yr hen Dywysog i frwydr, cyn ei fod yn eithaf parod; ond yr oedd ei lygaid yn rhy graffus, a'i ben yn rhy hir, i gael ei dynu i fewn fel hyny. Cyn hir cyfarfu y byddinoedd yn Llechryd, nid pell o Aberteifi. Yno y bu brwydro gwaedlyd am gryn amser; ond o'r diwedd, syrthiodd dau o feibion Bleddyn, ac aeth byddinoedd y terfysgwyr yn annhrefnus, tra yr ymladdai Rhys a'i wyr gyda dewrder dihafal. Syrthiodd y rhan fwyaf o ganlynwyr Iestyn, a diangodd yntau am ei fywyd. Ar ol y fuddugoliaeth hon, gwasgarodd Rhys ei fyddin Wyddelig, ar ol ei thalu yn anrhydeddus, ac ail ymsefydlodd yn arglwyddiaeth y Deheubarth. Pe buasai oedran teg, hawl gyfreithlon, ac ysbryd llariaidd, yn ddigon i beri llonyddwch, cawsai Rhys esmwythder bellach; ond nid felly y bu. Oddeutu y flwyddyn 1088, cyfododd Llywelyn, ac Einion, meibion Cadifor ab Collwyn, arglwydd Dyfed, a'u hewythr Einion; wrthryfel yn erbyn Rhys. Cyfarfu y byddinoedd yn Llandudoch. Yno drachefn bu ymladd dychrynllyd, rhedai gwaed dynol yn ffrydiau, a gorweddai cyrff dynion, a meirch, blith draphlith ar wyneb y maes; ond trodd y fuddugoliaeth eto o ochr Rhys. Syrthiodd meibion Cadifor ar y maes; ond ffodd eu hewythr Einion, at Iestyn ab Gwrgant. Yr oedd Iestyn yn barod yn ddig wrth Rhys, a gwnaeth Einion ei oreu i'w gynhyrfu yn fwy digllawn, ac yn hyn ni bu aflwyddianus. Gwnaeth Iestyn ac Einion amryw ymosodiadau ar derfynau Rhys; ond yr oedd ab Tewdwr yn ddigon trech na hwy. Gyrai hwy yn eu hol gyda gwarth a cholled fawr bob cynyg. O'r diwedd, gan fod Einion wedi bod yn gwasanaethu yn myddinoedd Lloegr, gyda'r Normaniaid, gofynodd i Iestyn ei awdurdodi ef i fyned i Loegr i ofyn cymorth y Normaniaid. Cydsyniodd Iestyn, a chychwynodd Einion. Gwrandawodd canlynwyr y Concwerwr gyda blas ar y cais, a daeth haid o honynt i lawr i Gymru, y rhai a ymunasant â byddin Iestyn, a chyfarfu milwyr y ddwy blaid wrthwynebol yn mhlwyf Aberdar, lle bu un o'r brwydrau mwyaf erchyll a ymladdwyd yn y Deheubarth. Mae dau le o'r enw "Gadlys," neu Llys y Gad, gerllaw tref Aberdar yn awr, lle y meddylir y gwersyllai y byddinoedd gwrthwynebol. Mae yr enwau sydd ar y caeau, y bryniau, y nentydd, a'r ffyrdd, oddi yno i Hirwaun, yn profi fod yno ymladd arswydus wedi bod. Ar Hirwaun Wrgant, collodd mab dewr Tewdwr y dydd, a ffodd i Cwm Rhondda, lle y bu yn llwyddianus i guddio ei hun am ronyn; ond cafodd ei elynion afael arno, a thorwyd ei ben yn ddidrugaredd, a diseremoni. Mae tyddyndy o'r enw Penrhys, yn yr ardal hyd heddyw, lle, medd traddodiad, y lladdwyd y Tywysog enwog Rhys ab Tewdwr. Dyma y dydd y collodd Morganwg ei hannibyniaeth; a thrwy orchfygu Rhys, gorchfygodd ei hun yr un pryd. Talodd Iestyn y Normaniaid mewn aur melyn, mewn lle yn mro Morganwg, a elwir y Filldir Aur hyd y dydd heddyw. Ar ol cael yr aur, aeth y Normaniaid tua Chaerdydd, gan fyned i'w llongau er dychwelyd. Ond torodd Iestyn ei amod âg Einion, ac aeth Einion ar ol y Normaniaid; cododd ei faner ar y traeth, er eu cymhell yn ol. Dychwelodd y llongau, adroddodd Einion ei gwyn, ac anogodd i godi yn erbyn Iestyn. Melus i'r Normaniaid oedd y gwahoddiad, ac ymosod ar Iestyn a wnaethant, a'i orchfygu gerllaw Caerdydd. Ar ol hyn rhanasant y wlad rhyngddynt eu hunain, gan roddi darn bychan a mynyddig i'r bradwr, Einion.

RHYS AB THOMAS, SYR. Mewn palas rhwng Llandeilo-fawr a Llanymddyfri, o'r enw Abermarlais, yn y flwyddyn 1451, y ganed Rhys ab Thomas, un o feibion mwyaf calon ddewr Gwyllt Walia. Yr oedd Syr Rhys yn fab i Thomas ab Gruffydd, ac yn wyr i Gruffydd ab Nicholas, yr hwn a fu yn noddwr neillduol i feirdd a cherddorion Cymru. Disgynai Syr Rhys ab Thomas, o ran achau ei dad, o'r dewr Urien Rheged, ac o ran ei fam, yr oedd yn ddeilliedig o Elystan Glodrydd, un o batriarchiaid pum breninllwyth Cymru. Yr oedd i Syr Rhys ddau o frodyr henach nag ef, y rhai a syrthiasant mewn brwydr waedlyd, pan nad oeddynt ond ieuainc. Gosodwyd Rhys, pan nad oedd braidd ond maban, dan ofal addysgawl Dr. Lewis, meddyg, genedigol o Ogledd Cymru, a'r hwn oedd wedi cael manteision diwylliol prif ysgol Padua. Bu ef am flyneddau dan ofal Dr. Lewis, ac nid bychan fu ei gynydd pan yn mwynhau gwersi ei athraw Cymreig. Symudodd ei dad i Burgundy, a chymerodd ei fab gydag ef i'r Cyfandir, er perffeithio ei ddysg, a'i adnabyddiaeth o'r byd. Enillodd Rhys yn fuan yr enwogrwydd blaenaf yn Burgundy, fel ysgolhaig, marchogwr, a chwareuwr pob math o gampiau. Cymerodd y Dug o Burgundy ef dan ei ofal, a gwnaeth ef yn brif gydymaith i'w fab. Ond dychwelodd ei dad, a'i fab gydag ef, yn ol i Gymru. Ber iawn fu oes Thomas ab Gruffydd ar ol dychwelyd i'w wlad, gan iddo syrthio yn yr un frwydr ag y syrthiodd ei ddau fab y cyfeir-

Digitized by Google

iasom atynt eisioes. Drwy y dygwyddiadau hyn, gwnaed Rhys yn feddianydd holl gyfoeth ei dad, pan nad oedd ond cymharol ieuanc. Ymunodd mewn glan briodas âg Efa, etifeddes Cwrt-henry. Bu y cysylltiad hwn yn foddion i ychwanegu ei gyfoeth, ac eangu ei ddylanwad. Yr oedd mor boblogaidd fel y gallasai ddwyn allan y pryd y mynasai, o bedair i bum mil o wyr ceffylau er ei bleidio. Pan oedd Dug Buckingham ac ereill yn cynllunio er diorseddu Richard III., a gosod y goron ar ben Iarll Richmond, yr oedd gelyniaeth rhwng Dug Buckingham, a Syr Rhys ab Thomas, a chan fod y Dug yn gwybod nas gallai lwyddo yn ei amcanion heb gynorthwy y boneddwr o Abermarlais, amcanodd ymheddychu ag ef er cael ei gymhorth i ddiorseddu y brenin. Ysgrifenodd Iarll Richmond ei hun i Abermarlais, yn dywedyd ei fod yn bwriadu dyfod o Ffrainc i'r wlad hon, a thirio yn Nghymru. Ar hyn darparodd Syr Rhys a'i holl egni er ei groesawu, a'i amddiffyn; cyn i Iarll Richmond dirio, yr oedd ein cydwladwr wedi casglu prif foneddigion Cymru dan ei faner, ac wedi cychwyn gyda dwy fil o wyr ceffylau, i sir Benfro. Ac ar y 7fed o Awst, 1485, tiriodd Richmond yn Aberdaugleddc; a'r blaenaf yn ei groesawu oedd boneddwr Abermarlais. Anrhegodd ef y fyddin Ffrengig oedd gyda Richmond âg arfau o bob math, yn gystal ag â phob darbodion anghenrheidiol i'w hanturiaeth orbwysig. Ymranodd y fyddin Ffrengig, a'r fyddin Gymreig, ar ol gorphen y darpariadau. Aeth y flaenaf i fyny drwy Geredigion, i'r Gogledd, a'r olaf drwy Gaerfyrddin, ac Aberhonddu. Anfonodd Syr Rhys genadwri o'i flaen, er codi rhagor o filwyr; ac erbyn ei fod yn Aberhonddu, y fath oedd cynulliad y gwirfoddoliaid, fel y gorfu ar Syr Rhys anfon cannoedd yn eu hol o ddiffyg arfau cymwys, ac ymborth digonol, i'r fath lu dirfawr. Tra yr oedd Richmond a'i fyddin yn ymdeithio drwy Geredigion, ymdrechodd amryw greu drwgdybiaeth yn ei feddwl am ffyddlondeb y gwron Cymreig. Ond pan welodd Richmond Syr Rhys a'i fyddin gref yn ei gyfarfod wrth yr Amwythig, llamai ei galon o lawenydd, a chredai y llwyddai i enill yr orsedd. Ar yr 22ain o Awst, yn mhen pythefnos ar ol tiriad Richmond yn Aberdaugleddc, cyfarfu byddinoedd Richmond âg eiddo y brenin yn Bosworth. Yn y frwydr ddychrynllyd hono, cyflawnodd Syr Rhys ab Thomas orchestion diail, efe oedd gwron blaenaf y maes. Trodd y fantol yn erbyn y brenin, yr hwn a gollodd ei fywyd yn yr ymgyrch; a myn amryw, mai drwy law Syr Rhys y syrthiodd, ond nid oes profion digonol o hyn; ond y mae yr anrhydedd mawr a dalodd Richmond, (yr hwn bellach, oedd wedi ei gyhoeddi yn frenin, dan yr enw Harri VII.) i Syr Rhys, yn ddigon o brawf iddo hynodi ei hun yno. Gwnaed ef yn Farchog yn y fan, ac yn brif lywydd Cymru. Anrhydeddwyd ef hefyd â llawer o deitlau, a swyddi ereill. Ymadawodd ef yn uniongyrchol i Gymru, a bu yn foddion i effeithio diwygiadau mawrion. Yn mhen dwy flynedd, torodd gwrthryfel arall allan yn Lloegr, dan arweiniad Arglwydd Lovell, ac ereill. Galwyd am gymorth Syr Rhys, ond cyn ei fynediad yno, yr oedd y gwrthryfel wedi ei ddarostwng; a chyn ei fod yn ei ol yn ei hen wlad, yr oedd gwrthryfel eilwaith gan Simnel. Brysiodd Syr Rhys wedi hyn i ostegu y cythrwfl; gwnaed ef yn flaenor ar adran Seisnig; dioddefodd yn erwin y waith hon, ond arbedwyd ei fywyd, a gorchfygwyd y terfysgwyr. Yn fuan ar ol hyn, gwnaeth Harri ymosodiad aflwyddianus ar Ffrainc, gofalodd am gymeryd Syr Rhys gydag ef; a dywed Arglwydd Bacon, ei fod ef a'i wyr yn wrolfawr yn mysg y llu. Cyn hir, torodd trydydd gwrthryfel allan yn Lloegr yn erbyn Harri, y waith hon eto ymofynwyd am gymorth Syr Rhys, ac yn y frwydr, lladdwyd dau geffyl odditano, ond er hyn ni chollodd ei wrolder a'i hunan-feddiant; eithr neidiodd i gefn y trydydd, a gwnaeth Arglwydd Audley, blaenor y terfysgwyr yn garcharor. Am y weithred, rhoddwyd holl eiddo Audley yn anrheg i Syr Rhys; gwnaed ef yn farwnig ar y cae, pan oedd ei gorff yn archolledig gan amryw glwyfau. Dychwelodd Syr Rhys i Gymru, yn orlawn o anrhydedd, a gweinyddodd gyfreithiau y wlad er boddlonrwydd cyffredinol. Rhoddwyd iddo amryw deitlau ychwanegol, a chynygiwyd ei wneud yn Arglwydd; ond gwrthododd yr anrhydedd hwn, gan ddywedyd ei fod am adael rhywbeth i'w etifeddion i enill ar ei ol. Dyrchafwyd ei hiliogaeth ef i Dy yr Arglwyddi yn y flwyddyn 1780, ychydig gyda thri chant o flynyddau wedi yr amser y gwrthododd ef yr anrhydedd. Yr oedd Harri VIII. hefyd yn hoff iawn o Syr Rhys; cymerodd ef gydag ef i Ffrainc, ac ar ddiwedd yr ymgyrch hono, rhoddodd amryw deitlau ychwanegol i Syr Rhys, a'i fab. Yr oedd y Cymro hynod hwn bellach wedi derbyn pob swydd a phob anrhydedd ag a allasai gorsedd Prydain eu rhoddi i Gymro yn Nghymru. Treuliodd y boneddwr enwog weddill ei oes yn Ngharew, yn sir Benfro. Bu fyw hyd nes cyrhaedd pedwar ugain ond pedair o flynyddau. Bu farw yn y flwyddyn 1527, a chladdwyd ef yn eglwys Sant Pedr, yn nhref Caerfyrddin. Gosodwyd beddfaen urddasol arno; ond gan fod y gareg mor frau a thyner, mae yr ysgrifen wedi ei llwyr ddileu. Ond er treulio yr ysgrifen allan, mae enw Syr Rhys yn uchel a chymeradwy drwy y deyrnas. Yr oedd cydgyfarfyddiad hynod o gymhwysderau gwahanol yn Syr Rhys, nes y gwnaent ef yn un o feibion blaenaf athrylith.

**RHYS**, Ieuan ab, neu Ieuan ab Rhys Brydydd, ydoedd ail fab Rhys Llwyd ap Rhys ap Richard, neu Rhys Brydydd, o Glaen Cynllan, yn Llanharan, Morganwg, ac oedd yn ei flodeu tua'r flwyddyn 1450. Yr oedd ef wedi ei ddwyn i fynu yn fynach yn Margam, ond oblegid iddo gofleidio Lolardiaeth, neu y diwygiad, yn ei ymddangosiad cyntaf, cyn y diwygwyr a elwid felly, efe a drowyd oddiyno. Wedi fel hyn ymryddhau oddiwrth ddeddfau y Fynachlog, efe a briododd Fynaches a droisid allan o ryw Fynachlog, o'r hon y bu iddo blant, a daeth mab iddynt o'r enw Thomas, yn brydydd enwog yn ei ddydd. Wedi ei droi o'r Fynachlog, a phriodi, efe a fu yn dal tir yn Nghynffig, o dan Syr Mathew Cradock, yr hwn oedd babydd selog; ond efe a erlynwyd â chyfraith gan Syr Mathew, oblegid crefydd ei fam, a chafodd ei droi o'r tir. Cafodd wedi hyny rywfaint o dir yn Merthyr Cynog, yn sir Frycheiniog, lle y cafodd lonydd am hir amser. Symudodd oddiyno i Langynwyd, i gadw ysgol.

**RHYS**, Ifan Thomas, bardd o gryn deilyngdod, a anwyd yn Llwyn Dafydd, plwyf Llandysilio, Ceredigion, tua chanol y ganrif diweddaf. Adwaenid ef fel "Ifan Thomas Rhys o Lanarth," yn yr un sir, am mai yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Crydd oedd efe wrth ei alwedigaeth, ond ymddengys ei fod wedi cael addysg foreuol led dda. Casglwyd ei waith, yn benaf oddiar lafar gwlad, gan W. H. Griffiths, yr hwn a'u cyhoeddodd yn 1842.

Digitized by Google

**RHYS**, Dr. John Dafydd, oedd fab i Dafydd Rhys yr hwn oedd yn ngwasanaeth Syr William Griffiths o Lanfaethlu, yn Mon. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1534. Dywed rhai hanesion am dano, fod ei fam wedi bod yn ngwasanaeth y foneddiges Jane Stradling, St. Donats, yr hon ynghylch y pryd hwnw, oedd ar ddyfod yn wraig i Syr Wm. Griffiths. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, aeth i Goleg Eglwys Crist, yn Rhydychain; ond wedi bod yno am dair blynedd, gadawodd y brifysgol, heb dderbyn yr un graddiad, ac aeth ar led i wledydd estronol, yn y flwyddyn 1555. Ymsefydlodd am ryw dymor yn Sienna, yn Tuscany, lle yr oedd prif-ysgol enwog, a'r lle, yn ol ei dueddfryd ei hun, y bu yn astudio physigwriaeth, lle y cafodd ei raddio yn M.D., a'r lle hefyd y cyrhaeddodd wybodaeth gyflawn o'r Eidalaeg. Ar ol hyn, cafodd ei neillduo yn gymedrolydd cyhoeddus o'r ysgol yn Pistoia, dinas arall yn Tuscany. Ysgrifenodd yn yr Eidalaeg, "Rheolau er cyrhaedd gwybodaeth yn y Lladinaeg," y rhai a argraffwyd yn Venice. Cyfrifid y llyfr hwn o werth mawr gan yr Eidaliaid. Wedi iddo ddychwelyd i'r wlad hon, ymarferodd a'i alwedigaeth gyda llwyddiant mawr, a thua diwedd ei oes, ymsefydlodd yn sir Frycheiniog, mewn ffermdy a brynodd, wrth droed Banau Brycheiniog, yn feddiant iddo ei hun. Yma yr ysgrifenodd ei brif orchest-lyfr, sef ei Ramadeg Cymraeg yn Lladin, yr hwn a argraffwyd yn Llundain, yn un gyfrol unplyg, yn y flwyddyn 1592, cyflwynedig i Syr Edward Stradling, o gastell St. Donats, yn sir Forganwg, ar draul yr hwn, mae'n debyg, y cafodd ei argraffu. Deallwn hefyd yn ol ewyllys Syr Edward, dyddiedig yn Mai, 1610, fod yr holl argraffiad yn cynwys 1250 o gopïau. Y mae y Rheolau Barddoniaeth sydd ganddo yn fanwl ac yn gywrain iawn. Y mae yn gosod gerbron gynllun o farddoniaeth Eidalaidd, yr hwn sydd wedi ei gyfansoddi ar reolau tebyg iawn i'r mesurau cynghaneddol Cymreig. Y mae'r hen lyfr yn dechreu gyda chyflwyniad Lladin o eiddo yr awdwr, yr hwn a ddilynir gydag anerchiad Lladin gan Humphrodus Prichardus, ac yna y mae yn dilyn gydag anerchiad Cymraeg hirfaith ganddo ef ei hun. Yn yr anerchiad hwn, y mae yn trin y rhai hyny a ddifaterant yr hen Gymraeg yn llym iawn. Y mae y llyfr hwn yn waith o ddysgeidiaeth ddwfn, ac wedi ei ysgrifenu yn Lladin a Chymraeg. Y mae yn dangos nid yn unig ol llafur mawr, ond hefyd wybodaeth gyflawn o'r iaith y mae yn ymdrin a hi, nid yn unig o'i rheolau gramadegol, ond hefyd mesurau cerdd-dafod yr iaith, a'u cyngadwyniad, y rhai y mae wedi cymeryd trafferth fawr i'w heglurhau. Y mae yn rhoddi i ni ddifyniant o rai Caniadau Eidalaidd, yn ymdebygu i'r rhai Cymreig, ond dywedai nad oeddynt haner mor dlws. Ysgrifenodd hefyd yn Gymraeg, grynodeb o Athroniaeth Aristotle. Ni chafodd y llyfr hwn ei argraffu erioed, a bu yr ysgrif-lyfr unwaith yn llyfrgell Coleg yr Iesu, yn Rhydychain, er nad ydyw i'w gael yn awr. Yn y llyfr hwn, dywedai yr awdwr, fod y Gymraeg mor doreithiog o eiriau cyngweddol ag yw y Groeg, neu unrhyw iaith arall, os nad yn fwy. Ysgrifenodd hefyd lyfrau ereill, y rhai ydynt yn awr ar goll. Dywed Wood iddo farw, fel y bu byw, yn Babydd, yn, neu yn agos i Aberhonddu, yn nghylch y flwyddyn 1609; ond y mae yn anhawdd credu y dywediad yna, oblegid yn rhag ymadrodd ei Ramadeg, yr hwn a ysgrifenwyd gan Humphrey Prichard, yr hwn oedd offeiriad protestanaidd, dywedir mai prif amcan y llyfr hwn oedd dwyn yn mlaen well dealltwriaeth o'r cyfieithiad rhagorol a wnaed o'r Beibl i'r Gymraeg, ac hefyd er mwyn y Gweinidogion, a gwneud yr Ysgrythyrau yn fwy deallus iddynt hwy, a'r bobl. Dywedir yno hefyd, ei fod yn ymdrechol iawn i ledaenu crefydd bur, wrth yr hon yn ddiau y golygai Mr. Prichard, y grefydd Brotestanaidd. Yr oedd ganddo fab o'r enw Walter Davids, yr hwn a fu yn beriglor yn Aberhonddu.

**RHYS**, John Robert, a gyfenwid Golyddan II., ydoedd fab i R. J. Pryse, (*Gweirydd ap Rhys*) a Grace, ei wraig. Ganwyd ef ar y 10fed o Fehefin, 1840, yn Cae Crin, Llanrhuddlad, Môn. Efe a amlygai athrylith gref pan yn dra ieuanc, a difrifwch crefyddol, teilwng o hen Gristion aeddfed, cyn ei fod uwchlaw naw, neu ddeng mlwydd oed; ac efe a dderbyniwyd yn gyflawn aelod gyd a'r Annibynwyr, cyn ei fod yn llawn deuddeng mlwydd oed. Cafodd ychydig o addysg elfenol yn Ysgol Frutanaidd Llanrhuddlad; ac wedi hyny, bu dros ryw yspaid dan addysg gyfrinachol y Parch. R. E. Williams, Gweinidog yr Annibynwyr yn Llanddeusant, yn efrydu Groeg a Lladin. Pan oedd oddeutu 14 mlwydd oed, efe a rwymwyd yn freint-was o Feddyg, dros saith mlynedd, gyda W. Jones, Ysw., M.D., yr hwn oedd yn dal ffarm y Graianfryn, ac yn cadw tŷ yn Nghaergybi. Yn y Graianfryn y treuliodd Golyddan y deunaw mis cyntaf o'i brentisiaeth, yn dysgu dognu physigwriaeth, &c. Ac yn ystod saith mlynedd ei brentisiaeth, darllenodd y rhan fwyaf o'r prif awduron Groegaidd, Lladinaidd, a Seis'nig, mewn rhyddiaith, a barddoniaeth; heblaw llyfrau duwinyddol, hanesyddol, athronyddol, a meddygol, a'r cyffelyb: astudiodd Euclid yn fanwl, dysgodd elfenau y Ffrancaeg gan un o'i gyd-brentisiaid, a daeth yn berffeithiach ynddi na'i athraw yn fuan. Cyfieithodd yr *Iliad*, yr *Aeneis*, a'r *Telemachus* bron oll i'r Saesonaeg, er mwyn cyrhaedd gwybodaeth fanylach o'r Groeg, y Lladin, a'r Ffrancaeg, ac yn yr un yspaid, cyfansoddodd luaws mawr o Ganiadau, a Thraethodau, ar amrywiol destunau; ac heblaw hyn oll, yr oedd llafur ei alwedigaeth fel meddyg, yn disgyn yn drwm iawn arno, yn ystod y pedair blynedd olaf o'i brentisiaeth. Pan oedd yn 15 mlwydd oed, anfonwyd ef i'r *Andersonian College*, Glasgow, dros un *session*, lle yr ennillodd y ddwy wobr gyntaf, un am ragori yn yr Ystafell Ddifynu, (*Dissecting Room*), a'r llall, am y Traethawd goreu ar Fyd-wreigiaeth (*Midwifery*), yr ieuangaf erïoed, yn ol ei athraw, y Dr. Patterson, a gafodd *Certificate* yn y Coleg hwnw. Yn ystod ei arhosiad yn Glasgow y dechreuodd gyfansoddi ei Gân Saesoneg "*On Death*," yr hon sydd yn saith mil o linellau, yr hon a ysgrifenai yn ei letty, ar ol treulio yr holl ddiwrnod yn yr Ystafell Ddifynu, a phan y byddai ei gydfyfyrwyr yn ymofyn adnewyddiad i'w natur trwy gwsg. Pan oedd tuag 16eg oed, ysgrifenodd Gân, "Ar y ddau ddysgybl yn myned tuag Emmaus," yr hon a fu yn fuddugol yn nghyfarfod llenyddol Caergybi. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, ysgrifenodd Gân ar "Ddinystr Sodom a Gomorah," cyd-fuddugol âg Iolo Trefaldwyn; ac un arall, fuddugol ar "Ardd Eden;" ac un arall ar "Dangnefedd," pan y barnwyd ef yn ail oreu. Pan oedd yn 18 mlwydd oed, cyfieithodd ei Gân Saesoneg "*On Death*," ac anfonodd hi i Eisteddfod Merthyr Tydfil, dan yr enw "Angeu," yn saith mil o linellau, i gystadlu am 20 punt o wobr, a

gynnygiasid gan y pwyllgor hwnw, am yr "Arwrgerdd oreu ar unrhyw destyn." Wrth y Gân hon y defnyddiodd yr elw GOLYDDAN y tro cyntaf. Eben Fardd oedd y beirniad, ac ni's gallai ef benderfynu pa un oedd oreu, ai "Gwenhwyfar" Llew Llwyfo, ynte "Angeu" Golyddan. Yna dewisodd y pwyllgor ddau feirniad arall, yn lle Eben Fardd; methodd un o'r ddau hyny hefyd farnu pa un oedd oreu; ond rhoddodd y llall ei bleidlais o du "Gwenhwyfar" y Llew; ac yn lle rhanu y wobr yn wyneb i ddau feirniad o dri fethu penderfynu rhyngddynt, rhoddodd y pwyllgor y wobr oll i Llew Llwyfo, yr hyn a barodd i Golyddan ysgrifenu yn llym yn erbyn y pwyllgor. Haerai mai i Eben Fardd yr oedd ef yn canu, &c.—Yn y flwyddyn ganlynol, pan oedd yn 19eg oed, cyfansoddodd wyth o ganiadau i Eisteddfod Dinbych, "Iesu," *tair mil* o linellau; ad-drefniad o "Angeu," dan yr enw "Gwenafwy," *chwe mil* o linellau; "Dihangfa'r Caethwas;" "Tywysog Cymru;"—"Iachawdwriaeth;" "Y Cenhadwr;" a dwy Gân "Duchan i'r Bradwr." Nid rhyfedd iddo fod yn aflwyddianus, pan yn Ymgeisydd ar gynifer o destunau yn yr un Eisteddfod; ond chwerwi at y Beirniaid a wnaeth efe, ac ysgrifenu amryw lythyrau i'r Faner, ar "Goeg-feirniadaeth Eisteddfod Dinbych." Yn niwedd mis Medi, 1860, yn fuan ar ol yr Eisteddfod, a phan newydd gyrhaedd ugain oed, efe a aeth i Brif Ysgol Edinburgh, ac ennillodd ddwy wobr gyntaf yn ystod y *session*, un am ragori yn y *Classics*, (y Groeg, Lladin, a'r Ffrancaeg), a Mesuroniaeth; a'r llall am ragori mewn Fferylliaeth, a'r ymarferiad o physygwriaeth. Hefyd, aeth trwy ei arholiad cyntaf am M.D. yn llwyddianus, a chafodd ddwy dyst-ysgrif teilyngdod, un dan law yr athraw Playfair, a'r llall dan law Dr. Struthers. Tra yr ydoedd yn Edinburgh, ysgrifenodd ddwy gyfrol drwchus o'r darlithiau a wrandawai, un ar Fferylliaeth, Llysieuaeth, a'r Ymarferiad o Physygwriaeth, a'r llall ar Fesuroniaeth;—y ddwy yn Saesoneg. Wedi dychwelyd o Edinburgh ar ol y *session*, aeth i lettya at ei frawd a'i chwaer, i Gaergybi. Yr oedd ei hen Feistr, Dr. Jones, wedi gadael y rhan fwyaf o'i orchwyl yn Nghaergybi i'w ofal ef, ac yno y gweithiodd ddydd a nos, bron yn ddi orphwys, er mwyn cael digon o arian i fyned i brif ysgol Edinburgh y session ganlynol. Bu am bymthengnos yn Gorphenaf, 1861, heb dynu oddiam dano na dydd na nos, ond yn unig i newid ei grŷs, pan y dywedodd y Dr. Jones wrtho, yn llawer rhŷ wir, ysywaeth, os parhai i weithio felly, na welai efe byth eto mo Edinburgh. Yr oedd wedi arfer gweithio yn bur galed, ac yr oedd yn hynod o iach bob amser; am hyny tybiai nad oedd mewn perygl. Pa fodd bynag, un noswaith yn y Gorphenaf hwnw, galwyd ef at wraig, tua milldir a haner o'r dref, pan y cafodd ei wlychu at y croen. Wedi iddo gyrhaedd y tŷ, deallodd ei fod wedi cael ei alw oriau yn rhŷ fuan. Pan elai oddi cartref, arferai gario taclau ysgrifenu gyd ag ef, er mwyn eu defnyddio pan gaffai hamdden; ac yr oeddynt gyd ag ef y noson dan sylw. Wedi iddo gyrhaedd y tŷ uchod, rhoddwyd ef, yn ei ddillad gwlybion, mewn ystafell heb ddim tân ynddi; yna dechreuodd ysgrifenu; anghofiodd ei hun yn fuan; a bu yno hyd ddeg o'r gloch boreu dranoeth. Y canlyniad fu, iddo gael anwyd mor dost, fel mai prin y gallai siarad, na sefyll ar ei draed. Effeithiodd yn fuan ar ei ysgyfaint, a pharhaodd i ddihoeni dano dros fwy na blwyddyn, pan o'r diwedd y terfynodd ei fywyd byr a llafurus, yn nhŷ ei rieni yn Ninbych, Tach. 13, 1863, yn mhen tua phedwar mis ar ol cyrhaedd ei ddwy flwydd ar hugain oed.

RHYS, MORGAN, oedd enedigol o gymydogaeth Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef rywbryd tua dechreu y ddeunawfed ganrif, ond ni wyddom pa flwyddyn na pha fis. Ymddengys iddo gael ei alw at grefydd drwy weinidogaeth Howel Harris, neu Daniel Rowlands. Bu yn bregethwr derbyniol iawn yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd am flyneddau; ond enillai ei fywioliaeth yn benaf wrth gadw ysgol ddyddiol. Digon tebyg iddo fod am ryw yspaid yn un o ysgolfeistri Griffith Jones, Llanddowror. Treuliodd y rhan ddiweddaf, os nad y rhan fwyaf o'i fywyd, i gadw ysgol yn ardal Capel Isaac, gerllaw Llandeilo. Mae hen adfeilion y bwthyn bychan lle y preswyliai, ac y bu farw yr hen fardd, yn sefyll ar gwr tyddyn bychan, o'r enw Cwmgwenyndy, yn mhlwyf Llanfynydd. Yn ol pob tystiolaeth, bu Morgan Rhys farw tua'r flwyddyn 1776, ac mae yn debygol iddo gael ei gladdu yn mynwent Llanfynydd, ond nid oes un beddfaen i nodi allan fan gorphwysiad ei lwch; ac nid oes cymaint o wahaniaeth am hyny, gan iddo gyfodi cof-golofn fwy parhaus iddo ei hun na'r marmor goreu. Bydd ei "Olwg o Ben Nebo" yn cadw ei enw mewn coffadwriaeth parhaus oesoedd ar ol i enwau miloedd o'i gydoeswyr ddisgyn i ebargofiant bythol. Ymddengys mai y trydydd, os nid y pedwerydd argraffiad, yw yr hwn a gyhoeddwyd yn Merthyr yn 1831. Mae yn llyfryn tlws, deuddegplyg, cynwysedig o 92 o dudalenau, ac yn cynwys 86 o emynau, o bump neu chwech penill bob un, a llawer o'r rhai hyny y penillion melusaf a mwyaf grymus a ddarllenasom erioed. Gresyn na fuasai y rhai a gymerasent mewn llaw y gorchwyl o ddethol emynau, yn gwneud mwy o ddefnydd o gynyrch awen nefolaidd yr hen Ganiedydd melus hwn.

RHYS, o GARNO, neu fel y gelwid ef Syr Rhys o'r Drewen, a Syr Rhys ab Hywel, Dyrnor, oedd yn glerigwr a bardd enwog, yr hwn a fu farw tua'r flwyddyn 1470. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael eto mewn llawysgrifau.

RHYS BRYDYDD. Ei enw priodol oedd Rhys Llwyd, yr hwn oedd yn byw yn Llanharan, tua'r blyneddoedd 1450 hyd 1490. Yr oedd yn trigianu mewn ty o'r enw Blaen Cynllan, yn y plwyf a enwasom. Efe oedd tad Rhisiart Brydydd, ac Iefan ab Rhys, y rhai oeddynt fynachod yn Mynachlog Margam. Gelwid Rhys Brydydd yn "Rhys Llwyd Brydydd," neu "Rhys Llwyd ab Rhys ab Rhisiart," ac hefyd yr "Hen Fardd Llwyd o Forganwg." Y mae rhanau o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

RHYS GOCH AB RICCARD AB EINION AB COLLWYN, bardd enwog o'r Coity, yn Morganwg, yn ei flodeu rhwng 1140 a 1170. Yr oedd efe yn ŵyr i Einion ab Collwyn, yr hwn a wahoddes y Normaniaid i Forganwg. Gelwid ef hefyd "Rhys Goch o Dir Iarll." Y mae gan Iolo, yn y MSS. ugain o ganeuon Serch o'i waith.

RHYS GOCH ERYRI, neu Rhys Goch ab Dafydd, yr hwn oedd yn fardd enwog a chlodfawr; yr ydoedd yn byw rhwng y blyneddoedd 1330 a 1420. Yr oedd yn foneddwr o gyfoeth mawr, ac yn byw yn Hafod Garegog, ac yn berchen ar yr hen balas a'r arglwyddiaeth hono yn sir Feirionydd, er eu bod yn

Digitized by Google

gwneud i fyny ran o blwyf Beddgelert. Y mae ei hen eisteddle yn cael ei ddangos eto ar fryn yn agos i'r pentref, yn cael ei wneud i fyny o geryg mawrion, ar ddull cadair. Bu farw tua'r flwyddyn 1420, a chladdwyd ef yn Meddgelert, pan tua 100 mlwydd oed. Y mae tua deg a'r hugain o'i gyfansoddiadau ar wahanol destynau, ar gael yn awr mewn llawysgrifau.

**RHYSGOG**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd Drefaldwyn; gerllaw Llanfyllin. Gwerth ardrethol, 1469*p*. Poblogaeth, 45.

**RHYSGOG**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd Ddinbych; gerllaw Llangollen.

**RHYS GRYG**, oedd yn fab i Rhys ab Gruffydd, tywysog y Deheubarth. Yn y flwyddyn 1219, priododd â merch Iarll Clare. Bu farw yn Llandeilo-fawr yn sir Gaerfyrddin, yn 1233; a chladdwyd ef yn anrhydeddus yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, lle y mae delw goffadwriaethol am dano, fel am ei dad. Yr oedd Rhys Gryg yn rhyfelwr enwog, ac ymladdodd frwydrau clodfawr yn y rhyfeloedd oedd y pryd hwnw yn cael eu dwyn yn mlaen yn Nghymru. Y mae amrywiol o awdlau a gyfeiriwyd ato gan y beirdd Llywarch ab Llywelyn, Phylip Brydydd, a Dewi Mynwy, ar gael yn y gyfrol gyntaf o'r *Myv. Arch.*, a chyfansoddodd y ddau olaf a enwasom, farwnadau iddo.

**RHYS GRYTHOR**, Hiraethog, clerfardd, a digrifwas enwog a phoblogaidd yn ei ddydd. Yr oedd yn ei flodeu yn yr 16eg ganrif, ac yn cydoesi â Wm. Cynwal, a Sion Tudur. Danfonodd y blaenaf gywydd at yr olaf, tros y Dr. Pryse o Blasiolyn, i ofyn benthyg y Crythor i ddyfod i'r wledd flyneddol a gynaliai y boneddwr hwnw. Y mae y ddau gywydd hyn i'w gweled yn y Brython, cyf. iii. t.d. 426, a gwaed i Rys fyth eu canu. Gwna y ddau gyff cler o hono, a thraethant ei achau a'i wendidau yn ysmala a diflocsgni. Graddiwyd ef yn "Ddysgybl Dysgyblaidd Cerdd Grwth" yn Eisteddfod Caerwys, 1568; a dywed Sion Tudur am dano yn y cywydd crybwylledig, mai

Mwyn yw ei grwth; myn y grog!

**RHYSTUD**, oedd sant, yr hwn a fu byw y rhan flaenaf o'r unfed ganrif ar bumtheg. Yr oedd yn fab i Hywel Fychan ab Emyr Llydaw, neu yn ol rhai llawysgrifau, mab Hywel Fychan ab Hywel Faig ab Emyr Llydaw. Yr oedd yn frawd i Sulien, a Christiolus, ac yn un o'r rhai a ddaeth yn gydymaith i St. Cadfan o Lydaw i Gymru. Rhystud oedd esgob Caerlleon-ar-wysg, a sylfaenydd eglwys Llanrhystud yn sir Aberteifi. Cedwid ei wyl ef ar ddydd mawrth cyn y Nadolig.

**RHYS WYN** ab Cadwaladr, bardd a flodeuodd rhwng y blynyddoedd 1580 a 1640.

**RICHARDS**, David, Ysw., neu Dafydd Ionawr, oedd enedigol o Lanymorfa, yn mhlwyf Tywyn, Meirionydd. Ganwyd ef Ionawr 22, 1751, ac o herwydd hyny, pan dyfodd yn fardd, cyfenwodd ei hun yn Dafydd Ionawr. Yr oedd ei dad yn grachuchelwr balch, ofer, a gwag-siariadus; a'i fam yn wraig llawn o bwyll, difrifoldeb, a synwyr. Bachgen hynod, myfyrgar, a difrifddwys oedd Dafydd o'i febyd, yn cael ei fawrhau gan ei fam, a'i ddirmygu i'r eithaf gan ei dad, o herwydd ei dueddiadau barddonol. Tua'r flwyddyn 1766, yr oedd Ieuan Brydydd Hir yn gurad yn Nhywyn, a sylwodd ar ddoniau awenyddol Dafydd Ionawr ieuanc, ac efe a ddysgodd iddo reolau barddoniaeth, ac anogodd ei dad i'w ddwyn ef i fynu i'r Eglwys, er gwneud offeiriad o hono. Yn ganlynol anfonwyd ef i ysgol glodfawr Ystradmeurig, at Edward Richard, y bugeilfardd a'r ysgolhaig digyffelyb. Felly cafodd gychwyniad da gydag ysgolheigion penaf yr oes hono; a daeth yn ddysgedig fel rhifyddwr, Lladinwr, Groegwr, &c., yn bur fuan. Dywedir mae yn Ystradmeurig, pan tua deunaw oed, y cyfansoddodd "Gywydd y Daran," yr hwn sydd un o'r darnau mwyaf awenyddol o'i eiddo. Dichon mai rhyw dair neu bedair blynedd a dreuliodd yn Ystradmeurig, canys cawn ef yn 1770 yn Ngwrecsam, yn is-athraw mewn ysgol, ac yn gohebu i'r Eurgrawn Cymraeg, cyhoeddiad pumthengnosol; y cyfnodolyn henaf yn Nghymru. Yn 1774 aeth i Rhydychain, gan feddwl cymeryd urddau eglwysig; ond blinodd yno yn fuan, a dychwelodd at Mr. Tisdale, i fod yn is-athraw gydag ef yn Nghroesoswallt. Yr oedd efe erbyn hyn yn 24 oed. Syrthiodd mewn cariad â merch person y Drewen; ond gan iddo fethu enill serch y foneddiges, collodd bob awch carwriaethol, fel na bu mewn cariad â neb mwyach, a threuliodd y gweddill o'i oes yn hen lanc parchus. Yn 1779, cawn ef yn Nghaerfyrddin, yn is-athraw mewn ysgol ramadegol. Yn y flwyddyn hono bu farw Richard Morris, brawd Llywelyn Ddu o Fôn, a rhoddwyd ei farwnad yn destun i ganu arno gan Gymdeithas y Cymrodorion. Cystadleuodd Jonathan Hughes, Sion Ceiriog, Richard Jones o Fôn, a D. Ionawr. Barnwyd R. Jones yn oreu, a D. Ionawr yn ail, ond haerai rhai mai cân benrhydd Sion Ceiriog oedd yr oreu. A dyna'r ddadl gyntaf a wyddom am dani rhwng y bryddest a'r awdl. Digiodd D. Ionawr yn ofnadwy, ac ni chystadleuodd mwyach. Buasai ei hen athraw, Edward Risiart Ystradmeurig, farw yn 1777; ac y mae "Cywydd Marwnad Iorwerth Risiart," yn un o'r pethau mwyaf campus o'i eiddo. Daeth tua'r pryd hwn yn gydnabyddus â'r Parch. John Walters y Geiriadurwr, a bu yn ei gynorthwyo yn nghyfansoddiad ei Eiriadur. Yn Nghaerfyrddin y dechreuodd gyfansoddi "Cywydd y Drindod," a chyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf yn 1793. Helbul fawr oedd cael y gwaith drwy'r wasg. Teithiodd yr awdwr holl siroedd y Gogledd am enwau derbynwyr, a chafodd 2 yn Môn, 4 yn sir Ddinbych, 1 yn sir Fflint, 3 yn sir Drefaldwyn, a 39 yn sir Feirionydd! A rhoddodd ei hen gyfaill, y Parch. Thomas Jones, o Creaton, ei enw am 20. Nid ar y wlad yr oedd yr holl fai, yr oedd rhyw ddiffyg mawr ar y bardd hefyd. Gwyddom iddo wrthod un enw at Gywydd Ioseph yn 1809, o herwydd i'r ymgeisydd ddweyd Joseph yn lle Ioseph, a thrwy hyny brofi na fedrai ddarllen y farddoniaeth heb ei haeru! Cafodd fenthyg £300 gan foneddwr o gymydog i ddwyn traul cyhoeddiad y llyfr, a throsglwyddodd yntau ei hawl o'i dreftadaeth i'r boneddwr hwnw ar ol dydd ei dad. Er fod y bardd yn ymddangos yn hynod o ddiffygiol mewn doethineb fydol, eto syrthiodd i ddwylaw teulu anrhydeddus, a chyda hwy y cafodd gartref gysurus hyd ei fedd. Nifer y llyfrau a argraffwyd oedd 300, a gwerthid hwy am 5 swllt yr un. Cafodd yr awdwr lawer o glod, ond ychydig iawn o elw oddiwrthynt. Yn 1794, daeth ein bardd i fyw at ei noddwr caredig Mr. Jones, y gwr a roddasai gymhorth iddo i argraffu y Cywydd. Bu yno hyd 1800, yn diwygio, ac yn helaethu "Cywydd y Drindod." Yn 1799, cyhoeddodd "Gywydd y Mil Blynyddau." Yn 1800, penodwyd ef yn athraw ysgol rad Dolgellau. Bu yn y swydd hono am saith mlynedd, ac yn cartrefu yn y *Blue Lion*. Dyma'r adeg y bu'r canu chwerw



Digitized by Google

rhyngddo a Dafydd Ddu Eryri. Dafydd Ddu a dorodd yr heddwch, drwy wneuthur "Cân Newydd; ystyriaethau ar waith amryw o feirdd o Gymru yn goganu'r byd." Dyma'r unig gyfeiriad sydd ynddi at D. Ionawr:—

> I ddyn fel Dafydd Ionawr, sydd wr o ddyfnfawr ddawn,
> Mae'r byd fel rhyw anialwch, dyryswch dyhir iawn;
> I wr sydd a'i feddyliau uwch y cymylau mawr,
> Cymdeithas rŷ lygredig yw'r lloerig ar y llawr.

Blwyddyn chwerw o ryfel rhwng prif feirdd Gwynedd oedd 1801; ond bu D. Ionawr, a D. Ddu yn gyfeillion gwresog cyn diwedd eu hoes, a dywedir i'r newydd o farwolaeth alarus D. Ddu, ei yru bron i lewyg. Cyhoeddodd "Gywydd Ioseph" yn 1809, "Barddoniaeth Gristionogol" yn 1815, "Cywydd y Diluw" yn 1821. Yr oeddynt oll yn dal cysylltiad agos â "Chywydd y Drindod," ac yn fath o chwanegiadau pwysig at y gwaith cyntefig. Y gwaith olaf o'i eiddo yw "Cywydd o goffadwriaeth am y diweddar anrhydeddus a thra dysgedig Syr William Jones." Er fod y gwr hwn wedi marw yn 1794, eto ar ddiwedd y Cywydd, cawn—"Barddwaith diweniaith Dewi Ionawr, yn y flwyddyn o'i oedran 75, Mai 12fed, 1826." Mai 11eg, 1827, yr oedd y bardd yn iach a siriol fel arferol; bwytaodd ei swper fel arferol, ac aeth i'w wely; ond gan yr arferai gysgu hyd ganol dydd, ni feddyliwyd ei aflonyddu, eithr gadawyd iddo gael ei amser; a phan flinodd y teulu yn dysgwyl, aeth rhywun i'w ystafell, a chafwyd ef ar ddull dyn yn cysgu yn esmwyth a thawel, ond yn hollol farw! Dyna ddiwedd y clodfawr Dafydd Ionawr. Credai D. Ionawr yn ddiysgog iddo gael ei anfon i'r byd i ganu Cywydd, ac ymroddodd gyda sêl ddiorphwys i gyflawni ei weinidogaeth. Neidiai o lawenydd pan ddeuai llinell hapus i'w feddwl, ac ni oddefai i neb ei aflonyddu pan fyddai mewn myfyrdod yn cylymu deufan o gywydd yn nghyd. Ychydig iawn o ddynion a ystyriai yn deilwng o'i gymdeithas am haner awr. Nid oedd llenorion Dolgellau, oddigerth Ieuan Awst, yn werth ei sylw. Gwrthododd dderbyn Iolo Morganwg i'w dy, am ei fod yn ormod o dderwydd; nid edrychai ar J. Jones, Glan y Gors, o herwydd ysgafnder ei awen, ac o herwydd ei syniadau gwladol, mae'n debyg, fel awdwr "Y Seren tan Gwmwl," a "Toriad y Dydd." Ac nid oedd yn werth ganddo daflu llinell o gynghanedd sain heibio, er mwyn cymdeithas Dewi Wyn. Eglwyswr selog oedd efe o ran ei grefydd; ond anfynych y cyrchai i'r Eglwys i wrandaw pregethau, canys nid ystyriai yr offeiriaid yn werth i'w gwrandaw; am yr ymneillduwyr ni wrandawai ar neb o honynt oddigerth John Elias, neu Christmas Evans. Dywedir fod ganddo olwg fawr ar Charles o'r Bala, ac y gwrandawai arno ef yn ewyllysgar. Ond, a gadael ei hynodrwydd monachaidd o'r neilldu, diau ei fod yn ddyn ardderchog. Myfyriai beunydd ar y pethau pwysicaf, darllenai lawer ar yr Ysgrythyrau, a gweddiai yn ddyfal a gwastadol. Canodd fwy ar destunau ysgrythyrol ar y mesurau caethion na neb o feirdd Cymru; a gwnaeth yr hyn a ellid ei wneuthur yn y ffordd hono i gyfansoddi Hanesgerdd Santaidd ar weithredoedd y Drindod tuag at y byd hwn, o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Un Dafydd Ionawr a welwyd erioed, a thebygol na cheir—

"Fyth weled ei fath eilwaith."

**RICHARDS**, Ebenezer, Tregaron, oedd weinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd yn sir Aberteifi. Ganwyd ef yn Nhrefin, pentref bychan yn sir Benfro, Rhagfyr y 5ed, 1781. Cafodd ei ddwyn i fyny o'i febyd yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; a chafodd y fraint o ymgadw oddiwrth y gwylltineb a'r ynfydrwydd a berthyn i lawer o bobl ieuainc. Yr oedd ei dad yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, felly cafodd ei ddwyn i fyny yn yr eglwys, ond heb ryw arwyddion diymwad o dduwioldeb hyd nes oedd yn bumtheng mlwydd oed, pan y cafodd ganiatad i gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Yn yr amser hwn, ymwelodd yr Arglwydd âg ef trwy afiechyd trwm, dan yr hwn y bu efe yn agos i angeu; ond yr Arglwydd a drugarhaodd wrtho, gan roddi iddo estyniad oes, ac adferiad iechyd. Pan oedd rhwng 18 a 19 oed, efe a adawodd dŷ ei dad. ac a agorodd ysgol yn Brynhenllan, Dinas; pentref rhwng Abergwaun a Threfdraeth. Crybwyllir yn ei hanes, tra yn aros yn y lle hwn, ei fod wedi profi argyhoeddiadau llymion iawn; cymaint felly ag y bu rhaid iddo roddi heibio ei alwedigaeth, a dychwelyd at ei rieni. Yr oedd ei deimladau ar hyn o bryd yn fwy trallodus nag y gallasai synwyr a bywyd eu goddef yn hir heb eu llethu; yr oedd y pryd hwn tuag ugain oed. Dywed ef ei hun am y noson olaf y bu yn y gofid hwn:—"Y noswaith hon, Gorphenaf 1af, 1801, oedd y fwyaf ofnadwy yn fy mywyd, ond yr wyf yn gobeithio mai ynddi hi y dechreuodd dydd na bydd terfyn arno byth." Yr oedd bellach wedi cael golwg ar ddiangfa, ac wedi ei nerthu i ffoi i gymeryd gafael yn ngobaith yr efengyl. Cafodd ei fywyd yn Nghrist wedi iddo ei gwbl golli ar bob tir arall. Dychwelodd yn awr i'r Ddinas, yn ddyn arall, a buan iawn y daeth hynodrwydd ei ddoniau, ac amlygrwydd ei ras i'r golwg, a cheisiai ei gyfeillion crefyddol ganddo arfer ei ddoniau yn gyhoeddus, trwy ddechreu oedfaon, ac ymarferiadau ereill, fel y daeth ei gymhwysderau yn fwy amlwg at waith y weinidogaeth; a chymellwyd ef gan yr eglwys i ddechreu pregethu; ond efe a ofnai ruthro yn rhyfygus, ac heb ei alw i'r gwaith goruchel. Tebygol mai gwrthsefyll pob cymelliadau a wnaethai, oni bai ofn digio yr Arglwydd, a dwyn arno ei hun bechod mawr. Derbyniwyd ef a'i frawd y Parch. T. Richards, Abergwaun, i'r cwrdd misol, a hyny cyn hir ar ol iddynt eu dau ddechreu pregethu. Dywedai y Parchedig a'r enwog Jones, Llangan, am danynt, "Y mae'r ddau lencyn yn pregethu fel dau angel." Yn y flwyddyn 1806, efe a symudodd i Aberteifi, ac yr oedd ei iechyd ar y pryd yn dra gwanaidd, a barnai llawer wrth ei olwg, ei fod yn brysio tua'r bedd yn y darfodedigaeth. Aeth at feddyg yn Aberteifi, yr hwn a'i hysbysodd, os arosai yn Aberteifi, a chymeryd ei gyfferi yn gyson, ei fod yn lled sier o'i wella. Cydsyniodd yntau i aros, a throes dadganiad y meddyg allan yn wirionedd. Yn yr adeg yma, yr oedd boneddwr duwiol, o'r enw James Bowen, Ysw., Llwyngwair, ag oedd yn byw yn Aberteifi y pryd hwnw, yr hwn a geisiodd gan Mr. Richards i ddyfod i'w deulu ef yn athraw i'w feibion; a chydsyniodd yntau â'i gais, arosodd yn y teulu caredig hwn dros dair blynedd, a pharhaodd i lafurio yn llwyddianus yn y weinidogaeth, ac yn neillduol gyda'r Ysgol Sabbathol, yr hon oedd bellach yn dechreu ymledu ac ymwreiddio trwy y wlad: a bu yn neillduol o ddefnyddiol yn y dref a'r wlad oddiamgylch. Yn 1809, priododd Mr. Richards â Mary, merch Mr. W.

Digitized by Google

Williams o Dregaron, a symudodd i'r lle hwnw i fyw, lle y cartrefodd hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ei ddyfodiad i Sir Aberteifi yn adgyfnerthiad gwerthfawr iddi; a dewiswyd ef yn Ysgrifenydd Cyfarfod Misol y Sir y flwyddyn ganlynol i'w sefydliad yn Nhregaron; a bu ei wasanaeth yn hyn, o werth mawr dros weddill ei oes. Bu gweinidogaeth Mr. Richards dan arddeliad neillduol, nid yn unig yn ei ardal ei hun, ond hefyd dros yr holl dywysogaeth, ac yn amryw o drefydd Lloegr. Defnynai ei athrawiaeth fel gwlaw. Fel prif nodwedd ei weinidogaeth, gellir dywedyd ei bod yn neillduol o iraidd a thoddedig. Yr oedd ei weinidogaeth fel yr eiddo Apolos, yn nodedig am ddyfrhau. Byddai ar brydiau yn cael oedfaon yn mha rhai y byddai rhyw dywalltiadau neillduol iawn yn cymeryd lle. Soniwyd cryn lawer am bregeth a draddododd yn Llangeitho, ar Luc xvi. 23, yr hon a gafodd ryw ddylanwad rhyfeddol. Yn y gymdeithas eglwysig ddilynol, ymunodd deg ar hugain o'r newydd â'r gangen eglwys hono; a'r oll ond dau, yn priodoli y cyfnewidiad i'r bregeth hono. Torodd y Parch. Mr. Williams o Ledrod allan wrth ymddiddan a hwy ar eu derbyniad, "Garw gynifer o honoch a saethodd e âg un ergyd;" ac yn ychwanegol at y nifer uchod, barnai dynion sylwgar, fod rhai cannoedd o eneidiau wedi cael eu cyffroi y tro hwn, rhwng Llangeitho a'r cymydogaethau oddiamgylch. Yr oedd ef yn llenwi lle mawr yn hynod o esmwyth, nid yn unig yn y pwlpud, ond hefyd yn Nghyfarfodydd Misol y Corff; ac yn fwy felly, fel yr ydoedd yn heneiddio. Bu am lawer o flyneddoedd yn dal y swydd o Ysgrifenydd i Gyfarfod Misol ei Sir, a hefyd i Gymdeithasfa Chwarterol y Deheubarth;—swydd sydd lawn o ofal, llafur, a manylrwydd, fel y gŵyr a gafodd brofiad; ond swydd er hyny a gyflawnwyd ganddo gyda sel, dyfalwch, a deheurwydd nodedig, a hyny dros ei oes. Yr oedd yn un o'r tri ar ddeg o bregethwyr y Corff, a urddwyd yn Llandeilofawr, Awst 8fed, 1811, ac efe oedd yr ieuangaf o'r nifer. Yn 1810, cafodd ei benodi yn Ysgrifenydd y Gymanfa Sirol, ac yn 1813, yn ol cyfarwyddyd Mr. Charles o'r Bala, cafodd ei ethol yn Ysgrifenydd Cymanfa gyffredinol y Cyfundeb yn y Deheudir. Cyflawnodd wahanol ddyledswyddau pwysig y swydd gyda medrusrwydd perffaith, ac er perffaith foddlonrwydd i bawb, hyd ddydd ei farwolaeth. Crybwyllasom yn barod am ei wasanaeth arbenig i'r Ysgol Sabbathol drwy y sir, a'r Deheubarth. Nid oes un amheuaeth na fu ei lafur yn y ffordd hon mor fendithiol ag a fu yn un ffordd arall. Yr oedd ei deimladau bywiog, ei ddull serchog mwynaidd, yn bur enillgar. Yr oedd y cymwysderau hyn hefyd wedi eu heneinio â duwioldeb ysbryd, ac âg eiddigedd i lesbau dynion. Bendithiwyd yr Ysgol Sabbathol gymaint a dim moddion ereill i lesoli Cymru, ac i eangu Trefnyddiaeth yn mysg y genedl; a bu ef yn un o'r offerynau mwyaf ffyddlon a medrus, yn tywallt olew i olwynion y peiriant hwn, ac yn hyrwyddo ei fynediad yn mlaen. Anhawdd yw dychymygu faint oedd llafur y gwr duwiol a defnyddiol hwn, mewn teithio, pregethu, myned i gyfarfodydd misol, a chwarterol, mewn gohebu a Deheu a Gogledd, mewn ysgrifenu cofnodion y Cymdeithasfaoedd, a chynal cyfarfodydd cyhoedd ac eglwysig, a hyny dros ysbaid deuddeg mlynedd a'r hugain; ac nid oedd ei wobr am y cwbl, fawr fwy na'r lle a enillodd yn serchiadau ei frodyr, a'r mwynhad a brofodd ef ei hun yn y gwaith. Ond ei ddyddiau olaf ef a nesasant. Blinid ef er ys blyneddau lawer gan fath o hun-glwyf, yr hwn a fygythiai ei amgylchu â chadwynau mor gadarn na ellid eu datod. Cafodd bwl trwm o'r clefyd hwn yn y flwyddyn 1832, syrthiodd y pryd hwn i'r fath drwmgwsg, fel na ddeffrodd yn gwbl am rai dyddiau, ac ofnid y pryd hwnw, mai cysgu a wnaethai i farwolaeth; ond yr Arglwydd a fu drugarog wrtho, ac a'i hadferodd. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, ymosododd yr un anhwyldeb arno drachefn, pan ydoedd yn gweinidogaethu yn Llundain; a'r tro hwn hefyd bu mewn enbydrwydd am ei einioes; eto estynwyd ei oes dros dymor byr; ond yr oedd arwyddion lled ddiymwad, fod ei afiechyd yn cryfhau, a'i gyfansoddiad yntau yn dadfeilio, a chaed prawf galarus o hyny yn gynar yn y flwyddyn ganlynol, oblegid dychwelodd y cwsg arno gydag adnewyddol rym, ac a roes derfyn ar ei oes lafurus a defnyddiol, yn mis Mawrth 1837, pan nad oedd eto ond 56 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Tregaron. Yn y Cofiant a ysgrifenwyd gan ei feibion iddo, y mae adroddiad am lafur cyhoeddus am ysbaid 22 mlynedd. Ymddengys y byddai Mr. Richards yn cadw cofnodion o'i deithiau, a'i bregethau, yr hyn nis gwnaeth ond ychydig o bregethwyr y Trefnyddion, o leiaf cyn ei amser ef; ac o'r adroddiad a gasglwyd o'r cofnodion hyny, yr ydym yn cael ei fod wedi pregethu o'r flwyddyn 1815 hyd ddiwedd y flwyddyn 1836, chwe mil ac wyth gant a phedair a'r bumtheg a deugain o weithiau; at eu gilydd tua 312 o weithiau bob blwyddyn. Fe deithiodd yn yr ysbaid hwn, agos i 60,000 o filldiroedd, neu ddwy fil a chwe chant a deuddeg a thriugain bob blwyddyn, neu un ar ddeg a deugain bob wythnos. Cadwodd, neu yr oedd yn un a'u cadwai, agos i saith gant o gyfarfodydd cyhoeddus, cyfarfodydd misol, chwarterol, a pherthynol i'r Ysgol Sabbathol. Nid llawer a allasent ddangos dwy flynedd ar hugain wedi eu treulio yn gyffelyb. Ond y mae yn awr yn gorphwys oddiwrth ei lafur, a'i weithredoedd yn ei ganlyn. Aeth y gwas da a ffyddlon hwn i mewn i lawenydd ei Arglwydd; wedi iddo wasanaethu ei genedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, efe a hunodd, ag a ddodwyd at ei dadau. Nid oedd yn Nghymru yr un anghydffurfiwr cadarnach a mwy cydwybodol nag ef; yn yr ystyr hyny yr oedd yn mhell yn mlaen ar ei holl frodyr, anghydffurfiaeth y rhai, ddeugain mlynedd yn ol, a godai oddiar amgylchiadau, yn fwy nag oddiar gydwybod. Yn fuan wedi i'r Corff ymadael a'r Eglwys Sefydledig, gwnawd ceisiadau penderfynol er ei ddarbwyllo ef i dderbyn urddiad esgobaethol, yr hyn a wrthododd gyda'r penderfyniad mwyaf diysgog.

RICHARDS, Edward, bardd, ysgolfeistr, a henafiaethydd, o fri uchel. Ganwyd ef yn mhlwyf Ystradmeurig, sir Aberteifi, yn 1714. Yr oedd ei dad, Thomas Richard, yn cadw teilwriaid, a thafarndy yn y plwyf hwnw. Cafodd Abraham, y mab henaf, addysg yn ngholeg-ysgol Henffordd, a thrachefn yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, o ba le y danfonwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain. Treuliai ei ysbeidiau pan gartref o'r brif-ysgol, mewn addysgu nifer o wyr ieuainc ei blwyf genedigol, ac yn y dosbarthiadau hyny y cafodd ei frawd Edward Richard elfenau ei wybodaeth helaeth mewn Groeg a Lladin. Yna aeth Edward i ysgol ramadegol Caerfyrddin, yr hon oedd ar y pryd dan arolygiaeth alluog y Parch. Mr. Maddocs, ac ar ol hyny bu dan addysg Mr. Pugh, Llanarth, clerigwr oedranus, ag iddo glod uchel fel

Digitized by Google

gwr o ddysg, yn enwedig yn yr iaith Roeg. Tua 1734, agorodd ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Ystradmeurig, a buan y daeth yn enwog trwy yr holl wlad, ac yr ymgynullodd lluaws ato am addysg. Yn fuan cafodd ei hun yn analluog i ddwyn yr ysgol yn mlaen, am nad oedd ganddo ddim rhagor i'w ddysgu i'r plant, a rhoddodd rybudd cyhoeddus i'r perwyl hwnw, yr hyn sydd yn dangos ei onestrwydd. Ymroddodd am ddwy flynedd i chwanegu trysorfa ei wybodaeth, gwnaeth eglwys y plwyf yn efrydfa, a chafodd yr enwog Ieuan Brydydd Hir yn athraw. Haf a gauaf, oerni a gwres, gwelid Edward Richard am bedwar o'r gloch yn y bore, yn dechreu ei efrydiau yn eglwys Ystrad; a dywedir na byddai un amser yn dechreu heb gyflwyno ei hun wrth orsedd gras. Ar derfyn y ddwy flynedd, agorodd yr ysgol eilwaith, yr hon a lanwyd yn fuan gan wŷr ieuainc o bob cwr i'r Dywysogaeth. Penodwyd ef yn athraw rhydd-ysgol waddolog yn mhlwyf cyfnesol Lledrod, a llanwodd y swydd hono gydag anrhydedd mawr iddo ei hun, a mantais i'w ysgolheigion. Trwy y chwanegiad hwn yn ei gyllid, a chynildeb ei fam, yr hon a gadwai ei dŷ, llwyddodd i gasglu ychydig gyfoeth. Gan ei fod yn anmhriod, penderfynodd sefydlu ysgol ramadegol yn Ystradmeurig, er cyfranu addysg Ladinaidd, ac yn egwyddorion yr eglwys Sefydledig, ac yn 1757, sefydlodd fferm a brynasai, i'r perwyl hwnw. Sefydlodd lyfrgell hefyd at wasanaeth yr ysgol hon, yn 1759. Darfu i farwolaeth ei fam, yr hyn a gymerodd le yn 1764, effeithio yn ddwys ar ei deimladau, a'r dygwyddiad hwnw a barodd iddo gyfansoddi y fugeileg alarnadol ardderchog hono, sydd i'w gweled yn argraffedig yn ei waith. Yr oedd yn gydnabyddus iawn â hanesiaeth a henafiaeth ei wlad enedigol, ac yn cydohebu yn gyson ar y pynciau hyny, gyda Lewis Morris, Môn, Dr. Phillips, ac eraill o wŷr dysgedig ei ddydd; a chyhoeddwyd amrai o'r llythyrau hyn yn y *Cambrian Register*, &c. Yn 1771, sefydlodd amryw ffermydd eraill, yn waddol i ysgol ramadegol Ystradmeurig; ac yn 1774, gwnaeth weithred newydd, a chwanegodd reolau er ei threfniant. Bu yr amcan dyngarol hwn yn benaf ar ei feddwl am ugain mlynedd; ac ar ei wely angau, fel y prawf ei ewyllys, yr oedd yn dra phryderus am ei llwyddiant. Terfynodd Edward Richard oes weithgar, ac elusengar, Chwefror 28, 1777, a chladdwyd ef yn eglwys Ystradmeurig. Cyhoeddwyd casgliad o'i fugeilgerddi swynol, a'i ganeuon clasurol, gyntaf yn Llundain, yn 1811, tan y teitl, "Yr Eos," sef Gwaith Prydyddawl Mr. Edward Richard o Ystradmeurig, gyda hanes ei fywyd;" ac ail gyhoeddwyd ef ychydig o flyneddau yn ol, gan Mr. Spurrel, Caerfyrddin.

RICHARDS, Syr Richard, cyfreithiwr enwog, a anwyd yn mhlwyf Dolgellau, Meirion, Tach. 5, 1752. Cafodd ei addysg ar y cyntaf yn ysgol Ruthin, o ba le yr aeth i brif ysgol Rhydychain, ac yno yn mhen ysbaid, etholwyd ef i gymrodoriaeth Michel, yn Ngholeg y Frenhines. Galwyd ef at y bâr, fel aelod o Gymdeithas Anrhydeddus y Deml Fewnol; ac yn 1813, penodwyd ef yn brifynad Caerlleon; yn 1814, yn un o farwniaid y Trysorlys, ac yn 1817, ar farwolaeth Syr Alexander Thompson, yn arglwydd brif-farwn y llys hwnw. "Yn holl gylch ei broffeswriaeth," ebai un newyddiadur wrth gofnodi ei farwolaeth, "ni safai ungwr yn uwch yn marn bersonol, a pharch y cyhoedd, na Syr R. Richards. Yr oedd y caredigrwydd a'r haelfrydedd neillduol a ddynodai bob gweithred o'i fywyd, yn enill iddo gyfeillgarwch serchus pob un a fu dedwydded a bod yn gydnabyddus âg ef; treuliodd ei holl amser, pan yn rhydd oddiwrth ofalon ei broffeswriaeth, mewn gweithredoedd o ddyngarwch. Yr oedd ei ddyfarniadau fel cyfreithiwr, ac ynad, yn gywir a diffuant. Enillodd gyfeillgarwch ac ymddiried llwyraf Arglwydd Eldon, yn lle yr hwn y llywyddodd lawer gwaith fel Llefarydd Ty yr Arglwyddi. Yn 1785, efe a briododd Catherine, merch, ac aeres, Robert Vaughan Humphreys, Ysw., o Gaerynwch, Meirion, o hon y bu iddo deulu o wyth mab, a dwy ferch. Bu farw yn Llundain, Tach. 11, 1823, a chladdwyd ef mewn cell yn Eglwys y Deml. Disgynodd ei ettifeddiacthau i feddiant ei fab, Richard Richards, Ysw., un o farnwyr yr uchel Ganghell-lys, ac aelod seneddol tros sir Feirionydd.

RICHARDS, Parch. Thomas, a hanai o deulu Caerynwch, Meirion. Bu yn offeiriadu yn Llansanan, sir Ddinbych; a Llanfyllin, sir Drefaldwyn; ac yn gantawr yn Llanelwy. Yr oedd yn awdwr cyfrol o farddoniaeth Ladin, ar farwolaeth y frenhines Caroline, priod Sior I. Dywedai Dr. Trapp, proffeswr barddoniaeth yn mhrifysgol Rhydychain, ei fod y bardd Lladinaidd goreu yn ei oes. Ysgrifenodd lythyr i'r *Philosophical Transactions*, o hanes y tân yn Morfa Harlech, 1694, ac a gyhoeddwyd hefyd gan Camden.

RICHARDS, Parch. Thomas, Abergwaun, oedd weinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yn sir Benfro. Ganwyd ef mewn pentref ar lan y môr, o'r enw Trefin, yn mhlwyf Llanrian, o rieni duwiol, Chwefror 11eg, 1783. Yr oedd ei dad, Mr. Henry Richard, yn amaethwr, ac yn pregethu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a bu am rai blyneddau yn cadw ysgol. Yr oedd Mr. Thomas Richard yn frawd i Ebenezer Richard, Tregaron. Yr oedd Thomas yn llawer mwy gwyllt nag Ebenezer. Pan yn llanc, yr oedd yn peri mawr ofid i'w fam dduwiol, yr hon oedd yn ei gynghori yn ddifrifol, ac yn gweddio yn daer ar ei ran, gan dywallt dagrau wrth ei weled mor gyndyn, yn gwrthod gwrando ar ei chymhelliadau i fyned gyda hi i'r cyfeillachau crefyddol, a moddion gras; parhaodd mewn pob gwylltineb ac ynfydrwydd hyd nes oedd oddeutu pedair ar ddeg oed, pan yr ymddengys i gyfnewidiad o gryn bwys gymeryd lle; sobrwyd ei feddwl, aeth yn dywydd garw arno am ei gyflwr. nes oedd arno chwant mawr i ymwasgu at y dysgyblion. Cafodd ei dderbyn yn aelod gyda'r Tefnyddion Calfinaidd yn Nhrefin; ond er cael ei dderbyn yn garedig gan y brodyr crefyddol, a chael pob tynerwch oddiar eu dwylaw, ymosododd arno brofedigaethau mawrion; ofnai nad oedd wedi ei ethol, a bod ei bechodau yn anfaddeuol. Rhyddhawyd ef oddiwrth yr un gyntaf, trwy ddarllen Ioan vi. 37; ond yr un arall a'i dilynodd ef yn ddidor am amseroedd, ac yn swnio yn barhaus yn ei feddwl beth bynag a wnelai, gweddio, darllen, neu wrando, byddai yr un swn yn treiddio trwy ei feddwl yn barhaus, "Ni faddeuir iddo." Pan aeth ryw ddiwrnod i weled modryb iddo yn Nhyddewi, dynes dduwiol iawn ydoedd, amlygodd iddi ei dywydd, yr hon oedd wedi bod dan yr un brofedigaeth yn nhir y gelyn; hithau a lefarodd air yn ei bryd wrth ei enaid diffygiol, yr hyn a'i esmwythaodd, ac a'i llonodd. Dychwelodd o Dyddewi wedi cael iechyd yn ei ysbryd, a Haul Cyfiawnder yn tywynu arno. Pan yn ugain oed, efe a ddechreuodd ar waith y weinidogaeth, tua phump

Digitized by Google

neu chwe mlynedd wedi iddo ddyfod at grefydd. Yn 1813, bu farw ei dad, trwy dori ei glun pan yn dychwelyd adref o'i daith Sabbathol, drwy i'r anifail syrthio dano. Ar y 17eg o Awst, 1814, yn nghymanfa Llangeitho, pan yn 30 oed, cafodd ei neillduo trwy alwad cyffredinol y Corff yn Nghymru, i weini yr ordinhadau. Yn 1818, bu farw ei fam, er ei fawr alar. Ar y 30ain o Ebrill, 1819, efe a briododd nith ferch brawd i Mrs. Jones, Llangan, sef merch Mr. Gwyn, Cwrt, Llanllawer. Yr oedd yr holl Wyniaid, a Mrs. Jones, ei modryb, yn groes iawn iddi briodi Mr. Richard; a gorfu iddi fyned allan drwy ffenestr ei hystafell wely yn y nos, a dianc, a phriodi yn foreu dranoeth, mewn eglwys tua naw milldir oddiyno, sef Llanrian, eglwys plwyf genedigol Mr. Richard. Ar ol iddo briodi, aeth i fyw i amaethdy, ger Trefdraeth; a chyn pen amser maith, efe a symudodd i Abergwaun, wedi treulio yn Nhrefdraeth y tymor mwyaf gofidus o'i fywyd; aeth drwy lawer o dywydd garw yno, gan fod ei fferm yn afresymol o ddrud, &c. O'r flwyddyn 1828 hyd 1850, darllen, myfyrio, a phregethu oedd prif orchwylion ei fywyd, er na chafodd erioed am hyny haner digon i gadw ei gorff a'i enaid mewn undeb a'u gilydd. Yr oedd efe o faintiolaeth gyffredin, a gwneuthuriad cadarn, ac yr oedd yn ddyn prydferth iawn yr olwg. Pan yn y pwlpud, yr oedd ganddo bob peth wrth law, ac nid oedd dim yn eisiau arno, ni byddai byth wrth bregethu yn ymddangos mewn brys, yn wyllt, nac yn derfysglyd; ni byddai arno bryder na braw; yr oedd yn hollol gartrefol wrth bregethu, fel meistr ar ei waith, yr oedd yn ei elfen naturiol. Yr oedd ei ffraethineb a'i arabedd, agos yn ddiderfyn; yr oedd ei lais mor beraidd a ellid glywed, ac yr oedd yntau yn feistr arno; nid oedd yn gwaeddi fel gwallgofddyn, nac yn canu fel baledwr ar ben ffair. Pan y bloeddiai, byddai yn rhyfedd o gyrhaeddgar, a phan tarawai ryw dant seiniadol, yr oedd fel pe byddai mynyddoedd o rew yn toddi ar unwaith; byddai ei wrandawyr weithiau yn ymgolli mewn hwyl, yn curo dwylaw, a thraed hefyd. Byddai ar brydiau yn taranu, treiddiai ei lais gydag awdurdod neillduol i ddirgelion eneidiau dynion, nes y byddai yr annuwiol a'r pechadur fel plant o'i flaen. Byddai yn hoff iawn o ddywediadau byrion a chynwysfawr ar bob peth, ac yr oedd ganddo lawer ohonynt ar wahanol bethau y bywyd hwn, a'r nesaf; taflai allan ymadroddion felly yn awr ag eilwaith, agos ar bob pregeth. Yr oedd yn meddwl, ac yn tynu allan ryw fraslun mewn ysgrifen o'r oll a ddywedai yn gyhoeddus, ond o herwydd helaethrwydd ei ddawn siarad, dygid ef ymaith megis â llifeiriant yn nghynhyrfiadau y foment. Bu am flyneddau yn cael ei boeni gan beswch, a diffyg anadl, yn methu teithio i'r Cymanfaoedd hyd yn nod pan y byddent yn ei sir ei hunan. Mae yn debyg mai ei lafur caled gyda phregethu i gynulleidfaoedd mawrion, a ddygodd yr anhwyldeb yr oedd yn llafurio dano i'w gyfansoddiad. Cymerwyd Mrs. Richard yn glaf iawn ac ar y 9fed o Fehefin, 1855, bu hi farw, a chladdwyd hi yn Manorowen. Yr oedd ganddo un cysur wedi hyny, yr oedd ei anwyl ferch, Bridget Hannah yn fyw, er nad yn gref iawn, yr hon a ofalodd am dano yn dyner ac anwyl hyd ei gallu; cafodd ei harbed dros ei ddyddiau ef i'w ymgeleddu, ond wedi ei wylio ar ei wely angau, a'i weled yn cael ei roddi yn ei fedd dystaw, rhoddodd hithau yr ysbryd i fyny i freichiau Iesu Grist, a rhoddwyd ei chorff i orwedd gyda'i thad a'i mam yn mynwent Manorowen. Pan oedd Mr. Richard yn nghanol y rhyferthwy cryf, dychrynllyd, ac ofnadwy, gwaeddodd allan gymaint a allasai waeddi: —"Ah, y mae y bar yn arw iawn, ond y mae yr hafan ddymunol yn y golwg." Aeth i mewn i'r porthladd yr ochr draw, ar ddydd Iau, Ionawr y 3ydd, 1856, yn 73 mlwydd oed, wedi bod yn pregethu 52 o flyneddoedd.

**RICHARDS,** Parch. William, LL.D., ydoedd unig fab Henry Richards, o Bencoed, Llanfihangel Abercowyn, sir Gaerfyrddin; ac a symudodd wedi hyny i Bencoed, ger Hwlffordd, sir Benfro, lle y ganwyd Dr. Richards 1747. Ni chafodd ond un flwyddyn o ysgol, er hyny gallai ddarllen y Beibl yn y ddwy iaith yn dra ieuanc, ac yr oedd wedi ymgydnabyddu â gweithiau yr awduron Seisnig goreu. Yn 1771 efe a aeth i athrofa y Bedyddwyr yn Mristol, lle y bu am ddwy flynedd, ac yna galwyd arno i fod yn gynorthwywr i Dr. John Ash, gweinidog eglwys o Fedyddwyr, yn Pershore, sir Worcester. Yn 1776, derbyniodd alwad cynulleidfa o Fedyddwyr, yn Lynn, sir Norfolk. Wedi bod yno am rai blyneddau, gwahoddwyd ef yn daer i gymeryd gofal eglwys fwy yn Norwich, ond gwrthododd; ac am hyny, gwobrwywyd ef â chymunrodd werthfawr gan foneddiges ag oedd yn aelod o'i gynulleidfa yn Lynn, yr hyn a'i galluogodd i dreulio gweddill ei oes yn gysurus, ac i ymddwyn yn gymwynasgar tuag at ei berthynasau tlodion, a'i frodyr anghenus, yn y weinidogaeth. Cyhoeddwyd o'i waith, luaws mawr o lyfrau, yn enwedig llyfrau dadleuol, yn yr iaith Gymraeg; canys cymerai ddyddordeb brwdfrydig yn ei wlad, a'i llenyddiaeth, er yn absenol o honi. Yn 1812, cyhoeddodd *History of Lynn*, mewn dwy gyfrol, lawn o ddyddordeb a gwybodaeth leol, ac wedi ei addurno a durgerfiadau ysplenydd. Y mae ei lyfrau hanesyddol eraill hefyd, yn meddu teilyngdod uchel, yn enwedig ei *Review of the Memoirs of the House of Cromwell, by the Rev. M. Noble.* Cyfoethogwyd y *Cambrian Register*, âg aml i gyfansoddiad o ffrwyth ei athrylith, a Rhaglith i'r 3edd gyfrol o'r cyhoeddiad hwnw, ydoedd ei gynyrch llenyddol olaf. Cyhoeddwyd ei Eiriadur Cymraeg a Saesneg gyntaf yn 1798; daeth aml i argraffiad o hono er y pryd hyny; ond dilys ei fod y peth gwaelaf ar lun geiriadur sydd genym ar ein helw, ac y mae hyn yn syndod, pan y canmolir yr awdwr mor uchel gan ambell un fel ysgolhaig Cymreig. Cyhoeddwyd ei *Welsh Nonconformist Memorial*, yn 1820, gan ei gyfaill Dr. John Evans. Yn 1818, graddiwyd ef yn LL.D. gan goleg y Bedyddwyr yn Rhode Island. Wedi trigiant o 42 mlynedd yn Lynn, efe a fu farw Medi 18, 1818, yn 69 oed. Yr oedd yn anhawdd gwybod beth oedd ei ddaliadau ar rai pynciau pwysig mewn crefydd; cyhuddir ef o geisio lledaenu Pelagiaeth yn y Deheubarth, yn ystod ei ymweliadau achlysurol a'i hen gartref.

**RICHARDSON,** Henry, Ysw., o Aberhirnant, sir Feirionydd, ydoedd drydydd mab Samuel Richardson, o'r un lle. Yr oedd yn deilliaw oddiwrth Syr Thomas Richardson, arglwydd brif-farnwr y Llys-Benadur yn amser y Siarliaid. Ganwyd gwrthddrych y crybwyllion hyn yn 1791. Wedi cael ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, a graddoli, efe a ymunodd â'r fyddin, ac a wasanaethodd am rai blyneddau fel banerydd a rhaglaw y 69ain gatrawd yn yr Orynys, ac wedi hyny yn yr ail Feirch-warchlu yn Ffrainc. Ar ddiwedd y rhyfel, gadawodd y

Digitized by Google

fyddin, ac ymsefydlodd yn y palas teuluaidd, Aberhirnant; penodwyd ef yn ustus heddwch, ac yn israglaw y sir, a llanwodd y swydd o sirydd yn 1851. Yn 1830, efe a ddyfeisiodd Fywyd-fad Ceuol, yr hwn a sefydlwyd yn Weymouth. Yn 1851, efe, mewn cysylltiad a'i fab, a fynodd wneud y Bywyd-fad *Challenger;* a mordeithiodd ynddo ar dywydd tymhestlog oddiamgylch y *Land's End* i Lundain. Y mae bywyd-fad ar yr un cynllun â hwnw yn awr mewn arferiad yn Rhyl. Bu farw yn Rhiw-waedog, ger y Bala, yn 1861, yn 70 mlwydd oed.

**RIDLEY**, trefgordd yn nghapeloriaeth Is y coed, cantref Bromfield, swydd DINBYCH, 5½ milldir i'r dwyrain wrth ogledd o Wrecsham. Erwau, 669. Gwerth ardrethol, 426*p*. Poblogaeth, 25. Tai annedd, 5.

**ROATH**, neu RHATH, sydd blwyf yn nosparth Caerdydd, swydd FORGANWG, ar reilffordd y Deheubarth, yn gyfagos i afon Rhymnwy, milltir a chwarter gogledd ddwyrain o Gaerdydd. Llythyrfa yn Nghaerdydd. Erwau 3500, o'r hyn y mae 1070 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 11,746*p*. Poblogaeth yn 1851, 394; yn 1861, 3044. Tai, 525. Cododd y cynnydd yn y boblogaeth drwy gysylltiad â Chaerdydd. Y mae y meddianau rhwng lluaws. Plas-Newydd ydyw y prif balas. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 96*p*., ac yn nawddogaeth Ardalydd Bute.

**ROBERT** AB DAFYDD LLWYD, bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1590.

**ROBERT** AB ITHEL AB LLYWELYN, bardd, rhwng 1590 a 1640.

**ROBERT** AB MEREDYDD AB HWLCYN, bardd, rhwng 1600 a 1640.

**ROBERT DYFI**, bardd, rhwng 1590 a 1630.

**ROBERT LEIAF**, bardd ac achyddwr, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490.

**ROBERTS**, GRIFFITH, gramadegydd dysgedig, eithr ni wyddis nemawr dim, parth ei dras a'i dreigl, namyn iddo gael ei ddysg yn mhrifysgol Sienna, yn yr Eidal, o dan nawdd Gwilym Herbert, iarll Penfro. Efe a ysgrifenodd y gramadeg Cymraeg cyntaf a argraffwyd erioed, tan y teitl, "Dosparth byrr ar y rhan gyntaf i Ramadeg Cymraeg; lle cair llawer o bynciau annepcor i un a chwenychau na doedyd y Cymraeg yn ddiledíaith, na'i 'sgrifenu yn iawn." Cyhoeddwyd hwn yn Milan, yr Eidal, yn 1567, ac y mae yr awdwr yn cyflwyno y gwaith i'w noddwr. Canlynwyd y llyfryn hwn gan ail rhan, "Etymologia," yn cynwys 112 tudal; a rhan 3edd, yn cynwys 72 o dudalenau. Gelwir y 4edd ran yn "Prosodia, Dosparth ar fesurau cerdd dafod," 56 tudal; a'r 5ed, engreifftiau o farddoniaeth Gymreig, yntau hefyd yn 56 tudal. Y mae y gramadeg hwn yn brin, ni wyddis am ond un copi cyflawn a difwlch o hono, ac yn yr Amgueddfa Brydeinig y mae hwnw. Yr oedd un arall yn Llyfrgell ysplenydd Wynnstay, ond ofnwn fod hwnw wedi ei golli, yn y difrod ofnadwy a wnaeth y tân yno rai blyneddau yn ol.

**ROBERTS**, SYR HUW, Lên, bardd, ac offeiriad, a addysgwyd yn Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1577. Wedi cymeryd urddau, penodwyd ef yn gurad Aberffraw, Môn; a chafodd M.A. yn 1585. Cyfansoddodd "Six Lectures upon the latter part of the third Chapter of the Epistle to the Hebrews." Llundain, 1600. Y mae Cân o'i waith ar "Gyffelybiaeth Dyn," i'w gweled yn y Brython, cyf. v. t.d. 22.

**ROBERTS**, PARCH. JOHN, ficer Dymeirchion, sir Fflint, a anwyd yn Mhlas Harri, plwyf Llannefydd, sir Ddinbych, yn 1775. Yr oedd o'i febyd o dueddiadau crefyddol. Wedi cyrhaedd oedran cyfaddas, efe a anfonwyd i Fettws Abergele, at y Parch. David Jones, Ysgolfeistr, i'w ddwyn i fynu yn offeiriad. Wedi hyny, aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1792, lle y graddiwyd ef yn M.A. Yn 1799, rhoddwyd argraffiad o'r Beibl Cymraeg, a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn y wasg yn Rhydychain, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Fuddiol, tan olygiad y Parch. David Davies, offeiriad Penegoes. Diwygiwr y wasg oedd y Parch. R. Hughes, Cymrawd o goleg Iesu, eithr wedi gorphen pum' llyfr Moses, efe a roes y gwaith i fynu i Mr. Roberts, yr hwn oedd ar y pryd yn cadw yspeidiau yn y Brifysgol. Treuliodd tua blwyddyn a haner yn y gorchwyl hwn. Yn 1809, efe a gydlafuriodd gydag eglwyswyr eraill, i barotoi argraffiad newydd o'r Beibl, a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn Nghymraeg; ac o hwn lledaenwyd 20,000 gan y Gymdeithas uchod. Cafodd ei urddo gan Dr. Warren, esgob Bangor, i wasanaethu Llanelian, Môn; ond cyn iddo ymgymeryd â'r swydd, cyflwynwyd iddo guradiaethau Chislehampton a Stadhampton, ger Rhydychain, lle y bu am saith mlynedd. Yn 1803, yr oedd ganddo ef a'i gyfeillion awydd iddo gael lle yn Nghymru, oblegid ei fod mor hyddysg mewn llenyddiaeth Gymreig, ac yr oedd lle ar ei gyfer, sef curadiaeth Dymeirchion. Yn 1807, pan ddaeth y fywiolaeth yn wag, a'r Dr. Cleaver newydd ddyfod yn esgob Llanelwy, efe a'i cyflwynodd i Mr. Roberts. Yn 1813, bu yn brif foddion i sefydlu Beibl Gymdeithas sir Fflint. Cymerodd ran flaenllaw hefyd yn sefydlu cangen o'r Gymdeithas Genhadol Eglwysig, yn siroedd Dinbych a Fflint, yn 1812. Bu yn foddion i gael argraffiad newydd o Lyfr yr Homiliau; a dechreuodd ddwyn allan gyhoeddiad cyfnodol Cymraeg a Saesneg, o'r enw Cylchgrawn Cymru, ond o ddiffyg cefnogaeth, ni chyhoeddwyd ond pedwar neu bump o rifynau. Cyhoeddodd gasgliad o Emynau at wasanaeth yr addoliad cyhoedd yn Eglwys Lloegr, o'r hwn y cafwyd ail argraffiad yn 1831. Yn 1828, bu ganddo law yn sefydliad Cymdeithas Traethodau Cymreig a Seisnig, a chyda'r gorchwyl hwn y treuliodd y rhan fwyaf o flwyddyn ddiweddaf ei fywyd. Yr oedd yn ddiwygiwr yn yr eglwys; mynai, pe gellid, drefnu rhyw foddion gwahanol i'r drefn gyffredin i hyfforddi a dewis dynion ieuainc i'r weinidogaeth eglwysig. Gofidiai fod dynion llygredig yn cael mynedfa mor rhwydd i'r swydd, yn unig am eu bod wedi myned trwy arholiadau mewn dysgeidiaeth. Heblaw a enwyd, cyhoeddodd ddwy neu dair o bregethau, traethawd ar yr Iaith Gymraeg; cyfarwyddiadau i fyw yn ofn Duw, allan o *Alarum Allein* —yr oedd Mr. Charles o'r Bala yn gydweithiwr âg yn gyda'r gwaith olaf hwn. Bu farw Gorph. 25, 1829, yn 54oed, a chladdwyd ef yn Llannefydd.

**ROBERTS**, PARCH. PETER, awdwr amryw lyfrau ar dduwinyddiaeth, a hanesyddiaeth Prydeinig, a anwyd yn Tai yn y Nant, plwyf Rhiwabon, yn 1760. Enw ei dad ydoedd John Roberts, yr hwn ydoedd fab ieuangaf i rydd-ddeiliad yn y plwyf hwnw. Gwneuthurwr awrleisiau oedd y John Roberts hwn, yr hwn a ddygai yn mlaen y fasnach hono ar y cyntaf yn Rhiwabon, ac wedi hyny yn Ngwrecsam. Danfonwyd P. Roberts pan yn ieuanc i ysgol ramadegol Gwrecsam, lle yr arosodd hyd nes bod yn

Digitized by Google

bumtheg oed, pryd y symudodd i ysgol ramadegol Llanelwy, ac yno yr oedd dan addysg, ac hefyd yn cynorthwyo yr athraw. Yr oedd yr ysgol hon ar y pryd mewn sefyllfa hynod o lewyrchus, dan ofal y Parch. P. Williams, wedi hyny ficer Bettws Abergele; a phlant o bob parth i'r wlad yn dyfod yno am addysg, yn enwedig o'r Iwerddon. Dewiswyd P. Roberts yn athraw annghyoedd, ar rai o'r dosparth olaf, yr hyn debygir a fu yn foddion i'w ddwyn i sylw Dr. Usher, yr hwn ydoedd ar y pryd yn Gymrawd o Goleg Trinity, Dublin, a'r hwn a fuasai yn trigianu am rai misoedd yn Ngogledd Cymru. Y. Dr., gan syniaw yn uchel am ei dalent, a'i alluoedd, a'i cymerth i'w nawdd, ac a fu yn dra charedig wrtho, gan ei wahodd i ddyfod drosodd i Dublin, ac efrydu yno dan ei ofal ef, yr hwn gynnygiad a dderbyniodd efe yn rhwydd a diolchgar. Derbyniwyd ef yno fel *sizar*, ac enillodd yn fuan barch a serch ei ddysgawdwyr. Seryddiaeth, a'r ieithoedd dwyreiniol oeddynt yn awr ei efrydiau mwyaf dewisol; ac oddiar ei wybodaeth helaeth yn y flaenaf, gobeithiai Dr. Usher y cawsai ei ddilyn ef fel athraw yn y cyfryw gangen o ddysgeidiaeth. Yr oedd yntau ei hun wedi edrych i fynu at y "gadair seryddol" fel hoff amcan ei uchelgais; a phan y rhoddwyd hi i arall, teimlodd y siomedigaeth i'r byw. Yr oedd ei iechyd wedi ei anmharu, a thua dechreu y Gwrthryfel Ffrengig, bu yn teithio yn rhan ddeheuorllewinol Ffrainc, ac yn trigianu am yspaid gerllaw dyfroedd Barreges, yn nghymydogaeth y Pyrenees; gadawodd yn mhlith ei ysgrifau, ddyddlyfr o'r daith hon, ond ni chynwysa nemawr o ddim dyddorol, a thybir na fwriadodd yr awdwr mo hono erioed i gael ei gyhoeddi. Ar ei ddychweliad i'r Iwerddon, bu yn llanw y swydd o athraw teuluaidd yn y wlad hono; ac yna penodwyd ef i arolygu addysgiaeth arglwydd Lanesborough, a'i gefnder, Mr. Latouche. Yn mhen yspaid, aeth gyda hwynt i Eton, lle y daeth i gydnabyddiaeth âg amryw wyr o fri, megis yr esgob Douglas, Mr. Bryant, awdwr *y Mythology*, a Dr. Heath. Y rhai hyn, a chyfeillion eraill, a'i hanogasant i gyhoeddi ei "Harmony of the Epistles," gwaith llawer o flyneddau gwerthfawrocaf ei oes; a thrwy eu canmoliaeth hwy i'r gwaith, darfu i brifysgol Caergrawnt ei argraffu ar ei thraul ei hun. Cyhoeddwyd ef mewn un cyfrol 4plyg, yn 1800. Wedi gorphen o'r ddau ysgolor eu dysgeidiaeth, efe a ddaeth i wlad ei enedigaeth, gan fyw ar flwydd-dal a dderbyniai gan ei gynysgolorion, arglwyddi Lanesborough, a Bolton; ac ymroddodd yn awr i efrydu henafiaethau, a hanesiaeth y Cymry. Cafodd ei fywiolaeth gyntaf, sef yr eiddo Llanarmon Dyffryn Ceiriog, gan yr esgob Cleaver, yn 1810; eithr nid allai fyw yn y lle noethlwm hwnw ond ychydig fisoedd yn y flwyddyn, a chartrefai yn benaf yn Nghroesoswallt, lle y perchid ef yn fawr oblegid ei rinweddau personol, a'i alluoedd awdurol. Tua'r flwyddyn 1814, rhoddes arglwydd Crewe iddo fywiolaeth Madeley, yn sir Amwythig; ac yn mhen yspaid, cynygiwyd offeiriadaeth iddo gan y noddwr gwresog hwnw i dalent ac athrylith, yr Esgob Burgess o Dyddewi, ond yr hon a wrthododd. Yn Rhagfyr, 1818, rhoddodd Dr. Luxmore, esgob Llanelwy, berigloriaeth Helygain, sir Fflint, iddo, trwy yr hyn y codwyd ef uwchlaw pob pryder ac eisiau. Ond byr iawn fu ei fwynhad a'i ddefnyddioldeb yn Helygain. Cwynai ers blyneddau o herwydd iselder yspryd, cur arteithiol yn ei ben, a gwendidau eraill. Trwy ei ymdrechion i lanw ei ddyledswyddau plwyfol yn deilwng, tybid ei fod yn gwella; ond Mai 29ain ac efe wedi bod yn darllen y gwasanaeth yn yr eglwys, a newydd ddychwelyd i'w dy, galwodd cardotyn, gan ddeisyf ei elusen wrth y drws, a thra yn y weithred o estyn cardod i'r truan, tarawyd ef âg ergyd o'r parlys mud, syrthiodd i lawr, a bu farw y bore canlynol. Anfynych y dygwydd symudiad mor sydyn, oddiwrth y gwaith at y wobr, na gweithred olaf mor gyson â gweithredoedd yr holl fywyd. Yr oedd yn dra hyddysg yn nysgeidiaeth y Rabbiniaid Iuddewig, ac arddengys ei *Letters to Volney*, gydnabyddiaeth eang o wahanol ieithoedd, cystal ag o bynciau gwyddonol. Heblaw yr "Harmony of the Epistles," yr oedd efe yn awdwr y gweithiau canlynol:—(1) "Christianity Vindicated, in answer to Volney on Ruins," 1800; (2) "Sketch of the Early History of the Cymry," 1803; (3) "Chronicles of the Kings of Britain," cyfieithiad o Frut Tysilio; (4) "The Cambrian Popular Antiquities," 1815; (5) "An Essay on the Origin of Constellations;" (6) "The Art of Universal Correspondence;" (7) "Review of the Policy and peculiar Doctrines of the Modern Church of Rome;" (8) "Manual of Prophecy;" (9) "Letter to Dr. Milner, on the supposed Miracle of Winifred's Well;" (10) "Cyfieithiad i'r Saesneg o'r 'Trioedd' a briodolir i Ddyfnwal Moelmud." Cyfansoddodd hefyd, "History of Oswestry," yr hwn a gyhoeddwyd heb enw yr awdwr, yn 1815.

**ROBERTS**, Robert, Clynog, ganwyd y pregethwr hynod hwn yn y Ffridd, Baladeulyn, Llanllyfni, Medi 12, 1762. Ei rieni oeddynt Robert Thomas, a Catherine Jones, y rhai hefyd oeddynt yn bobl grefyddol, yn cynal addoliad teuluaidd yn eu ty, ac ymgynullai cynulleiddfa fechan o Fethodistiaid Calfinaidd i addoli yn y Ffridd, am lawer blwyddyn. Parhaodd Robert yn anghrefyddol er hyny hyd onid oedd yn 16eg oed; a'r pryd hyny, wrth wrando yr enwog Jones o Langan yn pregethu yn Brynrodyn, ger Caernarfon, glynodd saethau gwirionedd yn ei galon; ac yn lle codi llechau yn nghloddfeydd Llanllyfni, fel yr arferai cyn hyny, dechreuodd Duw ei gymhwyso i gloddio meini bywiol iddo ef, er adeiladu ei dŷ ysbrydol ei hun. Wedi ymwasgu â'r dysgyblion, newidiodd ei alwedigaeth, ac aeth i weithio fel llafurwr ar fferm yn agos i Frynengan; o'r lle hwnw, aeth i'r Coed Cae Du, yn yr un ardal, hen gartref y diweddar Barch. Richard Jones o'r Wern, lle y bu nes y priododd; ac mewn ty ar y tyddyn hwnw y bu fyw am rai blyneddau wedi priodi, hyd nes y symudodd i Glynog Fawr, lle y treuliodd y gweddill o'i oes, ac y gorphenodd yn orfoleddus ei yrfa fer a dysglaer. Yn mhen naw mlynedd wedi ymuno â chrefydd, dechreuodd bregethu; a bu farw yn ddeugain mlwydd oed, wedi enill iddo ei hun enwogrwydd uchel fel pregethwr annghyffredin o danllyd, hyawdl, a dylanwadol iawn. Heb nemawr ddysgeidiaeth reolaidd, ymgododd o geudod dinodedd gwledig, i safle uchel yn awyrgylch areithfaol ei wlad; ac am yspaid ei oes fer, bu yn lluchedenu ac yn fflaglu trwy'r tywyllwch moesol a'i gordoai, gan adlewyrchu ar beryglon ei gydoeswyr diofal. Yr oedd wedi cyfarfod âg anwyd trwm, neu nychdod, pan yn llanc ieuanc, a hyny mewn amser, wedi ei draws-newid o fod yn ddyn lluniaidd a thal, yn gorach byr a chrwcca, a dyna agwedd ei gorph afiachus yn llafurio, holl ystod amser ei weinidogaeth. Ond er ei fod yn wael ac afluniaidd ei gorph, eto yr oedd ei lais yn glir, a'i

Digitized by Google

barabl yn groyw, a chanddo gôf gafaelgar; ac er nad oedd yn deall ffigyrau araithyddiaeth, na rhesymiaeth ychwaith, eto yr oedd yn eglur i bawb oedd yn eu deall, eu bod fel ffrydiau yn tryloewi yn naturiol yn nghymwysder ei eiriau, priodoldeb ei gyffelybiaethau, a phwys ei resymau; ac yn enwedig pan y byddai llewyrch yr arddeliad ar ei yspryd. Gweithredai effeithioldeb ar ei wrandawyr trwy y moddion a'r dulliau canlynol:—1. Edrychiad llym, deffrous, awdurdodol, a threiddgar. 2. Cyfarchiadau byrbwyll, brawychus, a difrifol. 3. Dysbeidiadau disymwth ac annysgwyliadwy, yn nghanol traethiad gwresoglym a thanbaid. Heblaw y dulliau a'r moddion a nodwyd, gellir hefyd grybwyll "wylo," oblegid yr oedd yn hyn yn dra nodedig. Nodwn bellach engraifft neu ddwy o'i ymarferiadau dylanwadol ar ei wrandawyr. Weithiau byddai darlleniad ei destyn yn unig, yn peri effeithiau rhyfeddol. Yr ydym yn hysbys trwy ffafr un oedd yn gwrando arno ar y pryd, am un tro y darllenai yn destun y geiriau canlynol, "Brasâ galon y bobl hyn, &c." Darllenai hwynt gyda'r fath gyffroad, ac mewn dull mor danllyd ac effro, ag a wnelai i'w wrandawyr deimlo yn y fan, y fath iasau o fraw a dychryn, ag a barai i'w calonau ddirgrynu o'u mewn. Dro arall darllenai y geiriau hyn yn destyn—"Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd," &c., ac yn ebrwydd anerchai ei wrandawyr mewn dull tra chyffrous, gan waeddi allan, Bobol! bobol! bobol!—dyma fôr heb waelod iddo; drwy gymhorth Duw, myfi a anturiaf i'w gwr. Deliwch eich golwg arnaf bobol," yr hyn a effeithiai gynhwrf brawychus trwy yr holl gynulleidfa. Marwor yn oddiar ei allor ef a daniodd enaid Christmas Evans; canys ei wrando ef yn pregethu, a roddes y drychfeddwl i'r "Bunyan Cymreig" hwnw, am y dull dramayddol o draddodi. Ni byddai R. Roberts byth yn foddlawn yn y pwlpud, os na byddai ei bregeth yn eglurhad yr Ysbryd a nerth. Pan na byddai arwyddion fod ei ymresymiadau yn gafael yn nghydwybodau ei wrandawyr, mynych, meddir wrthym, y gwelid ef yn sefyll, fel "gwr wedi synu" yn nghanol ei bregeth; ac yna gan ddyrchafu ei lygaid tua'r nef, tra y byddai deigryn ar ol deigryn yn ffrydio dros ei rudd, rhoddai floedd ddifrifol, "O Arglwydd! difa y llen! difa y llen!" nes y byddai y bobl yn gollwng allan eu llamen yn un fanllef sioniarus, fel yn ddiarwybod iddynt eu hunain. Yna y pregethwr a ail gychwynai ar ei fater, gyda gwedd siriol, wrol, a bywiog, megis un wedi dadebru ar ol lludded blin, wedi cael "nerth gyda Duw" yr oedd yn hawdd iddo wedi hyny gael awdurdod ar y dyrfa; ac felly byddai y bregeth, wedi dechreu yn drymaidd, yn diweddu yn hynod effeithiol; gwelid rhai gwrandawyr yn llewygu, eraill yn molianu, a phawb yn wylo; rhai yn gwaeddi am drugaredd, eraill yn diolch am ei chael, a Robert Roberts ei hun wedi ei orchfygu gan nerthoedd tragwyddoldeb, yn gorfod ail weddio, "O Arglwydd! attal! attal! cau dipyn ar y *curtain*, onide ddaliwn ni ddim!" Dywedir yn ei fywgraffiad, o waith ei nai, y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, Ei fod fel rhyw lewyrch tanbaid yn ffurfafen yr eglwys, ac fel angel dysglaer yn ehedeg yn nghanol y nef, a'i lef fel taranau cryfion yn erbyn Babilon fawr; a bod y fath gyflawnder o arddeliad yn ymdywallt ar ei weinidogaeth, nes y byddai ei natur yn methu ymgynal dano, a'r bobl yn llefain wrth yr ugeiniau a'r cannoedd, fel pe buasai cleddyfau yn eu trywanu, a'u dagrau yn rhedeg fel ffrydiau. Byddai yr hen bobl yn wylo wrth son am dano; diau iddo wneud gwaith mawr yn ei oes fer; ond y mae ei ddylanwadau yn byw yn hytrach mewn traddodiad nag mewn hanes; diau mai athrylith areithyddol gref, yn hytrach na choeth, oedd yr eiddo ef, un rhy gyfareddol i'w beirniadu. Claddwyd ef yn mynwent Clynog Fawr, lle y mae maen a chofnod yn dynodi gorweddle dawel ei lwch.

ROBERTS, Thomas, ydoedd frodor o Lwynrhydol, sir Gaernarfon. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain. Yr oedd yn Gymro twymgalon a gwladgarol, ac yn aelod blaenllaw a selog o Gymdeithas y Cymrodorion. Ystyrid ef hefyd yn henafiaithydd Cymreig rhagorol. Ei gasgliad ef yw y penillion Cymreig yn y *Cambro-Briton*. Yn 1831, cyhoeddodd *The Welsh Interpreter*, llyfr i gynorthwyo y Sais i feistroli'r iaith Gymraeg. Canodd Bardd Nantglyn, Gywydd marwnad ei wraig, yr hon a fu farw Mawrth 29, 1829. Bu iddo amryw blant, ac un o honynt ydoedd Maurice Roberts, yr hwn a gyfieithodd i Saesneg, awdl "Dafydd Benfras i Llywelyn ab Iorwerth."

ROBERTS, William, D.D., ydoedd frodor o sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1585. Addysgwyd ef yn Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, lle y daeth yn gymrawd, a phrwyadur; ac yn 1629, penodwyd ef yn is-ddeon Wells. Cafodd hefyd berigloriaeth Llandyrnog, a pherigloriaeth wagswyddol Llanrhaiadr-yn-Nghinmeirch, y ddau le yn Nyffryn Clwyd. Dyrchafwyd ef yn esgob Bangor, trwy ddylanwad yr archesgob Laud, meddai Wood, am ei ymdrechion yn darganfod eiddo eglwysig, gwerth mil o bunau; a chysegrwyd ef i'r swydd, Medi, 1637. Fel ei ragflaenoriaid, daliai y bywiolaethau uchod, cystal ag archddeoniaeth Bangor a Mon, wedi ei ddyrchafu i fod yn esgob. Yn ystod y gwrthryfel werin lywodraethol, goddefodd lawer oblegid ei deyrngarwch; gyrwyd am dano trwy awdurdod Ty y Cyffredin yn 1649, fel troseddwr, ac atafaelwyd ei etifeddiaeth bersonol. Yn 1630, gwerthwyd maenoriaeth Gogarth i un John Jones, am y swm o 322*p.* 4*s.* 3*c.* Eithr yn 1660, dychwelwyd iddo yr holl eiddo a gollasai, a bu yn haelionus tuag at ei brifeglwys, ac achosion eraill. Terfynodd ei einioes, neillduol am ei dduwiolfrydedd a'i elusengarwch, Awst 12, 1665, yn 80 oed, yn mhersondy Llandyrnog, ger Dinbych, ac yn nghangell yr eglwys hono y claddwyd ef.

ROBERTS, Parch. William, Clynog, a anwyd yn mhlwyf Clynog, Arfon, Awst 8fed, 1773. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, ac yn aelodau gyda'r Bedyddwyr; ond pan tuag ugain oed, ymunodd ef gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nghapel Uchaf Clynog. Cafodd addysg ychydig gwell na'r cyffredin, gan y gallai ddarllen Saesneg, ysgrifenu, a rhifyddu, pan tua deuddeg oed. Yn fuan wedi ymuno â chrefydd, cymerodd ran flaenllaw, ar anogaeth Mr. Charles o'r Bala, gydag eraill, yn y gwaith rhagorol o sefydlu Ysgolion Sabbathol yn ardaloedd Clynog. Traddododd ei bregeth gyntaf mewn lle o'r enw Ty'n Llwyn, ger y Capel Uchaf, tua'r flwyddyn 1804, a chafodd urdd gweinidog yn mhen tua phumtheg mlynedd ar ol hyny, sef yn 1819. Trigianodd y rhan fwyaf o'i oes, mewn ffermdy o'r enw Hendre Bach, yn yr hwn le y buasai ei henafiaid byw am yn agos i dri chan mlynedd. Fel pregethwr, yr oedd yn bwyllog ac athrawaidd; er ar brydiau yn cael ei demtio i gornbriddo wrth geisio esbonio dirgeledig-

Digitized by Google

aethau prophwydoliaethau yr Ysgrythyrau. Yr oedd yn ddiarebol am ei hyddysgrwydd yn y Beibl. Collodd ei olwg ychydig flyneddau cyn diwedd ei oes, a phan wedi hyny yn myned oddiamgylch i bregethu, dechreuai yr addoliad, trwy adrodd rhan o air Duw, a hyny mor rhugl a chywir a phe yn ei ddarllen. Nid oedd dim yn ei ddawn yn wresog a chynyrfiol, ond yr oedd ei wybodaeth gyffredinol, ei synwyr da, ei fedr i agor yr Ysgrythyrau, a chynwysiad sylweddol ei bregethau, yn gwneud ei weinidogaeth yn dderbyniol i bawb oedd yn berchen deall a barn. Mewn cyfarfodydd eglwysig, ac yn nghynnadleddau neillduol y Gymdeithasfa, wrth drin materion athrawiacthol ac ymarferol, byddai ei sylwadau yn wastad yn ddyddorol ac adeiladol. Yn 1819, cyhoeddodd lyfryn bychan, yn cynwys detholion o waith y Parch. J. Angell James, i Athrawon yr ysgol Sabbathol, wedi ei gyfieithu ganddo ef ei hun. Cyhoeddodd hefyd lyfr ar yr "Ordinhad o Fedydd," yn 1845. Bu farw, Hydref 14, 1857.

**ROBERTS**, Parch. William, Amlwch, ganwyd y gweinidog parchus hwn, yn 1784. Yn ei ieuenctyd, yr oedd yn fyfyriwr llafurus annghyffredin, ac felly y parhaodd trwy ei holl oes. Ychydig o fanteision dysgeidiaeth reolaidd a gafodd, ond ar draws pob anfantais, trysorodd doraeth gref o hono. Dysgodd Saesneg trwy brynu Catecism Brown yn yr iaith hono, a'i gydmaru gyda'r cyfieithiad Cymraeg. Dechreuodd bregethu yn 1808, ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, yn 1817; bu farw Gorphenaf 19, 1864, a chladdwyd ef yn mynwent Amlwch. Nodweddau amlycaf ei gymeriad fel dyn, a'i enwogrwydd fel pregethwr, ydoedd difrifoldeb. Nis gallai oddef ysgafnder, na choegddigrifwch, yn enwedig gyda pethau sanctaidd. Yr oedd cylch ei ddylanwad a'i ddaioni yn fawr iawn. Tra yn cynal masnach anturiaethus gartref yn Amlwch, ni oddefai i hyny gyfyngu dim ar ei lafur a'i ddefnyddioldeb gyda chrefydd, a phregethu. Nid oedd neb mwy dyfal yn y Cyfarfodydd Misol, nac y meddylid yn uwch o'i farn a'i benderfyniad ynddynt; na neb yn fwy ymdrechgar i fyned i'w gyhoeddiadau Sabbathol. Teithiai yn fynych, ddeg, a phumtheg milldir, ie, a rhagor, ar fore Sabboth, a phregathai dair gwaith yn egniol, ar draws llawer rhuthr o beswch a fuasai yn digaloni cawr. Yr oedd y Cyfarfod eglwysig, y Cyfarfod Gweddi gartref, y Cwrdd Misol, Cynghorau a phwyllgorau sir Fôn, y Cyfarfodydd Pregethu, a'r Sassiwn fawr, â bwlch pwysig ynddynt pan symudwyd William Roberts, Amlwch, oddiwrth ei waith at ei wobr.

**ROBESTON ORLLEWINOL**, plwyf yn nghantref y Rhos, swydd Benfro, 2½ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Milford. Erwau, 1100. Gwerth ardrethol, 1770*p*. Poblogaeth, 159. Tai anncdd, 29. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 169*p*.

**ROBESTON WATHEN**, neu y Ddwyreiniol, plwyf yn nghantref Narberth, swydd Benfro, ar yr afon Cleddau, 2 filldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Narberth; a 3½ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Narberth. Llythyrfa, Narberth. Erwau, 1345. Gwerth ardrethol, 1751*p*., o ba rai y mae 18*p*. mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 362. Tai annedd, 92. Cyfodir ceryg calch o ansawdd ragorol yn y plwyf hwn, a darganfyddir ffossylau gwerthfawr yn y galchgraig yma yn achlysurol. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorïaeth.

**ROBIN DDU**, o Fon, bardd enwog, yn ei flodeu rhwng 1430 a 1470. Y mae amryw ddarnau o'i waith ar gael mewn ysgriflyfrau, ac yn eu plith, gywydd a gyfansoddwyd yn 1450, yn mha un y dywedir ei fod newydd ddychwelyd o bererindod i Rhufain, er ymweled a'r Pab Nicholas V., mewn llong lwythog o win, yn rhwym i Fon, ei sir enedigol.

**ROBIN DDU**, o Ddeheubarth, a elwir gan Moses Williams, yn Robin Ddu ab Siencyn Bledrydd, bardd yn ei flodeu rhwng 1470 a 1510.

**ROBINSON**, Hugh, D.D., ydoedd bumed mab Dr. Nicholas Robinson, esgob Bangor, a ganwyd ef yn mhlwyf Llanfair, sir Fon. Addysgwyd ef yn ysgol Caerwynt, a chafodd dderbyniad fel Cymrawd parhaol o'r Coleg Newydd, Rhydychain, yn 1605, wedi iddo wasanaethu dwy flynedd ar brawf. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1611, ac yn mhen tair blynedd wedi gadael y coleg, penodwyd ef yn brif-athraw ysgol Caerwynt. Yn 1634, efe a wnaed yn archddeon Caerloyw; yr oedd hefyd yn ganon yn Wells, ac yn beriglor Dursley, yn y sir hono. Ar doriad allan y rhyfel cartrefol, efe a gymerwyd yn garcharor yn Dursley, a dodwyd ef ar farch, a'i wyneb at barthau olaf yr anifail, a phrysurwyd ag ef i garchar Caerloyw. Wedi hyny, ymunodd â phlaid y Senedd, cymerodd eu llw, ac ysgrifenodd i'w hamddiffyn. Trwy iddo golli y ganoniaeth a'r archddeoniaeth yn ystod y rhyfel, rhoddwyd yn wobr iddo, beriglorïaeth Hinton, ger Caerwynt, o ba fywiolaeth y troisid breningarwr allan. Yr oedd yn ieithwr rhagorol, yn dduwinydd galluog, ac yn dra chydnabyddus â hanesiaeth henafol. Cyfansoddodd y gweithiau canlynol:—*Preces, written for the use of the children of Winchester School, in Latin and English; Grammaticalia quaedam*, yn Saesneg a Lladin. *Antiquae Historiae Synopsis;* argraffwyd y rhai hyn yn Rhydychain yn 1616. *Scholae Wintoniensis Phrases Latinae* (The Latin Phrases of Winchester School), 1651–64, a gyhoeddwyd gan ei fab, Nicholas Robinson. "*Annalium Mundi universalium, &c., Tomus Unicus*," 1677. Daeth y llyfr hwn i ddwylaw Dr. Thomas Pierce, deon Salisbury, a thrwy orchymyn y brenin, efe a'i hadolygodd, a'i diwygiodd, ac a chwanegodd gryn lawer ato. Bu Dr. Robinson farw Ebrill 8, 1655, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys St. Giles in the Field, Llundain.

**ROBINSON**, Nicholas, D.D., prelad enwog. a anwyd yn nhref Conwy. Ei dad ydoedd John Robinson, Ysw., a'i fam Elin, merch William Birkdale, Ysw. Yr oedd ei henafiaid ers amryw genedlaethau yn frodorion o Gonwy, eithr o darddiad Seisnig. Addysgwyd ef yn Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt, lle y cymerodd y radd o B.A. yn y flwyddyn 1547, a'r flwyddyn ganlynol etholwyd ef yn Gymrawd. Urddwyd ef yn ddiacon gan yr esgob William Glynn, o Fangor, ac yn offeiriad y dydd canlynol, trwy freinthawl oddiwrth y Cardinal Pole. Gan iddo oddef erlidigaeth oherwydd ei Brotestaniaeth yn nheyrnasiad Mari; wedi ei marwolaeth, efe a benodwyd yn gaplan teuluaidd i Dr. Parker, archesgob Caergaint. Yn 1562, penodwyd ef yn archddeon Meirionydd, yn esgobaeth Bangor, a chafodd hefyd beriglorïaeth wag-swyddol Llaneurgain, yn esgobaeth Llanelwy. Ar farwolaeth yr esgob Meyrick, dyrchafwyd ef yn esgob Bangor, a chysegrwyd ef i'r swydd, Hydref 20, 1566, cymerodd hefyd y radd o D.D., yn ystod yr un flwyddyn. Cyfansoddodd am-

Digitized by Google

ryw lyfrau, eithr ni chyhoeddodd yr un o honynt. Yn eu plith yr oedd casgliad helaeth o ddefnyddiau hanesyddol, yn dal cysylltiad âg eglwys a sefyllfa y Prydeiniaid a'r Cymry. Y mae hwn yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt, yn llawysgrif yr esgob ei hun; ac hefyd fywgraffiad o Gruffydd ab Cynan, brenin Cymru, a gyfieithodd o'r Cymraeg gwreiddiol i'r Lladin. Wedi esgobaethu am ddeunaw mlynedd, efe a fu farw Chwef 13, 1584–85, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys Bangor, ar du deheu y brif allor. Priododd Jane, merch Randle Brereton, ac wyres i Syr William Griffith, o'r Penrhyn.

**ROCHE**, neu Reupa, pentref, a phlwyf, yn nghantref Rhos, swydd Benfro. Y mae y pentref yn sefyll yn agos i feisfor St. Bride; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd; a medda Lythyrfa, dan Hwlffordd. Y mae y plwyf yn cyrhaedd hyd lan y môr; ac yn cynnwys 4418 erw o dir, a 185 o ddwfr. Gwerth ardrethol 3413*p.*, o ba rai y mae 400*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 679. Tai anned, 146. Y mae castell Roch, neu Rupa, yn sefyll ar fin esgair fynyddig, a ymgyfyd yn ddisymwth o'r gwastadedd, yr hwn ond odid a gyfodwyd fel ffin-amddiffynfa, gan rai o'r goresgynwyr Normanaidd boreuaf; neu gan y Fflemingiaid, y rhai a ymsefydlasant yn y lle hwn yn nheyrnasiad Harri y Cyntaf. Perchenog cyntaf y castell ag y gwyddys dim am dano, oedd *Adam de Rupe*, neu *de la Roche*, yr hwn yn ol barn rhai oedd ei seilydd, ac i'r hwn hefyd y priodolir adeiladiad eglwys, a phriordy Hubberston, Pill. Ychydig sydd wedi ei gofnodi o hanes y castell hwn, yr hwn debygid oedd wedi ei fwriadu yn ei adeiladaeth, at amcanion teuluaidd, cystal a milwraidd; a pharhaodd yn meddiant teulu *de la Roche* hyd deyrnasiad Harri y Chweched, pan y rhanwyd ettifeddiaethau y teulu hwnw, y rhai oeddynt dra ëang, rhwng dwy gyd-aeres, ac er y pryd hyny, bernir ei fod wedi ei roddi i fynu fel preswylfod. Rhoddwyd gwarchlu ynddo i'w gadw dros y brenin, yn ystod y rhyfel Seneddol, yn amser Charles y Cyntaf; ac yn y flwyddyn 1644, gosodwyd gwarchae arno gan blaid y Senedd, dan lywyddiaeth y Cadben Edwards, i'r hwn, wedi amddiffyniad o ddau ddiwrnod, ei rhoddwyd i fynu.

Bywioliaeth eglwysig y plwyf hwn sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 137*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

**ROCKFIELD**, plwyf, a phentref yn swydd Fynwy, ar lan yr afon Monnow, 2¾ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Mynwy. Medd lythyrfa dan Fynwy. Erwau, 1993. Gwerth ardrethol, 2429*p.* Poblogaeth, 270. Tai, 56. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Noddwr, Syr J. D. Harding.

**RODERICK**, David, ydoedd frodor o Landeilo Fawr, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1746, ond efe a adawodd y lle hwnw yn ieuanc, i fod yn ailathraw cynorthwyol ysgol Harrow, pan oedd yr enwog Dr. Parr yn athraw cynorthwyol cyntaf. Bu wedi hyn yn cydwasanaethu â Dr. Parr, mewn sefydliad cyffelyb yn Stanmore. Bu farw, yn Choolsbury, yn sir Berks, yn 1831, yn 85 mlwydd oed.

**ROE-WEN**, neu yr Wy-wen; ac felly y "Gorswen" gerllaw, sydd le, pedair milltir o Gonwy, gogledd ddwyreiniol o Gaernarfon, gyda Llythyrdy dan Gonwy. Ymwelwyd a'r lle hwn, âg ystorm aruthrol yn Hydref 1873. Disgynodd cawod anarferol o wlaw ar fryn gerllaw Bwlch-y-ddeufaen, ac ymranodd yn afon lifeiriol, o nerth dihafal, mewn tri chyfeiriad, sef at Lanfair-fechan, Dwygyfylchi, a Roe-wen; ac yn y lle blaenaf, a'r olaf, ysgubodd y llifeiriaint nifer o dai, hyd eu sylfaeni, fel mai prin y gallodd y trigolion ymachub, a ffoi am eu bywyd.

**ROGERUS CONWEY**, ydoedd frodor o dref Conwy, sir Gaernarfon. Yr oedd yn fynach o'r urdd Franciscaidd, ac yn M.A. o Rydychain. Hynodid ef am ei ddysgeidiaeth helaeth, ac yr oedd yn awdwr y llyfrau canlynol:—(1) *Contra Errores Armacani:* (2) *Determinationes Scholasticae;* (3) *Questiones Theologicae;* (4) *Lecturae et Sermones.* Yr oedd yn cydoesi ag Iorwerth III., brenin Lloegr, tua 1370.

**ROSSET**, neu Rhosydd, sydd bentref a chapeloriaeth, yn mhlwyf Gresford, neu y Groesffordd, yn swydd Ddinbych. Saif y pentref gerllaw yr afon Alun, yn agos i reilffordd Caerlleon a Chroesoswallt, pum milltir, gogledd ogledd ddwyrain o Wrecsam. Y mae yma orsaf rheilffordd, a llythyrfa dan Wrecsam. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1840. Poblogaeth yn 1861, 1371. Tai, 275. Rosset-House ydyw palas J. Boydell, Ysw.; Trefalun House a berthyna i Mrs. Townsend; a Hen Neuadd Trefalun, sydd feddiant i B. Griffiths, Ysw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 149*p.*, ac yn nawddogaeth Mrs. Townsend.

**ROWLANDS**, Y Parch. Daniel, un o brif Dadau y Diwygiad Methodistaidd yn Nghymru, a anwyd mewn lle a elwid Pant y beudy, yn mhlwyf Nant cwnlle, swydd Aberteifi, yn y flwyddyn 1713. Ail fab ydoedd i'r Parch. Daniel Rowlands, offeiriad Llangeitho, a Nant cwnlle, a pherchenog y bywioliaethau eglwysig hyny hefyd, medd rhai. Ni's meddwn unrhyw sail i gredu bod ei dâd yn gwybod dim yn brofiadol am grefydd fywiol, er ei fod mewn urddau eglwysig, mwy nag yr oedd y rhan fwyaf o Offeiriaid Cymru yn yr oes hono. Pa fodd bynag, dygwyd ei fab, Daniel, i fynu i'r weinidogaeth, tra yr oedd efe yn hollol anystyriol o bwysigrwydd y swydd, o'r hyn y mae y darluniad a gawn ni o'i ymarweddiad yn mlyneddoedd cyntaf ei weinidogaeth yn brawf digonol; ac ni's gellir meddwl y buasai un tâd duwiol, yn cefnogi plentyn annuwiol amlwg, i ymgymeryd â swydd sanctaidd gweinidogaeth y cyssegr.

Efe a dderbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadegol Henffordd; ac ymddengys ei fod yn feddiannol ar alluoedd cryfion i dderbyn addysg; canys efe a gynnyddodd mor gyflym mewn dysgeidiaeth, fel ei cyfrifid ef yn gymhwys o ran gwybodaeth i gymeryd urddau eglwysig pan yn ddeunaw mlwydd oed; a dywedir iddo gael ei ordeinio yn ddiacon, yn ieuangach o gryn amser nag yr ordeinir neb yn bresenol, sef pan oedd tuag ugain mlwydd oed; ac o ganlyniad, efe a fu dros rai blynyddau cyn cael ei gwbl urddau: felly, y mae yn sicr ei fod yn dra ieuanc wedi cyrhaedd gradd ganmoladwy o hyddysgrwydd yn yr ieithoedd dysgedig, yr hyn a gyfrifid y pryd hyny yn gymhwysder digonol i waith y weinidogaeth; ac efallai, fod gormod o bwys yn cael ei roddi mewn manau ar hyn eto, fel y cymhwysder penaf i weinyddu y swydd oruchel a sanctaidd.

Y traddodiad yn y gymmydogaeth, am ymarweddiad Rowlands yn nyddiau ei ieuenctyd, ydyw, ei fod ef yn llawn o fywiogrwydd naturiol; ac yn dra chyfarwydd yn holl chwareuon ofer yr oes. Y

Digitized by Google

pryd hyny, yr oedd yn mhob plwyf o'r braidd, ryw chwareule neillduol, i'r lle y cyrchai y lluaws, i ymorchestu yn eu campau oferwag; ac yno, yn mhlith oferwyr ei blwyfau, y byddai yr Offeiriad ieuanc, yn flaenaf, a mwyaf bywiog ac egnïol o honynt, wedi bod yn y llan y boreu, yn cyflawni yr hyn a elwid yn wasanaeth cyssegredig; ac wedi i'r campau ar y cemmaes fyned drosodd, ymneillduid i'r dafarn, lle y cynhelid y gyfeddach hyd yn hwyr. Ond, fe ymddengys na fu ROWLANDS yn hir yn y weinidogaeth, cyn i'r Arglwydd o'i ras, ei gymeryd mewn llaw, a dechreu ei addurno â'r gwir gymhwysderau angenrheidiol i gyflawni y gwaith, yr ymgymerasai ef, fel llawer eraill âg ef, yn anystyriol a rhyfygus: canys meddwn seiliau i gasglu ei fod wedi cael ei ddihuno am ei gyflwr, pan o dair ar hugain, i bum mlwydd ar ugain oed, a bod cyfnewidiad amlwg yn ei ymarweddiad a'i weinidogaeth, wedi cymeryd lle yn y canlyniad. Y mae y Parch. John Owen, o Thrussington, yn dywedyd yn ei Fuchdraith, i'w dröedigaeth gael ei ddwyn oddiamgylch yn y modd canlynol;—"Arferai y Parch. Gruffydd Jones, sylfaenydd yr Ysgolion Rhad cylchynol, ddyfod i bregethu mewn amryw Eglwysi trwy y wlad; ac ar ryw achlysuron, daethai i' Landdewi Brefi, lle sydd bedair neu bum milldir o Langeitho; a chan fod ei bregethu yn dra deffrous, nerthol, ac efengylaidd, elai llaweroedd i'w wrando. Ar un tro, cynhyrfwyd ROWLANDS mewn rhyw fodd neu gilydd, i fyned i'w glywed. Yr ydoedd y pryd hwn o olwg uchel-drem, falchaidd iawn, ac yn ymddangos yn llawn coegni ac ysgafnder. Gan mor luosog oedd y gwrandawyr, nid oedd lle iddynt oll i eistedd, ac yn eu mysg, gyferbyn â'r Pregethwr, safai ROWLANDS, yn eglur chwyddedig gan falchder, ac yn llawn o hunan; a dirmyg a gwatwaredd megys yn eistedd ar ei wynebpryd. Mor falch, coegaidd, a dirmygus oedd ei olwg, fel y tynodd sylw neillduol Mr. G. Jones tra yr ydoedd yn pregethu; ac yn gymaint felly, fel y torodd allan mewn gweddi ddifrifol a thoddedig dros y dyn ieuanc balchaidd oedd ger ei fron; gan erfyn yn bennodol ar i Dduw ei wneuthur yn offeryn cymhwys a defnyddiol, er troi llawer o dywyllwch i oleuni. Dywedir i'r weddi hon effeithio yn fawr arno; a'i ymddangosiad wrth ddychwelyd adref, oedd yn wahanol iawn i'r hyn ag ydoedd o'r blaen. Yr oedd yr olwg goegaidd, a'r ofer-siarad wedi ymadael; a'i wyneb tu a'r ddaear, a'i ben yn grymedig; fel yr oedd yn amlwg bod ei feddwl yn dwys-fyfyrio." —Dyna y darluniad a gafodd y gwr Parchedig uchod, o ddechreuad ei dröedigaeth, a hyny gan hen bobl a fuasent dan weinidogaeth ROWLANDS dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a gawsent felly, lawer o fantais i wybod y gwir yn ei gylch.

Gwelodd ei blwyfolion yn fuan fod rhyw dro rhyfedd wedi cymeryd lle ar "Offeiriad ieuanc Llangeitho;" yr oedd ei bregethau yn y canlyniad i'r tro hwn, yn dra gwahanol i'r hyn oeddynt o'r blaen; ac er nad oedd ei wybodaeth yn athrawiaeth yr efengyl ond cyfyng eto, er hyny yr oedd difrifwch a dwyster na chanfyddid o'r blaen, yn anadlu trwy ei weinidogaeth. Crybwyllir am amgylchiad ar ei ddychweliad adref o wrandaw Mr. G. Jones, yr hyn a ddengys mor werthfawr ydyw gair yn ei bryd:—Yr oedd ei feddwl wedi syrthio i'r fath ddigalondid trwy yr olygfa ofnadwy a gawsai ar ei gyflwr ei hun dan y bregeth hono, fel yr oedd yn penderfynu nad anturiai bregethu mwyach. Ar eu ffordd adref, yr oedd y bobl yn son am y bregeth a glywsent, a llawer yn tystio na's gwrandawsent ei chyffelyb erioed o'r blaen; a disgynai eu hymadroddion fel plwm ar galon ROWLANDS druan, nes oedd ei ysbryd ar lewygu ynddo: ond yr oedd yno un ammaethwr yn eu plith, yr hwn a farchogai wrth ystlys yr Offeiriad athrist; ac wrth glywed y lluaws yn mawrygu pregeth Gruffydd Jones, efe a ddywedai, "Wel, wel, canmolwch chwi a fynoch chwi ar y cyfarfod heddyw, ni chefais i ddim budd ynddo; y mae genyf fi achos i ddïolch i Dduw am Offeiriad bach Llangeitho;" gan daro ei law ar ei ysgwydd. Nid oedd hyn ynddo ei hun namyn amgylchiad lled ddi bwys; er hyny fe effeithiodd yr rymus ar feddwl llwfr y gweinidog ieuanc: teimlai ei rwymau yn ymddattod, a'i ysbryd ymollyngar yn adfywio; a dywedai ynddo ei hun, "Pwy a wyr na's gwna yr Arglwydd ryw ddefnydd o honof finnau, greadur gwael?" Bernir mai tu a'r flwyddyn 1737 oedd hyn, a phan oedd DANIEL ROWLANDS yn 24ain mlwydd oed.

Yr oedd hen Weinidog Ymneillduol duwiol, o'r enw *Pugh*, yn gweinidogaethu yn Llwyn pïod, ac ardaloedd eraill o amgylch Llangeitho, yr hwn pan glybu am y cyfnewidiad mawr a wnelsid ar ROWLANDS, a'r gwahaniaeth hynod oedd wedi cymeryd lle yn ei bregethau, a lawenychai yn fawr wrth feddwl fod llaw yr Arglwydd ar weinidog y plwyf; ac annogai ei bobl i achub y cyfleusdra i fyned i'w wrando. Mae yn amlwg fod yr hen weinidog hwn, nid yn unig yn dduwiol, ond hefyd yn feddiannol ar feddwl craffus, ac ysbryd rhyddfrydig ac ardderchog. Efe a ragwelai fod ROWLANDS, fel gwr ieuanc o athrylith gref, dysgeidiaeth goeth, ac ysbryd gwresog, yn feddiannol ar gymhwysderau i fod yn dra defnyddiol, erbyn i Dduw ei drwytho âg argyhoeddiad dwfn; ac am hyny yr hen Ymneillduwr hunan-ymwadol, a lawenychai o eigion calon yn mhoblogrwydd offeiriad y plwyf!

Yr oedd gan Mr. Pugh ychydig ddynion gwir grefyddol dan ei ofal; ac y mae yn ymddangos fod y rhai hyny wedi eu hegwyddori yn dda yn ngwirioneddau yr efengyl: y rhai hyn gan hyny a welent yn fuan wrth wrandaw MR. ROWLANDS, ei fod ef, fel Apolos, yn llawn brwdfrydedd, ac yn y gwresawgrwydd hwnw, yn pregethu yn rymus; ond heb ddysgu ambell gangen athrawiaethol yn ol cyssondeb y ffydd; ac am hyny, attolygent ar Mr. Pugh ei gymeryd mewn llaw, gan ei "ddysgu yn fanylach" yn ffordd Duw; ond yr henafgwr, gan adnabod y natur ddynol yn well nâ hwynt, yn ofni tarfu ROWLANDS pe y buasai yn myned i ymliw âg ef yn y fan yn nghylch ei olygiadau, a chan hyderu y byddai i'r hwn a ddechreuasai y gwaith dâ arno, ei ddwyn rhagddo i berffeithrwydd, a ddywedai, "Gadewch ef yn llonydd; offeryn yw ag y mae yr Arglwydd yn ei gyfodi er gwneuthur rhyw waith mawr yn y byd: efe a ddiwygia mewn amser: plentyn yw efe eto; fe'i dysg ei Dâd nefol ef yn well." Ac felly fu; gwelwyd yn lled fuan fod yr hen weinidog duwiol yn athronydd dâ, a phrophwyd cywir. Unionodd Duw y gwyrni oedd yn ei grêd, cymhwysodd ef at ei law, a gwnaeth ddefnydd rhagorol o hono yn ei genedlaeth.

Yr oedd ROWLANDS y pryd hwn dan argyhoeddiad dwfn ei hunan, a'i ysbryd wedi ei gynhyrfu gan fraw ac arswyd digyffelyb, ac yn gweled ei gyd genedl o'i amgylch yn suddedig yn yr anystyriaeth mwyaf trylwyr, tra yr oedd eu perygl yn ofnadwy; am hyny, efe a ymroddodd i geisio eu di huno, a chyda difrif-

Digitized by Google

wch anarferol, efe a ddechreuodd rybuddio ei gymmydogion; a chyfodai ei lef yn groch, gan ddywedyd, "Ti annuwiol, gan farw, ti a fyddi farw." Colledigaeth dragywyddol wedi ei haeddu gan bechaduriaid, a osodai allan gyd ag eglurder a symlrwydd anarferol yn ei holl bregethau. Yr oedd efe yn dwyn Sinai yn ei holl arswydolrwydd i'w ganlyn i'r pwlpud bob oedfa; ac yr oedd mellt a tharanau arswydus yn ei weinidogaeth, yn peri i'w wrandawyr deimlo fel pe buasai y ddaear yn crynu dan eu traed, gan rym ei genadwri daranllyd, a'i ddifrifwch yntau yn ei thraddodi. Yr oedd ei ysbryd, ei agwedd, ei fuchedd, a'i weinidogaeth, oll yn newydd: swniai cywirdeb a difrifwch yn ei lais, a chanfyddid dwyster diragrithrwydd yn ei wedd: ond er fod ei gennadwri yn ofnadwy, nid oedd dim crasder na sarugrwydd yn ei lais, eithr y tynerwch mwyaf; efe a lefarai fel un wedi ei orlenwi â chydymdeimlad, a than yr argyhoeddiad dyfnaf o'i annheilyngdod ei hun.

Wedi i'r cyfnewidiad yma gymeryd lle yn ei weinidogaeth, fe'i dylynid gan effeithiau grymus ar y gwrandawyr; dyhidlai dagrau dros wynebau cannoedd ar unwaith; y rhai mwyaf anystyriol a ruddfanent gan ofid mynwesol, fel pe y buasent yn sefyll ar ddibyn anobaith; a'r mwyaf cyndyn, masweddgar, ac annuwiol, a wylent yn aml, dan argyhoeddiadau dyfnion; a pharhaodd yr effeithiau rhyfeddol hyn, i fesur helaeth iawn dros bedair neu bump o flynyddoedd wedi iddo ddechreu ar ei weinidogaeth ddeffrous a llwyddiannus; at yr hyn y cyfeiriai Bardd Pant y celyn, yn ei alareb ddihafal am dano;—

"Nol pregethu'r ddeddf dymhestlog
Rai blynyddau yn y blâ'n,
A rhoi llawer yn friwedig,
'Nawr cyfnewid wnaeth ei gân."

Yr oedd ROWLANDS y pryd hyn yn gwasanaethu eglwysi Llangeitho, a Llanewnlle; ac yn fuan ar ol ei gyfnewidiad, efe a gafodd is-berigloriaeth Llanddewi brefi yn ychwanegol; a bu yn gwasanaethu y tair eglwys dros yspaid lled faith, cyn cael ei fwrw allan gan yr Esgob; a phregethai yn gyffredin dair gwaith ar y Sabbath: ond, ymddengys na's cyfyngai ei weinidogaeth i'r lleoedd hyn tra fu yn yr eglwys, ond ei fod wedi dechreu ar ei lafur teithiol yn lled fuan wedi ei gyfnewidiad; canys pan y mae Williams yn ei Farwnad, yn sôn am ei ddechreuad taranllyd, gan ddywedyd iddo bregethu y ddeddf dymhestlog rai blyneddau, (pedair, neu bum mlynedd yn ol y traddodiad oedd yn mysg hen bobl Llangeitho,) efe a ddywaid yn mhellach, i *bump* o Siroedd Cymru glywed ei bregethu llym, cyn iddo newid ei gân;—

"Pump o Siroedd penaf Cymru
Glywodd y taranau mawr;
A chympasant gan y dychryn
Megys celaneddau 'lawr;
Clwyfau gawd, a chlwyfau dyfnion,
Ac fe fethwyd cael iachâd,
Nes cael eli o Galfaria,
Dwyfol ddwr, a Dwyfol waed."

Ond, er fod ROWLANDS wedi dechreu teithio i bregethu allan o'i blwyfi ei hun, yn lled foreu ar ei weinidogaeth, ymddengys ei fod ef yn y dechreu yn gofalu nad elai i blwyf neb arall i bregethu heb ganiattad periglor y plwyf, ac yn arfer gweinidogaethu yn yr eglwysi, neu y capeli eglwysig yn unig; a'i fod yn dra gofalus yn ei holl symudiadau, na's gwnelai ddim yn annghysson â rheolau yr Eglwys Sefydledig.

Yr amgylchiad a'i harweiniodd o'i gymmydogaeth ei hun i bregethu gyntaf, oedd yr un canlynol, yn ol hysbysiad ei fab, *Nathaniel Rowlands;*—Yr oedd gwraig yn Ystrad ffin, yn swydd Gaerfyrddin, a chanddi chwaer yn nghymmydogaeth Llangeitho. Deuai hon ar brydiau i ymweled â'i chwaer; ac ar y cyfryw achlysuron, byddai yn cael cyfleusdra i wrando ar ROWLANDS yn pregethu. . . . Wedi i'r wraig wrandaw ROWLANDS y tro cyntaf, a chael blas ar ei athrawiaeth, cenedlwyd ynddi awyddfryd cryf am gael ei wrandaw drachefn; ac heb yngan gair wrth neb, wele hi yn Llangeitho y Sabbath canlynol, er mawr syndod, a pheth dychryn i'w chwaer, yr hon a ofynai iddi yn bryderus,—"Beth yw y mater! A ydyw y gwr a'r plant yn fyw ac yn iach?" "I'r hyn yr attebai, "Y mae pawb yn iach; a phob peth o'r fath yna o'r goreu."—"Beth yw y mater ynte?" "Ni's gwn yn iawn beth yw y mater," medd y wraig; "rhywbeth a ddywedodd eich *offeiriad crac* chwi a barodd i mi ddyfod: arhosodd ar fy meddwl drwy yr wythnos, ac ni chefais lonydd ganddo, ddydd, na nos."—Aeth i'w wrando drachefn; ie, deuai yno wedi hyn bob Sabbath, er bod iddi dros ugain milldir o ffordd i'w thramwy, a hono yn fynyddig, ac anhygyrch. Wedi bod yn cyrchu yno yn ddiwyd felly am haner blwyddyn, teimlai awydd cryf i geisio ganddo ddyfod drosodd i Ystrad ffin; ac ar ol y gwasanaeth un Sabbath, hi a aeth ato, gan ei gyfarch fel hyn;—"Os gwir yr ydych chwi yn ei ddywedyd, Syr, y mae llawer yn fy nghymmydogaeth i mewn cyflwr peryglus iawn, ac yn cyflymu i'r trueni tragywyddol. Er mwyn eneidiau gwerthfawr, deuwch drosodd i bregethu iddynt." Parodd y fath gyfarchiad iddo synu; ond efe a'i hattebodd yn y fan, yn ei ddull cyflym ei hun,—"Deuaf, os cewch ganiattad periglor y plwyf." Wedi i'r wraig lwyddo yn ei chais fel hyn, hi a ddychwelodd adref yn llawen, fel un wedi cael ysglyfaeth lawer; ac nid esgeulusodd y cyfleusdra cyntaf i ofyn caniattad yr Offeiriad, yr hyn a gafodd yn dra rhwydd. Aeth i Langeitho y Sabbath canlynol, gan ddwyn y newydd i ROWLANDS, fod caniattad iddo i bregethu yn Ystrad ffin. Mewn canlyniad i hyn, efe a aeth drosodd, ac a bregethodd yno gyda grymusder mawr, a than arddelwad rhyfeddol: a dywedir fod deg ar hugain, o leiaf, wedi eu hargyhoeddi dan y bregeth hono. Nid oedd hyn ond "dechreuad dyddiau" iddo ef, ac i'r bobl hefyd; canys cyffrowyd meddyliau llawer o honynt yn y canlyniad i hyn, i fyned i Langeitho i wrandaw arno; a bu hyny yn achlysur i beri iddo yntau fyned yno ar amserau, i bregethu iddynt. Adroddir hanesyn dyddorol arall am dano, mewn cyssylltiad âg Ystrad ffin;—Yr oedd yn Ystrad ffin foneddwr a arferai dreulio y boreuau Sabbathau yn y difyrwch o hela; a gwnelai hyn ar un Sabbath pan oeddid yn dysgwyl ROWLANDS yno i bregethu. Wedi iddo ef a'i weision gychwyn at eu difyr-waith, mynegwyd iddo, bod rhyw offeiriad dyeithr i bregethu yn yr eglwys y diwrnod hwnw; ac efe a gasglasai oddiwrth yr hyn a glywsai am dano, mai dyn gorphwyllog ydoedd, gan mai *offeiriad crac* y gelwid ef. Wrth ddychwelyd o hela, aeth y boneddwr i'r eglwys, a'i gŵn, a'i gymdeithion annuwiol gyd âg ef; a chan amcanu dyrysu a chywilyddio y pregethwr, efe a safodd i fynu ar fainc, yn gymmwys ar gyfer yr

Digitized by Google

areithfan, gan edrych yn ei wyneb yn feiddgar a gwatwarus. Canfu ROWLANDS ei agwedd, a deallodd ei ddyben; ond er nad oedd ond ieuanc ar y pryd, ni pharodd ymddygiad sarhaus y boneddwr iddo lwfrhau; ond yn hytrach, effeithiodd arno i'r gwrthwyneb, ac efe a aeth rhagddo gyd a'r rhwyddineb mwyaf, gan gyhoeddi bygythion gair Duw ar yr annuwiolion gyd a'r fath ddwysder grymus, nes yr oedd ei wrandawyr wedi eu brawychu yn fawr; ac yn fuan, gwelid gwedd y boneddwr crybwylledig yn newid;—syrthiai ei wyneb-pryd, crynai ei aelodau, y dagrau a dreiglent dros ei ruddiau; ac ni allai sefyll ar y faine yn hwy: deffroid y gydwybod gysglyd yn ei fynwes, wedi ei llenwi o ddychrynfeydd; di arfogid ei ragfarn, ac ymlidid ei holl ysgafnder ymaith gan fraw aruthrol. Ar ol y bregeth, aeth y boneddwr i ymddiddan â MR. ROWLANDS, mewn agwedd wylaidd, a thra chrynedig: cyffesodd ei gamymddygiad yn ddi gêl, ac erfyniodd am ei faddeuant: ac yna derbyniodd ef yn roesawus i'w dŷ, lle y llettyodd y pregethwr y noswaith hono, a bu hyn yn ddechreuad cyfeillach rhyngddynt a barhaodd drwy eu hoes: ac o hyn allan, y boneddwr hwn, yn nghyd âg amryw eraill o'r gymmydogaeth, a arferent gyrchu yn gyson i Langeitho i wrando yr "Offeiriad crac."

Dywedir mai yr achlysur cyntaf a barodd i ROWLANDS bregethu yn yr awyr agored ydoedd fel y canlyn;—Wedi iddo gael argyhoeddiad ei hun, ei awydd, a'i ymgais mawr oedd i argyhoeddi eraill o ddrwg pechod, a'r canlyniadau ofnadwy o fyw yn annuwiol; yn enwedig ei hen gymdeithion yn ei oferedd: ond ei bregethau miniog, a di dderbyn wyneb a dramgwyddent amryw o honynt, fel yr esgeulusent ddyfod i'r eglwys o gwbl. Y rhai hyn a ymgynnullent ar y Sabbathau i ben un o'r bryniau gerllaw Llangeitho, i ymddifyru mewn amryw fath o chwareuyddiaethau. Gofidiai hyn ei galon yn fawr: ac efe a ymdrechai drwy amryw ffyrdd i roddi attalfa arnynt, a chwalu y nythle annuwiol; ond yn aflwyddiannus: gan hyny, efe a benderfynodd fyned i'r lle yr ymgynnullent, a chan na roddent gyfleusdra iddo i bregethu iddynt yn y llan gyssegredig, efe a bregethodd iddynt ar y twmpath chwareu; a bu ei weinidogaeth yno mor rymus ac effeithiol ar ei gynnulleidfa, fel na bu yno yr un ymgynnulliad llygredig mwyach.

Yr oedd rhyw effeithiau tra grymus yn dilyn ei weinidogaeth y pryd hwn, a thorfeydd mawrion yn cyrchu i'w wrandaw pa le bynag yr elai i bregethu, fel y cawn Mr. *Howel Harries*, lleygwr a ddechreuasai bregethu yn danllyd iawn yn Mrycheiniog, ac a gawsai ei argyhoeddi yn agos i'r un amser â ROWLANDS, yn ysgrifenu at *Whitefield* ddechreu y flwyddyn 1739, gan ddywedyd fod diwygiad mawr wedi dechreu yn swydd Aberteifi, a rhanau o swydd Gaerfyrddin, trwy weinidogaeth Daniel ROWLANDS; ac y mae y Parch. *Josuah Thomas*, yn Hanes y Bedyddwyr, yn sôn am dano yn pregethu yn swydd Gaerfyrddin, mewn ffordd annghyffredin iawn, yn y flwyddyn 1737; ac yna, wedi sôn am ddechreuad Gweinidogaeth ddeffrous DANIEL ROWLANDS, efe a chwanega, gan ddyweyd;—"Ar fyr daeth allan Mr. William Williams, a Mr. Peter Williams, yn Sir Gaerfyrddin, a Mr. Howel Davies, o Sir Benfro, y rhai hyn oll yn weinidogion Eglwys Loegr; ac amryw eraill o honynt ar hyd Cymru. Yr oedd Mr. Harries o'r Eglwys hono; ond nid oedd wedi cael ei ddwyn i fynu i'r Weinidogaeth; felly *Cynghorwr* yr oeddid yn ei alw ef. Aethant yn mlaen trwy yr holl wlad, a chyfododd llawer iawn o Gynghorwyr, o amryw raddau, rhai yn fwy enwog a phoblogaidd, ac eraill yn llafaru ychydig wrth angen. Felly, cynhyrfwyd y wlad; gadawodd y bobl eu difyrwch pechadurus, a dechreuasant sôn am grefydd, ac ymgasglu yn nghyd yn gymdeithasau crefyddol: ac felly, bu diwygiad mawr yn y wlâd. O hyny hyd yn hyn, (1777), y mae gwybodaeth o Dduw wedi ymdaenu yn rhyfedd drwy Gymru; canys yr oedd lluoedd o bobl o'r blaen, nad oeddynt yn myned yn agos i dŷ cwrdd, nac ond yn anfynych i un Eglwys; etto, aent i wrando fel hyn i'r teiau, a'r prif-ffyrdd a'r caeau."

Gweinyddai ROWLANDS, bron yn ddi eithriad ar y dechreu, mewn lleoedd cyssegredig; ond y Pregethwyr a ymunent âg ef, y rhai a elwid "Cynghorwyr" ar y cyntaf, a bregethent pa le bynag y caent gynnulleidfa,—ar y maes, neu yn yr heolydd; ac mewn amser, dechreuwyd adeiladu ambell Gapel, yn y rhai y traethent eu cenadwri. Cyrchai amryw o'r rhai hyn, o bell ac agos, i wrandaw ROWLANDS ar y Sabbathau, ac yna, elent i draethu y pethau a glywsent, mewn manau eraill ar nosweithiau a dyddiau yr wythnos.

Gwasanaethai ROWLANDS ei eglwysi ei hunan fynychaf ar y Sabbathau; ac ar ddyddiau yr wythnos efe a arferai fyned i amrywiol lëoedd eraill. Bu dros hir amser yn arfer myned unwaith yn y mis i'r capelydd hyn;—Y Twr Gwyn, Waun ifor, Ystrad ffin, Abergorlech, a Llanllian: ond, nid arferai efe deithio cymaint â rhai offeiriaid eraill a ymunasent âg ef, megys y Parch. Howel Davies, o Sir Benfro; y Parch. Peter Williams, o Gaerfyrddin; a'r Parch. William Williams, Pant y celyn.

Llanddewi brefi ydoedd lle yr ymgynnulliad mwyaf tra fu efe heb ei fwrw allan o'r Eglwys; gan fod y llan hon yn llawer helaethach na'r ddwy eraill a wasanaethai. Y mae yr Eglwys hon yn adeilad fawr iawn, fel y gall gynnwys uwchlaw dwy fil o bobl; ond, nid oedd yn rhŷ fawr y pryd hyny. Sefyll ar eu traed y byddai y rhan fwyaf o'r gynnulleidfa, eto felly, byddai yr adeilad fawr yn cael ei gorlenwi o gwr i gwr o honi. Dylynid ef gan lawer o'r gwrandawyr i'r tair eglwys a wasanaethai, er mwyn ei glywed ar hyd y Sabbath, ac ni chyrhaeddent eu cartrefi hyd y plygain dranoeth; a llawer o honynt heb archwaethu dim ymborth dros bedair awr ar hugain, eto heb deimlo oddiwrth eu hir ddirwest, gan rym y mwynhad a gaent o wledd ysbrydol dan weinidogaeth y gair.

Bernir mai tu a'r flwyddyn 1763 y bwriwyd ef o'i eglwysi, sef yn mhen tua phum mlynedd ar hugain wedi ei droedigaeth; a'r rheswm a roddid am wneyd hyny oedd, ei fod yn pregethu mewn lleoedd na chawsant eu cyssegru yn rheolaidd, a'i fod yn myned ar hyd y wlad i bregethu. Dywedir i'r Esgob ymliw âg ef o herwydd hyn lawer gwaith, gan ei daergymmell i roddi y fath arferiad heibio; ac ymesgusodai yntau, gan ddadleu, fod amgylchiadau y wlad yn galw am hyny; ei fod ef yn credu fod sel arddelwad y nef yn cael ei roddi ar ei lafur, a gondemniai dynion fel yn afreolaidd; ac am hyny na's gallai lai na'i ganlyn: am hyny, penderfynodd yr Esgob ei amddifadu o'i eglwysi, yr hyn hefyd a wnaed ar y Sabbath, mewn modd cyhoeddus yn Llanddewi brefi. Daeth dau offeiriad i fewn i'r

Digitized by Google

Eglwys, rhwng y gwasanaeth a'r bregeth, a rhoddodd un o honynt lythyr i ROWLANDS, fel yr oedd ef yn myned i'r pulpud. Wedi iddo ei ddarllen, efe a hysbysodd y gynnulleidfa y gwaherddid iddo ef lefaru yn yr Eglwys; yna, disgynodd yn dawel o'r areithfa, ac aeth allan yn bwyllog, a'r dyrfa luosog a'i canlynodd dan wylo; a gadawyd yr Eglwys bron yn wâg. Mewn canlyniad i hyn, cyfodwyd Capel tra eang iddo yn Llangeitho, ac yno yn benaf y bu yn gweinidogaethu dros y gweddill o'i einioes, sef tua saith mlynedd ar hugain, a mawr fu llwyddiant ei weinidogaeth. Wedi iddo ef golli ei eglwysi, daeth pentref a chapel Llangeitho yn gyrchleoedd miloedd o bob parth o'r Dywysogaeth, dros ei oes ef, a thros rai blyneddoedd wedi ei farwolaeth ef. Cyrchid yno yn gyffredin o'r holl wlad, bymtheng milldir o amgylch yno; ac ar Sabbath cymmundeb, ben pob mis, byddai lliaweroedd yn cyrchu yno yn rheolaidd, o bellder deugain, neu haner can milldir; ac weithiau, cyfarfyddai brodyr o holl siroedd Cymru wrth fwrdd yr Arglwydd yn Llangeitho; ac fe'n hysbysir y byddai yno ar amserau, o ddeuddeg i bymtheg cant yn cyfranogi o'r Swper Sanctaidd; a byddai eu nifer yn y cyffredin, o fil i ddeuddeg cant! Nid yr un rhai oedd yno bob mis, gan na ddenai rhai a gyfanneddent yn mhell iawn, ddim yno namyn unwaith bob dau, neu dri mis; a rhai yn fwy anfynych na hyny; fel y gellir dywedyd, debygem, na byddai haner y rhai a arferent gymmuno yno, yn bresenol ar yr un pryd.

Byddai dau, neu dri o offeiriaid yn ei gynnorthwyo yn gyffredin ar Sabbathau cymmundeb; ac ar amserau, gynifer a saith neu wyth: ac ni chaniatteid i neb nesau at fwrdd yr Arglwydd, ond y rhai a gyfrifid yn aelodau eglwysig, wedi ymuno â'r Cymdeithasau neillduol yn eu hamryfal ardaloedd.

Er dangos llwyddiant y Diwygiad, a'r cyrchu mawr oedd i Langeitho yn amser DANIEL ROWLANDS, gallwn wneyd y dyfyniad canlynol o Lythyr y diweddar *Barch. Thomas Charles*, at gyfaill, yn mis Awst, 1783:—"Buais yn wyddfodol yn Nghymdeithasfa y Trefnyddion, yn Llangeitho, lle y cyfanneddа MR. ROWLANDS. Yr oedd yn bresenol yn y Gymdeithasfa yn nghylch *ugain* o offeiriaid; ac o *dri ugain* i *bedwar ugain* o bregethwyr, er nad oedd y cyfan a berthynant i'r Cyfundeb yno. Gellwch feddwl mor dda oedd genyf glywed yr hen "Elias" penllwyd unwaith eto, yn cyhoeddi dyfnion bethau Duw, gyd â'r tynerwch toddedig, yr eglurder, a'r egni, ydynt brïodol iddo ei hun. Clywais ef ddwy waith, a thri offeiriaid ereill, yn nghyd ag amryw o'r Pregethwyr, y rhai ydynt wedi eu cynnysgaeddu â doniau rhagorol. Dechreuodd y pregethu ddydd Sadwrn, a pharhaodd hyd ddeg or gloch boreu ddydd Mercher."—Nid oedd *Mr. Charles* wedi gadael yr Eglwys Sefydledig y pryd hwn; ond y mae yn amlwg ei fod wedi yfed yn dra helaeth eisoes o ysbryd rhagorol tadau y Diwygiad Methodistaidd; ac yn mhen tua dwy flynedd ar ol hyn, cawn ei fod ef ei hunan yn pregethu yn Nghymdeithasfa Llangeitho, a'r hen batriarch ROWLANDS, yn ngrym llawenydd ei galon wedi ei wrandaw, yn dywedyd, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw CHARLES!"

Crybwyllwyd yn barod fod gweinidogaeth ROWLANDS yn fwy sefydlog na'r eiddo offeiriaid ereill a ymunasent âg ef; ni's gweinyddent hwy, yn y cyffredin, mewn unrhyw le neillduol; a'r rhai o honynt a barhaent i wasanaethu yn yr Eglwys Sefydledig, ni chaent y fath nifeiri o wrandawyr ag a ymgynnullent i Langeitho. Yno yr oedd y deml, a'r gynniweirfa fwyaf; y llanerch hono ydoedd yn ganolbarth cyrchfa y rhai gwir grefyddol a berthynent i'r Eglwys trwy Gymru oll, y pryd hyny. Ni fu un lle arall o'r fath yn y Dywysogaeth, er pan y mae un hanes am dani. Cyrchai y bobl o bob cwr o'r wlad i Langeitho, i ymofyn ymborth ysbrydol, a'r prif offeryn i weini y lluniaeth hwn iddynt, oedd DANIEL ROWLANDS, "offeiriad bach Llangeitho," yr hwn a anrhydeddwyd gan Dduw i fod yn gyfrwng mwy o fendith i Gymru nag un pendefig a anwyd ynddi mewn unrhyw oes. Nid amheuwn nad oedd ROWLANDS yn feddiannol ar ddoniau naturiol rhagorol; ond rhaid mai arddelwad Dwyfol ar ei weinidogaeth a grynhoai yn nghyd dorfeydd mor luosawg, a thros dymhor mor faith; llais Duw yn lleferydd y dyn, ac Ysbryd Duw yn cyd-weithio âg ymdrech y dyn, a barai i'w weinidogaeth fod yn effeithiol i gynnyrchu cyfnewidiad mor fawr ar ansawdd foesol y genedl: ac y mae yn amlwg ei fod ef yn llwyr argyhoeddedig o'i hollol annigonolrwydd i'r gwaith o hono ei hunan; a byddai yn mron a chael ei lethu gan y cyfryw deimlad yn aml, yr hyn yn ddiau oedd yn angenrheidiol er ei gadw yn ei le, i ymddibynu yn gwbl ar nerth Ysbryd Duw. Tystiolaeth cares i'r Diwygiwr, (yr hon a ddywedai wrth yr Ysgrifenydd, iddi gael ei dwyn i fynu ganddo, a'i bod yn ei gofio yn dda,) ydoedd, y byddai efe yn fynych yn treulio nos Sadwrn ar ei hŷd, yn ei fyfyrgell fechan, lle ei clywid yn aml yn gruddfan ac yn wylo ganol nôs; a mynych yr elai oddiyno i'r capel foreu Sabbath, heb archwaethu dim ymborth, gan ddwyster ei deimladau. A'i hen was duwiol, a adroddai yr hanesyn canlynol am dano;—Ar un prydnhawn Sadwrn, fel yr oedd ef yn rhodio oddiallan i'r tŷ, ac yn ymddangos yn llawn trymder, ac iselder ysbryd, efe a gyfarfu â'r gwas, at yr hwn yr ymddygai fel brawd yn yr Arglwydd, a dywedai wrtho na's gallai ef bregethu dranoeth, gan nad oedd ganddo ddim cenadwri i'w thraddodi i'r bobl. "O! peidiwch a dweyd fel yna, MR. ROWLANDS bach," medd y gwas: —"pwy arall a allwn ni ei gael?" Ond parhau yr oedd efe i ddweyd yr un peth; gan chwanegu yn alarus, nad oedd Duw wedi rhoddi yr un genadwri iddo i'w llefaru wrthynt. Fel hyn y parhaodd efe, mewn mawr drallod meddwl yn amlwg, nes ei fyned i orphwyso dros y nos. Boreu dranoeth, pan aeth y gwas i'w ystafell, yr oedd efe ar ddi hun; ac yr oedd llyfr ar y gadair, wrth ochr y gwely. Dywedodd y gwas wrtho, ei bod yn amser codi; sef yn nghylch saith o'r gloch; ond ni chafodd un ateb. Wedi ei ddysgwyl dros gryn yspaid, efe a aeth i fewn drachefn, ac a'i cymhellodd i godi, gan ddywedyd fod yr adeg i fyned i'r Capel yn nesau. Yntau a attebai, na's gallai efe bregethu, a bod yn rhaid iddynt anfon am ryw un arall. Ond y gwas a arferodd bob rheswm ar a allai feddwl am dano, er ei gymhell i godi ac ymwisgo; ac a aeth allan o'r ystafell drachefn, gan obeithio y byddai iddo wneuthur felly. Yr ydoedd weithian yn agos i ddeg o'r gloch, a'r bobl yn crynhoi yn nghyd o bob parth, yn lluaws mawr iawn. Wedi aros ychydig, aeth y gwas drachefn i'w ystafell, ac a'i cafodd ef yn yr un agwedd, ac yn parhau i ddywedyd na's gallai efe ddim pregethu y boreu hwnw. Pa fodd bynag, rhwng bodd ac anfodd, cafodd ganddo ddyfod o'r gwely, a chynnorthwyodd ef i ymwisgo, (yr hyn nid arferid), gan

Digitized by Google

ei fod fel pe y buasai wedi colli holl nerth ei gorph. Ond, wedi iddo ymwisgo, nid oedd yn foddlawn i fyned i'r Capel; ac nid aethai yno ychwaith, oni buasai i'r gwas ei orfodi i fyned yno o'i anfodd. Pan gyrhaeddasant yr addoldy, yr oedd y gwasanaeth, a gyflawnid yn gyffredin gan un o'r offeiriaid a'i cynnorthwyent ar Sabbathau Cymmundeb, a'r canu hefyd, ar derfynu. Gorfyddai y gwas ei gynnal, a'i wthio i'r areithfa, gan ei fod fel un wedi diffrwytho. Yr oedd y gwas yn credu, os gellid ei gael unwaith i'r pulpud, y byddai pob peth o'r goreu; ac ymddengys na chafodd ef, na'r gynnulleidfa mo'u siomi. Pan ddechreuodd bregethu, ymddangosai yn egwan iawn, y llais yn isel, yr aelodau megys yn ymollwng, a'r holl gorph yn grynedig; ond, yn raddol, adfywiodd, ac ymgryfhaodd; a chyn pen deng mynyd, yr oedd yn llefaru gyda rhyw nerth anarferol, a mawreddusrwydd di gyffelyb; a'i ymadroddion oeddynt fel lluchedenau tanllyd yn ymdaenu dros yr holl le, oddi fewn, ac oddiallan; canys ni chynnwysai yr addoldy nemawr fwy na haner y dyrfa fawr oedd wedi ymgynnull yno: ac yr oedd yr effaith ar y dyrfa yn fwy hynod na chyffredin; cannoedd o honynt a ymdorent allan mewn gorfoledd, cyn ei fyned trwy haner ei bregeth; a pharhasant yn y lle dros oriau, yn canu, molianu, a gorfoleddu; a bu raid iddo ef roddi i fynu bregethu yn mhen tuag ugain mynyd. Fe'n hysbysir nad ei arfer oedd pregethu yn faith; tua deugain, neu bum mynyd a deugain a fyddai ei amser cyffredin; ond, ar rai achlysuron, annghofiai ei hunan, a phob peth amser, debygid, yn mhwysigrwydd ei gennadwri; a dywedir am un tro, y darfu iddo barhau yn pregethu dros *dair awr* yn Nghapel Llangeitho; eto, fe'n sicrheir nad amlygai y lluaws oeddynt yn ei wrandaw, un arwydd eu bod wedi blino. Ar ddechreuad ei weinidogaeth, parhâi yn lled fynych i lefaru yn faith iawn; o leiaf, dywedir y byddai yn pregethu yn Llancwnlle weithiau, am dair, neu bedair awr; ond ni wnai felly yn fynych; a phan feddyliom am ei ddull egnïol o lafaru, y mae yn rhyfedd bod ganddo nerth i barhau felly ar unrhyw bryd; a'i fod yn gallu cadw y fath gynulleidfaoedd mawrion mor astud a di flino.

Oddiwrth yr hyn oll a glywsom am ROWLANDS gan rai hên bobl oeddynt yn ei gofio yn ddâ, a'r hyn a ddarllenasom am dano, yr ydym yn gorfod barnu, ei fod yn tra rhagori fel Pregethwr ar bawb yn ei oes o fewn y Dywysogaeth, os nad o fewn y Deyrnas Gyfunol. Yr oedd gan amryw Offeiriaid, a rhai Pregethwyr, a gyfodasant yn ei amser ef yn Nghymru, ddoniau helaeth fel Pregethwyr; ond tystiolaeth unfryd cyd-oeswyr ROWLANDS oedd, nad oedd neb o honynt yn deilwng i'w cystadlu âg ef. Yr oedd gweinidogaeth JONES, o Lan-gan, yn doddedig dros ben; ond nid oedd i'w chydmaru â'r eiddo ROWLANDS. Tebygai GRIFFITHS, o Nefern, iddo mewn rhyw bethau; ond, er mor ragorol y pregethai, yr oedd yn fyr o gyrhaedd camrau y Diwygiwr. Dywedai amryw o'r hen bobl, mai y tebyccaf iddo o bawb a glywsent hwy, oedd ROBERT ROBERTS, o Glynog: ond yr oedd yntau yn dra annheilwng i'w gystadlu â ROWLANDS. Dywaid rhai a gawsent gyfleustra i wrandaw WHITFIELD ag yntau, fod tebygolrwydd mawr rhwng y ddau mewn amryw bethau; ond bod ROWLANDS yn feddiannol ar fwy o bob cymhwysderau angenrheidiol i wneyd pregethwr mawr. Yr oedd llawn cymaint o dân yn y Diwygiwr Cymreig ag oedd yn yr un Seis'nig; ond, meddai y Cymro lywodraeth fwy trwyadl ar ei deimladau na'r Sais, ac yr oedd ei bregethau yn y cyffredin, yn fwy sylweddol ac adeiladol. Meddai y ddau gymhwysderau neillduol i ddi huno, cyffroi, ac argyhoeddi pechaduriaid; ac efallai o'r ddau, mai Whitfield a ragorai yn hyny; ond, yn y gorchwyl o ymgeleddu, meithrin, ac adeiladu y Cristion, yr oedd y rhagoriaeth yn amlwg yn perthyn i ROWLANDS: yr oedd ei weinidogaeth yn fwy sefydlog; ac yr oedd hyny yn gofyn mwy o'r cyfryw waith. Tystiolaeth yr hybarch THOMAS JONES o Creaton, yr hwn oedd yn dra chydnabyddus âg ef, ac a gawsai y cyfleusdra i'w wrandaw lawer gwaith, oedd, "Na chlywodd ef ond *un* ROWLANDS erïoed; gan awgrymu trwy hyny, y rhagorai efe ar yr holl weinidogion doniol a wrandawsai ef yn ei oes. A phan ofynid i'r gwr parchedig uchod ar un achlysur, "Pa beth oedd rhagoriaeth arbenig ROWLANDS fel pregethwr?" Ei atteb cynnwysfawr ydoedd,—"Dyfnder, a gwresawgrwydd." Dywedai y byddai yn ymddangos weithiau fel adar dwfr, a ymsuddant o'r golwg er dal eu hysglyfaeth yn y dyfnderoedd; ac yna, a ddeuant i wyneb y dwfr, a'u hysglyfaeth yn eu gylfin; ac y byddai ef yn gorfod meddwl am y cyfryw adar yn aml wrth ei wrandaw, gan y byddai yntau ar brydiau, megys yn myned o'r golwg gyd a'i bwnc, fel y byddai yn anhawdd deall pa beth y byddai yn cyfeirio atto; ac yna yn ddisymwth dygai i'r golwg y peth y byddai, megys yn chwilio am dano; ac mewn ychydig eiriau dwysion, gosodai ef yn eglur o flaen ei wrandawyr, er eu mawr syndod a'u dywenydd. Ond am ei wresawgrwydd, efe a ddywedai ei fod yn tra rhagori ar ddim a ganfuasai yn neb arall erïoed.

Yn yr hên DRYSORFA, dywedir;—"Yr oedd doniau, ac arddeliad MR. ROWLANDS y fath, na's dichon gwrandawyr yr oes bresenol gynnwys dim amgyffred addas am danynt. Nid oes neb na's gwrandawodd ef, a ddichon ddychymygu dim yn addas am danynt. Cyffelybais ef yn aml yn fy meddwl i'r Tachmoniad hwnw yn mhlith cedyrn Dafydd; efe oedd y penaf o'r tri chyntaf; ac er godidocced oedd y lleill, eto ni chyraeddasant at y tri chyntaf."—Yr oedd yn feddiannol ar fywiogrwydd, ac eglurder amgyffred tra hynod: yr oedd pethau mawrion yr Ysgrythyrau, yn amlwg ac yn sylweddol i'w feddwl ef, fel y gallai eu trafod gyd ag eglurder annghyffredin, a'u gosod allan yn y modd mwyaf manteisiol i'r rhai gwanaf eu deall eu hamgyffred; ac i'r dyben hyn, defnyddiai luaws o gyffelybiaethau, hynod gyfaddas i'w amcan, a thra adnabyddus i'w holl wrandawyr.

Cymhwysder tra manteisiol arall a berthynai iddo, oedd côf gafaelgar a grymus. Yr ydoedd yn nodedig o hyddysg yn yr Ysgrythyrau, fel mai prin y gellid crybwyll un frawddeg o honynt, na's gwyddai ef, nid yn unig y llyfr, ond y bennod a'r adnod hefyd. lle ei caid! Yr oedd ef yn Ysgrythyrwr mawr mewn gwirionedd; ac y mae yn ddïau mai dyma oedd maes ei fyfyrdod yn gyffredin. Nid oedd ei lyfr-gell ond bechan; y prif lyfrau a ddarllenai heblaw y Beibl, oeddynt Weithiau yr Esgob Andrews, a William Gurnall; ac yr oedd ef yn dra chydnabyddus â chynwys y rhai hyny. Gan mor rymus oedd ei gôf, nid arferai ysgrifenu nemawr ddim o'i bregethau un amser. Ychydig nodiadau ar bapuryn bychan, gymaint â chledr llaw, mewn talfyriadau, ac arwydd-nodau, na ddeallid gan neb ond ei hunan, oedd yr holl gynnorthwy i'r côf a ddygai gyd ag ef

Digitized by Google

i'r areithfan ar unrhyw bryd; ac anfynych y byddai angen gwneyd defnydd o'r rhai hyny.

Heblaw hyny, yr oedd ef yn feddiannol ar deimladau tanbaid, a chryfion dros ben. Nid yn fynych y canfyddir cydgyfarfyddiad mor ddymunol, o ddeall treiddgar, amgyffred cywir, ac eang, a serchiadau bywiog, ag a ganfyddid yn ROWLANDS, yn yr hwn yr oedd y teimladau a'r amgyffredion yn ogyfartal; canys, fel y canfyddai bethau yn eglur, efe a'u traddodai yn ddi ofn: ac yr oedd dau ragoriaeth arall yn perthyn iddo, gyda golwg ar ei deimladau ysbrydol; sef gallu i roddi amlygiad manteisiol o'i deimladau tufewnol, ac eto, hunan lywodraeth ddigonol i'w cymedroli, tra yn eu hamlygu. Pan fyddai y dagrau yn treiglo yn ffrydiau dros ei ruddiau, ni anhwylusai ei ymadrodd, ac ni floesgai ei lais; ond byddai ei eiriau yn dylifo yn rhwyddach, a'i lais yn cynnyddu yn egluracb, ac yn fwy peraidd a thoddedig. Yr oedd ei lais yn naturiol yn dreiddiol, ac yn beraidd annghyffredin: nid uchel oedd ei leferydd, ond tra eglur; nid seinfawr, ond treiddiol. Yr oedd ei lais yn fain, ond nid yn wichaidd; yn llym, ond nid yn erwin; ac er y byddai efe yn llefaru yn dra egnïol, ni byddai byth yn bloeddio ar antur, neu yn gwaeddi yn faldorddus; nid oedd dim yn ei lais, na'i ystumiau, a allasai fod yn dramgwyddus i'r manylaf, a'r mwyaf hoffus o bob math o weddusrwydd; ond torai ei eiriau yn y modd mwyaf boddhaus ac ennillgar, heb un radd o fusgrellni, esgulusdra, neu fursendod. Ac heblaw bod ei lais yn eglur, gweddus, a threiddiol, perthynai iddo bereidd-dra, a thoddedigrwydd annghydmarol, ar brydiau yn enwedig. Pan fyddai ei dymherau wedi eu cynhyrfu yn fawr, pereiddiai ei leferydd yn annghydmarol. Ac heblaw y cwbl, yr oedd yr holl alluoedd anianyddol godidog a feddai, wedi eu heneinio â gras Duw i wasanaeth y cyssegr. Y mae yn wir ei fod wedi ei gynnysgaeddu wrth natur â deall grymus; a hyny oedd sail y gorucheledd a'r mawreddusrwydd oedd yn dynodi ei syniadau wrth drin mawrion bethau Duw; a gwreiddyn yr awdurdod ddi betrus a amlygai wrth draethu ei gennadwri, oedd sylweddoliad ei chynnwys yn ei feddwl ef ei hunan:—y pethau a welodd, a glywodd, ac a deimlodd, oedd y pethau a gyhoeddai efe mor awdurdodol. Yr oedd pethau Duw yn cael eu sylweddoli mor drwyadl i'w feddwl ar amserau, fel yr oedd natur bron a chael ei llethu danynt, o'r hyn y gellir crybwyll yr enghraifft ganlynol,—Fel yr ydoedd ar un tro yn pregethu yn Llanewnlle, effeithiodd ei olygiadau arno ef ei hun yn rhyfedd. Wrth weddïo o flaen y bregeth, arweiniwyd ei feddwl at ddyoddefiadau Crist, a llefai mewn modd cynhyrfiol a thoddedig iawn,—"O wythïenau gweigion! O wyneb glas-wyn!" fel pe y buasai mewn gwirionedd yn gweled ei Waredwr ar y croesbren; ac mor angerddol oedd ei deimladau, fel y syrthiodd i lawr gan lewyg yn yr areithfa; ac wedi ei ddadebru, efe a bregethodd gyda grymusder annghyffredin.

Efe a deimlai yn ddwys iawn hefyd yn achos cyflwr ei gyd-ddynion, yr hyn yn ddïau ydoedd un rheswm am fod ei bregethau mor ennillgar a dylanwadol. Yr oedd y tosturi hwn yn llenwi ei enaid, ac ymddangosai yn y dagrau a dywalltai yn aml wrth gymhell pechaduriaid i edifarhau, a dychwelyd at Dduw. Crybwyllir un enghraifft a eglura hyn yn darawiadol iawn. Fel yr oedd efe ar un achlysur yn esgyn o Lyn Aeron, gan fyned heibio i eglwys Llanewnlle, a'r Parch. Thomas Gray, o Abermeurig yn cyd farchogaeth âg ef; wedi eu dyfod i'r man uchaf o'r ffordd, trodd ROWLANDS ben ei geffyl yn ôl, a chan edrych yn ddifrifol ar y dyffryn eang a ymagorai o'i flaen, efe a ymddiddanai â'i gyfaill yn nghylch cyflwr y trigolion; ac fel yr oeddynt yn ymddiddan, cynhyrfid ei dosturi gymaint, fel yr oedd ei ddagrau, nid yn unig yn dyferu, oud hefyd yn ffrydio dros ei ruddiau ef.

Ac, i goroni y cyfan, dyn oedd efe, wedi ei lwyr argyhoeddi o'r angenrheidrwydd am arddelwad Dwyfol er gwneyd pob ymdrech i achub dynion yn effeithiol; ac am hyny, yr oedd efe yn byw yn agos iawn at Dduw, ac ni fynai ar un cyfrif ddringo i'r areithfa heb gael rhyw sail dda i hyderu fod ei Arglwydd gyd âg ef; a'r canlyniad oedd, ei fod yn arfer ymdrechu llawer â Duw mewn gweddi. Rhoddwn un hanesyn i egluro hyn yna eto. Yr oedd efe ar un achlysur i bregethu yn Llanbadarn Odyn, eglwys sydd yn sefyll ar lanerch uchel, yr ochr gyferbyniol i'w dŷ, o Lyn Ceitho, ac mor agos, fel y gwelid ei dŷ ef o'r fynwent yn eglur. Ymgynnullasai y bobl fel arferol, yn gynnulleidfa dra lluosog cyn pryd dechreu y gwasanaeth; ac fel yr oeddynt yn sefyll o gylch yr eglwys, hwy a'i gwelent ef yn dyfod oddiwrth ei dŷ, ac yn croesi afonig fechan a ymdreiglai drwy y dyffryn; ond, fel y nesäai efe at odreu codiad y bryn, collent eu golwg arno o herwydd y coed, a sefyllfa y tir. Gan nad oedd yn dyfod i'r golwg drachefn yn ol eu dysgwyliad, a chan fod yr amser y dylasid dechreu y gwasanaeth wedi myned heibio weithian, aeth rhai o honynt i waered, fel y gwybyddent pa beth a ddaethai o hono: ac fel yr oeddynt yn myned gyd ag ymyl y goedwig, gan edrych o'u hamgylch am dano, hwy a'i gwelent ef ar ei liniau yn y coed, ychydig latheni allan o'r llwybr. Gan fod amser dechreu y gwasanaeth wedi myned heibio, a chynnifer yn y lle yn dysgwyl, tybiasant yn addas nesau ato: a phan eu canfu, cyfododd yn ebrwydd oddiar ei liniau, ac aeth gyda hwynt, gan ddywedyd fod yn ddrwg iawn ganddo ei fod tu hwnt i'w amser; yna efe a ychwanegai, gan ddywedyd, "Frodyr anwyl! myfi a gefais oedfa felus yn y fan yna:" a gwelid amlygiad diamheuol o hyny yn yr oedfa gyhoeddus, yn gymaint a bod ei Dad, yr hwn a wêl yn y dirgel, wedi dyfod i dalu iddo yn yr amlwg.

Dymuniad a gweddi fynych DANIEL ROWLANDS, fel ei gyfaill GEORGE WHITFIELD, oedd, na byddai iddo gael ei gadw yn hir ar ei glaf wely; ond bod iddo gael ymadael pan ddarfyddai ei waith, a myned yn union-gyrchol oddiwrth ei lafur i'w orphwysfa oedd yr hyn a chwenychai; ac nis gomeddwyd ei ddymuniad yn hyn. Yr oedd ei iechyd wedi ei anmharu i ryw raddau er's peth amser cyn ei farwolaeth; eto nid i'r fath raddau ag i'w luddias i gyflawni ei ddyledswyddau arferol. Teimlai yn mhell o fod yn iach y dydd Mercher cyn ei farwolaeth: ond, ni thybiai neb ei fod mewn perygl hyd ddydd Gwener; a thranoeth, tu a'r pryd y dysgwylid iddo bregethu yn Nghapel Llangeitho, yn ol ei arfer o flaen Sabbath Cymmundeb, ei enaid dedwydd a ymadawodd, ac a aeth i'r orphwysfa wynfydedig, wedi gorphen ei lafur ar y ddaiar. Cyrhaeddodd y newydd i'r Capel, pan oedd y dorf wedi ymgynnull yn nghyd, a llawer o honynt yn dysgwyl ei weled a'i glywed, gan nad oedd ei anhwyldeb yn hysbys eto ond i ychydig o honynt: a chafodd yr hysbysiad y fath effaith arnynt, fel yr ymwasgarodd pawb,

Digitized by Google

wedi eu gorlenwi â'r fath dristwch fel na allent fyned yn mlaen â'r gwasanaeth. Cymerodd yr amgylchiad yma le ar yr 16eg o Hydref, 1790, pan oedd efe yn 77ain mlwydd oed, ac wedi bod yn llafurio yn ngwinllan ei Arglwydd dros dair blynedd ar ddeg a deugain, gyda bywiogrwydd a diwydrwydd mawr, a hyny yn cael ei ddylyn â llwyddiant annghyffredin. Galar mawr a dwfn dros ben a deimlid ar yr achlysur, fel y gallem feddwl, er nad oedd yr amgylchiad namyn yr hyn a allasid ei ddysgwyl bellach yn ol trefn natur. Yr oedd llaweroedd, nid yn unig yn nghymmydogaeth Llangeitho, ond trwy Gymru *oll*, yn edrych ar ei farwolaeth ef yn golled fawr, ac yn teimlo yn ddwys, mai felly yr oedd mewn gwirionedd. Ond, yr hyn sydd yn cymedroli, ac yn lliniaru pob galar o'r fath yma, ydyw yr ystyriaeth o'r gwirionedd gwerthfawr, fod ffynhonell pob daioni yn aros yr un, yn parhau eto, ac y pery byth yn llawn, er diwallu holl angenion yr eglwys, a'r byd.

ROWLANDS, David, a anwyd yn Ynys Mon, ac a addysgwyd yn ngholeg St. Mary's Hall, Rhydychain. Gadawodd y brifysol cyn cymeryd ei raddau, ac aeth yn athraw i fab iarll Lennox, a chydag ef i ymdaith ar y Cyfandir, trwy yr hyn y cafodd fantais i ymgydnabyddu âg ieithoedd y gwledydd hyny. Ar ol dychwelyd adref, daeth yn ddysgawdwr proffesedig yr ieithoedd Groeg a Lladin, ac er mwyn ei ddysgyblion, cyhoeddodd, *A Comfortable Aid for Scholars, full of variety of Sentences, gathered out of an Italian Author*, Llundain, 1578. Cyfieithodd o'r Yspaenaeg, *The Pleasant History of Lazarillo de Tormes, a Spaniard, wherein is contained his Marvellous Deeds and Life*, 1586. Cyhoeddwyd ef drachefn, mewn deg rhan, yr olaf o ba rai a dynesid allan o Groniclau Toledo, gan Juan de Luna, brodor o Castille.

ROWLANDS, Henry, D.D., a anwyd yn Mellteyrn, Lleyn, swydd Gaerynarfon, yn 1551. Yr oedd yn hanu o deuluoedd uchelwaed; ei dad ydoedd Rolant ab Robert, Ysw., o Fellteyrn; a'i fam ydoedd Elizabeth, merch i Griffith ab Robert Vaughan, Ysw., o Talhenbont. Cafodd ei addysg gyntaf yn ysgol Penllech, a'i dderbyn i Rydychain yn 1560, lle y graddiwyd ef yn M.A. fel aelod o'r Coleg Newydd. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Mangor, Medi 14, 1572; a'r dydd canlynol, cafodd berigloriaeth Launton, sir Rhydychain; ac wedi rhoddi Mellteyrn i fynu yn 1581, gwnaed ef yn brebend Penmynydd, yn mhrifeglwys Bangor, yn 1584, ac yn beriglor Aberdaron, yn 1588. Cafodd ddeoniaeth Bangor, yn 1593, a'i ddyrchafu yn esgob yr un lle, yn 1598, gan gael ei gysegru i'r swydd, Tach 12. Graddiwyd ef yn D.D. yn 1605. Perchir enw yr esgob Rowlands am hir amser, ar gyfrif ei elusengarwch a'i haelfrydedd. Heblaw rhoddion eglwysig amryfal, anrhegodd ei blwyf genedigol, Bottwnog, âg ysgol ramadegol, ac a'i gwaddolodd â thiroedd helaeth; ac erys y cyfryw ysgol hyd y dydd hwn, er mantais rhagorol i blant y cyrau hyny. Sefydlodd hefyd ddwy Gymrodoriaeth yn Ngholeg Iesu, Rhydychain, ac yn ei ewyllys, gadawodd 6*p*. i'r dyben o addysgu dau fachgenyn tlawd yn ysgol Bangor, i gael eu galw ysgolorion Hutchins, er cof am frawd ei wraig, Mr. Hutchins, boneddwr o sir Gaerloyw. Gadawodd hefyd 40*p*. yn y flwyddyn, er cynal chwech o hen ddynion tlodion yn yr Elusendy, gerllaw prifeglwys Bangor, y rhai a gynysgaeddir â dwy ystafell, glo, dillad, a naw swllt yn yr wythnos. Dywed yr esgob Humphreys am dano:—"Yr oedd yn ddyn rhagorol iawn, gwir elusengar, a chydwybodol; ac yn llawer mwy gofalus am yr esgobaeth hon, ac o'i olafiaid yn y swydd, na neb a eisteddodd yma o'i flaen nac ar ei ol, fel yr ymddengys." Bu farw Gorphenaf 6, 1616, yn 65 oed, a chladdwyd ef yn ei brifeglwys. Claddwyd yr esgob Humphreys Lloyd hefyd wedi hyny, yn yr un bedd.

ROWLANDS, Parch. Henry, henafieithydd enwog, ac awdwr *Mona Antiqua*, ydoedd fab Wm. Rowlands, Ysw., o'r Plasgwyn, plwyf Llanedwen, Mon, lle y ganwyd ef yn 1655. Ei fam ydoedd Maud, merch i Edward Wynn, o Benhesgyn. Ei daid ydoedd Henry, mab i Edward Rowlands, a nai i'r Dr. Henry Rowlands, esgob Bangor; efe a briodes Martha, merch i'r Dr. Williamson, meddyg i'r frenhines Elizabeth; a mab iddynt hwy ydoedd Henry Rowlands, a briodes Jane, merch y Dr. Edmund Griffiths, esgob Bangor. Wyr iddynt hwy ydoedd Henry, gwrthrych hyn o nodiadau. Yr unig addysg a gafodd efe, ydoedd yr hyn a dderbyniodd yn Ynys Fon; a dywedir na ymdeithiodd efe erioed yn mhellach na'r afon Gonwy; eithr y mae yn ffaith sicr, na bu yn mhellach na'r Amwythig. Er hyny, prawf ei lyfrau, fod ei ddysgeidiaeth yn ddofn a thrylwyr, y gallai gyfansoddi Lladin yn feistrolgar a choeth, cystal a'i fod yn wr o alluoedd naturiol cryfion annghyffredin. Wedi derbyn urddau eglwysig, efe a gafodd ficeriaeth Llanidan, Mon, yn 1696. Ei brif waith ydoedd ar henafiaethau Ynys Mon, dan y teitl, *Mona Antiqua Restaurata, an Archaeological Discourse on the Antiquities, natural and historical, of the Isle of Anglesey, the Ancient seat of the British Druids*. Cyhoeddwyd hwn yn 1723, wedi marwolaeth yr awdwr. Er na lwyddodd efe i brofi ei hoff opiniwn, mai Mon ydoedd prif sedd yr hen Dderwyddon, y mae y gwaith yn llawn o ffrwyth ymchwiliadau dyddorol; ac yn cynwys llawer o wybodaeth cywrain a gwerthfawr. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r *Mona Antiqua*, yn 1766, wedi ei diwygio a'i helaethu gan y Dr. Henry Owen. Cyhoeddodd Henry Rowlands hefyd, draethawd Saesneg, ar Ddaeareg; a gadawodd wedi ei ysgrifenu mewn Lladin rhagorol, gyfran o Hanes Plwyfol Ynys Mon, yr hwn a gynnwysai gantref Menai, ac a gyhoeddwyd, yn nghyda chyfieithiad, yn yr *Archaeologia Cambrensis*. Efe a briodes Elizabeth Nicholas, o'r Plas Newydd; a bu iddynt bedwar o feibion, a dwy ferch. Bu farw yn Tachwedd, 1723, a chladdwyd ef yn eglwys Llanedwen, a dynodir y fan gan golofn o farmor du sir Fon, ac yn gerfiedig arni, feddargraff Lladin o'i gyfansoddiad ef ei hun.

ROWLANDS, Parch. Nathaniel, ydoedd fab y Parchedig Daniel Rowlands, Llangeitho, o'i wraig Eleanor, merch Mr. John Davies Cefn carllyges. Efe a berffeithiodd ei addysg, ac a gymerodd ei raddau, yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain; a phriododd ferch y Parch. Howell Davies, un o'r offeiriaid poblogaidd oedd yn cymeryd rhan ddylanwadol yn symudiad Methodistaidd yr oes hono. Yr oedd efe yn gapelwr i'r Duc Gordon, a'r Arglwyddes Huntington. Bu dros yspaid yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd mewn cyssylltiad â'r Trefnyddion Calfinaidd Cymreig, Cyfundeb ag y buasai llafur dyfal ei dâd, yn foddion arbenig i'w ffurfio: ond, pan giliodd y Cyfundeb hwnw yn mhellach oddiwrth yr Eglwys Sefydledig, trwy neillduo pregethwyr heb dderbyn urddau Esgobawl i weinyddu y Sacrament-

au, efe a ymlynodd wrth yr Eglwys Sefydledig: a bu flyneddoedd yn gwasanaethu mewn capel a gyfodasid iddo yn Hwlffordd, mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid hyny a ymlynent wrth, ac a gymerent y sacramentau gan, weinidogion yr Eglwys yn unig. Er fod y gwr hwn yn feddiannol ar dalentau a'i gwnelent yn bregethwr poblogaidd, yr oedd yn dra amddifad o'r eneiniad a roddai y fath berarogledd ar goffadwriaeth ei hybarch dâd. Efe a fu farw yn y Parciau, swydd Benfro; a chladdwyd ef yn Henllan Amgoed, yn 1831 yn 82 mlwydd oed.

ROWLANDS, Parch. William (*Gwilym Lleyn*), ganwyd yr hanesydd diwydbwyll, a'r pregethwr selog hwn, Awst 24, 1802, yn mhentref bychan Bryncroes, Lleyn, sir Gaernarfon. Yr oedd ei rieni, Thomas, ac Elinor Rowlands, ill dau yn aelodau ffyddlawn gyda'r Trefnyddion Calfinaidd; a chyda'r un enwad y dygwyd yntau i fynu. Symudodd ei rieni, pan ydoedd ef yn lled ieuanc, o'r Bryncroes, i blwyf Mellteyrn, yn yr un ardal. Yr oedd efe yn gallu darllen Saesneg a Chymraeg cyn bod yn naw oed; a thrwy hyny, rhaid ei fod wedi cael manteision gwell na'r cyffredin o'i gydoeswyr, a'i fod hefyd wedi gwneud defnydd da o honynt. Wedi gwasanaethu cyfnod yr ysgol ar ei fywyd, ar y cyntaf yn Bryncroes, ac wedi hyny yn Bottwnog, dechreuodd ei fywyd gweithiol, trwy ymroddi i ddysgu crefft ei dad, sef gwehydd. Yr oedd er yn blentyn yn ymchwilgar, di weniaeth, a chydwybodol; ac erioed ni wiriwyd yn llawnach yr hen air Seisnig, o fod y "plentyn yn dad y dyn," canys felly yn union y parhaodd ef trwy ei holl fywyd. Yr oedd ei gydwybodolrwydd yn peri iddo fod yn ddiffuant yn ei ymchwiliaeth, a'i ymchwiliaeth yn peri na byddai yn rhagfarnllyd yn ei gydwybodolrwydd, tra yr oedd ei unplygrwydd meddwl yn ddangoseg ar ei wyneb o'r hyn a gymerai le yn ei galon. Pan tua thair a'r ddeg oed, gadawodd dŷ ei dad, gan droi allan i edrych am waith. Yn ei dreigliadau o fan i fan, disgynodd am ychydig wythnosau gyda gwehydd o Wesleyad, o'r enw Robert Hughes, Ty'n y clawdd, nid nepell o Fangor. Byddai aml ddadl frwd rhwng y gwehydd a'i weithiwr ieuangaidd, un o bobtu i'r clawdd terfyn rhwng Calfiniaeth a Wesleyaeth; ac yr oedd clywed rhesymau pobl eraill tros eu credo hwy, yn siglo ei farn yn anffaeledigrwydd ei gredo ei hun. Yn raddol iawn ymryddhaodd ei ffydd o angorfa Calfiniaeth, a bu am yspaid o flaen yr awelon, ond yr oedd ei ogwydd o hyd at Wesleyaeth. Bu darllen pregeth y Parch. Samuel Davies ar "Brynedigaeth Gyffredinol," o gymorth mawr iddo fwrw ei goelbren yn mysg yr enwad crefyddol hwnw. Yn fuan wedi iddo ymuno a'r Wesleyaid, gwelodd ei frodyr fod ynddo gymhwysderau neillduol at wneud genau cyhoeddus, a deisyfasant arno ddechreu pregethu, â'r hyn, ar ol manwl a dwys ystyriaeth, y cydsyniodd. Traddododd ei bregeth gyntaf yn nghapel Brynealed, plwyf Aberdaron; ac yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, symudodd ei rieni i'r Ty Coch, ger Bangor, ac aeth yntau yno gyda hwynt. Ymgododd yn ddioed yn boblogaidd fel pregethwr, yr oedd ei bregethau wedi eu cyfansoddi yn hynod gryno a destlus, ac yntau yn eu traddodi gyda thanbeidrwydd annghyffredin. Daeth galw mawr a mynych am wasanaeth y "bachgen o Fangor." Wedi treulio rhai blyneddau fel pregethwr cynorthwyol tra chymeradwy, yn 1828, gyrwyd am dano i Landysul, sir Aberteifi, gan Mr. Davies, Cadeirydd y Dalaeth Gymreig, i gymeryd ei le ef tra y byddai yn Llundain, yn ymwneud a'i ddyledswyddau yn y Gynadledd Wesleyaidd. Pan ddychwelodd Mr. Davies, deisyfodd yr eglwysi arno aros yno fel cynorthwywr eu gweinidog, o dan gyflog, ond cyflog bychan iawn. Yn 1829, penderfynwyd yn unfrydol fod Wm. Rowlands yn un cymhwys i'r weinidogaeth yn y Cyfundeb Wesleyaidd; ac wedi myned yn llwyddianus trwy yr arholiadau arferol, penodwyd ef y flwyddyn hono i gylchdaith Caerdydd. Wedi bod ddwy flynedd yn Nghaerdydd, symudodd i Ferthyr, lle yr oedd y geri marwol yn gwneud hafog dychrynllyd yr amser hwnw; ac er ei fod ef yn dwyn cysuron yr efengyl at wely angau canoedd a syrthient yn ebyrth iddo, eto cuddiwyd ef yn nghysgod llaw yr Hollalluog pan oedd amryw o weinidogion y dref yn syrthio i grafangau y dinystrydd. Yn 1834, priododd Miss Anne Andrews, o Gaerdydd, yr hon oedd o deulu parchus, ac a fu yn gydmares ddedwydd iddo trwy ei holl fywyd, ac a'i goroesodd. Tra yn Merthyr hefyd, yr ymddangosodd gyntaf fel awdwr, trwy gyhoeddi pregeth o'i waith ar "Gwymp oddi wrth ras," yr hon a barodd gryn gynhwrf, ac a dynodd allan rai cewri yn ei erbyn, o'r blaid wrthwynebol. Ymneillduodd fel uwchrif yn 1864, a symudodd i drigianu yn Nghroesoswallt, gan hyderu cael ychydig seibiant i adnewyddu ei gyfansoddiad curedig, ac i gwblhau rhai o'i weithiau llenyddol gwerthfawr. Prin yr oedd wedi mwynhau saith mis o orphwysdra, pe gorphwysdra hefyd, na ddaeth angau ymlaen, ac a'i cymerodd ymaith wedi cystudd hirfaith, a ddyoddefwyd yn dawel a dirwgnach. Ei air olaf ydoedd, "Mae angau wedi dod: O, angau pa le mae dy golyn?" Bu farw yn Nghroesoswallt, Mawrth 21, 1865, yn 63 oed wedi bod yn pregethu am 45ain o flyneddau; a chladdwyd ef yn mynwent Wesleyaidd y Caerau, ger Llanidloes. Yr oedd rhywbeth yn sydyn, chwerw, a chwta yn ei ddull o ymddiddan, a buasai dyn digydnabyddiaeth ag ef yn dueddol i feddwl ar y cyntaf ei fod o dymher sarug; ond gwelid yn fuan nad oedd hyn ond cragen yn gorchuddio natur onest a diweniaeth. Mor selog ydoedd dros yr Ysgol Sabbathol, fel y cynygiai unwaith yn Morganwg ddiarddel yr aelodau eglwysig na ddeuent iddi. Fel pregethwr, yr oedd yn llafurus, selog, eglur, tarawiadol, a phrofiadol; ei eiriau yn llawn meddwl, ei frawddegau yn gwta ond cynwysfawr; ei bregethau yn gyffredin yn fyrion, melus, a bywiog. Yr oedd yn caru ei waith, ac yn ymddifyru wrth ei gyflawni. Dyna y Parch. Wm. Rowlands. Fel Gwilym Lleyn, ei enw llenorol, gallwn ddweyd ei fod yn wladgarwr aiddlawn, ac yn ymhyfrydu trwy ei holl oes, mewn bod yn "Gymro diaddurn." Ond llyfrgarwch aeth a'i sylw a'i fryd ef yn benaf. Yr oedd gan hen lyfr ryw swynion anorchfygol iddo, a pho mwyaf Cymreig, llychlyd, a phwdr, a fyddai y llyfryn, dyfnaf oedd serch y llenor chwilgar ato. Yr oedd pobl cyffredin y wlad yn rhyfeddu at ei chwaeth hynod yn hyn o beth, tosturient wrtho, os nad anmheuent weithiau ei bwylled. Ond ffrwyth neillduol y llyfrgarwch hyn ydoedd y drysorfa werthfawr o wybodaeth a geir mewn cyfres o erthyglau campus a ymddangosasant yn y Traethodydd, ar "Lyfryddiaeth y Cymru." Cyfranodd amryw erthyglau eraill i'r un Cyhoeddiad, ac yn eu plith gyfres ddyddorol a difyrus ar "Samuel Hick." Ysgrifenodd lawer hefyd i'r Brython, Golud yr Oes, a'r Eurgrawn, a bu am rai blyneddau yn Olygydd yr olaf. Cyhoeddodd draethawd ar "Ragluniaeth" yn 1836, ac un

Digitized by Google

arall ar "Annibyniaeth a Wesleyaeth," yn 1852, yr hwn a atebwyd gan Huw Tegai, a bu rhyfel bapur boeth rhwng y ddau am gryn amser. I bawb a edmygant unplygrwydd cymeriad, llafur di-ildio, serch dwfn dyn diymhongar at ei wlad a'i llenyddiaeth, ymroddiad diorphwys i lenwi holl alwadau y swydd bwysicaf y gelwir ar ddyn yn y fuchedd hon i'w chyflawni, bydd coffadwriaeth Gwilym Lleyn yn barchus ac anwyl byth.

**RUDBACSTON**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd Benfro, gerllaw afon Cleddau orllewinol, tair milltir gogleddol o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Erwau, 4142. Gwerth ardrethol, 3743*p.* Poblogaeth, 586. Tai, 130. Y mae y meddianau rhwng lluaws. *Wythy-Bush* ydyw y prif balas yma. Poyston ydoedd le genedigol y Cadfridawg Picton. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 199*p.*, ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Gangellwr.

**RUG**, sydd balas henafiaethol, o gryn enwogrwydd; yn sefyll o fewn tua milltir a haner i Gorwen, yn swydd Feirionydd; yr hwn ydoedd breswylfa y Mil. Salusbury. Dywed Mr. Hutton iddo weled hen gleddyf, o wneuthuriad hynod yma, a berthynai i Owain Glyndwr. Yr oedd ei enw, a'i arfbeisiau, wedi eu cerfio arno: yr oedd cyllell finiog, a fforch lem, yn cael eu gwisgo yn yr un gwain a'r cledd; yr hyn a wnelai ei ffurfiad yn gywrain iawn. Gwerthwyd yr erfyn hynod hwn yno, yn yr arwerthiad cyhoeddus yn ddiweddar, am bris uchel. Y mae y lle hwn yn cael ei hynodi, o blegid dal Gryffydd ab Cynan, brenhin Cymru yma, yn fuan wedi ei fuddugoliaeth yn Carno, yn y flwyddyn 1077, wedi ei faglu yno trwy fradwriaeth Meirion Goch. Y mae y lle y safai y castellyn i'w ganfod eto yn yr ardd. Er uched y bu ei lwyddiant milwrol, syrthiodd i gaethiwed maith, yn nwylaw Huw Fleiddyn, iarll Caerlleon, a Huw Belesme, iarll Amwythig; a chludwyd ef i gastell Caerlleon, lle y dyoddefodd garchariad am ddeuddeng mlynydd. O'r diwedd, efe a ryddhawyd, drwy wrhydri gwr ieuangc o'r parthau hyn, o'r enw Cynrig Hir, yr hwn, drwy gymeryd arno ddyfod i Gaerlleon i brynu nwyddau, a ddefnyddiodd y cyfleusdra, tra yr oedd y ceidwaid yn gwledda, i gludo y tywysog ymaith ar ei gefn, gyd a'i holl efynau heiyrn trymion, i le o ddiogelwch. Mewn amser dilynol, daeth y lle hwn yn eiddo i Owain Brogyntyn, mab naturiol Madog ab Meredydd, tywysog Powys. Cymaint oedd hynawsedd Owain, fel y rhanodd etifeddiaeth ei dad yn gyfartal, rhwng ei frodyr cyfreithlawn. Trwy briodas Margared Wenn, merch ac etifeddes Ieuan ab Hywel, disgynydd o Brogyntyn, â Pyers Salusbury o Bachymbyd, y deilliodd y teulu Salusbury o Rug; enw sydd yn aros hyd yn awr yn y llinell wrrywol, yn y teulu hwn.

**RUMSEY**, Walter, ydoedd fab i foneddwr o dirfeddianydd, ac a anwyd yn Llanofer, sir Fynwy, yn 1584. Pan yn 16oed, aeth i Brif ysgol Rhydychain, gan gael ei dderbyn fel cyffredin foneddwr o Goleg Neuadd Caerloyw; eithr gan ymadael heb gymeryd ei radd, efe a ymneillduodd i Gray's Inn, lle yr ymroddodd i efrydu y gyfraith drefol. Penodwyd ef yn fargyfreithiwr, yn feinciwr, ac yn ddarllenydd y Grawys, ac yn 1635, efe a wnaed yn ynad cylchdaith Brycheiniog, ac yn 1637, yn brif-ynad, o ba swydd y symudwyd ef yn ystod Gweriniaeth Cromwell. Yr oedd mor enwog yn ei broffes fel yr adwaenid ef yn gyffredin wrth yr enw "Pigwr Cloion y gyfraith." Yn 1640, etholwyd ef yn un o'r marchogion tros sir Fynwy, i wasanaethu yn y senedd a ddechreuodd yn Westminster, Ebrill 13, a dewisasid ef drachefn i eistedd yn y Senedd Hir, ond gwrthododd. Dywed Wood am dano:—"Yr oedd yn ddyn cywrain, gyda phen athronyddol; yn gerddor da, ac yn fedrus iawn mewn impio ac ardrefnu planigfeydd, a llynoedd. Gan ei fod beunydd yn cael ei boeni gan fflem, efe a ddyfeisiodd y Provang, offeryn wedi ei wneud o asgwrn morfil, gyda pha un y glanheid y gwddf a'r cylla, yr hwn a ddefnyddid yn fynych, nid yn unig gan feddygon enwog y wlad hon, ond hefyd gan rai tu hwnt i'r mor." Ysgrifenodd ddysgrifiad o'r offeryn hwn, a'r dull o'i ddefnyddio, a chyhoeddwyd ef mewn llyfryn, dan y teitl *Organon Salutis: an Instrument to cleanse the Stomach*, 1657-9; at ba un y chwanegodd, *Divers New Experiments of the Virtue of Tobacco and Coffee.* Bu farw yn 1660, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Llanofer.

**RUTHIN**, neu Rhudd ddin, bwrdeisdref, tref farchnad, a phlwyf, yn nghantref Ruthin, swydd Dinbych, Gogledd Cymru. Y mae y dref yn gorwedd ar lanerch o dir dyrchafedig, ar y lan ddeheuol i'r afon Clwyd, gerllaw rheilffordd Dinbych a Chorwen, 6¾ milldir i'r de or. wrth ddehau o Ddinbych. Cafodd ei henw, "Rhudd-ddin," neu, yr amddiffynfa goch, oddiwrth amddiffynfa a gyfodasid yma yn foreu, defnyddiau yr hon oedd o'r tywod-faen coch sydd mewn helaethrwydd yn y gymmydogaeth; a'i hen enw gan y Cymry, oedd "Y Castell Coch yn Ngwernfor." Haera rhai Haneswyr, i Edward y Cyntaf adeiladu castell yma; ond, yr hyn sydd yn fwy sicr yw, ei fod wedi dyroddi y lle hwn, yn nghyda chantref Dyffryn Clwyd, a rhyw diroedd eraill, y rhai ydynt yn gwneyd i fynu arglwyddiaeth Ruthin yn bresenol, i Reginald de Grey, ail fab John de Grey, gan yr hwn, yn ol Camden, ac amryw Haneswyr eraill, yr adeiladwyd y castell, trwy ganiattad y brenin. Parhaodd castell, ac arglwyddiaeth Ruthin dros amryw genedlaethau, yn meddiant teulu de Grey; ac o dan eu nawdd, cynnyddodd y dref i lwyddo, fel y daeth yn lle pwysig yn fuan, ac yr oedd ei marchnad yn un o'r rhai gorau yn y wlad. Ond nid oes nemawr o hanes y castell ar gof a chadw, hyd oddeutu diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Edward y Cyntaf, gwysid Reginald de Grey i'r Senedd, dan y teitl, "Yr Arglwydd Grey, o Ruthin." Yn y flwyddyn 1400, darfu i Owain Glyndwr, yr hwn yn ei wrthryfel yn erbyn llywodraeth Harri y Pedwerydd, a anrheithiasai ranau helaeth o'r Dywysogaeth, a gydnabyddent awdurdod y penadur hwnw, wneyd ymosodiad disymwth ar y lle hwn, ar ddiwrnod ffair a gynhelid yma; ac wedi rhai ymdrechiadau aflwyddianus i gymeryd y castell, efe a yspeiliodd y trigolion, ac a roddes y dref ar dân; ac yna, dychwelodd yn ol yn ddiogel i'r mynyddoedd. Parhaodd y castell a'r arglwyddiaeth yn meddiant yr Arglwyddi de Grey, hyd deyrnasiad Harri y Seithfed, pan eu gwerthwyd i'r goron. Harri yr Wythfed a roddodd y castell a'r meddiannau cyssylltiedig âg ef i'w fab, Henry Fitzroy, Dug Richmond, ar farwolaeth yr hwn y disgynasant i feddiant y goron drachefn; ac fe'u dyroddwyd gan y frenines Elizabeth, i Ambrose Dudley, Iarll Warwick. Wedi marwolaeth Iarll Warwick, daeth y meddiannau hyn drachefn

Digitized by Google

yn ol i'r goron; ac Iago y Cyntaf a'u gosododd ar brydles i Francis Crane, gan yr hwn eu gwerthwyd drachefn yn nheyrnasiad Charles y Cyntaf. Yn ystod y rhyfel Seneddol, yn nheyrnasiad y pennadur hwn, rhoddwyd gwarchodlu yn y castell, i'w gadw dros y brenin; ac yn y flwyddyn 1644, gwarchaewyd arno gan Syr Thomas Middleton, a'r Milwriad Mytton; ond y gwarchodlu a'i hamddiffynasant yn ddewr-wych, fel na's gallai y gwarchaewyr ei gymeryd. Yn y flwyddyn ganlynol, ymwelodd y brenin, a'r Tywysog Maurice â'r lle hwn; ac wedi aros yma dros rai oriau, ac arolygu y gwarchodlu, aeth ei fawrhydi a'i osgordd yn mlaen tua Chaerlleon ar Ddyfrdwy. Gwarchaewyd ar y castell drachefn yn Chwefror, y flwyddyn 1646, gan y Cadfridog Mytton, ac adran gref o'r byddinoedd Seneddol, i'r hwn wedi gwrthsafiad cyndyn, y rhoddodd y diffynwyr y lle i fynu ar ammodau anrhydeddus, yn y mis Ebrill canlynol; ac yn fuan wedi hyny, anrheithiwyd yr amddiffynfeydd trwy orchymyn y Senedd. Wedi adferiad y bennaduriaeth, prynwyd y castell a'r meddiannau perthynol iddo gan Syr Richard Middleton, ac ar orsaf yr hen gastell, cyfodwyd palas castellaidd hardd, gan y diweddar Anrhydeddus Frederick West, Ysw.

Y mae y dref yn gorwedd fel y dywedwyd yn barod, ar ucheldir yn Nyffryn Clwyd, a chyda godreu y bryn, ac mewn rhan trwy y dref, y mae afon Clwyd yn llifeirio, yr hon yn y fan hon nid yw namyn afonig ganolig, yn gwasanaethu yn unig i droi rhai melinau yn y gymmydogaeth. Y mae yr olwg ar y dref yn ddymunol, gan ei bod yn gynnwysedig o adeiladau dâ, a'r gymmydogaeth sydd wedi ei harddu âg amryw balasau teg. Nid oes yma unrhyw fasnach, neu law weithfeydd neillduol yn cael eu dwyn yn mlaen, heblaw sydd yn angenrheidiol er cyfleusdra i drigolion y dref, a'i hamgylchoedd, y rhai ydynt yn dilyn ammaethyddiaeth yn benaf. Bu bwriad cryf ar droed tua dechreu y ganrif hon i wneyd yr afon Clwyd yn fordwyol hyd at y dref hon; a thebygid y gallasid dwyn y cyfryw amcan i weithrediad heb fod y draul yn fawr, ac y buasai hyny yn gwasanaethu yn dra effeithiol i lwyddiant y dref a'r gymmydogaeth: ond, o ddiffyg cefnogaeth deilwng, gadawyd i'r amcan syrthio yn aneffeithiol; ac erbyn hyn, y mae y diffyg yn cael ei wneyd i fynu gan reilffordd Dyffryn Clwyd a Chorwen. Cynhelir marchnad ŷd ragorol yma ar ddydd Llun, a marchnad arall lai, ar ddydd Sadwrn, bob wythnos. Cynhelir ffeiriau yma yn flyneddol, ar y dydd Llun cyntaf wedi y 12fed o Ionawr; Mawrth, 19, a 20; y dydd Gwener o flaen y Sulgwyn; Awst, 8; Medi, 30; a Thachwedd 10fed. Yn ystod y cynhauafau, gwair, ac ŷd, bydd ammaethwyr Dyffryn Clwyd yn dyfod i'r farchnadle bob boreu, i gyflogi gweithwyr am y diwrnod, a'r gweithwyr hwythau, yn ymgynnull yma, a'u crymanau, a'u pladuriau ganddynt, i gael eu cyflogi.

Y mae llywodraethiad y fwrdeisdref wedi ei gyfleu trwy freinlen o gorphoriaeth, a ddyroddwyd gan Harri y Seithfed, mewn dau henadur, un ar bymtheg o gynghorwyr cyffredinol, a nifer anmhenodol o fwrdeisiaid. Pennodir yr henaduriaid yn flyneddol yn llŷs yr arglwyddiaeth, ar Wyl Mihangel; ac y maent hwythau yn y fan ar eu hymgymeriad â'u swydd, yn pennodi cynghorwyr cyffredinol. Yn bresenol, llywodraethir y dref dan y gyfraith newydd, gan Faer, pedwar Henadur, a deuddeg o gynghorwyr; ac mewn undeb â Dinbych, Holt, a Gwrecsham, medda hawl i anfon Cynnrychiolydd i Senedd Prydain Fawr. Cynhelir brawdlysoedd, a'r llysoedd Sirol yma; ac y mae yn un o'r lleoedd i bleidebu yn etholiad aelodau Seneddol. Y mae yn gynnwysedig yn benaf, o un heol hir; a medda brif-lythyrfa, gorsaf rheilffordd, a phellebyr, ariandy, tri prif west-dy, neuadd drefawl, llysdy Sirol, carchar sirol, eglwys, a chwech o addoldai ymneillduol, ysgol ramadegol waddoledig, ysgolion Cenedlaethol, elusendy i Warcheidwad, a deuddeg o dlodion, a chyllid o 519*p.* y flwyddyn oddiwrth waddolion; ac oddiwrth elusenau eraill, 340*p.* Adeiladwyd neuadd y dref yn y flwyddyn 1663, ac y mae yn sefyll yn agos i'r fan lle y dywaid traddodiad i Arthur dori pen Huail; am yr hyn y mae y traddodiad a ganlyn ar lafar gwlad;—"Caw o Frydain, arglwydd Cwm Cawlwyd, a fu yn cyfanneddu ar un adeg o'i oes yn Edeyrnion, neu y gymmydogaeth hono. Meddai ddau fab, yr henaf o ba rai oedd yr enwog Gildas, yr hanesydd cynhenus, yr hwn oedd yn ysgolor gwŷch; a'r ail oedd Huail, wttreswr trwyadl; o ba un y cafodd Arthur achos i eiddigeddu ei fod yn nwyfgyfrinachu âg un o'i gariad-wragedd ef; am hyny efe a benderfynodd ei wylio yn ddirgelaidd yn myned i'w thŷ; ac yn fuan efe a'i canfu yn myned yno yn llechwraidd; ac wedi ymliw ag ef am ei ymddygiad, tynasant arfau i ymladd gornest; wedi ymladd yn galed dros beth amser, llwyddodd Huail i roddi archoll tost i Arthur yn ei glun: ar hyny rhoddasant i fynu ymladd, ac ymheddychasant a'u gilydd, ar yr ammod na byddai i Huail byth edliw i'r brenin iddo gael y fantais yma arno, dan y perygl o golli ei ben. Ymneillduai Arthur i'w lŷs, yr hwn oedd yn Nghaerwys y pryd hyny, i gael ei wellau o'i archoll; ond er ei feddyginiaethu yn dda, gadawodd yr archoll ychydig gloffni arno byth wedi'n. Yn fuan wedi i Arthur wellau, efe a syrthiodd mewn cariad â boneddiges o dref Ruthin; ac er mwyn cario yn mlaen ei amcanion carwriaethol yn fwy cyfrinachol, efe a ymwisgai mewn dillad benywaidd; ac fel yr oedd ef yn dawnsio gyd a'r foneddiges a'i chyfeillesau, dygwyddodd i Huail ei ganfod, ac o herwydd ei gloffni efe a'i hadnabu; ac efe a ddywedodd, 'Gallasai y dawnsio yma wneyd yn burion oni buasai y cloffni.' Y brenin a'i clybu, ac a giliodd o'r neilldu, gan anfon am Huail i ddyfod atto; ac wedi dannod iddo ei fod wedi tori ei addewid, a'i lŵ, efe a archodd i'w swyddogion dori ei ben ar faen a orweddai yn heol y dref, a'r hwn mewn canlyniad i'r amgylchiad uchod, a alwyd "Maen Huail;" ac y mae yn aros yn mhen y dref hyd y dydd hwn. Tu a'r adeg uchod, adeiladodd Arthur lŷs mewn lle a elwir Nannerch, a gelwir y lle "Llys Arthur" hyd heddyw; a dywedir fod eglwys Nannerch, yr hon gynt a elwid 'Capel Gwiail,' yn Gapel perthynol i'r llŷs."—Gwel Jones's *Bardic Museum*, p. 22.

Y llys-dy Sirol, a'r Carchar Sirol, ydynt adeiladau lled ddiweddar, ac y mae yn yr olaf ddarpariaeth i gymeryd i fewn 46 o garcharorion gwrrywaidd, ac 20 o rai benywaidd. Yr eglwys, yr hon ar y cyntaf oedd yn perthyn i'r Myneich Gwynion, ac a gyssegrasid i goffadwriaeth Sant Pedr, a wnaed yn glasgorol, a phlwyfol, gan John, mab Reginald de Grey, tu a'r flwyddyn 1310, ac a waddolwyd i bennaeth, neu warcheidwad, ac ychydig o offeiriaid rheolaidd, i weini offeren yn mam eglwys Llanrhudd, capel y castell, a'r eglwys glasgorol a phlwyfol hon.

Digitized by Google

Cafodd yr eglwys hon ei hadgyweirio yn drwyadl yn y flwyddyn 1855; a medda gloch-dŵr uchel, yn arddull y bedwaredd ganrif ar ddeg; a chynnwysa ddelwad o'r Deon Goodman: ac yn agos iddi y mae adeiladau oeddynt gynt yn drigle y rheithiaduron, (*canons*), ac ydynt yn awr yn gyfanneddle Gwardain Ruthin.

Yr ysgol rammadegol râd, a seiliwyd gan Dr. Goodman, Deon Westminster, yn y flwyddyn 1595, yr hwn a'i gwaddololodd â haner degymau Llanelidan, er cynnal athraw, ac is-athraw, i roddi addysg rad i fechgyn ganedig yn nhref Ruthin, a phlwyf Llanelidan; yr athraw i gael ei bennodi gan Esgob Bangor, a Gwardain yspytty Crist yn y dref hon; a'r is-athraw i gael ei bennodi gan yr athraw. Y mae yn perthyn i'r ysgol hon ddwy glas-ged i un o'r prif-ysgolion, seiliedig gan Godfrey Goodman, Esgob Caerloyw, a nai i'r seilydd, dan reoleiddiad penderfyniad y Cangell-lys, yn y flwyddyn 1824, y rhai ydynt yn rhoddiad Gwardain yspytty Crist, ac ymddiriedolwyr eraill; a chlas-gedau eraill, a seiliwyd gan y Parch. Edward Lloyd, periglor plwyf Ripple, nifer y rhai ydynt yn amrywio yn ol cyllid yr ettifeddiaeth, yn swydd Fflint, a brynwyd â'r arian a adawsai efe i'r dyben hwnw yn ei ewyllys. Medda yr ysgol hon hawl hefyd, mewn undeb âg ysgol rammadegol Bangor, i Gymmrodoriaeth yn Ngholeg *St. John*, Caergrawnt, gan y Dr. John Gwyn, yn y 13eg i'r frenines Elizabeth. Yn mysg yr enwogion a gawsant elfenau eu haddysg yn ysgol rammadegol Ruthin, gellir enwi Dr. John Davies, awdwr grammadeg, a geirlyfr Cymraeg; Dr. John Williams, Archesgob Caerefrog; Dr. John Wynne, Pennaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain, ac wedi hyny, Esgob Llanelwy, a Bath a Wells; Dr. Tucker, Deon Caerloyw; Y Gwir Anrhydeddus Lloyd, Arglwydd Kenyon; yr Anrh. Mr. Barwn Perryn; Arglwydd Brif Farwn Richards; Dr. H. Owen, periglor St. Olave, Llundain; Dr. Edwards, Archddiacon Brycheiniog, Dr. Cotton, Deon Caerlleon, ac amryw eraill. Yspytty Crist, yn Ruthin, a seiliwyd gan Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster, dan fraint-lythyrau o'r 32ain o deyrnasiad y frenines Elizabeth, at gynnal offeiriad, a deuddeg o dlodion, deg o feibion, a dwy fenyw i weini arnynt, oll yn ddi brïod, ac uwchlaw haner can mlwydd oed. Yr oedd Dr. Goodman wedi adeiladu deuddeg o eleusendai i gynnifer o dlodion cyn y pryd hwn; a thrwy fraint-lythyrau o'r amseriad uchod, efe a gorphorodd y gymdeithas dan y teitl, "Llywydd a Gwardain Yspytty Crist yn Ruthin," a gwaddolodd yr unrhyw â degymau Ruthin, a Llanrhudd; a phennododd Esgob Bangor ar y pryd, yn llywydd; a'r offeiriad yn Wardain; yn nwylaw pa rai y mae holl lywodraethiad yr Yspytty, a'r Ysgol Ramadegol hefyd, yr hon a seiliwyd gan yr unrhyw gymmwynaswr. Y mae y tai, y rhai a gedwir mewn cywair dâ, mewn sefyllfa ddifyrus, ac iachus, ar ochr ddwyreiniol y fynwent.

Melin Ruthin, sydd hen adeilad gywrain, yn meddu croes o dywod-faen coch ar ei thalcen dwyreiniol, a meddylia amryw, mai capel y gell o Fyneich Gwynion, a grybwyllir gan *Leland*, ydoedd ar y cyntaf; ond nid oes unrhyw gofion ar gael, i brofi hyny.

Brodorion o'r lle hwn oedd Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster, un o gyfieithwyr Beibl yr Archesgob Parker, a phrif gefnogwr cyfieithiad Cymreig Dr. Morgan; Edward Thelwall, athraw yr Arglwydd Herbert, o Chirbury; Dr. Parry, Esgob Llanelwy; Dr. Goodman, Esgob Caerloyw; Syr Eubule Thelwall, Marchog, Pennaeth, ac ail Seilydd Coleg yr Iesu, Rhydychain; a Syr Thomas Exmewe, arglwydd faer Llundain, yn 1517.

Y mae y fwrdeisdref yn meddu yr un ffiniau bwrdeisiol a seneddol, ac yn cynnwys holl blwyf Ruthin, a rhanau o Lanfwrog, Llanrhydd, Llanynys, a Llanfair Dyffryn Clwyd. Poblogaeth yn 1861, 3372. Tai annedd, 767. Y mae y plwyf, yn nghyda Llanrhydd, yn cynnwys 1989 erw o dir. Gwerth ardrethol Ruthin yn unig, 10,610*p.*, o ba rai y mae 228*p.* mewn nwy weithiau. Poblogaeth, 1299. Tai annedd, 278. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, unedig â pherigloriaeth Llanrhydd, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 450*p.* Noddwyr, Deon, a Glwysgor Westminster. Y mae yr is ddosbarth yn cynnwys hefyd blwyfi Llanrhydd, Llanfwrog, Llanychan, Llanbedr, ac Efenechtyd. Erwau, 9740. Poblogaeth, 4438. Tai annedd, 1014. Y mae y dosbarth yn cynnwys is-ddosbarth Llanarmon hefyd, yn yr hwn y mae plwyfi Llanarmon, Llanferras, a Llandegle;—is-ddosbarth Llanelidan, yn cynnwys plwyfi Llanelidan, Derwen, a Llanfair Dyffryn Clwyd;—is-ddosbarth y Gyffylliog, yn cynnwys plwyfi y Gyffylliog, Nantglyn, a Chlocaenog;—ac is-ddosbarth Llanrhaiadr yn Nghimmeirch, yn cynnwys plwyfi Llanrhaiadr yn Nghimmeirch, Llanynys, Llangynhafal, Llandyrnog, a Llangwyfan; yn nghyda threfgordd Aberchwiler. Erwau, 92,853. Trethi Tlodion yn 1863, 9072*p.* Poblogaeth yn 1851, 16,853; yn 1861, 16,083. Tai annedd, 3521. Prïodasau yn 1863, 109; genedigaethau 451, o ba rai yr oedd 29 yn anghyfreithlawn; marwolaethau 342, o ba rai yr oedd 88 dan bum mlwydd oed, a deg uwchlaw 85 mlwydd oed bob un. Prïodasau yn y deng mlynedd, o 1851 i 1860, 964; genedigaethau, 4260; marwolaethau, 3191. Nifer y lleoedd addoliad yn y dosbarth hwn yn 1851, oedd 21 yn perthyn i Eglwys Loegr, gyda 4479 o eisteddleoedd; 9 yn perthyn i'r Annibynwyr, gyda 1583 o eisteddleoedd; 4 yn perthyn i'r Bedyddwyr, gyda 671 o eisteddleoedd; 1 i'r Crynwyr, gyda 60e.; 9 i'r Wesleyaid, gyda 1625e.; 25 i'r Trefnyddion Calfinaidd, gyda 5082 o eisteddleoedd; ac 1 na hysbysir i bwy y perthyna, gyd ag 800 o eisteddleoedd. Yr Ysgolion oeddynt 17 o Ysgolion Dyddiol cyhoeddus, gyda 1189 o ysgolorion; 13 o Ysgolion Dyddiol anghyhoedd, gyda 302 o ysgolorion; a 59 o Ysgolion Sabbathawl, gyda 6005 o ysgolorion. Y mae Ty y tlodion yn Llanrhydd; a nifer y tlodion ynddo pan gymerwyd deiliadeb 1861, oedd 103.—Y mae y Cantref yn cynnwys 15 plwyf, a rhanau o ddau eraill. Erwau, 46,266. Poblogaeth yn 1851, 6674; yn 1861, 7363. Tai annedd, 1569.

Digitized by Google

# S.

**SADWRN**, oedd sant enwog, a sylfaenydd Eglwys Henllan, yn sir Ddinbych. Yr oedd yn aelod o goleg Llanelwy, ac yn gyffeswr yno.

**SADWRN FARCHOG**, oedd yn un o seintiau dechreu y chweched ganrif. Yr oedd yn fab i Bicanys o Lydaw, a brawd i Sant Illtyd, a chefnder i Emyr Llydaw. Ei wraig oedd Canna, merch Tewdwr ab Emyr Llydaw. Yn ei hen ddyddiau daeth gyda Sant Cadfan i Brydain, a sylfaenodd eglwysi Llansadwrn yn Môn, a Llansadwrn yn sir Gaerfyrddin. Cynelid ei wylddydd Tach. 29.

**SADYRNIN**, oedd sant enwog yn y chweched ganrif. Efe a sylfaenodd Eglwys Llansadyrnin, yn sir Gaerfyrddin. Yn ol "Achau y Saint" yr oedd efe yn fab i Sadwrn Hen, mab Gynyr o Gaer Gawch.

**SADYRNIN**, archesgob Tyddewi, yr hwn a fu farw yn B.A. 832.

**SAERAN**, oedd yn enwog yn y chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Geraint Saer, o'r Iwerddon; hyny yw, Geraint y celfyddydwr, o'r Iwerddon. Claddwyd ef yn Llanynys, yn sir Ddinbych, oddiwrth yr amgylchiad hwn y priodolid sylfaeniad yr eglwys hono iddo; ond y sylfaenydd gwreiddiol, yn ol Llywarch Hen, oedd Mor ab Ceneu ab Coel.

**SAFIN**, yr hwn a elwid hefyd "Yr Hen Safin," oedd foesolydd enwog, ac ysgrifenydd synwyr-wersi. Yr oedd yn enedigol o sir Forganwg, ac yn byw yn y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bumtheg.

**SAIS**, Elidr, bardd yn ei flodeu rhwng 1160 a 1220. Y mae lleg o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*

**SALFORD**, sydd is-bentref yn mhlwyf Hen Faesyfed, yn swydd Faesyfed; o fewn bwrdeisiaeth Maesyfed.

**SALISBURY**, Henry, a anwyd yn y flwyddyn 1561, yn Dolbelyder, yn sir Ddinbych, lle y sefydlodd cangen o'r hen deulu, Salisbury o Llyweni. Derbyniodd ei addysg golegawl yn Rhydychain, lle y daeth yn is-efrydwr o Neuadd St. Alban, yn y flwyddyn 1581, ac wedi cymeryd un urdd-radd yn y celfyddydau, trodd i fyfyrio physygwriaeth, â'r hyn yr ymarferodd ar ol hyny yn ei wlad enedigol, trwy ymsefydlu yn Ninbych. Perchid ef yn fawr, nid yn unig fel physygwr, ond hefyd fel un hyddysg yn iaith ac henafiaethau Cymru. Yn y flwyddyn 1593, dygodd drwy yr argraffwasg ramadeg Cymreig yn y Lladinaeg, cyflwynedig i Henry, iarll Penfro. Casglodd Eiriadur Cymreig a Lladin, yr hwn na argraffwyd hyd yn hyn. Yr oedd y copi, yn nghyd a'r gwelliannau olaf o hono yn meddiant yr esgob Humphreys, ac yr oedd Salisbury wedi bwriadu ei argraffu gyd ag argraffiad newydd o'i ramadeg; ond nid ydym wedi cael fel y nodasom, i hyny gymeryd lle. Yr oedd y geiriadur hwn yn cynwys llawer o eiriau a esgeuluswyd gan y Dr. Davies, yn ei eiriadur ef.

**SALISBURY**, Parch. John, aelod o hen deulu Salisbury o Llyweni, a anwyd yn sir Ddinbych. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, lle yr enillodd y radd o B.C.L., neu Wyryf yn y Gyfraith Eglwysig, Ebrill 2, 1529. Daeth wedi hyny yn fynach o urdd St. Benedict, a gwnaed ef yn benmynach Horsham, St. Faith, yn Norfolk, yn nghyda swyddogaethau ac urddas-swyddau eraill yn yr eglwys. Yn y flwyddyn 1535, gwnaed ef yn esgob Thetford, yn Norfolk; ac yn y flwyddyn 1537, cafodd archddiaconiaeth Môn. Yn y flwyddyn 1539, gwnaed ef yn ddeon Norwich, ond amddifadwyd ef o'i holl fywioliaethau yn y flwyddyn 1554, ar esgyniad y frenines Mari i'r orsedd, a hyny am ei fod yn wr priod. Yn mis Rhagfyr, yr un flwyddyn, sefydlwyd ef yn Ganghellydd Eglwys Gadeiriol Lincoln; ac yn y flwyddyn 1559, cafodd ei adsefydlu yn archddiaconiaeth Mon, ac hefyd yn neoniaeth Norwich, yn y flwyddyn 1560, y rhai a ddaliodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn mis Medi, 1573.

**SALISBURY**, Thomas, oedd fardd a beirniad, yr hwn oedd yn dra enwog yn nghylch y blyneddoedd 1580 a 1620. Trigianai yn Llundain, ac yn y flwyddyn 1603, argraffodd Salmau Cân y Cadben William Myddleton, mewn cyfrol pedwar plyg. Y mae llythyr oddiwrtho, cyfeiriedig at Syr John Wynn, o Wydir, dyddiedig Mehefin 22ain, 1611, wedi cael ei argraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambro Briton.* Y mae ei gyfansoddiadau barddonol ar gael mewn llawysgrifau.

**SALISBURY**, Syr Thomas, Barwnig, oedd fab henaf, ac etifedd Syr Henry Salisbury, o Lleweni, yn sir Ddinbych, y barwnig cyntaf. Aeth i brifysgol Rhydychain fel boneddwr is-efrydol o Goleg Iesu, ond ymadawodd oddiyno heb gymeryd un graddiad ysgoleigaidd, ac ymddeolodd i'w wlad enedigol, wedi iddo dreulio rhyw gymaint o amser yn Llundain. Dyrchafwyd ef i deitl ac etifeddiaeth y teulu, ar farwolaeth ei dad, yn y flwyddyn 1632; a chan fod ynddo duedd gynenid at farddoniaeth a ffug hanesion, darfu iddo ymarfer llawer a myfyriaeth fabol-ganeuol, ac yn y diwedd, daeth yn un o feirdd mwyaf nodedig ei oes. Y mae ei hawl i hyn yn gorphwys mewn rhan yn ei "Hanes o Joseph," mewn prydyddiaeth Seisnig, yn dair a'r ddeg o benodau; yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1635, yn gyfrol pedwar plyg. Bu yn aelod seneddol dros sir Ddinbych, yn nheyrnasiad y brenin Iago I., a phan dorodd allan y rhyfel gwladol, cymerodd efe arfau gyda brwdfrydedd i amddiffyn yr achos breninol. Yn y flwyddyn 1642, pan yn gweinyddu ar y brenin yn Rhydychain, gwnaed ef, yn nghyda llawer o bersonau ereill, yn D.C.L. Bu farw yn y flwyddyn 1643, a'i etifeddiaeth a aeth i John, ei unig blentyn, o Hester, merch Syr Edward Tyril, barwnig o Thorton, yn sir Buckingham.

**SALISBURY**, Thomas, Ysw., ydoedd fab henaf John Salsbri o Leweni, ger Dinbych, a'i fam ydoedd yr arwrol Catrin o'r Berain. Cymerodd ran flaenllaw yn y *Babington Plot;* a dygwyd ef gyda 14eg eraill i brawf am hyny, Medi 13, 1586. Cyhuddid hwynt o deyrnfradwriaeth ddeublyg, sef ymgais i lofruddio y frenines Elizabeth, ac i godi gwrthryfel yn y deyrnas o blaid Mari, brenines Scotland, yr hon oedd ar y pryd yn garcharores yn Charley. Darfu i bump o'r cyhuddedigion gydnabod eu heuogrwydd, o ryw un o'r bradwriaethau hyn, ac felly cafwyd

Digitized by Google

hwy yn euog ar eu cyfaddefiad eu hunain. Ond y saith eraill, ac yn eu plith, aer Lleweni, a blediasant "dieuog;" pa fodd bynag euog brofwyd hwynt o gydweithredu, ar awdurdod rhyw ymadrodd anmheus yn nghyffes y lleill, a dau, Gage a Bellamy, o gydsynio wedi y weithred, neu ei chuddio, neu bleidio trostynt, a'u cynorthwyo wedi eu cyhoeddi yn fradwyr. Ar y dydd cyntaf, oedwyd y crogiad, er cael eu dirboeni, yn ol yr hen ddeddf benaethol am frad. Ond darfu i ieuenctyd, ymddygiad, ac urddas y dyoddefwyr, weithio gresyndod cryf yn yr edrychwyr, a chenadwyd i Mr. Salisbury, a chwech eraill gael marw ar y crogbren, cyn i'w cyrph gael eu rhoddi tan gyllell y dyfinydd.

SALISBURY, William, a anwyd yn nechreu yr unfed ganrif ar bumtheg. Ei daid, Robert Salisbury, ydoedd bedwerydd mab i Thomas Salisbury Hen, o Lyweni. Daeth i feddiant o etifeddiaeth y Plas isaf, trwy briodas a Gwenhwyfar, unig ferch, ac etifeddes Rhys ab Einion Fychan, o'r lle hwnw. Wedi derbyn ei ddysg dechreuol yn ei wlad ei hun, symudodd i brif-ysol Rhydychain, lle yr arosodd am rai blynyddoedd, gan wneud y goreu o'r amser yn yr ysgol. Symudodd yn fuan i'r Thavies' Inn, yn y Chancery, Llundain, lle y dylynodd ei efrydiaeth gyda llwyddiant mawr yn y gyfraith; a bernir iddo symud oddiyno drachefn yn fuan, i Lincoln's Inn. Oddiwrth ei ragymadrodd i un o'r llyfrau a gyhoeddodd, ac a elwir "Egluryn Ffraethineb," bernir ei fod yn dra adnabyddus, o ddim llai na naw o ieithoedd, heblaw y Gymraeg, a'r Saesneg, sef yr Hebraeg, y Galdaeg, y Syriaeg, yr Arabaeg, y Roeg, y Lladin, y Ffrengaeg, yr Eidalaeg, a'r Hisbaenaeg. Yn y flwyddyn 1563, ordeiniwyd trwy weithred seneddol, fod i'r Beibl oll, yn cynwys yr Hen Destament a'r Newydd, i gael ei gyfieithu i iaith y Cymry, a bod esgobion Llanelwy, Bangor, Tyddewi, Llandaf, a Henffordd, dan rwymau dirwyol i edrych ar fod y cyfieithiad i gael ei gwblhau, a'i argraffu at wasanaeth yr Eglwysi, erbyn y dydd cyntaf o fis Mawrth, 1566. Yr oedd galluoedd William Salisbury, o ran ei wybodaeth a'i ddysgeidiaeth, yn nghyda'i eiddigedd dros y grefydd Brotestanaidd yn mhob modd, yn ei gymhwyso at y gorchwyl pwysig; ac ar gais yr esgobion, ymgymerodd a'r gorchwyl o gyfieithu y Testament Newydd, yr hwn a argraffwyd yn Llundain, yn 1567, yn bedwar plyg. Y mae y gyfrol hon yn cynwys wyth gant o dudalenau, wedi eu hargraffu mewn llythyrenau duon; ac mae y gwaith oll ar y gyfrol, o gyfieithiad Salisbury, gyda'r eithriad o'r epistol cyntaf at Timotheus, yr epistol at yr Hebreaid, yr epistol gan Iago, a'r un gan Pedr, y rhai a gyfieithwyd gan y Dr. Richard Davies, esgob Tyddewi; a llyfr y Datguddiad, yr hwn a gyfieithwyd gan Thomas Huet, *precentor* Tyddewi. Gellid sylwi, mai y cyfieithiad hwn, wedi ei adgyweirio a'i ddiwygio gan yr esgobion Morgan, a Parry, ydyw yr un sydd genym ni mewn arferiad yn awr. Dywedir yn nghofiant Syr John Wynn, o Wydir, fod Salisbury wedi ymgymeryd a'r gorchwyl o gyfieithu yr Hen Destament hefyd i'r Gymraeg, a'i fod wedi cyfaneddu gyda Dr. Richard Davies, am tua dwy flynedd i'r dyben hwnw; ac yr oedd efe wedi myned yn mlaen yn mhell ar y gwaith, ac wedi bwriadu myned drwyddo; ond, fel yn anffodus y cymerodd dadl le rhyngddynt mewn perthynas i ystyr a gwreiddyn un gair, yr hwn y mynai yr esgob ei gael un ffordd, a William Salisbury ffordd arall, er colled ddirfawr i'r genedl a'i hiaith; oblegid tra yr oeddynt gyd a'u gilydd yn gytun, yr oeddynt wedi cyfansoddi homiliau, a llyfrau, a nifer fawr o draethodau yn yr iaith Gymreig; a diau y buasent wedi gwneud llawer mwy, ond fel y dygwyddodd y camddeall annedwydd hwn rhyngddynt; oblegid bu yr esgob fyw am bum neu chwe blynedd wedi hyny, a bu William Salisbury fyw tua phedair ar hugain; ond yr oedd wedi rhoddi i fynu ysgrifenu yn hollol, fel yr oedd yn fwyaf galarus, a mwyaf y golled i ni, canys yr oedd yn ysgolhaig campus, ac yn Hebrewr diail, yr hyn oedd yn beth pur annghyffredin yn y dyddiau hyny. Ar farwolaeth Robert, ei frawd henaf, yr hwn oedd heb un mab, daeth ef i etifeddu llawer o'i feddianau, yn nghyda llys y Plas isaf; ond preswyliodd am amser yn y Cae Du, plwyf Llansannan, yn neillduol yn ystod teyrnasiad y frenines Mari, i'r hon yr oedd ei sel Brotestanaidd wedi bod yn dramgwydd mawr; ac yr oedd ystafell fechan wedi ei threfnu iddo yno, yn yr hon y gallai ddirgelu ei hun pan y mynai, gan nad oedd mynediad iddi ond trwy ddringo yn ochr y simfa. Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd Salisbury oedd dyddiadur, ar wyneb ddalen yr hwn y mae ei gynwysiad, fel hyn:—"Yn y Llyfyr hwn y traethyr Gwyddor Cymraeg. Kalendyr. Y Credo, neu bynkeu yr ffydd Gatholig. Y Pader, neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arveradwy, a'r gweddiau gocheladwy ac Keingeu," pedwar plyg, Llundain, 1564. Dyma y llyfr cyntaf a argraffwyd yn yr iaith Gymreig. Yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd Eiriadur Seisnig a Chymreig, anghenrheidiol i'r Cymry a ddysgent yr iaith Seisnig, priodol yn ol barn ei fawrhydi y brenin, i'w arfer gan ei ddeiliaid yn Nghymru; at yr hwn y rhag ddodwyd traethawd byr ar acceniad Seisnig y llythyrenau. Llundain, pedwar plyg. Yn y flwyddyn 1550 cyhoeddodd, "Arweiniad byr ac eglur i ddysgu acenu llythyrenau yr iaith Frythoneg." Y mae y llyfr hwn wedi ei ysgrifenu yn y Saesneg. Llundain, pedwar plyg; ac ail argraphwyd ef wedi ei helaethu, yn y flwyddyn 1567. Yn 1550 cyhoeddodd lyfr yn erbyn Pabyddiaeth. Cyfieithodd hefyd yr Epistolau a'r Efengylau am yr holl flwyddyn, a chyhoeddodd y gyfrol hon yn Llundain, yn y flwyddyn 1551, gyda'r enwad, "Kynnifer llith a ban o'r ysgrythyr lan ac a ddarllenir yn Eccleis pryd Comun, y Sulieu, a'r Gwylieu trwy'r flwyddyn." Nid ydys yn sicr o'r flwyddyn y bu y gwr enwog hwn farw, ond gwyddir fod yn rhaid ei fod wedi cymeryd lle cyn y flwyddyn 1596, sef y flwyddyn y cyhoeddodd Henry Perry yr "Egluryn Ffraethineb," yr hwn a ysgrifenwyd gan William Salisbury; er fod Syr John Wynn yn ei ysgrifeniadau, yn ei nodi fel wedi cymeryd lle yn y flwyddyn 1599.

SALTNEY, sydd bentref a threfgordd yn mhlwyf Pen-ar-lag, swydd Fflint. Saif y pentref gerllaw afon Dyfrdwy, yn ymyl y terfyn â Chaerlleon, a rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, yn nghyswllt rheilffordd Caerlleon ac Amwythig, dwy filltir de orllewin o Gaerlleon; ac y mae, mewn ymarferiad, yn borthladd Caerlleon, ac wedi myned dan welliannau gwerthfawr yn ddiweddar, mewn cysylltiad â gweithfeydd rheilffyrdd, haiarn, canwyllau, gwrtaith, agoriad gweithydd glo, a sefydliad melin yd, a gwneuthuriad rhaffau gwyfyr. Y mae yma lythyrdy, dan Gaerlleon, a gorsaf rheilffordd. Y mae y drefgordd yn cynwys 2185 o erwau. Gwerth ardrethol, 7517*p*. Poblogaeth yn 1851, 854; yn

Digitized by Google

1861, 1325. Tai, 266. Yr oedd y faenoriaeth yn perthynu gynt i abad-dy y Maes Glas. Nid oedd llawer o'r tiroedd yn ddim amgen na morfa, hyd tua y flwyddyn 1778. Bu Harri II., yn gwersyllu yma yn 1157.

SAMLED, oedd yn un o seintiau y seithfed ganrif. Sylfaenodd eglwys yn Cilfai, yn Gorwenydd, adnabyddus wrth yr enw Llansamled, yn sir Forganwg.

SAMSON, oedd yn un o seintiau y chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Amwn Ddu, brenin Graweg, yn Llydaw, mab Emyr Llydaw, o Anna, merch Meurig ab Tewdrig. Ganwyd Samson yn sir Forganwg, a derbyniodd ei addysg golegawl yn ngholeg Illtyd, i lywyddiaeth yr hwn y dyrchafwyd ef ar farwolaeth Peirio. Ar ol hyn aeth i Lydaw, yn nghylch y flwyddyn 550, a phenodwyd ef yn esgob Dole. Yr ydym yn deall oddiwrth Concilia Galliae, a ddefnyddir gan Usher, iddo fyned ac arwyddo Gweithredoedd ail gyngor Paris, yn y flwyddyn 557. Yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol hyn, gadawodd Lydaw, a dychwelodd i goleg Illtyd, lle y bu farw yn y flwyddyn 592, yn 68 mlwydd oed. Yn mynwent eglwys Llanilltyd Fawr, y mae dwy groes fawr o geryg yn aros hyd heddyw, ac ar un o honynt y mae tri o wahanol gerfiadau; y cyntaf yn arhoni ei bod yn "Groes Illtutus a Samson," a'r ail yn dywedyd mai Samson a'i cyfododd i'w enaid, a'r trydydd yn dywedyd mai un Samuel oedd y cerfiwr; nid oes ar y groes arall ond un cerfiad, yr hwn a ddywed ei bod wedi ei pharatoi gan Samson i'w enaid, ac eneidiau Juthael y brenin, ac Arthmael. Samson oedd sylfaenydd a noddwr eglwys St. Samson yn Guernsey.

SAMSON, un o seintiau enwog y chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Caw, ac yn aelod o goleg St. Illtyd. Yn ol Achau y Saint, yr oedd ganddo eglwys yn Nghaer Efrog. Y mae rhyw fath o ysgrifenwyr diymddiried wedi dyrchafu y dyn hwn yn archesgob Efrog, a dywedant iddo ffoi oddiyno pan gymerwyd y ddinas gan y Sacsoniaid, ac y dystrywiasant y fynachlog, a thrwy hyny iddo achub ei fywyd; ac iddo ddwyn gydag ef lumanau ei fawredd urddasol i Lydaw, ac iddo, trwy rinwedd eu meddiant, gael eu wneud yn archesgob Dole, yn y wlad hono, esgobaeth a gadwodd hyd ei farwolaeth, pryd y dilynwyd ef gan un arall o'r un enw, sef Samson mab Amwn Ddu, yr hwn oedd wedi dyfod yno o Gymru. Y mae hanes y ddau yn fynych wedi eu cymysgu, ac ni ddywed yr awdurdodau Cymreig ddim am archesgobaeth Samson ab Caw, ond yn unig iddo ffoi ar ddyfodiad y Sacsoniaid, ac yn debyg i lawer o'i frodyr, dreulio y rhan olaf o'i fywyd yn ngholeg Illtyd.

SAMSON, archesgob Tyddewi, canlyniedydd Arthmael. Darfu i'r prelad hwn ar gyfrif afiechyd heintus oedd yn ei archesgobaeth, gilio i Dole yn Llydaw, a chymeryd ei *pall* gydag ef; darfu i'w ganlynyddion, o eisiau hwn neu ryw resymau eraill, golli yr enw o archesgob; ond er hyny, cafodd yr holl esgobion Cymreig eu hurddau oddiwrth esgobion Tyddewi, hyd amser Harri I., pan gafodd yr esgob Bernard, yr hwn oedd Normaniad, ac heb ei ddewis gan glerigwyr Cymru, yn ol fel yr arferid, ei wthio arnynt gan frenin Lloegr, yr hwn a lanwodd braidd holl sir Benfro â Fflemingiaid, a gyru ymaith y Cymru. Oddiar yr amser hyn daeth dan ymostyngiad i archesgobaeth Caergaint. Bu farw yr archesgob Samson yn Dole, ac yno y claddwyd ef, ond wedi hyny symudwyd ei weddillion marwol i Middleton, yn sir Dorset, lle yr oedd mynachlog fawreddog wedi cael ei hadeiladu gan y brenin Athelstan, ac wedi ei chyflwyno iddo er anrhydedd.

SAMUEL, Christmas, Tybir iddo gael ei eni yn mhlwyf Llanegwad, sir Gaerfyrddin yn 1674. Dilynodd Mr. Thomas Bowen fel gweinidog eglwys Pantteg, sir Gaerfyrddin, yn 1710; a bu ei weinidogaeth yn dra llwyddianus yno. Bu hefyd yn offeryn i gynal a sefydlu amryw gynulleidfaoedd mewn gwahanol barthau o'r un sir. Cyhoeddodd luaws o lyfrau defnyddiol yn yr iaith Gymraeg, ac yn eu plith, grynodeb o "Esboniad Matthew Henry ar y Testament Newydd," ac Egluradau yr un gwr ar "Gateeism y Gymanfa;" bu hefyd o gryn gymhorth i Griffith Jones o Landdowror, yn y gwaith o sefydlu ei Ysgolion yn Nghymru. Yr oedd yn un o'r gwyr mwyaf cyhoeddus ei ysbryd yn ei oes, ac yn barchus iawn gan bawb a'i hadwaenai. Nid oedd un gweinidog ymneillduol a chymaint o ddylanwad ganddo gyda'r boneddigion ag efe. Bu farw Mehefin 18, 1764, yn 90 oed.

SAMUEL, Parch. Edward, offeiriad Bettws Gwerfil Goch, a chyfieithydd "Gwirionedd y Grefydd Gristionogol." Ganwyd ef mewn lle o'r enw Cwt y Defaid, yn mhlwyf Penmorfa, sir Gaerfyrddin, yn 1674. Dywedir mai mab i wr tlawd ydoedd; a phriodolir ei ddygiad i fyny i'r offeiriadaeth, i nawdd a chefnogaeth y Dr. Humphreys, esgob Bangor, yr un gwr ag a anogodd awdwr y Bardd Cwsg i gymeryd urddau eglwysig. Cafodd berigloriaeth Bettws Gwerfil Goch yn 1702, a bu yno am bedair blynedd ar ddeg. Yn 1721, symudodd i Langar, yn yr un gymydogaeth, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd Ebrill 8, 1748, ac efe yn 75 oed. Claddwyd ef yn mynwent Llangar, wrth ben dwyreiniol yr eglwys; ac y mae ei garreg fedd yn aros yno hyd heddyw. Ysgrifenodd Edward Samuel lawer yn ei ddydd, a rhesir ef yn gyfiawn yn mhlith ysgrifenwyr goreu y 18fed ganrif. Yr oedd hefyd yn fardd o gryn gyfrifoldeb; a gellir gweled amryw engreifftiau o'i gynnyrchion prydyddol yn *Blodeugerdd Cymru*, a'r *Dewisol Ganiadau*. Nid rhyw lawer o gyfansoddiadau gwreiddiol a gyhoeddwyd ganddo; ond gwasanaethodd ei oes a'i genedl trwy gyfieithu i Gymraeg lân ddiledryw, lyfrau gwir werthfawr o ieithoedd eraill. A ganlyn sydd restr o'i weithiau llenorol:—(1) "Buchedd au'r Apostolion a'r Efengylwyr, a gasglwyd allan o'r Ysgrythyr Lân, ac o Ysgrifeniadau'r Athrawon goreu," 1704. (2) "Gwirionedd y Grefydd Gristionogol," cyfieithiad o waith Hugo Grotius, 1716, cyhoeddwyd ail argraffiad o hwn yn argraffdy y Wesleyaid yn Llundain, tua dechreu y ganrif bresenol, a thrydydd argraffiad gan Mr. Spurrell, Caerfyrddin, dan olygiaeth y Parch. D. Silvan Evans, yn 1854. (3) "Holl Ddyledswydd Dyn, a osodwyd i lawr mewn ffordd eglur, hawdd ei deall, er lles i bawb, ond yn enwedig i'r Darllenydd gwaelaf. Gwedi ei dosbarthu yn 17 o Benodau. Ac wrth ddarllen un o honynt bob dydd yr Arglwydd, gellir darllen y cyfan dair gwaith yn y flwyddyn. Angenrhaid i bob Teuluoedd. Gyda Duwiol-swyddau Dirgel ar amryw achosion. O gyfieithiad Edward Samuel," 1718. (4) "Prif Ddyledswyddau Cristion, sef Angenrhaid a Mawrlles Gweddi Gyffredin, a Mynych Gymuno," 1722; cyfieithiad ydoedd hwn o waith yr Esgob

Digitized by Google

Beveridge, a daeth ail argraffiad o hono allan yn 1723. (5) "Athrawiaeth yr Eglwys. Y rhan Gyntaf. Yn cynwys 12 o Draethiadau Bucheddol ar amryw Achosion. Gan Peter Nourse, D.D. At yr hyn chwanegwyd Gweddiau Boreuol a Phrydnawnol i Deuluoedd. O waith y Parchedig Dad yn Nuw, William Wake, D.D. A'u cyfieithu gan E. S., person Llangar," 1731. (6) "Pregeth ynghylch gofalon Bydol," 1720. (7) "Pregeth ar adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist," tua 1766.

**SAMWELL**, David, neu Samuel, bardd coeth, a brodor o Nantglyn, sir Ddinbych. Yr oedd yn wyr i'r Parch. Edward Samuel. Cafodd addysg feddygol, a phenodwyd ef yn feddyg ar fwrdd y llong *Discovery*, a lywyddid gan yr enwog Gadben Cook, ac yn y llong hono yr aeth efe i'r Moroedd Gogleddol yn 1776; ac yr oedd gyda Cook yn ei ymgyrch i geisio darganfod y cyfandir deheuol. Yr oedd hefyd yn llygad-dyst o lofruddiaeth y Cadben enwog, gan drigolion Ynysoedd Sandwich; ac ysgrifenodd hanes y gyflafan alaethus, i'r *Biographia Britannica*, yr hwn hefyd a gyhoeddwyd yn llyfryn ar wahan yn 1786, tan y teitl, "*Narrative.*" Anrhegodd y Cadben Cook â rhai o'r cywrain bethau a gasglodd efe yn ystod y mordeithiau hyn, ac y maent yn awr yn nghadw yn llyfrgell Coleg y Drindod, Caergrawnt. Cyfansoddai ef yn benaf yn Saesneg. Y mae cywydd marwnad iddo, o waith Thomas Edwards o'r Nant, i'w weled yn *Niliau Barddas* Bardd Nantglyn. Bu farw yn 1798, a chladdwyd ef yn mynwent St. Andrew's, Holborn, gerllaw yr Ysgol Gymreig, yn Llundain. Cyhoeddwyd ei ddarlun yn Paris, ac y mae rhai o'i ysgrifeniadau yn argraffedig yn y *Cambrian Register*.

**SANDDE**, sant yn y bumed ganrif. Mab ydoedd i Ceredig ab Cunedda; priodes Non, merch Gynyr o Gaer Gawch, a mab o'r briodas hon ydoedd Dewi Sant.

**SANDDE BRYD ANGEL**, un o'r triwyr a ddiangasant o Gad Gamlan. Y ddau eraill oeddynt Glewlwyd Gafaelfawr, a Morfran ail Tegid, y cyntaf o nerth, yr ail o hacrwch, pawb a dybient mai cythraul o uffern ydoedd; a Sandde oblegid ei harddwch, pawb a dybient mai angel o'r nef ydoedd, ac ni feiddient roddi noeth arf yn ei erbyn. Mab ydoedd i Lywarch Hen, ac yr oedd yn ei flodau yn y 6ed ganrif.

**SANNAN**, neu Senanus, ydoedd sant Gwyddelig, ac esgob, a fu farw yn 544. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i Ddewi Sant; ac y mae dwy eglwys yn Nghymru wedi eu cyflwyno iddo, sef Llansannan, sir Ddinbych; a Bedwellty, yn sir Fynwy. Cedwid ef mewn cof Mawrth 1, neu yn ol rhai awdurdodau, Mehefin 13.

**SARN**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyfydd Ceri, a Churchstoke, yn swydd Drefaldwyn; o dan fryniau Ceri, gerllaw Clawdd Offa; pedair milltir de ddwyrain o orsaf rheilffordd Abermale, a chwech a chwarter dwyreiniol o'r Drefnewydd. Sefydledig yn 1860; ac y mae yma lythyrfa, dan y Drefnewydd. Poblogaeth, 641. Tai, 127. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 98*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi.

**SARN**, neu Sarn-Meyllteyrn, sydd bentref yn mhlwyf Meyllteyrn, yn Lleyn, swydd Gaernarfon; mewn cyfarfyddiad chwech o ffyrdd; naw milltir gorllewin wrth ddeau o Bwllheli. Cynhelir ffair yma ar y 27 o Fehefin.

**SARNAU**, sydd le yn ochr ogledd ddwyreiniol swydd Drefaldwyn; pedair milltir a haner o Lanymynech. Y mae yma lythyrfa, dan Groesoswallt.

**SARN-BADRIG**, sydd rimyn cul o graig a graian, yn ymestyn un filltir ar hugain, de orllewinol i'r mor, o draethfa Meirionydd, ar bwynt, pum milltir a haner de wrth orllewin o Harlech. Y mae tua phedair troedfedd ar hugain o led; y mae yn cael ei gadael yn sych am dros naw milltir, ar y trai; ac y mae yn cael ei diogelu ar yr ochr ogledd orllewinol gan greigiau serth a pheryglus; ac ar y dde ddwyrain, â barau rheolaidd; y mae yn effeithio yn bwysig ar fordwyaeth yn y cyffiniau. Yr oedd yn perthyn ar y cyntaf i Gantre'r Gwaelod, yr hwn a orlifwyd gan y mor.

**SARN-GYNFELYN**, sydd greigres yn mau Aberteifi, yn cyrhaedd o draeth gogleddol swydd Aberteifi, mewn pwynt o dair milltir gogleddol o Aberystwyth. Y mae tua saith milltir o hyd, ac mewn rhai manau tua chwarter milltir o led. Y mae yn cael ei adael yn sych mewn rhan ar y trai; y mae yn cael ei amddiffyn gan ddyfnder, o ddau, i bum gwryd; yr oedd yn ffurfio y parth deheuol o Gantref y Gwaelod, yr hwn a orlifwyd gan y môr; a bernir ei fod yn cynwys rhan o hen ffordd Rufeinig.

**SARN-HELEN**, neu Ffordd Helen, sydd ffordd Rufeinig, yn y rhan orllewinol o Gymru; o Gaerfyrddin, yn ogleddol drwy Lanio-isaf, Llanbedr, Penal, neu Penallt, a Thomen-y-Mur, hyd Gaernarfon. Ystyr yr enw, fel y barna rhai ydyw, "Ffordd y Lleng;" yr enw a roddir hefyd i ffordd groes o Gaer-Bannau gerllaw Aberhonddu, hyd ddyffryn Nedd, ac i Nedd; ac hefyd i ffordd sydd mewn cysylltiad a'r Via Julia Montana, o Aberhonddu, trwy Lanfair-ar-y-Bryn, i Lanio-isaf; yn gystal ag i groesffyrdd eraill; ond mwy tebyg yw, mai Sarn Belin ddylasai yr enw fod, am mai rhai o'r prif ffyrdd a wnaed ar y cyntaf gan Belin, fab Dyfnwal Moelmud oeddynt.

**SARN-HIR**, sydd ffordd Rufeinig yn Nheubarth Cymru; o Gaerdydd, i fynu i ddyffryn ac afon Rhymni, heibio i Bryn-oer, i Gaer-Bannau, gerllaw Aberhonddu. Y mae yr un enw hefyd yn cael ei adu ar ffordd faith flinderus, sydd yn croesi o Domen-y-Mur, trwy y Bala, i'r Clawdd-Coch, ar ffordd Sarn-sws.

**SARN-SWS**, sydd ffordd Rufeinig yn Nghymru; a dybir iddi fod yn rhedeg o Aberhonddu, drwy Custeth-Collen i Gaersws, gerllaw afon Hafren, yn mhlwyf Llanwnog, swydd Drefaldwyn; ond a olrheinir yn unig o Gaersws, trwy wersyll Gwynfynydd, Meifod ar yr afon Einion, Lyssin ar yr afon Fyrnwy, Ystryd-fawr, yn y Clawdd-coch, ar yr afon Tanat, Rhos y Brithdir, Penystryd, a Llan-iwrch, i wersyll Caerfach; ac a dybir ydoedd yn dilyn oddi yno hyd Gaerlleon.

**SARN-Y-BWCH**, sydd sarn yn mâu Aberteifi, yn rhedeg dair milltir gorllewin dde orllewin o draeth deheuol Meirionydd, mewn pwynt cyfagos i Dowyn. Gadewir y lle yn sych, am tua milltir o ffordd, ar y trai; ac y mae yn cael ei ymylu yn y pen sydd yn rhedeg i'r mor, gan ddyfnder o tua chwe gwryd o ddwfr; ac fel Sarn-Badrig, a Sarn-Gynfelyn, a dybir ei fod yn rhan o Gantref y Gwaelod, a orlifwyd gan ddyfroedd y mor.

**SAUNDERS**, Dr. Erasmus, a hanai o deulu y Saunders o Pendyne a'r Gellyweek, sir Benfro, ydoedd berson *Morton in the Marsh*, sir Gaerloyw.

Digitized by Google

Efe a ysgrifenodd Egluriadau Byrion ar y Bibl, a thraethawd bychan a rhagorol ar Ddyledswyddau Teuluaidd. Yr oedd yn ddyn enwog iawn. Ei fab y Dr. Erasmus Saunders, oedd yn ganon Windsor, ac yn berson *St. Martin-in-the-Fields;* a'r hwn, pe buasai fyw ychydig yn hwy, a ddyrchafesid i'r esgobaeth gyntaf a acthai yn wag. Cawsant ill dau eu dysgeidiaeth yn Ngholeg Merton, Rhydychain; ac yr oeddynt yn ddynion dysgedig, a thalentog. Bu rhai o deulu y Saunders hefyd yn enwog yn y gyfraith, ac yn farnwyr, oddeutu dau gant o flyneddau yn ol.

SAUNDERS, WILLIAM, ydoedd fab i Evan Saunders, amaethwr parchus, ac a anwyd Ionawr 17, 1806, yn Gwarycwm, plwyf Llanllwni, sir Gaerfyrddin. Bu dan addysg gyda'r enwog Davies, Castellhywel, a thrachefn yn ysgol ramadegol Caerfyrddin. Yn 1821, aeth i ddysgu y gelfyddyd o argraffu, at Mr. Samuel Williams, o Aberystwyth, lle y trigianodd hyd 1829. Profodd ei fod yn fardd o gryn deilyngdod pan yn dra ieuanc; ac yn 1824, pan yn 18 oed, enillodd wobr a thlws arian yr Archddeon Benyon, yn Nghaerfyrddin, am y bryddest ddiodl oreu ar "y Gwanwyn." Yn 1826, enillodd y wobr a'r tlws am gyfansoddiad cyffelyb ar "Yr Haf;" ac yn 1827, a 1828, gwobrwywyd ef am bryddestau ar "Yr Hydref," "a'r Gauaf." Ystyrid ei waith ar y "Gauaf," yn gyfartal i'r eiddo Daniel Ddu, yr hwn hefyd oedd yn ymgeisydd, a rhoddwyd gwobrau cyfartal iddynt ill dau. Yn 1828, enillodd wobr a thlws arian, am y bryddestawd Bindaraidd oreu, ar y "Daran," ac yn 1829, cafodd y wobr am y cyfieithiad goreu o'r "*Deserted Village*," gan Goldsmith. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Cymreigyddion Aberystwyth, enillodd ganddi wobrau am yr awdl oreu i'r "Mor," acam y Cywydd goreu ar "Gastell Aberystwyth." Yn 1830, ar gais Mri. R. a W. Rees, symudodd i Lanymddyfri, lle y trigianodd hyd ei farwolaeth. Cynorthwyai Mr. Blackwell fel isolygydd y Cylchgrawn, a chyfieithodd amrai o'r erthyglau sydd yn y misolyn hwnw. Ymddangosodd lluaws o'i gyfansoddiadau yn y gwahanol gylchgronau a gyhoeddwyd gan Mr. Rees, yn enwedig yn yr Haul, yn mha un yr argraffwyd rhai o'i gyfieithiadau o Horace, a Homer. Wedi marwolaeth y cadeirdraw Rees, efe a olygodd yr argraffiad newydd o "Ganwyll y Cymry," a bu o fawr gymhorth yn nygiad allan amryw lyfrau eraill, o wasg enwog Llanymddyfri. Bu farw Mehefin 30, 1851, a chladdwyd ef yn mynwent Llandingad.

SAWDDWY, neu Y SAWDDWY, sydd afon yn Nghaerfyrddin, yn codi yn y parth deheuol o'r Mynyddau Duon, yn agos i'r terfyn â Brycheiniog, ac yn rhedeg tuag un filltir ar ddeg gogledd ddc ogleddol, i'r afon Teifi, o dan Langadog.

SAWYL BENISEL, a olianodd ei dad Rhydderch, fel brenin Prydain, yn yr ail ganrif cyn Cred.

SAWYL BENUCHEL, penaeth yn y chweched ganrif, ydoedd fab Pabo Post Prydain, ac a restrir yn y Trioedd, gyda Pasgen, a Rhun, dan y penawd "tri thraawg;" a thrahausaf ar bob trahaus eu traha wynt, ac achaws hyny dwyn difrawd ar Ynys Prydain; a'r ddifrawd hon a ddamgystlyses a'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Saeson. Wedi iddo fel hyn golli ei gyfoeth, a'i deyrnedd, efe a ymarweddodd fywyd crefyddol, ac a neillduodd i fynachlog Bangor Iscoed, pan oedd Dunawd yn brif-fynach.

SAWYL FELYN, sant oedd yn byw yn yr wythfed ganrif, ac yn fab i Bledri Hir, mab Meurig, brenin Dyfed, a sylfaenodd Eglwys Llansawel, yn Emlyn, sir Gaerfyrddin.

SCAFELL, neu YSGAFELL, sydd orsaf rheilffordd yn swydd DREFALDWYN, gerllaw y Cambrian-railway, dwy filltir a haner gorllewinol o Drenewydd.

SCAWEN, neu YSCAWEN, sydd drefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd FFLINT, ar yr afon Clwyd, gerllaw Rhuddlan. Poblogaeth, 326.

SCENFRAITH, sydd bentref, plwyf, a chantref yn swydd FYNWY. Saif y pentref ar afon Monnow, chwe milltir a haner, gogledd orllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Mynwy. Llythyrfa dan Fynwy. Cynnwysa y plwyf 4720 o erwau, ac y mae yn nosparth Mynwy. Gwerth ardrethol, 4136*p*. Poblogaeth, 666. Tai, 138. Y mae y meddianau rhwng amryw. Y mae Skenfrith Castle yn henafol, ac yn cynwys amryw dyrau. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf, gwerth 215*p.*, ac yn nawddogaeth G. Speke, Ysw. Y mae y cantref yn cynwys deg plwyf, a chyfran o ddau eraill: ac a ddosperthir yn ddwy ran, uchaf, ac isaf. Erwau 20,068 a 12,938. Poblogaeth yn 1851, 2249 a 1400; yn 1861, 3910. Tai, 807.

SCER, sydd gyfran o lain plwyfol ychwanegol yn mhlwyf Cenffigisaf, yn swydd FORGANWG, chwe milltir a haner gogleddol o Ben-y-bont.

SCETTY, sydd bentref a chapeloriaeth yn mhlwyf Abertawe, swydd FORGANWG. Saif y pentref yn agos i fân Abertawe, ac yn ymyl rheilffordd Oystermouth; dwy filltir a haner de orllewin o Abertawe; ac y mae yn lle difyrus iawn. Y mae yma orsaf a elwir "Sketty Road," ar y rheilffordd; a Llythyrfa dan Abertawe. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1851. Poblogaeth, 1312. Tai, 266. Sketty Park ydyw y prif balas. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 160*p.*, ac yn nawddogaeth H. H. Vivian, Ysw.

SCEWEN, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Cadocston, MORGANWG; gerllaw Nedd. Sefydledig yn 1846. Llythyrfa yn Nedd. Poblogaeth, 3173. Tai, 640. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 160*p.*, ac yn nawddogaeth y Goron, a'r Esgob, bob yn ail.

SCOCHAM, sydd ynys, o 200 erw, yn mhlwyf Dale, swydd BENFRO, pum milltir gorllewin ogledd orllewin o *St. Anne's light*. Gwerth ardrethol, 60*p*.

SCOMAR, sydd ynys, o tua 700 erw, gyferbyn a phlwyf Marloes, yn swydd BENFRO, haner milltir gorllewinol o St. Bride's Point.

SCRWGAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangedwyn, swydd DDINBYCH, un milltir ar ddeg de orllewin o'r Waun.

SCUBOR-Y-COED, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel-Genau'r-Glyn, swydd ABERTEIFI, gerllaw ymuniad yr afonydd Einon a Dyfi, pedair milltir a chwarter gogledd ddwyrain o Aberystwyth. Y mae yn cynwys pentrefi Eglwys-Fach, a Furnace. Erwau 11,264, o'r hyn y mae 870 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2368*p*. Poblogaeth, 546. Tai, 123.

SCWD-EINION-GAM, sydd raiadr o ddeg troedfedd a thri-ugain o godwm, yn ochr ddeheuol Aberhonddu, gerllaw ffrwd y Pryddyn, yn agos i Bont-Nedd-Fechan.

SCWD-YN-HENRYD, sydd raiadr, deg troedfedd a phedwar ugain o godwm, de orllewin o Aberhonddu; ar afon Llech, gerllaw Capel-Coelbren.

Digitized by Google

**SEALAND**, sydd drefgordd yn mhlwyf Pen-arlag, swydd FFLINT; dwy filltir gogledd orllewin o bentref Pen ar lag. Erwau 5514, o'r hyn y mae 535 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 6052*p*. Poblogaeth yn 1851, 291; yn 1861, 390. Tai, 66. Cynnyddodd y boblogaeth drwy enill tir oddiar y morfa. Codwyd eglwys yma yn 1866.

**SEFNYN**, oedd yn fardd enwog, ac yn byw yn y rhan flaenaf o'r bedwaredd ganrif a'r ddeg, rhwng y blyneddoedd 1320 a 1370. Yr oedd yn enedigol o Llanbabo, yn sir Fôn. Y mae tair o'i awdlau yn argraffedig yn y *Myvyrian Archaeology*.

**SEGRWYD**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Cynmeirch, swydd DDINBYCH; milltir a haner de dde orllewin o Ddinbych. Gwerth ardrethol, 2740*p*. Poblogaeth, 328.

**SEIONT**, neu Y SEIONT, sydd afon yn swydd Gaernarfon, yn codi ar yr ochr ogledd ddwyreiniol i'r Wyddfa; ac yn rhedeg tua thair milltir ar ddeg gorllewin ogledd orllewin, heibio i Lanberis, Dolbadarn, a Dinorwig, i afon Menai, yn Nghaernarfon.

**SEIRIOL**, sant yn nechreu y chweched ganrif. Yr oedd yn fab i Owain Danwyn ab Einion Yrth ab Cunedda Wledig. Yr oedd ar y cyntaf yn aelod o goleg Garmon; ac wedi hyny, pan sylfaenodd Einion, brenin Lleyn, goleg Penmon, yn sir Fon, gosododd Seiriol, ei nai, yn llywydd arno; a gwaddolodd ef a llawer o gyfoeth, a thir. Y coleg hwn, yr hwn wedi hyny a alwyd Cor Seiriol, a ddaeth mor enwog, fel y darfu i wŷr Llychlyn, wrth yr hwn enw y deallwn y Scandinafiaid, y rhai oeddynt wedi ymsefydlu yn Ynys Manaw, a'r Alban, ymgynull iddo yn lluoedd er derbyn gwybodaeth ddefnyddiol a chrefyddol. Colegau Seiriol, a Beuno, oeddynt y mwyaf enwog mewn dysgeidiaeth o holl golegau Gogledd Cymru. Yn ddarostyngedig i Penmon yr oedd cell yn Ynys Glanach, neu faranedd offeiriadol, i'r hon y tybid fod Seiriol yn nawdd sant. Gelwir yr Ynys hon yn awr, yn Ynys Seiriol.

**SEISYLLT BRIF-FWRCH**, oedd fardd enwog rhwng 1160 a 1210. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau wedi eu hargraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaeology*. Y mae dwy o'r rhai hyny yn farwnadau i Iorwerth ab Owain, ac Owain Gwynedd, a'r drydedd wedi ei chyfeirio i'r Arglwydd Rhys.

**SEITHENYN**, a elwid hefyd Seithenen Feddw, ydoedd yn frenin Gwastadedd Gwyddno, yr hwn oedd yn byw tua diwedd y bumed ganrif. Yr oedd ef yn fab i Seithyn Hen, neu Seithyn Seidi, mab Plaws Hen, brenin Dyfed, yr hwn hefyd oedd fab Gwrtherin, pendefig o Rufain, yr hwn a ddaeth i ymlid y Gwyddelod o Frowyr a Dyfed. Cofresir Seithenyn yn y Trioedd, gyda Geraint, a Gwrtheyrn, fel "tri carnfeddwon" Ynys Prydain. Mewn pangfa o feddwdod, gadawodd y mor i ddyfod trwy y llifddrysau, y rhai oeddynt wedi eu gosod yn ddyogelwch i Gantref y Gwaelod; a gorlifwyd yr holl wlad gan ddwfr. Y parth hwn a elwir yn awr yn forgilfach Aberteifi, ac a gynwysai un ar bumtheg o ddinasoedd, y rhai a ragorent ar bob trefydd ereill a berthynent i'r Cymry, oddieithr Caerlleon-ar-Wysg; a'r preswylwyr, y rhai a waredwyd o'r trychineb a ffoisant i ranau mynyddig Meirionydd, a'r Eryri, a lleoedd ereill, na phreswyliai neb ynddynt. Tybir i'r gorlifiad gymeryd lle tua blwyddyn yr Arglwydd 520, a'r lle a ranasid rhwng dau dywysog, Seithenyn brenin Dyfed, a Gwyddno Garan Hir, brenin Ceredigion, plant y rhai o herwydd y trychineb a'r golled o'u hetifeddiaethau, a ymgyflwynasant i wasanaeth crefydd. Meibion Seithenyn oeddynt Gwyndeg, Senewyr, Arwystli Gloff, Llibio, Tudglud, Merini, Gwynodl, Hoedloyw, Tudno, a Teneio; a daethant oll yn aelodau o goleg Dunawd yn Bangor Iscoed. Cyfeirid yn aml at orlifiad Cantref y Gwaelod gan yr hen feirdd Cymreig; ac y mae un bryddest gan Gwyddno, wedi ei hargraffu yn y Myvyrian Archaeology; ac yn y penillion a elwir "Beddau y Milwyr," dywedir fod bedd Seithenyn, rhwng Caer Cenedir a'r oror.

**SELWRN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandderfel, MEIRIONYDD; tair milltir a chwarter dwyrain ogledd ddwyrain o'r Bala. Gwerth ardrethol, 663*p*. Poblogaeth, 107.

**SELYF**, mab Geraint ab Erbyn, oedd sant o goleg Garmon, yr hwn oedd yn byw yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif. Yr oedd efe yn frawd i Cyngar, Iestyn, a Caw, y rhai oeddynt yn aelodau o'r un gymdeithas. Yn yr hanesion ffugchwedleuol, gelwir ef yn Solomon, dug Cernyw.

**SELYF**, mab Cynan Garwyn, mab Brochwel Ysgythrog, penaeth o Bowys, yr hwn oedd yn byw tua chanol y chweched ganrif. Hynodir ef yn y Trioedd gydag Afaon, a Gwallawg, fel "tri aerfeddawg," am eu bod yn dial eu hunain ar eu gelynion o'u beddau.

**SENEWYR**, ydoedd sant yn byw yn y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o feibion Seithenyn Feddw; ac wedi dystrywio ei etifeddiaeth yn ngorlifiad Cantref y Gwaelod, aeth ef a'i frodyr yn aelodau o goleg Dunawd, yn Bangor Iscoed.

**SENNI**, sydd is-bentref yn mhlwyf Defynog, swydd FRYCHEINIOG, gerllaw afonig o'r un enw, wyth milltir de orllewin wrth orllewin o Aberhonddu. Y mae yma lythyrfa mewn lle a elwir Pont-Senni, dan Aberhonddu. Gwerth ardrethol, 1878*p*. Poblogaeth, 244. Tai, 50.

**SENYLLT**, mab Cedig ab Dyfnwal Hen, yr hwn oedd dywysog, ac oedd yn byw tua diwedd y bumed ganrif. Efe oedd tad Nudd Hael.

**SESSWICK**, sydd drefgordd yn mhlwyf Bangor, swydd DDINBYCH; pum milltir a haner de ddwyrain o Wrecsam. Gwerth ardrethol, 1281*p*. Poblogaeth, 125. Tai, 26.

**SHADRACH**, AZARIAH, gweinidog yr Annibynwyr yn Aberystwyth. Ganwyd ef yn Garn deilo fach, ger Abergwaun, swydd Benfro, Meh. 24, 1774. Argyhoeddwyd ef wrth wrando y Parch. J. Phillips, Gweinidog Trewyddel; ac yn y canlyniad, daeth yn aelod o'r eglwys hono; ac yn y canlyniad ymroddodd i ymgydnabod a'i Feibl Cymraeg; a thrwy lafur dyfal, a llawer o hunan-ymwadiad, efe a gyrhaeddodd fesur lled helaeth o wybodaeth grefyddol; ac yn fuan fe'i hannogwyd i ddechreu pregethu. Tua diwedd y flwyddyn 1802, efe a urddwyd i gyflawn waith y weinidogaeth, yn hen Gapel Llanrwst; a llafuriodd yn dra ymroddgar yn y cylchoedd hyn dros bedair blynedd; a dylynwyd ei lafur â bendith i laweroedd. Yna bu yn gweinidogaethu yn Nhal y bont, a Llanbadarn Fawr, Ceredigion, lle y bu yn dra llafurus am oddeutu pedair blynedd ar ddeg. Oddiyno, efe a symudodd i Aberystwyth, lle y llwyddodd i sefydlu eglwys mewn cyssylltiad a'r Annibynwyr; a thrwy lawer o ymdrech llwyddodd i gasglu digon at draul addoldy dà yn y dref hono. Cyhoeddodd un ar hugain o lyfrau, o chwe cheiniog i dri swllt yr un, y rhai a gawsant gylch-rediad hel

Digitized by Google

aeth yn mysg y Cymru. Bu y gwas ffyddlawn hwn i Grist farw Ionawr y 12fed, 1844, yn 69 mlwydd oed.

**SIAMS** AB HARRI, un o feirdd yr unfed ganrif ar bumtheg. Yr oedd efe yn enedigol o Euas; ac y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**SIANCYN**, HYWEL, oedd yn un o feirdd gwlad Emlyn, ac yn byw rhwng y blyneddoedd 1590 a 1630.

**SIANCYN** AB EINION, oedd fardd a enwogodd ei hun yn yr unfed ganrif ar bumtheg, rhwng y blyneddoedd 1540 a 1580.

**SIANCYN MORGAN**, bardd rhwng 1580 a 1610.

**SIDDONS**, MRS., y draith-chwareuyddes enwog. Ei henw gwyryfol ydoedd Sarah Kemble. Ganwyd hi yn Aberhonddu, Mehefin 5, 1755. Yr oedd ei thad, Roger Kemble, yn cadw math o chwareufa amdeithiol, ac yn mhlith y dosparth hwnw, perchid ef yn fawr. Ymddangosodd Sarah, yr hon ydoedd ei ferch henaf, ar yr esgynlawr pan yn dra ieuanc; ac er iddi gynnrychioli amryw o'r cymeriadau a roddir i blant, ni lwyddodd i dynu ond ychydig sylw, nac i ennyn ond ychydig obeithion. Pan yn ddeunaw oed, hi a briododd chwareuwr a berthynai i gwnani ei thad, o'r enw Siddons. Yn fuan ar ol hyny, symudodd i Cheltenham, lle yr enillodd gryn sylw, ac y daeth ei galluoedd yn hysbys i'r enwog David Garrick, yr hwn a'i cyflogodd i fyned i chwareudy Drury Lane, Llundain. Nid oedd ei hymddangosiad cyntaf ar fyrddau Llundain yn un llwyddianus, am y rheswm nad oedd y cymeriadau a roddid iddi yn gyfaddas i'w galluoedd. Gan hyny, gadawodd y Brif-ddinas yn siomedig a gofidus; eithr darfu i ganmoliaethau digymysg ei chynulleidfaoedd yn Nghaerefrog, Manchester, a Chaerbaddon, beri i feistriaid chwareudy Drury Lane ei hail wahodd yno. Gwnaeth ei hail ymddangosiad Hydref 2, 1712; a'r cymeriad a ddewisodd i'w gynnrychioli ydoedd Isabella, yn y *Fatal Marriage*. Yr oedd ei chwareu y tro hwn yn nerthol, a digyffelyb; teimlai y dorf wrth edrych a gwrando, fel pe buasent tan ysgytiadau gwefr-dan; ac ymgollent mewn gwynfydedd wrth edmygu ei doniau amrywiol, ac anghydmarol. Y noson hono, cymerodd Mrs. Siddons lawn feddiant o orsedd pruddchwareuaeth, a chadwodd hi yn ddiwrthwynebiad am ddeg ar hugain o flyneddau. Bu farw Mehefin 8, 1831, yn 76 oed.

**SIESYLLT I.**, ydoedd fab i Gwrwst, yr hwn a olianodd efe fel brenin Prydain yn yr 8fed ganrif cyn Cred.

**SIESYLLT II.**, ydoedd fab i Cuhelyn brenin Prydain, ar farwolaeth yr hwn y cymerodd Marsia, ei weddw, y deyrniaeth i'w llaw, gan nad oedd Seisyllt ar y pryd ond saith oed, ac oblegid doethineb y fam, buont am hir amser yn cyd deyrnasu. Tybir ei fod ef yn ei flodeu tua'r 3edd ganrif cyn Cred.

**SIESYLLT**, y trydydd yn ol y Brutiau Cymreig oedd yn fab i Owain, ac a'i dylynodd ar yr orsedd fel brenin Prydain, tua thri chant o flyneddoedd cyn Crist.

**SILIAN**, sydd blwyf yn nosparth Llanbedr, swydd ABERTEIFI, dwy filltir a chwarter, gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd Llanbedr. Llythyrfa yn Llanbedr, dan Gaerfyrddin. Erwau, 2182. Gwerth ardrethol, 980*p*. Poblogaeth, 341. Tai, 73. Y mae y meddianau rhwng ychydig. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â Llanwnnen. Y mae yr eglwys yn hen, ond mewn cyflwr da.

**SION**, CAERAU HEN, bardd rhwng 1580 a 1620.

**SION** AB HUW CONWY, bardd rhwng 1570 a 1600.

**SION** AB HYWEL AB LLYWELYN FYCHAN, bardd rhwng y blyneddoedd 1460 a 1490.

**SION** AB HYWEL GWYN, un o feirdd diwedd yr unfed ganrif ar bumtheg. Mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**SION** AB MEREDYDD AB HYWEL, oedd fardd enwog o Ddeheudir Cymru. Tybir ei fod wedi ei eni yn nyffryn Llethi, yn Ngeredigion, ac iddo flodeuo rhwng y blyneddoedd 1590 a 1630. Y mae darnau o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael yn awr mewn llawysgrifau.

**SION** AB RHOBERT, yr hwn hefyd a elwid Sion ab Rhobert ab Rhys Hywel, bardd enwog a flodeuodd rhwng y blyneddoedd 1590 a 1630. Y mae darnau helaeth o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**SION** AB RHYS AB MORYS, oedd yn fardd enwog, ac yn byw yn yr unfed ganrif ar bumtheg. Y mae darnau o'i gyfansoddiadau ar gael.

**SION** AB WILLIAM AB SION, ydoedd berorydd, neu delynor enwog, yn amser y frenhines Elizabeth; ac efe a enillodd y Delyn Arian yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568.

**SION DAFYDD LAS**, bardd a thelynor tlawd, yn byw yn y Pandy, Llanuwchlyn, Meirion, yn ei flodeu rhwng 1650 a 1690. Noddid ef gan Fychaniaid Nannau, yn Meirion, ac am hyny y gelwid ef yn fynych yn "Fardd Nannau." Y mae rhai engraifftiau o'i waith i'w gweled yn y Gwyliedydd ii. 123.

**SION GETHIN**, bardd rhwng 1600 a 1640.

**SION GUTYN FYCHAN**, bardd rhwng 1620 a 1650.

**SION GWILYM**, ydoedd fab i Sion ab Llywelyn Ddu, o Lanegwad, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn un o filwyr corphol Harri VII. Yr oedd yn un o ysgolorion barddonol Lewis Glyn Cothi, ac y mae Lewis wedi anerch un o'i awdlau iddo, ac yn hono y crybwylla eu bod yn arfer cyd-ddarllen hanesiaeth Gymraeg, ac olrhain achau. Ymddengys hefyd ei fod yn wr o radd gyfoethog, ac yn fardd o fri. Yr oedd yn ei rwysg o 1460 i 1490.

**SION HYWEL** AB SION, bardd o Lansawel, sir Gaerfyrddin, yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

**SION LEIAF**, bardd ac achyddwr, yn ei flodeu rhwng 1450 a 1490. Y mae peth o'i waith ar gael.

**SION LLEWELYN** o LANGEWYDD, Morganwg, arwydd-fardd enwog, a chynnullydd diwyd-bwyll llawysgrifau Cymreig. Cyhoeddwyd y llawysgrifau canlynol o'i gasgliad ef yn yr *Iolo MSS.* (1) "Enwau a Hiliogaeth Breninoedd Morganwg." (2) "Llyma Rol Cof a chadw, sef yn gyntaf y sonir am a fu ar gof cyn cadw ar gyfrif, allan o hen ysgrif yn Llyfrgell Castell Rhaglan." (3) "Llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, o lyfr Meuryg Morganwg, yn Nghastell Rhaglan." (4) "Maelgwyn hir, Talhaiarn, Taliesin." (5) "Hanes Coelbren y Beirdd." (6) "Cywydd i Fair, gan Ieuan ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd." (7) "Cyfrinach y Beirdd," allan o llyfr Meuryg Dafydd, ac eraill. Efe a benodwyd i gasglu cyfundraeth Barddas, fel yr oedd wedi ei chadw mewn traddodiad yn Ngorsedd Morganwg, ar yr hon y llywyddai yn

Digitized by Google

1580. Cyflawnodd y gwaith hwnw gyda dilysrwydd a diwydrwydd mawr, a rhoddwyd ffrwyth ei lafur ger bron cynnulliad arall o feirdd, pan y penodwyd Edward Dafydd i chwanegu rhai pethau atynt. Bu Llywelyn o Langewydd, fel y gelwid ef weithiau, farw yn 1616.

SION LLEYN. Ganwyd y bardd talentog hwn yn Traian, plwyf Llanarmon, Eifionydd, sir Gaernarfon, yn 1749. Ei enw bedydd ydoedd John Roberts. Yr oedd yn daid o du ei fam i "Ellis, Bryncoch," Lerpwl, awdwr Oriel y Beirdd: ac yn ewythr frawd ei dad i John Thomas, o Chwilog, (*Sion Wyn o Eifion*). Y mae lluaws mawr o gywyddau ac englynion o'i waith yn "Nghorph y Gainc," a gyhoeddwyd gan Dafydd Ddu Eryri; a cheir aml i Emyn melus o'i gyfansoddiad yn y Llyfrau Hymnau Cymreig: tra y gadawodd dwysged afrifed o wahanol gyfansoddiadau mewn llawysgrifen, heb eu cyhoeddi. Yr oedd yn wr moesol ei fuchedd, ac yn eithriad i feirdd ei oes, parth sobrwydd a chyfrifoldeb ei gymeriad. O ddiffyg llaw hael, ac yni cydymdeimladol a llengarol, y mae ei waith, fel yr eiddo amryw eraill o feirdd teilwng, yn aros ar wasgar, ac ar fin difancoll. Bu Sion Lleyn farw Mai 7, 1817, yn 68 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Denio, eglwys plwyf Pwllheli.

SION RHYS AB MORUS, oedd fardd yn trigianu yn sir Forganwg, tua diwedd y 15fed ganrif. Ymddengys ei fod yn dangos egwyddorion gwrthbabaidd mor fore a hyny, trwy gyfeirio yn fynych at yr Ysgrythyrau, a "son am farw dros y ffydd." Am hyny cafodd ef, a Thomas ab Ifan ab Rhys, bardd arall o'r un egwyddorion, eu carcharu gan Syr Mathew Cradock, y cyntaf yn Abertawe, a'r llall yn Nghastell Kynffig. Y mae cywyddau gan Iorwerth Fynglwyd, yn cyfeirio at hyn, ac yn deisyfu eu rhyddhau.

SION TEG, SYR, bardd ac offeiriad, yn ei flodeu rhwng 1600 a 1640.

SIRHOWY, neu Y SIRHOWY, sydd afon yn MRYCHEINIOG, a MYNWY; yn codi ar Fynydd Llangynidr, yn Mrycheiniog, ac yn rhedeg tua deunaw milltir de dde ddwyrain heibio i Dredegar, Argoed, a Mynydd-Islwyn, i yr Ebw, tri chwarter milltir uwchlaw Risca. Y mae y dyffryn yn gyfoethog o fwnau, ac y mae y gweithydd mwnawl yn lluosog iawn yma.

SIRHOWY, sydd bentref, gyda gwaith haiarn eang, ar gyd derfynau BRYCHEINIOG a MYNWY, ar afon Sirhowy, tri chwarter milltir gogleddol o Dredegar.

SIRHOWY (RHEILFFORDD), sydd reilffordd, gan mwyaf yn ngorllewin MYNWY; ar hyd dyffryn yr afon Sirhowy, o Nine-Mine-Point, Mynwy, heibio Tredegar a Sirhowy, i Merthyr, Tredegar, ac Abergafenni yn Nant y bwch. A sefydlwyd yn gyfreithlon yn gyntaf, yn 1802; ac a adnewyddwyd dan weithred 1860, yn bymtheng milltir o hyd.

SKERRIES, sydd nifer o ynysoedd creigiog, gyferbyn a thraeth gogledd orllewinol ynys FON; dwy filltir gogledd orllewinol o'r "Carnal point," ac wyth a chwarter gogledd wrth ddwyrain o Gaergybi. Y mae yma faen asbestos. Y mae goleudy ar yr uwchaf o honynt, a godwyd yn 1714; yn dangos goleuni 117 o droedfeddi o uchder; ac yn weledig o bymtheg milltir o ffordd. Dygodd elw i'r meddiannydd, M. Jones, Ysw., o 20,000*p.* yn 1835, a'r blyneddoedd blaenorol. Gwerthwyd y meddiant i'r *Trinity Board*, yn y flwyddyn honno, am 445,000*p.* Y mae yr adar gwylltion yn tyru yma yn lluaws mawr.

SLEBECH, sydd blwyf ac is-ddosparth yn nosparth Narberth, swydd BENFRO. Saif y plwyf ar yr afon Gleddau ddwyreiniol, pum milltir dwyrain wrth ddeau o orsaf rheilffordd Hwlffordd, Llythyrfa yn Hwlffordd. Erwau 4586, o'r hyn y mae 230 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2785*p.* Poblogaeth, 280. Tai, 55. Y mae y tiroedd yn meddiant lluaws. Y mae yr arwynebedd yn ddyffryn mynyddig, o olygfa darawiadol. Perthynai y faenoriaeth i frodoriaeth o "*Knights Hospitallers*," gynt. Aeth wedi hyny i feddiant y teuluoedd Barlow, Summons, a Phylip; a chyda Phlas Slebech, perthyna yn awr i'r Baron de Rutzen. Y mae Plas Slebech ar orsaf yr hen lŷs; ac yn cynnwys y cleddyf a'r hwn yr urddid yr hen swyddogion. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, unedig â Minwere, a Newton, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 281*p.* ac yn nawddogaeth Baron de Rutzen. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys wyth blwyf, a rhan o un arall. Poblogaeth, 3171. Tai, 674.

SMITH, GEORGE, LL.B., ydoedd fab i Williams o'r Dewisbren, plwyf Bettws Abergele, sir Ddinbych, ond a fabwysiadodd y cyfenw Smith, oddiwrth ei fam. Cafodd ficeriaeth Llangernyw, sir Ddinbych, yn 1574, a chanoniaeth Llanelwy yn y flwyddyn ganlynol. Bu hefyd yn berson Rhydwen, ac yn ficer y Cwm, yn yr un esgobaeth. Yr oedd yn berson Llaneurgain yn 1584, ac yn Ganghellydd Llandaf yn 1595. Dywedir iddo pan yn Ffrainc, gyfieithu y *Theatre du Menden* i'r Gymraeg, a'i argraffu yno dan y teitl "Gorsedd y Byd," a galw ei hun yn Rosier Smith, ar y wyneb ddalen. Dywedir hefyd ei greu yn ddoethawr yn y wlad hono, yn 1557; ac efrydodd hefyd yn Ngholeg y Frenhines, Rhydychain, er mwyn ei gadarnhau yn yr anrhydedd; a chafodd ei raddio yn LL.B. gan y Brifysgol hono, yn 1561. Bu farw yn Ebrill 1608, a chladdwyd ef yn Llaneurgain, sir Fflint.

SNEYD, neu IS-NEUADD, sydd blwyf yn nosparth isaf cwmwd Trefaldwyn, swydd DREFALDWYN, dwy filltir gogleddol o *Bishop's Castle*. Y mae ychydig faesydd o'r plwyf hwn yn swydd Amwythig. Y mae yr afon Camled, yn ffurfio y terfyn gogleddol. Y mae yn lle bryniog a ffrwythlawn. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeoniaeth Amwythig, ac esgobaeth Henffordd; ac yn nawddogaeth Philip Morris, Ysw.

SOLFA, neu SOLFACH, sydd bentref porthladdol yn mhlwyf yr Eglwys Wen, swydd BENFRO; ar wddf cul o dir, yn meisfor St. Bride, tair milltir a chwarter dwyrain dde ddwyrain o Dy Ddewi. Llythyrfa, dan Hwlffordd. Y mae yn lle difyr, gyda golygfeydd rhamantus. Poblogaeth, 596.

SONTLEY, sydd drefgordd yn mhlwyf Marchwiel, swydd DDINBYCH; tair milltir a chwarter de ddwyrain o Wrecsam. Gwerth ardrethol, 1079*p.* Poblogaeth, 87.

SOUTHERNDOWN, sydd is-bentref, yn mhlwyf *St. Bride's-Major*, swydd FORGANWG, ar lan y mor; tair milltir a haner de dde orllewin o Ben-y-bont. Y mae yn ymdrochle. Llythyrfa, dan Ben-y-bont, gyda Gwestdy. Gwerth ardrethol, 2364*p.* Poblogaeth, 340. Tai, 67. Y mae y traeth yn cael ei ymylu â chraig galchen, tua thri chan troedfedd o uchder, ac y mae yn llawn o faeniadau cywrain iawn.

SPARK, THOMAS, D.D., ydoedd fab i'r Parch. Archibald Spark, ficer Llaneurgain, sir Fflint, lle y

Digitized by Google

ganwyd ef yn 1655. Ar ol derbyn urddau eglwysig, cafodd ei benodi yn gaplan i Syr George Jeffreys, yr hwn pan ddyrchafwyd ef yn Arglwydd-Ganghellydd, a roddes iddo amryw ddyrchafiadau yn yr eglwys. Cymerodd ei radd o D.D. yn 1687. Yr oedd yn awdwr, *Notae in Libros sex Novae Historiae Lozini Comitis*, 1679. Y mae hwn wedi ei gyflwyno i'w feistr, Dr. Richard Busby, a'i gyfieithu i'r Saesneg gan rywun arall, yn 1684. Ei waith nesaf ydoedd, *Lucii Coelii Lanctiantii Finniani opera quae extant ad fidem MSS. recognita, et commentariis illustrata*, 1684. Pan y bu farw, Medi 7, 1692, yr oedd efe yn beriglor Ewchurst, Surrey, a Norton, yn sir Leicester, ac yn brebend yn Lichfield, a Rochester.

**SPITTAL**, sydd blwyf a phentref, yn nosparth Hwlffordd, swydd BENFRO; tair milltir a haner, gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Clarbeston Road; a phump a haner, gogledd wrth ddwyrain o Hwlffordd. Llythyrfa yn Hwlffordd. Erwau, 2674. Gwerth ardrethol, 2226*p*. Poblogaeth, 392. Tai, 88. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Yr oedd hen gapel, neu ysbytty yma gynt, gerllaw gwersyllfa Raths. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 79*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae yma gapel gan yr Annibynwyr, ac un gan y Wesleyaid.

**STACKPOLE-ELIDUR**, sydd blwyf yn nosparth, a swydd PENFRO, ar lan y môr, pedair milltir de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Penfro. Erwau, 2845. Gwerth ardrethol, 2480*p*. Poblogaeth, 273. Tai, 46. Y mae y faenoriaeth, gyda *Stackpole Court*, yn perthyn i Iarll Cawdor. Ail-adeiladwyd y palas gan Campbell o Cawdor; ac y mae yn sefyll ar fan lle y buasai hen gastell; ar yr hwn yr ymosodwyd yn amser Cromwell. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â St. Petrocs, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 350*p*., ac yn nawddogaeth Iarll Cawdor.

**STANLEY**, EDWARD, D.D., ydoedd ail fab Syr John Thomas Stanley, arglwydd cyntaf Stanley, a Margaret, merch ac etifeddes i Hugh Owen, o Benrhos, yn Mon. Ganwyd ef Ionawr 1, 1779, ac efe a briododd, Mai 8, 1810, â Catherine, merch y Parch. Oswald Leycester, person Stoke, yn sir Amwythig. Efe a ddyrchafwyd yn esgob Norwich.

**STANSTY**, sydd drefgordd yn mhlwyf Gwrecsam, swydd DDINBYCH, gerllaw Gwrecsam. Erwau, 585. Gwerth ardrethol, 2230*p*., o'r hyn y mae 160*p*. mewn rheilffyrdd. Poblogaeth, 410. Tai, 27.

**STEPHEN**, EDWARD, ydoedd Gymro o enwogrwydd fel swyddog yn y Gwrthryfel Americanaidd. Yr oedd yn *brigadier-general* yn myddin Virginia. Bu farw yn 1820, yn 76 oed.

**STEPNEY**, GEORGE, bardd seisnig, a gwladweinydd o gryn fri, a hanai o hen deulu anrhydeddus o'r enw, a ymsefydlasai er's hir amser yn Prendergast, sir Benfro, lle y ganwyd yntau yn 1663. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster, o ba le y symudodd i Goleg y Drindod, Caergrawnt, yn 1682. Wedi dyddiau y Chwyldroad, efe a benodwyd i amryw fanau fel llys-genad, ac yn mhlith manau ereill, fe'i danfonwyd yn 1706, gan y frenhines Anne, yn llysgenad i'r Taleithiau Cyffredinol. Yr oedd yn llwyddianus iawn gyda'i negeseuon, yr hyn a barai iddo fod ar waith yn barhaus gyda materion pwysig. Bu farw yn Chelsea, yn 1707, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster, lle y cyfodwyd colofn hardd i'w goffadwriaeth. Cyhoeddwyd amryw ddarnau barddonol o'i waith, ac hefyd rhai o'i weithiau rhyddieithol ar wladweiniaeth.

**STEYNTON**, sydd bentref, a phlwyf, yn nosparth Hwlffordd, swydd BENFRO. Saif y pentref ddwy filltir gogledd ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberdaugleddau. Llythyrdy, dan Milford-Haven. Y mae y plwyf yn cynnwys rhan o dref Aberdaugleddau, a 395 erw o draeth Milford-Haven. Erwau, 7275. Gwerth ardrethol, 12,679*p*. Poblogaeth, 3710. Tai, 663. St. Botolf, a Castle Hall ydynt y prif balasau yma. Y mae yma hen olion amddiffynfeydd. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad â Johnstone. Y mae yr eglwys yn henafol. Y mae is-berigloriaeth barhaol Milford-Haven ar wahan. Y mae yma ddwy ysgol waddoledig.

**STINAN**, neu JUSTINIAN, sant yn y 6ed ganrif. Yr oedd yn hanu o rieni anrhydeddus yn Llydaw, a gadawodd y wlad hono gan ddyfod drosodd i Gymru. Sefydlodd eglwys Llanstinan, sir Benfro, a Chapel Stinan, yr hwn a safai unwaith yn mhlwyf Tyddewi. Ysgrifenwyd bywgraffiad rhamantus o hono gan John o Teignemouth, a cheir sylwedd hwnw yn Hanes yr Eglwys, gan Cressy.

**STRADLING**, SYR EDWARD, ydoedd fab henaf Syr Thomas Stradling, o Catherine, merch Syr Thomas Gamage, o'r Coetty ac yn ddisgynydd uniongyrchol o hen dylwyth y Stradlingiaid, o Gastell St. Donat, neu Dunawd, sir Forganwg, lle y ganwyd yntau yn 1529. Addysgwyd ef yn Rhydychain, eithr gadawodd y brifysgol cyn cymeryd ei raddau; ac wedi ymdaith cryn lawer ar y cyfandir, treuliodd beth amser yn Rhufain. Gwnaed ef yn farchog yn 1575. Fel engraifft o'i nawdd i lenyddiaeth a dysgeidiaeth, gellir dweyd mai ar ei draul ef yn gyfangwbl yr argraffwyd Geiriadur y Dr. John Dafydd Rhys, yn 1592; ac argraffwyd dim llai na 1250 o gopiau o hono. Yn ei ewyllys, cyfarwydda fod i'w etifedd, Syr John Stradling, roddi y Copiau oedd yn weddill heb eu dosparthu, "i foneddwyr, neu eraill, fel y gwelai oreu er hyrwyddiad yr iaith Gymraeg." Cynullodd Syr Edward gasgliad gwerthfawr o lawysgrifau Cymreig i'w lyfrgell yn St. Donat; ac efe yw awdwr *The Winning of the Lordship of Glanmorgan*, or Morganwg, *out of the Welshmen's hands*, yr hwn a argraffwyd yn Hanes Cymru Dr. Powell, yn 1584. Bu farw, Mai 15, 1606 yn 80 oed, yn ddiblant, a chladdwyd ef y dydd canlynol yn Nghapel Mair, a adeiladesid gan ei dad, ac ydoedd mewn cysylltiad âg eglwys Dunawd Sant.

**STRADLING**, GEORGE, D.D., ydoedd bedwerydd mab Syr John Stradling, o Gastell Dunawd, Morganwg, lle y ganwyd ef yn 1621. Pan yn 15 oed, aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1641. Yn 1643, dewiswyd ef yn gymrawd o *All-Souls*, lle y graddiwyd ef yn M.A. Yr oedd yn gerddor campus, ac yn un o'r rhai goreu yn ei oes am chwareu yr offeryn cerdd a elwir y *lute*. Pan ddychwelodd Siarl II., efe a wnaed yn gaplan i'r Dr. Sheldon, esgob Llundain; ac yn D.D. yn 1661. Penodwyd ef yn brebend Westminster yn 1663; ac yn gantor yn mhrifeglwys Chichester, yn 1671. Yr oedd yn awdwr, *Sermons and Discourses upon Several Occasions*, 1692; a *Sermon on John* xix. 15, 1675. Bu farw Ebrill 19, 1688, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster.

**STRADLING**, SYR JOHN, hanai yntau hefyd o hen deulu St. Dunawd. Mab ydoedd i Francis, ac wyr i Harri Stradling, o'r lle hwnw. Ganwyd ef yn

Digitized by Google

1563. Pan yn 16 oed, derbyniwyd ef fel cyffredinwr i goleg Brazenose, Rhydychain; ac yn 1584, graddiodd fel aelod o goleg Magdalen Hall, ac ystyrid ef y pryd hwnw yn flaenllaw neillduol mewn dysgeidiaeth. Yna bu yn ymdaith ar y Cyfandir; ac wedi dychwelyd, efrydodd ar gyfer y gyfraith. Y llyfr gyntaf a gyhoeddwyd o'i waith ydoedd, "De vita et morte contemnenda." Yn 1607, cyhoeddodd "Epigrammatum lebri quator." Ei lyfr nesaf ydoedd, "Beati Pacifici; a Divine Poem, written to the King's most excellent Majesty," 1623. Wedi hyny cyhoeddodd, "Divine Poems, in seven several classes, written to King Charles I.," 1625. Gwnaed ef yn farchog yn 1608, ac ar farwolaeth ei gefnder, Syr Edward Stradling, yn 1609, daeth i feddiant o etifeddiaethau y teulu, ac ymsefydlodd yn Nghastell St. Dunawd. Crewyd ef yn farwnig Mai 22, 1611. Yn 1625, etholwyd ef yn aelod seneddol dros sir Forganwg. Bu farw Mai 11, 1637.

STRETTON, sydd drefgordd yn mhlwyf Pen-arlag, cantref Wyddgrug, swydd FFLINT, dwy filltir gogledd orllewin o Ben-ar-lag, yn cynwys, ychydig amser yn ol, 186 o boblogaeth.

SULIEN, neu SILIN, sant yn y chweched ganrif, ydoedd fab i Hywel ab Emyr Llydaw. Daeth ef a'i frodyr, Rhystyd, a Christiolus, trosodd i Gymru o Lydaw, gan fyned yn aelodau o goleg Enlli. Efe a sefydlodd eglwysi Llansilin, a Gwrecsam, sir Ddinbych; ac Eglwys Sulien, yn Ngheredigion. Galwyd Capel Silin islaw Gwrecsam, a Chapel Sant Silin, yn mhlwyf Llanfihangel Ystrad, sir Aberteifi, y rhai ydynt yn awr yn adfeilion, ar ei enw.

SULIEN, ydoedd fab i Rhyddmarch, ac yn dduweinydd enwog. Geilw Caradawg ef yn "fab maeth eglwys Llanbadarn Fawr; ac efe y doethaf mewn cynghor, y duweinydd dysgedicaf yn esgobaeth Tyddewi, a'r mwyaf ymdrechol trwy ei holl fywyd i wrthwynebu trais a thraha."

SULIEN DDOETH, esgob Tyddewi yn 1070. Yn mhen pum mlynedd rhoddes ei swydd i fynu; eithr pan laddwyd Abraham ei olynydd, gan y Daniaid, yn 1079, ar daer ddymuniad y bobl, cymerodd feddiant eilwaith o honi, a chadwodd hi hyd ei farwolaeth. Dywed Caradawg, ei fod y "doethaf a'r anrhydeddusaf o holl esgobion Cymru; yn oreu mewn cynghor, mewn dysg, mewn crefydd, ac yn amddiffynydd i heddwch a thangnef." Gelwid ef weithiau, Sulgen, ac efe a olynwyd gan Rhyddmarch. Bu farw yn 1088, yn 75 oed.

SULWY, sydd blwyf yn nghantref Dinas Powys, swydd FORGANWG; chwe milltir a haner de dde orllewin o Gaerdydd. Saif ar draeth afon Bryste, yr hon a'i terfyna ar y dde; ac agos gyferbyn âg ynys fechan o'r un enw. Nid yw y lle yn eang. Y mae y tir mewn gwrteithiad da, drwy ymdrech Mr. Thomas, o Sully House. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandaf. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Ioan Fedyddiwr. Y mae yma rai gwaddolion wedi eu gadael i dlodion y plwyf.

SWRDWAL HYWEL, bardd, a hanesydd enwog, rhwng 1430 a 1460. Yr oedd yn trigianu yn Cydewain, sir Drefaldwyn. Fel hanesydd, ysgrifenodd hanes tywysogaeth Cymru, yn Lladin, o Adda hyd at ei brenin cyntaf; ac o Adda hyd amser Iorwerth I., Ysgrifenodd hefyd *Frut*, neu Gronicl Cymreig, yr hwn a fu unwaith yn meddiant Owain Gwynedd, y bardd o Feirion. Yr oedd yn Feistr yn y Celfyddydau, ac wedi cyrhaedd gradd o bencerdd mewn cerdd dafod.

SWYDD FFYNON, sydd bentref yn nhrefgordd Lledrod-Uchaf, swydd ABERTEIFI, pedair milltir a chwarter gogledd ogledd ddwyrain o Dregaron.

SWYDD GRAIG, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandegle, swydd FAESYFED, dwy filltir de ddwyreiniol o Ben-y-bont. Erwau, 3729. Gwerth ardrethol, 1624*p*. Poblogaeth, 339. Tai, 65.

SYCHARTH, sydd drefgordd yn mhlwyf Llansilin, swydd DDINBYCH; pedair milltir a haner gorllewin dde orllewin o Groesoswallt. Poblogaeth, 214. Yr oedd un o lysoedd Owain Glyndwr yn y drefgordd hon.

SYCH-DYN, sydd drefgordd yn mhlwyf Llaneurgain, swydd FFLINT, gerllaw Wat's-dyke, pedair milltir a haner gorllewin ogledd orllewin o Ben-arlag. Gwerth ardrethol, 5060*p*., o'r hyn y mae 200*p*. mewn mwnau. Poblogaeth, 557. Tai, 111. Adeiladwyd Plas Sychdyn, gan yr esgob Wynn, yn 1714, ac aeth yn feddiant i deulu Bankes.

SYCH-DYN, sydd drefgordd yn mhlwyf Llansilin, AMWYTHIG, pedair milltir de orllewin o Groesoswallt. Erwau, 1446. Gwerth ardrethol, 1607*p*. Poblogaeth, 207. Tai, 46.

SYMMONS, CAROLINE, ydoedd ferch i Dr. Symmons. Ganwyd hi yn 1788. Yr oedd yn nodedig am rag-aeddfedrwydd ei chyneddfau a'i galluoedd, ac am ei hathrylith ddysglaer. Bu farw yn 1812, yn 24 oed. Ar ol ei marwolaeth, cyhoeddodd ei thad gasgliad o'i Chaneuon.

SYMMONS, CHARLES, D.D., ydoedd fab ieuangaf John Symmons, Ysw., o Lanstinan, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1749. Ar ol efrydu yn mhrifysgolion Glasgow, Caergrawnt, a Rhydychain, cafodd fywoliaeth Llanbedr Felffre, ac wedi hyny, Arberth; a phrebenduriaeth Clydai, oll yn sir Benfro, ac yn esgobaeth Tyddewi. Yn 1776 cymerodd y radd o B.D., yn Nghaergrawnt, a'r un radd yn Rhydychain yn 1784; ac yn mhen ychydig amser y radd o D.D. Ei waith cyntaf a gyhoeddwyd, ydoedd cyfrol o Bregethau. Yn 1789, cyhoeddodd *Sermons for the Benefit of the Decayed Clergymen of the Diocese of St. David's*. Yn 1797, daeth allan ei *Inex*, sef barddoniaeth chwareuol; ac yn 1800, un arall o'r enw *Constantia*. Yn 1806 daeth allan ei *Life of Milton*. Yn 1813, daeth allan gyfrol o Farddoniaeth, mewn rhan, o'i waith ei hun, ac mewn rhan, o waith ei ferch Caroline, a fuasai farw. Ysgrifenodd hefyd *Rhymed Translation of the Aeneis* yn 1817, ac ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, cyhoeddodd fywgraffiad byr o fywyd Shakspeare. Bu farw y Dr. Symmons yn Nghaerbaddon, yn 1826, yn 80 mlwydd oed.

SYRIOR, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandrillo, swydd FEIRIONYDD, pum milltir a chwarter de dde orllewin o Gorwen.

Digitized by Google

# T.

**TACHBUAN**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llandilo-fawr, swydd GAERFYRDDIN, gerllaw Llandilo-fawr. Poblogaeth, 197.

**TAF** (Y), sydd afon yn swyddi PENFRO, a CHAERFYRDDIN, yn codi ar ochr ddwyreiniol mynyddau Preselli, ac yn rhedeg tua phum milltir ar hugain yn dde ddwyreiniol, heibio i Whitland, St. Clear, a Lacharn, i feis-for Caerfyrddin, yn ymchwydd y Towy.

**TAF A CHYNON**, sydd is-bentref yn mhlwyf Merthyr-Tydfil, swydd FORGANWG; ar yr afon Taff, chwe milltir a haner de wrth ddwyrain o Merthyr-Tydfil. Gwerth ardrethol, 2275*p*.

**TAF-FECHAN**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llanthetty, swydd FRYCHEINIOG, deng milltir de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Llythyrdy yn Aberhonddu. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawddogaeth periglor Llanthetty.

**TAFOLOG**, sydd bentref yn mhlwyf Cemmaes, swydd DREFALDWYN, saith milltir a haner gogledd ddwyrain o Machynllaith.

**TAFF** (Y), sydd afon yn swyddi BRYCHEINIOG, a MORGANWG; ac y mae yn codi, mewn dau darddiad ar Fanau Brycheiniog, ac yn rhedeg yn ddeheuol i ymuniad y ddwy ffrwd, yn Coed-y-cymer, ac yn mlaen, yn dde ddwyreiniol, heibio Merthyr Tydfil, Mynwent y Crynwyr, Pont-y-pridd, Llandaff, a Chaerdydd, ac yn ymarllwys i afon Bryste yn Mhorthladd Caerdydd. Y mae ei rhediad oll tua deugain milltir, ac y mae yn derbyn y Cynon yn Whitehall; a'r Rhondda yn Pont-y-pridd; ac yn disgyn 568 troedfedd rhwng Merthyr-Tydfil a Chaerdydd.

**TAFF-WELL**, neu FFYNON-TAFF, sydd is-bentref yn swydd FORGANWG; ar afon Taff, a rheilffordd Dyffryn-Taff, wyth milltir gogledd ogledd orllewin o Gaerdydd. Y mae yn cymeryd yr enw oddiwrth ffynonell o ddwfr meddygol. Llythyrfa, dan Gaerdydd.

**TAI**, sydd drefgordd yn mhlwyf Bettws-yn-Rhos, swydd DDINBYCH, tair milltir a chwarter de orllewin o Abergele.

**TAI-BACH**, sydd gapeloriaeth, gyda phentref, ar derfyn plwyf Margam, yn swydd FORGANWG, ar reilffordd y Deheubarth, yn agos i orsaf-rheilffordd Port-Talbot, gerllaw Aberafon. Y mae yma brif Lythyrfa; a gweithydd Efydd. Y mae y fywioliaeth mewn cysylltiad a Margam.

**TALACHDDU**, sydd blwyf yn nosparth, a swydd BRYCHEINIOG; pedair milltir gogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Llythyrfa yn Aberhonddu. Erwau, 1818. Gwerth ardrethol, 958*p*. Poblogaeth, 193. Tai, 36. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Y mae y fywioliaeth yn beriglorlaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 143*p*., ac yn nawddogaeth Mrs. A. Gryffyth.

**TALACRE**, sydd bentref porthladdol, yn mhlwyf Llanasa, swydd FFLINT, gerllaw rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, milltir a haner gorllewin dde orllewin o *Point of Air*, a saith a haner gogledd orllewin o Dreffynon. Trwy weithred seneddol yn 1866, trefnwyd yma gangen rheilffordd, milltir a chwarter o hyd, gyda phorthladd, ar y draul o 200,000*p*. Y mae gwaith glo, a chloddfa meini gwerthfawr yn y gymydogaeth hon. *Talacre House* ydyw palas prydferth Syr P. P. Mostyn, Barg.

**TALAI**, HUW, bardd yn ei flodeu rhwng 1550 a 1580.

**TALAR**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanasa, swydd FFLINT, yn agos i Lanasa. Poblogaeth, 669.

**TALARGOCH**, sydd le hynod am ei weithydd mwn plwm, yn yr ochr ogleddol o swydd DDINBYCH, tair milltir a chwarter dwyrain ogledd ddwyrain o Ruddlan.

**TALBENNI**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd BENFRO, ar lan y mor, saith milltir gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd; Llythyrfa yn Hwlffordd. Erwau, 1425. Gwerth ardrethol, 1425*p*. Poblogaeth, 204. Tai, 42. Y mae y meddianau rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth mewn cysylltiad â West Walton.

**TALGARTH**, sydd bentref, plwyf, is-ddosparth, a chantref, yn swydd FRYCHEINIOG. Saif y pentref gerllaw rheilffordd Henffordd ac Aberhonddu, wyth milltir a haner de orllewin o'r Gelli. Yr oedd yma gastell gynt; ac y mae y lle yn fwrdeisdref; ac y mae yma Lythyrfa, dan Henffordd, gyda gorsaf rheilffordd, eglwys, pedwar o gapeli ymneillduol, elusendy, a gwaddolion; marchnad wythnosol; ac wyth o ffeiriau yn flyneddol. Gwerth ardrethol, 2965*p*. Poblogaeth, 684. Tai, 172. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd Drefecca. Pwll-y-wrach, Fforest, Grwyne-fawr, a Grwyne-fechan; ac yn cynwys 16,900 o erwau. Poblogaeth, 1330. Tai, 297. *Trefecca House* ydyw prif wrthddrych y gymydogaeth. Yr oedd Porthaml yn perthyn i deulu Vaughan, a Tredwstan, a Tregynter, i deulu Gunter. Y mae yma gromlech, ac amryw weddillion Brytanaidd. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 250*p*., ac yn nawddogaeth Deon a Chynonwyr Windsor. Y mae yr is-ddosparth yn cau allan y ddwy is-bentref Grwyne, ond yn cynwys pedwar o blwyfi eraill, a rhan o un arall; ac y mae yn nosparth y Gelli. Y mae y cantref yn cynwys tri-ar ddeg o blwyfydd, a rhan o un arall. Erwau, 71,621. Poblogaeth, 7685. Tai, 1643.

**TALGARTH**, sydd le yn ochr ddeheuol swydd FEIRIONYDD, tair milltir a chwarter gorllewin dde orllewin o Machynllaith.

**TALHAIARN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfairtalhaiarn, swydd DDINBYCH, naw milltir a haner gorllewin ogledd orllewin, o Ddinbych. Poblogaeth, 389.

**TALHAIARN**, bardd poblogaidd, a anwyd yn Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych, Ionawr 19, 1810. Ei enw bedydd ydoedd John Jones. Ei rieni John, a Gwen Jones, a gadwent yr *Harp* yn y Llan crybwylledig, ac a drinient dyddyn o dir, ac yr oeddynt yn bobl gariadus a pharchus gan eu cymydogion, a'r sawl a fynychent eu tŷ. Bu Talhaiarn ar y cyntaf tan ofal addysgiadol un Evan Jones, yn ysgol y Llan; yna aeth i Abergele, at Mr. Louis; a thrachefn i Ruddlan, tan addysg Mr. John Evans. Gadawodd yr ysgol pan yn lled ieuanc, a bu gartref am dymhor gyda'i dad yn dysgu crefft asiedydd. Wedi hyny,

Digitized by Google

danfonwyd ef i Barc Pysgodlyn, ger Ruthyn, palas Arglwydd Bagot, yr hwn a adeiladid ar y pryd, a rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda Mr. Ward, arolygydd a goruchwyliwr y gwaith. Tra yn ymberffeithio fel asiedydd, rhoddai Mr. Ward, ar gyfrif y flaendal a dderbyniasai, addysg i'r bachgen mewn archadeiladaeth a chynlluniaeth, a chynyddodd mor ragorol, fel y penodwyd ef yn fuan yn gynorthwywr i Mr. Ward yn arolygiaeth y gwaith. Yn y cyfnod hwnw y torodd allan gyntaf fel bardd. Gan ei fod yn llencyn glan-galon, llawenfryd, diragrith, a diddichell, hoffid ef yn fawr gan fân feirdd y gymydogaeth; ac yr ydym yn ofni i'w dynfa ef atynt hwy, a'u tynfa hwythau at y gyfeddach, ei lithio i demtasiwn ag y mae yn anhawdd iawn dyfod o'i gafael. Ceir adroddiad difyr o ystranciau gwamal cwmni llawen Efenechtyd, yn yr ail gyfrol o waith y bardd. Pan tua 21 oed, aeth i wasanaeth Mr. Penson, archadeiladydd, a mesurydd, dros siroedd Dinbych, a Threfaldwyn, a bu gydag ef am lawer o flyneddau, ac yn ystod yr amser hwnw, cafodd ofal adeiladaeth amryw weithfaoedd cyhoeddus, pontydd, &c. Yn 1843, symudodd i Lundain, a bu yn ngwasanaeth Meistri Scott, a Moffat, yr archadeiladwyr eglwysig enwog. Yn 1851, aeth i wasanaeth Syr Joseph Paxton, a'i fab yn nghyfraith, Mr. Stokes, gyda pha rai yr arosodd hyd oni ymneillduodd oddiwrth ei alwedigaeth. Y gwaith gyntaf a roddwyd iddo ganddynt hwy, ydoedd arolygu adeiladu palas ardderchog y Barwn Meyer de Rothschild, yn Mentmore, swydd Buckingham, yr hyn a gymerodd bum mlynedd o amser. Byddai yn y cyfamser hefyd yn cymeryd rhan yn adeiladaeth y Palas Grisial, yn Sydenham. Wedi hyny, danfonwyd ef i Ffrainc, i arolygu adeiladu palas i'r Barwn James de Rothschild, lle y bu am dair blynedd, pryd y gorfu iddo ddychwelyd i'r wlad hon o herwydd afiechyd. Yn ystod ei drigiant yn ngwlad y Ffrancod, dysgodd eu hiaith, ymgydnabyddodd â gwaith eu beirdd, a'r gweddill o'i oes, cai lawer o ddifyrwch wrth eu darllen; yn enwedig cynyrchion gwladgarol ac awenyddol Beranger. Wedi cael ychydig seibiant, a goroesi ei wendid corphorol, rhoddwyd arno ofal ac arolygiaeth adeiladu palas newydd i Arglwydd Russell, sef Parc Battlesden, swydd Bedford. Rhoes ei ymddygiad yn y swydd bwysig hono drachefn, lawn foddlonrwydd i bawb; a chan fod ei iechyd yn adfeilio, gwrthododd ymgymeryd ag unrhyw wasanaeth pellach o bwys. Gan hyny, yn 1865, ymneillduodd i dreulio gweddill ei oes, yn nhawelwch ei Lan genedigol. Yn ystod y flwyddyn hono, anrhegwyd ef gan ei gydwladwyr â blwydd-dal, yn benaf trwy ymdrechion Gwrgant, a Chadfan, yr hon a gynyrchai iddo 42*p.* yn y flwyddyn. Ychydig o fwyniant a gafodd efe, modd bynag, yn nghanol caredigrwydd a chwmni ei hen gymydogion, gan y dyoddefai lawer oddiwrth y droedwst, yr hwn a'i cystuddiasai yn achlysurol er pan oedd yn 25 oed; ac anfynych yn ystod ei flyneddau diweddaf, y byddai efe am ddiwrnod yn ddi boen. Yn chwanegol at hyn, poenydid ef yn fawr gan afiechyd tufewnol, er mwyn lliniaru yr hwn y gorfyddai fyned dan offerynau y meddyg. Yr oedd yn naturiol hefyd yn dra theimladwy o boen, a gogwydd ei feddwl pan yn ddeiliad yr arteithiau hyn, at brudd-der ac iselder ysbryd; ac anobaith gwellhad yn hylldremu arno o bob tu. Yn ngwyneb y pethau hyn, y mae yn ddrwg genym hysbysu i'w reswm golli yr awenau, ac iddo yn mhangfeydd ei ddyoddefaint geisio cymeryd ymaith ei fywyd ei hun. Yn ffodus, ni bu yr ymgais yn llwyddianus; a gwelid arno arwyddion gwella am rai dyddiau; ond trodd yr ysgytiad allan o'r diwedd yn fwy nag a allai ei gyfansoddiad cystuddiol ei ddal, a bu farw yn yr un tŷ ag y ganesid ef, Hydref 17, 1869. Mewn gwleidyddiaeth, yr oedd yn Geidwadwr, ac yn bleidiwr selog i Eglwys Loegr. Fel dyn, yr oedd yn haelionus, caredig, gwyneb-lawen, a chalon-lân. Fel bardd, a llenor, y mae y tair cyfrol a gyhoeddodd yn gaffaeliad i'n llenyddiaeth. Y mae ei ryddiaith yn ystwyth a dyddorol, a'r chwedlau am Lanfair-talhaiarn, "Ymddyddanion Modryb Modlen," a'r "Traddodiad heb Sail," yn ddifyrwch byw. Nid yw awdl y "Greadigaeth," a ymgeisiodd am gadair Aberffraw yn 1849, na'r awdl-farwnad i'r Tywysog Albert, a gyfrifid yn oreu gan un o'r beirniaid yn Abertawe, yn 1863, yn deilwng o'i athrylith; a'r un modd y cyfansoddiadau eraill ar y mesurau caethion sydd yn y cyfrolau crybwylledig. Pe gadewsid allan o'r cyfrolau hefyd bron yr oll o areithiau eisteddfodol yr awdwr, ni buasent nemawr llai eu gwerth. Ond ei ganeuon—y mae arogl maes o flodeu arnynt hwy, ac y maent mor beroriaethus a chân yr ehedydd pan yr dyrchu o'i lwth gweiriog fore tesog yn Mehefin. Cyfansoddwyd llawer o'r rhai hyn o bwrpas i ymbriodi a cherddoriaeth, ac ar gais cerddorion enwog, megis Brinley Richards, J. Thomas, Blockley, Owain Alaw, &c. Y mae y "Ddeilen ar yr afon," "Molawd Cymru," a "Pictiwr fy Mam," meiddiwn ddweyd, heb eu rhagorach mewn unrhyw iaith. Ceir yn ei ganeuon Seisnig hefyd, feddyliau hapus, mewn iaith goeth. Y mae ei gyfieithiadau, yn enwedig o *Tam o' Shanter*, a'r *Ingoldsby Legends*, wedi eu cyflawni yn ddestlus anarferol. Yr oedd Talhaiarn fel pe buasai wedi ei ddarparu o bwrpas at fod yn arweinydd Eisteddfod; a llanwodd y swydd hono gyda medr digyffelyb yn amryw o'r Eisteddfodau Cenedlaethol, yn ddeheuig, ffraeth, a boneddigaidd, ac mor hylithr ei Saesnaeg a'i Gymraeg.

**TALHAIARN BRYDYDD MAWR**, bardd, a sant enwog yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Garthwys ab Morydd ab Ceneu ab Coel Codebog; a mab iddo yntau oedd Tangwn. Yr oedd yn aelod o goleg Catwg, a thrigianai yn Nghaerlleon ar Wysg. Pan ymlidiwyd y Gwyddelod o Dir Gwyr, Carnwyllion, Cantref Bychan, a Chantref Iscennen, Talhaiarn a lywyddai yn Nghadair Urien Rheged, yn Nghaer Gwyroswydd. Yn Nghaer Gwyroswydd, neu Ystum Llwynarth, y cynaliai Urien Rheged ei lys breninol: ac efe a sefydlodd y gadair hono. Talhaiarn ydoedd gaplan teuluaidd Emrys Wledig; a phan laddwyd y tywysog hwnw, efe a ymarweddodd fywyd meudwy, ac a drigianodd mewn rhan o Rufoniog, lle y sefydlodd eglwys, ac a'i cyflwynodd i Fair; a'r eglwys hono a ddug ei enw hyd y dydd hwn, sef Llanfair Talhaiarn, yn sir Ddinbych. Efe ydyw awdwr y ffurfweddi a arferir yn Nghorsedd Beirdd Morganwg.

**TALIARIS**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llandilo-fawr, swydd Gaerfyrddin, dwy filltir a haner gogleddol o orsaf rheilffordd Talley Road, a phedair a haner, gogledd wrth ddwyrain o Landilo-fawr. Llythyrfa yn Llandilo, dan Gaerfyrddin. Gwerth ardrethol, 1112*p.* Poblogaeth, 178. Perthynai Taliaris House i deulu Gwynne, ond trosglwyddwyd ef i feddiant teulu Peel. Y mae y fywioliaeth yn is-beriglorïaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 133*p.*, ac yn nawddogaeth W. Peel, Ysw.



Digitized by Google

**TALIESIN**, neu Y TALIESIN, sydd is-bentref yn mhlwyf Llangynfelin, swydd ABERTEIFI, wyth milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o Aberystwyth, yma y claddwyd y bardd Taliesin. Llythyrfa, a elwir Taliesin, swydd Aberteifi.

**TALIESIN BENBEIRDD**, yr enwocaf o'r Cynfeirdd. Mae yn anhawdd gwybod llawer o hanes gwirioneddol Taliesin, oblegid chwedlau trawsfudiadol ei ymgipris gyda Cheridwen Wrach, a draddodir i ni am dano, yn lle ei wir hanes. Nid oedd efe yn dywysog, na rhyfelwr, fel Aneurin, a Llywarch Hen; ond bardd breiniol yn llysoedd y tywysogion ydoedd. Mab Henwg Sant o Gaerlleon ar Wysg ydoedd, a chafodd ei addysgiaeth mewn rhan yn Mangor Catwg, yn Llanfeithin, yn Morganwg. Yr oedd Taliesin yn Gristion proffesedig, canys gelwir ef yn un o "dri phrif-fardd bedydd cenedl y Cymry," a "chadair fedydd" y gelwid ei gadair farddonol yn Nghaerlleon-ar-Wysg. Y pryd hwnw yr oedd Arthur yno yn ei rwysg a'i fawredd. Cwympodd Arthur yn nghad Gamlan, yn 542, a gwahoddwyd Taliesin i Aberllychwr, i lys Urien Rheged, lle y cartrefodd am dalm o amser. Mae llawer o'i gyfansoddiadau yn dal perthynas âg Urien. Dywedid am dano, ei fod unwaith yn pysgota gydag Elphin, mab Urien, ar y mor, mewn corwg croen, ac iddynt gael eu dal gan forladron llong Wyddelig, ac iddo gael ei gymeryd ymaith i'r Iwerddon; ond pan oedd y rhai a'i daliodd yn nghanol eu cyfeddach a'u meddwdod, gwthiodd Taliesin ei gorwg i'r môr, ac aeth iddo gyda tharian yn ei law, yr hon a gafodd yn y llong, â'r hon y rhwyfodd y corwg hyd oni ddaeth yn agos i dir; ond trwy iddo golli ei darian, cafodd ei daflu yma a thraw ar drugaredd y tonau, hyd oni tharawodd y corwg ar flaen un o'r polion yn ngored Gwyddno, Arglwydd Ceredigion, yn Aberdyfi. Gwaredwyd ef o'r sefyllfa beryglus hono gan Elphin, mab Gwyddno, yr hwn a'i dygodd at ei dad, a chafodd iddo dderbyniad groesawus, ac addewid am dir. Dros lawer o flynyddoedd olynol, treuliodd ei amser rhwng llysoedd Urien Rheged, a Gwyddno Garanhir; ond wedi dystrywio Cantref y Gwaelod trwy orlifiad y môr, gwahoddwyd Taliesin gan yr Amherawdwr Arthur i'w lys ef yn Ngaerlleon-ar-Wysg, lle y daeth yn enwog iawn fel bardd athrylithgar, o ddysgeidiaeth rhyfeddol. Gosodir ef yn y Trioedd yn gyfartal a Myrddin Emrys, a Myrddin ab Madog Morfudd, fel "tri phrif-fardd bedydd," Ynys Prydain. Dywedir iddo fod yn preswylio am ryw gymaint o amser ar lanau Llyn Geirionydd, yn mynyddoedd sir Gaernarfon, ac y mae ei feddrod yn cael ei nodi hyd heddyw, wrth yr enw bedd Taliesin, yn agos i Aberystwyth, i'r hon gymydogaeth yr ymddeolodd ar ol marwolaeth Arthur, i'r etifeddiaeth a roddwyd iddo gan Gwyddno.

**TALSARN**, neu TAL-Y-SARN, sydd is-bentref yn mhlwyf Trefilan, swydd ABERTEIFI, saith milltir a haner gogledd ogledd orllewin o Lanbedr. Y mae yma ffeiriau ar Medi 8, a Tachwedd 7. Y mae Bryn Talsarn, yn 1148 o droedfeddi o uchder.

**TALSARN**, sydd le ar ochr ddwyreiniol swydd GAERFYRDDIN, dan y Mynyddoedd duon, pum milltir a haner dwyrain dde ddwyrain o Langadog. Y mae y Bryn gerllaw yn 2596 o droedfeddi o uchder.

**TALSARN**, sydd le o fewn naw milltir i Gaernarfon; yn nghanol y cloddfeydd llechi. Llythyrfa, dan Gaernarfon.

**TALSARNAU**, sydd is-bentref, yn ochr ogledd orllewinol swydd FEIRIONYDD, ar reilffordd Glan Mor Cymru, tair milltir a haner, gogledd wrth ddwyrain o Harlech. Y mae yma orsaf rheilffordd, a llythyrdy dan Gaernarfon.

**TAL-Y-BOLION**, sydd gantref yn ochr orllewinol swydd FON, yn cynwys deuddeg plwyf, a rhan o un arall. Erwau, 25,727. Poblogaeth yn 1851, 15,940; yn 1861, 14,312. Tai, 3064.

**TAL-Y-BONLLWYD**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanarth, swydd ABERTEIFI, pedair milltir a chwarter de orllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 249.

**TAL-Y-BONT**, sydd bentref yn mhlwyfydd Llanthetty, a Llanfigan, swydd FRYCHEINIOG, gerllaw rheilffordd Aberhonddu a Merthyr Tydfil, saith milltir de ddwyrain o Aberhonddu. Llythyrfa, dan Aberhonddu, a gorsaf rheilffordd.

**TAL-Y-BONT**, sydd bentref yn mhlwyf Llanllechid, swydd GAERNARFON, dwy filltir a thri chwarter de ddwyrain o Fangor. Llythyrfa, dan Bangor. Ffeiriau ar Mai 7, Awst 1, Medi 3, a Tachwedd 7.

**TAL-Y-BONT**, sydd is-bentref yn ochr ogledd ddwyreiniol swydd ABERTEIFI, saith milltir gogledd orllewin wrth ogledd o Aberystwyth. Llythyrfa dan Glandyfi.

**TAL-Y-BONT** a MOWDDWY, sydd gantref yn ochr ddeheuol MEIRIONYDD, yn cynwys pum plwyf, a rhan o un arall. Erwau, 53,430. Poblogaeth yn 1851, 6027; yn 1861, 7395. Tai, 1679.

**TAL-Y-BRYN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llannefydd, swydd DDINBYCH; pum milltir a haner gogledd orllewin o Ddinbych.

**TAL-Y-CAFN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanbedr-y-cennin, swydd GAERNARFON, ger afon Gonwy, a rheilffordd Llanrwst; tair milltir a haner deheuol o Gonwy. Y mae yma orsaf rheilffordd, a phorthfa. Yma yr oedd y lle cyffredin, i groesi yr afon, cyn adeiladu Pont Conwy; yn enwedig ar amser o dywydd ystormus.

**TAL-Y-GARN**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llantrisaint, swydd FORGANWG, gerllaw gorsaf rheilffordd Llantrisaint. Llythyrfa yn Pont-y-fon. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 47*p.*, ac yn nawddogaeth Prifathrofa Iesu, Rhydychain.

**TAL-Y-GARTH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd DDINBYCH, gerllaw Llangollen. Gwerth ardrethol, 330*p.* Poblogaeth, 14.

**TALYLLYN**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llanbeulan, swydd FON, dwy filltir gogleddol o orsaf rheilffordd Bodorgan, a chwech a haner de orllewin o Langefni. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth barhaol, yn esgobaeth Bangor; gwerth 62*p.*, ac yn nawddogaeth O. J. F. Meyrig, Ysw. o Fodorgan.

**TAL Y LLYN**, sydd orsaf rheilffordd yn mhlwyf Llanfihangel Tal y llyn, swydd FRYCHEINIOG, yn nghyswllt rheilffordd Henffordd ac Aberhonddu, ac Aberhonddu a Merthyr Tydfil, pedair milltir a chwarter dwyreiniol o Aberhonddu.

**TAL Y LLYN**, sydd bentref, plwyf, ac is-ddosparth, yn nosparth Dolgellau, swydd FEIRIONYDD. Saif y pentref gerllaw llyn prydferth, wrth derfyniad cangen reilffordd, dan Gader Idris, chwe milltir a thri chwarter gogledd ddwyrain o Towyn. Llythyrfa dan Machynllaith, swydd Drefaldwyn; a gwesty bychan. Y mae y plwyf yn cynwys tair trefgordd, a rhan o ddwy eraill; ac yn cynwys oll, 15,182 o erwau. Gwerth ardrethol, 2778*p.* Poblogaeth yn

Digitized by Google

1851, 1123; yn 1861, 1284. Tai, 274. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Sefydlwyd y gangen reilffordd yma yn 1865; ac y mae yn ymwahanu oddiwrth linell Aberystwyth yn y Towyn. Y mae llawer o'r tiroedd yn fynyddig, a rhai mannau yn arddangos golygfeydd ardderchog. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Bangor; gwerth 84*p.*, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys chwech o blwyfi. Erwau, 73,066. Poblogaeth, 4893. Tai, 1065.

**TAL-Y-LLYN**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llanbeulan, yn swydd FON, dwy filltir gogleddol o orsaf rheilffordd Bodorgan, a chwech a haner de orllewin o Langefni. Llythyrfa yn Nghaergybi. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Bangor; gwerth 62*p.*, ac yn nawddogaeth O. J. F. Meurig, Ysw., Bodorgan.

**TAL-Y-LLYN**, sydd orsaf rheilffordd yn mhlwyf Llanfihangel-Tal y llyn, swydd FRYCHEINIOG, yn nghyswllt rheilffordd Henffordd a Brycheiniog, a rheilffordd Brycheiniog a Merthyr, pedair milltir a chwarter dwyreiniol o Aberhonddu.

**TAL-Y-LLYN**, neu LLANFIHANGEL-TALYLLYN, sydd blwyf yn nosparth a swydd FRYCHEINIOG; a'r reilffordd Henffordd a Brycheiniog, a Llyn-Safaddan, pum milltir dwyreiniol o Aberhonddu. Llythyrfa yn Aberhonddu. Erwau, 1233. Gwerth ardrethol, 1305*p.* Poblogaeth, 149. Tai, 36. Yr oedd y faenoriaeth yn perthyn i Bernard Newmarch; ac aeth yn eiddo i deulu Walwyn, Wynter, a Philip, ac eraill; ac y mae yn perthyn yn awr i deulu Bold, o Hamlin Hall. Y mae Llyn Safaddan tua dwy filltir o hyd, wrth un o led, ac yn cynwys pysg gwerthfawr. Y mae y fywioliaeth yn beriglorieth yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 158*p.*, ac yn nawddogaeth y Parch. Huw Bold.

**TAL-Y-WAUN**, sydd le o fewn tair milltir i Bont-y-pwl, yn swydd FYNWY, gyda Llythyrfa dan Bont-y-pwl.

**TALLEY**, sydd bentref, plwyf, ac is-ddosparth, yn nosparth Llandilo-fawr, swydd GAERFYRDDIN. Saif y pentref mewn dyffryn isel, wrth ben dau lyn, pum milltir a chwarter, gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Talley Road, a saith milltir gogleddol o Landilo-fawr. Llythyrfa, dan Gaerfyrddin; a ffair ar 6ed, a 7fed o Awst. Y mae y plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosparth; uchaf ac isaf, a phob un yn cynwys tri is-bentref; ac oll yn 7167 o erwau. Gwerth ardrethol, 4881*p.* Poblogaeth, 1022. Tai, 208. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng amryw. Sefydlwyd Priordy, mewn cysylltiad â Welbeck-abbey yma, gan Rhys ab Gryffydd; ac a gyflwynwyd, ar y dadgorfforiad, i deulu Williams; o'r hwn y mae ychydig o olion yn aros eto. Y mae y fywioliaeth yn is-beriglorieth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 150*p.*, ac yn nawddogaeth y Parch. W. Nicholls. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1773. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys plwyf Llansawel; ac yn 17,184 o erwau. Poblogaeth, 2025. Tai, 415.

**TALLEY-ROAD**, sydd orsaf rheilffordd yn swydd GAERFYRDDIN; ar reilffordd Dyffryn Towy, dwy filltir a chwarter gogledd ogledd ddwyrain o Landilo-fawr.

**TALLOG**, sydd bentref yn mhlwyf Abernant, swydd GAERFYRDDIN; pum milltir a haner gogledd orllewin o Gaerfyrddin.

**TANAT** (Y), sydd afon yn swydd DREFALDWYN, yn codi yn mynyddau Berwyn, ac yn rhedeg tu ag ugain milltir dwyreiniol i afon Fyrnwy, yn Llandysilio.

**TANGIERS**, sydd le yn swydd BENFRO, dwy filltir o Hwlffordd. Y mae yma Lythyrfa, dan Hwlffordd.

**TANGLWST**, oedd santes yn y bumed ganrif. Yr oedd yn un o ferched Brychan Brycheiniog, a phriododd a Cyngen, mab Cadell Deyrnllwg. Hi oedd mam Brochwel Ysgythrog, Maig, a Ieuaf.

**TANGWN**, oedd yn fab i Caradog Freichfras, mab Llyr Merini, brenin y parth hwnw o'r wlad rhwng Wy a'r Hafren, yr hwn oedd yn un o seintiau y chweched ganrif. Y mae eglwys Llangoed yn Môn, wedi ei chysegru iddo, neu i Cawrdaf ei frawd.

**TANGWN**, mab Talhaiarn ab Garthwys, o Gaerlleon-ar-Wysg, oedd yn sant yn y chweched ganrif. Sylfaenodd eglwys yn Ngwlad yr Haf, a elwid oddiwrtho ef yn Tangynton, neu Taunton.

**TANWG**, sant yn nechreu y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Ithel Hael; a daeth i Gymru gyda Chadfan, o Lydaw. Yr oedd yn aelod o goleg Enlli, ac efe a sefydlodd eglwys Llandanwg yn Ardudwy, yn yr hwn blwyf y saif Harlech. Cedwid ei wylmabsant Hydref 10.

**TAN-Y-BWLCH**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanfrothen, swydd FEIRIONYDD, ar lethr mynydd, wyth milltir a haner gogledd ddwyreiniol o Harlech. Llythyrfa, dan Gaernarfon. Y mae y lle yn rhoddi golygfa fanteisiol ar ddyffryn Ffestiniog. Y mae Plas-madog, palas prydferth teulu Oakley, gerllaw, a'r maesydd addurnol o amgylch.

**TAN-Y-GRISIAU**, sydd is-bentref, yn ngogledd orllewinol swydd FEIRIONYDD, ar reilffordd Ffestiniog, tair milltir gorllewin wrth ddeau o Ffestiniog, gyda Llythyrfa, dan Gaernarfon. Y mae y lle hwn yn codi yn gyflym mewn poblogaeth. A'i nid Tan-y-gaer-isa' ydyw?

**TARAMON** (Y), sydd afon yn swydd DREFALDWYN, yn rhedeg tua deng milltir gan mwyaf yn ddwyreiniol i'r Hafren, pum milltir gorllewinol o'r Drefnewydd.

**TARRELL** (Y), sydd afon yn swydd FRYCHEINIOG, yn codi yn agos i Fannau Brycheiniog, ac yn rhedeg tu ag wyth milltir gogledd ddwyreiniol i'r Wysg, yn Mrycheiniog.

**TATHAN**, sant yn nechreu y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Amwn Ddu, brenin Graweg, o Anna, merch i Meurig ab Tewdrig. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd; ac ymsefydlodd wedi hyny mewn rhan o Forganwg, lle y sefydlodd eglwys, a elwir ar ei enw, Llandathan, neu St. Athan. Oddiyno aeth i Gaer Went, ac a sefydlodd goleg, a elwid Bangor Dathan, dan nawdd Ynyr Gwent, i'r hwn, cystal ag i'w fab Caradawg, yr oedd efe yn gyffeswr. Wedi llywyddu ar y sefydliad hwn am rai blynyddau, efe a ymneillduodd i'r eglwys a sefydlasai, ac yno y claddwyd ef. Y mae diareb o'i eiddo ar gof a chadw yn un o Chwedlau y Doethion. Ysgrifenwyd bywgraffiad Tathan, neu St. Tatheus fel y gelwir ef yn Lladin, gan John o Teignmouth.

**TAWE** (Y), neu Y TAWY, sydd afon yn MRYCHEINIOG, a MORGANWG; yn codi yn Llyn-y-fan-fawr, yn swydd Frycheiniog, ac yn rhedeg tuag un-filltir-ar-bymtheg-ar-hugain de orllewin heibio Capel-celwen, Ystrad-gynlais, Cily-bebyll, Trehannos, a Llansamlet, i feisfor Abertawe.

**TECWYN**, sant yn nechreu y chweched ganrif, ydoedd fab i Ithel Hael, ac a ddaeth trosodd i Gymru o Lydaw, gyda Chadfan, yn amser Gwrthefyr. Efe

Digitized by Google

a sefydlodd eglwys Llandecwyn, Meirion, lle y cedwid ei wylmabsant Medi 14.

**TEGAI**, sant yn y 6ed ganrif. Yr oedd yntau hefyd yn fab i Ithel Hael, ac a ddaeth yr un pryd a'i frawd Tecwyn o Lydaw, gyda Chadfan. Yr oedd yn aelod o goleg Enlli. Sefydlodd eglwys Llandegai yn Arfon. Gelwir ef yn Achau y Saint, yn Degai Glasog, o Faelan.

**TEGAI HUGH.** Gwel HUGHES (HUGH).

**TEGANWY**, RHYS, bardd o'r Creuddyn, rhwng 1460 a 1490.

**TEGAU EURFRON**, merch i Nudd Hael, a gwraig i Caradawg Freichfras. Yn *Tri.* 103, rhestrir hi gyda Trywyl, a Gwenfron, tan y penawd "tair gwenrian llys Arthur." Mewn *Tri.* arall, dywedir fod tri pheth nas gwyddis eu lliw, sef cynffon y paun ar led, mantell Tegau Eurfron, a phres cybydd. Yr oedd mantell Tegau, yn un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain; canys nis gallasai gwraig a dorasai amod ei phriodas, neu forwyn, euog o anniweirdeb, ei gwisgo, tra y gorchuddiai y fenyw ddiwair hyd y llawr. Y mae beirdd y canol oesoedd yn cyfeirio yn fynych at fantell, cwpan aur, a chyllell, Tegau Eurfron. Ceir chwedl y fantell wedi ei Seisnigeiddio gan yr hen fardd Seisnig, yn y "*Boy and the Mantle.*"

**TEGFAN**, sant yn y chweched ganrif. Mab ydoedd i Garcludwys ab Ysbwys ab Cadrod Calchfynydd. Yr oedd yn gyffeswr yn Ngholeg Cybi. Sefydlodd eglwys Llandegfan, yn Mon, yn yr hwn blwyf y saif tref Beaumaris.

**TEGFEDD**, santes yn nechreu y 6ed ganrif, a merch i Amwn Ddu ab Emyr Llydaw. Darfu iddi hi, a'i brawd Tydecho, wladychu yn rhandir Mawddwy, Meirion; ac yn ol hen chwedl sydd ar gof a chadw am dani, lladratawyd hi trwy drais, gan benaeth o'r enw Cynan; eithr bu orfod arno ei dychwelyd yn ddianaf, ac er mwyn gostegu digofaint ei brawd, rhoddi tiroedd Garthbeibio yn anrheg iddo.

**TEGID**, mab Baran, yn ol y Brutiau Cymreig, a olianodd ei dad fel brenin Cymru, yn y ganrif gyntaf o Oed Crist. Yr oedd yn frenin doeth, ac yn fardd da. Trefnodd ddeddfau rhagorol i lenyddiaeth; adnewyddodd hen wybodau ag oeddynt bron myned ar ddifancoll; a sefydlodd gynghor o feirdd a derwyddon, fel cynt. Bu mewn brwydrau mynych a pharhaus gyda'i elynion, hyd nes iddynt o'r diwedd ei ddal, a'i foddi yn y llyn mawr, a elwir oddiar hyny, Llyn Tegid, yn ngwlad Meirion.

**TEGID**, IOAN, bardd swynol, a llenor gwiwglodus, a anwyd Chwef. 10, 1792, yn y Bala, ar fin "Môr mawr Meirion;" ac oddiwrth y ffaith hon y cymerodd ei ffugenw barddonol. Ei enw bedydd ydoedd John Jones. Danfonwyd ef i amryw ysgolion pan yn ieuanc iawn, ond ni chafodd fawr addysg oddiwrth ei athrawon, oddieithr mewn rhifyddiaeth, nes myned yn 1812 i ysgol y Parch. D. Peter, i Gaerfyrddin, lle y dechreuodd ddysgu Groeg, a Lladin. Y flwyddyn ganlynol, symudodd i ysgol y Parch. D. Price, yn yr un dref; bu yno ddeunaw mis, ac yna dychwelodd i'r Bala. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1814. Penaeth y coleg y pryd hwnw oedd y Dr. D. Hughes, gwr o Lanrwst, yr hwn a fu yn noddwr iddo, oblegyd ei wybodaeth o'r Gymraeg, a'i fawr gariad at yr iaith hono, a'i henafiaethau. Yn llyfrgell y coleg, yr oedd amrai hen lawysgrifau Cymreig, megis y Llyfr Coch o Hergest, a chymerai Tegid ddywenydd neillduol wrth eu darllen, a gwneuthur adysgrif o honynt. Yr oedd Daniel Ddu yn gydefrydydd âg ef, ac enynodd cyfeillgarwch gwresog rhyngddynt, a barhaodd tra y bu y naill neu y llall byw. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1818; a'r flwyddyn ganlynol, cafodd gaplaniaeth Eglwys Crist, Rhydychain, gan y Deon Hall; ac urddwyd ef yn ddiacon, ac offeiriad yn 1819. Yn haf y flwyddyn hon, bwriadai fyned i'r India Ddwyreiniol, fel athraw yn ngholeg newydd Calcutta. Eithr darfu i gân deimladol o eiddo ei gyfaill Daniel Ddu, ar swynion "Gwlad ei Enedigaeth," ei dueddu i roddi y bwriad hwn heibio. Yn 1823, penodwyd ef yn brifgantor Eglwys Crist; ac yn ystod yr un mis, cafodd guradiaeth barhaus St. Thomas, yn yr un ddinas. Trwy ei ymdrechion, helaethwyd yr eglwys blwyfol, ac ailadeiladwyd rhan o honi; a bu yn offeryn i adeiladu dau ysgoldy hardd ac eang. Bu yn gweinidogaethu yn St. Thomas am dros ddeunaw mlynedd, a gadawodd ar ei ol adgofion perfelus am dano yn mhlith trigolion y plwyf. Llawer gwaith tra yn preswylio yn Rhydychain, y taer ddymunai cael bywioliaeth yn Nghymru, canys yn Ngwyllt Walia yr oedd ei galon, er cartrefu o hono gynifer blwyddyn yn Lloegr; a chafodd ei ewyllys mewn modd annysgwyliadwy, ac heb yr ymdrech leiaf o eiddo ei hun. Trwy hynawsedd Arglwyddes Llanover, yn dadleu ei deilyngdod, penodwyd ef gan yr arglwydd-ganghellydd Cottenham, i ficeriaeth Nanyfer, sir Benfro, yn Awst, 1841. Parodd y dyrchafiad hwn lawenydd mawr iddo, ond buasai yn fwy pe syrthiasai ei goelbren yn Meirion, canys yno y chwenychai fyw. Yn 1848, dyrchafwyd ef gan Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi, yr hwn a goleddai farn uchel bob amser am dano, yn brebendur yn ei brif eglwys. Mewn llythyr a ddanfonodd efe at "Cynddelw," ac a welir yn argraffedig yn y Brython iii. 71, dywed Tegid ei hun, o berthynas i'w athrawon barddonol;—"Cefais fy nysgu pan oeddwn o gylch deuddeg oed yn Rheolau Barddoniaeth, gan Robert Williams, sef Robert ab Gwilym o'r Pandy, Trerhiwaedog; a dysgybl oedd yntau i Rolant Huw. Ymgyfeillais wedi hyny â Bardd Nantglyn, Gwallter Mechain, ac eraill feirdd." Ac mewn perthynas i'r awen yn y gwaed, dywed fod Rolant Huw yn frawd i'w nain o du ei fam; Rhys Jones o'r Blaenau yn gefnder i'w nain o du ei dad; a bod Caerfallwch yn gyfyrder iddo, gan fod ei fam yn gyfnither i dad y Geirlyfrwr. Yr oedd yn Eisteddfodwr gwresog trwy ei holl oes, er nad enillodd efe, pan ystyriom ei alluoedd a'i fanteision addysgiadol, ond ychydig o wobrau y cyfryw gyfarfodydd. Ystyrid ef yn oracl ar ddyrys byngciau y gynghanedd, ond ychydig o ergydion awen rywiog ac chedlym a welir yn ei waith yn y mesurau hyny; tra y mae ei Ganeuon byrion yn felus odiaeth, yn enwedig "Ymweliad y Bardd," a'r "Ferch o'r Ddol." Bydd y flaenaf fyw tra yr acenir y Gymraeg. Yr oedd yn feirniad manylgraff a choeth, a llanwodd y swydd hono lawer gwaith i lawn foddlonrwydd pawb, ond—y siomedigion. Fel gwr dysgedig, y mae yr amryfal weithoedd llenyddol uchelryw a argraffodd, yn ddigonol o dystion. Pe ceisiem ddarnodi Tegid fel llenor, a bardd, nis gallem wneyd hyny yn well nag mewn dau air o eiddo ein cymydogion—"*highly accomplished.*" Ysgrifenodd lawer i'r gwahanol gylchgronau Cymreig, yn enwedig i'r Seren Gomer, a'r Haul; ac yr ydym yn meddwl fod y gofres ganlynol yn cynwys y cwbl o'r llyfrau, a'r llyfrynau a gyhoeddwyd o'i waith:—(1) "Traethawd ar Gadwedigaeth yr Iaith Gymraeg," 1820. (2) "Traethawd ar iawn lythyreniad yr Iaith

Digitized by Google

Gymraeg," 1830. (3) "A Defence of the Reformed System of Welsh Orthography," 1829. (4) "A Reply to the Rev. W. B. Knight's Remarks on Welsh Orthography," 1831. (5) "The Book of the Prophet Isaiah: Translated from the Hebrew Text of Vander Hooght," 1830; ail argraffiad 1842. Cyfieithodd Esaiah hefyd i'r iaith Gymraeg; ond y mae y gwaith hwnw yn aros hyd yn hyn mewn llawysgrifen. (6) "Gwaith Lewis Glyn Cothi, 1839; yr oedd Gwallter Mechain yn gyd-olygydd ag ef ar y gwaith hwn. Blaenorir y farddoniaeth â "*Historical Sketch of the Wars between the Rival Roses*," o ysgrifell Tegid, a thraethodyn hanesyddol da ragorol ydyw. (7) Cyfieithiad o "Adroddiadau Dirprwyaduron Ymholiad i Gyflwr Addysgiad yn Nghymru," 1848. Yr Adroddiad ar Siroedd Brycheiniog, Aberteifi, a Maesyfed, yn unig a Gymreigiwyd gan Tegid. (8) "Gwaith Barddonawl Tegid," yn nghyd a Bywgraffiad o'r Awdwr, gan y Parch. Henry Roberts, M.A. nai fab chwaer i Tegid; 12 plyg, Llanymddyfri, 1859. Yn 1828, cyhoeddwyd dan ei olygiad ef, yn ngwasg Prif-ysgol Rhydychain, argraffiad o'r Testament Cymraeg; a chan i Tegid wneuthur peth cyfnewidiad yn y llythyraeth, codwyd yr wbwb fawr yn ei erbyn, yn benaf gan y Parch. John Roberts, Periglor Tremeirchion, yn esgobaeth Llanelwy, a'r Parch. W. Bruce, Knight, y pryd hyny, Canghellydd Llandaf, ac wedi hyny Deon yr esgobaeth hono; a'r canlyniad fu, cyfarsengu yr argraffiad hwnw, rhag o ddiffyg digon o lythyrenau dyblyg, y buasai yn andwyo cyflwr gwerin Cymru. Hwyrach nad allan o le fyddai crybwyll mai dyn lled fychan, gwawrddu yr olwg arno, ydoedd Tegid; heb nac urddas na mawredd o un math i'w weled yn ei gylch. Yr oedd dau ddarlun paentiedig pur gywir o hono i'w gweled yn Mhersondy Nefern, pan oedd y bardd yn beriglor yno. Bu y gwr enwog hwn farw o'r dyfrglwyf, ar y Sabbath, Mai 2, 1852, yn Mhersondy Nanhyfer, yn 61 oed, er tristwch cyffredinol ei blwyfolion, a lluaws y rhai a'i hadwaenent. Dywedai Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi, wedi derbyn y newydd am ei farwolaeth, "I cannot sufficiently express the concern I feel, whether I consider the qualities of his heart, or of his head, his private worth, his usefulness in the church, or his literary undertakings."

**TEGID FOEL**, penaeth yn y bumed ganrif. Mab ydoedd i Gadell Deyrnllwg, ac arglwydd Penllyn, yn Meirion. Ei briod ydoedd Ceridwen.

**TEGIWG**, merch Ynyr Gwent, oedd santes, ac yn byw yn nechreu y chweched ganrif. Enw ei mam oedd Madryn, merch Gwrthefyr Fendigaid.

**TEGONWY**, mab i Teon ab Gwineu da ei Freuddwyd, sant, yn nechreu y 6ed ganrif. Bu yn aelod o goleg Illtyd, ac wedi hyny cynorthwyodd Gadfan, a Deiniol, i sefydlu Cor Enlli, yn yr ynys hono.

**TEGRYN**, sydd is-bentref yn ochr ogledd ddwyreiniol swydd Benfro, naw milltir de orllewin o Gastell-newydd-Emlyn. Llythyrfa,dan Gaerfyrddin.

**TEGWEDD**, oedd yn un o santesau y bumed ganrif. Yr oedd hi yn ferch i Tegid Foel, a phriododd y tro cyntaf â Cedig ab Caredig ab Cunedda, o'r hwn y daeth yn fam i Afan Buallt, a phriododd yr ail waith ag Enlleu ab Hydwn Dwn ab Caredig, o'r hwn y cafodd Teilo, esgob Llandaf. Hi a sylfaenodd eglwys Llandegwedd, yn sir Fynwy, lle y lladdwyd hi gan y Sacsoniaid, mewn lle a elwir Merthyr Tegwedd.

**TEGWY**, sant oedd yn byw yn niwedd y chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Dingad ab Nudd Hael, ac a sylfaenodd eglwys Llandegwy, neu Llandygwydd, yn sir Aberteifi.

**TEIFI** (Y), sydd afon yn swyddi ABERTEIFI, CAERFYRDDIN, a PHENFRO. Y mae yn codi yn ochr ogledd ddwyreiniol mynyddau Aberteifi, ac yn rhedeg gogledd orllewin heibio Tregaron, a Llanbedr, hyd y terfyn â Chaerfyrddin, ac yn ysgaru y wlad hono a swydd Benfro, oddiwrth swydd Aberteifi orllewinol, i'r mor rhwng ynys Aberteifi a'r pen tir, a'i holl daith tua haner can milltir.

**TEILO**, oedd un o'r Seintiau mwyaf enwog yn yr hen Eglwys Brydeinig, yr oedd efe yn fab i Enlleu ab Hydwn Dwn ab Ceredig ab Cunedda Wledig, o Tegwedd, merch Tegid Foel, o Penllyn. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Eglwys Gunniau, yn agos i Dinbych y Pysgod, yn sir Benfro. Dywedir iddo fod yn fyfyriwr yn gyntaf dan Dyfrig, trwy gynorthwy yr hwn y cyrhaeddodd wybodaeth helaeth yn yr ysgrythyrau; a'i ail athraw oedd Pawl Hen, o dan yr hwn y dylynodd yn mlaen yn ei efrydiaethau, ac yn ysgol yr hwn yr oedd yn gyd-ysgolaig a Sant Dewi. O dan nawdd Dyfrig, y sefydlodd goleg yn Llandaf, yr hwn oddiwrtho ef a alwyd yn Bangor Teilo; a phan ddarfu i Ddyfrig roddi i fyny esgobaeth Llandaf, yn y flwyddyn 512, penodwyd Teilo i'w ddylyn yn y swydd esgobaethol. Pan oedd y melyn-bla, sef yr hwn a elwid y "Fad Felen," yn anrheithio Cymru, yn nheyrnasiad Maelgwn Gwynedd, darfu i Teilo, gydag amrywiol eraill, ffoi i Gernyw, ac oddi yno drachefn i Lydaw, lle y cafodd dderbyniad anrhydeddus gan Samson, esgob Dole. Wedi iddo aros saith mlynedd a saith mis, yn Llydaw, dychwelodd ef a llawer o'i ddysgyblion i'w gwlad genedigol; ac ar ei ddychweliad, etholwyd ef yn archesgob Mynyw, sef Tyddewi, yr hon oedd y pryd hwnw yn wag, trwy fod Cynog wedi marw. Wedi i Teilo benodi Ismael yn rhaglaw-esgob yn esgobaeth Mynyw, symudodd Teilo yr archesgobaeth i Landaf, yr hon a barhaodd i fod felly hyd ei farwolaeth mewn oedran teg, yn y flwyddyn 566. Cofresir Teilo yn y Trioedd, gyda Dewi, a Cattwg, "fel tri sant Canonaidd Prydain;" ac mewn Triad arall, y mae Teilo, Dewi, a Phadarn, yn cael eu henwi yn "dri gwesteion gwynfydedig" Ynys Prydain, a gelwid hwy felly, am eu bod yn myned fel gwestwyr i dai pendefigion, y tlodion, y brodorion, a'r dyeithriaid, heb dderbyn na chyflog na gwobr, na bwyd na diod; ond yr hyn a wnaent oedd dysgu i bawb ddysgeidiaeth Crist yn ddiwahan, heb dâl, na diolch. Ond, i'r tlodion a'r angenus, rhoddent anrhegion o aur ac arian, eu gwisgoedd, a'u hymborth. Yr oedd Teilo yn sylfaenydd nifer lluosog o Eglwysi yn Neheudir Cymru, o'r cyfryw y gellir enwi y rhai canlynol; Llandeilo-fawr, Brechfa, Llandeilo Abercowyn, Trelech a'r Bettws, Llanddowror a Chilredyn, yn sir Gaerfyrddin, Llandeilo, a Llandeloi yn sir Benfro; Llandeilo Graban yn sir Faesyfed; Llandeilo'r Fran, yn sir Frycheiniog; Llandeilo Talybont, Bishopton, neu Llandeilo Ferwallt, Eglwys Gadeiriol Llandaf, Merthyr Dyfan a Merthyr Mawr, yn sir Forganwg; Llandeilo Cresseny, Llanarth, a Llandeilo Bertholeu, yn sir Fynwy. Cedwid cofwyl iddo Chwefror 6.

**TEIR-TREF**, sydd drefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd DREFALDWYN; pum milltir a haner gogledd orllewin o'r Trallwm. Gwerth ardrethol, 1809*p*. Poblogaeth, 316.

Digitized by Google

**TEITHALL**, mab Amwn Ddu, a brenin Garthmadryn, lle sydd yn bresenol yn rhan o sir Frycheiniog. Cafodd y diriogaeth hon, trwy briodas â Morfydd, merch, ac unig etifeddes Gwraldeg, yn y flwyddyn 260.

**TEITHFALLT**, oedd yn fab i Nyniaw, yr hwn a elwir mewn rhai llawysgrifau, yn Teithfalch, yr hwn oedd yn frenin ar ran o Ddeheudir Cymru, ac yn byw yn y rhan olaf o'r bedwaredd ganrif. Yr oedd yn frenin elusengar, doeth, crefyddol, a gwrol. Ymladdodd frwydrau llwyddianus a'r Sacsoniaid, a gorchfygodd hwynt. Daeth llawer o'r Sacsoniaid, yn nghyd a'r Pictiaid, i Gymru yn ei amser ef, a lladdasant llawer o'r brodorion, a llosgasant hefyd eglwysi, a cholegau. Gwnaeth Teithfallt gyfraith, yr hon a rwymai bawb i gynal crefydd, yr offeiriaid, ac addysg; ac adgyweirio yr eglwysi. Yn ei ddyddiau olaf ymddeolodd o'r llywodraeth, yr hon a drosglwyddodd i Tewdrig ei fab; ac ymgyflwynodd ei hun i wasanaeth crefydd.

**TELYCH**, sydd is-bentref, yn mhlwyf Llandingat, yn swydd GAERFYRDDIN, gerllaw Llanymddyfri. Gwerth ardrethol, 1410*p*. Poblogaeth, 179. Tai, 34.

**TEME** (Y), sydd afon yn Ngogledd Cymru, a Chaerwrangon, yn codi ar derfynau Maesyfed a Threfaldwyn, ac yn rhedeg tua thri ugain milltir dwyrain dde ddwyreiniol heibio Tref y clawdd, Ludlow, Tenbury, Shelsley, a Broadway, i'r Hafren; milltir a haner deheuol i ddinas Caerwrangon.

**TEME**, RHEILFFORDD DYFFRYN, neu TENBURY RAILWAY. Y mae tair o reilffyrdd yn cyfarfod yn Tenbury, ar ymyl gogledd orllewinol swydd Gaerwrangon; Y gyntaf, a elwir Tenbury, pum milltir a chwarter dwyreiniol o Wofferton, a agorwyd yn 1861; yr ail, a elwir Tenbury a Bewdley, a agorwyd yn 1864; a'r drydedd, a elwir Dyffryn Tame, un filltir ar hugain a chwarter, gogledd orllewinol o Gaerwrangon; a awdurdodwyd yn 1866.

**TEMPLETON**, sydd gapeloriaeth, a phentref, yn mhlwyf Narberth, swydd BENFRO, pum milltir de dde orllewin o orsaf *Narberth-road*. Sefydledig yn 1863. Llythyrfa, dan Narberth. Poblogaeth, 650. Yr oedd yma feddiannau yn perthyn i farchogion y Deml. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 182*p*., ac yn nawddogaeth y Goron. Adeiladwyd yr eglwys yn 1862.

**TENBY**, neu TINBYCH, sydd dref, plwyf, ac isddosparth, yn nosparth, a swydd BENFRO. Saif y dref ar ochr orllewinol beisfor Caerfyrddin, gerllaw rheilffordd Penfro a Tenby, naw milltir a haner dwyrain wrth dde o Benfro. Gelwid y lle gynt "Dinbych y Pysgod," er gwahaniaethu y dref oddiwrth Ddinbych y Gogleddbarth. Yr oedd y lle, ar y pryd, yn bysgodfa enwog iawn. Codwyd castell yma wedi y gorchfygiad Normanaidd, yr hwn a ddiogelwyd â muriau o amgylch; lle y bu brwydrau mynych rhwng y Cymry a'r Saeson. Codwyd y lle yn weithfa gwlanenni helaeth, ar sefydliad nifer o Fflemingiaid yma, yn amser Harri I.; ond eto, adfeiliodd yn raddol wedi amser Elisabeth, hyd oni ddaeth i iselder mawr. Daeth yn ddiweddar i gryn sylw fel ymdrochle, ac fel isborthfa berthynol i Aberdaugleddau. Y mae y lle wedi cael ei adfywio yn fawr, mewn llawer ffordd, erbyn hyn; fel y cynhelir yma lysoedd gwladol; y mae yn etholfa, ac y mae yn orsaf gwyliadwriaeth glanau y Mor. Gwnaed y lle yn fwrdeisdref gan W. de Valence; ac y mae mewn undeb â Phenfro, Aberdaugleddau, a Wiston, yn anfon aelod i'r senedd. Y mae y lle yn cael ei lywodraethu, wrth weithred seneddol, gan faer, pedwar henadur, a deuddeg o gynghorwyr. Y mae yn cynwys, fel bwrdeisdref, gyfran o blwyf Tenby, fel rhyddid. Y mae yn sefyll ar grib a llethr penrhyn y tir, gyda llinellau o dai wedi eu hadeiladu yn rhagorol; ac y mae y lle yn denu nifer o ymwelwyr yn yr haf, y rhai a fwynhant yn fawr y golygfeydd tarawiadol a geir yma. Y mae yma ager longau dyddiol yn tramwy, ol a blaen. hyd Gaerodor. Y mae yma Lythyrfa, a gorsaf rheilffordd, gyda phorthfa cyfleus, ac adeiladau cyhoeddus, at bob manteision gofynol at anghenrheidiau, a difyrwch cyhoeddus. Codwyd yma yn ddiweddar, gofadail am y diweddar Dywysog Cydweddawg; ac y mae addurniadau y dref yn lluosog. Cynhelir marchnad yma ar y Mercher, a'r Sadwrn; gyda ffeiriau ar Mai 4, Mawrth Sulgwyn, Gorphenaf 4, Hydref 2, a Rhagfyr 4. Cymerwyd y Castell gan y Cymry yn 1151; ac eilwaith, yn 1186, pan y dinystriwyd y lle. Adferwyd y fan drachefn, fel amddiffynfa, rhag ymosodiad a ofnid oddiwrth Lynges Yspaen yn 1588. Cymerwyd y lle gan Siarl I. yn 1644; ac adgymerwyd ef gan Cromwell, yn 1647; ac nid oes o hono yn aros yn awr, ond y fynedfa, y carchar. a rhanau o'r muriau. Gwerth ardrethol y dref yn 1860 ydoedd, 14,751*p*. Poblogaeth yn 1861, 2982. Tai. 545. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd gyfran o'r tiroedd allanol; ac hefyd 1982 o erwau o dir, a 260 o ddwfr. Gwerth ardrethol y tir allanol, 1038*p*. Poblogaeth y cyfan, 3197. Tai, 589. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, a ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 317*p*., ac yn nawddogaeth y Goron. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys tri-arddeg o blwyfi, a rhan o un arall yn ychwanegol. Erwau, 29,740. Poblogaeth, 9219. Tai, 1738.

**TENEUFAN**, oedd yn fab Lludd, ac yn nai i Caswallon neu Casfelyn. Yn ol y Brut Cymreig, lle y gelwir ef Iarll Cernyw, yr oedd yn ddyn da, a dewrwych, a dylynodd ei ewythr fel brenin Prydain 38 mlynedd cyn Crist. Wedi iddo deyrnasu mewn modd heddychol am bumtheg mlynedd, bu farw, a chanlynwyd ef i'r orsedd gan Cynfelyn ei fab.

**TEON**, oedd sant o goleg Illtyd, yr hwn oedd fab i Gwinau da ei Freuddwyd, ab Byrlew, ab Bywdeg, ab Rhun Rhuddbaladr, ab Llary, ab Casnar Wledig, ab Gloyw Gwladlydan, ab Lludd, ab Beli Mawr. Yr oedd yn nechreu ei fywyd yn esgob Caerloyw, ac wedi hyny yn archesgob Llundain, a chafodd ei yru oddiyno gan y Sacsoniaid paganaidd, a gorfu iddo ymgilio i Lydaw. Yr oedd efe yn byw tua dechreu y bumed ganrif.

**TERRA-COED**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llangyndeyrn, yn swydd GAERFYRDDIN, pedair milltir a chwarter de ddwyrain o Gaerfyrddin. Poblogaeth, 231.

**TEULYDOG**, oedd yn un o seintiau y chweched ganrif. Sylfaenodd eglwys, yr hon unwaith a elwid Llandeulydog, yn y rhan ddeheuol o sir Benfro, yr hon a ddyroddwyd gan Rhydderch ab Iestyn at esgobaeth Llandaf. Yr oedd sant Teulydog yn un o gymdeithion Sant Teilo, wedi ei ddychweliad o Lydaw.

**TEWDRIG**, oedd yn fab i Teithallt, a brenin rhan o Ddeheudir Cymru, a'r rhan hono yn cynwys siroedd Brycheiniog, Morganwg, Mynwy, a rhan o sir Henffordd. Yr oedd yn frenin enwog a da, yn hynod am ei haelionusrwydd, a'i ryddfrydigrwydd i

Digitized by Google

ddwyn ymlaen achos crefydd. Sylfaenodd amrywiol o eglwysi a cholegau, ac ail adeiladodd eglwys Llandaf, yr hon a waddolodd mewn modd helaeth â thiroedd. Rhesir ef yn mysg y seintiau Cymreig, a chofresir ef yn y Trioedd gyda Gwrthefyr, a Chadwaladr, fel "tri brenin Canonaidd" Prydain. Yr oedd yn byw rhwng y blyneddoedd 410 a 470. Yn ei hen ddyddiau, rhoddodd y llywodraeth i fyny i Meurig ei fab, ac ymddeolodd i arwain bywyd crefyddol yn unigder Tintern, yn swydd Fynwy, ond anogwyd ef i adael ei unigedd, ac ymddangos unwaith yn rhagor ar y maes, i amddiffyn ei wlad yn erbyn y Sacsoniaid, a chafodd ei glwyfo yn farwol mewn brwydr; a dymunodd am i eglwys cael ei hadeiladu yn y fan y dygwyddai farw; yr hyn a wnaed, a galwyd yr eglwys yn Merthyr Tewdrig, ac adnabyddir hi yn awr wrth yr enw Mathern, yr hon sydd yn sefyll ar lan nant Pwll Meurig, yn agos i'r fan lle y mae yr Wy yn ymarllwys i'r Hafren.

**TEWDWR**, oedd un o feibion Emyr Llydaw, ac yn byw yn nechreu y chweched ganrif. Efe oedd tad santes o'r enw Canna.

**TEWDWR BRYCHEINIOG**, oedd un o seintiau y chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Nefydd ab Nefydd ail, ab Rhun Dremrudd, ab Brychan.

**TEWDWR MAWR**, mab ieuengaf Einion ab Owain ab Hywel Dda, oedd benaeth a laddwyd yn Llangwm, yn sir Ddinbych, pan yn ymladd gyda'i ewythr, Meredydd, tywysog y Deheubarth, yn erbyn Idwal, brenin Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 993, gan adael ar ei ol blentyn ieuanc, yr hwn a adnabyddir yn hanes Cymru, dan yr enw, Rhys ab Tewdwr Mawr.

**TEYRNOG**, oedd yn un o seintiau y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o feibion Corun ab Ceredig, a brawd i Tyssul, Caranog, Pedrwn, a Phedr, y rhai ydynt wedi eu cofresu yn mysg y seintiau Cymreig.

**THELWALL**, Ambrose, ydoedd y nawfed mab i John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn, ger Ruthyn, swydd Ddinbych. Yr oedd hen deulu Normanaidd Cymreig Thelwall, yn wladgarwyr twymngalon, ac yn sefyll yn uchel ac anrhydeddus yn marn bonedd a gwreng. Bu Ambrose ar y cyntaf yn ngwasanaeth Syr Francis Bacon, arglwydd Verulam, arglwydd uchel ganghellydd Lloegr; a chymaint oedd ei gymeriad ganddo, fel y darfu i'r athronydd gyfreithiwr enwog, berswadio y brenin i greu holl feistriaid y Chancery yn farchogion, a bod i Ambrose gael can punt o amwobr ganddynt, gwnaed hyny, a thalodd pawb ond ei frawd Syr Eubule Thelwall, yr hwn oedd y pryd hwnw yn un o'r meistriaid, ac i'r hwn y troes y rhodd yn ol. Oddiwrth Syr Francis, aeth yn geidwad y gwisgoedd (*Yeoman of the Robes*) i'r brenin Iago I.; ac wedi hyny yn ngwasanaeth a gwobr Siarl I.; a thrachefn yn geidwad y gwisgoedd i Siarl II., pan yn Dywysog Cymru. O'r diwedd, darfu i bwys dyddiau, a therfysg yr amseroedd, ei orfodi i encilio i fro ei enedigaeth, lle y bu farw Awst 5, 1652, yn 82 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanrhydd, lle y mae beddargraff iddo.

**THELWALL**, Syr Bevis, marchog, ydoedd 8fed mab i John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn. Efe a rwymwyd yn gyntaf yn egwyddorwas i Mr. Allen, y sidanydd mwyaf yn Cheapside, a sidanydd i'r Frenhines Elizabeth. Wedi gwasanaethu ei amser, yr oedd gan ei feistr y fath feddwl o hono, fel y rhoes ei ferch iddo yn wraig, ac a'i cymerodd yn gydymaith yn y fasnach; yn ystod yr hwn amser yr oedd yn llythyru â'r brenin Iago yn yr Alban; yr hyn a achlysurodd y brenin hwnw, pan ddyrchafwyd ef i orsedd Lloegr, i wneud Syr Bevis yn was ei ystafell wely, a gwisgydd iddo. Efe a brynodd gan un Gibbs, gyfran mewn rhyw diroedd, ag oedd i'w cau allan o'r mor yn Brading-haven, yn Ynys Wyth, a chymerodd Syr Hugh Middleton yn gydgyfranogydd. Mynodd Syr Hugh nifer o Is-ellmyn i gau y traeth i mewn oddiwrth y môr; ond wedi gwario saith mil o bunau, bu raid i Syr Bevis, a Syr Hugh roi y gorchwyl heibio, a goddef eu colled.

**THELWALL**, Syr Eubule, marchog, ydoedd 3ydd mab John Thelwall yr ail, o Barc Bathafarn, ger Ruthyn. Cafodd elfenau ei ddysg yn ysgol Westminster; ac oddiyno aeth i Goleg y Drindod, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd ei M.A.; pryd trwy ddeisyfiad un Mr. Paints, boneddwr o uchel radd, a'r hwn a fuasai yn ysgolor iddo, y gadawodd y Brifysgol, ac yr aeth yn efrydydd y gyfraith yn Greys Inn, lle y daeth yn mlaen yn dda; a thrwy ei noddwr, daeth i ffafr yr arglwydd brif farnwr Percain, yr hwn oedd yn dad yn nghyfraith i Paints. Mewn amser daeth yn brif-feistr swyddfa yr Ymddëoliaid; ac yn un o feistriaid awdurdodol uchel lys y *Chancery*. Pan ddaeth ymryson o berthynas i benogaeth Coleg Iesu, yn Rhydychain, rhwng y Dr. Williams, a Dr. Mansell, perswadiwyd Syr Eubule Thelwall i sefyll, ac efe a etholwyd yn benaeth y coleg hwnw; a bu yn llesol iawn i wella amgylchiadau y sefydliad. Efe a brynodd ystad yn mhlwyf Llanychan, Dyffryn Clwyd, ac a adeiladodd y Plas Coch, yr hwn a roddodd yn ei ddydd i John Thelwall, Ysw., etifedd ei frawd henaf. Arferai ddyfod bob blwyddyn yn ystod toriad hir y *term*, i'r Plas Coch, lle y byddai boneddigion goreu Gogledd Cymru yn talu ymweliad iddo, ac yn aros gydag ef beth amser. Ystyrid ef yn ddyn uniawn, duwiol, ac elusengar; a chyfrifir ef megis ail sylfaenydd Coleg Iesu. Bu farw yn ddibriod, yn y coleg hwnw, yn 68 oed.

**THELWALL**, John, o deulu Bathafarn a Phlas-y wern, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd yn gynghorwr yn y gyfraith, ac yn feddyg enwog, ac nid llai enwog yn y gwyddorau eraill. Bu farw yn 1686, a chladdwyd ef yn Llanrhydd, ger Ruthyn.

**THELWALL**, John, Ysw., ydoedd fab henaf i John Thelwall, yr ail o'r enw hwnw, o Barc Bathafarn, sir Ddinbych. Meithrinwyd ef yn ei ieuenctyd yn y llys, yn ngwasanaeth Arglwyddes Warwick, yr hon oedd y foneddiges uchaf yn ffafr Elizabeth; yn yr hwn wasanaeth yr enillodd lawer o glod, effaith yr hyn a welid yn amlwg yn ystod ei oes am lawer o flyneddau, er mantais iddo ef a'i deulu. Gadawodd y gwasanaeth hwnw yn 22ain oed, gyda'r bwriad o briodi âg Elizabeth, merch, a chydetifeddes Robert ab Wyn o Bacheirig, a Bryncynric, o'r hon y cafodd lawer o blant. Gwnaed ef gan y brenin Iago yn oruchwyliwr Castell Rhuthyn, am ei oes. Bu farw yn 1630, yn 97 oed; ac yr oedd ei hiliogaeth erbyn hyn yn cyfrif rhwng 240, a 250 o nifer.

**THELWALL**, Richard, ydoedd 4ydd mab i John Thelwall, o Barc Bathafarn. Efe a briododd Margaret, merch ac etifeddes.—Lloyd, o Lanbedr, Dyffryn Clwyd, gyda'r hon y cafodd etifeddiaeth helaeth, ac ymsefydlodd yno, a dyna ddechreuad y Thelwalls o Lanbedr. Rhoddodd y brenin Iago iddo yntau drwydded i fod yn llywydd Castell Rhuthyn am ei oes, yn gyfranog a'i frawd mae'n debyg. Efe

Digitized by Google

a wellhaodd ei ettifeddiaeth yn fawr, ac y mae ei hiliogaeth eto yn meddu y fantais. Bu farw yn 1630, pan uwchlaw 80 mlwydd oed.

**THELWALL**, Simon, ydoedd ail fab i Richard Thelwall, o Lanbedr Dyffryn Clwyd. Dygwyd ef i fynu yn gynghorwr yn y gyfraith, yn Greys Inn; a pharhaodd i ymarfer ei alwedigaeth hyd yn 80 oed. Gadawodd yn ei ewyllys 20*p*. at gynal pregeth Gymraeg yn eglwys Rhuthyn bob prydnawn Sabbath dros byth; 20*p*. yn y flwyddyn tuag at bregeth yn Llanbedr; a 5*p*. yn y flwyddyn i blwyfau Llanbedr a Rhuthyn, er rhanu bara gwyn i dlodion; 100*p*. tuag at brentisio 15eg o fechgyn o Ruthyn a Llanbedr. Rhoddodd hefyd lawer o roddion i'w etifeddion a'i geraint.

**THELWALL**, Simon, ydoedd 7fed mab i John Thelwall, yr ail o Barc Bathafarn. Dygwyd ef i fynu yn ysgolhaig; ac oblegid ei fedr, efe a ddewiswyd yn brif ysgrifenydd i Syr D. Dunne, LL.D.; yn farnydd y Llys benadur; ac un o Feistriaid y Deisyf-lys, (*Requests*). Daeth felly yn enwog fel cyfreithydd y Llys Eglwysig, a Chofrestrydd Bangor Efe a briododd un Mrs. Biggens, etifeddes fawr yn Essex.

**THOMAS**, Sant, sydd is-bentref yn mhlwyf Abertawe, swydd Forganwg, o fewn cylch bwrdeisdref Abertawe. Poblogaeth yn 1851, 1089; yn 1861, 3325. Tai, 403.

**THOMAS** ab Ieuan ab Rhys, oedd fardd enwog yn Morganwg. Ganwyd ef yn Blaencyllan, yn mhlwyf Llanharan. Yn lled fuan wedi i Thomas gael ei eni, symudodd ei dad i Pen Hydd, yn mhlwyf Margam, lle y bu yn bywioliaethu am rai blynyddoedd. Derbyniwyd Thomas ei fab i Fynachdy Margam, ond gan iddo gael ei gyhuddo o Lollardiaeth, cafodd ei ddiaelodi oddiyno, a'i fwrw ymaith. Ymddengys iddo gael ei garcharu am ei heresi yn nghastell Cynffig, gan Syr Matthew Cradock o Abertawe, i'r hwn y gwnaeth efe Gywydd, yn deisyf ei ryddid; y mae y cywydd uchod, ac amryw eraill o'i waith, yn aros mewn llaw-ysgrifau; ac ymddengys ei fod yn ŵr o dduwioldeb uchel, a moesoldeb manol. Dywaid yn un o'i gyfansoddiadau barddonol, ei fod yn gant a deng mlwydd ar hugain oed, yn y flwyddyn 1604. Efe a fu fyw dair blynedd ar ddeg ar ol hyny; a bu farw yn 1617.

**THOMAS**, Alban, bardd enwog, yr hwn oedd yn byw ynghylch y blyneddoedd 1700 a 1710.

**THOMAS**, Anwyl, bardd enwog ag oedd yn byw yn niwedd y ddwyfed ganrif ar bumtheg.

**THOMAS**, Beavan, o Dref bryn, yn swydd Forganwg, oedd yn fardd, a beirniad enwog, yr hwn oedd yn byw yn y rhan olaf o'r ail ganrif a'r bumtheg, a bu farw tua'r flwyddyn 1700. Enwogodd ei hun trwy yr amrywiol gyfrolau mawrion a adysgrifenodd o hen ysgrifeniadau Cymreig, ac y mae llawer o honynt ar gael hyd eto.

**THOMAS**, Brwynllys, bardd enwog ag oedd yn byw tua y blyneddoedd 1590 a 1630. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael, mewn llawysgrifau.

**THOMAS** (Dafydd ab), ab Gruffydd ab Nicolas, ac a elwid hefyd "Dafydd Geffyl Cwtta," a drigianai yn Hermanston, sir Benfro. Fel y gwelir yr oedd yn wyr i Ruffydd ab Nicolas, o'r Drenewydd, ger Llandeilo Fawr; ac yn frawd i Rhys ab Thomas. Gelwid ef Dafydd Geffyl Cwtta, oblegyd yr amgylchiad digrifol a ganlyn:—Yr oedd ceffyl ieuanc gan gymydog iddo, ac ymddengys fod Dafydd yn farnwr rhagorol ar geffylau, a thybiai mor uchel am y march hwn, fel y rhoddes am dano 24ain o wartheg, a'u porfa am flwyddyn: yr hyn, gan ei fod yn bris afresymol, a dynodd arno wawd ei gyfeillion. Can gynted ag y gorphenodd y fargen, Dafydd a dorodd glustiau y ceffyl, a holltodd ei ffroenau, ac a gneifiodd ei gynffon. Wedi hyny, efe a seriodd y croen drosto â haiarn poeth, gan nodi arno bob math o luniau hyllion, a hynod. Rywbryd wedi hyny, cafwyd cyfleusdra i ddangos i'w elynion, y rhai a ddifyrent eu hunain yn fawr ar draul y digrif beth ysmala, o ba fetl yr oedd y Ceffyl Cwta. Dafydd yn cael ei erlid, ac ar fin ei oddiweddyd, fel y nesäai at geunant dwfn, ac yn gweled ei berygl, a yspardynodd ei ebol, yr hwn a lamodd yn ddyogel i'r tir sych yr ochr draw. Yna troes ben ei geffyl yn ol, a gwawdiodd yr ymlidwyr am farchogaeth y fath fuchod, gan na feiddient ei ddilyn. Ystyrid hon yn naid orchestol heb ei bath, a galwodd bardd o'r amser hyny hi, yn "Naid ar farch na neidir fwy."

**THOMAS**, David, o Ystrad Dyfodwg oedd fardd, ac yn byw tua y blyneddoedd 1700, a 1730.

**THOMAS**, Jenkin, ydoedd fab i Thomas Morgan, neu Thomas ab Morgan ab Rhydderch ab Dafydd ab Gruffydd, o Felin Trewen, plwyf Brongwyn, swydd Aberteifi; ac a anwyd rywbryd rhwng 1688 a 1690. Ar ol priodi, ymsefydlodd yn y Cwm Du. Yr oedd ei dad, Morgan ab Rhydderch, yn frawd i Sion Rhydderch yr Almanaciwr, &c. Ymddengys iddo goleddu yr awen yn ieuanc, canys yr oedd awenyddiaeth yn y teulu o hil gerdd, y rhai a elwid "Beirdd Cwm Du." Fel y rhan amlaf o'i deulu, ymgymerent â chryddiaeth, gydag unrhyw beth arall; ond dyna oedd ffafriol grefft y teulu; felly yntau, ac i'r un grefft y dygwyd ei feibion luaws i fynu, er eu bod yn cael dysgeidiaeth dda. Yr oedd yn aelod, a phregethwr gyda'r ymneillduwyr Henaduriaethol yn Llechryd, ger Aberteifi, ac wedi hyny, sefydlodd y gynulleidfa yn y Drewen, ac ystyrid ef fel gweinidog yno, er na cheir hanes am ei ordeiniad. Yr oedd yn fardd rhwydd a naturiol, a'i destynau oll yn foesol. Bu farw, tebygir, yn Cwm Du, ger Castellnewydd Emlyn, oddeutu 1765.

**THOMAS**, James Stewart, ydoedd enedigol o'r Gelli, yn sir Frycheiniog. Ymunodd yn ieuanc â'r Gymdeithas Wesleyaidd; ac wedi myned trwy y prawfiadau, a'r parotoadau gofynol, efe yn 1838, a benodwyd yn Genhadwr yn mhlith Caffrariaid Deheudir Affrica. Daeth yn fuan yn hyddysg iawn yn eu hiaith, yr hyn a roddodd iddo ddylanwad mawr yn eu plith. Oblegyd yr ymryson rhwng y llwythau â'u gilydd, bu mewn caledi a pheryglon yn fynych. Bu ganddo law yn nghyfieithiad yr Hen Destament i'r iaith hono. Pan oedd dau lwyth mewn rhyfel a'u gilydd, ymosodwyd ar y sefydliad yn y nos, efe a gyfododd o'i wely i fyned i faes yr ymryson, i geisio heddychu y pleidiau, ac efe a wanwyd gan un o'r brodorion, fel y bu farw yn ebrwydd, Meh. 14, 1856, yn 42 oed.

**THOMAS**, John, neu a elwid "Sion Penffordd Wen" ydoedd fardd o Bentrefoelas, sir Ddinbych. Y mae ei "Englynion ymdaith y Bardd," yn gyhoeddedig yn y Brython iii. 383. Hefyd y pethau canlynol a gyhoeddwyd ganddo:—(1) "Y Drych Ysbrydol; sef ychydig o ystyriaethau ar ystad y Meirw, y Nef, ac Uffern, ac Angylion, ac Ysbrydion da a drwg; ac achosion naturiol a goruwchnaturiol o Freuddwydion, a Gweledigaethau Cwsg;" Trefriw,

Digitized by Google

1790. (2) "Urbanias, neu Grefydd ddadleuon, Gwrecsam," 1793. Interlude yw yr olaf hwn. Dywedir iddo, wrth deithio drwy Gorwen, droi i'r fynwent, a chanfod yno ddyn yn tori llythyrenau ar gareg fedd; aeth ato er mwyn gweled ei waith; ac wedi sylwi ar y gareg yn afrywiog a gwyllt, ac nad oedd dim modd tori llythyrenau difwlch ynddi, efe a ganai fel y canlyn:—

Ffyrnig yw ceryg Corwen,—a dyrys
I dori llythyren;
Ni wneir D, nac I, nac N,
Na tholcia yn ei thalcen.

Yr oedd yn awdwr amryw emynau sydd mewn arferiad hyd y dydd hwn yn ein cysegr-leoedd.

**THOMAS**, John, D.D., ydoedd frodor o Ddolgellau, yn Meirion, lle y ganwyd ef yn 1681. Nid oedd ond mab i lafurwr tlawd, yn ngwasanaeth darllawydd yn y dref hono; ac addysgwyd ef yn ysgol y *Merchant Taylors*, Llundain, o ba le ei danfonwyd, ar draul meistr ei dad, i goleg *Catherine Hall*, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o D.D. Wedi derbyn urddau eglwysig, efe a aeth drosodd i Hamburgh, fel caplan i'r llaw-weithfeydd Seisnig, a bu yn trigianu yn y ddinas hono am lawer o flyneddau. Yn y cyfamser, enillodd y fath wybodaeth o'r iaith Germanaidd, fel y bu yn golygu cyhoeddiad yn yr iaith hono, o'r enw *Patriot*, am hir amser. Tua'r pryd hyn tynodd sylw y brenin Sior II., ac ar gyfrif ei hylithrwydd yn y Germanaeg, bu yn cydymdeithio gyda'r brenin yn y rhan fwyaf o'i ymweliadau i'w Etholfa, yn y wlad hono. Ei wraig gyntaf ydoedd foneddiges Daniaidd, yr hon a briododd efe yn Copenhagen, lle yr enillodd sylw brenin Denmark, a bu ar ol hyn yn ymohebu ag ef. Yn 1736, penodwyd ef i rectoriaeth St. Vendast, Foster Lane, Llundain; ac yn 1740, dewiswyd ef yn ddeon Peterborough. Priododd yr ail waith yn 1742, gyda Miss Sherlock, nith i esgob Salisbury, ac yn ystod yr un flwyddyn, gwnaed ef yn brebend Westminster, ac yn ganon trigianol St. Paul. Yn 1743, dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy; eithr cyn cael o hono ei gysegru, efe a symudwyd i esgobaeth Lincoln, ac a gysegrwyd Ebrill 1, 1744. Symudwyd ef i esgobaeth Salisbury yn 1761; a bu farw, Mehefin 20, 1766. Yr oedd yn ddyn tra dysgedig, ac yn enwog am ei ddywediadau ffraeth, ac y mae lluaws o gof-chwedlau am dano. Dywedai Cole, ei gydoeswr, wrth son am dano:—"Y mae yn wr teilwng a gonest iawn, yn gydymaith digrif a dyddan, ac yn hynod am ei natur dda. Y mae ganddo drofa neillduol yn ei lygaid, a chlyw pwl, a hwyrdrwm. Bum yn ciniawa gydag ef yn 1753; yr oedd llygaid ei arglwyddiaeth yn groesach nag y gwelais lygaid neb erioed; yr oedd llygaid Mrs. Thomas, gwraig yr esgob, yn lled groesion, ac yr oedd yno Ddaniad, brawd i'w wraig gyntaf, yn eistedd wrth y bwrdd, mor gibddall, fel nas gwyddai yn iawn pa un a oedd bwyd o'i flaen a'i peidio." Yr oedd y Mrs. Thomas hon yn bedwaredd wraig iddo; ac yn wyres i'r esgob Patrick. Dywedid fod yr esgob wedi mynu cerfio y geiriau hyn yn ei modrwy briodasol, "*If I survive I will have five;*" a chan iddi hi farw yn 1757, cafodd gyfle i gadw ei air.

**THOMAS**, John, ysgolhaig enwog, ydoedd fab i Thomas Rowland, o Du hwnt i'r Bwlch, sir Gaernarfon. Cafodd ei addysg foreuol yn Llanystumdwy, Arfon; a Llanegryn, Meirion; ac yna aeth i goleg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. Wedi cymeryd urddau eglwysig, penodwyd ef yn isberiglor Llandegai, ac yn is-athraw ysgol ramadegol Bangor. Bu wedi hyny yn is-beriglor Llandegfan, a Llansadwrn, Môn; ac yn brif athraw ysgol ramadegol Beaumaris. Yr oedd yn un o'r Cymry mwyaf dysgedig yn ei oes. Ysgrifenodd hanes "Pumtheg Llwyth Gwynedd," a nifer mawr o gyfansoddiadau eraill, a ddangosent pa mor ddysgedig, diwyd, a llafurus a fu yn ei oes fer. Bu farw yn Nghastellior, Mon, Llun y Pasg, 1769, yn 33 oed, a chladdwyd ef dan yr allor yn Llandegfan. Cyfansoddodd Hugh Hughes, (*Bardd Coch*) gywydd marwnad iddo.

**THOMAS**, Parch. Joshua, awdwr gwiwglodus Hanes y Bedyddwyr, ydoedd fab henaf Morgan Thomas, o'r Ty hen, yn mhlwyf Caio, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef, Chwef. 22, 1719. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, a daeth tri o'u meibion yn weinidogion enwog gyda'r enwad y perthynent hwythau iddo, sef y Bedyddwyr. Pan oedd Joshua yn ugain oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda sidanydd yn Henffordd. Er nad oedd y pryd hwnw yn aelod crefyddol, eto yr oedd o dueddiadau defosiynol. Am beth amser, byddai yn mynychu capel y Presbyteriaid yn Henffordd, eithr gan ei fod yn awyddus i ymuno gyda'r un enwad a'i rieni, ac yn cael nad oedd un addoldy perthynol i'r enwad hwnw yn nes ato na Leominster, un Sabbath yn ngauaf 1739, aeth ar draed yr holl ffordd i Leominster, a pharhaodd i wneud hyny bob Sabbath yn ystod ei arosiad yn Henffordd. Yn Mai, 1740, bedyddiwyd, a derbyniwyd ef i gymundeb yr eglwys, yn Leominster. Wedi gwasanaethu tymhor ei egwyddoriaeth, tua diwedd 1743, dychwelodd i Gymru, a bu yn trigianu ddwy flynedd gyda'i rieni. Yn ystod yr amser hwn, anogodd ei gyfeillion ef i ddechreu pregethu, ac wedi iddynt gael llawn foddlonrwydd yn ei ddoniau, anogasant ef i ymroddi i'r gwaith; eithr oblegyd ei wyleidd-dra, a'r ofn oedd arno i ruthro i'r swydd gysegredig, gwrthodai bregethu ond yn anfynych am lawer o flyneddau. Yn 1746, priododd ddynes ieuanc dra chrefyddol, ac ymsefydlodd fel masnachydd yn y Gelli, sir Frycheiniog. Yna ymunodd a'r eglwys yn Maes y berllan, ac yn 1749, urddwyd ef yn weinidog cynorthwyol ar yr eglwys hono a'i changenau. Yn 1753, gwahoddwyd ef gan ei fameglwys yn Leominster, i lanw ei phwlpud am ychydig Sabbathau; eithr gan ei fod yn annghynefin â phregethu Seisnig, yr oedd yn hwyrfrydig am yspaid i gydsynio. Pa fodd bynag, efe a aeth, ac mor dderbyniol ydoedd ei weinidogaeth yn eu plith, fel y gwahoddwyd ef i fod yn weinidog yno, lle y treuliodd y deugain a thair mlynedd gweddill o'i oes yn dra pharchus a defnyddiol. Gan nad oedd ei gyflog yn ddigonol i gynal ei deulu cynyddol, agorodd ysgol ddyddiol, a bu yn cadw hono am lawer o flyneddau. Yr oedd yn nodedig iawn am "wneud amser i bob peth, a gwneud pob peth yn ei amser," ac am yn agos i driugain mlynedd, anfynych y byddai yn ei wely ar ol pump o'r gloch yn y bore. Wedi wythnos o afiechyd, daeth ei fywyd defnyddiol a gwerthfawr i derfyniad, Awst 25, 1797, yn 79 oed. Bu farw mewn llawn fwynhad o gysuron crefydd. Yr oedd ei serch at ei wlad enedigol yn wresog a chryf hyd y diwedd. Yn ystod ei drigiant hirfaith yn Leominster, mynychai Gymanfaoedd yr enwad yn Nghymru yn rheolaidd, a chymerai fwy o ddyddordeb yn hanes crefydd yn ngwlad ei dadau, nag yr un o'i gydoeswyr. Cyhoeddwyd ei "Hanes y

Digitized by Google

Bedyddwyr," yn 1778. Rhwng y blyneddau 1791 a 1795, cyfranodd amryw erthyglau gwerthfawr i'r *Baptist Register*, ar hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, o 1650 hyd 1790, y rhai a gyhoeddwyd wedi hyny yn llyfrynau ar wahan. Gadawodd hefyd mewn llawysgrifau, lenorwaith o'r enw "Hanes Eglwysaidd o Gymru," ac un arall o'r enw "Hanes y Bedyddwyr yn y Dywysogaeth," y rhai dywedir, sydd yn nghadw yn llyfrgell Coleg y Bedyddwyr yn Mristol. Mab i Joshua Thomas ydoedd y Parch. Timothy Thomas, Islington, Llundain.

**THOMAS**, Lewis, ydoedd frodor o Forganwg, ac a addysgwyd yn Ngholeg Brasennose, lle yr oedd efe yn arddangosydd yn 1582. Wedi ei raddio yn B.A., cymerodd urddau eglwysig, ac yn mhen yspaid, cafodd fywioliaethau yn ei wlad enedigol, a manau eraill. Ei waith llenyddol cyntaf ydoedd, *Certain Lectures upon sundry portions of Scripture*, 1600, y mae y llyfr hwn wedi ei gyflwyno i Syr Thomas Egerton, arglwydd geidwad y Sêl Fawr, yr hwn a fuasai yn un o'i noddwyr cyntaf yn yr eglwys. Cyhoeddodd yn nesaf, *Seven Sermons on the Exercises of Seven Sabbaths*, y rhai a ail argraffwyd amryw weithiau yn ystod rhan olaf teyrnasiad y frenhines Elizabeth, a thrachefn yn 1619 a 1630. Yr oedd hefyd yn awdwr, *A Short Treatise on the Commandments*, 1600, yr hwn lyfr a elwir weithiau *A Comment on the Decalogue*.

**THOMAS**, Nathaniel, B.A., a anwyd yn Nghaerdydd yn 1730. Efe a olygodd *Abridgment of Ainsworth's Latin Dictionary*, a llyfrau ysgol eraill. Bu wedi hyny yn olygydd a pherchenog y James' *Chronicle, yn Llundain.*

**THOMAS**, Parch. Richard, M.A., ydoedd fab i Thomas a Jane Rowland, o Du hwnt i'r Bwlch, yn mhlwyf Ynys Cynhaiarn, Eifionydd. Ganwyd ef yn y Tu hwnt i'r Bwlch, Rhag. 10, 1753. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol y Friars, Bangor; a gorphenodd ei ddysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd y radd o B.A. Wedi ei ordeinio, cafodd guradiaeth yn Rhuthyn. Pan yn 16eg oed, ac yn yr ysgol yn Mangor, y bu farw ei frawd yn Beaumaris, ac y daeth ei holl lyfrau a'i ysgrifeniadau i'w feddiant. Dechreuodd yntau ysgrifenu yn ieuanc. Y mae casgliad o Achau o'i eiddo, o waith yr hen feirdd, o tua 100 tudalen ar gael. Casglodd hefyd fywyd Llywarch Hen, ac amryw eraill. Dywedai y diweddar Hugh Maurice, nai i Owain Myfyr, yr hwn a barotodd ac a gasglodd y Myvyrian Archaiology i'w ewythr a Dr. Owen Pughe, mai o ysgrifeniadau y ddau Thomas o Du hwnt i'r Bwlch, y cafwyd y rhan fwyaf o'i ddefnyddiau. Gadawyd ei lyfrau i estroniaid, a gwasgarwyd hwynt, rhai i Lundain, i Ddinbych, Caernarfon, a Meirionydd. Bu farw yn Rhuthyn, yn 1780, yn 27 oed. Y mae ar gael Gywydd o Annerch iddo, pan oedd ar ymweliad a chûr iddo yn Rhiw-waedog, ger y Bala, ar un o egwylion ei efrydiaeth, yn Rhydychain: gan Rowland Huw o'r Graienyn, â'r hwn y daethai yn adnabyddus y pryd hyny.

**THOMAS**, Robert, o'r Plas Du, Llanarmon, ydoedd ysgolhaig lled wych, a phrydydd medrus. Enillodd wobr am "Englyn i'r Afr," yn Eisteddfod Liverpool, yn 1840; ac ar y "Wenynen" yn Eisteddfod Tremadog, yn 1851.

**THOMAS**, Parch. Timothy, gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Aberduar, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn Ty Hen, plwyf Caio, sir Gaerfyrddin, yn 1720; ac yr oedd yn frawd i'r Dr. Joshua Thomas. Pan yn ugain oed, galwyd arno i bregethu gan eglwys Aberduar, ac urddwyd ef yn un o'i gweinidogion hi a'i changenau yn 1743. Yr oedd yn bregethwr derbyniol iawn gan yr eglwysi yn Nghymru, yn enwedig gan ei enwad ei hun. A ganlyn ydyw rhestr o'r llyfrau a gyhoeddwyd ganddo;—(1) "Tystiolaeth y Credadyn am y Nefoedd," cyfieithiad o'r Seisnig; a'r "Gareg Wen," pregeth, y rhai a gyhoeddwyd yn 1757. (2) "Traethawd am y Wisg Wen Ddisglaer," 1764. (3) "Arddodiad Dwylaw," 1764, atebwyd y gwaith hwn yn 1765; a gwrthatebwyd hwnw drachefn gan Mr. Thomas yn 1766. (4) "Casgliad o Hymnau," 1764. (5) "Cariad Brawdol," 1764; (6) Cyfieithiad o Draethawd Ewen ar "Fedydd," 1767. Bu y Parch. Timothy Thomas, farw Tach. 12, 1768, yn 48 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Pencarreg. Yr oedd iddo frawd arall yn bregethwr doniol a chymeradwy, sef y Parch. Zecharias Thomas, a bu yntau hefyd yn un o weinidogion Aberduar; yr hwn a fu farw yn 1816, yn 90 oed.

**THOMAS**, Parch. Timothy, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Islington, Llundain. Mab ydoedd i Hanesydd y Bedyddwyr, a ganwyd ef yn Llanllieni, yn 1753. Pan tua 19 oed, symudodd i Lundain, a daeth yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Devonshire Square, yr hon oedd ar y pryd dan ofal yr awdwr duwinyddol poblogaidd, y Parch. John M'Gowan. Anogwyd ef i ddechreu pregethu yn 1776; a danfonwyd ef i goleg Caerodor, ar y pryd dan ofal y Parchedigion Hugh a Chaleb Evans. Yn 1780 anfonodd eglwys Devonshire Square wahoddiad iddo ddyfod i weinidogaethu yno am dri o fisoedd, am fod eu gweinidog yn glaf. Arwyddwyd y llythyr gan Mr. M'Gowan ei hun, yr hwn a fu farw prydnawn y Sabbath canlynol. O hyny allan parhaodd Mr. Thomas i bregethu yno, hyd oni luddiwyd ef gan gystudd a methiantwch. Yn 1781, dewiswyd ef trwy goelbren yn weinidog yr eglwys. Bu yn addurn a bendith i'w eglwys ac i'r enwad yn Llundain yn gyffredinol. Wedi oes faith a defnyddiol, efe a fu farw Gorphenaf 12, 1824, yn 74 oed, ac yn y 47fed flwyddyn o'i weinidogaeth.

**THOMAS**, William, ydoedd frodor o Gymru, ac a addysgwyd yn mhrifysgol Rhydychain. Yn 1544, gorfu arno, oherwydd rhyw anffawd, adael gwlad ei enedigaeth; ac yn Chwef. 1546, pan ddaeth newydd i Itali am farwolaeth Harri VIII., yr oedd efe yn Bologna, ac yn nghwmni amryw foneddigion, gyda pha rhai y dadleuai yn mhlaid y brenin hwnw. Trefnodd y ddadl hono ar lun cynadledd, a chyhoeddodd hwynt, gan eu cyflwyno i Pietro Aretino, y bardd Tuscanaidd. Bu wedi hyny yn trigianu yn Padua, lle y casglodd ddefnyddiau ei eiriadur a'i ramadeg Italaidd; ac yn 1549, yr oedd wedi dychwelyd i Lundain, lle yr ysgrifenodd ei hanes byr a chryno am Itali. Tua'r pryd hwn, gan ei fod bellach yn enwog fel ymdeithydd trwy Ffrainc, ac Itali, a'i hyddysgrwydd yn amryw o'r ieithoedd diweddaraf, a changhenau eraill o wybodaeth, penodwyd ef yn ysgrifenydd i gynghor y brenin Iorwerth VI., Ebrill 19, 1549. Yn fuan rhoddes y brenin hwnw iddo yn anrheg brebendiaeth Cantlerbury yn Aula, a bywioliaeth Llanandras, sir Faesyfed; eithr pan ddaeth Mari Waedlyd i'r orsedd, syrthiodd tan ei gwg a'i hanfoddlonrwydd; ac o ganlyniad, difuddiwyd ef o'i swyddau, a chollodd bob gobaith am unrhyw ffafr bellach yn y llys. Yn Chwefror 1533, cymerwyd ef i garchar y Twr, Llundain, ar y cyhuddiad o frad-

Digitized by Google

fwriadu cymeryd ymaith fywyd y frenhines; ac wedi ei euog brofi, efe a grogwyd yn Tyburn, Mai 18, 1554. Yr oedd yn awdwr, *History of Italy*, 1561; a gwaith arall o'r enw, *Principal Rules of the Italian Grammar, with a Dictionary for the better understanding of Boccace, Petrarcha, and Dante*, 1550, 1567. Gadawodd hefyd amryw bethau mewn llawysgrifen, ac y mae un o honynt, sef *Le Peregrynne* yn nghadw yn y Llyfrgell Bodleaidd.

**THOMAS**, WILLIAM, Ysw., ydoedd fab i Syr Rhys Thomas, neu Rhys ab Syr William Thomas, ag oedd yn sirydd Caernarfon yn 1573. Cynrychiolir y rhai hyn yn awr yn nheulu Coed Helen. Yr oedd efe yn sirydd Caernarfon yn 1581, ac yn aelod seneddol tros yr un sir yn mhumed seneddiad y frenhines Elizabeth. Yr oedd yn gadben ar ddau gant o Gymry yn yr Iseldiroedd tan Iarll Leicester, a lladdwyd ef mewn ysgarmes yn Zutphen, yn 1586, pan y cwympodd hefyd Syr Phylip Sidney.

**THOMAS**, PARCH. WILLIAM, D.D., prelad enwog, a hanai o hen deulu anrhydeddus yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd John Thomas, ei dad, yn llian-fasnachydd yn Nghaerodor, ac yno y ganwyd yntau, Chwef. 2, 1613. Bu ei daid, William Thomas, yn gofiadur Caerfyrddin; a dywedai Iarll Northampton, arglwydd-lywydd Cymru ar y pryd, "ei fod y callaf a'r doethaf fel aelod o gynghor, a adnabu ef erioed." Pan y bu'r tad farw yn Nghaerodor, cymerodd cofiadur Caerfyrddin ofal ei ŵyr, a rhoddes ef dan addysg Mr. Morgan Owen, athraw ysgol gyhoeddus Caerfyrddin, wedi hyny esgob Llandaf. Pan yn 16 oed, aeth i Goleg St. Ioan, Rhydychain; symudodd oddiyno i Goleg Iesu, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1632; ac yn fuan ar ol hyny, dewiswyd ef yn gymrawd, a phenodwyd ef yn athraw. Yma, yn ol arferiad yr oes, efrydodd athroniaeth, gan aralleirio a'i law ei hun bron yr oll o weithiau Aristotle. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1634, gwnaed ef yn ddiacon yn 1637; ac yn offeiriad y flwyddyn ganlynol. Yn fuan ar ol hyny penodwyd ef yn ficer Penybryn, Ceredigion; ac yn gaplan i Iarll Northumberland, yr hwn hefyd a roddes iddo ficeriaeth Lacharn, ac mewn cysylltiad a hyny berigloriaeth Llansadyrnen. Llanwodd ei holl ddyledswyddau fel offeiriad, yn selog a ffyddlawn, gan ystyried ei swydd nid fel galwedigaeth, ond ymddiriedaeth, hyd oni amddifadwyd ef o fywiolaeth Lacharn gan bwyllgor seneddol, yn 1644. O'r pryd hwn, hyd ddychweliad y freninoliaeth yn mherson Siarl II., dyoddefodd Mr. Thomas lawer. Yr oedd ei golled bersonol, dros bumtheg cant o bunau, a bu raid iddo gynal ysgol yn y wlad er ei gynaliaeth ef a'i deulu lluosog, ac yr oeddynt yn fynych mewn angen rheidiau cyffredin bywyd. Wedi adferiad Siarl II., cafodd ei fywiolaethau yn ol, a phenodwyd ef dan law ac awdurdod freninol, yn gantor yn Nhyddewi. Yn ystod yr un flwyddyn, cymerodd y radd o D.D., ac yn 1661, cafodd berigloriaeth Llanbedr Felfre, sir Benfro, gan yr arglwydd ganghellydd Hyde; gwnaed ef yn gaplan i'r Duc York, a bu yn trigianu am beth amser yn nhy y pendefig hwnw, ac yr oedd gydag ef yn un o'i fôr-frwydrau yn erbyn yr Is-ellmyn. Yn 1665, penodwyd ef yn ddeon Worcester; ac yn 1670 cafodd berigloriaeth Hampton Lovet, gan Syr John Packington. Wedi hyny gadawodd fywiolaeth Lacharn, a symudodd ei deulu i Hampton, lle y trigianodd hyd 1677, pan y dyrchafwyd ef yn esgob Tyddewi, gyda pha swydd y daliai berigloriaeth Worcester. Yr oedd yn gymeradwy iawn gan foneddigion a chlerigwyr ei esgobaeth, gan ei fod wedi ei fagu yn eu plith, yn gallu siarad eu hiaith, ac wedi bod yn cyd ddyoddef â hwynt yn ystod yr amseroedd terfysglyd a aethent heibio. Yr oedd ei ymddygiad yn llanw eu holl ddysgwyliadau, a'i garedigrwydd yn cyfateb i'r eiddynt hwythau, ond ei amcan a'i bryder penaf ef ydoedd, nid boddio eu dymuniadau, eithr gwellau eu moesau, ac achub eu heneidiau, anog i dduwioldeb a daioni, a hau hadau sancteiddrwydd yn eu plith. Pregethai mewn amryw barthau o'r esgobaeth, yn iaith gynwynol y wlad, a bu yn brif foddion i ddwyn allan argraffiad newydd o'r Beibl yn Nghymraeg. Wedi bod chwe blynedd yn esgob Tyddewi, efe a symudwyd i fod yn esgob Worcester, yn 1683; ac wedi chwe blynedd yno drachefn, efe a fu farw, Mehefin 25, 1689, ac a gladdwyd yn ol ei ddymuniad, yn nghanghell ei brif-eglwys. Yr oedd yn awdwr y llyfrau canlynol:—(1) *An Apology for the Church of England*, 1679; (2) *A Sermon Preached at the Carmarthen Assizes*, 1657; (3) *The Mammon of Unrighteousness*, pregeth a draddodwyd yn mhrif-eglwys Worcester. Cyhoeddwyd ei *Letter to the Clergy*, a'i *Roman Oracles Silenced*, ar ol ei farwolaeth.

**THOMAS LLWYD IEUAF**, bardd rhwng 1580 a 1620.

**THORNBURY**, sydd drefgordd yn mhlwyf Forden, swydd DREFALDWYN, tair milltir a chwarter gogleddol o Drefaldwyn. Poblogaeth, 46.

**THREAPWOOD**, sydd gapeloriaeth ychwanegol yn nosparth Gwrecsam, a swyddi FFLINT, a CHAERLLEON, wyth milltir gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Whitchurch. Llythyrfa yn Wrecsam. Erwau, 160. Poblogaeth, 335. Tai, 90. Y mae y meddianau rhwng lluaws. Y mae priddfeini yn cael eu gweithio yma. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 102*p*. ac yn nawddogaeth esgob Caerlleon. Y mae yma gapeli ymneillduol; ac ysgol genedlaethol.

**THREE-COCKS**, sydd orsaf rheilffordd yn swydd FRYCHEINIOG, ar reilffordd Canolbarth Cymru, mewn cysylltiad â llinell Henffordd ac Aberhonddu, tair-milltir-ar-ddeg a thri chwarter de ddc ddwyrain o Buallt.

**TINTERN-ABBEY**, sydd is-bentref yn mhlwyf Chapel-Hill, swydd FYNWY; gerllaw yr afon Wy, pedair milltir gogleddol o orsaf rheilffordd Chepstow. Llythyrfa, dan Chepstow. Seiliwyd Cistercian Abbey yma yn 1131, gan Walter de Clare; ond ni ddaeth i ddefnyddiad hyd 1268; ac fe'i gorphenwyd yn 1299, gan deulu Bigod; ond a aeth yn amser y datodiad i deulu Somerset. Yr oedd yr eglwys yn mesur dau cant a deg ar hugain o droedfeddi o hyd; ac yn cynwys yr ystafellau arferol, oedd yn ofynol wrth y trefniant hwnw. Y mae adfeiliau yr eglwys yn aros hyd yn awr, mewn cryn raddau o berffeithrwydd; ac yn arddangos adeiladaeth foreuol Saesonig mewn ardderchogrwydd mawr; fel ei cydnabyddir gan y cynllunwyr goreu, yn un o'r rhai rhagoraf sydd ar gael yn awr, yn mhob modd.

**TINTERN-PARVA**, sydd blwyf, a phentref yn nosparth Chepstow, yn swydd FYNWY, gerllaw yr afon Wy, pedair milltir a haner gogleddol o orsaf rheilffordd Chepstow. Llythyrfa, Tintern Abbey.

**TIR-ABOD**, sydd drefgordd yn nosparth Llanelwy, swydd DDINBYCH, gerllaw Llanddulas, yr hwn sydd bentref a saif ar linell rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, rhwng Abergele a Cholwyn, yn Arfon.

Digitized by Google

**TIR-ESGOB** (Tir yr Esgob), sydd is-bentref, cysylltedig â Rhosmaen, yn y rhan honno o blwyf Llandilo-fawr, sydd yn y dosparth isaf o gantref Perfedd, yn swydd Gaerfyrddin, Deheubarth Cymru; un filltir gogledd ddwyrain o Landilo-fawr. Y mae y lle hwn ar gynnydd mewn poblogaeth, er yn ddiweddar. Saif ar ochr ddeheuol afon Towy; ac y mae y ffordd o Landilo-fawr i Langadog yn rhedeg drwyddo, yn gyfochrog a'r afon.

**TIR-EVAN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Ysbytty, swydd Ddinbych; wyth milltir a haner de dde ddwyrain o Lanrwst. Erwau, 3954. Gwerth ardrethol, 919*p*. Poblogaeth, 352. Tai, 80. Yr oedd yma Ysbytty gynt, yn perthyn i farchogion St. Ioan.

**TIRLLANERCH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Corwen, swydd Feirionydd, gerllaw Corwen.

**TIR-MYNACH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanbrynmair, swydd Drefaldwyn; deng milltir dwyreiniol o Fachynllaith. Gwerth ardrethol, 1175*p*. Poblogaeth, 712.

**TIR-MYNACH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Cegidog, swydd Drefaldwyn; dwy filltir a haner gogleddol o'r Trallwm. Gwerth ardrethol, 2820*p*. Poblogaeth, 283.

**TIR-MYNACH**, neu Tir-Myneich, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel-Geneu'r-Glyn, yn mharth uchaf cantref Geneu'r-Glyn, yn swydd Aberteifi. Y mae y lle hwn yn llanerch amaethyddol mewn gwlad.

**TIR PHILL**, sydd orsaf rheilffordd, ar derfyn gogledd ddwyreiniol swydd Forganwg, ar reilffordd Dyffryn Rhymni, tair milltir a chwarter o Rhymni.

**TIR-ROSIER**, neu Tir-y-Rhos-hir, sydd is-bentref cysylltedig â Blaenau, yn mhlwyf Llandebie, cantref Is-cennin, swydd Gaerfyrddin. Yma y tardda y ffrydiau sydd yn ddechreuad i afon Llychwr.

**TIR Y BRENIN**, sydd is-bentref, cysylltedig â Brynccdwin, yn mhlwyf Llandilo, cantref Abertawe, swydd Forganwg, saith milltir gogledd ogledd orllewin o Abertawe. Y mae y ffordd o Abertawe i Gaerfyrddin yn rhedeg drwy y lle hwn, yn yr hwn y mae rhai palasau rhagorol.

**TONDU**, neu Cyswllt-Tondu, sydd orsaf rheilffordd yn swydd Forganwg, ar reilffordd Llyfni ac Ogwyr, yn nghysylltiad cangen Porth-cawl, dwy filltir a thri chwarter de dde orllewin o Ben y bont.

**TONGWYNLAS**, sydd le yn ochr ogledd ddwyreiniol swydd Forganwg, tair milltir gogledd ogledd orllewin o Landaf. Llythyrfa, dan Landaf.

**TON YR EFAIL**, lle yn mharth dwyreiniol sir Forganwg, 6 milldir o Bont y pridd. Medda lythyrfa dan Bont y pridd.

**TOR PANTAU**, gorsaf ar reilffordd Aberhonddu a'r Merthyr. Deheudir Cymru; 13¾ milldir i'r dehau o Aberhonddu.

**TORYDEN**, neu Torryden, a elwir weithiau "Yr Afon," ac weithiau, "Yr Afon Lwyd;" afon yn swydd Fynwy. Y mae yn tarddu 1¼ milldir i'r dwyrain o Nant y glo; ac yn llifeirio tuag 16 milldir, mewn cyfeiriad de dde ddwyreiniol heibio i Bont y pŵl, i'r Wŷsg, ger Caerlleon. Trawsir y rhan fwyaf o'i dyffrynoedd gan un o reilffyrdd swydd Fynwy; a rhan, gan ddyfr-ffos Aberhonddu a Mynwy.

**TOWERBRIDGE**, Robert, Ysw., o Gaerfallen, yn Nyffryn Clwyd, ydoedd fab i John Towerbridge, neu Tourbridge, o'r un lle. Robert a briododd Anne, ferch S. Mostyn, o Galcot, sir Flint. Yr oedd yn Farwn y Gyllidfa, ac yn Arolygydd Gwynedd. Bu farw Gorph. 20, 1679, yn 55 oed.

**TOWY** (Y), afon yn Neheudir Cymru, yn tarddu dan fryn Tregaron, yn y parth gogledd-ddwyreiniol o swydd Aberteifi; ac yn llifeirio dros oddeutu 65 milldir, mewn cyfeiriad de dde orllewinol, heibio i Foel Esgob, y Fannog, Ystradffin, Llanymddyfri, Llangadoc, Llandeilo Fawr, Llanegwad, a Chaerfyrddin, i gyd lifiad â'r Taf, ac yna i feisfor Caerfyrddin. Y prif afonydd a ymarllwysant iddi ydynt y Towy Fechan, y Cam-ddwr, y Tothi, y Bran, y Sawddwy, y Cennen, y Cothi, a'r Gwilli.

**TOWY** (Rheilffordd Glyn), rheilffordd yn mharth gogledd ddwyrain swydd Gaerfyrddin; o Lanymddyfri, i waered ar hyd dyffryn y Towy, am 11¼ milldir, i gydiad â llinell Llanelli a Llandeilo Fawr. Fe'i hawdurdodwyd yn y flwyddyn 1854; ac a'i pryd-leswyd dros dymhor i gwmni llinell Llanelli, yn y flwyddyn 1858; ac yn barhaol, yn 1860.

**TOWYN**, pentref, a phlwyf, yn nosbarth Machynlleth, ond yn swydd Feirionydd. Y mae y pentre. ar lan y môr, yn agos i enau yr afon Dysyni, ar reilffordd Glanau Cymru; 10¼ milldir i'r De wrth Orllewin o'r Abermaw. Y mae yn ymdrochle lled boblogaidd, o ymddangosiad glanwaith a chysurus; ac yn meddu llythyrfa, o'r enw "Towyn, Meirionydd," gorsaf rheil-ffordd, gwestty dâ, baddonau, &c. Y mae golygfeydd amrywiol a tharawiadol iawn yn amgylchoedd y lle hwn; o'r tu cefn, cysgodir y dref gan fynydd-res uchel, yn yr hon yr ymddengys cribau mawr-wych Cadair Idris, ac o'i blaen yr ymleda beis-for eang Ceredigion; a thrwy fod y mor-lan yma yn hynod gyfleus i ymdrochi, y mae llawer o ddyeithriaid yn arfer cyrchu yma yn misoedd yr hâf, er adloniant, a chryfhad iechyd; ac y mae yma dai dâ wedi eu cyfodi i'w llettya. Heblaw hyny y mae yma ffynnon fwnawl, a elwir "Ffynnon Cadfan." yr hon sydd wedi cael enw uchel am rinwedd ei dwfr i iachau y gymmalwst, y manwynau, ac amryw anhwylderau croenawl; a chyrcha llawer yma er cael ymdrochi yn ei dyfroedd rhinweddol. Y mae y plwyf yn wyth neu naw milldir o hyd, ac o bump i chwe milldir o led, gan gynnwys, heblaw dyffryn Dysyni, neu, *Di swn wy*, lanerch fawr o dir ar lanau yr afon Dyfi, neu, *Dof wy*, ac yn cyrhaedd hyd o fewn ychydig bellder o eglwys Pennal. Y mae rhai mwn-gloddiau cfydd a phlwm o fewn y plwyf hwn, y rhai a fuant yn cael eu gweithio gan gwmni o Lundain; ac yn agos i Aberdyfi, y mae cloddfa lechi. Dygir gweithfeydd gwlanenau yn mlaen yn lled helaeth mewn manau yn y plwyf hefyd; oddiwrth yr hyn y mae cyfran o'r trigolion yn cael eu bywioliaeth. Mesura y plwyf yn erwau, 26,372; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 10,927*p*., o ba rai y mae 130*p*. mewn mwngloddiau, a 13*p*. mewn pysgodfeydd. Poblogaeth yn 1871, 3307. Tai annedd, 869. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 224*p*. Noddwr, Esgob Bangor. Y mae Ficeriaeth Aberdyfi, yn fywioliaeth wahanol yn yr un plwyf. Y mae eglwys y Towyn yn gyflwynedig i Sant Cadfan, yr hwn a ddaeth drosodd o Lydaw yn y chweched ganrif; a dywedir iddo fod yn Abbad yn mynachlog Enlli. Y mae yn groes-adail fawr, yn yr arddull Normanaidd; a chynnwysa rai cofadeiladau tra henafol; ac ar ystlys ogleddol y gangell, dan ortho bwaog, y mae delwadau o ddau wr; y naill, yr hwn a ymddengys mewn amdo, yn

Digitized by Google

cynnrychioli Cadfan; a'r llall, mewn arf-wisg, yn cynnrychioli Gruffydd ab Adda, o'r Ddol Goch, yn y plwyf hwn, medd traddodiad. Y mae maen hefyd, saith troedfedd a haner o hyd, ar yr hwn y mae wedi ei gerfio ddarlun o'r groes, a rhyw argraff yr hon y mae ystormydd oesau wedi ei wneyd yn dra anhawdd ei darllen: ond y mae y diweddar Barch. John Williams, (Ab Ithel,) wedi ymchwiliad manol, yn cynnyg y darlleniad canlynol o'r arysgrif ar bedair ystlys y maen;—"*Cyngen celain ar tu rhwng dybydd marciau*" hyny yw, mewn iaith ddiweddarach,—"Y mae corph Cyngen ar yr ystlys rhwng y lle y bydd y nodau." A'r ystlysau eraill a ddarllenai ef fel y canlyn;—"*Tan* grug cyfal tedd Gadfan marth moll clod y ddaear, triged nid anaf;" yr hyn a ellid ei aralleirio mewn iaith ddiweddarach fel y canlyn;—"O dan grug cyffelyb y gorwedda Cadfan, trist amgau o hono glod y ddaear. Triged heb anaf."

Ond pwy oedd y gwŷr a gofnodir yma? Am *Cadfan*, ni all fod ammheuaeth. Mab oedd efe i Encas Lydewig, o Gwen Teirbron, merch Emyr Llydaw, un o dywysogion Llydaw. Yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif, efe a ddaeth i Gymru, ac a seiliodd eglwysi y Towyn, Meirionydd; a Llangadfan, swydd Drefaldwyn. *Am Cyngen*, mae yn debyg mai Cyngen ab Cadell, tywysog Powys ydoedd, yr hwn oedd yn cyfoesi â Chadfan, gan ei fod yn ei flodau rhwng 500, a 542. Efe a olynodd ei dad yn nhywysogaeth Powys, a chyfrifir ef yn enwog fel noddwr y saint, ac un a amlygodd haelioni mawr yn ngwaddoliad yr Eglwys. (Gwel "Y Saint Cymreig," t. d. 161.) Y mae yn ddiamheuol mai efe a roddes y Towyn, yr hwn oedd o fewn ei arglwyddiaeth, i Dduw a Sant Cadfan; ac felly yr oedd yr naturiol i'w hen gyfeillgarwch â Chadfan, a'i edmygiad o'i rinweddau, dueddu y tywysog i ddymuno "pan y byddai farw, bod iddo gael ei gladdu yn y bedd lle y claddasid gwr Duw, a bod i'w esgyrn ef gael gorwedd gyd ag esgyrn y sant." Gwel *Archaeologia Cambrensis*, vol. vi. pp. 90–100, a 205.

Yr oedd maen hir arall hefyd yn y gladdfa, a rhyw gerfiadau annghelfydd arni, er cof am ryw ryfelwr enwog, debygid.

Ar gopa cyfyng craig anferth, yn ymddyrchafu o'r dyffryn, yn yr hwn y gorwedda y dref, y mae gweddillion hen gastell cryf: yr oedd un ystafell ynddo, 36 troedfedd o drawsfesur, oedd wedi ei naddu o'r graig sylweddol. Gelwid yr amddiffynfa hon Teberi; meddylia Mr. Pennant mai hwn oedd Castell y Bere, a gadarnheid gan Dafydd ab Gruffydd, yr hwn a gymerwyd yn 1283, gan William de Valence, Iarll Penfro, ychydig cyn llwyr ddarostyngiad y Dywysogaeth gan Edward y Cyntaf, yr hwn a'i rhoddes i gadwraeth Robert Fitz Walter, yr hwn ar yr un pryd a gafodd yr hawl-fraint i hela yn y wlad gylchynol. Y mae y ffordd Rufeinaidd o Gefn Caer, gorsaf Rufeinaidd yn mhlwyf Pennal, hyd bentref Carreg, ar y lan gyferbyniol i afon Dyfi, yn myned trwy y plwyf hwn yn agos i Dalgarth. Ymladdwyd brwydr yn agos i'r lle hwn, rhwng pleidwyr tŷ Lancaster, dan lywyddiaeth Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, o'r Dinefwr, â phleidwyr tŷ Caerefrawg, dan Henry ab Gwilym, o *Court Henry*, un o gadbeniaid Iarll Penfro, yn yr hon enillodd y blaenaf fuddugoliaeth drwyadl. Yma hefyd, yr ymladdodd yr unrhyw Thomas ab Gruffydd, frwydr law-law â Dafydd Goch, câr agos i Matthew Goch, rhyfelwr enwog dan deyrnasiad Harri V. a'r VI., yr hwn a laddwyd ganddo. Y mae carnedd yn agos i Talgarth, yr hon y dywedir ei bod wedi cael ei chyfodi ar gorph Thomas ab Gruffydd, a'r eiddo rhai o'i ganlynwyr, y rhai, meddir, a lofruddiwyd tra yr oeddynt yn cysgu ar y llanerch hon, gan ryw rai a berthynent i'r blaid orchfygedig. Yn agos i dref y Towyn y mae yr hen balas a elwir Ynys y maen gwyn, mewn sefyllfa hynod o ddifyrus; llosgwyd yr hen balas hyd lawr yn amser y rhyfel Seneddol, er attal i'r fyddin Seneddol gael lloches ynddo; ac ar ammaethfa gerllaw, o'r enw Bryn Castell, y mae bryncyn crwn o bridd, yn agos i'r hwn y cafwyd yn gynnar yn y ganrif hon, haner pelen magnel, yn pwyso 7 pwys. Yn y Ddol Goch, mae rhaiadr bychan, ond hardd iawn. "Craig y Deryn," tua phedair milldir o'r Towyn, i fynu yn nyffryn y Dyssyni, a elwir felly am fod lluaws mawr o adar yn llechu y nos yn ei chilfachau: y mae yr olygfa o'i hamgylch yn wyllt a rhamantus dros ben, a chlegair annghydsain y lluaws adeiniog yn eu henciliad i'r llanerch neillduedig hon, sydd yn ychwanegu yn fawr at wylltedd y fan. Yr oedd amddiffynfa ar ei chopa ar ryw adeg foreuol, o'r hon y mae ychydig olion yn aros eto; a chanfyddir amryw eraill o'r cyffelyb adeilwaith, mewn sefyllfeydd tebyg, yn agos i'r arfordir yma.

**TOWYN**, Syr Sion, oedd fardd ac offeiriad, yr hwn fel y tybir a fu farw tua'r flwyddyn 1580.

**TRAETH BACH**, lle ar enau yr afon Dwyryd, yn swydd Gaer-yn-arfon; 4 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Dremadog.

**TRAETH COCH**, beisfor yn y parth gogledd-ddwyreiniol o ynys Fon; mesura tua phum milldir un ffordd, a thair milldir y ffordd arall; a bydd tua 5 gwrhyd o ddwfr arno ar orllanw.

**TRAETH DULAS**, crigyll wrth enau yr afon Dulas, yn Mon; 4 milldir i'r de ddwyrain o Amlwch.

**TRAETH MAWR**, beisfor wrth safn yr afon Madoc, yn swydd Gaer yn arfon; ger Porthmadoc; ac yn agos i Dremadoc. Yr ydoedd gynt yn cynnwys saith mil o erwau o forfa, yr hwn a enillwyd oddiar y môr rhwng y blyneddoedd 1798, ag 1810, ar y draul o gan mil o bunnau.

**TRAETH YN ELGAN**, treflan yn mhlwyf Talley, swydd Gaerfyrddin; 8½ milldir i'r gogledd o Landeilo Fawr.

**TRAHAIARN** ab Caradog, oedd dywysog, yr hwn a gafodd lywodraeth Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 1072, ar farwolaeth ei gefnder, Bleddyn ab Cynfyn. Er fod Bleddyn wedi gadael ar ei ol amrywiol o blant, eto dyrchafwyd Trahaiarn i'r orsedd trwy gydsyniad y bobl; ac heblaw hyny, gan ei fod yn benaeth enwog, yr oedd ganddo ryw gysgod o hawl i'r anrhydedd hwnw, yn gymaint a'i fod wedi priodi â Nest, merch Gruffydd ab Llywelyn. Yn fuan wedi ei esgyniad i'r orsedd, glaniodd Gruffydd ab Cynan yn Môn, gyda llu o Wyddelod, gyda'r bwriad o gael meddiant o orsedd ei henafiaid, o'r hon mewn modd anghyfiawn yr oedd wedi cael ei ddiswyddo; ond er iddo fuddugoliaethu mewn rhai brwydrau, eto gorchfygwyd ef gan Trahaiarn, mewn lle a elwir Bron yr Erw, yn agos i Harlech, yn sir Feirionydd; a gorfuwyd ef i gilio yn ol i sir Fôn. Yn y flwyddyn 1080, ymosodwyd ar Trahaiarn gan luoedd unedig Gruffydd ab Cynan, yr hwn drachefn a laniodd gatrodau mawrion o Wyddelod, gyda Rhys ab Tewdwr, tywysog y Deheubarth; a

Digitized by Google

gorphenwyd bywyd a theyrnasiad Trahaiarn, yn mrwydr waedlyd maes Carno.

**TRAHAIARN BRYDYDD MAWR**, oedd fardd enwog. Llywyddai yn ngorsedd Morganwg yn y flwyddyn 1300. Y mae dwy o'i awdlau wedi cael eu hargraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaiology.* Tybir hefyd mai efe oedd yr un a ddefnyddiai yr enw ffugiol, Casnodyn, i'r hwn y rhoddir pump eraill yn yr un casgliad.

**TRAHERNE**, Parch. John Montgomery, ydoedd fab i Lywelyn Traherne, Ysw., o Goedriglan, ger Caerdydd, sir Forganwg; ac a anwyd Hydref 6, 1788. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei B.A. yn 1810, a'i M.A. yn 1813, yn Ngholeg Oriel. Efe a ordeiniwyd yn ddiacon yn 1812, ac yn offeiriad yn 1813, gan esgob Bath a Wells. Priododd, Ebrill 29, 1830, â Siarlotte Louisa, trydedd ferch i Thomas Mansell Talbot, Ysw., o Fargam, yn yr un sir. Yr oedd yn perthyn yn achyddol i'r rhan fwyaf o deuluoedd cyfrifol Morganwg. Er ei fod yn weinidog cyfrifol a pharchus yn yr Eglwys dros hir oes, eto nid yn hyny yr oedd ei enwogrwydd yn gynwysedig. Heblaw ei fywiolaethau plwyfol, yr oedd yn ganghellwr Llandaf, o 1844 hyd 1851. Yr oedd tuedd ei efrydiaeth agos yn gwbl, fel ei hynod gymydog Iolo Morganwg, ar ymchwilio i henafiaethau, yn enwedig adeiladau eglwysig. Yr oedd yn cael ei ystyried yn awdurdod ar y pen hwnw, goreu yn Neheudir Cymru; ac fel y cyfryw graddiwyd ef yn F.R.S. ac F.S.A., hefyd yn aelod o'r Gymdeithas Ddaearegol, o Gymdeithas Henafiaethol Castell Newydd ar Dain, a Chymdeithas Freiniol Copenhagen. Ei weithiau cyhoeddedig ydynt:—(1) *Historical Notices of Sir Mathew Cradock, Knight;* a sylw bywgraffol am Dr. Mansel, fel attodiad, 1840. (2) *Stradling's Correspondences —a Series of Letters written in the Reign of Queen Elizabeth, with Notices of the Family of Stradling of St. Donat's Castle, Glanmorganshire*, 1840. Cyfranodd hefyd amryw erthyglau gwerthfawr ar henafiaethau, i'r *Archaeologia Cambrensis; Collectiana*, gan Nicholls; *History of Neath*, gan Francis; ac amryw eraill. Bu Mr. Traherne farw yn Mhalas Coedriglan, Chwef. 2, 1860, yn 71 oed.

**TRAIAN GLAS**, a Thraian Mawr, dwy dreflan yn mhlwyf Llywel, swydd Frycheiniog; 12 milldir i'r gorllewin o Aberhonddu. Gwerth ardrethol, 2884*p.*, a 2463*p.* Poblogaeth yn 1861, 614 a 301. Tai annedd, 127 a 75.

**TRALLONG**, neu Trallwng, plwyf yn nghantref Merthyr Cynog, swydd Frycheiniog. Ffinir y plwyf hwn ar y dehau gan yr afon Wŷsg, ac ar y dwyrain gan yr afonig Bran, yr hon a ysgara rhyngddo â phlwyf Aberyscir: ac fe'i dyfrheir hefyd gan yr afonig Cilieni. Dywedir fod y lle mewn oesoedd tra boreuol yn orchuddiedig gan goedwig fawr, yr hon a fynychid gan faeddod gwylltion. Y mae arwyneb y plwyf yn donawg; ac mewn rhai parthau, yn fryniawg; a'r gweryd, yn enwedig yn y tiroedd isel, yn fras, a chynnyrchiol. Y mae y plwyf hwn yn cyfansoddi prebenduriaeth yn eglwys golegawl Aberhonddu, yn noddaeth esgob Ty Ddewi. Mae y plwyf yn sefyll 5 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Aberhonddu. Llythyrfa, Aberhonddu. Erwau, 3384. Gwerth ardrethol, 1995*p.* Poblogaeth, 262. Tai annedd, 57. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 59*p.* Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Ar fryn, yn y cwr dwyreiniol o'r plwyf, y mae gweddillion hen amddiffynfa Brydeinaidd, a elwir Twyn y Gaer; yn ngolwg yr afon Wysg; ac yn gymmwys ar ei chyfer, yr ochr arall i'r afon, yn mhlwyf Llanspyddyd, y mae un arall o'r un enw. Tua milldir a haner sydd o'r naill i'r llall. Dywedir fod yr enwog Owain Iolo Goch, wedi ei gladdu mewn maes yn y plwyf hwn, yr hwn a elwir eto ar ei enw.

**TRALLWM**, bwrdeisdref, tref farchnad, plwyf, a chantref, yn swydd Drefaldwyn. Y mae y dref yn gorwedd gerllaw yr afon Hafren, dyfr-ffos Trefaldwyn, neu Ellesmere, a rheilffordd Cymru, yn agos i gydiad rheilffordd y Mwythig, a Thrallwm, 19½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o'r Amwythig; ei henw ar y dechreu oedd "Trellyn," neu "Tref y llyn;" ac fe'i gelwid felly, am fod ei sefyllfa yn agos i lyn dwfn; ac am yr un rheswm ei gelwir *Pool* gan y Saeson; ac er ei gwahaniaethu oddiwrth dref arall o'r enw *Pool* yn swydd Dorset, fe'i galwyd yn gyffredin er's talm bellach, *Welshpool.* Y mae y llyn crybwylledig, o fewn parc y Castell Coch yn Mhowys, a dywedir ei fod yn dri chan troedfedd o ddyfnder; ac oddiwrth liw ei ddyfroedd, cafodd ei alw, "Y Llyn Du." Y mae y dref hon yn hen; a chawn grybwylliad am dani yn y Brutiau Cymreig, mor foreu a'r flwyddyn 1109, pan ddarfu i Cadwgan ab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog galluog o Bowys, ffyddo, hyd yn nod yn yr amseroedd terfysglyd ac aflywodraethus hyny, i ddwyn ei diriogaethau i ryw radd o drefn, a thawelwch, trwy weinyddiad cyfiawnder manol, a di duedd: yna, efe a ddaeth i'r lle hwn, ac a ddechreuodd adeiladu castell, lle y bwriadai wneyd ei brif breswylfa, ac eisteddle gweinyddiad ei lywodraeth. Ond, tra yr oedd y tywysog rhinweddol uchod yn aros yn y lle hwn, ymosodwyd arno yn ddisymwth, gan ei nai Madoc, tywysog aflywodraethus o Ogledd Cymru; ac efe a laddwyd, cyn cael o hono hamdden i'w amddiffyn ei hunan, nac i ffoi o gyrhaedd y lleiddiaid. Ar farwolaeth Cadwgan, gadawyd y castell a ddechreuasai ei adeiladu yn y fan hon, yn anorphenol; ond wedi talm o amser, ail ymgymerodd Gwenwynwyn â'r gorchwyl, ac a'i gorphenodd. Yr oedd hwn yn dywysog y parth deheuol o wlad Bowys, ar ol marwolaeth ei dad, Owain Gyfeiliog. Yn y flwyddyn 1191, darfu i Hubert, Archesgob Caergaint, osod gwarchae ar y castell hwn, tra yr oedd Richard y Cyntaf yn y Tir Sanctaidd, er dial ar y Cymru am ryw anrheithiadau a wnelsent ar y deiliaid Seis'nig yn y cyffindiroedd. Gwnaeth y gwarchodlu wrthsafiad dewr-wych; ac ni roddasant y lle i fynu hyd onid oedd y muriau wedi eu tan-gloddio; nac wedi hyny ychwaith, onid ar ammodau anrhydeddus. Wedi i'r archesgob gymeryd yr amddiffynfa, efe a barodd adgyweirio y niweidiau a wnelsid iddi yn ystod y gwarchae, cadarnhaodd ei hamgaerau, a chyfleodd warchlu cryf ynddi; ac yna, dychwelodd i Loegr. Yna, penderfynodd Gwenwynwyn, ettifedd cyfiawn y castell, wneyd pob ymdrech i'w adfeddiannu, am ei fod yr amddiffynfa bwysicaf yn ei diriogaethau; ac yn y flwyddyn 1197, efe a ddechreuodd warchae arni, ac yn fuan gorfododd y Saeson i'w rhoddi i fynu iddo ar yr un ammodau ag a gawsai yntau i'w filwyr, pan ei gorfodid i'w rhoddi i fynu. Y pryd hwn gelwid y castell, "Castell Gwenwynwyn yn Nhre'r llyn;" a daeth y lle yn brif drigias y tywysog a'i olynwyr.—Yn nheyrnasiad y brenin Ioan, gan fod Gwenwynwyn wedi cydsynio i gydnabod uchaf-

Digitized by Google

iaeth brenin Lloegr, a dal ei diriogaethau dan y pennadur hwnw, ei fab, a'i olynydd, Gruffydd, a dalodd wrogaeth i'r brenin Seis'nig, ac yn ol ei ddeiliadaeth yr oedd yn rhwym i'w gynnorthwyo yn ei ymdrechion i ddarostwng y dywysogaeth dan awdurdod y llywodraeth Seis'nig. Ar hyny, Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, wedi cythruddo yn fawr o herwydd bod Gruffydd yn troi yn anffyddlawn i'w gyd-genedl, a ymosododd ar y castell hwn, a elwid y pryd hyny, "Y Castell Coch yn Mhowys," yn y flwyddyn 1233, gan ei ddi-gaeru. Ar yr achlysur hwn darfu i Lewelyn ddëoli Gruffydd, a rhoddi ei diriogaethau i Gruffydd ab Madoc, tywysog Powys Uchaf, ac arglwydd Dinas Bran.

Eto, ymddengys fod Owain ab Gruffydd, ŵyr Gwenwynwyn, dan nawdd y Saeson, wedi parhau i gadw meddiant o diriogaethau ei dad, fel deiliad Seis'nig; ac ar ei farwolaeth, efe a'u cymmun-roddodd i'w unig ferch, a'i ettifeddes, Hawys Gadarn. Wedi marw ei thad, cyfodwyd dadl mewn perthynas i hawl Hawys i dywysogaeth Powys, gan ei phedwar ewythr, Llewelyn, John, Gruffydd Fychan, a Dafydd, pob un o honynt yn haeru bod yn annghyfreithlawn i fenyw ettifeddu y cyfryw urddas. Dan yr amgylchiadau hyn, apeliodd Hawys at Edward yr Ail, yr hwn a'i rhoddes yn brïod i John de Charlton, a'r brenin a'i gwnaeth ef yn bendefig, dan yr enw Arglwydd Powys; a pharhaodd y castell, a'r tiroedd cydiedig ag ef, yn meddiant hiliogaeth y pendefig hwn dros genedlaethau lawer.

Y mae yn debyg mai y pryd hwn y cafodd ei alw Castell Powys, yr hyn yw ei enw hyd heddyw. Trwy briodas â Jane, merch henaf Edward, arglwydd Powys, fe drosglwyddwyd yr arglwyddiaeth a'r castell i Syr John Grey o Heton, yr hwn a laddwyd yn mrwydr anffodus Baugee, yn 1421; ac yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth, darfu i Edward Grey, mab ordderch i Edward Grey de Powys, werthu yr ettifeddiaeth i Syr Edward Herbert, ail fab William Herbert, iarll Penfro. Claddwyd Syr Edward yn eglwys y Trallwm, ac efe a olynwyd yn ei deitlau a'i ettifeddiaethau, gan ei fab William, yr hwn a wnaed yn farchog y *Bath*, ar goroniad Iago I.; ac a grewyd yn Arglwydd Powys, gan Charles y Cyntaf.

Ar doriad allan ryfel cartrefol yr ail ganrif ar bymtheg, cyhoeddodd Piercy, Arglwydd Powys, ei hunan yn gefnogwr plaid y Brenin, gan gadarnhau y castell, a rhoddi gwarch-lu cryf ynddo, yr hwn a lywyddai yn bersonol. Yn fuan wedi hyny, gosodwyd gwarchae arno gan fyddin gref o blaid y Senedd, dan lywyddiaeth Syr Thomas Middleton; ac wedi gwneyd niweidiau mawrion i'w ragfuriau, trwy gyflegrau yr ymosodwyr, fe'i cymerwyd o'r diwedd, a gwnaed llywydd pendefigaidd y gwarchlu yn garcharor, a rhoddwyd rhyddid i'r milwyr i yspeilio y lle. Ar yr achlysur yma, attafaelwyd y castell a'r arglwyddiaeth at wasanaeth y Senedd; ond caniattawyd i berchenog yr ettifeddiaeth i gael ei hadfeddiannu, trwy wneyd rhan-daliad am dani i'r Senedd.

Y mae Leland yn darlunio y dref hon yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, fel y farchnad-dref oreu yn Mhowys; ac y mae hi yn cadw y cymeriad hwnw i fesur helaeth hyd yr oes hon. Y mae y rhan fwyaf o honi yn gorwedd mewn pant-le, yn ymagor tu a'r afon Hafren, ac yn ymestyn i fynu i lethr y bryn tua chastell Powys. Y mae yn meddu adeiladau da, ac wedi ei threfnu yn rheolaidd; ac yn dwyn mwy o arwedd tref Seis'nig nag un Gymreig; ac y mae yr iaith Saesonaeg yn ffynu mwy ynddi na'r iaith Gymraeg. Y mae yr afon Hafren yn fordwyol hyd o fewn ychydig i'r dref; ac y mae camlas Trefaldwyn, yr hon sydd yn myned heibio yn agos iddi, yn ymuno â chamlas Ellesmere, yn agos i Groesoswallt, er gwneyd cymmundeb a thrafnidedd rhwydd â'r Mwythig, a rhanau eraill o'r deyrnas; ond yn ddiweddar y mae rheilffordd wedi ei hagor drwodd yma, yr hyn sydd ychwanegiad gwerthfawr at ei chyfleusderau trafnidiol.

Y mae y dref hon, mewn undeb a Threfaldwyn, a phedair bwrdeisdref arall, yn meddu yr hawl-fraint i anfon aelod i'r Senedd. Cafodd ei breinlen gyntaf gan y brenin Iago y Cyntaf; ac fe'i llywodraethir dan y gyfraith newydd gan Faer, pedwar Henadur, a deuddeg Cynghorwr. Cynhelir y brawd-lysoedd, a'r llysoedd Sirol yma; ac y mae yn ben cadlys milwyr cartrefol y Sir. Y mae yma brif lythyrswyddfa, gorsaf rheilffordd, dau ariandy, gwestdai da, neuadd sirol, a marchnadfa gyfleus, saith o addoldai ymneillduol, ysgol rammadegol, ysgol wladwriaethol, ysgol diwydrwydd, elusendai, clafdy, ac amryw elusenau eraill. Cynhelir marchnad wythnosol yma ar ddydd Llun, a deuddeg o ffeiriau yn flyneddol.

Y mae y fwrdeisdref Seneddol yn cynnwys plwyf y Trallwm, a rhyw gyfran o blwyf Cegidog, yr oll o Buttington, a rhanau o Aber-rhiw, a Chastell Caereinion. Poblogaeth y fwrdeisdref seneddol yn 1851, 4434; yn 1861, 5004; yn 1871, 5046. Tai annedd, 1102. Poblogaeth y fwrdeisdref freiniol yn 1851, 6564; yn 1861, 7304; yn 1871, 6983. Tai annedd, 1479. Gwerth ardrethol y plwyf 8224*p.*, o ba un y mae 913*p.* mewn rheil-ffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 4391; yn 1861, 4844; yn 1871, 4885. Tai annedd, 1060. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 300*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Bu yr esgob William Morgan, Cyfieithydd y Beibl i'r iaith Gymraeg, yn ficar y plwyf hwn tu a'r flwyddyn 1575.—Y mae yr is ddosbarth yn cynnwys tri o blwyfi, a rhanau o ddau eraill; ac yn mesur 22,048 erw o dir. Poblogaeth yn 1861, 7220. Tai annedd, 1465. Y cantref, gan gau allan y fwrdeisiaeth, a gynnwysa un plwyf, a rhanau o dri eraill; ac a fesura 25,362 erw o dir. Poblogaeth, 2895. Tai annedd, 649.

Heb fod yn neppell o dref y Trallwm, yr oedd hen Fynachlog Ystrad Marchell, a seiliwyd yn y flwyddyn 1170, gan Owain Gyfeiliog, i fyneich o urdd y Cisterciaid, neu y "Brodyr Gwisgwyn;" ond, y mae Haneswyr eraill yn dadleu, mai ei fab Madog a'i seiliodd; ond yr hyn sydd fwyaf tebyg yw, i Madog roddi breinlen newydd iddi; a rhoddi darn o dir ychwanegol atti, ar yr hwn yr adeiladid cuddigl iddi. Yn y rhan gyntaf o deyrnasiad Edward y Trydydd, symmudwyd y myneich Cymreig i fynachlogydd Seis'nig; a dygwyd myneich Seis'nig i'r Sefydliad hwn, yr hwn a wnaed yn ddarostyngedig i fynachlog Buildwas. Parhaodd y Sefydliad hwn mewn bri hyd y dadgorphoriad, pan y cyfrifid ei chyllid yn ol *Dugdale*, yn 64*p.* 14*s.* 2*c.*; ac yn ol *Speed*, yn 73*p.* 7*s.* 3*c.* Nid oes dim o olion yr hen adeilad yn aros; a'r unig goffâd am dani yw ei hen orsaf, yr hon a adnabyddir hyd yr oes hon. Ychydig i'r dwyrain o'r dref, y mae gweddillion hen wersyllfa Brydeinaidd, mewn sefyllfa o gadwraeth da; ac ar ben y bryncyn o'i mewn, y mae, neu yr oedd yn ddiweddar, lwyn o goed llwyfan.

Digitized by Google

TRALLWM GOLLEN, trefgordd yn mhlwyf y Trallwm, swydd DREFALDWYN, yn agos i'r Trallwm. Poblogaeth, 209.

TRALLWYN, trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd DINBYCH; 2 filldir i'r dwyrain de ddwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 308.

TRAWSCOED, trefgordd yn mhlwyf Llanyre, swydd FAESYFED; 6½ milldir i'r de ddwyrain o Raiadr. Gwerth ardrethol, 1802*p*. Poblogaeth, 524.

TRAWSCOED, gorsaf rheilffordd yn swydd ABERTEIFI; 9 milldir i'r de ddwyrain o Aberystwyth. Cafodd ei henw oddi wrth ei chyfagosrwydd i balas Iarll Lisburne, a elwir "Y Trawsgoed."

TRAWSFYNYDD, plwyf, a phentref, yn undeb Ffestiniog, swydd FEIRIONYDD; 9 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o orsaf rheilffordd Penrhyn deudraeth; a 12½ milldir i'r gogledd o Ddolgelleu. Medda lythyrfa, dan Gaer yn arfon; a chynnelir tair o ffeiriau yno yn flyneddol. Mesura 21,950 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 5320*p*. Poblogaeth yn 1861, 1517; yn 1871, 1553. Tai annedd, 320. Mae y meddiannau tirawl yn adranedig rhwng llaweroedd. Y mae llawer o'r tir yn fynydd noethlwm; ond, y mae rhanau o'r plwyf yn ffrwythlawn, tra y mae rhanau eraill yn cyflwyno i'r llygaid olygfeydd hynod o darawiadol, fel y canai un bardd;—

"Miliwn o benau Moelydd—a welir
O waelod Traws-fynydd;
Arenig yn Meirionydd,
Baenes hên, yn bena' sydd."

Y llyn a elwir "Llyn Rathlyn," sydd yn gronfa gainwych o ddwfr, ac yn nodedig am rywogaeth neillduol o ysbin-bysg (perch,) a gair ynddo. Yma hefyd y mae dau ddwfr-gwymp dyddorawl, sef Pistyll Cain, a Phistyll Mawddach. Y mae gweddillion hen amddiffynfa a elwir "Castell Prysor" o fewn y plwyf hwn: nid oedd ond bechan, a gorweddai mewn bwlch, rhwng y bryniau, ar y llaw aswy i'r ffordd o Drawsfynydd i'r Bala. Ni's gellir cael sicrwydd gan bwy, nac yn mha oes yr adeiladwyd yr hen amddiffynfa hon: nid oedd ond bechan fel y sylwyd; ac yr oedd wedi ei hadeiladu o geryg heb gymrwd; ond oddiwrth y ffaith bod amryw wrnau, a batholion, wedi eu darganfod gerllaw iddi, fe gesglir gan rai ei bod wedi ei hadeiladu gan y Rhufeiniaid, neu, o leiaf, bod y bobl hyny wedi bod yn ei meddiannu dros ryw yspaid; ac y mae rhan o ffordd Rufeinig, a elwir yn awr "Sarn Ellen," yn weledig eto o fewn ychydig bellder, yn cadarnhau y dybiaeth uchod i ryw fesur. Ar dyddyn o'r enw "Llech Idris" yn y plwyf hwn, y mae "Bedd Porus," ar yr hwn y mae llech-faen, a'r geiriau canlynol wedi eu tori arno, "*Porus hic in tumulo jacit homo—pianus fuit.*" Meddylir mai *Christianus* oedd y gair a ddarllenir *pianus* ar y cyntaf; ond er fod rhai yn dadleu mai *r* ydyw y llythyren a ddarllenir *p* gan eraill, nid ymddengys i neb ei darllen yn *t* un amser; ac nid yw y cyfwng rhyngddi â'r gair *homo* yn ddigonol i gynnwys y pum llythyren flaenorol. Yn agos i'r llanerch hon y mae maen hir, a elwir "Llech Idris," oddiwrth yr hwn y mae y tyddyn wedi cael ei enw, ac y mae traddodiad yn dywedyd iddi gael ei henw oddiwrth y cawr Idris; ond y mae yn ymddangos nad yw yn ddim amgen nag un o'r meini coffa ydynt i'w canfod mor lluosog yn y parth yma o Gymru. Y mae amryw garneddau yn agos i Sarn Ellen, mewn un o ba rai y cafwyd pump o wrnau, ac amryw ddarnau o bridd-feini, a ddodasid o'u deutu, er eu cadw rhag cael eu niweidio: ac y mae carnedd arall, ar ammaethfa a elwir Gwynionydd. Ganwyd Humphrey Lloyd, esgob Bangor, mewn lle a elwir Bod y fuddai, yn y plwyf hwn, tua'r flwyddyn 1600. Brodorion o'r plwyf hwn hefyd, oedd Sion Cain, a Rhys Cain, beirdd enwog yn eu dydd.

Rai blynyddau yn ôl, cafwyd modrwy aur, ddi addurn, ond hynod o fraisg, yn agos i Drawsfynydd. O'i mewn yr oedd y geiriau "*Feare God.*" Yn ol traddodiad lleol, claddesid rhyw esgob a wrthodai gymeryd llw o ffyddlondeb i'r brenin, tu a'r fan hon, yn amser William y Trydydd, neu y frenines Anne; a thybir fod y fodrwy hon yn perthyn iddo ef.

Y fywioliaeth eglwysig yma sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 280*p*. Noddwr, Esgob Bangor. Cafodd yr eglwys ei hadgyweirio yn y flwyddyn 1855. Cynnwysa y plwyf hefyd amryw addoldai Ymneillduol.

TRAWSGOED, treflan yn mhlwyf Gwenddwr, swydd FRYCHEINIOG; 8½ milldir i'r gogledd orllewin o Dalgarth. Erwau, 881. Gwerth ardrethol, 961*p*. Poblogaeth yn 1861, 67. Tai annedd, 11.

TRE-ABOD, neu TRE'R ABBAD, sydd drefgordd yn mhlwyf Rhydwen, swydd FFLINT; tair milltir a chwarter gogledd orllewin o Dreffynon.

TRE-AMAN, sydd orsaf rheilffordd yn swydd FORGANWG, ar reilffordd Dyffryn Tâf, un filltir de ddwyreiniol o Aberdâr.

TRE-BARROG, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfairtalhaiarn, swydd DDINBYCH, wyth milltir a haner gorllewin ogledd orllewin, o Ddinbych. Poblogaeth, 198.

TREBORTH, sydd orsaf rheilffordd yn swydd GAERNARFON, ar reilffordd Bangor a Chaernarfon; dwy filltir de orllewin o Bangor. Saif palas R. Davies, Ysw., yr aelod Seneddol dros Fon, gerllaw.

TRE-BRYS, sydd drefgordd yn mhlwyf Ysbytty, swydd DDINBYCH; naw milltir a haner de dde ddwyrain o Lanrwst. Erwau, 814. Poblogaeth, 121. Tai, 26.

TRE-BRYS-FACH, a THRE-BRYS-FAWR, sydd ddwy drefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr-Mochnant, swydd DDINBYCH; pedair milltir a chwarter gogledd ogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 78, a 108.

TRE-BWLL, sydd drefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd DDINBYCH; dwy filltir dwyrain dde ddwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 407.

TRE-CASTELL, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanarthne, swydd GAERFYRDDIN; chwe milltir a haner gorllewin dde orllewin o Landilo-fawr. Gwerth ardrethol, 1063*p*., o'r hyn y mae 65*p*. mewn mwnau.

TRE-CASTELL, sydd bentref, yn mhlwyf Llywel, swydd FRYCHEINIOG, gerllaw rheilffordd Aberhonddu a Llanddyfri; o dan fynydd Trecastell; un milltir ar ddeg gogleddol o Aberhonddu. Llythyrfa, dan Aberhonddu; gwestdy, a saith o ffeiriau blyneddol. Codwyd castell gerllaw y lle hwn gan Bernard Newmarch; ond ni erys o'i olion hyd yn awr, ddim ond gwaith daearfur eang. Y mae Mynydd Trecastell yn ddwy fil pum cant a phedair troedfedd ar ddeg a phedwar ugain o uchder.

TRECHGWYNNON, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanarthne, swydd GAERFYRDDIN, chwe milltir a haner gorllewin dde orllewin o Landilo-fawr. Gwerth ardrethol, 2409*p*. Poblogaeth gyda Miawst, 375.

Digitized by Google

**TRE-CLAS**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanarthne, swydd Gaerfyrddin, chwe milltir gorllewin dde orllewin o Landilo-fawr. Gwerth ardrethol, 2129*p*. Poblogaeth gyda Myddfai, 405.

**TRECOED**, sydd drefgordd yn mhlwyf Dyserth, swydd Faesyfed; chwe milltir a haner de orllewin o Faesyfed Newydd. Gwerth ardrethol, 1402*p*. Poblogaeth, 211. Tai, 40.

**TREDEGAR**, sydd dref, capeloriaeth, ac isddosparth yn mhlwyf Bedwellty a dosparth Mynwy. Saif y dref yn ymyl afon Sirhowy, gerllaw rheilffyrdd Dyffryn Sirhowy, a Merthyr ac Abergafenni, deuddeg milltir a haner, gorllewin dde orllewin o Abergafenni. Nid oedd y lle ond pentref dinod mor ddiweddar ag 1800, ond cynnyddodd i bwysigrwydd mawr drwy sefydliad y gwaith haiarn gan deulu Homfrays. Cynlluniwyd clodrffordd ar yr ochr ddeheuol yma, er cludo mwnau, ac allforio glo, a haiarn. Nid yw y golygfeydd yma yn hawddgar. Y mae yma betrual yn y canol, a heolydd yn ymganghenu. Prif lythyrfa; a dwy gangen rheilffordd a berthynant i'r lle. Y mae yma ariandy, eglwys, wyth o gapeli ymneillduol; marchnad wythnosol ar y Sadwrn, a thair o ffeiriau blyneddol. Poblogaeth yn 1851, 8305; yn 1861, 9383. Tai, 1720. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1840. Poblogaeth yn 1861, 20,318. Tai, 3643. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 300*p*., ac yn nawddogaeth periglor Bedwellty. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys yr oll o ddosparthau Manmoel, ac Islaw'r Coed, o blwyf Bedwellty. Poblogaeth yn 1851, 24,554; yn 1861, 28,548. Tai, 5140.

**TREDEGAR** (Newydd), sydd bentref ar ochr ogledd ddwyreiniol swydd Forganwg, gerllaw rheilffordd Rhymni a Chasnewydd, pedair milltir de orllewin o Tredegar. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a llythyrfa dan Casnewydd, Mynwy.

**TREDEGAR** (Parc), ydyw palas Arglwyddes Tredegar, y llenores Gymreig enwog; dwy filltir a haner de orllewin wrth dde o'r Casnewydd.

**TREDEGAR-VILLE**, sydd le yn ymyl Caerdydd, yn swydd Forganwg. Adeiladwyd yma addoldy perthynol i'r Bedyddwyr yn 1863.

**TREDERWEN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandrinio, swydd Drefaldwyn; chwe milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm. Poblogaeth, 243.

**TREDOGAN**, sydd bentref yn mhlwyf Penmarc, swydd Forganwg, pum milltir a haner de ddwyrain o Bont-y-fon.

**TREDUNOG**, sydd blwyf yn nosparth Casnewydd, swydd Fynwy, pedair milltir a haner deheuol o orsaf rheilffordd Wysg. Llythyrfa, dan Casnewydd, Mynwy. Erwau, 1393. Gwerth ardrethol, 1606*p*. Poblogaeth, 164. Tai, 32. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 208*p*., ac yn nawddogaeth C. H. Leigh, Ysw. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**TRE-DDERWEN-FAWR**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd Drefaldwyn; pedair milltir a chwarter dwyrain ogledd ddwyrain o Lanfyllin. Poblogaeth, 152.

**TREDDYN**, neu Tryddyn, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf y Wyddgrug, swydd Fflint, pedair milltir de wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd y Wyddgrug. Llythyrfa, dan y Wyddgrug. Gwerth ardrethol 11,156*p*., o'r hyn y mae 7200*p*. mewn mwnau. Poblogaeth, 1525. Y mae gweithydd glo, a haiarn Coed Talwrn yma; ac y mae yma gangen rheilffordd at gludo mwnau hyd orsaf Padeswood. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 140*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy.

**TREFALDWYN** (Swydd), a ffinir ar y de ddwyrain, y dwyrain, a'r gogledd ddwyrain, gan swydd Seis'nig yr Amwythig, a rhan annghyssylltiadol o swydd Dinbych; ar y gogledd, gan swydd Ddinbych, ar y gogledd orllewin a'r gorllewin, gan swydd Feirionydd; ar y de orllewin, gan swydd Aberteifi, ac ar y dehau gan swydd Faesyfed. Y mae llinellau allanol y terfynau yn lled afreolaidd gan doriad i mewn, neu dafliad allan, yn y naill fan a'r llall; y mae ar y cyfan yn bum-onglog, gyda'r ochrau yn wynebu y gogledd, y dwyrain, dwyrain dde ddwyrain, de orllewin, a gorllewin ogledd orllewin, ac yn cynwys mesuriad o bedwar cant ac un ar ddeg a phedwar-ugain o filoedd o erwau; neu saith gant ac wyth a thri-ugain o filltiroedd ysgwâr. Lled mwyaf y sir, yw naw milltir ar hugain; a'i hyd mwyaf, yw dwy ar bymtheg ar hugain. Y mae arwynebedd y tir, gan mwyaf, ar yr ochr ddwyreiniol, yn gynwysedig o ddyffrynoedd cyfoethog, bryniau hyfryd, ac iseldir iachus a chynnes; ond yn y parthau eraill, y mae, gan mwyaf yn fynyddig, corsog, a gwyllt. Y mae mynyddau y Berwyn yn rhedeg gyda'r terfyn gogledd orllewinol, a'r grib uchaf yn esgyn hyd ddwy fil, cant a phedair o droedfeddi. Y mae bryniau y Breiddyn, gyda Moel-y-Golfa yn eglur ac uchel, yn yr ochr ddwyreiniol. Y mae bryniau Llandinam, sydd yn ddeunaw cant, wyth a phedwar ugain o droedfeddi o uchder, yn yr ochr ddeheuol; ac y mae gwastad dir eang, tua mil o droedfeddi o uchder, yn y canol; a Phlumlumon ardderchog, sydd yn ymgodi i'r uchder o ddwy fil, pedwar cant, a thair a thri-ugain o droedfeddi, ar yr ochr dde orllewinol. Y mae llawer o'r ucheldiroedd, er yn llai aruthrol nag amryw barthau o'r Dywysogaeth, eto yn fwy eu gwerth, o blegid eu bod wedi eu gwisgo â hydyfiant ffrwythlon. Y mae amryw lethrau rhwng y bryniau yn gynnyrchiol iawn. Y mae llinell o afonydd, yn gwahanu iseldir y Dyfi, oddiwrth iseldir yr Hafren, a'r Wy, yn rhedeg o ogledd i ddeau, ac yn gwahanu tu ag un ran o bump o'r sir, ar y gorllewin, oddiwrth tua phedair rhan o bump, ar y ddeau. Y mae y ffrydiau yn y rhan orllewinol felly, yn chwyddo y Dyfi; a'r rhai dwyreiniol, gan mwyaf, yn rhedeg i'r Hafren, a'i chynorthwyon gorllewinol, yn mlaen hyd y Fyrnwy. Y mae yr Wy yn codi dan Blumlumon, yn agos i'r terfyn de orllewinol, ac nid yw ei rhediad wedi hyny ddim dros ddeng milltir o fewn y swydd hon. Y mae yr Hafren yn codi yn agos i ffynnonell ddechreuol yr Wy, ychydig yn nes i'r gogledd, ac y mae yn myned rhagddi, ar y dde, ac at y dwyrain, heb fod o'r braidd, dair milltir a haner oddiwrth y terfyn, ac yn derbyn iddi ei hun, o fewn y swydd, lifeiriaint y Clywedog, Taranon, y Rhiw, a'r Fyrnwy; ac y mae yr olaf yn cael ei chwyddo gan y Banw, y Bechan, yr Einion, y Brogan, y Cain, a'r Tanat. Y mae amryw o'r afonigau hyn yn rhagori, am eu golygfeydd, eu dyfroedd, a'u pysg. Y mae tua dwsin o'r mân lynau, yn ffurfio amrywiaeth dengar, yn mysg pa rai y gellid enwi y Bugeilyn, Glaslyn, Llyngwyddior, Llyn Hir, a Llyn-yr-Afangc. Y mae ffynonellau mwnyddol yn Llan-



Digitized by Google

fair, a Meifod. Y mae y creigiau agos drwy yr holl swydd, yn arddangos ffurfiadau Siluriaidd. Y mae Llechi yn cael eu gweithio yn Llangynog, Llanidloes, a manau eraill; ac y mae meini-melinau yn cael eu cloddio yn mryniau Breiddyn; a'r Galchen yn Llan-y-mynech, a Phorth-y-waen. Cafwyd ychydig o faen Glo yn agos i Coedwae; mwn plwm âg arian ynddo yn Llanbrynmair, Craig-y-Mwyn, Esgair-Hir, Pennant, Dylifau, Isgar-Gallid, a Dymfyngwm; a darganfyddwyd mwn efydd, gan y Rhufeiniaid, a chan yr hen Gymry o'u blaen, yn Llan-y-myneich; ac y mae mwn zinc yn Llangynog, a Llanfyllin.

Yn amser goresgyniad Brydain gan y Rhufeiniaid, yr oedd y swydd hon, gyda'r oll agos o Ogledd Cymru, yn cael ei chynwys yn nhiriogaeth y Gordofigion. Dan lywodraeth y Rhufeiniaid, yr oedd yn cynwys gorsaf "Mediolanum," yr hon ydoedd, yn ol barn Syr Richard Colt Hoare, a henafieithwyr eraill, o fewn Dyffryn Tanat, neu ynte y Fyrnwy; a chyda hyny, tybir fod sefydliadau eraill o eiddo y bobl hyn, o lai eu mantioli, yn Caer-sws, yn nghymydogaeth y Drefnewydd; ac yn y Gaer, gerllaw Trefaldwyn. Y ffyrdd Rhufeinig oedd yn ei chroesi, ydoedd y "Via Devana," yr hon ydoedd yn croesi y rhan ddwyreiniol o honi, o "Nidus," yn Nedd, Morganwg, yn ei chyfeiriad tu ag at orsaf "Deva," yn Nghaerlleon; ac yr oedd cangen o'r Heol-Watling ddeheuol, yn croesi y parth gogleddol o honi, i "Segontium," sef y Gaer-yn-arfon bresenol; heblaw amryw ffyrdd lleol. Ar ddosparthiad brenhiniaeth Gwynedd, yn y flwyddyn 876, gan Rodri Mawr, rhwng ei dri mab, yr oedd swydd Drefaldwyn yn cael ei chynnwys yn mrenhiniaeth Powys; ond symudwyd gorsedd y llywodraeth, oedd wedi ei sefydlu ar y cyntaf yn Pengwern, Amwythig yn bresenol, pan yr ymlidiwyd y Brytaniaid o wastadedd y wlad hono, gan allu buddygol Offa, brenhin Mercia, i fynyddoedd y Dywysogaeth,—i Mathrafal, gerllaw Meifod, yn nyffryn prydferth y Fyrnwy. Gwedi hyn, gelwid y frenhiniaeth hon, yn deyrnas Powys, neu Mathrafal; a chyfyngwyd eilwaith ar diriogaethau y Cymry, a chynnwysid swydd Drefaldwyn o fewn terfynau llywodraeth Mercia. Gwnaeth y Cymry lawer ymgyrch drachefn, er ceisio adenill y tir a gollasent. Yn amser teyrnasiad Alfred Fawr o Loegr, darfu i fyddin o'r Daniaid, dan arweiniad eu blaenor ysbeilgar Hasting, yn 894, wneud ymosodiad ar y wlad, ac estyn ei ddifrodiadau hyd i bentref Buttington, sef "Butdigingtune" y Croniel Sacsonaidd, yn nghymydogaeth tref bresenol Trallwm, pan y derbyniasant y newydd o fod y fyddin Seisonig yn nesau i'w gwrthwyneba, a gwersyllasant ar bob ochr i'r Hafren. Ethelred, brenhin Mercia, ac amryw swyddwyr breiniol eraill, oeddynt yn llechu yn yr amddiffynfeydd a godasent, gyda'r gwyr a wysid o ochr ddwyreiniol Pedridan, o ogledd Selwood, dwyrain a gogledd y Thames, gorllewin yr Hafren, a manau o Wynedd, a warchaeasant eu gwersyll, gan eu gwylied am rai wythnosau, nes y darostyngwyd hwy i'r fath gyfyngder, fel y bu gorfod iddynt fwyta cig eu meirch eu hunain. Cynnyrfwyd hwy o'r diwedd, gan eu dyoddefiadau, i wneud ymosodiad ofnadwy, a ffoi o'u caethiwed; a chyfarfuant y Sacson oedd yn ffurfio y rhan ddwyreiniol o'r gwarchaead, ac wedi brwydr galed, yn yr hon y cwympodd nifer o'r swyddogion breiniol, gallodd y rhan fwyaf ffoi ymaith, a phrysuro tua therfynau Essecs, heb eu haflonyddu mwyach. Daeth brenhiniaeth Powys, wedi gorchfygiad Normanaidd Lloegr, yn brif lanerch ymosodiad i'r anturiaethwyr tramorol. Darfu i un o'r rhai hyn, a elwid Baldwyn, dalu gwarogaeth i'r Gorchfygwr am y rhan hon o Gymru, yr hon yr addawai efe ei diogelu trwy nerth arfogaeth; ac wedi cwblhau ei amcan mewn rhan, efe a adeiladodd amddiffynfa ar y fan lle y mae dinas Trefaldwyn yn awr, a alwyd wedi hyny gan y Cymry, yn ol ei enw ef yn "Tref-Baldwyn," oddiwrth yr hwn y mae y swydd yn cael ei galw "Sir Drefaldwyn." Rhaid fod y castell a adeiladwyd yma, wedi syrthio yn fuan i ddwylaw y Cymry, er i Roger de Montgomery, yr hwn a greasid yn Iarll "Arundel a'r Mwythig," gan y Gorchfygwr, ac wedi cael trwydded i ddarostwng y Cymry ar ochr orllewinol yr Hafren, ac ymosod ar dir Powys, ychydig flyneddoedd wedi hyny â byddin gref; a chymeryd castell a thref Tre-Faldwyn; efe a'u hadgyweiriodd iddo ei hun, ac a'u galwodd wrth ei enw ei hun, "Montgomery," yr hwn a erys ar y dref a'r swydd hyd y dydd heddyw.

Amgylchiad a fu yn fanteisiol i fuddygoliaethau y barwniaid Normanaidd yn y parth hwn, ydoedd rhaniad Powys rhwng dau o ddisgynyddion Merfyn, mab Rodri Mawr, yn Powys Fadog, a Phowys Gwenwynwyn; y blaenaf yn cynwys y rhan ogleddol, a'r olaf y rhan ddeheuol, o'r frenhiniaeth wreiddiol. Rhanwyd y rhai hyn drachefn rhwng disgynyddion y ddau dwysog. Y flwyddyn wedi cymeriad y castell, ymosododd y Cymry, gyda gallu mawr arno, ac adgymerasant y lle, a difrodasant yr holl gymydogaeth. Adgyweiriwyd a chadarnhawyd y castell hwn drachefn, gan William Rufus, yr hwn, i'r dyben o roddi terfyn ar ruthrgyrchoedd y Cymry, dan Gryffydd ab Cynan, a meibion Bleddyn ab Cynfyn, a arweiniodd fyddin i'r terfynau, ond a fu raid iddo yn fuan encilio, gyda cholled fawr, er dwyn cyflawnder o arlwyon i gastell Trefaldwyn. Ar enciliad y Saeson, ymosodwyd ar y lle yn uniongyrchol gan y Cymry, y rhai, mewn ymdrech galed, a fuont fuddygol, ac a ddarostyngasant y lle hyd y llawr. Llwyddodd arfau y Normaniaid, wedi hyn, drachefn yn y lle, ac ail-adeiladwyd y castell gan Iarll Amwythig. Yn 1080, Gryffydd ab Cynan, gan hawlio teyrngadair Gwynedd, a laniodd fyddin gref ar derfynau swydd Benfro, ac ymunodd Rhys ab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth âg ef, a chyfeiriodd eu byddinoedd yn ogleddol yn erbyn Trahaiarn, y tywysog oedd yn llywodraethu ar Wynedd, yr hwn a orchfygasant ar fryniau Carno, yn y swydd hon, ac a ddinystriasant ei fyddin, gan ei ladd ef ei hun yn yr ymdrech ofnadwy. Yn 1191, o herwydd llawer o ymosodiadau a wnaethai y Cymry ar drigolion y cyffiniau, ymosododd Hubert, Archesgob Caergrawnt, yn absenoldeb Richard I., yr hwn oedd ar y pryd yn ngwlad Canaan, ar y Castell Coch, a elwir yn awr Castell Powys, gerllaw Trallwm, yr hwn a gymerodd efe, wedi ymgyrch galed; ac wedi gadael byddin i warchod y lle, efe a ddychwelodd i Loegr. Ad-gymerwyd yr amddiffynfa hon gan Gwenwynwyn, tywysog y parth hwn o dir Powys, yn 1197. Y penaeth hwnw, yn anghymeradwyo yr hyn a wnaed gan dywysog Gwynedd, a wnaeth ymostyngiad gwasaidd i'r brenhin John, ac a gymerodd ei diriogaeth, i'w ddal mewn ymostyngiad i goron Lloegr; ac wedi ei olynu gan ei fab Gryffydd yn y llywodraeth, cymerwyd yr amddiffynfa, a grybwyllwyd am dani ddiweddaf, gan Llewelyn ab Iorwerth, yn 1233. Harri III., wedi ail adeiladu castell Trefaldwyn, a'i cyflwynodd i gadwraeth

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON LONDON




J. Bartholomew, Edin.r

..S. GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

Digitized by Google

Hubert de Burgh; a thra yr ydoedd yn meddiant y llywydd hwn, ymosodwyd arno gan y Cymry, ond gwaredwyd ef gan y fyddin Saesonig. Cymerwyd nifer o'r Cymry yn garcharorion, a rhoddwyd hwy i farwolaeth gan y Saeson; ond dialodd Llewelyn ab Iorwerth am y creulondeb hwn, drwy losgi yr amddiffyna, a rhifo y gwarchodwyr i'r cleddyf. Wedi yr amrywiol ymosodiadau llwyddianus a wnaethai y Cymry, yn y gwrthryfel mawr dan Owain Glyndwr, cynnullodd y tywysog hwnw awdurdodau Cymru i dref Machynllaith, ar derfyn gorllewinol y swydd, a chydnabyddwyd ei hawl i dywysogaeth Cymru, yn gyflawn gan y Senedd honno. Yn ysdod rhyfel gartrefol yr ail canrif ar bymtheg, gwarchaewyd ar gastell Trefaldwyn, dros y brenhin, gan Arglwydd Herbert, o Chirbury; yr hwn, ar ddynesiad gwŷr y senedd, dan Syr Thomas Middleton, a roddodd yr amddiffynfa i fynu, heb wrthwynebiad. Yn fuan, wedi hyn, dynesodd byddin y brenhin, dan arweiniad Arglwydd Byron, at Drefaldwyn, ac a orfodogodd y fyddin oedd dan Syr Thomas Middleton, i wneud enciliad brysiog i Groesoswallt, gan adael Arglwydd Herbert, gyda darpariaeth egwan i amddiffyn y castell, gwarchaead yr hwn a ddechreuwyd yn uniongyrch gan y breiniolwyr. Ond yn y cyfamser, wedi i fyddin y senedd gael ei hadgyfnerthu gan feirch-filwyr dan Syr William Brereton, Syr John Meldrum, a Syr Thomas Fairfax, cyrchasant yn fuan at yr amddiffynfa bwysig hon, er eu bod yn llawer llai o nifer na byddin y brenhin; y gyntaf, tua phum mil, a'r olaf tua thair mil; ac wedi taro, bu ymdrech ofnadwy, ac ymddangosai gwŷr y senedd ar y cyntaf, fel yn colli y dydd, and wedi ymwroli, a gwneud egni ofnadwy drachefn, daeth yn hollol fuddygoliaethus: ac ymlidiwyd y fyddin freiniol hyd derfynau Amwythig. Yr oedd Arglwydd Powys, ar doriad allan y gwrthryfel cartrefol, wedi gwerthyru y Castell Coch, neu Gastell Powys, â gwarchodaeth gref, dros y brenhin; ond cymerwyd ef gan filwyr y senedd, dan Syr Thomas Middleton, yn mis Hydref, 1644. Y mae y golygfeydd sydd yn cylchynu y gymydogaeth hon yn darawiadol iawn, mewn amrywiaeth, a phrydferthwch.

Y mae tuag un ran o wyth, o arwynebedd y swydd hon, yn dir ŷd rhagorol, a thu ag un ran o dair yn dir porfa ffrwythlon, tra y mae y naill haner o honi, yn gyffredin a diffrwyth. Y mae y pridd yn y dyffrynoedd yn lled drwm, ac yn ganolig ar y llethrau, ond yn deneu ar yr ucheldir. Ystyrir fod amaethyddiaeth y wlad, ac ystyried yr anfanteision, mewn cyflwr da, ar y cyfan, drwy y terfynau. Y mae y cynnyrchion, o geirch, haidd, rhug, gwenith, clofer, pys, maip, cloron, ac erfin, mewn cyfartaledd boddhaol â pharthau eraill y dywysogaeth. Y mae yr amaethdai yn yr ochr ddwyreiniol mewn cyflwr da, ond rhy brin y gellir dywedyd hyny am y parthau eraill. Nid yw yr anifeiliaid cartrefol ond bychain, a gweiniaid; ond y mae rhywogaethau swyddi Dyfnaint, a Henffordd, yn cael eu dwyn i'r wlad mewn cyflawnder, a'r fagwraeth yn rhagori yn gyflym yn mhob man. Y mae dwy rywogaeth o ddefaid yn cael eu meithrin yma. Y mae y rhai brodorol yn fychain; a'r lleill, sef rhywogaeth Bryn-Ceri, yn wlanog, ac iraidd. Y mae y merlynod mewn cyflawnder ar y bryniau; a'r rhywogaeth oreu o feirch yn y dyffrynoedd. Y mae y gwartheg, y caws, a'r ymenyn, yn cael eu hanfon, mewn cyflawnder i'r marchnadoedd cymydogaethol. Y mae y planwyddfeydd yma yn cynnyrchu coed gwerthfawr at adeiladaeth llongau, a dybenion eraill. Gwaith gwlaneni a brethynau ydyw y prif gelfyddydau yma; ac yn ol ystadegaeth diweddaf y llywodraeth, dangosir fod 290 o feibion, a 218 o ferched yn y gwaith gwlaneni; ac 848 o feibion, a 743 o ferched yn y gweithydd brethynau. Y mae un reilffordd, yn dyfod i fewn o Groesoswallt, ac yn dilyn gyda'r ochr ddwyreiniol, a de ddwyreiniol, heibio Trallwm, Trefaldwyn, a'r Drefnewydd, i Lanidloes; y mae dwy yn ymganghenu oddiwrth y flaenorol yn Llanidloes, ac yn myned rhagddynt hyd Buallt, a Llanbedr; un arall yn ymwahanu oddiwrth y gyntaf yn Llanymynech, ac yn cyrchu yn orllewinol i Lanfyllin, un arall, newydd ei chynllunio, yn ymganghenu yn yr un fan, mewn cyfeiriad gwahanol, ac yn myned trwy gyfran o'r terfyn gogledd ddwyreiniol, yn ffurfio cysylltiad uniongyrchol âg Amwythig; dwy eraill yn ddiweddar, yn ymwahanu oddiwrth y gyntaf yn Nhrefaldwyn, ac yn myned yn dde ddwyreiniol tua Bishop's Castle; un arall yn gwahanu oddiwrth y gyntaf yn y Drefnewydd, ac yn cyrchu heibio Carno, Llanbrynmair, a Machynllaith, tu ag Aberystwyth; a changen arall yn ddwyreiniol tua Ceri. Y mae camlas Trefaldwyn, yn rhedeg tua 24 milltir drwy ddyffryn yr Hafren, o'r Drefnewydd i Lanymynech, ac yn anfon yn mlaen gangen o wyth milltir i Gegidog, ac yn dal cysylltiad trwy gangen o Lanymynech, â'r camlas sydd yn cyrhaedd i Ellesmere.

Y mae y swydd yn cynwys 48 o blwyfi, a rhan o naw o blwyfi eraill, ac un llain-blwyfol ychwanegol; ac yn cael ei rhanu i fwrdeisdrefi Llanidloes, a'r Trallwm; a chantrefi Cawrse, Deythur, Llanfyllin, Llanidloes, Machynllaith, Mathrafel, Trefaldwyn, Drefnewydd, a Pool. Y mae gweithred 1844, er sefydlu parthau gwahanedig o siroedd, yn cysylltu â swydd Drefaldwyn, drefgordd Careg-hwfa, a berthynai yn flaenorol i sir Ddinbych. Y mae cofrestriad y swydd, yn rhoddi ymaith un drefgordd i sir Feirionydd, ac un plwyf, a rhan o ddau arall i Amwythig; yn cymeryd i mewn un drefgordd o Sir Aberteifi; tri phlwyf a rhan o un arall o sir Ddinbych; dau blwyf o Feirionydd; ac un plwyf, a rhan o ddau eraill o'r Amwythig; yn cynwys 568,121 o erwau; ac yn cael eu rhanu i ddosparthau Trefaldwyn, Drefnewydd, Llanfyllin, a Machynllaith. Lleoedd y llysoedd gwladol ydynt, Trallwm am y Grawys; a'r Drefnewydd am yr Haf; tref y prif lys gwladol, a'r etholfa ydyw Trefaldwyn. Y trefydd marchnad ydynt, Trallwm, Drefnewydd, a Llanidloes, a Machynllaith; yr unig drefydd ag sydd ganddynt dros 2000 o drigolion, ydynt Trallwm, Drefnewydd, a Llanidloes; ac y mae yma dros 300 o fân drefydd, pentrefydd, ac is-bentrefydd. Y prif balasau ydynt Lymore Park, Nanteribau, Bodfach, Gregynog, Aberfechan, Aberiarth, Llwydiarth, Broadway, Bryngwyn, Dolforwyn, Dolgynog, Garth, Garthmill, Glanhafren, Greenhill, Leighton, Mathafarn, Mellington, Newtown House, Rhiwport, Trelydan, a'r Faenor. Y mae y swydd yn cael ei llywodraethu gan arglwydd raglaw, siryf, saith o is-raglawiaid, a thua deugain o ynadon; ac y mae yn gorwedd yn nosparth cartrefol y filwriaeth; dosparth barnol Gogledd Cymru; ac yn esgobaethau Llanelwy, Bangor, a Henffordd. Yr oedd yr heddgeidwaid yn 1864 yn 29 o nifer, ac yn cael eu cynal ar y draul o 2392*p*. Yr oedd y troseddau a gyflawnwyd yn 1864 yn 116; a'r personau a gospwyd yn 129; y rhai a gyhuddid ac a ddrwg dybid yn 372; tai o gymeriad drwg 67. Y mae

Digitized by Google

chwe bwrdais yn uno i anfon un aelod i'r senedd yn y sir; ac un dros y sir. Etholwyr y sir yn 1833, 2523; yn 1865, 3339, o ba rai yr oedd 1860 yn rhydd-ddeiliaid, a 1284 yn ddeiliaid cymerol. Gwerth ardrethol yn 1815, 207,206*p.*; yn 1843, 341,806*p.*; yn 1860, 350,962*p.*, o'r hyn yr oedd 1847*p.* mewn cloddfeydd, 3262*p.* mewn mwnau, 20*p.* mewn pysgfeydd, 2913*p.* mewn rheilffyrdd, a 489*p.* mewn gweithiau nwy. Poblogaeth yn 1801, 48,184; yn 1821, 60,245; yn 1841, 69,607; yn 1861, 66.919. Tai cyfaneddol 13,501; heb eu cyfaneddu 413; adeiladau yn cael eu codi 81. Poblogaeth y sir gofrestrol yn 1851, 77,142; yn 1861, 76,923. Tai cyfaneddol 15,608; anghyfanedd, 509; adeiladau ar godiad, 100.

Cyfeiriwyd at rai cysylltiadau henafiaethol yn barod, oedd yn dal perthynas a'r ffordd Rufeinig. Y mae y llinell derfyn a dynai Clawdd Offa, yn rhedeg drwy lwybr maith yn y swydd hon, ac y mae ei olion yn aros eto, fel y mae yn ddigon hawdd ei ddilyn. Y mae yn dyfod i mewn ar yr ochr ddeheuol yn Pwll y Pridd, ar y ffordd rhwng Tref Esgob, a'r Drefnewydd, ac yn myned rhagddo yn agos i Mellington Hall, heibio melin Brompton, a Lymore Park, gerllaw Trefaldwyn, a thrwy Forden Heath, Nantcribau, Leighton Hall, ac eglwys Buttington; yma y mae yn colli am tua phum milltir, lle y mae yr afon Hafren, y mae yn debygol, yn gwneud i fynu yr angen am dano; ond pa fodd bynag, y mae yn dyfod i'r golwg drachefn, o dan y ffrwd a elwir Bele, ag sydd yn rhedeg i'r Hafren, ar ochr ogleddol yr afon, lle y dilyna heibio eglwysi Llandysilio, a Llanmynech, hyd at ymyl craig galchen serth yn y plwyf diweddaf; ac yna yn croesi y parth gogledd orllewinol o swyddi Amwythig a Dinbych. Y mae yn cynwys ffos ddofn, gyda gwerthyr, a'r olaf ar yr ochr Seisnig; y mae yn y gymydogaeth hon, gerllaw Mellington Hall, wersyllfa, a elwir Caer-ddin; ac y mae daearfur gerllaw melin Brompton; ac y mae amddiffynfa henafol arall yn ymyl Nantcribau. Y mae gwersyllfa Frytanaidd gadarn, ar goppa mynydd uchel, yn agos i bentref Llandinam; ac y mae amryw lechfaoedd, a dybir oedd yn dal rhyw berthynas â chastell Mathrafal, preswylfa tywysogion Powys, sylfaeni pa rai a ellir eu dilyn yn awr, i'w gweled yn wasgaredig yn nghymydogaeth Meifod. Y mae hefyd wersyllfa Frytanaidd, a elwir Gardden, o ffurfiad crwn, ar fryn gerllaw Llanfair; ac un arall yn agos i Lanerfyl; ac y mae gweddillion un arall, sef y drydedd, yn Nghastell Caereinion. Y mae daearfur, yn agos i'r Cann Office, ar y ffordd rhwng Llanfair a Mallwyd, tua deg llath a thri-ugain o amgylchedd. Y mae carnedd ar bob un o'r ddau begwn sydd ar grib y Plumlumon, neu o leiaf, bentyrau uchel o gerig. Y mae nifer o gofadeiliau cyffelyb yn mhlwyfi Llanerfyl, a Llangadfan; lle y mae y fwyaf yn mesur o ddeg ar hugain i driugain llath o amgylchedd. Y mae ar fryn a elwir Pencoed, yn y plwyf olaf a enwyd, nifer o fân nentydd a bryniau, a dybir oeddynt yn gladdfeydd gan yr hen Frytaniaid. Yr oedd yn amser y diwygiad, yn Llanllugan, leiandy "Cistercian;" ac yn Ystrad Marchell, neu Strata Marcella, Fynachlog Cisterciaidd. Y cynlluniau mwyaf rhagorol o adeiladau eglwysig ydyw Llanau Trefaldwyn, Drenewydd, a Llanwnog. Y mae cestyll Powys, a Threfaldwyn, yr olaf o ba rai sydd yn ei adfeiliau, yn arddangos y cynlluniau rhagoraf o amddiffynfeydd, a godwyd gan y Normaniaid-Seisnig, i'w diogelu eu hunain rhag ymosodiadau y Cymry. Y mae ychydig o olion Dolforwyn, gerllaw Drenewydd yn aros. *Powis Castle* ydyw palas yr anrhydeddus Arglwydd Clive, mab henaf Iarll Powys, wedi ei adeiladu o feini cochion, a godwyd o gloddfa gerllaw y parc; yr hyn a fu yn achlysur i'w alw, "Y Castell Coch." Y mae yma rai rhaiadrau o gryn ddisgyniad. Ychydig islaw pentref Llanrhaiadr-Mochnant, y mae llifeiriant sydd yn disgyn o'r cymydogaethau mynyddig, yn ffurfio y codwm ardderchog a elwir Pistyll-Rhaiadr; ac y mae nifer eraill, mwy, a llai, o ran dyfnder eu codwm, o fewn y terfynau. Y mae nifer o olion Derwyddol i'w gweled ar y Newydd-Fynyddoedd. Y mae yma nifer o'r clochdai eglwysig, a'u pig-dyrau wedi eu gwneuthur o goed. Y mae hen senedd-dy Owain Glyndwr, yn Machynllaith, yn wrthddrych o gryn hynodrwydd hanesyddol. Y mae y prif-ffyrdd mewn cyflwr da, ar y cyfan, ac yn dra chyfleus yn mhob cyfeiriad; ac ar welliant yn mhob man.

Y mae llinell hirfaith o'r swydd hon yn terfynu ar Loegr, ac y mae hyny yn dylanwadu yn bwysig iawn ar gymeriad trigolion y parthau hyn. Y mae nifer o'r Cymry yn preswylio o fewn y terfynau Seisnig, ac y mae nifer o'r Saeson yn cyfaneddu o fewn y terfynau Cymreig; ac yn fynych ceir preswylwyr yr amaethdai nesaf i'w gilydd, yn hollol ddyeithr y naill i'r llall. Y mae hyn yn dylanwadu ar eu hiaith; y mae argraph Gymreig ar y Saesonaeg, ac y mae argraph Seisnig ar y Gymraeg, drwy yr ardaloedd oll. Y mae yn effeithio hefyd ar eu harferion a'u moesau, fel y gwelir llawer o wahaniaeth yn eu dull o fyw. Y mae hyn yn ddadl gref dros gael ysgolion ac addysg gyhoeddus o fewn yr holl derfynau, er dyrchafu eu nodweddiad cenedlaethol, a thynu i lawr ganolfur y gwahaniaeth sydd yn aros rhyngddynt; ac fel y dyger hwy i undeb mwy effeithiol, ac y dyweder mai "brodyr o un bru ydynt." Y mae y nodiad canlynol gan Bingley, wrth gyfeirio at un teithiwr a ymwelai a'r fro hon:—"Ar fore hyfryd yn mis Medi, dygwyddais fod yn Maldwyn: cefais y fath olygfa ar y wlad o amgylch o ben un o'r cestyll, fel y gorphwysais am ychydig o amser dan gysgod un o'r tyrau, lle y cawn ymoeri yn hyfryd oddiwrth wres y dydd, a boddhau fy llygaid â'r darlun tarawiadol oedd ger fy mron. Yr oedd yn olygfa o hyfrydwch anarferol, yn cael ei bywhau a'r sylw a wnaethym ar waith y cynhauaf, ac wrth wrando ar garolau y medelwyr yn pereiddio yr awel o amgylch y lle, tra yn prysur dori yr ŷd i lawr."

**TREFALDWYN,** sydd dref, plwyf, ac is-ddosparth, a dosparth, a chantref, yn swydd Drefaldwyn. Saif y dref ar lechwedd bryn uwch, yn nghymydogaeth ddwyreiniol rheilffordd Croesoswallt a'r Drefnewydd, un filltir orllewinol o Glawdd Offa, a'r terfyn â swydd Amwythig; milltir a haner oddiwrth droad o'r Hafren, ac ugain oddiwrth dref Amwythig. Y mae yr ucheldir ar y gorllewin o'r gymydogaeth, sydd yn cael ei wahanu oddiwrth sefyllfa y dref, gan nant isel, yn cael ei goroni âg amddiffynfa Frytanaidd, neu wersyllfa gadarn ragorol; ac yn ffurfio golygfa eang ac ardderchog, ag sydd yn cael ei hymylu gan fryniau Amwythig. Y mae y fynedfa at y wersyllfa, yn cael ei diogelu gan bedair o ffosydd dyfnion, gyda dau neu dri o lwybrau tu ag at ganol y gwaith, lle y mae rhai agoriadau yn rhedeg i groesi y bryn; ac y mae amddiffynfa lai, gyda daearfur, yn nes at y gwaelod. Y mae tybiaeth gref, wedi ymddangos i feddwl rhai, yn ol cynlluniad yr adeilad filwrol hon, fod y lle yn amddiffynfa

Digitized by Google

ac yn nodded i boblogaeth eang, mewn amser boreuol, cyn goresgyniad y Rhufeiniaid. Dywedir bod castell wedi cael ei adeiladu, cyn y gorchfygiad Normanaidd, naill ai ar y bryn hwn, neu y lle y saif y dref, gan Baldwyn, un o raglawiaid y cyffiniau, a bod y dref y pryd hwnw, wedi cymeryd yr enw "Trefaldwyn," neu "Baldwyn's town." Darfu i Roger de Montgomery, yr hwn a gymerai ei enw oddiwrth le yn Ffrainge, ag ydoedd un o henafiaid Ieirll Eglinton, gael meddiant o'r dref, yn uniongyrchol wedi y gorchfygiad Normanaidd, ac adeiladu castell newydd yno, a'i alw ar ei enw ei hun. Safai y castell ar drwyn uchel ac eglur o'r graig, gyd âg ochrau serth a garw; ac yr oedd yn cynwys neuadd fewnol, ac un allanol, yn cael eu diogelu gan bedair o ffosydd dyfnion, wedi eu tori yn y graig. Gwarchodwyd y lle gan William Rufus; ond cymerwyd a dinystriwyd y lle gan y Cymry; adferwyd ef drachefn gan Ieirll Amwythig; cymerwyd a distrywiwyd ef ddwywaith gan Llewelyn ab Iorwerth; ac adgyweiriwyd ef ddwywaith gan Harri II.; cyflwynwyd y lle i Rosier Mortimer; ac wedi hyny i'r teulu Herbert, a daeth yn breswylfod iddynt. Gwarchodwyd y lle gan Arglwydd Herbert i'r brenhin, yn amser y rhyfel cartrefol, yn nheyrnasiad Siarl I.; ond cymerwyd ef gan Syr Thomas Middleton; ac adgymerwyd ef gan Arglwydd Byron; a chymerwyd ef drachefn, gyda cholled fawr i'r breiniolwyr, gan Syr Thomas Middleton; ond anrheithiwyd ef drachefn, fel nad oes ond ychydig o'i olion yn aros; rhan o'r twr de orllewinol yn benaf, a rhai darnau o'r mur.

Yr oedd y dref hon unwaith yn cael ei diogelu gan fur, a gadarnheid â thyrau, gyda phedwar o byrth; a elwid Porth-Cedewen, Porth-Chirbury, Porth Arthur, a Phorth Ceri; ac yn amser Leland, yr hwn a ysgrifenai yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd yno adfeiliau o'r mur, gweddillion o'r tyrau, ac olion o'r pyrth. Y mae y lle yn awr yn fychan, tawel, a dibwys, ac yn un o'r trefydd gwladol mwyaf dinod, eto yn lan, iachus, a dengar. Y mae yr heolydd ar lethr, a'r tai wedi eu hadeiladu, gan mwyaf, â phriddfeini. Safai y Black Hall, lle genedigol y dysgedig George Herbert, yn yr ochr ogledd ddwyreiniol. Lymore Park ydyw palas Iarll Powys, hen adeilad ardderchog o'r unfed ganrif ar bymtheg, tua milltir i'r ochr dde ddwyreiniol, ac sydd o fewn parc, a derfynir ar yr ochr ddwyreiniol gan Glawdd Offa. Y mae y llysdy, a gedwir at lysoedd gwladol, yn nghwr uchaf y dref. Y mae carchar y swydd yma, gyda lle i 550 o feibion, a 13 o ferched, o droseddwyr, yn agos i hen adfeiliau y castell. Y mae eglwys y plwyf yn adeilad da; gyda thwr o roddiad Arglwydd Clive, yn 1816, ar y draul o 1700*p.*, ac yn cynwys rhai o ddodrefn henafol, a ddygid yno o briordy Chirbury; a dwy gofddelw o deulu Mortimer, o amser Richard II., a chof adail am dad Arglwydd Herbert o Chirbury. Llythyrfa dan Amwythig, gorsaf rheilffordd, a gwestai. Y mae yma ysgol waddoledig; ac y mae yn etholfa; ac y mae yn rhoddi teitl Barwn i Iarll Eglinton. Rhifa y lle yn mhlith ei enwogion, Dr. Lees, golygydd adnabyddus y Cyclopaedia. Y mae yma farchnad wythnosol ar ddydd Iau; a ffeiriau ar Mawrth 26, Iau cyntaf o Mai, Mehefin 7, Medi 4, a Hydref 14. Cafodd y dref freinlen gan Harri III.; ac y mae yn cael ei llywodraethu gan ddau lywydd a deuddeg o fwrdeiswyr; ac yn uno â Llanfyllin, Llanidloes, Machynllaith, Drenewydd a Trallwm i anfon aelod i'r senedd. Y mae terfynau y fwrdais yr un a'r plwyf. Erwau, 3288. Gwerth ardrethol 7441*p.*, o'r hyn y mae 25*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 1248; yn 1861, 1276. Tai, 259. Nifer etholwyr yn y chwe bwrdais unedig yn 1833, 723; yn 1868, 1015. Gwerth eiddo, a threth y cyllid yn 1863, 4431*p.* Poblogaeth yn 1851, 17,887; yn 1861, 18,036. Tai, 4077. Y mae y fywioliaeth blwyfol yn berigloriaeth, yn esgobaeth Henffordd; gwerth 347*p.*, ac yn nawddogaeth Iarll Powys. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys plwyfi Trefaldwyn, Berriew, Llandysil, a Llanmerewig, a threfgorddau Castlewright, Aston, Churchstoke, a Brompton, a Rhiston,—yr olaf i ddybenion etholiadol yn Amwythig. Erwau, 33,351. Poblogaeth, 6121. Tai, 1226. Y mae y dosparth yn cynwys hefyd is-ddosparth Pool, yn cynwys plwyfi Trallwm, Castell-Caereinion, a Buttington; a threfgorddau Leighton, Middletown, ac Uppington; ac is-ddosparth Chirbury, yn cynwys plwyfi Forden, a threfgorddau Rhosgoch a Threlystan; etholiadol yn swydd Drefaldwyn; a phlwyf Chirbury, a threfgordd Worthin, etholiadol yn Amwythig. Erwau yn y dosparth 74,067. Treth tlodion yn 1863, 9615*p.* Poblogaeth yn 1851, 17,984; yn 1861, 19,097. Tai, 3804. Priodasau yn 1863, 148. Genedigaethau 580, o ba rai yr oedd 39 yn anghyfreithlon. Marwolaethau 404, o ba rai yr oedd 136 dan bump oed, a 15 dros 85. Priodasau yn y deng mlynedd 1851–60, 1431. Genedigaethau, 6025. Marwolaethau, 3934. Lleoedd addoliad yn 1851, Eglwys Loegr 20, gyda 8309 eisteddleoedd; Annibynwyr 10, gyda 1458 e.; Bedyddwyr 4, gyda 392 e.; Trefnyddion Calfinaidd 17, gyda 1590 e.; Wesleyaid 14, gyda 1410 e.; Wesleyaid Gwreiddiol 21, gyda 697 e. Ysgolion dyddiol 24, gyda 639 ysgolorion; ysgolion Sabbathol 52, gyda 3413 y.; a dwy ysgol brydnhawnol i rai mewn oed, gyda 18 y. Y mae y dosparth yn cynwys dau Undeb Tlodion; Un yn Trefaldwyn a Pool, dan weithred leol; a'r llall yn cynwys Rhosgoch, a manau eraill, dan weithred 43 Elizabeth. Y mae Gweithdy Trefaldwyn a Pool yn Forden; ac yn ol Deiliadeb 1861, yr oedd yno 99 yn cael eu cynal. Y mae y cantref yn cynwys pedwar plwyf, a rhan o bedwar plwyf arall. Erwau, 43,463. Poblogaeth yn 1851, 5286; yn 1861, 5523. Tai, 1071.

**TREF-ASSER**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llanwnda, swydd Benfro, tair milltir gogledd orllewin o Abergwaun.

**TREFCLAWDD**, sydd drefgordd yn mhlwyf Croesoswallt, swydd Amwythig; dwy filltir de orllewin o Groesoswallt. Poblogaeth, 436.

**TREF-DELYN**, neu Harpton (Uchaf), sydd drefgordd yn mhlwyfi Hen Faesyfed, Maesyfed Newydd, a Llanfihangel-nant-mellan, swydd Faesyfed, ar derfyn swydd Henffordd, tair milltir a haner gogledd orllewin o Dref y clawdd. Y mae yma Lythyrfa a elwir Harpton, swydd Faesyfed. Gwerth ardrethol, 3212*p.* Poblogaeth, 186. Tai, 35. Poblogaeth dosparth Hen Faesyfed, 134. Tai, 26. *Harpton Court* ydyw palas teulu Lewes.

**TREFDRAETH**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Fon, dwy filltir dwyrain ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Bodorgan, a phump a chwarter de orllewin o Langefni. Y mae yn cynwys pentref yr *Yard*, ac y mae yma ffeiriau yn Mai, a'r cyntaf o Dachwedd. Llythyrfa yn Llangefni, Mon. Erwau, 3135. Gwerth ardrethol 3333*p.*, o'r hyn y mae 50*p.* mewn mwnau. Y mae y tir-feddianau yn rhanedig

Digitized by Google

rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn beriglor-iaeth, unedig â Llangwyfan, yn esgobaeth Bangor; gwerth 465p., ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yma addoldy perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd; ac y mae ychydig waddolion yn perthyn i'r plwyf.

**TREFDRAETH,** neu Newport, sydd dref a phlwyf yn nosparth Aberteifi, ac yn swydd Benfro. Saif y dref wrth ben beisfor o'r enw hwn, yn ngenau afon Nefern, chwe milltir, dwyrain wrth ogledd o Abergwaun, a deg de orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Aberteifi. Ystyr yr enw, yn eglur, ydyw "Tref ar y traeth," Sylfaenwyd y lle, naill ai gan Martin de Tours, arglwydd cyntaf Cemaes, neu gan ei ddilynwyr uniongyrchol. Y mae yma gastell a godwyd gan William, mab Martin de Tours. Gwnaed y lle yn ganolbarth llywodraethol y diriogaeth gan Martin, ac ymgododd gymaint mewn llwyddiant unwaith, fel yr oedd yn brif le masnachol swydd Benfro. Yr oedd yma weithydd gwlân eang yn yr 16eg ganrif; ond dyoddefodd y lle gymaint y pryd hwnw oddiwrth bla, fel y bu raid symud llawer o'r fasnach i Abergwaun; a darostyngwyd y lle i raddau mawr. Y mae er hyn, yn meddu ychydig o bwysigrwydd fel is-borthfa mewn cysylltiad ag Aberteifi. Y mae yma allforio yd, ymenyn, a llechi, a masnach lled helaeth mewn coed, calch, a glo; ni all y llongau gael y lan ond ar lanw uchel, i lwytho a dadlwytho, o blegid bar o dywod sydd ar y traeth. Y mae yn cael ei gwneud i fynu o heolydd afreolaidd, yn cael eu cysgodi gan goed. Y mae yma lysoedd gwladol yn cael eu cynal; ac y mae yn etholfa. Y mae yn ymrestru fel bwrdais, ac yn cael ei llywodraethu gan faer, cofiadur, henaduriaid, a'r swyddogion arferol. Llythyrfa dan Hwlffordd; a marchnad wythnosol; a ffeiriau ar Ebrill 10, Mehefin 27, Awst 3, a Hydref 16. Saif y Castell uwchlaw y dref; ac nid oedd yn ddim amgen nag adfeiliau hyd yn ddiweddar, pan yr adgyweiriwyd y rhan fwyaf o hono gan Syr T. D. Lloyd, arglwydd y faenoriaeth; ac y mae rhai o'r tyrau wedi eu hadferu, a'r ystafelloedd yn cael eu cyfaneddu. Y mae y plwyf yn cynwys 4606 o erwau o dir, a 105 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 3511p. Poblogaeth yn 1851, 1716; yn 1861, 1575. Tai, 457. Y mae dwy gromlech yma, un yn Pentre-Efan, a'r llall yn Llech-y-Drybedd. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 216p., ac yn nawddogaeth Syr T. Lloyd.

**TREFDRAETH,** trefgordd yn mhlwyf Ysceifiog, swydd Fflint; 5¼ milldir i'r gorllewin o dref Fflint. Poblogaeth, 353.

**TREFECCA,** sydd is-bentref yn mhlwyf Talgarth, swydd Frycheiniog, wyth milltir de orllewin oddiwrth y Gelli. Gwerth ardrethol, 1466p. Poblogaeth, 236. Tai, 45. Trefecca House ydoedd breswylfod yr enwog Howell Harris, un o sylfaenwyr Methodistiaeth Galfinaidd Cymru; ac a ddaeth hefyd yn balas prif sylfaenydd y lle, sef yr Arglwyddes Huntington, yr hon a wnaeth Tredustan Court, yn y gymydogaeth, yn golegdy i addysgu pregethwyr yr enwad. Mewn amser, syrthiodd yr adeilad agos i adfeilion; ond gwnaed ymdrech i'w adgyweirio yn y flwyddyn 1840, gyda'r draul o Ddeng mil o bunnau; ac wedi hyny cwblhawyd yr amcan, ac fe'i gwnaed yn goleg i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac y mae yn sefydliad llewyrchus ar hyn o bryd.

**TREFECHAN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llanynys, swydd Ddinbych; tair milltir a chwarter gogledd ogledd orllewin o Ruthin. Gwerth ardrethol, 2040p.

**TREFECHAN,** sydd drefgordd yn mhlwyf, Nannerch, swydd Fflint, chwe milltir a haner gogledd orllewin o'r Wyddgrug.

**TREFEDID,** trefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd Drefaldwyn; 6¼ milldir i'r gogledd orllewin o'r Trallwm.

**TREFEDWYN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Caerwys, swydd Fflint; pedair milltir a chwarter de orllewin o Dreffynon.

**TREFEGLWYS,** sydd blwyf gyda phum trefgordd yn nosparth y Drefnewydd, swydd Drefaldwyn; pedair milltir a haner gogledd wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanidloes. Llythyrfa, yn y Drefnewydd. Erwau, 18,166. Gwerth ardrethol, 6134p. Poblogaeth, 1701. Tai, 308. Y mae y tir-feddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Y mae gwaith gwlaneni yn cael ei ddwyn yn mlaen yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor; gwerth 103p., ac yn nawddogaeth Arglwydd Mostyn. Y mae yr eglwys, a'r capeli ymneillduol yma, mewn cyflwr da.

**TREFEILIW,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr-yn-Mochnant, swydd Ddinbych, pedair milltir gogledd ogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 147.

**TREFEINION,** gorsaf ar reilffordd Henffordd ac Aberhonddu, 6¾ milldir i'r gogledd ddwyrain o Aberhonddu.

**TREFEIRIG,** sydd drefgordd, gyda thri o bentrefi, yn mhlwyf Llanbadarn-fawr, swydd Aberteifi; gerllaw Aberystwyth. Erwau, 9150. Gwerth ardrethol, 2725p., o'r hyn y mae 748p. mewn mwnau. Poblogaeth yn 1851, 887; yn 1861, 1025. Tai, 203.

**TREFES,** pentref yn mhlwyf Llanganna, swydd Forganwg; 3¼ milldir i'r gogledd orllewin o Bontfôn.

**TREFETHIN,** neu Trefddin, plwyf yn undeb Pont y pŵl, swydd Fynwy; o fewn milldir gogledd ogledd ddwyrain i orsaf rheilffordd Pont y pwl, mewn enw; ond yn cynnwys tref Pont y pŵl, lle y mae prif lythyrfa. Erwau, 11,329. Gwerth ardrethol, 57,320p., o'r hyn y mae 4160p. mewn mwngloddiau, 13,900p. mewn gweithydd haiarn, 34p. mewn cloddfeydd 347p. mewn rheilffyrdd, a 187p. mewn nwyweithfeydd. Poblogaeth yn 1851, 16,864; yn 1861, 18,146; yn 1871, 20,650. Tai annedd, 3948. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf: ni hysbysir ei gwerth.

**TREFGARN,** sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd Benfro, pum milltir gogleddol o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Llythyrfa, dan Hwlffordd. Erwau, 4205. Gwerth ardrethol, 604p. Poblogaeth, 86. Tai, 19. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 60p., ac yn nawddogaeth y Dr. Evans. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**TREFGARON,** neu Caron-is-clawdd, sydd blwyf yn nosparth Tregaron, swydd Aberteifi, ar ffordd Sarn Helen, ac afonydd Berwyn, a Teifi, gerllaw gorsaf rheilffordd Tregaron; a deunaw milltir a haner gogledd ogledd orllewin o Lanymddyfri. Gelwir y lle weithiau, Caron Tregaron; ac y mae yn cynwys trefgorddau Caron-uwch-clawdd, Blaen-Aeron, Tre-Cefel, Blaen-Caron, Tref-Lyn, Croes a Berwyn, ac Argoed ac Ystrad, ac y mae yr olaf yn cynwys Trefgaron; gyda Llythyrfa, dan Gaerfyrddin. Erwau,

Digitized by Google

39,138. Gwerth ardrethol, 4056*p*. Poblogaeth, 2608. Tai, 567. Y mae llawer o'r arwynebedd yn fynyddig, a chorsog. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 156*p*. ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae twr da i'r eglwys, yr hon a gynwys amryw gof-golofnau. Y mae yma addoldy gan y Trefnyddion Calfinaidd. Yma y cyfaneddai yr enwog Twm Shon Cati, yr hwn a fu yn uchel siryf y wlad hon.

**TREF-GWYDDEL**, neu MOYLGROVE, sydd blwyf yn nghantref Cemaes, swydd BENFRO, pum milltir gogledd wrth ddeau o Aberteifi. Saif y lle ar lan y mor, yn ochr ogledd ddwyreiniol y wlad, a chynnwysa diroedd ffrwythlon a diwylliedig. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad â Bayvill, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Andreas.

**TREFHEDYN**, a adwaenir yn well dan yr enw ADPAR, hen dref fechan, yn mhlwyf Llandyfrïog, swydd ABERTEIFI. Y mae yn sefyll ar lan yr afon Teifi, gyferbyn a Chastell Newydd yn Emlyn, ac yn ysgaredig oddiwrth y dref hono gan yr afon yn unig, fel nad yw yn ymarferol, namyn maesdref, neu ran o honi; ond mewn ystyr wleidiadol, y mae yn fwrdeisiaeth trwy hen hawl-fraint, yn cynnwys Castell Newydd yn Emlyn o fewn ei ffiniau bwrdeisiol, ac mewn undeb âg Aberteifi, Aberystwyth, Llanbedr, a Thregaron, yn anfon aelod i'r Senedd. Poblogaeth yr hen fwrdeisdref, 555; y fwrdeisdref newydd, 1473. Tai annedd, 136, a 358.

**TREFHELIG**, sydd drefgordd yn mhlwyf Castell Caer-einion, swydd DREFALDWYN, tair milltir deheuol o'r Trallwm.

**TREFIL**, treflan, a gorsaf rheilffordd, ar y ffin gogledd orllewin i swydd FYNWY; ar reilffordd y Merthyr ac Abergafeni; 1¼ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Dredegar.

**TREFILAN**, sydd blwyf, gyd âg is-bentref Talsarn, yn nosparth Llanbedr, chwe milltir gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanbedr. Llythyrfa yn Llanbedr, dan Gaerfyrddin. Erwau, 2201. Gwerth ardrethol, 1229*p*. Poblogaeth, 313. Tai, 62. Y mae y tir-feddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 77*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Ail adeiladwyd yr eglwys yn 1806.

**TREFIN**, pentref yn mhlwyf Llanrhïan, swydd BENFRO; 8¼ milldir i'r de orllewin o Abergwaun. Medda Lythyrfa, dan Hwlffordd.

**TREFLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanbeblig, swydd GAER YN ARFON; yn agos i dref Caer yn arfon. Gwerth ardrethol, 1873*p*., o'r hyn y mae can punt mewn mwngloddiau.

**TREFLYN**, trefgordd yn mhlwyf Caron is clawdd, swydd ABERTEIFI; yn agos i Dregaron. Poblogaeth, 147. Tai, 27.

**TREFLYS**, trefgordd yn mhlwyf Llanfechan, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r dwyrain o Lanfyllin.

**TREFLYS**, treflan yn mhlwyf Llangammarch, swydd FRYCHEINIOG, 8 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Lanfair yn muallt. Erwau, 6325. Gwerth ardrethol, 1589*p*. Poblogaeth yn 1861, 474. Tai annedd, 88.

**TREFNANT**, capeloriaeth, a phentref, yn mhlwyf Henllan, swydd DDINBYCH; ar reilffordd Dyffryn Clwyd; 3 milldir i'r gogledd o Ddinbych. Fe'i cyfansoddwyd fel Capeloriaeth yn y flwyddyn 1855; a medda lythyrfa, dan y Rhyl, a gorsaf rheilffordd. Poblogaeth, 639. Tai annedd, 129. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 350*p*. Yn rhoddiad y Goron a'r Esgob ar yn ail. Y mae yr eglwys yn adeilad hardd, a diweddar.

**TREFNANT**, trefgordd yn mhlwyf Castell Caereinion, swydd DREFALDWYN; 4¼ milldir i'r de orllewin o'r Trallwm. Gwerth ardrethol, 1669*p*. Poblogaeth, 57.

**TREFNANT FECHAN**, trefgordd yn mhlwyf y Trallwm, swydd DREFALDWYN; 3¼ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o'r Trallwm. Poblogaeth, 91.

**TREFNANY**, trefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd DREFALDWYN; 5½ milltir i'r gogledd ogledd orllewin o'r Trallwm. Gwerth ardrethol, 2507*p*. Poblogaeth, 223.

**TREFOLWEN**, trefgordd yn mhlwyf Llanbrynmair, swydd DREFALDWYN; 11 milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Fachynlleth. Gwerth ardrethol, 1959*p*. Poblogaeth, 511.

**TREFONEN**, trefgordd yn mhlwyf Cefn llŷs, swydd FAESYFED; 8¼ milldir i'r gorllewin o Faesyfed Newydd. Poblogaeth, 139.

**TREFOR**, trefgordd yn mhlwyf y Gyffylliog, swydd DDINBYCH; 5½ milldir i'r gorllewin o Ruthin. Gwerth ardrethol, yn nghyd â Threganol, 993*p*. Poblogaeth, 157.

**TREFOR**, lle yn ngorynys Lleyn, yn agos i Nefyn, swydd GAER YN ARFON. Medda lythyrfa, dan Gaer yn arfon.

**TREFOR** (gelwir y lle hwn hefyd TREFOR TRAIAN), pentref, dwy drefgordd, a chapeloriaeth, yn mhlwyf Llangollen, swydd DINBYCH. Y mae y pentref yn sefyll ger dyfr-ffos Ellesmere, yn agos i reilffordd Rhiwabon a Llandrillo; 3 milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Langollen; a medda orsaf rheilffordd. Y trefgyrdd a elwir Trefor Isaf, a Threfor Uchaf. Gwerth ardrethol, 2179*p*. a 3135*p*., o'r hyn y mae 165*p*. a 100*p*. mewn rheilffyrdd, a 788*p*. mewn cloddfeydd yn Nhrefor Uchaf. Poblogaeth, 628 a 695. Llythyrfa, Llangollen. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorïaeth barhaol, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 87*p*.

**TREFOR**, SYR DAFYDD, oedd fardd enwog rhwng y blyneddoedd 1470 a 1500. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau. Yr oedd efe yn is-beriglor Llanallgo, yn sir Fôn.

**TREFOR**, JOHN, B.D., canon cyntaf eglwysi cadeiriol Bangor, a Llanelwy. Dyrchafwyd ef yn y flwyddyn 1352 i esgobaeth Llanelwy, a bu farw tua chanol y flwyddyn 1357.

**TREFOR**, JOHN, oedd yn nodweddiad hynod yn ei oes, a phenodwyd ef i esgobaeth Llanelwy, yn y flwyddyn 1395. Cafodd ganiatad i ddal fel gwag eglwysfudd gyda'i esgobaeth, fel yr oedd rhai o'i flaenafiaid wedi gwneud, fywiolaethau y Trallwm, Cegidog, a Meifod. Er hyn oll, profodd ei hun yn anffyddlon i'r brenin Risiart II., oblegyd yn y flwyddyn 1399, pan oedd y teyrn hwnw yn garcharor yn ei esgobaeth, yn nghastell Flint, o dan awdurdod Harri Dug Henffordd, llwyddwyd gyda yr esgob i gyhoeddi dedfryd o ddiswyddiad yn erbyn y brenin yn ffafr ei ddisodlwr; ac hefyd anfonwyd ef yn genadydd i'r Ysbaen, i gyfiawnhau gweithrediadau Harri IV. yn y llys hwnw. Ond pan ddychwelodd, yn y flwyddyn 1402, cafodd ei gydwladwyr dan arfau yn erbyn traws-

Digitized by Google

feddiant Harri, o dan Owen Glyndwrdu, yr hwn, o herwydd sel yr esgob, a losgodd yr eglwys gadeiriol, a'r palasdy esgobol, a thai y canoniaid, i'w sylfaen, am eu bod yn ei erbyn. Unodd yr esgob ag Owen, a daeth yn un o'i bleidwyr ffyddlonaf, am yr hyn yr amddifadwyd ef o gyllidau ei esgobaeth. Y pryd hyn yr ymgynhyrfodd ac y digllonodd Harri wrth weled gwrthwynebiad cyndyn y Cymry i'w lywodraeth, a ffurfiodd res o gyfreithiau haerllug ac ansynwyrol, y rhai oeddynt yn tueddu i'r graddau uchaf i warthruddo y Cymry. Yn ol y cyfreithiau hyn, yr oedd y Cymry yn cael eu gwahardd i brynu tir, na chyflawni un math o swydd mewn unrhyw dref, na chael na thy na chastell yn amddiffyn iddynt. Barnwyr a rheithwyr Seisnig oedd i benderfynu dadleuon rhwng y Saeson a'r Cymry. Yr oedd pob Sais a briodai Gymraes, yn cael ei ddifreinio. Ni allasai un Cymro rwymo ei blentyn i ddysgu unrhyw gelfyddyd, na'i ddwyn i fyny mewn llenyddiaeth. Yr oedd y deddfau hyn yn ofnadwy, a gosododd lleddfoliaeth Harri V., hwy heibio mewn sefyllfa o gysgadrwydd, ac angofiwyd hwy yn fuan, neu difodolwyd hwy. Darfu i'r esgob Trefor gyda dewrder wrthwynebu y cyfreithiau hyn; ac yn rhesymol iawn gosododd allan y perygl o gynhyrfu y fath bobl anfoddog; i'r hyn y gwnaeth yr Arglwyddi yr ateb dychrynllyd a ganlyn:—"Se de illis scurris nudepidebus non curare." Bu farw yr esgob Trefor yn Paris, lle yr anfonwyd ef yn negesydd gan Owen Glyndwrdu, er cael cynorthwy y brenin Ffrengig; ac yno y claddwyd ef, yn mynachdy St. Victor. Y mae y Treforiaid o Blas Trefor, yn mhlwyf Llangollen, o hiliogaeth yr esgob hwn, yr hwn y dywedir a adeiladodd bont Llangollen, adeilad a gyfrifir yn un o'r pethau mwyaf cywrain o'r fath hyn yn Ngogledd Cymru.

**TREFOR,** Syr John, Llefarydd Ty y Cyffredin, ydoedd ail fab John Trefor, Ysw., o Frynkinallt, ger Rhiwabon, sir Ddinbych; lle y ganwyd ef yn 1637. Yr oedd ei fam yn fodryb i'r hynod farnwr Jeffreys. Ni chafodd ddim o fanteision addysg uchelryw yn ei faboed, a'r holl ddysgeidiaeth foreuol a gafodd, ydoedd yr hyn a gyfrenid mewn ysgol bentrefol. Yn anffodus hefyd, yr oedd ganddo drofa yn ei lygad, yr hyn a fyddai yn fynych yn wrthddrych gwawdiaith ei elynion. Gan na wyddai ei rieni pa beth i'w wneud âg ef, danfonasant ef i Lundain, at ei ewythr, Arthur Trefor, bar-gyfreithiwr enwog, yr hwn a'i gwnaeth yn ysgrifenydd yn y Deml. Dangosodd yn fuan fod ganddo gyneddfau bywiog a nerthol, er fod ei ymddangosiad yn wladaidd, ac na's gallai siarad odid i frawddeg Saesneg yn gywir. Pa fodd bynag, yr oedd ei ddiwydrwydd, a'i benderfyniad gymaint, fel y tynodd sylw ac edmygedd yn fuan; ac wedi ymroddi fel efrydydd yn yr *Inner Temple,* cyrhaeddodd wybodaeth ddofn o holl ganghenau ei alwedigaeth, ac o ganlyniad, gelwid yn fynych am ei wasanaeth. Trwy ddylanwad ei gefnder, Syr George Jeffreys, penodwyd ef yn gynghorwr breninol; ac yn 1678, etholwyd ef yn aelod seneddol. Enillodd ddylanwad mawr yn mhlith ei gyd aelodau, a chymaint oedd ei enwogrwydd fel cyfreithiwr, fel pan gyfarfyddodd senedd Iago II., yn Mai, 1685, dewiswyd ef yn Llefarydd Ty y Cyffredin. Yn Hydref, yr un flwyddyn, efe a wnaed yn Feistr y Rhol-lyfrau; ac yn Mehefin 1688, tyngwyd ef yn aelod o'r Gyfrin-gynghor. Ar esgyniad Gwilym a Mari i'r orsedd. diswyddwyd Syr John o'r swydd o Feistr y Rhol-lyfrau. Yn y seneddiad a adwaenir fel y *Convention Parliament,* efe a gynrychiolai Beraldstone, a gwrthwynebodd a'i holl egni fesurau y llywodraeth. Erbyn senedd-dymhor 1690, yr oedd wedi ymheddychu gyda'r llys, ac etholwyd ef yn unfrydol yn Llefarydd eilwaith. Yn Mai, 1691, gwnaed ef yn Arglwydd Ddirprwywr cyntaf y Sel Fawr, yr hon swydd a ddaliodd am ddwy flynedd; ac yn Ionawr 1693, rhoddwyd yn ol iddo y swydd o Feistr y Rhol-lyfrau. Y fath oedd ei allu i drefnu a rheoleiddio plaid, a hyfdra ac yni ei benderfyniadau, fel pe na wnaethai amryw bethau annoeth, y buasai wedi ei wneud yn Arglwydd Ganghellydd Prydain Fawr, a'i ddyrchafu i Dy yr Arglwyddi, yr hyn ydoedd prif uchelgais ei fywyd. Yn 1695, yr oedd cri cyhoeddus uchel yr erbyn llwgrwobrwyaeth, a phenodwyd pwyllgor o Dy y Cyffredin, er chwilio i mewn i'r cyhuddiadau a ddygid yn erbyn aelodau y Ty hwnw; ac adroddodd y cyfryw bwyllgor, fod Syr John Trefor yn euog o dderbyn llwyr-wobr o 1050*p.* gan ddinas Llundain, am gefnogi mesur seneddol a elwid yr "*Orphan's Bill.*" Felly, yn Mawrth 1695, gorfu arno ymostwng i'r darostyngiad digyffelyb o ddodi y penderfyniad gerbron y Ty, a chyhoeddi ei hun yn euog. Yna rhoddes ei swydd fel Llefarydd y Ty i fynu, a bwriwyd ef allan o'r Senedd. Yr oedd i aelod seneddol yn yr oes hono dderbyn arian am ei bleidlais, yn beth mor gyffredin, fel nad edrychid ar y trosedd yn un pwysig; a chan nad oedd unrhyw brawf iddo erioed dderbyn arian fel barnwr llys y Rhol-lyfrau, caniatawyd iddo ddal ei swydd yn y llys hwnw am y cyfnod hirfaith o ddeg-ar-hugain o flyneddau, wedi ei droad allan o Dy y Cyffredin. Ystyrid ef bob amser yn farnwr gonest a goleuedig, ac y mae amryw o'i ddyfarniadau yn cael eu dyfynu, a'u hystyried yn safon ac awdurdod hyd y dydd hwn. Trwy farwolaeth ei frawd henaf, efe a ddaeth i feddiant o etifeddiaeth Brynkinallt, yr hyn, gyda llawer o eiddo a gasgl asai, a ddisgynasant trwy ei ferch Anne, i feddiant y presenol Arglwydd Dungannon. Bu Syr John farw, Mai 20, 1717, yn ei dy yn *Chancery Lane,* a chladdwyd ef yn Llundain. Y mae darlun da o hono yn ei wisg swyddol ar gael, yr hwn yn gerfiedig ar ddur, a geir hefyd yn y *Royal Tribes of Wales,* o waith Yorke.

**TREFOR,** Sion, ysgrifenydd galluog. Cyfieithodd hanes bywyd St. Martin, o'r Lladin i'r Gymraeg, yn y flwyddyn 1450.

**TREFOR,** Syr Thomas, oedd gyfreithiwr enwog, mab i John Trefor, Ysw., o Drefalyn, yn sir Ddinbych, lle y ganwyd ef, Gorph. 6ed, 1586. Aeth i'r *Inner Temple,* lle y daeth yn ddarllenydd hydrefol; ac ar ol hyny, derbyniodd urdd marchog yn y flwyddyn 1620, a gwnaed ef yn Gyfreithiwr Cyffredinol i'r Tywysog Siarl; yna galwyd ef i'r radd o ringyll yn y gyfraith, a gwnaed ef yn farnwr Llys y Dadleuon Cyffredin; ac yn olaf, yn Arglwydd Prif Farwn y Trysorlys, yn yr hon swydd y parhaodd hyd farwolaeth y brenin, pryd gyda phump eraill, y gwrthododd weithredu dan y ddirprwyaeth newydd. Yn ystod tymhor cythryblus 1641, cyhuddwyd ef o fod a rhan yn nygiad oddiamgylch y cythrwfl hwnw; ond diangodd ef rhag y dialedd o hono, pa un a syrthiodd ar ei gyfoeswr Berkley, yr hwn a ddiswyddwyd oddiar y fainc farnol; ond gorfu iddo ef dalu deng mil o bunau. Wedi hyn bu un cyfnod heb neb ond efe fel barnwr i eistedd ar fainc y

Digitized by Google

Trysorlys, pryd y darfu i genadau penigol roddi gŵys y brenin, iddo ef a'r barnwr Reve, am ohiriad o'r term o Lundain i Rhydychain; parodd i'r gwr a'i gwasanaethodd a'r ŵys, gael ei gymeryd mewn dalfa, ac felly y gwnaeth ei gyd-farnwr. Crogwyd un o'r dynion hyny fel yspiwr. Priododd y tro cyntaf a Prudence, merch Henry Boteler, Ysw., a'r ail waith, a Frances, merch, ac etifeddes Daniel Blennerhassett, o Norfolk.

**TREFOR,** Syr Thomas, yr Arglwydd Trefor cyntaf, ac yn ail fab i Syr John Trefor, mab henaf Syr John Trefor, yr hwn a wnaed yn farchog Trefalyn, yn sir Ddinbych, yn y flwyddyn 1619. Gwnaed ei dad yn farchog gan Siarl II., a gwnaed ef yn un o'i brif Ysgrifenwyr Cartrefol, ac wedi iddo ddychwelyd o'r negeseuaeth yn Ffrainc, yn y flwyddyn 1668, gwnaed ef yn Gynghorwr Dirgel, yr hon swydd uchel a lanwodd hyd ei farwolaeth, yn y flwyddyn 1672, pan yn 47 mlwydd oed. Dygwyd Syr Thomas Trefor i fyny yn y gyfraith yn yr *Inner Temple,* a chyrhaeddodd y fath enwogrwydd wrth y bar, fel y gwnaed ef yn yn Gyfreithiwr Cyffredinol, ac o urdd y marchogion, yn y flwyddyn 1692; ac yn mhen tair blynedd, gwnaed ef yn Ddadleuydd Cyffredinol. Ar esgyniad y frenines Anne i'r orsedd, gwnaed ef yn Arglwydd Prif Farnwr yn Llys y Dadleuon Cyffredin; ac ar y dydd olaf o Ragfyr, 1711, gwnaed ef yn Farwn Trefor, o Bromham, yn swydd Bedford. Yn y flwyddyn 1725, gwnaed ef yn Arglwydd y Sel Ddirgel, ac yn y flwyddyn 1727, yn Arglwydd Prif Farnwr Prydain Fawr. Yn 1730, cafodd ei wneud yn Llywydd y Cyfrin Gyngor. Yr ydym yn cael ei fod yn hoff o'r llys, yn wr galluog, cyfiawn, ac o nodweddiad da fel prif farnwr. Bu farw Mehefin 19eg, 1730, yn 71 mlwydd oed. Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol, ac yn llywodraethwr y *Charter House.* Priododd deirgwaith; daeth tri o'i feibion yn olynol yn Arglwyddi Trefor, a gwnaed mab arall yn esgob Tyddewi, ac wedi hyny yn esgob Durham. Y mab henaf o'r ail wraig, yr hwn oedd yn etifeddu barwniaeth, oedd y Viscount Hampden cyntaf, a diflanodd y teitl yn y flwyddyn 1824.

**TREFOR,** Tudur, boneddwr uchelwaed, yn ei flodeu tua chanol y ddegfed ganrif. Yr oedd yn hanu o Gadell Deyrnllwg, brenin Powys, ac yn fab i Ynyr ab Cadfarch. Ei fam ydoedd Rhiengar, merch ac etifeddes Lluddocca ab Caradawg, iarll Henffordd; ac oblegyd hyny y gelwir Tudur weithiau yn Iarll Henffordd. Yr oedd ganddo yn hawl ei fam, gyfoeth lawer yn Henffordd, ac hefyd yn y Fferlys, tiriogaeth a saif rhwng yr Wy a'r Hafren; ac yn hawl ei dad, yr oedd yn arglwydd y ddwy Faelor, sef y Gymraeg, a'r Seisnig, y Waen, y Drewen, Croesoswallt, Ewyas, ac Urchenfield. Ei brif balas ydoedd Whittington, neu y Drewen, yr hwn a barhaodd am oesau lawer yn meddiant ei olafiaid. Ei wraig ydoedd Angharad, merch Hywel Dda, a bu iddynt dri mab, ac un ferch. Y mae amryw o deuluoedd pendefigaidd yn olrhain eu tarddiad o hono ef, ac yn mhlith eraill y Mostyniaid, a'r Treforiaid, pa rai sydd yn dwyn ei beis-arfau, sef, "*Parted per bend sinister ermine and ermines, over all a lion rampant or.*"

**TREFORUS,** llandref yn mhlwyf St. Ismael, swydd Gaerfyrddin; 3¾ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Cydweli.

**TREFORUS.** Gwel Morriston.

**TREFRHEDYN,** Sion, awdwr "Madruddyn y Ddifinyddiaeth ddiweddaraf," llyfr o gryn boblogrwydd yn mhlith Ymneillduwyr yr 17eg ganrif. Ei enw priodol ydoedd John Fenton, a brodor o sir Benfro ydoedd.

**TREFRION,** trefgordd yn mhlwyf y Towyn, swydd Feirionydd; yn agos i'r Towyn. Gwerth ardrethol, 1057*p.* Poblogaeth, 218.

**TREFRIW,** plwyf, a phentref, yn Undeb Llanrwst, yn nghantref Nantconwy, swydd Gaer yn arfon, ar y brif-ffordd o Aberconwy i Lanrwst, ac ar lan afon Conwy; 2 filldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llanrwst. Y mae yma lythyrfa, dan yr enw Trefriw, swydd Gaer yn arfon; a chynnelir tair o ffeiriau blyneddol yma; a chan fod y llanw yn dyfod i fynu afon Gonwy hyd y fan hon, y mae ychydig drafnidiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yma, mewn coed, llechi, glô, a chalch. Mesura, yn nghyda Llanrhochwyn, 9576 o erwau o dir. Gwerth ardrethol Trefriw ei hunan, 1697*p.* o'r hyn y mae 37*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 484. Tai annedd, 103. Dywedir fod gan y Tywysog Llewelyn lys yn y fan hon, yn lled agos i'r eglwys; ac fel yr oedd Mr. Rogers, y Post-feistr, yn adeiladu ty newydd rai blyneddoedd yn ôl, darganfuwyd amryw geryg nâdd yn y ddaiar, y rhai yn amlwg a fuasent mewn rhyw hen adeilad dywysogaidd. Yr eglwys, yr hon nid yw ond adeilad fechan, sydd wedi ei chyflwyno i nawddogaeth y Forwyn Fair; a dywedir iddi gael ei hadeiladu gan Llewelyn Fawr, tu a'r flwyddyn 1230, er cyfleusdra i'w dywysoges, yr hon o'r blaen a orfyddai gerdded i Lanrhochwyn, ffordd faith i fynu y mynydd. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, unedig â Llanrhychwyn, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 168*p.* Noddwr, Esgob Llandâf. Sefydlwyd ysgol rad yma, yn y flwyddyn 1817, gan y diweddar Arglwydd Willoughby de Eresby, at wasanaeth plant tlodion Trefriw, a'r plwyfi cyfnesawl. Brodor o'r plwyf hwn oedd Dr. Thomas Williams, Physygwr, yr hwn a gyfansoddodd Eiriadur Lladin a Chymraeg, ac a ysgrifenodd rai Gweithiau eraill, ydynt yn nghadw mewn llawysgrifen. Yr ydoedd yn byw yn yr Ardda; ac y mae yn debyg mai yno y bu efe farw, tu a'r flwyddyn, 1620. Efe a ysgrifenodd lyfr o gynghorion meddygol; llyfr achau; a Llysieulyfr, yn Lladin, Cymraeg, a Saes'neg. Fe'i cyfrifid yn Babydd, a bernir ei fod yn nghyfrinach brad y powdr gwn; gan fod traddodiad iddo ymdrechu darbwyllo ei gâr, a'i noddwr, Syr John Wynn o Wydir, yr hanesydd, i beidio myned i fynu i'r Senedd hono.

Brodor o'r plwyf hwn hefyd, oedd y Parch. Evan Evans, y bardd awen-ber Ieuan Glan Geirionydd, yr hwn a gladdwyd yn mynwent Trefriw.

**TREFROYAN,** treflan yn mhlwyf Llanarthney, swydd Gaerfyrddin; 6¼ milldir i'r gorllewin o Landeilo Fawr.

**TREF Y COED,** treflan yn mhlwyf Llanbedr pont Stephan, yr hwn sydd yn y rhan uchaf o gantref Troed yr aur, swydd Aberteifi. Y mae y dreflan hon yn rhan ysgaredig o gantref Troed yr aur, ac yn gorwedd yn agos i ganol cantref Moeddyn. Yr oedd yma gynt gapel anwes i'r fam-eglwys; ond y mae yn adfeilion er's llawer dydd bellach. Poblogaeth, 116. Tai annedd, 26.

**TREFYDD BYCHAIN,** trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn-Nghimmeirch, swydd Ddinbych; 3½ milldir o dref Dinbych. Poblogaeth, 512.

Digitized by Google

**TREFYDD BYCHAIN**, trefgordd yn mhlwyf Llandegle, swydd DDINBYCH; 5½ milldir i'r gogledd o Langollen. Poblogaeth, 290.

**TREF LLAN**, trefgordd yn mhlwyf Rhydwen, swydd FFLINT; 3 milldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon. Poblogaeth, 297.

**TREF LLYS**, plwyf yn swydd GAER YN ARFON, ar lan y môr, 2 filldir i'r dwyrain o Gricieth; llythyrfa, Cricieth, dan Borthmadoc, swydd Gaer yn arfon. Erwau, 999, o ba rai y mae 218 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 435*p.* Poblogaeth yn 1861, 91; yn 1871, 81. Tai anedd, 17. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, mewn undeb â Chricieth.

**TREFFOREST**, llandref yn mhlwyf Llanilltyd Faerdref, swydd FORGANWG; ar reilffordd Glyn Tâf; 11¾ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Gaerdydd. Medda lythyrfa, dan Bont y pridd, a gorsaf rheilffordd; ac y mae gweithydd alcan mawrion yn y gymmydogaeth. Poblogaeth, 921.

**TREFFYNON**, sydd dref, plwyf, is-ddosparth, a dosparth yn swydd FFLINT. Saif y dref ar uchder tir, dan fynydd Helygen, milltir a thri chwarter de dde orllewin o orsaf o'r un enw, ar reilffordd Caerlleon a Chaergybi, tu a'r un pellder oddiwrth y parth nesaf o'r afon Dyfrdwy, a phum milltir gogledd orllewin wrth orllewin o Fflint. Cymerodd y dref ei henw oddiwrth ffrydiad nerthol o ddwfr, lle y mae ffynon adnabyddus, wrth yr enw "Ffynon Gwenfrewi," neu *St. Winifred.* Nid oedd y lle hwn ond pentref cyffredin hyd tua chanol y ganrif ddiweddaf, yn dibynu gan mwyaf, ar deithwyr a ddeuent i ymweled a'r ffynon hynod hon. Ond daeth cyn hir, yn lle o fasnach helaeth, ac yn ganolbarth cymydogaeth gweithydd mwnau llwyddianus, fel y cynnyddodd y boblogaeth yn fawr. Ac er nad yw mor enwog yn yr anturiaethau mwnyddol ag y bu, y mae eto yn parhau i fod y dref bwysicaf yn yr holl sir. Y mae y dref gan mwyaf, uwchlaw y ffynon; a'r brif heol yn llydan ac agored, gyd ag adeiladau rhagorol ar bob llaw. Y mae yr adeiladau yn disgyn i waered mewn rhestr, gyda rhediad yr afon, mewn un heol hirfaith, ar yr ochr orllewinol, lle y gwelir gweithdai a melinau uchel ac eang, a rhai anneddau o'r radd oreu, ac felly yn arddangos golygfa o gryn hynodrwydd. Y mae yr holl ffordd o orsaf y rheilffordd i fynu i'r dref, dros filltir a haner o hyd, yn der-resau o anneddau, a gweithfaoedd. Gelwir cymydogaeth gorsaf y rheilffordd yn gyffredin, "Y Maes Glas," ac y mae y golygfeydd yn amrywiol iawn ar bob llaw. Dywedai Warner am y lle, "Dyma yr unig fan a welsom yn arddangos golygfeydd mor brydferth mewn un man, ac mor wrthun, yn ymyl hyny; rhwng y peirianau gweithfaol, a'r palasau teg, megis yn gymysgedig a'u gilydd. Y mae y lle yn ffurfio nant isel, a'r bryniau gerllaw wedi eu gwisgo â choed amryliw a chysgodol; ac y mae yn rhyfedd meddwl fod y lle yn cael ei gadw mor lanwaith a threfnus, wrth fod y fath gyflawnder o waith yn cael ei ddwyn ymlaen yma. "Y mae palasau Saith aelwyd, Coed mawr, Kinsale, a Greenfield Hall, oll yn y gymydogaeth hon. Darganfyddwyd Baddon Rhufeinig yma; ac y mae olion amddiffynfa Ieirll Caerlleon, ar Fryn-y-Castell, gerllaw. Y mae y Ffynon yn tori cryn ffugyr mewn hynodrwydd yn y chwedlonau ar rhamantau sydd ar gof a chadw yn y gymydogaeth. Priodolir dechreuad gwyrthiol i'r lle, er tua'r seithfed ganrif, mewn cysylltiad â gwyryf, yr hon a ddaeth yn abades yn monachlog Gwytherin. Yn ysdod amser mwyaf rhwysgfawr Pabyddiaeth, yr oedd yn lle o gyrchiad mynych gan bererinion, ac yn mhlith pa rai y gwelwyd nifer o benau coronog, megis William y Gorchfygwr; Harri II., Iorwerth I., a Iago II. Y mae y ffrwd yn tori allan ar unwaith, o galon craig, i gelwrn eang, tua dau cant a deugain tunell, o gynnwysiad, ac yn llifeirio yn ddiorphwys yn afon nerthol, o gan tunell bob mynyd. Y mae y dwfr yn dra oer, ond nid yw byth yn rhewi yno: y mae yn newid ei liw i raddau ar ol gwlawogydd trymion, ac yn rhedeg yn gorph pwysig o ddwfr, sydd yn ffurfio afon digon nerthol i droi nifer mawr o felinau sydd ar ffordd ei rhediad, nes y cyrhaedda y traeth. Y mae addoldy wedi ei godi gan yr Arglwyddes Richmond, mam Harri VII., ar y ffynon. Y mae yn adeilad prydferth, mewn bwa meini hardd ar bilerau cedyru; ac wedi ei addurno âg arfbeisiau y teulu, Stanley. Y mae baddonau at wasanaeth y cyhoedd yn y lle. Yn y ffynon yr arferid ymdrochi gynt, ac yr oedd y rhinweddau gwyrthiol yn cyrhaedd yr holl ffyddloniaid cleifion a ymwelent a'r lle; a byddai yr ymwelwyr wedi cael eu gwella, yn gadael eu maglau, a'u ffyn, dan nen y bwa meini, fel adgofion am eu hiachad effeithiol. Y mae eglwys y plwyf yn sefyll gerllaw y ffynon, yr hon a ail-adeiladwyd yn 1769, ac y mae yn cynwys rhanau o'r hen eglwys gyntefig yno, oedd wedi ei hadeiladu ar y cynllun Normanaidd. Y mae yno ddelw o Gwenfrewi, heb ei phen. Ceir yn y lle hefyd, feddrodau teuluoedd Mostyn, Pennant, Pantwn, &c. Y mae yn y dref addoldai gan y pedwar enwad ymneillduol, a chan y Pabyddion. Y mae yma ysgolion Cenedlaethol, a Brytanaidd, gweithdy cyhoeddus, a gwaddolion o werth 116*p.* y flwyddyn. Y mae gan y dref Brif-lythyrfa; dau ariandy. Y mae y farchnad wythnosol ar y Gwener; a chynelir ffeiriau ar Ebrill 23, Mawrth y Drindod, a Medi 2. Bu gwaith cottwm yn cael ei ddwyn yn mlaen yma ar raddeg helaeth. Y mae yma weithfaoedd mewn plwm, efydd, a mwnau eraill; ac y mae yma gledrffordd, er hyrwyddo cludiad y defnyddiau i'w hallforio. Y mae y dref yn fwrdais; ac y mae yn uno â Fflint, y Wyddgrug, Caerwys, Caergwrle, Overton, Rhuddlan, a Llanelwy, i anfon un aelod i'r Senedd. Gwerth ardrethol yn 1860, 9658*p.*, o'r hyn y mae 1259*p.* mewn mwnau, ac 20*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth yn 1851, 5740: yn 1861, 5335. Tai, 1220. Y mae y plwyf hefyd yn cynwys trefgorddau Bagillt-Fawr, Brynford, Calcot, Coleshill-Fawr, y Maesglas, a Welstone, ac yn ymestyn hyd lan y Ddyfrdwy. Erwau, 13,382, o'r hyn y mae 5850 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 30,336*p.*, o'r hyn y mae 4438*p.* mewn mwnau, 285*p.* mewn cloddfeydd, 241*p.* mewn rheilffyrdd, a 250*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 11,301; yn 1861, 10,292. Tai, 2327. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 250*p.*, ac yn nawddogaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain. Y mae capeloriaethau Bagillt, a Brynford, ar wahan. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys hefyd blwyfi Ysgeifiog, a Nannerch,—y mae rhan o'r olaf, i ddybenion etholiadol, yn swydd Dinbych. Erwau, 22,079. Poblogaeth, 12,100. Tai, 2733. Y mae y dosparth yn cynwys hefyd is-ddosparth Fflint, yn cynwys plwyfi Fflint, Helygen, a Llaneurgain; is-ddosparth y Wyddgrug, yn cynwys plwyf Cilcen, a deuddeg trefgordd y Wyddgrug; ac is-ddosparth Rhydwen, yn cynwys plwyfi Rhydwen, Caerwys, Gwaenysgor, New-

Digitized by Google

market, a Llanasa. Erwau, 89,479. Trethi tlodion yn 1863, 19,103*p*. Poblogaeth yn 1851, 41,047; yn 1861, 39,941. Tai, 8811. Priodasau yn 1862, 214; genedigaethau 1307, o ba rai yr oedd 69 yn anghyfreithlon; marwolaethau 830, o ba rai yr oedd 295 dan 5 mlwydd oed, a 26 dros 85. Priodasau yn y deng mlynedd 1851–60, 602,375; genedigaethau, 11,678; marwolaethau, 8043. Lleoedd addoliad yn 1851, 22 Eglwys Loegr, gyda 10,660 o eisteddleoedd; 21 Annibynwyr, e. 4953; 11 Bedyddwyr, e. 1402; 31 Wesleyaid, e. 6749; 4 Cyfundeb Newydd, e. 476; 2 Trefnyddion Gwreiddiol, e. 281; 1 Diwygwyr Wesleyol, e. 470; 32 Trefnyddion Calfinaidd, e. 6542; 2 heb eu dynodi, e. 324; 2 Pabyddion, e. 342; 1 Saint y Dyddiau Diweddaf, 11 o wrandawyr. Ysgolioncyhoeddus 25, gyda 3240 o ysgolorion; 42 neillduol, gyda 1333 y.; Sabbathol 122, gyda 14,900 y.; ac un ysgol brydnhawnol i rai mewn oedran, 4 y.

Y mae y chwedlau yn nghylch St. Gwenfrewi yn rhy luosog i'w dodi ger bron, eto y mae cyhoeddusrwydd yr hanes yn galw am grynhoad o'r prif draddodiad. Y mae yr enw Seisnig ar y ffynon, sef y "Ffynon Sanctaidd," wedi cael ei ddechreuad yn y cysegredigrwydd tybiol a berthyna i'r ffrwd, at yr hon y cyrchai pererinion o bob gwlad, gyda chwbl hyder am iachad, pa glefyd bynag a fyddai arnynt. Dywedent mai merch ydoedd Gwenfrewi i Thewith, arglwydd galluog yn y parthau hyn; a'i bod yn nith i St. Beuno, dan ofal yr hwn yr oedd yn byw mewn neillduedd, yn y dyffryn a elwid Sych-nant, yn agos i droed y bryn ar yr hwn y saif y dref, lle yr adeiladodd Beuno eglwys fechan, ac y mae yno ddau faes, a elwir hyd heddyw, "Gerddi Beuno." Dywedir hefyd fod Caradog, mab i frenhin cymydogaethol, wedi hoffi tegwch Gwenfrewi, ac wedi digio wrthi am wrthod ei gynnygiadau cariadus; a thori ei phen ymaith â'i gleddyf, fel yr oedd hi yn ceisio ffoi rhagddo; fod ei phen wedi treiglo i waered gyda yr allt, nes dyfod i ymyl eglwys St. Beuno, a bod ffynhonell nerthol o ddwfr wedi tori allan o'r man lle y safai y pen. Dywedir fod y mwsogl oedd gerllaw, wedi perarogli yn rhyfedd, a'r meini wedi ymliwio fel gwaed. Ar hyn, cododd St. Beuno y pen, a dododd ef ar y corph; a dychwelodd y rhian i fywyd a iechyd fel cynt yn y fan. Bu fyw wedi hyn am bymtheg mlynedd; wedi ei marwolaeth, claddwyd hi yn Gwytherin, swydd Ddinbych, lle y gorphwysodd ei gweddillion marwol, hyd amser teyrnasiad y brenin Stephan, pan y codwyd hwy, ac eu symudwyd, "yn ol cyfarwyddyd dwyfol," i abad-dy St. Pedr, a St. Paul, yn yr Amwythig.

**TREFFYNON**, sydd bentref yn mhlwyf Llanddausant, swydd Fon, pum milltir a haner dwyreiniol o Lanerchymedd.

**TRE GAER**, plwyf yn swydd Fynwy; 1½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd *Raglan Foot-path;* a 6½ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Drefynwy. Llythyrfa, Raglan, dan y Cas newydd, swydd Fynwy. Erwau, 2387. Gwerth ardrethol, 2825*p*. Poblogaeth, 292. Tai annedd, 67. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 120*p*. Noddwyr, Deon a Glwysgor Llandâf. Y mae yr eglwys yn oedranus; ond mewn cywair dâ.

**TREGAIAN**, plwyf, mewn rhan yn nghantref Menai, ac mewn rhan yn nghantref Tindaethwy, swydd Fon; 2 filldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llangefni. Y mae y plwyf hwn wedi cael ei enw oddiwrth gyflwyniad y llan i St. Caian; a'i sefyllfa yn agos i ganol ynys Fôn. Mesura yn erwau, 2066. Gwerth ardrethol, 608*p*. Poblogaeth, 109. Tai annedd, 26. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn gyssylltiedig â pherigloriaeth Llangefni, yn arch-ddiaconiaeth Môn, ac esgobaeth Bangor. Yr oedd cofnodiad yn ysgrifenedig ar hen lyfr cofrestriadau y plwyf hwn, am farwolaeth un William ab Howel ab Ierwerth, o wehelyth Hwfa ab Cynddelw. Efe a gyrhaeddasai yr oedran mawr o 105 mlwydd oed, a bu farw Mawrth 11, 1581. Efe a fuasai yn brîod dair gwaith. Enw ei wraig gyntaf oedd Ellen Williams, ac o honi, bu iddo ddau ar hugain o blant! Ei ail wraig oedd Rachel Richards, o'r hon y bu iddo ddeg o blant! Ei drydedd gwraig, oedd Ellen Williams, o'r hon y bu iddo bedwar o blant. Heblaw hyny, bu iddo saith o blant o ddwy ordderch; dau o un, a phump o'r llall. Yr oedd ei fab ieuangaf yn dair blwydd oed pan fu farw ei dad; a'i fab henaf, Gruffydd ab William, yn bedair blwydd a phedwar ugain! fel yr oedd yr yspaid maith o bedwar ugain ac un mlwydd, rhwng genedigaeth ei blentyn cyntaf a'i blentyn olaf! ac yn y cyfwng yna, nid oedd dim llai na thri chant o hiliogaeth wedi hanu o hono! o ba rai yr oedd pedwar ugain yn byw yn y plwyf hwn ar yr un pryd. Dywedir mai dyn o faintioli cyffredin ydoedd, yn byw yn benaf ar fwyd llaeth, o dymher siriol, a chyfansoddiad crŷf, ac yn dra hoff o drin y ddaear; a'i brif ddifyrion oedd adara, a physgotta.

Olrheinir ei achau o Hwfa ab Cynddelw fel y canlyn;—"William, ab Howel, ab Ierwerth, ab William, ab Lewis, ab Ifan, ab Howel, ab Cwnws, ab Howel, ab Iorwerth Ddu, ab Ierwerth, brawd Syr Howel y pedolau, ab Gruffydd, ab Ierwerth, ab Meredydd, ab Hwfa ab Cynddelw."

Yr oedd capel cyssegredig i St. Heilin, yn nhrefgordd Trefollwyn, yn y plwyf hwn, yn amser rhwysg Pabyddiaeth; a phan ymwelodd yr Henafiaethydd enwog, y diweddar Barch. Henry Rowlands o'r Plas Gwyn, â'r plwyf, yn y flwyddyn 1720, yr ydoedd yn furddyn adfeiliedig, a llawer o geryg ei furiau wedi eu cludo gan berchenog y tyddyn, (Trefollwyn,) o'r enw Rhisiard ab Ifan, ab Gruffydd, ab William, ab Howel, ab Ierwerth, a'u defnyddio i adeiladu tai i'w anifeiliaid; ond, yn mysg yr adfeilion a adawsid, darganfu Mr. Rowlands gareg fawr, ar yr hon y cerfiasid yr enw OSORII XXX.

**TREGANOL**, trefgordd yn mhlwyf Llanbedr Dyffryn Clwyd, swydd DDINBYCH; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 110.

**TREGANOL**, trefgordd yn mhlwyf Llanwyddelen, swydd DREFALDWYN; 6½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 221.

**TREGARN**, trefgordd yn mhlwyf Llanddarog, swydd GAERFYRDDIN; 6½ milldir i'r dwyrain ddc ddwyrain o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 303.

**TREGARTH**, lle yn mharth gogleddol swydd GAER YN ARFON; 3½ milldir i'r de dde ddwyrain o Fangor. Medda lythyrfa, dan Fangor.

**TREGELE**, pentref yn mhlwyf Llanfechell, swydd FON; 5½ milldir i'r gorllewin o Lanerchymedd.

**TREGIB**, treflan yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN; 1 filldir i'r de ddwyrain o Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 1274*p*. Poblogaeth, 308. Y mae yr afon Towy yn llifeirio ar ystlys ogleddol y dreflan hon, lle y mae yr afonig Cennen yn ymarllwys iddi hi: y mae y ffordd o

Digitized by Google

Landeilo Fawr i Abertawe yn myned trwyddi; ac fe'i croesir hefyd gan hen ffordd Rufeinig.

TREGOED, treflan yn mhlwyf Glasbury, swydd FRYCHEINIOG; 3¼ i'r de orllewin o'r Gelli. Poblogaeth, yn nghyd â'r Felindre, 385. Tai annedd, 81. Y mae plas Tregoed yn perthyn i'r Is-iarll Henffordd.

TREGUSS, treflan yn mhlwyf Llancarfan, swydd FORGANWG; 8¼ milldir i'r de orllewin o Landâf.

TREGYNIN, treflan yn mhlwyf Llangathen, swydd GAERFYRDDIN; 4¼ milldir i'r gorllewin o Landeilo Fawr.

TREGYNON, pentref, a phlwyf, yn undeb y Drefnewydd, swydd DREFALDWYN; 5 milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd y Dref-Newydd, ac yn meddu Llythyrfa, dan y Dref-Newydd, swydd Drefaldwyn. Mae y plwyf yn cynwys trefgyrdd Aberhâl, Llanfechan, a Phwllan. Erwau, 6760. Gwerth ardrethol, 4635*p*. Poblogaeth, 709. Tai annedd, 129. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 167*p*. Noddwr, Arglwydd Sudeley. Enwir pedwar o dlodion o'r plwyf hwn o bryd i bryd i gyfaneddu yn yr elusendy a gyfodwyd yn 1709, gan Arthur Weaver, Ysw., yn mhlwyf y Bettws; ac y mae tua phedair punt ar ddeg o elusenau heblaw hyny yn perthyn i'r plwyf. Yr oedd yr hen ffordd Rufeinaidd a elwid *Via Devana*, yn trawsu y plwyf hwn, gweddillion yr hon oeddynt yn weledig yma rai blyneddau yn ol.

TREHELYG, trefgordd yn mhlwyf Castell Caereinion, swydd DREFALDWYN; 3 milldir i'r dehau o'r Trallwm.

TREHENGWM, pentref yn mhlwyf Llanwrtyd, swydd FRYCHEINIOG; 12 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Lanfair yn Muallt.

TREHERBERT, treflan yn y parth gogleddol o swydd FORGANWG; ger terfyniad rheilffordd Glyn Rhondda; 11½ milldir i'r gogledd orllewin o Bont y pridd. Y mae yma orsaf rheilffordd, pellebyr, a llythyrfa, dan Bont y pridd.

TREÏNGHILL, treflan yn mhlwyf Llanbleiddian, swydd FORGANWG; 1 filldir i'r dehau o Bont fon.

TRELAN (ISAF ac UCHAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Ysgeifiog, swydd FFLINT; 5 milldir i'r gorllewin o Fflint. Poblogaeth, 164, a 732.

TRELECH, sydd drefgordd ac is-ddosparth yn nosparth Mynwy, a phlwyf hefyd sydd mewn rhan yn nosparth Caerwent, swydd FYNWY. Saif y drefgordd bedair milltir a haner, de wrth orllewin o orsaf rheilffordd Mynwy. Y mae y lle yn cymeryd ei enw oddiwrth nifer o lech-feini, oeddynt mewn cyttyriad, yn y fan; ac y mae yma Lythyrfa dan *Chepstow*. Gwerth ardrethol, 979*p*. Poblogaeth, 128. Tai, 29. Y mae y rhan o'r plwyf sydd yn nosparth Mynwy, yn cynwys 5287 erwau. Gwerth ardrethol, 3315*p*. Poblogaeth, 991. Tai, 209. Y mae y tir-feddianau rhwng ychydig nifer. Y mae dacarfur, pedwar cant a haner o droedfeddi o amgylchedd, yn agos i'r meini crybwylledig, mewn lle y dywedir y safai castell a berthynai i'r Ieirll Clare. Y rhan o'r plwyf sydd yn nosparth Chepstow, ydyw capeloriaeth Trelech-Grange. Erwau yn yr holl blwyf, 7061. Poblogaeth, 1128. Tai, 231. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â Penallt, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 430*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llandaf. Y mae curadaeth barhaol Trelech-Grange, ar wahau. Y mae yma ysgol waddoledig â 43*p*. yn y flwyddyn, ac elusenau o 24*p*. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys deg o blwyfi eraill, ac yn cynwys 26,444 o erwau. Poblogaeth, 4797. Tai, 1041.

TRELECH-AR-BETTWS, sydd blwyf, gyda phentref, yn nosparth a swydd GAERFYRDDIN; pedair milltir a haner gorllewinol o orsaf rheilffordd Conwil, a naw, gogledd orllewin o Gaerfyrddin. Llythyrfa dan Gaerfyrddin. Cynhelir llysoedd gwladol yma. Erwau, 11,492. Gwerth ardrethol, 4807*p*. Poblogaeth, 1456. Tai, 302. Y mae y tir-feddianau yn rhanedig rhwng lluaws. Y mae carnedd Cryg-y-Dyrn yma, yn ddau cant a deg o droedfeddi o amgylchedd, a chant a phedwar ugain o uchder. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 143*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Y mae yma ysgol waddoledig â'r swm o 137*p*. yn flynyddol.

TRELECH-GRANGE, sydd gapeloriaeth, yn mhlwyf Trelech, swydd FYNWY; chwe milltir gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Chepstow. Llythyrfa yn Chepstow. Erwau, 1774. Gwerth ardrethol, 1788*p*. Poblogaeth, 137. Tai, 22. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 74*p*., ac yn nawddogaeth Dug Beaufort.

TRELEGOED, sydd drefgordd yn mhlwyf Cefnllys, swydd FAESYFED; wyth milltir a haner gorllewinol o Faesyfed Newydd.

TRELOGAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanasa, swydd FFLINT, chwe milltir a haner gogledd orllewin o Dreffynon. Poblogaeth, 387.

TRELYDAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Cegidog, swydd DREFALDWYN, dwy filltir gogleddol o'r Trallwm. Gwerth ardrethol 3379*p*., o'r hyn y mae 264*p*. mewn gwaith nwy. Poblogaeth, 105.

TRELYSTAN, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Worthen, swydd DREFALDWYN, dan Wolston-Mynd, tair milltir de orllewin o orsaf rheilffordd Trallwm. Ffurfiedig drwy awdurdod yn 1853. Llythyrfa dan Trallwm. Gwerth ardrethol, 3238*p*. Poblogaeth, 573. Tai, 109. Y mae y tir-feddianau rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Henffordd; gwerth 150*p*., ac yn nawddogaeth J. Naylor, Ysw.

TRELLAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Bettws-yn-Rhos, swydd DDINBYCH; tair milltir a chwarter de orllewin o Abergele. Poblogaeth, 140.

TRELLAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Rhydwen, swydd FFLINT; tair milltir a chwarter gogledd orllewin o Dreffynon. Poblogaeth, 279.

TRELLAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Ceri, swydd DREFALDWYN; dwy filltir dwyrain de ddwyrain o'r Drefnewydd. Poblogaeth, 310.

TRELLYNIAU, sydd drefgordd yn mhlwyf Cilcen, swydd FFLINT, pedair milltir a chwarter gorllewin ogledd orllewin o'r Wyddgrug. Poblogaeth, 35. Tai, 6.

TRELLYS, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfechan, swydd DREFALDWYN; dwy filltir dwyreiniol o Lanfyllin.

TRELLYWELYN, sydd drefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd FFLINT; yn agos i Ruddlan.

TREMADOG, sydd dref ac is-ddosparth, yn nosparth Ffestiniog, a swydd GAERNARFON. Saif y dref yn mhlwyf Ynys-cynhaiarn; ar ochr orllewinol, ac ychydig uwchlaw, y Traeth-Mawr; milltir a haner, gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Porthmadog, a phedair a haner, dwyrain ogledd ddwyrain o Criciaeth. Sylfaenwyd y lle gan Mr. Maddocks, o Tanyrallt, pan yr enillwyd y tiroedd eang yno

Digitized by Google

oddiar y mor, drwy adeiladaeth y morfur ardderchog sydd yr cysylltu Arfon a Meirion gerllaw. Y mae y dref wedi ei hadeiladu yn betrual rheolaidd. Y mae yma Lythyrfa dan Gaernarfon, ariandy, gwestdy, a marchnadfa helaeth; marchnad wythnosol ar y Gwener, a chwech o ffeiriau blyneddol. Y mae yr is-ddosparth yn cynwys chwech o blwyfi. Erwau, 55,407. Poblogaeth, 6848. Tai, 1374. Tynwyd allan y cynllun cyntaf am forglawdd y Traethmawr gan Syr John Wyn o Wydir, yr hwn a gafodd gynnorthwy Syr Huw Middleton yn y trefniant; ond ni wnaed dim yn effeithiol hyd tua dechreuad y ganrif hon. Llwyddodd William Alexander Madog, Ysw., i gau allan tua dwy fil o erwau o dir da a ffrwythlon; ar yr ochr orllewinol i'r afon, ar derfynau Penmorfa. Wedi cwblhau y morglawdd hynod, enillwyd drachefn dros chwe mil o erwau o dir da yn ychwanegol. Dywedir fod y draul yn nghyflawniad yr orchest hon, dros 100,000*p*. Y mae y golygfeydd yn yr ardal hon, yn darawiadol iawn, ar bob llaw; o dan gysgod uchel Moel-y-gest, y mae y dyffryn hwn yn dra dymunol, a'r holl gymydogaeth wedi ei haddurno â phalasau, gerddi, perllenau, a phlanwyddfeydd o brydferthwch mawr.

**TREMAIN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd ABERTEIFI; pedair milltir dwyrain ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberteifi. Llythyrfa yn Aberteifi. Erwau, 1658. Gwerth ardrethol, 1053*p*. Poblogaeth, 282. Tai, 55. Y mae y tir-feddianau rhwng lluaws. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 65*p*., ac yn nawddogaeth T. P. Miles, Ysw. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da.

**TREMEIRCHION**, neu DYMEIRCHION, sydd blwyf yn nosparth Llanelwy, ac yn swydd FFLINT; yn nyffryn Clwyd, tair milltir dwyrain dde ddwyrain o dref Llanelwy, a gorsaf y rheilffordd. Y mae yn cynwys Bachygraig, Bryngwyn, Graig, Llan, a Maen-efa. Llythyrfa yn Llanelwy. Erwau, 3873. Gwerth ardrethol, 2892*p*. Poblogaeth, 707. Tai, 136. Y mae y tir-feddianau yn rhanedig rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 300*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Bu Dafydd Ddu Hiraddug, yr hwn a gyfieithodd y Salmau i Gymraeg, ar fesur Cân, yn ficer yma.

**TRE-MOSTYN**, neu MOSTYN, sydd bentref, a chapeloriaeth yn mhlwyf Rhydwen, yn swydd FFLINT. Saif y pentref ar lan y mor, wrth enau yr afon Dyfrdwy, gerllaw rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, tair milltir a chwarter gogledd orllewin wrth ogledd o Dreffynon. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, wrth yr enw *Mostyn Quay*, dan Dreffynon; a gwesty da. Y mae y lle yn rhoddi yr enw a'r teitl i'r Barwn Mostyn. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1844. Gwerth ardrethol, 10,783*p*., o'r hyn y mae 7161*p*. mewn mwnau. Poblogaeth, 1640. Tai, 343. Y mae yn meddiant ychydig nifer. *Mostyn Hall* ydyw palas Arglwydd Mostyn. Gelwid y lle gynt Tremostyn; y mae yn dyddio er amser Harri VI., ac o adeiladaeth Tuduraidd, gan mwyaf; ond wedi ei gyfnewid i raddau i gynllun diweddar; yn cynwys hen neuadd; ac yn cynwys hefyd amryw ddarluniadau teuluaidd henafol, ac yn eu plith, yr eiddo Syr Rosier Mostyn, a'i foneddiges, gan Mytens; y mae yn cynwys hefyd ach-len gywrain a hynod, a hen dorch aur o gynllun boreuol. Oddiyma y diangodd Harri o Richmond; wedi hyny Harri VII., trwy ffenestr yn y cefn, a elwir hyd heddyw "Ffenestr y brenhin." Daeth byddin Richard III., yma ar fedr dal Harri; ond dygwyddodd i Richard ab Hywel, arglwydd Mostyn, eu gweled yn neshau at y lle, pan yr oedd y teulu ar nesu at y bwrdd i giniawa: gadawodd yntau y lle ar fynud awr, a neidiodd drwy ffenestr y cefn allan, ac ymguddiodd yn y coed; a phan y daeth arweinydd y fyddin i mewn i'r ystafell, a gweled yno gadair wâg wrth y bwrdd, gofynodd, Pa beth oedd yr achos fod yno gadair wag wrth y bwrdd a chyllell a fforch ger bron, heb neb i'w defnyddio? a'r atebiad pwyllus oedd, "Rhag dygwydd i gyfaill ddyfod i mewn, y cedwir yr arferiad yn y ty bob amser; ac fel cyfaill yr wyf fi yn eich cymeryd chwithau, eisteddwch gyda ni, os gwelwch yn dda." "Na, ni allaf," ebe y milwr, a gofynodd, "A'i nid yw Harri o Rismwnd yma?" "Nac ydyw," ebe gwr y ty, "nid oes yma neb o'r enw." A dyna y modd y diangodd yr ddiogel allan o'u gafael. Y mae porth y fynedfa yn hardd, a'r llwybr yn cael ei addurno â choed crib uchel, a henafol. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 300*p*., ac y mae yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da; ac y mae yma gapeli i'r Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd. Y mae yma Lyfrgell yn mhalas Mostyn, yn cynwys casgliad o hen weithiau Cymraeg, a llyfrau mewn cysylltiad â hanes Cymru, yn un o'r rhai helaethaf yn yr holl Dywysogaeth.

**TREN**, RHYS, oedd fardd y tybir iddo farw tua'r flwyddyn 1570. Y mae rhai o'i ganiadau ar gael mewn llawysgrifen.

**TRE NEWYDD**, tref, plwyf, a chantref, yn swydd DREFALDWYN. Y mae y dref yn gorwedd mewn dyffryn hardd, ar lan yr Hafren, ger camlas Trefaldwyn, a rheilffordd Cymru, (*Cambrian Railway*,) 5¾ milldir i'r gogledd orllewin o gyfarfyddle swyddi Trefaldwyn, Maesyfed, a'r Mwythig; a 29¼ milldir i'r de dde orllewin o Groesoswallt. Nid oedd ar y cyntaf namyn pentref bychan, o'r enw Llanfair yn Nghydewain, ond yn raddol ymddyrchafodd i fesur o enwogrwydd, fel eisteddle gweithfeydd gwlaneni; ac yn y flwyddyn 1832, cynnyddodd ei phwysigrwydd yn ddisymwth, trwy symudiad y marchnadoedd gwlaneni yma, o'r Trallwm. Yr oedd yma yn ddiweddar lawer o dai coed; ond erbyn hyn y mae y rhan fwyaf o'r dref yn cael ei gwneyd i fynu o adeiladau dâ, a golygus; ac y mae y dref yn fwy bywiog na'r rhan fwyaf o drefydd Cymru, gan ei bod yn meddu amryw fanteision llaw-weithyddol rhagorol, mewn sefyllfa, cyfleusderau i gludo nwyddau, &c. Y mae y dref yn hynod, fel y man lle y ganwyd, ac y claddwyd Robert Owen, seilydd y gyfundraith a elwir cyd-feddiannaeth, (*socialism*), yr hon dros amser a fu yn ffynu yn fawr mewn parthau o Loegr, ac yn peri cryn bryder i'n llywodraethwyr. Trwy ysgrifraith Diwygiad Seneddol 1832, gwnaed y Dref newydd yn fwrdeisiaeth, yn meddu hawl mewn undeb a Threfaldwyn, y Trallwm, Machynlleth, Llanidloes, a Llanfyllin, i anfon cynnrychiolydd i'r Senedd. Yma y cynnelir brawdlysoedd swydd Drefaldwyn bob haf, a'r is frawdlysoedd; ac y mae yma brif lythyrfa, gorsaf rheilffordd, dau ariandy, dau brif westy, pont ysplenydd, o dri bwa, pob un yn 60 troedfedd o rychwant, neuadd drefol, marchnadle gwlaneni, eglwys, ac amryw addoldai ymneillduol, a sefydliadau addysg, &c. Adeiladwyd y farchnadfa wlaneni yn y flwyddyn 1832, ar y draul o bedair mil o bunnau: y mae yn adeilad eang, ac

Digitized by Google

fe'i defnyddir i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, ac amcanion eraill. Adeiladwyd'yr eglwys yn y flwyddyn 1847, a chynnwysa gofadeiliau i'r Prysiaid o Blas y Dref Newydd; a chrog wasgodlen dra phrydferth, a symmudwyd yno o'r hen eglwys, yr hon y dywaid traddodiad, (yn ddi sail debygid,) ei dwyn yno ar y dechreu, o Fynachlog Cwm Hir. Yr hen eglwys, yr hon a saif yn nghanol y dref, sydd yn hen adail ddyddorol, ond mewn cyflwr adfeiliedig; cynnygid ei hadferu mewn rhan yn y flwyddyn 1868, er cael ei defnyddio i gyflawni gwasanaeth claddu ynddi. Cynnelir marchnadoedd yma bob dydd Mawrth, a dydd Sadwrn; a ffeiriau, ar y dydd Llun, a'r dydd Mawrth olaf o bob mis. Mae y ffiniau bwrdeisiol yn cynnwys y cyfan o blwyf y Dref newydd, a threfgyrdd Gwestydd a Hendidley. Poblogaeth yn 1851, 6371; yn 1861, 5961. Tai annedd, 1391.

Y mae y plwyf yn cynnwys 2736 erw. Gwerth ardrethol, 12,576*p.*; o'r hyn y mae 150 mewn nwyweithiau. Poblogaeth yn 1851, 3784; yn 1861, 3692. Tai annedd, 846. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 406*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy.

**TRE-PARC,** sydd drefgordd yn mhlwyf Gyffylliog, swydd DDINBYCH; pum milltir a haner gorllewinol o Ruthin. Poblogaeth, 310.

**TRE'R DRE,** sydd drefgordd yn mhlwyf Caerwys, yn swydd FFLINT; tair milltir a chwarter de orllewin o Dreffynon. Poblogaeth, 666.

**TRE-RHIWARTH,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llangynog, swydd DREFALDWYN; chwe milltir a haner gogledd orllewin o Lanfyllin.

**TRE'R-LLAN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llandegla, swydd DDINBYCH; wyth milltir a haner gogleddol o Wrecsam. Poblogaeth, 127.

**TRE'R-LLAN** (ISAF ac UCHAF), sydd ddwy drefgordd yn mhlwyf Llanfechan, swydd DREFALDWYN, tair milltir dwyreiniol o Lanfyllin.

**TRE-SAETHON,** sydd le yn ochr dde ddwyreiniol swydd GAERNARFON, yn agos i Borthmadog. Llythyrfa, dan Gaernarfon.

**TRE-TOWER,** sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Llanfihangel Cwm-dû, swydd FRYCHEINIOG, tair milltir gogledd orllewin o Grughywel, a phedair a chwarter dwyrain dde ddwyrain o orsaf rheilffordd Tal y bont. Llythyrfa yn Crughywel. Gwerth ardrethol, 1844*p.* Poblogaeth, 296. Tai, 57. Y mae yma hen balas perthynol i deulu Vaughan. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 64*p.*, ac yn nawddogaeth M. Morgan, Ysw.

**TREWAELOD,** trefgordd yn mhlwyf Llanasa, swydd FFLINT; 7¼ milldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon.

**TRE-WALCHMAI,** sydd blwyf, gyda dau bentref, yn nosparth a swydd FON, pum milltir a haner gorllewinol o orsaf rheilffordd Llangefni. Llythyrfa yn Llangefni, Mon. Erwau, 1700. Gwerth ardrethol, 1616*p.* Poblogaeth, 678. Tai, 193. Y mae y meddianau tirawl rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth mewn cysylltiad a phlwyf yr Hen-Eglwys.

**TREWERN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr-Mochnant, swydd DDINBYCH, pedair milltir a haner gogleddol o Lanfyllin. Poblogaeth, 186.

**TREWERN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Buttington, swydd DREFALDWYN, gerllaw afon Hafren, tair milltir a chwarter gogledd ddwyrain o'r Trallwm. Erwau, 1860. Poblogaeth, 507. Tai, 88.

**TREWERN,** sydd randir yn mhlwyf Nefern, swydd BENFRO, dwy filltir dwyrain ogledd ddwyrain o'r Casnewydd.

**TREWERN** a GWYTHLE, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Nantmellan, swydd FAESYFED, pedair milltir gorllewin wrth ogledd o Faesyfed Newydd. Erwau, 2423. Gwerth ardrethol, 984*p.* Poblogaeth, 108. Tai, 18. Gwel GWYTHLA.

**TREWERYN** (Y), sydd afon ar ochr ogleddol MEIRIONYDD, yn rhedeg filltir a chwarter yn ddwyreiniol i Lyn y Bala.

**TREWYLAN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd DREFALDWYN, chwe milltir a haner gogleddol o'r Trallwm.

**TREWYN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Corwen, swydd FEIRIONYDD, gerllaw Corwen. Poblogaeth, 142.

**TREWYN-BODLOWYDD,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llanelidan, swydd DDINBYCH, saith milltir a haner gogledd orllewin o Langollen. Poblogaeth, 207.

**TREWYTHAN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llandinam, swydd DREFALDWYN, chwe milltir a haner gogledd ddwyrain o Lanidloes.

**TRE-Y-CAERAU,** sydd amddiffynfa Frytanaidd henafol a chadarn yn swydd GAERNARFON, ar fynydd yr Eifl, tair milltir gogledd ddwyrain wrth ddwyrain o Nefyn.

**TRE-Y-DREF,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llanrwst, swydd DDINBYCH, yn agos i Lanrwst. Poblogaeth, 1692.

**TRE-Y-LLAN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Llangynog, swydd DREFALDWYN, chwe milltir a haner gogledd orllewin o Lanfyllin.

**TRILLO,** sant yn nechreu y 6ed ganrif, ydoedd fab i Ithel Hael; yr hwn a ddaeth trosodd i Gymru o Lydaw, gyda Chadfan Sant, ac a ymunodd yn aelod yn Nghôr Enlli. Y mae eglwysi Llandrillo yn Rhos, sir Ddinbych; a Llandrillo yn Edeyrnion, sir Feirionydd, wedi eu cyflwyno iddo, lle y cedwid ei wylmabsant Mehefin 15.

**TRINIO,** mab Dyfwng ab Emyr Llydaw, yr hwn a aeth gyda Sant Cadfan, ei gefnder i Enlli, yn nechreu y chweched ganrif. Efe oedd sylfaenydd eglwys Llandrinio, yn sir Feirionydd.

**TRISSIENT,** sydd is bentref yn mhlwyf Margam, swydd FORGANWG, gerllaw Aberafon. Gwerth ardrethol, 868*p.* Poblogaeth, 303.

**TRISTFARDD,** oedd fardd enwog tua diwedd y bumed ganrif. Yr oedd efe yn fardd i Urien Rheged, a chofresir ef yn y Trioedd gyda Dygynnelw, ac Afan Ferddig, fel y tri "gwaewruddion beirdd," am eu bod o ysbryd rhyfelgar, yr hyn oedd yn groes i egwyddorion barddoneg.

**TROED-YR-AUR,** sydd blwyf, a chantref yn swydd ABERTEIFI. Saif y plwyf bedair milltir gogledd wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Castell-Newydd-Emlyn, yn cynwys pentref o'r un enw, o fewn dosparth Castell-newydd-Emlyn. Llythyrfa, Castell-newydd-Emlyn, dan Gaerfyrddin. Erwau, 4650. Gwerth ardrethol, 3115*p.* Poblogaeth, 947. Tai, 233. Y mae y meddianau tirawl rhwng ychydig nifer. Troed yr aur House, ac Alderbrook Hall, ydynt y prif balasau yma. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 268*p.*, ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Gangellydd. Adeiladwyd yr eglwys yn 1795. Y mae yma ddau gapel gan y Trefnyddion Calfinaidd. Y mae y cwmwd yn cyn-

Digitized by Google

wys pedwar ar bymtheg o blwyn, a rhan o bedwar eraill. Erwau, 71,820. Poblogaeth yn 1851, 12,493; yn 1861, 11,671. Tai, 2754.

**TROED Y RHIW**, treflan yn mharth gogleddol swydd FORGANWG; ar linell rheilffordd Glyn Tâf; 2½ milldir i'r dehau o Ferthyr Tydfil. Medda lythyrfa, dan Ferthyr Tydfil, a gorsaf rheilffordd.

**TROFARTH**, trefgordd yn mhlwyf Bettws yn Rhos, swydd DDINBYCH; 3¼ milldir i'r de orllewin o Abergele.

**TROSTREY**, plwyf yn undeb Pont y pŵl, swydd FYNWY; 2¾ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Usk. Llythyrfa, dan y Casnewydd, Mynwy. Erwau, 1255. Gwerth ardrethol, 1684*p*. Poblogaeth, 143. Tai annedd, 35. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 72*p*. Noddwr, Syr S. Fludyer, Bar.

**TROTHY (Y)**, neu Y TRODDWY, afon yn swydd FYNWY, yn llifeirio am oddeutu 16 milldir yn dde ddwyreiniol i'r Wy, yn nghymmydogaeth ddeheuol Trefynwy.

**TRWST Y WELIN**, trefgordd yn mhlwyf y Berriew, swydd DREFALDWYN; 4½ milldir i'r gogledd orllewin o Drefaldwyn.

**TRYGARN**, HUW, oedd fardd yn Lleyn, sir Gaernarfon. Nid oes genym nemawr o'i hanes, namyn ei fod yn un o feib selog yr awen, ac wedi cyfansoddi llawer o farddoniaeth yn ei ddydd. Bu farw tua 1600.

**TRYSTAN** AB TALLWCH, oedd benaeth enwog, ac yn byw tua chanol y chweched ganrif. Y mae cofnodion aml am dano i'w cael yn y Trioedd Cymreig. Rhesir ef yn un o honynt gyda Chreidiol, a Gwgawn Gwron, fel y tri "galofydd" Ynys Prydain, y rhai a gawsant fyned yn dirwystr trwy bob rhan o'r Ynys. Mewn un arall, gelwir Trystan, Gwair, a Cai, y tri "Tywysog coronog." Rhesir ef gyda Gwair, ac Eiddig, fel y tri anhydyn, y rhai na allesid eu troi oddiwrth eu hamcanion. Trystan, Caswallon ab Beli, a Cynon ab Clydno, a elwid hefyd yn dri "charwyr angerddol," a'r rheswm am hyny, oedd ei ymlyniad anffodus wrth Essyllt, gwraig ei ewythr, March ab Meirchion. Y mae Trystan hefyd yn nodweddiad yn y Ffug Chwedlau Cymreig, ac y mae ar gael ganau cywrain yn ei gylch.

**TRYSTION (Y)**, afonig yn MEIRIONYDD, yn llifeirio i'r Dyfrdwy, 2 filldir i'r de dde orllewin o Gorwen; ac yn ffurfio rhaiadr ardderchog, dri ugain troedfedd o gwymp.

**TRYWYLL DIFEFYL**, merch Llyngesawl Law Hael. Cofresir hi yn y Trioedd, fel un o'r "tair diweirferch" Ynys Prydain. Y ddwy ereill oeddynt Gwenfron, a Tegau Eurfron.

**TUCKER**, JOSIAH, D.D., oedd yn ysgrifenydd gwleidyddol enwog. Ganwyd ef yn Lacharn, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1712. Tyddynwr oedd ei dad, yr hwn wedi iddo enill etifeddiaeth yn Ngheredigion, a ddaeth i'r penderfyniad o roddi dysgeidiaeth glasurol i'w fab. O ganlyniad, anfonwyd ef i ysgol Rhuthin, lle y gwnaeth y fath gynydd mewn dysgeidiaeth, fel y cyraeddodd lenfudd yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain. Enillodd y graddiad o B.A., yn y flwyddyn 1736, ac M.A. yn 1739. Wedi iddo dderbyn urddau eglwysig, cafodd isberigloriaeth yn sir Gaerloyw, ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, is-beriglorlaeth yr Holl-Saint yn Nghaerodor; gwnaed ef yn un o ganonwyr isoediog yr Eglwys Gadeiriol. Cafodd hefyd ei benodi yn Rheithor St. Stephen, yn y ddinas. Yn y flwyddyn 1747, dygodd trwy yr argraffwasg dreithawd ar "Fanteision ac Anfanteision, oeddynt yn perthyn i Loegr a Ffrainc yn eu cysylltiad â Masnach;" ac yn mhen ychydig flyneddau ar ol hyny, "Ymsyniadau ar Gyfaddasrwydd y Gyfraith er breinioli Protestaniaid Tramor," mesur a gymeradwyid yn wresog ganddo, fel y gwnaeth hefyd â'r un perthynol i'r Iuddewon, mewn ychydig lythyrau at gyfaill, y rhai a argraffwyd yn y flwyddyn 1753. Cyfododd hyn y fath deimladau eiddigus, a digllawn yn ei erbyn, fel y llosgwyd eilun o hono gan breswylwyr Caerodor. Yn y flwyddyn 1753, argraffwyd ei dreithawd ar "Fasnach Twrci," yn yr hwn y rhesymai yn rymus yn erbyn y cyfundeb o cwmpeini breintebol. Yn y flwyddyn 1755, enillodd y graddiadau o B.D. a D.D. Yn 1758, dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Caerloyw, drwy ddylanwad un Mr. Nugent, wedi hyny Arglwydd Clare, dros yr hwn y llwyddodd gyda llawer o'i blwyfolion, i bleidleisio yn etholiad aelod seneddol dros ddinas Caerodor. Tua'r amser hyn, ar ddymuniad Dr. Hayter, yr hwn oedd athraw y pryd hwnw i Sior y IV., ac wedi hyny esgob Llundain, cyfansoddodd dreithawd ar "Drafnidiaeth," at wasanaeth yr ysgolhaig breninol. Ysgrifenodd, ac argraffwyd traethodau gorchestol o'i eiddo yn y blyneddoedd dilynol, y rhai oeddynt oll yn y Saesonaeg. Yr oedd yn wr hynod ofalus yn nghyflawniad dyledswyddau clerigol, ac yn barchus iawn gan ei blwyfolion, y rhai fel yr ymddangosai, oeddynt yn ofidus iawn o herwydd ei roddiad i fyny y reithoriaeth yn ffafr yr is-berigloriaeth, yr hyn y tybiodd yn briodol ei wneuthur yn y flwyddyn 1790. Er na wnaeth ond ychydig o ddychweledigion i'w olygiadau, eto ystyrid ef yn ysgrifenydd galluog ac eglur, ac o herwydd ei ffraethineb, yn un difyrus a dyddorol. Bu farw yn ddiblant yn 1799.

**TUCKER**, THOMAS, y llyngesydd, ydoedd drydydd mab John Tucker, o Scalyham, swydd Benfro, a'i fam ydoedd ferch i Syr John Wogan, marchog. Dygwyd ef i fyny yn forfilwr, a daeth yn swyddog llyngesol enwog, gan gyrhaedd y radd o lyngesydd. Yn 1741, efe a laddodd yn yr India Orllewinol, yr herwr mwyaf anturiaethus, a elwid y Black Beard, gan enill trwy hyny y wobr a gynygiesid gan y Llywodraeth; ac mewn canlyniad, cafodd ddyrchafiadau pwysig. Yn flaenorol, pan oedd efe yn gadben yn ysgafn-long Towey, efe a gymerodd y San Joseph, llong gofrestiedig Ysbaenaidd, gyfoethog annghyffredin, ac a brynodd etifeddiaeth yn sir Benfro. Bu y llyngesydd Tucker farw yn 1766, yn ddibriod.

**TUDFYL**, merch i Frychan Frycheiniog, a santes yn y pumed cant. Gwraig ydoedd i Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, a mam i Brochwael Ysgythrog. Lladdwyd hi mewn lle yn Morganwg a elwir oddiar hyny yn Ferthyr Tudfyl, lle yr oedd hi yn gwasanaethu ei thad; a'r lle hefyd yr oedd amryw o'i brodyr. Rhuthrodd y Saeson Paganaidd, a'r Gwyddyl Ffichti arnynt, a llofruddiasant hi, â Rhun Dremrudd ei brawd; modd bynag, pan weles Nefydd, mab i Rhun, a llencyn difarf, y creulondeb a wnaed, cynodd ei ddigofaint, a chynnullodd wŷr, gan ymlid y llofruddwyr ymaith.

**TUDGLYD**, mab i Seithenyn, a sant yn y 6ed ganrif. Pan orlifwyd cyfoeth ei dad gan y mor, Tudglyd a'i frodyr a arweddasant fywyd crefyddol, ac a aethant yn aelodau o goleg Dunawd. Cofnodid ef Mai 30.

Digitized by Google

**TUDNO,** mab arall i Scithenyn, a sant yn yr un cyfnod. Efe a sefydlodd eglwys Llandudno, yn sir Gaernarfon, lle y cedwid ei wyl Mehefin 5. Gelwir maen mawr sigledig sydd i'w weled ar ben Gogarth, yn Gryd Tudno.

**TUDUR,** sant tua therfyn y 6ed cant. Mab ydoedd i Arwystli Gloff ab Seithenyn, o Dywynwedd, merch Amlawdd, Wledig. Efe a sefydlodd eglwys Darowen, sir Drefaldwyn, ac y mae eglwys Mynydd islwyn, sir Fynwy, wedi ei chyflwyno iddo. Cedwid ei wyl Hydref 15.

**TUDUR,** Owain, Ganwyd ef yn Mhenmynydd, Ynys Môn, oddeutu y flwyddyn 1385. Y dull y cyfenwid ef yn gyffredin yn ei wlad ei hun, oedd Owain ab Meredydd ab Tudur. Nid annhebyg yw, nad oedd efe yn etifedd ei rieni; beth bynag am hyny, mae yn sicr ei fod yn Arglwydd Penmynydd, ac yn ddyn o gryn urddas. Dywed Carnhuanawc, i Owain pan yn ieuanc fyned i Lundain i astudio y cyfreithiau; ac iddo fyned oddiyno i'r cyfandir. Wedi dychwelyd, bernir iddo ymgymeryd â bywyd milwr, a thrwy ei orchestion mewn câd a brwydr, cystal a'i uchelwaed breninol, cafodd dderbyniad i'r llys Seisnig. Gan ei fod yn wr ieuanc o bryd a gwedd nodedig o hardd, syrthiodd Catherine o Ffrainc, gweddw Harri V., brenin Lloegr, i serch dwfn âg ef. Yn ngeiriau Owen Williams o'r Waenfawr, dyma fel y cymerodd y peth le;—"Gan ei fod yn wr boneddig moesog a bywiog, efe a orchymynwyd unwaith i ddawnsio gerbron y frenhines, ac ar ryw droad, drwy ei fod yn analluog i adenill ei gydbwysedd, efe a syrthiodd i'w harffed, fel yr oedd yn eistedd ar ystol fechan, gydag amryw o'i harglwyddesau o'i hamgylch." Priodwyd hwynt yn ddirgelaidd yn 1428, a buont byw gyda'u gilydd yn gysurus hyd farwolaeth y frenhines, yn 1437, ac iddynt ar y pryd deulu o dri mab, ac un ferch;—sef Edmwnd Jasper, ac Owen. Bu y ferch farw yn ei mabandod; ac arweddodd Owen, y mab ieuangaf, fywyd crefyddol fel mynach, yn Mynachdy Westminster; a bu yntau farw yn ieuanc. Wedi marw eu mam, rhoddwyd Edmwnd, a Jasper yn ngofal Catherine de la Pole, merch Michael de la Pole, iarll Suffolk, ac abades Berking. Y mae ar gael ddeiseb o'i heiddo hi, dyddiedig 1440, yn deisyf tâl am eu cadwraeth. Yn ystod bywyd y frenhines, ni chymerid nemawr sylw o'r briodas; eithr wedi iddi farw, deddfwyd cyfraith yn gosod dirwy drom ar bwy bynag a briodai frenhines waddolog, heb ganiatad neillduol y brenin. Pan fu farw y frenhines hefyd, ni ddangoswyd ond ychydig gydymdeimlad at Owen, canys taflwyd ef i garchar *Newgate*, o ba le y diangodd trwy gymhorth ei was, a'i gyffeswr. Pan ddaliwyd ef eilwaith, rhoddwyd ef yn nghadwraeth Iarll Suffolk, cwnstabl castell Wallingford, ac yn mhen peth amser drachefn, traddodwyd ef i *Newgate*. Pa fodd bynag, diangodd yr ail waith. Yn 1452, urddwyd ei ddau fab yn ieirll; gwnaed Edmwnd yn Iarll Richmond, a Jasper yn Iarll Penfro. Bu i Owen hefyd un mab annghyfreithlawn, o'r enw David, yr hwn a wnaed yn farchog, gan ei nai Harri VII., a'r hwn hefyd a roddes yn wraig iddo, Mary, merch i John Bohun, o Midhurst, yn Sussex, a chyda hi etifeddiaeth fawr. Ni chymerwyd sylw yn y byd o Owen hyd 1459, pryd y gwnaed ef yn farchog, gan ei fab Jasper; rhoddes Harri VII., gan punt yn y flwyddyn iddo allan o faenoriaethau Falkston, Walton, a Bensted, yn Nghent; ac yn ystod y flwyddyn ganlynol, ar gyfrif ei wasanaeth, cafodd barciau yn arglwyddiaeth Dinbych, a llywyddiaeth coedwigoedd yr un lle. Yn 1461, ymladdodd yn wrol tan faner ei fab Jasper, yn mrwydr Croes Mortimer; ac nis gadawai faes y gwaed, hyd oni chymerwyd ef, gydag amryw foneddigion Cymreig eraill yn garcharorion. Dienyddiwyd ef yn eu plith yn Henffordd, a chladdwyd ef yn eglwys y *Grey Friars*, o fewn y ddinas hono. Wyr iddo ef ydoedd Harri VII., iarll Richmond, a brenin Lloegr, yn ystod teyrnasiad yr hwn y terfynodd rhyfeloedd trychinebus y Rhosynau.

Yn un o hen ysgriflyfrau Barn hill, caed yr adroddiad canlynol am Owain Tudur;—"Syr Owen Tudur, Marchog, tad yr hwn a fuasai yn un o ganlynwyr Owain Glyndŵr, ac yntau ei hunan a fuasai yn Agincourt, gyda Harri y Pummed, lle am ei wrhydri yn gwrthsefyll ymosodiad tanbaid Duc Alencon, y darfu i Harri ei wneyd yn un o ysweiniaid ei gorph. Tra yn gweini y swydd hon yn Windsor, lle yr oedd y frenines Catharine wedi ymneillduo gyd a'r baban Harri y Chweched, y tynodd efe sylw y Frenines, er ei haniad di nod, a'i sefyllfa isel; canys ni allasai fod yn werth mwy na deugain punt y flwyddyn y pryd hyny, pe amgen efe a fuasai wedi arweddu ei urdd fel marchog. Ond nid oedd gywilydd gan Catharine, merch falch brenin Ffrainc, roddi ei llaw iddo. Nid oedd ei ettifeddiaeth bersonol yn llawn 400 erw o dir, gwerth tua *7s. 6c.*, yr erw yn bresenol: a chan fod arian tua phedwar can mlynedd yn ol, yn ddeg cymaint eu gwerth ag yn awr, rhaid mai tua 15 punt y flwyddyn oedd ei gwerth y pryd hyny."

**TUDUR,** Sion, bardd awenyddol yn ystod yr 17ed ganrif. Gelwir ef yn y "Records of Denbigh" yn "John Tudur, one of the Choral of St. Asaph." Dywed hanes arall, mai John Lloyd ydoedd ei enw bedydd. Yr oedd yn byw yn Wigwair, ger Llanelwy; a dywedir yn gyffredin, ei fod yn gantor yn y Brif eglwys hono; ond nid ydys yn cael ei enw fel y cyfryw; tebycach mai cantor y côr ydoedd, a'i fod yn perthyn i swyddfa cofrestrydd yr esgobaeth. Tybir mai brodor ydoedd o Lansannan. Efe oedd bardd teuluaidd John Conway, o Fodrhyddan. Graddiwyd ef yn Brif-fardd yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568. Ei athraw barddonol ydoedd ei gymydog, Gruffydd Hiraethog, a'i gyd-ddysgyblion oeddynt Gwilym Cynwal, Simwnt Fychan, a Gwilym Lleyn, a phan ofynwyd i'r athraw cymhenddoeth pa un o'r pedwar oedd y prydydd goreu, atebodd, "Awenyddol yw Gwilym Cynwal, gofalus yw Simwnt Fychan, dysgedig yw Sion Tudur, ac nid oes dim yn anwybodus i Gwilym Lleyn." Bu Sion Tudur farw yn 1602, a chladdwyd ef yn Llanelwy. Y mae marwnad iddo yn argraffedig yn y Brython, iv. 466, o waith Edward ab Ralph. Y mae lluaws mawr o gywyddau &c., o'i waith yn wasgaredig hyd y cylchgronau henafiaethol Cymreig, yn Eurgrawn Dafydd Ddu, y Cylchgrawn, y Gwladgarwr, a'r Brython. Ceir "Araeth Sion Tudur, neu fryd yr Afradlon," yn y Dyddanwch Teuluaidd. Bu ymryson crasineb rhyngddo a Sion Phylip, yr hon a welir yn Brython, cyf. iv. Yr oedd yn achyddwr campus, ac yn fardd duchan cellweirgnoawl diguro, fel y prawf ei gywydd i ofyn Rhys Grythor, yn Brython, cyf. iii. 384.

**TUDWAL BEFR,** neu y Teg, oedd yn un o esgobion dechreu y bumed ganrif. Yr oedd efe yn fab i Corinwr ab Cadfan ab Cynan ab Eudaf ab Caradog ab Bran ab Llyr Llediaeth. Y mae ynys ar oror sir Gaernarfon, yn cael ei galw yn Ynys Sant

Digitized by Google

Tudwal, ac ar hon y mae adfeilion capel bychan, yr hwn a gysegrwyd ar ei enw.

**TUDWAL GLOFF**, oedd yn un o feibion Rhodri Fawr. Bu yn brwydro o dan Anarawd, ei frawd, yn mrwydr Cymryd, ar lan y Conwy, yn y flwyddyn 880, yn erbyn y Sacsoniaid, ac mewn ymgyrch bersonol ag Eadred, Iarll Mercia, clwyfwyd ef yn y benglun, ar gyfrif yr hyn y rhoddwyd iddo gan ei frawd, Fynachlogydd Gogledd Cymru.

**TUDWEN**, tybir ei fod yn byw yn y seithfed ganrif. Efe a sylfaenodd eglwys Llandudwen, yn sir Gaernarfon.

**TUDWG**, oedd yn un o seintiau y rhan flaenaf o'r chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Tyfodwg, ac yn aelod o goleg Sant Cennydd, yn Mrowyr. Sant Tudwg oedd sylfaenydd eglwys Tythegston, neu Llandudwg, yn sir Forganwg.

**TURNOR**, Cadben John, a anwyd yn Llangoedmor, ger Aberteifi, yn y flwyddyn 1761. Yn 1778, aeth ar fwrdd y gad-long *Fate*, yr hon a lywyddid gan Cadben Colby, o'r Ffynonau, sir Benfro, ac nid nepell o ardal enedigol Mr. Turnor. Bu mewn brwydr boeth â'r Ffrancod ar dueddau yr India Orllewinol, yn 1779. Yn 1781, yr ydym yn ei gael yn y llong *Preston*, mewn brwydr â'r Holandiaid, pryd ni wnaeth ond prin ddiengyd; a pharhaodd yn y gwasanaeth llyngesol, yn benaf yn yr India Orllewinol, hyd heddwch 1783. Gwedi bod am beth amser ar fwrdd y *Bombay Castle*, efe, ar gais y tywysog, Gwilym Henri, wedi hyny y brenin Gwilym IV., a gymerodd swydd o dan ei uchelder breninol, ar fwrdd y *Pegasus*, yn 1785. Yn 1790, gwnaed ef yn gadraglaw y *Camilla;* ac yn 1793, yr ydys yn ei gael yn yr un swydd ar fwrdd y *Robust*, o dan lywyddiaeth Arglwydd Keith. Pan gymerwyd Toulon, yn y flwyddyn hono, dangosodd y Cadraglaw Turnor, fedr a gwroldeb o'r mwyaf canmoladwy, a gwobrwywyd ef mewn canlyniad i hyny, â chadbeniaeth ar un o'r llongau a gymerasid oddiar y gelyn, pryd y daeth iddo dros 12,000*p*. fel ei ran o'r yspail gwobrwy. Yn 1794, symudwyd ef i'r gad-long *Glory*, ac yn 1795 i'r *Monarch*. Yn 1796, yr oedd yn un o'r gorchfygwyr mewn brwydr galed. Yn 1799, gwnaed ef yn gadben y *Trident*, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn Ynys y Tywysog Edward, yn yr India Orllewinol, yn 1803, yn 42 mlwydd oed.

**TWINELL** (St.), plwyf, yn undeb a swydd Benfro; 3½ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Penfro. Llythyrfa, Penfro. Erwau, 1358. Gwerth ardrethol, 1391*p*. Poblogaeth, 200. Tai annedd, 35. Y mae yr holl dir yn perthyn i un ettifeddiaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, gydiedig â Warren. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyflwynedig i St. Deiniol, sydd yn hen adeilad, a thŵr uchel iawn yn perthyn iddi; a chan ei bod yn gorwedd ar lanerch ddyrchafedig, y mae yn wrthddrych gweledig o'r holl wlad gylchynol.

**TWLL DU**, neu "Gegin y Cythraul," agen-hollt erchyll yn y mynydd, ar y tu gorllewin i Lyn Idwal, yn swydd Gaer yn arfon; ar y tu dehau i'r briffordd, fel yr elir drwy Nant y benglog, o Bethesda i Capel Curig. Y mae tua 460 troedfedd o hyd, ac oddeutu 300 troedfedd o ddyfnder, tra nad yw namyn 18 troedfedd o led. Pan oedd yr ysgrifenydd ar ymweliad â'r lle yn y flwyddyn 1856, adroddid y ddau Englyn canlynol gan Fardd ieuanc, a ddaethai yn Arweinydd caredig iddo dros y mynydd:—

"Ddaneddog safn ddi nodded—fan hyllaf
Yn hollol agored:
Cegin syw, gwir yw y gred,
Is wybr, i hen was abred.

Hen ogof ddu anhygar—a'i hochrau
Yn echrys ddi gymhar;
Pa le mae ar y ddaear,
Agen well i'r *rogue* anwar?"

**TWNAN**, trefgordd yn mhlwyf Llaneilian, swydd Ddinbych; 5½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Abergele. Poblogaeth yn 1861, 189.

**TWR CELYN**, neu yn hytrach, Twr Cuhelyn, cantref yn y parth gogleddol o swydd Fon; yn cynwys naw o blwyfydd. Erwau, 28,740. Poblogaeth yn 1871, 9389. Tai annedd, 2495.

**TWRCH** (Y), afonig yn siroedd Brycheiniog, a Chaerfyrddin; yn tarddu yn mryn Tal y Sarn; ac yn llifeirio am oddeutu naw milldir yn ddeheuol, i'r Tawe, goris Ystrad-gynlais.

**TWRCH**, Richard, a William, oeddynt seiri meini enwog, yn sir Forganwg, yn amser Edward VI. ac Elizabeth. Yr oeddynt yn berchenogion cloddfa o geryg nadd, gerllaw yr afon Ogwy, ac yn ei gweithio. Dynion anmhriod oeddynt; ac yn annedwydd, syrthiodd cariad y ddau ar yr un ferch ieuanc. Achosodd hyny lawer o eiddigedd o bob tu; ac o'r diwedd, torodd ymrafael mor boeth rhyngddynt, fel y darfu i'r ddau wneud llw difrifol, na siaradai y naill o honynt byth a'r llall. Er hyny parhasant i weithio yn y gloddfa fel arferol; a pha bryd bynag y byddai ar un eisiau cymhorth y llall, i godi, neu symud careg fawr, neu ryw orchwyl cyffelyb, gwneid arwydd; ond gofelid na chaffai un gair ei barablu. Gwedi i bethau gael eu dwyn yn mlaen fel hyn am beth amser, daeth i glustiau y ferch ieuanc mor annedwydd yr oedd pethau yn bod rhwng y ddau frawd; a hi, o'i thu hithau, a addunedodd na fyddai dim a wnelai hi a'r naill na'r llall o honynt. Darfu i'r penderfyniad hwn, er mor annghysurus oedd rhyngddo a'i frawd, daflu Richard i bruddglwyf dwys. Yn fuan wedi hyn, efe a adawodd y wlad, ac a aeth na wyddai neb i ba le. Buwyd am hir amser heb glywed dim oddiwrtho; ond yn mhen ugain, neu ddeg a'r hugain o flyneddau, dychwelodd i Forganwg, wedi bod yn Llundain, Paris, a llawer o barthau o'r Eidal, gan weithio wrth ei alwad o naddwr ceryg, ac adeiladydd. Yn ystod ei deithiau, ymroddodd yn astud i ymhyrwyddo mewn adeiladaeth, a cherfiadaeth, yn eu hamrywiol gangenau; a gwnaeth gynydd mawr iawn yn mhob un o honynt. Ar ei ddyfodiad gartref, canfu fod ei frawd wedi gadael yr hen gloddfa deuluaidd, ac wedi darganfod ceryg nadd yn Mheny-bont-ar-Ogwy, ac ymsefydlu yno; ond dywed traddodiad arall, ei fod ef wedi marw. Ail ymgymerodd Richard a'r hen gloddfeydd, a gweithiodd hwynt. Darfu i'r dull rhagorach yr oedd efe yn gwneud ei waith, yn fuan dynu sylw y boneddigion oedd yn y cymydogaethau hyny, a darfu i Richard Basset, o Bewpyr, ger y Bont Faen, ei gymeryd i wneud y rhanau addurniadol o'i gastell, a'i gapel, gwyneb y rhai a wnaeth efe â'i geryg ei hun yn y dull Ionaidd, ynghyda'r cerfiadau heirdd sydd i'w gweled yno, ac yn tynu sylw ymdeithwyr henafiaethol i edmygu malurion y lle gwych hwnw.

**TWRNOG**, neu Teyrnog, oedd frawd i sant Tyfrydog, a mab i Arwystl Gloff ab Seithenyn o Tywynwedd, merch Amlawdd Wledig. Efe oedd



Digitized by Google

sylfaenydd Llanddyrnog, yn sir Ddinbych. Cedwid ei wylddydd Mehefin 26ain.

**TWROG**, MAB ITHEL HAEL, yr hwn oedd yn byw yn y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o'r rhai a ddaeth gyda Sant Cadfan o Lydaw i Gymru; ac efe a sylfaenodd eglwys Llandwrog, yn sir Gaernarfon; a Maentwrog, yn sir Feirionydd.

**TYBIAWN**, oedd fab henaf Cunedda Wledig, yr hwn o herwydd ei gynlluniau pwyllog a synwyrgall, ac yn nghysylltiad a'i frodyr, a lwyddodd i yru y Gwyddelod, neu yr Albaniaid Gwyddelig ar ffô, y rhai oeddynt am amryw flyneddoedd wedi ymsefydlu yn Ngogledd Cymru, trwy eu bod wedi gyru ymaith y preswylwyr brodorol. Cymerodd hyn le yn y bedwaredd ganrif. Lladdwyd Tybiawn yn y frwydr, a darfu i foneddigion y wlad roddi penaduriaeth y gantref adfeddianedig ar Meirion, mab Tybiawn, oddiwrth yr hwn y cafodd yr enw Meirionydd.

**TYBIE**, oedd yn byw tua chanol y bumed ganrif. Yr oedd hi yn un o ferched Brychan Brycheiniog. Cofresir hi, ei bod wedi ei lladd gan y barbariaid yn sir Gaerfyrddin, mewn lle a elwir Llandybie, lle y mae eglwys blwyfol wedi cael ei chyflwyno ar ei henw, a'r lle y mae pentref bychan, yn cynwys tuag wyth cant o drigolion.

**TY BRITH** (UCHAF, ac ISAF), dwy dreflan yn mhlwyf Llanrwst, swydd DDINBYCH; yn agos i dref Llanrwst. Gwerth ardrethol, 2958*p*. Poblogaeth, 150, a 404.

**TY BROUGHTON**, trefgordd yn mhlwyf Hanmer, swydd FFLINT; 5½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o'r Eglwys Wen, (*Whitchurch*). Erwau, 1150. Gwerth ardrethol, 1822*p*. Poblogaeth, 194. Tai annedd, 38.

**TY CROES**, gorsaf rheilffordd yn MON; ar reilffordd Caer a Chaergybi; 9½ milldir i'r de ddwyrain o Gaergybi.

**TYDAIN**, yr hwn a elwir TYDAIN TAD AWEN, yr hwn oedd nodweddiad hynod yn hanesiaeth foreuol yr Hen Frythoniaid. Yr oedd efe yn gydoeswr a Prydain ab Aedd Mawr. Dywedir iddo ymdrechu llawer mewn cynlluniau a rhesymau, er cael gafael yn y dull, neu y modd goreu i ffurfio sefydliadau gwyddonol a barddonol; a chyflwynodd ei fesurau i ystyriaethau a sylw ereill o genedl y Cymry, y rhai a'u mabwysiadent yn unfrydol. Y mae crybwylliadau aml am dano yn y Trioedd, gyda Hu Gadarn, Dyfnwal Moelmud, a Gwyddon, fel cefnogwyr barddoniaeth, a lleisganu, a ffurfwyr cyfundrefn beirdd a barddoniaeth. Hynodir Tydain hefyd gyda Menyw, a Gwrhir, fel tri "phrif hyfforddwyr" Prydain. Y mae rhai henafiaethwyr yn dywedyd mai yr un yw Tydain a Titan, neu Apollo; a dywedir mewn canig a briodolir i Taliesin, fod ei fedd ar oror mynydd Aren.

**TYDECHO**, oedd yn un o seintiau y rhan flaenaf o'r chweched ganrif. Yr oedd efe yn fab i Amwn Ddu ab Emyr Llydaw, a chefnder i Sant Cadfan, gyda yr hwn y gadawodd Lydaw, a daeth i Gymru. Ymsefydlodd gyda Tegfedd ei chwaer, yn ardal y Mawddwy, yn sir Feirionydd, lle y sylfaenodd eglwys Llanymawddwy, a'r eglwysi cymydogaethol, Mallwyd, a Garthbeibio. Efe hefyd oedd sylfaenydd a sant noddog Cemaes, yn Meirionydd, a chapel a elwid Capel Tydecho, yr hwn oedd gynt yn mhlwyf Llandegfan, yn Môn. Darfu i'r son am ei dduwioldeb a'i fywyd santaidd, ddyfod i glustiau Maelgwn Gwynedd, yr hwn oedd yn wr ieuanc afreolus; ac ymdrechodd ddiraddio, a gwarthruddo Tydecho, ond yn ad-daliad, gwnaeth gymaint o gymwynasau gwyrthiol iddo, fel yr oedd yn dda gan y tywysog wneud heddwch ag ef, trwy roddi iddo amrywiol o ragorfreintiau, ac yn benigol gwneud y lle yn noddfa, a chyssegrfa dynion drygionus.

**TYDEYRN**, mab Teithall, ab Amwn Ddu, o Morfydd, merch ac unig etifeddes Gwraldeg, brenin Garthmadryn, yr hon sydd yn awr yn gwneud i fyny sir Frycheiniog. Priododd ei rieni tua'r flwyddyn o oed Crist 260.

**TYDIAU**, oedd yn un o santesau y rhan flaenaf o'r bumed ganrif. Yr oedd hi yn un o ferched Brychan Brycheiniog, ac yr oedd yn byw yn Nghapel Ogwr, yr hwn oedd gynt yn mhlwyf Llanbridfawr, yn sir Forganwg.

**TYDIO**, oedd yn un o feibion Arwystli Gloff, a brawd Tyfrydog, Twrnog, a Marchell. Yr oedd yn byw yn agos i ddiwedd y chweched ganrif. Efe oedd sylfaenydd eglwys Derwen, yn Nghyfeiliog, yn sir Ddinbych.

**TY DU**, neu TY DEE, treflan yn y parth de orllewin o swydd FYNWY; ar reilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol; 3 milldir i'r gorllewin o'r Cas newydd. Medda lythyrfa dan y Cas newydd, swydd Fynwy, a gorsaf rheilffordd.

**TYDWALLT**, mab Tydeyrn ab Teithall, brenin Garthmadryn, neu sir Frycheiniog, hyd tua chanol y bedwaredd ganrif. Yn "Bonedd y Saint," gelwir ef yn fab Seithenyn, ond yn "Achau y Saint," gelwir ef yn wyr Seithenyn, a mab Arwystli Gloff. Efe oedd sylfaenydd eglwys Dyneio, neu Pwllheli, yn sir Gaernarfon.

**TYDWEILIOG**, plwyf yn undeb Pwllheli, swydd GAER YN ARFON; 9 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Pwllheli. Medda lythyrfa dan Bwllheli. Erwau, 9241. Gwerth ardrethol, 1601*p*. Poblogaeth, 381. Tai annedd, 79. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth, 80*p*. Noddwr, Y Parch. G. A. Salusbury. Mae yr eglwys yn gyflwynedig i St. Cwyfan, neu, yn ol rhai, St. Gwynen.

**TYDDYN PRYDD**, trefgordd yn mhlwyf y Trallwm, swydd DREFALDWYN, yn agos i dref y Trallwm.

**TYFEI**, yr oedd efe yn byw yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif, ac yn fab i Bredic, o Arianwedd, chwaer Sant Teilo. Lladdwyd ef yn ddamweiniol, pan yn blentyn, gan ddyn o'r enw Tyrtuc, a chladdwyd ef yn Penaly, yn sir Benfro. Efe yw nawddsant Llandefei, neu Lamphey, yn y sir hono, a Llandefeisant, yn agos i Llandeilofawr, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd Tyfei yn frawd i Ismael, esgob cynorthwyol, neu ragesgob Tyddewi.

**TYFODWG**, gelwir ef yn Achau y Saint, yn fab i Gwylfyw ab Marchan ab Bran ab Pyll ab Cerfyn ab Meilir Meilirion ab Gwron, ab Coel Godebog. Daeth i Gymru gyda Garmon, a Chadfan, a daeth yn aelod o goleg Illtyd. Efe a sylfaenodd eglwysi Llan-Dyfodwg, ac Ystrad Dyfodwg, yn Morganwg, ac efe oedd yn un o dri sylfaenydd Llantrisant yn yr un sir. Sylfaenodd hefyd eglwys yn Ngwlad yr Haf. Yr oedd yn byw tua diwedd y bumed ganrif.

**TYFRIOG**, oedd yn fab i Dingad ab Nudd Hael, a sylfaenydd eglwys Llandyfriog, yn Ngheredigion. Yr oedd yn byw tua diwedd y 6ed ganrif.

**TYFRYDOG**, oedd fab i Arwystli Gloff ab Seithenyn o Tywynwedd, merch Amlawdd Wledig, a

Digitized by Google

brawd Diheufyr, Twrog, Twrnog, a Tudyr. Yr oedd yn aelod o goleg Enlli, a sylfaenodd eglwys Llandyfrydog yn sir Fôn.

**TY GWYN**, pentref yn mhlwyf Llanboidy, swydd GAERFYRDDIN, ar yr afon Tâf, yn agos i reilffordd Deheudir Cymru; 5¼ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o St. Clears. Medda Lythyrfa, dan Narberth, a gorsaf rheilffordd, yn nghyda phellebyr. Dyma y lle y cynnullwyd cymmanfa o ddysgedigion Cymru, gan y Tywysog doeth, Hywel Dda, er addfurfio a diwygio cyfreithiau i'r genedl, am yr hyn y cawn y mynegiad canlynol yn "Brut y Tywysogion:"—"OED CRIST 926, aeth Hywel Dda fab Cadell, brenin Cymry oll, i Rufain, a chydag ef dri escob, sef oeddynt Martin escob Mynwy, a Mordaf escob Bangor, a Marchlwys escob Teilaw, a chyda hwnw Blegywryd ab Owain, pencyfeistedd Llandaf, brawd Morgan brenin Morganwg, a'r achaws eu myned yno, ymgynghori â doethion y modd y gwellheid cyfreithiau gwlad Cymru, a gwybod cyfreithiau gwledydd a dinasoedd eraill, a'r cyfreithiau a fuant gan amherodron Rhufain yn ynys Prydain yn amser eu hunbennaeth hwy, a gwedi caffael gwybodaeth o'r pethau hyny, a chyngor doethion, dychwelyd i Gymru, lle y galwes Hywel attaw holl ben cenedloedd gwlad a'u teisbandeuluoedd, a phob doethion a dysgedigion o wyr llên a lleygion yn ddygynnull gorsedd hyd y Ty Gwyn ar Daf, yn Nyfed. A gwedi chwiliaw a gaffad o bob gwlad a dinas, y caed yn oreuon o'r cyfan cyfreithiau Dyfnwal Moelmud, a thrwy ddysg ac athrawiaethgar Blegywryd athraw y trefnwyd y rhai hynny, ac eu doded wrth farn y dygynnull, oni chaed gannynt eglurhad, a gwellhâd, ac adlanwad ar y rhai hynny, a gwedi myned wrth farn a rhaith gwlad, yn y dygynnull y cadarnhäed y cyfreithiau ac au rhodded yn ddeddfedigawl ar holl wlad Gymru, a gwedi hynny myned i Rufain yr ail waith o Hywel, a chael barn doethion yno, a gwybod bod y cyfreithiau hynny yn gydgerddedogion a chyfraith Duw, ac a chyfreithiau gwledydd a dinasoedd tiroedd cred a bedydd, y daeth yn ei ol i Gymru, ac y dodes ei gyfreithiau wrth farn y cantrefi, a'r cymmydau, a rhaith gwlad, ac o hynny ydd aethant yn gadarn yn holl arglwyddiaethau Cymru, ac ym mhob llys arglwydd a chenedl hyd nad oedd a gaeai yn eu herbyn, ag nad oeddent o arall yn un llys gwlad ac arglwydd yng Nghymru, ac achaws däed ei gyfreithiau y gelwir ef, Hywel Dda."

Yn y flwyddyn 1143, seiliodd yr Esgob Bernard fynachlog yma, yr hon a alwyd "Mynachlog y Ty Gwyn ar Daf;" ac ar orsaf yr hen Fynachlog hono, y saif palas prydferth yr Anrhyd. W. Yelverton.

**TYLWCH**, gorsaf rheilffordd yn agos i'r ffin rhwng swyddi TREFALDWYN a MAESYFED; ar reilffordd Canol-barth Cymru, 3¼ milldir i'r dehau o Lanidloes.

**TY'N CELYN**, llandref yn nrhefgordd Aberchwiler, swydd DDINBYCH; 4¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Ddinbych.

**TYNDAETHWY**, cantref yn y parth dwyreiniol o swydd FON; yn cynnwys 16 o blwyfi. Erwau, 39,037. Poblogaeth, 8207. Tai, 1898.

**TY'N LAN**, trefgordd yn mhlwyf Llandegley, swydd FAESYFED; 5¼ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Faesyfed Newydd.

**TY'N LON**, pentref yn mhlwyf Llandwrog, swydd GAER YN ARFON; 4¼ milldir i'r de dde orllewin o dref Caer yn arfon.

**TY'N LON**, pentref yn mhlwyf Bangor, swydd GAER YN ARFON; yn agos i dref Bangor.

**TYN Y FFORDD**, pentref yn mhlwyf Llanbyddar, swydd GAERFYRDDIN; 4¼ milldir i'r de orllewin o Lanbedr.

**TY'N Y GONGL**, lle oddiar y Benllech, MON; ac heb fod yn bell o'r Moelfre, lle y drylliwyd yr ager-long *Royal Charter*. Medda lythyrfa, dan Bont Menai.

**TY'N Y GROES**, lle yn mharth gogledd ddwyrain swydd GAER YN ARFON, oddiar Tal y cafn; 4¼ milldir i'r dehau o Gonwy. Medda lythyrfa, dan Gonwy.

**TY'N YR EFAIL**, pentref yn mhlwyf Aberdaron, swydd GAER YN ARFON; 14 milldir i'r de orllewin o Bwllheli.

**TYRNOG GAWR**, tywysog yn Mrydain pan oresgynid y wlad hon gan y Rhufeiniaid. Pair Tyrnog Gawr ydoedd un o Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain: "o rhoddai llwfrddyn ei fwyd ynddo, nis berwai, eithr bwyd gwr dewr a ferwai yn ddiattreg."

**TYSILIO**. Y sant a'r awdwr enwog hwn ydoedd fab i Frochwael Ysgythrog; o Arddun merch i Babo Post Prydain. Dywedir iddo fod yn esgob Llanelwy; ac iddo olianu ei gefnder Asaph Sant yn uniongyrchol i'r swydd hono. Yr oedd yn ei flodeu tua chanol y 7fed ganrif. Yr oedd Tysilio yn fardd, a dywedir, iddo ysgrifenu Hanes yr Eglwys yn Mrydain, yr hwn waith a fu yn hir ar ddifancoll; eithr dywed Malkin, oddiar awdurdod Iolo Morganwg, mae yn debyg, iddo gael ei ddarganfod yn ddiweddar, ac nad ydoedd ond ffug a ysgrifenwyd rywbryd tua 1480, neu 1490. Priodolir i Dysilio awdurwaith un o'r Brutiau Cymreig, yr hwn a welir yn argraffedig yn y Myvyrian Archaiology. Y mae yn anhawdd gwybod pa ran a gymerodd efe yn y gwaith hwn, a pha un a'i cyfansoddi y gwaith ei hun a ddarfu iddo, ynte chwanegu at ryw waith gwreiddiol. Golygwyd y Brut hwn drachefn gan Walter de Mapes, a chwanegwyd ato wedi hyny gan Sieffrey o Fynwy. Yr unig weddillion o'i alluoedd fel bardd sydd ar gael, ydyw ei ymddiddan rhwng dau fynach, yr hwn sydd argraffedig yn y *Myv. Arch.* Yr oedd Tyssilio yn seilydd a nawddsant amryw eglwysi.

**TYSSUL**, sant yn y chweched ganrif, a mab i Conan ab Ceredig ab Cunedda Wledig. Sefydlodd eglwys Llandysul, yn sir Drefaldwyn; a Llandysul yn sir Aberteifi. Cedwid ei wyl Ionawr 31.

**TYTHEGSTON**, plwyf, a elwir hefyd LLANDUDWG, yn swydd FORGANWG, 4 milldir i'r gorllewin wrth ddehau o orsaf rheilffordd Pen y bont. Llythyrfa, Pen y bont. Erwau, 2871. Gwerth ardrethol, 3602*p*. Poblogaeth yn 1871, 1490. Tai annedd, 337. Cafodd y plwyf hwn ei enw Cymreig oddiwrth gyflwyniad y llan i St. Tudwg, un o ddysgyblion Cenydd, yr hwn a flodeuai tua chanol y chweched ganrif. Y fywioliaeth sydd is-beriglorіaeth barhaus, gydiedig â'r Castell Newydd.

**TYWYN**. Gwel TOWYN.

**TYWYNWEDD**, merch i Amlawdd Wledig, a gwraig ar y cyntaf i Llyr Merini, a mab o'r briodas hon ydoedd Caradawg Freichfras. Yn ol Achau y Saint, meibion hefyd iddi hi ydoedd Gwyn ab Nudd, a Gwallawg ab Llenawg. Wedi hyny bu yn briod ag Arwystli Gloff, ac o hono ef yr oedd yn fam i Dyfrydwg, i Dwrnog, i Dwrog, ac i Diheufyr, y rhai oeddynt oll yn saint yn yr Eglwys Brydeinig.

Digitized by Google

# U.

**UCHAF**, neu Arllechwedd Uchaf, cantref yn mharth gogleddol swydd Gaer yn Arfon; yn cynnwys pum plwyf. Erwau, 55,359. Poblogaeth yn 1851, 11,624; yn 1861, 13,894. Tai annedd, 2872.

**UCHAF PEN** (Isaf ac Uchaf), dwy drefgordd yn mhlwyf Dwygyfylchi, swydd Gaer yn Arfon; 2 filldir i'r gorllewin o Gonwy. Poblogaeth, 214 a 56.

**UCHA YN DREF**, trefgordd yn mhlwyf Llanbadarn-fawr, swydd Aberteifi; yn agos i Aberystwyth. Poblogaeth, 439. Tai annedd, 104.

**UCHELDREF**, trefgordd yn mhlwyf Llanfawr, swydd Feirionydd; 1 milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Bala. Poblogaeth, 153.

**UCHELDREF**, trefgordd yn mhlwyf y Bettws, swydd Drefaldwyn; 4¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Dre newydd. Poblogaeth, 317.

**UCH-GORFAI**, neu Uwch-gwyrfai, cantref yn nghanol swydd Gaer yn Arfon; yn cynnwys 6 phlwyf. Erwau, 47,254. Poblogaeth, 9257. Tai annedd, 2017.

**UCH LLAWR Y COED**, trefgordd yn mhlwyf Llanwnog, swydd Drefaldwyn; 6½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o'r Drenewydd. Poblogaeth, 320.

**UCH MYNYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llanaber, swydd Feirionydd; yn agos i'r Abermaw. Poblogaeth, 425.

**UCHMYNYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llan y cil, swydd Feirionydd; yn agos i'r Bala. Poblogaeth, 210.

**UCHTRYD**, oedd esgob enwog, yr hwn oedd yn archddiacon Llandaf yn y flwyddyn 1126. Ar ol i'r esgobaeth fod yn wag am ysbaid chwech mlynedd, cysegrwyd ef yn esgob yr esgobaeth hono yn y flwyddyn 1139, yr hon a lywyddodd gyda deheurwydd mawr, hyd oni bu farw yn y flwyddyn 1146. Mae Caradog o Lancarfan yn rhoddi cymeradwyaeth fawr iddo, yn neillduol ei ddysgeidiaeth uchel, a'i dduwioldeb diffuant, a'i ymdrechion selog dros adferiad dysgyblaeth eglwysig. Yr oedd ganddo ferch o'r enw Angharad, yr hon a briododd â Iorwerth ab Owen ab Caradawg, Arglwydd Caerlleon ar Wysg, yr hwn oedd foneddwr o allu a dylanwad mawr.

**UCH Y GARREG**, trefgordd yn mhlwyf Machynlleth, swydd Drefaldwyn; ac yn agos i dref Machynlleth. Poblogaeth, 354. Tai annedd, 74.

**UFELWYN**, oedd fab i Cennydd ab Aneurin y Coed Aur, a sylfaenydd eglwys Llanufelwyn, neu St. George, yn Morganwg. Yr oedd efe yn is-esgob yn ardal Ergyng, yn esgobaeth Llandaf, pan oedd Sant Teilo yn llywyddu yr esgobaeth. Dywedir i Meurig, brenin Morganwg, roddi iddo eglwys Llansillow, yn sir Henffordd.

**ULCHED**, sant nas gwyddis ond ychydig am dano ond ddarfod iddo sefydlu eglwys Llanulched, yn Mon, lle y cedwid ei wyl Ionawr 6.

**UMBRAFEL**, oedd yn frawd i Amwn Ddu, a phriododd âg Afrella, merch Meurig. Yn hanes bywyd Sant Samson, yr hwn oedd yn nai iddo, dywedir i Umbrafel gael ei ordeinio yn offeiriad, ac wedi hyny ei benodi yn Abbad Monachlog yn yr Iwerddon. Dywedir i'r penodiad hyn gael ei wneud gan Sant Samson.

**UNDY**, plwyf yn undeb Caerwent, swydd Fynwy, ar reilffordd Deheudir Cymru, ac ar lan y môr; 1 milldir i'r dwyrain o orsaf rheilffordd Magor; a 7¼ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Gaerwent, neu *Chepstow*. Llythyrfa, yn Magor, dan Chepstow. Erwau 3717, o ba rai y mae 2000 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2653*p*. Poblogaeth, 411. Tai annedd, 78. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 183*p*. Noddwyr, Deon a Glwysgor Llandâf.

**UPPER BANK**, gorsaf rheilffordd yn swydd Forganwg, ar reilffordd dyffryn Abertawe; 13¼ milldir i'r gogledd o Abertawe.

**UPTON**, treflan yn mhlwyf Nash, swydd Benfro; 3¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o dref Penfro. Erwau 405, o ba rai y mae 105 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 390*p*. Poblogaeth yn 1861, 24. Tai annedd, 3. Perthynai castell Upton i dylwyth o'r cyfenw *Malefants*: a gwnaed rhan o hono yn eglwys, ac fe'i cynnrychiolir yn bresenol gan borthfa dau fwaawg.

**UR** ab Erin Lluyddawg, neu Urp Luyddawg, o Lychlyn, penaeth Scandinafaidd, yr hwn a gofresir yn y Trioedd fel arweinydd un o'r tri "llu ymfudol" Prydain. Daeth Urp i Brydain yn amser Cadial mab Eri, i ofyn am ei gynorthwy, a dim ond un yn gweini arno, yr hwn a elwid Mathuta Fawr; a chafodd fyddin o 63,000 o wŷr, ac arweiniwyd hwy ganddo mor bell a'r môr Groegaidd, ac ymsefydlasant yn y gwledydd a enwid Galas, ac Afena. Ni ddychwelodd yr un o honynt na'u hiliogaeth ychwaith byth; a thrwy i Brydain fel hyn gael ei dihysbyddu o'i hamddiffynwyr, darfu i wyr Llychlyn ymsefydlu ar yr oror ddwyreiniol, lle yr arosasant am dair cenedlaeth cyn i'r Cymry fod yn alluog i'w gyru ymaith, ond wedi hir ymdrech, llwyddasant, a gyrasant hwy i'r Almaen. Modd bynag nid oeddynt alluog i ymlid ymaith y Coraniaid, y rhai oedd wedi ymsefydlu ar lenydd yr afon Humber.

**URIEN**, oedd yn fab i Andras. Yn ol y Brut Cymreig, dylynodd ei dad ar orsedd Prydain, bedwar cant o flyneddoedd cyn Crist.

**URIEN RHEGED**, oedd ryfelwr enwog, yr hwn oedd yn byw yn y rhan olaf o'r bumed ganrif. Yr oedd efe yn fab i Cynfarch Oer, ab Meirchyn Gul, ab Gwrwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godebog. Gorfuwyd ei dad i adael ei diriogaethau yn Ngogledd Prydain, y rhai oeddynt yn ardal Moray, a chafodd ddinas noddfa yn Nghymru. Ymgymerodd Urien â'r gorchwyl o ymlid y Gwyddeliaid, neu yr Albaniaid Gwyddelaidd, y rhai am ryw gymaint o amser oeddynt wedi ymsefydlu mewn gwahanol ranau o Ddeheudir Cymru. Yn wobr am ei wasanaeth, yr hyn a fu yn llwyddianus i yru yr ysbeilwyr ar ffô, cafodd benaduriaeth rhandir Rheged, rhwng yr afonydd Tywi, a Thawe; yr hon a gynwysai, ardaloedd Browyr, Cydweli, Caerwyllion, Iscenen, a Cantref Bychan. Yr oedd ei breswylfod freninol yn Aberllychwr, yn Mrowyr, lle yr adeiladodd gastell cadarn, a elwid Castell Aberllyw. Ar ol cyflawni y llesianau

Digitized by Google

hyny i Gymru, ymddengys i Urien fyned i Ogledd Prydain, lle yr adfeddianodd diriogaethau ei dad, a thrwy gynorthwy ei feibion, dygodd yn mlaen ymdrechfa faith âg Ida, brenin yr Angliaid. Yr oedd ei ymdrechion yn erbyn yr ysbeilwyr hyny y fath, fel yr hawliai gael ei ystyried y Brython mwyaf enwog o'i oes, buasai wedi llwyddo i'w gyru ymaith, oni fuasai ymddygiad camwrus ei gydwladwyr, ac yn y diwedd lladdwyd ef yn fradwrus, pan yr oedd yn gwarchae ar Deoric, mab Ida, yn ynys Lindisfarne. Rhifid ef unwaith yn mysg seintiau Coleg Catwg o Lancarfan. Y mae nodiadau am dano mewn dau o'r trioedd. Mewn un, rhesir ef gyda Cynfar, a Gwenddolen, dan yr enw "tri tarw cad Ynys Prydain. Oddiwrth y llall yr ydym yn casglu iddo gael ei ddirgel-lofruddio gan Llofan Llawdifo, yr hon weithred anfad a elwir yn un o dair "anfad gyflafan" Ynys Prydain. Cyfeirir at ei ymdrechion rhyfelgar yn "Englynion y Gorugiau." Yr oedd ganddo ferch o'r enw Eliwri, yr hon a briododd a Morgan Morganwg; a mab a elwid Pasgen, yr hwn oedd frenin creulawn iawn, ac yn fradwr mawr i'w wlad; am yr hyn y diorseddwyd ef, ac unwyd gwlad Rheged a Morganwg.

USK. Gwel BRYN BIGA.

**USK** (YR), afon, yr hon sydd yn tarddu yn mynydd Tal y sarn, ar ffiniau swyddi Caerfyrddin, a Brycheiniog, ac yn llifeirio yn ddwyreiniol am un filldir a'r bymtheg, i dref Aberhonddu, lle y mae yr afonydd Honddu, a'r Tarell yn ymarllwys iddi; ac oddiyno y mae yn llifeirio yn dde ddwyreiniol am bedair milldir ar bymtheg, heibio i Grughowel, i Abergafeni; y mae yn derbyn dyfroedd y Grwyne, 2 filldir islaw Crughowel; ac yn myned rhagddi o Abergafeni am oddeutu 18 milldir yn ddeheuol, ond gyda chrymedd dwyreiniol hir, heibio i drefydd Bryn buga, a Chaerlleon, i'r Cas Newydd; gan dderbyn dyfroedd yr Olway, ddwy filldir o'r tu isaf i dref Usk, a'r Afon Llwyd gerllaw Caerlleon; a 3¾ milldir o'r tu deheuol i'r Cas Newydd y mae yn ymarllwys i gulfor Caerodor, yn y fan wedi ymuniad yr Ebbwy â hi. Y mae yn ymarferol yn ffurfio porthladd mawr i fynu hyd y Cas Newydd; ac yn fordwyol 6½ milldir yn mhellach, hyd Dredunawg.

**USLAWRCOED,** rhan o blwyf Bedwellty, swydd FYNWY; yn cynnwys rhan o Dredegar. Erwau, 6150. Gwerth ardrethol 68,255*p.*, o ba rai y mae 26,500*p.* mewn gweithfeydd haiarn, 7935*p.* mewn mwngloddiau, 124*p.* mewn cloddfeydd, 3700*p.* mewn rheilffyrdd, a 400*p.* mewn nwy-weithfeydd. Poblogaeth yn 1851, 15,424; yn 1861, 17,038. Tai annedd, 3115.

**UST,** sant yn nechreu y 6ed ganrif. Daeth efe a Dyfnig trosodd i'r wlad hon o Lydaw gyda Chadfan Sant, a'r ddau hyn cyd-rhyngddynt a sefydlasant eglwys Llanwrin, sir Drefaldwyn.

**USTEG,** oedd yn byw yn nechreu y seithfed ganrif. Yr oedd efe yn fab i Geraint ab Garannog, ab Cleddyfgar, ab Cynnan Glodrudd, ab Cadell Deyrnllwg. Yr oedd efe yn beriglor neu gyffeswr yn ngoleg Sant Garmon, fel y buasai Dyfrig o'i flaen ef.

**UTHYR BENDRAGON,** oedd fab ieuangaf Cystenyn Fendigaid, ac ar farwolaeth Emrys Wledig, ei frawd, coronwyd ef yn frenin y Brythoniaid, yn y flwyddyn 500 o'r cyfnod Cristionogol. Darfu iddo ddangos llawer o ddoethineb a synwyr yn y gwaith o wrthwynebu y Sacsoniaid, y rhai a orchfygodd efe lawer gwaith. Y mae ei orchestion yn cael eu hadrodd gyda manylrwydd yn y Croniclau Cymreig, ond efallai gyda llawer o chwedlau disail, fel nad ydynt o nemawr gwerth mewn ymchwiliadau hanesyddol, ond ysgybwyd ef ymaith, trwy i'w elynion wenwyno y ffynon, o'r hon y dygid dwfr iddo. Yr oedd Uthyr yn dad i'r brenin Arthur.

**UWCH Y COED,** trefgordd yn mhlwyf Penegos, swydd DREFALDWYN; 1 filldir i'r dwyrain o Fachynlleth. Gwerth ardrethol, 4154*p.* Poblogaeth, 403.

**UWCH Y GARREG,** trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel y pennant, swydd FEIRIONYDD; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o Fachynlleth. Gwerth ardrethol, 920*p.* Poblogaeth, 239.

**UWCH Y GARREG,** trefgordd yn mhlwyf Machynlleth, swydd DREFALDWYN; 6½ milldir i'r de ddwyrain o dref Machynlleth. Gwerth ardrethol, 1769*p.* Poblogaeth, 372.

**UWCH Y MYNYDD,** trefgordd yn mhlwyf Gwyddelwern, swydd FEIRIONYDD; 2 filldir i'r gogledd o Gorwen.

**UWCH Y MYNYDD** (ISAF ac UCHAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Estyn, swydd FFLINT; yn agos i Gaergwrley. Poblogaeth, 321, a 564.

**UZMASTON,** neu ISMISTON, plwyf yn Nghantref Dungleddy, swydd BENFRO; 1½ milldir i'r de ddwyrain o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Llythyr-dref, Hwlffordd. Erwau, 2576. Poblogaeth, 610. Tai annedd, 130. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorïaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 100*p.* Noddwyr, Deon a Glwysgor Ty Ddewi. Y mae y llan, yr hon nid yw namyn adeilad gyffredin a di addurn, wedi ei chyssegru i Sant Ismael.

# V.

**VAENOR** (ISAF ac UCHAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Berriew, neu Aber-rhiw, swydd DREFALDWYN; 4½ milldir i'r gogledd orllewin o Drefaldwyn. Poblogaeth, 91, a 194.

**VAENOR GLARE,** neu Y FAENOR GLER, trefgordd yn mhlwyf Glascwm, swydd FAESYFED; 9½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Gelli. Poblogaeth, 246. Tai annedd, 50.

**VAN** (Y), neu Y FAN, treflan yn mhlwyf Bedwas, swydd FORGANWG; yn agos i Gaerphilli. Erwau, 825. Poblogaeth, 62. Tai annedd, 11.

**VARTEG** (Y), neu Y FARTEG, lle hynod am ei weithfeydd haiarn mawrion, yn mharth gogledd orllewinol swydd FYNWY; 4 milldir i'r gogledd wrth orllewin o Bont y pŵl. Medda lythyrfa dan Bont y pŵl.

**VAUGHAN,** GRUFFYDD, ab Gruffydd, o'r Rhuddallt, a Chors y gedol. Yr oedd y Gruffydd hwn mewn bri mawr gan Jasper, Iarll Penfro, yr hwn a fu yn aros yn ei dŷ ef yn Nghors y gedol, pan yn dianc i Ffrainc, yn amser Edward IV.; a dywaid rhai, fod Harri, Iarll Richmond, (wedi hyny Harri

Digitized by Google

VII., brenin Lloegr,) gyd ag ef. Y mae hen dŷ yn Abermaw, a elwir "Ty Gwyn yn Bermo," yr hwn meddir, a adeiladwyd gan Gruffydd Vaughan, i'r dyben o ddal cyfeillach â blaenoriaid y blaid Lancasteraidd, gan ei fod yn nes at y môr, ac felly yn haws dyfod iddo, a dyogelach i ddianc o hono i'r môr, na'i balas yn Nghors y gedol. Ei wraig oedd Lowri, nith i Owain Glyndwr.

**VAUGHAN**, John, ydoedd un o wehelyth hen Fychaniaid Caergai; ac yr oedd yn fardd Cymreig galluog. Y mae ar gael o'i waith, "Gywydd y Gynddaredd," a gyfansoddodd efe ar rwysg Cromwell, er mewn iaith fwys, rhag disgyn i afael y gyfraith. Y mae y cyfansoddiad wedi ei danysgrifio â'i enw yn Lladin;—"Johannes Vaughan de Caergai."

**VAUGHAN**, Roger, neu Rosier Fychan, ydoedd fab i Walter Sais ab Rosier Fychan, o Lechryd, yn swydd Aberteifi; ac a ddaeth i feddiant o Gastell Bredwardine, yn swydd Henffordd, oddiwrth ei fam Fflorence, merch, a chydaeres i Syr Walter Bredwardine, marchog. Efe a briododd Jane, merch i Syr Walter Devereaux; ac yr oedd yn dad i Syr Roger Vaughan, yr hwn a briododd ferch i Syr Dafydd Gam, ac a wnaed yn farchog ar faes brwydr Agincourt.

# W.

**WAITHMAN**, Alderman Robert, ydoedd fab i rieni tlodion, ond parchus, o Wrecsam, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1764. Bu ei dad farw, pan nad oedd efe ond ieuanc; a chan i'w fam ail briodi, darfu i ewythr iddo, yr hwn oedd yn llian-fasnachydd cyfrifol yn Nghaer-baddon, ei gymeryd ato, a rhoddi iddo ddysgeidiaeth ragorol. I'r perwyl hwnw, dodwyd ef yn nghofal ysgolfeistr medrus o'r enw Moore, rhan o addysg yr hwn ydoedd arfer ei ysgolheigion i lefaru yn gyhoeddus a difyfyr ar unrhyw bynciau a ddodid o'u blaen. Oddiyno, cymerodd ei ewythr ef ato, i'r masnachdy; a phan fu yr ewythr farw yn 1780, cafodd Waithman le yn Reading, ac oddiyno symudodd i Lundain. Wedi cyrhaedd ei un-ar-hugain oed, efe a briododd, ac a agorodd faelfa yn mhen deheuol Marchnad *Fleet Street*, bron ar y fan a'r lle y saif yn bresenol y gofgolofn ithfaen i'w goffadwriaeth. Yn fuan, darfu i'w ymroddiad, a'i lwyddiant, ei alluogi i symud i helaethach lle, sef i gongl *Bridge St.* a *Fleet Street*, lle yr ymfalchiai wrth enill a chadw y cymeriad o ddinaswr Llundain, a masnachwr gonest a diwyrni o'i mewn. Ymneillduodd oddiwrth fasnach yn 1823. Ymddengys iddo ddyfod i sylw fel gwladyddwr yn 1794, pan y cynnygiodd gyfres o benderfyniadau ar y Rhyfel Ffrengig, ac ar y priodoldeb o gael diwygiad seneddol. Cynnelid y cyfarfod hwnw yn y *Common Hall*, a chariwyd y cyfryw benderfyniadau gyda rhwysg yn ddi wrthwynebiad; ac o hyny allan, daeth Waithman yn gymeradwy a phoblogaidd yn mhlith y lluaws. Yn nesaf, etholwyd ef yn aelod o'r Cynghor Cyffredin; a buasai ei areithiau, ei benderfyniadau, ei ddeisebau, a'i anerchiadau, yn llanw cyfrol drwchus. Ei uchelgais ef a'i gyfeillion bellach, ydoedd ei gael yn aelod seneddol dros ddinas Llundain; eithr bu pob ymgais o'i eiddo yn aflwyddianus, hyd yr etholiad cyffredinol yn 1818, pan y dychwelwyd ef gyda mwyafrif mawr, trwy 4603 o bleidleisiau. Yn nesaf, etholwyd ef yn henadur tros y rhanbarth hono o Lundain, a elwid *Farringdon Without*, y rhanbarth bwysicaf o'r Brif-ddinas. Yn etholiad cyffredinol 1820, diseddwyd ef trwy fwyafrif yn ei erbyn o 140 o bleidleisiau. Yn ystod yr un flwyddyn, llanwodd y swydd o sirydd dros Lundain a Middlesex, yn foddhaol ac anrhydeddus; a'r swydd o Arglwydd Faer Llundain, yn 1823-4. Yn etholiadau 1826, 1830, 1831, ac 1833, dychwelwyd ef drachefn yn aelod seneddol dros y brif-ddinas; eithr oblegyd afiechyd, anfynych yr oedd yn y Tŷ. Bu farw yn Chwefror, 1833, a chladdwyd ef yn eglwys St. Bride, *Fleet Street*. Y mae bywyd o'r fath yn wers bwysig a haeddianol o sylw pob gwr ieuanc. Trwy ddiwydrwydd, gonestrwydd, a phenderfyniad, cyrhaeddodd y sefleoedd anrhydeddusaf, fel dyn, a dinesydd. Casglodd gyfoeth mawr, a threuliodd lawer o hono, nid yn ceulo mewn cybydd-dod uwch ei ben, ond yn hyrwyddiant gwareiddiad, ac yn nyrchafiad ei gyd-ddynion. Fel areithydd, yr oedd yn fwy nodedig am lithrigrwydd ei iaith, nag am ei hadduriadau. Fel amlygiad o'i aml rinweddau cyhoeddus a phersonol, cyfodwyd gwyddfaen i'w goffadwriaeth, trwy danysgrifiadau cyhoeddus, a chyfranodd gwŷr o bob plaid tuag at yr amcan canmoladwy.

**WALTERS**, John, oedd yn gymrawd o Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, a mab i'r Parch. John Walters, Llandwf. Yr oedd yn ysgolhaig enwog, ac efe oedd athraw cyntaf ysgol y Bontfaen, ac yn y flwyddyn 1784, gwnaed ef yn athraw ysgol ramadegol Ruthin. Efe oedd awdwr y "Llythyrau at Dr. Priestley," ac ychydig o bregethau achlysurol gwerthfawr iawn. Efe hefyd a ysgrifenodd ragdraith i "Greiriau y Beirdd Cymreig" gan Jones, a dygodd allan argraffiad o'r "Toxophilus," gan Roger Ascham, cyflwynedig i Gymdeithas y Bwawyr Breninol Prydeinig, cyfarfodydd y rhai a lonai yn fynych trwy ei dalentau barddonol, yn y nodweddiad o Fardd Llawrwyddog i'r Gymdeithas. Bu farw, Mehefin 28ain, 1789, pan ddim ond deng mlwydd ar hugain oed, a chladdwyd ef yn Efenechtyd, i'r hwn blwyf yr oedd efe yn rheithor.

**WALTERS**, Parch. John, oedd yn Eiriadurwr dysgedig, a derbyniodd ei addysg yn mhrifysgol Rhydychain, lle y gwnaed ef yn M.A. Wedi ei neillduad i waith y weinidogaeth, cafodd reithoriaeth Llandwf, yn agos i'r Bontfaen, yn sir Forganwg. Yr oedd hefyd yn gorfuddiwr Llandaf, a pheriglor Sant Hilary yn yr un sir. Y gwaith cyntaf a ddygodd trwy y wasg, oedd Traethawd ar y Gymraeg, yn nodi allan ei henafiaeth, ei llawnder, a'i pherffeithrwydd gramadegol, gyda nodiadau ar ei barddoniaeth. Yr oedd y gwaith hwn yn gyfrol wythplyg, wedi ei hargraffu yn y Bontfaen, yn y flwyddyn 1771. Y flwyddyn ganlynol, dygodd drwy y wasg, "Ddwy Bregeth ar Ezeciel xxxiii. 11," y rhai a argraffwyd yn yr un lle. Ond ei brif waith, oedd ei Eiriadur Saesneg a Chymraeg, yr hwn a orphenwyd ganddo yn 1794. Y mae y Geiriadur cyflawn a gwerthfawr hwn, heb ei gyffelyb yn mhriod-ddull brawddegol

Digitized by Google

yr iaith. Dygwyd allan ail argraffiad o hono yn Dolgelley, yn ddwy gyfrol pedwar plyg, yn y flwyddyn 1815, a thrydydd yn Ninbych, yn ddwy gyfrol wythplyg, yn 1828. Bu farw yn mis Mehefin, 1797.

**WALTERSTONE**, treflan yn mhlwyf Llanrhidian, swydd Forganwg; 11 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Abertawe.

**WALTON**, cyd drefgordd a Womaston, yn y rhan hono o blwyf Maesyfed Hên, sydd o fewn ffiniau bwrdeisiol Maesyfed Newydd, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru; 3¼ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Faesyfed Newydd. Gwerth ardrethol, 1756*p.* Poblogaeth, 219. Tai annedd, 47. Medda lythyrfa, a elwir Walton, swydd Faesyfed.

**WALTON** (Ddwyreiniol), plwyf yn nghantref Dungleddy, undeb Hwlffordd, swydd Benfro; 2 filldir i'r gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd *Clarbeston Road*, a 7½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Hwlffordd. Llythyrfa, Hwlffordd. Erwau, 1893. Gwerth ardrethol, 1490*p.* Poblogaeth yn 1861, 223. Tai annedd, 40. Yr oedd y plwyf yma gynt yn perthyn i urdd marchogion St. Ioan, o Jerusalem, yn Slebech, i'r hwn sefydliad ei dyroddwyd gan ei berchenog Normanaidd, Walter de Wale, oddiwrth yr hwn y cafodd ei enw, Tref Wale, neu Walton. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 60*p.* Noddwr, Cadben F. L. Lloyd.

**WALTON** (Orllewinol), plwyf yn nghantref y Rhos, undeb Hwlffordd, swydd Benfro, ar lan beisfor St. Bride, 6¼ milldir i'r gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Llythyrfa, Hwlffordd. Erwau 1408, o ba rai y mae 115 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1997*p.*, o'r hyn y mae 380*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1871, 374. Tai annedd, 89. Y tiroedd ydynt yn meddiant ychydig nifer. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, unedig â Thalbenny, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 354*p.* Noddwr, y Parch. E. F. Woodman.

**WALWIN'S CASTLE**, neu Castell Walwyn, plwyf, yn nghyda phentref *Silverhill*, yn undeb Hwlffordd, swydd Benfro, 7 milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Llythyrfa, Hwlffordd. Erwau, 2904. Gwerth ardrethol, 2874*p.* Poblogaeth, 326. Tai annedd, 64. Y mae y tir-feddianwyr yn lluosog. Hen enw Cymreig y plwyf hwn oedd Castell Gwalchmai; a gellid meddwl ei fod wedi cael y cyfryw enw oddiwrth y traddodiad o fod Gwalchmai, cefnder y brenin Arthur, a rhyfelwr o faintioli cawraidd, pan ei gyrasid o'i ettifeddiaeth yn Galway, wedi cyfarfod â llongddrylliad ar y gororau hyn, ac iddo gael ei gladdu yn y fan hon; a dywedir iddynt ddarganfod ei weddillion yma yn nheyrnasiad Gwilym y Gorchfygwr. Yr oedd yma hen gastell, ar adeg dra boreuol; ond ni's gwyddys gan bwy ei hadeiladwyd, nac yn mha oes. Y mae tomen-fryn yn agos i'r eglwys, am yr hwn y tybia rhai ei fod yn nodi gorsaf yr hen gastell; ond gan nad oes dim olion adeiladau o un math yn y lle, barnodd eraill nad yw y domen-fryn gelfyddydol yma, yn ddim amgen na gwyddfa a gyfodwyd ar gorph rhyw bennaeth enwog; Gwalchmai ei hunan, efallai.

**WARREN**, plwyf yn nghantref Castell Martin, ac undeb Penfro, yn swydd Benfro; 5 milldir i'r de dde orllewin o orsaf rheilffordd Penfro. Swyddfa llythyrau, yn nhref Penfro. Erwau, 1169. Gwerth ardrethol, 1029*p.* Poblogaeth, 151. Tai annedd, 24. Y mae holl diroedd y plwyf yn perthyn i un ettifeddiaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig a St. Twinnell, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 121*p.* Noddwyr, Deon, a Glwysgor Ty Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Mair, sydd yn adail henafol, ac iddi dŵr petryal, ar yr hwn y mae pig-dwr o feini. Y mae paladr hen groes yn y fynwent; ar yr hwn y mae pen croes gylchog, wedi ei dodi. Dywaid traddodiad, fod crefydd-dy yn yr hen amser, ar ammaethfa a elwir Warren, yn y plwyf hwn; ond nid oes unrhyw weddillion o hono yn aros, a'r unig gofiannau o'i fodolaeth, ydynt enwau amryfal leoedd yn y gymmydogaeth, y rhai y gellid casglu eu bod wedi deillio oddiwrth y cyfryw sefydliad. Y mae olion hen amddiffynfa, o ffurf gylchawg, ac mewn cadwraeth weddol hyd yr oes yma, mewn maes rhwng y lle hwn ag eglwys plwyf Twinnel. Fe'i diffynid gan dri rhagfur, a mynedfa iddi ar yr ochr orllewinol; ac ymddengys ei bod gynt yn lle cadarn iawn. Mesura y llanerch o fewn y rhagfur nesaf i fewn, yr hwn yw y mwyaf cyfan, tuag erw o dir. Ymddengys ei fod yn un o linell o amddiffynfeydd a gyfodai yr hen frodorion, i gadw y gororau de-orllewinol hyn, rhag gwib-ruthrau yspeilgar y Sacsoniaid, a'r Daniaid.

**WATKINS**, Parch. Joshua, a ymunodd yn ieuanc gyda'r Bedyddwyr yn Llanwenarth, sir Fynwy; ac wedi bod yn ddefnyddiol fel cynorthwy i amryw weinidogion, yn sefydliad cynulleidfaoedd i'r enwad, yn Rhymni, Tredegar, Llangynidr, &c., efe a symudodd i Gaerfyrddin, yn gynorthwy i'r Parch. Morgan Rees, gydag argraffu a golygu cyhoeddiad misol, o'r enw Cylchgrawn Efengylaidd, yn nechreu 1795. Yr oedd Mr. Rees wedi yfed yn helaeth o ysbryd gwerinol llywodraeth Ffrainc, a dangosodd hyny mewn cyfrinachau ac ysgrifeniadau, a chyhuddwyd ef o fod y peth a elwid yn Jacobin. Gan fod Mr. Watkins yn gyfaill iddo, drwgdybiwyd yntau hefyd, a bu orfod i'r ddau ffoi o'r dref, rhag cael eu carcharu, cyn cyhoeddi mwy na phum' rhifyn o'r Cylchgrawn. Yn 1796, gwahoddwyd ef adref i gymeryd gofal cynulleidfa o Fedyddwyr yn Penuel, Caerfyrddin, a chafodd lonyddwch. Ordeiniwyd ef Mawrth 28, 1796. Yn 1799, ymadawodd a'r Bedyddwyr Neillduol, ac ymunodd a'r Bedyddwyr Cyffredinol. Ond yn gweled fod gogwyddiad yr enwad hwnw at Undodiaeth, yn 1835, dychwelodd yn ei ol. Yr oedd yn weinidog efengylaidd, a gwir lafurus, fel ag y bu ganddo law yn ffurfiad agos holl gynulleidfaoedd y Bedyddwyr yn amgylchoedd Caerfyrddin.

**WATKINS**, Parch. Thomas, M.A., F.R.S., person Llandyfaelog, a ficer Llandefalle, yn sir Frycheiniog. Yr oedd yn Ynad Heddwch tra llafurus ac yn is-rhaglaw y sir. Ymwelsai a'r Cyfandir yn more ei oes; ac ar ol dyfod adref, cyhoeddodd, *An Account of his Travels in Greece.* Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol. Bu farw yn Pennoyra, ger Aberhonddu, yn 1820, yn 68 oed.

**WAUN** (Y), llandref yn mhlwyf Nantglyn, swydd Ddinbych; 4¼ milldir i'r de orllewin o Ddinbych.

**WAUN** (Y), a elwir gan y Saeson Chirk, plwyf, a thref fechan, yn nghantref y Waun, swydd Ddinbych. Y mae y dref fechan hon yn gorwedd bron ar derfyn Cymru, gerllaw yr afon Ceiriog, Dyfr-ffos Ellesmere, a rheilffordd y Mwythig a Chaer, yn agos i Glawdd Offa, 9½ milldir i'r dehau wrth orllewin o Wrecsham. Y mae yma lythyrfa, dan Riwabon, gorsaf rheilffordd, a phrif westty; a chynnelir yr

Digitized by Google

is-frawdlysoedd yma. Cedwir Ffeiriau yma ar Chwef. 10, Meh. 10, Awst 12, a Tach. 12. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgyrdd Bryn Cynallt, Halton, a Phen y clawdd. Mesura o erwau, 4635. Gwerth ardrethol, 10,355*p*. Poblogaeth yn 1861, 1630; yn 1871, 1919. Tai annedd, 371. Y mae y tiroedd yn rhanedig rhwng arglwyddi Castell y Waun, a Bryncynallt. Y mae Castell y Waun yn sefyll ar linell Clawdd Offa, ar lechwedd dwyreiniol bryniau y Berwyn, oddeutu ½ milldir i'r gogledd orllewin o'r dref; a dywedir ei fod ar orsaf hen gastell boreuach, a elwid "Castell Crogen." Fe'i hadeiladwyd yn adeg teyrnasiad Edward y Cyntaf, gan Roger Mortimer; a bu drachefn yn mherchenogaeth y Fitz-alans, y Stanleys, ac ereill. Y mae yn adeilad fawreddog, yn gastellawg, a thrwy ei fod ar fryn, y mae yn wrthddrych tra nodedig, ac yn weledig o'r amrywiol wledydd cylchynol. Dywaid rhai, y gellir cael golwg o ben y castell ar ddiwrnod clir, ar ranau o ddwy ar bymtheg o wahanol siroedd: ac y mae yn y castell amryw henafiaethau dyddorol, a chynnyrchion cywrain celfyddyd. Mae yr afon Ceiriog yn llifeirio ar ystlysau gorllewinol a deheuol y castell, trwy lyn dwfn a rhamantus, neu ddyffryn cul, yr hwn sydd yn hynod mewn hanesiaeth fel y fan lle yr ymladdwyd brwydr waedlyd yn 1165, rhwng rhan o fyddinoedd Harri yr ail, â'r Cymru, dan eu tywysog dewrwych Owain Gwynedd. Yr oedd Harri, gyd a'r amcan o oresgyn Gwynedd, wedi cynnull byddin fawr yn Nghroesoswallt, tra y cynnullai y Tywysog Cymreig ei filwyr i Foel Athrywyn, gerllaw Corwen; ac yn ei awydd am derfynu yr ymrafael, prysurai y penteyrn Seis'nig i gyfarfod ei elyn, ond fe'i hattelid yn y dyffryn hwn, gan goed anhygyrch, y rhai yr archai i'w wŷr eu tori i lawr, rhag i'r gelyn gael mantais i gynllwyn ynddynt, ac efe a gyfleai ei bicellwyr, a blodeu ei fyddin, i amddiffyn yr arloeswyr tra y cyflawnent y gwaith a roddasid iddynt. Tra yr oeddynt ar y gorchwyl hwn, rhuthrai y Cymru mewn cynddaredd ofnadwy ar y Saeson, a brwydr waedlyd a fu y canlyniad, yn yr hon y torwyd cymaint ar nerth Harri, fel y bu raid iddo encilio yn ôl i'r tiriogaethau Seis'nig, a rhoddi ei amcan i fynu.

Y mae Bryncynallt, palas arglwydd Dungannon, yn adeilad ardderchog arall yn y plwyf hwn. Adeiladwyd y palas hwn yn y flwyddyn 1619, oddiar gynllun yr arch-adeiladydd enwog, Inigo Jones; mae yn wir ei fod wedi ei agyweirio, a'i addurno i fesur helaeth o fewn yr oes hon, gan arglwydd Dungannon, i'r hwn y disgynodd yr ettifeddiaeth yn y llinell fenywaidd, oddiwrth y Treforiaid. Byddai y diweddar Ddug Wellington, a'i frawd, Ardalydd Wellesley, yn arfer ymweled a'r lle hwn yn fynych yn nyddiau eu hieuenctyd; ac y mae traddodiad yn y gymmydogaeth, y byddai bachgen a geneth i un o weithwyr Bryncynallt, yn gymdeithion i'r ddau foneddwr ieuanc yn eu chwareuyddiaethau, a'u gwibdeithiau o amgylch y palas; ac un diwrnod, aeth yn ymrafael rhwng Dafydd, bachgen y gweithiwr, âg Arthur, (y Dug o Wellington wedi hyny); ac o ymdaeru, aeth y ddau fachgen i ymladd; a'r brawd henaf, (wedi hyny yr Ardalydd Wellesley), yn gweled ei frawd yn cael ei guro gan y Cymro, a aeth i gynnorthwyo ei frawd; ar hyny, daeth chwaer Dafydd yn mlaen, i achub cam ei brawd; a'r plant Cymreig a ddaethant o'r frwydr yn fuddugoliaethus. Yn mhen llawer o flyneddoedd, pan oedd Syr Arthur wedi ei bennodi yn Faes-lywydd y byddinoedd Prydeinaidd, ac ar gychwyn i'r Hispaen, efe a gofiodd am Dafydd, ac a anfonodd at ei geraint yn Mryncynallt, i erchi iddynt geisio cyflogi Dafydd i fyned yn was iddo; ond ni fynai Dafydd fyned; gan ei fod yn hoffi llanerchau heddychol Cymru yn fwy na broydd terfysglyd a gwaedlyd Hispaen. Wedi treigl rhai blyneddoedd yn mhellach, pan oedd y boneddwr yn uchder ei urddas, yn y canlyniad i fuddugoliaeth fyth-gofiadwy Waterlŵ, efe a dalodd ymweliad i'w hen gyfeillion yn Mryncynallt, lle y cyrchai holl fonedd y gwledydd cymmydogaethol, er amlygu eu hedmygedd o'r arwr enwog: anfonodd ei arglwyddiaeth am Dafydd i ddyfod i'w bresenoldeb; ac wedi peth ymddiddan di rodres, dywedai y Dug urddasol yn chwareus wrtho, "Wel Dafydd, tydi a'm curaist mewn brwydr pan oeddym yn blant, oni wnaethost?" —"Yr ydwyf yn meddwl i mi wneyd, fy Arglwydd," medd Dafydd, yn wylaidd. "Ellit ti ddim gwneyd hyny yn awr, a ellit ti?" medd y Dug. "Rhynged bodd i'ch arglwyddiaeth daflu y cleddyf yna o'r neilldu, ac yna ni hidiwn ddim a threio brwydr eto a'ch arglwyddiaeth, â dyrnau moelion," ebe Dafydd: ar yr hyn y chwarddai y Dug yn galonog, gan roddi guni i'w hen orchfygwr.

Y mae arglwyddiaeth y Waun yn cynnwys plwyfi y Waun, Llangollen, a Llansantffraid Glyn Ceiriog. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 570*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Mae yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i'r Forwyn Fair, yn adeilad eang a hardd, gyda thŵr petrual, yn yr hwn y mae amryw glychau rhagorol: cynnwysa amryw goflechau i deuluoedd Miltwniaid, Castell y Waun; a Dungannon, neu yr hen Dreforiaid, o Fryncynallt; yn enwedig cortfyll marmor hardd o Syr Thomas Myddelton, blaenor effro yn y fyddin Seneddol, a delweddiad arall o'i bendefiges. Yma hefyd y claddwyd Dr. Walter Balcanqual, difeinydd Ysgotaidd o gryn enwogrwydd, yr hwn a gynnrychiolai ei wlad yn Nghymmanfa Dort, yn y flwyddyn 1618, ac a ddyrchafasid yn olynol i ddeoniaethau Rochester, a Durham. Yn y canlyniad i'w deyrngarwch, efe a ddaethai yn nod dygasedd ei gydwladwyr, fel y bu raid iddo encilio i gastell y Waun am loches, yn y flwyddyn 1645, ac efe a fu farw yno ar y dydd Nadolig canlynol; a chyfodwyd cof-lech furawl fechan iddo, gan Syr Thomas Myddelton, ar gais yr hwn y darfu i Dr. Pearson, oedd y pryd hyny yn Esgob Caer, ysgrifenu bedd-gerdd dlysgain iddo. Perthyna i'r plwyf hwn oddeutu chwech ugain punt o elusenau blyneddol.

Y mae cantref y Waun yn cynnwys pump o blwyfau heblaw y plwyf hwn, a rhanau o dri phlwyf arall; a mesura yn erwau, 75,568. Poblogaeth, 12,469. Tai annedd, 2588.

**WAUN FAWR** (Y), capeloriaeth yn mhlwyf Llanbeblig, swydd GAER-YN-ARFON; 4 milldir o orsaf rheilffordd Caer-yn-arfon. Medda lythyrfa dan Gaer-yn-arfon. Trwy gyfagosrwydd y lle hwn i amryw lechgloddfeydd cynnyddol, y mae poblogrwydd yr ardal hon wedi cynnyddu yn ddirfawr yn ystod y chwarter canrif ddiweddaf. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn gydiedig â'r eiddo Llanbeblig.

**WAUNRHWYDDFYD** (Y), pentref yn mhlwyf y Wyddgrug, swydd FFLINT; yn agos i dref y Wyddgrug.

**WAUN WEN** (Y), trefgordd yn mhlwyf Gladestry, swydd FAESYFED; 4¼ milldir i'r de dde ddwyrain o Faesyfed Newydd.

Digitized by Google

**WEN** (Y), cyd drefgordd â'r Ganol, yn mhlwyf Llansawel, swydd GAERFYRDDIN; 8¼ milldir i'r gogledd o Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol Wen a'r Ganol yn nghyd, 2327*p*. Poblogaeth, 301.

**WENFO**, plwyf, yn nghantref Dinas Powys, swydd FORGANWG; 5¼ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Caerdydd. Medda lythyrfa, dan Gaerdydd. Erwau, 2955. Gwerth ardrethol 2997*p.*, o'r hyn y mae 200*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 466. Tai annedd, 95. Bernir mai hen enw Cymreig y lle hwn oedd "Gwynfa," yr hwn a lygrwyd yn Wenfo gan ei berchenogion Normanaidd. Yr oedd yma hen gastell yn yr oesoedd boreuol, am yr hwn y dywaid *Leland*, ei fod yn adfeiliedig hyd yn nod yn ei amser ef, yn gynnwysedig o un twr yn unig, ac ychydig ddryllynau o'i furiau; ac y mae yr un ysgrifenydd yn darlunio ffynnon o fewn chwarter milldir iddo, wedi ei chylchynu â magwyr; o'r hon y tarddai afonig, a elwid "y Silly." Y mae palas ysplenydd Mr. Jenner yn gorwedd ar orsaf yr hen gastell. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llandâf; gwerth, 363*p*. Noddwr, R. Jenner, Ysw.

**WENTLLWG**, neu GWENT LLWG, cantref yn y parth de orllewinol o swydd FYNWY; yn cynnwys 17 o blwyfau, ac yn cael ei ddosbarthu yn ddwy ran;—yr uchaf, a'r isaf. Mesura yn erwau, 44,399 a 29,520. Poblogaeth yn 1861, 51,442; yn 1871, 60,023. Tai annedd, 11,455.

**WENTWOOD**, neu GOED GWENT, coedwig yn y parth de ddwyreiniol o swydd FYNWY; 4¾ milldir i'r de dde ddwyrain o Fryn biga. Y mae yn perthyn i'r Dug o Beaufort. Dywedir fod y wigfa hon yn cael ei chylchynu yn y canol oesoedd terfysglyd, gan chwech o gestyll, sef cestyll Dinham, Penhow, Pencoed, Llanfaches, Llanfair, a Chastrogy. Mae yn debyg iddynt gael eu hadeiladu gan deulu y *Clares*, y rhai a ddarostyngasent y rhan hon o Went; er cadw y brodorion danodd, a dïogelu y tiriogaethau a drawsfeddiannasent, trwy y cyfryw gyfres o amddiffynfeydd bychain, neu balasau castellawg.

**WEPRE**, neu WEPRA, trefgordd yn mhlwyf Llaneurgain, swydd FFLINT; ar lan yr afon Dyfrdwy, 4¼ milldir i'r gogledd orllewin o Ben-ar-balawg; ac oddeutu 4 milldir i'r de ddwyrain o dref Fflint. Gwerth ardrethol, 3695*p*. Poblogaeth, 709. Tai annedd, 156.

Yn yr hen amser, delid y drefgordd hon gan William de Malbedeng, dan eglwys Caerlleon. Daeth y Wepra yn eiddo i deulu pendefigaidd o'r cyfenw Fitzherbert, trwy brïodas un o honynt â Miss. Owen, ettifeddes yr Esgob Dafydd Owen, o Lanelwy. Mae yn debyg mai enw y lle ar y cyntaf oedd Gwybre, o *Gwy*, dwfr, a *bre*, bryn; ac fe'n hysbysir fod yr holl ranau hyny o blwyf Llaneurgain sydd yn gorwedd ar lan yr afon Dyfrdwy, yn un goedwig wyllt, anhygyrch, tu a'r ddeuddegfed ganrif. Yn mhlas y Wepra, y bu yr Arglwydd Petre yn ymguddio, yn amser rhwysg Olifer Cromwell.

**WESTFA**, neu Y WESTFA, treflan yn mhlwyf Llanelli, swydd GAERFYRDDIN; yn agos i dref Llanelli. Gwerth ardrethol 3284*p.*, o'r rhai y mae 26*p.* mewn mwngloddiau, 8*p.* mewn chwareli, a 40*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 1094; yn 1861, 1511. Tai annedd, 289.

**WESTON MADOC**, trefgordd yn mhlwyf Churchstoke, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r de dde ddwyrain o Drefaldwyn. Poblogaeth, 97.

**WEYTHEL**, neu GWYDDEL, pentref yn nhrefgordd Maesyfed Hen, ac mewn rhan yn mhlwyf Gladestry; o fewn terfynau bwrdeisiol tref Maesyfed Newydd, swydd FAESYFED.

**WHITE**, JOHN, ydoedd ail fab Henry White, Ysw., o Henlan, sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1590. Derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1607; ac wedi arosiad yno am beth amser, symudodd i'r Deml Ganol yn Llundain, i efrydu y gyfraith, lle y daeth yn mhen yspaid yn Feistr y Fainc i'r Gymdeithas hono. Gan ei fod yn enwog fel cynghorwr yn y gyfraith, dewiswyd ef gan y blaid Buritanaidd, yn nyddiau y Werinlywodraeth, yn un o'r *Feoffees*, neu y rhai a brynent i mewn yr eiddo a'r bywiolaethau eglwysig oddi gan wyr lleyg y blaid wrthwynebol, er mwyn anrhegu eu cyfeillion eu hunain â hwynt. Yn 1640, etholwyd ef yn aelod o'r Senedd Hir, lle yr enwogodd ei hun yn fawr trwy ei ymosodiadau chwerwon ar yr esgobion, a'r canonwyr, ac yr etholwyd ef yn aelod o Bwyllgor Crefydd. Efe mewn gwirionedd oedd cadeirydd y pwyllgor hwnw, ac mewn gelyniaeth annghymodlawn yn erbyn clerigwyr yr Eglwys Sefydledig ddiweddar, nid oedd un o honynt a elai tuhwnt iddo. Cyhoeddwyd rhai o'i areithiau Seneddol yn 1641, tan y teitl, *The first century of scandalous malignant Priests, made and admitted into benefices by the Prelates;* a llyfr arall yn erbyn esgobyddiaeth, yn 1644, yn dwyn yr enw, *The Looking Glass.* Bu farw Ionawr 29, 1644–5, a chladdwyd ef yn eglwys y Deml.

**WHITE CASTLE**, hen gaerfa yn y parth gogleddol o swydd FYNWY; 5¼ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Abergafenni. Fe'i rhoddwyd gan Harri III., i Hubert de Burgh; ac y mae yn bentwr mawr o adfeilion yn bresenol.

**WHITECHURCH**, plwyf, mewn rhan yn nghantref Caerphilli, ac mewn rhan yn nghantref Cibwr, swydd FORGANWG; ar lan yr afon Tâf, neu y Taff, 1 filldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llandaf. Medda lythyrfa, dan Gaerdydd. Erwau, 3192. Gwerth ardrethol, 6409*p*. Poblogaeth yn 1851, 1661; yn 1861, 2274; yn 1871, 2722. Tai annedd, 562. Achosid cynnydd cyflym poblogaeth y plwyf hwn gan gynnydd y gweithfeydd alcan, a haiarn. Y mae yma olion hen wersyllfa filwraidd, yr hwn y bernir ei fod o wneuthuriad Rhufeinaidd; ac y mae yma garnedd uchel; ond nid oes genym oleuni hanesyddol arnynt. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 300*p*. Noddwr, Esgob Llandaf. Y mae yr eglwys mewn cywair da, ac y mae amryw addoldai Ymneillduol yn y plwyf.

**WHITECHURCH**, plwyf yn undeb Hwlffordd, swydd BENFRO, ar lan beisfor St. Bride, 3 milldir i'r dwyrain wrth ddehau o Dy Ddewi, a 12¼ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Cynnwysa bentref Solfa, lle y mae llythyrfa, dan Hwlffordd. Mesura yn erwau, 3138. Gwerth ardrethol, 3159*p*. Poblogaeth yn 1851, 1252; yn 1861, 1085; yn 1871, 882. Tai annedd, 255. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 101*p*. Noddwyr, Esgob, a Glwysgor Ty Ddewi. Y mae yma leoedd addoliad perthynol i'r Bedyddwyr, ac i'r Trefnyddion, Calfinaidd, a Wesleyaidd. Yn Nghaerforiog, yn y plwyf hwn, y ganwyd Adam Huton, Esgob Ty Ddewi, yr hwn a fu yn llys-genhadydd i Ffrainc, ac Arglwydd Uchel Ganghellydd Prydain Fawr.

Digitized by Google

**WHITECHURCH**, treflan yn mhlwyf Dinbych, swydd DDINBYCH; 1 filldir i'r dwyrain o dref Dinbych.

**WHITECHURCH**, neu yr EGLWYS WEN, plwyf yn nghantref Kemmes, swydd BENFRO, 6½ milldir i'r de ddc orllewin o orsaf rheilffordd Aberteifi. Llythyrfa, Aberteifi. Erwau, 2481. Gwerth ardrethol, 1589*p.* Poblogaeth, 310. Tai annedd, 71. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 113*p.* Noddwr, T. Lloyd, Ysw.

**WHITFORD**, neu RHYDWEN, plwyf yn undeb Treffynnon, swydd FFLINT. Y mae y plwyf yn gorwedd 2 filldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Mostyn; a 3 milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Treffynnon; gan ymestyn hyd at gaincfor y Dyfrdwy; ac yn cynnwys ynddo wyth o drefgyrdd. Medda lythyrfa, dan Dreffynnon. Mesura y plwyf hwn 13,065 o erwau, o ba rai y mae 5210 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 21,270*p.*, o'r hyn y mae tua 9337*p.* mewn mwngloddiau, a 161*p.* mewn chwarelau. Poblogaeth yn 1851, 3884; yn 1861, 3666; yn 1871, 3929. Tai annedd, 821. Y mae arwynebedd y plwyf hwn wedi ei addurno â phalasau amryw o uchel fonedd y wlad. Yma y mae Neuadd Mostyn, palas Arglwydd Mostyn. Cymmun-roddwyd yr ettifeddiaeth hon i'r diweddar Syr Edward Lloyd o Bengwern, gan y diweddar Syr Thomas Mostyn, Barwnig; cyfenw yr hwn a gymerodd ef yn y canlyniad, sef Edward Mostyn Lloyd Mostyn. Daethai yr ettifeddiaeth i'r Mostyniaid oddiwrth eu henafiad, Ieuan Fychan, disgynydd o Tudyr Trefor, Iarll Henffordd; yr hwn a'i cawsai yn nheyrnasiad Rhisiard y Cyntaf, trwy ei brïodas âg Angharad, ettifeddes Howel ab Tudyr ab Ithel Fychan, o Fostyn, yr hwn a olrheiniai ei haniad o Edwyn, arglwydd Tegeingl. Mae yn debyg fod y rhan henaf o balas Mostyn wedi ei adeiladu mor foreu a theyrnasiad Harri VI.; ond y mae y rhan fwyaf o'r adeilad presenol, wedi ei adeiladu tu a'r flwyddyn 1631. Cynnwysa yr amryfal ystafelloedd luaws o ddarluniau paentiedig da, ac ardebau, yn benaf o aelodau o'r teulu; ac wedi eu haddurno yr un modd â delwadau henafol. Y llyfrgell a gynnwysa gasgliad gwerthfawr o lyfrau, llawer o honynt yn ysgrif-lyfrau gwerthfawr, gan mwyaf o honynt ar femrwn, a llawer o honynt yn hardd dros ben; cynnwysa hefyd lawer o henafiaethau Rhufeinaidd ceinwych, a chreiriau eraill o'r oesau gynt, yn mysg pa rai y mae y deisen efydd a gafwyd yn Nghaer Rhun, swydd Gaer yn arfon; y delyn arian a roddes y frenines Elizabeth i Thomas Mostyn, yn y flwyddyn 1568, i'w dyroddi yn wobrwy i'r bardd medrusaf yn yr Eisteddfod a gynnelid yn Nghaerwys y flwyddyn hono, a'r tyrch aur a ddarganfuwyd yn agos i gastell Harlech, yn y flwyddyn 1692. Yn y ty hwn y bu Harri, Iarll Richmond, yn geledig, tra yn cynllunio dymchweliad Tŷ Caerefrog; a phan ddeallodd Richard y Trydydd i ba gymmydogaeth yr enciliasai, efe a anfonodd fintai o wyr arfog i'w erlyn, a'i gymeryd i ddalfa; ond, gallodd yr Iarll ddianc trwy dwll oedd yn nghefn y ty, yr hwn a elwir hyd heddyw, "Twll y Brenin." Yr oedd y tywysog wedi eistedd wrth y bwrdd, ar fyned i giniawa, pan ddaeth cennad i fewn â'r newydd fod gwŷr y brenin Rhisiard yn nesau at y tŷ, ar yr hyn y dïangodd y tywysog yn ddiattreg drwy ffenestr gefn, tra yr eisteddai y gweddill o'r teulu wrth y bwrdd, gan ddechreu ciniawa, fel pe na buasai dim aunghyffredin wedi cymeryd lle. Pan ddaeth swyddog y brenin Rhisiard i fewn, efe a ofynai "A oedd Harri o Richmond i fewn?" i'r hyn ei hattebwyd gan wr y ty, nad oedd yno neb o'r cyfryw enw. Yna, y swyddog, yn canfod lle yn wâg wrth y ford, ac offer bwytta ar ei gyfer, a ofynai ar gyfer pwy yr oeddynt wedi eu darpar? i'r hyn yr attebid, mai dyna oedd arfer y tŷ, rhag y dygwyddai i ryw gyfaill alw heibio ar adeg ciniaw; ac yn awr, ychwanegai gwr y ty, "yr ydwyf yn eich cymeryd chwi yn gyfryw gyfaill, gan hyny cymerwch yr eisteddle wag, a chyfranogwch o'n ciniaw." Rhisiard ab Howel, arglwydd Mostyn y pryd hyn, a roddai gymhorth effeithiol i Harri yn mrwydr maes Bosworth, yr hyn a gydnabyddai y brenin yn galonog wedi ennill y fuddugoliaeth; pan y rhoddai ei fawrhydi iddo y gwregys a'r cleddyf a wisgid ganddo y dydd hwnw, fel arwydd o'i ddïolchgarwch iddo, y rhai a gedwid yn mhalas Mostyn dros genedlaethau lawer. Y brenin hefyd a'i cymhellai yn daer i'w ganlyn ef i'r llys; ond efe a roddes atteb ardderchog yn ngeiriau y Sunamees,—"Yn nghanol fy mhobl yr ydwyf fi yn trigo." Teilynga sylw nad oes neb o'n Haneswyr yn rhoddi dim goleuni i ni ar un cyfnod yn oes Harri, cyn ei esgyniad i'r orsedd. Y mae yn amlwg mai yn mysg, a than nawdd rhai o'i gefnogwyr yn Nghymru, y treuliai y tywysog yr adegau pan y diflanai o Lydaw; ac y mae yn debyg mai ar un o'r cyfryw adegau yr oedd efe yn Mostyn, pan gymerai yr amgylchiad a grybwyllwyd uchod le.

Yn amser y rhyfel cartrefol, yr oedd arglwydd y ty hwn, Syr Roger Mostyn, yn gefnogwr gwresog i'r brenin, fel yr oedd y nifer amlaf o foneddigion Cymru; ac mewn deuddeng awr, efe a gyfododd gatrawd o bymtheg cant o wŷr, glowyr gan mwyaf, i gefnogi y goron. Fel hyn y dywaid Whitelock, chwaer yr hwn a brïodasai Syr Thomas Mostyn, o Gilcain, tad Syr Roger, am y boneddwr hwn, er eu bod yn gwahaniaethu yn eu hegwyddorion a'u pleidiau. "Yna, byddinoedd y Senedd, (yn 1643) medd yr Hanesydd," a gymerasant Blas Mostyn, yr hwn a berthynai i'r Milwriad Mostyn, llywydd Fflint; ac yn Mostyn, hwy a gymerasant bedwar o gyflegrau, a rhai arfau eraill. "Y mae y Milwriad Mostyn yn fab i'm chwaer; boneddwr o alluoedd cryfion, a gwrolder mawr; o deulu tra henafol, yn perchenogi ettifeddiaethau ehang, a dylanwad mawr yn y wlad hono, fel y darfu iddo godi pymtheg cant o wŷr dros y brenin, mewn deuddeng awr o amser; yr ydoedd yn hoff iawn yn y gymmydogaeth, ac yn arwedd bywyd gwir bendefigaidd."

Bu raid i'r gwr hwn, a'i deulu, dalu yn ddrud am eu teyrngarwch. Efe a wariodd tua thri ugain mil o bunnau yn ngwasanaeth ei fawrhydi; yspeiliwyd ac anrheithiwyd ei balas yn Mostyn, fel y bu raid iddo ymneillduo i ryw dŷ bychan, a elwid y Plas Uchaf, tua milldir o Fostyn."

Yn y plwyf hwn hefyd y mae Downing, enw sydd yn llygriad o'r hen enw Cymraeg "Tref Eden Owain." Yma y ganwyd yr Henafiaethydd, a'r Naturiaethwr enwog, Thomas Pennant, Ysw. Y tŷ hwn a gyfodwyd gan John Pennant, mab Nicholas Pennant, mab ieuangaf Hugh Pennant, o Bychton. Efe a brïododd ettifeddes y lle, ac a adeiladodd dŷ, oedd yn llawer rhŷ fawr i'r ettifeddiaeth. Dygid y cerryg at yr adeilad o Nant y bi, ar gyfer y tŷ; a dywaid traddodiad, mai treiglo y cerryg a wnelid ar lwyfanau, o ben uchaf y gloddfa, hyd at yr adeilad. Yr oedd yr adeilad ar ffurf y llythyren H, ac ar ei

Digitized by Google

dal-wyneb yr oedd yr arwydd-air crefyddol, a welid amser yn ol ar lawer o hen anneddau bonedd Cymru; —"Heb Dduw, heb ddim: a Duw a digon." Dywaid yr Hanesydd enwog, fod ei or-hendaid o ochr ei dad, yn swyddog yn ngwarchodlu Dinbych, pan ei cymerwyd gan ei or-hendaid o ochr ei fam, sef y cadlywydd Mytton; a bod ei hynafiad teyrn-garol wedi bod yn garcharor am amser maith yn Ninbych, yn y canlyniad. Cafodd Bychton ei yspeilio, a gorthrymid y teulu yn fawr; ac mor galed yr ymddygid atto yntau yn y carchar, fel y buasai wedi newynu yn ol pob tebyg, oni buasai ffyddlondeb ei wraig, yr hon a gerddai o'r plwyf hwn i Ddinbych, gan gludo cydaid o flawd ceirch yr holl ffordd, er tori ei angen. Ond er mor zelog a fuasai y teulu dros achos y brenin, ni bu raid iddynt ddyoddef llawer gyda golwg ar gyfrandaliad cyffredinol y troseddwyr, er cael adfeddiannu eu hettifeddiaethau: ni bu raid i ettifeddiaeth Bychton dalu namyn 42*p.* 14*s.* tra fu raid i Robert Pennant, o'r Downing, dalu 298*p.* am ei ettifeddiaeth, yr hon oedd yn llawer gwaelach, a llai ei gwerth. Yr achos o hyny oedd hyn, yr oedd gan Robert Pennant yn anffodus, gydymaith ieuanc pen-boeth yn ei dŷ, pan nesaodd mintai fechan o filwyr y senedd at y lle, dan dywysiad marchlumanwr. Perswadiai hwn y teulu i wrthsefyll, brys-gaerwyd y drws, a thaniwyd mwsged, trwy yr hyn yr archollwyd y swyddog: ond cymerwyd y tŷ yn fuan, ac fe'i hysbeiliwyd, fel y gallasid dysgwyl: ond mor gymedrol oedd y milwyr, fel na laddwyd neb o'r teulu, a'r unig ddïaledd a roddid arnynt debygid, oedd y dirwy trwm a gyfodwyd arnynt wedi hyny. Y mae Pennant yn adrodd hanesyn digrifol am hen dafarndy sydd ar fin y ffordd o Fostyn i Dreffynnon, a elwir, neu a elwid gynt, "Lletty Gonest." Adeiladwyd y ty ar y cyntaf gan un Smith, o Worcester, mewn rhan i wasanaethu fel dystyllfa; ac mewn rhan i wasanaethu fel ystorfa; ac yn mhellach, fe ddywedir y defnyddid un ystafell o'r ty fel carchar, neu gadwrfa, i'r rhai a dreis-gipid i wasanaethu yn y llynges, pan oedd y fath drafnidiaeth fawr rhwng glowyr yr ardal hon â Dublin; ac yr oedd y barau cryfion oeddynt ar draws ei ffenestri isaf, yn cadarnhau y cyfryw draddodiad, debygid.

Y mae maen-gerfwaith hynod uwch-ben y drws. Un ran sydd ddarlun dychymygol o angenfil, yn meddu pedwar aelod, a phen dallhuan, a'i ewinedd yn cydio mewn pen dynol, wyneb yr hwn sydd yn gwrthdroi, ac yn amlygu arwyddion o boen dirfawr. Yr amrantau ydynt megys wedi eu tynu i fynu, a'r llygaid yr un modd, y genau yn haner agored, a'r dannedd yn gauedig, yn dŷn ar eu gilydd; y wyneb yn ieuangaidd; ond a chern-flew iddo; ac y mae ar y cyfan yn gerf-waith lled gywrain. Yn nheyrnasiad y brenin William, cymerodd amgylchiad lled hynod le mewn cyssylltiad â'r tŷ hwn. Yr oedd tua thri ugain llestraid o win Ffrengig annholledig, wedi ei guddio yn ysgubor fawr Trelacre, yn mhlwyf Llanasa, wedi ei fwriadu at wasanaeth boneddigion y rhan hon o Gymru; ond trwy ryw foddion, yr oedd swyddogion y dollfa wedi cael hysbysrwydd am dano, ac wedi cymeryd meddiant o hono, gan ei ddwyn yn ddïogel can belled â'r "Lletty Gonest," lle y bwriadent gysgu y noswaith hono. Ganol nos, fe'u brawychid drwy ddyfodiad mintai o lowyr i fewn, y rhai a rwymasant bob un oedd yn y tŷ yn ddïogel; ac yna a symmudasant y gwin i gerbydau a barottoisid, gan ei gludo ymaith i leoedd eraill, mor geledig, fel nad ellid cael dim o'i hanes mwyach. Sylwid fod gan amryw o'r glowyr fodrwyau aur ar eu bysedd, a chrysau meinion am danynt; yr hyn a brofai, debygid, mai boneddigion oeddynt, wedi duo eu hwynebau a'u dwylaw, fel yr ymrithient megys glowyr; neu, o leiaf, y cyfryw oedd rhai o honynt, y rhai a ddygasent y glowyr gyda hwy, er adfeddiannu y gwin; ac a'u cyfarwyddent yn ei symmudiad o gyrhaedd swyddogion y goron. Rhoddwyd cyhoeddiad allan, er ceisio darganfod y troseddwyr; ond mor ffyddlawn oedd y bobl i'w gilydd, fel na ddarganfuwyd yr un o honynt byth. Mae yn ddiau y gwyddai y tafarnwr o'r goreu pwy oeddynt; ond er i wobrwyon mawrion gael eu cynnyg iddo, gan swyddogion y tolldy, am fradychu ei gymmydogion, efe a gadwodd y gyfrinach iddo ei hun yn berffaith; a bu fyw yn hir ar ol hyny, gan gael ei gynnal yn gysurus, trwy gyfroddion y boneddigion cymmydogaethol.

Bychton, hen balas yn y plwyf hwn, ac yn nhrefgordd Bychton, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1572, yma y cartrefai teulu Pennant ar y dechreu, y rhai a ymsefydlasent yn y gymmydogaeth hon er y ddegfed ganrif, a changen ieuangach o'r teulu, a symmudodd i Downing, yn nechreu yr ail ganrif ar bymtheg, ar ei ymbrïodiad âg ettifeddes y ty hwnw; un o hiliogaeth pa un a'i cymmun-roddodd i David, tad Thomas Pennant, Ysw.

Y mae gweryd y rhanau isaf o'r plwyf yn drwm, a chleiog; ond y rhan uchaf yn deneu, ysgafn, a sŷch, yn gorwedd ar galch-graig; ac ambell haen achlysurol o raian. Y mae y plwyf yn cynnwys rhan helaeth o welyau glo mawrion Gogledd Cymru. Y mae glofeydd Mostyn, a Bychton, wedi cael eu gweithio er's amser maith iawn; canys deallwn eu bod wedi eu darganfod yn nheyrnasiad Edward y Cyntaf, gan yr hwn eu dyroddid i abbad, a mynachlog y Maes Glas; a thrwy yr ail ganrif ar bymtheg, yr oedd Dublin, ac arfordir dwyreiniol yr Iwerddon yn cael eu glô o'r gymmydogaeth hon; ond, er y flwyddyn 1710, yr oedd crynhoad tywod ar y glenydd hyn mor fawr, fel ag i fod yn attalfa i longau, hyd yn nod o driugain tunnell o lwyth, i ddyfod o fewn dwy filldir i'r lan yn Mostyn; hyd oni wellawyd mordwyaeth yr afon, ar draul y diweddar Syr Thomas Mostyn; ac yn ychwanegol at yr amgylchiad uchod, darfu i ehangiad y glofeydd yn Whitehaven, a manau eraill yn Cumberland, dynu y drafnidiaeth allforawl yn dra llwyr o'r lle hwn. Yn ddiweddar, nid oedd ond glofeydd Mostyn yn unig yn cael eu gweithio, a chynnyrchent tua thri chant o dunnelli o lô, yn feunyddiol, yr hwn a drosglwyddid mewn llestri bychain gyd a'r glanau, i barthau pellach o Ogledd Cymru. Yr oedd yma naw o haenau gwahanol o lô, yn amrywio mewn trwch, o dri chwarter llâth, i bum llâth, yr olaf o ba rai ydoedd ddau gant a deg llâth goris y môr, ac yn cael ei weithio dros oddeutu milldir oddi tano.

Buwyd yn codi plwm, a chalamin hefyd, er's oesoedd yn ol yn y rhanau bryniawg o'r plwyf; ac yn y rhanau isaf, y mae gwelyau o dywod-faen a cherryg nâdd; tra y mae haenau o galch-graig, a chellt-fein, yn y rhan uchaf; ac o'r olaf, cludwyd llawer o bryd i bryd, i swydd Stafford, at wneyd pridd-lestri geirwon, neu i'w ffurfio yn feini, i falu cellt llosgedig. Y mae golygfa ddyeithr i'w chael ar y bryniau yn nhref-gordd Mostyn, gan eu bod wedi eu gwydroli drwyddynt, fel pe buasent wedi eu chwydu allan

Digitized by Google

mewn cyflwr toddedig o losg-fynydd. Priodolir yr olygfa hon i gyflosgiad rhyw ddefnydd tan-feinawl, yr hyn a ddystrywiodd ymddangosiad yr haenau rheolaidd o glei-faen, a thywod-faen, ac a draws-ffurfiodd yr holl sylwedd yn un corff didor gowydraidd, mewn rhan yn amrydwll, ond o galedrwydd y cellt-faen, ac mewn rhai manau o liw teg y fermilion; ond, gan fynychaf, yn amryliw o gôch a glâs. Nid yw y traws-ffurfiad yma yn gyfyngedig i wyneb y serth-allt, ond y mae yn cyrhaedd drwy y graig yn gyffredinol, er yn lleihau yn raddol tu a'r canol-barth, yr hwn o fewn rhyw bellder neillduol oddiwrth yr ystlys, nid yw namyn wedi ei gyfliwio. Wrth wneyd llinell newydd o ffordd, dynoethwyd ystlys darbenol craig am gryn bellder, ac ymddangosai yn fwy durfing nag yn agos i'r arwyneb. Estynai yr un achos ei ddylanwad dan y môr hefyd, gan lwyr ddifa y glo yn ei ffordd; a bu y mwngloddwyr rai blyneddau yn ôl, yn tori trwy y sylwedd caled hwn, mor ddyfn ag wyth droedfedd a deugain goris gwely y Dyfrdwy. Bywioliaeth eglwysig y plwyf hwn sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 382*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae ficeriaethau Mostyn, a Gorsedd, yn fywioliaethau gwahanol; ac y mae amryw addoldai ymneillduol yn y plwyf; a pherthyna 136*p*. o elusenau yn flyneddol i'r plwyf. Cyssegrwyd yr eglwys i Sant Mair, ac y mae yn gorwedd o fewn trefgordd Tre Lan. Cynnwysir o fewn y plwyf amryw greiriau henafiaethol o gryn ddyddordeb; un o ba rai ydyw "Maen Achwynfaen;" yr hwn sydd fath o groes henafol geinwych, ar wastadedd yn agos i fryn y Garreg, gerllaw Pen yr Allt. Y mae wedi ei chyfansoddi o un garreg, ddeuddeg troedfedd o uchder uwchlaw wyneb y ddaear, dwy droedfedd a phedair modfedd o led, yn y gwaelod; a deng modfedd o drwch, yn nghyda phen cynghrwn, yn cynnwys delw o groes Groegaidd ar bob tu iddo. Tua chanol y golofn, ar yr ystlys ddwyreiniol, y mae croes St. Andreas; o'r tu isaf i'r hon y mae, wedi ei gerflunio yn lled annghelfydd, ddelw noeth o ddyn, yn dal ffon, neu bicell, yn ei ddeheulaw; ac yn agos i hyny, ar yr ystlys arall, y mae darluniad o ryw filyn. Y rhanau arall o'r golofn, ar bob ystlys, ydynt wedi eu haddurno a cherfiadau cywrain dros ben; ac y mae bonsang y golofn yn guddiedig yn y ddaear. Pa bryd y cyfodwyd y golofn hon, neu i ba ddyben, sydd ansicr; efallai mai y dybiaeth fwyaf rhesymol ydyw, ei bod wedi ei chyfodi yn y canol-oesoedd, pan oedd Pabyddiaeth mewn rhwysg mawr yn y wlad, ac yr oedd tramwy mynych o Fynachlog y Maes Glas ar un llaw, i Fynachlog Rhuddlan ar y llaw arall; a bod y maen hwn wedi ei gyfodi, a'i gyssegru, fel y lle yr oedd y rhai a ddygent eu penyd, i ddyfod o'i flaen, i wylofain a chwynfan am eu camweddau. Mae yn wir fod yr esgob Gibson, yn ei nodiadau ar Camden, yn crybwyll tybiaeth, mai er côf am ryw frwydr a ymladdwyd yn y gymmydogaeth hon ei cyfodwyd; ac yn sylwi fod lluaws o garneddau yn y plwyf hwn, yn y rhai pan eu hagorwyd y cafwyd gwrnau angladdol, o glai crasedig, a darnau o arfau rhyfel; ond yr hyn sydd fwyaf tebyg ydyw, fod y cyfryw garneddau wedi eu cyfodi er côf am ymgyrch ofnadwy a fu rhwng y Rhufeiniaid a'r Gordofigwys yn y parthau hyn, tu a'r ganrif gyntaf, tra y casglir oddiwrth y cerf-waith ar y maen hwn, nad yw yn henach na'r ddegfed neu yr unfed ganrif ar ddeg. Ar goppa y "Garreg," y bryn uchaf yn y plwyf hwn, y mae gweddillion twr crwn; am yr hwn y bernir yn gyffredin, mai hen oleudy Rhufeinaidd ydyw, a gyfodasid er cyfarwyddo eu pobl yn mordwyaeth y Dyfrdwy. Y mae wedi ei adeiladu o gerryg calch annrhwsiadus, wedi eu cyfleu mewn cymrwd caled; ac y mae yn ddeuddeg troedfedd a chwe modfedd o draws-fesur, o fewn y muriau, y rhai ydynt yn bedair troedfedd a phedair modfedd o drwch, ac o gryn uchder. Y mae dwy fynedfa i'r llawr isaf, yn gymhwys ar gyfer eu gilydd, ac oddiar bob un y mae ffynell ysgwâr, cyffelyb i simfai, yn agored ar yr ystlys allanol, tua haner y ffordd i ben uchaf yr adeilad: ac ymddengys fod dau uchder arall, uwchlaw y llawr hwn. Ychydig droedfeddi o uchder, y mae tri o agorfeydd crynion trwy y mur. Ar hyd grisiau oddifewn, esgynid i oruwch-ystafell, yn muriau yr hon yr oedd wyth o dyllau ysgwar bychain, wedi eu hamlenu â cherryg nadd, a'u hysgaru â phanelau coed: o fewn y parthiadau hyn y cyfleid y goleuadau: cylchynid yr adeilad gan amgaer, a dynesid atto ar hyd ffordd ddyrchafedig, yr hon y gellir ei holrhain eto. Y mae golygfa dra chang i'w chael o ben y bryn hwn, gan gynnwys golygawd ar y Wyddfa, Pen Gogarth, rhan o Ynys Fôn, a beisfor Llanddulas, yn nghyda mor-geinciau y Dyfrdwy, a'r Mersey; ac yn achlysurol, ranau o swyddi Cumberland, a Westmoreland, ac Ynys Manaw. Y mae Clawdd Offa yn croesi y rhan orllewinol o'r plwyf; a gellir canfod olion rhanau o hono. Y mae yn dyfod i fewn i'r plwyf hwn o blwyf Caerwys, yn myned heibio i Lyn Helyg, ar y tu gorllewin, a thrwy blanfeydd Pen y Gelli, lle y mae yn dra pherffaith, ac oddeutu deg troedfedd o uchder; yna y mae yn croesi caeau y Lôn Lâs, lle y mae yn dyfod i gyssylltiad â charnedd fawr; ac yna y mae yn cyfeirio tua New Market, gan barhau ar y llaw ddehau i'r ffordd fawr, hyd Dre'r Abbad; lle y mae yn croesi y ffordd, a chanfyddir ef agos yn berffaith ar y llaw aswy, lle y mae yn ffurfio y ffin rhwng plwyfi Rhydwen, a Llanasa; ac wedi hyny, rhwng y plwyf olaf â New Market; yna, croesa y ffordd ger y Marian, a chan gyfeirio o'r tu dwyrain i New Market, ysgara blwyfi Llanasa, a Gwaen-isgaer, a therfyna ar lan y môr, yn agos i Dalacre.

Yn agos i'r Orsedd, yn nhrefgordd Ednowain, y safai Castell Ty'n y Maen, un o balasau Ednowain Bendew, arglwydd Tegeingl yn yr unfed ganrif ar ddeg, a phen un o bymtheg llwyth Gwynedd: nid oes dim o'r hen amddiffynfa yma yn aros yn awr, oddieithr y dommen-fryn uchel ar yr hon y safai, yr hon a orchuddir yn awr â phlanwydd heirdd.

Trefgordd Tre Abbad, a gafodd yr enw hwnw oddiwrth y ffaith o'i bod gynt yn haf-drigle Abbadau y Maes Glas, i frawdoliaeth yr hon Fonachlog y rhoddasai Edward y Cyntaf lawer o diroedd, a mwngloddiau, yn y plwyf hwn.

Ar lan Llyn Helyg, yn mhen uchaf y plwyf hwn, y claddwyd corph Cadben Edward Morgan o'r Plas Captain; yr hwn a laddwyd mae yn debyg, mewn ysgarmes â rhai o wŷr y Senedd. Yr oedd ef o'r un teulu parchus a Morganiaid Gwylgre, yn mhlwyf cyfnesawl Llanasa. Ryw bryd yn y ganrif ddiweddaf, darfu i ryw wr o chwilfrydedd, agor y bedd; a chanfu ysgerbwd dynol ynddo; am ei ben yr oedd cap coch, o felfed; a chadach sidan am ei wddf. Gerllaw iddo, gorweddai ei gleddyf, a'i helm; ac oddi tan yr ysgerbwd yr oedd dwy belen o blwm, y rhai mae yn debyg a syrthiasent o'r corph ar ei ddadansoddiad, yr hyn

Digitized by Google

a wiriai y traddodiad, mai cwympo mewn brwydr a wnelsai yr hen wron yn amser y rhyfel cartrefol, ac iddo, yn unol â'i gais ei hun, gael ei gladdu yn y fan lle y cwympodd.

**WHITLAND.** Gwel Ty Gwyn, neu "Y Ty Gwyn ar Daf."

**WHITTON,** plwyf yn nghantref Cefn llŷs, undeb Llanandras, swydd Faesyfed; 3½ milldir i'r de orllewin wrth ddehau o orsaf rheilffordd Tref y Clawdd, (*Knighton*). Llythyrfa, Llanandras, (*Presteigne*), swydd Faesyfed. Erwau, 1549. Gwerth ardrethol, 1060*p*. Poblogaeth yn 1861, 115; yn 1871, 71. Tai annedd, 15. Ychydig ydyw nifer tir-feddianwyr y plwyf; ac y mae y boblogaeth yn lleihau yn gyflym, fel y gwelir oddiwrth yr ystadegau uchod. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 126*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Dewi Sant, sydd adeilad fechan henafol, a thŵr isel iddi; ond heb unrhyw ragoriaethau adeilyddol pwysig. Sefydlwyd ysgol yn y plwyf hwn gan foneddiges o'r cyfenw "Child," o Pilleth, yr hon a'i gwaddolodd â thiroedd a gynnyrchent gan punt yn y flwyddyn ddeugain mlynedd yn ol, er rhoddi addysg rad i blant y ddau blwyf, ac er rhoddi un plentyn o bob plwyf yn freint-was o ryw alwedigaeth; ac i'r perwyl hyny, neillduid y swm o un guni ar bymtheg o'r gwaddol bob blwyddyn.

**WICK,** plwyf yn nghantref Ogmore, ac yn undeb Pen y bont, swydd Forganwg, ar lan y môr; 5½ milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Pont fôn. Llythyrfa, Pen y bont. Erwau 1370, o ba rai y mae 50 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1309*p*. Poblogaeth, 384. Tai annedd, 89. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, gydiedig â'r eiddo St. Bride y Fwyaf, yn esgobaeth Llandaf. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Iago, nid yw yn meddu unrhyw hynodrwydd adeilyddol. Y mae hen adeilad fawr, mewn cyflwr adfeiliedig, ac yn orchuddiedig gan eiddew, yn agos i'r eglwys. Barna rhai mai hen grefydd-dy ydoedd, er nad oes un côf ar gael am y cyfryw sefydliad; meddylia eraill, mai un o'r hen neuaddau, a ganfyddir mor fynych yn y wlad hon, ydoedd; yn y rhai y cynhaliai arglwyddi y cyffin-diroedd eu llysoedd; a'r rhai mewn oesoedd diweddarach a drowyd yn ysgoldai ac elusendai, ac a adwaenid yn gyffredin dan yr enw "Tai crefyddol."

**WIG (Y),** pentref yn mhlwyf Abertawe, swydd Forganwg; yn agos i dref Abertawe.

**WIG (Y),** trefgordd yn mhlwyf Llanwnog, swydd Drefaldwyn; 6½ milldir i'r gorllewin ddc orllewin o'r Dref newydd. Gwerth ardrethol, 4722*p*. Poblogaeth, 204.

**WIG DOLFOR,** trefgordd yn mhlwyf Ceri, swydd Drefaldwyn: 2 filldir i'r dehau o'r Dref Newydd. Gwerth ardrethol, 3235*p*. Poblogaeth yn 1861, 114.

**WIGFAIR,** neu "Y Wicwar," fel ei gelwir gan y werin; cyd drefgordd â Meiriadog, yn y rhan hono o blwyf Llanelwy, sydd yn nghantref Is dulas, swydd Ddinbych; 2 filldir i'r dehau o Lanelwy. Poblogaeth, 278. Tai annedd, 50. Y mae sefyllfa y drefgordd hon ar yr ochr aswy i'r afon Elwy; ac y mae yn cynnwys nant ddifyrus a rhamantus, yn agos i'r afon grybwylledig, yn yr hon y mae ffynnon ragorol, a elwir "Ffynnon Fair," yr hon sydd yn bwrw i fynu tua chan galwyn o ddwfr bob mynyd! Yr oedd y ffynnon hon mewn bri mawr yn y canoloesoedd, ac wedi ei hamgylchu â maen-waith cerfiedig cywrain a thra addurniadol; a mawr oedd y cyrchu iddi fel baddon oer tra rhinweddol. Gerllaw y ffynnon y mae adfeilion hen gapel croes-adeilawg, yn yr arddull Seis'nig addurniadol; ac y mae rhanau mawrion o'r hen furddyn ysplenydd, wedi ei orchuddio gan eiddew, neu iwrwg, fel ei gelwir gan rai. Cyn y Diwygiad Protestanaidd, yr oedd hwn yn gapel anwes i Lanelwy, a chyflawnid gwasanaeth crefyddol ynddo gan un o Ficeriaid Llanelwy.

Ymddengys y byddai prïodasau, a bedyddiadau, yn cael eu gweini yn y Capel hwn, yn hir wedi dadgorfforï yr eglwys Babaidd yn y deyrnas hon, yr hyn a brofir drwy y cofnodau canlynol a wnaed gan Mr. Pierce Roberts, cofrestrydd Llanelwy, o'r flwyddyn 1595, hyd y flwyddyn 1646.

"Wigwer.

"1611. Er cof, fod ar nos Wener, a ddygwyddai ar y 7fed o Chwefror, un Piers Gryffydd ab Ieuan Gryffydd, fy mrawd yn nghyfraith, wedi prïodi yn lladradaidd âg un Jane, ferch Thomas, ei ail wraig, yn nghapel Wicwer, a elwir Capel Ffynnon Fair.

"1615. Ar ddydd Llun yn wythnos y Pasc, sef y 5ed dydd o Ebrill, 1615. Un Thomas Wynne, mab, ac ettifedd ymddangosiadol Robert Wynn ab Tomas, o'r Llwyni, yn mhlwyf Llanrwst, ag un Catharine, ail ferch i Ifan Llwyd o Wicwer, un o ysgrifenyddion Cyngor Cyffindiroedd Cymru, a brïodwyd yn y capel a elwir "Capel Ffynnon Fair," gan John Ireland, Llen; un o ficeriaid corawl eglwys gadeiriol Llanelwy, trwy drwydded, a ganiattasid iddo i'r perwyl hyny.

"1626. Er cof, fod ar ddydd Sadwrn, y 4ydd o Dachwedd, yn y cyflychwyr, un John ab Rhisiard o'r Cwybyr, ac Elsbeth Lloyd, un o ferched Efan Lloyd o Wigfair, wedi eu prïodi yn lladradaidd yn y capel yn Wicwer, gan John Williams, Llen.

—"1633, ar ddydd Mercher, yr 28ain o Awst, bu i Thomas Price, boneddwr, gael ei brïodi yn Nghapel Ffynnon Fair, â Marie Llwyd, merch ieuangaf Efan Llwyd, boneddwr, gynt o Wicwer.

—"1640. Ar ddydd Llun, y 4ydd o Ionawr, priodwyd William Davies âg Ann Holland, yn Nghapel Fair, Wigwer."

Traddodiad cyffredin y gymmydogaeth ydyw, y gweinyddid bedyddiadau yn fynych yn y Capel hwn hefyd; a haera rhai mai y cafn a fuasai yn cael ei ddefnyddio fel bedyddfaen yn y Capel hwn, ydyw y cawg a ddangosir yn yr ysgoldy, yn agos i felin Bodlewyddan; ond efallai mai yn y ffynnon hon, yr hon yn yr oesoedd tywyll a gyfrifid yn gyssegredig, y byddent yn arfer bedyddio.

Nid ydys yn meddu unrhyw hysbysrwydd am y pryd, neu y modd y deuwyd i edrych ar y Ffynnon hon yn gyssegredig i Mair, ac i gyfrif ei dwfr yn ddwfr sanctaidd: gellir barnu fod rhan o'r adeilad wedi ei gyfodi tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, neu ddechreu y bymthegfed ganrif; rhaid fod y Capel, o fewn yr hwn yr oedd y Ffynnon, wedi ei gyfodi gan ryw rai mwy haelionus a goludog na'r cyffredin o'u cydwladwyr; efallai fod urddasolion yr esgobaeth, a phrif swyddogion y mynachlogydd cyfagos, wedi cynnorthwyo yn y gwaith.

Un oddiyma ydoedd y bardd enwog "Siôn Tudyr;" a dywaid rhai haneswyr, mai John Lloyd oedd ei wir enw, ac mai yn Wigfair y cartrefai; yr hyn sydd yn

Digitized by Google

peri i ni gasglu fod yr Efan Llwyd a grybwyllir uchod, yn hanu o'r un gwehelyth a'r hen fardd. Yn y gymmydogaeth hon y mae Dol belydr, lle y ganwyd y Cymro galluog Henry Salusbury, awdwr y *Grammatica Britannica*, &c.

**WILCRICK**, neu WILERICK, plwyf yn undeb y Cas newydd, swydd FYNWY; 1¼ milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Magor, a 6¼ milldir i'r dwyrain o'r Cas Newydd. Llythyrfa, Magor, dan *Chepstow*. Erwau, 406. Gwerth ardrethol, 568*p*. Poblogaeth, 28. Tai annedd, 4. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, gyssylltiedig a Llan martin.

**WILLIAMS**, ABRAHAM, o'r Cwmglas, Llanberis, ydoedd fardd gwlad da, ac yn ei flodeu yn ystod y ganrif ddiweddaf. Efe oedd athraw barddonol Gutyn Peris, ac ymddengys i ryw annghydfod rhwng y dysgybl a'r athraw gymeryd lle, a chyfansoddodd Gutyn, Gywydd Cymod, yr hwn a welir yn y Brython, iii. 154. Symudodd A Williams i'r America tua chanol ei oes, lle y treuliodd weddill ei ddyddiau, ac y bu farw.

**WILLIAMS**, ANNA, barddones Seisnig o gryn deilyngdod, ydoedd ferch i feddyg o'r enw Zechariah Williams, yn Neheudir Cymru, lle y ganwyd hithau yn 1706. Yr oedd ei thad yn wr celfyddgar, ac yn ymddifyru llawer mewn arbrofion athronyddol; ac yn dra hyddysg yn y gwyddonau a'r celfyddydau: ac yn nghanol yr arbrofion hyn, meddyliodd ei fod wedi gwneud darganfyddiad pwysig mewn cysylltiad â chael allan hydred y ddaear, gyda nodwydd y tynfaen (*magnetic needle.*) Gadawodd ei alwedigaeth a'i gartref, ac aeth i Lundain, gan ddysgwyl gwobrwy aruthrol am ei ddyfeisiad; a dilynwyd ef gan ei ferch. Cyrhaeddasant y Brifddinas yn 1730, a chanddo ef beirianau rhifyddol a morwrol, a ddyfeisiasai er mwyn egluro ei gynllun. Ei orchwyl cyntaf ydoedd gosod gerbron dirprwywyr yr hydred, ffrwyth ei ymchwiliad; eithr ni ddaliai y ddyfais y profion gofynol, ac nis gellid rhoddi iddo y wobr gynygiedig, nac unrhyw ran o honi: a'r unig dâl a gafodd efe am ei ddarganfyddiad tybiedig, ydoedd derbyniad i'r *Charter House* fel gwobrwas (*pensioner.*) Eithr oblegid rhyw afreoleidd-dra, neu gamymddygiad, trowyd ef allan pan yn 75 oed. Mewn llyfryn a gyhoeddodd efe yn 1749, cwyna yn dost o herwydd hyn, a geilw y tro yn weithred o annghyfiawnder. Yn 1745, cyhoeddodd lyfr o'r enw, *An account of the attempt to ascertain the Longitude at Sea, by an exact theory of the Magnetic Needle*, wedi ei ysgrifenu yn yr ieithoedd Italaidd, a Seisnig,—yr olaf, tybir, yn waith yr enwog Dr. Johnson, a'r blaenaf yn gyfieithiad gan Barretti. Yn mhen tua deng mlynedd wedi cyrhaedd Llundain, collodd Anna Williams ei golwg, trwy ddolur yn ei llygaid; eithr yr oedd yn llenores wech cyn hyny, ac yn hyddysg yn yr ieithoedd Ffrengig ac Italaidd, yr hyn, yn nghyd a'i medrusrwydd gyda'r nodwydd, a ddygai fywiolaeth iddi tan ei dallineb, a'i thrallod. Yn 1746, trwy gymhorth dwy gyfeilles, cyfieithodd o'r Ffrancaeg, hanes bywyd yr Ymerhawdwr Julian, o waith Pere la Bletrie. Tua'r un amser, daeth yn gydnabyddus â Dr. Johnson, yr hwn a foddheid gymaint gan ei hymddyddan, a'i chymdeithas, fel y daethant yn gyfeillion gwresog o hyny allan. Yn 1755, rhoddes Mr. Garrick, noson o fuddelw iddi yn ei chwareudy, yr hyn a ddygodd iddi ddau gant o bunau; ac yn 1766, cyhoeddodd drwy danysgrifiadau, gyfrol pedwarplyg, yn dwyn y teitl, *Miscellanies in Prose and Verse*, yr hyn a ddygodd gan' punt arall i'w thrysorfa. O ymddangosiad diaddurn, ac o dymher hawdd ei chynhyrfu, yr oedd yn ddynes ddeallgar, a haelionus iawn yn ol ei gallu, ac fel prawf o'i rhinwedd olaf, cymerai ddyddordeb neillduol yn y sefydliad er nawdd a chadwraeth menywod tlodion ac amddifaid, yn mhlwyf St. Sepulchre, Llundain, a gynhelid trwy gyfraniadau gwirfoddol boneddigesau caredig, a chyflwynodd hithau ei holl ychydig gyfoeth tuag at ei drysorfa. Yr oedd Dr. Johnson, tuag wyth mlynedd cyn ei marwolaeth hi, wedi symud i drigianu i Bolt Court, Fleet Street, ac yno y bu hi farw, yn nhŷ ei chyfaill, Medi 6, 1783, yn 77 oed.

**WILLIAMS**, SYR CHARLES HANBURY, ydoedd drydydd mab John Hanbury, Ysw., o Colebrookdale, sir Fynwy. Yn y flwyddyn 1735, dewiswyd ef yn aelod seneddol dros sir Fynwy, ac ail etholwyd ef yn y flwyddyn 1739, pan y cafodd ei benodi yn bentalwr y byddinoedd morawl, a thrachefn yn yr etholiad cyffredinol yn y flwyddyn 1741. Ar Hydref 20fed, 1744, cafodd ei raddio yn farchog Caerbaddon; ac yn y flwyddyn 1746 penodwyd ef yn weinidog yn llys Berlin. Parhaodd yn y sefyllfa hono hyd Mai 9fed, 1749, pryd yr enwyd ef yn Negesydd i'r un llys. Yn 1754, yr oedd yn cynnrychioli bwrdeisdref Leominster yn y senedd, a thua'r amser hwn aeth yn genadwr i lys Rwsia. Cyflawnodd ei waith dros y llywodraeth yn y gwledydd tramor gyda dyfalwch mawr; ond trwy iddo syrthio i afiechyd, dychwelodd i Loegr, a bu farw Tachwedd 2 ail, 1759. Yr oedd yn awdwr i amryw o ddarnau barddonol. Un argraffiad o'i weithiau, gyda nodiadau gan Horace Walpole, a argraffwyd yn dair cyfrol, wythplyg, yn 1822. Y mae yn hanes sir Fynwy gan Coxe, ddarlun o hono, yr hwn lyfr sydd yn brin iawn yn ein dyddiau ni.

**WILLIAMS**, DAFYDD, nid ydym wedi cael allan le nac amser genedigaeth y Caniedydd melus hwn. Treuliodd gryn lawer o'i amser yn mhlwyf Llandeilo-fach, yn sir Forganwg, os nad yno y ganwyd ac y magwyd ef; a "Dafydd Williams, o Landeilo-fach," y gelwir ef ar wyneb-ddalen yr argraffiadau cyntaf o'i lyfr. Bu am lawer o flyneddau yn athraw un o'r ysgolion Cymreig, dan Madam Bevan, o Lacharn; a'r Parch. Griffith Jones, o Landdowror. Wedi bod am amser maith yn gynghorwr, neu bregethwr derbyniol yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd, ymunodd rai blyneddau cyn ei farwolaeth â'r Bedyddwyr. Yr oedd ef yn un o'r aelodau pan gorffolwyd eglwys y Bedyddwyr yn Croes-y-parc, plwyf Llanbedr-y-fro, gerllaw Caerdydd, a bu yn pregethu ac yn llafurio yn mysg yr eglwys newydd hono, hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1794; yr oedd yn hen iawn pan y bu farw. Nis gwyddom pa le y claddwyd ef. Ymddengys mai y prif achos o ymadawiad yr hen brydydd a'i hoff gyfeillion y Trefnyddion, oedd ei anghysur teuluaidd, yr hwn a achosid gan ei wraig, yr hon fel y dywedir oedd yn nodedig o ddiffaith, ac anynad. Nid ymddengys fod sain ei delyn beraidd ef yn effeithio ar y wraig nwydwyllt hon, i beri i'r ysbryd drwg ymadael a hi, fel y gwnelai telyn Dafydd ar Saul gynt. Er ei bod yn dra thebygol, oddiwrth bob peth a glywsom ac a ddarllenasom am Dafydd William, ei fod yn ddyn nodedig o dduwiol; eto darfu i'w drallod teuluaidd iselu cymaint ar ei gymeriad crefyddol yn y gymydogaeth yr oedd yn byw ynddi, nes ei ddwyn dan gerydd a

Digitized by Google

dysgyblaeth ei frodyr y Trefnyddion, a'r canlyniad fu, iddo ymadael â hwynt yn ei hen ddyddiau. O bob adfyd a ddichon ddyfod i ran dyn yn y byd hwn, yn enwedig pregethwr yr efengyl, gwraig ddrwg ei thymer, ei thafod, a'i buchedd, yw y mwyaf. Cynwysa ei lyfr, "Gorfoledd yn Mhebyll Sion," 84 o Emynau, a'r rhan amlaf o honynt yn deilwng i'w rhesu yn nesaf at benillion tlysaf Williams, Pant y celyn. Yr oedd yn hoff iawn o ganu am ryfeloedd y Cristion gwanaf, a gwroldeb yn y brwydrau poethaf. Mae yn canu mor beraidd ac effeithiol am Grist a'i groes, nes ydyw ei berseiniau yn ddigon i doddi y galon galetaf; a chafodd canoedd o'n hen dadau a'n mamau yn Israel, eu traed yn rhyddion "o'r pridd tew a'r clai tomlyd" lawer gwaith cyn hyn, wrth eu canu, eu dyblu, a'u treblu, yn hen gyfarfodydd yr hwyliau mawr.

**WILLIAMS**, Daniel, D.D., ganwyd y dyn haelionus, a'r duwinydd dysgedig hwn, yn Ngwrecsam, yn 1643, neu 1644. Gan fod y duwiol a'r enwog Morgan Llwyd o Wynedd yn gweinidogaethu yn y dref hono yn ystod y pumtheg mlynedd cyntaf o oes Dr. Williams, gellir casglu iddo gael llawer o egwyddorion sylfaenol ei gymeriad oddiwrtho ef. Yr oedd o dueddiadau difrifol er yn blentyn, ac yn mhlith y tô cyntaf o wyr ieuainc a ymroddasant i'r weinidogaeth ymneillduol, ar ol y troad allan yn 1662. Dywed efe ei hun, "Na wnaethai ddim ond efrydu er pan yn bump oed, a phan yn bedair ar bumtheg oed, derbyniwyd ef fel pregethwr rheolaidd." Proffesodd Ymneillduaeth yn wyneb agored, pan nad oedd dim i'w ddysgwyl oddiwrth hyny ond erlid a gorthrymder. Wedi treulio rhai blyneddau fel pregethwr achlysurol mewn amrywiol barthau o Loegr, lle yr erlidiwyd ef yn fynych, agorodd Rhagluniaeth ddrws iddo i gylch o ddylanwad a defnyddioldeb yn yr Iwerddon. Byddai yn ymweled yn achlysurol a'r dduwiolfrydig Foneddiges Wilbraham, o Weston, sir Amwythig; a hi a'i cymeradwyodd i sylw Iarlles Meath, yr hon a'i penododd yn gaplan iddi. Yn mhen yspaid, aeth trosodd i'r Iwerddon, a gwahoddwyd ef i gymeryd gofal gweinidogaethol cynulleidfa a gyfarfyddai yn Wood Street, Dublin. Bu ei lafur yno yn dra derbyniol am ugain mlynedd. Yn ystod ei drigiant yn Nublin, priododd ei wraig gyntaf, yr hon oedd ddynes gall a duwiol, ac o deulu anrhydeddus a chyfoethog. O herwydd cyflwr cythryblus y wlad yn Iwerddon, symudodd i Lundain yn 1687; a darfu i'w dalentau, ei ymdrechion, a'i gyfoeth, ei godi yn fuan i safle uchel yn mhlith Ymneillduwyr y Brif ddinas. Yn 1688, dewiswyd ef yn weinidog cynulleidfa luosog yn *Hand Alley, Bishopsgate Street*, Llundain, a llanwodd y swydd hono hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ionawr 26ain, 1716. Yr oedd yn un o weinidogion mwyaf blaenllaw y Brifddinas gyda phob symudiad cyhoeddus. Ymosododd ar olygiadau uchel-Galfinaidd, neu Antinomaidd, y Dr. Crisp, a thynodd hyn ef i ddadl chwerw, yr hon a barhaodd am saith mlynedd. Trinwyd ef yn annghristionogol gan ei wrthwynebwyr, eithr goddefodd ef bob gwawd a dirmyg yn dawel a dirwgnach, a glynodd ei gynulleidfa wrtho trwy y cyfan, yn ffyddlon a serchus. Yn 1709, cafodd y radd o D.D., gan brif-ysgolion Glasgow, ac Edinburgh, a rhoddes waddol er cynhaliaeth chwe' ysgolor yn y brifysgol flaenaf. Bu yn briod ddwywaith, a chafodd gynysgaeth helaeth gyda'r ddwy wraig; ac fel y gwelir, cyflwynodd ei gyfoeth mawr i'r dybenion mwyaf dyngarol a daionus. Gan nad oedd ganddo blant, cyflwynodd ei eiddo i'w gyddynion, yn enwedig yn mhlith ei genedl ei hun. Yn y Rhagymadrodd i'w ewyllys, dywedai; "Am fy ngolud bydol, gyda'r hwn y mae Duw wedi fy mendithio mor ryfeddol, a'r hwn a ddefnyddiais mor gymedrol, fel y gallwn trwy hyny wneud daioni ag ef i eraill, yn fy mywyd, ac ar ol fy marwolaeth, yr wyf yn cyflwyno fel hyn, &c." A ganlyn ydynt yr Elusenau a adawodd efe yn ei ewyllys i Gymru; 1. I'r Parch. Mr. Kenrick, o Wrecsam, ac i'w olynwyr, 10*p*. yn y flwyddyn. 2. Er addysg 25 o blant tlodion Gwrecsam, 15*p*. yn y flwyddyn. 3. Er addysg 20 o blant tlodion mewn chwech o wahanol leoedd yn Nghymru, 48*p*. yn y flwyddyn. 4. Er cynaliaeth efrydwyr yn Nghaerfyrddin, tan ofal Mr. W. Evans, a'i ddilynwyr, 10*p*. yn y flwyddyn. 5. Yr 8fed ran o'r gweddill arian yn llaw yr Ymddiriedolwyr, er prentisio bechgyn tlodion, i gael eu dewis o'r ysgolion a gynorthwyid gan yr Ymddiriedaeth. 6. Y drydedd ran o'r arian gweddill yn llaw yr Ymddiriedolwyr er cynorthwyo pregethwyr yn Nghymru; dwy ran o dair o'r cyfryw i bregethwyr yn y Gogledd, ac un ran o dair i rai yn y Deheudir. Darfu i Mrs. Roberts, o Wrecsam, chwaer y testamentwr, a'i aeres yn ol y gyfraith, ei gwrthwynebu, ar gyfrif nad oedd rhanau o honi, na'r attodiad iddi, wedi eu profi yn gyfreithlawn. Nid oedd ei gwaith yn hyn yn cyfodi oddiar drachwant am yr eiddo, eithr am y credai nad oedd ei brawd wedi gadael digon o'i arian er budd ei wlad enedigol. Gan hyny hi a roddes i fynu bob hawl, ar y telerau fod i'r Ymddiriedolwyr roddi 60*p*. yn y flwyddyn rhagor nag a nodid yn Ewyllys ei brawd, er dybenion elusenol yn Nghymru. O dan yr amgylchiadau hyn, darfu i'r Ymddiriedolwyr, trwy ganiatad y Cangell-lys, ymrwymo ar eu rhan eu hunain, a'u holynwyr, i dalu i Mrs. Roberts am ei hoes, ac wedi ei marwolaeth i rywun a benodid ganddi, y swm o 60*p*. yn y flwyddyn, allan o ardrethi ac elwau eiddo y testamentwr. Y mae y flwydd-dal hon byth wedi ei thalu o hyny allan, gan y cyfryw Ymddiriedolwyr, i bregethwyr yn Ngogledd Cymru. Y mae yr Ymddiriedolwyr wedi gweithredu bob amser tan gyfarwyddyd y Cangell Lŷs; a thrwy orchymyn y llys hwnw y mae y symiau a gyflwynir tuag at addysg yn Nghymru, wedi chwanegu o bryd i bryd, ac yn bresenol safant fel y canlyn:—Ysgolion Gwrecsam, Treffynon, Dinbych, Bangor, Caergybi, Bala, a Llanbrynmair, 25*p*. yr un yn y flwyddyn. Gweinidog Gwrecsam 10*p*., a Choleg Caerfyrddin 10*p*. yr un yn y flwyddyn. I brentisiaid tua 90*p*. I weinidogion yn y Gogledd, tua 160*p*. yn y flwyddyn. I Ymddiriedolwyr Mrs. Roberts er dosparthiad yn mysg pregethwyr yn y Gogledd, 60*p*. I bregethwyr yn y Deheudir, 80*p*. Yn chwanegol at y symiau hyn y mae yr ymddiriedolwyr yn gwneud rhoddion blyneddol o Feiblau, a llyfrau crefyddol eraill i'w dosparthu yn Nghymru; hefyd rhoddir symiau o arian i weddwon pregethwyr; fel y mae y Dywysogaeth trwy bob peth yn derbyn tua saith cant o bunau yn y flwyddyn oddiwrth elusenau y Dr. Williams. Ceir cofgolofn arall o'i ddaioni a'i elusengarwch yn y ffaith iddo adael ei lyfrgell ysblenydd, gyda'r amcan o gael llyfrgell gyhoeddus yn Llundain, a dyma gychwyniad y sefydliad enwog yn Redcross St. Y mae ei luaws rhoddion eraill yn sicr o wneud ei enw yn anwyl a pharchus o genedlaeth i genedlaeth, gan bawb sydd yn caru llenyddiaeth, addysg, a chrefydd.

Digitized by Google

Cyhoeddwyd ei weithiau llenyddol mewn chwe' cyfrol 8plyg; daeth dwy gyfrol allan o'i waith yn Llundain yn 1738, tan y teitl, *Practical Discourses*, gyda pha rai y mae bywgraffiad o'r awdwr.

**WILLIAMS**, Parch. David, ydoedd fab i John Williams, athraw Ysgol ystrad Meurig, sir Aberteifi. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Wadham, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd y radd o M.A., ac y daeth yn gymrawd. Cafodd hefyd ei wneyd yn feistr Ysgol Ystrad ar ol ei dad, a churadiaeth barhaol Ysbytty Ystwyth. Cyhoeddodd, *An Essay on the Comparative Effects and Usefulness of the reading of Sermons in the Pulpit, and the delivery of them by memory.*

**WILLIAMS**, Parch. David, a elwid Dafydd Williams o Bwll-y-pant. Yr oedd yn byw, tybir, mewn lle o'i eiddo ei hun, a elwid y Cwm, yn mhlwyf Eglwys Ilan, Morganwg, gan gadw ysgol yno, ac yn weinidog y gynulleidfa Henadurol yn Watford, ger Caerphili. Rhoddai addysg yn rhad i lawer o blant tlodion. Gelwid ef gan y werin, yn "Offeiriad Natur," gan ei fod yn gwadu dwyfol ddatguddiad. Bu yn weinidog yno hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le rywbryd tua 1784.

**WILLIAMS**, Parch. David, gwr ieuanc o dalentau ysplenydd a gobeithiol annghyffredin, a adwaenid yn well wrth ei enw barddonol, Iwan, ydoedd fab i Mr. Williams o Benpont-bren, plwyf Llanwnen, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1796. Bu ei dad farw pan nad oedd efe ond tua chwech oed, a'i fam a briododd eilwaith, gyda'r Parch. David Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Aberduar. Bu ar y cyntaf yn ysgol yr enwog Davies, Castellhywel, lle yr ymroddodd i efrydu yn ddi seibiant, yn enwedig yr ieithoedd gwreiddiol, ac yr enillodd serch ei athraw, yr hwn a'i galwai "*Y llanc difai.*" Oddiyno symudodd i athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor, lle y bu yn dra diwyd yn myfyrio yr ieithoedd, a duwinyddiaeth, hyd nes y gorfu iddo o herwydd dadfeiliad ei iechyd, ddychwelyd i'w wlad enedigol. Tua 1818, priododd Miss Evans, merch Mr. J. Evans, o'r Drefach, Llanwenog; ac ar ol priodi, bu yn cadw ysgol, gyda llwyddiant mawr, yn Nghaerfyrddin. Oddiyno daeth galwad arno i fyned i sir Devon i bregethu, ac i gadw ysgol; ond y llong yn mha un y moriai ef a'i dylwyth, a yrwyd yn ol gan dymhestl aruthr i Abertawy. Cymerodd hyn le yn ngwanwyn 1822, a bu yn dihoeni yn y dref uchod, hyd oni ddaeth angau i'w ryddau o'i boenau, Ionawr 10, 1823, pan nad oedd efe ond 27ain oed. Claddwyd ef yn Abertawy, yn nghanol galar dwys llu mawr o gyfeillion a enillasai yn ystod ei drigiant byr a chystuddiol yn y dref. Yn mhlith ei gyfeillion mwyaf mynwesol, yr oedd yr enwogion Joseph Harris, (*Gomer*), a'i fab athrylithgar Ieuan Ddu. Yr oedd Seren Gomer, tan olygiaeth y blaenaf, yn anterth ei gogoniant y pryd hwnw; ac yn mhlith ei gohebwyr mwyaf poblogaidd, yr oedd *Iwan.* Gwnaeth ei hun yn gydnabyddus i'w darllenwyr gyntaf, fel gwrthwynebwr y Mesurau Caethion, yr hyn a dynodd arno ŵg, ac englynion duchanllyd Dewi Wyn, a welir yn argraffedig yn *Ngardd Eifion.* Ychydig cyn ei farwolaeth, ysgrifenodd lyfryn yn Saesneg, dan yr enw, *Serious Remarks on the Ordinance of Baptism, by Scrutator.* O ran ei olygiadau duwinyddol, yr oedd yn nes at Andrew Fuller, nag at un awdwr clodfawr arall, can belled ac y gellid casglu oddiwrth ei bregethau a'i ysgrifeniadau.

**WILLIAMS**, Parch. David. Ganwyd ef mewn pentref yn agos i Aberteifi, yn y flwyddyn 1738. Derbyniodd radd helaeth o addysg yn ngwahanol gangenau dysgeidiaeth pan yn ieuanc, a phan gyrhaeddodd oedran priodol aeth i'r coleg yn Nghaerfyrddin, er ymbarotoi i'r weinidogaeth yn mhlith yr Ymneillduwyr. Pan yn ymadael â'r coleg, derbyniodd alwad i'r weinidogaeth oddiwrth eglwys yn Frome, Gwlad yr Haf. Ar ol ychydig o arosiad yno, symudodd i Exeter, ac oddiyno eilwaith i Highgate, er cymeryd gofal yr eglwys gynulleidfaol yno. Wedi bod yno am flwyddyn neu ddwy, daeth am y tro cyntaf o flaen y cyhoedd fel awdwr, yn y flwyddyn 1770, trwy lythyr at David Garrick, yn yr hwn y gwnai feirniadaeth lem arno. Yn fuan ar ol hyn, ymddangosodd *The Philosopher in the Conversations*, yr hwn a gafodd gylchrediad helaeth, a darlleniad manwl. Canlynwyd hwn gan yr *Essays on Public Worship, Patriotism and Projects on Reformation.* Wedi hyn argraffodd ddwy gyfrol o bregethau, yn benaf ar ragrith crefyddol. Trodd ei feddwl yn awr at y gorchwyl o ddysgu yr ieuenctyd, ac yn 1773, argraffodd ei *Dreithawd ar Addysg.* Tua'r amser hwn cymerodd dŷ yn Chelsea, a phriododd a boneddiges ieuanc, a chafodd ei hun yn fuan yn ben ar sefydliad llwyddianus a mawrwych, ond taflodd marwolaeth ei wraig, niwl a thywyllwch ar ei obeithion. Ar ol hyn argraffodd ddwy gyfrol o ddarlithoedd, y rhai a draddodwyd yn addoldy Heol Margaret, Cavendish. Y nesaf a gyhoeddodd oedd, *Lectures on Education*, yn dair cyfrol wyth plyg; ac yn y flwyddyn 1780, cyhoeddodd dreithodyn, a alwai *A Plan of Association on Constitutional Principles;* ac yn 1782, *Letters on Political Subjects*, y rhai a gawsant gylchrediad helaeth yn Lloegr, Cymru, a Ffrainc, gan iddynt gael eu cyfieithu i'r Ffrancaeg gan Brissot. Ei weithiau nesaf oedd Gwersi i Dywysog Ieuanc, ac yn y flwyddyn 1796, argraffodd Hanes sir Fynwy, yn ddwy gyfrol bedwar plyg. Cyhoeddodd lawer o lyfrau heblaw a nodasom. Fel sylfaenydd y *Literary Fund*, er cynorthwyo awdwyr teilwng mewn angen, bydd ei enw byth mewn coffadwriaeth; a chafodd yr hyfrydwch o'i sefydlu yn llwyddianus yn 1789, ac oddiar y pryd hwnw y mae yn parhau yn y gweithrediadau elusenawl. Bu farw Mehefin 29ain, 1816, yn 78 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn eglwys St. Ann, Soho.

**WILLIAMS**, David, ydoedd fab i wniedydd tlawd, yn Llanwrtyd, sir Frycheiniog, i'r hwn orchwyl y dygwyd yntau i fynu. Ymunodd yn ieuanc â'r Annibynwyr yno, y rhai oeddynt y pryd hyny o dan weinidogaeth y Parch. D. Williams, o Droed rhiwdalar. Cafodd gynygiad o gefnogaeth i'w godi i'r weinidogaeth yn yr Eglwys sefydledig, gan rai oedd yn gweled ei ymgais lenyddol, a'i dalent awenyddol. I'r dyben hyny, efe a aeth i Ysgol Ramadegol Ystrad Meurig. Tra yr oedd fel hyn yn ymgyfaddasu i'r weinidogaeth, efe a gyflawnodd weithred o ffug-ysgrifen. Cymerwyd ef i fynu; ond trwy luaws o dystiolaethau i'w gymeriad blaenorol, cafodd ei ryddhau. Tra yr oedd yn y carchar, cymerai arno, i'r dyben o'i leihau, neu yn hytrach gyfiawnhau ei drosedd, ei fod yn anffyddiwr. Ar ol ei ryddhad, efe a aeth i Ferthyr Tydfil, i ddilyn ei alwedigaeth foreuol, ac yno y cytunodd âg argraffydd i gyfieithu *Hervey's Meditations* i'r iaith Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd gan Fisher & Co., Llundain, yn 1828.

Digitized by Google

Y mae y cyfieithiad hwn mor dda, fel y bernir ei fod yn rhagori ar y gwreiddiol. Yr oedd yn meddu perffaith feistrolaeth ar yr iaith Gymraeg, i ddwyn allan ei geiriau, er ateb pob eisiau; ac yr oedd yn fardd o radd uchel. Yr oedd wedi ymwrthod â'i dybiau di dduw cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y Geufron, Llanwrtyd.

**WILLIAMS**, Edward, a gyfenwid yn mysg llenorion yn gyffredin "Iolo Morganwg." Ganwyd y dyn rhyfedd hwn mewn bwthyn o'r enw Penon, yn mhlwyf Llangarfan, sir Forganwg yn 1747. Saer maen oedd ei dad, mewn amgylchiadau isel, ac o dymherau afrywiog; eithr ei fam, enw morwynol yr hon oedd Mathews, ydoedd ferch i wr boneddig, yr hwn a wastraffasai waddol teg, ac yr oedd hi yn fenyw wir ragorol. Ni chafodd efe erioed ddiwrnod cyflawn o ysgol; fel y dywed ei hun, "Yr oeddwn mor afiach pan yn blentyn, ac felly y parheais, fel y tybiwyd mai ofer fyddai fy nodi mewn ysgol, lle yr oedd fy nhri brawd yn cael eu cynal tros amryw flyneddau. Mi a ddysgais yr egwyddor cyn y medraf ond prin gofio, wrth edrych ar fy nhad yn tori y llythyrenau ar geryg beddau. Fy mam a ddysgodd i mi ddarllen mewn llyfr o ganiadau, a elwid *The Vocal Miscellany*, o herwydd nas gellid cael genyf ddysgu mewn un llyfr arall." Yr oedd ei serch at ei fam yn gryf anorchfygol, ni chymdeithasai â neb ond a hi, gan ddibrisio chwareuaeth ei gyfoedion er mwyn bod yn wastadol yn ei chwmni. Pan tua 14 oed, dechreuodd gydymdeimlo â hi yn ei chyfyngderau, pryd nad oedd hi yn cael ond ychydig iawn o gynorthwy gan ei dad tuag at gynaliaeth y teulu, heblaw fod sarugrwydd ei dymher, yn gwneud ei bywyd yn dra annedwydd. Yr oedd Edward erbyn hyn yn gorfod gweithio bob dydd gyda'i dad; ac ar ol noswylio, byddai yn gwneud rhyw fân orchwylion er enill ychydig o bres, gan ofalu cadw pob dimau, a'i rhoddi i'w fam. Bu fyw felly yn gysurus gyda'i fam, hyd oni chyrhaeddodd 23ain oed, pan y darfu i angau ei amddifadu ef o honi, er mawr drallod i'w feddwl. Yn fuan ar ol hyn, penderfynai nad arosai efe adref mwyach, ac aeth i Lundain, lle y bu am yspaid, yn gweithio fel saer maen ar un o'r pontydd tros yr afon Tafwys; ac mewn amryw barthau o swydd Caint. Yn ystod ei drigiant yn Llundain, daeth i gyfarfyddiad damweiniol, a digon annymunol, âg un o ddynion hynotaf ei oes, sef y Dr. Sam. Johnson. Ar ddiwrnod gwlyb, arferai Iolo fynychu maelfa llyfrwerthwr, a sylwasai amryw weithiau ar foneddwr sarug a thaeog yn dyfod yno; a chan droi a throsi y gwahanol fisolion a orweddent yn y lle, taflai hwynt ymaith gan ddywedyd, *Trash of the day!* Gynted ag yr aeth allan, gofynodd i'r llyfrwerthwr pwy oedd yr hen foneddwr craslyd, ac atebwyd ef nad oedd neb llai na'r Pen Geiriadurwr enwog. Pan glybu efe hyn, gofidiai yn fawr na buasai yn gwybod yn nghynt, er mwyn cael boddio ei gywreinrwydd trwy siarad gair neu ddau âg ef. Dywedai y llyfrwerthwr y byddai Johnson yn sicr o alw yno drachefn ar y diwrnod a'r diwrnod. Y bardd a ofalodd am fod yn y fan ar y dydd penodedig, ac mhen amser, wele Johnson yn dyfod i mewn, ac yn cymeryd cadair yn bur ddiddefod. Er mwyn dwyn ei hun i'w sylw, yr oedd Iolo wedi ceisio tri o ramadegau Seisnig; a dynesodd yn wylaidd at y dysgawdwr, gan ddywedyd yn ostyngedig, mai Cymro tlawd ydoedd, ar fedr dysgu Saesneg, ac y byddai yn ddiolchgar iawn os gwnai ei fawredd fod mor fwyn a'i gyfarwyddo pa un o'r llyfrau hyny oedd y goreu iddo efrydu, er cyrhaedd yr amcan mewn golwg. Johnson a lygadodd yn gibog arno, ac yna ar y llyfrau, ac a ddywedodd yn ei ddull garw arferol, "Fe wna yr un a fyner y tro i *chwi*, Syr." Teimlodd y bardd y sarhad i'r byw, ac atebodd, "Mi brynaf y tri er mwyn bod yn sicr o'r goreu." Ac felly y gwnaeth, er fod ei logell isel yn gorfod talu gwarogaeth i'w ysbryd uchel, y tro hwn fel llawer tro arall, cynt ac wedi'n. Yn ystod ei arosiad yn Llundain, a'r gymydogaeth, daeth yn gydnabyddus âg O. Myfyr, Dr. Pughe, Dr. D. Samwell, ac eraill; ac fe sonir am dano yn cefnogi Samwell i ymladd gornest â Ned Mon, ond barna rhai mai fel dyddiwr y gweithredai, ac nid fel cefnogwr, gan ei fod ef yn fardd a derwydd ymarferol, sef yn fab heddwch, yr hwn na ddynoethid arf yn ei wyddfod. Pa fodd bynag, ni bu yno dywallt gwaed, gan na ddaeth Ned i'r maes. Dychwelodd i Forganwg yn 1777; priododd yn 1781; a bu fyw am ran fwyaf ei oes o hyny allan yn Nhre ffleming, o fewn tua dwy filldir i'r fan y ganesid ef. Bu yn dilyn ei alwedigaeth o saer maen am rai blyneddau, ond gan fod y mân lwch a godai oddiar y ceryg yn niweidio ei ysgyfaint, rhoddodd y gwaith hwnw i fynu, a bu yn cadw siop yn y Bontfaen. Daeth amryw o neillduolion y dyn Iolo i'r golwg, pan oedd efe yn llanw y cymeriad o siopwr. Tua'r pryd hwn y torodd y chwyldroad mawr allan yn Ffrainc; ac yr oedd ef yn mhlith y blaid luosog yn y wlad hon a edrychent gyda boddhad ar y symudiad hwnw; gan gredu y chwyldrowyr, y deilliai o'r gyflafan flin, "ryddid i ddynolryw." Trwy hyny, collodd lu o gyfeillion, ac enynodd yn y werin ddrwgdybiau ac amheuaeth am iachusrwydd ei gredo gwlaidyddol, a duwinyddol. Yr oedd hefyd yn gyfeillgar â Thomas Paine, awdwr y *Rights of Man*, a'r *Age of Reason*, pan yr oedd Twm Paine, yn ysgymunbeth, a'r llywodraeth yn dirwyo yn drwm y sawl a werthent ei lyfrau, ac yn gwobrwyo yn haelionus y sawl a'i hysbysai o'r trosedd. Cydolygai Iolo âg egwyddorion gwleidyddol y terfysgwr hwnw, ond gwrthodai ei ddi dduwiaeth gyda'r casineb mwyaf. Ond darfu i'r ffaith o'i fod yn cynal cyfeillach âg ef, beri i rai edrych yn fanwl ar ei ol, a cheisio yn ddyfal am ryw achos i'w erbyn. Anmheuai dau ddyn tra theyrngarol yn y Bontfaen, ei fod yn gwerthu y llyfrau gwaharddedig a grybwyllwyd; ac efallai fod gan ariangarwch, gymaint a dim arall a wnelai â'u pryder. Deallodd Iolo eu clefyd, a darparodd feddyginiaeth. Gosododd lyfr yn y ffenestr, ac arno yn ysgrifenedig, *Rights of Man*. Yn mhen ychydig amser, daeth un o honynt heibio, a meddyliodd fod yr ysglyfaeth hir ddysgwyliedig yn ei gyrhaedd. Penderfynodd y ddau ei brynu, costied a gostio; ac aeth un o honynt ac a bwrcasodd y llyfr, ond cyn eu bod wedi myned nepell oddiwrth y faelfa, agorasant y papyr oedd am dano, ac er eu syndod, beth ydoedd ond Beibl! Trodd y prynwr yn ol, a chyhuddai Iolo o fod yn dwyllwr, am werthu y Beibl iddo, tan yr enw *Rights of Man*. Na, "meddai'r bardd," nid twyllwr wyf fi, ac ni ddarfu i mi eich twyllo chwi chwaith,—yn y llyfr yna y deuwch o hyd i wir iawnderau dyn, ac y mae yn dda genyf, gyfaill, fy mod wedi cael cyfle i roddi y Beibl yn eich llaw chwi am unwaith yn eich oes." Nid oedd help am dani, yr oedd y ddau wedi eu trechu; tra yr ymgysurai y derwydd cyfrwysgall gyda'r ddiareb, "Nid twyll twyllo twyllwyr." Bu y ddau ysbiwr

yn gyff gwawd yn yr ardal am gryn amser, ac ni raid hysbysu, nad aethant byth mwyach i lygadrythu yn ffenestr y bardd am "Iawnderau Dyn." Yr oedd ei faelfa yn y Bontfaen yn cynwys darpariaeth ar gyfer y ddwy ran o ddyn; canys yn ychwanegol at lyfrau—bwyd y meddwl, gwerthid yno hefyd, fara a chaws, te a siwgr,—ie, siwgr; ond nid oedd yno bob math o siwgr ychwaith, dim ond siwgr yr India Ddwyreiniol; yr oedd melusion yr India arall wedi eu cynnyrchu trwy ddagrau, ocheneidiau, a gwaed y caethwas tlawd, ac nid oedd dim o hono i'w gael yn siop y rhyddgarwr Iolo; ac fel na chamgymerai neb ar y pwnc, rhoddes hysbysiad yn y ffenestr, fod o fewn, "felusion yr India heb eu cymysgu â gwaed dynol." Ond fel y gellid haner ofni, nid aeth dyn a chanddo y fath syniadau dyeithr am siwgr, yn gyfoethog fel siopwr; a chan nad oedd y faelfa gymaint ag yn talu ei ffordd, rhoddes y perchenog hi i fynu. Bu wedi hyny yn dir-fesurydd, ond pa lwyddiant a'i dilynodd nis gwyddys. Eithr tra wrth yr alwedigaeth hono, coleddid y fath syniadau uchel am ei wybodaeth leol, fel y penodwyd arno gan Bwyllgor Amaethyddol Lloegr, i wneud archwiliad gweithredol o holl Dywysogaeth Cymru; eithr darfu i waelder ei iechyd, yn nghydag annghydnawsedd y gwaith i'w chwaeth henafiaethol, ei luddias i gyflawni y gorchwyl mor frysiog ag y dymunai y Pwyllgor, a bu gorfod i Syr John Sinclair, benodi Gwallter Mechain i'r swydd yn ei le, yr hwn a'i cwblhaodd yn gampus, ond nid heb lawer o gymorth gwerthfawr Iolo Morganwg. Ond greddf a phleser penaf ei oes, ydoedd ymdaith i chwilio am gofnodion henafiaethol, ac ysgriflyfrau. Buasai darlun o hono gan law gelfyddgar, pan yn ymdaith i ymofyn hanesion, a cheinion y cynoesoedd, yn werth llawer iawn. O ran corpholaeth, yr oedd yn hytrach islaw y taldra cyffredin. Yr oedd ei wynebpryd yn llym, a'i edrychiad yn dreiddgar, llygaid llwydleision siriol, talcen uchel cyflawn, yn ymwthio allan uwchlaw ei lygaid, aeliau trymion bwaog, trwyn hir, a gên fain. Gwisgai gôb las, gynffon-fain, ac arni fotymau pres gloywon, a chlos *corduroy*, a'i esgidiau wedi eu haner cuddio â bwclau. Ymgodai goler ei gôb yn erbyn ymyl ei het, nes oedd hono bob amser yn troi i fynu; ac o dani hongiai ei wallt yn geinciau annrhefnus dros ei ysgwyddau. Cerddai wrth ffon hir, yn mha un yr ymaflai tua chyferbyn a'i glust; ac ysgrepan wen ar draws ei ysgwyddau, yn cynwys, heblaw newid dillad, ei ysgrifau gwerthfawredig; ac yn ei hen ddyddiau, yspectol ar ei drwyn, a llyfr yn ei law. Fel hyn y byddai yn myned i'w daith, ac yn dychwelyd. Un o'r cyffelyb deithiau a gymerodd efe er ymweled â chasglfa helaeth a gwerthfawr Paul Panton, Ysw., o'r Plasgwyn, yn Mon, ac nid taith fer ar ei ddeudroed bob cam ydoedd hon, o eithaf Deheudir i eithaf Gogledd Cymru, pan oedd y ffyrdd yn anhygyrch, a phob cyfleusdra yn brin. Ond digon o dâl am dani, ydoedd y fraint o ymdroi a gwynfydu yn nghanol trysorau henafiaethol y Plasgwyn, a dwyn cyfysgrifau o honynt gartref, fel un a ddygai yspail lawer. Yr oedd gan foneddigion y fath ymddiried yn ei onestrwydd, fel y cai dderbyniad dirwystr i'w llyfrgelloedd gwerthfawrocaf, heb y petrusder lleiaf y byddent ddim llai wedi iddo ymadael. Yn ystod y daith hon, efe a ymwelodd â'r prif-fardd Dafydd-Ddu Eryri, ac â'r hyglod henafiaethydd Richard Llwyd, Beaumaris. Un arall o hynodion Iolo Morganwg oedd teithio yn wastadol ar ei draed. Er ei fod yn ymdaith yn barhaus bron, yn agos a phell, o gwr bwy gilydd y deyrnas, ei unig gymhorth ydoedd y ffon hir grybwylledig, a'i afael ynddi yn uchel neu yn isel, yn ol ansawdd ei deimladau. Dywedir mai unwaith, a dim ond unwaith, y gwelwyd ef erioed yn marchogaeth. Dygwyddai fod y tro hwnw gryn bellder oddi cartref, a daeth y newydd ato fod ei dad ar dranc. Cymerodd geffyl, a charlamodd dros bant a bryn, torodd ar draws perthi a chloddiau, gan awydd gweled ei riant unwaith yn rhagor ar dir y byw. Ond gadawodd y daith hono y fath effeithiau annymunol ar ei berson, a'r fath adgofion alaethus ar ei feddwl, fel nas gellid ei ddarbwyllo i fyned ar geffyl byth mwy. Cadwai gyfryw anifail at wasanaeth ei deulu, ac yr oedd ymlyniad cyfeillgar rhyngddo ef a'r creadur hwnw. Gwyliai yr olaf holl ysgogiadau y bardd, a dilynai ef yn fynych mor bell yn ei deithiau a Chaerdydd, pellder o ddeuddeng milldir o Dre-ffleming. Cyd-gerddent fel dau gyfaill; talai Iolo y toll-byrth; a mynych y prynai dorth i'w thori i fynu, i borthi ei gyd-deithydd. Tra y byddai y bardd o dŷ i dŷ yn Nghaerdydd, yn gwneud y neges yma, ac yn cyfeillachu â'r boneddwr dysgedig acw, byddai y ceffyl serchog yn cerdded yn ol ac yn mlaen ar hyd yr heol, i aros am dano. Cyd-ddychwelent tua Thre-ffleming gyda'r hwyr, ond cydgerdded y byddent byth, ni fynai Iolo mewn un modd fod yn faich i'w gydymaith. Yr oedd y gwir barchedig Dr. Burgess, esgob Tyddewi, yn dra hoff o'i gyfeillach, ac yn garedig iawn tuag ato; a phalas Abergwili, preswylfa yr esgob, bob amser yn agored iddo; a'r gadair fawr esmwythaf yn y tŷ, a holl gynwysiad y llyfrgell, at ei wasanaeth. Darfu i'r caredigrwydd hwn ddarbwyllo Iolo i wneud peth na wnaeth ond anfynych iawn yn ei oes, sef rhoddi benthyg i'w arglwyddiaeth rai o'i ysgriflyfrau gwerthfawrocaf. Ond cafodd le i edifeirwch chwerw am yr eithriad hon yn ei garedigrwydd; canys yn anffodus, darfu yr esgob eu hail fenthyca i ddau foneddwr dysgedig. Y ddau hyny a fuont feirw, a daeth y newydd galarus i glustiau Iolo, fod eu llyfrgelloedd wedi myned tan forthwyl yr arwerthydd cyhoeddus. Nid yw iaith wedi ein cynysgaeddu ag adnoddau digon nerthol i osod allan ddigllonedd a thrallod y bardd, pan ddeallodd dynged ei greiriau gwerthfawr. Penderfynodd yn ddioed fynu ail feddiant o honynt, costied a gostiai, a phe gorfuasai iddo deithio yr holl deyrnas. Mynodd afael yn llyfrau yr arwerthiadau; ac wedi astudio y rhai hyny yn fanwl, aeth ar ei draed gan belled a Merthyr Tydfil, lle y preswyliai ei fab, Taliesin. Meddyliai hwnw, fel y gallasai pob dyn arall feddwl, fod ei dad, yr hwn oedd bellach yn ddeg a thriugain oed, yn rhy hen a gwanaidd i gymeryd y fath bererindod ar ei draed; a rhoddodd ei holl ddawn a thalent ar waith, i'w gymhell i gymeryd benthyg ceffyl ganddo. Wedi hir berswadio, ymfoddlonodd yr hen wr i gymeryd y ceffyl gydag ef, gan ychwanegu, os byddai yn teimlo yn flinedig yn ystod y daith, y gallai fyned ar ei gefn. Dymunodd ei fab arno daflu ei ysgrepan ar unwaith ar draws cefn yr anifail, "Na, Na, Tal.," ebe'r hen wr, "nid wyf byth yn ymddiried y walet ar ysgwyddau neb ond yr eiddof fy hunan." Cerddodd i lawr ac i fynu trwy siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi; ac wedi lludded annghymarol, llwyddodd i gael ail afael ar ei holl ysgrifau colledig, oddieithr un. Yna dychwelodd i Gaerfyrddin, lle y cyfarfu

Digitized by Google

Taliesin âg ef; a phan yn cychwyn tua chartref, dymunodd arno fyned ar gefn yr anifail; ond nis mynai. "Na, Tal.," meddai, chwi ellwch chwi farchogaeth, os mynwch; 'farchoga i ddim." Trwy lawer o gymhell, llwyddwyd i'w gael yn foddlawn i daflu yr ysgrepan tros gefn yr anifail, ond ar yr amod fod i Taliesin gerdded ar yr ochr aswy, a chadw ei law yn ofalus ar y naill ben i'r ysgrepan, tra y cerddai yntau ar yr ochr dde, gan ddal ei law ar y pen arall, ac fel hyn, un o bob ochr i'r ceffyl, a chynal, a chadw, a dal gwyliadwriaeth o'r fath fanylaf ar yr ysgrepan werthfawr, yr aethant yn mlaen, nes y blinasant ar y dull hwn o deithio, ac y penderfynasant gymeryd y baich bob yn ail ar eu hysgwyddau eu hunain. Anfynych y mae y fath fraint yn disgyn i ran ceffyl; cael cyd-deithio â bardd yr holl ffordd o Ferthyr i Gaerfyrddin, cael porfa fras, a gorphwys digon yno, a dau fardd yn gymdeithion yr holl ffordd yn ol, heb na thynu llwyth, na chludo baich, ond yr ysgrepan werthfawr a brisiai ei pherchenog yn uwch nag aur coeth. Dywedir i Iolo yn more ei oes benderfynu myned i berfeddwlad yr America, i chwilio am y Madogwys; canys credid y pryd hyny eu bod yn hawdd i'w cael; dim ond myned i hela am danynt. Heblaw ei fod yn gerddwr dihafal, gallai gerdded llawer ar ychydig iawn o fwyd; ond barnai y byddai raid iddo ar ei hynt Fadogaidd, oddef mwy o galedi na chyffredin; a bu yn caledu ei hun at yr anturiaeth, trwy fwyta glaswellt fel anifail, a chysgu yn y coed fel epa. Onid oedd y defaid yn byw ar laswellt? a phaham nad allai dyn yr un modd? Mewn gair, cyhoeddodd ryfel yn erbyn coginfwyd; ond bu agos iddo golli ei fywyd, a chafodd brawf diamheuol nad ar laswellt y bydd fyw dyn. Tra yr oedd efe yn byw tan yr oruchwyliaeth lysieuol, gweddus i ni hysbysu iddo, yn groes i bob rheol o'i fywyd, dori yr wythfed gorchymyn yn y gyfraith, trwy fyned yn nghymdeithas un arall o'r cyffelyb archwaeth, i gae o *glover* yn agos i Aber, sir Gaernarfon, er mwyn tori eu newyn. Pwy a ddaeth heibio, ond perchenog y maes, ac yn gweled y pâr barus yn difetha ei gnwd, bygythiodd yn dost eu dodi yn ngharchar pob barusiaid eraill, sef ffald y plwyf. Mae yn debyg mai myned neu ddychwelyd yr ydoedd ar y pryd, i'r Plasgwyn, canys sonia Dafydd Ddu yn un o'i lythyrau, fod Iolo pan y galwodd gydag ef, yn cael ei boeni yn fawr gan ysprydiaeth llysiau. Rheswm arall tros fyned i'r America, ydoedd ysgoi y cyfreithiau gorthrymus ag oedd mewn grym yn y wlad hon y pryd hwnw. Yr oedd yn casbau o wraidd ei enaid bob gorthrwm, ac yn caru rhyddid o eigion ei galon, fel yr awgrymwyd, yr hyn a'i dygai dan amheuaeth pobl anwybodus, os nad gwybodus, ond rhagfarnllyd; ond er pobpeth, ni wyrodd efe oddiwrth ei egwyddor, a rhoddes brofion diamheuol o'i ddilysrwydd. Fel y gellid tybied, prif wrthddrych ei gasineb ydoedd y gaeth-fasnach. Yr oedd ei dri brawd wedi myned i Jamaica, lle y dilynai Thomas yr alwedigaeth o gerfiedydd, a John, a Miles, yr alwedigaeth o seiri priddfaen; a chan fod y tri yn ddynion sobr, diwyd, ac ymroddgar, casglasant gyfoeth. Gwyddent nad oedd eu brawd, o herwydd ei dueddiadau llenyddol, ond tlawd, ac anfonasant yn garedig i gynyg iddo haner cant o bunau yn y flwyddyn, fel y gallai ymryddhau yn fwy llwyr o drafferthion y byd, ac ymroddi yn ddygnach i'w hoff waith. Dyna brofedigaeth i fardd! buasai y nifer fwyaf yn neidio i'r abwyd, ac yn llyncu cydwybod yr un pryd. Ond yr oedd cysylltiad rhy agos rhwng y cynygiad â phwnc ar ba un yr oedd ei feddwl ef wedi ei hen wneud i fynu. Anfonodd i ddiolch iddynt am eu cynygiad brawdol, ond ar yr un pryd, i'w wrthod yn y modd mwyaf penderfynol. Yr oedd ei frodyr yn casglu eu harian mewn gwlad o gaethiwed, yr oedd caethion yn eu cynorthwyo i'w enill, caethion oedd yn enill yr arian a dalai y planwyr am eu cerfiadau, a'u hadeiladau. "Na!" meddai, "nis gallaf gyffwrdd â'u harian, nid yw namyn gwerth gwaed, pwrcas genedigaeth-fraint dynoliaeth; byddai yn well genyf drengu o eisiau, na chael fy mhorthi âg elw halogedig yr ysgymun beth hwnw, caeth fasnach." Yn mhen rhai blyneddau, bu ei frodyr farw, ac yn ddi blant; a daeth yntau felly yn etifedd i'w holl eiddo, yr hwn oedd mewn rhan yn gynwysedig o gaethion. Dymunai rhai o'i gyfeillion arno weini i'r etifeddiaeth, a chymeryd meddiant o'r cyfoeth, yr hwn yr oedd Rhagluniaeth wedi ei roddi yn ei gyrhaedd. Ni wnai efe ddim o'r fath beth; fe ai ef drosodd i Jamaica; fe ollyngai y caethion yn rhydd; fe ranai yr holl eiddo rhyngddynt hwy; ond ni chyffyrddai âg un geiniog, o'r peth melldigedig ei hunan. Yn ofer y dadleuid y byddai cyfoeth o wasanaeth mawr i'w blant, ei fod yn awr yn feddiant cyfiawn a chyfreithlawn iddo ef, pa sut bynag y casglesid ef, y gellid ei ddefnyddio i ddybenion o elusen, os na chymerai efe ef, y cymerid meddiant o hono gan eraill, y rhai nid oedd ganddynt hawl iddo, y gallai ryddhau y caethion, a thynu pob peth i ben yn Jamaica; ond y cwbl yn ofer. "Beth!" oedd ei atebiad, "a dwyn melldith y Negro gorthrymedig ar benau fy mhlant. Na, ni chant byth halogi eu cydwybodau â'r fath elw melldigedig. Y mae melldith Duw ar gaethwasiaeth a'r fath elw annghyfiawnder. Y mae efe yn ei gasbau, ac y mae ei anfoddlonrwydd Ef yn aros pawb sydd yn ei garu, neu yn caru yr elw a ddeillia oddiwrtho. Ni bydd imi byth bwrcasu melldith i mi fy hun a'm hiliogaeth trwy gyfranogi o'r halogedigaeth ysgeler." Daliodd at ei air, bu fyw a marw gan "wrthod elw trawsedd." Yr oedd yn yr amser hwnw bregethwr o'r enw Mr. Winterbotham, yn ngharchar am draddodi bregeth wleidyddol; yr hwn, fel y mae yn rhy arferol yn yr oes hon, er nad oedd na barnwr na brenin yn ei wrando, a aeth i gornbriddo mewn gwladlywiaeth, ac i ddysgu pa fodd y dylai breninoedd deyrnasu, a barnwyr weinyddu cyfiawnder; ac mewn canlyniad, cafodd hamdden i adolygu ei anwes-waith rhwng muriau y carchar. Yr oedd y ffaith ei fod yn ngharchar am arfer rhyddid barn a llafar, yn ddigon i enyn dyddordeb yn ei achos yn meddwl Iolo Morganwg. Penderfynodd dalu ymweliad âg ef. Gofynid i bob ymwelydd ysgrifenu ei enw, a lle ei breswylfod, ar lyfr a gedwid yn ystafell y porthor. Cydsyniodd Iolo â'r rheol, ac aeth yn hytrach yn mhellach na'i gofynion, rhoddodd ei enw i lawr yn, "*Edward Williams, Bard of Liberty.*" Tynodd hyn sylw un o'r uwch swyddogion, a chafodd y porthor orchymyn i'w nodi, os deuai efe yno drachefn. Nid hir y bu efe cyn talu ei ymweliad yr ail waith. "Felly," ebe'r swyddog, "chwychwi yw bardd rhyddid, ai e?" "Ie'n siwr," ebe'r bardd. "Gan hyny Mr. Bardd Rhyddid, yr ydych i ddeall," ebe y swyddog, "mai yr unig ryddid i chwi yma, yw rhyddid i gymeryd eich hunan ymaith ar hyd yr un ffordd ag y daethoch." "O, Purion," ebe Iolo, "rwy'n eithaf boddlon;

Digitized by Google

ac mi ddymunwn na chaffo un bardd rhyddid waeth triniaeth na chael gorchymyn i fyned allan o garchardy." Darfu i'r drwg dybiau a goleddid am ei ddyngarwch, ei ddwyn wyneb yn wyneb a'r enwog Mr. Pitt. Yr oedd y llywodraeth wedi clywed cyhuddiadau disail yn ei erbyn, ac mewn canlyniad atafaelwyd ei bapurau, ac aed a hwy i'r Whitehall; gwysiwyd yntau i ymddangos gerbron Mr. Pitt, ac un o'i swyddogion. Bu chwilio maith a manwl ar y papurau; ond ni chaed ynddynt oddieithr cân neu ddwy, yn mha rhai y canmolid rhyddid ar y mwyaf, ac nid oedd yn y rhai hyny ddim yr ystyriai y gweinidog ei fod yn haeddu cosb, neu gerydd. Gan hyny rhoddodd dipyn o gynghor caredig i'r bardd, a dybenodd trwy ddweyd, "Yn awr Mr. Williams, chwi ellwch gymeryd eich papurau gyda chwi gartref, a gwneud eich hun yn berffaith esmwyth." Ond nid oedd y cyfryw ollyngdod yn cydweddu â golygiadau y bardd am esmwythdra, ac atebodd, gan fod y cyfryw bapurau wedi eu dwyn yno heb ei gydsyniad ef, ei fod yn dysgwyl iddynt gael eu dwyn yn ol drachefn, trwy yr un awdurdod ag y dygwyd hwynt ymaith. Ystyrid hyn yn eithaf rhesymol, a danfonwyd swyddog i gario y papurau i'w letty. Gwyddai ei fod yn ddyn a ddrwg-dybid, ac arweiniai y syniad hwnw ef weithiau i wneud camsyniadau lled ddigrifol. Pan yn Llundain, daeth yn gydnabyddus âg un Mr. Rose, yr hwn oedd yn gyfaill mynwesol i'r bardd Seisonig anfarwol, William Cowper. Gwahoddodd Mr. Rose ein bardd i gymeryd tê yn ei dŷ, yn Chancery Lane; ac er fod Iolo yn drwgdybio fod amcan yn y peth i'w dynu i fagl, addawodd fyned. Pan ddaeth yr amser, cafodd ei hun yn nhy Mr. Rose, yn nghanol cylch o gyfeillion siriol a llawen. Yn fuan, rhoddodd Iolo y ffrwyn i'w ffraethineb; ymollyngodd i siarad yn rhwydd a rhydd am bob peth a ddelai i'r bwrdd; ac o ran hyny, efe oedd siaradwr mawr yr achlysur; a buasai yn teimlo yn berffaith esmwyth oni buasai fod yno foneddwr yn nghongl yr ystafell, yr hwn, er ei fod yn talu sylw manwl i bob peth a ddywedid, ac yn enwedig felly i'r hyn a ddywedai Iolo, oedd yn gwbl ddystaw ei hunan. Yr oedd o ymddangosiad prudd-aidd a meddylgar; ond nid oedd dim yn hyny, ei fudanrwydd hollol, a'r sylw dyfal a dalai i bob gair a ddywedid, oedd yn peri anesmwythder i feddwl ein bardd; ac nis gallai ymryddhau oddiwrth y dybiaeth ei fod wedi ei osod yno gan y llywodraeth i gadw gwyliadwriaeth arno ef. Pan ddaeth yr amser i ymadael, modd bynag, cymerodd Mr. Rose ein bardd at y boneddwr mud; a rhyfedd fu ganddo ddeall nad oedd gwrthddrych ei anmheuaeth yn neb arall ond yr hawddgar a'r diniwaid William Cowper. Yr oedd Mr. Cowper wedi arwyddo dymuniad am weled Iolo, ac yr oedd Mr. Rose wedi cymeryd y llwybr hwn i ddwyn y ddau fardd wyneb yn wyneb, ond yr oedd y bardd Seisonig druan wedi ei orchfygu gan y gi-haint, fel nad allai gymeryd un rhan yn yr ymddiddan. Cafodd y ddau fardd fel hyn weled eu gilydd am unwaith, a dim ond hyny; ni bu haner dwsin o eiriau rhyngddynt; a phan yn ymadael, arwyddent ddymuniad y byddai eu cyfarfod yn fwy cyfeillgar y tro nesaf. Ond ni chawsant gyfarfod mwy ar y ddaear. Pe buasai Iolo yn gwybod mai Cowper oedd y dyn dystaw, pruddaidd, a eisteddai yn nghongl yr ystafell, pell fuasai o'i ddrwgdybio o fod yn ysbiwr; ac ni buasai neb llwyr adnabyddus â theimladau calon Iolo, yn ei ddrwgdybio yntau o fod yn wrthryfelwr. Yr oedd annibyniaeth yn un o-nodweddau dyfnaf, ac amlycaf ei gymeriad. Pe buasai ganddo lai o hyny, cawsai fwy o barch, a mwy o gyfoeth; ond fel yr oedd, cafodd barch lluaws ag yr oedd eu parch yn werth ei gael; mwynheid a mawrheid ei gyfeillach gan lawer o fawrion y deyrnas, mawrion mewn cyfoeth, mawrion mewn dysg, a mawrion mewn enwogrwydd llenyddol. Yr oedd gan lawrwyddfardd Prydain, yr enwog Robert Southey, olwg fawr arno, a pharch mawr iddo. Trysorai gyda dyfalwch a gofal bob peth a ddywedid ac a ysgrifenid gan Iolo, ac am dano. Mwynhaodd hefyd gyfeillach y Tywysog Talleyrand, ac Arglwydd Stanhope, Dr. Benjamin Franklin, Dr. Aiken, yr Esgob Percy, Gilbert Wakefield, Francis Douce, Horne Tooke a llawer o enwogion eraill. Pan unwaith yn y brif ddinas, derbyniodd genadwri oddiwrth foneddwr urddasol, yn dymuno arno alw gydag ef cyn yr ymadawai. Yr oedd y boneddwr wedi clywed am Iolo, ac yr oedd y son am dano wedi creu awydd ynddo am ei weled. Ryw ddiwrnod aeth y bardd at ei dŷ, curodd, a daeth y trulliad at y drws. Gofynodd i hwnw os oedd ei feistr i mewn. "Ydyw," oedd yr ateb, "ond y mae ganddo gwmni: os ydych am ei weled, rhaid i chwi alw rywbryd arall." "Na," ebe Iolo, rhaid i mi ei weled yn awr." Aeth y gwas a'r neges i'r parlawr; dywedodd fod gwr o ymddangosiad pur dlawd, ac ysgrepan wen ar draws ei ysgwyddau, yn sefyll wrth y drws, gan ymofyn am ei weled; ac wele orchymyn eto iddo ymadael, a galw rywbryd arall. Ond ni chymerai Iolo ball; yr oedd yn rhaid iddo ef gael gweled y boneddwr ar hyn o bryd. Y diwedd fu i'r boneddwr lidio, cyfododd ar ei draed, ymaflodd yn y chwip, rhedodd tua'r drws, gan fwriadu gwneud i'r dyeithr con ddefnyddio ei draed, a chododd ei law,—"*Strike a Welshman if you dare*," ebe Iolo,—

"Strike a Welshman if you dare,
Ancient Britons as we are;
We were men of great renown
Ere a Saxon wore a crown."

"*What!*" ebe'r boneddwr, "*are you the Welsh Bard?*" "Ai chwi yw y Bardd Cymreig? Deuwch i fewn, deuwch i fewn yn y funud." Ac i mewn yr aeth. Ond ni ddarfu ymgyfeillachu â mawrion droi ei ben, na rhwydo ei galon. Yr un dyn syml a dirodres ydoedd ef pan yn neuadd ardderchog William Pitt, â phan yn ymgomio a Peggy yn ymyl y tan yn Nhreffleming; a chai mawrion yn gystal a bychain ar ddeall nad oedd efe yn gosod mwy na mwy o bwys ar rwysgedd. Wrth fyrddau, ac yn nghwmni uchelwyr, ni byddai neb mwy cymedrol na Iolo Morganwg. Yr oedd gan ffrwyth y ddeilen Chineaidd lawer mwy o swyn i'w archwaeth, na ffrwyth yr heidden, na sudd y grawnwin. Fel yfwr te, mae yn ddiau y buasai yn tynu y dorch ag un bardd ag hynafiaethydd yn y greadigaeth isloerawl. Gofynodd Mr. Elizah Waring, ei fywgraffydd dyddorol, pa sawl cwpanaid o de a yfasai fwyaf ar un eisteddiad, atebodd, nad oedd erioed wedi cyfrif, ond bod boneddiges wedi ei hysbysu, iddi hi estyn iddo ei unfed gwpanaid ar bumtheg, a'i fod yn beth pur debyg iddi gadw cyfrif cywir. Yr oedd yn siaradwr diderfyn uchben ei ddiod, sef oedd hwnw, te; ac yn dwyn pob cangen o wybodaeth i'r bwrdd. Trwy ei ddyfalbarhad anorchfygol, nid oedd odid i wyddon a chelf nad oedd efe yn hyddysg ynddi, nad allai lefaru yn groew a

gwybodus am dani, a thraethu ei farn annibynol arni. Yr oedd yn feddyliwr dyfnddwys a mawr. Dywed Gwallter Mechain am dano;—"Ni chytunai â Barnett, Whiston, Buffon, Whitehurst, na Hutton, yn eu dychymygion yn nghylch ansawdd ein daear, a sefyllfaoedd y gwelyau a'r colofnau o greigiau a sylweddau eraill yn ei harwynebedd. Yr oedd ganddo gyfundraeth o'i eiddo ei hun." Am ei farn grefyddol, dywedir yn "Cymru Fu" 1, 332:—"Mae yn anhawdd gwybod yn iawn pa beth oedd ei farn grefyddol. Nid oedd *Waring*, ei fywgraffydd, yn gwybod chwaith. Yn ei Salmau y gwelir mwyaf o'i syniadau crefyddol. Mae yn amlwg ei fod yn ddyn bucheddol a chymwynasgar, yn feddyliwr dwfn ar bethau dwyfol, fod ganddo syniadau goruchel a pharchus am Dduw, ac am yr Ysgrythyr Lân fel amlygiad o'i ewyllys." Yr oedd y diweddar Dr. Jenkins, o Hengoed, yn gydnabyddus iawn â Iolo, a byddai yn son llawer am dano. Yn ol fel y dywedai ei gyffes wrth Dr. Jenkins, yr oedd efe yn Undodwr mewn rhai pethau, yn Grynwr mewn pethau eraill, yn Fethodist yn nhrefn y weinidogaeth, ac yn Fedyddiwr mewn bedydd. Nid oedd neb yn ei foddio yn mhob peth, ac yr oedd efe yn cymeradwyo rhywbeth yn mhawb. Soniai am ysgrifenu llyfr i ddangos fel yr oedd pawb yn cyfeiliorni, dan yr enw, "Ymweliad y Diawl âg Eglwysi Cymru." Ond ni chyflawnodd ei amcan yn hyn fel mil o bethau eraill a fwriadodd. Yr ydym yn awr yn dyfod at ei gyfansoddiadau llenyddol. Ei waith cyntaf ydoedd dwy gyfrol o Ganiadau Seisnig, dan y teitl, *Poems, Lyric and Pastoral,* 1794, yr hwn a gyhoeddwyd trwy gymhorth tanysgrifwyr, ac yn mhlith y rhai hyny ceir y cadflaenor Washington, Syr Wm. Jones, Mr. Wilberforce, ac hyd yn nod Thomas Paine. Bu Iolo ar ymdaith drwy y dywysogaeth dros Owen Myfyr, yn chwilio am hen lawysgrifau, ac yn llwyddianus ar ei antur tuhwnt i'w ddysgwyliadau cryfaf. O'r casgliad hwnw yn benaf y cafwyd defnyddiau y drysorfa henafiaethol hono, y "Myvyrian Archaiology," yr hwn a gyhoeddwyd dan olygiaeth Myfyr, Dr. Pughe, a Iolo Morganwg. Argraffwyd ef yn Llundain yn 1801, mewn tair cyfrol, a gwaith Iolo ydyw y rhagymadrodd hanesyddol galluog, a'r adolygiad ar hen lawysgrifau Cymreig. Cyhoeddodd hefyd ddwy gyfrol o Emynau, dan y teitl, "Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch," ond er eu bod yn gelfyddgar, y maent yn rhy oer i hinsawdd frwd-grefyddol Cymru. Bwriadai ysgrifenu hanes Cymru, a chynullodd dwysgen mawr o ddefnyddiau ato, dim llai na chan' cyfrol. O'r rhai hyn y cyhoeddwyd "Cyvrinach y Beirdd," yr hwn a wnaeth ei ymddangosiad ychydig cyn marwolaeth y bardd; a chyfrol arall dra dyddorol o'r enw "Iolo MSS.," yr hon a gyhoeddwyd yn 1849, gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig. Iddo ef y mae y byd llenyddol yn ddyledus hefyd am gadwraeth "Coelbren y Beirdd," neu lythyrenau gwyddor yr hen Gymry. Bu cryn ddadleu ac anmheu dilysrwydd y darganfyddiad hwn; ond darfu i'w fab, Taliesin ab Iolo, yn ei draithawd campus ar y pwnc, a enillodd wobr Eisteddfod Abergafenni, ac a gyhoeddwyd yn 1841, brofi i foddlonrwydd pob un diduedd, ddiffuantrwydd y ffaith. Nid yw hyn ond y llyfrau a gyhoeddwyd dan ei enw; eithr y mae yn anmhosibl hysbysu o ba faint o gymhorth y bu i awduron eraill, a gallwn yn ddibetrus ddweyd, na chyhoeddwyd yn ei oes yr un llyfr hanesyddol o bwys yn Nghymraeg, nac yn Seisnig, ar destynau hanesyddol Cymreig, heb fod ganddo ef ryw law ynddo, mewn modd uniongyrchol neu anuniongyrchol. Bwriadodd gyhoeddi llawer rhagor nag a gyhoeddodd; a cheir yn y *Cambrian Register*, restr o weithiau llenyddol pwysfawr oedd ganddo yn barod i'r wasg. Wedi oes faith, lafurus, a digon blinderus, dechreuodd haul ei fywyd dynu at y gorwel. Cystuddiwyd ef yn drwm am lawer o flyneddau gan ddiffyg anadl, ac am y deunaw mlynedd olaf o'i oes, prin y cysgodd un noson ond mewn cadair. Bu farw Rhagfyr 18, 1826, yn 81 oed. Y mae ei weddillion marwol ef, ei wraig, ei fab, a'i ferch, yn cyd orphwys yn dawel yn eglwys henafol Tre ffleming; ac er nad oes gymaint a llythyren gerfiedig yn dynodi argel wely y dyn mawr a chyhoeddus hwn, nid oes berygl na ddeil ei goffadwriaeth yn fyw ac yn wyrddlas, am oesau lawer. Yn 1850, cyhoeddodd ei hen gyfaill athrylithgar, Elijah Waring, gyfrol fechan, drylawn o ddyddordeb, dan y teitl, *Recollections and Anecdotes of Iolo Morganwg.*

**WILLIAMS**, Edward, D.D., a adwaenir yn oreu dan yr enw "Dr. Williams o Rotherham," a anwyd yn Glan Clwyd, swydd Dinbych, Tachwedd 14, 1751. Ni bu ei fanteision crefyddol yn helaeth yn ei flyneddoedd boreuaf, gan nad oedd ei rieni, er eu bod yn ddynion moesol, yn gwybod nemawr am grefydd yn mhellach na'r ffurf; ond er hyny, fe'i dygwyd ef dan argraffiadau crefyddol yn ei ieuenctyd, fel y rhan fwyaf o'r dynion enwog a defnyddiol yn eglwys Dduw yn mhob oes. Hyn mae yn debyg, yn nghyd a'i hoffder o ddysgeidiaeth, a barodd i'w dad feddwl am ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig; ac er ei barottoi i hyny, efe a anfonwyd i Lanelwy, i dderbyn addysg leithadurol; ac wedi hyny, efe a osodwyd dan addysg gwr eglwysig, i'w barottoi i fyned i brif ysgol Rhydychain. Ond, yn ddamweiniol, efe a aeth i wrando yr hybarch Daniel Rowlands yn pregethu mewn ty to gwellt bychan yn mhlwyf Llandyrnog, a adwaenid wrth yr enw "Tŷ Modlen;" a hon oedd y bregeth gyntaf erioed a wrandawodd efe o'r tu allan i'r eglwys wladol. Tua 17eg mlwydd oed oedd efe y pryd hwn; ac y mae yn ymddangos iddo gael blas rhyfeddol ar y bregeth; ac er fod ei rieni yn dra gwrthwynebol iddo, efe a gyrchai yn ddyfal i "Dŷ Modlen," i wrando y pregethau a draddodid yno. Pan oedd efe ar fedr ymbarottoi i dderbyn y cymun, efe a ysgrifenai fel hyn;—"Mae yn beth syn, eto yn ffaith arswydus, nad oedd yn yr holl blwyf yr oeddwn yn preswylio ynddo, ddim cymaint ag un teulu ag addoliad crefyddol ynddo, nag oedd, hyd yn nod yn nheulu y gweinidog ei hun; ac nid oedd tri o glerigwyr yn chwe sir Gwynedd, a bregethent, ac a fuchedent yr efengyl yn ei grym a'i phurdeb! O'r pryd hwn mi a wrandawn bregethau yn achlysurol yn Nghyfundeb Mr. Rowlands, (yr un a'r Whitfieldiaid); ond y tro cyntaf yr agorwyd fy nghalon gan ddwys argyhoeddiad, oedd wrth wrando pregethwr lleyg, mewn ysgubor wael." Yna y mae yn adrodd yr effeithiau a gynnyrchodd y bregeth hono ar ei galon; ac yn dybenu trwy ddywedyd, "Hwyrach y gallaf ddywedyd, na theimlodd un pechadur tlawd erioed fwy, wrth wrando apostol ysbrydoledig nag a deimlais i."

Yr oedd efe wedi myned i'r bregeth yn ddiarwybod i'w deulu; a chan faint oedd eu hofn iddo ymgyfathrachu â'r Methodistiaid, yr oeddynt yn llawn digofaint; a gorchymynwyd yn llym i'r gweinidogion

Digitized by Google

beidio ei dderbyn i'r tŷ y noson hono, er ei bod yn wlŷb ac oer. Gan hyny, efe a wnaeth ei wely mewn gwellt, yn un o'r tai allan: ond, gan fod ei ddillad eisoes yn wlybion, teimlai ei hun yn oer ac anystwyth yn y boreu; ac yr oedd yn ofni cyfarfod â'i rieni yn fawr, eto ni bu yr ystorm yn fwy nag y dysgwyliasai iddi fod; ac aeth drosodd yn lled fuan. Yr oedd pryder ei rieni yn fawr o herwydd y cyfnewidiad a ganfyddent yn y bachgen: wylai ei fam uwch ei ben, a gwgai ei dad arno; canys credai y ddau, fod eu mab wedi ei andwyo eisoes, am ei oes. Bu yn aelod, debygid, gyd a'r Methodistiaid am ddwy neu dair blynedd, pryd yr anfonwyd ef at wr eglwysig yn Nerwen, i ymbarottoi mewn dysg i fyned i Rydychain. Yr oedd yr athraw hwn yn dra rhagfarnllyd yn erbyn Methodistiaeth; a buasai gwybod fod un oedd dan ei ofal addysgawl, yn myned i wrando arnynt, yn sicr o wneyd y cyfryw un yn nod ei erlidigaeth lemaf: pa fodd bynag, diangodd Edward Williams unwaith i'r Bont Uchel, wedi clywed fod rhywun i bregethu yno; a dychwelodd yn ol mor fuan, fel y barnodd yr athraw na allasai gan amser i fod yno, ac felly dihangodd yn ddi gerydd y tro hwnw. Ond yr oedd efe wedi cael ei ddadebru a'i gysuro i fesur, trwy y lluniaeth a gawsai ei enaid newynog yn y bregeth: cofiai am y tro flyneddau ar ol hyn; ac unwaith, pan yn Ninbych, rhoddes heibio bregethu, fel y dysgwyliasid iddo wneyd, ac aeth rai milldiroedd o ffordd, i wrando y llais a weinyddasai iddo gymaint o ddyddanwch yn y Bont Uchel; a phan ymliwiai rhyw rai ag ef am wneuthur hyny, dywedai, "Gobeithiaf y cyd ddygwch â mi: ni allaf byth annghofio y cysur a'r lles a gefais trwy ei bregeth yn y Bont: yr oedd mewn gwirionedd, fel bara y bywyd i enaid newynog."

Robert Llwyd, o'r *Plas-ashpool*, a fu yn offeryn i ddwyn Williams ieuanc i wrando; ac fel hyn, meddir, y bu:—Anfonodd ei dad ef un diwrnod gyda dwy anner i Blas-ashpool, i bori gwellt; canys yr oeddynt yn gymmydogion; ac efe a gymhellid gan Robert Llwyd i fyned gydag ef i le gerllaw, i wrando pregeth, â'r hyn y cydsyniodd. Yr oedd wedi clywed rhyw rai cyn hyn yn edliw iddo ei fod yn un o'r Methodistiaid, a hyny o herwydd ei ddichlynrwydd, a'i ddifrifwch; a thybiasai ar y pryd y gallai y rhai dirmygedig hyn fod yn well pobl na'r rhai a'u dirmygent, a theimlai ryw awydd i gael gwybod mwy am danynt. Dyma y cyfleusdra yn ymgynnyg iddo, a chyda Robert Llwyd yr aeth. Fel hyn y dechreuodd gyrfa grefyddol y gwr mawr hwn; efe a ymunodd â'r ychydig Fethodistiaid oeddynt ar gael, mewn cynnulliad a gynhelid mewn ammaethdy a elwid Cefn-y-gwrdu, lle, oddeutu haner y ffordd rhwng y Dyffryn a'r Gellifor; ac yno y cynhelid y cyfarfod eglwysig, am fod amryw o'r teulu yn aelodau gyd a'r Methodistiaid.

Tu a'r adeg yma, dechreuodd Williams ieuanc feddwl yn sobr a difrifol yn nghylch natur ac ammodau cyd ffurfiaeth, a pha mwyaf y meddyliai am hyny yn ngoleuni y Testament Newydd, mwyaf penderfynol ydoedd i annghydffurfio; a'r canlyniad o hyn a fu, iddo fwrw ei goelbren yn mhlith yr Annibynwyr: a thrwy hyny collodd ffafr ei dad yn llwyr. Yn fuan wedi ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Ninbych, cafodd ei dderbyn i'r athrofa gynnulleidfaol, yr hon oedd y pryd hwnw dan arolygiaeth y Dr. Davies, yn Abergafenni. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1771, pan oedd efe tuag ugain mlwydd oed. Wedi treulio yr amser arferol yn yr athrofa, derbyniodd alwad oddiwrth yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Ross, swydd Henffordd, a chafodd ei urddo yno i gyflawn waith y weinidogaeth, yn y flwyddyn 1776: a pharhaodd i weinidogaethu yno hyd y flwyddyn 1781, pan symmudodd i Groesoswallt, yn swydd Amwythig, lle, mewn cyssylltiad â'i ddyledswyddau gweinidogaethol, yr arolygodd addysgiad ychydig o wyr ieuainc, gyda golwg ar eu parottoi i waith y weinidogaeth. Ar fynediad y Dr. Davies o'r Fenni i Homerton, cafodd Mr. Williams ei ddewis yn athraw duwinyddol yn ei le ef, a symmudwyd yr athrofa o'r Fenni i Groesoswallt, gan ei huno â'r un ag oedd yno eisoes. Parhaodd Mr. Williams i arolygu y sefydliad unol hwn mewn modd boddhaol i'w noddwyr, hyd y flwyddyn 1791, pan roddodd ei swydd mewn cyssylltiad â'r athrofa i fynu, o herwydd llesgedd iechyd; a derbyniodd alwad i fod yn weinidog i'r Eglwys Gynnulleidfaol yn Heol Carr, Birmingham. Oddeutu y pryd hwn, yn gydnabyddiaeth talentau a chyfansoddiadau galluog, ac mewn canlyniad i bregeth a gyhoeddasai ar Gal. 6, 14, cafodd, mewn modd hollol annysgwyliadwy, ei raddio yn Ddoctor Duwinyddiaeth, gan brif ysgol Edinburgh. Daeth cyfaill a'r *Gazette* ato, yn cynnwys hysbysiad o hyny; ac wedi iddo ei ddarllen, rhoddodd ef yn ol i'r dygiedydd, gan ddywedyd, "Boed hyny fel y byddo, glynaf eto wrth fy nhestun. —'Na atto Duw i mi ymffrostio ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist.'" Wedi bod yn Birmingham bedair blynedd, derbyniodd alwad o Rotherham, ger Sheffield, yn swydd Gaerefrog: ac wedi iddo ymsefydlu yno, efe a gafodd ei ddewis yn athraw duwinyddol y coleg a sefydlwyd ar y cyntaf yn Hecmondwic, dan arolygiad yr enwog Mr. Seat. Yma cafodd Dr. Edward Williams gyfleusdra manteisiol i ddefnyddio ei alluoedd cryfion, a'i dalentau dysglaer, i'r dybenion pwysiccaf yn ngwasanaeth ei Arglwydd; ac yr oedd pawb a'i hadwaenai yn cyd uno i dystiolaethu i'w ffyddlondeb a'i ddiwydrwydd anarferol yn y cyflawniad o ddyledswyddau pwysig ei sefyllfa a'i swydd, fel athraw, ac fel gweinidog. Yn y lle hwn, parhaodd i fyfyrio, ysgrifenu, pregethu, ac addysgu, gyda diwydrwydd anarferol, hyd oni alwodd Duw ef atto ei hun, Mawrth 9fed, 1813, yn y drydedd flwydd a thri ugain o'i oedran.

Yr oedd y Cymro dysgedig a duwiol hwn, yn wr o alluoedd eneidiol anarferol o gryfion, yn anrhydedd i'w genedl, yn addurn i'w broffes, a'i swydd, ac yn fendith fawr i'r byd, a'r eglwys. Nid oedd efe, mwy na lluoedd o'r duwinyddion mwyaf, a'r awdwyr goreu, yn areithiwr hyawdl; eto, yr oedd yn bregethwr efengylaidd, syml, pwysig, grymus ac argraffiadol; yn enwedig mewn rhyw amgylchiadau. Byddai ar amserau yn ymweled a'i wlad enedigol: ac un tro, pan y pregethai yn Ngwrecsham, yr oedd newydd fod yn glaf; ac yn ei feddwl ei hun ac eraill, megys yn mhorth y bedd. Ei destyn y tro hwnw oedd, "Myfi a wn y dygi di fi i'r bedd, y ty rhag derfynedig i bob dyn byw."—Wrth rag-ymadroddi, sylwodd ei fod yn ddiweddar iawn, yn ei deimladau ei hun, ac yn marn eraill, wedi bod ar drothwy drws y ty yr oedd ei destyn yn crybwyll am dano: ac ychwanegodd, gyda difrifwch annysgrifiadwy, "Yr ydwyf yn awr yn myned i adrodd wrthych sylwedd fy myfyrdodau yn yr amgylchiad hwnw." Parottodd hyn y gynnulleidfa fawr i wrando arno; ac yr oedd pob llygad yn syllu yn ddiysgog arno, ac agwedd

Digitized by Google

pawb yn dangos yn eglur, eu bod dan ddylanwad ysbryd y pregethwr, a'r pregethwr dan ddylanwad ysbryd ei destyn. Dywedodd un oedd yn ei wrando, na welodd erïoed olwg mor ddifrifol ar bregethwr a chynnulleidfa, na chlywed geiriau sobrwydd yn cael eu traddodi gyda mwy o ddifrifwch a dwyster, na'r tro hwnw. Yr oedd golwg, ysbryd, a thestyn y pregethwr y tro hwnw, yn cyduno i dynu sylw difrifolaf pawb; ac yn tueddu i adael argraff ddwys ar eu meddyliau, ac ni buant yn ddiffygiol o wneuthur hyny.

Yr oedd Dr. Williams yn awdwr Gweithiau tra gwerthfawr, y rhai a restrir yn y dosbarth blaenaf o gyfansoddiadau Duwinyddol; yn mysg y rhai y gellir nodi, ei Attebiad i Mr. Abraham Booth, yn y ddadl ar fedydd, mewn 2 gyf. 12plyg; "Talfyriad o Esponiad Dr. Owen, ar yr Epistol at yr Hebreaid;" yn 4 cyf. 8plyg; ac yn enwedig ei Draethawd penigamp ar Uniondeb y Llywodraeth Ddwyfol, a Phenarglwyddiaeth Dwyfol ras. 8pl. Llundain, 1813; a'i Bregeth ragorol ar Ragluniaethiad i fywyd, ger bron Cymdeithasfa Gweinidogion swydd Gaerefrog, yn nghyd a'i Nodiadau gwir werthfawr yn gyssylltiedig a hi. Yn mhlith Duwinyddion, cynnar a diweddar, cyfrifir Dr. Williams mewn modd teilwng, fel seren o'r maintioli mwyaf; a thra byddo Cristionogaeth bur, ac ymresymiadau cryfion a theg mewn bri, ni bydd ei ysgrifeniadau gwerthfawr ef heb dderbyniad a chymeradwyaeth gan ddynion meddylgar a duwiol, er nad ydynt, mwy nag eraill o'r un nodweddiad, wedi dïanc rhag enllib a difrïaeth dynion hunanol, rhagfarnllyd, ac Antinomaidd.

Ar ymddangosiad cyntaf ei Draethawd ar "Uniondeb y Llywodraeth Ddwyfol, &c.," yr oedd llawer o ddarllen arno, a llawer yn ei ddifrïo fel llyfr niweidiol a pheryglus. Y pryd hwnw, yr oedd un o'r cyfryw yn siarad yn ddirmygus am dano yn nghlyw gwr ag oedd ychydig yn fwy pwyllog a di ragfarn nag ef ei hun, gan ei osod allan fel yn llawn o wenwyn Arminaidd. Ceisiodd y gwr ganddo weled y Traethawd, a throi at ryw gyfran o hono yn cynnwys yr athrawiaethau a grybwyllai. Cyrchodd y beiwr y llyfr, a throdd at ddyfyniad oedd ynddo o waith *Dr. Whitby*, yr hwn a ddodasai yr Awdwr ynddo i'r dyben o'i wrthbrofi. Edrychodd y gwr arall arno, ac a'i darllenodd, ac wedi ei ddarllen, edrychodd ar y beiwr, a dywedodd, "Gwaith Whitby yw y dernyn hwn, ac nid gwaith y Dr. Williams; ei wrthbrofi y mae y Dr. Williams, ac nid ei gymeradwyo." Afreidiol yw dywedyd, i'r cablwr rhagfarnllyd gywilyddio, a myned yn fud. Yr oedd Dr. Williams, nid yn unig yn wr dysgedig, a duwiol, yn Dduwinydd mawr, ac yn ddyn o alluoedd meddylgar cryfion; ond hefyd, yr oedd yn wr cyflawn o wybodaeth gyffredinol. Arferai sylwi yn fanol ar bob peth a ddeuai yn ei ffordd, a gwyddai fwy yn mherthynas iddynt na dynion yn gyffredin. Y prif bethau oeddynt yn gorphwys ar feddwl y gwr enwog hwn yn ei fywyd a'i iechyd, oedd gogoniant Duw, llwyddiant teyrnas y Cyfryngwr yn y byd, a llesäad yr holl hil ddynol yn gyffredinol: ac yn ei gystudd diweddaf, yr un pethau oeddynt amlaf yn ei fryd, ac ar ei wefusau. Tra y gallodd fyned allan o'i ystafell, yr oedd yn wastadol yn ngafael a rhywbeth perthynol i ogoniant ei anwyl Brynwr; a phan oedd ei ran farwol yn cael ei llethu gan gystudd trwm, yr oedd ei ran anfarwol yn gweithredu mor fywiog ag erïoed. Dywedai ei hun yn yr amser hwnw, fod gweithrediad parhaus ac anorchfygol ei feddyliau, yn niweidiol iawn i sefyllfa isel ei gorff; ac oni allasai gael attalfa arno, na fuasai cymhorth meddygol o un gwerth. Mewn canlyniad i'w ymarferiad gwastadol â myfyrio, yr oedd ei feddwl wedi enill y fath oruchafiaeth ar ei gorff, fel nad oedd yn ddichonadwy i'r olaf ymgynnal yn hwy dan y gorlwyth heb ymollwng. Un diwrnod, wedi dyoddef poenau mawrion yn ddi orphwys dros bymtheng awr, hyd onid oedd bron yn rhy wan i siarad, dywedai nad oedd gweithrediad y meddwl yn llai y pryd hwnw; a'i fod yn teimlo ei hun yn gysurus yn Nuw ei iachawdwriaeth, er nad allai lefaru ond ychydig. Dywedodd wrth gyfaill, "Yr wyf yn llaw benarglwyddiaethol Duw, yr hwn a gwblha â mi a'm heiddo; â'r eglwys, ac â phawb." Dro arall dywedai, "Bum yn ddiweddar yn ceisio meddwl am fy achos personol fy hun, ond yn awr mae fy meddwl yn cael ei lenwi yn hollol âg achosion yr eglwys, a'r pethau perthynol i ogoniant Duw." Y diwrnod y bu farw, dywedai, "Ni's gwn pa fodd y mae pethau yn bod, y mae fy meddwl wedi peidio a gweithredu." "Hyn oedd yn eisiau," medd Mrs. Williams, "y mae genyf yn awr ryw obaith." Ond, fe'i siomwyd am ei gobaith; canys yn mhen ychydig oriau, bu farw heb gymaint ag un ochenaid.

**WILLIAMS**, Eliezer, A.M., ydoedd fab henaf y Parch. Peter Williams, Awdwr y Sylwadau Efengylaidd ar y Beibl. Efe a anwyd yn Llandyfaelog, swydd Gaerfyrddin, tu a'r flwyddyn 1754. Wedi cael o hono addysgiad helaeth yn elfenau Gramadeg yr iaith Lladin, a'r Groeg, gan y Parch. J. Williams, is-beriglor St. Ismael, efe a ddodwyd yn ysgol Ramadegol Caerfyrddin, lle y parhaodd mewn ffafr fawr gan ei athraw, a hoffder neillduol gan ei gyd efrydwyr, hyd oni chyrhaeddodd oedran cyfaddas i gael ei symud i brif-ysgol Rhydychain, lle yr ymrestrodd yn Ngholeg yr Iesu, ryw ysbaid o amser cyn y flwyddyn 1774. Tu a'r flwyddyn 1770, tra yr oedd efe yn yr ysgol yn Nghaerfyrddin, efe a gynnorthwyai ei dad i barottoi ei Sylwadau ar y Beibl Cymraeg i'r Wasg, a'i Fynegair Ysgrythyrol hefyd.

Yn y blyneddoedd 1771, a 1772, arferai y Parch. Evan Evans, (Ieuan Brydydd Hir,) alw yn fynych yn y Gelli, ar ymweliad gyd a'i dad, y Parch. Peter Williams, ac ar yr achlysuron hyny, ffurfiai Mr. E. Williams gyfeillach fynwesol â'r Bardd a'r Llenor hwnw; ac arweiniai hyny ef i olrhain, ac edmygu ceinion yr iaith Gymraeg. Tu a'r pryd hwn yr oedd y diweddar Barch. Peter Williams yn cymeryd rhan yn nghyhoeddiad yr "Eurgrawn Cymraeg," y Cyhoeddiad cyfnodol cyntaf a ymddangosodd yn Nghymru. Yr oedd y Parch. Peter Williams, a Mr. Evan Thomas, bardd o swydd Drefaldwyn, a breswyliai y pryd hyny yn Nghaerfyrddin, yn gyd olygwyr. Cynnwysai yr Eurgrawn hwn, 1. Brut y Tywysogion; 2. Treithiadau ar wahanol Destunau: 3. Barddoniaeth: 4. Hysbysiadau, Cartrefol a Thramor. Y dosbarth Barddonol a gyflenwid gan Ieuan Brydydd Hir, Hugh Hughes, a Robert Hughes, o Fôn, John Thomas, tad Mr. Evan Thomas, y Golygydd, Mr. Edward Williams (Iolo Morganwg), ac amryw eraill o gryn enwogrwydd. Yr oedd Eliezer Williams wedi coledd yr awen pan nad oedd ond bachgenyn; ac ymddangosodd rhai o'i gyfansoddiadau barddonol ef yn yr "Eurgrawn."

Wedi gorphen ei efrydiau clasurol dan Mr. Barker, efe a aeth i Rydychain, ac a dderbyniwyd i goleg yr Iesu, yn y flwyddyn 1773. Fel yr enwogai ei hunan

Digitized by Google

trwy ei gynnydd cyflym mewn dysgeidiaeth, a'i annibyniaeth meddwl, efe a ennillodd iddo ei hun barch mawr yn mysg ei gyd-efrydwyr yn fuan, ac a ffurfiodd gyfeillgarwch ag amryw o honynt hefyd, yr hyn a gyfrifai yn mysg prif fendithion ei fywyd. Wedi gorphen ei addysg athrofäol, efe a ddychwelodd i dŷ ei dad, lle yr ymroddai yn ddyfal i efrydiau llenorol a gwyddonol, hyd oni ddaeth yr adeg a fawr ddymunai, i gael o hono ddechreu ar ddyledswyddau mwy cyhoeddus y Weinidogaeth Gristionogol. Efe a ordeiniwyd yn ddïacon, ar ddydd Sabbath, y 3ydd o Awst, 1777 yn nghapel St. Ioan Fedyddiwr, Abergwilly, gan yr Anhr. James Yorke, D.D. esgob Ty Ddewi. Y lle cyntaf y bu yn gwasanaethu yn yr Eglwys, oedd yn Nhrelech, fel is-beriglor i'r Ficer, y Parch. Mr. Pritchard; a thra fu yn aros yn Nhrelech, dygwyddodd amgylchiad teilwng o'i goffhau. Fel yr oedd ef a Mr. Pritchard yn teithio unwaith, o Gaerfyrddin i Lansawel, fe'u goddiweddwyd yn gynt na'u dysgwyliad gan dywyllwch y nos, a'u ffordd yn ddrwg, serth, a neillduedig. Collasant eu ffordd, ac ni allent fyned rhagddynt, na dychwelyd. Gan fod Mr. Pritchard yn ofnus naturiol, efe a gyfrifai bod eu sefyllfa yn anobeithiol ar unwaith, ac efe a ymddyrysai, ac a ymollyngai dan brudd-der anobaith. Mr. Williams yn canfod cyfyngder ei enaid, a wnelai ei oreu i'w gysuro, a thawelu ei feddwl. "Deuwch, deuwch, fy anwyl Syr," eb efe, "y mae un uwch ben, yr hwn os rhoddwn ein hymddiried ynddo, na's gedy ni yn ein cyfyngder; y mae y cymmylau duon acw yn dechreu ymwasgaru yn gyflym; gallaf yn awr wybod cyfeiriadau y cwmpas, a thrwy gynnorthwy y sêr, fel yr hên fordwywyr gynt, gallaf gyfeirio ein camrau yn ddyogel:" a phrofodd y canlyniad, gywirdeb gwybodaeth seryddol Mr. Williams, a'i gwerthfawrogrwydd dan y cyfryw amgylchiadau. Byddai Mr. Pritchard yn hoff o grybwyll am yr amgylchiad yma hyd derfyn ei ddyddiau. Wedi gwasanaethu is-berigloriaeth Trelech er boddhad mawr i'r gynnulleidfa dros rai misoedd, efe a symmudodd trwy gynghor Dr. Hoar, pen athraw coleg yr Iesu, i fod yn is-beriglor Tetsworth, yn swydd Rhydychain; ac ar Sabbath, yr 20fed o Ragfyr, 1778, efe a gafodd ei gwbl urddo, yn yr eglwys gadeiriol, gan Dr. Edward Smallwell, Esgob Rhydychain. Yn fuan wedi hyny, efe a ddewiswyd yn ail athraw ysgol ramadegol Wallingford, yn swydd Berks, ac yn ychwanegol at y swydd hono, efe a ymgymerodd â'g is-berigloriaeth Acton, pentref yn y gymmydogaeth hono. Tra yn Wallingford, bu mor ffodus a chael ei ddwyn i gydnabyddiaeth a'r Dr. Shute Barrington, y pryd hyny Esgob Llandâf; ac wedi hyny, Esgob Durham, yr hwn a breswyliai yn achlysurol yn swydd Berks, lle y cafodd gyfleusderau mynych i ffurfio barn am alluoedd meddwl Mr. Williams, a'i hoffder neillduol o lenyddiaeth; a phan ddyrchafwyd ei arglwyddiaeth i esgobaeth Salisbury, efe a ddymunai gymeryd ei gyfaill ieuanc gyd ag ef, yn y cymeriad o gaplan, ond gan fod rhyw beth arall mewn golwg ar y pryd, efe a wrthododd y cynnygiad mewn modd moesgar. Mae yn dra thebyg y buasai gwr o enwogrwydd Dr. Barrington, yn agoryd y ffordd i ddyrchafiad prysur Mr. Williams yn yr Eglwys; a mynych ei clywwyd ef yn datgan ei ofid, na buasai wedi cydsynio â chais ei arglwyddiaeth.

Tu a'r adeg yma y torrodd rhyfel allan rhwng Prydain Fawr â Ffrainc: ac fel llawer o wŷr ieuainc eraill, o feddyliau bywiog, ac ysbryd anturiaethus, dymunai Mr. Williams gael gweled ychydig o'r byd; a chan iddo gael cynnygiad i gael ei bennodi yn gaplan ar fwrdd cadlong, efe a dderbyniodd y cynnygiad yn chwannog. Felly, yn haf y flwyddyn 1780, efe a ddechreuodd ar ddyledswyddau caplan yn llong ei fawrhydi, y *Cambridge*, oedd y pryd hyny dan lywyddiaeth y Llyngesydd Keith Stewart; a hefyd, ar ddyledswyddau athraw i Arglwydd Garlies, wedi hyny Iarll Galloway, yr hwn oedd yn nai i'r Llyngesydd, ac yn for-gadlanc yn yr un gadlong.

Yn Gorphenaf, 1781, efe a hwyliodd i'r Môr Gogleddol, gyd a'r gad-lynges a anfonid allan i amddiffyn trafnidiaeth Brydeinaidd, rhag morbreiddiadau, ac i ofyn iawn gan yr Is-ellmyn, am y cynnorthwy bradwrus a roddid ganddynt i lyngesau unedig Ffrainc, yr Hispaen, a'r Amerig.

Yn nechreu y flwyddyn 1782, yr oedd efe allan o Texel, gyda llynges Arglwydd Howe, a'r Llyngesydd Barrington, brawd i'w gyfaill rhagorol, Dr. Shute Barrington. Yn Mehefin, cyrhaeddodd y llynges hon i'r Downs, ac yn yr Hydref, fe'i hanfonid drachefn gyd ag adgyfnerthion, i weini ymwared i warchlu Gibraltar. Yr oedd yr ymosodwyr unedig wedi cael gorchymyn o'u gwahanol lysoedd i gymeryd eu sefyllfa yn y cyfyng-for, er rhwystro i ddim cynnorthwy gael ei weini i'r cadlywydd Elliot, a'i fintai o wroniaid, y rhai ni's meddent unrhyw foddion amddiffyniad yn erbyn ymosodiadau olynol y gelyn, fel yr oeddynt mewn perygl i syrthio yn ysglyfaeth i newyn.

Wedi bod ddwy neu dair blynedd ar y môr, efe a roddes ei gaplaniaeth i fynu, ar gais Arglwydd Galloway, er dyfod yn athraw yn nheulu ei arglwyddiaeth, yn Mhlas Galloway. Ac wedi hyny, trwy ddylanwad Arglwydd Galloway, cyflwynodd yr Arglwydd Ganghellwr Thurlow, ficeriaeth fechan Caio, yn swydd Gaerfyrddin iddo; ac efe a osodwyd yn y fywioliaeth hono gan Dr. Edward Smallwood, esgob Ty Ddewi, ar y 14eg o Fedi, 1784; ac y mae yn ymddangos ei fod ef wedi neillduo cyllid y fywioliaeth uchod, at ddwyn traul addysg ei frawd yn Rhydychain. Tra yr ydoedd yn aros yn Ysgotland, yn nheulu Iarll Galloway, bu farw chwaer iddo, o'r hon yr ydoedd yn dra hoff. Yr oedd y dyrnod yn drwm iawn ar bawb o'i pherthynasau; ac yn ddïau, nid yr un a deimlai leiaf oedd ei brawd hwn. Ysgrifenai ei thad, lythyr brysiog at ei brawd, Mr. E. Williams, wedi ei amseru Chwef. 1786, yn yr hwn y dywedai; —"Ymadawodd eich anwyl chwaer Margaret â ni, gan gyfnewid marwoldeb o boen a thrallod, am anfarwoldeb o ddedwyddwch nefol. Na fydded i ti gymeryd dy orlethu fy mab gan ofyd, ac nac wyla o herwydd yr hyn a ddylai yn hytrach beri llawenydd i ti, gan fod ei hysbryd ymadawedig yn ymorfoleddu yn ei fuddugoliaeth ar angau a'r bedd; hi a gollodd ei holl duchan; a datganai y dymuniad yn fynych mewn ysbryd gostyngedig a dyoddefgar, am gael bod gyd a'r Arglwydd. Canai gyd a'r anadliadau olef,

"Rwy'n gweled bob dydd,
Mai gwerthfawr yw ffydd;
Pan elwy i borth angau,
Fy angor i fydd."

Cymerwyd ei gweddillion mewn elor-gerbyd i Landyfeiliog, ac fe'i dodwyd i orwedd yn ymyl arch ei chwaer."

Efallai nad ydyw amgylchiad hynod a gymerodd le mewn cyssylltiad a marwolaeth y ferch ieuanc

Digitized by Google

rinweddol hon yn annheilwng o goffâd. Yr oedd ei thad, ryw yspaid o amser cyn ei marwolaeth, heb feddwl fod amser ei hymddattodiad mor agos, wedi ei gadael mewn cyflwr o lesgedd mawr, a myned ar un o'i gylch-deithiau pregethwrol, gan fwriadu bod yn absenol dros amryw wythnosau. Can gynted ag y bu hi farw, anfonwyd un o'r gweision i ddwyn y newydd galarus i'w thad. Nid oedd y gennad wedi myned nemawr o filldiroedd cyn cyfarfod o hono ei feistr, yr hwn oedd yn dychwelyd adref. Wedi i Mr. Williams gael hysbysiad o'r amgylchiad galarus, ac ymholi yn fanwl pa bryd y buasai hi farw, efe a ddywedodd, "Myfi a wyddwn." Nid ychwanegodd; a'r llanc a synai yn aruthrol at y dywediad. Aeth Mr. Williams rhagddo, yn drallodus ei feddwl, nes cyrhaeddyd ei gartref; ac yno efe a ddywedodd ei fod ef wedi breuddwydio, ar y noswaith a'r awr y buasai farw ei ferch, hyd eithaf ei wybodaeth, ei fod yn myned i ryw borthladd, i ganu yn iach iddi, gan ei bod hi ar gychwyn mordaith i wlad bell; ac wedi canu yn iach iddo mewn modd tra thyner, ei bod hi wedi myned ar fwrdd y llong, a hwylio ymaith yn y fan. Ei fod ef yn sefyll ar y morfur, gan syllu yn drallodus nes diflanu o'r hwyliau gwynion yn y pellder; a chan gynted ag y deffrôdd, ei fod wedi ei lawn ddarbwyllo o wir ddeongliad y breuddwyd, a chyfeirio ei gamrau tuag adref yn ddioedi, yn lle myned rhagddo ar ei daith.

Y mae Llythyr Mr. Eliezer Williams at ei hybarch dad, i'w ddyhuddo dan y brofedigaeth lem hon, yn deilwng i'w gadw, ac yn werth i'w ddarllen yn bwyllog:—

"GALLOWAY HOUSE, Chwef. 1786.

"FY ANWYL DAD,—Y mae fy holl einioes wedi bod ar waith yn erlyn un amcan hoff, sef cyrhaedd y moddion o weini cysur a dedwyddwch i'm cyfeillion. Yn mysg y rhai yr oedd un, nad oeddwn byth yn ei hannghofio; am dani hi, dywedaf mewn gwirionedd, fy mod wedi coledd y gobaith bob amser, o gael bod yn offeryn dystadl i'w dyddanu dan ei chystudd, neu o wneyd rhyw beth er prysuro ei hadferiad. Ni feddyliais un amser am ddwyn fy llesion fy hun yn mlaen, heb ymlawenhau yn y meddwl y byddai i mi fwynhau cymdeithas ddymunol fy chwaer mewn hen ddyddiau, fel ei mwynhaswn yn mlynyddau fy ieuenctyd; ei meddu yn dyst, ac yn gyfranog, fel yr hoff ddychymygwn, o'm llwyddiant; a'i gwneyd, dros weddill ei dyddiau, hyd eithaf fy ngallu, yn gysurus, a dedwydd.

"Yr ydwyf yn credu yn ddïysgog ei bod hi yn wir ddedwydd, yn llawer mwy felly nag y buasai yn fy ngallu i ei gwneuthur, ond yn dra gwahanol i'r modd yr hoffwn ei rag-ddarlunio i mi fy hunan. Mae yn ddïau mai amcan y Llywodraethwr mawr, yn gwrth-weithio ein bwriadau, ac yn siomi ein gobeithion fel hyn, ydyw ein diddyfnu o'r byd, cyfeirio ein golygon at wrthddrychau tra rhagorach, a dyrchafu ein sylw at erlyniadau mwy arddunawl, a gwell: a rhaid addef, fod y moddion yn ymddangos yn dra chyfaddas i gyrhaedd yr amcan mewn golwg. Pwy na theimlai oddiwrth ddyrnod o'r fath gyfeiriad, ac mewn man mo'r dyner? Pwy na byddai i'r fath chwerwder trallod ei ddiddyfnu oddiwrth wagedd pethau daearol? Pa bleser neu foddhad a all anrhydedd neu ddyrchafiad ei fforddio i mi yn awr? Er holl addysgiadau athroniaeth ddynol, er athrawiaethau gwerthfawrocach ac effeithiolach Cristionogaeth, a ydyw yn ddichonadwy i ni beidio teimlo rhywbeth heblaw ymostyngiad, i'n tyngedfen i nychu allan weddill ein dyddiau blinderus, yn amddifaid o'n perthynasau agosaf, ac anwylaf?

"Ond, yr ydwyf mewn perygl i annghofio mai ysgrifenu llythyr i'ch cysuro oedd fy amcan. ac yn wir yr ydwyf yn dra annghymwys i'ch cysuro. Ond, fy anwyl dâd, ni raid i chwi wrth hyny. Yr unrhyw ffydd fywiol yn nrhugareddau anhysbydd y nefoedd, yr unrhyw obeithion gwynfydedig, yr unrhyw flaen-brofiad o'r dedwyddwch pur sydd yn nghadw gan y Goruchaf i'r rhai a'i carant ef, ag a fuant yn amlwg yn gynhaliaeth i chwi trwy anhawsderau einioes, ac a fyddant yn amddiffyn di ball i chwi rhag dychrynfeydd marwolaeth, a'ch dyddana hefyd dan y brofedigaeth hon, a phob profedigaeth arall, y rhynga bodd i'r unig ddoeth Dduw ymweled â chwi. Bydded i ninnau elwa trwy eich siampl, a'n galluogi dan bob goruchwyliaeth o eiddo Rhagluniaeth, pa mor drallodus, ac anchwiliadwy bynag a fyddo, i ymostwng yn ddi rwgnach i'r ewyllys Ddwyfol; bod yn ymostyngar megys yr ydych chwi, ac yn ffyddlawn i'n Meistr nefol, megys y buoch chwi bob amser! Yn gymaint a'ch bod chwi wedi cael derbyniad i gymmundeb agosach â Thad yr ysbrydoedd na'r cyffredin o ddynolryw, chwi a ellwch ddehongli gweithredoedd ei law ef, y rhai ydynt yn ymddangos yn aneglur i ni; a gellwch ddarganfod trugaredd, lle yr ydym ni yn ofni barn; a charedigrwydd, lle yr ydym ni yn cwyno gan dostlymder. Boed i'n hymddiried a'n serchiadau gael eu cyfleu fel hyn lle y dylent, ac yna ni ddysgwyliwn gael dedwyddwch parhaus yn y rhai a roddwyd i ni fel cysuron amserol yn unig; ac ni rwgnachwn pan symudir y corsenau eiddil ar y rhai y pwysem yn ein gwendid, mewn trefn, fe ddichon i'n tywys i ymddiried ar atteg sicrach, a gwell!

"Dedwydd yw y rhai sydd yn meddu yr hyder yma yn naioni Duw, pan wedi eu hamddifadu o'u cyfeillion anwylaf! Yn lle grwgnach yn erbyn y nefoedd, hwy a lawenhant am fod gwrthddrychau eu hoffder wedi marw yn ddedwydd, a'u bod ar eu hymadawiad yn dwyn yr ymddangosiad o 'weision da a ffyddlawn,' yn myned i mewn yn orfoleddus i 'lawenydd eu Harglwydd.' Bendithier ninnau â'r cyfryw obeithion dyrchafedig, ac â rhyw fesur o'r unrhyw ffydd ddyddanus yn nhrugareddau y Gwaredwr, fel pan fyddo ein cyfeillion gorau yn cael eu cymeryd oddi arnom, y gallom gyfrif eu bod yn cael eu gwaredu oddiwrth gystudd, fel rhai a symudwyd i'r broydd lle yn mysg y cyfiawnion wedi eu perffeithio, yr annghofiant eu holl ofidiau a'u trallodau! Ac a ydyw yn bossibl coledd y gobaith y caniatteir i ni gyfranogi o'r gwynfydedigrwydd i'r hwn y mae yr hon yr ydym yn galaru am dani wedi ei galw? A ddichon cyfeillion a ysgarwyd unwaith gan angau, gyfarfod drachefn, a phrofi dedwyddwch yn nghymdeithas eu gilydd?—i blant yr un tad daearol, gyfarfod, i adnabod, a chael eu hadnabod, ac i ymogoneddu yn yr un Gwaredwr? Byddai hyn yn rhyw ddyddanwch i ninnau; ond nid rhaid i chwi am ddim. Y mae yn ddefnydd y gorfoledd mwyaf i chwi eich bod wedi cael ychwanegu at y rhai etholedig i ddatgan moliant eich Gwaredwr. Caniattaer i chwi gael gweled y gweddill o'ch plant yn byw megys y bu hi byw, ac yn marw fel y bu hi farw! ac na fydded i chwi byth gael achos o och, hyd yn nod oddi wrth eich annheilwng fab,

"E. WILLIAMS."

Digitized by Google

Y mae rhagoroldeb cynnwys y Llythyr uchod, yn nghyd a'r dystiolaeth uchel a gynnwysa i gymeriad crefyddol tryloyw yr hybarch Peter Williams, gwr y mae ei goffadwriaeth mor fendigedig yn mysg ein cyd-genedl, yn ddigon o esgusawd dros ei ddodi i fewn yma, er ei fod yn cymeryd cryn lawer o'n gofod; ac yn wir, y mae ar yr un pryd, yn adlewyrchu nid ychydig o anrhydedd ar yr Awdwr o hono hefyd.

Tu a'r flwyddyn 1792, priododd Mr. Williams foneddiges o Lorraine, yn Ffrainc, o'r enw *Mademoiselle* Ann Adelaide Grebert, â'r hon y daethai i gydnabyddiaeth yn ystod ei arhosiad gyda Iarll Galloway. Ymddengys ei bod yn foneddiges o feddwl diwylliedig, a thueddfryd hynaws ac addfwyn dros ben. Ei rhieni oeddynt freiniolwyr urddasol, ac fel llawer eraill o wrthddrychau cynddaredd y Chwyldroad yn 1790, hwy a orfuant ymnoddi yn Lloegr. Yn fuan wedi priodi, cymerodd y daith i Ddeheudir Cymru, i ymweled â rhïeni oedranus Mr. Williams, yn nghyd ag amryw o gyfeillion ei ieuenctyd. Ymddengys nad oedd efe wedi hysbysu ei rïeni o'r cam pwysig hwn a gymerasai; nac ychwaith o'i fwriad i ddyfod i ymweled a hwy: yr ydoedd yn hwyr un diwrnod pan gyrhaeddasant dref Caerfyrddin; ond er tywyllwch y nos, penderfynasant fyned rhagddynt i'r Gelli, cartref y Parch. Peter Williams, yr hwn oedd rai milldiroedd yn mhellach. Yr oedd y ffyrdd yn gulion, a geirwon; a phan oeddynt o fewn ychydig latheni i'r Gelli, torodd y cerbyd a'u cludai. Yr oedd preswylwyr y ty wedi myned i orphwys er's peth yspaid; ac fe'u deffrowyd o'u cwsg gan drwst ymollyngiad y cerbyd, ac uchel leisiau y teithwyr, mewn rhyw iaith ddyeithr, o'r hon ni's gallent ddeall un sill; ac ni's gallent amgyffred pa beth oedd yr achos o'r holl gyffro. Nid oedd yr amgylchiad o'r appeliad at eu llettygarwch oddiwrth Ffrancod, tra yr oedd Prydain Fawr mewn rhyfel â'r genedl hono, yn tueddu i leihau braw, na thyneru calonau pobl y tŷ. Erbyn hyn yr oedd cyfarthiadau y cŵn, a bloeddiadau y dynion a ddaethent i gynnorthwyo y dyeithriaid, yn aruthrol: ond o'r diwedd, clywid yr ymadrodd, "Eich mab Ely, sydd yma," yn ymddyrchafu goruwch yr holl ystorm. Can gynted ag y cyrhaeddodd yr aceniadau hyn glustiau yr hen bobl, diflanodd eu gelyniaeth, a'u braw, a rhoddid y croesawiad mwyaf calonog i'r ymwelyddion annysgwyliedig dan eu cronglwyd.

Arhosodd Mr. Williams a'i brïod gyd a'i rïeni am oddeutu tair wythnos, ac yna dychwelodd i'r brif ddinas, lle y dechreuodd ar ei ddyledswyddau fel Darlithydd hwyrol *All-Hallows*, yn Heol Lombard; ac fel caplan ac ysgrifenydd cyfrinachol, i foneddwr cyfoethog o'r enw Mr. Blakeney.

Yn mhen rhai blyneddoedd wedi hyn, cyfarfu a phrofedigaeth lem, yn marwolaeth ei unig blentyn, bachgen bach, tri mis ar ddeg oed, tra yr oedd y fam hefyd mewn cyflwr o lesgedd mawr, ac heb allu goddef y dyrnod, bu hithau farw, yn mhen ychydig wythnosau ar ol ei baban. Yr oedd ef yn byw yn Edinburgh y pryd hyn, lle y symudasai ar gais ei noddwr, Arglwydd Galloway, er ymchwilio i achdraith ei arglwyddiaeth, trwy yr hyn y sicrheid ei hawl i'r bendefigaeth; a theimlai ei arglwyddiaeth yn dra dyledus i'r Cymro diledryw, am ei lafur, a'i fedr dihafal, yn dwyn y gorchwyl anhawdd hwn i derfyniad llwyddiannus.

Yn nechreu y flwyddyn 1796, dychwelodd Mr. Williams i Lundain, lle yr ail ymaflodd yn ei ddyledswyddau blaenorol, yn llithwrfa *All-Hallows*, ac fel ysgrifenydd a llyfr-gellydd i Mr. Blakeney. Tra yn aros yn nheulu y boneddwr hwn, y daeth ef i gyfarfyddiad gyntaf â'i ail wraig, Jane Amelia Nugent, merch St. George Armstrong, Ysw. o Annaduff, yn agos i Drumsna, swydd Leitrim; yr hwn oedd yn gâr, a chyfaill hoff i Mr. Blakeney. Priododd Mr. Williams yr ail waith yn Chichester, tua diwedd y flwyddyn 1796. Efe a barhaodd i breswylio yn Llundain hyd farwolaeth ei gyfail Mr. Blakeney, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1799. Yna efe a symudodd i Chadwell, yn Essex, o'r hwn blwyf y daeth yn is-beriglor, ac yn ychwanegol at hyny, efe a bennodwyd yn gaplan y gwarchlu yn Tilbury.

Yn Hydref y flwyddyn 1804, efe a gymerth ei deulu ar ymweliad â'i geraint a'i gyfeillion yn Neheudir Cymru: ac mewn canlyniad i ddamwain ddifrifol a gyfarfu â'i fam, yr hon oedd y pryd hyny tua phedwar ugain mlwydd oed, efe a gadwyd yn hwy oddiwrth ei ddyledswyddau clerigol nag y bwriadai, yr hyn a achosodd fesur o oerfelgarwch rhwng ei beriglor âg ef; a hyny, yn nghyd a'i ddymuniad am gael llafurio yn ngwinllan ei Arglwydd yn ei wlad enedigol, a ddylanwadodd i ryw fesur ar ei yrfa ddylynol: canys yn fuan wedi hyn, gan fod ficeriaeth Llanbedr wedi myned yn wâg, fe'i cynnygiwyd iddo gan Dr. Burgess, y pryd hyny, Esgob Ty Ddewi. Efe a dderbyniodd y cynnygiad, ac fe'i gosodwyd yn y swydd ar y 14eg o Orphenaf, 1805; ac yn hydref yr un flwyddyn, efe a gymerth ei deulu i Lanbedr. Gan nad oedd y cyllid oddiwrth y ficeriaeth hon ond prin dau cant y flwyddyn y pryd hyny, efe a agorodd ysgol ieithiadurol yn y pentref, yr hon a drwyddedwyd gan yr Esgob, er parottoi gwyr ieuainc i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig. Yn mhen rhai blyneddoedd wedi sefydliad yr athrofa hon, ymwelodd y Parch. John Williams, diweddar athraw hybarchus Ysgol ramadegol Ystrad Meurig, âg ef; ac wrth ddynesu at yr adeilad lle y cynhelid yr ysgol, yr hon nid oedd yn ddim amgen na'r hen ficerdy mewn cyflwr tra adfeiliedig, gwnelai rai sylwadau lled wawdus ar yr hyn y gwelai yn dda ei alw "mawrwychedd ei adeilwaith;" i'r hyn yr attebai Mr. E. Williams, "Dewch, dewch, peidiwch a bod yn rhŷ galed; onid yw yr allanol yn dyfod i fynu a'ch chwaeth, yr ydwyf yn gobeithio na chewch gymaint i'w gollfarnu yn y dodrefn." Pa fodd bynag, aeth ysgol Mr. Williams ar gynnydd yn gyflym, ac mor luosog oeddynt yr ymgeiswyr am dderbyniad iddi, fel y bu raid i Mr. Williams symud i dŷ mwy cyfleus, a adeiladasid yn ddiweddar, yn yr hwn y treuliodd ef weddill ei ddyddiau; gan gyssegru ei amser a'i holl alluoedd, i wasanaethu crefydd, yn enwedig yn ei chyssylltiad a'r Eglwys Sefydledig. Ond, tra yr oedd efe yn nghanol ei lafur, rhyngodd bodd i'r Pen Llywodraethwr mawr ymweled âg ef â phrofedigaeth drom, dan yr hon y crymwyd ei ysbryd, trwy gymeryd ei brïod hoff oddiarno, yn mhen ychydig ddyddiau wedi esgor o honi ar fab. Bu farw ar ddydd Nadolig, yn y flwyddyn 1811. Yr oedd hon yn wraig dra rhinweddol, llawn o gariad a gweithredoedd da; fel yr ydoedd wedi enill iddi ei hun air da gan bawb a'i hadwaenai.

Y pryd hyn yr oedd Dr. Burgess yn Esgob Ty Ddewi; ac y mae yn ddiameu i'w arglwyddiaeth wneyd llawer iawn er cryfhau dylanwad yr Eglwys Sefydledig o fewn ei Esgobaeth, yr hyn a briodolid i fesur mawr i ddylanwad daionus Mr. Williams

Digitized by Google

gyd a'i arglwyddiaeth: ac o'r diwedd, meddyliwyd am gael coleg eglwysig da yn y parth hwn o Gymru; er rhoddi addysg gymhwys i ymgeiswyr am y weinidogaeth yn yr Eglwys. Er dwyn yr amcan hwn o amgylch, ffurfiwyd trysorfa, tuag at yr hon y cyfranai pob periglor y ddegfed ran o gyllid un flwyddyn o'i fywioliaeth; a'r Esgob ei hun a roddes i lawr chwech ugain punt i gychwyn; ac yn fuan llwyddwyd i gael gan ei Fawrhydi George y Pedwerydd, y Prif ysgolion Seis'nig, ac amryw bendefigion, a boneddwyr, gyfranu yn haelionus at yr amcan teilwng. Dyma y camrau arweiniol a gymerwyd at sefydlu Coleg Dewi Sant, yn Llanbedr pont Stephan, swydd Aberteifi.

Yn y flwyddyn 1813, cafodd Mr. Williams ail agor ei archollion, trwy farwolaeth ei fam yn nghyfraith, Mrs. Armstrong; yr hyn a gymerodd le yn Nulyn, lle yr elsai er's ychydig wythnosau o Gymru. Ymddangosodd yr hysbysiad canlynol o'r amgylchiad yn un o Newyddiaduron yr Iwerddon:—"Bu farw ar yr 17eg o Fedi, 1813, yn *Dorset Street, Dublin*, Frances Charlotte, Boneddiges St. George Armstrong, Ysw. o Annaduff, yn swydd Leitrim, a thrydedd ferch James Nugent, Ysw. o Carlanstown, yn swydd Westmeath. Yr ydoedd yn hanu o Ieirll Westmeath, ac yn gyfnither i'r diweddar Ardalyddes Buckingham, &c."

Yn y flwyddyn 1816, cynnygiodd yr esgob brebenduriaeth Llanddewi Aberarth i Mr. Williams; seiliasid y brebenduriaeth hon yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi, ac yr oedd yn awr wedi myned yn wag trwy farwolaeth y Parch. W. H. Barker, hen athraw Mr. Williams: gosodwyd ef yn y swydd yn ffurfiol ar y 24ain o Awst, 1816.

Yn Mehefin, 1815, cafodd teimladau tadol Mr. Williams archoll dwfn eto, trwy farwolaeth ei fachgen bychan, Marc, yr hwn oedd fel canwyll ei lygaid; a thrachefn, yn Mehefin, 1818, bu farw ei ferch henaf, Caroline, yr hon oedd yn un o'r rhianod hawddgaraf, ac yn gweinyddu fel teuluyddes werthfawr i'w thad, er pan fuasai farw ei mam. Yn mis Ionawr, 1819, efe a gafodd anwyd trwm wrth deithio ar noswaith oer o Aberystwyth, dros y bryniau i swydd Faesyfed, yn y cyflawniad o'i swyddau clerigol, yr hyn a derfynodd yn ei farwolaeth ar yr 20fed o Ionawr, 1820; yn 66ain mlwydd oed. Parhaodd i lafurio yn galed yn ei amryfal gylchoedd drwy lawer o anhawsder, gan ddylanwad nychlyd ei afiechyd cynnyddol, ar hyd y flwyddyn 1819; ac mor barchus oedd efe yn ei gymmydogaeth, fel nad oedd dim llai nac 20 o offeiriaid yn ei angladd; tua 40 o'r ysgolorion, ac ugain o foneddigion eraill; yn nghyda llawer o Weinidogion Ymneillduol.

Meddai Mr. Williams ar lawer o ragoriaethau gwerthfawr, fel ysgolhaig gwych; bardd, a llenor coeth; a duwinydd craff; er hyny yr oedd yn hynod o ddirodres a syml yn ei ymddygiad. Ei amser a'i fyfyrdodau a ddefnyddid er lles cyffredinol dynolryw, a'i ddoniau eangfawr fel athraw, drwy yr hyn y bu mor wasanaethgar i'w ysgolorion, fel nad oedd yn ddichonadwy lai nag anwylo ei goffadwriaeth.

**WILLIAMS**, Evan, ydoedd glochydd Llanfihangel-y-gwynt, yn sir Drefaldwyn. Yr oedd yn fardd o gryn athrylith. Cyfansoddodd lawer iawn o Garolau Plygain, a phethau eraill, ond ni wyddis a argraffwyd dim o'i waith. Yr oedd un o'i Garolau, ar y mesur, "Gwel yr Adeilad," yn darlunio oes dyn yn debyg fel pe bai yn dringo ysgol i ben adeilad, yr ysgol yn cynwys deg-ar-hugain o ffyn, a'r olaf oedd y grefaf a'r harddaf. Yna dywedai:—

Tu draw i'r adeilad hon, os daw
Caiff ysgol wanach a'r ffyn yn grinach,
Carfanau'n feinach neu bydrach yn ei law,
Ac wrth ei bôn, os edrych, caiff weled rhych y rhaw.

Bu ymryson lled annedwyd rhyngddo a Twm y Nant, pan oedd y gwr hwnw yn cario coed yn Nolobran, Meifod.

**WILLIAMS**, Evan, cyhoeddwr enwog yn Llundain, a anwyd yn Swydd y Ffynon, ger Lledrod, sir Aberteifi. Ei dad, yr hwn a adwaenid wrth yr enw "Dafydd William y Gof," a ymunasai â symudiad crefyddol y Parch. D. Rowlands, Llangeitho, ac eraill, o dan yr enw Trefnyddiaeth. Pan ddechreuwyd sefydlu cymdeithasau crefyddol ar hyd y wlad, yr oedd yr un a ymgyfarfyddai yn Lledrod, cynwysedig o tua deugain o aelodau, o dan ei ofal ef, yn 1744. Ystyrid ei ddoniau o radd uwch na'r rhan fwyaf o'r cynghorwyr y dyddiau hyny. Anfonwyd ef i Wynedd amryw droion, ac yr oedd wedi ei benodi gan Rowlands i ymweled a'r Gogledd yn un o bedwar, unwaith yn y chwarter. Cyrhaeddodd tri o'i feibion gryn raddau o enwogrwydd, a chawsant y tri fanteision addysg uchelryw dan yr athraw diguro, Edward Richard o Ystradmeurig. John, yr henaf a ddaeth yn ail athraw yr ysgol hono, efe oedd tad yr Archddiacon Williams, awdwr *Julius Caesar*, &c. Ei ddau fab eraill, Evan, a Thomas, a ymsefydlasant fel gwerthwyr a chyhoeddwyr llyfrau yn y Strand, Llundain. Cyhoeddasant amryw lyfrau o bwys i'r Cymry, megis Geiriadur Dr. Pughe, y Cambrian Register, Caniadau Llywarch Hen, y Cambrian Biography, y Cambria Depicta, &c.; ac yr oeddynt yn eu dydd yn mhlith cyhoeddwyr enwocaf y Brifddinas. Collodd Mr. Evan Williams lawer o arian wrth gyhoeddi rhai o'r llyfrau Cymreig, yn enwedig Geiriadur Dr. Pughe, i'r hwn oblegyd yr orgraff, y bu raid bathu llawer o lythyrenau newyddion. Bu yn cynal y fasnach hono am ddeugain mlynedd, pryd yr ymneillduodd i fyw ar ei gyfoeth. Cymerodd ei farwolaeth le, Medi 28, 1835, yn Pentonville, Llundain, ac efe yn 86 oed. Yr oedd yn gyfranydd cyson a haelionus at drysorfa Cymdeithas Ysgol Rad y Cymry, yn y Brifddinas, ac yn aelod gweithgar o'i Phwyllgor, am 53 o flyneddau.

**WILLIAMS**, Goronw, bardd yn ei flodeu yn nechreu yr 16eg ganrif. Y mae peth o'i waith ar gof a chadw.

**WILLIAMS**, Gruffydd (*Guttyn Peris*), un o brifeirdd yr oes o'r blaen, a anwyd mewn lle o'r enw Hafod-oleu, yn mlaen plwyf Llanbeblig, sir Gaernarfon, Chwef. 2, 1769. Pan oedd efe o gylch pump oed, symudodd ei rieni i Lwyn y celyn, yn mhlwyf Llanberis, ac yn fuan ar ol hyny, bu farw ei dad. Nid oedd dim ysgolion nos, nac ysgolion Sul, yn yr ardaloedd y pryd hwnw, na rhawg wedi hyny; ac nid oedd nemawr o'r bobl gyffredin yn gofalu am ysgolion i'w plant, ac felly nid oedd ond ychydig o dyddynwyr yn medru darllen, ac nid oeddynt yn gwybod gwerth medru, nac yn ei weled yn anghenrheidiol i'w plant, oddieithr eu bod yn bwriadu dodi plentyn mewn rhyw alwad uwchlaw llafurio y ddaear, a thrin anifeiliaid. Gan hyny, ni chafodd Gruffydd ond un flwyddyn o ysgol, na hyny ar yr un pryd. Y chwe' mis cyntaf a gafodd,

Digitized by Google

oedd dan addysg William Thomas, gwr oedd yn deall peth Lladin, ac yn dra hyddysg yn y Gymraeg, a'r Saesonaeg. Cafodd dri mis drachefn gydag un a elwid Richard Jones, gwr o'r Deheubarth, am yr hwn yr ymddengys fod lles ei ysgolheigion mewn ystyr ysbrydol yn gystal a thymhorol, yn gorphwys ar ei feddwl; a thystiolaeth ei ddysgybl Griffith, yn ei ddyddiau diweddaf am yr athraw yma oedd fel y canlyn:—"Nid annghofiais fyth ei gynghorion a'i rybuddion pwysig; mynych y deuent i'm cof fel saethau llymion, pan y mae ef yn bridd a lludw. Un o'r bendithion mwyaf a dderbyniais yn fy oes oedd athrawiaeth y gwr duwiol hwn." Yr oedd ei fam yn medru darllen ac ysgrifenu, a bu yn ddiwyd i addysgu ei mab hyd y gallai, ond gan nad oedd ysgol i'w chael yn y plwyf, hi a'i danfonodd ef at Thomas Clough, oedd yn cadw ysgol yn Bettws Garmon. Wedi iddo fod yno dri mis, yr oedd wedi dyfod yn well darllenwr, ysgrifenwr, a rhifyddwr na'i fam; gan hyny, hi a farnodd ei fod yn ddigon o ysgolhaig; a thyna gymaint o ysgol a gafodd. Tua'r pryd hwn, yr oedd efe yn hoff iawn o fyned i'r cymau at y bugeiliaid, i blith y defaid a'r geifr, y gwartheg hysbion, a'r ceffylau; a chafodd y gair o fod yn fugail rhagorol; a bu yn bugeilio yn Nghwm-dwythwch, Glyn-rhonwyn, a Chwm-brwynog; ac yn y Drosgol, yn Nant-bettws, am y tymhorau haf, a'r gauafau gartref, yn ymarfer gweithio llechi yn y cloddfeydd, yn nhir Pantyceubren, yn Llanberis. Ond cyn ei fod yn 16 oed, bu farw ei fam, a chladdwyd hi yn Llanberis; felly cafodd ef a'i ddwy chwaer golled am fam dyner, ymgeleddgar, ac athrawus, a duwiol. Yr oedd ei chwaer henaf yn gweini; a'i ewythr frawd ei dad a gymerodd yn ieuangaf dan ei ofal. Cymaint oedd ei hiraeth ef ar ol ei fam, fel y bu lawer noswaith, pan y byddai ar ei ben ei hun, yn dymuno o'i galon gael gweled ei hysbryd yn dyfod i ymddiddan âg ef! yr hyn a wiriai y gair, sef bod "perffaith gariad yn bwrw allan ofn." Yna aeth i Fôn i weini, a bu gydag ewythr, brawd ei dad, yn mhlwyf Rhos-beirio, yr hwn oedd yn dal rhan o dir Bodewryd. Bu hefyd yn gweini yn Neuadd Cemaes, ac yn Rhos y bol, ac yn Asgellog, a Brwynog, yn mhlwyf Llanddeusant, (hen drigle y bardd Sion Brwynog.)

Byddai yn arfer prydyddu, ac yn teimlo cymhelliadau cryfion at hyny, er pan yn wyth neu naw oed; a chafodd ychydig hyfforddiad i'r perwyl gan Dafydd Ddu o Eryri; eithr gan nad ydoedd ond tra ieuanc y pryd hwnw, nis gallai ddeall ond ychydig; ac ni chafodd addysg reolaidd yn y gelfyddyd farddonol hyd onid oedd yn 19, neu 20 oed. Pan gyrhaeddodd 21 oed, barnodd ei fod yn ddigon hyddysg yn mhob cangen o waith llafurwr, mewn mynydd a hendref; ac na fyddai byth fawr uwch ei sefyllfa wrth wasanaethu fel cyflogddyn. Buasai wedi myned i Loegr y pryd hwnw, er mwyn gweled mwy o'r byd, a dysgu Saesoneg, &c., oni buasai ei fod wedi clywed fod y *Press-gang*, yn dal ac yn cymeryd pawb a allent. Ond dygwyddodd fod son mawr yn Mon ac Arfon y dyddiau hyny, fod Arglwydd y Penrhyn yn cymeryd dynion i agor cloddfeydd llechi yn Mhraich-y-cafn, gerllaw Bangor; a chan fod gan Griffith Williams gryn amcan at y gwaith hwnw, ac awydd i ddychwelyd i'w fro enedigol, cyrchodd i Fraich-y-cafn, a'r gwaith cyntaf a gafodd, oedd hwylio berfa olwyn, gydag eraill o'r gweithwyr, am yr hyn y rhoddid swllt y dydd. Dilynodd hyny am rai misoedd; ond nid hir y bu cyn myned i weithio i *fargeinion* gyda'r chwarelwyr. Yn y gwaith hwn, dygwyddodd i gareg syrthio ar ei feilwn chwith, a'i dori yn echrys, nes y bu agos iddo waedu i farwolaeth. Bu naw mis dan ddwylaw y meddygon. Yr oedd wedi enill arian yn wŷch yr haf blaenorol, wrth gynorthwyo John Williams Brynhafod-y-wern, yr hwn oedd wedi cymeryd degwm blith Llanllechid, ac heb wybod pa fodd i godi degwm, na medru darllen Tirlyfr y plwyf, nac ysgrifenu llyfr y degwm. Gomeddodd Griffith Williams adael ei waith i fyned at y gwr hwn ar y cyntaf; ond gan iddo gael caniatad i fyned, a bod John Williams yn cynyg iddo y cyflog a ofynai, efe a aeth ato. Wedi hyny, aeth yn ol i Fraich-y-cafn. Lle gwyllt iawn oedd yma y pryd hwnw; byddai "sulgwaith llawen," "cwrw gwahodd," neu "gwrw llangciau" yn rhywle bob wythnos; ac odid na byddai ymladdfeydd cyn diwedd pob un o'r cynulliadau hyny. Dywedai G. Williams, —"Nis gwn i ba ddrygioni yr aethwn oni buasai cynghorion a rhybuddion difrifol fy mam, a'm hen athraw, Richard Jones, y rhai a ddeuent i'm cof fel lluched tanllyd i'm gostegu pan fyddwn fwyaf fy rhwysg." Yr oedd y pryd hwnw yn lletya yn Ngwaen-y-gwiail, Llanllechid, gydag Abraham Williams, yr hwn oedd yn dipyn o Fardd, dan yr enw "Bardd Eryri." Yr oedd yn dra hyddysg yn rheolau y 24ain mesur. Efe fu athraw Dafydd Ddu o Eryri; a thra yr oedd G. W., yn lletya gydag ef, dysgodd yr unrhyw iddo yntau. Yn 1794, priododd Elizabeth, merch Ellis Jones, Braichtalog, Llandegai. Aeth i ddechreu byw i'w hen gartref yn Llanberis, ac yno y ganed William, ei fab henaf. Pan oedd yn 27 oed, Benjamin Wyatt, pen dystain Arg. Penrhyn, a welodd yn dda ei osod yn oruchwyliwr ar y gweithwyr wrth y dydd. Felly gosododd y tŷ yn Llwyn y celyn, a daeth i fyw i Fwlch-y-defeidty, Llandegai; ac wedi iddo fod yno dair blynedd a haner, dygwyddodd i'w deulu yn nghyfraith fyned i Liverpool, gan adael y Braichtalog iddo ef. Yr oedd cyn hyny wedi cael ei ddyrchafu i fod yn *Farciwr* isaf o ddau. *Marcio* y gelwid cymeryd cyfrif o'r llechi a wneid yn y gloddfa bob dydd, a myned a'r unrhyw i'r Cyfrifydd unwaith bob mis; canys bob mis y byddid yn talu i'r dynion a'u gweithient wrth y dunell ac wrth y fil. Yn mhen ychydig drachefn, derchafwyd ef yn ben *Marciwr*. Yr oeddid yn chwanegu peth at ei gyflog bob tro y newidid ei swydd. Treuliodd 30 mlynedd o flodeu ei ddyddiau yn oruchwyliwr dan deulu anrhydeddus y Penrhyn, yn nghloddfeydd llechi Braich-y-cafn. A phan aeth yn rhy wael o ran ei iechyd i allu cyflawni y gwaith a soniwyd, efe a gymerodd *fargen*, a chadwai ddynion dano wrth y dydd; ac yn y dull hwn yr oedd efe yn foddlonach ei helynt, ac yn llawer llai ei ofalon.

Yr oedd Griffith Williams, er cyn ei briodi, wedi cael y ffawd o enill cydnabyddiaeth â'r diweddar Barch. Richard Davies, periglor Llantrisant, Mon, yr hwn oedd yn byw yn Mangor, ac yn wr dysgedig iawn mewn amryw ieithoedd, yn un o'r Cymreigwyr goreu yn ei oes, yn hoffwr Beirdd a Barddoniaeth, ac yn goleddwr brwdfrydus i'w iaith a'i genedl. I'r gwr hwn yn benaf yr oedd efe yn ddyledus am yr hyn oll a wyddai o fanylrwydd y Gymraeg. Cafodd hefyd yr anrhydedd o fod mewn cydnabyddiaeth â nifer mawr o wyr eglwysig yr ardaloedd amgylchynol, a gwahanol barthau mwy

Digitized by Google

pellenig o Ogledd Cymru, a mwynhau cyfeillach bersonol â llawer o honynt, yn enwedig y rhai mwyaf llengarol o'r cyfryw. Gwelodd hefyd yn mron, holl feirdd y Dywysogaeth, ag oeddynt yn cydoesi âg ef; a chan yr hyglod Iolo Forganwg y cafodd ei radd farddawl. Y prif-fardd hwnw, ar ei daith drwy Wynedd, a raddiodd Dafydd Ddu o Eryri, Ieuan Lleyn, a Griffith Williams, yn feirdd trwyddedog wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain, dan yr enw "Beirdd Cadair Dinorwig." Bu yn ymhwedd yn hir â'r awen; dechreuodd gyfeillachu yn fore â hi; a daliodd ei serch ati hyd hwyr ei einioes. Ychydig fellt barddonol a greodd efe; yn wir, yr ydym yn meddwl, a barnu oddiwrth ei waith, ei fod yn eu gochelyd o bwrpas; gan eu hystyried yn hytrach yn anafau cerdd, na'i rhagoroldeb a'i nod angen. Absenoldeb y trydan bythfywiol hwn yn mwyafrif ffrwyth ei awen, a'u gwnaeth mor sych i'w darllen, ac mor ddialw am danynt gan y lluaws. Yn ol ei syniad ef, gwirionedd digrebwyll a noethlymyn ydyw barddoniaeth; cyneddf werthfawr iawn mewn gwyddoniaeth, ond eithaf diserch a gwir ddiffygiol, o honi ei hun, yn yr *iaeth* y mynai ef ragori ynddi. Fel y gallesid dysgwyl, bu yn fuddugol mewn amryw gystadleuon o bwys. Yn 1803, enillodd wobr y Gwyneddigion, am yr awdl oreu er "Coffadwriaeth am Goronwy Owen." Yn 1810, enillodd gwpan arian Eisteddfod Llanelwy, am yr awdl oreu ar "Jubili Sior III.;" a thrachefn, ar "Goffadwriaeth y Frenhines Elizabeth." Cafodd hefyd ddeuddeg gini gan Arglwyddes Penrhyn am ei awdl farwnad i'r gwir Anrhydeddus Arglwydd Penrhyn, yr hwn a fu farw yn 1808; a thrachefn dri gini gan Gymdeithas Amaethyddol Sir Gaernarfon, yn 1811, am awdl ar Amaethyddiaeth. Yn y 60fed flwyddyn o'i oedran, cyfansoddodd awdl ar "Wledd Belsassar," testun cadair Eisteddfod Dinbych yn 1828, lle y barnwyd Ieuan Glan Geirionydd yn fuddugol, ac yntau yn ail oreu; a chafodd y wobr o 5*p.* gan y cyfeisteddwyr, yn nghydag anrheg o 20*p.* o gydroddion gwirfoddol boneddwyr yn y cyfarfod. Yn mhen pedair blynedd wedi hyny, cyfansoddodd awdl ar "Ddrylliad y Rothsay Castle," testun cadeiriol Beaumaris yn 1832, lle y barnwyd Caledfryn yn oreu o 19 o ymgeiswyr ar y testun, a Gutyn Peris yn ail oreu; a chafodd wobr o 10*p.*, a thlws o werth 5*p.* Ei dlysau oll oeddynt dri, sef cwpan, a dau fathodyn arian. Ei lwyddiant ar y testunau blaenaf o'r rhai uchod, a barodd gryn eiddigedd yn mysg rhai o'r beirdd, fel y mae yn rhy arferol ar y cyfryw achlysuron, a bu peth oerfelgarwch rhwng Dafydd Ddu ag yntau yn yr amgylchiadau hyny, er nad yw yn werth cadw coffa o'r peth mwyach, gan i'w cyfeillgarwch gael ei adferu yn gynes drachefn, a pharhau yn ddidor hyd farwolaeth y blaenaf. Ysgrifenodd Griffith Williams amryw draethodau i'r Gwyliedydd, o blaid Rheolau Barddoniaeth, dan yr enwau "Carwr Rheol," a "Charwr Cristionogaeth." Ond ni chyhoeddodd ond un llyfr o'i waith yn ei oes, a hwnw dan yr enw "Ffrwyth Awen;" eithr gadawodd ddefnyddiau dau lyfr arall mewn ysgrifen, yn barod i'w hargraffu. Nid oedd yn ardaloedd Llandegai a Llanllechid pan ymsefydlodd efe yno gyntaf, neb a wyddai braidd ddim am ramadeg y Gymraeg, na materion llenyddol o un math, oddieithr yr offeiriaid. Felly dros amryw flyneddau ar ol iddo briodi, bu yn ddiwyd yn y ddau blwyf hyny, ac yn fynych yn mhlwyf Aber, a Llanfair-y-penmaen, yn cynorthwyo mewn Ysgolion Suliau, ac ysgolion nos, i geisio dwyn y trigolion i ddysgu darllen, a deall yr hyn a ddarllenent. Pan gyhoeddwyd gramadeg Robert Davies, Nantglyn, galwodd am nifer mawr o honynt, ddim llai na 300 o dro i dro, i'r ardaloedd hyny; ac felly yr un modd 200 o Reitheg Gymreig, William Salisbury; a bu yn ddyfal yn yr ysgolion nos, i ddangos y defnydd a'r cymhwysiad o'r llyfrau hyny i'w gymydogion, nes dyfod llawer o honynt yn ddarllenwyr, ysgrifenwyr, gramadegwyr, ac areithwyr o gywreinrwydd nid bychan. Mewn perthynas i'w yrfa grefyddol, ei dystiolaeth ef ei hun ydoedd;—"Aelod gwan o'r Eglwys Sefydledig ydwyf fi o'm mebyd: ond nid yw hanes fy mywyd crefyddol ond annheilwng o goffadwriaeth. Er hyny y mae'n deilwng i mi ddywedyd, na adawodd Duw fy enaid yn ddiymgeledd, eithr y mae'n parhau hyd yma yn ei oruchwyliaeth ar fy nghyflwr. Byddaf yn ofni yn aml am fy nghyflwr, ac yn arswydo rhag bod yn debyg i'r morwynion ffol, gan anmheu pa un a oes genyf rym duwioldeb a weinydda gysur i mi yn angau ai nid oes. I'r graddau y mae'r Ysbryd Glan, trwy y gair, yn fy ngoleuo i weled mawredd, purdeb, sancteiddrwydd, a chyfiawnder Duw; i'r graddau hyny yr wyf yn gweled, fy niddymdra, fy llygredd, fy aflendid, a'm hanghyfiawnder fy hun; ac i'r graddau yr wyf yn canfod y pethau a enwyd, i'r graddau hyny yr wyf yn adnabod fy hun; ac y mae yn ffiaidd genyf fi fy hun, ac yn cael fy hun yn euog; ac i'r graddau yr adnabyddwyf ac y teimlwyf y pethau hyn, dyna radd fy argyhoeddiad a'm gwir edifeirwch; ac os ychydig yr argyhoeddiad, ychydig yr edifeirwch; ac os ychydig yr edifeirwch, ychydig yr ymgais am faddeuant. A thrachefn, i'r graddau y mae'r Ysbryd Glan, trwy'r gair, yn fy ngoleuo i weled digonolrwydd ac addasrwydd Crist fel Cyfryngwr, a pharodrwydd y Tad i dderbyn pechaduriaid yn ei enw ef; i'r graddau hyny yr wyf yn credu yn Nghrist, ac yn ymorphwys arno; ac i'r graddau hyny yr wyf yn gallu gwir a ffyddlawn agosau at y Tad yn ei enw ef, a gwaeddi, Abba, Dad." Bu bedair blynedd yn goddef poen, gan ddiffyg anadl, caethder, a phesychu, a thrwy hyny yn analluog i fyned i'r Gloddfa; ond ni bu arno eisieu dim. Terfynodd ei yrfa Medi 18, 1838, yn y 70fed flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef yn mynwent Llandegai; ac yno, trwy gydgyfraniad rhai a barchent ei goffadwriaeth, y cyfodwyd beddadail dillyn ar ei orweddfa.

**WILLIAMS**, Parch. Gruffydd, D.D., esgob Ossory, yn yr Iwerddon. Ganwyd y prelad enwog hwn yn Nhrefaelan, plwyf Llanrug, swydd Gaer-yn-arfon, yn y flwyddyn 1587. Yr oedd ei dad yn byw ar ei dreftadaeth ei hun, yr hon a ettifeddasai efe ar ol ei henafiaid; a'i fam a hanai o hen deulu pendefigaidd Penmynydd, Môn. Cafodd ei addysg elfenol mewn ysgol fechan yn nhref Caer-yn-arfon; ac yn y flwyddyn 1603, efe a dderbyniwyd yn ysgolor i goleg Eglwys Crist, Rhydychain. Efe a adawodd y brif ysgol hono cyn cymeryd ei raddio ynddi; a symmudodd i Gaergrawnt ar wahoddiad ei gyfaill a'i noddwr John Williams, wedi hyny Archesgob Caerefrog, yr hwn a gymerai ddyddordeb mawr yn llwyddiant ei gyd-wladwr. Wedi iddo gael ei raddio yn A. C., llwyddodd ei gyfaill i gael ei bennodi yn gaplan i Phylip, Iarll Trefaldwyn, yn 1614; ac yn agos i'r un amser, efe a bennodwyd yn beriglor St. Bennet Sherehog, Llundain; ac yn ol Syr James Wares, cafodd ryw fywioliaethau eraill hefyd. Wedi

hyny bu yn Ddarlithiwr, yn gyntaf yn St. Pedr, Cheapside, Llundain; ac wedi hyny am bum' mlynedd yn St. Paul. Tu a'r pryd hwn aeth i gryn ymrafael â'r Puritaniaid, a bu raid iddo fyned yn lled isel i'w logell o'r herwydd. Yn y cyfamser, wedi deisebu o hono Archesgob Caergaint, &c., efe a gafodd berigloriaeth Llanllechid, yn Arfon, lle ei perchid yn fawr fel pregethwr galluog, a Christion o ymarweddiad dichlynaidd. Cyfrifid ef yn dra hyddysg mewn duwinyddiaeth, a hanesyddiaeth eglwysig; ac ar y cyfrif hwnw, efe a etholwyd yn un o gaplanwyr y brenin Siarl y Cyntaf, ac erbyn hyny yr oedd efe wedi cymeryd y radd o D.D. yn y flwyddyn 1628; a gwnaed ef yn brebendyr Westminster: ac yn y flwyddyn 1633, efe a wnaed yn ddeon Bangor, ac arch ddiacon Môn. Ar yr 20fed o Fedi, 1641, efe a gyssegrwyd yn esgob Ossory, yn yr Iwerddon. Wedi hyny, pan y pasiwyd yr 17eg, a'r 18fed o weithredoedd Seneddol Siarl yr Ail, pen. 10, yn 1665, trwy y rhai y gwaherddid i unrhyw wr llên ddal bywiolaethau yn Lloegr neu Gymru, ac yn yr Iwerddon ar yr un pryd, rhoddwyd erthygl i fewn, i'w alluogi ef i ddal deoniaeth Bangor, ac Arch ddiaconiaeth Môn, *yn nghyd a'i esgobaeth*, sef Ossory, cyhyd ag y bu ef byw.

Yn fuan ar ol ei bennodiad i esgobaeth Ossory, torodd gwrthryfel allan, a bu gorfod iddo ffoi o'r Iwerddon, am ei fod yn pleidio achos y brenin: a'r llyfr cyntaf a ysgrifenodd efe o'i blaid, oedd *Vindicae Regum*, &c., am yr hwn y daliwyd ef yn ei dŷ, yn Apethrope, swydd Northampton, gan fintai o filwyr, y rhai a'i cludasant yn garcharor i Northampton, lle yr eisteddai pwyllgor a bennodasid gan y Senedd, mewn barn ar yr achos, a'r llyfr crybwylledig o'u blaen. Wedi hyny, efe a enciliodd i Rydychain, ac a argraffodd Draethawd o'i waith, a elwid, *Discovery of Mysteries;* a'r diwrnod yr oedd efe yn pregethu yn Eglwys Fair, o flaen aelodau Tŷ y Cyffredin, aeth mintai o filwyr o Northampton, ac yspeiliasant ei dŷ yn Apethrope, lle yr oedd ei wraig a'i blant yn cyfanneddu y pryd hyny, gan gymeryd ei holl ddodrefn ymaith, ac atafaelu ei diroedd at wasanaeth y Senedd. Y gauaf canlynol, efe a ysgrifenodd ei "*Jura Majestatis.*" Fel yr oedd plaid y brenin yn gwanhau, a'i achos yn myned yn fwy cymylog, darostyngwyd yntau i gyfyngder mawr; ond, er iddo gael cynnygion o ddyrchafiadau gwerthfawr, os ymostyngai i'r Senedd, efe a'u gwrthododd oll yn benderfynol. Crybwylla yn un o'i bregethau, ddarfod i'r Dug o Ormonde anfon swm mawr o arian iddo, megys y gwnaeth Loftus, Archesgob Dublin hefyd. Cynnygiodd Henry Cromwell, rhaglaw yr Iwerddon, gan punt yn flyneddol iddo, os ymostyngai i'r Llywodraeth Gromwelaidd; ond efe a'u gwrthododd. Yn fuan wedi hyn, efe a enciliodd i Gymru, lle y bu mewn cyfyngder mawr dros ddeuddeng mlynedd, heb feddu dros ugain punt yn y flwyddyn, at ei gynnal ei hun a'i weinidogion, ac ei gorfodwyd i fyw ar dyddyn bychan, nad oedd yn werth mwy na dwy bunt a deg swllt yn y flwyddyn, a gwerth pedair punt yn y flwyddyn o dir o'i eiddo ef ei hun; sef Trefaelan, neu "Trefeilian," yn mhlwyf Llanrug; fel yr oedd yn is arno nag un curad; a'i ymborth oedd bara ceirch, a llaeth enwyn. Gwisgai hefyd yn y dull mwyaf gwledig, a chyflawnai y gorchwylion mwyaf gwasaidd; ac yn yr agwedd hono y gwelwyd ef gan y "gennad" a ddacthai ar ei ol o'r Iwerddon; yr oedd ar y ffordd gerllaw Plashwfa, y tyddyn crybwylledig yn Llanllechid, mewn gwisg llafurwr, a chryman drain ar ei fraich, fel pe buasai newydd fod ar y gorchwyl o gau rhai o wrychoedd drain y tyddyn; a chan dybied mai y gwas ydoedd, gofynai y "gennad" iddo, a oedd yr esgob yn y tŷ; i'r hyn yr attebai yntau, mewn Saes'neg lled drwsgl, ei fod yn meddwl nad oedd, gan ei fod ef wedi ei weled, ychydig cyn hyny, yn myned oddiwrth y tŷ; ac felly diangodd y tro hwnw; gan na ddaeth i feddwl y gennad mai yr esgob ei hunan oedd mewn agwedd mor wasaidd yn ymddiddan ag ef. Yn y cyflwr isel ac angenog yma y bu yr esgob hyd onid aeth Siarl yr Ail i Worcester. Ar y cyfleustra cyntaf hwn, marchogodd yr esgob ar geffyl i Lundain, gan fwriadu trefnu rhyw foddion i gyhoeddi llyfr a ysgrifenasai, dan yr enw *Great Antichrist;* ond bu yn aflwyddiannus yn ei gais, fel y gorfu ddychwelyd yn ol; ac ar y daith, cloffodd ei geffyl, fel y bu raid iddo gerdded o Daintsy, tua thri ugain a deg o filldiroedd, gan dywys y ceffyl. Bu hyn yn y flwyddyn 1659.

Ond, efe a orfucheddodd ei holl brofedigaethau: ac wedi adferiad y brenin, adferwyd ei holl ddyrchafiadau, a'i fywiolaethau eglwysig iddo yntau: ac yn fuan wedi hyn, dychwelodd i'r Iwerddon, lle y glaniodd ar foreu Sul, a phregethodd yn eglwys St. Bride; ac efe oedd y cyntaf yn yr Iwerddon a arferodd weddïo dros y brenin. Weithian, efe a adfeddiannodd ei esgobaeth, a chafodd lawer o drafferth gyda rhyw ddynion, oeddynt yn amser y gwrthryfel wedi meddiannu peth o'r tir a berthynai i'r esgobaeth. Can gynted ag y gwelodd arwyddion digonol o heddwch, cyfranodd tuag at adgyweirio yr Eglwys Gadeiriol, sef St. Canice, Kilkenny, bedwar cant ar ddeg o bunau. Y mae ei elusenau yn lluosog: adeiladodd wyth o elusendai i wyth o wragedd gweddwon tlodion, ac a'u gwaddolodd â'i dir, Fermogl, yr hwn oedd yn werth deugain punt yn y flwyddyn. Y mae y tai yn aros eto; ond y mae y gwaddol wedi ei draws-feddiannu gan anwiriaid. Rhoddodd haner cant o bunau i dlodion St. Canice; a'i diroedd yn mhlwyfi Bangor, Llanllechid, a'r Gyffin, yn nghyd a'i dai yn Nghonwy, a roddes efe i Ann, merch John Price, am ei hoes; ac yna i dlodion y gwahanol blwyfydd, dan gyfarwyddyd gweinidogion y plwyfydd hyny, dros byth. Ei gymmun-rodd yn mhlwyf Llanllechid, yn ol ei ewyllys, dyddiedig Hydref 16, 1671, ydyw Plas Hwfa, yn nghyd a'r Tyddyn du, a phedwar o anneddau arno, a naw o gaeau bychain, yn mesur tua deg cyfair a haner. Y mae y gymmunrodd hon yn cael ei chyfranu bob dydd gwyl Domas, dan gyfarwyddyd y gweinidog, a'r wardeniaid. Yr oedd yr esgob o dymer naturiol addfwyn, a charedig; yn dra deniadol yn ei ymddyddanion, ac felly yn dra hoff gan y cyffredin. Yr ydoedd yn gynghorwr gwresog, yn bregethwr tanbaid, a cheryddwr llym. Edrychid arno fel un o ddysgedigion blaenaf ei oes; ac y mae y cyfrolau mawrion a ysgrifenodd ef, yn tystiolaethu hyny hefyd. Yr oedd yn berffaith onest i'w egwyddorion; ni chelai mo honynt er cael ei wŷsio i sefyll o flaen brawdlysoedd; ac er tynu gwg yn ei ben, eto pregethai ac ysgrifenai ei egwyddorion trwy bob anhawsderau a pheryglon. Yr oedd efe yn awdwr y Cyfansoddiadau canlynol;—(1) "The Delights of the Saints." (2) "Seven Golden Candlesticks, or Seven Lights of Christian Religion." (3) "The True Church showed to all Men that desire to be Members of the same, in

six books, containing the whole body of Divinity." (4) "The Right Way to the Best Religion; wherein is largely explained the sum and principal heads of the Gospel." (5) "Vindicae Regum." (6) "The Discovery of Mysteries." (7) "Jura Majestatis." (8) "The Great Antichrist Revealed." (9) "Seven Treatises very necessary to be observed in these bad days, to prevent the last Vials of God's Wrath." (10) "The Declaration of the Just Judgment of God." (11) "Truth Vindicated against Sacrilege, Atheism, and Profaneness." (12) "Four Treatises; the Sufferings of the Saints, Burning of Sodom," &c. Heblaw hyny, cyhoeddwyd cyflyfr un-plyg trwchus, yn cynnwys tua phedair ar hugain o'i Bregethau, ar wahanol destunau.

**WILLIAMS**, Humphrey, ydoedd fardd rhwng 1620 a 1660. Brodor ydoedd o Dywyn, Meirionydd. Y mae cerdd o'i waith yn y *Blodeugerdd*, *t. d.* 240.

**WILLIAMS**, Parch. Isaac, B.D., ydoedd fab i Isaac Lloyd Williams, Ysw., o Gwmcynfelyn, ger Aberystwyth, lle y ganwyd ef Rhag 12, 1802. Addysgwyd ef yn ysgol enwog Harrow, lle yr enillodd amryw wobrwyon. Oddiyno aeth i Goleg y Drindod, Rhydychain; lle yn mhen amser, yr etholwyd ef yn gymrawd, ac yn athraw. Yn 1823, enillodd wobr y brifysgol, am y bryddestawd oreu yn Lladin. Gan fod ei iechyd yn wanaidd, analluogwyd ef i ymgeisio am uwch anrhydedd na B.D., yr hon a gafodd yn 1826. Adnabyddir ef fel un o awduron y *Tracts for the Times*, a chymerodd ran arbenig yn y mudiad Tractaraidd yn Rhydychain. Yn un o bump, ysgrifenodd y Lyra Apostolica; ac wedi hyny cyfansoddodd lawer iawn o farddoniaeth, yn mha un yr arddangosai y teimladau mwyaf cynes at wlad ei enedigaeth, a chyrchfanau a chyfeillion bore ei oes. Ond fel traithodwr, mae'n ddiau, y safai efe uwchaf; a dynodir ei holl waith gan ysbryd gwir ddefosiynol. Saif ei *Harmonies of the Gospel*, yn hir fel safon i efrydwyr Beiblaidd, ac yn gaffaeliad gwerthfawr i lyfrgell y duwinydd. Yr oedd yn Geidwadwr trwyadl mewn gwleidyddiaeth; ac arddangosir ei gydymdeimlad a Siarl I. mewn dull tyner nodedig, yn y Gân a gyhoeddodd dan y teitl, *The Cathedral.* Yr oedd ei iechyd yn ystod yr ugain mlynedd olaf o'i fywyd, yn achos o bryder gwastadol i'w gyfeillion lluosog, yn mhlith pa rai y gellir enwi Keble, Froude, Pusey, Newman, &c. Er na chymdeithasai efe â'r olaf ar ol ei enciliad i'r Eglwys Babaidd, eto coleddent y teimladau caredicaf at eu gilydd; a pharodd ymweliad Dr. Newman âg ef ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, foddhad o'r mwyaf iddo. Efe a fu farw yn Stinchcombe, sir Gaerloyw, Mai 1, 1865, a chladdwyd ef yn mynwent y pentref tawel hwnw. A ganlyn sydd restr o'i weithiau:—(1) "The Harmony of the Four Evangelists;" (2) "The Holy Gospels;" (3) "The Nativity;" (4) "The Ministry," 2 gyf.; (5) "The Passion;" (6) "The Holy Week;" (7) "The Resurrection;" (8) "The Apocalypse;" (9) "The Beginning of the Book of Genesis;" (10) "The Way of Eternal Life;" (11) "Memoir of Rev. R. Sacking;" (12) "The Psalms, interpreted of Christ." Un gyfrol a ymddangosodd o'r gwaith olaf, pan y bu yr awdwr farw. Pregethau:—(1) "Plain Sermons;" (2) "On the Catechism," 2 gyf.; (3) "On the Epistles and Gospels," 3 cyf.; (4) "On the Characters of the Old Testament;" (5) "Female Characters of Holy Scripture."—Barddoniaeth:—(1) "The Cathedral;" (2) "Thoughts in Past Years;" (3) "The Baptistery," 2 gyf.; (4) "The Christian Scholar;" (5) "The Christian Seasons;" (6) "The Creation;" (7) "The Altar;" (8) "Sacred Verses;" (9) "Hymns on the Catechism;" (10) "Hymns from the Parisian Breviary;" cyficithiad, (11) "Ancient Hymns for Children;" cyfieithiad.

**WILLIAMS**, Parch. John, D.D., oedd enedigol o sir Gaerfyrddin, ac aeth i brif-ysgol Rhydychain yn y flwyddyn 1569. Etholwyd ef yn gymrawd o'r *All Souls* yn y flwyddyn 1579, ac efe y pryd hwnw yn M.A. Yn y flwyddyn 1592, cyflwynwyd ef gan y frenines, i Reithoriaeth Llandrinio, yn sir Drefaldwyn, pryd yr oedd wedi derbyn yr urddradd o B.D. Wedi hyny penodwyd ef yn *Margaret Professor of Divinity*, ac ar Mai 8fed, 1605, sefydlwyd ef yn Neoniaeth Bangor. Bu hefyd yn brif athraw Coleg yr Iesu, yn Rhydychain. Efe ydyw awdwr y "De Christitia," yr hon oedd gyfrol bedwar plyg, ac a argraffwyd yn 1597. Bu farw Medi 4ydd, 1613.

**WILLIAMS**, Parch. John, archesgob Caerefrog, ac arglwydd-geidwad y Sêl Fawr. Ganwyd ef yn nhref Conwy, Mawrth 25, 1582. Ei dad, Edmund Williams, Ysw., o'r dref uchod, ydoedd fab i Wm. Williams, Ysw., o Gochwillan, sir Gaernarfon; o'i wraig Dorothy, merch Syr Wm. Gruffydd, o'r Penrhyn, yn yr un sir. Yr Edmund Williams hwnw a briododd Mary, merch Owen Wynne, Ysw., ab John Owen, o Eglwysfach, sir Ddinbych. O'r briodas hon bu pum' mab, a dwy ferch; a'r ieuangaf o'r meibion ydoedd gwrthddrych hyn o hanes. Ei rieni, gan amcanu ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth, a benderfynent roddi iddo fanteision dysg can foreued ag oedd bosibl; ac i'r dyben hwnw, anfonent ef yn gynar i ysgol ramadegol Ruthin, lle y cynyddodd mor gyflym, fel yn fuan y rhagorai ar ei holl gymdeithion. Yn y cyfamser, dygwyddai y Dr. Vaughan, (yr hwn wedi hyny a fu yn esgob Llundain) ymweled â'r ysgol uchod, lle yr hysbysid iddo ragoriaethau anarferol ei gâr ieuanc, John Williams, yr hyn a'i tueddai i benderfynu ei symud yn fuan i brif-ysgol Caergrawnt; ac yno yr aeth, pan nad oedd ond 16 oed, a dodwyd ef dan addysg Mr. Owain Gwyn, gwr boneddig o Gymro, ac aelod breintiedig o Goleg St. Ioan. Yn fuan ymdaenai ei glod drwy yr holl brifysgol, a mawr oedd hoffder pawb o hono, nid yn unig am ei rwyddineb mewn dysg, eithr hefyd am hynawsedd ei dymherau, a'i brydferthwch personol. Ar y cyntaf, yr oedd ei aceniad Cymreigaidd wrth ymddiddan yn yr iaith Seisonig, yn achos o gryn wawd gan ei gymdeithion, ac o yswildod iddo ef ei hun; ac oddiar hyny, dywedid iddo ddwyn gwell ystôr o Roeg a Lladin gydag ef i'r coleg, nag o iaith ei gymydogion Seisnig; pa fodd bynag, ni bu yr anaf hwn ddim yn hir cyn gwisgo ymaith, yr hyn yr ymdrechodd yn fwy i'w symud, o herwydd ei fawr awyddfryd i ddyfod yn areithiwr; ac yn hyny hefyd llwyddodd i raddau helaeth. Er bod ei holl gynneddfau naturiol yn rhagori llawer ar y cyffredinolrwydd o ieuenctyd, eto yr hyn y rhagorai yn fwyaf oll ynddo, oedd gafaelder ei gôf; ond nid oedd efe ddim llai ei lafur i ychwanegu ei wybodaeth; a thuag at hyny, yr oedd naturiaeth wedi ei gynysgaeddu ag ansoddiad anarferol arall, yr hyn a feddianai o'i fabandod, sef gallu peidio treulio dim ond yr wythfed ran o'i amser mewn cwsg, a hyny heb wneud y niwed lleiaf i'w iechyd corphorol. O ran ei foesau ymarweddol y pryd hyn, yr ydoedd yn hynod o ddiar-

Digitized by Google

gyhoedd, yn dra defosyniol yn ei ddyledswyddau crefyddol, yn ostyngedig ac ufudd i'w uwchafiaid, yn hynaws tuag at bawb, yn haelionus tuag at yr annghenus, ac yn nodedig o ddirwestgar tuag ato ei hun, er fod ei sefyllfa ddyrchafedig yn y byd yn rhoddi iddo bob manteision i fod yn y gwrthwyneb. Ni bu ychwaith heb ei ran o erlidigaeth grefyddol y pryd hyn; gwawdid ef gan rai o'i gyd-ysgolheigion am fod yn rhy fanwl yn nhrefniadau yr Eglwys Sefydledig, ac yn neillduol, am ei fod yn mynych gyrchu i wrando y Parch. Mr. Perkins, gweinidog duwiol a dysgedig plwyf St. Andrews, Caergrawnt. Ond am hyn o gyhuddiad, barnwn nad oes odid o'n darllenwyr a dybiant yn waelach o Mr. Williams.

Tua diwedd teyrnasiad y frenhines Elizabeth, daeth yr amser iddo gymeryd y raddoliaeth o B.A.; ac yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, dewiswyd ef yn un o frodorion y coleg, drwy hawl esgobaeth Bangor; a hyn a gymerai le Ebrill 14, 1603. Er fod iddo rai cenfigenwyr yn hyn, eto goruwch lywodraethid y peth drwy lythyr oddiwrth y brenin Iago ar yr achos; ac nid oedd hyn ond dechreuad cymwynasau y brenin hwnw iddo, fel y ceir gweled rhagllaw. Yn awr, yr oedd gan Williams, dair blynedd i'w treulio cyn cymeryd y raddoliaeth nesaf, sef M.A., a'r yspaid hwnw a dreuliai drwy efrydiad manylach yn y Roeg, a'r Hebraeg, duwinyddiaeth, a changhenau ereill o ddysgeidiaeth, gan ddifyru ei hun yn achlysurol mewn peroriaeth, offerynol a lleisiol, yn yr hyn y cyrhaeddai wybodaeth helaeth. Yn 1605, cymerodd y raddoliaeth o M.A.; ac eto nid oedd ei lafur mewn dysg yn lliniaru dim, ymroddai i dreiddio yn mhellach i dduwinyddiaeth, hanesiaeth eglwysig, &c. &c. Ac erbyn hyn yr oedd efe wedi cyrhaedd y fath helaethrwydd o wybodaeth, fel y dewiswyd ef i gyflawni amryw o orchwylion swyddogol y coleg. Pan oedd efe tua 25 oed, cafodd yr anrhydedd o'i benodi ar ryw negeseuaeth i fyned o flaen yr archesgob Bancrofft; ac mor fedrus y traethai ei genadwri, fel yr enillodd sylw y gwr urddasol hwnw gymaint, nes y cyflwynodd iddo ryw archddiaconiaeth yn Nghymru, a hyny ddwy flynedd cyn iddo fod yn wyryf duwinyddiaeth. Cyn hir ar ol hyn, anfonwyd ef ar ryw neges dros y coleg at y brenin, a'i ymddygiad ar yr achlysur yma drachefn, a enillodd sylw ei fawrhydi, ac a fu yn achlysur i barotoi ei ffordd i'r uchel gymeradwyaeth a gafodd wedi hyny gyda'r brenin hwnw, er nad oedd efe eto yn gwybod nac yn dyfalu dim o'r fath beth; eithr aeth yn mlaen yn ei anturiaeth weinidogaethol, a chymerodd urddau pan ydoedd yn 27 oed, ac aeth i wasanaethu plwyf bychan ar gyffiniau swydd Norfolk, elw pa un nid ydoedd werth ei deithiau i fyned yno, er hyny parhaodd i lafurio yno ryw hyd, gan ymdrechu i wneuthur ei hun yn fuddiol i'w wrandawyr, trwy arfer dull eglur a diaddurn, er y medrai ddangos dysg a hyawdledd nid bychan pan fyddai amgylchiadau yn caniatau. Cafodd achlysur neillduol o'r fath yn 1610, pan y penodid ef i bregethu yn Royston, gerbron y brenin Iago, a'r tywysog Henry; ac mor ragorol y cyflawnai y ddyledswydd, fel y canmolid ef yn fawr gan ei Fawrhydi; a'r tywysog ni foddlonai ar ei ganmol yn unig, eithr sicrhaodd iddo, o herwydd ei fod yn gymaint o anrhydedd i Gymru, y gofalai efe na chai ei deilyngdod fod yn ddi wobr; eithr efe trwy farw yn fuan ar ol hyn, ni chafodd weled cyflawniad ei addewid; ond ei dad a wnaeth i fynu y diffyg.

Y pryd hwn, clod Mr. Williams a gyrhaeddai glustiau yr Arglwydd Ganghellydd, Egerton, ac efe a anfonodd am dano i Lundain yn 1611. Wedi ei ddyfod gerbron y Canghellydd, cydnabyddai ei ddiolchgarwch i'w arglwyddiaeth am y sylw a gymerasai o hono, ac ar yr un pryd, erfyniai am gael aros yn Nghaergrawnt ychydig yn hwy, am ei fod, ar yr Wyl Fihangel ganlynol, i'w ethol yn Broctor y Brif-ysgol, sef swydd o fawr enwogrwydd ac ymddiried, ac hefyd o gryn elw. Felly y Canghellydd, rhwng bodd ac anfodd, a gydsyniai â hyny, a Williams a gyflawnodd y swydd mewn modd clodfawr iawn: ac yn y sefyllfa hono, cafodd amrywiol gyfleusderau i'w enwogi ei hun yn mhellach, yn enwedig ar un achlysur, bu anghenrheidrwydd iddo fyned ger bron y brenin drachefn, i eiriol dros y brif-ysgol ar ryw achos o bwys, a'r dull synwyrol y cyflawnodd y gorchwyl, a barodd iddo nid yn unig lwyddo yn achos ei anfonwyr, eithr hefyd i enill iddo ei hun ychwaneg fyth o ffafr yn ngolwg ei Fawrhydi. Felly ar ol cyflawni blwyddyn ei swyddogaeth mewn modd anrhydeddus, yr oedd weithian yn rhydd i fyned i gyflwyno ei wasanaeth i'r Arglwydd Ganghellydd megys y crybwyllwyd, ac yno fel caplan yn nheulu ei arglwyddiaeth, ni bu yn hir cyn enill parch a hoffder pawb a berthynent i'r tŷ, a phob un a ymwelai â'r teulu; a pheth oedd fwy na hyny, yr ydoedd o hyd yn enill ychwaneg o ymddiried ei feistr, yr hwn wrth sylwi ar ei gallineb a'i ffyddlondeb, nid yn unig yn ei alwedigaeth, eithr hefyd mewn materion cyfreithiol eglwysig, a gwladwriaethol, a ddefnyddiodd ei wasanaeth ar lawer o achosion, er cymeradwyaeth pob pleidiau yr oedd a wnelai â hwynt; a thrwy fod ei arglwyddiaeth yn defnyddio pob cyfle i'w hyfforddi ef yn mhellach yn y materion hyny, yr oedd ei wybodaeth a'i ddefnyddioldeb yn cynyddu o hyd. Ac fel yr oedd ei ddefnyddioldeb felly yn dyfod yn fwy eglur yn barhaus, ni bu y Canghellydd yn ol o'i wobrwyo yn gyfartal; canys wedi bod o Williams yn nghylch pum' mlynedd yn ngwasanaeth ei arglwyddiaeth, yr oedd amryw sefyllfaoedd o elw ac enwogrwydd wedi cael eu cyflwyno iddo, megys personoliaeth plwyf Walgrave, yn sir Northampton, perigloriaeth Grafton-Underwood, yn y sir hono, côr-berigloriaeth yn Eglwys Gadeiriol Lincoln, ac hefyd gantoriaeth yn yr un eglwys, yn nghyda chor-berigloriaethau eraill yn eglwysi cadeiriol Peterborough, Henffordd, a Thŷ Ddewi, heblaw rhyw fywioliaeth ddi waith yn Nghymru. Ond yn Hydref, 1676, cymerid yr Arglwydd Ganghellydd yn glaf, ac oblegid henaint a lludded ei swydd, nid allai oddef i odid neb ddyfod ato ond ei Gaplan, yr hwn o'r herwydd ydoedd yr unig negesydd rhwng y Canghellydd a'r Brenin, a thrwy hyny yr ydoedd Williams yn cael ei ymddiried am holl gyfrinach y deyrnas, ac ar yr un pryd yn mwynhau amledd o gyfleusderau i'w wneuthur ei hun yn fwy hysbys i'w Fawrhydi, yr hwn wrth ganfod ei ddull dillynfoes a synwyrol ar bob achos, nis gallai lai na mynwesu syniadau rhagorach fyth am werthfawrogrwydd ei gymhwysderau; a hyny fu yn foddion neillduol i rwyddhau ei ffordd i'r sefyllfa oruchel a gafodd cyn hir ar ol hyn yn y llys. Ar y 15ed o Fawrth canlynol, bu farw y Canghellydd, er mawr alar i Williams. Ond ychydig cyn ei farwolaeth anfonai am ei Gaplan ato, a dywedai wrtho, "Os oes arnoch eisiau arian, mi a adawaf i chwi gymunrodd yn fy ewyllys, fel y galloch ddechreu eich byd fel gwr boneddig." I hyn yr atebai Williams, "Fy Arglwydd, gwnaethoch fy phiol i yn llawn eisioes,

Digitized by Google

nid oes arnaf eisiau dim oddieithr eich cyfarwyddyd pa fodd i fyned drwy'r byd, os byddaf fyw ar eich ol." "Wele," ebe'r Canghellydd, "mi a wn eich bod chwi yn grefftwr medrus, cymerwch yr arfau yna i weithio a hwynt; dyna y rhai goreu sydd genyf." Felly efe a roddodd iddo amryw lyfrau, a phapurau wedi eu hysgrifenu a'i law ei hun, y rhai a fuont o ddefnydd mawr i Williams ar ol hyny. Ar farwolaeth yr arglwydd Ganghellydd, Egerton, rhoddwyd y swydd oruchel hono i Syr Francis Bacon, yr hwn pan glywodd fod Mr. Williams yn ymbarotoi i fyned i wasanaethu ei blwyf yn sir Northampton, a anfonodd am dano ato, gan gynyg iddo yr un sefyllfa dano ef, ag oedd ganddo o'r blaen dan yr arglwydd Egerton. Ond y cynyg hwn a wrthododd efe yn foesgar iawn; a phan welodd Syr Francis ei fod yn penderfynu myned ymaith, gwnaeth ef yn ustus heddwch yn y sir grybwylledig; ac ymadawsant felly yn bur gyfeillgar.

Yn fuan wedi hyn, dewiswyd ef i fod yn Gaplan i'r brenin, ac yn 1617, cymerodd y radd o D.D.; ac yna aeth i fyw i'r plwyf crybwylledig, lle y llafuriai yn ddiwyd iawn yn ei weinidogaeth, gan gyflawni gwasanaeth ddwy waith yn yr wythnos, a dwy waith bob Sul, naill ai yn ei eglwys ei hun, neu yn un o'r eglwysi cymydogaethol, a lluoedd a ddeuent i'w wrandaw o'r holl gwmpasoedd. Nid llai ychwaith ydoedd ei ddiwydrwydd a'i ffyddlondeb yn cyflawni ei swydd gyfreithiol. Yn 1619, gelwid ef i bregethu o flaen y brenin, yn Theobalds, yr hyn a foddiai ei fawrhydi gymaint, fel y gorchymynodd i'r bregeth gael ei hargraffu. Tra yr ydoedd efe yn awr yn sir Northampton, dygwyddai deoniaeth Salisbury ddyfod yn wâg, a llawer oedd o ymgeiswyr am y sefyllfa: eithr y brenin a oruwch awdurdododd y cwbl, ac a'i rhoddodd i'r Dr. Williams. Ond yma rhaid sylwi yn fyr ar amgylchiad o bwys yn ngyrfa y gwr yr ydym yn son am dano, sef bod Ardalydd Buckingham mewn ffafr anarferol gyda'r brenin Iago y pryd hwn; eithr Williams i'r gwrthwyneb ydoedd wrthddrych o genfigen yr Ardalydd, a hyny fel y mae'n hawdd dirnad, ydoedd rwystr nid bychan i lwyddiant y Doctor yn y llys. Pa fodd bynag, tuag at symud y rhwystr hwn, dygwyddai amgylchiad tra ffafriol, sef bod Buckingham yn chwenych rhyw etifeddes oludog yn wraig, ond i gyflawni y dymuniad hwnw, yr oedd rhyw anhawsderau dyrus yn lluddias; a phwy a fu yn offerynol i'w symud ond y Dr. Williams. Hyny, fel y mae yn hawdd meddwl, a fu yn foddion i'w ddwyn i ffafr gyda'r Ardalydd; ac fel gwobr am y gymwynas, bu yntau yn offerynol i wneyd y doctor yn ddeon Westminster yn ddioed. Yn y cyfamser hefyd, dygwyddai bod rhyw ymrafael cynhyrfus rhwng y senedd a'r brenin, a'i swyddogion, o ba rai yr oedd Buckingham yn un o'r rhai penaf; ac mor ddyrus ydoedd amgylchiadau yr anghydfod, fel nas gwyddai neb pa drefn a weinyddid i wastadau pethau; ac am hyny, gofynid cyngor y Deon. yr hwn yn ebrwydd a nododd allan y moddion i'w ddefnyddio, a thrwy arferyd y rhai hyny, adgyweiriwyd yr anrhefn mewn dull tra boddhaol i bob plaid, yr hyn a barai y fath ddywenydd i'r Ardalydd, nes iddo ddatgan na cheisiai neb mwyach yn gynghorwr mewn cyfyngder, ond y Deon; a chymaint ydoedd cymeradwyaeth y brenin hefyd o'r gwasanaeth a enwyd, fel y penderfynodd fod y Deon yn wr o'r fath gallineb ac iawn-farn, fel nad oedd neb addasach i fod yn aelod o'i gyfrin-gynghor; ac felly i'r sefyllfa hono y dewisodd efe ef yn ddioed, a thyngwyd ef i'r swydd Mehefin 18, 1621.

Mor gyflym yr oedd dygwyddiadau nodedig yn cymeryd lle yn y dyddiau hyny, fel mai prin yr oedd y rhai uchod wedi eu cyflawni, nes oedd rhai hynotach fyth yn dyfod oddiamgylch. Yn y terfysg diweddar rhwng y brenin a'r senedd, dygid amryw achwynion chwerwon yn erbyn yr arglwydd Ganghellydd Bacon, a'r ystorm a gynnyddodd gymaint yn ei erbyn, nes iddo gael ei ddiswyddo. Ac fel y mae yn naturiol meddwl, yr oedd swydd o'r fath fri ac elw, yn wrthddrych o ymgais bywiog am dani yn mhlith y bonedd y rhai oeddynt o gwmpas y llys; a bernid mai yr un tebyccaf i'w chael oedd Syr Lionel Cranfield; ond er syndod a rhyfeddod aruthrol iddynt oll, pwy a enwai y brenin yn arglwydd Ganghellydd Prydain, ond y Deon Williams! Felly Gorphenaf 10, 1621, tyngid ef yn Geidwad Sel Fawr y deyrnas. Ar yr achlysur yma, gwnaeth araeth hyawdl gerbron ei fawrhydi, gan gydnabod ei fawr ddiolchgarwch am y fath anrhydedd, a chan ddatgan ei ofnau o'i annigonolrwydd i gyflenwi swydd o'r fath bwys; eithr ar ol iddo ddarfod, y brenin a atebai, "Mae fy newisiad yn foddhaol genyf, ac nid oes arnaf yr ofn lleiaf ddarfod i mi gamgymeryd fy ngwrthddrych." Yn awr yr ydym wedi olrhain gwrthddrych ein cofiant yr holl ffordd i fynu hyd y dyrchafiad mwyaf digyffelyb mae genym hanes am i odid ddyn erioed ei gael, yn enwedig mewn yspaid mor fyr, fel nad ydoedd efe fawr dros 39 oed pan wnaed ef yn arglwydd Ganghellydd. Yn ystod yr un mis ag y gwnaed ef yn arglwydd Ganghellydd, cafodd hefyd ei ddewis yn Esgob Lincoln; a chan nad oedd elw yr esgobaeth hono ond bychan, ac oddiar ystyriaeth o ddirfawr draul ei sefyllfa y pryd hyn, caniateid iddo barhau i fwynhau pob un o'r meddianau y gwnaethid ef yn berchenogol o honynt o'r blaen. Fel y dywedwyd eisioes, gwnaed ef yn arglwydd Ganghellydd Gorph. 10, 1621; ac yn ebrwydd dechreuai ddarparu ei hun at ddyledswyddau llafurus ei sefyllfa newydd, y rhai a allesid eu tybio yn analluadwy i'w cyflawni gan un oedd wedi ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth eglwysig; a diau mai felly y buasent iddo yntau, oni buasai ei fod yn unogynneddfau mor annghyffredin. Pan yn myned i ymddangos y waith gyntaf yn y Canghell-lys, gwrthododd yr holl rwysg a arferir ar y cyfryw achlysuron, a chan gymeryd gydag ef ychydig o is-farnwyr y llys, aeth yn ddirgelaidd drwy gynteddau y fynachlog, ac wrth fyned drwy gapel Harri VII., syrthiodd ar ei liniau, lle y bu yn gweddio yn nghylch chwarter awr, ac wedi hyny aeth rhagddo i'r llys, lle yr oedd torf fawr yn dysgwyl ei ymddangosiad, y rhai a gyfarchodd âg araeth lawn o hunan-ymwadiad a challineb. Gwyl-Fihangel ganlynol ymgyfarfu y senedd; ac yno yr oedd ei orchwylion yn ddauddyblyg, sef fel areithydd Tŷ yr Arglwyddi, ac fel prif ynad y Canghell-lys, yr hyn a gymerai ei amser mor llwyr, fel braidd yr oedd iddo hamdden i fwyta, nac i gysgu; canys rhwng ei orchwylion yn y llys, ac yn y Senedd, yr oedd ar waith o tua chwech o'r gloch y bore, hyd ddau neu dri o'r gloch y bore canlynol; ac felly o hyd pan y byddai yn amser o brysurdeb. A chyda'r fath ddcheurwydd y cyflawnai ei holl orchwylion, nes oedd pob anhawsderau fel yn diflanu o'i flaen. Ni oddefai i'r cyfreithwyr dreulio amser trwy ofer-siarad am ddim ond a dueddai i roddi penderfyniad uniongyrchol ar y mater a fyddai dan sylw, a phan draddodai ei ddded-



Digitized by Google

fryd, nis gallai neb ei gyhuddo o ffafriaeth na thoster. Ei areithiau yn y senedd hefyd, nis gallai neb eu gwrth-ateb o ddiffyg eu hyawdledd, na'u dymchwelyd o ddiffyg uniawn-farn, a pheth sydd fwy fyth, dywedir fod ei holl osodiadau mor gedyrn, fel braidd y medrid dymchwelyd dim o honynt gan y swyddogion a ddaeth ar ei ol. Fel hyn yr aeth yn mlaen yn ddilwfr ac yn ddiysgog, gan orchwyliaethu y cwbl yn y modd mwyaf synwyrol, a hyny hyd yn nod yn yr amgylchiadau mwyaf dyrus, o ba rai, yn ystod ei swyddogaeth, y cyfododd amryw ag oedd yn gofyn y callineb mwyaf i allu tori drwyddynt heb wyro ar ryw du, naill a'i trwy ollwng gafael o awdurdodau y brenin, neu trwy gyfyngu ar ragorfreintiau y deiliaid. A'r hyn y cafodd fwyaf o benbleth oll yn ei gwblhau, ydoedd atal ymrafael rhwng y brenin a'r senedd; ond yn hyn hefyd, trwy fawr ymdrech, y llwyddodd tra y bu efe yn ei swydd, er iddo trwy hyny, ddwyn arno ddygasedd rhai o'i gydswyddogion, y rhai yn wir, oeddynt haws i'w tramgwyddo o herwydd eu cenfigen tuag ato, a hyny yn tarddu yn benaf oddiar ei annghydsyniad ef â'u cam ymddygiadau hwy, a'i uchel gymeriad ef gyda'r brenin. Un o'r rhai hyny ydoedd Arglwydd Cranfield, yr hwn tua'r amser yma a wnaed yn Arglwydd y Trysorlys, a'r hwn o herwydd i Williams wrthsefyll un o'i ddichellion, a fwriadodd ei andwyo os byddai yn ei allu; ac i'r dyben hwnw, casglai ryw res o gamgyhuddiadau yn ei erbyn, oddiwrth ba rai ni bu Williams fawr o dro yn profi ei ddieuogrwydd; ac yn fuan ar ol hyn, daeth Cranfield ei hun i'r rhwyd, dyfarnwyd ef gan y senedd i gael ei ddiswyddo, a'i ddirwyo mewn mil o bunau, heblaw ei gymeryd yn garcharor i'r Tŵr Gwyn: hyn a gymerodd le Mai 20, 1624. Ond yr hwn a droes allan yn brif elyn i Williams, ydoedd Duc Buckingham, yr hwn a ddysgrifiasom yn flaenorol fel anwyl-ddyn neillduol y brenin Iago. Y pendefig hwnw ydoedd un tra anwadal ei dymherau; weithiau ni thybiai un ffafr yn ormod i'w gwneuthur i Williams, yr hwn o herwydd llawer o gymwynasau a dderbyniai trwy ei offeryndod, ydoedd yn wastad yn awyddus i addalu iddo yntau y cyffelyb garedigrwydd yn ol, hyd y gallai wneuthur hyny mewn ffordd gydwybodol; ond wrth ei gynghori yn ffyddlawn yn y pethau goreu er ei les, os na byddai y cynghorion hyny yn gytunol a'i fympwy, tramgwyddai yn anfad wrth yr hwn a'u rhoddai, gan feithrin llid yn ei fynwes, yr hyn o'r diwedd a gronai ynddo i'r fath rym, nes iddo benderfynu gwneud a allai o niwed i Williams, ac hyd yn nod tynu gŵg y brenin arno, os byddai bosibl. Ond yn hyn nid oedd amcan y Duc ond ofer, canys nid oedd cyhuddiadau neb yn alluog i iselu yr Arglwydd Ganghellydd yn ngolwg y brenin Iago tra y bu efe byw, yr hyn, fel yr oedd gwaethaf y ffawd, ni bu yn hir ar ol hyn. Tua dechreu 1625, teimlai ei fawrhydi ei iechyd yn pallu, a chan obeithio y gwnai newid awyr leshad iddo, symudai i Theobalds. Eto hyny ni thyciai; eithr ar yr 22ain o Fawrth, derbyniai yr Arglwydd Ganghellydd lythyr yn hysbysu fod afiechyd y brenin yn debygol o derfynu yn angeuol; yr hyn pan glybu ei arglwyddiaeth, aeth at ei Fawrhydi yn ddioed, a phrin yr aeth at ei wely, nad oedd raid iddo â'i law ei hun gau llygaid y tranedig. Fel hyn y bu farw y brenin Iago, yn Theobalds, ar y 27ain o Fawrth, 1625; a chladdwyd ef yn Westminster, a'r Esgob Williams a draddodai ei bregeth angladdol, oddiar 2 Cron. ix. 29–31, yr hon bregeth a argraffwyd yn fuan wedi hyny, dan yr enw, "Solomon, Prydain Fawr." Cymerwyd yr orsedd yn ebrwydd gan ei fab, wrth yr enw Charles I., gyda'r hwn yr oedd Duc Buckingham mewn llawn cymaint ffafriaeth ag y buasai o'r blaen gyda'i dad: ond nid felly Williams, fel yr ymddengys yn ebrwydd. Y brenin newydd a chwenychai alw y senedd yn nghyd yn ddioed, ac i'r dyben hwnw galwai am yr Arglwydd Ganghellydd ato, i roddi gorchymyn iddo yru allan hysbysiadau i'r perwyl; ac ar ei ddyfodiad, cafodd ei fawrhydi a'r duc gyda'u gilydd, yn dyfal ymgynghori ar ryw achosion o bwys. A'r Arglwydd Ganghellydd a anturiai rhoddi ei gynghor i'r brenin yn nghylch cynnulliad y senedd, fel yr arferai roddi i'w dad o'i flaen; ond ei fawrhydi a gymerai y cynghor yn bur oeraidd, gan droi o'r neilldu, fel pe buasai yn chwenych i'r Canghellydd fyned ymaith. A'r Duc o hyn allan a ysgoai oddiwrth ei arglwyddiaeth ar bob achlysur; wrth yr hyn y deallai efe fod tymhestl yn agoshau; ac yn fuan wedi hyn, mynegid iddo ddarfod i'r duc ddatgan yn nghlyw amryw, y cai Williams ei droi o'i swydd. Pa fodd bynag, yr oedd y brad eto heb aeddfedu; ond cyn hir daeth achlysuron newyddion i brysuro y trychineb. Mai 23, rhoddodd y brenin orchymyn i'r Arglwydd Ganghellydd am dynu allan ysgrif, o dan y sêl fawr, i benodi 2000*p.* am 21 o flyneddoedd, i'r Arglwydd Conway. Ond rhag bod dim camgymeriad yn yr achos, aeth Williams at y brenin, a thrwy ryw ymresymu a fu rhyngddo a'r brenin, ataliwyd yr ysgrif. Ac felly enillai iddo ei hun elyn newydd yn yr Arglwydd Conway. Mehefin 18, ymgasglai y seneddwyr yn nghyd; eithr gan fod y pla mawr yn Llundain y pryd hwn, tybid yn well iddynt fyned i eistedd i Rydychain; ond cynghor Williams, oedd gohirio y senedd hyd oni attelid y pla; eithr yn hyny yr ydoedd ei farn ef a'r eiddo y duc yn wahanol drachefn; ac i Rydychain yr aed. Yn gynar yn yr eisteddiad yma, dygid cyhuddiad yn mlaen yn erbyn yr Arglwydd Ganghellydd o fod yn bleidiol i'r Pabyddion, eithr wedi chwilio i'r mater, gwelid mai y duc oedd cefnogwr y weithred gyhuddol, yr hwn a gymerai hyny drachefn yn esgus i haeru fod Williams yn ceisio enyn cynen rhwng y senedd ag yntau, tra yn wir yr oedd ei arglwyddiaeth yn gwneud ei oreu i'w amddiffyn rhag anfoddlonrwydd y brenin, a'r senedd hefyd; eithr hyn ni fynai y duc ei goelio, er i Williams egluro y peth iddo â dagrau yn ei lygaid; ond y brenin a gydnabyddai fod yr olaf yn ddieuog yn y mater; a hyny a fu yn achlysur i'w adael yn ei swydd rai wythnosau yn hwy. Pa fodd bynag, ni orphwysai Buckingham, nes ei gael allan; ac o'r diwedd, daeth cenad oddiwrth y brenin, i gymeryd y sêl oddiarno; a hyny a ddygwyddodd Hydref 25, 1625, ar ol bod o hono yn geidwad cyfrinsel Prydain yn nghylch pedair blynedd a chwarter. Yn awr rhoddwyd y swydd i'r arglwydd Coventry. Ond cyn myned yn mhellach, mae yn ofynol sylwi ddarfod i Williams, pan ddeallodd ei fod i gael ei ddiswyddo, erfyn am ganiattad i ymddyddan a'r brenin; a hyny a ganiateid iddo, ac yno cymerodd gyfle i ymbil ar ei fawrhydi, os oedd yn amcanu ei ddifeddianu o'r sêl, am gyflawni yr addewidion a wnaethid iddo gan ei freninol dad, sef, yn mysg eraill, gadael iddo fwynhau yr amrywiol fywiolaethau eglwysig oedd eisioes yn ei feddiant, a phenodi iddo esgobaeth well, neu archesgobaeth, pan ddelai cyfleusdra i hyny. Yr addewidion hyn, ac amrywiol yn ychwaneg, a

Digitized by Google

addunedai y brenin eu cyflawni yn ffyddlawn; ac wrth ymadael, rhoddai ei law i Williams i'w chusanu yn hynaws. Eithr ni chyflawnwyd nemawr o'r addewidion hyny; ond yn hytrach, goddefid i'w elynion fyned a'u dialeddau yn mlaen yn ei erbyn, fel pan ymadawodd a'r llys i fyned i gartrefu yn esgobty Lincoln, anfonent ysbiwyr ar ei ol, i wylied ar ei ymddygiadau, ac i'w rwydo yn eu hymddyddanion âg ef os gallent. Gwaherddid iddo fod yn bresenol (fel esgobion eraill) ar goroniad y brenin, nac ychwaith eistedd yn Nhy yr Arglwyddi. Cyhuddid ef o wneud ei hun yn rhy gariadus yn mhlith yr aelodau seneddol, o fod yn rhy ffafriol i'r Puritaniaid, ac o ymdebygoli gormod iddynt, drwy bregethu mor fynych, &c. Llawer iawn yn ychwaneg o'r cyfryw gas-ymddygiadau a arferid tuag ato; ond rhag meithder yr ydym yn gorfod eu gadael o'r neilldu.

Er hyn i gyd ni phallai yr esgob a gwneuthur pob cymwynas yn ei allu i'r brenin, a'r duc, drwy eu cynghori a'u rhybuddio yn ffyddlawn, pan y gwelai hwynt mewn perygl, neu gyfyng-gynghor; a hyny weithiau a orchfygai eu llid gymaint, fel y cyfaddefent eu rhwymedigaethau iddo. Ac ar un achlysur neillduol o'r fath, cyffesai y duc ei fod yn maddeu y cwbl, er fe allai nad oedd hyny ond gweniddo y cwbl, er fe allai nad oedd hyny ond gweniaith er mwyn cael ychwaneg o'i wasanaeth yn y senedd mewn amser i ddyfod. Eithr fel pe buasai y peth yn mynu bod, yn hyn o adeg gyfeillgar, cymerwyd ymaith hoedl y duc yn annaturiol, drwy law lofruddiog, Awst 23, 1628. Gallesid meddwl bellach y cawsai Williams fywyd mwy cysurus; eithr i'r gwrthwyneb y bu; yr oedd ganddo eto elynion, y rhai yn ddiorphwys a lafurient i'w boenydio, ac i'r dyben hyn, adnewyddent ryw hen gyhuddiadau yn ei erbyn, sef ei fod wedi datguddio cyfrinach y brenin, ac ar y sail annghyfiawn yma dygasant ef i brawf, Gorph. 11, 1637, a rhoddasant ddedfryd yn ei erbyn, gan ei ddyfarnu i ddirwy o 10,000*p.*, ac i gael ei ddiosg o'i holl raddau urddasol, a myned ei hun i garchar. Ac i chwanegu at ei ofidiau yno, aeth ei gaseion a chymerasant ymaith yr hyn oll a feddai yn ei balas esgobol, ac o'i amgylch, dan yr esgus o dalu y ddirwy i'r brenin, er na ddefnyddiwyd un ddimai i'r perwyl hwnw, ac ni roddwyd byth un math o gyfrif am yr eiddo! Er hyn i gyd, amlygai Williams yr amynedd a'r sirioldeb mwyaf, a hyny a gynnaliai ei ysbryd rhag ymollwng, a'i iechyd rhag adfeilio, fel yn mhen y tair blynedd a haner y bu yn y Tŵr, nid oedd ei wedd fawr waelach na chyn myned yno. Ond wedi bod o hono yn garcharor tua thair blynedd, ysgrifenai ei hunan amddiffyniad mewn 20 o bapur-leni, gan fwriadu ei ddodi ger bron y senedd a ymgynullai Ebrill 13, 1640; eithr gan na pharhaodd yr eisteddiad yma ond tua thair wythnos, llesteiriwyd ei amcan hyd oni ddaeth y senedd yn nghyd drachefn, Tachwedd 3, pryd y cyflwynodd ei erfyniad am ryddhad drwy gyfryngiad y frenhines; ond gwrthwynebid yr unrhyw gan yr Arglwydd Ganghellydd Finch, a'r Archesgob Laud. Wedi hyn darfu Ty yr Arglwyddi eiriol drosto gyda'r brenin, yr hwn a ganiataodd ei ryddhad, fel y cyrchid ef o'r Tŵr i'r Senedd, Tach. 16, lle yr eisteddai eto am unwaith yn mysg yr esgobion. Dysgwyliai y senedd y pryd hwn yr ymbleidiai Williams o'u tu hwy yn eu hymrafael cynhyrfus yn erbyn y brenin, eithr er eu mawr siomiant, parhai yr Esgob yn ffyddlawn i'w fawrhydi yn y cyfyngderau cynnrychiol, yn gystal ag y darfu hefyd drwy yr holl drallodau a gyfarfu y brenin annedwydd hwnw â hwynt ar ol hyny. Pan glywodd y brenin fod Williams, er y cwbl, yn parhau yn bleidiwr i'r Goron, ac i'r Eglwys Sefydledig, y rhai oeddynt yn awr yn y fath berygl oddiwrth y senedd, anfonodd am dano ato, gan gynal ymddiddan cyfrinachol a'u gilydd hyd wedi haner nos; a chyn iddynt ymadael, gwnaeth y brenin ryw gymaint o daledigaeth i'r esgob yn nghyfer ei golledion mawrion diweddar, gan orchymyn i bob cyhuddiadau oedd yn ei erbyn gael eu dystrywio. Yr un pryd yr oedd y senedd yn cynyddu mewn casineb tuag at yr esgobion, ac yn fuan dygent gyhuddiad yn eu herbyn, eu bod yn ceisio dymchwelyd ffurf-lywodraeth y deyrnas, am yr hyn y dyfarnwyd hwy oll i'r Tŵr am ddeunaw wythnos; ac heb ymddigoni ar hyny, yn fuan ar ol hyn, dygwyd ysgrif drwy y ddau dŷ, i'w cau allan o'r Senedd; a'r ysgrif hon, yn rhywfodd a law-nodid gan y brenin. Ond ychydig cyn ffurfiad yr ysgrif uchod, yr oedd y brenin wrth weled ymdrech yr esgobion o'i blaid yn y senedd, wedi dyrchafu amryw o'r rhai a farnai deilyngaf i sefyllfaoedd gwell, ac yn eu plith, dyrchafodd Williams, esgob Lincoln, i archesgobaeth Caerefrog, gan ei adael i fwynhau deoniaeth Westminster hefyd, am dair blynedd yn hwy.

Gallesid hyderu yn awr y buasai yn cael treulio y rhan olaf o'i oes yn fwy cysurus; eto gwahanol iawn a fu; yr oedd yr amrafael rhwng y brenin a'r senedd yn cynyddu, a'r deyrnas wedi ymranu yn ddwy blaid, un dros y brenin, a'r llall dros y senedd; a phob un wedi casglu byddinoedd i ryfela am yr oruchafiaeth; a mawr a maith a fu'r terfysg, fel y mae hanesion yr amseroedd hyny yn dangos. Felly fel yr oedd yr Archesgob yn Nghastell Cawood, dygwyd gair iddo yn nghanol y nos, fod byddin y senedd yn dyfod i gymeryd y castell, ac i dori ei ben yntau boreu dranoeth! Am hyny bu orfod iddo ffoi, yn llwm, ac yn llesg, gan benderfynu cyfeirio ei daith i'w wlad enedigol. Felly cyrhaeddodd yn ddiangol i Aberconwy, o'r lle y buasai yn absenol yn agos i 50 mlynedd, oddigerth ambell ymweliad achlysurol. Erbyn dyfod yno, gwelai yn ebrwydd fod y terfysg gwladwriaethol wedi ymdaenu hyd yn Nghymru. Ac yno ymdrechai i gadarnhau ei gydgenedl i ymegnio o du y blaid freninol; ac i'r dyben o wrthsefyll y gwrthwynebwyr, rhoddodd y brenin ganiatad iddo gymeryd meddiant o Gastell Conwy. Aeth yr Archesgob i'r draul o adgyweirio y castell, oddiar addewid y brenin i'w ddigolledu. I'r castell hwn amryw o fonedd Gwynedd a anfonent eu trysorau i'w dyogelu rhag y terfysgwyr, ar ymrwymiad Williams i'w hadferu iddynt pan elai y perygl heibio. Ond ar Mai 9, 1645, daeth Syr John Owen o'r Clunenau, milwrad yn myddin y brenin, a chymerodd y Castell, a'r cwbl oedd ynddo o ddwylaw yr Archesgob er ei waethaf; ac er i'r olaf gwyno wrth y brenin o herwydd y cam, nid oedd dim ymwared i'w gael. Wrth weled hyny, sorai yr Archesgob, a phan ddaeth y Milwriad Mytton, a byddin seneddol yn erbyn tref Conwy, Williams a anogai ei gydwladwyr i gynorthwyo Mytton i gymeryd y Castell oddiar Syr J. Owen, ar yr ammod o fod i'r Cymry gael eu heiddo o hono; ac felly y bu. Ryw yspaid o amser wedi hyn, cafodd yr Archesgob y newydd trwm am ddienyddiad y brenin Charles I., yr hyn a gymerodd le yn Llundain, Ionawr 30, 1648. Yr hysbysiad o hyn a effeithiodd mor ddwys ar Williams, fel nad

Digitized by Google

ymddangosodd yn gyhoeddus mwyach; ond bu uwchlaw dwy flynedd heb fyned nemawr o'r ystafell, lle yr oedd yn darllen a gweddio nos a dydd yn mron. Hyn yn raddol a niweidiodd ei iechyd, ac a brysurodd ei angau. Ychydig cyn ei farwolaeth, dywedai wrth y foneddiges Mostyn, yn nhy yr hon yn Ngloddaeth, gerllaw Conwy, yr oedd yn gorwedd, "Yr wyf yn barod i ymadael," ac yn fuan ar ol hyn gorchymynai ei ysbryd i ddwylaw ei Brynwr. Felly y bu farw yr Archesgob Williams, ar yr un dydd o'r mis ag y ganwyd ef, sef Mawrth 25, 1650, yn 68 oed. Symudwyd ei gorph i'r Penrhyn, gerllaw Bangor, preswylfod ei henafiaid, o'r lle y cymerwyd ef i'w gladdu yn Eglwys Llandegai, mewn daeargell fechan yn mhen uchaf y ganghell. Yn mhen amser, ei nai a'i etifedd, Syr Gruffydd Williams, a barodd osod i fynu gof-arwydd mynoraidd ar fur deheuol y ganghell, ac arno feddargraff helaeth yn Lladin, o gyfansoddiad y Dr. John Hackett, yr hwn a fuasai unwaith yn gaplan i'r Archesgob.

**WILLIAMS**, John, a elwid "Yr Eurych," ydoedd fab i John Coetmor, trydydd mab ar hugain i Meredydd ab Ieuan ab Rhobert, o Wydyr, ger Llanrwst. Efe a anwyd yn Hafod Lwyfo, ger Beddgelert. Efe a ail adeiladodd Gapel y Nant. Aeth i Lundain, lle y casglodd gyfoeth mawr. Yr oedd yn henafiaethydd o gryn enwogrwydd; ac efe a gynysgaeddodd Drayton â llawer o fanylion yn mherthynas i Gymru, o'r rhai y gwnaeth y bardd hwnw ddefnydd helaeth yn ei *Polyolbion;* a dywedir yr un peth hefyd gan Bradford, yn ei lythyrau at Hearne. Dywedir iddo anrhegu Coleg Iesu, Rhydychain, a llawer o lyfrau mewn ysgrifau, ac iddo ddychwelyd i Gymru tua diwedd ei oes, lle y bu farw. Bu iddo dri o feibion, nid amgen Syr John Williams, barwnig, o Ynys Thanet; Syr Edmund Williams, barwnig, Maine Hall, swydd Dorset, yr hwn a grewyd yn farwn yn 1642; a Syr Maurice Williams, physygwr i'r Frenhines.

**WILLIAMS**, John, oedd yr unig Anghydffurfiwr yn sir Gaernarfon y mae genym ryw hanes am dano. Nid yw Calamy yn enwi y plwyf o'r hwn y trowyd ef allan. Tybiai rhai mai Ynys cynhaiarn, ger Porthmadoc ydoedd; ereill a dybient mai Llanddwrog ydoedd y Llan y trowyd ef allan o honi. Tybiai Robert Jones, i Mr. Williams gael ei fwrw allan yn amser adferiad Siarl II., trwy ddeddf yr Unffurfiad, o'r eglwys uchod, dywed iddo glywed trwy draddodiad, fod dyn yn Llanbedrog, "yn pregethu yn danllyd iawn, yn dyrchafu ei lais fel udgorn, a bod y bobl yn ei glywed fwy na chwarter milldir o ffordd oddiwrth y Llan pan y byddai yn pregethu, tua'r amser yr oedd Mr. Williams yn fyw." Barnai ereill, er y dichon i Mr. John Williams fod yn pregethu yn Llandwrog, a llawer o Lanau ereill yn amser llywodraeth Cromwell, na bu efe yn weinidog sefydlog mewn un Llan blwyfol, ond mai gweinidog teithiol ydoedd, megys amryw ereill; yr oedd Deddf yr Unffurfiad yn eu rhwystro i bregethu, ac nid oedd hyny ond yr un peth bron a phe bwriesid hwy allan o eglwys neillduol. Ymddengys fod ganddo hyd yn nod yn amser Cromwell, ychydig o gyfeillion mewn undeb eglwysig yn Mhwllheli, ac yn Nghapel Helyg, plwyf Llangybi, o dan ei ofal gweinidogaethol. Dywedai y diweddar Mr. D. Williams o Saethon, fod addoldy wedi ei adeiladu gan yr ymneillduwyr yn nhref Pwllheli yn amser Oliver Cromwell, ac mai Mr. Williams oedd yn gweinidogaethu ynddo, a'i fod yn lled agos i'r lle, os nad ar yr un tir ag y mae yr un presenol arno; i'r erlidwyr ei dynu ef i lawr, a'i fod am amser heb neb yn meiddio ei godi; ond i'r llywodraeth yn mhen ychydig ei ail adeiladu ar ei thraul ei hun. Yr oedd Mr. Williams yn ymneillduwr egwyddorol, ac ni allai gydymffurfio ag unrhyw ddull o grefydd a osodid i fynu trwy awdurdod y llywodraeth wladol. Dywed Mr. R. Jones, fod Eglwys Gynulleidfaol yn Mwllheli a'r ardaloedd cyn adferiad Siarl II., mai Mr. J. Williams oedd ei gweinidog, ac iddi ddyoddef cymaint o erlid yn amser yr adferiad, nes y gwasgarwyd hi yn hollol am ychydig, a gorfodwyd Mr. Williams i encilio i Lundain o'r achos; ond efe a ddychwelodd yn fuan. Bu yn llafurio mewn amseroedd blinion, ac mewn enbydrwydd am ei einioes, nid yn unig yn Mhwllheli, ond mewn amryw siroedd ereill yn y Gogledd. Arferai ef a'r bobl dan ei ofal gyfarfod ganol nos, mewn lleoedd mwyaf anghyoedd, rhag ofn yr erlidwyr, a chyn dydd, er hyny, byddent yn cael eu dal yn fynych, a'u llusgo yn y modd mwyaf creulawn ac anmharchus o flaen y swyddwyr annynol a diriaid. Nid oedd dim enwau yn rhy ddrwg i'w rhoddi arnynt, na dim celwyddau yn rhy ddrwg i'w llunio am danynt. Dywedir i Mr. Williams briodi etifeddes y Gwynfryn, ger Pwllheli, ac mai yno yr oedd yn byw; ac i'w fab droi allan yn wyllt ac afradlon, nes gorfod gwerthu yr etifeddiaeth; gan nad beth am hyny, bu y Gwynfryn yn artref i weinidogion Pwllheli am amser maith wedi hyny. Ar ol iddo ef lafurio yn galed, nos a dydd, yn Mhwllheli, a lleoedd ereill yn y Gogledd, mewn amser terfysglyd a blin iawn, efe a orphwysodd yn dawel yn yr Arglwydd, yn y flwyddyn 1674, pan oedd yr eglwys yn nghanol y tywydd garw. Nid yw yn wybyddus beth oedd ei oedran pan y bu efe farw, ymddengys nad oedd yn oedranus, pan yr hunodd; ac nid yw yn amlwg pa faint o amser y bu yn gweinidogaethu, er y ceir mewn rhai hanesion mai deng mlynedd y bu, ond y mae yn eglur fod y deng mlynedd hyn i gael eu cyfrif o'r amser y dychwelodd efe o Lundain, ac yr ail ffurfiodd yr eglwys yn Mhwllheli, a'r ardal, yr hon a fu o dan ei ofal lawer o flynyddau cyn hyny; dywedir mai y cryd tridiau oedd y clefyd a fu yn achos o'i farwolaeth. Dywedir ei fod yn ddyn neillduol mewn dysgeidiaeth a duwioldeb, a'i fod yn hynod o ddiwyd i gynyg efengyl y deyrnas i bechaduriaid; arddelodd yr Arglwydd ei lafur er lleshad ysbrydol i luoedd o'i gydgenedl. Dywedir iddo sefyll yn barhaus yn wrol a diysgog dros y gwirionedd, yn ngwyneb yr holl erlidigaethau a'r caledi a ddyoddefodd. Yr oedd ei athrawiaeth yn ddeffrous, ac fel dyferiad diliau mel, a'i ymarweddiad yn arogli yn beraidd o ran duwioldeb. Ar ol treulio ac ymdreulio fel gwas ffyddlon yn ngwasanaeth yr Arglwydd yn ngwyneb y rhwystrau a'r anmharch mwyaf, efe a hunodd yn dawel yn yr angau. Ymddengys ei fod yn bregethwr tra rhagorol o ran dawn, nerth, a gafaelgarwch ar feddyliau y gwrandawyr. Bu fyw yn ei waith, a hwnw yn waith gorchestol, er egluro yr amcanion pwysicaf a mwyaf canmoladwy, a chafodd y fraint o lynu yn ei waith yn ddiysgog yn ngwyneb tymhestloedd blinion hyd ei ddiwedd.

**WILLIAMS**, Parch. John, LL.D., a anwyd yn Llanbedr Pont Stephan, sir Aberteifi Mawrth 25, 1727. Cyfieithiwr parchus oedd ei dad; a rhoddes ei fachgen John yn Ysgol rad y dref hono, lle y cyr-

Digitized by Google

haeddodd wybodaeth dda yn y clasuron. Pan yn 19 oed, cafodd ei dderbyn i goleg Caerfyrddin, gyda'r bwriad o'i gyfaddasu at y swydd o weinidog ymneillduol. Wedi gorphen ei amser yno, cafodd ei ddewis fel cynnorthwywr clasurol i un Mr. Howell, yr hwn oedd ganddo ysgol fawr yn Birmingham. Yn 1752, rhoddwyd galwad unfrydol iddo i fod yn weinidog cynulleidfa o Ymneillduwyr yn Stamford, sir Lincoln; ac yn 1755, gan ei fod yn nes i Lundain, symudodd i fod yn weinidog i Wokingham, sir Berks. Yn ystod ei drigiant yn y lle hwn, cwblhaodd ei lafur a gymerodd iddo lawer o amser, sef ei *Concordance to the Greek New Testament, with an English version to each work, and short critical notes*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1767. Yn ystod yr un flwyddyn, aeth yn weinidog ar gynulleidfa yn Sydenham, a bu yn llanw y swydd hono am 28ain o flyneddau. Yn 1777, dewiswyd ef yn llyfrgellydd i lyfrgell y Dr. Daniel Williams, yn Redcross Street; ac yno cafodd hamdden a chyfleusdra i gwblhau llenorwaith a ddygasai lawer o'i sylw a'i efrydiaeth, a ffrwyth ei fyfyrdodau ar y pwnc hwn a gyhoeddwyd, dan y teitl, *A Free Enquiry into the Authenticity of the 1st and 2d Chapters of St. Matthew's Gospel*, ail argraffiad yn 1789. Yn 1795, rhoddes ei weinidogaeth i fynu, a threuliodd weddill ei oes mewn neillduedd yn Islington. Pan y bu farw, yr oedd bron wedi gorphen argraffu llyfr prin o waith M. P. Chillomeus, yn dwyn y teitl, "Graeco-Barbara Novi Testamenti," &c. Heblaw y gweithiau crybwylledig, yr oedd hefyd yn awdwr, "Critical Dissertations on Isaiah vii. 13 and 14;" "Thoughts on the Origin of Language;" "An Address on the Protestant Dissenting Ministers' Application to Parliament in 1773;" "Remarks on a Treatise by William Bell, D.D. on the Divine Mission of John the Baptist, and Jesus Christ," &c.; "An Enquiry into the Truth of the Tradition concerning the Discovery of America by Prince Madog, son of Owen Gwynedd, about the year 1170;" ac amryw bregethau. Bu farw yn Ebrill, 1798.

**WILLIAMS**, Parch. John, ydoedd fab i David Williams o Swydd y Ffynon, ger Lledrod, sir Aberteifi, yr hwn oedd ôf wrth ei gelfyddyd, a phregethwr yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, mewn cysylltiad a'r Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho. Yr oedd yn un o bump o frodyr a ddaethant yn wŷr enwog, yn nghyda'u hiliogaeth. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ystrad meurig, o dan yr hyglod Edward Richards. Yr oedd wedi ei gyfaddasu mewn modd arbenigol i ddysgu ieuenctyd. Dangosodd hyny yn more ei oes yn Aberteifi, ac wedi hyny yn Ross, sir Henffordd. Pan fu farw Edward Richards, nid allai yr ymddiriedolwyr feddwl yn unfrydol am neb cymhwysach yn ben athraw yr athrofa hono nag efe; a phrofodd deugain mlynedd o lafur nad oedd eu dewisiad yn annoeth. Tystiolaethai yr Esgobion Warren, Horsley, a Cleaver, i gymhwysderau yr ymgeiswyr am ordeiniad a fuasai yn Ystrad meurig yn ei amser ef, o ran eu gwybodaeth ieithyddol, a duwinyddol. Yr oedd hefyd yn ficer Nantmel, sir Faesyfed, ac yn dal prependuriaeth yn Aberhonddu. Cyhoeddodd "*A Dissertation on the Pelagian Heresy*," 1808. Bu farw ar Wener y Groglith, 1818, yn 73 mlwydd oed.

**WILLIAMS**, John (*Ioan Rhagfyr*). Ganwyd ef Rhagfyr 26ain, 1749, yn Hafodty-fach, Celynin, sir Feirionydd. Gwneuthurwr *hetiau* brethyn oedd ei dad. Ni chafodd ond tri mis o ysgol yn ei ieuenctyd, a dygwyd ef i fyny yn yr un alwedigaeth a'i dad. Yr oedd yn hoff neillduol o gerddoriaeth. Yr offeryn cerdd cyntaf a ddysgodd oedd y *German flute*, yna y *trumpet*. Arferai ymneillduo wrtho ei hun i'r mynydd, oedd o'r tu cefn i'w breswylfod, i chwareu y *German flute*. Yr oedd y fath ganu yn beth cwbl ddyeithr yn y gymydogaeth. Aeth chwedl ar hyd yr ardal, fod ryw ganu nefolaidd i'w glywed yn yr awyr, tu cefn i Dolywaun. Bryd arall cymerai y *trumpet* ganddo i gopa yr un clogwyn, a chan ei adsain, tybiodd rhai o'r hen bobl fod diwedd y byd wedi dyfod ar eu gwarthaf, pan nad oedd, ond sain soniarus o udgorn Ioan Rhagfyr wrth ddifyru ei hun. Pan oedd tua dwy ar bumtheg oed, efe a ddechreuodd brydyddu, a phan yn 22 oed, yr oedd ganddo rai cywyddau, englynion, ac awdlau gorchestol, wedi eu cynghaneddu ar wahanol destunau, a thebygol yw iddo ddechreu cyfansoddi cerddoriaeth tua'r un amser. Cyfansoddodd dôn ar y Sâlm gyntaf, pan nad oedd ond glaslanc, a chafodd ei dysgu yn eglwys Dolgelley, yn absenoldeb J. Symmons, o sir Drefaldwyn, yr hwn oedd yn dyfod oddiamgylch i ddysgu cerddoriaeth. Pan wrth ddyfod i'r Llan un Sabbath, clywai ganu y dôn. Pan ddaeth at y cantorion, gofynodd pwy oedd awdwr y dôn wael a ganent. Dywedodd John Williams yn lled wylaidd, mai efe oedd ei hawdwr, ac y gwnai y nesaf yn well. Erbyn i Mr. Symmons ddyfod i Ddolgelley drachefn, yr oedd John wedi cyfansoddi anthem ar y geiriau, "Parod yw fy nghalon," a phan ddaeth Mr. Symmons i'r eglwys, yr oedd yn anthem yn cael ei chanu gan y côr, ac ar ol gorphen, dywedodd Symmons wrth John, ei fod wedi myned a'i damaid o'i ben am byth yn Nolgelley. Ar ol hyn bu y ddau yn gyfeillion mawr, ac aml yr anfonent eu gweithiau i'w gilydd. Ar ol hyn parhaodd i gyfansoddi cywyddau, englynion, awdlau, cerddi, dyrïau, tonau, ac anthemau. Nid oes llawer o'i farddoniaeth ar gael, ond y mae ei gerddoriaeth mewn ymarferiad drwy holl Wynedd, a gellir dywedyd na chododd neb yn un oes na chenedlaeth yn eilydd iddo o ran ei ddawn, a'i fedrusrwydd i gyfansoddi cerddoriaeth i folianu Duw mewn llais cân a moliant. Anthemau a thonau o'i waith ef a genir fynychaf trwy holl Wynedd, yn y Llanau plwyfol er ys llawer o flyneddoedd, ac hefyd mewn llawer o addoldai yr Ymneillduwyr o wahanol enwadau. Dywedir hefyd fod rhai o'i donau godidog ef mewn bri a chymeriad mawr yn rhai o drefydd Lloegr, ac yn cael eu canu yno ar yr organau goreu, a da iawn yr haeddent hyny hefyd, yn ol barn pob dyn deallus am y fath beth. Yr oedd ei alwedigaeth yn ei alw yn aml oddicartref, ac felly cafodd gyfleusdra i ffurfio cydnabyddiaeth â cherddorion y dywysogaeth. Pan oedd yn 33 oed, rhoddodd heibio ei alwedigaeth, a bu yn cadw ysgol am 46 o flyneddoedd yn Nhrawsfynydd, Abermaw, Dolgelley, ac yn ddiweddaf yn Llanilltyd. Pan yn Abermaw, cyfansoddodd yr alaw a elwir "Ymdaith gwŷr Abermaw," sef "*Barmouth March*." Y mae gradd o debygolrwydd yn hon i'r gydgan olaf yn nghantawd olaf Tywysog Cymru, gan Owain Alaw. Pan yn Nolgelley, bu yn glaf iawn dros enyd faith, ac yn y cyfamser, cafodd ergyd trwm gan y parlys, yr hyn a achosodd gyfyngdra iddo. Pan y cyfansoddodd anthem ar y ddeunawfed Salm, "Yn fy nghyfyngder y gelwais," gwnawd iddo anrhegion gan wahanol bersonau, yn gydnabyddiaeth am ei gyfansoddiadau

Digitized by Google

gwerthfawr. Dywedir ei fod yn edrych yn isel a gostyngedig, er hyny yn foneddigaidd a hawddgar. Yr oedd yn wr pur synwyrol a heddychol, yn gymydog hynaws, a chymwynasol, yn gyfaill caredig a siriol, yn hynod o ddiymffrost o'i gyfansoddiadau ei hun, a di ogan am waith dynion ereill. Bu farw yn Nolgelley, Mawrth 11eg, 1821, yn 81 mlwydd oed. Claddwyd y bardd, yr ysgrifenydd, yr ysgolfeistr, a cherddorol dad y Cymry, yn meddrod ei henafiaid yn Llanfair-Bronmeirig, ger porth yr eglwys, a gosodwyd arno feddfaen, er nodi y lle y gorphwysa.

**WILLIAMS**, Parch. John, ydoedd ail fab y Parch. W. Williams, Pantycelyn, ac a anwyd Mai 23, 1754. Cafodd gynseiliau ei ddysgeidiaeth gan ei dad, ac wed'yn mewn ieithyddiaeth, o dan beriglor Llandeilo'r fan, ac yn olaf, yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, gyda golwg ar gael urddau esgobol. Ordeiniwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Warren, yn Abergwili, Hyd. 17, 1779, a hawlfraint eglwys Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, ac yn offeiriad, Medi 8, 1780. Yn 1782, cafodd guradiaethau Llanfair-yn-Muallt, a Llanddewi'r-cwm, yn sir Frycheiniog. Bu hefyd beth amser yn cadw ysgol yn Llangrallo, Morganwg. Mai 30, 1781, pregethodd gyda'r esgob Barrington, mewn cyfarfod o eglwyswyr, y naill ar ol y llall. Symudodd wedi hyny i Drefecca, i gymeryd gofal coleg yr Arglwyddes Huntingdon yno, lle y bu ysbaid pum' mlynedd a haner, ac efe a fu ei llywydd diweddaf yno. Pan oedd yn Llanfair, llafuriai mewn cysylltiad â'r Methodistiaid yn gystal ag yn yr Eglwys, megys hefyd yr arferai llawer o weinidogion yr Eglwys yn y dyddiau hyny wneud; ac wedi hyny yn gwbl mewn cysylltiad a'r blaenaf. Bu farw Mehefin 5, 1828, yn 74 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa y teulu, yn Llanfair-ar-y-bryn, lle y mae gwyddfaen gerfiedig i'w goffadwriaeth. Ysgrifenwyd byr Hanes o'i Fywyd a'i farwolaeth, gan y Parch. M. Davies, yn 1830.

**WILLIAMS**, John, Dolwyddelen, Pregethwr yn nghorff y Trefnyddion Calfinaidd, a anwyd yn 1757, mewn lle a elwir Fedw deg, yn mhlwyf Penmachno, o rieni parchus, y rhai a symudasant wedi hyny i Dolwyddelen. Anfonwyd ef pan yn bum mlwydd oed i un o ysgolion Madam Bevan, yn y plwyf uchod; a phan yn un ar bumtheg oed, anfonodd ei dad ef i'r ysgol i Gaerlleon. Wedi iddo dreulio blwyddyn yno, dychwelodd adref, a dygwyd ef i fyny yn siopwr gyda'i dad. Ond wedi bod gydag ef ychydig amser, ymadawodd, er myned at ei daid a'i nain i Dolwyddelen. Pan oedd yn gweithio gyda'i daid un diwrnod, gofynodd iddo, "Beth yw y bobl sydd yn dangos y ffordd newydd i gadw enaid, y rhai sydd yn dysgu i ddyn y ffordd i'r nefoedd?" Dywedodd fod arno chwant rhyfeddol i fyned i'w gwrandaw, er mwyn deall eu hathrawiaeth; ac os na ddeuent hwy y ffordd hono yn fuan, yr elai i ryw le cyfleus i'w gwrandaw. O, meddai ei daid; "yr wyt yn gwirioni yn siwr, ac yn ynfydu, y mae y bobl yna y rhai gwaethaf yn y byd, nid oes neb gwaeth ar y ddaear na hwynt." Dywedai Mr. W. fod rhyw beth ar ei feddwl yn lled ddwys yn nghylch ei fater tragwyddol, yn mha wlad y byddai ei artref wedi gadael y ddaiar hon, ac nas gallai fod yn esmwyth heb eu clywed yn pregethu. Cyn hyn, yr oedd yn dylyn pob oferedd, chwareu cardiau, myned i nosweithiau llawen, &c., gan wario yr hyn a enillai mewn cyfeddach a meddwdod; er hyny, byddai ar amserau yn cael ei gnoi gan ei gydwybod. Byddai yn arfer darllen llyfrau crefyddol; ac yr oedd yn hynod o hoff o ddarllen y rhanau hanesyddol o'r Beibl. Wrth ddarllen esboniad Griffith Jones ar y Deg Gorchymyn, cafodd olwg ar atgasrwydd ei bechod o gymeryd enw yr Arglwydd yn ofer, ac o dyngu a rhegi, nes llwyr benderfynu cadw gwyliadwriaeth yn erbyn y pechod hwnw. Pan oedd oddeutu ugain oed, sylwai ei gyfeillion ieuainc, fod rhyw gyfnewidiad mawr ynddo. Un Sabbath, yn lle ymuno fel arferol yn eu llawenydd cnawdol hwy, ymneillduodd i gysgod craig yn agos i'r lle, i ddarllen ei Feibl. Yn fuan ar ol hyn, daeth Mr. Foulkes, o'r Bala, i'r plwyf i bregethu, a safodd ar risiau cerrig gyferbyn a drws Tŷ'r Llan. Daliodd y bregeth yn neillduol ar feddwl Mr. Williams. Er hyny, ceisiodd ysgwyd y saethau ymaith; ond gwelodd mai ofer oedd ceisio gwingo yn erbyn y symbylau. Glynu yr oedd y geiriau fel saethau yn ei galon, a phan oedd yn un ar hugain oed, meddyliodd am gael pregethu i Ddolwyddelen. Aeth i Benmachno i wrandaw John Jones, Hafod Evan, a chafodd addewid ganddo i ddyfod i Ddolwyddelen. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1778. Pregethodd mewn ty, lle y cartrefodd John Williams am 28 mlynedd wedi hyny. Daeth pobl o bob cwr o'r plwyf i'w wrandaw, am ei fod yn beth newydd yn yr ardal i glywed pregethu mewn annedd-dy. Llefarodd John Jones yn dra effeithiol, nes oedd y gynulleidfa yn cael eu rhwymo i wrandaw fel am eu bywyd. Wedi hyn, daeth pregethu lled gyson yn y plwyf; ac felly bu yn offeryn i gychwyn yr achos yn y lle. Arferai John Williams fyned i bob cymdeithasfa yn chwe sir y Gogledd am rai blyneddoedd; a pharhaodd i fyned i Gymdeithasfa y Bala am ddeuddeg mlynedd a deugain, heb golli yr un; a byddai yn arferol a fod yn mhob cyfarfod misol yn ei sir ei hun, yn ymofyn cyhoeddiadau pregethwyr. Bu yn blaenori am rai blyneddoedd ar y gangen eglwys yn Nolwyddelen, cyn ei alw i waith y weinidogaeth. Yr oedd yn un hynod o ymdrechgar i fyned i bob man y byddai wedi addaw myned i bregethu. Yr oedd bob amser yn ffyddlon a didderbyn wyneb, ac yn barod i bob gweithred dda. Byddai pawb, byd ac eglwys, yn ei ystyried yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dim twyll. Yr oedd ychydig cyn marw, mor iach, ac mor siriol ag yr arferai fod; eto yn mynych sôn am ei ymddatodiad, fel pe buasai yn gwybod fod pen ei yrfa gerllaw. Y boreu y bu farw, cymerodd ei foreufwyd fel arferol, ac yr oedd yn brydlawn a blaenllaw yn gofalu am yr addoliad teuluaidd; a chyn pen yr awr, cwynai ei fod yn glaf, a gofynai am gynorthwy i fyned i'w wely, gan ddywedyd wrth ei ferch, "Y mae angau wedi cydio ynof fi rwan; yr oeddwn i yn dywedyd i ti ei fod yn agos." Galwyd y meddyg atto yn ddioed; ac wrth roddi ychydig feddyglyn iddo, a chynesrwydd am ei draed, dywedai, "Nid yw ddim *use* i chwi drafferthu, mi a fyddaf wedi ehedeg ymaith cyn pen haner awr;" ac felly y bu, ar y seithfed ar ugain o Fawrth, 1839, yn 82 mlwydd oed, wedi bod yn weinidog parchus a defnyddiol, oddeutu haner can mlynedd, gyda y Trefnyddion Calfinaidd: a chladdwyd ef y Sadwrn canlynol yn Nolwyddelen.

**WILLIAMS**, John, A.B., offeiriad Begelly, a anwyd yn Abergwaen. Collodd ei dad pan yn ieuanc. Trwy ail briodas ei fam, a thrwy ddylanwad ei lys-dad, yr hwn oedd yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig, cafodd fyned i Goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1783, a chafodd ei neillduo yn ddiacon yn mis Medi, 1785,

Digitized by Google

gan iddo fyned trwy ei arholiad mor anrhydeddus. Efe a ddywedai, "Er fod y cyfnod hwn yn bwysig iawn, nid wyf yn cofio fod dim neillduol yn gwasgu ar fy meddwl. Yr oedd fy ymddygiad i a'm cydymgeiswyr yn ystod wythnos yr aroliad yn waradwyddus o ysgafn a chellweirus. Yn y modd hwn rhuthrais yn ddifeddwl i winllan Duw, heb ddawn na gras at waith y swydd bwysig; ac hyd yn nod heb ddyfod i wybodaeth brofiadol o ffordd iachawdwriaeth, trwy ffydd yn y Prynwr croeshoeliedig. O y fath arweinydd dall i dywys y dall yr oeddwn wedi bod. Rhoddodd hyn i mi lawer o oriau anesmwyth; ond bendigedig fyddo Duw, agorodd fy llygaid i ryw raddau i weled fy ffolineb." Wrth ymadael â'r coleg, aeth Mr. Williams yn athraw teuluaidd i deulu y diweddar Dr. John Phillips, o Williamston, i'r hwn hefyd y gweinyddai fel is-beriglor yn mhlwyfydd Williamston, Burton, a Rhosmarket. Trwy ei gydnabyddiaeth â boneddiges dduwiol yn y lle olaf a enwyd, ymddengys i gyfnewidiad graddol, ond dedwydd, i gymeryd lle yn ei olygiadau crefyddol, a therfynu yn mhenderfyniad yr apostol, i wybod dim yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau gweinidogaethol ond "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Yn ngwanwyn y flwyddyn 1793, cafodd ei gyflwyno i beriglorìaeth Begelly, i'r hon y symudodd yn yr Hydref canlynol. Cafodd ei blwyfolion mewn sefyllfa o dywyllwch moesol, yn estroniaid oddiwrth Dduw trwy eu hanwybodaeth; ond gyda difrifoldeb, annerchai hwynt, a dywedai wrthynt am Dduw, ac anogai bawb o lwyr-fryd calon i'w addoli. Yr oedd ei bregethau bob amser yn anog y pechadur i fyned yn isel i'r llwch, ac yn dyrchafu Crist fel Achubwr. Bu yn foddion i droi llawer o gyfeiliorni eu ffyrdd i'r iawn; ac o feddiant Satan at Dduw. Nid fel pregethwr yn unig yr oedd yn eu hanog, yr oedd yn dysgu ei bobl o dŷ i dŷ. Yr oedd yn arferiad ganddo i ymweled â'r teuluoedd ag oedd dan ei ofal, i'r dyben o gyfranu iddynt addysgiadau a chyfarwyddiadau crefyddol, trwy ddarllen ac esbonio rhanau o'r ysgrythyrau sanctaidd. Efe a fyddai yn cyflawni yr ymweliadau hyn yn y prydnawnau, lle y gwahoddid y cymydogion nesaf i ddyfod yn nghyd. Dechreuai y cyfarfodydd hyn trwy ganu emyn, a gweddio gyda ei bobl, naill a'i cyn, neu ar ol yr anerchiad esboniadol. Yn ychwanegol at yr ymweliadau hyn, gwnaeth Mr. Williams o'r dynion mwyaf difrifol o'r gynulleidfa, gymdeithas, ar gynllun tebyg i eiddo y diweddar George Whitfield. Yr oedd aelodau y gymdeithas hon yn cael eu rhoi ar gylch i weddio, i'r dyben o ddwyn yn mlaen addoliad i Dduw yn eu teuluoedd eu hunain. O'r amser y dechreuodd ar ei ddyledswyddau yn Begelly hyd ei farwolaeth, cyfnod o wyth mlynedd a haner, mor belled y gallasai ei natur wan oddef iddo wneud, bu yn weithiwr ffyddlon yn ngwinllan ei Arglwydd. Gellir dywedyd ei fod yn "llafurio mewn amser ac allan o amser;" a bydd y gofal mawr a ddangosai am ddaioni ysbrydol ei blwyfolion, ei garedigrwydd a'i gymwynasgarwch, yn nghyd a'i deimladau tyner, am amser i ddyfod, ar gôf a chadw yn nghymydogaeth Begelly. Yr oedd hefyd yn ddyn o ysbryd rhyddfrydig i'r pen, a'i egwyddorion fel eglwyswr yn gymhedrol a rhyddgarol. O hyn y rhoddodd brofion diymwad, yn ei waith yn croesawu y parchedigion Morgans o Henllan, a Jones Trelech, dau weinidog Annibynol, yn eu hymweliadau pregethwrol yn rhanau Seisnig Sir Benfro. Yr oedd yn gweled yr angen mawr oedd am eu llafur; ac er nad oedd yn myned i deithiau pregethwrol ei hunan, yr oedd o galon yn groesawu eraill, y rhai a deimlent eu hunain yn rhydd i wneud hyny. Anogai Mr. Williams hwy i barhau yn eu hymdrechion i oleuo y rhai oedd yn eistedd mewn tywyllwch. Pryd bynag y deuent yn agos i Begelly, yr oedd ei dy yn artref iddynt, a derbyniai hwynt bob amser fel brodyr yn yr Arglwydd. Fel gweinidog, priod, a meistr, yr oedd yn enghraifft cywir o'r Cristion. Er ei fod yn naturiol boeth o ran ei dymher, eto, yr oedd hon wedi ei darostwng a'i rheoleiddio gan ras dwyfol, fel nad oedd braidd un amser yn peri aflonyddwch i neb ond iddo ei hun. Gan ei fod mewn ffyddlondeb yn ceryddu pechod mewn ereill, fefly hefyd, ni adawodd i'w anmherffeithderau ei hun fyned heibio yn ddisylw, a byddai weithiau yn cyhuddo ei anwyl briod o anffyddlondeb, am ei bod yn peidio nodi allan ei feiau.

Yn ngwanwyn 1802, bu twymyn heintiol ac angeuol yn ei blwyf, yr hon a gymerodd afael ynddo yntau, trwy ei ymweliad a'r cleifion perthynol i'w eglwys. Yn y clefyd hwn, dangosai awydd mawr am adferiad, os rhyngai bodd Duw; ond gweddiai am nerth i ymdawelu. Fel hyn y gorphenodd ei yrfa, Ebrill 3ydd, 1802, yn 40 mlwydd oed, ar ol deg diwrnod o gystudd trwm. Yn mhen tair blynedd ar ol ei farwolaeth, gwnaed casgliad o ugain o'i bregethau, a chawsant eu hargraffu yn Nghaerodor. Dyma yr oll ar a wyddom ni sydd o'i waith wedi cael ei ddyogelu, er galw dynoliaeth i edifeirwch, ac argraffu ar eu meddyliau wirioneddau achubol efengyl Crist. O (meddai casglydd ei bregethau) mor ddedwydd a llwyddianus y byddai Eglwys Loegr, pe buasai ei holl weinidogion mor uniongred yn eu hathrawiaethau, ac mor sanctaidd yn eu buchedd, a'r Parchedig John Williams.

**WILLIAMS**, Parch. John, gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid. Ganwyd ef gerllaw Beaumaris, Mon, tua 1788. Nid oedd Wesleyaeth wedi cyrhaedd gan belled a'i ardal enedigol ef pan ydoedd yn blentyn; a dygwyd ef i fynu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Y cyntaf o'r gweinidogion Wesleyaidd a glywodd efe ydoedd Mr. Bryan. Yr oedd hyn tua 1803, ac yn 1806 yntau a ymunodd â hwynt. Yn 1808, dechreuodd bregethu; ac yn 1809, sefydlwyd ef yn Ngogledd Cymru fel pregethwr teithiol. Ymroddodd yn egniol i efrydu duwinyddiaeth, a changhenau eraill o wybodaeth anghenrheidiol i weinidog fod yn hyddysg ynddynt; a chyrhaeddodd beth gwybodaeth yn y Roeg. Bu o fawr wasanaeth i'r enwad yn Nghymru, gan ei fod yn ddyn o alluoedd campus. Teithiodd lawer ar Ogledd a Deheu, pan oedd yr eglwysi yn anaml, ac yr edrychid arnynt gan grefyddwyr eraill fel hereticiaid, a chan y di grefydd fel ffyliaid. Wedi bod 25ain mlynedd yn y weinidogaeth, ac yn ei 46ain mlwydd oed, bu farw yn Nghaerfyrddin, Ion. 15, 1834. Cyhoeddwyd o'i waith "Bucheddiaeth y Parch. Samuel Bradburn," 2, "Y Llusern Ysgrythyrol," ac amrywiol bregethau ar wahanol destynau. Yn gyfranog hefyd â'r Parch. Hugh Hughes, dechreuodd gyfieithu i'r Gymraeg, "Esboniad y Parch. J. Wesley," a buont yn gydawduron ar lyfr o'r enw "Goleuad Dwyreiniol." Bu yn un o ohebyddion mwyaf cyson a galluog yr Eurgrawn Wesleyaidd ar hyd ei oes; ac yn olygydd arno o 1826 hyd 1829. Brawd iddo ef ydoedd y Parch. David Williams, yntau hefyd yn weinidog talentog a defnyddiol yn yr un Cyfundeb.

Digitized by Google

**WILLIAMS**, Parch. John, M.A., archddeon Ceredigion, ydoedd fab i'r Parch. John Williams, Trefecca. Ganwyd ef yn Ystradmeurig, Ebrill 11, 1792. Dan addysg ei dad, ac yn feddianol ar y fath dalentau ysplenydd, rhoddes ernes yn fuan o'r enwogrwydd oedd yn ei aros. Pan yn 16 oed, aeth yn athraw cynorthwyol clasurol i ysgol Chiswick, lle y bu am flwyddyn. Treuliodd y ddwy flynedd ganlynol yn cynorthwyo ei dad yn ysgol Ystradmeurig; aeth oddiyno am ychydig amser i ysgol Ludlow, lle yr enillodd ysgoloriaeth; ac yn Nhachwedd, 1810, aeth i Goleg Balliol, Rhydychain; ac yno, yn mhen pedair blynedd, rhestrwyd ef yn un o bedwar, yn y dosparth cyntaf. Mewn athroniaeth, a hanesyddiaeth y rhagorai fwyaf y pryd hyn, ond daeth wedi hyny yn rhifyddwr campus. Un o'r pedwar hyny oedd y Dr. Arnold, yr hwn fel yntau a ddaeth yn un o brif ddysgawdwyr y deyrnas. Wedi hyny, penodwyd ef yn brif gynorthwywr Dr. Gabell, penaeth coleg Winchester, lle y bu bedair blynedd; a chafodd guradiaeth Durley, Hants; a bu wedi hyny yn athraw cynorthwyol yn ysgol Hyde Abbey, Winchester. Arosodd yno am ddwy flynedd, ac enillodd yn y cyfamser serch amryw gyfeillion dysgedig. Yn 1820, cynygiodd Dr. Burgess, esgob Tyddewi, iddo ficeriaeth Llanbedr-pont-Stephan, gan ddymuno arno yr un pryd, ddwyn yn mlaen yr ysgol a sefydlasid yno gan y ficer diweddaf. Yn unol a greddf wladgarol ei natur, derbyniodd y cynyg; a rhoddodd i fynu yn llawen brif arolygiaeth Hyde Abbey, yn nghyda rheithoriaeth St. Lawrence, Winchester, lle yr oedd newydd gael ei benodi. Yr oedd Dr. Burgess yn awyddus i adeiladu coleg yn Llanddewi-brefi, ond Mr. Williams a'i perswadiodd i'w adeiladu yn Llanbedr. Yr oedd ysgol ramadegol y dref hono yn gnewyllyn, a *feeder* ragorol i'r Coleg. Yn mysg ei ysgolheigion, yr oedd mab henaf Syr Walter Scott, ac ar anogaeth y gwr enwog hwnw yr anturiodd ef gynyg ei hun yn ymgeisydd am lywyddiaeth coleg newydd a sefydlid yn Edinburgh, yn 1824. Bu yn llwyddianus; ac am 22ain mlynedd, llanwodd y swydd er anrhydedd mawr iddo ei hun, a budd i'r sefydliad. Yn mysg ei gyfeillion yno, ceir enwau Syr W. Scott, Macullock, John Gibson Lockhart, Arglwydd Cockburn, Arglwydd Jeffrey, Proffeswr Wilson, Syr Wm. Hamilton, Dr. Chalmers, a Carlyle. Efe a ddarllenodd y gwasanaeth uwch gweddillion Scott, yn Dryburgh Abbey. Yn ystod ei arosiad yn Edinburgh, y cyhoeddwyd o'i waith, *History of Alexander the Great; Geography of Asia;* a'i *Homerus.* Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Freiniol Edinburgh, a darllenodd amryw bapurau ger ei bron; ysgrifenodd aml erthygl alluog i'r *Quarterly Review*, yr hwn a olygid gan ei gyfaill Mr. Lockhart. A dywedai Archesgob Canterbury, mewn araith gyhoeddus ar ei hen athraw, mai iddo ef yn benaf yr oedd Scotland yn ddyledus am y cyffro adnewyddol yn ei phrif athrofeydd. Pan sefydlwyd coleg Llanymddyfri, cynygiwyd ei lywyddiaeth i'r Archddeon, ac yntau a gydsyniodd, ac yno bu yn dra llafurus a llwyddianus am bum' mlynedd, pan y gorfu arno roddi y swydd i fynu, oblegyd afiechyd. Treuliodd y 18 mis olaf o'i oes, yn Bushey Heath, Hamps, lle y bu farw, Rhagfyr 27, 1858. Yn ystod ei flyneddau olaf, cyhoeddodd "*Gomer*," ei *Life of Julius Caesar, A Barbarian Episcopate, Discourses and Sermons on the Unity of the Will of God.* Heblaw bod yn Archddeon Ceredigion, yr oedd hefyd yn Ganon Tyddewi, ac yn Gantor yn Aberhonddu. Dywedai y *Times*, wrth gofnodi ei farwolaeth, "Ni lafuriodd neb erioed yn fwy selog nag ef, nid yn unig o blaid llwyddiant Cymru, ond hefyd o blaid ei hanrhydedd."

**WILLIAMS**, John, ydoedd frodor o'r Carneddi, Llanllechid, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1794. Mynychai foddion gras pan yn ieuanc, ac ymunodd a'r Methodistiaid Calfinaidd tua'r flwyddyn 1820, ac nid hir y bu cyn dechreu pregethu. Trwy anfanteision dybryd daeth yn bregethwr cymeradwy, er ei fod yn ddiffygiol fel traddodwr. Ymroddodd yn ddiwyd i ddeall rheolau iaith; a chyrhaeddodd y fath wybodaeth ieithyddol, fel yr adnabyddid ef wrth yr enw, "John Williams, y Gramadegwr." Yr oedd hefyd yn fardd o gryn deilyngdod, a chyfansoddodd lawer, yn enwedig yn y mesurau caethion. Bu farw, Tachwedd 21, 1848, yn 54 oed. Gadawodd ar ei ol ysgrifau gwerthfawr, megys "Traethawd ar Ragoroldeb y Gymraeg;" "Traithawd ar Wahan-nodiad," &c.

**WILLIAMS**, John, y Garn, oedd bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1795. Yr oedd y fath hynodrwydd ynddo fel pregethwr, dyn, a Christion, fel y byddai rhieni yn mynegu i'w plant am ei weddiau taerion, a'i weinidogaeth danllyd, effro, a nerthol, fel y bydd yn llefaru yn mhlith llawer o'r Cymry am oesau i ddyfod. Ganwyd a magwyd ef yn Llecheiddior, sir Gaernarfon. Pan oedd yn nghylch dwy flwydd ar ugain oed, daeth diwygiad cryf i'r ardal lle yr oedd yn byw. Ei waith ef am yspaid, fyddai gwawdio, a gwatwar plant y diwygiad; ac yn lle myned i'r addoldy, elai ar Ddydd yr Arglwydd i rodiana, i'r Pedair Croes, Pwllheli, a lleoedd ereill. Un Sabbath, pan yn dychwelyd adref gyda ei gyfeillion llygredig, daeth tri o bobl y capel i'w cyfarfod, a dywedodd un o honynt wrth y llall, "Wel, wel, ni fydd hi ddim fel hyn ar y rhai yna am byth." Aeth y dywediad fel saeth lem i gydwybod John Williams; ac er ymdrechu, yr oedd yn methu a'i ysgwyd ymaith, a dyna yr hyn a'i dygodd yn gyntaf, yn ol ei ddywediad ei hun, i feddwl yn ddifrifol am gyflwr a sefyllfa ei enaid. Cafodd yr argraffiadau hyn eu dwysâu mewn cyfarfod gweddi, un o'r nosweithiau nesaf; ond mewn pregeth, cafodd ei lwyr orchfygu. Boreu dranoeth, dechreuodd gadw dyledswydd deuluaidd, er fod y teulu yr arosai yn eu plith yn lluosog, ac yntau o'r blaen wedi bod eu harweinydd mewn direidwaith. Nos dranoeth, aeth i gyfarfod gweddi, a dechreuodd waeddi yn y fan hono, nes oedd y rhai mwyaf cellweirus yn sobri wrth ei glywed. Yn mhen ychydig ddyddiau, dechreuodd weddio yn y cyfarfodydd gweddi. Gan fod ei awydd mor gryf am wneyd daioni yn mhob modd y gallai, a'i aidd mor angerddol dros ogoniant ei Waredwr, ni fu ond tua chwe mlynedd ar ol dyfod at grefydd, heb ddechreu pregethu. Aeth yn lled boblogaidd yn ei sir ei hun yn fuan, yr hyn a gynnyrchodd ddymuniad mewn siroedd ereill am fwynhau ei weinidogaeth. Felly dechreuodd deithio yn lled fuan ar ol dechreu pregethu; ac yr oedd iddo dderbyniad mawr yn mhob lle. Parhaodd ei weinidogaeth o'r dechreu hyd ei farwolaeth, yn un fywiog, danllyd, gyfeiriadol, a grymus. Symudodd trwy briodi, i Lanfachreth, sir Feirionydd; ac arosodd i lafurio am naw mlynedd yn y sir hono, yna efe a ddychwelodd i'w hen sir. Nid ydoedd naw mlynedd o fyw mewn sir arall, wedi

Digitized by Google

gwneud i bobl ei hen wlad oeri tuag ato. Bu yn offeryn i ddwyn canoedd at grefydd yn mhob rhan o Gymru, ac yn amryw o drefydd Lloegr, lle yr oedd Cymry yn preswylio; yr hyn sydd yn dangos fod ynddo rywbeth sydd yn ol mewn pregethwyr yn gyffredin. Yr oedd yn gwybod y ffordd i borthi praidd Duw, i gynal y gweiniaid, i gysuro y galarus, ac i adferu y gwrthgiliedig. Er cymaint a darawai, ac a ddywedai yn erbyn pechodau yr oes, er hyny, sylwedd ei bregethau oedd pechadur colledig, a Christ yn Geidwad. Yr oedd hefyd yn llwyr-ymwrthodwr selog, ac yn areithiwr poblogaidd. Cymerwyd ef yn glaf wrth fyned i daith Sabbath yn Môn, Rhagfyr 15fed, 1855. Wedi dychwelyd adref, a gwella ychydig, a chryfhau cryn lawer, bu yn pregethu mewn chwech o deithiau Sabbathol; ac yn Beddgelert, Sul y Pasg, 1856, y bu y daith Sabbathol olaf. Yr oedd yn hollol dawel a boddlawn i ewyllys ei Arglwydd. Yr oedd yn rhoddi ei holl bwys am ddiogelwch bythol ar aberth y groes; ac ar Awst 9fed, 1856, ymadawodd yn dawel a'r byd hwn, ac aeth i dangnefedd, wedi bod yn aelod eglwysig am 39 o flyneddoedd, yn pregethu am 33 o flyneddoedd, ac yn cyflawni holl ranau gwaith y weinidogaeth am naw mlynedd, gan adael gweddw, a chwech o blant i alaru ar ei ol. Yr oedd ei farwolaeth yn golled i'w deulu, a chyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd, trwy y De a'r Gogledd.

**WILLIAMS,** John, Aelod Seneddol dros Macclesfield, ydoedd esiampl neillduol o lwyddiant talent mewn masnach, wedi ei huno gyda gonestrwydd a dyfalbarhad. Mab ydoedd i rieni tlodion yn nhref Rhuthyn; eithr ganwyd ef mewn lle o'r enw Cross Keys, yn Llanfair Dyffryn Clwyd, gerllaw y dref hono. Dywedir mai yn ngwasanaeth boneddwr oedd yn byw y pryd hyny yn Mhlas Llanbedr, yr oedd ei dad. Pan nad oedd efe ond ieuanc, bu ei dad farw, gan ei adael ef, ac unig chwaer, yn blant bychain amddifaid; a'r fam a gynaliai ei hun a'i rhai bach wrth gymeryd gwaith pwytho. Gellir dyfalu yn naturiol na chafodd fwy o ddysgeidiaeth nag a'i cynysgaeddodd â gallu i ddarllen, ysgrifenu, a rhifyddu ychydig. Cyrchai ar y Sabbathau i ysgol y Wesleyaid, yn Heol y Felin; ac yno perthynai i ddosparth plant oedd tan ofal cyffeithydd o'r un enw ag ef ei hun, gwr ymdrechgar, a fu o fawr gymhorth yn ei oes i'r achos yn y lle hwnw. Profodd ei ymarweddiad dilynol ar hyd ei oes, na bu cynghorion yr athraw hwnw yn ddi fudd iddo. Trodd allan yn gynar i chwilio am ei fywioliaeth, a bu am yspaid yn negeswas mewn siop sydd ar gongl Heol Clwyd, a'r Farchnadle, Rhuthyn. Pan yn bedair-ar-ddeg oed, aeth i Lundain, a chanddo, fel y dywedai flyneddoedd ar ol hyny, "ddim ond bwndel disylw o ddillad dan ei gesail, swllt yn ei logell, a bendith ei fam ar ei ben." Wedi cyrhaedd y Brif ddinas, cafodd le fel negesydd yn un o siopau brethynau mawrion y rhan orllewinol. Gwelwyd yn fuan ei fod yn fachgen o'r fath a ewyllysiai masnachwr ei feddu,—ufudd, di ymdroi, geirwir, a gonest. Llawer noswaith y cysgodd dan y *counter*. Yn fuan dyrchafwyd ef yn gynorthwywr, ac o ris i ris daeth yn flaenorydd y sefydliad. Wedi hyny, ymunodd mewn cydfasnachaeth yn Finsbury Circus, Regent Street, o dan yr enw Williams and Hatton. Erbyn 1848, yr oedd wedi gwneud digon o elw oddiwrth y fasnach, fel y gallai fyw yn bendefigaidd hebddi; ac o ganlyniad rhoddes hi i fynu, a gadawodd dwrf Llundain, gan gymeryd Bronywylfa, ger Llanelwy, hen balas cartrefol y farddones Seisnig enwog Mrs. Hemans. Yr oedd yn wladgarwr twymgalon, ac wrth ei fodd yn gwneud unpeth er hyrwyddiant Cymru, Cymro, a Chymraeg. Daeth gyntaf i enwogrwydd fel pleidiwr gwresog a hyawdl yr ymdrech i ddileu Deddfau yr Yd. Gan ei fod yn byw yn mhlwyf mawr Marylebone, wardeiniaid eglwysig yr hwn oeddynt bob amser yn perthyn i'r bendefigaeth, ac yn anhysbys o deimladau y plwyfolion, penderfynodd yr olaf ethol un o honynt eu hunain i'r swydd: ac wedi etholiad caled, dewiswyd Mr. Williams yn warden y bobl. Yn 1847, gweithredai fel cadeirydd pwyllgor etholiad Mr. D. W. Harvey, pan yr oedd tri ymgeisydd, sef Mr. Harvey, Arglwydd Dudley Stuart, a Mr. Sergeant Shee. Yn y cyfamser yr oedd ar ryddfrydwyr Macclesfield eisiau ymgeisydd, ac yr oedd yr etholiad cyffredinol bron wrth y drws. Cawsant gynyg ar Mr. Bernal Osborne, a Mr. Williams, a dewisasant yr olaf; ac yn mhen deng niwrnod wedi gwneud ei ymddangosiad yn eu plith, er ei fod yn hollol anhysbys i'r bwrdeisiaid oddigerth un Rhyddfrydwr, a dau Geidwadwr, etholwyd ef gyda mwyafrif o 73. Fel seneddwr, yr oedd efe bob amser yn ei le, ac yn pleidio pob mesur a amcanai at leshad y werin. Yn 1848, eiliodd gynygiad Mr. Berkeley ar y Tugel, a thraddododd araith hyawdl, gan roddi ffeithiau cedyrn oddiar ei wybodaeth ei hun fel masnachydd yn y Brifddinas. Yn 1851, gwasanaethodd fel Uchel Sirydd sir Gaernarfon. Mewn amgylchiadau cartrefol, yr oedd yn bleidiwr gwresog i sefydliadau haelionus. Efe a roddodd y swm o 400*p.* i sefydlu tai ymdrochi, a golchi, yn Macclesfield, a 100*p.* i sefydliad crefftwyr, yn nghyd a phortread o'r unrhyw werth. Yn 1851, torwyd allan ryw gant o bleidwyr etholiad Mr. Williams oddiar y rhestr, a'r canlyniad fu, iddo gael ei orchfygu gan Mr. E. C. Egerton yn yr etholiad cyffredinol nesaf, yn 1852, trwy fwyafrif o 62. Yr oedd er's blynyddau yn is-raglaw sir Ddinbych, ac yn ynad heddwch dros siroedd Dinbych, a Flint. Wedi iddo gael ei orchfygu yn Macclesfield, parhaodd i dreulio ei amser yn gwneuthur daioni, weithiau yn Llundain, lle fel trysorydd y *National Parliamentary and Financial Reform Association*, y bu o fawr wasanaeth. Bu farw trwy ddrylliad gwaed-lestr, Tachwedd 29, 1855, yn 53 mlwydd oed.

**WILLIAMS,** John (*Ioan ab Gwilym*), ydoedd fardd ieuanc gobeithiol, ond a dorwyd ymaith yn mlodeu ei ddyddiau. Mab ydoedd i William Owen, o Bant y llin, ger Llanrwst, lle y ganwyd ef, Ion. 11, 1804. Yr oedd yn feistr ar ddeddfau awenyddiaeth Gymreig cyn bod yn ddeunaw oed; ac wedi cyfansoddi ynddynt. Tua'r oedran hwnw aeth i Liverpool i'r ysgol, lle yr anmharodd ei iechyd yn fawr trwy or-efrydiaeth. Dywedai ei ysgolfeistr am dano:— "Ni welais erioed ei fath am ddysgu pobpeth yr ymosodai arno. Yr oedd yn gyfarwydd iawn yn y Lladin, a chanddo gydnabyddiaeth helaeth â'r Roeg." O herwydd gwaelder iechyd, gorfu arno ddychwelyd adref yn Nhachwedd 1822, a gwelwyd fod y darfodedigaeth, hen elyn athrylith gynarol, wedi gafael ynddo. Eithr erbyn haf 1823, cafodd y fath adferiad, fel y galluogwyd ef i gyfieithu Gweledigaethau Nef ac Uffern, o waith Bunyan, i'r Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd, ac a enillodd ganmoliaeth uchel ar gyfrif ei ystwythder, ei gywirdeb, a phurdeb ei gystrawen. Wedi hyny, o bryd i bryd, Cymreigiodd hanes Smith, cenadwr yn Demerara, a hanes y Chwil-lys yn Yspaen. Dyma anturiaethau olaf ei

Digitized by Google

ysgrifbin; yr oedd ei afiechyd yn enill gafael yn barhaus, nes o'r diwedd iddo derfynu yn angau, yr hyn a gymerodd le Mawrth 14, 1825.

**WILLIAMS**, Parch. John, un o weinidogion dysgedicaf y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru, a anwyd yn y Creuddyn, yn 1806. Gôf oedd ei dad wrth ei alwedigaeth. Tyfodd John yn fachgen llednais a thawel, ac yn hoff o'i lyfr o'i febyd. Yr oedd rhyw hynodrwydd ynddo o'r dechreu. Buwyd yn hir iawn cyn llwyddo i'w ddarbwyllo i droi ei wisgbeisiau mabanaidd heibio, a gwisgo llodrau fel bachgenyn arall. Gwisgodd ei frawd ieuangach nag ef ddau bâr o ddillad a ddarparesid i John, gan na fynai er dim ymadael a'i hen bais gwta, a chymeryd ei leffetheirio gan lodrau. Yr oedd golwg ryfedd arno, wedi tyfu yn fachgen eiddil, hirfain, yn cerdded ar goesau hirion fel Ysgotyn, a'r hen bais yn gylch am ei ganol, a phrin yn cyrhaeddyd at ben ei lin. Ond goddefai bob dirmyg yn dawel, os caffai lonydd i eistedd yn y gornel, i ddarllen hen gerddi, neu rywbeth a ddeuai i'w ddwylaw. Cafodd ychydig o ysgol gyffredin yn y Mochdref, ac amcanodd ei dad wneuthur gôf o hono, eithr nis gallesid gwneud nemawr o hono yn y ffordd hyny, gan mai bachgen tyner a gwanllyd ydoedd. Ond yr oedd ganddo bleser mawr mewn dad-ddyrysu ac adgyweirio hen gloion, a thybiai flyneddau ar ol hyny y gallasai ddyfod yn ôf gwyn, ond fod crefft y gôf du yn rhy arw a chaled iddo. Pa fodd bynag, gyda'i lyfrau y byddai John bob munyd a gaffai, a diangai yn fynych i'r caeau, a'r coedydd, er mwyn cael llonydd i ddarllen. Cafodd flas yn fore ar ieithyddiaeth, a chyn bod yn ugain mlwydd oed, yr oedd ganddo wybodaeth helaeth o'r Saesnaeg, y Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg. Wrth ystyried anfanteision boreu ei oes, a thybied fod llawer bachgenyn sychedig am wybodaeth yn yr un cyflwr ag yntau, ymroddodd i gyfansoddi Gramadeg Dwyieithawg. Dyma deitl y llyfr, Gramadeg Dwyieithawg, neu Ramadeg o'r Iaith Seisnig, yn Gymraeg a Saesneg, wedi ei gyfansoddi at wasanaeth, ac er buddioldeb Cymroaidd, gan John Williams, (Philologos.) Argraffwyd y llyfr hwn gan John Jones, Llanrwst, yn 1827. Bu cyhoeddiad y llyfr hwn yn foddion i'w ddwyn i sylw mawrion a gwyr eglwysig yr ardal; a cheisiwyd gwneud offeiriad o hono. Anfonwyd ef i Landdulas, at y person oedd yno, i'w barotoi at y coleg, a bu wedi hyny yn Tamworth am ryw hyd; ond dychwelodd adref; cafodd dwymyn y cryd cymalau, ymwrthododd yn llwyr a'r offeiriadaeth, a bwriodd ei goelbren i blith y Bedyddwyr. Anogwyd ef cyn hir i ddechreu pregethu, a bu yn cadw ysgol yn Eglwys Bach. Yn haf 1833, ymsefydlodd yn Llansilin, a bu yno dair blynedd. Yr oedd ganddo dri chapel, sef Llansilin, Moelfre, ac Efailyrhyd, i bregethu ynddynt. Bychan iawn iawn oedd ei gyflog. Cadwai ysgol ddyddiol yn Llansilin, a derbyniai ychydig oddiwrth y Gymdeithas Genadol Gartrefol. Yn 1834, ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth; rhoddodd yr ysgol i fynu, a chodwyd ei gyflog i tua chweugain yr wythnos! Llafuriodd felly am tua dwy flynedd. Yn niwedd 1836, ymsefydlodd yn Rhosllanerchrugog, am tua phedair blynedd. Cyfieithodd "Draithawd ar Faddeuant Pechodau," o waith Alexander Campbell, i'r iaith Gymraeg, a dechreuodd gyfieithu yr "Oraclau Bywiol," tua 1838. Costiodd y gwaith hwn iddo tua phedair blynedd o lafur. Yr oedd Testament bychan yn Saesneg, o gyfieithiad Drd. Campbell, M'Knight a Doddridge, a darfu i Alex. Campbell o'r America adgyhoeddi hwnw gyda diwygiadau o'i eiddo ei hun, dan yr enwad *The Living Oracles*. Ceisiwyd gan Mr. Williams drosi hwnw i'r Gymraeg, yr hyn a wnaeth dan yr enw, "Yr Oraclau Bywiol," er na ddilynodd efe mo hwnw yn fanwl, ond arferodd bob help o fewn ei gyrhaedd, i roddi i ni gyfieithiad cywir o'r Testament Newydd yn yr iaith Gymraeg. Dywedai mai dau beth oedd eisiau ei gael er cyfieithu ac esbonio yr Ysgrythyrau yn gywir; sef gafael yn y testun iawn, neu'r gwir ddarlleniad, a gosod meddwl hwnw allan yn gywir. Amcanodd at hyny hyd eithaf ei wybodaeth; oblegyd ei holl awydd ef oedd cael allan y gwirionedd, eled plaid a chredo lle yr elont. Rhywbryd yn 1841, symudodd Mr. Williams o'r Rhos i'r Drefnewydd, i weinidogaethu i'r Saeson, a bu yno ddeuddeng mlynedd. Collodd ei iechyd yn fuan ar ol myned i'r Drefnewydd; aeth ei galon i guro yn wyllt, ei ymenydd i ferwi, a'i ewynau yn aflonydd a di orphwys. Yr oedd amryw bethau yn cydweithio yn y Drefnewydd i ddadfeilio ei gyfansoddiad; cadwai ei hun yn ormodol yn ei fyfyrgell, i orphen cyfieithu "Yr Oraclau Bywiol," a pharotoi at yr areithfa; tybiai fod pobl y Drefnewydd yn llawer callach nag oeddynt, a darparai fwyd cryf ar eu cyfer; tybiai hefyd fod y capel mawr hwnw yn gofyn mwy o rym llais nag ydoedd; a rhwng y naill beth a'r llall, rhoes fwy o egni ar waith nag a allai ei natur ddal; ac nid oedd yno gymdeithion o chwaeth lenorol i leddfu dim ar ei flinder, ond yn hytrach gwrachiod yn beio arno, o herwydd ei ddyeithrwch iddynt. Pa fodd bynag, wedi hir ddihoeni, symudodd i'r Rhos yn ei ol, yn 1853, gan ofalu am Benycae hefyd. Tybiai yr adferid ei iechyd wrth ddychwelyd i'w hen gynefin yn ol; ond aethai yn rhy bell; dihoenodd ymaith, a bu farw yn 50 mlwydd oed, yn niwedd 1856, a chladdwyd ef yn mynwent Penycae, plwyf Ruabon. Fel dyn, yr oedd Mr. Williams o ymddangosiad boneddigaidd, yn hytrach yn dal, yn lluniaidd, a theg yr olwg; yn fyfyriwr dwfn a di orphwys; yn ymchwiliwr gonest am y gwirionedd; yn gyfarwydd iawn yn yr ieithoedd dysgedig, yn deall gwyddorau rhif a mesur i bellafoedd; yn ymhyfrydu erioed mewn rhesymeg ac athroniaeth feddyliol, ac yn mynu deall pobpeth i'w gwaelodion, os byddai hyny yn ddichonadwy. Fel pregethwr beirniadol a threiddgraff, safai yn uchel iawn, ac yr oedd rheitheg a chrebwyll awenyddol yn elfenau angerddol yn ei enaid. Gwylaidd ac anymhongar ydoedd, fel na byddai byth yn ymwthio i'r cyhoedd, ac ychydig a deithiodd i gyrddau cyhoeddus, a bu drwy hyny yn fwy cuddiedig nag y dylasai fod o wydd y lluaws. Ysgrifenodd lawer i'r misolion, fynychaf o dan ei enw priodol; galwai ei hun yn y dechreu Ieuan o Arfon, ac o dan yr enw hwnw yr ysgrifenai i'r Gwyliedydd yn 1827. Byddai casgliad o'i draithodau gwasgaredig yn y cyfnodolion, yn nghyda detholion o'i bregethau, mewn cyfrol ddestlus, yn drysor gwerthfawr i'r Cymry.

**WILLIAMS**, Parch. John, M.A. (*ab Ithel*), oedd fab i Roger Williams, ac a anwyd yn Ty-nant, plwyf Llangynhafal, Dyffryn Clwyd, yn 1811; ac oddiwrth sant ei blwyf genedigol, y cymerodd y ffugenw Cynhafal, yn mlyneddau cyntaf ei fywyd llenyddol. Hanai o Ithel ab Rotpert Goch, o Degeingl, archddeon Llanelwy yn 1375. Newidiwyd yr enw i Bythell, a Bethell, ac arosodd yn y teulu am oesoedd. William Bethell oedd taid gwrthddrych ein Cofiant,

Digitized by Google

a'i fab ef a newidiodd yr enw i Williams, yr hwn a briododd Elizabeth, merch William Williams o Langynhafal; ac o'r briodas hon y ganwyd Ab Ithel. Anfonwyd John pan yn ieuanc i ysgol ramadegol Rhuthyn, ac enillodd beth enwogrwydd fel myfyriwr llwyddianus yn yr ysgol hono. Aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1832; graddiwyd ef yn B.A., yn 1835; a gwnaed ef yn ddiacon gan Esgob Bangor, Gorph. 19, yn y flwyddyn hono. Cymerodd urdd offeiriad, Mai 1, 1836, gan Esgob Llanelwy. Ei guradiaeth gyntaf ydoedd Llanfor, ger y Bala; ac yno, pan yn 25ain oed, y dechreuodd ei yrfa fel awdwr, trwy gyhoeddi traithawd ar "Eglwys Loegr yn mhob oes yn annibynol ar Eglwys Rhufain," yn Nghymraeg, a Saesneg. Yno hefyd, Gorph 11, 1836, y priododd Elizabeth, merch Owen Lloyd Williams, Ysw., o Ddolgellau. Graddiwyd ef yn M.A. yn 1838. Yn 1842, enillodd wobr yn Eisteddfod Abertawy, ar y testun ymofyniadol, "A oedd y Derwyddon Prydeinig yn offrymu ebyrth dynol?" Symudodd o Lanfor yn 1843, i guradaeth barhaol Nerquis, yn sir Fflint. Yn y lle hwnw, yn 1844, cyhoeddodd, *The Ecclesiastical Antiquities of the Cymry*, yn gyfrol 8vo. Cynwysa y gwaith hwn lawer o ffrwyth ymchwil i hen bethau, &c. Efe, mewn cysylltiad a'r Parch. H. Longueville Jones, a gynlluniodd yr *Archæologia Cambrensis*, a than eu cydolygiaeth hwy y daeth y gyfrol gyntaf allan yn 1846. Ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiad hwnw, a daeth amryw o'i brif erthyglau allan yn llyfrau ar wahan. Yn 1849, dyrchafwyd Ab Ithel i berigloriaeth Llanymawddwy, yn Meirionydd; ac â'r lle hwn bellach y cysylltir ei enw. Yn 1852, cyhoeddodd y *Gododin*, gyda chyfieithiad Seisnig, a nodiadau beirniadol, yn gyfrol 8vo. Mae yn anhawdd dweyd pa mor bell y llwyddodd i ddeall yr arwrgerdd henafol a thywyll hono; ond y mae yn amlwg iddo ef lafurio yn egniol i geisio ei deall. Yn 1856, cyhoeddodd Ddosbarth Edeyrn Dafod Aur. Ymadawodd rywfodd â'r *Archaeologia Cambrensis*, a sefydlodd y *Cambrian Journal*, a bu yn golygu hwnw hyd ddydd ei farwolaeth. Efe hefyd oedd golygydd cyhoeddiadau Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, a gyhoeddid yn Llanymddyfri. Bu Ab Ithel hefyd yn allu mawr gyda'r Eisteddfodau Cenedlaethol. Efe oedd saer ac ysgogydd Eisteddfod Llangollen, yn 1858. Sefydlodd gyhoeddiad chwarterol o'r enw Taliesin, i gyhoeddi cynnyrchion yr Eisteddfodau, gyda henafion eraill. Bu hwnw yn ddefnyddiol yn ei swydd o dan ei ofal ef am ddwy flynedd, sef 1859—60. Hefyd bu yn golygu *Brut y Tywysogion*, a'r *Annales Cambriae*, dros y Llywodraeth, yn mlyneddau olaf ei oes; ac ystyried pob peth, mae yn anhawdd meddwl am ddyn mwy llafurus a diwyd, a hyny heb nemawr o dâl na diolch, nâ'r gwladgarol Ab Ithel. Ysgrifenodd draethawd ar *Origin of Trial by Jury*, i Eisteddfod y Fenni, yn 1854, traithawd ar "Farddas" i Eisteddfod Llangollen, a thraithawd ar "Dderwyddiaeth" i Eisteddfod Dinbych, yn 1860. Enillodd ar "Farddas," a chyhoeddi y gwaith hwnw, oedd gorchwyl olaf ei fywyd. Bwriadai i'r gwaith fod yn dri chyflyfr 8plyg, eithr ni ddygwyd mwy nag un gyfrol allan o'r wasg. Cynwysa bethau cywrain a rhyfedd, sef gweddillion doethineb draddodiadol yr hen Gymry. Dywedai M. N. Martin, yr hanesydd Ffrengig, am y gyfrol hon, mewn llythyr at Ab Ithel, dyddiedig Meh. 24, 1862, "Llywelyn Sion, oedd ceidwad cyntaf y trysorau anmhrisiadwy hyn o eiddo traddodiad, y rhai, oni buasai am ei ragofal ef, a ysasid yn nghyflosgiad arswydus Rhaglan; yr hen Iolo oedd yr ail achubwr; a chwithau yw y trydydd." Symudodd Ab Ithel yn haf, 1862, o Llanymawddwy, i Llanddwywe, a Llanenddwyn, yn Nyffryn Ardudwy; eithr ni chafodd ond prin feddianu ei le newydd, nad oedd angau yn ei gymeryd ymaith; canys ar fore Awst 27, 1862, yr oedd y gweithgar a'r gwladgarol Ab Ithel wedi canu yn iach i'r fuchedd drancedig hon, a'r ysbryd wedi ehedeg at Ffynon Bywyd. Yr oedd efe yn wr o ddysg, ac yn Gymro o'r radd uchaf, yn ddiwyd a gweithgar bron heb ei ail, yn llafurio mewn pethau nad oedd gobaith iddynt ddwyn nemawr o elw iddo, ac heb lawer o gefnogaeth, ond y brwdfrydedd cenedlgarol hwnw oedd yn llosgi yn ei fynwes. Nid oedd ei farn mor gref ac iachus bob amser, canys ystyrid ef fel yn rhoddi gormod o goel ar gyfrinion Derwyddol, a hen chwedlau eraill, os byddai arogl Gymroaidd arnynt. Ond anfynych y mae barn gref a brwdfrydedd angerddol yn cartrefu yn yr un fynwes. Cafodd Cymru golled fawr ar ei ol, a dylai y genedl barchu coffadwriaeth un o'i meibion anwylaf; yr hwn a dreuliodd ei fywyd ymaith yn gynamserol mewn gorlafur yn ei gwasanaeth. Claddwyd ef yn mynwent Llanddwywe, yn 51 mlwydd oed.

**WILLIAMS**, JOHN PRYDDERCH (*Rhydderch o Fon*), bardd a llenor da, ac ysgrifenydd cyffredinol yr Eisteddfod Genedlaethol, o 1864 hyd ei farwolaeth yn 1868. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanddeusant, Mon, Tach. 4, 1830. Wedi cael addysg gwlad lled dda, bu am rai blyneddau yn egwyddorwas o *draper* yn Llangefni. Aeth oddiyno i'r Rhyl, fel ysgrifenydd yn y llythyrdy. Yn fuan ar ol ymsefydlu yn y dref hon, dechreuodd ymhwedd â'r awen; ac yn Eisteddfod fawreddog Rhuddlan, yn 1850, rhanwyd y wobr am y gân oreu i'r "Llong Ymfudol," rhyngddo ef a T. B. Morris, (*Gwynedd-fardd*), yn awr o'r America. Ar ol hyn yr ydym yn ei gael yn ysgrifenydd yn swyddfa y *Traethodydd*, &c., yn Nhreffynon; ac yn ysgrifenu cryn lawer i'r Cyhoeddiad hwnw, cystal ag i'r *Adolygydd*, y *Beirniad*, a chyfnodolion eraill yr amser hwnw. O Dreffynon, symudodd Rhydderch i'r Rhyl, i gadw maelfa lyfrau; a buan y daeth yn wr poblogaidd a chymeradwy gan drigolion y dref hono. Dewiswyd ef yn ysgrifenydd trefol y lle, a llanwodd y swydd hono yn anrhydeddus hyd ei farwolaeth. Cawsai ei fagu gyda'r Annibynwyr, ond o herwydd rhesymau sydd yn wybyddus i lawer, ymneillduodd at y Methodistiaid, a chyda hwy, yn fawr ei barch, y bu drwy ystod ei oes, a bu yn flaenor gyda hwynt am ddwy flynedd olaf ei fywyd. Yr ydym yn crybwyll hyn er mwyn dangos gymaint oedd gweithgarwch y gwr ieuanc ymdrechgar hwn, pan adgofiom hefyd ei fod yn Gadeirydd Undeb Ysgolion Sabbathol y Dosparth; yn arolygwr yr ysgol yn Rhyl; yn ysgrifenydd y Gymdeithas Genhadol; yn ysgrifenydd yr eglwys Fethodistaidd; yn ysgrifenydd y Feibl Gymdeithas yn y Rhyl; yn ysgrifenydd y *Rhyl Lifeboat Association;* ac yn dwyn rhyw gysylltiad neu gilydd â phob symudiad arall o bwys, a gymerai le yn ei dref fabwysiedig. Yr oedd yn aelod gwerthfawr iawn o gymdeithas, ac yn llawn o yspryd cyhoeddus. Anfynych y ceid ei ragorach fel aelod o bwyllgor; pan y byddai eraill yn croes-ddadleu am y nesaf peth i ddim, meddiannai ef ei hun mewn amynedd, a dodai doethineb ei bys ar ei wefus. Eithr os byddai angen, yr oedd ganddo

Digitized by Google

ddigon o wroldeb a medr i ddweyd ei farn yn ddidderbyn wyneb, tra yr ymostyngai ar unwaith i farn y lluaws. Yr ydym yn ofni fod amlder a dwysder ei orchwylion wedi prysuro ei angau. Ar y goreu, eiddil ac egwan o gorph ydoedd; ac nis gellid dysgwyl i yspryd mor effro, gweithgar, a di orphwys â'r eiddo ef, fyw yn hir mewn pabell mor fregus. Syrthiodd i ddarfodedigaeth araf, ac wedi dihoeni misoedd rhwng ofn a gobaith, bu farw Medi 3, 1868, yn 38 oed, yn Nhrefriw, i ba le y symudasai er mwyn ei iechyd. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn Rhyl; a dywedir nad oedd dim llai na phumtheg cant o'i hen gyfeilion yn dilyn ei weddillion at y bedd. Yr oedd Rhydderch yn fardd, a llenor gwych, a diau pe cawsai chwareu teg gan ei alwedigaethau lluosog, y buasai yn sefyll yn llawer uwch nag y mae. Fel ysgrifenydd yr Eisteddfod, bu am yspaid yn golygu Cyhoeddiad y sefydliad; a diau fod y rhifynau hyny yn anrhydedd iddo. Yn fuan wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd llyfryn o ddetholion o'i waith, dan yr enw "*Cydymaith yr Adroddwr*," ond drwg genym nad yw yn arddangos nac eangder darlleniad, na grymusder chwaeth. Yr ydym yn deall ei fod wedi gadael ar ei ol dwysged o ganeuon teilwng, ac yn hyderu y ceir cyfrol ddestlus o honynt trwy y wasg.

**WILLIAMS**, Jonathan, ydoedd fab i David Williams, brethynwr, Siop Goch, Rhaiadr, sir Faesyfed. Efe a ysgrifenodd *History of Leominster*, a *History of Radnorshire*, yr hwn a gyhoeddwyd gan Mason o Tenby, yn 1858; ac yn yr *Archaeologia Cambrensis*. Brawd iddo ef ydoedd Henry Williams, yr hwn a ysgrifenodd hanes Rhaiadr a'r gymydogaeth, i Nicholson's *Topographical History*.

**WILLIAMS**, Mary (*Mair Gwilym*), ydoedd ferch i Robert Jones, masnachydd coed yn Llanelwy. Ymunodd yn ieuanc â'r Cyfundeb Wesleyaidd. Priododd Cadben Watkin Williams, morwr, a gwinfasnachydd, Abermaw. Gadawyd hi yn weddw gyda theulu mân, ac amgylchiadau tymhorol profedigaethus. Yr oedd o chwaeth gyhoeddus a llenyddol. Cyfieithodd lyfr gwerthfawr o eiddo y Parch. Jonathan Edmondson, gweinidog Wesleyaidd, i'r Gymraeg, tan yr enw "Tŷ Tad yr Iesu." Bu hefyd yn ysgrifenu i'r gwahanol newyddiaduron Cymreig, a Seisnig. Bu farw yn Birkenhead, Medi 20, 1864, yn 60 mlwydd oed.

**WILLIAMS**, Moses, offeiriad Defynog, sir Frycheiniog. Ganwyd ef Mawrth yr 2ail, 1684, mewn lle a elwir Glaslwyn, sir Aberteifi. Cafodd addysgiaeth yn ysgol ramadegol Caerfyrddin; oddiyno efe a symudodd i brif athrofa Rhydychain, ac aelododd ei hun, Mai 31, 1705. Graddiwyd ef yn B. A., yn term Mihangel, 1708, a chorfforwyd ef yn yr un gradd yn Nghaergrawnt, lle y derbyniodd y radd o A. C. yn 1708. Ar yr ail o Fawrth, ei ddydd genedigaeth, pan ddechreuodd ar ei bedair blwydd ar hugain, urddwyd ef yn ddiacon yn St. James, Westminster, gan Dr. Trimmel, esgob Norwich, ac yn offeiriad yn Fulham, gan Dr. Othley, esgob Tyddewi, ar yr 31ain o Fai, 1713, gan yr hwn y cyflewyd ef i fywioliaeth Llanwenog, sir Aberteifi, yn 1715, i'r hon y cafodd ei gyflwyno gan yr Arglwydd Ganghellydd Cooper. Cafodd wedi hyny, ei benodi yn 1716, i ficeriaeth Defynog, yn Mrycheiniog, ar anrhegiad Tywysog Cymru, ac efe a swyddfreiniwyd ar Mawrth 3ydd, 1717. Ymddengys yn ol y coflyfr, iddo yn 1718, briodi Miss Margaret Davies o'r plwyf hwnw, o'r hon ni chafodd blant: yn y cofnodiad, darluniai ei hun o Cellan, sir Aberteifi. Yn 1724, efe a gyfnewidiodd Defynog am beriglorìaeth Chilton Trinity, a ficeriaeth St. Mary, yn Bridgewater. Etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas freiniol, yn 1732. Fel ysgolor a henafiaethydd Cymreig, yr oedd ei alluoedd o'r radd uchaf, ac yn un o'r goreuon a gynnyrchodd Cymru erioed. Yn 1726, efe a gyoeddodd waith ag oedd fel cynnyrch llafur ac ymchwiliad mawr, sef Mynegai egwyddorol o farddoniaeth Gymreig, yr hwn sydd ar gael mewn ysgrifen, yn nghyd a'r llinellau cyntaf. Yn 1730, yr ymddangosodd cyfreithiau Hywel Dda, mewn cyfrol fawr unplyg. Dywedir ar y wyneb-ddalen, fod y gwaith mawreddog hwn wedi ei gyfieithu i'r Lladin gan Dr. Wotton, drwy gynnorthwy Moses Williams; ac nid all fod un amheuaeth oddiwrth brofion mewnol, mai y diweddaf oedd a'r llaw fwyaf yn y gwaith: oblegyd y mae y gwaith wedi ei wneud mor rhagorol, fel nad oes braidd un cyfeiliornad i'w ganfod ynddo. Y mae yn deilwng o gofnodiad yma, fod Mr. Moses Williams, fel awdwr, neu gyfieithwr, wedi cyhoeddi amryw lyfrau o fawr werth. Y mae ei goffadwriaeth yn deilwng o barch, o herwydd y gwasanaeth cyffredinol a wnaeth i grefydd yn ei ddydd. Bu yn offerynol i ddwyn allan argraffiad neu ddau o'r Beibl yn Gymraeg, mewn dull lled dlws. Yr oedd wedi gwneuthur rhai gwelliannau ynddynt, rhagor yr argraffiadau blaenorol. Diwygiodd gryn lawer ar y sillebiaeth. Rhoddodd oes y byd yn mhen uchaf pob tudalen. Ychwanegodd daflen o bwysau a mesurau y cynoesoedd, er eglurhau y rhai y cyfeirir atynt yn yr ysgrythyr. Cyfieithodd, a chyhoeddodd yr Apocrypha, y gweddiau, a channonau yr Eglwys Sefydledig. Cyhoeddodd y rhai hyn yn gysylltiadol â rhai o'i Feiblau, ond nid â'r cyfan; achosa hyn amheuaeth pa un ai dau argraffiad, ynte un, a ddygodd allan, oblegyd y maent yn gysylltiedig â rhai o'i Feiblau, tra mae ereill hebddynt. Y farn fwyaf gyffredin yw, mai un argraffiad a ddygodd allan, ond ddarfod i'r Ymneillduwyr brynu nifer mawr o honynt, heb yr Apocrypha, y gweddiau, a'r canonau, fel y gallent eu gwerthu i'w cyfeillion yn rhatach; ac iddo yntau eu cydrwymo a'r rhan arall o'r un argraffiad, er mwyn yr Eglwyswyr. Daeth y rhan flaenaf o'r argraffiad allan yn 1717; a'r llall yn lled fuan wedi hyny. Cynorthwywyd ef i ddwyn yr argraffiad allan gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Ymddengys ei fod yn dra dysgedig, a llafurus; ac yn ewyllysiwr da i'w gydgenedl. Y mae y Beiblau a gyhoeddodd yn drysor gwerthfawr yn ngolwg eu perchenogion hyd heddyw. Yr oedd yn awdwr i oddeutu pumtheg o lyfrau ereill, a'r cwbl yn wir werthfawr. Efe hefyd a adawodd i lyfrgell Bodleian brawf arosol o'i ddiwydrwydd, lle mae pedair cyfrol unplyg yn ei lawysgrif ef ei hun, yn cynwys cofres o'r llyfrau sydd yn aros yn yr ystorfa hono. Gadawodd yn ei ewyllys, gasgliad tra gwerthfawr o lyfrau ac ysgrifeniadau, yn perthyn i hanesiaeth, iaith, ac arferion ei wlad enedigol, i'w noddwr, Arglwydd Macclesfield. Yn ol y coflyfriad plwyfol, claddwyd ef yn St. Mary, Bridgewater, Mawrth yr ail, 1742, yn 58 mlwydd oed, wedi bod yn yr offeiriadaeth 34 o flynyddoedd.

**WILLIAMS**, Nathaniel, ydoedd fab i Thomas Williams, o Abertawe, yn swydd Forganwg. Dechreuodd gymeryd ei ddysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle, yn 1676, y graddiwyd ef yn B.A.;

Digitized by Google

ond ni chyrhaeddodd yn uwch, gan iddo adael y coleg trwy benderfyniad. Cyhoeddwyd y ddau waith canlynol o'i eiddo;—(1) "A Pindaric Elegy on the famous Physician, Dr. Wellis," 1675; (2) "Imago Saeculi; or the Image of the Age, represented in four Characters, viz. the ambitious Statesman, insatiable Miser, atheistical Gallant, and factious Schismatick," 1676. Bu farw yn Morganwg, oddeutu y flwyddyn 1679.

**WILLIAMS,** Owen, cerddor llafurus, a gyfenwid "Owen Williams, Tŷ hir," neu, "Owen Williams, o Fôn," oedd yn enedigol o'r Quirt, yn mhlwyf Llandyfrydog. Enw ei dâd oedd William Jones, a'i fam oedd Ellen Williams, ferch Owen Williams, Plas Llangefni, a Chwaer John Williams, Treban; Owen Williams, Berw Uchaf; a William Williams, Plas Llangefni.

Tueddwyd Owen Williams i efrydu cerddoriaeth pan ydoedd yn dra ieuanc; ac ni allai gael esmwythyd i'w feddwl heb ddefnyddio y dalent a dderbyniasai er lles ei gyd-wladwyr; ond darfu i'w aiddgarwch dros gerddoriaeth, beri iddo esgeuluso ei alwedigaeth fydol, fel y drygwyd ef yn fawr yn ei amgylchiadau, ac y gorfu iddo fyned i Lundain, a chartrefu yno dros flyneddoedd olaf ei einioes; lle y cafodd ryw swydd yn Ariandy Lloegr, trwy ddylanwad rhai o'i ewyllyswyr dâ. Y mae llawer o hen drigolion Môn yn cofio fod cryn sylw yn cael ei dalu tua thri ugain mlynedd yn ôl, i'r hyn a elwid "*Gamut* Owen Williams:" yn awr dyma ydoedd, "Byr draethawd o waith yr enwog Charles Dibdin, wedi ei gymreigio yn ofalus gan O. W.," ydoedd y rhan gyntaf o honi; a'r ail ran, "Rheolau Cerddoriaeth Eglwysig." Heblaw hyny, efe a gasglodd, ac a gyhoeddodd ddau lyfr cerddoriaeth o gryn bwys. Y cyntaf, dan y teitl, "Cenaniah," y tonau wedi eu trefnu ar gyfer dau lais. Gwnaeth hwn ei ymddangosiad tu a'r flwyddyn 1816. Yr ail lyfr, oedd "Breninol Ganiadau Seion;" yn bedair rhan, 8*s.* yr un; neu 31*s.* 6*c.* gyd a'u gilydd, wedi eu rhwymo. Ar y tu dalen cyntaf o hono, cair yr hyn a ganlyn yn argraffedig;—"Tan dadogaeth ddigyfrwng ei Fawrhydi y Brenin Sior y Pedwerydd—'Breninol Ganiadau Sion,' neu Gynghanedd Ddedwydd Gymraeg; yn cynnwys hen beroriaethau Brutanaidd, a rhai diweddar heb eu hargraffu o'r blaen. Dau gant ac un ar ddeg a thriugain o donau psalmau, a hymnau; a phedwar o fawl-ganiadau atteb-leisiol, i ddau, tri, pedwar, chwech, ac wyth o leisiau. Y geiriau ydynt gynghaneddiad mesurol a chyfansoddiad y ddau brif brydydd cyssegredig Cymreig, gweinidogion Eglwys Loegr. Detholwyd, a chyfansoddwyd at wasanaeth eglwysi, ac Ysgolion Sabbothol ac wythnosol y Cymry. A chyflwynwyd trwy ganiattad i'r Ardderchocaf Ardalydd Mon.—Yn ddau lyfr, gan Owen Williams, o Fon. Trefnwyd i'r *Organ* neu *pianoforte*, gan S. Wesley, a V. Novello.—Llundain; argraffwyd dros yr awdwr; ac ar werth gan W. Mitchell, gwerthwr cerddoriaeth, 159 New Bond Street."

Y mae trefniad yr acen yn hynod ddrwg ar lawer o'r tonau; ac weithiau y mae terfyniad brawddegol wedi ei gam-gymeryd. Nid yw enw yr awdwr wrth gymaint ag un o honynt; eto cenfydd y cyfarwydd mewn cerddoriaeth, fod Ioan Rhagfyr, William Wilson, John Jeffreys, Robert Gruffydd, a John Ellis, wedi cyfansoddi rhai o honynt; a hefyd, fod rhai o eiddo Handel, Wheall, Luther, Dr. Green, Dr. Worgan, J. Hatton, Purcelle, Knapp, a Tallis, &c., yn eu plith. Yn niwedd y llyfr cyntaf fe geir dwy alaw,—un er côf am Dafydd Broffwyd, a'r llall er clod i Ioan Fedyddiwr, o'r hon y cymerodd *Guido*, yn y flwyddyn 960, reol ei Psalmyddiaeth. Y mae un o'r anthemau yn dra thebyg i gyfansoddiad Cymreig, sef Psalm 84,—"Mor hawddgar yw, &c." Yr un yw ei hawdwr ag awdwr "Bydd arwyddion. &c.," sef John Jeffreys. Y mae y tair eraill yn debyg i rai wedi eu Cymreigio.

Gellir casglu i'r "Breninol Ganiadau Seion" gael ei gyhoeddi tu a'r flwyddyn 1819: canys fe grybwyllir ynddo, am draethawd ar Gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1818; ac yn y Traethawd hwnw, dangosir fod y cerddorion hyn yn adnabyddus i Owen Williams, sef Richard Ellis, organydd Beaumaris, o 1784, i 1824; R. Roberts, Caergybi; O. Williams, Pentraeth; R. Gruffydd, Caer yn arfon; W. Pugh, a J. Williams, Meirion; ac fe ddywedir yn mhellach, mai un o'r gwŷr uchod a ddylasai ddwyn y Gwaith allan; a'i fod ef wedi methu a tharo wrth gymaint ag un Cymro yn y brif-ddinas ag oedd yn deall cerddoriaeth, â'r hwn y gallasai ymgynghori ar bynciau cerddorol.

Y mae yn gofus gan yr Ysgrifenydd, iddo yn agos i dri ugain mlynedd yn ol, weled Mr. O. Williams, yn ymweled âg Ysgol Sabbothol y Trefnyddion Calfinaidd yn Llangefni, er rhoddi annogaeth i'r Cyfeillion yno i gefnogi cerddoriaeth grefyddol; a datganai amryw donau, er enghraifft iddynt. Dyn mawr, o gyfansoddiad cadarn annghyffredin ydoedd; ac yr oedd yn ddiarebol trwy y wlad am ei nerth corphorol digyffelyb. Dywedir fod ystorm fawr ar un achlysur, yn bygwth cymeryd to gwellt un o adeiladau y Tŷ hir ymaith; tra yr oedd y llanciau yn rhoddi coed ar draws y tô i'w gadw i lawr, archai O. W. i ddau o honynt fyned i ben yr adeilad, a chipiodd yntau olwyn trol, o faintioli cyffredin, ac a'i taflodd i fynu iddynt, i'w dodi i orwedd ar y coed, mor rwydd a phe na buasai ond coetan. Yr oedd yr un hynodrwydd yn perthyn i amryw o'i henafiaid, fel y gellid meddwl eu bod o hiliogaeth cawri yr hen oesoedd. —Yr oedd un a'i henafiaid, o'r enw William Probert ab Meurig, yn byw yn y "Bws," yn nghymmydogaeth y Felin heli, swydd Gaer yn arfon, tua dau can mlynedd yn ol; yr hwn oedd yn hynod am ei fawr nerth, o'r hyn y gellir nodi un enghraifft ddigrifol. Yr oedd tafarn-dy yn gyfagos, mewn lle a elwid "Gardd-fon," a byddai William Probert ab Meurig yn arfer mynychu y tŷ hwnw. Un tro, mewn digrifwch, gwnaeth gyttundeb â gwraig y tŷ, y byddai iddo gael cymaint o gwrw ag a allai ei gario yn ei ddwrn; yna efe a aeth i'r seler, ac a dynodd y corcyn o un o'r haner barilau; ac wedi gwthio ei law o'r tu fewn i'r llestr, efe a gariai yr haner baril a'i holl gynnwys gydag ef adref, er syndod aruthrol i'r holl gymdeithion. Aeth mab i'r gwr uchod i gyfanneddu i'r Sarn Fraint, yn Môn. Yr oedd yr un hynodrwydd yn perthyn iddo yntau, fel y prawf y chwedl a ganlyn;—Un tro, yr oedd rhyw nifer o ddynion wedi myned i gweryla ag ef yn yr ysgraff, wrth groesi y Fenai i Fôn: wedi glanio yn y Borthaethwy, efe a drodd arnynt, gan roddi un dyrnod i bob un, nes oeddynt yn ddiffrwyth ar y llawr. Yna, dywedai wrth ryw rai a edrychent,—"Dywedwch wrthynt pan godant, os nad yw hyn yna yn ddigon ganddynt, am iddynt ddyfod ar fy ol I, ac y cant eu gwala, a'u gweddill o'r un peth." Mab i'r gŵr yna o'r Sarn Fraint, oedd Owen Williams,

Digitized by Google

yr hwn a briododd un Margaret Hughes, merch y teulu oeddynt yn byw yn Mhlas Llangefni; a'i ferch yntau oedd Ellen, mam Owen Williams, Tŷ hir.

**WILLIAMS**, Parch. Peter, awdwr y Sylwadau poblogaidd yn y Beibl teuluaidd, a anwyd Ionawr 7, 1722, yn agos i Lacharn, swydd Gaerfyrddin. Yr oedd ei fam yn eglwys-wraig etifro, ac yr arfer gwrando ar weinidogaeth danllyd yr hybarch Gruffydd Jones, Llanddowror. O'i thri phlentyn, Peter oedd ei hanwylaf; a chredai ei fod wedi ei eni i ryw ddyben mawr; ac yr oedd ef yn amlygu llawer iawn o gallineb a ffraethder pan yn dra ieuanc, a gyfiawnhaent obeithion uchaf mam. Ond collodd y fam dyner a chrefyddol hon, pan nad oedd namyn 11eg mlwydd oed; a'r flwyddyn ganlynol, bu farw ei dad hefyd. Y mae y Parch. Peter Williams ei hun yn rhoddi yr adroddiad canlynol am ei rïeni, a'u henafiaid.—"Yr oedd fy Nhad a'm Mam yn hanu o henafiaid cyfrifol: cyn eu prïodi, yr oeddynt yn preswylio yn nhref Lacharn; ond yn fuan wedi eu prïodi, hwy a gymerasant dyddyn lled fawr yn mhlwyf Llansadwrnen, neu Forfa Lacharn, ac yno y tynais fy anadliad cyntaf.—Gallaf sylwi yma, fod fy nhad a'm mam wedi prïodi trwy gydsynied a chymeradwyaeth eu rhïeni, a bod eu hymddygiad yn hyn yn dra chanmoladwy." Mewn Nodyn, y mae ei ŵyr, y Parch. St. George Armstrong Williams, M.A., yn ein hysbysu, fod ei daid yn disgyn yn ochr ei fam, o Baylys, Mydrim, y rhai oeddynt yn ddisgynyddion o'r Dr. Bayly, Esgob Bangor yn 1616. Ychwanega Mr. P. Williams yr hanes, gan ddywedyd,—"Meddai fy Mam archwaeth at grefydd, ac weithiau, elai i wrando y Gweinidog llafurus a defnyddiol hwnw i Grist, Mr. Gruffydd Jones, o Landdowror. Pan oeddwn tua phump, neu chwe mlwydd oed, hi a'm cymerai wrth ei hysgil, ar geffyl, i wrando y gweinidog efengylaidd hwnw; ac er fod ganddi ddau blentyn heblaw myfi, mab, a merch, a bod pob un o honom wedi cael addysg foreuol, fel y dysgasom ddarllen ac ysgrifenu; eto myfi ydoedd hoff blentyn fy mam, o herwydd fy mod, fel y dywedai, yn cymeryd mwy o bleser i gofio, ac adrodd, rhanau neillduol o'r Ysgrythyrau; megys hanes y plant a watwarent y prophwyd, ac a laddwyd gan yr arth; neu, y dyn a labyddiwyd i farwolaeth, am dori y Sabbath; neu Joseph, a werthwyd gan ei frodyr, ond o'r diwedd, a ddyrchafwyd i anrhydedd yn yr Aipht. Hi a gymerai lawer o ofal am fy nygiad i fynu, megys Rebeccah o Jacob gynt. Clywais ryw fechgyn drwg yn tyngu, ac ymddengys i mi geisio efelychu eu hiaith halogedig hyd y gallwn: clybuwyd fi gan fy mam, yr hon a'm galwodd i gyfrif, ac a roddes i mi y gurfa orau a gefais yn fy mywyd. Y canlyniad fu, na chynnygiais dyngu, byth mwyach." . . .

"Bu farw fy mam, o lycheden mae yn debyg, a'r flwyddyn ganlynol, bu farw fy nhad hefyd, gan adael tri o honom yn amddifaid; pan oeddwn I tua deuddeng mlwydd oed, fy mrawd yn ddeg, a'm chwaer yn bedair ar ddeg: fy ewythr, o du fy mam a'm cymerodd I; a'm hewythr, o du fy nhad a gymerodd fy mrawd." . . . Yn y canlyniad i hyn, cynnorthwyai Mr. Williams ei ewythr mewn llafur ammaethyddol ar y tyddyn ar adegau, yn enwedig bryd hau, a chynhauaf; ac ar adegau eraill, elai i'r ysgol, yr hyn oedd ei hyfrydwch penaf; a byddai yn achub rhai mynydau i ddarllen bob tro yr eisteddai wrth y bwrdd i fwyta; a phan yn yr ysgol, byddai yn fwy hoff o ddarllen nag o chwareu; a thrwy ei lafur diwyd, daeth yn lled hyddysg ar yr ieithoedd Lladin, a Groeg.

Erbyn cyrhaedd o hono i fod yn un ar bymtheg, neu ddwy ar bymtheg oed, byddai ei ewythr yn ei gymhell yn aml i ddewis rhyw alwedigaeth: ond ni's gallai gael ei feddwl i benderfynu ar yr un alwedigaeth fydol, gan fod ei fryd ar y weinidogaeth: eto ofnai y byddai y draul yn rhŷ fawr, i gyrhaedd o hono y radd hono o wybodaeth a'i cymhwysai i'r cyfryw swydd oruchel. Cydnebydd nad oedd ef yn adnabod yr Arglwydd y pryd hwnw, mwy na Samuel ieuanc gynt, er hyny bod yr Arglwydd yn rasol yn nyddiau a blyneddoedd ffolineb ei ieuenctyd, i'w gadw rhag cyflawni pechodau rhyfygus, na bod yn euog o unrhyw ymddygiadau gwarthus yn ngolwg dynion.

Wedi cyrhaeddyd o hono ei ddeunawfed mlwydd oed, efe a ddanfonwyd, yn ol ei ddymuniad ei hun, i ysgol rad Caerfyrddin, lle y llafuriodd yn ddiwyd iawn dros yspaid tair blynedd, gan enill sylw, a chymeradwyaeth neillduol ei athraw, y Parch. Thomas Eynon, at yr hwn wedi ymadael â'r ysgol, yr ysgrifenodd efe lythyr o ddïolchgarwch yn Lladin: ac y mae yn debyg i'r llythyr hwnw rwyddhau ei ffordd i gael ei urddo i wasanaeth yr Eglwys Sefydledig.

Ychydig fisoedd cyn amser ymadawiad Mr. Williams o ysgol Caerfyrddin, ymwelodd y Parch. George Whitefield a'r dref hono, a rhoddid hysbysiad allan y byddai yn pregethu yn Heol Lammas, am un ar ddeg y cyfryw ddiwrnod. Barnai yr athraw, Mr. Eynon, y dylasai efe rybuddio ei ysgolorion, yn enwedig y gwŷr ieuainc a berthynent i'r dosbarth cyntaf, i beidio myned i'w wrando, rhag y buasent yn cael eu llychwino â haint Methodistiaeth; a phan ddaeth yr amser pennodol i'r oedfa ddechreu, efe a ollyngai yr ysgolorion allan, oddieithr y dosbarth cyntaf, y rhai a wŷsid i aros yn ol, i wrando y cyngor; canys efe a arferai roddi cyngor byr i'r rhai a fyddent yn ymgeiswyr am urddau eglwysig, er eu parottoi i'w hordeinio. Elai yr athraw rhagddo i nodi pa awdwyr a ddylent ddarllen, a pha fodd y dylent ddilyn eu hefrydiau Duwinyddol, &c. Ond y siars benaf oedd, bod iddynt ochel y dyeithr-ddyn oedd i bregethu yno y diwrnod hwnw; "canys," eb efe, "fe ddywedir i mi ei fod ef yn pregethu pechod gwreiddiol; bod yn rhaid i ddyn gael ei ail eni; a bod yn rhaid ein cyfiawnhau ger bron Duw trwy ffydd, heb weithredoedd." Pa fodd bynag, cyttunodd tri neu bedwar o wyr ieuainc, ac yn eu mysg Mr. P. Williams, i fyned yn ddirgel i wrando y pregethwr. Hwy a ymwthiasant i ganol y dyrfa, gan benderfynu gwrando a barnu drostynt eu hunain. Testyn pregeth Mr. Whitefield y pryd hwnw, oedd y geiriau hynod hyny yn Esaiah;—"Dy brïod yw yr hwn a'th wnaeth." Efe a sylwai ar y berthynas sydd rhwng Duw a'i bobl yn Nghrist. Dangosai sail, a natur y briodas, a dedwyddwch y brïodasferch;—Duw wedi ymddangos yn y cnawd, wedi dyfod yn ddyn; dyna y sail; ac am natur, neu ddull y brïodas, cariad yw y rhwymyn sydd yn cyssylltu yr enaid â Duw dros byth. Efe a wahoddai bawb i gyfranogi o'r dedwyddwch hwnw, sef eu dyweddïo â Christ, rhagoriaethau gogoneddus yr hwn a ddysgrifiai efe mewn modd tra effeithiol. "A fynai neb gael prïod doeth? wele, doethineb ei hunan yw Crist: neu brïod cyfoethog, ac y mae ar bawb o honom eisiau y cyfryw er talu ein dyled; y mae y cwbl a fedd y Tad tragywyddol yn eiddo iddo ef. Fel y

Digitized by Google

dywedai gwas Abraham wrth ganmol ei feistr Isaac, "Efe a roddodd iddo yr hyn oll oedd ganddo." Gostyngedig a thirion, nid oes neb yn debyg iddo: yn rhagori mewn tegwch a hawddgarwch ar feibion dynion. A oes neb mewn dyled? y mae ef yn barod i dalu y ffyrling eithaf, heb wg. Och! gyd-bechaduriaid tlodion, yr ydym ni oll yn ddyledwyr i ddeddf Duw, 'canys pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw.' Yr ydym mewn perygl bob mynyd i gael ein cymeryd i ddalfa gan Gyfiawnder Dwyfol, ein tori i lawr gan fwyall anwrthwynebol brenin dychryniadau, a'n bwrw i uffern. Nid rhyfedd i Ffelix grynu wrth wrando am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd. 'A ai di gyd a'r gwr hwn?' A dderbyni di iachawdwriaeth rad, gan fwrw ymaith dy eilunod, a dychwelyd at dy ŵr cyntaf, ymbrïodi â Christ, credu ynddo ef, a byw byth o gyrhaedd taranau Sinai, yn ddïogel oddiwrth ofn angau a'r farn? Derbyniwch y gogoniant, deled i'ch calonau, derbyniwch y fodrwy aur, yr arwydd o gariad tragywyddol. Rhoddwch eich hunain i fynu i Waredwr cadarn, yr hwn sydd yn barod i dderbyn pwy bynag a ddêl atto ef. O! rhoddwch eich cydsyniad calonog â'r cyttundeb; galwch yr Ysbryd yn dŷst, ysgrifenwch â'ch llaw, Eiddo yr Arglwydd ydwyf fi; ac ymgyfenwch ar enw Jacob. Yna, ac nid cyn hyny, y gellwch chwi fyw a marw mewn gobaith am fywyd tragywyddol, gyda Christ yn y nefoedd. Eto y mae rhai dynion yn coledd y fath uchel dŷb am eu rhinwedd a'u daioni eu hunain, fel y maent yn barod yn wyneb pob achwyniad, i ddadleu 'Dieuog,' mewn diystyrwch cyhoeddus ar ddeddf ac efengyl. Pe y cyfryw a fyddai dadl pob dyn, yna bu Crist farw yn ofer, yr hyn sydd yn ynfydrwydd mwyaf afresymol a ellir ei ddychymygu; gan y byddai hyny yn achwyniad ar ddoethineb a chyfiawnder Dwyfol. Y gwir yw, Crist yw ein bywyd ni. Nid oes fywyd ond ynddo ef, a thrwyddo ef. Gan hyny, ofer a rhyfygus yw i un dyn ddywedyd, 'Nid wyf yn gwneyd drwg,' canys efe a ddywedai yn hytrach, ped adwaenai ei galon ei hun yn dda, 'Nid wyf yn gwneuthur dim dâ.' Canys fel y dywaid Paul, 'Nid oes ynof fi, hyny yw, yn fy nghnawd I, ddim da yn trigo;' canys pe y gelwid y goreu o honom oll i farn, ac i ni gael ymddwyn tu ag attom yn ol ein haeddiant, moesol, neu grefyddol, nyni a allem bawb o honom gael ein dyfarnu i uffern am byth."

Fel yna yr elai y pregethwr rhagddo, a chlwyfid Mr. Williams ieuanc; ond ni fwriwyd mo hono i lawr at droed y groes. Teimlai flaen ei gleddyf dau finiog; ond ni's cwympwyd ef y tro hwn.—O'r diwedd, y pregethwr a floeddiai yn gyffrous,—"Fy anwyl gyfeillion, myfi a fum dros rai blyneddoedd mor ddiwyd a neb o honoch; yr oeddwn yn gweddio saith waith yn y dydd, yn ymprydio ddwy waith yn yr wythnos, yn myned i'r eglwys bob dydd, ac yn derbyn y sacrament bob Sabbath; ac eto yr holl amser heb fod yn Gristion." Yr ymadroddion yna, yn cael eu traddodi gyda dwyster angerddol, a darawsant ein cyfaill ieuanc mor rymus, nes bod ei holl natur yn crynu, a theimlai ddymuniad cryf, am i'r pregethwr hyawdl ymostwng i ddywedyd wrtho, pa beth mewn gwirionedd oedd bod yn Gristion, gan na lesai ei holl ymdrechiadau a'i lafur di ball ddim iddo; a chyda bod y meddwl hwnw wedi ei ffurfio yn ei galon, dechreuai Whitefield egluro yr athrawiaeth ryfedd:—"Yn awr," eb efe, "efallai bod rhai o honoch yn barod i ofyn i mi, pa beth gan hyny yw bod yn Gristion?"—Mewn gair, derbyn Ysbryd Crist ydyw, canys od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef. Rhaid i chwi deimlo eich trueni wrth natur; rhaid i chwi adnabod a theimlo eich angen am Waredwr. Rhaid i chwi gredu mai Mab Duw yw y dyn Crist Iesu; fod Iesu Grist wedi dyfod i'r byd i gadw pechaduriaid, a'i fod ef yn alluog i wneyd y gwaith y daeth i'r byd i'w wneyd. Gwaredu oddiwrth bechod, oddiwrth arglwyddiaeth pechod, oddiwrth euogrwydd pechod, ac oddiwrth halogrwydd pechod. Bod yn Gristion yw adnabod ei lais ef, cyfodi y groes a'i ganlyn ef; bod yn un ag ef, asgwrn o'i asgwrn, cnawd o'i gnawd, aros ynddo ef, ac yntau ynom ni, bod yn deml iddo ef, cymdeithasu ag ef, gwybod ei ewyllys, a byw i'w ogoniant." Wedi myned ychydig yn mlaen yn y cyfeiriad yna, dywedai y pregethwr yn mhellach:—"Eneidiau gwerthfawr, efallai eich bod yn meddwl fy mod yn dwyn rhyw bethau dyeithr i'ch clyw; addefaf nad oes lawer o amser er pan oedd y fath athrawiaeth yn ymddangos yn ddyeithr i mi fy hun. Gwelais lyfr, a elwid 'Bywyd Duw yn Enaid Dyn,' ni's gallwn ddeall pa beth a olygai yr awdwr; ond wedi ystyriaeth pellach, ac wedi chwilio i fewn i'r testyn, fe'm hargyhoeddwyd mai yr awdwr oedd yn gywir, a minnau yn gyfeiliornus; ei fod ef wedi ei ddysgu yn berffeithiach na mi yn athrawiaeth Crist Iesu. Ond, fe all Ysbryd y gwirionedd ein dysgu ni oll i ddilyn yr Arglwydd."—Dyna ranau o'r bregeth a fendithiwyd gan Dduw i fod yn foddion effeithiol i ddwyn Peter Williams i lwyr roddi ei galon i geisio yr Arglwydd; ac y mae y darluniad a ddyru ef ei hun o'i deimladau dan ei argyhoeddiad, yn ddyddorol dros ben;—"Gwrandawai fy nghymdeithion gyd ag astudrwydd mawr, a chanmolent y pregethwr; ond ni wyddent hwy ddim am y gwaith mawr oedd yn myned yn mlaen yn fy enaid I; y creadur newydd a ffurfid ynof o fewn yr awr bwysig hono. Ymddengys fod amser rhag-osodedig i bob peth! Teimlaswn argyhoeddiadau mynych o'r blaen; a gwnaethwn addunedau lawer gwaith i fwrw fy eilunod ymaith, i ymwrthod â phleserau cnawdol, ac i arweddu buchedd newydd; ond yr oeddwn yn esgeuluso talu fy addunedau i'r Arglwydd; ac yn anghofio fy angel gwarcheidiol. Eto, ymwelwyd â mi, godiad haul o'r uchelder; cyflawnwyd dyddiau fy nhroedigaeth; dygwyd fy holl bechodau, mewn meddwl, gair, a gweithred, i'm côf, fel pe buasai llifddor wedi ei hagor, a'r llifeiriant brochus a ymdywalltai arnaf yn ddi arbed, fel yr oedd fy enaid wedi ei orlethu gan warthrudd, ac ofn. Ymddangosai pob peth o'm deutu yn chwithig a dyeithr; nid oedd yr adeilad harddaf yn amgen na thommen ffiaidd i mi; ac ni allwn ymbleseru mwyach mewn awduron cenedlig; yr oeddwn yn myned i'r ysgol; ond ni's gallwn grynhoi fy meddyliau i efrydu. Ymdrechwn i gelu fy anhwyldeb hyd y gallwn; ond deallai fy athraw fod y bregeth a wrandawswn ar draws ei waharddiad ef, wedi effeithio arnaf; eto ni ddywedai ddim wrthyf. Ond, yr oedd y meddwl y byddwn at fy rhyddid yn fuan i ymofyn am gymdeithion newyddion, a wyddent rywbeth am Dduw, yn lliniaru rhyw gymaint ar fy nhrallod. Fy nghymdeithion blaenorol a gefnasant arnaf, fy nghyfeillion mynwesol ni'm hadwaenent; troent draw yn yr heol i'm gochel: yr oedd fy nghydnabod wedi eu siomi ynof; dysgwylient fy nghael yn ysgolor gwŷch, a gweinidog cyfeillgar: yr oedd yn ddrwg ganddynt glywed,

meddynt hwy, fy mod wedi troi yn ynfyd; hyny yw, fy mod wedi cofleidio Methodistiaeth. . . . Pa fodd bynag, yr ydwyf yn barnu nad oedd ganddynt ddim mwy o achos i fod yn ddig wrthyf, nag oedd gan yr Iuddewon i erlid Paul am ufuddhau i'r llais o'r nef. Er hyny, rhoddwyd câr a chyfaill yn mhell oddi wrthyf; fel nad oedd genyf neb yn y byd, a adwaenwn, a gydymdeimlai â mi yn fy nhrallod, oddieithr merch ieuanc a berthynai i'r teulu lle y llettywn, yr hon, yr ydwyf yn gobeithio, a gawsai dröedigaeth effeithiol dan yr un bregeth. Yr ydwyf yn edmygu doethineb Duw yn holl oruchwyliaethau grasol ei ragluniaeth. Yr oeddwn wedi cydsynio i ymuno âg un neu ddau o wŷr ieuainc digrifol, i dalu i gerddor am y tymhor, fel y dywedir, sef Gwyliau y Pasc, y Sulgwyn, a'r dysbeidiad o'r ysgol, pan y bwriadem ymddifyru mewn canu, a dawnsio, &c. Ond, yn y cyfwng, ychydig cyn y Pasc, fe'm dychwelwyd at Grist; felly rhoed pen hollol ar y cynllun yna i fodd-hau y cnawd."

Gadawodd yr ysgol pan yn un mlwydd ar hugain oed, a dechreuodd fod yn ysgol-feistr ei hun, am un flwyddyn o leiaf, yn Nghynwyl Elfed; lle yr oedd yn dra ymdrechgar i lesau y rhai oeddynt dan ei ofal, mewn ystyr grefyddol. Pan ddaeth yr amser i ben, efe a geisiodd ei ordeinio, a chan ei fod wedi cael teitl didwyll yn Eglwys Gymun, efe a urddwyd i fod yn is-beriglor y plwyf hwnw; a chan fod ei noddwr, y ficer, yn meddu bywioliaeth werthfawr yn Lloegr, ni byddai yn ymweled a'i blwyf hwn namyn unwaith yn y flwyddyn, pan y delai i dderbyn y degwm, gan hyny, yr oedd holl ofal y plwyf yn disgyn ar Mr. Williams; a chan nad oedd ei gyflog ond bychan, efe a gadwai ysgol yno, er cynnorthwyo i'w gynnal ei hun, a thrwy fyw yn dra chynil, fe'i galluogwyd ar ben y flwyddyn i gael pâr o ddillad newydd, a cheffyl: a bu hyny yn dda iddo drachefn. Dros beth amser, bu yn cael ei barchu yn fawr yn y plwyf; ond, gan ei fod yn annog ei blwyfolion i gynnal cyfarfodydd gweddi yn wythnosol, mewn tri neu bedwar o dai ar gylch, a'i fod yn arfer cyfarfod â'r ychydig a ymgynnullent felly, yn y naill fan, neu y llall, bron bob nos, gan eu cynghori, a gweddïo gyda hwy; dechreuodd rhai sibrwd ei fod ef "yn rhŷ gyfiawn:" a bod ei ymddygiadau yn sawru yn lled gryf o Fethodistiaeth; ac un Sabbath, fel yr oedd efe yn traddodi ei bregeth yn yr Eglwys, efe a ddygwyddodd godi ei olygon oddi ar ei bregeth, (canys efe a arferai ysgrifenu ei bregethau yn gyflawn y pryd hyny), ac a ganfyddai wr ieuanc, a merch ieuanc yn cellwair, gan ymgiprys am ryw syppyn o flodau: am hyny, efe a ymattaliodd am yspaid, gan ddysgwyl y buasai hyny yn eu cywilyddio i weddusrwydd; ond, gan nad ymattalient, a bod eraill yn dechreu crechwenu gyda hwy, efe a roddes ei bregeth o'r naill du, gan ddodi ei ddwylaw arni, a chyfarchodd y troseddwyr afreolaidd yn dra difrifol, gan eu rhybuddio na chymerai Duw y fath ymddygiad mewn tŷ addoliad, yn garedig ar eu llaw. Ac wedi eu cyfarch gyda mesur o frwd-frydedd am beth amser, dechreuodd feddwl am ei bregeth; ond, yr oedd y cyffro i'r hwn y taflasid ei feddwl, wedi ei ddyrysu i'r fath raddau, fel na's gallai yn y fan gael allan pa le yr ymattaliasai ar ei bregeth, a gwelai fod yn rhaid iddo lefaru yn ddi fyfyr, neu derfynu mewn cywilydd; am hyny efe a benderfynodd lefaru fel ei cynnorthwyid gan Dduw; ac aeth rhagddo yn lled rwydd: ond darfu i'r amylchiad yma gadarnhau meddyliau y rhai oeddynt yn meddu gradd o ragfarn yn ei erbyn o'r blaen, mai *Methodist* oedd efe mewn gwirionedd: ac o'r cyfryw yr oedd gwraig y Ficer, yr hon a ysgrifenodd at ei gwr yn ddioed; ac yn y canlyniad, efe a drowyd o'i guradiaeth, heb gymaint a chyfleusdra i geisio ei amddiffyn ei hun. Ysgrifenai ei noddwr lythyr atto, yn cynnwys y prif achwyniadau a roddid yn ei erbyn; y rhai oeddynt a ganlyn;—"Y mae Peter Williams, is-beriglor Eglwys Gymmun, yn cael ei gyhuddo o bregethu pechod gwreiddiol, cyfiawnhad trwy ffydd, a'r angenrheidrwydd anhebgorol am adenedigaeth." Ymddygai y Ficer yn annghristionogol, ïe yn wir, yn annynol hefyd atto; ac nid oedd ymddygiad yr esgob yn ronyn gwell. Ond y Parch. G. Jones o Landdowror a'i hysbysai fod eisiau is-beriglor yn Abertawe; a phenderfynai Mr. Williams fyned yno; lle ei derbyniwyd yn garedig; ac efe a alwyd i gyflawni y gwasanaeth yn fuan. Gweinyddai ddwy eglwys; y naill yn y Gymraeg, yn y Dref uchaf; a'r llall yn y Saesoneg, yn y Dref Isaf. Ond, fe welwyd yn fuan ei fod ef yn euog o'r un pechodau yn y dref hon âg yn Eglwys Gymmun; yr oedd efe yn gwrthwynebu llygredigaethau moesol yn mhob cylch cymdeithasol, yn rhy danbaid, a diarbed; ac yn mhen y mis cafodd ei dalu allan o'r fan hon; a dychwelodd i Gaerfyrddin, lle ei hysbyswyd bod eisiau is-beriglor yn Llangranog, a Llandyssilio, yn swydd Aberteifi; a bu yn gweini yno dros oddeutu dau fis, lle yr ennillodd efe serch y plwyfolion yn gyffredinol: ond yn mhen hyny o amser, mynai rhai o'r plwyfolion gael yr un a fuasai yn gurad yma o'i flaen; ac a ymadawsai o eisiau codiad yn ei gyflog: ond gomeddid talu ei gyflog i Mr. Williams.

Yn fuan ar ol hyn, wedi clywed am ryw gynghorwr enwog mewn parth o swydd Benfro, efe a aeth i'w wrando, ac i gael ymddiddan ag ef; ac a'i cafodd yn pregethu mewn ardal fynyddig, yn agos i Gastell Hay, a mwynhai y bregeth mor helaeth, fel y torai allan i weddïo a molianu Duw ar y diwedd, er syndod i'r gynnulleidfa, i'r hon yr oedd yn hollol ddyeithr; pa fodd bynag, nid oedd angen cred-lythyrau i'r gynnulleidfa, a'r gweinidog, amgenach na'r ysbryd ffydd a chariad a amlygid yn y weddi hono. Y Gweinidog, sef y Parch. Howell Davies, a'i cymerodd gyd ag ef, ac a'i cyflwynodd i sylw Cymmanfa o bregethwyr y Trefnyddion Calfinaidd, a gynhelid y dyddiau hyny yn rhywle ar gyffiniau swydd Benfro, gan y rhai y cafodd dderbyniad caredig, pan yn bedair blwydd ar hugain oed, yn mysg pa rai y llafuriodd yn galed hyd ei hen ddyddiau. Yn fuan wedi ei ymuniad a'r Methodistiaid, dechreuodd deithio y wlad, gan bregethu efengyl Crist pa le bynag y caffai wrandawiad. Wedi bod yn pregethu rai gweithiau yn nghlyw y Parch. Daniel Rowlands, fe'i cymhellwyd i ymweled â Llanidloes, lle ei hysbysid fod gwr o'r enw Evan Morgan, crydd wrth ei alwedigaeth, yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a'i derbyniai i'w dŷ. Wedi cyrhaedd y dref, ac edrych yn ddyfal am faelfa crydd, efe a ganfu un o'r diwedd, ac a ymofynodd am Evan Morgan. I'r hyn ei hattebwyd yn gyfrwys gan wr y tŷ, "Y mae rhai yn fy ngalw I dan yr enw hwnw; pa beth a fynech chwi âg ef?" Tra yr oedd ef mewn cyfyng-gynghor, heb wybod yn iawn pa beth i'w ddweyd, gan ei fod yn ofni ei fod wedi cam-gymeryd ei ddyn, rhedai y gwr a geisiai, yn mlaen, gan ddywedyd, "A'i am Evan Morgan yr ydych yn ymofyn?" Ar hyny, tyngai y llall, a chan edrych yn gywilyddus o herwydd

Digitized by Google

ei ymgais i dwyllo y gwr dyeithr, dywedai, "Dyna efe yn awr."—Pe buasai y llall wedi llwyddo yn ei amcan i'w ddal yn ei fagl, a chanfod ei fod yn ddi amddiffyn, y mae yn debyg y buasai yn hysbysu y werin ragfarnllyd, mai Cradogiad gwaradwyddus ydoedd, ac felly y cawsai ei gam-drin, a'i erlid yn greulawn. Oddiyma, efe a aeth rhagddo drwy y Drefnewydd, gan bregethu yma a thraw, lle y rhoddid derbyniad iddo; ac ambell gyfaill weithiau, yn ei ganlyn o'r naill le i'r llall. Tra yn rhoddi ebran i'w farch yn y Dref Newydd, drwg dybiodd rhyw rai ei fod yn Gradoc, a dechreuasant gythryblu, a'i luchio â cheryg, fel y bu raid iddo adael y drêf dan erlidigaeth, a chyfeirio tua Llanfair Caereinion, lle y cyfanneddai boneddwr, â'r hwn y daethai yn adnabyddus yn Ffynnonau Llan Drindod. Wedi cael ei dŷ, cafodd letty cysurus yno y noswaith hono, a phregethodd dranoeth yn ei dŷ ef. Oddiyno, efe aeth i'r Bala, lle yr oedd mwy na dau neu dri wedi cofleidio efengyl Crist; a'r cyfan yn wŷr da eu hamgylchiadau: un o honynt oedd Ysgotiad o enedigaeth, wedi prïodi, ac ymsefydlu yn y dref hon; a chan ei fod yn fab tangnefedd, efe a aeth i fewn atto, ac a arhosodd yno. Dranoeth, gwnaed yn hysbys i ychydig gyfeillion a charedigion fod y pregethwr yno; a daeth ychwaneg yn nghyd nag a wahoddasid, i'r rhai y pregethodd efe yn ei wisg offeiriadol, gan ddysgwyl y buasai hyny yn enill iddo well gwrandawiad; ond, er y cwbl, amlygid cryn duedd i wawdio, ac erlid, gan lawer o'r rhai a ddaethent yn nghŷd. O'r Bala, aeth Mr. Williams yn mlaen ar y daith hon drwy Leyn, gan bregethu yn yr awyr agored mewn amryw fanau, a chafwyd amryw brofion amlwg fod ei weinidogaeth wedi bod yn fendithiol er troi eneidiau ar y daith hon. Yna, wedi clywed yn Eifionydd, fod Mr. William Prichard wedi symmud i Fon, o Lasfrynfawr, efe a aeth hyd yno, ac wedi deall yn ei gymdeithas am gyflwr gresynol y wlad, efe a bregethodd, dan fesur helaeth o amddiffyn Dwyfol, mewn amryw fanau yn yr ynys. Ar y daith hon y cafodd ei attal i bregethu yn Nhrefriw, swydd Gaerynarfon. a'i drin yn hynod o waradwyddus. Ymddengys fod ychydig gyfeillion i grefydd, y rhai oeddynt yn fwy eu zel na'u gwybodaeth, wedi cyhoeddi y byddai i'r Parch. Peter Williams bregethu yno ar y cyfryw amser: dylasid dywedyd y byddai yn myned drwodd; ac os byddent yn dewis, y buasai efe yn pregethu yno, wedi terfyniad gwasanaeth yr Eglwys. Ond, fel yr oedd, cafodd yr erlidwyr fantais i ymbarottoi ac ymgynnull erbyn iddo ddyfod; a'r canlyniad fu, ei rwystro i bregethu yno y tro hwnw. Yr oedd yno luaws o'r werin, yn cael eu blaenori gan ddau foneddwr; a hwy a ddaliasant y pregethwr, ac a'i cadwasant megys carcharor mewn tafarndy, yn nghanol mintai o watwarwyr, o chwech o'r gloch y nos hyd ddau o'r gloch y boreu, fel Samson yn mhlith y Philistiaid, i beri iddynt chwerthin. Cymhellent ef i yfed; gofynent iddo lawer o gwestiynau coegaidd am ei ddysg, ei athrawiaeth, a'i ganlynwyr; —gofynent mewn gwawd iddo, ar ba destyn y pregethasai y boreu hwnw, &c.

Yntau a'u hattebodd, "Os gwelwch chwi fod yn dda, foneddigion, adroddaf i chwi y testyn, a'r holl bregeth hefyd." Gyda hyn, galwai un o honynt am "ddystawrwydd;"—"Y mae e'n awr am bregethu i'n diwygio ni." Parai hyn yr ha! ha! o chwerthiniad uchel a gwawdlyd am enyd, drachefn a thrachefn. Pan y galwodd efe am ymborth, ac y dymunai gael myned i'r gwely, chwarddent drachefn, a dywedai un o honynt yn goeglyd, "Chwi a gewch fwyd, a gwely hefyd cyn hir." Yntau a ofnai, gan yr olwg arnynt, mai ei fwrw allan a wnelid, a'i labyddio â cheryg i farwolaeth; ac mai felly y gwnelid pen ar ei einioes yn nhywyllwch y nôs. "Eto," meddai, "rhoddais fy hun i fynu i Dduw, a pharheais i offrymu saeth-weddïau, gan na's goddefai fy ngwawdwyr rhagrithiol i mi weddïo na phregethu yn hyglyw. Ac yn wir, yr oedd yn dra gofidus genyf fy mod yn gorfod gwrando ar eu llwon halogedig, a'u maswedd. Er hyny, buasai yn afresymol i mi i gwyno am galedi, gan y dangoswyd mwy o ffafr i mi nag i'm Harglwydd, yn gymaint ag i mi gael fy rhyddhau cyn caniad y ceiliog."

Wedi i'r boneddwyr orchymyn i wr y ty roddi bwyd a dïod iddo, a thalu am dano, a gorchymyn iddo yntau na phregethai yn y pentref hwnw, hwy a gymerasant eu ceffylau, ac a aethant ymaith; a'r terfysgwyr hefyd a ymwasgarasant tua dau o'r gloch y boreu. Gadawsai ei gyfaill ef hefyd yn y derfysg pan eu hamgylchynid gan yr erlidwyr; ac a gyfarfuasai yn gyntaf â gwr y ty, yr hwn a'i hysbysodd pwy oedd, a pha le yr ydoedd. Y tafarnwr pan gafodd gyfleusdra, a hysbysodd Mr. Williams yn ddirgel, fod y ceffylau, a'r codau, a phob peth a berthynai iddo ef a'i gyfaill yn ddïogel; ac y dygai efe ei gyfaill atto can gynted ag y gwasgarai y terfysgwyr.

Aeth Mr. Williams a'i gyfaill i'r gwely; ac efe a gysgodd dros rai oriau; ond ni allai ei gyfaill gysgu dim. Wedi iddynt gyfodi, cyfarchwyd Mr. Williams gan wr a gymerai arno fod yn gyfaill, gan ofyn am gael gweled ei urdd-lythyrau, y rhai a ddangosasai y noson o'r blaen i'r boneddigion. Yntau a'u rhoddodd yn ei law, i'w gweled: ar hyn bwriodd y cadnaw olwg chwithig arno, a nacaodd eu dychwelyd yn ol; ond cyfododd, ac aeth ymaith ar gefn ei farch. Aeth Mr. Williams hefyd o Drefriw, heb gael cyfle i gynnyg pregethu yno, yr hyn a'i gofidiai yn fawr; eto, teimlai yn ddïolchgar am gael dwyn tystiolaeth dros y gwirionedd, trwy ddyoddef anmharch o'i herwydd, ac am gael dïangfa mor ryfedd o'r bron â Daniel o ffau y llewod. Hwy a aethant i le arall, tua saith milldir oddiyno, lle yr oedd rhyw gyfeillion adnabyddus i Mr. Williams; a chyn pen dwy awr wedi eu dyfodiad yno, wele ferch ieuanc ar farch yn dyfod at y ty, ac yn gofyn am y dyeithriaid; a phan aeth Mr. Williams i'r drws atti, hi a ddywedai mai merch oedd hi i'r gwr a ladrattasai ei urdd-lythyrau y boreu hwnw; ac mai ei neges hi yn dyfod atto oedd, i'w dychwelyd yn ol iddo. Bernid mai deall a wnaeth y gwr, wedi iddo ymffrostio wrth rai o'i gymmydogion, y fath weithred ardderchog, yn ei gyfrif ei hun, a wnelsai, y gallasai gael ei erlyn â chyfraith am ei weithred, a'i andwyo; ac am hyny eu hanfonai yn ol ar frys, gan ddymuno ar Mr. Williams eu derbyn, ac esgusodi ei weithred annghyfreithlawn. Deallwn mai yn y flwyddyn 1748, y cymerodd Mr. Williams ei daith gyntaf hon i Wynedd: bu yma lawer gwaith wedi hyny, a chafodd lawer triniaeth chwerw gan rai nad adwaenent ef na'i Feistr; ond, ni oddef ein gofod i ni gynnyg dilyn hanes ei wahanol deithiau gyd ag un mesur o fanylrwydd. Efe a fu yn aelod o Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, o 1746 hyd 1790; gan gymeryd ei ran yn helaeth iawn o lafur, dyoddefiadau, a gwaradwyddiadau blaenoriaid y Cyfundeb hwnw, yn mlyneddoedd cyntaf ei ymffurfiad;



Digitized by Google

ac yr ydoedd yn gaffaeliad gwerthfawr dros ben i Fethodistiaeth, gael y fath wr a Pheter Williams yn mlyneddoedd ei ieuenctyd: canys efe a ragorai mewn rhyw bethau ar ei holl frodyr, llên, a lleyg. Yr oedd ei frodyr yn ymddibynu i raddau helaeth ar yr hwyl, heb ragbarottoi ond ychydig ar eu pregethau; ond byddai efe yn myfyrio yn ddwys, ac yn cynllunio ei bregethau yn ofalus yn mlaen llaw. Byddai eu traddodiad hwy ar brydiau yn drwsgl, a di effaith, a phrydiau eraill yn anorchfygol; ond ceid ef yn lled gyffelyb yn wastadol: dychwelai eu gwrandawwyr hwy o'r oedfa yn siomedig ambell waith, a phryd arall dan neidio, a molianu Duw; tra y dychwelai gwrandawyr Peter Williams wedi eu boddhau bob amser. O ran ei gyfansoddiad anianyddol, yr oedd ynddo gyfaddasrwydd neillduol at y swydd o flaenfilwr yn myddin y groes—o wneuthuriad cadarn, yn gallu llafurio llawer, ymgymeryd a theithiau meithion, a chyd ddwyn yn hynaws â lluniaeth garw, a lletty gwael. Cyfarfyddodd a gelynion crefydd fel bleiddiaid ysglyfaethus mewn llawer man, yn barod i'w rwygo; y rhai a'i camdrinient yn y modd mwyaf di arbed, a chywilyddus; udent fel cŵn, ac ysgydwent ben fel y darfu i'w brodyr ar ei Feistr mawr er's llawer dydd.

Yr oedd i bregethwr Methodistaidd ddyfod ar daith i'r Gogledd yn yr oes hono, yn beth gwir bwysig; ac yn llawer mwy peryglus nag ydyw taith yn yr oes hon i ganol bwystfilod rheibus, ac anwarddynion canol-barth Affrica. Ond, nid oedd bygythion na pheryglon yn cael nemawr o ddylanwad ar ysbryd penderfynol, a meddwl gwrol a diysgog, y Parch. Peter Williams; fel craig yn y dymhestl, safai yntau yn dalgryf yn nghanol erlidwyr, oeddynt wedi eu llwyr feddiannu gan gythreuliaid. Ni byddem yn gwneyd dim namyn adgyfodi gwarth dynoliaeth, pe yr adroddem y driniaeth annheilwng a gafodd yr Efengylwr llafurus hwn yn ystod ei deithiau yn Ngwynedd; ond parhaodd yn ddianwadal trwy y cwbl, gan ystyried fod dyoddef erlidigaeth er mwyn Crist a'i efengyl, yn fraint ac anrhydedd. Ystyrid ef am flyneddau lawer y dyn mwyaf talentog a defnyddiol yn mhlith y Trefnyddion; ac edrychid arno fel un o golofnau yr Enwad. Ond, os dyoddefodd yn moreu ei weinidogaeth oddiwrth erlidwyr gwir grefydd, dyoddefodd fwy yn mhrydnawn einioes oddiwrth ragfarn, annghariadoldeb, ac enllib, y rhai a gyfrifid yn frodyr crefyddol.

Yn y flwyddyn 1770, cyhoeddodd ei Feibl mawr teuluaidd, yn cynnwys cyfeiriadau ar ymyl y dalenau, a sylwadau ar ddiwedd y pennodau. Yr oedd hwn yn waith mawr a phwysig, yn yr oes hono; yn gymaint ag mai hwn oedd yr Esboniad cyntaf yn yr iaith ar yr holl Ysgrythyr; a'r awdwr wedi ymgymeryd â'r gorchwyl yn unig er mwyn gwasanaethu i lesâad ysbrydol ei gyd-genedl. Cymerodd y gwaith hwn flyneddoedd lawer i'w gyflawni, yn nghanol trafferthion bywyd prysur ac anwadal, a rhwng teithiau meithion a blinion. Ar gyfer yr anturiaeth drom o'i argraffu, a'i gyhoeddi, cafodd addewid am gefnogaeth ac achles ei frodyr yn y weinidogaeth, a'i frodyr crefyddol yn yr Enwad. Nid oedd dadl yn eu plith am gymhwysder yr Esboniwr at y gwaith; ac ni siomwyd eu dysgwyliadau uchaf ond mewn un peth. Yn ei sylwadau ar y bennod gyntaf o Efengyl Ioan, arferodd rai ymadroddion, oeddynt yn arogli yn gryf o Sabeliaeth yn ffroenau rhai; a'r rhai hyny yn ddi ymaros a'i cyhuddasant o heresi; a darfu i'r cyndyn-ddadleu a ganlynodd hyny, gythryblu yr Enwad yn ddirfawr am dros ugain mlynedd. Ond, cyhyd ag y bu Rowlands o Langeitho, a Williams o Bant y Celyn yn y cyngor, lluddiwyd i unrhyw ymrwygiad cyhoeddus gymeryd lle; eithr wedi eu marwolaeth hwy, nid oedd neb digon dylanwadol i sefyll ar yr adwy, rhwng yr ymlidwyr a'u hysglyfaeth; ac yn y flwyddyn 1791, er enwoced ydoedd Peter Williams fel gwr duwiol a defnyddiol, diarddelwyd ef yn ddi arbed o'r Cyfundeb. Bu y cyhuddiad crybwylledig o Sabeliaeth, yn golled fawr iddo ef mewn ystyr arianol; canys cynnyrchwyd rhagfarn yn erbyn y llyfr yn mysg y bobl y dysgwyliai fwyaf o gefnogaeth i'w werthiant oddi wrthynt; a dywedir na buasai pum cant o bunnau yn ei lawn ddi golledu: ond, y mae yn ddiau nad oedd hyny ond megys dyddim i'w gystadlu a'r trallodion meddwl a barodd yr ystorm hon iddo yn ei henaint a'i benllwydni. Yr oedd ysgariad oddiwrth enwad crefyddol y treuliasai ei fywyd i'w wasanaethu, ac y buasai mewn perygl i'w golli yn y gwasanaeth lawer pryd;—cyfundeb y rhoddasai iddo gryfder ei nerth, ac amlder ei ddoniau,—yn rhwym o beri archoll ddofn i'w deimladau; a'r brofedigaeth yn nithio yr ychydig hen gyfeillion a adawsid iddo gan angau, rhai i'w gashau a'i enllibio, a'r ychydig a barhaent yn ffyddlawn, yn gorfod celu eu cyfeillgarwch, rhag myned dan yr un farn ag ef. Ond pan gauwyd holl bwlpudau y Methodistiaid yn ei erbyn, agorai y rhai mwyaf uniawn-gred o'r Bedyddwyr, a'r Annibynwyr, eu pwlpudau iddo, yr hyn a brofai nad oedd mor afiach yn y ffydd ag y mynai ei wrthwynebwyr i'r wlad gredu ei fod. A thrwy y cyfan, cafodd y llyfr gylch-rediad helaeth iawn; a galwyd yn fuan am argraffiadau ychwanegol o hono. Cyhoeddwyd 3600 o'r argraffiad cyntaf, yn y flwyddyn 1770; 6400 o'r ail argraffiad, yn 1779; a 4000, yn 1796; ond cyn i'r argraffiad olaf hwn ddyfod o'r wasg, bu yr awdwr farw, a gorphenwyd golygu y gwaith gan ei fab, Mr. John Williams. Daeth amryw argraffiadau o'r gwaith allan ar ol hyny, ac nid oes nemawr o deuluoedd yn Nghymru, nad ydynt yn meddu y Beibl teuluaidd hwn. Yn y flwyddyn 1773, efe a gyhoeddodd y "Mynegair Ysgrythyrol;" ac argraffwyd 2000 o hono; ac er y pryd hyny y mae amryw argraffiadau eraill o'r un gwaith wedi eu cyhoeddi.

Yn y flwyddyn 1790, yn gyfranog â'r Parch. D. Jones, gweinidog gyd a'r Bedyddwyr, efe a gyhoeddodd Feibl llogell John Cann yn Gymraeg, gan ychwanegu rhai nodiadau nad oeddynt yn y gwreiddiol yn Saesonaeg. Cynnwysai yr argraffiad hwn 4000 o gopiau. Yr oedd ganddo ran bwysig yn nghyhoeddiad y *Greal* hefyd, yr hwn a olygid yn benaf gan ei fab, y Parch. Eliezer Williams, ac a gynnorthwyid gan Dafydd Ddu, Eryri; ac Ieuan Brydydd Hir. Mewn gair, yr oedd Peter Williams yn un a wnaeth fwy na neb arall yn y ddeunawfed ganrif, er meithrin llenoriaeth grefyddol yn Nghymru. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd, yn ddeonglwr ysgrythyrol galluog, yn llenor medrus, ac yn ddyn a wnaeth argraff ddofn ar feddwl a buchedd ei gyd-genedl. Bu farw yn y Gelli Lednais, plwyf Llandefeiliog, swydd Gaerfyrddin, Awst 8, 1796, yn 76 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent y plwyf hwnw.

**WILLIAMS**, Parch. Peter Bayley, ydoedd fab i'r Parch. Peter Williams. Dygwyd ef i fynu yn offeiriad, a bu yn gwasanaethu am flyneddau lawer ar blwyfi Llanrug, a Llanberis, sir Gaernarfon; ac

Digitized by Google

ysgrifenodd hanes y sir hono yn Seisnig. Ystyrid ef yn henafiaethydd medrus, ac yn gynullydd diwyd a llwyddianus ar hen lyfrau a llawysgrifau Cymreig, ac yr oedd yn noddwr twymngalon beirdd a llenorion ei oes. Cyfieithodd "Orphwysfa'r Saint" o waith Baxter; a "Galwad i'r Annychweledig;" hefyd Hanes Bywyd ei dad, yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf gydag argraffiad cyntaf Fisher o'r Beibl Teuluaidd. Ysgrifenodd lawer i'r *Gwyliedydd*, y *Cambro Briton*, a'r *Cambrian Quarterly Magazine*. Yr oedd ganddo hefyd law yn nghyhoeddiad Eurgrawn Dafydd Ddu, a argraffwyd yr Nghaernarfon, yn 1807. Bu farw mewn henaint teg yn Llanrug, Tachwedd 22, 1836.

**WILLIAMS**, Parch. Peter, D.D., ydoedd offeiriad Llanbedrog, sir Gaernarfon, a phrebend yn mhrifeglwys Bangor. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain. Yn 1824, golygodd argraffiad o'r *Ffydd Ddiffuant*, o waith Charles Edwards, ac ysgrifenodd lyfr o fywgraffiad o'r awdwr yn Saesneg, ac mae nodau o'i waith yn yr un iaith ar odre y dail. Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i waith:—(1) "Clerical Legacy;" (2) "Pedair cyfrol o Bregethau Cymreig;" (3) "A short Vindication of the Established Church," 1803; (4) "The First Book of Homer's Iliad, translated in blank verse," 1806; (5) "Anogaeth i gadw gweddeidd-dra a threfn yn addoliad Duw," pregeth a draddodwyd yn Llanbedrog.

**WILLIAMS**, Parch. Richard, ydoedd wreglwysig mewn urddau, ac yn byw yn y Fron, ger y Wyddgrug, sir Fflint. Bu yn offeiriad yn Machynlleth; ac yn Llanferes, ger y Wyddgrug; a chan esgob Halifax y cafodd yr olaf yn 1789. Yr oedd yn gydymaith i Pennant ar amryw o'i deithiau trwy Gymru, ac yn brydydd Seisnig da. Efe a gyfieithodd y darnau o hen brydyddiaeth Gymreig a welai y teithydd enwog hwnw yn anghenrheidiol eu dwyn i mewn er egluro henafiaethau. Yn mhlith pethau eraill, cyfieithodd gywydd Owen Gyfeiliog, a elwir "Hirlas Owain," "Cywydd Hywel ab Einion Llygliw i Fyfanwy Fechan;" "Awdl Tubulus ar angladd Patroclus," o'r Lladin. Cyfansoddodd bryddest Lladin i'w gyfaill Pennant, a galargerdd ar farwolaeth Ieuan Brydydd Hir. Troes ganeuon *Gray* i'r Lladin, a chyfieithodd y *Medae Seneca*. Bu o fawr gymhorth i Edward Jones, yn nghyfansoddiad y *Relics of the Welsh Bards*, ac ysgrifenodd lawer ar byneiau eraill. Bu farw yn ddisymwth, Mehefin 4ydd, 1811.

**WILLIAMS**, Richard, a adwaenid yn mhlith y beirdd, &c., wrth yr enw Dryw Bach. Ganwyd ef yn 1790, a threuliodd ran fawr o'i oes yn Mhant y Gerddinen, plwyf Aberdar, sir Forganwg, lle y bu farw Mehefin 1839. Dywedai Taliesin ab Iolo am dano:—"Dyn oedd, y bydd ei goffadwriaeth yn anwyl y rhawg gan y rhai a hoffant beroriaeth, prydyddiaeth, a llenyddiaeth Gymreig yn gyffredinol. Yn moreu ei ddyddiau, amlygodd archwaeth ragorol tuag at ganiadaeth Gymreig; gan gymblethu yn ei ganeuon amledd o ddillynion darfeddyliawl, yn nghyd ag athrylith naturiol tuag at wir arabedd. Cyrhaeddodd hefyd fedrusrwydd helaeth mewn barddoniaeth uchraddol. Mae ei Awdl fuddugol, i'r Goleuni, yn gyfansoddiad sydd yn amlygu grymus alluoedd meddwl. Bu yn ymdrechwr buddugol ar destunau eraill hefyd. Ei englynion i Bont-y-typridd a enillasant iddo dlws arian ysplenydd, yn nghyda gwobr ychwanegol, yn Eisteddfod Caerdydd yn 1834; ac efe oedd yr ail oreu yn yr englynion i Ardalydd ac Ardalyddes Bute, ar yr hwn destun y cynygid y Tlws Breninol, yn amser gwledd ardderchog y Dywysoges Victoria, a Duges Kent. Bu wedi hyny yn enillwr ar destunau eraill. Ei ymgais llwyddianus diweddaf, oedd ei gyfansoddiad ar 'Briodas William Williams, Ysw., o Aberpergwm;' yn mha un y rhoes dystiolaeth drwyadl o'i barch i deuluoedd henafaidd ei wlad enedigol. A'i ddoniau perorawl nid oeddynt ddystadl ychwaith, fel y tystiai y tlysau a gafodd am gyflawniadau dadgeiniawl. Fel gwr, a rhiant mewn teulu lluosog, efe a gyflawnodd ei ddyledswyddau mewn modd canmoladwy. Yn ei alwedigaethau fel amaethydd, arwerthydd, gwlanfasnachydd, &c., arweddodd nodweddiad diargyhoedd. Yn ei ymarweddiad gymdeithasol yr oedd yn gyweithas, ac yn feithrinwr brwdfrydus i bob rhiniau da."

**WILLIAMS**, Richard, Lerpwl, gweinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1802. Daeth at grefydd yn foreu iawn, bu yn pregethu am ugain mlynedd, pymtheg o ba rai a dreuliodd yn Lerpwl, yn bregethwr enwog ac effro, cadarn a defnyddiol iawn. Yn ystod yr amser hyny hefyd, efe a gymhwyswyd gan Ben Mawr yr eglwys, a hyny yn nodedig iawn, fel athrawiacthwr medrus, rhesymwr cadarn, pleidiwr gwresog, ac ysgrifenwr athrylithgar o blaid y wir athrawiaeth. Ni byddai yn ormod dywedyd efallai, iddo anfarwoli ei enw, drwy y llyfr rhagorol hwnw a gyhoeddodd, "Y Pregethwr a'r Gwrandawr." Heblaw hyn oll, yr oedd yn wasanaethgar iawn gyda phob rhan o achos yr Arglwydd; a bu yn ddefnyddiol neillduol yn ffurfiad a dygiad yn mlaen Gymdeithas Feiblaidd Gymreig Liverpool, a'r Gymdeithas Genhadol Gymreig. Yn y flwyddyn 1842, yr oedd wedi gwanychu cryn lawer, ac ychydig wythnosau cyn ei farw, yr oedd yn hynod felly, fel na fedrai ymddyddan a'i gyfeillion penaf a mwyaf mynwesol heb anhawsdra mawr; o ba herwydd nid llawer a ddywedodd wrthynt yn rhydiau y dŵr. Aeth drwodd yn ddiogel, Awst 20ain, 1842. Nid bychan oedd galar y frawdoliaeth o herwydd symud o'u mysg un a fu yn hynod, nid yn unig mewn duwioldeb, ond hefyd mewn llafur a lludded gweinidogaethol. Yr oedd eu galar o hyny yn fwy fyth, a phawb ystyriol ohonynt yn barod i efelychu Eliseus, gan ddywedyd, "Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion." Er i angau dori i lawr y gwr defnyddiol hwn, yr oedd yr ystyriaeth o fod eu colled hwy yn troi yn dragwyddol elw iddo ef, yn foddion lled effeithiol i sychu i fyny eu dagrau hidl. Dywedai wrth ei anwyl briod alarus, pan yn ymyl marw, "Y mae'r briodas sydd wedi bod rhyngom ni, bron ar ben, ond y mae un briodas a barhâ byth. Claddwyd ei gorff yn hynod barchus yn Low Hill, pan y traddododd y Parch. Henry Rees, wrth y bedd, araeth angladdol, yn bur effeithiol i'r rhan fwyaf o'r dorf luosog, yna ymadawodd pawb yn alarus ar ei ol.

**WILLIAMS**, Richard Owen, ydoedd fab i Owen ac Elizabeth Williams, o'r Brynglas, Plwyf Llaniestyn, Môn, lle y ganwyd ef Hyd. 31, 1819. Yr oedd yn ŵyr i'r hen Gymro cywrain, John William Prichard, o Blas y brain, Llanbedr Goch; orwyr i Mr. Wm. Prichard, yr Ymneillduwr o Glasfryn Fawr, Eifionydd; ac wedi hyny o'r Clwchdyrnog, Plas Penmynydd, a Bodlew, Môn. Cafodd ddysgeidiaeth dda yn Beaumaris, Liverpool, a Frodsham. Yr oedd wedi cyrhaedd gradd dda o wybodaeth o'r elfenau gwyddorol; ac yn wybodus iawn mewn llys-

Digitized by Google

ieuaeth. Yr oedd hefyd wedi astudio'r ieithoedd yn ganmoladwy. Ysgrifenodd lawer, a chyhoeddwyd rhai pethau o'i eiddo, megys yr Egluryn Dirwestol, a lluaws o draethodau eraill o dro i dro yn y Drysorfa. Dros y rhan fwyaf o'i oes, bu yn aneddu yn Mangor, fel cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau, a swyddog ymwaredol yn Nosbarth Bangor a Beaumaris, yr hyn a gyflawnai er boddhad cyffredinol. Yr oedd ei nodweddiad crefyddol, mewn cysylltiad â Chyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, yn addurn i egwyddorion uchel Cristionogaeth. Bu farw yn y Brynglas, Awst 7, 1849, yn 30 mlwydd oed.

**WILLIAMS**, Robert, o'r Pandy Isaf, Treriwaedog, ger y Bala, ydoedd fardd da, ac yn ei flodeu yn rhan olaf y ganrif ddiweddaf. Efe oedd athraw barddonol Ioan Tegid, a cheir crybwyllion ffafriol am dano yn ngweithiau barddonol y Cymro enwog hwnw. Efe oedd awdwr gwreiddiol y llinell boblogaidd, "Bibl i bawb o bobl y byd," a briodolir mor fynych i Fardd Nantglyn. Nid oes genym unrhyw brawf dros anmheu gonestrwydd awdwr Marwnad Sior III., er fod y llinell wedi ymddangos mewn cyfres o Englynion i'r Bibl yn y Drysorfa Ysprydol, tan olygiaeth Mr. Charles, flyneddau lawer cyn Eisteddfod Gwrecsam. Bu Robert Williams farw, mewn henaint teg, yn y flwyddyn 1808. Y mae llawer iawn o'i waith ar gael mewn llawysgrifau.

**WILLIAMS**, Robert (*Robert ab Gwilym Ddu o Eifion*). Ganwyd y bardd coeth a llednais hwn yn y Bettws Fawr, plwyf Llanystumdwy, yn nghwmwd Eifionydd, sir Gaernarfon, yn 1767. Brodor o sir Feirionydd ydoedd William Williams, ei dad; ac efe oedd perchenog y Bettws Fawr, yr hwn le yn nghwrs amser a ddaeth i feddiant y Bardd Du. Yn yr amaethdy gwledig hwnw, heb ddim yn tori ar dawelwch unffurfiol y lle, ond sibrwd didaw yr afon Ddwyfach gerllaw, y treuliodd yn ddedwydd rychwant einioes, hyd o fewn ychydig flyneddau i'w therfyn, pan y symudodd i'r Monachdy, yn yr un gymydogaeth. Trwyddo ef, daeth y Bettws Fawr yn adnabyddus i feirdd a llenorion, ac yn gyrchle gwŷr o nod; ac i'r ffaith fod Robert ab Gwilym wedi bod yn cyfaneddu yn y lle y rhaid cyfrif am enwogrwydd y Bettws Fawr rhagor ammaethdai dinod eraill Eifionydd. Palff o ddyn cadarn, gwladaidd, ydoedd Robert Williams, ac ni buasai dyeithr-ddyn byth yn meddwl oddiwrth ei olwg allanol, fod yr awen yn gwneud ei nyth mewn adeilad mor annhebyg. Ond dadblygai cydnabyddiaeth âg ef, yn y llanerch fynyddig hono, a than y cnwd annrhefnus hwnw o wallt, athrylith o radd uchel iawn. Yr oedd y Bardd Du yn henafiaethydd medrus, ac wedi efrydu llawer ar y pwnc hwnw, yn enwedig yn ei ystyr leol; ac yr oedd ar ei fferm yn yr amser hwnw gryn lawer o adfeilion yr hen Gymry fu. Yr oedd hefyd yn gerddor deallgar, a'i athraw yn y gelfyddyd hono ydoedd Mr. J. R. Jones, o Ramoth, fel y dywed y bardd yn ei farwnad i'r gwr hwnw. Darllenasai lawer ar ganghenau buddiol eraill o wybodaeth; ac nid oedd odid i bwnc nad oedd efe i ryw raddau yn gydnabyddus âg ef, ac yn alluog i syniaw yn gywir am dano. Bedyddiwr ydoedd ar y pwnc o fedydd, ac yr oedd yn bleidiol iawn i'r Bedyddwyr Neillduol, prif ddyn yr hon blaid y pryd hwnw yn Nghymru, ydoedd Jones o Ramoth; ond nid oedd ef yn aelod gydag unrhyw blaid grefyddol. Dywed Caledfryn yn y traithawd ar ei Athrylith a'i Weithiau yn y Traethodydd am 1852, tudalen 326, wrth son am rai o annghysondebau y bardd fel crefyddwr:—Byddai pregethwyr o bob enwadau yn galw heibio iddo, a chaent groesaw mawr ganddo, ond anfynych yr elai i wrandaw ei gyfeillion penaf, os na fyddent yn Fedyddwyr; a phan elai i wrandaw, byddai yn gwneud hyny yn fwy o gymwynas i'r llefarwr, ac yn fwy fel beirniad, nag fel pechadur ac arno eisiau y pethau a gynygid iddo ei hunan. Helpu y pregethwr i drwsio y bregeth ar ol darfod oedd oreu ganddo, na derbyn ac ymborthi ar y pethau a glywai ei hunan. Goludog oedd, ac nid oedd arno eisiau dim, yn yr ystyr yma. Efe oedd cynathraw Dewi Wyn, a thrwy fod y ddau yn byw yn ymyl eu gilydd, yr oedd cryn undeb yn eu golygiadau a'u gweithrediadau. Digiodd y ddau tua'r un amser wrth yr eisteddfodau; ac ni chafwyd o hyny allan na'u gwaith na'u presonoldeb, na'u geirda i'r un o'r cyfryw gyfarfodydd. Taflwyd y Bardd Du oddiar ei echel oherwydd rhoddi y wobr am englyn y "Delyn" i Walter Mechain yn Nghaerfyrddin yn 1819; a chanodd y Bardd Gwyn yn iach iddynt am byth, ar ol i'r *Dyne* gael y wobr yn Eisteddfod Dinbych oddeutu yr un amser, am ei awdl ar "Elusengarwch." Yr oedd y ddau yn Fedyddwyr, a'r ddau onid gwrandawyr yn unig am yspaid hirfaith, a bu ganddynt ran flaenllaw eu dau yn nghodiad addoldy yn yr ardal, a adwaenid wrth yr enw Capel y Beirdd. Hyd y gwyddom, dyna yr unig dro yr ymwregysodd y Bardd Du i faes yr ymrysonfa farddonol, a bu farw heb yr un ariandlws, neu blwm ar lun arian, ar ei elw. Ni flaenddodir un dernyn o'i waith a'r geiriau "Buddugol" mewn unrhyw Eisteddfod, ond er hyny y mae llysiau Gardd Eifion mor beraidd eu blas; a'i blodeu mor swynol eu harogl, ac mor brydferth eu gwisg, ag odid i ddim a gyhoeddwyd yn yr iaith Gymraeg. Un o'r pethau hynotaf yn yr amaethfardd diniwaid hwn, ydoedd y syniadau uchel oedd ganddo am ei waith ei hun. Byddai yn ymylu ar wynfydedd wrth ei adrodd a'i ganmol ei hun; ac ychydig groesaw gai dyeithr-ddyn yn y Bettws Fawr, os nad allai fawrygu barddoniaeth gwr y ty. Yn y Brython iv. 112, adrodda Talhaiarn am wr o'r enw Roberts, Dolymelynllyn, yn myned i edrych am y Bardd, ac ar ol cyfarch gwell, gwelai yn union mai rhyw groesaw lled sychlyd oedd yno iddo. Cofiodd, pa fodd bynag, fod ei westeiwr yn hoff o ganmoliaeth, a dechreuodd chwareu ar y nwyd hono, ac ebe fe wrtho, "Wyddoch chwi beth Rhobert Williams, englyn rhagorol ydyw hwnw o'ch gwaith chwi." "P'run ydyw hwnw, y gwr dierth?" ebai y Bardd. "Hwn" meddai Roberts,

> "Paham y gwneir cam a'r cymod—neu'r Iawn
> A'i rinwedd tros bechod?
> Dyweder maint y Duwdod
> Yr un faint yw'r Iawn i fod."

Ac ebai y Bardd, "Wel, yn wir, y mae o'n dlws! dywedwch o eto, da chwi!" a'r dyn yn cydsynio nes oedd yr awdwr wedi ei lyncu i fynu gan ei swynion a'i brydferthwch, ac yn galw ar y wraig, "Gwnewch gwpanaid o de a thipyn o *doast* i'r gwr dierth yn union deg, dywedwch yr englyn unwaith eto da chwi." Roberts yn ei ddweyd drosodd a throsodd drachefn. A fu erioed well engraifft o ddiniweidrwydd? Byddai ambell un yn gwneud camgymeriad mawr gyda golwg ar y ddôr i serch y bardd. "Mae genym ninau yn sir Ddinbych acw fardd da iawn,"

Digitized by Google

ebai porthmon wrtho ryw dro. "Pwy ydyw hwnw y gwr dierth?" ebai yntau. "Robert Dafis o Nantglyn," ebai'r porthmon. Ond atebai'r Bardd gyda dau ansoddair cryf, na waeth heb eu hail grybwyll ond dangosent pa mor ddwfn ydoedd ei ddigofaint am y camwri a oddefodd ei gyfaill Dewi Wyn yn Eisteddfod Dinbych mewn rhan oddiar law Bardd Nantglyn. Torwyd cryn lawer ar ei ysbryd at farddoni pan fu farw ei unig eneth, Jane Elizabeth, yr hon oedd yn ferch ieuanc 17 oed, brydferth, synwyrol, a dysgedig. Plentyn ei henaint ydoedd, canys bu efe yn hir iawn yn dwyn y teitl o "Hen Lanc y Bettws Fawr," a pharodd y son am ei briodas gryn syndod yn yr ardaloedd. Yr oedd ei marwolaeth yn ergyd trwm iddo, nis gallai byth ddal clywed ei henw heb i'w lygaid lenwi a dagrau, ac y mae ei marwnad iddi yn un o'r awdlau mwyaf teimladol yn yr iaith. Y mae coethder a dillynder anarferol yn nodweddu ei holl gyfansoddiadau, ac ystyrid ef yn bencampwr am englyn; ac nid heb achos, fel y prawf ei englynion i "Grist gerbron Pilat," "Pilat gerbron Crist," yr "Iawn," a'i feddargraffiadau tarawgar a dysgrifiadol. Yn ei awdl farwnad i Jones o Ramoth, ceir meddyliau hynod o dlysion, ac arddengys lewder y llew, pan yn canmol dyn oedd mor anmhoblogaidd gyda'r lluaws. Nodweddir ei ganiadau digynghanedd gan yr un dillynder, a destlusrwydd iaith a syniadau. Ysgrifenodd un neu ddwy o garolau da, a cherdd neu ddwy o gryn deilyngdod; ond fel emynwr yr adwaenir ef oreu gan y werin. Cenir rhai o'i emynau hyd ganiad yr udgorn, megis "Mae'r gwaed a redodd ar y groes," &c. "Rhyfeddod oedd, rhyfeddod yw," &c., "Gogoniant byth i'r anwyl un," &c.; ac amryw eraill a ellid grybwyll. Yn wir, y mae y flaenaf a nodasom fel pe wedi ei chyfansoddi o bwrpas ar gyfer y nefoedd, i'w chanu ar "uwchaf lef seraphiaid," ond ddarfod ei dodi ar wefus y bardd fel y gallai "torf y cystudd mawr" ymgydnabod â hi ar eu taith tua gwynfyd. Cyhoeddwyd gwaith Robert ab Gwilym yn gyfrol fechan, yn 1841, tan yn enw *Gardd Eifion*, gyda rhagymadrodd gan Caledfryn. Bu farw yn y Monachdy, Mehefin 11, 1850, yn 83 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Abererch, ger Pwllheli. Yr oedd Cywydd marwnad iddo yn un o destunau Eisteddfod Porthmadog, yn 1851, a Chywydd campus o waith Ioan Madog, a enillodd y wobr.

**WILLIAMS,** ROBERT, Caerlleon, gweinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Brodor oedd o Gaergybi, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1809. Symudodd yn wr ieuanc i ddinas Caerlleon, lle y dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1829. Urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, yn 1835, i fyned at y Cymry i Dublin. Bu yno am oddeutu wyth neu naw mlynedd. Ar ol hyny bu yn llafurio fel cenadwr cartrefol yn mysg y Saeson, yn ngoror sir Drefaldwyn. Dychwelodd i Gaerlleon yn y flwyddyn 1849, lle yr ymsefydlodd hyd ei farwolaeth. Yr oedd efe yn Gristion didwyll a diniwed, yn gyfaill cywir a diabsen. Yr oedd ei bregethau yn sylweddol ac adeiladol, ac ar amserau yn effeithiol; a theimlid hiraeth mawr ar ei ol. Yr oedd yn cychwyn o Gaerlleon brydnawn Sadwrn, Awst 21ain, yn ei iechyd arferol; a chyrhaeddodd Landegle yn yr hwyr, lle yr oedd i bregethu dranoeth. Pregethodd y Sabbath yn Llandegle y boreu, ac mewn capel a elwir y Bwlch, am ddau y prydnawn, gyda mwy o fywiogrwydd nag arferol. Dychwelodd i Landegle erbyn yr hwyr am chwech, lle y pregethodd yn dra effeithiol oddiar 1 Cor. xv. 4, 5. Ar ol gweddio ar y diwedd, rhoes allan i'w ganu y penill:—

"Cenir yno am y gwaed—flotiodd feiau," &c.

ac a eisteddodd, fel y tebygid ar y fainc yn y pwlpud. Yr oedd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd i gael ei gweinyddu ar ol y bregeth, a dysgwylid wrtho i'w gweinyddu. Wrth ei weled yn aros yn y pwlpud, aed ato, pan y caed ef wedi llithro yno, a'i fraich a'i ochr chwith yn ddiffrwyth, ac heb fedru llefaru. Canfyddwyd yn ebrwydd ei fod wedi ei daro a'r parlys mud, a chariwyd ef i dy un o'r diaconiaid, lle y cafodd bob amgeledd a allesid ei weinyddu iddo. Nis gallasai cymhorth meddygol wneuthur dim iddo, a thua dau o'r gloch boreu y 24ain, efe a hunodd yn yr Iesu, yn 50 mlwydd oed. Claddwyd ef yn Llandegle.

**WILLIAMS,** SYR ROGER, swyddog milwraidd dewr, ydoedd fab i Thomas Williams, o Benrhos, sir Fynwy, ac Eleanor ei wraig; yr hon ydoedd ferch Syr William Vaughan, marchog, ac yn hanu o deulu yn mhlith y rhai mwyaf henafol a pharchus, yn yr ardaloedd hyny. Er ei fod o'i ieuenctyd yn arddangos cryfach tuedd at fywyd milwraidd nag at ddysgeidiaeth, eto danfonwyd ef i brifysgol Rhydychain, lle y bu yn trigianu am gryn amser. Yn fuan wedi 1554, gadawodd y coleg, ac aeth yn filwr dan Duc Alva, a rhedodd trwy y gwahanol raddau milwrol nes ei wneud yn filwrad (*colonel*), yn y rhyfeloedd Ffrengig, a Belgiaidd. Gallasai sefyll yn gyfochrog â'r goreu yn yr amseroedd hyny, pe buasai yn tymheru ei nwydau dewr a didoriad gyda challineb; yr hyn oedd y rheswm na roddai y frenhines unrhyw swydd o ymddiried mawr iddo. Gwnaed ef yn farchog yn 1586. Cerid ef gan bob milwr, gan mor nodedig ydoedd am ddewrder dihafal, yr hwn a arddangosodd yn dra neillduol yn y flwyddyn grybwylledig pan yr ymosododd yn nghanol nos ar wersyll Tywysog Parma, ger Veulo, gan ladd rhai o'r gelynion; a threiddio i babell y Cadlywydd. Yr oedd yn awdwr, *The Actions of the Low Countries;* yr hwn a argraffwyd yn Llundain, yn nheyrnasiad Elizabeth, a thrachefn yn 1618. Llyfr arall o'i waith ydoedd, *A brief Discourse of War, with his opinion concerning Martial Discipline*, 1590. Bu farw yn Llundain, yn Rhagfyr, 1595, a chladdwyd ef yn mhrifeglwys St. Paul.

**WILLIAMS,** PARCH. ROGER, sylfaenydd talaeth Ynys Rhode, Gogledd America, a anwyd yn nhreftadaeth ei henafiaid, sef Maestroiddyn, plwyf Cynwyl Caio, sir Gaerfyrddin, yn 1606. Cafodd fanteision dysgeidiaeth rhagorol; oblegyd pan nad oedd ond 15 oed, arferai ysgrifenu mewn llaw fer, areithiau a draddodid yn y *Star Chamber*, a'u hanfon i Syr Edward Coke; yr hyn y barodd i'r cyfreithiwr enwog hwnw sylwi ar y bachgen ieuanc, fel un tra gobeithiol, a'i anfon i *Sutton's Hospital*, yn awr y *Charter House*, lle y derbyniwyd ef Mehefin 25, 1621. Aeth oddiyno yn 1624, i goleg Iesu, Rhydychain. Nis gwyddis pa hyd yr arosodd yno, ond y mae yn amlwg iddo gyrhaedd cydnabyddiaeth fanwl â'r Roeg, y Lladin, a'r Hebraeg, yn nghydag amryw o'r ieithoedd diweddar. Wedi gadael Rhydychain, bu am ryw yspaid yn efrydu y gyfraith, dan nawdd Syr E. Coke; ac yna trodd ei fryd ar fod yn weinidog yn Eglwys Loegr, a chymerodd urddau eglwysig. Enillodd air da fel pregethwr yn ystod yr ychydig

Digitized by Google

amser y bu yn gweinidogaethu yn y wlad hon, a dywedir mai yn esgobaeth Lincoln y gweinyddai. Pa fodd bynag, mabwysiadodd yn fuan athrawiaethau y Puritaniaid erlidiedig, a chan fod y bobl hyny o dan gilwg barhaus yr arch erlidiwr Laud, gwelai R. Williams nad oedd fawr obaith iddo am ddim ond cosp a gorthrwm os arosai yn y wlad hon; a phenderfynodd ymfudo i wlad y cai ei gydwybod chwareu teg i gyflwyno gwasanaeth i Dduw, heb un gormesydd eglwysig na gwladol i eistedd mewn barn ar ei gweithrediadau, na neb i'w galw i gyfrif ond yr hwn a'i creodd. Yr oedd America yn meddu holl anhebgorion y wlad a geisiai efe, a'i breichiau mawrion yn agored yn gwahodd ac yn derbyn gorthrymedigion Ewrob i'w mynwes. Hwyliodd ef a'i briod o Bristol, am y Cyfandir rhydd, Chwef. 5, 1631; ac wedi mordaith dymhestlog am 66ain o ddyddiau, cyrhaeddasant Boston, yn Massachusetts, Lloegr Newydd, lle yr oedd trefedigaeth o'r wlad hon eisioes wedi ymwladychu. Yn mhen ychydig wythnosau, galwyd arno i fod yn gydweinidog â'r Parch. Mr. Skelton, ar eglwys Salem. Ond nid oedd dedwyddwch digymysg yn ei aros yn ei gartref newydd; canys wedi iddo ddechreu ar ei weinidogaeth, dyma yr awdurdod wladol yn cyfryngu, i rwystro ei sefydliad; a'u rheswm tros hyny ydoedd, ei fod wedi gomedd ymuno a'r gynulleidfa yn Boston, am na chyffesent edifeirwch o'u bod mewn cymundeb âg Eglwys Loegr pan yn y wlad hono; ac hefyd, am ei fod yn honi nad oedd gan y swyddog gwladol awdurdod i gosbi am dori y Sabbath, nac am unrhyw drosedd o'r llech gyntaf. Pa fodd bynag, yn ngwyneb y cyhuddiadau dibwys hyn, gorfu arno ymadael o fynwes yr eglwys yn Salem, ond cafodd dderbyniad cynes gan yr eglwys yn Plymouth, i fod yn gynorthwywr i'r Parch. Ralph Smith. Yr oedd y brodyr yn Plymouth yn cael eu hystyried yn llawer mwy rhyddfrydig na'r trefedigaethau, am nad oeddynt yn cysylltu unrhyw gerydd gwladol â dysgyblaeth eglwysig. Tra yn aros yn y lleoedd hyn, cafodd gyfleusdra i ffurfio cydnabyddiaeth â rhai o brif benaethiaid yr Indiaid, a theimlai yn ddwys o herwydd eu cyflwr, a thrueni eu llwythau. Bu yn lletya yn eu tyllau myglyd a budron, er mwyn dysgu eu hiaith, i'r dyben o fynegu iddynt ffordd iachawdwriaeth. Yn 1633, efe a ddychwelodd i Salem, i gynorthwyo Mr. Skelton; ac yn mhen tua blwyddyn, bu yr olaf farw, a dewiswyd yntau i gymeryd ei le. Ond yn y cyfamser, ysgrifenodd at yr awdurdodau gwladol, yn gwadu eu hawl i ymyraeth mewn materion eglwysig. Ystyrient hyn yn osodiad peryglus, a gwŷsiwyd ef ger eu bron, pryd y dedfrydwyd ef ganddynt i alltudiaeth o'r drefedigaeth. Cyhoeddwyd y ddedfryd hon Tach. 3, 1635; ond o herwydd fod iechyd Mr. Williams wedi ei anmharu trwy ei lafur a'i bryder, caniatawyd iddo aros yn Salem hyd y Gwanwyn dilynol. Yn y cyfamser, daeth cwyn newydd i'w erbyn; sef fod pobl yn ymgynull i'w dŷ, ei fod yn enill eraill i gofleidio ei egwyddorion; a'i fod yn bwriadu ffurfio sefydliad newydd oddeutu Narragansett Bay. Yna penderfynodd yr ynadon ei ddanfon yn ddioed i Loegr, mewn llong oedd yn y porthladd ar fin hwylio; anfonwyd swyddogion i'w geisio, ond cawsant ei fod wedi ymadael er's tridiau. Cawsai allan eu bwriad, ac yr oedd wedi gwneud y defnydd goreu o'r ychydig ryddid oedd ganddo. Ffôdd at yr Indiaid brodorol, a da iddo erbyn hyn ei fod yn gydnabyddus â hwynt, ac yn deall eu hiaith. Cafodd nawdd Massasoit, un o'u penaethiaid, a chaniatad i wladychu ar lan yr afon Seekong, lle yr ymunodd amryw o'i hen gyfeillion yn Salem âg ef. Ond nid oedd dinas barhaus iddo yno ychwaith, a chafodd awgrym garedig, mai dyogelach iddo fyddai symud i'r ochr arall i'r afon, i Rhode Island. Mewn canlyniad, aeth ef a phump eraill mewn bâd tros y Seekong, yr hon sydd yn gwahanu Massachusetts oddiwrth Ynys Rhode, a glaniasant ar ochr orllewinol yr orynys, yn agos i aber yr afon Mooshausick; ac yn y fan hono, ar lechwedd bryn yn agos i'r afon, y taenodd y gwladychwyr cyntaf yn ynys Rhode eu pebyll. Yma y mae tref Providence, yr hon a sylfaenwyd gan Roger Williams, ac a alwyd ar yr enw hwn "er coffadwriaeth ddiolchgar am ddaioni Rhagluniaeth Duw tuag ato yn ei gyfyngder." Cynyddodd poblogaeth y wladfa fechan hon yn gyflym, a thynwyd cytundeb rhwng y gwladychwyr gan Roger Williams, yr hwn oedd yn cynwys ei hoff egwyddorion ef am ryddid crefyddol wedi ei hymgorphori, sef na byddai i'r wladwriaeth ddim a wnelai â materion crefyddol y deiliaid. Y Cymro hwn oedd y cyntaf i sefyll fel deddfroddwr tros berffaith ryddid crefyddol. Nodweddid hefyd ei holl ymddygiadau gan y fath gyfiawnder ac uniondeb dyben, fel y perchid ef hyd yn nod gan ei gaseion, yr edmygid ef, ac y gofynid cymwynasau oddiar ei law gan y rhai ddarfu ei alltudio, ac yr anrhydeddid ef gan yr holl lwythau a phenaethiaid Indiaidd y daeth i gydnabyddiaeth â hwynt. Cynyddodd ei drefedigaeth fechan yn gyflym, cyfeiriai erlidigion crefyddol yno o bob man, ac nis gellid heb dori gwir ddeddfau rhyddid, gadw ambell un annheilwng allan. Cyfodai gelynion y sefydliad y dosbarth olaf bychan hwn i fynu ar drostan, i'w harddangos ger bron y byd fel esiamplau o'r gwladychwyr; ond cadwodd dinasyddion Providence eu hardystiad yn ddihalog, a thrwy hyny enillasant barch tragywydd i'w henwau, tra yr enynasant genfigen a digllonedd eu cymydogion yn y talaethau cyfagos. Ar gais y dinasyddion, daeth Mr. Williams trosodd i Loegr, er mwyn cael breinlen i breswylwyr trefi Providence, Portsmouth, a Newport, a llwyddodd yn ei amcan, yr hon sydd wedi ei dyddio Mawrth 17, 1644. Pan y daeth efe yma, yr oedd y wlad yn brysur gyda'r rhyfel cartrefol, rhwng Siarl I. a'i Senedd, a gorfu iddo aros yn y wlad hon am oddeutu blwyddyn; ond yn y cyfamser, ni bu efe segur; canys yn gyntaf cyhoeddodd y llyfrau canlynol yn 1643, "Hanes yr Indiaid," yr hwn a ganmolid yn fawr gan Arglwyddi y Morlys, a llyfr gwasanaethgar arall sef, *Key to the Language of New England.* Yr oedd hefyd yn awdwr llyfr o'r enw, *The Bloody Tenet of Persecution for the sake of Conscience, discussed in a Conference between Truth and Peace, who in all tender affection present to the High Court of Parliament, (as the result of their discourse) these, amongst other passages of highest consideration,* 1644. Atebwyd y llyfr hwn gan Mr. Cotton o Boston, mewn llyfryn arall yn dwyn y teitl, *The Bloody Tenet washed and made white in the Blood of the Lamb;* yr hwn a atebwyd drachefn gan Mr. Williams mewn llyfryn o'r enw, "The Bloody Tenet yet more Bloody, by Mr. Cotton's endeavour to wash it white." Tra yr ydym yn son am dano fel awdwr, dylem grybwyll iddo hefyd gyfansoddi llyfryn arall, o'r enw, "The Hireling Ministry, none of Christ's: or a Discourse of the Propagation of the Gospel of Christ Jesus," yr hwn a argraffwyd yn Llundain yn 1652. Yn mhen tair

Digitized by Google

blynedd, yr ydym yn ei gael eilwaith ar ymweliad â'r wlad hon, a chanddo neges bwysig mewn perthynas â'r drefedigaeth fechan, yn tarddu oddiar yr erlidigaeth a oddefent oddiar law eu cymydogion, yn benaf o herwydd eu crefydd. Arosodd yma am oddeutu tair blynedd, ac yn ystod yr amser hwnw daeth i gydnabyddiaeth â Milton, a Cromwell. Bu ei gyfeillgarwch a'r gwŷr hyn yn fantais fawr iddo mewn ystyr wleidyddol; canys ysgrifenodd Cromwell lythyr at y drefedigaeth, a bu hyny yn foddion i ostegu cryn lawer o'r cythrwfl. Yn fuan wedi ei ddychweliad y tro hwn i Ynys Rhode, yn 1656, glaniodd amryw Grynwyr erlidiedig o Loegr yn Nhalaethau Gogledd America; eithr cawsant allan yn fuan nad oedd nemawr well croesaw yn eu haros yno, a bod y surdoes wedi ei gludo gan y trefedigaethwyr gyda hwynt dros y weilgi. Dirwywyd, carcharwyd, fflangellwyd, ac alltudiwyd llawer o honynt; a phenderfynwyd ar eu dyfetha, wreiddyn a changen. Pa fodd bynag, cafodd y gorthrymedigion hyn achles yn Ynys Rhode, er nad oedd Roger Williams yn cydolygu â George Fox a'i ddilynwyr; yn wir bu mewn dadl gyhoeddus â hwynt, ond ni bu hyny yn un atalfa iddo roddi nawdd iddynt rhag eu herlynwyr. O herwydd marwolaeth Cromwell, a'r cyfnewidiad mewn canlyniad a gymerodd le yn y ffurflywodraeth gartrefol ar esgyniad Siarl II. i'r orsedd, tybiwyd mai doeth cael breinlen newydd i'r drefedigaeth, a chafwyd hi yn 1663; ac y mae yn debyg na chaniatawyd ei bath erioed gan lywodraeth Prydain i un o'i thiriogaethau. Rhoddwyd hawl iddi ddewis ei holl swyddogion, o'r uwchaf hyd yr isaf, i wneuthur heddwch ac i gyhoeddi rhyfel, a'r cyfan heb i'r brenin hyd yn nod honi hawl i adolygu eu gweithrediadau. Ond nid oedd cynydd a llwyddiant y bobl wynion yn ddymunol mewn un modd yn ngolwg yr Indiaid. Yr oedd Massasoit, prif benaeth y Pokanoketiaid, erbyn hyn wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a Phylip ei fab, wedi cymeryd ei le, ac yn dra awyddus i ffurfio cyngrhair rhwng y gwahanol lwythau yn Lloegr Newydd, yn erbyn y Saeson. Pan y daeth y pethau hyn yn hysbys iddynt, gwahoddwyd Phylip gan lywydd Plymouth i'w gyfarfod yn Taunton. Atebai yntau yn uchelfrydig, oes oedd arnynt eisiau ei weled ef, am iddynt ddyfod ato. Ymwelodd Mr. Williams a gwr arall, â gwersyll y penaeth; a thrwy ei lafur a'i ymdrech ef yn benaf, y gwnaed heddwch y tro hwn hefyd. Ond yn mhen tua thair blynedd, yn 1675, torodd rhyfel allan rhyngddynt drachefn, yr hon a barhaodd am fwy na blwyddyn. Lladdwyd yn nghylch chwe' chant o wyr ieuainc yn mlodeu eu dyddiau, gan yr Indiaid, a llosgwyd deuddeg neu dair-ar-ddeg o drefi. Nid oedd sefydliadau Ynys Rhode ychwaith yn ddiberygl y tro hwn. Gorfu i Roger Williams gymeryd swydd yn y fyddin, a gwneuthur cryn ymdrech i gael darpariadau amddiffynol. Dywedir ddarfod iddo unwaith, pan oedd y gelynion yn ymyl Providence, gymeryd ei ffon dan ei law, a myned i'w cyfarfod yn bwyllog, heddychol, a di ofn, gan hyderu y gallasai eu tawelu, a lliniaru eu gelyniaeth a'u cynddeiriogrwydd, fel mewn amgylchiadau blaenorol. Pan ganfuant ef, daeth amryw o hen ryfelwyr i'w gyfarfod, ac yn yr ymddyddan, wrth geisio eu darbwyllo, dangosai iddynt nerth y Saeson, y "gallai Massachusetts yn y fan godi miloedd o ddynion; ac os bydd i chwi eu lladd hwynt, lleinw brenin Lloegr eu lle hwynt mor fuan ag y syrthiant." "O'r goreu," meddent hwythau, "gadewch iddynt ddyfod, yr ydym ni yn barod iddynt, ond am danoch chwi, y brawd Williams, yr ydych chwi yn ddyn da, ac wedi bod yn garedig i ni am lawer o flyneddau, ni chyffyrddir â blewyn o'ch pen chwi." Pan welodd efe nad oedd dim yn tycio, a'u bod yn hollol benderfynol i fyned yn mlaen, trodd ei gefn; ond nid ymddengys iddynt ladd neb, na gwneuthur nemawr niwaid i feddianau. Terfynodd y rhyfel hwn yn marwolaeth Phylip, ac o'r braidd y diangodd y Pokanoketiaid, a'r Narragansettiaid, heb eu llwyr ddinystrio. Yr oedd yr anghydfod a'r ymrafaelion hyn wedi cael eu codi gan yr Indiaid, a phan y daethant yn erbyn y Saeson, yr oedd yn ymladdfa am fywyd. Yr ydym yn canfod oddiwrth hyn, pa mor uchel oedd Mr. Williams yn meddyliau y brodorion, mor bwysig oeddynt y swyddau yr etholid ef iddynt, ac mor fawr yr ymddiried a roddid ynddo gan ei gyd-drefedigion; ac mor llwyr hefyd yr ymgyflwynodd yntau i wasanaeth y drefedigaeth y bu yn offerynol i'w sefydlu. Gallasai ymgyfoethogi o ran y cyfleusdra a gafodd; ond codwyd ef i anrhydedd mewn llwybr nad oes ond ychydig o ddynion mor ffodus a deall am dano. Treuliodd ei gyfoeth a'i amser i wneuthur daioni yn y byd. Bedyddiwr ydoedd Mr. Williams. Yr oedd amryw o'r enwad hwnw yn mysg y gwladychwyr, ond gan nad oedd gweinidog yn eu plith, penderfynwyd fod i un Ezekiel Holliman, gwr bucheddol, yr hwn a fu wedi hyny yn weinidog, fedyddio Mr. Williams, ac wedi hyny bedyddiodd yntau Holliman, a deg eraill. Wedi treulio oes faith, lafurus, a gwir ddefnyddiol, efe a fu farw yn 1683, yn 84 mlwydd oed. Y mae ei ddisgynyddion yn lluosog a pharchus yn yr Unol Dalcithiau hyd y dydd hwn; a chyda llawer o briodoldeb, yn teimlo yn falch o'u cyfathrach âg un o'r Tadau Pererinol mwyaf clodfawr ac anrhydeddus.

**WILLIAMS**, Syr Rowland, bardd ac offeiriad, yn ei flodeu, rhwng 1590 a 1630. Y mae peth o'i waith ar gael mewn ysgrifen.

**WILLIAMS**, Parch. Rowland, periglor Ysgeifiog, a chanon yn Llanelwy. Ganwyd ef yn Mallwyd, Meirion, yn Mawrth, 1772; a derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol Rhuthyn. Symudodd oddiyno i goleg Iesu, Rhydychain, lle yr enillodd ysgoloriaeth, ac y derbyniodd y radd o B.A. yn Ionawr, 1802; ac M.A. yn 1805. Ar ol ei ymadawiad a'r Brifysgol, cawn ef yn ail athraw ysgol Ramadegol Bangor, ac yn gwasanaethu Eglwys Llandegai. Yr oedd yn fendith i'r ddau le hyn, yn enwedig y pryd hwn, i gael y fath un i ddal cysylltiad â hwy. O herwydd nid hir y bu yn Mangor, cyn iddo enill eraill i ymuno âg ef i sefydlu "Cymdeithas fuddiol er adeiladaeth eneidiau." Y mae gwaith Esgob Griffith ar Weddi'r Arglwydd, a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas hon, yn awr o'n blaen, ac ar glawr y gyfrol, dywedir, "Y mae'r Gymdeithas yn bwriadu, trwy ras Duw, a chymhorth Crist'nogion duwiol, gyhoeddi o amser i amser, y fath lyfrau bychain, er hyfforddiad i'r anwybodus, a chynydd gwir grefydd yn mhlith pawb sydd yn ceisio iachawdwriaeth trwy Iesu Grist." Cofid yn hir, gyda diolchgarwch yn Llandegai, am y daioni a wnaeth tra yn weinidog y plwyf hwnw. Yr oedd rhaid bod Mr. Williams wedi cyrhaedd gradd uchel mewn dysgeidiaeth, cyn y cawsai ei ddewis i'r swydd a lanwai yn Ysgol Bangor; ac fel prawf ychwanegol o hyn, penodwyd ef yn gaplan i'r Dr. Cleaver, esgob Bangor ar y pryd. Ar symudiad yr esgob i Lanelwy, daeth a Mr.

Digitized by Google

Williams gydag ef, a rhoddodd iddo beriglorìaeth Cilcain, sir Fflint. Yn 1809, rhoddwyd iddo ganoniaeth yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ond nid ydoedd hyn yn dwyn iddo braidd unrhyw elw. O Cilcain, symudwyd ef i Helygen, yn yr un sir; ac oddiyno dyrchafwyd ef gan Esgob Luxmoore, i beriglorìaeth Meifod, lle y treuliodd 17 o flyneddoedd. Yn 1835, penodwyd ef gan yr esgob Carey, yn beriglor Ysceifiog, ac o'r plwyf hwn yr ehedodd ei ran anfarwol i ddwylaw ei Greawdwr, Rhag. 28, 1853. Cynygiwyd i'w berthynasau yr anrhydedd o le beddrod i'w weddillion yn Mhrif Eglwys Llanelwy; ond mewn cydsyniad a'r hyn a ddymunasai ef ei hun, dodwyd hwynt i orphwys o fewn maes olaf ei lafur a'i lwyddiant, sef Ysgeifiog. Yr oedd Mr. Williams yn wr mawr mewn amryw ystyriaethau. Yr oedd ei adnabyddiaeth o'r Groeg a'r Lladin yn gywir, braidd hyd berffeithrwydd. Anfynych iawn y cyfarfyddid â neb ag yr oedd ei wybodaeth gyffredinol yn fwy helaeth: ymddyddanai yn ddysgedig ar unrhyw destun gyda'r parodrwydd mwyaf: ac fel duweinydd hefyd, safai yn dra uchel. Meddyliem na chyfeiliornem wrth ddywedyd, ei fod yn un o brif Gymreigwyr ei oes. Penodwyd ef, gyda thri eraill gan esgobion Cymru, i arolygu argraffiad newydd o'r Llyfr Gweddi Cyffredin. Efe am lawer o flyneddau ydoedd asgwrn cefn y cyhoeddiad clodwiw hwnw, y Gwyliedydd, a bydd i'r erthyglau lluosog o'i eiddo a ymddangosasant yn y misolyn hwnw, gadw ei enw yn fyw tra y parhao yr iaith Gymraeg. Bu yn gohebu cryn lawer hefyd i'r *Cambro Briton;* ysgrifenodd hanes bywyd Peter Roberts, yr henafiaethydd, yr hwn a geir wedi ei ail-argraffu yn y *Cambrian Plutarch;* a Chofiant o'r Esgob Griffith. Yr oedd yn ynad heddwch mewn tair o siroedd, sef Meirion, Fflint, a Threfaldwyn; a hynodid ef ar y fainc, fel dyn addfwyn a gonest; tyner, a didderbyn wyneb; yn tymheru cyfiawnder gyda thosturi. Fel offeiriad, yr oedd yn fugail i'w braidd mewn gwirionedd; yn eu harwain mewn pethau ysprydol, ac yn eu cynghori a'u cynorthwyo mewn pethau tymhorol; yn gydymaith i'r cyfoethog, ac yn gyfaill i'r tlawd. Gallesid cymhwyso atoeiriau yr hen batriarch gynt—"Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano a ddeuai arno, a gwnai i galon y wraig weddw lawenychu; a'r cwyn ni wyddai a chwiliai allan." Priododd yn ieuanc, gyda Jane Wynne, merch y Parch. H. Wynne Jones, o Dreiorwerth, Mon; a bu iddynt amryw blant, a'r ail fab ydoedd y Dr. Rowland Williams, yr hwn a adwaenid trwy yr holl fyd Cristionogol, fel un o awdwyr yr *Essays and Reviews.*

**WILLIAMS**, Taliesin (*Taliesin ab Iolo*), ydoedd fab i'r henafiaethydd enwog, Iolo Morganwg. Ganwyd ef yn Nhreffleming, Morganwg, Gorph. 9, 1787. Cafodd addysg ragorol dan ofal ei dad yn benaf, trwy yr hyn y daeth yn alluog i lanw y swydd bwysig o ail athraw yn ysgol gampus y Parch. David Davies, o Gastellnedd. Parhaodd i lanw y swydd hono, er boddhad i'r prif-athraw, ac anrhydedd iddo ei hun, hyd oni agorodd ysgol ei hunan yn Merthyr Tydvil. Yma y priododd, ac y treuliodd weddill ei oes yn mharch a serch pawb a'i hadwaenai. Meddai holl frwdfrydedd ei dad yn ei gariad at Gymru a'i henafiaethau; ac anfynych y gwelir tad a mab ar lawer ystyriaeth mor debyg i'w gilydd. Fel yr hen Iolo athrylithlawn, bwriadodd lawer o bethau na chyflawnodd byth mo honynt; ac yn mhlith pethau eraill, bu am 21ain mlynedd yn addaw bywraffiad o'i dad, ac yn y diwedd yn marw cyn dwyn yr amcan i ben. Er hyny gwnaeth amryw gymwynasau teilwng i'w genedl. Cwblhaodd "Gyfrinach y Beirdd," yr hwn a adawodd ei dad ar yr haner, o herwydd anhunedd a gwendidau henaint. Cafodd aml i symbyliad a chymhorth i gyhoeddi y gwaith hwn gan yr enwog Gwallter Mechain; ac fel traithawd ar yr hen fesurau barddonol Cymreig, nid oes ei amgenach. Un o ddarganfyddiadau mwyaf pwysig hen fardd Morganwg, ydoedd Coelbren y Beirdd, sef llythyrenau Gwyddor yr Hen Gymry; ond anmheuid ei henafiaeth a'i dilysrwydd gan rai haneswyr, a thybid mai plentyn dychymyg yr hen Iolo ei hun ydoedd y cwbl. Yn ngwyneb hyn, cynygiwyd gwobr yn 1840, am y traithawd goreu ar Goelbren y Beirdd; ac enillwyd y wobr hono gan draithawd campus o waith ab Iolo, yn mha un y profai tu hwnt i amheuaeth, trwy ddyfyniadau o waith yr hen feirdd Cymreig, gywirdeb syniadau ei dad ar y pwnc; ac y dangosai yn eglur, os mai ei dad a ddyfeisiodd y Goelbren, y rhaid mai efe hefyd oedd wedi dyfeisio llenyddiaeth Gymreig o ben bwygilydd. Dywed y beirniaid mwyaf manylgraff, mai yr ymgais lwyddianus hon ydyw gorchestwaith ab Iolo. Cyhoeddwyd y traithawd meistrolgar hwn gan Mr. Rees o Lanymddyfri, dan y teitl "Coelbren y Beirdd; sef Hanes y Wyddor Farddol, gan Taliesin Williams." Yr oedd yn fardd rhagorol hefyd, yn Nghymraeg, a Saesneg. Yn 1827, cyhoeddodd bryddestawd Seisnig, dan y teitl, *Cardiff Castle, with historical notes*, ac yn mhen deng mlynedd ar ol hyny, bryddest arall, *The Doom of Colyn Dolphin*, gyda nodiadau eglurhaol ar draddodiadau, acofergoelion Morganwg. Cyfansoddodd amryw englynion yn Saesneg, a chyfieithodd amryw bethau o'r iaith hono i'r Gymraeg, gan mwyaf o waith Campbell, yn nghyda lluaws o hymnau, caniadau, &c. Enillodd y gadair yn Eisteddfod Caerdydd, am ei awdl ar y "Derwyddon." Yr oedd yn feirniad yn Eisteddfodau Merthyr, ac Abergafenni; a rhai llai yn yr ardaloedd hyny. Casglodd a golygodd lawer o gyfansoddiadau ei dad, y rhai a gyhoeddwyd dan yr enw "Iolo Manuscripts," un o'r llyfrau mwyaf dyddorol ar henafiaeth Gymreig a ddaeth erioed trwy y wasg. Gadawodd luaws o ysgrifeniadau gwerthfawr o'i eiddo ei hun heb eu cyhoeddi, yn mhlith pa rai yr oedd traithodau hanesyddol ar Sion Cent, Glyn Nedd, a Nos Galan Gauaf. Dylid crybwyll, iddo olygu ail argraffiad, ac ail gyfrol o "Salmau yr Eglwys yn yr anialwch" o waith ei dad; ac yn 1836, ail argraffodd yr "Adolygiad ar Hen Lawysgrifau Cymreig," o waith Iolo Morganwg, a ymddangosodd ar y cyntaf yn y Myvyrian Archaeology. Bu farw yn Merthyr, Chwef. 16, 1847.

**WILLIAMS**, Thomas, o Drefriw, ieithwr a meddyg dysgedig, neu fel yr adwaenid ef oreu yn ei wlad ei hun, Syr Thomas ab William, ydoedd fab i William ab Thomas ab Gronwy, yr hwn a hanai o du ei dad o Ednywain Bendew, un o Bumtheg Llwyth Gwynedd; a'i fam ydoedd Catherine, merch naturiol i Meredydd Wynn ab Ifan ab Rhobert o Wydir, ger Llanrwst. Yn ol tystiolaeth Thomas Williams ei hun, yn ei "Lyfr Achau," ganwyd ef mewn lle o'r enw Ardde'r Myneich, wrth droed y Wyddfa, yn nghwmwd Llechwedd Isaf, sir Gaernarfon. Addysgwyd ef yn mhrifysgol Rhydychain, lle y cafodd y radd o M.A., fel aelod o coleg Brazenose, yn 1573. Wedi hyny, ymroddodd i efrydu physigwriaeth, a dychwelodd i'w wlad i ddilyn yr alwedigaeth hono cyn

Digitized by Google

cymeryd o hono unrhyw radd ynddi. Ei waith llenyddol cyntaf, ydoedd "Prif achau holl Gymru Benbaladr." Dywed ddarfod iddo ddechreu ei gasglu yn 1578; iddo ei helaethu yn 1585, a chwanegu llawer ato yn 1609. Nid argraffwyd y llyfr hwn erioed, a thyna dynged ei holl weithiau eraill. Ysgrifenodd lyfr hefyd o gyfarwyddiadau meddygol, copi o'r hwn mewn llawysgrifen, sydd yn awr yn meddiant Ioan Lleifiad, Liverpool; a llyfr arall ar ser-ddewiniaeth. Ond ei lenorwaith ardderchocaf, a'r un a'i gesyd yn rhestr flaenaf ysgolorion, ydyw ei Eiriadur Lladin a Chymraeg. Y mae y gwaith hwn yn arddangos ymchwiliad mawr, ac yn werthfawr neillduol ar gyfrif y dyfyniadau lluosog a geir ynddo o lawysgrifau annghyhoeddedig yr hen feirdd; a phe cyhoeddid ef, hyd yn nod yn bresenol, byddai yn gaffaeliad gwerthfawr i ieithyddiaeth. Nid yw y talfyriad o hono a geir gan Dr. Davies, o Fallwyd, meddai awdwr dysgedig yr *Eminent Welshmen*, yn ddim ond mynegai byr; a chafodd ef gyfleusdra i gydmaru y ddau waith a'u gilydd. Mewn llythyr, dyddiedig Hydref 21, 1620, cynygiodd ei noddwr a'i gyfathrachwr Syr John Wynn o Wydir, lwybr iddo, trwy yr hwn y gallai gyhoeddi y Geiriadur; ond ymddengys nad oedd y telerau wrth ei fodd, canys dywed mewn atebiad:—"Parth y Geiriadur Lladin a Chymraeg, yr hwn trwy lafur a gwaith mawr, fel y gwyr Duw, y buom yn ei gyfansoddi am haner can' mlynedd, nid wyf yn gweled fawr obaith am nemawr gydnabyddiaeth i'm llafur; a chan hyny, ni thraddodaf ef ar frys i'r gwŷr hyn, addewidion y rhai a gyflawnir ond anfynych, Duw a dalo i chwi am eich caredigrwydd. Duw a wyr fy mod i, yn ystod y pedair blynedd y buom yn ei ysgrifenu, mor llwyr ymroddol i'r gwaith, fel mai mynych pan y deuwn oddiwrth y llyfr, nas gwyddwn pa ddydd o'r wythnos ydoedd, a thrwy hyny collais fy mywiolaeth, a fuasai erbyn hyn yn rhai cannoedd o bunau; ac yn y cyfamser, gallaswn fod yn dihoeni gan newyn pe na buasai i Dduw, a'ch arglwyddiaeth, gofio am danaf." Y mae y gwaith gwreiddiol yn llawysgrif yr awdwr, yn awr yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt, ac yn cynwys tair cyfrol pedwar plyg. Y mae y teitl wedi ei ddyddio 1604, a 1608, ac ymddengys mai yn y flwyddyn olaf y cwblhaodd efe y gwaith. Y mae llawysgrifau eraill o waith yr un awdwr dysgedig, yn nghadw yn yr un Llyfrgell werthfawr; ac yn eu plith, "Lyfr Prophwydoliaethau Cymraeg, a Saesneg, a Lladin, o law Syr Thomas Williams." Cyfansoddodd Lysieulyfr helaeth, yn Nghymraeg, Saesneg, a Lladin; yn cynwys hanes pob math o lysiau, a'u cyneddfau. Pabydd ydoedd o ran ei farn; ac fel y cyfryw, gwŷsiwyd ef ger bron y Llys Eglwysig, Bangor, Mai 23, 1606, tan yr enw, "Thomas Williams, *alias Dns Thomas Williams, de Trefryw, eo quod recusat venire ad Ecclesiam.*" A Tach. 12, 1607, gwŷsiwyd ef gan lŷs cyffelyb y brif ddinas, dan yr enw "*Dns T. Williams recusans excommicatur.*" Pan oedd Syr John Wynne o Wydir ar fedr cychwyn i'r Senedd y ceisiodd Brad y Powdr Gwn ei chwythu i fyny, rhybuddiwyd ef gan Thomas Williams; ac atolygodd yn daer arno beidio myned i fynu y tymhor hwnw, yr hyn a brawf fod ganddo ryw wybodaeth am y Frad, a'i fod yn awyddus i arbed bywyd ei noddwr. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Nhrefriw, a dywed traddodiad, iddo fod yn gurad y plwyf hwnw. Er na chydsaif hyn â phrif ffeithiau hanesyddol ei fywyd, eto y mae yn iawn hysbysu, fod yno gurad o'r enw, yn 1573; a'i fod yntau yn dodi Syr o flaen ei enw, yr hyn a ddengys ei fod mewn urddau eglwysig.

**WILLIAMS**, Thomas, a anwyd ac a fagwyd yn y Ty Ffwrn, ger y Fronheulog, tua haner y ffordd rhwng Llanfyllin a Llanfihangel-y-gwynt, neu Wynfe, sir Drefaldwyn. Gwehydd ydoedd wrth ei gelfyddyd, digon isel ei amgylchiadau, a helbulus ei fyd. Er mai ychydig o fanteision addysg a gafodd, gallai ddarllen ac ysgrifenu yn well nag odid neb yn yr un gymydogaeth ag ef. Cyfansoddodd y Salmau ar Gân, dan yr enw "Telyn Dafydd, sef cyfansoddiadau o Lyfr y Salmau, ar amrywiol a gwahanol fesurau," 1821; a Newyddion Gabriel, neu Lyfr Carolau, 1825.

**WILLIAMS**, Thomas, ydoedd fab i Owen Williams, o'r Cefn Coch, plwyf Llansadwrn, Mon; yr hwn ydoedd amaethwr cyffredin. Dywedir iddo gael rhyw doraeth o arian yn y ddaear, wrth aredig yn un o'i feusydd; ac â'r arian hyny dygodd ei feibion i fynu yn gynghorwyr yn y gyfraith. Gwasanaethodd Thomas ei amser arferol, fel breintwas i gyfreithiwr yn Ninbych, o'r enw Mr. Llwyd, merch yr hwn a briododd; ac wedi hyny, ymarferodd â'i alwedigaeth ei hunan, gyda llwyddiant mawr. Ar y cyntaf, bu yn byw yn hen balas Llanidan, Mon; a chafodd oruchwyliaeth gweithiau efydd mynydd Paris, o dan Iarll Uxbridge, a'r Parch. Edward Hughes, tad y diweddar arglwydd Dinorben. Wedi hyny, cafodd gyfran yn y gwaith hwnw. Cyfododd y gwaith i fri llwyddianus o dan ei oruchwyliaeth ef, nes yr oeddid yn codi pedair mil o dunelli o efydd yn flyneddol. Sefydlwyd tawdd-dai mewn amryw fanau yn y deyrnas, ac yr oedd gwerth yr holl drafodaeth yn llawn filiwn o bunau; a Mr. Williams eu hunan oedd yn goruwch lywyddu y cyfan. Am beth amser, bu ymryson rhyngddo â Chymdeithas Gweithiau Cernyw; yr hyn o'r diwedd a derfynodd mewn math o gydweithrediad cyfamodol; yr hyn a dueddai i ddinystrio yr holl fân-gymdeithasau trwy y deyrnas. Dygwyd ysgrif i'r Senedd, er atal y gribddeiliaeth hon; eithr methodd a myned yn gyfraith. Darfu i hyn symbylu cymdeithasau Birmingham i ymgyssylltu yn un, a phrynu mwngloddiau yn Nghernyw, ac adeiladu tawdd-dai yn Abertawy, yr hyn a achlysurodd i'r cyfamod rhwng perchenogion Mynydd Paris gael ei roddi i fynu. Yr oedd Mr. Williams yn meddu deall cryf a chyflym, a chanddo lygad craff at fasnach; ac yn ddiymdroi gyda'i holl gynlluniau, fel yr oedd pob peth a gymerai mewn llaw yn llwyddo. Gadawodd ar ei ol gyfoeth o ddim llai na chwarter miliwn o bunau. Yr oedd ganddo gymaint a phump o balasau, mewn pump o siroedd gwahanol. Y mae ei enw a'i fri yn cael yn awr ei gynrychioli yn Mr. Williams, Craig y Don, Mon. Bu farw yn Nghaerbaddon, Tachwedd 30, 1801; a chladdwyd ef yn Llanidan; ond symudwyd yr holl gyrph oddiyno tua'r flwyddyn 1844, i fynwent Llandegfan.

**WILLIAMS**, Thomas, bardd meistrolgar, a adwaenid hefyd wrth yr enw Twm Pedrog, ydoedd frodor o Lanbedrog, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Bu am ran o'i oes yn gwasanaethu ar fwrdd llong ryfel, yr *Amathyst*. Y mae awdl yn y Brython, iv. 28, o'i waith i M. W. P. (B.B.) ac A. F.," a gyfansoddodd efe ar fwrdd y llong hono, yn y flwyddyn 1800. Ceir hefyd yn yr un cyhoeddiad, iv. 110, englynion a wnaeth "Wedi colli ei gariad;" ac yn v. 468 Gywydd i'r "Onen wrth yr Ardd Wair."

**WILLIAMS**, Thomas, o Bethesda'r Fro, Morganwg, ydoedd emynydd da; ac a anwyd yn 1764.

Digitized by Google

Ei rieni, Richard a Mary Williams, oeddynt bobl gyfrifol, ac yn byw mewn amaethdy o'r enw Trerhedyn, plwyf Pendeulwyn, ger y Bontfaen, yn y sir grybwylledig. Cafodd crefydd argraff yn fore ar ei feddwl, ac nid esgeuluswyd dodi moddion addysg o fewn ei gyrhaedd, ac nid esgeulusodd yntau wneud y goreu o'r cyfleusdra. Pan yn ddeg oed, ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nrebill, gerllaw ei gartref. Priododd Jane Morgan, o'r Brennis ger Llanilltyd Fawr, ac aeth i fyw i Ffonmon, gerllaw Bethesda'r Fro. Parhaodd yn aelod selog a defnyddiol gyda'r Methodistiaid hyd 1790, pan y diarddelwyd y Parch. Peter Williams, am yr Ariaeth dybiedig yn ei Feibl Teuluaidd. Yr oedd T. Williams yn un o'r amryw wŷr annibynol eu barn, a gredent fod yr hen dduweinydd hybarch yn cael cam oddiar law y Cyfundeb, ac a benderfynodd nad arosai yn hwy yn aelod o hono. Gan ei fod yn wr cyfrifol yn ei ardal, dilynwyd ef yn hyn gan amryw o'i gymydogion; cymerasant anedd-dy yn agos i Aberddawen, lle yr ymgorphorasant yn eglwys, yr hon nid oedd yn honi cysylltiad ag unrhyw enwad arall. Parhaodd felly am hir amser, heb ganddi na gweinidog, na phregethwr yn llafurio ynddi; yna gwelodd fod defnyddiau pregethwr yn T. W. ac anogwyd ef i ddechreu pregethu. Yn raddol, ymwelai rhai o bregethwyr y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr, â'r lle; ac o'r diwedd ymunodd yr eglwys fechan gyda'r enwad olaf, ac felly y parha hyd heddyw. Ymddengys ddarfod iddi yn fuan wedi hyn, sef yn 1806, adeiladu at eu gwasanaeth, gapel Bethesda. Bu Mr. Williams yn gweinidogaethu ar yr eglwys hon am ugain mlynedd, gyda gradd o lwyddiant, ond nid mor lwyddianus ag y gallesid dysgwyl. Cododd gapel arall, sef Myrstwn, yn agos i'r un lle. Yn mhrydnawn einioes, symudodd i Drefflemin, a chyfarfyddodd ag amryw drallodion teuluaidd yn y lle hwnw; sef marwolaeth ei wraig, yr hyn a gymerodd le Hydref 24, 1827, a'i unig ferch, a mab. Bu ef fyw nes cyrhaedd yr oedran teg o 84, pryd y bu farw mewn heddwch, Tach. 23, 1844. Yn 1811, cyhoeddodd lyfryn o'r enw "Dyfroedd Bethesda," sef Hymnau ar amryw destunau, a chaniadau ar amryw ystyriaethau." Daeth ail argraffiad o hono allan yn 1823, a thrydydd yn 1842.

**WILLIAMS**, Thomas, a anwyd yn Abererch, Eifionydd, sir Gaernarfon yn 1771. Ni chafodd ddysgeidiaeth. Dygwyd ef i fynu yn saer llongau. Ei hynodrwydd oedd ei ddyfais i gerfio lluniau i addurno llongau. Yr oedd yn nodedig hefyd fel rhifyddwr y meddwl, cyflym; gwnai unrhyw swm a ofynid ganddo. Yr oedd yn hyddysg iawn mewn hanes gwledydd, hanes cenedloedd, a hanes eglwysig. Gwnaeth Bedwarant y Morwr o'i ddyfais ei hun, ac offeryn arall i wybod yr hydred ar y mor. Dangoswyd hwn i foneddigion Bwrdd Llynges Brydain, a chanmolent ei fedrusrwydd yn fawr. Bu farw yn Nghaerodor, yn nhy ei ferch, yn 1847, yn 76 mlwydd oed.

**WILLIAMS**, Syr William, gwladweinydd, a chyfreithiwr enwog, a anwyd yn Nantanog, Mon, yn y flwyddyn 1634. Yr oedd Hugh Williams, D.D., ei dad, yn offeiriad Llantrisant, yn y sir hono, ac yn fab ieuengaf Mr. Williams o'r Chwaen isaf, yr hwn oedd yn disgyn y pedwerydd ar ddeg o Cadrod Hardd, oedd yn byw yn y flwyddyn 1100 yn Trefadog, yn mhlwyf Llanfaethlu. Aeth William Williams i'r ysgol i Rydychain, a daeth yn ysgolor o Goleg yr Iesu, yn y flwyddyn 1652, a pharhaodd i aros yno am ysbaid dwy flynedd, pryd y symudodd i *Gray's Inn*, a gwnaed ef yn ddadleuwr yn y gyfraith. Yn 1667 gwnaed ef yn Gofiadur dinas Caerlleon Gawr. Ar doriad allan y fradwriaeth Babaidd, ochrodd gyda y blaid grefaf, a dewiswyd ef yn fwrdeisiad dros ddinas Caerlleon, fel un cymwys i eistedd drostynt yn y senedd oedd yn dechreu yn Westminster, Mawrth 6ed, 1678; a'r un a ddechreuodd Hydref 17eg, 1679; a'r un hono a ddechreuodd yn Rhydychain, Mawrth 21ain, 1680; ac yn y ddau olaf, dewiswyd ef yn Llefarydd Ty y Cyffredin. Bu wedi hyn yn aelod seneddol dros fwrdeisdref Beaumaris, a sir Gaernarfon. Yn y flwyddyn 1684, cafodd ei brofi am gabldraith, am iddo beri argraffu hysbysiadau un Thomas Dungerfield, Ysw., ac er iddo ddadleu fod cyfraith ac arferiad y senedd o'i blaid, dirwywyd ef o ddeng mil o bunau, am iddo drwyddedu i'r cyfryw hysbysrwydd gael ei argraffu, a gorfu iddo dalu wyth mil o'r cyfryw swm. Priodolai Roger North y ddirwy greulawn hon, i ddigter ac atteimlad y Barnwr Jeffreys, yr hwn a ddarostyngasid drwy ei orfodi i fyned ar ei liniau o flaen Ty y Cyffredin, pan oedd Williams yn Llefarydd. Ar ol y chwyldroad, cyhoeddwyd y ddedfryd yn anghyfreithlawn gan Dy y Cyffredin, ac yn erbyn rhyddid y Senedd. Yr oedd ef yn un o'r cyfreithwyr mwyaf enwog yn ei oes, ac ymddengys oddiwrth ddadleuon y prawfion gwladol y tymor hwnw, ei fod yn ddiffynwr aiddgar y blaid grefaf yn amser Siarl II. Ar ol esgyniad y brenin Iago, efe a dderbyniwyd i'w ffafr, a gwnaed ef ganddo yn Ddadleuydd, neu Gyfreithiwr Cyffredinol, yn lle Syr Thomas Powis. Cymerodd hyn le yn Rhagfyr 1687, pryd y derbyniodd yr anrhydedd o Farchog. Yn mis Gorphenaf, y flwyddyn ddylynol, gwnaed ef yn farwnig. Pan yn Gyfreithiwr Cyffredinol, efe a ddygai yn mlaen yr erlyniadau yn erbyn esgobion, a chymerai lawer o drafferth i'w cael yn euog. Argraffwyd llawer o'i areithiau yn y Senedd. Ar ol y chwyldroad, penodwyd ef yn un o gynghorwyr y brenin, ac un o weithredoedd cyhoeddus olaf ei fywyd, oedd dwyn i mewn ysgrif i rwystro treulion yn etholiad aelodau, yr hon yn gyffredin a elwid y *Treating Act*. Efe oedd tad y Syr Watkin Williams Wynne, cyntaf. Bu farw Syr William, yn ei ystafell yn Gray's Inn, yn mis Gorphenaf 1700, yn 66 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Llansilin, lle y mae murfaen cofianol am dano. Y mae ei arlun yn cael ei gadw yn neuadd dinas Caerlleon Gawr hyd heddyw.

**WILLIAMS**, William, o Landegai. Y Cymro talentog a hunan-ddysgedig hwn, a anwyd yn Tŷ Mawr, Trefdraeth, Mon; Mawrth 1, 1738. Saer maen ydoedd ei dad, a'r unig ddysgeidiaeth a gafodd ydoedd dan ofal hen wreigan yn yr ardal, yr hon a ddysgodd y wyddor iddo, a darllen ychydig. Ond trwy ei ddyfalwch a'i ymroddiad, gwnaeth y golled hon ei hun i fynu; arosai yn hwyr uwchben ei lyfrau, gan gynilo bob dimai a gai, er mwyn eu prynu, a chanwyllau i'w darllen. Yr oedd ei holl lyfrgell yn gynwysedig o Feibl Cymraeg, a llyfr a brynasai trwy gynilwch dirfawr, am bump a chwech, o'r enw *Geographical Grammar*. Symudodd yn ieuanc i Lanerchymedd, ac yno daeth yn gydnabyddus a'r Bardd Coch o Lwydiarth Esgob, a Robert Hughes o'r Ceint bach, y rhai a fuont yn gymwynaswyr caredig iddo. Y bardd o Geint Bach oedd un o sylfaenwyr cyntaf Cymdeithas y Gwyneddigion yn

Digitized by Google

Llundain; a dewiswyd Mr. Williams yn aelod gohebol o honi, a chafodd hefyd yn y cyfamser, yr enw barddonol Gwilym Ddu o Arfon. Tua'r un pryd, ffurfiodd gydnabyddiaeth â William Morris, o Gaergybi, a'i chwaer, y rhai oeddynt yn goleddwyr gwresog i bob athrylith ieuanc a ddymunai ymgodi o'r clai tywodlyd. Wedi gwasanaethu ei egwyddoriaeth o saith mlynedd, gyda *Saddler* yn Llanerchymedd, ymadawodd, gyda'r bwriad o ymfudo i'r Amerig; ond gan ei fod bellach yn ysgolor gwŷch, cafodd le fel ysgrifenydd i oruchwyliwr etifeddiaeth y Penrhyn, ger Bangor. Bu y penodiad hwn yn ffodus iawn iddo ef ei hun, i'w feistr, cystal ag i'r wlad oddiamgylch; canys trwy ei offerynoliaeth ef yn benaf, y dadblygwyd cyfoeth enfawr chwarel Cae Braich y Cafn. Yr oedd Mr. Williams yn henafiaethydd treiddgraff, ac wedi sylwi a myfyrio ar un o ddywediadau yr hen frudiwr Myrddin ab Morfyn, yr hwn a ddywedai:—

"Troi'r ceryg yn fara
Yn agos i'r Wyddfa."

Galwer ei ffydd yn y geiriau hyn yn hygoeledd, neu rywbeth arall, credai ef yn ddiysgog mai prophwydoliaeth oeddynt, y troid cerryg lawer yn arian, a'r arian yn fara, yn Eryri; a meddyliai nad oedd man amgenach i sylweddoli yr hen frud, nag yn yr hen Chwarel anghysbell grybwylledig, yr hon a weithid y pryd hwnw gan tua phedwar ugain o ddynion truenus, trwy dori ychydig dyllau beision ar lechwedd y Fronwen. Efe a anogodd Arglwydd Penrhyn, perchenog y lle, i gymeryd y gwaith yn ei law ei hun; ac o'r awr y darfu ei arglwyddiaeth dderbyn y cynghor hwnw, y gellir dyddio dechreu llwyddiant y chwarel lechau sydd bellach y fwyaf yn y byd. Penodwyd Mr. Williams yn llech-oruchwyliwr, a llanwodd y swydd bwysig hono o 1782, gyda'r fath onestrwydd a dilysrwydd, ac enillodd gymaint o ffafr ei feistr, fel, pan y daeth cyfnewidiad ar y dull o werthu y llechi yn 1803, y darfu i Arglwydd Penrhyn adael iddo ymneillduo oddiwrth bob gwaith, a chaniatau iddo ar yr un pryd ei gyflog yn llawn fel o'r blaen. Bellach, cafodd hamdden i feithrin ei chwaeth a'i dalent naturiol gref at henafiaethau a cheinion cynoesoedd ei wlad. Yn 1802, cyhoeddodd ei, *Observations on the Snowden Mountain, with some account of the Customs and Manners of the Inhabitants*, ac y mae yn waith pur ddyddorol. Cyfansoddodd ddau lyfr mawr yn Saesoneg, o hanes Mon, ac Arfon, y rhai a fenthyciwyd gan Syr Richard Hoare, a gwnaeth yntau ddefnydd da o honynt. Troes Bum' Llyfr Moses ar gân, ysgrifenodd Esboniad ar Weddi'r Arglwydd, a llawer o weithiau cyffelyb. Adwaenir ef yn mhlith ei gydgenedl oreu, fel awdwr "Prydnawngwaith y Cymry," yr hwn a fwriedid fel attodiad i Ddrych y Prif Oesoedd, ac a gyhoeddwyd gan ei fab, Robert Williams, Frondeg. Bangor, yn 1822. Bu farw Gorphenaf 17, 1817, a chladdwyd ef yn mynwent Llandegai. Canodd Gutyn Peris farwnad deimladol iawn ar ei ol.

**WILLIAMS,** William, Aelod Seneddol dros Coventry, a Lambeth, am fwy na chwarter canrif. Ganwyd ef yn Tredaren, plwyf Cynwyl, sir Gaerfyrddin, yn 1788. Yr oedd ei rieni yn bobl isel yn y byd, ond eithaf parchus; a phan yn dra ieuanc. dodwyd ef yn egwyddorwas o siopwr gydag un Mr. Phillips, yn nhref Caerfyrddin; ac fel lluaws o fechgyn tlodion Cymru, ar derfyn ei egwyddorwasanaeth, wynebodd i'r Brif-ddinas, a thrwy ddiwydrwydd a ddyfal barhad bu yn llwyddianus i gasglu cyfoeth lawer. Cafodd le israddol ar y cyntaf, mewn nwyddfa gyfanwerth, ac ymgododd o radd i radd, nes dyfod yn un o brif farsiandwyr Llundain. Ar ol cael ei gefn ato mewn pethau bydol, cymerodd ran flaenllaw mewn amgylchiadau lleol a dinesig, cystal a symudiadau gwleidiadol y dydd; a daeth yn awdurdod o gryn bwys yn y cyfryw bynciau. Yn 1835, dychwelwyd ef i'r senedd, gan Ryddfrydwyr Coventry, a hyny ar bwys y safle a'r cymeriad a feddai yn y Brif ddinas. Parhaodd i gynrychioli y dref hono hyd 1847, pan y taflwyd ef allan. Yn 1850, dychwelwyd ef tros Lambeth, a chynrychiolodd y lle pwysig hwnw hyd ei farwolaeth. Er mai anfynych y llefarai yn Nhy y Cyffredin, eto nid oedd aelod a adwaenid yn well ar gyfrif ei ffyddlondeb i'r egwyddorion a broffesai. Yr oedd yn Rhyddfrydwr trwyadl, gellid dibynu ar ei gymhorth ef i unrhyw fesur rhyddfrydol a ddygid ger bron. Prif amcan ei fywyd seneddol, ydoedd gostwng treuliadau y wladwriaeth. Yr oedd yn un o ddysgyblion ffyddlonaf y gwrthwastraffwr Joseph Hume, a phan fu efe farw, ar Mr. Williams y syrthiodd ei fantell. Yr oedd yn bleidiwr twymgalon i sefydliadau addysg, ac elusen, a chymerai ddyddordeb neillduol yn y cyfryw o fewn ei wlad enedigol. Iddo ef y dylem ddiolch, gan mwyaf, am y cynydd dirfawr fu ar addysg yn Nghymru, yn ystod y chwarter canrif diweddaf. Yr oedd yn Gymro gwir wladgarol, a buasai Prifysgol Gymreig wedi ei sefydlu er's hir amser, pe buasai y genedl mor aiddgar ag y dylasai gyda'r symudiad. Efe oedd un o'r rhai cyntaf a awgrymodd y priodoldeb o droi coleg Dewi Sant, Llanbedr, yn Brifysgol. Dygodd y mater gerbron y Llywodraeth, yr hon a edrychai yn ffafriol ar y cynygiad, a syrthiodd y cwbl i'r llawr o herwydd difaterwch y Cymry eu hunain. Ar ei gynygiad ef hefyd yn y Senedd, y penodwyd dirprwy i chwilio i ansawdd addysg yn Nghymru, a ffrwyth y ddirprwy hono, ydoedd y Llyfrau Gleision a barodd y fath gynnwrf. Condemniwyd hwynt fel ymchwiliadau annheg, anwir, ac afreidiol; ond nid oes neb bellach a wâd na pharasant ddaioni mawr. Cyfranai yn haelionus at ysgolion, colegau, a sefydliadau addysg i'r werinbobl. Yr oedd yn falch o'i wlad, a threuliai gyfran o bob blwyddyn ar ymweliad a golygfeydd ei febyd. Llawenychai o galon yn ei llwyddiant parhaol; ac y mae ei gydwladwyr yn cyfiawn ymffrostio ynddo, fel dyn a gerfiodd enw anrhydeddus iddo ei hun yn y byd, heb gymhorth cyfeillion, na chynysgaeth. Bu farw yn Llundain, Ebrill 29, 1865, yn 77 mlwydd oed.

**WILLIAMS,** Parch. William (*Caledfryn*), ydoedd weinidog perthynol i'r Annibynwyr, yn y Groes-wen, swydd Forganwg. Yr oedd yn un o'r Beirdd mwyaf cyhoeddus yn ei oes, ac un o'r llenorion mwyaf dysglaer yn y Dywysogaeth. Brodor ydoedd o Ddinbych; ganwyd ef, Chwefror 6, 1801. Derbyniwyd ef yn aelod gyda yr Annibynwyr yn ei dref enedigol, gan y Parch. D. Roberts. Dechreuodd bregethu yn 1826. O blegid ei dalentau naturiol, a'i gymeriad crefyddol, anogwyd ef i bregethu yn gynar, a chyflwynwyd ef i Goleg Rotherham i dderbyn ei addysg, dan hyfforddiad yr enwog Dr. Bennett. Dychwelodd yn fuan i Gymru, a derbyniodd alwad i'r weinidogaeth yn Llanerchymedd, Mon, lle yr urddwyd ef yn weinidog, mewn cysylltiad â Hebron, Maenaddfwyn, Mehefin 2, 1829. Gwedi bod yn

Digitized by Google

llafurio yma gyda chryn lwyddiant, symudodd i Gaernarfon, i gymeryd gofal eglwys Pendref, lle y bu yn llafurio yn effeithiol am tuag un flynedd ar bymtheg, yn ystod pa amser yr helaethwyd y Capel, ac y cynnyddodd y gynulleidfa yn fawr. Yr oedd gofal y Bont newydd arno yr un pryd. Gadawodd Gaernarfon, ac ymsefydlodd yn Llundain, yn 1848, i gymeryd gofal y gynulleidfa oedd yn addoli yn Aldersgate. Symudodd cyn hir i Lanrwst, yn Sir Ddinbych, a bu yn gweinyddu yno, gyda Threfriw, am tua saith mlynedd. Ymadawodd oddiyno, a bu yn cyfaneddu am ychydig amser yn Bangor. Derbyniodd alwad i'r Groeswen, gyda Nant garw, a Chwm yr Aber, lle y parhaodd i lafurio gyda chymeradwyaeth mawr hyd ddiwedd ei oes. Derbyniodd dros 250 o aelodau yn y lle blaenaf, a nifer cymharíaethol yn y lleill. Ail-adeiladwyd y Capeli yn y ddau le olaf yn y cyfamser. Helaethwyd mynwent y Groeswen, a chodwyd Ysgoldy Brytanaidd ar y tir, ac yr oedd holl amgylchiadau yr achos crefyddol wedi ymgodi i raddau mawr dan ei weinidogaeth rymus. Yr oedd poblogrwydd Mr. Williams wedi codi yn uchel yn y weinidogaeth, drwy ei gyhoeddusrwydd fel awdwr, a bardd, a beirniad. Fel llenor, bu yn weithgar drwy y wasg ar hyd ei oes. Bu yn olygydd i lawer o gyhoeddiadau misol, megis y Sylwedydd, Tywysog Cymru, Y Seren Ogleddol, Y Papur Newydd Cymraeg, Baner Gwynedd, yr Adolygydd, y Gwron Cymreig, yr Amaethydd, y Gwladgarwr; a chymerodd ran yn ngolygiaeth y Dysgedydd, &c. Cyhoeddodd amryw gyfrolau o wahanol faintioli o bryd i bryd, megis Grawn Awen, Caniadau, Darlith ar Draddodiadau yr Hynafiaid, Crib-ddeiliaeth, Deddfau yr yd, Pregeth Angladdol Williams o'r Wern, &c. Bu yn golygu gweithiau Robert ab Gwilym Ddu, John Thomas, Pentrefoelas, ac eraill; ac y mae ei Ddrych Barddonol, a'i Ramadeg, yn hysbys iawn, yn gystal a'i gasgliad o Emynau; a nifer o fân weithiau eraill, rhy luosog i'w henwi yma.

Yr oedd Caledfryn, trwy gydnabyddiad y cyhoedd, wedi ymgodi i safle uchel iawn fel Bardd, a Thraithodwr. Enillodd y Gadair Farddol yn Eisteddfod Beaumaris, yn y flwyddyn 1832, am ei Awdl benigamp ar "Ddrylliad y Rothesay Castle;" ac arwisgwyd ef a'r Tlws, gan y Frenhines, y pryd hwnw, y Dywysoges Victoria. Derbyniodd wobr ychwanegol o law ei Huchelder Brenhinol, Duges Caint, mam y frenhines. Yn mhen ychydig flynyddau wedi hyny, pan yr ymwelodd y Frenhines a'r Tywysog Albert â Chaernarfon, anerchodd hwy mewn Awdl, yr hon a anfonodd iddynt, gyda chyfieithiad Saesonaeg, a derbyniodd ddiolchgarwch gwresog ei Mawrhydi, trwy law ei Hysgrifenydd, dan sel ac arf beisiau y goron. Enillodd amryw obrwyon o'r dosparth cyntaf. Cymerodd ei enw barddonol, trwy benodiad Dafydd Ddu Eryri, oddiwrth enw gwreiddiol ei dref enedigol, sef Caledfryn yn Rhos; ac y mae yr enw yn air yr aelwyd yn mhob tref a gwlad lle y mae Cymry yn cyfaneddu. Bu farw Mawrth 23, 1869. Ychydig o amser a fu ysdod ei gystudd. Pregethai y bore Sabbath blaenorol i ddydd Mawrth ei ddatodiad, oddiwrth 2 Cronicl xxxiii. 12, 13. Ysgrifenai ei ohebiaeth arferol fore dydd ei farwolaeth, ond teimlai raddau o wendid yn dyfod drosto, ac enciliodd i orphwys, ond yr oedd fel pe buasai yn ymwybodol o nesaad y cyfnewidiad mawr, ac yn parotoi ar gyfer y daith.

Yr oedd Mr. Williams wedi hynodi ei hun er ys blyneddau fel pregethwr, ac fel areithiwr; yr oedd wedi ei dori allan at y fanllor yn gystal a'r areithfa, ac yr oedd wedi cymeryd rhan yn mhob pwnc cyhoeddus o bwys ag a ddygwyd ger bron y wlad, drwy ysdod ei oes. Y mae llawer o elfenau ei gymeriad, i'w cael mewn awgrymiadau yn ymadrodd y prophwyd, pan y dywedai, "Wele yr Arglwydd, Arglwydd y lluoedd, a dyn ymaith o Jerusalem ac o Judah, y cynhaliaeth a'r ffon, holl gynhaliaeth bara, a holl gynhaliaeth dwfr; y cadarn a'r rhyfelwr: y brawdwr a'r prophwyd, y synhwyrol a'r henwr; y tywysog deg a deugain, a'r anrhydeddus, a'r cynghorwr, a'r crefftwr celfydd, a'r areithwr hyawdl." Collodd yr holl enwadau, nifer o'u gwyr cedyrn, tua yr un amser ag ymadawiad Caledfryn. Os detholir y nodweddau mwyaf amlwg ynddo, allan o'r rhestr hon gan Esaiah, nid oes neb na addef ei fod yn sefyll yn y dosparth cyntaf, ar ben pinacl anrhydedd y genedl. Os edrychwn arno fel "prophwyd," nid fel un yn rhagfynegi pethau dyfodol, ond fel addysgydd y bobl, ni a'i canfyddwn yn mysg y pigion: yr oedd wedi ei ddiwyllio ei hun, ac yn fedrus yn y gelfyddyd o hyfforddi eraill, ac felly yr oedd yn athrawaidd. Yr oedd bob amser yn "gadarn" yn y pwnc a gredai yn drwyadl. Yr oedd y mwyaf diysgog o bawb, os nid yn rhedeg weithiau dros ben mesur yn ei benderfyniad. Meddai hyder am y canlyniadau, bob amser ag y byddai ef yn argyhoeddedig ei fod yn sefyll ar dir dyledswydd. Yr oedd yn "rhyfelwr" drwy ei oes, er ei fod yn brif wrthwynebwr rhyfel y cledd. Bu mewn nifer o frwydrau llenyddol o bryd i bryd, Safodd yn wrol o blaid egwyddorion Heddwch, a Chyflafaredd, i derfynu dadleuon rhwng cenhedloedd a'u gilydd, trwy ei ddarlithiau, a'i ysgrifau cyhoeddus. Yn amser rhyfel y Crimea, ymosododd yn ddi arbed ar y twyll-resymau a arferai rhai i guddio y gwarth. Ystyriai ryfel yn un o'r prif ataliadau ar ffordd llwyddiant yr efengyl, yn y gwledydd tramor, yn gystal a phob man arall. Y mae cysylltiad "y synhwyrol" a'r "henwr," yn naturiol iawn. Dywed y gwr doeth, "myfi doethineb wyf yn trigo gyda challineb, yr ydwyf yn cael allan wybodaeth cyngor." Pa mor belled y cadwodd ef y llinellau hyn gyda eu gilydd, ar bob amgylchiad, ni pherthyn i ni ymofyn, ond yr ydym yn cyfeirio at ei ymdrechion i weithio allan yr hyn a gredai. Cawsom ef lawer gwaith yn "dywysog y deg a deugain," mewn pynciau cyhoeddus, a berthynent i'r amseroedd. Cafodd gwleidyddiaeth gryn ran o'i sylw. Yr adeg gyntaf ag y daeth yn adnabyddus i'r byd, fel y cyfryw, oedd yn yr amser ag y gwnaeth ei sylwadau miniog, ar Rhag-ymadrodd ar yr achlysur o farwolaeth y Parch. J. Rees, o Lundain, gan y Parch. John Elias o Fon, yr hwn a ddarlunid fel un wedi ei enwogi ei hun fel "Ymneillduwr oddiwrth yr Ymneillduwyr; o blegid yr ymyraeth oedd ganddynt yn barhaus â gwleidyddiaeth. Yr oedd hyn yn cymeryd lle pan nad oedd yr enwadau mor gyfan yn y gwaith ag ydynt yn awr. Ysgrifenodd ac areithiodd lawer yr erbyn Sefydliadau gwladol o grefydd. Dichon mai efe, tua deugain mlynedd yn ol, yn Llanrwst, a gynaliodd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf o blaid dadgysylltiad yr eglwys a'r wladwriaeth. Bu yn gyhoeddus iawn yn yr ymdrech am ddileu deddfau yr yd. Galwodd yn nghyd Gynadledd o'r holl enwadau yn Nghaernarfon ar yr achos. Dynoethodd yn ddiarbed y waedd

Digitized by Google

hono oedd yn y wlad, yn amser y prinder mawr, sef ein bod "dan farn Duw," pan y mynai yntau mai dan farn dynion yr oeddym. Yr oedd digonedd o ymborth yn y wlad, ond yr oedd yr amaethwyr yn gwrthod ei werthu am bris y farchnad. Bu y gynnrychiolaeth yn bwnc pwysig ganddo am dymor maith. Dadleuai yn gryf mai yma y dylesid dechreu gweithio gyda y dwygiadau. Safai yn wrol dros iawnderau gwladol y bobl. Cafodd fyw i weled yr amcan hwn wedi ei gwblhau i raddau mawr. Fel y "crefftwr celfydd" yr oedd ef wedi talu cryn sylw i'r gwyddorau. Yr oedd wedi bod yn cyfieithu traethodau Chambers i'r Wasg, ac yr oedd wedi ysgrifenu llawer ar "Fferylliaeth Amaethyddol" i'r "Amaethwr," a gyhoeddid yn Nghaernarfon; ac ar Ryddhad y Caethion, o bryd i bryd.

Ond wedi y cyfan, y mae yn debyg mai fel gweinidog, a llenor, a bardd, yr oedd ef fwyaf cyhoeddus ger bron y byd, yr hyn a gawn yn naturiol iawn yn y "cynghorwr" a'r "areithiwr hyawdl." Yn y rhagoriaethau hyn, yr oedd yn sefyll yn uchel iawn, yn ol addefiad y cyhoedd. Y mae llawer o ffyrdd gan ddynion i osod allan eu meddyliau a'u teimladau yn effeithiol, megis areithyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth, darluniaeth, cerfiadaeth, a chwareuyddiaeth, ond nid oedd efe ar ben y pinacl ond yn y ddwy elfen gyntaf. Nid oedd wedi ei hynodi ei hun yn y lleill, er ei fod wedi talu cryn sylw iddynt. Yr oedd pob peth ynddo wedi ei dori allan gan natur i fod yn draddodwr. Dywedodd Dr. Campbell am dri dyn yn yr oes hon, fod lluniad eu gwynebau yn wahanol i bawb eraill; fod y croen yn debyccach i farmor nac i gnawd; nad oedd agoriad eu llygaid, ysgogiad eu gwefus, na symudiad eu llaw, fel dynion eraill; fod areithyddiaeth fyw yn mhob ystum a wnelent. Cyfeiriai at Napoleon Buonaparte, Dr. Chalmers, a Henry Ward Beecher; a phe buasai yn adnabyddus o Caledfryn, diau yr ychwanegasai ef at ei drioedd. Yr oedd ffurf ei ben, a drych ei wyneb, yn hynod. Nid oedd neb a'i cyfarfyddai ar y brifffordd, heb ei weled o'r blaen, na ddywedai, "Y mae hwn yna yn rhyw un." Yr ydym yn cofio yn burion yr olwg gyntaf a gawsom arno, dros ddeugain mlynedd yn ol, o'r oriel, yn y pwlpud, yn llengcyn ieuangc, dengar ei ymddangosiad, lled lwyd a theneu; a gwallt mawr, rhydd, goleu, melynlliw ganddo. Wrth ddechreu ei bregeth, yr oedd yn barhaus â bysedd ei law ddehau, yn troi ei wallt yn ol, oedd beunydd yn dyfod ar draws ei lygaid; fel pe buasai dan anesmwythder gewynol, fel y tybiem ar y pryd, yr hyn a godai beth rhagfarn ynom ato. Ond ni waeth beth a fo, fel yr oedd yn myned rhagddo, ac yn gwresogi gyda'i bwnc, ac yn traddodi mor bert, mewn ffrwd o hyawdledd diorphwys, anghofiwyd y gwallt, a'r llaw, gan angerddoldeb y traethiad. Yr oedd pob gair yn goethedig, pob brawddeg megis wedi ei mesur, a phob ymadrodd yn denu ein serch, mewn teimlad na chollwyd mo hono hyd y dydd hwn. Yr oedd yn nodedig am burdeb ei iaith. Yr oedd yn hoff iawn o arddull y Bibl Cymraeg. Yr oedd yr holl gyfoeth geiriol yn barod at ei alwad, heb angen am un math o egni, ac ni fradychai gydsain na llafariad mewn unrhyw ymadrodd. Tynodd sylw mawr fel darllenydd medrus yn moreu ei weinidogaeth, ac yr oedd ei acenion, a'i bwys leisiau, yn berffaith naturiol bob amser. Yr oedd yn cynal cywirdeb drwy holl ffraethineb ei ymadroddion. Yr oedd o'r braidd yn eithriad i sylw yr apostol Iago, "Od oes neb heb lithro ar air, gwr perffaith yw hwnw, yn gallu ffrwyno yr holl gorph." Yr oedd ganddo ef ffrwyn sidan ar ei dafod, fel na lithrai byth ar air, na sill, na llythyren. Yr oedd ei barabl mor ystwyth, a'i frawddegau mor gaboledig ag y dymunai y beirniad craffaf eu bod, ac eto ni theimlai un anfantais i'w wneud ei hun yn eglur, ac yn dderbyniol, drwy ei holl ymresymiadau i gyd. Siaradai â threm ei lygaid, ysgogiad ei law, a derchafiad ei fraich. Yr oedd dau arwydd o hwyl traddodiad yn symudiad ei law, un yn llac, a'r llall yn haner cauedig, ac yna y deuai allan nerth ei apeliadau i goroni y cwbl. Gallem gyfeirio at ddau amgylchiad, fel egluriad o effeithiau ei weinidogaeth. Yr oedd ei bregeth yn Nghonwy, ar "Bethau mawrion y gyfraith," mewn cyfarfod blyneddol yno, yn ddiarhebol am brydferthwch traddodiad, a dylanwad argraph, ar y gwrandawyr. Yr oedd rhai fel wedi cael eu taro â syndod, ac eraill megis wedi eu syfrdanu, ac eraill mewn dwysder mawr; a gwaeddai rhai allan, "Ni chlywsom y fath beth erioed;" a dywedai Harri Edwards, yr hen ddiacon yno, "Wel, y mae Williams wedi cael mwy o feistrolaeth ar Gonwy, nag yr un gweinidog arall, byth er yr amser y dychrynodd y plant, dan fur y Castell." Ymddengys fod i'r Gymanfa gyntaf a gynaliodd yr Annibynwyr yn y dref, gael ei chadw yn yr awyr agored, dan fur y castell, gyferbyn a'r traeth; a bod y plant wedi dringo i ben y twr, i fwrw pridd ar ben yr hen frawd oedd yn pregethu o'i flaen. Pan gododd ef i fynu, edrychodd arnynt, a dywedodd, "Pa beth, fe aeth y cythraul i'r moch yn ngwlad y Gadareniaid, a'i tybaid ei fod wedi myned i'r plant yn Nghonwy?" Dychrynodd pob un, a ffoisant ymaith yn ddystaw, a chafwyd llonyddwch ar hyny. Mewn cyfarfod yn Llansantffraid, pregethai ar yr adgyfodiad, yn effeithiol anarferol. Yr oedd ganddo dair gorsaf yn ei draddodiad. Dechreuai megis mewn dull o ymddiddan tawel, fel pe buasai ar yr aelwyd mewn ty annedd; yna ymollyngai i dynerwch gorganol, nes yr oedd yr holl dorf yn teimlo i'r byw. Anfynych y gwelsom fwy o ddagrau dystaw. Darluniodd deulu o chwech o blant, wedi colli eu mam, ac yr oedd yn rhaid eu magu. Yr oedd yno nifer o famau wedi colli eu plant yn ddiweddar, ac yr oeddynt yn yr ymdrech mwyaf i allu ymgynal heb dori allan i lefain; a phan symudodd yn mlaen i wres angerddol ei hyawdledd, yr oedd y gynulleidfa fel pe buasai wedi ei hollti ar ei thraws, a'r lle ar ymylon gorfoledd. Tybiem ar y pryd, mai yr orsaf gyntaf, a'r ail, oedd y mwyaf effeithiol mewn gorchfygiad ar deimladau y dorf! Fel duwinydd, yr oedd yn gymedrol yn ei olygiadau Calfinaidd. Yr oedd yn dra hoff o syniadau Mr. Charles, yn ei Eiriadur, ar yr athrawiaeth. Nid oedd ganddo orhoffder mewn darllen gweithiau yr hen dduwinyddion. Haerai nad oedd dynion mor wreiddiol yn eu syniadau ag y tybid yn fynych. Dywedai mai Duw yn unig sydd yn wreiddiol, ac mai yn y Bibl yn unig y ceid egwyddorion o'r llaw gyntaf. Yr oedd dynion yn gallu rhoddi ffurf ac ymddangosiad newydd i bethau, ond mai byw ar eu gilydd, a dringo ar ysgwyddau eu gilydd yr oeddynt; ac os mynir golwg ar wreiddioldeb mewn gwirionedd, fod yn rhaid edrych yn uwch. Addefir yn gyffredin mai ei brif orchest farddonol ydyw yr Awdl ar Ddrylliad y Rothesay Castle. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg mai y cynnyrchiad hwn o ffrwyth ei awen doreithiog, a sicrhaodd iddo ar un-

Digitized by Google

waith yr orsedd yn mysg y beirdd. Yr oedd ei feistrolaeth ar y mesurau cynghaneddol mor berffaith, fel y mae yn ddigon o brawf y gall dyn fyddo wedi ei ddysgyblu ei hun yn drwyadl ynddynt, ddywedyd ei feddwl ynddynt heb deimlo un anhawsder. Yn y mesurau Emynol, yr oedd yn rhedeg i eithafion yn ei hoffder o waith Edmwnd Prys. Fel beirniad barddonol, yr oedd yn sefyll ar ei ben ei hun yn hollol, ac yn uwch o'i ysgwyddau i fynu na'i frodyr. Dichon iddo redeg yn rhy bell weithiau gyda'i ffangell ysgorpionog, a digaloni llawer o feirdd ieuainc. Eto, y mae yn rhaid addef, er ei fod wedi creu nifer o elynion, ei fod wedi magu mwy o lenorion na neb. Yr oedd ei dduchan weithiau yn anoddefol; ond yr oedd bob amser yn addysgiadol. Beirniad manwl i'r llythyren ydoedd. Yr oedd yn amcanu at onestrwydd a chywirdeb, heb bryderu nemawr yn nghylch y canlyniadau. Fel traithodwr, yr oedd wedi enill iddo ei hun radd dda. Gwnaeth lawer o aberth wrth olygu Cyhoeddiadau cyfnodol. Yn hyn bu yn debyg i Harris, a'i Seren Gomer; tra yr oedd yn ei golledu ei hun, mewn ffordd arianol, yr oedd yn digaregu y llwybr i eraill ddyfod i mewn i elw mawr yn yr un gwasanaeth. Yr oedd wedi sefyll yn gadarn yn ei yspryd, ei yni, a'i nerth corphorol, hyd i ymyl terfyn ei daith. Y mae rhai fel pe byddent yn cael rhyw ymsyniad blaenorol am eu datodiad. Cafodd Fletcher freuddwyd, yn penodi yr awr y byddai farw, ac felly fu. Ysgrifenodd Mozart ei "Requiem," gyda golwg ar ei farwolaeth ei hun, a dywedodd, "Fy *Death Chant* i fy hun ydyw hon," ac felly fu. Gorphenodd Hogarth ei ddarlun enwog, y "Finis," gyda golwg ar orphen ei lafur ei hun, ac felly fu. Dywedodd Mr. Williams rai pethau effeithiol iawn, wrth fwrdd y cymundeb, yn y Groeswen, fore Sabbath cyn terfynu ei daith:—"Y mae yma un yn cymuno am y tro diweddaf ar y ddaear; y mae yn gwybod rhywbeth am rym y gwirioneddau a draddododd i eraill am ddeugain mlynedd, ei hunan. Nid oes genyf ddim i bwyso arno, fel y dywedai y Dr. Hamilton, ond y cyfamod, ar llw, a'r gwaed; ac yr wyf yn teimlo yn dawel iawn yma." Ysgrifenodd ei fab, y Sadwrn wedi ei gladdu yn y Groeswen, fel hyn:—"Hunodd yn dawel nos Fawrth, tuag ugain mynud wedi naw o'r gloch. Yr oedd er ys tro yn gwannychu, fel pren derwen, ac ambell ddeilen yn cwympo, yn arwyddo fod gwywder yn dechreu, ond pan ddaeth y terfyn, hynod mor annysgwyliadwy oedd i'n teimladau." Nid oes a wnelom ni gymaint a cholliadau cyfeillion ymadawedig, ag a'u rhinweddau. Cynil iawn ydyw y Bibl am ddiffygion y saint, er nad ydyw byth yn eu celu. Nid ydym yn barod i ddywedyd i'n hen gyfaill ymddwyn yn ddoeth bob amser, gwyddom i'r gwrthwyneb, a phwy sydd heb ei golliadau. Os claddwyd hwy drwy faddeuant, gallwn ninnau yn hawdd fforddio eu hanghofio, neu daflu mantell cariad drostynt. Y mae yn gofus genym yr olwg hoew oedd arno yn Eisteddfod Caernarfon, pan yr oedd yno fel "tywysog y deg a deugain" yn taflu golwg hanesol dros yr hen feirdd a adwaenai, ond oeddynt wedi myned i ffordd yr holl ddaear, gan adrodd llinellau tarawiadol Dafydd Ddu o Eryri, gyda theimlad cyffrous iawn:—

"Gwyro mae fy moel goryn
Gyda'r allt, efo'r gwallt gwyn,
Daw eraill feirdd awdurol,
Yn fuan, fuan ar f'ol."

Cafodd ei ran o drallodion byd tua chanolddydd oes, ond gofalodd Rhagluniaeth Ior am dano, drwy i lewyrch haul llwyddiant dywynu yn brydferth arno yn y prydnhawn. "Bydd un diwrnod, nid dydd, nid nos, ond bydd goleuni yn yr hwyr." Fel y mae gwahanol olygiadau am bawb, ac fel na byddo i'r sylwadau hyn ymddangos yn rhy ffafriol, ni a ddyfynwn y llinellau canlynol o'r Dysgedydd am Awst, 1872. Mewn adolygiad ar farwnad Caledfryn, dywedir yno, "Cyffyrdda y Bardd yn ysgafn iawn, yn rhy ysgafn braidd, ag un neu ddau o wendidau Caledfryn; megis ei chwerwder tu ag at ddynion *cyfartal* iddo ei hun, ac uwch nag ef o ddigon, mewn llawer o bethau; a'i wrthwynebiad plentynaidd i Ddirwest, ar ei chychwyniad. Gallesid nodi pethau eraill hefyd; ac ni ellir dangos Caledfryn yn llawn, heb eu cael i'r portread. Anfynych y gwelodd Cymru ddyn a ragorai ar y Bardd yn y PRIF ragoriaethau a berthynent iddo; ond yr oedd ei fanau gweiniaid yntau hefyd, yn amlwg iawn i'w gydnabyddion, a cheid cryn drafferth gydag ef, ar rai troion, i'w gadw yn weddol hydrin, ac o fewn terfynau moesgarwch a chymydogaeth dda. Nid ydym yn dywedyd dim ond yr hyn a wyr yr eglwysi a'r wlad ei fod yn wirionedd; ac oni buasai i ni ddywedyd cymaint a hyn, buasai "Sion Cent" a ninnau yn cael ein hystyried yn arwr-addolwyr deillion a di farn. Wedi pob peth, gall y bydd Cymru yn hir cyn y gwel ddarllenwr mor dda, pregethwr mor hyawdl, llenor mor goeth, bardd mor benigamp, a dyn mor ddifwlch ei fuchedd ag ydoedd Caledfryn." Gan fod y crybwylliad uchod yn cyfeirio at Farwnad y Bardd, dichon na byddai yn ormod mynegi yma, fod pobl y Groeswen wedi dangos parch ac anrhydedd mawr i'w gofion, drwy godi cofadail Genedlaethol ar ei fedd; a chynyg gwobr am yr Awdl oreu, mewn coffadwriaeth am dano, ac mai "Sion Cent" oedd y ffugenw a arwyddwyd wrth y cyfansoddiad buddygol. Nid oedd y wlad yn unllais yn eu barn am deilyngdod y gwaith. Pa fodd bynag, tynodd sylw y prif-feirdd. Cymerodd nifer eu rhyddid i draethu eu syniadau, dan enwau anadnabyddus, ond gan fod dau Gadeirfardd wedi traethu eu llen ar y mater, efallai na byddai yn ormod mynegi swm, yr hyn a fynegent hwy. Fel hyn y dywed Golygydd y Dysgedydd:—"Darllenasom yr Awdl fuddygol yn fanwl, amryw weithiau. Ni allwn ei rhestru yn uchel yn mysg cynnyrchion y beirdd; ond ni allwn ei gosod yn isel chwaith. Mae yn y canol, a cheir darnau rhagorol ynddi yma a thraw." Wedi hyn cyfeiria at y beiau cynghaneddol, ond ymddengys fod yr Adolygydd, yn y dosparth hwn, yn siarad cymaint dan ei ddwylaw, fel y mae ei nodiadau yn rhy chwerthinus blentynaidd i hawlio sylw. Y Cadeirfardd arall a draethodd ei olygiadau am ei theilyngdod, ydoedd Nicander, mewn llythyr, dyddiedig yn "Mhersondy Llanrhuddlad, Caergybi, Mehefin 7, 1872:—"Yr wyf newydd ddarllen yr Awdl Farwnadol Fuddugol ar Caledfryn. Mae yn Awdl odidog, llawn teimlad, a barddoniaeth; yr wyf yn edrych arni fel un o brif gyfansoddiadau yr iaith. Yr wyf yn ddiolchgar iawn am gael golwg arni: mi a'i darllenaf eilchwyl, a throsodd a throsodd drachefn."

Y mae yr holl enwadau wedi gweled tori addwyau yn eu rhengau yn ddiweddar, ac yn dwyn gwersi byw i'n meddwl. Y mae gan yr Annibynwyr restr hirfaith o weinidogion, yn tynu at yr un oedran, sef wyth mlynedd a thri-ugain, a diau y collir nifer eto cyn y byddo hir. Y mae tymor yr

Digitized by Google

hwyaf ei einioes yn fyr, ac yn galw yn uchel ar bawb o honom wneud ein goreu o'r ddau fyd, gyda gwedd-iau ar yr Hwn sydd wedi derbyn y rhoddion, y don-iau, a'r talentau i gyd, eu cyfranu fel y gwelo yn dda; ac i godi rhai a gauant yr adwyau, ac a lanw-ont y bylchau yn myddin yr areithfa yn eu lle. Cyn terfynu, dylid mynegi fod Mr. Williams wedi derbyn galwad i fyned yn Weinidog i'r Groeswen, tua deunaw mlynedd cyn derbyn yr alwad y cydsyniodd â hi, a hyny yn unol a dymuniadau ei flaenorydd, sef y Parch. Gryffydd Huws; ond nid oedd ef yn gweled ei ffordd yn rhydd i'w derbyn y pryd hwnw. Parhaodd yr un serchogrwydd ato, a'r dymuniad am ei ddyfodiad i'w plith, hyd oni chwblhawyd yr hyn a hoffent mor fawr, yn nhrefn Rhagluniaeth y nef.

Y mae cyfeiriadau yn y Farwnad grybwylledig, at amryw o'r nodweddau personol, a'r rhagoriaethau cymeriadol, a ddarluniwyd yn yr erthygl uchod; a dichon y byddai ychydig o ddyfyniadau, yn derfyniad digon priodol i'r sylwadau yma. Darlunir golygiad arno yn yr areithfa, yn yr ymadroddion canlynol; a'i dygant ger bron y rhai a'i hadwaenent oreu, fel un o

"Feddwl arweiniai fyddin,—ro'dd allan,
Drwy ddull annghyffredin,
Ei araith fyw, a'i ffraeth fin,
A'i bur wyneb, fel brenin.

Arferai, heb wir fwriad,—droi ei wallt,
Draw o wydd ei lygad,
A'i fysedd, o dueddiad,
Lyfnhâi ei ol, i'w fwynhad.

Ar ail agor ei lygad,—y gwelid
Golwg o ddylanwad;
Ac agwedd ei ysgogiad,
Wnai fyw wres yn ei fawrhad.

Dïofal drem daflai draw,—siaradus
Redai yn ddigyffraw,
Gyda'i lef, ysgydwai i law,
Yna 'i ddilyn, ei ddwylaw;

A'i law'n llac, elai'n well hwyl,
A'i hagor, ambell egwyl;
At amnaid, pan yn twymno,
Uwch o hyd, a'i 'i freichiau o,
I dynu gwefr-dan ag oedd
Yn llewyrch ei alluoedd,
Gan awch iaith ag yni chwyrn,
Yn llosgi drwy 'i holl esgyrn.

Ei ddull, pan floeddiai allan,—lais swynol,
O sciniau cloch arian,
Godai'r dorf i gyd ar dan,
I lawenydd hwyl anian;
Yna o'i flaen, a'i lawn floedd,
Yn eu lle, plygai lluoedd,
Fal coedwig uchelfrigawg,
Dan gorwynt a'i rhyngynt' rhawg.

Rhaiadrau llifddwr Hydref,—ar geunant
Yr agenog aelgref,
O'i ryfedd hyawdledd ef,
Ddelai gan nerth ei ddolef,—
Ac â'r cledd wrth agor clwy'
Ei fin ydoedd ofnadwy,
Nes torri'r anystyriol,
Drwy ei nerth a'i droi yn ol,
I'w godi o'r gau hyder,
I ofyn nawdd o drefn Ner;
Drwy y Gair doi'r rhagoriaeth,
A Sinai ddu'n Sion ddaeth."

Y mae y darluniad uchod yn dwyn ger bron, adgof am amgylchiadau oeddynt yn cyfateb, agos yn llythyr-enol, i'r dystiolaeth hon. Gwelwyd dangosiad o hyn yn neillduol mewn cyfarfod yn Bethesda, Arfon; pan yr oedd gwres teimladau y diwygiad ar dorri allan, ac efallai fod lliwiau y darlun yn cael eu cryfhau yn y llinellau canlynol:—

"A thra y byddai mewn iaith rhybuddion,
Hoffai'i fawr alwad ddeffro'i farwolion;
Yna'i ddoniol dreiddiol ymadroddion,
Ledai oruchel aelwyd o wreichion,
Dro'i 'n draethiad ar rad yr Ion,—a deimlid
Drwy wenau welid ar annuwiolion;
Tro'i dyrfaoedd luoedd o ddadleuon,
I wella mwyach o'u holl amheuon,
Taranau Sinai troai yn swynion,
A mellt y gyfraith yn iaith gobeithion;
Hyfrydlef godai'r afradlon,—byth mwy
O gwsg suadwy ac esgusodion;
Denu yr euog yn dyner, eon
Ydoedd air gwylaidd a doddai'r galon,
Gan bur hyawdledd a'i dygai'n brydlon,
At waed y Meichiau, i gaerau'r goron;
A mawl leisiau melusion—tôn uchel
O gor diogel y gwaredigion."

Yr oedd wedi bod ar y maes yn dra chyhoeddus, fel dadleuwr dros rydd fasnachaeth, ac yr oedd wedi ysgrifenu ac areithio llawer er goleuo y wlad ar y pwnc, ac fe gofir ei ymadroddion nerthol gan luaws:—

"I ormeswyr a'u maswedd,—ei ergyd
Oedd argoel eu camwedd;
Drwy guro'n ddi-drugaredd,
Dyfnha'u clwyf deufin y cledd.

Tarawodd ben Torïaeth,—archollodd
Erchyllaf orfaeliaeth;
Egwyddor pob cyngor caeth
Ysigodd trwy'r Dwysogaeth.

Pob bai ddynoethai yn waeth,—a lledrith
Twyllodrus Drafnidiaeth,
A thrwy ei deg weithred aeth
Yn darian i frawdwriaeth."

Yr oedd yn bleidiol iawn i Ymneillduaeth, ac felly yn wrthwynebwr anghymodlawn i grefyddau sefydl-edig. Dichon mai efe, a Mr. Puw o Fostyn, oedd y rhai blaenaf i dori allan yn gyhoeddus ar y pwnc. Yr oedd Dadgysylltiad yr eglwys oddiwrth y wlad-wriaeth yn bwnc uchel yn ei ymdrechion, yn gy-ffredin:—

"Nod ei air beunydd, yn frwd arbenig,
A fu dlodi crefydd sefydledig,
Ei chroes-wyddorion heb asio'n bwysig,
A'i gwers hanesol wnai'n gorsen ysig,
A'i rheol ddynol urdd unig-lysoedd,
Drwy ysgol ydoedd yn dra sigledig.

Ni arddelai ffug-urddoliaeth,—rhwygai
Rigwm gwag-ddefodaeth,
Hoff rwydau offeiriadaeth
Y swynion, yn yfflon wnaeth."

Awgrymwyd yn barod, mai ei Awdl ar "Ddrylliad y Rothesay Castle," a'i dygodd i sylw arbenig fel bardd. Yr oedd ef wedi enill amryw obrwyon mewn Eisteddfodau cyn hyny; ond ar y pryd hwnw yr ym-gododd i ganolddydd ei enwogrwydd awenyddol:—

"Ei awenydd a'i yni,—yn nghenedl
Cynghanedd a'i theithi.

Digitized by Google

A'i fawr ddawn o farddoni
Sydd yn nawdd i'n gorsedd ni.

Ba waith fedd ein hiaith, hithau,—droi allan
Fel 'Drylliad y Rothesay,'
A saif ar ben, pen pob pau,
Yn hyawdledd ein hodlau?

Archoll y dinystr mewn erchyll donnau,
Yn drylawn ydoedd mewn darluniadau,
Rhwygiad a difodiad ar fywydau,
Yno dan ingol ergydion angau;
Babanod am eu mamau,—yn llefain,
Hwythau'r rhiain mewn wylofain lefau,

O'u mawr boen am eu rhai bach,
Yn anmhwyllo yn mhellach,
Yr hell ystorm a'r holl 'stwr,
Fu chwanog efo chynwrf,
Er agor dig frigau'r don,
I ddreigiau cynddeiriogion;
Ellyllon a'u holl allu,
A fynai ddod o'u safn ddu;
Rhuadau meginau'r gwynt,
Yn curo ar y cerynt;
Treigl y mellt drwy y gwlaw mawr,
Gynhyrfai eigion erfawr;
Y drych i'r hwn edrycho,
Baentiai ei law bwyntyl o,
Ar len bert sy'n ddarlun byw
Lliwiau'n nghyd o'r Llong ydyw!"

Ni byddai y portread yn gyflawn heb ryw gyfeiriad, at rai pethau, ag yr anghytunai llawer o'i frodyr âg ef. Yr oedd y gwrthwynebiad a wnaeth i Ddirwest ar gychwyniad y Gymdeithas, a dywedyd y lleiaf, yn anffodus. Nid ydym yn amheu na chafodd gryn waith dioddef, mewn llawer ymosodiad a wnaed arno, ac mewn priodoli iddo ddybenion annheilwng yn ei ysgrifau ar y pwnc. Y mae hyn hefyd yn cael cyfeirio ato yn y llinellau canlynol:—

"Holl yni llew o wyneb
Ni allai'n hawdd dwyllo neb,
Didwyll mewn amod ydoedd,
Fel y dur, disyflyd oedd,
Mal callestr am onestrwydd,
Ni phlygai, safai'n ei swydd,
Egrach yn erbyn rhagrith,
Yn boen plaid na neb i'w plith:
Meddai ei fan gwan, tra gwir;—
Yn ddifai ni addefir
Yr un dyn o ran doniau,
Ofyn neb i'w gyfiawnhau;
Nid a'n gwlad i wau un glog,
Am rysedd tymer iasog;

Drwy drwst ar dir Dirwestaeth,—a gwendid
Rhyw gyndyn ddadleuaeth,
I bob plaid, niwaid a wnaeth,
Oerai deilwng frawdoliaeth."

Wedi y cyfan, y mae dwyn ei golliadau, ger bron llewyrch dysglaer tywyniad haul ei ragoriaethau, yn peri iddynt ymddangos fel brychau dibwys, hawdd myned heibio iddynt, neu eu claddu mewn ebargofiant; ac uno a'r hyn a gynnygir yma fel beddargraph iddo:—

"Tra y bo beirdd, y try bawb i'w hurddo,
Araith i'w choledd, a'r iaith i'w chwilio;
Tra pery'n gorsedd mewn gwedd gyhoeddus,
Un a barn onest, heb wyrni yno,
Yn dyner gof am dano,—deil englyn
Bur enw CALEDFRYN, tra bryniau Clwydfro."

**WILLIAMS**, PARCH. WILLIAM, Llandeilo, gweinidog enwog a hyawdl gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn yr Hafod, plwyf Llangathen, sir Gaerfyrddin, Ionawr 12, 1811. Hanai o rieni duwiol, y rhai oeddynt yn aelodau eglwysig yn Nghapel Isaac. Eu henwau ydoedd Henry, ac Elizabeth Williams, amaethwyr yn byw yn lled gysurus. Bu ei dad yn llanw swydd diacon amryw flyneddau. Gwrthddrych hyn o hanes ydoedd yr ieuangaf o bedwar o blant. Byddai rhoddi hanes manwl a chyflawn o gylchrediad y seren ddysglaer hon, yn fwy nag a ddysgwylir yn y llyfr hwn. Ymddengys ei fod er yn blentyn yn meddu galluoedd meddyliol bywiog a grymus iawn, ond eu bod ar y pryd yn rhedeg mewn oferedd; ond pan yn 17 oed, argyhoeddwyd ef o ddrwg pechod, ac o'i angen ysprydol. Y mae yr hyn a ddywed ef ei hun yn deilwng o'i ail argraffu;—"Er fy mod wedi fy magu mewn teulu duwiol a chrefyddol iawn, er fy mod wedi ymarfer â phethau crefyddol, yn darllen y Gair, ac yn ei wrando yn cael ei bregethu yn feunyddiol, yn cyduno gyda phobl Dduw mewn pethau crefyddol, ac yn ddieuog o unrhyw bechodau gwarthus, eto yr oeddwn yn hollol annuwiol." Derbyniwyd ef yn aelod o Gapel Isaac; a dadblygwyd yn fuan ei gyneddfau meddyliol, ei ddoniau, ei athrylith, a'i ogwyddiadau moesol, nes cynyrchu yn mynwesau ei gyfeillion obeithion ei fod wedi ei ddarparu i lanw cylch mwy cyhoeddus. Rhoddodd yr eglwys annogaeth iddo i ddechreu pregethu; ac yn fuan aeth i'r ysgol yn Rhydybont, a gedwid gan y Parch. W. Jones, er hyfforddi gwŷr ieuainc yn egwyddorion cyntaf dysgeidiaeth. Cynyddodd yn ddirfawr yno, yn ol yr amser y bu yn y lle; a rhoddodd yn ei holl ymddygiadau, foddlonrwydd cyffredinol i'w athraw. Y mae yn debyg nad oedd ei amcanion ef na'i gyfeillion wedi eu codi yn ddigon uchel gyda golwg arno y pryd hwnw, onide buasai yn ymestyn am ychwaneg o fanteision dysgeidiaeth. Nid oedd efe ar y pryd yn meddwl am ddim mwy na gallu deall awduron Seisnig yn dda, aros gartref i ddwyn yn mlaen achosion y tyddyn, a phregethu yn gynorthwyol yn yr eglwys a'r gymydogaeth. Yn fuan wedi ei ymadawiad o'r ysgol, rhoddodd eglwys y Tabernacl, ger Llandeilo, ac eglwys fechan Llansadwrn, alwad iddo, ac urddwyd ef i'r swydd yn Ngwanwyn, 1835. Ymddengys mai prif deithi ei feddwl fel gweinidog, ydoedd penderfyniad, bywiogrwydd, gwroldeb, a doethineb, i ddwyn y pethau hyn i weithrediad i ateb yr amcanion goreu, heb niweidio ei hun, ei gyfeillion, na'r achos a bleidiai. Nodweddiad benaf ei weinidogaeth ydoedd symledd; a'r nod a osodai iddo ei hun yn mhob peth a wnelai, yn ddirgel a chyhoeddus, ydoedd yr amcan goruchel o lesiant eneidiau. Yr oedd yn ei weinidogaeth, fel pe byddai ei holl egni ar waith er dwyn yn mlaen yr amcan uchod. Yr oedd yn weinidog o ysbryd cyhoeddus a diwygiadol, yn deall ei oes, ac yn ymgyrhaedd yn egniol am fyned yn mlaen gyda hi, trwy ddal gafael ar ddirwest, a phob moddion a chyfleusderau eraill er diwygio ei gyd genedl. Yr oedd ei ddawn, pereidddra ei lais, llithrigrwydd ei ymadrodd, a'i fedr i draethu gair Duw yn eglur, tarawiadol, a ffyddlon; a derbyniai gymeradwyaeth y lluaws fyddai yn ei wrando. Dilynwyd ei weinidogaeth â llwyddiant anarferol, fel y tystid gan luaws mawr yn Liverpool, Llandeilo, Llansadwrn, a Llangadog, lle y dygwyd llawer at Dduw trwy ei offerynoliaeth yn y tymhor

Digitized by Google

byr y bu yn llafurio. Er fod nerth, llymder, a threiddgarwch annghyffredin yn ei weinidogaeth, fel y gafaelai yn meddyliau ei wrandawyr, ac y byddai cynulleidfaoedd mawrion fel yn crogi wrth ei wefusau; eto, rhaid addef fod y cyfnod yr ymddysgleiriai ef ynddo, yn un effro ar grefydd yn Nghymru. Rhedodd ei yrfa pan yr oedd haul diwygiad yn tywynu ar y wlad; ac ni theimlodd nemawr oddiwrth y marweidd-dra sydd yn gordoi crefydd yn rhy aml. Adfywiodd yr eglwys yn y Tabernacl yn fawr dan ei weinidogaeth, a chwanegwyd ati ugeiniau lawer. Yn 1840, tynwyd yr hen addoldy i lawr, ac adeiladwyd un llawer helaethach. Ond yn nghanol ei ddefnyddioldeb, a'i lwyddiant, gwannychodd ei iechyd, fel yr oedd yn amlwg yn fuan fod haul ei fywyd yn machludo yn nhywyllwch angau; a hyny yn nghanol dydd ei fywyd. Meddylid fod yr afiechyd wedi ei achlysuro trwy gael gwely llaith pan oddicartref; ac iddo yntau fod yn esgeulus o hyny ar y cyntaf. Er pob ymdrech o eiddo meddygon, ac ymgeledd pryderus cyfeillion, ei natur a wanhaodd, a bu farw Medi 6, 1846, yn 34 mlwydd oed, a'r 11eg mlwyddyn o'i weinidogaeth. Claddwyd ef yn mynwent y Tabernacl. Ymunasai mewn priodas gyda Mrs. Morgan, gwraig dduwiol, a hawddgar; yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo dros yr ychydig fisoedd y parhaodd eu hundeb.

**WILLIAMS**, William (*Creuddynfab*). Ganwyd y llenor coeth, a'r beirniad craff hwn, mewn bwthyn o'r enw y Tŷ Du, yn nghwmwd y Creuddyn, ger Llandudno, sir Gaernarfon, Awst 20, 1814. Enwau ei rieni oeddynt Enoch, ac Ellin Williams. Saer maen oedd ei dad wrth ei alwedigaeth; a dyn craff, sylwgar, a duwiol, yn marn pawb a'i hadwaenai ydoedd. Yr oedd efe yn ddiacon gyda'r Bedyddwyr yn Glanwydden, a'i wraig yn aelod dichlynaidd gyda'r un enwad. Yr oedd eu teulu yn lluosog, a'r byd yn ddigon caled; a chan fod William yr henaf o'r plant, ni chafodd efe ond ychydig o ysgol, a hono yn ddigon gwael yn nghanol gwlad, a bu rhaid iddo droi allan yn ieuanc i wasanaethu gydag amaethwyr. Wedi bod am ryw yspaid yn dilyn y caledwaith difantais hwn yn ei ardal enedigol, danfonwyd ef i Kenyside, ger Knutsford, sir Gaerlleon, at fodryb iddo, a gwas fferm ydoedd yno fyth. Oddiyno aeth i Fanchester, lle y bu am ryw hyd yn gweithio mewn masnachdy. Yn 1837, a thra yn y sefyllfa hon, priododd un Elizabeth Hughes, merch i David Hughes, llifiwr, Llangollen, yr hon a fu yn ymgeleddgar a thirion tuag ato trwy holl ystod ei gystudd hirfaith a phoenus. Symudodd o Fanchester i Cooper's Bridge, ger Huddersfield, sir Gaerefrog, lle y llanwai y swydd o ysgrifenydd ar orsaf y rheilffordd. Oddiyno symudwyd ef i Oldham, sir Lancaster, yn feistr ar orsaf y rheilffordd, a bu yno am dair blynedd. Yna dyrchafwyd ef i'r un swydd yn ngorsaf bwysicach Staleybridge. Llanwodd y swydd bwysfawr hono am 16 mlynedd, er llawn foddlonrwydd y cwmni, a'r cyhoedd; a chan enill iddo ei hun lu mawr o gyfeillion serchog yn mhlith ei gyd-drefwyr, ar gyfrif cyhoeddusrwydd ei yspryd, ei ddoethineb, a'i ffyddlondeb gyda phob symudiad y cymerai ran ynddo. Fel prawf o hyn, ni raid ond hysbysu am y dysteb anrhydeddus a gyflwynwyd iddo ar ei ymadawiad â'r lle. Yn y cyfamser, yr oedd yn aelod defnyddiol o Gymdeithas y Cymreigyddion yn Manchester; darllenodd anerchiadau campus yn eu cyfarfodydd, ac yr oedd ar amryw ystyriaethau, yn addurn i'r gymdeithas enwog hono. Rhoddodd y gymdeithas hono hefyd arwydd sylweddol o'i pharch iddo, a'i cholled am dano, ar ei ymadawiad. Ymadawodd â Staleybridge er mwyn cymeryd y swydd o Ysgrifenydd yr Eisteddfod Genedlaethol. Efe oedd y cyntaf a benodwyd i'r swydd lafurfawr hono; a llanwodd hi gyda dyfalbarhad, a gallu digyffelyb am ddwy flynedd, pan y gorfu arno ei rhoddi i fynu oblegid afiechyd, a ddygasai arno ei hun yn benaf trwy orlafur a gorbryder am lwyddiant y sefydliad. Nis gall yr un meddwl ddychymygu, na'r un ymysgaroedd deimlo, yr anhawsderau a'r blinder a gyfarfu, ac i raddau helaeth a orfyddodd, tra yn y swydd hono; na'r un galon Gymreig ddiolch yn ddigon gwresog am y gwasanaeth caled a gyflwynodd ynddi i lenyddiaeth ei wlad. Son am arwr! byddai ef tan lasiad y bore, mewn llesgedd trwm, yn dirboeni uwchben y llafur o ohebu, ardrefnu, boddio hwn, a lliniaru digofaint y llall. Yr oedd ei fyfyrgell mewn gwirionedd yn garchar iddo, a'i ysgrifbin yn ddiau yn gadwen o haiarn am ei arddwrn; tra yr oedd efe yn bwyta nerth ei gyfansoddiad, trwy gael ei ridyllio yn ngograu y peirianwaith eisteddfodol. Yr ydym yn ofni na chydnabyddwyd erioed y llafur enfawr hwn, hyd yn nod gyda diolchgarwch gweddaidd; heb son am gydnabyddiaeth gyfiawn. Ymsefydlodd wedi hyn yn Llandudno, ac etholwyd ef yn aelod o Fwrdd y Dirprwywyr. Yr olwg olaf a gafodd lluaws o'i gyfeillion llengarol arno ydoedd, yn Eisteddfod Rhuthyn, 1868, a golwg welw a gwael ddigon ydoedd; adlonai ei ysbryd llesg yn eu cwmni, a chymerodd ran yn eu cyrddau, yn enwedig yn y ddadl ar deilyngdod y Bryddest a'r Awdl;—pryddestwr selog ydoedd. Yn ystod y chwe' mis olaf o'i fywyd, nid ymadawodd ond anfynych a'i ystafell wely. Yr oedd ei boenau, yn tarddu oddiar anhwyldeb gewynol, yn arteithiol iawn; ac eto gwyneb cyfaill a barai iddo eu hangofio am echwyl, ac ymddifyru yn ei hen ddull ffraeth, digrif, a chellwairgnoawl. O'r diwedd, bu farw yn dawel, Awst 26, 1869. Claddwyd ef yn meddrod y teulu, yn mynwent capel Glanwydden, lle y mae gwyddfa hardd wedi ei chyfodi ar ei fedd, trwy gyfroddion ei gyfeillion, a'i edmygwyr. Y "Barddoniadur," ydyw yr unig lyfr a gyhoeddwyd o'i waith ar wahan. Beirniadaeth lem a meistrolgar ydyw hwnw, ar ddull Caledfryn o feirniadu. Ffromodd rhai llenorion yn aruthr at ei haerllugrwydd, yn ymosod ar y fath anffaeledigrwydd a dyfarniadau Prif-fardd Beaumaris; ond cafodd ef a hwythau fyw i weled cryn gyfnewidiad yn marn y wlad am Feirniadaeth, a'i hanhebgorion. Nid ydym yn meddwl fod neb yn Nghymru wedi efrydu deddfau Beirniadaeth mor drwyadl ag ef, a bu ei ysgrifeniadau ar y pwnc o les dirfawr. Yr oedd yn fardd, a rhyddieithwr coeth, a lled nais; fel y prawf y cynnyrchion lluosog a welir o'i eiddo yn wasgaredig ar hyd y cylchgronau Cymreig. Bu yn feirniad droion, ac yn fuddugol amryw weithiau yn ein prif Eisteddfodau. Athronyddai bobpeth a ddeuai dan ei sylw i'r manylion eithaf; a threiddiai bob amser i'r paham, a'r pa fodd. Fel cyfaill, a dyn, ni bu erioed ei burach fel y naill, na'i gyflawnach fel y llall. Amcan mawr ei fywyd llenyddol, ydoedd cyfansoddi llyfr ar reolau a deddfau Beirniadaeth, at wasanaeth ei gydgenedl, a gresyn, gresyn, iddo farw cyn dwyn hyn i ben. Byddai yn ddymunol iawn gwneud casgliad o'i gyfansoddiadau, a'u cyhoeddi yn gyfrol gyda'u gilydd.



Digitized by Google

**WILLIAMS**, William, ydoedd weinidog gyda yr Annibynwyr, yn y Wern, yn sir Ddinbych; ac un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru. Yr oedd yn un o "drioedd" enwog ein cenedl yn ei amser, sef "John Elias," "Williams o'r Wern," a "Christmas Evans." Ganwyd ef yn y flwyddyn 1781, mewn lle o'r enw Cwmhyswn, neu Cwm-y-swn ganol, yn mhlwyf Llanfachreth, swydd Feirion. Enwau ei rieni oedd William a Jane Probert, neu ab Robert; yr oeddynt yn dal tyddyn o dir, a gair da iddynt yn y gymydogaeth, am eu hynawsedd, a'u gonestrwydd. Yr oedd ei fam yn aelod dichlynaidd gyda y Trefnyddion Calfinaidd. Nid yw yn hysbys ddarfod i'w dad erioed ymuno mewn proffes gyd ag un blaid grefyddol, er ei fod yn wrandawr cyson o'r efengyl; arferai gadw dyledswydd deuluaidd yn rheolaidd. Bu iddynt saith o blant, William, gwrthddrych yr erthygl hon, ydoedd y chweched o'r plant. Y brawd a'r chwaer a fuant feirw o'i flaen, oeddynt aelodau eglwysig, un gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a'r llall gyda'r Annibynwyr; y ddau, yn ol pob arwyddion, yn meddu gwir grefydd. Yr oedd William, er yn blentyn, yn rhagori ar y plant eraill, am ei dymer lawen, fywiog, a chwareus; fel yr arferai ei dad ddywedyd am dano yn fynych, na wyddai yn y byd pa beth i feddwl am dano, ac ofnai y byddai yn hynodol oddiwrth blant eraill y gymydogaeth; ac yn ddiau, felly y bu, gan na fagwyd o'r blaen ei gyffelyb yn yr ardaloedd hyny, nac ar ei ol ychwaith, hyd y dydd hwn.

Dygwyddodd iddo, pan yr oedd o ddeutu tair-ar-ddeg oed, fyned i wrando Mr. Rhys Dafis, o Saron, swydd Gaerfyrddin, yn pregethu mewn lle a elwir Bedd-y-Coedwr; pryd yr ymaflodd y gwirionedd gyda nerth ac awdurdod mawr ar ei feddwl. Cyn ei fod yn bedair-ar-ddeg oed, ymunodd a'r eglwys Annibynol yn Pen-y-stryd, Trawsfynydd; y pryd hwnw dan ofal gweinidogaethol y diweddar Barch. William Jones. Derbyniwyd ef yn gyflawn aelod eglwysig cyn ei fod yn bymtheg, yr hyn oedd beth tra annghyffredin yn y dyddiau hyny. Yr oedd yn nodedig o ffyddlawn, diwyd, ac ymdrechgar, gyda moddion gras; anfynych iawn y byddai pregeth, na chyfarfod gweddi, na chymdeithas grefyddol, yn un man yn y gymydogaeth, heb ei fod ef yno. Yr oedd arno gryn ofn cael ei gymhell i fyned i weddi yn gyhoeddus yn y teulu, neu mewn cyfarfod, o herwydd, fel y dywedai lawer gwaith wedi hyny, y buasai y plant eraill, y teulu, a'r gymydogaeth, yn dysgwyl iddo fyw fel sant perffaith byth wedi hyny. Pa fodd bynag, un noson, pan oedd wedi aros ar ei draed gyda ei fam, wedi i eraill o'r teulu fyned i'w gwelyau, aeth hi i weddi gyd ag ef, ac wedi terfynu, dywedodd wrtho, "Dos dithau dipyn i weddi, Will bach;" yntau a aeth; yr oedd ei frawd hŷn nag ef yn dygwydd bod yn effro, ac yn clywed; ac edliwiai iddo dranoeth, gan ei alw, "yr hen weddiwr." "Yr oedd arnaf beth cywilydd," meddai, "ond bu arnaf lai o ofn a chywilydd byth wedi hyny." Bu mewn trallod a gwasgfa nid bychan, o ran ei feddwl, yn nechreu ei grefydd. Arferai ddywedyd na wyddai yn y byd beth a wnaethai iddo ei hun, oni buasai Aberth y groes. Cafodd waredigaeth hynod tu a'r amser hwn. Pan yn tori coed yn Pen-y-bryn, Llanfachreth, syrthiodd pren arno, a drylliodd ei het yn chwilfriw, ond ni phrofodd ef unrhyw niwaid. Gwnaeth y tro argraph ddwys ar ei feddwl, a chrybwyllai yn aml am dano gyda diolchgarwch. Pethau crefydd oeddynt destynau gwastadol ei ymddiddanion gyda ei gyfeillion; a hir gofiwyd hyny gan amryw o honynt gyda hiraeth a llawenydd. Sylwodd yr eglwys arno yn lled fuan, a deallodd fod ei gynnydd prysur mewn gwybodaeth, doniau, a rhinweddau Cristionogol, yn rhag-arwyddo iddi, ei fod i ddyfod yn ddyn mawr; ei fod yn llestr etholedig dan ragbarotoad i waith mawr y weinidogaeth; ei fod yn dechreu magu esgyll ag oeddynt ryw ddiwrnod i'w godi oddiwrth y ddaear, a'i galwedigaethau, i "ehedeg yn nghanol y nef," gyda'r "efengyl dragwyddol;" ac felly cyn ei fod yn bedair-ar-bymtheg oed, anogodd ef i ddechreu pregethu. Pan soniwyd wrtho gyntaf am bregethu, yr oedd am beth amser megis wedi ei orthrechu gan gymysg deimladau, o ofn, a llawenydd. Daeth amheuon am ei gyflwr, a'i alwad i'r swydd oruchel o bregethu yr efengyl, i bwyso yn drwm iawn ar ei feddwl; ond wrth ddarllen ei Fibl, a *Hall's Help to Zion's Travellers*, a thaer weddio am help ac arweiniad Dwyfol, daeth i'r penderfyniad, fel y dywedai, i wneuthur ei oreu dros ei Dduw, ac na chai byth ei feio am hyny, beth bynag; ond os byddai iddo guddio ei dalent yn y ddaear, y byddai yn sicr o gael ei alw i gyfrif, a'i gospi. Felly, wedi peth petrusder, ymaflodd yn y gwaith, a phregethai yn Pen-y-stryd, ac mewn tai yn y gymydogaeth, gyda mawr dderbyniad, a chymeradwyaeth. Nid oedd wedi cael nemawr ddim ysgol, ond dysgasai ddarllen Cymraeg er yn lled ieuangc. Nid oedd ond ychydig o lyfrau Cymreig, ag oeddynt o werth eu darllen, y pryd hwnw. Y llyfrau a hoffai fwyaf, heblaw y Bibl, oeddynt Eliseus Cole ar "Ben-arglwyddiaeth Duw;" a *Hall's Help to Zion's Travellers*, a grybwyllwyd yn barod, y rhai oeddynt wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Yr oedd yn neillduol hoff o'r olaf. Yr oedd ei chwaer Catherine, yn cyd-ddechreu proffesu âg ef, ac yr oeddynt yn hynod o hoff o'u gilydd. Byddai ef yn arferol o fyned, a'i lyfrgell fechan gyd âg ef, o'r neilldu i le dirgel, oddiar ffordd ei dad; a phan y deuai holi am dano i gyflawni rhyw swydd, neu neges, megis porthi, neu ddyfrhau yr amfeiliaid, rhedai ei chwaer yn uniongyrchol i'w gwneud, er mwyn iddo ef gael llonydd a heddwch gyda ei lyfrau. Yn y sefyllfa isel hon, a than yr anfanteision mawrion hyn, y dechreuodd enaid dysgleirwych Williams ymweithio allan i olwg y byd.

Wedi bod o hono yn pregethu o ddeutu cartref, a manau eraill, yn achlysurol, am oddeutu dwy flynedd, aeth i ysgol yn Aberhafesp, gerllaw y Drefnewydd, swydd Drefaldwyn; ni bu yno ond o ddeutu wyth, neu naw mis; wedi hyny, dychwelodd adref, ac aeth i Wrecsam, a derbyniwyd ef i'r Athrofa yno, yn y flwyddyn 1803, ag oedd y pryd hyny dan ofal athrawol yr hybarch Jenkin Lewis. Yr oedd yr amser hwnw yn tynu at ddwy-ar-hugain oed. Dylid crybwyll yn y fan hon hanesyn am dano, a adroddwyd gan ei fab henaf. Yr oedd ef, pan yn blentyn, yn wrthddrych neillduol o hoffder ei fam, ac yr oedd wedi esgeuluso ei ddiddyfnu hyd nes yr oedd rhwng tair a phedair blwydd oed. Dywedodd ei dad wrtho un diwrnod, "Will, os gwnei di beidio sugno, mi a roddaf yr oen du i ti." Cytunodd Will a'r cynnygiad, ac ni cheisiodd sugno o'r diwrnod hwnw allan. Cynnyddodd yr oen du fel praidd Jacob, ac ar ei fynediad i'r Athrofa, gwerthodd y ddiadell defaid, a dyna oedd prif foddion ei gynhaliaeth dros ysdod yr amser y bu yno. Pan yr aeth

Digitized by Google

gyntaf i Wrecsam, yr oedd mor hollol Gymreigaidd, fel na allai roddi ar ddeall i Mrs. Lewis, gwraig yr athraw, yr hon oedd Saesones, pa beth oedd ei neges; a chan nad oedd Mr. Lewis gartref ar y pryd, bu raid anfon allan am gyfieithydd rhyngddynt. Nid cymaint o gynnydd mewn dysgeidiaeth ieithyddol a gyrhaeddodd yn ysbaid y pedair blynedd y bu yn yr Athrofa. Gellid priodoli hyny yn un peth, i ddiffyg ysgol yn ei dymor bachgenaidd. Yr oedd raid iddo ef ddechreu yn y dosparth isaf pan aeth i mewn, fel yr aeth llawer o'i amser heibio cyn iddo allu cyrhaeddyd y radd o ddysgeidiaeth, ag y byddai eraill yn gyffredin wedi myned drwyddi cyn dyfod i'r Athrofa; a pheth arall, yr oedd ei feddwl wedi gogwyddo at ganghenau eraill o ddysgeidiaeth, cyn iddo erioed gynyg ei ddwyn at y gangen hon; neu mewn gair, yr oedd ef wedi tyfu yn rhy fawr a chryf yn ei dueddfryd at elfenau eraill gwybodaeth, i'w ddarostwng i ymgymodi âg egwyddorion sychlyd gramadegau. Ei hoff waith ef ydoedd chwilio i mewn i egwyddorion athroniaeth, naturiol, a moesol; yn enwedig egwyddorion duwinyddiaeth; felly nid oedd efe, mae'n wir, yn ddyn dysgedig, yn ol yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair, sef cyfarwydd-deb a hyddysgrwydd mewn ieithoedd; eithr os priodol galw dyn cyfarwydd âg egwyddorion a deddfau natur, y meddwl, a'r ysgrythyr, yn ddyn dysgedig, yna, yn ddiau, yr oedd efe yn un o ysgolheigion penaf ei oes. Pa fodd bynag, dysgodd gymaint, tra yn yr Athrofa, ag a'i galluogai i bregethu yn Saesonaeg, a chymaint o Roeg ag a'i gwnelai yn alluog i ddefnyddio rhyw gymaint ar yr iaith hono. Trwsgl ydoedd ei leferydd yn yr iaith Saesonaeg, fel y gellid dysgwyl mewn un wedi tyfu i'w oedran ef cyn dysgu gair o honi, i fod. Ni fyddai un amser mewn diffyg o eiriau i osod ei feddwl allan, ond yn seiniad ac acceniad y geiriau y byddai yn colli. Arferai ddywedyd, nad oedd ei dafod wedi ei wneuthur gan ei Luniwr i barablu Saesonaeg. Ond er ei fod yn safndrwm a thafod-drwm yn yr iaith hono, ni wna'i hyny yn esgus a dadl, fel y gwnai Moesen gynt, rhag pregethu ynddi, pan fyddai galwad arno; ac nid anfynych, ond yn dra mynych, y ceisid hyny ganddo. Byddai y Saeson yn mhob man ag yr oedd yn adnabyddus iddynt, yn neillduol o hoff o'i wrando. Y mae yn chwedl am dano, ddarfod iddo ddywedyd wrth ei athraw, pan ar adael yr Athrofa, ei fod yn coelio nad ymadawsai nemawr un oddiyno yn onestach nag ef. Pan anogid ef gan rai cyfeillion i aros yn yr Athrofa dros ryw gymaint o amser yn hwy, "Na, na," eb efe, "os felly, bydd y cynhauaf drosodd tra fyddwyf fi yn hogi fy nghryman." Yn ysdod ei dymor athrofaol y dechreuodd ei dalentau ysplenydd fel pregethwr ymddadblygu, ac ymddysgleirio, yr hyn sydd yn ddigon o brawf nad rhyw lawer a arhosai ei feddwl yn nghymydogaeth y gramadegau. Ymwelodd unwaith neu ddwy â pharthau o'r Deheudir, yn amser gwyliau yr Athrofa, lle yr enillai enw a chymeradwyaeth anghyffredin fel pregethwr. Wedi ei ddychweliad adref y tro diweddaf oddiyno, derbyniodd alwad unfrydol oddiwrth yr eglwys Gynulleidfaol yn Horeb, swydd Aberteifi, a phenderfynodd gydsynio â hi. Fel yr oedd, un diwrnod ar ganol ysgrifenu ei atebiad cadarnhaol i'r alwad grybwylledig, daeth un o'i gyd-fyfyrwyr i'w ystafell, gyda'r hysbysiad, bod eu hathraw yn myned i Lynlleifiad, i'r cyfarfod blynyddol, a bod caniatad i'r sawl a ewyllysiont o'r myfyrwyr i fyned yno, ond gofalu na byddai iddynt ragor na'r diwrnod hwnw a thranoeth o amser. Taflodd ei bin a'i bapur o'i law yn y fan, ac ymaith âg ef, cyn gorphen ei lythyr, gyda'i athraw, a nifer o'i gyd-fyfyrwyr, i Lynlleifiad. Cyn dyfod yn ol, perswadiwyd ef gan y gwr rhagorol hwnw, mewn duwioldeb a haelioni, Mr. Jones, *Cutler*, o Gaer, i aros a sefydlu yn Harwd, a'r Wern, ac felly y bu. Dangoswyd fel hyn, mai "anrheg y nef i Wynedd," oedd Williams, fel y dywedai Rowlands Llangeitho, am Charles o'r Bala. Gadawodd yr Athrofa yn 1807, a daeth i'r Wern, a Harwd, ar brawf. Gwyddent yn dda am dano, tra yr oedd yn efrydydd yn Wrecsam. Derbyniodd alwad; cydsyniodd â hi, acordeiniwyd ef, Hydref 28n, 1808. Gweinyddai y gweinidogion canlynol ar yr achlysur; Parch. W. Hughes, Dinas; Dr. Lewis, Llanuwchllyn; Lewis o Wrecsam; a Roberts, Llanbrynmair. Nid oedd yr eglwysi hyn, ond ieuainc a gweiniaid ar y pryd. Ymroddodd Mr. Williams yn egniol ar ei waith. Yr oedd yn mlodau ei ddyddiau, ac yn fywiol, hoew, a nerthol. Cododd eglwys y Wern i lwyddiant yn fuan. Bu yn ymdrechgar iawn, gyda'i gydfyfyrwyr, i godi achos yn Rhos Llanerchrhugog, Llangollen, a Ruabon; a bendithiwyd ei lafur yn mhob man. Sefydlwyd eglwys y Rhos yn mhen tua dwy flynedd wedi ordeiniad Mr. Williams; ac ymunodd â'r Wern, a Harwd, dan ei ofal ef.

Dywedir ei fod o ran ei farn a'i athrawiaeth yn Galfiniad lled uchel yn nyddiau boreuaf ei weinidogaeth; ac felly yr oedd yr enwad yn gyffredinol y pryd hwnw. Bu dyfodiad y Wesleyaid i Gymru, ychydig o flyneddau cyn hyn, yn achlysur i beri i'r enwadau eraill, sefyll yn dynach dros yr athrawiaeth Galfinaidd nag y gwnaethent o'r blaen. Y Parch. J. Roberts, Llanbrynmair, oedd un o'r rhai cyntaf yn Ngogledd Cymru, a gyfododd i fynu dros yr hen athrawiaethau a fuasent yn foddion i ddeffroi a chynnyrchu y diwygiadau nerthol yn nyddiau Lewis Rees, Howel Harris, Daniel Rowlands, Williams, Pantycelyn, ac eraill; a Williams o'r Wern, oedd un o'i gynorthwywyr blaenaf. Y mae yn debygol fod hyn o wahaniaeth rhwng y ddau dô yma o weinidogion a'u gilydd; nid oedd gan hen dadau y tô blaenaf, unrhyw drefniant penodol o athrawiaeth, wedi ei gasglu a'i grynhoi, a'i osod yn drefnus wrth eu gilydd; ond ymollyngent yn ffrwd ymadroddion y Bibl, heb ofalu cymaint am fanwl egluro cysondeb y naill gangen o athrawiaeth a'r llall. Yr oeddynt yn wynebu ar y wlad, fel diwygwyr, pan yr oedd yn gorwedd mewn anwybodaeth ac anystyriaeth, gan seinio alarwn y weinidogaeth uwch ei phen, i'w deffroi. Dechreuodd yr ail dô osod y golygiadau wrth eu gilydd, yn eu cysondeb â'u gilydd, ac â'r Ysgrythyr. Gwnaeth Roberts lawer a'i ysgrifell, a Williams fwy o'r areithfa, yn y ffordd hon o esbonio y gwirionedd. Gyda golwg ar y cyfnewidiad dan sylw, ysgrifenai y Parch. T. Jones, gynt o Langollen. fel y canlyn:—"Yn nechreuad ei weinidogaeth, yr oedd Mr. Williams, o ran ei olygiadau duwinyddol. yn uchel Galfiniad, yr hyn oedd cred yr eglwysi yn gyffredinol y pryd hwnw. Cymerai ef fel eraill yn ganiataol, mai hon oedd y wir athrawiaeth, hyd oni ddaeth i feddwl a chwilio yn fanylach drosto ei hun. Yr hyn a'i harweiniodd yn gyntaf i ddrwg-dybio cyfundrefn ei ieuengctid, oedd yr anhawsder a deimlai i'w chysoni âg amrywiol rannau o'r Datguddiad Dwyfol; a'r hyn a fu y moddion cyntaf oll i'w ddwyn

Digitized by Google

i dir goleuach a gwell mewn duwinyddiaeth, ydoedd darllen traethawd o waith Dr. Bellamy, a elwir, "True Religion Delineated." Cynorthwyodd hwn ef i ddryllio yr hen lyffetheiriau a ddaliasent, hyd yn hyn, ei feddwl mawreddog mewn caethiwed. Bu cyfnewidiad ei farn, yn achos o gryn helbul iddo. Cafodd gryn wrthwynebiad oddiwrth ei frodyr ei hun, a'i gyhoeddi a'i ddynodi fel cyfeiliornwr gan enwadau eraill; yr hyn yn ddiau, a darddai yn benaf, oddiar eiddigedd at ei boblogrwydd, a sel sectaidd, yn fwy nac oddiar gariad at yr hyn a farnent hwy yn wirionedd. Fel hyn y bu yn offeryn yn llaw Rhagluniaeth i ddwyn egwyddorion i'r golwg, a ystyrir heddyw yn Nghymru gan laweroedd, yn ddiau, yn werth dyoddef—a marw drostynt, pe byddai galw am hyny; a chafodd yr hyfrydwch, cyn diwedd ei oes, o weled llawer o'i wrthwynebwyr a'i erlidwyr gynt, yn eu gwerthfawrogi, a'u coffeidio." Mewn cyfeiriad at yr un amgylchiad, sylwai diaconiaid yr eglwys Gynulleidfaol yn Rhos-Llanerchrhugog, fel y canlyn;—"Yr athrawiaeth a bregethai Mr. Williams, oedd i raddau, yn wahanol i'r hyn oedd wedi cael ei bregethu yn yr ardaloedd hyn o'r blaen; ac nid ychydig fu y gwrthwynebiadau a gafodd, a'r llafur a gymerodd i argraphu ar feddyliau y bobl yr egwyddorion syml, ymarferol, ac ysgrythyrol, a draddodai iddynt. Byddai ei ddull yn wastad yn esmwyth a di-dramgwydd; ni fyddai byth yn ergydio at bersonau, nac enwadau eraill; nac yn condemnio y rhai oedd yn barnu yn wahanol iddo ef. Gosodai ei egwyddorion yn oleu, syml, a theg, ger bron ei wrandawyr, heb gymeryd arno ei fod yn gwybod fod neb yn y byd yn barnu yn wahanol, na bod neb yn ei osod allan fel cyfeiliornwr. Gadawai iddynt weithio eu ffordd yn eu nerth a'u goleuni eu hunain; a gweithio eu ffordd a wnaethant drwy lifeiriant o wrthwynebiadau, ac y maent yn awr yn sefydlog a chadarn yn meddyliau a chalonau cannoedd o drigolion yr ardal." Mynych gydnabyddai y fraint yn yr amser hwn, o fod wedi bwrw ei goelbren yn mhlith yr Annibynwyr, lle nad oedd esgob, na llys, na chyfarfod; na chymanfa, i honni awdurdod i'w alw i gyfrif am ei gred, a'i athrawiaeth; fel y teimlai ei hunan yn rhydd, wrth esgyn i'r areithfa, i draethu gwir olygiadau ei galon ar athrawiaethau yr efengyl, heb lyffetheiriau o erthyglau, a chyffesion, i gadwyno ei draed, na bod gofal arno rhag syrthio ar draws dim o'r fath bethau. Wrth bregethu, teimlai nad oedd yn gyfrifol i un orsedd nac awdurdod, ond gorsedd ac awdurdod Crist; mai ei was ef ydoedd, ac mai iddo ef yn unig yr oedd yn gyfrifol. Ond er ei fod ef felly yn rhydd oddiwrth awdurdodau cymanfaol, cafodd gryn lawer o flinder, fel y crybwyllwyd, oddiwrth rai brodyr yn y weinidogaeth, ac eraill oedd yn selog dros "burdeb yr athrawiaeth," fel y meddylient hwy. Ystyrid ef ganddynt, fel un wedi gwyro oddiwrth y gwirionedd, a'r athrawiaeth iachus, a diau, pe buasai awdurdod cymanfaol i'w gael yn y cyfundeb, y buasai y gwyr hyny yn ei ddefnyddio yn ewyllysgar, os medrasent ei gael i'w dwylaw, er rhoddi gorfod arno ef i lawnodi eu syniadau hwy, neu ymadael a'r enwad. Buasai yn dda gan ambell un allu cau drws yr areithfa, pan ddygwyddai ddyfod heibio iddynt yn yr amseroedd hyny; ond yr oedd ei boblogrwydd a'i gymeradwyaeth yn y wlad yn gyfryw, fel na feiddiai neb wneud hyny. Gwahoddid ef i'r cyfarfodydd, a'r cymanfaoedd, "rhag ofn y bobl." Yr oedd barn y cyhoedd yn darian iddo rhag y fath saethau, yn gystal ag yr oedd y drefn gynulleidfaol yn dwr amddiffyn i'w wared rhag yr ymosodiad arall y cyfeiriwyd ato. Yr oedd yn hynod o haelfrydig ac anmhleidiol yn ei syniadau; yr oedd Cristionogaeth yn nes at ei galon na sectyddiaeth. Ceir prawf o hyn yn yr hanesyn canlynol:—Yn fuan wedi iddo ddechreu llafurio yn Rhos-Llanerchrhugog, taer wahoddwyd ef i ddyfod i Langollen i bregethu. Nid oedd pregethu wedi bod gan yr Annibynwyr yn y dref honno o'r blaen. Yr oedd Mr. E. Edwards, Trefor, wedi bod yn ei daer gymhell amrywiol weithiau i fyned yno, ac yr oedd gwr parchus arall o'r dref honno, ag oedd yn aelod gyda y Trefnyddion Calfinaidd, yn awyddus iawn am ei gael yno. Fel yr oedd Mr. Edwards yn parhau i'w gymhell, ac wedi dyfod i'r Rhos, a gwr arall gyd ag ef, un Sabbath ar y neges hon, dywedodd wrthynt, "Pe gwyddwn mai yspryd plaid sydd yn eich cynhyrfu, ni ddeuwn i Langollen byth," neu eiriau o'r cyffelyb: ond sicrhai Mr. Edwards iddo na buasai amcan felly byth yn ei godi o gartref. Cytunodd i fyned yno y Sabbath canlynol. Dysgwylid y cawsid benthyg capel y Trefnyddion, ond nid oedd i'w gael; ac yn llofft y "Royal Oak," y bu yn pregethu, ac felly y dechreuwyd yr achos yno.

Erbyn yr adeg hon, yr oedd Mr. Williams wedi codi i enwogrwydd, a dylanwad mawr. Pa le bynag yr elai i bregethu, yr oedd ei enw yn ddigon i sicrhau cynulleidfa fawr i'w wrando; a chynhyrfid pob cymydogaeth drwyddi draw, mewn dymuniad am gael ei weled, a'i glywed. Priododd yn y flwyddyn 1817, â Miss Rebecca Griffiths, o Gaerlleon, yr hon oedd foneddiges ieuangc o gryn gyfoeth, a thra chyflawn o wybodaeth, doethineb, a synwyr; rhagorol mewn duwioldeb, a dysglaer yn mhob dawn rinweddol, ac felly yn mhob ystyr yn deilwng o'r rhagorfraint i fod yn gydmar bywyd i wr o dymer serchus, calon haelionus, a doniau ysplenydd; a dedwydd iawn a fuont gyda'u gilydd, hyd onis gwahanai angau hwynt. Bu iddynt bedwar o blant, dau fab, a dwy ferch. Lletyai ef dros y naw mlynedd cyn priodi, yn nhy Mr. Joseph Challenor, gerllaw Adwy'r clawdd, un o ddiaconiaid eglwys y Wern. Yn fuan, wedi priodi, symudodd i fyw i Langollen; cymerodd daith drwy rannau o'r Deheudir y flwyddyn ganlynol, i gasglu at gapel newydd Llangollen. Pan ar y daith hon, cafodd gymhelliad taer gan eglwys luosog Abertawy, i ddyfod yno, a chymeryd ei gofal gweinidogaethol; ond ni allai feddwl am adael yr ychydig braidd, yn y Wern, a'r manau eraill, i ymdaraw drostynt eu hunain dan feichiau o ddyledion, ag oedd yn aros ar eu haddoldai. Dewisodd yn hytrach ymwadu â'i esmwythder personol, ac aros gyda hwy yn eu profedigaethau, ac i'w cynorthwyo. Nid cymaint fu llwyddiant ei weinidogaeth yn Llangollen; isel oedd ansawdd crefydd yn y dref y pryd hwnw gyda phob enwad. Yr oedd yr achos yn y Rhos yn ymgodi yn gyflym, a chydsyniodd yntau â thaer gais y bobl i symud yno, a chymeryd eu gofal yn gyflawn, ac aeth i fyw i'r Talwrn, lle y cyfaneddai yn ddedwydd; a dywedai ar ei ddychweliad at ei hen gyfeillion, "ei fod wedi cael gafael ar ei hen lyfr gweddi drachefn." Bu yn offerynol yn nghodiad yr achos crefyddol yn Ruabon hefyd. Yr oedd Mr. Breese yn fyfyriwr y pryd hwnw yn yr athrofa, ac yn fynych iawn yn ei gynorthwyo ar y Sabbathau. Yr oedd ei ofal neillduol ef am Harwd, y Rhos, a'r Wern. Yr oedd yr achos ar gynnydd

Digitized by Google

rheolaidd yn y ddau le olaf, ond am y blaenaf, ychydig iawn oedd nifer y rhai a'i gwrandawai, yr hyn a'i cadwai ef, yn ol ei dystiolaeth ei hun, rhag cael ei dra-dyrchafu. Teithiai gryn lawer y pryd hwn i gyfarfodydd, yn agos ac yn mhell; canys yr oedd yr alwad am dano wedi dyfod yn gyffredinol yn mhob gwlad a thref. Dywedir iddo wneud aberth arianol mawr wrth wasanaethu y cyhoedd felly, oblegid nad oedd yr eglwysi wedi eu dysgu i ystyried na chydnabod y treuliau teithio yn y dyddiau hyny. Yr unig gwyn a ddygai yr eglwysi oedd dan ei ofal yn ei erbyn, oedd, ei fod yn myned yn rhy fynych o gartref. Dywedodd unwaith wrth frawd yn y weinidogaeth, "Yr wyf yn deall fod eich pobl chwithau yn cwyno llawer o herwydd eich bod yn myned gymaint oddiwrthynt; peidiwn a chwyno, am fod yr eglwysi eraill yn galw am danom, a'r eglwysi gartref yn cwyno ar ein hol; ond diolchwn lawer am nad ydym fel arall, yr eglwysi gartref yn cwyno ein bod yn aros gymaint gyda hwy, ac eisiau newid mwy â gweinidogion eraill; ac eglwysi eraill yn well ganddynt beidio a'n gweled yn dyfod atynt ar y sabbathau, a'r cyfarfodydd, a ninnau "fel llestr heb hoffder ynddo."

Cyfnod y drafferth fawr gyd âg adeiladu addoldai newyddion oedd ei oes weinidogaethol ef, a chafodd ef ran helaeth o'r gofalon hyn. Byddai ef, a Jones o Dreffynon, a Roberts o Ddinbych, yn gorfod cymeryd y flaenoriaeth yn y dosparth yma yn Siroedd Dinbych, a Fflint. Yr oedd ganddo serch mawr at y lleoedd y cawsai fwyaf o lafur a phryder yn eu cylch. Wrth adrodd ei deimlad ar hyn unwaith, sylwai, "Y mae hyn yn reddfol yn ein natur, bod i ni deimlo cariad a gofal at, ac am beth a fyddo wedi costio yn lled ddrud i ni; yr oedd mam Jabes yn anwylach o hono nac yr un arall o'i phlant, o blegid iddi ei ddwyn ef drwy ofid: y mae genyf finau ryw serch mwy neillduol at ryw fannau na'u gilydd, o blegid i mi gael mwy o ofal a gofid o'u hachos." Gwnai yr un sylw yn mhen amryw flyneddoedd, mewn cyfeiriad at yr achos crefyddol yn Rhuthin. Yr oedd enwogrwydd Mr. Williams wedi ymdaenu, nid yn unig drwy Gymru, ond hefyd i raddau mawr drwy drefydd Lloegr. Ymwelodd a'r brif-ddinas amryw weithiau, ac yr oedd ei barch a'i gymeradwyaeth yn fawr yno, gan y ddwy genedl. Yr ydym bellach wedi ei ddilyn hyd uchder ei boblogrwydd. Yr oedd y Parch. Calvin Colton o America yn Llundain ar yr un adeg ag yr oedd Williams yno, ac yn pregethu yn Gymraeg: ond er mwyn y gwr dyeithr a rhai Saeson oedd yn bresenol, rhoddodd sylwedd y bregeth yn yr iaith Saesonaeg; a'r gwr hwnw a ysgrifenodd y syniadau uchel oedd ganddo am dano, gyda'i nodiadau ar y bregeth, yn y "New York Observer." Fel hyn y darlunir yr hanes yn ei gofiant cyhoeddedig. "Ei destyn ydoedd, O feistr, er i ni boeni ar hyd y nos, ni ddaliasom ni ddim, eto ar dy air di, mi a fwriaf y rhwyd; Luc v. 5." "Mawr oedd fy syndod," medd Mr. Colton, "at alluoedd a chyrhaeddiadau y dyn. Y mae yr wr o wneuthuriad Duw ei hun mewn amryw ystyriaethau; ac yn un o ddynion mawrion Cymru; mawr yn ei gymhwysderau naturiol; mawr mewn canlyniad i'w lafur a'i ddiwydrwydd; a mawr yn ei wybodaeth, a'i ragoriaethau crefyddol. Ei bwnc oedd, "Mai nid ein teimladau, ond gair Duw ydyw rheol ein dyledswydd." Dangosai yr anghysondeb a'r gwrthuni o osod teimladau yn rheol dyledswydd; o blegid pe felly, po fwyaf anystyriol a llygredig fyddo dyn, lleiaf oll fyddai ei rwymedigaethau i ufuddhau a byw yn dduwiol. Er ddarfod i'r bregeth pan draddododd hi yn Gymraeg, yn ei helaethder a'i manylrwydd, gynnyrchu effeithiau a barent argraph ddwys iawn ar fy meddwl; eto fel y'm hysbyswyd heddyw, gan weinidog Cymreig arall, nid oedd mewn cydmariaeth ond methiant, o herwydd iddo roddi y sylwedd o honi yn gyntaf yn Saesonaeg, yr hon iaith a ddeallai y rhan fwyaf o'r gynulleidfa, yr hyn a leihai yr astudrwydd yn ail-adroddiad y sylwadau. Eto yr oedd y bregeth yn dra bywiog, a nerthol. Tra y traddodai yn Saesonaeg, yr oedd yn ddigon amlwg nad oedd gartref; ac fel y dywedai wrth gyfaill wedi hyny, "Pan fyddwyf yn troseddu rheolau y Saesonaeg, byddaf yn debyg i blentyn direidus ar ol tori chwarel o wydr ffenestr; ni byddaf byth yn troi yn ol i geisio gwella pethau, ond yn rhedeg ymaith, dan obeithio na bydd neb wedi fy ngweled, a sylwi." Mewn cyfeiriad at ei ddefnyddioldeb, ei dduwiolfrydedd, ei ostyngeiddrwydd, ei gyfeillgarwch, a'i weinidogaeth, y mae y nodiadau canlynol wedi eu cyfleu mewn llythyr sydd yn ei Gofiant:—"Y mae ei ddyhewyd yn fyw ar ein meddwl. Byddai yn ofer yma gynyg gwneud darluniad o'i gymeriad, ac ni amcenir at ddim pellach nag adroddiad o'r hyn a bar ei gofio yn fwy effro. Bwriadai fy nghroesawu â llety y noswaith flaenorol i ystorm fawr Ionawr, (1840), ond fo'm lluddiwyd i gyrhaedd Llynlleifiad, hyd dranoeth wedi y rhyferthwy. Yr oedd efe wedi symud yno i weinidogaethu yn y Tabernacl, y pryd hwnw. Gwedi cyrhaedd yno, arweiniai fi i fynu i'r llofft, i weled y gwely lle y bwriadai i mi orphwys, a oedd erbyn hyn wedi ei orchuddio â thunelli o gerig a syrthiasai drwy y to o'r simfai. Dywedai yn ei ddull teuluaidd a charedig, 'Wel, frawd, dyma lle y buasai dy orweddfa, pe daethit yma yn ol dy fwriad.' 'Gallai fod rhywbeth eto i ni i'w wneud,' eb efe 'wedi arbediad fel hyn; y mae yn anogaeth i ni fod yn fwy cysegredig yn y gwaith. Rhaid i ni ei wneud yn destyn pregeth:' arosais yno gyd ag ef hyd wedi addoliad teuluaidd, ac ni allaf byth anghofio yr amgylchiadau; yr oedd rhywbeth hynotach yn ei weddi ar y pryd na dim a glywswn erioed; yr oedd yn gofyn caniatad gan y Goruchaf i nesu ato yn agosach nag arferol, megis i ymddiddan âg ef wyneb yn wyneb; mor syml, mor deimladol, eto mor eofn rywfodd, nes yr oeddwn yn arswydo yn grynedig yn y lle; ni welais y fath arwyddion o dduwiolfrydedd yspryd erioed. Ni allaf anghofio y gofal mawr oedd ganddo am yr achos crefyddol yn mhob man, nid yn unig yn nghylch ei weinidogaeth ei hun, ond fel y dywedai yr apostol, 'y gofal sydd arnaf beunydd dros yr holl eglwysi.' Yr oedd ei ddefnyddioldeb fel cadeirydd yn mhlith ei frodyr, yn werthfawr iawn. Yr oedd yn 'fab tangnefedd ei hun,' ac yn llwyddianus iawn fel tangnefeddwr yn mhlith eraill. Dichon na byddai yn ormodiaith dywedyd, mai efe oedd y llygaid â pha rai y gwelent, y traed â pha rai y cerddent, y dwylaw â pha rai y gweithient, a'r ffon ar yr hon y pwysent. Ni chamarferai ei ddylanwad; ymddygai yn wastadol fel brawd, ac nid fel un yn tra-awdurdodi ar etifeddiaeth Crist. Yr oedd yn hynod am ei hynawsedd, a'i ostyngeiddrwydd. Yn nghanol mil o demtasiynau i ymchwyddo, ymgadwai yn gyd ostyngedig a'r rhai iselradd. Adroddwyd yr hanesyn canlynol am dano. Dywedai, pan yr oedd yn ddyn ieuangc, ei fod yn agored weithiau i ym-

Digitized by Google

ollwng i fath o ysgafnder difeddwl, ac ar ol y bregeth, i hen wraig ei gyfarfod, a dywedyd wrtho, "yr ydych yn bregethwr da, ond bydd raid i chwi roddi pob math o gellwair heibio, onid e, ni wnewch fawr o les.' 'Ni sylwais nemawr ar y pryd ar yr hyn a ddywedai yr hen chwaer, ond cofiais am dani yn mhen blyneddoedd ar ol hyny. Y mae hi wedi myned i'r nefoedd yr wyf yn credu. Ni wn a gaf fi fyned yno a'i peidio, ond bum yn meddwl lawer gwaith, os byth yr awn i yno, mai un o'r pethau cyntaf a wnawn, fyddai ymofyn am dani, i gael siglo llaw a hi, a diolch am ei chyngor.' Yr oedd ei gyfeillgarwch yn anwyl iawn, ac yn dra adeiladol. Yr oedd yn barod bob amser i gyfranu rhyw ddawn ysprydol. Nid wyf yn gwybod i mi fod erioed yn ei gyfeillach heb fod yn enillwr. Yr oedd ei sylwadau bob amser yn argyhoeddiadol, eto yn ddengar; ac yn onest, eto yn oddefgar a thyner. Pwy a'i gwrandawodd ac a all anghofio tuedd ymarferol ei weinidogaeth? Yr oedd yr athrawiaeth bur a draddodai yn defnynu fel gwlaw, a'i ymadrodd yn dyferu fel gwlith. Deffro y meddwl, a gafael yn y gydwybod oedd ei nod, er na chanfyddid mo hono, nes y teimlid archoll y saeth: nid boddloni cywreingarwch, ond yn hytrach fel Paul a Barnabas, pan yr aethant i'r synagog, a "llefaru felly," fel y credodd lluaws mawr. Ni allaf byth anghofio ei hyawdledd dylanwadol. Yr oedd yn dra dedwydd yn y dull y gosodai allan y meddyliau cryfion oedd yn llanw ei enaid mawr, yn nghyraedd y bobl, o bob gradd a dosparth, nes yr ymdeimlent mor deuluaidd a phe buasent gartref, bawb ar ei aelwyd ei hun wrth ochr y tan. Gollyngai ei ffraethineb mawr y fath ffrwd lifeiriol o ymadroddion am ben cynulleidfa, nes y byddai y dagrau yn llif yn llanw pob llygad. Ni allaf lai na chyfeirio at un tro neillduol, mewn cymanfa yn Llanerchymedd, flynyddau yn ol, ar y maes, ddau o'r gloch, yn yr haf, a'r hin yn drymllyd, a'r gwrandawyr yn farwaidd. Yr oedd yr olwg arno cyn dechreu pregethu, fel pe buasai yn dra anesmwyth; aeth i lawr o'r areithfa, ac i fynu drachefn, tra yr oedd y pregethwr o'i flaen yn traddodi: ymddangosai fel un ar ymdorri gan awydd gollwng ei feddyliau allan. Daeth o'r diwedd at y ddesc, edrychai yn lled wyllt, fel y dywedir, a'i yspryd wedi tanio, a'i feddwl wedi ymlenwi hyd yr ymylon. Darllenai ei destyn yn lled gyflym, ac yn hyf, "Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwenych, hyny ydyw, un nefol." Gollyngodd y fath ddylif o ffraethineb, mewn darluniad o ragoriaethau y Canaan ddaearol, fel arweiniad at ei bortread o'r wlad well, nes braidd na ddychymygasem glywed y maes yn symud dan ein traed. Yr oedd efe ei hun yn ystyried hon yn un o oedfaon rhagoraf ei oes; canys awgrymodd hyny mewn ymddiddan yn mhen blynyddau ar ol hyny. Bernir i'r bregeth hon effeithio er daioni i'r enwad dros holl wlad Mon i gyd, fel yr oedd rhai o bob parth i'r ynys yn bresenol. Adroddid ei bregeth yn mhob cyfeillach yn y gymydogaeth dros amser maith ar ol hyny; ac yr oedd ei boblogrwydd drwy yr holl derfynau, ar binacl uwchaf ei dderchafiad.

Yr oedd yn fawr yn ystyr fwyaf priodol y gair, mewn amryw ystyriaethau. Yr oedd yn fawr yn ei alluoedd naturiol. Yr oedd o synwyr cryf; yr oedd yn wr craff; gwelai i egwyddor pob peth a gynhygid i'w sylw ar unwaith. Nid oedd neb cymhwysach fel dyn nag ef, i'w osod ar y faingc pan fyddai rhyw faterion pwysig i gael eu trafod. Y mae llawer dyn duwiol, na wnai fwy o les ar faingc barn na baban; ond wrth y llyw yr oedd ei le ef; yr oedd Rhagluniaeth wedi ei ddarparu at hyny; llywodraethai ef heb i neb wybod ei fod yn ymgymeryd a'r fath waith. Yr oedd ei gyngor o wir werth. Nid oedd well dyddiwr nag ef i'w gael. Teimlir colled am dano fel y cyfryw mewn cymanfaoedd a chyfarfodydd cyhoeddus. Yr oedd yn eang yn ei wybodaeth. Nid oedd un gangen o wybodaeth fuddiol, nad oedd ganddo ef ryw gyfran o honi. Yr oedd pob peth wrth law ganddo yn feunyddiol. Yr oedd fel crefftwr cywrain, a'i holl offerynau o fewn ei gyrhaeddiad. Wrth ymdrin â phob mater, gwyddai pa le i'w adael. Y mae llawer un wedi cael gafael ar feddylddrych ardderchog, yn ei andwyo gymaint, fel y bydd yn fwy o boen na hyfrydwch ei wrando; nid dywedyd pob peth ar a wyddai, ac a allai, y byddai efe; ond detholai y pethau mwyaf pwysig a nodedig yn mhob gwrthddrych: dangosai y rhai hyny i'w wrandawyr, a gadawai ddigon o le i'r meddwl weithredu. Byddai ei ergyd bob amser ar y gydwybod; ni foddlonai ar oglais tymherau dynion, a gadael y gydwybod yn anargyhoeddedig ac yn dywyll. Y mae llawer o bregethwyr na feddant un ymgais uwch na chyffwrdd a'r dymer; os gwelant ambell ddeigryn yn treiglo dros ruddiau rhai o'r gwrandawyr, byddant wedi cyrhaedd eu nod eithaf; ond nid felly yr oedd efe; achub y pechadur o afael y perygl oedd ei amcan ef. Nid oedd neb yn ei oes wedi astudio mwy ar y natur ddynol, a thwyll y galon, nag efe, a byddai yn arfer dywedyd, fod natur yn sicr o daraw natur. Yn ei bregethau, dilynai y pechadur i'w holl lochesau, cyfarfyddai a'i holl esgusodion, dynoethai ei holl au-noddfaau, daliai ef ar bob tir, nes y gorfyddai fyned yn fud. Byddai cynulleidfaoedd yn plygu, fel coedwig o flaen gwynt nerthol, yn wyneb nerthoedd ei resymau anwrthwynebol. Yr oedd efe yn athronydd gwych; galwai gynorthwy holl anian at ei wasanaeth, ac yr oedd pob peth fel yn ufuddhau iddo; nid oedd dim mewn natur na chelfyddyd nad allai efe gael rhyw gymorth oddiwrthynt, wrth ymdrin â chyflwr pechadur. Anaml y sylwai ar unrhyw wrthddrych, nac ar unrhyw achos, heb dynu rhyw addysg oddiwrtho. Yr oedd ei lygaid yn agored yn mhob man, ac yn mhob amgylchiad. Wrth rodio yn y maes, wrth deithio ar y mor, wrth gerdded heolydd dinasoedd, ac wrth gyfeillachu yn yr ystafell, sylwedydd y ceid ef; yr oedd yn cymeryd rhywbeth i fewn yn wastadol; yr oedd natur a chelfyddyd yn gweini fel llawforwynion iddo, pa le bynag y byddai. Un gadwyn fawr oedd ei oes, ni eilid dywedyd fod nemawr oriau segur wedi myned dros ei ben erioed; yr oedd efe yn wastad mewn gwaith; casglu gwybodaeth oedd ei brif ymdrech, a hyny yn enwedig yn Llyfr Duw. Yr oedd efe fel meistr y gynulleidfa yma; plymio i ddyfnderoedd hwn oedd y dyben wrth sylwi ar bob peth arall; yr oedd ei holl wybodaeth mewn pethau eraill, yn is-wasanaethgar i hyn. Ni adawodd egwyddor heb ei chyffwrdd, na changen o athrawiaeth heb ei thrafod; ni chymerai bethau mawrion yr Ysgrythyr yn ganiataol, ond mynai farnu drosto ei hun; chwiliodd y prif awdwyr adnabyddus; tramwyai faesydd helaeth prif dduwinyddion yr oesau; a chloddiai fŵn pur o honynt i'w wrandawyr: a deuai allan mor newydd oddiwrtho, a phe na buasai neb erioed wedi meddwl na dywedyd felly o'r blaen. Nid ydoedd byth yn ymddangos

Digitized by Google

yn yr areithfa fel pe buasai gweithiau yr hen awdwyr enwog, yn un llwyth na baich ar ei gefn, ac yntau yn cael ei lethu danynt, ond ymddangosai yn eu canol, yn ymadroddwr hyawdl, a hwythau fel cedyrn Dafydd, yn ei gefnogi. Yr oedd ei ddawn ymadrodd yn ddihafal; yr oedd ei dafod fel pin ysgrifenydd buan. Y mae amryw a chryn ffraethineb ganddynt i draddodi, ond ni bydd ganddynt nemawr o werth i'w fynegi. Clywir llawer, a ystyrir yn ddawnus gan y werin, yn llefaru efallai am haner awr, neu awr, eto heb ddywedyd dim i dynu sylw y gwrandawyr gymaint ag unwaith, hyd nes y delont i'r hwyl, fel y dywedir; hyny ydyw, nes y byddo eu gwaed yn dechreu poethi, a'u lleisiau wedi ystwytho, fel y gallont roddi ambell fonllef allan; ac yn ddioed wedi y dechreuont wresogi felly, bydd y rhai a garant swn yn fwy na sylwedd, yn dechreu llonni a chynhyrfu; ac ond odid na welir dagrau yn treiglo o lygaid rhai. Y ffordd sydd gan eraill, yw curo pob twmpath i geisio codi yr ysgyfarnog, a phan fethant, ni fydd ganddynt ond rhoddi y gwaith i fynu; bydd eraill yn sicr o waeddi bob amser, a gwneuthur rhyw hwyl ymddangosiadol, pa un bynag a fydd y bobl mewn hwyl ai peidio. Llafurio yn galed, ac ymdrechu y bydd eraill, nes y bydd y gynulleidfa yn teimlo mwy o resyndod drostynt hwy, wrth eu gweled yn y fath boen, nag a deimlant oddiwrth ddim a ddywedant; bydd y rhai hyn yn debyg i'r meirch, yn un o'r cerbydau i Lundain, yn tynu nes y byddont yn chwys dyferol, eu crwyn yn archollion, a'r anadl bron diffygio yn yr ymdrech; ond yn hollol i'r gwrthwyneb i hyn yr oedd efe; tynai ef sylw y gynulleidfa gyda ei fod yn dechreu llefaru; ac ni fyddai neb na theimlai dan ei athrawiaeth ef; yr athronydd, yn gystal a'r hen wraig wledig; byddai yr olwg arno hefyd mor gysurus, nes y byddai yn hyfrydwch i'r gynulleidfa edrych arno, yn trin ei faterion mor naturiol, ac mor hwylus. Yr oedd cymaint o ragor rhyngddo ef, o ran ei ddawn, a llawer a ystyrir yn boblogaidd, ag sydd rhwng cerbyd-agerdd ar y reilffordd, a char-llusg ar un o fynyddoedd Eryri. Y mae pregethwyr poblogaidd, a'u holl ragoroldeb yn eu dull o draddodi yn unig; pan ddarfyddont draddodi, derfydd yr hyfrydwch; y maent fel pe byddai rhyw swyn yn ysgogiad y llaw, ac yn null y wyneb-pryd; difyrir y gynulleidfa dan yr athrawiaeth, ond pan eir i geisio galw i gof pa beth a ddywedwyd, bydd y cwbl wedi myned ar goll; gallai y dyn feddwl ei fod ef yn dal y rhan fwyaf tra yn yr oedfa, ond wrth fyned i adolygu, diflana fel niwl; a phe yr elid i ddarllen pregethau a draddodir dan ddylanwadau fel hyn, ni cheid un math o adeiladaeth ynddynt; ond nid felly yr oedd efe; y pethau a draddodai ef oeddynt yn argraphu ar y meddwl, fel nad oedd dim modd i'w dileu: nid ydys yn amheu, pe ba'i fodd casglu ei gynulleidfaoedd ef yn nghyd, na cheid y cyfan, rhwng pawb o honynt: nid oedd neb o'i wrandawyr na byddai wedi dal ar rywbeth a glywsai; a'r achos o hyny ydyw, y byddai ef yn ymdrin mwy âg egwyddorion pethau, ac yn trin y rhai hyny yn oleuach na neb yn ei oes. Nid oedd unrhyw egni yn ei ddull o draddodi, ond yr oedd y cyfan yn berffaith naturiol ac esmwyth. Y ffordd sydd gan lawer i ddwyn y bobl i deimlo, ydyw eu gorchfygu drwy rym llais, a nerth llifeiriant geiriau; ond gweithio yn raddol y byddai ef, ac yn syml, fel y byddai ei athrawiaeth yn disgyn fel gwlith, a'r dagrau tryloewon yn treiglo dros y gruddiau. Ni flinai ef byth mo'r gynulleidfa â hirfeithder, a sychder diflas; ystyriai hwnw yn ergyd rhy ddrud, y costid dal y gwrandawyr am awr a haner i ddysgwyl am dano; byddai ef mewn gafael a'r bobl yn ddiatreg; ac yn dywedyd i bwrpas wrthynt; ni chaent amser i edrych o'u deutu; nac i feddwl mai wrth ryw rai eraill y byddai efe yn llefaru; ond byddai pob un drosto ei hun yn sylwi fel am ei fywyd, ar yr hyn a leferid: y mae llawer pregethwr y ceir tri chwarter awr o amser y bregeth ganddo, i brynu a gwerthu, planu ac adeiladu; ac i deithio mor a thir, ond nid felly y byddai efe; ac nid yn hir y byddai wedi dwyn pob un at ei achos tragwyddol ei hun. Yr oedd yn hynod iawn am eglurder ei faterion. Ni fyddai byth yn ymwisgo mewn cymylau, nac yn dwyn ei wrandawyr i niwl a thywyllwch. Ni ddywedid wrth ddyfod o'i wrando ef, ei fod yn bregethwr dyfn iawn; ond canmolid ef bob amser am ei eglurder. Yn ymyl ei wrandawyr yr oedd efe o hyd. Pregethu ar yr Iawn, ac ar gyfiawnhad pechadur, fel y gallai y dylaf ei ddeall, y byddai. Os soniai rywbeth am allu a doethineb Duw fel Crewr y byd, nid pensyfrdanu dynion drwy son am faint na chyflymder y naill seren a'r llall, ar wahan, y byddai; ond dwyn rhyfeddodau Duw i ymyl y bobl y byddai. Ni byddai byth yn dallu meddyliau y bobl â geiriau synfawr uwchlaw eu hamgyffred, fel nad allent ffurfio un math o feddwl cyson am danynt; ond eu goleuo yr oedd ef; a gwneud athronydd o'r bugail ar lethr y mynydd, a duwinydd o'r cloddiwr ar ochr y bryn. Pregethu etholedigaeth yn ymarferol, a rhwymedigaeth foesol pechadur, nes ei arwain i waeddi allan, Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig? Yr oedd ei gymhariaethau hefyd yn naturiol, eglur, ac agos, fel y llewyrchent ar feddwl y gwrandawyr mewn amrantiad; ac os dygai arabedd i fewn, i daflu goleuni ar ryw beth y gwnai hyny, nid i gynhyrfu chwerthin iad, ond i egluro y pwnc. Y mae ambell un yn boblogaidd yn mhlith y werin anwybodus, ar gyfrif ei ddigrifwch, ond ni fradychai ef byth mo urddas yr areithfa yn y ffordd honno. Arferai iaith nerthol yn fynych, ond nid ymostyngai byth i iselder di chwaeth. Y mae geiriau yn gweddu i bob achos, yn nghyfoeth iaith, ac ymadrodd iachus, na allesid beio arno, a fyddai ganddo yntau bob amser.

Yr ydym bellach yn dyfod at gyfnod arall yn mywyd Mr. Williams; Yn fuan wedi ei ddychweliad adref o'r brif ddinas, y tro y cyfeirwyd ato yn barod, dechreuodd awyrgylch ei gysuron wisgo cymylau a thywyllwch. Mwynhasai bedair blynedd ar bymtheg o heddwch a dedwyddwch gyda'i briod rinweddol, a'i blant hawddgar; ond erbyn hyn cafodd brofi mai ansicr ac anwadal yw cysuron daearol. Dechreuodd drygfyd yn ei dy. Yr oedd iechyd Mrs. Williams wedi bod yn hytrach yn well nag arferol er ys rhai blyneddoedd yn flaenorol i 1835. Yn y flwyddyn honno cafodd anwyd trwm iawn, yr hwn a effeithiodd yn ddwys ar ei chyfansoddiad gwanaidd; gwellhaodd i raddau, ond yr oedd y peswch poenus yn glynu wrthi; ac yn raddol llesgaodd, a bu farw ar y trydydd o Fawrth y flwyddyn honno. Effeithiodd yr amgylchiad hwn yn fawr ar ei deimladau yntau, fel yr oedd y tywydd yn rhy arw iddo allu ymgynal dano, heb lesgau; a chymhellid ef i newid ei gymydogaeth, newid awyr, a newid cyfeillion. Yn 1837, derbyniodd alwad o'r Tabernacl, Great Cross Hall Street, Llynlleifiad, a rhoddodd eglwysi

Digitized by Google

y Rhos a'r Wern i fynu, wedi bod yno dros ddeng mlynedd ar hugain, mewn serchogrwydd mawr. Y mae yn nodedig i'w sylwi, mai "Williams, y Wern," y gelwid ef yno, ac hyd ddiwedd ei oes. Treuliodd dair blynedd llafurus yno. Nid oedd y cyfnewidiad yn cael yr effaith a ddysgwylid ar ei iechyd, ond i'r gwrthwyneb; gwelid yn fuan ei fod yn gwannychu. Cafodd anwyd trwm, wedi gwlychu ar lan y mor, tra y dysgwyliai am y Llong-agerol i ddyfod trosodd i Gymru, yr hyn a nychodd ei gryfder yn fawr. Rhoddodd yr eglwys yno i fynu, a dychwelodd i'w hen Weinidogaeth, ond yn unig i orphen ei oes. Traddododd bregeth ymadawol effeithiol iawn yn Liverpool. Wedi dychwel i Gymru, cafodd anogaeth i gymeryd taith adlonol trwy rannau o Siroedd Arfon, a Meirionydd. Y mae yn gof gan yr Ysgrifenydd am ei ymweliad â Chonwy, ac am y cydymddiddan oddiyno i'r Penmaenmawr. Yr oedd yn ddigon eglur ei fod ef dan yr argraph mai amheuol iawn ydoedd pa un a ga'i ef adferiad a'i peidio, er mor siriol a chyfeillgar ydoedd. Gwnaed llawer cynnygiad am adferiad iddo, ond y cwbl yn aneffeithiol. Ergyd drom oedd marwolaeth ei ferch Elizabeth, yr hon yn ddiau, oedd yn un o rai rhagorol y ddaear. Cyn terfynu, barnwn y byddai y dyfyniad canlynol o'i Gofiant yn dra dyddorol i'r darllenydd: Ar ymweliad cyfeillion âg ef, ychydig cyn ei farwolaeth, dywedir; "Nid anghofiwn byth yr olwg a gawsom arno, pan yr aethom i'r ystafell! Pan welodd ni," medd y cyfeillion, "cyfododd ar ei draed, a'i wyneb yn dysgleirio fel wyneb angel; tybiem fod holl alluoedd ei enaid, a'i deimladau, fel wedi ymgodi i'w wyneb pryd; ei ddau lygad oeddynt yn gyffelyb i feini tanllyd, ac ar yr un pryd, fel dwy ffynon o ddwfr, yn bwrw allan eu haberoedd gloewon. Dilynodd pob llygad yn yr ystafell siampl yr eiddo ef, ac wylasom yn nghyd. 'O, fy mrodyr anwyl,' eb efe, 'mor dda genyf eich gweled yn dychwelyd o faes y frwydr! Cawsoch fuddugoliaeth ogoneddus ddoe! a minnau yma yn hen filwr methedig, yn swn y frwydr, ond yn methu dyfod i gymeryd rhan ynddi. O! fel y dymunaswn fod gyda chwi, ond nid felly y gwelodd fy Nhywysog yn dda; rhoddodd fi o'r neilldu, ond gwnaeth hyny yn dirion iawn, ni chymerodd fy nghoron oddiar fy mhen, ni fwriodd fi i'r domen. O! pe buaswn yn yr yspryd a'r teimladau yr wyf ynddynt y dyddiau hyn, bump ar hugain o flynyddoedd yn ol, pa faint mwy o ddaioni a wnaethwn nag a wnaethym! Mi a gefais amser, talentau, a dylanwad, y gallaswn, ond eu hiawn ddefnyddio, ysgwyd yr holl Dywysogaeth! ond och, darfu i minau chwarae â hwynt; a pheth rhyfedd iawn ydyw, na buasai fy Meistr mawr yn fy mwrw ymaith oddi ger ei fron, fel llestr heb hoffder ynddo!' 'O,' ebe un o honom, 'yr ydym yn mawr hiraethu, ac yn gobeithio am eich gweled yn ail ymddangos ar y maes.' 'Nid oes genyf fi nemawr o obaith am hyny,' ebe yntau, 'ond pe bai hyny i fod, yr wyf yn gobeithio y byddwn yn llawer gwell milwr nag y bum erioed.'" Nos Lun, Mawrth 16eg dymunai gael gweled diaconiaid y Wern, a'r Rhos; ac wedi eu cael ato, ymddiddanodd lawer â hwynt yn nghylch amgylchiadau yr eglwysi; a rhoddodd lawer o gynghorion iddynt. Bu farw y bore dranoeth, tua naw o'r gloch; yn 59 mlwydd oed. Ar y 25n ymgasglodd tyrfa luosog i dalu teyrnged i'w goffadwriaeth, am y tro olaf; yr oedd yn eu mysg bymtheg ar hugain o weinidogion. Claddwyd ef yn y fonwent wrth gapel y Wern. Pregethwyd ar yr achlysur y Sabbath canlynol yn y Wern, a'r Rhos, gan y Parch. W. Rees, Dinbych, oddiwrth 2 Sam. i. 19. Gweinyddid yn yr angladd gan Dr. Raffles, Liverpool, A. Jones, Bangor, ac eraill; ac yr oedd y teimladau mwyaf galarus yn cael eu hamlygu drwy yr holl wasanaeth.

"Delw'i wedd sy'n argraphedig
Ar fy nghof yn berffaith lawn;
Ac mae llygad fy nychymyg
Yn ei wel'd yn amlwg iawn;
Cofiaf dôn ei lais pereidd-fwyn,
Clust dychymyg fyth a'i clyw,
Nes y'm hudir bron i gredu
Fod ein Williams eto'n fyw!"

**WILLIAMS**, Parch. William, Pantycelyn, a anwyd yn y flwyddyn 1717, mewn lle a elwir Cefn-y-coed, yn mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, gerllaw Llanymddyfri, swydd Gaerfyrddin. Ei rieni oeddynt John, a Dorothy Williams, y rhai oeddynt aelodau gyda yr Annibynwyr, ac a ystyrid gan y cyhoedd yn rhai gwir grefyddol. Amaethwr cywir, gonest, a pharchus, oedd ei dad, yr hwn oedd hŷn na'i wraig o gryn dymor, ac a fu farw pan nad oedd ei fab William ond ieuangc; ac o blegid hyny, disgynodd gofal ei ddygiad i fynu ar ei fam, yr hon ydoedd o'r enw "Lewis," yn ei morwyndod. Yr oedd hi tua deng mlwydd a deugain oed pan fu farw ei gwr; a bu fyw hyd yr oedran o bymtheg mlynedd a phedwar ugain. Ni bu ei mab, gwrthddrych yr erthygl hon, fyw ond saith mlynedd ar ei hol. Bu hi farw yn weddw. Bedyddiwyd brawd i dad William, gan y gweinidog enwog hwnw, ag y mae ei enw mor adnabyddus drwy yr holl dywysogaeth, y Parch. Rees Prichard, Ficer Llanymddyfri. Gadawodd ewythr iddo, o ochr ei fam, etifeddiaeth iddo o gryn werth; ac efe ydoedd y pedwerydd, o chwech o blant, a'r unig fab a fu byw i weled oedran gwr. Cafodd Williams ieuanc ddygiad i fynu da; gorphenodd ei addysgiaeth yn y Llwyn-llwyd, yn agos i'r Gelli, swydd Frycheiniog, dan hyfforddiant y Parch. Mr. Powell, gweinidog yr Annibynwyr yn Maes-yr-Onen. Yr oedd yr athrofa hon o gryn enwogrwydd y pryd hwnw. Yr oedd Williams erbyn hyn wedi dyfod i oedran priodol i ymgymeryd â rhyw fywioliaeth yn y byd; ac yr oedd ei ddyfodol ef yn troi i raddau mawr ar y dewisiad a wnelai ef o'i lwybr ar y pryd. Ei fwriad ar y cyntaf, oedd bod yn feddyg; ac efe a astudiodd elfenau blaenaf physygwriaeth yn dra manwl, a bu o les i laweroedd, hyd ddydd ei farwolaeth trwy ei gynghorion meddygol. Ond pa fodd bynag, cyn iddo orphen ei addysgiaeth yn yr alwedigaeth hono, daeth cyfnewidiad pwysig ar ei olygiadau crefyddol, a chynlluniau ei orchwylion rhagllaw. Daeth duwinyddiaeth, a'r weinidogaeth, i gymeryd lle meddygiaeth corphorol yn ei feddwl, yn gwbl oll. Bu am ryw ysdod dan deimladau gofidus am ei gyflwr ysprydol; yr oedd ei argyhoeddiadau o bechod yn ddyfnion ac effeithiol, ac yr oedd ei lawenydd, wedi cael gwaredigaeth, yn uchel iawn. Fel yr oedd ef yn dychwelyd adref o'r athrofa grybwylledig yn 1738, cafodd gyfleusdra i wrando yr enwog Howel Harris, yn pregethu yn mynwent Talgarth gyda nerth, ar ol y gwasanaeth arferol yn yr Eglwys. Yr oedd y profiad a gafodd dan ddylanwad yr Yspryd, mewn deffroi, argyhoeddi, a chysuro ei feddwl, yn nerthol a bywiog iawn; yr hyn a welid yn amlwg mewn canlyniad, yn ei holl fywyd, ei weinidogaeth,

Digitized by Google

a'i gyfansoddiadau. Cyfansoddodd farwnad ar farwolaeth Harris, yr hon sydd yn darawiadol iawn. Y mae yn cyfeirio at effaith y bregeth hono arno ef ei hun, yn ei benillion. Fel hyn y dywed:—

"Dyma foreu fyth mi gofiaf
  Clywais innau lais y nef,
Daliwyd fi wrth wŷs oddiuchod
  Gan ei swn dychrynllyd ef;
Ac er crwydro'r dyrys anial
  Ol a gwrthol, dilesäad,
Tra fo anadl yn fy ffroenau
  Mi a'i galwaf ef, fy nhad."

Y mae yn effeithiol iawn yn y darluniad o'r modd yr arweiniwyd ef i'r iawn, allan o gyfeiliorni ei ffordd. Yn fuan wedi y cyfnewidiad hwn ar ei feddwl, daeth i'r penderfyniad, dan fendith y nef, o gyflwyno ei hun i waith y cysegr, sef gweinidogaeth y cymod, yn yr hon y bu o lesäad annhraethadwy. Ymroddodd yn hollol i'r gwaith o gyhoeddi iachawdwriaeth i drigolion ei wlad, oedd yn eistedd yn mro a chysgod angau. Bu yn offerynol i ddychwelyd lluaws; ac adeiladu llawer, yn y ffydd. Urddwyd ef yn ddiacon yn yr Eglwys Sefydledig, yn 1740, gan y Dr. Nicholas Claget, Esgob Ty Ddewi, i Isberigloriaethau Llanwrtyd,a Llanddewi Abergwesyn. Gwasanaethodd y curadiaethau hyn am dair blynedd, a phregethodd yn ffyddlon i bobl anwybodus ac anfoesgar y lle, heb ond ychydig iawn o lwyddiant. Yr oedd yn teithio i wasanaethu yr eglwysi hyn o Cefnycoed, tu a deuddeng milltir o ffordd, erbyn y cyrhaeddai Landdewi Abergwesyn. Yr oedd buchedd Williams yn ei arddangos fel Cristion cyson, ac yr oedd ei feddwl yn ymhyfrydu yn ngwasanaeth y Gwaredwr; cadwai addoliad teuluaidd yn rheolaidd, dair gwaith bob dydd; ac yr oedd o ymarweddiad dichlynaidd, a theimlad hynaws, a charedig. Ni chafodd nemmawr o gefnogaeth i fyned rhagddo yn ei waith, eto yr oedd ei benderfyniad, a'i wroldeb, yn anhyblyg yn wyneb pob amgylchiad a gyfarfyddai. Pan yr oedd yn ddeuddeg ar hugain oed, priododd un Miss Mary Francis, o Lanfynydd, a fu yn preswylio wedi hyny yn Llansawel. Yr oedd y foneddiges hon wedi bod yn cyfaneddu gyda y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Yr oedd hi yn un o ragoriaethau personol uchel, a hi a brofodd yn gydmar bywyd serchus, a chyfeilles mynwes deilwng i'w sefyllfa, yr hon a ystyriai ef fel rhodd iddo o'r nef. Bernir ei fod yn cyfeirio ati yn un o'i benillion yn y Theomemphus, yr hwn sydd yn adnabyddus drwy ein gwlad;—

"Caruaidd yn ei geiriau, synhwyrol yn ei dawn,
  Yn astud yn ei gweithred, o drysor gras yn llawn,
  A'i mawrgais am y nefoedd, a'i hysbryd 'ddiar y byd,
  Mewn cydsain bur a hyfryd, a Theomemph' o hyd."

Y mae mewn amryw o'i gyfansoddiadau wedi gosod allan ddedwyddwch y sefyllfa briodasol, ac y mae ei gynghorion ar ddewisiad cydmar priodasol yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn.

Cyfarfyddodd Williams â chryn dywydd yn ei ymdrechiadau gweinidogaethol, fel y bu gyd âg amryw o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig tu ar amser hwnw. Arferai ddywedyd, gyda graddau o ddigrifwch, iddo gael ei roddi yn llys yr esgob, tra yr oedd yn gwasanaethu yn Llanwrtyd, am bedwar ar bymtheg o drosëddau ag y bu yn euog o honynt, ac enwir rhai o honynt, megis peidio rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio, peidio darllen rhai rhanau o'r gwasanaeth, a nifer ychwanegol o gyffelyb bethau. Dywed rhai i hyn gael ei wneud drwy achwyniadau dynion annuwiol, y rhai a fynent ei fwrw ymaith, oblegid awydd i gael rhywun nes at eu chwaeth yn ei le. Nid oedd yr un achwyniad yn cael ei ddwyn yn mlaen ar unrhyw bryd, yn erbyn y rhai a esgeulusent eu dyledswyddau, gan fyw yn ol yspryd y byd. Gwrthododd yr Esgob roddi iddo "gyflawn urddau," ac felly nid oedd efe ar y goreu, ond offeiriad "haner pan," fel yr arferid dywedyd. Trwy anogaeth Whitfield y torodd efe allan i fod yn bregethwr teithiol, ac i fyned i'r prif-ffyrdd a'r caeau, i gyhoeddi gair y bywyd, i rai oedd yn cael eu "dyfetha o eisiau gwybodaeth." Dywedir iddo ddatgan, mewn amser wedi hyny, fod yn ofidus ganddo iddo fabwysiadu y cynllun hwn; ac y gallasai fod yn fwy defnyddiol pe buasai wedi bod yn fwy gochelgar a phwyllog nag a fu yn cymeryd y dull brysiog a wnaethai; pa fodd bynag, bendithiwyd ei ymdrechiadau yn y ffordd hono, i raddau mawr. Ymddengys mai wedi yr ymadawiad hwn o'r Eglwys, pa un bynag ai yn wirfoddol a'i peidio, y daeth ef i adnabyddiaeth a'r enwog efengylwr, y Parch. Daniel Rowlands o Langeitho; yr hwn a bregethai yn achlysurol yn nghapel Ystrad-ffin, yr hwn sydd o fewn y plwyf lle y preswyliai Williams. Yr ydym bellach yn dyfod yn mlaen, i gymeryd golygiad arno mewn cylch newydd o ddefnyddioldeb, yn lled gyffelyb i genhadwr, i'r hyn yr oedd efe wedi ei gymhwyso yn arbenig. O'r amser y gadawodd efe yr Eglwys, daeth yn deithiwr rheolaidd trwy y dywysogaeth, fel apostol, i bregethu yr efengyl dragwyddol, pa le bynag y ca'i ef bechaduriaid i'w wrando. Dyma fu ei orchwyl arbenig ef o hyny allan, fel gwas i Grist, am tua haner can mlynedd o amser. Yr oedd yn arfer myned yn fisol i Langeitho, i gynorthwyo Rowlands yn ngweinyddiad swper yr Arglwydd, i'r lluaws mawr oedd yn cynull yno o bob parth i'r wlad, i wrando y bregeth, a chyfranogi o'r wledd. Fel eglurhad ar y teimlad byw oedd yn cael ei gynnyrchu gan y gwasanaeth hwn, ni byddai yn anmhriodol yma, fynegi yr hanesyn canlynol am yr amgylchiad. Yr oedd ychydig o blentynrwydd diniwaid yn mhlith y bobl, a dymuniad mawr gan bawb, gael derbyn y bara, neu y cwpan, o law Rowlands ei hun. Ar un achlysur felly, yr oedd nifer yn dychwelyd adref o'r gwasanaeth, ac mewn cydymddiddan, bawb yn adrodd eu mwynhad. "Mi gefais i y bara heddyw o law Rowlands, a'r cwpan o law Jones, Llangan" meddai un o honynt. Dywedai un arall, "Minau a gefais y bara o law Williams, Pant y celyn; a'r cwpan o law Rowlands." Yr oedd pawb, yn eu tro wedi adrodd fel y bu arnynt; ond un hen wraig oedd yn eu plith. Gofynwyd o'r diwedd iddi hithau, o law pwy yr oedd hi wedi derbyn yr elfenau? I'r hyn yr atebodd, na wyddai hi yn y byd. "Pa fodd yr oeddych mor ddi lygad a hyny," ebe un o honynt wrthi, ond atebai yr hen chwaer, na chafodd hi hamdden i edrych o amgylch ar neb ond ar Grist, yn nghanol y golygfeydd nefol. Bu Williams hefyd yn pregethu, ac yn gweinyddu yr ordinhad unwaith yn y mis, am bymtheng mlynedd ar hugain, yn Llanlluan, Caio, Cilycwm, a Llansawel, oddigerth yr amserau y byddai yn ymweled a'r eglwysi yn y Gogleddbarth, neu ar ei deithiau yn y De. Parhaodd serchogrwydd mawr, a chyd-weithrediad rheolaidd, rhwng y ddau

Digitized by Google

efengylwr yma hyd ddiwedd eu hoes. Yr oedd Williams wedi ymuno a'r Trefnyddion Calfinaidd, ac felly yn eu plith hwy y llafuriai. Pan y cynhaliwyd y Gymdeithasfa gyntaf yn Nghymru gan yr enwad hwn, yn nhy Jeffrey Dafydd o'r Rhiwiau, yn mhlwyf Llanddeusant, yn swydd Gaerfyrddin, yr oedd Williams yno, ac yr oedd Howel Harris yn bresenol, yr hwn a anogai bawb oedd yn y lle i arfer ei ddawn mewn barddoniaeth, i edrych a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi i neb o honynt y dalent ofynol i gyfansoddi Emynau at wasanaeth y cysegr, er gogoniant Duw, a lles yr eglwys; ac yn yr amser penodol, wedi gweled y cynnyrchion, dywedai Mr. Harris, "Williams piau y canu." Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1740, ac at yr amgylchiad hwn y cyfeiriai yn un o'i gyfansoddiadau, yn y geiriau hyn:—

"Dyma'r pryd, boed cof am dano,
Ganwyd y Sosasion fawr,
Sydd er's haner cant o flwyddau
Yn cadw'i fynu hyd yn awr,
Yn gwneud undeb athrawiaethau,
Ac yn clymu cwlwm crwn,
Nas gall rhagfarn na drwg dybiau
Fyth i ddatod dim o hwn."

Yr oedd ei ddoniau areithyddol yn dra helaeth, ei bregethau yn efengylaidd, yn brofiadol, ac yn felus; yn chwilio i mewn i athrawiaethau gau, a phrofiadau twyllodrus, ac yn gwahaniaethau yn fanwl rhwng y gwir a'r gau yspryd. Yr oedd ei ddychymyg yn gryf, ei lygaid yn graff a threiddgar, a llawn o ddylanwadau nefol ar ei yspryd wrth weinidogaethu yn gyhoeddus, ac yn ei ymddiddanion â dynion am fater eu heneidiau yn y cymdeithasau neillduol. Dywedai Iarlles Huntington am dano, "Nid oedd gan Gymru yr un gwr mwy, ac ystyried pob peth, i ymffrostio o hono." Ar ei dymuniad hi, cyfansoddodd lyfr bychan o Emynau yn y Saesonaeg, titl yr hwn yw, "Gloria in Excelsis," neu Gogoniant yn y Goruchafion: cyfansoddodd un arall yn yr un iaith, a alwai, "Hosanna to the Son of David." Am deilyngdod y rhai hyn ni wyddom nemawr. Teithiodd lawer trwy Gymru i bregethu, ac y mae yn rhyfedd ei fod wedi gallu osgoi erlidigaeth gystal, wrth feddwl am y driniaeth chwerw a gafodd eraill mewn llawer man. Yr oedd yn hyn yn eithriad i'w gydlafurwyr. Priodolai rhai hyn i'r gair a daenwyd am dano fel prydydd o alluoedd anarferol; yn enwedig yn y Gogledd, ac y byddai yn berygl dywedyd yr un gair am dano, rhag y byddai iddo ymweled â hwy â fflangell ei awen. Ofnid enw Jonathan Huws, Llangollen; Huw Jones, o Langwm; a Twm o'r Nant, i'r fath raddau, fel na feiddiai neb eu sarhau; a thybid fod Williams, Pant y celyn, yn un o'r rhai doniol a goganus hyny. Diau felly, i'w awen fod yn darian i lawer pregethwr y pryd hwnw. Fel awdwr yr oedd Williams yn gyhoeddus a goludog iawn yn ei gynnyrchion. Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd, oedd casgliad o Emynau, a alwai "Haleluwia;" aeth hwn drwy dri argraphiad olynol mewn byr amser. Y nesaf ydoedd ei Arwrgerdd orchestol, "Golwg ar Deyrnas Crist." Dichon fod hon yn un o'i brif orchestion. Y mae y benod gyntaf yn cynwys, rhoddiad y deyrnas i Grist, neu Grist oll yn oll yn y bwriad dwyfol; cyfamod prynedigaeth rhwng y Tad a'r Mab, er tragwyddoldeb. Yr ail:—Crist yn sefydlu ei deyrnas, neu Grist oll yn oll mewn creadigaeth—darluniad o gread y nef a'r ddaear, yr elfenau, yr anifeiliaid, coed, llysiau, a dyn yn ddiweddaf oll,—a'r cyfan yn, a thrwy Grist. Trydydd:—Crist yn adferu y deyrnas wedi y dirywiad cyffredinol,—neu Grist oll yn oll yn yr addewid yn Eden. Pedwerydd—Crist yn llywodraethu ei deyrnas,—neu Grist oll yn oll mewn rhagluniaeth. Pumed:—Deddflyfr y deyrnas, —neu Grist oll yn oll yn y Bibl. Chweched:—Teyrnas neillduol Crist,—neu Grist oll yn oll yn iachawdwriaeth ei saint;—ei swyddau fel Offeiriad, Prophwyd, a Brenhin. A'r olaf;—Y farn, a rhoddiad i fynu y deyrnas i Dduw a'r Tad, fel y byddai efe oll yn oll! Yr oedd y testyn yn gynnwysfawr ac eang, ac yn galw am y galluoedd dysgleiriaf i'w drafod: ac nid oedd dim llai nac awen o'r dosparth uwchaf a allasai wneud cyfiawnder a'r fath waith. Yr oedd llanw i fynu y braslin uchod, yn galw am holl adnoddau y meddyliau a'r awenydd mwyaf eu hymadferth: ac ystyried yr amgylchiadau, y mae yn syndod meddwl ei fod wedi gallu esgyn mor uchel. Cyfieithodd, a chyhoeddodd bregeth Ebenezer Erskine, ar Sicrwydd Ffydd. Wedi hyny, cyhoeddodd y "Pantheologia; ac yna, Theomemphus." Yn 1762, argraphodd y llyfr Emynau a elwir, "Y Mor o Wydr," yr hwn a aeth drwy bump o argraphiadau yn bur fuan. Yn 1768, argraphodd lyfr rhydd ieithol a elwir, "Tri o wyr o'r Aipht, a Sodom," yn yr hwn y darluniai yn fanwl ac yn fywiog, ddull bucheddiad, a marwolaeth tri dyn, sef y cybydd, yr afradlon, a ffyddlon, sef dyn gwir dduwiol, dan yr enwau Lladin, "Avarus, Prodigalius, a Fidelus." Yn yr un flwyddyn hefyd, argraphodd y llyfr a elwir, "Crocodil afon yr Aipht," yn darlunio cenfigen, yn ei natur wenwynig, a'i heffeithiau niweidiol, yn mhlith proffeswyr yn benaf. Cyhoeddodd hefyd yn ganlynol i hyn, draithodau byrion, dan yr enwau, "Doctor Nuptearum, Martha Philoper, a Philo Evangelius, Ffarwel Weledig," &c. Haleluia, yr ail ran; "Drws Society Profiad," ac yn nghylch deugain o Farwnadau. Dywedir nad oes i'w cael yn awr ond ychydig o'i draithodau rhyddieithol; eu bod gan mwyaf wedi myned allan o argraph. Gwedi iddo dreulio oes hirfaith, lafurus a defnyddiol, yn eglwys Dduw, bu farw yn Pant-y-celyn, Ionawr 11, 1791, yn 74 mlwydd oed. Ymgasglodd tyrfa fawr i'w angladd, a phregethodd Mr. Lloyd o Henllan, Caio, yn briodol i'r amgylchiad, i'r dyrfa fawr. Llafuriodd Williams yn ddiwyd yn ngwinllan yr efengyl, am dros haner canrif; ac fe barhaodd yn ei ymdrechiadau er ei llwyddiant, yn gystal wrth bregethu, ac ysgrifenu; ac i'w lawenydd annhreithadwy, gwelodd ei heffeithiau yn ymledaenu, a'i gallu yn ymddangos, yn iachawdwriaeth miloedd. Yr oedd yn ei ieuengetid yn wr hardd, bywiog, o'r maintioli cyffredin; dywedir fod ei dymherau weithiau yn lled boethlyd, ond yn gyffredin yr oedd yn dirion, ac yn hawddgar tu ag at bawb. Wrth roddi pob peth oedd ynddo at eu gilydd, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf eu doniau, parch, a defnyddioldeb, a welodd ei oes.

Wedi yr holl sylwadau a wnaed ac a wneir ar ei dwymfrydedd fel dyn a Christion, ac yn neillduol fel pregethwr a gweinidog, rhaid addef, mai fel prydydd neu emynydd, yr adwaenir ef yn hanesion ein gwlad a'n cenedl. Y mae ei gynnyrchion awenyddol yn lluosog, a llafurfawr. Y mae nifer o honynt ger ein bron yn awr. Dyma un gyfrol, a ddynodir fel "Gwaith Prydyddawl y diweddar Barchedig William Williams," a argraphwyd yn Nghaerfyrddin, yn y flwyddyn 1811. Y mae yr Emynau

Digitized by Google

a fwriedir at addoliad cyhoeddus, yn rhedeg i 886 o du dalenau; y rhai a gynnwysant 1366 o Emynau ar wahanol destynau a mesurau: yna y dilyna cyfansoddiadau a elwir, "Caniadau Duwiol, ar amryw ystyriaethau;" o duedd foesol, go debyg i rai darnau sydd yn yr hen "Flodeugerdd;" y rhai a ddilynir drachefn gan "Gân Benrydd," fel ei gelwir, ar y mesur diodl; ar "Ffydd, ac Anghrediniaeth, Gras, a Serchiadau natur; ac yna drachefn, terfynir y Gyfrol gan "Gerdd Newydd am briodas, mewn ffordd o ymddiddan rhwng Astudiwr oedd wedi addunedu i Weddwdod; Un a'i fryd i briodi; Llencyn gweddw heb sefydlu ei feddwl; Difeinydd; a Gwr Priod. Y mae y cyfan yn ffurfio un gyfrol drwchus, yn cyrhaedd yn agos i fil o dudalenau. Y mae yr Emynau erbyn hyn wedi dyfod yn drysorau cenedlaethol, fel nad oes yr un sylw arbenig yn ofynol am eu cynnwysiad. Un o'r profion egluraf fod elfenau bywyd ynddynt ydyw, yr alwad fynych a glywir am gyfieithiad o honynt i'r Saesonaeg. Da genym ganfod rhai o honynt wedi cael lle yn y "New Congregational;" a gellid crybwyll, fod yr un sydd yn dechreu gyda, "Guide me, O thou great Jehovah," &c., yn cael ei defnyddio mor fynych ag yr un sydd o fewn y Casgliad, yn yr addoliad cyhoeddus yn mhob man. Ond y gweithiau mwyaf llafurfawr ac eang o'i eiddo; a gawn mewn dwy gyfrol, a gyhoeddwyd yn Nghastell Newydd Emlyn; sef "Bywyd a Marwolaeth Theomemphus," neu y Cristion; a "Golwg ar Deyrnas Crist, neu Crist yn bob peth, ac yn mhob peth," y cyfeiriwyd ato yn barod. Math o chwareugerdd yw Theomemphus, mewn tuag ugain o benodau, a chryn nifer o chwaronwyr yn cymeryd eu rhan ar y fanllor ger ein bron. Y mae y testyn, yr amcan, a'r gwaith, oll yn dda, ac o duedd ymarferol fuddiol. Y mae y dychymygiad yn codi, feddyliem, oddiwrth y Ddameg am y mab afradlon, wedi gadael ty ei dad, a chrwydro i wlad bell, &c., ryw beth yn debyg i gynlluniau John Bunyan. Y mae yspryd y gân i'w ganfod yn naturiol iawn yn y llinellau agoriadol, ac nid allwn lai na dodi ychydig o honynt ger bron:—

"Duw, nertha'm henaid ganu, fel amlhaodd gras,
Lle yno'r amlhaodd hyd eitha bechod cas,
Fel 'sgorodd hi trugaredd ar ryw fynyddau mawr
O gariad anorphenol, i aflan lwch y llawr.

Gwna imi osod allan, mor agos uffern dan,
Bu Theomemphus nefol, ryw ddyddiau bach o'r blaen,
Fel daliwyd ef dan Sina, gan daran fawr ei grym,
Lle daeth rhagluniaeth ddistaw âg ef heb ddeall dim.

Fel cysgodd, fel dihunodd, fel crwydrodd yma a thraw,
Fel maflodd gau athrawon mor gyfrwys yn ei law,
Fath greigydd serth a ddringodd, cyn mynd i ben ei daith,
Fath lynnoedd du heb foddi, a nofiodd lawer gwaith.

Fath lewod a gorchfygodd, fath gewri gadd ef lawr,
O mewn, o maes, mor aml, a gwlith y boreu wawr,
Nol cwympodd fel y cododd, a'i gwymp yn enyn tan
Gwrth-giliad yn ei yru saith gyntach yn y blaen," &c.

Y mae hyn o ddyfyniad, yn ddigon i beri i ni deimlo fod yspryd y peth byw yn y gan; fod yma feddwl, cynllun, a bywyd. Cawn yn gyntaf fywyd ieuengaidd Theomemphus ganadoef ei hun;—yna, ei droedigaeth dan bregeth Boanerges—hudoliaeth gau bregethwyr, —ei ofnau, &c.—yn chwilio am gysur lle nad oedd i'w gael, &c. Efengylydd yn pregethu, a thangnefedd yn dychwel iddo eilwaith; ei gynnydd a'i ddefnyddioldeb;—ei brofedigaethau, ei wrthgiliadau, a'i adferiad;—yna ei gyfeillach â Philomela:—Cerydd ac addysg Aleitheus; ei briodas, ei dywydd, a'i helyntion, hyd angau, &c. Yr unig beth a deimlwn yn pylu effaith y darlleniad ydyw, nifer y chwaronwyr, ac amledd a nifer y golygfeydd; ac efallai ychydig yn nieithriwch yr enwau. Buasai symleiddio y cynllun i lai o nifer o chwaronwyr yn ychwanegu at nerth y dylanwad. Pa fodd bynag, fel y mae, ceir yma oleuni a gwres, fel na all yr un Cristion ystyriol, ddarllen y gwaith heb brofi adeiladaeth, a chyngor, a chariad. Yn symledd y cynllun, gyda thestyn mwy dyrchafedig, yr ydym yn ystyried "Golwg ar Deyrnas Crist," yn rhagori. Y mae y ddau yn ddiau yn llawn o gelfyddyd, a natur; ac o blegid hyny, yn sicr o fynu lle yn nghalon y darllenydd, yn gystal a'i ddeall. Y mae yn yr ail ran o'r gwaith, urddunedd effeithiol, tyner, tarawiadol dros ben, yn y darluniad o'r Cyfamod, &c., ac ni byddai yn deg i ni beidio dwyn yr agoriad i'r benod ger bron:—

"O fénaid cofia am dano, cans dyna'r dedwydd bryd,
Y seliwyd y cyfamod, cytunwyd arno 'nghyd,
Y rhoddwyd ei delerau dyoddefol arno ef,
Lle hongia pob daioni o'r ddaear gron i'r nef.

Yr hen gyfamod hwnw am bwrcas dynolryw,
Cyfamod newydd bywiol yn awr ei enw yw,
Lle mae'r holl addewidion yn cael eu cadw nghyd,
Eu tyngu'n siwr a'u selio cyn rhoddi sylfaen byd.

A dyma un o'r enwau dymunol arno gawn,
Ei roi'n gyfamod pobloedd, a ieithoedd lawer iawn,
Goleuni i'r Cenhedloedd, i feibion Seth eu gyd,
A iachawdwriaeth lawen i gyrrau pella'r byd.

Wel dyna'r pryd y rhoddwyd y cyfan yn ei law,
Y fu, y sy, neu eto, byd ddiwedd byd a ddaw,
A thyna'r pryd addawodd ef gynta roddi i waed,
A thalu lawr bob iota am bechod du, i'w Dad."

Nid ydym yn gweled un angen am sylw ar arddull ei iaith, na'i ddewisiad o eiriau, mwy na'r gynghanedd. Ni ellir eu cyfiawnhau, y mae yn ddiau, eto yr oeddynt yn gweddu iddo ef. Cymerai y geiriau nesaf at ei law, pan y canfyddai y gwisgent ei feddwl, heb betruso dim am chwaeth, na llyfnder darlleniad. Byddwn yn rhyfeddu weithiau, na buasai yn well ganddo gymeryd y gynghanedd megis proest, yn hytrach na gwrthuno gair, yn enwedig yn y brifodl, megis wa'd, er mwyn ateb i "Tad," &c., yn lle cymeryd y gair yn ei ffurf briodol, er iddo fod yn proestio yn niwedd y cwplws. Ond y mae manylu ar y brychau hyn yn ofer; nid yn nhlysni yr iaith, ond yn naturioldeb angerddol ei ymadrodd, i gyfateb i'r meddwl, yr oedd cuddiad cryfder ei awen gysegredig ef. Y mae rhai o'i farwnadau hefyd ger ein bron, sef yr un ar ol Griffith Jones, Llanddowror; ac yn ei diwedd cawn ddau benill i Madam Bevan, y foneddiges a ddarparodd yr ysgolion rhad i Gymru:—

"Tithau bendefiges hawddgar,
Sydd a'th enw gwych ar led,
Na chwilyddia ddwyn yr achos
Mawr yn mlaen, yn gadarn cred,

Gyr ysgolion rhad yn union,
O Lacharn hyd Gaergybi draw,
Nid oes neb o feibion Aaron
Na rydd iti help ei law."

Yna y dilyna Cof-alarnad y Parch. George Whitfield, o Gaerloew; ar fesur lled anystwyth, eto yn llawn o deimlad a barddoniaeth. Gwedi hyny, y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, yr hon yn ddiau sydd yn un o'r rhai mwyaf nerthol yn y rhestr. Yn y farwnad hon, y mae yn terfynu, mewn cyfeiriad ato ei hun: ni bu ef byw ond ychydig wythnosau ar ol ei hen gyfaill, a dywedai ei fab, y Parch. John Williams, fod y llinellau yn ddarluniad byw o deimladau a geiriau olaf ei dad:—

Mae fy amser i ar ddarfod,
Mae fy ngalwad bron ar ddôd,
Rwyf mewn carchar gan yr angau,
Fel yn llechu dan ei droed,
Ni cha'i fynd i maes o'i loches,
Yma fymryn bach na thraw,
Ond fy Jubil mi ddysgwyliaf,
Dyr fy nghadwyn maes o law.

Eto, er ei lyffetheiriau,
Sydd yn rhwymo'nghorff yn nghyd,
Y mae'r nefoedd fawr yn agor,
Rhwygwyd y cymylau'u gyd,
Mae fy yspryd yn cartrefu.
Gyda'r dorf aneirif fawr,
O rai cyntaf-anedigion
Ag sydd yn y nef yn awr.

Y nesaf, sydd ar ol y Parch. Lewis Lewis, Gweinidog yr Efengyl; yr hon a ddilynir gan un i'r Parch. Howel Davies, o Sir Benfro; a William Davies, Castell Nedd; yna daw un ar ol Mrs. Grace Price, Watford, Sir Forganwg; ac y maent oll yn dwyn delw eu hawdwr. Dywedir iddo gyfansoddi tua deugain o Farwnadau. Ni wyddom pa nifer sydd ar gael, ond ni allwn lai na datgan fod yn resyn na ellid eu casglu i'w cyhoeddi yn un llyfr, nid yn unig ar gyfrif y cofiannau a gynwysant, ond hefyd er mwyn y cyfeiriadau hanesyddol sydd yn mhob un o honynt. Y mae yn ddiau fod yr Emynwyr wedi bod yn wasanaethgar iawn i'n gwlad, a Williams yn benaf oll. Hwy fuant y rhag-redegwyr i'r diwygiadau yn nghaniadaeth y cysegr: daeth diwygiad ar y tonau i ddilyn yn raddol, fel erbyn hyn, y mae y naill ddosparth a'r llall, wedi eu cwblhau i raddau mawr yn addoliad cyhoeddus y genedl. Y mae barddoniaeth, a cherddoriaeth, fel gefeilliaid wedi eu cyd-eni â'n natur. Cyfeirir atynt yn hanes gorchwylion boreuaf y byd. Dywedir am Tubal, ei fod yn dad pob teimlydd telyn, ac organ; a chan y crybwyllir am gerddoriaeth offerynol, yr ydym yn cael ein gwasgu i gredu fod cerddoriaeth leisiol mewn bod cyn hyny, o blegid nad yw yr olaf ond efelychiad a chynorthwy i'r gyntaf, a'i bod mewn ymarferiad gyda'r anac[illegible]iadau cyntaf yn Mharadwys, fel moddion er cyflwyno addoliad ein rhieni cyntaf i lys y nef, pan yr oeddynt mewn cyflwr o berffaith burdeb, a dedwyddwch, yn cyd-dderchafu adseiniau eu mawl. Y mae yspryd addoliad yn Emynau ein hawdwr hwn; y maent yn cludo ein meddwl hyd i ymylon pyrth gogoniant, yn ngolwg gorsedd yr Ion, ac i wrando anthemau angelion a saint. Y mae yr eglwys Gristionogol wedi bod yn ymdrechgar yn mhob oes yn ei gofal am feithrin y mawl cyhoeddus. Y mae pob oes a gwlad wedi cymeryd eu rhan; ac y mae ein gwlad ein hunain, yn dechreu ymysgwyd o'r llwch i bwrpas, yn y dyddiau hyn, yn holl ranau gwasanaeth y mawl. Er nad oes cymaint o gelfyddyd yn cael ei arddangos yn ein Hemynau, ag sydd yn Awdlau, Arwrgerddi, a Phryddestau ein gwlad efallai; eto yn y dosparth Emynol y mae y defnyddioldeb ymarferol mwyaf: y mae y rhai hyn yn ngeneuau plant, a'r hen bobl, yn gystal a'r canol oed. "Pob perchen anadl molianant yr Arglwydd," ac felly pob perchen anadl a gyflwynant emynau i'w cof, er mwyn eu datganu yn bersonol, yn gystal ag yn gynulleidfaol. Y mae llawer o emynau Anne Griffiths, o ran eu cymeriad llenyddol, a'u teimlad barddonol, yn dwyn llawer o debygrwydd i'r eiddo Williams, yn gymaint felly, ag y cymerir y naill yn lle y llall, yn fynych, wrth ymofyn am eu hawduriaeth. Y mae yr eiddo Edmwnd Prys, yn ddigon hawdd eu hadnabod, oddiwrth ei arddull arferol. Ni thalodd efe ond ychydig iawn o sylw i'r acceniad yn y Salmau Cân; ac y mae hyny yn hynod wrth feddwl am y cywreindeb rheolaidd a medrus sydd yn rhedeg drwy ei holl gyfansoddiadau cynghaneddol. Dichon mai Edward Jones, Maes-y-plwm, a fu y mwyaf rheolaidd a threfnus yn ei emynau: yr oedd ef yn dra hoff o ddwyn y gynghanedd i mewn, ond yr oedd yn dra llwyddianus wrth gadw at lyfnder a melusder y llinell bob amser. Yr ydym wedi cael amryw gyfieithiadau teilwng iawn i'r Gymraeg, o benillion Watts, a Doddridge, Cowper, ac eraill, eto er hyn i gyd, prin y gellir dysgwyl yr un naturioldeb mewn cyfieithiad, ag a geir mewn cyfansoddiad gwreiddiol. Pa fodd bynag, gwyr y cyhoedd yn burion, fod Williams, Pant-y-celyn, wedi codi Colofn goffadwriaethol iddo ei hun yn ei Emynau cysegredig, ac a saif yn uchel ac eglur drwy yr holl dywysogaeth cyhyd ag y byddo y Gymraeg yn iaith llafar ein gwlad; bydd talent ac awen y seraph hwn yn gwasanaethu i genedlaethau eto a ddeuant ar ein hol, ac yn arweiniad i'r fforddolion yn eu hymdaith at y "wlad well," hyd ddiwedd amser, fel y dywed llawer Cristion am ei waith, "Dy benillion oedd fy Nghân yn nhaith fy mhererindod!" Tra yr ydym yn gwneud y nodiadau hyn, nid ydym yn anghofio nifer eraill sydd genym, megis yr eiddo Benjamin Francis, Thomas Williams, a Dafydd Jones; gyda Chasgliadau Harries; Jones Treffynon; Edwards Wyddgrug; Samuel Roberts, William Rees; William Caledfryn Williams; Griffiths, Abertawe; Ebenezer Rees; a nifer eraill; yn gystal a'r crynhoadau gwerthfawr sydd genym o Donau cysegredig at wasanaeth yr addoliad, gan Ieuan Gwyllt, Ambrose Lloyd, Ieuan Glan Geirionydd, Glan Hafren; a Jones a Stephan; gyda nifer yn ychwanegol, o fwy neu lai o deilyngdod; a gallwn ddywedyd mewn ad-dremiad i'r syniadau hyn, ein mawrhad o fawl y cysegr yn ein plith, yn y llinellau adnabyddus:—

"Am ganu, ni fu, ni fydd,
Hoew fawl, ei hefelydd!"

**WILLIAMSTONE**, capeloriaeth, yn mhlwyf Begelly, swydd Benfro; 4 milldir i'r gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Dinbych y pysgod. Llythyrdref, Penfro. Erwau, 1431. Gwerth ardrethol, 1377*p*. Poblogaeth, 535. Tai annedd, 128. Ychydig ydyw nifer y tir-feddianwyr. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn gydiedig â Begelly.

**WILLINGTON**, trefgordd yn mhlwyf Hanmer, swydd Fflint; 5 milldir i'r gogledd ddwyrain o

Ellesmere, ar y brif ffordd o'r Eglwys Wen i Wrecsham. Mesura 1874 erw o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 2670*p*. Poblogaeth, 334. Tai annedd, 69.

**WILSON**, Richard, y *landscape painter* enwog, ydoedd fab i'r Parch. John Wilson, periglor Penegoes, sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn 1713. Yr oedd ei fam yn un o Wynniaid Coedllai, ger y Wyddgrug, sir Fflint. Cafodd addysg dda, amlygodd dueddfryd naturiol ei feddwl yn gynar, a chyfarfu rwystrau lawer o'i fore gwyn tan y nos. Yn 1728, bu farw ei dad, a chymerwyd yntau i Lundain gan ei ewythr, Syr George Wynne, lle y dodwyd ef dan y gyfarwyddyd un Wright, arluniwr bon-y-gler a fuasai trwy ei anwybodaeth wedi dinystrio Wilson am byth, pe buasai modd dinystrio athrylith. Yn mhen tua chwe' blynedd, dechreuodd arlunio ar ei gyfrifoldeb ei hun, o dan nawdd Esgob Norwich, ac yn fuan, cafodd yr anrhydedd o dynu arluniau Tywysog Cymru, a duc Caerefrog, y rhai oeddynt dan addysg yr esgob. Nid oedd yr un arluniwr yn cydoesi ag ef a ragorai arno am lun pen. Ond fel arluniwr tirweddau y rhagorai efe, er na ddeallodd hyny cyn bod yn 36 oed. Y pryd hwnw, trwy gymhorth ei enillion ei hun, a chynorthwy cyfeillion, aeth i Rufain; galwai yno un bore gyda'r medrus Zucarelli; a thra yn gorfod dysgwyl yn lled hir am y celfyddydwr, er mwyn pasio yr amser, tynodd olygfa mor gampus ar y ffenestr, fel y rhyfeddai Zucarelli, ac y gofynodd iddo os ydoedd wedi efrydu y gangen hono; ac os nad oedd, am iddo ymroddi ati yn ddioed, ac y byddai yn sicr o fod yn llwyddianus iawn. Rhoddai Vernet hefyd, arliwydd enwog arall yn Rhufain, gynghor cyffelyb iddo, a chafodd bob cefnogaeth a nawdd y ddau, i gyrhaedd medr ac enwogrwydd yn adran newydd ei efrydiaeth. Cynyddodd yn gyflymach ynddi nag y dychmygai ar y cyntaf; yr oedd ganddo adnoddau o gyfoeth yn ei fynwes at y gwaith, na wyddai ef cyn hyny ddim am danynt, a drysorwyd yno yn more ei oes, wrth syllu ar fynyddoedd rhamantus, a glynau gleision gwlad ei genedigaeth. Yn lle dilyn yr hen ddull o efrydu, sef adlunio hen weithiau y celfyddydwyr, gan obeithio trwy hyny gipio peth o'u hysbryd a'u dawn, efe a ymroddes yn ddyfal i astudio eu cynnyrchion, a meistroli eu harddull, gan eu cymharu yn fanwl â natur. Yn y modd hwn, cafodd allan eiliw a nodweddiad golygfeydd Eidalaidd, a throchodd ei ddarfelydd yn eu hysplander. Y mae purdeb yn anadlu yn awyr ei ddarluniau, heuliau dysglaer yn eu cynhesu, temlau adfeiliedig yn eu britho, a phelydra ynddynt yr afonig risialaidd, a'r llyn tawel a neillduolant yr Eidal. Ymledodd ei glodydd mor gyflym, fel y cafodd amryw ddysgyblion; ac fel teyrnged o barch i'w athrylith, tynodd Mengs ei ddarlun, a dychwelodd yntau y deyrnged gydag anrheg o ddarlun ysplenydd. Wedi treulio chwe' blynedd ar y Cyfandir, dychwelodd i Loegr yn 1755, ac ymsefydlodd yn Llundain. Gymaint oedd ei enwogrwydd y pryd hwnw yn y Brifddinas, fel yr heidiai gwyr o ddysg a nod i'w efrydfa; cynyddai ei ddysgyblion yn gyflym, yr enwocaf o ba rai ydoedd Hodges, o Farrington. Anfonodd ei ddarlun campus o Niobe, i Arddangosfa 1760, yr hwn a chwanegodd ei glodydd, ac yn 1765 arddangosodd *View of Rome* yr hwn a edmygid yn fawr. Yn ystod ei drigiant yn Llundain, tynodd luaws o ddarluniau, ond ni chafodd y gefnogaeth a haeddai, a thra y gwerthir ei gynnyrchion yn bresenol am brisiau uchel, prynid hwynt y pryd hwnw am y nesaf peth i ddim. Y mae ymddygiad ei gydwladwyr at y dyn athrylithgar hwn, yn warth i'r oes hono. Efe oedd yr arliwydd golygfeydd goreu a gododd yn y wlad hon, yn yr hwn y cyfarfyddai crebwyll Claude, a medrusrwydd Poussin; ond efe a ochelai fanylder beichus y naill, ac a ragorai ar eangder y llall; ond a chyneddfau ganddo a ddylasent ei godi ar uchaf binacl enwogrwydd, a rhoddi yn gynysgaeth iddo gyfoeth lawer, goddefwyd iddo fyw yn helbulus, a marw yn dlawd. Wrth wraidd yr anffodion hyn yr oedd cenfigen ei gyd gelfyddydwyr, ac yn benaf ar y rhai hyny yr oedd un y dysgwylid gwell pethau oddiwrtho, sef Syr Joshua Reynolds. Cymerai y dawnsfeistr ffals a mursenol hwnw, bob mantais i'w ddiraddio, am na fynai Wilson ymostwng i osodiadau torllwyth o ryw fân feirniaid heb ddim cymhwysder i'r gwaith ond eu haerllugrwydd. Rhag gelyniaeth Reynolds, nis gallai hyd yn nod y bedd ei guddio; erlidiodd Wilson hyd angau, ac ar ol hyny. Un tro yr oedd ciniaw gan aelodau y *Royal Academy*, a Reynolds, llywydd y gymdeithas yn y gadair; ac wrth gynyg iechyd da Mr. Gainsborough, dywedai, mai efe oedd y *landscape painter* goreu oedd yn bresenol. Nid oedd hyn ond diraddiad uniongyrchol ar Wilson, yr hwn a atebodd mewn llais uchel a digofus, y dylasai y cadeirydd ychwanegu, ei fod y *portrait painter* goreu hefyd. Ergyd ydoedd hon i Syr Joshua, gan mai yn y gangen olaf y rhagorai efe. Fel yr oedd y byd yn gwgu ar Wilson, surodd ei deimladau, ac afrywiogodd ei dymher; yr hyn a chwanegai ei helbul, ac a'i gwnai yn fwy anmhoblogaidd fyth. Yr oedd efe yn un o sefydlwyr y *Royal Academy*, a phan bu farw Mr. Hayman, y llyfrgellydd, yn ngwyneb ei anffodion a'i dlodi, deisyfodd Wilson gael y swydd, er mai un eithaf israddol ydoedd i ddyn o'i broffes a'i alluoedd ef; a daliodd hi hyd oni ymneillduodd i Gymru. Treuliodd flyneddau olaf ei oes yn y Wyddgrug, a chyda ei berthynas Mrs. Catherine Jones, yn y Colomendy, plwyf Llanferes, ger y Wyddgrug; ac yn y lle olaf y bu farw, yn Mis Mai, 1782, yn 69 oed. Claddwyd ef yn mynwent y Wyddgrug, lle y mae cist, a beddargraff arni, yn dynodi ei fedd. Tra yn mwynhau tawel neillduedd y Colomendy, ymddigrifai mewn tynu lluniau o ddyddordeb a dybenion lleol, er difyru ei gymydogion gwledig; a cheir un o'r cyfryw yn arwydd i dafarndy gerllaw—y "*Three Loggerheads*," sef y ddau ynfyttyn y mae eu darlun ar yr arwydd, a'r edrychydd yn gwneud y trydydd.

**WISTON**, tref fechan, a phlwyf, yn undeb Hwlffordd, swydd Benfro. Y mae y dref yn sefyll 2¼ milldir i'r de dde ddwyrain o orsaf rheilffordd *Clarbeston Road*, a 5¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Hwlffordd. Ei henw ar y cyntaf oedd Gwyston, ac fe'i gelwid gan y Cymry, Castell Gwys, yr hwn enw a gafodd oddiwrth ei pherchenog Normanaidd, neu Fflandrwysaidd;—Gwys, neu Wiz, yr hwn a'i gwnaeth yn ben tref ei arglwyddiaeth, Daugleddau. Merch ei ŵyr, Syr Phyllip Gwys, a brïododd Gwrgan ab Bleddyn, pennaeth brodorol, oddiwrth yr hwn yr hanodd y teulu pendefigaidd a gyfenwid Wogan, yn meddiant pa rai yr arhosodd y lle hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif, pan, o ddiffyg ettifedd gwrryw, y rhanwyd yr ettifeddiaeth chang hon rhwng y cydaeresau; a chastell, a bwrdeisdref Cas Gwys, a brynwyd wedi hyny, gan Iarll Cawdor.

Yr hen gastell, a gyfodasid gan y cyn-feddiannydd Normanaidd, ac ydoedd yn lle o gadernid mawr, a

Digitized by Google

fu yn fynych dan sylw hanesyddol mewn cyssylltiad a'r helyntion milwraidd a gymerasant le mor aml yn hen dalaeth Dyfed, yn ystod yr hir ymrysonau rhwng y Cymry â goresgynwyr Normanaidd eu gwlad. Yn y flwyddyn 1146, darfu i dri mab Gruffydd ab Rhŷs, â'r rhai yr ymunai Hywel ab Owain Gwynedd, ymosod ar yr amddiffynfa hon â cheryg a fwrid yn ei herbyn o beiriannau wedi eu dyfeisio i'r perwyl hyny, ac â hwrdd-beiriannau; ac o'r diwedd, llwyddasant i gymeryd meddiant o'r lle. Yn y flwyddyn 1193, ymosodwyd ar y castell gan Hywel ab Rhys, yr hwn a gymerodd Phyllip de Gwys, a'i wraig, a'i ddau fab, yn garcharorion, ac a'u dug ymaith: ac yn y flwyddyn 1220, darfu i Llewelyn, tywysog Gwynedd, yr hwn ar eiriolaeth Iorwerth, Esgob Ty Ddewi, a wnelsai gyfammod heddwch â'r Normaniaid, ar yr ammod y byddai iddynt rhagllaw dyngu llw o ffyddlondeb iddo ef, a chydnabod ei ben arglwyddiaeth; wedi ei gythruddo gan eu gwaith yn torri y cyfammod, ymosod ar Gastell Gwys, a'i ddryllio, gan roddi y gwarchlu i farwolaeth trwy y cleddyf: ac o'r pryd hwn ni adferwyd yr amddiffynfa hon i'w chadernid blaenorol; ac yn wir ni bu cymaint o angen am hyny, gan yr ymddengys i'r Cymry, yn y canlyniad i brïodas eu cydwladwr Gwrgan â merch Phyllip de Gwys, oddef i'r pendefig hwnw a'i deulu, fwynhau yr ettifeddiaeth hon mewn tangnefedd.

Y mae Cas-Gwys yn fwrdeisdref, ac mewn enw, yn cael ei llywodraethu gan Faer; ac mewn undeb â Phenfro, Tenby, a Milford, y mae yn anfon aelod i'r Senedd. Medda lythyrfa, dan Narberth, a chynnelir Ffair yma ar yr 8fed o Dachwedd. Cynnwysa y fwrdais 7030 erw o dir. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 3374*p*. Poblogaeth, 691. Tai annedd, 136. Y mae y faenoriaeth yn perthyn i Iarll Cawdor. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 164*p*. Noddwr, Iarll Cawdor. Cafodd llan y plwyf ei hadgyweirio yn y flwyddyn 1865. Y mae yma addoldy hefyd gan y Trefnyddion Calfinaidd. Y mae gweddillion yr hen gastell yn gorwedd ar fryn lled uchel; ac yn gynnwysedig yn benaf, o ran o'r gadwrfa, ar fryncyn pigyrnaidd, yn gylchynedig gan ddyfrffos ddofn. Oddiwrth ymddangosiad yr orsaf, gellir casglu ei fod yn dra ehang; ac oddiwrth drwch y muriau mewn rhai rhanau o hen balas y Woganiaid, y rhai, yn ol traddodiad a ffurfient ran o'r hen amddiffynfa, bernir y rhaid ei bod yn lle cadarn dros ben.

**WMFFRE DAFYDD** AB IFAN, ydoedd fardd da, a chlochydd Llanbrynmair; ac yn ei flodeu o 1620 i 1660. Yr oedd efe a William Phylip o Ardudwy, yn ymgyfeillachu a'u gilydd. Ar waith William Phylip un tro yn nesâu at y llan ar ymweliad, gofynodd i fachgenyn ddangos iddo dy Wmffre Dafydd. Y bachgenyn a'i harweiniodd i'r fynwent at fedd newydd, ac a ddywedodd, "Dyma dŷ Wmffre Dafydd ab Ifan." Dywedir mai yr amgylchiad hwn a barodd i William Phylip gyfansoddi ei Gywydd i'r BEDD.

**WOGAN,** WILLIAM, a anwyd yn mhlwyf Penaly, sir Benfro, yn 1678. Yr oedd ei dad yn beriglor Gomfreston, a Penaly; ac yn disgyn o hen deulu parchus yr Wganiaid o Wiston, ger Hwlffordd. Yn 1694, derbyniwyd ef yn ysgolhaig yn Westminster, ac yn 1700 etholwyd ef i goleg y Drindod, Caergrawnt, lle yr aeth trwy y cylchoedd isaf gyda llwyddiant a chymeradwyaeth mawr. Oddiyno aeth yn athraw i deulu Syr R. Southwell; ac yn 1710, yn ysgrifenydd i fab y pendefig hwnw o dan Dug Ormond, arglwydd rhaglaw yr Iwerddon. Yn 1712 cymerodd swydd yn y fyddin, fel rhingyll catrawd o wyr traed; ac yn 1714, penodwyd ef yn dâl feistr gweddwon gweinidogion y sefydliad Gwyddelig; ac yn 1718 priododd Catherine Stanhope, o deulu anrhydeddus iarlliaid Chesterfield. Wedi hyny, ymsefydlodd yn Ealing, Middlesex, a bu yno hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ion 24, 1758, ac efe yn 80 oed. Efe oedd awdwr, "An Essay on the Proper Lessons of the Church of England," a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1754, a'r ail waith yn 1764. Cyhoeddwyd hanes ei fywyd yn 1818 gan y Parch. James Gatliff, Llundain.

**WOLSTON,** neu WESTON NY END, capeloriaeth, yn y rhan hono o blwyf Worthen, sydd yn y rhanbarth isaf o Gantref Cawrse, yn swydd DREFALDWYN. Gelwir y lle hwn weithiau *Stony end*, am ei fod yn cynnwys bryn hir, caregog, a noethlwm, yn agos i ffin swydd yr Amwythig. Fe'i gwneir i fynu o ddwy drefgordd, sef Trelystan, a Rhos Goch. Gwel TRELYSTAN.

**WOMASTON,** cyd-drefgordd â Walton, yn mhlwyf Maesyfed Hen, ac o fewn ffiniau bwrdeisiol Maesyfed Newydd, yn swydd FAESYFED; 4 milldir i'r dwyrain o Faesyfed Newydd. Y mae ei sefyllfa mewn rhandir ffrwythlawn, ar lan yr afonig Somergil. Poblogaeth Womaston a Walton yn nghyd, yn ol deiliadeb 1871, oedd 186. Tai annedd, 44.

**WONASTOW,** plwyf, yn undeb, a swydd FYNWY; 2 filldir i'r de orllewin wrth orllewin o orsaf rheilffordd Trefynwy, yn yr hon dref y mae ei llythyrfa. Mesura yn erwau, 1599. Gwerth ardrethol, 1567*p*. Poblogaeth yn 1871, 146. Tai annedd, 29. Y mae hen balas yn y plwyf hwn, a adeiladwyd yn nheyrnasiad Harri y Chweched, ac a elwir Llys Wonastow, yn yr hwn y cyfanneddai Syr Thomas Herbert, gorwyr William Herbert, Iarll cyntaf Penfro, o'r enw hwnw, a mab ieuangaf Syr Charles Herbert, o Elizabeth, ferch Syr Gruffydd ab Rhys. Yr oedd ef yn siryf swydd Fynwy yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad y Frenines Elisabeth. Ei fab, Henry, a brïododd y bendefiges Lucy, ferch William, trydydd Iarll Worcester, ac a adawodd amryw ferched, un o ba rai, o'r enw "*Christian*," a drosglwyddodd Wonastow i'w gŵr, George Milborne, Ysw.; yr hwn a wnaed yn hedd-ynad, ac is-raglaw swydd Fynwy; ac ymddengys ei fod wedi gweini y swydd o Siryf y swydd hon ddwy waith; sef, yn y 15fed o deyrnasiad Iago y Cyntaf; ac yn y 10fed o deyrnasiad Charles y Cyntaf.

Bu George Milborne farw, yn y flwyddyn 1637, gan adael hiliogaeth luosog, o bedwar mab, a phum merch. Y pedwerydd o'i hiliogaeth, George, a chwanegodd at ei gyfoeth, yr hyn oedd yn fawr eisoes, trwy brïodi Mary, unig ferch, ac ettifeddes James Gunter, Ysw., o'r Priordy, Abergafenni. Eu mab Charles, a brïododd y bendefiges Martha, ferch Edward, trydydd Iarll Rhydychain, a Mortimer: a chan iddo farw yn 1775, heb hiliogaeth gwrrywaidd, aeth holl ettifeddiaethau unedig teuluoedd Gunter a Milborne, y rhai a orweddent yn swyddi Mynwy, Middlesex, Henffordd, a Brycheiniog, i feddiant ei ferch, Mary, yr hon a brïododd Thomas Swinnerton, Ysw., o Neuadd Butterton, yn swydd Stafford, un o epil Syr Roger de Swinnerton, o Swinnerton, yn yr un swydd. Bu Mrs. Swinnerton farw, yn y

Digitized by Google

flwyddyn 1795, gan adael tair o ferched, a chyd ettifeddesau, Martha, a Mary, y rhai oeddynt efeilliaid; ac Elizabeth.

**WOOD**, Owen, ydoedd ail fab i Hugh Wood o Dalyllyn, Mon, a'i wraig, Jane, merch Hugh Pryse ab Hywel, o Faesoglen, Ysw., yr hwn a hanai o Lywarch ab Bran, un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Addysgwyd ef yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd y radd o M.A. yn 1584. Wedi hyny gwnaed ef yn ddeon Armagh, pan yr oedd Robert, iarll Essex, yn arglwydd rhaglaw yr Iwerddon, a dywedir ei fod yn cydfradwriaethu âg ef yn 1600. Owen Wood a briododd Joan, merch Richard Clayton, caplan i'r frenhines, ac ynad heddwch yn Middlesex. Bu yn dra haelionus i'w goleg, a gadawodd gryn swm o arian tuag at sefydlu ysgoloriaeth a chymrodoriaeth yno.

**WOODLASTON**, trefgordd yn mhlwyf Forden, swydd Drefaldwyn; 3¼ milldir i'r gogledd o Drefaldwyn.

**WORTHEN**, pentref, a threfgordd, yn swydd yr Amwythig; a phlwyf, mewn rhan yn swydd Fflint. Saif y pentref 3½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd Minsterley; a 12½ milldir i'r de orllewin wrth orllewin o dref y Mwythig, yr oedd unwaith yn dref farchnad; a medda Lythyrfa, dan y Mwythig.

**WORTHENBURY**, plwyf yn nghantref Maelor, swydd Fflint, ar lan yr afon Dyfrdwy, 7 milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Wrecsham. Medda lythyrfa, dan Wrecsham. Mesura yn erwau, 3279. Gwerth ardrethol, 7578*p*. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, 503. Tai annedd, 108. Ychydig ydyw nifer y tirfeddianwyr. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 400*p*. Noddwr, Syr R. Puleston, Bar. Adeiladwyd y llan bresenol yn y flwyddyn 1740. Y mae henafiaid Syr R. Puleston, y rhai oeddynt o haniad Normanaidd, wedi bod yn cyfanneddu yn Emral, mewn llinach ddi dor, er adeg teyrnasiad Edward y Cyntaf. Y cyntaf o'r teulu a ymsefydlodd yn y lle hwn, oedd Syr Roger de Puleston, boneddwr a safai yn uchel yn ffafr y pennadur hwnw, yr hwn wedi iddo ddarostwng Cymru, a'i pennododd ef i gasglu y trethi a arosodasai efe ar y Cymry, tuag at ddwyn traul ei ryfel yn erbyn Ffrainc; ac efe a'i gwnaeth ef hefyd yn siryf, a cheidwad gwlad Fôn dros ei oes. Y Cymry wedi cythruddo yn fawr trwy gyfodiad trethi oddiarnynt nad oeddynt wedi arfer eu talu, a ddaliasant Syr Roger yn Nghaer yn arfon, ac a'i crogasant yn y fan: ac Edward, wedi llidio yn ddirfawr o herwydd y cyfryw ymddygiad treisiol at ei raglaw, a'u cospodd yn llymdost am eu gwrthryfel, ac a osododd ei fab ef, Roger de Puleston, yn siryf y sir; ac yn yr ail senedd i'r hon y dychwelai y sir a'r fwrdeisdref wedi corfforiad yr olaf, aelodau, y blaenaf a etholodd John, a'r olaf Robert de Puleston, i'w cynnrychioli, fel pe mynasent wneyd iawn i'r hiliogaeth, am y trais a roddasid ar eu henafiad. Yn y flwyddyn 1806, cafodd Syr Richard Puleston, Barwnig, o Emral, yr anrhydedd o ddwyn ei ddiweddar Fawrhydi George y Pedwerydd i Gymru, pan yn dywysog; ac er cof am yr amgylchiad hwnw, ac fel arwydd o'i barch a'i gymeradwyaeth, rhyngodd bodd i'w Uchelder Breninol, ei awdurdodi i wisgo arfien newydd.

Yr oedd y plwyf hwn yn yr amser gynt, yn gapeloriaeth i Fangor Is y coed, oddiwrth yr hwn blwyf ei hysgarwyd, yn ol trefniadau deddf Seneddol, er uno, a dosparthu plwyfi, yn y flwyddyn 1658. Pa fodd bynag, cymerwyd meddiant o'r fywioliaeth drachefn, gan Dr. Bridgeman, periglor Bangor, yn y flwyddyn 1661; ond o'r diwedd, fe'i hysgarwyd drachefn, a gwnaed Worthenbury yn blwyf gwahanol, trwy weithred Seneddol, a gadarnhawyd yn yr 2 il flwyddyn o deyrnasiad William a Mari. Yr oedd degymau y plwyf yn perthyn gynt i deulu Puleston, y rhai oeddynt i dalu swm bychan yn unig i beriglor Bangor yn flyneddol. Gan fod y Barnwr Puleston, yn awyddus i sefydlu gweinidog trigiannol yn y lle hwn, efe a gyfododd dŷ da gerllaw yr eglwys, yn y flwyddyn 1657, ac a waddolodd y fywioliaeth â chan punt yn y flwyddyn, ar yr ammod fod i'w gaplan ef, Phyllip Henry, yr hwn a ddaethai i'w deulu fel athraw i'w blant, yn y flwyddyn 1653, gymeryd arno weinidogaethu yma: a chan i Mr. Henry dderbyn y cynnygiad, efe a drigai yn y ty, ac a gyflawnai ddyledswyddau y berigloriaeth, hyd y flwyddyn 1661, pan ei difuddiwyd am annghydffurfiaeth; ac yn y flwyddyn ganlynol, efe a adawodd y plwyf. Cymmunroddodd Thomas Puleston, Ysw., gant a haner o bunnau at adeiladu ysgoldy yn y fonwent, er rhoddi addysg rad i blant tlodion; ac er rhoddi chwech o dai bychain yn ddi ardreth i dir-ddeiliaid a ddarostynasid yn eu hamgylchiadau ar ystad Emral. Yr oedd Syr John Puleston o Emral, yn ystafellydd Gogledd Cymru yn y flwyddyn 1554; a John Puleston, un o farnwyr Llys dadleuon cyffredin, a anwyd yn Emral.

**WORTHINGTON**, William, D.D., duweinydd enwog, a anwyd yn sir Feirionydd, yn 1703. Addysgwyd ef yn ysgol ramadegol Croesoswallt, o ba le y symudodd i Goleg Iesu, Rhydychain; a chyrhaeddodd yno, safle uchel fel ysgolhaig. Dychwelodd o Rydychain i Groesoswallt, i fod yn athraw yr ysgol lle y buasai yn ddysgybl. Cymerodd y radd o M.A., yn Nghaergrawnt, yn 1742, a'r un radd drachefn yn ngholeg Iesu, Rhydychain, yn 1758; ac wedi hyny y graddau o B.D. a D.D. yn ystod yr un flwyddyn. Cymerwyd sylw o hono yn ieuanc gan y noddwr haelfrydig hwnw i ddysgeidiaeth, yr Esgob Hare, o Lanelwy, yr hwn a roddes iddo ficeriaeth Llanyblodwel, yn 1729. Cafodd hefyd y wagswydd perigloriaeth Darowen, yn 1737, a ficeriaeth Llanrhaiadr-yn-Mochnant, yn 1747. Cyfnewidiodd Darowen yn 1751, am Estyn, sir Fflint; a hono drachefn am Lanfor, ger y Bala, yn 1774, y rhai hyn yn wagswyddau. Yn 1773, cafodd brebendiaeth yn Llanelwy; a darfu i'r Archesgob Drummond, i'r hwn y buasai yn gaplan am lawer o flyneddau, roddi iddo sedd yn mhrifeglwys Caerefrog. Yr oedd yn enwog iawn am ei elusengarwch, ei lafur dyfal, a'i ymroddiadau efrydol. Bu farw Hydref 6, 1778. Yr oedd yn awdwr y gweithiau canlynol:—(1) "An Essay on the Scheme and Conduct, Procedure and Extent of Man's Redemption; designed for the Honour and Illustration of Christianity. To which is annexed a Dissertation on the Design and Argumentation of the Book of Job;" ymddangosodd ail argraffiad o'r gwaith hwn. (2) "The Historical Sense of the Mosaic Account of the Fall, Proved and Vindicated." (3) "Instructions Concerning Confirmation;" (4) "A Disquisition concerning the Lord's Supper;" (5) "The Use, Value, and Improvements of various Readings shewn and illustrated, a Sermon;" (6)

Digitized by Google

"The Sermon preached in the Parish Church of Christ Church, London, on Thursday, April 21st, 1768; being the time of the yearly meeting of the Children educated in the Charity Schools, in and about the cities of London and Westminster," 1768; (7) "The Evidences of Christianity, deduced from Facts, and the Testimony of Sense, throughout all ages of the Church to the present time. In a series of Discourses, preached for the Lecture founded by the Hon. Robert Boyle, Esq., in the parish church of St. James, Westminster, in the years 1766, 1767, 1768, wherein is shewn, that upon the whole, this is not a decaying, but a growing Evidence," 1769, 2 cyf. 8vo; (8) "The Scripture Theory of the Earth throughout all its Revolutions, and all the periods of its Existence, from the Creation to the final renovation of all things; being a sequel to the Essay on Redemption, and an Illustration of the principle on which it is written," 1773; (9) "Irenicum, or the Importance of Unity in the Church of Christ, considered and applied towards the healing of our unhappy differences and divisions," 1775; (10) "An Impartial Enquiry into the case of the Gospel Demoniac; with an appendix, consisting of an Essay on Scripture Demonology," 1777.

**WRECSHAM**, tref, dwy drefgordd, plwyf, ac undeb, yn swydd DDINBYCH. Y mae y plwyf yn sefyll yn y rhan hono o swydd Ddinbych, a elwir cantref Bromfield; ac mewn rhan, yn nghantref Maelor, swydd FFLINT. ac y mae yn cynnwys capelor-iaethau Bersham Drelincourt, a'r Minera, a threfgyrdd Abenbury Fawr, Abenbury Fechan, Acton, Bieston, Borras-hwfa, Broughton, Brymbo, Esclusham Uchaf, Esclusham Isaf, Gourton, Stansty, Wrecsham Abbad, a Wrecsham Regis, neu Freiniol. Y mae y dref yn gorwedd gerllaw rheilffordd Caerlleon a'r Amwythig; yn agos i Glawdd Offa, a Chlawdd Watt; 13 milldir i'r de dde orllewin o Gaerlleon. Adwaenid y lle gan y Sacsoniaid dan yr enw *Wrightesham*, neu *Wrightelesham*, oddiwrth yr hyn y mae yn dra thebyg y deillia ei henw presenol. Oddiwrth ei sefyllfa ar y tu dwyreiniol i Glawdd Offa, fe'i cyfrifid yn mysg trefydd breniniaeth Sacsonaidd y Mers; ond, ar gyfnod diweddarach, fe'i cyfrifid o fewn y rhandir a elwir Maelor Gymreig. Edward y Cyntaf, brenin Lloegr, a ddyroddodd y dref hon, yn nghyd ag arglwyddiaeth Bromfield a Iâl, o fewn yr hon ei cynnwysid, i John, Iarll Warren; ond, nid yw yn ymddangos ei bod wedi ei hynodi un amser âg unrhyw amgylchiad o bwysigrwydd hanesyddol. Yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, fe'i crybwyllid gan *Leland*, fel tref fasnachol, yn yr hon yr oedd rhai masnachwyr, a gwneuthurwyr bwcceledau enwog. Yn ystod y rhyfel cartrefol, rhwng Charles y Cyntaf a'r Senedd, gwnaed yr eglwys yn garchardy dros ryw yspaid; ond, ni chymerodd unrhyw amgylchiad nodedig le yma yn ystod y rhyfel hono, oddieithr yn mis Mawrth, 1646, pan ddarfu i rai o filwyr y Senedd, gyfodi terfysg a gwrthryfel am eu cyflogau, a chymeryd y trysorydd, sef y Milwriad Jones i ddalfa, yn nghyd ag eraill o'r Prwyaduron Seneddol; gan orfodi y Milwriad Mytton, yr hwn oedd newydd ddyfod i'r dref, i encilio yn brysur i gastell Holt. Y mae y dref, mewn undeb a Dinbych, Holt, a Ruthin, yn meddu hawl i anfon aelod i'w cynnrychioli yn y Senedd amherodrol; ac fel bwrdeis-dref, y mae yn cynnwys trefgyrdd Wrecsham Abbad, a Wrecsham Regis, a rhan o Esclusham Isaf. Cynhelir yr is-frawdlysoedd yma, a'r llysoedd Sirol; ac yma y mae pen-cadlys cartref-lu y Sir. Y mae dau newyddiadur wythnosol yn cael eu cyhoeddi yma, a dygir yn mlaen gryn fasnach yma mewn darllaw cwrw, bragu, cyffeithio crwyn, a gwneyd rhaffau; a gwneir trafnidiaeth dra helaeth â'r ardaloedd cyfagos, lle y mae mwngloddiau mawrion. Y mae y dref yn gynnwysedig o amryw heolydd ëang, yn trawsu eu gilydd, ac wedi eu palmantu yn dda: cynnwysa brif lythyrfa, tri ariandy, amryw west-dai, marchadfa, ac adeiladau eraill. Ond y brif adeilad yw yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Giles, ac yn yr arddull Seis'nig ddiweddar, ac fe'i cyfrifir yn deilwng yr adeilad eglwysig odidocaf yn y Dywysogaeth. Yn y flwyddyn 1331, chwythwyd tŵr yr eglwys flaenorol i lawr; ac yn y flwyddyn 1457, llosgwyd yr eglwys. Er cyfodi trysorfa tu ag at ei hail adeiladu, cyhoeddai y Pab faddeueb (*indulgence*), am ddeugain niwrnod yn y flwyddyn, dros bum mlynedd, i bawb a gyfranent at yr adeilad; a chyfodwyd yr adeilad bresenol tu a'r flwyddyn 1472. Dygid gwydr i'r ffenestri o Normandi. Dywaid traddodiad, nad adeiladwyd yr eglwys oll ar unwaith: ond i gorff yr eglwys, (*nave*,) gael ei orphen yn gyntaf; yna yr ystlys-gell ogleddol: ac yn olaf, yr ystlys-gell ddeheuol. Y mae y tu allan i'r tŵr wedi ei addurno â cherf-ddelwau deg ar hugain o saint, ac yn eu plith y mae Sant Giles, nawdd-sant yr eglwys. Y mae yr Henafiaethwyr Cymreig gan mwyaf, yn dweyd mai Sulien, neu Silin oedd y nawdd-sant, dyddgwyl yr hwn a gedwid, Medi 1. Mewn eilunfa uwchben y drws gogleddol, y mae delw faluriedig o'r Forwyn Fair, a'i Baban. Y mae y saint wedi cilio o ddwy eilunfa ar y tŵr. Uchder y tŵr yw 135 troedfedd, a grisiau troellog, yn terfynu yn mhen y twrred gogledd orllewinol. Ni's gorphenwyd y tŵr hyd oddeutu y flwyddyn 1506, fel y bernir oddiar y ffaith fod y cyfryw amseriad wedi ei gerfio ar faen oddi fewn iddo. Y mae darlun mawr o'r brenin Dafydd, gan *Rubens*, meddir, yn crogi ar y mur deheuol, yn agos i'r tŵr. Fe'i dygwyd o Rufain, gan Elihu Iâl; ac yn nghyd ag un arall, o'r Swper Sanctaidd, fe'u cyflwynwyd ganddo yn rhodd i'r eglwys hon. Yr oedd hwnw unwaith yn crogi uwchben bwrdd y cymmun, ond fe'i gwerthwyd ychydig o flyneddoedd yn ol, am naw punt, er gwneyd lle i'r ffenestr ddwyreiniol liwiedig. Y ddarllenfa yn y gangell, a ffurfir o eryr pres, a'i adenydd ar lêd; ac mewn arysgrifen arno, fe hysbysir ei fod wedi ei gymmun-roddi yn y flwyddyn 1524, gan John ap Gruffydd, o'r Plas Stewart yn agos i Wrecsham; ac mai ei werth oedd 6 phunt; a bod yr hysbysiad yma wedi ei gael o hen ysgrif-lyfr, yn meddiant Thomas Meredydd, M. B., Hydref 9, 1789. Bu y bedydd-faen sydd dan y tŵr, am flyneddoedd lawer yn mhlas Acton, gerllaw y dref hon, yn gwasanaethu fel cafn addurniadol yn yr ardd: ond ryw ysbaid yn ôl, fe'i hadferwyd, ac wedi ei ail naddu, fe'i cyflewyd yn ei sefyllfa bresenol. Y mae y gangell yn fath o greirfa bum-onglog, yn yr hon y mae dwy o ffenestri dysyml, a thair o rai lliwiedig. Y ganol, yn cynnwys hanes darluniadol o fywyd ein Gwaredwr; yr ogledd-ddwyreiniol, ddarlun lliwiedig mawr o St. Pedr; a'r dde ddwyreiniol, un o St. Paul. Cyflwynwyd y Pwlpud, ar yr Adferiad, gan Mr. Peter Walker, y Maer am y flwyddyn; a chostiai iddo 200 punt. Dywedir am y penau ydynt wedi eu cerfio ar y corbelynau, ar y llaw ddehau, a'r aswy

Digitized by Google

i'r fynedfa i'r Gangell, eu bod yn cynnrychioli yr eiddo Iarll, ac Iarlles Derby. Cyfrifir bod arflen y Frenines Elizabeth, sydd yn gerfiedig mewn pren yn nhal-wyneb oriel yr organ, yn dra chywrain. Y ddau luman rhwygedig yn yr ystlys-gelloedd, ydynt hen lumanau yr 42 gatrawd; ac yn mysg eraill, y maent yn dwyn enwau anrhydeddus Alma, ac Inkerman. Yr organ, yr hon ar un adeg oedd yr unig un yn yr esgobaeth heblaw yr un yn Llanelwy, a adeiladwyd gan Green, o Lundain, yn y flwyddyn 1779; ac a gostiodd 300 punt, y rhai a dalwyd trwy gyfroddion. Y cof-adeiladau, a'r bedd argraffion, yn, ac oddeutu yr eglwys, ydynt yn lluosog; rhai o'r rhai blaenaf, o gynlluniad a gwneuthuriad godidog; ac o'r olaf, y mae rhai yn ddigrifol, chwedlonaidd, a henafol. Y cof-adail mwyaf enwog, yw yr un sydd ar y mur gogleddol, er cof am Miss. Mary Myddleton, merch Syr Richard Myddleton o Gastell y Waun, yr hon a fu farw Ebrill 8fed, 1747. Fe'i symmudwyd i'w sefyllfa bresenol o'r gangell, lle yr oedd yn cau i fynu y ffenestr ogleddol. Gwaith Roubiliac ydyw, wedi ei wneuthur mewn marmor gwyn, a chynnrychiola y foneddiges drancedig, yn nghyflawnder ac ireidd-dra ieuenctyd, yn ymdori allan o'r beddrod, mewn ufudd-dod i wŷs yr angel—cerub bychan, ac udgorn yn ei safn, yn hofran oddiar big-adail chwilfriwedig. Dywedir am y foneddiges hon, ei bod wedi ymrafaelio â'i theulu, ac ymneillduo i fyw wrthi ei hun, mewn plas o'r eiddi yn agos i Wrecsham, o'r enw Croes Newydd; ac ar ei marwolaeth, iddi adael ei hettifeddiaeth i Mr. Lloyd, ei chaplan, a chŷff teulu Plas-power. Yn ei bywyd, rhoddes 200 punt tuag at adeiladu eglwys ychwanegol yn mhlwyf Wrecsham, at wasanaeth y Cymru. Cyfranwyd symiau eraill, yn chwyddo y gronfa i 700 punt yn y cyfan; a chan fod yr Esgob yn cymeradwyo yr amcan, efe a gydsyniodd i waddoli yr eglwys, trwy wneuthur perigloriaeth segur-swyddol Cilcain drosodd iddi; ac y mae hono yn werth tua chwe chant yn y flwyddyn yn awr! ond, gan iddo ef, a'r Ficer am y pryd, (y Parch. John Jones,) annghyttuno yn mherthynas i'r hawl o gyflwyniad, a gosodiad mewn meddiant, rhoddwyd yr amcan i fynu. Cafodd yr holl gyfroddwyr oddieithr Miss Myddleton, eu harian yn ol; a daeth ei rhodd hi yn gnewyllyn gwaddoliad eglwys bresenol y Mwnglawdd, yr hon hyd yn hyn a gynnaliasid âg offrymau angladdol Wrecsham, a sefydlasid i'r perwyl hyny; ac a wnaed gyntaf ar gladdedigaeth un Robert Pritchard, o Brymbo, Ebrill 19, 1730.—Ar du deheuol y gangell, y mae cof-adail i Hugh Bellot, a fu unwaith yn Ficer Gresford, ac wedi hyny yn Esgob Bangor, a thrachefn yn Esgob Caer. Y mae yn gorwedd yn ei wisgoedd offeiriadol. Dywedir am dano, er ei fod yn byw ar adeg y Diwygiad Protestanaidd, fod ei hen ragfarnau offeiriadol yn glynu mor rymus wrtho, fel y gwrthodai gymeryd gwasanaethferch yn ei dŷ. Brodor ydoedd o Moreton, yn swydd Gaerlleon, a pherchenogai diroedd yn swydd Fflint; ac fe'i rhoed ar waith gan y Frenines Elizabeth, yn nghyfieithiad y Beibl. Efe a fu farw yn Mhlas-power; ac a gladdwyd yn Wrecsham, yn unol a dymuniad oedd yn ei Ewyllys, bod iddo gael ei gladdu yn y plwyf y byddai farw o'i fewn. Y mae cofadail murawl ar y mur cyferbyniol, yn cynnrychioli y Parch. Thomas Myddleton, a'i wraig, yr hwn a edmygir yn gyffredinol. Gwaith Roubiliac ydyw hwn hefyd. Y mae cryn enwogrwydd hefyd yn perthyn i glychau Wrecsham; a chanodd un Bardd Cymreig iddynt fel y canlyn;—

"Yn Ngwrecsam pen camp y côr—yw difyr
Ddeg tafod cyfeisor;
Clych fy mawl, gwych temlog Iôr,
Pyrth moliant parthau Maelor.

Clau chwery y clŷch chwarian,—fel tyner
Fawl tanau orhoian;
O oriel tafodau arian,
Delwog dŵr, lluniog dy'r Llan."—GLASMOR, 1858.

Yn y flwyddyn 1856, gosodwyd carreg sylfaen Eglwys newydd yn y dref, yr hon a elwir St. Marc; ac fe'i cyssegrwyd ar yr 21ain o Fai, 1858, gan Esgob Llanelwy. Nid ydyw namyn Capel anwes i'r fam eglwys; er hyny medda waddol at ei chynnal, o chwech ugain punt yn y flwyddyn, o ddegymau trefgordd y *Minera*, a ddyroddid gan y ddiweddar Miss. Bennion, o Wrecsham Fechan, dan ofal ymddiriedolwyr. Y mae gan y Pabyddion hefyd adeilad eglwysig hynod o hardd, a gyfodwyd yn gwbl ar draul y diweddar Richard Thompson, Ysw., o Stansty Hall; ac y mae ynddo gofadail o farmor, hardd dros ben, i'w wraig ef. Heblaw yr Eglwys Sefydledig, a'r Eglwys Babaidd, y mae gan y gwahanol enwadau ymneillduol eu haddoldai yn gyflawn yn y dref; sef tri gan yr Annibynwyr, dau gan y Bedyddwyr, un gan y Trefnyddion Wesleyaidd, un gan y Diwygwyr Wesleyaidd, un gan y Trefnyddion Cyntefig, a thri gan y Trefnyddion Calfinaidd. Yn nesaf at yr adeiladau eglwysig, yr adeilad fwyaf golygus yw neuadd y dref, yr hon a adeiladwyd, fel y bernir, yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, at wasanaeth y Brawdlys Mawr, pan ddygwyd Cymru gyntaf dan frawdwriaeth y cyfreithiau Seis'nig. Y crybwylliad cyntaf a gawn am dani sydd mewn prydles ar Siopau, o dan yr ystafell fawr, a ddyroddid gan y brenin Iago y Cyntaf, i un Thomas Goldsmythe o Wrecsham. William ap Robert oedd y deiliad blaenorol. Mewn Cyfarchwyliad Seneddol a wnaed yn 1650, dywedir fod naw o'r cyfryw Siopau. Wedi adferiad Charles yr Ail, dywedid eu bod mewn cyflwr adfeiliedig, ac fe'u gosodid am haner can swllt y flwyddyn. Yn 1660, cafodd Peter Edwards, ŵyr i Thomas Goldsmythe, brydles arnynt am ddeng mlynedd ar hugain. O'r flwyddyn 1691, amser terfyniad y brydles grybwylledig, hyd 1705, buant yn nwylaw y Goron; ond, yn y flwyddyn olaf a grybwyllwyd, darfu i'r uchelreithwyr ddeisebu y goron, i roddi pryd-les i Peter Elice, John Puleston o Hafod y Weru; John Puleston o'r Pickhill, a Thomas Pulford, fel deiliaid, at wasanaeth y wlad. Gwnaed hyn dros yr yspaid o haner can mlynedd, am yr ardreth o 4 punt yn y flwyddyn. Dan amddiffyniad y brydles hon yr ail adeiladwyd y Neuadd, yn y flwyddyn 1713. Yr oedd yn sefyll ar bileri; a'r gofod oddi tan yr ystafell fawr, oedd yn agored. Ar derfyniad y brydles hono, caniattawyd prydles i Syr Lynch Salusbury Cotton, dros yr yspaid o hanner can mlynedd, am 4 punt y flwyddyn: ac yn y flwyddyn 1778, gwerthwyd y brydles hono am 300 punt, i John Mellor, a'i dad yn nghyfraith, Joseph Jackson. Ar farwolaeth Jackson, daeth Mellor yn unig brydlesydd, ac felly y parhaodd hyd y flwyddyn 1806, pan y caniattawyd iddo brydles arall am haner can mlynedd. Ar derfyniad y brydles hon yn 1856, gwerthodd y Goron y meddiant, i Meistri Overton, a Painter.



Digitized by Google

Y mae yn y dref hon bedair o ysgolion, gwaddoledig â 379p. yn y flwyddyn; ac y mae 326p. o elusenau yn perthyn i'r plwyf. Cynhelir marchnadoedd yma ddwy waith yn yr wythnos: a deg o ffeiriau blyneddol. Poblogaeth y fwrdeisdref yn y flwyddyn 1851, oedd 6714; yn 1861, 7562; yn 1871, 8576. Tai annedd, 1802.

Cawn yr ystadegau canlynol am Wrecsham, yn Neiliadeb 1861,—"Y ddwy drefgordd ydynt Wrecsham Abbad, a Wrecsham Regis. Mesurant yn erwau, 1271. Gwerth ardrethol, 4890p., a 17,665p., o'r hyn y mae yn Wrecsham Regis 130p. mewn rheilffyrdd, a 450p. mewn nwy-weithfeydd. Poblogaeth, 2557, a 4959. Tai annedd, 521, a 913. Cynnwysa y plwyf, 13 o drefgyrdd eraill,—un o honynt i amcanion etholiadol yn swydd Fflint; a mesura 15,879 o erwau. Poblogaeth yn 1851, 15,520; yn 1861, 19,780; yn 1871, 23,781. Tai annedd, 4778. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 626p. Noddwr, Esgob Llanelwy.

**WY** (Yr afon), sydd yn cyfodi yn Mhlymlumon, Deheudir Cymru, ac yn ymdroelli dros oddeutu 130 o filldiroedd, gan mwyaf yn dde ddwyreiniol, heibio y Rhaiadr, Pont ar Ithon, Llanfair yn Muallt, Aberedwy, Llanstephan, Glasbury, y Gelli, Moccas, Henffordd, Holme-Lacy, Ross, y Bicknors, Mynwy, Tintern, a Chepstow. Ymarllwysa yr Elan iddi ger y Rhaiadr; yr Ithon, ger Pont Ithon; yr Irfon, ger Buallt; yr Edwy, ger Aberedwy; y Machwy, ger Llanstephan; y Lugg, 4 milldir islaw Henffordd; a'r Monnow, ger Trefynwy; ac y mae yn ymarllwys i'r Hafren, 2½ filldir i'r dehau o Chepstow.

**WYDDGRUG**(Y), tref, trefgordd, plwyf, a chantref, yn swydd Fflint. Y dref a saif mewn dyffryn bras, ar lan yr afon Alun, ac ar linell y rheilffordd o Gaerlleon i Ddinbych, yn nghanol gwlad oludog mewn mwngloddiau, yn agos i ben gogledd ddwyreiniol mynyddoedd Helygain; 1¼ milldir i'r gorllewin o Glawdd Wat; 4 milldir i'r dwyrain wrth ogledd o'r Foel Fammau; a 10¼ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Gaerlleon ar Ddyfrdwy; yn gynnwysedig yn benaf o bedair o heolydd uniawn yn cyfarfod mewn petrual yn y canol, lle y mae tŷ y farchnad. Medda brif lythyrfa, gorsaf rheilffordd, dau ariandy, gwest-dai da, tair o bontydd, llysdy gwladol, tŷ marchnad, Llan blwyfol, a adeiladwyd gan mwyaf yn y rhan ddiweddaf o'r bymthegfed ganrif, amryw addoldai ymneillduol, ysgolion Gwladwriaethol, a Brutanaidd; ac yn agos i gan punt yn y flwyddyn o elusenau. Cynnelir marchnadoedd yma ar ddyddiau Mercher, a Sadwrn; a ffeiriau yn flyneddol ar Chwefror 13eg, Mai 12fed, Awst 2il, a Thachwedd 22in. Yma y mae pen-cadlys milwyr cartrefol swydd Fflint, ac yma y cynnelir y brawdlysoedd am y swydd. Trwy weithred y Diwygiad Seneddol, fe wnaed y dref hon yn fwrdeisiol, a hawl ganddi mewn undeb â Fflint, Treffynnon, Caergwrle, Caerwys, Owrtyn, Rhuddlan, a Llanelwy, i anfon aelod i'r Senedd. Gwerth ardrethol, 8798p., o ba rai y mae 250p. mewn mwngloddiau. Poblogaeth yn 1851, 3432; yn 1861, 3735; yn 1871, 3978. Tai annedd, 889.

Y mae y dref-gordd yn gymmesur â'r fwrdeisiaeth.—Heblaw hyny, cynnwysa y plwyf, dref-gyrdd Arddynwent, Argoed, Bistree, Broncoed, Gwernafield, Gwyssanney, Hartsheath, Hendre biffa, Coedllai, Llwynegryn, a Nerewys; a Chapeloriaeth y Tryddyn. Mesura yn erwau, 18,104. Gwerth ardrethol 51,414p., o'r hyn y mae 15,438p. mewn mwngloddiau, 1000p. mewn haiarnfeydd, 38p. mewn cloddfeydd, a 288p. mewn gweithfeydd nwy. Poblogaeth yn 1851, 10,893; yn 1861, 12,216; yn 1871, 14,838. Tai annedd, 3273.

Yn yr hen amser, yr oedd y plwyf hwn yn ffurfio Cwmmwd Ystrad Alun, yn nghantref y Rhiw, o fewn tiriogaeth Tywysogion Powys. Ei hen enw Cymreig yw y Wyddgrug, sef "y crugyn amlwg," neu, "y bryncyn uchel;" oddiwrth fryn y Beili, yr hwn oedd yn wrthddrych mor amlwg yn nghanol y dyffryn, ar yr hwn yr adeiladwyd amddiffynfa mewn adeg dra boreuol, yr hyn a fu yn achlysur i adeiladu tref yma wedi hyny. Cyfieithiad o'r enwau yna ydoedd yr enwau a roddid ar y lle gan y Saesoniaid, a'r Normaniaid; sef *Mons Altus*, *Monthault*, a *Monte Alto*, ac y mae yn debyg iawn, fel y sylwai yr Henafiaethydd enwog, y diweddar Mr. Edward Llwyd, mai llygriad o'r hen enw *Monthault*, yw ei henw Seis'nig presenol, *Mold*. Fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd y lle hwn o fewn arglwyddiaeth Powys, a'r rhan hono o honi a elwir "Powys Fadog;" ond gan ei bod yn gorwedd yn agos i derfynau y rhan hono o Ogledd Cymru, daeth yn naturiol yn faes yr ymdrechfeydd hyny am berchenogaeth, ag yr oedd pob rhyw wledydd cyffin-dirawl yn ddarostyngedig yn yr amseroedd terfysglyd hyny: ac y mae yn ddiamheuol fod llawer brwydr galed wedi ei hymladd rhwng y Cymry a'u cymmydogion, y Sacsoniaid, a'r Normaniaid, yn y cymmydogaethau hyn.

Barna rhai fod gan y Rhufeiniaid amddiffynfa ar ben Bryn y Beili, pan yn chwilio am, ac yn cloddio metteloedd yn y cymmydogaethau hyn; ac mai y bobl hynod hyny a roisant yr enw *Mons Altus* i'r lle yn gyntaf; ond ni welsom neb yn dwyn profion diamheuol o hyny yn mlaen eto; pa fodd bynag, y mae yn dra thebyg fod yr hen Gymry, neu y Rhufeiniaid, wedi cymeryd mantais mewn adeg dra boreuol, ar y bryn naturiol a ymdderchai yn y fan hon, yn nghanol y dyffryn, er gwneyd amddiffynfa yma; a manteision y sefyllfa a barodd ei dewis mewn oesoedd diweddarach yn orsaf castell mwy golygus, a gyfodwyd gan y Normaniaid, i gadw meddiant o'r tiriogaethau a draws-feddiannasent yn y rhan hon o'r Dywysogaeth.

Yn fuan wedi sefydliad Cristionogaeth yn gyffredinol yn mysg y genedl, sef tu a'r flwyddyn 420, ymladdwyd brwydr galed yn y gymmydogaeth hon, debygid, rhwng byddinoedd unedig y Saesoniaid a'r Brithwyr y rhai oeddynt yn anrheithio y rhan yma o'r wlad, â'r brodorion, y rhai oeddynt newydd gofleidio Cristionogaeth, ac ymostwng i'r ordinhad o fedydd. Y brodorion dan gyfarwyddyd Bleiddyn a Garmon, a ddysgwyliasant yn dawel am ddynesaad y gelyn, mewn nantle o fewn tua milldir o'r dref bresenol, yn agos i'r lle sydd hyd heddyw yn dwyn yr enw hanesyddol, "Maes Garmon." Gorchymynai Garmon i'r dyrfa fawr waeddi "Aleluwia" ar ei ol ef, fel yr arweiniai efe hwynt i uchder tir, i olwg y gelynion; a'r floedd fuddugoliaethus hon, yn adseinio y bryniau cymmydogaethol, oddiwrth y fath fyddin luosog, yn nghyd a'u hymddangosiad annysgwyliadwy ar y cefnen tir dyrchafedig ar eu cyfer, a frawychodd y gelynion mor fawr, fel y troisant i ffoi ar ffrwst; a lladdwyd llawer o honynt â chleddyfau eu hymlidwyr, a llawer eraill a foddwyd yn afon Alun, yr hon, debygid, oedd wedi gorlifo

Digitized by Google

dros ei cheulanau ar y pryd; gan mai yn wythnos y Pasg y cymerodd y frwydr le. Yn y flwyddyn 1730, cyfodwyd cof-adail ar y llanerch a nodai traddodiad fel y lle y safai Garmon i lywyddu y Cymry yn ystod y frwydr, a dodwyd cof ysgrif yn Lladin o'r amgylchiad ar fonsang yr adail.

O'r adeg uchod hyd ar ol y Goresgyniad Normanaidd, ni chymer hanesyddiaeth odid ddim sylw o'r ardal hon, o leiaf dan ei henw presenol: a'r crybwylliad cyntaf o'r lle, a ganfyddwn yn y nawfed flwyddyn o deyrnasiad Gwilym Goch, pan ei dyroddwyd gan y pennadur hwnw i'w gaeth-ddeiliad Eustace de Cruier, yr hwn a wnelai wriogaeth iddo am diriogaethau y Wyddgrug, a'r dyffryn a elwid *Hopedale;* ac efe a'i gwnaeth yn fath o arglwyddiaeth y cyffiniau, ac er dyogelu y tiriogaethau hyn yr oedd efe newydd eu henill, efe a adeiladodd amryw gestyll; ac y mae pob lle i gredu bod y castell hwn yn un o'r cyfryw.

Yn nheyrnasiad Harri y Cyntaf, yr oedd y Wyddgrug yn gwneyd i fynu ran o ettifeddiaethau ehang Robert, Goruchwyliwr Caerlleon, a gyfenwid, oddiwrth ei breswyliad yn y lle hwn, yn *Robert de Montault*, neu *Montalto;* a thra y bu y boneddwr hwnw yn meddiannu y castell hwn, gwnaed llawer o ymosodiadau arno gan y Cymry; ond, yr oedd wedi ei gadarnhau mor fawr gan natur a chelfyddyd, fel y gwrthsafai bob ymdrech i'w gymeryd, neu ei ddryllio; fel yr ydoedd y prif attalfa dros lawer o flyneddoedd i'r Cymry allu adfeddiannu y tiroedd a ddygasai y Normaniaid oddiarnynt yn ddiweddar. Yr oedd y gwarchlu a gyflëasid yma yn lluosawg, a mynych y byddai minteioedd o filwyr Normanaidd yn gwneyd rhuthr gyrchoedd o'r lle yma, i diriogaethau y Cymry yn yr ardaloedd cylchynol; gan ladd ac yspeilio y ffordd y cerddynt. Ond, yn y flwyddyn 1144, darfu i Owain Gwynedd, er dîal am eu hanrheithiadau, osod gwarchae ar y castell hwn, a'i gymeryd trwy ruthr-gyrch; yna efe a barodd roddi yr holl warchlu i farwolaeth trwy fin y cleddyf; a dywedir iddo wneyd muriau y castell yn gydwastad a'r llawr; ond, pa fodd bynag, dywedir ei fod yn cael ei gadw drachefn gan gorff bychan o filwyr yn y flwyddyn 1149, pan arweiniai Owen ei fyddin i frwydr â Ranwlph, Iarll Caer, yr hwn a orchfygodd efe â lladdfa fawr. Ymddengys ei fod wedi cael ei ail adeiladu drachefn gan y Saeson, oddiar y rhai ei cymerwyd eilwaith yn y flwyddyn 1198, gan y Cymry dan lywyddiaeth Llewelyn ab Iorwerth, yr hwn a gadwodd feddiant o hono dros ryw yspaid. Wedi i'r amddiffynfa hon fod weithiau yn meddiant y Saeson, a phryd arall yn meddiant y Cymry, hyd y flwyddyn 1240, trefnwyd yn y cyttundeb heddwch a wnaed y pryd hwnw, rhwng y brenin Harri y Trydydd, â Dafydd ab Llewelyn, Tywysog Gwynedd, bod i'r Tywysog Cymreig roddi i fynu yr holl diriogaethau a hawlid gan ddeiliaid y brenin, oddieithr tiriogaethau y Wyddgrug, y rhai y caniatteid i'r tywysog Dafydd eu cadw, mewn cyflawniad o gyfammod a wnelsid o'r blaen rhyngddo a Goruchwyliwr Caerlleon.

Y flwyddyn ganlynol, dirymodd Harri y cyfammod hwn, a mynodd wneyd cyttundeb newydd, yn yr hwn y gorfodid Dafydd i roddi i fynu i Roger de Montalto, Goruchwyliwr Caer, ei holl diroedd yn arglwyddiaeth y Wyddgrug, yn nghyd a'r Castell, a'r cwbl a berthynai iddo. Yn y flwyddyn 1245, gwarchaeodd y tywysog Dafydd ar y castell, yr hwn a gymerodd trwy ruthr-gyrch, ac a roddodd yr holl warchlu i'r cleddyf; Roger de Montalto yn unig a ddihangodd o'r galanastr, trwy ei fod yn ffodus, yn absenol o'r castell, pan ei rhoddwyd i fynu: ond, yn fuan wedi hyny, ymddengys i'r amddiffynfa hon, yn nghylch yr hon y buasai cymmaint o ymryson cyndyn a gwaedlyd rhwng y Cymry a'r Saeson, ddisgyn i feddiant yr olaf, y rhai a gadwasant feddiant o honi hyd y flwyddyn 1263, pan y gwarchaewyd arni, ac ei cymerwyd gan Gruffydd ab Gwenwynwyn, tywysog Powys, yr hwn a'i torodd yn gyd-wastad â'r llawr. Fe'i hail adeiladwyd drachefn gan y Saeson, ac fe'i hadferwyd i deulu de Montalto, a gosodwyd y lle dan lywyddiaeth Roger de Clifford, barnwr Caer, yn erbyn trais gorthrymus yr hwn, yn nghyd a'r eiddo ei raglaw, Roger Scrochil, y cwynai preswylwyr Ystrad Alun yn ddirfawr, ychydig amser cyn llwyr ddarostyngiad y dywysogaeth gan Edward y Cyntaf. Yn y flwyddyn 1322, Syr Gruffydd Llwyd, yr hwn a wnelsid yn farchog gan y pennadur hwnw, am ddwyn y newydd iddo o enedigaeth ei fab yn nghastell Caer yn arfon; a'r hwn dros ryw yspaid o amser wedi marwolaeth Edward, a barhasai yn ymlynydd ffyddlawn wrth lywodraeth ei fab Edward yr Ail, yn canfod yr iau Seis'nig yn dyfod yn annyoddefol, a gymerodd arfau, ac wedi cynnull byddin luosog o'i gyd-wladwyr, a goresgyn holl Ogledd Cymru, a'r cyffin-diroedd, efe a gymerodd feddiant o'r castell hwn; ond ni chadwodd feddiant o hono namyn dros ychydig amser: ac ni throdd ei wrthryfel allan yn llwyddiannus, eithr efe a orchfygwyd yn fuan, ac a wnaed yn garcharor. O'r pryd hwn, ni ddygwyddodd nemawr o symmudiadau milwraidd yn y rhai y dygid castell y Wyddgrug i sylw: parhaodd yn meddiant hiliogaeth Robert de Montalto, yr hwn yn y flwyddyn 1302, a wnelai wrïogaeth am dano i Edward, Tywysog Cymru, yn Nghaerlleon; ond yn y flwyddyn 1327, y barwn diweddaf, yn niffyg hiliogaeth wrrywaidd, a'i trosglwyddodd i Isabel, brenines Edward yr Ail, am ei hoes; ac wedi hyny, i John o Eltham, brawd ieuangaf Edward y Trydydd, wedi marwolaeth yr hwn yn ddi blant, y dychwelodd i'r goron. Ymddengys iddo barhau yn eiddo y goron hyd deyrnasiad Harri y Pedwerydd, gan yr hwn y rhoddwyd y castell a'r arglwyddiaeth, yn nghyda *Hope*, a *Hopedale*, i'r Stanleyaid, wedi hyny, Ieirll Derby. Bernir ei fod fel amddiffynfa, wedi ei lwyr anrheithio yn ystod y deyrnasiad hon, a hyny gan Owain Glyndwr, yr hwn yn rhawd ei ymdrechion egnïol i ddymchwelyd llywodraeth Harri y Pedwerydd, a anrheithiodd y rhan fwyaf o ettifeddiaethau y dywysogaeth a berthynent i gefnogwyr y pennadur hwnw. Ar ddosbarthiad cyntaf y dywysogaeth yn siroedd, yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, rhoddid y Wyddgrug mewn cyssylltiad â swydd Ddinbych; ond, yn y drydedd flwydd ar ddeg ar hugain o deyrnasiad y pennadur hwnw, fe'i cyssylltwyd â swydd Fflint, o'r hon y mae wedi bod yn rhan er y pryd hyny. Yn ystod y rhyfel Seneddol, yn nheyrnasiad Charles y Cyntaf, gosodwyd gwarchlu dros y brenin yn hen balas y Gwyssanney, yn agos i'r dref hon; ond yn y flwyddyn 1645, fe'i cymerwyd gan fyddinoedd y Senedd, dan Syr William Brereton. Parhaodd arglwyddiaeth y Wyddgrug yn meddiant y Stanleyaid hyd farwolaeth Iago, y seithfed Iarll, pleidiwr zelog i achos Charles y Cyntaf, yr hwn, wedi brwydr Worcester, a gymerwyd yn garcharor gan wŷr y Senedd, ac fe dorrwyd ei ben yn Bolton, swydd Gaer-hirfryn: ac wedi ei farwolaeth ef, gwerth-

Digitized by Google

wyd yr arglwyddiaeth gan y Senedd; ac er i'r Iarll Derby gynnyg ei phrynu yn ôl, gan i'r pendefig hwnw fethu cyflawni yr ammodau, archodd Charles yr Ail, yn y flwyddyn 1664, i'r pwrcaswyr blaenorol gadw meddiant o honi.

Y mae y dref yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyr, ar lethrfa raddol, mewn dyffryn bychan, ond ffrwythlawn, yn cael ei ddyfrhau gan yr afon Alun, yr hon a groesir gan amryw bontydd yn nghymmydogaeth y dref; ac y mae y prif-ffyrdd, o Gaer i Ruthin, ac o Gaergybi i Wrecsham, yn myned trwy y dref.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn archddïaconiaeth, ac esgobaeth Llanelwy. Yr eglwys sydd yn gyssegredig i St. Mary, ac a adeiladwyd, meddir, yn y rhan gyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg; y mae yn adeilad fawr a phrydferth, yn yr arddull Seis'nig ddiweddar; ac yn gynnwysedig o gorff eglwys, ystlysfeydd gogleddol a deheuol, a changell; yn nghyda thŵr canllawiog, ysgwâr, ac uchel; wedi ei addurno â cherfluniau, a'i goroni â phinaclau, y rhai, er eu bod o adeiladaeth ddiweddarach, ydynt yn cyfatteb yn drwyadl â'r gweddill o'r adeiladaeth. Wrth dynu yr hen dŵr i lawr, darganfu y gweithwyr, ryw droedfedd islaw wyneb y ddaear, haen o wenith, haidd, rhug, a fa llosg, tua thair modfedd o drwch, ar lawr pridd, o bedair i bum llath ysgwar; oddi tan yr hwn yr ydoedd, wedi eu cyfleu mewn trefn rëolaidd, lawer iawn o esgyrn dynol, tua haner llath mewn dyfnder; a charreg, a weithiasid i'r sylfaen, ar yr hon y cerfiasid ymadroddion i'r perwyl a ganlyn.—"Yma y gorwedd corph Gwenllïan, ferch Efan ab Dafydd ab Iorwerth." Y mae bronfur, neu gan-llaw hardd, ar ben mur yr eglwys o amgylch, odditan yr hwn y mae delwadau gwahanol filod, wedi eu cerfio mewn maen yn gywrain. Y tu fewn i'r eglwys sydd wedi ei haddurno yn dra godidog hefyd. Y mae yma gofadail ysplenydd, i Robert Davies o'r Llanerch, Ysw., yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1728, ar yr hon y mae ei ddelwad yn ei sefyll, mewn gwisg Rhufeinwr. Yn agos iddo y mae coflech furawl i'w daid, Robert Davies, o'r Gwysanney; hen drigle y teulu, cyn i'r Llanerch ddyfod yn eiddo iddynt. Yn yr un ystlysfa, y mae hen goflech furawl i Robert Wharton, a gyfenwid Parfew, Abbad Bermondsey, yn Surrey, ac wedi hyny Esgob Llanelwy; o'r lle y dyrchafwyd ef yn y flwyddyn 1554, i Esgobaeth Henffordd, lle y bu farw yn y flwyddyn 1557. Cloddiwyd carreg i fynu yn y fynwent, ar yr hon yr oedd yr ymadroddion hyn yn gerfiedig,—"*Fundamentum Ecclesiae Christus;*" ac odditano, wedi ei law-nodi, W. H. *Eps.* yr Esgob William Hughes, fel y tybir, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1600. Darganfuwyd y garreg uchod yn gyntaf yn y flwyddyn 1783; a bernir ei fod yn cynnwys cyfeiriad at adeiladiad yr ystlysfa ddeheuol, yr hon fel y bernir, a gynlluniwyd gan yr esgob Wharton, yr hwn hefyd a gyfranodd yn helaeth tuag atti: ond, ymddengys na ddechreuwyd yn weithredol ar yr adeilad, hyd amser yr Esgob William Hughes. Yr oedd y rhanau ereill o'r eglwys wedi eu hadeiladu lawer yn gynnarach. Fe'n hysbysir fod un Ab Shandin, yr hwn oedd yn ficer y Wyddgrug cyn y flwyddyn 1506, wedi myned dan y draul o wydro dwy o'r ffenestri yn yr ystlysfa ogleddol. Yn y flwyddyn 1773, yr adeiladwyd y clych-dwr presenol, ar draul o yn agos i ddwy fil o bunnau. Wrth dynu yr hen glych-dwr i lawr, yn y flwyddyn 1768, darganfuwyd delw dra hynod yn agos i'r sylfaen; ond y gwr da oedd yn ficer y plwyf ar y pryd, yn ei arswyd rhag dim a berthynai i Babyddiaeth, a barodd ei dystrywio yn y fan!

Y mae amryw balasau henafol yn y plwyf hwn, megys y *Gwysanney*, am yr hwn y crybwyllasom yn barod mewn cyssylltiad â'r rhyfel gartrefol, rhwng y brenin Charles a'r Senedd.—*Pentrehobin*, hen balas teuluaidd ardderchog, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1540, a pherchenogaeth Trefor Lloyd, Ysw., ar un adeg.—*Hartsheath*, lle unwaith y cyfanneddai Gwilym Lloyd Wardle, Ysw., sydd a'i sefyllfa ar fryncyn hir yn nghanol dyffryn Alun, o'r lle y cair golygfa ragorol ar y wlad gylchynol. Yma yn ddiweddarach y cyfanneddai Wilson Jones, Ysw., a fu yn aelod Seneddol dros fwrdeisdrefi y Sir. *Plas Nerquis*, a adeiladwyd gan John Wynne, Ysw., yn y flwyddyn 1638.—*Y Rhual*, hen balas teuluaidd, a grybwyllir gan Leland, yr adeilad presenol a gyfodwyd yn y flwyddyn 1634, gan Evan Edwards, Ysw. *Y Plas Teg*, a fu gynt yn perthyn i deulu boneddigaidd y Treforiaid; a fu am flyneddoedd yn cael ei ddal fel ammaethfa; ond y mae cangen o'r hen deulu o'r cyfenw *Roper*, yn cartrefu yma er's amryw flyneddoedd. Dywedir i'r palas presenol gael ei adeiladu yn y flwyddyn 1610, oddiwrth gynlluniau yr arch-adeiladydd enwog, Inigo Jones. Ond, yr hen adeilad sydd yn meddu y rhan bwysiccaf mewn hanesyddiaeth ydyw y *Tŵr*, neu Bryn Coed, yn yr hwn y cair enghraifft nodedig o'r arddull o adeilyddiaeth deuluaidd a ffynai yn ystod yr oesoedd cythryblus pan ei hadeiladwyd. Y mae yn gynnwysedig o hen dŵr petrual, o dri uchdwr llofft; ac ymddengys ei fod wedi ei amcanu fel preswylfod ddiffynedig. Yn ystod y rhyfeloedd rhwng teuluoedd *York* a *Lancaster*, fe'i cyfanneddid gan wron Cymreig o'r enw Rheinallt ab Gruffydd ab Bleddyn, yr hwn a hanai mewn llinell uniawn o'r hen dywysog Bleddyn ab Cynfyn, fel y gwelir yn yr achau Cymreig;—"Rheinallt ab Gruffydd, ab Bleddyn, ab Dafydd, ab Grono, ab Einion, ab Grono, ab Cynfrig, ab Einion, ab Meilir, ab Grono, ab Llewelyn, ab Cynfrig Efell, ab Madog, ab Maredydd, ab Bleddyn, ab Cynfyn." Dywedir ei fod ef yn un o'r chwe gwron a amddiffynent gastell Harlech yn 1468, yn erbyn Edward y Pedwerydd. Ymddengys y byddai Rheinallt mewn ymrysonau mynych â gwŷr Caerlleon; ac ar un adeg, yn y flwyddyn 1465, yr oedd cryn nifer o wŷr Caer wedi dyfod i Ffair y Wyddgrug, a chymerodd ymrafael le rhwng y pleidiau gelynol, fel y bu cryn laddfa o bob tu; ond Rheinallt, yr hwn a ennillodd y fuddugoliaeth, a gymmerodd Faer Caer yn garcharor, ac a'i dug i'r "Twr," lle ei crogodd wrth fâch yn ei neuadd fawr: ac er dïal y sarhad yma, anfonwyd dau gant o wŷr o Gaerlleon i ddal Rheinallt, yr hwn a ymneilldua i o'i dy i'r coed cyfagos, gan adael i ryw nifer o honynt fyned i fewn i'r Tŵr, yna gan ruthro o'i encilfa, efe a gauodd y drws arnynt, ac a roddes y lle ar dân, gan eu dystrywio yn y fflamau; yna, efe a ymosododd ar y gweddill; gan eu hymlid, a'u lladd yn ddi drugaredd; a'r rhai a ddiangasant rhag y cleddyf, a foddwyd yn yr afonydd, wrth geisio cyrhaedd eu cartrefi. Y mae y bâch, neu yn hytrach yr ystwffwl, wrth ba un y crogwyd y Maer, yn aros eto yn nenfwd ystafell isaf y Tŵr.

Ymddengys fod y Bardd a'r Milwr, Lewis Glyn Cothi, wedi cael ei yspeilio o'i feddiannau, gan wyr Caer, a chael gorchymyn i adael y ddinas, am iddo

Digitized by Google

brïodi gwraig weddw o Gaerlleon, heb ganiattad y dinasyddion; ac yn y canlyniad, mae yn debyg iddo encilio at Rheinallt ab Gruffydd i'r Tŵr; ac yn chwerwder ei enaid, cyfansoddodd "Awdl Dduchan Gwŷr Caerlleon ar Ddyfrdwy."—Yn yr Awdl hon, y mae y Bardd yn galw yn uchel am ddïaledd ar wŷr Caer am eu creulondeb atto. Gwŷsia weinidogaeth angelion a chythreuliaid i ddïal ei gam, a thywallt felldithion yn ddi arbed ar Gaerlleon a'i phobl.

Gan nad yw yr Awdl hon yn nghyraedd amryw o'n darllenwyr, efallai na bydd yn flin ganddynt gael adysgrif o honi yma:—

"I Reinallt mae cledd ar groenyn—yn graff
Ab Gruffydd ab Bleddyn;
Rhag hwnw yn curo cannyn,
Y Gaer grach, a'i gwŷr a gryn.

Crynodd Caerlleon rhag Reinallt,—a'i gwŷr
Hyd at gwr y Fel-allt;
Crynan' wrth ffoi i'r Wenallt,
Crynu eu gyd, eu crwyn a'u gwallt.

Eu crwyn, a'u hesgyrn crinion,—a'u garau,
A dyr gorwyr Einion;
Yn mhob mangre'n Nghaerlleon,
Efe a ladd fil â'i on.

A'i on, ŵyr Einion, ar ais—i daiog
Y dïal dwyn fy mhais;
Dwyn o hwn, drygwn ei drais,
Dan ei fawd, dwyn a fudais.

Duw-llun y mudais o'm delli—i Gaer,
Gwell oedd im' fy nghrogi;
I ddeu-ddiawl dduwiau iddi
Adu mwy o'r da i mi.

Ynddi, wedi i mi'n mhob modd,
Roi fy nâ'n nghwr fy neuadd,
Genyf nid oedd ar gynnydd,
Dranoeth ond yr ewinedd.

Ol ewin Reinallt, ôl ei wewyr—tan
Yn mhenau tai y bradwyr;
Ol ei ddwrn a laddai wŷr
Ar ei chwr hi, a'i chaerwyr.

Archaf i dref Gaer, a'i Maer, a'i mâch,
Oer-chwedl i'r dinas mewn dwr bas bach;
I wëydd, i grydd, i grach,—eu herddyrn
A'u hesgyrn cedyrn yn mhob cadach.

I ieuanc, i hen, nid amgenach;
I Gaerlleon Gawr, i fawr, i fach;
I wraig, i forwyn, i wrach,—i Siopwr;
I wr, i glerwr, ac i gleiriach.

O mynasant fy nâ mewn naw-sach,
Naw ugain Myntai o gŵn mantach;
Mynwn pe'u gwelwn hwy'n gulach—o ddâ,
Yn Moel y Wyddfa yn ymleddfach.

Y dwr a'u boddo tra fo tref iach,
Y tân a'u llosgo peten' llesgach;
Yr awel a'u gwnel gan' niwlach—gwinau
Ond yr eglwysau, yn dir glasach.

Ilar a'u lladdo, a Chyfelach,
Y cŵn a'u hysso acw'n hawsach;
Y Brenin nefawl, a Brynach,—a Non,
A'u gwna hwy'n ddeillion, ac yn ddallach.

Ni fu Faer yn Nghaer annghywirach,
Ni bu *Sersiant* waeth, na neb gaethach;
Ni bu haid ddiawliaid! ddelach—eu gwahodd
Ni bu ieir un fodd, na brain feddwach.

Na gwragedd Llundain garn-buteiniach,
Na gwyr un floneg garn fileiniach,
Na meibion gweinion gwanach—yn eu cred
Na merched ar lled anlladach.

Na llyffaint un fraint, na moch fryntach;
Na chwain un *lifrai*, na chwn lyfrach;
Na phlasau cynnrwg, na ffalsach—dynion;
Na thir fwy ladron, na thref leidrach.

Ni aned Carliaid annhirionach,
Ni weled gwragedd annuwiolach,
Na rhai can frynted o wyr, haiach—cred
Na rhai can ffoled o wythfed âch.

Pob merch a orwedd wrth ei chyfeddach,
Pob morwyn gwr mwyn a gâr Mynach;
Pob gwraig Bwrdais Sais, * * * ;
Pob brawd moel * * a gyrch cilfach.

Pob drewi a lŷf William Briach,
Pob drewiant a gant yn ymgeintiach;
Pob lliwydd a fydd wrth fach—o bren ir,
Pob un a faeddir, pawb yn feddwach.

Tref yw Caerlleon mewn tir afiach,
Tref gwehilyth! byth hwyr y bo iach;
Tref ddig Wyddelig feddalach—no'i phwys
Tref ddwys yn cynnwys gwerin coniach.

Tref y saith bechod heb neb dlodach,
Tref gaerawg, fylchawg heb neb falchach;
Tref *Sieb* glothineb, a glythynach—bryd,
Tref lle cyfyd llyd, a phob lledach.

Llawer cell yn hon ddiffaith bellach,
Llawer ffau ellyll llawer ffallach,
Llawer cyw wyth-ryw cyfathrach—dan lwyn
Llawer twyn o frwyn a chyfrinach.

Llawer mab dan gist a fydd dristach,
Llawer bron gwiddon a fydd gweddwach,
Llawer gwraig Maeler gwammalach—wrth gâr
Llawer cymmhar wâr anniweiriach.

Anniweirion blant anwiredd—a wnant
Yn wŷr, ac yn wragedd;
Am a wnaethan â'm hannedd
Cant hwythau glwyfau gan gledd."

Y mae yr Hanesydd *Thomas Pennant* yn dywedyd mai Llieinydd o'r enw Robert Bryne ydoedd Maer Caerlleon yn y flwyddyn 1461, ac mai hwnw a gymerwyd yn garcharor gan Rheinallt ab Gruffydd; ac a grogwyd ganddo yn Neuadd y Tŵr. Gallasid meddwl y buasai y cyfryw greulonderau ag a brïodolir uchod i Rheinallt ab Gruffydd, yn sicr o gael eu cosbi gan y llywodraeth wladol; ond, fe'n hysbysir gan Pennant, i Rheinallt gael maddeueb gan Thomas, arglwydd Stanley, arglwydd Cyngor Cymru; ac i'r maddeueb hyny gael ei gadarnhau wedi hyny dan sêl fawr y brenin Edward y Pedwerydd!

Un o Wynniaid Coedllai, gerllaw y Wyddgrug oedd mam Richard Wilson, yr arluniedydd enwog; ac yn y dref hon, a'r Colomendy, plwyf Llanferes, y treuliodd efe flyneddau olaf ei oes; ac yn y lle diweddaf a enwyd, y bu efe farw; a chladdwyd ef yn mynwent y Wyddgrug, lle y mae cist, a bedd-argraff arni yn dynodi ei fedd.

Brodor o'r plwyf hwn hefyd oedd y Parch. John Blackwell, B.A., bardd, a llenor enwog. Efe a anwyd mewn pentref bychan, o'r enw Pont arwyl, gerllaw y Wyddgrug, yn y flwyddyn 1797. Ei rïeni oeddynt Peter, a Mary Blackwell. Glowr oedd ei dad, yn hanu o hen deulu Seis'nig; a ddaeth-

Digitized by Google

ent i Sir Fflint oesau yn ol o swydd Derby; a'i fam oedd yn enedigol o blwyf Llangwm, yn mhen uchaf Sir Ddinbych. Gwel BLACKWELL (JOHN).

Mewn lle a elwid "Bryn Ellyllon," gerllaw y brif-ffordd o'r dref hon i Gaer, ac o fewn tua chwarter milldir i dref y Wyddgrug, y darganfuwyd dwyfroneg o aur sylweddol, yn y flwyddyn 1833. Yr ydoedd yn dair troedfedd a saith modfedd o hyd, ac wyth modfedd o led yn y canol, a phwysai tua 17 owns. Y farn gyffredin ydoedd, mai i'r hen Dywysog Benlli Gawr y perthynai.—Gwel yr erthygl yn y Gwaith hwn, dan yr enw BENLLI GAWR. Tua 40 neu 50 mlynedd yn ôl, pan y gwnelid y brif-ffordd o'r Wyddgrug i Wreesham, canfuwyd yn angenrheidiol er rhoddi y lled gofynol gan y gyfraith iddi, i symmud hen Faen Hir, a safai mewn gweirglodd o'r enw Dol yr Orsedd, gerllaw yr hen balas, Pentre-Hobyn. Wrth ei fon-sail cafwyd dagr, a nifer o esgyrn dynol. Mesurai y ddagr bump neu chwe modfedd o hyd; a'r Maen Hir a fesurai tua 9 troedfedd o hyd, tair troedfedd o ba un oedd yn y ddaear; a mesurai tua 2 droedfedd o draws-fesur ar y rhan oedd yn y ddaear, a 2¼ tr. ar y rhan oedd uwchlaw y ddaiar. O fewn tua 1½ milldir i'r dwyrain, y mae lle a elwir Bryn Gronw, ar yr hwn y mae tommenfryn, a elwir Bryn Castell.

**WYNN**, Y GWIR ANRHYD. CHARLES WATKIN WILLIAMS, gwlad-weinydd enwog, ydoedd ail fab Syr Watkin Williams Wynn, y 4ydd barwnig, o Wynnstay, sir Ddinbych, o'i ail wraig, Charlotte, merch i'r Gwir Anrhyd. George Grenville. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster, ac yn Ngholeg Crist, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. Tach. 7, 1798, ac yn D.C.L. Meh. 5, 1810. Wedi myned trwy gwrs ei efrydiaeth yn *Lincoln's Inn*, galwyd ef at y bàr, Tach. 27, 1798. Yn 1796, dychwelwyd ef i'r Senedd, gan fwrdeisdref Old Sarum; eithr y flwyddyn ganlynol, dychwelwyd ef tros sir Drefaldwyn, a pharhaodd i'w chynnrychioli hyd ei farwolaeth. Pan enciliodd Pitt a'i gyfeillion o'r weinyddiaeth, ac y cymerodd ymraniad le rhyngddynt â phlaid Addington, y dechreuodd Mr. Wynn gymeryd rhan weithgar yn y dadleuon chwerwon rhwng y pleidiau seneddol; a thrwy ei waedoliaeth uchel a pharchus, ac yn enwedig ei dalentau gloywon, y rhai a goethasid i raddau helaeth yn *Lincoln's Inn*, rhoddid cryn bwys ar ei farn. Yn y dadleuon a gymerasant le rhwng arwyddiad cyn gytundeb Amiens yn 1801, ac adnewyddiad y rhyfel yn 1803, cymerodd ran flaenllaw, a bu o fawr wasanaeth i'r blaid gyngreiriol yn y Tŷ. Oddiar ei hir brofiad o weithrediadau y Senedd, ystyrient ef y prif awdurdod ar yr arferion a'r drefn i ddwyn pethau yn mlaen; a dysgwylid am hir amser mai efe a ddewisid yn Llefarydd, pan y daethai y swydd hono yn wag. O ganlyniad pan roddes Mr. Abbot ei le i fyny yn 1817, cynygiwyd ef i lanw y swydd gan y blaid wrthwynebol i'r weinyddiaeth; eithr etholwyd Mr. Manners Sutton, ymgeisydd y Llywodraeth, trwy fwyafrif o 312 o bleidleisiau yn erbyn y 150 a roddwyd i Mr. Wynn. Yn Ionawr, 1822, penodwyd ef yn llywydd y *Board of Control*, a'r un pryd tyngwyd ef yn aelod o'r Cyfrin Gyngor. Llanwodd y swydd anrhydeddus hono hyd 1828, ac yn y cyfamser, gwrthododd yr anrhydedd o fod yn Llywydd Cyffredinol India. Wedi hyny, bu yn Ysgrifenydd Rhyfel, yn ngweinyddiaeth Arglwydd Grey, o Dachwedd, 1830, hyd Ebrill, 1831, pryd y rhoddes y swydd i fynu ar ddygiad y Mesur Diwygiadol i Dŷ y Cyffredin gan y weinyddiaeth, heb iddo ef gael gwybod ei fanylion, na chyfleusdra i egluro pa mor bell yr oedd diwygiad yn anghenrheidiol. O hyny allan, ni fu dim a wnelai ef âg unrhyw swydd weinyddol oddigerth yn ngweinyddiaeth ferhoedlog Syr Robert Peel, yr hon ni pharhaodd ond o Rhag. 1834, hyd Ebrill, 1835, a'r pryd hwnw, llanwwai y swydd o Ganghellydd Duciaeth Lancaster. Gweithredai o hyny allan fel aelod annibynol, heb gymeryd ei lyffetheirio gan ymrwymiadau swyddogol. Bu am hir amser yn un o Ddirpwywyr Gwallgofiaid yn y Brifddinas, ac yn Ddirpwywr y Cofnodion Cyhoeddus. Etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas Henafiaethol, Ion. 9, 1800, ac yn 1824, dewiswyd ef yn un o'r is-lywyddion, eithr rhoddes y swydd hono i fynu yn 1841. Yr oedd yn is-raglaw sir Ddinbych, yn ystiwart arglwyddiaeth Dinbych, yn feinciwr yn *Lincoln's Inn*, ac yn Llywydd y Gymdeithas Asiaidd Freiniol. Ebrill, 1806, efe a briododd Mary, merch hynaf Syr Foster Cunliffe, o Barc Acton, ger Gwrecsam; o ba un y bu iddo ddau fab a phedair merch. Bu farw Medi, 1850; a chladdwyd ef yn naeargell capel St. George, Bayswater, wrth ochr ei wraig, a'i fab.

**WYNN**, JOHN, Ysw., neu John Wynn ab Hugh, ydoedd fab henaf i Hugh ab Sion ab Madog, o Bodfel, Lleyn, sir Gaernarfon; lle y ganwyd ef. Yr oedd yn fanerydd i John, iarll Warwick, ac wedi hyny Duc Northumberland, yn y frwydr fawr a ymladdwyd rhyngddo â gwrthryfelwyr Norfolk a Suffolk, yn Awst, 1549, tan deyrnasiad Edward VI. Lladdwyd ei geffyl dano, a niweidiwyd yntau ei hun; ond efe a ddaliodd faner fawr Lloegr i fynu er gwaethaf pob anffawd. Y mae croniclau yr oes hono yn crybwyll am yr ymosodiad, a diffyniad glew y Cymro o honi. Am y gwasanaeth hwn, rhoddwyd iddo Ynys Enlli, a Llys yr Abad, a elwir y Cwrt, yn Aberdaron. Yr oedd yn sirydd sir Gaernarfon yn 1551 a 1560.

**WYNN**, SYR JOHN, o Wydir, gerllaw Llanrwst, boneddwr enwog yn ei oes, ydoedd fab, ac etifedd i Morys Wynn o Wydir. Ei fam ydoedd Jane, merch i Syr Richard Bulkeley, marchog o Beaumaris, Môn. Ganwyd ef yn 1553. Yr oedd yn hanu mewn llinell unionsyth o Gruffydd ab Cynan, tywysog Cymru. Adeiladwyd hen balas urddasol Gwydir gan daid Syr John, John Wynn ab Meredydd, yn 1553, ar ol prynu y lle gan rai o hiliogaeth Dafydd Goch, mab ordderch Dafydd, brawd y tywysog Llewelyn ab Gruffydd. Cyn dyfod i Wydir, henafiaid y Wyniaid oeddynt yn byw yn Nghastell Dolyddelen. Pan yn 21 ml. oed, danfonwyd ef i Lundain, i efrydu y gyfraith; a daeth yr ystad i'w feddiant ar farwolaeth ei dad yn 1580. Yr oedd yn feddiannol ar dalentau dysglaer, ac yn mawr ymddifyru wrth olrhain hanes a henafiaethau ei wlad; ac ysgrifenodd gryn lawer ar y pwnc. Dywed Rowlands iddo ysgrifenu nodiadau rhagorol i Arolygiad (*Survey*) o siroedd Mon, Arfon, a Meirion, yr hwn waith, meddir, a ddechreuasid yn amser Iorwerth I., ac a barhawyd yn mlaen hyd deyrnasiad Iorwerth III., a mynegir fod yr ysgrif yma yn llyfr unplyg harddwych, yn y casgliad Harleian, dan y rhif-nod 4776. Ond ei brif waith ydyw ei *History of the Gwydir Family*, yr hwn a arosodd mewn llawysgrifen hyd 1770, pryd y cyhoeddwyd ef gan yr Anrhydeddus Daines Barrington, a thrachefn, a ail argraffwyd yn *Barrington's Miscellanies*, yn 1781. Y trydydd

Digitized by Google

argraffiad, a'rolaf o hono, a gyhoeddwyd yn Rhuthin, yn 1827, dan olygiad Angharad Llwyd; yr hwn sydd yn cynwys amryw chwanegiadau, megys hanes cydoeswyr enwog i'r awdwr. Y mae hwn yn llyfr tra dyddorol, yn awdurdod ar yr hyn a ddywedo, ac yn taflu lluaws o oleuni ar ddefodau a henafiaethau Cymreig. Treuliai Syr John gryn lawer o amser gartref yn mhlith ei ddeiliaid, yn gwella, ac addurno ei etifeddiaeth. Efe a adeiladodd Gwydir Uchaf, ychydig uwchlaw yr hen Balas, a dywedir mai prif ddyben ei adeiladu, ydoedd darpar lle i roesawu pendefigion ar eu taith o Lundain i'r Iwerddon. Cafodd ei anrhydeddu â'r urdd o farchog, a bu yn cynnrychioli sir Gaernarfon yn y Senedd a gyfarfu, Hydref 29, 1596; bu yn sirydd dros y sir hono yn 1588, a 1603; a thros Feirionydd yn 1589, a 1601. Yr oedd hefyd yn un o Gynghorwyr Cyffiniau Cymru. Yn 1610, adeiladodd elusendai ar gyfer deuddeg o hen ddynion tlodion yn nhref Llanrwst; galwodd y lle, *Jesus' Hospital*, a thynodd allan reolau er iawn drefniant yr elusen, a gwaddolodd y sefydliad â rhan o ddegwm Eglwys Fach. Crewyd ef yn farwnig yn 1611, ac efe a gludai faner fawr Harri, tywysog Cymru, yn angladd y tywysog hwnw, Rhag. 7, 1612. Yn 1615, tynodd arno ei hun ŵg Cynghorwyr y Cyffiniau; gan y dywedai eu Canghellydd y pryd hwnw, Arglwydd Ellesmere, iddo ef gael ei hysbysu fod yn anmhriodol i Syr John Wynn, marchog, barhau mwyach yn aelod o'r Cynghor; ac hefyd na ddylai fod yn ynad heddwch dros sir Gaernarfon. Pa fodd bynag, prynodd eu heddwch trwy dalu llwgr-wobr o 350*p*. Flwyddyn cyn ei farwolaeth, cynlluniai adenill tir oddiar y mor yn y Traeth Bach, a'r Traeth Mawr, rhwng siroedd Caernarfon, a Meirionydd; eithr ni ddygwyd hyny oddiamgylch hyd ddechreu y ganrif hon, pan y gwnaed hyny mewn rhan gan Maddocks, sylfaenydd Porthmadog. Bu Syr John farw, Mawrth 1, 1626, yn 73 ml. oed, a chladdwyd ef yn eglwys Llanrwst. Ei wraig ydoedd Sidney, merch Syr W. Gerard, Canghellydd yr Iwerddon, o ba un y bu iddo un-mab-ar-ddeg, a dwy ferch. Trwy briodasau, daeth ei wehelyth yn allu pwysig yn y wlad; ac nid oes odid i deulu uchelwaed yn Ngwynedd, nad yw gwaed Gwydir yn llifo yn eu wythienau.

**WYNN**, Syr Richard, barwnig, ydoedd ail fab Syr John Wynn o Wydir; a chan i'w frawd henaf, Syr John Wynn, barwnig, farw tra yn ymdaith yn Lucca, yn 1614, pan yn 30 oed, efe a olianodd i'r farwniaeth ar farwolaeth ei dad, yn 1626. Yr oedd yn uchelwr o dalentau gwychion, ac yn Ystafellydd i Siarl I., pan yn Dywysog Cymru, a dilynodd ef ar ei ymgyrch rhamantus i'r Ysbaen, yn 1623. Gadawodd ar ei ol hanes dyddorol o'r daith, yr hwn a gyhoeddwyd gan *Hearne*. Yn 1633, Syr R. Wynn a adeiladodd gapel prydferth Gwydir, mewn cysylltiad âg eglwys Llanrwst; ac yn 1636, cododd y bont gywreingamp tros yr afon Gonwy, a adweinir fel "Pont Llanrwst." Cynllunydd y ddau ydoedd Inigo Jones, ac y maent yn gofgolofn o fedr a dyfais celfyddydwr campus. Parodd y ffaith fod a wnelai Inigo Jones â nawdd teulu Gwydir, i rai dybied mai brodor o ardal Llanrwst ydoedd; ond dywed awdwr galluog yr *Eminent Welshmen*, mai yn Llundain y ganwyd ef, ac y gellid gweled ei enw yn nghoflyfr *St. Bartholomew the Less, West Smithfield*. Bu Syr Richard farw, Mehefin 19, 1749, a chladdwyd ef yn mhell o wlad ei enedigaeth, yn eglwys Wimbledon. Efe a briododd ferch i Syr Francis Darcie; ond gan iddo farw yn ddiblant, syrthiodd y teitl a'r etifeddiaeth i'w frawd, Owen Wynn. Y mae ei ddarlun, o waith Jansen, yn nghadw yn Wynnstay; a cheir cerf-gopi hardd o hono gan Bartolozzi, yn *Tours in Wales*, gan *Pennant*.

**WYNN**, Syr Richard, o Gaernarfon, a Glynllifon, ydoedd o deulu y Bryncir. Yr oedd yn gadben 100 o filwyr Cymreig yn yr Iwerddon, ac yn *Brovost Marshall* Flushing, o dan Syr Phillip Sidney. Bu unwaith yn gwasanaethu dan Cadben Ronehall, yr hwn a laddwyd yn yr Iwerddon, ac arfau yr hwn a ddygodd efe i Syr Henry Sidney, yr hwn oedd y pryd hyny yn rhaglaw Iwerddon: a dilyn y boneddwr olaf y bu o hyny allan, hyd derfyn ei oes filwrol. Wedi iddo briodi gweddw Cadben W. Thomas, o deulu Glynllifon, bu yn byw yn Nghaernarfon hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn un o gynghorwyr y terfynau. Ymwelwyd ag ef ar ei wely angau gan y Dr. Griffith Williams, esgob Ossory; a thraddodwyd ei bregeth angladd, gan Dr. L. Bailly, esgob Bangor, ac awdwr yr "*Ymarfer o Dduwioldeb.*"

**WYNN**, Syr Watkin Williams, o Wynnstay, sir Ddinbych. Ganwyd y boneddwr gwladgarol hwn Hydref 26, 1772. Ei dad ydoedd yr ail Syr Watkin; a'i fam Charlotte, merch i'r Anrhyd. George Grenville, a chwaer i Ardalydd cyntaf Buckingham. Y mae teulu Wynnstay, er's oesoedd yn cael eu hystyried yn mhlith y rhai mwyaf uchelwaed, gwladgarol, a Chymreig, o holl bendefigion ein gwlad. Olrheiniant eu hachau o ganol yr hen waed tywysogaidd; ac y mae Wynnstay, o genedlaeth i genedlaeth, wedi bod yn "fuarth beirdd," ei ddrws yn agored i blant trallod, a'i berchenogion yn noddwyr awen, cân, ac athrylith, cystal ag yn rhai o'r tirfeddianwyr caredicaf yn Mrydain. Gymaint ydyw eu parch yn mhlith eu cydwladwyr, fel y mae yn ddywediad cellweirus a chableddus gan y Saeson, "Syr Watkin, arglwydd dduw hollalluog Cymru." Tybiwn, gan hyny, nad anfuddiol fyddai ychydig o'u hanes. Yn y ddeuddegfed ganrif, yr oedd y lle yn meddiant, ac yn breswylfa Gruffydd Maelor, yr hwn a sylfaenodd abad-dy Llanegwestl, ger Llangollen; ac yn nghwrs amser, daeth yn eiddo Edward Eyton, merch ac etifeddes yr hwn a briododd Richard Evans, mab Thomas Evans, o Groesoswallt; Cyfreithiwr Cyffredinol Llys y Cyffiniau. Pan ddaeth y lle i feddiant Eyton Evans, yr hwn a briododd ferch i'r hyglod Dr. Powel, ficer Rhiwabon, yr hanesydd Cymreig, efe a roddes i'r lle yr enw Wattstay, o herwydd fod hen glawdd Watt yn croesi y tir gerllaw. Jane, unig ferch ac etifeddes Eyton Evans, a briododd Syr John Wynn, ŵyr i Syr John Wynn o Wydir; a phan ddaeth efe trwy briodas i feddiant o'r lle, er oesoli ei enw ei hun, cyfnewidiodd enw ei balas, i Wynnstay. Y boneddwr hwn a adawodd ei etifeddiaethau eang i'w gâr, Watkin Williams Wynn, ŵyr i Syr William Williams o'r Glasgoed, Llansilin, sir Ddinbych. Henry Wynn, tad y Syr John crybwyll edig, a briododd Catherine, merch Elizeu Llwyd, o'r Rhiwgoch, sir Feirionydd, felly y daeth yr ystad hono i feddiant y teulu. Y Syr William Williams, o'r Glasgoed, ydoedd fab i Hugh Williams, D.D., o Nantanog, Môn, yn deilliaw o Cadrod Hardd, a'i fam ydoedd Emma, nith i'r esgob Dolben, o Fangor. Syr William a ddygwyd i fynu i'r gyfraith, ac a wnaed yn llefarydd Ty y Cyffredin, dan Siarl II., ac yn Gyfreithydd cyffredinol i'r brenin James. Yn ei

Digitized by Google

alwedigaeth gyfreithiol, dygwyddodd fod yn amddiffynwr rhyw dreial yn yr Amwythig, yn achos Watkin Kyffin o'r Glasgoed, yn yr hyn y bu yn llwyddianus; a hyny a agorodd y ffordd iddo gael Margaret, merch y boneddwr hwnw yn wraig; a'r mab henaf o'r briodas hon, sef Syr William Williams, a briododd Jane, merch ac etifeddes, Edward Thelwall, Yswain; a Sidney merch ac etifeddes William Wynn, 4ydd mab Syr John Wynn, o Wydir, a nai i Syr John Wynn, o Wynnstay; a hyn a fu'r achlysur i'r boneddwr olaf adael ei ystad i Syr Watkin Williams Wynn, mab y Syr William Williams olaf o'r Glasgoed; ac felly y cysylltwyd ystad y Glasgoed â Wynnstay. Trwy yr Edward Thelwall uchod hefyd y daeth ystad Plasyward, a chyfoeth tirol arall yn Nyffryn Clwyd, i feddiant yr un teulu. Y Syr Watkin uchod, o'r Glasgoed, a briododd yn gyntaf, Anne, merch William Fychan, o deulu Llwydiarth, sir Drefaldwyn, o'r hon y bu iddo amryw blant, rhai o honynt a fuant feirw yn ieuainc; a'i ail wraig ydoedd Frances, merch George Skakerley, Ysw. Ond y mae'n anghenrheidiol sylwi ynghylch y briodas gyntaf, fod y Robertiaid o Langedwyn, yn hanu o Einion Efaill, o Lwynymaen; ac un o'r teulu yma, sef Catherine, merch ac etifeddes Morris Roberts o Langedwyn, a briododd Owen Fychan o Lwydiarth; ac iddi hi y disgynodd etifeddiaethau ei pherthynasau, sef Fychaniaid Caergai, a Glanllyn, Meirionydd, a'r etifeddiaethau hyny, yn nghydag ystad Llwydiarth, a ddisgynasant i Anne, merch William Fychan o Lwydiarth, yr hon, drwy ei phriodas â Syr Watkin, a drosglwyddodd yr amrywiol etifeddiaethau a enwyd iddo ef, ac y maent yn parhau yn y teulu hyd y dydd hwn. Yr ail Syr Watkin, a briododd yn gyntaf, Henrietta, 5ed merch Dug Beaufort; ac yn ail, Charlotte, merch yr Anrhydeddus George Grenville, a chwaer i George, Ardalydd cyntaf Buckingham. Efe a fu farw ar y 29ain o Orphenaf, 1789, pan y disgynodd ei deitl i wrthddrych hyn o sylw. Efe oedd y pumed barwniad o'r teulu, a'r trydydd o'r enw. Daeth i feddiant o'r ystad ar farwolaeth ei dad yn 1789. Yn 1794, dewiswyd ef yn aelod seneddol dros sir Ddinbych, a pharhaodd i'w chynnrychioli hyd ei farwolaeth. Yr oedd hefyd yn arglwydd-raglaw siroedd Dinbych, a Meirion; a thrwy ei addysg foreuol fel milwr, bu o gryn wasanaeth yn ei oes i'r goron. Amlygodd hyny ar wahanol achlysuron, yn enwedig pan yr oedd terfysg yn Iwerddon, yn 1798; casglodd gatrawd o wyr meirch ar ei draul ei hun, aeth trosodd i'r wlad hono, a bu yn wasanaethgar iawn i adfer tawelwch yno. Ac ar ddychweliad Bonaparte o Elba, Syr Watkin, a milwyr cartrefol sir Ddinbych, ar y rhai yr oedd efe yn gadflaenor, a gynygiasant eu gwasanaeth i fyned trosodd i Ffrainc, er cynorthwyo i ddarostwng y gwr bach uchelfrydig; eithr tra yr oedd efe a'i wyr ar eu ffordd tuag yno, dygwyddodd brwydr Waterloo, ac felly dychwelasant heb fod angen am eu cynorthwy. Ystyrid ef yn feistr tir rhagorol, rhesymol yn ei renti, a hynaws tuag at ei ddeiliaid mewn cyfyngderau. Fel Cymro gwladgarol, yr oedd yn frwdfrydus dros ei genedl a'i harferion; yn noddi ei llenyddiaeth, ac yn haelionus i'w llenorion. Efe oedd llywydd Eisteddfod Gwrecsam yn 1820, ac un y Bala yn 1836. Yn fuan wedi ei ddychweliad o'i ymgyrch tua Ffrainc, cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus gorfoleddus iawn yn Rhuthyn, Mai 21, 1816, i'r dyben o gyflwyno iddo gawg arian ardderchog, yn pwyso 1500 owns, gwerth 19s. 6c. yr owns; yn 3 troedfedd a 2 fodfedd o daldra, 2 droedfedd a 4 modfedd o drawsfesur; ac yn abl i gynwys 140 o alwyni. Yr anrheg hon a bwrcaswyd trwy gydroddion boneddigion sir Ddinbych. Ar ei ystlys yr oedd yn gerfiedig yr englyn canlynol o waith Bardd Nantglyn:—

"Y Fail Arian am filwrio—roddwyd
I raddol fwyn Gymro,
Syr Watcyn, brigyn ein bro,
I'w gyfarch a'i hir gofio."

Bu y boneddwr anrhydeddus hwn farw Ion 5, 1840; a disgynodd y teitl, a'r etifeddiaeth, i'r barwn gwiwglodus presenol o'r un enw.

**WYNN**, Parch. William, o Langynhafal, offeiriad, a bardd enwog: a anwyd yn Maes y Neuadd, sir Feirionydd, yn 1704. Mab ydoedd i Robert Wynn, Ysw., o'r lle hwnw, o'i ail wraig, Margaret, merch i Robert Lloyd, o Ragat; yr hon a fuasai yn briod o'r blaen â Meredydd Lloyd, o'r Rhiwaedog, ger y Bala; hi a fu farw yn 1760. Cafodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A. Yn 1740, cafodd ficeriaeth Llanbrynmair, sir Drefaldwyn, yn esgobaeth Llanelwy; yr hon a roddes i fynu yn 1747, pan y penodwyd ef yn ficer Manafon, yn yr un sir, ac esgobaeth. Oddiyno symudodd i Langynhafal Dyffryn Clwyd, a gwasanaethai fel periglor y plwyf hwnw hyd ei farwolaeth, Ion. 22, 1760. Claddwyd ef yn mynwent y plwyf hwnw; lle y mae beddgist yn dynodi ei fedd, a thri englyn lled ddi awen yn gerfiedig arno. Yr oedd yn gymrawd o goleg All Saints, Rhydychain, ac yn gaplan i'r esgob Farmer. Efe a briododd Martha, merch Henry Roberts, Ysw., o Rydonen, heb fod yn nepell o Langynhafal. Y mae yn ofidus genym na buasai gwaith y prif-fardd gorchestol hwn wedi ei gyhoeddi yn gyfrol ddestlus gyda'i gilydd: yn lle bod ar wasgar fel y ceir hwynt yn bresenol, rhai yn y *Dewisol Ganiadau*, eraill yn y *Blodeugerdd*, yn y *Dyriau Duwiol*, y *Gwyliedydd*, *Ceinion Awen y Cymry*, &c. Ystyrir ei "Gywydd y Farn," yn hafal i'r eiddo Goronwy Owen; ac y mae rhai o'i linellau yn gryfach ac angerddolach nag hyd yn nod eiddo y Bardd Du; a thybiem na raid ond dyfynu y dernyn canlynol o'r cyfansoddiad penigamp hwnw, er profi glewder ei athrylith, a'i awdurdod freiniol ar adnoddau iaith:—

Yr Udgorn Diweddaf.

Udgorn nef yn dolefain,
Y ser a glywant ei sain;
Traidd ei nerth trwodd i nen,
Traidd eirias trwy ddaiaren;
A marwor trwy'r gloewfor glas,
Mor a than yn mherthynas!
Traidd afrifed blanedau,
Traidd uffern a'r gethern gau,
Haul a hyllt, garw-wyllt ei gur,
Yn friwsion o'i fro asur!

**WYNNE**, Edward, D.D., ydoedd fab ieuengaf Edward Wynne, Ysw., o Fodewryd, yn Mon. Addysgwyd ef yn ngholeg Iesu, Caergrawnt, lle y cymerodd ei B.A., Mehefin 5, 1644, a chafodd berigloriaeth Llanymawddwy, yn esgobaeth Bangor, gan ei ewythr, yr Esgob Owen. Ar ddychweliad y freninoliaeth, cafodd berigloriaeth Llanarmon, sir Gaernarfon; a chyn hyny, Llangeinwen, Mon.

Digitized by Google

Cynnrychiolai esgobaeth Bangor yn *Convocation* 1661–62, a thua'r pryd hwnw, y cymerodd y radd o D.D. Bu hefyd yn beriglor Llanllechid, ger Bangor; ac yn 1663 gwnaed ef yn ganon yn Llanelwy; ac yr oedd hefyd yn ganghellydd prif eglwys Bangor. Yr oedd yn awdwr y llyfr defnyddiol hwnw, "Trefn ymarweddiad y gwir Gristion," yr hwn a argraffwyd yn Llundain, yn 1662. Bu farw yn Rhagfyr, 1669, a chladdwyd ef yn Llangaffo, Mon. Sefydlodd a gwaddolodd ysgol Caergybi, gadawodd 50*p.* er addurno côr prif eglwys Bangor; a 106*p.* er budd ei goleg, yn Nghaergrawnt.

**WYNNE**, Parch. Ellis, awdwr y Bardd Cwsg, ydoedd fab i Edmwnt Wynne o deulu Glyn Cywarch, yr hwn a briodasai etifeddes y Lasynys, plasdy tua milldir a haner o dref Harlech, sir Feirionydd. Yn y lle hwnw y ganwyd Ellis Wynne, yn 1671. Mae'n sicr iddo dderbyn addysg ragorol, ond nid oes gwybodaeth yn mha le; gyda'r bwriad, mae'n ddiddadl, o'i gyfaddasu at yr offeiriadaeth; eto yr ydym yn meddwl y rhaid penderfynu ei fod wedi gwneud ei ymddangosiad fel awdwr, cyn ei urddo fel offeiriad; ac mai ar gais yr Esgob Humphreys, o Fangor, y daeth efe yn wr eglwysig. Yn 1701, cyhoeddodd gyfieithiad o waith Jeremy Taylor, *Rule and Exercise of Holy Living*, dan y teitl "Rheol Buchedd Sanctaidd," yr hwn a gyflwynid i'r Dr. Humphreys; ac y mae yn debyg mai rhagoriaethau y llyfr hwn, a barodd i'r Esgob bwyso ar ei awdwr i ymgymeryd â'r weinidogaeth. Er mai ychydig o dueddfryd oedd ganddo at y gwaith, ymostyngodd i'r cynghor, ac urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad yr un dydd; a thranoeth cyflwynwyd iddo berigloriaeth Llanfair, ger Harlech. Yr oedd hefyd yn beriglor Llandanwg, a Llanbedr, yn yr un gymydogaeth; ac felly cafodd dreulio cydol ei oes yn dawel, yn awyr ei dreftadaeth ei hun, ac yn mro ei enedigaeth. Yn 1702, efe a briododd Lowri Llwyd, o Hafod Lwyfog, plwyf Beddgelert, sir Gaernarfon. Bu iddynt bump o blant, a pharhaodd y Lasynys yn meddiant y teulu hyd oni werthwyd y lle gan ŵyr y bardd. Yn 1713, ymddangosodd ei gampwaith llenyddol, a champwaith rhyddieithol llenyddiaeth Gymreig, sef "Gweledigaethau y Bardd Cwsg." Am ddychymygion synfawr, a darfelydd feiddgar, ni raid i'r Cymro gywilydd sefyll ochr yn ochr â Dante ei hunan. Mae'n wir fod ambell i faen yn yr adeilad grebwyllog orwech hon, wedi ei gymeryd o Weledigaethau Quevedo, yr Ysbaeniad; ond hyd yn nod pe buasai'r holl ddelweddau a'r cynllun yn lladrad llen, arosai drachefn ddigon o deithi yn y Bardd Cwsg, sef ei iaith ysplenydd. Y mae ei Gymraeg yn dlws a phur annghymarol; a'i arddull mor nodweddiadol a hapus, fel y gesyd pob dysgawdwr Cymreig ef yn safon gerbron ei ysgolorion. Nid oes dim llai na phumtheg argraffiad o hono wedi ymddangos; ac felly ychydig o lyfrau a gawsant ledaeniad helaethach yn mhlith ein cenedl. Y fath oedd syniadau uchel Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog, am y llyfr, fel y dechreuodd ei gyfieithu i'r Saesonaeg; ac yn 1860, ymddangosodd llawn gyfieithiad ohono yn yr iaith hono, gan Mr. George Barrow, awdwr *The Gipsies in Spain;* ac a chymeryd i ystyriaeth mai Sais wedi dysgu Cymraeg ydyw y cyfieithydd, y mae wedi ei gwblhau yn dra theilwng. Yn 1710, penodwyd ef gan esgobion Cymru, i arolygu argraffiad newydd o'r Llyfr Gweddi Cyffredin, a chywiro yr amryfal wallau yn yr argraffiadau blaenorol. Efe a fu farw yn Gorphenaf, 1734, a chladdwyd ef ar y 19eg o'r mis hwnw, tan fwrdd y Cymun, yn eglwys Llanfair. Ei fab henaf William, a fu yn beriglor Llanaber; a'i drydydd mab, Edward, a fu yn beriglor Penmorfa; a gorŵyr iddo ef ydyw y Parch. John Wynne, rector presenol Llandrillo yn Edeyrnion. Yr oedd Ellis Wynne, wedi ysgrifenu llyfr arall o'r enw "Gweledigaeth y Nef," eithr gan y cyhuddid ef o lenladrad yn y Bardd Cwsg, efe a dallodd yr ysgrif hono yn ei ddigofaint i'r tân. Gresyn o'r mwyaf ydoedd iddo gymeryd ei gythruddo fel ag i losgi y cyfansoddiad hwnw; canys y mae lle i dybied y cawsem ynddo weled yr awdwr yn sefyll yn hollol ar ei wadn ei hun, ac y gwiriasai syniadau ei gyfeillion, fod ynddo hefyd ddigon o wreiddioldeb. Yn 1755, darfu i Edward, ei fab, gyhoeddi llyfr tra dyddorol tan yr enw "Prif Addysg y Cristion," yn cynwys yn mhlith pethau eraill, esboniad byr ar y Catecism. o waith ei dad, yn nghydag amryw Hymnau a Charolau. Nodweddir y rhai hyn oll gan rymusder meddwl awdwr y Bardd Cwsg.

**WYNNE**, George, ydoedd o deulu Gwydir, ger Llanrwst; ond oblegyd rhyw ymrafael rhyngddo a'r teulu, gadawodd Gymru, ac ymsefydlodd yn Llundain, lle y daeth yn frethynwr i'r frenhines Elizabeth. Ganwyd ef oddeutu 1560, a bu farw 1610. Darfu i'w wyr ef, George, ddechreu ysgrifenu ei enw yn Winn; a hwn oedd dechreuad y Winiaid, Arglwydd Headley.

**WYNNE**, John, D.D., a anwyd yn Maes y Coed, plwyf Caerwys, sir Fflint, yn 1667. Efe ydoedd ail fab John Wynne o Faesycoed, a disgynai o deulu henafol ac anrhydeddus. Bu am beth amser yn ysgol Llaneurgain, ac oddiyno symudwyd ef i ysgol Ruthin, a thrachefn i Goleg Iesu, Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn gymrawd. Bu am beth amser yn gaplan i Iarll Penfro, ar lys negeswriaeth; ac ar ol hyny yn beriglor Llangelynin, sir Gaernarfon, yn esgobaeth Bangor; ac yn brependur yn mhrifeglwys Worcester. Yn 1712, etholwyd ef yn brif-athraw coleg Iesu, Rhydychain; a Ionawr 11, 1714, dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy; a dygwyddai mai efe oedd yr esgob gyntaf a benodwyd gan George I. Cofnodir iddo fod yn hynod ofalus am, a haelionus at y brif-eglwys, a'r palas esgobol, ar y blaenaf o ba rai yn fuan wedi dyfod i'w swydd, y treuliodd 600*p.* a danysgrifasid gan yr esgob, y clerigwyr, a boneddigion y gymydogaeth, er adgyweirio difrod y dymhestl a gymerodd le yn Chwef. 1714. Yn 1720, efe a briododd Anne, merch ac aeres, Robert Pugh, o Bennarth, Penmachno, ac o Ddol y Moch, yn nyffryn Ffestiniog; a'r briodas hon a weinyddwyd yn mhalas Lambeth, gan archesgob Caergaint. Ar farwolaeth esgob Hooper, yn 1727, efe a symudwyd i esgobaeth Bath a Wells, a bu yn llywyddu yno am 16 mlynedd; fel y llanwodd swydd esgob o gwbl, am 29 mlynedd. Dylem hysbysu hefyd, na bu yr un Cymro yn esgob yn Nghymru ar ei ol ef, hyd y flwyddyn 1870, pan y penodwyd esgob presenol Llanelwy. Yn 1732, prynodd etifeddiaeth y Sychdyn, yn Llaneurgain, sir Fflint, ac yno y bu farw Mehefin 15, 1743. Claddwyd ef yn nghapel eglwys Llaneurgain, o dan feddfaen o farmor glâs, a cheir ei beisarfau yn gerfiedig ar y pen uchaf o honi. Cyhoeddodd dalfyriad o draethawd Locke ar y Deall Dynol, gyda llawn gymeradwyaeth yr awdwr, yr hyn, mae yn debyg, a barodd iddo gael ei gyfieithu i'r Ffrancaeg. Yr oedd ei deulu yn gynwysedig o ddau fab, a dwy

Digitized by Google

ferch. John ei fab henaf, a'i holianodd ef i ystad Sychdyn, ac a fu farw yn ddibriod. Yr ieuangaf ydoedd y Gwir Anrhydeddus Syr William Wynne, marchog, llywydd swyddogol y *Court of Arches;* Ynad yn llys eglwysig Caergaint; Ynad yn y Llyngeslys: meistr Neuadd Trinity, Caergrawnt; ac aelod o'r Cyfrin Gyngor. Ganwyd ef Ionawr 25, 1729; a bu farw yn 1815. Am ei ferched,—Mary a briododd Henry Fane, brawd Iarll Westmoreland; bu hi farw yn 1744, a chladdwyd hi yn ymyl ei thad yn Eglwys Llaneurgain; oddiwrthi hi yr hanai y presenol Arglwydd Le Despencer. Margaret, ei ferch arall, yr hon a anwyd yn 1724, a briododd Henry Banks, Ysw., A.S., dros Corfe Castle, sir Dorset, ac a fu farw yn Llundain, yn 1822, yn 98 oed. Teulu y rhai hyn sydd yn awr yn mwynhau cyfoeth yr esgob.

**WYNNE,** John Huddleston, awdwr amryw lyfrau yn yr iaith Seisnig, ydoedd frodor o Gymru, ac a anwyd yno o deulu parchus, yn 1743. Dygwyd ef i fynu yn argraffydd, yr hon alwedigaeth a ddilynodd am beth amser yn Llundain; bu wedi hyny yn dal swydd yn y fyddin, a rhoddes hono i fynu, gan ddechreu fel awdwr. Ei brif weithiau ydynt:—*A General History of the British Empire in America;* ac *A History of Ireland.* Yr oedd ei ewythr, Parch. Richard Wynne, o goleg All Soul's, Rhydychain, yn beriglor St. Alphage, Llundain; a chyhoeddodd argraffiad o'r Testament Newydd, wedi ei gydmaru yn ofalus a'r Groeg. Bu farw yn 1799.

# Y.

**YERBESTON,** plwyf yn nghantref Narberth, swydd Benfro; 7 milldir i'r gogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Penfro. Llythyrfa, Narberth. Mesura yn erwau, 1224. Gwerth ardrethol, 687*p.* Poblogaeth, 126. Tai annedd, 28. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 138*p.* Noddwr, Barwnig de Rutzen. Y mae yr eglwys, yr hon nid yw namyn adeilad dra chyffredin, yn gyssegredig i St. Lawrence. Cyfodir glo cwlwm mewn rhai parthau o'r plwyf, at wasanaeth y gymmydogaeth.

**YN-DRE-ISAF,** trefgordd yn y rhan hyny o blwyf Llanbadarn Fawr, sydd o fewn y rhanbarth isaf o gantref Geneu'r Glyn, swydd Aberteifi; 1 filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o dref Aberystwyth. Y mae llan y plwyf, a'r rhan fwyaf o'r pentref cyfnesawl, o fewn y drefgordd hon, rhan fechan o ba un sydd o fewn ffiniau bwrdeisiol Aberystwyth. Fe'i ffinir ar y gogledd orllewin gan yr afon Rheidiol.

**YN DRE UCHAF,** trefgordd yn y rhan hono o blwyf Llanbadarn-fawr, sydd yn y rhanbarth isaf o gantref Geneu'r Glyn, swydd Aberteifi; 1¾ milldir i'r dwyrain wrth ddehau o Aberystwyth: fe'i ffinir ar y tu deheuol gan yr afon Rheidiol, a chynnwysa ran o bentref Llanbadarn Fawr.

**YNYR GWENT,** tywysog yn y Deheubarth, yn ei flodeu yn y 5ed ganrif. Safai ei diriogaethau mewn rhan o'r sir Fynwy bresenol. Rhestrid ef hefyd yn mhlith y Saint Cymreig, a meibion iddo ef oeddynt Ceido, ac Iddon, saint, o Fadryn, ferch Gwrthefyr. Efe a sefydlodd goleg neu fynachlog yn Nghaerwent, llywydd yr hwn ydoedd Tathan Sant. Dywedir hefyd mai efe a adeiladodd eglwys y Fenni.

**YNYS** (Yr), gorsaf ar reilffordd swydd Gaer-yn-arfon; 13 milldir i'r dehau wrth ddwyrain o dref Caer-yn-arfon.

**YNYSAWDRE,** treflan yn mhlwyf *St. Bride's Minor,* swydd Forganwg, ar gyd-lifiant yr afonydd Ewenny, a'r Ogmore; 3¼ milldir i'r dehau o Ben y bont. Erwau, 386. Gwerth ardrethol, 248*p.* Poblogaeth yn 1851, 190; yn 1861, 345. Tai annedd, 66. Y cynnydd cyflym yma yn y boblogaeth a achosid gan ehangiad y Gwaith haiarn yn yr ardal. Mae yn debyg mai enw di lwgr y lle hwn yw, "Ynys y nawdd-dref;" ac iddo gael yr enw hwnw oddiwrth ynysig fechan yn y for-gainc a ffurfir gan yr afonydd uchod, yr hon oedd yn gyssegrfa, neu "noddfa," yn yr hen amseroedd.

**YNYS CEDWYN,** treflan yn mharth gogleddol swydd Forganwg, ger ymuniad yr afonydd Tawe, a'r Twrch; 13 milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o Abertawe. Y mae yma weithfeydd haiarn mawrion, ac y mae maen-lo yn helaeth yn y gymmydogaeth, yr hwn y dechreuwyd ei ddefnyddio yn y flwyddyn 1836, i doddi yr haiarn.

**YNYS CYNHAIARN,** plwyf, yn nghantref Eifionydd, swydd Gaer-yn-arfon, ar lan y môr; yn yr hwn y cynnwysir Tre madoc, a Phorth-madoc, yn y rhai y mai llythyrfeydd dan Gaer-yn-arfon. Mesura yn erwau, 6546, o ba rai y mae 1200 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 7421*p.* Poblogaeth yn 1851, 2347; yn 1861, 3138; yn 1871, 4367. Tai annedd, 900. Achosid y cynnydd cyflym yma yn mhoblogaeth y plwyf hwn yn y blyneddoedd diweddar, gan wneuthuriad rheilffordd arfordir Cymru drwy y lle, ac ehangiad dirfawr masnach y llechi, y rhai a anfonir o gloddfeydd Blaenau Ffestiniog, i'w hallforio o Borth madoc, i bob rhan o'r byd adnabyddus. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, wedi ei chydio a Chriccieth. Yma yr oedd llys cartrefol Syr Hywel y Fwyall.

**YNYS EIDOL,** neu Eidiol, lle yn mharth gogleddol swydd Aberteifi; ar lan yr afon Dyfi; 6½ milldir i'r de orllewin o Fachynlleth.

**YNYS ENLLI,** allan i ben tir Lleyn. Gwel Enlli.

**YNYS GADARN,** ynysig fechan yn safn beisfor Dulas, swydd Fon; math o greigres ydyw, yn safn y beisfor; ar yr hon y mae pig-dwr, 4½ troedfedd o uchdwr wedi ei gyfodi, er rhybudd i'r morwyr a fynychant y lle.

**YNYS HALEN,** ynysig yn gorwedd yn safn hen borthladd Caergybi.

**YNYS HELTWS,** maen cwympedig aruthrol, yr hwn yn gyfeiliornus a gyfrifai rhai yn gromlech, yn y parth gogleddol o swydd Gaer-yn-arfon; 4 milldir i'r gorllewin o Capel Curig.

**YNYS LAS,** gorsaf rheilffordd, yn mharth gogledd orllewin swydd Aberteifi, ar reilffordd Aberystwyth; 10½ milldir i'r gogledd wrth ddwyrain o Aberystwyth.

Digitized by Google

**YNYS-LOES BLAEN GWRACH**, palas perthynol i Iarll Dunraven, yn y parth gorllewinol o swydd Forganwg, yn Nglyn Nedd.

**YNYS LWCHWR**, treflan yn mhlwyf Llandeilo Tal y bont, swydd FORGANWG; 3½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Gas llwchwr. Gwerth ardrethol, 707*p*. Poblogaeth, 180.

**YNYS MAENGWYN**, palas teulu o'r cyfenw Corbett, yn y rhan ddeheuol o swydd FEIRIONYDD; 1 milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Towyn. Fe'i llosgwyd gan y Breiniolwyr, yn y rhyfel Cartrefol, yn y flwyddyn 1642; ac fe'i hail adeiladwyd drachefn.

**YNYSOEDD GWYLON**, dwy ynysig, yn safn beisfor Aberdaron, swydd GAER YN ARFON; 2 filldir i'r de ddc ddwyrain o Aberdaron.

**YNYS PENLLWCH**, lle, yn yr hwn y mae gweithfeydd alcan mawrion, yn y parth gorllewinol o swydd FORGANWG, yn agos i orsaf rheilffordd Glais; a 6½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Abertawe.

**YNYS PYR**, a elwir yn gyffredin CALDY ISLAND, ynysig allblwyfol, yn perthyn i swydd BENFRO, yn agos i ben Giltar, ar ochr dde-orllewinol beisfor Caerfyrddin; 2½ filldir i'r dehau o Ddinbych y pysgod. Ei hyd sydd tua milldir, a'i harwynebedd, oddeutu 462 o erwau. Poblogaeth hon ag Ynys St. Margaret yn nghyd, a gyrhaeddla 73. Tai annedd, 16. Y mae oddeutu y drydedd ran o honi dan ddiwylliad da; a chloddir calch ynddi. Sylfaenwyd priordy yma yn amser Harri y Cyntaf, gan Robert de Tours, yr hwn a wnaed yn guddigl berthynol i Fynachlog Llandudoch; ac y mae rhai gweddillion o hono, gan gynnwys twr yr eglwys, yn aros hyd heddyw. Y mae preswylfod C. Kynaston, Ysw., perchenog yr Ynys, gerllaw yr hen adfeilion. Y mae goleudy, yn arddangos goleuni sefydlog, mewn rhan yn ddysglaer, ac mewn rhan yn goch, wedi ei gyfodi yn y flwyddyn 129, ar ei llechwedd ddeheuol, yn ddau gant a deg troedfedd o uchder: ac y mae angorfa dda ger y lan ogleddol.

**YNYS SEIRIOL**, ynys allblwyfol, ar y tu gogledd ddwyreiniol i FON, a'r ochr orllewinol i enau cyfyngfor Menai; 4½ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Beaumaris. Y mae tua milldir o hŷd; a pherthynai gynt i Fyneich Penmon, y rhai a adeiladasant grefydd-dy croes-adeilawg yma, o'r hwn y mae y tŵr, yn ddeugain troedfedd o uchder yn sefyll, ac ychydig adfeilion yn gyssylltiedig âg ef. Byddai lluaws afrifaid o'r adar môr a elwir *Puffins* yn nythu yn yr ynys hon flyneddoedd yn ol; ond trwy i lawer o lygod mawr lanio ynddi o hen long Ysbaenaidd a aeth yn ddrylliau ar ddannedd ei chreigiau, y mae yr adar wedi eu difa ganddynt bron yn llwyr. Dywedir mai yn yr Ynys hon y claddwyd yr hen dywysog Maelgwyn Gwynedd; ac fe'i cyfrifid yn lle tra chyssegredig tua'r chweched ganrif. Gwel PENMON.

**YNYS Y BRAWD**, ynysig fechan, yn gorwedd yn safn yr afon Maw, gerllaw tref yr Abermaw.

**YNYS Y MOCH**, craig yn nghulfor Menai, ar yr hon yr adeiladwyd un o gynnal-byst Pont Menai.

**YNYS Y MWNT**, treflan yn mhlwyf Cadoxton, swydd FORGANWG, yn agos i Gastell nedd. Gwerth ardrethol 4440*p*., o'r hyn y mae 3388*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, 372. Tai annedd, 66.

**YONG**, THOMAS, D.C.L., prelad dysgedig, ydoedd fab i John Yong, o sir Benfro, ac Eleanor ei wraig; ac yn y sir hono y ganwyd yntau, yn y fl. 1507. Derbyniwyd ef i Neuadd Broadgate, yn awr Coleg Penfro, Rhydychain, yn 1528; a chan iddo ymroddi i efrydu y gyfraith wladol, cymerodd ei raddau ynddi, yn 1537, ac efe ar y pryd mewn urddau eglwysig. Yn 1542, gwnaed ef yn benaeth ei goleg; ac yn 1547, yn brif gantor Mynyw, neu Dyddewi. Cymerodd ran mewn dwyn y cyhuddiadau yn erbyn yr Esgob Farrar, o'r lle hwnw; y rhai a brofwyd gerbron Dirprwywyr y brenin, a'r esgob o ganlyniad a garcharwyd. Cymerodd hyn le o dan deyrnasiad Iorwerth VI. Pan esgynodd Mari i'r orsedd gorfu arno ffoi o'r deyrnas, oblegyd ei grefydd, a threuliodd gyfnod ei theyrnasiad hi yn yr Almaen. Dychwelodd i Loegr ar esgyniad y frenhines Elizabeth, ac ar fwriad allan yr Esgob Henry Morgan, o Dyddewi, cafodd ei le ef; a chysegrwyd ef i'r swydd, Ionawr 21, 1559. Yn Chwefror, 1560, dyrchafwyd ef i archesgobaeth Caerefrog; a thua'r un amser, cafodd ei benodi yn Llywydd Cynghor y Frenhines, yn y rhan ogleddol o Loegr. Yn Chwefror, 1564, graddiwyd ef yn ddoethawr yn y gyfraith wladol, D.C.L. Bu farw Mehefin 26, 1568, a chladdwyd ef yn mhen dwyreiniol prifeglwys Caerefrog; lle y dodwyd maen marmor, a beddargraff Lladin, yn hysbysu ei amryfal rinweddau. Yn lled hwyr yn ei oes, efe a briododd Jane, merch i Thomas Kynaston, o Estwick, sir Amwythig; o ba un y bu iddo un mab, o'r enw George, yr hwn a wnaed yn farchog, ac ydoedd yn byw yn Nghaerefrog, yn 1612.

**YORKE**, PHILLIP, Ysw., a anwyd yn Erddig, ger Gwrecsam, sir Ddinbych, yn 1743. Wedi cael addysg ragorol oddeutu cartref, derbyniwyd ef i goleg Bennet, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o M.A. Y llenorwaith cyntaf a gyhoeddodd, ydoedd *Tracts of Powys*, yr hwn a argraffwyd yn Ngwrecsam yn 1795. Yn 1799, daeth allan argraffiad llawer helaethach o'r gwaith hwn, tan y teitl, *The Royal Tribes of Wales*. Y mae hwn yn waith gwerthfawr iawn, ac yn cynwys llawer o wybodaeth ddyddorus am Bum' Llwyth Breninol Cymru, a'u gwehelyth. Bwriadai fyned yn mlaen, ac ysgrifenu hanes Pumtheg Llwyth Gwynedd, ond ni ddygpwyd yr amcan hwnw ganddo byth i ben. Addurnir y *Royal Tribes* â darluniau ar ddur, o ddeuddeg o Gymry enwog, yn eu blodeu yn ystod y ddwy ganrif ddiweddaf. Bu Mr. Yorke yn cynnrychioli bwrdeisdrefi Halston, a Grantham yn olynol yn y Senedd. Cymerodd ei farwolaeth le yn 1804, ac efe yn 61 ml. oed.

**YR DDREINIOG**, neu YR ARDDREINIOG, trefgordd yn y rhan hwnw o blwyf Tregaian, sydd yn nghantref Tyndaethwy, swydd FON. Rhys Ddu yr Arddreiniog oedd un o wroniaid glewaf Owain Glyndwr.

**YSCEIFIOG**, plwyf yn nghantref Rhuddlan, undeb Treffynnon, swydd FFLINT; 5 milldir i'r de orllewin o orsaf rheilffordd Treffynnon. Llythyrfa, Treffynnon. Erwau, 5905. Gwerth ardrethol, 3535*p*. Poblogaeth yn 1851, 1710; yn 1861, 1475; yn 1871, 1379. Achlysurir y lleihad yn y boblogaeth trwy adfeiliad y mwn-gloddiau plwm yn y gymmydogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 700*p*. yn y flwyddyn: ac yn nawddogaeth Esgob Llandaf. Cafodd y llan ei hail adeiladu yn y flwyddyn 1835. Gwir enw y plwyf ydyw "Llanfair Ysceifiog," neu, "Yscawog," oddiwrth yr helaethrwydd o goed yscaw oedd yn y llanerch mewn adeg foreuol, mae yn debyg. Y mae

Digitized by Google

pentref Ysceifiog, yr hwn nid yw ond bychan, yn gorwedd ar lanerch led uchel, fel y cair golygfeydd tra amrywiol ac ehang ar y wlad gylchynol o hono. Buwyd yn cyfodi llawer iawn o blwm yn y plwyf o bryd i bryd, a rhai o'r mwngloddiau yn troi allan gyfoeth mawr i'w perchenogion; ond y maent yn hytrach yn fethiant yn y blyneddoedd diweddaf hyn.

Ar ucheldir yn y plwyf hwn, y mae olion gwersyll Rhufeinaidd; ac yn y flwyddyn 1816, cafwyd torch aur, mewn lle a elwir Bryn Sion, yn mesur deuddeng modfedd a deugain o hŷd, ac yn pwyso pedair wns ar hugain, yr hon a brynwyd gan y diweddar Ardalydd Westminster, am oddeutu pedwar cant o bunnau. Heb fod yn mhell oddiyno, yr oedd carreg arw, yn bost llidiard, yr hon a alwai gwerin yr ardal, "Carreg bedd Buddug;" ar yr hon yr oedd yn gerfiedig mewn llythyrenau lled annghelfydd, y geiriau "Hic Jacit Erbo . . . Obit. Y fleithiau uchod, yn nghyd ag amledd y carneddau yn y gymmydogaeth, a brofant fod brwydrau trychinebus wedi eu hymladd tu a'r llanerch hon, rhwng y Rhufeiniaid a'r hen Frutaniaid; ac y mae rhai henafiaethwyr wedi cael eu tueddu i dybied bod yr wrones Gymreig Buddug, pan y deallodd fod Suetonius yn dychwelyd gyd a'i fyddin o Fon, i ymosod arni, wedi prysuro i'w gyfarfod yn y gymmydogaeth hon; ac mai dyma y lle y cwympodd hi.

**YSCIR** (Yr), afon yn swydd Frycheiniog, yn tarddu ar ben de orllewin Mynydd Epynt; ac yn llifeirio dros oddeutu 12 milldir yn dde dde ddwyreiniol i'r afon Usk, gerllaw Aberyscir.

**YSCIR FAWR**, neu Esgair Fawr, treflan yn mhlwyf, a chantref Merthyr Cynog, swydd Frycheiniog; 8 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o dref Aberhonddu. Poblogaeth yn 1861, 189. Tai annedd, 35. Gwerth ardrethol, 1305*p*. Yn y dreflan hon y mae eglwys y plwyf yn gorwedd; a thrwy y dyffryn hwn y llifeiria yr afon Yscir.

**YSCIR FECHAN**, neu Esgair Fechan, treflan yn mhlwyf, a chantref Merthyr Cynog, swydd Frycheiniog; 9 milldir i'r gogledd orllewin wrth ogledd o Aberhonddu, yn cynnwys, yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 228; tai annedd, 47. Gwerth ardrethol, 1288*p*. Y mae y gangen leiaf o'r Ysgir, oddiwrth yr hon y mae y dreflan yn cael ei henw, yn llifeirio trwy ddyffryn yma, a'r wlad o amgylch sydd yn fynydd-dir llwm a diffrwyth.

**YSCLYDACH**, neu Is Clydach, a elwir hefyd Rhyd y briw, capeloriaeth yn mhlwyf Llywel, swydd Frycheiniog. Gwel Rhyd y briw.

**YSGAFNELL**, ydoedd fab i Ddysgyfeddawg, tywysog ar Frythoniaid Deifr a Bryneich, yn Ngogledd Prydain, yn ystod y 6ed ganrif. Yn Triad 39, cofnodir ef gyd a'i ddau frawd, Gall, a Diffedel, o dan y penawd, "tri unben Deifr a Bryneich;" "a meib beirdd oeddynt y tri, a gwedi eu myned wrth gerdd, y rhoddwyd arnynt unbenaeth." Y mae yr un tri drachefn yn cael eu cofnodi yn Trioedd 46, dan y penawd, "Triwyr o feirdd a wnaethant y tair Madgyflafan,"neu ysgelerder canmoladwy; Ysgafnell a laddwys Edeffled, brenin Lloegr; ac efe a fynai bob nos dwy rian dyledawg o Genedl y Cymry, ac a wnelai anfodd arnaddynt, a thranoeth y lladdei efe wynt, ac a'u hyssei." Cofnodir un o'i ddywediadau yn Chwedlau y Doethion, i'r perwyl, "Ni cha'r tlawd rodd o bell."

**YSGIN** ab Erbin, sant yn y pumed cant. Yr oedd yn frawd i'r enwog Geraint ab Erbin, a thybir mai efe a sefydlodd Lanhesgin, Mynwy.

**YSGWYDD GWYN**, treflan yn mhlwyf Gelli Gaer, cantref Caerphilli, swydd Forganwg; 6¼ milldir i'r gogledd o Gaerphilli. Gwerth ardrethol, 786*p*. Poblogaeth yn 1851, 112: yn 1861, 537. Tai annedd, 96. Achlysurid y cynnydd yn y boblogaeth gan agoriad glofeydd newyddion yn y gymmydogaeth. Y mae yn gorwedd ar lan ddeheuol yr afon Romney, neu Rhymni, yn agos i'w tharddell, ac yn cymeryd i fewn y rhan uchaf o'r plwyf, yr hon sydd yn fynyddig.

**YSGWYN**, treflan yn mhlwyf Llangathen, swydd Gaerfyrddin; 3¼ milldir i'r gorllewin o Landeilo Fawr.

**YSGYBOR FAWR**, treflan yn mhlwyf Llandefeiliog, swydd Gaerfyrddin; 4¼ milldir i'r gogledd o Cydweli. Poblogaeth, 271.

**YSGYBOR Y COED**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, swydd Aberteifi, ger cydlifiad yr afonydd Einon, a'r Dyfi; 4¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Aberystwyth. Cynnwysa bentrefi yr Eglwys Fach, a'r Ffwrnes. Erwau, 11,264, o'r rhai y mae 870 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2368*p*. Poblogaeth, 546. Tai annedd, 123.

**YSPYTTY**, gair Cymraeg, yn deillio o'r gair Lladin *hospitium*, ac yn arwyddoccau "elusendy," neu, "nawddle i deithwyr."

**YSPYTTY CYNFYN**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, swydd Aberteifi; 1¾ milldir i'r de ddwyrain o orsaf rheilffordd Aberystwyth. Llythyrfa, Aberystwyth. Yr oedd yma grefydd-dy, yn amser rhwysg Pabyddiaeth, er gweini lletty, ac ymgeledd i deithwyr; ac y mae olion cylch Derwyddol yn y fynwent. Y fywioliaeth eglwysig sydd yn is-berigloriaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 104*p*. Yn nawddogaeth y Tir-ddeiliaid.

**YSPYTTY IFAN**, plwyf, cyfansoddedig o drefgyrdd Tir Ifan, a Thre ab Rhys, yn nghantref Isaled, swydd Ddinbych; a threfgordd Eidda, neu Idda, yr hon sydd mewn rhan yn y cantref a'r swydd uchod; ac mewn rhan yn nghantref Nanconwy, a swydd Gaer yn arfon; ond oll yn Undeb Llanrwst. Y mae y pentref yn gorwedd ger yr afon Conwy; 10 milldir i'r dehau wrth ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanrwst. Y mae y lle wedi cael ei enw oddiwrth grefydd-dy perthynol i farchogion o urdd St. Ioan o Jerusalem, a sefydlwyd yno gan Ifan ab Rhys, tu a'r flwyddyn 1189, yr hwn a barhaodd mewn bri, a llwyddiant hyd ddadgorfforiad yr urdd hwnw, gan weini nawddle i deithwyr ac eraill, yn ystod yr ymrysonau blinion rhwng y Cymry a'r Saeson: a chan i'r rhagorfraint hon barhau yn meddiant arglwyddi y faenor wedi dadgorfforiad yr urdd, a bod y lle yn rhydd oddiwrth bob brawdwriaeth, daeth yn nawddle i yspeilwyr, a drwg-weithredwyr eraill, y rhai a ddaethant yn ormes flin ar y wlad o amgylch, hyd deyrnasiad Harri y Seithfed, pan eu di wreiddiwyd trwy ddewrder anhyblyg Meredydd ab Ifan, yr hwn a brynasai gastell, ac arglwyddiaeth Dolwyddelen. Y mae llan y plwyf yn gorwedd yn bresenol ar orsaf yr hen grefydd-dy, neu yr *yspytty* gynt; ac nid oes yma ddim o olion yr hen adeiladau wedi eu gadael.

Ymddengys fod Llewelyn ab Iorwerth, "Tywysog Aber, ac Arglwydd Eryri," wedi rhoddi tiroedd i Farchogion St. Ioan, o Jerusalem, dan y dysgrifiad o, "Ty Yspytty Jerusalem, yn Nol Gynwal;" ac yn Nhrethiad y Meddiannau Eglwysig yn Lloegr a

Digitized by Google

Chymru, a wnaed yn y 19 flwyddyn o deyrnasiad Edward y Cyntaf, o.c. 1291, dychwelir yr Yspydwyr, (*Hospitallers*) fel rhai yn dal tiroedd yn Nol Gynwal. Meddai y ty hwn yn Nghymru, lawer o ragorfreintiau, megys, yr hawl i gynal llysoedd rhydd i'w deiliaid yn yr holl diroedd hyny; yn nghyd ag amryw rydd-freiniau perthynasol i'w deiliadaeth cadwasanaethol; ac o'r rhai y cafwyd trwy Ymchwiliad a wnaed yn y 10fed flwyddyn o deyrnasiad Edward y Cyntaf, o.c. 1282, fod Marchogion St. Ioan yn eu hymarfer a'u mwynhau.

Ymddengys fod y Llywydd, a'r brodyr, er lledaenu dylanwad eu hurdd, ac er gweinyddiaeth eu cyllidau yn Ngogledd Cymru, wedi sefydlu cell, a elwid addysg-dy, neu haeddobryn ar y cyffiniau, yn Halston, yn swydd y Mwythig; ac y byddai un o'r brodyr, ar gylch, yn cymeryd ei breswylfa yn Yspytty: gan hyny, y mae yr amryfal adroddiadau o barth meddiannau yr Ysbodwyr yn Yspytty a Dol Gynwal, i'w canfod dan enw yr Addysgdy yn Halston.

Yn y 32ain o deyrnasiad Harri yr Wythfed, dadgorfforwyd yr yspytty hwn, a mynachdai eraill; ac attafaelwyd eu meddiannau gan y goron, a gosodid y tiroedd ar brydlesoedd i unigolion o bryd i bryd. Y rhan hono o honynt ag oedd yn Yspytty, a ddysgrifir fel y canlyn;—

"Holl Berigloriaeth Yspytty Dolgynwal, yn siroedd Dinbych, a Chaer yn arfon, yn nghyd a'r holl ddegymmau, &c.; a hefyd Capel Penmachno, yn swydd Gaer yn arfon, yn nghyd a'r holl ddegymmau, &c.; a hefyd Arglwyddiaeth, a Maenor Yspytty, yn nghyd a'i holl hawlion, aelodau, a pherthynasau yn nywededig swyddi Dinbych, a Chaer yn arfon; . . . a hefyd yr holl ammaethfeydd a'r tiroedd hyny, a adwaenir yn awr dan yr enwau Tir Ifan, ac Eidda, &c."

Y ddwy eglwys yma, y manorau, a'r tiroedd, a ddyroddwyd yn 1560, gan y Frenines Elizabeth, dan wriogaeth, i Ellis Prys, o'r Plas Iolyn; a Thomas Vaughan, o'r Pant Glas, yn Yspytty; y cyntaf yn cymeryd Tir Ifan, a thiroedd eraill; a'r olaf Eidda; yn nghyda chyd hawl i gyflwyniad i fywioliaethau yr eglwysi crybwylledig. Cyfrifid y cyllid y pryd hyny yn 39*p*. 16*s*., o'r hyn yr oedd 10*p*. i'w dalu i Gaplan, am gyflawni gwasanaeth Dwyfol yn Yspytty. Yr oedd enillion y prydleswyr i'w chwanegu at y cyfrif uchod.

Yn mysg cof-ysgrifau Marchogion St. Ioan, yn y llyfrgell yn Malta, cafwyd adroddiad o feddiannau yr urdd yn y Deyrnas hon, yn yr hwn yr enwid yn mysg eraill, eu hettifeddiaeth yn Yspytty, a rhoddid y draul flyneddol mewn bara, cwrw, cig, a chyflogau y goruchwylwyr a'r swyddogion, &c. Darlunir tirddeiliaid y sefydliad yma, fel nifer o ddynion anhywaith, y rhai a omeddent dalu eu hardrethion.

Ymddengys mai Dolgynwal oedd enw y dyffryn a elwid wedi hyny Yspytty, oddiwrth enw ei sefydliad crefyddol. Y mae y cyn-enw wedi ei gadw yn enwau y Beirdd, Richard Cynwal, a William Cynwal, er eu bod hwy yn byw yn Mhenmachno, neu yn agos yno, tu a'r blyneddoedd 1560–1630.

Wedi amryfal drosglwyddiadau ar drefgordd Eidda, a rhanau o Dir Ifan, a Phenmachno, y mae y ddwy arglwyddiaeth, a nawddogaeth y ddwy eglwys, wedi eu prynu yn y flwyddyn 1856, gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd y Penrhyn, yr hwn a roddodd fil o bunnau at adeiladu persondy, ac ychwanegu at gyllid yr Yspytty. A thrachefn, ei arglwyddiaeth yn ol ei haelder arferol, a gyfranodd symiau mawrion at adeiladu ysgoldai, ac eglwysi newyddion yn y ddau blwyf, yn nghyd ag amryw welliannau cyffredinol eraill.

Trwy y plwyf hwn yr oedd hen ffordd Gaer, yn rhedeg, yr hon am lawer o oesoedd oedd y brif linell yn y parth hwn o'r Dywysogaeth. Yr ydoedd yn myned trwy Ruthin, a Cheryg y Drudion, i Ffestiniog; ac oddi yno i amryfal barthau o swydd Gaer yn arfon, a swydd Feirionydd; yr oedd cangenau yn troi allan o honi yma, i'r Bala ar y naill law, ac i Lanrwst ar y llaw arall. Wedi myned trwy y Pentref, cyfeiriai i fynu i Riw Sant, a chan groesi Blaen Eidda, elai i ben dyffryn Penmachno, lle y mae hen bont yn aros eto; yna, heibio i'r llech-gloddfeydd, trwy Fwlch Carreg y Fran, heibio i Feddau Gwŷr Ardudwy, i Ffestiniog. Oddeutu y Bwlch hwn gellir canfod olion amlwg yr hen Ffordd Rufeinaidd, o Dommen y Mûr, i Gaer Rhun. Y mae coffad am yr hen ffordd hon yn aros eto ar arwydd-fwrdd Gwestdy Pen y Bont, yn gynnwysedig o linellau cynghaneddol, a ddechreuant fel y canlyn;—

"Cyn dringo'r Llech, a Chraig y Frân,
Ffast anian i Ffestiniog
Disgynwch yma," &c.

Gan mai swydd arbenig Marchogion St. Ioan, oedd noddi teithwyr, i'r dyben o warchod y dramwyfa fynyddig hon, ac ar yr un pryd, ddarparu gorphwysfa ac ymgeledd i gorph ac enaid y teithydd blinedig, yr adeiladwyd, ac y gwaddolwyd yr yspytty hwn, ac y gwnaed ei amgylchoedd yn gyssegrfa, neu nawddle. A bod y sefydliad yma yn enwog am ei faintioli, ei lettygarwch, a'i elusengarwch, a ddangosir gan Dafydd Nanmor, bardd oedd yn ei flodau tu a'r flwyddyn o.c. 1460, yr hwn a gyffelybai haelioni gwr mawr a ganmolai, i haelioni y tŷ hwn;—

"Tŷ fal Yspytty Ieuan
Fu ei dai, o fwyd i wan."

Ond, pa mor wasanaethgar bynag y gallasai y gyssegrfa hon fod, ar adeg pan oedd cyflwr cymdeithasol y wlad yn dra di gyfraith; pan ydoedd "Trechaf, treisied," yn ffynu yn benaf fel rheol ymddygiad, daeth o'r diwedd i fod yn bla yr holl wlad o amgylch, trwy fod yn nawddle yspeilwyr, a dyhirwyr o bob math. Y mae Syr John Wynne, yn ei "Hanes teulu Gwydir," yn darlunio cyflwr y lle hwn fel y canlyn, tua diwedd y bymthegfed ganrif:—

"O dref Conwy i'r Bala, ac o Nan Conwy i Ddinbych, (pan y dygwyddai rhyfeloedd beidio yn Hiraethog), meithrinid nŷth caccwn yn wastadol, yr hwn a flinai yr holl wlad.—Wrth hyn y golygaf yr arglwyddiaeth berthynol i St. Ioan, o Jerusalem, a elwir Yspytty Ifan—lle mawr, i'r hwn y perthynai y rhagorfraint o noddfa. Y frawdwriaeth neillduol hon (yr hon ni lywodraethid gan gyfreithiau y Brenin) a ddaeth yn lloches i fil o lofruddion, y rhai gan eu bod yn ddyogel yno yn ol y gyfraith, a wnaethant y lle yn dra phoblog. Nid oedd un lle o fewn cylch ugain milldir, yn ddyogel oddiwrth eu rhuthr-gyrchiadau, a'u hysbeiliadau. Yn y cyflwr yma yr oedd cantref Nan Conwy, pan symudodd fy henafiad, Meredydd ab Ifan, ei drigfa yno, yn nechreuad teyrnasiad Harri y Seithfed."

A ganlyn yw y rheswm a roddai yr hen bendefig, Meredydd ab Ifan, am adael hen gartref ei dadau, y Gessail Gyfarch, yn Eifionydd, a gwneyd ei drigfa

Digitized by Google

yn nifeithfaoedd Nan Conwy:—"Gwell genyf ymladd â herwyr, a lladron, nag â'm cig a'm gwaed fy hun. Os preswyliaf yn fy nhŷ fy hun yn Eifionydd, rhaid i mi naill a'i lladd fy ngheraint fy hun, neu gael fy lladd ganddynt."

Gellir barnu fod sefyllfa Eifionydd yn annyoddefol pan ystyrid symudiad i'r fath ardal ag y dysgrifid Dolwyddelen y pryd hyny, yn ddewisol. Pa fodd bynag, ni bu y gwr doeth, a phenderfynol uchod, Meredydd ab Ifan, yr hwn y gellir yn gymhwys ei alw yn gyff cenedl Teulu Gwydir, yn hir cyn diwygio y wlad, ac adferu dyogelwch.

Efe a brynodd brydles castell, a ffrithoedd Dolwyddelen.—Yn flaenorol i hyn, buasai y castell crybwylledig yn drigle herwr o'r enw Hywel ab Ifan. Yr oedd rhyfeloedd Owain Glyndwr, y rhai a barhasent dros y pymtheng mlynedd gyntaf o'r bymthegfed ganrif, wedi annrheithio y wlad mor fawr, fel y porai y ceirw yn mynwent Llanrwst, ac y gorchuddid y farchnadle â glas-wellt. Cyn y gellid adferu y wlad anrheithiedig, torodd rhyfeloedd y rhosynau allan, pan feddai herwr o'r enw Dafydd ab Sieneyn arglwyddiaeth ar Nan Conwy: a mynych a fu y cad-gyrchiadau aflwyddianus yn erbyn amddiffynfa yr arch-yspeilydd hwn yn Ngharreg y Gwalch. Y mae Syr John Wynne yn dywedyd, nad oedd yr holl wlad y pryd hyny, yn ddim amgen nag un wigfa, amddifad o drigolion: ac yr oedd gweddill y locustiaid hyn, yn cael ei yssu yn gyflym gan bryf rhwd Yspytty Ifan, pan symudodd Meredydd ab Ifan ei breswylfod i'r gymmydogaeth hon, gan ddywedyd y byddai iddo gael lle i'w benelin yn y wlad ehang hono, yn mysg y caeth-ddeiliaid. Efe a ddetholodd gant a deugain o'r gwrengwyr cryfaf a dewraf ar a allai ei gael, ac a'u harfogodd fel bwawyr, â chleddyf, dagr, a helm a llurig o ddur. O'r rhai hyn efe a gyfleodd un neu ddau yn mhob un o'i dyddynod, o fewn pellderau cyfleus, i allu cynnorthwyo y naill y llall pan fyddai berygl. Yn fuan, darparasant iddynt eu hunain weision traed, i wylio symudiadau eu gelynion, a'u blino yn barhaus. Trwy y cyfryw foddion, llwyddodd Meredydd ab Ifan yn fuan i ddarostwng y gyssegrfa o yspeilwyr yn yr Yspytty, ac i adferu heddwch i'r wlad gythryblus. Ymddengys bod uwchlaw cant o'r yspeildorf hon yn yr Yspytty, wedi eu harfogi yn dda, a chanddynt feirch da danynt; a meddent gyfeillion a chyngrheirwyr, i'w llochesu hwynt a'u hysbail yn amryw o'r gwledydd cyfnesawl. Y mae yn debyg i rai o'r dyhirwyr hyn, pan y chwalwyd eu nyth yn yr Yspytty, ymsefydlu yn Ninas Mawddwy, lle a wnaed yn fuan mor enwog am yspeiliadau y "Gwylliaid Cochion," ag a fuasai yr Yspytty o'r blaen. Eu trais-weithred olaf oedd llofruddiad y Barwn Owen, pan yn myned i'r brawdlys, yn y flwyddyn 1555, yr hyn a barodd i fesurau llymion gael eu cymeryd yn eu herbyn, fel y diwreiddiwyd hwynt yn fuan.

Y mae y rhanau o'r plwyf hwn sydd yn gorwedd o fewn swydd Dinbych, yn mesur 4768 o erwau o dir; a chyfrifir gwerth ardrethol yr holl blwyf, yn nghyda Threfeiliw, a Threwern, yn 5221*p*. Poblogaeth y plwyf, yn 1874, 789. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 158*p*. Noddwr, Arglwydd Penrhyn. Cafodd yr eglwys ei hail-adeiladu yn ddiweddar, ac y mae yma addoldy helaeth gan y Trefnyddion Calfinaidd; Ysgoldy newydd, ac elusendai, i'r rhai y mae ychydig waddol yn perthyn.

**YSPYTTY YSTRAD MEURIG**, plwyf yn undeb Tregaron, swydd ABERTEIFI; 5½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Tregaron. Llythyrfa. Tregaron, dan Gaerfyrddin. Erwau, 945. Gwerth ardrethol, 13,469*p*., o'r hyn y mae 12,260*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 184. Tai annedd, 32. Yr oedd cuddigl yma gynt, mewn cyssylltiad a mynachlog Ystrad Fflur; ac fe'i defnyddid fel Yspytty; ac ymddengys mai oddi wrth hyny y cafodd y lle ei enw. Er nad yw y plwyf ond bychan, y mae yn hynod mewn hanesyddiaeth ar gyfrif hen gastell a safai yma, am gyfodiad cyntaf yr hwn nid ydys yn gwybod dim i foddlonrwydd. Cair y crybwylliad cyntaf am dano yn hanes gwarchaead castell Aberystwyth gan Gruffydd ab Rhŷs, pan anfonodd llywydd yr amddiffynfa hono, gennad ar hyd nos i Ystrad Meurig, a chyn y boreu, derbyniodd adgyfnerthiad oddiyno, a'i galluogodd i'w hamddiffyn yn erbyn ymosodiadau y tywysog Cymreig. Fe'i dinystriwyd mewn rhan gan Owain Gwynedd, yn y flwyddyn 1136, pan ddarfu i'r tywysog hwnw, yn cael ei gynnorthwyo gan ei frawd Cadwaladr, ddystrywio amryw gestyll eraill yn Nghymru, y rhai a ddelid gan y goresgynwyr Normanaidd. Ond, fe'i hadgyweiriwyd yn y flwyddyn 1150, gan Rhys, tywysog y Deheubarth, yr hwn, yn nghyd a'i frawd Meredydd, meibion Gruffydd ab Rhys, a'i cymerasant oddiar Hywel ab Owain Gwynedd, ac a'i cadarnhasant iddynt eu hunain. Yn y flwyddyn 1158, gwarchaewyd arno, ac fe'i cymerwyd gan Rossier, Iarll Clare; ond, fe'i cymerwyd yn ol yn y flwyddyn 1189, gan Maelgwyn ab Rhys, yr hwn yn y flwyddyn 1194, a'i rhoddes i'w frawd Anarawd, fel pridwerth rhyddhad ei ddau frawd, Hywel, a Madoc, y rhai a gymerasid yn garcharorion gan Anarawd. Ond nid ymddengys fod Anarawd wedi gallu cadw meddiant yn hir o'r castell; canys yn y flwyddyn 1198, Maelgwyn a'i cymerodd drachefn, ac a gadwodd feddiant o hono hyd y flwyddyn 1207, pan yn anobeithiol y gallai ei amddiffyn yn erbyn Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, oddiwrth yr hwn y dysgwyliai ymosodiad gelynol, efe a'i dymchwelodd hyd lawr; ac nid yw yn ymddangos iddo gael ei ail adeiladu byth wedi hyny. Y mae ychydig weddillion o'r hen gastell yn aros, ar ben bryn graianawg, yn agos i bentref Ystrad Meurig; a gellir casglu oddiwrth yr olwg arnynt, ei fod unwaith yn lle cadarn.

Y mae gweddillion amddiffynfa Rufeinaidd ar un o'r bryniau yn y plwyf hwn, a elwir y "Friwllwyd;" ac ar fryn arall, a elwir "Tommen Filwyn," y mae carnedd led fawr. Y mae yma hen dŷ, a elwir "Mynachty," lle fel y bernir, yr oedd yr hen *yspytty*, a roddes ei enw i'r plwyf. Sefydlwyd ysgol ramadegol rad yma, gan y Parch. Edward Richards, yr hwn a'i gwaddolodd i ddeuddeg ar hugain o fechgyn, o unrhyw ran o'r wlad; ond, rhai o'r plwyf hwn a'r gymmydogaeth, i gael y flaenoriaeth. Wedi marwolaeth Mr. Richards, cafodd ysgol ramadegol y plwyf cyfnesawl, Llanfihangel Lledrod, ar yr hon y buasai efe yn athraw, a'r hon oedd wedi ei gwaddoli i roddi addysg i ddeugain o fechgyn o ben uchaf y plwyf hwnw, ei huno âg ysgol Ystrad Meurig; a bu y sefydliad hwn yn dra enwog am flyneddoedd lawer, fel un o'r ysgolion clasurol goreu yn y dywysogaeth.

Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, mewn undeb âg Yspytty Ystwyth.

Digitized by Google

**YSPYTTY YSTWYTH**, plwyf yn undeb Tregaron, swydd Aberteifi; 7½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Tregaron. Llythyr-dref, Tregaron, dan Gaerfyrddin. Erwau, 5544. Poblogaeth yn 1851, 718; yn 1861, 743; yn 1871, 941. Tai annedd, 195. Y mae llawer o'r tir yn fynyddig a diffrwyth; a chloddir llawer o blwm yn y plwyf. Y mae y plwyf hwn eto wedi cael ei enw oddiwrth hen grefydd-dy pabaidd, perthynol fel y tybir i Farchogion St. Ioan; ac oddiwrth ei sefyllfa ar lan yr afon Ystwyth. Ffinir y plwyf hefyd ar y tu dwyreiniol gan yr afonydd bychain, Marchnad, a Meuric. Cynhelir ffeiriau yn flyneddol yn nhreflan y Rhos, yn y plwyf hwn, ar y dydd Iau cyntaf wedi y Sulgwyn; Awst 5ed, a'r 26ain, a Medi 25ain. Y mae llawer o'r plwyf yma yn fynydd-dir diffrwyth; ond cynnwysa fwn-gloddiau plwm ennillgar. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, unedig âg Ystrad Meurig, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 80p. Noddwr, Iarll Lisburne.

**YSTAL-Y-FERA**, llanerch haiarnfeydd mawrion, yn y parth de-orllewinol o swydd Frycheiniog; 12½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Abertawe. Medda lythyrfa, dan Abertawe: a gorsaf rheilffordd.

**YSTRAD**, pentref, yn mhlwyf Ystrad gynlais, swydd Frycheiniog; 9½ milldir i'r gogledd wrth ddwyrain, o Gastell Nedd.

**YSTRAD**, treflan yn mhlwyf Caron is Clawdd, swydd Aberteifi; yn agos i Dregaron.

**YSTRAD**, treflan yn mhlwyf Llanddewi Brefi, swydd Aberteifi; 3½ milldir i'r de dde orllewin o Dregaron.

**YSTRAD**, treflan yn mhlwyf St. Ismael, swydd Gaerfyrddin; 3½ milldir i'r gorllewin o Gydweli. Poblogaeth yn 1861, 157.

**YSTRAD**, treflan yn mhlwyf Llandingad, swydd Gaerfyrddin; yn agos i Lanymddyfri. Poblogaeth, 160. Tai annedd, 31.

**YSTRAD**, treflan yn mhlwyf Llanegwad, swydd Gaerfyrddin; 7½ milldir i'r dwyrain o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 132.

**YSTRAD**, gorsaf rheilffordd yn mhlwyf Ystrad dyfodwg, swydd Forganwg; ar reilffordd Dyffryn Rhondda; 8 milldir i'r gogledd orllewin o Bont y pridd.

**YSTRAD**, neu Ystrad-y-Mynach, treflan yn agos i ffin swyddi Mynwy, a Morganwg; ar reilffordd Dyffryn Rhymni; 10½ milldir i'r gogledd o Gaerdydd. Medda Lythyrfa, dan Gaerdydd.

**YSTRAD DYFODWG**, dwy dreflan, a phlwyf, yn Undeb Merthyr Tydfil, swydd Forganwg. Y maent yn gorwedd ar lan yr afon Rhondda, a cherllaw Rheilffordd Dyffryn Rhondda, 8 milldir i'r gogledd orllewin o Bont y pridd; a pherthyna iddynt Lythyrfa, dan yr enw "Ystrad Rhondda," dan Bont y pridd, a gorsaf rheilffordd, o'r enw "Ystrad." Gwerth ardrethol y ddwy dreflan yn nghyd, 11,706p., o'r hyn y mae 7585p. mewn mwn-gloddiau. Poblogaeth yn 1851, 557; yn 1861, 2214. Tai annedd, 402. Achosid y cynnydd mawr yma yn y boblogaeth, gan ehangiad y glofeydd yn y gymmydogaeth. Y mae y plwyf yn cynnwys treflanau Rhigos, a Chlydach hefyd; a mesura tua 24,515 o erwau. Poblogaeth yn 1851, 1998; yn 1861, 3857; yn 1871, 17,777. Tai annedd, 2880. Y mae y rhan fwyaf o'r plwyf yn perthyn i Ardalydd Bute. Y tiroedd isel, ger glanau yr afon, sydd yn ddyffryn dymunol, a'r mynyddoedd ger ei ystlys, a gyrhaeddant yr uchder o 1859 troedfedd. Y fywioliaeth eglwysig sydd isberigloriaeth wastadol, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 120p. Noddwr, Ficer Llantrisant.

**YSTRAD FELLTE**, plwyf, yn swydd Frycheiniog, o fewn cantref Defynog; Y mae y plwyf yn gorwedd ar lan yr afon Fellte, 6½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Hirwaun; ac 11 milldir i'r gogledd orllewin o Ferthyr Tydfil. Fe'i dosperthir yn ddwy ran, yr isaf, a'r uchaf; a chynnwysa bentref Ystrad, a threflan Pont Nedd Fechan. Mesura y plwyf 19,025 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 4079p. Poblogaeth, 719. Tai annedd, 139 Y mae llawer o'r tir yn fynydd uchel; ac yn nghymmydogaeth Craig y Ddinas, y mae helaethrwydd o glai tân rhagorol. Arferid cynnal ffeiriau yn y pentref hwn flyneddau yn ol, ar y Sadwrn cyntaf wedi y 12fed o Fawrth, y Sadwrn o flaen y 5ed o Orphenaf, y Sadwrn o flaen y 26ain o Awst, Medi yr 21ain, a Thachwedd y 14eg; ond er's amryw flyneddoedd bellach, fe'u rhoddwyd i fynu oll, oddieithr dwy ffair anifeiliaid, y rhai a gynhelir Mai 12fed, a Thachwedd 14eg. Y mae Sarn Lleon, neu yr hen ffordd Rufeinaidd a elwid ar enw *Julian*, yn dyfod i'r plwyf hwn yn ei ben gogledd ddwyreiniol, gan ymgadw mewn llinell gyfochrog â'r brif-ffordd o Aberhonddu; ac wedi trawsu dyffryn bychan y Fellte, y mae yn cadw ei gyfeiriad am oddeutu milltir a haner, yn gyfochrog â'r brif-ffordd; ac yna, gan gymeryd cyfeiriad gorllewin ogledd orllewinol, croesa Gwm Nedd Fechan tua Blaen Nedd. Heb fod yn neppell o'r lle hwnw, y mae hen garreg, ar ymyl yr hon y mae arysgrif mewn llythyrenau Rhufeinaidd, wedi eu treulio yn ddirfawr gan yr hin, fel nad oes onid y ddau air Hic Jacit yn ddarllenadwy. Dywaid *Mr. King*, i fathodyn aur o'r amherawdr Fespasian, gael ei ddargan-fod yn agos i'r lle hwn; ac y mae tommen-fryn celfyddydol yn agos i'r pentref; ond nid oes dim wedi ei groniclo yn mherthynas i'w ffurfiad, na'i hanes. Pan fyddo y dwfr yn isel yn yr haf, bydd yr afon Mellte yn rhedeg trwy agen gyfyng yn y graig, hyd oni chyrhaedda bron gyferbyn a'r pentref, lle y mae yn disgyn i dro-lyn bychan ar ei hystlys ddeheuol, ac yn myned o'r golwg; ac y mae ei rhediad am yn agos i haner milldir, yn guddiedig gan geryg, hyd oni chyrhaedda ogof, ychydig o'r tu isaf i Porth yr Ogof.

Y mae tua 44p. o elusenau yn perthyn i'r plwyf hwn. David Gwallter, o Faes Gwallter, yn mhlwyf Defynog, a adawodd bum punt yn y flwyddyn tuag at addysgu plant tlodion o'r plwyf hwn, a phlwyf Penderyn. Morgan Llewelyn, yn y flwyddyn 1630, a gymmun-roddodd dri o dyddynod, o'r enw Tir pen-y-graig, Tir pwll y gelynen, a Thir yr Ynysfor; y ddau gyntaf yn y plwyf hwn, a'r diweddaf yn mhlwyf y Faenor, ardrethion y rhai ydynt i'w rhanu rhwng y tlodion. Syr Henry Williams, o Gwernyfet, Marchog, a gymmunroddodd 1p. 10s. yn y flwyddyn 1676, i'w dalu yn flyneddol o ardreth tyddyn. Margaret Lewis o Breton, yn y flwyddyn 1733, a gymmun-roddodd dŷ annedd, a siop gôf; a Gruffydd Morgan, o'r plwyf hwn, a gymmun-roddodd dair punt, i'w talu yn flyneddol, o ardreth Tir Goror Nedd, at gynnorthwyo y tlodion. Y mae golygfeydd aruthrol i'w cael yn y gymmydogaeth hon, yn enwedig mewn cysylltiad a'r afon Mellte.

**YSTRAD FFIN**, capeloriaeth yn mhlwyf Llandingad, swydd Gaerfyrddin, cyd derfynol â threflan

Digitized by Google

Ystrad, yn agos i orsaf rheilffordd Llanymddyfri. Llythyrfa, Llanymddyfri, dan Gaerfyrddin. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth wastadol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 59*p*. Noddwr, Iarll Cawdor.

**YSTRAD FFLUR.** Gwel CARON UWCH CLAWDD.

**YSTRAD GWYN,** treflan yn mhlwyf Tal y llyn, swydd FEIRIONYDD; 6½ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Machynlleth. Poblogaeth, 129.

**YSTRAD-GYNLAIS,** plwyf yn swydd FRYCHEINIOG; 14 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Abertawe; ger dyfr-ffos Abertawe, a rheilffordd dyffryn Abertawe; ac yn cynnwys gorsafau Ystalyfera, a Gwŷs. Dosbarthir y plwyf yn ddwy ran, yr uchaf, a'r isaf; ac fe'i hadranir i chwe rhandir; ac yn cynnwys pentrefi Ystrad, Cwm y giedd, Cabillo, Giedd, Dyfnant, a'r Bwllfa. Mesura yn erwau, 21,954. Gwerth ardrethol 15,961*p.*, o'r hyn y mae 380*p.* mewn cloddfeydd, 3258*p.* mewn mwngloddiau, 2802*p.* mewn haiarnfeydd, a 240*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 3758; yn 1861, 4345; yn 1871, 4121. Tai annedd, 876. Y mae cynnydd neu leihad y boblogaeth yn ymddibynu ar fywiogrwydd neu farweidd-dra y gweithfeydd glo, a haiarn, yn y gymmydogaeth. Y mae helaethrwydd o lo caled, ceryg haiarn, a cheryg calch, yn yr ardal. Meddylia rhai fod y plwyf wedi cael ei enw oddiwrth gyssegriad y Llan i Sant Gunleis, tywysog Glewissig, yr hwn trwy ei breswyliad yn y lle hwn, a roddes ei enw i'r dyffryn bychan yn yr hwn y gorwedda. Ond, y mae eraill yn fwy cywir, yn dywedyd mai i St. Mair y mae y Llan yn gyflwynedig; a barna amryw, mai gwir enw y plwyf yw "Ystrad Gurlais," neu, "Garwlais," oddiwrth afonig o'r enw hwnw, ychydig o'r tu isaf i'r eglwys, yr hon a ysgara y plwyf hwn oddiwrth blwyf Cil y pebyll; ac a ffurfia y ffin hefyd rhwng swyddi Brycheiniog a Morganwg. Mae yr hen ffordd Rufeinig, a elwir "Sarn Lleon," "Sarn Helen," neu "Sarn y Lleng," yn weledig mewn manau yn y plwyf hwn, yn enwedig ar esgair o graig uchel rhwng y plwyf hwn a phlwyf Ystrad Fellte; ac oddiyma y mae yn gogwyddo yn ddeheuol tu a'r hen orsaf Rufeinaidd, *Nidum*, neu Nedd. Ar yr esgair hon, rhwng "Coelbren" a "Chefn Hir Fynydd," yr oedd Maen Hir, a fernid mai math o filldir golofn Rufeinaidd ydoedd; yr oedd rhyw arysgrifen arni; ond nid oedd namyn y llythyrenau I M P C yn ddarllenadwy yn yr oesoedd diweddar hyn. Pa fodd bynag, y mae yr hen faen wedi ei symud, neu ei ddystrywio er's llawer blwyddyn. Ar y bryniau yn nghyfeiriad Llywel, yn ymylu ar swydd Gaerfyrddin, y mae amryw garneddau, a gweddillion tri o hen wersylloedd Prydeinaidd, ond ni wyddys ddim am adeg, nac achlysur eu ffurfiad. Y mae gwersyll arall yn agos i gapel Coelbren, am yr hwn y bernir, oddiwrth ei ffurf betrual, a'i gyfagosrwydd i Sarn Helen, mai gan y Rhufeiniaid ei gwnaed; ac heb fod yn mhell o'r lle hwn, y mae math o fur naturiol wedi ei ffurfio gan ystlys y calch-greigiau, yn yr hwn y mae ogof fechan, a elwir "Eglwys Cradoc," neu, y Cuddigl; ond y mae *Mr. Jones*, Hanesydd Brycheiniog, o'r farn mai y gell yn yr hon y bu farw Gunleus, neu Gwynlliw, yn mreichiau ei fab Cattwg, ydoedd; ac mai enw Cattwg mewn gwirionedd a roddid ar yr ogof, neu y Feudwyfa, fel y rhoddid enw ei dad, Gunleus, i'r dyffryn. Tua thri chwarter milldir i'r dwyrain o gapel Coelbren, y mae y rhaiadr hynotaf yn y rhan hon o'r wlad, yr hwn a elwir "Sgŵd yr hen Rŷd:" fe'i ffurfir gan y "Llech," neu y "Llechog," ffrwd fynyddig fechan, yr hon am gryn bellder oddiwrth ei tharddell, sydd yn llifeirio dros wely creigiog, am ran o'i gyrfa, yn llwyr amddifad o lysieuaeth; ac wedi croesi y ffordd o Ystrad fellte i'r Coelbren, y mae yn ymgolli mewn glyn coediog, ar ei dyfodiad allan o ba un y mae yr holl afon yn disgyn yn un len ddi doriad, o uchder darbenawl o fwy na chan troedfedd, ond yn cael ei thraws-attal gan grimmell o graig, tua deg neu ddeuddeg troedfedd goris y pen, nes y mae yn ymgyrchu yn ewyn; ac wedi ei disgyniad dros y deg troedfedd a phedwar ugain gweddill heb unrhyw attalfa ychwanegol, y mae yn myned o'r golwg eto dan gysgod y coed tewfrig a dyfant ar ei glanau serth, ac yn ymdroelli i'r afon Tawe.

Mewn gwest-dy yn y plwyf hwn, a elwid "Yr Oen a'r Faner," y cymerwyd yr ysgeler-ddyn Hatfield i ddalfa, yr hwn gan gymeryd arno yr enw, "Yr Anrhydeddus Filwriad Hope, a dwyll hudasai i'w briodi foneddiges ieuanc brydferth a diniwed o'r enw Mary o Buttermere. Efe a draddodwyd i garchar Aberhonddu; ac oddiyno efe a gymerid i garchar Carlisle, lle ei dygwyd i brawf, ac ei dienyddiwyd.

Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 305*p.*; ac y mae isberigloriaeth Capel Coelbren, yn fywioliaeth wahanol.

**YSTRAD OWAIN,** plwyf yn nghantref Pont fôn, swydd FORGANWG, ar gangen o reilffordd Glyn Tâf; 2¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Bont fôn. Llythyrfa yn Mhont fôn. Erwau, 1494. Gwerth ardrethol, 1270*p*. Poblogaeth, 232. Tai annedd, 54. Arferai Ithel Ddu, tywysog Morganwg yn y ddegfed ganrif, gyfanneddu yma weithiau; ac y mae y lle wedi ei hynodi hefyd mewn hanesiaeth, fel y llanerch ar yr hon yr ymladdwyd brwydr galed rhwng y Sacsoniaid gormesol â'r hen Gymry, dan Cynan ab Sitsyllt, yn y flwyddyn 1031; yn yr hon y lladdwyd y tywysog hwnw, a'i holl feibion. Cafodd y lle ei enw oddiwrth Owain ab Collwyn, yr hwn a breswyliai yma mewn llys, gorsaf yr hwn a nodir trwy fath o dommenfryn, yn agos i'r eglwys, a orchuddir yn bresenol gan goedwig. Y mae ychydig olion o hen gastell Tal afan, un o'r deuddeg amddiffynfa a gyfodwyd gan ddilynwyr Fitz Hammon, ar fryn, o'r tu dehau i'r eglwys. Dyroddodd Fitz Hammon y rhan hon o'r wlad a oresgynasai, i Syr Richard de Seward, yn meddiant hiliogaeth yr hwn y parhaodd am oesoedd lawer: ffurfiai ran o waddol gweddw Hugh le Despencer, pan ei dyweddiwyd â Guy de Brien; ac wedi hyny, fe'i trosglwyddwyd trwy briodas, i Ddugiaid Lancaster; ac y mae yn ffurfio rhan o'r ddugiaeth hono hyd yr oes bresenol. Yr oedd dau o feini coffadwriaethol mawrion, wedi eu haddurno yn lled anghelfydd, mewn maes yn agos i'r pentref, y rhai y bernid eu bod wedi cael eu cyfleu wrth ben beddau Owain ab Ithel, a'i wraig, ac am hyny, fe'u gelwir Meini y Brenin, a'r Frenines: ond, y maent wedi eu symud er's peth amser bellach. Yn agos i'r fynwent, yn y cae agosaf iddi ar y tu gorllewinol, y mae tommen-fryn mawr iawn; ond, nid oes dim hanes, hyd yn nod trwy draddodiad, ar gael am dano. Cynnelid cynnulliadau blyneddol y Beirdd, neu, yr Eisteddfodau, yn y plwyf hwn am lawer o oesoedd, dan nawdd teulu henafol yr Hensol; a pharhawyd i'w cynnal hyd y flwyddyn 1721, pan ddarfu am y llinell wrrywaidd o'r teulu hwnw.

Digitized by Google

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth 52*p*. Noddwr, Esgob Llandâf.

YSTRAD Y NOD, trefgordd yn mhlwyf Llanidloes, swydd Drefaldwyn; yn agos i dref Llanidloes. Gwerth ardrethol 1970*p*., o'r hyn y mae 193*p*. mewn mwngloddiau.

YSTRAWAEL, merch i Gadwallawn ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg, ydoedd wraig i Goel Godebog, a thrwyddi hi y daeth teyrniaeth Prydain i deulu Coel. Mewn rhai llawysgrifau, gelwir hi Ystradwael, Ystradwen, ac Ystrawen, merch i Gaufan ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg.

YSTUDFACH, bardd yn y bumed ganrif, eithr nid oes dim o'i waith ar gof a chadw. Efe oedd bardd Cystenyn ab Cynfor, brenin Prydain, Cofnodir un o'i ddywediadau yn Chwedlau y Doethion, i'r perwyl, "Gwyneb llawen, calon iach."

YSTUM COLWYN, trefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd Drefaldwyn; 3½ milldir i'r de ddwyrain o Lanfyllin.

YSTUM GWILLI, treflan yn mhlwyf Abergwilli, swydd Gaerfyrddin; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o dref Caerfyrddin.

YSTUM GYNNON, trefgordd yn mhlwyf Llanfechan, swydd Drefaldwyn; 3¼ milldir i'r dwyrain o Lanfyllin.

YSTWYTH (Yr), afon yn ngogledd-barth swydd Aberteifi; yn tarddu yn agos i'r ffin â swydd Drefaldwyn, ac yn llifeirio dros oddeutu 25 milldir i'r gorllewin dde orllewin, a'r gorllewin ogledd orllewin; ac yna yn ymarllwys i'r mor, ger Aberystwyth.

YSTYFFAN, sant yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Mawan ab Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, tywysog Powys. Yr oedd hefyd yn fardd gorchestol, fel y prawf "Englynion Cain Cynnwyre" o'i waith, a welir yn y *Myv. Arch.* Y mae dywediad o'i eiddo yn Chwedlau y Doethion:—"A fyno dyn, Duw a'i rhan." Efe oedd bardd Teilo Sant. Efe hefyd a sefydlodd Lanstyffan, sir Gaerfyrddin; a Llanstyffan, yn Maelienydd, sir Faesyfed.

---

# ARDDAWD.

Gan fod amryw leoedd lled ddi bwys yn y dosbarth Parthofyddawl o'r Gwaith hwn wedi eu gadael allan, yn enwedig yn y rhan gyntaf o'r Gwaith, rhag y buasai yn chwyddo yn fwy nag ammodau y Cyhoeddiad, a bod y Golygydd yn canfod bod ganddo ychydig ofod at ei wasanaeth yn awr ar derfyn y Gwaith, ychwanegir amryw o'r lleoedd mwyaf pwysig yma, yn y ffurf o Arddawd.

ABENBURY FAWR, trefgordd o fewn y rhan hono o blwyf Gwreesham, sydd o fewn swydd Ddinbych. Erwau, 1078. Poblogaeth, 167. Tai annedd, 38.

ABENBURY FECHAN, trefgordd yn y rhan hono o blwyf Gwreesham, sydd o fewn swydd Fflint. Erwau, 138. Poblogaeth, 145. Tai annedd, 32.

ABERAMMAN, pentref gerllaw ymuniad yr afon Amman â'r Cynon: 2 filldir i'r de ddwyrain o Aberdâr, swydd Forganwg. Medda Lythyrfa dan Aberdâr. Y mae gweithfeydd haiarn, a phalas C. Bailey, Ysw., gerllaw.

ABERANGELL, gorsaf rheilffordd, 3¼ milldir i'r deau wrth orllewin o Ddinas Mawddwy, yn swydd Feirionydd.

ABER BARGOED, gorsaf ar reilffordd Rhymney, ar ffiniau swydd Fynwy; 18½ milldir i'r gogledd o Gaerdydd.

ABER BECHAN, trefgordd yn mhlwyf Llanllwchhaiarn, swydd Drefaldwyn; ar arllwysiad yr afon Bechan i'r Hafren, yn nghymmydogaeth ogledd ddwyreiniol y Drefnewydd. Poblogaeth, 147. Plas Aberbechan yw anneddle Syr J. Clifton, Barwnig.

ABERBIG, gorsaf ar reilffordd dyffrynoedd gorllewinol swydd Fynwy, 15 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o'r Casnewydd, swydd Fynwy. Y mae yma Lythyrfa dan y Casnewydd, Mynwy.

ABERBRAN, gorsaf ar reilffordd Castell Nedd ac Aberhonddu; 4½ milldir i'r de orllewin o Aberhonddu.

ABERCARN, tref yn mhlwyf Mynydd islwyn, swydd Fynwy; ar reilffordd y Dyffrynoedd gorllewinol, 10½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Casnewydd. Medda Lythyrfa dan y Casnewydd, Mynwy, a gweithfeydd haiarn, ac alcan, glofeydd mawrion, &c. Y mae yma balas yn perthyn i Arglwyddes Llanofer.

ABERCASTELL, pentref yn mhlwyf Mathrey, swydd Benfro; ar lan y môr; 6½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Dy Ddewi. Y mae yma borthladd bychan, a fynychir gan fân lestri. Ar dir *Long House*, ychydig o'r tu uchaf i'r pentref hwn, y mae cromlech, bwrdd yr hon sydd yn 16 troedfedd o hyd, yn gynnaliedig gan bedair o geryg 5½ troedfedd o uchder, a dwy gareg arall.

ABERCHWILER, trefgordd yn mhlwyf Bodfari, swydd Ddinbych; gerllaw ymuniad yr afonig Chwiler â'r afon Clwyd, 3½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Ddinbych. Erwau, 3346. Poblogaeth, 430. Tai annedd, 99. Mae gan y Trefnyddion Calfinaidd addoldy hardd yma.

ABERCRAF, lle dair milldir o Ystrad-gynlais, swydd Frycheiniog, yn meddu Llythyrfa, dan Abertawe. Bu y fan hon unwaith yn drigle y Gwynniaid.

ABERDULAIS, pentref gerllaw cyd-lifiad y Dulais â'r Nedd, 2¾ milldir i'r gogledd ddwyrain o Gastell Nedd, swydd Forganwg. Medda Lythyrfa, dan Gastell Nedd, a gorsaf ar reilffordd Castell Nedd a Merthyr Tydfil. Y mae gweithfeydd alcan mawrion yn y lle; a rhaiadr bychan yn y gymmydogaeth.

ABERGARW, pentref yn mhlwyf Llangeinor, swydd Forganwg; 9 milldir i'r gogledd o Ben y bont.



Digitized by Google

ABERGLASLYN, bwlch yn agos i Beddgelert, 8 milldir i'r dehau o'r Wyddfa; ar y ffin rhwng swydd Gaer yn arfon a swydd Feirionydd. Math o agen ydyw rhwng dau glogwyn, tua 700 troedfedd o uchder; ac y mae wynebau y ddwy graig yn cyfatteb mor gyflawn, fel y gellid meddwl mai eu hollti a gawsant mewn rhyw ddaiargryn, y naill oddiwrth y llall. Y mae yr afonig Glaslyn yn golchi y bwlch, ac yn ffurfio rhaiadr godidog wrth ei adael, gerllaw pont o un bwa maen, yn ymestyn o graig i graig, yr hon a elwir "Pont Aberglaslyn."

ABERGLASNEY, palas ar lan yr afon Glasney, yn agos i Landeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN. Perthynai unwaith i foneddigion o'r cyfenw *Dyer;* un o ba rai oedd y bardd a gyfansoddodd y bryddest Seis'nig ar Bryn Grongar.

ABERGORLLECH, pentref, a chapeloriaeth yn mhlwyf Llanbydder, swydd GAERFYRDDIN; gerllaw ymuniad y Gorlech a'r Cothi, 7 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Llangadog; a 7 milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr. Llythyrfa, Llandeilo, dan Gaerfyrddin. Y gapeloriaeth sydd is-berigloriaeth wastadol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 60*p.* Noddwr, Ficer Llanbyddar.

ABERGWYNOLWYN, pentref, gorsaf rheilffordd, a gwest-dy, yn swydd FEIRIONYDD, ar reilffordd Tal y llyn, yr hon a agorwyd yn y flwyddyn 1868; 6¾ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Tywyn. Y mae un Henafiaethydd lleol craffus, yn barnu mai gwir enw y lle ydyw Aber Gwernol-wy: am mai "afon Gwernol" y gelwir yr afon, a'i bod yn tarddu o "Ffynnon Gwernol." Y mae y lle yma yn gorwedd ar gydiad pedwar o gymoedd, sef "Cwm Trefnant," i'r dehau; "Cwm Tal y Llyn," i'r gogledd; "Cwm buarth y meini," i'r dwyrain; a "Chwm y Gamallt," i'r gorllewin. Wedi myned i fynu ar hyd Cwm buarth y meini am ryw filldir a haner, mewn lle o'r enw Nant y nôd, canfyddir olion hen waith, Rhufeinaidd fel y bernir; ac ychydig yn uwch i fynu, yn nghyfeiriad Bryn yr Eglwys, y mae craig lefn, ar yr hon y mae llawer o ryw ymadroddion wedi eu cerfio; ond pa beth oeddynt ni allasom gael hysbysrwydd.

Ychydig yn uwch eto y saif Bryn yr Eglwys, lle y dywaid traddodiad fod yr hen Sant Cadfan wedi adeiladu Eglwys, olion yr hon oeddynt yn weledig hyd yr oes hon; ond erbyn hyn y mae ysbwrial y llech-gloddfa wedi gorchuddio ei gorsaf. Y mae enw yr hen Sant Cadfan wedi ei gyssylltu ag amryw leoedd yn y gymmydogaeth, megys "Ffordd Cadfan," "Pistyll Cadfan," "Eisteddfa Cadfan," a "Llam Cadfan." Yr ydoedd yn ei flodau yn y chweched ganrif.

Yn y Cwm hwn, tua milldir yn nes i'r Tywyn, y mae Dol-Goch, preswylfa yr enwog Gruffydd ab Adda, yr hwn oedd yn byw yn y drydedd ganrif ar ddeg. Cofficir am dano yn fynych fel un o'r rhai dewraf yn gwrthsefyll trais y Saeson; ond ymddengys oddiwrth yr hyn a gerfiwyd ar ei gof-lech yn Eglwys y Tywyn, eu bod wedi ymheddychu cyn diwedd ei oes. Y cofnodiad hwnw sydd i'r ystyr a ganlyn:—

"Yma y gorwedd Gruffydd Adda o'r Ddol Goch, ac Ynys y Maen-gwyn; goruchwyliwr swydd Feirionydd, yn nheyrnasiad Edward y Trydydd."

Y Gamallt sydd gwm dwfn, drwy yr hwn y mae yn afon Mwyngil yn llifeirio o Gwm Tal y Llyn, i ddyffryn tlws Llanfihangel y Pennant. Ar ben y Gamallt, y tu deheuol i'r cwm, y mae lle hynod, a elwir "Tyllau y Gwylanod."

Y mae dau ammaethdy ar ochr y cwm hwn, dan yr enwau Dyssefin Uchaf, a Dyssefin Isaf: a dywaid traddodiad fod brwydr waedlyd wedi ei hymladd yma ar ryw adeg foreuol; ond nid oes yma unrhyw olion, yn tueddu i brofi gwirionedd y traddodiad, nac un sill mewn Hanesiaeth i fwrw goleu ar yr amgylchiad.

Cae'r berllan sydd hen balasdy yn sefyll ar fin y ffordd o Abergwernolwy i Lanegryn, a bernir ei fod wedi ei adeiladu yn dra boreu, efallai, tua'r amser y dinystriwyd Castell y Bere. Perchenogid y lle er's llawer o oesoedd, gan deulu o'r cyfenw Owen, y rhai a olrheinient eu hachau i Owain Gyfeiliawc, mab Griffith ab Meredydd, tywysog Powys: ac y maent wedi cymmysgu drwy briodasau â phrif deuluoedd Meirionydd. Ond, y mae yr ettifeddiaeth wedi ei gwerthu yn ddiweddar i estron o Sais, sef Mr. Scott, Peniarth Uchaf.

Y mae ammaethdy arall o'r enw Maes y llan, yn agos i Gastell y Bere. Pan yn symmud rhyw geryg ger ochr y graig ychydig flyneddoedd yn ol, ar yr ammaethfa hon, cafwyd esgyrn dyn, wedi ei gladdu oddi tan garreg fawr; yr oeddynt mewn cadwraeth dda, ac o faintioli anferth; ond pwy oedd, a pha bryd y daeth yno, nid oes unrhyw draddodiad i daflu dim golau.

Lle arall heb fod yn mhell oddiyma, y dylid ei goffau, yw yr hen balas a elwir Maes y Pandy, lle a fu am oesau yn meddiant cangen o deulu Nannau. Canfyddwn grybwylliad fod un o'r enw John Llwyd, o Faes y Pandy, yn Uchel Siryf Meirionydd yn y flwyddyn 1644: ond, y mae yr olaf o'r Llwydiaid hyny wedi marw er y flwyddyn 1764.

Ar fin y ffordd sydd yn arwain o Abergwernolwy i Dal y llyn, y mae lle a elwir "Y Llyn bach;" yr hwn sydd yn ddeugain llath o hŷd, ac ugain o lêd; a magwyr geryg o'i amgylch, ac agorfa yn ei waelod, i groni, neu ollwng allan y dwfr, yr hwn sydd yn bwrlymu i fynu yn ei ben uchaf; ac yn gymhwys ar ei ganol y mae tŵr o geryg geirwon wedi ei adeiladu, yr hwn a fesura tua chwe llath o amgylchedd, a haner hyny o uchder; ac y mae y traddodiad am dano yn debyg i hyn, fod gwraig i un o ettifeddion Maes y Pandy wedi myned tu a'r Llyn bach un diwrnod, a dau o'r plant yn ei llaw; gan ddywedyd mai ei hamcan oedd eu trochi yn nyfroedd y Llyn.

Ond gan fod un o'r plant o wraig gyntaf ei gwr, ac felly yn ettifedd cyfreithlawn Maes y Pandy, efe a foddwyd ganddi yn y Llyn, fel y deuai yr ettifeddiaeth i'w mab hi ei hunan: ac yn yr amcan hwnw hi a lwyddodd; ond bu y tro yn chwerw iddi hi a'i hiliogaeth am oesau, medd llên y werin, yn gymaint ag y byddai yspryd y bachgen yn eu haflonyddu; a bod amryw o honynt wedi boddi yn y llyn. Ond, fe chwanegir, ddarfod iddynt o'r diwedd fynu ei offrymu i'r llyn; a bod yr yspryd yn awr wedi ei gau i fynu mewn costrel wydr o dan y twr ceryg; a phe meiddiai rhyw un ei symud, y cyfodai yn y fan, er braw a dychryn y gymmydogaeth. Y cyfryw draddodiadau ydynt olion ofergoeledd yr oesoedd tywyll.

Mewn lle o'r enw Llwyn Dol Ithel, yn y gymmydogaeth hon, yn y flwyddyn 1684, cafwyd, tua thair llath o ddyfnder yn y ddaiar, arch o goed, yn saith troedfedd o hyd, wedi ei cherfio yn gywrain,

Digitized by Google

a'i goreuro yn hardd yn mhob pen. O'i mewn yr oedd dau ysgerbwd dynol, gwrryw, a benyw, fel y tybid; a phen y naill yn gyfochrog â thraed y llall. Yr oedd yr esgyrn yn llaith, a gwydn, ac o faintioli anarferol. Nid oedd dim o'u hanes ar lafar gwlad; ac ni lwyddwyd byth i gael gwybod pwy oeddynt.

Ar ochr orllewinol Cadair Idris, yn gymhwys ar derfyn plwyf Llanfihangel, a Thal y llyn, y mae carreg wastad, lle y byddai trigolion y ddau blwyf, oesoedd yn ol, yn arfer cyfarfod ar y Sabbathau i ddawnsio: a dywaid llên gwerin, y byddai y bodau bychain, heinyf, ac ysgafndroed, a elwid y Tylwyth teg, yn ymweled a'r un lanerch ar nosweithiau lloergan, gan ganu, neidio, a dawnsio, hyd oni chlywid "mab yr iâr" yn eu rhybuddio i fyned adref. Ar ryw adeg, pan oedd y ddeu-blwyf wedi ymgyfarfod i gynnal dawnsfa wystledig ar Sul y Pasg, ac ar ganol eu dawns, gwnaeth y gwr drwg ei ymddangosiad ar lun asyn yn eu canol; ac wedi rhoddi oernad ofnadwy, nes oedd creigiau y Gadair yn crynu, rhoddes dro dair gwaith ar y dawns-faen; ac erbyn hyn yr oedd y dawnswyr a'r edrychwyr yn ffoi am y cyntaf, tua chyfeiriad Tal y llyn, a Llanfihangel; ac y mae yn dra thebyg iddynt fyned i'r llanau i orphen eu Sabbath, ac i wneyd iawn am eu camwedd. Yn y canlyniad i'r tro uchod, dywedir y bu y garreg am amser maith heb neb yn ddigon calonog i fyned yn agos atti, gan ofn fod "y gwr drwg" yn llechu o'i deutu. Ond yn mhen rhyw yspaid o amser, daeth dau fachgen gwrol i fugeilio i'r gymmydogaeth; y naill i Ben y Coed; a'r llall i Riw Ogo; a phenderfynodd y ddau, er yn bryderus, fyned tu a'r fan; lle hefyd yr aethant yn grynedig; ac er na's gwelsant yr asyn y clywsent gymaint am dano, na dim yn debyg iddo, eto, hwy a welsant ddigon i'w hargyhoeddi o wirionedd y chwedl; canys yr oedd ôl traed yr asyn yn aros yn amlwg, wedi suddo tua dwy fodfedd i'r garreg; ac erys felly hyd heddyw! Dyna draddodiad "Carreg y gwr drwg," fel ei hadroddir gan werin yr ardaloedd mynyddig tua godrau Cadair Idris. Y mae enwau ugeiniau o bersonau wedi eu cerfio ar y garreg; ac y mae amryw o honynt yn hen iawn, fel y gwelir wrth yr amseriadau cyssylltiedig â rhai o honynt; y mae un o honynt, o leiaf, can hyned a'r flwyddyn 1564.

**ABERHALE**, trefgordd yn mhlwyf Tregynon, swydd DREFALDWYN; 5½ milldir i'r gogledd o'r Dref Newydd.

**ABER KENFFIG**, pentref yn mhlwyf Castell Newydd, swydd FORGANWG; 3 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Ben y Bont. Medda Lythyrfa, dan Ben y Bont, a gorsaf rheilffordd. Poblogaeth, 237.

**ABER MARCH-NANT**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, swydd DREFALDWYN; 4½ milldir i'r gogledd-ogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 27.

**ABERMARLAIS**, lle ger yr afon Towy, yn swydd GAERFYRDDIN; 1½ milldir i'r gogledd orllewin o Langadoc. Dyma lle yr oedd palas yr enwog Syr Rhys ab Thomas.

**ABERMENAI**, y cyfyngiad yn y pen de orllewin o gyfyng-for y Menai, rhwng Môn ac Arfon, lle y mae porthfa i groesi o'r naill wlad i'r llall.

**ABERMULE**, pentref, ger ymuniad y Mule a'r Hafren; 4½ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Dref Newydd, swydd DREFALDWYN. Medda orsaf rheilffordd, a Llythyrfa, dan yr Amwythig.

**ABERNANT**, gorsaf rheilffordd Glyn Nedd, 4 milldir i'r de orllewin o Ferthyr Tydfil, swydd Forganwg. Y mae Glofeydd, a gweithfeydd haiarn mawrion gerllaw.

**ABERSOCH**, pentref, a phorthladd ar feisfor Sant Tudwell, swydd GAER-YN-ARFON; 7 milldir i'r de orllewin o Bwllheli. Medda Lythyrfa, dan Bwllheli.

**ABERSYCHAN**, pentref yn mhlwyf Trefethin, swydd FYNWY; gerllaw ymuniad y Sychan a'r Afon; 2 filldir i'r gogledd ogledd orllewin o Bont y pŵl. Medda Lythyrfa, dan Bont y pŵl; a gorsaf rheilffordd ar ffordd dyffrynoedd dwyreiniol swydd Fynwy. Lle poblogaidd ydyw mewn cyssylltiad â'r gweithfeydd haiarn ar y llethr gerllaw. Y mae yma eglwys is-blwyfol, at wasanaeth poblogaeth o tuag 8000, yr hon a wasanaethir gan Ficer, a bennodir gan ficer Trefethin.

**ABERTANAD**, trefgordd yn mhlwyf Llan y blodwell, swydd yr Amwythig, gerllaw yr afon Tanad; 4½ milldir i'r de orllewin o Groesoswallt. Poblogaeth, 102.

**ABERTHIN**, treflan yn mhlwyf Llanblethian, swydd FORGANWG; 1 filldir i'r gogledd ddwyrain o Bont fon.

**ABERTILLERY**, pentref, yn mhlwyf Aberystruth, swydd FYNWY; 5 milldir i'r gogledd o Crumlin. Mae yma Lythyrfa, dan y Cas Newydd, Mynwy; a gorsaf ar reilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol.

**ACRE FAIR**, pentref, a gorsaf rheilffordd, yn swydd DDINBYCH; 2 filldir i'r de dde orllewin o Riwabon.

**ALLT**, trefgordd yn mhlwyf y Berriw, swydd DREFALDWYN; 3 milldir i'r gogledd orllewin o Drefaldwyn. Poblogaeth, 17.

**ALLT-GREIG**, treflan yn mhlwyf Llangiwg, swydd FORGANWG; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o Gastell Nedd. Poblogaeth, 1078.

**ALLT GYMBYD**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon yn Iâl, swydd DDINBYCH; 10 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Wrecsham.

**ALLT Y GAER**, treflan yn mhlwyf Llangathen, swydd GAERFYRDDIN; 3½ milldir i'r gorllewin o Landeilo Fawr.

**ALWEN** (YR), afon yn Ngogledd Cymru. Y mae yn tarddu o Lyn Alwen, yr hwn sydd tua 7½ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Lanrwst; ac yn llifeirio am oddeutu pedair milldir ar ddeg mewn cyfeiriad de ddwyreiniol, gan ymarllwys i'r Dyfrdwy, tua 1¾ milldir o'r tu uchaf i Gorwen.

**AMMAN** (YR), afonig o sir Gaerfyrddin, yn cyfodi yn y Mynyddoedd Duon, ac wedi llifeirio mewn cyfeiriad gorllewin dde orllewin am oddeutu 10 milldir, yn ymarllwys i'r Llwchwr, yn agos i'r Bettws.

**ANNIFER** (Yr), afonig yn swydd Benfro. Y mae yn tarddu yn y parth gogledd ddwyreiniol o Fynyddoedd Preselli, ac yn llifeirio dros oddeutu 10 milldir mewn cyfeiriad gorllewin ogledd orllewin, i feisfor Trefdraeth.

**ARDUDWY**, cantref yn y parth gogledd orllewinol o swydd FEIRIONYDD. Y mae yn cynnwys Harlech, un plwyf ar bymtheg, a rhan o un arall; ac fe'i rhenir yn ddau ddosbarth, dan yr enwau Is-Artro, ac Uwch-Artro. Erwau yn Ardudwy Is-Artro, 89,415. Poblogaeth yn 1861, 13,324. Tai annedd, 775. Erwau yn Ardudwy Uwch Artro, 36,540. Poblogaeth, 11,750. Tai annedd, 2425.

Digitized by Google

**ARFAN** (Sant), plwyf yn swydd Fynwy, yn agos i'r afon Wy; 2 filldir i'r gogledd ogledd orllewin o orsaf rheilffordd Chepstow. Cynnwysa dreflan Porth gasseg, a rhan o Kingsmark, a gyfrifir weithiau yn all blwyfol; a medda lythyrfa, dan Chepstow. Erwau, 2309. Gwerth ardrethol, 3703*p*. Poblogaeth, 379. Tai annedd, 88. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Llandâf. Gwerth,53*p*. Noddwr, Duc Beaufort. Y mae adfeilion dau hen gapel yn y plwyf; ac y mae llan y plwyf yn adeilad henafol, a thŵr wythonglog iddi.

**ARGOED**, gorsaf rheilffordd yn y parth gorllewinol o swydd Fynwy; rhwng y Coed Duon a Thredegar.

**ARGOED**, trefgordd yn mhlwyf y Wyddgrug, swydd Fflint; 1½ milldir o dref y Wyddgrug. Poblogaeth, 874. Tai annedd, 179. Y mae glofeydd lled lwyddianus yma.

**ARGOED** ac Ystrad, trefgordd yn mhlwyf Caron is Clawdd, swydd Aberteifi. Cynnwysa Dregaron. Poblogaeth, 882. Tai annedd, 213.

**ARRAN FAWDDWY**, Arran Gessail, ac Arran Penllyn, tri o brif Fanau Mynyddoedd y Berwyn, ar y ffin rhwng swydd Drefaldwyn a swydd Feirionydd. Cyrhaedda y gyntaf yr uchder o 2955 troedfedd uwch lyfel y môr: yr ail, 2224; a'r drydedd, 2004. Y mae blaen darddiadau yr afon Dyfrdwy ar eu hystlys ogledd orllewin.

**ARRENIG**, mynydd yn 2809 troedfedd o uchder, 7 milldir i'r gorllewin o dref y Bala.

**ARTH** (Yr), afonig yn swydd Aberteifi. Y mae yn tarddu ar ben deheuol mynyddoedd y Mynydd Bach; ac yn llifeirio dros 8 milldir mewn cyfeiriad gorllewinol, i Fôr y Werydd, ger Aberarth.

**ARTHUR** (Bwrdd), cyfres o hen geulcoedd celfyddydol mewn craig, yn mhlwyf Llansannan, swydd Ddinbych; 6½ milldir i'r gorllewin o Ddinbych. Y maent yn bedwar ar hugain mewn nifer, ac yn ddigon mawr i ddynion eistedd ynddynt.

**ARTHUR** (Cadair), dau glogwyn mynyddig, 5 milldir i'r dehau o Aberhonddu. Ymddyrchant i'r uchder o 2862 troedfedd, ac y maent yn mysg y clogwyni uchaf yn Nheheudir Cymru; o'r rhai y cair golygfeydd eang iawn ar y wlad o amgylch. Fe'u gelwir yn gyffredin, "Bannau Brycheiniog."

**ARTHUR** (Maen), cromlech, ar lethr ogleddol Cefn y Bryn, 9 milldir i'r gorllewin o Abertawe, swydd Forganwg. Y mae yn garreg o grutfaen garw, 14 troedfedd o hyd; 7 droedfedd a 2 fodfedd o ddwfn, ac oddeutu 20 tunnell o bwysau, fel y bernir; yn gorwedd mewn ymddangosiad ar naw o attegion; ond mewn gwirionedd ar ddim ond pedair.

**ASTON**, trefgordd yn mhlwyf Penarlâg, swydd Fflint, gerllaw gorsaf rheilffordd y *Queen's Ferry*, yn agos i'r afon Dyfrdwy; 1½ milldir i'r gogledd wrth orllewin o Benarlâg. Erwau, 613. Gwerth ardrethol 3948*p*., o'r hyn y mae 2600*p*. mewn rheilffyrdd. Poblogaeth, 333. Tai annedd, 64. Y mae y rhan fwyaf o'r trigolion yn cael eu cynnaliaeth mewn cyssylltiad â thawdd-dy mawr yn y gymmydogaeth. Bu y faenoriaeth, a'r hen gastell, yn meddiant teulu o'r cyfenw Whitley, er amser Edward y Trydydd hyd yr oes ddiweddaf; ond y mae yn awr yn eiddo teulu pendefigaidd, o'r cyfenw Dundas.

**BACHAU**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd Drefaldwyn. Poblogaeth, 356.

**BACHAU**, trefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd Ddinbych. Gwerth ardrethol, 2666*p*. Poblogaeth, 507.

**BACHELDRE**, trefgordd yn mhlwyf *Church Stoke*, swydd Drefaldwyn; 1½ milldir i'r de ddwyrain o Drefaldwyn. Mae yn perthynu i Iarll Powys. Poblogaeth, 137.

**BACHRYD**. Gwel Boughrood.

**BACH Y GRAIG**, trefgordd yn mhlwyf Dymeirchion, ger Llanelwy, swydd Fflint. Poblogaeth, 53. Y mae yma hen balas, a berthynai i Syr R. Clough; ac a ddaeth yn eiddo Mrs. Thrale, cyfeilles Dr. Johnson.

**BANGOR**, neu Capel Bangor, capeloriaeth yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, swydd Aberteifi, ger yr afon Rheidiol, 5 milldir i'r dwyrain o Aberystwyth. Llythyrfa, Aberystwyth. Poblogaeth, 1919. Tai annedd, 354. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn Esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 148*p*.

**BARGOED**, gorsaf ar reilffordd Rhymney, ar y ffin rhwng Cymru â swydd Fynwy; 18½ milldir i'r gogledd o Gaerdydd.

**BEAUFORT**, pentref, yn mhlwyf Aberystruth, swydd Fynwy; a chapeloriaeth yn mhlwyfi Aberystruth, a Bedwellty, swydd Fynwy; a phlwyfi Llangadoc, a Llangynidr, swydd Frycheiniog. Saif y pentref ger rheilffordd y Merthyr â'r Fenni, yn agos i darddle yr afon Ebbwy Fawr, 2¼ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Dredegar; ac y mae yma orsaf rheilffordd, a llythyrfa dan Dredegar. Y mae yma weithfeydd haiarn mawrion, ac amryw ffwrneisiau. Cyfansoddwyd y gapeloriaeth yn y flwyddyn 1846. Poblogaeth yn 1861, 5880. Tai annedd, 1212. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorìaeth wastadol, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 130*p*. Yn noddaeth y Goron a'r Esgob ar yn ail.

**BELLAN**, trefgordd yn mhlwyf Rhiwabon, swydd Ddinbych; 5½ milldir i'r dwyrain o Langollen. Poblogaeth yn 1861, 138.

**BENGLOG** (Cwympiadau y), tri rhaiadr ar yr afon Ogwen, ar ei dyfodiad allan o Lyn Ogwen; 10 milldir i'r de dde ddwyrain o Fangor. Maent yn cymeryd lle mewn agorfa yn y graig, ac yn meddu disgyniad o tua chan troedfedd yn y cyfan.

**BENHADLAF**, neu Banhadlaf, Uchaf, ac Isaf, dwy drefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, ar derfyn Siroedd Dinbych, a Threfaldwyn, 10 milldir i'r de orllewin o'r Waun. Gwerth ardrethol y ddwy drefgordd, 6736*p*. Poblogaeth, 307.

**BENHADLAN**, neu Banhadlan, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon, swydd Dinbych; 6½ milldir i'r de dde orllewin o Langollen.

**BENIARTH**, trefgordd yn mhlwyf Bettws yn Rhos, swydd Dinbych; 3½ milldir i'r de dde orllewin o Abergele. Poblogaeth, 99.

**BERTH LWYD**, treflan yn mhlwyf Llangathen, swydd Gaerfyrddin; 3½ milldir i'r gorllewin o Landeilo Fawr.

**BERWICK**, treflan yn mhlwyf Llanelli, swydd Gaerfyrddin, yn agos i dref Llanelli. Gwerth ardrethol 8500*p*., o'r hyn y mae 3545*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 1809. Tai annedd, 346.

**BERWYN**, gorsaf ar reilffordd Rhiwabon a Chorwen; 3 milldir i'r gorllewin o Langollen.

**BERWYN** (Afon), afonig yn swydd Aberteifi. Y mae yn tarddu allan o Lyn Berwyn, ac yn llifeirio mewn cyfeiriad gorllewin ogledd orllewin am oddeutu 6 milldir, ar hyd glyn rhamantus, gan ymarllwys i'r Teifi, ychydig islaw Tregaron.

Digitized by Google

**BERWYN** (MYNYDDOEDD Y), cadwaen o fynyddoedd yn swyddi Meirionydd a Threfaldwyn. Y mae yn dechreu yn agos i orsaf y Berwyn, ac yn ymestyn am 20 milldir, mewn cyfeiriad de orllewinol, hyd at ffynhonellau y Dyfrdwy, a'r Dyfi. Y mae trum yn agos i ben gogledd ddwyreiniol y fynyddres, o'r enw Moel Ferna, yn 2108 troedfedd uwchlaw lyfel y môr; ac un arall, 4 milldir i'r de orllewin o hwn, o'r enw Cadair Ferwyn, sydd yn 2563 troedfedd o uchder; a dau eraill, 1¼ milldir, a 4 milldir i'r de orllewin o ffordd y bwlch o'r Bala i Lanfyllin, ydynt, y naill yn 2027, a'r llall yn 2104 troedfedd o uchder.

**BETHANIA**, lle o fewn 2¼ milldir i Ffestiniog, yn nghymmydogaeth llech-gloddfeydd Blaenau Ffestiniog, yn swydd FEIRIONYDD; a llythyrfa, dan Gaer yn arfon.

**BETHEL**, pentref, 5½ milldir i'r gorllewin o Langefni, MON; lle y mae llythyrfa, dan Fangor.

**BETHESDA**, pentref yn mhlwyf Llandwrog, swydd Gaer yn arfon; 5 milldir i'r de orllewin o Gaer yn arfon.

**BETTWS**, plwyf yn undeb Pen y Bont, swydd FORGANWG, ger yr afon Ogmore, 5½ milldir i'r gogledd o orsaf rheilffordd Pen y bont. Llythyrfa, Pen y bont. Erwau, 5086. Gwerth ardrethol, 1357*p*. Poblogaeth, 371. Tai annedd, 75. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorïaeth wastadol, unedig â ficeriaeth y Castell Newydd, yn esgobaeth Llandâf. Brodor oddiyma oedd yr annghydffurfiwr enwog, y Dr. Price.

**BETTWS**, plwyf yn undeb Llandeilo Fawr, swydd GAERFYRDDIN; 3 milldir i'r de dde ddwyrain o orsaf rheilffordd Llandebie; ac 8 i'r dehau o Landeilo Fawr. Llythyrfa yn y *Cross Inn*, dan Lanelli. Erwau, 6465. Gwerth ardrethol 3844*p*., o'r hyn y mae 760*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 1465. Tai annedd, 304. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 98*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

**BETTWS**, trefgordd yn mhlwyf Llanfawr, swydd FEIRIONYDD; yn nyffryn Edeyrnion, 1½ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Bala. Poblogaeth, 232. Cynhelir ffeiriau yma ar Mawrth 16, Mehefin 22, Awst 12, Medi 16, a Rhag. 12.

**BEULAH**, lle 9 milltir o Fuallt, yn swydd FRYCHEINIOG, lle y mae llythyrfa, dan Fuallt, neu Lanfair yn Muallt.

**BLACKROCK**, gorsaf porthfa ar yr afon Hafren, yn agos i orsaf rheilffordd Porth ysgewit; 4 milldir i'r de orllewin o Chepstow, yn swydd FYNWY. Y mae yma westdy, a lled yr afon ar y llanw sydd oddeutu 2¼ milldir.

**BLACK ROCK**, lle yn swydd FYNWY, 7 milldir o Abergafenni; yn meddu llythyrfa, dan Abergafenni, swydd Fynwy.

**BLACKWEIR**, lle o fewn milldir a haner i Gaerdydd, yn swydd FORGANWG; a llythyrfa, dan Gaerdydd.

**BLACKWOOD**, neu "Y Coed duon," pentref yn y parth gorllewinol o swydd FYNWY; 16 milldir i'r gogledd orllewin o'r Cas Newydd. Medda lythyrfa dan y Cas Newydd, Mynwy; a gorsaf rheilffordd, yn nghyda phellebyr.

**BLAEN AERON**, trefgordd yn mhlwyf Caron is Clawdd, swydd ABERTEIFI; 4 milldir i'r gogledd ddwyrain o Dregaron. Gwerth ardrethol, 834*p*. Poblogaeth, 276. Tai annedd, 54.

**BLAEN ANLLYN**, pentref, yn mhlwyf Cil rhedyn, swydd GAERFYRDDIN; 4½ milldir i'r dehau o Gastell Newydd yn Emlyn.

**BLAENAU**, treflan yn mhlwyf Llanfihangel ar Arth, swydd GAERFYRDDIN; 10 milldir i'r de orllewin o Lanbedr.

**BLAENAU**, trefgordd yn mhlwyf Nantglyn, swydd DDINBYCH; 4½ milldir i'r de orllewin o Ddinbych. Poblogaeth, 123.

**BLAENAU**, treflan yn mhlwyf Llandebie, swydd GAERFYRDDIN; 4½ milldir i'r dehau o Landeilo Fawr.

**BLAEN LLYNFI**, hen fwrdeisdref, yn mhlwyf Cathedin, swydd FRYCHEINIOG; yn agos i Lyn Safaddan; 7½ milldir i'r gogledd orllewin o Grughywel. Y mae yma hen adfeilion yn aros, megys darnau isel o furiau, a ffos ddofn, gweddillion hen gastell; am yr hwn gwel yr Erthygl ar y plwyf, CATHEDIN.

**BLAEN Y FFOS**, lle o fewn 6 milldir i Aberteifi, lle y mae llythyrfa, dan Aberteifi.

**BLEDDFA**, plwyf yn swydd FAESYFED. Gwel BLETHFA.

**BLODWEL**, trefgordd yn mhlwyf Llan y blodwel, swydd yr AMWYTHIG, 5½ milldir i'r de dde orllewin o Groesoswallt. Poblogaeth, 384.

**BLORENGE**, mynydd ar ben dyffryn yr Afon Lwyd, swydd FYNWY; 2½ milldir i'r de orllewin o Abergafenni. Y mae yn dyrchu ei ben i'r uchder o 1170 troedfedd.

**BLOWTY**, neu y Blawd-dy, trefgordd yn mhlwyf Llangadfan, swydd DREFALDWYN; 6½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfair Caereinion. Poblogaeth, 85.

**BLYSWG** (Y), afonig yn swydd ABERTEIFI: yr hon sydd yn cyfodi yn yr arfordir, i'r gorllewin dde orllewin o Aber y Porth; ac wedi llifeirio i'r dehau am tua 5 milldir, y mae yn ymarllwys i'r Teifi, yn Llechryd.

**BODANWYDOG**, trefgordd yn mhlwyf Bryn Eglwys, swydd DDINBYCH; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o Langollen.

**BODEGRWYDD**, tref ddegwm yn mhlwyf yr Aberffraw, MON.

**BODEIGAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd FFLINT. Poblogaeth, 54.

**BODELGAR**, trefgordd yn mhlwyf Llanbedr Dyffryn Clwyd, swydd DDINBYCH; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 93.

**BODFACH**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd DREFALDWYN; ar lan yr afon Cain, ¾ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 42.

**BODFEIRIG**, tref ddegwm yn mhlwyf yr Aberffraw, yn MON.

**BODGADFAN**, trefgordd yn mhlwyf Llangelynin, swydd FEIRIONYDD; ar lan y môr; 4½ milldir o'r Tywyn. Gwerth ardrethol, 861*p*. Poblogaeth, 211.

**BODGYNFAL**, trefgordd yn mhlwyf Gwyddelwern, swydd FEIRIONYDD; 2 filldir i'r gogledd o Gorwen.

**BODGYNWCH**, trefgordd yn mhlwyf Llangernyw, swydd DDINBYCH; 9 milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 78.

**BODIDDA**, trefgordd yn mhlwyf y Gyffin, swydd GAER YN ARFON; 1 filldir i'r de orllewin o Gonwy.

**BODIGRE'R ABBAD**, a BODIGRE'R IARLL, dwy drefgordd yn mhlwyf Llanarmon, swydd DDINBYCH; 5½ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth 98, a 120.

Digitized by Google

**BODINGEN**, trefgordd yn mhlwyf Ysceifiog, swydd Fflint; 3½ milldir i'r dehau o Dreffynnon. Poblogaeth, 48.

**BODLEWYDDAN**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanelwy, swydd Fflint, ar derfyn y Sir, 3 milldir i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Llanelwy. Llythyrfa, Llanelwy, dan y Rhyl. Poblogaeth, 653. Perthynai y faenoriaeth unwaith i deulu o'r cyfenw Humphries; ac fe'i pwrcaswyd oddiarnynt yn nheyrnasiad Siarl yr Ail, gan Syr William Williams, Llefarydd Ty y Cyffredin. Y palas presenol, lle y cyfannedda Syr Hugh Williams, Barwnig, sydd adeilad gastellawg hardd, yn nghanol ceufaes godidog. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 200*p*. Noddwr, Syr Hugh Williams. Adeiladwyd yr eglwys yn y fl. 1856–1860, gan y Bendefiges waddolog, Willoughby de Broke, fel cofadail i'w gŵr, ar orsaf amlwg; ac y mae yn adeilad hardd dros ben; yn yr arddull Seis'nig addurnedig; gan gynnwys corphlan o 66 throedfedd, cangell o 42½ troedfedd, festri wythonglog, a thŵr 202 droedfedd o uchder; ar y draul, meddir, o 60,000 o bunnau.

**BODLITH**, trefgordd yn mhlwyf Llansilin, swydd Dinbych; 7½ milldir i'r de ddwyrain o'r Waun.

**BODLUMAN**, trefgordd yn mhlwyf Bettws Abergeleu, swydd Ddinbych; 3¼ milldir i'r de orllewin o Abergeleu. Poblogaeth, 151.

**BODLYN** (Llyn), llyn 6 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Abermaw, yn swydd Feirionydd. Y mae rhai carneddau, meini hirion, a henafiaethau eraill yn agos iddo.

**BODLYNNGHARAD**, yr Isaf, a'r Uchaf, dwy drefgordd yn mhlwyf Llanfwrog, swydd Dinbych; yn nghymmydogaeth Ruthin.

**BODNOD**, trefgordd yn mhlwyf yr Eglwys Fach, swydd Ddinbych; 6½ milldir i'r gogledd o Lanrwst.

**BODORGAN**, gorsaf ar reilffordd Caer a Chaergybi, 12 milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o Gaergybi. Y mae palas Bodorgan, anneddle brydferth O. A. F. Meurig, Ysw., 2½ milldir i'r de dde orllewin o'r orsaf.

**BODORLAS**, trefgordd yn mhlwyf Corwen, swydd Feirionydd; yn nghymmydogaeth Corwen. Poblogaeth, 155.

**BODORYN**, trefgordd yn mhlwyf Abergeleu, swydd Dinbych. Gwerth ardrethol, 2059*p*. Poblogaeth, 139.

**BODOWEN**, hen balas teulu urddasol o'r cyfenw Owen, yn agos i blas Bodorgan; 2¾ milldir i'r de ddwyrain o'r Aberffraw, Mon.

**BODRACH**, trefgordd yn mhlwyf Llangernyw, swydd Ddinbych; 9 milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 139.

**BODRAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd Drefaldwyn. Poblogaeth, 77.

**BODRYDDAN**, hen balas teulu o gyff pendefigaidd y Conwyaid, 1¼ milldir i'r dwyrain o Ruddlan, yn swydd Fflint. Yma y cyfanneddai y Deon Shipley, merch yr hwn a briododd yr Esgob Heber.

**BODULLTIN**, trefgordd yn mhlwyf Rhiwabon, swydd Ddinbych; 5½ milldir i'r gogledd o'r Waun. Poblogaeth, 338.

**BODYDDON**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd Drefaldwyn, Poblogaeth, 153.

**BODYFOL**, trefgordd yn mhlwyf Llanfechan, swydd Drefaldwyn; 4½ milldir i'r dwyrain o Lanfyllin.

**BODYSCALLAN**, yn hytrach, Bod Caswallawn, hen balas y Wynniaid, ac a ddaeth wedi hyny i feddiant y Mostyniaid, yn nghantref y Creuddin, a'r parth gogledd ddwyreiniol o swydd Gaer yn arfon; yn agos i afon Gonwy; 2½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Gonwy.

**BODYSGAW**, a Bodysgawen, dwy drefgordd yn mhlwyf Llannefydd, swydd Ddinbych; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o dref Dinbych.

**BONT** (Y), pentref yn mhlwyf Llanwrtyd, swydd Frycheiniog; 12 milldir i'r gorllewin o Lanfair yn Muallt.

**BONT** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llanfair-talhaiarn, swydd Dinbych. Poblogaeth, 86.

**BONT NEWYDD** (Y), pentref yn mhlwyf Llanbeblig, swydd Gaer-yn-arfon, o fewn dwy filldir i dref Caer-yn-arfon; ar y brif-ffordd o Gaer-yn-arfon i Bwllheli.

**BONT UCHEL** (Y), llandref yn nhrefgordd Tre'r Parc, plwyf y Gyffylliog, swydd Dinbych; 5½ milldir i'r gorllewin o Ruthin.

**BONWYSON**, trefgordd yn mhlwyf Gwyddelwern, swydd Feirionydd; 2½ milldir i'r gogledd o Gorwen.

**BORRAS HWFA**, trefgordd yn mhlwyf Gwrecsham, swydd Dinbych; yn agos i'r afon Dyfrdwy; 3 milldir i'r gogledd ddwyrain o dref Gwrecsham. Erwau, 454. Poblogaeth, 49. Tai annedd, 9.

**BORRAS RIFFRE**, trefgordd yn mhlwyf Gresford, gerllaw rheilffordd Caerlleon a'r Mwythig, 5 milldir i'r gogledd o Wrecsham. Erwau, 332. Poblogaeth, 20. Tai annedd, 2.

**BORTH** (Y), pentref, ac ymdrochle bychan, yn nhrefgordd Cyfoeth y Brenin, swydd Aberteifi; yn agos i reilffordd y Dref Newydd, ac Aberystwyth; 8 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o dref Aberystwyth. Medda orsaf ar y rheilffordd, a llythyrfa, dan yr Amwythig.

**BORTHIN**, llandref yn mhlwyf Llandyssul, swydd Aberteifi; 8 milldir i'r dwyrain o'r Castell Newydd yn Emlyn. Poblogaeth, 263.

**BOWLING BANK**, lle o fewn chwe milldir i Wrecsham, yn swydd Dinbych, lle y mae llythyrfa, dan Wrecsham.

**BRAICH MELYN**, pentref yn mhlwyf Llanllechid, swydd Gaer-yn-arfon. 4 milldir i'r de ddwyrain o Fangor.

**BRAICH Y DINAS**, hen amddiffynfa Brydeinig ar ben y Penmaen Mawr; 4½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Gonwy. Dywedir y gallasai gynnwys 20,000 o wŷr, a'i bod y gadarnaf o'r holl amddiffynfeydd Prydeinaidd yn Eryri.

**BRAICH Y PWLL**, pentir de orllewinol swydd Gaer-yn-arfon; 2½ milldir i'r gogledd o Ynys Enlli.

**BRAN**, afonig yn swydd Gaerfyrddin. Y mae yn tarddu o'r mynyddoedd ydynt ar derfyn swydd Frycheiniog; ac yn llifeirio am oddeutu 11 milldir mewn cyfeiriad de dde ddwyreiniol heibio i Dalgarth, gan ymuno â'r Towi yn agos i Lanymddyfri.

**BREIDDYN** (Bryn), neu Craig y Gwreiddyn, bryn tri chlogwynol, ar derfyn dwyreiniol swydd Drefaldwyn; oddiar yr afon Hafren; 6½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm. Y mae hen wersyll milwraidd ar ei ben; a cholofn wedi ei chyfodi er cof anrhydeddus am y Llyngesydd Rodney; ac y mae rhai Henafiaethwyr wedi dadleu yn gryf, mai dyma y lle y bu y frwydr olaf rhwng Caradog a'r Rhufeiniaid, dan Ostorius Scapula.

Digitized by Google

**BRENNIG (Y)**, afonig yn swydd Aberteifi, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Teifi, yn agos i Dregaron.

**BRIMSTONE**, pentref yn mhlwyf Castell Hay, swydd BENFRO; 6½ milldir i'r gogledd o Hwlffordd.

**BRISCEN**, treflan yn mhlwyf Llanfynydd, swydd Gaerfyrddin; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr. Poblogaeth, 131.

**BRITHDIR**, trefgordd yn mhlwyf y Berriw, swydd DREFALDWYN, 4½ milldir i'r gogledd orllewin o Drefaldwyn. Poblogaeth, 158.

**BRITHDIR**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, swydd DREFALDWYN; 4½ milldir i'r gogledd o Lanfyllin. Poblogaeth, 252.

**BRITTANIA** (PONT), y dramwyfa gauawl dros gulfor y Menai, ar linell rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, 1 filldir i'r de orllewin o Bont Menai; a 2 filldir i'r gorllewin wrth ddehau o orsaf Bangor. Fe'i cynlluniwyd gan Mr. Robert Stephenson; dechreuwyd ei hadeiladu yn y flwyddyn 1846, ac fe'i hagorwyd yn y flwyddyn 1850; a'r draul i'w gwneyd, oedd yn 621,865*p*. Lled y culfor yn y fan ei croesir gan y bont hon, yw 1100 o droedfeddi, ac ysguba llanw cyflym iawn drwodd yma, yn cyfodi ugain troedfedd yn y cyffredin; ac yn cael ei dorri yn y canol gan graig a elwir "Craig Britania," yr hon ar drai, a fydd yn ddeg troedfedd uwchlaw y dwfr; ac ar y llanw, yn ddeg troedfedd islaw wyneb y dwfr. Y graig hon a roddes ei henw i'r bont, ac a fu o gryn fantais i'w hadeiladiad. Mae y bont yn gynnwysedig o ddau bentan ar bob pen; dau dŵr, 230 troedfedd o bellder oddiwrth y pentanau; tŵr canol ar Graig Britania, 460 troedfedd oddiwrth y tyrau eraill, a dwy bibell, neu chwibol enfawr, o haiarn gyr; neu ddwy drwyfa, yn gyfystlysol, ac yn gorphwys ar y pentanau a'r tyrau. Y mae pob pentan yn 176 troedfedd o hyd; pob un o'r tyrau agosaf yn 32 troedfedd o lêd; y tŵr canol yn 45½ troedfedd o lêd; a'r holl fforddle, yn 1841 troedfedd o hŷd. Addurnir y mynedfeydd i'r bont o bob tu, â dwy ddelw Aiphtaidd gawraidd o lewod tororweiddiol, pob un yn 25½ troedfedd o hyd, a 12 troedfedd, ac 8 modfedd o uchder: y ddau dŵr agosaf a fesurant 62 droedfedd wrth 52½ troedfedd ar ei ossail; ac yn culhau i 55 troedfedd wrth 32 yn y pen uchaf, ac yn ymddyrchafu 190 troedfedd uchlaw pen gorllanw; y mae y cyffelyb fesuriadau i'r twr canol, ar ei ossail, a'i gulhad, ac y mae ei uchder yn 230 troedfedd o'i sylfaen ar y graig; ac y mae gwaelod y ffordd yn 101 troedfedd uwchlaw lyfel pen gorllanw. Mae y ddwy chwibol, neu geuffordd, yn gynnwysedig o lafnau, gwrth-hoelion, ac ongl-heiyrn; maent yn annghrwm yn y gwaelod, ac yn grwm oddi arnodd: medda uchder allanol, yn cynnyddu o 22¾ troedfedd yn y penau, i 30 troedfedd yn y canol: y maent yn 4 troedfedd is o'r tu fewn nag oddi allan; a phob un yn 14 troedfedd o lêd; a chyfrifir ei bod yn y cyfan, oddeutu deng mil o dunelli o bwysau. Y cerbyd-resi a gyfeiriant yn orllewinol, a ânt yn ddi eithriad drwy un geu-ffordd; a'r rhai a gyfeiriant tu a'r dwyrain, a ânt drwy y llall bob amser. Nid ydyw y bont hon yn ymddangos yn agos mor hardd i'r golwg a'i chymmydoges, Pont Menai; ond pan sylwer yn fanol arni, y mae yn gadael argraff o fawredd a nerth aruthrol ar feddwl yr Edrychydd.

**BROADHAVEN**, pentref ar arfordir swydd BENFRO, ar lan beisfor *St. Bride;* 6 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Hwlffordd. Fe'i mynychir fel ymdrochle; a cheir golygfeydd prydferth a difyrus oddiyma.

**BROAD OAK**, y lle y ganwyd Matthew Henry, y Gweinidog a'r Esboniwr Efengylaidd enwog, yn agos i Fangor Iscoed, yn swydd Fflint; 3½ milldir i'r de dde orllewin o Malpas.

**BROMFIELD**, cantref yn swydd DINBYCH. Y mae yn gorwedd o amgylch Gwrecsham; yn uno swydd Fflint a swydd Gaerlleon; ac yn cynnwys tri phlwyf, a rhanau o bedwar eraill. Erwau, 53,616. Poblogaeth yn 1851, 33,806; yn 1861, 33,484. Tai annedd, 7102.

**BRONCOED**, trefgordd yn mhlwyf y Wyddgrug, swydd FFLINT; 1 filldir o dref y Wyddgrug. Cynnwysa bentref Gwern y mynydd. Poblogaeth, 458. Tai annedd, 84.

**BRONIARTH** (UCHAF, ac ISAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Cegidfa, swydd DREFALDWYN; 4½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Trallwm. Gwerth ardrethol, 3828*p*. Poblogaeth, 568.

**BRONINGTON**, trefgordd gapelawg yn mhlwyf Hanmer, swydd FFLINT; 4½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd yr Eglwys Wen. Llythyrfa, Hanmer, dan yr Eglwys Wen (*Whitchurch*), swydd Amwythig. Erwau, 4850. Gwerth ardrethol, 3908*p*. Poblogaeth, 675. Tai annedd, 145. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 109*p*.

**BRONLLYS**, trefgordd yn mhlwyf Llanbister, swydd FAESYFED; 11½ milldir i'r gorllewin o Dref y Clawdd (*Knighton*). Poblogaeth, 177.

**BRONWYDD ARMS**, gorsaf rheilffordd yn Neheudir Cymru, ar reilffordd Caerfyrddin ac Aberteifi; yr ail orsaf i'r gogledd ogledd orllewin o Gaerfyrddin.

**BRONWYLFA** a RHYLLON, dau balas, tua milldir y naill oddiwrth y llall, yn nghymmydogaeth Llanelwy, swydd DDINBYCH. Maent yn perthyn i'r Cadlywydd Syr T. H. Browne, a buant yn hir yn drigleoedd ei gares awenyddol, Mrs. Hemans.

**BRON YSCAWEN**, hen wersyll milwraidd yn mhlwyf Llanboidy, swydd GAERFYRDDIN; ar y ffordd Rufeinig; 13 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o dref Caerfyrddin. Cafwyd amryw fathodion Rhufeinaidd yma o bryd i bryd.

**BRON Y WOOD**, trefgordd yn mhlwyf Llandyssul, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r de ddwyrain o Drefaldwyn.

**BRO SAETHYDD**, trefgordd yn mhlwyf Gwyddelwern, swydd FEIRIONYDD; 2 filldir i'r gogledd o Gorwen.

**BRYN**, trefgordd yn mhlwyf Llangar, swydd FEIRIONYDD, 1¼ milldir i'r de orllewin o Gorwen. Poblogaeth, 26.

**BRYN AMMAN**, ardal fwnyddawl yn Neheudir Cymru; 18¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Abertawe. Y mae yma orsaf rheilffordd, a phellebyr, a llythyrfa dan Lanelli.

**BRYN BYCHAN**, trefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd FFLINT; yn agos i dref Rhuddlan. Poblogaeth, 91.

**BRYN CAMEISIR**, trefgordd yn mhlwyf y Berriew, swydd DREFALDWYN; 3¼ milldir i'r gogledd orllewin o Drefaldwyn. Poblogaeth, 50.

**BRYN CETHIN**, lle dair milldir o Ben y bont, yn swydd FORGANWG; a llythyrfa, dan Ben y bont.

**BRYNCIR**, gorsaf ar reilffordd swydd Gaer yn arfon, 11 milldir i'r dehau o Gaer yn arfon.

Digitized by Google

**BRYN COED IFOR**, capeloriaeth yn mhlwyf Dolgelleu, swydd Feirionydd. Fe'i gwnaed yn gapeloriaeth yn y flwyddyn 1853; a'i llythyrfa yw Dolgelleu, dan Gorwen. Poblogaeth, 186. Tai annedd, 37. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 60*p*. Noddwr, Esgob Bangor.

**BRYN CWM**, trefgordd yn mhlwyf Llanelidan, swydd Dinbych; 5½ milldir i'r dehau o Ruthin. Poblogaeth, 209.

**BRYN-CYN-ALLT**, trefgordd yn mhlwyf y Waun, swydd Dinbych; gerllaw yr afon Dyfrdwy, yn agos i reillffordd Caerlleon a'r Amwythig; 1 filldir i'r gogledd ddwyrain o'r Waun. Perthynai Plas Bryncynallt, anneddle Arglwydd Dungannon, i hen deulu pendefigaidd o'r cyfenw Trefor; ac yma y treuliai mam y Duc Wellington, y cyntaf o'r teitl, lawer o'i dyddiau boreuol.

**BRYN ELEN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, swydd Drefaldwyn; yn agos i dref Llanfair. Poblogaeth, 50.

**BRYN ELLTYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, swydd Drefaldwyn; yn agos i dref Llanfyllin. Poblogaeth, 20.

**BRYNFFANIGL**, trefgordd yn mhlwyf Abergeleu, swydd Ddinbych; yn agos i dref Abergeleu. Poblogaeth, 45.

**BRYN FFORDD**, trefgordd yn mhlwyf Treffynnon; a Chapeloriaeth, yn mhlwyfi Treffynnon, ac Ysceifiog, swydd Fflint. Gwerth ardrethol 2919*p.*; o'r hyn y mae 700*p*. mewn mwngloddiau. Yn y flwyddyn 1854 y ffurfiwyd y gapeloriaeth. Llythyrfa, Treffynnon. Poblogaeth, 910. Tai annedd, 199. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorjaeth, yn esgobaeth Llanelwy.

**BRYN FFYNNON**, pentref yn mhlwyf Llanfair is Gaer, swydd Gaer-yn-arfon; 2 filldir i'r gogledd ddwyrain o dref Caer yn arfon.

**BRYN GLAS**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, swydd Drefaldwyn; 1 milldir i'r de orllewin o Lanfair. Poblogaeth, 72.

**BRYN GWAEDDAN**, trefgordd yn mhlwyf Llangadfan, swydd Drefaldwyn; 7 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfair. Poblogaeth, 71.

**BRYN GWRAN**, pentref yn swydd Fon; y mae yn sefyll 3¾ milldir i'r gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd y *Valley*; ac 8 filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Gaergybi; a medda lythyrfa dan Gaergybi. Cynhelir ffeiriau yma ar ddydd Llun y Pasc, dydd Iau Derchafael, Hydref 11, a Thachwedd 24.

**BRYN GWYN**, trefgordd yn mhlwyf Dymeirchion, swydd Fflint; 3¼ milldir i'r dwyrain o Lanelwy. Gwerth ardrethol, 1500*p*. Poblogaeth, 88.

**BRYN-GWYN** (Isaf, ac Uchaf), dwy drefgordd yn mhlwyf Caerwys, swydd Fflint; 6 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Lanelwy. Gwerth ardrethol, 1302*p*. Poblogaeth, 161, a 79.

**BRYN GWYNE**, pentref yn mhlwyf Llanfihangel Aberbythych, swydd Gaerfyrddin, yn agos i Landeilo Fawr.

**BRYN HAFOD**, pentref yn mhlwyf Llangathen, swydd Gaerfyrddin; 2 filldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr.

**BRYN HEDYDD**, trefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd Fflint; yn agos i dref Rhuddlan. Poblogaeth, 48.

**BRYN HYFEDD**, trefgordd yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, swydd Faesyfed; 9 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o dref Maesyfed.

**BRYN IORCYN**, palas henafol, yn agos i Gaergwrle, swydd Fflint. Y mae y lle yn perthyn i foneddigion o'r cyfenw Yonge, y rhai a hanant yn union-gyrchol o Tudur Trefor. Adeiladwyd y palas hwn yn y flwyddyn 1610, yn ol cynllun o'r eiddo Inigo Jones.

**BRYN LLANFAIR**, lle yn mhlwyf Llanfair-isgaer, swydd Gaer yn arfon, ar lan yr afon Menai, yn agos i reillffordd Caer-yn-arfon; 3 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o dref Caer yn arfon. Medda lythyrfa, dan Fangor.

**BRYN LLYWARCH**, trefgordd yn mhlwyf Ceri, swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r de ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 111.

**BRYN MAWR**, pentref, yn mhlwyfi Llangattwg a Llanelli, swydd Frycheiniog; 1 filldir i'r de orllewin o Grughywel.

**BRYN POLYN**, trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd Fflint, yn agos i ddinas Llanelwy. Gwerth ardrethol, 8370*p*. Poblogaeth, 782.

**BRYN SADDLER**, lle ddwy filldir o Lantrisaint, yn swydd Forganwg, ac yn meddu llythyrfa, dan Gaerdydd.

**BRYN SIENCYN**, pentref yn mhlwyf Llanidan, Mon; 3¼ milldir i'r gogledd orllewin o Gaer-yn-arfon. Medda lythyrfa dan Fangor; a chynhelir ffair yma Hydref 12.

**BRYN TALCH**, trefgordd yn mhlwyf Llandyssul, swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r de orllewin o Drefaldwyn.

**BRYN TANGOR**, trefgordd yn mhlwyf Bryn Eglwys, swydd Ddinbych; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o Langollen.

**BRYN UCHEL**, yn nghyda Thafolog, trefgordd yn mhlwyf Cemmaes, swydd Drefaldwyn; 8 milldir i'r gogledd ddwyrain o Machynlleth. Gwerth ardrethol, 1385*p*. Poblogaeth, 327. Tai annedd, 72.

**BRYN Y BEIRDD**, pentref yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd Gaerfyrddin; yn agos i dref Llandeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 921*p*. Poblogaeth, 386.

**BRYN Y CRUG**, pentref yn mhlwyf Towyn, Meirionydd, yn agos i'r Towyn.

**BRYN Y WAL**, trefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd Fflint; yn agos i dref Rhuddlan. Poblogaeth, 66.

**BUCKLEY**, capeloriaeth yn mhlwyf Pen ar halawg, swydd Fflint; 2 filldir i'r gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd yr Hope: a 4½ milldir i'r dwyrain o'r Wyddgrug. Medda lythyrfa dan y Wyddgrug. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorjaeth wastadol, gydiedig â pheriglorjaeth Pen ar halawg. Y mae gweithfeydd glo, a gweithfeydd priddlestri, yn cael eu dwyn yn mlaen yma ar raddfa helaeth.

**BULL BAY**, beisfor ar lan ogleddol ynys Fon; 1 filldir i'r gorllewin o Amlwch. Y mae yma angorfa mewn pum gwrhyd o ddwfn; ond y mae yn agored i ystormydd y gogledd.

**BURRY** (Afon), cainc-for yr afonydd Llwchwr a'r Amman, allan o oror ddwyreiniol beisfor Caerfyrddin, ar y ffin rhwng swydd Gaerfyrddin a swydd Forganwg. Ei hyd i waered, sydd 12 milldir; a'i lled, wrth ei safn, yn 4½ milldir: y dyfnder dros y bar, ar drai, sydd 6 throedfedd; a chyfodiad y llanw yno ar farw-ddwr, sydd tua 13 troedfedd, ac ar

Digitized by Google

orllanw, tua 30 troedfedd. Nid yw y brif siannel i fynu, yn ddim mwy na ¾ milldir; ond y mae wedi ei nawf-nodi yn dda.

**BURTON**, trefgordd yn mhlwyf Gresford, swydd DDINBYCH, ar derfyn y Sir; 5½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Wrecsham. Erwau, 2809. Poblogaeth, 570. Tai annedd, 108.

**BURTON**, pentref yn mhlwyf Penmarc, swydd FORGANWG; 5½ milldir i'r de ddwyrain o Bont fôn.

**BWA MAEN**, craig draserth nodedig, yn agos i Ystrad felltey, ar derfyn deheuol swydd Frycheiniog: y mae yn gynnwysedig o farmor haeniadol; ac yn meddu ffurf haner cylch; a mesura oddeutu 90 troedfedd o uchder, a 70 troedfedd o led. Fe'i gelwir hefyd weithiau, "Cadair y Ddewines."

**BWLCH**, lle yn mharth dwyreiniol swydd Frycheiniog; 3 milldir i'r gogledd orllewin o Grughowel; ar y ffordd i Aberhonddu. Y mae golygfeydd ysplenydd i'w cael o hono.

**BWLCH AGRICLA**, yn swydd Ddinbych, yn agos i Lanarmon yn Iâl; 3 milldir i'r dwyrain o Ruthin. Bernir mai trwy y Bwlch hwn y cymerodd Agricola ei fyddin, ar ei gad-gyrchiad i ynys Fon, i orphen y gwaith a ddechreuasid gan Suetonius.

**BWLCHAU**, neu BYLCHAU, capeloriaeth, yn mhlwyfi Henllan, a Llansannan, swydd Ddinbych; 6 milldir i'r gorllewin o orsaf rheilffordd Dinbych. Cyfansoddwyd y Gapeloriaeth hon yn y flwyddyn 1855; a'i llythyr-dref yw Dinbych. Poblogaeth, 537. Tai annedd, 124. Periglorïaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 350*p.* Y mae yn noddaeth y Goron a'r Esgob ar yn ail.

**BWLCH COEDEG**, neu COEDIOG, pentref 1 filldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Ddinas Mawddwy, swydd FEIRIONYDD.

**BWLCH OERDDRWS**, bwlch mawr yn y mynydd, ar y ffordd o Ddolgelley i ddinas Mawddwy, yn swydd FEIRIONYDD.

**BWLCH RHIWGUR**, bwlch yn agos i Gors y gedol; MEIRIONYDD, ar y ffordd o Ddolgelley i Lanbedr.

**BWLCH TREWYN**, pentref, yn mhlwyf Cwm Iou, swydd FYNWY; ar yr afon Monnow, 5½ milldir i'r gogledd o Abergafenni. Medda lythyrfa o'r enw "Bwlch," dan Grughowel. Erwau, 635. Gwerth ardrethol, 654*p.* Poblogaeth, 95. Tai annedd, 17.

**BWLCH TYDDIAD**, lle yn agos i Rhinog, yn swydd FEIRIONYDD, ar y ffordd o Harlech i Lanbedr.

**BWLCH Y CERNAN**, pentref yn mharth gogledd orllewin swydd FAESYFED; 6½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Raiadr Gwy.

**BWLCH Y CIBAU**, capeloriaeth yn mhlwyf Meifod, swydd DREFALDWYN. Adeiladwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1864, yn yr arddull Seis'nig foreuol.

**BWLCH Y CLATT**, treflan yn swydd DREFALDWYN, goris Plymlumon; 3¼ milldir i'r gogledd orllewin o Lanidloes.

**BWLCH Y FEDWEN**, bwlch yn y mynydd, ar y terfyn rhwng swydd Feirionydd a swydd Drefaldwyn; 4½ milldir i'r dwyrain o Ddinas Mawddwy, ar y ffordd i Lanfair.

**BWLCH Y FFRIDD**, treflan yn Nhrefaldwyn, 3¼ milldir i'r gogledd orllewin o'r Dre Newydd.

**BWLCH Y GROES**, mynedfa dros y mynydd, ar gydiad swyddi Meirionydd a Threfaldwyn; 8 milldir i'r dehau o'r Bala, ar y ffordd i Ddinas Mawddwy. Y mae yr esgynfa i'r Bwlch yn hynod, a mawreddawg; ac arferid ei gyfrif yn beryglus; rhoddwyd yr enw iddo oddiwrth groes annghelfydd a osodasid ar ei ben uchaf, i symbylu ffydd a gwroldeb y teithwyr a'i tramwyent.

**BWLCH Y GYFYNG**, pentref bychan yn swydd FEIRIONYDD; 6½ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Towyn.

**BWLLFA (Y)**, pentref yn rhandir y Garth, plwyf Ystradgynlais; 11 milldir i'r gogledd o Gastell Nedd.

**BYCHTON**, trefgordd yn mhlwyf Rhydwen, swydd FFLINT; 2 filldir i'r gogledd orllewin o Dreffynnon. Gwerth ardrethol, 2023*p.*: o'r hyn y mae 917*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 676.

**BYRGEDIN**, trefgordd yn mhlwyf Cegidfa, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r gogledd o'r Trallwm. Poblogaeth, 491.

**CADAIR IDRIS**, mynydd-res yn mharth de orllewinol swydd Feirionydd. Y mae yn 6 milldir o hyd, mewn llinell uniawn; ond yn agos i 10 milldir wrth ddilyn cameddau llinell ei goppa; ac yn amrywio mewn lled, o lai na haner milldir, hyd dair milldir. Ei fanau uchaf ydynt Pen y Gadair, a'r Mynydd Moel; 2914, a 2817 troedfedd o uchder.

**CAE COCH**, lle y mae dwfr mwnyddol a meddygol, yn nyffryn Conwy, yn nghymmydogaeth Trefriw; 3 milldir i'r gogledd o dref Llanrwst.

**CAE GORLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llangelynin, swydd Gaer yn arfon; 2 filldir i'r dehau o dref Conwy.

**CAELCOED**, trefgordd yn mhlwyf Treffynnon, swydd FFLINT; 2 filldir i'r dehau o Dreffynnon. Poblogaeth, 170.

**CAE LLWYN GRYDD**, neu, CAE LLWYN Y GAER RUDD, pentref yn mhlwyf Llanllechid; 3¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o Fangor. Y mae gerllaw iddo olion caerfa fechan, wedi ei gwneyd o geryg cochion; ac am hyny ei gelwid "Y gaer rudd."

**CAER ARIANRHOD**, hen dref wedi ei gorlifo gan y môr, yn meisfor Caer yn arfon; tua dwy filldir o'r lan, ar gyfer safn yr afon Llifon; 7½ milldir i'r de orllewin wrth ddehau o dref Caer yn arfon. Y mae ei hadfeilion yn weledig ar isel-drai.

**CAER BANNAU**, hen orsaf Rufeinig, a elwid *Bannium*, yn swydd FRYCHEINIOG. Gellir olrhain yr amddiffynfeydd Rhufeinaidd hyd heddyw, yn cylchynu llanerch o 624 troedfedd wrth 456; a darganfuwyd amryw gerfiadau, a batholion Rhufeinaidd yma. Y mae yr hen adfeilion dyddorol yn agos i Aberhonddu, 3¼ milldir i'r gorllewin oddiyno. Cyfododd tref mewn cyssylltiad â'r amddiffynfeydd milwraidd yn y fan hon, yr hon a fu yn brif dref fasnachol i gylch eang o wlad, hyd wedi y goresgyniad Normanaidd.

**CAER CRWYN**, hen wersyllfa Brydeinaidd ar fryn, 5½ milldir i'r de orllewin o Gorwen, yn Meirionydd. Y mae colofn wedi ei chyfodi ar y bryn hwn, er anrhydedd i Syr Watcyn W. Wynn, Barwnig; ac o hono gellir mwynhau un o'r golygfeydd ardderchoccaf yn Nghymru.

**CAER DREWYN**, hen amddiffynfa Brydeinaidd yn agos i Gorwen, yn swydd FEIRIONYDD; a nodir yn awr yn unig gan gylch o gerryg rhyddion, yn agos i haner milldir o gylch-fesur. Gwersyllai Owain Gwynedd yn y fan hon, pan yn gwrthladd Harri yr Ail, yn ei ymgais i oresgyn Gwynedd; ac eciliodd Owain Glyndwr yma, pan ei bygythid gan Harri y Pedwerydd.

Digitized by Google

**CAER FAGAN**, lle 6 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o'r Rhaiadr, yn swydd Faesyfed. Fe'i trawsir gan ffordd Rufeinig; a thybia amryw henafiaethwyr, mai dyma y fan lle yr oedd yr hen orsaf Rufeinaidd a elwid *Magos*. Cafwyd amryw greiriau Rhufeinaidd yn ei chymmydogaeth o bryd i bryd.

**CAERFEDWIN**, trefgordd yn mhlwyf Llandyrnog, swydd Ddinbych; 4½ milldir i'r dwyrain o dref Dinbych.

**CAERGAER**, hen wersyll milwraidd ar ffordd Rufeinaidd, yn agos i St. Nicholas, yn Morganwg.

**CAERGEILIOG**, trefgordd yn mhlwyf Llandderfel, Meirionydd: 3½ milldir i'r dwyrain o'r Bala.

**CAERGURWAUN**, pentref yn mhlwyf Llangiwg, Morganwg; gerllaw yr afon Twrch, 10 milldir i'r gogledd o Gastell Nedd. Gwerth ardrethol 3507*p.*; o'r hyn y mae 2387*p.* mewn mwngloddiau.

**CAERSEDDFAN**, trefgordd yn mhlwyf Darowen, swydd Drefaldwyn; 6 milldir i'r dwyrain wrth ogledd o Machynlleth. Gwerth ardrethol, 2057*p.* Poblogaeth, 547. Tai annedd, 108.

**CAMDDWR (Y)**, afonig yn swydd Aberteifi, yn cyfodi dan fynydd Tregaron, ac yn llifeirio dros saith milldir mewn cyfeiriad de ddwyreiniol i'r Towi, 3 milldir o'r tu uchaf i Gapel Ystrad Ffin.

**CAMLAN**, trefgordd yn mhlwyf Mallwyd, Meirion, ar yr afon Dyfi; 2 filldir i'r dehau o Ddinas Mawddwy. Gwerth ardrethol, 573*p.* Poblogaeth, 180.

**CAMLYN**, a elwir fynychaf Cemlyn, beisfor ar oror ogleddol Môn; 7 milldir i'r gorllewin o Amlwch.

**CANN OFFICE**, pentref yn mhlwyf Llangadfan, swydd Drefaldwyn; 6½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfair. Y mae yn gorwedd ar orsaf hen wersyll milwraidd; ac yn meddu llythyrfa, dan y Trallwm, a gwestty da.

**CANTON**, capeloriaeth, a phentref, yn mhlwyf Llandâf, swydd Forganwg; yn agos i reilffordd Glyn Tâf, a Rhymni, 1 filldir i'r gogledd orllewin o Gaerdydd. Medda lythyrfa, dan Gaerdydd. Gwerth trethadwy, 5589*p.* Poblogaeth, 3920. Tai annedd, 709. Yn y flwyddyn 1858 y ffurfiwyd y gapeloriaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 300*p.* Noddwr, Esgob Llandâf.

**CANTREF Y GWAELOD**, llanerch orlifiedig gan y môr, allan o Gwallog ac Aberystwyth, yn Ngheredigion. Gwlad isel ydoedd yn ddiffynedig gan ddyfrgloddiau; a dywedir y cynnwysai un ar bymtheg o drefi; ac fe'i gorlifwyd yn y flwyddyn 520.

**CAPEL**, pentref yn mhlwyf Llanfihangel Ystrad, swydd Aberteifi; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o Lanbedr.

**CAPEL ARTHOG**, pentref yn mhlwyf Llangelynin, swydd Feirionydd; ar yr afon Maw, dan Gadair Idris, 6½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Ddolgelleu. Metha lythyrfa, dan Gorwen; a Chapel anwes.

**CAPEL CADWALADR**, eglwys anrheithiedig yn mhlwyf Llanddaniel, swydd Fon; 2 filldir i'r gogledd ogledd orllewin o Lanidan. Y mae yn dra henafol; ond nid ymddengys y gellir cael profion digonol dros yr haeriad a wneir gan rai, ei bod yr eglwys henaf yn y wlad.

**CAPEL LLANDURY**, pentref yn mhlwyf Pembre, swydd Gaerfyrddin; 2 filldir i'r de ddwyrain o Cydweli. Medda gapel; ac y mae yn ffurfio isberigloriaeth gyda Phembre.

**CARN BODUAN**, bryn, yn agos i Nefyn, swydd Gaerynarfon, ar yr hwn y mae olion hen adeiladau.

**CARN COED**, pentref yn mhlwyf Llangurig, swydd Drefaldwyn; 3½ milldir i'r dehau o Lanidloes.

**CARNEDD**, trefgordd yn mhlwyf Llandinam, yn swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Lanidloes.

**CARNEDD DAFYDD**, a Carnedd Llewelyn, dau fynydd uchel yn mynydd-res Eryri, yn swydd Gaer yn arfon, 5 milldir i'r gogledd orllewin, a'r gogledd ogledd orllewin o'r Capel Curig. Y mae y gyntaf yn 3426, a'r llall yn 3469 troedfedd o uchder; ac yn cael eu cydio gan drum gul, ddwy filldir o hyd. Y mae golygfa eang, a mawreddawg dros ben, i'w chael o ben Carnedd Llewelyn; ac y mae olion hen wersyll milwraidd ar ei phen.

**CARNEDDI**, pentref yn mhlwyf Llanllechid, swydd Gaer yn arfon; yn agos i Fangor.

**CARNEDDI HENGWM**, bwlch yn y mynydd, bum milldir a haner i'r gogledd o'r Abermaw, yn Meirionydd. Y mae yma amryw garneddau; un o honynt yn 60 llath o hyd, ac yn cynnwys cistfaen.

**CARN LLECHART**, cylch Derwyddol, yn mhlwyf Llangyfelach, yn swydd Forganwg, yn agos i ben Mynydd Maen Coch, yn nghymmydogaeth Abertawe. Y mae mewn cadwraeth agos i berffaith.

**CARN MADRYN**, bryn, saith milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Bwllheli, swydd Gaer yn arfon. Y mae yn 1205 troedfedd o uchder; ac y mae rhai hen adfeiliau arno.

**CARNO**, lle yn nghymmydogaeth ddeheuol Crughowel, swydd Frycheiniog. Yn y lle hwn y cyfarfu y Cymry âg Ethelbald, brenin y Mersiaid, ar ei oresgyniad o Gymru, yn y flwyddyn 728, ac wedi brwydr galed, fe'i llwyr orchfygwyd.

**CARNWALLON**, cantref yn swydd Gaerfyrddin; 9 milldir gyd a'r afon Llwchwr, hyd lan y môr. Cynnwysa bum plwyf; a mesura yn erwau, 64,282. Poblogaeth, 20,944. Tai annedd, 4045.

**CAROG**, trefgordd yn mhlwyf Llanbister, swydd Faesyfed, 11 milldir i'r gorllewin o Dref y clawdd. Gwerth ardrethol, 533. Poblogaeth, 144.

**CARREG GWASTAD** (Trwyn), pentir yn mhlwyf Llanwnda, Penfro; 4½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Abergwaun. Yn y flwyddyn 1797, glaniodd pedwar cant ar ddeg o Ffrancod yma, y rhai a orchfygwyd, ac a gymerwyd yn garcharorion rhyfel, gan gorph o filwyr cartrefol, dan arglwydd Cawdor.

**CARREG HWFA**, trefgordd yn mhlwyf Llan y mynach, swydd Drefaldwyn, ar lan yr afon Fyrnwy, a cherllaw Clawdd Offa, a chamlas Trefaldwyn; 5½ milldir i'r de dde orllewin o Groesoswallt. Erwau, 1223. Gwerth ardrethol, 3444*p.*; o'r hyn y mae 1432*p.* mewn cloddfeydd, a 30*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 400. Tai annedd, 92. Y mae yma gloddfeydd calch mawrion.

**CARROG**, trefgordd, a gorsaf rheilffordd yn mhlwyf Corwen, Meirion; 3 milldir i'r dwyrain o Gorwen. Poblogaeth, 199.

**CARWED FYNYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llannefydd, swydd Dinbych; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o dref Dinbych. Gwerth ardrethol, 3009*p.*

**CASTELL CAER SEION**, neu Caerlleon, hen dref Brydeinig, ar ben bryn ysgythrawg, 1¾ milldir i'r gorllewin o dref Conwy. Cynnwysa dai crynion

Digitized by Google

tra amlwg, amddiffynfa, a rhagfuriau; ac y mae golygfa dra ehang i'w chael oddiyma.

**CASTELL CARN DOCHAN**, hen amddiffynfa Brydeinaidd yn swydd Feirionydd; 6½ milldir i'r de orllewin o'r Bala.

**CASTELL CIDWM**, hen amddiffynfa Brydeinaidd, yn mynydd-dir Eryri, ar serthle ysgythrawg o'r Mynydd Mawr; 6½ milldir i'r de ddwyrain o Gaer yn arfon.

**CASTELL CYMARON**, hen amddiffynfa yn mhlwyf Llanddewi Ystradeny, swydd Faesyfed; 10 milldir i'r dwyrain o'r Rhaiadr. Fe'i hadeiladwyd gan y Normaniaid, a daeth i fod yn anneddle y Mortimeriaid.

**CASTELL DINAS BRAN**, hen amddiffynfa, yn Nglyn y Groes, swydd Ddinbych; ar fryn conaidd, 910 troedfedd o uchder; yn ymddyrchafu oddiar y Dyfrdwy, yn nghymmydogaeth Llangollen. Fe'i hadeiladwyd ar adeg dra boreuol, a bu am hir amser yn brif breswylfod arglwyddi Iâl a Bromfield: yma y cafodd Gruffydd ab Madoc nawddle pan ymgyngrheiriodd â Harri y Trydydd. Gwarchaewyd arno yn adeg yr ymrafael rhwng Owain Glyndwr a'r Iarll Grey, o Ruthin. Ychydig adfeilion o hono sydd yn aros; ond y maent yn ddigon i ddangos ei fod yn adeilad hirgrwn, 290 troedfedd wrth 140; ac o wneuthuriad hynod o gadarn.

**CASTELL DOLBADARN**, hen dŵr crwn, wrth droed y Wyddfa, yn swydd Gaer yn arfon; ar greigfryn, wrth ben llyn Padarn; 7½ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o dref Caer yn arfon. Bu yn garchardy i Owain Goch, brawd Llewelyn ab Gruffydd, am dair blynedd ar hugain. Gwrthsafodd Edward y Cyntaf am beth amser wedi cwymp Llewelyn; a gwarchaewyd arno amryw weithiau yn ystod rhyfeloedd Owain Glyndwr.

**CASTELL MAELGWYN**, anneddle boneddigion o'r cyfenw Gower, yn swydd Benfro; ar lan yr afon Teifi; 3½ milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o dref Aberteifi.

**CASTELLMAI**, pentref yn mhlwyf Llanbeblig, swydd Gaer yn arfon; yn agos i dref Caer yn arfon.

**CASTELL MOCH**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, yn swydd Drefaldwyn; 3½ milldir i'r gogledd o Lanfyllin. Poblogaeth, 98.

**CASTELL Y BERE**, hen gastell, 7½ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Towyn, yn Meirionydd. Ymwelwyd âg ef gan Edward y Cyntaf; ac yr oedd mewn cyflwr diffynadwy yn adeg Rhyfeloedd y Rhosynau.

**CATH-ARGOED**, Cathilas, a'r Glynn, cyddreflan yn mhlwyf Llanfihangel Aberbythych, swydd Gaerfyrddin; 5½ milldir i'r dehau o Landeilo Fawr.

**CATHINOG**, cantref yn swydd Gaerfyrddin, yn ffinio ar swydd Aberteifi, yn nghymmydogaeth Llanbedr. Cynnwysa 9 o blwyfi, a rhanau o ddau eraill. Erwau, 85,064. Poblogaeth, 10,161. Tai annedd, 2262.

**CAUNANT MAWR**, rhaiadr ardderchawg, o driugain troedfedd o gwymp, yn swydd Gaer yn arfon, 2 filldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanberis.

**CAWRSE**, cantref yn swydd Drefaldwyn. Y mae yn cynnwys plwyf Forden, a rhanau o bum plwyf eraill. Erwau, 16,808. Poblogaeth, 2548. Tai annedd, 453.

**CEDRIS**, trefgordd yn mhlwyfi Tal y Llyn, a Llanfihangel y Pennant, swydd Feirionydd; 6½ milldir i'r de dde orllewin o Ddolgelleu. Gwerth ardrethol, 752*p*. Poblogaeth, 166.

**CEFN**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanelwy, swydd Dinbych; 3 milldir i'r de orllewin o Lanelwy. Medda lythyrfa, dan Rhyl. Poblogaeth, 620. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth. Gwerth 292*p*. Adeiladwyd yr eglwys yn 1864.

**CEFN COCH**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r gogledd o Lanfyllin.

**CEFN CYMER**, trefgordd yn mhlwyf Llangwm, swydd Ddinbych; 14 milldir i'r de orllewin o Ruthin. Poblogaeth, 119.

**CEFN DEISIOG**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel, swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r de orllewin o Lanfyllin.

**CEFN DU**, trefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd Fflint; yn agos i dref Rhuddlan.

**CEFN HAFOD ANN**, trefgordd yn mhlwyf Llangurig, swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r dehau o Lanidloes. Poblogaeth, 336.

**CEFN LLYFNOG**, trefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd Drefaldwyn; 3½ milldir i'r dehau o Lanfyllin.

**CEFN LLYS UCHAF**, a Chefn llys isaf, dwy drefgordd yn mhlwyf Llanerfyl, swydd Drefaldwyn; 4½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfair. Poblogaeth, 223, a 192.

**CEFN POST**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Glyn Myfyr, Meirion; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o Gorwen. Erwau, 3538. Poblogaeth, 70. Tai annedd, 16.

**CEFN RHOS ISAF**, a Chefn rhos uchaf, dwy drefgordd yn mhlwyf y Towyn, swydd Feirionydd; yn agos i'r Towyn. Gwerth ardrethol, 1479*p*.; a 533*p*. Poblogaeth, 633, a 93.

**CEFN Y BEREN**, trefgordd yn mhlwyf Cerri, swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 83.

**CEFN Y COED**, trefgordd yn mhlwyf yr Eglwys Bach, swydd Dinbych; 4½ milldir i'r de dde ddwyrain o Gonwy.

**CEFN Y GWRDU**, trefgordd yn mhlwyf Llangwyfan, swydd Ddinbych; 5½ milldir i'r gogledd o Ruthin. Poblogaeth, 114.

**CEFN YR OWEN**, trefgordd yn mhlwyf Dolgelleu, Meirionydd; yn agos i Ddolgelleu. Gwerth ardrethol, 416*p*. Poblogaeth, 66.

**CELLWS**, trefgordd yn mhlwyf Llanbadarn-Fawr, swydd Faesyfed; 7½ milldir i'r de ddwyrain o Raiadr. Poblogaeth, 194.

**CERNIOGAU**, lle, 10 milldir i'r de ddwyrain o Lanrwst, yn swydd Ddinbych. Yr oedd yma westdy tra enwog unwaith, ar y ffordd o Lundain i Gaergybi; ond y mae wedi ei droi yn ammaethdy er's rhai blynyddoedd.

**CERRIG DEWI**, bryn yn agos i Ystrad Ffin, yn Ngheredigion. Y mae oddeutu 600 troedfedd o uchder; a cheir golwg dda oddiarno ar y rhan uchaf o'r Towy. Yn hwn y mae "Ogof Twm Sion Catti," *Robyn Hood* Cymru.

**CEULAN Y MAES MAWR**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Geneu'r Glyn, Ceredigion; ar gainc o'r afon Lery; 5½ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Aberystwyth. Cynnwysa bentref Penrhylog. Erwau, 7439. Poblogaeth, 840. Tai annedd, 172.

Digitized by Google

CEUSWYN, trefgordd yn mhlwyf Tal y llyn, MEIRIONYDD; 5¼ milldir i'r dehau o Ddolgelleu. Poblogaeth, 362.

CHWILOG, gorsaf ar reilffordd swydd Gaer yn arfon: 16 milldir i'r dehau o Gaer yn arfon.

CHWYLEIRIOG, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon, swydd DINBYCH; 4¼ milldir i'r dwyrain o Ruthin.

CILAN, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo, swydd FEIRIONYDD; 5¼ milldir i'r de ddc orllewin o Gorwen. Poblogaeth, 36.

CILANGWR, pentref yn mhlwyf Llanfynydd, swydd GAERFYRDDIN; 5¼ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr.

CILCEN, trefgordd yn mhlwyf Bettws yn Rhos, swydd DDINBYCH; 3¼ milldir i'r de orllewin o Abergeley.

CIL COCHWIN, trefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd DINBYCH; yn agos i Langollen. Gwerth ardrethol, 761*p*. Poblogaeth, 164.

CILGWYN, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, swydd DDINBYCH; yn agos i lan y môr; 4¼ milldir i'r gogledd orllewin o Gonwy. Poblogaeth, 65.

CILOWAIN, trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd FFLINT; yn agos i Lanelwy. Gwerth ardrethol, 2187*p*. Poblogaeth, 134.

CIL TALGARTH, trefgordd yn mhlwyf Llanfawr, MEIRIONYDD; yn agos i'r Bala. Poblogaeth, 132.

CLICUDEG, trefgordd yn Llanrhaiadr yn Nghimmeirch, swydd DDINBYCH, yn agos i dref Dinbych. Poblogaeth, 176.

CLODDIAU, trefgordd yn mhlwyf Ceri, swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r dwyrain ddc ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 199.

CLOYGYN, pentref yn mhlwyf Llandefeiliog, swydd GAERFYRDDIN; 3¼ milldir i'r gogledd o Gydweli. Poblogaeth, 208.

CLWT Y BONT, pentref poblogaidd, yn mhlwyf Llanddeiniolen, swydd GAER YN ARFON; 4¼ milldir i'r dehau o Fangor.

CLWYD (YR AFON), afon yn swydd DINBYCH. Y mae yn cyfodi ar fynydd Bron banog, saith milldir i'r gogledd orllewin o Gorwen; ac am oddeutu deuddeng milldir, y mae yn ffurfio math o haner cylch, gan gyfeirio yn gyntaf yn ddeheuol, yna yn ddwyreiniol, a thrachefn yn ogleddol, i Ruthin; ac yna, dros 19 milldir, y mae yn cyfeirio i'r gogledd ogledd orllewin, heibio i Lanynys, Llanelwy, a Rhuddlan, i'r môr ger y Rhyl. Y mae ei gyrfa o'r tu uchaf i Ruthin, yn gorwedd ar hyd dyffryn bras, a phrydferth, o'r enw Dyffryn Clwyd. Cafodd Rheilffordd Dyffryn Clwyd, o linell Caerlleon a Chaergybi, yn agos i'r Rhyl, hyd Ddinbych, ei hagoryd yn y flwyddyn 1858; a'r parhad o honi, o Ddinbych, heibio i Ruthin, i Gorwen, a agorwyd yn y flwyddyn 1864.

CLYDACH, afonig, a threflan, yn mharth de ddwyreiniol swydd FRYCHEINIOG. Y mae yr afonig yn cyfodi yn Mynydd Llangynidr, ac yn llifeirio dros 3 milldir mewn cyfeiriad de dde ddwyreiniol; a 4¼ milldir yn ddwyreiniol ogledd ddwyreiniol i'r afon Wysg, yn agos i derfyn swydd Fynwy. Y mae y dreflan ar lan yr afon, yn agos i'w harllwysiad i'r Wysg; 4¼ milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Abergafenni; ac y mae yma orsaf ar reilffordd y Merthyr ac Abergafenni, a llythyrfa, dan Abergafenni.

CLYDACH, capeloriaeth yn mhlwyfi Llangyfelach, a Chadoxton, swydd FORGANWG; ar yr afon Tawe, a cherllaw gorsaf Glais, 5¼ milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Abertawe. Mae yma lythyrfa, dan Abertawe. Poblogaeth, 2942. Tai anedd, 557. Ffurfiwyd y gapeloriaeth yn y flwyddyn 1847. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 150*p*. Yn noddaeth y Goron a'r Esgob, ar yn ail.

CLYDACH, treflan yn mhlwyf Ystrad dyfodwg, swydd FORGANWG; 9¾ milldir i'r gogledd orllewin o Lantrisaint. Gwerth ardrethol, 2223*p*.; o'r hyn y mae 800*p*. mewn mwngloddiau, a 30*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 821. Tai anedd, 159.

CLYGYROG, neu CLEGYROG, trefgordd yn mhlwyf Llanbadrig, swydd FON; 4¼ milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Lanerchymedd. Gwerth ardrethol, 1972*p*. Poblogaeth, 386.

CLYNYNOS, treflan yn mhlwyf Llanfynydd, swydd GAERFYRDDIN; 5¼ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr.

CLYTHA, treflan yn mhlwyf Llanarth, swydd FYNWY; ar lan yr afon Wysg, 5¼ milldir i'r de ddwyrain o Abergafenni. Erwau, 1841. Gwerth ardrethol, 2993*p*. Poblogaeth, 354. Tai anedd, 72.

CLYWEDOG, afonig yn swydd FAESYFED, yn llifeirio dros 8 milldir mewn cyfeiriad de dde ddwyreiniol, i'r Ithon ger Llanbadarn Fawr. Y mae ei rhawd drwy ddyffryn hoffus, a heibio i Fynachlog Cwm Hir.

CNICHT, mynydd hynod yn swydd Feirionydd: 7 milldir i'r gogledd ddwyrain o Dremadoc. Ei uchder yw 2214 o droedfeddi.

COED GAIN, treflan yn mhlwyf Llangwnwr, swydd GAERFYRDDIN; 4 milldir i'r dwyrain wrth ddehau o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 433.

COED-IWRWG, trefgordd yn mhlwyf Llantyssilio, swydd DDINBYCH; yn agos i Langollen. Poblogaeth, 62.

COED MAWR, hen balas perthynol i foneddigion o'r cyfenw Lewis, a chyn hyny, y *Mortimers*, a'r *Langleys*, yn swydd Aberteifi, ar lan yr afon Teifi, gyferbyn a Chilgerran; 3¼ milldir i'r de ddwyrain o Aberteifi.

COEDRIGLAN, palas, 5¼ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Gaerdydd, yn swydd FORGANWG. Yma y cyfanneddai y diweddar Barch. J. M. Traherne, yr hwn oedd wedi casglu lluaws o ddefnyddiau at Hanes Morganwg.

COED TALOG, trefgordd yn mhlwyf Llanerfyl, swydd DREFALDWYN; 4¼ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfair.

COED Y BUNEDD, hen wersyll milwraidd, ar fryn coediog yn swydd FYNWY; 6¼ milldir i'r de ddwyrain o Abergafenni. Mesura 1440 troedfedd o gylch-fesur.

COED Y PARC, treflan yn mhlwyf Llandegai, yn ARFON; 2 filldir i'r de ddwyrain o Fangor.

COGINAU, lle yn yr hwn y mae gweithfeydd plwm tra ehang, 8 milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Aberystwyth, yn Ngheredigion.

CORNORION, trefgordd yn mhlwyf Pennant, swydd DREFALDWYN; 9¼ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 106.

CORNOYRON, pentref yn mhlwyf Llanfynydd, swydd GAERFYRDDIN; 5¼ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 1872*p*.

Digitized by Google

**CORS-Y-GEDOL**, palas henafol; 5½ milldir i'r gogledd o'r Abermaw, yn swydd FEIRIONYDD. Perthynai i'r Fychaniaid; a daeth drachefn yn eiddo y Mostyniaid. Y mae yn perthyn iddo borthrawd arddercbawg, a adeiladwyd wrth gynlluniad Inigo Jones, yn y flwyddyn 1630; ac y mae yn cynnwys dodrefn tra chywrain, a chyfres o ardebau teuluaidd hynod. Y mae cromlech yn agos i'r plas, a charreg fawr a elwir "Coetan Arthur."

**COTHI** (YR AFON), afon yn Neheudir Cymru; yn benaf yn swydd Gaerfyrddin. Y mae yn cyfodi ychydig i'r dwyrain o Fynyddoedd Craig Twrch, o fewn terfyn deheuol swydd Aberteifi; ac yn llifeirio tua phum milldir ar hugain mewn cyfeiriad de orllewin, heibio i'r Dolau Cothi, Abergorlech, a'r Brechfa, i'r Tywy, yn agos i Lanegwad, 5¾ milldir i'r dwyrain o Gaerfyrddin.

**COWARCH**, trefgordd yn mhlwyf Llan y Mawddwy, swydd FEIRIONYDD; 2 filldir i'r gogledd o Ddinas Mawddwy. Gwerth ardrethol 1113*p*., o'r hyn y mae 200*p*. mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 250.

**CRACH-DY**, treflan yn mhlwyf Llanfynydd, swydd GAERFYRDDIN; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr. Poblogaeth, 127.

**CRAIG CWM BYCHAN**, dernyn ysgwyddog o'r Mynydd Mawr, yn swydd Gaer yn arfon, y golchir ei odrau gan Lyn Cwellyn, 7½ milldir i'r de ddwyrain o Gaer yn arfon.

**CRAIG GOCH**, mynydd yn Eryri, 2345 troedfedd o uchder; 3½ milldir i'r gogledd o Feddgelert.

**CRAIG Y CAE**, un o glogwyni Cadair Idris, yn MEIRIONYDD.

**CRAIG Y DERYN**, serth-graig ger yr afon Dyssyni; 6½ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Towyn, yn Meirionydd. Ymgynnulla lluaws mawr o forfrain, hebogiaid, ac adar eraill i'w hysgythrau; ac y mae olion hen amddiffynfa filwraidd arni.

**CRAIG Y DINAS**, calch-graig uchel, ac o ffurfiad dra hynod gerllaw ymuniad yr Hepste a'r Mellte, yn agos i Benderyn, yn swydd Frycheiniog.

**CRAIG Y DINAS**, bryn ysgythrog, a hen amddiffynfa Brydeinaidd arno, yn agos i Gors-y-gedol, MEIRIONYDD.

**CRAIG Y DINAS**, bryn serth, a gwersyll Rhufeinaidd arno, 350 o droedfeddi, wrth 204; yn swydd Gaer yn arfon; 7½ milldir i'r dehau wrth orllewin o GAER-YN-ARFON.

**CRAIG Y GAERWYD**, craig serth, wedi ei choroni â gwersyll Rhufeinaidd, ar lan yr afon Wysg; 1½ i'r gogledd ogledd orllewin o dref Usc, yn swydd FYNWY.

**CRAIG Y LLYN**, mynydd yn agos i ben Glyn Nedd; 5 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Aberdâr, yn MORGANWG. Ei goppa yw y tir uchaf yn swydd Forganwg; a chair golwg ysblenydd oddiarno.

**CRANE**, trefgordd yn mhlwyf Llanerfyl, swydd DREFALDWYN; 8½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfair. Gwerth ardrethol, 2205*p*. Poblogaeth, 336.

**CRAY** (Y), afonig yn swydd FRYCHEINIOG. Y mae yn cyfodi ar yr ystlys ogleddol i fynydd Capellante, ac yn llifeirio am chwe milldir yn ogleddol i'r afon *Usk*, neu y Wysg, 2 filldir i'r dwyrain o Dref Castell.

**CRAY**, neu CRAI, treflan yn mhlwyf Defynog, swydd FRYCHEINIOG; ar lan afonig o'r un enw, 3 milldir i'r dwyrain de ddwyrain o Drecastell. Cynnwysa gapeloriaeth Llanulid. Gwerth ardrethol, 2369*p*. Poblogaeth, 545. Tai annedd, 105.

**CREEBYTHER**, neu CRIBYTHER, trefgordd yn mhlwyf Bugeildy, swydd FAESYFED; 9½ milldir i'r gogledd orllewin o Dref y Clawdd. Poblogaeth, 217.

**CREUDDIN**, cantref yn swydd GAER-YN-ARFON, o'r tu dwyreiniol i afon Conwy, gan gynnwys y penrhyn, neu yr orynys, a elwir Pen Gwygarth. Cynnwysa bedwar o blwyfi, a rhan o un arall. Erwau, 10,619. Poblogaeth, 6181. Tai annedd, 1437.

**CRIBARTH**, mynydd ar derfyn deheuol swydd FRYCHEINIOG, gerllaw yr afon Tawe; 8½ milldir i'r gogledd wrth ddwyrain o Gastell Nedd. Y mae o ymddangosiad tra hynod, ac yn gynnwysedig o'r galch-graig fynyddig yn ymwthio i'r glo haenau.

**CRICYN**, trefgordd yn mhlwyf Rhuddlan, swydd FFLINT, yn agos i dref Rhuddlan. Poblogaeth, 638.

**CROES A BERWYN**, trefgordd yn Ngharon Is Clawdd, CEREDIGION, 2 filldir i'r de ddwyrain o Dregaron. Gwerth ardrethol, 837*p*. Poblogaeth, 208. Tai annedd, 47.

**CROESLON**, lle yn swydd Gaer yn arfon; 1¾ milldir o Ben y Groes, a 4½ milldir o Gaer-yn-arfon; yn meddu llythyrfa, dan Gaer-yn-arfon.

**CROES LLWYBR**, trefgordd yn mhlwyf Llanidloes, swydd DREFALDWYN; yn agos i Lanidloes.

**CROES-Y-CEILIOG**, lle 4½ milldir o Bont y Pŵl, yn swydd Fynwy; yn nghyd a llythyrfa, dan Bont y pŵl, yn swydd FYNWY.

**CROGEN**, trefgordd yn mhlwyf Llandderfel, swydd FEIRIONYDD; gerllaw yr afon Dyfrdwy, 5½ milldir i'r dwyrain o'r Bala. Gwerth ardrethol, 195*p*. Poblogaeth, 28.

**CROGEN IDDON**, a CHROGEN WLADUS, dwy drefgordd yn y rhan hono o blwyf Llangollen a elwir Glyn Traian; yn agos i dref Llangollen. Poblogaeth, 197, a 151.

**CROGEN-NANT**, a'r MORFA, trefgordd yn mhlwyf Llangelynin, MEIRIONYDD; 4½ milldir i'r gogledd o'r Towyn. Gwerth ardrethol 1551*p*., 20*p*. o'r hyn sydd mewn mwngloddiau. Poblogaeth, 390.

**CROSS INN**, pentref yn mhlwyf Llandybie, swydd GAERFYRDDIN; ar gangen y Garnant o reilffordd Llanelli a Glyn Towy; 13 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Lanelli. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrfa, dan Lanelli; a chynhelir ffair yma ar y 23ain o Fawrth.

**CRUG GLAS**, treflan yn mhlwyf Abergwili, swydd GAERFYRDDIN; 1 filldir i'r gorllewin o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 474.

**CRUGION**, trefgordd gapeloriaethol yn mhlwyf Alberbury, swydd DREFALDWYN, ar lan yr Hafren, dan Fryn Breiddyn, 2½ filldir i'r dwyrain dde ddwyrain o orsaf rheilffordd y *Four crosses;* a 7 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm. Y mae yma lythyrfa dan yr Amwythig. Gwerth ardrethol, 2905*p*. Poblogaeth, 187. Tai annedd, 34. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Henffordd. Gwerth 108*p*. Noddwr, V. Vickers, Ysw.

**CRUG MAWR**, bryn yn swydd ABERTEIFI; 2 filldir i'r dwyrain o dref Aberteifi. Dyma lle y gorchfygwyd y Saeson gan Rhys ab Gruffydd, wedi marwolaeth Harri y Cyntaf; ac y mae yma dommenfryn, neu garnedd, a hen ffos.

**CRUMLIN**, pentref yn Nglyn Ebbwy, swydd FYNWY; ar reilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol,

Digitized by Google

5 milldir i'r gorllewin dde orllewin o Bont-y-pŵl. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a llythyrfa dan y Cas-Newydd, Mynwy; a gwestdy da. Y mae yma ffordd-bont rheilffordd ysplenydd, yr hon a gostiodd oddeutu deugain mil o bunnau. Y mae camlas, ddeng milldir o hyd, o'r pentref hwn i waered i Glyn Ebbwy, i ymunaw â chamlas Aberhonddu, yn agos i'r Cas Newydd.

CRYNANT, capeloriaeth, a phentref, yn nghyda gorsaf rheilffordd, yn mhlwyf Cadoxton, swydd Forganwg; 5½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Gastell Nedd.

CUCH (Y), afonig yn swyddi Penfro, a Cheredigion, yr hon wedi llifeirio deng milldir mewn cyfeiriad gogledd ogledd orllewinol, sydd yn ymarllwys i'r Teifi islaw Cennarth.

CWM, trefgordd yn mhlwyf Nannerch, swydd Fflint; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Wyddgrug. Poblogaeth, 143.

CWM, pentref yn mhlwyf Penmarc, swydd Forganwg, 5½ milldir i'r de ddwyrain o Bont fon.

CWM, trefgordd yn mhlwyf Meifod, swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o'r Trallwm. Poblogaeth, 29.

CWM, gorsaf rheilffordd yn swydd Fynwy, ar gangen *Beaufort* o reilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol, 18½ milldir i'r gogledd orllewin wrth ogledd o'r Cas Newydd.

CWM AFON, gorsaf rheilffordd yn swydd Fynwy; ar reil-ffordd y Dyffrynoedd Dwyreiniol; 4 milldir i'r gogledd wrth orllewin o Bont-y-pŵl.

CWM AMMAN, pentref yn mhlwyf Llandeilo Fawr; a chapeloriaeth yn mhlwyfi Llandeilo Fawr, Llandebie, y Bettws, Llangadoc, a Llangiwg, yn swydd Gaerfyrddin. Y mae y pentref yn gorwedd ger afon Pont-amman, a changen y Garnant o reilffordd Llanelli a Glyn Towy, yn agos i orsaf rheilffordd y Garnant, goris y mynyddoedd duon; 16½ milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o Lanelli; a medda ei llythyrfa dan Lanelli; a marchnad-dy. Cyfansoddwyd y gapeloriaeth yn y flwyddyn 1843. Poblogaeth, 4353. Tai annedd, 873. Y mae tirweddiad y gymmydogaeth yn fynyddig, a gwyllt. Anfonir llawer o faenlo o'r gymmydogaeth hon gyd a'r rheilffordd i Lanelli i'w long-lwytho. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 150*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

CWMARLES, treflan yn mhlwyf Llanfihangel ar arth, swydd Gaerfyrddin; 9½ milldir i'r dwyrain o Gastell Newydd yn Emlyn.

CWM BACH, lle ddwy filldir o Aberdâr, yn Morganwg, ac yn meddu Llythyrfa, dan Aberdâr.

CWM BAN, treflan yn mhlwyf Llanfynydd, swydd Gaerfyrddin; 5½ milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr.

CWM BRAN, gorsaf gweithfeydd haiarn yn mhlwyf Llanfrechfa, Mynwy; ar yr Afon Lwyd, camlas Aberhonddu a Mynwy, a rheilffordd y Dyffrynoedd Dwyreiniol.

CWM BRITH, trefgordd yn mhlwyf Cefnllys, swydd Faesyfed; 8½ milldir i'r gorllewin o Faesyfed. Poblogaeth, 190.

CWM BWRLA, lle, filldir a haner o Abertawe, yn Morganwg; ac yn meddu llythyrfa dan Abertawe.

CWM BYCHAN, ceubant mynyddig, 4½ milldir i'r dwyrain o Harlech, yn Meirionydd. Y mae llyn godidog ynddo, o'r hwn y mae yr afon Artro yn tarddu. Y mae hen balas, perthynol i deulu o'r cyfenw Llwyd, wrth ben y llyn.

CWM CAWLWYD, pentref yn mhlwyf Llandeilo Fawr, swydd Gaerfyrddin; yn agos i Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 1192. Poblogaeth, 167.

CWM CERWYN (Bryn), y drum uchaf o fynyddoedd Preselly, yn swydd Benfro; 9½ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Abergwaun. Ei uchder ydyw 1754 troedfedd; ac fe'i trawsid gan ffordd Rufeinaidd, o Dyddewi.

CWM CEWYDD, trefgordd yn mhlwyf Llan y Mawddwy, Meirion; 4½ i'r gogledd ddwyrain o Ddinas Mawddwy. Poblogaeth, 82.

CWM CŶCH, pentref yn mhlwyf Cilrhedyn, swydd Gaerfyrddin, 4½ milldir i'r de dde orllewin o'r Castell Newydd yn Emlyn.

CWM DU, pentref a rhandir, yn Undeb Crughowel, swydd Frycheiniog. Y mae y pentref yn mhlwyf Llanfihangel Cwm du, ar lan caine-ffrwd o'r afon Wysg, yn nghanol tirweddau rhamantus, goris y Mynyddoedd Duon; 4½ milldir i'r gogledd orllewin wrth ogledd o Grug-howel; ac y mae llythyrfa ynddo dan Grughowel.

CWM DWR, bwlch mynyddig rhamantus, ar ffin swyddi Brycheiniog a Chaerfyrddin; 4 milldir i'r gogledd orllewin o Drecastell, ar y ffordd oddiyno i Lanymddyfri.

CWN DYLI, ceule mynyddig goris y Wyddfa; 4½ milldir i'r de orllewin o'r Capel Curig, yn swydd Gaer yn arfon.

CWM FORGAN, pentref yn mhlwyf Cilrhedyn, swydd Gaerfyrddin; 4 milldir i'r de dde orllewin o'r Castell Newydd yn Emlyn.

CWMGAIST, trefgordd yn mhlwyf Llanbister, swydd Faesyfed; 10½ milldir o Dref y Clawdd. Poblogaeth, 61.

CWMGILLA, trefgordd yn mhlwyf Tref y Clawdd, swydd Faesyfed; yn agos i'r afon Teme, 2 filldir i'r de orllewin o Dref y Clawdd. Gwerth ardrethol, 670*p*. Poblogaeth, 50.

CWM GLYN, glyn dwfn, cyfyng, rhamantus, a choediog, yr hwn a drawsir gan reilffordd Pont y pŵl a Chrumlin, swydd Fynwy.

CWM GORON, trefgordd yn mhlwyf Castell Caereinion, swydd Drefaldwyn; yn agos i'r Trallwm. Poblogaeth, 62.

CWM GWENFFRWD, ceunant wyllt, ond hynod brydferth, ar ffin swyddi Caerfyrddin, ac Aberteifi, goris Mynydd Mallaen, 8½ milldir i'r gogledd o Lanymddyfri.

CWM HESIAN, lle, yn yr hwn y mae mwngloddiau plwm a sinc, yn Meirionydd; ar yr afon Cain; 8½ milldir i'r gogledd o Ddolgelley. Y mae ychydig o naws aur ac arian yn y mwnai.

CWMLECHWEDD, trefgordd yn mhlwyf Llanbister, swydd Faesyfed; 10 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Dref y Clawdd. Gwerth ardrethol, 1269*p*. Poblogaeth, 362.

CWM LLAN, glyn tywyll goris y Wyddfa; 3 milldir i'r gogledd ddwyrain o Feddgelert, yn swydd Gaer yn arfon.

CWM LLECH, trefgordd yn mhlwyf y Pennant, swydd Drefaldwyn; 9½ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 51.

CWMMWR, trefgordd yn mhlwyf Hirnant, swydd Drefaldwyn; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfyllin.

Digitized by Google

**CWM PENANNER**, trefgordd yn mhlwyf Ceryg y Drudion, swydd DDINBYCH; 13 milldir i'r de orllewin o Ruthin. Poblogaeth, 110.

**CWM Y GLO**, lle 2 filldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanberis, yn swydd Gaer yn arfon, a llythyrfa, dan Gaer yn arfon. Y mae y lle yma wedi cynnyddu, a'i boblogaeth wedi lluosogi yn ddirfawr y blyneddoedd diweddar hyn, o herwydd cyfagosrwydd y lle i'r llech-gloddfeydd mawrion ydynt yn y gymmydogaeth; ac y mae yma ddau neu dri o addoldai Ymneillduol helaeth a dâ.

**CWM YSTWYTH**, lle yn yr hwn y mae mwngloddiau plwm, yn swydd ABERTEIFI, ar lan yr afon Ystwyth, yn nghanol y mynyddoedd; 13 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o dref Aberystwyth. Y mwngloddiau yma a weithiwyd gyntaf gan Syr T. Bonsal; a buant dros hir amser yn troi allan enillion mawrion; ac y maent yn parhau yn oludog eto.

**CWRT HENRY**, palas yn swydd GAERFYRDDIN; ar lan yr afon Cothi; 9¾ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o dref Caerfyrddin. Perthynai i Henry ab Gwilym, a bu wedi hyny yn eiddo yr Herbertiaid, a'r Dyeriaid.

**CWYS YR YCHAIN BANNOG**, dernyn nodedig o hen ffordd Brydeinaidd, tua 1½ milldir o hŷd; 5 milldir i'r dwyrain o Dregaron, yn Ngheredigion.

**CYFARTHFA**, capeloriaeth yn mhlwyf Merthyr Tydfil, swydd FORGANWG; ar gwr gogleddol y wlad; 1 filldir i'r gogledd o dref Merthyr Tydfil, a gorsaf y rheilffordd. Ffurfiwyd y gapeloriaeth yn y flwyddyn 1846. Llythyrfa, Merthyr Tydfil. Poblogaeth, 7888.

**CYFNANT**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon, swydd DDINBYCH; ar yr afon Alun; 5½ milldir i'r dwyrain o Ruthin.

**CYFFIN**, trefgordd yn mhlwyf Llangadfan, swydd DREFALDWYN; 6½ milldir i'r gogledd orllewin o Lanfair. Poblogaeth, 218.

**CYFFTY**, trefgordd yn mhlwyf Llan y cil, swydd FEIRIONYDD; 3½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o'r Bala. Gwerth ardrethol, 1327*p*. Poblogaeth, 181.

**CYMMAN**, neu CYMMAU, trefgordd yn mhlwyf Estyn, swydd FFLINT; 1 filldir i'r de orllewin o Gaergwrle. Poblogaeth, 426.

**CYMMER**, pentref yn mhlwyf Llantrisaint, swydd FORGANWG, ger ymuniad y Rhondda Fach, a'r Rhondda Fawr; 15 milldir i'r gogledd orllewin o Gaerdydd. Medda Lythyrfa dan Bont y pridd. Cymerodd tanchwa le mewn pwll glo yma yn y flwyddyn 1856, trwy yr hyn y lladdwyd 114 o lowyr.

**CYMMER**, trefgordd yn mhlwyf Llangar, swydd FEIRIONYDD; yn agos i Gorwen. Gwerth ardrethol, 1329*p*. Poblogaeth, 81.

**CYMMO**, trefgordd yn mhlwyf Llandyssilio, swydd DDINBYCH; 2 filldir i'r gogledd orllewin o Langollen. Poblogaeth, 228.

**CYMRYD**, neu CAM-RYD, trefgordd, yn cynnwys pentref y Gyffin, yn mhlwyf y Gyffin, swydd Gaer yn arfon, yn agos i Gonwy. Dyma lle yr ymladdodd meibion y tywysog Rhodri, â dewrder annghyffredin, er dial gwaed eu tad, Rhodri Fawr.

**CYNFAL FACH**, a CHYNFAL FAWR, dwy drefgordd yn mhlwyf y Towyn, swydd FEIRIONYDD, yn agos i'r Towyn. Gwerth ardrethol, 501*p*., a 1250*p*. Poblogaeth, 79, a 303.

**CYNFEL**, neu CYNFAL, afonig yn Meirionydd, yn cyfodi yn agos i darddle yr afon Conwy, ac wedi llifeirio chwe milldir mewn cyfeiriad gorllewinol, y mae yn ymuno â'r Ddwy-ryd islaw y Ffestiniog. Y mae yn ffurfio dau raiadr ardderchog yn nghymmydogaeth y Ffestiniog.

**CYNHINFA**, trefgordd yn mhlwyf Llangyniew, swydd DREFALDWYN; 2½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanfair Caereinion.

**CYNLAS**, trefgordd yn mhlwyf Llandderfel, MEIRIONYDD; 3½ milldir i'r dwyrain o'r Bala. Poblogaeth, 40.

**CYNLLWYD**, trefgordd yn mhlwyf Llanuwchllyn, MEIRIONYDD; 4½ milldir i'r de orllewin o'r Bala. Y mae yn cynnwys pentre y Pandy. Gwerth ardrethol, 1541*p*. Poblogaeth, 395.

**CYNNANT**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair talhaiarn, swydd DINBYCH; 4½ milldir i'r de dde orllewin o Abergeleu. Poblogaeth, 62.

**CYNNULLFAWR**, treflan yn mhlwyf Llanddarog, swydd GAERFYRDDIN; ar fin yr afon Gwendraeth Fach; 6½ milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 277.

**CYNNULL MAWR**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, CEREDIGION; ar lan yr afon Leri; 5 milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ogledd o Aberystwyth. Erwau, 3748. Gwerth ardrethol, 2299*p*. Poblogaeth, 616. Tai annedd, 125.

**CYNON (Y)**, afon yn Neheudir Cymru, yr hon sydd yn tarddu yn y parth deheuol o swydd Frycheiniog, 2½ milldir i'r gorllewin o'r Garawen, ac yn llifeirio pedair milldir mewn cyfeiriad deheuol, i swydd Forganwg; yna y mae yn myned rhagddi dros 14 milldir, mewn cyfeiriad de ddwyreiniol, heibio i Aberdâr, a'r Dyffryn, i ymuniad â'r Tâf, 2 filldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Lanfabon.

**CYNON**, treflan yn mhlwyf Merthyr Tydfil, swydd FORGANWG; ar yr afon Cynon, yn agos i'w huniad a'r Tâf.

**CYNWYD**, capeloriaeth yn mhlwyf Gwyddelwern, MEIRIONYDD, ar linell rheilffordd Rhiwabon a'r Bala, 2 filldir i'r gogledd o Gorwen; ac 8 milldir dde dde orllewin o Ruthin. Cynnwysa drefgyrdd Cynwyd Fawr, a Chynwyd Fechan: a medda lythyrfa dan Gorwen, gorsaf rheilffordd, a ffeiriau ar Awst 6, a Hydref 21. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-beriglorIaeth wastadol, gydiedig a Llangar, yn esgobaeth Llanelwy.

**CYRCHYNEN**, trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, swydd DDINBYCH; yn agos i Lanelwy. Poblogaeth, 49.

**CYRN Y BRAIN**, bryn, 1857 troedfedd o uchder; 6 milldir i'r gogledd o Langollen, yn swydd DINBYCH.

**CYSSYLLTAU**, trefgordd yn mhlwyf Llangollen, swydd DDINBYCH; yn agos i dref Llangollen. Gwerth ardrethol, 1412*p*., o'r hyn y mae 753*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 428.

**DEHEUFRYN**, trefgordd yn mhlwyf Bettws yn Rhos, swydd DDINBYCH; 3½ milldir i'r de orllewin o Abergeleu. Poblogaeth, 115.

**DINAS**, lle yn agos i Ffestiniog, yn swydd FEIRIONYDD; ar ben rheilffordd Porth Madoc a'r Ffestiniog.

**DINAS**, pentref yn mhlwyf Llantrisaint, swydd FORGANWG. Medda lythyrfa dan Bont y pridd.

**DINAS DINLLE**, hen amddiffynfa gref, a phwysig, ar lan beisfor Caer yn arfon, gyferbyn a phentref Llandwrog. Mesura o fewn ei hamgaer, 450 troedfedd o hyd, wrth 360 troedfedd o led. Yr

Digitized by Google

oedd ei sefyllfa yn fanteisiol i wylio yr agorfa i borthladd Caer yn arfon; a cheir golygfa ysplenydd oddiarni ar fynyddoedd Eryri, o Garn y Mor, hyd i Drwyn yr Wylfa, yn y Penmaen Mawr. Barna rhai mai y Rhufeiniaid a wnaethant yr amddiffynfa hon, fel rhag-orsaf i Gaer Seiont; ond, y mae rhesymau cryfion iawn dros gredu, mai gan yr hen frodorion ei cyfodwyd ar y dechreu; er y dichon fod y Rhufeiniaid wedi gwneyd defnydd o honi fel gorsaf filwraidd, mewn cysylltiad â Chaer Seiont.

DINAS DINORWIG, hen amddiffynfa yn swydd Gaer yn arfon, a gadarnheid gan dair amgaer. Mae ei sefyllfa 3 milldir i'r gogledd ddwyrain o dref Caer yn arfon.

DINAS EMRYS, hen gastell, 3 milldir i'r gogledd ddwyrain o Feddgelert, yn swydd Gaer-yn-arfon. Y mae yn gorwedd ar graig serth uwchlaw Llyn Dinas, wrth droed y Wyddfa. Dywaid traddodiad, i'r brenin Gwrtheyrn encilio i'r fan hon am nodded rhag ei ddeiliaid cythruddedig, ac i'r ddinas hon gael ei hadeiladu ganddo, dan gyfarwyddyd Myrddin Emrys.

DINAS GADFEL, trefgordd yn mhlwyf Llannefydd, a elwid felly oddiwrth hen amddiffynfa oedd ar ben mynydd a eilw rhai "Moel Llannefydd."

DINAS SYLWY, hen amgaer ddyblyg, yn mhlwyf Llanfihangel Din-Sylwy, ar y gongl ddwyreiniol o Ynys Fon. Y mae yn amlwg bod y Rhufeiniaid wedi gwneyd defnydd o honi yn ystod eu cyfanneddiad yn y wlad, yn gymmaint a bod lluaws mawr o fatholion Rhufeinaidd wedi eu cael o'i mewn o bryd i bryd; a delw hefyd, o Apollo, fel y tybir. Gelwir y lle weithiau, "Bwrdd Arthur," am ei fod yn dra chrwn, a gwastadlyfn; gorwedda 3¼ milldir i'r gogledd o'r Beaumaris.

DOLGEAD, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, swydd Drefaldwyn, yn agos i Lanfair. Poblogaeth, 23.

DREWERN (Y), trefgordd yn mhlwyf Glascwm, swydd Faesyfed; 6½ milldir i'r de orllewin o Faesyfed. Gwerth ardrethol, 1543*p.* Poblogaeth, 217.

DRUID (Y), lle 2½ milldir o Gorwen, yn Meirionydd; a llythyrfa ynddo dan Gorwen.

DYSSERTH, trefgordd yn mhlwyf y Trallwm, swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r de dde orllewin o'r Trallwm. Poblogaeth, 193.

ESGAIR GAM, Esgair Garn, ac Esgair Ifan, tair treflan yn mhlwyf Llanfynydd, swydd Gaerfyrddin; o dair i bum milldir i'r gogledd orllewin o Landeilo Fawr. Poblogaeth, 437.

ESGOB A CHASTELL, trefgordd yn mhlwyf Llanwnog, swydd Drefaldwyn, 6½ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 520.

ESGOB CNWC CRIN, pentref yn nhrefgordd Uwch Sawdde, plwyf Llangadoc, swydd Gaerfyrddin; yn agos i Langadoc.

GARTH (Y), treflan yn mhlwyf Llanfabon, swydd Forganwg; ar yr afon Tâf; 5 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Gaerphilly. Gwerth ardrethol, 10,346*p.*, o'r hyn y mae 8184*p.* mewn camlesydd, a 30*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 1209.

GARTH (Y), treflan yn mhlwyf Merthyr Tydfil, Morganwg; 2 filldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Ferthyr Tydfil. Gwerth ardrethol, 48,976*p.*, o'r hyn y mae 31,670*p.* mewn haiarnfeydd, 2854*p.* mewn cloddfeydd, a 400*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth, 6967.

GIEDD (Y), pentref yn mhlwyf Ystrad Gynlais, swydd Frycheiniog; 8½ milldir i'r gogledd o Gastell Nedd. Poblogaeth, 37.

GORS EINION, capeloriaeth yn mhlwyf Llangyfelach, Morganwg; a gorsaf ar reilffordd Abertawe a Llandeilo; 8 milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Abertawe. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn gydiedig â ficeriaeth Llangyfelach.

GORWYDD, trefgordd yn mhlwyf Llanddewi Brefi, Ceredigion; ar yr afon Teifi, 2 filldir i'r gogledd o Lanbedr. Erwau, 6604. Gwerth ardrethol, 1207*p.* Poblogaeth, 667. Tai annedd, 165.

GREDINGTON, palas Arglwydd Kenyon, yn swydd Fflint; 7½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o *Whitchurch.* Yma y ganwyd yr Arglwydd Ganghellydd Kenyon.

HALFEN, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel, swydd Drefaldwyn; 5¼ milldir i'r de orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 83.

HARDWICK, treflan yn mhlwyf *Chepstow*, swydd Fynwy; yn agos i'r afon Wy, 1 filldir i'r dehau o *Chepstow.* Gwerth ardrethol, 2061*p.* Poblogaeth, 36.

HAUGHTON, sydd drefgordd yn mhlwyf Llandysilio, swydd Drefaldwyn; gerllaw yr afon Fyrnwy, wyth milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o'r Trallwm.

HAWS (Yr), sydd ffrwd yn swydd Drefaldwyn, yn llifeirio i'r Hafren yn Aberhaws.

HAWS (Yr), sydd ffrwd yn swydd Faesyfed, yn llifeirio i'r Ithon uwchlaw Dyserth.

HOLY MOUNTAIN, neu Ysgryd Fawr, sydd fynydd yn swydd Fynwy, yn agos i reilffordd y Fenni a Henffordd, pedair milldir gogledd ogledd ddwyrain o'r Fenni. Y mae yn sefyll mewn uchder o 1498 o droedfeddi; ac yn cynwys tywodfaen coch, yn cael ei guddio â gwyneb o gymysgfaen; y mae yn cael ei hollti i ddau grib, hyd ddyfnder o tua 300 troedfedd, yn ffurfio agen eang, ac yn arddangos golygfa aruthrol, a mawreddig. Bernir mai llithriad yn y tir a fu yr achos o'r gagendor, er fod chwedl boblogaidd yn y gymydogaeth, mai ôl daeargryn ydyw, a gymerodd le yn amser croeshoeliad y Gwaredwr; ac a ystyrid am oesau, mor gysegredig, fel y cludid sacheidiau o hono i'w daenellu dros dai, ac eirch, a beddau. Bu capel bychan gynt ar lecyn yn agos i'w grib, ond sydd yn awr wedi ei golli yn gwbl oll, lle y cyrchai nifer o bererinion, oddiar syniadau dychymygol a choelgrefyddol.

HOME, sydd bentref yn mhlwyf Llanwonno, swydd Forganwg, chwe milltir a haner deheuol o Merthyr Tydfil. Gwerth ardrethol, 1116*p.*

HOME, sydd is-bentref yn mhlwyf Ystrad-dyfodawg, swydd Forganwg; naw milltir de orllewin o Merthyr Tydfil. Gwerth ardrethol 4888*p.*, o'r hyn y mae 3635*p.* mewn mwnau. Poblogaeth, 212.

HOMLET, sydd drefgordd yn mhlwyf-Llanrhaiadr-yn-Mochnant, swydd Ddinbych, pedair milltir a haner gogleddol o Lanfyllin. Poblogaeth, 46.

HONDDU (Yr), sydd afon yn swydd Frycheiniog, yn codi yn mynydd Eppynt, yn agos i ddyfr-arllwysfa yr afon Wy; ac yn rhedeg tua deng milltir de dde ddwyrain i'r Wysg, yn Aberhonddu.

Digitized by Google

**HONEYBOROUGH** (Uwchaf ac Isaf), sydd ddau beutref yn mhlwyf Llanystadwel, swydd Benfro; yn agos i feisfor Aber-dau-gleddau; tair milltir dwyreiniol o Aber-dau-gleddau.

**HUNDLETON**, sydd le o fewn dwy filltir i Benfro, yn swydd Benfro, gyda Llythyrdy dan Benfro.

**HYDAN-DOL**, a Hydan-uchaf, sydd ddwy drefgordd, yn mhlwyf Castell-Caereinion, swydd Drefaldwyn; tair milltir dwyreiniol o Lanfair. Gwerth ardrethol, 1802*p*. Poblogaeth, 72 a 94.

**HYRETH**, sydd bentref yn mhlwyf Llanfallteg, swydd Gaerfyrddin, yn agos i derfyn Penfro; pedair milltir a haner gogledd ddwyrain o Narberth.

**IFTON**, sydd blwyf yn nosparth Chepstow, Mynwy, ar reilffordd y Deheubarth, yn agos i'r Hafren, dwy filltir gogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd, Pontyscewet; tair milltir o Chepstow. Llythyrdy yn Chepstow. Erwau 1155, o'r hyn y mae 495 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, gyda Rogiet 3058*p*. Poblogaeth, 20. Tai, 4. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, mewn cysylltiad a pherigloriaeth Rogiet, yn esgobaeth Llandaf. Nid oes yr un eglwys-dy yno.

**ISCIR**, neu Yscir, sydd afon yn Mrycheiniog, yn codi yn nghwr de orllewinol Mynydd-Eppynt, ac yn rhedeg tua deuddeg milltir de dde ddwyreiniol i'r Wysg, yn Aberyscir.

**JORDANSTON**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd Benfro; pedair milltir a haner de orllewin o Abergwaen, ac un filltir ar ddeg gogledd orllewin o orsaf rheilffordd Clarbeston-road. Llythyrdy yn Abergwaen, dan Hwlffordd. Erwau, 1876. Gwerth ardrethol, 1398*p*. Poblogaeth, 131. Tai, 27. Jordanston House, a Llangwarren ydynt y prif balasau yma. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 91*p*., ac yn nawddogaeth Syr J. Cockburn, Bar. Y mae yr eglwys yn henafol.

**LEESWOOD**, neu Coed llai, sydd drefgordd yn mhlwyf Wyddgrug, swydd Fflint, dwy filltir de ddwyreiniol o'r Wyddgrug. Y mae yn cynwys is-bentrefi Llong, a Phontbleiddyn. Gwerth ardrethol 9585*p*., o'r hyn y mae 5000*p*. mewn mwnau, a 1000*p*. mewn gwaith haiarn. Poblogaeth yn 1851, 741; yn 1861, 1190. Tai, 239. Y mae cynnydd y boblogaeth i'w briodoli i agoriad gweithydd glo newyddion. Y mae yma balas perthynol i deulu y Wyniaid.

**LEWESOG**, sydd drefgordd, mewn cysylltiad â Trefydd-Bychain, yn mhlwyf-Llanrhaiadr-yn-Cynmeirch, swydd Ddinbych, tair milltir a chwarter de ddwyreiniol o Ddinbych.

**LIBANUS**, sydd le, pedair milltir a haner o Aberhonddu, yn swydd Frycheiniog. Y mae yma Lythyrdy dan Aberhonddu.

**LYNAS**, neu Leinws, Pwynt, sydd drwyn tir bychan yn mhlwyf Llanelian, Mon; dwy filltir a haner dwyreiniol o Amlwch. Y mae yma oleudy, a godwyd yn 1835, ac yn dangos fflachiad o lewyrch, ac yna yn tywyllu am ddau eiliad, bob deg eiliad; 128 o droedfeddi o uchder, ac y mae yn weledig o ddeng milltir o bellder. Bu yma hefyd dŵr hysbysai yn ngohebiaeth Caergybi a Lerpwl. Y mae yma gyfleusdra i longau alw am Lywiedyddion.

**LLANYWERN**, sydd blwyf yn nosparth a swydd Frycheiniog, yn agos i reilffordd Henffordd ac Aberhonddu; tair milltir a haner dwyreiniol o Aberhonddu. Llythyrdy yn Aberhonddu. Erwau, 1430. Gwerth ardrethol, 1942*p*. Poblogaeth, 139. Tai, 29. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Perthynai y faenoriaeth i Bernard Newmarch, yr hwn a'i cyflwynodd yn feddiant i briordy Aberhonddu. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 81*p*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi.

**LLYFNANT** (Y), sydd ffrwd yn rhedeg rhwng ymylon Trefaldwyn ac Aberteifi; y mae yn codi yn Llyn-Penrhaiadr, chwe milltir deheuol o Machynllaith, ac yn fuan yn cwympo yn rhaiadr yn Pistyll-y-Llyn; ac yn rhedeg tua chwe milltir, yn gwmpasog, i'r Dyfi, ychydig cyn cyrhaedd ei chryfder.

**LLYSAN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Glyn-y-Myfyr, swydd Ddinbych, chwe milltir a haner gogledd orllewin o Corwen. Gwerth ardrethol, 958*p*. Poblogaeth, 113.

**MAINDY**, sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Christchurch, swydd Fynwy, yn agos i'r Casnewydd. Sefydlwyd y lle yn 1865, ac y mae yno lythyrdy dan Casnewydd, Mynwy. Y mae y fywioliaeth yn nawddogaeth Coleg Eton; adeiladwyd yr eglwys yn 1861, ar y draul o 3930*p*.

**MALPAS**, sydd blwyf a phentref yn nosparth Casnewydd, Mynwy, gerllaw Camlas Aberhonddu a'r Casnewydd, ac yn agos i reilffordd y Dyffrynoedd Dwyreiniol, yn ymyl yr afon Wysg, milltir a thri chwarter gogledd ogledd orllewin o'r Casnewydd. Llythyrdy yn y Casnewydd, Mynwy. Erwau, 998. Gwerth ardrethol, 2234*p*. Poblogaeth, 304. Tai, 59. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Malpas Court ydyw palas T. Protheroe, Ysw. Y mae yma briordy yn perthyn i Fynachlog yn Somerset, a sylfaenwyd yma yn amser Harri I., gan William de Balun, ac a roddwyd yn amser y datodiad i'r teulu Herbert. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 100*p*., ac yn nawddogaeth T. Protheroe, Ysw. Y mae yr eglwys yn ddysyml o adeiladaeth, ac yn henafol.

**MAMHILAD**, sydd blwyf yn nosparth Pont y pwl, Mynwy, gerllaw Camlas Aberhonddu, yn agos i reilffordd y Fenni a Phont-y-pwl, tair milltir gogledd ddwyrain wrth ogledd o Bedwellty, a saith milltir gorllewin ogledd orllewin o Pont-y-pwl. Y mae yn cynwys Georgetown a Brierly-hill, lle y mae gwaith haiarn helaeth; ac y mae yn cynwys llawer o gapeloriaeth Tredegar St. George. Gwerth ardrethol 53,636*p*., o'r hyn y mae 8500*p*. mewn mwnau, a 30,000 mewn gwaith haiarn. Poblogaeth yn 1851, 9120; yn 1861, 11,510. Tai, 2025. Cynnyddodd y boblogaeth gyda chynnydd y gwaith haiarn. Y mae Gweithdy cyhoeddus Bedwellty yma, ac yr oedd yno 98 o dlodion yn 1861.

**MANLETH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanidloes, Trefaldwyn, yn agos i Lanidloes.

**MANLLWYD**, sydd drefgordd yn mhlwyf Ceri, swydd Drefaldwyn; yn agos i'r Drefnewydd. Poblogaeth, 56.

**MANOR A RAKE**, sydd drefgordd yn mhlwyf Penarlag, yn swydd Fflint; yn agos i'r afon Dyfrdwy, un filltir dwyreiniol o Ben ar-lag. Erwau, 918. Gwerth ardrethol, 1650*p*. Poblogaeth, 88. Tai, 13.

**MANORDEIFI**, neu Manordewi, sydd blwyf yn nosparth Aberteifi, ac yn swydd Benfro, gerllaw

afon Teifi, ar derfyn swydd Geredigion, yn agos i reilffordd Caerfyrddin ac Aberteifi, pedair milltir a haner de ddwyrain wrth ddwyrain o Aberteifi. Llythyrdy dan Aberteifi. Erwau, 3506. Gwerth ardrethol, 2629*p*. Poblogaeth yn 1851, 956; yn 1861, 896. Tai, 207. Y prif balasau yma ydynt Pentref, Ffynonau, Clun-view; y blaenaf oedd le genedigol Dr. Saunders, awdwr y *Short Illustrations of the Bible*. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 222*p*., ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Gangellydd. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Dewi.

**MANOR-DEILO** (Uwchaf ac Isaf), sydd ddau is-bentref yn mhlwyf Llandeilo-Fawr. Gwerth ardrethol, 2187*p*. a 1767*p*. Safant gerllaw yr afon Towy, yn swydd Gaerfyrddin. Poblogaeth, 386 a 384.

**MANORFABON**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llandilo-fawr, Caerfyrddin; ger afon Towy, dwy filltir gogledd ddwyrain o Landilo-fawr. Gwerth ardrethol, 2038*p*. Poblogaeth, 424.

**MANOROWEN**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, swydd Benfro; ar lan y mor, un filltir gorllewin wrth ddeau o Abergwaen; a thair ar ddeg gogledd orllewin o orsaf Clarbeston-road. Llythyrdy yn Abergwaen, dan Hwlffordd. Erwau, 1263. Gwerth ardrethol, 971*p*. Poblogaeth, 186. Tai. 36. Y mae y meddianau yn rhanedig rhwng amryw. *Manorowen House* ydyw palas y teulu Bowen, ac y mae yn sefyll yn agos i breswylfa Lewis, yr henafieithydd. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 86*p*., ac yn nawddogaeth Is-geiniad, a chor-beriglor Ty Ddewi. Y mae yr eglwys yn awr mewn cyflwr da.

**MILLTIR-GERIG**, sydd fwlch, neu fynedfa mewn mynydd, ar derfynau Trefaldwyn a Meirionydd, trwy y Berwyn, deng milltir gogledd orllewin wrth ogledd o Lanfyllin. Y mae heol Watling yn croesi y lle, ac y mae enw y lle yn arddangos natur ei sefyllfa.

**MINCAE**, sydd bentref yn ochr ddeheuol swydd Gaerfyrddin, pedair milltir a chwarter de ddwyrain o Gaerfyrddin.

**MOLTON**, sydd is-bentref yn mhlwyf Llancarfan, swydd Forganwg, pedair milltir a chwarter de ddwyreiniol o'r Bontfaen.

**MONCTON**, neu St. Nicholas, sydd blwyf yn nosparth a swydd Benfro, ar gilfach o hafan Aberdaugleddau, haner milltir gorllewinol o Penfro. Y mae yn cael ei rannu i "O fewn," ac "Oddi allan," ac y mae mewn rhan o fewn bwrdais Penfro. Llythyrfa yn Penfro. Erwau 4629, o'r hyn y mae 360 dan ddwfr. Gwerth ardrethol 6245*p*., o'r hyn y mae 426*p*. mewn cloddfeydd. Poblogaeth Moncton o fewn, yn 1851, 877; yn 1861, 1011. Tai, 195. Poblogaeth Moncton oddiallan, yn 1851, 668; yn 1861, 697. Tai, 140. Cododd y cynnydd yn y boblogaeth drwy helaethiad gwaith y Llywodraeth yno.

**MOOR**, sydd drefgordd yn mhlwyf Pen-ar-lâg, swydd Fflint. Erwau, 237. Gwerth ardrethol, 760*p*. Poblogaeth, 110. Tai, 23.

**MOSTYN**, sydd bentref a chapeloriaeth yn mhlwyf Whitford, swydd Flint. Saif y pentref gerllaw y traeth, ar enau yr afon Dyfrdwy, yn ymyl rheilffordd Caerlleon a Chaergybi, tair milltir a chwarter gogledd orllewin wrth ogledd o Dreffynon. Y mae yma orsaf rheilffordd, a Llythyrdy o'r enw Mostyn-Quay; a gwest-dy; ac y mae yn rhoddi y titl o Farwn i deulu Mostyn. Sefydlwyd y gapeloriaeth yn 1844. Gwerth ardrethol 10,783*p*., o'r hyn y mae 7161*p*. mewn mwnau. Poblogaeth, 1640. Tai, 343. Y mae y meddianau rhwng ychydig nifer. Mostyn Hall ydyw palas Arglwydd Mostyn; a elwid gynt Tre-fostyn; y mae yn dyddio er amser Harri VI., o adeiladaeth cynllun Tudoraidd. Oddiyma i'r coed, wrth gefn y palas, y diangodd Iarll Rismwnd, Harri VII. wedi hyny, pan yr ymlidid ef gan Rhisiard III. Y mae cynnydd mawr yn y lle hwn er yn ddiweddar, wedi codi y ffwrneisiau toddi eang sydd yno. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 300*p*., ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da Un capel perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac un Cymraeg, ac un Saesonaeg, i'r Annibynwyr.

**MOUNT-PLEASANT**, sydd le yn ochr ddwyreiniol swydd Forganwg, ar yr afon Taf, pedair milltir de dde ddwyrain o Merthyr Tydfil.

**MOYDOG**, sydd drefgordd yn mhlwyf Castell Caereinion, swydd Drefaldwyn, pedair milltir a chwarter dwyrain dde ddwyrain o Lanfair. Poblogaeth, 38.

**MOYDDYN**, sydd gantref yn ochr ddeheuol Ceredigion, yn cael ei derfynu ar y gogledd gan Ilar; ar y dwyrain gan Pennarth; ar y de gan afon Teifi, yn ei gwahanu oddiwrth swydd Gaerfyrddin; ar y gorllewin gan Droed yr aur; ar y gogledd orllewin gan feisfor Aberteifi; yn cynwys plwyf Bettws Bledrws; tri-ar-ddeg o blwyfi eraill, a rhanau o bedwar eraill; ac yn cael ei rannu i ddau ddosparth, isaf, ac uchaf. Erwau yn y dosparth cyntaf, 34,898. Poblogaeth yn 1851, 8169. Tai, 1900. Poblogaeth yr ail ddosparth, 45,486. Tai, 1495.

**MOYLGROVE**, neu Tref-gwyddel, sydd blwyf yn nosparth Aberteifi, ac yn swydd Penfro; ar lan y mor, pedair milltir gorllewin dde orllewin o orsaf rheilffordd Aberteifi. Llythyrdy yn Aberteifi. Erwau, 2442. Gwerth ardrethol, 1741*p*. Poblogaeth, 429. Tai, 94. Y mae y meddianau wedi eu rhannu rhwng amryw. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, mewn cysylltiad â ficeriaeth Bayville, yn esgobaeth Ty Ddewi.

**MOYNES COURT**, sydd balas yn ochr dde ddwyreiniol Mynwy, dwy filltir de dde orllewin o Chepstow. Adeiladwyd ef yn yr ail ganrif ar bymtheg, gan Goodwin, esgob Llandaf.

**MULE** (Y), sydd ffrwd yn swydd Drefaldwyn, yn codi yn agos i Llyngarw; ac yn rhedeg tua deng milltir yn ddwyreiniol i'r Hafren yn Abermule, yn agos i'r Drefnewydd.

**MUMBLES**, sydd bentref yn mhlwyf Oystermouth, swydd Forganwg, ar lan y mor, yn ochr orllewinol genau beisfor Abertawy, islaw mynydd uchel o galchfaen, gerllaw terfynau rheilffordd Abertawy a'r Mumbles, pum milltir a haner de wrth orllewin o Abertawy. Llythyrdy dan Abertawy; y mae yma orsaf rheilffordd; dau westy; a gorsaf warchodol glan y mor. Y mae wedi bod er ys amser maith yn enwog fel pysgodfa; ac y mae yn awr yn ymgodi i sylw fel ymdrochle; ac wedi bod yn ddiweddar yn ymloewi mewn nifer o welliannau, yn enwedig er pan ddinystriwyd yr ymdrochle yn Abertawy wrth adeiladu y borthfa llongau yno. Y mae y fan yn nodedig fel maethfa llymeirch, gyda dyfroedd o ddau wryd o ddyfnder. Y mae goleudy ar y Mumbles Head, a godwyd yn 1798, ac y mae yn 143 troedfedd o uchder, ac yn cynal llewyrch a welir o bymtheg

Digitized by Google

milltir o ffordd. Y mae llawer o feini yn cael eu cloddio yma, a gludir gyda'r rheilffordd i Abertawy.

MUNLYN, sydd drefgordd yn mhlwyf Fforden, swydd DREFALDWYN, tair milltir a chwarter gogleddol o Drefaldwyn. Poblogaeth, 40.

NANERTH, sydd drefgordd yn mhlwyf Llangerniew, swydd DDINBYCH; chwe milltir a haner gogledd ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 94.

NANERTH ROCKS, sydd le prydferth yn ochr orllewinol swydd FAESYFED, ger yr afon Wy, dwy filltir gogledd ogledd orllewin o Rhaiadr.

NANHORON, sydd le yn nherfyn Lleyn, swydd GAERNARFON; saith milltir o Bwllheli. Llythyrdy dan Bwllheli.

NANTMILL, sydd le prydferth yn ochr orllewinol swydd GAERNARFON; ger afon Gwyrfai, pum milltir a haner de ddwyrain o Gaernarfon.

NANTMOR, sydd is-bentref yn mhlwyf Beddgelert, swydd FEIRIONYDD; pum milltir a haner gogledd ogledd ddwyrain o Dremadog. Gwerth ardrethol 1072*p.*, o'r hyn y mae 20*p.* mewn mwnau, a 40*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 332.

NANTYAIN, sydd bentref yn mhlwyf Maes-Mynis, swydd FRYCHEINIOG, gerllaw Buallt.

NEACH (Y), sydd afonig yn swydd DDINBYCH, yn rhedeg i'r Gynwy, chwe milltir islaw Llanrwst.

NEFERN (Y), sydd ffrwd yn ochr ogleddol swydd BENFRO, yn codi yn mryniau y Fyrnwy-fawr; ac yn rhedeg tua deng milltir yn nghyfeiriad gorllewin wrth ogledd i'r mor yn meisfor y Casnewydd.

NEWCASTLE, sydd is-bentref yn mhlwyf Hen Faesyfed, swydd FAESYFED; tair milltir a chwarter gorllewinol o Presteigne neu Lanandras.

NEWCASTLE, sydd bentref yn ochr ogleddol swydd FYNWY, pedair milltir a thri chwarter gogledd orllewinol o Mynwy. Llythyrdy dan Mynwy. Y mae yma weddillion hen dderwen a fesurai 27 troedfedd o amgylchedd, ag a ystyrid gynt yn gysegredig; gyda gweddillion o hen amddiffynfa.

NEWCASTLE, sydd ddau is-bentref, plwyf, a chantref, yn swydd FORGANWG yr is-bentrefi ydynt Newcastle uchaf, a Newcastle isaf; gerllaw yr afon Ogwyr, a rheilffordd y Deheubarth, ac y maent yn cymeryd eu henwau oddiwrth weddillion o hen gastell sydd yno. Y mae y cyntaf yn cynwys pentrefi Abercenffig, Angeltown, a Pen-y-cae. Gwerth ardrethol y cyntaf 3443*p.*, o'r hyn y mae 2000*p.* mewn mwnau. Poblogaeth yn 1851, 714; yn 1861, 1357. Tai, 236. Cododd y cynnydd yn y boblogaeth drwy y gweithydd glo a haiarn. Gwerth ardrethol yr olaf, 1873*p.* Poblogaeth yn 1851, 714; yn 1861, 887. Tai, 192. Y mae y plwyf yn cynwys y ddau is-bentref, y rhai sydd o fewn dosparth Pen y bont. Llythyrdy dan Ben-y-bont. Erwau, 2870. Poblogaeth yn 1861, 2244. Tai, 428. Y mae y meddianau rhwng amryw berchenogion. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, unedig â churadaethau parhaol Bettws, Laleston, a Tythegstone yn esgobaeth Llandaf; gwerth 360*p.*, ac yn nawddogaeth esgob Llandaf. Y mae y cantref yn cynwys deuddeg plwyf. Erwau, 71,276. Poblogaeth yn 1851, 20,157; yn 1861. 24,575. Tai, 4771.

NEW INN, sydd le yn swydd GAERFYRDDIN, un filltir ar ddeg o Gaerfyrddin. Llythyrdy dan Gaerfyrddin; a ffair ar y 19eg o Awst.

NEW MILL, sydd bentref yn mhlwyf Llangeinor, swydd FORGANWG, pum milltir a haner gogleddol o Ben-y-bont.

NEWTON, sydd bentref yn mhlwyf Llanstadwel, swydd BENFRO; dwy filltir a haner dwyrain dde ddwyrain o Aberdaugleddau.

NEWTON, sydd bentref yn mhlwyf Manor-byr, swydd BENFRO; pum milltir a haner de orllewin o Tenby.

NEWTON (OGLEDDOL), sydd blwyf yn nosparth Narberth, swydd BENFRO; tair milltir gorllewin dde orllewin o Narberth; a phump a haner de orllewin o orsaf rheilffordd *Narberth-road.* Llythyrdy dan Narberth. Erwau, 721. Gwerth ardrethol, 544*p.* Poblogaeth, 56. Tai, 9. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol mewn cysylltiad a Slebech, yn esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yma gyflawnder o gerig haiarn; ond heb eu cloddio.

NOLTON, sydd gapeloriaeth, gyda phentref, yn mhlwyf Coyty, swydd FORGANWG, dwy filltir gogledd ogledd ddwyrain o orsaf rheilffordd Pen y bont. Llythyrdy yn Pen y bont. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â Coyty, yn esgobaeth Llandaf.

NOLTON, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, ger beisfor St. Bride, chwe milltir gorllewin wrth ogledd o orsaf rheilffordd Hwlffordd. Y mae yn cynwys pentref Drewson, a phorthfa Nolton-Haven. Y llythyrfa yw Hwlffordd. Erwau, 1504. Gwerth ardrethol, 1029*p.* Poblogaeth, 205. Tai, 40. Y mae Nolton-Haven yn is-borthladd i Penfro, lle y mae swm mawr o gwlm yn cael ei allforio. Y mae cloddfa gerig ragorol ar lan y mor. Y mae lle wedi ei gau allan a elwir Capel Druidson, yn Drewson; enw wedi ei gwtogi o Druidson. Y mae y fywioliaeth yn beriglorìaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 154*p.*, ac yn nawddogaeth yr Arglwydd Gangellydd. Y mae yma ysgol waddoledig â 38*p.* y flwyddyn.

NORTON, sydd bentref yn mhlwyf Oystermouth, swydd FORGANWG, gerllaw gorsaf rheilffordd Northon-road, pedair milltir a chwarter de orllewin o Abertawe.

NORTON, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Llanandras, swydd FAESYFED. Saif y pentref gerllaw genau yr afon Lug, ar y terfyn a Henffordd, dwy filltir a haner gogledd ogledd orllewin o Presteigne, a thair a thri chwarter de dde ddwyrain o orsaf rheilffordd Knighton; nid yw ond lle bychan, eto y mae yn fwrdais mewn enw; ac yr oedd yma gastell gynt. Cynhwysa y plwyf 3144 o erwau. Llythyrdy yn Presteigne, Maesyfed. Gwerth ardrethol, 2223*p.* Poblogaeth, 313. Tai, 58. Y prif balas yma ydyw Norton Hall. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth yn esgobaeth Henffordd; gwerth 147*p.*, ac yn nawddogaeth R. G. Price, Ysw.

OLWEN, sydd le yn ochr ddeheuol swydd ABERTEIFI, un filltir gogledd ogledd ddwyrain o Lanbedr.

OLWEY (YR), sydd afonig yn swydd FYNWY; yn codi gerllaw Trelech, ac yn rhedeg tua deuddeng milltir, gorllewin dde orllewin, heibio Llandenni, i'r afon Wysg dan Llanllywel. Croesir y dyffryn o Landenni i gymydogaeth Wysg, gan reilffordd Mynwy a Pont y pwl.

PANGWERN, sydd drefgordd yn mhlwyf Pennant, swydd DREFALDWYN; naw milltir a haner, gogledd orllewinol o Lanfyllin. Poblogaeth, 74.

Digitized by Google

**PELCWM,** sydd bentref yn mhlwyf Camros, swydd BENFRO, dwy filltir gogledd orllewin o Hwlffordd.

**PENRHYN,** sydd drefgordd yn mhlwyf Berriew, swydd DREFALDWYN: pedair milltir a thri chwarter gogledd orllewin o Drefaldwyn. Poblogaeth, 184.

**PENTERRI,** sydd blwyf yn nosparth Chepstow, swydd FYNWY; gerllaw yr afon Wy; tair milltir a haner gogledd wrth orllewin o orsaf rheilffordd Chepstow. Erwau, 479. Gwerth ardrethol, 533*p*. Tai, 9. Meddianwyr yn ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 65*p*.; ac yn nawddogaeth Penodwr Llandaf.

**PEN YR ALLT,** sydd drefgordd, yn mhlwyf Llangelynin, swydd GAERNARFON, dwy filltir de dde orllewin o Gonwy.

**PEN YR ALLT,** sydd le yn ochr dde ddwyreiniol swydd BENFRO, pedair milltir a chwarter de orllewin o Gastell-Newydd-Emlyn.

**PIBWRWEN,** sydd le yn swydd GAERFYRDDIN; ar lan afon Towy; dwy filltir deheuol o Gaerfyrddin.

**RIGWM,** sydd is-bentref yn mhlwyf Llanboidy, swydd GAERFYRDDIN, naw milltir a haner gogledd orllewin o Lacharn.

**RISCA,** neu yr IS-GAE, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Casnewydd, swydd FYNWY. Saif y pentref gerllaw afon Ebbw, camlas Crumlin, a rheilffordd Sirhowy a Casnewydd, pum milltir a haner gorllewin ogledd orllewin o'r Casnewydd; y mae yn lle cynnyddol, yn dibynu, gan mwyaf, ar weithydd glo, gwaith alcan, a fferyllion Pont-y-mistyr, a'r Tydu; y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a Llythyrdy dan Casnewydd, Mynwy. Cynnwysa y plwyf 1877 o erwau. Gwerth ardrethol 5825*p*., o'r hyn y mae 58*p*. mewn cloddfeydd, a 465*p*. mewn rheilffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 2044; yn 1861, 2744. Tai, 584. Y mae y meddiant tirawl rhwng ychydig nifer. Risca House ydyw y prif balas. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth yn esgobaeth Llandaf; gwerth 102*p*., ac yn nawddogaeth ficar Basaleg. Y mae yma addoldai gan y gwahanol enwadau crefyddol.

**RYTHIN,** sydd is-bentref yn mhlwyf St. Mary's Hill, swydd FORGANWG, pedair milldir a chwarter gogledd orllewin o Pont y fon.

**TRECASTELL,** sydd is-bentref yn mhlwyf Llandilo-fawr, swydd GAERFYRDDIN, gerllaw Llandilo-fawr. Gwerth ardrethol, 1153*p*. Poblogaeth, 378.

**TREFRIW** (FFYNNON FWNEIOL), a elwir gan rai, "Ffynnon y Cae Coch," sydd yn gorwedd oddeutu milldir a haner o'r pentref, ar y llaw aswy i'r briffordd i Gonwy. Y mae yn anhawdd penderfynu gyda dim sicrwydd, pa bryd, neu pa fodd, y darganfuwyd ansoddion meddygol y dwfr hwn. Dywaid un Ysgrifenydd, eu bod wedi eu darganfod tua haner can mlynedd yn ôl, a hyny yn ddamweiniol. Boneddwr, a fuasai allan gyda mintai o gymdeithion yn saethu, a aeth i dorri ei syched trwy yfed dwfr o ffrwd fechan, ychydig goris y lle y darganfuwyd y ffynnon; gan yfed yn lled helaeth o hono yn angerddolder ei syched, cyn sylwi fod blas dyeithriol ar y dwfr. Dylynwyd y weithred fyrbwyll hon yn fuan, âg arwyddion brawychus, a bu yn agos iawn iddo golli ei fywyd. A hyn a arweiniodd yn naturiol i archwiliaeth o'i natur, a'i gyfansoddiad, pan y canfuwyd, wedi dadansoddiad gofalus, ei fod yn meddu priodolderau meddygol cryfion. Er hyny buwyd yn edrych ar y dyfroedd hyn gyda gradd helaeth o ofn dros amser, fel mai yr unig ddefnydd o'r bron a wnelid o honynt, ydoedd yn allanol, er gwellau y gymmalwst, &c. Ond erbyn hyn, y mae gwyddonaeth wedi dwyn ei llusern werthfawr i daflu ei goleuni llachar i hen ogof y Cae Coch, fel y mae ei dwfr eisoes wedi cyrhaedd bri tra uchel yn nhriniaeth anhwylderau perthynol i'r gewynau, ac i'r cylla, ac anhwylderau y mae benywod yn neillduol yn ddarostyngedig iddynt. Y mae gweithrediad iachäol y dwfr hwn yn gryfhäol, a bywioccaol; ac yn meddu cyfaddasrwydd arbenig i wellau hen anhwylderau. "Dylanwada yn union-gyrchol, ac yn arbenig, ar y gewynau perthynol i'r ysgyfaint, a'r gewynau mawrion cyd-oddefol, y rhai pan fyddont wedi gwanhau a llacio, y mae yn eu cryfhau, ac yn eu bywiogi; a thrwy hyny y mae yn cynnorthwyo y cyfnewidiadau bywydol a fferyllaidd hyny sydd yn myned yn mlaen yn y cylla a'r ymysgaroedd, mewn cyssylltiad â'r ymborth;—yn yr ysgyfaint a'r chwarenau mewn cyssylltiad â'r gwaed;—ac yn y cyfansoddiad yn gyffredinol, trwy ei waith yn cyfaddasu y gwaed," &c.

"Y mae dwfr mwneiol Trefriw, yn cynnwys llyneiddiad cryf o ufelgris haiarn, (*sulphate of iron*,) ufelgris allog, (*sulphate of alumina*,) a rhyw gymaint o ufelgris calch, magnesia, a soda; swm mawr o *silica*, neu gelltegrid, ac ychydig o galchlasnur. (*chloride of lime*). Y mae yn dra thebyg, (ond yn llawer rhagorach,) i'r Ffynnon Fwneiol hynod yn Sandrock, yn Ynys Gwyth, (*Isle of Wight*), yr hon a ganmolir mor fawr gan lawer o feddygon enwog, yn mysg y rhai y mae Dr. Lampriere, Dr. Saunders, Dr. Latham, Dr. Young, Dr. Calvert, a Syr Charles Scudamore.

Am natur y dyfroedd hyn, y mae meddyg galluog o'r gymmydogaeth, yn ysgrifenu fel y canlyn:—"Y mae tair ffynnon o'r dwfr; un gyferbyn a'r fynedfa i mewn, un ar yr aswy, ac un ar y llaw ddehau: ond yn ddiweddar, y mae y cawg yn y toriad ar yr aswy, a'r un yn y toriad gyferbyn a'r fynedfa i mewn, wedi cael eu gwneyd yn un, a'u cau oddiwrth y goleuni, trwy fod mur wedi ei adeiladu ar draws, o'u blaen. Y mae dau ddwfr felly yn awr; a'r ddau yn cael eu hamddiffyn yn weddol dda oddiwrth y goleuni, a'r awyr, ac o ganlyniad felly yn eu cyflwr goreu. Y maent yn gwahaniaethu yn ddirfawr yn nghyfartaleddau eu gwahanol ddefnyddiau mwneiol, ac o ganlyniad, yn eu priodoleddau meddygol: ac y mae eu galluoedd iachaol yn gyfryw ag a allesid ddysgwyl oddiwrth eu cyfansoddiad—y prif elfenau ydynt haiarn, sulphur, alumina, calch, silica, magnesia, a soda. Nid yw y celltfaen, neu y *silica*, ond yn unig wedi ei doddi; ond y mae y lleill wedi eu cyfuno yn fferyllaidd, fel ag i ffurfio ufelgris haiarn, (*copperas*,) ufelgris magnesia, (*Epsom salts*,) ufelgris soda, (*Glauber salts*,) ufelgris alumina, (*alum*,) ac ufelgris calch, (*gypsum*,) fel y dangosir yn y dosraniad canlynol, yr hwn a wnaed gan Dr. Hassall, o Lundain, enw yr hwn yn unig sydd yn ddigon o sicrwydd am eu cywirdeb, a'u perffeithrwydd. Yr oedd y dwfr a ddosranwyd wedi ei botelu genyf fi fy hun yn y ffynnon, ac anfonwyd ef yn syth i Dr. Hassall, wedi ei gorcio a'i selio yn ofalus, yn gynar yn mis Medi, 1871. Yr oedd y tywydd wedi bod yn wlyb anarferol yn ystod yr haner olaf o fis Gorphenaf, ac yn sych yn ystod yr haner cyntaf o fis Awst.

Digitized by Google

"DOSRANIAD DYFROEDD FFYNON FWNEIOL DYFFRYN CONWY.

| | Rhif. 1. A ddefnyddir i'w yfed. Tymhered yn y Ffynon, 48 gradd F. | | Rhif. 2 A ddefnyddir at ymdrochi. Tymheredd yn y Ffynon, 50 gradd F. |
|---|---|---|---|
| Protoxide Haiarn... | 180·85 | ........ | 81·11 |
| Alumina........... | 14·73 | ........ | 10·20 |
| Magnesia........... | 5·30 | ........ | 6·94 |
| Soda................ | 1 44 | ........ | 2·38 |
| Calch............... | 11·42 | ........ | 13·70 |
| Manganese.......... | Olion | ........ | Olion |
| Sulphuric Acid..... | 263·20 | ........ | 149·83 |
| Chlorine............ | 0 76 | ........ | 0·53 |
| Silica............... | 10·43 | ........ | 11·74 |
| | 488·13 | | 276·43 |

Y canlyniadau uchod yn gyfunedig fel y canlyn:—

| | Rhif. 1. | | Rhif. 2. |
|---|---|---|---|
| Protosulphate Haiarn .. | 381·80 | ........ | 171·25 |
| Sulphate Alumina...... | 40·05 | ........ | 33 96 |
| " Magnesia...... | 15·90 | ........ | 20·82 |
| " Soda.......... | 3·29 | ........ | 5·45 |
| " Calch.......... | 26·32 | ........ | 32·28 |
| Chloride Calch......... | 1·18 | ........ | 0·82 |
| Silica ................. | 10·43 | ........ | 11·74 |
| Manganese a cholliant.. | 0·16 | ........ | 0·11 |
| | 488·13 | | 276·43 |
| Sulphate Crisialog Haiarn, y galwyn .... | 698·28 gronyn. | | 313·19 gronyn. |
| Sulphate Crisialog Alumina, y galwyn .... | 95·58 " | | 66·05 " |
| Sulphate Crisialog Haiarn, yr owns .... | 4·36 " | | 1·95 " |
| Sulphate Crisialog Alumina, yr owns .... | 0·59 " | | 0·41 " |

Canfyddaf nad oes digon o sulphate soda i gyfuno a'r sulphate alumina i ffurfio soda "alum:" pe buasai yno ddigon, buasai y sulphate alumina yn gyfartal i—

| | Rhif. 1. | Rhif. 2. |
|---|---|---|
| Sulphate Crisialog Alumina a Soda (Alum, y galwyn) .... | 131·18 gronyn. | 90·82 gronyn. |
| Eto, yr owns.............. | 0·81 " | 0·56 " |

"ARTHUR HILL HASSALL, M.D.

"LLUNDAIN, *Medi* 22, 1871."

Y dosraniadau hyn a ddangosant fod y dyfroedd yma yn gyfoethog iawn mewn defnyddiau mwneiol:—fod pob llonaid gwin-wydr o Rhif. 1, er enghraifft, yn cynnwys oddeutu chwe gronyn a haner o nawsiant mwneiol sych, agos i dair rhan o bedair o'r hwn sydd *proto-sulphate of iron* sych. Y mae pob llonaid gwin-wydr o'r dwfr yma, gan hyny, yn cynnwys (heblaw Epsom salts, Glauber salts, gypsum, silica, manganese, a chalch) *agos i naw gronyn o* PROTOSULPHATE CRISIALOG HAIARN; ac *yn agos i un gronyn a chwarter o* SULPHATE CRISIALOG ALUMINA: ac y mae y mwneion hyn yn llyneiddiedig, yn y cyflwr man-ranol mwyaf bychanigol, ac o ganlyniad gallant fyned i mewn i'r gwaed-lestri lleiaf, a chael eu cario hyd yn nod i greiddiau celloedd y *tissues*, yno i roddi eu dylanwad ar waith yn ffurfiad y gynfold (*photoplasm.*)

O herwydd y swm mawr o alumina sydd mewn un, a'r swm mawr o fagnesia sydd yn y llall, er mwyn gwahaniaethu, gellid galw Rhif. 1—"Y Dwfr Durol Aluminaidd;" a Rhif. 2—"Y Dwfr Durol Magnesaidd." Y mae y dyfroedd Rhif. 2, neu, y Dwfr Durol Magnesaidd, yn cael ei ddefnyddio yn gwbl at ymdrochi; a'r Rhif. 1, at ei yfed: ond y gwir yw, nid yw yn angenrheidiol nac yn ddoeth, cyfyngu eu cymhwysiad felly. Y mae Rhif. 2 yn fwy cyfaddas na Rhif. 1 at ei yfed mewn rhai amgylchiadau; ac mewn llawer o anhwylderau, gellir cymhwyso Rhif. 1 yn allanol, yn fwy llwyddianus na Rhif. 2. Mewn rhai achosion o ddiffyg treuliad, *water-brash*, gwyntogrwydd, rhyddni, a rhwymedd, er enghraifft; ac mewn rhai o'r anhwylderau a darddant oddiar wenwynau mwneiol, deuir yn mlaen yn llawer gwell trwy ddefnyddio y Rhif. 2 yn allanol, yn hytrach na Rhif. 1, tra y mae llawer o anhwylderau croenawl, y canlyniadau i gystuddiau llymion, neu, i wenwyn mwneiol, yn cael eu gwellau yn llawer cyflymach pan y mae Rhif. 1, yn cael ei ddefnyddio yn allanol.

Y mae y dyfroedd hyn yn dra darostyngedig i ddylanwad awyr a goleuni, o'r hyn y gall yr annghyfarwydd gael prawf yn y gwahaniaeth amlwg a genfydd yn mlâs y dwfr wedi ei fod allan o'r graig hyd yn nod am ychydig fynydau; gan hyny ni ddylid eu gwneyd yn agored i awyr a goleuni ar un cyfrif, cyn eu defnyddio; a dylai pob goddefydd a allo, fyned at y ffynon i'w yfed, cyn ei ddwyn dan ddylanwad awyr a goleuni. Ond, er cysur i'r rhai na's gallant gyrhaedd yno, gellir sylwi, os bydd i'r dwfr gael ei botelu yn y ffynon, lle na byddo unrhyw oleuni heblaw goleuni canwyll, ac i'r poteli gael eu llanw hyd yr ymylon, a'u corcio tra yn suddedig yn y dwfr, ac yna rhoddi papur yn blygedig am danynt; gellir eu cludo ymaith, a'u trosglwyddo i unrhyw le a fyner; a'u cadw hefyd, braidd am yr amser a fyner; ond, pan agorir hwynt unwaith, dylid eu hyfed yn uniongyrchol; canys ar yr amlygiad lleiaf i'r awyr a'r goleuni, y mae dadansoddiad yn cymeryd lle; ac yn mhen yspaid byr, y mae yr haiarn yn rhydu, gan newid ei liw, o'r *oxide* gwyrdd, i'r gwineu; ac yn ymwahanu, gan adael ar ol ddim ond alum, a halion eraill, mewn cyflwr toddedig. Y mae poteli âg ystopellau gwydr yn llawer gwell na'r rhai gyda chyrc.

Dylid yfed dyfroedd Trefriw wrth y ffynon, fel y sylwyd yn barod; ar gylla gwag, neu yn agos felly. Y nifer lleiaf o ddognau yn ystod y dydd, ydyw *un;* a'r nifer mwyaf, ydyw *pump.* Llonaid gwin-wydr, hyny ydyw, dwy owns, ydyw y dogn mwyaf y dylai neb anturio ei gymeryd: ac yn gyffredin, ni ddylai neb gymeryd mwy na haner hyny; ac ni ddylid cymeryd hyny yn fynychach na phedair gwaith yn y dydd. Cofier fod llonaid gwin-wydr o'r Rhif. 1, yn cynwys agos i naw gronyn o *sulphate* haiarn crisialog—vitriol gwyrdd, copperas; o leiaf gymmaint ddwy waith o ddogn ag a gynghorir yn y llyfrau meddygol. Beth gan hyny a fuasai y canlyniad o yfed tua haner peint ar ddogn, yn cynwys tua phum gronyn a deugain o copperas? Efallai y buasai yn profi yn angeuol i'r yfwr! Heblaw hyny, addefir yn gyffredin fod cyfferi toddedig mewn dyfroedd meddygol, yn gweithredu yn fwy nerthol na phan wedi eu parottoi gan law celfyddyd.

Fel rheol gyffredin, y dull goreu, pan gymerir ef yn unig fel Dwfr Durol, ydyw cymeryd dwy neu dair llonaid llwy dê fel dogn; ac am yr wythnos gyntaf, un ddogn rhwng boreu-fwyd a chiniaw, ac un arall rhwng ciniaw a thê; am yr ail wythnos, cymeryd dogn hefyd cyn boreufwyd; ac am y drydedd wythnos, dogn rhwng amser tê a swper, a pharhau i yfed y swm hwn, yn y mynychdra yma, am un, dwy, neu dair wythnos; ac yna, dychwelyd trwy yr un graddau i'r dogn lleiaf. Bydd i hyn ffurfio "cwrs" cyflawn, ac oddieithr mewn amgylchiadau neillduol, nid yw yn angenrheidiol iddo fod yn

Digitized by Google

hirach; ac anaml y dylai fod yn fyrach. Os bydd y claf yn ei deimlo ei hun yn waeth yn lle yn well ar derfyn yr ail wythnos, efe a all benderfynu nad y dwfr hwn yw y cyfferi iddo ef, a dylai beidio ei gymeryd.

WILLIAMS, Parch. Morris, A. C. (*Nicander*), ydoedd weinidog perthynol i Eglwys Sefydledig Lloegr, yn Llanrhuddlad, Llanfflewyn, a Llanrhwydrus, yn swydd Fon. Yr oedd wedi enill iddo ei hun radd dda yn mhlith ei frodyr yn y weinidogaeth, ac yn ngolwg y cyhoedd, fel bardd a llenor. Bu farw ar y trydydd dydd o Ionawr, 1874, yn bedair blwydd a thri-ugain oed. Yr oedd efe yn un o'r nifer o ysgolheigion Cymreig a hynodasant eu hunain am eu gallu llenyddol yn Eifionydd, tua'r tymor a ddechreuai gyda y ganrif hon; ac a barha hyd y ddyddiau hyn. Hanai o deulu awenyddol o du ei fam. Ei daid William Jones, neu William Jesse, fel ei gelwid ef yn fynych, o'r Coed-cae-bach, plwyf Llangybi, ydoedd henafgwr parchus, a phrydydd parod. Ysgrifenodd ei wyr, gwrthddrych yr erthygl hwn am dano, fel y canlyn; "Bu am tua deugain mlynedd yn flaenor Cymdeithas gyda y Methodistiaid Calfinaidd: ei brif nodwedd fel y cyfryw, oedd ei lymder a'i ddibartïaeth fel dysgyblwr; yr oedd yn enwog yn hyn drwy y sir. Yr oedd yn gantor gwych, ac yn deall egwyddorion peroriaeth yn dda. Yr oedd yn ddyn o cangach gwybodaeth na'r cyffredin yn ei sefyllfa ef; ac yr oedd yn nodedig am ei ffraethineb, a chyflymder ei atebion mewn ymddiddan. Bu farw yn 1812, yn 79 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llangybi; nid yn mhell o'r fan lle y gorphwys corph Dewi Wyn o Eifion." Y mae ar gael ddernyn tlws o waith barddonol William Jones, a alwai "Cân Henaint," a gyfansoddwyd ganddo tua y flwyddyn 1784. Mab i'r hen bererin hybarch hwn ydoedd Pedr Fardd, yr hwn ydoedd yn dra adnabyddus yn mysg Cymry Llynlleifiad; ac yr oedd yn dad y farddones enwog Eunice Jones. Dywedai Pedr Fardd yn ei "Gywydd Anerch Dewi Wyn, a Robert ab Gwilym Ddû:"—

"Rhyw anghelfydd brydydd brau,
O Eifionydd wyf finau;
Fe'm ganwyd o fam gynil,
O fewn hon, wyf un o'i hil;
A phrydydd hoff ei rediad,
Addfwyn o hon oedd fy nhad."

Chwaer Pedr Fardd ydoedd Sarah, mam Mr. Williams. Diameu i'w ewythr fod yn gynnorthwy ac arweinydd iddo yn ei lafur awenyddol. Yr oedd yr ewythr yn seren ddysglaer, ond daeth y nai yn oleuad dysgleiriach yn y ffurfafen deuluol, ac a enwogodd dylwyth Coed-cae-bach dros byth. Yr oedd enwogrwydd yr ewythr yn ddysglaer, ond yr oedd gogoniant y nai yn ddysgleiriach. Rhoddodd y naill a'r llall fri anfarwol ar ardal wledig Brynengan a phlwyf amaethyddol Llangybi. O du ei dad, William Morris, deilliai Mr. Williams o hen deulu parchus a syml Pentyrch Uchaf. Prif nodwedd y tylwyth hwn ydoedd tueddiad crefyddol, yn hytrach nag athrylith a dawn. Yr oedd Sioned Huws o Bentyrch, yn hen gymeriad gloew. Tybir mai chwaer iddi ydoedd Lowri Huws o'r Bryn-bychan, yr hon oedd hen wreigan dda ei gair, a nain Mr. J. W. Jones, Golygydd y "*Drych*," un o newyddiaduron y Cymry yn yr Amerig. Claddwyd Sioned Huws, a Morris Williams ei gwr, yn mynwent Llangybi. Eu mab, William Morris, tad gwrthddrych ein cofiant, a gladdodd ei anwyl wraig Sara, yn eu beddrod hwy, ond efe a gladdwyd yn Llanrhuddlad, yn swydd Fon; ac fel hyn y cyfansoddai ein bardd, mewn cyfeiriad at y rhai ymadawedig:—

"Mewn dwy oror maent yn gorwedd,—ynghyd,
Yn nghadwyn tangnefedd;
Diau i fyw, o'u dau fedd,
Y deuant yn y diwedd."

Maethwyd Mr. Williams, fel y gwelir uchod, mewn awyrgylch awenyddol. Rhaid addef fod dylanwad y cylch y troir ynddo, yn llawer mwy na dim a ellir ei etifeddu yn rhinwedd gwaedoliaeth ac achau. Y mae yr ystyriaethau hyn yn awgrymiad am y modd ag yr oedd amgylchiadau yn rhoddi cyfeiriad i dueddfryd y bardd yn ei ieuengctid. Trodd mewn cylch awenyddol o'i febyd i'w. fedd. Rhoddwyd iddo addysg farddonol yn foreu; cafodd feithriniad bardd o'i ddygiad i fynu, i'w wrolaeth; a chyrhaeddodd raddau prif-fardd cyn diwedd ei oes. Y mae Eifionydd wedi bod yn faethfa i nifer mawr o feirdd a llenorion o'r dosparth uwchaf. Y mae cyfeiriad atynt mewn adgof tarawiadol iawn, gan Robert ab Gwilym Ddu:—

"Pedr Fardd, pa awdwr a fu,
Mwy anwyl i emynu?
Sai' ei glod ansigladwy;
Bro Gwynedd ni fedd ei fwy.
Bri ar feib Eryri fydd,
Fe anwyd yn Eifionydd;
Dyn anwyl dan eneiniad
Yn ol dull ei anwyl dad;
Canllaw beirdd, canwyll o'i ben
I filoedd, ei 'Fel Awen.'"

Gellid cyfeirio at nifer yn ychwaneg, megis Richard Jones, o'r Wern, yr hwn oedd fab i John Prichard, Coed-cae-du, ydoedd yntau emynydd gwlithog, a llenor trylen:—yn mhenty bychan Tanlan, nid yn mhell o Langybi, y ganwyd Eben Fardd, yr hwn oedd Fardd o enwogrwydd mawr pan y dechreuai Williams flaguro yn y byd barddonol: cymydogion cyfagos, ac athrawon noddawl iddo hefyd, ydoedd Dewi Wyn; R. ab Gwilym Ddu; Sion Chwilog: ac Elis Owain, Cefn-y-maesydd. Diameuol yw y bu i hen Gymdeithas Gymroaidd Eifionydd, fod yn foddion effeithiol i ddwyn ei awen a'i athrylith i amlygrwydd ac ymarferiad. Mewn un o'r cyfarfodydd perthynol i'r Gymdeithas hon, cafwyd anerchiad gan Eben Fardd, "Wedi i mi," medd Eben, "ddarllen yr anerchiad yn lled yswil a chrynedig, dyma alwad ar Morris Williams i draddodi araith; ac i fynu ag ef mewn mynud wrth y tan; yn llefnyn gwridgoch pur hyderus, a thraethodd ei gyfarchiad yn bur lithrig a boddhaol: hwn a ddaeth mewn amser yn "Nicander" y Cymry, ac nid wyf yn gwybod am neb o'r aelodau wedi myned byth uwch "bawd sowdwl" mewn llenyddiaeth a bri, ond efe." Mewn nodiadau ar lith Eben yn nghylch hen Gymdeithas Lenyddol Eifionydd, ysgrifenai Nicander:—"Mor hyfryd yw eich cofion am y Cymdeithasau Cymroaidd yn Eifionydd! Mel ar fy mysedd yw eu hadgofio; ac adgofio ynddynt fy hen athraw, Phylip Watcyn, a'm hen gyfaill, Dafydd Llwyd, ac un arall oedd i mi yn athraw ac yn gyfaill hefyd, Elis Owain o Gefn-y-maesydd. Mae blas yr hen Gymdeithasau

Digitized by Google

Cymroaidd yn beraidd ar daflod fy ngenau hyd heddyw. Ond wrth ddywedyd nad oes neb o'r aelodau ddim wedi dyrchafu mewn bri ond Nicander, anghofiasoch fod un o honynt, wedi dychafu yn mhell tu hwnt iddo ef; sef Bardd y Tair Cadair—Eben Fardd, Prydain Fawr!" Tu a'r flwyddyn 1827, cawn Morris Williams yn dechreu tori ffugr yn y byd barddonol, trwy gyhoeddi "Awdl ar y Pedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod, defnyddiau yr hon ydynt enwau priodol o'r Ysgrythyr, wedi ei chyfansoddi er difyrwch i hoffwyr yr awen, gan fardd ieuangc o Eifionydd." Ymddangosodd y dernyn cywrain hwn yn y "Gwyliedydd." Rhydd yr engraifft hwn o'r caethaf o'r mesurau, sef "cadwyn fer," ryw awgrym i'r darllenydd o natur yr orchest:—

"Selec, Iron, Salu, Cora,
Assir, Siba, Isar, Sehon,
Melci, Amnon, Milca, Imna,
Silem, Hogla, Salum, Eglon,"

a therfyniad yr orchest awdl ydoedd "Meros, Hela—Morris William," sef nai Pedr Fardd. Tynodd yr awdl ryfedd hon sylw Dewi Wyn o Eifion, a chanfyddodd ar unwaith y "gellid bardd" o'r bachgen: a dyma ei farn am dano, a gyfansoddwyd yn mhen blynyddoedd ar ol hyny:—

Morus William yw'r Selef,—yr Heman,
A'r Homer digyfr ef;
Difeth un, dau o'i fath ef,
A wnai Wynedd yn wiwnef.

Morus sy'n Forus anfarwol,—Morus
Sy'n un mawr rhyfeddol,
Ni fydd ei enw ef yn ol,
Ond Morus anghydmarol.

Dywedir i Dewi wneud cais i ddwyn Morus i sylw Parry o Gaer, noddwr talent ac athrylith am amser maith, ond ni bu yn llwyddianus yn yr amcan. Yn 1830, cawn Morris Williams yn ngwasanaeth Robert Roberts, Dolmelynllyn; a bu ef, a'i frawd John, yn athrawon barddonol medrus iddo. Yr oedd Robert Roberts yn hoff iawn o feirdd a barddoniaeth; arferai gyfeillachu âg Alun, Ieuan Glan Geirionydd, ac enwogion eglwysol eraill. Dygodd Morris Williams i sylw Ieuan, a'r canlyniad a fu, iddo gael myned i Ysgol Ramadegol Caerlleon, er ei barotoi gogyfer a hyfforddiant pellach yn Rhydychain, gyda golwg ar ei godiad i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig. Bu Ieuan yr ofalus am dano tra y bu yn ninas Caer, lle y treuliodd beth amser i bwrpas, nes dyfod ei gynnydd yn eglur i bawb. Rhoddodd foddlonrwydd mawr i'w noddwyr caredig oll, tra y bu yn yr ysgol. Cawn fyr ddesgrifiad o ddyddiau ei ysgolaeth gan Nicander ei hunan, mewn llythyr a ysgrifenodd at ei hoff gyfaill, Eben Fardd, o Glynnog Fawr:—"Wyddoch chwi beth!—pan oeddwn yn Nghaerlleon yn yr ysgol, cyn myned i'r Coleg, bu'm yn lletya am tua blwyddyn a haner yn nhy Cadben Owen a'i wraig, Mrs. Owen: yr oedd hi yn nith o ferch chwaer i'r hyglod Huw Jones, o'r Maesglasau, cyfieithydd Josephus i'r Gymraeg. Yr oedd iddynt ddau o blant gartref, un o'r enw Jane, geneth gall a hardd o bryd, o dair-ar-ddeg i bymtheg oed: mae hon yn fyw ac yn iach, ac wedi priodi yn barchus a chysurus. Y llall oedd fachgen o'r enw John, o wyth i ddeg oed. Yr oedd John a minau yn hoff iawn o'n gilydd; byddwn i yn chwareu cwrs byd âg ef, ac yn dysgu ambell wers iddo ganol dydd, i'w hadrodd yn yr ysgol y prydnhawn. Y bachgen anwyl hwnw, yw Owain Alaw. Yr oedd Huw Jones o'r Maesglasau, yn ewythr i Mr. John Owen (Owain Alaw), o frawd ei nain. Yr oedd y nain honno yn byw yn y teulu pan oeddwn i yno; hen wraig grefyddol ac addfwyn; llawer cyngor da a hyfforddiol a gefais ganddi, a llawer gweddi a weddiodd hi drosaf. Mae yn hyfrydwch i mi gael y cyfle hwn, i grybwyll yn hoff am y teulu hwn, y rhai a ddangosasant gymaint o garedigrwydd tu ag ataf pan oeddwn gyda hwynt, o saith i naw mlynedd ar hugain yn ol," wrth gyfrif o 1860.

Yr ydym yn awr, wedi gwneud rhai cyfeiriadau at ddyddiau boreuol Mr. Williams, a'i godiad graddol i sylw y byd llenyddol; a dichon y dylid dilyn gydag ychydig nodiadau at ei oes o enwogrwydd a defnyddioldeb. Yn 1830 daeth yn aelod yn Athrofa yr Iesu, yn Rhydychain, ac yn ysdod y pedair blynedd y bu yn efrydydd yno, ymddengys iddo arfer yr un diwydrwydd ac ymroddiad penderfynol yn ei addysgiaeth, ag a wnaethai yn ysgol Ramadegol Caerlleon, fel y rhoddodd foddlonrwydd mawr i'w athrawon. Wedi derbyn ei raddiad yn y Coleg, a'i urddo i'r weinidogaeth, daeth yn gurad i Dreffynon, ac y mae ei gofion yno yn barchus iawn hyd y dydd hwn. Wedi bod yno am bedair blynedd, yn y flwyddyn 1838, pan yr oedd yn 29 mlwydd oed, efe a symudodd i Bangor, a bu yn gurad y plwyf gyda chapeloriaeth Pentir, a bu yn gwasanaethu yno am chwe mlynedd. Yn ysdod y tymor hwn, ymroddodd i astudio barddoniaeth, a llenoriaeth yn gyffredinol, yn gystal a'i ymgyflwyniad ffyddlon i wasanaeth yr eglwys; ac ysgrifenodd amryw draethodau i ledaenu egwyddorion eglwysol yn y wlad. Wedi gwasanaethu fel curad dan y Deon Cotton am tua dwy flynedd yn Llanllechid, efe a benodwyd gan yr Esgob Bethel, i guradaeth barhaol Amlwch yn Mon. Yr oedd hyny yn 1846, ac yr oedd erbyn hyn wedi ymgodi i uchder ei boblogrwydd, er nad oedd dros 37 mlwydd oed. Tua'r amser hwn y cyhoeddodd ei "Flwyddyn Eglwysig," yr hon a ystyrid yn dra phoblogaidd. Dilynwyd y gwaith hwn yn fuan gyda ei gyfieithiad o'r *Llyfr o Homiliau, Learn to Live*, gan Dr. Sutton; cyfieithiad o'r Salmau ar Gân, &c., y rhai a gyhoeddwyd dan nawdd y pedwar esgob. Yn 1849, ar y dydd cyntaf o Fedi, enillodd y Gadair Farddol, gwrthddrych penaf uchelgais Llenoriaeth Gymreig, yn Eisteddfod Genedlaethol Aberffraw: y testyn oedd "y Greadigaeth;" a dyma yr amser y defnyddiodd "Nicander," yn ffug-enw, yr hwn a ddaeth yr enw barddonol adnabyddus iddo, yn lle "Meirig ab Cybi," yr hwn a arferai yn flaenorol. Nid oedd y beirniaid yn cyd-uno yn eu barn ar y cyntaf, ond penderfynwyd yn y diwedd o blaid Nicander, a chadeiriwyd ef yn y drefn arferol. Yr oedd yn gyd-feirniad â Chaledfryn ac Eben Fardd yn Eisteddfod Tremadog, yn 1851. Yn 1854, pennodwyd ef yn olygydd argraphiad Rhydychain o'r Bibl Cymraeg; ac o argraphiad plyg mawr at wasanaeth y llanau. Yr 1858, yr oedd yn gyd feirniad â Hiraethog yn Eisteddfod Llangollen; lle yr enillodd ei hun ar y Bryddest ar Brennus. Yn 1860, enillodd ar y Bryddest ar yr Eneiniog; yn Eisteddfod Dinbych; ac yn 1861, enillodd y Gadair yn Eisteddfod Aberdar, ar "Genedl y Cymry." Cwynid mewn canlyniad i'r olaf, am na chyhoeddasid y Feirniadaeth. Yn 1862, enillodd y Wobr am y Bryddest

Digitized by Google

oreu ar Moses. Yn 1865, cyhoeddid mai yr eiddo ef oedd yr Awdl oreu ar destyn y Gadair yn Aberystwyth, ond ni wobrwywyd neb yno, am y bernid nad oedd yr un cyfansoddiad yn y gysdadleuaeth o deilyngdod digonol i'r anrhydedd. Bu Nicander yn beirniadu amryw weithiau yn Eisteddfodau y Gordofigion, yn Llynlleifiad. Y mae ei gyfieithiad o *Chwedlau Aesop*, yn dangos medrusrwydd mawr. Ysgrifenodd lawer i'r Cyhoeddiadau Cyfnodol, ac i'r Newyddiaduron. Ysgrifenodd gyfres o Englynion, ar wahanol bynciau, i'r Cyhoeddiadau: yr oeddynt yn anghysylltiedig a'u gilydd, fel sypynau o flodau gwylltion ymylon y ffordd, ar lethr y mynydd, o bob lliwiau, rhai yn dlysion iawn, a'r lleill yn llwydion eu gwedd, erbyn eu casglu yn nghyd i wneud un blodeuglwm. Yn nghyfarfod y Beirdd yn Eisteddfod Llanerchymedd, anghytunid a'i sylwadau ar un gynghanedd neillduol, yr hyn a fu yn achlysur o gryn drafodaeth. Yr oedd ef yn feirniad yr Eisteddfod, ac yr oedd dau o'r ymgeiswyr ar yr Englyn ar y *Cwmpawd*, wedi defnyddio llinellau tra thebyg i'w gilydd, yn rhedeg yn debyg i'r hyn a ganlyn:—

"Dros don, pe drysid anian,"

yr oedd Nicander yn ei chondemnio, gyda dywedyd fod "proest i'r odl" ynddi, a gofynwyd am farn y beirdd oedd yn bresenol ar y pwnc, a'r penderfyniad unfrydol yno oedd, ei bod yn gywir, gan mai cynghanedd "groes ddisgynedig" ydoedd. Nid oes neb na addefa fod Nicander yn un o ragorolion y genedl: os nad oedd ei dalent o'r radd uwchaf, dangosodd ymroddiad diorphwys mewn llafur a phenderfyniad, a chyrhaeddodd i'r dosparth uwchaf fel llenor a bardd, yn ol dyfarniad y cyhoedd. Nid oedd yn dysgleirio nemawr ar fanllor yr Eisteddfod, fel areithiwr, oblegid fod ei draddodiad weithiau yn afrwydd, a'i olygiad yn wledig. Wedi y cyfan, a rhoddi pob peth at eu gilydd, fel ysgrifenydd yn y wasg, y llewyrchai fwyaf dysglaer, ac nid yn yr areithfa fel pregethwr. Gadawodd ar ei ol weithiau a sicrha iddo enw cyhyd ag y byddo Cymraeg yn cael ei darllen. Y mae adgofion am ei ddercha'iad o sefyllfa led ddi nod, i eistedd yn y prif gadeiriau, yn anogaeth galonog i'n gwyr ieuaingc yn awr i ymroddi mewn llafur; a gosod iddynt eu hunain nod digon uchel, a phenderfynu, gan fod eraill, mewn cyflwr cyffelyb, drwy ymdrech penderfynol, wedi gorchfygu pob rhwystrau, trwy fyrdd o anfanteision, a thori trwy bob anhawsderau nes cyrhaedd y nod, y mynant hwythau ddilyn eu hol, ac etifeddu yr un tir! Dangosodd Nicander gryn ffyddlondeb fel pleidiwr Eisteddfodau, drwy roddi ei bresenoldeb ynddynt. Y mae rhai yn cael eu penodi yn feirniaid, a hwythau yn derbyn y swydd, ond ni welir eu wynebau yno ar unrhyw bryd. Os oes gorseddau i fod ynddynt, wrth reswm, y prif feirniaid a ddylai lywyddu, a chefnogi y sefydliad. Yr oedd Caledfryn o'r farn, ei fod yn sarhad ar gynulliad y beirdd, i gadw draw, ar bob achlysur o'r cyfarfodydd: pwy ond beirniaid a ddylai ddarllen eu dedryd yn y lle, ac ar y pryd, a thrwy eu gwedd a'u gwyddfodaeth, i roddi anrhydedd ac awdurdodiad i'r holl weithrediadau.

Y DIWEDD.

GLASGOW: W. G. BLACKIE AND CO., PRINTERS, VILLAFIELD.

Digitized by Google

6 *Paternoster Buildings, London, E.C.*

*BOOKS PUBLISHED BY*

# *Blackie & Son.*

*LONDON, GLASGOW, AND EDINBURGH.*

Complete in 36 parts, super-royal 8vo, at 2*s.* each; or in 4 handsome volumes, cloth extra, £4.

## The Comprehensive History of England,

CIVIL AND MILITARY, RELIGIOUS, INTELLECTUAL, AND SOCIAL. From the Earliest Period to Recent Times. By CHARLES MACFARLANE and the Rev. THOMAS THOMSON. Illustrated by above Eleven Hundred Engravings—Antiquities, Manners and Customs, Views, Costumes, Portraits, Maps, Plans of Battles, &c.

"*An admirable record, not only of military and political events, but of moral and intellectual; thus comprising, in fact, a real History of England.*"—Civil Service Gazette.

"*Absence of prejudice and thorough intelligence of the characteristics of the periods pre-eminently distinguish the publication. It will rise, therefore, and deservedly, to as high a reputation for its ability as a work of intellect, as it will achieve extensive popularity for its marvellous combination of embellishment, research, and economy.*"—Court Circular.

In 3 handsome vols., super-royal 8vo, profusely illustrated, cloth extra, £3, 3*s.*

## A Comprehensive History of India,

CIVIL, MILITARY, AND SOCIAL. From the First Landing of the English to the Suppression of the Sepoy Revolt. Including an Outline of the Early History of Hindostan. By HENRY BEVERIDGE. Illustrated by above Five Hundred Engravings—Antiquities, Views, Costumes, Portraits, Maps, Plans of Battles, &c.

"*This elaborate and able work is indeed more comprehensive than its title would imply, for it gives us, with philosophical discrimination, the ancient, mediæval, and modern history of a most singular people. . . . The numerous engravings on wood and steel, remarkable for their beauty and fidelity, contribute greatly to the interest and even to the instructive power of the work.*"—Examiner.

"*I will take this opportunity of saying that I never met with a work more conscientiously done. It evidences a great deal of hard work, and a vast amount of acute observation. Altogether it is deserving of a large sale.*"—The Times of India (Bombay) Correspondent.

Complete in 12 parts, super-royal 8vo, 2*s.* 6*d.* each; or cloth extra, 31*s.* 6*d.*

## The Gardener's Assistant;

PRACTICAL AND SCIENTIFIC. A Guide to the Formation and Management of the Kitchen, Fruit, and Flower Garden, and the Cultivation of Green-house and Stove-house Plants. By ROBERT THOMPSON, late of the Royal Horticultural Society's Gardens, Chiswick. Finely Coloured Plates and many Woodcuts.

"*The best compendious treatise on modern Gardening.*"—Daily Telegraph.

"*The best standard work on Gardening that has ever yet been issued from the press.*"—Agricultural Magazine.

Complete in 14 parts, super-royal 8vo, 2*s.* each; or cloth extra, 31*s.* 6*d.*

## A History of the Vegetable Kingdom.

Embracing Comprehensive Descriptions of the Plants most interesting from their uses to Man and the Lower Animals; their application in the Arts, Manufactures, Medicine, and Domestic Economy; and from their beauty or peculiarities; together with the Physiology, Geographical Distribution, and Classification of Plants. By WILLIAM RHIND. Revised Edition, with SUPPLEMENT. Illustrated by 700 Figures on wood and steel, of which 100 are carefully coloured.

"*This work is a perfect marvel of research and industry. The mass of information condensed into one volume is really surprising.*"—Standard.

"*We assure our readers that if they desire to attain, or to excite in another, a knowledge of plants divested of dry scientific details, this volume will enable them to effect their purpose.*"—Journal of Horticulture.

No. 240.

Digitized by Google

Post 8vo, cloth, 3*s*. 6*d*.

## Questions on the New Testament.

For Bible Classes and Sunday Schools. By ALBERT BARNES. One vol. (MATTHEW to HEBREWS), cloth, 3*s*. 6*d*.; or 6 parts at 6*d*., each complete in itself. Part I., MATTHEW, MARK.—Part II., LUKE, JOHN.—Part III., ACTS.—Part IV., ROMANS—Part V., 1 CORINTHIANS.—Part VI., HEBREWS.

An admirable manual for use in the Sunday-school or the Christian household.

Small 4to, cloth antique, 10*s*. 6*d*.

## Ladies of the Reformation;

Memoirs of Distinguished Female Characters in England, Scotland, and the Netherlands, belonging to that period. By the Rev. JAMES ANDERSON. Nearly One Hundred Illustrations.

"*Here we have a book which, in interest and excitement, matches fiction, while its historical truth is a foundation on which the judgment can rest satisfied.*"—Evangelical Magazine.

"*The stories of distinguished women of the age of the Reformation are told with faithfulness and spirit by Mr. Anderson.*"—Literary Gazette.

Small 4to, cloth antique, 7*s*. 6*d*.

## Ladies of the Covenant;

Memoirs of Distinguished Scottish Female Characters, embracing the period of the Covenant and Persecution. By the Rev. JAMES ANDERSON, Author of the *Ladies of the Reformation*. Numerous Engravings.

"*A volume of entrancing entertainment, and of grave historic value, written with laborious research, and so intrinsically excellent that it must be popular.*"—Christian Times.

"*We cordially recommend the volume to our readers, and assure them that it is as instructive as it is elegant.*"—Ayrshire Express.

In 28 nos., 6*d*. each; or 2 vols. square 8vo, cloth gilt, 15*s*.

## The Sheepfold and the Common:

Or, WITHIN AND WITHOUT. Being Tales and Sketches illustrating the Power of Evangelical Religion, and the pernicious tendency of the heresies and errors of the day. Embellished by Thirty-two page Engravings.

"*It is full of vigorous thinking, expressed in language which betrays an author of no ordinary mind.*"—Eclectic Review.

Two vols. square 8vo, cloth, 14*s*.

## The Ten Years' Conflict.

Being the History of the Disruption of the Church of Scotland. By ROBERT BUCHANAN, D.D. Illustrated with Portraits on steel and Designs on wood.

"*It is a history for the Church and for future ages, and not merely for a single sect, or for the present times; it is not for a party, but for mankind.*"—Scottish Guardian.

Foolscap 8vo, cloth, 2*s*. 6*d*.

## An Exposition of the Confession of Faith

Of the Westminster Assembly of Divines; with some notice of the numerous errors and heresies against which the statements in the Confession are directed. By the Rev. ROBERT SHAW, D.D. With an Introduction by the Rev. W. M. HETHERINGTON, LL.D. Tenth edition.

In 32 parts, imperial 8vo, 1*s*. each; divisions, 4*s*. each; or 2 vols. cloth extra, 36*s*.

## A History of the Bible,

From the Beginning of the World to the Establishment of Christianity; and a Connection of Profane with Sacred History. With copious additions from recent Commentators, Critics, and Eastern Travellers; and complete Indexes. Also, an Appendix on the Illustrations of Scripture derived from the Egyptian and Assyrian Monuments, &c. By the Rev. THOMAS STACKHOUSE. Illustrated by Fifty highly finished Engravings.


Digitized by Google

To be completed in 20 parts, super-royal 8vo, at 2*s.* each; and also in 6 divisions, cloth extra, cut edges, at 8*s.* each.

# Goldsmith's Earth and Animated Nature.

Revised Edition, with a Supplement, and numerous Notes from the writings of distinguished British and Foreign Naturalists. Preceded by a Memoir of the Author, by JOHN FRANCIS WALLER, LL.D., Vice-President of the Royal Dublin Society. With numerous Engravings on steel and exquisitely coloured Plates.

For this edition the notes have been carefully revised, and whatever the progress of knowledge has proved to be incorrect or incomplete has been modified or supplied so as to bring the whole up to the standard of the present time. A short new Supplement will be added to the first volume, while the Supplement to the second volume will be wholly re-written. The Work will be illustrated by sixty-five pages engraved on steel, besides numerous Engravings on wood printed in the text, comprising in all many hundreds of figures. Of the Engravings on steel, forty, embracing above 200 figures, are beautifully coloured after nature.

---

To be completed, including Supplement, in 12 parts, at 2*s.* each, forming one volume, large 8vo.

# Scots Worthies:

Their Lives and Testimonies. Originally compiled by JOHN HOWIE of Lochgoin. Revised by JAMES HOWIE, A.M. With an Introduction by the Rev. ROBERT BUCHANAN, D.D. Also, a Supplement, containing MEMOIRS OF THE WOMEN OF THE COVENANT, by the Rev. JAMES ANDERSON. New Edition, with Coloured Plates.

This edition will be illustrated by THIRTY-TWO PAGE ENGRAVINGS, consisting of authentic portraits and designs of historical incidents. Of the historical designs SIXTEEN will be printed with tints and rich borders, and EIGHT will be beautifully produced in colours, forming the most attractive series of illustrations hitherto given with this Work. Besides these, numerous Engravings on wood are interspersed throughout the text.

---

Eleven vols. post 8vo, cloth, red edges, 3*s.* 6*d.* each.

# Notes on the New Testament,

Critical and Explanatory, and Practical. By ALBERT BARNES. Illustrated Edition. With Supplementary and Corrective Notes. Edited by the Rev. ROBERT FREW, D.D.

This Edition of *Barnes' Notes* is enhanced in value above all others by the *numerous* SUPPLEMENTARY NOTES added in the Epistles.

The Illustrations consist of VIEWS, derived from most authentic sources, of the chief places of interest mentioned in the New Testament, to the number of fifty-six; and of Maps and Plans to the number of fifteen, forming a pictorial commentary of varied and striking interest.

---

In nine volumes, post 8vo, cloth, red edges, 4*s.* each.

# Notes on the Old Testament.

By ALBERT BARNES. Comprising the Books of Job, Psalms, Isaiah, and Daniel. Edited by the Rev. ROBERT FREW, D.D. With numerous additional Notes, and many illustrative Engravings not in any other Edition.

The editorial introduction to the Book of Job—the additions to the Notes on the Book of Psalms, from the most distinguished expositors at home and abroad, selected on the principle of more fully exhibiting the scope of the Psalms, or because of some special excellence in the extract—and the annotations on the books of Isaiah and Daniel, give a peculiar value to this Edition.

The Illustrations consist of 32 page Engravings and 3 folding Maps, besides 170 subjects printed in the text; and include some unusual but striking illustrations of passages of Holy Writ not usually deemed susceptible of pictorial illustration.

---

Foolscap 8vo, bound, 7*s.* 6*d.*

# Peddie's Practical Measurer.

A Series of Tables for the use of Wood Merchants, Builders, Carpenters, Joiners, Sawyers, Plasterers, Painters, Glaziers, Masons, Bricklayers, &c. New edition, greatly enlarged.

To this edition has been added Tables for facilitating calculations of Timber in Deals and Battens; and also for estimating the price of Boards of various thickness, and for other purposes. The Work now presents the most extensive and complete set of Tables of the kind that is in the market, and contains information only to be elsewhere obtained from several books.

Digitized by Google

Complete in 14 parts, super-royal 8vo, 2*s.* each; or 1 large vol. cloth, 30*s.*

# The Comprehensive English Dictionary,

EXPLANATORY, PRONOUNCING, AND ETYMOLOGICAL. By JOHN OGILVIE, LL.D., Editor of the *Imperial Dictionary.* The Pronunciation adapted to the best modern usage, by RICHARD CULL, F.S.A. Illustrated by above 800 Engravings on wood, and a Series of Engraved Plates. Without the Series of Engraved Plates, cloth, 25*s.*

This Dictionary contains all English words in present use, numerous phrases, many foreign words used by English writers, and the more important Technical and Scientific Terms. It is based on Webster, the Imperial Dictionary, and other authorities.

"*It only remains for us to say, without any reserve, that this is unquestionably the best Dictionary of the English language, of its size and scope, that has yet appeared, and thoroughly deserves to become the standard family and school-room book throughout the kingdom, and the ever-at-hand companion of the desk and library table.*"—Nonconformist.

---

24mo, bound in roan, 2*s.*

# The Land-Measurer's Ready-Reckoner.

Being Tables for ascertaining at sight the Contents of any Field or Piece of Land. By NEIL M'CULLOCH.

---

Foolscap 8vo, cloth, 3*s.* 6*d.*

# The Farmer's Guide.

A Treatise on the Diseases of Horses and Black Cattle, with Instructions for the Management of Breeding Mares and Cows. By JAMES WEBB, Veterinary Surgeon. Twelfth Edition.

---

Two vols. crown 8vo, cloth, 13*s.*

# Our Farm Crops.

Being a popular Scientific Description of the Cultivation, Chemistry, Diseases, and Remedies, &c., of our different Crops, worked up to the high farming of the present day. By JOHN WILSON, F.R.S.E. Numerous Engravings.

"*Professor Wilson has, with infinite labour, collected all the information scattered through other publications, condensing and uniting his own practical experience and observation, so as to bring together, under the head of each individual plant, all that is known up to the present time, either practical or scientific. . . . We confidently recommend the work to the careful perusal of every farmer, and feel that the agricultural world is highly indebted to Professor Wilson for this admirable work.*"—Irish Farmer's Gazette.

---

Foolscap 8vo, cloth, 2*s.*

# Ditching and Draining.

A Manual of Tables for Computing Work done, showing length of Drains in any piece of land from 1 pole to 100 acres; number of pipes or tiles required; cubic or solid contents of digging in ditches and drains; with other useful Tables. Suited to the use of Contractors and Employers of labour.

---

Foolscap 8vo, bound, 9*s.*

# The Agriculturist's Calculator.

A Series of Forty-five Tables for Land Measuring, Draining, Manuring, Planting, Weight of Hay and Cattle by Measurement, Building, &c. &c.

It is believed that scarcely anything can occur in Farm calculations for which these Tables do not provide valuable assistance; and that the care and labour bestowed on their compilation entitle them to the confidence of the agricultural community.

"*I have looked over the tables in your* Agriculturist's Calculator, *and, without hesitation, give it as my opinion that the Work will be of the greatest advantage to all connected with land. Every Proprietor, Factor, and Farmer should have it.*"—THOMAS BALMER, Commissioner for His Grace the Duke of Richmond.

---



Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google